Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/bwb_KV-623-172

CYMRU.

CYFROL II.

Dan Olygiaeth OWEN M. EDWARDS, M.A., Rhydychen.



I godi'r hen wlad yn ei hol.

1892.

Argraffwyd, dros y Golygydd, gan D. W. Davies a'i Gwmni, Caernarfon.

RHAGYMADRODD.

HAID i mi, yn gyntaf peth, ddiolch am y derbyniad croesawgar y mae'r ail gyfrol o Gymru wedi gael. Ofnai llawer na byddai croesaw iddi, — oherwydd y byddai'r newydd-deb wedi darfod, oherwydd yr oerai sel ei hysgrifenwyr, oherwydd y cai hyd yn nod Cymro ddigon ar son am Gymru o hyd. Ofnau ofer oedd yr ofnau hyn. Yr wyf yn credu, er amherffeithied ydyw, fod yr ail gyfrol yn well na'r gyntaf, ac yr wyf yn disgwyl yn hyderus y bydd y drydedd yn llawer gwell na'r ail. Nid wyf wedi colli yr un o'm cynorthwywyr, ac y mae llawer iawn wedi cynnyg cynhorthwy gwerthfawr at y gyfrol newydd. Y mae'r maes yn ddihysbydd, oherwydd hanes bywyd a meddwl Cymru ydyw. Ni a wyddom y condemnir ni os na fydd pob cyfrol newydd yn well na'r hen,—oni ddylai profiad newydd ac ysgrifenwyr newyddion ddwyn i Gymru bethau gwell o hyd? Ychwanegu eglurder at feddylgarwch ychwanegol, dweyd am Gymru nes tynnu pob un o'i phlant i'w hadnabod a'i pharchu a'i charu,— dyna yw ein nod o hyd.

Nid oes sir yng Nghymru, na lle o bwys, heb groesawu Cymru. Dyma restr o'r deg lle ar hugain lle y gwerthir mwyaf, wedi eu trefnu yn ol y nifer a werthir, — Ffestiniog, Lerpwl, Bangor, Caernarfon, Llunden, Merthyr, Bethesda, Aberystwyth, Manchester, Caer Dydd, Porthmadog, Abertawe, Llanberis, Llandudno, Y Bala, Pont y Pridd, Dinbych, Dolgellau, Castell Nedd, Corwen, Pwllheli, Gwrecsam, Llanfyllin, Rhyl, Caergybi, Caer, Rhos, Tredegar, Rhymni, Penmachno.

Peth difir iawn i mi oedd gweled pa ddosbarthiadau o'r Cymry sy'n meddu tuedd lenyddol. Mor bell ag y medrir barnu oddiwrth gylchrediad Cymru, dyma'r dosbarthiadau mwyaf darllengar, yn ol eu trefn, — efrydwyr ein colegau, cenhedlaethol ac enwadol; chwarelwyr; masnachwyr; amaethwyr a gweision amaethwyr; glowyr. Gwerin Cymru sy'n noddi llenyddiaeth Gymreig; ond hyfryd ydyw gweled fod uchelwyr yn dechre teimlo dyddordeb yn llenyddiaeth eu gwlad, ac yn dechre cywilyddio oherwydd anwybodaeth am iaith a meddwl eu gwlad.

Anodd iawn i Sais dysgedig sylweddoli cariad y gwerinwr Cymreig at lenyddiaeth. "Cylchgrawn hanesyddol a llenyddol yng Nghymru," meddai, mewn syndod, "Pwy fedr ei ddarllen a'i fwynhau?" Medrwn, mewn ffordd o ateb, gyfleithu llythyrau iddo oddiwrth chwarelwyr, a glowyr, a gweision ffermwyr. Yr wyf yn credu nad oes wlad yn y byd a'i hawydd yn gryfach am addysg nag awydd Cymru. Ac os caf fyw, yr wyf yn disgwyl y byddaf, cyn pen llawer o flynyddoedd, wedi rhoddi ceinion meddwl ei wlad yng nghyrraedd y tlotaf yng Nghymru.

Fy ofn pennaf i ydyw methu cyflawni f'addewidion. Hyd yn hyn, y mae'n gysur i mi nad oes dim wedi ei addaw yng Nghymru na fedrir ei gyflawni. Y mae gennyf lawer cyfres ar ei chanol, ond nid oes yr un heb sicrwydd y gorffennir hi. Beirdd anadnabyddus, credoau Cymru, ein bathrofeydd a'n hysgolion, Cymry byw, hanes Cymru, hen lyfrau ysgrif Cymru, hen ysgolfeistri, pigion o'r beirdd, hen deuluoedd, — diffyg lle'n unig sy'n rhwystro i un o bob un o'r rhain ymddangos bob mis. Yn araf deg yr eir ymhell, cofier. Bydd y cyfresau hyn yn gyflawn i gyd.

Er mai "codi'r hen wlad yn ei hol" ydyw amcan Cymru, yr wyf yn gobeithio y medraf adrodd hanes pob gwlad,—yn fyr iawn,—ar ei ddalennau. Adroddir hanes Protestaniaid Ffrainc i'w ddiwedd, ac yna trown at hanes yr Is-ellmyn arwrol. Cymerir trem ar hanes y gwledydd yn eu tro,—yr Iwerddon, Ffrainc, yr Eidal, Llydaw, yr Amerig. Y mae erthyglau'n barod ar arweinwyr gwledydd ereill, ar eu cerddorion, ac ar eu hemynwyr.

Bydd llawer o nodweddion newydd yn y drydedd gyfrol. Bydd ynddi fwy o ddarluniau, a'r rheini'n fwy amrywiol. Bydd ynddi gyfresau newyddion,—hanes cylchgronau Cymru; hanes cymeriadau Cymreig dinod, ond gwerth sylw'r dyddiau hyn, rhai wedi gwneyd daioni mewn dinodedd; penodau ar lenyddiaeth Cymru,—megis ar emynnau'r Iorddonen, adar a blodau'r beirdd Cymreig, y plentyn yn llenyddiaeth Cymru. Cyhoeddir gweithiau gwerthfawr beirdd yr ail ganrif ar bymtheg,— Huw Morus, Edward Morus, Rowland Fychan, Sion Dafydd Las, ac ereill. Gofelir hefyd, fel o'r blaen am ddarlun a hanes bywyd y rhai a gollwn. Telir sylw i hanes llafur, ac yn enwedig i hanes addysg. Fel o'r blaen, ceisir ymgadw rhag ennyn rhagfarn, ceisir ymdrin â phob cwestiwn yn ysbryd addfwynder a thegwch.

Gwel y darllennydd fod ysgrifenwyr, arlunwyr, ac argraffwyr yn gwneyd eu goreu i roddi iddo gylchgrawn cynhwysfawr a chwaethus, ac am y pris isaf y medrir. A gaf fi ofyn iddo wneyd yr hyn a fedr i ehangu'r cylchrediad? Aml y caf lythyr i'r perwyl hwn,—"Gwelais rifyn o Gymru ddoe gan gyfaill, anfonwch ef i mi o'r dechreu." Trwy helpu ein gilydd y medrwn godi'r hen wlad.

Llanuwchllyn. Owen M. Edwards.

CYNLLUN CYFROL II.

[Yn lle mynegai,—yr hwn ai a phedwar tudalen o'r gofod prin,—gwneir y cynllun hwn yn llawnach nag o'r blaen].

HANES CYMRU.

Llyfr II. 450—613.
Pennod I. Rhagymadrodd .. 1
II. Y Terfynau . .. 49
III. Arthur 97
IV. Maelgwn Gwynedd .. 99
V. Traeth y Gorllewin .. 145
VI. Rhun 149
VII. Rhamant a Chân .. 194
VIII. Colli'r Gogledd .. 196
IX. Brwydr Caer .. 197
X. Dyddiau heddwch .. 241

BYWGRAFFIAETH.

Ismael Jones, Rhos Llannerch Rugog 3
Mary Davies 9
Simon Llwyd y Cyntaf 21
Idris Vychan .. 57, 123, 261
Dewi Sant 103
Huw Myfyr 129
Thomas Lewis 169
Robert Owen, Nefyn 189
Daniel Owen 217
Yr Esgob Morgan 225

LLENYDDIAETH CYMRU.

Beirdd Cymru,—Dafydd ab Gwilym 71
Dafydd ab Edmwnd 118
Dafydd Nanmor .. 168
Tudur Aled .. 227
Edmwnd Prys .. 281
Ceiriog .. 20

Beirdd Anadnabyddus Cymru,—

V. Rhys y Gader 17
VI. Anna Roberts 63
VII. Robert Owen 133
VIII. Rhys Jones, Pwll Ffein .. 151
IX. Rhobert Wiliam y Pandy .. 210
X. Robert Hughes 271
XI. Eos Gwynfa 273

Llythyrau Rhisiart Morus .. 204
Y Cyfamod Disigl 200
Penillion Telyn 23, 48, 60, 70, 83, 101, 105
Hen Farddoniaeth 152, 172, 213, 224, 253
Barddoniaeth 19, 31, 32, 37, 44, 53, 56, 72, 79, 80, 94, 102, 109, 132, 158, 165, 175, 183, 209, 219, 232, 255

Hen Lyfrau Ysgrif .. 54, 244
Llenyddiaeth Gyfnodol 29, 223

Tudalen yr Hynafiaethydd 85, 139
Manion 117, 134, 185, 199, 203, 216, 232
Llyfrau Newyddion 40, 140, 171, 251

ADDYSG CYMRU.

Hen Ysgolfeistri Cymru.
I. John Evans 25
II. Dafydd Ddu Eryri .. 153
Ein Hathrofeydd a'n Hysgolion—
III. Coleg y De 81
IV. Coleg Dewi Sant .. 177
V. Coleg Athrawol Bangor .. 248
Fy Addysg 159
Beth yw Prifysgol? 254

CERDDORIAETH.

Nant y fallen 24
Hen Gymru, Caer y Brython .. 84
Ymdaith 135
Dyma Gymru Fydd 188

CARTREFI CYMRU.

Ty Coch 11
Cefn Brith 113

LLAFUR CYMRU.

Gwyl y Chwarelwyr 257

ARDALOEDD CYMRU.

Bedd Brutus 6
Llyn Safaddan 41
Llanfair Muallt 65
Pen y Gogarth 214

TEITHWYR DRWY GYMRU.

G. J. Bennet 166

BYWYD CYMRU.

Gohebydd y "Bwch Gafr" 75, 267
Cymru'r Beirdd 106
Hen Deuluoedd Cymru 110
Nosgynhullwyr y Conglau .. 119
Yr Hen Amser Gynt 157
Began Rhisiad Parri 163
Ofergoeledd 206
Cawl 220
Yr Odyn 233

SYNIADAU'R GOLYGYDD. 38, 86, 136, 184, 187, 230

GOFYN AC ATEB. 33, 88, 138, 176, 277

GWLEDYDD EREILL.

Y Diwygiad yn Ffrainc 34, 89, 120, 235, 278
Trem ar Hanes Lloegr 61
Glendalough 73
Cathlau Heine 150
Cyfieithiadau .. 156, 183
Homer 185, 266
Dau Sais,—Spurgeon a Freeman .. 229

RHAMANTAU.

Ymdaith yn Annwn .. 42, 95, 142
Y Fun o Eithinfynydd 45, 92, 193, 191, 238, 282

CYMRU.

CYF. II. IONAWR 15FED, 1892. RHIF. 6.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

I. RHAG YMADRODD.

"Nid dweyd o ba glefyd y bu brenhinoedd a brenhinesau feirw ydyw Hanes, ond dangos achos ac effaith yn nadblygiad bywyd cenhedloedd"

Y MAE hanes Cymru wedi ei adrodd mewn un dull, lawer gwaith. A'r dull hwnnw ydyw ail adrodd Brut y Tywysogion, heb wneyd mwy na cham-liwio'r hen hanes â gwladgarwch Cymro neu â rhagfarn Sais. Wrth ddweyd y ffaith hon, yr ydys yn dweyd llawer o ffeithiau ereill ar yr un gwynt.

Yn un peth, croniclau yn unig ydyw gweithiau ein haneswyr. Ni wna ysgrifenwyr Brut y Tywysogion ond rhoddi i lawr, gyda hynny o sicrwydd a feddent, ddigwyddiadau y naill flwyddyn ar ol y llall. Y mae yno alaru ar ol llawer tywysog, ond nid oes yno ymgais i esbonio pa fodd na phaham yr oedd pethau'n "digwydd" fel yr adroddid hwynt. Y mae i hanes pob cenedl ryw undeb prydferth, oherwydd fod i fywyd pob cenedl ryw amcan. Y mae rhyw nod anelwig o flaen meddwl pob cenedl, a chyrchu at y nod hwnnw ydyw ei hanes. Nid cenedl ddall ddi-amcan, sydd gyffelyb i don y môr, a chwelir ac a deflir gan y gwynt,—nid cenedl felly fu cenedl y Cymry. Ac eto, os na ddarllennir ond croniclau blynyddoedd yn unig, fel cenedl felly yr ymddengys i'r byd.

Peth arall,—hyd yn hyn adroddir hanes tywysogion Cymru, a gelwir hwnnw'n hanes y Cymry i gyd. Mewn croniclau, fel Brut y Tywysogion, y tywysogion yn unig sy'n ymddangos. Ar flwyddyn yn unig yr edrych croniclydd; ac o edrych ar flwyddyn unig, ffaith ym mywyd rhyw dywysog ymddengys yn bwysig. Y tywysog oedd yn ymladd brwydrau, yn anrheithio tir ei gymydog, yn gwahodd beirdd i'w wledd, yn esmwyth-hau gwely angau trwy roddi i eglwysi a mynachdai dir gafodd trwy drais, tir nad oedd arno ei eisiau mwy. I groniclydd, i un edrychai ar flwyddyn yn unig, bywyd y tywysogion ydyw defnydd hanes. Y gloynod byw hyn wel ef, ni sonia am y werin, oddigerth pan fo ei chwynfan yn chwerwach nag arfer, oherwydd newyn neu haint. Bywyd diddigwyddiad ydyw bywyd gwerin, bywyd nas gall croniclydd wneyd sylw o hono, ond eto dyma'r bywyd sy'n wir destun hanes. Nid ydyw bywyd y tywysogion ond megis brig y don, dan gynhyrfiad tymestl neu dan wenau haul; bywyd y werin ydyw dyfnder tawel y môr. Dywed y croniclydd Cymreig am

farw Owen Gwynedd neu'r Arglwydd Rhys; ond ni feddylia am ddarlunio bywyd na meddwl y werin oedd yn aros, oherwydd ni welai newid yn y bywyd a'r meddwl hwnnw. Sonia'r croniclydd Seisnig am deyrnfradwriaeth Llywelyn ac am ddewiniaeth Owen Glyn Dŵr, —dyna ei ddull o esbonio cyfraith a gwladgarwch gwerin na fedrai ei deall. Ac y mae llawer o groniclwyr sychion ein hoes ni, trwy ddibynnu'n hollol ar y peth fedrant ddarllen yng nghroniclau'r Saeson neu ddeddfiyfr Lloegr, yn esbonio gwrthryfel Glyn Dŵr trwy ddesgrifio "cenedlgarwch ddall" y Cymry gorthrymedig. Ni soniant air am y deffroad meibion llafur gafodd arweinydd yn Owen Glyn Dŵr, a beirdd yn Iolo Goch a Lewis Glyn Cothi. Y mae can mwy o brydferthwch a dwyfoldeb ac athrylith ym mywyd y werin nag ym mywyd y tywysogion; ond gallasem feddwl ar lawer hanesydd Cymreig nad oes neb gwerth sylwi arno yn hanes Cymru ond y tywysog, ac nad oes dim gwerth sylwi arno ym mywyd y tywysog ond gloddesta a lladd Saeson.

Peth arall eto,—meddylir yn aml fod hanes Cymru'n gorffen gyda chwymp Llywelyn. Bu Llywelyn, tywysog olaf Cymru, farw yn 1282; ac y mae Brut y Tywysogion yn darfod yn yr un flwyddyn. Am hynny tybiodd llawer nad oes gan Gymru hanes wedi cwymp ei "llyw olaf." Nid oes mwy o wir yn y dybiaeth hon na phe meddylid fod hanes y Saeson yn dirwyn i ben yn amser Stephen, oherwydd fod y croniclau'n darfod yn yr amser terfysglyd hwnnw. Y mae cwymp Llywelyn yn ddigwyddiad pwysig yn hanes Cymru, ni wadaf; gallasai Llywelyn roi cyfeiriad arall i hanes ei genedl. Ond, er hyn, nid diwedd hanes Cymru ydyw ei gwymp ef, ond dechreu cyfnod newydd.

Un peth eto am ein haneswyr,—edrychant ar hanes Cymru fel hanes prudd, ac fel hanes dadfeiliad. A naturiol iawn ydyw hynny i'r rhai dynnant eu hadnoddau o Frut y Tywysogion yn unig. Y mae'r *tywysog* Cymreig wedi dadfeilio,—nid oes ganddo allu na phoblogrwydd yr hen dywysog gynt,—ond y mae'r *werin* yn fyw. Ac ni fu gwerin Cymru, er amled ei beiau a chynifer ei cholliadau, erioed mor ddeallus ac anibynnol a chrefyddol ag ydyw yn awr. Bu unwaith yn ufuddhau i'w thywysogion, gyda ffyddlondeb y creadur direswm, a dysgodd lawer yn y cyfnod hwnnw; bu am gyfnod wedyn yn chwilio'n ofer am arweinwyr, ac yn dibynnu am ei syniadau ar lyfrau cyfiaith, a dysgodd lawer iawn yn y cyfnod hwn; a gwelodd wawr cyfnod pan godedd rhai mewn perffaith gydymdeimlad a hi i'w dysgu a'i harwain ac i achub ei cham. Nid cenedl ddirywiedig ydyw cenedl y Cymry, nid cenedl wedi dechre yn yr ysbryd ac yn ymberffeithio yn y cnawd, ond cenedl yn graddol ymddadblygu i fywyd cryfach a thlysach a phurach.

O'r ddau, y mae'n well gennyf y rhai sy'n ail adrodd Brut y Tywysogion na'r rhai sy'n cyfieithu beth ddywed haneswyr Seisnig am Gymru, ac yn galw hynny'n hanes Cymru. Nid oes dim wna gymaint i wneyd cenedl yn ddirmygus ag iddi edrych ar ei hanes o safle ei gorchfygwyr. Dysgir plant Cymru i edrych ar Lywelyn a Glyn Dŵr fel penboethiaid, tra y dysgir hwy, yn yr un llyfrau, i edmygu'r achosion yr ymladdai'r dewrion hynny drostynt. Pan fedr haneswyr Lloegr edrych ar droion hanes Cymru fel yr edrychant ar droion hanes Groeg, bydd eu gweithiau yn werth eu darllen.

Heblaw culni ysbryd a diffyg cydymdeimlad, y mae'r haneswyr Seisnig, hyd yn nod y goreu ohonynt, yn anwybodus iawn am Gymru. Y mae llawer o ddefnyddiau hanes Cymru mewn llawysgrif, ac yn Gymraeg; ac nid oes gan neb hawl i ysgrifennu hanes Cymru os na fedr iaith ei llenyddiaeth. Y mae beirniaid Seisnig yn penderfynu amser darnau o brydyddiaeth Gymreig heb fedru digon o Gymraeg i wybod gwahaniaeth rhwng arddull y Mabinogion ac arddull Hanes y Ffydd, rhwng arddull Meilir ac arddull Tudur Aled. O'r haneswyr Seisnig y tecaf un ydyw Mr. Freeman. Ni fydd byth yn cam sillebu gair Cymraeg, nac yn cam ddyddio unrhyw ddigwyddiad yn hanes Cymru. Ac eto dywed ef nad oes dim gwerth hanesyddol yn rhamantau Arthur. Gwelais y rheswm am lawer dywediad fel hwn o'i eiddo pan ddywedodd wrthyf unwaith, —"I know many Welsh nouns and many Welsh adjectives, but I know no verb."

Y mae prydferthwch a dyddordeb hanes gwlad yn colli'n llwyr os adroddir ef o safle estron. "Y mae hanes Cymru'n anyddorol," mi glywais hanesydd Rwsia'n dweyd unwaith, "oherwydd mai o safle Sais yr edrychir arno. Adrodded Cymro hanes ei wlad mewn llawn gydymdeimlad a hi. Bydd hanes felly yn newydd ac yn ddyddorol." Gormod o ddynwared ysgrifenwyr Seisnig sydd wedi bod yng Nghymru, gormod o dybied fod ysgrifennu'r gwir am Gymru yr un peth ag ysgrifennu'r peth ddywedai'r Sais am Gymru.

Wrth ysgrifennu'r penodau hyn, yr wyf yn barod i gyffesu ar unwaith mai fel Cymro, ac fel Cymro yn siarad â Chymry, yr wyf yn meddwl ysgrifennu. Y mae gennyf fy namcaniaeth fy hun am rediad hanes Cymru;

ceir barnu, pan adroddaf fy stori, a ydyw fy namcaniaeth yn iawn. Adroddaf ffeithiau'r hanes, hyd y medraf, gyda chywirdeb perffaith. Ni wnaf haeriad heb ddangos yn eglur ar ba sail y gwnaf ef. Dyfynnaf gronicl a chywydd a deddf fel yr af ymlaen. Adroddaf, gyda chywirdeb diwyrni, yr hyn a wnaeth y Cymry'n fai, a danghosaf y peth ddengys ein hanes,—mai cyflog pechod yw marwolaeth. Llawenhaf wrth adrodd am aberth Cymry dros yr hyn sydd dda, am eu cydymdeimlad â'r gwan, am eu sel dros anrhydedd, am eu cariad at y gwir. A dengys eu hanes wirionedd geiriau eu doethion,—

"Ym mhob da y mae bywyd,
Ym mhob bywyd y mae Duw."

Yr wyf yn credu y bydd fy ymgais yn gynhorthwy i haneswyr Cymru yn y dyfodol. Cofiant y rhaid mai amherffaith yw yr ymgais gyntaf i adrodd ein hanes ar ei hyd. Ac yr wyf yn credu mai da digymysg i'r oes hon o Gymry ydyw adrodd hanes eu tadau iddynt, a chodi'r hen wlad yn ei hol.

ISMAEL JONES, RHOS LLANNERCH RUGOG.

RHOS LLANNERCH RUGOG,—clustiau pa Gymro a deimlodd mai cras oedd y sain, a thafod pa Sais a'i iawn ddywedodd? Galluoedd dadansoddol pa sawl un fu'n ymdrechu â'r gair hwn,—o'r Cymro a glywais yn ei ddehongli gyda gwên o foddhad fel "Rhos llannerch lle rhua'r gôg" hyd at y Sais synedig a glywai mai ei ystyr oedd "A meadow within a heathery region."

Yng nghanol cylch o Rosydd ereill, yr oll yn Sir Ddinbych, saif Rhos Llannerch Rugog. Pentref yw, ar fryn, ac ni ellir ei guddio mewn mwy nag un ystyr. Rhifa ei drigolion wrth y miloedd rai, ac y maent gan mwyaf yn weithwyr tan-ddaearol. Yn yr adeiladwaith a welir yno, ceir mynegai i gymeriad y bobl. Nid oes braidd ddau dy wedi eu codi yr un fath. Ty a llofft yma; ty a siamber acw,—y mae yr oll yn dwyn delw anibynaeth meddwl a chariad at y teg a'r amrywiol. Hefyd y mae y bobl hyn oll braidd yn berthynasau yn ol y cnawd, a rhaid i'r dieithrddyn a ddaw i'w plith fod yn ofalus iawn rhag tynnu ei linyn mesur dros ngewyrth John ne'n modryb Nansi. Flynyddau yn ol ni adwaenid neb yno ond wrth ei "flasenw," fel y dywedant. Eu hiaith,—a'u hunig iaith hyd yn ddiweddar,—yw y Gymraeg; a phe bae pawb mor ffyddlon iddi a phobl y Rhos, nid diystyr fuasai'r waedd,—"Oes y byd i'r iaith Gymraeg." Wele rai o'r geiriau a arferir yno,—Hene chi, afo, hws, yn scribws, yn blastar, back gwag, gyda gythoni, ngeth, wassi, bawedd iawn, twt, ar i ffust gwyllt, amus, ma 'gynai âm.

Oddiar fonciau'r Rhos ymddengys golygfeydd prydferth. I'r cefn, ymgyfyd y bryniau tragwyddol yn arwydd o sefydlogrwydd Duw,—"Ydwyf heddyw ac yn dragywydd." O'n blaen ymegyr i'n golwg ddyffrynnoedd Maelor a Llan Gollen, a'r dyfroedd, amnaid o ansefydlogrwydd, a redant trwy eu canol gan ddistaw sisial,—"Mae dyn yn mynd a dyn yn dod." Trwy ddyffryn Llan Gollen gwelwn y Ddyfrdwy yn llifo heibio Gastell Dinas Brân, cartref Gruffydd ab Madoc; heibio Fynachlog y Groes, yr hon a ddywed am Golofn Eliseg, am Frochwael ddewr, am Ethelfrith greulon; heibio Gastell y Waun, hen gartref y Mortimers, yr hwn a adawyd yn unig heb anaf o holl gestyll Dinbych; heibio'r Clawdd, heibio'r Gardden, hen safle Rufeinig, a'r Afon Goch, man llawer gornest waedlyd. A phe bae hithau, hen afon, yn dweyd ei chyfrinach wrthym, clywem am amser cyn sangu o ddyn ei glannau, pan y chwareuai morfilod mawrion yn ei dyfroedd; am y genedl gyntaf a ymddanghosodd yn y tir, am yr ysbrydoedd a breswyliai yn yr hen ysgerbydau a ddarganfyddir o hyd yn ogofeydd y Cefn; am yr amser pryd yr addolai'r hen Gymry Aerfen, duw gwarcheidiol yr afon, ac y manwl chwilient pa un ai'r tir ar yr ochr Seisnig ai ynte ar yr ochr Gymreig oedd yn gollwng dan rym y dwr.

Yn Nyffryn Maelor gorwedd Bangor is y Coed, lle'r huna llwch llawer merthyr Cymreig, Holt (Bardlegion Bede), Ellesmere, a dinas henafol Caer.

Yng nghanol y golygfeydd rhamantus a mawreddog hyn y dygir pobl y Rhos i fyny, a thyna sydd wedi nodweddu eu cymeriad ar hyd yr oesau,—parch at bethau mawr a diystyrrwch o bethau bach. Fel engraifft o hyn, yr wyf yn cofio hanesyn. Digwyddai fod Cyfarfod Pregethu yn un o'r addoldai yno, ac yr oedd dieithriaid lawer wedi tyrru ynghyd. Yn ystod y gwasanaeth cymhellai y gweinidog y trigolion i ddangos caredigrwydd tuag atynt. Ym mysg y gwrandawyr eisteddai cymeriad o'r enw Shon, yr hwn, er na feddai lawer o dda y byd hwn, a benderfynodd ufuddhau i'r deisyfiad. Ar y diwedd cyfeiriodd ei gamrau tuag at un o'r ymwelwyr a gofynnodd iddo,—"Ddowch chi gâl tamed o ginio hefo fi?" "Wel diolch i

chi" oedd yr ateb. Aethpwyd ynghyd at dy Shon, ty a siambar.

"Dyma fi wedi dwad â'r dyn diarth 'ma i ginio, mam," ebai.

"Be haru ti," ebai hithau, "wyt ti'n colli arnat dy hun? Dwad a dyn diarth yma i ginio, ac yn gwbod nad oedd 'ne run tamed yn ty!"

"Yr oedd Mr. ——— yn deyd wrthon ni am ddangos caredigrwydd i r dieithriaid" meddai yntau. A chan droi at yr ymwelydd dywedai, "Rôn i'n meddwl nad oedd ne ddim byd yn y ty, ond wedyn, 'ntê, rôn i'n meddwl base'n well i mi ddangos caredigrwydd tuag atoch chi." Y peth mawr oedd dangos caredigrwydd; rhywbeth ail-raddol oedd pa un a oedd bwyd yn y ty ai peidio.

Ond yn Ismael Jones y ceir cynrychiolydd perffaith o'r cymeriad hwn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1794, mewn ty to gwellt a elwid Plas yn Pant. Yn y flwyddyn 1812 cadd dro dan weinidogaeth yr enwog Williams o'r Wern, man oddeutu milltir o'r Rhos; ac yn 1829, ar ol bod yn Athrofa Hackney ac yn treio ei law at ddysgu plant, derbyniwyd ef i'r weinidogaeth. Bu'n weinidog ar amryw o eglwysi, ond ffraeodd yma ac acw a hwn ac arall lawer gwaith; ac yn 1847 dychwelodd i'w ardal enedigol, lle y treuliodd y gweddill o'i oes, a lle y bu farw yn 1876, yn ddwy a phedwar ugain oed.

Pregethwr oedd, ac fel pregethwr yr adnabyddid ef. Gadawodd ar ei ol ddarnodiad o beth a feddylid wrth *genius*. "Dyna yw *genius*," ebai, "rhywbeth *above rule* 'rwan; nid gwiw gosod *genius* dan y llinyn a'r *square* 'rwan;" *above rule*. Un felly oedd Ismael,—un *above rule*, *genius* oedd.

Gosodwyd ef unwaith i bregethu mewn oedfa lled anghyhoedd mewn cymanfa yn y De, ond ysgubodd bopeth o'i flaen. Mynnai y bobl ei glywed eilwaith. "Na, na," ebai'r hen law, "dydi geir y Gogledd ddim yn dodwy mwy nag un wy'n y dydd."

Byddai'n dejws iawn, chwedl pobl y Rhos, am ei oed. Dihangodd yn swydda cofrestrydd y priodasau heb ddadguddio y gyfrinach. Gofynnodd y cofrestrydd iddo beth oedd ei oed. Yr ateb gafodd ydoedd,—"Full Age." "Be ddwedsoch chi oedd eich oed Mr. Jones?" "Full Age." "Be ydi oed y Mrs. Jones that-is-to-be," gofynnai wedyn. "Full Age" oedd hithau hefyd.

Adroddir am ddwy wraig o'r Rhos a chryn dipyn yn eu pennau, fel y cyffredin o ferched y Rhos, wedi cynllunio a'u gilydd i gael allan oed Ismael trwy ddyfais. Gan ei fod yn byw ar ei ben ei hun, aeth un ato a chynhygiodd roddi tro o lanhau ar y ty iddo. Derbyniwyd hynny yn garedig iawn. Wedi gorffen glanhau, dechreuasant ymgomio. Yn yr ymddiddan gofynnodd hon iddo,—"Mr. Jones, faint sy' rwan er pan briodsoch chi?" "Hyn a hyn," ebe yntau. Hynny fu. Ym mhen ychydig wythnosau daeth y chwaer arall i gynnyg yr un gwasanaeth. Wedi gorffen y gwaith eisteddasant i siarad am y naill beth a'r llall. "Mr. Jones," ebe hithau, "beth oedd eich oed chi'n priodi?" Ond mi 'roedd yr hen law'n rhy hen i'r ddwy. "O," meddai, "rwy'n gweled fod cyngrhair rhyngoch chi'ch dwy 'rwan. Full Age."

"Mr. Jones, beth yw eich oed chwi," meddai un arall. "Beth sydd am hynny, ffrind?" atebai yntau. "Mynd i garpet bag dyn ydi holi i oed o. Do's gynnoch chi na neb arall hawl i fynd i ngharpet bag i 'rwan." I un arall a'i holai'n sarhaus beth allsai fod ei oed o dywedai,—"Mi ddyweda wrthat ti. Mi rydw i'n ddigon hen i gofio tricie dy dad pan yn caru dy fam 'rwan." Mi dawodd hwnnw wedyn.

Roedd yr un mor dawedog mewn perthynas i'w waith boreuol. Gofynnai cyfaill iddo a oedd wedi gweled olion llysiau mewn cerrig pan yn torri glo. "Yr ydych yn cymeryd gormod yn ganiataol 'rwan," dywedai yntau. "Wel, gan eich bod wedi eich magu ym mysg glowyr, roeddwn i yn tynnu y casgliad naturiol eich bod chwithau yn un o honynt." "Na, na, 'dyw'r ymresymiad ddim yn deg 'rwan. Yn ol eich *logic* chwi byddai raid ' angel Gabriel, 'dae o'n mynd i fyw i Niwbwrch Sir Fôn, neud matie, am mae gneud matie ma pawb sydd yn byw ono 'rwan."

Fel y gallesid tybio oddiwrth yr hyn a ddywedwyd eisioes, un braidd yn wangalon oedd. Pan ym mysg cwmni unwaith gofynnodd iddynt,—"Ydech chi n nabod hwn a hwn, ffrindie? Dyn mawr iawn o gorff 'rwan, rhy fawr rhyngoch chi a minne i fod yn bregethwr 'rwan. Yn *society* King a Sayers y dyle fo a'i fath fod 'rwan. Dyn cas ydio, ffrindie, heb fawr o natur dda ynddo fo 'rwan. Mi ymosododd arnai unwaith mewn lle unig. Mi gydiodd â'r law fawr honno ynna i, ac mi ngwasgodd i yn ddychrynllyd 'rwan. Mi ddylies y base fo'n fy lladd i 'rwan. 'Gadewch i mi gael y mywyd,' ebe fi, 'mi rydw'i'n pregethu heno.' Mi sobrodd dipyn wedyn a gollyngodd fi."

"Diar mi! ydych chi mor wan a 'nyna, Mr. Jones?" meddai rhywun.

"Wel, y mae y *courage* yn o wan, ond y *self-defence* yn lled gry 'rwan. Pen oeddwn i yn Llunden mi fum yn cael darllen y mhen gan *phrenologist*. Mi rodd hwnnw'n gneyd y sylw fod y *courage* 'n o wan, ond y *self-defence* 'n lled gry. Mi roeddwn i'n ei holi o yn lled glos 'rwan. 'Ydech chi'n meddwl y

gwnawn i sgoler?' meddwn i. 'Gwnaethech *Fellow of Oxford*,' ebe fo. Hene chi 'rwan. 'Does dim digon o *gourage* ynwy' i wneud *general?*' meddwn i. 'Mae 'ch *presence*,' ebe yntau, 'yn gwneud i fyny am hynny. Mae digon o bowar yn eich *presence* i *gomandio army*," ebe fo. Hene chi 'rwan. 'Chwi wnewch *orator* campus,' ebe fo. 'Howld 'rwan,' ebe fi'r pryd hwnnw, 'onid oes ataldweyd arnai.' 'Dim pwys am hynny,' ebe fo, 'ma'r *organ* ene.' Hene chi 'rwan."

Adroddir am dano pan yn lled ieuanc yn pregethu gyda'r Methodistiaid. Cynhelid yr oedfa y Sabath hwnnw mewn hen amaethdy. Y nos Sadwrn blaenorol galwodd dau *hawker* yn y ty i ofyn am lety dros drannoeth. Caniatawyd eu dymuniad ar yr amod y byddai iddynt aros yn y llofft uwchben tra yr eid trwy y gwasanaeth, gan nad oedd eu hagwedd allanol y fwyaf hapus. Felly fu. I'r llofft yr awd. Yr oedd gan un ohonynt gorn bach yn rhwym wrth ei wisg. Daeth Ismael yno'n brydlon. Ei destun y diwrnod hwnnw oedd,—"Yr udgorn a gân." Pan oedd y pregethwr yn poethi iddi, ac yn ail-adrodd y geiriau "Yr udgorn a gân," dywedai un o wŷr y llofft wrth y llall,—"Bloedd yn y corn fachgen." "Na, gad i ni gael gwrando," atebai hwnnw. O dipyn i beth daeth y pregethwr yn fwy angherddol, a phob tro yr adroddai y geiriau "Yr udgorn a gân," dywedai y temtiwr wrth wr y corn,—"Bloedd 'rwan fachgen." "Na, gad i ni gael clywed rhagor," oedd yr ateb. O'r diwedd cyrhaeddwyd y *climax*, a gwaeddai Ismael mewn hwyl fawr, —"Yr udgorn a gân, mhobol i, a fydde wa'th gyna i dae o'n canu rwan." Cyn fod y geiriau tros enau y pregethwr yr oedd y gŵr du'n y llofft, nad oedd neb yn ymwybodol o'i bresenoldeb, wedi rhoi y floedd fwyaf udgornaidd oedd yn bosibl, nes yr oedd pawb yn dianc allan ar draws eu gilydd,—y pregethwr yn gyntaf. Codai ei olygon tua'r nef, plethai ei ddwylaw yng nghyd, a chyda gwefusau crynnedig, gofynnai,—"Y Bod mawr, ydi'r byd ar ben!"

Ond gyda'i fod yn ddiniwed, 'roedd Ismael yn wir Gristion, yn wir Gymro, yn wir wladgarwr, ac yn wir Rosach. Pe'n clywed y swn sy'm mrig y morwydd yng Nghymru'r dyddiau hyn, dychmygwn ef yn dweyd,—

"Ni a fuom yn anrhaith y cenhedloedd; ein hetifeddiaeth a roddwyd i estroniaid â'n tai i ddieithriaid; ein gwarrau oedd dan erlid; llafurio yr oeddym heb orffwysdra. Gweision fu'n llywodraethu arnom heb neb i'n gwaredu; ein tywysogion a grogwyd a'n henafgwyr ni pherchid; darfu llawenydd o'n calon â'n dawns a drodd yn alar; ie syrthiodd y goron oddiar ein pen. Ond

'Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo drostynt mae y gwynt;
Clywir eto gyda'r wawr,
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyfa'r llygad dydd,
Ogylch traed y graig â'r bryn:
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddau hyn.

'Ar arferion Cymru gynt
Newid ddaeth o rôd i rôd;
Mae cenhedlaeth wedi mynd,
A chenhedlaeth wedi dod.
Wedi oes dymhestlog hir,
Alun Mabon mwy nid yw:
Ond mae'r heniaith yn y tir,
A'r alawon hen yn fyw!'

"Ie. Ie! mae'r dydd yn dod, gwnawn ninnau'r ffordd pan y blodeua'r hen wlad fel rhosyn; pan y llawenycha a llawenydd a chân; pan y cadarnheir y dwylaw llesg ac y cryfheir y gliniau gweiniaid; pan y llenwir y wlad ag addysg fel y toa'r dyfroedd y môr; pan yr ymffrostir yn yr enw Cymro; pan y cymer Cymru ei lle ym mysg cenhedloedd y byd ac y cyflawna y gwaith a rag-osodwyd iddi; pan y bydd Cymru yn rhydd fel awelon y bore—yn wlad lle y bydd y llwfr a'r rhagrithiwr, y celwyddog a gŵr y sect megis ysgymunbeth."

I hyn cyfyd adlef o galon pob Rhosach,—"Brysied y dydd."

Ond er mor wahanol i bawb yn ei fywyd, gorfu i Ismael Jones farw. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys wrth draed rhai ei anwyl athraw Williams o'r Wern. Fel hyn y cana Gwilym Hiraethog, rwy'n tybio, ar ei ol,—

"Ow! y mae yr hen bregethwr
Enwog, heddyw yn ei fedd,
Wedi tewi, wedi ei guddio,
Fel na welwn mwy ei wedd!
Ond ni a gofiwn ei sylwadau
Athronyddol, craffus iawn,
Rhai buasai Locke a Bacon
Yn rhyfeddu at eu dawn.

"Gorffwys, hen bregethwr, bellach,
Wedi gorffen gyrfa faith,
Wedi ffraeo yma ac acw,
A hwn ac arall lawer gwaith!
Rhoddaist wedyn yn y pwlpud
Iawn, i bob tramgwyddus ddyn,
Wrth ei arwain i Galfaria
I gael maddeu 'i feiau i' hun.

"Yn y fynwent gerllaw'r llannerch
Y gorwedda Williams fawr;
Dyna'r fan y dododd yntau,
Ismael Jones ei ben i lawr;
Richard Pritchard ffyddlon hefyd,
Huna'n dawel iawn gerllaw;
Adgyfodiad gogoneddus
Fydd i'r tri y bore a ddaw.

"Mae ei ysbryd, mae ei dymer,
Heddyw'n bur tu draw i'r llen;
Boddai i lyffaint yn yr afon
Yr aeth trwyddi i'r Ganan wen;
Ni raid byth i sant nac angel
Ofni nesu ato mwy,
Mae mor lariaidd a diniwed
Ag yr un o honynt hwy!"

Melus yw hun y gweithiwr; aeth orffwys i'w le ei hun.

University College, Rhydychen. T. J. Hooson.

BEDD BRUTUS.

YM mhlith goruchwylion ereill bywyd, daeth galwad arnaf yn ddiweddar i fyned i hebrwng yr hyn oedd farwol o foneddiges barchus o Aber Aeron, i fynwent Llywel, mynwent ei hen gartref yn Sir Frycheiniog. Tywydd garw a gwlyb oedd i groesi dwy sir, ac i hanner y llall. Yng ngeiriau Brutus gellid yn briodol ddweyd,—

"Gwedi peidio o'r gwynt, wele y cymylau yn dechreu defnynnu, a'r wybren yn ymdywallt hyd onid oedd y ffrydiau yn prysuro i'r cornant, a hwnnw yn brysio gan ymarllwys yn barhaus i'r afon, yr hon yn fuan a chwyddai hyd ymylau ei cheulannau. Yn fawreddog, ond yn ddigasog a chuchiog, y gwelid hi yn llwydgoch yn torri dros ei therfynau, ac yn ymddangos fel yn falch, gan nad oedd a ataliai ei rhedegfa."

Dyma yr olygfa a gawsom yn nyffrynnoedd yr Aeron, y Teifi, a Thowy, heb son am y mân ffrydiau oedd yn efelychu yr afonydd hyn. Yng nghanol y dryghin a'r anghysur, yr oeddem yn gwneyd ein goreu i ddifyrru ein hunain wrth edrych ar y golygfeydd mynyddig oedd yn ein hamgylchynnu.

Oddiar ochr mynydd Pencarreg edrychwn yn ol ar wastadedd prydferth y Teifi, ac wrth adael y dyffryn am y mynydd meddyliwn am yr hen bennill,—

"Gwych yw y dyffryn, y gwenith, a'r yd,
Mwyndir a maenol, ac aml le clyd,
Llinos ac eos, ac adar a gân,
Ni cheir yn y mynydd ond mawnen a thân."

Ar y gwastadedd hwn gwelwn y fan lle safai gynt hen balasdy Maes y felin, mor adnabyddus am y gyflafan a gyflawnwyd yno ganrifoedd yn ol ar Samuel, mab y Ficer Prichard. Pan glywodd yr hen wr am lofruddiad ei fab, torrodd allan mewn dull hanner gwallgof a phroffwydol,—

"Melldith Duw a fyddo'n dilyn
Pob rhyw ach o Faes y felin,
Am daflu 'bloden' plwyf Llanddyfri
Ar ei ben i Deifi i foddi,"

neu fel yr adroddir ef gan rai,—

"Melldith Duw fo ar Faes y felin,
Ar bob carreg, ar bob gwreiddyn."

Mae'r felldith yn aros hyd heddyw, ac nid oes yn aros o'r palasdy gwych garreg ar garreg. Tarawiadol iawn yma yw englynion Dafis Castell Hywel,—

"Glasni, du oerni daw arnoch;—galar
Ac alaeth red trwyddoch,
Ag wylo wnewch pan gweloch
Feini'i mur yn gafnau moch.

"Troir ei chain lydain aelwydau—'n erddi
A gwyrddion weirglodau:
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau."*

Ychydig nes i lawr safai Rhyd y bont, Llanybydder, lle bu Jones Llangollen a'i argraffwasg am rai blynyddau ar waith. Yma y cyhoeddodd ei Esboniad ar y Rhufeiniaid, ac yma yr ymddanghosodd y gerdd watwarus "Breuddwyd Canonau yr Eglwys," yn ateb i'r hon y cyfansoddodd Daniel Ddu amryw englynion,—

"Yn ffol na enlliba ffydd—sy felus
I filocdd trwy'r gwledydd:
Cofia'r gadarn farn a fydd,
A llunia ysbryd llonydd

"A geisi di ryw gysur—yn oer ing
Awr angeu a'i dolur,
O gollfarnu, sennu'n sur
Gredo dy gyd-greadur?"

Yn Rhyd y bont, mae'n debyg, yr oedd Jones pan y bu mewn brwydr a Brutus. Ar ymddanghosiad "Brad y Droch," ym mhoethder y frwydr canodd Brutus i gorff tal, hyll ac ysgyrnog Jones,—

"Yn Annwn, pan el hwn yno,
Y Pen-cythraul ddwed, 'Pa le y rhoir o?'"

O'n blaen ar ben mynydd Llanbedr dacw dŷ Jem, yn enwog am ei chwrw "No. 1." Yma y dywedir y byddai Jones a Brutus yn cwrdd a'u gilydd i smoco ac i yfed peint o gwrw cryf Jem, ac i chwerthin yn iachus, am ben eu canlynwyr poeth am gwympo allan ynghylch y pynciau fyddai y ddau ysgrifennydd yn drin yn eu cyhoeddiadau.

Wedi cyrraedd Pumsaint, a gweled yr hen ffordd i'r Ogofau, cofiwn am gwmpeini ienainc y dyddiau gynt fu yn cael *rehearsal* o

* Adroddir yr hanes gan fardd Seisnig,—

"Now rush'd the youth through the mansion door
And fell at the feet of Ellen:
Ere he could speak the brothers appear,
The maiden shrieks with terrific fear,
The heiress of Maes-y-velin.
* * * * *

"Oh God! 'twas a barbarous bloody deed;
'Twas piteous to hear him groaning;
A demon's heart might relent to hear
The sobs of death, and convulsions drear—
Oh Christ! is no merciful angel near,
Call'd down by this woeful moaning?
* * * * *

"Rhys Prichard wept long o'er his murder'd child
And buried the hapless Ellen;
He curs'd her brothers—the land of their birth
He curs'd their mansion, its hall and hearth,
And the curse is on Maes-y-velin.
* * * *

"Maes-y-velin became a deserted spot,
The roof of the mansion tumbled;
The lawns and the gardens o'er-ran with weeds
And reptiles, vile emblems of hellish deeds,
Bred there—and the strong walls crumbled."

"Dduw sydd Noddfa" mewn cae cyfagos cyn mynd i'r Eisteddfod yn y prydnawn i gystadlu ar anthem Mills; galwn i gof Ieuan Gwyllt yn beirniadu y gerddoriaeth, a'r englyn i'r ysgyfarnog, a'r Barnwr Johnes o Ddolaucothi yn cadeirio, tra yr oedd llu o enwogion Cymru yno. Meddyliwn am y nifer fechan o'r rhai hyn sydd yn awr yn fyw, ac fel y maent wedi eu gwasgaru ar hyd a llod y byd. Yna cofiais fy mod cyn nos i weled bedd Brutus ym mynwent Llywel, am yr hon y dywedodd ef ei hun, pan yng nghryfder ei nerth,—

"Mynwent Llywel, o holl lanerchau y marwolion a welais erioed, ydyw yr unig un o holl fangreoedd y bedd y mae fy meddwl gwedi gorffwyso ynddi, ac yn gyd-gymysg â'i phriddellau y dymunwn i'm llwch aros hyd ddatguddiad meibion Duw, pan agorir dorau eu carcharau, y rhyddheir hwynt o holl lyffetheiriau eu caethiwed, ac y gosodir hwynt mewn meddiant o'r deyrnas a barotowyd iddynt gan ein Harglwydd er dyddiau tragwyddoldeb. Machpelah gysegredig i mi mwyach fydd Mynwent Llywel; oblegid ni allaf fyned heibio i'r llannerch hon, nac edrych ar ei gwyrddlesni twmpathog, heb fod y gobeithion mwyaf hyderus yn nofio yn fy mynwes, y bydd i ragluniaethau y Duw Goruchaf drefnu amgylchiadau fy ymadawiad â'r fuchedd hon yn y fath fodd fel mai ym Mynwent Llywel y bydd ty fy hir gartref, i gyd-gymeryd yr hun fawr wrth ochr fy anwylaf fab, yr hwn sydd guddiedig yn ei phriddelloedd."

Wrth fynd allan o Lanymddyfri, da oedd gennyf glywed fod ty yr Hen Ficer, lle y bu yn caboli y Ganwyll fu yn goleuo Cymru pan oedd niwl caddugawl yn gordoi y wlad, wedi syrthio i law boneddwr gwladgarol sydd wedi dod yn ol o Awstralia, yr hwn sydd yn penderfynu helpu yr hen adeilad cysegredig rhag mynd yn adfeiliedig. Nis gwn enw y boneddwr, ond teilynga ddiolchgarwch pob gwir Gymro.

Wedi gadael tref yr Hen Ficer, daethom i gwm bychan, trwy yr hwn y rhed y Gwydderig, am yr hon y canodd Brutus,—

"Mae glennydd coediog hon
Yn hyfryd yn yr haf;
* * * *
'I hariannaidd ffrydiau hi,
Ynt beraidd iawn i'r min,
Mwy iachus ynt i mi
Na sudd y sypiau gwin;
Ei dwndwr hyfryd sy,
'N wastadol fiwsig pêr,
I godi'r gwan a'i ddwyn i'r lan,
Mewn meddwl c'uwch a'r ser."

Wedi trafaelu rhyw bedair milldir ar un o'r ffyrdd goreu a wnawd erioed yng Nghymru, daethom i bentref bychan, lle 'roedd gweithdy saer, efail gof, a thafarn a elwid yr "Halfway." Mewn tŷ bychan o ymddanghosiad tlawd yn y fan hon y gwelodd Brutus yr olygfa a ddesgrifiasid ganddo,—

"Arswydus a dychrynllyd yn wir ydyw broydd tywyllion angau, oblegid y mae y glyn ofnadwy yn llawn niweidiau, ac uchel ydyw trwst rhaiadr dyfroedd yr Iorddonen, a berw-wyn ydyw brigau y tonnau chwyddedig, dan y rhai y mae myrdd a mwy gwedi eu claddu a'u cyfrgolli yn dragywydd. Yr ydym gwedi clywed am y tymhestloedd mawrion, a ferwant eigionau dyfroedd dyfnion moroedd y greadigaeth, a ruant ac a daranant nes dychrynnu calonnau morwyr dewrion, ac a wnant i goedwigoedd llechweddi y bryniau ddawnsio allan o'r ddaear; ond nid ydyw y rhai hyn ddim at y tymhestloedd a chwythir allan o feginau brenin mawr pob dychryniadau, pan y mae yn myned i ddadymchwelyd y tabernacl dynol, i ymlid y pridd i'r ddaear, megys ag y bu, a'r ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoddes ef."

Wrth edrych yn ol ar y ffordd, ychydig yn uwch i'r lan gwelsom dŷ annedd cyntefig Brutus wedi syrthio yn bwll.

Cof gennyf pan yn llencyn direidus wedi gwneyd rhyw ddrwg yng nghwmni rhyw lanc arall, y byddai ein mamau yn bygwth anfon un o honom at y dyn a'r baich drain i'r lleuad, a'r llall i'r *Haul* at Frutus. Cymaint oedd y sôn yr amser hynny am Frutus, a chymaint ei ofn ar wreng a bonheddig, nad oedd bygythiad yn fwy effeithiol na,—"Mi anfonaf dy hanes i Frutus," neu "Mi gei di fynd i'r *Haul*." Rhyw bymtheng mlynedd ar hugain yn ol yr own yn trafaelu am y tro cyntaf o Aber Aeron i Ddowlais "yn wagen Jim," a danghosai yr hen Jim dŷ Brutus i mi ar ochr y mynydd. Braidd nad oeddwn yn arswydo wrth feddwl fy mod mor agos iddo; ond bellach nid oes yno ond adfeilion yr hen dŷ.

O'r diwedd dyma ni wedi cyrraedd Mynwent Llywel. Ar ol gwneuthur y gymwynas olaf a'r foneddiges ymadawedig, daeth y ficer parchus,—y Parch. Mr. Green,—gyda ni i ddangos hynodion y lle.

Dau enw sydd wedi anfarwoli y plwyf gwledig a mynyddig hwn,—Parry o Lywel a Brutus. Pwy mewn gwth o oedran nad ydyw wedi clywed am yr "Udgorn Arian," Parry o Lywel? Pan oedd llawer yn gofyn yn watwarus, ar ddechreu y ganrif hon, a oedd gogoniant y pwlpud Eglwysig Cymreig wedi ymadael, cododd dau bregethwr i wrthbrofi yr haeriad. Y ddau hyn oedd y Parch. J. Griffiths o Landeilo Fawr a Pharry o Lywel; dwy seren oleu hyfryd a ddaeth allan

"Pan oedd tew gymylau'r hwyr
Wedi hedeg dros ardaloedd, a dyfetha'r goleu'n llwyr."

Gwnaethant hwy fynwentydd yn eglwysi, gan fod miloedd yn cludo i'w gwrandaw ac yn gorlenwi pob adeilad. 'Nhwy a hauodd yr had, yr hwn a eginodd ac a ddaeth yn gynhauaf mawr. Mab y daran danllyd gref oedd Griffiths, Boanerges yr Eglwys Gym-

reig, yr hwn a daranai fygythion y ddeddf doredig nes gwneyd i'w wrandawyr grynu fel y dail, a methu rhoi eu meddwl ar un peth ond diwedd byd. Pregethwr tyner, addfwyn, ac angylaidd oedd Parry, melus fel y diliau mêl,—"corsen ysig nis tyr, llin yn mygu nis diffydd." Efe oedd y Jeremeia Cymreig, yn gwneyd i'w wrandawyr wylo fel plant.

Aeth y ficer a ni yn gyntaf oll i weld "pwlpud Parry," oedd wedi ei symud o'r eglwys er mwyn rhoi lle i un derw hardd, ac wedi ei roi mewn ysgoldy ynglyn a'r fynwent, lle y cynhelir y cyfarfodydd wythnosol a'r Ysgol Sul. Nid oedd dim neillduol yng ngwneuthuriad y pwlpud; cyffredin iawn oedd y gwaith, a'r coed oedd ffawydd. Ond pan feddyliwn fod Parry wedi bod am gyfnod maith yn traethu y genadwri gyda'r fath nerth yn y pwlpud hwn, teimlwn yn arswydus braidd wrth sangu ynddo. Gresyn i Parry adael Llywel am yr ychydig flynyddoedd diweddaf o'i oes, a mynd i Ddefynog, a chael ei gladdu yno, canys ym Mynwent Llywel y dylasai fod, yn gorwedd gyda "phobl fach Llywel," fel y galwai ef hwynt. Ac fel "Parry o Lywel" yr adnabyddir ef gan yr oesau dyfodol.

Wrth fynd yn groes i'r fynwent heibio i hen ywen, gwelais beth tra rhyfedd o dan gysgod y pren gwyrddlas hwnnw. Yma yr oedd ffram cyffion, wedi ei hadeiladu o ddau ddarn o dderw cryf, wedi eu plannu yn y ddaear fel pyst clwyd, a thrawst derw o un i'r llall, oddeutu chwech troedfedd o hyd, a phedwar twll hanner crwn ynddo. Er mwyn cloi y trawst uchaf wrth yr isaf yr oedd stapal haiarn gref fel ag i gadw y pechaduriaid yn rhwym am yr amser penodadwy. Methais gael allan pa fodd na pha bryd y daeth yr offeryn hwn yno; ni wyddai neb ddim, ond mai yno yr oedd er cof cyntaf.

O'r diwedd safasom wrth ben bedd Brutus, ar yr hwn y mae carreg fechan o farmor gwyn, ac yn ysgrifenedig arni,—

Er Cof
am
DAFYDD OWEN
(BRUTUS),
Golygydd yr *Haul* am 30½ o flynyddau,
Awdwr Brutusiana, &c.
Bu farw 16 o Ionawr, 1866, yn 71 mlwydd oed.

Dyma'r fan lle y gorwedd, wedi ei roddi wrth ochr ei anwyl Domas, am yr hwn yr ysgrifennai,—

"Y mae Thomas gwedi ymadael; gwedi darfod â thywydd garw a chorwyntoedd y glyn, ac yn cymeryd ei hun yn dawel ym mhriddell mynwent Llywel, hyd nes y dihuna yng ngwên yr adgyfodiad yn y dydd mawr diweddaf."

Yr oedd enw Thomas ar yr un garreg, ond gan nad oedd gennyf bapur methais a'i gofnodi. Wrth edrych ar y twmpath gwyrddlas yr oedd llu o feddyliau yn fy meddiannu. Cofiwn am "fugeiliaid Epynt" yn trin materion gwlad ac eglwys, ac am y blas gawswn wrth ddarllen eu hanes pan yn llanc. Cofiwn fel y byddai'r hen bobl yng ngweithdy'r crydd ac ar ben pentan y gof yn dilyn yr hanes ac yn disgwyl yn bryderus am ymddanghosiad y rhifyn nesaf o'r *Haul*. Cofiwn am ei ddull llym, sarhaus, a gwatwarus wrth ddesgrifio "Jackyddiaeth" yng Nghymru, ac am yr effaith a gafodd ei ffrewyll ar dwyll a hoced Jackyddiaeth hyd nes y diflannodd yn raddol o'r wlad. Cofiwn fel y cwynai y blaenoriaid hynny a ddesgrifir mor fyw yn "Hunan-gofiant Rhys Lewis" rhag ofn y clywsai Brutus am ei campau twyllodrus.

Dyma fi wrth ben bedd Brutus, y gŵr a ysgrifennodd mewn iaith feistrolgar a chyda chrebwyll bardd am bob amgylchiad a all gyfarfod y natur ddynol yn ei phererindod ar y ddaear, y rhai yr aeth ef drwyddynt ei hun. Ysgrifennodd lawer am "Daith yr Eiddli," am "Y Wlad Well," "Meddiannu y Wlad," "Ffyrdd Rhagluniaeth," "Cân y Gwaredigion," "Gwely Angeu," "Yr Ymddatodiad"; ac y mae erbyn hyn wedi sylweddoli y rhai hyn. Un o'i brif ddarnau ym Mrutusiana yw y traethawd ar "Angeu, Barn, a Thragwyddoldeb," ac yma cyfeiria at amser pan fydd y meirw yn adgyfodi fore y farn, mewn ardderchowgrwydd uwch ein hamgyffredion pennaf ni yn awr, pan y dywed,—

"Yn iach fyd llawn o orthrymderau, yn iach grwydro mewn dyrus anialwch, yn iach glyn wylofain, yn iach loesau angeu; dyma ddydd prynedigaeth y corff; wele fy Mhriod! wele fy Mrawd!"

Dychmygais weled y ddau hen gyfaill, Parry o Lywel a Brutus, er yn gymeriadau tra gwahanol, yn cydgyfarfod yn y dydd hwnnw mewn gwlad lawn o ddedwyddwch a hedd a chariad, yng nghymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, yn cyd-blygu ac addoli a mwynhau Crist, Cyfryngwr y Testament Newydd.

Ymadewais a bedd Brutus, gan deimlo fod llawer o hen ddywediadau yn cael eu hail wirio yn fy meddwl,—

"Nid yw proffwyd heb anrhydedd ond yn ei wlad ei hun."

"Os mynni glod, bydd farw."

"Wedi marw, yn llefaru eto."

THOMAS DAVIES,
Compton House, Aber Aeron.

CYMRY BYW.

II. Mary Davies.

Y MAE'N debyg nad oes neb yng Nghymru heddyw, yn wladweinydd neu bregethwr neu athraw, all swyno cynulleidfa fel y medr Mary Davies. A gadewch i'r gynulleidfa fod y peth y bo hi, cynulleidfa o wyr diwylliedig neu gynulleidfa o rai na fedrant air ar lyfr, bydd y swyn yr un. Gwelais athraw'n prysuro trwy ei ddarlith, gwelais forwyn yn prysuro i orffen godro, er mwyn clywed Mary Davies. Anodd ydyw cael cynulleidfa o Gymry i gyd-fwynhau yr un peth; y peth lanwa fynwes un â llawenydd archolla deimlad y llall, ac yn aml nid oes ffordd ganol rhwng rhagfarnau dau. Ond cesglwch ynghyd eithafwyr Cymru, o bob lliw a llun, a rhoddwch hwynt yn un gynulleidfa. Os medrwch eu cadw rhag ffraeo nes y dechreua'r gantores, gellwch fod yn dawel yr anghofiant bopeth sydd yn eu gwahanu, a gwelwch fod rhyw gydymdeimlad rhyfedd rhynggddynt, dan wraidd pob rhagfarn a gwahan-beth. A than ddylanwad ei llais, teyrnasa heddwch perffaith.

Y mae y rheswm am y dylanwad hwn yn amlwg. Apelia'r gerdd at deimladau dyfnach na'r teimladau gynhyrfir gan gredo boliticaidd neu bwnc duwinyddol. Y mae ambell i ffaith wedi ei chroniclo mewn cerdd na flinir byth wrth wrando ei hail adrodd. Y mae ambell i gerdd fedr pob un droi'n iaith ei brofiad ei hun. Edrydd y cerddi feddyliau a theimladau y mae pawb yn eu meddwl ac yn eu teimlo,—adroddant brofiad dynolryw ar ei symlaf. Y mae eisiau rhyw dipyn o addysg cyn y medrir ffurfio teimladau politicaidd neu sel sect; ond medr pawb ddeall cerdd. Wrth y gerdd, yr wyf yn meddwl y gerdd ar ei goreu,—y gerdd dyner a phur a dwys. Yn yr agwedd hon, Mary Davies yw brenhines cerdd Cymru.

Neillduolion y cerddi ydyw neillduolion eu cantores. Y maent yn syml, ac y maent yn brofiad mwyaf naturiol a mwyaf gwirioneddol a mwyaf iachusol y galon. Oes y gerdd ydyw'r oes oreu bob amser. Condemniad "oes aur" Pope a Dryden yn llenyddiaeth Lloegr ydyw eu gwaith hwy'n condemnio'r gerdd. Yr oedd natur ddynol Addison yn iachach, a'i dymer yn fwy caredig, a gwelodd ef brydferthwch y gerdd, megis trwy ddellt. Ond Coleridge a Wordsworth, y prif feddyliwr a'r prif fardd yng nghyfnod diweddaf hanes Lloegr, welodd brydferthwch y gerdd yn llawn. Os mynnwch farnu maint enaid a daioni calon unrhyw un, gofynnwch iddo ddarllen cerdd fel cerdd Wil Hopcin i'w gariad. Os dywed na wel brydferthwch na theimlad ynddi,—ond pwy ddywed hyn? Os dywed ei bod yn dlos ac yn deimladwy, ond o'r ddaear yn rhy ddaearol, bernwch fod ynddo enaid sy'n ceisio bod yn dda er gwaethaf addysg ddrwg. Os gwelwch gynulleidfa na thoddir gan gerdd,—gan *wir* gerdd,—symudwch o'r ardal honno i fyw; ac os oes ar y bobl arian i chwi, y mae'n debyg y rhaid i chwi ymadael hebddynt. Ond os gwelwch gynulleidfa'n ddistaw fel y bedd dan ddylanwad un o'n hen gerddi syml, gallwch benderfynu nad oes ddaioni nas gall y bobl hynny ei amgyffred. Nid oes oes mor ddi-

MARY DAVIES.

(O photograph gan John E. Shaw, Huddersfield).

obaith, na phobl mor ddi-obaith, a'r oes neu'r bobl na fynnont fwynhau cerdd. Nis gall chwaeth fod yn gelfyddydol, na moesau cenedl yn ddrwg iawn, os ca'r gerdd chwareu teg. Yn nesaf at ddylanwad yr efengyl, rhoddwn ddylanwad iach a thyner y gerdd, yn ei symlrwydd a'i phurdeb. Gwelais dorf aflonydd ac anghysurus ac aflafar yn ymloneddu wrth wrando ar Mary Davies yn canu cerdd. A deallais fod y gerdd yn addysgu meddyliau'r dorf o wyr a gwragedd a phlant oedd yn gwrando, ac yn puro eu meddyliau heb yn wybod iddynt. Deallais beth oedd y gantores yn feddwl pan ddywedodd, wrth un ofynnodd iddi pryd y peidiai ganu, mai llaw-forwyn i grefydd ydyw cerdd, a'i bod yn teimlo fod ganddi neges i galonnau dynion wrth ganu. Nid modd i ennill bywioliaeth yn unig ydyw ei gelfyddyd i unrhyw un fedd enaid i'w thrin yn iawn, ond gwaith ei fywyd, y gwaith y clywodd lais Duw yn ei alw ato.

Y mae'n debyg nad oes neb yn fyw wnaeth gymaint i ddyrchafu Cymru yng ngwydd estroniaid a Mary Davies. Nid canmoliaeth cenhedloedd ereill ydyw nod ein bywyd cenedlaethol, eto ni ddiystyrrodd Cymro erioed mo'r ganmoliaeth hon. Ac nid ydyw i'w diystyrru os ceir hi, fel yr enilla Mary Davies hi inni, heb ei cheisio. Fel Cymraes yr ymddengys hi ar lwyfannau'r Saeson, ac y mae wedi swyno miloedd ag alawon Cymru. Nid trwy anghofio ei Gymreigdod, ond trwy ei ddefnyddio, y daw'r Cymro'n allu yn y byd; ac y mae llwyddiant Mary Davies yn brawf o hyn. Ganwyd hi yn Llunden, ond sieryd Gymraeg ar bob achlysur,—iaith ei mham a iaith yr Ysgol Sul. O bawb yng Nghymru, merched ieuainc sydd hoffaf o ymseisnigo,—o'r braidd nad ystyriant Gymraeg clapiog yn beth bonheddig, a Chymraeg pur yn arwydd o ddiffyg addysg. Gwyn fyd nad arhosai y rhain ennyd uwchben hanes Mary Davies,—ei serch angerddol at Gymru a'i hymdrech i fyw'n Gymraes yn Llunden, serch ac ymdrech sydd wedi ei gwneyd yn anwylach, nid yn unig i'r Cymry, ond i'r Saeson hefyd.

Yn un peth y mae chwaeth Sais a chwaeth Cymro'r un,—y maent yr un mor hoff o symlrwydd y gerdd. Gellir galw Pryden yn gartref y gerdd, fel y mae Ffrainc yn gartref y *chansonette*, a'r Eidal yn gartref yr *aria*, a'r Almaen yn gartref y gariadgan. Ac fel brenhines hoff gân y Prydeiniaid yr ymddengys Mary Davies ar lwyfannau Pryden.

Yn Llunden y ganwyd Mary Davies, a chartref ei thad, Mynorydd, fu ei chartref hithau tan briododd W. Cadwaladr Davies yn 1889. Ymgartrefodd ym Mangor, lle y bu ei gŵr yn gweithio mor ddiflino ac mor lwyddiannus dros Goleg y Gogledd. Y mae hanes ei bywyd yn ddymunol oherwydd mai trwy ledneisrwydd a pherffaith naturioldeb ei mwynder yr enillodd ei llwyddiant. Enillodd ysgoloriaethau, fel ereill; bu dan arholiadau, fel ereill o feibion a merched dynion. Ond anodd ydyw cael y meddwl i ymgymodi a chyplysu ei henw â chyd-ymdrech. "Molusder, nid grym" oedd nodwedd ei llais, ebe'r beirniaid; a dyna hefyd nodwedd ei bywyd. Er pan ganodd "My mother bids me bind my hair" a'r Deryn Pur yng nghyfarfod Brinley Richards yn 1873, y mae ei dylanwad mwyn wedi aros ar genedl o edmygwyr. Y mae llawer un, ar lwyfannau ein Heisteddfodau, yn medru ennill cydymdeimlad y lliaws trwy ymddanghosiad ymffrostgar ac ymgais i effeithio ar y dorf. Ond pan ddaw genethig ofnus, gyda llais mwyn, wedi gweled enaid y dernyn a gân,—caiff hon gydymdeimlad y ben-cerddes eistedd y tu ol iddi, er fod beirniad a thorf yn cydweled mai un mwy hyf gaiff y goron.

Gwnaeth Mary Davies lawer i ddwyn cantorion i anrhydedd. Edrychid arnynt yn gilwgus gan aml hen Gristion, ac ni fedrai "canu baledi" ddwyn i feddwl llawer un ddim ond hen ŵr meddw unllygeidiog yn bloesg ganu i feddwon pen ffair. Ond y mae Mary Davies yn perthyn i grefydd, ac yn perthyn yn agos iawn. Y mae hi'n ddirwestwraig ffyddlon, ac yn rhoddi holl nerth ei phrofiad canu fel cantores yn ffafr dirwest. Tybir gan lawer un mai llais yn unig fedd cantores,—nad ydyw'n ddim ond "Eos" rhywle,—ond gwyr Mary Davies yn dda beth yw gwir farddoniaeth. Ac y mae enwi ei hoff feirdd,—Heine, Whittier, a Browning,—yn dangos hyn yn eglur. Beirdd y natur ddynol ydynt.

Ni soniaf felly ond am dri gwaith a wna,—y mae'n allu er daioni fel brenhines cerdd Cymru, y mae'n dysgu'n cydgenhedloedd i weled prydferthwch alawon Cymru, ac y mae wedi dysgu pob Cymro i edrych ar gantorion o'r iawn ryw gydag anwyldeb a pharch. Enillodd edmygedd y cyhoedd mewn oratorio ac opera,—ond yn y gerdd y mae heb gymar. Erys ei henw yn hanes llenyddiaeth Lloegr, oherwydd y mae wedi adgyfodi llawer hen gerdd ardderchog ac wedi agor llygaid y Saeson ar brydferthwch y cerddi Cymreig. Ond yng Nghymru yr anwylir hi fwyaf, oherwydd ei bod yn Gymraes bur,—yn grefyddol, yn ddirwestwraig, yn credu mewn addysg, yn hoff o farddoniaeth, yn canu, ac yn canu yn Gymraeg.



TY COCH, PENANLLIW.
(Darlun gan S. Maurice Jones, Caernarfon).

TY COCH.

ANAML y bu neb mor hoff o gartref ag Ap Vychan, ac anaml iawn y bu i neb gartref tlotach. Ymysg mawrion gwlad, soniai am gymdeithion dinod ei ieuenctyd; ac o balasau ehedai ei ddychymyg i'r ty to brwyn yn yr hwn y dioddefodd eisieu bara, ac o'r hwn y gorfod iddo gychwyn i gardota aml dro.

Saif y Ty Coch mewn lle digon anghysbell,—i'r rhai na fedrant fyw heb weled gorsaf ffordd haiarn a phapur newydd bob dydd. Ond y mae'n agos at aberoedd o ddwfr tryloew, yn ymyl hen ffordd Rufeinig, dan gysgod castell rhy hen i neb fedru adrodd ei hanes, ar fin mynydd sy'n ymestyn mewn mawredd unig o Lanuwchllyn i Draws Fynydd. Y mae'n anodd cael taith ddifyrrach na'r daith o orsaf Llanuwchllyn i Gastell Carn Dochan, os gwneir hi yn yr haf, a chan un hoff o dawelwch ac awel iach oddiar eithin a grug y mynydd.

Dyma ni'n gadael yr orsaf, gan syllu ar brydferthwch yr Aran draw. Toc trown ar y dde, a cherddwn dan goed sy'n taflu eu cysgodion dros y ffordd. Dyma'r "adwy wynt," a hen gapel y Methodistiaid wedi ei droi'n dai. Wrth y tai hyn, yn enwedig wrth y siop draw, digon tebyg y cewch rywun y gellwch dynnu sgwrs ag ef, os ydych yn hoff o ymgom. Hwyrach y tarewch ar hen ddiwinydd a'i bwys ar ei ffon. Hwyrach y cyfarfyddwch a rhywun bydol,—hen wr a gwallt fel nadroedd sonia wrthych am ddyfais newydd i wneyd cribiniau, neu am ryfeddodau gwledydd pell. Hwyrach y cewch hen hanesydd ddywed wrthych fel y byddem ni yn Llanuwchllyn yn byw yn yr hen oesoedd. Os na fydd neb yno, a bydd y lle heb neb yn yr haf weithiau, cerddwch ymlaen ar hyd y "Gwaliau," ac wedi croesi'r bont cewch eich hun yng nghwr y Llan, rhwng y fynwent a thai fu unwaith yn dy tafarn. Yn y fynwent honno, y tu hwnt i'r eglwys, gorwedd Ap Vychan hyd ganiad yr udgorn. Ac yn y ty tafarn hwnnw temtiwyd ef, pan yn laslanc tlawd, i yfed ei lasied cyntaf o gwrw. Dyma fel y dywed ef ei hun yr hanes,—

"Pan oeddwn yn hogyn cadw yn y Ty Mawr, derbyniwyd fi yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion yn Llanuwchllyn. Yr oedd swm bychan o arian i'w dalu gan yr aelodau ar eu derbyniad, ond ni feddwn i yr un geiniog. Gan hynny, yn ol cyngor John Parry'r Deildref, cyfansoddais englyn i ofyn am gael fy nerbyn yn rhad. Adroddais ef yn y cyfarfod Cymrodorol, a llwyddais i gael derbyniad heb dalu dim. Parheais yn aelod tra yr arhosais yn yr ardal honno. Enillais wobr am chwe englyn o farwnad i Ifan Dafydd, brawd gwraig y dafarn lle y cynhelid ein cyfarfodydd. Y wobr oedd ciniaw ar ddydd gwyl Dewi, a pheint o gwrw gydag ef. Dyna y tro cyntaf i mi brofi cwrw; ofnwn o hyd iddo fy meddwi. Bum am rai oriau yn ei yfed, ond gadewais dipyn o hono heb ei gyffwrdd, rhag ofn iddo feistroli f'ymenydd.'

Wedi gadael y Llan yr ydym yn dod i ffordd y Bala, ac yn cerdded yn ein blaenau ar hyd-ddi, hyd nes y down at y Bont Liw a phentref bychan Pen y Bont. Cyn croesi'r Bont yr ydym yn troi ar y chwith, ac yn cymeryd ffordd drol sydd yn ein harwain i gyfeiriad tarddle'r afon Liw. Ar un ochr i ni y mae gwrych; ac ar yr ochr arall y mae dôl lydan werdd, a'r afon yn dwndwr gyda'i godreu Yr ochr arall i'r afon y mae'r Cei, ffordd gul wedi ei chodi'n uwch na'r tir gwastad o bobtu iddi. Ar hyd y cei noethlwm hwn, dyfal gyrcha'r pererinion Anibynnol i'r Hen Gapel a welwn draw. Anodd cael rhodfa fwy dymunol na'r Cei yn yr haf, pan fo'r brithylliaid i'w gweled yn chwareu yn yr afon, a phan fo awel ysgafn gynnes yn crwydro dros laswellt a meillion aroglus. Ond yn y gauaf, pan fo dwfr oer rhewllyd o bobtu, pan chwyth awel lem finiog oddiar fynydd sydd dan ei lwydrew, y mae golwg triglyd truenus ar lawer hen Gristion ffyddlon yn tynnu yn erbyn y rhew-wynt tua'r cyfarfod gweddi.

Llawer gwaith y clywais fy nhad yn adrodd hanes gŵr tyn yn cerdded hyd y cei yn nyfnder gauaf oer. Er mwyn cynhesrwydd, yr oedd wedi gwthio ei ddwylaw i bocedi ei lodrau, ie, i'w gwaelod, oherwydd yr oedd yn erchyll o oer. Pan ar ganol y cei, llithrodd ei droed ar y rhew, a syrthiodd ar ei wyneb ar y llwybr. Yno yr oedd mewn enbydrwydd mawr. Yr oedd ei ddwylaw'n ddyfnion, fel y dywedwyd, ym mhocedau ei lodrau. Os ymegniai i dynnu y naill law allan, treiglai oddiar y llwybr i'r dwfr ar y naill du, oherwydd yr oedd y llwybr yn gul iawn. Os tynnai'r llaw arall, ai drosodd yr ochr arall, ac yr oedd dwfr yr ochr honno hefyd, yr un mor oer a rhewllyd. Nid oedd dim i'w wneyd ond aros yn llonydd hyd nes y delai rhywun heibio. Ni fedrai neb, fel y Lefiad a'r offeiriad y sonnir am danynt yn yr Ysgrythyr, fyned "o'r tu arall heibio," a daeth rhyw Samaritan o'r diwedd i fwrw ei anwyd trwy godi'r gŵr oedd yn methu tynnu ei ddwylaw o'i bocedi.

Ond haf ydyw'n awr; y mae'r defaid yn y mynydd, nid ydyw Awst wedi darfod, y mae'r glaswenwyn a blodau'r taranau hyd y cloddiau, ac y mae'r corn carw hyd lethrau'r mynydd. Dyma'r llwybr yn dod a ni at yr afon eto, a dacw'r "Hen Gapel" yr ochr draw,—hen gapel Lewis Rhys ac Abraham Tibbott, Dr. Lewis a Michael Jones. O'n blaenau y mae craig serth yn ymgodi i'r nefoedd, ac ar ei hael y mae muriau toredig Castell Carn Dochan. Dywedir fod telyn aur wedi ei chuddio dan y llawr ar ben y graig uchel acw; ond daw'n fellt a tharanau ofnadwy os dechreuwch gloddio ati. Nis gwn i sicrwydd a oes telyn aur dan lawr yr hen amddiffynfa, ond gwn fod gwallt y forwyn yn tyfu yn rhigolau'r muriau, a gellir syllu ar ei brydferthwch heb ofni mellt na tharanau na dim.

Ond dyma ni wrth y Deildref, cartref John Parry, athraw barddonol Ap Vychan, — "bardd rhagorol, llawn o athrylith a thân awenyddol, fu farw o'r darfodedigaeth yng nghanol ei ddyddiau." Ychydig yn uwch i fyny dyma'r Deildref Ucha, cartref Cadwaladr Jones Dolgellau, hen olygydd y *Dysgedydd*. Ar y chwith, rhyw ddau hyd cae o'r ffordd, y mae'r Wern Ddu, cartref yr hen Gadwaladr Williams garedig fu'n ceisio darbwyllo Ap Vychan pan yn hogyn nad ai plant llygaid gleision i'r nefoedd, ac mai Deio'r Graig oedd yn achosi'r taranau drwy fynd o ben y castell i lawr y nefoedd, a gyrru olwyn ar hyd-ddo. Ymhellach ymlaen, wedi mwynhau golygfeydd rhamantus, dyma ni wrth y Ty Mawr, lle y daeth Ap Vychan yn hogyn cadw pan yn ddeg oed, a'r lle y bu am saith mlynedd, yn mwynhau llawer o fanteision crefyddol, dan lywodraeth gref gariadlawn y wraig fwyaf deallus mewn duwinyddiaeth a welodd crioed.

Cyn hir, gyda ein bod wrth droed craig y castell, dyma ffordd yn croesi ein ffordd ni, ac yn rhedeg ar draws y cwm. Trown ar y chwith ar hyd-ddi, a dyma ni wrth Hafod y Bibell. Clywodd llawer un Ap Vychan yn dweyd mai yn Hafod y Bibell y dymunai fyw. Darluniai'r golygfeydd welid o'r hafod honno, — y mynyddoedd, gwaelod dyffryn Penanlliw a Llanuwchllyn, a Llyn Tegid hefyd, am wn i. Tybiai pobl ddieithr mai palas y gellid ei alw'n Ddymunol, yng ngwlad Beulah, oedd Hafod y Bibell. A dyma'r lle. Y mae'n dechre adfeilio erbyn hyn,—nid oes yno ond to diferllyd a ffenestri gweigion, fel tyllau llygad ysgerbwd. Y mae das o hen wair yn y gadles yn ymyl, a llwybr glaswelltog i'r caeau, llwybr nad oes erbyn hyn fawr o wahaniaeth rhyngddo a'r cae. Pe gwelai Ap Vychan ef yn awr, hawdd fuasai iddo ddweyd geiriau Dafydd ab Gwilym am y murddyn welodd mewn lle y buasai unwaith "yn glyd uwchben ei fyd mwyn,"—

> "Yn ddiau mae i'th gongl ddwy-och,
> Gwely im oedd, nid gwâl moch."

Oddiyma awn i fyny hyd y caeau gan adael gwaith aur y Castell ar y dde. Toc croeswn gae, ac y mae'r Ty Coch draw yn ei gwr uchaf. Y mae'r gwair yn hulogod ar y cae er's wythnosau, mewn blwyddyn mor wleb, ac y mae'r adlodd tyner yn tyfu trwy'r olion sydd dan ein traed. Y mae mawredd gwaith

bysedd Duw ar y creigiau sydd y tu cefn i'r Ty Coch, ond tlodaidd iawn yw'r olwg ar y ty ei hun.

Gadewch i ni ddynesu ato. Y mae'n eithaf clyd a glân, er mai bechan iawn yw ei ffenestr a phur anwastad ei lawr. Dyma ddau wr ieuanc yn dod o'r ty i'n cyfarfod, ac yn cymeryd dyddordeb mawr ynnom pan ddeallant ein bod ar bererindod i wlad Ap Vychan. Peth digon hawdd i bobl ddieithr fel y ni, a ninnau wedi darllen papurau newyddion ac yn medru siarad Saesneg, ydyw ei lordio hi dipyn, fel y dywed pobl y fro hon, yng ngŵydd pobl wledig. Gwell i chwi beidio mewn cwm fel Penanlliw; y mae'r gŵr ieuanc gwalltddu yna wedi gweled mwy ond odid, nag a welsoch chwi; ac y mae aml un trahaus wedi gwingo dan ffrewyll awen chwerw'r llall.

Dan gyfarwyddyd dau nai Ap Vychan awn o amgylch y ty. Yn y pen uchaf iddo yr oedd tad Ap Vychan yn byw, darn sydd eto dan ei do brwyn. Dyma'r drws diaddurn o'r hwn y cerddodd Ap Vychan i'r byd gyntaf, i ymdrechu'n galed am ei damaid bara i ddechreu, ac i gyfrannu bara'r bywyd i lawer enaid newynog wedyn. Dacw'r ffenestr eto'n aros drwy yr hon y gwelodd oleuni dydd Duw gynta erioed rywbryd tua diwedd y flwyddyn 1809. Dyma'r lle y bu ei dad, — dyn duwiol, duwinydd, a llenor da, — yn ymladd yn galed yn erbyn yr amseroedd enbytaf welodd y llafurwr Cymreig, efallai, yn holl hanes ei wlad. Dacw'r mynyddoedd, y naill y tu hwnt i'r llall, y mynyddoedd sy'n ymddelwi yn enaid pob Cymro. Bum yn meddwl lawer gwaith fod Ap Vychan, wrth ddarlunio ieuenctyd Cadwaladr Jones, yn darlunio,— na, nid ei ieuenctyd ei hun,—ond y peth ddymunasai'r bachgen tlawd fod. Yr oedd bywyd Cadwaladr Jones, "mab ffarm," yn fywyd yr hiraethai'r "hogyn cadw" am dano.

TAN Y CASTELL.

(Darlun gan S. Maurice Jones).

"Yr wyf yn cofio mai ty newydd tlawd iawn oedd ein ty newydd ni."

"Gallwn yn hawdd ddychymygu iddo dreulio llawer dydd teg, yn hafau dyddiau ei faboed, ar lan y nant sydd yn myned heibio i'r Deildref Uchaf, a'r afon Lliw, sydd yn golchi un ochr i ddôl a berthyn i'r tyddyn, yn chwareu, ac yn ceisio dal y pysgod gwylltion a heigient ynddynt. A gallwn farnu, yr un mor naturiol, ei fod yn ddiwyd yn ymlithro ar hyd eu rhewogydd yn y gauafau, ac yn cael ei geryddu gan ei fam pan ddigwyddai gael codwm, a tharaw ei wegil yn y blymen, neu, pan wlychai ei draed, oblegid torri o'r rhew o dan ei bwysau, a dyfod i'r ty, ati hi, i gwyno oblegid y damweiniau. Gallwn feddwl mai dyddiau pwysig yn ei olwg ef, fel ereill, oedd dyddiau dasu y mawn, golchi y defaid a'u cneifio, dyddiau cael y gwair a'r yd, ffair Llan yr haf, a dydd cyfarfod blynyddol yr Hen Gapel. Gallwn feddwl y chwareuodd lawer tua "Chwrt y Person," wrth ddychwelyd yn y prydnawniau, gydag ereill, o ysgol ddyddiol Rhos y Fedwen; a'i fod yn aml yn ofni ac yn petruso wrth geisio myned dros y sarn, pan fyddai y llif ychydig dros y cerrig, ac wedi cyflawni y gamp honno, yn neidio ac yn llemain o lawenydd am lwyddiant ei wrhydri, yn hynny o beth. Digon tebyg ei fod ef, fel ei gyffelyb o ran oed, yn brysur tua Chalanmai yn chwilio am nythod adar, ac ym Medi, yn chwilio am y cnau yn y byrgyll. A hawdd i ni gredu ei fod ar lawer min nos yn dyfal wrandaw ar isalaw ddofn Rhaiadr Mwy, ac yn dyfod yn ei ol i'r ty yn llawer mwy sobr nag yr aethai allan. Bu lawer noswaith, mae yn debyg, yn cael y fraint o aros ar yr aelwyd, yn lle myned i'w wely, pan fyddai cymydogion yn dyfod i gyfarfod nosawl i wau hosanau, i dy ei rieni. Bu yn gwrando eu chwedleuon am amgylchiadau yr ardal, y rhyfel â Ffrainc, helwriaeth, ymddanghosiad ysbrydion, dewiniaeth, llofruddiaethau, ymladdfeydd rhwng personau unigol, yng nghyd ag ychydig o helyntion crefyddol yr Hen Gapel."

Y mae'r Ty Coch ar fin y mynydd,—"y ty agosaf i'r mynydd." Rhwng y dwfr glân a'r mynydd dir iach sydd yn ymyl, y mae'n lle wrth fodd Cymro athrylithgar fo'n magu plant. Ond, yr oedd yr adeg honno'n

gwasgu'n drwm ar fwthynwyr, yn enwedig rhai'n deulu o ddeuddeg. Dyma'r hanes fel yr adroddir ef gan Ap Vychan ei hun,—

"Yn fuan wedi terfyniad rhyfel Ffrainc, acth ein bwthyn bychan ni, yr hwn oedd wrth dalcen y Ty Coch, yn rhy gyfyng i'r teulu cynyddol a gyfaneddent ynddo, a chafodd fy nhad ganiatad gan oruchwyliwr Syr Watcyn i ail adeiladu hen dy adfeiledig yn yr ardal o'r enw Tan y Castell. Costiodd hynny i'm rhieni dipyn o arian, a chollasant y pryd hwnnw bedair punt ar ddeg a roddasant yn fenthyg; a chyda hynny oll dechreuodd y byd caled ac enbyd a ddilynodd ryfeloedd mawrion dechreuol y ganrif brosennol, wasga'n drwm ar bob graddau, a darostyngwyd ninnau, fel llaweroedd, i afaelion tlodi a chyfyngderau dirfawr. Yr wyf yn cofio mai ty newydd tlawd iawn oedd ein ty newydd ni. Yr oeddym erbyn hyn yn deulu lluosog; a swllt yn y dydd, ar ei fwyd ei hun, oedd cyflog fy nhad yn yr hanner gauafol o'r flwyddyn, ac yr oedd hanner pecaid o flawd ceirch yn costio i ni ddeg swllt a chwe cheiniog. Felly, prin y gallem gael bara, heb son am enllyn, gan y drudaniaeth. Buom am un pythefnos heb un tamaid o fara, caws, ymenyn, cig na chloron. Digwyddodd i ni gael ychydig o faip, a berwai ein mam y rhai hynny mewn dwfr, ac a'u rhoddai i ni i'w bwyta gyda'r dwfr y berwasid hwynt ynddo, ac nid oedd ganddi ddim oedd well iddi ei hun, er fod un bychan yn sugno ei bron ar y pryd. Yr wyf yn cofio ei bod yn wylo am ei bod yn gorfod rhoddi i ni ymborth mor wael."

Nid un ymffrostiai yn ei dlodi oedd Ap Vychan. Y mae ymffrost ambell un yn ei dlodi mor anerbyniol ag ymffrost un pen ysgafn yn ei gyfoeth. Ond adroddiad di addurn, diymffrost o dlodi, adroddiad dyn ddagrau o lygaid y caletaf, ydyw yr hanes rydd Ap Vychan wrth ddarlunio tlodi ei gartref ef. Dywed haneswyr am ogoniant a bri buddugoliaeth y blynyddoedd hynny; yr oedd mawrion yn ymwisgo, fe feddylient, ag anrhydedd tragwyddol. Ond yn nhlodi'r bwthyn wrth dalcen y Ty Coch yr oedd dyn gonest yn gorfod edrych ar ei wraig a'i blant heb angenrheidiau bywyd, oherwydd uchelgais pechadurus y milwr a'r uchelwr.

Ni ddaeth tlodi ei hun, daeth clefyd trwm i Dan y Castell. Daeth mam y penteulu yno, a bu farw dan y clefyd. Daeth chwaer Dr. Ellis Evans i'w gwylio y nos tra'n gweithio yn ei lle y dydd. Gorfod troi at y plwy am gymorth. Dyma ddernyn o hanes yr amser hwnnw,—

"Yr oedd gan fy rhieni y pryd hwnnw wely pluf da; ond gan ein bod ar y pryd yn cael cymorth plwyfol, daeth *overseer* y plwyf, a'i fab gydag ef, i'n ty ni, a thynasant y gwely odditan fy nhad, yr hwn oedd i olwg ddynol ar y pryd bron a marw, a'i synhwyrau'n dyrysu'n fawr, gan rym tanllyd y clefyd, a gwerthasant y gwely i ddyn o'r ardal oedd ar gychwyn i'r America, a gosodwyd fy nhad i orwedd ar wellt."

Cyn hir daeth iechyd, a dechreuodd y plant ennill tipyn. Ond gadewch i ni groesi, dan gysgod creig y castell, drwy goed mafon duon a heibio cerrig enfawr sydd wedi treiglo o'r graig fry, at Dan y Castell. Yr oedd Ap Vychan a'i frodyr a'i chwiorydd yn adnabod pob un o'r cerrig hyn fel eu cymydogion. Un ffordd i ennill ambell geiniog oedd hel cen oddiar gerrig. Defnyddid y cen i lifo dillad, ac nid oes bosibl cael lliw prydferthach. Crwydrodd Ap Vychan lawer, yn hogyn byrdew, gyda brawd hyn nag ef, i hel cen cerrig ac i gardota. Clywais hen frawd yn dweyd yn ddiweddar ei fod wedi cyfarfod y ddau lawer gwaith. Byddai gan Ap Vychan got laes,—hen got oedd wedi disgyn iddo oddiwrth rywun hyn,—a dwy boced fawr y tu mewn iddi. Yn y naill boced byddai cen cerrig a chardod flawd, ac yn y llall byddai Beibl mawr. Crwydrodd y ddau frawd unwaith cyn belled ag Aber Ystwyth. Cardodasant yn Sir Aberteifi, a chawsant lawer o yd. Ond cymerodd rhywun calongaled digydwybod fantais ar y ddau hogyn deg ac wyth oed, a mynnodd eu blawd i gyd am y grot oedd raid iddynt dalu am groesi'r afon Dyfi. Ond yn y cwch dywedodd rhywun tirion,—"Yr wyf fi'n talu dros y plant bach." "Ni ellais byth," ebe Ap Vychan lawer blwyddyn wedyn, "ar fy nheithiau pregethwrol, fyned heibio'r tai a'm lletyasent, heb deimlo diolchgarwch i Dduw, ac i ddynion hefyd, am y tiriondeb a dderbyniais yn nyddiau plentynrwydd a thlodi."

Er hyn oll,—cafodd Ap Vychan ieuenctyd hapus. Wedi'r clefyd, bu'r tad a'r fam yn ddedwydd lawer awr. A phwy na fu wrth fagu plant? Dyma ddarluniad o Dan y Castell,—

"Yn nechreu haf y flwyddyn 1818 yr oedd gŵr a gwraig, a thyaid o blant nwyfus a chwareus, yn byw dan gysgod craig fawr ac ysgythrog, ac mewn ty bychan, a'i do o redyn y mynydd-dir oedd gerllaw iddo, ac nid oedd haul yn tywynnu arno am rai wythnosau yn nyfnder y gauaf. Yr oedd yn cael ei gysgodi'n dda rhag gwyntoedd o'r gorllewin ac o'r deheu; ond yr oedd awelon oerion y gogledd a'r dwyrain yn ymosod arno yn ddidrugaredd. Mynnai y mŵg hefyd ymgartrefu yn y ty a'r to rhedyn, gyda'r teulu, ac nid ai allan o'i fodd, os na fyddai'r gwynt yn chwythu o ryw bwynt a ryngai ei fodd ef. Yr oedd megis un o'r teulu.

"Ond yr oedd amryw o bethau manteisiol a dymunol yn y fangre wladaidd honno wedi'r cwbl. Yr oedd y teulu, wedi iddynt gael un baugfa galed o waeledd, yn cael iechyd pur dda ar y cyfan. Yr oedd ffynnon o ddwfr iachus yn tarddu o ganol y mynydd mawr, yn union wrth dalcen y ty. Ceid digon o danwydd o fawnog oedd yn y mynydd uwchlaw'r ty, yr hyn a barai fod yr aelwyd, ar nosweithiau hirion y dyddiau byrion, yn hynod o gysurus. Eisteddai'r tad yn un gornel, a'r fam ar ei gyfer yn y gornel arall, a'r plant yn hanner cylch o flaen y tân, a phob un oedd yn ddigon o faint yn gwau hosan mor gyflym ag y

gallai, fel y gallai'r fam fynd a hanner dwsin o barau i'r farchnad ar y Sadwrn, a'u cyfnewid yno am angenrheidiau teuluaidd."

Gadewch i ni adael Tan y Castell, a throi ein gwynebau tua'r Ty Cerrig, a "phulpud y Crynwyr." Sylwch ar y graig fygythiol ddaneddog, a'i chastell yn goron doredig ar ei phen. Yng ngwythienau'r graig acw y mae aur. Pan oedd Ap Vychan yn cardota ei fara ymhell yn Sir Aberteifi, yr oedd gronynau aur yn nhalcen ei dy.

O'n blaenau dacw Foel Llyfnant a'r Arennig, a dyna isalaw dwfn Rhaiadr Mwy. Dacw'r mynyddoedd y bu Ap Vychan yn crwydro hyd-ddynt i hel cen cerrig, dacw dai hen breswylwyr Penanlliw,—pobl dal gyhyrog, pobl ddi-wenwyn a heddychlon, pobl caeau, ac mi adroddaf i chwi beth glywais gan hen bobl am dano. Bu am dymor pan y meddylid nad oedd llawer iawn o ol grâs ar ei fuchedd. Pan oedd yn egwyddorwas yn y Lôn draw, yr oedd wedi ei brentisio i ŵr crefyddol,—Simon Jones y Lôn. Yr oedd gan Simon Jones fab,—"Twm Seimon" y gelwid ef, ac y gelwir ef eto, ar lafar gwlad, —ac y mae'n debyg na welodd Llanuwchllyn erioed un mor athrylithgar. Yr oedd ei athrylith yn rhy wyllt i ddeddfau caeth y seiat. Ac efe oedd cydymaith Ap Vychan yn ystod ei brentisiaeth. Clywais gywydd wedi i'r ddau ei wneyd gyda'u gilydd yn 1826, cywydd sydd wedi rhoddi anfarwoldeb yn nhraddodiadau plwyf i ryw hen gychwr o'r enw Sionyn Rhobet Wiliam. Iaith athrylith

Y TY CERRIG A PHULPUD Y CRYNWYR.

wedi eu trwytho a duwinyddiaeth gadarn ac iach. Llawer hanes rhyfedd adroddir am grefyddwyr y fro hon. Ond dyma ni wrth Dy Cerrig. Yn y cyntedd o flaen y ty dywed traddodiad fod y Crynwyr wedi ymgyfarfod laweroedd o weithiau. Byddai rhyw gyfaill crwydrol yn sefyll ar y garreg agosaf i'r ty, ac yn traethu. Eisteddai'r cyfeillion mwyaf blaenllaw ar y garreg arall, a safai y dorf. Ni wyddis fawr o fanylion hanes y Crynwyr, ond y mae'n sicr eu bod wedi gadael rhyw dynerwch enaid, a rhyw hoffder greddfol o'r efengyl yn y fro hon.

Ffurfiwyd meddwl Ap Vychan dan ddylanwadau iach. Gadewch i ni droi i fyny tua Chraig y Tân, lle y bu'n hogyn cadw'r heb ei thyneru gan grefydd ydyw iaith y cywydd chwerw hwn, sy'n darlunio dyn oedd

"Yr un aeliau, a'r un olwg,
A'r un drem, a'r gŵr drwg."

Un tro dechreuodd y ddau wawdio Ifan Ffowc, hen bregethwr Methodist ffyddlon deithiodd lawer ar gefn ei hen geffyl du,—

"Yr hen frawd fry
A'i powndia hi'n ol i'r Pandy."

Cedwid Ysgol Sul yng Nghaer Gai; a holai Thomas Ffowc y plant. Un tro gofynnodd i hogyn bychan sydd erbyn hyn yn wr cyfrifol yn yr America,—

"Oes gen ti adnod, fy mhlentyn i?"
"Oes."
"Wel, tyrd a hi."

"Bydded hysbys a gwir yw,
Lle crafa'r iar, y piga'r cyw."

"Da iawn, fy machgen i, pwy ddysgodd yr adnod ene i ti?"

"Twm Seimon a Robin y Go."

"Roeddwn i'n meddwl. Paid di a chymryd dy ddysgu gennyn nhw eto."

Un tro cafodd Mari Jones y Lôn, un o'r gwragedd duwiolaf welodd ei hardal, gan Robin addaw dod i'r capel y Sul wedyn. Addawodd yntau ar yr amod ei bod hi'n rhoddi caniatâd iddo yn y bore. Nos Sadwrn cymerodd Twm siswrn a thorrodd un ochr yn unig o wallt hir Robin, ac eilliodd hefyd un gern iddo. Bore Sul ymddanghosodd Robin ger bron Mari Jones, gyda gwallt hir ar un ochr i'w ben, a'r gwallt wedi ei dorri yn y gnec ar yr ochr arall. Ni welwyd Robin ymysg y duwiolion y bore Sul hwnnw.

Dro arall yr oedd Twm a Robin yn cychwyn i'r Bala i arddanghosfa anifeiliaid gwylltion. Nid oedd gan Simon Jones arian parod i'w roddi iddynt yn eu pocedau, ond rhoddodd bapur i'w roi i hen wraig y King's Head, a ffigiwr dau arno. Deallodd y ddau mai deuswllt oedd hynny'n feddwl, a rhoisant ffigiwr un o flaen y ffigiwr dau.

Gwahanwyd y ddau gyfaill mynwesol ac athrylithgar hyn yn eu marwolaeth. Y mae Ap Vychan yn huno ym mynwent Llanuwchllyn, yn ymyl Simon Jones a Mari Jones. Ac y mae Thomas Jones, mab y rhain, yn huno yr ochr arall i'r Werydd, yn Utica. Ond y mae ei enw yntau hefyd ar feddfaen ei deulu,—bu farw yn 1847, yn chwech a deugain oed.

Na feddylier oddiwrth hyn fod Ap Vychan wedi byw'n fachgen gwyllt. Ni chollodd ei dad ei ddylanwad ar ei gymeriad. Ychydig cyn ei farw, yr oedd yn adrodd breuddwyd wrth Ifan T. Davies. "Yr oeddwn i'n breuddwydio neithiwr, Ifan," meddai, "'mod i'n gweld fy nhad, a dene'r tro cynta i mi i weld o er pan fu o farw. Yr oeddwn i ag ynte'n cerdded ar hyd ffordd deg wastadlefn. Yr oeddwn i'n blentyn, ac yn cydio yn i law o. Hefo'r ffordd yr oedd aber o ddŵr grisialaidd yn dwndwr. Dros y gwrych yr oedd dyrysni, o ddrain a rhedyn a mieri, fel y Wenallt, ac yng nghanol y dyrysni 'roedd dyn. A dyma fo'n gwaeddi ar fy nhad,—'Ddyn anwyl, fedrwch chi ddangos y ffordd i'r bywyd tragwyddol i mi?' 'Medra,' medde nhad, ac yn dangos i fys at y ffordd deg, 'dyma hi, mae Rhobet a minne wedi bod yn i cherdded hi ers blynyddoedd.'"

Y ffordd a'r aber wrth ei hochr oedd y ffordd y buom yn ei cherdded at y Ty Coch. A dacw'r Wenallt. Ymlaen y mae golygfeydd mynyddig rydd orffwys i'r meddwl lluddedig, os crwydrir yn eu mysg. Byddaf fi'n hoff iawn o dreulio dyddiau yn y cymoedd hyn, a byddaf yn meddwl yn aml, wrth bensynnu ar lannau'r aberoedd, am y bachgen fu'n ennill ei damaid prin wrth wylio'r defaid a diosg eu gwisg oddiam gerrig y mynyddoedd.

Y mae f'ysgrif wedi mynd yn hir, yn rhy hir i un nad oedd ei adnabyddiaeth o Ap Vychan ond arwynebol iawn. Yn unig, amcenais at dy arwain, ddarllennydd, i'w gartref, cartref mewn bro y gwn am dani ac am ei thrigolion yn dda. Y mae prydferthwch bywyd gwerin ym mywyd Ap Vychan; yr wyf yn gadael yr hanes hwnnw i law fwy cywrain un a'i hadnabyddai'n well na mi. Nid wyf, fy hun, yn ystyried ei ddarlithiau diwinyddol yn waith goreu ei fywyd; ei brydyddiaeth a'i bregethau, yn fy marn i, fydd byw mewn llenyddiaeth Gymreig. Pan fydd y celfau haiarn wnaeth Ap Vychan wedi rhydu'n ddim, erys ei farwnad i'w chwaer yn un farwnadau goreu ein hiaith.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

VI. RHYS Y GADER.*

"Bachgen wyf o bridd a lludw,
Yfodd lawer iawn o gwrw;
Peth rhyfedd iawn, wrth yfed llawer,
Nad elai'r pridd a'r cwrw'n forter."

YN amser y Rhyfel Mawr yr oedd Rhys y Gader yn offeiriad Aber Gwen Gregin. Nis gwn pa bryd y ganwyd ef, na pha bryd y bu farw; ond y mae'r flwyddyn 1644 wrth ei gyfieithiad o ddernyn o Horas. Dywed Sion Dafydd Lâs ei fod yn athraw iddo ef; felly gellir tybio ei fod yn hyn na Sion, ac yn blodeuo yn amser Iago'r Cyntaf a Siarl y Cyntaf a'r Weriniaeth efallai.

Dywedir mai brodor o Ddolgellau ydoedd; ac y mae hyn yn esboniad ar y gyfeillach â Sion Dafydd Lâs. Yr oedd Sion a'r Parch. Rhys yn hoff iawn o yfed; ac wrth "yfed" yn y cysylltiad hwn, meddylir yfed cwrw. Pan yfasai Rhys ormod unwaith, anfonodd Sion englynion iddo,—

"At y prydydd sydd yn ymsuddo—mewn bir,
A'i ben wedi briwio;
Syr Rhys afiachus yw fo,
A'i dalcen wedi ei dolcio.

"Meddwodd a syrthiodd yn sarn,—wych impyn,
A chwympodd yn wasarn,
Wrth ddyfod, oer bennod barn,
Wr du ofer, o'r dafarn.

"Llamodd y cerrig llymion,—naws di-fudd,
Nes dyfod gofalon;
A'i wyneb, gresyneb son,
A'i lewyrch yn elion.

"Y fron a'r galon i gyd—a rynodd,
A'r awenydd hefyd;
Aiff Syr Rhys boenus o'r byd,
Cawn ei ran cyn hir ennyd."

Nid mewn gwawd na chwerwder y cenid yr englynion hyn. Nid oedd gan Sion Dafydd Lâs le i daflu carreg at yr offeiriad, yr oedd yntau wedi colli ei delyn yng Nghors y Gedol, ac wedi darlunio ei ben boreu drannoeth fel "pen a swn fel pennau saith." Ac mewn tymer addfwyn y derbyniwyd yr englynion; mewn tymer addfwyn yr atebodd Syr Rhys,—

"Cefais eich llithiau cyfan,—ffraeth
Heb na ffrost na gogan,
Na geiriau gwg, na gair gwan,
Ond fy hanes fy hunan.

"Pan ddêl y pen a'r ymenydd—i'w lle,
Yn llawen ar gynnydd,
Gweithia'n llwyr, a synwyr sydd
O gu awen, i'wch gân newydd."

Dro arall ymddengys fod Syr Rhys wedi bod ar ei derm gyda brawd o offeiriad o'r enw Syr Tomas. Canodd Sion Dafydd Lâs gywydd i adrodd eu helynt,—

"Y gwyr llen rhagor y lleill
A fyn gwrw fwy nag ereill,
Dau wr ydyn direid-wedd,
Yfwyr mawr o fir a medd.
Dau offeiriad, cariad cu,
Dicdwyr hen, dwedir hynny,
Dau a feddwant, llwyddiant llon,
Dau a yfant ddwy afon.
Syr Tomas, goleuwas glân,
O phery sec,* ni phraw sucan;
A Syr Rhys, fregus ei fron,
Yfwr mawr o fro Meirion.
Swyddwyr yn brysur i'n bro,
Seiri rhag diod suro;
Yfed y bir yn wir a wnant,
A'r bwydydd nid arbedant;
Cymdogion ffyddlon ffydd,
Gwiwlan, agos i'w gilydd;
Offeiriadau hoff rydid †
Llanfer ac Aber i gyd;
Dau un waith, taith gytûn,
Am eu gilydd i 'mgalyn,
Ac yn Llan, gan wellhau,
Galw'r dafarnwraig olau,—
'Llanw, bun weddedd luniedd lân,
Dy gwrw, di gei arian.'
Dyfod o wraig y dafarn,
A'i chwrw a'i bir, ni cheir barn,
Rhwydd yw'r glod, a rhoddi'r glas
Twymyn i Edward Tomas.
Yfed fflagened gynnes,
Bura llwydd i beri lles;
Rhoi un arall, rhan wrol,
I Syr Rhys yn nesa ar ol.
Yfed a wnaen o'r glana,
Nes darfod y ddiod dda;
A gofyn, ar derfyn dydd,
Nawgwaith am ddiod newydd.
Myned i'r il a barilo
Nes yfed y cwbl, drwbl dro;
Mynod allan, diddan daith,
A barilo Aber eilwaith,
Ysgorio, heb rwysg arian,
Yn ddi les yn y ddwy lan.
A'r gwragedd, heb gyrredd grôd,‡
Yn gwaeddi gyda'r gwaddod,
Rhai ar ol yn eu holi,—
'Telwch a moeswch i mi.'
A chwyn drwg a chwyno draw
Os bai alar ysbeiliaw,—
'Yfasoch yn ddi fesur,
Y baril gwadd heb rôl gwŷr.'

* Ceir ychydig o hanes y bardd hwn yng *Ngolud yr Oes*, II. 305. Codir y darnau sydd yn yr eithygl hon o lawysgrif yn perthyn i ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Os medd rhywun ychwaneg o wybodaeth am dano, neu ychwaneg o'i waith, anfoned ef i Gymru.

* Sec. *Sack*, math o win, gwell na sucan, yr hwn sydd fath o lymru teneu.

† *Rhydid* Llannerch neu fro. "Rhydid" neu "libart" mynydd ydyw'r rhan y gellir anfon defaid iddo. Cynhenir y gair mewn gwahanol ffyrdd,—rhydd-did, rhyddid, rhydid.

‡ *Grôd* Er nad oedd y tafarn wragedd wedi cael grôt am eu cwrw, nid oedd ond y gwaddod yn y barilau.

Y ddau a ddeudai yn ddig
Y talen y Nadolig.
Cymeryd taith camrau teg,
A chwyno am ychwaneg;
Y Lafant hen a yfant hwy
A theithio hyd Borthaethwy,
Myned o'r ddeuwr mwynion
I ymyl dwr Moel y Don,
Yfed, a'u syched a sai
Er afonydd ar Fenai;
Yfen, gwn, afon Gonwy,
Yfen o fir afon fwy.
Yfai Syr Rhys, weddus waith,
Alwen, a Hafren eilwaith;
Yfai Syr Tomas ufudd
Gonwy a Dyfrdwy mewn dydd.
Os yfwch mor drwch, mawr drais,
Hanner y dwfr a henwais,
Yfwch a chymrwch i chwi
Mor hwylus y môr heli."

Ond nid yn addfwyn y derbyniwyd y cywydd hwn gan y ddau yfwr. Yn garedig y meddyliai Sion Dafydd Lâs ef. Ni feddyliodd y digient am iddo ganmol eu gallu i yfed yn ehelaeth. Ond yr oedd offeiriaid y dyddiau hynny'n dechreu ofni condemniad y Piwritan. Wrth alaru am ei gyfaill, foddwyd ar ororau Cymru, yr oedd Milton wedi darlunio bywyd y rhai fedrai ddifa'r praidd, ond na fedrai borthi. Yr oedd offeiriaid, hyd yn nod yng Nghymru, yn ofni'r bygythiad tywyll sydd ar ddiwedd Lycidas, galargan Milton,—bygythiad roddwyd mewn grym gan y Senedd Hir. Yr oedd y Chwyldroad Piwritanaidd wedi deffro'r Eglwys gysglyd, ac nid edrychid mwy yn ddi-gerydd ar ddau berson ar eu term.

A deallodd Sion Dafydd Lâs fod ei ddau gyfaill wedi digio wrtho. I geisio eu cymodi anfonodd gywydd arall,—

"Y gwŷr sydd a gras iddynt,
Mawlgar gof, mal y gwyr gynt,
Dau o wyr da diweirdeb,
Eu moli wnaf ymlaen neb.
Dau o wyr llen, dewr wellhad,
A sorrais, o waith siarad.
Sorri Syr Tomas wrawl,
Lle cefais ddysg hoywddysg hawl;
Yn ynfyd ac yn anfwyn
Sorrais o fâr Syr Rhys fwyn;
Sorrais, ni pheidiais, yn ffol,
Fy athrawiaeth faith reol;
A heddiw mae briw i'm bron
Digio fy nghymydogion.
Cenais, gwaeddais gywydd,
Ba fâr yw na bae fo rydd?
Edifarais, mowr-drais maith,
Ei ganu, fwy nag unwaith;
Digiais hardd eglur fardd glân
Yn ddi achos, a'i dduchan;
Mynaswn eu mwyn osod,
Neu ado 'ngherdd yn y nghod;
Pwy rydd ddysg, puraidd wiriaeth,
Pwy ond Syr Rhys, pen saer iaith?
Pwy wyr yn rhwydd gyfrwyddyd
Sians y gerdd? Syr Rhys i gŷd.
Paen difir, pwy un dafawd,
Pen ar y gerdd, piniwr gwawd?
Bardd odiaeth uwch beirdd ydych,
A thrwy gerdd, athrawog ych.
Rhoddais o'r ais lawer och
Ddi-gysur pan ddigiasoch;
Sorri athro, saer wythran,
A phryd glwys offeiriad glân!
Y bardd a'i fraint beraidd fri,
Di gellwair yw dy golli,
Deuwell oedd deall addysg
Dy gân, wr, na digio 'nysg.
Cywydd fy awenydd wan
A'ch digiodd, awch du ogan;
Cywydd a chân freulan fri,
A mydr, eill eich cymodi.
Bu ormod y bai arnaf,
Yn wir ei gyffesu wnaf;
Nid o gas un, Duw a'i gŵyr,
Y soniais mor ddi synwyr;
Ond o awydd, myñ Dewi.
Cywydd o'ch awenydd chwi.
Prydyddwch a cheuwch annerch,
Iredd sain, o arwydd serch,—
Cywydd, Syr Rhys, felus fant,
I roi cudd ar y coddiant.
Ac onide, gwn nad oes
O amynedd im einioes,
Na chywydd, yn iach awen,
Na charol buddiol i ben."

A beidiodd digofaint Syr Rhys nis gwn. Ond dywedir iddo beidio meddwi. Syrthiodd i bechod arall, pechod nad oedd fardd yn yr oes honno na's condemniai. Dadurddwyd ef, a gwnaeth yntau gerdd ar y Galon Drom i gwyno. Cafodd le fel clochydd yn Llanllechid, a daeth newid dros ei fywyd. Fel llawer un ag y mae'r ddiod yn demtasiwn iddo, yr oedd yn wr o athrylith ac yn meddu llais da. Un tro, yn ystod ei glochyddiaeth, yr oedd yn darllen mewn gwylnos ym Mhlas Ofa. Ymhlith y rhai ymgynulledig yr oedd un o wŷr enwocaf yr oes,—John Williams, esgob Lincoln ac wedi hynny archesgob Caer Efrog. Yr oedd John Williams yn wr cymedrol a hirben, a phe buasai rhywun yn medru cymodi rhwng y ddwyblaid ddig ryfelgar, efe fuasai'n gwneyd. Gyda'r brenin y taflodd ei goelbren yn y diwedd, a gwnaeth lawer dros Siarl yng Ngogledd Cymru. Tynnwyd sylw'r Esgob gan ddarllen y clochydd, a holodd pwy oedd. Cafodd fod Rhys y Gader wedi meddwi'n gyson, ac wedi torri'r seithfed gorchymyn unwaith. Cafodd hefyd fod newid wedi dod dros ei feddwl a'i fuchedd, ac yr oedd John Williams yn cydymdeimlo llawer a Phiwritaniaeth. Ac yn fuan iawn yr oedd Rhys y Gader yn gweinyddu swydd offeiriad drachefn,—yn Llanllechid yr wyf yn meddwl. Yr oedd yn well gan Gymry'r oes honno offeiriad meddw nag offeiriad llym. Pregethai Syr Rhys gyda sel a llymder un argyhoeddwyd o bechod, a hawdd credu iddo gael ei erlid gan ei bobl ei hun. Dywedir fod rhyw ychydig o bobl Llanllechid

yn grefyddol fel yntau, ond fod yn rhaid iddynt ymgyfarfod yn y mynyddoedd i gyd-addoli. Claddwyd Rhys y Gader, yn hen wr, yn Llanllechid.

Bychan ac aneglur, fel y gwelir, yw'm gwybodaeth i am dano. Nid wyf yng nghyrraedd dim deifl oleuni ar ei hanes. Hwyrach fod rhywun yn Llanllechid fedr gywiro hyn o ysgrif, neu ychwanegu ati.

Ond gwn, yn sicr, fod Rhys y Gader yn fardd da. Oes caneuon serch ac oes Duwinyddiaeth oedd ei oes ef. Bu yntau ymhlith y cantorion serch, eithr ciliodd oddiwrthynt. Nid ydyw ei ganeuon serch mor ddifrif-dyner a rhai Sion Dafydd Lâs, nid ydyw ei feistrolaeth ar felodi iaith mor berffaith a meistrolaeth Huw Morus o Bont y Meibion, nid ydyw ei athrylith mor gryf ag athrylith Edward Morus o'r Perthi Llwydion, eto y mae'n deilwng o le ymysg ei gyfoedion hyn. Y mae ymron bawb o feirdd yr ail ganrif ar bymtheg wedi canu cerdd i Giwpid. Dyma un Rhys y Gader,—

"Pan dorred amddiffynfa 'mron
A dwyn fy nghalon ymaeth
Yn forwyn gaeth i farw o gur,
A'i dal drwy bur hudoliaeth,—
Nid ango wnaeth im dyngu'n wir
Ufudd dod i'r gwasanaeth.

"Oherwydd nwyf hi roddai naid
I ganlyn f'enaid gwiwles,
A'i holl wasanaeth yn un swm,
Gwasanaeth offrwm cynnes,
Er cael o hon, ollyngdod sal,
Wasnaethu cystal meistres.

"Ei phorth a'i maeth oedd ffrwyth ei min,
Sef genau gwin digonol;
Neu arogl anadl Gwen lliw'r wy,
Na manna mwy dymunol,
A fu gynt yn Arabia wlad
Yn bybur aed i bobol.

"Yr wynna a'r hawddgara ei gwedd
Is pabell annedd Phoebus,
A pheraidd lef ei genau a gân
Mor fwyn ag organ Gadmus,
Neu'r delyn fyddai, myn fy nghred,
Yn pyncio ar arffed Orpheus.

"Yn hir ryfeddu harddwch hon,
Bum ger ei bron dros amser,
Mewn gwisg hardd lwys o bur-serch maith
Dan angor gobaith gwiwber;
I'w chario doe dwy chwiorydd deg,
Sef esgyll hedeg hoewder.

"Pan oedd diddanwch mwyn i'm rhan,
Daeth Ciwpid ansefydlog
Yn ei gerbyd yno i'm nol,
A'i olwynion bywiol, bywiog,
Ac a'm taflodd i le trwch
O fewn anialwch niwliog.

"Synnu yno heb weld dim,
Gan gaddug im goguddio,
Yn ail i'r tew dywyllwch prudd
Fu gynt yng ngwledydd Pharo;
Mi wn nad all na nerth na grym
Mo'r nadel im ochneidio.

"Dwyn fy mhoen fel dyn amhwyll
Mewn carchar tywyll tawel,
A diodde im bron ddihenydd brau,
Nod ergyd angau dirgel,—
Mi gl wn ryw adlais oddi fry
Tuag atai'n nesu'n isel.

"Gan ddwedyd wrthyf,—'Cyfod, paid
A dilin afraid alar,
Nid oes ond clips yn cuddio'r lloer
O gwmwl oer di-gymar;
Cei eto lewyrch, grym, a gwres
Ail Phoebus, dduwies ddaear.'

"Yn ol hynny mi ddeffrois,
O'm llewyg dois yn llawen
Im hiawn bwyll, a'm hawen bêr
I olau'r dyner donnen.
Nad eled mwy mo'i gwndal maith
O'm golwg ymaith. Amen."

CYMRU ANWYL.

Cymru anwyl, gwlad y delyn,
Unig wlad fy nghalon;
Cymru enwog ein Llywelyn,—
Gwlad y menyg gwynion,
Pan y collaist dy dywysog
Cefaist ddyrnod chwerw,
Cwyd dy ben, fy ngwlad ardderchog,
Gormes sydd yn marw.

Cymru anwyl, swn cwynfannus
Sy'n dy hen alawon,
Trais a gormes gwaradwyddus
Sugnodd waed dy galon;
Ond, fy ngwlad, y mae dy feibion
Heddyw'n ymfyddino,
Y mae nerthol fraich a chalon
Gwron gan y Cymro.

Y Bala.

Cymru anwyl, ni cha gormes
Mwyach dy ddirmygu,
Megaist feibion ar dy fynwes
Fyn dy anrhydeddu;
Rhengoedd glewion rhyddid Cymru
Loewant eu cleddyfau,
Nis gall gormes mwy anadlu
Awyr dy fynyddau.

Cymru anwyl, y mae caethion
Oesoedd yn dihuno,
Cenir eto fyw alawon
Rhyddid gan y Cymro,
Nes y byddo eco'r creigiau
Yn cyffroi ysbrydion,
Cymru fu i chwyfio'i dreigiau
I wawdio y gelynion.

GWAENFAB.

RHAI O GANEUON CEIRIOG.

Yr wyf yn ddyledus i garedigrwydd Mr. John Davies, Broughton, am y caneuon hyn o waith Ceiriog. Yr oedd Mr. Davies yn adnabod y gŵr ieuanc o Lanarmon ddaethai, fel llawer llanc o'r wlad, i weithio i Fanceinion. "Bachgen addawol oedd, caredig dros ben, a llawn o natur dda." Rhoddodd ei athrylith at wasanaeth Mr. Davies trwy gyfansoddi geiriau Cymraeg iddo ar donau estronol. Gwelir fod dwy o'r caneuon ar yr un dôn. Dywedwyd wrth Geiriog fod y gân gyntaf o'r ddwy hynny yn rhy ysgafn i'w chanu mewn capel, ac yn ebrwydd fe gyfansoddodd yr ail Ni raid dweyd fod y caneuon hyn yn meddu purdeb a thlysni gwlith y mynyddoedd, y mynyddoedd yr hiraethai Ceiriog gymaint am danynt.

Cyhoeddwyd rhai o'r caneuon yn llyfr Mr. Davies,—"Cronfa o Adgofion,"—lle y ceir hefyd ychydig o fanylion hyawdl am ddyddiau ieuenctyd Ceiriog. "Parheais i a Cheiriog yn gyfeillion hyd nes yr aeth efe i gymdeithasu ag amryw feirdd. O dipyn i beth diflannodd y gyfeillach, a buom yn ddiethr byth mwyach i'n gilydd. Nid wyf yn gwybod am un bardd Cymreig sydd wedi cyfansoddi hymnau a chanau i blant. *Patch-work* ydyw bron bopeth sydd wedi ei gyhoeddi. I lenwi'r angen yna y mae'n ymddangos fod y bardd heb ei eni. Ond gallasai Ceiriog lenwi'r bwlch; a dichon y buasai gennym liaws o'r cyfryw ganiadau pe y cymerasai, neu yn fwy cywir, pe arweinasid ef ar hyd cwrs gwahanol i'r hwn a gymerodd. Ond, er hynny, y mae'r Cymry'n ddyledus iddo am rai o'r caniadau crefyddol goreu yn yr iaith." Gwyn fyd na cheid casgliad cyflawn o weithiau'r bardd hwn,—cynnwys chwe chyfrol ddestlus Gwrecsam, cyfrol Lerpwl, a'r lloffion sy'n dilyn.

CODIAD Y WAWR.

CAN A CHYDGAN,—"*Come unto these yellow sands,*"
"Tempest" H. Purcell.

I.

Draw ar ben y Wyddfa fawr
Cyn toriad gwawr,
Ser wrth nofio'r fawrnos ddu
Ymsuddant yn yr eigion fry!
Gwawr! gwawr! fel enfys fawr,
Gwawr gwyd o draw,
A'r haul mawreddus ddaw.

II.

Gyr y dydd ei waew-ffyn
O'r Dwyrain gwyn;
Lliw'r bidogau'n gochion wnaed,
Fel pe bai'r nos yn gollwng gwaed.
Gwawr! gwawr! fel enfys fawr,
Gwawr gwyd o draw,
A'r haul mawreddus ddaw.

III.

Plygain gloch yr hedydd sydd
Yn galw dydd;
Dreigiau'r nos ant ar wahan,
A diffodd mae y pryfyn tân.
Gwawr! gwawr! fel enfys fawr,
Gwawr gwyd o draw,
A'r haul mawreddus ddaw.

IV.

Gwyn yw pen y mynydd mawr,
Daeth Haul y wawr!
Dydd a goleu deifl o'i rawd
I lys y teyrn a bwth y tlawd.
Haul! haul! a'i danllyd ael,
Haul gwyd o hyd
O amgylch ogylch byd!

YR YSGOL SUL.

TON,—*Seren Ddydd.* Llyfr Ieuan Gwyllt, 221.

I.

Mae Beibl Duw fel môr, yn llawn,
A phob doethineb, dysg, a dawn
Yn byw yn ei ddyfnderoedd;
Ei waelod ar sylfeini'r byd,
A'r tonnau ar ei wyneb pryd
Yn murmur yn y nefoedd.
Ar y tonnau,
Hwyr a borau,
Moriwn, nofiwn tua'r gwynfyd,
Tua thiroedd yr addewid.

II.

A mebyd, cyntaf oes, yw'r awr
I ddechreu ar y fordaith fawr
Ar fôr yr Ysgrythyrau;
Mae ffydd yn edrych ar y llyw,
Oblegid mae deheufraich Duw
Yn tywys *heibio'r* creigiau.
Ar y tonnau,
Hwyr a borau,
Moriwn, nofiwn tua'r gwynfyd,
Tua thiroedd yr addewid.

III.

Draw, draw ymhell, mae'r tonnau hyn
Yn golchi godrau Seion fryn,
A glannau'r Ganan nefol;
Rhosynog wlad y Wynfa wen,
Lle cwyd pob blodyn bach ei ben
Mewn gwanwyn—haf tragwyddol.
Ar y tonnau,
Hwyr a borau,
Moriwn, nofiwn tua'r gwynfyd,
Tua thiroedd yr addewid.

Y BEIBL.

Ar fadrigal Festa,—"Down in a flowery vale."

Wrth droed yr Aran fawr cyfarfum a bachgennyn,
Ieuanc ydoedd ef, a'i wallt yn euraidd felyn;
Araf yr ai ymlaen, rhyw lyfr ddarllennai,
Gwelais mai newydd oedd y gyfrol feddai.
Fel hyn gofynnais iddo,—
"Pa lyfr sydd yn dy ddwylo?"
"Y Beibl yw hwn," medd yntau;
"Gad weled," meddwn innau,
"Erioed ni bu fy llaw i arno;"
Ei ateb oedd,—"Trwy Charles gall pawb ei brynnu;"
Cyn hir fe ddwed pob aelwyd—Nid mor dlawd yw Cymru.

DROS Y WYDDFA.

Bum dros y Wyddfa fawr yn edrych am Myfanwy,
Cariad oedd y march garlamai odditanwy,
Nid oedd y Wyddfa ddim ond naid i gariad;
Gwelais Myfanwy deg, ond ni wnai siarad.
"*How's this*, Myfanwy," meddwn,
"*Come hither and* eisteddwn,
Ni raid it dreio'm calon
Mewn chwaneg o dreialon."
"*Don't be so very* cwta,"
Atebodd hithau'n swta,
"Dos adref at dy fam nes bydd i'th ben glaiaru,
Dos dros y Wyddfa'n ol a cheisia edifaru,
Os nad wyt ti yn Gymro glân, paid byth a dod i garu."

RHYFELGAN DDIRWEST.

Ar y *German Glee*,—"Alltudia, forwynig, holl ofnau yfory."

Datod mae rhwymau caethiwed ein teyrnas,
Cwympa carcharau'r gyfeddach bob un,
Lluchio'r gefynnau mae dwylaw cymdeithas,
Bacchus o'r diwedd a rwymir ei hun.
Cwpan trueni chwilfriwir yn ganddryll,
Myrddiwn y ddiod ail-enir i'r byd;
Rhedwn i'r ymdrech, mae concwest yn sefyll,
Safwn, ymladdwn, gorchfygwn ynghyd.

SIMON LLWYD Y CYNTAF.

MAE'R atebiad i gwestiwn yn rhifyn Tachwedd am Simon Llwyd* wedi chwyddo yn ysgrif fechan dan fy nwylaw. Y Simon Llwyd y cyfeirir llythyr Evan Moses ato oedd tad y Parch. Simon Llwyd, awdwr yr *Amseryddiaeth*. A chredaf mai nid anyddorol fydd ychydig o'i hanes ef a'i deulu. Ceir hyn yng nghofiant y diweddar Barch. J. Foulkes Jones, B.A., Machynlleth, yr hwn oedd or-wyr i Simon Llwyd, y tad. Mae'r hanes yn bur fanwl, ac yn ddyddorol iawn. Yr wyf finnau mewn mantais i chwanegu rhyw gymaint ato. Gwneir cyfeiriad yn yr hanes at Drefeca, a'r sefydliad yr oedd Howel Harris wedi ei gychwyn yno. Fel hyn y ceir ef yn y Cofiant,—

"Ymddengys fod y rhan fwyaf yn dychwelyd i'w cartrefleoedd ar ol mwynhau breintiau crefyddol y lle am dymor, heb breswylio yn y sefydliad o gwbl. Yr oedd creill yn myned yno gyda'r bwriad i ymgartrefu yn y sefydliad, ac ymgysegru yn hollol i fywyd crefyddol.

"Ym mhlith y rhai a gyrchasant yno o'r Gogledd yr ydoedd gwr ieuanc o'r Bala o'r enw Mr. Llwyd. Yr oedd ef yn perthyn i'r dosbarth cyntaf a nodwyd, gan na fwriadai drigiannu yn y sefydliad. Y pryd hyn yr oedd dwy ferch ieuanc o gymydogaeth Llanidloes, o'r enw Bowen, wedi eu derbyn i'r sefydliad fel aelodau arosol y Teulu, fel y'i gelwid, ac felly yn perthyn i'r dosbarth olaf a ennwyd. Y diwrnod y cyrhaeddodd Mr. Llwyd Drefeca. cyfeiriodd ei gamrau at y sefydliad, ac wedi curo wrth y drws, agorwyd iddo gan Sarah Bowen, un o'r merched ieuainc hyn. Syrthiodd mewn cariad a hi ar yr olwg gyntaf, a phenderfynodd, os oedd modd, ei chael yn eiddo iddo ei hun. Cyn hir yr oedd yn amlwg ei bod hithau yn edrych gyda llygad llawn mor ffafriol arno yntau. Ond nid oedd cwrs gwir gariad i gael rhedeg yn llyfn yn yr amgylchiad hwn, mwy nag mewn llawer amgylchiad arall. Yr oedd anhawsderau ar y ffordd. Yn un peth, yr oedd yn bur naturiol i Howel Harris, yn ei sel angerddol dros lwyddiant ysbrydol ei ddisgyblion, deimlo mai y peth goreu ar les Miss Bowen, yng ngwyneb prinder manteision crefyddol y dyddiau hynny, ydoedd iddi aros yn y sefydliad. Peth arall, un o reolau y sefydliad ydoedd, fod y sawl o'r aelodau arosol a feddent gyfoeth i'w gyflwyno drosodd am byth, ar eu derbyniad i mewn, at wasanaeth y Teulu, modd y gellid sicrhau cynhaliaeth i'r aelodau tlodion. Yr oedd Sarah Bowen yn feddiannol ar gynysgaeth, ac, yn ol y rheol, yr ydoedd wedi ei fwrw i'r drysorfa gyffredinol; a diameu fod y

* Gwel CYMRU, Cyf. I. 192.

westiwn wedi cyfodi, gan ei bod hi ar dorri ei hysylltiad â'r sefydliad i wynebu ar fywyd mwy marferol, a ydoedd i wneyd aberth o'r cwbl, a'i dael ar ol? Rhwng y naill beth a r llall yr oedd lwybr y bobl ieuainc ymhell o fod yn glir, a ieallwn fod yr hen batriarch John Evans o'r Bala vedi bod yn Nhrefeca yn cyfryngu ar eu rhan. Modd bynnag, ymddengys i'r mater, yn y diwedd, gael ei ddwyn i benderfyniad boddhaol ac anrhydddus o bob ochr, ac mewn canlyniad unwyd Mr. Llwyd a Miss Bowen mewn priodas. Y mae y veithred briodasol yn awr ger ein bron wedi ei lawnodi gan Howel Harris fel un o'r ymddiriedolvyr, a thybiwn y gellir casglu oddiwrth y weithred ion, er na ddywedir hynny yn bendant, fod cyfran ielaeth o gynysgaeth y ferch ieuanc wedi cael ei ddychwelyd ar ei phriodas; ac ymhellach, y mae refniant y weithred a'r eiddo Mr Llwyd, canys yr edd efe yn berchen cryn eiddo, yn dangos gofal eilluol am ddyfodol ei wraig. Y mae y weithed wedi ei dyddio Awst 16eg, 1755, ac yn fuan vedyn yr ydym yn cael y pâr ieuainc wedi ymefydlu yn y Bala. Yn awr, gan fod gwrthddrych ein Cofiant yn or-wyr iddynt hwy, ni a edrychwn yn fanylach pwy oeddynt.

"Nid oedd y gwr ieuanc yn neb amgen na Simon Llwyd, Ysw., o deulu hynafol a pharchus Plas yn dref, Bala, a thad y gweinidog a'r awdwr o'r un enw. Yr ydoedd y teulu hwn yn rhoddi cefnogaeth wresog i'r Diwygwyr Methodistaidd yn yr amseroedd cythryblus hynny, pan yr oedd mawrion y tir, fel rheol, yn dirmygu ac yn erlid y sect newydd, fel y gelwid y Methodistiaid. Merch y Tyddyn, ger Llanidloes, ydoedd Sarah Bowen, ac yr oedd hithau yn perthyn i deulu cyfrifol, a theulu fu yn hynod wasanaethgar i achos crefydd yn yr un adeg. Tybir fod rhai o deulu'r Tyddyn wedi cael eu dwyn at grefydd o dan weinidogaeth Howel Harris cyn y flwyddyn 1740, a daeth y Tyddyn tua'r pryd hyn yn gartref a chanolbwynt i Fethodistiaeth y wlad oddiamgylch. Dywed awdwr *Drych yr Amseroedd* mai yma y cynhaliwyd y cyfarfod neilduol cyntaf yn Sir Drefaldwyn, ac yr ydym yn cael fod Cyfarfod Misol wedi ei gynnal yno yn y flwyddyn 1742, a bod, y pryd hwnnw, chwech o gymdeithasau eglwysig yn y gymydogaeth, y rhai oedd dan arolygiaeth Thomas Bowen, tad Sarah, fel gofalwr. Y mae y Tyddyn yn cael ei grybwyll yn barchus gan y gweinidogion enwog John a Charles Wesley fel llety fforddolion Sion ar eu teithiau, ac yn nyddlyfr John Wesley am 1760 y mae y nodiad a ganlyn,—'Awst 9fed, am 6 yn y prydnawn mi a bregethais yn y Tyddyn; y boreu nesaf yn Llanidloes, a'r hwyr yn Abbey Cwm Hir.' Yr ydoedd mam Sarah Bowen yn un o'r dychwelediglon cyntaf yn Sir Drefaldwyn, ac yn nodedig am ei chrefydd. Treuliodd ddiwedd ei hoes gyda'i merch yn y Bala, a dywedir y byddai yn myned i gapel y Bala pan dros bedwar ugain oed, wrth ei dwyffon, gan gymeryd tamaid yn ei llogell modd y gallai aros yno rhwng yr oedfaon. Y cyfryw ydoedd rhieni Sarah Bowen, ac yr ydoedd hithau o gyffelyb ysbryd. Danghosir yr un sel a ffyddlondeb yn y Bala ag oeddynt hwy wedi ei ddangos yn y Tyddyn, a phrofodd yn gymorth gwerthfawr i'r achos yno yn ei iselder a'i wendid.

Tua diwedd y flwyddyn 1755, fel y crybwyllwyd, y dechreuodd Simon Llwyd a Sarah ei wraig eu gyrfa briodasol yn y Bala, ond ym mhen naw mlynedd ysgarodd angeu rhyngddynt; bu ef farw yn 1764, yn 33 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym meddrod y teulu ym mynwent Llanecil. Gadawodd Mrs. Lloyd yn weddw gyda chwech o blant bychain, ond cafodd nerth i fod yn ffyddlawn i'r ymddiriedaeth bwysig hon, a dygodd hwynt oll i fyny yn grefyddol."

Anfonodd Simon Llwyd lythyr o'r Bala i Howel Harris, dyddiedig Mehefin 26ain, 1755. Yr oedd newydd ddychwelyd o Drefeca i'r Bala ryw ddeufis cyn ei briodas a Sarah Bowen. Wele'r llythyr,—

"Syr,—Yr wyf yn awr mewn cyfleustra i anfon i chwi ychydig linellau i'ch hysbysu pa fodd y bu arnom ar ein taith, a'n bod trwy gymorth Duw wedi cyrraedd y Bala yn iach a diogel. Cyrhaeddasom yma ychydig wedi tri o'r gloch ddydd Mercher. Gyda golwg arnaf fy hun mi a gefais lawer ymladdfa a'm calon fy hun ac a'r diafol. Yr oedd y diafol yn gwthio llawer o bethau i'm meddwl i geisio dylanwadu arnaf i adael Trefeca. Yr oedd a'i holl egni yn ceisio duo eich cymeriad chwi ac Evan Moses yn fy ngolwg. Ond mi a obeithiaf y bydd i'r Arglwydd ein dwyn i gyd trwy bob gelynion, yn dymhorol ac yn ysbrydol. Y diwrnod cyntaf y daethom oddiyna mi a gefais gryn dreial oddiwrth ymddygiad Evan Moses at hen wr gwledig, rhwng Llanfair Mualllt a Rhaiadr. Dechreuodd Evan Moses lefaru wrtho, gan ddangos iddo nad oedd yn gwybod ond ychydig am ei iachawdwriaeth. Yr oedd un ai y gelyn neu fy nghalon ddrwg i fy hun yn dangos i mi nad oedd Evan ddim yn iawn wrth gondemnio y dyn heb fod ganddo wybodaeth berffaith am dano. Pa un bynnag a oedd yr Ysbryd yn dangos hyn i Evan ai peidio, bu hyn yn achos i mi wylo cryn dipyn. Bu hyn yn achos o gryn dipyn o gynnwrf yn ein mysg.

Ond, i adael hyn, ni a ddychwelwn ac a ymofynnwn ychydig am ein helyntion ein hunain. Darfu i mi ymgynghori a chytuno i ddisgyn yn nhy Humphrey Jones,* lle y cawsom wair i'r anifeiliaid. Oddiyno ni a ddaethom i Blas yn dref; a thybiasom yn briodol i anfon at foneddigesau ieuainc y Fach Ddeiliog, ym meddiant y rai yr oedd ewyllys fy mam. Rhoddasom y peth o flaen y cyfreithiwr. Yr wyf fi wedi fy ngwneyd yn gymunweinyddwr, a hwythau yn ymddiriedolwyr. Nis gallwn wneyd nemawr ddim cyn i'r ewyllys gael ei hanfon i'w phrofi i Lanelwy. Mae fy amser mor fyr fel nas gallaf ysgrifennu dim yn chwaneg yn bresennol. Felly terfynaf, Eich gostyngedig was,

Simon Llwyd."

Fel y cyfeiriwyd, y mae y weithred briodas rhwng Simon Llwyd a Sarah Bowen wedi ei dyddio Awst 16, 1755; a phriodwyd hwy drannoeth yn eglwys Talgarth, ger Trefeca. Fel hyn mae y cofnodiad a godwyd o lyfr eglwys Talgarth,—

Simon Lloyd late of the parish of Llaniccil in the County of Merioneth; and Sarah Bowen

*Tybed ai hwn oedd tad Mrs. Charles, priod Mr. Charles? Mae amryw bethau yn peri i mi feddwl hynny. Yr oedd Humphrey Jones yn Fethodist selog; yr oedd Mrs. Jane Jones, nain Mrs. Charles felly. Yr oedd y cyntaf yn cadw masnach lwyddiannus yn nhref y Bala; ac yr oedd yr olaf felly. Pwy o wyr da y Bala a fedr roddi ryw sicrwydd am hyn?

of this parish, were married in this Church by License this seventeenth day of August in the year One Thousand Seven Hundred and Fifty Five by me

Pryce Davies, Vicar.

This marriage was solemnized between us in the presence of { *Simon Lloyd* / *Sarah Bowen* / *John Games.* / *James Prichard.*

Yr oedd un o'r tystion o leiaf, sef James Prichard, yn perthyn i'r sefydliad yn Nhrefeca, ac yn un o gynghorwyr Howel Harris; a hwyrach fod y llall hefyd yn perthyn i'r un sefydliad. A digon tebyg mai y Pryce Davies uchod oedd y person oedd yn darllen y gwasanaeth yn eglwys Talgarth pan gafodd Howel Harris ei argyhoeddi; a'r hwn felly a fu yn foddion iachawdwriaeth prif ddiwygiwr Cymru. Efe oedd ficer y plwyf ers llawer o flynyddoedd cyn hyn beth bynnag. A chredaf hefyd ei fod yn ddyn da; oblegid yr oedd yn gryn gyfaill i Howel Harris.

Daeth dau o chwe plentyn y rhieni hyn i lenwi lle pwysig yn hanes Methodistiaeth Gogledd Cymru, sef Simon, wedi hynny y Parch. Simon Llwyd y Bala, a Lydia, wedi hynny Mrs. Foulkes, priod Mr. Thomas Foulkes, Machynlleth. Mae hanes Mr. Llwyd yn hysbys; a chredaf mai nid anerbyniol fydd yr hanes canlynol a roddir am Mrs. Foulkes ym *Methodistiaeth Cymru*, ii. 353,—

"Yr oedd Mrs. Foulkes yn ferch henaf iddi. Ganwyd hi yn y flwyddyn 1758. Dygwyd hi yn foreu, tua deng mlwydd oed, dan argraffiadau crefyddol, ac yn fwy fyth pan oddeutu deunaw mlwydd. Bu dan argraffiadau llymion iawn,—bu yn hir dan arteithiau anobaith, ac heb allu sugno dim cysur oddiwrth un gair o'r Beibl, mwy na phe buasai yn seliedig yn ei herbyn Gwahoddwyd hi gan ei modryb i Bwllheli; a than addewid y cai ddarllen hanes bywyd un Mr. Hart, yr hwn y dywedid ei fod wedi profi cyffelyb drallod a hi, hi a gydsyniodd. Bu darlleniad y llyfr hwnnw i raddau yn gysur iddi. Gwahoddwyd hi gan un cydnabyddus â'i modryb, o'r enw Mr. Lewis, gydag ef adref, ac ar Sul y Pasg cymhellai hi i fyned gydag ef i wrando Mr. Davies, Castell-nedd, yng nghapel Ty Mawr, Bryncroes; a than y bregeth honno y llewyrchodd goleuni mawr i'w hysbryd, a'i rhwymau trymion a ddrylliwyd. Ymgysegrodd yn y fan i'r Arglwydd, a glynodd wrtho trwy gyfamod tragwyddol. Bu ar ol hyn dros dymor yn nhy brawd i'w mham, yn Sir Frycheiniog, a chafodd ddod i gydnabyddiaeth â'r Iarlles Huntington, a Lady Ann Erskine, trwy fod athrofa yr Iarlles yn Nhrefeca y pryd hwnnw. Arferai fyned i Langeitho hefyd i wrando Mr. Rowland, a danghosai ei barn am dano trwy ddweyd y talai myned i'r America i wrando y fath un. Pan yn naw ar hugain oed, neu yn y flwyddyn 1787, yn fuan ar ol dyfodiad Mr. Charles i fyw i'r Bala, hi a briodwyd a Mr. Thomas Foulkes; ac mewn canlyniad, daeth i gyfaneddu o hynny allan ym Machynlleth."

Cyfeirir hefyd yn yr hanes uchod at deulu y Tyddyn, ger Llanidloes. Credaf mai dyma y *teulu* hynaf yn perthyn i Fethodistiaeth Gogledd Cymru. Cawn enwau yr holl deulu yn yr adroddiad cyntaf a anfonwyd o'r Gogledd i Sasiwn y Deheudir, sef y gŵr a'r wraig, Thomas ac Anne Bowen, a thri o'r plant, sef Thomas, Ann, a Sarah. Dywedir hefyd fod dwy o'r merched wedi myned i Drefeca. Mrs. Lloyd, fel y cyfeiriwyd, oedd un o'r ddwy, a phriododd y llall un Richard Woosnam, ac aeth i fyw i'r Ty Mawr, Trefeglwys. Fel hyn y cyfeirir ati hi a'i chartref ym *Methodistiaeth Cymru*, ii., 370—371,—

"Hen gartref yr achos ar ol y Tyddyn oedd y Ty Mawr. Merch Mr. Bowen y Tyddyn oedd y wraig a breswyliai yn Ty Mawr. Yr oedd hi yn briod a Mr. Richard Woosnam, yr hwn oedd hefyd ymhl th y crefyddwyr. Byddai llawer o gyrchu i'r Ty Mawr, a chafodd crefydd nodded a lloches glyd yno dros ennyd o amser. Fe ddisgyn enw Mrs. Woosnam, y Ty Mawr, inni fel gwraig nodedig ei duwioldeb, a thra ffyddlon gydag achos y Cyfryngwr. Merched iddi hi oedd Mrs. Davies, Frankwell, Llanidloes, a Mrs James, Pen-blaen, gwraig y Parch. James James."

Bu hefyd un o'r enw Hannah Bowen yn aros yn Nhrefeca am lawer o flynyddoedd, ac yn llenwi lle pwysig yn y sefydliad yno. Credaf fod hon hefyd yn un o deulu y Tyddyn. Pwy o ddarllenwyr Cymru fedr ddweyd pwy ydoedd? Ni fyddai ysgrif ar "Y Tyddyn a'r teulu" yn anyddorol gan ddarllenwyr Cymru, mi gredaf.

Dyna i chwi dipyn o hanes y Simon Llwyd y cyfeiriwyd y llythyr ato i Drefeca.

Bryncir. HENRY HUGHES.

CYNGOR.

Tebyg yw dy lais yn canu
I gog mewn craig yn dechreu crygu,
Dechreu cân heb ddiwedd arni,—
Harddach iti fyddai tewi.

CANMOLIAETH.

Blodau'r flwyddyn yw f'anwylyd,
Ebrill, Mai, Mehefin hefyd;
Llewyrch haul yn twnnu ar gysgod,
A gwenithen y genethod.

AGOS A PHELL.

Nid oes rhyngof ag e heno
Onid arch, a phridd, ac amdo;
Mi fum lawer gwaith ymhellach,
Ond nid erioed a chalon drymach.

AR OL.

Yn hen, ac yn ieuanc, yn gall, ac yn ffol,
Y merched sy'n gwra, a minnau ar ol;
Pam y mae'r meibion i'm gweled mor wael,
A minnau gan laned a'r merched sy'n cael?

NANTYFALLEN.

Gan J. T. Rees, Mus. Bac.
Aberystwyth.

Doh C. [s.a.t.b.]

p *cres.*

: d^{1}	.t	l	:s	:d^{1}	.t	l	:s	:s	.s	f	:l	:r^{1}	.d^{1}	d^{1}	:t
: m	.r	f	:r	:m	.r	f	:r	:m	.m	r	:f	:f	.m	m	:r
I. Ienctyd		hawddgar !		pam yr		oed - wch ?		Dewch yn		un -	ion	tu -	a'r	wlad,	
II. Dewch o		ddif - rif,		ienctyd		hawddgar !		Na ddi-		lyn -	wch	wag-	edd	ffol ;	
: s	.s	r^{1}	:t	:s	.s	r^{1}	:t	:d^{1}	.t	l	:r^{1}	:s	.s	s	:—
: d	.d	d	:d	:d	.d	d	:d	:d	.d	d	:d	:t$_{1}$	.d	s	:—

p *mf*

:d^{1}	.t	l	:s	:d^{1}	.t	l	:s	:d^{1}	.t	l	:d^{1}	:t	.l	s	:—
:m	.r	f	:f	:m	.d	r	:r	:d	.r	m	:m	:r	.d	t$_{1}$	:—
Lle mae		gwin a		llaeth yn		lli -	fo,	A phob		ffrwyth-au		peraidd		rhad ;	
Rhaid i'ch		ad -	ael	ple-ser		pech -	od,	A phob		sor -	od,	ar eich		ol ;	
:s	.s	d^{1}	:t	:s	.s	d^{1}	:t	:s	.s	s	:s	:s	.fe	s	:—
:d	.d	r	:r	:m	.m	f	:f	:m	.r	d	:l$_{1}$	:r	.r	s	:—

p *p* *mf*

:m	.ba	se	:l	:m	.ba	se	:l	:t	.d^{1}	r^{1}	:m^{1}	:t	.d^{1}	r^{1}	:m^{1}
:t$_{1}$	.d	r	:m	:t$_{1}$	:d	r	:d	:s	.s	s	:s	:s	.s	s	:se
Gwledda'n		ddi - baid		ar ddau-		teith - ion		Gyda'r		Bren- in		wrth y		bwrdd,	
Rhowch eich		cwm- ni		tu - a'r		ar - dal		Lle mae		ples - er		yn par-		hau—	
:se	.l	t	:d^{1}	:se	:l	t	:d^{1}	:r^{1}	.d^{1}	t	:d^{1}	:r^{1}	.d^{1}	t	:—
:m	.m	m	:m	:m	:m	m	:l	:s	.s	s	:s	:s	.s	s	:m

p *cres.*

:d^{1}	.t	l	:s	:d^{1}	.t	l	:s	:f	.l	r^{1}	:d^{1}	:t	.s	s^{1}	:—	:f^{1}	.m
:l	.m	f	:f	:m	.r	f	:m	:r	.r	r	:fe	:s	.s	s	:ta	:l	.s
A phob		deigryn		wedi ei		sych-u,		Heb un		go -	fid	mwy i'n		cwrdd,		Heb un	
Canu'n		beraidd		i'n Har-		weinydd,		Mewn gor-		fol -	edd	mawr di-		drai,		Mewn gor-	
:d^{1}	.d^{1}	r^{1}	:t	:s	.s	d^{1}.t	:d^{1}	:l	.d^{1}	d^{1}	:r^{1}	:r^{1}	.t	d^{1}	:de^{1}	:r^{1}	.m^{1}
:l$_{1}$	.l$_{1}$	t$_{1}$	:r	:d	.d	r	:m	:f	.f	fe	:l	:s	.f	m	:—	:f	.s

ff *p*

r^{1}	:d^{1}	:d^{1}	—	:t	:—	d^{1}	:—	l	.l	d^{1}	:d^{1}	:t	.se	l	:—	:m	.f	s	:— :—
f	:fe	:s	—	:f	:—	m	:—	m	.m	n	:m	:m	.m	m	:—	:d	.r	m	:— :de
go- fid		mwy		i'n		cwrdd.		Heb un		go - fid		mwy i'n		cwrdd,		Ha- le-		liw -	- -
fol-edd		mawr		di -		drai.		Mewn gor-		fol-edd		mawr di-		drai,		Ha- le-		liw -	- -
f^{1}	:r^{1}	:m^{1}	—	:r^{1}	:—	d^{1}	:—	d^{1}	.d^{1}	m^{1}	:m^{1}	:r^{1}	.t	d^{1}	:—	:d^{1}	.d^{1}	d^{1}	:— :le
l	:la	:s	—	:s$_{1}$	:—	d	:—	l	.l	l	:l	:l	.l	l	:—	:l	.l	s	:— :—

f *ff*

s	:	:s	.s	m^{1}	:- .r^{1}	:d^{1}	.l	t	:d^{1}	.	:d^{1}	s^{1}	:—	:t	d^{1}	:—	:—	—	:—
r	:	:s	.s	s	:- .f	:m	.d	f	:m	.	:fe	s	:—	:s	s	:—	:—	—	:—
ia,		Heb un		go -	fid mwy i'n			cwrdd,			Ha-	le -	liw-		ia.				
ia,		Mewn gor-		fol -	edd mawr di-			drai,			Ha-	le -	liw-		ia.				
t	:	:s	.s	s	:- .s	:s	.l	r^{1}	:d^{1}	.	:r^{1}	m^{1}	:—	:r^{1}	m^{1}	:—	:—	—	:—
s$_{1}$	:	:s	.s	d	:- .r	:m	.f	s	:l	.	:la	s	:—	:s	d	:—	:—	—	:—

HEN YSGOLFEISTRI CYMRU.

I. John Evans, Aber Ystwyth.

O'R holl ysgolfeistri fu'n llafurio yn eu galwedigaeth yn ein tref ni o dro i dro, a ni a wyddom am ddegau o honynt, yr enwocaf o honynt i gyd, yn ddiamheuol, oedd John Evans. Cadwai ei ysgol, fel mae'n wybyddus i bawb o'r trefwyr, mewn ty yn Chalybeate Terrace, yn agos i gornel Lewis Terrace, ac y mae'r hen annedd yn aros hyd heddyw. Yno y bu John Evans am ddegau o flynyddoedd yn addysgu plant a phobl ieuainc canolraddol y dref a'r cymydogaethau. Llafuriodd yn selog a diflino, a hynny am ychydig iawn o gydnabyddiaeth ariannol. Ysgol Mr. Evans oedd, prifathrofa Sir Aber Teifi y pryd hwnnw, ac nid ystyrid fod neb wedi cwblhau ei yrfa addysgawl os na fyddai wedi bod, am ryw ysbaid o leiaf, yn athrofa John Evans. Yn ol popeth a wyddis am dani, yr oedd hon yn athrofa wedi ei sefydlu tuag at gyrhaeddyd gwybodaeth sylweddol ac iachus; ac y mae y rhestr o'r ysgolheigion fu yno yn dilyn eu hefrydiaeth yn un hynod o anrhydeddus.

JOHN EVANS, ABERYSTWYTH.

Ganwyd John Evans yn 1796, ym Mlaen Plwyf, pentref bychan ryw bum milldir o Aber Ystwyth. Gwehydd oedd ei dad, a bu yntau hefyd yn gweithio wrth y grefft honno. Cymaint oedd ei awydd am wybodaeth pan oedd gwmpas dwy ar bymtheg oed, fel y cerddodd i Lunden, gan gr edu y byddai mynd i'r Brif-ddinas yn fantais iddo ddysgu'r Saesneg ac i gasglu gwybodaethau ereill. Caled iawn fu arno yn y ddinas boblog. Ceisiodd gynnal ei hun drwy werthu llyfrau bychain o dy i dy dros lyfr-werthwr. Dygwyd ef o flaen yr ynadon am ddiffyg cydymffurfio a gofynion y gyfraith. Ni wyddai'r bachgen o Gymru fod yn ofynnol i'r is-werthwr gael trwydded yn ogystal a'r llyfr-werthwr ei hun. Modd bynnag, rhyddhawyd ef ar unwaith pan welwyd mai mewn anwybodaeth y bu'r amryfusedd; a thrwy offerynoliaeth gwr dieithr o Gymro sy'n teilyngu cof-golofn am ei garedigrwydd amserol, gosodwyd ef yn ysgol Griffith Davies, brodor o Gaernarfon, ac un o rifyddwyr blaenaf ei oes. Nid oes dichon gwybod faint o rifyddwr oedd John Evans pan yn gwylied symudiadau ei wennol ym Mlaen Plwyf, ond sicr yw, ddarfod iddo wneyd cynnydd mawr yn yr ysgol yn Llunden. Cafodd ei swyno gan gyfaredd hudolus arwyddluniau Alsoddeg, a ffigyrau a chylchau Mesureg. Wedi dechreu canfod a iawn ddeall dirgelion ffigyrau meintonol, a gweled cyfoeth eu troadau, eu plygiadau, a'u dadblygiadau, yr oedd yn rhwym o ddyfod dan ddylanwad eu swynion.

Ymhen amser dychwelodd y gwr ieuanc i Gymru, wedi drachtio yn helaeth o ffynhonnau gwybodaeth. Bu am beth amser yn cadw ysgol yn Llanfair Caereinion, ond symudodd oddiyno i Lanidloes, lle y bu am dymor yn llafurio gyda graddau helaeth o lwyddiant, yn dra chysurus ei hun, ac "yn wr ieuan ccrefyddol, parchus gan bawb." Yn ol pob tebyg, yno y buasai wedi cartrefu oni bai i'w hen gymydogion ddeisyfu arno i ddychwelyd i'w fro enedigol, a danfon ei frawd yr holl ffordd i Lanidloes i'w berswadio i hyn. Yr oedd tuag un-ar-hugain oed pan y daeth i Aber Ystwyth yn ysgolfeistr, ac yma y bu am agos hanner can mlynedd, yn profi ei hun yn ysgolhaig gwych, ac yn fendith anrhaethol i'r gymydogaeth hon mewn amryw gyfeiriadau.

Ysgol Elfennol oedd ysgol Mr. Evans, ond dysgid yno hefyd lawer iawn o'r hyn a ddysgir yn awr yn ein Hysgolion Uwchraddol, eithr hoff enw yr ysgolfeistr ei hun ar ei sefydliad oedd "Ysgol Drafnidol a Mein-

hol." Un o nodweddion yr ysgolfeistr
dd trwyadledd. Ymhlith y pennaf o ysgol-
igion John Evans, saif y diweddar Ddr.
dwards o'r Bala, ac yn y *Goleuad* am Medi
eg, 1875, ysgrifennodd y disgybl gryn
pyn o'i adgofion am yr hen athraw. Dywed
Dr. Edwards na phroffesai John Evans
im mwy nag oedd yn wybod, ond ei fod yn
ybod mwy nag oedd yn broffesu ac yn
ybod yn drwyadl. Cafodd y Doctor fantais
a i weled pa fath ddyn oedd ei hen athraw
heth oedd ynddo, oblegid yr oedd yn byw
dag ef yr holl amser y bu yn yr ysgol.
ı ol ei feddwl ef, nid oedd dim yr adeg
nno o'r pethau a ystyrid yn perthyn i holl
rff Rhifyddiaeth ac Anianyddiaeth yn
wyll i'w ysgolfeistr; a seiliai ei farn ar y
ith ei fod yn cael atebion goleu a chlir i
b cwestiwn roddid i Mr. Evans ym mhob
ngen o wybodaeth rifyddol. Barn y Dr.
dwards ydoedd, pe buasai John Evans wedi
yned i Gaer Grawnt pan yn ieuanc, y
asai yn sefyll yn uchel yn rhestr y
Tranglers, ac efallai yn Senior Wrangler.
yma ganmoliaeth ddigon uchel i foddloni'r
wyaf awyddus am glodforedd. Rhaid i mi
faddef nad oes gennyf ddigon o ffeithiau
n galluogi i ffurfio barn deg a chywir o barth
hyd, lled, a dyfnder darlleniadaeth John
vans yng nghyfandiroedd eang Meintoniaeth
Mathematics). Nis gwn a ddarfu iddo gerdded
n mhell i wledydd swynol y Differential a'r
ntegral Calculus. Heb i'r efrydydd feistroli
rhai hyn, nid yw eto wedi croesi'r trothwy
newn i drysorfeydd cyfoethog y gwybod-
thau meintonol. Dywedir fod Mr. Evans
ı ddigon cyfarwydd a rheolau "Fluxions,"
-math o Galculus hen ffasiwn a ddefnyddid
ı amser Newton ac ar ol hynny, drwy
frwng yr hwn yr agorid cloion llawer o
vestiynau celyd a dyrus, y rhai yn awr a
adgylymir drwy gyfrwng y ddau Galculus
ag-ddywededig. Sicr yw na wyddai Mr.
vans ddim am gymhwysiadau diweddar y
nciau hyn i weithio allan broblemau mewn
nianyddiaeth. Ond cofier mai nid hyd a lled
rlleniadaeth yr efrydydd yn y gwahanol
anghennau mewn Meintoniaeth sydd yn ei
neyd yn feintonwr, eithr rhyw osgo neu
gwydd o eiddo'r meddwl a'r deall, rhyw
eiddiad meddyliol yn canfod hyd at galon
roblem. Ac yr oedd yr osgo a'r treiddiad
vn gan John Evans. Er nad oedd ei ddar-
eniadaeth, efallai, yn eang, eto yr oedd yn
ifyddwr bob gronyn ohono. Ychydig,
ewn gwirionedd, o Feintoniaeth oedd gan
d yn nod Isaac Newton ei hun. Mewn
esureg Bur yr ysgrifennodd efe ei anfarwol
rincipia. Pe buasai yn byw yn awr,
fnyddiai ffurfiau gwahanol ac amgenach
dulliau i weithio allan ei broblemau dyrus;
buasai yn cymhwyso y Calculus fel y mae
degau wedi gwneyd ar ol ei ddydd ef. Mae
canncedd lawer o wranglers wedi darllen
llawer mwy o Feintoniaeth nag a wnaeth
Newton; ie, y mae cannoedd o lanciau wedi
ennill ysgoloriaethau yn Rhydychen a Chaer
Grawnt, yn hyddysg ddigon â ffurfiau rhif-
yddol na wyddai Newton ddim am danynt;
ond er hynny, ni fu, ac efallai ni ddaw,
rhagorach meintonwr nag awdwr anfarwol y
"Principia Mathematica."

Dywed un awdwr adnabyddus, yr hwn
oedd ei hun yn rifyddwr o radd uchel, fod
astudiaeth feintonol wedi mynd erbyn hyn
yn bur beirianyddol o'i chydmaru a'r hyn a
fuasai i'r hen feintonwyr. Peiriant, eb efe,
yw Meintoniaeth yn ei rhandiroedd pellaf.
Ac y mae cryn lawer o wirionedd yn y dy-
wediad. Wrth weithio yn y canghennau uchaf,
mae rhagoriaeth yn awr yn ymddibynnu mwy
ar fedr i droi'r peiriant nag ar athrylith
naturiol. Cymerer y ddau Galculus y son-
iais am danynt; nid ydynt ar ryw olwg
namyn melin i falu,—rhowch y factor priodol
i mewn, ac yr ydych yn sicr beth ddaw allan
wedi malu, yn y pen draw. Wrth ddweyd
hyn, ni freuddwydia neb am ddiraddio
gorchestion dynion fel Laplace, Syr William
Thomson, Arglwydd Rayleigh, y Proffeswr
Stokes, a'r Proffeswr Cayley. Fe saif
y "Mecanique Celeste" ymhlith colofnau
ardderchocaf athrylith tra pery chwaeth at
astudio egwyddorion Rhif a Mesur. Ond y
mae gwirionedd pwysig yn gorwedd yn
nywediad Carlyle, fod mwy o Fathematics
nag a fu erioed o'r blaen yn y byd, eithr llai
o Fathesis. Yng Nghalendar Prifysgol Caer
Grawnt, gosodid, rai blynyddoedd yn ol, 43 o
wahanol bynciau rhifyddol i'w hastudio
gyferbyn a'r "Mathematical Tripos."
Ychydig yn ddiau wyddai John Evans am y
mwyafrif mawr o'r rhai hyn; ond yn ol safon
Carlyle, ac y mae honno yn safon pur deg, yr
oedd John Evans yn llawer rhagorach
meintonwr na degau sydd wedi bod drwy'r
oll o'r canghennau hyn. Pa faint bynnag
oedd ehangder darlleniadaeth Mr. Evans, y
mae yn eithaf amlwg ddarfod iddo wneyd
astudiaeth drylwyr o rai pynciau mewn Rhif
a Mesur nad ystyrir fel rhai hollol elfennol.
Astudiodd Alsoddeg, a rhai o'r hen broblemau
yn y gangen hon na welir mohonynt yn
y llawlyfrau diweddaraf yn y rhandir hon o
wybodaeth; gallaf enwi, er enghraifft, y
math hwnnw ar broblemau a elwir y
"Diophantine Analysis." Astudiodd Euclid
hefyd yn drwyadl; a chlywais hen ddisgybl
iddo, yr hwn oedd yn Fesuregwr penigamp ei
hun, yn dweyd fod gan John Evans allu

neillduol at broblem mewn Mesureg, ac y medrai weithio allan ei ymresymiadau gan ddangos nerth deall hynod gryf a gafaelgar. Dyna bwnc arall hoff ganddo oedd Trionglaeth; ac yr oedd yn ei wybod yn y ddwy gangen o hono, y Gwastad a'r Crwn. Medrai hefyd, yn ddyheuig iawn, gymhwyso yr olaf at Seryddiaeth, yr hon oedd un o'i hoffusaf bynciau.

Y llyfrau a ddarllennid y pryd hwnnw ar y testynau hyn oedd llyfrau Bonnycastle. Dywed y Dr. Edwards mai dyma'r unig beth a welai ef yn ddiffygiol yn John Evans, sef gormod hoffder at iaith chwyddedig Bonnycastle, a thybiai'r doctor fod hynny'n codi oddiar ddiffyg addysg glasurol. Pe buasai John Evans yn ysgolhaig clasurol, barnai y buasai yn hoffach ganddo iaith symlach Herschell a Whewell. Rhaid cydnabod fod Bonnycastle yn bur chwyddedig; mae brawddegau yn ei lyfrau, ped ysgrifennid hwynt mewn llawlyfrau y dyddiau hyn, fuasai'n arddangos diffyg chwaeth anhygoel; ond y mae'n anhawdd deall sut y cafodd y Doctor y syniad fod gan John Evans hoffder at ei chwydd-iaith, oblegid cydnabyddid Mr. Evans gan bawb a'i hadwaenai fel dyn hynod ddysyml, unplyg ei feddwl, di-rwysg, di-rodres a diymhongar. Astudiodd John Evans ei Fonnycastle yn dda, ac arferai gymeryd ei efrydwyr drwy yr un awdwr, gan eu gosod ar sylfeini cadarn. Teg i mi gyfaddef fod rhyw swyn yn llyfr Bonnycastle ar feintoniaeth y sêr. Pan yn llanc treuliais oriau lawer yn ei astudio, ac y mae llawer o'r problemau wedi eu copio ac ar gadw, yn arwyddion o'n hoffder at ein gilydd ugain mlynedd yn ol.

Nodwedd bwysig yng nghwrs dysgeidiaeth ysgol John Evans oedd fod yr addysg gyfrennid yno yn hynod ymarferol. Yn yr ysgolion yn ein dyddiau ni, pan y dysgir y gwybodaethau meintonol, mae ynddynt lawer iawn o'r damcaniaethol ond ychydig o'r ymarferol. Yr oedd y ddysgeidiaeth a gyfrannai Mr. Evans yn gyfryw ag a wnaethai fywyd rhagllaw yn fwy dyddorol, a'r yrfa yn haws ei rhedeg. Wrth ddysgu llyfrau seryddol Bonnycastle i'w ddisgyblion, dysgai hwynt hefyd i edrych i fyny ar y wybren serenog, a chan ei fod yn adnabod y sêr a'r planedau, galwai hwynt oll wrth eu henwau. Cofia ei hen ysgolheigion am dano yn gweithio yn galed am wythnosau gyda'i ysbienddrych o'i wneuthuriad ei hun, yn caboli ac yn trwsio y gwydrau. Gosododd ddeial haul i fyny,—ac nid pob meintonydd all wneyd hynny,—ac y mae'r deial yn aros hyd heddyw ar dalcen ty yn agos i'r hen ysgol, yn arwyddlun, bychan mae'n wir, o'i hoffder athrylithgar at bynciau seryddol. Ar fore dydd Sadwrn, torrid yr ysgol yn aml yng nghynt nag arfer; yna cesglid yr ysgolheigion at eu gilydd, tynnid y cauad-lenni dros y ffenestri, cauid yr haul allan, a thrwy ddefnyddio *magic lantern* danghosid symudiadau y ddaear a'r lleuad a'r planedau, er mawr foddhad ac addysgiaeth i'r ysgolheigion.

Teithiodd John Evans lawer i'r pentrefi cylchynol, gan gymeryd ei *lantern* gydag ef, er mwyn goleuo'r werin bobl o berthynas i'r Gyfundrefn Heulog. Bu yn dangos ac yn egluro ei ddarluniau ym Mlaen Plwyf, ei hen gartref, ac yn Elim, Pen y Parciau, Llanbadarn Fawr, a mannau ereill. Yr oedd ganddo hefyd yn yr ysgol gamera bychan, o'i ddyfais a'i waith ei hun, i egluro egwyddorion adlewyrchiad. Ym mhob peth ymdrechai wneyd gwybodaeth yn ddyddorol ac addysgiadol ac ymarferol i'w ddisgyblion.

Bu ei ysgol yn gyrchfan morwyr y dref a'r cymydogaethau o amgylch, lle y cawsent hyfforddiant trylwyr yn y canghennau rhifyddol o forwriaeth. Enillodd yr ysgol iddi ei hun enwogrwydd clodfawr fel athrofa forwrol.

Bai mawr yr ysgol, yn ol y Dr. Edwards, oedd diffyg lle yn ei *churriculum* i lenyddiaeth Seisnig, ac yn bendifaddeu, diffyg anrhaethol oedd hwn. Ychydig, yn ddiau, wyddai John Evans am lenyddiaeth; Meintoniaeth oedd ei hoff astudiaeth ef, ac yn hon, safai, yr adeg honno, drwy holl Gymru benbaladr, ar ei ben ei hun. A chymaint oedd ei allu i greu brwdfrydedd yn ei ysgolheigion at Feintoniaeth, fel y dywed y Dr. Edwards fod ffigyrau yn ymrithio, pan oedd efe yn ddisgybl dan John Evans, o flaen ei lygaid pa le bynnag yr elai.

Ymhlith y rhai a gyfrifir yn *Alumni* ysgol John Evans, gellir enwi y diweddar Ddr. Edwards o'r Bala; Henry Richard, yr aelod Seneddol; a David Charles Davies, o Drefeca,—triawd o wyr rhagorol, o feddwl a deall uchelryw, yn cynrychioli Cymru fechan yn ei duwinyddiaeth, ei gwleidyddiaeth, a'i gwyddoniaeth. Dyma dri o feintonwyr drachefn,—Edward Jones, cyn-athraw Ysgol Ramadegol Aber Ystwyth, hen athraw a'm dysgodd i a llawer un arall i ymddifyrru yn egwyddorion Rhif a Mesur, a thynnu mel o Fesureg ac Alsoddeg a Thrionglaeth; John Evans, mab i'r hen ysgolfeistr, gwrthrych fy ysgrif, athraw Ysgol Salop yng Nghroesoswallt; a William Ellis, gynt o Goleg Caius, Caer Grawnt, a chyn-athraw Ysgol Ramadegol Dolgellau, gwr o alluoedd meintonol cryfion diamheuol.

Er cyfynged oedd cwrs addysg ysgol John Evans y tu allan i ddewis destun yr athraw, yr oedd ef yn wr cyflawn ac aml-

arog iawn, a chydnabyddid ef felly gan euon a blaenwyr ein tref, y rhai a goleddai syniadau uchaf a rhagoraf am dano fel gŵr cheddol, a meddyliwr dwfn am bethau yfol, ac un a chanddo feddwl goruchel a archus am Dduw a'r Ysgrythyr. Yr oedd wybodaeth heblaw Meintoniaeth y gwyddai an Evans hi yn dda, a honno oedd Diw-ddiaeth; ac yr oedd un llyfr y gwyddai ef well, os oedd bosibl, na'i Fonnycastle, a'r ibl oedd y llyfr hwnnw. Yr oedd ei bodaeth o hwn yn eithriadol, a dywed ddodiad ei fod yn gwybod pob adnod o no. Edrychid arno fel Ysgrythyrwr pennaf Sir, a gwiriai yr hyn a ddywed Mr. Charles ei rag-draeth i'w *Eiriadur*,—"Bonus xtuarius est Bonus Theologus." "Bod yn grythyrwr da yw bod yn ddiwinydd da." oedd John Evans yn ddiwinydd da yn stal a rhifyddwr da, ac yn berffaith ddysg yn yr athrawiaethau pynciol. Fel raw yn yr Ysgol Sul, efe yn ddiddadl oedd blaenaf ymhlith goreuon athrawon Ysgol l Capel y Tabernacl, pan oedd honno yn ei goniant. Fel holwr pwnc hefyd, anhawdd ldai cyfarfod ei gymar. Holai yn gadarn yn wresog, taflai ei hun i'r gwaith gyda'r h frwdfrydedd nes elai'r ysgol yn dry-niaeth byw drwyddi. A phan yr holid n wr dieithr ar dro, a phawb wedi distewi n ryw gwestiwn caled, clywid yr hen golfeistr y pryd hynny yn torri ar y stawrwydd ac yn ateb gydanerth a dylanwad awr. Rhagorai John Evans fel siaradwr hoeddus ar yr oll o'i gyfoedion a'i gyd-enoriaid yn y Tabernacl. Er gwanned ac ddiled ei gorff, ymdaflai mor angerddol i'w erchiadau fel yr effeithiai yn y modd wyaf anorchfygol ar ei wrandawyr. Medrai r. Mathews,—tad y gŵr o'r un enw yn mlwch,—osod mater i lawr yn y seiat a'i luro yn hynod glir a rhagorol o ddyheuig, d yr oedd yn ddiffygiol mewn grymusder a anbeidrwydd; eithr John Evans a fyddai trydan yn gwefreiddio pawb ar ai clywai. or odidog ymadroddwr ydoedd, a chystled oedd rhagoroldeb sylwedd yr hyn a lefarid nddo, fel y lledodd y syniad yn bur ffredinol mai pregethwr ddylai John Evans d. Dywedir mai areithiwr penigamp ydoedd Ddirwest. Gweithiodd yn ddifefl gyda'r wforwyn hon i grefydd yn adeg y diwygiad rwestol tua 1836, gan deithio milldiroedd wer i'r pentrefi cylchynol.

Cerddwr dihafal ydoedd. Ar ol torri'r gol yn y prydnawn, gwelid ef yn aml aml cychwyn ar ei daith ac yn cerdded wyth u naw milldir i'w gyhoeddiad, yn traddodi erchiad gwresog ar ddirwest, ac yna yn chwyn yn ol drachefn ac yn cyrraedd cartref hanner nos. Bydded ei goffadwriaeth fyth yn wyrdd am ei lafur caled a diflino a'i aberth hunan-ymwadol ym mhlaid Dirwest, pan oedd hon fel colomen Noah yn amser y diluw, yn ceisio gorffwysfa i wadn ei throed yn ein gwlad. Bu J. B. Gough yma yn 1858, Awst 12 a 13, yn traddodi yn y Tabernacl ddwy araeth ar ei hoff bwnc; ac yr oedd y prif-areithiwr, meddir, yn ei hwyliau goreu. Ond dywedai David Jones, y Banc, yr hwn oedd ei hun yn siaradwr da ac yn feirniad union-farn, ei fod wedi clywed John Evans unwaith mewn araith ddirwestol yn desgrifio ty ar dân, ac yn cyrraedd graddeb mor aruchel nad esgynnodd Gough ei hun, yn anterth ei areithyddiaeth, ddim y tu hwnt iddo.

Nid wyf eto wedi cwblhau'r rhestr, oblegid medrai John Evans gerddoriaeth hefyd. Clywid ef yn fynych yn dechreu'r dôn yn y capel. Tybir fod ganddo pan yn ieuanc lais digon hyfryd a soniarus, eithr yn ddiweddarach, nid oedd ei lais ond afrywiog a diseinber. Dysgai ganu i'w ysgolheigion yn awr ac eilwaith yn ei ysgol ddyddiol; yr oedd ganddo organ fechan yno, ar yr hon y chwareuai fath o gyfeiliant. Dywedai Owen Williams, Aber Dyfi, yr hwn ydoedd un o wroniaid "codi'r canu" ymhlith y Methodistiaid, mai John Evans ddysgodd gerddoriaeth iddo ef, pan fu efe yn aros am ychydig amser yn ein tref.

Dyma ychydig o hanes John Evans, gŵr gwir ragorol, a deilynga barch ac edmygedd a choffadwriaeth am y gwaith clodwiw a wnaeth yng ngwyneb anfanteision di-rif. Bu farw Ebrill 2, 1861, yn 65 mlwydd oed, wedi gwasanaethu ein cenedl ni fel ysgolfeistr am dros ddeugain mlynedd.

Gosodwyd ei weddillion marwol i orffwys ym mynwent Mihangel Sant ar ochr ddeheuol yr hen Eglwys, yn ymyl beddrod Mr. Robert Davies ac ereill o gryn hynodrwydd lleol. Yno y gorwedd ei lwch, mewn lloches dawel a chlyd, yn cael eu cadw rhag ystormydd a gwyntoedd Culfor Aber Teifi gan y ddwy Eglwys, yr hen a'r ddiweddar, a chan hen dyrau dadfeiliedig castell henafol Aber Ystwyth. Heb fod yn nepell, yn ymsythu yn uchel, saif adeiladwaith cadarngryf Coleg y Brifysgol, a'i deg binaclau yn codi eu pennau i'r awyr i gysgodi'r llecyn rhag gerwinder a rhyferthwy y dymestl auafaidd.

Disgynnodd tueddfryd feintonol yr hen ysgolfeistr yn gymun-rodd a threftadaeth ar ei ol i'w fab a'i ŵyr. Aeth y mab John Evans i Edinburgh, a graddiodd yno yn M.A. mewn Meintoniaeth ac mewn anrhydedd, gan ennill hefyd y Bathodyn Aur. Ei fab yntau, John Rhys Evans, M.A., a aeth i Gaer

Grawnt, ac a raddiodd yn anrhydeddus yn y Mathematical Tripos. Ac y mae un arall yn arddel perthynas a'r teulu, i'r hwn hefyd y bu Rhif a Mesur gynt yn hoffus bwnc, ond yn awr hanesiaeth a llenyddiaeth yn hytrach a gânt ei ffafr. Bu am flynyddoedd yn cyfeillachu a'r awenyddes Urania, yn hoffi ei chwmni diddan i ddringo llethrau Parnassus; eithr efe a ymadawodd a'i gariad cyntaf, ac yn awr gwelir ef fynychaf yng nghymdeithas y chwaer-awen, Clio swynol a dengar.

Aber Ystwyth. DAVID SAMUEL.

LLENYDDIAETH GYFNODOL GYMREIG A'R PREGETHWYR.

Y MAE'N ffaith hynod, yng nglyn a dechreuad Llenyddiaeth Gyfnodol Gymreig, fod y rhan fwyaf o lawer o'r rhai fu a llaw yn nygiad allan y cyhoeddiadau cyntaf yn dwyn cysylltiad agos a'r symudiad crefyddol newydd oedd wedi cychwyn tua chanol y ganrif ddiweddaf. Yr oedd amryw o honynt yn pregethu gyda'r Methodistiaid, ac yr oedd ereill yn pregethu gyda'r hen Enwadau Ymneillduol, ac yn olynwyr teilwng mewn barn ac mewn buchedd i Anghydffurfwyr a Phiwritaniaid yr ail ganrif ar bymtheg. Yr oedd y Parchedigion Peter Williams; Thomas Charles, B.A.; Thomas Jones, Dinbych; Simon Lloyd, B.A.; John Parry, Caerlleon; Morgan John Rhus; Joseph Harris; Cadwaladr Jones, &c., yn weinidogion perthynol i'r gwahanol Enwadau Ymneillduol. Y mae yn wir y ceir rhai beirdd ym mysg y gohebwyr cyntaf, ond prin iawn oeddynt; a'r hyn sydd yn rhyfedd ydyw, fod y rhai hynny, gan mwyaf, yn perthyn i'r un dosbarth, o ran eu golygiadau crefyddol, a'r gweinidogion a ennwyd. I'r dosbarth hwnnw y perthynai Sion Lleyn, Ieuan Lleyn, Dafydd Ddu Eryri, David Jones, &c. Llysenw cyffredin Dafydd Ddu Eryri gan Wyneddigion Llunden, —y rhai a elwid ganddo yntau yn "Meistriaid,"—oedd yr "Hen Fethodist." Yr oedd ei dad a'i frawd yn pregethu gyda'r Methodistiaid, ac yr oedd yntau ei hun wedi cael ei ddwyn i fyny gyda'r un bobl, ac y mae argraff eu haddysg, a delw y Diwygiad, yn amlwg iawn ar ei gyfansoddiadau.

Y Parch. Peter Williams, y diwygiwr Methodistaidd enwog, oedd cychwynnydd a phrif olygydd y cyhoeddiad cyfnodol Cymreig cyntaf a gyhoeddwyd, sef yr hen *Drysorfa Gwybodaeth*, a chynorthwyid ef gan Evan Thomas, yr hwn oedd yntau yn cyfrif ei hun yn un o'r Methodistiaid; ac ym mysg yr ychydig oedd yn perthyn i'r *Drysorfa* fel gohebwyr, yr oedd John Thomas, pregethwr gyda'r Methodistiaid, a Dafydd Ionawr, Eglwyswr, ond Piwritan o'r sect fanylaf, er hynny. Cynorthwywr arall i'r Parch. Peter Williams yn yr olygyddiaeth oedd y Parch. Josiah Rees, yr hwn a ddrwgdybid gan weinidogion Ariaidd Presbyteriaid yr oes honno o fod yn rhy Galfinaidd ei farn, ac yn rhy Biwritanaidd ei fuchedd, ac y mae ei gysylltiad a'r Parch. Peter Williams yn peri i ni dybied fod sail dda ganddynt i'w drwgdybiaeth.

Golygydd *Cylchgrawn Trefeca*, fel y gelwid ef, yr hwn a wnaeth ei ymddanghosiad ym mhen ychydig mwy nag ugain mlynedd ar ol *Trysorfa* Peter Williams, oedd y Parch. Morgan John Rhus, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, yr hwn oedd enedigol o Lanfabon, ym Morgannwg. Ym mhen tua phum mlynedd ar ol *Cylchgrawn Trefeca*, cychwynnwyd y *Drysorfa Ysbrydol* gan Mr. Charles o'r Bala, a chynorthwyid ef yn yr olygyddiaeth gan y Parch. Thomas Jones, Dinbych. Bu ei hen gyfaill a'i gymydog, y Parch. Simon Lloyd, B.A., yn golygu cyfres o'r *Drysorfa* ar ol marwolaeth Mr. Charles am rai blynyddoedd. Golygid *Greal* Caernarfon (1800) gan Ddafydd Ddu a Ieuan Lleyn; a than olygyddiaeth Dafydd Ddu y dygwyd *Yr Eurgrawn* (1807) allan hefyd. Yr oedd Eurgrawn arall, Yr Eurgrawn Wesleyaidd, wedi ei gychwyn yn y flwyddyn flaenorol, 1806, ac fel y mae yn hysbys ddigon, y mae y cyhoeddiad hwnnw'n parhau hyd heddyw, ac yn dad, bellach, ym mysg holl gyfnodolion Cymru. Yn fwy diweddar, ymddanghosodd *Goleuad Gwynedd* (1818) yr hwn a alwyd ar ol hynny *Goleuad Cymru*, perchennog a phrif olygydd yr hwn oedd y Parch. John Parry, Caerlleon, awdwr, ym mysg llyfrau ereill, Gramadegau Cymraeg a Hebraeg, ac hefyd awdwr y ddau gatecism rhagorol "Y Rhodd Mam" a'r "Rhodd Tad," y rhai nad oes, o'u bath, gyffelyb iddynt wedi eu hysgrifennu eto yn yr iaith Gymraeg, er fod llawer o bryd i'w gilydd wedi bod yn ceisio eu hefelychu. Y Parch. John Parry oedd golygydd *Y Drysorfa* hefyd am y pymtheng mlynedd cyntaf o'i chyhoeddiad, ac efe oedd ei hargraffydd, yn gystal ag argraffydd llawer iawn o'r llyfrau mwyaf pwysig, yn dwyn cysylltiad a Chymru, a gyhoeddwyd yn ystod

anner gyntaf y ganrif hon. Cymerodd Mr. Parry Ieuan Glan Geirionnydd ato i'w gynrthwyo yng ngolygyddiaeth y *Goleuad*. Bu Alun hefyd,—y Parch. John Blackwell, M.A., —yn ei gynorthwyo yn yr un gwaith. Yr edd y ddau, —Glan Geirionnydd ac Alun, —yn Fethodistiaid y pryd hwnnw, ac wedi ael eu dwyn i fyny felly, ac yr oedd Glan Geirionnydd yn flaenor gyda'r Methodistiaid an symudodd i Gaer, er nad oedd ond chydig dros ddwy ar hugain oed pan gymerdd hynny le. Bu Glan Geirionnydd, ym hen amryw o flynyddoedd ar ol hynny, yn olygu un arall o gylchgronau y Parch. John Parry, sef *Y Gwladgarwr* (1833), un o'r isolion goreu a ymddanghosodd eto. Ar ol gysylltiad Glan Geirionnydd a'r *Gwladgarwr* erfynu, ymgymerwyd a'r olygyddiaeth gan rfyl, un yn dwyn cysylltiad agos a'r symudiad crefyddol newydd," nai i Hugh ones, Maesglasau, cyfeithydd Gwaith osephus i'r Gymraeg, ac awdwr yr hymn lnabyddus,—

"Pa le,
Y gwnaf fy noddfa dan y ne'."

u Alun hefyd, ar ol bod yn cynorthwyo yng golygyddiaeth y *Goleuad*, yn golygu *Cylchrawn y Gymdeithas er taenu Gwybodaeth fuddiol* 1834). Dygid *Y Cylchgrawn* allan gan yr n Gymdeithas ag oedd yn dwyn allan y *enny Magazine*, ond camgymeriad dybryd oedd ywedyd yn y *Welsh Review* am Ragfyr mai *Penny Magazine* wedi ei gyfeithu oedd *Y ylchgrawn*,* ac mai am ran o flwyddyn y aeth allan; ond, o ran hynny, nid hwn yw unig gamgymeriad yn yr erthygl hynod y rfeiriwn ati. Yn y flwyddyn 1814, ymlanghosodd *Seren Gomer*, perchennog a olygydd yr hon oedd y Parch. Joseph Harris, weinidog enwog yng nghyfundeb y Bedyddyr. Fel newyddiadur pythefnosol y dygid y *eren* allan ar y cychwyn, ac un o'r newyddduron cyntaf ar ol y *Seren* oedd *Cronicl yr es*, yr hwn a olygid ym mlaenaf gan y arch. Owen Jones, F.R.G.S., ac ar ei ol ef, an y Parch. Roger Edwards.

Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn dechreu ino erbyn hyn ar ein gwaith yn dwyn ym laen enwau y naill weinidog ar ol y llall; id nis gallwn oddiwrth hyn, oblegid gweinidgion, — pregethwyr, — fel y darfu i ni rybwyll yn y dechreu, sydd wedi bod a'r aw flaenaf bob amser yn nygiad allan gyf-

*Wrth geisio cywiro camgymeriad mewn all, dyma ni wedi gwneyd camgymeriad ein nain. Y *Penny Cyclopædia* - gwaith anfeidrol, wedl y beirdd, mewn 29ain o gyfrolau mawrion, wchus—oedd y llyfr a gyfeithwyd, a hynny o n olygiad rhyw Revd. J. Blackwall, ac nid y *enny Magazine*. Pwy heblaw y *Welsh Reviewer*, s, a welodd y *Penny Cyclopædia* yn Gymraeg?

nodolion Cymreig. Pregethwyr Cymru yw ei chymwynaswyr pennaf; ac nid ei beirdd; a phwy bynnag na fyddo yn foddlon i addef hyn, rhaid ei fod yn cael ei lywodraethu gan ragfarn gref, neu ynte ei fod yn druenus o anwybodus o hanes lenyddol ei genedl. Ond yn wir, y mae y ddau hyn, rhagfarn ac anwybodaeth, yn cydfyned a'u gilydd agos bob amser; am fod un yn anwybodus, yn fynych, y mae yn rhagfarnllyd. Bu y Deffroad Crefyddol trwy Harris, Rowland, y ddau Williams, a'u cydlafurwyr, yn Ddeffroad Llenyddol yng Nghymru. Ym mhob cangen o lenyddiaeth Gymreig, oddiar 1740 hyd yn awr, pregethwyr, a'r rhai oedd o dan eu dylanwad, sydd wedi bod yn arwain. Tlawd iawn a fuasai llenyddiaeth Gymreig o ran y beirdd,—a chau beirdd cysegredig ein cenedl allan. Yr ydym yn cofio fod Iolo Morgannwg wedi gwneyd gwasanaeth mawr fel hynafiaethydd, ac hefyd Owen Myfyr, gŵr ag oedd yn frodor o Sir Ddinbych, ac nid o Feirionnydd, fel y myn rhai ei wneyd. Cydmarer barddoniaeth fasweddol ac aflan y rhan gyntaf o'r ddeunawfed ganrif, â barddoniaeth y rhan olaf ohoni, a cheir gweled fod y Diwygiad, fel y dyfroedd sanctaidd a welodd Ezeciel gynt, wedi iachau, i raddau tra anghyffredin, bopeth ag y daeth i gysylltiad ag ef.

Pan ysgrifennir hanes llenyddiaeth ddiweddar Cymru (a pha bryd y gwneir hynny?) bydd yn rhaid rhoddi lle mawr a phwysig i'r gwyr da a ennwyd uchod,—ac i ereill, o'r un dosbarth a hwy, y rhai nas gellir cymaint a chyfeirio atynt mewn ysgrif fras ac anghyflawn o'r fath hyn,—ar un gangen o'n llenyddiaeth, a hynny am yn unig y trigain mlynedd cyntaf o hanes yr un gangen honno. Iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am gadwedigaeth ein hiaith; oni buasai am bregethu Cymru, am ein Hysgolion Sabothol, ac am ein llenyddiaeth grefyddol, buasai ein cenedl heb ei hiaith, ac heb ei llenyddiaeth (Gymreig) ers llawer o amser. Cadwyd llawer o stwr gan Eisteddfodwyr y rhan gyntaf o'r ganrif hon, a bloeddiwyd llawer ar yr hen arwyddair "Oes y byd i'r iaith Gymraeg" ym mân gyfarfodydd yr hen Gymreigyddion, yn y rhai y *proffesid* gwneyd beirdd o bawb a'u mynychent, ac y *llwyddid* i wneyd meddwon o honynt. Ond, o'u rhan hwy, isel iawn a fuasai sefyllfa Cymru heddyw yn ddeallol, yn gystal ag yn foesol a chrefyddol. Y mae pregethwyr Cymru, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, mewn modd arbennig iawn, wedi bod yn *ddysgawdwyr* y genedl, a phell fyddo y dydd i'r Cymry anghofio eu dysgeidiaeth, a throi oddiwrth eu cymwynaswyr pennaf.

Lleygwr.

CYMRU FYDD.

MAE hen wlad y bryniau yn dringo i'r lan,
A hi fydd brenhines y byd yn y man;
Ei henwog arweinwyr, a'i gweithwyr yn gâd,
Ymunant i godi'r hen wlad,—
Gwlad, gwlad, codwn bawb ein gwlad,
O! doed i'r lan, i'r lan doed hi,
A safed byth mwyach mewn bri.

Mae ysbryd Llywelyn ac Owen Glyn Dŵr
Yn galw holl Gymru i ddod fel un gŵr,
I fwrw hen elyn Llywelyn i'r llawr,
Ac ennill ei rhyddid yn awr,—
Gwlad, gwlad, codwn, bawb ein gwlad,
O! doed i'r lan, i'r lan doed hi,
A safed byth mwyach mewn bri.

Mae swn y cadwyni'n cadwasant i lawr
I'w clywed yn chwalu yn chwilfriw yn awr,
A rhaid i law gormes, hen deyrnes ein dydd,
Ein gollwng o'i gafael yn rhydd,—
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Ein iaith sy'n ymgodi, a chodi a wna,
A chroesaw i'r cylchoedd uchelaf a ga;
Yr hen Gymraeg felus yn ddilys a ddêl
Yn ben iaith y gwledydd heb gêl,—
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Ein meibion a godir i urddas a bri,
Yn faerod, arglwyddi, enwogion heb ri;
Mae gennym oreugwyr arweinwyr yn awr,
A chodant hen Gymru yn fawr,—
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Ni phlygwn byth mwyach i Scotyn na Sais,
Ni wasgant o honom un geiniog trwy drais;
Ni ront ar ein gwarrau eu hieuau yn hwy,
Ond rhyddion a fyddwn byth mwy,—
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Ni fydd Dic Shon Dafydd pryd hwnnw i'w gael,
Bydd gwadu, neu gwilydd o'n hiaith yn rhy wael;
Ond balch fydd pob Cymro mai Cymro iawn fydd,
Mor enwog fydd Cymru ryw ddydd!
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Ni fydd Ymneillduwr na Llannwr bryd hyn,
Ni fydd un rhonc Dori na Radical tyn ;
Ond pawb yn cyd-doddi, ymroddi i'r iawn,
A chariad ac undeb a gawn,—
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Paradwys y gwledydd fydd Hen Wlad y Gân,
A'r pennaf enwogion fydd meib Cymru Lân,
Ac yna'n Fêl Ynys, yn wir Ynys Wen
Bydd hoff wlad fy nhadau, Amen.
Bydd, bydd, enwog Gymru Fydd,
Yn wlad heb drais, na chlais, na chledd,
Wen Ynys yn hoenus mewn hedd.

Penrhyndeudraeth. GWYNDUD JONES.

MAE CYMRU'N FYW.

DEFFRO, deffro, hoff awenydd,
Dyma destun o lawenydd,—
Er ein dwyn dan iau Rhufeiniaid,
Er ein herlid gan Sacsoniaid,
Ac er syrthio o'n gwroniaid,
Mae Cymru'n fyw.

Er in' golli'n hanibyniaeth,
Er anrheithio ein trefdadaeth,
Er oer frad y cyllill hirion,
Er cyflafan y Derwyddon,
Ac er tywallt gwaed ein beirddion,
Mae Cymru'n fyw.

Methodd holl ystrywiau'r gelyn
Dorri tannau byw ei thelyn ;
Fel cyfaredd, ei sain-nodau
Gludir ar adenydd oesau,—
Anfarwoldeb sy'n ei thonau,
Mae Cymru'n fyw.

Byw yw ysbryd dewr y Brython,
Byw ein hiaith, a byw ein defion,
Môr o gân o benbwygilydd,
Heddyw, ydyw Cymru lonydd,
A chan falchder chwyfia'i choedydd,
Mae Cymru'n fyw.

Tra bo haul yn y ffurfafen,
Tra bo lloer, a thra bo seren,
Tra bo clogwyn, tra bo ffynnon,
Tra bo'r Wyddfa fawr yn Arfon,
A thra gwaed yng nghalon Brython,
Bydd Cymru byw.

Wavertree. CARNALAW.

GOFYN AC ATEB.

VIII. LLYN NELFARCH.

Clywais neu darllenais yn rhywle fod chwedl, tebyg i chwedl Llyn y Fan Fach, yn cael ei hadrodd am lyn arall yn y Deheudir. Da fuasai ei chael ar ddu a gwyn ar ddalennau CYMRU, a gobeithiaf y bydd i rywun o'i ohebwyr ei hanfon. Hyd ag yr wyf yn cofio, Llyn Nelfarch oedd enw'r llyn, —ond dichon mai Nelfarch yw, neu Helfarch, — a gorwedd rywle y'nghymdogaeth Dyfynnog.

Rhydychen. J. RHYS.

IX. DARN O GYWYDD.

Ymhlith papurau hen fardd, cefais ddernyn anhebyg iawn i'w waith ef. A fedr rhywun fy hysbysu pwy yw ei awdwr, ac ym mha le y medraf gael y cywydd yn ei hyd? Dyma'r dernyn, —

"O Fain Haf mae gown hon,
O gan a blodeu gwynion;
Gown lloer neu alarch yw'r lliw,
A chynt na rhew-wynt i'r rhiw,
Gorlliw calch ar gaer falch fydd,
A mel gwyn ymylau gweunydd."

Pwy ddesgrifir hefyd?

Lerpwl. D. JONES.

X. NAPOLEON A CHYMRU.

Gwelais yn rhywle fod Napoleon, pan yn dymuno dod yn ddinesydd Prydeinig wedi Waterloo, hefyd wedi datgan ei ddymuniad i gael byw yng Nghymru. Yr wyf wedi chwilio pob llyfr o fewn fy nghyrraedd am hyn, ond yn ofer. A fedr rhywun fy nghynorthwyo?

Taliesin. GRUFFYDD WHITTINGTON.

XI. YMADRODDION.

Hoffwn yn fawr gael esboniad ar yr ymadroddion canlynol, a glywais lawer gwaith,—"cyn wynned a'r carlwm," "cyn iached a'r glain," "colli'r gyr-dit," "rhedeg am wics,' "gwadd i ffrâm."

XII. DARN O BENNILL.

Clywais y pennill a ganlyn. A fedrwch ddweyd pwy a'i gwnaeth, ac a ocs ychwaneg nag ef?

"Fe ddwedai mam wrth farw
Fod Duw yn rhywle'n bod,
Y cofiai ef am danom,
Ond mae'n hir iawn yn dod;
Os gwelwch Dduw yn rhywle,
O dwedwch wrtho am
Ddod heibio'r ddau amddifad
Sy'n wylo ar fedd eu mam."

Llandrillo. R. E. J.

XIII. GWAED CYMREIG OLIVER CROMWELL.

Mewn atebiad i gwestiwn am haniad Cymrcig Oliver Cromwell, y mae'n dda gennyf roddi'r ddau lythyr hyn.

"Pan ddaeth Harri'r Seithfed i'r orsedd, wedi brwydr Maes Bosworth, cymerodd ef a'i ewythr Jasper Tudor, duc Bedford, eu trigfan ym mhalas West Sheen Gwyddoch mai Cymry o'r Deheudir oedd y brenin a'i ewythr. Yr oedd eu gweision a'u gosgorddlu bron i gyd yn Gymry. Ac yr oedd y rhain yn byw, gyda u teuluoedd yng nghyffiniau'r palas,—West Sheen, East Sheen, Mortlake, Putney, Roehampton. Hiraethent am eu diod gysefin,—cwrw, cwrw Cymreig. A daeth John Morgan, darllawydd o Gaer Dydd, gyda'i ddau fab John a Griffith a'i nai Morgan Williams, a chododdd ddarllawdy ym Mortlake. Cododdd y meibion a'r nai ddarllawdy cyffelyb yn Putney. Mewn amser aeth y tad a'r meibion adre i Gymru; ond arhosodd Morgan Williams yn Putney, fel darllawydd a thafarnwr. Tra yno, yn eglwys Putney, priododdd chwaer hynaf Thomas Cromwell,—Katharine Cromwell. Cawsant ddau fab, Richard a Walter. Ganwyd Richard yn Llanishen, ger Caer Dydd; a Walter yn Putney.

JOHN PHILLIPS, C.E."

Yng nghanol y Cymry hyn y dygwyd Thomas Cromwell i fyny, ac i Gymro y bu'n egwyddorwas. Beth ydyw perthynas Oliver Cromwell â hwynt? Ychydig o wythnosau'n ol prynnodd llyfrgell y Bodleian lawysgrif yn perthyn i'r Parch. Mr. Richards, Llanegwad, ac ynddo mae achau Oliver Cromwell, yn llaw Iago ab Dewi, wedi ei ysgrifennu tua 1685. Trwy garedigrwydd J. Gwenogfryn Evans cefais gopi o hono,—

"Oliver L. Protector son to Robert Cromwell Esq son to Sir Richard Cromwell son to Sir Richard Williams alias Cromwell begotten on a daughter of Walter Cromwell which Sir Richard Cromwell was son to Morgan Williams, son to William Morgan of new church Gwladmorganshire and one of the Privy chamber to Henry the 7th son to John son to Morgan son to Howell son to Madog Lord of Cibion son to Alan Lord of Kibion son to Owen Lord of Kibion son to Cadwgawn son to Blethyn ap Cynfyn prince of Powys and North Wales."

XIV. CERDD Y WINLLAN.

(Ateb i R. Bennet. vi. Cyf. I. 224).

Robert Evans, o blwyf Meifod, yn Swydd Drefaldwyn ydyw awdwr Cerdd y Winllan. Cymerwyd ei hystyriaeth o efengyl St. Matthew, xx. 6,—"Paham y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?" Y mae i'w chanu ar y dôn "Ffarwel Dai Llwyd" Cynhwysa ugain o benillion, un linell ar bymtheg yr un, gyda phennawd uwch pob pennill. Cyhoeddwyd hi yn "Blodeugerdd Cymry," o gasgliad Dafydd Jones, Tan yr Yw, Trefriw, 1759.

Llangynwyd. CADRAWD.

XV. HWIAN GERDDI.

A oes casgliad o'r hwian gerddi Cymreig. Y mae rhai o honynt yn brydferth iawn, oni fyddai'n werth eu casglu, a'u cadw yng NGHYMRU.

LLON-A-HEN.

Y mae Ceiriog wedi casglu llawer o'r hwian gerddi, ac y maent wedi eu hargraffu yn un o gyfrolau Gwrecsam. Yr wyf finnau yn eu casglu i GYMRU'R PLANT; a byddwn yn dra diolchgar i Lon-a-hen ac ereill am y rhai ddysgwyd iddynt hwy. GOL.

XVI. MANION.

Gwel T. E. Jones ysgrif ar Ismael Jones yn y rhifyn hwn, a gwel yr atebir ei holl ofyniadau ynddi. Yr oeddwn wedi meddwl cael darlun o dy yr hen batriarch i'w chanlyn, ond ni chefais amser i ymohebu â'r arlunydd. Daw'r darlun eto.

Gofyn G. W. a ddylid condemnio'r arferiad o ysgrifennu Lloegr am Bryden, a Saeson am Brydeiniaid. Dylid, yn ddiameu. Yn yr *Act of Union* (1707) rhwng Lloegr a'r Alban, cytunir mai Pryden a Phrydeinwyr ydyw yr enwau i fod. Ni fyn yr Ysgotyn i neb ei alw'n Sais, na'i wlad yn Loegr. Ond am y Cymro druan, y mae ef yn barod i ddioddef pob peth, mor barod nes y mae rhywun wedi tybied mai am dano ef yr ysgrifennwyd,—"Ar dy dor y cerddi, a phridd a fwytei, holl ddyddiau dy cinioes."

Byddaf yn Bodleian y mis hwn, a chwiliaf am lawysgrif y cyfeiria J. W. J. ati. Bum yn chwilio llyfrgell Milan am lyfrau Gruffydd Roberts, ond methais ddarganfod dim. Pan af i'r Eidal eto, chwiliaf yn fanylach. GOL.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

Ysgrifennwyd y penodau hyn gan un swynwyd er's llawer blwyddyn gan y Diwygiad Ffrengig. O l agweddau'r Diwygiad Protestanaidd, y Diwygiad yn Ffrainc ydyw'r prydferthaf a'r mwyaf dyddorol. mae llawer peth yn rhoddi dyddordeb iddo,—y rhan gymerodd merched ynddo,—Margaret o Valois, née o Ferrara, Joan o Navarre; yr athrylith fu'n cynllunio ei frad, a chyflafan St. Barth lomew; rywiaeth cymeriadau y Diwygwyr,—Farel, Coligni, y Fraich Haiarn, Rohan,—a'u tebygolrwydd i mry; a'r cydymdeimlad enynnir yn ein mynwesau wrth weled yr erlidiwr yn dinistrio crefydd gafodd offeswyr mor gynnes ac amddiffynwyr mor ddewr. Ysgrifennwyd penodau'r hanes byr hwn yn y pedd ddesgrifir,—tref, capel, neu faes brwydr.

I. ALLOR NEWYDD.

"Efe a fwriodd ymaith y ffiaidd eilunod, ac a adnewyddodd allor yr Arglwydd."

YN nechreu'r ail ganrif ar bymtheg cymerwyd yr allor garreg fawr o eglwys deiriol Geneva; ac arni hi, o hynny allan, rhoddid drwg-weithredwyr i farwolaeth. Pabyddion, cysegr-ysbeiliad beiddgar dd gwneyd yr allor yn ddienyddle,—wydd fod y Diwygwyr wedi colli ofn yr n allor, ac arwydd y gwnaent ddefnydd m a di-drugaredd o'r allor newydd. I'r iwygwyr eu hunain, yr oedd y traws-newid vn yn arwydd o'u nhewid bywyd,—gwnawd lor crefydd farw yn allor moesoldeb byw.

Deffroad moesol oedd y Diwygiad yn frainc. Tra mae y Diwygwyr Almaenaidd rhoddi pwys ar anibyniaeth, y mae'r iwygwyr Ffrengig yn rhoddi'r pwys i gyd burdeb bywyd. Gwelodd yr Almaenwr d rhyddid ei gydwybod wedi ei ddwyn oddino, gwelodd y Ffrancwr fod ei natur frwdydig wedi gwneyd iddo dorri i lwybrau waharddedig. Pan wawriodd y Diwygiad rotestanaidd, cafodd yr Almaenwr ei hun ewn carchar, yn gorfod byw yn groes i'w ydwybod; ond cafodd y Ffrancwr ei hun yn y rydd, ar lwybrau anghyfraith a phenyddid. Teimla'r Almaenwr y rhyddid ewydd sydd yng ngwasanaeth Duw, teimla'r francwr y rhwymau newyddion osodir arno an ryddid Duw. Gallai'r ddau gyd ganu,—Yn dy gyfraith y mae rhyddid perffaith,"—nd ar y gair cyfraith y rhoddai'r Ffrancwr bwyslais, tra mai'r gair rhyddid a bwysisiai'r Almaenwr. Hoff air Luther ydyw rhyddid,"—gwaith ei feddwl oedd gwrthyferbynnu rhyddid a chaethiwed. Hoff air alfin ydyw "ymwadu,"—gwaith ei feddwl oedd gwrthgyferbynnu sancteiddrwydd a hechod. Dechreuodd Luther drwy gyhoeddi nyfel yn erbyn ei orthrymwyr, dechreuodd alfin trwy weithio cadwen credo haiarnaidd. yhoeddiad rhyfel ar ddrws hen eglwys Vittenberg drodd lygaid y byd at Luther, yhoeddi Cyffes Ffydd drodd lygaid y byd t Galfin. Datganiad rhyddid dyn ydyw utheriaeth; *fatalism* ydyw Calfiniaeth, *fatalism* wedi ei ail eni" mae'n wir, ond *fatalism* wedi'r cwbl. Teimlodd yr Almaenwr gryfder iach ei natur, ac ymladdodd yn erbyn y rhai geisiai ei gadw yng nghaethiwed defodaeth; teimlodd y Ffrancwr bechod cynhennid ei natur, ac ymladdodd yn erbyn ei natur ei hun,—gan deimlo ei bod bob amser yn hoffi'r drwg, gan deimlo fod y cnawd yn ceisio dal yr enaid mewn caethiwed.

Dyma'r rheswm pam y mae sain emynnau'r Almaen mor ryfelgar a buddugoliaethus, tra mae emynnau Ffrainc mor bruddglwyfus. Nid oes swn buddugoliaeth na llawenydd rhyddid yng nghredo haiarn Calfin, ym manylder caled bywyd Coligni, yng ngweddiau cynhyrfus Casaubon, yng ngalar Agrippa d'Aubigné, yng ngweddnewidiad enaid La Noue. Ond, er trymed ei hanes ac er prudded ei ddiwedd, nid oes ystori odid i Ddiwygiad fedr swyno'r meddwl ac ennill cydymdeimlad fel y medr ystori'r Diwygiad yn Ffrainc.

Y mae tri chyfnod yn yr hanes hwn. Ymestyn y cyntaf (1520—1525) o amser Diwygwyr Paris hyd ymddanghosiad *Institutio* Calfin. Yn ystod y cyfnod hwn yr oedd cymdeithasau bychain drwy'r wlad, heb undeb, cymdeithasau o rai wedi blino ar anwybodaeth yr offeiriaid, ar ofergoeledd y bobl, ac ar anfoesoldeb yr oes. Yn eu mysg yr oedd llawer iawn o uchelwyr, boneddigion, a gwyr dysgedig. Cyfnod tyfu'r Diwygiad Ffrengig oedd hwn, cyfnod gobaith, pan y meddyliai'r Diwygwyr yr enillid Ffrainc ar frys. Dyma'r Cyfnod Aur.

Ar ddechreu'r ail gyfnod (1525—1559) gwnaeth yr erlid i Galfin ysgrifennu ei apêl at Ffransis y Cyntaf. Clywyd swn llais Calfin gan y cymdeithasau crefyddol trwy Ffrainc, ac ymunasant yn un corff. Yn 1559 ymgyfarfyddodd cynrychiolwyr yr eglwysi yn y gynhadledd gyntaf,—Synod Paris,—ac yno, tra'r oedd cleddyf yr erlidiwr yn crogi uwch eu pennau, gwnaethant un Gyffes Ffydd ac un llyfr rheolau disgyblaeth eglwysig. Hwn oedd cyfnod cryfder ysbrydol,—ond yr oedd gobaith y Diwygwyr yn dechreu gwanhau. Nid ennill Ffrainc, ond ennill goddefiad i'w crefydd, ydyw eu hamcan yn ystod y cyfnod hwn. Dyma'r Cyfnod Arian,

Yn y trydydd cyfnod (1559—1589) daeth y Diwygiad yn symudiad politicaidd. Yn yr ail gyfnod gwnaeth Calfin y Diwygwyr yn gorff crefyddol; yn y trydydd cyfnod gwnaeth Catharine de Medici hwy'n gorff politicaidd, i'w phwrpas ei hun. Cynrychiola Condé hwy yn eu hagwedd boliticaidd newydd, a chynrychiola Coligni hwy yn eu hen agwedd grefyddol. Daethant yn ddigon cryfion i godi byddin ac amddiffyn eu crefydd, a rhoddasant frenin o'u plith eu hunain ar orsedd Ffrainc. Ond dinistriwyd eu nerth yn yr ymdrech. Methasant ennill y lliaws,—yr oedd eu hamcanion yn rhy uchel; a chollasant, yn y rhyfel, yr ysbrydolrwydd oedd yn gudd-iad eu cryfder. Gyda'u llwyddiant, dechreuodd eu diwedd. Dyma'r Cyfnod Haiarn.

Y mae un cyfnod arall,—cyfnod y dioddef. Nid oes yn hanes crefydd ddim mor ddyddorol a hanes "eglwysi'r anialwch." O flaen erledigaeth erchyll ei chreulondeb, difodwyd Protestaniaeth Ffrainc. Prynnwyd llawer, llofruddiwyd rhai, alltudiwyd miloedd a miloedd. O fysg yr elltyd hyn a'u meibion y cafodd Pryden a Phrwsia rai o'u dynion enwocaf. Ac mewn un lle yn Lloegr, yng nghrypt eglwys gadeiriol Caer Gaint, y mae cynulleidfa fechan eto'n ymgyfarfod i addoli yn yr iaith Ffrancaeg, fel y gwnai eu tadau yn "eglwysi'r anialwch," ddau can mlynedd yn ol.

II. DIWYGWYR PARIS.

"Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior
Yn dwyn ei waith i ben."

Trwy holl oesoedd ei hanes, mewn drwg a da, mewn ymoddef a chwyldroad, y mae Ffrainc wedi ei harwain gan ddinas Paris. O Baris y cymer Ffrainc bopeth,—o'i chrefydd i ffasiwn ei gwisg. Ac yn amser y Diwygiad yr oedd y Parlement a'r Sorbonne,—senedd cyfreithwyr Paris, a choleg ei diwinyddion,—yn meddu dylanwad di-derfyn yn Ffrainc.

O holl ddoctoriaid y Sorbonne, nid oedd neb mor hyddysg yn athroniaeth a diwinydd-iaeth yr oes honno a'r hen Jacques Lefèvre. Ganesid ef ym mhorthladd bychan neillduedig Etaples, ar draeth Picardy, yr oedd ei rieni'n dlawd, ac nid oedd dim yn ei ysbryd addfwyn gostyngedig ef i ddangos mai efe fyddai dinistrydd hoff gredoau ei oes. Yr oedd yn llawn o gywreinrwydd aniwalladwy, cywrein-rwydd a'i gyrrodd dros dir a môr i chwilio am wybodaeth, cywreinrwydd a wnaeth iddo lwyr feistroli holl wybodaethau ei oes. Ond yr oedd y cywreinrwydd hwn yn ddarostyng-edig i'r parch mwyaf tuag at yr hyn a fu, ac i ffydd ddall yn yr Eglwys anffaeledig. Lefèvre oedd cynrychiolydd athroniaeth y Canoloesoedd ar ei goreu; efe oedd cyn-rychiolydd crefydd y Canoloesoedd ar ei phuraf. Iddo ef yr oedd y naill yn wir wybodaeth, a'r llall yn brydferthwch sanct-eiddrwydd. Nid oedd neb yn credu mor ddwys yn yr offeren, nid oedd neb gusanai'r Groes mor frwdfrydig, nid oedd bererin roi flodau mor aml o flaen delwau'r Forwyn. Fel yr heneiddiai, gwelid ei bererindodau'n amlhau, a'i ffyddlondeb i'r Forwyn yn dyblu; ond ni wyddai neb mai ceisio mygu amheuon yr oedd. Yr oedd ei ymchwiliad yn drylwyr, gwnai bopeth gyffyrddai ag ef yn glir,—

"Llwybrau prydferth ser erwydredig
Wnaethost ti yn eglur iawn."

Cyn hir gorfod iddo gredu nad oedd athroniaeth ei oes yn debyg i athroniaeth Aristotl, er y tybid mai ar honno yr oedd wedi ei sylfaenu. Trwy hyawdledd ei areith-iau a'i lyfrau, dinistriodd yr hen gyfundrefn y magwyd ef ynddi, a daeth ag athroniaeth well i ddysgawdwyr Ffrainc.

Ar ol athroniaeth, daeth tro diwinydd-iaeth yr oes. A rhyw ddiwrnod dacw Lefèvre yn dechreu ysgrifennu hanes y seintiau, gan ddechreu yn nechreu'r flwyddyn, a mynd trwy'r seintiau i gyd. Llafuriodd drwy seintiau dau fis, tra'r oedd amheuon yn ymgasglu'n amlach amlach o'i gwmpas; ac yna stopiodd,—i ddarllen ei Feibl! Darllen-nodd ei Destament Groeg drwyddo, ac y mae ei hanes y seintiau heb ei orffen eto. Danghosodd i ddechreu fod yr Eglwys yn addoli tair Mair gan feddwl mai un oeddynt; a bu dadleu chwerw am hyn. Ond dar-ganfyddodd Lefèvre wirioneddau mwy pwysig na hynny yn ei Destament Groeg,—ac o'r diwedd cyhoeddodd mai'r Beibl yw unig reol y credadyn ac mai trwy ffydd yn unig y cyfiawnheir dyn ger bron Duw. A daeth athronydd dysgedicaf ei oes yn efengylydd, gan gyfaddef na wyddai ddim. A'r efengyl fu ei destun mwy,—

"Medr hi wneyd pob cenedl yn ddedwydd. Hi yn unig fedr ddangos Duw. Nis gall goleu ser dirifedi ddangos yr haul yn y nos, ac nis gall meddyliau dirifedi dynion ddangos yr Efengyl."

Tra meddyliai Lefèvre y gwnai'r efengyl Ffrainc yn heddychlon, yr oedd Guillaume Farel yn un o'r rhai brwdfrydig hynny y try efengyl heddwch yn gleddyf rhyfel yn eu dwylaw. Ganwyd ef yn 1489, yn ymyl Gap, lle y gedy'r Durance dryst-fawr fynyddoedd yr Alpau, cyn llithro drwy wastadeddau ffrwythlawn Provence i'r môr. Meddai Farel ddychymyg bywiog a theimladau cryfion y de; fel y meddai Lefèvre ochelgarwch

myneddgar a doethineb hirben y Picard. Daeth Farel i Baris pan yn ddeunaw oed, i hwilio am wybodaeth. Swynwyd ef ar nwaith gan ddarlithiau dysgedig Lefèvre. Daeth yn hoff ddisgybl yr hen wr, canlynai f ar ei bererindodau at y gwahanol groesau c allorau'r Forwyn, a gwelid ef yn penlinio tu ol i'w athraw o flaen yr allorau, gyda'r studrwydd mwyaf, gan ddal y blodau blethai i athraw i Fair. Rhydd ddarluniad o ererindodau a sel ei ieuenctyd, darluniad y nae ei dynerwch weithiau'n ymylu ar y igrif. Ni fu neb mor ffyddlawn i'r Forwyn 'r seintiau a'r defodau ag ef,—"yr oedd fy ghalon yn fwy Pabyddol," meddai, "na'r Babyddiaeth ei hun."

Pan welwyd Farel yn ystafelloedd darlithio'r orbonne, yn llawn hiraeth am ei gartref ynyddig ac am ei rieni syml duwiol, prin y uasai neb yn meddwl yr ai adref i ddinistrio'r en ffydd ac i roi tân ar y ddaear. Tostur- odd Levère wrtho, pan welodd mor ddyfal yr edd yn ceisio'r Iesu mewn bedd gwag, a dy- vedodd wrtho beth oedd ef ei hun wedi ei darganfod, — mai Duw yn unig a ddylid ddoli, ac mai ei ffydd ei hun yn unig a gyf- awnha bechadur. Bu ymdrech chwerw yn naid y gŵr ieuanc wrth adael ei eilunod; ac na, gyda holl nerth ei enaid, ymdaflodd i vasanaeth Crist yn unig.

Pan ddaeth heddwch i'w enaid, dywedodd Lefèvre wrtho y doi'r un heddwch i Ffrainc rwy'r efengyl. Ymhen blynyddoedd lawer, ng nghanol yr erlid a'r rhyfel, cofiodd Farel am y dywediad hwn.

"Y sarff a dwyllodd Efa," ebai un o fyw- raffwyr Pabyddol Margaret o Valois, honno roddodd i'w merched eu cariad at opeth newydd. Hwy brofodd wenwyn eresi gyntaf, ac a'i rhoddodd i ereill; oni ai am danynt hwy, ychydig o lwyddiant awsai'r grefydd newydd yn Ffrainc." Cyn- ychiolydd goreu'r Diwygiad yn Ffrainc, fel dfywiad moesol a deffroad meddwl, ydyw Margaret o Valois, chwaer hoff Ffransis y Cyntaf,—gyda'i bywyd pur a'i hawydd am vybodaeth. Nid oedd neb yn Ffrainc, ond y renin ei hun, a chymaint o rym yn ei air. Ffransis anfoesol, yr oedd Margaret yn rwydd o bopeth oedd brydferth a phur. I ysgenhadon gwledydd ereill, hi oedd coron gogoniant llys Ffrainc. Nid oedd ond chydig o Ffrancod heb fod dan ei dylanwad, —y Gruises hunanol, a'r hen Fontmorency topiai ar ganol ei weddi i grogi Protestant. Ond hanner addolid hi gan holl wyr dysgedig Ffrainc; hi hefyd oedd eilun yr holl bendefig- on. "Cuddiodd ei Phrotestaniaeth yn ei chalon," ebai un a'i hadnabyddai'n dda. Ei hoff flodeuyn oedd hwnnw sy'n troi bob amser i edrych ar yr haul, a throai hithau ei gwyneb bob amser at Dduw. "Pwy fuasai'n tybio fod heresi yng nghalon hon?" Pan briododd frenin Navarre, gadawodd yn llys Ffransis eneidiau wedi eu llwyr ennill gan symlrwydd yr Efengyl.

Er na chollodd Margaret ei chydym- deimlad gyda'r hyn oedd brydferth yn yr hen Eglwys, ysbryd y Diwygiad sy'n anadlu yn ei chaneuon. Nid cyfres o weddiau ac offrymau ar adegau penodedig ydyw crefydd iddi hi, ond bywyd yn ymsancteiddio. Nid gweddiau destlus perffeith-ffurf y Babydd- iaeth fedrai osod allan ei theimladau hi; fel Ann Griffiths yng Nghymru, gwnaeth Ddiwinyddiaeth yn gân cariad gwraig. Teimlwn wrth ei gweled,—weithiau'n llawen ac weithiau'n wylo, weithiau mewn cariad ac weithiau mewn ofn, weithiau'n penlinio mewn edifeirwch, a'i dagrau ar hanner eu sychu,— teimlwn mai nid traddodiadau'r tadau ydyw gwir grefydd, ond bywyd dynol yn ymsanct- eiddio. Hiraeth calon gwraig sydd yn ei hemynnau,—

"Fy Iesu, pryd y daw'r dydd
Hir ddisgwyliais
I'm tynnu atat? Trwy ffydd
Ynnot ymserchais.
Pryd y bydd undeb serch
Y sicir amod,
Pan y gelwir y briodas ferch
Ar enw'i phriod?

"Mae'r dydd dyweddi'n hir
Yn gwawrio, Arglwydd;
Heb weledigaeth glir
'Rwy'n poeni beunydd;
Nid oes o fewn y byd
Bleser imi,
Na dim i'w ddisgwyl hyd
Nes y deui.

"Edrych ar fy nghur,
Sych fy nagrau;
Fy mhriod, pryd y ffy'r
Tew gymylau?
Sisial eiriau mwyn
Dy gariad ataf,
Ac yn eu melus swyn
Ymlonyddaf."

Emynnau Margaret o Valois,—weithiau'n brudd a lleddf, weithiau'n llawen, wedi eu canu ar alawon Ffrainc,—fu cysur llawer un o'i chydnabod fu farw ym mrwydr Saint Denis, neu ar ddienyddle y Place de Grêve.

Nid yn hollol o'i bodd yr amddiffynnodd Margaret un o weision ei brawd, yr hwn a gyhuddid o heresi. Er yr erlidid ef ɛm grefydd, yr oedd Clement Marot yn

gynrychiolydd o bechodau yn ogystal ag o athrylith llys Ffransis y Cyntaf. Enillodd le yng ngwasanaeth y brenin trwy ysgrifennu pennill foddhaodd Fransis. Er na feddai burdeb bywyd y Diwygwyr, ymwthiai atynt oherwydd ei fod yn cydymdeimlo a'u syniadau ac oherwydd ei fod yn cashau Pabyddiaeth. Pryd bynnag y syrthiai'r mynachod neu ddoctoriaid y Sorbonne o ffafr y brenin, chwipiai ei fardd hwynt yn ddi-drugaredd mewn cerddi gwawd; a phan fedrent erlid, Marot fyddai'r cyntaf un welid yn dianc o Baris. Yr oedd ei fywyd yn llawn anghysonderau,—yr oedd yn gyfaill i Galfin ac i Rabelais; carai Ddiana o Boictiers, ac edmygai Fargaret o Valois; erlidid ef gan un a garai, am grefydd na reoleiddiodd ei fywyd erioed; yr oedd wedi ymgolli mewn pechod yn anadferadwy, a dymunai fod ei fywyd yn bur fel bywyd blodeuyn; canodd ganeuon sy'n llawn o wenwyn cyfun pechod, a rhoddodd i'r byd y cyfieithiad mwyaf melodaidd o'r Salmau glywyd erioed; bu mewn carcharau'n moli ei erlidwyr, a bu'n dweyd mwy na'r gwir am danynt pan gai ei draed yn rhyddion; condemniwyd ef i farw ym Mharis am grefydd, yn Geneva am bechod; yr oedd yn wladgarwr brwdfrydig, a bu farw'n alltud,—"heb newid ei fuchedd na'i gredo, yn hen Galfiniad pechadurus." Nid oedd neb, ond Calfin ei hun, ofnid fel Marot. Gwnaeth yr offeiriaid a'u Heglwys yn wawd beirdd a dysgedigion ei oes, ac y mae hanes ei enaid pechadurus wedi ymwau gyda hanes seintiau puraf y Diwygiad rhyfedd hwn. Ar wawr y Diwygiad, pan obeithiai llawer fod oes aur Ffrainc yn dod, rhoddodd Marot eiriau'r bywyd newydd yng ngenau Marwolaeth,—

"Na pharotoa ddefodau gwag wychder,
Paham mynnit farmor i guddio dy lwch?
'Dyw hyn ond ffolineb gan Dduw yr uchelder,
Ni saif Iachawdwriaeth ar gerrig a'u trwch.
Eheda pur enaid i Gristion tuag adrau,
Er na chlywir anthem uwch mangre ei fedd;
Tra mae enaid y drwg yn nhân y poenydiau,
A'i gorff o dan garreg yr allor mewn hedd."

GLAN LLYFNWY,

Fy nheimlad yn America pan glywais am ei farwolaeth.

BETH yw'r swn ddaw dros y Werydd?
Adsain cwympiad derwen gref,
Swn cerubiaid yn ehedeg
I ddwyn proffwyd Duw i'r nef,
Swn olwynion eu cerbydau
Dery hefyd ar fy nghlyw;
Gwna y cyfan gydgord perffaith,
Fel ei fywyd pur i'w Dduw.

Pwy o'r byd oedd yn y cerbyd?
Ai Glan Llyfnwy, gyfaill cu?
Ie hyn wna'r nef yn wynnach,
Hyn wna'r ddaear yn fwy du.
Pwy o'r nef oedd yn y cerbyd?
Angel syml, o gyrrau'r wlad,
Er y cread ddwys ryfedda
Gyfrin bethau dy ei Dad.

Un fel hwn arweiniai adref
Lenor, bardd, pregethwr, mwyn;
Yr un mwyaf diymhongar
O'r angylion ddaeth i'w ddwyn.
Yn ei gwmni, heb frawychu
Teithiai yn y cerbyd tân;
Gan mai yn y syml y gwelai
Rwyddaf wedd ei Brynnwr glân.

Pan ar gychwyn tua Chymru,
O'r mwynhad oedd im yn stor!
Mewn addewid 'roedd aml ymdaith
Gyda thi i lan y môr.
Megis cynt, disgwyliwn sefyll
Gyda thi i wylio'r don,
Gan ymwrando dy ddehongliad
O leferydd Duw yn hon.

Ond nid tonnau môr y Werydd
Egyr dy feddyliau mwy;
Na, cai wylio tonnau cefnfor
Sy'n dygyfor marwol glwy.
Yn swn tonnau croch y Werydd
Clywaist gariad, ac nid cas;
O'r meddyliau tyner weli
Ar draeth nefol moroedd gras!

Mawr ddisgwyliais gael dy ddilyn
I dawelwch "Braich y Llyn";
Ond cyn caf dy gwmni eto
Rhaid i minnau deithio'r glyn.
Ond cyn hyn, os caf arbediad,
Rhoddaf ddeilen ar dy fedd,
Gan obeithio cwrddyd eto
Ar draethellau môr o hedd.

Aberdyfi. R. WILLIAMS.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

ERBYN hyn yr wyf yn disgwyl fod pawb yn gweled mai cylchgrawn ag amcan iddo ydyw Cymru. Ac yr wyf yn disgwyl od pawb yn gwybod, wedi cyfrol gyfan, beth dyw'r amcan hwnnw. Y mae golygwyr ymru, er hynawsed mewn dulliau ereill, yn ur eiddigeddus o'u hymherodraeth eu hun. Ond y maent hwythau wedi gweled nad oes n tebygolrwydd y trespasaf ar eu meusydd. r hynny, yn y dechreu, meddyliais lawer am ir Iago'r Cyntaf wrth y gwibedyn hwnnw nedodd i'w lygad,—"Onid oedd gennyf dair eyrnas y gallaset ddewis dy le i ehedeg ddynt, ac yr oedd yn rhaid i ti ehedeg i'm ygad?"

Yn ei fisoedd cyntaf cododd cylchrediad ymru i'w filoedd. Nid oes ganddo enwad na hlaid wrth ei gefn, ni chymerwyd fawr o rafferth i hysbysu ei fod, ni ofynnwyd i neb dderbyn oddiar ddyledswydd, nid ymyrrwyd g unrhyw adolygiad,—y mae wedi llwyddo'n nig oherwydd ei fod yn llenwi lle gwag. Y iae'r amser i efrydu hanes a llenyddiaeth ymru wedi dod.

Pe buasai Cymru'n bapur enwadol buasai i gylchrediad yn llawer mwy ar ei gychwyn gwaith ei olygydd yn ysgafnach. Ni cha dim o fanteision enwadaeth, ca lawer o'i an- nteision. Yr wyf yn derbyn llythyrau di- nw beunydd, yn fy nghondemnio am roddi ormod o le i ryw enwad neu gilydd. Ni noeliais erioed o'r blaen fod rhagfarn enwadol ior gryf yng Nghymru. Yr wyf yn credu, rbyn hyn, fod Methodistiaid na ddarllennent rthygl pe gwyddent mai Eglwyswr a'i hysgrif- nnodd, a fod Anibynwyr na chanent emyn e buasai enw Williams Pant y Celyn dani.

Frodyr anwyl, nid ym mysg pobl ragfarnllyd cefais i fy magu a'm haddysgu,—y mae eich hwerwder yn beth newydd i mi. Pe mai edaenu cylchgrawn fuasai'm hamcan, a dim rall, hwyrach y treiaswn gadw'r ddysgl yn astad i bob enwad. Ond hanes a llenydd- aeth ac addysg Cymru ydyw'm pynciau i. Ni eddyliais, ac ni feddyliaf, am roddi hyn a hyn le i'r Pabydd, yr Eglwyswr, yr Anibynnwr, Bedyddiwr, yr Undodwr, y Methodist Vesleyaidd, y Methodist Calfinaidd. Ath- ylith Dafydd ab Gwilym, nid ei Babyddiaeth, na i mi ail godi ei waith; nid ei eglwysydd- aeth, ond ei Feibl, sy'n gwneyd yr Esgob Morgan yn bwysig i mi; nid ei Anibyniaeth, nd ei ddioddef dros Gymru, wna i mi chwilio anes Vavasor Powel; melusder ei odlau, nid i Undodiaeth, wna i mi gofio am Ddavies Castell Hywel; athrylith wyllt John Ramoth ones, nid ei sel dros Fedydd, enilla'm serch ; y mae llawer bardd wrth fy modd i er nas wn pa un ai ar Wesley neu Galfin yr ym- gyfenwa. Ac eto ymosodir arnaf fel pe bawn yn gwneyd hanes, ac nid ond yn unig ei adrodd.

Y mae gan Gymru faes rhyfeddol o eang, maes y mae ei lafurwyr wedi bod yn ychydig iawn. Trwy garedigrwydd llenorion, y mae cyflawnder o erthyglau mewn llaw, ar bynciau pwysig a dyddorol. Y mae mwn cyfoeth Hanes a Llenyddiaeth Cymru heb ei weithio erioed, ac nid rhyfedd fod testynau ac erth- yglau mor hawdd eu cael.

Oherwydd diffyg lle rhaid i mi beidio cyhoeddi dim barddoniaeth gaeth yn y gyfrol newydd hon, ond cywyddau'r hen feirdd yn unig. Am yr un rheswm, rhaid i mi wrthod erthyglau ar bob pwnc y mae llyfrau da wedi eu cyhoeddi arno. Casgliadau hoffwn gael,—o draddodiadau lleol, barddoniaeth ar lafar gwlad, hanes hen gymeriadau, pob math o len gwerin. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am awgrymiadau hefyd, er mai anaml y medraf eu cydnabod mewn llythyr.

Ysgrifenna'r Parch. Evan Davies, Trefriw, i ddweyd fod yr erthyglau ar y Marwnadau'n deg, ac i ddweyd un peth yn ffafr Onllwyn Brace,—mai "pryddest goffadwriaethol, ac nid marwnad, a ofynnid yn y gystadleuaeth." Amgaua Mr. Davies farwnad Tafolog am ei wraig, ac nis gallaf ymatal rhag dyfynnu dernyn yma ac acw o honi,—

> "Y gair diweddaf, a ddaeth yn sibrwd
> distaw oddiar ei gwefusau marwol, a amlygai
> ei dymuniad difrifolaf am i ni gael 'cyd-
> gyfarfod' dedwydd ar ddeheulaw y Barnwr;
> a dychmygwn ar y pryd fod y meddylddrych
> hyfryd hwnnw yn peri i gysgod gwên ym-
> daenu dros ei gruddiau gwelw, tra yr oedd
> cysgod angeu yn tywyllu ei hamrantau am
> byth yr ochr hon i'r bedd."

> "Oddiwrth ogof ddistaw angau,
> Tremiaf fry i'r nef drwy'm dagrau,
> Er cael gwared o'm hunigrwydd—
> Siarad ymaith y distawrwydd,
> Mewn cymdeithas ddyrchafedig
> Gyda'th ysbryd gwynfydedig.

> "Wyt ti'n gweld, garedig ysbryd,
> O drigfannau uchel gwynfyd,
> Ddyrus lwybrau'm mhererindod
> Yn mordwyo gylch dy feddrod,
> Tra'm dychymyg geisiai lenwi
> Gwag unigedd â dy gwmni?"

> "Balm i'm briwiau fu'th dynerwch,
> Llenwit einioes â gweithgarwch,
> Gan fantoli'n ddoeth drwy'th fywyd,
> Yn dy ofal, hawliau deufyd."

"Gwraig bwyllog ydoedd,—diwyd, hawddgar wedd;
A'i huchel nod,—i ddeufyd uniawn fyw;
A chafodd gan y ddaear wlithog fedd,
Ond yn y nef, cadd deyrnas gan ei Duw."

O hyn i'r rhifyn nesaf anfoner pob gohebiaeth i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

J. Lloyd. — Dywed Mr. Lloyd iddo glywed "Dychmygion Llanuwchllyn" i gyd o gwmpas y tân ar hirnos gauaf yn Nhrefeglwys hanner can mlynedd yn ol. Y mae'n dda gennyf fod y rhain yn adgofio diddanwch i'r heu, yn ogystal a rhoi diddanwch i'r ieuanc. Bydd yn dda gennych glywed fod Mr. Davies, Ton, Ystrad, yn ysgrifennu hanes Trefeca i Gymru. Pob llwydd i chwi gyda'r Cymry ar wasgar.

J. E. S.—Mor bell ag y caniata lle, rhoir esboniadau byrion ar eiriau a llinellau anodd yn yr hen gywyddau ymddengys yng Nghymru. Ond rhaid iddynt, ar y goreu, fod yn fyrion iawn.

Teithydd. — Nis gallaf ateb eich cwestiwn cyntaf. Cymerais fy hyfdra i'w roddi, gyda'ch enw, yn nalen y Gofyn, mewn ffurf dalfyredig. Cryfder iaith ac nid gwendid, sy'n gwneyd iddi gymeryd geiriau newyddion i mewn. Rhy geidwadol o lawer fuasai Cymdeithas yn meddu gallu i wrthod geiriau newyddion, ni wnai ond gwneyd gwahaniaeth mwy rhwng iaith llenyddiaeth a iaith y bobl. Digon prin y mae "stesion" yn air Cymraeg, y mae'n ymdrech rhyngddo a "gorsaf" yn awr. O'r Lladin y benthyciodd y Saeson eu *station* a'u *junction*. Ond y mae "cario" yn air Cymraeg erbyn heddyw. Y mae yn emyn David Charles, Caerfyrddin,—

"Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
Ond cael dy anian dan fy mron."

Amcan Cymru ydyw hyrwyddo addysg bechgyn Cymru mewn pethau Cymreig. Hoffwn yn fawr gael erthyglau ar fywyd y glowyr, a bod o ryw foddion i ddwyn llenyddiaeth Gymreig i'w cyrraedd.

J. E.—Yr wyf yn hollol gyd-weled a chwi mai *i* fach,—"bob amser a'r goron fach ar ei phen, ys dywedai Parry o Gaer."—ddylid ddefnyddio. Tric Saesneg ydyw defnyddio'r "capital I"; y mae'r Sais, oherwydd ymwybodolrwydd o bwysigrwydd ei fodolaeth, am ymgapitaleiddio. Ond y mae I fawr yng nghanol brawddeg yn ddolur llygad i bob Cymro.

Mair y Bryniau. — "Canu'r piano" sy'n gywir. Cyfeithiad o'r priod-ddull Seisnig ydyw "chwareu'r piano," ac ni ddylid ei ddefnyddio.

H. Richard. — Buasai'n dda iawn gennyf fedru rhoi'r tonau yn yr Hen Nodiant. Ond, ar hyn o bryd, y mae'r gost a'r prinder lle yn rhoddi hynny o fy nghyrraedd.

H. B.—Dymunwn ddiolch i Henry Bonsall, Cwm, Aberystwyth am ei bamffledyn, —"Tynged Cymru." Y mae'n hyawdl iawn; ac y mae llawer o wir mewn pethau sy'n edrych yn wyllt ac afresymol ar y dechreu. Y mae natur eithafol y dywediadau, a sydynrwydd yr arddull, —megis mewn brawddegau fel "Dylai Thomas Charles Edwards eistedd yn Nhy yr Arglwyddi *yn awr*" neu "Y mae Cymru'n llawn o gythreuliaid aflan,"—yn ddigon i ddychrynnu darllennwr tawel fel myfi. Gwahodda Mr. Bonsall bawb o'r un olygiadau ag ef i ymohebu ag ef. Nid wyf yn tybio y bydd ganddo lawer o waith ysgrifennu llythyrau.

Mildraethydd.—Y mae'r Zoological Museum yng Ngholeg y Gogledd wedi ei agor. Dywedodd y darlithydd,—Philip J. White, M.B.,—wrth ei agor ei fod yn ddigon mawr i gynnwys morfil. Mewn alcohol, wrth gwrs, y cedwir yr anifeiliaid. Gwnawd deddf yn ddiweddar yn gwahardd gwerthu alcohol heb gymysgu naphtha mwnol ag ef, fel na bo'n yfadwy. Ond gall amguddfeydd ei gael yn bur.

E. E.—Yr wyf yn diolch i chwi am alw sylw at y planhigyn *Potamogeton Griffithii*, planhigyn sy'n tyfu yn Llyn Aber, nas gwyddis ei fod yn tyfu yn unlle arall yn y byd. Hoffwn yn fawr gael ambell erthygl ar Lysieueg Cymru.

Morgannwg.—Canodd Wil Hopcin lawer cân heblaw "Bugeilio'r Gwenith Gwyn." Y mae "Tarw Maes Cadlawr," a llawer o'i ganeuon byrion yn *The History of Llangynwyd Parish*, gan T. C. Evans. Y mae cystal gennyf fi ei bennill i glychau Llangynwyd a dim o'i waith,—

"Caru'r wyf ar hirnos gaua
Sain peroriaeth swn y clycha,
Rhai sydd addas rhwng mynydda,
Wych whiorydd, whech yn whara."

Yr un mor ddarluniadol ydyw pennill arall,—

"Ar ben y twyn mi safas,
Ac yno mi feddylias,
Nad oedd grwth, na miwsig gwych,
A gurai glych Trelalas."

Homo. — Llyfr Llandaff fydd y nesaf yng nghyfres Mr. Gwenogfryn Evans. Bydd allan, yr wyf yn meddwl, yn gynnar yn y flwyddyn hon.

Ab Scot.—Y mae llawer cyfeithiad o *Auld Lang Syne* i'r Gymraeg. Un o'r rhai goreu ydyw cyfeithiad Alun.

Miltonian.—Camgymeriad hollol ydyw tybio mai enwau amelodaidd ydyw enwau lleoedd Cymreig. Ym mha le y cewch enwau melusach na'r rhain,—Hendre Glan Alwen, Nant yr Eira, Bryn Melyn, Hendre Gwyrddail, Craig y Nos?

Morfudd.—"Abermaw" ac "Aberffraw" sydd gywir, nid "Aber Maw" ac "Aber Ffraw" oherwydd mai ar y sill cyntaf y mae'r acen. Eithr ysgrifenner Aber Dâr, Aber Soch, Aber Miwl. Mewn geiriau o fwy na dau sill nid oes amwysedd, ac ni waeth prun ai "Aberystwyth" ai "Aber Ystwyth," "Abertawe" ai "Aber Tawe." Ie, "Caerwys" sy'n iawn; ond Caer Dydd, Caer Sws, Caer Grawnt. Rhan o dref Llan Gollen ydyw Pen Llyn; pump o blwyfydd Meirionnydd ydyw Penllyn.

Diwygiwr.—Nid ffaith yn hanes y Methodistiaid yn unig ydyw'r "Diwygiad Methodistaidd." Enw ydyw ar y deffroad crefyddol newidiodd wedd Cymru yn niwedd y ganrif ddiweddaf. "Methodist Revival" y gelwir yr un ffaith yn hanes Lloegr.

Hen Galan.—Yr oedd amryw o i gydoeswyr yn condemnio "diwygiadau" Dr. W. O. Pughe. Yr wyf yn meddwl nad oedd Dewi Wyn na Iolo Morganwg yn cydweled ag ef.

LLYFRAU NEWYDDION.

I.

ROFEDIGAETHAU ENOC HUWS. Gan Daniel Owen. Gwrecsam, Hughes, 3s. 6c. Llian cryf, 348 tudalen destlus.

EL "Rhys Lewis," y mae "Enoc Huws" yn llawn o ddarluniadau byw o lawer cyriad. Yr wyf yn adwaen Capten Trefor ac noc Huws a Marged, er na fum yn byw yn Sir lint. Yn ei diwedd y mae "Enoc Huws" hebycaf i "Rys Lewis;" y mae'n diweddu yn ll nofel Eidalaidd, er fod Wil Bryan a Thomas rtley yno. Nac anghofier y Rhagymadrodd.

II.

ALES FROM THE MABINOGION. Edited by Meta E. Williams. London, Fisher Unwin. 2s. 6d. Llian glâs, 189 tudalen, darluniedig, cyfrol fechan brydferth dros ben.

Y mae'n dda iawn gennyf weled ystoriau swynol Mabinogion yn dod yn eiddo i blant y Saeson n ogystal ag i blant y Cymry. Mabinogi Cilhwch c Olwen ydyw hon, a gwyr llawer Cymro am wenydd plant y tu draw i Glawdd Offa wrth darllen hanes y Twrch Trwyth.

III.

RAETH Y LAFAN. Cantawd ddramayddol, gan R. Bryan. D. Duncan, Caer Dydd. 6c. Amlen, 36 tudalen, Cymraeg a Saesneg.

Hen destun sydd fyth yn newydd yng ghymru a Llydaw ydyw testun y gantawd hon,— môr yn dod dros y tir i ddial pechod. Medraf roffwydo yr ennill melodi geiriau Mr. Bryan ylw Cymru; ac heblaw hynny, y mae'r meddwl edi ei weithio allan yn rymus a naturiol. Melus wn ydyw cân y medelwyr a sŵn y môr,—fel sain ychau pell, llon a phrudd,—i brydferthu'r hanes, l blodau o amgylch darlun. Cymered darnau l hyn, gyda'r miwsig teilwng, le'r efelychiadau i-enaid glywir yn ein cynghorddau.

IV.

'RANSACTIONS OF THE LIVERPOOL WELSH NATIONAL SOCIETY, 1890—1891. Lerpwl, Foulkes. Amlen, 136 tudalen.

Dyma'r areithiau draddodwyd o flaen y Gymeithas,—rhai yn Gymraeg a rhai yn Saesneg,— n ystod y tymor. Y mae rhai o honynt yn wir erthfawr, a rhai ereill yn deilwng o golofn mewn apur newydd dyddiol. Da gennyf weled llyfrau l hwn, ond oni fedrai ein Cymdeithasau ailyhoeddi ambell i hen lyfr prin, at wasanaeth ei aelodau, a Chymru'n gyffredinol?

V.

INTER SALICES RHEDICINAE. — Dyma lyfryn ychan, gallwn feddwl oddiwrth y papur costus ad ydyw eto ar werth, o waith J. Young Evans, .A. Da gennyf weled nad ydyw ysgolheigrwydd edi dinistrio naturioldeb y caneuon hyn, er eu od wedi eu hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg Lladin a Groeg. Breuddwydion ydyw, ym mysg helyg Rhydychen, am grwydriadau yng ngwlad Groeg, a gorffwys yn Nhyddewi.

VI.

DIARHEBION Y CYMRY. Gan y Parch. T. O. Jones, F.R.H.S. 2s. 6c. Ar werth gan yr awdwr, Rock Villa, Pwllheli. Llian, 198 tudalen.

Mynegair i'r diarhebion ydyw'r llyfr hwn. Nid ydyw'r casgliad yn hollol gyflawn, ac nid ydyw'n rhydd oddiwrth wallau; ond mae'n hylaw ryfeddol, ac yn ddifyr i'w ddarllen. Dylai pob llenor a siaradwr lwyr ddysgu'r diarhebion.

VII.

Y CYLCHGRONAU.

O gylchgronau'r Colegau, y mae'r *University College of Wales Magazine* wedi dychwelyd yn ol i'w hen ddestlusrwydd. Y mae ei erthyglau'n ddarllenadwy a'i nodiadau'n llawn; ond osgoir yr iaith Gymraeg, fel pe buasai gwahanglwyf ynddi, neu fel pe buasai'r coleg yn ysgol dysgu Saesneg. Y mae cyfieithiadau R. Ellis yn eithaf, ond paham na fuasai'n rhoi'r Cymraeg? Y mae y *St. David's College Magazine* hefyd yn gylchgrawn coleg campus, a dylai pob clerigwr Cymreig ei gael. Y mae ei erthyglau'n werthfawr i rai y tu allan i furiau'r coleg, ac y mae nodiadau'r golygydd yn llawn bywyd. Ai gwir ddywedir yn llythyr "An Undergraduate" na chlyw'r myfyrwyr bregeth Gymraeg, ac na fedr ond un o'r athrawon bregethu yn iaith ei wlad? Gallwn feddwl fod teimlad Cymreig pur gynnes ym mysg yr efrydwyr.

Ym mysg y cylchgronau enwadol y mae'r *Diwygiwr* (Anibynnol, dan olygiaeth y Parch. R. Thomas, Glan Dŵr, a Watcyn Wyn), yn dirf ac iraidd wrth ddechreu ei ail flwydd ar bymtheg a deugain. Nid yn aml y gwelir pedair erthygl mor dda a'r erthygl ar Gadeirydd yr Undeb, hanes yr Eisteddfod, "Blodau'r Goron Ddrain," a hanes yr Emyn mewn un rhifyn. Hyfryd yw gweled chwaeth, yn ogystal a gallu, mewn golygwyr. Y mae'r *Haul* (Eglwysig, dan olygiaeth Elis Wyn o o Wyrfai) yn ymloewi o hyd. Nid wyf yn credu fod rhifyn gwell wedi dod allan na rhifyn Ionawr. Y mae'n amrywiol, — ysgrifau ysgolheigaidd, darnau o farddoniaeth, rhamantau, hanesion, esboniadau ar y Beibl, ac ychydig o halen gwleiddiaeth; y mae ei ddarluniau'n ychwanegu at ei ddyddordeb; a cheir Cymraeg cryf iach trwyddo i gyd. Gwyn fyd na dderbyniai pobl un enwad gylchgronau enwadau ereill, gan ddewis gwybodaeth eang yn lle ymnewynu ar un llecyn hirboredig. Y mae'r *Cennad Hedd* (Anibynnol, dan olygiaeth y Parch. J. Bowen-Jones, B.A.) yn chwaethus a dyddorol iawn; medd ddigon o'r prudd a'r llon.

Ni ddaeth ond dau o'r cylchgronau cenhedlaethol i'm llaw. Y mae'r *Genhinen* (dan olygiaeth Eifionydd) yn llawer destlusach nag arfer, yn cynnwys mwy o erthyglau ar bynciau'r dydd, a llawer o fanylion gwerthfawr. Dylai'r Tad Morgan gael mwy o sylw nag a gaiff, ond y mae ei grefydd a'i iaith yn ei erbyn. Cynhwysa'r *Cerddor* (Jenkins ac Emlyn Evans) lawer o erthyglau byrion a nodion, heblaw tonau.

LLYN SAFADDAN.

SAFADDAN! O arddunol lyn,
Mae'th wely rhwng mynddau ban
A safant mewn mudanrwydd syn
Erioed o'th gylch i wylio'th lan;
Y Troed a'r Bannau bob yn ail
A chwarddant yn dy wyneb di,
A ser y nef 'rol cilio'r haul
A wenant yn dy loew li.

Traddodiad,—ffrwyth dychymyg fyw,—
Sy'n hofran gyda'r awel wynt,
Fyn dystio mai dialedd Duw
A'th luniodd di mewn oesoedd gynt:—
"Rhyw aeres deg feddiannai'r fro
Sydd heddyw'n wely'r dyfroedd glân;
Daeth mab di-gyfoeth ar ei dro
I geisio'i llaw a'i fron yn dân.

"I'r aeres rwysgfawr nid oedd dim
Ond aur a chyfoeth lanwai'i bryd,
Ac wrth y mab dywedai'n llym
'Pan feddi aur cai finnau 'nghyd.'
Gwnaeth hyn y mab yn fwrddwr erch,
I'w waedlyd law cadd gyfoeth llawn—
'Gwerth gwaed' er ennill aflan serch,—
A'r ddau yn un mewn pechod gawn.

"Medd ysbryd pur o arall fyd,—
'Daw dial gyda'r *nawfed ach*,'
'Mae'n ddigon pell' 'be'r ddau 'run pryd,
'Mwynhawn ein byd yn llon ac iach.'
Mewn pechod, gloddest, a phob chwant
Bu'r ddau yn byw am hirfaith oes,
A'u plant o'u cylch, a phlant eu plant,
A delw uffern ar eu moes.

"Mae'r *nawfed ach* o gylch eu traed!
A rhaid yw galw pawb yng nghyd
I wledd o win, a hynny wnaed;
Ond iddynt oll bu'n ddiwedd byd!
Dirgrynu ac ymollwng wnaeth
Y ddae'r o danynt gyda hyn,
Y dwfr ymlanwodd ac a aeth
Er cuddio'u coffa'n fythol lyn!"

Efelly medd traddodiad hen
Y ganwyd di, arddunol lyn,
Ond rywfodd mae'th risialaidd wên,
A thlysni'r fro'n gwrthdystio hyn:
Mae traddodiadau fel mewn serch
A llynnoedd gloewon Cymru erio'd;
Ond crebwyll fyw'r Brythonwyr derch
Mewn oesoedd gynt roes iddynt fod.

Llunden.

Pan roddwyd flurf i fryniau'r fro,
Ce'st dithau gartref wrth en traed,
A Chymry dedwydd lawer to
Drwy'r oesau ar dy lannau gaed.
Y dreflan fechan ger dy fin,
Y gerddi a'r perllannoedd chweg,
Y coedydd preiff drwy'r dyffryn cun
Sy'n gwneyd y lle'n Baradwys deg.

Mae'th enw'n denu teithwyr lu
I ddyfod i edmygu'th swyn,
I nofio ar dy fynwes gu,
A chanu yn yr awel fwyn:
Ti ydwyt drochle'r plantos mân,
A thestun siarad hen wyr llesg,
Tra ieir y dŵr a'r hwyaid glân
Ymnythant yn dy wyrddion hesg.

Yr alarch megis brenin sydd
Yn eistedd ar dy fynwes lon,
A'r wennol wlych ei haden rydd—
Wrth hedfan—yn dy wylaidd don.
O'r teg wyrdd-lwyni o bob tu
Daw cerddgar seiniau'r adar mân,—
Y fwyalch fwyn, y fronfraith gu,
A'r llinos ber sy'n tywallt cân.

Gwyrddlesni'th lannau, O mor hardd!
A blodeu gwylltion filoedd sydd
Yn gwneyd y lle fel swynol ardd
O frieill per a llygaid dydd;
Y gwartheg blithion yn y tes
Ymserchant yn dy gwmni di,
A'th bysg aneirif yn y gwres
A lamant yn dy loew li.

Pe gellit adrodd inni'n iawn
Yr oll a welaist yn dy ddydd,
Fe fyddai gennyt gronfa lawn
I'w rhoi yng nghoffrau Cymru Fydd:
Ti welaist genedlaethau fil
Yn dod, yn myned ar eu hynt,
A llawer tro ar ddynol hil;
Ond aros ydwyt ti fel cynt.

Os yw'r preswylwyr drwy y fro,
A'r gwyn fythynod glân eu gwedd,
A'r derch balasau yn eu tro,
Yn disgyn i ddistawrwydd bedd,
Mae'r Troed a'r Bannau'n cadw'u lle,
A thithau hefyd fyth yr un,
A'th wedd mor lan a glesni'r ne,
Yn gwenu mewn arddurnedd cun.

J. E. Davies.

YMDAITH YN ANNWN.

II.

MYND YNO.

"But now the shadows round my way ar gathering dark and grim,
The wind blows coldly off the shore, the lights are growing dim,
The angry waters rage and roar, and headlong through the night
From love, from hope, from thee, my barque goes plunging out of sight."

ACHWI a hoffech wybod pa fodd yr eis yno." Edrychai arnom da llygaid bychain serenog, a'r goleu yn- ynt yn sych ac yn fetelaidd fel goleu seren noson rewllyd. Codai ei fraich hir, ar yr n y crogai llawes ei got fel pe buasai'n ogi ar wifren, ac agorai ei law hyd nes y biem fod y bysedd ceimion yn sythu ac yn ynnu gan nwyd, fel crafanc aderyn rhaib n yn ymhyfrydu wrth ymblannu i gnawd ysglyfaeth. Yr oedd ei lais yn uchel ac yn aearol ac yn mynd trwyddom, yn debyg i'r ch glywir yn y nos pan fo rhyferthwy'n wbio dwy binwydden yn eu gilydd. Daeth syniad i'n meddyliau, peth rhyfedd na laethai'n gynt,—tybed a oedd yr hen wr wallgof? Tynnodd ei lygaid oddiarnom n ennyd, daeth golwg bell hiraethlawn dynt, a meiddiasom ninnau edrych ar ein lydd. Deallodd pob un ohonom ar amrant- d beth oedd meddwl y lleill,—"Yr ydym edi ein cau gyda dyn o'i go."

Pan ail edrychasom ar yr hen wr, yr oedd fnewidiad wedi dod drosto, — yr oedd grau yn ei lygaid. Yr oedd y sychder sgadwy hwnnw wedi eu gadael, yr oedd y gaid wedi dofi mewn dagrau adfywiol. r oedd rhyw wlaw graslawn wedi disgyn ar ialwch sychedig y meddwl blin, ac yr oedd grau yn llygaid yr hen wr. O bob peth, lem ddiolch i Dduw am fedru wylo. yna oedd ein meddwl wrth edrych ar hen wr. Na, nid oedd yn wallgof, fedr y gwallgof wylo. Yr oedd ei w wedi disgyn i lawr at ei ochr, yr oedd ei is wedi melysu, gollyngai aml ochenaid. Yr ddym yn ei ofni o'r blaen, ond yn awr yr ddym yn llawn cydymdeimlad ag ef. O'r aen ni welem ond y llygaid bychain tanllyd, awr sylwem ar y gôt laes wisgedig, ar y dach sidan du hen ffasiwn, ar yr esgidiau el clytiedig. Meddyliem mai hen ffarmwr ymreig oedd, wedi ei dynnu drwy brofedig- thau a'u gwnaethai'n gysgod o hono ei hun.

"Beth oeddwn i'n ddeyd, fy mechgyn i," eddai, "O ie, dechreu dweyd tipyn o fy nes wrthych yr oeddwn.. Go ddiddim ydyw ori hen wr, ond ni chlywsoch chi'r un hen erioed yn adrodd hanes fel fy hanes i. mechgyn anwyl i, mae'n dda gen i gael mynd dros fy hanes gyda chwi, bydd hynny'n orffwysdra i'm meddwl terfysglyd. Mae llawer blwyddyn er pan adewais i Gymru, ac ni fum yno ond unwaith byth. Yr oeddwn yn meddwl gwneyd fy ffortiwn yn Lerpwl yma, a mynd i Gymru i dreulio gweddill fy oes mewn heddwch. Mewn caledwaith blynyddoedd, nid anghofiais i'r amcan hwnnw unwaith. Yr oeddwn yn meddwl am Gymru o hyd, ac mi ddarllennais bob peth fedrwn gael am hanes Cymru. Dyna'r hanes mwyaf dyddorol sydd, ac yr oeddwn innau'n hapus iawn wrth ei ddarllen. Yr oedd peth arall yn fy ngwneyd yn hapus,—yr oeddwn wedi gadael geneth yng Nghymru, ac yr oeddym i briodi pan gawn ddigon o arian."

Daeth rhywbeth tebyg i anesmwythyd dros Wil yn y fan yma, a daeth cysgod Hmh! bregethwrol dros wefusan Meredydd.

"Blodeuyn y fro oedd Gwen y Llwyn. Ni fu erioed un mor ddifeddwl ddrwg o neb. Beth pe clywsech ei chân wrth fynd i odro, buasai'n llenwi eich calonnau â llawenydd. Yr oedd Gwen yn byw am y ceunant a ni, ac mi fydden yn chware'n blant ar lan yr afon. 'Doedd ein tyddyn bach ddim yn ddigon i'n cynnal i gyd, ac mi ddois i tua Lerpwl yma. Wrth ymadael mi ddeallais nad oedd neb mor brudd wrth fy ngweled yn myned a Gwen y Llwyn, a 'doedd neb yr oedd mor anodd i minnau ei adael ar fy ol. Tyng- hasom y byddem yn ffyddlon i'n gilydd, ac yr oeddwn innau i ddyfod yn ol pan wedi gwneyd digon o arian i fedru byw mewn rhyw fwthyn bach. Aeth blynyddoedd heibio,—yr oeddwn yn rhoi arian heibio ac yn diwyllio fy meddwl drwy ddarllen; ac yr oeddym yn ysgrifennu at ein gilydd yn rheolaidd iawn. Yr oeddwn ymron a sparío'r swm oedd o flaen fy llygaid, ac yr oeddwn yn cael rhyw lawenydd di- derfyn wrth feddwl y cawn fynd adre i Gymru."

Yr oedd yn siarad yn araf ac yn bwyllog, gan gymeryd ei anadl wedi dweyd pob brawddeg. Yr oeddym yn dyfalu i ba derfyn y deuai ei ystori, ond yr oedd ei deimlad dwys yn gwneyd i ni wrando arni am ein bywyd.

"Yn cyd-weithio a mi yr oedd Cymro dipyn yn iau na mi. Gwelais ef yn cardota,

ac wrth ei glywed yn siarad Cymraeg tosturiais wrtho, a chefais waith iddo. Yr oedd yn perthyn i deulu parchus yng Nghymru, ond suddasai i dlodi oherwydd methu taro ar le, ac yr oedd arno gywilydd mynd adre. Pwt o fachgen glân pen-felyn oedd, un ffraeth a charedig iawn. Arhoswch chwi, mae gen i ddarlun o hono fo."

Tynnodd lawer o hen lythyrau melynion o boced tu mewn i'w got, a thynnodd ddarlun bychan o un o'r hen lythyrau. Darlun gŵr ieuanc tua thair ar hugain oed oedd. Yr oedd y gwallt melyn prydferth wedi ei rannu'n fanwl ar ei dalcen, yr oedd ei ddillad heb frycheuyn, yr oedd ei lygaid yn leision ac yn brydferth, y trwyn yn syth a lluniaidd, a'r en yn fechan. Sylwodd Wil arno'n hir, ac yna dechreuodd ddihareb adawodd ar ei hanner,— "Angel pen tân, cyth—."

Y peth wnaeth i Wil aros yn sydyn ar ganol ei ddihareb oedd edrychiad yr hen wr. Yr oedd yn ceisio meistroli ei nwydau, 'roedd hynny'n amlwg. "Mae dy galon di yn ei lle," meddai wrth Wil, "er nad yw d'ymadrodd yn rhy weddus." Ceisiai fod yn dawel, ond gwelem ei fod mewn ymdrech galed. Torrodd Meredydd ar y distawrwydd toc gyda chwestiwn eithaf naturiol,—

"Ym mhle mae'r gŵr ieuanc yma yrwan?"

"*Ym mhle mae o? Mae o yn Uffern, a myfi a'i gyrrodd yno.*"

Yr oedd cwestiwn Meredydd wedi disgyn fel matsen i bowdwr. Fflachiai llygaid yr hen wr fel cynt, a dacw'r grafanc yn codi eto. Ond cyn hir daeth yr un gwlaw gras-lawn, ac ymdawelodd yntau fel o'r blaen. Ac ail ddechreuodd, gyda'r un arafwch pwyllog.

"Aeth Ifan Wyn adre i Gymru tua blwyddyn cyn yr amser yr oeddwn i'n meddwl mynd adre. Gofynnais iddo alw heibio'r Hafod a'r Llwyn ar ei ffordd. Ymhen y mis daeth llythyr oddiwrth un o'm cyfnitherod i ddweyd fod Gwen y Llwyn wedi dianc i ffwrdd gyda rhywun dieithr, ac mai hynny oedd siarad y wlad. Yr wyf yn cofio fy mod wedi syrthio mewn llewyg pan glywais. Dydd ar ol dydd a ddaeth, ond ni ddaeth gair i wadu'r gwirionedd chwerw, a daeth fy llythyr yn ei ol. Yr oedd Gwen wedi mynd i ffwrdd. Am flwyddyn gyfan bum yn treio ei hanghofio hi a Chymru, ond ni fedrwn. A welsoch chwi dy brics bychan, ty sy'n ddarlun o dlodi, ar y gornel cyn i chwi droi i fyny yma?"

"Do."

"Un noswaith, mi cofiaf hi byth, yr oeddwn yn dod i fyny tuag yma o gyfeiriad yr afon. Yr oedd yn noson oer wlawog ym mis Tachwedd, ac ychydig iawn o bobl oedd yn yr ystrydoedd lleidiog oerion. O'm blaen yr oedd dyn a dynes yn cerdded. Yr oedd y ddynes mewn dillad tlodion, ac yr oedd golwg wlyb a thruenus arni. Yr oedd trowsus tyn am dano ef, a chot laes fel cot gyrrwr ceffylau; yr oedd ffrwyn ceffyl dros ei ysgwydd, a chwip yn ei law. Pan oeddwn i'n pasio clywn reg o'i enau, a gwelwn ef yn taraw'r ddynes ar draws ei gwyneb â'r chwip. Trodd hithau ei gwyneb yng ngoleu'r lamp, a gwelwn wyneb Gwen y Llwyn. Ac am dano ef, gorffen dy ddihareb fy machgen i, y cythraul creulon hwnnw oedd Ifan Wyn. Yr oedd arnaf flys mynd ar ei ol i'r ty tlodaidd hwnnw a'i lofruddio, ond cefais ras i gofio mai Duw'n unig fedrai gosbi un fel hwn.

"Un bore yr oeddwn yn pasio heibio'r ty, yr oedd rhywbeth yn fy nhynnu ato er fy ngwaethaf, a gwelwn dorf o'i amgylch. Yr oeddwn yn adnabod yr heddgeidwad geisiai gadw'r dorf draw, a phan ofynnais beth oedd dywedodd fod dynes lofruddiedig yno. Daeth rhyw wroldeb rhyfedd i'm calon, a nerth i'm gewynau; cerddwn fel pe buaswn beiriant, wedi colli fy holl deimladau personol fy hun. Ie, y hi oedd yno. Gorweddai ar wely gwellt ac yr oeddynt wedi tynnu'r dillad salw dros bob man ond ei gwyneb. Wrth weled y gwyneb hwnnw,—yr oedd yn brydferth iawn, er mor guredig a gwelw oedd,—anghofiais bopeth arall. Anghofiais dlodi truenus yr ystafell, anghofiais y gwynebau oedd yn ymwthio i edrych arni; ac am funud tybiais ein bod yn blant ar hyd y gweirgloddiau, a fod pwysiau peraroglus o blu'r gweunydd a gold Mair yn ein dwylaw. Yna daeth y dyddiau ereill fel rhyferthwy ar fy enaid, aeth fy nghalon fel dur. Tybid unwaith na fedrid dod o hyd i'r llofrudd; 'doedd neb yn awyddu am ei ddal. Neb? Na, yr oeddwn i'n methu cysgu hunell nes y delid ef. Yr oeddwn mewn brys, yr oedd arnaf ofn iddo gael amser i edifarhau, yr oeddwn wedi penderfynu y cai syrthio yn nwylaw y Duw byw tra'r oedd y pechod erchyll ar ei enaid. Myfi ddarganfyddodd ei guddfan; myfi, â'r dwylaw hyn, a'i llusgodd i oleu'r dydd.

"Daeth ei dreial. Ni fedrid profi mai efe a'i lladdodd, nid oedd neb wedi ei weled yn greulon tuag ati, ni wyddai neb am un achos iddo ei llofruddio. Mi roddais innau dystiolaeth, ac a fy nhystiolaeth i y condemniwyd ef. Wedi clywed beth ddywedais, nid oedd un o'r rheithwyr am ofyn am drugaredd iddo. A bore ei ddienyddiad yr oeddwn o flaen muriau ei garchar cyn iddi dorri'r dydd. Ni chysgais funud o'r dydd y llofruddiwyd hi hyd nes y gwelais y

ıer ddu'n chwyfio. Yr oedd Ifan Wyn di mynd i dragwyddoldeb. Daliwn innau drych ar y faner ddu, a gwelwn hi'n mynd fwy fwy, a gorchuddiodd bob man. rthiais i lawr mewn llewyg. Pan dde- ɔais, yr oeddwn ym mhyrth Uffern."

Clywem guro trwm ar y drws, a throisom pedwar tuag ato. Gwraig y ty oedd o,—

"Begio'ch pardwn, foneddigion, mae hi'n au o'r gloch y bore."

"Ydi, ydi," meddai'r hen wr, "yr wyf di eich cadw'n hir. Ond dowch eto, rhaid ni gael gorffen fy ystori."

Cododd Wil gyda ni, i'n hebrwng. ysurasom ymaith, gan gerdded yn chwim i vr y stryd, ac am y gornel. Yr oedd y ty hwnnw o'n blaenau, ond nid oedd yr un o honom yn ddigon gwrol i ddweyd wrth y lleill am dano.

Aethom heibio, ni feiddiodd Meredydd na minnau edrych ar y ty. Ond yr oedd Wil yn fwy chwilfrydig. Safodd o flaen y ffenestr ddi len. Cyn hir daeth o hyd i ni, a gafaelodd yn ein breichiau. Yr oedd yn crynnu fel y ddeilen. Ni feiddiem ofyn dim iddo, oherwydd yr oedd goleuni gwan anaearol y lleuad wedi ein gwneyd mor ofnus a phlant. Ond sisialodd toc,—"Fechgyn, gadewch i ni fynd gynta gallwn ni o'r lle yma, y mae Ifan Wyn yn fyw eto, mi weles ei wyneb o yn y ffenest, gen blaened a'r haul. Fedra i byth fynd yn ol fy hun, rhaid i chwi ddod gyda mi heibio'r ty acw."

AT GYMRY CYMRU.

Dyma lythyr at Gymry Cymru o'r Amerig, gan D. R. Jones, Cambria, Wisconsin. Y mae Mr. Jones yn fab diweddar Richard Jones, Bryn Tirion, Dolyddelen, a ymfudodd i'r Amerig ryw bum mlynedd a deugain yn ac yn nai i John Jones Tal y Sarn, David Jones Treborth, a William Jones, Welsh Prairie,—oll yn y tir hir vedd. "Dengys y gân, yr wyf yn meddwl, beth y mae cin brodyr y tu hwnt i r Werydd yn feddwl am danom. merais fy hyfdra i newid un pennill, a gorfod newid ei fesur er mwyn lleddfu ei erwinder. Y mae calon Mr. ies yn curo'n gynnes tuag at Gymru a'i llenyddiaeth; a phwy fedr gondemnio chwerwder ei dôn?—Gol.

I.

Gymro, gwrandaw'r murmur sydd
Trwy dy wlad yn su y gwynt,
Am gael Cymru eto'n rhydd
Fel y bu yr amser gynt.

II.

Pam y crymi di dy war
O dan iau estronol deyrn?
Beth yw'r gwasaidd blygu gar
Dan bwys ei efynnau he'yrn?

III.

Cofia'r dewrion rodd eu gwaed
Dros dy anibyniaeth gynt;
Pwy ddilyna ol eu traed
Hyd dranc yn eu dwyfol hynt?

IV.

Oni feddi wladwyr doeth
Ddygant dy Hen Wlad i fri,
Dysgedigion a beirdd coeth
Burant ei llenyddiaeth hi?

V.

Eto â rhagrithiol wên,
Beunydd â begerllyd gais,
Mynni gael d' Eisteddfod hen
Tan lywyddiaeth rhyw grach Sais.

VI.

Er mwyn Sais-addoliaeth faw
Llethir y Gymraeg,—mor ddwl
Y mawl-wepia'r dorf gerllaw
Ei gwaseiddiwch i *John Bull!*

VII.

Nid yw'n rhyfedd gweled Sais
Yn ffroen grychu ei sarhad,
Pwy a barcha ddyn a gais
Anwybyddu iaith ei wlad?

VIII.

Gwrthod dy sectyddiaeth fain
Sydd yn dirgel sugno'th nerth,
Wna'th gymdeithas fel y drain,
Ddifa'th gariad a dy werth.

IX.

Hel d'enwadau fawr a bach,
A'r "Hen Eglwys" yn eu canol,
Ysgwyd hwy yng nghyd mewn sach,
P'run ddewisa Duw neu ddiafol?

X.

Dyrcha uwch dy grefydd dlawd,
Ymgyrch i ddwyfolach câd;
Ymladd, Gymro, nid a'th frawd,
Ond a gelyn *hen* dy wlad.

XI.

Gymru, pan y megi ddyn
A fedd dân, ac asgwrn cefn,
Gred yn Nuw ac ynddo'i hun,
Gwelir Cymru'n rhydd drachefn.

XII.

Gymro, bydd i Gymru'n bur!
Dysg i'th feibion iaith eu tad,
Myn, os rhaid, trwy waed a dur,
Adfeddiannu dy Hen Wlad!

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD IV.

MORFUDD.

YN ol ei gytundeb a Phrys, a thrwy ganiatad yr Abad, aeth Dafydd i Borthaethwy, a chafodd ei was yn y gwesty yn disgwyl am dano. Archodd y bardd am le iddynt eu hunain, ac arweiniwyd ef a Phrys i ystafell fechan o'r neilldu, a gosodwyd bwyd a diod ar y bwrdd o'u blaen.

"Wel Prys; pa lwyddiant?" gofynnai Dafydd.

"Dim; hynny yw, nid ydwyf wedi llwyddo i gael hanes am Angharad er pan y gadewais chwi. Yr oedd Gwilym Llwyd yn hynod garedig ac yn dweyd fod croesaw i'r meirch fod yno, ac y byddai yn dda ganddo gael fy ngwasanaeth innau cyhyd ag na bydd arnoch chwi angen am danaf."

"Goreu oll; y mae'n dda gennyf fod lle mor gysurus wedi agor i ti am wythnos neu ddwy. Gwrando yn awr fy helynt innau. Yr wyf wedi gweled Angharad"—

"Wedi ei gweled?"

"Ie, ac yn gwybod ym mha le y mae wedi ei charcharu. Yr wyf hefyd wedi cyflogi fy hun yn was Abad Llangoed, gan hyderu y caf drwy hynny gyfleusdra i ymddiddan ag Angharad cyn hir."

"Fy meistr yn was!" meddai Prys gan godi ei ddwylaw.

"Ni bydd felly yn hir Prys, cymer galon. Dychwel di at Wilym Llwyd, ac aros yno hyd nes y deuaf atat, neu yr anfonaf genadwri i'th gyrchu. Dyma i ti hefyd ychydig arian rhag ofn y bydd arnat angen am danynt; a chan fy mod wedi addaw wrth yr Abad y dychwelwn i'r mynachdy heno nis gallaf aros yma i ymgomio yn hwy, ond gelli di aros yn hwy os mynni."

"Na, deuaf i'ch hebrwng," atebai Prys, yr hwn a edrychai yn hynod o benisel, yn gyntaf am ei fod i fyw ar wahan i'w feistr am ysbaid, ac yn ail am fod ei feistr wedi cyflogi ei hun yn was. Ymdrechai Dafydd ymddiddan yn ysgafn er mwyn llonni ysbryd Prys, ond trymaidd iawn oedd gwedd yr olaf yr holl ffordd o'r Borth i dref Beaumaris. Wedi cyrraedd y dref trodd Prys yn ol tua'r Aberffraw, ac aeth Dafydd y gweddill o'r ffordd ei hunan. Cyrhaeddodd Dafydd y Mynachdy cyn pryd gosper; ac wedi i'r hen borthor ei ollwng i mewn, aeth rhag ei flaen i'r gegin, lle yr oedd darn mawr o gig eidion yn rhostio o flaen tan, a Chadi y forwyn yn llenwi cawgiau o fedd yn barod at swper syml y mynachod. Yn fuan daeth pedwar ar ddeg o'r brodyr llwydion i mewn o'u gwahanol oruchwylion, ac edrychent oll yn awyddus am y rhostgig, y bara, a'r medd. Ymddanghosai mynachod yr Abaty hwn yn rhai llawen a diofal, ac yr oedd golwg racnus y dyn oddiallan i bob un o honynt yn profi eu bod yn arfer eael byd da, a bwrdd llawn. Hefyd sylwodd Dafydd eu bod yn rhai cymwynasgar iawn i'w gilydd ac i ereill, yn enwedig pan gefnogid yr hyn a ofynnid ganddynt gan ddarn bach o arian. Tra yn eistedd gyda hwynt i fwyta, daliodd y bardd sylw arbennig ar un a elwid Brian, yr hwn a ymddanghosai y mwyaf didaro o honynt oll, a phenderfynodd wneuthur defnydd o hono yn yr anturiaeth o gymeryd Angharad ymaith. Yn ffodus yr oedd gan Ddafydd gryn swm o aur ac arian gydag ef, a chyda chymorth y rhai hyn nid oedd yn ofni aflwyddiant gyda'r mynach, na chyda'r Abad ei hun os gwelai y byddai yn rhaid datguddio y gyfrinach i'w Barchedigaeth.

Gyda eu bod wedi gorffen bwyta canodd y gloch osber, ac ymneillduasant i'r eglwys, perthynol i'r lle, gan ganu yn lleddf wrth fyned ymlaen. Dilynwyd hwy yno gan y fintai o fynachesau a welodd Dafydd y dydd o'r blaen, ond nid oedd Angharad yn eu plith y tro hwn. Ar ol y gwasanaeth ymadawodd y merched yn gyntaf, gan gerdded yn ddwy a dwy ar ol yr Abades,—benyw hagr, hen, haerllug yr olwg arni. Wedi i'r merched fyned ymaith ymwasgarodd y brodyr i dreulio eu hamser fel y gwelent oreu hyd adeg myned i orffwys, ac wrth fyned o'r eglwys sibrydodd Dafydd yng nghlust y brawd Brian y dymunai gael gair ag ef yn ddirgel. Trodd y mynach i gyfeiriad yr ardd, ac amneidiodd ar Ddafydd i'w ddilyn. Aethant drwy yr ardd ac i'r berllen, lle yr oedd mainc o bren garw wedi ei gosod mewn lle cyfleus i eistedd dan gysgod draenen fawr. Yr oedd y coed yn y berllen wedi eu gwisgo yn brydferth a blodeu afalau a gerllyg, a'r awel dyner yn orlawn o'u perarogl hyfryd.

"Cawn lonydd fan hyn," meddai y mynach, gan eistedd ar y fainc, "tyred dithau, eistedd i lawr, a dywed wrthyf yr hyn sydd yn dy boeni."

"Y gwir yw," dechreuai Dafydd, "y mae arnaf eisieu dy gynhorthwy i gario ym mlaen amcan sydd gennyf mewn golwg."

"Mae hynny yn dibynnu ar a ydyw yr can mewn golwg yn un cyfreithlawn, ac a af fi, heb droseddu rheolau fy ngalwedigh sanctaidd, dy gynorthwyo," atebai ian yn bwyllog.

"Os na elli fy nghynhorthwyo, a wyt ti'n law cadw yr hyn a fynegaf i ti yn gyfachol?"

"Fel y bedd; fel y bedd."

"Yn fyr ynte, yr wyf wedi dyfod i'r ynys n gyda'r amcan o chwilio am ferch ieuanc dawodd ei chartref, ac yr wyf wedi cael an ei bod yn y Lleiandy yma, ac y mae af eisieu ei chael i'w hebrwng adref at rhieni."

"A oedd ym mysg y rhianod yn yr wys heno?"

"Nac oedd."

"Mi wn at ba un yr wyt yn cyfeirio, y e yn lled wael er's deuddydd."

"Os wyt yn addaw fy nghynhorthwyo, na i ti ychydig arian i ti i ddechreu, rhag n y bydd rhyw draul yn bod."

Siriolodd gwynepryd Brian pan welodd y rs a'r arian a gynhygiai Dafydd, ac nid ld ganddo mwyach un gwrthwynebiad i eyd yr hyn a allai.

"Cymeraf y rhain rhag ofn y bydd angen danynt, fel yr wyt yn dweyd, yn yr ymfodaeth; ac yn ffodus, yr wyf yn ddysgg mewn physigwriaeth, a phan y bydd ywun yn wael, naill ai yn y Lleiandy, neu Mynachdy, myfi fydd yn eu meddyginthu. Bum yn y Lleiandy heddyw yn ddi meddyglyn i'r chwaer sydd yn wael, a ddaf yn myned yno eto yfory i weled a ld wedi gwella. Felly, os boddlon gennyt, li anfon llythyr gyda mi i'r ferch, a falaf iddi ei gael heb i'r ddraig gan yr hen ades ei weled. A all y ferch ddarllen grifen?"

"Gall, myfi fy hun a'i dysgodd. Ysgrifnaf heno, a chaf gyfle i'w roddi i ti bryd tin yn yr eglwys."

"O'r goreu, gan ein bod yn deall ein ydd, gwell i mi fyned i mewn yn awr, mae nillad yn wlyb gan wlith."

Boreu drannoeth yr oedd Dafydd yn effro da'r dydd, a chan nad oedd raid iddo fyned weinyddu ar yr Abad am beth amser, nerodd y cyfleustra i ysgrifennu at ngharad, nid llythyr, ond cân odidog, yn ei vahodd allan, fel y canlyn,—

"Ai gwir, y ferch a garaf,
Na fynni fedw hoyw-dw' haf;
Ac na thewi yn y ty tau,
Wych-liw-ser, a'th laswyrau?
Crefyddes a santes wyd,
Caredig i'r cor ydwyd;
Er Duw, paid a'r bara'r dwr,
A bwrw ar gas y berwr;
Paid, er Mair, a'r pader main,
A chrefydd menych Rhufain.
Na fydd Leian y gwanwyn,
Gwaeth yw lleianaeth na llwyn:
Dy grefydd, deg oreu-ferch,
Y sydd wrthwyneb i serch,
Gwarant, modrwy, a mantell,
A gwerdd wisg a urddai yn well.
Dyred i'r fedw gadeiriog,
I grefydd y gwydd a'r gog;
Ac yno ni'n gogenir, —
Ennill y nef yn y llwyn ir!
A chadw i'th gol lyfr Ofydd,
A phaid a gormod o ffydd."

Yn yr eglwys llithrodd y papur i law Brian, a gwelodd ef yn cychwyn tua'r Lleiandy. Y boreu hwnnw yr oedd y bardd yn hynod gythryblus ei feddwl, a gwnaeth amryw droion trwsgl wrth weinyddu ar ei feistr. Yn y prydnawn daeth Brian ato a chyflwynodd nodyn bychan iddo, gan ddweyd,— "Yn wir, benyw hardd ydyw, ac y mae ei symlrwydd yn rhagori ar ei harddwch o'r bron. Da gennyf dy hysbysu ei bod yn well, ac yn rhyfeddu yn fawr dy fod di yn y gymdogaeth. Darllennodd dy lythyr a'r gwrid yn codi i'w gwynepryd, ac ysgrifennodd atebiad iddo yn y fan; gobeithio ei fod yn ffafriol."

"Gwrando, darllennaf ef," atebai Dafydd.

"Fy nghyfaill,

Er mor swynol yw dy gân, ac er mor ddeniadol yw dy gymhellion, nis gallaf gydsynio. Y mae fy nhad wedi fy anfon yma er daioni i mi, a thra yma rhaid i mi ymddwyn yn unol â rheolau y sefydliad."

Nid oedd ênw wrth y nodyn, yr hyn a ddanghosai ofal Angharad rhag i'r gyfrinach gael ei datguddio.

"Nid ydyw yn galonogol iawn," dywedai Dafydd.

"Ysgrifenna eto, a mi a af ag ef yno yfory; mae'r hen ddraig ei hun yn cwyno, a byddaf yn myned yno i'w gweled hi."

Yr oedd Angharad yn y gosber y noson honno, a chododd ei golwg a gwelodd Ddafydd yn ei gwylio yn ddyfal; ond nid oedd wiw iddo wneyd un ymgais, cyn nac ar ol y gwasanaeth, i ymddiddan a hi.

Digwyddodd fod galwad am y brawd Brian i ymweled a'r Lleiandy bob dydd o'r wythnos ganlynol, gan fod yr Abades wedi ei tharo gan ei hen glefyd, y crydcymalau. Cariai genadwri oddiwrth Ddafydd bob tro, ac atebiad Angharad yn ol iddo. Dal yn ddiysgog yn ei phenderfyniad i beidio anturio dyfod i ymddiddan a'r bardd a wnai, ac ni wnai ar un cyfrif ymadael o'r Lleiandy hyd nes y deuai ei thad i'w chyrchu, fel yr oedd wedi addaw gwneyd.

Aeth wythnosau heibio, ac yr oedd amynedd Dafydd bron wedi dirwyn i'r pen.

Yr oedd yn awr yn ganol Mehefin a gwelai y byddai raid iddo droi tua'r Deheu er mwyn gwneyd parotoadau ar gyfer eisteddfod y Ddôl Goch. Fodd bynnag, cyn myned ymaith gwnaeth un cynhygiad drachefn i weled ei gares, ond bu yn aflwyddiannus y tro hwn fel y troion cynt, a gwelodd y bardd mai ofer oedd ei waith, ac nad oedd o un diben iddo aros yno yn hwy. Ar yr wythfed ar hugain o Fehefin ffarweliodd â'r Abad caredig, a mynachod Llangoed, a chymerodd ei becyn bychan o ddillad ar ei gefn, a chychwynnodd i dy ei gyfaill Gwilym Llwyd. Wedi cerdded am ddeng milltir eisteddodd i lawr ar ochr y ffordd, wrth ffynnon fechan, i yfed o'i dyfroedd, ac i fwyta o'r bara ceirch oedd ganddo. Tra wrth y gwaith daeth hen wreigan hyd ato, a safodd gyferbyn ag ef ar ganol y ffordd. Yr oedd ei chroen melynddu rhychiog yn lledraidd yr olwg arno, ac ymddanghosai ei thrwyn bachog a'i gen hirfain flewog fel yn gwneyd eu goreu i ymuno a'u gilydd yn fath o argae am ei genau. Am dani yr oedd mantell, yr hon a fu unwaith o liw coch disglaer, ond yn awr, o herwydd traul a fu arni a'r clytiau yma a thraw, yr oedd yn anhawdd dweyd beth oedd ei defnydd a'i lliw cyntefig. Am ei phen yr oedd ffunen ddu, ac ar hynny gwisgai het uchel bigfain. Safodd ac edrychodd ar Ddafydd gyda'i llygaid bychain, duon, treiddgar, am beth amser; a meddyliodd yntau y gallai fod arni eisieu bwyd, a chynhygiodd ddarn o'r bara ceirch iddi.

"Cynnyg llefrith i gath mewn potel wydr, ydyw hynyna," meddai yr hen wraig mewn llais cras isel.

"Nid ydwyf yn dy ddeall," atebai Dafydd.

"Tydi heb fy neall a thithau yn fardd," ychwanegai yr hen wraig, "nid oes gennyf felin i falu y bara ceirch yna."

"Sut y gwyddost fy mod yn fardd?"

"Mi wn i fwy o lawer o dy hanes nag wyt yn ei feddwl. Gwrando,—

> 'Ti feddyliaist dy fod yn caru
> Y fenyw deg, a'r gwallt du;
> Ond mae meinir a phen melyn
> Yn disgwyl clywed swn dy delyn."

"Yr wyt yn camgymeryd yn fawr. Yn gyntaf, ni ddarfu i mi garu mun a gwallt du; ac yn ail, nid ydwyf ar hyn o bryd yn cofio am un fenyw benfelen neillduol ar yr hon y rhoddais fy serch."

"Ni ddywedais dy fod yn caru un a gwallt du, ond 'ti feddyliaist'; ac nid ydwyt eto wedi gweled y fun a geri."

"Hwda, cymer hwn am dy drafferth yn fy nghylch," meddai y bardd gan godi ac estyn darn bychan o arian iddi.

Neshaodd yr hen wraig ato, ac wedi diolch iddo am y rhodd, sibrydodd,—"*Pan gyfarfyddi â'r tramorddyn a'r delyn ledr, paid aros i wrandaw arno, ond ffo adref nerth dy draed; os arhosi bydd poen, galar, a gofid i ti hyd derfyn dy oes.*"

"O'r goreu mi gofiaf dy gyngor," meddai Dafydd gan gychwyn ymaith. "Beth oedd yr hen wrach yn ei feddwl tybed wrth y dyn a'r delyn ledr?" ymsyniai y bardd wrth gerdded ym mlaen. "Feallai y gwyr mor atgas genyf yw swn y delyn ledr yr hwn sydd fel

> Cywion brain yn ymgreiniaw,
> Ciwed yn ymglywed gwlaw!
> Ni cherais, iawngais, angerdd,
> Na'i chafn botymog, na'i cherdd;
> Na'i choludd fain, damwain dig,
> Na'i rhifwnt liw, na'i rhyfyg;
> Na'i chwr bergam ddisgamar,
> Na'i llorf cam, un llwrf a'i câr.
> Drwg yw dan bwyth yr wythfys
> Llun ei chroth, llian ei chrys;
> Ni luniwyd ei pharwyden,
> Na'i chreglais ond i Sais hen.
> Gwerynad gwyllt, rhuad gau,
> Gwilff felen am geffylau;
> Chwaer undad, hwyrnad, hirnos,
> I'r oer Fad Felen o Ros.
> Sain gwydd gloff, anhoff yn yd,
> Sonfawr Wyddeles ynfyd.

Ac yng ngwlad y Gwyddel yr arhosent oll yw fy nymuniad i.'

Wedi cerdded 'yn ddygn am rai oriau drachefn, cyrhaeddodd bentref Aberffraw a llys ei gyfaill Gwilym Llwyd, yr hwn a'i croesawodd yn gynnes.

Drannoeth yr oedd yn wyl Bedr, ac aeth Dafydd, yn unol â'i arferiad ar ddyddiau sanctaidd, i'r gwasanaeth. Yr oedd yr eglwys a fynychai Gwilym Llwyd yn Rhosyr, ac yno yr aeth Dafydd gyda'i gyfaill foreu y dydd gwyl Bedr hwn. Nid oedd Dafydd yn parhau i wisgo y fantell lwyd a'r cap syml, ond ymbinciai gymaint ag a allai, a thynnai sylw holl ferched y fro wrth fyned heibio, gan mor wych oedd ei ddillad, ac mor hardd oedd ei gorff tal, lluniaidd, a'i wyneb llwyd clasurol, a'i wallt llaes aurfelyn.

Gyda bod Gwilym a Dafydd i mewn yn yr eglwys, distawodd y gloch a dechreuodd y gwasanaeth. Sylwai Gwilym fod ei gyfaill yn gwrando'n astud dros ben, heb droi ei olwg unwaith i'r naill ochr na'r llall, fel y byddai ei arfer yn gyffredin; ond edrychai yn syth ar y person o'i flaen, a synnai Gwilym yn fawr at hyn, a phenderfynodd fod gwersi Abad Llangoed wedi suddo yn ddwfn i feddwl y bardd. Ond, wrth fyned allan o'r eglwys, deallodd Gwilym yr achos o'r holl astudrwydd,

enyw deg, y brydferthaf o fenywod pryd-
rth Mon, oedd yn y côr, ac wedi tynnu bryd
afydd.

Wrth fyned adref gofynnodd pwy
doedd.

"Morfudd ydyw ei henw, a merch ydyw
foneddwr o'r enw Madawg Lawgam o Blas
ithinfynydd yn y plwyf hwn," atebai
wilym Llwyd.

"Ni welais ei harddach erioed. Yr wyf
edi teithio llawer ar hyd a lled y wlad, ond
r wyf yn dywedyd eto, Gwilym, na welais
nyw mor hardd a hon o'r blaen. A wyt ti
n tybied y gallwn gael ymddiddan gair
hi?"

"Mae'n ddrwg gennyf ddweyd nad ydwyf
ar delerau da a Madawg Lawgam, neu
llasem alw yno, a gwell i ti beidio myned
n agos i'r eneth tra y mae ei thad a'i lygaid
yraidd gerllaw."

"Wel, felly, mynd adre gynted y gallem
w ̂y doethaf i ni," atebai Dafydd, gan
drych yn ol at borth yr eglwys, lle yr oedd
Morfudd yn ymddiddan â dwy neu dair o
yfeillesau, a'i thad a'r person yn sefyll
erllaw iddynt. Ond nid oedd Dafydd am
ddi Morfudd i fyny ar hyn, na, yr oedd
edi ei glwyfo yn rhy dost o lawer. Wedi
rraedd Llys Gwilym aeth i chwilio am Brys,
r hwn, er maint ei siarad, a fyddai yn aml
n gallu dyfeisio rhyw gynllun i dynnu ei
istr o benbleth. Wedi i Ddafydd ddod
hyd iddo, a dweyd iddo gyfarfod yn
glwys Rhosyr y fenyw harddaf yn y byd,
nghyd a'r anhawsdra i gael ymddiddan a
, a gofyn ei gyngor, atebodd Prys,—
Anfonwch anrheg i'r foneddiges, meistar,
mi fyddai yn bleser gennyf gael cyflwyno
anrheg i'r fenyw, a dywedwn wrthi mai
meistar ydyw y dyn glanaf a'r bardd goreu
ng Nghymru, a'i fod o fonedd, hil, a ——."

"Taw, Prys, taw," meddai Dafydd, gan
nwerthin am ben ei sel gyda'r achos.
wyddai Dafydd fod Prys yn llawen iawn
rth ei weled yn rhoddi ei serch ar un i lenwi
e Angharad. Yr oedd y creadur ffyddlon
n ofni o hyd fod ei feistr yn hiraethu am
ani, er na fynnai ddweyd hynny wrtho nac
rth neb arall.

"Dyma i ti arian i brynu dau alwyn o'r
win goreu, a dos a hwy i Eithinfynydd yn
anrheg i Forfudd oddiwrth Ddafydd ab Gwilym; gwyddost beth i'w ddweyd."

Ymolchodd Prys, ac ymwisgodd mewn siaced lian wen lân, er gwneyd ei hun yn wrthrych teilwng, yng ngolwg Morfudd, o urddas ei feistr, ac aeth ymaith ar ei neges.

Digwyddai Dafydd fod yn y buarth pan ddychwelodd Prys, ac yr oedd yr olwg gyntaf a gafodd arno yn ei lanw a braw. Arweiniai y gwas y ceffyl i mewn gan edrych yn benisel, a'i gob wen lân, i olwg Dafydd, wedi ei gorchuddio â gwaed.

"Prys! Prys druan! Beth sydd wedi digwydd? A wyt ti wedi dy archolli?" gofynnai Dafydd, gan fyned i'w gyfarfod.

"Ydwyf, mistar, wedi fy archolli yn fy nghalon ac ——"

"Yn dy galon a thithau yn fyw?"

"Peidiwch a phryderu, fy meistar, ni chefais anaf i'm corff, ond i'm teimladau. Edrychwch yn fwy manwl a chewch weled nad ystaeniau gwaed ydyw y rhai hyn."

Aeth Dafydd yn nes, a deallodd wrth yr arogl mai gwin ydoedd yr ystaeniau.

"Beth? Ha! ha! ha!" chwarddai Dafydd o ewyllys ei galon pan ddeallodd yr hyn a ddigwyddodd.

Edrychodd Prys yn sarrug, a dywedodd,— "Ie, taflu y gwin am fy mhen a wnaeth yr hoeden, gan ddweyd na wyddai hi pwy oeddwn i na fy meistr."

Daeth Gwilym Llwyd allan i weled beth oedd yn achosi y fath lawenydd i Ddafydd, a phan ddeallodd yntau yr amgylchiadau cydunodd gyda Dafydd i chwerthin. Aeth Prys ymaith yn ddrwg ei dymer, gan eu gadael i'w difyrrwch.

"'Rwyn hoffi ysbryd anibynnol fel yr un ddanghosodd Morfudd," meddai Gwilym.

"Yr wyf yn meddwl mwy o honi o lawer am hyn. Ni rown gneuen ffreinig am y merched hawdd eu denu, ac y mae gormod o honynt ysywaeth," atebai Dafydd.

"Na, yr wyt yn camgymeryd, rhai anhawdd iawn i'w denu ydynt oll."

"Yr wyf yn dal am chwe galwyn o win y gallaf brofi it eu bod yn rhy hawdd i'w cael."

"Yr wyf yn foddlawn Dafydd, ym mha le y bydd y prawf?"

"Ar ein taith i'r Deheubarth."

CARU'R ANGHALL.

Rhois fy mryd ar garu glanddyn,
Fe roes hwnnw ei serch ar rywun;
Hono roes ei serch ar arall,—
Dyma dri yn caru'n anghall.

RHYFEDDOD.

On'd ydyw hyn ryfeddod,
Fod dannedd merch yn darfod,
Ond tra yn ei genau chwyth
Ni dderfydd byth mo'i thafod?

Caernarfon: Argreffir a Chyhoeddir dros y Golygydd, gan D. W. Davies, a'i Gwmni.

CYMRU.

Cyf. II. CHWEFROR 15fed, 1892. Rhif. 7.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

II. Y TERFYNAU.

"Y mynyddoedd a ymgodant, a'r dyffrynnoedd a ddisgynnant; gosodaist derfyn fel nad elont drosodd."

DYDDIAU chwilio hen derfynau ydyw ein dyddiau ni. Y mae ambell i genedl yn edrych ar lecyn bychan mewn ymherodraeth fawr, ac yn dweyd,—"O'r terfynau bychain hyn y tyfasom ni." Ac y mae ambell genedl yn edrych, oddiar lecyn bach, ar lawer o wledydd ereill, ac yn dweyd,—"Dyna oedd terfynau bro ein tadau ni."

Clywais lawer barn am effeithiau dysgu Hanes. Dywed Hobbes, amddiffynnydd brenhiniaeth, fod dysgu hanes Groeg a Rhufen wedi costio'n ddrud i wledydd y gorllewin, oherwydd fod yr hanes hwnnw wedi rhoddi cariad at ryddid i wyr ieuainc ffol. Dywed llawer un heddyw mai cam-gymeriad ydyw adrodd hanes eu gwlad i genhedloedd bychain gorchfygedig,—i'r Pwyliaid, i'r Hungariaid, i'r Bohemiaid, i'r Cymry. Ni wna adrodd eu hanes, meddir, ond codi hen chwerwder, a rhoi awydd yn eu heneidiau prudd am ymladd yn erbyn ffawd.

O'r ochr arall, clywais lawer yn dweyd mai tawelu ysbryd cenedl wna adrodd ei hanes iddi. Gadewch i ddyn gael ei swyno unwaith, meddir, gan hanes ei wlad, ac ni welwch ef yn rhoi cam ymlaen wedyn. Llyffetheirir ef gan draddodiadau'r tadau, caethiwir ei feddwl gan gredoau meirwon, ac os gwelwch ef yn symud ryw ffordd, gwelwch ef yn symud yn ei ol.

Clywais ereill yn dweyd na wna Hanes i ddyn symud ymlaen nac yn ol. Mor bell ag y mae profiad bywyd yn mynd, meddir, nid yw Hanes, a'r rhai sydd yn ei ddysgu, yn werth dim. Ni ddysg yr hyn fu ond un peth i ni am yr hyn a ddaw,—a'r un peth hwnnw ydyw nas gallwn broffwydo dim. Y mae'r hyn sy'n ol mor anhebyg, bob amser, i'r hyn sy 'mlaen, fel nas gellir proffwydo dim oddiwrth y naill am y llall. Y rhai wyddai leiaf am hanes eu gwlad, meddir, sydd wedi proffwydo'r proffwydoliaethau cywiraf am ddyfodol y wlad honno, ac wedi gwneyd mwyaf i roddi ffurf i'r dyfodol hwnnw. Ni wyddai Rousseau hanes Ffrainc; ac nid oedd hanesydd fedrasai broffwydo, ar fin y Chwyldroad, beth fyddai Ffrainc ymhen ychydig fisoedd, pan chwalwyd adeiladwaith yr holl oesoedd megis mewn un dydd.

Nid ydyw hyn yn wir. Y mae hanes pob cenedl yn dangos llwybr ei bywyd, y llwybr y myn ei gerdded yn ei blaen. Hwyrach fod llawer un wedi arwain chwyldroad heb wybod hanes ei wlad; ond, hyn sydd sicr, na fu neb erioed yn arwain chwyldroad heb feddwl, o leiaf, ei fod yn arwain ei bobl hyd eu hen lwybrau. Ac y mae hyn yn sicr hefyd,—nid arweinir yr un genedl byth, os nad arweinir hi at rywbeth y tybia iddi ei golli yn yr amser fu. Yn ol y mae Eden y natur ddynol, yn ol y mae ei Gwaredwr; ac yng ngoleuni hanes yr hyn fu, ac yn y goleuni hwnnw'n unig, y medr cenedl gerdded ymlaen. Ni wyddai Rousseau hanes Ffrainc, ond tybiai ei fod yn ei wybod, ac yn y dybiaeth honno yr oedd swyn a grym ei ddysgeidiaeth. Yr oedd llawer yn meddwl fod y Chwyldroad Ffrengig yn dechreu byd newydd; ond, yn fuan iawn, yr oedd y byd gen hyned ag erioed, ac yn hyn hefyd. Chwarddid am ben crynhodeb Machiavelli o hanes,—"Ar ol brenhiniaeth daw aristocratiaeth, ar ol aristocratiaeth daw democratiaeth, ar ol democratiaeth daw brenin drachefn." Ond, cyn pen ychydig iawn, yr oedd y byd yn ei hen gylch crwn,—y ddemocratiaeth ffyrnig wedi ymddofi dan deyrn-wialen haiarn Napoleon. Na, ni fu erioed ddyfodol mor newydd i fywyd gwlad nas gellid rhag-weled ei gyfeiriad oddiwrth hanes y wlad honno.

Yr ydym ni Gymry, yn y blynyddoedd hyn, mewn cyfwng yn ein hanes. Yr ydym

yn genedl wedi deffro,—yr ydym ar ganol furfio llenyddiaeth gyfoethog, yr ydym yn yw bywyd gwerth adrodd ei hanes. Ac eto, an mae'r haiarn yn eirias ac yn derbyn rgraff fydd arno am ganrifoedd, pan y mae in cymeriad cenhedlaethol yn cael ei ail furfio at fywyd cyfnod newydd, pan y mae reddf Cymru wedi dangos iddi mai addysg i meibion ydyw ei phwnc pwysicaf,—yn y yfwng pwysig hwn, nid oes odid athraw fedr ldweyd wrth blentyn o Gymro beth oedd yfreithiau Hywel Dda, beth oedd gofid Llywelyn, beth oedd amcanion Owen Glyn Dŵr. Y mae addysgwyr Cymru fel pe'n ybied nad oes gysylltiad o gwbl rhwng yr yn a fu a'r hyn a ddaw.

A ydyw'n iawn adrodd hanes gwlad er mwyn y gwleidyddwr? Ydyw, yn sicr. Y mae gwleidyddwr ŵyr hanes ei wlad yn lawer gwell dyn, a thecach dyn, na'r hwn ydd am ruthro i'r dyfodol ar draws popeth. Mewn cysylltiad a'u bywyd presennol y myn bobl glywed eu hanes, fel esboniad arno, fel yfiawnhad neu fel condemniad. Ni fuasai anes bore cenhedloedd y Rhein wedi ei hwilio mor drylwyr oni bai am y gelyniaeth rhwng Almaenwr a Ffrancwr. Ac yn y lyddiau hyn yng Nghymru, y mae cenedl newn penbleth am ei dyfodol yn gofyn a oes dim goleu i'w gael oddiwrth yr hyn fu Cymru.

Er hynny, nid i gyfiawnhau deffroad y lyddiau hyn yr ysgrifennaf. Edrychaf ar y deffroad fel ffaith,—ffaith yng nghrefydd, yn lenyddiaeth, ac yn holl fywyd Cymru,—ā hwy a'i gwad? Ni cheisiaf ei gyfiawnhau, ac ni cheisiaf ei gondemnio. Fel ym mhob deffroad gwlad, y mae meirch gwylltion ar y blaen, a geifr cloffion yn olaf. "Y march redo heibio'r terfyn sy'n ennill y gamp" ebe'r naill; ac ebe'r llall,—"Pan ddel tro ar y geifr yr afr gloff fydd ymlaenaf." Y peth fedraf i ddangos ydyw, o ba le y daeth y deffroad, a hynny'n unig.

I'm meddwl i, y mae dosbarth mwy bwysig na'r gwleidyddwyr, er eu bod yn gweithio'n fwy o'r golwg,—yr ysgolfeistri. Hanes Lloegr ddysgant hwy i blant Cymru'n awr. Digon prin y mae hanes y gwledydd mawrion yn foddion addysg,—cynhyrcha Philistiaeth ym meddwl plentyn, trahausder, a hoffder o ryfel a gogoniant gwisg milwr. Hanes gwlad fechan wedi ymdrechu am gyrraedd nod uchel, wedi aberthu llawer, wedi cael cam ac heb ei wneyd, gydag ambell darawiad prudd mewn ystori ddifyr,—dyna'r moddion addysg goreu. Groeg, Canan, Cymru, Holand, Pisa,—hanes y rhain ddywedwn i wrth blentyn y dymunwn ei weled yn amyneddgar, yn barod i aberthu, yn garedig, yn feddylgar, yn foneddigaidd. Ond pe rhoddid bachgen i'm gofal gan ei dad gyda'r geiriau hyn,—"Hwdiwch, gwnewch y bachgen yma'n drahaus, yn falch, yn ddidrugaredd, yn sarhaus,"—mi a ddysgwn iddo hanes Rhufen, hanes Prwsia, neu hanes Lloegr. Y mae tlysni, ac amrywiaeth mewn undeb, gwaith yn llwyddo wedi i'r gweithwyr farw, galar yn arwain i obaith,—y mae i Hanes Cymru nodweddion a'i gwna'n foddion addysg nas gellir cael ei well.

Ar un ystyr, gellir dweyd mai ymdrech i sicrhau terfynau ydyw hanes Cymru. Trwy'r canrifoedd y mae'r ymdrech chwerw wedi parhau. Dacw Gadwallon wedi ennill yr hen dalaeth orllewinol Rufeinig,—am flwyddyn yn unig; dacw Offa'n cloddio clawdd i fod yn derfyn dros byth; dacw'r Normaniaid yn dylifo drosto, a dacw derfyn trwy ganol Cymru rhwng eu harglwyddiaethau hwy a gwlad y tywysogion; dacw Gymru'r Tywysog yn siroedd, wedi cwymp Llywelyn; dacw Harri'r Wythfed yn tynnu llinell derfyn arall; dacw Fynwy eto, ymhen llawer o ddyddiau, dan gyfrethiau Cymru.

Ac eto, mor ofer oedd yr ymdrech hir hon! Y mae'r terfynau eto'n aros lle'r oeddynt ar y dechreu, ac yno y byddant byth. Un genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw, ond y ddaear a saif byth. Gosodwyd y llinell derfyn, ac erys yn yr un fan wedi pob buddugoliaeth a methiant.

Ni osodwyd hi yn ol gwahaniaeth gwaed. Y mae trigolion Henffordd o'r un gwaed a thrigolion Brycheiniog; gwaed bwrdeisiaid Seisnig sydd yn nhrigolion hynaf llawer o'n trefydd. Y mae cymaint o waed Normanaidd yn nhrigolion Bro Morgannwg ag sydd yn nhrigolion unrhyw fro yn Lloegr. Y mae ardaloedd yn Lloegr fedd waed Brythonig mor bur a'r ardal fwyaf Cymreig yng Nghymru. Nid oes genedl ar wyneb y ddaear a'i gwaed yn bur; a'r lle y ceir mwyaf o gymysgedd gwaed y ceir mwyaf o athrylith ac o gynnydd.

Ni osodwyd y llinell derfyn ychwaith yn ol gwahaniaeth iaith. Y mae Cymry uniaith wedi eu geni a'u magu yn Lloegr; y mae Saeson uniaith wedi eu geni a'u magu yng Nghymru. Y mae iaith Maesyfed yn Seisnig, ond y mae'r bobl mor Gymreig eu cymeriad a phobl Meirionnydd,—yr un yn eu hofer goelion a'u traddodiadau; yr un, gan hynny, fydd eu crefydd a'u dyfodol. Y mae nodweddion meddwl Henry Vaughan a John Dyer, er mai yn Saesneg y canasant, yr un a nodweddion meddwl Ceiriog neu Wilym Hiraethog. Nid oes genedl uniaith yn Ewrob i gyd.

Siaredir pum iaith yn yr ynysoedd Prydeinig, —Saesneg, Gaeleg yn Ucheldiroedd yr Alban, Gwyddeleg yn yr Iwerddon, Cymraeg yng Nghymru, a Ffrancaeg yn Ynysoedd y Sianel. Nid iaith yr Almaen yn unig yw'r Almaeneg, siaredir hi mewn dwy brifddinas heblaw Berlin,—hi yw iaith Berne a Vienna. Nid iaith Ffrainc yn unig ydyw Ffrancaeg, siaredir hi yn St. Helier, ym Mrussels, ac yn Geneva. Tybia llawer, pe marwai'r iaith Gymraeg, na fyddai Cymru mwy. Colled drom i feddwl Cymru fuasai colli'r iaith Gymraeg; ond, pe dysgai iaith arall yfory, Cymru fuasai Cymru o hyd.

Gosodwyd terfynau Cymru ar hyd godrau ei mynyddoedd, ac yno y byddant byth. Saif y Wyddfa, er syrthio o Lywelyn; gwelid trumau gleision y Berwyn yn ymgodi uwchlaw'r gwastadedd fel o'r blaen, wedi marw Glyn Dŵr. Nid yw'n ormod dweyd mai daearyddiaeth sy'n penderfynu terfynau, os nad tynged cenedl. Y mae'r llinell derfyn rhwng yr Alban a Lloegr wedi torri dwy hen deyrnas,—Northumbria ac Ystrad Clwyd,—yn eu hanner; y mae wedi cau tair cenedl elynol ac anhebyg i'w gilydd,—Teutoniaid yr Isel-diroedd, Cymry'r gorllewin, a Gwyddyl yr Uchel-diroedd,—ynghyd; er gwaethaf gwaed ac iaith mynnodd daearyddiaeth wneyd bryniau'r Cheviots yn derfyn rhwng dwy genedl.

Ofer ydyw ymladd yn erbyn y mynydoedd. Y maent wedi ymladd yn erbyn y Cymry, ac wedi ymladd gyda hwynt. Yr ymdrech gyntaf yn hanes y Cymry ydyw'r ymdrech i gadw'r gogledd a'r gorllewin wrth eu gilydd yn un wlad. Yn y gogledd yr oedd Ystrad Clwyd a Theyrnllwg; yn y gorllewin yr oedd Gwynedd, Powys, a rhandiroedd y Deheubarth. Yr oeddynt i gyd yn fynyddig; ond yr oedd Dyffryn Maelor rhwng y gogledd a'r gorllewin. Er gwaethaf hwn bu cysylltiad agos, am ganrifoedd lawer, rhwng mynyddwyr y gogledd a mynyddwyr y gorllewin. Pan orchfygwyd Caradog yn y gorllewin, diangodd i'r gogledd, gan feddwl ymladd yr un frwydr drosodd drachefn. Pan drefnodd y Rhufeiniwr Bryden, rhoddodd y mynyddoedd,—gogledd a gorllewin,—yn un dalaeth; a cheisiodd sicrhau'r undeb rhyngddynt, er gwaethaf Dyffryn Maelor, â muriau Caer. Wedi i'r Rhufeiniwr ymadael bu ymdrech chwerw yn erbyn yr Eingl a'r Saeson i gadw'r Gymru fawr hon yn un. Dyma'r ymdrech gafodd Lywarch Hen ac Aneurin yn brydyddion iddi; dyma'r ymdrech ddarluniwyd gan ddychymyg Cymru fel brwydrau Arthur. Ond yr oedd y toriad hwnnw yn y mynyddoedd, yr oedd yn rhaid i'r Ddyfrdwy gael ffordd drwy'r mynyddoedd i'r môr. Ac nis gallai athrylith Rhufen na muriau Caer na llwyddiant byr Cadwallon gadw mynyddoedd ynghyd, tra yr oedd dyffryn rhyngddynt.

Wedi'r ymdrech hon, bu'r mynyddoedd yn ymladd gyda'r Cymry. Ni fedrasai dewrder gwerin ac ymroad tywysogion gadw Cymru oni buasai am y mynyddoedd; ni fedrodd brad a diffyg undeb ddinistrio Cymru, oherwydd fod y mynyddoedd yn rhag-furiau ac yn gestyll iddi. Ac y mae'r mynyddoedd hyn, o ganrif i ganrif, yn newid cymeriad a meddwl pob preswylwyr newydd, ac yn gwneyd pob dyfodiad yn Gymro. Y mae hinsawdd yn newid mwy na lliw'r croen; newidia gymeriad y gwyneb ac ansawdd y meddwl. Y mae hinsawdd yr India'n marweiddio ynni'r Sais, y mae hinsawdd yr Amerig yn trydanu'r Eidalwr; ac y mae hinsawdd gryfhaol fywiol Cymru'n rhoddi nodweddion meddwl i'r Cymro a'i gwna, yr ydys yn disgwyl, yn arweinydd ac yn athraw yn yr ynysoedd hyn. Oddiwrth eu bro y cymerodd y Cymry eu henwau; nid pobl o'r un waed y galwasant eu hunain, na phobl o'r un iaith, ond pobl yn byw yn yr un fro. Y ffaith bwysicaf yn eu hanes ydyw'r ffaith mai preswylwyr yr un mynyddoedd ydynt. Peth llai pwysig o lawer ydyw eu gwaed a'u hiaith. Y mae'r mynyddoedd yn rhoi unoliaeth i hanes Cymru,—y peth a fu a fydd, a'r peth a wnaed a wneir, ac nid oes dim newydd dan haul.

Ar olwg arall, gellir dweyd mai ymdrech i ddifodi terfynau o'i mhewn ydyw hanes Cymru. Os sicrhaodd y mynyddoedd anibyniaeth dragwyddol i Gymru, y maent wedi sicrhau rhaniadau tragwyddol iddi hefyd. Os ydynt wedi dyrysu amcanion brenhinoedd Lloegr, y maent wedi dyrysu amcanion tywysogion Cymru hefyd. Amcan pob tywysog oedd uno Cymru; ond ymdrech ofer fu pob ymdrech i uno Cymru hyd yn hyn. Y mae'r mynyddoedd yn ymladd yn ein herbyn.

Y mae llawer rheswm am ddiffyg undeb Cymru. Yn un peth, y mae wedi ei rhannu'n Ogledd a De. Y mae feinaf yn ei chanol, lle y mae dyffryn y Ddyfi a dyffryn yr Hafren ymron a chyfarfod. Ac ni wyr Plunlumon yn sicr pa un a'i amddiffyn a'i rhannu Cymru ydyw ei brif waith.

Rheswm arall am ddiffyg undeb Cymru ydyw hyn,—y mae ei chyfoeth a lliaws ei thrigolion yn ei deupen, ac nid yn ei chanol. Y mae ei chwareli yn Arfon a'i gweithfeydd alcan yn eithaf y De; y mae ei glo yn Fflint yn eithaf y Gogledd, ac ym Morgannwg a Mynwy. Rhyngddynt nid oes, dros fynydd-

oedd a rhosdiroedd eang, ond dychymyg am ronynau aur Meirionnydd a chof am weithfeydd plwm Ceredigion. Y mae'r bobl, hefyd, ar lannau'r Gogledd neu lannau'r De; yn y canol nid oes ond poblogaeth deneu o amaethwyr a bugeiliaid.

Rheswm arall am ddiffyg undeb ydyw cyfeiriad ffyrdd Cymru. Y mae ffyrdd Cymru'n cyfeirio i le allan o honi,—i Lunden. Y mae Llunden yn fwy cyfleus i bwyllgor o holl Gymru ymgyfarfod nag odid i le yng Nghymru ei hun. Y mae ardaloedd Cymru'n anghyspell iawn i'w gilydd; a thrwy Loegr yr eir gyflymaf o Gaernarfon i Gaer Dydd, neu o Fangor i Aber Tawe.

Rheswm arall am ddiffyg undeb Cymru ydyw nad oes gan Gymru brif ddinas, ac na fu ganddi brif ddinas erioed. Nid oes ddinas na thref yng Nghymru fedd gysgod gobaith yr edrychir arni byth fel prif ddinas Cymru. Y mae trefydd Cymru wedi eu gosod, fel trefydd gogledd yr Eidal, at ymrafaelio a'u gilydd yn hytrach nag at gytuno. Ac nid yw'n beth sicr y daw'r teimlad cenhedlaethol byth yn gryfach na'r teimlad masnachol. Breuddwyd ydyw undeb cenedl, ond peth sylweddol iawn ydyw marchnad fywiog neu borthladd prysur. Tybid unwaith y gellid gwneyd Aber Ystwyth yn brif dref addysg holl Gymru; ond, yr oedd yr hen deimlad taleithiol yn rhy gryf.

Ond nid colled i gyd ydyw peidio meddu prif ddinas. Pe buasai gennym brif ddinas, buasai tafodiaith un rhan o Gymru'n glasurol, a'r lleill i gyd yn ddirmygedig ac yn esgymun. Buasai gennym ramadegau wrth yr ugeiniau, llyfrynnau bychain i ddweyd pa gamgymeriadau ddylem ochel wrth siarad ac ymddwyn, ynghyd a'r gwahanol ddulliau trahaus sydd gan swyddwyr prif ddinas i orfodi ereill i feddwl ac ysgrifennu yn ol eu chwaeth gelfyddydol hwy. Wrth feddwl am lawer ymgais wnawd i ddoctora'r iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymreig, yr wyf yn barod i ddiolch i Ragluniaeth nad oedd prif ddinas i dderbyn ac i gymeradwyo yr hyn a ddymunai y dysgedig yn erbyn teimlad gwerin, gwerin ag y mae ei greddf yn llenyddol a phur. Oherwydd nad oes gennym brif ddinas y mae pob diwygiad yn cael llwyddo yn ol ei deilyngdod, ac yn cael marw pan mai marw sy'n weddus iddo. Rhwystro dadblygiad bywyd cenedl wna prif ddinas.

Ond, er yr holl anhawsderau hyn, y mae awydd cryf am undeb wedi bod yng Nghymru er dyddiau'r *Dux Britanniarum* a'r Gwledig. Y mae'r hen elyniaeth rhwng ardaloedd yn prysur ddarfod, daeth y Diwygiad diweddaf a gelyniaeth credoau yn lle gelyniaeth ardaloedd, a hwyrach na welir credoau Cymru wedi mynd yn gredoau taleithiau neu ardaloedd.

Yr un hanes ddywedir gan lenyddiaeth Cymru. Y mae i'r llenyddiaeth hon ei hanes ei hun, hanes gwahanol iawn i hanes llenyddiaeth Lloegr, oherwydd fod meddwl Cymru wedi cadw ei anibyniaeth. Ond gwelir ol diffyg undeb ar lenyddiaeth Cymru hefyd. Ni ddarluniodd yr un bardd erioed ei bywyd yn llawn. Darluniodd Dafydd ab Gwilym dlysni natur, darluniodd Dafydd Nanmor dlysni wyneb dyn, ond ni ddaeth yr un Shakespeare ar eu holau i ddarlunio bywyd llawn aml-ochrog cenedl yn teimlo mai un oedd. Y prawf cryfaf fod gwlad yn teimlo ei bod yn un ydyw dadblygiad y ddrama yn ei llenyddiaeth. Pryd bynnag y ceir ymdeimlad cryf o undeb cenhedlaethol, ceir ddrama ar yr un pryd. Adeg undeb cryfaf Lloegr oedd teyrnasiad Elizabeth, a dyna adeg Shakespeare; adeg undeb cryfaf Ffrainc oedd teyrnasiad Louis y Pedwerydd ar ddeg, a dyna adeg Molière. Ni chafodd yr Almaen a'r Eidal eu hundeb hyd ein hoes ni, a chyda'r undeb daeth y ddrama i'r ddwy wlad, gyda Schiller ac Alfieri. Ni ddaeth undeb Cymru eto, ac ni chododd bardd i ddarlunio ei bywyd cenhedlaethol mewn drama. Bu argoelion fod hyn yn dod lawer tro. Yr oedd llawer yn meddwl fod oes aur Cymru'n gwawrio gydag esgyniad y Tuduriaid i orsedd Lloegr a chyfeithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg. Yr oedd llawenydd a gobaith fel pe'n uno'r teimlad cenhedlaethol yng Nghymru. Ymysg beirdd yr oes, Sion Tudur ydyw cynrychiolydd goreu'r teimlad hwn. Gwel ef wahanol gymeriadau Cymru gyda'u gilydd, ond rhyw gyd-gyfarfyddiad damweiniol rydd iddynt, rhyw gyd-gyfarfyddiad ffair. Ni wel unrhyw undeb hanfodol rhyngddynt, fel yr undeb sydd yng ngweithiau Shakespeare, adlewyrchiad o undeb ei genedl.

Y tro nesaf y gwelwn ymdeimlad o undeb yng Nghymru ydyw yng nghanol y Diwygiad Methodistaidd. Rhoddodd hwn yr un ymwybodolrwydd cenhedlaethol i Gymru ag a roddodd y Diwygiad Protestanaidd i Loegr. Peth rhyfedd, ar lawer cyfrif, na fuasai'r ddrama wedi blodeuo yng Nghymru yn y dyddiau hyn, pan oedd Cymru'n chwilio ei chalon ei hun. Mae llawer yn darllen interliwdiau Twm o'r Nant i'w mwynhau, ac y mae llawer yn eu darllen i'w condemnio; ond gwel efrydydd Hanes ym mywyd prudd y bardd hwn fywyd un allasai fod yn Shakespeare Cymru.

Beth fydd y deffroad nesaf, nis gwn. Ond pan glyw Cymru guriadau ei chalon ei

hun eto, y mae'n debyg iawn y bydd bardd i ddarlunio ei bywyd mewn drama. Y mae ymdeimlad cenhedlaethol yng Nghymru,—onid hon yw oes chwilio ein hanes, a darlunio ein bywyd mewn nofelau? Pan gryfha'r ymdeimlad hwn, pan roir brwdfrydedd ynddo, daw undeb o'r diwedd i'n hanes a'r ddrama o'r diwedd i'n llenyddiaeth. Yr ydym yn meddu cariad at dlysni,—y mae hwnnw yn Nafydd ab Gwilym; yr ydym yn meddu'r cryfder dwys a phur roddodd y Diwygiad inni,—y mae hwnnw yn Williams Pant y Celyn. Y peth nesaf i ni i'w ennill ydyw cydymdeimlad a'n gilydd, cydymdeimlad wna grefydd pob un o honom yn grefydd Cymru, a meddyliau pob un o honom yn llenyddiaeth Cymru.

Nid ydyw Cymru, felly, wedi cyrraedd undeb perffaith, ond y mae'n dod yn nes ato o hyd. Y mae elfennau bywyd prydferth wedi eu ffurfio; cyfunir hwy cyn hir. Daw bardd gymaint yn fwy na Thwm o'r Nant ag oedd Twm o'r Nant yn fwy na Sion Tudur; a gwel cenedl ddarlun o honi ei hun yn ei gân, fel mewn drych.

CYMRO, CYMRU, A CHYMRAEG.

Alaw,—*Glan Meddwdod Mwyn.*

Y Cymro, mae'r enw yn swyno fy serch;
Y Cymro sy'n dringo i binacl derch;
Pe cai'r holl genhedloedd gynhadledd gytun,
Gwnaent yno gytuno mai'r Cymro yw'r dyn.

CYDGAN.

Estroniaid gant huno 'n run amdo a'u haeg
Cyn derfydd am Gymro, am Gymru, a Chymraeg,
Cyn derfydd am Gymro, am Gymru, a Chymraeg.

O Gymru flagurog, ardderchog dy ddawn,
Llochesu'n dy fynwes yn gynnes a gawn;
Trwy haeddiant enillaist ogoniant y gân,
Daw'th burdeb i'th restru yn ben, Cymru lân.

Estroniaid gant huno'n 'run amdo a'u haeg, &c.

Cymraeg a ymddyrcha i ben yr uwch ben;
Cymraeg, fel ein Gwyddfa, gusana y nen;
Cymraeg cysegredig, ti bia y dydd,
Cei fyw yn gerfiedig ar fron Cymru Fydd.

Estroniaid gant huno'n run amdo a'u haeg, &c.

Ceir gwaed pob estroniaith yn saethu'n gynt, gynt,
Can's darfodedigaeth sy'n gwasgu eu gwynt;
Pan restrir yr olaf fel marwol oer aeg,
Yng Nghymru ceir Cymro i'w phriddo'n Gymraeg.

Estroniaid gant huno'n 'run amdo a'u haeg,
Cyn derfydd am Gymro, am Gymru, a Chymraeg,
Hir einioes i'r Cymro! Hwre i'r Gymraeg!

Cynllwyd. R. MORRIS.

HEN LYFRAU PLWYF.

I. LLYFR PLWY'R YNYS.

TRWY hynawsedd cymrawd ymchwilgar, cefais fenthyg am ychydig wythnosau hen ysgriflyfr cyfrif—"llyfr cownts," neu beth bynnag y galwch chwi ef,—perthynol i blwyf enwog Ynys Cynhaiarn, yng nghwmwd Eifionnydd. Y mae yn grynswth o lyfr rhyfedd mewn gwirionedd. Dechreua yn y flwyddyn 1778, a diwedda yn 1815; felly gwelir ei fod yn croniclo dirgelion plwyfol yr Ynys am ysbaid o ddeugain mlynedd, a chymeryd, fel y mae'n eglur y rhaid, fod lliaws o'i ddalennau wedi colli ar ei ddiwedd. Cynhwysa yn awr ddeg ar hugain o dudalennau mawrion, wedi eu gwnio wrth eu gilydd gan ryw deiliwr neu grydd mae'n debyg. Beth bynnag am hynny, ceir cofnodiad ar y ddalen gyntaf ym mysg y gwahanol dalebau,—

Am Bapur a gwneyd llufr cyfri wardeiniaid ...	...	...	0 1 3

Ni cheir yn rhyw rwydd iawn werth pymtheg ceiniog o bapur yn cynnwys cymaint o helyntion gwledig, ie, gwladol a chymdeithasol yr hen bobl yn y cyfnod hwnnw.

Y mae wedi ei ysgrifennu gan liaws, gan un o'r wardeiniaid y rhan amlaf; ond yr hwn sydd wedi ysgrifennu bron ei hanner ydyw Owen Ellis, Cefn y Meusydd isa, tad y bardd a'r henafiaethydd hyglod Ellis Owen, o'r un lle. Y mae craffu ar y naill lawysgrifen a'r llall yn unig, heb son am eu dull o gyfleu eu meddwl ar bapur, yn ddyddorol iawn. Gellir casglu fod olion ychydig o ddiwylliant addysg ar ambell un, tra arall yn ysgrifennu "o'i ben a'i bastwn" yn hollol. Ar y cyfan, a chware teg iddynt hefyd, y maent yn cadw eu cyfrifon yn or-fanwl a hynod gywir, yn eu dull Cymroaidd, cartrefol, syml, a dirodres eu hunain. Os eir ymlaen rai camrau at y coeth a'r clasurol, rhaid dweyd fod eu hiaith yn ddieithriad yn llawn gwallau, er fod ambell un yn gwneyd ymgais rwysgfawr i ysgrifennu tipyn o Saesneg yn y modd mwyaf barddonol. Yn wir, yr oedd myned trwy dryblith cymysglyd hen lyfr plwy'r Ynys yn ddigon i greu hwyl ac asbri i chwerthin yn llawen arnom, hyd yn nod ar ddyddiau gwlyb yn y cynhauaf gwair diweddaf.

Yr oeddwn yn canfod ar unwaith fod yr elfen dosturiol at y tlawd a'r adfydus yn gref iawn y pryd hwnnw, yn fwy, fel y gellir casglu, o raddau nag yn awr,—plant amddifaid yn cael eu cadw yn ofalus ar gost eu plwyf yma ac acw mewn lleoedd clyd. Yr oedd yr Eglwys yn ei holl gysylltiadau yn cael y sylw manylaf, gan mai hi oedd cyrchle arbennig yr ardalwyr.

Dyma fi'n rhoi ychydig o engreifftiau o'r cofnodion y teimlais fwyaf o ddyddordeb ynddynt wrth fyned trwy'r ysgriflyfr. Dechreua fel hyn,—

Dyma Iniawn Gyfri Wardeiniaid plwy'r ynus fel y calyn am y flwyddun 1778.

Yna rhoddir yn barhaus y symiau a dderbyniwyd o dreth, a'r hyn fyddai'n weddill gan yr hen wardeiniaid o'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir rhestr o'r taliadau, i bwy, ac am ba beth; ac ar y diwedd enwau y ddau warden. Llawysgrif fân, ddestlus Owen Ellis, mi gredaf, ydyw'r gyntaf, ac efe mae'n ddiau oedd yn gyfrifol gan y plwyf fel y mwyaf dealledig a chymwys i ofalu am gywirdeb y cyfrifon a'u hysgrifennu. Cai dâl o swllt neu hanner coron am hynny. Ceir ei ol yn cywiro ac yn trefnu llawer ar waith ambell un anghelfydd.

Y ddau warden am y flwyddyn 1778 oedd "Robert Davidd, Borth, a Robert Owen, glân y morfa." O'u taliadau cymerwn,—

I Robert William o'r hen dû pan oedd o yn sâl ..	..	0 10	0
I Robert Isacc am fund at wraig William Jones Samuel	..	0 15	0
Am ein llywon I wur Banggor	..	0 4	6
Am ein siwrna I Denio ..	..	0 3	0

Y Robert Isaac uchod ydoedd feddyg enwog, a mab Robert Roberts, meddyg, Isallt, a Jane Anwyl Isaac, ei wraig. Bu'n byw ym mhalasdai Ymwlch ac Ystumllyn.* Yr oedd yn anghenraid i bob warden fyned i Denio i gymeryd ei lw ger bron y Deon Gwladol ac hefyd yn aml i Fangor.

Ceir y flwyddyn 1781 gyda'r un pennawd,—"Dyma Iniawn Gyfri," &c., yr hyn a geir yn ddibaid fel anthem gron hyd y flwyddyn 1812. Talwyd ym mysg pethau doniol ereill,—

Am ladd tri chena llwunog ...	...	0 5	0

Byddai'r plwyfydd yn talu'n dda am ladd pob llwynog a chigfran yr adeg hon, a chanfyddwn fod Plwy'r Ynys wedi talu punnoedd lawer am ddifa y cyfryw.

Am y flwyddyn 1782 ceir llawysgrifen frâs, ehedog, o eiddo un o'r ddau warden,—

* Gwel "Hanes ac Achyddiaeth Teulu Isallt, a'u Cyff-genedl, am y ddau canrif diweddaf, o ba rai y tarddodd deg-ar-hugain o Feddygon." Wedi ei gasglu gan R. Isaac Jones (Ailtud Eifion). Cyhoeddedig yn gyfrinachol yn swyddfa "Madog," Tremadog, 1884.

William Davies, Tan'ralld, a Hugh Prichard, for Mrs. Jones, Bronn y Gader. Talwyd,—

Am Gadwraeth Richd. Jones, Castell I Wm. Davies y dydd ...	0	1	0
Am dû Cathrine Samuel 0 5 0 a swllt at pare O esgidie ...	0	6	0
Am Rafe newoudd i'r glôch ...	0	2	6

Ceir y cofnodion am 1783 yn llawysgrif Owen Ellis. Talwyd,—

Am Dori ffenest a thrwsio Dôr y porch, a moddion at hynu ...	0	5	6
Am dair Siwrna i Nanmor ...	0	2	6
Am Siwrna I brynu haidd i Jane William	0	0	6
Am siwrna I Drefan efo morwun y Cwm mawr	0	0	6

Tair siwrnai i Nanmor am hanner coron, cerdded rhyw ddeunaw milldir, wrth fynd a dyfod am ddeg ceiniog,—rhaid fod eu hewyllys yn gref. Y mae cofnodion 1784 yn or-Gymreig ym mhob ystyr. Y maent mewn llawysgrif berffaith gartrefol, a cheir rhyw ddyryswch ynglyn a dodi rhif y flwyddyn. Ceir ganddynt ddau gyfrif, ac wedi gadael dwy ddalen yn wag, ceir, am yr un flwyddyn, gyfrif hollol wahanol, ynghyda wardeiniaid newyddion.

Talwyd gan y rhai cyntaf,—

Richard Jones am grus	0	2	6
I Jane William o'r Plas ynogrwth ...	2	17	6
Am gwrw tair festri, dwu yn amser 'r hên Wardeiniaid	0	10	6
Am gwrw festri	0	4	6
Am chwhe siwrneu i namor ...	0	6	0
I Marry gallt y pus Dros Elisabeth Prichard	0	1	0
I John Jones, tyddun iolyn am gadw Bachgan Evan Elis	0	14	10
Am hanar fiolad o flawd i Henry Evan	0	1	0
Am sgfenu yr Cyfri	0	1	6

Ceir fod y presenolion yn y gwahanol *vestries* yn cael digonedd o gwrw—yr hen blwyfolion ar ol cwrdd a'u gilydd i drin y dreth yn cael rhyw spri fach ddedwydd ond diniwed, gan fod hynny'n oddefol, ac yn cael ei ystyried yn barchus. Ni fyddai neb yn ddyn, os nad allasai yfed ychydig gwrw.

Fel y sylwais, yr oedd deg ceiniog braidd yn fychan am daith o'r Ynys i Nanmor; yn awr, wele'r pris wedi ei godi yn uwch o ddwy geiniog.

Wedi troi dalen, cawn gyfrif ychwanegol am yr un flwyddyn, yn ol fel y gallwn ddeongli, gan yr un wardeiniaid hefyd, sef, —"Richard Humphrey, Tan'rallt, a Robert David, Tyddyn adi." Talwyd,—

Am ffedog i William Evan ...	0	1	0
Am sgrfenu atebion i gwestwnau Esgob	0	1	6
Am siwrneion ar gownt prentisio William Evan	0	2	0
Am stamp papur i wneud bond i blwu penmorfa	0	6	2
I Robert Isac am daclu cous Richard Jones	0	5	0
Am drwsio esgidia Richard Jones ...	0	0	7
Am drwsio Esgid Catrin Samul ...	0	0	4

Ar ol gadael y ddwy ddalen wen, ceir am y waith gyntaf ynddo, enwau'r un ar bymtheg ar hugain a dalasant y dreth Eglwys am 1784. Difyr yw darllen eu henwau a'u cartrefleoedd mewn iaith llafar gwlad, wedi eu hysgrifennu yn eglur ddigon.

Yn dilyn cawn gyfrif eto am 1784, a rhyfedd y fath gymysgfa a geir. Y wardeiniaid yn ol y cyfrif hwn oedd "Hwmphre William, Llanerch, a Robert Griffith, tyddun llurin." O'r taliadau a ysgrifennwyd yn afler dyma ychydig,—

Llawelun Francus am Drwsio'r Glôch	0	14	0
I John Roberts am guff i'r Glôch ...	0	12	0
I Betty Lloyd am win	0	2	6
Anne Jones, Cefnperfedd am fara ...	0	1	6

Wedi troi dalen, cawn, yn llawysgrif Owen Ellis, enwau y rhai a dalasant y Dreth Eglwys am 1785; a thrwyddynt ceir cipdrem ar enwau henafiaid plwy'r Ynys am ryw 107 o flynyddoedd yn ol. Y maent hwy oll yn gorffwys eu hun o hedd, a'u lle nid edwyn mohonynt mwy. Y mae rhywbeth yn gwneyd i mi ddarllen a pharchu eu henwau yn ddieithriad, er nas gwn enw pa sawl un sydd yn perarogli. Ceir yr enwau yn dilyn bellach i ddiwedd y llyfr,—llawer enw yn cael ei newid am arall fel y treiglai amser ymlaen ar ei rawd.

Wedi pasio amryw flynyddau a'r cyfrifon wedi eu hysgrifennu yn unffurf gan Owen Ellis, cawn, am 1790, gofnodion y *ceisiwyd* eu hysgrifennu, a hynny yn or-ddoniol gan rywun digon anghyfarwydd a'r gwaith. Allan o'r cyfrif yma, darllenner,—

I William Edwart am neud y brethyn	0	5	0
I Richard William am fund i bwll heli..	0	1	0
I Evan y gô am neud poth ar ddôr y ports	0	0	11
I John Richard am blangc fawydd	0	5	6
I Elin Owan am lanhau yr eglwys a golchi y wenwisg	0	5	0
Am fund a diod i Richard William	0	0	6
Am fund hefo John David i dyngu...	0	1	0

Awgrymiadol ydyw y llinell olaf, myned *i dyngu*. Gellir yn hawdd ei gymeryd yn air mwys, sylwasom ar ei gyffelyb yn flaenorol yn yr ysgrif,—megis talu am *dori ffenest*, *stamp papur*, &c.

Yn 1797 ceir enwau y trethdalwyr yn hollol fel yr arferir a'u galw mewn siarad cyffredin. O'r taliadau,—

Swllt I ddyn oedd yn mund o blwu I blwu	0	1	0
Am ddanfon trêth dyn y Navy i Bwllheli	0	1	0

yddyn 1800 ydyw yr olaf o groniclad
n Ellis, yna a y llyfr ar unwaith yn
d o afler, fel mai afreidiol yw difynnu
nplau o fwngleriaeth. Yr wyf yn
dwl fod Owen Ellis wedi marw yn 1802.
awn enwau talwyr y dreth Eglwys am
wedi eu hysgrifennu'n ysgafn a phryd-
, fel mewn llaw menyw, gan y bardd
Owen, a hynny, fel y cesglir, pan oedd
n a'r hugain oed, newydd ddychwelyd
o'r ysgol. Gellir crybwyll gyda llaw,
nid yn aml y gwelir danghoseg well o
sgrifen, ysgolheigaidd, fân, eglur, nag
llis Owen, hyd ei farwolaeth.*

O'r flwyddyn 1813 hyd ei ddiwedd yn 1815, cawn y cofnodion wedi eu hysgrifennu yn Saesneg yn ol y dull diweddaraf, gan un Robert Lloyd, goruchwyliwr ystadiau. Cawn ei lawysgrif yn llyfr rhent fy nghartref yn nyddiau fy nhaid, i foneddwr o Bwllheli.

Yn awr, ffarweliaf a hen lyfr plwy'r Ynys, gan daer erfyn ar iddo gael ei gadw yn barchus er cof am weithredoedd plwyfol dyddorus yr hen bobl gywir gynt.

CARNEDDOG.

Nanmor, Beddgelert.

* Gwelir *Autograph* o'i lawysgrifen, sef ei lythyr diweddaf, yn "Cell Meudwy," sef Cofiant a ansoddiadau Ellis Owen, Swyddfa "Madog," Tremadog, 2s. 6c.

"I GODI'R HEN WLAD YN EI HOL."

I.

CEWI ddewr fechgyn Cymru, cyfodwn, mae'n bryd,
Cyhwfan mae'r faner yn hy,
A geiriau gwladgarwch sydd arni o hyd
Yn siarad o'r oesau a fu
Am hen dywysogion,
Eu beirdd a'u llenorion,
Rhyw swyn sy'n cynesu pob côl;
Awn ati tan ganu,
Mae'r faner i fyny,
I godi'r hen wlad yn ei hol.

II.

Os ydyw y gelyn drwy ystryw a brad
A'i gledd wedi cochi dy dir,
Mae iaith y geninen rhwng bryniau'r hen wlad
Yn para yn werdd ac yn îr.
Daw llanciau Eryri
O ben y clogwyni
I lanw pob dyffryn a dôl,
Ac ysbryd Llywelyn
Ddaw eto i'n canlyn,
I godi'r hen wlad yn ei hol.

III.

Hen fur ein gwladgarwch oedd gadarn iawn gynt,
Ei fylchau sydd aml eu rhi,
A chlywir cwynfannau ar edyn y gwynt
Mewn gloew Gymraeg,—*Codwch fi!*
Dewr feib ein Colegau,
Arweiniwch y rhengau,
I'ch hatal 'does undyn mor ffol,
Mae'r arfau o'n deutu
Rhwng cloriau coch CYMRU
I godi'r hen wlad yn ei hol.

Caer Ddydd. MAWDDACH JONES.

IDRIS VYCHAN I'W DDARLUN.

Idris ar Idris sy'n edrych—yn fud,
Dau 'run fath, yn fynych;
Y mae'n drefn syllu mewn drych,
Hwn a gurodd un gorwych!

Dyro bennill a mydr heb anair,—tyrd
Mewn teg felus gywair;
Taraw dy gân, tyrd a gair,
Ac wedyn ti gei Gadair.

Af fi i'r bedd, ar fyr byddaf—yno,
Cyn daw henaint ataf;
Ar ryw fur, darlun puraf,
Tra yno, y'm cofio caf.

Ar fy ol daw torf eilwaith—i ganu,
A'i gynnal yn berffaith,
A'u dull gwych'n deall y gwaith,
'N amgenach na mi ganwaith.

IDRIS VYCHAN.

I.

AR brydnawn Sadwrn yn nechreu haf, agos i ugain mlynedd yn ol, cyfeiriais fy nghamrau am y tro cyntaf erioed tua thy Idris Vychan. Yr oeddwn wedi darllen am dano fel bardd a datgeiniad gyda'r tannau pan yng Nghymru, ac wedi ei weled rai gweithiau; ond, hyd yn hyn, nid oeddwn wedi cael dim o'i gymdeithas, nac erioed siarad gair ag ef. Felly, yn lled bryderus, curais wrth ei ddrws; a derbyniwyd fi i'r ty gan Mrs. Jones. Wedi fy rhoi i eistedd yn y gegin, aeth yn ei hol i'r lobi a gwaeddodd i fyny y grisiau,—"Jones, y mae yma ryw ddyn ifanc eisieu eich gweled." Yn y fan dyna lais yn ateb, a chlywn dwrw yr esgid yn disgyn i focs y sêt weithio, oherwydd, fel y gwyr llawer, crydd oedd ef wrth ei alwedigaeth; a phâr o esgidiau oedd yn eisieu arnaf finnau, ac yn bennaf achos o'm hymweliad y waith hon. Ond, fodd bynnag, daeth i lawr y grisiau mor sionc a llanc deunaw oed, ac ymlaen i'r gegin, ac ysgydwodd law a mi mor gynnes a phe buaswn hen gyfaill iddo na welsai er ys deng mlynedd.

Yr oedd golwg wir ddyddorol arno,—yn llewis ei grys, a ffedog wen o'i flaen, a'r rhan fwyaf o'r gwyneb doniol hwnnw oedd unwaith mor adnabyddus yn cael ei ddarnguddio gan farf drwchus, a gwallt hir, ynghyda phar o wydrau yn gorffwys tua chanol ei drwyn,—ac yntau gyda llygaid duon athrylithgar yn tremio arnaf dros y rhai hynny. Wedi darfod goruchwyliaeth y mesur troed, eisteddodd i lawr a dechreuodd ymgomio trwy ofyn i mi,—

"O ble yngNghymru yr ydach chi yn dwad?"

"O Lanrwst."

"Ho, felly yn wir, yr ydych yn dod o le enwog. Mi fydda i, welwch chwi, yn meddwl mai Dolgellau a Llanrwst sydd wedi bod y ddau le hynotaf yng Ngogledd Cymru am feirdd, telynorion, a datgeiniaid. Ydach chwi yn adnabod Trebor Mai a Gwilym Cowlyd, beirdd campus ydyw y ddau?"

"Ydw 'n dda," meddwn innau, "ac mae'n debyg gen i eich bod chwi hefyd yn adnabod Eos Crwst ac Eos Ebrill."

"Cantorion da iawn hefo'r tannau ydi y ddau; ond un rhyfedd iawn ydyw Eos Crwst. Yr ydw i wedi dotio llawer at englynion yr hen englynwr digyffelyb hwnnw, Robert Owen y nailar, iddo fo fel canwr; ac

Eisteddfod Rhuddlan, os wyf yn cofio yn
n, y gweles i o y tro cynta erioed."
"Wel, glywsoch chwi y pennill wnaeth
Crwst iddo ei hun pan yn *hard up* yn y
ddfod honno?"
"Wel naddo yn wir, sut y mae o, er
yn popeth?"
"Fel hyn y clywais i o,—

"Robin Owen yn 'Steddfod Rhuddlan,
Yn cael tamaid gan Talhaiarn,
Ac yn eistedd wrth y ffynnon,
A rhoi briwsion i'r adar bach."

"Wel ie, yn sicr, y mae o yr un fath a fo
nion. Y mae y llinell olaf yna y peth
edda glywais i erioed. Doedd o ddim yn
u, welwch chi, fy mod i wedi canu yn
na fo yn Rhuddlan; ac ymhen tua
hefnos mi ddaeth yr holl ffordd i Ddol-
au yn un swydd i edrych am dana i, medda
r mwyn cael ymryson canu pan fyddai
ond y ni ein dau, er mwyn cael allan y
vr goreu. Ond ches i ddim llawer o hwyl
hanu efo fo, na chwaith ddangos gymaint
oeso iddo ag a fuaswn i yn ei ddymuno,
fod fy mam y pryd hwnnw yn wael ac yn
i farw. Yr ydw i hefyd yn ei gofio fo
Eisteddfod Tremadog, ac mi gweles o yng
yfarfod y beirdd yn sefyll o flaen Eben
ld, ac yn dal dimau ar ei law, ac â'r llaw
yn cyffwrdd ei het ac yn dweyd,—
en Fardd, os gwelwch chi yn dda, yr ydw
Ned Jones, Eos Ebrill, yn fyr o ddima,
ch chi ei gneyd hi i fyny i ni?' Yr oedd
n Fardd, welwch chi, yn chwerthin nes
o yn siglo. Mi gwelais i o ar ol hyn yn
eddfod Llangollen, ac mi clywais o, nid
nig yn canu hefo'r tannau, ond hefyd yn
adlu ar ganu cerdd yno. Ac yn ol fy
n i, y fo oedd y goreu o ddigon, a chlywais
b erioed yn canu cerdd yn debyg fel y
aeth ef yr adeg honno. Ond chafodd o
wobr; a chafodd ei hen gyfaill Eos
ill chwaith mo'r wobr o ddwy gini oedd
i'r goreu am ddynwared y Datgeiniad
Pastwn, er mai y fo oedd yr unig un o'r
adleuwyr a lwyddodd i wneyd hynny.
beth bynnag i chwi, yn Eisteddfod Conwy
y tro ola i mi weld o. Yr oedd o yn bur
vg i dymer wedi colli'r wobr eto yn hon."
"Wel," meddwn innau, "mi clywais i
yn deyd yn Llanrwst, ei fod unwaith
colli mewn rhyw Eisteddfod, a'i fod yn
yd,—'Dwi'n hitio dim llawer mod i
i colli, ond y drwg ydi fod bachgan o'r
drât a fi wedi nghuro i.' Crydd oedd
Crwst, a chwi oedd o yn ei feddwl wrth
achgan o'r un drât.'"
Ar hynny taflodd yr hen fardd ei freichiau
y, a thorrodd allan mewn un fanllef fawr
! ha! a chredaf mai hwn oedd yr unig
dro y gwelais ef yn ymddangos fel yn falch o
fod yn perthyn i'r dosbarth gwir enwog
hwnnw o feibion llafur a elwir yn gryddion.
Ar adegau ereill cefais le cryf i gredu, er yr
ystyrrid ef yn weithiwr buan a chrefftwr
medrus, na buasai byth yn arddel ei alwed-
igaeth oni bai fod yn rhaid gwneyd hynny. A
chlywais am hen gyfaill iddo, a "bachgen o'r
un drât" o Ddolgellau, yn cael cerydd enbyd
ganddo am feiddio gofyn iddo mewn Eisted-
fod Genhedlaethol "pa lewyrch oedd ar y
gwaith gwneyd esgidiau ym Manchester."
"Y thdi'n mynd i son am waith crydd mewn
Eisteddfod! Paid a siarad y fath beth hefo
fi," meddai; a throdd ar ei sawdl wedi digio
drwyddo.

Dyna f'ymgom gyntaf ag Idris Vychan,
a gellir gweld oddiwrthi mai nid rhyw
gymeriad cyffredin oedd. O nage, yr oedd
yn un o rai hynotaf ei oes. Yn ein cynhulliad
mawr cenhedlaethol nid oedd neb y gellid ei
enwi fel ei gyfartal am ragori mewn cynifer
o wahanol ffyrdd, — megis fel datgeiniad
gyda'r tannau heb ei ail, fel bardd campus,
fel hanesydd Cymreig rhagorol, fel llenor
hyddysg a deallus yn hen lenyddiaeth fardd-
onol a cherddorol ei wlad. A chredaf nad
oedd neb yn adwaen yr hen alawon yn well,
nac yn gwybod mwy am danynt nag oedd ef.
Canys, yng Nghymru gynt, yr oedd adwaen
hen alawon yn rhan bwysig o swydd y
datgeiniad, ac yr oedd Idris Vychan yn
meddu ar gof da, a chlust gampus at adnabod
y nodau hynny sydd, ym mhob alaw, megis
yn ffurfio ei chymeriad ac yn ei gwahaniaethu
oddiwrth alawon ereill. Un o deithi hynotaf
ei gymeriad fel bardd a llenor, oedd ei hoffder
o hen feirdd a hen farddoniaeth Cymru. Ie,
rhaid cysylltu y geiriau "Cymru, Cymraeg,
a Chymreig" gyda phob dysgeidiaeth y darfu
iddo ef ymenwogi ynddi. O'r tu allan i
gylch yr enwau yna, nid oedd efe, er ei
athrylith, ond gwladwr lled syml; a gofyn-
nodd llawer un mewn dyryswch beth oedd y
rheswm nad oedd ein hen gyfaill yn gallu
siarad yr iaith Saesneg yn well, a chanddo
wraig a theulu yn gallu siarad dim ond yr
iaith honno, ac wedi byw yn Lloegr am
ddeunaw mlynedd ar hugain. Hyd y gwn i,
nid oedd ond un achos o hynny; a hwnnw
oedd, am fod cylch ei efrydu a'i ddarllen o'r
iaith honno a'i llenyddiaeth yn gyfyng a lled
fychan. Yr achos o hynny drachefn oedd,
nid diffyg gallu, ond yn hytrach ei hoffder
angerddol o hen lyfrau barddonol a hanesiol
Cymru. Yng nghwmni y rhai hynny y
treuliai efe ei oriau hamddenol a'i amser
darllen i gyd. Byddai pedwar neu bump o'r
cyfryw lyfrau, ac yn eu plith hen Feibl
Cymraeg cant oed, ar y bwrdd o'i flaen bob

amser; a byddwn i yn arfer meddwl mai yr hen Feibl a *Gorchestion Beirdd Cymru* oedd yn cael mwyaf o ddarllen arnynt. Yr oedd hefyd hynny o hanes personol sydd ar gael o'r cynfeirdd a'r go-gynfeirdd yn adnabyddus iddo ef. Am eu gweithiau, nid oedd odid ond ychydig o ddarnau, o *Ododin* Aneurin Gwawdrydd, hyd *Gywydd y Farn Fawr*, gan Goronwy Owen, nad oedd efe wedi eu darllen a'u hastudio. Aml i awr ddifyr y bum yn gwrando arno yn eu darllen, eu hadrodd, a'u cydmaru a'u gilydd. Ond beirdd y bedwerydd ganrif ar ddeg,—Dafydd ab Gwilym, Dafydd Nanmor, a Dafydd ab Edmwnd,—oedd y tri y soniai fwyaf am danynt. Clywais ef lawer gwaith yn dweyd fod rhai o'u cywyddau y pethau goreu yn yr iaith i'w canu gyda'r tannau, ac y byddai Eos Twrog, prif ddatgeiniad yr oes o'r blaen, yn canu llawer arnynt. Credaf ei fod yntau hefyd wedi bod yn eu canu, canys yr oedd yn medru aml un o honynt ar dafod leferydd. A maddeuer i mi am awgrymu am feirniaid yr oes hon pan yn beirniadu gweithiau hen feirdd, nad ydynt yn talu sylw i'r un peth hwnnw oedd yn bwysig iawn yng ngolwg yr hen feirdd eu hunain pan yn canu ar fesur cywydd neu ryw fesur arall,—sef fod eu cyfansoddiadau yn gyfryw ag y gellid eu canu hefo'r tannau. I'w darllen y cyfansoddir cywyddau yn yr oes hon, ond mewn oesau blaenorol, i'w canu, yn ol hen ddull cenhedlaethol cerdd dant a cherdd dafod, y cyfansoddid hwy, a dylid edrych arnynt yn y wedd honno. O'r hyn lleiaf, felly y byddai Idris Vychan yn arfer gwneyd. A phe gellid penderfynu pa un ai cywyddau Dafydd ab Gwilym, neu gywyddau Dafydd Nanmor, ai ynte cywyddau Dafydd ab Edmwnd oedd yn canu oreu hefo'r tannau, awdwr y rhai hynny a fuasai yn cael ei ystyried ganddo ef fel yn brif fardd. Clywais ef aml i dro yn cydmaru y tri bardd yn eu cywyddau ar destynau cyffelyb,—sef cywydd Dafydd ab Gwilym i wallt Morfudd, cywydd Dafydd Nanmor i wallt Llio Rhydderch o'r Gogerddan, a chywydd Dafydd ab Edmwnd i wallt merch heb enw iddi. Canmolai y tri tu hwnt i bob mesur, a dywedai fod yn anhawdd penderfynu pa un o honynt oedd yn meddu'r gallu darluniadol cryfaf. Ar yr un pryd beiai Dafydd ab Edmwnd yn fawr am beidio rhoddi enw y ferch y canodd mor swynol iddi. Hwyrach fod yr hen fardd yn meddwl y bydd hynny yn anfantais i arlunwyr Cymru Fydd, pan y byddont yn astudio y cywyddau er mwyn tynnu llun Morfudd Dafydd ab Gwilym, Llio Dafydd Nanmor, a —— Dafydd ab Edmwnd. Yr oedd ei edmygedd o Dafydd Nanmor mor fawr, fel yr wyf yn credu, pe buasai wedi cael byw i ddarllen yr ysgrif honno ar yr hen Farwnadau, a gweld ei hoff fardd yn cael lle mor anrhydeddus ynddi, y buasai hynny yn ormod i'w deimladau ddal heb iddo gael troi ei het o gwmpas ei ben a gwaeddi "Dafydd Nanmor am byth."*

Ni fwriedir i'r ysgrif hon fod yn fywgraffiad na hanes bywyd Idris Vychan, ond yn hytrach cymerer hi fel adgofion personol gan un a gafodd y fraint o fod lawer iawn yn ei gwmni. Am ddechreu ei yrfa lenyddol fel bardd, hanesydd, a datgeiniad, chlywais i erioed mo hono yn dweyd iddo ennill dim o bwys cyn Eisteddfod fawr Rhuddlan, yn 1850. Am yr Eisteddfod hon dywedodd wrthyf lawer gwaith iddo gerdded yr holl ffordd o Ddolgellau i Ruddlan heb ddim ond ychydig sylltau yn ei boced; ac iddo ddychwelyd ymhen yr wythnos, a dwy fedal arian ar ei fron, gwerth agos i ddeuddeg punt, wedi eu hennill yn anrhydeddus mewn gwobrwyon. Y bwysicaf, hwyrach, oedd y wobr gyntaf a medal arian am ganu gyda'r tannau. Yn y gystadleuaeth hon, trechodd unarddeg o ddatgeiniaid goreu Cymru, ac yn eu plith yr enwog Thomas Edwards, Corwen.† Enillwyd ganddo dair o wobrwyon ereill; ac un o'r tair oedd y wobr gyntaf, a medal arian, am y gasgliad goreu a helaethaf o hen benillion Cymreig. Trechodd wyr grymus eto yn y gystadleuaeth hon. Yr ail oreu oedd yr hen fardd Absalon Roberts o Lanrwst, taid y diweddar hynaws fardd a datgeiniad hefo'r tannau, Dewi Mawrth. Y pennill olaf yng nghasgliad Absalon Fardd oedd yr un canlynol o'i waith ef ei hun, yr

*Y mae'n bur debyg yr ysgrifenasai lythyr i ddiolch i'r gŵr ysgrifennodd yr erthygl honno, ac i ddweyd wrtho am beidio cloffi rhwng dau feddwl ddim yn hwy, gan mai Dafydd Nanmor oedd pia hi o'r tri hefo'r farwnad o ddigon. Pump o gywyddau Dafydd Nanmor a geir yng *Ngorchestion Beirdd Cymru*; ond, yng *Ngheinion Llenyddiaeth Gymreig*, gan Owen Jones, Llandudno, ceir deuddeg o'i gyfansoddiadau, ac yn eu plith y farwnad i'w gariad, dipyn yn wahanol i'r hyn ydyw yn erthygl y Marwnadau. Ceir hefyd yn y gyfrol gyntaf a'r ail o'r un llyfr tua deunaw o gywyddau Guto'r Glyn, y bardd yr holid am ei hanes, a'i waith, gan "Hen Hanesydd" yn rhifyn Tachwedd o Gymru. [Cyfeiria Mr. Griffith at erthygl ar y Marwnadau, sydd yng Nghymru, Cyf. I., 177.—Gol.]

† Nid allan o le fyddai dweyd wrth basio fod yn Eisteddfod Rhuddlan dros hanner cant o bunnau'n cael eu rhoddi mewn gwahanol wobrwyon a thlysau am ganu penillion a chanu telyn, a fod yn Eisteddfod ddyfodol y Rhyl chwe phunt a dau swllt wedi eu rhannu'n bedair gwobr, yn cael eu rhoddi i'r un amcan,—am y ddau beth mwyaf *Cymreigaidd, henafol*, a gwir *ddyddorol* a berthyn i'r Eisteddfod.

sydd yn dangos y llafur oedd eisieu gyda un o'r fath,—

"Bum ddiwyd iawn o fro i fro,
Yn ceisio odlau cyson;
Mi gesglais i, o dro i dro,
Dros fil o hen benillion,"

ir ynddo am fil o benillion, ond 730 oedd gasgliad ef, a 900 yng nghasgliad Idris ıan. Tegai ac Ieuan Glan Geirionnydd y beirniaid. Yn Rhuddlan hefyd yr wyd ef yn fardd, wrth yr enw Idris ıan. Beth oedd y testynau barddonol illodd efe arnynt yno, nid wyf yn sicr, ni ei glywed amryw weithian yn dweyd y. Dywedai hefyd iddo ddod ymlaen dydd o'r Eisteddfod gydag englynion a deidiau pan elwid am anerchiadau y d. Dyma un o honynt, a draddodwyd pryd i'r Llywydd, Arglwydd Mostyn,—

awen gymen, a bardd i ymgomio,
dd lleisiau goslawn dynion am dano;
wn gwir anrhydedd mae'n gawr yn rhodio,
ddyw yn gyfan y beirdd wna gofio
styn, pen brigin ein bro, —i'r hoffus,
Duw haelionus, hedd a'i dilyno."

lywais ddau o'i hen gyfeillion yn haeru d ymysg yr wyth bardd ar hugain oedd canu ar destun y Gadair,—"Yr Adgyfd;" ond ni chefais le i feddwl hynny wrth ddim a glywais ganddo ef ei hun. yr un pryd, os oedd yn ymgeisydd, nid adl nad oedd efe ymysg y deg oedd wedi nsoddi awdlau, ac nid gyd a'r deunaw wedi canu pryddestau; canys bardd o'r ysgol ydoedd ef, wedi astudio a dysgu'r ırau caethion, nid yn unig er mwyn doni ynddynt, ond hefyd er mwyn eu gyda'r tannau. Ei hoff fesur o'r pedwar ugain oedd y mesur englyn. Cymerer y ynol, gyda'r nodiad eglurhaol ganddo ef ın, fel engraifft o'r modd y gallai ef ganu mesur hwn.

PUM ENGLYN I PUMLUMON.

Wybrenawg deyrn y bryniau,—neu lawen
Himalaya'r Dehau,
A gwas hyf yw'n agosau,
Hyd oror y nef dyrau.

E wisga'r dlos wasgod lwyd,—i'w ben hoff
Rhoir cap niwl rhag anwyd;
Mewn urddas ei Bum gwas* gwyd
I'w gorsedd uwch dig arswyd.

Y Llyfnant, mewn dull ofnog, —y Rheidol,
A'r wiwder Glywedog,
Yr Hafren, ar Wy wifrog,
Redai'n glir o dan ei glog.

Unbennaeth anibynnol,—a'i urddas,
Mewn harddwch amrywiol;
Adrodda frud derwyddol
A swyn hardd hen oesau'n ol!

Cywir degwch Ceredigion—ydyw,
Daw adeg a'n deilchion!
Pellha'i fri, palla ei fron,
A llama ei "Bum Llumon."!

Ond er ei hoffder o'r mesur englyn i farddoni ynddo, cwyno tipyn yn ei erbyn y byddai fel mesur i'w ganu ar dant, am ei fod mor fyr, a'r gair Cyrch, chwedl yntau, yn gofyn sylw ac yn anhawdd i'w roi i mewn. Felly nid yn aml y byddai yn datganu englynion, ond y mae ymysg ei lawysgrifau rai cannoedd o honynt, a gresyn fod ei hoffder o'r mesur hwn wedi peri iddo esgeuluso mesurau ereill yn y rhai yr oedd yr un mor fedrus. Fel yr wyf yn gobeithio, ceir lle i ddangos hynny, ynghyd a rhai nodweddion yn ei gymeriad nad ydys yma wedi eu henwi, mewn ysgrif arall. Felly gadawaf fy hen gyfaill ffyddlon yn y fan yma y waith hon, yn swn hiraethus Clychau'r Hwyr Thomas Moore, yng Nghymraeg Idris Vychan,—

O glychau'r nawn! O glychau'r nawn!
O gofion boreu oes yn llawn;
Mae'n nefoedd fach, y nef a ŵyr,
Gael clywed eto glychau'r hwyr.
Pa le mae'r plant boreuol hynt,
Pa le mae'r hen galonnau gynt?
Maent yn y bedd mewn anghof llwyr,
Ym mhell o'ch clyw, hen glychau'r hwyr
Ac felly bydd hi gyda fi,
Ond canu, canu, fyth wnewch chwi;
Beirdd ereill ddont, estroniaid llwyr,
I ganu'ch clod, hen glychau'r hwyr.

* "Ei bum gwas," sef y pum clogwyn sydd arno oddi wrth y rhai y cafodd yr enw Pumlumon, sef pump Llumon, neu Garnedd.

Manchester. ROBERT GRIFFITH.

BARDD DIOG.

Da gan adar mân y coedydd,
Da gan ŵyn feillionog ddolydd;
Da gan i brydyddu'r hafddydd,
Yn y llwyn, a bod yn llonydd.

PETH TRWM.

Trwm y plwm a thrwm y cerrig,
Trwm yw calon pob dyn unig.
Trymaf peth tan haul a lleuad,
Canu'n iach lle byddo cariad.

CARIAD CYNTA.

Mwyn, mwyn, a mwyn yw merch,
A mwyn iawn lle rhoddo ei serch;
Lle rho merch ei serch yn gynta,
Dyna gariad byth ni oera.

YR ARENNIG A'R BERWYN.

Awel iachus sy 'mhen Berwyn,
Lle i weled llawer dyffryn,
Ac oni bai y 'Rennig ddiffaeth,
Gwelwn wlad fy ngenedigaeth.

TREM AR HANES LLOEGR.

NID ydyw hanes Lloegr mor ddyddorol a hanes llawer gwlad. Ni fedd gyffro hanes Ffrainc, na dieithriwch hanes Venice, na dioddef hanes yr Almaen; nid oes ddinasoedd yn Lloegr a hanes cyffrous iddynt, fel Geneva a Magdeburg a Seville a La Rochelle. Ond, er taweled fu ei thwf, nid oes un wlad dan haul wedi cynhyddu cymaint ym mhob cyfeiriad,—ynddi hi, o holl wledydd y ddaear, y mae mwyaf o gyfoeth heddyw, ac o ryddid.

Pan dorrwyd caerau'r ymherodraeth Rufeinig, daeth deheudir a dwyrain Pryden yn eiddo i lwythau Teutonaidd, llwythau groesasent Fôr yr Almaen o iseldiroedd genau'r Rhein a'r Elb. Paganiaid oedd y llwythau hyn,—Jutiaid, Eingl, a Saeson,—ond pregethwyd yr efengyl iddynt gan genhadon o Rufen a'r Iwerddon. Ymunasant a'r Brythoniaid Rhufeinig, a daeth y brodorion a'r dyfodiaid yn un bobl.

Daeth awydd am undeb cyn hir, am yr hen undeb Rhufeinig,—drwy'r Cymry a'r Eglwys. Ymffurfiodd yr Eingl yn ddwy deyrnas,—Mercia a Northumbria; ac ymffurfiodd y Saeson yn un,—Wessex. Yr oedd teyrnasoedd ereill,—East Anglia, Kent, Sussex,—ond is-deyrnasoedd oeddynt. Bu ymdrech rhwng y tair teyrnas fawr am unbennaeth yr ynys. Y seithfed ganrif (600—700) oedd canrif Northumbria; ond yr oedd ei gelynion,—Mercia, Cymru, Ystrad Clwyd a'r Alban,—yn rhy gryf iddi, gwanhaodd ei nerth a diflannodd ei gogoniant. Yr wythfed ganrif (700—800) oedd canrif Mercia; ceisiodd Offa ddadblygu ei masnach ac ehangu ei therfynau; ond yr oedd hithau mewn ymdrech barhaus â Chymru, ac ni hoffid ei hiau haiarn gan y teyrnasoedd ereill. Yn 802 daeth Egbert i Wessex, o lys Siarl Fawr. Yr oedd y Pab wedi coroni Siarl, - Siarlymaen y rhamantau,—yn ymherawdwr y byd ar nos Nadolig, 800; ac yr oedd Egbert am wneyd Pryden yn un ymherodraeth fel y gwelsai Siarl yn gwneyd Ewrob yn un ymherodraeth. Cyn 837 yr oedd wedi dwyn pob teyrnas dan iau Wessex ond Ystrad Clwyd. Cyn iddo orchfygu honno, ymosodwyd ar Loegr gan y Daniaid,—cenhedloedd Teutonaidd o'r gogledd. A bu ymladd caled rhwng brenhinoedd Wessex a'r cenhedloedd hyn. Gorchfygodd y Daniaid Northumbria a Mercia, ac ymsefydlasant ar y tir. Nis gellid eu gyrru ymaith, ond darostyngwyd hwy i Wessex gan Alfred Fawr, Edward, ac Athelstan.

Er mwyn gorchfygu'r Daniaid, gorfod i'r brenhinoedd adael i allu milwrol eu huchelwyr dyfu. A phan ddarostyngwyd y Daniaid, gwelwyd na fynnai'r uchelwyr ymostwng fel cynt. A dyna pam y cawn frenin Seisnig a brenin Danaidd bob yn ail,—yr oedd yr uchelwyr yn eu chware yn erbyn eu gilydd. Erbyn 1066 yr oedd un o'r uchelwyr, — Harold, iarll Wessex, — yn ddigon cryf i roddi'r goron ar ei ben ei hun. Ond tra'r oedd yr ieirll ereill yn eiddigus, glaniodd Gwilym, duc Normandi, yn Lloegr; ac ym mrwydr Senlac, yn 1066, collodd Harold ei fywyd a'i goron.

Gorchfygodd duc Normondi'r holl wlad, a choronwyd ef yn frenin Lloegr. Ei amcan oedd cryfhau gallu'r brenin trwy wanhau'r ieirll, a dibynnu ar y bobl am gymorth. Erbyn hyn yr oedd Llunden yn brifddinas Lloegr, ac ynddi y trigai'r brenin o hyd. Hanes y canrifoedd nesaf ydyw ymdrech rhwng brenin Llunden a'r ieirll cryfion rhyfelgar oedd wedi ymgastellu ar ororau Cymru a'r Alban. Amcan y brenin oedd cael pob milwr yn filwr iddo ef, pob llys barn yn llys barn iddo ef, pob treth yn dreth iddo ef. Amcan yr ieirll oedd cael eu gwŷr dan eu hawdurdod eu hunain, a bod yn gyfrifol i'r brenin am danynt,—pob iarll i gael ei gestyll, ei fyddin, a'i lysoedd barn. Yr un ag amcan eu tad oedd amcan ei ddau fab,—Gwilym Goch greulon a Harri'r Cyntaf gyfrwys. Wedi marw Harri'r Cyntaf bu ymdrech rhwng ei ferch a'i nai am y goron, ac yn yr ymdrech honno medrodd yr ieirll ail godi eu cestyll.

Yn 1854 dechreuodd Harri'r Ail deyrnasu. Efe oedd y brenin galluocaf eisteddodd ar orsedd Lloegr erioed, ac efe a osododd sylfeini cyfansoddiad gwladol Pryden. Yn lle ieirll, cododd ef weinidogion a barnwyr "o'r llwch" i lywodraethu drwyddynt. Efe ddechreuodd drethu eiddo symudol. Cyn hyn, y tir yn unig drethid, ac nid oedd raid i'r brenin wrth gymorth y trethedig i drethu tir, oherwydd, wele yr oedd llyfr mawr o'r enw Domesday Book wedi ei wneyd yn 1087, ac wrth edrych ar hwnnw medrai'r brenin wybod faint o dir oedd ym meddiant pawb. Ond, pan ddechreuwyd trethu pethau symudol, yr oedd yn rhaid i'r brenin wrth gymorth y trethedig. A medrai'r deiliaid wrthod cymorth, neu ei roddi, ar amodau. Tyngid gwŷr cywir yn hen lysoedd y pentrefi,—yr hen lysoedd y trinid materion yr ardaloedd ynddynt,—a dywedent ar eu llw faint o eiddo trethadwy oedd gan bawb.

Nid oedd gan blant Harri'r Ail, "cywion yr eryr," gariad tuag ato; ac ni etifeddasant ei athrylith. Ond er eu gwaethaf hwy, llwyddodd cynlluniau eu tad. Yr oedd

siart Galon Llew i ffwrdd o hyd, yn ym- yn Rhyfeloedd y Groes, a rhoddodd ei noldeb le i allu'r gweinidogion dyfu. John ddrwg ymunodd y gweinidogion nen ieirll, a Thywysog Cymru, a gorfod- t y brenin i arwyddnodi Magna Carta, nlen rhyddid y Saeson. Diflannodd ym- draeth eang Harri'r Ail hefyd, a dech- dd Lloegr adnabod ei hun. Dan Harri'r dydd, bu'r barwniaid yn llywodraethu'n —ac o hynny allan gweinidogion y goron gyfrifol i'r bobl. Yn yr amser hwn d galwodd Simon de Montfort yr holl llgorau trethu at eu gilydd i'r un fan, a yd hwy'n Parliament neu Senedd.

Yna daeth awydd am goncwest. Gorch- dd Edward y Cyntaf Gymru, methodd ard yr Ail goncro'r Alban, ceisiodd ard y Trydydd ail-ennill Ffrainc, a welyd o ddarostwng gwrthryfel yn yr ddon yr oedd Rhisiart yr Ail pan ddi- ddwyd ef. Er mwyn y rhyfeloedd drud y gwerthodd y brenin, o fargen i fargen, awliau i'r Senedd. Erbyn 1399 yr oedd nedd yn ddigon cryf i ddiorseddu Rhisiard, roddi'r Lancastriad Harri'r Pedwerydd ar rsedd.

O 1399 i 1461 bu'r Lancastriaid a'r dd a'r Eglwys yn teyrnasu. Parotoasant wymp trwy garu eu lles eu hunain yn fwy es y bobl,—dros ei deulu yr ymladdodd ri'r Pedwerydd yn Lloegr a Harri'r ed yn Ffrainc a Harri'r Chweched ddi- d anffortunus; drostynt eu hunain y thryfelodd y Percies, drostynt eu hunain rthrymodd y barwniaid nes gorfodi llawer heblaw Owen Glyn Dŵr i wrthryfela; ti ei hun y cyfiawnhaodd yr Eglwys ryfel yn gwneyd dwy genedl mor druenus, ac sgodd yn fyw rai bregethent efengyl bur. diwedd dechreuodd y barwniaid ymladd gilydd, ac o ryfel y Rhosynau ymgodod Frenhiniaeth Newydd."

Parhaodd y frenhiniaeth hon o 1461 hyd . Yr oedd y bobl yn credu mewn in,—i gadw cwrs ar y barwniaid, i gadw lwch, ac i amddiffyn masnach gynhyddol lad. Edward y Pedwerydd greulon, ard y Pumed druan, Rhisiard y Trydydd ddiog, Harri'r Seithfed gynnil, Harri'r thfed odinebus, Edward y Chweched viol, Mari Waedlyd a'i thoriad calon, abeth a gogoniant Lloegr a'i llenyddiaeth, an yr Yorkiaid a'r Cymry hyn gwelodd gr gyfwng mwyaf ei hanes. Wrth od Cardinal Wolsey a throi at Domas nwell yr oedd Harri'r Wythfed yn el yr hen Eglwys Gatholig ac yn sefydlu ys genedlaethol, gydag apêl at y brenin le at y Pab. Yr oedd y brenin oll yn oll, enedd ond megis morwyn iddo. Yr oedd y brenin yn boblogaidd oherwydd fod ei ewyllys ac ewyllys y bobl yn un. Trwy'r bobl y ceisiai'r brenin reoli,—dan y Tuduriaid y gosodwyd sylfeini llywodraeth leol Lloegr.

Pan esgynnodd yr Ysgotyn Iago'r Cyntaf orsedd Lloegr yn 1603 yr oedd pethau wedi newid. Yr oedd y Senedd wedi adfywio erbyn hyn, dan nawdd y Tuduriaid; ond credai'r brenin ei fod yn rheoli trwy "ddwyfol fraint." Yr oedd y Gwrth-Ddiwygiad Pabyddol yn anterth ei nerth ar y Cyfandir, a'r Jesuitiaid yn ail-ennill gwledydd; ac yr oedd Laud yn trefnu Uchel-Eglwysyddiaeth yn Lloegr ac yn ei fygwth ar yr Alban. Y diwedd fu y Rhyfel Mawr rhwng Siarl y Cyntaf a'r Senedd Hir, rhwng yr Eglwys a'r Presbyteriaid. John Pym drefnodd allu'r Senedd at y frwydr, ond Oliver Cromwell ddaeth a'r fuddugoliaeth. Torrwyd pen y brenin, a chyfiawnhawyd y Weriniaeth gan ysgrifeniadau Lladin Milton a llwyddiant digymar gwleidyddiaeth Cromwell. Ond wedi marw Cromwell nid oedd neb i gymeryd ei le, ac yr oedd y wlad wedi blino ar y fyddin a Phiwritaniaeth. Croesawyd Siarl yr Ail yn 1660, ond byr iawn fu adeg erlid. Ceisiodd y brenin ddwyn Pabyddiaeth i Loegr, a gadawodd yr Eglwys ef. Yn 1688 diorseddwyd Iago'r Ail, a daeth Gwilym y Trydydd,—prif wrthwynebwr Ffrainc erlidgar drahaus,—i'r orsedd. O 1688 hyd 1832 bu bonheddigion Lloegr yn teyrnasu. Bu ymdrech rhwng Brenhiniaeth a Phlaid-Lywodraeth, rhwng *Patriot Kingship* a'r *Cabinet System;* Bolingbroke oedd amddiffynnydd enwocaf y naill, a Burke oedd amddiffynnydd enwocaf y llall. Oherwydd mai dieithriaid nas gellid eu caru oedd yr Hanoveriaid, Plaid-Lywodraeth ddaeth yn ddull llywodraeth Pryden Fawr. Yn y ddeunawfed ganrif daeth Lloegr yn brif allu masnachol y byd; yn nechreu'r ganrif ymunodd â'r Alban, ac yn ei diwedd ymunodd â'r Iwerddon; er colli Unol Daleithiau'r Amerig trwy ei thrahausder, daeth yr India ac Awstralia ac ynysoedd y ddaear yn eiddo iddi. Nid oedd gallu Ffrainc ac athrylith Napoleon yn ddigon i ddinistrio ei llynges a'i masnach,—y mae ei Senedd heddyw a'i gair yn air ar gefnforoedd a chyfan-diroedd byd.

Yn 1832 rhoddodd yr aristocratiaeth yr awenau i fyny i'r ddemocratiaeth, trwy chwyldroad distaw iawn. Yn awr y mae Lloegr yn fwy gwerinol mewn gwirionedd, er nad mewn enw, nag unrhyw wlad yn y byd. Y mae'r werin yn ennill mwy-fwy o le yn llywodraethiad y wlad, ac yn dod yn fwy goleuedig a rhyddfrydig wrth lywodraethau, ac yn ennill cyd-ymdeimlad a'r miliynau sydd dan lywodraeth ei milwyr a'i masnach.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

VI. ANNA ROBERTS.

CYFANSODDWYD y penillion canlynol yn y blynyddau 1843—4, gan Miss Anna Roberts, Ucheldra Park, Caer Gybi. Adnabyddid hi wedi hynny fel Mrs. Williams, National Provincial Bank, Yr Wyddgrug. Ei chwaer ydoedd gwraig gyntaf Dr. David Charles o Drefeca, yr hon oedd yn hynod am ei duwioldeb, a'r hon a gerid ac a berchid yn fawr gan y myfyrwyr oedd y pryd hwnnw yn Athrofa Trefeca. Erbyn hyn ychydig, yn ddiau, sydd yn fyw o'r myfyrwyr hynny. Yr oedd y diweddar Barch. W. Howells yn un o honynt; a mynych y soniai ef fel yr edmygid y ddwy chwaer hyn o herwydd eu hynawsedd a'u duwiolfrydedd.

Nid oedd Miss Roberts ond tuag un-ar-hugain oed pan yn aros yn Nhrefeca, a phan gyfansoddodd y penillion. Mynych y cymhellid hi gan Mr. Charles i amaethu ei hawen farddonol; yr oedd ganddo ef feddwl lled uchel am ei gallu yn y cyfryw gyfeiriad, ond ychydig, ysywaeth, a gynhyrchodd yn y wedd honno.

Y mae y penillion hyn yn llawysgrif Dr. Charles. Uwchben y llinellau y mae yn ysgrifenedig fel hyn,—"Lines composed by Miss Anna Roberts, and written here by D. Charles, July 22nd, 1843;" ac ar amgylchiad arall, "May 25th, 1844." Y maent yn awr ym meddiant Mrs. Humphreys-Jones o Firmingham, merch y ddiweddar Mrs. Williams.

Wele ychydig benillion o blith rhai ereill sydd ar gael,—

COLLAIS FY CHWAER.

O Angeu, 'rwyt yn elyn mawr,
Yn torri t'anwyl chwaer i lawr;
'Rwy' nawr yn llawn o alar trist,
Ond O! mae gennyf Iesu Grist.

Wrth gael fy nghuro o don i don,
Ei gweld hi eto lonnai'm bron,
A chael cyd deithio gyda hi,
A chanu * am Gaersalem fry.

Do, llawer awr a dreuliodd hi
I ganu am aberth Calfari;
A chanmol cariad Iesu mawr,
Yn dod o entrych nef i lawr.

Ni' anghofiaf byth ei chyngor hi,—
A llawer gwaith cynghorodd fi,
I gadw'm golwg tua'r Groes,
Er mor ddu-donnog oedd fy oes.

Os yw ei chorff hi yn y bedd,
Ac er mai pruddaidd iawn ei gwedd,
Ei gweld geir eto yn y man,
Yn dod yn gwbl iach i'r lan.

Wele eto rai yn Saesneg ar yr un testun, —yn ei llawysgrif ei hun,—

"NOT LOST BUT GONE BEFORE."

Say, why should sisters grieve for those
Who safe arrive on Canaan's shore,
Relieved from all their earthly woes,—
"They are not lost, but gone before."

How many painful days on earth
Her fainting spirit numbered o'er?
Now she enjoys a heavenly birth,—
She is not lost, but gone before?

Dear is the spot where dear Kate sleeps,
And sweet the strains that angels pour,
Then why should I in anguish weep,—
She is not lost, but gone before.

Secure from every mortal care,
By sin and sorrow grieved no more,
Eternal happiness they share,
Who are not lost, but gone before.

To Zion's peaceful courts above,
In faith triumphant may we soar;
Embracing in the arms of love
The friends not lost, but gone before.

On Jordan's banks whene'er we come,
And hear the swelling waters roar,
Jesus conveys us safely home,
To friends not lost, but gone before.

Yn y llinellau a ganlyn dychmygai glywed ei chwaer yn ei chyfarch pan yng nghysgod angeu,—

"WEEP NOT FOR ME."

Though the pangs of death assail me,
Weep not for me.
Yes, tho' sin and doubts endeavour
From my soul his love to sever,
Jesus is my strength for ever,
Weep not for me.

I know that my Redeemer liveth,
Weep not for me.
Thanks to Him, He vict'ry giveth,
Weep not for me.
Through the gloomy vale He'll guide me,
There no evil will betide me,
The Lord my Shepherd is beside me,
Weep not for me.

Dyma ychydig benillion eto ar destynau ereill,—

Dewisaf, Iesu, gael y groes,
Os caf dy wyneb ddydd a nos,
O flaen holl gyfoeth gwag y byd
'Does yma ddim i'm henaid drud.

* Hoff waith y ddwy chwaer fyddai cyd ganu hymnau.

Oes, oes mae yma lawer ton
Yn curo i lawr fy enaid bron,
Fy mhwys a roddaf ar y graig,
Mi wn mai cryf yw Had y Wraig.

Tu draw mi welaf gan y Tad,
Ryw gyfoeth mawr, mae'n gyfoeth rhad;
A hwn sy' nghadw yn y nef,
I'r rhai sydd yn ei garu Ef.

Yn fuan dianc wnaf o'm mhoen,
Caf fyth foliannu Duw a'r Oen;
A chanmol heb un gofid mwy,
Caf ganu am ei farwol glwy.

Yn wir, mae'n hyfryd yma 'nawr,
I f'enaid gael un munud awr,
I gymdeithasu gyda'r Tad,
A son am hyfryd Ganan wlad.

O! ddedwydd saint sydd yno 'nghyd,
Y rhai a welais yn y byd,
Ond hwy ni welaf yma mwy,
Mi af, caf foli gyd a hwy.

Mi'th garaf yno yn ddi os;
Mi'th folaf byth trwy ddydd heb nos,
Gwnaf, canaf am dy angeu loes,
Draw, draw dros byth, dragwyddol oes.

Birmingham J. HUMPHREYS-JONES.

CERDD RHYDDID CYMRU.

I.

MAE Cymru'n galw ar ei phlant
Ro'i newydd dant i'r delyn,
Tant bywyd newydd Cymru Fydd,
Llawenydd bryn a dyffryn.
O dewch a'r telynau fu'n cwynfan
Cerdd gormes, cyflafan, a brad;
Cyweiriwch eu tannau i chwareu,
Yn llawen gerdd rhyddid fy ngwlad.

II.

Fe lonnir cerddi Gwalia Wen
Gan acen newydd hyfryd;
Ar adfail gormes oesau hir,
Dadgenir cydgan Rhyddid.
O dewch a'r telynau fu'n cwynfan
Cerdd gormes, cyflafan, a brad;
Cyweiriwch eu tannau i chwareu
Yn llawen gerdd rhyddid fy ngwlad.

III.

Mae'th blant yn barod, O! fy ngwlad,
I'r alwad, clyw'r telynau
Yn chwareu melus odlau 'nghyd,
Gerdd rhyddid gwlad y bryniau!
O dewch a'r telynau fun'n cwynfan
Cerdd gormes, cyflafan, a brad;
Cyweiriwch eu tannau i chwareu
Yn llawen gerdd rhyddid fy ngwlad.

IV.

Fy ngwlad, fy ngwlad, O! cwyd dy ben,
Bydd lawen, ymwrola!
Hen geubren gormes ddaw i lawr,
Fe ddaeth ei awr ddiwedda'.
O dewch a'r telynau fu'n cwynfan,
Cerdd gormes, cyflafan, a brad;
Cyweiriwch eu tannau i chwareu
Yn llawen gerdd rhyddid fy ngwlad.

Gwalia, Llandrindod. EDWARD JENKINS.

PONT LLANFAIR MUALLT.

LLANFAIR MUALLT.

"Pur wladgarwch, rhinwedd yw
A roed yng nghalon dynol ryw.
Os aiff yr iaith Gymraeg yn fud,
Caiff Saesneg ganu,—Oes y byd
I bur wladgarwch Cymru fyw." CEIRIOG.

YN yr haf diweddaf, yr wyf yn cofio fy hun yn rhedeg i orsaf Llanidloes, at dren bore, ac yn cael fy ngwthio i un o'r cerbydau gan dri neu bedwar o ddynion oedd yn gorfod rhedeg gyda'r tren wrth wneyd y gymwynas hon imi. Wedi sychu fy chwys, a threulio ennyd i fwynhau'r syniad fy mod wedi cael y tren,—a pha syniad sydd felusach, os byddis wedi ei gael yn erbyn gobaith,—teflais drem ar fy nghyd-deithwyr. Yr oedd yno wraig chwarelwr, yn mynd ar ol ei gŵr i'r gweithydd, a chwaer iddi, a phedwar o blant. Yr oedd y plant y pethau mwyaf gwinglyd welais erioed, weithiau ar eu gliniau, weithiau dan y fainc, ac weithiau ar fy ysgwydd i. "Fedra i mo'i cadw nhw'n llonydd, mae nhw wedi codi er tri o'r gloch y bore," meddai eu mam. "O na hidiwch," meddwn innau, gyda gwên wan, tra'r oedd un o'r bechgyn bach yn rhwbio ei ddwylaw triagl hyd labed fy nghot newydd. Nid oedd ar y plant ddim o ofn eu mam, ond yr oedd edrychiad yng nghil llygad y fodryb a'u tawelai ar unwaith. Dywedasant eu bod yn mynd i fyw i Forgannwg am byth, ac yn gadael Arfon.

"Mi fydd arnoch chwi hiraeth mawr am Arfon," meddwn i, gan feddwl am fŵg Morgannwg ac aberoedd pur Arfon.

"Bydd yn wir, welwch chwi," ebai'r fam, "y mae arna i hiraeth garw'n barod am y cloc bach adewais i ar f'ol."

Gwelais ar unwaith nad oeddwn wedi taro ar gymdeithion prydyddol iawn; ond, tra'r oeddynt yn cael mwynhad o botel lefrith a chilcin torth chwech, bum yn synnu at un peth wrth edrych arnynt. A'r un peth hwnnw oedd,—paham y mae gwragedd chwarelwyr yn aml mor grand eu gwisg, a phaham y mae eu crandrwydd mor ddichwaeth. Yr oedd gwisgoedd y ddwy wraig hyn yn dangos dau beth sy'n wrthun iawn gyda'u gilydd,—balchder gwisg, a thlodi gwisg. Yr oeddynt wedi cael dillad o'r toriad newyddaf ar hyd y blynyddoedd diweddaf, a phob toriad yn berffaith afresymol; yr oeddynt wedi cymysgu gwahanol ffasiynau, heb ymgais at drefn a chwaeth; ac yr oedd y dillad crand wedi mynd yn *shabby* iawn. Ewch i gynulleidfa o chwarelwyr yn Arfon ar y Sul, a gallech dybied mai mewn cynulleidfa ffasiynol ym Mharis yr ydych; cerddwch drwy'r pentref ar fore dydd Llun, a thybiwch eich bod yn cerdded drwy ran isel o Lunden, lle mae pawb wedi cael ei ddillad o siop ail law. Yn enw pob rheswm, beth ydyw'r awydd pechadurus sydd mewn rhai mannau o Gymru am ddillad ymddangosiadus, cymysgliw, dichwaeth? Yr wyf fi'n byw mewn ardal fynyddig, ac y mae rhyw ffasiwn newydd erchyll ar ddillad y merched o hyd, nes gwneyd i mi feddwl am y creaduriaid cynddiliwaidd welir yn rhai o'n hamgueddfeydd. Y mae llawer gwraig yn gwybod fod yr hen ffasiwn syml yn gan prydferthach a rhatach; clywais am forched wedi mynd at y stanc i'w llosgi, ond ni chlywais erioed am un wedi bod ar ol y ffasiwn un munud yn hwy nag y medrai.

O'r tu allan yr oedd prydferthwch perffaith, wrth i'r tren ddringo i fyny dyffryn cul yr afon Tylwch. Disgynnai'r afon i'n cyfarfod, o graig i graig, o lyn i lyn. Yr oedd gwaelod y cwm yn llawn o goed gwern, gydag ambell binwydden yn eu mysg, fel merch ieuanc o'r dref yng nghanol merched y wlad. Hyd yr ochrau disgynnai aberoedd bychain rhaiadrog, gan ganu a dawnsio wrth adael y mynyddoedd. Ond y gweirgloddiau oedd yn brydferth. Y mae'n anodd cael dim prydferthach na gweirglodd yng Nghymru ym mis Mehefin; pan feddylir am gyfoeth ac ysblander lliwiau ei blodau. Dacw flodau melynion,—nid melyn gwywedig dillad siop neu aur, ond melyn byw, melyn fel pe bai bob amser dan ei wlith. Llwyni o fanadl wrth draed y creigiau, tlws crwn o flodau'r ymenyn ar fron y weirglodd, a llanerchi o grafanc y fran yn disgleirio ar yr ochr fry,—yn sicr, ni wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r mynyddoedd hyn.

Ond dyma ni yn Sir Faesyfed, yr unig un o siroedd Cymru sydd wedi llwyr golli ei Chymraeg. Cyn dod i Sir Faesyfed, yr oeddwn yn rhyw feddwl na fyddai Cymru'n Gymru pe, mewn rhyw oes bell, y marwai'r iaith Gymraeg. Ond nid oes fymryn o wahaniaeth rhwng pobl Maesyfed a phobl Maldwyn, oddigerth, hwyrach, fod Maesyfed ychydig bach yn fwy ar ol yr oes. Cymry wedi dysgu Saesneg ydyw pobl Maesyfed, a Chymry fyddant. Y maent wedi dysgu Saesneg i gyd, yr wyf yn meddwl nad oes blwy Cymreig trwy'r sir. Clywir ambell hen bererin yn dweyd ei brofiad yn y seiat yn Gymraeg ar gyffiniau Brycheiniog; y seiat, mae'n debyg, fydd noddfa olaf yr iaith Gymraeg. Ond y mae eu hymddangosiad, a'u syniadau, a'u crefydd mor Gymreig â rhai pobl Llangower neu Drawsfynydd. Er hynny y mae'n rhyfedd meddwl fod Cymry sir gyfan heb ganu emynnau Williams Pant y Celyn ac heb fwynhau caneuon Ceiriog, y mae'n rhyfedd meddwl fod Cymry sir gyfan yn cael eu meddyliau o'r Beibl Saesneg, y *Christian Herald*, a'r *Herefordshire Times*. Bum yn synnu droion paham y mae llenyddiaeth Seisnig Cymru mor wael o'i chydmaru â'i llenyddiaeth Gymreig, paham y mae hanes meddwl Cymru Seisnig,—dyffryn yr Hafren, Maesyfed, a deheudir Penfro,—mor dlawd. Hwyrach mai y rheswm ydyw na fu'r Deffroad ond gwleidyddol yn unig yn y rhannau hyn. Pa fodd bynnag, y mae rhyw gryfder ym meddwl Cymru Gymreig nad ydyw Cymru Seisnig wedi ei feddu eto.

Ond dyma ni ym Mhant y Dŵr. Dacw fynyddoedd pell, dan glog o wlaw llwyd; ac y mae Abbey Cwm Hir, dros fynyddoedd oerion, ar y chwith inni. Y mae'r wlad yn mynd yn fwy mynyddig, a dyma'r tren yn cyflymu drwy wlad agored oer. Ar y gwaelodion yr oedd yr yd wedi hen ehedeg, ond yma prin y mae'r egin glâs wedi cuddio'r rhychau.

"Yn Hafod Elwy'r gôg ni chân,
Ond llais y frân sydd amla;
Pan fo hi decaf ym mhob tir,
Mae hi yno n wir yn eira."

Dyma St. Hermon, a gwastadedd mynyddig brwynog, a chylch o fynyddoedd o'i gwmpas. Yna dyma'r mynyddoedd yn cau at eu gilydd, ac y mae'n amhosibl i ni ddyfalu ffordd yr awn, oherwydd yr ydym fel pe wedi cyrraedd pen draw'r byd. Dyna ni mewn tynel; a phan ddaethom allan, yr oeddym yn nyffryn yr Wy. Gwyllt ac aruthrol, ac eto tlws a rhamantus iawn, ydyw'r mynyddoedd hyn. Wrth i'r tren ruthro i lawr tua Rhaiadr Gwy, ymagorai cwm ar ol cwm o'n blaenau, gyda dwfr yn disgyn ymhell oddiwrthom, a'r pellder yn ei wneyd yn ddistaw fel esgyniad mŵg.

Hawdd iawn ydyw cael cam-argraff wrth edrych ar dref o'r tren. Y mae llawer un wedi darlunio trigolion ardal oddiwrth y llercwyr diod-gar anhrwsiadus fydd yn hanner byw wrth dân yr orsaf. Ni ddywedaf felly am y Rhaiadr ond ei fod yn lle rhamantus, yng nghanol golygfeydd gwylltaf Cymru, a fy mod yn gresynu nas gallwn aros yn y gymydogaeth enillodd serch Shelley.

Gyda'r gair dyma ni mewn gwastadedd braf, a dyffryn Elan o'n blaenau. Nid rhyfedd fod Shelley wedi hoffi'r ardal brydferth hon; pe na chlywswn erioed ei fod wedi bod yma, buasai'r golygfeydd yn dwyn ei feddyliau i'm cof,—ei feddyliau dieithr prydferth, gwyllt; meddyliau un fedrai wneyd y binwydden a'r graig a'r seren yn gyfeillion iddo.

Wrth inni deithio ymlaen, doi'r mynyddoedd weithiau'n agos at eu gilydd, gan adael ond prin ddigon o le i'r afon redeg rhyngddynt; weithiau byddai'r ochrau'n goediog, dro arall yn wyrddion, gydag ambell i lecyn ysgwâr o binwydd, fel catrodau o filwyr ar eu ffordd o'r gwaelod i ben y mynydd. Ac weithiau deuem i wastadedd eithinog, a gwelem dai cerrig bychain gwyngalchog yn ysbio i lawr arnom, a mynyddoedd dan eu niwl yn ysbio dros eu pennau hwythau.

Erbyn cyrraedd Pont Newydd ar Wy y mae'r wlad wedi ffrwythloni llawer, y mae'n wlad goediog a gweiriog. Newbridge on Wye ddylaswn alw'r lle hwn hwyrach, oherwydd dyna'r enw sydd ar ystyllen yr orsaf. Ond, wrth edrych dros y gwrych, gwelaf fod yr orsaf yn ymyl mynwent, ac y mae'r beddau'n ddigon agos i mi fedru darllen yr enwau sydd ar y cerrig,—megis Hannah Meredith, David

Powell, Rhos y Beddau, Pandy Hir. Peth digon rhyfedd ydyw gorsaf a mynwent yn ymyl eu gilydd. Beth pe bai rhyw borter ofnus, wrth waeddi yn y nos "Take your seats, all tickets ready," yn gweled tyrfa'n codi am y gwrych ag ef? Ac eto digon tebyg ydyw mynwent i orsaf, ond yn unig fod mwy na lled ffordd haiarn rhwng ochr yr ymadael ac ochr y cyrraedd. Pe buasai ein hen weinidog wedi bod yma, cawsem bregeth angladdol a chydmariaeth ynddi,—"Mynd a dod sydd ar ffordd y byd yma; galar un ochr i'r ffordd, a llawenydd yr ochr arall. Ond dyma ni heddyw mewn gorsaf nad oes ond ymadael ynddi. Ar ffyrdd y ddaear yma y mae gorsafoedd aml; ond, wedi gadael *terminus* y fynwent, nid erys neb cyn cyrraedd *terminus* gorffwys Duw neu anhun yr anuwiol. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng llawer gorsaf wledig a gorsaf y brifddinas, ond beth yw hynny wrth y gwahaniaeth wrth geisio mynd i dren. "'Roeddwn i'n teithio gyda'r rheilffordd ryw ddiwrnod yn ddiweddar," meddai, "ac mi roddais fy mhen allan o'r gerbydres mewn gorsaf neillduol, ac mi ofynnais i'r swyddog ym mha le yr oeddym. A dywedodd yntau mai yn Rhos Llannerch Rugog." "Y ffwl di-gywilydd," ebai rhyw bechadur yn f'ymyl, "pam y mae hwn yn mynd i'r pulpud i ddeyd i gelwydd, 'does yr un stesion o fewn dwy filldir i'r Rhos."

Pryd y down i Lanfair Mualllt? Byddwn yno gyda hyn; dyma ni yn Builth Road, fel y gelwir gorsaf Llechryd yn awr. Dacw dyrfa o ymwelwyr Llandrindod yn disgwyl am eu tren,—pregethwyr a blaenoriaid,—gwyr tewion gwyneb-goch; mwnwyr llygaid dyfrllyd, a modrwyau yn eu clustiau; personiaid a phlu pysgota hyd eu hetiau; gwraig radlon yn siarad Cymraeg, a'i mherch yn ei hateb yn Saesneg, wrth ddarllen nofel a elwir



CWM LLYWELYN.

iaeth rhwng llawer hen fynwent wledig a'r *terminus* gogoneddus yr ochr draw." Er hynny ni fyddaf byth yn hoffi pregethwr sydd bob amser mewn tren neu mewn agerlong. "Dal di sylw, 'machgen i," ebai hen Gristion craff wrthyf unwaith, "mae pregethwr sal yn siwr o fynd i stemar cyn hanner i bregeth, ac odid fawr na fydd o mewn tren cyn prin gyrredd y lan yn i ol." Yr wyf yn cofio Doctor mewn Diwinyddiaeth yn mynd i brofedigaeth un-

yn "Her Only Love."

Ond dyma gychwyn eto. Enw'r orsaf nesaf oedd Builth Wells. Esboniodd rhywun mai Llanfair Mualllt oedd hwnnw. Dywedodd y gorsaf-feistr,—Cymro bywiog caredig,—fod gennym ychydig o ffordd i'w cherdded i'r dref, a'i bod yn tywallt y gwlaw. Wedi cyrraedd pen y bont hir sy'n croesi'r Wy o Sir Faesyfed i Sir Frycheiniog gwelem o'n blaen dref a'u hadeiladau'n glos yn eu gilydd, a'i

hystrydoedd yn llawn o bobl yn bargeinio yn y gwlaw. O fysg pobl y ffair, daeth hen Faesyfwr gwalltwyn ar ei geffyl i'n cyfarfod, yn feddw gywilyddus. Erbyn cyrraedd y dref, yr oedd golwg fudr ar y gwestai, gan amled y bobl traed-fudron oedd yn parhaus fyned i mewn, ac yn dod allan gan dynnu labedi eu cotiau ar draws eu cegau gwlybion. Un o'm gwendidau i ydyw awydd am le cysurus tawel i letya ynddo pan mewn lle dieithr; ond gwelwn mai lle oedd gwestai Llanfair Muallt i fechgyn lusgo eu cariadau iddynt i yfed cwrw, a lle i feddwon syfrdanu eu gilydd â'u dadwrdd oer. Penderfynais adael Llanfair Muallt, a mynd i Landrindod neu Lanwrtyd. Ond cyn i mi droi'n ol dros y bont, daeth un o'm hen ddisgyblion i'm cyfarfod, gŵr digon brwdfrydig i wneyd i ddyn deimlo'n ddedwydd yn y gwlaw. Dywedodd fod y dref yn un o'r lleoedd tlysaf a mwyaf dymunol yng Nghymru,—ond ar ddiwrnod ffair gwlawog,—a fod digon o letydai clyd ynddi, gan fod ei ffynhonnydd yn hoff gyrchfan miloedd o bobl bob blwyddyn. Cefais lety cysurus rhwng yr eglwys a'r bont, yn ymyl Capel Alpha, sef y capel honna fod y capel Methodistaidd cyntaf yng Nghymru.

Ym Muallt y cwympodd Llywelyn; ac y mae Ffynnon Llywelyn,—y ffynnon y dywed traddodiad iddo yfed olaf o honi, o fewn rhyw ddwy filltir i dref Llanfair. Erbyn i mi gael ychydig o ymborth, heb anghofio'r gwpanaid o de, yr oedd y gwlaw wedi darfod, a'r haul yn gwenu ar ddyffryn yr Wy a'r mynyddoedd o bobtu iddo. Tybiwn na welswn wlad dlysach erioed pan yn cychwyn ar fy mhererindod tua Chwm Llywelyn; ac, er fy llawenydd, medrai bron bawb basiwn ar y ffordd siarad Cymraeg â mi. Troais i dy tafarn ar y ffordd, ty hen ffasiwn a mantell simddau fawr, i holi am y ffordd, a dywedai hen wraig y *Prince Llywelyn* fod yno groeso bob amser i Gymro'n siarad Cymraeg, er nad oedd arno eisieu glasied. Cyn hir dois at dy bychan unig ar ochr y ffordd, ar y llaw chwith. Cnociais wrth y rhagddor a daeth gwraig fechan o Saesnes i ddweyd fod croeso i mi fynd i'r ardd. Y mae'r ffynnon a Chwm Llywelyn i gyd ar dir fy nisgybl brwdfrydig, ond gwelais nad oedd eisieu i mi son am ei enw, yr oedd y wraig yn un garedig iawn, a siaradus. Oedd, yr oedd llawer o Gymry'n dod i weled y ffynnon, y mae *rhai*,—oes y mae rhai,—'n cymeryd dyddordeb mawr yn y lle. Arweiniwyd fi drwy lidiart fechan i'r ardd, a danghoswyd i mi lwybr trofaog yn arwain i lawr at y ffynnon. Nant gauad lawn o goed cyll ydyw Cwm Llywelyn, yn rhedeg i lawr o ffordd Llangamarch i gyfeiriad dyffryn tlws yr Irfon. A ffynnon fechan yng ngwaelod gardd ydyw ffynnon Llywelyn, gyda gwaelod o graig a graian. Uwchben y ffynnon saif helygen wyllt, ac o'i hamgylch y mae llawer o flodau,—clychau'r gôg ac anemoni'r coed yn eu hamser, llygaid y dydd a llysiau'r mel yn eu hamser hwythau. Ac y mae'r Saesnes wedi plannu llawer o flodau dieithr yno, blodau na wyddwn i mo'u henwau, fel pe i gyd-wylo â blodau Cymru am Lywelyn. Ar y gefnen sy'n cysgodi'r cwm bychan, y mae derw, a chaeau agored i'w gweled rhwng eu bonau, a rhes o fryniau y tu hwnt i'r rhai hynny. Yn rhywle ar y caeau yna y cwympodd Llywelyn, a chyda'i gwymp ef collodd Cymru ei hanibyniaeth. Yr oedd awel wylofus yn anadlu dros y meusydd gweiriog, ac yn cario geiriau'r ffermwyr oedd yn mynd adref o'r ffair i'm clustiau, a'm meddyliau innau'n ol yn y flwyddyn 1282. Troais oddiwrth ffynnon Llywelyn i edrych ar y bryniau oedd yn gorwedd y naill wrth gefn y llall mor bell ag y medrai'r llygad weled. Ar fy ffordd adref cyfarfyddais ugeiniau o wŷr Buallt, pawb ar gefn ei geffyl, a phawb yn mynd nerth traed eu merlod bychain adre o'r ffair. Ni welais un meddw ymysg y lluoedd gwŷr meirch; ac ymysg y gwŷr traed ni welais ond un ag arwyddion diod arno,—tolc yn ei het ac awydd sefyll ar ei sodlau. Hen wr oedd hwn hefyd, ac y mae lle i obeithio y bydd y genhedlaeth feddw wedi darfod o Gymru cyn hir.

Cefais orffwys tawel wedi dod yn ol, a thipyn o hanes y dref. Y Saboth oedd drannoeth, a dywedodd y wraig nas gallwn gael pregeth Gymraeg os na chawn un yng Nghapel Alpha'r nos. "Rych chi yn y North yn fwy piwr i'ch iaith na ni." Ystafell isel hen ffasiwn oedd gennyf, lle hawdd breuddwydio am bethau fu. Ond, cyn amser huno, yr oedd gennyf ddigon o amser i fynd i edrych y castell. Dringais i fyny bryn, a gwelais lle y bu'r castell. Nid oes garreg o hono'n aros; nid oes yno ond trumau gleision yn unig. Nid ydyw heddyw ond lle i ymwelwyr rodianna. Hawdd gweled ei fod ar le manteisiol iawn. I'r gogledd y mae dyffryn yr Wy, a mynyddoedd gleision i'w gweled dros dŵr ysgwâr eglwys Llanelwedd, —mynyddoedd Maesyfed Seisnig ofer-goelus. Ond i'r de y mae dyffrynnoedd ffrwythlawn wrth draed Mynydd Epynt, a'u gwartheg, a'u hydau, heb ofn Norman na'i gastell.

Bum yn ymdroi peth hyd wastadedd glannau'r Wy. Cofiwn fod y *Saturday Review* wedi rhoddi beirniadaeth dyner ar dlysni'r golygfeydd hyn, a gallesid meddwl oddiwrth dôn y chwiliwr gwallau chwerw hwnnw fod

gwaith Duw ymron wrth ei fodd. Tan fwa'r bont gwelwn Gapel Alpha, ac adeiladau'r dref dan y bwâu ereill. Yn olaf peth eis am dro drwy fynwent yr eglwys. Ar garreg wen darllennais enw Eidalwr anesid yn Ombreglio, "wedi ei gyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef." Cofiwn mai uwch ben un o'r beddau hyn y bu John Williams, mab y Per Ganiedydd, yn darllen y gwasanaeth claddu'n feddw, mor feddw fel na fu ond y dim na syrthiodd i'r bedd,—er dirfawr boen ac edifeirwch iddo wedyn.

Bore Sul tawel hafaidd oedd bore drannoeth. Clywais fod capel Anibynwyr bychan ryw dair milltir i'r wlad, lle pregethid Cymraeg. Cerddais drwy'r dref, yr oedd yn ddistaw fel y bedd, ac nid oedd fawr o wybodaeth i'w gael ond am enwau'r siopwyr. Price ydyw'r enw mwyaf cyffredin o lawer, yna yntau. Gŵr o haiarn ydyw, anhyblyg, a didrugaredd,—na, dacw ddeigryn yn ei lygad wrth adrodd hanes ei fab fu farw pan ar wneyd enw iddo ei hun fel meddyg. Yr oedd ei addysg wedi costio llawer o arian iddo, ond yr oedd clywed pobl yn dweyd iddo golli arian ar ei fachgen yn ei hala fe'n grac. "Son am arian o hyd,—a fawr o son am ened; hwy'n son am yr arian yn mynd yn ofer, a minne'n meddwl fod 'y machgen i ar y lan." Yna dywedodd ei feddwl am addysg y dyddiau hyn. Yr oedd ei ferch wedi bod yn yr ysgol ym Mryste; yr oeddynt wedi ei dysgu lle'r oedd pob afon yn tarddu trwy'r byd yma benti gili. "Ond am y wlad well y dysgid ni, adnode a hyme fydden ni'n ddysgu." Yr oedd yr hen frawd wedi holi'r tri gŵr o Forgannwg,—rhai wedi dod i'r ffynhonnydd fel yntau,—yn fanwl; ac yr oedd

CASTELL LLANFAIR MUALLT.

Powel a Davies, yna Morgan a Meredydd a Hamer a Morris; gwelais hefyd enwau Prosser, Gwynne, a llawer enw Seisnig. Cerddais ar hyd yr ystryd hir, o'r bont, ac yna gadewais y dref, a dringais i fyny bryn hyd hen ffordd Aberhonddu.

Ar ael y bryn, wrth lidiart, gwelwn bedwar o ddynion, tri yn rhai gweddol lonydd, a'r llall yn ysgwyd ei fraich fel pe yng nghanol hyawdledd mawr. Pan gyrhaeddais hwynt, trodd y siaradwr ataf fi, a dechreuodd fy holi'n galed yn Gymraeg. Sylwodd nad oedd fy nwylaw'n galed, a dywedodd nad oeddwn yn ennill fy nhamaid yn hen ddull y cwymp. Gŵr llawn ynni oedd, ac ni fuasai neb yn dychmygu ei fod yn ddeg a thrigain oed. Yr oedd yn Drefnydd selog, ac yn ei gosod hi ar ei enwad yn Llanfair yn bur drwm, gan ddangos pa fodd y rhoddasai ef hwy ar hwyl. Yna dechreuodd foli Tre Castell, magwrfa athrylith a'i fan genedigol yn dangos un o honynt i mi fel pe buasai greadur mewn arddangosfa, oherwydd ei fod yn gefnder i Islwyn. Nid oedd yn llonydd un munud, rhaid fod ei ynni di-ddarfod wedi effeithio llawer ar ei ardal, a synnwn a fyddai'n cysgu, ynte a fyddai fel penhwyad, yn effro am byth. Trois fy nghefn arno, a phan edrychais yn ol o'r pellder, gwelwn yr hen Frycheiniwr yn pregethu a'i holl egni i'r tri gŵr llonydd o Forgannwg.

Ar ochr y mynydd gwelwn dai glân gwyn-galchog, ac aml adfail. Uwch ben un ty to brwyn anghyfanedd gwelais dair coeden yn gwyro, caban un-nos ar fin y mynydd, a chae bychan glasach na'r mynydd o'i gwmpas, a llwybr troellog yn mynd i fyny i'r mynydd oddiwrtho. Cofiwn fod coed yn gwyro, fel gwylwyr blinedig, uwchben llawer cartref tebyg yng Nghymru,—tra y mae'r plant yn grwydriaid ar hyd y byd, neu wedi suddo i dlodi a phechod ein trefydd mawrion. Pan

gaiff Cymru addysg gelfyddydol, oni chynneuir tân ar yr hen aelwydydd hyn, oni ddaw'r hen gartrefi'n gartrefi celfyddydwyr? Tynnir cyfoeth o gerrig a phren; ac ni ddisgtyr ir gwenyn a ieir.

Dyma dro yn y ffordd, a chraig o'n blaenau, a phont haiarn dros yr afon Dihonnw. Dyma dawelwch perffaith, heb un ty yn y golwg, na swn ond dwndwr yr afon; ni welaf ddim byw ond ambell wiwer ofnus yn croesi'n ysgafn trwy gyll y glyn. Yr oedd paent gwyn ar y bont, a fforddolion lawer wedi ysgrifennu rhyw rychydig o hanes eu bywyd ar hyd-ddo, —"*Jack Penyryrfa bound for the south*," "*Thomas Bevan passed by seven o'clock*," "*Tom yr Efail, Sir Fon*,"—dyma hanes trigolion Cymru'n ymdrechu i'r De. A'r hyfedd iawn, dyma enw hen gyd-ysgolor i minnau, yn ei law ei hun, ac ar ol yr enw,—'*hard up on the road*." Wedi dringo'r bryn gwelais fod rhywun wedi cyhoeddi athrod ar y ffordd-dolion hyn mewn lle amlwg,—"Beware of the dog."

Ond dyma ni yn Llanddewi'r Cwm. Deallais fod y capel hwnnw filldiroedd ymhellach, ac nad oeddwn ar y ffordd iawn. Nid oedd gwasanaeth yn yr eglwys tan y prydnawn, a gwelais na chawn gyd-addoli a neb y boreu hwnnw. Troais i'r fynwent, mynwent ar godiad tir mewn gwlad dlos iechweddog. Y mae'r plwy am yr Wy a Sir Faesyfed, ac o fewn rhyw ddau blwy i derfynau Lloegr, a deallais yn union fod y Gymraeg yn marw yma. Lle di-gynnwrf ydyw plwy Cymreig ar fin ymseisnigo, cyll yr Ysgol Sul ei lle, cyll y werin ei chywreinrwydd meddwl, gwneir gagendor rhyngddi a'r dosbarth darllengar. Yr oedd gwahaniaeth dirfawr rhwng yr amaethwyr welais yma a'r hen wr o Dre Castell; gwell gennyf fi garreg fedd hen Gymro nag ysgwrs Cymro seisnigedig. Cymreig iawn ydyw'r fynwent,—dyma fedd geneth ddeg oed o Nantyrarian, bedd hen felinydd o Ddolellinwydd, a bedd hen ferch o Gwttwshyrwain; dyma adnod Gymraeg, a dyma bennill ysgrifennwyd ar garreg ddarfodedig yn 1807—

"Dyma Evan gwedi tewi,
Da newyddion fu'n gyhoeddi
Dros i Dduw yn erbyn pechod.
A llawn rhyddhad yng ngwaed y Cymod."

Gadewais dŵr isel gwyngalchog creciog yr eglwys, a'r tawelwch dorrid gan swn y brain, a throais yn ol tua Llanfair. Ar y ffordd gwelais drol hir yn gorffwys, hysbyswyd fi mai 'gambo' y gelwir hi, a deallais gyfeiriad ati mewn pregeth glywais wr ieuanc o'r De'n draddodi wrth gasglu at ei goleg,—

"Mae hen gambo'r iachawdwriaeth yn cywain eneidiau o hyd glannau'r afon i ysguboriau'r Duwdod."

Yr oeddwn yn brydlon yng nghapel Alpha amser dechreu, a chawsom bregeth ddwy-iaith rymus a gafaelgar iawn gan y gweinidog. Yn y seiat ar ol, siaradodd llawer o frodyr o Forgannwg, — Llanfair Mualllt a'i ffynhonnau yw eu hoff gyrchle,—yn Gymraeg. Cefais wahoddiad cynnes i wlad y gweithydd ganddynt, ac yr wyf yn meddwl mynd tyw dro. Wedi ymgom â'r gweinidog, cefais orffwys breuddwydiol. Y nos honno, bum yn ail grwydro bryniau Buallt mewn breuddwyd, gan chwilio am fedd Llywelyn. A gwelais gof-golofn ardderchog,—arwydd serch cenedl wedi deffro,—i ddweyd wrth oesau ddêl am fywyd ein Llyw Olaf. Pa bryd, tybed, y caf weld hyn pan ar ddi-hun?

SERCH.

Serchog iawn yw blodau'r meusydd,
Serchog hefyd cân a chywydd,
Ond y serch sy'n dwyn rhagoriaeth,
Yw serchowgrwydd mewn cymdogaeth.

LLYGAID MERCH.

F'anwylyd oedd dy ddau lygedyn,
Gwn mai arian byw sydd ynddyn;
Yn dy ben y maent yn chwarau,
Fel y ser ar noswaith olau.

DAFYDD AB GWILYM.

Bardd Prydferthwch Natur.

I. CYWYDD Y NIWL.

Oed a'm rhiain addfeindeg
A wnaethum, yn dalgrwn deg,
I fyned, wedi ymgredu
Ymaith, ac oferdaith fu.

Mynd yn gynnar i'w haros,
Egino niwl cyn y nos.
Tywyllodd wybr fantellau
Y ffordd, fel pe tawn mewn ffau.
Cuddio golwybr yr wybren,
Codi niwl, cau hyd y nen,
Cyn cerdded cam o'm tramwy
Ni welid man o'r wlad mwy,
Na gorallt fedw, na goror,
Na bronnydd, meusydd, na môr.

Och it, niwlen felen fawr,
O throit ti, na thorrit awr!
Casul o'r awyr ddulwyd,
Carthen aniben iawn wyd;
Mŵg ellylldan o Annwn,
A bid tew ar y byd hwn,
Mal tarth uffernbarth ffwrnbell,
Mŵg y byd yn magu o bell.
Uchel dop adar gopwe
Fel gweilgi'n llenwi pob lle.

Tew wyd, a glud, tad y glaw,
Tyddyn a mam wyt iddaw,
Gwrthban draw, trymlaw tromlyd,
Gwe ddu bell a gudd y byd,
Cnwd anhygar di-araul,
Clwyd forlo rhyngo' a'r haul.
Nos im fydd dydd difyr-glwyd,
Dydd yn nos, pand diddan wyd?
Tew eira fry'r hyd tai'r fron,
Tad llwydrew, tidiau lladron;
Gwasarn yr eira llon Ionawr
Goddaith o'r awyr faith fawr;
Ymlusgwr, bwriwr barrug
'R hyd moelydd ar grinwydd grug;
Hudol egwan yn hedeg,
Hir barth-lwyth y Tylwyth Teg;
Gown i'r graig, gnu awyr gron,
Cwmwl planedau ceimion;
Ager yn tynnu eigiawn
Mor-wynt o Annwn mawr iawn.

O'm blaen ar riw, hagr liw hyll,
Obry yn dew, wybren dywyll,
Fy nhroi i fan trwstanwaith
Fel uffern, i figin-wern faith,
Lle'r ydoedd, ym mhob go-bant,
Ellyllon min-geimion gant.
Ni chawn mewn gwern uffernol
Dwll heb wrysg, dywyll heb rôl;
Ni wnaf oed, anhy ydwy,
Ar niwl maith am anrhaith mwy.

II. CYWYDD Y DARAN.

Dan lwyn mewn dien lannerch,
A dail Mai rhwng dwylaw merch,
Myn dyn, pan oeddem ein dau,
Lawen ddyn aelwinnau,—
Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd;
A ffrydiau croywlaw creulawn,
A phoeri mellt yn ffrom iawn;
Gwylltio'r forwyn, fwyn feinwen,
Gwasgaru a ffo gwisg ei phen.

Trwsdan fu y daran drwch,
Dwyn gwarwyf ein digrifwch;
Trwch ydoedd, tristwch i'r trwyn,
Trwst mawr yn tristhau morwyn;
Twrwf a glyw pob tyrfa glau,
Tarw cryg yn torri creigiau;
Taran a ddwg trinoedd in,
Trwst arfau wybr tros derfyn;
Twrwf o awyr a'u tyrfellt,
Tompyr a fag tampran o fellt;
Tân aml a dwfr tew'n ymladd,
Tân o lis a dwfr tew'n ei ladd;
Clywais fry, ciliais o fraw,
Carlaidd utgorn y curlaw;
Mil fawr yn ymleferydd
O gertwynnau sygnau sydd;
Braw a ddisgynnodd i'm bron
Bwrw deri o'r wybr dirion;
Gwyllt yr awn, a'm gwallt ar wŷr,
Gan ruad gwn yr awyr;
Gwiddon groch yn gweiddi'n gre,
Gwrach hagr dan guro ei chowgie;
Rheg yn germain rhyw gwyn gormes,
Rhygl groen yn rhyglaw gwres;
Torri cerwynni crinion,
A barai Grist o'r wybr gron;
Canu trwmp o'r wybr gwmpas,
Curo glaw ar bob craig lâs;
Creglem yn dryllio creiglawr,
Crechwen yr wybr felen fawr;
Trwy ei hun y trawai hwrdd,
Tebig i ganu tabwrdd;
Nid gwaeth wrth fyned o'i gwâl
Er bremain o'r wybr wamal;
Oni bae faint mewn braint braw,
Ofn deuddyn a fae'n dyddiaw;
Fy nyn wen, ofni a wnai
Awyr arw pan weryrai;
Drwg fu'r daran am annos,
Dwyn dylif ac ofni dyn dlos;
Arw fleiddiaist, orfel iddi
Am ysgar meinwar a mi!

III. CYWYDD Y GWYNT.

Yr wybrwynt helynt hylaw,
Agwrdd drwst, a gerdda draw;
Gŵr eres wyd, garw ei sain,
Drud byd, heb droed, heb adain.
Eithr â thrwst aruthr i'th rhoed
O bantri wybr, heb untroed;
A buaned y rhedi
Yr awron dros y fron fry!

Dywaid im, diwid emyn,
Dy hynt di, ogleddwynt glyn;
Rhad Duw wyd ar hyd daear,
Rhuad blin doriad blaen dâr;
Ar hyd y byd yr hedi,
Hin y fron, bydd heno fry.
Och ŵr, dos odd Uch Aeron,
Yn glaiar deg eglur dôn;
Cyhudd gŵyn, wenwyn weini,
Caeth yw'r wlad, a'i maeth i mi,—
Ac erof fi nag eiriach,
Nac ofna er y Bwa Bach;
Noethid twyn, cyd nithid dail,
Nith nitia neb, ni'th atail
Na llu rhygl, na llaw rhaglaw,
Na llafn glâs, na llif, na glaw;
Ni boddi, ni rybuddiwyd,
Nid ei ynglŷn, di ongl wyd,
Ni'th wyl drem noethwal dramawr,
Ni'th glyn mil, nyth y glaw mawr;
Ni'th ladd mab mam o amhwyll,
Ni'th lysg tân, ni'th lesga twyll;
Nid rhaid march buan tanad,
Neu bont ar aber, na bad;
Noter wybr, natur ebrwydd,
Neitiwr gwiw dros nawtir gwŷdd;
Hyrddiwr, chwarddwr, breinwr bryn,
Hwylbrenwynt heli bronwyn;
Drycin ym myddin y môr,
Drythyllfab, ar draethellfor;
Seuthydd ar fron fynydd fry,
Seithig eisingrug songry;
Sych natur, creadur craff,
Seirniog wybr siwrnai gobraff.

Gwae fi pan roddais fy serch
Gobrudd ar Forfudd, f'eurferch;
Rhiain am gwnaeth yn gaethwlad,
Rhed fry rho'd a thy ei thad,
Cur y ddôr, par egori
Cyn y dydd i'm cennad i;
A chais ffordd ati, o chaid,
A chwyna lais ochenaid.
Deui o'r sugnau diwael,
Dywed hyn im, diwid hael,—
Er hyd yn y byd y bwy
Creded mai cywir ydwy,
Os prudd yw f'wyneb hebddi,
Os gwir hyn nas cywir hi,
Dos obry, dewis wybren,
Dos fry tua gwely Gwen,
Dos at seren felenllwyd,
Debre'n iach, da wybren wyd.

FEIB ERYRI.

Feib dewrion Eryri, wladgarwyr uchel-fri,
Ymunwn i "godi'r hen wlad yn ei hol;"
Hen iaith ein cyn-dadau, a'n hen Eisteddfodau,
Osodwn ar seiliau na thynner yn ol.
Ei chrefydd dyrchafwn, a'i deddfau a barchwn
Hen Walia anwylwn tra'r Wyddfa'r ei sedd;
Ei dolydd gwyrddleision, a'i llynnoedd tryloewon
A garwn yn ffyddlon, heb ffaelu.

Ei chedyrn fynyddau, a'u huchel binaclau,
Pob Cymro yn ddiau a'u câr yn ddi-gel;
Mae ysbryd Caswallon, a gwaed yr hen Frython
Yn curo'n ei galon ple bynnag yr el.
Mae'n caru ei nentydd, gwylltineb ei gelltydd,
Ei dolennawg afonydd, a'i chestyll di-rif;
Mae'n caru ei hanes, mae i galon yn ffwrnes,
A'i fynwes yn gynnes at Gymru.

Ymffrostied y Saeson o'u huchel ysgolion,
Ac amledd eu meibion, enwogion o ryw.
Minnau ymffrostiaf yng Nghymru dawelaf,
Fy ngwlad a ganmolaf, ei Beibl, a'i Duw.
Boed llwyddiant i Gymru; mae'n dyfod i fynu
Ni fyn ei gormesu un funud yn hwy.
Daw eto Lywelyn i arwain ei byddin,
A gwae fydd i'r gelyn pan gyfyd.

Cefn y Waun. Owen Hughes.

GLENDALOUGH.

GLENDALOUGH, — Cymraeg! Ie, ac nid Cymraeg ychwaith. Hwyrach fy mod yn methu,—os felly, bydd rhywun yn sicr o'm cywiro,—tybiaf mai ystyr yr enw yw "Glyn y ddau lyn," fel y sonnir am Bala ddeulyn yng Nghymru. Fe wyr pawb mai *lough* (loch) yw llyn yn iaith yr Iwerddon.

TWR CRWN GWYDDELIG.*

Un boreu hafaidd eleni, yn ystod arhosiad byr yn Nublin, cychwynnais yn gynnar o'r Northumberland Hotel, — y cartref cysurus a gedwir gan Mr. Lewis, yn Beresford Place, ar gyfer dieithriaid,—croesais y Liffey, ac aethum i swyddfa Messrs. Gaze, ac yno prynnais am chwe swllt docyn oedd yn fy nghlirio am y diwrnod, — sef siwrne o bedwar ugain milldir gyda'r tren, a cherbyd cysurus am ddeng milldir wedi hynny. Cychwynnai'r tren o orsaf Harcourt Street,—*station* dawel dlodaidd yr olwg arni, llawer tebycach i orsaf ar y *Manchester and Milford Railway* nag i *terminus* mewn prif ddinas. Teithiwr gyda'r trydydd dosbarth oeddwn, ond deallais yn fuan mai ychydig iawn a deithiai yn y cerbydau hynny yn yr Ynys Werdd; os gallant, fodd yn y byd, ymgyrraedd at rywbeth gwell. Ar y ffordd i Rathdrum, lle y gadawem y tren, pellder o ddeugain milldir Gwyddelig o Ddublin, aethom trwy Bray, tref ar lan y môr tua deg neu ddeuddeng milldir o'r ddinas, sydd yn gyrchfa pobloedd yn ystod misoedd yr haf. Yno y trigai y person byd-enwog a newidiodd ei gredo gymaint o weithiau, ond a lynodd yn ei fywioliaeth hyd y diwedd. Oddiyno teithiem ar hyd glan y môr, tebyg iawn i launau môr Meirion. Mewn un lle elai y llinell dros glogwyn cyffelyb i'r allt ger yr Abermaw; gyda hyn o wahaniaeth, fod y cwmni yno wedi tirio tynel mewn llawer man, ac felly wedi diogelu y llinell yn hollol rhag ymosodiadau y môr. Cyn hir cyrhaeddasom Wicklow, tref fechan ar lan y môr, ac adfeilion hen gastell ynddi. Meddyliwn ei bod yn debyg i Gricieth, ond braidd yn fwy cysglyd a marwaidd yr olwg arni. Wedi myned heibio i Wicklow, troem i'r tir, ar hyd ceunant cul a thra phrydferth, rhwng bryniau tebyg i fryniau Sir Drefaldwyn neu Sir Aberteifi.

Pan ddisgynnais yn Rathdrum, — pentref rhyw drigain milldir o Waterford, — gwelais fod saith ereill heblaw fy hunan wedi cymeryd tocynau Gaze, a saith o foneddigesau oeddynt. Gan mai hen lanc wyf, teimlwn yn dra phetrusgar ac anesmwyth, pan ddeallais sut yr oedd pethau, ond ymdawelais pan gofiais nad oeddwn yn deg a hardd yr olwg arnaf, a fy mod felly'n weddol ddiogel. Ymddengys mai tair o Baris a phedair o Ddublin oeddynt, — cwmni hynod lawen. Siaradent a chwerthent yr holl amser; ni fyddai byth lai na thair yn llefaru ar unwaith; a thra y byddent hwy yn traethu byddai y pedair arall yn dyfalu beth a gaent hwythau ei ddywedyd nesaf. Rhyfedd iawn,

* Lleoedd noddfa oedd y tyrau crynion hyn. Gwn am un o honynt sy'n bymtheg troedfedd a phedwar ugain o uchder. Y mae'r ffenestr isaf yn ddeg troedfedd oddiwrth y llawr. Diangai'r Gwyddel i'r ffenestr hon a thynnai ei ysgol ar ei ol. Yna gallai chwerthin am ben ei erlidiwr.—Gol.

yrth ymddiddan â hwynt deallais ein bod yn dnabod yr un bobl—rhyw rai yn byw ym Iharis. Dylwn hefyd ddywedyd fy mod redi dychwelyd a chalon iach. Nid oes gen- yf amheuaeth na fuont hwythau mor ffodus.

Nid oes dim i dynnu sylw ym mhentref Rathdrum. Gwelais yno Eglwys Loegr, neu n hytrach Eglwys ddadsyfedledig yr werddon, — adeilad digon dilewyrch, yn nwedig o'i gydmaru ag adeilad wych yr Eglwys Babaidd a safai ar fryn gerllaw. ynnwn wrth weled adnodau megis,—"Nid es enw arall wedi ei osod dan y nefoedd," redi en hargraffu mewn llythyrennau mawr- on ar bapurau gwynion, a'u postio ar furiau r eglwys o amgylch y drysau. Dyna un ordd sydd ganddynt i wrth-dystio yn erbyn yfeiliornadau y Babaeth. Yn yr Iwerddon, nfynych iawn y gwelir canhwyllau ar yr llor, ac anfynych y ceir hyd yn nod gantor- on mewn gwisgoedd gwynion. Mae Pab- ddiaeth yn ei holl hagrwch yn rhy agos tynt yno iddynt efelychu dim ar ei defodau.

Ar y ffordd o Rathdrum elem ar hyd yffryn y Clarach,—ceunant hir, rhwng ryniau prydferth Wicklow, nid yn anhebyg lawer dyffryn yng Nghymru. Tucefn i'r ryniau coediog dyrchafai mynyddoedd Vicklow,—mynyddoedd gleision, rhamantus r olwg arnynt, ond nid mor fawreddog â ynyddoedd Eryri a'r Gader; adgoffent fi r Berwyn yng nghymydogaeth Corwen a'r ala. Gofynnais i'r gyrrwr beth oedd eu uchder, a dywedodd wrthyf fod rhai o onynt yn bedwar cant a hanner o droed- ddi. Pan ddywedais innau nad oedd hynny n rhyw uchel iawn, ychwanegai fod yno rai deng waith uwch na hynny!! Nid oedd yn dyn aneallus, engraifft deg oedd o'i ddosbarth ng Nghymru a Lloegr. Eto ceir llawer o aeson yn credu fel efengyl bopeth a dywedir am ein gwlad, gan rai mor ddi- rniad am bethau â'r gŵr hwn.

Gwlad deneu iawn ei phoblogaeth oedd on; ymfudodd cannoedd o honi yn amser cyfyngdra mawr. Anfynych y gwelem ai, na theithwyr, na neb yn gweithio yn y ieusydd; er fod yr ydau yn gorwedd yn raddfed, ac yn dechreu duo gan y gwlawog- dd. Mae y Gwyddelod yn disgwyl i'r orwyn Fair neu i Senedd Pryden Fawr neyd popeth drostynt. Yr unig oruchwyl- on y bwriadant eu cyflawni eu hunain ydyw fed whisci, chwerthin, a rhegi; am y weddill o ddyledswyddau bywyd gadawant wy, os cant lonydd, i'r offeiriad a'r Sais.

Glendalough yw enw y glyn lle y tardd yr on Clarach. Yno mae adfeilion saith o glwysi St. Kelvin. Pwy oedd hwnnw nis wn; a pha beth a wnaeth i ennill ei gymer- iad uchel, nis gallaf fynegi. Adfeilion digon disylw yw y rhan fwyaf o'r rhai hyn. Mae amryw o'r eglwysi yn rhy gyfyng i fod yn ystabl cysurus i dri neu bedwar o geffylau. Maent oll yn ddi do, ond un; ac nid oes dim tebyg i waith celfydd a chywrain ar ond dwy o honynt, y rhai sydd o fewn llai nag ergyd carreg at eu gilydd, ac wedi eu hamgylchu â mynwent fawr lle y cleddir hyd heddyw. Ym mhen uchaf y dyffryn mae llyn rhamantus a phrydferth. Cyfyd y mynydd yn syth o'r dwfr. Treuliodd fy nghyd-deithwyr brydnawn difyr ar ei lan, ac mewn cwch ar ei wyneb; ond aethum i waered yng nghyfeiriad y llyn arall sydd yn is i lawr, ac yna heibio hwnnw i'r pentref, i gael golwg agosach ar yr adfeilion, ac yn enwedig i weled y twr crwn,—*round tower*,—sydd yn dyrchafu yn ymyl yr eglwys fwyaf, yng nghanol y beddau. Nis gwyr beth yw amcan ac ystyr yr adeiladau hyn sydd i'w gweled yma ac acw yn yr Iwerddon; ac nis gellir gwybod i sicrwydd pa mor hen ydynt. Yr oedd hwn yn adeilad cadarn, wedi ei weithio o gerrig mân o'r braidd, trwy galch poeth. Mae yn berffaith grwn, ac o gwmpas ugain troedfedd o dryfesur, ac yn codi'n syth tua chan troedfedd, gan derfynu mewn pig o waith maen trwyddo. Ymddengys bron yr un braffder o'r gwaelod hyd y nen. Ni fedd na drws na ffenestr, ond ceir agoriadau culion ynddo prin digon llydan i ddwy frân allu myned trwyddynt ochr yn ochr. Gwag yw tu mewn. Yno y saif yn ddistaw, yn dyst i'r oes siaradus hon fod cenhedlaeth wedi bod oedd yn meddu syniadau fel ninnau am y nefoedd a byd ysbrydol, a dyhead dyn am gymdeithas â Rhuwyn uwch nag ef ei hun, a medr i roddi ffurf i'r dymuniadau hyn mewn dull parhaol. Beth ychwaneg oedd eu hystyr nis gwyddom. Sylwais ar beth tra Gwyddelig yn y fynwent. Ar lawer o'r cerrig beddau gwelir argraffiadau o'r un dull a'r canlynol,—

This stone was erected
by PATRICK O'BRIEN,
in memory of his wife.

Ond ni enwir y marw, yn fynych; fel y mae y beddargraff er cof am y marw, ac yn enwedig er gogoniant i'r byw. O ran hynny nid yw Pat yn hyn ond tipyn gonestach na'r Cymro.

Tra yn y fynwent, doi'r pentrefwyr ataf i gardota; a phan aeth fy mhres i gyd, cynhygiodd hen wraig newid swllt i mi, ond ni chefais o hono eithr wyth geiniog a bendithion di rif.

Treuliais yn y dull hwn ddiwrnod i'w gofio, a dychwelais i Ddublin gyda'r *mail* erbyn dæg o'r gloch, wedi bod ddeuddeng awr ar fy nhaith.

GOHEBYDD Y "BWCH GAFR."

II.

FE ddigwyddai rhywbeth neu gilydd yn Aberwilym oedd o hyd yn galw ar Gohebydd i wastraffu ei dalent yn y *Bwch;* a digwyddiad felly oedd y Cyfarfod Te a Chyngherdd.

Gellir dweyd gyda phriodoldeb mawr fod Aberwilym yn ferw drwyddo y dydd hwnnw. Yr oedd holl degelli y dreflan, yn fawr a bach, yn gopr ac yn haiarn bwrw, yn suo canu am dri o'r gloch prydnawn; ac yr oedd Blaens Evans Gohebydd,—i ychwanegu at y tegell mawr yn y gegin,—wedi cynneu tân yn y parlwr i ferwi tegell llai, ac yn y gegin gefn i ferwi crochanaid arall. Yr oedd gwraig y drws nesa hefyd, sef Marged Jones y Post, wedi addaw picio yno i arolygu y berwad, o achos yr oedd galwad neillduol am Flaens Evans yn yr ysgoldy i dorri bara 'menyn. Nid oedd dim curo arni hi yn y gelfyddyd yma. Edrychid i fyny ati fel pen campwraig yr ardal yn hynny, ac ni fedrid dychmygu am de parti ar wahan i Flaens Evans. Yr oedd hithau, fel dynes gydwybodol, yn teimlo cyfrifoldeb ei sefyllfa, ac yn aberthu popeth y diwrnod hwnnw er mwyn cyflawni ei ddyledswydd tuag at ei chydgrefyddwyr. Ni fyddai hi ddim yn cychwyn i'r ysgoldy yn brydlawn, o egwyddor. Pan ddeuai yr amser penodol, a hithau heb ymddangos, dechreuai y cymorth-wragedd anesmwytho; bum munud wedyn, edrychent ar eu gilydd, a rhedent i'r drws i edrych a oedd hi ddim yn dyfod; bum munud wedyn, byddent mewn ofn a dychryn mawr pwy gai lenwi ei lle, pan y gwaeddai rhywun nes eu trydanu i gyd,—"Dyma hi *yn* dwad!" A thyna wraig sionc mewn gown cwta, ffedog lawn o blygion a gwen fel eira, siôl fraith am ei hysgwydd, a chap am ei phen, yn dod i'r golwg. Rhedai pawb i'w chyfarch, symudai pawb oddiar ei ffordd, ac i mewn yr ai hithau fel brenhines! Blaens Evans Gohebydd!

"Marged," ebai Wmffre Jones wrth ei wraig, "rydw i'n methu dallt sut y planiodd Rhaglunieth iddi hi fod yn Aberwilym; o achos, dase hi wedi mynd i Lunden, mi fase'n rhwbeth chwaneg nag amitiwar erbyn hyn!"

Yr oedd pum hirfwrdd wedi eu gosod ar hyd yr ysgoldy, ac yn ol yr arfer, rhoddasid gwahoddion i ddeg o rianod y plwy i gymeryd eu gofal. Wrth ba reol, os rheol hefyd, y detholid hwy, a phwy oedd y detholwr, ni phenderfynai neb yn bendant. Y peth tebycaf i reol ynglyn a hwy oedd y ffaith eu bod oll wedi dod yno yn eu ffedogau mwslin gwyn. Ond er na ddywedid dim gan neb, yr oedd rhyw fath o gydsyniad ym meddylian pawb mai am eu bod yn ferched *stans*, ac wedi treulio mis yn Llunden, y gwahoddasid y ddwy fun o Dy'nsiglen; merch y Felin a merch y ty-pobty, am fod tad y gyntaf yn flaenor a mam yr olaf yn "gwneyd" y te; Elin a Sara Rhyd y Cawr am fod yr "hen law" yn berchen ei fferm a thipyn yn y banc at hynny,—o'r hyn lleiaf, mi gollodd bum cant o ddefaid yn eira mawr y flwyddyn cynt ac ni theimlodd o ddim o'r golled; a dwy ferch y Plas Onn, wrth gwrs, am mai merched y Plas oeddynt. Ymddengys mai Miss Jones y Siop a merch yr *ironmonger* yn unig fedrai hawlio yr anrhydedd ar sail eu teilyngdod personol.

Ni fuasai ein rhestr yn gyflawn heb ddweyd fod yno un ferch ieuanc arall yn bresennol, mewn menyg *kid*, ym mherson Mr. Evan Heulwen Evans, yr *assistant master*. Yr oedd ef yno, nid i edrych ar ol y plant, ond i ofalu am y *ladies*.

Yr oedd yn arferiad gadael i'r merched ieuainc ddod a'u llestri te eu hunain gyda hwy, a byddent mewn mawr bryder ynglyn a hyn. Treulient ddiwrnod i ystyried pa un ai y llestri goreu ai nad e, ddylid eu defnyddio; cymerent ddiwrnod arall i bigo y llieiniau goreu ac i bacio; ac os byddent yn byw dipyn o'r dreflan, rhoddent hanner diwrnod wedyn i'w cludo i'r ysgoldy.

Fel y deng morwyn yn yr Ysgrythyr, yr oedd rhai callach na'u gilydd ym mhlwy Aberwilym. Yr oedd merched Rhyd y Cawr wedi dod a'u llestri, fin yr hwyr blaenorol, wrth ddyfod i'r seiat; ond am ddwy feinir y Plas, y rhai a fenthyciasant eu llestri gan Flaens Evans, nid oeddynt yn foddlon ar fod pawb yn gwybod am eu gwahoddiad, heb gael *dangos* fod hynny'n wir. A thipyn cyn tri, wele Velveteena yn pasio drwy y dreflan gan anwesu y *silver teapot*, a Priscilla Jane wrth ei hochr yn cario'r *tray*.

"Ma nhw i gid yn dwad i'w dryse," ebai Prissie.

"Yden," atebai Teena gan gerdded fel peunes, "weles i 'rioed bobol mwy difanars."

Erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol yr oedd y plant wedi ymgasglu yn lluoedd, a mamau llawer o honynt yn eu canlyn. Yr oedd Lewis y Bliw Lion a Richard y cigydd, y ddau ddyn mwya *handy* yn y lle, yn trotian o gwmpas y tai gyda thegelli, ac yn llawn prysurdeb. Yr oedd Richard bob amser yn wyllt, ond yn anffodus, fe bardduodd ef ei drowsus goreu bron ar y cychwyn, a chafodd

wers lem gan y wraig am fod mor drwstan. Gwnaeth hyn ef yn wylltach; ac o hynny allan gellid tybied ei fod am wneyd i fyny am ei gamwedd trwy bardduo dillad pobl ereill a gwaeddi "tendiwch!" yr un pryd. Bu Lewis yn ysmalio ag ef gryn lawer yn ystod y prydnawn, ond daeth ei dro trwstan iddo yntau. Yr oedd yn brysur yn cyflenwi y plant â bara 'menyn a bara brith oddiwrth Blaens Evans, pryd y rhoddodd ei droed ar glap o fenyn oedd wedi syrthio, a'r eiliad nesaf cadd ei hun ar ei grwper mewn twb golchi llestri.

O'r diwedd, y mae drws yr ysgoldy yn lawn agored. Y mae'r bwyd ar y bwrdd; y mae'r te yn barod. Gollyngir y plant,—er's meityn yn llawn disgwyliad,—i mewn o un i un nes eu gollwng oll. Yn y munud clywir tinc llawer o gwpanau. Gwelir angar mawr yn codi i'r nen, a thyna'r wledd yn dechreu.

Ond yr oedd yno un creadur bach tlawd y tuallan. Llefnyn o fachgen pengoch deuddeg oed oedd efe, yn llercian o gwmpas y drws cil-agored, a'i lygaid mawrion llonydd yn bradychu ei awydd angerddol am gael bod ymhlith ei gyfoedion yn y wledd. Welwch chwi ei lygaid yn dyfrio, ac yntau yn eu sychu mor frysiog, ac yn troi i edrych yn ol rhag ofn fod yno rywun am ei daro?

Mab oedd Watcin, oblegid dyna y gelwid ef, i'r potiwr, neu fel y torrai hwnnw ei enw ar y drol,—"Watkin Watkins, *china dealer.*" Canlyn trol a mul oedd gorchwyl hoffusaf Watcin, ac mae'n debyg mai'r mul oedd ei gyfaill pennaf yn y byd, ac mai ef oedd cyfaill goreu'r mul. Ni fu cap am ben Watcin erioed, na dillad cyfain am dano; ac yr oedd y triagl fyddai bob amser hyd ei wyneb o glust i glust yn dweyd yn eglur fod dŵr yn ddieithr iddo. Ond yr oedd pawb wedi sylwi fod Watcin, druan, wedi golchi ei wyneb heddyw. Yr oedd marciau y triagl yno, eto i gyd yr oedd o *wedi* ymolchi. Pam?

Ni chafodd sefyll yn hir wrth y drws cyn i foneddwr ddyfod yno ar ei ffordd allan. Safodd Watcin yn ol gam neu ddau, a churai ei galon gan ddisgwyl cael ei wahodd i mewn. Ond er ei ofid dirfawr, parodd y gŵr hwn mewn tôn sarrug a thrahaus, iddo fynd i ffwrdd yn ddioedi; a hynny yng nghlyw rhai o'r plant oddimewn hefyd! Yr oedd yn amlwg fod Wat wedi parotoi ei hun i dderbyn gwahoddiad gan rywun, ond dyma Mr. Meredydd, y boneddwr oedd yn rhoi y te, yn peri iddo fynd adref. Ow, ow! Teimlodd y cardotyn bach yn erwin.

Aeth y boneddwr tua phen arall y dreflan, ond nid aeth Wat ymhell cyn dyfod eilwaith at y drws. Pwy ddaeth yno ar y pryd ond genethig dlos a phert, ieuengach a llai nag ef, ac er ei fawr syndod, gofynnodd hi iddo yn od o garedig, a ddeuai efe ddim i mewn? Dyheai yntau am fynd, ond curai ei galon gyflymed nes y daeth atal dweyd arno, a chymeroddd gyfle i dynnu cefn ei law dros ei lygaid pan yr edrychai hi ffordd arall. Cymerai arno fod yn anfoddlon i'w dilyn; ond y munud nesaf, yr oedd hi wedi gafael yn ei law, a chafodd y plant oll weled merch fach fwya trwsiadus y plwy yn tywys bachgen bach mwya carpiog y wlad,—oenig yn arwain oenig.

"Mi gewch eiste yn f'ymyl i," meddai hi wrtho cyn fwyned a'r awel, a gwnaeth le iddo ar unwaith i yfed ei de. Nolodd fara brith iddo hefyd, a llanwodd ei bocedi ef ag ychwaneg, gan beri iddo ei fwyta pan y cai gyfle. Synnai y plantos at Watcin yn gwyro ei ben at y sowser, yn lle codi y llestr at ei enau, ond rhyfeddent lawer mwy at gyfeillgarwch Susie Meredydd fach.

Daeth tad Susie yn ol cyn pen hir, yng nghwmni Gohebydd. Edrychai Gohebydd yn llawn sirioldeb fel arfer, ac ymddanghosai y y merched mor brysur fel na fedrent bron edrych arno. Datganodd y boneddwr ei farn na wyddai ef beth a ddeuai ohonynt oni bai am Blaens Evans, gan ddangos ei fys at y bara menyn oedd o'i chwmpas yn risiau ar risiau. Pan y tynnodd Gohebydd ei bensel allan yn y man, ac yr aeth y tu ol i'r *blackboard* i ysgrifennu rhywbeth, yr oedd llygaid y merched,—neu yn hytrach y boneddigesau, oblegid y gwragedd ereill oedd y merched,—yn ei wylio, ac yn dangos y dywedent yn eu calonnau y cai eu henwau "ymddangos" yn y *Bwch* yr wythnos wedyn.

Ond yr oedd un o'r gwragedd wedi gweled cyfle rhagorol i gynffonna i Mr. Meredydd, a dywedodd wrtho yn felus iawn fod Wat i mewn. Trodd yntau yn ddigofus, a gwelodd y cardotyn bach yn edrych yn euog ac anesmwyth arno. Aeth ato fel saeth, a chydiodd yn ddiseremoni yn ei war.

"Ddaru mi ddim deud wrthat ti am fynd i ffwr, rwan *just?*" ebai efe wrtho yn fawreddus.

Ond yr oedd y creadur tlawd wedi dychrynnu, ac ni fedrai ddweyd yr un gair. Yr oedd llygaid pawb arno.

"Allan a thdi!" meddai wedyn. Ond stopiodd Susie ef.

"Dada, peidiwch!" ebai hi yn ymbilgar gan geisio tynnu llaw ei thad oddiar war Wat, "peidiwch! Y fi ddoth a fo!"

Yn angerdd ei theimlad, mi aeth ei gwyneb hi yn goch fel fflam. Aeth ei wyneb yntau yn ddwbl cochach na hynny; ac er mwyn cynnal i fyny ei barchusrwydd, fel y tybiai ef, yng ngolwg y bobl, gwnaeth yn hyf i

ddweyd ar goedd wrth ei eneth fach nad felly y cawsai hi ei dysgu gartref i ymddwyn.

"Oes gennych chi ddim mwy o *fanners* na *mixio* efo *beggars?*" meddai wrthi. Ac er dangos ymhellach ei ddirmyg o'r *beggar*, tynnodd ef oddiar y fainc, a danghosodd y drws iddo. Ond yr oedd teimladau goreu Susie heb eu llethu, a chyda beiddgarwch oedd yn codi oddiar ei bod yn dwyn yr enw Meredydd, a digofaint oedd yn tarddu oddiar deimlad na wnaeth hi ond yr hyn oedd dda, a chyda llygaid gloewon hyawdl, dywedodd, yn groew, os ai cfe a Watcin allan, y nolai hi ef i mewn drachefn.

Pa fodd bynnag, y bara brith derfynodd y mater. Tynnodd Mr. Meredydd chwech neu saith o ddarnau o ryw dyllau yng nghôt Watcin, ac er i Susie yn bendant glirio ei gymeriad, gwthiwyd ef dros y rhiniog gan ei thad parchus cyn iddo orffen ei de. Torrodd hithau allan i wylo yn hidl; ac wele! fel yr oedd y plant ereill yn deall y cwbl!

Bu Mrs. Meredydd yn hir y dydd hwnnw cyn deall paham y daeth ei merch fach siriol adre a'i llygaid yn gochion, a hynny cyn pedwar o'r gloch y prydnawn.

* * * *

Pan yr aeth Wmffre Jones i'r ty nesa i nol catied yn ol ei arfer, ac i siarad am y trychineb alaethus fu ar y môr y dydd o'r blaen, mi gafodd fod Gohebydd wedi bod wrthi yn brysur er's peth amser yn sfennu hanes y te a'r cyngherdd. Eisteddai wrth y tân, a chysgai y gath wrth ei draed. Yr oedd bwrdd a llian coch arno o'i flaen, ac amryw rifynnau o'r *Bwch* yma a thraw. Methai yr hen Bost a deall pam yr oedd Gohebydd heb gribo ei wallt, ond esboniodd ei gyfaill iddo fod trychineb alaethus arall newydd ddigwydd trwy iddo golli yr inc ar y llian coch, a sathru spectol Blaens oedd, rywfodd, ar lawr.

Ond wedi tanio pibell, a gweled fod Blaens Evans yn dygymod yn o dda â'r golled, dyna Gohebydd yn codi ei bapur oddiar y bwrdd, ac yn gofyn i Wmffre Jones ddweyd sut yr oedd yr adroddiad yn darllen. Yna aeth drosto yn bwyllog,—

ABERWILYM.

Te Parti a Chyngherdd. Ddydd Mercher diweddaf, y 4ydd cyfisol, cynhaliodd Eglwys Seion ei gwyl de flynyddol yn Ysgoldy y Bwrdd, dan amgylchiadau hynod o ffafriol. Gyda i haelioni arferol, rhoddwyd y te a'r bara brith, &c., gan J. Meredith, Ysw., Fron, yr hwn sydd bob amser yn barod i wasanaethu yr achos mawr yn ei wedd allanol yn gystal ag ysbrydol. Pan y bydd pawb arall yn cilio, ceir ef bob amser yn barod i lenwi bwlch. Yn yr amgylchiad hwn, nid arbedodd draul na thrafferth i wneyd y wledd yn deilwng o'i enw da yn yr ardal.

Cariwyd y trefniadau allan gan chwiorydd yr Eglwys yn y modd mwyaf deheuig, ac eisteddodd tua dau gant o blant a phobl mewn oed wrth y byrddau i gyfranogi o r danteithion blasus ac amrywiol oedd wedi eu harlwyo mewn llawnder diderfyn o'u blaen. Yr oedd pawb yn canmol ffrwyth y ddeilen Indiaidd i'r cymylau: ac yr oedd y bara brith cystal ag erioed, a digon o hono. Y mae gair o glod yn ddyledus i Mrs. Davies, Typobty, am gario allan y rhan hon o'r gwaith mor gydwybodol. Yr oedd y cyfeillion hefyd wedi mynd i'r drafferth o addurno yr ystafell gyda rhedyn a mwswgl *(ferns and mosses)*, bycholwyrddion *(evergreens)*, &c. Gallwn ddwyn tystiolaeth ddigamsyniol iddynt gyflawni y gwaith hwn mewn dull hynod o chwaethus, a diau ei fod yn llafur cariad iddynt oll. Yn sicr, y mae capel Seion ar ei ennill o gael aelodau mor ffyddlon a'r rhai hyn. Ymddanghosai pawb, o'r mwyaf hyd y lleiaf, fel yn mwynhau eu hunain yn rhagorol.

Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan y boneddigesau canlynol:—Misses V. a P. J. Edwardes, Plas Onn; Misses Jenny a Mabel Lloyd, Ty'nsiglen; Misses ———

"Aros funud," ebai Wmffre Jones, "fydde fo ddim gwell iti roi rw enw arall 'blaw Ty'nsiglen, dŵed?"

"Pam?" gofynnai Gohebydd, "dyna enw'r ty."

"Ie; ond mi glywes i dydi Mrs. Lloyd, beth bynnag am y genethod, ddim yn licio'r enw ene o gwbwl. Ma fo'n hyll iawn, medde hi."

"Wel, pwy enw ro i?"

"Wn i ddim," ebai Wmffre Jones. Ond wedi meddwl ennyd fer, eb efe,—"Fase *Jingle House* ddim yn gneud, dŵed?

"Digon prin," meddai Gohebydd, gan ysgwyd ei ben. "Digon prin."

"Wel ma fo'n Sasneg beth bynnag," oedd ateb y Post; "a thyna'r peth sy yn i penne nhw, dybagswn i."

Ond nid oedd Gohebydd yn gweled ei ffordd yn glir i newid enw y ty; ac wedi i Wmffre Jones *sbleinio* iddo nad oedd ef ond awgrymu y peth, gadawyd y mater ar hynny. Aeth Gohebydd ymlaen i ddarllen,—

Misses Elin a Gwen Jones, Rhyd y Cawr; Misses Jones, Siop, a Margaret Williams, Melin y Pandy:

"Wel, dyne chdi eto!" ebai gŵr y Post.

"Be?" ebai gŵr y wasg. "Be rwan?"

"Wel," ebai yntau'n ol, "wyddest ti ddim mai Pandy Mill ddyle hwnne fod mewn preint? Mi ges i fil gin Isaac Williams neithiwr am india corn, a dyne oedd ar dop y papur; a dyne fel mau o ar y drol a 'droddiad y Genhadaeth hefyd."

Nid oedd gan y newyddiadurwr air o wrthwynebiad i hyn, a bu raid iddo ildio.

Wedi gwneyd y cywiriad angenrheidiol, aeth ymlaen i ddarllen, a therfynodd restr y boneddigesau gyda

Miss Davies, Ty-pobty, a Miss Davies, *iron-monger.*

Yn y fan hon, edrychodd yr hen Bost arno yn syn am eiliad neu ddau, ac yna rhybuddiodd ef i ddisgwyl trychineb mwy alaethus na cholli'r inc am ben y llian, pan ymddanghosai rhifyn nesaf y *Bwch.*

"Os gadewi di r enwe fel ene," meddai, "ni anghofian nhw monat ti byth. Weli di ddim pen draw ar y mater tra byddi di byw. Mi gei dy fara wedi hanner i grasu gen un, ac mi werthith y llall badell ffrio i ti am ddwbwl i gwerth!"

"Wel be fynni di i mi neud ynte?" gofynnai Gohebydd. Mae'n debyg, pe buasai Mri. Gwyliwr, Carwr Cyfiawnder, ac ereill yn bresennol yn awr, y cynghorasai nhw yn ddifrifol i dynnu eu llaw oddiar yr aradr ohebol, a gochel y cyfrifoldeb ofnadwy cyn iddi fyned yn rhy bell.

"Gneud?" ebai Wmffre Jones. "Wel, am Miss Francis, nid y hi, ond i thad hi, ydi'r *heuarmyngar.* Dropia di'r gair yn gyfangwbl, achos does ma neb arall o'r enw Francis, yna mi neiff y tro. Ond am y Ty-pobty ene, tendia di dy hun!"

"Mi ro i *baker* yn lle hynny," meddai Gohebydd.

"Dyne ti'n gallach. Ond mau hwnnw wedyn yn rhy *gommon.*"

"Y gŵr drwg a dy gipio di!" meddai gŵr y wasg, o'i go yn lan. "'Rwyt tithe'n rhy diclar o beth ofnadwy! Be roet *ti,* sgwn i, sgweiar?"

"Wel, *confectioniar* debyg!" oedd yr ateb.

O'r diwedd mabwysiadwyd y gwelliantau, ar ol i Gohebydd fygwth tafiu yr holl waith i Wmffre Jones, a llawer o ysmaldod o'r fath. Nid oedd Gohebydd am ddarllen adroddiad o'r cyngherdd, meddai ef, o achos tymer feirniadol ei gyfaill Postawl; yr hwn mewn atebiad a sylwodd na symudai efyntau o'r ty hyd nes y cydsyniai. A chydsynio fu raid iddo, gyda dweyd fod Marged Jones yn cael byd symud ei gŵr adref dan amgylchiadau ffafriol, heb son am dan orfodaeth.

Wedi gwneyd cyfiawnder a'r danteithion (darllennai Gohebydd), a chael eu gwala a'u gweddill, aeth y plant i ymlonni gyda chwareuon diniwed yn y cae gerllaw, i aros y cyngherdd mawreddog oedd i ddilyn am chwech o'r gloch, elw yr hwn oedd i fynd at ddileu dyled y Capel. Pan ddaeth yr adeg, cymerwyd y gadair gan Mr. Meredith, Fron, ac arweiniwyd gan y llenor trylen a'r gwladwr pybyr Thomas Jones, Cefn Griafol; yr hwn a aeth trwy ei waith yn ei ddull meistrolgar, er boddlonrwydd i bawb. Rhoddwyd derbyniad tywysogaidd i'r llywydd pan gododd ar ei draed; rhoddodd yntau anerchiad a gododd frwdfrydedd anghydmarol yn y cyfarfod. Yr oedd capel Seion, meddai, wedi costio 1,300p, ac yr oedd yr aelodau, ar ol bod wrthi am flynyddoedd, wedi llwyddo i glirio mil o bunnau o'r ddyled. Ond oherwydd iselder masnach, &c., yr oedd y 300p arall wedi bod yn bwn ar eu cefnau am hir amser. Yna, er mawr lawenydd i'r gynulleidfa, dywedodd, os ymrwyment hwy i dalu y ddyled mewn blwyddyn, ei fod ef yn barod i roi 25p ymhen pob 50p a gesglid ganddynt. Ni raid dweyd i'r cynygiad gael ei dderbyn gyda diolch gwresog, a gobeithiwn weled yr adeilad yn glir erbyn yr amser.

Yna awd ymlaen gyda'r rhaglen. Cymerwyd rhan yn y gweithrediadau gan y Cwm Brwynog Glee Party; Mr. Caradog Williams, enw yr hwn a ddywed ar unwaith pa fath ddatganu a gafwyd; Mr. J. Rowland (Eos Rholyn), yr hwn a dynnodd y ty i lawr lawer gwaith gyda'i ganeuon doniol; a Miss Polly Morgan, yr hon a ganodd yn ardderchog. Yn sicr, y mae y ferch ieuanc hon yn un o brif *Sopranos* ein gwlad, ac y mae iddi, mi gredwn, ddyfodol disglaer o'i blaen. Gwasanaethwyd ar y berdoneg yn fedrus iawn gan Miss Kenrick. Yr oedd y lle yn orlawn, a thebyg y gwneir elw da. Wedi talu y diolchiadau arferol a chanu Hen Wlad fy Nhadau, ymwahanwyd, ac aeth pawb adref gan deimlo eu bod wedi cael gwledd."

"Hyh!" meddai Mr. Post. "Ma hi'n wledd ne'n wyl ne riwbeth efo rhiw bobol o hyd. Ond be di'r gwasneuthu *ar* y berdoneg yna sy gen ti? Ai eiste *ar ben* yr offeryn yr oedd hi, dŵed?"

"Wyddest ti o'r gore be dw i'n feddwl," atebai gŵr y *Bwch.*

"Gwn. Ond ma'r ymadrodd yn *wrong.*"

"Nag ydi."

"Wel *ydi,*" ebai Mr. Jones yn gryf. "Ma fo'n gneud i mi feddwl am Huwcyn y teiliwr. Gwasneuthu *ar* y bwr' ydi holl amcan bywyd hwnnw. Ond pen fydd o yn byta'i ginio, mi fydd Betsen yn gwasneuthu *wrth* y bwr'. Gwasnaethu *wrth* y berdoneg sy'n iawn."

"Taw a dy glonc!" meddai Gohebydd. "Does dim sens yn hynny. Wyt ti'n meddwl mai llusgo'i dwylo a cherdded *all round* yr offeryn roedd yr eneth? Mi fase hi *wrth* yr offeryn-prun bynnag ai dwy lath ai dwy fodfedd fase rhyngddi hi a fo."

"Twt lol! Paid a chabarddilio, nei di! Gwasneuthu *ar* ddyn fyddan nhw pen fydd o'n sal. Oedd yr hen berdoneg yna'n sal?"

Aeth yn ddadl boeth rhyngddynt fel yna am ychydig amser, a Blaens Evans yn mynd ymlaen efo gwaith y ty, ac yn dweyd dim, nes y digwyddodd i Gohebydd ofyn ei chydsyniad a'i farn ef.

Ynte, Blaens?" meddai wrthi, pan ddaeth hi i roi coed ar y tân.

"Be sy ar y ddau hen leban gynnoch chi?" atebodd hithau. "Pam na ddudwch chi *canu piana*, a darfod am dani hi?"

Ond ni fynnai Gohebydd mo hynny o gwbl. Dywedai nad oedd piana yn air Cymraeg, ac fod y Golygydd yn Gymro mor selog fel na fuasai byth yn gadael i'r gair ymddangos yn ei bapur. O'r ochr arall, yr oedd Wmffre Jones yn barod gyda'i ateb fod 'cantodd' o eiriau heb fod yn Gymraeg i'w gweled yn y *Bwch* bob wythnos, ac y byddai hanes y "te parti" yn ychwanegu dau atynt.

Yna mynnai Gohebydd mai *chwarau* piana ddylai y geiriau fod, ond buan yr adgofiodd Blaens Evans iddo mai *canu* ysturmant wnai ef yn yr amser gynt, ac mai *canu* ei delyn a'i ffidil wnai ei thad ystalwm, a chadw ei chwarau at antarliwt.

Rhwng y ddau, cafodd Gohebydd ei drechu yn deg, a thyna pa fodd yr ymddanghosodd y frawddeg hon yn yr adroddiad,—

> "Canwyd y piana gan Miss Kenrick yn ei dull dihafal ei hun."

Pan yr oedd gŵr y wasg yn ysgrifennu y frawddeg, clywyd llais Marged Jones yn galw ar Wmffre i ddod i'w swper; ac yntau, am unwaith, a aeth gyda hi yn ddiddig, fel un oedd wedi cael goruchafiaeth.

Caerludd. ROBERT H. DAVIES.

CWM CYWARCH.

Ehed i fyny, f'awen lon,
Ac ar ryw fron disgynna,
Yng ngolwg prydferth Gywarch gwm,
Heb orthrwm iddo cana;
Mynega im ei glod yn glau,
A'i holl rinweddau noda.

Ar fore haf ei lethrau serth
Sy'n brydferth, a'i glogwyni,
Pan dery'r haul ar uchel dir
Fe'u gwelir yn anwylgu;
A'i waelod fel llysieuog ardd,—
Pob peth yn hardd o'm deutu.

Yr ŵyn yn chwareu ar y bryn,
A'r ebol gwyn yn prancio,
Ar hyd y dolydd meillion mân,
A gwartheg glân, i w godro:
A'r fwyalch fwyn ar bren uwch nant
A gân ogoniant iddo.

O fewn ei greigiau, mŵn yn hael
Bob dydd sy' i'w gael, ond chwilio;
Daneddog graig geir ynddo 'nghrog,
Llochesa'r llwynog yno
Rhag dannedd cwn, rhag dyn a'i frad
Sydd hyd y wlad 'n ei wylio.

O fewn y cwm mae ffermwyr clyd,
Yn byw yn dda'u byd ddigon;
O fewn y cwm mae llanciau ter,
A llawer yn llenorion;
Ac yn y cwm mae enwog gôr*
Gan Eos,—gantor mwynlon.

Prydferthion ereill sy'n y cwm,
Mae'n orthrwm peidio 'u henwi;
Cysgodi r tai mae bedw mân;
A merched glân yn gweini,
A'u lliw mor deg â rhosyn gardd,
A'u crwyn mor hardd a'r lili.

Ond er mor swynol yw un wedd,
Un arall fedd, gyfochrog;
Pan yn galed-hin wedi mynd,
Fel llawer ffrynd cynffonnog,
Rhaid dyweyd y gwir,—ni feiddiaf lai,—
Mae'n hollol ddau wynebog.

Pan elo heibio'r hafddydd gwiw,
Lle hyllaf yw o'r hollfyd;
Gan gorwynt bliw, gan bydew bant,
A chan lifog-nant enbyd,
Nid ellir mynd o fan i fan,
Heb berygl am y bywyd.

Ystormus wynt ddinoetha dai,
Ac amryw feudai hefyd;
A brigau'r gwŷdd trwy dyllau'r to
I'w gweld yn siglo'n enbyd;
A phawb yn ofni ar y pryd
Y gyrrid hwy i eilfyd.

Trwy'r Fawnog fawr, lle hylla'r cwm,
Bydd gwynt yn trathrwm ruthro,
A minnau'n wan, heb gysgod clawdd,
Anhawdd yw myned trwyddo;
Byth, fewn i'r cwm ni thrown fy mhen
Pe cawn fy Ngwen oddiyno.

* Côr Porthyfelin.

Dinas Mawddwy. JOHN JAMES.

RHYDDID CYMRU.

ALAW:—"YMDAITH DRWY GEORGIA."

(Hefyd, Cerddoriaeth Newydd gan R. S. Hughes, Bethesda).

DRAW i donnau'r eigion mawr
Mae gwledydd ffrwythlon braf;
Chwardd y blodau teg eu gwawr
Dan heulwen bythol haf;
Gwell gen innau Gymru lon,
Yn hon ymlawenhaf,
Hen wlad y delyn yw Cymru.

CYDGAN.

Ein hiaith, ein gwlad, a rhyddid Cymru gu;
Deffrown, deffrown fel dewrion Gymry fu;
Cofiwn tra bo'n ddynion y tywalltwyd gwaed yn lli'
Dros Ddraig a Rhyddid hen Gymru.

Gwlad ein dewr hynafiaid pur,
Gwlad Arthur nerthol gawr;
Gwlad gwroniaid fel y dur,
Gwlad sydd a'i chlod yn fawr;
Methodd gormes a phob cur
A chadw hon i lawr;
Hen wlad y dewrion yw Cymru.

Gwlad Llywelyn ddewr ei fron,
Y gwron goreu gaed;
Cofir y fradwriaeth hon
Tra Brython ar ei draed;
Cymru fyth a gofia'i Llyw
Yn marw yn ei waed,
Dros Iaith a Rhyddid hen Gymru.

Hoff wlad calon Glyn Dŵr fawr,
Y Cymro gwrol glân;
Cludir hanes hwn i lawr
Dros fyth mewn peraidd gân;
Mawr wrhydri'n henwog gawr
Dry'r fynwes oera'n dân—
Bu fyw a marw dros Gymru.

Canwn glodydd Cymru Sydd,
I'n hiaith a'n gwlad ddi nam;
Brwydrwn, mynnwn Gymru Fydd
Yn rhydd o bob rhyw gam,
Mynnwn Gymru'n Gymru Rydd—
Hoff wlad ein tad a'n mam!
Byw byth y bo Rhyddid hen Gymru.

CYDGAN.

Ein hiaith, ein gwlad, a rhyddid Cymru gu;
Deffrown, deffrown fel dewrion Gymry fu;
Cofiwn tra bo'n ddynion y tywalltwyd gwaed yn lli'
Dros Ddraig a Rhyddid hen Gymru.

Pont y Pridd.

R. IWAN JENKYN,
Gol. "*Gwasg Rydd Morgannwg*"

COLEG Y DE.

(C'r "Guide to Cardiff," cyhoeddedig gan Messrs. Blackie, Glasgow.)

EIN HATHROFEYDD A'N HYSGOLION.

III. COLEG PRIFYSGOL DEHEUDIR CYMRU A MYNWY.

"Nerth gwlad ei gwybodau."

SAIF Coleg Prifysgol Deheudir Cymru a Mynwy yng Nghaer Dydd, lle yr agorwyd ef yn 1883. Am amser buwyd mewn peth penbleth ym mha le i gael adeilad cyfaddas i athrawón a disgyblion; ond deuwyd o'r anhawsder trwy gymeryd claf-dy oedd newydd ddod yn wag. Er cymaint y darogan fod hadau clefydau yn aros yng ngherrig a chalch y muriau, daeth y meddygdy'n gartref i'r sefydliad newydd, ac ni raid dweyd nad aflonyddwyd ar y myfyrwyr gan y *bacilli*'n deffro.

Digon anghyfaddas i ystafelloedd darlithio oedd yr ystafelloedd ar y dechreu, ond newidiwyd llawer arnynt, a chyfaddaswyd hwy. Saif y Coleg yn un o brif heolydd Caer Dydd, yr hon a red trwy ran oreu y dref, un o'r rhannau tawel lle mae cartrefi'r marsiandwyr. Y mae dipyn o'r ffordd, ar ei dir ei hun; ac nid oes golwg anolygus arno, yng nghanol y coed a'r man-goed sy'n tyfu'n llwyni o'i amgylch. Y mae yn ymyl gorsafoedd ffyrdd haiarn y dref, ac felly gall myfyrwyr ddod i'r darlithiau'n fore o Ferthyr, Casnewydd, a lleoedd pell ereill.

Ar y cychwyn ni feddylid i'r Coleg aros yn y fan yma; ond, gyda threigliad blynyddoedd, y mae'n anhaws symud, ac y mae'r Coleg erbyn hyn wedi ei amgylchynnu gan adeiladau bychain a gododd wrth ei raid. Y mae llwyddiant y Coleg ar ffordd ei symud, llwyddiant wnaeth i'r Cyngor ardrethu dau adeilad mawr cyfagos,—un o honynt wedi bod yn ysgol breifat,—i gynnwys y dosbarthiadau cynhyddol.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, dilynodd pedwar ugain a phymtheg gwrs y Coleg, dan arweiniad cwmni galluog o athrawon a darlithwyr. Fel y ddau Goleg arall, cafodd Coleg y De athrawon da. Yr oeddynt oll o gyrhaeddiadau uchel, ac ymdaflasant i'w gwaith gyda brwdfrydedd. Trwy eu cydymdeimlad â'r myfyrwyr, a'u parodrwydd i estyn cymorth, enillasant galonnau eu disgyblion, a gosodasant sylfaeni'r hoffder rhwng athrawon a disgyblion,—hoffder sydd wedi bod yn y Coleg er ei gychwyn.

Daeth y Prifathraw,—mab Thomas Jones Abertawe,—o Firth College, Sheffield, a'i gymeriad fel athraw wedi ei sefydlu. Y

mae ei ddoethineb a'i hynawsedd wedi ei wneyd yn allu y tu allan i'r Coleg, yn ogystal ag ynddo. Etifeddodd, i raddau helaeth, hyawdledd ei dad, ac y mae wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ei areithiau cyhoeddus.

Bu amryw gyfnewidiadau ymysg ei gydathrawon. Aeth Seth, yr athraw Athroniaeth, o flaen Henry Jones i St. Andrews, ac y mae yn awr yng nghader Syr William Hamilton ym Mhrifysgol Edinburgh. Yr oedd yn boblogaidd iawn, oherwydd ei allu a'i ddull di-ymhongar. Y mae Wardale, yr hen athraw Lladin, wedi dychwelyd i'w hen goleg,—Coleg Clare, Caer Grawnt. Y mae'r clybiau i hyrwyddo ymarferiad corfforol yn ddyledus iawn iddo ef. Ker,—yr hwn sy'n awr yng nghader Henry Morley yng Nholeg Prifysgol Llunden,—ysgrifennodd Gân y Coleg, i'r hon y cyfansoddodd Dr. Parry dôn, a'r hon a genir gyda Hen Wlad fy Nhadau yng ngynhulliadau'r Coleg. Yr oeddym braidd yn siomedig ar y dechre oherwydd dull sych Ker; ond, wedi ei adnabod yn well, cawsom ynddo ystorfa o ddigrifwch a'i gwnai yn gydymaith diddan iawn. Peth diweddar ydyw ymadawiad Roberts i Aberystwyth. Gyda Ker, gweithiodd yn galed dros y Gymdeithas Ddadleu a'r *Magazine*. Nid oedd derfyn ar ei boblogrwydd ymysg y myfyrwyr. Yr wyf yn cofio'n dda am y croesaw brwdfrydig roddid iddo yn eu cynhulliadau; a chan fy mod yn gwybod yn dda am ledneisrwydd ei natur, tybiwn fod yn anhawdd iddo ar adegau wynebu'r derbyniad brwdfrydig a gai.

Am lwyddiant y rhai hyn, a rhai ereill sydd eto'n aros,—mae'n dda gennyf ddweyd,—yn y Coleg, nid oes gennyf fi ond da i'w draethu. Rhaid i mi gyfeirio at y gwasanaeth wnaeth Thompson, athraw Fferylliaeth, i'r clybiau athletig, a dweyd mai i ynni a dyfalbarhad Lloyd-Tanner, athraw Rhif a Mesur, yr ydym i ddiolch am Gymnasium y myfyrwyr.

Y mae cynnydd y Coleg trwy'r blynyddoedd wedi bod yn ddi-dor ar y cyfan; er iddo orfod dioddef ymosodiadau, fel sefydliadau ereill, heb eu haeddu. Methwyd a chymeryd oddiwrtho waddoliadau a addawsid iddo; ac, erbyn heddyw, y mae'n uchel ym meddwl y bobl. Y mae wedi bod yn rhwymyn undeb rhwng dynion o bob credo grefyddol a gwleidyddol, ac y mae felly eto. Byddai'n anhawdd dweyd pa blaid neu pa enwad wnaeth fwyaf drosto. Bu'n nerth i'r achos cenhedlaethol yng Nghymru. Y mae Saeson ac Albanwyr wnaeth Gymru'n gartref iddynt,—rhai safasant draw hyd yn hyn oddiwrth ein bywyd cenhedlaethol,—wedi ymuno â Chymry i sicrhau llwyddiant sefydliad gafodd ei fod yn y symudiad cenhedlaethol Cymreig, sefydliad fydd a dylanwad ar y symudiad hwnnw.

Dylwn sylwi ar effaith y Coleg ar fywyd deallol y dref a'r cyffiniau. Gellir dweyd, heb anhegwch, mai i sefydliad y Coleg y dylid diolch am adgyfodiad cymdeithasau llenyddol a gwyddonol, am ymgyfarfyddiad cynhadleddau o ddysgedigion yng Nghaer Dydd, am ddyddordeb dwfn mewn addysg ymysg y trigolion.

Amcan y Coleg ydyw ymledu a thyfu. Y mae wedi ychwanegu at nifer ei bynciau. Y mae wedi ceisio, fel y dylai gwir Brifysgol wneyd, ymgysylltu â gwahanol ddulliau addysg y wlad, i'w rheoli a'u cyfarwyddo. Dechreuodd trwy ddysgu Groeg, Lladin, Cymraeg, Saesneg, Ffrancaeg, Almaeneg, Athroniaeth, Rhif a Mesur, Fferylliaeth, Biology, Physics; ac at y rhai hyn ychwanegodd Hebraeg, Mwneg, Daeareg, Peirianneg, ac Addysgaeth. Y mae'n debyg y bydd ynddo Ysgol Feddygol, hefyd, erbyn yr amser yma'r flwyddyn nesaf; a meddylir am ddysgu'r Gyfraith ac Amaethyddiaeth.

Un o bethau goreu'r Coleg ydyw ei adran at addysgu ysgolfeistri elfennol, ac y mae'n addysgu athrawesau ar gyfer yr Ysgolion Canolraddol, gan obeithio y bydd lle hefyd cyn hir i addysgu athrawon at yr ysgolion hynny. Yn ei groesaw i Undeb yr Ysgolfeistri y flwyddyn ddiweddaf, danghosodd ei awydd am gysylltiad agosach rhwng yr athrawon elfennol a'r prifysgolion,—cysylltiad y mae holl garedigion addysg yn ei fawr ddymuno. Gwelir fod y bobl yn teimlo dyddordeb yn y Coleg oddiwrth y ffaith fod gweithwyr rhai o'r cymydogaethau wedi sefydlu ysgoloriaethau ynddo.

Y mae nifer y myfyrwyr wedi treblu er pan ddechreuodd y Coleg. Ac heblaw hynny, cedwir ysgol nos lwyddiannus. Y mae holl addysg gelfyddydol y dref dan arolygiaeth y Coleg; ac y mae tua 1800 o fyfyrwyr yn ei ddosbarthiadau nos. Ymysg testynau lliosog yr ysgolion nos y mae Coginio a Gwneyd Dillad, ac y mae lles mawr yn deilliaw o'r Ysgol Goginio agorwyd gan Ardalyddes Bute y llynedd.

Heblaw hyn, y mae Cynghorau Sir Morgannwg a Mynwy wedi trosglwyddo i'r Coleg reoleiddiad addysg gelfyddydol yn eu siroedd. O'r Wy i'r Llwchwr, trwy hyd a lled Gwent a Morgannwg, y mae dosbarthiadau'n parotoi at arholiadau South Kensington a'r *Society of Arts*, dan athrawon ddetholwyd ac a gyfarwyddir gan y Coleg. Felly y mae'r Coleg yn gwneyd yr un gwaith a darlithwyr teithiol yr hen Brifysgolion. Ond y mae'n gwneyd mwy, gwna'r cysylltiad rhwng athraw a disgybl yn fwy parhaol, ac y mae sicrwydd y parha'r dosbarthiadau o flwyddyn i flwyddyn. Gallaf ddangos gwaith Cyngor y Coleg,—yn

cael ei gynorthwyo'n aiddgar gan y Prifathraw Jones a'r ysgrifennydd medrus Ivor James,—trwy ddweyd y gall ysgolor nos gael addysg, am y nesaf peth i ddim, a'i galluoga i basio arholiadau caletaf mewn Gwyddorau a Chelfyddydau yn y deyrnas.

Y mae ystafelloedd gwaith y Coleg yn ardderchog, ac wedi eu cyfaddasu'n berffaith at raid addysg ardaloedd y Coleg. Y mae pum mil o lyfrau yn ystafell y myfyrwyr; ac mewn ystafell gyfagos y mae Llyfrgell Salesbury, y casgliad goreu'n bod o lyfrau ar Gymru a llyfrau Cymraeg.

Y mae rhai wedi galw Coleg Caer Dydd y mwyaf ang-Nghymreig o Golegau Cymru. Dyma gyhuddiad nad oes un mymryn o sail iddo, ac nis gellid ei ddwyn ond gan un na wyddai ddim am fywyd y Coleg. Un prawf o'i ysbryd Cymreig ydyw Llyfrgell Salesbury; ac y mae Cyngor y Llyfrgell Rydd wedi ychwanegu casgliad Ton at drysorau'r llyfrgell honno, fel y gall y llyfr-garwr Cymreig gael pleser ddigon yng Nghaer Dydd.

J. VIRIAMU JONES, M.A., B.SC.

Prifathraw Coleg y De.

(O'r "Guide to Cardiff," cyhoeddedig gan Messrs. Blackie, Glasgow.)

Clywais hen efrydwyr yn siarad, gyda theimlad, am y dyddiau dedwydd dreuliasant yng Nghaer Dydd. —dyddiau aeth heibio'n rhy gyflym. Dyna'r Gymdeithas Ddadleu, i'r hon y tyrra lluoedd bob wythnos, yn barod i ddadleu unrhyw bwnc o fewn y Gwyddionadur; y Gymdeithas Ganu, yn gwneyd gwaith da dan arweiniad Dr. Parry; y Clwb Cricied a'r Clwb Pel Droed, sy'n ymarfer ar lannau gwyrddion y Taf, dan gysgod y Castell; a'r Gymnasium, gyda lle i feibion a merched,—y merched dan eu hathrawes eu hunain.

Dylwn grybwyll fod merched Caer Dydd wedi bod yn fwy llwyddiannus, yn ol eu nifer, na'r bechgyn. Y maent yn deyrngarol iawn i'r Coleg, ac iddynt hwy y mae llwyddiant y cynhulliadau i'w briodoli. Dont i'r Gymdeithas Ddadleu'n ffyddlon, a chymerant ran yn y siarad weithiau. Yn ddiweddar apwyntiwyd dwy athrawes o gyrhaeddiadau uchel i ddarlithio i ddosbarthiadau cymysg o fechgyn a merched.

Ni fedr neb dreulio amser yng Nghaer Dydd, pa mor fyrred bynnag, heb deimlo ysbryd byw ac anturiaethus ei thrigolion. Adfywiol iawn ydyw bywyd y brif-ddinas Gymreig i un ddel iddi o bentrefydd tawel a threfydd marchnad bychain cymysglyd. Ac nid ydyw'r bywyd hwn heb effeithio ar feddwl y myfyriwr.

Y mae amgylchoedd y dref yn ardderchog. Nid yn unig y mae'r dociau a llongau a gweithfeydd trydydd borthladd y deyrnas yn ymyl, a gweithfeydd glo a haiarn, ond y mae broydd Gwent a Morgannwg, gyda'u prydferthwch a'u cyfoeth o adgofion hanesyddol, megis wrth y drws. I'r de y mae Môr yr Hafren, a bryniau heirdd Gwlad yr Haf y tu hwnt iddo. Y mae'r tir yn dir sanctaidd. Dyma lle'r oedd colegau Llanilltyd, Llandoch, Llangarfan, a Llan Daf,—enwau anwyl i bob Cymro sy'n caru hanes a llenyddiaeth ei wlad. Y mae'r rhain wedi chwareu rhan bwysig yn hanes y byd. Ac o Goleg y De, cynrychiolydd yr hen golegau hyn, deued gwŷr eto mor enwog, ac mor ffyddlon i'w gwlad.

Caer Dydd. CHARLES MORGAN.

GEIRIAU MWYN.

Geiriau mwyn gan fab a gerais,
Geiriau mwyn gan fab a glywais,
Geiriau mwyn ynt dda dros amser,
Ond y fath a siomodd lawer.

BENDITH.

Dacw'r llong a'r hwyliau gwynion,
Ar y môr yn mynd i'r Werddon;
Duw o'r nef, rho lwyddiant iddi,
Er mwyn fy nghariad i sydd ynddi.

HEN GYMRU, CAER Y BRYTHON.

Y Geiriau a'r Alaw gan
J. Henry Edwards, Bangor.

Doh C. (Lah A.) [all rights reserved.]

:l | l :m | d' :t .d' | t :— | l :d' | d' :l | m :d' | t :— | — :m' |
Hen Gym-ru Caer y Bryth - on, Mag - wr - fa dewrion wŷr— Myn-

| d' :l | l :- .l | s :fe | m :l | m :d' | t :- .l | l :— | — :d' |
ydd - dir gwyllt gys - egr - - wyd Gan waed gwlad-gar - - wyr pur. Serch

| d' :d' | t :l .t | l :— | se :m | se :t | r' :d' | t :— | — :t |
dy or - thrym-u'n greu - - lon Gan est - ron oes - oedd maith, Yn

Ar - - af - - - u.
| d' :l | t :- .se | l :m | m' :r' | d' :t .l | t :- .l | l :— | — :‖
eiri - ias mae dy wlad - gar fron, An - far - wol yw dy iaith.

Doh A. Cydgan.

:m|s| | d :s| .f| | m| :s| | d :— | d :m | r :d | f :m | r :— | s| :— |
:m|s| | m| :m| .r| | d| :m| | m| :f| | m| :s| | s| :s| | s| :m| | s| :— | s| :— |
Mae'r wawr yn tor - ri eis - - oes, Dy - nes - u mae y dydd; Di - -
:m|s| | s| :s| | s| :s| | s| :l| | s| :d | t| :d | t| :d | t :— | s| :— |
:m|s| | d| :d| | d| :d| | d| :— | d| :d| | f| :m| | r| :d| | s| :— | s| :— |

Ar - - - - - af - - u.
| d :s| .f| | m| :s| | d .r :m .f | s :l | m :r .d,m | r :- .d | d :— | — :
| m| :m| .r| | d| :m| | m| :d | t| :d | d :d .d | t| :- .d | d :— | — :
flan - na gor - mes fel y nos— Daw Cym-ru, fy ngwlad, yn rhydd.
| s| :s| | s| :d | d :d | r :re | m .s :f .m | f :- .m | m :— | — :
| d| :d| | d| :d| | l| :l| | s| :fe| | s| :s| .s| | s| :- .d| | d| :— | — :

Am frad dy fad Lywelyn,
A chwymp dy feibion glân
Aberthwyd er dy ryddid,—
Hiraeth-ddwys yw dy gân.
Ond serch yn fud dy delyn
Ar helyg prudd yn hir,
Ei nwyfus dant adseinia iaith
Dy galon eto'n glir.
Mae'r wawr yn torri eisoes, &c.

Di-wyro byth fydd Cymru
Tra'i cam-deyrnaso trais,
Tra'i deddf a'i llys yn ddibris
O'i hiaith, o'i barn, a'i llais.
Mae'r wladgar fflam gynt leddfai
Frath y gormesol gledd,
Yn llosgi'n awr fynwesau fil
Dros iawnder feiddiant fedd.
Mae'r wawr yn torri eisoes, &c.

TUDALEN YR HYNAFIAETHYDD.

RHYS NANMOR.

MAB oedd Rhys Nanmor, meddir, i Ddafydd Nanmor o Gae Ddafydd, ger Beddgelert; ond ym Maenor Mynwy, yn Sir Benfro, yr oedd Rhys yn byw, eithr ni ddywedir pa fodd yr aeth yno. Nid yw yr amseriadau a roddir gan lawer o'n haneswyr nemawr gwell na dim amseriad o gwbl. Y mae Gweirydd ab Rhys yn dweyd fod Dafydd Nanmor yn blodeuo o 1310 i 1360, ond dywed mewn lle arall ei fod yn bresennol mewn Eisteddfod yn y flwyddyn 1443; ac y mae yn rhoddi Rhys Nanmor yn ei flodau o 1400 i 1440 *(Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, tud. 163, 197); tra y mae Owen Jones *(Geir. Cen. Cymru*, cyf. ii. tud. 352) yn dweyd i Ddafydd farw tua'r flwyddyn 1460, ac fod Rhys yn blodeuo rhwng 1440 a 1480. Fe'n hysbysir fod 15 o ganiadau Rhys ar gadw yn ysgrifyfrau Owain Myfyr; ond hyd y gwyddom nid oes namyn dwy o'i waith yn argraffedig; ac y mae peth amheuaeth am y rhai hynny. Y mae y naill i'w gweled yn *Y Brython*, cyf. iv. tud. 221—2, "I Harri Tudur (wedi hynny Harri'r VII.), pan oedd yn faban yn ei gryd, yng Nghastell Penfro;" ond ar derfyn y cywydd dywedir, "Rhys Nanmor a'i cânt. MSS. arall a ddywed mai Dafydd Nanmor a'i cânt." Y mae y llall yn "Awdl i'r Brenin Harri'r Seithfed," ac yn cael ei phriodoli gan rai i Ddafydd Nanmor, gan ereill i Rys Nanmor, a chan ereill i "Ddafydd Nanmor ab Rhys Nanmor o Faenor Fynwy, ab Dafydd Nanmor o Wynedd y Bardd." (*Iolo MSS.* tud 313—15.)

Dinas Mawddwy. CHARLES ASHTON.

Pob odl yn dechre ar r un llythyren / ag fellü n diwedd.

Crist kadw r wythfed frenin dyledog
Kaniatta di Essyllt / kawn etto dwysog
Kymrü bydd lawen, megis gwladenwog
Cornwal Caerlleon, galwen am geiliog /
Cadwaladr a Chynan / yn draianog /
Cwrets y dragwn, bro ragio brigog
Kowir o rinwedd y büal Coronog
Kerdd y dy'n ai tal, frithgerdd edn taleithiog /
Kerdd 'r holl gathl, Kerdd y mab Kowaethog /
Kerdd / o / groeso am Brins, Kerdd y gwresog /
Kerdd Crist ar i ben, Kerdd Kroes tair banog
Kadw i gerdd ai dalaith / y Koed gw'yrddeiliog
Kawn wy'r gogyfiwch / o ddüwch hy'd farchog /
Kwrt Hari / o / nerth, Kwrt i wy'r enwog
Kei dy gart euraid / nid gw'yn daü eüriog
Kawn bybür gad, Kawn Bab aür gadwynog
Kawn faedd Kyfnewid / Kawn fad odidawg /
Kawn bwio a chrab / gan y Bwch arfog./
Kawn ddadredeg / rAfon Redegog
Kawn frithill ffrowill / a wna ffroiog
Kawn Arth awwispagaü, wrth Lüs bigog./
Kawn y llü gloiw ddü / ar lle Gogleddog./
Kawn y Marw / ar Tarw / Eryr tiriog /
Kawn y Bry'n gwyn, yn llewybrain, ag (n) llidiog
Kawn Bowis, Twr y wadd, Kawn blas tiriog /
Kawn Caer Ludd yn rhüdd, ag yn rhanog./
Kawn Kyn Kymodi / Kwyn Kan Kymydog /
Kawn frwydr, a therfin, Kryswyn, Kroesog./
Kawn drwyfaes a gill / Kawn drefi yssggallog /
Kawn lychlin ar gychwyn / yn arw i feichiog /
Kawn yna rüthr orchwyn / Kawn fercheiniog./
Kawn gyffro Mynidd / a gwledydd, golüdog /
Kawn früs gan ieithoedd / Kawn faes gwenithog
Kawn frad a chynwr / Kawn fwriad chwanog
Kawn ddrwg arwyddion / Kawn dderi, gorweiddiog./
Kawn ryfel morwyn / yn ol gwayniwyn gwnog /
Kawn gymrü gwedd, Kawn y marw gohoeddog/
Kawn ffianders / a Burgund / mal Kleddaü finiog /
Kawn droi y gwaith melin / gan y neidr gwenwynog
Kawn gan fill dwyll / am nad im bwy'llog /
Koed rhos / nag oros / yn Llündain Gaerog./
Krank / ag angheniaeth / a chyfraith Allbiog
Kanfa lorwm / Kawn haf Elorog./
Kyngor, Karchorion / fal y gwyn oriog /
Kowir ni welir / na ffrank Kornelog./
Kiw r Eryr dü / a fydd gallüog./
Kwnfelin gadell, nad yn giw oediog./
Kowirdeb rEryr dü daü wynebog./
Kyslat ymddiriaid / ar wy'n ir llwynog /
Kawn oes arw / a ffoen gan Sarff ewinog /
Kraff law hawg / ar fwng Korff lew Kryfangog/
Kawn Riain fain / a fydd oediog./
Kawn galenig, gan wr mawr Kalonog /
Kawn drechu pinagl / gan y Twrch banog
Kath, wencki hefyd / Kaiff yn hafog./
Castell rAlban / lliw tan llidiog./
Kenais liwlin / iw Kwnsel niwliog
Kymell yn rybell / a wnar Hebog
Kigfran / a / gwenol / gwnan wrthla nerthog
Kene daü a ddaeth / Kent yn oddeithiog /
Kanfü ddant a magl / wrth y tan ffaglog./
Kawn yskar Kynar / os Kowir Keiniog./
Klo llidio lloegwy'r / dowis blodeüog
Kawn rodd ag adrodd / deifodd anfeddiog /
Kawn o ddaü arwydd / Barlamant Kynddeiriog
Kyfüd or ddaü / gleddau daü finiog./
Konwy a wisg oll / Kawn y llew asgellog./
Kawn Hudd ar Geür ydd / yn anrhigarog
Kawn y Kyrn eüraid / Kawn y Karw oediog /
Kawn naw or un henw / Kawn wy'r anhünog
Kroeso pen ki Iork / ar yspaen rywiog /
Kors fochno yn gwisgo / orig nag ysgog /
Kwminod b'ydd nod / a Baedd anwydog./
Kawn y wain Meredydd / Kynan Meiriadog./
Kawn feli iwch dyfi / Kawn alw gwaedd eürog/.
Kawn wybr / n / gloiwi / Kawn frenin gweliog /
Kawn ddiwedd kyrn / kawn dd'ydd koronog /
Kawn edling frenin gw'yn kynhedlog./
Kawn ddilyn y dyn / fal ediniog./
Kawn y llew yn i groen / Kawn ynill y Cyrog./
Kawn chware tobler / ar Ieirll kolerog./
Kawn ossodiad, y gw'yn baglog./
Kawn ynill eilwaith / y gw'yr anteilüog./
Kawn or Siark a Sion / gweision digassog./
Kawn ar g'yw or dorf / un gw'yn barfog /
Kawn gorllaw r eigion / y gw'yr llurgog /
Kawn wilgi r un haf / Kawn loegr n hafog./
Kawn nef mogelou / Ky'n y mai gialog./
Krist kadarn kyfanedd / Krist kadw y llew koronog
Krist boünaü talaith / Krist knawd hoeliog./
Krist Hari wythriw, Krist naw ochrog /
Krist nai Arthur / Krist nerth eirog
Krist nawdd it archwn / Krist nawed torchog /
Krist derchaf wellwell / Krist naw archolliog/

REES NANMOR ai traethodd./

TUDALEN Y GOLYGYDD.

"PAHAM y soniwch am bregethwyr a beirdd o hyd?" Dyma gwestiwn sydd wedi ei ofyn imi lawer gwaith. Ond am bwy y soniaf? Beth fyddai bywyd Cymru heb ei chapelau, ac onid y pulpud ydyw ffordd Cymro i bob peth?

Eto, nid wyf yn anghofio y rhai na fu newn pulpud. Yr wyf wedi parotoi cyfres o sgrifau ar ysgolfeistri Cymru, ac yr wyf ar ganol parotoi ysgrifau ar gerddorion Cymru, ar gelfyddydwyr Cymru, ac ar gymwynaswyr dinod Cymru.

Wrth ysgrifennu hanes Cymru, yr wyf n gorfod troi o'm llwybr yn aml i esbonio yfeiriadau at hanes gwledydd ereill. Y mae uedd yn hynny i dywyllu rhediad yr hanes, mae'n anodd i'r darllennydd ail gael y lwybr. I arbed y drafferth hon, yr wyf am oddi ychydig dudalennau i hanes gwledydd reill, bob mis. Ceisiaf roddi amlinell o hanes hyw un wlad, yn gyflawn, bob mis. Yr yf yn dechreu gyda Lloegr,—gwlad y bargeinion cyfansoddiadol," gwlad y dadlygiad tawel, gwlad y senedd. Yna adroddaf anes Ffrainc, yr Almaen, yr Unol Daleithau, Spaen, Rwsia, Twrci, a'r gwledydd reill, yn eu tro. Fy amcan fydd rhoddi yniad clir, mewn ychydig o eiriau, am rediad anes pob un o'r gwledydd hyn.

Heblaw hyn, y mae ambell ystori am anes y byd yr hoffwn ei hadrodd yn fanylach. Pan fo diwygiad nerthol neu chwyldroad newn un wlad, y mae tonnau'r cynhyrfiad n ymestyn yn wan i'r holl wledydd ereill. Ymysg yr ystoriau hyn y mae ystori gyffrous Diwygiad yn Ffrainc. Yna daw ystori mdrech Holand am ei hanibyniaeth, neu stori'r pererinion fu'n dadau Gweriniaeth awr y gorllewin.

Ac heblaw hyn, hefyd, hoffwn gael adrodd anes ambell i achos na pherthyn ond mewn han i hanes Cymru,—megis hanes Rhyddid ydwybod, hanes Rhyddid y Wasg, hanes yfreithiau Athrod, hanes Masnach Rydd. eth gysyllta Gymru a holl wledydd y ddaear dyw ei hen fynachlogydd,—wrth adrodd anes y rhain, caf hefyd adrodd hanes yr nifeiliaid, y coed, y llysiau iachaol, y frwythau ddaeth i Gymru o oes i oes. Y nae i halen hefyd ei hanes; ac y mae'r feipen edi gwneyd ei hol ar hanes y byd.

Y mae cwyno fod CYMRU'N aberthu peth er mwyn ennyn dyddordeb ei ddarllenwyr. Ni fynnwn iddo fod yn ddi-werth i'r ysgolor, ac yr wyf am roddi tudalen bob mis i hynafiaethau. Y mae hynafiaethwyr goreu Cymru wedi addaw ysgrifennu i'r tudalen hwn, ac y mae llawer o honynt wedi cyflawni eu haddewidion yn barod. Rhoddir y ddalen gyntaf gan Charles Ashton, a'r ail gan Garneddog.

Llithrodd gwallau argraffyddol i erthygl Lleygwr, ac y mae'n ddrwg gennyf am fy niofalwch. "Wythnosol," nid "pythefnosol" sydd i lawr am *Seren Gomer;* a chamddarllennais "Ddeistiaid" yn "Meistriaid" hefyd. Pwy rydd restr gyflawn o'n cyfnodolion, fel y galler ei chywiro, os rhaid?

Derbyniais ddau lythyr am ysgrif ddyddorol Mr. Davies, Aber Aeron, ar fedd Brutus, un oddiwrth olygydd y *Cennad Hedd*, ac un arall oddiwrth ysgrifennydd nid anenwog.

MR GOL.,—Pa beth yw sail awdwr "Bedd Brutus" dros ddywedyd fod Jones Llangollen a Brutus yn cwrdd a'u gilydd i smocio ac i yfed cwrw cryf Jem ar ben mynydd Llanbedr? Nid wyf yn credu fod *dim* gwir yn hynny. Bum yn ysgol Jones am chwe wythnos, ac yn aelod yn un o'i eglwysi tra y bu yn Rhydybont. Yr oeddwn yng nghyfarfodydd ei urddiad. Nid wyf yn credu yr yfai wirodydd meddwol. Bu yn dadleu dros Ddirwest yn erbyn Myfyr Morgannwg yn Llantrisant. Yr oedd yn agos i ugain milldir rhwng ty Brutus a thy Jem. Nid arferai y ddau gyfeillachu a'u gilydd Ni theithiai Brutus y pryd hwnnw ond o'i dy i Landyfri i swyddfa yr *Haul.* Diolch am le i hyn, er cael prawf yr awdwr dros ei haeriad.

Yr eiddoch yn gywir,
J. BOWEN-JONES.

Aberhonddu, Ion. 19, 1892.

SYR,—Y mae un gwall pwysig yn ysgrif T. Davies ar "Brutus." Jones o Langollen ysgrifennodd y llinellau a gamddyfynnir i oganu Brutus, ac fel y canlyn ceir hwynt ar ddiwedd ei lyfr ar fedydd,—"Y Bedyddiwr."

"I anwn pan el hwn yno – Uthr olwg!
Cythreuliaid mewn cyffro;
Ni wyr rhain ble rhoir o,
Ni wyddir be' wneir iddo."

Sketty. ALONZO.

Oherwydd diffyg lle gorfod gadael allan ddarlun o'r ysgrif ar Ddiwygiad Ffrainc, a hanner y bennod o Ymdaith yn Annwn, heblaw lluaws o gyfansoddiadau cyfain. Ond deuant i gyd eto.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

M. Le Pretre.—Nid yw'r hanes y Diwygiad yn Ffrainc adroddir yn y cylchgrawn hwn wedi ei gymeryd o lyfrau Seisnig na llyfrau Almaenaidd. Cymerwyd hanes y Diwygwyr yn gyfangwbl o'u hysgrifau hwy eu hunain, ac o ysgrifau Pabyddion oedd yn cyd-oesi â hwy. Ni welais erioed le i ameu Beza; ond yr wyf yn dibynnu ar Babyddion fel Mezeray a Jesuitiaid fel Maimbourg am y darluniadau o'r erlid.

O. J. O.—Nid oes gennyf fi ryw wrthwynebiad cryf i ysgrifennu "Prydain." Y peth wnaeth i mi roi "Pryden" yn fy mapiau oedd hyn. Nid oes ond dwy sir gyfan yn dweyd "Prydan," ni chlywais neb erioed yn dweyd "Prydain;" mi gymerais yr enw hynaf a'r enw arferedig yn y rhan fwyaf o Gymru.

Ap Huw.—Nid wyf yn meddwl fod Edward Morus Perthi Llwydion yn perthyn i Huw Morus. Yr oedd yn well bardd na Huw Morus yn ol fy meddwl i.

E. E.—Nid oes yr un llyfr, hyd y gwn i, ar yr Emynnau. Caech help oddiwrth y *Traethodydd* am 1866, a'r *Diwygiwr* am Ionawr diweddaf. Ar yr Emynwyr, darllennwch lyfr difyr a gwerthfawr y Parch. W. A. Griffiths, Sketty.

Uchelgeisiol.—Yr ydych yn gofyn ar ba ran o'r Beibl y dylech sylfaenu'ch arddull. Ar yr aduod ferraf, hyd nes y bydd gennych ychwaneg i'w ddweyd. Yr oeddwn yn colli f'anadl cyn gorffen eich brawddegau, ac nid oeddwn, er eu darllen, ddim nes i ddeall beth oeddych yn feddwl. Ysgrifennwch frawddegau byrion eglur; nid oes gan neb hawl i ysgrifennu brawddegau hirion os na fedr ysgrifennu'n berffaith glir. Nid "Cofiwch wraig Lot" yw'r adnod ferraf yn y Beibl, fel yr ofer dybiwch, ond "Na ladd."

Copawr.—Dolgellau ydyw enw prif dref Meirionnydd. Nis gwn yn sicr beth yw ystyr y gair. Ysgrifennir ei henw gau Saeson yn "Dolgelley," a gelwir hi gan rai o honynt yn "Doljeli."

Allt.—Hughes, Gwrecsam, ydyw cyhoeddwr yr argraffiad cyflawnaf o Ganwyll y Cymry, — pris coron; y mae Jones Casnewydd yn cyhoeddi llyfr o ddetholion o'r Ganwyll. Rhaid i chwi naill ai peidio ysgrifennu "deallwyf" ac "ystyriwyf," yn lle "deallaf" ac "ystyriaf," neu rhaid i chwi beidio'm galw i yn "llengar gymrawd."

Dywed Mr. Morgan, Pen Llwyn, fod Adda Fras wedi dweyd wrtho ef a'i gyd-fechgynos ym Mhonterwyd mai Pumlumon ydyw enw'r mynydd, —nid Plunlumon,—oherwydd fod iddo bump o gopâu, a llumanau ar eu pennau yn yr amser gynt. Newidiodd Adda Fras yr enw er mwyn medru dyfeisio esboniad arno. "Plunlumon" y clywais i rai sydd wedi eu geni a'u magu yn ymyl y mynydd mawr yn ei alw. A dyna ei enw; er nas gwn i beth yw ei ystyr. Y mae golygfeydd ardderchog, ebe Mr. Morgan, ar ffordd Sir Aberteifi i'w ben; ac yr wyf yn disgwyl, ryw dro, cael dringo yr ochr honno hefyd.

W. J. Davies (Linthorpe). — Diolch yn fawr. Os bydd yn anodd cael Cymru, anfonwch at y cyhoeddwr.

Mab y Bala.—Nid oes un map mur Cymreig o Gymru. Y map Seisnig goreu yw un Bacon.

TUDALEN YR HYNAFIAETHYDD.

Am y cywydd yn Nhudalen yr Hynafiaethydd, dywed Mr. Ashton,—

"Am y cywydd a ganlyn, methasom a chael allan iddo fod yn argraffedig o'r blaen Yr ydym yn ei adysgrifennu yn *hollol* fel y mae mewn ysgrifyfr a fenthyciwyd gennym, a'r hwn, ni a gredwn, a ysgrifennwyd oddeutu canol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Bu perchennog yr ysgrifyfr, yr hwn a gymnwys gywyddau o waith oddeutu pymtheg o feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, mor garedig a rhoddi caniatad i ni ei ddefnyddio ar yr amod nad oeddym i wneyd ei enw ef yn hysbys. Nid ydym yn honni ein bod yn deall y cywydd; nis gallwn egluro pwy sydd i'w feddwl wrth yr "wythfed frenin dyledog." Pa fodd bynnag yr ydym yn tybied iddo gael ei gyfansoddi ar achlysur genedigaeth un o feibion Harri VII.—Arthur neu Harri. Ond ni fuasai Arthur yr "wythfed frenin" (o'r enw Harri); ac os ar enedigaeth Harri'r Wythfed y cyfansoddwyd ef, rhaid fod y bardd yn fyw yn llawer diweddarach na'r amser a briodolir iddo. Ganwyd y tywysog Arthur 20 Medi, 1486, a'r tywysog Harri 14 Tach. 1501. Pa fodd bynnag, ni chynhygiwn ddadrys yr anhawsder, ond dyfynnwn y cywydd bob llythyren a nodyn, yn synwyr a disynwyr, fel y mae yn yr ysgrifyfr. Nid oes yr un pennawd wrtho.

"Hwyrach y bydd rhai o ddarllenwyr dysgedig Cymru yn alluog i ddeall amcan y cyfansoddiad uchod yn well na ni; ond tybiwn y bydd yn gryn orchwyl iddynt ganfod cynghanedd yn rhai o'r llinellau. Poed fel y bo, ar yr awdwr ei hun neu ar rai o'i gopiwyr, ac nid arnom ni, y mae ei ffaeleddau i orffwys."

CYLCHGRONAU CHWEFROR.

Y mae'r *University College of Wales Magazine* yn ddestlus iawn, ac y mae tudalen o Gymraeg ynddo. Da iawn. Yn y *Cerddor* ceir hanes taith un o'r golygwyr i Dyddewi, bywgraffiad Alawydd gan y golygydd arall, rhan-gan gan R. S. Hughes, emyn cof gan Farlwydon, a llawer o fân bethau.

Y mae *Cennad Hedd* yn ei flas o hyd, dyddorol iawn ydyw crwydriadau Vacuus Viator o fan i fan. Pâr erthygl y *Diwygiwr* ar "Y Deffroad Cenhedlaethol" lawer o chwilio calonnau. Y mae'n darawiadol, ond camgymeriad tarawiadol ydyw. Y mae *Cyfaill yr Aelwyd a'r Frythones* yn llawn cyfoeth llenyddol,—mae enwau Elfed a Chadrawd yn sicrwydd o hyn,—ond onid gwell fuasai enw newydd byrrach?

Y mae'r *Drysorfa*'n feddylgar ac yn dawel; yr un yw ei nodweddion drwy'r blynyddoedd. Ca llawer flas ar erthygl y golygydd ar "Flwyddyn ein Harglwydd, 1892." Y mae *Trysorfa'r Plant* yn ddarllenadwy o hyd, ni raid dweyd, ac mewn argraff brydferth. Ond cyhoeddiad mwyaf dyddorol y Methodistiaid ydyw *Newyddion Da*, dan olygiaeth y Parch. Griffith Ellis, M.A. Y mae'n un o'r cyhoeddiadau cenhadol goreu. Ysgrifennir prif erthygl y *Llusern* gan Anthropos.

GOFYN AC ATEB.

XVII. CYWYDD Y FILIAST.

(Ateb i D. Jones. ix. Cyf. ii. 33.)

Darn o gywydd William Lleyn i'r Filiast Wen ydyw'r darn yr ymholir am dano. Dyma'r cywydd yn ei hyd,—

Ma'i fwriad lle myfyrien,
Aml stor, gael miliast wen;
Doed eich rhodd, da Duw i'ch rhan,
Drych iraidd, ceiff dorch arian;
Lliw galawnt oll y gwelais,
A gown fflwr, gwen yw ei phais;
Gwiw dlws fodd, egwyddlaes fer,
A'th rawn gwbl, a thrwyn gwiber;
Yn lluniaidd dan iraidd drych,
Yn flaengar, yn filein-grych;
Yn gyflym, ac yn gyflawn,
Yn gre ffel, ac yn graff iawn;
Yn ysdig ffriw ewig ffrwyth,
Yn estyn camau'n ystwyth;
Yn hy o'i thraed, yn hoew ei threm,
Yn hyddlwys, yn ddanheddlem;
Yn y rhiw ewyn y rhawg,
Yn y glyn yn galonnawg;
O fain Haf mae gown hon,
O gan a blodeu gwynion;
Gown lloer neu alarch yw'r lliw,
A chynt na'r rhewynt i'r rhiw;
Gorlliw calch ar gaer falch fydd,
A mel gwyn ymylau gweunydd;
Llew tan for lle dyfwn friw,
Lliw rhoddgar, hunlle hydd geirw;
Cares awyr, crŷs ewyn,
Cras a gwedd cwrsi gwyn;
Gwiwflew a modd go gyflawn,
Gyfliw mellt, mae'n gyflym iawn;
Fflaim gadarn a ffleimia goed allt,
Fflicied wen, ni phlyga dan allt;
Siwrnau deg, seren y dydd,
Saeth fain yn seuthu i fynydd;
Dewr graff fru deirw y fron,
Dragau y sias, draig y Saeson;
Llewaidd yw'r corff, lladd wraig hydd,
Llewes mewn llawes mynydd;
A'i gorlliw fel gwiwrllwyn,
Yn waed o'i thraed hyd ei thrwyn;
Swyddoges, glew aeres y glod,
Trwy is-wydd mae treisio hyddod;
Chwery mewn ochor mynydd,
Chware bas â cheirw bydd;
Llew rhydd hen, llawer rhawg,
Llew a'r arth, llu hiraethawg.

WILLIAM LLEYN.

XVIII. HEN ENGLYN.

Daeth i'm dwylaw yn ddamweiniol yr argraffiad cyntaf o "Hanes y Ffydd" gan Charles Edwards, perthynol i hen deuluoedd gwledig Gwastad Annas,—Gwastad Agnes, medd Glasynys,—yn Nanhwynain, neu Nantgwynant, yn Eryri. Ar gefn un o'r arluniau yng nghanol y llyfr, ceir gwaith llaw rhywun yn ysgriblo, fel y gwelir ar gefn agos i bob hen lyfr,—

"Griffith David of Gwastadannas, is the true owner of this book. Witness by me Robert Owen his hand, 1746.—Gruffydd Dafydd, &c."

Ar ei ddechreu ceir a ganlyn,—

"William Pirce of Brwynog isa is the True Onor of this Booke. In the year of our Lord 1811.

"Hugh David of Gwastadannas his hand, witness this 27th of July, 1811,

"Rhag drwg adolwg di—yn 'chwaneg
Na chwenych fy nghwmni;
Yr enw yn wiwlon a weli,
A dig a fydd os dygi fi."

Fy ngofyniad yw, pwy tybed yw awdwr yr hen englyn hwn? Yr wyf wedi ei weled yn ysgrifenedig ar luaws mawr o hen lyfrynnau y cyfnod crybwylledig, a rhaid ei fod yn hysbys a chyffredinol iawn, er nad oes dim neilldiol ynddo.

CARNEDDOG.

Nanmor, Beddgelert.

XIX. ERTHYGLAU ARWEINIOL.

Ym mha newyddiadur neu gylchgrawn Cymreig yr ymddanghosodd erthyglau arweiniol ar wleidyddiaeth gyntaf? Ai yng *Nghronicl yr Oes*, ynte yn *Seren Gomer*, ynte ym mhle?

CYLCHGRONWR.

XX. HUW MORUS.

Clywais ddweyd yn ddiweddar mai Huw Morus ydyw unig fardd da yr ail ganrif ar bymtheg. A ydyw hyn yn gywir? Ym mha le y gellir cael gweithiau beirdd ereill y ganrif hon?

M.

Llanarmon Dyffryn Ceiriog.

XXI. YMADRODDION.

(Ateb i xi. Cyf. ii. 33.)

Cyn wynned a'r carlwm. Y pedwarcarnolyn hir gwyn bychan elwir gan y Saeson yn *marten* ydyw'r carlwm. Gwelais ef droion yn rhedeg ar hyd gweirglodd werdd o flaen y cwn, ac edrychai'n wyn iawn.

Cyn iached a'r glain. Gem yw glain; ac y mae'n hawdd gweled oddiwrth ei gwyneb tryloew ei bod yn iach drwyddi.

Colli'r gyr-dit. "Colli'r scantal" sydd ymadrodd arall yn meddwl yr un peth,—sef colli gwynt ar rywbeth. Nis gwn beth yw cyr-dit.

Rhedeg am wics. Torth geiniog fechan, wedi ei gwneyd o'r gwenith goreu, ydyw wicsen. Wics fyddai gwobrwyon hen redegfeydd.

Gwadd i ffrâm. Ffrâm y gelwir gwledd wledig ar fin nos yn Sir Feirionnydd. Nis gwn beth ydyw tarddiad y gair.

HEN WLADWR.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

III. MEAUX.

"Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid."

YR oedd dysgedigion goreu'r Sorbonne yn teimlo fod Lefèvre wedi ail ddarganfod y gwir. Ond nid hen ysgolorion, wedi sychu uwchben geiriaduron a gramadegau, oedd i herio'r Pab, i wynebu torf ffyrnig Paris, ac i farw yn y fflamau. Gwaith Erasmus oedd eu gwaith hwy,—dangos i ereill y llwybrau na feiddient gerdded eu hunain. Mae'n anodd meddwl beth oedd teimlad Lefèvre wrth droi ei gefn arnynt, hwyrach mai'r un a theimlad Beza,—

"Buasai dy ganmoliaeth yn berffaith, O Bude, pe buaset wedi ychwanegu gwybodaeth ddyfnach am wir grefydd at dy ddysgeidiaeth ddi gymar a'th fywyd pur. A pha le y rhof di, O Vatable, sy'n sefyll mor uchel ym meddwl y Rabiniaid eu hunain, yr hwn a roddaist yr Ysgrythyr i ereill, ond a'i gwrthodaist dy hun?"

Nid oedd y rhai gyd-ymdeimlai â Lefèvre, goreuon y Sorbonne, ond ychydig. Yr oedd y rhan fwyaf wedi dangos y chwerwder mwyaf yn erbyn Luther, ac yr oedd Melancthon dyner wedi dweyd eu bod yn felldith i Ffrainc. Eu harweinydd oedd Noël Beda, dyn anwybodus a byrbwyll a thrystfawr, dyn ddesgrifiwyd gan Erasmus fel un a'i enaid wedi ei wneyd o eneidiau tair mil o fynachod. Cododd hwn ysbryd erlidgar y Sorbonne a phoblach Paris yn erbyn y diwygwyr, a ffoisant hwythau am nodded at Guillaume Briçonnet, esgob Meaux.

Yr oedd Briçonnet wedi derbyn ei esgobaeth gan Ffransis y Cyntaf am wasanaeth gwleidyddol. Yr oedd wedi bod yn llysgenhadwr yn Rhufen, ac wedi penderfynu gwneyd yr hyn a allai i ryddhau Eglwys Ffrainc oddiwrth y Babaeth. Dechreuodd ddiwygio ei esgobaeth ei hun, yn 1519, blwyddyn o heddwch. Gwelodd fod ei ragflaenydd anuwiol anfoesol yn casglu arian i brynnu coron y Babaeth, a gwelodd fod holl glerigwyr yr esgobaeth ym Mharis yn dilyn ei esiampl. Gwelodd mai'r rhai alwodd Crist yn halen y ddaear oedd y rhai mwyaf anwybodus, y rhai mwyaf ariangar, a'r rhai mwyaf anfoesol trwy Ffrainc i gyd. Yr oedd allorau'r eglwys wedi mynd yn gasineb i'r bobl, a iau Crist wedi ei gwneyd yn drom gan glerigwyr rheibus di-waith. "Yr oedd cyflwr yr Eglwys," ebe'r hanesydd Pabyddol Mezeray, "yn gofyn dagrau o waed." Ac ni fedrodd Marot beidio ei darlunio ychwaith,—

"Rhedeg i'r dref ar dywyll-nos,
Yn amlach nag y medraf fi ddweyd,
Ar neges nas meiddiaf ei henwi,—
Dyna waith all Brawd Lubin ei wneyd;
Ond am fyw ei fywyd yn onest,
A hoffi purdeb gwyn,
Y Cristion yn unig wna hynny,—
Nis gall y Brawd Lubin wneyd hyn.

"Cymeryd dy eiddo, dlawd truan,
A'i gadw oddiwrthyt yn hir,
Gan addaw y cei ef yfory,
Yw gwaith y Brawd Lubin yn wir;
Ond gwrando! Er gofyn am dano,
Ei gadw yn ddiogel a fyn,
Gwaith Cristion yw talu ei ddyled,—
Nis gall y Brawd Lubin wneyd hyn.

"Difwyno meddyliau genethig
Sydd waith wrth gyffesu a wna,
Medd enaid yn llawn o ddichellion,
Adnebydd ffyrdd Satan yn dda;
Ond yfed dwfr oer fel y dylai,
Tra medr gael gwin coch neu wyn,
Sydd waith a wna'r Cristion, fe allai,—
Ond nis gall y Brawd Lubin wneyd hyn."

Talai'r clerigwyr i'r Pab am eu pechodau. Ar ddechreu 'r Diwygiad cyhoeddwyd llyfr oedd wedi derbyn bendith Leo Bab,—llyfr prisiau pechodau. Y mae ei restr sych yn ddyddorol uwchlaw dim i efrydydd hanes moesoldeb. Ceir ynddo bob pechod mae'r natur ddynol yn agored iddo o'r bron, a'i bris ar ei gyfer. Y peth mwyaf cywilyddus yn y llyfr ydyw 'r ymgais i amddiffyn yr Eglwys ar draul moesoldeb,—talai lleygwr fwy am fwyta cig yn y Grawys nag am ladd ei dad, ac yr oedd llofruddiaeth yn llai pechod ddengwaith i offeiriad nag addoli mewn lle dan esgymundod.

Ceisiodd Briçonnet alw'r clerigwyr at eu gwaith. ond yn ofer. Heriodd y giwed bechadurus hunanol ef, ac apeliasant at yr arch-esgob. Trodd yntau oddiwrthynt, a gwahoddodd ato y gŵr erlidid ganddynt ym Mharis. Yn ei lais ef clywasant lais yr Eglwys,—

"Na rowch imi euraidd roddion,
Croesau, na dilladau gwychion,
Rhoddwch im offeiriaid pur."

Daeth Lefèvre i gynnyg yr efengyl wrthodasai dysgedigion Paris i'r bobl,—ac yn eu hiaith eu hun. Gydag ef daeth Farel dduwiol frwdfrydig; Jacques Pavannes, merthyr cyntaf y Diwygiad; Gerard Roussel, y breuddwydiwr cyfriniol roddodd i'r Diwygwyr eu syniad am y sacrament; Michael d'Arande, apostol y Saône; a Martial, yr hwn geisiai sefyll rhwng y Diwygwyr a'r Sorbonne.

I ddechreu, ymgyfarfyddent mewn tai; ond, yn 1520, blwyddyn araeth fythgofiadwy Luther yng nghynadledd Worms, anogodd Briçonnet hwy i esgyn pulpudau ei esgobaeth. A rhyfeddach peth na hynny, pregethodd yr esgob ei hun. Cafodd yr had dir da.

Gwrandawai trwswyr gwlan Meaux ar hen wirioneddau anghof y Beibl, gan ryfeddu. Yn lle'r swyddwyr cyflog anheilwng a'u bywyd yn amhurach na'u bywyd hwythau, gwrandawent yn awr ar rai'n siarad gyda'g awdurdod, oherwydd eu bod yn traethu geiriau gwirionedd; gydag eglurder, am mai Crist yn unig oedd eu testun, a hwnnw wedi ei groeshoelio; gyda hyawdledd, oherwydd fod eu cenadwri am gydymdeimlad Gwaredwr â rhai blinderog a llwythog. Ac ni fu neb mor llwythog o drethi brenin ac eglwys na gweithwyr tlodion Meaux yn y dyddiau hynny. Llywodraethid hwy â thrais ac â chreulondeb.

Yr oedd cydwybodau dynion wedi deffro, a'u cydymdeimlad wedi ei ennill, pan gyhoeddodd Lefèvre yr Efengylau yn Ffrancaeg yn amser cynhauaf 1522. Daeth cyfnewidiad dros fywyd Meaux. Llenwid yr heolydd unwaith â rhegfeydd meddwon, ond ymdaenodd tawelwch fel y Sabath drostynt yn awr. Ymdyrrai'r gweithwyr o amgylch un fedrai ddarllen y Llyfr; gwrandawai'r gweyddion arno wrth yrru eu gwenoliaid; treuliai'r medelwyr eu hawr ginio i wrando ar yr hen hen hanes yn y caeau gwenith. Fel y bydd meibion ffermwyr a gweision Cymru'n mynd i gynhauaf gwenith Lloegr pan fo eu cynhauaf hwy drosodd, byddai bechgyn Picardy'n dod i gynhauaf Meaux. Wedi cyrraedd adref adroddent am y newid ddaethai dros fywyd Meaux, a delai aml un â'r Llyfr adre yn lle ei gyflog. Daeth "hereticiaid Meaux" yn ddihareb trwy Ffrainc. Meddyliai llawer y doi gweithfeydd gwlan a chaeau gwenith Meaux i gymeryd lle Paris fel magwrfa meddwl Ffrainc. Cuddiodd Arglwydd nef a daear y pethau hyn rhag y doethion a'r deallus, a dadguddiodd hwynt i rai bychain.

Yr oedd yr Oes Aur fel pe ar wawrio. Ni fedrai neb rag-weled digwyddiadau y drydedd flwyddyn a'r hugain o'r adeg ddedwydd honno,—pan y byddai Farel yn llawenhau wrth weled dychweliad Switzerland, a phan fyddai'r glaswellt wedi tyfu ar fedd Lefèvre wrth droed y Pyrenees. Y flwyddyn honno yr oedd tymhestl erledigaeth yn torri ar Ffrainc, a chafwyd eglwys o dri chant o aelodau ym Meaux. Ymosododd yr erlidwyr arnynt, yn 1546, ar ganol eu haddoliad, rhwymasant hwynt, a llusgasant hwynt i Baris. Aethant hwythau yn llawen, dan ganu,—

"Y cenhedloedd, o Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth, Halogasant dy deml sanctaidd."

Gwyddai'r bobl am eu hathrawiaeth a'u bywyd, a bendithiasant hwy wrth iddynt basio. Condemniwyd deugain o honynt, yn wŷr ac yn wragedd, i farw yn y fflamau. Anfonwyd hwy'n ol i dref Meaux, ac ar un o ddyddiau'r cynhauaf gwenith gosodwyd hwy'n gylch yn y farchnadle, a'u gwynebau at eu gilydd. Canasant gyda'u gilydd hyd nes y collwyd hwy yn y fflamau. Gallai'r offeiriaid foddi eu lleisiau gorfoleddus trwy ganu gwasanaeth yr offeren, gallai doctor y Sorbonne brofi eu damnedigaeth drannoeth uwchben eu lludw oedd eto'n mud-losgi, gellid codi eglwys Babyddol ar le eu capel llosgedig a'i dodrefnu ag arian eu hychydig eiddo,—ond codai Meaux newydd ym mha le bynnag yr arhosai un o'u brodyr alltudiedig i ddweyd eu hanes.

Ond hyd 1525, cafodd Meaux fwynhau ei bywyd newydd mewn heddwch, a daeth fel gardd Eden. Ond yn y flwyddyn hon ymddanghosodd y Salmau yn Ffrancaeg, a chododd yr offeiriaid gri uchel oer fod Briçonnet yn cloddio dan sylfeini Eglwys Ffrainc. Ni phregethent eu hunain, a chyhuddasant y rhai bregethai wrth y Sorbonne a'r Parlement. "Ai bychan gennych bori o honoch y borfa dda, oni bydd i chwi sathru dan eich traed y rhan arall o'r porfeydd? ac yfed o honoch y dyfroedd dyfnion, oni bydd i chwi sathru y rhan arall a'ch traed?"

IV. DECHREU'R ERLID.

"Os blinaist di mewn tir heddychlawn, yn yr hwn yr ymddiriedaist, yna pa fodd y gwnei yn ymchwydd yr Iorddonen."

Gwnaeth diwinyddion Ffrainc eu goreu i ladd y Diwygiad. Condemniasant lyfr Luther,—"Caethiwed Babilonig yr Eglwys,"—yn 1519; rhoddasant eu credo erlidgar ar ddu a gwyn yn *Anti-Luther* Clieton; a cheisiasant ddarbwyllo'r brenin fod gwenwyn heresi'n dod i Ffrainc gyda Groeg a Hebraeg ei hoff athrawon. Ond yr oedd gan y diwygwyr gyfaill yn ymyl y brenin; yr oedd Margaret o Valois yn ysgrifennu atynt yn aml i gwyno am ei hunigedd ym Mharis, "lle mae'r byd mor ddrwg a chalonnau'n oer," ac edrychent hwythau arni fel un ddarparwyd gan Ragluniaeth i achub eu cam gerbron y brenin.

Y mae perygl cyntaf pob symudiad yn dod bob amser oddiwrth frwdfrydedd rhai nad ydynt arweinwyr. Yr oedd trwsiwr gwlân o'r enw Jean Leclerc wedi clywed am Luther yn hoelio ei her ar ddrws eglwys Wittenberg; a hoeliodd yntau ei her ar ddrws eglwys Meaux. Rhoddodd yr offeiriaid eu dwylaw arno, a phoenydiasant ef yn gyhoeddus am dri diwrnod. Ond daliodd at ei her, a chalonogai ei fam ef, o ganol torf lawn o gydymdeimlad, trwy waeddi,—"Cofia am Iesu Grist a'i glwyfau." Gorfod iddo adael Meaux; crwydrodd yntau, dan bregethu, nes y croesodd derfynau Ffrainc. Ym Metz cafodd gynulleidfa fechan o Brotestaniaid,

adfywiodd ei sel, a thaflodd ei fywyd ymaith. Un prydnawn aeth allan i'r wlad, a thorrodd bob croes a delw y medrai ddod o hyd iddynt. Am hyn y llosgwyd ef yn fyw yn 1524, a chlywyd ef yn canu yn y fflamau,—

"Delwau y cenhedloedd ydynt arian ac aur,
Gwaith dwylaw dyn."

Pan oedd diwinyddion Paris ac offeiriaid Ffrainc yn ofni cynnydd ac ymlediad y Diwygiad, aeth Ffransis i'r Eidal i ymladd yn erbyn yr Ymherawdwr, a chymerwyd ef yn garcharor ym mrwydr Pavia yn 1525. Tra'r oedd ef yn garcharor ym Madrid, a'i chwaer ffyddlon gydag ef, penderfynodd yr offeiriaid lethu'r diwygwyr unwaith am byth. Hanosid hwy gan y Pab, yr hwn a ddesgrifia'r Diwygiad fel cynddaredd Satan yn erbyn pob awdurdod, ysbrydol a thymhorol. Nid oedd amser i'w golli, gwysiwyd Briçonnet i Baris, i roddi cyfrif am ei esgobaeth i rai oedd wedi esgeuluso holl ddyledswyddau eu hoffeiriadaeth. Cauwyd y drws arno, ac ni wyddai neb beth ddioddefodd pan ddaeth allan, ymhen y tair wythnos, wedi ymostwng. Gwasgarwyd ei ddiwygwyr. Aeth Lefèvre i dreulio y gweddill byr o'i fywyd i Navarre. Dilynodd Gerard Roussel ef, ac efe, fel esgob Oloron, enillodd holl Navarre. Aeth Michael d'Arande i Mâcon, a Farel ymhellach i fynyddoedd Dauphiné, gan gilio'n ol o gam i gam o flaen yr erlid, hyd nes y croesodd derfynau Switzerland, i sefydlu eglwysi Neufchatel a Geneva, Gwadodd Martial ei ffydd, pherswadiodd Pavannes i wneyd yr un peth,—Judas a Ioan y cwmni gyda'u gilydd. Ond buan iawn yr edifarhaodd Pavannes am wadu ei Arglwydd. Safodd yn fflamau'r Place de Grève, y cyntaf o gwmni urddasol oedd i farw yno. Costiodd ei araeth hyawdl i'r eglwys filiwn o ddarnau aur, ebe'r offeiriad ofalai am y goelcerth, a gofynnai'r erlidwyr i'w gilydd pa fodd y medrent ladd y Diwygiad os oedd pob diwygiwr ieuanc mor ddewr a hyn.

Yn fuan fuan wedyn yr oedd cloch fawr Notre Dame yn canu i alw'r bobl i weled llosgi pentrefwr tlawd o'r enw L'Hermite. Yr oedd ar yr offeiriaid ofn gadael iddo siarad, ond dywedent wrth y bobl fod yn y tân hwnnw un yn cychwyn i'r tân tragwyddol. Er hynny, yr oedd aelodau o'r Parlement ei hun yn dechreu rhyfeddu paham yr oedd y rhai hyn yn medru wynebu marwolaeth mor orfoleddus.

Medd yr erlid cyntaf hwn ei ochr ddigrifol. Ymosodwyd ar Glement Marot, a phrotestiodd yntau'n uchel mor union-gred oedd, rhag mynd i'r fflamau. Ond yr oedd yr offeiriaid yn cofio ei wawd ysol, ac wedi penderfynu talu iddo. Yr oedd un gelyn mwy chwerw na'r offeiriaid, a honno'n hen gariad iddo. Daeth Diana o Boictiers i lys y brenin i ddadleu dros fywyd ei thad. Cafodd ei chais, ac arhosodd yn y llys mewn dianrhydedd. Ceisiai guddio ei phechod trwy sel dros yr offeiriaid a'u hachos, a dadleuai drostynt fel y dadleuai Margaret dros y diwygwyr. Bu'n gariad i Glement yn nyddiau ei hieuenctyd, ond yr oedd ei chariad wedi troi'n gas, ac ni chollai gyfleustra i erlid y bardd anffodus. Condemniwyd Marot, nid oherwydd ei gredo na'i fywyd,—cymer drafferth i esbonio hynny,—ond oherwydd iddo fwyta cig yn y Grawys. Yng ngharchar y Châtelet, gwnaeth gân i wawdio'r erlidwyr, pob pennill yn diweddu gyda,—

"Adwaenoch chwi Clement?
Daliwch ef, daliwch ef, BWYTODD GIG MOCH!"

Treiodd offeiriaid Ffrainc wneyd gwaith caletach na lladd diwygwyr. Treiasant ladd Llyfr y Bywyd. Gorchymynnwyd fod yr holl Feiblau a Thestamentau i'w casglu at eu gilydd i'w llosgi; ac nid oedd argraffydd i argraffu dim o honynt o hynny allan. Ofer fu hyn hefyd. Oherwydd yr oedd Farel wedi gorfod dianc o flaen yr erlid o fynyddoedd ei gartref, lle y cymerai greigiau'n bulpud iddo, i ddinas Basel, ac oddiyno tywalltai Feiblau a Thestamentau i Ffrainc.

Daeth y brenin adref hefyd, a pheidiodd yr erlid. Medrwyd llosgi Denis de Rieux dlawd ym Meaux yn 1528, am iddo gondemnio gwasanaeth yr offeren; ond yr oedd llygaid yr offeiriaid ar ysglyfaeth uwch. Yr oedd Louis de Berquin yn un o aelodau'r Parlement, ac yn gyfaill i'r brenin. Pan ymosodai'r Sorbonne arno, gollyngai'r brenin ef yn rhydd. Arhoswyd hyd nes yr oedd y brenin o'r cyrraedd, ac yna carcharwyd Berquin y drydedd waith. Cynhygiwyd ei fywyd iddo ar yr amodau hyn,—gwadu ei grefydd, llosgi ei lyfrau, torri twll â haiarn poeth trwy ei dafod, ac aros yn y carchar y gweddill o'i fywyd. Apeliodd yn erbyn ei erlidwyr creulawn at y brenin. Ond, cyn i'r brenin ddod adre, arweinwyd y seneddwr urddasol tua'r dienyddle, ar fore oer yn Nhachwedd, 1529. Wynebodd farwolaeth heb ofn, nid edrychai ar y tân yn dor ar ei fywyd o gwbl. "Ni fu neb farw'n gystal Cristion ers can mlynedd," ebe'r diwinydd fu'n gwylio'r tân; ac yr oedd llaweroedd yn ymofyn am ba beth y rhoddid bywydau mor werthfawr i lawr mor barod.

Ond daeth y brenin adre. Clywyd llais llawen Clement Marot, yn dadgan ei gredo,—

"Lutheriad nid wyf fi, ni fum Lutheriad chwaith,
Ac Anabaptist penboeth ni fyddaf amser maith;
Ond Cristion ydwyf fi, ni chadwaf hyn yn gudd,
Mab Duw o'm hanwybodaeth a'm rhoddodd i yn rhydd."

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD V.

Y PEDAIR A'R HUGAIN.

YN foreu iawn y diwrnod canlynol yr oedd Dafydd ab Gwilym, Gwilym Llwyd, a Phrys ac Owen eu gweision, ar eu ceffylau yn cychwyn ar eu taith i'r Deheubarth, er mwyn bod yn Eisteddfod Dol Goch. Teithiasant ymlaen yn gyflym, ac ni arhosasant ar y ffordd ond unwaith i gymeryd ychydig luniaeth hyd nes y cyrhaeddasant Abermaw. Yn y lle yma troisant i mewn i westy, a gofynasant am lety noson yno, a phrysurodd y wraig i arlwyo y bwrdd ac i barotoi lle iddynt. Cyfododd Dafydd yn foreu drannoeth, ac aeth allan cyn gweled ei gyfaill. Yr oedd yn foreu hafaidd, y gyntaf o fis Gorffennaf, boreu wrth fodd calon bardd.

Pan gyfododd Gwilym Llwyd, gofynnodd am Ddafydd, ac wedi deall ei fod allan, meddyliodd mai myned i roi tro yn y goedwig gerllaw a wnaeth, ac y dychwelai mewn byr amser. Ond aeth awr ar ol awr heibio, daeth yn ganol dydd, ac nid oedd Dafydd wedi dychwelyd i'r gwesty. Mewn pryder yn ei gylch aeth Gwilym Llwyd at Brys ac Owen, a gofynnodd beth oedd oreu ei wneyd yn yr amgylchiad.

"Nid wyf fi yn pryderu rhyw lawer yn ei gylch," atebai Prys, "yr wyf wedi arfer ei weled yn myned ymaith fel hyn na wyr neb i ble, weithiau am amryw ddiwrnodau. Ond rhaid i mi gyfaddef ei fod yn beth rhyfedd iddo wneyd hyn a'ch gadael chwi, a ninnau ar ein taith."

"Nis gallaf aros yma yn hwy. Dewch, awn i'r goedwig i chwilio am dano, feallai ei fod wedi ymgolli yn nheml natur, ac yn cyfansoddi cân ragorol, heb dalu fawr o sylw fel mae'r oriau'n myned heibio."

Dilynwyd Gwilym Llwyd allan o'r ty gan y ddau was, ac aethant gyda'u gilydd i'r goedwig; yna ymwahanasant oddiwrth eu gilydd, ac yr oedd y cyntaf a ddeuai o hyd i Ddafydd i chwibanu yn uchel fel arwydd i'r lleill. Y cyntaf i gyfarfod a Dafydd ydoedd Gwilym, ond ni chafodd ef yn gorwedd ymysg y blodeu, ac yn moli yr adar a'r coed fel y disgwyliai, ond cerddai y bardd yn chwim i'w gyfarfod, yn chwys a lludded, a phob arwyddion ei fod wedi teithio llawer.

"Wel Dafydd bach, ddoist ti'n ol?" meddai Gwilym, "yr oeddwn wedi myned yn bryderus iawn am danat, ac wedi troi allan gyda Phrys ac Owen i weled a ddeuwn o hyd i ti yn rhywle. Ymha le y buost?"

"Ni fum ym mhell, ond yr wyf wedi teithio gryn lawer o amgylch," atebai Dafydd gan wenu. "Yr wyf yn adnabod amryw yn y parthau hyn, a chymerais y cyfleusdra i ymweled a hwy. Nid oeddwn yn bwriadu aros cyhyd, ac y mae yn ddrwg gennyf fy mod wedi achosi pryder i ti, fy nghyfaill."

"Yn fy llawenydd o herwydd dy gyfarfod anghofiais fy addewid i Brys ac Owen, rhaid i mi ei gyflawni yn awr," meddai Gwilym Llwyd, gan dynnu chwibanogl bychan o'i logell a chwibanu yn uchel-seiniol, i ba un yr atebwyd gan ddau chwibaniad arall o wahanol gyfeiriadau. "Dyna; y maent wedi clywed. 'Nawr Dafydd, yr wyf yn gweled nad ydwyt am ddwedyd wrthyf ym mha le, ac ym mha fodd y treuliaist oriau'r boreu. Wel, cadw dy gyfrinach, Dafydd bach, a gad i mi ddweyd ar yr un pryd fy mod yn gwybod ar dy lygaid dy fod ar ganol rhyw ddireidi. Pwy oedd yr eneth lân a welais gyda thi gynnau? Ha! paid a gwrido fachgen, welais i mohonot heddyw o'r blaen, ond yr euog a ffy heb neb yn ei erlid."

Chwarddodd Dafydd ac atebodd, "Yn wir, Gwilym, nid wyf yn anewyllysgar i'th hysbysu o'm hynt, a chei weled effaith fy nhaith os deui gyda mi i'r coed heno."

"Onid ydym am fyned ymlaen ar ein taith heddyw?" gofynnai Gwilym.

"Byddai yn llawn cystal i ni aros hyd y boreu, bellach; ac mae arnaf eisieu ennill y wystl oddiarnat, ac ni chaf well cyfle i wneyd hynny na heno."

"Pa wystl?"

"A wyt wedi anghofio eisoes? Cyn cychwyn o Fon dywedaist fod merched yn gyffredin yn rhai anhawdd i'w denu, a dywedais innau fy mod yn barnu yn wahanol, ac y profwn i ti dy fod yn camgymeryd yn fawr. Os enillaf, yr wyt i roddi i mi chwe galwyn o win, os colli wnaf cei dithau yr un gennyf finnau."

"Yr wyf yn cofio yn awr, ond y mae yn ddirgelwch gennyf pa fodd yr wyt yn mynd i fy argyhoeddi."

"Cei weled heno. Gad i ni fyned i'r ty yn awr, y mae arnaf eisieu bwyd a gorffwys, a bydd di yn barod i gychwyn gyda mi i gwr pellaf y goedwig at fachlud haul. Ni raid son wrth Brys ac Owen am hyn."

Pan gychwynnodd y ddau gyfaill i'r goedwig drachefn yr oedd yr haul yn machlud yn ogoneddus, ac yr oedd

"Y gorllewinwybr fel brith lwybrau dôl;
A grudd hwyr swynol fel gardd rosynau."

Er hynny yr oedd y coed mor dewion a deiliog nes ei gwneyd yn lled dywyll dan eu cysgod, ac aeth y ddau ymlaen heb ymddiddan nemawr a'u gilydd. Wedi cerdded am beth amser dechreuodd y coed fod yn fwy anaml, ac ychydig ymhellach daethant i le cydmarol glir,—clwt glâs a choed o'i amgylch fel caer.

"Dyma ni ymhen ein taith," meddai Dafydd.

"Beth sydd i fod fan yma?" gofynnai Gwilym.

"Cei weled yn fuan. Dos di i ben y goeden acw, ac ymguddia oreu gelli; gwell ydyw i ti beidio bod yn rhy agos. Af finnau i'r goeden fan draw, ac os na fydd rhywun wedi dod i'r clwt glâs yma cyn pen yr awr disgynnwn drachefn ac awn adref."

"Ond i ba beth y gwnawn hyn? Eglura dy hun, Dafydd."

"Ni ddywedaf ychwaneg. Dos, a defnyddia dy lygaid.

Ar hyn aeth Dafydd ymaith, a dringodd Gwilym i fyny i'w goeden, ac ymguddiodd ymysg y dail. Cyn ei fod braidd wedi gosod ei hun yn daclus ar y brigyn, aeth geneth ieuanc hardd heibio i'r goeden gan chwifio ei het yn ei llaw a murmur canu yn dyner, ac ar yr un foment gwelai un arall yn dyfod o gyfeiriad gwahanol.

"Holo," meddai Gwilym wrtho ei hun, "a ydyw Dafydd wedi bod yn chwilio am gariad i ni ein dau. Wel! wel! beth nesaf? Bobl anwyl! beth oedd meddwl y dyn? Eto, eto fyth. Hai ho! bryd y darfyddant ddyfod? Ie'n wir dyma ychwaneg eto. Faint sydd yna 'rwan tybed? 'Rwyn sicr fod yna ugain neu ychwaneg."

Achoswyd yr ymadroddion uchod o eiddo Gwilym Llwyd drwy iddo weled merched ieuainc yn dylifo o bob cyfeiriad i'r darn tir glâs yng nghanol y coed. Ymddanghosent yn ddieithr i'w gilydd, nid ymddiddanent, ond edrychasant yn ddigofus y naill ar y llall. Nis gallai Gwilym ddirnad eu hamcan yn ymgynnull ynghyd i'r lle, ond gwyddai yn dda mai rhyw ystryw o eiddo Dafydd ydoedd y cwbl. Gwyliai hwynt yn fanwl, ac o'r diwedd gwelai un yn dechreu siarad ag un arall, ac ymhen ychydig aeth yn ymddiddan cyffredinol a phoethlyd i bob ymddanghosiad.

"Gresyn," meddai Gwilym, "fod y gwynt yn cario eu lleisiau ymaith, ac nad ydwyf yn gallu clywed yr hyn a ddywedant, er mwyn cael eglurhad ar y cyfarfyddiad rhyfedd hwn. Holo! ie'n wir, dacw Ddafydd yn disgyn i lawr o'i goeden, ac mor wir a hynny y mae y merched yn myned ato ac yn cau eu dyrnau 'yn fygythiol. Gobeithio na wnant niwed iddo, er fy mod yn sicr fod eu digofaint yn eithaf cyfreithlon."

Tra yr ymgynghorai Gwilym Llwyd rhyngddo ag ef ei hun, pa un ai disgyn i gynhorthwyo ei gyfaill a fyddai oreu iddo ynte cadw ei hun o'r golwg, gwelai Ddafydd yn cael ei amgylchynnu gan y menywod, ac fel y safai yn y canol, cododd ei ddwylaw i fyny a dywedai rywbeth mewn llais clir uchel. Yr oedd Gwilym yn clywed y llais, ond ni ddeallodd y geiriau. Pa beth bynnag a lefarodd Dafydd ab Gwilym, cafodd effaith ryfedd ar y merched. Safasant yn llonydd am eiliad wedi iddo ddarfod, ac yna dechreuasant gilgwthio a churo eu gilydd, tynnu gwallt a lluchio hetiau y naill at y llall. Yr oedd Gwilym wedi ei lyncu i fyny gymaint wrth wylio yr ymgyrch menywaidd, fel na sylwodd fod Dafydd wedi diflannu o'r golwg a'i fod wrth droed y goeden yn galw arno i ddisgyn.

"Gwilym! Gwilym! tyrd i lawr ar unwaith," gwaeddai Dafydd, a'r drydedd waith clywodd Gwilym ef a disgynnodd ar frys. Gwelodd Dafydd fod ei gyfaill yn edrych arno yn ymofyngar, ac atebodd,—"Gad i ni fynd adre gynta gallom, a mynegaf i ti yr holl fanylion pan gyrhaeddwn y ty.'

Yr oedd erbyn hyn yn dywyll iawn o dan frigau y coed, ac oni bai fod Dafydd yn gyfarwydd a'r llwybr diameu y buasai yn rhaid i'r ddau dreulio y noson yn y goedwig. Ond cyrhaeddasant y gwesty yn ddidramgwydd, a chawsant swper blasus yn disgwyl am danynt. Wedi iddynt fwyta gofynnodd Gwilym i'w gyfaill gyflawni ei addewid, fod arno awydd mawr cael gwybod ystyr yr arddanghosfa a gafodd yn y goedwig y noson honno.

"Boreu heddyw," dechreuai Dafydd, "ymwelais a phob un o'r menywod a welaist, a gwahoddais hwynt i'm cyfarfod yn y goedwig at fachlud haul."

"A oeddynt yn gwybod am eu gilydd?"

"Oedd, amryw o honynt yn gydnabyddus a'u gilydd, ond nid oedd y naill na'r llall o honynt yn gwybod fy mod wedi gwahodd ond ei hunan yn unig. Gofynnais i bob un ar ei phen ei hun ddyfod i'm cyfarfod i'r llecyn neillduol yna yn y goedwig, a chefais y pleser o weled pob un yn ffyddlawn i'w gair."

"Pa sawl un oedd yno? Ni chyfrifais hwynt, ond yr oeddwn yn barnu fod yno ychwaneg nag ugain."

"Pedair a'r hugain."

'Doedd ryfedd eu bod yn edrych mor
us ar eu gilydd ar y cyntaf. Nis gallwn
ed beth a ddywedasant, yr oedd y gwynt
ario y swn y ffordd arall; ond pan
host i lawr o'r goeden, yr oeddwn yn
wl yn sicr ei bod ar ben arnat, ac yn
oi i ddisgyn i'th gynorthwyo. Ond
fuasai gwerth dau ddyn yn erbyn dau
in o ferched cynddeiriog yr olwg arnynt?"
Rhaid i mi gyfaddef i minnau frawychu
dig pan welais eu golwg fygythiol. Yr
vn i yn clywed y cwbl a ddywedasant,
n ddeallasant eu bod oll wedi dyfod yno
r un neges, dechreuasant gyhoeddi
lithion ar fy mhen, a'r penderfyniad y
ant iddo ydoedd fy lladd pan y caent
ynnof. Fodd bynnag anturiais ddisgyn
r, ac amgylchynnwyd fi yn y fan gan-
t, a gwelais eu bod wedi cythruddo
int, fel mai nid chwareu bach fyddai i
dianc yn ddianaf o'u gafaelion. Yn fy
bleth daeth yr Awen ataf fel angel
rcheidiol, ac mewn pwt o gân rhoddais fy
yn eu llaw i wneyd a mi fel y mynnont,
yn unig fod i'r fenyw a gerais amlaf yn
nnerch honno daflu y garreg gyntaf
"

Dafydd, Dafydd, un hir dy ben wyt ti.
yn oedd yr achos o'r ymgyrch a fu
gddynt? Ha! ha!"
Ie. Dechreuasant edliw i'w gilydd, ac
diwedd aeth yn daraw, yr hyn a rodd-
old gyfle i mi i ddianc ymaith yn ddistaw
bach."

"Gormod o beth oedd hyn hefyd, Dafydd."

"Beth? I mi ddianc ymaith yn ddianaf."

"Nage, nage, twyllo cynifer o ferched fel hyn."

"Nid oedd ffordd arall i mi ennill y wystl; a dweyd y gwir, nid wyf fi yn ei weled yn ormodiaeth. Bydd yn wers iachus iddynt erbyn y dyfodol; gan eu bod hwy mor hynod barod i dlyfod, arnynt hwy yr oedd y bai, ac nid ydyw y merched hawdd i'w denu fel hyn o nemawr werth i'w cael. 'Does dim o werth i'w gael heb drafferth, cofia hynny. Gwilym. Wel, pwy sydd wedi ennill y gwin?"

"Tydi, bid siwr. Ond ni buaswn byth yn credu hyn, oni bai i mi ei weled a'm llygaid fy hun. Mae'n rhaid fod gennyt ti ffordd mwy deniadol nag sydd gennyf fi."

"Yr Awen sydd yn denu, fy nghyfaill. Nid wyt ti yn fardd, dyna yr unig wahaniaeth sydd rhyngom."

"Wel, rhaid i ni fyned i'n gorffwysfan, er mwyn codi i gychwyn tua'r Ddol Goch yfory; a gad i mi dy gynghori, Dafydd, i beidio gwneyd troion fel hyn yn aml. Nid ydyw pawb yn dy adnabod mor dda ag ydwyf fi, a chei y cymeriad o fod yn ddyn gwageddus aniwair os chwareui ystranciau fel hyn yn fynych."

BLODEUYN BACH.

Cyfansoddwyd y gân pan yn glaf ar Draeth Aberteifi gan Telynog. Y mae Dr. Howells, Talgarth, wedi e eithu i'r Saesneg, ac y mae Mr. Jenkins, Aberystwyth, wedi cyfansoddi cân arni.

Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd,
Yn araf, araf wywo,
A'r blodeu ereill oll a chwardd,
Tra mi fy hun yn wylo;
Pan dyr y wawr, bydd perlyn gwlith
Ar ben pob un o'r blodau,
A minnau'n eithriad yn eu plith,
Ac eto'n fyw fel hwythau.

Aderyn bach wyf fi mewn llwyn
Yn ymyl mynwent dawel,
Heb edyn ganddo idd ei ddwyn
I chwareu yn yr awel;
Rhyw brudd-der dwfn sy'n tagu'r Llan,
Heb ddawns, heb gân, heb gyffro;
Ni chlywaf lais trwy'r marwol fan,
Ond llais fy hun yn wylo.

Na, cragen wyf ar draeth y byd,
Môr ing yn golchi drosti,
A disgwyl 'rwyf o hyd, o hyd,
I'w donnau ymlonyddu;
Ie, cragen—Ust! rwy'n clywed si
Yr hen Iorddonen farwol,
Yn treiddio trwy fy cnaid i,
Mewn murmur pûr, dieithrol.

O! na chawn deithio fel y gwynt,—
A chanu fel ehedydd,
A llamu'n hoenus ar fy hynt,
Fel oen ar ben y mynydd;
Neu wenu'n siriol fel yr haul,
Ar gwmwl glâs y borau,
Neu chwerthin fel y ser di ail,
Tra'r byd yn cau ei ddorau.

Yr Hwn osododd ser y nen,
I loywi cylch yr wybren;
Osododd lygaid yn fy mhen,
Mor siriol a dwy seren;
Ond disglaer yw y ser o hyd,
Trwy'r wybren yn gwreichioni;
Tra minnau'n afiach yn y byd,
A'm llygaid bach yn pylu.

Ond, os rhaid cau fy llygaid gwan
Dros ennyd yn yr angeu,
Agorant eto yn y man,
Pan egyr pyrth y beddau:
Caf weld y ser fel ffigys ir
Yn disgyn o'u cysawdiau,
Tra'n agor bydd fy llygaid i
Mewn anfarwoldeb golau.

YMDAITH YN ANNWN.

III.

YN Y PYRTH.

"'Roedd y nef wedi ymadael, ac Uffern yn neshau, ac angylion Duw
yn ymddieithrio, a delwau anifeilaidd yn ymddangos."—LLYFR Y TRI ADERYN.

TYBIAIS mai yn yr ystryd honno y byddem ein tri, yn crynnu gan ryw arswyd oedd wedi disgyn arnom. "Fedra i byth fynd heibio'r ty acw yn fy ol," ebai Wil eilwaith, "pe cawn i aur y byd yma am dreio. Y mae'r llofrudd hwnnw grogwyd yn byw acw eto."

"Rwyt ti'n gwirioni, Wil, fedr y marw ddim dod yn ol," meddai Meredydd. Ond yr oedd cryndod yn llais y pregethwr, yn dangos fod arno gymaint o ofn a ninnau.

"Mi weles i un marw wedi dod yn ol cyn hyn," atebai Wil, gan siarad yn ofnus a therfysglyd, "mi weles i wr y Nant Ddu dan goeden balmwydd yn yr Aifft." Ond pan welodd y dychryn newydd ar fy ngwyneb i, adfeddiannodd ei hun, gan edrych yn edifeiriol arnaf. Yr oedd dychryn yn dilyn dychryn, yr oedd arnom ofn pob swn, symudiad deilen fuasai'n ddigon i wneyd i ni redeg ein tri am ein bywyd. Ond toc daeth swn mwy ofnadwy inni. Clywem ddrws y ty anghyfannedd yn gwichian; ac, heb aros munud yn hwy, rhedasom ein tri am y cyntaf i lawr yr ystryd. Wedi cyrraedd rhan oleuach o'r dref aroshasom wedyn, a gofynnais i Feredydd, yr hynaf o honom, i ble yr aem.

"Er mwyn y Nefoedd," meddai yntau, "gadewch i ni fynd adre. Mi gewch le i gysgu gen i, a gobeithio y rhydd y bore derfyn ar y dychryn mawr yma."

Aethom gydag ef adre. Yr oedd ei wraig a'i forwynion yn eu gwelyau, a thawelwch fel y bedd yn teyrnasu trwy Aristo Square.

"Fedra i gael dim bwyd i chwi," meddai Meredydd, pan gyrhaeddasom y cyntedd, "a dweyd y gwir, mae arna i ormod o ofn mynd i'r gegin. Dowch i fyny, mi gewch gysgu yn yr un ystafell, rhag fod arnoch ofn."

Aethom ar ei ol i fyny'r grisiau, ac yr oedd arnaf gymaint o arswyd fel yr ofnwn i rywbeth gydio yn fy sawdl bob tro y codwn fy nhroed i ris newydd. O'r diwedd daethom i ystafell braf, a dau wely ynddi. Rhoddodd y goleu derfyn ar ein hofn mawr; a chyneuwyd y tân oedd yno'n barod at ei oleu, gan fatsen o boced Wil.

"Cysgwch yn dawel, fechgyn," ebai Meredydd, a'i lais wedi adfeddiannu ei gryfder a'i iechyd cynefin, "raid i chwi ofni dim yn yr ystafell yma. Teulu o Gymru a gododd y ty, a ni ddaeth yma ar eu hol nhw'n gynta rhai." Wedi dweyd nos da, a benthyca matsen gan Wil, a'i goleu, aeth ymaith, a chlywsom ei ddrws yn cau, beth pellder oddiwrth ein hystafell ni.

Nid ystafell bedair ochr oedd yr ystafell, yr oedd yn debycach i ddwy wedi ei gwneyd yn un, a chornel ystafell arall yn taflu iddi. Nid oedd y ddau wely yng ngolwg eu gilydd, ond yr oedd y ddau yng ngolwg y tân. Penderfynasom fynd i'n gwelyau gynted y gallem, a chysgu, a gadael pob ysgwrs hyd fore drannoeth, ac yr oedd gennyf gwestiynau pwysig iawn i'w gofyn i Wil.

Felly fu. Ond, yn fy myw, nis gallwn gysgu. Weithiau gwrandawn ar swn y gwynt yn crwydro dan ochain oddi allan. Dro arall edrychwn ar fflamau pen-leision y tân yn neidio ac yn marw, a gwelwn eu lluniau ar nenfwd gwyn yr ystafell, yn chware ac yn marw yno hefyd. Ac yr oedd meddyliau ac ofnau yn hel ar ol eu gilydd i'm hysbryd blinedig. O'r diwedd sefydlodd fy meddwl ar ddywediad brawychus Wil yn yr ystryd,—"Mi weles i wr y Nant Ddu dan goeden balmwydd yn yr Aifft." Gweled fy ewythr dan gysgod palmwydden yn yr Aipht! Yr oeddwn yn cofio ei arch ddiwrnod ei gladdu; cofiwn yr hyn ddywedai ein hen forwyn,—mai arian fy nhad oedd ei arian, y gwyddai rywbeth am farwolaeth fy nhad ar y noswaith dymhestlog honno, mai Wil yr Efel oedd gydag ef, ac mai rhyw ddynes ddieithr a'i temtiodd.

Pan oedd fy meddwl wedi bod yn rhedeg yn hir ar y pethau hyn, teimlwn fod rhywun yn ymsymud hyd yr ystafell. Edrychais tua'r tân, a gwelwn ddynes yn refyll yno, a'i chefn ataf. Nid oedd dim am ei phen, gwelwn ei gwallt melyn a gwawr wyn yn dechreu arno; am ei hysgwyddau yr oedd *shawl* resog, gwyrdd a melyn. Tybiwn yn sicr fy mod wedi ei gweled o'r blaen, ni feddyliais ar y pryd fod dim anaturiol yn ei hymddanghosiad, a phesychais. Trodd i edrych arnaf, fel pe buasai fy mhesychiad wedi aflonyddu arni. Nid anghofiaf ei gwyneb byth. Adnabyddais hi ar unwaith, —y wraig demtiasai fy ewythr, ac i'r hon y gadawsai ei eiddo. Nis gallwn gamgymeryd y gwefusau creulon, y trwyn tew, a'r llygaid oerion di-gyffro hynny. Er hynny yr oedd

li newid llawer, yr oedd blynyddoedd wedi
ishau llinellau ei gwyneb, a'i gwneyd yn
ycach nac erioed i'r hyn y tybiwn oedd
na buasai rhagrith yn gwneyd iddi wisgo
èn. A mwyaf sylwn arni, mwyaf erchyll
ymddanghosai ei gwyneb yng ngoleu'r
a'r ganwyll oedd wedi ail oleu. Yr oedd
edrych yn fwy cnawdol, yn fwy blysig,
fwy cythreulig o hyd. O'r diwedd, wedi
u arnaf yn hir, gwelwodd ei gwyneb,
nreuodd grynnu, a mwy na hynny, er fy
w, dechreuodd gerdded tuag ataf.
rychiolaeth ydyw," meddwn wrthyf fy
, "fy synhwyrau sy'n fy nhwyllo ar ol y
nryn gefais." A dod ymlaen yn araf,
, gyda'i llygaid oer di-ysgog, yr oedd o
. Tynnais y dillad dros fy mhen, gan
chryn. Clywn hi cyn hir yn tynnu'r
ad oddiarnaf, ac yr oeddwn yn rhy wan
rhwystro. Clywais hi'n hisian "Pwy wyt
' trwy ei dannedd, a chlywais arogl fel
gl bedd ar ei hanadl. Treiais waeddi ar
l, ond darfyddodd fy anadl ynnof.
wygais, ac nid wyf yn cofio ychwaneg.
Yr oedd gwawr aneglur y bore'n tywynnu
yr ystafell trwy'r llenni cochion tew pan
ffroais. Nid oedd arnaf lawer llai o ofn, er
y bore wedi torri. Yr oedd arnaf ofn cadw
,—gwelwn fod y dillad fel y tynasai hi
ynt, O'r diwedd mentrais waeddi,—
"Wil!"
Nid atebodd neb am hir, ond clywn swn.
hyn hir gwelwn wyneb brawychus Wil.
"Wil, welest ti rywbeth neithiwr?"
"Do."
"Wrth y tân acw?"
"Ie."
"Ddaru i ti 'nabod y ddrychiolaeth?"
"Do."
"Pwy oedd yno?"
"Dy dad."
"Fy nhad!"
"Ie, mi weles dy dad yn y fan acw, fel y
eles o yn y coed y noswaith honno. Mi
wes o'n galw arnaf wrth fy enw, ac mi
chrynnes wrth dy glywed yrwan,—mae
ais di mor debyg i lais dy dad. Gruffydd,
yddost ti mai fi welodd dy dad yn fyw ola?"
"Gwn."
"Y mae rhywbeth ar fy enaid i, a rhaid i
gael rhywun i ddal y baich heblaw mi fy
. Mi ddeuda i hanes y noswaith honno
hyt hefo. Ac mi weles dy ewythr yn yr
t, sut tynnag y daeth o'r bedd. Ond gad
i weled goleu dydd i ddechre, yr ydym
li cael digon o ddychryn am un wythnos."

Ymwisgasom, a chyfarfyddodd Meredydd ni yn nrws ein hystafell. Sylwodd ein bod yn bur welw ein dau, ac ofnai nad oedd ein cwsg wedi adnewyddu fawr ar ein nerth. Ni ddywedasom ddim, ond cawsom adfywiad mawr wrth weled y brecwest oedd yn ein haros, ac wrth wrando ar wraig lawen siaradus Meredydd. Er i Wil golli ei de hyd y llian droion, yr oeddym yn eithaf siriol, ac ni fuasai neb yn meddwl oddiwrthym ein bod wedi gweled drychiolaeth y nos o'r blaen. Daeth amser y ddyledswydd deuluaidd. Darllennodd Meredydd yr unfed Salm ar ddeg a phedwar ugain, ac ni chlywais hi mor felus erioed, er i mi ymgysuro ynddi yn adeg llawer profedigaeth chwerw,—"Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf a erys yng nghysgod yr Hollalluog." Erbyn i Feredydd orffen gweddio, yr oeddwn yn teimlo gan ddewred ag erioed, a thybiwn nad ofnwn ddychryn nos byth.

Wedi hyn aeth Meredydd a ni i'r ystafell ginio, a chawsom ymgom am y gwyneb yn y ffenestr. Ni soniwyd gair am yr hyn welsom ni yn yr ystafell gysgu; a bum yn edifarhau lawer gwaith na fuaswn wedi dweyd wrth Feredydd ar unwaith. Yr oedd ef yn dawel a hunan-feddiannol. "Yr wyf wedi fy ffieiddio fy hun am fy llwfrdra'n dianc neithiwr, yr wyf wedi gweddio ar Dduw am nerth, ac yr wyf wedi penderfynu gweled heno a oes rhywun byw yn y ty hwnnw."

Erbyn diwedd yr ymgom yr oedd y bore bron a mynd, ac yr oedd fy nghefnder yn disgwyl am danaf. Yr oeddwn i ddod i dy Meredydd,—4, Aristo Square,—yn fy ol erbyn pedwar, er mwyn mynd i wrando gweddill ystori'r hen wr. Bum gyda'm cefnder am ddwy-awr, yn trin materion teuluaidd. Erbyn mynd drwy'r holl bapurau, ebe'm cefnder,—

"I hyn mae hi'n dod. Yr oedd eich arian i gyd ym meddiant dy ewythr. Y cwestiwn yn awr ydyw, ym mha le y rhoddodd hwynt. Hyd y gwn i, nid oes ond un yn fyw fedr ein helpu. A welaist ti'r ddynes y dywedid fod dy ewythr wedi ei phriodi?"

Cofiais am ddychryn y nos o'r blaen, gwelwodd fy ngwyneb, a dywedais yn llesg fy mod wedi ei gweled fwy nag unwaith.

"Mae hi'n byw yn rhywle yn Lerpwl," meddai yntau, "mi welais ei gwyneb melldigedig hi mewn tyrfa ryw dro. Mi ddof gyda thi ddechre'r wythnos i'r lleoedd tebycaf i chwilio am dani. Fedrwn ni wneyd dim tan welwn hi os yw'n fyw."

Caernarfon: Argreffir a Chyhoeddir, dros y Gymygydd, gan D. W. Davies a'i Gwmni.

CYMRU.

CYF. II. MAWRTH 15FED, 1892. RHIF. 8.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

III. ARTHUR.

"Ac ar hynny nachaf feirdd yn dyfod i ddatganu cerdd i Arthur, ac nid oedd dyn a adnabai y gerdd honno, eithr ei bod yn foliant i Arthur."
BREUDDWYD RHONABWY.

PAN adawodd y Rhufeiniaid ynys Pryden tua chanol y bumed ganrif, gadawsant hi, fel y gwelsom, wedi ei rhannu'n ddwy dalaeth filwrol,—talaeth y gorllewin dan y *dux Britanniarum*, a thalaeth y dwyrain dan y *comes litoris Saxonici*. Trefnwyd Pryden fel hyn er mwyn ei hamddiffyn rhag cenhedloedd crwydrol y gogledd; yr un modd hefyd, yr oedd yr holl ymherodraeth, yn ol cynllun Diocletian, i'w rhannu'n ddwy ran, fel y medrid ei hamddiffyn yn well,—y rhan ddwyreiniol a'r rhan orllewinol. Gwelsom fod cenhedloedd paganaidd o ogledd Ewrob wedi meddiannu talaeth ddwyreiniol Pryden, a'u bod, tua'r chwech ganrif wedi ymosod ar derfynau'r dalaeth orllewinol hefyd.

Ac nid ar du y dwyrain yn unig yr ymosodid ar y dalaeth hon. Er ys canrifoedd, er y goncwest Rufeinig, yr oedd y Pictiaid wedi bod yn curo yn erbyn y muriau godasid i amddiffyn terfyn gogleddol y dalaeth; ac yr oeddynt wedi torri trwyddynt lawer gwaith. Y mae olion y muriau hyn eto'n aros, wedi cyfnewidiadau ac ystormydd dwy ganrif ar bymtheg. Yr oedd un mur, mur Antoninus, rhwng y Forth a'r Clyde. Wrth ymosod ar y mur hwn,—mur saith milldir ar hugain o hyd,—nis gallai'r Pict o'r mynyddoedd lai na rhyfeddu at athrylith y Rhufeiniaid, a thybid gan oesau ereill mai gallu goruwchnaturiol oedd wedi gwneyd y muriau, a'r ffosydd, a'r ffyrdd. Yn gyntaf peth, doi'r Pict at ffos, deuddeg troedfedd o led, yr hon oedd yn gorwedd o flaen y mur trwy ei holl hyd. Yn codi o'r ffos hon yr oedd mur, dwy droedfedd o led, o gerrig ysgwâr. Yr oedd hwn, mae'n debyg, yn uchel iawn, yn uwch na'r wal nesaf i mewn, ac yn gysgod i'r rhai safai i ergydio oddi arno. Ochr oedd y mur cerrig ysgwâr i'r wal fawr, ddeg troedfedd o led,—wal o gerrig a phridd. Y peth welai'r Pict felly fyddai mur cerrig yn codi'n syth o'r ffos, a throsto gwelaihelmau disglaer y milwyr oedd yn cerdded hyd ben y wal. Gyda gwaelod y wal, ar yr ochr ddeheuol, rhedai llwybr pum troedfedd o led. Ar yr un ochr, hefyd, yr oedd tyrau'n edrych dros y mur, a gwylwyr arnynt ddydd a nos.

Yn nes i'r de, rhwng y Solway a'r Tyne, yr oedd mur arall, mur Hadrian. Yr oedd hwn yn wyth troedfedd o led, ac yn ugain troedfedd o uchder. Nid oedd eisieu ffos o'i

ıen, gan ei fod wedi ei godi ar ael garegog bryniau saif uwchlaw dyffrynnoedd yr Eden r Tyne. Yr oedd tri chant ac ugain o dyrau y mur hwn, a thros dri ugain o gestyll, a ordd filwrol yn ei gysgod. Yn gyfochrog a wn yr oedd mur triphlyg arall, a ffos, a ordd.

Ond heblaw'r dwyrain a'r gogledd, yr oedd gorllewin hefyd mewn perygl, yr oedd wyddyl o'r Iwerddon yn glanio ar y traeth. r oedd muriau'r Rhufeiniwr wedi cau'r de ıag y Pict; ac, o herwydd hynny, nid oedd ymaint o ymfudo o'r Iwerddon i'r Alban gleddol. Ymosododd y Gwyddyl o'r Iwerddon draeth Cymru, yn lle ymfudo i'r wlad y tu wnt i'r mur, a gwladychasant yn Nyfed a wynedd. Gwelsom fod Carausius wedi dod r gorllewin, gyda'r môr-ladron Gwyddelig yn, ac wedi ymgoroni'n ymherawdr ym Mhryden.

Tua 450, felly, yr oedd y Saeson yn tynnu fyny at ororau Cymru,—at Gaer Baddon, a haer Lleon ar Wysg, a'r Amwythig; yr edd y Pictiaid eto'n ceisio torri'r mur; yr edd Gwyddyl wedi meddiannu traeth y gor- ewin.

Ond yn amser y Rhufeiniaid, o'r gogledd oedd y prif berygl, ac am hynny cysylltir mur a'r *dux Britanniarum* mewn hanes a traddodiad. Ei anrhydedd ef oedd an- ydodd y Cymro ymgeisiai am ei le,—y wledig; ei enw ef oedd enw'r Sais fyddai'n chel geisio unbennaeth yr ynys, — Bret Valda, *dux Britanniarum*. Pan ymgeis- edd Maximus am yr ymherodraeth, Macsen Wledig y galwai y Cymry ef.

Pan ymadawodd y Rhufeiniaid, gwelsom od ymryson am y gallu wedi bod yn y dalaeth dwyreiniol rhwng Gwrtheyrn ac Emrys. Bu awer un, yn y dalaeth orllewinol hefyd, yn mgeisio am swydd a gallu'r Gwledig. Ym ysg y darnau o ganeuon Cymreig y dywedir u bod yn perthyn i'r bumed a'r chweched anrif, y mae can o fawl, yn llyfr Taliesin, i rthur Wledig. Dyma ychydig linellau o ıni,—

Ketwyr cclledic.
Tebygafi dull dic.
O diua pendeuic
O dull diuynnic.
O leon luryc.
Dyrchafawt gwledic.

u hystyr, feallai, yn ein Cymraeg ni, ydyw n,—

Colledig yw gwŷr y gad,
Debygaf fi, mewn dull dig.
O ddifa'r pendefigion,
O ddull difaol,
O'r lleng lurygog.
Ymddyrchafodd y Gwledig.

Yr oedd y gwahanol bendefigion yn ceisio eu hanibyniaeth ym mhob rhan o'r dalaeth, ac yn gwrthod ymostwng i'r Gwledig unai'r dalaeth, ac a'i hamddiffynnai. Pan fyddai'r gelyn yn difrodi, a'r ysbeiliwr heb neb i'w atal, ceisiai rhyw bendefig galluog uno'r dalaeth, a'i rheoli yn null y *dux Britanniarum*. Cyn y medrai un felly wneyd ei hun yn Wledig yr holl dalaeth, yr oedd yn rhaid ymladd llawer câd ddig; yr oedd yn rhaid difa llawer cyd-bendefig eiddigeddus; yr oedd yn rhaid cael lleng lurygog, fel gosgorddlu'r "tywysog" Rhufeinig, i gynnal ei freichiau ac i roddi grym i'w air. A phan fyddai'r Gwledig wedi medru gwneyd ei hun yn unben y dalaeth, byddai bob amser yn dynwared rhwysg ac awdurdod y *dux Britanniarum*,—y fantell goch, ei gader gymhesur, ei osgorddlu'n cerdded hyd y mur. Ac ebe'r un gân o fawl i Arthur Wledig,—

Ae goch gochlessur.
Ae ergur dros uur.
Ae kadeir gymessur.
Ym plith goscord uur.

Y mae'n debyg mai gwaith Arthur oedd amddiffyn mur y gogledd yn erbyn y Pictiaid a'u cyfeillion, môr-ladron o'r cyfandir. Sonnir am Arthur rai gweithiau fel am ryw Wledig arall, yn y caneuon sydd yn Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Coch Hergest a Llyfr Taliesin, caneuon sy'n dweyd hanes y chweched ganrif, os credir eu bod wedi dod i lawr o amser mor bell. Ni sonia Gildas am y Gwledig hwn, ond yn Nennius cawn hanes y deuddeg brwydr ymladdodd. Hwyrach mai ym mro mur y gogledd yr ymladdwyd y brwydrau hyn, hwyrach mai yno y mae Coed Celyddon a Threwryd. Hwyrach mai yno y mae Camlan, lle collodd y Gwledig ei fywyd wrth amddiffyn y dalaeth.*

Ymhen canrifoedd wedi'r chweched ganrif y mae Arthur yn ymherawdr, ac y mae dychymyg cenedl wedi ei wneyd yn amddiffynnydd anfarwol ei wlad. Tuedd y gorllewin ydyw gwneyd ei harwyr yn dduwiau; tuedd y dwyrain ydyw gwneyd ei duwiau'n ddynion. Yn yr hen Rufen baganaidd gwneid yr ymherawdr yn dduw wedi ei farw; a phan syrthiodd Pryden yn ol i ryw hanner paganiaeth yn y rhyfeloedd yn erbyn y Saeson, cofid yr hen draddodiadau paganaidd am yr ymherawdr. Daeth Arthur, amddiffynnydd diweddaf y mur, yn ymherawdr ac yn anfarwol.†

* Dyma geisia Skene brofi yn ei "Four Ancient Books of Wales."

† Gwel esboniad arall gan yr athraw Rhys,—"Besides a historic Arthur there was a Brythonic divinity named Arthur." *Studies in the Arthurian Legend*, 8.

IV. MAELGWN GWYNEDD.

"Llu Maelgun bu yscun y doethan."
LLYFR DU CAERFYRDDIN.

Tra'r oedd y Pictiaid yn ymosod ar y mur, yr oedd yr Eingl yn ymosod ar y traeth. Cyn diwedd y chweched ganrif yr oedd Bryneich a Deifr yn eiddo iddynt,—holl arfordir y dwyrain, o Gaer Efrog i'r mur. Newidiodd hyn y rhyfel; yn lle Pictiaid ac Eingl yn ymosod ar dalaeth Brydeinig y Cymry, cawn deyrnas Anglaidd yn ymladd yn erbyn Cymry'r gorllewin a Phictiaid y gogledd. Wedi ymsefydlu ym Mryneich, gorfod i'r Eingl ddal pwys ymosodiadau'r Pictiaid, a chafodd y Cymry amser i ymosod ar elyn arall.

Yr oedd y Gwyddyl wedi ymsefydlu yng Ngwynedd ac yn Nyfed, wedi ymfudo o'r Iwerddon ac o'r Alban, ac wedi medru ymgartrefu ar hyd traeth gorllewin Cymru tra'r oedd y Gwledig yn ymladd a'u cydgenedl ar y mur. Pan ddaeth yr Eingl rhwng y Cymry a Gwyddyl y gogledd, trodd y Gwledig ar y Gwyddyl oedd yng Nghymru.

Yn llyfr Taliesin sonnir am Gunedda, a'r ofn wnai Eingl Bryneich yn welw wrth feddwl am dano. Efe yw Cunedda Wledig y traddodiadau Cymreig. Dywed Nennius mai o'r gogledd, o Fanau Gododin y daeth. Dywed traddodiad ei fod yn fab i ferch Coel, yr hwn oedd yn byw, yn ol pob tebyg, yn rhan orllewinol Ystrad Clwyd. Erys ei enw eto yn yr enw Kyle, yn sir Ayr; ac y mae wedi aros, heblaw hynny, mewn hwiangerddi. Nid oes ryw lawer o ddadblygiad mewn hwiangerdd, y mae plant pob oes yn debyg iawn i'w gilydd, ac y mae plant y Saeson eto'n clywed,—

"Old King Cole was a merry old soul,
And a merry old soul was he."

Y mae traddodiadau Rhufeinig yn hanes teulu Cunedda Wledig.* Y mae enwau Rhufeinig ymysg ei hynafiaid, gelwid un o honynt yn Beisrudd, yr oedd ganddo osgordd a gwregys aur y *dux Britanniarum*. Tra'r oedd Cunedda'n Wledig, daeth rhan ddeheuol y dalaeth,—ein Cymru ni,—yn fwy pwysig na gogledd y dalaeth. Yr oedd yr Eingl wedi mynd a darn o'r gogledd; ac nid oedd y mur yn amddiffyn rhag y Pictiaid mwy. Daeth Cunedda Wledig a'i deulu tua'r de, ac ynglyn â Gwynedd a Cheredigion y son traddodiad fwyaf am dano. Pan ddaeth i gyffiniau Gwynedd y mae'n debyg fod yr holl Gymry,—Ordovices y Gogledd a Silures y De,—wedi ei dderbyn fel eu Gwledig. Ei waith oedd gyrru'r Gwyddyl o Wynedd a Dyfed, neu eu darostwng dan lywodraeth Gwledig y Cymry. Dywed traddodiad mai oddiwrth fab iddo ef, Meirion, y cafodd Meirionnydd ei henw; ac mai oddiwrth fab arall neu frawd, Ceredig, y cafodd Ceredigion ei henw hithau. Y mae'n debyg mai Ceredigion a Meirionnydd,—yr hen Feirionnydd rhwng afon Mawddach ac afon Dyfi,—orchfygwyd gan Gunedda a'i deulu ym mhoethder yr ymladd. Gyrasant y Gwyddyl, efallai, o'r parthau hyn; ond, pan oedd nerth ac undeb y Gwyddyl wedi eu torri, gadawyd iddynt aros yng Ngwynedd a Dyfed, naill ai fel deiliaid i'r Gwledig, neu dan is-frenhinoedd darostyngedig iddo. Gallwn yn hawdd ddyfalu mai'r perygl yr oedd y Cymry ynddo oherwydd ymfudiad parhaus y Gwyddyl i'w gwlad, ymfudiad parhaus wnai'r dyfodiaid yn allu cryfach na hen breswylwyr y tir,—gallem feddwl mai'r perygl hwn wnaeth i'r Gwledig ddod o'r gogledd, a gallem feddwl mai'r perygl hwn hefyd wnaeth i holl dywysogion y Cymry ymuno i gynnal breichiau Cunedda Wledig.

Nis gellir byth, hwyrach, ddweyd achau teulu Cunedda Wledig yn glir. Ond y mae un peth yn sicr am danynt, mai hwy ddarostyngodd allu'r Gwyddyl ac a roddodd unbennaeth Cymru i'r Cymry. Gorchfygasant y dyfodiaid, wedi rhyfel blin am amryw genhedlaethau. Ar yr un pryd, y mae'n sicr fod y rhyfel yn para ar ororau gogleddol y dalaeth,—rhwng Cymry, Gwyddyl, ac Eingl. Bu dau ganlyniad, o leiaf, i ryfeloedd a buddugoliaethau Cunedda a'i deulu. Un oedd,—bu'r rhyfel, fel bob amser, yn ddinystr i burdeb crefydd a moesoldeb y wlad. A chanlyniad arall oedd hwn,—pan aeth y perygl oddiwrth y Gwyddyl heibio, nid oedd y tywysogion ereill mor foddlon i ddisgynyddion Cunedda fwynhau gallu a rhwysg y Gwledig.

Dyma ddau ganlyniad fuasem yn ddisgwyl; ac y mae gennym sicrwydd mai'r ddau ganlyniad hyn fu. Gellir ameu'r traddodiadau gasglwyd gan Nennius, a thraddodiadau loffwyd gan ereill ar ei ol; gellir ameu caneuon Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Coch Hergest a Llyfr Taliesin, wrth gofio mai wedi'r ddeuddegfed ganrif yr ysgrifennwyd y llyfrau hyn. Ond nid oes wiw ameu Gildas. Yr oedd ef yn byw yng nghanol y chweched ganrif, ac y mae'r ffeithiau hanesyddol sydd yn ei gwynfan chwerw, er mor ychydig ydynt, yn werthfawr iawn. Yn ei amser ef, pan oedd y Gwyddyl wedi eu darostwng, a'r Saeson wedi eu gorchfygu yn y dalaeth ddwyreiniol ym mrwydr Mynydd Baddon, yr oedd amryw fân frenhinoedd yng Nghymru. A'i allu'n

*Am hanes llawnach gwel Rhys' *Celtic Britain*, 118—127.

yy na'u gallu hwy, yr oedd Maelgwn wynedd, pen teulu Cunedda Wledig. ofier mai mynach oedd Gildas, ac mai ei edd oedd gwneyd ei ddarlun mor ddu ag medrai, fel pob pregethwr cyfiawnder. Ac na darllenner ei ddesgrifiad o dywysogion ymru yn hanner olaf y chweched ganrif,—

"Canys i ba beth y celwn ni yr hyn y mae'r nhedloedd oddiamgylch, nid yn unig yn ei ybod, ond yn ei ddannod, sef, fod gan Bryden enhinoedd o dreiswyr, a barnwyr o orthrymwyr, y rhai a ysglyfaethant y gwirion, ac a gadwant euog, a chanddynt lawer o wragedd puteinaidd, llochesu lladron a godinebwyr, yn anudonwyr, cyfodi terfysgoedd ym mysg eu gilydd? Megis darfu i'r gormesdeyrn Cystenyn yleni yn yr lwys ladd dau o'r hâd brenhinol, er iddo ymymo â llw cyhoeddus na wnai dwyll i'w bobl; di iddo o'r blaen yrru ymaith ei wraig o serch buteiniaid. O paham yr wyt ti yn archolli dy aid dy hun? O paham yr wyt ti yn ennyn y tân i dy hun? Edifarha a thyred at Grist. Y Tad ionus a wna wledd o gysur nefol i'r dychweledig, y profo mor dda yw'r Arglwydd.

"A pheth a wnei dithau, Aurelius Conan, y naw llew? Onid wyt ti ar soddi yn yr unrhyw ntni o fwrdwr a godineb? Oni throi at yr Arwydd yn fuan, "Efe a chwery â'r cleddyf atat ar fyrder, ac ni bydd a'th waredo di o'i law Ef." A thithau, Vortipor benllwyd, rheolwr Dyfed, yg i lewpart amliwiog o anwireddau, mab diras renin da, fel Manasse i Hezeciah, beth a wnei yn cyffio yn dy orseddfainc dwyllodrus, halodig gan fwrdwr a phuteindra? Na threulia yr hydig sydd yn ol o'th ddyddiau yn digio Duw, nys yn awr y mae'r amser cymeradwy a dydd chydwriaeth yn tywynnu i'r edifeiriol. A thithau, neglas, paham y gwnei gymaint helbul i ddyn trwy ryfel cartrefol, ac i Dduw trwy aneirif chodau, yn erbyn y gair sy'n dywedyd nas gall dinebwyr etifeddu teyrnas nef? Paid a'th ddifaint tuag at Dduw a'i braidd, newid dy foddion, y byddo iddynt hwy weddio drosot ti, y rhai a ant rwymo yr euog ar y ddaear, a rhoi gollyngd i'r edifeiriol?

"Tithau hefyd, Maglocun, a yrraist gymaint frenhinoedd gormesol allan o'u teyrngader a'u wyd, paham yr ymdreigli yn y fath dduon chodau, megis pe bait wedi meddwi ar win Soma? Oni orthrymaist ti, drwy gleddyf a ân, dy ewythr y brenin, a'i filwyr dewr, y rhai dd mewn brwydr, nid anhebyg yr olwg arnynt i nawon llewod? Esgeulusaist eiriau'r proffwyd ddywed 'Gwyr gwaedlyd a thwyllodrus ni ddant byw hanner eu dyddiau. Gwae di, rheithiwr, pan ddarffo it' anrheithio, y'th aneithir.' Pan addunedaist fyned yn fonach—gatfydd o ran pigiadau dy gydwybod—ac wedi i o frân yn golomen, ac ehedeg rhag ewinedd ulon y gwalch, i gelloedd diogel y saint, O faint asai llawenydd yr Eglwys, oni buasai i elyn nolryw dy dynnu di allan o'i mynwes hi! O, y buasai gobaith nefol yn calonogi yr ysbryddd cystuddiedig, pe buasit heb 'ddychwelyd ci at ei chwdfa.' n awr rhoddi dy aelodau yn au anghyfiawnder i bechod a diafol! Ni wrendy glustiau hyfrydlais disgyblion Crist yn canu wl i Dduw, ond dadwrdd gwenieithwyr celwyddyn canu dy fawl dy hun. Ie, yr wyt ti, fel ebol yllt, yn rhedeg trwy feusydd anwiredd, gan dybied fod y fan lle ni bu yn felysach, ac fyth yn myned rhagddo. Canys, gan ddirmygu dy wraig briod; ceraist wraig gŵr arall, ac yntau yn fyw; a hwnnw nid estron oedd, ond mab dy frawd. Ac i soddi dy war galed yn ddyfnach, bwriaist arni ychwaneg o bwys euogrwydd, gan i ti, trwy hoced y butain, ladd dy wraig dy hun a gŵr y llall, i'w chymeryd atat! Pa ŵr duwiol wrth glywed y fath beth, nad ocheneidia ei ymysgaroedd ynddo? Pa eglwyswr, yr hwn y mae ei galon yn union tuag at Dduw, na ddywed gyda'r proffwyd, 'Pwy a rydd i'm pen ddwfr, ac i'm llygaid ffynnon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion fy mhobl!' Nid oes diffyg cynghorion arnat ti, gan fod gennyt athraw sydd ddysgawdwr hyawdl agos i Bryden oll. O frenin, golch dy galon oddiwrth dy ddrygioni, ac na ddirmyga Dduw sydd yn dywedyd, 'Pa bryd bynnag y dywedwyf am ddiwreiddio, a thynnu i lawr, a difetha, cenedl neu frenhiniaeth; os y genedl honno y dywedais yn ei herbyn a drŷ oddiwrth ei drygioni, myfi a edifarhaf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi.'—Hefyd yn Deuteronomium, 'Cenedl heb gyngor ydynt hwy, ac heb ddeall ynddynt. O na baent ddoethion, na ddeallant hyn, nad ystyrient eu diwedd! Pa fodd yr ymlidiai un fil, ac y gyrrai dau ddengmil i ffoi?' Na fychana'r proffwydi, na ninnau chwaith, er ein gwaeled y rhai ydym, mewn mesur o ddiragrith a dwyfolder meddwl, yn dal ar air y proffwydi, rhag ein cael yn 'gŵn mudion.'"

Y mae Sieffre o Fynwy wedi defnyddio'r hanes hwn, neu draddodiadau am yr un brenhinoedd, ac wedi ychwanegu llawer ato o ryw gyfeiriad neu gilydd. Cynan oedd y Gwledig, ond y mae'n amlwg fod gallu Maelgwn yn cynyddu o hyd. Yr oedd ei dad, Caswallon Law Hir, wedi estyn terfynau Cunedda, trwy ddarostwng holl Wyddyl Gwynedd, neu eu gyrru'n ol i'r môr. Estynnodd Maelgwn fwy fyth ar derfynau teyrnas ei deulu. Darostyngodd ynys Môn, a daeth yn eiddo iddo; a dyna'r rheswm paham ei gelwir yn "ddraig yr ynys." Heblaw hyn, aeth mewn llongau i'r môr, a daeth ynysoedd ereill yn eiddo iddo; hen lochesfeydd y Gwyddyl a môr-ladron ereill. Dywed Sieffre, o ba le bynnag y cafodd y traddodiad, fod Maelgwn wedi cael holl Bryden dan ei lywodraeth, a chwech ynys gyda hi. Ni chafodd Maelgwn unbennaeth yr holl ynys, ac ni ddarostyngodd, "o fynych greulawn ymladdau," yr holl wledydd enwir gan Sieffre,—Iwerddon, Ysgotland, Orc, Llychlyn, a Denmarc. Eto i gyd y mae peth gwirionedd yn y traddodiadau hyn.

Yn un peth, y mae'n sicr fod Maelgwn Gwynedd wedi darostwng Gwyddyl Gwynedd yn hollol, wedi adeiladu llynges, ac wedi ymlid pob môr-ladron i'r Iwerddon ac ynysoedd y gogledd, gan osod ei arswyd arnynt. O'r cyfeiriad hwn nid oedd berygl mwyach.

Rhoddodd llwyddiant Maelgwn, mae'n ddiameu, fri mawr iddo,—"tecaf gwas o holl frenhinoedd ynys Pryden, diwreiddiwr llawer

o wyr creulawn cadarn." Yr oedd y tywysog enwocaf yng Nghymru'n cael enw'r Gwledig, fel yr oedd tywysog enwoca'r Saeson wedi hynny yn cael yr enw Bretwalda. Pan oedd Gildas yn ysgrifennu ei alarnad chwerw, Cynan oedd y Gwledig, ond yr oedd Maelgwn, er ei bechodau, wedi llwyddo. Cynan oedd teyrn Powys, yn ol pob tebyg, ac yr oedd y Saeson i ymosod cyn hir ar ei ochr ef o Gymru, fel yr oedd y Gwyddyl wedi ymosod ar ochr Maelgwn. Gyda glan y môr y cysylltir enw Maelgwn; ond, gan mai yn y gorllewin yr oedd mwyaf o berygl ar yr adeg hon, ar lan môr y gorllewin yr oedd lle i ennill brwydrau a chlod.

Pan oedd Maelgwn yn anterth ei lwyddiant, yr oedd eisieu Gwledig, ac ymgrymodd tywysogion ereill Cymru i frenin y gorllewin a'r môr. Pa un ai wedi brwydr ynte o'u bodd y rhoddodd y lleill ei goron iddo, nis gallaf ddweyd. Dywed traddodiad fod y tywysogion wedi ymgynnull ar y traeth ger Aber Dyfi, ac wedi eistedd yn eu cadeiriau ar lan y môr, i ddewis brenin ar holl Gymru. Penderfynwyd mai yr hwn fedrai eistedd yn ei gader olaf, heb gilio o flaen y llanw, fyddai brenin Cymru. Yr oedd rhyw wr o ran Maelgwn o'r wlad, o Arfon neu Feirionnydd, o'r enw Maeldaf Hen wedi gwneyd cader o edyn cwyredig i Faelgwn Gwynedd. A nofiodd honno, pan oedd y cadeiriau ereill wedi eu dymchwelyd, a'r rhai eisteddai arnynt wedi cilio i fyny'r traeth. Ac am hynny, coronwyd Maelgwn yn Frenin Cymru.

Beth bynnag arall ydyw ystyr yr hen draddodiad hwn, dengys fod Maelgwn wedi ei ddewis yn Wledig. A dengys hefyd, hwyrach, fod a fynno ei lynges rywbeth a'i ddyrchafiad. Ac felly daeth brenin y gorllewin a'r môr, yn ei gader nofiadwy, yn Wledig holl Gymru, yn ben ar yr holl fân frenhinoedd ereill.

Dywed Gildas mai mynach oedd Maelgwn unwaith, ac mai pechod oedd gadael ei fynachdy. Byddai meibion brenhinoedd yn aml yn cymeryd gwisg a llw'r mynach, gan ddewis tangnefedd y mynachdy yn hytrach na bywyd tymhestlog brenin daearol. I fynach fel Gildas nid oedd ond drygioni ym mywyd y byd, a'r mynachdy oedd unig noddfa crefydd a rhinwedd. Ond gallai fod Maelgwn, yn nhawelwch ei fywyd mynachaidd, wedi meddwl fel arall. Yr oedd y gelyn paganaidd yn bygwth Cymru, a dewisodd adael ei noddfa a'i weddi, i ymladd ag ef. A phan orchfygwyd y gelyn, yr oedd uchelgais a gwladgarwch yn gwneyd iddo feddwl am gader Gwledig ei wlad. Pa fodd bynnag, efe a'i deulu waredodd Gymru oddiwrth y Gwyddyl, efe roddodd arswyd ei enw ar fôr-ladron y gogledd, efe unodd frenhinoedd ei wlad dan ei lywodraeth ei hun.

Paganiaid oedd y gelynion orchfygasai Maelgwn. Cenhedloedd paganaidd oedd yn bygwth ymdaenu dros Gymru o'r Iwerddon a'r gogledd, yn ogystal ag o fôr y dwyrain. Wrth gymeryd iau Maelgwn Gwynedd, yr oedd y cenhedloedd paganaidd hyn yn cymeryd iau Cristionogaeth arnynt hefyd. Oes Cunedda Wledig a'i deulu oedd oes y seintiau Cymreig. Pan ddaeth gallu Maelgwn yn oruchaf ym Môr yr Iwerddon, dilynodd cenhadon Cristionogol ol ei longau. Dyma gyfnod effro yng nghenhadaeth Gristionogol Cymru. Tra'r oedd teulu Cunedda mewn awdurdod, daeth y Gwyddyl a'r Pictiaid barbaraidd, fyddai'n arfer anrheithio'r dalaeth, yn Gristionogion. Pregethodd Padrig Sant yr efengyl yn yr Iwerddon, adferodd Cyndeyrn Sant Gristionogaeth y gogledd, a phregethwyd yr efengyl i Wyddyl Dyfed gan Ddewi Sant,—yr hwn a wnaeth ei gartref yn Nhyddewi yn eu canol.

Derbyniodd Gwyddyl Cymru, felly, lywodraeth a chrefydd teulu Cunedda Wledig; ac ymledodd Cristionogaeth i'r Iwerddon, gan ddofi a gwareiddio'r llwythau oedd yno. O hynny allan, nid oedd berygl o'r gorllewin; o hynny allan yr oedd cysylltiad agos rhwng Cymru a'r Iwerddon. Daeth yr Iwerddon yn noddfa ffoaduriaid Cymreig; oddiyno, mewn adeg bwysig yn hanes Cymru, lawer canrif wedyn, y daeth Gruffydd ab Cynan a Rhys ab Tewdwr i Gymru'n ol.

Tra'r oedd Malgwn Gwynedd yn llwyddo yn y gorllewin, yr oedd pethau rhyfedd yn digwydd ar ochr ddwyreiniol y dalaeth. Yn y penodau nesaf clywn alar Llywarch Hen, a gwelwn balas Cynddylan yn adfail, heb dân, heb oleu.

NEB A RHYWUN.

Son y maent ar hyd y dyffryn,
Mai fi yw Neb a chwi yw Rhywun,
Os ceiff Neb chwi, gwenlliw blodau,
Bydd gwir Rhywun fy nghael innau.

WEDI EI GOLLI.

Nid af ddim i'm gwely heno,
Nid yw'r un wy'n garu ynddo;
Mi orweddaf ar y garreg,
Tor os torri, 'nghalon fwyndeg.

DEWI SANT.

oedd lliw marwolaeth dros Gymru fad;
'r Tywyll-oesoedd orchuddient y wlad.

wynfan wnai'n cenedl wrth y ser,
holi'n ofidus am ei Ner!

wawd oedd ei gwaedd ar edyn y gwynt
yd anialdiroedd yr hen amser gynt.

nd dacw yn codi Dewi fab Non,
en sant gwarcheidiol y genedl hon.

"Llef un yn llefain" ydoedd efe,
"Canwyll yn llosgi" yn anial y De!

wyn yw ei drem, a santaidd ei wedd,
c yn swn ei lais mae Efengyl Hedd.

afa i fyny yn Gymro byw—
c ar ei ysgwydd—golomen Duw!

yfyd ei lais i wynnu ei oes—
wynder o wawrddydd hen grefydd y Groes.

wyd y gelynion yn llu yn ei ben,—
hwifio wna yntau yr Hen Faner Wen.

huthro i'w erbyn wna Boia a'i blant,—
nd dal i bregethu wna Dewi Sant!

n Senedd Brefi y coda ei lef—
es ymgodi o'r bryn oedd o dano ef;

n swn ei eiriau, yn swn y GWAED—
ihunodd y mynydd o dan ei draed!

eithiodd a gweithiodd yn ddi-flin;
u'n ffyddlon i Dduw,—bu'n ffyddlon i ddyn.

ur oedd ei foes; a Dirwest wen
oes goron o flodau ar ei ben.

lannodd eglwysi i ddiffyn y Gwir,
rhoes elusennau i dlodion y tir.

raw yn Nhyddewi gerllaw y don,
ddysgu'r mynachod wnai Dewi fab Non;

ddynt, 'rol dydd o galedwaith llwyr,
or beraidd oedd clywed cloch yr hwyr!

r Hen Fynachlog mewn duwiol hwyl
ent megis "tyrfa yn cadw gwyl."

no 'r addolent mewn myfyr per,
'u hymnau a'u salmau swynent y ser!

c *felly* gwnai Dewi yn *unig* a *ch'oedd*;—
ynach *ac* Efengylydd oedd.

aliodd i fyny ar bant a bryn,
regethodd, nes aeth ei wallt yn wyn.

c yna, fe *hunodd* Dewi fab Non,
en Sant gwarcheidiol y genedl hon.

Trefeca. JOHN T. JOB.

Y GENHINEN.

I.

Yng Nghymru hen
Mae hyfryd wên
Y fwyn Genhinen werdd,
Yn tanio bron
Y Cymro llon,
Nes ennyn tôn a cherdd;
A'i serch cryf sydd,
Fel golau cydd,
Yn glir at Walia lân;
A'i enaid lŷn,
Am byth yn dyn
Yn nhelyn hon a'i chân;
O!'r Genhinen, y fwyn Genhinen werdd,
Dalen y bardd,
A'r Brython hardd,
A Chymru gwlad y gerdd.

II.

Ymffrostia'r Sais,
Ag uchel lais
Yn yr hoff rosyn hardd;
A'r Gwyddel ffri,
Er ei oer gri,
Ar y mwyn *shamrock* chwardd;
Ac ynteu'r gwalch
Ysgotyn balch
I'r *Thistle* sydd yn bur;
Na wawdier byth
Serch Cymro syth
At y Genhinen glir;
O!'r Genhinen, y fwyn Genhinen werdd,
Dalen y bardd,
A'r Brython hardd,
A Chymru gwlad y gerdd.

III.

Ein Dewi ni,
Anfarwol fri,
Orchfygodd estron gynt,
A chyda grym
Y cleddyf llym
Fe'i chwalodd gyda'r gwynt;
A'r enwog Sant
I'w hoffus blant
'Rodd Genin gwyrdd yn nôd,
A gwisgo 'rhain
Wna Cymry cain,
Wyl Dewi, er eu clod;
O!'r Genhinen, y fwyn Genhinen werdd,
Dalen y bardd,
A'r Brython hardd,
A Chymru, gwlad y gerdd.

Llangollen. HENRI MYLLIN.

DEWI SANT.*

"Will you mock at an ancient tradition, begun upon an honourable respect, and worn as a memorable trophy of predeceased valour?" SHAKESPEARE. *Henry* V. v. 1.

BLODEUODD saint Cymru rhwng y flwyddyn 300 a'r flwyddyn 700; yn enwedig yn y cyfnod rhwng 450 a 600. Yn ystod y cyfnod diweddaf hwn yr oedd Dewi Sant yn byw.

Yn yr adeg honno yr oedd Gwyddyl paganaidd, rhai wedi ymfudo o'r Iwerddon, hyd ororau gorllewinol Cymru. Darostyngwyd hwy gan Gunedda Wledig a'i deulu, yn enwedig gan Gaswallon Law Hir a Maelgwn Gwynedd. Y mae traddodiad yn cysylltu Dewi â'r teulu hwn, dywedir ei fod yn ŵyr i Geredig, mab Cunedda Wledig. A'i waith ef oedd pregethu'r efengyl i'r Gwyddyl oedd wedi eu gorchfygu,—gwelwn Badrig yn eu gadael, a Dewi'n dod atynt yn ei le. Ni wyddom fawr i sicrwydd am Ddewi, ond mai cenhadwr oedd. Eithr y mae ei enw wedi aros yn hanes Cymru, gan ennill clod o ddeffroad i ddeffroad. Y mae i bob deffroad fu yng Nghymru ei agwedd grefyddol, a Dewi Sant ydyw cynrychiolydd yr agwedd hon. Pryd bynnag y deffry Cymru, deffry ei theimlad crefyddol hefyd, gydag Arthur bob amser daw Dewi Sant.

PALAS YR ESGOB. TYDDEWI.

Yn yr unfed ganrif ar ddeg achubwyd Cymru rhag arglwyddi Normanaidd y goror gan Rys ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth, a Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd. Adeg deffroad oedd eu hadeg hwy, adeg chwilio hanes Cymru. A chyn marw Gruffydd ab Cynan yn 1137, yr oedd esgob Tyddewi wedi cyhoeddi anibyniaeth grefyddol Cymru trwy hawlio bod yn archesgob iddi. Yr adeg hon yr ysgrifennodd Sieffre o Fynwy yr hanes Cymru sydd, er pob dychymyg anghywir, wedi rhoddi cymaint o'u mater i lenyddiaeth Seisnig a Chymreig. A chyn iddo ef ysgrifennu ei "hanes," yr oedd Rhygyfarch wedi ysgrifennu hanes buchedd Dewi Sant. Bu Rhygyfarch farw tua 1097, yn y drydedd flwydd a deugain o'i oed. Mab oedd i Sulien Esgob, y doethaf o ddoethion y Brytaniaid, a thybid na chyfododd neb cyffelyb iddo yn yr oesoedd. Felly ysgrifennwyd hanes Dewi ini tua phum cant o flynyddoedd wedi ei farw. A dyma ei hanes.

Mab oedd Dewi Sant i Sanddo, fab Ceredig, fab Cunedda; ac olrheinir ei achau i Eirdolen, mab chwaer Mair, mam yr Iesu. Ychydig cyn geni Dewi, daeth Padrig i'r glyn a elwir Glyn Rhosyn; ac wedi gweled prydferthwch y fro penderfynodd aros yno. Ond daeth angel ato, a dywedodd,—"Rhaid i ti adael y lle hwn i fab na aned eto."

"Paham y trin yr Arglwydd ei was fel hyn?" ebe Padrig. "Mi a'i gwasanaethais ef er yn fab drwy ofn a chariad, a dewisodd o'm blaen i un na aned, ac un na enir am ddeng mlynedd ar hugain."

Anfonodd yr Arglwydd angel i dawelu y sant anfoddog. Gwnaeth yr angel iddo godi ei olwg, o le yng Nglyn Rhosyn a elwir eto'n Eisteddfa Badrig, a dangosodd iddo ynys yr Iwerddon. I'r ynys hon yr oedd Padrig i gael bod yn apostol, yr oedd i ddioddef ynddi, ac yr oedd Duw i fod gydag ef ym mhob peth a wnai. Cyn cychwyn, cododd ddyn o'r morfa, oedd wedi marw er ys pymtheng mlynedd, ac aeth hwnnw gydag ef mewn llong i'r Iwerddon.

Ddeng mlynedd a'r hugain wedyn, ganwyd Dewi yng Nglyn Rhosyn. Mab brenin oedd ei dad, a mynaches oedd ei fam. Methodd Gildas bregethu pan oedd Non, mam Dewi, ymysg ei wrandawyr, a phroffwydodd y byddai i'w mab gael llywodraeth ar holl saint Cymru, cyn dydd y farn, ac wedyn. A phan fedyddiwyd Dewi, cododd ffynnon yn y lle; a chafodd yr hen wr dall a'i daliodd ei olwg.

Daeth tymor addysg. Dysgodd Dewi e wersi cyntaf a'i Salmau yn Henllwyn; a

* Gweler *Rees' Cambro-British Saints*, am fuchedd Dewi gan Rygyfarch; *Ystorya Brenhinedd y Brytanyeit*, gan Sieffre o Fynwy, yn ail gyfrol Rhydychen (J. Gwenogfryn Evans, 7, Clarendon Villas, Oxford) o Lyfr Coch Hergest; Giraldus Cambrensis *De Legendis Sanctorum* yn y Rolls Series, a chrynhodeb yn llyfr Henry Owen ar "Gerald the Welshman" (London, Whiting & Co), tud 148—152; Iolo Goch, *cywydd i Ddewi Sant*, yn rhoddi'r traddodiadau ar gân, CYMRU i. 66.

welwyd colomen yn ei ddysgu, a phig aur anddi. Yna aeth at Bawl Hen, yr hwn a dysgodd yr Ysgrythyrau iddo. Ryw diwrnod cafodd Pawl Hen fod ei olwg yn wanhau, a gofynnodd gyngor ei ddisgyblon beth a wnai. Yn olaf un gofynnodd i Ddewi edrych ar ei lygaid, a rhoddi ei yngor. "Ni edrychais yn dy wyneb," ebe Dewi, "yn ystod y deng mlynedd hyn." Synnodd Pawl Hen at ei ostyngeiddrwydd, a gwedodd wrtho,—"Dyro dy law ar fy wyneb, a bendithia fy llygaid, a mi a fyddaf olliach." Wedi i Ddewi wneyd hyn, cafodd ar hen athraw ei olwg, a bendithiodd ei ddisgybl a phob bendith sydd yn yr Hen Testament a'r Newydd.

Daeth amser gwaith, amser crwydro i regethu hyd ororau Cymru, trwy Went a Morgannwg; ac o'r diwedd daeth Dewi i le o'r enw Hodnant, yng nglyn Rhosyn, gydag Sedan ac Eliud ac Ismael. Cyneuasant dân no yn y bore glâs, ac o'r tân cododd mŵg fawr dros yr ynys, gan guddio'r môr a awer o'r Iwerddon, ac arhosodd hyd bryd osber. Gwelodd Boia, tywysog y Gwyddyl, mŵg; ac aeth i ben craig uchel i alaru. an ofynnodd ei wraig iddo paham y galarai, ebodd,—"Y gŵr a gyneuodd y tân a ddianna'r wlad y ffordd y cerddo'r mŵg." Yr wyt yn ynfydu," ebe'r wraig, "cymer wŷr, dos, a lladd yr hwn a gyneuodd y tân ynnw ar dy dir heb dy gennad."

Aeth y gŵr, ond ni fedrent wneyd wed i Ddewi, gan ryw gryndod a ddaeth ostynt. Erbyn iddynt ddod yn ol yr oedd ll ddiadelloedd Boia,—yn wartheg, ychen, ffylau, defaid,—wedi marw, a'u llygaid yn ored. Tybiwyd mai gwaith y sant oedd n, gweddiwyd arno, rhoddwyd Hodnant eiddo iddo dros byth; a daeth y diadelldd yn fyw ac yn holliach.

Nid oedd gwraig Boia yn foddlon ar hyn. alwodd ei morwynion ati. "Ewch," heb , "hyd yr afon yssydd geyrllaw y sant, a osgwch ych dillat, ac yn noeth dywedwch thunt geireu aniweir, kywilydus." Yr dd cymdeithion Dewi am adael y lle, ond orchfygwyd Dewi gan yr ystryw hon hwaith.

Yna penderfynodd y wraig ddrwg alw lw ei duwiau creulon trwy aberthu iddynt erth dynol. Ac ebe hi wrth ei llys-ferch, "Tyrd gyda mi i gneua i Dwyn Alun." Mi ddof," ebe'r eneth. Wedi cyrraedd fnder y glyn, gwnaeth gwraig Boia i'w sferch roddi ei phen ar ei glin, ac yno ddodd hi. Ond ni thyciodd hyn ychwaith; ddaeth duwiau'r hen baganiaeth i wrthnebu pregethwr Cristionogaeth. Ond eth rhyw elyn i Foia heibio, pan nad oedd yn disgwyl drwg, cafodd ei ddrws yn agored, a thorrodd ei ben.

Nid oedd ond ychydig o ddwfr rhedeg yng Nglyn Hodnant; gweddiodd Dewi am aber, ac yn yr aber yr oedd dwfr a gwin. Cododd ffynhonnydd ereill yn y fro hefyd, a iacheid y cloffion a'r deillion ddoi iddynt. Ond, er hyfryted y fan, nid oedd bywyd hyd yn nod sant yn berffaith ddi-berygl. Penderfynodd un o'i frodyr crefyddol roddi gwenwyn i Ddewi mewn tamaid o fara. Daeth angel i ddweyd wrth Aedan am y perygl, ac anfonodd hwnnw at Ddewi. Pan roddwyd y bara gwenwynig yn ei law, torrodd Dewi ef yn dri darn,—rhoddodd y darn cyntaf i ast safai gerllaw, yr hon a syrthiodd yn farw yn y fan; rhoddodd yr ail i frân oedd yn eistedd ar gangen coeden onnen uwch ben, a syrthiodd y frân i lawr i'r nant; bwytaodd y trydydd darn ei hun, ac ni ddigwyddodd iddo niwed.

Wedi hynny yr oedd Cymanfa Brefi. Yr oedd yr holl Gymry yno,—yn dywysogion, yn esgyb, yn gyfreithwyr, yn werin. Yr oedd eisieu un i wrthwynebu Pelagiaeth, ebe un hanes. Yr oedd eisieu un, meddai hanes arall, y gallai'r holl dyrfa glywed ei lais; ac os ceid un felly, yr oedd i fod yn ben ar holl saint Cymru. Treiodd llawer un, ond ni chlywai un ran o ddeg o'r bobloedd ef. Yna cododd Pawl Hen i ddweyd fod ym Mynwy wr ieuanc hardd a rhinweddol, yn caru Duw ac yn cael ei garu gan Dduw, ac angel gydag ef, yn ddysgawdwr ac yn archesgob.

Pan glywodd y saint hyn, anfonasant genhadon at Ddewi. Gwrthodod eu galwad ddwywaith, ond daeth pan anfonwyd Deiniol a Dyfrig ato. Ar y ffordd cyfarfyddodd gwraig hwynt, ac yr oedd ei hunig fab yn gorwedd yn farw. Gweddiodd Dewi, daeth y bachgen yn fyw. Wedi cyrraedd y dyrfa, bu'n gwrthod pregethu am beth amser. Ceisient wneyd iddo sefyll ar ben bryn, eithr ar y gwastad y mynnodd sefyll. Wrth iddo bregethu, â llais clir fel udgorn, am gyfraith ac efengyl Crist, cododd y ddaear yn fryn odditano. Y mae y bryn yn aros eto, ger Llanddewi Brefi.

Wedi hyn aeth clod Dewi Sant drwy'r wlad, a gosodwyd ei awdurdod ar yr holl wlad o Dowi i Deifi. Ac o'r diwedd, daeth llais Duw ato i ddweyd y cai adael y byd drwg, ac y doi prydferthwch nef a daear i'w gyfarfod ar y dydd cyntaf o Fawrth. Pan glywsant yr oedd saint a myneich yn cwynfan; gofynnai'r disgyblion pwy a'u dysgai, yr offeiriaid pwy a'u cynhorthwyai, y brenhinoedd pwy a weddiai drostynt; yr oedd pawb yn wylo, i'r baban ar y fron.

Y cyntaf o Fawrth, ynghylch canu y

ceiliog, yr oedd angylion wedi llenwi Tyddewi â llawenydd ac â chân, ac yr oedd yr haul yn tywynnu ar lengoedd disglaer o angylion pan ddaeth yr Iesu i geisio Dewi Sant. Wedi ei newyn a'i syched, wedi ei anwyd a'i lafur, wedi ei ddirwest a'i gardodau, wedi ei ofidiau a'i demtasiynau a'i feddwl am y byd, aeth Dewi Sant i wlad goleuni heb ddiwedd, gwlad gorffwys heb lafur, gwlad llawenydd heb dristyd, gwlad buddugoliaeth a chlaerder a thegwch, gwlad iechyd heb ddolur, gwlad ieuenctyd heb henaint, gwlad heddwch heb gynnen, i ganu mawl Crist gyda'r angylion a'r saint.

Casglodd Rhygyfarch draddodiadau, a gwnaeth hanes Dewi o honynt. Ond y mae wedi rhoddi lliw ei oes ei hun arnynt,—awydd Cymru'r unfed ganrif ar ddeg am undeb ei saint a'i hanibyniaeth. Wedi marw Rhygyfarch, daeth Giraldus Cambrensis, ac efe ymladdodd frwydr olaf Cymru am ei hanibyniaeth eglwysig. Wrth ddadleu ger bron Innocent Bab mai i Eglwys Rufen yn uniongyrchol yr oedd Eglwys Cymru wedi ymostwng, ac nid trwy Eglwys Loegr,—wrth ddadleu hyn dywedodd hanes Dewi Sant. Cread dychymyg oedd archesgobaeth Tyddewi, ond yr oedd anibyniaeth Eglwys Cymru'n ffaith. Yn ei hanes Dewi dywed rai pethau newyddion,—megis hanes gwenyn yn mynd i'r Iwerddon o Dyddewi, a hanes yr angel ddaeth i orffen mewn llythrennau aur yr efengyl oedd Dewi ar ganol ei hysgrifennu. Tua 1223, cladd wyd Giraldus yn Nhyddewi, wedi methu ennill ei hanibyniaeth i Eglwys Cymru, yr hon hyd heddyw sydd dan lywodraeth un o arch-esgobion Lloegr.

Ond er nad oedd cartref Dewi'n archesgobaeth, yr oedd mewn bri mawr ymysg y Cymry. Llawer pererin fu'n teithio yno, dros fryniau moelion Penfro, gan dybied fod dwy siwrne i Dyddewi yn gymaint o les i'w enaid a phe crwydrasai ar bererindod i Rufen ei hun. Yng nghanol rhyfeloedd cynhyrfus Owen Glyn Dŵr yr oedd Iolo Goch yn hiraethu am y llecyn tawel pell ar lan môr Dyfed,—

"Gwyddwn lle mynnwn fy mod,
Ys deddfol yw'r eisdeddfod,—
Ym Maenol Ddewi 'm Mynyw,
Mangre gain, myn y grôg, yw.
Yng Nglyn Rhosyn mae'n iesin,
Ag oliwydd, a gwŷdd, a gwin;
Ademig, miwsig, a moes,
A gurlef gwyr, ag arloes;
A chytgerdd hoyw, loeyw lewyrch,
Rhwng organ achlân a chlych;
A thuriblwm trwm tramawr,
Yn bwrw sens i beri sawr;
Nef nefoedd yn gyhoedd gain,
Ys da tref, ysdad Rhufain;
Paradwys Gymru lwys lefn,
Pôr dewis-drefn pur dwys-drefn"

Lle tlws yw Tyddewi, lle tawel, un o lecynnau prydferthaf Cymru. Y mae'r eglwys gadeiriol mewn gwell trefn nag y bu er y Diwygiad Protestanaidd, ond y mae hen balas yr esgob yn adfeilion. Rhed aber dryloew o adfeilion y palas, neu o ryw ffynnon rinweddol sydd ynddynt, ac ymdroella dan furmur, fel genethig yn mynd adre o'r capel, drwy'r dyffryn bach tlws tua'r môr. Nid rhosynau na blodau gardd sy'n tyfu yno, ond blodau gwylltion Cymru,—llysiau'r mel a chwilys yr eithin, blodau'r grug a hesg, eithin a rhedyn Mair. Ac y mae'r dyffryn yn ddarlun o brydferthwch a sirioldeb iechyd. A meddyliwn am y blodau y gellid dweyd am danynt eiriau Iolo Goch am offeiriaid Dewi, y "cain gler fu'n canu gloria" ar ei fedd,—

"Engylion nef yng nglan nant."

Yn 1228 y gwnaeth Calixtus Bab Ddewi'n sant. Ac y mae Cymry wedi ei dderbyn yn nawdd-sant cenhedlaethol. Eleni sonnir am ei enw mewn gwledydd na wyddai ef ddim am danynt, ac yn ei iaith ei hun, gan rai'n gwisgo'r hen genhinen werdd. Gwyn fyd Cymru fod ganddi Ddewi'n sant. Puro a sancteiddio oedd ei waith, gyrru ymlusgiaid gwenwynig ac ysbrydion aflan o'r wlad. Er fod llawer canrif er y

"Duw Mawrth calan, Mawrth y medd,
I farw aeth ef i orwedd,"

y mae ei waith, er pob rhwystrau, yn mynd ymlaen. A chyn hir, pan berffeithir sobrwydd a glendid a gwirionedd yng Nghymru, gellir dweyd am holl wlad y bryniau fel y dywedid unwaith am dir Dewi,—

"Ni sang cythraul brycheulyd
Ar ei dir byth, er da'r byd."

BRITH.

Brith yw ser ar noswaith olau,
Brith yw meillion Mai a blodau;
Brith yw dillad y merchedau,
A brith gywir ydynt hwythau.

MEBYD.

Hawddfyd i ddydd yr Awen,
Pan oeddwn gynt yn fachgen,
A chyda'r gog yn canu'n fwyn
Yng nghyfer llwyn yn llawen.

CYMRU'R BEIRDD.

I ddiddanu fy hunan, ar yr eira trwchus hir-gofiadwy ddechreu Ionawr, cymerais yn fy mhen y nymhwy o chwilio a chwalu fy holl hen bapurau llawysgrifen, a'm llyfrau, am ddarluniau y beirdd o'r rahanol leoedd Cymreig. Llwyddais i raddau yn well na'm hyder, er, mae'n ddilys, fod ugeiniau o ddarnau'n barod i'w casglu eto, – heb fod yn fy meddiant ac allan o'm gwybodaeth.

Y mae y darluniau geiriol hyn yn taflu yn ddyddorus i ni gip-oleuni ar gymeriad a safle lluaws o refydd a phentrefydd Cymru Fu, ac y mae ambell i awgrym yn hynod nodweddiadol am rai o'r lleoedd grybwyllir hyd heddyw.

Rhoddwn ddyddiad y ffwyddyn eu cyfansoddwyd hyd ag y gellir, gan eu gwahanu yn ddwy adran,—en a Chanmoliaeth.

Nanmor, Beddgelert. CARNEDDOG.

I.

SEN Y BEIRDD.

I. TRAWSFYNYDD.

Trawsfynydd hen le hyll,
Dynion cam yn torri cyll.

HEN DDYWEDIAD.

II. MAWDDWY.

Tri pheth o Fawddwy a ddaw,—
Dyn adgas, nod glâs, a gwlaw.

HEN DDYWEDIAD.

III. LLWCHWR (YN Y DEHEUBARTH).

Llwchwr lwyd,
Lle llawn am dân,
Lle llwm am fwyd.

HEN DDYWEDIAD.

IV. LLACHARN LWCHWR.

Lacharn Lwchwr lwyd,
Lle nad oes bwyd am arian,
Dwr i ych, na cheirch i farch,—
O! pwy rydd barch i Lacharn?

HEN DRIBAN.

V. LLANFYLLIN.

Mae pobl Llanfyllin a'i bro
Yn wastad fel cacwn yn heidio,
Hwy ddeuant yn llu ar fyr dro
I'r heol i weled pob cyffro.

HEN DRIBAN.

VI. LLANGYFELACH.

Llangyfelach hynod,
Wyt ddigon hawdd dy 'nabod,
Y clochdy fry, a'r eglwys obry,
Pa fodd y bu'r anghydfod?

HEN DRIBAN.

VII LLANGURIG

Llangurig le mynyddig,
Lle gweriais a gefais i gyd,
Rhwng plant annwn a chywion ynfyd,
Chifflers a *beggars* y byd!

DAFYDD MANUEL, 1700.

VIII. BEDDGELERT.

Beddgelert le tlodaidd, ond sych foneddigaidd,
A'i hepil mor drymaidd, mor bruddaidd yn bod;
Lle noethlwm i'n rhynu, lle'r gwynt yn ein 'sgythru,
A'r gwlaw yn ein dyrnu bod diwrnod.

HYWEL GRYFFUDD, 1830.

IX. Y BALA.

Lladronaidd, ffiaidd yw'r ffau—is llyn,
Oes llonaid cornelau
O faw anial,—gwae finnau—
Ffei nythod llygod a llau!

SION ROTSIER, 1690.

Y Bala, lle bawa'n y byd—drwy'u gilydd,
Drigolion gwenwynllyd;
Llawn bariaeth, afiaeth hefyd,
Y glapiog glêr yn glep i gyd!

PWY?

X. LLANRWST.

Tre'r dom, lom, wael yw yma,*—Ow! trafael
Tref yn ail Gommora;
Tre'r medd, dod trwy ormod trahâ,
Tre'r tyndraws, tre'r puteindra!

EDWARD MORUS, Perthi Llwydion, 1680.

O! hen feddwon anghyfaddas—Llanrwst,
Sy'n llawn o'r war ddiflas:
Hyd heno a gaed dinas
Na lle 'rioed, a llai o râs?

J. D. CONWY, Nôs Nadolig, 1877.

* Gan i mi fethu a gwneuthur allan y llinell hon o'm papur, digon tebyg nad fel hyn y mae yn y gwreiddiol.

XI. HARLECH.

Ar lêch o faen mae Harlech i fod.
HEN LINELL.

Corlech yw Harddlech, fel chwrli—gwgan,
A'i gogwydd ar foddi;
Cwrrog hyll mewn craig yw hi,
Wâg dre' gorn—cig drwg arni!
EDWARD MAELOR *

Tref fyglyd, ddrewllyd, ddrylliog,—a dinas
Dynion dau-wynebog;
Gwyr llawen a gwarrau lleuog,
Pawb o'r un râdd, pob un yn rôg! †
LLEWELYN TWROG, 1847.

XII. CRICIETH. ‡

Di drysor yn min môr yw'r man,—garw
O gerryg a gwman;
Gwaela'n Ngwynedd, o wêdd wan—
Nychiad o dre', Och o druan!
SION ROTSIER, 1690.

XIII. FFESTINIOG.

Ffestiniog le creigiog crôg,—ddu anial
I ddynion anwydog;
Ni weinia cledda'n lle clôg,
Na phais deneu'n Ffestiniog!
HUW MORUS, Perthi Llwydion [?], 1680.

XIV. AMLWCH.

Amlwch, Ow! synnwch wrth sôn,—ffei honi!
Ffau hynod drwg ddynion;
Lle ofer, Och bo'r llyfon!
Lle bendith, lle melldith Môn!
DAFYDD DDU ERYRI, 1810.

*Ai yr un yw hwn ag Edward ab Rhys Maelor, bardd tua chanol y 15fed ganrif? Ie, mae'n debyg. Efe gyfansoddod yr englyn hwnnw i Harri VIII. pan orchymynnodd efe i ddynion dorri eu gwallt a gadael i'w barfau dyfu,—

"Y sawl a fynno'n ddi sen—ymostwng
I'w meistr yn Llunden;
Gaded ei farf yn geden,
A dêl i'w go bowlio'i ben!"

†Tra ar ei ymdaith yn Harlech, acth Llewelyn Twrog i weled y Castell, a gedwid gan ddyn o'r enw *James*. Beth wnaeth y bardd ond ysgrifennu yr englyn uchod yn *Llyfr Ymwelwyr* y Castell. Pan welodd James ef, ffromodd yn aruthr, a thorrodd y ddalen i ffwrdd, neu buasai "gwyr llawen" pen tref Meirion yn ei lâdd yn "lêch farw."

‡Nid yn aml y gwelir lle yn cael ei alw ar gymaint o wahanol enwau a "Hen dref Syr Hywel y Fwyall." Gwelsom ei galw —Crikieth, Crikerth, Criciaeth, Cruggaeth, Criccerth, Crugcerth, Cricciath, &c.

Beth fyddai barn yr hên *Sion Rotsier* am Gricieth 1892 tybed, gyda ei thai gorwych, a'i miloedd ymwelwyr hâf?

XV. LLUNDAIN. *

Llundain fawr, a mawr ei moes—nid ydyw
Ond adail o ddrygfoes;
Gwenwyno egin einioes,
Gwanhau a byrhau ber oes!
DEWI WYN O EIFION, 1823.

Anoddefus gan ddufŵg—yw Llundain—
Ei llon'd o dywyllwg;
Diffwys yn arllwys mwrllwg—
Dinas fawr dan nos o fŵg!
ERYRON GWYLLT WALIA, 1849.

Da yw Llundain gain am giniaw—a bwyd,
Drwy na baid yn waglaw;
A lle drwg oll i drigaw
I ddyn llwyd heb dda yn llaw!
PWY?

XVI. PORTHMADOG.

Daear o ddiffrwyth dywod—a halltwyd
A melldith twrneiod;
A dyffryn ar derfyn a dod
Yn llawn d'reidi, yn llyn drewdod!
IOAN MADOG, 1873.

XVII. NEFYN.

Lle penwaig a saig i segur.
HEN LINELL.

XVIII. ABERDARON.

Y gwirioniaid geir yno!
HEN LINELL.

XIX. RHOS LAN.

Rhos Lan y fan difendith!
ROBERT JONES, Ty Bwlcyn, 1790.

XX. DOLGELLAU.

Dôl a gollir yw Dolgelle,
Daear a'i llwnc—dŵr yn ei lle!
HEN DDYWEDIAD,—Brud a Darogan.

II.

CANMOLIAETH Y BEIRDD.

XXI. NIWBWRCH, MON.

Hawddamawr mireinwawr maith,
Tre Niwbwrch trwy iawn obaith!
A'i glwysdeg deml a'i glasdyr,
A'i gwin, a'i gwerin, a'i gwyr,
Coety'r wlad rhag ymadaw—
Cyfnither y nef yw'r dref draw!
DAFYDD AB GWILYM.

* Yr ydym yn cymeryd Llundain yn gysylltiol â Chymru fel yn ganiataol, trwy fod pob cenedl yn trigo yndd.

XXII. LLANGOED, MON.

Lle awengar yw Llangoed!

HEN LINELL.

XXIII. PENMYNYDD, MON.

Cariadus ddawnus ddynion
Y sydd yn Mhenmynydd Môn!

LEWIS MORRIS (Llewelyn Ddu o Fôn), 1756.

XXIV. MALLWYD.

Plwy Mallwyd, ple mae well-well,
Cludem i hwn glod yn mhell—
Y mae f'wyllys am Fallwyd
Ys da ryw fan i 'stor o fwyd!

MATTHEW BROOMFIELD, 1550.

XXV. LLANENDDWYN.

Llŵch Enddwyn sy'n llechu ynddo.

HEN LINELL.

XXVI. LLANBRYNMAIR.

Llanbrynmair llun bron merch.

HEN LINELL.

XXVII. LLANDANWG, GER HARLECH.

Llandanwg llanw a'm tôdd.

HEN LINELL.

XXVIII CLYNOG FAWR YN ARFON.

Ardderchog Glynog lonydd!

EBEN FARDD.

XXIX. LLANGYBI.

Llangybi lân
Os heb arian.

HEN DDYWEDIAD.

XXX. ABER DAR.

Yn Aber Dâr mae teiau
O'r harddaf sy' mewn blaenau,
Cwrw cryf a dewis ich',
Ac hefyd wych ffynhonnau.

HEN DRIBAN.

Caf gwrw cryf yn Aber Dâr,
O'r gora' gâr fy nghalon!

HEN DDYWEDIAD

XXXI. CRICIETH.

Hon yw Crucciaith a'i gwaith gwiw!

IOLO GOCH.

Uchelgaer uwch y weilgi—mŷg amlwg—
A'r môr-gymlawdd dani;
Pan fu llef y cantrefi,
Och! waedd hallt—iach oedd hi!

TWM O'R NANT, 1817.

XXXII. HARLECH.

Amlwg Gaer Tanwg wyt ti,—Tŵr Bronwen
Yn toi'r bryn lle sefi;
Caer Collwyn ar glogwyni—
Hardd ar lech, Harlech yw hi!

ELLIS OWEN, Cefn y Meusydd, 1840.

XXXIII. DOLGELLAU.

Gwyr uniawn hygar waneg
Yw gallu Dolgellu dêg!

OWEN EFANS (Owen Gwynedd), 1560.

Dolgellau sydd yn cysgu
Ar lannerch deg o dir,
Rhwng dwy-ffrwd loew'r dyffryn,
O dan y clogwyn clir;
Mae rhywbeth pur gyntefig
A gwledig iddi'n glod,
Hen ddull yr oesoedd astud
Rydd arni urdd o nôd!

GLASYNYS.

XXXIV. TRAWSFYNYDD.

Miliwyn o bennau moelydd—a welir
O waelod Trawsfynydd;
Arennig yn Meirionnydd
Beunes hen yn benna' sydd.

PWY?

Trawsfynydd sydd yn synnu
Ar drem y drumawg fro,
O'r 'Rennig i'r Eryri
Ymrithient yn eu tro;
Mae'r olwg yn ardderchog
Ar fryndir Meirion wyllt,
Lle da am gig ac enllyn,
A meillion gwlad ei myllt!

GLASYNYS.

XXXV. LLANFACHRETH.

Llanfachraith llonnaf ochrau!

GLASYNYS.

XXXVI. LLANELLTYD.

Llanelltyd yma welaf
Yn ddestlus dreflan fach,
Yn hynod sych fonheddig
Fel pe o uchel ach.

GLASYNYS.

XXXVII. CAERNARFON.

Caernarfon, hirion gyrn heirdd,
Ar fin môr, goror llif gwyrdd;
Mae yn hon,—rhaid cofio'n cerdd,—
O fân a mawr fwy na myrdd!

Uwch y dŵr mae Tŵr tirion—ag Eryr
Ar gaerau Caernarfon;
Gwelir wrth rai argoelion
Tŵr mwy na moelydd tir Môn!

DAFYDD DDU ERYRI, 1807.

XXXVIII. SELATYN, Ger Croesoswallt.

Selatyn ar fryn freiniol—a hyfryd,
Hoew fron gymhwysol;
Lle da addfwyn llu deddfol,
Geirda rho'wn i'r gwyr da'u rhôl!

Jonathan Hughes, 1748.

Selatyn ddygyn ddiogel—cynnes,
Ail Canan Israel;
Llywaeth a mwyn llaeth a mêl,
Loewa' iachus le uchel!

Arthur Jones, 1718.

Lle cynnar glaiar fal glyn,—er iachus
Ar ochor y boncyn;
Bron îr brâs ar ben bryn
A soel ŷdtir yw Selatyn!

Eurfrig fro ysdig frasdir—di-oerfel,
Ar derfyn y ddwysir;
O ddioldiog dda ddoldir
Lle gwreiddia bara a bîr!

John Edwards, 1748.

XXXIX. BEDDGELERT

Beddgelert, lannerch lonydd,
O'th gylch mae'r creigiau serth,
Yn furiau rhag tymhestloedd
Yn gaerau rhag ei nerth;
Yr harddaf o'n têg nentydd,
Mor gain a thlŵs ei gwêdd,
Mae yma fywyd llawen
Er bod *ar waelod Bedd!*

Glasynys.

Beddgelert foddia'r galon,
Mae yma geinion gant—
Mynyddau ban a chreigiau certh
A'r dawel brydferth nant,
Yn gwenu ar eu gilydd,
Heb wg ar wyneb un,
Y ddôl a'r mynydd, nant a bryn,
Mewn cariad yn gytûn.

Glaslyn.

XL. LLANBOIDY, yn y Deheubarth.

Llandref, neu bentref yn bantri,—ardal
Irdwf, pan'n cyflenwi
Haidd, gwenith, llefrith yn lli'—
A llawn bwyd yw Llanboidy!

Nathan Dyfed

"AMEN."

I.

Ni allaf ddweyd—dan bwys
Gofalon bywyd, a'i bryderon dwys,—
"Yr oll, llawenydd yw;"
Ond mi a allaf ddweyd
Mai rhodio'r llwybr garw wyf am wneyd,
Os hyn sy dda gan Dduw.

II.

Ni allaf deimlo chwaith
Mai gwyn fy myd pan fo cymylau maith
Yn cuddio haul y nef;
Ond, wedyn, gwn fod Duw
Yn gariad oll, a'm hiaith, gan hynny, yw—
"Gwnaer ei ewyllys Ef."

III.

Ni allais weld erioed
Paham y goddef Duw rai pethau i fod
Ac yntau'n gariad pur;
Ond gwelaf ambell awr
Ei law lywyddol, drwy'r dirgelwch mawr,
Er nad yn gwbl glir.

IV.

Fy siarad nid yw rydd
O'r acen leddf—mae'r deigryn ar fy ngrudd
Yn dyst o brudd-der bron;
Ond siriol siarad wnaf
Am nerth i ddioddef pob caledi gaf,
Nes gwneir fy lleddf yn llon.

V.

Ni chwiliaf bethau'r llawr,
Na thudalennau rhyfedd anian fawr,
I ddarllen tynged dyn;
Ond ceisiaf chwilio'n iawn
Hen femrwn Duw, a'i addewidion llawn,
A disgwyl yn ddigryn.

VI.

Y dagrau brwd, nid wy'n
Ymdrechu eu dal, ond cadwaf lawr y gŵyn
"O na fai'n well nag yw;"
A gwnaf fy ngoreu i droi
Pob murmur draw, ac hyd y medraf roi
"Amen" i drefn Duw.

Abertawe. *Cyf.* R. Morris Lewis.

HEN DEULUOEDD CYMRU.

I. TEULU MADRYN.

PWY yn fwy teilwng o goffhad na hen deuluoedd pendefigaidd sydd wedi bod ers oesoedd yn llawn cydymdeimlad a'r bobl? Ar ben y rhestr gellir gosod teulu Madryn.

Mae y teulu hwn wedi bod yn llawn o gydymdeimlad a'r bobl er dyddiau Oliver Cromwell, a chyn hynny. Mae yr enw hwnnw yn y teulu ymhob cenhedlaeth o hynny allan yn awr yn arwyddocaol iawn,—*Love*, *Lariad*—at y bobl. Nid oes yr un pall wedi bod yn y teulu yn y rhinwedd yna, o'r Love cyntaf a fu farw Medi 16, 1707, yn 53 oed, hyd y Love diweddaf, a fu farw Rhagyr 18, 1891, yn 59 oed,—"y gwron o Madryn," Syr Love Jones Parry. Bu pedwar gwahanol etifedd yn y teulu rhwng y ddau uchod, a Love oedd enwau tri o'r pedwar. Yr oedd Jeffrey Parry, tad y Love cyntaf, yn swyddog ym myddin Oliver Cromwell, ac yn un o'r pregethwr Ymneilldduol. Fel holl swyddogion milwrol Cromwell, yr oedd yn un crefyddol iawn. Byddai yn arfer pregethu i'r milwyr oedd tano a'u cynghori. A'r cyngor fyddai yn roddi iddynt yn fynych iawn fyddai,—*Love God*. Mor fynych y byddai yn rhoddi y cyngor yna fel yr oedd hyn wedi myned yn "acen" ymhlith y swyddogion a'r milwyr. A dyna fel y byddai Oliver Cromwell yn ei alw—*Love God Parry*. Fel yna, meddir, y daeth yr enw Love i'r teulu.

Yr hwn a ddaeth a'r cyfenw Parry gyntaf i'r teulu oedd y Jeffrey Parry y cyfeiriwyd ato. Mab oedd efe i Mr. Parry, Paston, Sir Henffordd; a daeth i gysylltiad â theulu Madryn trwy briodi Margaret, merch ac aeres Hugh Hughes, Cefnllanfair. Y lle y bu efe yn byw oedd Rhydolion, hen balasdy ym mhlwyf Llangian yn Lleyn, yr perthyn i'r etifeddiaeth. Mae yr hen balasdy yn aros eto, heb nemawr gyfnewidiad, a golwg urddasol a henafol arno, ac erbyn hyn yn amaethdy parchus yr olwg. Byddai Jeffrey Parry yn afer pregethu yn ei dy, i'w gymydogion. Yr oedd ganddo bulpud wedi ei osod i fyny yn ei balas, yr hwn oedd yn sefyll hyd ddyddiau Ieuan Lleyn, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1832. Ac y mae darn ohono yn aros hyd yr awrhon, ac wedi ei fframio yn gryf ac yn hardd gan y diweddar Syr Love Jones Parry, a'i osod ar bared y neuadd, a'r argraff ganlynol wedi ei gerfio arno,—

HEB DDUW HEB DDIM, DUW A DIGON—Jos. i. 15; Salm xvi. 11; Heb. xiii. 5.

Bu Howell Harris yn pregethu yn Rhydolion, y tro cyntaf y bu ar daith yn Sir Gaernarfon, yn y flwyddyn 1741; a digon tebyg mai yn hen bulpud Jeffrey Parry,—yr oedd yn sefyll ar y pryd,—y safai. Nid yw ond peth posibl fod ambell un yn gwrando oedd wedi bod yn gwrando ar Jeffrey Parry o'r un hen bulpud. Mi a gredaf, beth bynnag, fod ol pregethu yr hen foneddwr yn aros hyd amser Howell Harris. Nis gallaf, heb feddwl hynny, roddi cyfrif am y ffaith fod Ymneilldduwyr yn yr ardal ar ddyfodiad cyntaf Howell Harris i'r wlad. Pregethodd Howell Harris yno ddwy waith, ac yr oedd yn hoffi yn fawr yr olwg syml oedd yn gael ar y gwrandawyr. Dyma ei eiriau ef ei hun,—

> "Mi a obeithiaf fod drws wedi ei agor yma i'r Gair . . . Mi a bregethais gyda nerth anghyffredin. Yr oedd llawer yn wylo, a rhai yn gwaeddi allan. Mae yn sier nad ydyw rhwyd yr efengyl ddim wedi ei thaflu yn ofer. . . . Yr wyf yn diolch am y nerth hapus oedd yma yn ein toddi i lawr i gyd."

Digon tebyg mai yn yr hen bulpud y bu hyn. Ond nid yw y daioni a wnaed trwy gyfrwng yr hen bulpud yn ysgrifenedig yn llyfrau y ddaear, ond y mae yn ysgrifenedig yn llyfrau y nefoedd; a byddant yn cael eu hagor a'u darllen yn "y dydd mawr."

Fel y cyfeiriwyd, yr oedd Jeffrey Parry yn swyddog ym myddin Oliver Cromwell, ac yn bregethwr. Yr oedd hefyd yn un gwir grefyddol, ac yn blaenori mewn gweithredoedd da a chymwynasau i'r ychydig grefyddwyr difrifol oedd yn y parthau hyn y pryd hynny. Er prawf o hynny rhoddaf ddyfyniad o lythyr Major General Jones, neu fel yr adnabyddid ef oreu, Col. Jones, swyddog arall ym myddin Cromwell, at Cad. Wray, ceidwad Castell Beaumaris, Ebrill 28, 1657,—

> "Dymunaf arnoch hefyd dalu pum punt i Cornel Jeffrey Parry, yr hwn sydd yn byw yn agos i Bwllheli, yn sir Gaernarfon. Gofynnwch iddo ef eu cyfrannu i'r rhai sydd yn rhodio yng nghymdeithas yr efengyl yn y sir honno. Dywedwch y disgwylir iddo eu rhoddi yn y fath fodd ag a fyddo oreu i gefnogi y rhai sydd yn dwyn ymlaen waith yr efengyl yno, pa un bynnag ai i gynorthwyo y tlodion ai i rywbeth arall. Dymunaf arnoch hefyd dalu ugain punt i'r sawl a benodir i'w derbyn gan Mr. Morgan Lloyd trwy *note* o dan ei law ef. Bwriadaf hefyd roddi yr un swm i'r un diben mewn lleoedd ereill, lle y mae angen."

Yr oedd General Jones, awdwr y llythyr uchod, yn enedigol o Faes-y-garnedd, ger Llanbedr, Sir Feirionnydd, a dringodd i gyfrifoldeb ac enwogrwydd mawr yn ystod

Gwerin-lywodraeth Oliver Cromwell. Bu yn briod a chwaer Cromwell; ac yr oedd yn Gymro o "waed coch cyfa." Ceisir pardduo ei goffadwriaeth trwy ei alw yn *Regicide* (Brenin-leiddiad) am ei fod yn un o'r trigain namyn un a lawnododd ddedfryd marw Siarl y Cyntaf. Ond y mae y llythyr uchod yn brawf ei fod yn un oedd yn "meddwl am ei enw Ef." Ac y mae y geiriau a ddywedodd yn ymyl ei farwolaeth, geiriau sydd ar gael eto, yn dangos ei fod yn ddyn duwiol iawn, er iddo gael ei ddienyddio yn 1660.

Priodolir sefydliad yr eglwys Ymneilldnol gyntaf yn Sir Gaernarfon, sef eglwys Capel Helyg a Phwllheli, i'r Parch. John Williams, ond y mae yn amlwg fod Jeffrey Parry wedi bod yn gynhorthwy mawr iddo, ac yn golofn gref o dan yr eglwys fechan yn ei gwendid. Yr oedd y ffaith fod un o brif foneddigion y wlad yn perthyn iddi, ac yn bregethwr selog ynddi,—mor selog fel ag i bregethu yn ei dy, ac i gael pulpud at ei wasanaeth,—yn ddigon i beri iddi gael sylfaen gref yn ei chychwyniad. Credaf hefyd mai un rheswm paham y cafodd Ymneilldnaeth afael mor gref, mor foreu, ym mhlwyfi Llanarmon a Llangybi, sef amgylch-oedd Capel Helyg, oedd i fab Jeffrey Parry, sef Love Parry, briodi Elin, merch ac aeres Hugh Wynn, o Benarth Fawr. A'r teulu hwn oedd un o brif dir-berchenogion yr ardaloedd hyn. Dywed Henry Maurice, y pregethwr Ymneilldnol enwog, mewn llythyr yn y flwyddyn 1675, at un Edward Tenvil,—

"Yr eglwys gyntaf yn y sir hon (Sir Gaernarfon), a'r unig eglwys sydd wedi ei chrynhoi, ydyw yr un sydd yn cyfarfod yn gyffredin yn Llanarmon a Llangybi, yr hon a alwyd trwy weinidogaeth Mr. John Williams, a fu farw yn ddiweddar, ac a gasglwyd ganddo ef."

Gellid meddwl fod Love Parry yn fab teilwng o'i dad, ac o'r enw oedd arno. Mae y cof-faen sydd am dano ym mynwent ac eglwys Llanbedrog yn dangos ei fod yn wr rhagorol iawn. Dywedir fod galar am dano yn y wlad, a bod y galar hwnnw ar wrthrych teilwng iawn. Mae hanesyn am dano ef ar lafar gwlad, neu am ei fab, neu ei ŵyr, ni wyddir yn sicr pa un. Un o'r tri Love Parry ydoedd, beth bynnag. Cymerodd yr amgylch-iad le ym Mhennarth-fawr. Yr oedd Love Parry wedi gwahodd nifer o foneddigion yr ardaloedd i swper un noswaith i'w balas. Ar eu dyfodiad clywai grechwen uchel yn eu plith. Wrth ymholi deallodd mai yr achos o'r grechwen oedd eu bod wedi cytuno a'u gilydd i ddal ryw bregethwr Ymneilldnol oedd i ddyfod i'r ardal i bregethu y noswaith honno. Deallodd eu bod wedi gosod dynion ar waith i'w ddal mewn lle neilldnol. Yr oedd yntau yn teimlo cymaint dros Ymneilldnaeth a thros bregethwyr, fel y meddyliodd ynddo ei hun, os medrai, y dyrysai eu cynllun. Slipiodd allan o'r tŷ heb i neb wybod, ac aeth i'r ffordd lle y disgwylid i'r pregethwr ddyfod ar hyd-ddi. Pan ddaeth y pregethwr hyd ato, neshaodd i'w ymyl, a gofynnodd iddo ai pregethwr ydoedd. Dywedodd yntau mai ê. Hysbysodd Mr. Parry ef am y cynllun oedd ar droed gan y boneddigion i'w ddal, a pherswadiodd ef i fyned i'w daith ar hyd ffordd arall. Wrth ymadael dywedai y pregethwr druan dan wylo,—"Wel, wel," meddai, "wela i byth monoch chi'n rhagor hyd ddydd yr adgyfodiad." "Hidia befo'r adgyfodiad," meddai Mr. Parry, "dianc am dy einioes ydi'r pwnc iti rwan."

Un arall o'r teulu a fu yn bleidiwr selog i'r Ymneilldnwyr er yn foreu oedd Thomas Madryn o Fadryn. Yr oedd efe yn amlwg o blaid Oliver Cromwell yn y Rhyfel Mawr, pan yr oedd y prif foneddigion Cymreig braidd i gyd o blaid y brenin, Siarl y Cyntaf. Ar ol i Gromwell droi'r Senedd Hir allan, gwysiwyd saith o aelodau seneddol dros yr oll o Gymru i fyned i'r Senedd newydd. Mor fawr oedd ymddiried y Senedd a Chromwell yn Nhomas Madryn, fel y dewiswyd ef yn un o'r saith aelod hynny. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1654. Bu efe hefyd yn Sirydd am dair blynedd yn ystod y Rhyfel Mawr a'r Werin-lywodraeth, yn y blynyddoedd 1643, 1648, a 1649. A phan fu farw Oliver Cromwell, anfonodd nifer o drigolion Sir Gaernarfon anerchiad at ei fab, Rhisiart Cromwell, yn ei gydnabod fel pen y Werin-lywodraeth ar ol ei dad. Arwyddodd deunaw yr anerchiad hwn, yn cynnwys Ustusiaid Heddwch, boneddigion, gweinidogion, ac ereill. Ac ar ben y rhestr hon y mae enw Thomas Madryn, fel yr un mwyaf pwysig yn y sir mewn cysylltiad ag achos y Werin-lywodraeth.

Yn y flwyddyn 1696 ganwyd yr ail Love Parry, yr hwn oedd fab i Love Parry y cyntaf. Cartrefai y cyntaf, gellid meddwl, yng Nghefnllanfair, a'r ail yn y Wern-fawr, y rhai sydd hen balasdai yng nghymydogaeth Rhydyclafdy, yn Lleyn. Priododd yr ail Rachel Corbet, merch Vincent Corbet, o Ynys y Maengwyn, Sir Feirionnydd. Trwy hyn daethant i gysylltiad ag un o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd yn y deyrnas. Maent o darddiad brenhinol, ac yn gallu olrhain eu tadau i Edward y Cyntaf, brenin Lloegr. Bu y Love Parry yma fyw i oedran teg,—bu farw yn y flwyddyn 1778, yn ddwy a phedwar ugain oed. Cafodd yntau fab o'r un enw, yr hwn a briododdd ferch i'r Parch. Robert Lewis, Llysdulas, Môn, yr hwn oedd Ganghellwr Bangor. Trwy y cysylltiad hwn

daethant i berthynas ag un o'r teuluoedd ag sydd wedi dangos mwyaf o garedigrwydd i Ymneilldwyr o unrhyw deulu yng Nghymru. Nid oes dim hanes fod neb o'r teulu hwn wedi dangos ond pob caredigrwydd at y Methodistiaid a'r Ymneilldwyr bob amser. William Lewis, tad neu frawd i'r Robert Lewis uchod, oedd un o'r ddau Ustus Heddwch ym Mon a amddiffynnodd bregethwr Ymneilldaol rhag erledigaeth yn nechreuad Methodistiaeth. Dywedir fod y pregethwr dan erledigaeth ffyrnig oddiwrth y werin afreolus, a rhai o'u boneddwyr, ac i'r boneddwr, ar ol clywed hynny, wahodd Mr. Bulkeley o'r Bryn Du, un o'i gyd-ustusiaid, i'w balas, i gael cydymgynghoriad ar yr achos. Wedi cydymgynghori, penderfynwyd anfon i gyrchu yr hen bregethwr i ymddangos o'u blaen ym mhalas Llysdulas. Wedi cynnull yr holl deulu i'r neuadd, ebe Mr. Lewis wrth y gwr dieithr,—"Yr ydym ni yma fel teulu Cornelius y canwriad gynt, i wrando dy bregeth, a rhaid iti bregethu ini yn awr yr hyn a fyddi yn arfer bregethu ar hyd y wlad." Hyn hefyd a wnaeth y pregethwr. Wedi iddo orffen ei bregeth, dywedodd y boneddwyr, —"Os hyn yw trosedd y truan hwn, ni a ddylem amddiffyn ei ryddid, a distewi ei erlidwyr." Hynny hefyd a wnaethant; ac ni feiddioddd neb o hynny allan orthrymu pregethwyr yr efengyl yn y wedd hynny yn yr ardal honno. Adroddodd William Roberts, Amlwch, yr hanesyn hwn i un o ddisgynyddion y boneddwr hwn, sef Lord Dinorben, yr hwn a ddanghosai fawr gymeradwyaeth o ymddygiad ei hynafiaid. Ac yr oedd un o'i ddisgynyddion yntau, ac un o'i etifeddion, sef Lady Neave, yn gwrando pregeth mewn Cyfarfod Misol ym Mon, ers rhai wythnosau yn ol.

Gan hynny, yr oedd y wraig hon o deulu ag oedd o'r un ysbryd yn hollol a theulu Madryn. Ac felly, ni bu ei dyfodiad i'r teulu yn foddion i ddiffodd y teimlad caredig oedd ynddo at Ymneilldwyr, ond yn hytrach bu ei dyfodiad yn foddion i'w gynneu yn fwy.

Bu brawd i'r Love Parry diweddaf, sef John Parry, Wenfan, yr aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Sir Gaernarfon yn y blynyddoedd 1780—90, ac yr oedd mab-yng-nghyfraith y cyntaf, sef Cadben Jones Parry, yn bleidiwr selog i'r ymgeisydd Rhyddfrydol dros Sir Gaernarfon, sef Syr Robert Williams o Nant, yn y blynyddoedd 1790—1805. Yr oedd y wlad yn llawn berw yn rhai o'r blynyddau hyn. Yr oedd ysbryd y Chwyldroad Ffrengig wedi disgyn arni. A gorchwygodd yr ymgeisydd Rhyddfrydol yr ymgeisydd Toriaidd, sef Arglwydd Penrhyn. Ac yr oedd y Cadben Parry yn gweithio yn egniol ymhlaid y bobl, sef yn arbennig i gael helaethiad yn yr etholfraint, ac i dorri grym y gyfraith eglwysig, yr hon a elwid "Cyfraith Bangor."

Ond o'r holl etifeddion fu yn dal cysylltiad a'r hen deulu urddasol a phendefigaidd hwn, credaf na bu neb mewn mwy o gydymdeimlad â'r bobl na'r ddau etifedd diweddaf. Bu tad yr hen Syr Love Parry yn aelod Rhyddfrydol dros fwrdeisdrefi Sir Gaernarfon am y blynyddoedd 1835 a 1836. Yr oedd yn hen foneddwr Cymreig o'r iawn ryw, a chryn lawer o hynodion yn perthyn iddo. Ond yr oedd yn deall y bobl yn dda, ac yn barod i'w cynorthwyo yn eu holl awydd am ddiwygiadau o bob natur. Dywedir yng *Nghronicl yr Oes* fod dirwestwyr Carn Fadryn a'r amgylchoedd wedi cynnal eu gwyl ddydd Gwener, Hydref 13, 1837. Rhoddodd Syr Love wahoddiad iddynt i ddyfod i deithio yn ei barc, gerllaw ei balas. Aeth gyda hwynt i gyfarfod dirwestol a gynhelid ganddynt yng nghapel y Dinas yn yr hwyr. Yr oedd y capel yn orlawn o bobl, a lliaws mawr oddiallan yn methu cael lle, ac areithiodd yr hen foneddwr iddynt, o'r ffenestr, yn Gymraeg.

Mae gwasanaeth cynrychiolydd diweddaf y teulu i Ryddfrydiaeth Sir Gaernarfon yn amhrisiadwy. Efe a fu yn foddion i dorri asgwrn cefn Toriaeth yn y sir. Ni sythodd byth ar ol hynny. Blwyddyn i'w chofio am oesoedd lawer yn hanes gwleidyddiaeth Sir Gaernarfon fydd y flwyddyn 1868. Gwr ieuanc o deulu pendefigaidd yn cymeryd plaid y bobl, ac yn eu harwain o dy y caethiwed yn erbyn holl allu y bendefigaeth nes eu cael yn ddiangol i Ganan rhyddid! Credaf fod Sir Gaernarfon yn barod i ddweyd heddyw am dano,—"Nid anghofiaf di." Nid oedd heb ei wendidau, ond yr oedd ei liaws rhagoriaethau yn cuddio y cyfan,—ei garedigrwydd mawr, ei foneddigeiddrwydd uchel, ei wybodaeth a'i wrteithiad helaeth, a'i gydymdeimlad eang â'r bobl.

Dylesid dweyd fod y teulu yn olrhain eu hachau, nid yn unig i deulu brenhinol Lloegr, ond hefyd i deuluoedd brenhinol Cymru. Olrheiniant eu hachau i Hywel Dda, Owen Gwynedd, ac Ednyfed Fychan.

Dywedaf air cyn darfod am yr hen balas. Mae yn un o'r hen balasau harddaf yn y deyrnas. Perthyna ei adeiladaeth a'i gynllun i amser Harri y Seithfed, ac y mae rhai olion o'i ddeutu mor hen ag amser Giraldus Cambrensis,—y porth-dy sydd o'i flaen, ac amryw olion o'r tu cefn. Mae yr olwg hynafol sydd arno yn ein llenwi a rhyw deimlad o barchedigaeth wrth edrych arno.

Bryncir. HENRY HUGHES.

CEFN BRITH.

"Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu. Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau oni chofiaf di, oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd pennaf." SALM cxxxvii. 5—6. Ar wynebddalen "Supplication" John Penri dros Gymru.

YR oedd cyfaill i mi unwaith yn cyddeithio yn y tren â'r diweddar Barch. J. Kilsby Jones, o Lanfair Muallt i Lanwrtyd. Ymhen tipyn wedi gadael Llechryd, dyma Mr. Jones yn tynnu ei het, ac yn dweyd,—"Yr ydym yn awr ar dir clasurol. A welwch chwi'r llwyn o goed acw? Dacw Cwm Llywelyn. A welwch chwi'r ty ar ochr y bryn i fyny acw? Dacw'r ty y ganwyd John Penri ynddo. John Penri a ddywedodd wrth yr Ymneillduwyr am fynd i'r Amerig. Ie, yn y bwthyn acw y ganwyd y syniad am weriniaeth fawr y Gorllewin."

Y mae'n sicr mai'r awydd am ryddid cydwybod,—yr awydd gafodd John Penri'n ferthyr iddo,—a roddodd fod i'r weriniaeth fawr honno. Ond nid am yr hyn a wnaeth Penri i'r Weriniaeth nas gwelsai ond trwy ffydd, nid am hynny y meddyliwn wrth ddisgyn yng ngorsaf Llangamarch ym mis Gorffennaf diweddaf, eithr am yr hyn a wnaeth dros Gymru, cyn rhoddi ei fywyd ieuanc i lawr drosti am bump o'r gloch y prydnawn, ar y nawfed dydd ar hugain o Fai, 1593.

Y mae ardal Llangamarch yn un o'r ardaloedd mwyaf mynyddig yng Nghymru, er nad yw Mynydd Epynt a Mynyddoedd Aber Gwesin mor uchel a'u brodyr sy'n sefyll rhyngddynt a gwynt ac Eira'r gogledd. Wrth fynd tua Llangamarch o Fuallt yr oeddym yn dringo i fyny o hyd, yng nghyfeiriad y mynyddoedd sy'n derfyn rhwng dyffrynnoedd yr Wy a dyffrynnoedd y Tywi. Teithiem i fyny dyffryn yr afon Dulais, un o ganghennau'r Wy; o bobtu i ni yr oedd rhes o fynyddoedd, a gwlad fryniog rhyngddynt, a thai ar y bryniau. Dyma'r tren yn aros ar lethr y dyffryn, mewn man cul arno. Ar y llaw dde y mae eglwys ar ochr y bryn, yr eglwys lle mae claddfa Cefn Brith, a'r eglwys lle'r huna Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog. I lawr oddi tanom, ar y chwith, y mae'r Ddulais dryloew, ond yn rhy bell i lawr i ni glywed ei dwndwr ar ei cherrig a'i graian. Cerddais i lawr o'r orsaf, a sefais ennyd ar y bont sy'n croesi'r afon brydferth. Tra'r oeddwn yn edrych i fyny'r afon ar y glennydd coediog, ac ar y mynyddoedd oedd draw dan eu gorchudd llwyd o wlaw, clywn swn troed trwm, swn rheolaidd fel swn troed rheng o filwyr. Heddgeidwad oedd yno. "Rhagluniaeth a'i hanfonodd yma," meddwn wrthyf fy hun, "daeth i'r dim caf ei holi am y ffordd."

"Wr braf," meddwn wrtho, "a welwch chwi'n dda gyfarwyddo dyn dieithr i Gefn Brith?"

"I don't know what you say, you should speak English."

"Mae hynny'n orthrwm mawr," meddwn innau, "na chawn siarad Cymraeg â swyddogion cyflog mewn lle mor Gymreig a Llangamarch." Ffordd bynnag, er siarad Saesneg ag ef, a Saesneg llawer gwell na'i Saesneg ef hefyd, ni chefais ddim gwybodaeth ganddo. Gwelais yn eglur mai nid Rhagluniaeth wnaeth hwn yn heddgeidwad, ond prifgwnstabl Seisnig. A rhyfeddwn yn fawr fy mod wedi camgymeryd gwaith y naill am waith y llall. Ar ororau'r Deheudir y mae llawer o syniadau hen ddyddiau'r Lords Marchers eto'n aros, tybir gan yr awdurdodau mai llywodraethu'r Cymry yw eu gwaith, ac nid eu gwasanaethu. Ac y mae gormod o'u hen waseidd-dra yn y Cymry hyn eto, mwy o ofn plismon anwybodus o Sais nag o ofn Cymro gonest a chydwybodol. Ond tybed, er hyn, mai Sais uniaith ddylai ofalu am heddwch Llangamarch?

O'r bont cerddais i'r pentref, pentref bach ar lan yr afon dan gysgod bryn. Gofynnais i'r wraig gyntaf gyfarfyddais am y ffordd i Gefn Brith; atebodd hithau, gen gynted a'r gwynt, drwy ofyn cwestiwn arall,—"Ich chi'n blongo iddi nhw?" Wedi i mi ddweyd digon o fy hanes i'w boddloni, rhoddodd gyfarwyddiadau manwl i mi, a desgrifiadau maith o ffyrdd, trofeydd, coed, a thai. Anghofiais y rhan fwyaf wrth gerdded i fyny gyda glan yr afon; ac erbyn i mi holi yr ail waith yr oeddwn wedi mynd yn rhy bell o lawer hyd ffordd Llanymddyfri, ac wedi anghofio troi. Troais yn ol; a gwelwn ffordd drol ar y llaw dde yn arwain o'r gwastad, ac yn dirwyn i fyny ochr y bryn. Cerddais innau hyd hon, ffordd leidiog is na'r caeau o'i chwmpas. Erbyn hyn yr oedd yn gwlawio'n drwm, a da oedd cael cysgod y gwrychoedd uchel trwchus. Bum am gwarter milltir heb weled fawr ond bedw a gwern; yna, wrth i mi godi uwchlaw'r dyffryn, daeth y wlad agored i'r golwg, ac ambell lygeidyn o haul arni trwy'r gwlaw. Wedi cyrraedd pen y bryn, cefais olygfa ogoneddus ar fryniau a dyffrynnoedd yn ymestyn i'r gorllewin. Bum yn cerdded am beth amser hyd ffordd wastad, gyda'r dyffryn ar y llaw dde, a mynyddoedd, at y rhai yr oeddwn yn dod agosach agosach, ar y llaw chwith. Ar odrau'r mynyddoedd hyn yr oedd ffriddoedd, llawer glyn cul coediog, a llawer hafan werdd. O'r diwedd dois i olwg y ty; nid oedd y pellder gerddais ond rhyw ddwy filldir a hanner, ond tybiwn ei fod yn ychwaneg, oherwydd fod cymaint o dynnu i fyny, a fod y ffordd mor drom gan y gwlaw.

Ond anghofiais bob lludded a dillad gwlybion wrth edrych ar yr olygfa welir o ymyl Cefn Brith. Gwelwn lwybr yn mynd at wyneb y ty trwy ganol gweirglodd weiriog wlithog; ac yr oedd y ffordd yn rhoi tipyn o dro, ac yn mynd heibio'r adeiladau. I ba gyfeiriad bynnag yr edrychwn, gwelwn fynyddoedd yn edrych arnaf o'r tu cefn i fynyddoedd. I'r gorllewin, dros Gefn Gorwydd a phentref a chapel mawr, yr oedd mynyddoedd Llanwrtyd ac Ystrad Ffin; ac ar yr ochr arall yr oedd hafannau gwyrddion mynyddig, gydag ambell goeden griafol ac ambell fedwen yn ymddyrchafu mewn tlysni dan wlith y cawodydd a gwên yr haul. Dyma'r ardaloedd y bu John Penri yn meddwl am danynt pan yn ffoadur yn Lloegr a'r Alban, yr ardaloedd gafodd bryder ei fywyd a'i feddyliau olaf.

Adeg ryfedd oedd yr adeg y bu Meredydd Henri yn disgwyl John adre o'r ysgol i'r lle mynyddig hwn. Yr oedd teimlad angerddol dros undeb Lloegr, yn wladol ac yn eglwysig. Dyma'r adeg yr oedd Elisabeth yn "Faerie Queene" i Loegr a Chymru, dyna'r adeg yr aeth Lloegr drwy beryglon oddiwrth alluoedd Pabaidd Ewrob, dyna'r adeg y danghosodd Shakespeare mai aflwydd ddaw i wlad lle y gwrthwynebir y brenin, eneiniog Duw. Ufuddhau i'r Frenhines, caru'r Eglwys Genhedlaethol, a diolch i Ragluniaeth am gael byw yn yr amser hwnnw,—dyna dybiai ysbryd yr oes oedd dyledswydd dyn. Ac i Gymro, beth oedd mor unol a'i natur?

Ond yr oedd yn yr amaethdy mynyddig hwn un welodd hanes oesoedd i ddod, un ddanghosodd yn glir beth fyddai dyfodol Cymru. Gwelai fod yr Eglwys yn esgeuluso Cymru, ac yn gwrthod rhoi yr efengyl iddi yn ei hiaith ei hun; teimlodd rym yr Efengyl, a gwelai Gymru yn ei phechodau. Agorodd tosturi a phryder ei lygaid, a daeth mab yr amaethwr yn broffwyd ei wlad.

Ganwyd John Penri yng Nghefn Brith, yn y ty sydd o'm blaen, yn 1559. Aeth i Gaer Grawnt yn bedair ar bymtheg oed, ac yno clywodd y Piwritaniaid cyntaf,—rhai ddywedai nad oedd y Diwygiad wedi ei orffen. Ac efallai iddo gael cipolwg ar wirionedd mawr y dyfodol,—y medrai gwlad fod yn gadarn ac unol heb grefydd genhedlaethol, y gellid goddef i gydwybod pob dyn ffurfio ei grefydd ei hun. O'r brifysgol, deuai Penri i fynyddoedd Brycheiniog yn ystod ei wyliau, ac nis gallai lai na theimlo mor ofergoelus oedd Cymru,—gwlad oedd wedi colli ei Phabyddiaeth, ac heb gael eto ddim yn ei lle. Yn 1586 daeth i Rydychen, ac

yma, y mae'n debyg, yr ysgrifennodd ei bamffled ar sefyllfa resynus Cymru, y pamffled anfonodd yn 1587 i'r frenhines a'r senedd. Dychrynnodd y pamffled hwnnw lawer, a pha ryfedd, oherwydd gofynnid ynddo am hawl i leygwyr Cymru bregethu'r efengyl. Er i'r hyn ddywedid ynddo gael ei ddweyd yn y Senedd hefyd, gwysiwyd Penri o flaen yr awdurdodau eglwysig, o flaen yr Archesgob Whitgift a'r esgobion. Rhaid maddeu llawer i'r rhain pan gofiwn mai cred eu hoes oedd fod yn rhaid, er diogelwch, lladd pob gwrthryfel yn erbyn sefydliadau cenhedlaethol. Dywedasant wrth Benri nas gellid goddef ei syniad nad oedd clerigwr na phregethai yn weinidog Crist. Cyhoeddodd yntau ryfel yn erbyn yr awdurdodau trwy ddweyd y collai ei fywyd cyn y rhoddai'r syniad hwnnw i fyny.

Yn 1588, blwyddyn yr oedd Lloegr yn hanner addoli ei brenhines a'i heglwys wedi'r Armada, blwyddyn Beibl yr Esgob Morgan, yn y flwyddyn honno cyhoeddodd Penri bamffled arall. Mewn iaith hyawdl, condemnia'r ymgais ffol i "geisio achubiaeth i ddynion trwy ddarllen iddynt yr hyn na fedrant ei ddeall."

"Ychydig salmau, gydag un bennod o'r Testament Newydd yn Gymraeg,—oherwydd ni siaradodd yr Hen Destament Gymraeg yn ein dyddiau ni, er ei fod, er llawenydd mawr i mi, yn barod i'w argraffu,—hyn yn unig, yn cael ei ddarllen mewn dull gresynus, heb un mewn deg yn ei ddeall, ai dyma'r meddion, ysywaeth, a ordeiniodd Duw i hysbysu i bawb yng Nghymru beth yw cymdeithas y dirgelwch?"

Trydd at yr esgobion yn gynhyrfus,—

"O chwi esgobion Cymru, y rhai a ddibrisia ei enw Ef, os gofynnwch pa fodd y dibrisiasoch ef, atebir mai trwy gynnyg y cloff a'r dall a'r anafus i weinidogaeth yr Arglwydd, gan ddweyd nad ydyw hyn yn ddrwg. Felly dibrisiwch enw Duw trwy ddweyd nad oes eisieu gofalu am ei wasanaeth. Wrth weled eich bod chwi eich hunain yn gwybod, a fod holl Gymru'n gwybod, eich bod wedi rhoddi yn yr alwedigaeth gysegredig ddynion cnafaidd a drwg fu'n crwydro drwy'r wlad dan enw ysgolheigion, afradloniaid a gwŷr gweini wnaeth y weinidogaeth yn noddfa olaf iddynt; wrth weled eich bod yn gadael yn y weinidogaeth rai y gwyddis eu bod yn buteinwyr a meddwon a lladron a rhai'n tyngu'n erchyll, rhai y dywed Job mai gwaelach na'r ddaear ydynt,—oni ddywedwch, trwy hyn oll, nad oes eisieu gofalu am wasanaeth yr Arglwydd? Os goddefwch hwynt, ac os arhoswch eich hunain yn lladronllyd o faes eich dyledswydd, a ydych chwi'n meddwl am anrhydedd yr Arglwydd ac am iachawdwriaeth ei bobl?"

Mewn adeg ogoneddus yn hanes a llenyddiaeth Lloegr yr ymddanghosodd y llyfr chwerw hwn, pan oedd pob un yn tybied mai ei ddyledswydd oedd cynnal breichiau'r frenhines Gymreig oedd ar orsedd Lloegr a'r Iwerddon a Chymru. Dyma gyfnod gwladgarwch ar ei gryfaf, oes aur Eglwys Loegr a llenyddiaeth Seisnig. Ond nid oes Gymro fedr ddarllen llyfr Penri heb gydymdeimlo ag ef yn llwyr, a hynny ymhell cyn dod at y geiriau olaf,—

"*Your poore countrey-man, who in all dutiful good will hath wholy dedicated himself to doe you good in the Lorde.*

John Penri."

Yr oedd ar lywodraethwyr Cymru ofn yr iaith Gymraeg, yr oedd y gyfraith yn gwahardd i'r un swyddog ei siarad, a gwelodd Penri nad oedd obaith i Gymru oddiwrth y frenhines na'r Senedd,—yr oedd pregethwyr lleyg a chyfraniadau gwirfoddol yn bethau rhy newydd. Diangodd i'r Alban rhag ei erlidwyr, ond ni fedrai aros mewn heddwch yno, gan ei gariad angerddol at Gymru. Daeth yn ol i Lunden, gan ddisgwyl cael caniatâd i fynd i Gymru i bregethu, ac ymunodd a'r ddiadell o Anibynwyr oedd yno. Yr oedd ei erlidiwr ar ei ol, a gwysiwyd ef o flaen y *Court of High Commission*, llys eglwysig y frenhines. Cyhuddid ef ar gam o ysgrifennu'r *Martin Mar-Prelate Tracts*,—rhai y mae eu hysbryd chwerw gwawdlyd yn anhebyg i ysbryd tyner a difrifol ei ysgrifeniadau ef. Ychydig o obaith am gyfiawnder oedd i un garcherid gan weinidogion y Tuduriaid; ac yn 1592 yr oedd Penri yng ngharchar, wedi rhoddi i fyny bob gobaith am gael byw. Peth anodd iawn oedd marw mor ieuanc, yn dair ar ddeg a'r hugain oed. Peth anodd iawn oedd marw a gwaith mor fawr i'w wneyd, rhoddi'r efengyl i Gymru dywell dlawd. O garchar caeth, ysgrifennodd yn nechreu Ebrill, 1593, at ei wraig a'i bedair geneth fach. Nid oedd ganddo ddim i'w adael iddynt ond Beibl bob un. Gofyn iddynt, os medrent rywbryd, wneyd rhywbeth dros ryw blentyn o Gymru, ac yn enwedig i'w fam oedrannus oedd wedi aberthu drosto pan yn fyfyriwr.

Ac yng Nghefn Brith yr oedd ei fam yn byw, a'i frodyr a'i chwiorydd oedd i ofalu am ei enethod bach na wyddent eto beth oedd gweddi. Ond gadewch i ni anghofio'r dienyddiad hwnnw,—gwŷr yr hen oruchwyliaeth yn llofruddio proffwyd y newydd,—ac edrych pa fath le yw ei gartref, dri chan mlynedd ar ol iddo ei adael.

Eis i fyny at y ty hyd y ffordd, yr oedd gormod o wlith ar y llwybr. Yr oedd dyn ar ben das gwair yn ei doi, a dywedodd fod "llawer o hynafiaethwyr" yn dod i edrych y lle,—yn enwedig o Landrindod a Llanwrtyd ym misoedd yr haf. Eis heibio'r beudy, ac i'r buarth,—lle wedi ei amgylchynu bron gan adeiladau. Ar un ochr i'r ysgwar y mae'r ty, a phorth o'i flaen, a'r coed yn ei gysgodi o'r tu ol. Yr oedd golwg dawel arno, fel pe

buasai wedi ei adael fel y mae er amser Meredydd Penri. Nid oedd dim arwyddion bywyd ond y cunogau llaeth oedd newydd eu golchi yn y porth, a'r hen gi defaid gododdei ben cysglyd i edrych arnaf. Toc daeth gwraig, —hen ferch yr oedd yn hawdd gweled,—o'r ty, a chroesodd y buarth i'r beudy. Ni wnaeth fawr o sylw o honof, ac ni wnaeth ond amneidio pan ofynnais a gawn weled y lle. Meddyliwn yn sicr fod rhyw ddrwg yn bod, gan na chefais ond croesaw erioed yn hen gartrefi Cymru.

Eis ymlaen heibio'r ty i'r caeau. Rhedai aber risialaidd i lawr o'r mynydd, ac yr oedd coeden wag wedi ei gwneyd yn gafn i'r pistyll. A thraw yr oedd y gweirgloddiau hyfryd, a'r mynydd y tu hwnt iddynt. Nid oedd yno greigiau nac ysgythredd, dim ond mawredd esmwyth a thawelwch. Yr oedd edrych ar drumau prydferth Mynydd Epynt yn rhoi gorffwys i'r meddwl, nid y gorffwys sy'n arwain i ddiogi, ond y gorffwys sy'n arwain i waith. Dyma orffwys fel gorffwys y nefoedd, gorffwys sy'n deffro'r meddwl ac yn ei gryfhau at waith. Nid rhyfedd mai meddwl effro a gweithgar oedd meddwl John Penri. Ni edd y mynyddoedd hyn fawredd mynyddoedd y goglédd, rhywbeth hanner y ffordd rhwng Bro Morgannwg a'r Wyddfa ydynt. Ac nid hyfedd mai eu prydferthwch hwy, o'r holl ynyddoedd, ddarganfyddwyd gyntaf, gan rai o'r ardaloedd hyn,—John Dyer a Henry Vaughan. Bum yn syllu'n hir ar y coed nig welwn hyd drumau'r mynyddoedd, ac na'n edmygu lliwiau'r rhedyn a'r ysgaw a'r rain. Trois wedyn i wylio'r gwenoliaid edd wedi nythu tan y bondo, ac yna mentrais 'r ty.

Eis trwy'r porth, a gwelwn ddrws cegin awr yn agored ar y llaw dde. Cegin eang, sel do, hen ffasiwn oedd, a liawer o gig moch n crogi oddiwrth y trawstiau. Yn y pen raw yr oedd lle tân isel, ac ychydig o dân wiail ynddo. Wrth y pentan yr oedd gŵr anol oed, a gofynnais hen gwestiwn iddo,—

"Sut yr ydych chwi heddyw?"

"Gweddol fach, gweddol yn wir, dewch mlân. Mi ges yr anwyd yn y gaua," meddai, an besychu, "ac mi cesho fe wedin yn y Iish Bach, dewch ymlân."

Eisteddais tan fantell y simdde, ac agorodd i oedd yn cysgu ar y pentan ei lygad i edrych rnaf, fel pe'n drwgdybio fod fy mryd ar ynnwys y crochan enfawr oedd ar y tân. 'ybiai'r gŵr mai prynnu gwlan oedd fy wriad, a gofynnodd ai ni wyddwn beth oedd ris y gwlan 'nawr. Llonnodd pan ddywedis ei fod yn codi ychydig, ond gwelodd ar nwaith mai nid porthmon oeddwn. Yr oedd anddo, meddai, bedwar neu bum cant o ddefaid yn pori ar y mynyddoedd. Tra'r oeddwn yn syllu ar yr hen ddodrefn derw, daeth cwestiwn wedyn,—yr oedd ar wr y ty awydd gwybod o ba grefydd yr own. Atebais innau trwy ddweyd peth wyddai eisoes, sef mai Bedyddiwr oedd ef.

"Pwi wedodd wrthich?"

"Ddywedodd neb; ond gwelaf ddarlun Spurgeon a darlun Christmas Evans, a dyma Emau Robert Jones, Llanllyfni. A glywsoch chwi hanes Robert Jones yng nghanol y chwarelwyr meddwon?"

"Naddo i."

"Wel, codi ei ddwylaw yn eu canol a wnaeth, a diolch fod gan Dduw uffern i roi'r fath rai ynddi."

"Gweid difrifol oedd e, cofiwch chi. O'r North yr ych chi'n dod?"

Erbyn hyn yr oeddym yn bur gyfeillgar, a dechreuodd gŵr y peswch ddweyd hanes y ty a'r teulu. Yr oedd y ty fel yr oedd yn amser John Penri o ran cynllun. Ddeng mlynedd ar hugain yn ol, "cyn ei renewo," yr oedd golwg hen od arno. Nid teulu John Penri sy'n byw yno'n awr, daethant yno hanner can mlynedd yn ol, "pan own i'n flwydd oed." Brawd a chwaer sydd yno'n awr, yr oeddynt wedi colli chwaer arall yr wythnos cynt,—yr oeddwn wedi meddwl fod rhyw ddrwg yn bod. "Own i o cartre, 'n meddwl dim fod ange'n agos, 'roedd hi'n wan, ond dir! ma dynnon golygis tia Billt wedi gwasgi'n galed." Byddai Kilsby'n dod yn aml i Gefn Brith, a naw neu ddeg o bobl gydag ef. Wedi gwrando tipyn ar hanes y fro, gofynnais a gawn weld y rhannau hynaf o'r ty. Dywedodd y gŵr fod croeso i mi ei weld i gyd. Aethom trwy ddrws y gegin yn ol, a gwelem fynedfa hir yn rhedeg gyda mur y wyneb. Rhwng y fynedfa hon a mur y cefn yr oedd dwy ystafell, yn edrych i'r gadles, ystafelloedd oerion lleithion, ac yn llaethdai y defnyddid hwynt. O'r rhain daethom yn ol i ddrws y ty, ac aethom ymlaen hyd y cyntedd hir hyd nes y daethom at ddrws ymhen draw y ty, drws parlwr bychan, a'r lleithder wedi amharu yr ychydig ddodrefn a darluniau oedd ynddo. Daughosai'r cynllun yn amlwg fod y ty'n hen iawn, ac nid oedd gennyf un amheuaeth nad ydyw'n awr yr un fath yn union ag yr oedd pan ddysgodd John Penri gerdded ynddo. A braidd na thybiwn glywed y llais a ddistewyd gan yr archesgob wrth glywed y gwynt yn codi,—

"O chwi bobl Cymru, yr ydych oll yn esgymun ac yn wrthodedig. O chwi bobl Cymru, yr ydych yn estroniaid o gymundeb y wir eglwys. O chwi bobl Cymru, nid ydych hyd yn nod yng nghyfamod yr addewid, yr ydych heb obaith dedwyddwch y nef. O chwi bobl Cymru, pa wybodaeth bynnag o

Dduw a ddywedwch sydd gennych, yr ydych yn wir yn anffyddwyr; ac heb Dduw,—pob un o honoch ar nas dygwyd, er yr adeg y daethoch o ogof eilunaddoliaeth a Phabyddiaeth, i gyfranogi yng ngallu Duw, yr hwn yw'r efengyl."

Yna, wrth i'r gwynt yn y coed ostegu, tybiwn fod ei lais yn tyneru mewn cydymdeimlad,—

"Ond yn wir, fy mrodyr, ni phregethwyd yr efengyl i chwi, llenwir fi â gofid wrth glywed gwawdio enw Cymru."

Pan ddaethom i'r gegin yn ol, yr oedd y merched ar ganol parotoi at de'r prydnawn, a chychwynnais i o Gefn Brith. Pe crwydrai ysbryd John Penri heddyw trwy wlad a garai mor fawr, gwelai fod ei weddi dros Gymru wedi ei hateb, a fod addoldai drwy'r broydd fu gynt yn ofergoelus ac yn isel eu moes. Ryw dro, hwyrach, bydd Ymneillduwyr Cymru'n meddwl am yr hwn ddioddefodd gyntaf dros eu hachos,—un gerir gan bob Cymro gwladgar, beth bynnag fo ei gredo boliticaidd neu ei enwad crefyddol yn yr oes hon. Os byth y rhydd Cymru gofgolofn ar odrau Mynydd Epynt i ddweyd wrth ei phlant am dano, rhodder arni y geiriau hyn anfonodd o'i garchar, yn ei ddyddiau olaf, at Arglwydd Burleigh,—

"Gŵr ieuanc tlawd ydwyf, wedi'm geni a'm magu ym mynyddoedd Cymru. Myfi yw'r cyntaf wedi blodeuad diweddaf yr Efengyl yn y dyddiau hyn, lafuriodd i hau ei had bendigedig ar y mynyddoedd anial hynny. Llawenheais lawer tro o flaen fy Nuw, fel y gŵyr ef, am y ffafr o'm geni a'm magu dan ei Mawrhydi, er mwyn gwneyd y gwaith. Yn fy nymuniad cryf i weled yr efengyl yng ngwlad fy nhadau, ac i weled symud y llygredigaethau a'i rhwystra, hawdd oedd i mi anghofio fy mherygl fy hun; ond ni anghofiais fy nheyrngarwch i'm Tywysog erioed. Ac yn awr pan wyf i orffen fy nyddiau, a hynny cyn dod hanner fy mlynyddoedd yn ol trefn natur,

YR WYF YN GADAEL LLWYDDIANT FY LLAFUR I'M CYD-WLADWYR A GYFYD YR ARGLWYDD AR FY OL I, I ORFFEN Y GWAITH, YR HWN, WRTH ALW FY NGWLAD I WYBODAETH AM EFENGYL FENDIGEDIG CRIST, A DDECHREUAIS I."

Trwy holl droion hanes Cymru, nid oes dim mor hyawdl i deimlad Cymro ag ewyllys John Penri,—pedwar Beibl, gofal ei fam, a llwyddiant ei waith.

YR EURGRAWN WESLEYAIDD.

YSGRIF ddyddorol iawn ydyw ysgrif "Lleygwr" ar Enyddiaeth gyfnodol Gymreig yn rhifyn Ionawr. Cydolygwn yn rhwydd mai pregethwyr Cymru yw cymwynaswyr pennaf llenyddiaeth gyfnodol Gymreig; ie yn wir, a llenyddiaeth Gymreig yn gyffredinol. Dylem gydnabod fod pregethwyr Cymru, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, mewn modd arbennig iawn, wedi gwneyd mwy dros Lenyddiaeth Gymreig na neb arall.

Fy amcan i y tro hwn yw cywiro ysgrif ddyddorol "Lleygwr" o barthed i'r Eurgrawn Wesleyaidd. Dywed ef mai yn y flwyddyn 1806 y cychwynnodd yr hen Eurgrawn clodwiw ei yrfa gyntaf, yr hyn sydd gamarweiniol. Yn gymaint a bod y gyfrol gyntaf yn fy meddiant, dywedaf ychydig o hanes y cyhoeddiad Cymreig hynaf sydd yn fyw. Cychwynnodd ei yrfa ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1809. Ac ymddengys oddiwrth y rhagarweiniad yn ei ddechreu fod yr anturiaeth yn gwasgu yn drwm iawn ar feddwl y cyhoeddwyr. Yr oedd hynny yn dra naturiol iddynt, pan yr ystyrient y cyfnodolion gwerthfawr eraill o'r un natur a gyhoeddwyd yng Nghymru, ac o ddiffyg cefnogaeth, a fuont feirw. Yr oedd o leiaf bump wedi ei ragflaenu. Ond er iddynt ddiflannu, yr ydym ni dan ddyled mawr iddynt. Modd bynnag, y mae yr Eurgrawn yn fyw, heinyf, a chadarn y dydd hwn, i wasanaethu Cymru fydd.

Daeth y tair cyfrol gyntaf allan o swyddfa Mr. Richaard Jones, Dolgellau, yr hwn cedd y pryd hwnnw yn bregethwr cynorthwyol parchus, ac yn Wesleyad egwyddorol a selog drwy ei holl fywyd. Golygydd cyntaf yr Eurgrawn ydoedd y ffraethbert Mr. John Bryan, Caernarfon. Nid ydyw y gwr hynod hwn wedi cael ei le eto mewn hanesiaeth Gymreig. Blwyddyn y bu ef yn yr olygiaeth. Meistri Robert Roberts, John Jones 1af, a Hugh Carter a ddilynodd Mr. Bryan yn yr olygiaeth,—blwyddyn bob un. Cymerai y newidiad le mor fynych o herwydd symudiadau blynyddol y gweinidogion oddi wrth y swyddfa. Argraffwyd ef yn Llundain yn 1812—1817. Golygid ef y cyfnod hwn gan Parchn. David Rogers, David Jones 1af,—dwy flynedd bob un. Y mae y pedair cyfrol hyn yn werthfawr iawn i bob hanesydd Wesleyaeth Gymreig. Modd bynnag, yn 1817, cawn ef eto yn cael ei argraffu yn Nolgellau, gan Mr. Richard Jones, ac yn cael ei olygu am y saith mlynedd dilynol gan y Parchn. Hugh Hughes (taid y diwygiwr a'r Cymro adnabyddus Hugh Price Hughes, Llundain), ac Edward Jones 3ydd.

Gwŷr syml oedd y golygwyr cyntaf. Oes ddadleugar oedd chwarter cyntaf y ganrif hon. Yr oedd yr hyn a elwid yn "system newydd" yn graddol ymledu; ac o herwydd hynny dioddefodd y golygwyr cyntaf lawer o ŵg a geiriau caledion. Er nad oeddynt yn llenorion o fri, eto yr oeddynt yn wŷr synhwyrol a phwyllog Ni wyddai John Bryan beth oedd ofn dyn, ni wyddai beth oedd blino na diffygio. Gwnaeth wasanaeth amhrisiadwy i'w enwad yng Nghymru, drwy gyfleithu emynnau byd-adnabyddus Charles Wesley i'r Gymraeg. A thrwy hynny, cyfcethogodd lawer ar emynyddiaeth Gymreig yn gyffredinol. Ysgrifennydd cryf, syml, ac ymarferol oedd y Parch. David Rogers, ac mewn eglurder a lledneisrwydd ysbryd nid oedd neb yn ei oes a ragorai arno.

Mae hen gyfrolau o'r Eurgrawn yn ddyddorol iawn, yn arbennig felly i hanesydd Wesleyaeth Gymreig. Yr oeddwn yn meddwl myned dros hanes yr Eurgrawn, ond rhaid ymatal, er mor ddyddorol a buddiol fuasai hynny. Rhaid bod yn fyr gan mai dyma y waith gyntaf i mi guro wrth ddrws y Golygydd.

Dinas Mawddwy. TEGWYN.

DAFYDD AB EDMWND.*

Bardd Melusder Sain.

I. CYWYDD I FERCH.

Dyn wyf yn cerdded y nos,
Dedwyddach oedd dŷ diddos;
Dyn hurt am gerdded yn hwyr,
Dros hyn, Duw a ro synwyr.
Du arnaf ydyw oernos,
Duw, dy nawdd, dued y nos;
Dyn ni bu a'r dynno bach,
Dan bared wyneb oerach;
Deffro, fun, differ f'enaid,
Dyn Duw blin sy dan dy blaid;
Dyro, di a gei deiran,
Dy wisg, dy gardod, i wan;
Dy lety, dy law ataf,
Dy deg corff, dywed y caf;
Dy fwyn air, er dy fonedd,
Dy fin fel diod o fedd;
Dy faeth, dy gellwair, dy fodd,
Dy feinael a'm difwynodd;
Dy bryd fel dillad brodyr,
Du a gwyn yn hudo gwŷr;
Dy laeswallt fel dy lusael,
Dy drem fel dued yr ael;
Dy wyneb fel od un-nos,
Dy wrid fel bagad o ros;
Dy garu di a gerais,
Dy gas im nis dygai Sais;
Du-law a wna dialedd,
Defni 'ngwallt difwyno 'ngwedd;
Drwy'r ffenest dyro ffunen
Dy fam hael i doi fy mhen;
Dy gerdd ym mhob gwlad a gaf,
Dy bwyth nis diobeithiaf;
Dig wyf yn arwain dy gân,
Dygum gas, dwg im gusan;
Digon gaead yw'n d'ogylch,
Dyn deg wyd, nawdd Duw'n dy gylch;
Dy gyngor rhag dig angen,
Da fydd i gael dy fodd Gwen.

II. ATTEB I DUCHAN GUTTO'R GLYN.

Gruffydd, ti a gai reffyn,
A'th unbraich wrth y nenbren,
A'th godi hwyr i'th gedwyn,
Wrth gadwyn o nerth gwden.
Y bwrdiwr na chais bardwn,
Wâs byr-dew, ond ias burdan.

lym wyd a buan i'r llith,—waed dafad,
Etifedd Deicws chwith,
Lleidr bras ydwyd mewn llawdr brith,
Lleidr mylit lle daw air melltith.

Ielltithion oerion yw arwyl—dy gorph
Di, heb gŵyr i'th ddisgwyl,
A'r dorch a gai am d'orchwyl,
A'th wlad am danad nid ŵyl.

Ii wylwn fawr, er dy weled,—ym Mai,
Na bo mwy fy ngholled,
Ynghrôg, mi a'rown fy nghrêd,
A'th alw i wtres a'th letred.

ir bawl lleidr ebawl llwyd-rudd—i'th welwyf,
A'th ddwylaw mewn gwarthrudd;
A'th ben wrth y pren prudd,
Wrth raff yn cyfarth, Ruffudd.

ruffudd felyn—gwr myn moel,
Gafr bwyswen, gyfrwy biswail,
Gelyn oen, galon anael,
Gwerog wden, grôg arwyl.

A phoen ac offeren dwy-wrach,
A'r bais gyda'r rhai bach,
Ah wen yn farw hayach,
Arwyl it y sydd oerach.
A fu hayach o achos
It, liw bustl wtla bastws?
Ond twylli, maint dy 'wyllys,
Ti a lladron twyllodrus.

Medryd pechyd bob buches,
Moddau dy deiau dewis,
Mân heiyrn, mwnai Hawys,
Mynyd hwyaid pe rhaid pris,
March du olwyn, march dulas,
March gyrfa, marchog oer-fws,
Moch, geifr, a man-foch go-fras,
Mylit a thwca melltith Ddeicws.

Torri drws Deicws dy dad,—dy hunan,
Tynnu rhyg allan, tin-rhwyg williad;
Troi ddoe wyth o loi o'th wlad,
Troi o bell adref teir buw lledrad,
Tri meirch yn un-nod da rwymiad—dy bryd,
Tri ychen hefyd, tri chan nhafad.

Ti a aethost a'th ffrost a'th frad,
Tithau gei gebystr, teithiog wybiad,
Torraist, dattodaist titiad,—deugeinmeirch,
Tegaist, gwatworaist dau cant irad,
Tramwy trwy dref Fowddwy heb rus,
Tai aml, yd radus, tomlyd rediad
Teir-sir, tywyll-dir, tai halltiad—floneg,
Tros deg trwm gysteg trum gwastad,
Tir brwynog, twynog, tyniad—tywynog,
Trwynog, torr llwynog, tir llinad.
Draenogaidd ddogaidd ddygiad,—gwardogaidd,
Draenogaidd ddogaidd lwynogaidd wlad,
Dir geisiwr, leisiwr lysiad,—faleisiwr,
Dreisiwr, bu leisiwr dros bawl ysiad,
Dwyn carthau trethau truthiad, — drwy warthau,
Torrwr buarthau at orwydd borthiad.

Gwae di o'r porthiant yn ol gwadu—Duw,
Ai di-warth dy gladdu?
Ac ar dy fedd yn gweddu
Gwden dorch ag eidion du.

A dwy afr, ci di efrydd,
A dau follt a geidw dy fedd,
A llo brith ar bwll o bridd,
A llwdn hwch, a bwch o bydd,
A gwneuthur llun yn'r un radd,
Tri-phen march arnat, Ruffudd.

* Cymerwyd y Cywydd i Ferch o ysgrifiyfr Rowland Huw'r Graienyn, a'r Ateb i Duchan Guto'r Glyn o'r Piser Hir.

NOS GYNHULLWYR Y CONGLAU.

Ar ganol llawr y pentref
Mae gefail Tom y go,
A siop fawr Dafydd Morgan,
A'r dafarn dan 'r un to.
Rhwng congl y siop a'r efail,
Fel pe yn gwylio'r fan,
Mae'r pwmp,—ac ar ei gyfer
Mae porth a chlochdy'r llan.

Mae llusern Dafydd Morgan
A lampau'r palas *gin*
Yn goleu, min nos gauaf,
Y ffordd â'u llewyrch gwyn;
A chochion fflamau'r efail
A wnant gysgodion hir,
Fel pe yn gwneyd ysbrydion
I ddawnsio ar y mur.

O gylch y pwmp yn llercian
Ceir gweled ar fin nos
Goeg lencyn balch, a'i ddwylaw
Yn nwfn logellau'i glôs;
Ac yn ei ben mae pibell
A dyna'r cwbl sy
Ym mhen y llanc rhygyngog,—
Dim byd ond pibell ddu.

Nid hir mae'r llanc ei hunan,—
O gylch y gongl lom
Ymgasglant fel fwlturiaid
Neu wibed ar y dom;
Daw llanciau'r wlad a'r pentref
Ynghyd at bwmp y llan,
I wawdio a llygadrythu
Ar bawb a heibio'r fan.

Mae un yn torri ei enw
Mewn cerfiad pur ddi-lun
Ar dalcen pwmp y pentref
I anfarwoli ei hun;
Un arall yn ei lawes
A loewa'i *meer-sham*,
Yn dyner a gofalus,
Rhag ofn i'r gem gael cam.

Y llall, i foddio'r cwmni,
A gana bwt o gân
Ar "Hob y deri dan do"
I foli ei Weno lân;
Pan mae ar ganol canu
A heibio ferch y Fron,
A chydgan "Hob y deri,"
Yw chwerthin am ben hon.

Ar ol chwerthiniad ynfyd
Daw un a'i sylw doeth!
Ac yna, Ha! ha! wedyn
Gan bawb o'r cwmni coeth.
Mae'r eneth fwyn yn gwrido,
A gwylaidd blyga'i phen,
Ond hwy, am wrid na ch'wilydd,
Ni wyddant fwy na phren.

Fe wyddant hwy holl hanes
Pob mab a merch drwy'r fro,
A'i adrodd ga yn drefnus
Ac yn ei flas bob tro;
Ond profai'r mwyaf parod
'N adroddwr go ddilun,
Pe ceisid ganddo adrodd
Ei hanes ef ei hun.

Oes neb, o wir drugaredd,
Rydd resel, cafn, neu glwyd,
A choflaid o wair ynddo
Fel gallo'r lloi gael bwyd?
Cant ddwfr o'r pwmp, neu gallant
I'r dafarn fynd am dro,
Ni feddwant, nis gall cwrw
Na phorter feddwi llo.

Gwaith gwael i fechgyn beilchion
Yw uno i feio'r plwy,
A phob un allant feio
Yn llawer gwell na hwy,
A phwyso a mesur, weithian,
Gymeriad mab neu fun,
Pan nad yw y mesurwr
Yn llathen lawn ei hun.

'Da neb gan eu geufarn i'r siop nac i'r dafarn
Heb dderbyn ei gyfran yn gyfan o'u gwg,
Mae gwisgiad ac osgo pob un sy'n mynd heibio
I'w beio,—neu gilio o'u golwg.

Ni wiw i'r ferch fwynlan i rodio ei hunan,
Na meddwl troi allan drwy'r dreflan am dro,
Bydd teulu'r ystlumod yn taflu ei wermod
O waelod ei geudod i'w gwawdio.

'Rhen wr pendefigaidd a'i goryn almonaidd
Fu'n fwyn ac yn dirion rai troion i'w tras,
Ah! gresyn o'i groeso, ni pharchant mo hono,
Ond gwawdio a'i daro, rai diras.

Mae rhai'n rhy ben uchel, a rhai'n rhy ben isel,
Rhy araf, rhy gyflym, rhy ddiddim, rhy ddoeth,
Rhai dynion rhy wirion, a hwythau'r ynfydion
'N d'wysogion mor union i'r annoeth.

Bangor. Llew Tegid.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

V. BRENIN MEWN PENBLETH.

"Ac Agrippa a ddywedodd wrth Paul,—y mae cennad i ti i ddywedyd drosot dy hunan." YR ACTAU xxvi. 1.

YR oedd Eglwys Ffrainc, er oesoedd boreuaf y Babaeth, wedi cadw llawer o'i hanibyn-ieth fel eglwys genhedlaethol. Yr oedd oes 'fransis y Cyntaf yn oes deffroad cenhedl-ethol yn Ffrainc, a hawdd fuasai i'r eglwys nnill anibyniaeth mwy. Ar un olwg buasai yn yn nerth i gynllun brenhinoedd Valois,—i hoff gynllun i uno Ffrainc, a rhoddi nibyniaeth perffaith iddi. Hawdd y gellid obeithio y gwnai Ffransis fel Harri'r Wyth-ed yn Lloegr,—derbyn y Diwygiad, o leiaf n ei agwedd boliticaidd. Ond, heblaw hyn, ybid fod Ffransis yn cydymdeimlo â syn-ddau'r Diwygwyr; efe ddygodd i Ffrainc yr thrawon Protestanaidd,—athrawon Groeg a Iebraeg.

Pan ddychwelodd y brenin o'r Eidal yn 529, dechreuodd y ddwy ochr ddadleu ger ei ron, er ceisio ei ennill. Ar un ochr, ochr y dygeidiaeth newydd, yr oedd ei chwaer Iargaret, llawer o'r uchelwyr a'u gwragedd, r athrawon, a'r beirdd. Ar yr ochr arall, chr yr hen eglwys, yr oedd Cardinal Lor-aine, o deulu balch uchel-frydig Guise; y Cwnstabl Montmorency, pen hen deulu selog, teulu Cristionogol cyntaf Ffrainc"; a'r Cardinal Tournon, ymgorfforiad o'r hen awydd rlid, ac arweinydd clerigwyr Ffrainc. Ni hybiodd y brenin ar y dechreu fod y cweryl n fwy na chweryl am ddaliadau diwinydd-on; nes gwrando, mewn penbleth nid bychan, eth oedd gan bawb i'w ddweyd.

Ysgrifennodd Margaret ei llyfr er ei fwyn, ddesgrifio ei hawydd ei hun am ddianc o echod i burdeb, o farwolaeth i fywyd; a awdd oedd i'r brenin gamgymeryd yr mdrech hon am ei ymdrech ei hun i ddianc anwybodaeth i wybodaeth, er na wyddai ef dim am argyhoeddiad o bechod. Ar yr un ryd yr oedd yr Almaenwyr yn ceisio dar-wyllo Ffransis i ddod yn nes at y Protestan-iid,—ysgrifennodd Luther ato, anfonodd duc acsoni lysgennad i ddangos mai nid di-reiddio oedd gwaith y Diwygiad, anfonodd uingli ei lyfr, a gyrrodd Melancthon ei ddaliadau rhesymol a deniadol.

Gwelodd y Sorbonne y perygl. Condemn-yyd llyfr Margaret am ei heresi, dywedoedd ynach penboeth ar ei bregeth y dylid taflu'r ydyddes frenhinol i'r Seine, ac ebe Noël eda nwydwyllt,—

"I'r tân, i'r tân, hyn yn unig foddlona
Ofynion cyfiawnder, a digter ein Duw."

Digiodd y brenin wrth y diwinyddion gwaed-wyllt, a pharod iawn oedd awen Clement Marot i'w gwawdio,—

"I'r dŵr, i'r dŵr a'r ffyliaid gwrthryfelgar,
Ni phregethant air Duw, y penboethiaid ymyrgar;
Y gwin coch a garant, mae eu gwaed yn rhy boethlyd,
Eu hysgol sydd dafarn, wŷr gwingar ac ynfyd,—
I'r dŵr oer, i'r dŵr a hwy!"

Tybiai pawb fod y brenin mewn penbleth beth a wnai; ac yn nechreu'r flwyddyn 1533, pregethodd esgob Paris bregeth hynod o'i flaen ar y geiriau "Sursum corda."* Dy-wedodd mai nid yn yr offeren yr oedd Mab y Dyn, ond fod y credadyn yn codi ei galon i'r nefoedd, i'w gael yno, pan yn gweled y bara a'r gwin. Diweddodd yr esgob ei bregeth trwy apelio at y brenin,—"Cwyd dy galon." Nid oedd hyn ond rhoddi esboniad Protestan-aidd ar Babyddiaeth; ac yr oedd yr esgob yn galw ar y brenin i wrthod Pabyddiaeth, a chofleidio Protestaniaeth. Ni welodd y brenin ar y cyntaf beth oedd meddwl y bregeth, ond daeth cardinaliaid Tournon a Lorraine ato, a darllenasant y bennod trwyddi iddo, i ddangos nad oedd Esgob Paris wedi pregethu ar ei destun. "Felly," meddai'r cardinaliaid hyn, "y chwalwyd y niwl oedd yn dechreu ymgasglu dros enaid y brenin." Yr oedd y gwirionedd wedi tywynnu am unwaith ar galon lygredig Ffransis, ond, fel niwl a gyfyd o gors i guddio'r haul sy'n gwenu arni, cododd cwmwl oddiar ei fywyd drwg i guddio gwên trugaredd Duw. Wrth wrando ar y drydedd bennod o lythyr Paul at y Colosiaid, deallodd beth oedd y Diwygiad, —diosg yr hen ddyn, a gwisgo y newydd, yn ol delw yr hwn a'i creodd ef; maddeu os byddai cweryl, gwisgo addfwynder ac ymaros, ie, tuag at y brenin a'i carchaiodd. Nid newid barn yn unig oedd troi'n Brotestant, yr oedd y gorchymyn yn galed,—

"Marwhewch, gan hynny, eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear; godineb aflendid, gwŷn, dryg-chwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilun-addoliaeth."

Gwell oedd gan Ffransis yr eilun-addoliaeth hwn, ac eilun-addoliaeth yr offeren. Rhaid oedd rhyfela, ni fedrai Ffransis roddi'r Eidal i fyny, na maddeu i'r Ymherawdr a'i carcharodd. Cyfarfyddodd y Pab ac yntau eu gilydd yn hydref y flwyddyn 1533;

*Col. iii. 1. "Ceisiwch y pethau sydd uchod" ydyw'r cyfieithiad Cymraeg. "Cwyd dy galon" yw ystyr y ddau air Lladin.

ac yn y cyfarfyddiad hwnnw penderfynwyd fod Pabyddiaeth i aros yn grefydd Ffrainc, a fod nith y Pab, Catharine de Medici, i briodi mab brenin Ffrainc. Ar enedigaeth hon dywedodd y ser-ddewinydd fod y ser yn dweyd y byddai'n ddinistr i'r teulu yr ymbriodai iddo. Cawn ei gweld cyn hir yn cynllunio cyflafan St. Bartholomew.

Er mwyn gallu tymhorol yn unig y deffrodd natur oer Clement y Seithfed, i ennill brenin Ffrainc,—

"Golchodd yr Iesu draed ei ddisgyblion,
Cusenir rhai'r Pab gan frenhinoedd dynion.
Ni fynnai y r Iesu deyrnas ddaiarol,
Myn y Pab hi trwy ryfel dymhorol.
Coron o ddrain oedd ar ben yr Iesu,
A gemau ac aur myn y Pab ymgoroni.
Cariodd yr Iesu ei groes mewn dolur,
Cerrir y Pab gan frenhinol filwyr.
Yn y nef, ebe'r Iesu, mae'n trysor drud,
Ar y ddaear, ebe'r Pab, mae'n trysor i gyd."

Disgwylid Melancthon i wrth-weithio'r hol[1] ddylanwadau hyn, a dywedodd Marot wrth ddiwinyddion y Sorbonne nad oedd eu hoernad hwy fawr o beth wrth hyawdledd swynol Melancthon. Ond medrodd y cardinaliaid wneyd i'r brenin addaw na ddeuai Melancthon yn agos ato.

Ar fore'r deunawfed dydd o Hydref, 1534, erbyn i bobl Paris godi, yr oedd hysbyslenni wedi eu gosod ar ddrysau holl eglwysi a phrif adeiladau'r brifddinas, ac yr oedd rhywun wedi bod yn ddigon beiddgar i osod un ar ddrws ystafell wely'r brenin ei hun. Ni wyddis hyd heddyw pwy osododd yr hysbyslenni,—rhai'n gwawdio'r offeren,—ond cymerodd y cardinaliaid fantais arnynt i chwerwi meddwl y brenin. Gwelwyd Clement Marot yn dianc am ei fywyd ar draws Ffrainc at Fargaret i Navarre, a gwyddid fod ystorm yn dod. Ar y trydydd dydd ar ddeg o Ionawr, 1535, penderfynwyd gwneyd gorymdaith fythgofiadwy, i ddyhuddo llid Crist am yr hysbyslenni.

Ar y dydd hwnnw llannwyd pob stryd a ffenestr a phen ty i weled yr orymdaith. A dyma'r orymdaith yn dod. Yn gyntaf daeth mynachod y pedair urdd, yn bedwar lliw; yna clerigwyr Paris yn cario esgyrn pum sant eu plwyfydd; yna canoniaid Notre Dame, a chyngor y Brifysgol, yn cario canhwyllau o gŵyr du 'n goleu. Ar eu hol hwy daw milwyr yn canu pob offerynau, a chôr capel y brenin yn canu hymnau'r offeren. Ar eu hol hwy daw deg offeiriad, yn dwyn pen St. Louis, gwir groes yr Iesu, ei goron ddrain, a blaen y bicell wanodd ei ystlys,—creiriau nas danghoswyd o'r blaen er pan ddaeth St. Louis a hwy i Ffrainc. Ar ol nifer o breladiaid meitrog, dacw ddau gardinal yn cerdded ochr yn ochr,—Cardinal Tournon, gelyn chwerwaf y Diwygiad, a Chardinal Châtillon, un oedd i fod yn ddiwygiwr ei hun, ac i farw a chael bedd yn Lloegr wrth chwilio am gymhorth i'w frawd Coligni. Ar ol y ddau hyn cerrid elfennau'r sacrament gan esgob Paris,—bara a gwin wedi eu traws-sylweddu'n wir waed a chorff yr Arglwydd,—dan babell symudol o felfed glâs a liliau aur, pabell gerrid gan dri mab ac ŵyr y brenin. Yna daeth y brenin ei hun, yn bennoeth, a chanwyll gŵyr yn ei law, yn grefyddol iawn. Dipyn ar ei ol doi Cardinal Lorraine, gelyn y Diwygiad, ac ugain o filwyr mewn gwisg arian, yn cario ffaglau tanllyd. Yna daw'r cyfreithwyr yn eu gwisgoedd cochion; ac ar eu holau dywysogion a swyddogion y ddinas a'r brenin yn eu gwisgoedd satin coch, melfed glâs, a brethyn du. A'r rhai olaf i fynd o'r golwg i eglwys fawr Notre Dame ydyw pedwar cant o filwyr, a'u ffaglau'n gwneyd i'w gwisgoedd dur ddisgleirio wrth fynd i'r pyrth tywyll.

Wedi gwasanaeth yr offeren, areithiodd y brenin yn erbyn y Diwygiad. Ac yna llosgwyd rhai o "wŷr y grefydd" ar dân araf,—Llydawr, ysgolfeistres, gŵr a barlyswyd, siopwr, masnachydd cyfoethog elusengar, a saer tlawd o dref Meaux.

A dyna ddanghoswyd i Grist, i ddyhuddo ei lid, y dydd hwnnw.

VI. Y LLAIS UDGORN.

"At dy safn â'r udgorn." Hosea viii. 1.

Daeth ystorm o erledigaeth dros Ffrainc; ac nid oedd noddfa nac amddiffynnydd. Ni[1] wyddai Protestaniaid Ffrainc am eu gilydd, ac ni wyddai Protestaniaid Ewrob am danynt, ond trwy eu gelynion.

Yn yr adeg gyfyng dywell yna clywyd llais udgorn,—llais unodd y diwygwyr, a llais a gyfiawnhaodd eu hachos ger bron y byd. Yn 1535 daeth llyfr i Ffrainc, wedi ei argraffu ym Masel, "Institutio Christianæ Religionis." Lladin oedd y llyfr, ond yr oedd llythyr Ffrancaeg ar ei ddechreu at Ffransis y Cyntaf. Gwelodd y cardinaliaid elyn newydd, a'u gelyn mwyaf, yn ysgrifennydd y llyfr hwn,—gwelsant ynddo gynrychiolydd crefydd gyfatebai'n hollol i awydd ac athrylith pobl Ffrainc, crefydd brydferthach a mwy ysbrydol na chrefydd Luther. A throdd gwrthwynebwyr Luther, gyda chwerwder di-ffino, i wynebu John Calfin. "Efe oedd y peryclaf o honynt i gyd. Yr oeddynt hwy'n dod trwy'r ffenestr, gan ddweyd mai diwygio'r eglwys oedd eu pwrpas. Ond daeth hwn trwy'r drws, a'i gleddyf yn ei law, i ddinistrio a dadymchwel."

Ganwyd John Calfin yn Noyon, yn nyffryn yr Oise, yn 1509. Yr oedd bryd ei dad ar ei wneyd yn offeiriad, a sicrhaodd le iddo pan

nad oedd eto ond deuddeg oed. A meddyl-iodd ewythr iddo feddwl digon rhyfedd, meddyliodd am roi Beibl yn anrheg iddo. Yr oedd meddwl y bachgen mor gyflym, a'i gariad at ddarllen mor fawr, fel y tybiodd ei dad mai gresyn oedd ei roddi'n offeiriad wedi'r cwbl, ac anfonodd ef i Orleans a Bourges i astudio'r gyfraith. Gwelodd Melchior Wolmar, athraw Groeg Bourges, athrylith y gŵr ieuanc o'r gogledd,—ei awydd aniwall am waith, ei gof di-waelod, ei Ladin prydferth, ei allu i ddangos yr hyn a wyddai, ac ynni lyn dan wyleidd-dra myfyriwr. "I'r enaid ieuanc hwn, tywalit-odd Wolmar wen-wyn yr heresi." Rhoddai Calfin ei oriau goreu i Ddi-winyddiaeth tra'n astudio'r gyfraith, hudwyd ef ymlaen wrth ddarganfod y naill wirionedd mawr ar ol y llall, a phregethai'r hyn ddarganfyddai gydag eglurder a nerth anorchfygol. Gwnaeth y myfyr-iwr ieuanc tair a'r hugain oed lawer i estyn terfynau teyrnas Dduw ym Mourges.

Yn 1523 aeth i Baris, ac yr oedd ei enw eisoes mor adnabyddus fel y gofynnodd rector y Brifysgol iddo ysgrifennu'r anerch-iad Lladin blyn-yddol. Wedi iddo draddodi'r anerch-iad hwn, gorfod i'r rector a Chalfin ddianc am eu bywyd-au. Aeth Calfin i Angoulême, ac yno, yn llyfrgell cyfaill, y dechreuodd ysgrifennu ei lyfr enwog ar y grefydd Gristionogol. Bu gyda'r gwaith hwn ddydd a nos, gan anghofio cysgu a bwyta lawer tro. Ar yr un pryd pregethai ym mhentrefydd Poitou a Saintonge, a chodai eglwysi yn ol ei draed. Yng nglynnoedd cudd fforestydd tywyllion, cyfrannai elfennau swper yr Arglwydd. Un tro, cyn dechreu'r ordinhad, dywedodd un fod yr offeren yn cael ei haddoli drwy Ewrob. Cododd Calfin ei Feibl, a dywedodd,—"Dyma'm hofferen i." Yna cododd ei olwg i fyny i'r nef, a gweddiodd,—

"O Dduw, os dywedi wrthyf yn nydd y farn na fum yng ngwasanaeth yr offeren, atebaf di na orchymynaist i mi fod. Dyma dy Air, dyma dy gyfraith, yn hon nid oes son am aberth ond aberth y groes."

Tra yn Angoulême, aeth Calfin i weled Lefèvre, i Nerac, lle'r oedd yr hen wr yn treulio ei fywyd mewn myfyrdod. Aeth yn ol i Baris, ond yr oedd ei enwogrwydd yn fawr, a'i fywyd mewn perygl. Diangodd dros derfyn Ffrainc i ddinas Basel, ac yno, yn Awst, 1535, yr ysgrifennodd ei lythyr at y brenin. Yn y llythyr dengys fod yr erlidwyr yn erlid rhai oherwydd eu crefydd, ond nad oedd crefydd yn bechod cosbadwy yn ol cyfraith Ffrainc. Geilw ar y brenin i gydmaru bywyd y diwygwyr â bywyd eu herlidwyr, ac i gydmaru eu dal-iadau â dysgeidiaeth y Beibl.

EGLWYS GADEIRIOL GENEVA.

Yn yr *Institutio* ei hun ceir crynhodeb manwl o ddysgeid-iaeth y Beibl, eglur-ach na dim a gy-hoeddwyd o'r blaen. Daeth y llyfr yn allu mawr ar un-waith, nid oedd odid i gartref dysgedig yn Ffrainc na welid ef ynddo. Ac yr oedd yn rhaid i bawb addef, pa un ai gwir oedd y syn-iadau ai peidio, fod y Lladin yn ber-ffaith, a'r arddull yn rhyfeddol eglur.

Yr oedd y llyfr hwn yn gwneyd mwy na chyfiawnhau'r hyn fu yn hanes y Diwygiad, yr oedd yn arweinydd y dyfodol. Unodd y Diwygiad, a rhoddodd drefn arno,—rhodd-odd fywyd i'r brawd cloff a doethineb i'r brawd penboeth, gan beri iddynt symud ynghyd. Ni adwaenir y diwygwyr ereill mwy ond fel rhagflaenwyr Calfin; efe yw eu harweinydd, efe yw eu deddf-roddwr. A'r ddeddf roddodd iddynt oedd y Beibl, "ffynnon ein ffydd."

IDRIS VYCHAN

II

WRTH ddechreu fel hyn ar ychydig adgofion ymhellach am Idris Vychan, dylid dweyd ei fod, hyd y gwn i, yn perthyn i'r seiat ar hyd ei oes. Ac yng nghyfnod fy adnabyddiaeth i o hono, yr oedd hefyd yn athraw cymeradwy yn yr Ysgol Sul. Fel aelod eglwysig yr oedd yn onest a diymhongar, ac ni fyddai byth yn ceisio ymddangos yn ddim amgen na'r hyn oedd. O ran ei deimladau, yr oedd yn grefyddol iawn; ac, fel y publican hwnnw, yn wastad yn gosod ei hun fel pechadur mawr. Y mae ei lawysgrifau barddonol wedi eu britho â dymuniadau a gweddiau; a dyma un o honynt, a gyfansoddwyd yng nghapel Moss Side un nos Sul yn y flwyddyn 1881, wedi gwrando y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn pregethu, —

Ar fy neulin, a thyrfa anwylaf,
Yno heb gilio ar Dduw y galwaf;
Nid teiau'r gwrachod, ond ty'r Goruchaf,
Ydyw y goreu, a'i hâd a garaf,
Ar fy Ion yr erfyniaf,—â chalon,
A hynny yn gyson, hwnnw a geisiaf.

Ceir yr un teimlad crefyddol dwys yn yr englynion a gyfansoddwyd ganddo yn y flwyddyn 1877,—

MYFYRDOD AR YSTORMYDD MAWRION YR HYDREF.

Mawr wynt aruthr yn rhuthro,—y coedydd
Cadarn yn dadwreiddio!
Ar ei hynt mae'r gwynt o'i go
Yn 'r awyr yn croch-ruo.

Taranau—mellt—trueni mawr,—y gwlaw
A glywir yn drystfawr,
A chymysg derfysg dirfawr
Yn un llu'n crynnu y llawr!

Y mae Storom drom i dramwy—y byd
Honno'n boeth i'w ofwy!
O bob storom fawr, mae un fawr fwy
A'i nodwedd yn wir ofnadwy!

Y môr mawr dirfawr ei derfyn,—'n ffrio
'N gyffrowyllt mewn dychryn,
Un nawdd ni chai anoddyn,
A dîr fe'i lleibir fel llyn.

Haul, lloer, sêr yn uchder nen,—a syrthiant
Yn swrth o'r ffurfafen,
Hylif o dân yw'r heulwen,
Dydd enbyd, y byd ar ben!

Udgorn Duw, O gorn diwedd—ofnadwy
Cyfnewidiad rhyfedd!
O fy enaid, cyfannedd
Duw, Ior byw,'r cl llety'r bedd.

Y mae hefyd ym mysg ei lawysgrifau rai hymnau, o'r rhai y mae y ddau bennill canlynol ar y mesur 8.7.4. wedi eu cymeryd,—

Arglwydd tirion dyro awydd
Yn fy enaid at dy waith,
Dyro gymorth i fyfyrio
Gair yr iechydwriaeth faith;
Nes im deimlo
Rhinwedd gwaed fy Mhrynnwr cu.

Chwilio d' air mewn ysbryd gwedli,
A'i gymhwyso im fy hun,
Nes cael gafael ar y trysor,
Trysor gwerthfawrocaf dyn.
Rho oleuni,
Fel y gallwyf ei fwynhau.

Gwelais ddywediad, o eiddo yr hybarch Robert Jones o Lanllyfni, fod y Brenin Mawr yn gofalu bob amser am roi rhyw wendidau rhyfedd a phlentynaidd yng nghymeriadau dynion mawr, rhag i'r bobol gyffredin fynd i feddwl gormod o honynt. Yr oedd gan Idris Vychan rai o'r gwendidau diniwed hyn. Un o honynt oedd, yr oedd yn gredwr diysgog yn hen draddodiadau ei wlad, am fwganod a thylwythion teg. Yr oedd, fel y cyffredin o'r credinwyr hyn, yn bur hawdd ei ddychrynnu,—fel y dengys y chwedl ganlynol. Un noson, pan yn byw yn Llundain, aeth ef a Mrs. Jones i dy gŵr bonheddig, ty yr oedd hi wedi byw ynddo am lawer o flynyddoedd cyn priodi. Wedi bod yno am gryn amser, cymerodd Idris yn ei ben i fynd allan am dro. Yr oedd ei het ar yr *Hatstand* mawr yn y cyntedd, lle yr oedd hefyd amryw o hetiau y meistr, yr hwn oedd yn arfer gwisgo berwig ddu. Yr oedd ganddo amryw o honynt, a chan na allai wisgo ond un ar unwaith, byddai yn arfer cadw y lleill yn ei hetiau. Beth bynnag camgymerodd ein hen gyfaill ei het, rhoddodd het y meistr a'r berwig ddu ynddi am ei ben, ac aeth allan yn dalog am dro. Bu allan am dipyn o amser, ond daeth i'r ty yn ei ol trwy ddrws y cefn, ac mae yn debyg nad oedd tynnu het, wrth fynd i dy trwy y drws hwnnw, yn bwysig iawn yn ei olwg. Felly cerddodd yn syth i'r gegin a'i het am ei ben, a safodd o flaen y tân, ac wedi rhyw hanner moesymgrymu i'r cwmni, cododd ei law at ei het i'w thynnu; a'r funud y daeth honno dros ei goryn, dyna swp o wallt du, yn union fel ei wallt ei hun, yn disgyn wrth ei draed. Gollyngodd yr het mewn chwinciad a tharawodd ei ddwy law ar ei goryn, a gwaeddodd mewn llais dychrynedig,—"Wel! yr Arglwydd anwyl a'm helpo i, dyma yng ngwallt i wedi dwad i ffwrdd." Clywais Mrs. Jones fwy nag unwaith yn mynd dros y chwedl hon, ac yr oedd yr hen wreigan ddiddan yn gorfod aros cryn dipyn yma ac acw ar hyd-ddi, gan fel yr oedd ei theimladau yn cael eu gorchfygu gan chwerthin wrth gofio mawr ddychryn ei phriod.

Wedi son am dano fel un yn credu yn hen draddodiadau ei wlad, temtir fi i roddi i

awr yma un o honynt am hen delynor a hylwyth teg a Llyn y Bala a'r Aran, yn cael ei adrodd ganddo ef mewn cân bryderth wedi ei chyfaddasu i alaw swynol o'r enw Cainc y Delyn, am yr hon y bu cryn siarad flynyddau yn ol. Cefais y copi o'r alaw ym mysg ei lawysgrifau, a r enw Idris Vychan wrthi fel ei hawdwr.

CAINC Y DELYN.

Cywair E♭.

:s |d' :t |l :s |f :m |r :m.f |s :f |m :r |d :— |— }
Ar grib yr Ar - an gwelwyd bardd Yn chwareu'i del - yn fwyn, }

:s |d' :t |l :s |f :m |r :m.f |s :f |m :r |d :— |— }
A gwel-ai fyrdd o Dy- lwyth Têg, yn dawnsio yn y brwyn, }

:s |m .f :s .l |s :s |m .f :s .l |s :s |d' :d' |r' :d' |l :— |— }
A Chainc y Del - yn oedd y dôn—Hen gainc y Cym - ry gynt; }

:t |d' :d' |d' :t .l |s .f :m .r |d :l |s :f |m :r |d :— |— ||
'Roedd swn y tan - nau— O mor glir—Mal clych-au yn y gwynt. ||

Fe gydiai un o'r Tylwyth Têg
Yng nghorn ei delyn hen,
A chwsg a ddaeth i'w fysedd main
Pan oedd yn gwisgo gwên.

A Chainc y Delyn, &c.

Chwareuai un o'r chwimwth lu
Y tannau ger y llyn;
A phan ddeffrôdd y bardd o'i gwsg,
Fe ddwedai—Beth yw hyn?

A Chainc y Delyn, &c

Pwy a a'i enwair at y llyn
I fachu'r pysgod can?
Fe allai bechir yr hen fardd,
A'i delyn hen i'r lan.

A Chainc y Delyn, &c.

Ffaith digon hysbys i gyfeillion Idris Vychan, ffaith roddodd iddynt aml i dro lawer o ddifyrrwch, oedd fod yr hen fardd yn mawr ofni llygod bach. Digwyddodd unwaith i mi fod gydag ef yn nhy un o'i gyfeillion goreu, pan fu i wichiad llygoden fach yn yr ystafell nesaf ei gyffroi i'r fath raddau fel y neidiodd mewn arswyd i ben y gader o'i hofn. Trodd wyneb gwgus ar wr y ty, a chyfarchodd ef yn debyg i hyn,—"Pam na chadwi di gath yma, dwad, yn lle bod creaduriaid fel hyn yn cael bod yn dy dŷ di?" Y mae gŵr y ty hwnnw yn fyw ac yn iach eto, ac yn wr athrylithgar a pharod ei dafod, ac rwy'n sicr yn eithaf parod i ddwyn tystiolaeth i wirionedd hyn. Ond er ei wendidau plentynaidd, nid oedd neb o'i gyfeillion yn meddwl llai o hono, ond yn hytrach yr oedd ei wendidau, os yr un, yn ei wneyd yn fwy poblogaidd, a'r rhai oedd yn ei adnabod oreu oedd yn meddwl mwyaf o hono. Maddeuer i mi am adrodd un chwedl yn rhagor am dano. Ar ddydd Gwener yn wythnos y Sulgwyn, tua deng mlynedd yn ol, aeth Idris Vychan gydag Ysgolion Sabothol Cymreig y ddinas yma, i Dunham Park, Knutsford, ac ar y ffordd o'r tren i'r pentref, cafwyd gafael ynddo gan tua hanner dwsin o lodesi hawddgar Cymru, a does dim eisieu canmol dim ar beth mor hysbys a haelioni a natur dda y rhai hynny. Rhoddasant wahoddiad serchog iddo i ddod gyda hwy i gael tamaid o *lunch* cyn mynd i'r parc, ac hefyd i gael ei de yn y prydnawn cyn cychwyn adref. Canys yr oeddynt yn cario gyda hwy mewn basgedi a pharselau bychain taclus ddigonedd o'r ymborth goreu; a derbyniwyd y gwahoddiad gyda diolchgarwch. Wedi cyrraedd y pentref, aed i mewn i dy henafol yr olwg arno, lle yr oedd ystafell gysurus, a llestri a dŵr poeth, a phob cyfleusdra oedd yn eisieu. Ni fu raid aros yn hir cyn bod yno *lunch* ardderchog ar y bwrdd yn barod i'w fwyta. Ond yr oedd ffawd wedi trefnu nad oedd yr hen fardd i gael torri ei newyn y waith hon. Pan oedd y gyllell a'r fforc yn ei law, dyna un o'r genethod yn gwaeddi mewn tipyn o fraw wrth weld llygoden fach yn rhedeg ar draws yr ystafell, ac er ei fawr ddychryn gwelodd Idris Vychan hi hefyd. Mewn chwinciad llygad cododd ei draed allan o berygl, a rhoddodd y gyllell a'r fforc yn ol ar y bwrdd, ac nid cyn gweled y fechan yn diflannu o'r golwg i'w thwll y meiddiodd roddi ei draed i lawr. Cododd i fyny i chwilio am ei het i fynd allan, ac er pob taerineb ac ymbiliau, wedi eu gwisgo yn yr hyawdledd menywaidd mwyaf deniadol, allan yr aeth ef heb fwyta

tamaid, gan adael ei wahoddesau caredig yn y benbleth a'r dyryswch mwyaf i geisio esbonio'r ofn rhyfedd yma oedd yn perthyn i'r hen fardd. Cyn pen yr awr yr oedd yr oll o'r cannoedd Cymry oedd yn y lle yn gwybod am y digwyddiad, yr hwn a barodd lawn cymaint o ddifyrrwch diniwed iddynt a dim arall gymerodd le, ie, hyd yn nod ar y diwrnod llawen hwnnw. Bu raid i Idris Vychan ymdaraw a llawer math o gellwair, am y gweddill o'r dydd; ond cymerodd y cwbl yn garedig. Er hynny, nid gwr i gellwair ar ei gorn oedd efe. Na, buasai un edrychiad o'i eiddo yn ddigon i arswydo a distewi y cellweiriwr mwyaf parod. "Na fydd yn siwgr i gyd," ebe hen ddihareb Bersaidd, "neu fe'th lwnc y byd di." Ond yr oedd perygl ein hen gyfaill yn yr eithaf gwrthgyferbyniol, canys ychydig a'i gyrrai ef yn wr garw yr olwg arno, a llym ei eiriau, ac anibynnol ei feddwl. Ac yn yr adeg honno yr oedd yn rhy dueddol i arfer geiriau chwerwon, yr hyn, ar ol hynny, fel y dywedai ef ei hun, fyddai yn ofid calon iddo. A chalon fawr, lawn o gydymdeimlad, oedd ganddo ef, wedi'r cwbl. Dyma ddarlun o hono yn ei ddangos felly, wedi ei dynnu'n anfwriadol ganddo ef ei hun, yn y nodiad canlynol,—

"Idris Vychan a gyfansoddodd yr isod pan mewn claddedigaeth, ac yn methu dal i edrych ar berthynasau y marw yn wylo, a aeth o'r neilldu i edrych ar y cerrig beddau. Gwelodd garreg fedd hen filwr, ac arni,—*The Patriot and the Brave.*

"Y gwrol, a'r gwladgarwr,—ymwria,
A mawredd rhyfelwi,
Heddyw ei 'stad yn ddiystŵr!
Dyna foliant hen filwr."

Dyma eto rai penillion wedi eu cymeryd o'r gân i'r gauaf, penillion ddengys yr un tynerwch a chydymdeimlad. A'r gân honno ydyw yr unig engraifft a welais o'i waith, yn yr hen fesur gwerinol hwn.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan bo rhewynt blin ac eira;
I'r tylawd mae'n chwerw, chwerw,
Gwell o'r bron i'r truan farw.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan bo gweddw yn cardota;
Trist yw gweled neb mewn eisieu,
Pan yn curo wrth ein drysau.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan heb lety yn orffwysfa,
Gwynt y dwyrain yn ymlidio
Pawb yn ceisio ffoi oddiwrtho.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan heb danwydd,—dim i'w fwyta;
Gwell o'r bron yw rhynu allan
Na rhynu yn y tŷ ei hunan.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan bo iechyd wedi ei ddifa;
Nid yw'r haul pryd hyn yn iechyd,
Tymor byr yw tymor bywyd.

Meistr caled ydyw'r Gaua',
Pan ddaw henaint, ni thosturia;
Ow! 'r hen wr, mae'n methu llusgo
Wrth ei ffon, mae yn diffygio.

Chwarau teg it, 'auaf caled,
Ceir o honot ti ymwared;
Ond mae ambell ddyn mor gleted
Na cheir byth o hono 'mwared.

Ymhell y byddo dynion felly
Bron na dd'wedwn,—*Ewch y fory*,
Croes i Dduw, a chroes i'r Cristion
Ydyw c'ledwch amryw ddynion.

Chwarau teg it, 'auaf, eto,
Byth nà chofia'm sen i heno
Os y cwrddwn flwyddyn nesaf,
Maddeu wnei i mi, gobeithiaf.

Dyma eto rannau o gywydd,—"Tymhestloedd mis Chwefror, 1883,"—

Ym mis Chwefror mae dorau
Dryghinoedd gwyntoedd sy'n gwau
O'n hamgylch a blin ymgais,
Du egr lyw gyda hagr lais,
Gwanu ydyw gogoniant
Y Mis Byr, nid difyr dant,
Nid a neb wedi'i 'nabod
A gwên glau i ganu ei glod;
Dwyreinwynt rhuthrwynt ar hyd
Ei unben sydd yn enbyd!

Yn y ddôl ymddiala,
A chroen hon yn ddychryn a;
Crib wallt yr allt ar ei hynt,
Cario iasiau wna croeswynt,
I'r dyffryn, i'r bryn, pawb ryna,
I'r mynydd yn rhydd yr a;
Ymchwyrnu mae â chorn mawr,
A hir-lais uwch daiarlawr,
Y gwlaw pistylliaw bob dydd,
Hyll fwgwth bu'r llifogydd,
Yn eu dadwrdd yn d'wedyd,
Os mynnent, boddent y byd.
Och! arw fis, un chwerw ei fant,
Hyf floeddiwr pob aflwyddiant!

O! am hin deg er mwyn dyn,
Byd tawel ar bob tywyn;
Pawb sy'n dewis y mis Mai,
Anwyl-fis yw'r nefol-fai.
Mai anwyl, tyrd am unwaith,
Ar hynt gynt i lonni'n gwaith;
Tyred a'th wenau tirion,
Awel ar y dawel don;
Acen y mis yw canu mawl,
O! adar seingar hudawl.
Dim brad na llong-ddrylliadau,
A mynnu hwyl er mwynhau
Iechyd, gyda'i hyfryd wedd,
A Duw yn rhan i'n diwedd.

Yr oedd Idris Vychan yn hoff ryfeddol o blant bach,—arwydd ddifeth ac anffaeledig bob amser o natur dda. Canodd lawer ar eni a marw aml un o honynt, a bu eu

gwynebau tlysion yn destyn aml i englyn. Dyma rai o honynt. Y mae'r cyntaf i Wladus, merch fechan ei gyfaill Dewi Mawddwy,—

A ! Gwladus, hoff glodus yw—dy wyneb
Sy'n denu dynolryw,
Dy wrid glân. O fechan fyw,
I Idris, wyt ddiledryw.

Dyma un i Eilonwy, merch fach Mr. David A. Hughes (Dafydd Arthur),—

Ar wyn bared ni cheir un burach,—gwedd
Dan gamp, 'does mo'i thlysach;
Yr heulwen nid yw'n siriolach,
Y lanaf yw Eilonwy fach.

A dyma bennill allan o farwnad deimladwy ar ol William Miles, plentyn hoff Mr. Williams, Meistr Tloty Dolgellau,—

Treigla'r afon Wnion loew
Gyda si gwynfannus lawn:
Cana'r gôg mewn gwig cyfagos,
Gyda hiraeth, fore a nawn;
Troella'r awel ddail y coedydd
Gyda'i si unigol brudd, —
Er fod natur yn ei glesni,
Mae rhyw brudder! pwy sy 'nghudd?

Wele eto englyn, a chwe llinell o gywydd, ar farwolaeth Thomas Humphreys, Ysw., o ffirm Meistriad Lewis Humphreys a'i Gwmni, Manchester, yr hwn a gyfarfyddodd a damwain, er mawr alar i laweroedd.

Ar adain damwain yr 'hedodd,—i wydd
Duw Iôr yr esgynnodd,
Ein Humphreys hael o fael fodd,
Is heulwen byth noswyliodd.
Er hoywder ac anrhydedd,
Syrthia a gwywa pob gwedd;
Ac mor frau yw dyddiau dyn,
Ail i dw' y blodeuyn,
Daw ei yrfa i derfyn,—
Mor ryfedd yw diwedd dyn.

Ni wiw dechreu dweyd dim yma, bellach, am dano fel datgeiniad gyda'r tannau, na chwaith am yr hyn a ysgrifennodd ar y gelfyddyd henafol honno, gan y bwriedir ysgrifennu arno yn y cymeriad hwnnw yn unig. Ei brif weithiau hanesyddol ydyw dau draethawd llafurfawr. Ysgrifennwyd un yn 1870, a'r llall yn 1876. Bu y naill a'r llall yn fuddugol yn Eisteddfod Meirion. Testun y cyntaf ydyw "Hanes Dolgellau a'r Cymydogaethau, ynghyd a Hynafiaethau Gorllewin Meirionnydd." Cyhoeddwyd hwn yn 1872. Testun y llall yw, "Casgliad o enwau Lleoedd, Tai, ac Afonydd y tri Phlwyf, — Dolgellau, Llanelltyd, a Llanfachraeth,—ynghyd a tharddiad y cyfryw enwau." Yr oedd yr awdwr wedi bod yn absennol o Ddolgellau am tua chwe blynedd ar hugain pan ysgrifennwyd yr olaf; ac o dan yr anfantais hwnnw, sut y llwyddodd i ysgrifennu mor fanwl a da sydd yn rhyfeddod mawr. Canys nid wyf yn credu fod dim cyffelyb i'r traethodau hyn wedi ei ysgrifennu erioed am un dref arall yng Nghymru; a phe byddai i bobl dda Dolgellau uno y ddau draethawd hyn, ynghyd a'u cyhoeddi yn un llyfr, byddai felly i'r oes a ddel, yn enwedig yn y rhan honno o Gymru, y gwaith mwyaf dyddorol a gafwyd hyd yn hyn trwy Eisteddfod Meirion. Byddai hefyd yn gofgolofn oesol i athrylith un o blant hynotaf Dolgellau, yr hwn a goleddai y serch a'r anwyldeb dyfnaf at ei fro enedigol, fel y tystia y penillion canlynol allan o'i "Hiraeth-gan am Ddolgellau,"—

Dolgellau yw fy newis le
O bedwar cwr y byd,
Y dre' lle'm ganwyd, O! hoff fan,
Man diddan ar bob pryd;
Ond hiraeth sy'n fy mynwes wiw
Am anwyl fam a thad,
Maent heddyw'n dawel yn y bedd
Mewn gwaeledd, - dyna'u 'stad!

Pe byddai i ragluniaeth roi
Fy newis fan i fyw,
Dolgellau fyddai'r fan i fod,
A hynny ŵyr fy Nuw:
Dymunwn fod fy ngwely pridd
O fewn ei llannerch hen,
A chael cyfodi'r bore mawr,
O'm gwely gwael â gwên.

Bu hefyd yn fuddugol mewn rhai cystadleuon pwysig tu allan i gylch yr Eisteddfod; un o honynt oedd y gystadleuaeth am y gân oreu i fasnachdy yr Afr Aur, Caernarfon. Y mae y gân honno yn un o'r rhai mwyaf doniol gyfansoddwyd erioed ar destun o'r fath, a gellid meddwl wrth ei darllen fod yr awdwr wedi treulio ei oes o'r tu ol i'r cownter, gan mor fyw a deheuig y darlunnir ganddo werth a defnyddioldeb y gwahanol nwyddau yn y masnachdy hwnnw. Cynhygiodd Mary Davies wobr o bum gini am y deg llinell o eiriau cyfaddas i gerddoriaeth ar gadeiriad y bardd yn yr Eisteddfod Genhedlaethol. Ceiriog oedd y beirniad, ac Idris Vychan a farnwyd yn fuddugol. Dyma'r deg llinell,—

O ganol môr gwynebau heirdd,
I'w gadair daeth bardd, bardd y beirdd,
Mewn hawddfyd ac mewn heddwch;
A ninnau ydym feirdd y bardd,
Hir goder ef i'w gadair hardd—
Ef bob un anrhydeddwch!
I arwr y dydd, Cymroaidd dân,
Defod ac arfer Cymru lân,
Yng ngwyneb haul a llygad dydd,
Urddas i farddas a fydd.

Un o feirniadaethau doniolaf Ceiriog ydyw yr un ar y deg llinell yma, yn diweddu gyda'r sylw canlynol,—

"Gwelaf yn amlwg,—sut bynnag eredaf fy mod yn gweled,—ŵr cerddorol tu draw i'r llinellau hyn, a'i fod yn gwybod cyfrinion y ddwy Awen. Eto dichon mai damwain bardd dan ei ddwylaw ydyw y cwbl."

Ond parodd rhoddi y wobr i Idris Vychan i rai pobl feddwl a siarad fod Ceiriog wedi gwneyd hynny am mai Idris Vychan oedd ei gyfaill pennaf o bawb. Ond fel arall y llefara llythyr sydd yn fy llaw oddiwrth Geiriog at ei hen gyfaill ar ol deall mai efe oedd y buddugol,—

"Waeth heb ysgrifennu llinell yn ychwaneg ynghylch y deg llinell. Ti oedd y gorcu o lawer. Cwymped y Nefoedd i Aphwys os oedd gennyf ffafreth. Be buasit wedi ysgrifennu yn dy law dy hun, buaswn ar y trac. Ond feddyliais i ddim am danat o holl bobl y byd."

Gwelais ddywediad mewn llyfr dyddorol yn awgrymu fod cyfeillgarwch beirdd y ddinas hon wedi bod yn niweidiol i Geiriog; ond gellid yn hawdd ddwyn ffeithiau i brofi mai fel arall y bu, ac mai dyfod i gyfarfyddiad â dynion fel Idris Vychan, a R. J. Derfel, a fu yn foddion i gyfeirio meddwl yr athrylithgar Ceiriog at y maes arbennig hwnnw yr ymenwogodd efe gymaint ynddo. Yr oedd Derfel ar faes y gân o'i flaen, ac Idris Vychan hefyd; a chredaf fi na welir byth dri cyffelyb i'r cyfoedion hyn a fyddai yn arfer cyfarfod eu gilydd tua deng mlynedd ar hugain yn ol, yn y ddinas estronol hon, i ymdrin â barddoniaeth ganeuol yn ei gysylltiad â hen alawon swynol Cymru Fu. Bydd yr oes nesaf yn y chwilfrydedd mwyaf am wybod rhyw gymaint o hanes y "cymdeithasu ag amryw feirdd," fel ei gelwir, canys gwelir yn eglur yr adeg honno mai yn y cyrddau hyn yr agorwyd llygaid Ceiriog, ac mai ynddynt y meddyliodd am y waith gyntaf am geisio cyflenwi mawr angen ei wlad, sef ysgrifennu geiriau priodol ar yr hen alawon. Da iawn gennyf allu rhoi yma hanner dwsin o englynion gwir deimladwy ar farwolaeth Idris Vychan gan yr *un* sydd yn aros o'r *tri* y soniwyd am danynt,—

Aeth Idris a'i waith adref—o derfysg
Y dyrfa, i dangnef;
O'i odlau, nid oes ond udlef,
Eilia yn awr ar delyn nef.

Eiliodd ei ganiad olaf—yn daliad
I'w delyn anwylaf;
Emyn a cherdd, mwy ni chaf,
O'i gyweiriau hawddgaraf.

Dadganodd, tynnodd o'r tannau—fiwsig
Yn faesydd o donau,—
Adlais ei gwrain odlau,
Yn afon hedd wnawn fwynhau.

Manceinion sydd mewn cyni—a Gwalia
Mewn galar o'i golli;
Am y tawel, cam yw tewi—
Agor, fron, am y gwr o fri.

Cwynion gwŷr glewion glywir—Ow'r ing
Ar ei ol lle'r elir;
Mesur ei hawl,—amser hir,
Ei anwylach ni welir.

Boed heddwch i'w lwch a'i le—gariadus
Gysegredig fangre;
Ar ei wyrddlas orweddle,
Bydded glawdd a nawdd y ne'.

R. J. Derfel.

Ond rhaid meddwl am derfynu er heb hanner ddarfod, eithr terfynu raid, wedi dweyd ychydig am ei gyfansoddiadau diweddaraf. Un o'r pethau diweddaf a gyfansoddodd mewn rhyddiaeth oedd y papur a ddarllennwyd i'r Gymdeithas Genhedlaethol ar "Ddafydd Ionawr." Testun wrth fodd ei galon oedd hwn, a chafodd y Gymdeithas un o'r papurau goreu a mwyaf dyddorol a ddarllennwyd erioed ynddi. Noson fythgofiadwy oedd y noson honno, pan y rhoddodd y gŵr a fu yn brif offeryn sefydlu'r Gymdeithas ei wledd olaf i'w gyfeillion. Yr oedd pawb yn gwrando fel am ei einioes y noson honno, ac ni anghofir byth yr hwyl a gafwyd, a'r tân a'r mynd rhyfedd oedd yn yr adroddiad o Gywydd y Daran. Yn ofer y chwilir croniclau y Gymdeithas am noson gyffelyb.

Yr oedd Idris Vychan hefyd yn nodedig o fedrus gyda'r gwaith o ysgrifennu llythyrau. Cefais fenthyg y llythyr canlynol o'i eiddo gan ei hen gyfaill Mr. John Richards, yr hwn a gafodd lawer o lythyrau oddiwrtho, a hefyd amryw oddiwrth Geiriog; a dywed ef, er mor ddoniol ydyw llythyrau Ceiriog, fod rhai o lythyrau Idris Vychan yn eu taflu i'r cysgod mewn donioldeb. Ond llefared y llythyr canlynol drosto ei hun,—gyda dweyd fod Mr. Richards, yn cael ei adnabod wrth y ffugenw Griholopi ac mai Idris Vychan oedd yn y swydd o Geidwad Cledd yr Orsedd, pan ysgrifennwyd y llythyr,—

Yr anfarwol Richards,

Clywais dy weled yn Manchester ddydd Gwener diweddaf. Paham na buasit yn anfon gair? Buaswn yn dyfod i'r dref i'th weled pe ond pum munud er mwyn gweled dy hen wep. Am yr hyn yr wyf yn teimlo'n chwyrnedig, gan ysgwyd fy nghynffon fel llew pan am ysglyfaeth. Yr wyf yn hyderu na chymer hyn le eto, ynte, myn einioes Pharo, mi a hogaf fy nghleddyf ac a'th drywanws yn ffynhonell dy fywyd, ac a ganaf fel ceiliog ar dy hen gorpws Griholopalaidd. Er hyn oll y mae cofion melus atat. Clywais ddywedyd fod yr Eisteddfod wedi achub ei phen oddiwrth ddyled. Wel, da iawn, gobeithio ei fod yn wirionedd. Diolch i ti am y papurau. Pa fodd y mae Mr. Evan, a Mr. John Davies, a Mrs. Davies? Cofion caredig atynt oll. Dywed wrth Mrs. Davies iddi hi beidio a dychrynnu os deuaf yna, deuaf fel huddug i botes pan y deuaf. Yr wyf wedi cael digon o Eisteddfod am flwyddyn o leiaf. Bydd gennyf fi adgofion melus am Eisteddfod ogoneddus Llynlleifiad, ond y mae hithau wedi myned i dragwyddoldeb, fel pobpeth o dan haul, a byddwn ninnau wedi myned yr un fath yn fuan fuan. Gyda chofion cynhes, yr ciddot byth,

Idris.

Ni ddylid anghofio un cyfansoddiad nodedig o'i eiddo a elwir yn "Drioedd a

Neillduolion Beirdd a Llenorion Cymru, yn y flwyddyn 1874." Yn hwn nodir, gyda llawer o graffder a donioldeb ysmala, drioedd a neillduolion tua chant o brif feirdd a llenorion Cymru yn yr adeg honno,—yr enwau wedi eu trefnu yn ol llythrennau y wyddor, gyda'r rhag-ymadrodd canlynol, yn dwyn y ffugenw "Triawdydd,"—

"A gafwyd yn ddamweiniol mewn hen geubren, yng Ngheunant y Barwn, yng Nghwmwd Gorsedd Arthur, wedi eu gosod ar uwchlaw cant o garfanau peithynen gan Hergwt ap Clwpa; ac ym mhob congl iddi wedi eu cerfio yn ysplenydd, —Dafydd ap Gwilym, William Lleyn, Goronwy Owain, a Dewi Wyn—gyda thelyn Gwalia ar fronnau y pedwariaid barddol penigamp ac anfarwol."

Tybid yng Nghymru ar y pryd nad oedd neb yn ddigon doniol a galluog i gyfansoddi hwn ond Mynyddog, ac iddo ef y priodolid ef. Clywais fod y gŵr ffraeth hwnnw wedi derbyn llythyr oddiwrth Idris Vychan, yn ei ddwrdio yn dost am dderbyn, yn ddistaw felly, anrhydedd nad oedd yn perthyn iddo. Dyma ychydig o'r trioedd,—

"Ap Vychan: Y diluw y môr, a Llyn Tegid.
Cynddelw: Tafol y Beirdd, barf wen llaes, a banner boddi'r saint.
Ceiriog: Cyfansoddi cân, hwmian cânu, a'r miwsig gan Owain Alaw.
Ioan Pedr: Arch-ddaearegwr Cymru, F.G.S., a chario malwod mewn carped bag.
Glan Menai: Inc. ysgrifbin, a gwialen fedw.
Ieuan Gwyllt: Newid Cuaver yn Grotchet, newid Crotchet yn Fimin, a newid Mimin yn Semibref.
John Rhys: Celtic, Japhetic, a Semitic.

Un diwrnod gwahoddwyd ef i giniaw, gan ei hen gyfaill Mr. James W. Jones,—"Iago," —un arall o gwmni diddan yr "amryw feirdd," a llawer o gymdeithas Idris Vychan a Cheiriog fwynhaodd efe. Fodd bynnag, wedi darfod ciniawa, cododd Idris Vychan oddiwrth y bwrdd, a cherddodd at y drych oedd ar fantell y simddau, a chan dynnu ei law trwy ei farf, ac edrych yn y drych am funud neu ddau, trodd yn sydyn at ei gyfaill, ac meddai,—

Gwynnu 'rwyf, a gwan oer hefyd,—a gwynnu
Ar ganol oes hyfryd,
Arwyddion oerion gweryd,
'N dirwyn i ben droion byd.

Mr. Jones ei hun adroddodd hyn i mi, ac o'i enau ef hefyd y cefais yr englyn campus.

Er ys peth amser cyn ei farw, yr oedd rhyw brudd-glwyf rhyfedd yn ei feddiannu ar adegau, a chofiaf yn dda i mi ei gyfarfod ar yr heol un noswaith, a golwg lled ddigalon arno; ac meddai, "Mi fum i, welwch chwi, fy hunan am dro yn y wlad heno, a theimlais i erioed y fath deimladau o unigedd ddaeth drosta i, ac yr ydw i wedi ceisio rhoi rhai o honynt yn y toddaid yma." Ac adroddodd y canlynol i mi, fel y gallai ef adrodd,—

Byrhau mae'r dyddiau hir, diddan,—y nos
Sydd yn nesu weithian,
Yr awyr heb liw'r huan—dim miwsig
Ah! rwy' mor unig a'r marw ei hunan!

O flaen ffenestr yr ystafell lle y gweithiai Idris Vychan, yr oedd gardd ac ynddi liaws o goed prydferth, i'r rhai y talai yr hen fardd lawer o sylw. Yn niwedd haf, tua blwyddyn cyn ei farw, sylwodd fod y dail wedi cwympo i gyd, ond un ddeilen, oddiar y pren agosaf i'w ffenestr ef. Dechreuodd yntau wylio y ddeilen unig gyda llawer o ddyddordeb, a hwyr a boreu a chanol dydd, a llawer gwaith arall, y cyfeiriai ei lygaid tuag ati. Ond, erbyn un boreu, er ei alar, yr oedd hithau wedi mynd; a chanodd yntau yr englyn canlynol ar ei hol,—

Y wyw ddeilen weddw olaf,—aeth hithau
Weithian mewn modd pruddaf,
Ehedai ei hoes gyda'i haf,
A gwywodd cyn y gauaf.

Ond, fy hen gyfaill, ymhen llai na blwyddyn ar ol hyn, cafodd yntau alwad sydyn i fyned ymaith, gan y mwyaf disymwyth o weision angau, y parlys, yr hwn a'i tarawodd i'r ddaear heb funud o rybudd; ie, heb gymaint a gadael iddo amser i roi yr esgid a'r arfau gweithio o'i ddwylaw. Ymhen rhai wythnosau, gwellhaodd yn ddigon da fel ag i allu myned i Eisteddfod Llandudno, 1887, yn yr hon yr oedd yn gyflogedig. Ar lwyfan yr Eisteddfod honno y gwasanaethodd am y tro olaf, ac y canodd ffarwel byth i'r hen sefydliad a garai mor fawr. Trwm iawn oedd ei weled ef, oedd yn arfer bod y gŵr sioncaf o bawb, yn awr yn gorfod cychwyn a'i bwys ar ei ffon, a Mrs. Jones wrth ei ochor. Boreu drannoeth, wedi mynd i babell yr Eisteddfod, a thaflu golwg o gwmpas, canfyddodd rywbeth yr oedd ei briod wedi ei weled o'i flaen, ac yn mawr obeithio na byddai iddo ef sylwi arno, sef darn o lian ac ymyl ddu iddo, a'r enw "Ceiriog" mewn llythrennau duon ar ei ganol. Ond fel arall y bu,—gwelodd y darn llian,—daliodd i edrych arno am rai munudau; ac aeth ei wyneb, oedd yn welw eisoes, yn fwy gwelw; tynnodd ei lygaid oddi arno, a gollyngodd ei ben i lawr fel un wedi gorffen torri ei galon am byth; a gwelwyd y dagrau mawr yn disgyn ar ei liniau. Sylwodd yr un oedd gydag ef na welodd hi byth wên ar ei wyneb mwy.

Un noson, ymhen rhai wythnosau ar ol hyn, pan newydd ddychwelyd oddiwrth fy ngwaith, gwysiwyd fi at ei wely angau. Cydiais yn ei law pan oedd yn croesi'r glyn. Yr wyf yn ysgrifennu mewn hiraeth calon ar ei ol.

Manchester. ROBERT GRIFFITH.

HUW MYFYR.

CYMERODD y pregethwr a'r bardd athrylithgar a fu farw mor anisgwyliadwy ar y nawfed o Ragfyr diweddaf yr enw "Huw Myfyr, nid am yr honnai ei fod yn fwy o "fyfyriwr" na'i gyfoedion, ond am y rheswm syml ei fod yn frodor o Lanfihangel Glyn Myfyr. Llawer Llanfihangel a geir yng Nghymru; ond dyma yr unig un yn Sir Ddinbych. Gan y dywedir weithiau fod y Llanfihangel hwn yn Sir Feirionnydd, a'i fod i'w gael yn y *Myfyrian Archaiology* yn rhestr plwyfau Sir Feirionnydd, a'i fod, yn y rhaniad Methodistaidd ar y wlad, yn perthyn i Gyfarfod Misol Dwyrain Meirionnydd, gwell yw gwneyd yn eglur mai plwyf o fewn Sir Ddinbych yw Llanfihangel Glyn Myfyr. Yr oedd un dref ddegwm o hono yn perthyn i Sir Feirionnydd hyd y flwyddyn 1884. Ond yn yr ad-drefniad a fu y pryd hwnnw ar derfynau y bwrdeisdrefi a'r siroedd yng nglyn a rhoddi yr etholfraint i bob ty-ddeiliad, rhoddwyd y dref ddegwm weddw honno i Sir Ddinbych, nes y mae yr holl blwyf yn awr yn perthyn i'r un sir.

HUW MYFYR.

Un o gymoedd mynydd Hiraethog yw y plwyf hwn. Ffurfia haenbant yr Alwen, o'i tharddiad yn Llyn Alwen hyd ymuniad y Ceirw a hi yng ngwaelod y plwyf. Ucheldir mynyddig ydyw cyfangorff y plwyf. Pa un bynnag ai dros Gadair Ddinmael o Edeyrnion ai dros yr Hiraethog o Gyffylliog, ai ynte dros y drum ar hyd y ffordd fawr o Gerrig y Drudion y daw y teithydd iddo, gall ddweyd ei fod, wrth ddyfod i'r pentref tawel sydd yn ganol-bwynt y plwyf, wedi tramwy trwy anialwch gwag erchyll. Ac nid yw y wlad chwaith yn un yn llifeirio o laeth a mel wedi dyfod iddi. Cul yw y glyn yr ymddolenna yr Alwen trwyddo, a noethlwm yw y llechweddau oddeutu yr afon ar bob llaw.

Ond nid dinod yw holl breswylwyr yr ardal neillduedig hon. Ni raid iddi fyned dros y gefnen i Lan y Gors na'r Perthi Llwydion i gael llenor Cymreig i ymffrostio ynddo. Magodd enwocach llenorion na Jac Glan y Gors ac nag Edward Morris, y Perthi Llwydion, o fewn ei therfynau ei hun. Yn y Tyddyn Tudur, hanner milldir uwchlaw y pentref,—ychydig dros gan mlynedd cyn genedigaeth Huw Myfyr, y ganwyd Owen Myfyr, yr hwn a aeth i Lunden yn ieuanc, a gasglodd gyfoeth, ac yn ychwanegol at lafur dirfawr fel prif olygydd, a wariodd fil o bunnau i ddwyn allan trwy y wasg y *Myfyrian Archaiology*. Hawliai trigolion yr ardal Owen Jones ei fab, yr archadeiladydd enwog, ac un o gynllunwyr Palas Grisial 1851, fel un o honynt, er ei eni ef yn Llunden. Ac ymddangbosai ei drigiad achlysurol yn Nhyddyn Tudur fel yn cadarnhau eu hawl hwy ynddo. Tua'r un adeg ag y ganwyd yr archadeiladydd ac awdwr y *Grammar of Design*, fe anwyd hefyd ym Maes yr Odyn, Llanfihangel, wr o athrylith ddisglaer, o wehelyth Llwydiaid Hafod Unos, yr hwn sydd yn aros hyd yr awr hon. Yr oedd hwn yn llawn ddeugain mlwydd oed pan anwyd Huw Myfyr, a chafodd ef yn athraw iddo mewn crefydd a llenyddiaeth yn ystod blynyddoedd ei dyfiant.

Mab ydoedd Huw Myfyr i Evan ac Ellinor Jones. Yr oedd ei dad yn wr hynod o grefyddol, ac yn un nodedig fel gweddiwr; a'i fam yn un o gyneddfau meddyliol cryfach. Ac fel meibion athrylith yn gyffredin derbyniodd y mab yn helaethach o nodweddion ei fam nag o nodweddion ei dad. Cyfranogodd o ynni meddyliol, os nad hefyd o anwastadrwydd tymer ei fam. Efe oedd unig blentyn ei rieni, a chan ei fod yn wannaidd ei iechyd o'i febyd, yr oedd yn wrthrych neillduol eu pryder a'u gofal. Mynychai ysgol y pentref, a chafodd fod ynddi yn hwy na lliaws o'i gyfoedion; a pharodd nerth ei feddwl ef iddo gyrraedd gradd dda o ddysg mewn ysgol bentrefol felly. Deuai nerth ei feddwl i'r golwg yn lled amlwg yn y cyfarfodydd darllen a gynhelid dan arweiniad yr athraw y cyfeiriwyd ato o'r blaen,—yr hwn sydd eto yn dirf ac yn iraidd yn ei henaint,—ac amlygodd yn fore duedd at lenyddiaeth, a gallu barddonol. Datganai meddyg enwog yr ardaloedd a drigai gerllaw Cerrig y drudion

ei hyder y byddai i'w iechyd wellau llawer pan y tyfai i fyny; a phan rhwng deunaw ac ugain mlwydd oed, cymerodd ef ato gyda'r bwriad o'i ddwyn i fyny yn feddyg. Treuliodd tua thair blynedd gyda'r diweddar Ddoctor Davies, a mawr hoffid ef gan Mr. a Mrs. Davies. Ond nid oedd y rhagolygon yn ddisglaer y gwnai feddyg enwog. Yr hyn a welid amlycaf ynddo oedd hoffder at lenyddiaeth ac at ddiwinyddiaeth, a gradd helaeth o ddwysder crefyddol. Trwy ba foddion neillduol y cynhyrchwyd yn ei feddwl y dwysder crefyddol yma, nid wyf yn gwybod. Yr oedd yn bresennol, mae'n ddiau, yn fachgen tua phedair ar ddeg oed, yn yr odfa ryfeddol honno am wyth o'r gloch y bore yn Llanfihangel pan yr oedd y Parch. David Morgan, Ysbyty, wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder tu hwnt i ddim a deimlodd ef ei hunan yn ystod cyfnod rhyfedd y diwygiad, —yr odfa y tybia y Parch Evan Phillips iddo ef deimlo ynddi fwyaf o'r dwyfol a deimlodd erioed. Ond, a barnu oddiwrth ei syniad ef am gynhyrfiadau crefyddol yn ei flynyddoedd addfetaf, gallwn feddwl mai trwy ddylanwadau distaw y dygwyd ef i brofi grym a nerth crefydd ar ei ysbryd. Pa fodd bynnag, yr oedd yn dyner ei gydwybod ac yn ddwys ei ysbryd pan gyda Dr. Davies. Yr oedd y meddyg yn cael ei flino yr adeg honno gan ddosbarth o gleifion y gellid dweyd am danynt bron nad oedd raid iddynt wrth feddyg. Nid oedd y rhai hyn yn ddigon sal i ddyfod at y meddyg ar ddydd gwaith; ond, gan nad oeddynt yn hollol iach, deuent yn finteioedd ar y Saboth. Gan na oddefai cydwybod Hugh Jones ieuanc iddo wneyd mwy nag oedd anhebgorol angenrheidiol ar y Saboth, gwnaeth ei feistr ddefnydd da o honno i ddysgu y dosbarth yma pa ddyddiau i ddyfod at y meddyg,—mai digon i bob diwrnod ei ddrwg ei hun, ac na ddylesid aros hyd y Saboth heb ymofyn meddyginiaeth i'r anhwyldeb oedd wedi ymaflyd yn y cyfansoddiad er dydd Gwener neu ddydd Sadwrn.

Gan nad oedd Huw Myfyr yn ymroi i'w efrydiau meddygol, ond yn hytrach yn tueddu at bynciau y weinidogaeth, y mae y doctor, ar ol profi pang neu ddau o siomedigaeth am na allasai wneyd meddyg o hono, yn dyfod i ymfalchio ynddo fel un a wnai bregethwr, ac fel un yr oedd ef yn cael rhoi help iddo i gychwyn. Yr oedd eglwys Cerrig y Drudion yn hynod o bleidiol iddo i fyned i'r weinidogaeth, ac y mae yno amryw yn cofio yn dda am ei bregeth gyntaf yng Nghapel Ty'n Rhyd yn y flwyddyn 1866,—y flwyddyn y dywedai deonglwyr y proffwydoliaethau gynt y byddai y mil blynyddoedd yn dechreu. Yr arwydd amlycaf a welodd pobl Ty'n Rhyd fod y mil blynyddoedd yn dechreu oedd fod pregethwr o'r diwedd yn codi, ac yn cael caniatad i fyned rhagddo, yn nosbarth Cerrig y Drudion Y ddau a ddaeth dros y Cyfarfod Misol i gymeryd llais yr eglwys yn ei achos, ac i'w holi ef, oedd y ddau Gadwaladr, —y Parch. Cadwaladr Roberts, Rhydlydan, a'r Mr. Cadwaladr Lloyd, fu gynt yn athraw barddonol a diwinyddol iddo. Tybiai pobl Cerrig y Drudion fod y ddau yn ei holi yn rhy galed; ond fe wyddai y ddau holwr pa fath un oeddynt yn holi, ac nad oedd llawer o berygl iddo fethu eu hateb. Yn yr adroddiad am Gyfarfod Misol y Bala a gynhaliwyd yn nyddiau olaf y flwyddyn 1866, ceir a ganlyn,—

> "Cafwyd llais a theimlad yr eglwys yn Cerrig y Drudion gan y brodyr a fuont yno ar gais y Cyfarfod Misol blaenorol gyda golwg ar y gwr ieuanc sydd yno yn ymgeisydd am y weinidogaeth, sef Mr. Hugh Jones. Yr oedd yr eglwys yn unllais, heb un eithriad am iddo gael myned ym mlaen. Penderfynwyd rhoddi cylch y Cyfarfod Misol iddo fel maes llafur."

Ym mlaen y mae yntau yn myned. Yn yr haf canlynol ni a'i cawn wedi ei gysylltu ag un arall sydd yn gydradd yn ail mewn rhestr o wyth a aeth yn llwyddiannus trwy yr arholiad am fynediad i Athrofa y Bala. Er mai o'r braidd y cadwodd ei safle ymhlith y cyd-efrydwyr cryfion a aent i mewn yr un pryd ag ef, gwnaeth gynnydd boddhaol fel efrydydd, a chynnydd amlycach fel pregethwr yn ystod y blynyddoedd dyfodol. Yn y flwyddyn 1869, yng nghanol tymor ei efrydiaeth, mewn Cyfarfod Misol a gynhelid yn Llanfihangel, ei ardal enedigol, derbyniwyd ef yn aelod o'r Cyfarfod Misol.

Tystiolaeth y Parch. G. Ellis, M.A., am dano fel efrydydd yw,—"Yr oedd yn alluog ac yn oriog. Efrydydd anwastad ydoedd. Ni byddai un amser yn efrydydd caled ar ei wersi. Nid oedd yn ddarllennwr mawr mewn unrhyw gyfeiriad, ond yn darllen cryn lawer ar adegau ar farddoniaeth a rhyw fath o lenyddiaeth Gymreig. Nis gallai dynnu cynllun i lafurio wrtho, a chadw ato. Fel y byddai yr awel felly y byddai yntau." Pan fyddai yr ymgom ar ol te cynnar yn ddifyr, codai i fyny yn sydyn weithiau, a dywedai,—"Twt lol, lads, dim *use*, rhaid gweithio bellach." Hwyrach mai cyn pen yr awr y clywid ef am y mur yn canu un o ganiadau Ceiriog. "Yr oedd yn llawn uchelgais fel pregethwr,"—medd Mr. Ellis ym mhellach,—"mynych y taflai bob peth o'r neilldu am ddyddiau i gyfansoddi pregeth. Nid ai i'r *classes* nac i unman arall nes gorffen y bregeth. Yna byddai ar yr uchelfannau gyda'i bregeth newydd, yn methu gweled y

Saboth yn dyfod yn ddigon buan. Pan yn darllen yr Epistol at y Galatiaid yn y *class* gyda'r Doctor,* a phawb yn y drafferth gyda'r adnod anhawdd "A Chyfryngwr nid yw i un," aeth Mr. H. Jones ati o ddifrif i wneyd pregeth ar y geiriau. Bu wrthi am ddyddiau yn darllen ac yn meddwl; ac yn y Trallwm y Saboth dilynol pregethodd y bregeth newydd yn y fath fodd nes fforddio iddo fod mewn hwyliau rhagorol gyda'i gyfeillion ar ei ddychweliad ddydd Llun. Ond, pan glywodd fod Dr. Edwards wedi pregethu yr un nos Saboth yn y Bala ar y testun, teimlai fod y Dr. wedi andwyo ei bregeth ef.

Byddai ar brydiau yn isel ei feddwl a phruddglwyfus; ac unwaith, mewn ffit o ddigalondid, ysgrifennodd at ei dad a'i fam ei fod yn wael iawn. Wedi derbyn y llythyr aeth ei dad mewn pryder ar ei draed yr holl ffordd o Lanfihangel i'r Bala. Erbyn iddo gyraedd yno, yr ail ddydd wedi derbyn y llythyr, yr oedd Huw yn y dosbarth yn y coleg, ac nid oedd ei letywraig yn gwybod dim am ei waeledd. Pan y daeth i fewn a gweled ei dad dywedai,—"Hylo nhad, be 'dach chi'n geisio yma? Oes rh'wbeth mater acw?" "Wel, pryderus iawn oedd dy fam a minnau, machgen i. Oni ddywedaist yn dy lythyr dy fod di yn wael iawn?" "Wel, yn wir, yr oeddwn i yn wael pan yn ysgrifennu, ond 'r ydw i yn well o lawer 'rwan."

Ar derfyn ei dymor yn yr Athrofa yn haf 1871, y mae yn cael galwad oddiwrth eglwys Llanrhaiadr ym Mochnant ac amryw eglwysi cylchynol i ddyfod i'w bugeilio; ac yng Nghyfarfod Misol y Parc ym mis Hydref, y mae Dwyrain Meirionnydd yn ei gyflwyno yn serchog i Gyfarfod Misol Sir Drefaldwyn. Yr oedd teimlad cryf ym mhlith goreugwyr Dwyrain Meirionnydd y buasai yn ddymunol iawn gallu sicrhau ei wasanaeth yn y rhan hon o'r wlad. Ond Sir Drefaldwyn oedd i gael blaenffrwyth ei ddyddiau. Treuliodd rhwng chwech a saith mlynedd yn hynod o ddefnyddiol a chymeradwy yn Llanrhaiadr. Dyma ei gorlbren wedi disgyn yn un o ddyffrynnoedd brasaf y wlad, yn lle un o gymoedd noethlwm yr Hiraethog, a'i adgofion lleol yn arwain ei ddychymyg yn ol, nid at yr un a ddygodd ddetholion o hen lenyddiaeth Cymru, o'r bumed ganrif hyd y drydedd ar ddeg, i gyrraedd ei gydgenedl, ond at yr un hwnnw a ddwg y Beibl i iaith y Cymry. Y mae wedi disgyn ym mysg brodyr caruaidd, hynod am eu gallu i werthfawrogi gweithwyr da yng ngwinllan Crist. Ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Llangollen yn 1873. Y mae yn dyfod yn gymeradwy a defnyddiol yn holl gylch y Cyfarfod Misol, ac mewn ychydig o flynyddoedd, er nad oedd ond ieuanc, yr oedd yn cymeryd ei le ym mhlith colofnau yr achos yn rhan isaf Sir Drefaldwyn. Yn Llanrhaiadr cafodd gydmar bywyd a fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd ddiwedd ei oes yn Miss Margaret Lewis, merch y blaenor parchus Mr. Richard Lewis, Parc Isa. Yma y sefydlodd ei gymeriad fel bugail rhagorol, ac y cynyddodd yn ddirfawr fel pregethwr. Tystiolaeth y blaenor craff ac adnabyddus Mr. Evan Vaughan am dano yw,—"Fel bugail, nid oedd yn rhagori fel ymwelydd; ond rhagorai yn ei ofal am y cyfarfodydd wythnosol, ac yn ei barodrwydd a'i fedr i'w gwneyd yn ddyddorol a buddiol. Yn y cyfarfodydd eglwysig ei symledd a'i onestrwydd oedd y pethau amlycaf; gallai wneyd yn rhyfedd gyda rhai hynod anwybodus, ond ni allai oddef rhai hyfion. Byddai yn siarad yn ddifloesgni yn erbyn pechodau yr oes, ac yn dweyd yn gryf ar burdeb a dirwest. Yr oedd yn gwir ofalu hefyd am yr ieuainc, ac yr oedd ei gyfarfodydd gyda hwynt yn rhagorol. Y mae y rhai fu yn lled gyson ynddynt yn parhau i goleddu y meddyliau uchaf am dano fel athraw ffyddlon a medrus hyd heddyw, a'u parch iddo ac i'w goffadwriaeth bron yn ddiderfyn."

"Yr oedd ei ragoriaethau fel pregethwr," —ychwanega Mr. Vaughan,—"i wrandawyr da meddylgar yn amrywiol flasusfwyd o'r fath a garent, ac yr oedd gwrando arno yn fynych yn peri eu bod yn ei edmygu fwy fwy. Pan yn cyfansoddi ei bregethau byddai yn cael ei gipio yn fynych gan adnod fel testun, a beth bynnag fyddai ganddo mewn llaw ar y pryd, dywedai wrthynt am ei ollwng er mwyn ei hoff destun; ac ar adegau felly byddai yn cerdded y llwybrau mwyaf unig allai gael. Byddai yn meddwl yn llwyr, ond yn ysgrifennu ychydig; cynhwysai dalen fechan, lai na chledr llaw, y cwbl fyddai ganddo wedi ei ysgrifennu pan yn traddodi, ond ym mhen amser wedi hynny byddai yn ysgrifennu rhai o honynt yn fanwl. Wrth draddodi byddai yn fynych yn afrwydd, a'r gair priodol yn gomedd dyfod, ond byddai yn rhaid ei gael,—nid am ei aml-eiriau yr oedd yn cael ei wrando gyda'r fath hyfrydwch. Yr oedd yn arfer iaith bur yn hytrach na blodeuog a godidog, ond yr oedd y meddyliau yn odidog. Cyflawnder a newydd-deb oedd y pethau amlycaf yn ei bregethu. Nid dihysbyddu ond agor y mater y byddai; byddai rywfodd yn awgrymu llawn cymaint ag oedd yn ddweyd. Yr oedd y gwirioneddau yn newydd yn barhaus ganddo . . . . Byddai yn dweyd

*"Y Doctor" ydyw'r diweddar Ddr. Lewis Edwards. "Class y doctor" y gelwid ei ddarlithiau ef ymysg myfyrwyr y Bala. Gol.

pethau tlysion iawn hefyd, ond *fitness* y pethau hynny fyddai yn gwneyd i ni wenu wrth eu gwrando, ac yn eu gwneyd i ymddangos megis afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig. Ni byddai un amser yn amcanu cyffroi y tymherau, ond yn hytrach cynhyrchu yn yr enaid ddymuniadau pur a goruchel."

Yn y grymusder yna y symudodd o Lanrhaiadr i Lanllechid ym mis Mai 1878, pan rhwng deg ar hugain a phymtheg ar hugain oed, ac yno y treuliodd y deuddeng mlynedd addfetaf o'i oes. Heblaw un o ferched teg y wlad yn wraig, yr oedd ganddo anrhegion gwerthfawr i'w cymeryd gydag ef o Lanrhaiadr i Lanllechid, yn gof-arwyddion o'r serch pur tuagato oedd ym mynwes y rhai y bu yn eu gwasanaethu am chwe blynedd a hanner. Porthodd a bugeiliodd eglwys liosog Llanllechid gydag ymroddiad a gallu am y blynyddoedd y bu yn weinidog iddi. Yno, fel yn Llanrhaiadr, yn ol tystiolaeth ysgrifennydd yn y *Goleuad*,—"Nid oedd gwneyd pregethau yn faich nac yn drafferth iddo. I ychydig, os i neb, y bu gwneyd pregethau yn llai o dasg." Pa fath bregethau oeddynt, cynnulleidfaoedd lliosog Arfon sydd yn gwybod. Cafodd rhai Cymdeithasfaoedd hefyd wybod pa fath bregethau oedd ganddo, a pha fath bregethwr ydoedd. Nis gwn ai damwain oedd i'r ddwy Gymdeithasfa y bu yn pregethu ynddynt fod yn Sir Drefaldwyn ai peidio. Pa fodd bynnag, ym Machynlleth ac yn Llanidloes y clywyd ef yn pregethu yn rymus mewn Cymdeithasfa.

Byr fu ei dymor yn Ninorwig. Cymerwyd ef i dangnefedd cyn gallu gwneyd llawer tuag at gynyrchu tangnefedd yn y lle yr oedd ei goelbren wedi disgyn ynddo.

Daeth i'r golwg yn gynnar ar ei oes fod ynddo ddawn ac athrylith bardd. Ni chaf ond enwi rhai o'i weithiau barddonol. Mewn eisteddfod fechan a gynhaliwyd yn Llanfihangel pan oedd yn ieuanc, cyfansoddodd gywydd o folawd i Mr. Owen Jones, mab enwog Owen *Glyn Dyfrdwy*. Myfyr, a derbyniodd yn wobr gopi hardd o'r *Grammar of Design* o waith Mr. Owen Jones, gwerth pedwar gini. Ym mhellach ar ei oes cyfansoddodd ei gân adnabyddus i Green y Bala, a'i gân ddifyrrus ar yr odfa ddau o'r gloch. Er mai Islwyn oedd y buddugol ar y farwnad i Dr. Parry, yr oedd y beirniad yn rhoi canmoliaeth uchel i'r eiddo Huw Myfyr a'r eiddo ei gyfaill, Mr. Davies, Trefriw, a chyhoeddwyd y tair dan yr un amlen, Enillodd y brif wobr o ddegpunt am y farwnad i'r diweddar Dr. Edwards. Cyn marwolaeth Dr. Edwards yn y flwyddyn 1885, cyhoeddodd Huw Myfyr y mwyaf, os nad y pwysicaf o'i weithiau barddonol, pan y cyhoeddodd *Salmydd y Cysegr, neu Gyfaddasiad o Lyfr y Salmau at Donau Cynulleidfaol Cymru.* Yr oedd ynddo feiddgarwch pan yr anturiai ar y fath waith a hyn ar ol yr enwog Edmund Prys; ond yr oedd ynddo feiddgarwch ac anibyniaeth meddwl tu hwnt i lawer. Diau iddo gyfansoddi y llyfr yn ysbryd y bedwaredd Salm wedi y cant,—

"Traetha f'enaid fawl yr Arglwydd,
Anchwiliadwy i fawredd yw;
Mewn gogoniant pur a harddwch
Yr ymdrwsi. O! fy Nuw;
Gwisgi oleuni fel dilledyn
Taeni'r nefoedd megis llen,
Rhoi dylathau'th ystafelloedd
Yn y dyfroedd sydd uwchben."

. . . .

"Gyrri Di'r ffynhonnau i gerdded
Rhwng y bryniau tua'r pant;
Rhoddi wrth eu cychwyn allan
Iddynt hwy negesau gant;
Disychedant y bwystfilod,
O'u cyfarfod ar eu ffyrdd;
Adar nef gerllaw a drigant,
Lleisiant rhwng y cangau gwyrdd."

Bu farw yn gydmarol ieuanc, cyn i ddim ond rhan o Gymru fechan wybod fod y fath bregethwr o'i mhewn. Ond bydd ei farddoniaeth yn cael ei ddarllen a'i werthfawrogi gan filoedd na chlywsant erioed ei lais yn pregethu.

WILLIAM WILLIAMS.

OLWEN.

Mae chwaon hirnos angau
Yn ysgwyd dail yr Yw,
A meinlais rhwng y cangau
Ddwed, "Olwen bach nid yw;"
Ond is y cangau duon,
Y gysegr-fan lle'i rhoed,
Fe wên liliod gwynion
Fel eira diwrnod oed!

Pa sut mae blodau'n tyfu
Ar adfail un a *fu?*
Pa sut mae blodau'n gwenu
Yn rhandir angau du?

Prifysgol Gogledd Cymru.

O fewn i'r fynwent welw
Yn ddistaw fel erioed,
Ar wyneb oer marwolaeth
Myn bywyd roddi 'i droed!

O! croesaw flodau'r fynwent
I wenu'n "fyw ac iach,"
Ac agor eich amrantau,
Tra *cysga* Olwen bach;
Y lili fach wywedig
Sydd danoch yma'n gudd,
Yng ngwanwyn Adgyfodiad
Caiff hithau "drydydd dydd."

J. GRUFFYDD HUGHES.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

VI. ROBERT OWEN.*

BU fy mrawd farw yn Awstralia ddwy flynedd yn ol, ar ol bod yn dihoeni yng ngafaelion y darfodedigaeth am chwe blynedd.

Yr oedd wedi penderfynu gwneyd ei nod fel ysgolhaig pe cawsai fyw. Ni roddwyd iddo unrhyw fanteision addysg oddigerth caniatad gan fy nhad i fynd ymlaen i fod yn *Pupil Teacher*, yn lle ymroddi gyda'r gweddill o honom i ladd gwair, porthi'r gwartheg, a bugeilio'r defaid. Wedi gorffen ei amser fel is-athraw bu yn yr Abermaw am dymor fel Athraw Cynorthwyol. Y pryd hwnnw aeth ef a boneddwr Ffrengig oedd yn byw yma yn gyfeillion mynwesol. Dysgodd hwnnw iddo amryw ieithoedd hen a diweddar; ac, am iddo ddyblu diwydrwydd yn y cyfeiriad hwnnw, ar ol hynny yr oedd, cyn marw yn saith ar hugain oed, yn medru darllen a deall deg o ieithoedd, a siarad yn rhwydd a rhigl mewn chwech o honynt, sef Cymraeg, Saesneg, Ffrancaeg, Eidaleg, Almaeneg, a Spaeneg.

Bu am dymor byr yn Athraw Cynorthwyol yn Jasper House, Aberystwyth. Oddiyno safodd yn ail ym mysg ymgeiswyr llwyddiannus Coleg Normalaidd Bangor.

Oherwydd fod fy nhad erbyn hyn wedi ei gladdu ers blwyddyn o'r bron, a gadael fy mam yn weddw, a dwy eneth bach heb eu magu rhoddodd i fyny y bwriad o fynd i Fangor, er mwyn bod yn fwy galluog i'w helpu hwy. Yr oedd, pa fodd bynnag, wedi rhoddi ei le yn Jasper House i fyny ac yn edrych allan am le amgenach. Cyn cael hwn bu farw fy mam. Yn hytrach na mynd i Fangor penderfynodd fyw er mwyn "ei ddwy chwaer fach oedd eto heb eu magu." Y lle nesaf yr aeth iddo oedd Bourne College, Birmingham, fel Athraw Cynorthwyol i ddechreu, ac fel Ail Athraw ar ol hynny. Pan yno ymrôdd ati i barotoi gogyfer ag arholiad Prifysgol Llundain am y gradd o B.A.

Ond "gwanhaodd ei nerth ar y ffordd a byrhawyd ei ddyddiau." Ymaflodd yr "hen elyn" ynddo; ac wedi bod am dymor mewn ysbyty yn Llundain, bu raid iddo, yn ddyn ieuanc ugain oed, adael ei wlad a'i anwyliaid a gwynebu y lasdon, i chwilio am iechyd! Nage, oblegid fel hyn y dywed mewn "Llinellau at Owen, Nos dan y Cyhydedd,"—

Ond paham byw a phaham ffoi
Mewn byd mor ddifwyniant?
Paham peidio'n awr ymroi
Gyda'r llifeiriant
A fuasai ddim yn well
Aros adre i huno
Yn lle mynd i chwilio mewn gwlad bell
Am fan i orffwyso?

Na f'ai! O fy nwy chwaer fach
Eto heb eu magu!
Fy nymuniad pan yn iach
Fyddai gallu
Cyn pen hir eu gweld, y ddwy
Anwyl amddifad,
Wedi eu dwyn i fyny drwy
Fy nghariad.

Ac yn awr, pan nad oes mwy
Obaith y caf syllu
Ar forwyndod teg y ddwy
Yn addfedu,
Dyfnach, cryfach, purach yw
Fy nymuno
Am gael eto dymor fyw
Pe ond *i'w cofio*.

Llwyddodd yn Awstralia i gael lle mewn teulu o Babyddion fel *Private Tutor*.

Ac yno y gorwedd, gyda llu o Gymry alltudiwyd gan yr un afiechyd. Y mae ei lythyrau ger fy mron, rhai llawn o ddwysder pruddglwyfus. Y mae gennyf hefyd lyfr o'i farddoniaeth, a ysgrifenasai a'i law ei hun cyn mynd dros y môr.

Gadawaf i ereill benderfynu a oes athrylith yn yr hyn ysgrifennodd, ond medraf fi ddweyd am ei ymroddiad. Am ei ymdrech yng ngwyneb anfanteision a thlodi, gallwn ddweyd pethau anhygoel bron. Yr oedd fy nhad wedi gadael Llwyn Gloddaeth, y fferm lle'n maged, oherwydd mynd yn dlawd yn onest ynddi, ac wedi torri ei galon oherwydd gadael ei gartref. Mewn ty bychan dinod yn yr Abermaw y buom wedyn. Mewn siamber yno, a'i draed ar y cerrig oerion, a'i ddrws yn gauedig arno, y byddai Bob yn astudio'n galed, haf a gauaf. Wedi dod i'w wely darllennai yno hyd nes y gorchfygid ef gan gwsg. Yna cysgai'n dawel dan y boreu? Na wnai. Cyn cysgu, gofalai gylymu ei droed wrth bost y gwely, ac os digwyddai wrth droi yn ei wely ddeffro, codai y foment honno pe buasai heb gysgu dim ond awr. Yr wyf yn berffaith sicr na chysgodd yn ystod y blynyddoedd hynny fwy na thair awr bob nos ar gyfartaledd. Yr oedd y pryd hwnnw yn athraw ar ddosbarth yn yr Ysgol Sul yr oeddwn i yn aelod o hono, ac nid oedd terfyn ar nifer yr adnodau a ddysgai, na'r drafferth

* Ysgrifennwyd yr hanes hwn gan y diweddar Barch. Owen Parry Owen, yn Medi, 1887. Erbyn hyn y mae y ddau frawd wedi ail gyfarfod beidio ymadael mwy

a gymerai i barotǫi ar gyfer y dosbarth. Codai yn foreu y diwrnod hwnnw, fel diwrnod arall. Hwyrach y gofynnwch, Pa fodd y llwyddai i gael arian i brynnu llyfrau? Yr oedd yr arian i hynny yn dod oddiwrth yr hyn dderbyniai am gasglu arian rhyw gwmni yswiriol, a mân betheuach ereill, megis ysgrifennu llythyrau, &c. Yr oedd ei awydd am wybodaeth yn angerddol, a'i benderfyniad i ddod ymlaen er gwaethaf anhawsderau yn ddi-ildio. Ond ar ol llafurio yn galed a diorffwys i'aredig a hau a llyfnu, bu farw pan oedd yr had yn dechreu egino!

AT OWEN—NOS O DAN Y CYHYDEDD.

O'r diwedd—O mor hyfryd!—dyma'r nos,
Ac oerni hafaidd wedi gwres y dydd;
A phêr lonyddwch megis angof oes
O wae,—a hamdden i fy nghalon brudd
I geisio lleddfu ennyd ingoedd loes
Fy nadwahaniad a'r anwyliaid sydd,
Er dyfned yn fy nghof eu delwau hwy,
Mor belled eisoes, ac mor bell, bell mwy!

Owen, fy anwyl frawd, na fyddet yma,
Yma yn awr er im' gael arllwys rhan
I'th fynwes dyner di o'r dwys-deimladau
Sy'n araf-sicr lethu'm calon, pan
Nad oes i'w thost ymferwad mwy ollyngfa—
O fil mwy unig nag unigedd man!
Unigrwydd bod, unigrwydd barn a nwydau,
A diben bywyd,—ac unigrwydd dagrau!

Ond dyma'r ser, cyfeillion hoff yr unig,
Yn dechreu syllu eto oddi fry,
A threm mor ddifrif-ddisglaer, er mor ddiddig,
Megys pe byddent lygaid ysbryd cu
Y Crëad, neu ysbrydion dwys buredig
Rhai a brofasant unwaith, fel nyni
Yn awr, flinderau bywyd, ac sy'n dyfod
I wenu arnom gysur yn ein trallod.

Mae'r "Llathen Fair" yn t'w'nnu uwch fy mhen
A'r "Llong" ddihwyl, a myrddiwn ereill yma
Ar donnau'r aig, fel bryniau Cymru Wen,
Yn t'w'nnu eto'n union fel yn nyddiau
Fy mebyd, pan oedd eto glir fy nen,—
Yn union fel pan ddysgwn i eu henwau
Oddiar wefusau'm tad ar lannau'r Maw,
Wrth ddod o'r capel adref yn ei law.

Ar y Môr, 1879.

Mor deg eu llewyrch, ac mor drist i mi!
Yn eu goleuni gwelaf,—O mor glir!—
Agweddau hoff ond gwelw'r hyn *a fu*,
A'r hyn *na fydd*, yn niniweidrwydd pur
Y baban heb ei eni,—gyda'r llu
O fyfyrdodau ffyddlon a fu'n hir
Yn gweini arnynt, ag sydd eto'n gwarchod
Eu coffadwriaeth rhag rhwd oes a'i difrod.

Mor deg eu llewyrch, ond mor ddiwahaniaeth,
'Rwyf yn eu cofio n gwenu ar fy nhad
Yn nawn ei nerth, ac arnaf finnau 'ngobaith
Bachgendod iach, a chariad a mwynhad.
Maent eto yn pelydru'r un mor odiaeth
Ar laswellt bedd fy nhad, ac ar nacad
Y cwbl a obeithiais i ond Bedd,— [hedd!
Nerth, serch, enwogrwydd, meithder einioes,

Fy mrawd, a wyt ti'n cofio'r aml noson
Is goleu'r ser y buom ni ein dau,
Ar ol o'r ysgol ddyfod adre'n gyson,
Yn rhoi tro ar yr wyn, ac yn mwynhau
Cydrhyngom mor ddiniwed ein breuddwydion
Am wynfyd y dyfodol (*nid* ei wae,
Can's nid oedd eto fustl yn ein cwpan,
A chennym dad a mam ag aelwyd gyfan)?

O ddyddiau dedwydd! megis adar mwynion
Yn dyfod o wlad bell, a hardd a chu
Ydyw i'm henaid i eu per adgofion—
Ond tros ddiffacthwch erchyll ar bob tu,
Yr hedant tuag ataf,—tros dor calon
Dirdynnol tad,—tros hiraeth dwfn a du
Fy mam, a'i hangau wedyn, a thros flwyddi
O boen i mi, a thristwch a thrueni!

Ond dyma'r clychau deg yn mynd,—ymorol
Raid bellach am obennydd, cul yn wir
Fy ngwely, ond i mi nid annymunol,
Caf ynddo synfyfyrio'n hoff a hir
Am aml gyfaill cu, a chân mynwesol,
Ac am fy nheulu anwyl, ac am dir
Fy ngenedigaeth, nes o synfyfyrio [wydio.
Ymollwng drwy borth cwsg am danynt i freudd-

"Nos Da," fy mrawd, er gadael gwlad fy nhadau
Am ddieithr dir y dehau, ar fy ffo
Rhag tynged, ac yn fy chwim erlid angau,
Dy wyneb tirion eto yn fy ngho
Sydd fyth mor fyw, a'm henaid hyd ei seiliau
Sy'n wirach yn dy garu, fel mae'th fro
Yn trist bellhau, ac fel y trenga gobaith
O tan fy mron am gael dy weled eilwaith.

ROBERT OWEN.

BLODEUYN.

Unwaith yr oedd milwr yn cerdded oddi amgylch llecyn mewn palas Rwsiaidd, ddydd a nos. Ni wyddai neb pam; ond, trwy'r blynyddoedd, anfonid milwr i wylio'r llecyn unig. Chwiliwyd llyfr gorchymynion y llys, ac o'r diwedd deuwyd at orchymynion yr ymherodres Catharin. Ryw ddiwrnod gwelodd yr ymherodres flodeuyn eira,—dim ond un,—yn tyfu ar y llecyn unig hwnnw. Gorchymynnodd i filwr wylio'r blodeuyn; anghofiwyd galw'r gorchymyn yn ol wedi i'r blodeuyn wywo, ac y mae milwr eto'n cerdded oddiamgylch y fan lle tyfai blodeuyn yr eira.

EDYN COLL.

Tybiai'r Caldeaid fod gan yr enaid edyn unwaith, ond iddo eu colli pan syrthiodd i'r byd pechadurus hwn, a fod yn rhaid iddo eu cael eto cyn y medr godi i'r byd pur y daeth o hono. Aeth rhai o ddisgyblion Zoroaster ato ryw ddiwrnod, gan ofyn,—"Pa fodd y medrwn wneyd i edyn yr enaid dyfu eto?" "Trwy eu dyfrhau â dwfr y bywyd," atebai yntau. A gofynasant eilwaith,—"Ym mha le y mae y dwfr hwnnw?" "Yng ngardd Duw," oedd yr ateb.

MOORE.

YMDAITH M. 6. 6. 4. (M. 30.)

Gan y Parch. Ellis Edwards, M.A.,
Y Bala.

Doh B♭.

d	:—	t_1	:l_1	s_1	:f_1	m_1	:—	m_1	:—	s_1	:m_1	f_1	:s_1						
s_1	:—	s_1	:f_1 .m_1	r_1	:r_1	m_1	:—	d_1	:—	d_1	:d_1	d_1	:m_1						
m	:—	r	:d	d	:t_1	d	:—	s_1	:—	s_1	:s_1	d	:d						
d_1	:—	r_1 .m_1	:f_1	s_1	:s_2	d_1	:—	s_1	:—	m_1	:d_1	l_1	:s_1						

l_1	:t_1	d	:—	$_1$	:—	s_1	:—	d	:—	l_1	:t_1	d	:l_1						
f_1	:f_1	m_1	:—	fe_1	:—	s_1	:—	m_1	:—	f_1 .l_1	:s_1	s_1	:l_1 .s_1						
d	:r	s_1	:—	d	:—	t_1	:—	d	:—	d	:r	d	:de						
f_1	:r_1	d_1	:—	r_1	:—	s_1	:—	d_1	:—	f_1	:f_1	m_1	:m_1						

s	:—	r	:—	t_1	:d	r	:t_1	m	:—	s	:—	d	:r						
f_1	:—	fe_1	:—	s_1	:s_1 .fe_1	s_1	:s_1	s_1	:—	t_1	:—	d	:s_1						
r	:l_1	r	:—	r	:r .d	t_1	:r	d	:—	r	:—	s	:t_1						
r_1	:—	r_1	:—	s_1	:— .l_1	t_1	:l_1 .s_1	d	:—	s_1	:— .f_1	m_1	:r_1						

m	:d	l_1	:—	f	:—	m	:—	r	:—	d	:—								
s_1	:s_1	l_1	:—	l_1	:—	s_1	:—	f_1	:—	m_1	:—								
d	:d	d	:—	r	:l_1	d	:—	—	:t_1	d	:—								
d_1	:m_1	f_1	:—	r_1	:m_1 .f_1	s_1	—	s_2	:—	d_1	:—								

I.

Wel, bellach awn ymlaen,
Nac ofnwn ddwr na thân,
Ni bia'r dydd:
Mae'n Brenin cadarn, cryf,
Ym mlaenaf un o'r llu
Yn torri rhwystrau sy;
Mae'r ffordd yn rhydd.

II.

Mae heddyw, yn y nef
Fyrddiynau gydag Ef,
Yn canu ei glod:
Dowch, dringwn tua'r lan,
Cawn feddu yn y man
Yr ardal ddaeth i'n rhan
Hyfryda 'rioed.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

WRTH son am yr erthygl a'r Fedd Brutus, dywed yr Archddiacon Griffiths wrth yr awdwr,—

"Buasai'r geiriau ddefnyddiwch am Dr. Griffith, yn fwy gwir am y Parch. W. Jones, ficer Llanfihangel Geneu'r Glyn, a adnabyddir yn well wrth yr enw Jones y Faenor. Efe oedd gwir fab y daran. Byddai Griffiths yn dra llym weithiau, ond byddai ei ddull prydyddol yn tynnu min ei erwinder. Ond yr oedd Jones bob amser yn llym. Canai Griffiths ei delyn gyda medr a melusder; tra y chwythai Jones ei udgorn unllais o'r uchelderau.

"Y tro cyntaf y clywais Jones oedd yn yr hen ysgoldy, pan oedd Aber Aeron i gyd, a lliaws o'r cymydogaethau, yn ei wrando. Ei destun oedd 'Gwledd o basgedigion breision.'

"Dyn tal esgyrnog oedd Jones, anaml y gwelid gwên ar ei wyneb. Dyn ysgafn ei droed, bonheddig ei symudiad, prydferth ei wedd oedd Griffiths. Nid oedd yn agwedd Parry ond ychydig oedd darawiadol. Yn y pulpud yr ymagorai, y deuai'n brydferth i'r golwg, y rhedai swyn anghydmarol o'i agwedd a'i eiriau.

"Yr oeddwn yn adnabod y tri chawr hyn yn dda, a bum gyda hwy lawer tro ar eu teithiau pregethwrol."

Un o'r pethau anhawddaf, wrth ddarllen ysgrifeniadau bardd ymadawedig, ydyw gwybod faint gyfansoddodd ei hun o'r llyfrau adawodd ar ei ol, a faint a gopiodd, fel cynllun, o lyfrau ereill. Ysgrifenna'r Parch. Richard Jones i ddweyd mai rhyw awdwr anadnabyddus gyfansoddodd "Not lost but gone before," a briodolir i Anna Roberts yng NGHYMRU ii. 63. Ni wnaeth hi ond eu cyfaddasu at farwolaeth ei chwaer. Gwaith y Parch. Thomas Dale yw'r pennill cyntaf o "Weep not for me," hefyd; hwyrach mai Anna Roberts a ysgrifennodd yr ail bennill.

Yr wyf yn diolch i Mr. Jones am ei gywiriad caredig. Y mae'n debyg y bydd aml gamgymeriad tebyg yng NGHYMRU eto, ac yr wyf yn disgwyl y gwna pob un ei ran i gywiro'r peth wêl yn wall. Yr oedd yn eithaf naturiol i ysgrifennydd yr erthygl feddwl mai Anna Roberts gyfansoddodd y caneuon, gan eu bod yn ei llaw-ysgrif; ac ni wyddwn innau well. Cofier felly, mai copio rhai o'r caneuon Saesneg i'w llyfr, er ei phleser a'i chysur, wnaeth Anna Roberts, a chyfaddasu rhai o honynt at ei blinderau a'i hiraeth ei hun.

Ysgrifenna gohebydd o Lanidloes,—

Doniol iawn darlun Idris Vychan yn canu gyda'r tannau,—"Idris ar Idris sy'n edrych." Pa un o'r hen donau Cymreig y mae we'i ei dewis ar yr achlysur, wys? A phwy, atolwg, yw y telynor a chwery ei delyn *Seisnig* ysywaeth? Rhyfedd fod Idris yn gallu canu o gwbl gyda'r estrones. Ond, o ran hynny, efallai mai *The Roast Beef of Old England, Scots wha ha wi Wallace bled*, neu *St. Patrick in the morning*, ydyw'r dôn a ddewisodd y telynor am y tro, canys

> "Nid oes faws na dwys fesur
> O un baich i awen bur"

Idris yn y gelfyddyd o ganu gyda'r tannau.

> "Ac o adwen cyhyddedd,
> Datgenir 'n gywir 'n mhob gwedd."

Medrai Idris, gyda'r rhwyddineb mwyaf, osod unrhyw fesur o dan warogaeth i'w fedr dihafal yn y peth hyn. Mwy cydweddol a CHYMRU, yn nhyb eich ufudd was, fuasai rhoi telyn Wyddelig, tebyg i'r un y gwelir ei llun ar ei glawr, ym mreichiau y chwareuwr. Os "codi'r hen wlad yn ei hol" yw'r amcan, gadewch i ni gael popeth mewn cysylltiad a'r amcan yn wir Gymreig.

Gwir, ond hwyrach y dylid cofio fod y "delyn Seisnig," neu'r delyn bedawl, yn fwy o Gymraes na dim arall. O'r delyn Seisnig yr hannodd; a Ffrancwr, Sebastian Erard, fu'n rhoi pedalau i ateb diben yr hen deir-rhes.

Dywed Mr. Davies, Aber Aeron, iddo glywed Jones Llangollen, ddeugain mlynedd yn ol, yn pregethu ar fwrdd llong ym mhorthladd Aber Aeron ar y testun, "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd." Clywodd fab i hen gymydog i Jones,—Evan Davies o'r Blaenau Gwenog,—yn dweyd y byddai Jones a Brutus yn arfer cyfarfod yn nhy Jem. Apelia at y Parch. J. Bowen-Jones am dipyn o hanes Jones. Oddiar lafar gwlad y cymerodd Mr. Davies y darn englyn gam-ddyfynnodd; daw'r holl restr o englynion mewn rhifyn dyfodol. Ni ysgrifennodd Jones ond un o honynt.

Yr wyf am ofalu, gyda chymorth cyfeillion caredig, am ddarlun a braslun o fywyd rhai enwog gymerir gan Angau oddiarnom. Yn y rhifyn hwn gwelir darlun o'r bardd Huw Myfyr, ac erthygl gan y Parch. William Williams; yn y rhifyn nesaf bydd darlun o'r athraw Thomas Lewis, gydag erthygl gan y Parch. M. O. Evans. Gorfod i mi ohirio hyd y rhifyn nesaf Hen Ysgolfeistri, Fy Addysg, Yr Hen Amser Gynt, Began Rhisiat Parri, a'r Cylchgronau. Gyda'r rhain daw erthygl gan y Parch T. M. Evans, M.A., ar Goleg Llanbedr.



Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College Oxford.

E. M.—Fel rheol, y mae ysgolion mawr Lloegr yn well na'r ysgolion bychain, ond y maent yn ddrutach hefyd. Yr wyf yn meddwl fod Winchester cystal a'r un o'r ysgolion mawr ar hyn o bryd, er fod Marlborough'n agos iawn ati. Bechgyn meddylgar boneddigaidd welais i'n dod o ysgol Marlborough.

La Doh.—Dywedir fod enwau'r nodau cerddorol wedi eu cymeryd gan Guido d'Arezzo o ddechreu llinellau cân Ladin i Ioan Fedyddiwr,—

Ut queant laxis
Resonari fibris
Mira gestorum
Famuli tuorum
Solve polluti
Labii reatum.

Hynafiaethydd.—Nid wn i ddim.

Cywrain.—Nid wyf am gadw dim a wn yn ddirgel, ond ambell wir fuasai'n waeth er ei ddweyd. Yr wyf yn diolch i chwi am eich gair da, ond yr ydych yn camgymeryd os dywedwch mai Cymru fedd y cylchrediad helaethaf o gylchgronau Cymru. Y mae Cymru, er ei fod yn cynyddu'n rheolaidd, eto dan ei bum mil yn y mis. Y mae cylchrediad y *Drysorfa* yn naw mil; ac y mae'n debyg fod cylchgronau enwadol ereill yn gymaint, os nad yn fwy. Ni ddylech gymeryd yn ganiataol, ychwaith, mai'r golygydd sy'n ysgrifennu pob erthygl ddienw yng Nghymru; y mae ereill yn dewis peidio rhoddi eu henwau, er cystal fuasai gennyf eu rhoddi.

A. W. Ll.—Yn eich llythyr caredig, yr ydych yn ateb llawer o'ch cwestiynau gyda eich bod wedi eu gofyn. Nis gallaswn roddi cymaint o le i hanes y Rhufeiniaid ag a hoffwn, ond yr wyf yn meddwl rhoi erthygl ar yr hanesydd Tacitus cyn hir. Yn y Deheubarth, yn sicr, yr oedd y *Silures* yn byw, er nad ydyw eu henw, hyd y gwn i, wedi aros yn un o'ch broydd. Gwnaf hynny fedraf i wneyd y cywyddau'n ddealladwy. Oddigerth yn Nhudalen yr Hanesydd, yr wyf yn eu codi o lawysgrifau diweddar. Er hynny, y maent yn anodd eu deall heb eiriadur. Gwnaf fy ngoreu i esbonio'r geiriau. Diolch.

H. H. (Caerfyrddin) — Efallai i chwi weled sylw Owen Prys, prifathraw Trefeca, mai angau yn y crochan yw enwadaeth, pan gyfyd mewn cyfarfod cenhedlaethol. A glywsoch chwi am araeth Joseph Thomas yng Nghymanfa'r Anibynwyr? Darluniai ddefaid gwlanog welai ar y dolydd, a defaid teneuon corniog ar fynydd di-grocn. Porfa wael yw porfa'r rhai sy'n magu cyrn. Cefais laweroedd o lythyrau i'r un cyfeiriad a ch llythyr chwithau.

Y mae Mr. Thomas Ty'n y wern, Pont y Pridd, yn amgau cyfieithiad o emyn Hiraethog,—"Pan y gelwid yn y boreu,'—cyfieithiad o waith Hiraethog ei hun. Ysgrifennodd Hiraethog ef ar lyfr Mr. Thomas pan yn aros yn Nhy'n y Wern yn 1877, a bydd yn dda, mae'n ddiameu, gan lawer ei weld. Cydmarer ef â chyfieithiad Owen Thomas, Cymru i. 185.

TRANSLATED FROM THE WELSH.

On the morning when Jehovah
Called the myriad stars by name,
With exultant songs and dances
Forth before his throne they came;
In her course our earth appeared,
Clothed in virgin beauty fine,
Then a blush was seen arising
On the face of Love Divine.

Hiraethog.

E. L. Casllwchwr.—Y mae cyfrolau *Cymru Fydd*—pedair cyfrol i gyd,—ar werth gan ei berchennog, E. W. Evans, Swyddfa'r *Goleuad*, Dolgellau.

J. O.—Yn sicr y mae'r teimlad Cymreig yn ennill nerth o hyd, ac y mae Eglwys Loegr, chware teg iddi, hyd yn nod ar y gororau, yn dechreu ei groesawu, Dyddorol iawn ydyw'r hysbyslen anfonwch imi,—hysbyslen dan law'r Parch. Stephen E. Gladstone, yn dweyd y bydd gwasanaeth Cymraeg neillduol yn eglwys Deiniol Sant, Penarlâg, "*am y tro cyntaf ar gof*," ar ddydd gwyl Dewi Sant. Cynhelir cyfarfod canu hefyd, ac apelir at Gymry'r gymydogaeth, yn yr hysbyslen Gymraeg, —"Meibion a merched Cymry, cyflwynwch i'r gwaith eich llefsiau melusber."

Hen Wr.—Y mae llawer o ganeuon Ioan Moelwyn wedi eu cyhoeddi'n llyfryn bychan. Anfonwch at yr awdwr,—J. G. Hughes, Coleg y Brifysgol, Bangor.

Dymuna Mr. Robert Griffith gywiro un peth yn ei erthygl gyntaf ar Idris Vychan. Enillodd Idris yn agos i ddeuddeg punt yn yr Eisteddfod *heblaw* y ddwy fedal arian; nid y medalau'n unig.

Gogleddwr.—Y mae Glyn Nedd (Neath) ryw chwe milldir, fel yr ehed y frân, i'r gogledd-ddwyrain o Aber Tawe; y mae adfeilion y fonachlog ar lan yr afon Nedd, ychydig o'r dre. Ar fro Morgannwg, mewn gwlad ffrwythlawn wastad y mae Pont Faen (Cowbridge),—cartref Iolo Morgannwg. Ar yr un fro hefyd, ryw chwe milldir i'r gorllewin, y mae Pen y Bont (Bridgend). Yn uwch i fyny Dyffryn y Llyfni mae Llangynwyd, plwy Wil Hopcin. Clywsoch ei gwynfan,—

"Ym Mhen y Bont ar ddydd y farchnad,
Cwrdd â nghariad wnawn yn brudd;
'Roedd hi'n prynu'r siwt briodas
A'r dyferyn ar ei grudd."

Yng ngorllewin Penfro Seisnig y mae porthladd ardderchog Aber Dau Gleddyf (Milford Haven), ar lan ddeheuol yr un wlad y mae tref brydferth Dinbych y Pysgod (Tenby) uwch ben y môr a phentref bychan cysgodol Saundersfoot ar y lan. Enwau Danaidd sydd ar y lleoedd hyn; fel y gwelir oddiwrth *fiord* a *by*. Tref fechan brydferth ar lan môr gogleddol Penfro ydyw Tref-draeth (Newport); porthladd ym Mynwy ydyw Casnewydd (Newport eto). Lle bychan newydd ar lan ddwyreiniol y Tywi, ger y môr, ydyw Ferryside,—ni chlywais enw Cymraeg arno, er aros yno droion. Y mae Llacharn (Laugharne cynhaner *Larn*) yr ochr arall i eneu'r afon. Y mae'r Deheuwyr yn bobl garedig iawn; gadawant i unrhyw estron roddi'r enw a fynno ar eu cartrefi, heb rwgnach.

GOFYN AC ATEB.

XXII. RHYS Y GADER.

Yn yr erthygl ar Rys y Gader, y mae un amgymeriad o leiaf. Nid John Williams a'i lywodd yn darllen ym Mhlas Ofa, ond Gruffydd Williams, esgob Ossory. Dyma ythyr yn ateb i ofyniad yn rhifyn Ionawr, ac r mae'n dda gennyf ei gael,—

Wrth ddarllen yr erthygl ar Rys y Gader, eimlwn nad oedd yr hanesyn am dano yn y wylnos m Mhlas Ofa yn ddieithr i mi Yna chwiliais m lyfr Hugh Derfel Hughes ar "Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid," gan dybio y byddai crywylliad o hono ynddo. Ar dudalen 76 cefais y ernyn canlynol,—

"Ym mhellach, gan y bu yma dri neu bedwar ddynion lled hynod fel llenorion, deuant hwythau mewn gydag

ENWAU CURADIAID LLANLLECHID.

arch. Syr Rhys Parry a gladdwyd Awst 8, 1708 *Yr* oedd ditl a roddid i rai oedd wedi derbyn raddau colegawl, ond tybir mai i'r gwrthwyneb r oedd gyda y Parch. Rhys Parry. Mae traddodd yn yr ardal ddarfod i Gruffydd William, esgob ssory, pan oedd efe wedi ffoi o'r Iwerddon rhag ei dd, fod yn ymguddio mewn rhyw gongl o Blas fa, a bod yno wylnos, ac i'r esgob wrth glywed hys yn darllen gael lle i dybio ei fod yn *wr duwiol*, dyfod i'r penderfyniad o'i wneyd yn gurat Llanechid, yr hyn hefyd a wnaed. Ar ol dychweliad r esgob i'r Iwerddon, anfonodd am Rys ato i ssory, a gwnaeth ef yn gurat fel yr amcanasai, i darllen y gwasanaeth a'r Homiliau, &c., yn Llanechid. Dywedir ddarfod i'r Arglwydd lwyddo afur y dyn syml hwn i droi aml un i'r iawn, ac y yddai ef, ar ol hynny, ac ychydig ereill, naw ewn nifer, yn cael eu herlid, ac y byddent wythau yn ymneillduo y nos i fynydd Llanllechid weddio, megis ag y byddai llawer yn 1860, amser r adfywiad diweddaf. Gelwid ef weithiau yn hys y Wern, a Rhys Thomas, ac y mae Mr. Enoch homas, clochydd presennol y lle, yn bedwaredd enhedlaeth iddo. Hen gartref y teulu oedd y Vern."

Mae Enoch Thomas wedi marw. Ei fab Rhys homas sydd yn dal y glochyddiaeth yn awr.

W. J. JONES.

Chwarel Goch, Tre Garth, Bangor.

Enfyn Carneddog hen ddarn o ysgrif ac rno,—

HORACE. LLYFR I. ODE 22.

Wedi ei chyfieithu yn Gymraeg.

I ddyn a'i fuchedd yn dda,
Trwy fowyd, nid rhaid fwa,
Na saeth i 'mddiffyn ei swydd,
Nac oedran, ond diniweidrwydd;
Nid mynydd serth, trafferth trwch,
Wybr niwlog, mawr anialwch,
Nid llew o goed, nid all gwyr,
Ar osteg, iddo rwystr.
Llew a'm cyfarfu mewn llwyn
Mawr, wrth glodfori morwyn,
Hwn a ffodd, ac a drodd draw,
Yn ol, rhag ofn 'y nwylaw;
Anghenfil nâd ofnadwy,
A'i 'lodau mawr, a'i lid mwy,
Ni ddaeth erioed o goed y gell,
Ni ddychwel un fwy 'i ddichell

Rhowch fi mewn man heb blanwydd
Heb wlad deg, heb liw dydd,
Na lloer, na gwres tes na'r tân,
Ond tywyllwch tew allan;
Rhowch fi tan wres haul tes-boeth
I gwr byd, ac awyr boeth,
Yno canaf, nwyf cynnes,
Dy foliant ti o flaen tes.

Syr RHYS CADDR a'i cant.

Cymerwyd y cyfieithiad barddonol uchod o hen ysgrifyfr yn Ngloddeth. Y cyfieithydd ydoedd offeiriad, ac yn byw yn y flwyddyn 1649.

XXIII. LLYNNOEDD.

Yng *Nghyfaill yr Aelwyd a'r Frythones* am Chwefror, ceir ateb i ofyniad yr athraw Rhys (II. 33) yng nghylch Llyn Nelfarch, neu Lyn y Forwyn. Saif y llyn hwn tua hanner y ffordd rhwng amaethdy Rhondda Fechan a dyffryn Safrwch. Gwelodd amaethwr rian deg yn rhodio hyd ochr y llyn. Siaradodd â hi,—dywedai ei bod yn byw dan y llyn, a fod ganddi wartheg. Daeth yn wraig i'r amaethwr, ar yr amod ei bod hi a'i gwartheg i ddychwelyd i'r llyn pan gwerylent deirgwaith. Buont fyw gyda'u gilydd yn hir, ond, wedi'r drydedd ffrae gyrrodd ei gwartheg i'r llyn gyda'r geiriau hyn,—

"Prw dre', prw dre', prw'r gwartheg i dre';
Prw Milfach a Malfach, pedair Llualfach,
Alfach ac Ali, pedair Ladi,
Wynebwen drwynog, tro i'r waun lidiog,
Trech llyn y Waun odyn, tair Pencethin,
Tair caseg ddu draw yn yr eithin."

Y mae traddodiad cyffelyb am Lyn yr Arennig, rhwng y Bala a Ffestiniog. Yr oedd gŵr Hafod y Garreg yn bugeilio unwaith yn y mynydd o amgylch Llyn yr Arennig, a gwelai lo ieuanc yn y brwyn. Nis gallai ddyfalu o ba le y daeth, ac aeth ag ef adre i'w fagu. Daeth y llo 'n darw,—yr harddaf yn yr holl wlad. Ond, ryw dro ar ddyddiau hirion Mehefin, dyma ddyn bychan yn dod i fuches Hafod y Garreg, dan ganu pib. Galwodd ar y gwartheg wrth eu henwau,—

"Mulican, Molican, Malen, Mair,
Dowch adre 'rwan ar fy ngair."

A ffwrdd a hwy i gyd ar ei ol i Lyn yr Arennig, ac ni welodd neb yr un o honynt byth.

LLEDWYN.

XXIV. Y FARF.

A oes desgrifiadu o'r farf yn llenyddiaeth Cymru heblaw desgrifiad Goronwy Owen? Hefyd a oes rhyw brydydd Cymreig, neu estronol, wedi desgrifio'r trwyn?

ARLUNYDD.

XXV. Y CARLWM.

Onid camgymeriad ydyw dweyd mai'r *marten* ydyw'r carlwm? *Stoat* (mustela erminea) y Sais, yn ei wisg auaf, ydyw'r carlwm? *Marten* (mustela abietum) y Saeson yw bele'r Cymry. Onite fe?

Llanidloes. WAETH PWY.

TUDALEN YR HYNAFIAETHYDD.

RHYS GOCH ERYRI.

DYLANWADODD Rhys Goch Eryri ar Robert ab Meredydd o'r Gesail Gyfarch, ynghyda Matthews, Prior Beddgelert, i roddi eu holl nerth a'u gallu ym mhlaid ei gyfaill enwog Owen Glyndŵr, yn adeg y rhyfeloedd gwaedlyd gynt, tra yr oedd Iolyan ab Meredydd, brawd Robert, o du y brenin, ac felly yn eu herbyn hwynt. Am hynny y llosgodd "hen Arglwydd Glyndyfrdwy" balasdai gwych Cefn y Fan, Cefn Coch, y Gesail, yn Eifionnydd, a'r Berth Lwyd, yn Nanmor, yn garneddau a lludw. Yn dâl i Robert ab Meredydd canodd "Y Côch" o Hafod Garegog y mawl-gywydd hwn, fel teyrnged am ei gymwynasgarwch a'i ewyllys da.

Rhoddwn y cywydd yn ei orgraff a'i agwedd wreiddiol; ac, allan o ryw 31 o gyfansoddiadau adnabyddus y bardd, credwn nad ydyw rhif y rhai gwybyddus o'r cywydd hwn ond ychydig. CARNEDDOG.

Cywydd i Robert ab Meredydd o'r Gesail Gyfarch.

Hir y bu 'Ruffydd ruddbar,
Waywdan fab Cynan ein câr,
Ar groesgeirch hir gwayw ysgwyd,
Yn gorwedd, Llew Fflamgledd Llwyd,
A'i dalaith llwybr goddaith llawr,
Fynnodd gynt yn kelffeiniawr,
Tann oerfab bid tan arfoll
Na chrŷn ddyn ni chrynodd oll
Mae arno gaink llathrfaink llu,
Etifedd propr yn tyfu,
Yn dwyn ystod fragod frig,
Garw ben hydd gŵr bonheddig,
O bryd a llafn hyfryd hedd,
Ag ysgythr brwydr âg osgedd,
O gampau anwydaf naid,
Frytanawl hen Frytaniaid,
O'm gofyn emyn ymwal,
Dyn anosbarthus ei dâl,
Pwy i'm henw ni'm difenwir,
Bedydd ar dy gwerydd dir?
Dylwyth fawr ar dalaith faink.

* * * *

Alexander niferoedd
A myr a phen mawr hoff oedd
Trystan, doethran, oddeithryw,
Dylath afr ei dalaeth yw;
Bonedd ond odid benoeth,
Y cwysg yn hen Farwn coeth,
Rhwng Hafren hoywddwr gloywlan,
Llu gwrth a lli garthan,
Nid âd gwawd pechawd heb bwyll,
O gandaith genfigendwyll,
Sôn am y Cymro—os iach,
Pwyllog doeth a fo bellach,
Pe megid efrid araith,
Cenaw o neb, Cynan iaith,
Hir ddewr lân hardd Eryr lid
Henwmygr o hwn y megid,
Ymgroesed gwawd dafawd hen,
Ymgais—ni wn i amgen.

RHYS GOCH ERYRI a'i Cânt.

CHWAETH Y DDEUNAWFED GANRIF.

Anfonodd Mr. J. D. Llwyd, Aber Aeron, y dernyn canlynol o *Drysorfa Gwybodaeth* am 1770. Dengys yn eglur mor gelfyddydol oedd chwaeth yr oes, cyn i'r Diwygiad anadlu ar ddyffryn yr esgyrn sychion.

AT BRINTIWR Y TRYSORFA GWYBODAETH.

Er bod gormod o'r CYMRY mor goegfalch ddiystyr o'u Mam-iaith, na fynant ei harfer, etto y mae yn iaith sylweddol, sylfaenol, hyspysol, a gwell gramadeg iddi na nemawr o ieithoedd eraill; er argyoeddi'r cyfryw na lwyr ddiffoddodd ei chywreinrwydd, ac i roddi prawf o wir farddoniaeth, y cyfansoddais y Llinellau hyn o Ganmoliaeth i'r TRYSORFA GWYBODAETH, neu'r *Eurgrawn Cymraeg;* gan ddisgwyl y cyffry beirdd Deheubarth i goledd a chefnogi yr unrhyw Fesurau.

Gwel Waith Sais, ddyfais wiw dda,—a hollawl,
Ddeallwr Aeg CAMBRIA;
C'wilydd i ni, coledd wna
Araith amhur 'r iaith yma.

Gorchest—Waith odiaeth ydyw
Ar yr iaith orau o ryw;
Cofrestr ni fu'r cyfryw—un
Ie *Magasin* megis yw.

G.g. { —wych yw'r Sais, ei—ais—ar—oedd,
—wr yw ef i—weirio'r iaith
—ymro—ac—amhur; a—oedd
—oll, ei—wellhau—orau—waith.

Der-byn. { Pob Tre, Lle, a Lla—
Cofrestr llawer Lle—
Feirdd—waith llawnfaith—llo } nn.
Hanes llech—res 'lly—

Fel addewaist, A feddyliaist. } fydd i'w ddilyn
Gyr newyddion, Gair i Feirddion. } o Gaerfyrddin.

P.————————P.———————— ion.
—arch i Ross enwog—erchir ei fon ——
—arod mae'n cynnig—arhaed ei amcan —
—uro y *Frudainiaith*—ôr o fryd un ——
—ybyr hyfforddir —— awb o'r hoff feirdd—
—rysur rhoi'r newydd—ellenig ———
—eri i'r Aeg ysig ——ara i rag oes ———

Dehevbarth loyw-barth lwys—r un mesur
Moeswch ddawn gyfrwys,
I ganmawl Gwaith mor gymmwys
Rhoes mewn hedd o *Wynedd Wys.*

I. TOMAS o Sir Drefaldwyn.

LLYFRAU NEWYDDION.

VIII.

THE DESCRIPTION OF PENBROKSHIRE. By George Owen of Henllys, Lord of Kemes. Edited with Notes and an Appendix, by Henry Owen, B.C.L., F.S.A. Cyhoeddir gan Ysgrifennydd y Cymrodorion, Lonsdale Chambers, 27, Chancery Lane, London, W.C. 21s. Dwy gyfrol.

LLYFR ydyw hwn ysgrifennwyd gan George Owen (1552—1613), ac a gyhoeddir yn awr o'r copi llawysgrif sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig, gan un o ddisgynyddion y George Owen hwnnw. Ni raid nweyd fod darluniad manwl o un o siroedd Cymru, fel yr oedd yn y flwyddyn olaf o teyrnasiad Elisabeth, yn ddyddorol iawn. Yr edd George Owen yn chwiliwr manwl, ac yn ylwedydd craff,—rhydd hanes Penfro a'i hobl, ei daearyddiaeth, ei hadeiladau, ei hamaethyddiaeth, ei ffeiriau, ei llysoedd cyfaith, ei harferion, ei rhyfeddodau, ei champau, i gwŷr enwog, a'i chlod.

Y mae'r golygydd wedi gwneyd ei waith n gampus. Danghosais y llyfr i un mor fanwl J. Gwenogfryn Evans, ac ni welodd fai. Gellir bod yn sicr fod y llawysgrif wedi ei copio gyda'r ffyddlondeb a'r manylwch mwyaf. Un o gampau golygydd ydyw gwybod lle i chwilio am gymhorth. Cafodd golygydd lygadog y llyfr hwn gymhorth llawer o sgolheigion goreu Cymru. Cafodd D. Lleuer Thomas i gydmaru'r prawflenni â'r llawsgrif wreiddiol; ac er mwyn cyfoethogi'r nodiadau sy'n rhan mor werthfawr o'r llyfr, ynnodd ar wybodaeth eang a manwl Egerton Phillimore, yr awdurdod uchaf ar hanes saint Cymru a'u cyfnod.

Derbynied Mr. Owen fy niolch am ei afur, a'i gymwynas fawr i hanes Cymru.

IX.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID: gyda chyfieithiad newydd, arweiniad i mewn, a nodiadau. Gan (y Parch) Hugh Williams, M.A., Athraw mewn Hanesiaeth Eglwysig yn Athrofa Dduwinyddol y Bala. 1s. 6d. Llian coch destlus, 124 tudalen, dau fap lliwiedig.

Y mae'r esboniad hwn yn eglur, yn drywyr, ac yn ddyddorol. At ysgrifennu esboniad byr, cynhwysfawr fel hyn, buasai'n anodd aro ar well Mr. Williams,—yn athraw Hanesiaeth Eglwysig, yn un o'r ysgolheigion manylaf a mwyaf llafurus, ac yn arholwr medrus y dosbarth Ysgolion Sul mwyaf deallus yng Nghymru. Wrth ymesgusodi am adael i ambell frawddeg Ladin ddangos ei gwyneb, dywed yr esboniwr,—"Yr wyf wedi gweled pechgyn yn bugeilio defaid a allent eu deall yn hawdd, ac o awydd iddynt hwy gael mwynhau swyn cyntaf ambell frawddeg dda, ni meddwyd i'r rhai hynny, yn gynnil, gael lle r y tudalennau hyn." Caiff yr esboniad, nae'n ddiameu, groesaw cynnes.

X.

HEN EMYNWYR CYMRU. Sef gwasanaeth cerddorol, wedi ei gasglu a'i drefnu at wasanaeth corau. Gan Levi Roberts, Llangollen. Ar werth gan yr awdwr. 6c. 36 tudalen, amlen.

Dyma gynnyg i adrodd hanes yr emynwyr i'r bobl fel yr adroddid hanes saint yn y dyddiau gynt. Danghosir darlun o'r emynnwr neu ei gartref gyda'r *magic lantern*, dywedir ei hanes, ac yna cenir rhai o'i emynnau. Y mae'r tonau, yr emynnau, a'r hanes emynwyr yn y llyfr bychan dyddorol a chynhwysfawr hwn.

XI.

UCHELGAIS. Awdl, a chaneuon, gan Wilym Alltwen. Ar werth gan yr awdwr,—86, Camden St., Birkenhead. 6c. 40 tudalen, amlen, llyfryn bach destlus iawn.

Dyma awdl ddarllennir gyda blas gan rai nad ydynt yn hoffi'r mesurau caethion. Dyma engraifft o honi,—

Ebai hi: "*Tydi, o bawb*
Addysgaf am swydd ESGAWB!"
Hyf luniodd i aml Flaenawr
Y sut i fynd i'r Sêt Fawr;
Ac i ereill o'r cewri
Y dywed *werth* y D D.
Neu rhydd hwyrach ryw ddiareb—wagsaw:
"'*E gei dy wrandaw o* 'GADAIR UNDEB!'"

Goreu gwal i d'atal di—
Nwydog aidd—ydyw GWEDDI,
Ond odid cai'r credadyn
Fwy o hedd pe cofiai hyn:
"*Nid pob* 'CRISTION' *ddichon ddal*
Moddion y sebon meddal!"

XII.

GWEITHIAU IOAN MAI. Wedi eu trefnu a'u golygu gan John Lloyd Pierce. Yn nghyd a byr gofiant o'r awdwr gan Dr. Jenkin Lloyd. Aneurin Williams, 27, Bridge st., Caernarfon. 2s. 6c. 205 tudalen. Rhwymiad llian da a chwaethus.

Rhyw ddeng mlynedd yn ol digwyddais droi i siop llyfrwerthwr yng Nghaernarfon i ymofyn am lyfr. Nid oedd y llyfr yno, ond tynnodd y llyfrwerthwr ysgwrs a mi, danghosodd gân oedd ar ganol ei gwneyd i'r Llywydd Garfield, dywedodd lawer o bethau dyddorol am lenyddiaeth Gymreig, a rhoddodd gynghorion buddiol iawn i mi. Dywedodd rhywun wrthyf wedyn ei fod yn fardd, ac yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Wesleaidd. Gwyddwn innau ei fod yn un caredig, a i fryd ar wneyd daioni.

Bu farw yn 1887, a dyma ei weithiau,—deuddeg o bregethau, pryddestau, cyfieithiadau, caneuon Seisnig, a thraethawd Saesneg difyr ar lenyddiaeth Gymreig. Fel bardd, gweithiwr caled a gonest oedd, yn casglu mêl o hyd fel ei wenynen,—

Diwydrwydd, cynhildeb, brawdgarwch, amynedd
Rhinweddau'r wenynen i ninnau O boed;
Ac fel y wenynen, mewn melus ddigonedd,
Cawn herio dryghinoedd blwng auaf hen oed

YMDAITH YN ANNWN.

III. *(Parhad).*

YN Y PYRTH

"'Roedd y nef wedi ymadael, ac Uffern yn neshau, ac angylion Duw yn ymddieithrio, a delwau anifeilaidd yn ymddangos."

LLYFR Y TRI ADERYN.

Y MAE gennyf ystori hir i'w hadrodd, a rhaid i mi beidio ymdroi. Tuag wyth o'r gloch yr oeddym yn yr ystafell yn llety Wil, a'r hen wr yn codi ei ben i ail ddechreu ar ei stori. Cyn iddo ddechreu, gofynnodd Meredydd a gai weld y darlun hwnnw, a danghosodd ef i Wil. Amneidiodd Wil arnom, ac yr oedd yr amnaid yn dweyd yn eglur ei fod eto'n credu iddo weled Ifan Wyn yn fyw.

"Rhoswch chwi," ebai'r hen wr, "mae gen i ddarlun arall, mae ei darlun *hi* gen i."

A chyda'r gair tynnodd ddarlun arall allan, oedd yn gadw mewn poced wahanol, a danghosodd ef. Darlun o eneth gariadlawn yr olwg arni oedd, a gwyneb serchog llawn o wrid iach. Gwyddem mai Gwen y Llwyn oedd. Ond yr oedd yr hen wr yn awyddus am ddechre ar ei stori.

"Pan ddeffroais," meddai, "yr oeddwn ym mhyrth Uffern. Gwelwn hi'n ymgodi fel mil o fynyddoedd, ar eu gilydd, o'm mlaen. Yr oeddwn wedi dychmygu llawer am dani, ond nid oedd yn debyg i ddim ddychmygais i erioed. Bum yn hir yn edrych arni o'r tu allan. Mawreddog, aruthrol o fawreddog ydyw'r olwg arni o'r tu allan, teilwng o Fab y Wawrddydd. Ond yr oedd rhyw gynhyrfiad arswydus ambell dro, sŵn ing miloedd yn dioddef pangfeydd cydwybod, wnai i Uffern grynnu drwyddi, a thybiwn fod yr adeilad anferth hwnnw yn gorwedd fel maen ar enau'r pwll di-waelod. Crwydrai'r awelon oer rhewllyd oddiar ei thyrau di-ben-draw, ac awel boeth bob yn ail. Ond, y tu allan i'r pyrth, y peth mwyaf erchyll ydyw'r farwolaeth sydd wedi ymdaenu dros bob man. Does yno ddim i roi gorffwys i'r llygad. Er mai meddwl blin ydyw meddwl pawb yno, 'does yr un llecyn gwyrdd i'r llygad edrych arno. Duwch, duwch, duwch, gydag ambell i fflam las-felen,—dyna sydd i'w weled yn gyfandiroedd ar ol cyfandiroedd, heb flodeuyn yn unlle, nag arwydd bywyd ond dinistr. Bu fy llygad yn chwilio'n hir am flodyn y Gŵr Drwg, gwelais hwnnw'n tyfu o amgylch ffwrneisiau'r ddaear, ond yn ofer y chwiliai fy llygad am dano yma. 'Does gan y Gŵr Drwg yr un blodyn byw.

"Daeth awel boeth o'r porth, a gwae ac ochain ar ei hadenydd, galar heb swn gobaith ynddo. Deffrodd hyn awydd ynnof am weled ei ddioddef ef; ac nis gallwn beidio chwilio am dani hi, hyd yn nod yn y fangre ofnadwy honno. Cauodd y pyrth ar fy ol, a sefais ar draeth cefnfor o wae. Rhoddodd y porthor adenydd i mi, a dywedodd y carient fi gyda chyflymder meddwl trwy holl froydd diderfyn Uffern, ond na charient fi un fodfedd y tu allan i'r muriau di-adlam. Y mae llawer yn Uffern wedi cael edyn, medrant ehedeg gyda hwynt i ben y mur, ond cyll yr edyn eu nerth yno, ac ni fedr yr enaid coll ehedeg gam ymhellach."

Yna adroddodd yr hen wr hanes ei wibiadau drwy ehangderau o ddioddef a gwae,—o fôr i fôr, o gyfandir i gyfandir,—heb weled dim roddai orffwys eiliad i'w feddwl.

"O'r diwedd gwelais fod Uffern ar yr un llun a'r ddaear; a chwiliais am Gymru nes y cefais hi. Y mae pob gwlad yn llawn, ac y mae Cymru'n llawn iawn. Y mae'r mynyddoedd yno, heb ddim yn tyfu ar eu llethrau poethion; y mae'r afonydd yno, ond afonydd o fwnau tawdd dynnai'r gwres o goluddion y mynyddoedd oeddynt. Ac yno yr oedd anuwiolion Cymru, anuwiolion oesoedd yn gorfod dioddef cwmni eu gilydd.

"Un tro dois at gastell mawr, a'i gerrig yn gochion gan y gwres. Yr oedd ei ddrws o garreg, carreg yn troi ar ei cholyn, a'r haiarn wedi toddi i gyd. Oddimewn clywn lais ardderchog, llais fel llais pregethwr mewn Cymanfa, yn adrodd rhyw gân. Ni fedrwn ddeall y geiriau, ond yr oedd swn cydwybod euog ddeffro a swn dioddef enaid ym mhob sain. Sefais wrth y drws, ar bigau f'adenydd, a gwaeddais yn Saesneg droion o flaen y drws. Ond chwyddo a chwyddo'r oedd y gân ingol o hyd, ac nid oedd neb yn cymeryd y sylw lleiaf o honof fi. Cyn mynd i ffwrdd, gwaeddais yn Gymraeg, —'Agorwch, deulu a felldithiwyd ac a gollwyd, i weled un a'i ddioddef yn fwy na'ch dioddef chwi.' Gyda'r gair, mi welwn y porth yn agor, a phan welais ef wedi agor yr oedd yn edifar gennyf fy mod wedi gofyn iddo wneyd. Yn y drws agored safai gŵr heb yr un pen iddo. Yr oedd cleddyf hir trwm yn un llaw iddo, a than ei fraich arall yr oedd ei ben. Yr oedd ei lygaid yn fflamio yn ei ben wrth iddo ei ddal tuag ataf hyd ei fraich,—

"Gymro," ebai'r tafod, "Gymro gwasaidd radwrus, a welaist ti gwch ar draethell Dinbych a gwaed ar ei ymyl?"

Dyna gnoc ar y drws, ac ebai gwraig ty,—"Mae hi'n unarddeg, foneddigon, yr oeddych yn gofyn i mi ddweyd rthych."

"Rhaid i ni gychwyn ar unwaith," ebai Meredydd, yn bur anesmwyth, "mae hi'n mser." Cododd Wil i ddod gyda ni fel cynt. Dynesasom at y ty hwnnw heb ddweyd gair. "Ewch chwi yn eich blaenau," ebe Meredydd, "mi edrychaf finne drwy'r ffenestr." Aethom yn ein blaenau, yr oedd y ty anghyfanedd yn dywyll drwyddo, a gwelem Feredydd yn croesi ato. Cyn hir daeth hyd i ni. Crynnai fel y ddeilen, ac ni ddywedai ddim.

"A welaist ti o?" gofynnai Wil.

"Naddo," ebai Meredydd, a'r chwys yn rhedeg i lawr ei wyneb, "ond mi weles wyneb Gwen y Llwyn yn y ffenestr acw, gen blaened a haul. Fechgyn, beth wnawn ni? Rhaid i mi gael gwybod beth ydyw dirgelwch y ty acw. Ddowch chwi?"

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD VI.

YMWELIAD AG EITHINFYNYDD.

AETHAI misoedd heibio, ac yr oedd eisteddfod y Ddol Goch ymhlith y pethau a fu, a Dafydd wedi ennill y gader arian, ac yn nwch yng ngolwg ei edmygwyr nag erioed. Dychwelodd Gwilym Llwyd a'i was yn ol i Fon wedi i'r eisteddfod fyned heibio, ac aeth Dafydd at ei noddwr i Faesaleg, a chafodd ddderbyniad cynnes, fel arfer, gan Ifor a'r arglwyddes Nest. Ni ddywedodd Dafydd air ynghylch Angharad wrth Ifor, ond adroddodd hanes ei holl daith wrth Nest,—fel yr aeth i Fon gyda'r amcan o weled Angharad, ac iddo gyflogi ei hun yn was i'r Abad er mwyn bod yn agos ati; iddo wneyd ei oreu i geisio ganddi ddychwelyd adref gydag ef, ac iddi hithau nacau yn bendant. A sicrhai yr arglwyddes nad oedd eu cariad tuag at eu gilydd ond hoffder perthynasol. Gwrandawai Nest ar eiriau Dafydd gyda dagrau yn ei llygaid, a theimlai yn llawen ei fod wedi gweled ei merch yn fyw ac iach, a dywedai fod ei gŵr yn bwriadu myned i Fon i gyrchu Angharad adref cyn hir.

Arhosodd Dafydd dros y gauaf ym Maesaeleg; ond pan ddaeth y gwanwyn, yr oedd fel aderyn haf yn barod i godi ei adenydd ac ehedeg ymaith. Nid oedd wedi anghofio Morfudd o Fon, er ei fod yn ystod ei arhosiad ym Maesaleg y tro yma wedi dyfod i gydgyfarfyddiad â benyw o'r enw Dyddgu, at yr hon yr ysgrifennoddrai caneuon. Gan mai derbyniad oeraidd a gafodd ganddi, a chan nad oedd ei serch ati y fath ag i orchfygu pobrhwystrau, darfyddodd y cwbl mewn ychydig amser, a dechreuodd feddwl o ddifrif am ymweled â Morfudd drachefn.

Gyda'r amcan yma mewn golwg, cychwynnodd ef a Phrys o Faesaleg un diwrnod ym mis Mai, a chyrhaeddasant lys Gwilym Llwyd yn Aberffraw ymhen pedwar niwrnod. Digwyddodd fod Madog Benfras, cyfaill i Ddafydd ab Gwilym, a chyd-fardd ag ef, yn aros gyda Gwilym yr adeg yma, a llawenychodd calon Dafydd pan aeth i mewn i'r ty, wrth weled ei gyfaill yn eistedd yno.

"Faint o amser sydd er pan yr wyt ti yn yr Ynys?" gofynnai Dafydd.

"Y mae dros fis bellach," atebai Madog, "ac yr oeddwn yn meddwl ei bod yn bryd i mi droi fy ngwyneb tuag adref."

"Paid a myned am ychydig amser, ac yna feallai y deuaf gyda thi."

"Bydd raid i mi aros am wythnos ychwaneg beth bynnag. Yr wyf wedi addaw myned i'r wledd sydd yn Eithinfynydd yr wythnos—"

"I Eithinfynydd yn Rhosyr?" gofynnai Dafydd yn sydyn.

"Ie, pam?"

"O dim neillduol," atebai Dafydd yn ddidaro, "yr oeddit yn dweyd fod y wledd i'w chynnal yr wythnos nesaf; dos ymlaen Madog."

Edrychodd Madog yn graffus ar ei gyfaill, a gwyddai fod rhywbeth yn yr enw Eithinfynydd wedi cynhyrfu ysbryd Dafydd. Ond ni wnaeth unrhyw ymholiad ar y pryd; un tawel a digyffro iawn ydoedd Madog Benfras, ni phetrusai ryw lawer am ddim, "amser a ddengys" oedd ei hoff air.

Ie, yr wythnos nesaf y mae y wledd, ac ni fuaswn ar un cyfrif yn ewyllysio tram-

gwyddo Madog Lawgam. Y mae wedi fy nghroesawu yn garedig iawn bob tro y daethum i Fon, ac felly yr wyf wedi addaw yn sicr bod yn y wledd sydd i'w chynnal i ddathlu dydd pen blwydd ei unig ferch Morfudd."

Gwyliai Madog wyneb ei gyfaill yn ddyfal wrth lefaru y geiriau olaf, a gwelai don o wrid yn ymdaenu dros ei ruddiau pan y dywedodd yr enw Morfudd.

"Ffordd yna y mae y gwynt yn chwythu, aie?" meddai wrtho ei hun. Ac ebai'n uchel,—

"A fuaset ti'n hoffi dyfod gyda mi i'r wledd, Dafydd? Ond o ran hynny, feallai dy fod di yn eithaf cydnabyddus yn Eithinfynydd, a'th fod wedi cael gwahoddiad gan Fadog Lawgam."

"Nac ydwyf," atebai Dafydd yn frysiog, "ni fum yno erioed, a hoffwn yn fawr gael myned yno, a chan dy fod mor garedig a'm gwahodd, deuaf gyda thi. Wrth gwrs, mae pob ty yn agored i ni fel beirdd, ond mwy dymunol ydyw cael myned gyda chydnabyddiaeth y tro cyntaf."

"Siwr iawn. Ond gad i mi roi gair o gyngor i ti cyn myned yno. Paid ag edrych gormod ar y ferch yng ngwydd ei thad; mae yn un lân odiaeth, ac yn sicr o ddenu dy sylw, ond mae yr hen fachgen fel eryr yn ei gwylio bob munud, rhag ofn i ryw gariadlanc wneyd baich o honi a'i dwyn ymaith. Er fod Madog Lawgam yn foneddwr caredig, y mae yn hynod o ariangar; ac, yn ol fy marn i, hwnnw fydd ganddo fwyaf o eiddo gaiff fwyaf o ffafr yn ei olwg."

"Gwelais y ferch yn yr eglwys pan oeddwn yma o'r blaen," atebai Dafydd, a chyda hyn daeth Gwilym Llwyd i mewn a dechreuodd chwerthin yn ddireol wrth adgofio yr olwg oedd ar Brys pan ddychwelodd oddiwrth Forfudd. Bu raid egluro y cwbl i Fadog, yr hwn a ymunodd yn galonnog yn y mwyniant.

Diwrnod y wledd a ddaeth, ac aeth y ddau fardd gyda'u gilydd i gyfeiriad Eithinfynydd. Ar y ffordd canfuasant lawer yn cyrchu tuag yno, rhai o bob oed a phob gradd, canys nid oedd Madawg Lawgam yn ol i'w gyd foneddigion am haelfrydedd ei wleddoedd. Wedi cyrraedd y ty cyflwynodd Madog ei gyfaill i'r penteulu, yr hwn a'i derbyniodd yn foesgar a chroesawus. Yr oedd Morfudd yn sefyll gerllaw ei thad pan ddaeth y ddau fardd i mewn, ac aeth ei gwyneb a'i gwddf mor goch a'r rhosyn pan glywodd yr enw Dafydd ab Gwilym. Yr oedd Dafydd wrth fodd ei galon y diwrnod hwnnw, er na chafodd ymddiddan â Morfudd am bum munud, ond yr oedd cael bod yn yr un ty a hi, clywed ei llais, ac edrych ar ei gwyneb hawddgar yn ei foddloni. Yr oedd wedi cyfansoddi cân iddi er pan y daeth i'r wledd, yn yr hon y cydmarai ei anwylyd i bob peth da a phrydferth, a bwriadai ei hadrodd iddi cyn ymadael os caffai gyfle. Yn hyn fe'i siomwyd; ymrithiai Morfudd yn ol a blaen ymysg y gwahoddedigion, gan wneyd ei goreu i'w croesawu oll, ac yr oedd yno lawer heblaw Dafydd a brisiai ei gwên yn fwy na chyfoeth ei thad. Fodd bynnag, ni roddai Morfudd gyfle i'r un o honynt i ymddiddan yn bersonol a hi, ac yr oedd yn amlwg ei bod yn cilio oddiar ffordd Dafydd. Ceisiai yntau ymfoddloni, ac addaw iddo ei hun well llwydd yn y dyfodol. Cynhaliwyd y wledd yn y dull arferol,—chwareu-gampau, a phob math o ddifyrrwch, ynghyd a digonedd o win, medd, a danteithion ereill. Heblaw y gwahoddedigion, yr oedd yno dyrfa o'r pentrefi cyfagos a gymerodd ran yn y chwareuon, ar gyfer y rhai yr oedd Madog wedi parotoi lluniaeth yn y Gwindy. Wedi i Fadog a'i gyfeillion orffen bwyta, galwyd y telynorion ymlaen i roddi eu gwasanaeth, ac enwodd Dafydd ab Gwilym i ddechreu. Yr oedd yn amlwg fod Madog Benfras wedi rhoddi awgrym i dad Morfudd am allu ei gyfaill gyda'r delyn.

Cymerodd y bardd ei delyn, ac ymddanghosai am ennyd fel yn analluog i benderfynu beth i'w chwareu. Yna edrychodd ar Forfudd a chwareuodd,—yn hollol ddifyfyr,—y dôn felodaidd honno a adnabyddir wrth yr enw Triban Morfudd. Chwareuodd hi ddwywaith drosodd, a chanodd y gân a gyfansoddodd arni gyda'i lais peraidd. Nid ydyw dweyd fod yr oll oedd yno yn gwrando, megis mewn perlewyg, yn rhoddi y darluniad lleiaf o'r effaith a gafodd cân Dafydd ar y gwrandawyr. Anaml y ceir y cyffelyb,—y dôn a'r geiriau yn cael eu canu gan y cyfansoddwr ei hun, a'i holl enaid yntau yn cael ei dywallt allan yn y gân odidog. Teimlai pob un oedd yno hyn i'r byw; ac yr oedd y distawrwydd, a barhaodd am rai eiliadau wedi i'r bardd ieuanc orffen ei gân yn fwy o gymeradwyaeth na'r banllefau mwyaf trystfawr. Ni chanodd Dafydd drachefn, yr oedd yr ysbryd-iaeth wedi ei golli, a'r swyn wedi ei dorri, ni allai gyflawni yr un peth wedi hynny y noson honno.

Wrth fyned adref dywedodd wrth Fadog Benfras ei fod yn caru Morfudd, ac wedi penderfynu ei chael yn wraig, ac mai dyma ydoedd ei amcan yn dyfod i Fon yr adeg honno.

"Taw, Dafydd, taw!" atebai Madog.

"A wyt ti?—paid a dweyd dy fod tithau hefyd yn"—

"Paid a phetruso, fy nghyfaill, nid wyf fi 'n caru Morfudd. Yr wyf yn cyfaddef ei bod ' fenyw harddaf a welodd fy llygaid erioed, nd gwyddost mai Gwen yw yr un sydd wedi wyn fy nghalon i. Nid oes berygl i ti fordd yna, frawd; a phe buasai, pa un ai myfi i tydi a fyddai yn fwyaf tebyg i ennill ei erch?"

Gwenodd Dafydd wrth y ganmoliaeth wgrymid yng ngeiriau ei gyfaill, ac aeth yr laf ymlaen, — "Y gwir yw, yr wyf yn wybod na chaiff neb dderbyniad gan Fadog awgam os na fydd yn perchen eiddo lled elaeth. Yn awr gwyddost nad oes gennyt mwy na finnau lawer o eiddo; yr wyt o onedd fri, wedi dy ddwyn i fyny yn dda, ac edi cael addysg ragorol; ond, cred fi, ni na hyn y tro i lenwi lle cyfoeth i Fadog awgam. Os gelli ennill Morfudd yn wraig i i, da iawn, ond yr wyf yn ofni na lwyddi yda'i thad. Nid ydwyf yn dwedyd hyn i dy digalonni, ond yn unig er mwyn i ti wybod rhwystrau sydd ar dy ffordd."

"Madog," ebai Dafydd, gan sefyll ar y fordd a rhoddi ei law ar ysgwydd ei gyfaill, yr wyf wedi penderfynu ennill Morfudd, 'i hennill wnaf drwy bob rhwystrau. Yr yf yn gwybod i mi wneyd ychydig argraff rni heno, deliais sylw manwl arni pan yn anu, ac yr oedd tant fy nghalon i yn cael ei dseinio yn ei chalon hithau. A pheth arall, id oes neb neill'duol yn cael ei enwi fel dmygwr iddi o'r lluaws sydd yn ei hedmygu, c mewn lluosogrwydd y mae diogelwch yddost. A wnei di fy nghynorthwyo yn yr nturiaeth, os bydd arnaf angen am hynny?"

"Am holl galon Deio, a llwyddiant fyddo ti gyda'r fun, neu gyda'i thad ddylaswn dweyd, yr wyt wedi llwyddo gyda'r fun sioes. A dweyd y gwir wrthyt, y mae yn da gennyf dy weled yn meddwl o ddifrif am ferch, yn lle dy fod yn cael dy hanner ddoli gan bob un a ddaw i gyfarfyddiad a hi, a hynny yn dy wneyd yn falch."

"Ni raid i tithau gwyno yn y cyfeiriad na, Madog. Yr wyt yn cael dy gyfran o dmygedd gan y merched; ond, fel y dyedais o'r blaen wrth Wilym Llwyd, nid yni fel dynion sydd yn denu ond yr Awen,— r Awen."

"Yn enwedig pan y bydd yr Awen wedi gwisgo â chorff lluniaidd a hawddgar yr wg arno."

"Clywais fod un meddyliwr wedi dweyd ai drwy bwt o bennill y llwyddodd y diafol ddenu Efa ym Mharadwys, a fod dirgelwch ren gwybodaeth yn y gallu i farddoni."

"Pa un bynnag am hynny, y mae merched yn hawdd iawn eu swyno â chân."

"Yn hyn yr wyf yn barnu yn wahanol i ti, Madog; a meiddiaf ddweyd fod meibion yn llawn mor hawdd eu swyno gan gerddi a merched. Wrth gwrs rhaid fod gwahaniaeth yn natur y farddoniaeth i'r ddau ryw. Beth enynnodd y teimlad gwladgarol yn ffiam angherddol i ryfela dros ryddid ein gwlad yn amser Harri'r Ail ond caniadau Cynddelw? Ie beth, meddaf, roddodd ysbryd yn ein milwyr pan ar fin llwfrhau yn yr ymgyrch ym Moel y Don ond geiriau Bleddyn Fardd? Paid son nad ydyw barddoniaeth yn effeithio ond ychydig arnom ni y meibion, y mae lawn cymaint ag ar y merched, ond mewn gwahanol ddull. Un o'r galluoedd moesol cryfaf, yn ol fy meddwl i, ydyw barddoniaeth; a byddaf yn teimlo yn ddigofus pan glywaf rai yn dweyd gyda sarhad fod merched mor agored i effeithiau yr Awen. Yr oedd dy dôn dithau, Madog, yn awgrymu hynny hefyd; fel pe buasai yn ddirmygus, neu yn wendid mewn mab neu ferch deimlo o dan eiriau cerdd."

"Yr wyf yn ymostwng dan dy gerydd," atebai Madog, gan wenu, "ac yr wyf finnau hefyd wedi dal sylw ar yr hyn y sonni am dano."

"Byddaf fi yn arfer meddwl bob amser mai y rhai y mae gwir farddoniaeth yn effeithio fwyaf arnynt ydyw y rhai mwyaf coeth a dyrchafedig eu cymeriad. Nid oes gan ein meistres, yr Awen, ddim a wnelo hi a chymeriadau brwnt, bras, a difoes; nid barddoniaeth ydyw y rhigymau ffiaidd y mae rhai fel hyn yn eu hoffi."

"Wel, Dafydd, yr oeddwn yn gwybod o'r blaen dy fod yn fardd penigamp, ac yn gerddor campus, ond yr wyt yn ymddangos mewn agwedd newydd heddyw—yn athronydd."

"Wrth son am athroniaeth, beth y mae Plato'n ddweyd am y beirdd? Onid meibion a deonglwyr y duwiau y geilw efe hwynt? Dyna i ti gymeriad! Dyma ni wedi cyrraedd y ty yn ddiarwybod wrth ymgomio."

"Cyn myned i mewn, gad glywed pa fodd yr wyt am wneyd gyda golwg ar ennill Morfudd?"

"Ymdrechaf ennill ei thad i ddechreu, ond os na bydd ef yn ffafriol i mi, ac os gwelaf fod Morfudd yn foddlon i mi ei chael, mynnaf ei chael er gwaethaf pawb."

"Da iawn Dafydd. Awn i mewn i yfed iechyd da a llwyddiant i ti a Morfudd."

Caernarfon: Argreffir a Chyhoeddir, dros y Golygydd, gan D. W. Davies a'i Gwmni.

CYMRU.

Cyf. II. EBRILL 15fed, 1892. Rhif. 9.

HANES CYMRU.

(*Llyfr II.*)

V. TRAETH Y GORLLEWIN.

GWELSOM fod ymosodiadau'r Gwyddyl ar fur Rhufeinig y Gogledd naill ai wedi gwanhau neu ynte wedi disgyn ar yr Eingl oedd, erbyn hyn, wedi ennill Deifr a Bryneich iddynt eu hunain. A gwelsom fod Gwyddyl yr Iwerddon, yn lle croesi i'r Alban ac ymosod oddiyno, wedi dechreu ymosod ar draeth gorllewin Cymru. Gwelsom hefyd fod y traeth hwnnw wedi dod yn eiddo iddynt, ymron ar ei hyd,—Gwynedd, Ceredigion, Dyfed,—a'u bod yn bygwth llifo dros Gymru i gyd. Gadawodd Cunedda Wledig y gogledd i ymladd a hwy; a gyrrwyd hwy'n ol, neu darostyngwyd hwy i deulu Cunedda. Erbyn canol y chweched ganrif, y mae'r gorllewin i gyd, i eithaf ynys Mon, dan lywodraeth Maelgwn Gwynedd; a Brythoniaid a Gwyddyl yn prysur ddod yn gyd Gymry. Gwelsom hyn i gyd, ond gadewch i ni edrych ychydig yn fwy manwl ar hanes traeth y gorllewin, yng ngoleu'r traddodiadau Cymreig.

Ar hyd y traeth, yr oedd gwaed Iberaidd yng ngwythienau'r trigolion, a gwaed Gwyddelig,—gwaed y bobl fyrion ben-hir wallt-ddu fu'n breswylwyr cyntaf yr ynys, a gwaed y llwythau Gwyddelig oedd wedi croesi drosodd i'r Iwerddon. Nid oedd yr Iberiaid wedi diflannu, ac nid oedd y Gwyddel wedi ymadael yn llwyr. Ar hyd traeth y gorllewin yr oedd pobl ryfedd, pobl ofnid gan y Brythoniaid oherwydd eu crefydd erchyll, ac oherwydd eu hud a'u swyngyfaredd. Pan oedd y rhan ddwyreiniol o'n Cymru ni'n Gristionogol, yr oedd preswylwyr y traeth yn baganiaid. Yr oeddynt oll wedi eu gorchfygu gan y Rhufeiniaid; ond pan ymosododd y Gwyddyl o'r Iwerddon ar draeth Cymru cyn ymadawiad y Rhufeiniaid, ac wedyn, cawsant yng ngorllewin y wlad bobl o'r un gwaed ac o'r un iaith a hwythau. Y mae llawer hen draddodiad wedi dod i lawr am yr ymwneyd fu rhwng Brythoniaid dwyrain Cymru ac Iberiaid neu Wyddyl traeth y gorllewin,—traddodiadau heb son am Grist nac Arthur na Maelgwn Gwynedd, oherwydd eu bod yn dod i lawr o oes na wyddai ddim am y rhain. Gwnaed y traddodiadau'n un fabinogi, gyda phedair cainc iddi, gan adroddwr ar ol adroddwr; ac felly daethant i lawr i ni yn un ystori.*

Ryw ddiwrnod aeth Pwyll, pendefig Dyfed, o'i lys yn Narberth, tua Glyn Cuch, i hela. Wedi gollwng ei gŵn dan y coed yn ieuenctyd y dydd, collodd olwg arnynt hwy ac ar ei helwyr. Toc daeth i lannerch wastad yn y tir, a gwelai garw'n rhedeg, a chwn dieithr ar ei ol,—cwn na welsai eu bath erioed, cwn o liw claerwyn disglaer, a'u clustiau'n gochion. Ar eu hol daeth un ddywedai ei fod yn frenin yn ei wlad ei hun, —Arawn, brenin Annwn. Ac yr oedd ganddo gŵyn. Yr oedd brenin arall yn Annwn, o'r enw Hafgan, yn rhyfela yn ei erbyn, yr oedd i'w gyfarfod mewn brwydr flwyddyn i'r noson honno, ac yr oedd arno ofn y canlyniad. Yr oedd Arawn a Hafgan yn medru swyno,—medrai Arawn newid pryd ac ymddanghosiad dyn; a medrai Hafgan ymiachau o ergyd farwol trwy gael ergyd arall gan y gŵr a'i rhoddodd. Rhoddodd Arawn ei ffurf ei hun ar Bwyll, ac aeth Pwyll i frwydro yn erbyn Hafgan. Rhoddodd iddo ergyd farwol, a gwrthodod roddi ail ergyd, gan wybod y gwnai honno ef gyn iached ag erioed. Ac o hynny allan bu Arawn yn llywodraethu fel cyfaill iddo, a galwyd Pwyll o hynny allan yn bendefig Annwn.

Tra'n llywodraethu ac yn amddiffyn Annwn Iberaidd, gwelodd Pwyll lawer o ryfeddodau Gwlad Hud. Un diwrnod, pan

* Y pedair cainc ydyw Pwyll Pendefic Dyfed, Branwen ferch Llŷr, Manawyddan, a Math ab Mathonwy. Y maent yn Llyfr Coch Hergest,—y gyfrol gyntaf o argraffiad Rhydychen, 1—81.

rn eistedd ar orsedd uwchlaw Narberth,
, gwelai farch gwelw mawr uchel yn
d yn araf a gwastad ar hyd y ffordd
rsedd, ac arno wraig mewn gwisg o aur
er. Anfonwyd gwas i ofyn pwy oedd,
d hwnnw, ac nis gallai ei dal wrth
ar ei hol. A pha fwyaf fyddai ei frys
llaf yn y byd fyddai hithau o'i flaen.
wyd gŵr march, ond, er nad oedd hi'n
ei march yn gyflymach, ni fedrai'r
og ei goddiweddyd; mwyaf yn y byd y
ei farch, pellaf yn y byd oedd oddi-
. Aeth Pwyll ei hun ar farch i'w
rfod. Pasiodd ef fel cynt; a mwyaf
ei frys i'w dal, pellaf yn y byd oedd
rtho. A gwaeddodd Pwyll ar ei hol,—
mwyn y gŵr a geri fwyaf, aros fi."
odd hithau'n llawen, a dywedodd ei
s wrtho. Rhianon, merch Hefeydd Hen,
yr oedd ei thad am iddi briodi Gwawl
lud o'i hanfodd. A hithau ni fynnai
y, oherwydd ei chariad at Bwyll. Aeth
i lys Hefeydd Hen, a llawen oedd
w wrth dderbyn cais Pwyll am ei ferch.
stod y wledd daeth Gwawl i'r llys; a
i Bwyll wybod pwy oedd, yr oedd wedi
v iddo y peth a ofynnai. Gofynnodd
vl am Rianon, a gwledd briodas. Nid
dim i'w wneyd ond eu haddaw, ac yr
priodas Gwawl a Rhianon i fod ym mhen
vyddyn; ond rhoddodd Rhianon god
n i Bwyll, gan beri iddo ddod i'r briodas
ı dillad un anghenus, a gofyn am ei
. Daeth y briodas, a daeth Pwyll
ı hen ddillad i ofyn am lond ei god.
awodd Gwawl hynny; ond, faint bynnag
yd roddid yn y god, ni fyddai'r god
ach. Aeth Gwawl iddi ei hun, a chauwyd
ynddi. Am gael dod allan, rhoddodd
on i fyny, a daeth hi'n wraig i Bwyll.
i priodi Pwyll, y mae fel pe'n colli ei hen
ac y mae'n gorfod dioddef erledigaeth
wr. Pan anwyd mab iddi, daeth braich
ll i'w gymeryd ymaith. Tyngodd ei
vynion mai hi ei hun a'i difaodd; a gellid
eled yn eistedd ar esgynfaen o flaen llys
erth gan ddwyn ei phennyd, sef dweyd yr
s wrth bob un elai heibio, a chynnyg ei
ar ei chefn i'r llys. Ymhen hir daeth ei
Narberth o lys arglwydd Gwent Is Coed,
magesid ef. Galwyd ef Pryderi, ac efe
tynnodd derfynau Dyfed dros dri
ref Ystrad Tywi a phedwar cantref
ligion.

'n yr ail gainc o'r Fabinogi yr ydym yn
r gogledd, ar garreg Harlech uwch ben
ilgi. Yno eisteddai Bendigaid Frân,
i frawd Manawyddan a'i hanner brodyr
ien a Nisien,—gŵr yr heddwch a gŵr
nnen. Ac wele longau'n dod o'r môr
dan hwyliau sidan, a tharian yn cael ei
dyrchafu ar y llong flaenaf, a'i swch i fyny,
yn arwydd tangnefedd. Matholwch, brenin
yr Iwerddon, oedd yno; a'i neges oedd
ceisio'n wraig iddo Franwen ferch Llyr,
chwaer Brân, a'r forwyn decaf yn y byd.
Ac aethant oll tuag Aberffraw, Matholwch
a'i longau hyd y môr, a Brân a'i luoedd hyd
y tir; ac yno daeth Branwen yn wraig i
Fatholwch. Ond yn y nos anffurfiodd Nisien
anhangnefeddus feirch Matholwch, a digiodd
y Gwyddel yn aruthr. Heblaw meirch,
rhoddodd Brân iddo bair hynod, pair wnai'r
marw bynnag a deflid iddo'n fyw. Gŵr o'r
Iwerddon oedd wedi dod a'r pair i Ynys y
Cedyrn, ac yr oedd hil y gŵr hwnnw, rhai
medrus eu dwylaw, yn nheyrnas Brân.
Ganwyd mab i Franwen yn yr Iwerddon; ac
yna cofiwyd yr hen sarhad, ac amharchwyd
hi. Magodd hithau aderyn, ac anfonodd ef i
Gymru, a llythyr am fon ei esgyll. Ym-
osodod gŵyr Ynys y Cedyrn ar yr Iwerddon,
ond ni ddaeth ond saith o honynt i Gymru'n
ol. Cyn marw yr oedd Brân wedi gorchymyn
iddynt fynd a'i ben i'w wlad ei hun, a rhag-
fynegodd y dyfodol iddynt. Yr oedd wyth
o honynt yn dwyn pen Brân o'r Iwerddon,
ond torrodd Branwen ei chalon wedi cyrraedd
glannau Mon. Aeth Pryderi a Manawyddan
a'r lleill tua Harlech; a buont yn ciniawa
yno am saith mlynedd, dan wrando ar adar
Rhianon oedd ymhell uwch ben y môr.
Ymhen y saith mlynedd aethant tua Gwalas
ym Mhenfro, i le teg uwchben y weilgi.
Yno buont am bedwar ugain mlynedd, wedi
anghofio eu holl ofidiau, yn treulio ysbaid
ddigrif a dedwydd, a phen Brân yn gwmni
mor ddiddan a phe buasai Brân yno i gyd.
Ond, o'r diwedd, edrychasant ar y drws y
rhybuddiasai Brân hwy nad agorent ef, y
drws oedd yn edrych tua Chernyw ac Aber
Henfelen. Agorodd Heilyn fab Gwyn y
drws; a daeth eu hanffodion yn llu i'w cof, a
chynifer câr a chydymaith a gollasant. Ni
fedrasant orffwys nes cyrraedd Llunden, ac
yno claddasant ben Brân yn y Tŵr Gwyn.

Yn y drydedd gainc o'r Fabinogi yr ydym
yn Nyfed yn ol. Erbyn hyn yr oedd y wlad
dan deyrnged; a chyda Phryderi a Chigfa ei
wraig, yr oedd Manawyddan, yr hwn oedd
wedi priodi Rhianon. Ryw ddiwrnod, pan
oeddynt ill pedwar yn eistedd yn Narberth,
clywent dwrf, a daeth niwl drostynt. Wedi'r
niwl daeth goleu, ond yr oedd y wlad wedi
newid. Nid oedd yno na thy nac anifail na
mŵg na thân na dyn, eithr y tai a'r tir yn wag
a diffaith. O'r tir anghyfannedd aethant i
Loegr, gan ymgynnal wrth wneyd cyfrwyau.
Yna aethant yn ol i Narberth, i fyw ar hela.
Ryw ddiwrnod, wrth ddilyn baedd gwyn

daeth Manawyddan a Phryderi at gaer fawr aruchel, a gwaith newydd arni, mewn lle na welsent na maen na gwaith erioed. Er gwaethaf Manawyddan, aeth Pryderi ar ol ei gŵn i'r gaer; ni welai neb yno, na dyn na chwn na baedd gwyn. Yn y gaer yr oedd ffynnon, a chawg aur ar ei glan; ac mor fuan ag y cydiodd Pryderi yn hon aeth fel delw o garreg. Disgwyliodd Manawyddan am dano'n dod allan o'r gaer hyd ddiwedd y dydd, ond yr oedd arno ofn mynd ar ei ol, a dychwelodd i Narberth. Pan glybu Rhianon ei stori, aeth ar ei hunion tua'r gaer, aeth i mewn, a chydiodd yn y cawg aur oedd yn nwylaw ei mab. Aeth hithau fel carreg yn y fan, daeth cawod o niwl dros bopeth, a diflannodd y gaer a phopeth oedd ynddi. Aeth Manawyddan a Chigfa i Loegr yn ol; ond daethant i Ddyfed wedyn, gyda baich o wenith. Hauwyd y gwenith, ac ni welodd dyn dwf tecach na thwf y gwenith hwnnw. Pan welodd Manawyddan ei fod yn addfed, penderfynodd ei fedi bore drannoeth. Ond erbyn bore drannoeth, nid oedd yno ond y gwellt, yr oedd y tywysennau llawnion wedi diflannu i gyd. Ond un nos gwyliodd Manawyddan gae arall o wenith addfed, ac wele lu o lygod yn dod i geisio'r tywysennau. Rhedodd ar eu holau, a medrodd ddal un lygoden a'i dodi yn ei faneg. Pan oedd am ladd honno, daeth gŵr ato i ofyn ei rhyddhau, gan ddweyd mai Llwyd fab Cilcoed oedd, yr hwn roddasai hud ar wlad Dyfed i ddial Gwawl fab Clud. Ac am gael ei wraig yn ol gorfod iddo dynnu'r hud oddiar Ddyfed; daeth Pryderi a Rhianon yn ol, ac wele Ddyfed yn gyfannedd fel o'r blaen.

Yn y bedwaredd gainc o'r Fabinogi y mae Gwydion ab Don yn dod o Gaer Dathyl yn Arfon i lys Pryderi, gyda geiriau mwynion, ond gan feddwl dwyn ei foch. Ymlidiodd Pryderi ar ol Gwydion a'r moch, a bu brwydr. Ac o nerth grym a hud a lledrith Gwydion, lladdwyd Pryderi; ac ym Maen Tiriawg, uwch y Felenrhyd, y mae ei fedd. Gyda Gwydion ab Don yr oedd plentyn am yr hwn yr adroddir hanesion rhyfedd, plentyn gafodd wedi hynny yr enw Llew Llaw Gyffes. I hwn rhoddwyd Eifionnydd ac Ardudwy; ac yn wraig cafodd Flodeuwedd, yr enethig wnawd o flodau'r derw a blodau'r banadl a blodau'r erwem drwy hud Gwydion. Ond, ryw ddiwrnod, daeth Goronwy Befr, arglwydd Penllyn, heibio; a llannwyd ef a Blodeuwedd o gariad eu gilydd. Peth anodd oedd lladd Llew Llaw Gyffes; ond medrodd Blodeuwedd wybod pa fodd yr oedd rhoi ergyd farwol iddo. Rhoddodd Goronwy Befr yr ergyd farwol honno, a diflannodd Llew Llaw Gyffes yn rhith eryr i'r awyr. Goresgynnodd Goronwy Ardudwy, a daeth Ardudwy a Phenllyn yn eiddo iddo. Ond pan glywodd Gwydion hyn oll, aeth i chwilio am Lew, a chafodd ef. Gwrthododd ei deulu sefyll rhwng Goronwy Befr ag ergyd Llew Llaw Gyffes. Lladdwyd Goronwy, a theyrnasodd Llew Llaw Gyffes ar Ardudwy eilwaith yn llwyddiannus.

Beth ydyw'r Fabinogi yma? Casgliad o draddodiadau,—yn y rhai y mae duwiau a dynion wedi eu cymysgu,—am yr ymryson fu ar hyd traeth y gorllewin rhwng Iberiad, Gwyddel, a Brython. Ar un ochr y mae pobl ddeallir,—y Gwyddyl a'r Brythoniaid; ac ar yr ochr arall y mae pobl ryfedd,—gwŷr hud a lledrith,—na fedrir deall eu ffyrdd. Efallai mai medr y bobl hyn wnai i'w gelynion feddwl mai trwy'r hudlath y gorchfygent; oherwydd desgrifir eu gwaith fel gwaith rhyfeddol o gain. Ond gwelir yn amlwg fod y bobl hyn wedi toddi i'w gilydd, y mae cydymdeimlad yr adroddwr weithiau gyda Phryderi a Goronwy Befr, ac weithiau gyda Gwydion ab Don a Llew Llaw Gyffes. Gwelir hefyd fod y cenhedloedd yn colli eu hawydd i grwydro ac i ryfela; prif nodwedd bywyd cenhedloedd crwydrol ydyw parodrwydd i ddilyn arweinydd rhyfel, ond yr oedd Pryderi a Gwydion yn ymladd eu brwydr eu hunain, ac nid oedd neb o bobl Penllyn a safai rhwng Goronwy Befr ac ergyd Llew Llaw Gyffes.

Y mae traddodiadau hefyd am deulu Cunedda'n dod i Gymru ac yn gorffen uno'r trigolion, drwy ddarostwng pob rhan iddynt eu hunain ac i Gristionogaeth. Y mae'r traddodiadau hyn, nid yn y Mabinogion, ond ym Mucheddau'r Saint.

Gwelsom fod teulu Cunedda wedi darostwng y Gwyddyl, ac wedi dod yn llywodraethwyr Cymru i gyd. Yn hanes y saint, ceir llawer traddodiad am ymdrech Maelgwn i ddarostwng pob rhan o'r deyrnas dan ei gyfraith a than ei dreth. Fel ymhob oes, hawliai gwŷr eglwysig ryddid oddiwrth bob treth; a phan ysgrifennwyd y rhan fwyaf o fuchedd-au'r saint, yr oedd Eglwys Rufen yn gwneyd ymdrech i fod yn rhydd oddiwrth y gallu gwladol.

Pan drowd Cybi Sant i'r môr terfysglyd gan un o frenhinoedd yr Iwerddon, daeth i Sir Fon, ac yno y gosododd ei babell. A'r amser hwnnw, ebe'r hanes, yr oedd Maelgwn Gwynedd yn teyrnasu ar Ogledd Cymru. Ac ar ryw ddydd ymhlith y dyddiau aeth Maelgwn i'r mynyddoedd i hela. Cododd hydd o flaen y ci, a diangodd am nodded i gell y sant. Dinynodd Maelgwn a'r ci ar ei ol, ac ebe'r brenin wrth y sant,—"Gollwng yr hydd allan." "Nis gollyngaf ef," ebe Cybi, "oni addewi arbed ei fywyd." "Os na ollyngi ef,"

· brenin yn ddigllon, "mi a'th symudaf
ar y tir yma." Ac ebe Cybi,—"Ni fedri
ymud oddiar y tir hwn, y mae hynny y
wnt i dy allu. Duw yn unig fedd y gallu
troi oddiyma. Eto mi addawaf yrru'r
l allan os aberthi ef i'r Hollalluog Dduw,
s rhoddi i mi y tir y rhedodd dy gi o'i
ylch." "Mi a'i haberthaf yn ewyllys-
' ebe'r brenin. Gollyngodd Cybi Sant
ydd, dilynodd y ci ef, ond daeth yr hydd
ell yn ol. Bu ymdrech wedyn rhwng
lgwn a Chybi Sant; ond ni fedrai'r
in wrthsefyll gŵr Duw.

Dengys yr hanes hwn fod Maelgwn wedi
ll terfynau eithaf Ynys Mon. Fel brenin
gledd y sonnir am dano fynychaf, ond
ys y traddodiadau sydd ym mucheddau
t ereill fod ei dreth-gasglwyr yng nghym-
eithaf deheubarthoedd Cymru. Yr oedd
arn Sant wedi dod o'r môr, ac wedi
efydlu yn Llan Badarn Fawr yng Ngher-
ion. Ryw dro daeth Maelgwn, brenin y
edd, a llu mawr i ddarostwng y de.
gyrhaeddodd lan yr afon Clarach, anfon-
ddau gennad i demtio'r sant â dwy
aid o fwswgl a graian,—trwy ddweyd
y ddwy sach yn llawn o drysorau brenhinol.
th y brenin yn ol, wedi llwyddo i ddar-
ng y wlad, a haerodd y ddau gennad fod
arn wedi cymeryd y trysorau o'r ddwy
, gan roddi mwswgl a graian yn eu lle.
ryd hwnnw yr oedd y brenin wedi
hymyn trwy'r deyrnas fod pob lleidr i
ei brofi trwy roddi ei law mewn dwfr
h. Rhoddodd Padarn ei law yn y dwfr
h, a thynnodd hi oddiyno heb fod yn
n gwaeth; ond llosgwyd dwylaw y ddau
nad celwyddog. A daeth dallineb ar
gwn, a saldra, a chryndod gliniau; a
fesodd ei fod ar farw oherwydd y sant.
n at Badarn ar ei liniau, ac am iachad
ddodd iddo yr holl wlad rhwng y Rheidol
Clarach.

Ym muchedd Catwg ddoeth cawn dra-
diadau am Faelgwn, a'i fab Rhun ar ei
yn teyrnasu ar Forgannwg. Yr oedd
lgwn, ebe'r hanes, yn teyrnasu ar Bryden
d. Anfonodd ei swyddogion i Wynllwg
sglu'r dreth, a daethant i dy gwas Catwg,
gymeryd merch brydferth y gwas oddi-
. Ymlidiodd gŵyr Gwynllwg ar ol y
ddogion, a lladdasant rai o honynt. Yna
h ofn mawr dros y fro, ofn gwg a dial
lgwn Gwynedd, a deisyfasant ar Gatwg
amddiffyn. Gweddiodd Catwg, ac yn y
wele golofn niwl yn mynd o'i flaen, ac
gordoi pebyll a lluoedd Maelgwn fel na
id gweled dim. Yn y niwl hwn daeth
wg at y brenin, a chondemniodd ef i'w
eb am anrheithio'r wlad yn ddiachos.
Cyffesodd Maelgwn ei bechod, a thywynnodd goleuni haf o'i gwmpas, yn lle'r niwl tywyll, pan ddywedodd Catwg fod ei bechodau mawrion wedi eu maddeu iddo. Ac adnewyddodd Maelgwn freintiau Catwg, gan fendithio ei ddisgynyddion os amddiffynnent hwy.

Dywedir ym muchedd Teilo hefyd fod Maelgwn yn cadarnhau breintiau Llan Daf. Yn Llyfr Llandaff y mae buchedd Teilo, a chawn ddesgrifiad ynddo o'r clefyd heintus a dieithr a elwid y Fad Felen. Gelwid ef ar yr enw hwnnw oherwydd fod croen pawb a syrthiai i'w afael yn melynu ac yn sychu. Gwelid ef gan ddychymyg dychrynedig y bobl yn ymdeithio drwy'r wlad. Colofn o gwmwl dyfrllyd oedd, gydag un pen ar y ddaear ac nn yn y nefoedd, yn tramwy dros ddyffrynnoedd Cymru. Pwy bynnag ddelai i'w anadl heintus, byddai farw ar unwaith, neu byddai'n dihoeni ychydig cyn marw. Ni thyciai meddyg ddim, aberthai pob meddyg ei fywyd wrth fynd i gyrraedd y Fad Felen. Ac anadlodd hwn ar Faelgwn Gwynedd, a bu'r brenin farw tra'r oedd yr haint yn anrheithio ei wlad.

Yn ol traddodiad arall, ni fu Maelgwn Gwynedd farw'n ddi-rybudd. Rhybuddiasid ef gan fardd rhyfedd ddaethai i'w lys unwaith. O'r môr y daethai hwn, mewn rhwyd bysgota y cafwyd ef ar draeth Cors Fochno, rhwng y Ddyfi ac Aber Ystwyth. Trwy ei hud ef, distawyd cerdd beirdd Maelgwn Gwynedd, trwy ei hud ef enillodd march ei feistr Elffin yr yrfa yn erbyn meirch buanaf Maelgwn Gwynedd. Gyda'i hud a'i fedr i ganu, y mae'n anodd peidio meddwl mai'r Iberiad ydyw, yn nerthu'r Gwyddel yn erbyn teulu Cunedda. Yr oedd ganddo ddawn proffwyd, a rhag-fynegodd, wedi gweled cadwen arian am draed ei feistr, fod gelyn y byddai raid i hyd yn nod Maelgwn Gwynedd blygu o'i flaen,—

"Mi a ryddhaf Elffin o fol tŵr meinin,
Ag a ddyweda i'ch brenin bethe i gyffrin,—
Fe ddaw pryf rhyfedd 'iar Forfa Rhianedd,
I ddial anwiredd ar Faelgwn Gwynedd,
A'i flew a'i ddannedd a'i lyged yn eurwedd,
A hwnnw a wna ddial ar Faelgwn Gwynedd."

Medrwn edrych ar yr ymdrech rhwng Maelgwn ag Elffin fel yr ymdrech rhwng y Brythoniaid a Gwyddyl traeth y gorllewin, cyn iddynt ymdoddi'n un bobl. A medrwn, hwyrach, edrych ar yr ymdrech rhwng beirdd Maelgwn a'r dewin Taliesin fel yr ymdrech olaf rhwng Cristionogaeth a Phaganiaeth am Gymru. Gwelwn yn eglur, oddiwrth y traddodiadau, fod Maelgwn Gwynedd wedi uno Cymru dan ei deyrnwialen ef. Yr oedd y Gwyddyl wedi eu gorchfygu, yr oedd ei longau'n gwylio'r moroedd, yr oedd ei glod

a'i dreth-gasglydd ymhob rhan o Gymru. Enillodd Cristionogaeth bob congl,—y mae sant ym mhob man braidd,—a daeth Cymru'n un. Mewn oesoedd i ddod, edrychid yn ol, dros gyfnod o ryfel ac anrhaith, ar deyrnasiad Maelgwn Gwynedd fel oes heddwch, oes y bardd a'r delyn. "Ac yn eglwys ger llaw Deganwy yn ei gastell ei hun y bu farw," ebe Sieffre o Fynwy. Dywedai prydyddion oesoedd wedyn am y brenin yn ymguddio mewn eglwys rhag y Fad Felen, ac yn marw wedi edrych arni drwy dwll y clo. Ond nid oedd elyn arall fedrodd ei orchfygu, ac er nad oedd yn hollol wrth fodd y saint bob amser, y mae traddodiad yn rhoddi darlun euraidd o'i lys,—

"A oes yn yr holl fyd frenin mor gyfoethog a Maelgwn? Rhoddodd y Tad o'r nef roddion ysbrydol iddo,—pryd a gwedd, ac addfwynder,—nerth, heblaw pob gallu enaid. Ac heblaw hyn,—pwy ddewrach ei wŷr, pwy decach a buanach ei feirch, pwy gyfarwyddach a doethach ei feirdd na Maelgwn Gwynedd.

VI. RHUN.

Ychydig iawn sydd o hanes Rhun, ac ychydig iawn o sicrwydd am hanes Cymru rhwng marwolaeth Maelgwn a brwydr Caer. Er mwyn esbonio yr hyn ddigwyddodd wedi hynny, temtir fi i ddychmygu mai Rehoboam yn dod ar ol Solomon oedd Rhun yn dod ar ol Maelgwn Gwynedd. Hawdd ydyw dychmygu gweld braich wannach, ac yn defnyddio ysgorpionau yn lle fflangellau. Ond rhag gwneyd cam a Rhun, gadewch i ni weled pa ddefnyddiau sydd gennym at ffurfio ei hanes.

"Dau fab a fu i Faelgwn,—Rhun ac Einawn. I Run y bu fab Beli. I Feli y bu fab Iago. I Iago y bu fab Cadfan." Nid oes lle i ameu gwirionedd y tipyn hanes hwn, ermai Sieffre o Fynwy a'i dywed, mor bell ag y mae a fynno a lle Rhun yn y gadwen achau.

Yn y traddodiadau, darlunnir Rhun fel brenin tebyg i Faelgwn, ac y mae'n bur sicr yr adroddir am dano ystoriau adroddir am Faelgwn ac am Arthur hefyd. Fel Arthur ym Mreuddwyd Rhonabwy ac ym Muchedd Cadog, cawn Run yn eistedd yn ei babell ar ochr rhyw fynydd, ac yn chware gwyddbwyll gyda'i weision. Yr oedd wedi dod i ddeheudir Cymru, ac i gyffiniau tir Cadog Sant. Yr oedd yn boeth yn yr haf, a daeth syched ar rai o'i wŷr wrth dramwyo drwy'r gwres. Cofiasant am ysgubor Cadog, ac am y gwartheg blithion oedd yno, ac am y llawnder o laeth. Pan gyrhaeddasant yr ysgubor, ni fynnai gwas y sant roddi llaeth iddynt; eithr ymesgusodai trwy ddweyd faint o glerigwyr a milwyr ei feistr fyddai raid sychedu, os rhoddai ef y llaeth i dorri syched pobl ddieithr. Diwedd hyn oll fu rhoddi'r ysgubor ar dân.

Yr oedd Rhun yn chware gwydd-bwyll o hyd. Ond daeth mŵg ysgubor y sant,—ni wnai ond mygu, ni losgai,—dros babell y brenin. Ac er fod llygaid Rhun yn agored, ni welai ddim. Cofiodd am ddallineb ei dad flynyddoedd cynt, ac ymholodd a oedd rhywun wedi ymyrryd â'r sant. Wedi chwilio, cafwyd y gwir. Ac anfonodd Rhun am Gadog, a dywedodd wrtho,—"Bendigedig wyt ti gan yr Arglwydd, bydded dy ddyfodiad yn heddychlawn, pechais yn erbyn Duw ac yn dy erbyn dithau." Holodd y sant beth oedd, ac wedi clywed yr hanes, gweddiodd ar i ddallineb Rhun gilio, a chilio a wnaeth wrth ei weddi. Yna cynyddodd Rhun ei freintiau,—y breintiau roddasid iddo gan Arthur a chan Faelgwn ei dad,—gan ddymuno bendith ar ei gymhwynaswyr a melldith esgymundod ar y rhai a'i drygai.

Y mae'n sicr fod Rhun wedi dilyn ei dad fel brenin Cymru; eithr y mae'n debyg iddo orfod myned i'r deheudir, ac anrheithio tipyn, cyn i bob rhan o Gymru ymostwng iddo.

Sonnir am allu Maelgwn, ac am ei lwyddiant,—gŵr garw ydyw yn y traddodiadau, yn meddu syniad am gyfiawnder, ond wedi penderfynu bod a'i air yn air ar bawb. Sonnir am ardderchowgrwydd ymddanghosiad Rhun, ac am ei hoffder o bleser,—gŵr moesgar ond aniwair ydyw, wedi etifeddu llwyddiant. Ym mysg y trioedd sydd yn Llyfr Coch Hergest ceir,—

"Tri gwyn deyrn Ynys Prydein,—Owein fab Urien, a Rhun fab Maelgwn, a Rhuawn Pebyr fab Dorarth Wledig."

Ym Mreuddwyd Rhonabwy ceir yr ymgom hon,—

"Pwy yw y gŵr gwinneu y daethpwyd ato gynneu?" "Rhun fab Maelgwn Gwynedd, gŵr y mae o fraint iddaw ddyfod pawb i ymgyngor ag ef."

Yn hanes Taliesin y mae traddodiad am ei fuchedd a'i rodiad,—"un o'r gwŷr anllataf o'r byd oedd Rhun, canys nid ai na gwraig na morwyn yn ddi-ogan ar ei caffai ef ennyd i ymddiddan â hi."

Tra mae'r rhamant yn darlunio Rhun yn dyfod ar frys at y castell lle'r oedd gwraig Elffin, i amcanu llygru ei diweirdeb hi, y mae cyfreithiau Hywel Dda yn ei ddarlunio'n ymlid gelynion ei wlad, ac yn ymddangos gyda'i lu wrth fur y gogledd. Yr oedd gwŷr y gogledd wedi ymosod ar Wynedd, i'w hanrheithio. Gyrrodd Maelgwn hwy'n ol, a chroesodd yr afon Forth ar eu holau, i fynyddoedd gogledd yr Alban. Yn yr ymgyrch hon yr oedd gwŷr Arfon ym mlaen y gâd, ac enillasant ddirfawr glod. Bu Rhun farw cyn brwydr Caer, 613.

CATHLAU HEINE.

Ein Fichtenbaum steht einsam.

E saif pinwydden unig
Ar oer ogleddol fryn,
A huna dan ei chwrlid
O rew ac eira gwyn.

Breuddwydia am balmwydden
Ym mhellter dwyrain byd,
Ar eirias lethr alara
Yn unig ac yn fud.

II.

Ir träumte : traurig schaute der Mond.

Breuddwydiais weld y lloer yn brudd,
A phrudd oedd sêr y nef ;
A mi fy hun oddiyma 'mhell,
Yn fy nhirionaf dref.

At gartre'm hanwyl nesu wnes ;
Cusenais drothwy'r drws
A ŵyr gyffyrddiad ysgafn droed
Ac ymyl gwisg fy nghlws.

Yr oedd y nos yn oer a maith,
A'r garreg honno'n oer ;
Ond gwelais wyneb mwyn drwy'r dellt
Yn gân yng ngoleu'r lloer.

III.

Die schlanke Wasserlilje.

Y lili ddŵr freuddwydiol
A edrych fry o'i llyn,
A'r lloer deifl ati olwg
Hiraethus serchus syn.

A'i phen a blyg y lili,
Wyleiddiaf lili gaed ;
A'i chariad gwelw wedyn
A genfydd wrth ei thraed.

IV.

Das Fräulein stand am Meere.

Ar lan y môr yr eneth
Ochneidio'n ddwys a wna ;
Tristau a wnaeth wrth weled
Machludo huan ha.

Fy ngeneth, bydd yn llawen,
Hen arfer haul yw hyn ;
I'r môr y sudda heno,
Yfory cwyd ar fryn.

V.

Wandl' ich in dem Wald des Abends.

Crwydraf y freuddwydiol goedwig,
Crwydro'r goedwig gyda'r nos ;
Wrth fy ochor innau'n wastad
Crwydra'th ddelw welw dlos.

Onid dyna'th wisg wen gannaid ?
Onid dyna'th wyneb mwyn ?
Ai nid yw ond goleu'r wenlloer
Dyr drwy wyll y tywyll lwyn ?

Ai fy nagrau dwys fy hunan
Glywaf yma'n ffrydio'n lli ?
Ai tydi sy'n wir, f'anwylaf,
Yma'n wylo'n f'ymyl i ?

VI.

Das Meer erstrahlt im Sonnenschein.

Mae'r môr yn loew'n nhywyn haul
Fel aur, ddiderfyn stôr ;
Fy mrawd, pan fyddaf farw,
O sudder fi'n y môr.

Bu'r môr yn anwyl anwyl im,
A llawer gwaith â'i li
Yr oerodd wres fy nghalon
A da fu'r môr i mi.

VII.

Du liegst mir so gern im Arme.

Mor llon wyt yn fy mreichiau,
Ac ar fy mynwes i !
Dy nefoedd wyf, a thithau,
Fy seren wen wyt ti.

A dwfn o danom heidia
Ynfydion blant y byd,
Yn dadwrdd ac ymgeintach,
A cham a gânt i gyd.

Yn fawr êu trwst y llefant,
Cwerylant heb ddim sail ;
Ymrafael wnânt a'u gilydd,
Ac ymladd bob yn ail.

Mor ddedwydd ydym ninnau
Ein bod mor bell uwchben— —
Ti guddi yn dy nefoedd
Dy wyneb, seren wen !

J. Morris Jones.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

VIII. RHYS JONES, PWLL FFEIN.

PAN ysgrifennir hanes baledwyr Cymru, rhoddir lle uchel yn y rhestr i fardd o Geredigion, anadnabyddus ymysg darllenwyr cyffredin llenyddiaeth Gymreig,—Rhys Jones, Pwll Ffein, Llandysul. Ganwyd ef yn Nhal y Garreg, ym mhlwyf Llanarth, yn Sir Aberteifi, Hydref 8, 1797. Yr oedd ym mwriad ei dad roddi yr addysg oreu ag a allai iddo, ond methodd gario allan ei amcan, oherwydd fe fu farw yn ddyn ieuanc, gan adael ar ei ol wraig a thri o blant. Ar yr adeg yma yr oedd Rhys yn yr ysgol yn Llwyn Rhyd Owen gyda'r Parch. David Davis, un o'r Lladinwyr a'r Groegwyr goreu yng Nghymru yn ei oes. Yr oedd tri o gyfeillion y tad wedi eu penodi i ofalu am y plant amddifaid. Anghofiodd dau o honynt eu dyledswydd yn gyfangwbl, ond nid felly y trydydd,—Mr. Griffith Thomas o'r Oernant,—yr hwn a wnaeth yr hyn a allodd i gynorthwyo plant amddifaid ei gâr Dafydd. Fe ddywedodd un o wyrion y gŵr da hwn wrthyf y dydd o'r blaen mai dyma yr unig fan y gwelodd ef enw ei daid mewn *preint*,—fel y dywed pobl Sir Aberteifi,—yn cael ei anrhydeddu am ofalu am blant amddifaid. Y mae i'r gŵr cyfiawn hwn heddyw, yng ngwahanol barthau Cymru, wyrion sydd yn hynod am eu parodrwydd i weini i weinidogion yr efengyl, ac am eu caredigrwydd i'r tlawd a'r anghenus. Ar ol ei dynnu o'r ysgol, rhoddodd Rhys gryn dipyn o sylw i gerddoriaeth a barddoniaeth. Yr oedd wedi dysgu canu dau neu dri o offer cerdd yn ddigon celfyddydgar i ddifyrru ei hun a'i gyfeillion. Ymbriodolodd ddwywaith, y tro cyntaf cyn ei fod yn llawn ugain oed. Ar ol blynyddau o afiechyd, bu farw Chwefror 15, 1844, yn 46 oed. Claddwyd ef wrth dy cwrdd Pant y Defaid.

Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol yn 1848 dan yr enw "Crwth dyffryn Clettwr" gan J. Jones, Aber Dâr, ac argraffwyd hwynt gan M. Jones, Caerfyrddin.

Heblaw barddoni, ysgrifennodd gryn lawer i bapurau newyddion ar bynciau dadleuol duwinyddol yr oes. Cymerodd ran lled flaenllaw yn y dadleuon yn *Seren Gomer* ar y pechod gwreiddiol a "bodoldeb" y diafol. Ni chynhygiodd ysgrifennu awdl na phryddest o bwys. Baledwr a rhigymwr ydoedd. Y mae ei ysgrifau yn adlewyrchiad pur gywir o'i syniadau ar wahanol bynciau a chwestiynau; a gwelir ei fod yn Undodwr pybyr, ac yn arfer ei bin ysgrifennu'n aml i wawdio ac ymosod ar athrawiaethau sectau ereill.

Clir ac eglur iawn ydoedd ei syniadau ar rai o'r cwestiynau crefyddol a gwladol sydd yn cythryblu ein gwlad yn y dyddiau hyn. Anfonodd lythyr barddonol at Evan James Ffynnon Llywelyn, am i gynulleidfa y Llwyn alw Saesnes i bregethu iddynt yn haf 1840, yn yr hon y mae'n dweyd,—

> Gofynnaf it' a'th frodyr,
> Mynegwch i mi'n eglur
> Pa le y ceir, ai yn y bais,
> Neu 'n iaith y Sais y synwyr?

Yn y gân "Proffwydoliaeth y Baledwr" dywed,—

> Ceir peidio talu'r degwm,
> Mae hynny'n un a rheswm, digon gwir, digon gwir.
>
> Ceir gweled Eglwys Loegr, cyn bo'n hir, cyn bo'n hir,
> Yng ngwydd y byd yn ddisglaer, cyn bo'n hir,
> Hi fuoedd dro yn egwan
> Ar bwys y breuin druan,
> Daw hon i gadw ei hunan;
> Gwyn fyd y Presbyterian, cyn bo'n hir, cyn bo'n hir.

Ysgrifennodd ddarnau doniol ar bynciau defnyddiol fel y canlyn,—

"I'r hen wraig, na olchai byth o feinciau y ty cwrdd."

"Anogaeth i'r Cymry, i lafurio am ryddhad y caethion."

"Y drwg o adrodd ystoriau am ysbrydion, yng nghlyw plant."

"Addysg dda."

Ysgrifennwyd un o'i ddarnau hynotaf a mwyaf doniol dan yr amgylchiadau canlynol. Galwodd yr awdwr yn y Feathers Inn yn Aberaeron, wrth ddychwelyd o'r Chwarter Sesiwn o Aberystwyth, 1827; a gofynnodd am gwpanaid o gwrw a phibell, i ysgrâd o forwyn oedd yno, merch o Lanbedr. Hi gynhygiodd iddo bibell front, ac ar ol iddo wrthod honno, dygodd iddo un rywbeth yn hwy na'i drwyn. Am ei diffyg moes, canodd iddi saith o benillion,—

> Wbwb! nid pib wen ysgrabi,—ddiles,
> Ond dy ddelw roest imi:
> Tan heulwen wedi ngeni,
> Un o'i sut ni welais i.
>
> Bŵr hi i ardal y purdan,—a bydd
> Yn Bab i'w chael allan;
> A'i driflan, a'i dŵr aflan,
> Yn niwl tew, yng nghanol tân.

Y mae ei "Awdl Cofiant" am rai o feirdd Ceredigion yn werthfawr, am y rhestr roddir ganddo o honynt, a'r hyn ddywed am danynt,—

> Gwelais Dafydd ab Gwilim
> Y gŵr oedd, ie yn gawr im',
> Fry yn y nen tros ennyd,
> Uchel ei ben uwch haul byd.

Cân Deio ab Ieuan Du,
Da'i fawredd fu'm difyrru.

Siencyn Shon gyfion gofia,
A'i hir fawl dwyfawl a da.

Siencyn Thomas, y gwas gwych,
A ganodd awdlau'n geinwych.

Mr. Edward Richard ydoedd
Wr gwych a eiliai ar goedd
Eiriau goleu i'r galon.

Bu un Icuan a'i gân gu
A moethau'r iaith i'n maethu,—
Y *Prydydd hir* mwyn irwedd,
Doetha o fyd aeth i fedd.

Ifan Llwyd a fu'n lledu
Aur yn goeth i'r awen gu.

Ifan Thomas f addas fardd.

Auraiddwych fardd a roddwyd
I fedd llawr, oedd Dafydd Llwyd.

Nathaniel, a'i waith hynod
Oedd un glwys, haeddai iawn glod.

Tyfodd yn Abertefi
Un Ioan mwynlan i mi.

Un eilydd, yn anwylach—ni welwyd
Drwy Walia, na'i harddach,
Aderyn llawer dewrach
Na beirdd byd, oedd y *Bardd bach.*

Un Ffransis hoffai'r unswydd,
Bu'n gwau dilladau i'm llwydd.

Bu hefyd Shion ab Ifan,
Llon ŵr gwiw, yn llunio'r gân.

Eleazer per purwych,
Un dien oedd, a di nych.

Daw o feibion
Ceredigion
Wir feirdd union
} Ryw fyrddiynau.

r Dydd.

Fe fu "Cwyn gweithdai y tlodion," yn yr hon y proffwydir,—

"Daw dydd i segurwyr i orffen gloddesta
Ar chwys a gwaed gweithwyr, a chwithau heb fara,"

yn boblogaidd iawn am gryn amser. Am ganu hon cafodd yr hen faledwr Sion Sgubor ei fwrw i garchar yn y Merthyr.

Ysgrifennodd Rhys Jones amryw hymnau, ond nid ydynt o fawr werth. Teimla y darllennydd fod diffyg defosiwn ynddynt. Yn ol fy marn i, un o oreuon ei gyfansoddiadau mewn llawer ystyr ydyw hon,—

MYFYRDOD.

Dewis ddilyn y diwyd—a hauodd
Yn hoyw-wych i'r ysbryd;
Tawel yw dyddiau 'i fywyd,
Ac yn y farn—gwyn ei fyd!

Eithr hynod ing a thrueni--a ddaw
I ddyn wna ddrygioni;
Hauodd ar led, caiff fedi
Ei ran 'nol cyfraith ei Ri.

Tafod cydwybod mi dybia'—yn glau
Ai gledd a'i trywana,
Tan y nen y peth penna
I ddyn yw cydwybod dda.

Heddwch i lwch yr hen faledwr o Sir Aberteifi, yr hwn a wnaeth lawer i wasanaethu ei gen edlaeth, fel y dywedodd ef ei hun mewn cân o hanes ei fywyd, yr hon a ganodd yn ei gystudd,—

Rhoi gwaith a gweini i'r gwan
A wnes yn ol fy ngallu;
Ymdrechais wneyd fy rhan
Er mwyn goleuo Cymru.

J. A. Jenkins.

CROESAW CALANMAI.

HENRI MYLLIN.

Copiwyd yr hen benillion hyn gan Henri Myllin, o hen lawysgrif ar ddarfod am dani. Gwelir fod ynddynt eth byw am Galanmai, hiraeth fydd mor gyffredinol ym mywyd gwledig Cymru,—

"Daw Clanmai, daw Clanmai,
Daw'r defed ag ŵyn,
Daw mistar a mistres
I edrych yn fwyn."

I.

Ni bu wanwyn well crioed
I lenwi'r coed â blodau;
Glâs yw'r ddaear yn ei llawr,
Mae gobaith mawr am Glanmau.

II.

Llidiart newydd ar cae ceirch,
A gollwng meirch o'r stablau;
Cywion gwyddau, ebol bach,
Pam na ddaw bellach Glanmau?

III.

Yn enw dyn, ni fydd mo'r plyg
I'r gŵr o Rug o'i siwrnau;
Yng Ngwlad yr Haf mae'r mwynwr hael
Ar fedr cael dydd Clanmau.

IV.

Ni wasanaetha imi son
Byth am newyddion chwedlau;
Ond nid oes dim o'r drwg yn hyn,—
Ein bod yn erfyn Clanmau.

V.

Amser heddwch da di gel,
Ac amser rhyfel weithiau;
Ac amser mynd i lan heb dras
A fydd o gwmpas Clanmau.

HEN YSGOLFEISTRI CYMRU.

II. DAFYDD DDU ERYRI.

"BARDD oedd Dafydd Ddu Eryri," mi dybiaf glywed rhywun yn dweyd wrth ddarllen pennawd f'ysgrif, "ac nid ysgolfeistr." O'r bron nad atebwn mai ysgolfeistr oedd, ac nid bardd. Canodd, mae'n wir, a chanodd rai pethau da iawn; ond y mae ei addysg i feirdd yn well na'i farddoniaeth ef ei hun. Ei lythyrau ydyw y pethau goreu adawodd ar ei ol, ac engreifftiau o'i reolau ydyw'r caniadau sydd yng Nghorff y Gainc. Manylder, cariad at reol, awydd am gywiro,—dyna ei nodweddion. Oherwydd ysgolfeistr oedd; yn ysgolfeistr ganwyd ef, ac ysgolfeistr fu trwy ei fywyd.

Ganwyd Dafydd Thomas ym Mhen y Bont y Ceunant, ardal y Waun Fawr, Llanbeblig, Arfon, yn Ebrill 1760. Gwehydd tlawd oedd ei dad, wedi medru dysgu darllen ac ysgrifennu Cymraeg, ac wedi meistroli rheolau cynghanedd. Yr oedd y tad hwn yn credu mewn addysg, — daeth Dafydd yn ysgolfeistr, bu John yn bregethwr am dros drigain mlynedd, ac Wmphre'n gyllidydd ac ysgolfeistr. Yr oedd yn wr craffus, yn credu fod addysg yn well marsiandiaeth nag arian, a dywedodd Sion Lleyn am dano,—

"Ni bu'n ddoeth neb yn ei ddydd
Graffach na Thomas Gruffydd"

DAFYDD DDU ERYRI.

Anfonwyd Dafydd, pan oddeutu pedair ar ddeg oed, at berson Llanberis, y Parch. John Morgan, am wyth mis, i ddysgu Saesneg a Rhif a Mesur. Nid dyma yr holl ysgol a gafodd, bu am dri mis arall gyda pherson Betws Garmon, rhyw Mr. Lewis. Ac yna aeth at grefft ei dad,

"Gan ddwys barhau i ganu a gwau,
Tra daliai oriau'r dydd."

Rhaid ei fod yn astudio'n galed wedi gadael yr ysgol, ac yr oedd barn y wlad yn eglur mai wrth ddysgeidiaeth y dylai fyw. Pan yn bedair ar hugain oed,—yr oedd ei dad erbyn hyn wedi marw,—gadawodd i'w wennol sefyll, ac aeth i gadw ysgol i Landdeiniolen.

Wrth fynd i gadw ysgol, yr oedd yn mynd i ysgol newydd ei hun. Daeth i gydnabyddiaeth ag amryw bersoniaid, a chroesawid ef i'w llyfrgelloedd, oherwydd yr oedd yn wr o dymer addfwyn a charuaidd. Dechreuodd ddysgu Lladin a Groeg; a dysgodd ddigon o ramadegau'r ieithoedd hyn i fedru dyfynnu llinellau Lladin, er mai mewn cyfieithiadau y darllennai'r awduron clasurol.

Daeth i gwmni bardd Cymreig hefyd tua'r adeg yma,—Robert Hughes o Geint Bach, neu, fel yr adwaenid ef ymysg y beirdd, Robin Ddu o Fon. Dan lygad hwn, ymberffeithiodd yr athraw ieuanc yn y cynghaneddion, a magodd sel frwdfrydig dros y mesurau caethion. Bu Robin Ddu farw yn ei flodau, yn 1785, a rhoddodd Sion Lleyn ei enw ymysg enwau beirdd Mon,—

"Caed ym Mon wiw feirddion fil,
Da oeddynt, a di eiddil;
Gwr o Fon oedd Goronwy,
Neb o fardd ni bu ei fwy;
Robin Ceint, rhyw ben cantawr,
Ethol wych, a aeth i lawr."

Enillodd Dafydd Ddu enwogrwydd yn ei ardal fel bardd ac fel ysgolhaig. "Cywion Dafydd Ddu" y gelwid y beirdd ieuainc, gan mai ganddo ef y caent eu cychwyn a'u haddysg. Yr un modd, ganddo ef y cai bechgyn wybodaeth am yr iaith Saesneg, ac ysgrifen, a chyfrif. Nid oedd ar neb eisiau rhyw addysg drylwyr iawn yn yr oes honno, —dim ond cael eu rhoddi ar ben y ffordd i ysgrifennu llythyr a chyfrif prisiau,—a buan iawn y byddai athraw wedi gorffen hynny o waith oedd iddo ym mhob ardal. Ni feddyliai am aros wrth genhedlaeth arall; eithr heliai ei binnau ysgrifennu a'i ramadegau at eu gilydd, ac ymadawai i ardal newydd.

O Landdeiniolen aeth Dafydd Ddu i Fetws Garmon, ac oddiyno i Lanystumdwy. Yn 1794 y mae ym Mhentraeth, ym Mon, yn ysgolfeistr, ac yn llyfrgellydd Paul Panton, noddwr Ieuan Brydydd Hir. Tra yma daeth awydd am wella ei fyd i feddwl yr ysgolfeistr

wd; ac wele ef yn mesur glo yn Amlwch. l oedd y gorchwyl hwn wrth ei fodd, yr d eisiau dyn cryf at waith fel hwn, gwell vehydd eiddil fel Dafydd Ddu oedd ei rifbin a'i ramadeg. Yn y flwyddyn 1803 ddodd Elin Thomas, ac aeth y ddau i fyw wn ty yn y Waun Fawr, ty alwai Dafydd u yn Fwth y Bardd, er mai Pen Domen d ei wir enw. Yma cadwai Dafydd Ddu ol, a chadwai Elin Thomas siop. Cyn dechreuodd yr ysgol fynd i lawr, ni rai ysgolfeistr fyw yn yr oes honno ond ar vydr,—a medrodd person Llan Rug, y rch. P. B. Williams, gael arian o'r neudir i dalu i athraw am dramwy o tref i bentref. Symudodd Dafydd Ddu ysgol, felly, i Lan Rug a Llanberis, a vnwyd ef gan Elin Thomas a'r siop. Yr d yr ardal hon yn rhy oer iddo, a'i iechyd au mor wannaidd, a bu'n agos iawn i angau tro. Symudwyd yr ysgol i Landwrog, udodd yntau hefyd. Yna collwyd yr n,—pum punt ar hugain,— a gorfod i'r fardd afiach ddibynnu ar geiniogau prin ddisgyblion. Erbyn 1818 yr oedd ei th a'i bryder wedi gwneyd iddo golli hoen fywyd. Gwaith rhy drwm i hen ŵr wyn oedd cychwyn ac ail gychwyn olion, a mudo ac ail-fudo o un ardal yddig oer i ardal fynyddig oer arall.

Cymerodd ei gyfeillion drugaredd arno, a rotowyd ty cysurus iddo yn Llan Rug. oedd yn falch iawn o'r ty hwn,—"un o'r goreu ym meddiant bardd tylawd yng hymru." Yr oedd wedi byw mewn ty ch am saith mlynedd, ac wedi ymdrafferthu la'r ysgol; ond yn awr ymlawenhai mewn y gallai weled y Wyddfa o hono, a bar ernarfon, a'r castell, a Mon. Ac heblaw ny, yr oedd ei amser yn eiddo iddo,—ei vyd i gyd i'w roddi i'w ddewis waith. Medi, 1821, adroddodd awdl yn EisteddCaernarfon, lawn o ysbryd ieuenctyd y ffroad,—

"Eich annog heb gas na chynnen,—yr ydwyf,
Wŷr odiaeth, yn llawen;
I ddwyn ein hiaith, hirfaith, hen,
O'r anialwch a'r niwlen.

Dal gwrol genedlgarwch—mae'n weddus,
Mwyneiddiaf hyfrydwch;
Dwyn trysawr o'r llawr a'r llwch,
I'r goleu o'r dirgelwch."

Yn niwedd Mawrth, 1822, mewn tywydd ghinog gwlyb, yr oedd yr hen ŵr yn dod ef o Sir Fon. Wrth groesi yr afon Cegin, hrodd ei droed, neu cafodd ffit yn y dwfr, chafwyd ef yn y prydnawn wedi boddi. ddwyd ef ym mynwent Llan Rug, a ddwyd llawer o englynion ar garreg ei fedd. O fysg y rhain, dyma ddau, y naill o waith Dewi Wyn a'r llall o waith Gwyndaf Eryri.

"O fedd oer ein Dafydd Ddu!—henadur
A hynododd Gymru,
Ewythr i feirdd, athro fu,
Cefn wrthynt i'w cyfnerthu."

"Darfu ein bardd diweir-foes,—fu gadarn
Fegidydd ei gyfoes;
Rhoed lamp penigamp ein hoes
I'r pridd-fedd, ŵr pereidd-foes."

Onid prudd yw gweled bardd, gwannaidd ei iechyd a llawn awydd am seibiant, yn gwastraffu ei oes uwch ben addysg plant a glâs lanciau? Nage, y mae'r gwaith y gwaith aruchelaf fedr dyn wneyd; y gresyn ydyw fod y rhai sy'n cyfrannu trysorau i'r oes a ddel yn cael eu gadael, er pob ymdrech o'u heiddo eu hunain, i newynu neu gardota yn eu hen ddyddiau. Ond fel hyn y bu, er dechreu'r byd.

Ysgolfeistr oedd Dafydd Ddu wrth natur, a chafodd ei waith. Edrychwch ar ei wyneb,—y gwefusau penderfynol, y llygaid ymchwilgar llawn cwestiynau, y drem feirniadol, y trwyn lluniaidd, a'r talcen braf,—y mae'r cwbl yn dweyd "Gad i mi dy ddysgu sut i wneyd dy waith." Yr oedd ei lond o awydd beirniadu, gosodai reol ar bob peth, a mesurai'n fanwl. Gallem feddwl, pe buasai ei fanylwch yn llacio ar unrhyw adeg, y buasai'n llacio adeg ei briodas. Ond dyma ran o'i ddiolchgarwch i Sion Lleyn am gyfarchiad priodasol,—

"Yr ydym yn dymuno arnoch newid yr englynion sy'n son am Eryri, yr Aran, yr Hafren, Conwy, Menai, &c., oblegid y maent yn rhedeg mewn dull o gyffelybiaeth rhy uchel, wrth ystyried yr unrhyw yn y cymhwysiad; oblegid nid yw ein priodas ni yn effeithio y gronyn lleiaf ar fynyddoedd ac afonydd, nac ychwaith ond ychydig, am a wyddom, ar drigolion y mynydd-dir, a phreswylwyr glannau afonydd; ond nid ydym yn ameu llai nad ydyw ein cyfeillion a'n hewyllyswyr da ar fynydd dir a dyffryndir yn llawenhau mewn mesur oherwydd yr undeb a gymerodd le yn ddiweddar. Mae y rhan ddifrifol o'r briodas-gerdd yn addas at yr achos, ac yn canlyn naturioldeb y testun. Pe crybwyllech mai yn Llandegai, a chan Mr Dafis o Fangor, y priodwyd ni, byddai hynny yn ddernyn hanesiol o'r gerdd. Ond nid wyf yn rhoddi hyn yn dasg arnoch."

Ie, ysgolfeistr ydyw ysgolfeistr hyd yn nod wrth briodi. Rheolau, atal-nodau, cynghaneddion, ffurf a threfn oedd ei hoff bethau. Ceisiodd addysgu cenhedlaeth o Gymry trwy foddion eu llenyddiaeth eu hun. Dysgai i fechgyn y peth sydd raid ei ddysgu i gyfarfod a bywyd a'r arholwr; ond gwnaeth lawer mwy na hynny. Plannodd gariad at yr hen feirdd mewn llawer meddwl ieuanc; a gwyn

fyd na ddilynai ysgolfeistri'r oes hon ei esiampl yn hyn o beth. Pan oedd ysgol fechan Llan Rug yn nychu oherwydd nad oedd ychwaneg o ddisgyblion, yr oedd Cymru'n faes addysg i Ddafydd Ddu. Rhoddodd ei lythyrau manwl gorffenedig lawer un ar ben y ffordd. Bu o gymorth i Sion Lleyn, yn yr hwn, gyda'r cyntaf, yr ymbriododdd athrylith yr awen Gymreig ag ysbryd y Diwygiad. Ceisiodd, mae'n wir, ei gaethiwo i'r cynghaneddion, fel y ceisiodd gyda'i holl ddisgyblion, ond danghosodd iddo ar yr un pryd gyfandiroedd rhydd barddoniaeth a beirniadaeth gwledydd ereill,—

"Nid oes ond ychydig o feirdd yr oes hon yn dyall yr iawn ffordd i gyfansoddi Marwnad, mwy nag yr oeddych chwithau pan luniasoch englynion o goffadwriaeth am Mr. D. Rowlands a Mr. W. Williams. Chwi a gariasoch y ffugr yn rhy uchel, neu anaturiol, os nad anysgrythyrol hefyd. Nid rhyw goeg ymleferydd addurniadol a ddylai fod yn gynhwysedig mewn marwnad, ond llais natur seml, llais galar a theimlad o golled.

Gwelwch, os yn dyall Saisneg,—Aristotle's Poetics, Longinus on the Sublime, Blair's Dissertations on Rhetoric, Caime's Elements of Criticism, Dr. Lowth's Dissertations on the Poetry of the Hebrews, &c.

Dyna'r ysgolfeistr eto. Ond ym mha le'r oedd Sion Lleyn, druan, i gael yr holl lyfrau hyn? Nid at Sion Lleyn yn unig y byddai Dafydd Ddu'n ysgrifennu ei gyfarwyddiadau; yr oedd Daniel Ddu o Geredigion yn anfon ato o Lunden i ofyn am gyfarwyddiadau i ddeall yr hen feirdd.

"Mae bardd ieuanc," meddai, "yn debyg mewn un ystyr i geffyl gwyllt, yr hwn sydd afreolus nes rhoddi ffrwyn yn ei ben a'i drin gan farchogwr gofalus a meistrolgar. Diameu fod rheolau barddoniaeth Gymraeg yn gaeth iawn, ie, yn gaethach nag mewn un iaith arall; mae yn dost fod yn rhaid gadael rheswm tlws allan o gywydd neu englyn, o herwydd ei fod yn rhy hir neu ry fyr o sillaf neu ddwy, a gwthio i mewn ryw ymadrodd tywyll yn ei le. Darfu i Ddafydd ab Edmwnd gaethiwo'r awen Gymreig yn greulawn pan ddyfeisiodd y mesurau cacthion, megis Gorchest y Beirdd, Clogyrnach, Cyhydedd Cyrch a Chwta, &c. Mesurau diffrwyth a diflas ydyw y rhain; nid oes modd i'r beirdd cywreiniaf osod dim llawer o synwyr ynddynt, o ran cacthdra'r mesurau. 'Rwy'n meddwl y buasai gennym fwy o brydyddiaethau yn Gymraeg pe nas dyfeisiasid y mesurau uchod. Eto ar yr un pryd, pe na buasai rheolau manylaidd a chywrain wedi cael eu gosod i farddoniaeth Gymraeg, buasai ormod o wag-rigymau'n llenwi Cymru, buasai pob ffwlcyn yn myned yn brydydd, ac felly prydyddiaeth yn dyfod yn ddistadl a di-ystyr, yn enwedig gan wŷr o ddysg, ac ni fuasai ond ychydig ragoriaeth rhwng *Athraw y Celfyddydau* a *Disgybl Bol Clawdd*. Rwy'n ofni fod Mr W. Williams, y rhigymwr penrhydd, yn droseddwr cywilyddus. Er fy mod yn meddwl mai gŵr duwiol ydyw ef, eto dyweded pawb a fynno am felusder ei steil, ni fedraf fi ganmol dim ar ei waith yn dryllio ac yn brig-dorri geiriau, cymysgu'r iaith, a rhwygo'r gramadeg yn gant o ddarnau."

Ni theimlais gymaint o gondemniad ar y mesurau caethion erioed a geiriau eu prif amddiffynnydd. A phan anghofir holl brydyddiaeth gaeth Dafydd Ddu ei hun, cofir am ei emyn ar yr "Hen Ddarbi,"

"Rhyfeddol weithredoedd trugaredd,
Sef prif briodoledd ein Duw,
Trugaredd a garodd dros fesur
Bechadur llwyr amhur ei ryw,
Trugaredd o'i blaid sydd yn eiriol,
Trugaredd anfeidrol sydd fwyn,
Pan lefo fe 'ngolwg ei waeledd,
Fe wrendy trugaredd ei gwyn."

Un hoff o reol oedd Dafydd Ddu, gŵr perffeith-foes oedd. Yr oedd yn credu mewn pethau fel yr oeddynt,—yr oedd yn Eglwyswr cyson a selog,—ni fynnai aflonyddu ar reol englyn nac eglwys na gwladwriaeth na chredo. Peth digon rhyfedd meddwl ei fod yn gyd-aelod o'r Cymreigyddion a Jac Glan y Gors. Ffraeodd a'r Cymreigyddion oherwydd eu daliadau penrydd,—

"Digon tebyg fod Llwyn yr Hudol, Glan y Gors, ac Edward Charles, wedi tramgwyddo wrthyf, oherwydd im wneyd ymgais i'w hateb yn lled lym, ymherthynas i'w llythyrau ataf, y rhai oedd yn cynnwys math o erlidwawd oherwydd fy mod yn tueddu (yn ol eu barn hwy) at ddaliadau Methodistaidd, y rhai, gyda eu cennad, sydd well na eu daliadau Deistaidd hwy. Ond yr wyf yn gobeithio nad gwawdiaith gŵyr o feddyliau ysgafn am Dduw a'i Feibl cysegrlan a ddichon siglo sail fy nghredniaeth. Os tramgwyddasant o'r achos hwnnw, y mae iddynt lawn groesaw. Os ydynt yn rhyfygu cellweirio â phethau sanctaidd Duw, ni chellweiria angeu gyda hwy, eithr efe a ddysg iddynt ddifrifwch! Os na ddysgir hwy yn gynt drwy ryw foddion ereill, yr hyn sydd beth i'w ddwys obeithio."

Mewn gwleidyddiaeth hefyd, yr oedd yn credu'n gryf mewn tawelwch a disgyblaeth ac ufudd-dod. Ni chollai gyfleusdra i ganu pan ddigwyddai rhywbeth ynglyn a'r teulu brenhinol,—geni, priodi, adferu iechyd, marw. Nid gyda boddhad y meddyliai am y syniadau gwylltion chwyldroadol ddoi o Ffrainc gyda phob awel. Mewn rheol a chyfraith yr oedd ei bleser; boddlonrwydd, i'w feddwl ef, oedd dyledswydd a hapusrwydd y deiliaid. Condemniai ben-rhyddid yr oes; dyrcha ei wialen fedw at y rhai oedd yn gadael yr hen reolau, ac yn son am fyd newydd a rhyddid newydd. Y mae'n wir y cynhyrfid ef gan rai o deimladau brwdfrydig yr oes. Pan glywodd am fuddugoliaeth fawr Trafalgar, canodd gân. Ond buan y cyll y teimlad milwrol, y mae'n athraw Cristionogol cyn diwedd ei benillion, yn tynnu gwers i ni oddiwrth ryfel,—

"With gofio'r distriw erchyll,
Yn wir tra erchyll yw,
Mae rhyfel yn ei wneuthur
Ar amhur ddynol ryw;
Pa ddyn o feddwl pwyllog,
Perchennog cof a chwyth,
Wrth ystyr yr erchylldod
A garai bechod byth?"

Peth rhyfedd, wrth gofio ei gariad at reol
i ufudd-dod i ysbryd oer di-frwdfrydedd yr
es oedd yn myned heibio, fod barddoniaeth
afydd Ddu Eryri mor brydferth lawer tro.
es ddi-farddoniaeth oedd y ddeunawfed
anrif, oes pregethu dyledswyddau gan wŷr
off o reolau anhyblyg, oes traethodau heb
sgydwad bywyd ynddynt, oes deddf laddai
thrylith ag anadl oer ei gorchymynion.
ithaf peth, wedi'r cwbl, oedd y Chwyldroad
frengig,—i ail-ddeffro athrylith, ac i gyn-
esu tipyn ar fywyd y byd. Pa beth a gad-
odd Ddafydd Ddu rhag ymgolli mewn
heolau, a gwario ei holl nerth ar gyfieith-
adau? Nid y Diwygiad Ffrengig, ond y
iwygiad crefyddol, "y Diwygiad," a dde-
frodd ei awen ef i fywyd fwy nag unwaith.
id fel Wordsworth y deffrodd, ond fel
Villiams Pant y Celyn. Medrai Ramadeg
n berffaith glir; medrai atal-nodi heb wall,
dysgu ereill yr un gamp ddefnyddiol
c anodd; medrai gyfieithu gweithiau Gray
r dim; yr oedd llond ei enaid o reolau,
heolau bywyd a moesoldeb a rhyddiaith a
hynghanedd. Ond yr oedd ganddo hefyd
dyhead am fyd tragwyddol, ac yr oedd y byd
wnnw'n taflu cysgodion esmwyth prydferth
guddio anhyblygrwydd yr holl reolau cel-
yddydol. Meddai Dafydd Ddu reolau'r hen
es, a llawer o deimlad yr oes oedd i ddod;
welodd na fedrai fynd ymhell wrth ei linyn
esur a'i reolau,—

"Er cael mewn rhan wybodaeth bêr
Am gylch yr haul a llwybrau'r ser,
Ni wn i fawr am fyd sydd well
Tu hwnt i gaerau'r rhain ymhell.

"Mae meddwl am y nefol fro
I mi'n hyfrydwch lawer tro;
O na bai'r munud o fwynhad
Yn oesoedd mewn tragwyddol wlad.'

Nid y brydyddiaeth ganodd wrth reol gaeth a manwl sydd wedi byw, ond yr emynnau a'r carolau sy'n adroddiad o'i deimlad crefyddol dwys ef ei hun,—

"Mab Duw yn dragwyddol a folir
Pan gywir edrychir y drefn;
Er inni drwm gwympo drwy bechu,
Gwnaeth ffordd i'n dyrchafu drachefn;
'Roedd cyfraith ufudd-dod gweithredol
O fewn i'r Ior oesol yn reddf;
Ei angau gwnaeth iawn i gyfiawnder,
Heddychodd holl ddigter y ddeddf."

Ysgolfeistr oedd Dafydd Ddu, gŵr cyfraith a rheol a chosb,—ond, wrth gofio am yr Iesu, trydd ei gydymdeimlad â'r troseddwr, ac yn erbyn y ddeddf. Ond, o'i holl weithiau, y gân oreu gennyf fi ydyw ei garol ar "Ddifyrrwch Gwŷr Caernarfon," carol y clywais ei chanu ar aelwyd yng Nghymru bob nos Nadolig er ys deng mlynedd ar hugain,—

"Ar dymor gauaf dyma'r gwyl
Sydd anwyl anwyl in;
Boed sain llawenydd ym mhob llu
Waith geni'r Iesu gwyn;
Dadseiniwn glod â llafar dôn,
Rhoed y tylodion lef;
Gan gofio'r pryd y gwelwyd gwawr
Eneiniog mawr y nef!

"Wel dyma gysur mawr i'r gwan
Sydd beunydd dan ei boen,
Fod gwên maddeuant, meddiant mwyn,
Yn wyneb addfwyn Oen:
Mae'n galw drwy'r efengyl bêr
Ar bawb yn dyner,—'Dewch,
Nesewch at aur gynteddau'r Tad,
Trugaredd rad a gewch.'

"E bery cariad Iesu cu
Fyth i'w ryfeddu'n faith;
Dadganu ei fawl, ryglyddawl glod,
Sydd ormod, gormod gwaith;
Hyn oll yn awr a allwn ni,
Sef llawen godi llef;
Pa fodd yn well i seinio clod
Cawn wybod yn y nef."

RYWBRYD, YN RHYWLE.

Cyfieithiad o "Sometime, Somewhere," gan Robert Browning.

Heb ateb eto? i'r weddi gynt ddadleuaist
A chalon drist dros lawer blwyddyn ddu?
Yw'th ffydd yn pallu dim? ymedy gobaith?
A thithau'n meddwl mai yn ofer fu?
Na ddywed am y Tad na chlywodd E';
Fe gei'th ddymuniad hoff, rywbryd, yn rhywle.

Heb ateb eto? er pan gyflwynaist gyntaf
Dy unig ddeiseb hon wrth sedd y Tad;
Prin medrit aros e'yd ag amser gofyn,
Mor fawr dy awydd oedd am gael rhyddhad.
Aeth blwyddi heibio, ond cadw galon gre,
Cei ateb gan dy Dduw, rywbryd, yn rhywle.

Rhuthyn.

Heb ateb eto? na, na ddwed heb ateb,
Efallai na wnest ti yr oll o'th ran;
Gwnaed dechreu'r gwaith pan y gweddiaist gynta,
A Duw ei hun a'i gorffen yn y man.
Ond para i arogldarthu tua'r ne',
Cei weld gogoniant Duw, rywbryd, yn rhywle.

Heb ateb eto? Nis gall fod Ffydd heb ateb;
Ei thraed ynt ar y graig uwchlaw y lli;
Diarswyd yw yng nghanol gwyllt dymhestloedd,
Yn nhwrf y daran groch ni chrynna hi;
Gŵyr iddi gael ei gwrando yn y ne,
A gwaedda, "Fe gaiff fod," rywbryd, yn rhywle.

R. Ernest Jones.

"YR HEN AMSER GYNT."

Cymerer yn ganiataol mai hen wr sydd yn llefaru.

YR oeddwn un noswaith yn pendwmpian gerllaw tanllwyth gwahoddgar a ymsiriolai yn ei wres o fy mlaen. Braidd nad oedd y pruddglwyf yn chwennych casglu ei edyn i ymosod arnaf. Edrychais allan drwy y ffenestr. Nid oedd dim i'w weled ond y lloer a'r ser. Yr oedd y lloer fel gweddw brudd yn taflu y cymylau yn orchudd du dros ei gwyneb. Braidd nad oeddwn yn ei gweled yn rhodio, a'r ser fel lampau euraidd yn ei dwylaw, i chwilio am fedd yr haul. Nid oedd dim yn siriol ond y tân. Ond digalonnai hwnnw yn fuan os esgeuluswn daflu boncyff arno. Achosodd gwaith yr hen wyth niwrnod yn taraw hanner nos i ddadl godi yn fy meddwl a awn i'm gwely ai nad awn. Cymhellid fi gan wres a sirioldeb y tân i aros i lawr, ac o'r ochr arall anogid fi gan esmwythder fy ngwely i fyned yno. Torrwyd y ddadl drwy ymchwyddiad y don o bruddder oedd yn fy meddwl. Felly nid oedd waeth i mi fod yn effro wrth y tân na bod yn effro yn fy ngwely. Teflais drem ddi-galon ar fy het silc. Meddyliais am ddyddiau ei hieuenctyd. Yr oedd fy nghoryn yn llawn—o wallt, beth bynnnag—y pryd hwnnw, ac ni fuasai y gwallt hwnnw yn gwelwi dim yn ymyl y nos dduaf yn Nhachwedd. Mae presenoldeb fy ffon yn peri i mi alaru oherwydd ymadawiad hoenusrwydd fy neudroed. Yn adeg fy ieuenctyd, yr oedd y ffon yma yn dechreu tyfu yn gangen iraidd ar glawdd dinod, ar yr hwn, bob boreu, y byddai Robin Goch a Llwyd y Gwrych yn cadw cymanfa. Ni wyddwn yr adeg honno fod crydcymalau i'w gael hyd yn nod mewn geiriadur. Ni feddyliais y cawswn fyw i agoryd cås spectol o'm heiddo fy hun. Ond erbyn heno dyma fi wedi byw i dorri cynifer o spectols ag a fuasai yn gwydro ffenestri fy holl fwthyn. Nid rhyfedd fy mod yn lled brudd fy ysbryd, ac yn dewis rhoddi trem am ryw awr ar yr hen ddyddiau gynt. Yr wyf yn hoff o hen bethau, er i'r rhai hynny fod yn fychain. Ond, yn wir, pethau bychain sydd yn myned yn hen. Ni fyddwn byth yn dweyd yr "hen haul," neu yr "hen ser." Mae ganddynt hwy ryw ffordd o fyned yn hŷn heb heneiddio. Mae yr haul mor sionc heddyw ag a oedd pan chwysodd Adda dan ei belydrau y tro cyntaf erioed. Ond y pethau distadl o'n cwmpas sydd yn heneiddio; ac y mae edrych ar y rhai hynny yn peri i mi gofio yn barchus am yr hen ddyddiau. Dyweder a fynner, mae rhyw at-dyniad cyfareddol ynddynt.

Hen ddyddiau yr uwd, y bara ceirch, y llymru, y llwy bren, a'r cig hallt! Yr oedd pawb yn iach y pryd hwnnw. Nid oedd angen gwely ond yn y nos. Dyddiau y codi lawlaw gyda'r wawr, a dyddiau yr huno gesail-yng-nghesail gyda'r haul; dyddiau yr het befar, y bais a'r betgwn, yr hancas sidan, a'r clôs pen glin,—mae y dyddiau dedwydd a difalch hynny wedi darfod, ac ni chyfarfyddir â hwy ond wrth rodio ym mhlith beddau y gorffennol. Yr hen bethau! Mae yn werth bod yn dyner wrthynt. Byddaf fi yn cymeryd dyddordeb hyd yn nod mewn hen geffyl; gallaf fod yn amyneddgar uwchben hen almanac; ac nid oes gennyf gymaint a hen grochan y buaswn yn gwarafun eithaf pensiwn iddo. Ni fyddai dim yn peri mwy o brofedigaeth i mi, pan yn hogyn, na gweled ambell hen goeden yn cael ei thorri. Nis gallaf ddweyd paham. Pe y gallesid fy nhrawsffurfio yn fachgen, cawsech lond basged o resymau cyn cael hamdden i ofyn am danynt. Yr wyf yn cofio hyd heddyw gweled mwy nag un hen dderwen yn cael ei thorri, ac ni fu fy mreuddwydion yn gysurus am wythnos ar ol hynny. Beth sydd yn fwy bendigedig na hen gadair freichiau? Gwelais lawer hen dad yn tynnu'r nefoedd yn gawod am ei ben tra yn penlinio yn ymyl un felly. Yn hen stôl drithroed, hefyd,—lle byddai nain ar hirnos gauaf yn eistedd arni i wau ac i ddweyd straeon. Y fath ddyddordeb a gymerwn yn yr hanes am Dic-y-Domen-Ddu yn cario tylwyth teg ym mhoced ei wasgod, ac am Wil-Dwyn-Gwellt yn codi cythreuliaid gyda chanwyll frwyn a mawnen o gâs y cloc! Ni fyddai merched y pryd hwnnw yn ymdyrru at eu gilydd i drafod y ffasiynau. Ni fyddai gan neb yn y plwyf yr un *watch* ond mab y sgweiar, a byddem mor falch o weled papur pumpunt a phe buasem wedi creu planed. Mor anwyl, onide, oedd yr hen lwybrau? Anfynych y byddai neb yn myned hyd-ddynt ond i'r capel a'r farchnad. Ar hyd y rhai hyn y dysgodd llawer un ymddiddan ag ef ei hunan am y tro cyntaf erioed, ac ni ystyriai fod neb yn teilyngu yr ymddiriedaeth o fod yn y gyfrinach, ond awel ddistaw y nawnddydd. Yr wyf yn cofio am ambell hen fryn nad oedd neb yn yr ardal ond rhyw gwpwl o ddefaid a minnau yn ymdrafferthu i'w anwylo. Yr hen gestyll,—mae yn rhyfedd i amser, heb son am fagnelau, adael cystal llonydd iddynt, Byddaf, weithiau, ar fin troi i holi rhai ohonynt, ond yn ymatal wrth gofio y byddai yn rhaid

i mi roddi tafodau i fyrddiwn o ystormydd cyn y cawswn atebion. A dyna'r hen Eisteddfodau, pan fyddai Wil Sceifiog,—yn sobr ac yn feddw, yn gall ac yn wallgof,—yn clecian englynion wrth y dwsin, a Thalhaiarn yn ymrolio hyd y llawr wrth chwerthin am ei ben. Pe buasai hynny ar fy llaw, ni fuaswn yn gwrthwynebu caniatau adgyfodiad i ryw *un* "cyfarfod y beirdd" hen ffasiwn. Dim *ond un*, cofier. Yr hen gymanfaoedd, hefyd, pan nad oedd neb yn rhy swil i ddweyd "Bendigedig, neb yn rhy glasurol i waeddi "Diolch," na neb yn ormod o wr bonheddig i roi "Amen;" hen ddyddiau y gorfoleddu ar hyd y nos, nes y byddai arogl y gorfoledd ar yr awelon foreu drannoeth,—yr wyf yn cofio am danynt; dyddiau yr hen ganu, pan fyddai y geiriau a'r ysbryd yn cael chwareu teg,—nid canu fel a geir yn awr, pan yr ystyrrir dyblu a threblu llinellau yn sarhad ar ffasiwn, ac yn waradwydd ar chwaeth,—yr oedd ganddynt eiriau bendigedig yn yr hen amser. Pe buasai seraffiaid yn arfer a llenladrata, buasent yn gwneyd marchnad ragorol gydag emynnau yr hen bobl. Ond dyma'r hen ddyddiau difyrrus, a'r hen bethau anwyl wedi myned heibio. Ac yn awr, tra mae y ceiliog yn canu ei salm foreuol, yr wyf yn diosg fy nghlocs ac yn dweyd, "Coffa da am 'Yr Hen Amser Gynt.'"

ELFYN.

HEN GANIG Y CEUNANT.

Ail yw y rhaiadron i gôr angylion
Mewn gwisg gynnau gwynion uwch dyfnion y dŵr,
Yn murmur alawon a dawnsio ymgyrchion*
Mor hylon hyd wendon y dwndwr.

Dwfn-ruawl, ewynawl lif oesawl o fiwsig
Ar delyn o gerrig, plethedig ei thant,
O arian linynnau glân burwyn aberau
I'm clustiau dyriau darawant.

Cyfeiliant gydganau, syfrdanus fyrdonau,
Ar hyd y boreuau, y nawniau, a'r nos;
Er hynny ni flinaw yr undyn ar wrandaw
Mwyn ruaw isalaw eu solos.

Un foment caf wrandaw nod alaw Handelaidd,
Neu gydgan syw peraidd, etheraidd Bethofn;
Dro arall mewn undawd, byw-dirion bedwarawd,
A thriawd, neu ddeuawd rhwydd eofn.

Yr ebyr chwyrnredant i gyngherdd y ceunant
I'w lwyfan dylifant, cydunant a'r dôn,
Mor hoew eu cyflwr, a'r llif yn arweiniwr
Pob lleisiwr ym merw'r murmuron.

Mor chwaethus mae'n dangos y *fortes* a'r *pianos*,
Y *diminuendos*, *crescendos*, cry' sain,
Vivace grazioso, fodd *dolce maestoso*,
Con tempo, a'i guro mor gywrain.

*marches

Treuliedig ystlysau y graig yw'r tabyrddau,—
Rhoes hon ei hasennau yn dannau i'r dŵr;
A'r rhaiadr ewyn, hardd baladr bolwyn,
I'w thelyn yn geinwyn ddadganwr.

Chwareua pob defnyn o'r dŵr ryw offeryn
Wrth fartsio tros ddibyn yr ewyn mor rwydd; [orfa
Y myrddiwn ymuna yn ddirfawr gerdd-
Gydgana, alawa mor hylwydd.

Nid oes o waith dynol, na chrwth na bâs feiol
Na chorn celfyddydol mor swynol eu sain
Ag organ felodus y genlli' wen ddawnus,
Mor rymus, ry gorus orgywrain.

Mwynhau mewn tangnefedd gaf yma gynghanedd
O nefol felodedd, diddiwedd ei dawn,
Gan gôr y rhyferthwy, yn wawd anrhaethadwy
I'r eilwy,* mae'r arlwy mor orlawn.

Mae'n wawd mor etherol; anysgrifeniadol
Ei gordiau clasurol, a'r gabol rhy goeth
I law dyn gopïo un frawddeg o hono,—
O'i cheisio, cawn honno'n un annoeth.

O deuwch gerddorion i wrandaw'r rhaiadron
Yn eilio alawon pêr mwynion o'u mant,
Ddyhidlir mor lithrig, nid oes ail na thebig
I fiwsig 'Hen Ganig y Ceunant.'

ISALLT.

*cerddor.

FY ADDYSG.

I.

"Love had he found in huts where poor men lie,
His daily teachers had been woods and rills,
The silence that is in the starry sky,
The sleep that is among the lonely hills."

WORDSWORTH.

NA thybier fy mod yn hunanol pan ddywedaf fy mod yn ysgrifennu hanes fy addysg. Ond pa beth ydwyf fi na'm haddysg i neb? Dim, dim ar wyneb y ddaear. Ond y mae f'ystori'n hanes addysg, neu gamaddysg, roddir i bob plentyn o Gymro; ac am y rheswm hwnnw yr wyf yn rhyw ledobeithio, ddarllennydd hynaws, na throi'r dalennau hyn heb ddarllen yr un o honynt.

Cyn mynd i'r ysgol,—"ie," meddit, "dyna ddechreu yn gynt na'r rhagymadrodd. Pa beth sydd a fynno amser cyn mynd i'r ysgol ag addysg?"

Y mae a fynno lawer iawn. Cyn mynd i'r ysgol nid oedd blentyn hapusach na mi yn unlle ar fryniau a mynyddoedd Cymru. Gwyddwn ym mhle y tyfai pob math o flodau, gwyddwn lle'r oedd ugeiniau o adar yn nythu, gwyddwn am bob carreg wen dywynnai mewn aber ac afon. Nid heb ymdrech a thrafferth y cefais y wybodaeth hon,—yr wyf yn cofio fy hun ar fy mhedwar yn y mynydd, wedi'm gadael yno tra triniai fy nhad y mawn, yn ymestyn at goes blodyn y dydd; yr wyf yn cofio fy hun wedi'm caethiwo yn fy nghader fach, ac yn cychwyn, a honno ar fy nghefn, tua'r graian mân oedd yng ngwaelod y ffynnon. Bum yn gwylio'r ehedydd yn ymgolli o'm golwg yn yr awyr; bum yn gwylio'r lleuad yn codi dros y bryn, ac yn gwaeddi arni, mewn ofn, ar bwy'r oedd yn sbio; bum yn gwylio'r eira'n pluo, gan dybied mai gwenyn wedi cael dillad newyddion welwn; ac yr wyf yn cofio'm dychryn wrth glywed rhu disymwth gwynt meiriol, a chreciadau brawychus y rhew yn yr afon.

Doi cymydog ar ei dro, ac ambell rodiadur, i'm cartref ar hirnos gauaf, i ymgomio wrth y tân mawn yn yr hen dy clyd; a byddai gweled fy ngwyneb bychan llwyd chwilfrydig i yn gwneyd iddynt ddechre adrodd eu hystraeon. Gwyddwn hanes degau o ysbrydion wrth eu henwau, ond mai enw'r adroddwr fyddai f'enw i ar yr ysbryd. Gwyddwn pwy oedd yn medru witsio hefyd, a byddwn yn gochel cyffiniau eu caeau pan yn chwilio am flodau newyddion neu nythod adar.

Eis i'r Ysgol Sul yn fore iawn. Yr wyf yn cofio myned y tro cyntaf yn dda, ar fore braf ym mis Mehefin. Yr oedd yr hen deiliwr wedi bod ar ei draed ymron dan hanner nos i wneyd fy nillad newyddion; nid ar ei draed ychwaith, o ran hynny, ond ar y bwrdd. Yr oedd y gôt a'r trowsus yn barod, ond nid oedd bosibl gwneyd y wasgod mewn pryd. A bu cynhadledd uwch ben y dillad ar tocion a minnau. Ni wnai'r hen wasgod, yr oedd yn amlwg, gyda'r dillad newyddion; oherwydd yr oedd amser nythod adar newydd fynd drosodd, ac yr oedd y wasgod wedi bod drwy filldiroedd o wrychoedd. Yr oedd pawb mewn penbleth; ni fynnai neb fy siomi, a minne wedi meddwl cymaint am gael mynd i'r ysgol, ac eto gwelid mai i hynny yr oedd yn rhaid iddi ddod. "Wel, fy nyn dewr i," ebe'r hen deiliwr, "dydi dy wasgod di ddim yn barod, beth wnei di?"

"Mynd i'r ysgol heb yr un," meddwn innau, heb y petrusder lleiaf.

"Mae'r bachgen wedi taro'r hoel ar ei phen," ebe yntau, "mae hi'n ddigon braf, cauwch i gôt o'n dyn, a gadewch iddo fynd heb yr un wasgod."

A hynny benderfynwyd. Cychwynnodd y teiliwr adre dros y mynydd, a gadawodd ei ystyllen a'i fflat ar ol,—yn ernes y doi fore dydd Llun i orffen y wasgod.

Yr oeddwn i wedi codi o flaen yr ehedydd bore drannoeth. Ac o'r diwedd daeth amser cychwyn. Cauwyd fy nghot yn ofalus, ac nid oedd berygl i'r botymau newydd ddatod. Rhoddwyd fi ar fainc, yn nosbarth hen wr, gydag amryw o'r un oed a phrofiad a mi fy hun. Ar lyfr yr oeddym i edrych, ond blin iawn oedd edrych ar y llyfr o hyd, a gwelais bron bopeth oedd yn digwydd yn yr ysgol. Y mae'r olygfa'n fyw o fy mlaen y funud hon. Y mae dwndwr yr ysgol, lleisiau llawer yn esbonio'r Beibl, yn fy nghlustiau. Dacw'r hen bobl, gydag aml ben gwyn yn crynnu, a phawb bron a'i spectol,—oll erbyn hyn yn y fynwent ger llaw. Dacw'r "dynion," — dynion cydnerth, yn llawn ynni wrth ddadlau a'u gilydd,—erbyn hyn wedi eu torri i lawr, neu'n hen wyr yn yr ysgol fel y gwelais eu tadau. Dacw hog-lanciau, erbyn hyn wedi hen gynefino â throion bywyd; a dyma ninnau'r plant, ar chwal, erbyn heddyw, ym mhob man. A dacw ddosbarthiadau'r merched, — anesboniadwy iawn i mi oedd merched, rhai na fedrai ddringo'r coed nac agor cyllell na lluchio cerrig ond â'u llaw chwith.

Yr A B oedd fy ngwers i y bore hwnnw, ac erbyn dweyd yr holl lythrennau ar ol yr

hen athraw, yr oeddwn yn meddwl na welais ddim byd rhyfeddach erioed. Yr oeddwn yn methu dirnad sut yr oedd y plant ereill yn adnabod pob llythyren wrth ei henw; yr oedd yn haws lawer adnabod ol traed adar. Pan adewais yr ysgol, yr oedd A ar ewin un fawd imi, a B ar ewin y fawd arall; a'm tasg am yr wythnos oedd cofio'r ddwy lythyren hyn. Yr oedd gen i ystraeon mwy difyr na'r A a'r B, ond rhoid taw arnaf mewn munud pan soniwn am flodau drain neu nyth dryw. Daeth diwedd yr ysgol, ac er fy llawenydd dyma hwy'n dechre canu pennill fedrwn, yn araf araf fel swn y gwynt. Yr oedd golwg henaidd arnaf finnau'n treio canu, er mawr ddifyrrwch i'm cyfoedion,—

"Dewch hen ac ieuanc dewch,
At Iesu, mae'n llawn bryd;
Rhyfedd amynedd Duw
Ddisgwyliodd wrthym cyd;
Aeth yn brydnawn, mae yn hwyrhau,
Mae drws trugaredd heb ei gau."

Hyd yn hyn yr oeddwn wedi bod yn weddol ddi-brofedigaeth. Ond wrth fynd adre, cofiais am fy nillad newyddion, a betiais a bachgen pen-goch fod gennyf fwy o fotymau nag ef,—hen lafn cyllell yn erbyn *reel* wedi ei gwneyd yn dop sgwrs oedd y fet. Yr oeddwn wedi cyfri holl fotymau fy nillad newyddion, a'r botwm oedd ar fy nghap, ond yr oeddwn ddau fotwm ar ol. "Dangos fotyme dy wasgod," ebe un o'r bechgyn. Yr oedd dau fotwm ar fy nghrys; a mentrais ddangos nad oedd gennyf wasgod, er mwyn cael cyfrif y rheini. Ond ni fedrai yr un o honom gau'r gôt yn ei hol. Dywedais yr hanes yn onest wedi mynd adre, a chefais fy chwipio, am falchder, ac am fetio ar ddydd Sul.

Ar ddiwrnod gwaith nid wyf yn cofio i mi fod yn segur erioed cyn mynd i'r ysgol. Pan na fyddwn yn gwneyd da, byddwn wrthi â'm holl egni'n gwneyd drwg. Er hyn yr oedd awydd adeiladu yn gryfach ynnof nag awydd dinistrio. Y mae'n wir fy mod wedi gosod dannedd ogau yn y gwair yn ystod un oedd wedi fy nghuro; ac y mae'n wir fy mod wedi gosod penweig cochion ar dannau adawsai ysgogyn o glarc yn yr afon; medrwn hefyd ddynwared lleisiau llawer o ferched y fro. Ond gwell oedd gennyf fod ar fy mhen fy hun, yn cynllunio, ac yn gweithio fy nghynlluniau allan. Medru codi pont a medru codi ty oedd fy hoff freuddwyd. Bum am wibdaith droion yn edrych ar hynny o bontydd oedd yn fy nghyrraedd, a dargan-fyddais o'r diwedd pa fodd yr adeiladwyd hwy, a phaham y safent. Codais ugeiniau o bontydd dros fân aberoedd, pontydd bychain o gerrig mân y gallai gwartheg gerdded drostynt yn hawdd. Weithiau gwnawn bont lydan dros aber, ac ar honno codwn dy bychan fyddai'n ddiddos drwy'r gauaf,—gyda charped o dywyrch trum esmwyth sych ar ei lawr. Wrth weled fy muriau, dywedai pawb y gwnawn saer maen dan gamp, a chwilid fy achau'n fanwl, i weled i bwy y tebygais. Pan fethid cael neb wedi arfer adeiladu ymysg fy hynafiaid, ond pawb wedi tynnu i lawr, ysgydwai pobl eu pennau, a dywedent na safai fy muriau'n hir.

Er hynny credai pawb y down yn ddyn enwog, os anfonid fi i'r ysgol. Dyna oedd cwestiwn pawb,—"Sut na anfonech y bachgen yma i'r ysgol?" Yr oeddynt yn credu mewn ysgol, a druan o honynt. Ond, o'r diwedd, pan oeddwn rhwng naw a deg oed, penderfynwyd mai i'r ysgol yr oedd yn rhaid i mi fynd. Ac yno, er mawr alar a cholled i mi, y gorfod i mi fynd.

Yr oedd yr ysgol yn y Llan, rai milldiroedd o'r fan lle 'roeddwn yn byw. Yr oedd yn eiddo i'r tirfeddiannwr yr oedd ymron yr holl fro yn perthyn iddo; ac yr oedd ei wraig, boneddiges dal urddasol, yn cymeryd dyddordeb mawr yn addysg yr ardal. Yr adeg yr eis i i'r ysgol gyntaf, yr oedd yno ysgolfeistres. Awd a fi i'r ty; yr oedd yr ysgol wedi dechre, ac nid oedd blentyn yn y golwg ar y Llan. Daeth yr ysgolfeistres atom,—dynes fechan, a llygaid treiddgar, ac yn dal ei dwylaw o'i blaen y naill ar y llall. Siaradai dipyn o Gymraeg lled-ieithog, iaith y werin; Saesneg, mae'n amlwg, oedd ei iaith hi,—iaith y bobl fonheddig, iaith y bobl ddieithr oedd yn lletya yn y Plâs, a iaith y person o Sir Aberteifi. Ni fedrai wenu ond wrth siarad Saesneg. Sur iawn oedd ei gwep wrth orfod diraddio ei hun trwy siarad Cymraeg; o ran hynny, surni welais i ar ei gwedd erioed, ond pan wisgai ei gwyneb teneu â gwên i gyfarfod y foneddiges hael oedd yn talu ei chyflog iddi. Ni wrandewais i ar ei geiriau, ac nid oeddwn yn hoffi ei gwyneb, meddyliwn am drwyn llwynoges welais yn f'ymyl unwaith wedi nos.

"Fy machgen i," ebai fy mam, "dyma dy feistres newydd. Edrych arni, tyn big dy gap o dy geg, mae hi'n mynd i ddysgu pob peth i ti. Ysgwyd law a hi."

Estynnodd ei llaw ataf, gyda gwên wan yn marw ar ei gwyneb,—"O gwnawn," meddai, "mi dysgwn ni pob peth sydd isio i gwbod iddo; mi dysgwn ni o sut i bihafio."

Nid dysgu sut i fihafio oedd arnaf fi eisiau, ond dysgu sut i wneyd pont a sut i wneyd capel. Daeth awydd mawr drosof am fynd adre gyda fy mam; ond ar ol yr ysgolfeistres y gorfod i mi fynd. Agorwyd drws yr ysgol; clywn ddadwrdd rhyfedd, a gwelwn

"Ac am fy nghi y gwyddwn ei fod yn fy nisgwyl trwy'r dydd."

blant wedi eu pacio'n dyn wrth eu gilydd ar lawer o feinciau. Yr oedd dau le agored ar lawr yr ysgol, a gwelwn ddau ar eu traed, un ymhob llecyn agored. Deallais wedyn mai is-athraw ac is-athrawes oeddynt. Aeth yr ysgolfeistres a fi at un o honynt, ond nid wyf yn cofio ond "niw boi" o'r hyn ddywedai. Yr oeddwn yn medru darllen Cymraeg yn bur dda erbyn hyn, a rhoddwyd fi mewn dosbarth plant yn dechreu darllen Saesneg. Un o lyfrau'r S.P.C.K. oedd y llyfr darllen, ac y mae'n gas gennyf y llythrennau byth, oherwydd y creulonder ddioddefais wrth geisio dysgu o'r llyfr hwnnw. Llanc diddan caredig oedd yr athraw, a bu'n garedig iawn wrthyf, ond wedi gwers y darllen aeth i'w le at ddisgyblion ereill. Buan yr aeth y gair fod un newydd, a gwirion hefyd, wedi dod i'r ysgol. Yr oedd llygaid amryw o blant creulon arnaf, — gwn am danynt i gyd, plant cegog o'r pentref oedd y rhan fwyaf,— nid ydynt uwch bawd sawdl byth. Yr oedd yr athraw wedi dweyd wrthyf yn ddistaw am beidio siarad gair o Gymraeg; ond yr oedd y bechgyn drwg hynny'n gwneyd popeth fedrent i wneyd i mi waeddi, ac o'r diwedd llwyddasant. Collais fy nhymer, a dechreuais ddweyd fy meddwl wrth y chwilgi bradwrus, nad oedd yn werth rhoi blaen troed dano, oedd yn dyfeisio sut i'm poenydio. Gydag i mi ddweyd fy Nghymraeg cryf, chwarddodd pawb, a rhoddwyd llinyn am fy ngwddf, a thocyn pren trwm wrtho. Ni wyddwn ar wyneb y ddaear beth oedd, yr oeddwn wedi gweled tocyn cyffelyb am wddf ci i'w rwystro i redeg ar ol defaid. Tybed ai i'm rhwystro adre y rhowd y tocyn hwnnw am fy ngwddf i? O'r diwedd daeth canol dydd, awr y gollwng. Daeth yr ysgolfeistres yno a gwialen yn ei llaw. Gofynnodd ryw gwestiwn, a chyfeiriodd pob plentyn gwasaidd ei fys ataf fi. Daeth rhywbeth tebyg i wên dros ei gwyneb pan welodd y tocyn am fy ngwddf i. Dywedodd ryw rigwm hir wrthyf na fedrwn ddeall gair o hono, danghosodd y wialen imi, ond ni chyffyrddodd a mi. Tynnwyd y tocyn i ffwrdd, a deallais wedi hynny mai am siarad Cymraeg y rhoddid ef am wddf.

Bu'r tocyn hwnnw am fy ngwddf gannoedd o weithiau wedi hynny. Dyma fel y gwneid,—pan glywid plentyn yn dweyd gair o Gymraeg, yr oeddis i ddweyd wrth yr

athraw, yna rhoddid y tocyn am wddf y siaradwr; ac yr oedd i fod am ei wddf hyd nes y clywai'r hwn a'i gwisgai rywun arall yn siarad Cymraeg, pryd y symudid ef at hwnnw druan. Ar ddiwedd yr ysgol yr oedd yr hwn fyddai yn ei wisgo i gael gwialenodiad ar draws ei law. Bob dydd byddai'r tocyn, fel pe yn ei bwysau ei hun, o bob cwr o'r ysgol, yn dod am fy ngwddf i. Y mae hyn yn gysur i mi hyd heddyw,—ni cheisiais erioed gael llonydd gan y tocyn trwy ei drosglwyddo i un arall. Ni wyddwn ddim am egwyddor y peth, ond yr oedd fy natur yn gwrthryfela yn erbyn y dull melldigedig hwn o ddinistrio sylfeini cymeriad plentyn. Dysgu plentyn i wylio plentyn llai'n siarad iaith ei fam, er mwyn trosglwyddo'r gosb arno ef! Na, nid aeth y tocyn erioed oddi am fy ngwddf, dioddefais wialenodiad bob dydd fel y doi diwedd yr ysgol.

Erbyn heddyw y mae llawer o'r rhai fu'n cyd-ddysgu a mi,—yn fechgyn ac yn ferched,—wedi marw. Bu rhai farw wedi dioddef a nychu gartref, bu rhai farw mewn gwledydd pell. Plant tyner a charedig oedd y rhain, plant yr oedd cosb un arall yn peri mwy o boen iddynt nag iddo ef. Ac ehedodd llawer o honynt ymaith cyn gwybod am ddim ond diniweidrwydd a chydymdeimlad. Bum yn meddwl lawer tro,—beth pe buaswn wedi tynnu'r tocyn oddi am fy ngwddf, ac wedi ei roddi am wddf un o'r rhain? Bum yn diolch ar fy ngliniau i Dduw lawer adeg ei fod wedi cadw'r chwerwder hwnnw o fy mywyd.

Y mae llawer o'm hen gyd-ysgolheigion yn fyw, ac yn llwyddo. Ond byddaf yn clywed ambell dro am brofedigaeth lem yn cyfarfod ambell un o honynt. A'r adeg honno, medraf ymgysuro wrth feddwl na fum i yn foddion cosbi yr un o honynt erioed am siarad Cymraeg.

Y mae'r bachgen oedd yn is-athraw pan welais i'r ysgol gyntaf yn amaethwr cyfrifol, ac nid ydyw blynyddoedd wedi dwyn ymaith y chwerthin chwareus o'i lygaid. Y mae'r eneth hithau'n wraig amaethwr, a'i meddwl yn ehedeg weithiau oddiwrth ei miloedd defaid sy'n pori ar y Berwyn, yn ehedeg yn ol i hen ysgol y Llan.

Nis gwn ym mha le mae'r athrawes, ac ni waeth gennyf. Nid oes gennyf ond adgof gwan am dani, ni feiddiais edrych arni erioed ond yn llechwraidd. Y mae'n debyg iddi adael ein gwlad fynyddig ni ar y cyfle cyntaf, a symud i ryw ysgol fechan mewn pentref Seisnig. Ni fynnwn wneyd anghyfiawnder â'i chymeriad. Efallai, pe yr adwaenaswn hi yn ei thy, wedi oriau'r ysgol, ei bod yn wraig dyner-galon, ac yn pryderu llawer am danom. Hwyrach mai ar ei chredo yr oedd y bai, ac nid arni hi. Yn ol credo llawer athraw yr adeg honno, ei brif waith oedd dysgu Saesneg i'r plant. A'r ffordd oreu, fe dybid, i gyrraedd yr amcan hwnnw, oedd ymwadu â'r Gymraeg yn gyfan-gwbl, a rhwystro plant siarad dim ond yr ychydig Saesneg fedrent gofio o lyfrau neu ymadroddion rhywun cyfarwydd â Saesneg. Tybid yn y wlad nas gallai ysgol-feistr siarad Cymraeg, tybid mai sarhad arno oedd tybied hynny. Bum yn meddwl lawer tro wedyn mai dan deimlad cryf o ddyledswydd y rhoddai ysgol-feistri y tocyn am wddf plant. Tybient, hwyrach, fod yn gyfreithlawn iddynt wneyd plentyn yn fradwr, os medrent trwy hynny ddysgu Saesneg iddo. Mor bell ag yr oeddwn i'n mynd, methodd yr oruchwyliaeth. Gwnaeth i mi gashau llyfrau ac ysgol, a chashau gwybodaeth ei hun; gwnaeth i mi anufuddhau i'm rhieni am y tro cyntaf erioed, trwy ymguddio mewn coedwigoedd rhag mynd i'r ysgol; gwnaeth flynyddoedd ddyl-asent fod yn flynyddoedd dedwyddaf fy mywyd,—blynyddoedd agor y meddwl a dangos rhyfeddodau iddo,—gwnaeth y blyn-yddoedd hyn i mi yn chwerwaf rhai.

Hen gyfundrefn felldigedig, diolchaf wrth gofio fod gobaith i mi weled amser y caf ddawnsio ar dy fedd. Nid ar yr ysgol-feistres yr oedd y bai, ond ar y gyfun-drefn. Merthyr oedd hi, fel y finnau. Yr oeddwn yn medru iaith, ond ni chymerwyd honno'n foddion i'm haddysgu. Yr oeddwn i'n siarad un iaith, a'm hathrawes yn siarad iaith arall,—ac ni ddysgais ddim. Oni bai am yr Ysgol Sul Gymraeg, buaswn heddyw yn anllythrennog, yn gorfod dibynnu ar arall am y newyddion am iachawdwriaeth. Bum yn dysgu llawer iaith ar ol hynny, eithr ni fu neb mor ynfyd a cheisio dysgu yr un i mi ond trwy gyfrwng iaith a wyddwn yn barod. Yn Gymraeg y medrir dysgu plentyn o Gymro feddwl, a thrwy'r Gymraeg y medrir dysgu iaith arall iddo. Un boreu yn yr wythnos gawn i o Ysgol Sul, a chwe diwrnod o ysgol Saesneg. Fy mhrofiad yn awr ydyw,—yr wyf yn ddyledus am bob peth i'r Ysgol Sul; i'r ysgol Saesneg, nes y daeth Cymro i'm dysgu yn Gymraeg, nid wyf yn ddyledus am ddim. Ond,—fy stori.

Medrais fynd i dy perthynas i mi i gael tamaid; yr oedd y plant yn rhy brysur i'm hatal, pawb yn llawn eisiau bwyd. Ond pan ddois at y porth tuag un, yr oedd y swn wedi mynd fod bachgen od wedi dod i'r ysgol,—bachgen yn medrn peth enbyd o ystraeon o bob math. Daliwyd fi gan y bechgyn mwyaf, a gosodwyd fi ar ben carreg, a than boen curfa gorfod i mi ddechreu ar f'ystraeon.

BEGAN RHISIAD PARRI.

RYW dair oes dda yn ol,—pob un yn ddeng mlynedd a thriugain,—preswyliai ym Mhenrhiwddolion, yr hwn sydd bentrefyn dinod ar yr hen dramwyfa o Fetws y Coed i Ddolyddelen, ddau hen gymeriad nodedig. Yr oedd un, Harri Hyll, yn nodedig am ei anuwioldeb, a'i arferion tra anghymedrol. Yfai gymaint ag a gaffai, a pha faint bynnag a gaffai, mawr ofidiai na fuasai yn gyfleus, neu yn fforddio, iddo gael chwaneg. Gof oedd Harri, ond o herwydd fod mwy lawer o hynodrwydd yn ei hyllwch nag yn ei ofaniaeth, adnabyddid ef wrth yr enw "Harri Hyll."

Yn cydoesi ag ef, ac yn byw yn y drws agosaf ato, yr oedd Began Rhisiad Parri, fel y gelwid hi, ac fel y mae yn cael ei galw hyd heddyw. Ni fuasai neb yn credu nac yn proffwydo y buasai Penrhiwddolion, rhyw gilfach mewn nantle tu ol i foncyn, a elwir Corin duon,—y buasai yma feithrinfa i "lên, awen, a chân," ond yr oedd Began yn llenores, yn farddones, ac yn gantreg ragorol yn yr oes ddiffrwyth, ddiawen, a di-delyn honno. Bu cyfnod marw hollol ar awen a chân yng Nghymru, wedi diflaniad Edward Morus Perthi Llwydion a Huw Morus Pant y Meibion. Bu agos i hanner can mlynedd o fyw er bwyta, a bwyta er byw. Sain cân a thelyn, ni chlywid yn un man. Syndod byth, yn yr oes farw gelain-gegoer yma y gwnaeth Began ei hymddanghosiad. Cododd wrthi ei hunan, ac wrth ei nerth ei hunan, heb achles na swcwr na chefnogaeth o un math; ond mwy lawer o wgu a bwrw allan o honi gythreuliaid a fu ym mhlith ei theulu a'i chydnabod, yr hyn a alwai Rhisiad ei thad "yn dwrw yr ysbryd aflan." Tyfodd i fyny yn farddones ac yn gantreg ragorol, fel y gwelir aml goeden griafolen yn tyfu ar dop craig, mewn lle anial a diffrwyth, yn bren iraidd ac o faintioli mawr. Nid oes ond rhyw fymryn megis o adgof yn aros am dani ym mhlith y rhai hynaf, a'r rhai hynny wedi eu clywed gan y rhai sydd wedi myned heibio. A oedd yn medru ysgrifennu, nid ydyw yn hysbys; ond y tebygrwydd ydyw ei bod, yn ol yr hanes sydd wedi cyrraedd i lawr hyd yma.

Gallai ganu penillion gyda'r delyn, yn dra rhagorol. Anaml y byddai yn afiwyddiannus mewn cystadleuaeth, yn y Gogledd nac yn y De. Yr oedd un dôn, yn yr hon y rhagorai yn fawr. Yn ol yr hanes, yr oedd yn hollol anorchfygol gyda'r dôn honno, yr hon a elwid "Ffarwel Trw'r Pwll." Nis gwn a oes rhai o gerddorion y dyddiau hyn yn gwybod rhywbeth am y dôn honno; ond dyna, beth bynnag, yr enw wrth yr hwn yr adnabyddid hi. Nid wyf yn sicr pwy a gyfansoddodd y dôn, y mae rhyw adgof gwan gennyf mai tôn o waith Began oedd hi, o'r hyn lleiaf arferai gyfansoddi tonau yn gystal a'u canu. Gallai wneyd telyn a'i chanu, a chludai delyn ar ei chefn yn wastad pan y byddai yn myned i neithiorau, neu i eisteddfodau i weini, yn gystal ag i gystadlu. Ni fyddai neithior nac eisteddfod o bwys yn y De nac yn y Gogledd, na fyddai Began ynddi. Pa foddion a fyddai yn cludo iddi yr hysbysiadau am y neithiorau a'r eisteddfodau fyddai'n cael eu cynnal ym mhellfannau y De yr adeg honno, y mae yn anhawdd gwybod. Lled debyg, fodd bynnag, y mae yn sicr ran hynny, y byddai almanac Thomas Jones y Mwythig yn cyrraedd y gongl bellenig, ei chartref ym Mhenrhiwddolion, yr hwn oedd ar fin y brif dramwyfa o'r Betws i Ddolyddelen. Ar glawr yr almanac, ac ar lu o amlenni cysylltiol yr adeg honno, byddai hysbysiadau afrifed am y neithiorau, yr eisteddfodau, y nosweithiau llawen, y gwylmabsantau, a'r afrifed gynhulliadau ereill a fyddai i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ddilynol; a dyma lle y byddai Began yn canfod yr hysbysiad a fyddai yn ei denu i'w mynychu, ac i ymgystadlu ar ganu penillion gyda'r delyn, a difyrru y cynhulliadau ym mhob dull a modd.

Aml y byddai yn mwynhau ei hun trwy gael difyrrwch gyda Harri Hyll, gyda'r hwn y byddai yn dychwelyd adref o'r gwylmabsantau. Ystyrrid Harri yn of tra chywrain, ac am law weithio bachau crochan, nid oedd un a allai gystadlu ag ef yn yr holl wlad. Ryw noswaith, yr oedd Began yn dychwelyd adref o Ddolyddelen, lle yr oedd wedi bod yn difyrru y cwmni, noswaith yr ail ar hugain o Awst, yng ngwylmabsant Gwyddelan. Aeth yn hwyr, yn wir rhedodd yn foreu, fel arfer, cyn i'r cwmni ymadael a'u gilydd; ac yn gwmni gyda hi i ddychwelyd adref yr oedd Harri, yr hwn oedd yn dychwelyd yn ol, ar ol bod yn yr ardal yn danfon pâr o fachau crochan. Wedi cael y tâl aeth Harri'n syth i'r dafarn, a gwariodd yr oll am gwrw. Yr oedd mor feddw fel nad allai gerdded ond yn lled honco. Pan yn ymlwybro ymlaen yn drwsgl tros ben Corin duon, gwyddai fod llidiard ar adwy heb fod nepell; ac i amddiffyn ei hun, fel na fyddai i'w wyneb ddyfod i wrthdarawiad, estynnai ei freichiau o'i flaen, ond yn anffodus, aeth ei ddwy fraich rhwng y ffyn, fel y daeth ei drwyn i wrthdarawiad a'r llidiard. Daeth bloedd allan,—

"Rarglwydd fo'n gwarchod, dyma r tro cynta i mi wbod fod y nhrwun i yn hwy na mreichia' i." Cwynai yn fawr ar hyd y ffordd bob amser, pan fyddai wedi yfed ac yfed, na fuasai wedi yfed chwaneg; a gofidiai yn alarus na fuasai yn fforddio iddo yfed a pheidio gwneyd dim arall yn ei fywyd. Gwnaeth Began gerdd iddo, ac mae un pennill o honno ar gael. Mae y gweddill ar goll bob un,—

> "Harri Hyll o Benrhiw-ddolion,
> Lyncodd bâr o fachau crochon;
> Fasa 'difar ganddo ganwaith,
> Na fasa'n llyncu dau ar unwaith."

Rywbryd tua therfyn yr ail ganrif ar bymtheg, hysbysid ar glawr almanac Thomas Jones y Mwythig, y byddai eisteddfod, neu fath o gynhulliad y beirdd i gael ei gynnal yn Aber Dâr, yn Alban Hefin, a fod pob un a ragorai mewn "llên, awen, a chân, o ddwyfol ymdrech, i dderbyn gwobr"; ac ymhlith yr amrywiol destynau yr hysbysid y byddai cystadlu arnynt, mynegid y byddai cystadlu mewn dadganu penillion gyda'r delyn, y dôn i gael ei nodi ar y pryd. Yr oedd Aber Dâr yn lled bell, ond nid yn rhy bell i Fegan, o anianawd ac ynni angerddol, hwylio yno ar ei dau droed, a'i thelyn wen yn llawn o dannau ar ei chefn. Ni feddai ddimai yn ei llogell, ac heblaw hynny, yr oedd clera wedi myned allan o arferiad. Er fod Began yn ddisgybles drwyddedawg, yn ol braint a defawd Beirdd Ynys Pryden, nid allai hi na neb arall o'r urdd gleraidd ennill bywoliaeth, ond un lled wael wrth glera. Yr oedd hwn yn gyfnod marw. Nid allai neb ganu ond ar ei fwyd ei hun. Nid oedd ond ychydig foneddigion tiriawg, erbyn hyn, yn cadw beirdd teuluaidd, na nemawr o honynt yn barod i estyn cefnogaeth na llety noswaith i lenor, bardd, na thelynor. Er mor alluog, fel telynores, i ennill sylw a chefnogaeth oedd Began, pa le bynnag yr elai, teimlai lawer o anhawsder i weithio ei ffordd yn llwyddiannus yn y fath fodd fel na byddai yn cael ei chyfarfod a'i hamgylchu â llu o ofidiau. Byddai yn gorfod myned lawer o'i ffordd er boddio ac ennill iddi ei hun gynhaliaeth yn ystod ei hymdaith delynegol. Rhyw geisio byw er boddio y byddai hi fel yr oll o'r hil, yr adeg yma, y rhai nad oedd yn dra lluosog am nad oedd galw am danynt, nac am eu gwasanaeth. Dynes fawr gyhyrol oedd, pladres o ddynes, heb fod yn gnawdol, ond yn meddu nerth gewynol anghyffredin. Gallai, nid yn unig farddoni a chanu telyn, ond medrai weu a gardio, a nyddu y droell bach, a nyddu y droell fawr hefyd. Ni byddai hithau chwaith, er mai ei hoff waith oedd canu telyn a chyfansoddi pill, yn cymell canu telyn na phill lle na byddai galw am hynny. Byddai ei dwylaw bob amser yn gweini, ac yn gwasanaethu i'w chyfreidiau. Ni phwysai ar neb. Pan yn brin o arian i dalu am ei hymborth, byddai yn canu telyn neu roi pill, neu'n gwneyd rhyw orchwyl y byddai galw am dano yn gyfnewid. Un tro bu raid iddi osod ei hun i orwedd dan dwmpath o gelyn, gyda'r delyn wrth ei hochr, a thra y canai robin goch ac ereill o'r adar eu mwyn-gainc ar frigau y coed ar doriad y wawr, fel i glodfori yr Iôn, chwareuai Began ei hoff dôn ar y delyn,—"Ffarwel trw'r Pwll,"—yn llawn o naws ysbryd diolchgar am iddi allu cysgu hun felus, ac i'r Anweledig wylio ei gwely, a'i harbed rhag niwed. Ar ol teithio a theithio, ambell dro yn siriol a llawen, a phryd arall yn hwyr-drwm a blinderus, wedi troedio trwy aml bwll, a chroesi aml ffos a ceunant a charreg lithrig, gwlychu ei thraed, a chael aml godwm a derbyn mwy o wg nag o wên, cyrhaeddodd Aber Dâr, rai cyddiau cyn yr wyl, yr hon oedd i gael ei chynnal yn neuadd palas Aberaman, perthynol i deulu henafol ac urddasol y Matthewsiaid. Dygid yr wyl ym mlaen dan nawdd ac ar draul Elin Matthews, yn neuadd ei phalas ei hun, fel y sylwyd, yn Aberaman. Gwneid y rhialtwch hwn i anrhydeddu dydd a blwyddyn ei dyfodiad i'w hoed. Yr oedd pob un o'r urdd,—"llên, awen, a chân,"—i gael ei wala o bob math o ddanteithion yn ystod dyddiau y wledd, ac ychydig arian i'r daith yn ol. Pryderai Began yn fawr, ac arswydai wrth feddwl am yr adeg y byddai yn cael ei galw ym mlaen i ganu penillion gyda'r delyn. Awyddai yn fawr am y wobr; ond ofnai na lwyddai i'w hennill. Yr oedd Ifan Delynor Dall yn adnabod Megan yn dda, a gwyddai am ei gallu a'i medr i ganu y dôn "Ffarwel trw'r Pwll." Yr oedd amodau y gystadleuaeth yn rhoi hawl i Ifan ddethol ei dôn ei hun, a pha un bynnag a fyddai iddo ef ddethol fyddai yr un i bob un gystadlu arni. Began yn ffodus oedd y gyntaf o'r rhestr i gael ei galw ym mlaen. Mor fuan ag y daeth ym mlaen, erfyniai gael dweyd gair cyn i'r telynor daraw y dôn, fel math o esgusawd dros ei hanallu i ganu yn dda ac effeithiol. Pa fodd y gellid disgwyl i un wedi dyfod o Nant Conwy, o bellfannau y Gogledd, trwy lawer pwll lleidiog, tros lawer afon a ffos a nant a charreg lithrig, ganu'n dda. Pa fodd y medrai ganu wrth gofio y byddai raid iddi fyned trwy yr un anhawsderau, os byth y byddai iddi lwyddo i gyrraedd pen y daith yn ol. Gyda dagrau ar ei gruddiau, dadganai y byddai raid iddi ffarwelio â phob un a myned yn ol eilwaith trwy'r pyllau blin. Tarawodd Ifan Delynor Dall ei hoff dôn,—"Ffarwel Trw'r

Pwll." Dechreuodd chwarëu, a chanodd Began i'w ganlyn, yn y fath fodd nes yr oedd pob un a wrandawai, heb eithrio Elin Matthews, yn wylo yn hidl. Er i naw neu ddeg ereill ganu, ni ddaeth un yn agos i bennod Began. Gwnaeth y fath orchestwaith fel y cafodd, nid yn unig y wobr, ond codaid dda yn chwanegol o arian gan y foneddiges. Aeth hithau adref yn ol, fel y lleill, ar ol darfod y wledd. Pan wedi blino ar ei thaith, eisteddai i lawr, a chanai ei hoff dôn, yr hon bob amser a'i dadflinai. "Brwnt ydyw colli," ebai yr hen bobl, ond pa mor frwnt bynnag a fu colli yma, ni fu hynny yn achos llawer o rwgnach. Chafodd un o'r hil gerdd fyned ymaith yn waglaw. Bu Elin yn hael ac yn helaeth yn ei rhoddion i bob un, a bu cystal ym mhob amgylchiad â darparu dogn i bob un i fyned i ben ei daith yn gysurus. Nid peth bychan oedd hynny i hil mor ddidoraeth ag ydyw y prydyddion a'r telynorion.

Yr oedd hen wr hen yn trigo yn gyfagos i Fegan, mewn tyddyn a elwir ar lafar gwlad yn Fodlas. Arferai yr hen wr bob amser wneyd clocsiau. Anaml y ceid ei gystal am bâr o glocsiau trefnus a theidi; a byddai y bobl yn ei alw "Huw Glocsiwr Teidi." Un fedrus am gerdd oedd Began, os oedd Huw yn fedrus am glocsiau. Yr oedd llanc ieuanc o'r enw "Wil Fynheddig," yn ei hymyl, eisiau par o glocsiau; ac ar ei gais, fe wnaeth Began gerdd,—o'r hon nid wyf yn gallu cofnodi ond y dernyn a ganlyn, a hynny yn lled amherffaith, yr wyf yn ofni.

Dolyddelen.

CERDD Y GLOCSEN.

Wrth glywed eich canmol wrëol* erioed,
Am glocsen bur daclus, yn drefnus am droed;
Hyn wnaeth i mi 'rwan oer gwynfan, ar gais,
Am bar o glocs newyddion,
A gwadnau o goed gwydnion yn llyfnion o'ch llaw;
Ni fynnai na gwernen, na bedwen, bren baw,
Rhaid i mi gael derwen, mae'n dirion i'r daith,
A rheini rhwng dwylath a theirllath o dew;
Mae crwyn dau o geffylau yn eu cefnau, pe cawn,
Gwisg herpan o'u cwmpas yn waltas siwr iawn,
Yn llawn o stoc hoelion, yn bolion diball,
I guro wrth y cerrig oer deryg a dŵr.
Awn ynddyn' nhw i garu dan ganu tôn gu,
Fe adwaenir fy rhediad yn dyfod at dy,
Mi fydda'n fras-gamwr y nos
Mi gerdda bob ceunant a phennant a ffos."

* Gwraawl. *Tending to make manly.* Gair lleol a gwlad ydyw yr uchod am un cywrain,—un a *dyn* ynddo.

ELLIS O'R NANT.

NOS-GAN.

Gwylia drosom, Geidwad cu!
Pan y cwyd cymylau'n llu,
Pan y ffoa'r heulwen dlos,
Doed i wenu ser y nos!
Hun o hedd dan wên y nen
Gawn nes cwyd y wawr ei phen,
Cilio draw
A wna pob braw,
Pan y llechwn yn dy law.

Gwylia drosom, Geidwad cu!
Pan yng nghaddug Angau du,
Pan y sudda haul ein dydd,
Doed i wenu seren ffydd!
Huno wnawn ym mhridd y glyn
Nes y gwawria boreu gwyn,
Man o hedd
A fydd y bedd,
Wedi golwg ar dy wedd.

Gwylio drosom, Geidwad cun!
Pan ddeffrown o'r farwol hun,
Pan y delo seiniau mawl,
Doed i wenu nefol wawl!
Mwyn fydd mynd i'r Wlad o Hedd,
Mado byth a bro y bedd,
Uno 'ng nghân
Y dyrfa lân,
Moli Ion yn ddiwahan!

Aber Ystwyth. R. BRYAN.

TEITHWYR TRWY GYMRU.

V. G. J. BENNET, Esquire.

YM Mehefin 1837 gallesid gweled dau deithiwr yn croesi'r afon Ceiriog o Loegr i Gymru, ac yn cerdded yng nghyfeiriad Castell y Waen, ar hyd y ffordd sy'n arwain o Groesoswallt i Lan Gollen. Yr oedd un o honynt, gellid meddwl, rhwng hanner cant a thriugain oed, gyda ffon braff yn ei law, yn gwisgo côt ffustian a chlos pen glin a saneu bach, ac yn cario *knapsack* pur fawr ar ei gefn. Gydag ef yr oedd cydymaith iau ac eiddilach, Llundeiniwr, mewn dillad mwy ffasiynol ac yn cario pecyn llai,—chwareuwr wrth ei alwedigaeth, un yn meddwl treulio mis o wyliau trwy deithio yng Nghymru.

Wedi taith lawn o fwynhad, cyrhaeddasant Gastell y Waen,—castell ar ben un o'r bryniau sy'n ymgyrraedd allan o'r Berwyn,—castell o gerrig anferth, a'r eiddew'n ymgripio hyd ei furiau llwydion; castell a phump o dyrau'n codi o'i furiau, un o bob cornel, ac un i wylio'r fynedfa iddo. Synnodd y ddau ymwelydd, wedi mynd i mewn, at eangdra'r cyntedd, ac at brydferthwch yr ystafelloedd sy'n edrych allan iddo. Gwelsant yr ystafell ddarluniau hefyd, a'r ddaeargell. Nid ydyw'r hanes a roddir am y castell yn glir iawn, ond dywedir mai efe ydyw cartref y Syr Thomas Middleton arweiniodd Gymry'r Gogledd i ryfela dros y brenin yn y Rhyfel Mawr, ac adroddir mai barwn Normanaidd a'i cododd i ymguddio ynddo wedi lladd tywysog Cymreig ieuanc roddasid yn ei ofal, tywysog oedd yn aer y tir y saif Castell y Waen arno.

Hanes anghyfiawnder a chreulondeb ydyw hanes cestyll Cymru; ond yr wyf wedi maddeu iddynt wrth eu gweld yn adfeilion, ac ar lawr. Gwelodd y ddau deithiwr fod yr eiddew yn prydferthu'r hen gastell, ac yn ceisio tyneru ei wg,—fel y mae henaint yn prydferthu ac yn tyneru gŵr nwydwyllt, creulon, hunanol.

Gelwir un rhan o'r parc yn "Barc Du," a phan ddaethant iddo, dywedodd yr hen deithiwr ystori wrth yr ieuanc am yr yspotyn hwnnw. Ryw dro daeth hen wraig o fynyddoedd Derbyshire i ardal Castell y Waen i fyw. Ni wyddid dim o'i hanes ond y byddai'n dod i'r parc weithiau, ac yn chware â chyrn un o'r ceirw prydferthaf oedd yno. Rhybuddiwyd hi gan un o'r ceidwaid o'r enw Owen, gŵr ieuanc ar fin priodi geneth o'r dyffryn o'r enw Mair. Y noswaith cyn y briodas, pan oedd Owen yn mynd adref drwy'r nos dywell, dychrynnodd wrth weled hen wrach erchyll, a'i llygaid yn gwreichioni tân, yn eistedd ar hen geubren ysgawen. Rhedodd mewn dychryn at ffenestr yr hen wraig, a gwelai honno uwchben crochon, yn ei droi'n araf â choes ei hysgub, a chysgodion y fflamau'n chware ar ei gwyneb. Teimlodd Owen mai dewines oedd, a rhedodd adref am ei fywyd.

Drannoeth oedd dydd y briodas, ac yr oedd Mair yn brydferth iawn dan ei choron o flodau'r grug gwynion. Ond, rywbryd yn ystod y dydd, collwyd hi; ac aeth pawb i chwilio am dani. Gwelodd Owen hi, o'r diwedd, yn rhedeg am ei bywyd o flaen y carw. Taflodd ei got am gyrn hwn, a rhedasant tua bwthyn yr hen wraig am nodded. Buan y dilynodd y carw hwynt, ac wedi ymdrech galed, aeth ei gyrn trwy galon Owen. Daeth y gwesteion yno, a lladdwyd y carw. Erbyn cyrraedd bwthyn yr hen ddewines, yr oedd clo ar ei drws, ac yr oedd hithau wedi marw ar lawr ei thy. Bu Mair hefyd farw o dor-calon; ac am flynyddoedd lawer, bu ei chymdeithion yn addurno ei bedd â blodau prydferthaf y flwyddyn. Ond erbyn hyn y maent i gyd wedi marw, ac nid oes flodeuyn ar y bedd.

Tan ddweyd ystraeon fel hyn cerddasant i fyny dyffryn prydferth Llan Gollen, gan sylwi ar yr odynau calch uwch ben, ac ar y gwibed dŵr oedd yn chware wrth ben y canal ar y noson haf hyfryd. Gorffwysasant yn yr Hand Inn wedi cyrraedd Llan Gollen, a chlywent furmur y Ddyfrdwy o'u gwelyau.

Bore drannoeth, pan agorasant eu ffenestri, daeth awel lwythog gan berarogl rhosynau i mewn. Codasant, ac wedi rhoi tro trwy erddi'r Plas Newydd, ceisiasant glywed rhai o'r alawon Cymreig byd-enwog. Ond ni fedrent gael ond alawon Llundeinig yr oeddynt wedi hen flino arnynt, a gwelsant fod yn rhaid iddynt ddychwelyd i Lunden cyn y medrent glywed alawon Cymreig. Yr un yw profiad llawer Sais ddaw i Eisteddfod yn y dyddiau hyn; daw i glywed miwsig Cymru, a chlyw, ond odid, Father O'Flynn.

Buont yn dringo bryniau Llan Gollen, ac yn gwrando ar ystraeon tylwyth teg,—hanes y bugail gyfarfyddodd hen wr bach ar y mynydd, a chot o ddail bedw, gwasgod o flodau'r grug, a throwsus o fwswgl, gyda ffidil dan ei fraich. Dringasant i Gastell Dinas Brân hefyd, a dywedwyd hanes Myfanwy Fychan a Hywel ab Einion Llygliw wrthynt.

O Lan Gollen teithiodd Bennet ei hun, heibio Valle Crucis i Lyn Dyfrdwy a Chorwen.

Daeth i dywallt y gwlaw arnc ef a rhyw chwibanwr ar y ffordd, a than sachau'r wagen fawr y cyrhaeddodd gŵr y chwibanogl Gorwen. Yr oedd Bennett wedi gwlychu at ei groen, a bu'n ysbio Corwen yn nillad helaeth gŵr y Welsh Harp, cyn ymlonni uwchben brithylliaid, a hwyaden, a phys gleision. Yng Nghorwen gwelodd yr eneth dlysaf welodd erioed, yn mwmian canu "Llwyn Onn;" a chanai yntau'r un alaw wrth gerdded tua'r Bala y prydnawn hwnnw.

Erbyn cyrraedd y Bala, yr oedd wedi hanner ysigo ei droed, ac oni bai am ferlyn gŵr y Bull ni fuasai wedi gweled fawr ar y dref a'r llyn. Rhydd gymeriad da i'r Bala, eithr aflonyddwyd ar ei heddwch un noson gan gyfeddach yr ustusiaid heddwch, uwchben eu gwin yn y Bull's Head. Aeth ar ei ferlyn i edrych am yr hen Brice y Rhiwlas hefyd,—hen wr wnaeth lawer dros ei denantiaid, hen wr wnaeth waith amgenach na gwasgu'r geiniog eithaf o honynt.

SENEDD-DY OWEN GLYN DWR, DOLGELLAU.

Bu ef a theithiwr arall ar ben cerbyd cloncio yn teithio hyd ochr y Llyn, dros y Garneddwen, ac i lawr at droed Cader Idris. Yn Nolgellau cafodd chwareudy, a gwasanaeth Saesneg yn yr Eglwys, a golygfeydd canmoladwy. Aeth yn ei flaen oddiyno, ar ben y *goach* fawr, i'r Abermaw; a threuliodd ran o'r nos i gerdded hyd y traeth, gan feddwl a breuddwydio. O'r Abermaw aeth i Gors y Gedol; nid oedd yn gweled fawr o brydferthwch yn y golygfeydd, ac ni welodd yn y palas ond ychydig o ddarluniau gwael a chadeiriau cefn-uchel. Bu mewn pic-nic yng Nghwm Llyn Bychan hefyd, ac edrydd hanes am un o'r milwyr fu'n gwarchae ar gastell Harlech,—hanes sy'n debyg iawn i *Hudibras* Samuel Butler.

Arhosodd noson yn Harlech, yn y Blue Lion, ac yr oedd wedi ei swyno gan y golygfeydd ar fôr a mynydd a welai oddiar furiau'r Castell. Wrth deithio tua Maentwrog, tybiai ei fod wedi gweled y lle prydferthaf welai byth. Yn Nhan y Bwlch aeth allan i bysgota, a daeth yn ol a chadach coch am ei droed, wedi colli ei esgid. Cerddodd i Dremadog, ac oddiyno i Feddgelert, ac o Fedd Gelert dros y Wyddfa i Lanberis. Dywed lawer o draddodiadau'r Wyddfa, ond y mae'n newid gormod arnynt, ac yn colli prydferthwch eu symlrwydd trwy ysgrifennu desgrifiadau hirion ysgolheigaidd. Fel yr adroddir hwy gan fugail y dylid ysgrifennu'r traddodiadau hyn. Ond pa fodd y gellid disgwyl i Sais ddeall bugeiliaid Eryri? Wedi gadael Llanberis bu Bennet yn crwydro wrth ei fodd yng Nghapel Curig a Betws y Coed. Ar ei ffordd i Lanrwst tybiodd hen wraig mai pedler oedd, a cheisiodd ganddo gyfnewid rhywbeth o'i bac am haner dwsin o lwyau arian. Bu yng Ngwydir, gwelodd feddfaen gwag Llywelyn Fawr, ebai ef, a llawer o fân betheuach yn perthyn i rai diweddarach. Cafodd dipyn o ddifyrrwch hefyd wrth weled ymgais rhyw gwmni yn Llanrwst i godi chwareudy. O Lanrwst aeth i Gonwy; cafodd hanes y castell mewn rhywlyfrneu gilydd, a dywed ef gyda hwyl. O Landudno trodd yn ol, dros Benmen Mawr, i Fangor; ac ymae yn frwdfrydig wrth ganmol y Penrhyn Arms, lle bu yn lletya. Wedi desgrifio Pont Menai y mae'n rhoddi ei ysgrifbin i lawr, ac yn gwahodd pob Llundeiniwr i iechyd a dedwyddwch y mynyddoedd.

Ni fedrai Mr. Bennet air o Gymraeg, ac aeth drwy rannau o Gymru heb weled dim ond ei golygfeydd, ambell wr ty tafarn, ac ambell wr bonheddig. Er hynny, cymer ddyddordeb yn hanes y wlad,—hynny wyddai o hono,—ac y mae wedi croniclo llawer o draddodiadau ac alawon. Ond nid oes manylion yn ei ddarlun; nid oedd ganddo ddigon o amynedd a diwydrwydd i wneyd llyfr gwerthfawr. Er hynny y mae ei lyfr yn ddifyr; ac nid ydyw'n teimlo, fel rhai, fod Cymru a'r Cymry wedi eu gwneyd iddynt hwy chwerthin am eu pen.

DAFYDD NANMOR.

Bardd Prydferthwch y Gwyneb.

I. GWALLT LLIO.

Llio eurwallt lliw arian,
Llewyrch mellt ar y lluwch mân;
Mae ar ei phen seren serch,
Lliw rhuddaur Llio Rhydderch.
Ni bu ar wddf, yn bêr iach,
Afal Anna felynach;
Mewn moled mân a melyn,
Mae'n un lliw a'r maen yn Llŷn.

Ar iad Llio rhoed llyweth,
A'r noblau aur yn y bleth;
Gwnewch ar bleth ganpleth i'w gwau,
Tair brwynen tua'r bronnau;
Ac na fynned gwen fanwallt,
Gribau gwŷdd i gribo'i gwallt;
Dyger i Wen, er deg rôd,
Grib o esgyrn geirw bysgod;
Mae ar ei phen, mor hoff yw,
Mawr fânwallt Mair o Fynyw;
Mae yr un wallt, am war hon,
Ar fronnau'r môr-forwynion;
Mihangel oedd wallt felyn,
Ac un wallt ag e yw 'nyn;
Un lliw ydyw'r fantell hon
A chawgiau y marchogion;
Mal efydd—mil a ofyn,—
Ai mellt nef am wallt 'y nyn,
Ai plisg y gneuen wisgi,
Ai dellt aur, yw dy wallt ti?
Llwyn neu ddau i'r llan a ddoeth,
Llwyn banadl, Llio'n bennoeth,
Ai llen-gel yw llwyn eurgwallt?
Ai main gwrel mewn gorallt?
Dwy did a wisgid wasgawdl,
Da osodiad hyd ei sawdl;
Y mae dwy did o sidan,
Am Lio'n glog melyn glân;
Y mae'n debyg mewn deubeth
I flaen fflam felen ei phleth;
Llwyn pen lle caid llunio parch,
Lliw paderau 'r padrieirch;
Ar iad bun erioed y bu
O wisg iarlles is gorllu,
Neu ail cyrs, neu wiail caits,
Fal aur neu afal oraits;
Mawr y twf, mae ar iad hon
Mil o weinwydd melynion;
Un lliw ei gwallt, yn lle gwir,
A chwyr aberth, o chribir;
Mae'r gwallt mwya ar a gaid,
Am ei gwar fal mŵg euraid;
Ni ad Duw gwyn, mewn tw' gwallt,
Farw Llio frialleuwallt.

II. MARWNAD RHYS AB TUDUR O FON.

Tebyg yw Gwynedd, meddir,
Trwy naws gwyllt, truan os gwir;
A chrwth a chloch, dwy och dyn,
O thal bunnoedd, a thelyn;
Y crwth lle bu'r mesur cryf,
Carodd osod cerdd Iosyf;
Garwa fydd ai dydd ai dau,
Ei dyniad heb ei dannau;
Y delyn o'r aur deulu
Ddydd a nos fal rhos fu;
Heb ddwylo gwŷr addo gwedd,
Heb fiwsig cerdd, heb fysedd;
Arnodd-waith ar ei naddwydd,
An-riddan yn f' amcan fydd.

Pob cloch blygain, damwain dig,
O glos y gwyr eglwysig,
O thyr heb nidr ei thid—raff
A'i thafawd prophwydwawd praff,—
Dŷn ni châr ariar oror,
Ei chân rhwng letring a chôr;
Felly mawl a ddyly medd,
Am y gwin y mae Gwynedd;
Heb gun Mon, heb gân mynych,
Heb glaim Eglwys Duw, heb glych;
Heb law, Dduw Naf, heb dafawd,
Heb gerdd dant, heb ffyniant ffawd;
Heb wledd, heb gyfaneddrwydd,
Heb Rys Ior hael heb ras rhwydd;
Heb oleu-bryd, heb loywbrim,
Heb ddawn, heb urddas, heb ddim
Heb ddiwid mwy Mordwy mawr,
I Risiart eryr aesawr.

Bryd naid biler euraid bâr,
Frenin gwnaeth Eingl franar;
A chwpl du ymlaen lluoedd,
A maes o rôs amser oedd;
Targed Fadog a Mredydd,
Yn y lliw gwyrdd llew a gudd;
A llew gwâr yn ei darian,
A gown du ag ewin dân;
Bu darian rhag ymwan gŵr,
Baentiedig uwch ben Tewdwr,
Ai lew yn dwyn hoelion dur,
Ar fysedd arfau asur;
Arwydded ŵyr Feredydd,
Llew o'r aur mewn lliw o rudd;
Cynan Dywysog Gwynedd,
A'i arfau oll ar ei fedd;
A llun y tri llew o wyn,
Yn sengi yn y sangwyn;
Ar faner rhodder y rhain,
Y llewod i Ieirll Owain;
Os y tad a esyd dydd,
I roi 'i faner i fynydd;
Dichyn gael hyd ym Maelawr,
Dragain mil, darogan mawr;
Can hâf o nesaf in ni,
Can gwanwyn cyn eu geni,—
Y bu son gan ddynion gynt,
Y mae'n ôl am a wnelynt;
Draig felen ar fyr ennyd,
A draig wen a dery gŷd;
O gafaeliar ddraig felen
A ddyry gwymp i'r ddraig wen;
Ban aeth tân bennoeth hyd hyn,
Oll o aelwyd Llywelyn;
O Fon y cad gwreichionen,
O Ffrainc ac Aberffraw wen
Owain a'i blant yn un blaid,
Yw tywynion Brutaniaid;
Iesu i'w gadw yn gadr,
I gadw aelwyd Cadwaladr.

Y PRIFATHRAW LEWIS.

BUM mlynedd yn ol, aeth ef a'r Parch. R. L. Thomas o'r Boro, ar ymweliad â Madeira. Pan yn ysgrifennu hanes yr ymweliad hwnnw dywed Mr. Lewis fel hyn,—"Yn ei beswch yr oedd Mr. Thomas yn dra thebyg i'r Gohebydd, ond y tebycaf welsom iddo erioed oedd ein hen gyfaill anwyl, y diweddar W. Mortimer Lewis, Athraw Coleg Pontypŵl. Bu Mr Mortimer Lewis a'r Gohebydd yn cydfyw mewn *villa* yn neheubarth Ffrainc am un gauaf, os nad am ddau, ond er ffoi rhag y gelyn o awyr laith Pontypŵl, cyfarfu y blaenaf ag ef ryw ddydd yn llewyrch heulwen awyrgylch dyner Mentone. Bu farw mewn gwlad estronol, fel y bu Mr. Thomas ym Madeira."

Y mae ysgrifenyddd y llinellau uchod bellach yntau wedi cael lle beddrod yng ngwlad yr estron. Fel yr oedd yr *Orient* yn cyrchu at Borth Said yn yr Aifft, yr oedd ei ysbryd yntau yn cyrchu at y porthladd a ddymunai yn y Ganan nefol, ac yn cael mynediad helaeth. Gwelaf ddwy osgordd: un mewn distawrwydd yn hebrwng ei weddillion o'r llong i'r fynwent dywodlyd, a'r llall yn ei groesawu â llef buddugoliaeth i'w gartref yn y nef. Yn ei funudau olaf sibrydai wrth ei briod,—"Y mae Duw gyda ni." Ychydig oriau yn ddiweddarach, yr oeddwn innau yn ceisio pregethu oddiar y geiriau,—"Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyda mi." "Flwyddyn i heddyw," meddwn, "yr oedd yn eich annerch o'r fan hon ŵr sydd erbyn heddyw wedi myned *drwy* lyn cysgod angau. Nis gwn beth oedd ei eiriau olaf, ond, a barnu oddiwrth ysbryd ei fywyd, nid oes un amheuaeth yn fy meddwl nad profiad y Salmydd oedd ei brofiad yntau. Yr oedd yr ymdeimlad o Dduw yn troi cysgod angau iddo ef yn fore ddydd. Dyma oedd nerth ei fywyd, a chredaf mai dyma ei gysur yn angau. Yn angau cafodd gastell yn y Duw a fu'n gartref iddo drwy'i oes."



Y PARCH. THOMAS LEWIS, B.A.
(O photograph gan J. Wickens, Bangor).

Pan dderbyniais y newydd am ei farwolaeth, teimlwn fod llewyrch boreu gwyn o Chwefror yn cilio, a'r byd gryn raddau yn dywyllach ac oerach, canys bu i mi yn athraw ffyddlawn, yn gyfaill cywir, ac yn gydymaith tirion. Er nad fy amcan yw ysgrifennu cofiant iddo, gellir nodi yn fyr ei brif symudiadau, fel hyn.

Ganwyd ef mewn tyddyn o'r enw Fron Fedw, gerllaw Dihewyd, yng Ngheredigion, ac yn yr ardal lonydd honno y treuliodd fore'i oes. Gwladwr syml, gonest oedd ei dad, a gwraig ragorol oedd ei fam, enwog am ei synwyr cyffredin cryf, a'i hysbryd defosiynol. Arferent addoli yng nghapel Cilcenin, ac yno gyda hwy yr âi yntau. Diau i'r traddodiadau am Sasiynau Llangeitho ac ysgol Neuadd Lwyd effeithio yn ddwys ar lanc o'i dueddfryd crefyddol ef, a rhoddi cyfeiriad i'w fywyd.

Drwy hunanymwadiad ei rieni, am yr hwn y soniodd lawer yn dyner a diolchgar, cafodd fanteision addysg yn ysgol ramadegol Ystrad Meurig, yr hyn a ystyrrid yn rhywbeth cryn fawr y pryd hwnnw. Gwnaeth gynnydd cyflym yno, a phriodolai ei fedr yn yr ieithoedd clasurol i'r ddisgyblaeth gynnar honno. Yng Nghrug y Bar y dechreuodd bregethu, ac wedi treulio pedair blynedd yn Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin, agorodd ysgol ramadegol yn y dref honno. Yn y cyfnod hwn amharodd ei iechyd drwy weithio'n rhy galed, a dioddefodd am ei oes oddiwrth hyn. Yn fuan wedyn, cymerodd gwrs ychwanegol o addysg yng Ngholeg Anibynnol Manceinion. Cyr-

haeddodd safle anrhydeddus yno, ac yn fuan enillodd radd B.A. o'r dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Llunden. Ar derfyn ei yrfa yno, cychwynnodd ysgol ramadegol yng Nghaer Dydd, yr hon a fu yn hynod lwyddiannus. Yn 1874, dechreuodd ar ei wasanaeth fel athraw yng Ngholeg Anibynnol y Bala; bum mlynedd yn ddiweddarach, apwyntiwyd ef yn Brifathraw o dan y "Cyfansoddiad Newydd." Yn 1886, symudwyd y coleg i Fangor, modd y gallai yr efrydwyr fwynhau manteision Coleg y Brifysgol. Dyma'r anturiaeth gyntaf o'r fath yng Nghymru. Cymerai ddyddordeb angerddol yn y symudiad, ac ymdaflodd i'w waith gydag ynni adnewyddol. Ond nid oedd ei iechyd yn gryf, profodd y pryderon yr aethai drwyddynt yn ormod iddo, ac yn sydyn torrodd i lawr. Talodd ymweliad â Madeira, a chafodd brydles newydd ar ei oes yn hinsawdd dyner, falmaidd, gwlad gwin a chân. Ni flinai yn adrodd am fwynderau yr "Ynysoedd Dedwydd, tu draw i Golofnau Hercules, lle y gwobrwya y duwiau ysbrydoedd y gwynfydedigion," gwlad y *lotos* a'r teg brydnawn.

Ond er llwyddo i ddianc y tro hwnnw, yr oedd angau a'i lygad arno; y mae yn dilyn yr *Orient* yng nghysgod y don, ac ym min yr hwyr y mae yn anfon saeth ddifeth i'w fynwes. Ond er colli'r dydd, yr oedd yn fwy na choncwerwr. Iddo ef, nid oedd angau ond buddugoliaeth ar wendid a phechod a phoen. I arfer ei eiriau ef ei hun am un arall,—"I'w gorff blinedig y mae priddellau y dyffryn yn felus, ac y mae ei enaid gyda Duw mewn tangnefedd heddychol." Y mae ei dderbyniad llawn o Dduw yma wedi sicrhau iddo dderbyniad helaeth gyda Duw yr ochr draw.

Y mae y golled am dano yn fwy nag a wyddis eto. Yr oedd mor ddiymhongar a dirodres, fel yr oedd yn agored iawn i gael ei gymeryd am lawer llai na'i wir werth. Dywedai yr athraw Reginald Phillips, M.A. wrthyf ei fod wedi ei synnu yn fawr "gan fesur ei wybodaeth, ynghyda chyflymder a grym ei feddwl," a dygodd y Parch. Daniel Rowlands, M.A. dystiolaeth gyffelyb yn y gwasanaeth coffadwriaethol ym Mangor. Yn y byd sydd yr awrhon, hwyrach y buasai o ryw fantais iddo fod wedi dysgu udganu ychydig o'i flaen; ond gofalai efe fwy am ei waith nag am wobr. Drwy ei ledneisrwydd, ei addfwynder, ei gywirdeb, a'i anibyniaeth ar wag-glod, gwnaeth fwy o les na thrwy ei holl ddarlithiau a phregethau. Gallasai y sefydliad wneyd ar athraw llai ei gyrhaeddiadau nag ef; ond yr oedd cael y fath esiampl fyw o ddynoliaeth dda beunydd o flaen eu llygaid o werth amhrisiadwy i ddynion ieuainc yn wynebu ar y weinidogaeth. Ac ni chollwyd hi arnynt; parchent, carent ef yn fawr. Y mae y rhan oreu o'r gynysgaeth a adawodd ar ol yn gynwysedig mewn argraffiadau prydferth, dwysion, anileadwy. Pan anghofir ei ddarlithiau, erys yr adgof hyfryd am ei ysbryd pur, heddychlawn, boneddigaidd, ei sirioldeb diwamal, ei garedigrwydd i'r gwan a'r anffodus, ei gynghorion cyfrinachol, a'i ymlyniad wrth sylweddau mawr, tragywyddol.

Yr oedd yn ddarllennwr mawr, a chanddo dalent i wneyd yr hyn a ddarllennai yn eiddo iddo ei hun, ynghyda dawn i gyfleu cwestiynau dyrus athroniaeth a moeseg mewn dull clir a dyddorol i'w fyfyrwyr. Gochelgar ac ychydig yn geidwadol ydoedd o ran ei ysbryd a'i syniadau; ond tra yn gwerthfawrogi y credoau a'r sefydliadau a gawsom trwy draddodiad y tadau, yr oedd hefyd mewn llawn gydymdeilad ag anhawsderau a dyheadau meddyliol ac ysbrydol y dyddiau hyn. Yr oedd yn efrydydd caled i'r diwedd. Darllennai yr awduron goreu a diweddaraf ar bob cangen o wybodaeth a ddysgai, a pharotoai ei ddarlithiau yn ofalus.

Nid hawdd fydd cael olynydd iddo; un mor gyfarwydd yn nhair iaith y groes, ac mor lawn o'i hysbryd. Cydnabyddid ef yn awdurdod uchel ar gwestiynau diwinyddol. Dewiswyd ef i ddarllen papur o flaen undeb yr Anibynwyr Cymreig ar nodweddau presennol Diwinyddiaeth, yr hyn hefyd a wnaeth. Gwahoddwyd ef i draddodi anerchiad yn y Cynghor Anibynnol Cydgenedlaethol yn Llunden ar Ddiwinyddiaeth yng Nghymru, ond lluddiwyd ef gan afiechyd. Ysgrifennodd gryn lawer i wahanol gyhoeddiadau, yr oedd yn un o olygwyr *Geiriadur* Hughes, ac y mae ei esboniad ar yr Epistol at y Corinthiaid newydd weled goleuni dydd.

Fel siaradwr cyhoeddus, yr oedd ofn dyn yn gryn fagl iddo. Dioddefai ei bregethau yn herwydd hyn. Siaradai yn gyflym a lled undonog, a gallesid meddwl mai ei brif uchelgais oedd gallu mynd i'r pen heb i'r un drychineb alaethus ddigwydd. Ond wedi iddo ddarfod, teimlai gwrandawyr craff yn debyg fel y teimla pobl Gwrecsam pan fydd troliau mefus Holt newydd fynd heibio tua'r stesion,—yr awyr yn llawn arogl hyfryd.

Nid wyf yn gwybod iddo ysgrifennu cymaint â phennill o farddoniaeth erioed, ac eto yr oedd gwrid tyner barddoniaeth ar bob pregeth ac ysgrif a darlith o'i eiddo. Cof gennyf iddo fedyddio geneth fach unwaith, a gweddiodd gân o ryddiaeth ysbrydoledig uwch ei phen pan yn ei chyflwyno dros ei rhieni i'w Chreawdwr mawr. Caniadau oedd ei weddiau gan mwyaf, fel eiddo'r Salmwyr, ac nid oeddynt waeth am hynny. Darn o hen bennill oedd un o weddiau olaf Iesu Grist. Ac odlau oedd y

rhan fwyaf o bregethau y Prifathraw. Dechreuai fel rheol gyda rhyw sylw tarawgar, ac wedi hynny gwyddem beth i'w ddisgwyl.

"*A'r môr nid oedd mwyach.* Morwr gwael yw yr Iuddew."

"*Eloi, Eloi, lama sabacthani.* Dyna'r iaith ddysgodd ei fam i'r Iesu—y Syriaeg, fel y'i gelwir yn gyffredin. Iaith ei fam yw'r oreu gan ddyn pan fo ar wely angau. Y mae'r cenhadwr wedi bod yn pregethu am Geidwad yn iaith y Malagasi, i'w ddysgu i fyw i bwrpas ac i farw'n ddedwydd. Ond pan ddaw ei dro ef i adael yr hen ddaear, odid fawr nad 'Dyma Geidwad i'r colledig,' neu 'Hen Afon yr Iorddonen,' yn iaith hen wlad y bryniau fydd ar ei wefusau y pryd hwnnw."

Hoffai wasanaethu eglwysi gweiniaid, yn enwedig eglwysi bychain yn y wlad, lle byddai canhwyllbrenni pres i'w goleuo yn yr hen ffasiwn. Bu am flynyddau yn "ganon" Llangwyfan hyd nes y dychafwyd ef i "esgob aeth" Llanelwy,—eglwys fechan sydd fel "llin yn mygu" er's cenedlaethau.

Ond ar yr aelwyd y byddai yn ei afiaeth oreu, ac y mae gan lawer Gaius aml i ystori chweg am dano. Yr oedd yn un o'r cymdeithion mwyaf diddan, a'i ymddiddanion mor bur â'r *mother-of-pearl.*

Ni fu erioed ffyddlonach cyfaill; crogodd ei bictiwr lawer gwaith mewn goleu gwael rhag iddo dynnu'r llewyrch o fy mhictiwr i.

Chwith yw meddwl ei fod yn ei fedd. "Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd; cu iawn fuost gennyf fi." Ti gefaist dy ran o flinderau'r byd a'r bywyd hwn, ac a'i dygaist yn dawel. Gorffwys bellach, a gwylied engyl dy ddistaw fedd.

Am amser maith i ddod, pan seinir enwau'r Cymry clodus fuont feirw 'mhell o'u gwlad, nid anghofir enw y Prifathraw Thomas Lewis.

Gwrecsam. M. O. Evans.

LLYFRAU NEWYDDION.

XIII.

Caneuon. Gan R. J. Derfel, awdwr "Rhosyn Meirion," &c. R. J. Derfel, Manchester. 1s Amlen chwaethus. 144 tudalen.

Y mae'r Derfroad yn gwneyd i hen feirdd dynnu eu telynau oddiar yr helyg; dyma lais R. J. Derfel, wedi distawrwydd, mor bell ag a fynno Cymru ag ef, o chwe blynedd a'r hugain. Nid oes rhagymadrodd i'r llyfr; ond, os troir i'r "Cydymddiddan rhwng Fi a Fo" sydd tua'r diwedd, ceir crynhodeb dyddorol o olygiadau'r awdwr, a gair o'i brofiad. Ers llawer blwyddyn bu'n meddwl fel *dyn* yn hytrach nag fel *Cymro;* ond y mae gwanwyn bywyd Cymru newydd wedi ail ddeffro ei odlau.

Y mae dau beth yn taro darllennydd caneuon R. J. Derfel,—cydymdeimlad â Chymru, a chydymdeimlad â'r gweithiwr a'r tylawd. Y mae tarawiadau'r awen Gymreig yn llawer o'i ganiadau, y mae gwawr rhyddiaeth un yn athronyddu llawer am hawliau dyn ar ambell un. Cefais bleser lawer wrth ddarllen y caneuon, gyda'u hawydd am achub cam y tylawd, eu hiraeth am ddyddiau gynt yng Nghymru, eu cri am ail drefnu'r byd, eu gobaith a'u hanobaith,—

"Minnau fel y ddeilen olaf
Syrthiaf, ac ni chodaf mwy."

Ond sain gobaith ydyw sain gyntaf y llyfr hwn,—

"Ac yn Gymraeg fe glywir myrdd,
Yr oesau oll a'u clyw,
Yn dweyd mor groew ag erioed,
Mae Cymru eto'n fyw."

XIV.

Llawlyfr Dirwestol. Gan y Parch. John Lewis, Llangoed a Dr. Roland Williams (Rolant o Fon). E. Jones, Llannerch y Medd. 2s. Llian glàs. 140 tud. Gyda mynegai,—peth pwysig iawn mewn llawlyfr.

Y mae'r gair llawlyfr yn dwyn i feddwl llawer un gof am restrau hirfeithion nas gall neb eu cofio, a iaith dywell oherwydd yr ymdrech i wasgu llawer i ychydig. Nac ofned y neb sydd am brynnu'r llawlyfr yma yr ofnau hyn. Y mae ynddo restrau hylaw,—o ffeithiau meddygol, o resymau dros ddirwest, ac o adnodau,—ond y mae arddull glir yr ysgrifenwyr a'r ffeithiau dyddorol adroddir yn gwneyd y llyfr hwn yn hawdd ei gofio o'i ddechreu i'w ddiwedd. Bydd yn dda gan garedigion dirwest glywed am dano.

XV.

Esboniad ar y Galatiaid. Gan y Parch. Owen Thomas, D.D., Liverpool. 144 tud., llian. 2s. Gwrecsam, Hughes.

Rhan o Feibl Dr. Kitto ydyw hwn, wedi ei argraffu'n ddestlus er mwyn Ysgolion Sul. Gwaith Dr. Owen Thomas, mewn llythyren bur fân, ydyw bron yr oll o'r esboniad.

XVI. Y CYLCHGRONAU.

Gan fy mod yn cyhoeddi'r rhifyn hwn yn brydlon iawn, nid oes ond pedwar o gylchgronau Ebrill wedi cyrraedd. Yn gyntaf rhai daeth *Y Drysorfa* a *Thrysorfa'r Plant* Yn y naill y mae ymdrin â chwestiynau mawr eu pwys i Fethodistiaid,—addysg uwch-raddol a chynhaliaeth y weinidogaeth, yr efrau yn y gwenith, ac ysbryd anghrediniol yr oes. Yn y llall y mae darlun o Fryn Roberts, a bywgraffiadau rhai bychain, ac esboniadau.

Yna daeth cylchgronau'r colegau,—un Aber Ystwyth, gydag erthygl ddifyr ar Herondas a hanes cyfarfod dydd gwyl Dewi; ac un Bangor, yn llawn o erthyglau byrion wedi eu hargraffu'n ddestlus ac yn dda.

Ni fedraf ond enwi cylchgronau Mawrth,—*Y Traethodydd,* y *Diwygiwr,* yr *Haul,* y *Cerddor,* yr *Ymofynydd,* y *Llusern,* a *Cherddor y Cymry* (Llanelli, D. Williams).

EMYNNAU CYN Y DIWYGIAD.

CYN ymdrin â dadblygiad yr emyn yng Nghymru, teg ydyw rhoddi engreifftiau o'r emyn fel yr oedd cyn y Diwygiad. Dyma nifer o emynnau ganwyd pan oedd y Diwygiad ar wawrio,—blodeu eira gwanwyn cyfoethog. Codwyd hwy o lyfr llawysgrif a ysgrifennwyd yn brydferth gan "William Thomas, ysgol-feistr y 'Lusen-ysgolion, 1757." A pha bryd yr adroddir hanes yr ysgol-feistri hyn, rhai o brif gymwynaswyr Cymru?

Cefais yr emynnau trwy garedigrwydd y Parch. D. Rees, Bronant, Ceredigion.

I. CRAIG YR OESOEDD.

Hymn ar Salm 122. Y Parchedig Mr. David Lewis, offeiriad Cynwil Elved ac Abernant a wnaeth yr hymn odidog yma. Scriptum per me, Gulielmus Thomas, Anno Domini 1758.

Fy nghalon llawen oedd,
Pan ddwede pawb ar goedd,—
Cyd awn yn llu i dŷ ein Duw.
O Salem lân, ni syrth
Ein traed o fewn dy byrth,
Ond glynwn ynot tra fo'm byw.

Mae Sion, dinas Duw,
A'i sail fel tref ddi-friw,
Ar Graig yr Oesoedd, Crist a'i ras.
Gair Duw a'i ysbryd llon
Gysylltodd feini hon
Ni wthia Uffern un i maes.

I hon daw'r llwythau'n llawn,
I ganmol Duw a'i ddawn,
Wrth drin tystiolaeth Duw a'i fawl;
Yr hon, mewn llan a llys,
Mae gorsedd barn, a gwŷs
I'r saint i farnu cyfiawn hawl.

Dymunwch heddwch gwiw
I eglwys Crist, fe'ch clyw,
I bawb a'i caro ffyniant rhoed;
O fewn dy gaere llwydd,
A'th lysoedd, hawddfyd rhwydd,
I wreng a bonedd bendith boed.

Er mwyn fy mrodyr cred,
A phawb trwy'r wlad ar led,
Fy arch a fydd, boed iddynt hedd,
A daioni ty ein Duw
I'm calon melus yw,
Ni pheidiaf geisio hyd fy medd.

II. DYDD Y FARN.

Hymn am Ddydd y Farn o waith David Evans.

Gan fod yn rhaid i'r farn i fod
A'r dydd mawr hynod hwnnw;
Gadawn ein holl weithredoedd drwg,
O'n golwg cyn ein galw.

Cyn duo'r haul, cyn syrthio'r ser,
Cyn dêl gorthrymder arnom,
Cyn 'nynno'r byd i gyd yn bost,
Cyn delo'n dost ar ddynion.

Cyn llefo'r byd ar goedd fel hyn,—
"Daeth arnom cyn 'difaru,
Y peth a glywsom ym mhob oed
Gwae ninne erioed ein geni."

Cyn ysgwyd nerthoedd mawr y Nef,
A'r udgorn roi llef uchel,
A datod holl fynwentau'r byd,
A'r beddau i gyd sy'n ddirgel.

A chyn detholo Crist ar wâr,
Ei ddefaid gwiwlan mwynedd;
A chyn twmlo'r geifr croes,
I'r lle nad oes drugaredd.

III. CRIST YN GALW.

Cân ar Dadg. iii. 20.

Gwrando'r Cymro mwyn ar delwyn,
Nid yw'n rhyfedd fod Duw 'n achwyn;
A glywi di ddim o'th Brynwr hoyw,
Sy'n sefyll wrth dy ddrws yn galw?

Y mae e'n awr, mae hynny'n rhyfedd,
Ys pump, ys deg, ys ugain mlynedd,
Ysgatfydd fwy, i geisio'th gadw
Yn sefyll wrth dy ddrws yn galw.

Mae'n anhawdd peri'r dall i weled,
Mae'n anhawdd peri'r byddar glywed,
Ac anhawdd peri'r diofal fwrw
Fod Crist wrth ei ddrws yn galw.

Deffro, hen bechadur cysglyd,
Deffro bellach, y mae'n llawn-bryd,
Rhag it yn dy bechod farw,
O eisieu clywed Crist yn galw.

Dyma rybudd teg i ddynion,
I bawb agoryd drws ei galon,
I dderbyn Crist a'i nefol elw,
Sydd cyd yn curo ac yn galw.

Oni chymri hyn o rybudd,
I uffern boeth yr ei'n dragywydd,
Gyda'r diafol dan dy enw,
Eisieu derbyn Crist sy'n galw.

IV. CREFYDD FORE.

Cân ar y ddeuddegfed bennod o'r Pregethwr, ar y dôn a elwir *Leave Land* y ffordd fyrraf.

Yn nyddiau 'th ieuenctyd cofia 'nawr,
'Th Greawdwr mawr Gorucha,
Cyn neshau y dyddiau blin,
Cyn delo gwŷn a gwasgfa.

Cyn twllu'r haul, y lloer, a'r ser,
Goleuni disglaer tanbaid,
Cyn dêl cymylau ar ol gwlaw,
Cyn cryna dwylaw'r ceidwad.

Cyn y cryna'r cryfion wŷr,
Cyn methu'r gwŷr sy'n malu,
Cyn tywyllu rhai mor wych,
Sy'n edrych trwy'r ffenestri.

Cyn y bo'r ffyrdd a'r pyrth yn cau,
Ac isel swn y malu,
Cyn gostwng lawr holl ferched cerdd,
(Llinell yn eisiau)

Cyn delo'r amser y bydd braw,
Ar bawb gerllaw y llwybrau,
Ac y blodeua'r almon bren,
Yn llawn o'r pen i'r godrau.

Cyn elo pryf yr rhedyn 'n drwm,
Yn bwn ar ei ysgwyddau;
Cyn palla chwant, ac 'r elo dyn
I orffwys i'w hun artrau.

Cyn bo wylofain gan bob dyn,
Cyn torri'r llinyn arian,
A chyn torri y cawg aur,
A'r piser gerllaw'r ffynnon.

Cyn torri'r olwyn sydd ar waith
Y pydew'n berffaith hyfryd,
Pan ffaelo eu celfyddyd waith,
Fe dderfydd maeth y bywyd.

Yna y dychwel y corff gwael,
I'r ddaear fel yr ydoedd,
Ac yna'r â pob ysbryd byw,
At Dduw yr hwn a'i rhoddodd.

Gwagedd o wagedd yw pob peth,
Gwagedd heb feth yw'r cwbwl,
Gwagedd yw pob dynolryw,
A gwagedd yw pob meddwl.

Fe ddysgodd Ef trwy fod yn ddoeth,
Wybodaeth i'r cenhedloedd,
A thrwy flinder mawr a thrail
Iawn sail i'r doeth a drefnodd.

Pregethwr chwiliodd yn ddilai
Wych eiriau cymeradwy,
Rhain oedd a'u sail yn wych eu gwedd,
Ar y gwirionedd gloyw.

Mae'r geiriau hyn fel hoelion ffust
Gan feistriaid y gynlleidfa,
Yn nechreu'r rhain y ceir y sail,
Gan Dduw y Bugail penna.

A chymer rybudd, fy mab cu,
O wneuthur llyfrau lawer,
Nid oes diben o'u gwneuthur hwy,
Ond darllen sydd fwy blinder.

Ond swm hyn oll yw,—ofna Dduw,
A chadw Ei wiw orchymynion,
Can's hyn yw dyled pob dyn byw
Fo'n hwennych byw yn union.

Can's Duw a ddwg i'r farn ar goedd,
Weithredoedd pob rhyw ddynion,
Nis gellir cuddio da na drwg
Oddiwrth ei olwg union.

Gwyn fyd y sawl a roddo ei fryd,
Ai serch, ar fyd tragwyddol,
Fe gaiff, pan ffaelo bydol ffun,
Am fer oes un anfarwol.

V. DEFFRO, SEION.

Dechre cân dduwiol arall.

Deffro, Seion, yr hon sy'n brudd,
A gwel y dydd yn dyfod,
Meddwl beunydd dan dy nôd,
I 'mroi i fod yn barod;
Can's mae dy Briod fel y wawr,
Yn dwad ar frys o'r Nef i lawr,
A'r ailwaith i'w hi iddo nawr,
Am hyn bydd mawr rhyfeddod.
Fe ddaw udgorn Duw ar goedd,
I roddi bloedd diwarnod,
Hyd oni chryno'r ddaer a'r Nef,
Can's bydd y llef mor hynod,
'R etholedigion ar hyn o bryd,
Iuddewon a chenhedloedd i gyd,
Er eu bod ar wasgar byd,
Hwy ddont i gyd gyfarfod.

Y brenhinoedd a'r gwyr mawr
Sydd yma 'nawr fel Herod,
Heb ofni Duw na pharchu dyn,
Ond ymroi i ddilyn pechod,
Pob gwr caeth a phob gwr rhydd,
Pun bynnag fo, os anuwiol fydd,
Hwy ddymunen fod ynghudd,
Dan greigydd ryw ddiwarnod.
Ystyriwn hyn. Gwyn fyd y sawl
A fyddo a'i hawl yn barod,
Ac allo ddweyd yn ofon Duw,—
"Crist frenin yw fy mhriod;"
Dyna'r pryd bydd sel y saint
Gyda'u priod yn fawr eu braint
Pan bo'r anuwiol o haint i haint
Yn crio gan faint eu trallod.

Am hyn meddyliwn ni bob rhai
Edifarhau am bechod,
O dewn i gredu yng Nghrist trwy ffydd,
Tra byddo'r dydd heb ddarfod;
Ymrown roi'n bryd ar ofni Duw
A'i wir was'naethu tra fom byw,
Fe'n carodd ni â chariad gwiw,
Ein dyled yw ei gydnabod.
Fe ymddanghosodd yn y cnawd,
Yn ddyn tylawd i'w ganfod,
Er ei fod e'n Frenin nef a llawr
Roedd hyn yn fawr ryfeddod;
Fe rows ei fywyd gwyn, a'i wâd,
A hyn dros ddynol ryw yn rhad,
I ddwad a ni i fynu at y Tad,
I gael y wlad sydd oddi uchod.

Fe ddioddefodd ar y groes,
Do, lawer loes am bechod,
I ddad-ddigio'r Tad o'r nef,
Nes dwad y llef oddi uchod,
I roddi i ni dystiolaeth wiw,
Ei fod e'n anwyl fab i Dduw,
Ond rhyfedd oedd, a rhyfedd yw,
Fod dynolryw 'n ei wrthod,
Er iddo farw a mynd i'w fedd,
Yn wael ei wedd 'n ei ddyndod,
Efe ymddanghosodd i lawer rhyw
Ei fod e'n fyw 'n ei Dduwdod;
Fe ddaeth yn hawdd o'i fedd i maes,
Fe goncwerodd uffern gâs,
Fe dynnodd golyn angau glâs,
Ar gyfraith gâs ufudd-dod.

A chwedi gorffen y gwaith i gyd
Sef talu'r drud drosod,
A dwad a ni fyny at y Tad
Trwy rinwedd gwâd y cymod,
Fe aeth i'r Nefoedd, hyn sydd wir,
Ac ar ddeheulaw'r Tad mae'n bur,
Fe ymddengus eto cyn bo hir,
I bawb sydd eirwir ganfod.
Oh! gan hynny'r saint i gyd,
Ymrowch mewn pryd i warchod,
Fel y byddei gwraig ddi-nam
Yn disgwyl am ei phriod;
Can's er iddo fyned i wlad bell,
Fe ddaw fel priod i mas o'i gell,
Ac yno bydd Seion ar ei gwell,
O'i chyfell i'w chyfarfod.

VI. HIRAETH AM Y WLAD.

Och finnau'n brudd na ddeue'r dydd
I fynd yn rhydd oddiyma,
Tu hwnt i lygredd brwnt a brad,
I Ganan, gwlad Jehofa.

Rwyf yma o fewn i ergyd saeth,
Mewn carchar caeth yn fynych;
Pan elwyf unwaith yno i fyw,
Yng nghariad Duw caf edrych.

Caf fod mewn môr o gariad pur
Sy'n eglur ei arogledd,
Caf fod yn un o seintiau'r nef,
Yn moli â llef gorfoledd.

Caf weled, caf i ei fwynhau,
Caf lawenhau yn hynny,
Caf fod yn byw ym mreichiau Duw,
Anfeidrol yw'r daioni.

Caf yno aros gyda'r Oen,
Mewn gwledd ddi boen sy'n para,
Caf auredd goron yn ddios,
Pwy gare aros yma?

Caf auredd delyn yn fy llaw,
Heb friw na braw i'm blino,
Caf aros byth mewn hyfryd hedd,
Gwych ydyw'r wledd sydd yno.

Caf i fod byth uwch nefol len,
Caf fwyta o Bren y Bywyd,
Caf fod mewn lle o wleddoedd llawn,
Caf yno gyflawn ryddid.

Lle hyfryd yw, lle llon i fyw,
Lle lleinw Duw y duwiol
Lle llawn o bob daioni a dawn,
I'r cyfiawn fyw'n dragwyddol.

Lle cu heb gâs, lle llawn o ras,
Lle'r swper fras frenhinol,
Os caf i ddysg, a'r freiniol wisg
Ymysg y llu tragwyddol.

Eneidiau bach, na rowch mo ch bryd
Ar ol y gwagfyd yma;
Chwi gewch pan eloch at eich Ner
O'r nefol fêr eich gwala.

Gwyn ei fyd y sawl sy a'u taith
I'r etifeddiaeth yma,
Ac sydd eisiws wedi cael
Rhyw gyfran hael o'r manna.

Mae chwant, O Dad, ar f'enaid i
Fod gyda thi mewn urddas,
Amen, Amen, mi ddyweda'n hy—
"Prysura di dy deyrnas."

VII. GWELD FY MHRIOD.

Caned y genedl gyfiawn
Ddaeth Iesu i'w rhyddhau,
Mi wela'r dydd yn dyfod
Y derfydd galar rhai;
Mae f'enaid bach yn credu,
Cyn hir yr ochor draw
Ymhlith y dorf aneirif
Ca'i delyn yn fy llaw.

Pan droir yr haul yn dwllwch,
A'r lleuad wen yn waed,
Y ddaear fawr gwmpasog
I grynu tan fy nhraed,
A ser y nef i syrthio
O eitha'r nen i lawr,
Pob llygad wêl fy mhriod
Yn dyfod fel y wawr.

Archangel gân pryd hynny
Nes crynu'r ddaear ddu;
Y floedd fe glyw y meirw
Sy'n gorwedd yn y bru;
Y llwch, er maned ydyw,
Raid godi, a dod ynghyd,—
Gwyn fyd a welai Mhriod
Ar fyr yn barnu'r byd.

Y beddau tywyll egyr
Oll ar y borau wawr,
Y saint yn anllygredig
Gyfodant fach a mawr,
Ar wedd Tywysog Heddwch,
Heb un dan glwy na phoen;
Does tafod all fynegu
Rhagorfraint gwraig yr Oen.

Y cariad wy'n ei deimlo
At Silo, brenin hedd,
Sy'n peri'm cnawd a'm hesgyrn
Hiraethu am y bedd.
Perffeithrwydd lân ddibechod
Feddianna i draw yn nhre;
Gwyn fyd a welai Mhriod
Fry ar gymylau'r ne.

Had Jacob ddaw'r pryd hynny
O eitha cyrrau'r byd,
Gorllewin, gogledd, dehau
A'r dwyren oll ynghyd;
A'u tlynau yn eu dwylo,
Mewn disglaer ynau gwyn,
I ganu i'r Oen fu farw
Ar ben Calfaria fryn.

Bydd torf aneirif yno
O bob rhyw lwyth ac iaith
Na fedr tafod rifo
I dragwyddoldeb maith.
Rhif tywod mân y moroedd
Neu'r aml ser sydd fry;
Gwyn fyd a welai Mhriod
Yn dyfod gyda'i lu.

Nol treuliwy yn y bywyd
Flynyddau rif y gwlith,
Ymhlith y dorf na fedr
Un tafod rifo fyth,
Yn gweld yr Oen fu farw
I nghadw cyn fy mod,
Bydd cân mor felus i mi
A'r funud gynta 'rioed.

Rhifedi'r swnd o oesoedd,
A gwellt y ddaear lawr,
A chyfri'r ser er amled
Sydd yn yr wybr fawr;
Eto ni welai ddiwedd
Byth ar y Saboth fry,—
Mi gana i dragwyddoldeb
Heb flino, i'm priod cu.

"OS MYNNI GLOD, BYDD FARW."

I.

Mae llawer ffordd i godi dyn,
A llu i dynnu tano;
I fyny'r ant o un i un,
Ond sydyn y gwnant gwympo;
Rhyw fyd siomedig ydyw hwn,
Ceir ynddo'r mel a'r chwerw,
A'r hen ddihareb ddwed,—mi wn,—
"Os mynni glod, bydd farw."

II.

Mae'r byd mewn awydd ambell dro
Dy godi i'r cymylau,
Ond gwylia'i yrru ef o'i go,
Fe'th ddyry dan ei sodlau;
O bob dymuniad da mae'n llawn,
Debygem wrth ei ddelw;
Ond gwrandaw ar y mawr ei ddawn,—
"Os mynni glod, bydd farw."

III.

Beth bynnag wyt mewn rhin a bri,
Ni wel y byd ond beiau;
Ond pan y cymer angeu di,
Pryd hynny byddi'n oreu;
Mae'r byd yn ddall i bob peth da,
Ac am y clod a'r elw,
Ha! clyw ei oslef a'i draha,—
"Os mynni glod, bydd farw."

IV.

Mae llawer llanc mewn awydd mawr
Am esgyn i anrhydedd;
Ond, ebe'r byd,—"Saf di i lawr
Fan yma mewn dinodedd;
Ni roddir di mewn esmwyth gryd,
Cei ddringo'r llwybr garw;"
Ac mewn dull gwenog dwed o hyd,—
"Os mynni glod, bydd farw."

V.

Os wyt am alar-gân, un goeth,
A llu o riniau newydd,
A thithau oll yn berffaith ddoeth,
A'th fywyd yn un dedwydd;
Os mynni'th ganmol gan y byd,
Os mynni gael ei sylw,
Cofia ei arwydd air o hyd,—
"Os mynni glod, bydd farw."

Treherbert. T. Lloyd.

GOFYN AC ATEB.

XXVI. CYMRU'R BEIRDD.

Yng nghasgliad Carneddog o "ddarluniau geiriol," Cymru ii. 106, ceir darlun o'r Bala ac wrtho "*Pwy.*" Dywed "Llyfryddiaeth y Cymry," t.d. 670, a'r Brython iii. 265 mai Morys ab Rhobert o'r Bala a'i gwnaeth. Dylai y linell olaf fod

"Y glapiog *gêr*, yn glep i gyd,"

ac nid "*glêr.*" Ceir yr un awdurdod dros briodoli yr englyn i Ffestiniog i M. ab Rhobert, yr hwn englyn a gyfansoddodd wrth weled milwr anwydog yn crynnu yn Ffestiniog yn ffair Calan Gauaf, os felly nid "Huw Morus o'r Perthi Llwydion" a'i piodd. Y mae twysged o waith Morus ab Rhobert yn y *Blodeugerdd.* Tipyn yn dduwiol yw tuedd y caniadau geir yn y *Blodeugerdd,* ond nid duwiol Morus bob amser, fel y dengys yr englyn canlynol a ganodd ar ol i fochyn ysgleifio ei dipyn bwyd tra yr oedd ef yn diota,—

"Cychwynnaf, rhedaf o rwyd—y dafarn
Lle difyr a welwyd,
Yn Llwydiarth y'm colledwyd,
I faetio baedd am fwyta'm bwyd."

Cyhoeddwyd llyfr chwe cheiniog o'i waith yn 1793, yn Nhrefeca. Dywedir mai merch iddo ef oedd gwraig Mr. John Evans o'r Bala. Ll. T.

XXVII. PLUMHUMON.

Yng Nghymru Chwefror dywed rhywrai mai Pumlumon ydyw enw'r mynydd sydd yn gwahanu Maldwyn a Cheredigion oddiwrth eu gilydd. A dywedwch chwithau mai "Plunlumon" ydyw'r enw iawn, ac mai felly y gelwir ef gan rai sydd wedi eu geni a'u magu yn ei ymyl.

Ganwyd a magwyd finnau yn lled agos iddo, ac ni chlywais i neb erioed, mewn siarad cyffredin, yn ei enwi yr un o'r ddwy ffordd uchod. Er pan ddysgais yr hen rigwm,—

"Tri pheth sydd uchel, uchel,
Cader Idris draw'n y gogledd;
A Phlumhumon uchel fynydd,
A phen ceffyl Huw Shon Gruffydd."

Yr wyf wedi clywed ei enwi filoedd lawer o weithiau, a phob amser yn Blumhumon. Nis gallaf fi ddweyd pa fodd y mae gwŷr glannau y Llyfnant, a'r Rheidol a'r Wy a'r Hafren yn ei swnio; ond pe gofynnech am yr enw i unrhyw ddyn neu blentyn o lannau'r "wiwder Glywedog," yr wyf yn sicr mai yr atebiad fyddai "Plumhumon."

Hendre Pennant, Richard Bennett.
Llanbrynmair.

XXVIII. YNFYDION CYFEILIOG A GWIRONIAID ABERDARON.

Y mae llawer iawn o enwau cymeriadol o'r fath hyn yn glynu trwy yr oesoedd wrth drigolion gwahanol rannau o Gymru, nad oes neb fawr yn gwybod pa reswm sydd am danynt na pha sail sydd iddynt. Fel hyn y dywedai Morris Davies o Fangor am y traddodiad sydd yn sail i alw brodorion Aberdaron yn wirioniaid a gwladyddion Cyfeiliog yn ynfydion,—

"Y mae hen chwedl am drigolion Cyfeiliog yn golchi eu traed mewn llyn, ac yn methu adnabod eu traed eu hunain, nes yr hapiodd ddyfod heibio wr synhwyrol a chymeryd gwialen, yr hon yn fuan a'u dygodd i gydnabod bob un yr eiddo ei hun. Felly, os oedd ynfydion yng Nghyfeiliog, yr oedd yno bobl gall hefyd yn medru taraw yn union ar fodd effeithiol i ddwyn y lleill i'w hiawn bwyll heb eu hanfon i'r gwallgofdy; eto dyma y sail addafedig i alw gwladyddion Cyfeiliog yn ynfydion.

Gwirioniaid Aberdaron. Y mae tarddiad y ddiareb leol hon yn fwy o anrhydedd i'r trigolion na dim arall. Llong o Ddyfed, rywbryd yn yr hen amser gynt, a chwythwyd gan dymhestl i'r lan yn Aberdaron; a'r trigolion, hwythau, a wnaethant ymdrechion tra dyngarol a gorchestol er achub y dwylaw a diogelu eu heiddo, ac, fel y Melitiaid, a'u lletyasant yn rhywiogaidd. Y Dyfadwys, pan yn myned trwy Bwllheli ar eu taith tua thre, a ganmolent yn fawr y caredigrwydd a ddderbyniasent, ac a wedent yn iaith eu gwlad, "Pobl fach wirion iawn yw pobl Aberdaron," gan feddwl, yn ystyr gymwys y gair, mai pobl dirion a diniwed oeddynt. Hyn, ac nid eu hanwybodaeth, fel y gwag dybia rhai, oedd dechreuad ac yw gwir ystyr y ddiareb."

Fel yna yr esboniai Mr. Morris Davies ddechreuad yr enwau traddodiadol hyn. Gallai y byddai cael eglurhad ar amryw o enwau cyffelyb yn ddifyr dderbyniol gan amryw o ddarllenwyr Cymru—heblaw

A. B.

XXIX. HEN ENGLYN.

Mewn atebiad i xviii, y mae ym meddiant codwr canu Tŵr Gwyn, Bangor, lyfr dyddiedig 1778, a'r englyn hwn ar ei glawr,—

"Na flysia, gwylia os im gweli—ni chynnwys
Fy merchenog itti;
Mwy grasol itti ymgroesi,
A dig a fydd os dygi fi."

Dano y mae enw Owen Hughes, Cefnydderwen; ond nis gwn ddim am dano.

Coleg y Gogledd. J. M. E.

XXX. SIROEDD CYMRU.

Mewn atebiad i L. o Benllyn,—er mwyn rheoli Cymru yn y dull Seisnig y rhannwyd hi'n siroedd. Rhannwyd Cymru Llywelyn yn siroedd wedi'r goncwest gan Edward I. yn 1284,—Mon, Caernarfon, Meirionnydd, Fflint, Caerfyrddin, Ceredigion. Gwnawd sir Feirionnydd o gantref Meirionnydd, a chymydau Ardudwy a Phenllyn ac Edeyrnion. Nis gwn pwy oedd sirydd cyntaf Meirionnydd; ond yr oedd y brenin Edward III. yn galw yn 1370 ar i Walter de Manny brofi ei hawl i siryddiaeth Meirionnydd. Rhannwyd arglwyddiaethau Cymru'n siroedd ereill yn 1536,—Maldwyn, &c.

COLEG DEWI SANT.
(Cyhoeddir y darlun trwy ganiatâd Mr. J. Davies, Argraffydd, Llanbedr).

EIN HATHROFEYDD A'N HYSGOLION.

IV. COLEG DEWI SANT, LLANBEDR PONT STEPHAN.

"Gair Duw goreu Dysg."

" O'r llwch a'r tristwch trwstan—dy olwg
Cwyd, Walia fach, weithian;
A gwel goleg, rwydd-deg ran.
Hynod i ti dy hunan.

" Haul addysg, er hoyw lwyddiant—a gododd
Gyda mawr ogoniant;
Cymylau 'n ugeiniau gant,
O'r golwg draw a giliant."

DYMA rai o acenion cân fuddugol Daniel Ddu ar destun y Gader,—Coleg Dewi Sant,—yn Eisteddfod Dyfed yn 1823. Nid ei gân oreu, mewn un modd, oedd honno; ond y mae ynddi liaws o brydferthion, a llawer o dân Cymreig. Yn wir, yr oedd yn gofyn bardd i ganu ar y testun o gwbl; oblegid, y pryd hwnnw, yr oedd Coleg Dewi Sant eto yng nghroth y dyfodol. I'r bobl gyffredin, nid oedd, lle y saif y Coleg heddyw, ond pridd, a chalch, a meini diaddurn. Ond yr oedd llygad treiddgar dychymyg y Bardd Du eisoes yn rhagweled trefn a thlysni yn ymffurfio ac yn ymgodi allan o'r tryblith. Ac er dued nos Addysg yng Nghymru ar y pryd, yr oedd yna, bellach, addewid sicr am haul, a gwawr, a goleu ddydd gwybodaeth; ac, fel yr ehedydd, canodd awen y bardd, am nas gallai beidio,

Yn wir, yn nechreu y ganrif hon, truenus iawn oedd cyflwr Cymru o ran addysg. Nid oedd y wlad heb ei hysgolion canolraddol, y mae yn wir,—ac yr oedd rhai o'r ysgolion hynny yn gwneyd gwaith rhagorol iawn,—ond nid oedd yng Nghymru unrhyw sefydliad a gyfrannai addysg uwchraddol. Teimlid y diffyg hwnnw yn gyffredinol; eithr yn bennaf oll, efallai, gan yr esgobion Cymreig. Gan nad beth arall a ellid ei ddweyd am esgobion Cymru yn y dyddiau hynny, nid oes neb, hwyrach, a wad eu bod yn bobl ddysgedig, a phrofiadol mewn pynciau addysg. O bryd i bryd, fel yr arholent ymgeiswyr am urddau cysegredig yn eu hesgobaethau, gwelent yn amlwg iawn arwyddion o amddifadrwydd addysgol Cymru. Yr oedd y goreuon o'r ymgeiswyr hynny, fel rheol, yn raddwyr o Rydychen neu o Gaer Grawnt; ond deuai y mwyafrif o honynt o wahanol ysgolion canolraddol y wlad, lle nis gellid parotoi efrydwyr yn briodol i'r weinidogaeth eglwysig. Da gan yr esgobion fyddai gweled pob un o'r ymgeiswyr yn berchen gradd athrofaol un o brifysgolion Lloegr; ond

gwyddent fod hynny yn anichonadwy oherwydd tylodi cydmarol y Cymry. Beth oedd i'w wneyd ynte? Bu y siaradwyr, a'r breuddwydwyr, a'r cynllunwyr,—esgobaethol ac arall,—wrthi yn brysur am flynyddau; ond ni chaed gwelliant ar bethau hyd nes y dyrchafwyd y Dr. Burgess i fainc Dewi Sant yn 1803. Wedi iddo ymgydnabyddu â'r wlad, a chanfod a theimlo angen mawr ei phobl, ymdaflodd y dysgawdwr goleuedig hwnnw, gydag ynni nodweddiadol, i'r gorchwyl bendigaid o sylweddoli breuddwydion ei gyfoedion. Cafodd gymorth a chydymdeimlad a chydweithrediad llawer, lleyg a llen; ond i'r Esgob Burgess, yn bennaf oll, y mae bod Coleg Dewi Sant yn ddyledus.

Os ydoes neb a garai wybod pa mor gyffredinol y cydnabyddid anghenion addysgol Cymru yn y dyddiau hynny, darllennent y rhestr hir o danysgrifwyr tuag at hyrwyddo gwaith clodwiw yr esgob. Ca weled yno i'w Fawrhydi, y brenin Sior IV., gyfrannu ei fil o bunnau o'i logell ei hun; i awdurdodau Prifysgol Rhydychen ddangos eu cydymdeimlad ymarferol trwy gyfrannu dau gant o bunnau; i awdurdodau Prifysgol Caer Grawnt wneyd yr un modd; i gyfoethogion, —yn enwedig ysweiniaid Pantycudyll a'r Dderi,—dywallt eu haelioni bendithiol ar y mudiad; ac i offeiriaid deheudir Cymru gyfrannu hefyd, o'u prinder truenus, er mwyn sefydlu y coleg yn eu mysg. A'i freichiau yn cael eu dal i fyny fel yna, teimlodd yr Esgob Burgess ei hunan yn ddigon cryf i ddechreu ar y gwaith yn 1822.

Petruswyd am beth amser ynghylch y safle fwyaf manteisiol i'r coleg oedd i fod; eithr trodd y fantol o du Llanbedr Pont Stephan. Ac yn wir da oedd hynny. Oblegid byddai yn anhawdd dyfod o hyd i lecyn prydferthach ynddo ei hun, neu dlysach ei gymydogaeth, na'r un a ddewiswyd. Ni waeth beth fyddo'r tymor, mae y wlad oddiamgylch bob amser yn edrych megis ar ei goreu. Islaw, y mae Teifi,—anwyl gan ddisgyblion yr anfarwol Izaak,—yn ymddolennu yn hamddenol drwy ei dyffryn llydan, coediog. Y tu draw i'r afon, yn Sir Gaerfyrddin, graddol ymgyfyd Mynydd Llanbedr i urddas cydmarol Tas Eithin, sydd heddyw yn gorchuddio moelni ei ben â mantell o eira. Y tu yma i Deifi, ar y llaw ddeheu, y mae y ffordd fawr yn barod i'ch arwain tua Llanarmon, heibio i ddadfeilion Ffynnon Bedr, — hen gartref Llwydiaid Cymru Fu, hen fangre y cyfi a'r dewr; eithr yn awr, darfu am ei ogoniant,—

> "A nynych, yr ych o'r iau
> Bawr lawr ei wych barlyrau."

Neu, ar y llaw aswy, gellir dilyn y llwybr sydd yn myned heibio i olion Maes y Felin,—o goffadwriaeth felldigedig,—hyd nes cyrraedd yr hen wersyllfa Rufeinig sydd gerllaw, ac oddiyno syllu ar geinion "Dulas ddu yng ngodreu'r ddol," ar degwch Glandenys, neu ar dlysni paradwysaidd Betws Bledras a'r Dderi. Ond rhaid ymatal, gyda dweyd nas gwn i am brydferthach nac am iachach ardal yng Nghymru na Llanbedr a'r gymydogaeth.

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu y coleg yn 1822. Y bwriad oedd i'w wneyd yn goleg trigiannol, tebyg i golegau Rhydychen a Chaer Grawnt. Nid rhyfedd, felly, i flynyddau fyned heibio cyn y gorffennwyd yr adeilad. Ond yn 1828, cafodd Bardd Du Glan yr Anell achlysur arall i byncio cân,—y tro hwn agoriad Coleg Dewi Sant a'i denodd i ganu.

Yn y flwyddyn honno, blwyddyn gyntaf bywyd y coleg, ac mewn atebiad i ddeiseb Esgob Burgess ac ereill, cafwyd breintlen oddiwrth ei Fawrhydi Sior IV. yn cydnabod amcan a sefydliad y coleg, yn ogystal a chyfansoddiad a hawliau ei lywodraethwyr. Gesyd y freintlen allan, yn groyw ac yn eglur, mai amcan y coleg oedd rhoddi addysg a hyfforddiant priodol i'r sawl a ddymunai geisio urddau cysegredig yn yr Eglwys yng Nghymru, "yn gymaint a bod y mwyafrif o'r ymgeiswyr hynny, o Ddeheudir Cymru, yn anallnog, oherwydd y draul, i fyned i'r Prifysgolion." Gesyd derfynau awdurdod y pennaeth, y ddau *tutor*, a'r ddau broffeswr a ddechreuodd y gwaith o addysgu yn y coleg, a chydnebydd hwynt yn gorfforaeth dan yr enw "pennaeth, *tutoriaid*, a phroffeswyr Coleg Dewi Sant, yng Ngheredigion, yn nhywysogaeth Cymru." A y freintlen ymhellach, gan gyfeirio at yr ymwelydd, a'r is-ymwelwyr. Nid ydyw safle yr olaf, hyd y gwn i, wedi ei amlygu yn gywir erioed; ond y mae perthynas y blaenaf a'r coleg yn eglur ddigon. Cydnabyddir Esgob Tyddewi fel ymwelydd y coleg, yn rhinwedd ei swydd. Y mae y freintlen yr un mor eglur parthed awdurdod yr ymwelydd. Dyry iddo, mewn gair, awdurdod i orchymyn ac i nacau ym mhob dim perthynol i'r coleg, oddifewn ac oddiallan. Y mae y gallu a berthyn felly i'r ymwelydd yn fawr, hwyrach yn beryglus o fawr. Oblegid, er fod tebygolrwydd, eto nis gall fod sicrwydd, na welir, rhyw ddydd blin, eiddilyn yn eistedd ar fainc Dewi Sant, neu ddyn nas gall, neu nas myn, wahaniaethu rhwng gwyliadwriaeth iachus ac ymyrraeth. Ond, hyd yn hyn, y mae y coleg wedi bod yn dra ffodus yn ei ymwelwyr. Yn yr Esgobion Jenkinson (1803—25) a Thirlwall (1825—40), caed dynion a dysgawdwyr teilwng o'u swydd

a'u hawdurdod—teilwng ddilynyddion i Dewi, ac Aser, ac Arwystl. Nid y lleiaf o esgobion y ganrif ydyw esgob presennol Tyddewi, ac ymwelydd presennol y coleg. Tra heb ymwadu ag un iod o'i ddyledswyddau, y mae, gyda'r cysondeb mwyaf, a chyda'r brwdfrydedd mwyaf goleuedig, wedi hyrwyddo gwaith cyfrifol Bwrdd y Coleg hyd eithaf ei allu. Ym mhob dim, y mae wedi ymddwyn tuag atynt, a thuag at y coleg, yn ysbryd gwir garwr ei genedl a gwybodaeth.

Dan nawdd Dewi Sant, ac yn ysbryd yr arwyddair, "Gair Duw goreu dysg," ymdaflodd y coleg i'w waith yn y byd yn y flwyddyn 1828. Ac nid hir y bu cyn i'w lwyddiant gyfiawnhau ei fod, a sylweddoli gobeithion disgleiriaf ei sylfaenwyr.

Dyddorol fuasai ysgrifenu hanes Coleg Dewi Sant o'r dydd y'i sylfaenwyd hyd heddyw. Ond rhaid ymfoddloni yn bresennol ar nodi, yn fyr, brif ddigwyddiadau y cyfamser, gan geisio cofio, wrth fyned ymlaen, mai pwysicach a mwy dyddorol mewn gwirionedd ydyw eu hachosion a'u heffeithiau na'r digwyddiadau eu hunain.

O'r cychwyn, cadwyd mewn cof parhaus, mai amcan mawr sefydlu'r coleg ydoedd addysgu a hyfforddi y sawl a fwriadai geisio urddau cysegredig yn yr Eglwys Gymreig. Am lawer blwyddyn, cyfyngwyd gwaith y coleg i'r canghennau hynny o wybodaeth—ynghyd a'u pynciau perthynasol—a ennwyd ym mreintlen 1828, sef oedd y rhai hynny,—Diwinyddiaeth, y Gymraeg, yr Hebraeg, a Fferylliaeth, ynghyda Lladin a Groeg. Ond, gydag amser, fel y daeth manteision y coleg yn fwy adnabyddus, ac y mynychwyd ef gan nifer liosocach o efrydwyr, ac fel yr addfedodd profiad athrawol yr awdurdodau, gwelid fod yr addysg a gyfrennid yn y coleg yn llawer rhagorach nag a ddisgwyliwyd; a theimlwyd angen am ryw drwydded neu radd athrofaol fel prawf a chydnabyddiaeth o ddysg yr efrydwyr llwyddiannus.

Y mae y flwyddyn 1852 yn un bwysig yn hanes y coleg. Yn y flwyddyn honno yr ateb wyd deiseb y pennaeth a'i gydathrawon; cafwyd breintlen arall, y tro hwn oddiwrth ei Mawrhydi presennol, y Frenhines Victoria. Wedi hir ymadroddi, y mae y freintlen honno, "yn gymaint a bod lliaws mawr o offeiriaid y Dywysogaeth wedi derbyn addysg ddiwall yng Nholeg Dewi Sant, a hynny ar draul cymedrol, a'u bod heb radd athrofaol i ddwyn tystiolaeth o'u dysg a'u cyrhaeddiadau mewn Diwinyddiaeth," yn myned rhagddi i awdurdodi Bwrdd y Coleg i roddi y gradd o B.D. i'r sawl a'i teilyngai. I'r perwyl o fesur teilyngdod yr ymgeiswyr, archa Fwrdd y Coleg i gynnal arholiad yn flynyddol; ac ymhelaeth, gesyd i lawr y rheol parthed ethol yr arholwyr. Telerau y freintlen ydyw,—fod i awdurdodau Rhydychen ethol un, ac i awdurdodau Caer Grawnt ethol un; ac os y mynnai, gallai pennaeth y coleg ddewis trydydd arholydd. Afreidiol fyddai oedi i ymhelaethu ar fanteision gradd athrofaol; "hanner gair i gall,"—digon yn awr ydyw nodi y ffaith uchod.

YR HYBARCH ARCHDDIACON EDMONDES.
(O Photograph gan H. F. Goodden, Penfro.)

Yn ystod yr un flwyddyn, 1852, ychwanegwyd at nifer yr athrawon trwy haelioni tywysogaidd Thomas Phillips, Yswain, un o brifnoddwyr y coleg, yr hwn a roddodd £7487 er gwaddoli Proffeswriaeth newydd mewn *Physical Science*. Cydnabyddwyd y *Phillips Professor* fel aelod o'r gorfforaeth, ac felly daeth Bwrdd y Coleg i gynnwys, fel y gwna heddyw, y pennaeth, yr is-bennaeth, a phedwar proffeswr. Anhawdd fyddai gor-ganmol haelioni Mr. Phillips, yr hwn oedd eisoes wedi gwaddoli y coleg a chwech ysgoloriaeth, yn werth £24 y flwyddyn yr un,

Aeth y coleg rhagddo yn fwy hwylus nag erioed gwedi hyn. Dygodd haelioni Mr. Phillips ffrwyth ar ei ganfed, oblegid eangodd ddefnyddioldeb y coleg ymhob cyfeiriad. Ychwanegwyd at nifer pynciau yr athrawon. Ni ddiorseddwyd Diwinyddiaeth, brenhines y gwybodau, ond teimlwyd fod y duedd i ledaenu llwybr dysgeidiaeth yn y coleg yn anwrthwynebadwy. A'r canlyniad o'r adgyfnerthiad hwn o gorff athrawol y coleg fu i'r Celfyddydau ymwthio yn raddol, ond yn ddiymwad, i sylw pwysig. Nid oes amheuaeth nad oedd yr addysg a gyfrennid o radd uchel, a theimlid, y pryd hwnnw, ei bod yn drueni nas gallesid cydnabod dysgeidiaeth gyffredinol yr efrydwyr mewn modd teilwng. Unwaith eto, deisebodd y pennaeth a'i gydlafurwyr; ac unwaith eto, yn 1865, rhyngodd bodd ei Mawrhydi i gydsynio a'u cais trwy freintlen arall. Maddeued y darllennydd un dyfyniad yn ychwaneg. Y mae y freintlen bwysig honno yn adrodd—ddarfod i'r Dirprwywyr Eglwyswyr, gwedi ymchwil manwl i sefyllfa a gwaith y coleg, gyflwyno eu cynllun i sylw Cyngor ei Mawrhydi, ddarfod i'r cynllun hwnnw gymeradwyo eangu a dyrchafu cwrs addysg yng Ngholeg Dewi Sant i safon y cwrs cyffredin ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaer Grawnt; ac yn gymaint a bod llawer o efrydwyr y coleg, oddiar ei sefydliad, wedi cyrraedd mesur pur helaeth o ddysgeidiaeth yn y Clasuron, mewn Rhif a Mesur, ac mewn canghennau ereill o wybodaeth, fod ei Mawrhydi yn caniatau i bennaeth, tutoriaid, a phroffeswyr y coleg, yr awdurdod i gyflwyno y gradd o B.A. i'r ymgeiswyr llwyddiannus am y cyfryw; hefyd, y disgwylid i Fwrdd y Coleg gynnal un arholiad o leiaf bob blwyddyn i hynny; ac ymhellach, y byddai o leiaf ddau arholydd i gael eu penodi gan awdurdodau Rhydychen a Chaer Grawnt, eithr fod i bennaeth y coleg y gallu, os y mynnai, i ddewis un arholydd yn ychwaneg; ond nad oedd un o aelodau Bwrdd y Coleg i ymgymeryd a'r swydd o arholydd.*

Cymerth hyn le yn 1865; a byth er hynny, yn hytrach nag ymfoddloni tan gysgod y ffigysbren, y mae Coleg Dewi Sant wedi parhau i ymddadblygu, blyg ar ol plyg, hyd heddyw.

Gyda chysondeb di-dor, y mae Bwrdd y Coleg wedi mabwysiadu ysbryd y freintlen, yn hytrach nag ymfoddloni ar ufudd-dod moel i'w llythyren. Mewn canlyniad, o'r flwyddyn 1865 ymlaen, y mae cylch dysgeidiaeth yn y coleg wedi bod yn graddol ymledaenu, tra mae safon ei haroliadau wedi codi yn uwch uwch o flwyddyn i flwyddyn.

Nid pob ymgeisydd am y gradd o B.A. sydd wedi llwyddo; ond, hyd y flwyddyn 1884, yr oedd yn gysur i'r eiddil a'r amharod feddwl, os na ddaethent i fyny a safon y B.A., y gallasent ennill trwydded y coleg mewn Diwinyddiaeth, os y boddlonent yr arholwyr yn y pynciau gofynnol. Am rai blynyddoedd cyn 1865, yr oedd y Bwrdd wedi penderfynu cyflwyno eu trwydded i ymgeiswyr llwyddiannus a fyddai wedi bod yn y coleg am chwe tymor, neu ddwy flynedd (yn lle tair), ac a fyddai wedi ymuno a'r coleg gyda'r bwriad o astudio Diwinyddiaeth yn unig neu yn bennaf. Pwn newydd ar gefnau llwythog oedd hwnnw, ond dyna y ffordd a ddewisodd y Bwrdd i ddangos eu parch i ddymuniadau sylfaenwyr y coleg.

Gydag amser, daeth amrywiaeth i harddu yr arholiad am raddau. Parhaodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i ymfoddloni ar ymgydnabyddu â'r pynciau cyffredin, gorfodol; eithr dewisai rhai geisio gwybodaeth fanylach am bynciau neillduol; tra yr ymorchestai'r uchelgeisiol i ennill graddau anrhydeddus trwy ddangos cynefindra perffeithiach â'r pynciau hynny. Yn ystod y deng mlynedd diweddaf, y mae ugeiniau o'r efrydwyr wedi graddio gydag anrhydedd mewn Diwinyddiaeth, y Clasuron, Rhif a Mesur, Gwyddoniaeth, Hanes, Llenyddiaeth, a'r Gymraeg.

Y mae y cydymdeimlad mwyaf trylwyr wedi ffynnu o'r cychwyniad rhwng y Prifysgolion â Choleg Dewi Sant; ac nid oedd cyfraniadau Rhydychen a Chaer Grawnt tuag at sefydliad y coleg ond y cyntaf o lawer o brofion ymarferol o'r cydymdeimlad hwnnw. Yn 1880, penderfynodd awdurdodau Rhydychen dynhau y cwlwm cariad. Yn y flwyddyn honno, dygwyd i fod ganddynt ddeddf fabwysiadol *(affiliation statute)*, trwy yr hon y dygwyd Coleg Dewi Sant i gysylltiad agos a manteisiol â'r Brifysgol. Ym mhen tair blynedd, dilynodd Caer Grawnt esiampl ei chwaer, Buddiol iawn i Lanbedr fu hyn; oblegid yn awr, gall y sawl a gaffo radd anrhydeddus yng Ngholeg Dewi Sant geisio gradd anrhydeddus yn Rhydychen neu yng Nghaer Grawnt ym mhen dwy flynedd, ac felly dalfyrru ei arosiad yn y Brifysgol o flwyddyn neu ddwy. Y mae y budd a ddeilliaw i ddynion ieuainc sydd heb fod yn or-gyfoethog, o'r cysylltiad manteisiol hwn, yn amlwg. Trwy haelioni Syr J. T. D. Llewelyn ac ereill, y mae Bwrdd y Coleg yn alluog i roddi ychydig gymorth ariannol i efrydwyr felly; a llawer i Gymro ieuanc sydd

*Y mae y cynnydd yn nifer y myfyrwyr wedi ei wneyd yn angenrheidiol i ychwanegu at nifer yr arholwyr. Eleni y mae saith o arholwyr wedi eu penodi; tri gan Rydychen, tri gan Gaer Grawnt, a'r seithfed gan bennaeth y coleg.

eisoes wedi ei alluogi, drwy y cyfryngau hyn, i fyned rhagddo o Lanbedr i Rydychen neu i Gaer Grawnt, ie, ac i raddio yno gydag anrhydedd iddo ei hun ac i'w wlad.

Ar gynnydd parhaus yr oedd y coleg. Yn wir, erbyn hyn yr oedd nifer y myfyrwyr, a'u hanghenion, wedi cynyddu mor ddirfawr, fel y gorfu i'r Bwrdd ethol dau ddarlithydd i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Bu amser pan yr oedd yr adeilad yn hen ddigon i gynnwys yr oll o'r efrydwyr yn gysurus; eithr erbyn hyn, yr oedd perygl i'r coleg golli ei gymeriad fel coleg trigiannol. Cynhwysai yr adeilad rhyw bymtheg a deugain, ond yr oedd ar y pryd hwnnw rhyw saith ugain o efrydwyr. Er gwaethaf y modd, yr oedd cyllid y coleg eisoes yn rhy fach, nid oedd dwy ddimai i ymgyfeillachu yn llogell y trysorydd, ac nid oedd "lle i nesyd hwnt."* Yr oedd y Llywodraeth yn hael tuag at y chwiorydd yng Nghaer Dydd, a Bangor, ac Aber Ystwyth. Yr oedd Llanbedr mewn newyn, yn dyheu am gymaint a degwm o'r pedair mil blynyddol. Gyda llais crynedig, mewn blys ac ofn, deisebodd Llanbedr, hithau hefyd, am ychydig gymorth. Ond trowyd hi i ffwrdd oddiwrth y drws, gyda rhyw "Na dragwyddol" i ferwino ei chlust. Sylweddolodd Llanbedr y ffaith fod y chwiorydd ieuainc wedi eu geni i'r byd yn etifeddesau i haelioni Hywel, ond fod yn rhaid i Lanbedr ennill ei bara drwy chwys ei gwyneb. Ond nid llaesu dwylaw a wnaeth, eithr torchodd ei llewys. Rhoddodd y Bwrdd eu hachos ger bron eu cyfeillion, ac yn y man, daeth addewidion teg, a geiriau tecach i'w cysuro. Yn 1884, penderfynwyd cychwyn adeilad newydd. Aeth Archesgob Caer Gaint i waered i Lanbedr yn un-swydd i osod sylfaen yr adeilad oedd i ddwyn ei enw. Ni weloda Llanbedr erioed dorf debyg i'r un a droediodd ei ffordd tua'r coleg ar y dydd pwysig hwnnw,—tyrfa o bobl o bob oed ac o bob gradd,—pawb yn glust i gyd i wrandaw llais soniarus yr Archesgob tra yr oedd hwnnw yn gosod y garreg yn enw y Drindod sanctaidd; pawb yn llais i gyd tra yr oedd nodau yr hen emyn yn llanw yr awyr; a phawb yn galon i gyd, yn dymuno mawr lwydd i Goleg Dewi Sant.

Y mae yr adeilad bellach wedi ei hir orffen. Ac adeilad hardd ydyw. Adeilad defnyddiol iawn ydyw, hefyd; oblegid y mae yn cynnwys ystafelloedd rhyw ugain o fyfyrwyr, heblaw ystafelloedd y Deon, a thri o athrawon ysgol y coleg. Heblaw y rhai hyn, y mae ystafelloedd darlithio eang a chysurus, un ym mhob pen i'r adeilad, tra yn y canol y mae gweithdy a drysau cloedig, lle y dywedir y bydd y Proffeswr Scott a'i gywion gwyddonawg yn hollti pelydr haul, ac yn carcharu ac yn disgyblu mellt.

Blwyddyn ddiwyd ddiwyd i Fwrdd y coleg oedd 1884, oblegid yn y flwyddyn honno penderfynwyd sefydlu Ysgol Ganolraddol mewn cysylltiad â'r coleg. Trwy ystod eu hanes y mae Bwrdd y Coleg wedi cymeryd y dyddordeb mwyaf yn y pwnc pwysig o addysg ganolraddol. Ac ni fu i hen ysgol ramadegol Llanbedr well cyfeillion erioed nag awdurdodau Coleg Dewi Sant. O'r diwedd, penderfynodd y Bwrdd, er lles i'r gymydogaeth, ac er budd i'r achos yn gyffredinol, ddwyn addysg ganolraddol yn fwy uniongyrchol dan eu sylw a'u llywodraeth. Felly yn 1884, trowyd hen adeilad oedd yn anharddu un cwr o dir y coleg yn ysgoldy, ac agorwyd drysau Ysgol y Coleg. Cyfrifwyd yr ysgol fel rhan,—ond fel rhan anibynnol,—o'r coleg. Penodwyd yn brifathraw foneddwr oedd wedi graddio yn anrhydeddus yn Rhydychen; ac fel y cynyddodd nifer y disgyblion, ychwanegwyd at y corff athrawol. Heddyw y mae y gwaith yn cael ei ddwyn ymlaen gan brifathraw a thri o athrawon cynorthwyol, yr oll yn feddiannol ar raddau anrhydeddus. Nid hir y bu yr ysgol cyn estyn ei chortynau, a buan iawn bu rhaid i'r coleg ychwanegu at yr adeilad. Erbyn hyn, y mae yr ysgoldy yn cynnwys neuadd eang a hardd, tri *classroom*, a llyfrgell. Er nad yw Ysgol y Coleg ond ieuanc eto, y mae eisoes wedi cyrraedd mesur helaeth o lwyddiant. Cychwynnodd gyda rhyw ugain o fechgyn yn derbyn addysg; y mae ynddi yn awr o dri i bedwar-ugain o ddisgyblion. Nid oes i'r ysgol un ddimai o waddol; ond cysylltwyd hi ag ysgolion elfennol, a digaregwyd y llwybr rhyngddynt gan haelioni pobl dda Llanbedr a'r gymydogaeth, trwy yr hwn y rhoddir *exhibitions* bychain i fechgyn yr ysgolion elfennol cymydogaethol, i'w galluogi i fyned i Ysgol y Coleg. Trwy ddoethineb y Bwrdd cysylltwyd yr ysgol, ar y llaw arall, ag addysg uwchraddol y coleg. Gwnaethpwyd hyn mewn rhan trwy wneyd prifathraw yr ysgol yn aelod o Fwrdd disgyblaethol y coleg, ac yn fwy neillduol trwy roesawu goreuon yr ysgol i ddarlithiau y coleg yn rhad, ar gymeradwyaeth y prifathraw. Ac felly, trwy ddoethineb a diwydrwydd a haelioni Bwrdd y Coleg a'r gymydogaeth, galluogir y bachgennyn tylawd ond talentog i ddringo yn esmwyth, o'r Ysgol Elfennol i Ysgol y Coleg, oddiyno i Goleg Dewi Sant, ac oddiyno drachefn, trwy gyfrwng y ddeddf fabwysiadol i Rydychen neu Gaer Grawnt, yno i dderbyn gwobr ei lafur, a chydnabyddiad cyhoeddus o'i wybodaeth a'i alluoedd meddyliol.

Ac yn y gyfundrefn hon, nid oes ragor rhwng Iddew a chenedlddyn, rhwng Eglwyswr ac Anghydffurfiwr. Y prawf cryfaf o hyn ydyw dwyn esiamplau. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf hyn, yr oedd tri llanc yn derbyn eu haddysg yn Ysgol y Coleg. Yr oedd y tri yn derbyn cynorthwy *exhibitions* bychain. Yr oedd dau o honynt yn feibion i Anghydffurfwyr, tra yr oedd y trydydd yn Eglwyswr. Yn eu tro, aeth y tri i Goleg Dewi Sant, gan gipio bob un ei ysgoloriaeth wrth fyned i mewn. Cymerodd y tri fantais o'r ddeddf fabwysiadol, ac aethant i fyny i'r prifysgolion. Enillodd un o honynt ysgoloriaeth o £80 y flwyddyn yng Ngholeg y Frenhines yng Nghaer Grawnt, ac yn ei bryd ymddanghosodd ei enw ymhlith y *Wranglers*. Aeth yr ail i Rydychen, lle y cafodd le yn yr ail ddosbarth yn arholiad *Moderations* am anrhydedd mewn Rhif a Mesur. Aeth y trydydd i Rydychen hefyd, ac yng Ngholeg yr Iesu yno, enillodd ysgoloriaeth o £80 y flwyddyn am Hanes, ac yno y mae yn awr yn ymbarotoi ar gyfer ei arholiad am radd anrhydeddus y B.A. Gellid, pe yn ofynnol, ychwanegu esiamplau, ond hwyrach nad oes angen.

Ym mis Hydref yr oedd tri o fyfyrwyr yn cydymdrechu am ruban glas Coleg Dewi Sant, sef y brif ysgoloriaeth. Un yn unig a'i henillodd, ond gellir maddeu i Ysgol y Coleg am deimlo yn falch o'r tri, oblegid ei meibion hi oeddynt. Calonogol iawn i'r Bwrdd ydyw llwyddiant bechgyn yr ysgol, ond nis dylid anghofio y draul a'r drafferth yr aeth y Bwrdd iddynt er dwyn yr ysgol yn iach a chryf trwy dymhor ei mebyd. Y flwyddyn ddiweddaf, cynhygiodd y Bwrdd drosglwyddo yr ysgol ar amodau i awdurdodau y sir. Aethant mor agos ag a allent, yn gyfreithlawn fel ymddiriedolwyr, at drosglwyddiad hollol; a'r prif amod oedd iddynt hwy gael eu cynrychioli yn briodol ar y Bwrdd Llywodraethol. Ond am ryw reswm neu gilydd, gwrthodwyd y cynhygiad, a dewiswyd yn hytrach addewidion pobl ereill, a bydd tair ysgol ganolraddol y dyfodol ar lan y môr.

Er ys blynyddoedd bellach, cydnabyddir, ym Mhrif-ysgolion Lloegr a'r Alban, a'r Cyfandir hefyd o ran hynny, y gwaith rhagorol a wneir yng Ngholeg Dewi Sant. Yng Nghymru yn unig y mae anwybodaeth yn ymgartrefu. Gobeithio nad oes dim sydd waeth nag anwybodaeth yn llechu y tu cefn i'r gwrthwynebiad a arddangosir ar droion tuag at y sefydliad. Edrychir arno fel sefydliad enwadol. Gwir mai sefydliad Eglwysig ydyw, a gwir fod y Bwrdd yn awr mor ffyddlawn ag erioed i amcan pennaf sylfaenwyr y coleg; ond gwir hefyd ydyw nad oes un prawf crefyddol yn y byd yn cael ei roddi ar y myfyrwyr. Fel y danghoswyd eisoes, y mae Anghydffurfwyr wedi derbyn addysg a buddiannau y coleg yn Llanbedr ac yn y prifysgolion Seisnig. Ac nid oes dim i atal Anffyddiwr rhag gwneyd yr un modd. Gwir fod capel yn perthyn i'r coleg, ac y disgwylir i aelodau yr Eglwys fynychu y gwasanaethau yno; ond ni cheisir gan neb fyddo a gwrthwynebiad cydwybodol i fyned yno. Ac os mai sefydliad enwadol, yn yr ystyr gul, ydyw Coleg Dewi Sant, sefydliadau enwadol hefyd ydyw Coleg Balliol yn Rhydychen, a Choleg y Brenin yng Nghaer Grawnt. Gelwir y sefydliad hefyd yn "goleg diwinyddol." Yn awr, os mai "coleg diwinyddol" ydyw sefydliad sydd a'i *curriculum* yn cynnwys Diwinyddiaeth, yna "coleg diwinyddol" ydyw Coleg Dewi Sant. Yna, hefyd, ac am yr un rheswm, "colegau diwinyddol" ydyw Colegau y Drindod yn Rhydychen a Chaer Grawnt. Ond os cyfryngir yr enw i sefydliadau fyddo yn cyfrannu gwybodaeth yn unig mewn Diwinyddiaeth a phynciau perthynasol, yna, gan fod Coleg Dewi Sant yn cyfrannu addysg uwchraddol mewn Rhif a Mesur, y Clasuron, Gwyddoniaeth, Hanes, Llenyddiaeth, a Ieithoedd diweddar,—pynciau heb y gronyn lleiaf o berthynas i Ddiwinyddiaeth,—nid "coleg Diwinyddol" mo hono o gwbl.

Dyddorol ac addysgiadol iawn fyddai sylwi ar y cewri meddyliol sydd wedi bod yn benaethiaid, yn is-benaethiaid, ac yn broffeswyr yng Ngholeg Dewi Sant. Jayne, Ryle, Ollivant, Harold Browne, Rowland Williams, Perowne, Spence, Owen, Tout, Rashdall,—nid pob coleg yn Rhydychen a Chaer Grawnt fedr enwi cynifer o enwogion fel ei eiddo. A gwnaeth pob un o'r rhai hyn,—a llawer ereill, hwyrach cystal a hwythau,—ei ran tuag at ddwyn Coleg Dewi Sant i'w gyflwr llewyrchus presennol.

Gellid dweyd geiriau yr un mor deg am y pennaeth sydd wedi bod wrth y llyw yn ystod y pedair blynedd diweddaf, —yr Hybarch Archddiacon Edmondes,—dyn tawel, cryf, sydd yn rhaid ei adnabod yn dda cyn ei ddeall yn iawn a'i werthfawrogi yn briodol,—un o'r dysgawdwyr mwyaf caboledig a fedd Cymru, —ac er na fedr y Gymraeg yn rhyw lithrig iawn, mae ei galon yn llawn o waed coch cyfa Cymreig.

Dyddorol hefyd, cyn terfynu, fyddai rhoddi tro drwy yr hen Goleg; sylwi wrth fyned heibio ar y *Gymnasium* sydd gerllaw y glwyd haiarn; taflu golwg ar y *Canterbury Buildings* ar y ffordd i borth yr hen adeilad; myned i fewn i'r *quadrangle*, lle y treuliodd

llawer o offeiriaid presennol Cymru oriau difyr difyr, a lle y gwelir heddyw, hwyrach, offeiriaid dewrion diofn Cymru Fydd, yn ymddifyrru, pawb yn ei gapan a'i gŵn; ymweled â'r ddarllenfa, lle y ceir papurau, ac wythnosolion, a misolion o bob math, ac y gwelir y blaidd a'r oen yn eu diwyg newyddiadurol yn cydorwedd yn heddychlawn ar y bwrdd; troi i fewn i'r neuadd, lle y bydd y myfyrwyr yn hogi eu crymanau ar gyfer y medi sydd i fod; neu droi, gyda pharch dyledus, i fewn i'r capel bychan, tlws gerllaw, lle yr addolir y Tad tragywyddol "ym mhrydferthwch sancteiddrwydd;" neu ddringo y grisiau i fyny i'r llyfr-gelloedd eang a chynhwysfawr, lle y trig ugeiniau o filoedd o gyfrolau, rhai o honynt yn rhyfeddol hen, llawer o honynt yn dra gwerthfawr, a'r oll o honynt mewn perffaith drefn; ond rhaid ymatal.

Y mae Coleg Dewi Sant bellach mewn oedran, ond nid ydyw yn heneiddio. Am dros hanner can mlynedd, dygodd bwys a gwres y dydd wrtho ei hun. Yn ystod yr amser hwnnw ymgasglodd traddodiadau am dano,—y traddodiadau sydd mor werthfawr yng ngolwg gwir garwr addysg,—gan ei brydferthu a'i gryfhau. Erbyn heddyw, y mae tri choleg arall wedi codi eu pennau ym mhlith y Cymry, a sonnir am ffurfio Prifysgol i Gymru rhyngddynt. Nid doeth fyddai efelychu cywion y gôg, a cheisio gwthio Coleg Dewi Sant allan o'r lle a berthyn yn naturiol iddo yn y teulu colegawl Cymreig. Gweddusach, a doethach o lawer, fyddai ei roesawu i'r cylch bychan teuluol; oblegid gellir bod yn berffaith sicr o hyn,—sef y ceid fod aelodau Bwrdd Coleg Dewi Sant yn ddynion a ymdrechai a'u holl egni i gydweithio ag ereill yn hwylus ac yn effeithiol, er "codi yr hen wlad yn ei hol."

Llanbedr. T. M. Evans.

Y SAIN A GOLLWYD.

(Cyfieithiad o *Lost Chord* Adelaide Proctor, gan y Parch. Ellis Edwards, M.A.)

Eisteddwn ryw ddydd wrth yr organ
A bron helbulus flin,
Diofal grwydrai 'mysedd
Dros bob iforaidd fin.

Nis gwn pa beth a chwareuwn,
Mae'r breuddwyd yn awr dan len,
Ond tarewais un cydsain o fiwsig
Fel'swn rhyw fawr Amen.

Gordôdd y cyfnos ddugoch
Fel diwedd seraff-salm.
Tawelodd dwymyn f'ysbryd
A swyn anhraethol falm.

Llonyddodd bob poen a thristwch,
Fel cariad yn concro croes;
'R oedd fel y peroraidd adsain
O dwrf ein haflafar oes.

Nyddodd bob dyrys ystyr
Yn un perffeithiaf hedd,
Ac fel ped o'i anfodd yn tewi
Y crynnodd yn ol i'w fedd.

Ceisiais, ond ofer y ccisiaf
Y cydsain nefol ri
A ddaeth o enaid yr organ
I mewn i'm henaid i.

Fe all mai yn llais yr Angel
Disglaerwyn a ddyrcha'r llen;—
Fe all mai 'n y nef yn unig
Y clywai'r fawreddog Amen.

Y GYMRAEG.

Wrth edrych yma a thraw drwy'r byd,
Rwy'n gofyn ambell waith,
Yng nghanol rhwysg a balchder ffol,—
"Ai marw fydd ein hiaith?"
Os yw'r cymylau duon hyn
Yn gwneyd fy mron yn brudd,
Yng ngoleu mellt yr hen Gymraeg
Caf drem ar Gymru fydd.

Dan wyntoedd gormes gwreiddio wnaeth
I'r dwfn,—ni syflir hi;
Er bod, yng ngauaf Cymru, 'n llwm,
Fe ddaeth ei gwanwyn fri;
Ac O! fel y blagura'n gain
Dan wenau haul ei dydd,
A bywyd byth o'i blodau wên
Yn awyr Cymru fydd.

Ei cheinciau gerddant yn ddi feth,—
A 'n gryfach, hoywach hi;
Pan fyddo Amser yn gwanhau,—
Cymraeg fydd yn ei bri.
Dymchwelir ieithoedd byd i'r bedd,—
Darfydda swn pob aeg,
Ond, ni chwyd Angau fyth ei gledd
I daro'r iaith Gymraeg.

Hen iaith y gân! ni dderfydd hon
Tra fyddo ser y nen;
Ac ar y ddaear, cyn bo hir,
Ar ieithoedd bydd yn ben.
Pwy fydd yn arwain côr y nef,
Pan gollo'r nos mewn dydd?
Gan seinio'n eglur yn Gymraeg,
Atebaf,—Cymry fydd.

Caer Gybi. Treflyn.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

Dyfedwr.—Ni welais Lyfr Du Tyddewi erioed. Yr unig beth wn i am dano ydyw yr hyn a welais mewn papur newydd ychydig amser yn ol. Hanes tiroedd a rhenti esgobaeth Tyddewi ydyw, wedi ei ysgrifennu yn 1516. Ychydig ddyddiau'n ol yr oedd ar werth,—wedi dod o ryw hen gudd-fan,—yn un o ystafelloedd arwerthu Llunden. Prynnwyd ef gan y llyfrwerthwr Bernard Quaritch i rywun nas gwn pwy, ac ym meddiant y rhywun hwnnw y mae Llyfr Du Tyddewi. Dywedir fod llawysgrif arall, o'r un dull, yn adrodd hanes Llanelwy, gydag ef.

C.—Dyma fel y clywais i'r hen driban, -

'R oedd bŵch yn nhroed y Wyddfa
Yn rhwym wrth aerwy pren,
A dau yn Ynys Enlli
Yn ymryson taro pen;
Wrth sŵn y ddau yn curo—
Mae hyn yn newydd chwith—
Fe syrthiodd Clochdy'r Bermo
Na chodwyd mo'no byth.

Morfudd.—Byddaf yn darllen y cylchgrawn i ferched y soniwch am dano. Byddai gennyf unwaith barch mawr i'r olygyddes, oherwydd duwiolfrydedd ei hatebion i ohebwyr. Ond, wrth ateb rhyw enethig oedd wedi ystaenio ei gwisg, dywedodd fod yn anodd ei symud, a chynghorodd yr enethig i'w guddio trwy ail drefnu plygion y wisg. Yr wyf yn darllen y papur o hyd, ond y mae gennyf amheuaeth cryf am dduwioldeb yr olygyddes.

Helnant.—Nis gwn am un dref yng Nghymru ac enwau ei hystrydcedd wedi eu rhoddi ar ei muriau yn Gymraeg. Nid ydyw rhai'r Bala yn Gymraeg, ysywaeth. "High Street" ydyw'r Stryd Fawr. "Tegid Street" ydyw'r Stryd Fach. "Plasey Street" ydyw'r Plase. Gobeithio y cyfyd to mwy goleuedig a gwladgarol, ac y gwelir hen enwau Cymreig ar holl ystrydoedd Cymru. Clywais fod "Trafalgar Square" yn Llandderfel; nis gallaf esbonio'r wanc i ddefnyddio geiriau Seisnig fel "Chapel Terrace" a "Station Road" mewn lleoedd hollol Gymreig, onid esboniaf yn null yr hen groniclwyr,—"trwy gynhyrfiad yr Un Drwg."

Ymsongar.—Treiwch am gader, neu ysgrifennwch draethawd i un o'r cylchgronau ar destun athronyddol. Cenwch ar fesurau caethion, os canu; ac os ysgrifennu, ysgrifennwch fel na fedr neb ddeall eich erthygl,—os na fyddwch yn ei deall eich hun, goreu yn y byd. I godi eich hun ym meddwl pobl oreu eich ardal rhaid i chwi wneyd peth llawer caletach,—byw yn ddiymhongar a gwneyd daioni'n ddistaw.

Fisteddfodwr.—Testynau Eisteddfod Chicago ydyw traethawd Seisnig ar ran y Celt yng nghynnydd Lloegr (Beirniaid,—Prof. Rhys a'r Anrhyd. Ellis H. Roberts; traethawd Cymraeg neu Saesneg ar Gymry dysgedig (Prof. Rhys a'r Prof. Ll. I. Evans); traethawd ar Gymry'r Unol Daleithiau (Dr. Roberts a'r Anrhyd. T. L. James); Hanes yr Eisteddfod (Elfed Lewis ac O. M. Edwards); Llawlyfr Llenyddiaeth Gymreigo 1560 (Lleurwg ac O. M. Edwards); Chwedl Saesneg am Gymru (Beriah G. Evans a'r Parch. J Ll. Jones) "Iesu o Nasareth" yw testun y gader. Yr ysgrifennydd yw W. Apmadoc, P.O. Drawer 138, Chicago, Ill. U.S.A.

Garneddwen. — Diolch Y testun yn unig sydd ar ffordd cyhoeddi

J.S.—Nis gwn o ble dacth y chwedl fod Syr John Puleston yn meddwl byw yng nghastell Caernarfon, os nad o ddychymyg rhyw ohebydd papur newydd. Nid yw'r castell yn eiddo i Syr John ond am ei fywyd, ac ynfyd o beth fuasai mynd i'r gost enfawr o gyfaddasu'r hen gastell at fyw ynddo. Ni synnwn na fu ym mryd Syr John alw ar fonheddigion y wlad i wneyd y castell yn balas brenhinol, gan dybied y byddai hynny'n boblogaidd. Bu Syr John yn yr Amerig, ac y mae wedi ei drwytho â'r edmygedd o deitlau a gradd sydd mor amlwg yng nghymeriad yr Ianci. Eithr camgymeriad ydyw meddwl fod pob Cymro yr un fath.

W. E. J.—Anfonais at y gŵr a nodwch am air o gyngor pan yn dechreu gwaith golygydd. Cefais ateb byr oddiwrtho ar gerdyn post,—"Gofalwch am fasged."

Myfyriwr, E.L., &c —Yr wyf yn disgwyl y bydd y gyfrol gyntaf o Gymru yn y farchnad cyn hir. Y mae'r rhifynnau i gyd wedi eu hail argraffu ond rhifyn 2 a rhifyn 3; ac y mae yr argraffwyr yn gweithio ar y rhai hynny.

Llyr Foel —Bydd y darn canlynol o lythyr golygydd y *Cennad Hedd* yn well ateb i'ch cwestiwn na dim fedraf fi ddweyd,—

"Yn 1845 gwelwn Cawrdaf bob dydd yng Nghaerfyrddin—dyn main, tal, teneu, llwyd ydoedd—argraffydd yn swyddfa Jos. Thomas Jones, yn cyfansoddi a chysodi Hanes y Nef a'r Ddaear.

J. Bowen Jones."

Mab y Bala.—Dywed W. Morris Thomas, Ty Gwalia, Caerleon,—"Yr wyf yn parotoi map o Gymru, map mawr dwy-ieithog, hanesyddol. Y mae'r gwaith bron a'i gwblhau."

Hen Efrydydd ac M.A.—Nid ydyw'r hyn a ddywedir yn y papur newydd y cyfeiriwch ato am Bwyllgor Coleg Aberystwyth a dewis Ysgrifennydd ond pentwr o anwireddau. Y mae'n resyn fod neb yn ddigon maleisus i ysgrifennu'r fath ffolineb, ac y mae'n resyn fod rhai goeliant ysgriblwyr anghyfrifol o flaen y dynion sydd wedi aberthu cymaint o amser ac arian dros y coleg.

E. E.—Y mae'r Parch. I Jones Williams, Llandderfel, wedi ffurfio cymdeithas i ddarllen y Beibl yn rhcolaidd drwyddo, ac wedi cyhoeddi llyfryn bychan o'r enw "Bara Beunyddiol" at yr amcan hwnnw.

Ab Llenor.—Ni fedraf gyhoeddi adolygiadau parod, rhaid iddynt gael cu hysgrifennu gan rywun y mae gennyf ffydd yn ei onestrwydd a'i farn.

Hen Law.—Y mae'r llinell ym marwnad Goronwy Owen am Lewis Morris, Mon.

THERSITES AC ODYSSEUS.

GWAELDDYN A GWIWDDŶN YN OL YR ILIAD.

LLYFR II. 211—277.

Er mwyn y neb, heb wybod nemawr neu ddim am gân Homer, a ddichon ddarllen y dernyn canlynol, dyledus yw ychydig eiriau o ragymadrodd, modd y bo eglurach iddo achosiad a chysylltiadau y digwyddiad a ddesgrifia'r bardd.

Yn y llyfr cyntaf o'r Iliad (fel y gelwir cerdd Homer), darlunir yr ysgarmes gethin a gymerodd le rhwng Agamemnon, pen-llywydd y fyddin Roegaidd o flaen Caerdroia, ag Achiles, un o'i gwroniaid enwocaf. Wedi'r ymryson ffyrnig hwn ymgiliodd Achiles o'r fyddin, mewn soriant dybryd, gan adael i r rhelyw wneyd y goreu a fedrent heb help y dewraf filwr. Oherwydd y sarhad a roddasid ar Achiles, penderfynodd Zeus,—Jupiter y Rhufeiniaid: Iau, yn Gymraeg: prif dduw y gyfundrefn Homeraidd,—flino a chystuddio y Groegiaid er anrhydedd i Achiles, ac er peri fod ei absenoldeb yn fwy amlwg a phoenus. I'r dyben hwn enfyn Zeus weledigaeth dwyllodrus at Agamemnon i'w gymell i arwain y fyddin i ryfel Yntau, mewn blys cymeryd Troia heb gymorth y prif filwr, ac eto yn ofni mai digalon a fyddai'r fyddin hebddo, a gynlluniodd wneuthur prawf o'u teimladau drwy ystryw. Geilw y tywysogion i gyngor, ac wedi adrodd iddynt ei freuddwyd, mynega iddynt ei fwriad i osod ger bron y milwyr mai gwell fyddai dychwelyd adref, ac ar yr un pryd gofyn gan y llywyddion cynnulledig ofalu eu rhwystro, os digwyddant gydsynio â'r cynhygiad. Yna wedi iddo gasglu'r lluoedd yng nghyd, a chymeradwyo dychweliad i Roeg wele, cydsynio a wnaethant ag un llef; "hyd y nefoedd y cyrhaeddodd y floedd, a hwy yn dyheu am gartref." Ar hyn ymgymerodd Odysseus ag atal y dorf, a'u tawelu. Awgrymedd i benaethiaid, a gwyr o fri, fod bwriad nas deallent yng nghudd yng ngeiriau'r brenin. A phan ddeuai ar draws gŵr cyffredin yn codi bloedd,—"Eiste ngwas i," meddai wrtho, a phwmp iddo'r un pryd â'i lawffon,—"bydd lonydd, a gwrando ar dy well. Be gwerth i ryfel yw llesgyn fel ti, sy heb ei gyfri mewn na chad na chyngor? Ni allwn ni oll fod yn frenhinoedd; nid da llywodraeth llawer. Boed un yn ben, un yn frenin, i'r hwn y dyfarnodd Zeus y deyrnwialen a'i rhagorfreintiau, modd â hwynt y breniniaetho." (Gyda llaw, gwelir fod athrawiaeth y *divine right* yn bur hen). Yn y cyswllt hwn y tyr i mewn y "twrf tramawr" a bair Thersites, *blackguard* y fyddin. A diau y sylwa'r darllennydd nad oes hyd heddyw nemawr gyfnewidiad ym mhrif nodweddion cymeriad y rhywogaeth, er fod, hwyrach, yn agos i dair mil o flynyddoedd er pan chwareuodd Thersites, druan, ei ran ar y ddaear.

Ym mhellach ni raid ond nodi y pethau hyn. Odysseus,—Ulysses y Lladin,—oedd un o wroniaid y Groegiaid, hynod am ei gyfrwysder a'i ffraethineb. Yr un yw Ilion a Throia neu Gaerdroia. Achaia ac Achaiaid sydd enwau ereill ar Roeg a Groegiaid. Atreus oedd enw tad Agamemnon, am hynny y gelwir y brenin weithiau Atreides, neu Ab Atreus. Yr oedd Agamemnon wedi dwyn oddiar Achiles gaethes landeg a syrthiasai i'w ran o ysbail y rhyfel.

HWY ar hyn a eisteddasant bawb yn llonydd yn eu lle,
Ond Thersites, daerwr didaw, para i glochdar wnai efe.
Hyddysg oedd yng ngeiriau ofer iaith ansyber, a'i hoff swydd
Oedd gwag ddadleu â brenhinoedd yn ddigwilydd yn eu gŵydd,—
Clebran rhywbeth dybiai'n debyg o gynhyrfu chwerthin rhwydd.
O'r holl dyrfa ddaeth i Droia hwn oedd hagra' o gorff i gyd,—
Coesfwaog, cloff o unglun; a dwy ysgwydd gam ynghyd
Ymgrebachent draws ei gulfron, ac oddarnynt dyrchai blaen
Penglog pigfain, a rhyw wlanach arno dyfai'n deneu daen.
Casddyn pawb, ond gan Odysseus ac Achiles casaf oedd;
Hwy fynychaf a ddifenwai, ond â'i eger gleger g'oedd
'Nawr goganai Agamemnon deyrn, ac am yr hyllgamp hon
Yr Achaiaid ato ddalient ŵg diderfyn dan eu bron.
Yntau, sennu Agamemnon wnelai, gan ysgego'n fawr,—
"Beth yw'r beio hyn, Atreides, beth sy'n eisiau arnat 'nawr?
Llawn o bres yw'th bebyll, gwragedd ddigon gefaist gennym Ni;
Pigion pob rhyw dref gymerwn Ni Achaiaid, roir i ti.
Ai am aur ychwaneg eto, aur rhyw wr o Droia, mae'th
Awydd,—pridwerth plentyn, odid, mi neu arall gipia'n gaeth?
Ai maldodi meinir newydd eto, fynnit ei fwynhau,
A'i chadw'n degan it' dy hunan lle na chaffo neb neshau?
Nid yw'n addas òd i urddas mawr lywiawdwr fel dy hun
Beri i fwynion feib Achaia gerdded gwaeau'n llesg eu llun.
Wŷr meddalion, warth dynoliaeth, nid gwrywod, menywod mwy!
Adre â ni, yn llu a llongau! gadwch hwn, heb oedi'n hwy,
Yma yn Nhroia, i gnoi ei gil ar wobrau, nes y dysgo'r dyn
A ym Ni ryw nodded, hawyr! iddo ef, ai peidio, p'un!

Hwn roes achlod i'n Hachiles, can amgenach gŵr nag ef,
Dwyn ei wobrwy wnaeth y treisydd â deheulaw gormes gref.
Rhaid nad oes i fron Achiles chwerwedd; na, diofal yw,
Neu, Atreides, byth ond hynny, ni ddirmygit undyn byw!"

Felly dwedodd, a goganodd Agamemnon, llyw y llu;
Ond ar drawiad, dwyf Odysseus neidiodd ar ei draed yn hy,
Ac, â chilwg, ymosodiodd arno mewn ymadrodd du,—
"Taw, Thersites, gecryn digarc, os parablwr pêr ei lais,
Dadleu d'hunan â brenhinoedd, na foed gennyt byth yn gais.
Waith, fy hunan, credu'r ydwyf, diau nid oes ungwr gwaeth
Na thydi o amgylch Ilion, o'r holl ddynion yma ddaeth.
Felly gwell it' gadw brenin o dy gêg, a gochel iaith
Sen ddisynwyr at uchelwyr, â chil llygad ar y daith
Tuag adref. Ac ni wyddom pa ddiweddglo'n aros sydd
I'n helyntion, a'n dychweliad, p'un ai gwych ai gwael a fydd.
Tithau eisteddi a gogani Agamemnon, herwydd cael
O fugeilydd pobl Achaia gan ei ddewrion roddion hael;
Estyn tafod 'rwyt, a dannod i dy deyrn ei deilwng dâl.
Ond clyw unpeth, a chyflawnir, cofia, 'n gywir fel 'rwy'n gweyd,—
Os y'th ddaliaf byth ar ddyli fel yn awr wyt wedi wneyd,
Pen ar ysgwydd hen Odysseus nac arosed awr yn hwy,
Ac yn dad i Delemachos, cofier, mi na alwer mwy,
Oni'th gymraf a'th ddihatru o'r hyn oll am danat sydd,
Hugan, cochl, pob cadochyn guddia'th warth o oleu dydd;
A dy ddanfon dithau'n gwawchain tua'r buain longau draw,
Wedi'th ddirmygedig guro ymaith â diarbed law."

Dwedodd, ac â'i lawffon arno, gefn ac ysgwydd, llachio wnaeth,
Nes ymgamai 'nol dan wingo, a'r brwd ddeigryn allan ddaeth.
Ac o'i gefn, dan wab y lawffon eurliw, gwaedglais chwyddai'n chwim;
Yntau eisteddodd, a dychrynodd, ac o dan arteithiau llym
Hurtaidd edrych, lwfryn llipa, wnai, a sychu'r llygad llawn,
A'r holl fyddin, er eu gofid, chwarddent yn bleserus iawn.
A chan edrych ar ei gymrawd, dyma ddwedai aml un,—
"Hawyr anwyl! deng mil gorchwyl wnaeth Odysseus, doethaf dyn,
Blaenor mewn cynghorion cywrain, a rheolwr rhyfel blin;
Ond o'i lwydd yng ngŵydd Achaiaid dyma'i bennaf gamp yn awr,
Dal athrodydd dwl tafodrydd, a rhoi'i fythol lol i lawr;
Nid ar frys, yn ddilys, eilwaith gyr ei galon ddewr y gwas
I bentyrru ar frenhinoedd ymadroddion cabledd cas."

Abertawe. R. Morris Lewis.

MYNWENT Y CYPRESWYDD.

Nid oes lecyn mwy hoff yn Lisbon na Mynwent y Cypreswydd. Prin y cofir mai mangre'r marw ydyw, er ei thaweled, oherwydd fod y blodau a'r llwyni mor orlawn o fywyd,—y llwyni aroglus o rosynau, y myrtwydd, yr eiddew, a'r cypreswydd meinion syth sy'n pwyntio mor ddiysgog tua'r nefoedd. Yn y fynwent hon gorwedd dau enwog o'n hynysoedd ni,—heblaw llu o rai di-enw, — Dr. Philip Doddridge a Henry Fielding. Diwinydd oedd Dr. Doddridge, un a'i fywyd a'i eiriau yn nefolaidd; nofelydd oedd Fielding, yn darlunio'r pethau brofodd yn adeg pechod a dioddef.

AR GOF!

Erys ol pob cwch am byth yn y cynhyrfiadau roddodd i donnau'r môr. Cauir y rhych a wna, mae'n wir, gan donnau'n cau at eu gilydd y tu ol iddo; ond tyn y rhain donnau ehangach ar eu holau, a'r rheini donnau ehangach wedyn, ac felly hyd fyth.

Llyfgell anferth ydyw'r awyr, yn yr hon y mae'r oll ddywedodd dyn, ie a'r oll sibrydodd, wedi ei groniclo. Yno y mae ocheneidiau cyntaf y ddynoliaeth a'i hocheneidau diweddaraf yn gymysgedig, addunedau fil wedi eu torri, addewidion di-rif heb eu cyflawni,—y mae'r awyr yn tystio mor gyfnewidiol ydyw ewyllys dyn.—*Babbage.*

TUDALEN Y GOLYGYDD.

SYRTHIODD gwall pwysig i dôn y Parch. Ellis Edwards yn y rhifyn diweddaf. Yn nechre yr ail adran, yn lle,—

|d :— |l$_1$:t$_1$ |d :l$_1$ |s :— ||

dylasai fod,—

|d :— |l$_1$:t$_1$ |d :l$_1$ |r :— ||

Yn hanes ymweliad â Chefn Brith, rhoddir enw'r afon Dulais ar yr afon Irfon. Yr Irfon groesid yn Llan Gamarch, ac yno y daw y Camarch iddi. Dywed y Parch. J. Bowen-Jones mai Aber Camarch ddylai enw'r pentref fod. Tybia hefyd mai Camach ddylai enw'r afon fod,—fel Cwm*ach*au, Llech*ach*. Tal*ach*-ddu, Clyd*ach*, Llanarul*ach*,—oll yn Sir Frycheiniog. Dyna Clarach hefyd,—*clara aqua*.

Yr wyf yn cael llythyrau beunydd i'm holi am ramadeg Cymraeg yn esbonio hanes yr iaith, ac am eiriadur yn rhoddi tarddiad yn ogystal ag ystyr enwau Cymreig. Y mae gennym golegau cenedlaethol, ac athrawon Cymraeg. Yr wyf yn cyfeirio'r gofyniadau hyn at yr athrawon hynny. Hwyrach yr atebant nad oes ganddynt hwy amser i astudio Cymraeg, o herwydd eu bod yn gorfod gwario eu hamser i ddysgu elfennau rhyw wybodaethau ereill, ac mai dyna y rheswm paham na wnant ddim i helpu bechgyn sydd a'u bryd ar astudio Cymraeg. Nid darlithiau sydd arnom eisiau gan ein hathrawon Cymraeg,—ond, yn gyntaf peth, Gramadeg Hanesyddol a Geiriadur hylaw yn cynnwys tarddiadau.

"Dymunaf," ebe'r Parch. Henry Hughes, Bryncir, "gywiro gwall bychan a syrthiodd i'r erthygl ar deulu Madryn yn y rhifyn diweddaf. Yn lle Lady Neave, darllenner Lady Reade. Ac nid oes berthynas, feddyliwn, rhwng Lady Reade a theulu Llys Dulas."

Y mae rhai yn digio wrthyf am eu hateb ar gerdyn post. Y mae'n ddrwg iawn gennyf am hynny. Ond y mae'n resyn peidio defnyddio un o bethau mwyaf hylaw yr oes. Ai am ei fod yn beth newydd y dirmygir ef? Pan ddaeth *envelopes* i gymeryd lle'r sel, dywedai pobl,—"Na anfonwch eich poeri atom ni." A phan ddaeth y cerdyn post,—diolch am dano,—dyma wrthwynebiad iddo yntau.

Y mae'n dda gennyf hysbysu y bydd Cymru'n drysorfa werthfawr o lawysgrifau a llythyrau nad ydynt eto wedi gweled golau dydd. Yn y rhifyn nesaf bydd llythyrau Rhisiart Morus, wedi eu cael trwy garedigrwydd Myrddin Fardd. Yr wyf yn diolch am bethau gwerthfawr ereill i Henri Myllin, y Parch. David Rees, Carneddog, ac Eifion Wyn. Cymeraf y gofal mwyaf gyda phob lawysgrif fenthycir i mi.

Ysgrifenna Lleygwr,—

"Pan yn fachgennyn ieuanc ymgymerais â chasglu rhestr o gyhoeddiadau cyfnodol Cymru, amser eu cychwyniad, a'r lleoedd y cyhoeddid hwy. Anfonais y rhestr, wedi i mi ei gwneyd mor gyflawn ag y medrwn, i'r Canon Silvan Evans, yr hwn ar y pryd oedd yn golygu y *Brython*. Gan fy mod wedi methu cael o hyd i amser cychwyniad rhai o'r cyhoeddiadau a gynhwysid yn y rhestr, anfonodd y Canon hi i Wilym Lleyn, a chyhoeddwyd hi yn y *Brython* am Awst, 1859, yn hollol fel yr anfonwyd hi gennyf fi, gyda'r eithriad o ychwanegiad gan Gwilym Lleyn o enwau tri neu bedwar, efallai, o gyhoeddiadau, ac hefyd, rai ychwanegiadau a chyfnewidiadau yn y dyddiadau. Ym mysg cyfnewidiadau eraill a wnaed ganddo, yr oedd blwyddyn cychwyniad yr *Eurgrawn Wesleyaidd*. Yr oedd yn fy meddiant, pan yn ysgrifennu y rhestr, un rhifyn o'r *Eurgrawn*, yr hwn oedd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar yn y flwyddyn 1809, ac wrth gyfrif yn ol oddiwrth y rhifyn hwnnw, yr oeddwn yn cael ei fod wedi ei gychwyn yn nechreu y flwyddyn a nodwyd, a'r flwyddyn honno—1809—oedd ar ei gyfer yn y rhestr wreiddiol; ond gan i Wilym Lleyn gyfnewid y flwyddyn i 1806, a chyda hynny, symud lle yr *Eurgrawn* yn y rhestr fel ag i ddilyn *Greal* Caernarfon (1800), tybiais y gallai mai yn afreolaidd, yn gyffelyb i hen *Drysorfa* Mr. Charles a Thomas Jones, y cyhoeddid ef ar y cyntaf, ac felly, fy mod i wedi cael fy nghamarwain wrth gyfrif y rhifynnau yn fisol. Yr oedd Gwilym Lleyn, heblaw ei fod yn awdurdod mor uchel ar Lyfryddiaeth Gymreig, wedi bod yn golygu yr *Eurgrawn*, ac os nad wyf yn camgofio, efe oedd ei olygydd yr adeg honno. Pa fodd bynnag, gan fod y gyfrol gyntaf o'r *Eurgrawn* ym meddiant Tegwyn, ac mai 1809 yw y flwyddyn sydd yn argraffedig ar y rhifyn cyntaf, rhaid fod fy nghyfrifiad i yn aros yn gywir, a rhaid hefyd fod yr hen lyfronydd enwog, am unwaith, wedi gwneyd camgymeriad.

Gan mai y rhestr y cyfeiriais ati uchod ydyw y gyntaf a gasglwyd, hyd ag yr wyf fi yn gwybod, o gyhoeddiadau cyfnodol Cymru, a'ch bod chwi yn bwriadu cyhoeddi o fis i fis hanes llenyddiaeth gyfnodol Gymreig yng Nghymru, ai amrhiodol fyddai rhoddi lle iddi yn un o'ch rhifynau nesaf? Os mai priodol, yn ol eich barn chwi, fydd hynny, yr wyf yn anfon i chwi gopi o'r rhestr, gwnewch chwithau fel y gweloch yn oreu â hi."

Cyhoeddir y rhestr yn y rhifyn nesaf. Yr wyf yn hyderu y cawn gymorth llenorion Cymreig i wneyd y rhestr yn gyflawn ac yn berffaith gywir.

Oherwydd prinder lle, yr wyf yn gorfod gadael hyd y rhifyn nesaf,—y Diwygiad yn Ffrainc, Ymdaith yn Annwn, Lle Ofergoeledd mewn Hanes, ac amryw erthyglau ereill y bwriadesid iddynt ymddangos yn y rhifyn hwn. Mae mewn llaw hefyd,—Hen Lyfr Plwy, Chwedlau'r Odyn, Llyfr y Seiat, O Drewylfra i Fangor, Pen y Gogarth, heblaw'r rhai y cydnabyddwyd eu derbyniad eisoes.

"DYMA GYMRU FYDD."

Y geiriau gan JOHN M. HOWEL, DOH F. Aber Aeron.

Y gerddoriaeth gan T. PRICE. G. & L., Merthyr.



I.

GYMRU anwyl, mae dy swynion
Wedi ennyn dawn dy feibion
A gwladgarwch dy forwynion
I'th anwylo di;
Draw o bellder y gorffennol,
'Mlaen i obaith y dyfodol,
Cyfyd gweddi cenedl unol,—
"Cymru fo mewn bri."
Awn fel llu banerog,
Awn fel byddin arfog,
Gydag arfau dysg a moes
Meddiannwn fro odidog
Sydd yn dawel heb ryfeloedd,
Sydd yn iach, i dyfu rhinoedd
Tirf ac iraidd, yn oes oesoedd,
Dyma'n Cymru ni.

II.

Dawnsia nwyf dihalog forau
Draw ar gymyl gwyn dy wybrau;
Deffry myrdd o ieuainc leisiau
I groesawu dydd;
Y mae adsain o'r mynyddoedd,
Y mae murmur o'r dyffrynnoedd,
Yn ymdonni tua'r nefoedd,—
Cymru ddaw yn rhydd
Awn fel llu banerog,
Awn fel byddin arfog,
Gydag arfau dysg a moes
Meddiannwn fro odidog
Sydd yn dawel heb ryfeloedd,
Sydd yn iach, i dyfu rhinoedd
Tirf ac iraidd, yn oes oesoedd,
Dyma Gymru Fydd.

ROBERT OWEN, NEFYN.

GWYL flynyddol plant yr Ysgol Sul y dyddiau hyn ydyw myned ar daith gyda'r tren, a chael chwareu mewn cae; ac os ceir tê a bara brith yn y fargen, goreu oll. Pan oeddwn i yn fachgen,—wel, y mae mwy o flynyddoedd er hynny nag y mae yn ddymunol cofio,—yr wyl fawr flynyddol y byddem yn edrych ymlaen ati fyddai cael cyfarfod yn un o gapelau mawr y dref yma (Liverpool) ar ddydd Gwener y Groglith, i gael ein holi gan Robert Owen, Nefyn. Un heb ei ail am holi plant ydoedd. Gresyn fod hanes bywyd y fath un, yr hwn a wnaeth y fath argraff ar feddyliau plant Cymru yn yr oes o'r blaen, heb ei ysgrifennu. Gadewch i mi geisio ei ddesgrifio fel y mae yr adgof am dano yn ymrithio yn awr o flaen fy meddwl.

Edrychwch ar y plant yna sydd yn llenwi llawr y capel mawr yn y dref a enwyd. Mae y bechgyn ar un tu i lawr y capel a'r genethod ar y tu arall. Mae llofft y capel yn orlawn o rai mewn oed, — yr athrawon a rhieni y plant, a gwrandawyr ereill; pob un o honynt yn disgwyl yn awyddus am y wledd sydd yn eu haros. Dacw Robert Owen yn codi ar fainc y sêt fawr. Mae yn edrych yn fywiog ar y plant ar y llawr ac ar y rhai sydd ar y llofft; ac y mae ei lygad treiddgar yn cymeryd yr holl olygfa i mewn ar unwaith. Y mae yn clecian ei ddwylaw yn eu gilydd yn sydyn, ac y mae ar unwaith yn cael sylw yr holl blant, ac nid yw yn ei golli o'r foment honno hyd y diwedd. Fe wyddai i'r dim sut i ennill sylw, a sut i'w gadw ar ol ei ennill. Cyn dechreu holi'r plant arferai roi anerchiad byr, hwyrach mai desgrifiad o wahanol fathau o fechgyn, y diwyd a'r diog, y twt a'r afler, yr un geirwir a'r celwyddog, a gwnelai hyn mewn dull mor fyw o flaen y meddwl, fel y byddem ni y plant yn adnabod y darlun ar unwaith. Nid oedd eisiau galw am drefn. Yr oeddym yn llygad ac yn glust i gyd. Y mae yn clepian ei ddwylaw drachefn, y mae yn dechreu ar ei waith o holi gyda'r geiriau,—"Yrwan y mhlant i." Yna y mae yn ymsythu, yn codi ei ben i fyny, ac yn gwenu yn siriol; ac y mae yr holl blant ar unwaith yn deall fod arno eisiau iddynt osod eu hunain yn yr un ystum. Y maent yn gwneyd, bob un o honynt, ac yn gwylied pob ysgogiad o eiddo yr holydd, Yna y mae yn dechreu ar ei bwnc ar unwaith. Yr wyf yn addef nad oedd llawer o wybodaeth newydd yn cael ei gyfrannu, nid oedd ond yn dwyn allan yr hyn a wyddai y plant eisoes; ond yr oedd yno wir *education*, yn ol ystyr lythrennol y gair; ac nid oes gennyf un amheuaeth nad oedd yno argraffiadau crefyddol yn cael eu gwneyd ar feddyliau y plant o'r fath oreu.

Yr wyf yn cofio fod y plant, ar un achlysur, er mwyn profi ansicrwydd oes dyn, wedi adrodd iddo yr adnod,—"Am hynny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." Y fath ddefnydd anghydmarol a wnaeth efe o'r adnod a roisant iddo!

Cymerodd yr adnod, a dywedodd yn y modd mwyaf difrifol,—

"Oh mhlant anwyl i, dwedwch yr adnod yna eto, fel y gall y rhai sydd ar y llofft ei chlywed, dwedwch hi yn uchel, gydach gilydd."

Yr oeddem ni y plant, wrth gwrs, yn teimlo ein bod yn llefaru wrth ein hathrawon a'n rhieni, a dywedasom yr adnod yn araf ac uchel, gan gadw gyda'n gilydd fel un gŵr.

"Dwedwch yr adnod eto, fy mhlant anwyl i," gofynnai Robert Owen, mewn llais uchel, yn crynnu gan deimlad, ac adroddasom yr adnod iddo drachefn, gyda dylanwad anghyffredin.

"A raid i ni oll farw?" gwaeddai yr holydd, mewn llais cyffrous.

"Wedi cael yr ateb difrifol "Rhaid," gofynnai i ni a wyddem pa bryd. Na wyddem. A wyddem ni pa ddiwrnod? Na wyddem. A wyddem ni pa awr, pa funud? Na wyddem. A allem ni farw cyn myned o'r capel? Gallem. Ac yna, mewn llais mwy cyffrous fyth gwaeddai,—

"Dwedwch yr adnod eto mhlant i, fel y clywo pobl y llofft yna." Ac yna cadwai ni, a'i law, i gyd-ddweyd yr adnod gyda'n gilydd, —"Am hynny byddwch chwithau barod, canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." Yr oedd difrifoldeb ar bob gwedd erbyn hyn. Ond mynnai Robert Owen wasgu y wers yn nes adref. Pwyntiai â'i fys at rai o'r gwŷr ieuainc yn y llofft a gofynnai,—

"Wyr y llanciau, acw, mhlant i, pa bryd y bydda' nhw farw?"

"Na wyddant."

"A allan' nhw farw y flwyddyn yma?"

"Gallant."

"Yforu?"

"Gallant."

"Cyn mynd o'r capel yma?"

"Gallant."

Yna pwyntiai at rai o'r merched ieuainc yn yr un modd a gofynnai gyffelyb gwestiynau mewn perthynas iddynt hwy. Ar ol pob cyfeiriad dwedai yn ddifrifol,—"Dywedwch yr adnod wrthynt fy mhlant anwyl i," yr hyn a wnaem gyda difrifoldeb adnewyddol.

Yn y diwedd gyrrai y wers adref gyda'r cwestiwn,—

"A raid i *chwi* farw mhlant i?" Ac yna gwasgai arnom ansicrwydd y pa bryd gyda'r un difrifoldeb ag o'r blaen trwy ofyn yr un cwestiynau. A phan y gofynnid i ni adrodd yr adnod yn rhybudd i ni ein hunain, yr oeddem wedi ein difrifoli i'r fath raddau nes yr oeddem yn adrodd yr adnod gyda thôn doddedig, gan fod rhai o honom wedi ein gorchfygu yn lân gan ein teimlad. Yr wyf yn cofio fy mod i yn teimlo fod y byd arall megis wedi ymagor o fy mlaen. Yr oedd Robert Owen ei hunan wedi ei gyffroi hyd waelod ei galon; yr oedd ei edrychiad difrifol, a'i lais crynedig, yn adlewyrchu dylanwad yn ol arnom, ac yr oeddem yn cael ein meddiannu â'r un teimlad dwys ag oedd ym mynwes yr holydd. Yr oedd y dagrau yn treiglo i lawr llawer grudd, ac yr oedd pawb, y plant ar y llawr a'r rhai mewn oed ar y llofft, wedi eu llwyr orchfygu gan deimlad o ddifrifoldeb. Yng nghanol y cyfan, terfynai Robert Owen yn sydyn, a gofynnai i ni ganu pennill, hen bennill anwyl ar don leddf hwyrach. A'r fath ganu! O ie, yr oeddem ni y plant yn mwynhau y tonau lleddf hynny yn fawr. Dweded ein cymydogion y Saeson beth a fynnont, yr wyf yn sicrhau y gall plant ganu, ie a mwynhau tonau lleddf, os byddant o'r iawn ryw. Gallant ar adegau,—

Wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn

fel rhai mewn oed. O gallant, yn siwr.

Yr wyf yn cofio Robert Owen un tro yn holi y plant ar ddyddiau olaf ein Gwaredwr. Gofynnodd nifer o gwestiynau arweiniol yn gyflym, y naill ar ol y llall, ac arweiniodd ni trwy Ardd Gethsemane, y bradychiad, y prawf o flaen yr Archoffeiriad, Pilat, a Herod, y croeshoeliad, ac yn ddiweddaf oll y crymu'r pen a marwolaeth felldigedig y groes. Ac O mor drist y teimlem oll, fel yr oeddem fel hyn yn myned dros amgylchiadau cynefin y dioddefaint. Yr oedd llygaid gwlybion a llais crynedig yr holydd yn effeithio yn ddwys arnom i gyd.

"Ac fe fu *farw*, ai do, mhlant i?"

"Do."

"Fe fu ein Hiesu bendigedig, ein Hiesu anwyl *farw*, ai do mhlant i?" gan ail ofyn y cwestiwn fel hyn er mwyn ei argraffu yn fwy dwys ar ein meddyliau.

"Do."

"Fe fu yr hwn a gyfododd ferch Jairus o farw yn fyw, farw ei hun ai do, mhlant i?"

"Do."

"Fe fu yr hwn a adgyfododd Lasarus o'r bedd, *farw ei hun*, ai do?"

"Do."

"O ein Ceidwad bendigedig, yr hwn a aeth o amgylch gan wneuthur daioni, fe fu farw ei hun ai do, fy mhlant i?"

"Do."

Wedi hyn fe safodd Robert Owen fel un wedi ei orchfygu gan ei deimladau, rhoes ei ddau benelin ar astell y pulpud, a chuddiai ei wyneb â'i ddwylaw, ac ymddanghosai i ni fel un yn wylo yn dost, ac yr oeddem ni y plant yn barod i dorri allan i wylo mewn cydymdeimlad âg ef. Ar ol distawrwydd am beth amser, cododd ei ben i fyny, estynnodd ei gôt a i het, a dechreuodd gerdded ymaith yn araf, gan ddweyd yn uchel mewn tôn wylofus,—

"Wel, wel, fy mhlant anwyl i, waeth i ni fynd adref, mae'n Hiesu anwyl ni wedi marw, ydyw y mae *wedi marw!*"

Yr oeddem ni y plant am foment wedi ein llwyr orchfygu, yr oedd y cyfan yn cael ei actio mor berffaith. Ond yn yr adeg yma, clywid llais gwannaidd geneth fechan yn adrodd yr adnod, yn grynedig, megis rhwng ei dagrau,—"*Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddanghosodd i Simon.*"

Yr oedd yr effaith yn drydanol. Troes yr holydd yn ol, yn sydyn, a dywedai,—

"Beth 'dach chi'n ddweyd, fy ngeneth anwyl i?"

"Ar hyn gwaeddem oll,—

"Mae'r Iesu wedi codi."

"Wedi codi!"

"Ydyw, wedi codi. Fe gododd y trydydd dydd."

"Onid oedd o wedi marw?"

"Oedd."

"Oni chladdwyd ef?"

"Do."

"Ac ydach chi'n deyd ei fod wedi codi?"

"Do."

"Welodd rhyw un ef?"

"Do."

"'Does dim dowt ei fod wedi codi?"

"Nac oes ddim."

Yr oedd clywed Robert Owen yn gwaeddi "O diolch," a "Gogoniant" yn codi ein traed oddiar y llawr ymron. Aeth a ni wedi hynny trwy hanes yr Adgyfodiad, y tystion, yr esgyniad, a'r teyrnasiad gogoneddus ar ddeheulaw y Tad, ac yr oeddem i gyd, ar y llawr ac yn y llofft, ymron wedi colli arnom ein hunain.

Ie, dyn heb ei ail oedd Robert Owen am holi'r plant. Nid llawer o wybodaeth roddai, mae'n rhaid addef, ond yr oedd yn bywiogi ein cyneddfau, yn rhoi syniad mwy clir i ni am y gwirioneddau a wyddem eisoes, ac yr oedd yn cynhesu ein calonnau, nid oes un amheuaeth. Pan âf i Wynfa chwiliaf am dano ymysg y rhai cyntaf fel fy hen ddysgawdwr ysbrydol.

RHYDDERCH JONES.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD VII.

AFLWYDDIANT.

CYFODODD Dafydd yn foreu drannoeth, ac ymdrwsiodd yn ofalus, a rhoddodd ei fantell wych, a'i gap pluog, ac aeth ar daith i Eithinfynydd. Erbyn cyrraedd yno cafodd nad oedd Madog Lawgam na'i ferch yn y ty; a hysbyswyd ef fod Madog wedi myned ar neges i Gaer Gybi, a fod Morfudd yn mwynhau ei hun yn rhywle heb fod ymhell. Teimlai Dafydd radd o siomiant o herwydd methu gweled Madog, er nad oedd ganddo nemawr o obaith y llwyddai i gael ei gydsyniad i'w uniad ef a Morfudd; eto, yr oedd arno awydd cael gwybod y gwaethaf, fel y gallai weithredu fel y gwelai oreu. Rhag myned yn ol adref mor fuan dilynodd lwybr a arweiniai drwy ddau faes ac a derfynai mewn llwyn o goed a dyfai ar ochr bryn bychan. Wedi cyrraedd y coed, eisteddodd wrth ffrwd fechan o ddwfr a redai heibio i'r meusydd. Lledorweddodd ar y glaswellt, a phwysodd ei ben ar ei law gan wylio symudiadau yr afonig, mor ddeheuig yr oedd yn amgylchu y garreg yma a'r twmpath acw, y rhai oedd yn rhwystrau ar ei ffordd, ac yn myned ymlaen ymlaen yn ddiorffwys. "Fel y ffrwd, rhaid i minnau fyned heibio i bob rhwystr fydd ar y ffordd i ennill Morfudd, ac yna rhed ein bywyd fel afon ddofn dawel o hyfrydwch a chysur." Tra y rhedai y pethau hyn drwy ei feddwl cauodd ei amrantau, syrthiodd ei ben oddiar ei law, a chysgodd, a breuddwydiodd mai efe oedd Apollo yn erlid Daphnê deg, a phan ar gael gafael arni y mae y fenyw yn disgyn o'i olwg i'r afon, a choeden yn tyfu yn y lle y disgynnodd. Teimlai ddail y goeden yn chwareu ar ei wyneb; deffrodd; gwelai fod dail yn ei orchuddio ac ar yr un funud gwelai wisg wen yn diflannu drwy y coed. Cododd i fyny a dilynodd y wisg wen heb ddeall yn iawn pa un ai yng nghwsg ai yn effro yr ydoedd, pa un ai sylwedd oedd y wisg wen oedd ar ddiflannu ynte ai parhad o'i freuddwyd oedd.

Tra yr oedd Dafydd yn cysgu wrth y ffrwd, daethai merch ieuanc mewn gwisg wen heibio i'r fan, a safodd i wylio y cysgadur am ennyd. Mor hardd yr edrychai fel y gorweddai yno,—ei gap wedi syrthio oddiam ei ben, a'i wallt melyn yn chwareu gyda'r awel ar ei dalcen gwyn! Ond yr oedd gwythien o ddireidi yn natur y ferch ieuanc, a dechreuodd feddwl pa ryw ystranc diniwed a wnai i'r cysgadur. Edrychai ar y cap a orweddai ar y glaswellt, ond buasai ei gymeryd ef ymaith yn dangos gormod cydnabyddiaeth â'i berchennog; buasai codi llonnaid ei llaw o ddŵr o'r ffrwd a'i daenellu ar ei dalcen yn anfoesgar; o'r diwedd penderfynodd lenwi ei harffedog â dail a'u bwrw hwynt ar ei wyneb, a dianc ymaith. Hyn a wnaeth, a dyma y dail a deimlai Dafydd yn chwareu ar ei wyneb pan yn deffro o'i freuddwyd, a phan y cipiodd ei gap i redeg ar ol y fenyw. Er ei bod yn hynod o ysgafndroed, yr oedd yn hawdd i redegwr proffesedig fel Dafydd ei goddiweddyd. Gafaelodd yn dyn am dani heb wybod na phetruso pwy ydoedd gan ddweyd, —"yn awr, fy morwyn wen, beth ydyw yr iawn sydd i'm rhan am ymddwyn mor greulon tuag ataf, i'm deffro o'm cwsg melus?"

Trodd y ferch ei gwyneb tuag at Dafydd, gan chwerthin a gwrido.

"Morfudd!" meddai yntau gan ei gollwng yn rhydd. "Ond rhaid i mi gael iawn am yr anfri a gefais, a chymeraf ef oddiar y ddwy wefus rosynaidd yna,"—ychwanegai, gan gymeryd gafael ynddi drachefn a'i chusanu.

"Syr," atebai y ferch ieuanc, "yr ydych yn manteisio gormod ar gydnabyddiaeth diwrnod oed."

"Nid diwrnod oed, fy Morfudd, nac wythnos, na mis. Y mae dros flwyddyn er pan y'th welais ar wyl Bedr,* yn eglwys Rhosyr, ac y danfonais Prys druan atat i gael ei fedyddio â gwin. Dros flwyddyn; ac o hynny hyd yn awr nid ydwyt wedi bod o'm meddwl ddydd na nos."

Chwarddodd Morfudd wrth gofio golwg mor ddigrifol oedd ar Brys o dan y gawod win, a dywedodd,—"Onid oedd yr ateb a anfonais gyda'r gwas yn ddigon i foddloni y meistr?"

"Yr effaith a gafodd ar y meistr oedd ennyn y wreichionen o gariad yn fflam sydd erbyn hyn yn bygwth ei ddifa yn llwyr."

"Y mae wedi cymeryd digon o amser i gynneu o hynny hyd yn awr," atebai Morfudd.

"Synnu'r wyt na ddaethum yma yn gynt, ond cofia na all aderyn hedeg pan fo llinyn am ei droed. Ond, ymaith a chellwair, fe ddaethum i Eithinfynydd y boreu yma i gael ymddiddan a Madog Lawgam ynghylch materion sydd yn fywyd neu angeu i mi. Y mae wedi mynd i Gaer Gybi, a daethum i'r llwyn coed yma i dreulio ychydig amser i fyfyrio"—

* Rhif 21 Can D. ab G.

"Ac i gysgu," dywedai Morfudd yn gellweirus.

"Wel ie, i gysgu, er mai yn hollol anfwriadol y gwnaethum hynny. Morfudd, gwyddost fy neges gyda dy dad; a wyt yn dymuno llwyddiant i mi?"

"Sut y gwn i beth ydi dy neges, nid ydwyf yn gallu dweyd ffortun na phroffwydo," atebai yr eneth, gan ymdrechu siarad yn ddidaro, ond yr oedd y gwrid coch a orchuddiai ei gwyneb a'i gwddf yn profi nad didaro oedd.

Cerddasant yn araf drwy y coed, ac adroddodd Dafydd y gân a ganodd yn y wledd, ynghyd ag amryw ereill, ar y rhai y gwrandawai Morfudd wedi ei hollol swyno gan y geiriau melus a ddiferai dros ei wefusau. Yr oeddynt bron wedi cyrraedd y ffordd fawr a amgylchai y bryn yr ochr draw, ac o ba un yr oedd y ffordd a arweiniai i Eithinfynydd yn troi. Sylwodd Morfudd eu bod wedi crwydro ymhell, a bod yn bryd iddi hi droi tua chartref. Ar yr un munud clywent swn traed march yn carlamu tuag atynt ar y ffordd fawr.

"Fy nhad!" meddai Morfudd, gan gychwyn ymaith.

Gafaelodd Dafydd yn ei llaw a dywedodd yn erfyniadol,—"Fy anwylyd, dyro addewid."

"Tyrd i'm cyfarfod yforu ar fachlud haul, wrth yr hen dderwen sydd gerllaw y ffrwd lle yr oeddit yn cysgu," ebai Morfudd yn frysiog, ac ymaith a hi.

Aeth Dafydd i lawr y goriwaered a thros ben y clawdd i'r ffordd i gyfarfod Madog, yr hwn yn foesgar, pan welodd y bardd, a arafodd y march ac a ewyllysiodd ddydd da iddo.

"Dydd da i chwithâu," atebai Dafydd, "bum yn Eithinfynydd y boreu gan ddymuno cael gair a chwi."

"O, aie. Os nad ydi o'n fater rhy bwysig i'w drafod ar y ffordd fawr, buaswn yn dweyd fod yr adeg hon yn gyfleus iawn."

Teimlai Dafydd fod yr hen wr yn lled dybio beth oedd ei neges, ac nid oedd y dybiaeth yma yn calonogi dim arno. Penderfynodd daro'r hoel ar ei phen ar unwaith, a dywedodd,—"Fy neges ydoedd gofyn eich cydsyniad i Forfudd ddyfod yn wraig i mi."

"Nid wyf yn gwybod rhyw lawer am danat, wr ieuanc, ond tybiaf fod gennyt lysoedd, tiroedd, ac eiddo fel ag i fod yn deilwng wr i ferch Eithinfynydd; morwynion a gweision i ateb i'w galwad, a meirch a cherbydau i'w charlo ar draws gwlad. Dyro y manylion i mi yn eu cylch, gyfaill, ac yna cawn ystyried yr hyn a ofynni."

Teimlai Dafydd eiriau yr hen wr fel brathiadau cleddyf yn myned drwy ei galon, ac ni allai ateb un gair am beth amser. Cerddai ymlaen a'i olygon tua'r llawr, a gwyddai Madog nad oedd gan Ddafydd ddim o'r pethau a enwodd, ac ymhyfrydai rhyngddo ag ef ei hun wrth weled penbleth y bardd.

"Nid ydwyf yn feddiannol ar y pethau a enwasoch," atebai Dafydd, "ond y mae——."

"Wel a'm cato i! beth oedd dy feddwl yn ymgynnyg am law fy merch? Ai ar y gwynt yr oeddych yn bwriadu byw? Yr wyf yn cael cynygion am law Morfudd beunydd, oddi yma ac oddi draw. Y mae fel hen stori gennyf bellach, ond ar fy llw ni chaiff neb ei phriodi oni bydd ansawdd ei gyfoeth yn ateb i'm disgwyliadau. Nid oes gennyf ddim yn dy erbyn di fel dyn, ond dy sefyllfa fydol; a buasai dda gennyf pe buasit i fyny a'm disgwyliadau, am fod Morfudd wedi gwneuthur mwy o sylw o honot nag a wnaeth o un dyn ieuanc o'r blaen. Yr wyf yn caru fy merch, fy unig blentyn, yn fawr iawn, ie, ormod i'w rhoddi yn wraig i neb sydd heb foddion i'w chadw yn gysurus. O dan yr amgylchiadau feallai mai gwell ydyw i ti beidio ymweled ag Eithinfynydd am beth amser, gan y gallai dy bresenoldeb ddyfnhau yr argraff sydd wedi ei wneyd eisoes ar Forfudd, ac i hynny arwain i anifyrrwch a phoen."

Tynnodd Dafydd ei gap a gwnaeth foesymgrymiad i Fadog a dywedodd,—"Yr wyf yn cymeryd eich atebiad. Dydd da."

Trodd ar ei sawdl ac aeth i gyfeiriad yr Aberffraw, gan adael Madog Lawgam a'i farch yn sefyll yn llonydd ar ganol y ffordd, ac yn ei wylio yn mynd o'r golwg i lawr yr allt.

"Wel, myn gafr, mae beirdd yn rhai rhyfedd, 'dwy'n synnu dim fod rhai yn dweyd fod bardd a dyn hanner-call yn gyfystyr," meddai Madog gan ail-gychwyn tua'i gartref.

Disgwyliai Madog i Ddafydd ymbil, ymresymu, edliw, a dannod ei arian-garwch fel y gwnaeth rhai a fu ar yr un neges o'i flaen. Yr oedd y bardd wedi ymddangos mor ddifrifol ar y dechreu, pan ofynnodd am ei gydsyniad, ac wedi'r cwbl derbyniodd ei nacâd yn dawel a digyffro heb wneuthur un ymgais iddo ail ystyried ei ddedfryd.

"Argoel ddrwg, argoel ddrwg," meddai, gan ysgwyd ei ben, "rhaid i mi orchymyn i Forfudd beidio cymdeithasu âg ef pe cyfarfyddent a'u gilydd; mae Morfudd yn eneth ufudd, ac yn sicr o sefyll at ei haddewid."

Pan gyrhaeddodd Eithinfynydd cafodd y ty mewn cythrwfl, ei wraig wedi ei tharaw yn wael yn sydyn, a phawb yn ofni iddi farw cyn dyfodiad y meddyg. Yn y pryder ynghylch ei wraig, cwbl anghofiodd Ddafydd,

CYMRU.

Cyf. II. MAI 15fed, 1892. Rhif 10.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

VII. RHAMANT A CHAN.

[Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Coch Hergest, Llyfr Taliesin.]

GWEISOM mai gwylio'r Mur oedd prif waith y *dux Britanniarum*, ac mai ei olynydd ef oedd y Gwledig Cymreig a Bretwalda'r Saeson,—brenin Cymru a brenin Lloegr. Fel y gellid disgwyl y mae'r Gwledig yn cael lle mawr yn y traddodiadau, a chyn hir gwnawd yr holl draddodiadau'n un ystori, a dywedwyd hi am Arthur.

Mewn un traddodiad* ceir hanes y gwrthryfel yn erbyn Rhufen, hanes yr ymladd â'r Saeson, a chwymp y Gwledig wrth gadw'r mur,—oll yn yr un hanes. "Trydydd gwaethaf," meddir, wrth ddarlunio tri gwŷr gwarthus yr ynys hon,† "fu Medrod, pan pan adawodd Arthur ynys Pryden iddo, pan aeth yntau drwy fôr yn erbyn Lles, ymherawdr Rhufen, a anfonasai genhadau at Arthur hyd yng Nghaer Lleon i erchi teyrnged o'r ynys hon, ar y mesur y talwyd o Gadwallon fab Beli hyd oes Cystenyn, taid Arthur. Rhoddodd Arthur ateb i genhadau yr ymherawdr, fod cymaint o ddyled ar wŷr Rhufen roddi teyrnged i wŷr Pryden ag oedd ar wŷr Pryden roddi teyrnged iddynt hwythau. Canys bu Brân fab Dyfnwal a Chystenyn fab Elen yn ymherodron yn Rhufen, a dau wr o'r ynys hon oeddynt. Ac yna arweiniodd Arthur ddetholion gwŷr ei wlad drwy fôr yn erbyn yr ymherawdr. Cyfarfuant y tu hwnt i fynydd Mynneu, ac aneirif o honynt a laddwyd o boptu y dydd hwnnw. Ac yn y diwedd cyfarfu Arthur a'r ymherawdr, ac Arthur a'i lladdodd. Ac yno y lladdwyd goreugwyr Arthur. A phan glybu Medrod wanhau nifer gwŷr Arthur, gwrthryfelodd yn ei erbyn; a dygodd Saeson a Ffichtiaid ac Ysgotiaid i gadw'r ynys hon rhag Arthur. Ac er gwaethaf Medrod y medrodd Arthur ddod yn ol. Ac yna y bu brwydr Camlan rhwng Arthur a Medrod, ac y brathwyd Arthur yn angeuol gan Fedrod. Ac o'r brath hwnnw y bu Arthur farw, ac mewn plas yn ynys Afallach y claddwyd ef."

Wedi buddugoliaethau mawrion a chlod, lladdwyd amddiffynnwr y mur trwy gymorth un o'i filwyr ei hun,—dyna'r gwirionedd sydd yn y traddodiad hwn. O dipyn i beth daeth yr hanes yn fwy arddunol,—ni fu Arthur farw, eithr mynd mewn llong o wydr a wnaeth, gyda thair brenhines, i wella ei glwyfau. Ac y mae yn awr yn aros yr amser i wared ei wlad. Cyfeirir at lawer llyn, llawer ynys, a llawer ogof, a dywedir fod Arthur yn huno yno, gan ddisgwyl cyflawnder ei amser.

Fel y gwnai'r Rhufeiniaid eu hymerawdwyr yn dduwiau wedi eu marw, felly hefyd rhoddai'r Cymry i'w tywysogion anfarwoldeb nad ydyw yn hollol yr un peth a'r anfarwoldeb ddygwyd i oleuni trwy'r efengyl. Gwnawd Arthur yn dduw,—duw dan gwmwl, duw yn aros amser ei ail deyrnasiad. Ac oni bai eu bod erbyn hyn yn Gristionogion, buasai'r Cymry yn ei addoli hefyd. A phan oeddynt wedi bod yn Gristionogion am dros fil o flynyddoedd, rhoddasant yr un anfarwoldeb i Owen Glyn Dŵr,—tybient o hyd mai ymguddio yr oedd, ac y doi i waredu ei wlad yn yr iawn bryd.*

Y mae darlunio tlws ar Arthur ym Mreuddwyd Rhonabwy†,—un o ramantau prydferthaf llenyddiaeth y byd. Nid fel hanes y rhoddir y darluniadau, ond fel breu-

* Trioedd. Llyfr Coch Hergest, i. 299 (Rhydychen).

† Y tri gŵr gwarthus oedd,—Afarwy fab Lludd, a ddug Iwl Cesar i'r ynys; Gwrtheyrn Gwrthenau, a roddes dir gyntaf i Saeson; a'r Medrod fu'n achos marw Arthur.

* Iolo MSS.

† Llyfr Coch Hergest i. 144—161 (cyfrol Rhydychen.

ddwyd. Felly y mae un o wŷr y ddeuddegfed ganrif yn sefyll ger bron Arthur, ac y mae Arthur yn gwenu wrth weled mor fychain yw'r gwŷr breswylia ei ynys yn awr.

Yr oedd gŵr o'r enw Rhonabwy, ebe'r hanes, gyda dyn coch o Fawddwy a dyn mawr o Gynlleith, yn ymlid ar ol lleidr oedd yn diffeithio tri chwmwd goreu Powys. Ryw ddiwrnod dacw dy yn ymgodi o'u blaen,—hen neuadd burddu dal union, a mŵg ddigon yn dod o honi. O flaen ystorm o wynt a gwlaw, troisant i mewn iddi. Nid oedd yr hen neuadd yn lle mwyn i aros ynddi, ac nid prydferth oedd yr olwg ar yr hen wrach a'r gŵr coch a'r wraig feinlas fechan oedd bia'r ty. Nid oedd eu gwely yn esmwyth,—byrwellt dysdlyd chweinllyd, a bonau gwrysg yn aml drwyddo. Methai Rhonabwy gysgu. Cododd, a gorweddodd ar groen dyniawed melyn, a chysgodd ar hwnnw. Gydag iddo gysgu, yr oedd yn teithio eilwaith, debygai, gyda'i gymdeithion, tua Rhyd y Groes a'r Hafren, hyd faes. Edrychodd dros ei ysgwydd, ac wele'n dilyn ar eu holau wr ieuanc pengrych melyn, ar farch melyn. Yr oedd ei goesau, o ben ei lin i lawr, yn lâs; ac am dano yr oedd gwisg o sidan melyn wedi ei wnio ag edau lâs, a godreu'r wisg yn lâs hefyd,—y glâs cyn lased a dail ffynidwydd, a'r melyn cyn felyned a blodau'r banadl. Daeth ofn ar Ronabwy a'i gymdeithion wrth ei weled, a dechreuasant ffoi. Daeth y marchog o hyd iddynt, ac addawodd ei nawdd iddynt, gan ddweyd mai ei enw oedd Iddawc Cordd Pryden, a phaham y cafodd yr enw hwnnw. Pan oedd Iddawc yn gorffen dweyd hanes ei ddrwg a'r bennyd a'r drugaredd, clywent dwrf. Wedi edrych yn ol, gwelent wr melyngoch ieuanc, mewn gwisg o felyn a choch,—sidan melyn fel blodau'r banadl yn ymyl i wisg oedd gyn goched a'r gwaed cochaf erioed. Gofynnodd i Iddawc a gaffai ran o'r dynion bychain hynny oedd gydag ef, a dywedodd Iddawc y cai ran o'u cymdeithas. Wedi cerdded ychydig gyda hwy, aeth ymaith, a dywedodd Iddawc mai Rhuawn Pybyr ab Deorthach Wledig oedd. O'r diwedd cyrhaeddasant Ryd y Groes, a gwelent luestau a phebyll llu mawr. Yr oedd Arthur yn eistedd mewn ynys wastad islaw'r rhyd, ac esgob a phendefig gerllaw; a cher eu bron yr oedd gwas mawr mewn gwisg burddu, a'i wyneb cyn wynned ag asgwrn eliffant. Wedi ateb cyfarch Iddawc, gofynnodd Arthur, dan wenu, ym mha le y cafodd y dynion bychain hynny. Gofynnodd Iddawc, wrth ddweyd mai ar y ffordd y cafodd hwynt, paham y chwarddai Arthur. "Iddawc," eb yr Arthur, "nid chwerthin a wnaf, namyn truaned gennyf fod dynion cyn fawed a hyn yn gwarchod yr ynys hon, wedi gwŷr cystal ac a'i gwarchodai gynt." Gwelodd Rhonabwy y fodrwy oedd am fys Arthur, pe nas gwelsai honno ni allasai gofio dim o'r hyn welodd yn ei freuddwyd. Gwelodd hefyd fyddinoedd yn cyrchu tua'r rhyd. Daeth byddin o wŷr ar feirch cochion, mewn gwisgoedd cochion,—cymdeithion Rhuawn Pybyr, oedd a hawl i'r hyn a ofynnent ym mhob man. Daeth byddin arall tua'r rhyd; yr oedd rhan uchaf pob march cyn wynned a'r alaw,* a'r rhan isaf iddo cyn ddued a'r muchudd,†—byddin Adaon fab Talesin, ac ymwersyllodd hon hefyd ger y rhyd. Yna gwelodd Rhonabwy wr tal hardd, Caradog Freichfras, yn codi ac yn dweyd yn eofn na ddylai byddin mor fawr fod mewn lle mor fychan, eithr y dylai fod yn ymladd ag Ossa Gyllell Fawr. Ac wrth arch Arthur wele'r holl fyddin yn cychwyn, a Rhonabwy wrth sgil Iddawc, tua Chefn Digoll. Wrth groesi'r rhyd, edrychodd Rhonabwy'n ol, a gwelai ddwy fyddin arall yn dod. Yn y fyddin gyntaf yr oedd y milwyr mewn gwisg o sidan gwyn gydag ymylau purddu, ar feirch canwelw oddieithr eu gliniau duon, ac yr oedd eu baneri'n wynion a'u pigau'n dduon. Gwŷr Llychllyn oedd y fyddin wen, dan arweiniad March fab Meirchion; ac ar eu holau doi gwŷr duon Denmarc, dan arweiniad Edern fab Nudd. Yr oedd y rhain mewn gwisgoedd purddu, gydag ymylau gwynion, ar feirch duon gyda gliniau gwynion, ac yr oedd eu baneri'n dduon a'u pigau'n wynion. Gwelodd Rhonabwy ruthr y milwyr i weled Cai, y tecaf dyn yn llys Arthur, yn marchogaeth ymhlith y llu. Gwelodd Gadwr, iarll Cernyw, yn dod a chleddyf Arthur iddo,—cleddyf o aur, a llun dwy sarff danllyd arno. Pan arafhaodd y llu dygwyd cader Arthur, a'r llen oedd i fod odditani,—llen na fynnai liw ond ei lliw gwyn ei hun; llen na welid neb fyddai arni, tra ef yn gweld pawb. Yna dechreuodd Arthur ac Owen fab Urien chware gwyddbwyll. Tra'r oedd y chware ar ei ganol, wele dri'n dod i ddweyd fod gweision Arthur yn blino brain Owen; ac yna wele dri o farchogion Arthur yn dod i ddweyd fod y brain wedi ymosod arnynt i'w difa. Y cyntaf o'r rhai ddaeth i ddadleu achos y brain oedd Selyf fab Cynan o Bowys,—gŵr fu farw yn y gad ar forfa Caer yn 613. Gwelodd Rhonabwy wŷr Arthur yn eistedd mewn cyngor, i wneyd heddwch am ennyd ag Ossa Gyllell Fawr. Gwelodd wŷr Groeg yn dwyn teyrnged i Arthur, clywodd Gai yn galw ar y milwyr i ddilyn Arthur tua'r de, ac wrth dwrf y fyddin yn cychwyn deffrodd, a gwelodd ei fod wedi cysgu teirnos a thridiau ar groen y dyniawed melyn yn yr hen dy.

* Lili'r dŵr. † *Jet.*

Hawdd gennyf goelio y gofynni, ddarllennydd, paham yr wyf yn adrodd chwedl fel hon wrth adrodd hanes Cymru. Gwn fod cymysgfa ryfedd yn yr hanes, y mae arwyr chwe chant o flynyddoedd, o'r hen Garadog i Selyf ieuanc, wedi eu casglu at eu gilydd, i ymdaith gydag Arthur hyd ddyffryn yr Hafren yn erbyn Saeson y de. Gwn nad ydyw'r fabinogi'n hen iawn yn y ffurf sydd arni'n awr. Pe darllennai beirniad Seisnig gyfieithiad tlws o honi, dywedai fod perffeithrwydd ei chynllun a'i hymhyfrydu mewn tlysni lliwiau yn dangos yn ddi-os mai newydd ei hysgrifennu ydyw gan ryw Gymro, Cymro newydd yfed ysbryd Dante Gabriel Rossetti. Ond y mae'r memrwn yn dangos, y tu hwnt i amheuaeth y mwyaf digoelio, nas gall fod yn iau na'r drydedd ganrif ar ddeg. Ac heblaw hynny, y mae perffeithrwydd arddull y rhamant yn dangos yn eglur fod cenhedlaethau o feirdd, wrth ei hadrodd o oes i oes, wedi bod yn gloewi ac yn gloewi ei ffurf. Nid mewn un dydd y gwnawd llenyddiaeth fel llenyddiaeth hon, y mae ei hadeiladwyr wedi cario eu meini o bell,—y mae ymhob rhamant hen ddefnyddiau hanes wedi eu caboli gan y rhamantwr at ei bwrpas ei hun. O'r breuddwyd hwn, ac o'r rhamantau ereill, cawn lawer awgrym am hanes cyfnod cyntaf ein cenedl, — darnau o hen hanes ydynt, wedi eu gwneuthur yn adeilad arall. Yn y breuddwyd gwelwn orymdaith y llengoedd Rhufeinig fu'n cerdded hyd y mur, ac hyd y ffyrdd Rhufeinig sy'n arwain o hono i'r de. Ac yn lle'r *dux Britanniarum* gwelwn Arthur, a'r rhai fu'n ymladd dros Gymru o oes i oes.

Y mae llai o newid wedi bod ar ein barddoniaeth hynaf nag ar ein rhyddiaeth hynaf. Yr oedd yn rhaid i'r rhamantwr wneyd ei ystori yn ddealladwy iddo ei hun cyn y medrai ei chofio, yr oedd yn rhaid iddo ei gwneyd yn ddealladwy cyn y mwynheid hi gan y tywysog a'r mynach a wrandawai arno. Ond yr oedd ffurf y gerdd yn help i'w chofio, pan na ddeallid hi gan yr hwn a'i hadroddai; ac yr oedd yn hawddach ganddo ddweyd geiriau na ddeallai, a son am wŷr nas gwyddai pwy oeddynt, pan gofiai nad adrodd ei feddyliau ei hun yr oedd, eithr meddyliau beirdd y tybiai eu bod ymron yn ysbrydoledig. Yn Llyfr Du Caerfyrddin, yn Llyfr Coch Hergest, yn Llyfr Taliesin ceir casgliadau o hen farddoniaeth, yn llawn adlais o'r brwydro fu rhwng Ffichtiaid a Gwyddyl a Chymry ac Eingl a Saeson, ar draeth y gorllewin, ar fur y gogledd, ac yn nyffryn yr Hafren.

Y mae llawer o'n barddoniaeth foreuaf yn desgrifio'r ymladd fu ar fur y gogledd. Dywed am y gwŷr gerddai'r mur mewn anrhydedd ac ardderchowgrwydd,—balchder y mur. Dywed am y mynych ymgyrch dros y mur i wlad y Pictiaid, pan anturiai'r Gwledig dros derfyn hen fyd y Rhufeiniaid, i wlad y gogledd neu i ynysoedd y môr,—

"Tri llonnaid Prydwen yr aethom ni iddi,
Namyn saith ni ddaethom o Gaer Sidi."

Dywed am dri ugain cannwr yn sefyll ar y mur, ac am ddim ond saith yn dychwelyd gydag Arthur o Gaer Golud. Dywed am frâd Cristionogion wrth amddiffyn y mur, am un

"Fradychodd Iesu,
Ac ef yn credu."

A darlunia'r gelyn creulawn, yr hwn a ddygodd gysgod ar y byd, ac a wnaeth i fedydd fod mewn enbydrwydd, yn myned

"Ym mhlith oer gethern
Hyd yng ngwaelod uffern."

Dywed y farddoniaeth hon, hefyd, am yr ymdrech rhwng Gwyddel a Brython, am gywreinwaith a hud y naill, ac am fuddugoliaeth y llall, pan ddarostyngwyd Gwyddyl y traeth gan Wledig Cymru,—

"Hudlath Mathonwy
Yng nghoed pan dyfwy,
Cynan a'i caffwy
Pryd pan wladychwy."

Yn y farddoniaeth hon y mae y Gwledig yn bob peth,—rhuthr Geraint ab Erbin ym mrwydr Llongborth, cledd a tharian Urien yng Ngwenystrad, ateb Owen ab Urien ym mrwydr Argoed Llwyfein, distawrwydd tywyll palas Cynddylan wedi'r anrhaith. Bob yn dipyn rhoddir yr holl ymladdwyr hyn yng nghwmni eu gilydd, dan un Gwledig. Gallasai Cunedda ddod yn brif arwr traddodiadau Cymru,—

"Marw Cunedda a gwynaf, a gwynid;
Gŵr gwrol oedd ei unbyn i gyd."

Ond aeth dychymyg Cymru ymhellach yn ol mewn hanes i chwilio am un i'w anrhydeddu â choron ei gwlad. Gwnawd i bob unben yn hanes bore Cymru ymladd dan faner Arthur, —yn wŷr y gogledd, yn wŷr y gorllewin, yn wŷr y de, ie yn hen dduwiau paganaidd hefyd. Y mae rhestr o'r milwyr hyn yn y Llyfr Du,—y porthor Glewlwyd Gafael Fawr, Cai deg, Mabon Fab Mydron fu'n gwasanaethu Uthyr, Manawyddan gyda'i ddwys gyngor a'i darian dolciog, Bedwyr a Gwrhyr, a'r dewrion fu'n amddiffyn pob goror yn yr ynys hon. Daeth y rhai hyn i gyd yn wŷr Arthur, ac yr oedd Arthur yn Wledig ar bawb. Oherwydd fod eisiau amddiffyn y dalaeth drwy ymladd parhaus rhag gelynion oedd yn ymgryfhau bob dydd, daeth y Cymry'n un, a daeth y Gwledig a'i

air yn air ar bawb. Yn un o'r caneuon gelwir Arglwydd nefoedd a daear yn "Wledig nef goludog."

Rywbryd ar ol yr ymladd rhwng Gwyddyl, Brythoniaid, Eingl, a Saeson, crwydrodd prydydd, Llywarch Hen neu ryw-un arall dros y wlad, o fedd i fedd. A darlunia hwynt,—y beddau a wlych y gwlaw ar fro a bryn. Mae Dylan yn huno yn swn y don, a gorffwys Pryderi hefyd lle tery'r tonnau ar y tir. Mae bedd Gwrwawd mewn lle uchel, a bedd Cynan dan gysgod y bryn. Mae bedd Owen ab Urien ym mhellder byd, mae bedd Rhydderch Hael yn Aber Erch.

"Bedd mab Osfran yng Nghamlan,
Gwedi llawer cyflafau;
Bedd Bedwyr yn Allt Tryfan."

Wedi gwisgoedd coch a chain, dyma fedd Owen yn Llan Heledd; dyma fedd da Owen ab Llywarch Hen; ac wedi clwyfau a meusydd gwaedlyd, wedi marchogaeth ceffylau gwynion, onid hwn yw bedd Cynddylan? Mewn ynys y mae bedd cul a hir Meigen ab Rhun, mae bedd Llia Wyddel dan y gwellt a'r dail crin yn Ardudwy. Nis gŵyr neb pwy bia'r beddau hir yng Ngwanas; mae bedd Llew Llaw Gyffes,—gŵr oedd hwnnw na roddai'r gwir i neb,—wrth y môr.

"Pwy pieu y bedd yn llethr y bryn?
Llawer nis gŵyr a'i gofyn,—
Bedd Coel, mab Cynfelin."

Y mae bedd yn y dyffryn, a bedd yn y morfa, bedd dan y derw, a bedd dan ael y bryn, bedd isel llednais a bedd enwog,—ac am laweroedd o'r beddau gofyn y bardd,—"Pwy pia hwn, a bedd pwy yw hwn?" Nid oedd ond un heb fedd,—

"Bedd March, bedd Gwythyr,
Bedd Gwgawn Gleddyfrudd,
Ynfyd son fod bedd i Arthur."*

VIII. COLLI'R GOGLEDD.

[Annales Cambriae; Llyfr Coch Hergest; Buchedau'r Saint; Nennius; Baeda, Historia Ecclesiastica; English Chronicles; Tighernach; Cronicl Ulster; Chronicon Scotorum; Cronicl Loch Cé: Cronicl Inisfallen.]

Hyd yn hyn yr wyf wedi adrodd hanes Cymru, o ymadawiad y Rhufeiniaid hyd Faelgwn Gwynedd, heb roddi ond ychydig o ddyddiadau, os dim. Wrth ddarllen rhamant a chân fore Cymru, teimlir fod hen ffeithiau yn cael eu hadrodd, ac nid dychmygion pur; ond, ar yr un pryd, gwelir mai ffeithiau cyffredinol a adroddir, megis twf gallu'r Gwledig a'r gwywo, ac nid dyddiadau megis 577 a 613.

* Ymdrinir yn helaethach â'r rhamantau ac â'r darnau o farddoniaeth yn y penodau ar Lenyddiaeth Cymru. Yma ni wneir ond ceisio dangos beth yw eu lle yn hanes Cymru.

Yn y bennod hon yr wyf yn ceisio, trwy gymharu ein croniclau â chroniclau Lloegr a'r Iwerddon, adrodd hanes yr un blynyddoedd gyda dyddiadau, fel y caffo'r darllennydd grynhodeb eglur o'r hyn ddywedais hyd yn hyn. Gadewch i ni rannu'r amser niwliog yr ydym wedi ceisio tremio iddo yn ddwy ran,—y naill yn gan mlynedd, a'r llall yn hanner can mlynedd.

I. 450—550 MAN DYWYSOGION. Erbyn 450 yr oedd lleng olaf Rhufen wedi ymadael, a gafael y ddinas drag'wyddol ar Bryden wedi llacio am byth. Cododd pob hen lwyth yn erbyn yr iau haiarn; penderfynodd pob tywysog gael coron aur yr hen ymerodraeth; gwelodd y cenhedloedd barbaraidd amgylchai Bryden eu cyfle i ymosod arni,—Gwyddyl yr Iwerddon, Ffichtiaid yr Alban, a thylwythau Teutonaidd isel-diroedd corsiog y cyfandir. Yn y croniclau gwelwn fân lwythau o Eingl yn ymsefydlu hyd oror y dwyrain, gwelwn Wyddyl yn meddiannu traeth y gorllewin. Ni unai'r mân-dywysogion i amddiffyn eu gwlad, ni ymostyngent i un Gwledig. Yn y caneuon boreuaf cawn hwynt yn ymladd ar wahan, a'u beddau ar wahan. Ym mhen canrifoedd wedyn y gwnaeth dychymyg iddynt ymladd fel y dylasent, dan faner un Arthur; ac nid ydyw Gildas, yr hwn y tybir ei fod yn cyd-fyw ag Arthur, yn son gair am dano wrth adrodd pechodau a chynhennau brenhinoedd ei oes.

Fel yr oedd tylwythau estronol yn ennill tir, a'u sefydliadau yn taro ar eu gilydd, unwyd hwy gan benaethiaid dan eu brenhiniaeth eu hun. Unwyd Eingl y gogledd dan ddau frenin, ac wedyn dan un. Unwyd Saeson y de dan un brenin. A than eu brenhinoedd, dechreuodd yr Eingl a'r Saeson ymosod ar y Cymry. Ac yng ngwyneb y perygl, gorfod i'r Cymry hefyd ymuno, a rhoddi ymrannu heibio am ennyd.

II. 550—600. PRIF DYWYSOGION. Yn y flwyddyn 450 yr oedd MAELGWN yn frenin Gwynedd, ac yn dal ei deyrnwialen uwchben Ceredigion, Dyfed, a Morgannwg; yr oedd CYNAN yn frenin Powys, gyda hen enw'r Gwledig arno; yr oedd IDA FFLAMDDWYN yn frenin ar Eingl y gogledd; ac yr oedd CYNRIC yn frenin ar Saeson y de.

Yn 547 ymgastellodd Ida Fflamddwyn ar graig Bamborough, ar draeth y gogledd-ddwyrain, unodd yr Eingl, ac arweiniodd hwy yn erbyn y Cymry,—gan eu gyrru, wedi brwydr ar ol brwydr, yn nes i'r gorllewin. Yng nghaneuon Aneurin a Llywarch Hen ceir hanes yr Urien Rheged a'r Morgan Fawr a'r Rhydderch Hael fu'n ymladd yn ei erbyn. Ac yr oedd yn hawdd i Faelgwn Gwynedd, oherwydd buddugoliaethau'r Eingl,

deyrnasu ar Wynedd a'r Deheubarth, ac heb gweryla a brenin Powys,—rhag eu hofn.

Tra'r oedd Ida'n uno Eingl y gogledd, yr oedd Cynric yn uno Saeson y de. Yn 552 yr oedd y Saeson yn ymdeithio tua'r gorllewin hyd ffyrdd Rhufeinig redai drwy ddinasoedd ac heibio beddau dros wastadedd Gwent,—Wiltshire y dyddiau hyn,—tua dyffryn yr Hafren. Yn 577 gwelodd gwŷr yr Hafren fyddin CEAWLIN yn croesi'r Cotswolds tuag atynt. Cwympodd amddiffynwyr y dyffryn ym mrwydr Deorham, ac yr oedd y dyffryn bras, a'i weithfeydd, a'i ddinasoedd goludog heirdd, at drugaredd y pagan. Cyrhaeddodd Uriconium a Phen Gwern, lle mae'r Hafren yn gadael Cymru ac yn troi tua'r de,—a gadawodd y ddwy ddinas yn garnedd. Bu Uriconium yn garnedd byth, bu ei hadfeilion yn syndod yr ymdeithydd am ganrifoedd, ac yna cuddiodd y ddaear hi. Ac am Ben Gwern, llys Cynddylan, a'n Hamwythig ni, canai Llywarch Hen,—

"Ystafell Cynddylan sydd dywell heno,
Heb dân, heb wely;
Wylaf dro, tawaf wedy.

"Ystafell Cynddylan sydd dywell heno,
Heb dân, heb ganwyll;
Namyn Duw, pwy im ddyry bwyll.

"Ystafell Cynddylan sydd dywell heno,
Heb gân, heb gerddau;
Digystudd deurudd dagrau."

Y ddinas nesaf o flaen Ceawlin oedd Caer, ac arweiniodd ei lu buddugoliaethus tuag ati. Ond yr oedd mŵg y dref wen yn y coed a'r perygl wedi galw holl luoedd Powys at eu gilydd, i amddiffyn tir Brochwel. Cyfarfyddodd y ddau lu yn Fethanlea, yn 584, yn rhywle rhwng yr Hafren a'r Ddyfrdwy, ac yno gorchfygwyd Ceawlin yn llwyr. Dinistriodd Ceawlin ddinasoedd ardderchog, cymerodd ysglyfaeth difesur, ond nid oedd i gael anrheithio Caer. Dychwelodd yn ol yn ddigllon i'w wlad, a nerth ei fyddin wedi diflannu; ac ym mhen ychydig o amser yr oedd yn alltud o'i wlad ei hun.

Ond nid am byth y gwaredwyd Caer. Pan aeth y perygl o'r de heibio, daeth perygl o'r gogledd. Ar ol Ida Fflamddwyn daeth Ella'n frenin yr Eingl, daeth Aethelric ar ei ol yntau, ac yn 593 yr oedd AETHELFRITH yn frenin Northumbria a'i Heingl i gyd. Trodd yn gyntaf yn erbyn Gwyddyl a Chymry'r gogledd, ac yn rhywle ar y mynyddoedd orwedd rhwng Ystrad Clwyd a Northumbria cyfarfyddodd luoedd unedig y Gwyddyl a'r Cymry dan lywyddiaeth AIDAN. Yno, yn 603, mewn lle o'r enw Daegsastan, bu ymladdfa galed, a lladdfa fawr. Ddeng mlynedd a thriugain wedi'r frwydr, ganwyd yr hanesydd Baeda heb fod ymhell o'r fan yr ymladdwyd hi. Cafodd ei hanes, mae'n sicr, gan rai oedd wedi gweled milwyr fu'n ymladd ynddi, a dywed ef fel hyn,—

"Yr adeg hon yr oedd Aethelfrith, gwr da ac awyddus am glod, yn rheoli teyrnas Northumbria, ac yn diffeithio'r Prydeiniaid yn fwy na holl wŷr mawr yr Eingl, fel ag y gellid ei gydmaru â Saul, ond yn unig yn hyn,—ei fod yn anwybodus am y wir grefydd. Oherwydd gorchfygodd fwy o froydd Prydeinig na'r un brenin o'i flaen,—gan wneyd y trigolion yn wŷr treth iddo, neu drwy eu gyrru ymaith a rhoddi Eingl yn eu lle. Cywir y gellir dweyd am dano fendith y patriarch ar ei fab,—'Benjamin a ysglyfaetha fel blaidd; y bore y bwyty yr ysglyfaeth, a'r hwyr y rhan yr ysbail.' Wrth weled ei lwyddiant, daeth Aidan, brenin y Gwyddyl sy'n preswylio ym Mhryden, yn ei erbyn, gyda byddin enfawr gref, ond gorchfygwyd ef gan lu llai na'i lu ei hun, ac aeth ar ffo; oherwydd lladdwyd ymron yr oll o'i fyddin mewn lle enwog a elwir Daegsa-stan. Yn y frwydr honno hefyd lladdwyd Eodbald, brawd Aethelfrith, gyda bron yr oll o'r fyddin a arweiniai. O'r amser hwnnw, ni fedrodd un brenin y Gwyddyl ddod i Bryden ar ymgyrch rhyfel hyd y dydd hwn"

Wedi'r frwydr hon nid oedd dim i'w ofni oddiwrth frenhinoedd y gogledd am amser hir, yr oedd terfynau gogleddol Northumbria'n ddiogel. Gwaith nesaf Aethelfrith oedd ymosod ar Wynedd a Phowys, a'u gwahanu am byth oddiwrth eu cyd-genedl yn y gogledd. Prif dywysogion Cymru oedd IAGO, etifedd Maelgwn Gwynedd, a SELYF, mab Cynan Powys. Ymunodd y ddau hyn i achub Caer rhag Aethelfrith, a bu brwydr fawr arall. Felly gellir edrych ar drydydd gyfnod.

III. 600—613. YMDRECH RHWNG PRIF DYWYSOGION, — yr Angl Aethelfrith, y Gwyddel Aidan, a'r Cymry Iago a Selyf.

Ym mrwydr Caer, yn 613, collwyd y gogledd; ac, o hyn allan, y peth feddylir wrth y gair Cymru yw ein Cymru ni.

IX. BRWYDR CAER.

[Yr un haneswyr a haneswyr y bennod o'r blaen. Cyfleithir a thalfyrrir hwy.]

Y mae i Gaer,—Caer Lleon Fawr ar Ddyfrdwy,—le pwysig yn hanes Lloegr ac yn hanes Cymru. Erbyn hyn y mae Lerpwl wedi cymeryd ei lle fel porthladd y gorllewin, erbyn heddyw nid yw ei muriau yn werth dim i'r milwr, ac nid hawdd ydyw sylweddoli, heb dipyn o ystyriaeth, fod Caer wedi bod yn un o ddau neu dri lle pwysicaf yr ynys hon. Ei safle wnai Gaer yn bwysig,—hi sy'n cysylltu mynyddoedd y gogledd a mynyddoedd y gorllewin, dwy ran fynyddig y Gymru fawr ymestynnai unwaith o enau'r Hafren i enau'r Clyde. Ynddi hi y safai'r Rhufeiniwr i lywodraethu talaeth y gorllewin, a'i law aswy ar y gogledd a'i law dde ar y gorllewin.

Iddi hi y doi llongau moroedd y gorllewin, hi oedd clo'r ffyrdd redai yn unionsyth i'r gogledd ac i'r dwyrain dros wastadedd Maelor, a'r ffyrdd ymddolennai hyd lan môr Gwynedd ac hyd lethrau bryniau Powys. Yr oedd llawer caer heblaw hon, a llawer caer y llengoedd, ond hi yn unig oedd yn ddigon pwysig i gael yr enw Caer, heb ddim i esbonio pa gaer oedd.

Saif Caer lle mae'r afon Dyfrdwy yn rhoi tro sydyn, gan redeg i'r gogledd orllewin yn lle'n unionsyth i'r gogledd. Y peth wnaeth i'r afon roi'r tro hwn oedd bryncyn o garreg goch gyfodai o'r gwastadedd, gan sefyll yn ffordd yr afon. Ar y bryncyn hwn yr adeiladodd y Rhufeiniaid gaer eu llengoedd. Yr oedd yr afon a'i chorsydd yn derfyn ac yn amddiffyniad ar du y de a thu y gorllewin; ac ar y ddau du arall cloddiodd y Rhufeiniaid ffos yn y garreg goch feddal. Yna y tu fewn i'r afon a'r ffos, codasant furiau Caer,—muriau, wedi llawer o drwsio arnynt, sydd yn aros hyd y dydd heddyw.

O Gaer rhedai ffyrdd i bob cyfeiriad, gallai'r llengoedd ymdaith i unrhyw fan y byddai gwrthryfel yn galw am danynt. Un diwrnod gwelid mintai'n cychwyn trwy borth y gogledd tua'r mur, i golli eu bywydau hwyrach yng Nghoed Celyddon; ddiwrnod arall gwelid lleng yn cychwyn ar hyd ffordd y dwyrain, ar eu ffordd adref i Rufen neu i ryw ran arall o'r ymherodraeth; diwrnod arall pasiai lleng drwodd ar ei ffordd i fynyddoedd y gorllewin. Gellir edrych ar Gaer fel y fan lle croesai dwy ffordd eu gilydd,—ffordd o'r gogledd i'r de, a ffordd o'r dwyrain i'r gorllewin,—Caer oedd eu man cyfarfod.

Ond, erbyn 600, nid canolbwynt teyrnas oedd Caer, yn anfon milwyr yma ac acw, ond lle ar oror dwy deyrnas elynol, yn crynnu rhag ofn yr Eingl oedd yn ymfyddino yn ei herbyn. Hwyrach mai Brochwel oedd yn ei rheoli hi a'r gwastadedd o'i hamgylch. Dywedir mai lluoedd Brochwel ymdeithiodd Fethanlea i gyfarfod Ceawlin, yr hwn, wedi diffeithio dinasoedd gwych yr Hafren, oedd yn cyrchu tua Chaer, i'w diffeithio hithau hefyd. "Brochwel Ysgythrog, tywysog Caer Lleon," y geilw Sieffre o Fynwy ef. Efe hefyd alwodd luoedd Gwynedd a Phowys i achub y ddinas pan oedd gelyn arall, mor fuddugoliaethus a Cheawlin, yn ymosod arni o du y gogledd, pan gyfarfyddodd y Cymry a'r Eingl eu gilydd ym mrwydr alaethus Caer.

Gwrandawer yr hanes fel y rhydd Baeda ef,—ganwyd ef driugain mlynedd union wedi'r frwydr. Y mae ei gyd-ymdeimlad â'i genedl ei hun, er eu bod ar y pryd yn baganiaid, a'r Cymry'n Gristionogion.

"Wedi hynny cynhullodd Aethelfrith, am yr hwn y siaradasom o'r blaen, fyddin enfawr, a gwnaeth laddfa fawr ar y genedl fradwrus honno yng Nghaer y Llengoedd, lle enwir gan yr Eingl yn Legacastir, ond yn fwy priodol gan y Prydeiniaid yn Garlegion (Caer Lleon). Cyn dechreu'r frwydr, gwelodd eu hoffeiriaid, a ymgynhullasent i weddio ar Dduw dros y milwyr, yn sefyll o'r neilldu mewn lle diogelach. Gofynnodd pwy oeddynt, ac i ba beth y daethent ynghyd Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn dod o Fynachlog Bangor, lle'r oedd dros ddwy fil o fynachod yn byw ar lafur eu dwylaw eu hunain. Yr oedd llawer o honynt wedi ymprydio am dri diwrnod, ac wedi dod gydag ereill i weddio yn y frwydr, dan amddiffyniad rhyw Frochwel, yr hwn a'i cadwai, tra y gweddient, rhag cleddyfau'r paganiaid. Pan hysbyswyd i Aethelfrith paham y daethant, dywedodd,—'Os ydynt yn galw ar eu Duw yn ein herbyn, yna y maent yn ymladd yn ein herbyn â'u gweddiau, er na chludant arfau.' Gorchmynnodd, felly, ymosod arnynt hwy i ddechreu, ac yna dinistriodd y gweddill o'r fyddin anfad, eithr nid heb golli lliaws o'i filwyr ei hun. Dywedir fod deuddeg cant o'r gweddiwyr wedi eu dinistrio, ac na ddihangodd o honynt ond hanner cant. Trodd Brochwel ei gefn gyda'r gweddill, ar ymgyrch cyntaf y gelyn, gan adael y rhai ddylasai amddiffyn i gleddyfau'r gelyn."

Dyna ddesgrifiad o'r frwydr fel y cofid hi yn nhraddodiadau'r Eingl, fel yr adroddasid ei hanes gan y milwyr fu ynddi wrth eu plant. Ac y mae'n debyg y cenid llawer cerdd am dani, darn o gerdd ydyw'r adroddiad sydd yng nghroniclau'r Saeson,—

"Aethelfrith led his host to Legeceaster,
And offslew Welshmen without number."

Ond cwestiwn naturiol ydyw,—Paham yr oedd Brochwel, "tywysog Caer Lleon," yn amddiffyn mynachod o'r neilltu, pan y dylasai arwain y milwyr? A phaham yr aeth ar ffo, hen fuddugwr Fethanlea?

Os trown i'r croniclau Cymreig ac i'r croniclau Gwyddelig, cawn eglurhad.* Nid Brochwel, "tywysog Caer Lleon," oedd y prif dywysog ar y dydd hwnnw. Yr oedd lluoedd Gwynedd yno, dan arweiniad Iago, fab Beli, fab Rhun, fab Maelgwn Gwynedd; a lluoedd Powys, dan arweiniad Selyf fab Cynan. Am y mynachod yr oedd Beda'n meddwl,—y mae ei gydymdeimlad gyda'r Cymry pan gofia am danynt hwy,—a naturiol iddo oedd son am Frochwel. Naturiol hefyd oedd i groniclau'r Saeson son am dano,—efe oedd amddiffynnydd Caer ac arglwydd y

* CLXIX. Gueith Cair Legion, et ibi cecidit Selim filii Cinan Et Iacob filii Beli dormitatio. *Annales Cambriæ.*

612. Bellum Caire Legion ubi sancti occisi sunt, et cecidit Solon mac Conaen rex Britannorum. *Tighernach.* Rawl. B. 488.

morfa, ac efe hefyd drodd ei gefn. Y mae'n eithaf tebyg fod Aethelfrith wedi meddwl dychrynnu'r Cymry drwy yrru'r mynachod ar ffo, a dangos na thyciai eu gweddiau ar eu rhan. Digon tebyg fod y Cymry'n meddwl nad ymosodai brenin yr Eingl, er mai pagan oedd, ar y mynachod diniwed, gŵŷr nad oedd ganddynt ond eu gweddi, a phan welodd Brochwel y paganiaid yn dod, gwelodd nad oedd dim am dani ond ffoi. Digon tebyg fod yr ymosodiad anisgwyliadwy ar y mynych, y rhai "o goron merthyroliaeth a gawsant nefawl eisteddfâu," wedi taflu'r fyddin Gymreig i anhrefn, ac wedi peri penbleth i'r ddau frenin oedd wedi ei gosod yn drefnus ar y gwastadedd ger y ddinas. Ond pan gyfarfu byddin yr Eingl â byddin Selyf ac Iago, aeth yr ymladd yn chwerw; nid heb golled yr enillodd Aethelfrith y dydd, a hu'r ddau frenin Cymreig farw ar y maes.

Brwydr bwysig oedd brwydr Caer, un o frwydrau pwysicaf hanes Cymru. Yn un peth, gwahanodd Gymru oddiwrth y gogledd, Teyrnllwg ac Ystrad Clwyd,—fel y gwahanasai brwydr Deorham Gymru oddiwrth Wlad yr Haf. Daeth gwastadedd Maelor yn eiddo i'r Eingl, cyrhaeddodd eu tir fôr y gorllewin. Beth a ddaeth o Frochwel nis gwn. Os y Brochwel fu'n ymladd yn erbyn Saeson Ceawlin oedd, rhaid ei fod yn hen, ac nid oedd ganddo lawer o amser i fyw. Os y Brochwel y dywedir iddo farw yn 662* oedd, rhaid ei fod yn ieuanc iawn, a gwelodd lawer ymdrech i ail ennill y gwastadedd. Ond, pa un bynnag, wedi 613, yr oedd Caer yn furiau llosgedig moelion, a'r Eingl yn ymdaenu dros y dyffryn amddiffynnai gynt.

*Dyma'r dyddiad roddir yn argraffiad y Master of the Rolls o'r *Annales Cambriæ*, ond siawns fawr ei fod yn gywir.

Peth arall am y frwydr hon,—llwyddodd Aethelfrith lle y methasai Ceawlin. Gorchfygwyd Ceawlin gan fyddinoedd Caer, diflannodd ei nerth, ac aeth ei Wessex yn ddarnau. Gwnaeth Aethelfrith Gaer yn garnedd, torrodd nerth Cymru trwy ei rhannu'n ddwy, gwnaeth ei Northumbria'n ddiberygl. Y canlyniad oedd hyn,—Northumbria, ac nid Wessex, ddaeth yn brif deyrnas Lloegr i ddechreu; yr Eingl, ac nid y Saeson, lwyddodd gyntaf i ennill hen unbennaeth Pryden oddiar y Cymry.

Peth arall hefyd,—wedi'r frwydr hon, daeth Gwynedd yn bwysicach na Phowys. Hwyrach fod Selyf yn hŷn na Iago, yr oedd ef yn fab Cynan, tra'r oedd dau rhwng Iago a Maelgwn. Yn adeg brwydr Caer, yr oedd mwy o son am Selyf Powys,—mab Cynan Wledig,—nag am Iago, etifedd Maelgwn Gwynedd. Ni sonia cronicl y Gwyddelod am Iago; Selyf, yn ol hwn, yw "mab brenin y Brytaniaid." Ac ym mreuddwyd Rhonabwy, Selyf ddaeth at Owen gyntaf i ddweyd fod gweision bychein Arthur yn cipris ac yn blino ei frain. Eithr, tra y desgrifir hyd yn nod hosanau Selyf, nid oes son am Iago trwy'r rhamantau i gyd. Ond wedi'r frwydr y mae Cadfan Gwynedd yn bob peth.

Gyda brwydr Caer y dechreua hanes ein Cymru fechan ni. Cyn y frwydr hon nid oedd ond rhan o Gymru fwy. Daeth teyrnas Maelgwn a gweddillion Powys yn noddfa olaf anibyniaeth y Cymro. O 613 ymlaen, y mae ein hanes yn meddu undeb di-dor, y mae yn hawdd ei adrodd, ac yn hawdd ei gofio.

Yn y bennod nesaf yr wyf am geisio rhoddi darlun o Gymru fel yr oedd yn 613,—yn wladol, yn grefyddol, ac yn gymdeithasol. Ac wedi hynny, ym mhenodau'r drydedd gyfrol, adroddaf hanes yr hyn a wnaeth y tywysogion i uno ac i amddiffyn Cymru.

HIL GORONWY.

Ymddengys fod dau bwnc hanesyddol yn tynnu sylw ein brodyr yn yr Amerig ar hyn o bryd.

Llwyddodd golygydd *Columbia*, un o bapurau Cymreig y gorllewin, i gael hanes disgynyddion Goronwy Owen, gan un o honynt. Gadawodd Goronwy ddau fab o'i drydedd wraig, John a Richard. Aeth John i Garolina, ac ni wyddis ychwaneg o'i hanes. Aeth Richard i Alabama, lle bu farw yn 1825, gan adael wyth o blant. Yr oedd un o'r rhai hyn yn fyw yn Alabama yn 1890. Y mae llu o or-wyrion Goronwy yn Alabama, Tenessee, a Missouri. Bu un o'r wyrion yn y Congress, ymladdodd un dros y Gogledd yn y Rhyfel Cartrefol, a llawer dros y De. Dywedir mai teulu athrylithgar ydynt, a fod desgrifiad Lewis Morus o ymddanghosiad Goronwy yn wir am y rhan fwyaf o honynt.

LLONGAU MADOG.

Pwnc arall dan sylw ein brodyr draw ydyw Llongau Madog. Y mae Cymro yn nhalaeth Dakota yn dweyd mai'r Madogiaid ydyw'r Gros Ventres,—llwyth Indiaidd na waeth i mi heb gyfeithu eu henw,—ac y mae am drafaelio tri chant ar ddeg o filldiroedd i'w gweled. Tybia mai hwy yw disgynyddion Madog ab Owen Gwynedd a'i Gymry, ddaethant i'r Amerig yn y ddeuddegfed ganrif, dri chan mlynedd o flaen Columbus.

Nid myfi wawdia'r traddodiad; y mae wedi rhoddi llawer cân dlos i'r byd,—y mae Southey, Dr. Rowland Williams, Mrs. Hemans, a Cheiriog wedi eu swyno ganddo. Ie, a chofier am y cenhadwr ieuanc o Arfon fu'n chwilio am danynt, cyn huno ar lannau'r Missouri, yn chwilio am "ei bobl ei hun."

Y BERWYN.

"Chwi heriwch alluoedd elfennol
Feraon tragwyddol o'r bron."

Y CYFAMOD DISIGL.

"Cyfamod fy hedd ni syfl."—ESAY liv. 10.

NID oes dim mor nodweddiadol o olygfeydd Cymru a mawredd tawel ei mynyddoedd; ac nid oes dim mor gydweddol â natur feddylgar Cymro a'r "hen gyfamod." Ac nid oes adnod hwyrach, yn y Beibl i gyd, mor hyawdl i Gymro a'r adnod honno yn llyfr y proffwyd Esay,—

"Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt."

Y syniad sydd wedi newid hanes ac wedi newid cymeriad dyn, rhwng y canol oesoedd a'n hoes ni, ydyw'r syniad am gyfamod rhwng Duw a dyn. Cyn i'r syniad hwnnw deyrnasu ar feddyliau dynion, prin y credid fod y brenin a'r uchelwr o'r un gwaed a'r werin ddirmygedig dlawd. Ymostwng i un berthynai i ddosbarth uwch nag ef, a dirmygu un berthynai i ddosbarth is nag ef,—dyna ddwy ddyledswydd dyn yn y canol oesoedd.

Ond daeth syniad newydd, syniad barodd ddeffroad a rhyfeloedd y Diwygiad Protestanaidd. Achos y diwygiad nerthol hwnnw oedd darganfod hen lyfrau. Syrthiodd Caercystenyn i ddwylaw'r Tyrciaid, a daeth dysgedigion Groegaidd y dwyrain yn llu i'r gorllewin, a'u llyfrau gyda hwy. Dechreuodd ysgolheigion y gorllewin astudio Groeg, aethant oddiwrth esbonwyr y naill a'r llall at Aristotl a'r Beibl eu hunain. A gwelsant nad oedd yn y rhain orchymyn i fyd ac eglwys fod fel yr oeddynt, ond yn hytrach y dylent fod fel arall. Yn hen athroniaeth Groeg, wrth ddarllen ymlaen, cawsant y syniad am gyd-raddoldeb dynion; ïe, darllenasant am un dosbarth o feddylwyr ddywedai fod pob dyn, wrth natur, yn rhydd. Ac wrth ddarllen yr awduron Lladin, gwelsant yr un peth yno,—danghosai Livius gariad yr hen Rufeinwyr at ryddid, ac adroddai Tacitus mor rydd oedd yr hen Saeson, ac mor ddewr yr ymladdasai yr hen Brydeiniaid dros ryddid eu gwlad.

Ond colled i'r byd fuasai rhoddi iddo gred mewn rhyddid heb roddi, gyda hi, gred mewn

YR ARAN.

"Ti'r Aran, a'r Wyddfa gyrhaeddfawr,
Chwi neidiwch, bryd hyn, hyd y ne."

cyfraith hefyd. Gyda Martin Luther, pregethwr rhyddid, daeth John Calfin, pregethwr y cyfamod. O'r Beibl y daeth y syniad am gyfamod. Cyfamod tragwyddol â Duw, yn cymeryd lle penrhyddid pechadurus, sydd yn y Beibl. Wedi'r diluw, gwnaeth Duw gyfamod tragwyddol â'r rhai achubasid; a rhoddodd fwa yn y cwmwl i fod yn arwydd o'r cyfamod. Adlewyrch yr haul ar y cwmwl ydyw'r enfys, gyda'i holl liwiau gogoneddus,—teilwng arwydd o adlewyrch Haul Cyfiawnder ar fywyd dyn mewn addewid. Adnewyddwyd y cyfamod tragwyddol âg Abraham pan yn crwydro, yn hen wr, tua gwastadedd Mamre; soniwyd am dano wrth droed mynydd Sinai, —am lyfr y cyfamod, a gwaed y cyfamod, a Sabath y cyfamod tragwyddol; y mae'n gyfamod heddwch wedi'r pechu yn Sitim gyda'r Moabesau; ac wrth fyned dros yr Iorddonen, yn erbyn meibion Anac a dinasoedd mawrion a chaerog hyd y nefoedd, hysbyswyd i Israel fod ei Dduw yn cadw cyfamod a thrugaredd â'r rhai a'i carent ef, hyd fil o genhedlaethau. A phan gyrhaeddodd meibion Jacob dir yr addewid, parhaodd y cyfamod yn sicr, cofiodd Duw ei gyfamod a osododd efe yn ddeddf i Jacob, ac yn gyfamod tragwyddol i Israel. Darlunia Esay gadernid y cyfamod, dengys Ieremi rai crwydredig yn dod adre i lynu wrtho, cofia Daniel am dano yn y caethiwed. Wrth son am y proffwydi, cofia Luc am y sanctaidd gyfamod, pregetha Pedr i blant y cyfamod, a dywed yr epistol at yr Hebreaid am gyfamod gwell, wedi ei osod ar addewidion gwell, ac am waed y cyfamod tragwyddol.

Pan ddygodd y Diwygiad Protestanaidd y Beibl yn ol i'r byd, daeth yr hen gyfamod yn bob peth. Nid oedd gwahaniaeth hanfodol mwy rhwng dosbarthiadau,—medrai pob enaid ymgyfamodi â Duw. Ymagorodd byd newydd o flaen dynol ryw.

Gwnawd defnydd politicaidd o'r Cyfamod. Defnyddiodd Hobbes ef i gyfiawnhau gorthrwm,—aeth y deiliaid i gyfamod a'u gilydd, meddai, a gofynasant i'r brenin eu gorfodi i gadw'r cyfamod hwnnw; am hynny nid yw'r brenin yn rhannog ynddo, am hynny nis gall ei dorri, am hynny nis gellir ei alw i gyfrif, pa beth bynnag y wna. Yn yr oes wedyn, defnyddiodd Locke yr un syniad i gyfiawnhau rhyddid y deiliad,—rhwng pob deiliad a'r brenin y mae'r cyfamod, ebe ef, ac os tyr y brenin y cyfamod hwnnw, gellir ei ddiorseddu. Mewn oes arall defnyddiodd Rousseau y syniad hwn i gyfiawnhau chwyldroad,—

Y WYDDFA.

"Chwi gedyrn binaclau y ddaear,
Gyd oeswch â huan a lloer."

ymgyfamodi heb frenin, yn ol ei farn ef, oedd yr ymgyfamodi iawn.

Cyfamod oedd gair mawr pob ymdreeh dros yr efengyl yn amser cyffrous y Diwygiad Protestanaidd,—ymgyfamododd yr Almaenwyr yn erbyn y Pab, ymgyfamododd y Saeson a'r Albanwyr yn erbyn y grefydd newydd wthiai eu brenhinoedd arnynt, a chofir hyd heddyw mewn ardaloedd Ysgotaidd am y creulonderau ddioddefwyd er mwyn y Cyfamod.

Daeth y Cyfamod yn rhan o feddwl Cymru gyda diwygiadau crefyddol y ganrif o'r blaen a chyda deffroad y werin Gymreig. Ryw ddiwrnod yr oedd Huw Derfel,—un o gynrychiolwyr goreu meddwl crefyddol Cymru, —yn cerdded adref o Langynog i Landderfel, dros y ffordd fynyddig hir sy'n croesi moelydd unig y Berwyn. Yr wyf yn cofio sefyll gerllaw Pont Cwm Bydew, gan edrych oddiamgylch ar y mynyddoedd o'm hamgylch. Y mae yno ddistawrwydd perffaith,—oddigerth dwndwr aberoedd pell di-rif ac ambell i frefiad dafad,—y mae yno fawredd nas gall yr adeiladau mwyaf ardderchog beidio mynd yn gorachod yn y cof wrth ei weled. Yn rhywle ar y ffordd hon y cyfansoddodd Huw Derfel ei "Gyfamod Disigl,"* yr hwn a erys cyhyd a'r iaith Gymraeg, yr hwn y medr llawer un ei ddweyd ar ei hyd oddiar dafod leferydd, yr hwn y dylai pob plentyn ei drysori yn ei gof a'i ganu, fel y cenid ef yn yr hen ddiwygiadau.

I.

Chwi gedyrn binaclau y ddaear,
Gydoeswch â huan a lloer,
Safasoch effeithiau difaol
A threuliog hin wresog ac oer;
A welsoch yr oll er y dechreu,
Hil Adda yn do ar ol to,
A'r dylif, aruthrol lifiadau,
A'ch cuddiodd yn nyddiau'r hen No.

II.

Chwi heriwch alluoedd elfennol,
Feraon tragwyddol o'r bron,
Taranau, mellt saethawl, corwyntoedd,
A chenllif dyfnderoedd y don;
Ond gwelaf rhyw ddiwrnod yn nesu,
A ellwch chwi sefyll bryd hyn?
Y ddaear a ymchwel fel meddwyn,
A nerthoedd y nefoedd a gryn.

* Dywed mab Huw Derfel, H. Brython Hughes, wrthyf i'w dad ddweyd wrtho ef a'i ewythr mai wrth groesi'r Berwyn y cyfansoddodd ei gân.

III.

Ti'r Arân, a'r Wyddfa gyrhaeddfawr,
Chwi neidiwch, bryd hyn, hyd y ne;
Mynyddoedd yr Andes ymbranciant,
Fel hyrddod y llamant o'u lle!
I hofran fel brain yn yr entrych
Chwi chwythir âg anadl yr Ior,
A'ch twrw, fel myrdd o daranau,
Gymysgir â rhuad y môr.

IV.

Y cloion a'r clymau cadarnaf
Datodant fel dyfroedd yn awr,
Y temlau, a'r tyrau uchelfrig
Ysgydwir yn gandryll i'r llawr;
Ond, ped ai yn deilchion i'r dyfnder
O'i chylchoedd y belen rwy'n byw,
Ymollwng am byth i'r difancoll,—
Nid ysgog Cyfamod fy Nuw.

V.

Tymhestloedd o dân ac o frwmstan,
O'r nefoedd ddylifan' i lawr;
Rhyferthwy o ddiluw brwmstanaidd,
Ysguba bob congol yn awr;
Y nefoedd a'r ddaear ant heibio,
Yn adeg nos Sadwrn y byd!
Ond rhwymau'r Cyfamod sydd eto
Yn para'n ddiysgog o hyd.

VI.

Yr annuw a welaf mewn cyffro
Am rywle i ddianc ar ffo,
A'i floedd am fynyddau i'w guddio,
A'i dremyn yn dduach na'r glo.
Cnoi'i dafod wna'r truan gan arswyd,
Pob aelod fel deilen a gryn;
Ond llechu dan nawdd y Cyfamod,
Wna'r Cristion yn dawel pryd hyn.

VII.

Fan yma mae'n eistedd yn llonydd,
Ddi gyffro, o gyrraedd pob gwg;
Yn gweld claddedigaeth holl Natur,
A'r nefoedd yn *mowrnio* mewn mŵg,
Neu n llamu ar fryniau gwyrddleision
Cyfandir bythol-fyd pell draw,
Gan dreblu yr anthem na dderfydd,
A thelyn o aur yn ei law.

VIII.

Dychmygaf ei weled ef wedyn,
Draw, draw, ym mhen oesau ri'r dail,
Yng nghanol rhyw gwmni claer-wynion,
A'i wisg yn ddisgleiriach na'r haul;
Yn gwaeddi ar ludw'r hen ddaear,
Heb hanes gwyrddlesni na choed,—
"Cyfamod fy Nuw i sydd eto
Mor gadarn ei sail ag erioed."

IX

Mae'n gofyn wrth edrych o'i amgylch,—
"Ple mae cyfamodau y llawr,
A luniwyd rhwng pennau coronog,
Ple'r ydych? Ple'r ydych yn awr?
Pa le mae yr holl gyfamodau
Wnaed yma gan ddyn gyda dyn?
Ond tawel ddistawrwydd pruddglwyfus
Sisiala,—"Nid oes yma'r un."

X.

Mi a'u clywaf wrth esgyn i fynu
Drwy oror ysblenydd y gwawl,
Yn taro ar dant y Cyfamod
Ryw ganiad nefolaidd o fawl;
Nes tybiaf fod bryniau tir Gwynfa
Yn dawnsio wrth adsain eu cân;
Ond prysur ddiflannant o'm golwg,
Diflannant, diflannant yn lân.

XI.

Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion
Dros ddyn pechadurus fel fi;
A yfodd fy nghwpan i'r gwaelod,
Ei hunan ar ben Calfari;
Ffynhonnell y Cariad tragwyddol,
Hen gartref meddyliau o hedd,
Dwg finnau i'r unrhyw Gyfamod
Na thorrir gan angau na'r bedd.

HEB GARTREF.

Ganwyd J. Howard Payne, awdwr "Home, Sweet Home," yn 1792, a bu farw yn 1852. Y peth sy'n hynod yn ei hanes ydyw mai un heb gartref oedd. Crwydrodd o'r Amerig drwy holl wledydd Ewrob, —yn dlawd, yn unig, ac mewn eisiau bara. Clywai ei gân, ambell dro, yn cael ei chanu mewn rhyw gartref dedwydd; ac ai ymaith gan deimlo nad oedd cartref ar wyneb y ddaear iddo ef. Gwnaeth lawer i felysu cartrefi ereill trwy ei gân, ond, am dano ef ei hun, nid oedd ganddo gartref yn y byd.

Y mae i ni gymdeithas a'n gilydd, y mae i ni gartref, oherwydd fod gwaed Iesu Grist yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod. A bu'r Iesu hwnnw, burodd fywyd ein cartrefi ni, heb le i roddi ei ben i lawr.

SEM A JAPHETH.

Edrychwch ar adeilad prydferth, fel eglwys Strasburg neu eglwys Salisbury. Nid meddwl un dyn a roddodd eu cynllun i'r adeiladydd. Y maent yn gynnyrch athrylith oesoedd, yn gynnyrch athrylith cenhedloedd lawer. "Y Groegwr," ebe Ruskin, "roddodd y golofn; Rhufen roddodd y bwa; yr Arab roddodd y blodau hyd y bwa. Hil Japheth roddodd y golofn a'r bwa,—cadernid adeiladaeth; ond daeth yr ysbrydolrwydd a'r sancteiddrwydd o Ismael, Abraham, a Sem."

Pan fydd dynol ryw yn gwanhau, gyr Duw genedl o'r gogledd i fod yn gryfder; pan fo'n rhy fydol, gyr genedl o'r de i ddangos prydferthwch a mawredd rhyw feddwl. Clodforaf di, O Dduw, â'm holl galon; yng ngŵydd y duwiau y canaf i ti.

LLYTHYRAU RHISIART MORUS.*

DYMA dri o lythyrau Rhisiart Morus,—brawd Lewis Morus Môn, a chyfaill Goronwy Owen,—at y Bardd Coch. Bydd Rhisiart Morus yn enwog yn llenyddiaeth Cymru oherwydd yr hyn a wnaeth dros y Beibl Cymraeg, ac oherwydd yr hyn a wnaeth dros Oronwy Owen. Ymhen hanner blwyddyn wedi i Risiart Morus ysgrifennu'r ail lythyr sy'n dilyn, yr oedd Goronwy Owen, ym mhellderoedd yr Amerig, yn ysgrifennu llythyr ato,—y llythr Cymraeg olaf, hwyrach, i Oronwy ysgrifennu erioed. Ysgrifennodd Goronwy y llythyr wedi clywed am farw Lewis Morus (1765), i "gyd alaru â chwi am farwolaeth eich dau frawd gododog." Gyda'r llythyr daeth marwnad Lewis Morus —

"Soniais, sugenais gŵynion,—do ganwaith,
Am deg Wynedd wendon;
Doethach im dewi weithion,
Heb Lewis mwy, ba les Môn."

Y mae'r trydydd llythyr yn ein hadgofio am lythyr olaf Rhisiart Morus at Oronwy Owen,—llythyr yn dweyd fel y printid y Beibl i'r gwerinos tlodion, a fod mwy nag erioed o brintio Cymraeg. "Beth a dâl chwanegu," meddai, "pan fe allai na dderllyn neb fyth y llythyr?" Os darllennodd Goronwy ef, ni ddaeth atebiad yn ol. Yn *Columbia* am Mawrth 10 y mae gorwyr i'r bardd,—Whyte Glendower Owen, yn dweyd hanes disgynyddion Goronwy yn yr Amerig.

Yr oedd y Bardd Coch (1722–1770) at yr hwn yr ysgrifennwyd y llythyrau hyn yn gyfaill i Oronwy; ac ysgrifennodd Goronwy gywydd anfarwol iddo. Bu Rhisiart Morus,—un o'r rhai olaf o'r cwmni athrylithgar,—farw yn 1779.

"Ac yno'n llafar ganu
Eiriau eu cerdd i'r Ior cu,
Poed gwyr Mon a Goronwy,
Heb allael ymadael mwy;
Cyn uned a llefed llu
Monwysion,—'Amen, Iesu.'"

I. RHIST. MORYS, YSW O LUNDAIN AT HUGH HUGHES (ALIAS Y BARDD COCH) O LWYDIARTH ESGOB.

Llundain, 1760.

Anwyl Fardd,

Mae'n bryd bellach i atteb yr eiddoch o Fis Gorffenaf, yr hyn a wnaethwn yn gynt, pe cawswn fy nghof gan yr amrafael drafferthion sydd i'm hamgylchu yn oestad ysywaeth.

Am fardd Llangwm, nis gwn i ddim oddiwrtho'r awron; mi a'i gwelais yma, ac rwy'n tybied iddo gyttuno am brintio ei lyfr, a myned o hono yn ol i'r wlad am yr arian i dalu am y papur ymlaenllaw, ac ni chlywyd yma ddim o'i hanes gwedyn.

Fe roes Owen Owen imi eich Cywydd Mar. y Brenin, ac mi a'i cefais drachefn o Benbryn wedi ei dacclu drosto ond un llinell sef "O'r degau saith diogel." Ai ni wna o *ddegau saith yn ddiogel* yn ddifai yno? Mae rhyddid i fardd alw diogel yn ddwy sillaf. Yn wir yn wir meddaf i chwi, y mae'n awr yn gywydd gododog.

Mae Cymdeithas y Cymrodorion yn amlhau'n rhyfeddol; rwy'n bwriadu printio cofrestr newydd o honynt erbyn dygwyl Ddewi nesaf; ac os oes yna fardd, neu wybedydd gwybodaeth anianol a wyddoch eu bod yn deilwng o'r anrhydedd, moeswch eu henwau, ac nhwy a gant eu lle ymhlith eu brodur, aelodau gohebol y Gymdeithas. Yn wirionedd yr wyfi yn rhyfeddu cymaint a chwithau fod fy nhad yn symmud post ei welu mor hwyr; rwy'n ofni y byrhâ ei oes. Yr ydych yn ymofyn newyddion; mae digon yn y byd, ond nid oes yma ddim hamdden i'w mynegi i chwi. Golwg wych oedd gweled priodas a choronedigaeth y brenin; ond ni welais i monynt: mae'r fygydfa i'm blino yn hyll fel nas gallai yn ddiberygl fyn'd i dyrfa yn y byd; ac mae'r brenin i ginewa ddydd Llun nesaf efo Arglwydd Maer Llundain, &c., yn y Ddinas, ond rwy'n ofni nas gallaf gael yr anrhydedd o'u gweled yn eu prydferthwch. Dymma'r Parlment wedi ymgyfarfod, ac e weddai wrth araith y brenin nad oes obaith heddwch nes rhoi ychwaneg o gerydd i'r Ffrancod trahaus; y rhai sy'n gofyn iawn am eu holl golledion, er mai nhwy eu hunain oedd y troseddwyr, fel y byddent bob amser. Hir hoedl a iechyd i chwi, a lawnder o awen a Chymraeg medd

Eich carediccaf gyfaill,

RHIST. MORYS.

II. RHIST. MORYS, YSW., AT HUGH HUGHES (BARDD COCH).

Llundain, 1, Tachwedd 1766.

Anwyl Fardd,

Mae hi'n bryd bellach i atteb eich llythyr yr hyn a ddylaswn wneuthur er's llawer dydd; ond Duw a'm helpo, ni wiw i mi feddwl am 'sgrifennu llythyrau oddiar unwaith yn y pedwar amser at neb yn y byd, oddieithr y sawl a berthyn i'm hoffis; fellu chwi faddeuwch hwyrfrydigrwydd dynyn sy'n llawn o ffwdan drwy gorph y flwyddyn, heb fawr obaith mwy hamdden holl ddyddiau ei einioes. Och fi, ac Och chwithau! dyma lythyr arall oddiwrth eich câr William Parry o Fyrsinia, yn mynegi iddo glywed hanes y Gronwy Ddu o Fon, yr hwn sydd gantho eglwys yn County of Brunswick oddeutu can milldir i'r dehau oddiyno; a darfod iddo 'sgrifennu atto, a gofyn atteb, yr hyn ni wnaeth Gronwy; ac nad oedd yn disgwyl clywed oddiwrtho, canys fe ddywedwyd iddo ei fod yn yfed mor dost

* Y mae'r llythyrau oll o Gronfa Myrddin Fardd. Y maent fel yr ysgrifennodd hwynt, oddigerth fod llythyren fach yn lle llythyren fawr yn nechreu'r geiriau pwysicaf, a fod *ch* yn lle *x* yn y llythyrau diweddaf.

a'i fod beunydd megis dyn gwallgof yn ei ymddygiad. O ffei, ffei! Dyna ben am ben bardd Cymru mae'n debyg dros byth bythoedd. Ië yn wir, cywydd marwnad gorchestol yw'r eiddo Rhys Jones i Lywelyn Ddu; ac i'm tyb i bardd godidog y Rhys hwnnw: mi welais ei holl waith ynghyd mewn llyfr gyd â'r penllywydd o Nannau. Mi welais fy chwaer ynghyfraith o Benbryn fis Awst diwaethaf, ac a gesglais ynghyd yr holl lyfrau diddanwch, ac a'i gyrais at Mr. Eddowes i'r Amwythig i'w gwerthu dan obaith y caf rywfaint oddiwrthynt rywbryd neu gilydd.

Mi aethym i'r wlad drwy'r Mwythig, ac a ddychwelais ffordd arall drwy Gaerwrangon, i ymweled tylwyth fy ngwraig yno; ac a ddaethym drwy Rydychen, lle ciniawais gyd â'r Dr. Winffre Owen penaeth Coleg yr Iesu, a llawer o'r Colegwyr; a gwelais y *Llyfr Coch o Hergest* a phob peth arall yno; a moliant i Dduw mi ddois adref yn bensych, wedi marchogaeth yngylch 450 milltir yn y daith; ond ni chefais i un diwrnod o dywydd teg tra bum yng Ngheredigion, felly ni welais i ond ychydig o'r wlad er cymmaint fy awydd i rythu llygaid arni: ni chefais i olwg ar Gymru o'r blaen er's 44 blynedd, ac erioed ar un parth o'r Deheudir.

Mae Mr. Wm. Parry yn iach ac yn rhoi ei orchymyn attoch i gyd. Mi wyf bob amser

Eich gwasanaethwr a'ch câr ffyddlon,

Rhist. Morys.

III. RHIST. MORYS, YSW., AT Y BARDD COCH.

Llundain 17 Ebrill 1770.

Fardd Anwyl,—

Nid dim ond y prysurdeb mwyaf erioed a all f' esgusodi atteb yr eiddoch o'r 1af o Fai a'r 29fed o Ionawr. Yn wir, yn wir, nid oes yma un awr segur drwy gorph y flwyddyn, er cymmaint gwaedd henaint a musgrellni am esmwythdra. Ië'n wir colled fawr marw'r cyfaill Sion Thomas,* Gymreigydd godidog! anaml y gwelir ei gyfryw yn ein hoes ni. Can diolch i chwi am ei gywydd marwnad. Rwy'n deall eich bod yn 77 oed, bid i chwi ddal allan lawer o flynyddoedd angwaneg: minau'n 67 yn pysychu yn greulon heb fawr le i ddisgwyl deng mlynedd eraill yn y byd yma. Duw a ganiattao imi gyfarfod dedwydd mewn lle fo gwell. Cofiwch fi'n garedigol at fy chwaer a'r gwr a'r plantos; ni wiw i mi feddwl gweled un byth o honynt. Daccw yntau Mr. Meurig Bodorgan gwedi myned at ei dadau; i gyd yn llithro i'r bedd, y naill ar ol y llall, heb son am danynt mwyach: buan yr anghofir eu holl gampau daearol. Mae'r cyfaill Wm Parry yn diolch i chwi am ei gofio; hwnw yntau yn heneiddio. Mae ynghylch mis er pan welais Robin Ddu Fardd, roedd yn iach y pryd hwnnw. Dyma Gymdeithas y Cymrydorion yn cynyddu'n odiaethol, llawer o wŷr mawr wedi dyfod yn aelodau, megis Syr Watcyn Williams Wynn, Arglwydd Bwclai, Argl. Grosvenor, Argl. Paget, Syr Hugh Williams, Sion Puw Prys Gogerddan, &c., &c.; ac os Duw a gynnal fy hoedl nid wy'n ammau gweled holl bendefigion Cymru yn ein plith, a chael Eglwys Gymreig yn Llundain, a llawer o orchestion eraill er anrhydedd a lles i'r Dywysogaeth a'r hen iaith Frutaneg; ond mae'r cyfan megis yn ymddibynnu ar f'einioes fy hunan. Daccw ddeunaw mil o fapiau ar gerdded i Gaerfyrddin i'r Bibl mawr sydd ar fin ei orphen yno: ond e fu rhyfel bentan rhyngof a Phedr Williams, am iddo ryfygu cymeryd arno drwsio Salmau Cân Edm. Prys, a'r penbwl yn cyfaddef ei anwybodaeth yn rheolau Prydyddiaeth; felly mae ei glytiau yn llawn o dwyll seiniau &c trwyddynt! Fe ofynodd faddeuant am y camwedd, ac a addawodd brintio digon o honynt yn yr hen ffordd i'r sawl a'u dewisant felly. Canu a orug Pedr i'w deulu ei hun y Methodistiaid. A welsoch i run o'r Eurgrawn Cymraeg a brintir yng Nghaerfyrddin bob pythefnos am dair ceiniog y llyfr? Yr oeddynt wedi ei alw yn Magazine yn eu cynnygiadau, ond myfi a'i bedyddiais yn Eurgrawn iddynt, ac a ddanfonais iddynt ddau hen englyn Syr Lewis Gethin ar brintio Cymraeg, y rhai a roisant yn nechreu'r rhif cyntaf o'r gwaith. Gresyn na bae'r cyhoeddwyr yn medru 'sgrifennu'r iaith yn gywirach. O! am Oronwy Fardd neu ei gyffelyb. Beirdd y blawd ysywaeth ydynt i gyd y sydd yn gyrru eu caneuau iddynt i'w cyhoeddi; ac yn wir rwy'n lled ofni nad oes ond nifer bach o feirdd da yrwan yNghymru; os oes e fyddai'n wych genyf gael eu hanes. Dyma'r penllywydd wrth fy elin, a llawer o bapurau oddiwrth yr Hirfardd* o Lanysdumdwy diddan ddigon. Nid oes hamdden i chwanegu, felly dydawch heddyw. Mi wyf yn eiddoch tra bwyf

Rhist. Morys.†

* John Thomas, M.A., o Du hwnt i'r Bwlch, yn Eifionnydd. Gwel farwnad iddo yn y *Gwyliedydd*, am 1831. [Myrddin Fardd].

* Ieuan Brydydd Hir (1730–1789).

† Y mae un llythyr arall, llythyr byr brysiog ysgrifennodd Rhisiart Morus yng Ngorffennaf 1770, mewn llaw. O gronfa Myrddin Fardd y mae hwnnw hefyd. Cyhoeddir ef gyda'r sypyn nesaf o hen lythyrau.

OFERGOELEDD.

"Y mae yr hyn wna ac a ddealla dyn, gwas a dehonglydd Natur, yn cyfateb i faint ei adnabyddiaeth o drefn natur drwy sylwadaeth ar bethau a meddwl; mwy nis gall, mwy nis gŵyr." Bacon.

I. EI LE YN HANES Y MEDDWL.

YR hyn nodwedda yr oes hon, ac ai gesyd ar uwch tir nag un oes a'i rhagflaenodd, ydyw parodrwydd i sylwi ar ffeithiau, ac i'w hystyried. Fel ffrwyth sylwadaeth fwy eang a manwl ar ffeithiau anianyddol, y mae dynion wedi cael gafael ar wybodaeth sicrach am y byd oddiallan i feddwl dyn. Yn symud, law yn llaw megis, gyda chynnydd mewn gwybodaeth eglur a sicr, gwelir cynnydd hefyd yn y duedd i ymwrthod â phob rhyw ledrith neu ddychymyg a elwir yn gyffredin yn ofergoeledd. Oherwydd hyn gweddus ynnof fai gwneyd ymddiheurad dros ddwyn i'ch sylw ychydig adgofion am yr ystraeon glywais yn nyddiau fy mebyd am ysbrydion, yr hunllef, ac am ffurfiau ereill ar weithrediadau meddwl. Ar yr un pryd ni allaf lai na gofyn,—Ai nid oes i'r pethau hyn, er mor blentynaidd ydynt, eu lle a'u pwysigrwydd ynglyn â hanes meddwl? Yn hanes meddwl dyn, fel ei gwelir yn yr amlygiadau roes o hono ei hun ymhob oes o'r byd, y mae yn rhaid i'r amrywiol ffurfiau wisgodd y meddwl gael ystyriaeth a lle.

Ymhlith y ffurfiau cyntaf ar feddwl y gŵyr hanes am danynt ceir ffurfiau ofergoeledd. Ei delw hi sydd ar y chwedleuon di-rif ffurfia asgwrn cefn barddoniaeth oreu pob gwlad. Hebddi ni chawsid Iliad ac Odyssey Homer nac Aeneid Virgil. Ac megis nas gellir cael syniad clir a chywir am gymeriad meddyliol a moesol y Groegiaid a'r Rhufeiniaid heb gymeryd Homer a Virgil i'r cyfrif,—ynghyda'r aneirif straeon, chwedlau, ac ofergoelion ddelweddwyd, yn gyntaf yn eu meddyliau hwy eu hunain, ac yna yn eu gweithiau anfarwol,—felly hefyd nis gellir cael hanes cyflawn am genedl y Cymry heb roi lle ac ystyriaeth i'r ofergoelion nodwedda wahanol ardaloedd Cymru. Y mae yr amrywiol agweddau ar feddwl ddaw i'r golwg yn hanes meddwl gwahanol ardaloedd Cymru, yn ogystal a'r ffurfiau eithriadol ar feddwl welwyd ac a welir o bryd i bryd mewn personau unigol yn ei chymoedd a'i phentrefi, yn hawlio ystyriaeth a lle os ydym am gael portread cyflawn o feddwl y genedl. Hefyd, y mae'r agweddau neu'r ffurfiau ar feddwl welir yn hanes cenedl y Cymry yn rhan hanfodol o hanes meddwl yr hil ddynol. Ac am y ddau reswm hyn nis gellir bod yn ddibris o honynt.

Y mae ystyr yn yr hon y gall dull un meddwl o weithredu fod yn eglurhad ar ddull pob meddwl. Oherwydd y mae rhyw nifer arbennig o ddeddfau neu ffurfiau hanfodol yn y meddwl, yn ol y rhai y mae yn rhaid i bob meddwl fel eu gilydd weithredu fel y byddo gwybodaeth eglur a sicr. Ond nid â'r deddfau neu y ffurfiau hyn fel y cyfryw y mae a wnelof ar hyn o bryd, ond â'r hyn berthyn i hanes meddwl fel ei gwelir yn yr hyn gynhyrchwyd ganddo.

Ac ni raid myned i'r drafferth o geisio darbwyllo neb o honom nad cydymffurfiad hollol â'r ffurfiau hanfodol y cyfeiriwyd atynt ydyw hanes y meddwl dynol wedi bod yn unrhyw wlad neu oes hyd y pryd hwn. Ac nid cydymffurfiad â hwy yw prif nodwedd meddwl yn ei hanes yn y presennol. Gwir fod iddynt eu lle hanfodol fel egwyddorion; ac yn unol â hwy y mae yn rhaid ymofyn am drefn ac unoliaeth ynghanol yr amrywiaeth diderfyn sydd yn hanes meddwl dyn. Oherwydd trwy rym dylanwad eu gweithrediad hwy y sicrhawyd y mesur o gysondeb ac unoliaeth gyfleir yn yr amlygiad o feddwl mewn hanes. Eto ni feiddiai un ddweyd mai esboniad cywir diwyro ar ryw ychydig ddeddfau, cynhwynol yn y meddwl, y rhai roddant drefn ar, ac a wnant yn sicr i'r meddwl ei hun yr hyn a ŵyr, yw yr afrifed ffurfiau y dengys hanes ddarfod i feddwl dyn eu gwisgo, a'r rhai y mae yn para o hyd i'w gwisgo.

Nid ffrwyth a chynnyrch gweithrediad dirwystr ac uniongyrchol y gallu hwnnw ym meddwl dyn, yr hwn a wna ac a eglura bob rhyw wybodaeth gyrhaeddadwy iddo, ydyw yr hyn sydd wybyddus i ni am feddwl drwy gyfrwng hanes; eithr yn hytrach yr hyn ddeilliodd oddiwrth yr amrywiaeth diderfyn o ffurfiau, neu agweddau, gymerodd y meddwl yn ei weithgarwch diflin dros oesau maith ei drigiad yn y byd. Ymhlith yr amrywiaeth ar ffurfiau gweithgarwch meddwl mewn hanes, ceir fod rhai a neillduir i barch ac ereill i amharch. O dan un neu arall o'r ddau ben neu raniad yma y gesyd pob un, yn ddirgel neu ar goedd, yr hyn alwyd neu a elwir ar yr enw gwybodaeth. Nid oes dau, efallai, yn hollol gytuno yn eu calon ar le priodol pob un o'r ffurfiau hanesyddol geir ar feddwl dyn yn ei berthynas â gwybodaeth. Ond erbyn y byddo cenedl, neu ardal, neu yn wir berson unigol, wedi symud o un ffurf ar feddwl i ffurf arall, cytunir yn lled gyffredinol i bentyrru pob anfri a diystyrrwch ar yr hen ffurf. Neu, a defnyddio iaith fwy ffigyrol, wedi i bobl roi heibio eu hen wisgoedd meddyliol a chael o honynt i'w meddiant rai

newydd, eu tuedd yw anghofio gwasanaeth yr hen, y rhai a hoffid ac a werthfawrogid unwaith, gan fwrw arnynt bob drygair ac anfri yng ngrym eu hoffder at y rhai newydd. Hen wisgoedd meddwl yw ofergoelion. Fel pethau wedi eu taflu o'r neilldu yr edrychir ar y mwyafrif mawr o honynt yng Nghymru bellach. Ond hwy fu yn foddion clydwch a chynhesrwydd meddyliol i'n hynafiaid ni dros amser maith. Yn eu plith, yn wir, gwelir llawer hen wisg deneu, dlodaidd, garpiog, a diwerth o'i chymharu hyd yn oed ac ereill sydd fel hwythau yn hen ac wedi eu troi o'r neilldu, ond er hynny hi wasanaethodd ei dydd fel hwythau, ac yr oedd yn ffitio rhywun mor glos ac yn ei ddiddosi mor llwyr a dim un o honynt. Ac fel y cyfryw y mae yn rhan mor hanfodol o hanes meddwl dyn a'r fwyaf gwych a godidog. Priodol iawn yw dal mewn cof mai ffurfiau ar weithgarwch meddwl, er yn ffurfiau isel, ydyw y rhai elwir yn ofergoelion. Nid ydynt, ychwaith, ynddynt eu hunain, yn brofion o eiddilwch meddyliol fel y cyfryw. Y cenhedloedd hynny roddodd brofion o hoenusrwydd ac ynni meddwl mwy nag ereill, hwy hefyd fu fyw oesau lawer ynghanol y doraeth fwyaf a rhyfeddaf o ddychymygion ofergoelus y gŵyr hanes am danynt. Ac er fod y rhan fwyaf o'r chwedlau ofergoelus hyn yn wyllt, disail, a direswm i'n golwg ni, eto bu adeg yn hanes y bobl a'i cynyrchasant pan yr oeddynt yn eu hollol gredu. Yn gorwedd dan yr holl chwedloniaeth geir ymhlith y Groegiaid yr oedd, heblaw yr elfen effro yn eu cymeriad meddyliol, hefyd yr ymdeimlad o ryfeddod yn yr olwg ar fawredd a phrydferthwch natur, ynghydag ymsyniad am alluoedd ysbrydol a goruwchnaturiol. Un o'r galluoedd dyfnaf a mwyaf gogoneddus, o'i iawn gyfeirio, yw y gallu i ryfeddu. Y teimlad neu'r argyhoeddiad o fawredd a ddynodir yn y gair *rhyfeddod* ydyw yr hyn, uwchlaw pob peth arall, y mae crefydd yn ymaflyd ynddo. Ond pe caffai dyn wybodaeth berffaith am *achos* pob dim fu, sydd, ac a fydd, drwy astudiaeth o ddeddfau anian, a medru o hono mewn canlyniad roddi cyfrif llawn a hollol am bob peth, darfyddai am bob rhyfeddod. Ac wrth golli y gallu i ryfeddu collai dyn un o elfennau pennaf ei ddedwyddwch a'i ogoniant. Y mae crefydd yn tybied dirgelwch fel un o'i helfennau cyntaf a hanfodol. Y mae yr engreifftiau goreu o gydnabyddiaeth ddofn ac eang â natur dyn, o'r rhai y gellid enwi Plato a Shakespeare, yn dangos yn eglur fod ynddi gydymdeimlad greddfol â'r hyn sydd gudd-iedig a dirgel, a bod arni angen am y cyfryw fel rhan o'i hymborth. Am hynny ni raid petruso ai priodol ynte amhriodol rhoi ychydig sylw i'r teimlad neu argyhoeddiad gynhyrchodd yr amlygiadau o feddwl geir yn y ffurf o ofergoeledd. Daw i'r golwg yn y peth hwn dda yn ogystal a drwg. Gwelir ynddo ogwydd ysbryd at ysbryd; agwedd effro'r meddwl tuag at y mawreddus, y rhyfedd, a'r dirgel yn ei ymwneyd â'r byd oddiallan iddo. Mewn gair, y mae eginyn y teimlad crefyddol dan y cyfan. Ac am y rheswm yma, ynghyda'r ystyriaeth y rhaid rhoi lle i bob agwedd ar feddwl welir yng nghwrs hanes ei ddadblygiad, yr wyf yn anturio rhoi ychydig amser i adrodd, o blith y rhai wyf yn gofio, nifer o chwedleuon am ysbrydion a phethau cyffelyb a glywais lawer tro pan yn blentyn ac wedi hynny.

II. ENGREIFFTIAU.

Un o'r straeon fu a dylanwad mawr ar feddyliau mwyafrif trigolion ardal yr aethum iddi o'm hardal enedigol i fyw, pan oddeutu deng mlwydd oed, ydoedd yr un am ysbryd fu'n blino preswylwyr amaethdy yn y gymdogaeth. Siaredid am yr ysbryd hwn, ac adwaenid ef felly yn gyffredin, wrth yr enw "Ysbryd y Ffrith." Clywais rai yn son am dano fu, meddent hwy, yn llygaid dystion o'i weithredoedd. Yn ol a glywais, yr oedd bryd yr ymwelydd dieithriol ac anerbyniol hwn â'r Ffrith ar wneuthur a allai o niwed i eiddo y teulu, os nad yn y pen draw, hefyd i'w personau a'u bywydau. Ar y cyntaf ei hoff branciau oedd torri'r llestri pridd yn y ty trwy eu bwrw o un cwr iddo i gwr arall, ac wrth wneyd hynny rhoddodd aml i awgrym, fel y tybid, o'i amcan i dorri'r llestri, ac nid hynny'n unig, ond hefyd i anafu cyrff y rhai ddigwyddai fod yn y fan a'r lle pan y byddai wrth ei waith. Bu am ysbaid byr fel pe yn rhoi prawf ar ymaros ac amynedd y teulu trwy wneyd ryw fân driciau nad oeddynt yn golygu rhyw golled neilldiol ar eiddo. Ond o dipyn i beth cynhyddodd mewn nerth a hyfdra, nes o'r diwedd beri pryder ac ofn mawr. Ymhlith nifer o bethau chwithig y clywais iddo eu cyflawni, un o'r rhai roes i mi, fel aml un arall, nid ychydig o ddigrifwch wrth feddwl am dano, oedd ei waith ryw ddiwrnod yn cymeryd cosyn o gaws o'r ty a'i gario i bobty mawr oddiallan, yr hwn oedd wedi ei boethi ar gyfer crasu. Pan welwyd y cosyn, heb neb gweledig yn ei gario, yn symud yn gyflym yng nghyfeiriad y pobty, aed i'w gyrchu yn ol. Yr oedd, modd bynnag, wedi mynd i'r pobty poeth cyn y gallodd neb gael gafael ynddo. Ymdyrrodd y dynion a'r merched oedd oddeutu'r ty at enau'r pobty, a bu ymdrech galed i gael y cosyn allan; ond profodd pob ymdrech yn ofer. Toddodd y cosyn ac aeth yn un a'r lludw a'r llwch o fewn ac oddiallan i'r pobty. Aml i dro chwithig

a chas arall wnaeth ysbryd y Ffrith na bydd i mi eu coffau. Aeth y son am dano ar led, a thyrrai pobl lawer i'r lle i gael golwg arno, neu yn niffyg hynny, weld o leiaf ei weithredoedd. Parodd hyn iddo, fel llawer bodyn arall, deimlo'i bwysigrwydd, ac, mewn canlyniad, ymroddi i fwy o anfadwaith nag o'r blaen. Wedi cryn amser a mawr flinfyd yn yr amaethdy, cyrchodd neu ynte cyrchwyd,—nid wyf sicr pa un,—brawd o bregethwr i'r lle, ac wedi iddo ymgydnabyddu â'r amgylchiadau, aeth ati i geisio dwyn i amlygrwydd, ac yn y diwedd i gaethiwed, yr ellyll gyflawnai y fath ystranciau dinistriol. Wedi peth amser a thrafferth, cadd afael ynddo, a rhoddodd ddiwedd bythol ar ei deyrnasiad. Trwy fedr, galla, ac awdurdod y gŵr da a thangnefeddus, caed allan faint, llun, a lliw yr un oedd o'r blaen yn amddifad o bob un o'r tair priodoledd corfforol hyn, o leiaf fel priodoleddau canfyddadwy. Mewn trefn i roi i chwi syniad am ei faint, gwell fyddai i mi ei ddesgrifio mewn modd anuniongyrchol, —trwy ddweyd am y lle rowd iddo gan y gŵr da yn llety noswaith, nid yn gartref. Y *lodgings* gafodd i ddechreu ydoedd blwch tybaco'r pregethwr. Ni bu iddo yno, fel y dywedais, ddinas barhaus, ond gwasanaethodd ei leoliad yno yr amcan o wneyd yn hysbys ei faint, a'i liw, a'i lun. Yn ol yr hyn glywais, tebyg i bryf copyn ydoedd o ran maint a llun, ond o liw gwahanol. Yr oedd ei liw o wawr lâs rhy ryfedd i'w amgyffred heb ei weled. Diwedd yr ellyll fu, pa fodd bynnag, i'r pregethwr, gyda nerth ac awdurdod, ei garcharu,—a roed cadwyni arno, nis gwn,—dan garreg mewn man ychydig filldiroedd yn uwch yng nghyfeiriad y mynyddoedd na'r amaethdy y bu yn aflonyddu ar ei heddwch. Yno y mae yn aros, ar ddim a wn i, hyd y dydd heddyw.

Y mae tynged ysbryd y Ffrith yn dwyn i'm meddwl ddiwedd creadur o rywogaeth wahanol, ond yn meddu gradd o debygolrwydd iddo yn ei ystyfnigrwydd ac yn rhai o'i arferion. Fy amcan yn adrodd yr ystori hon yw dwyn i sylw agwedd feddyliol, yr hon, tra yn un fwy cyffredinol nag a feddylia llawer, y gellir dweyd rhyw gymaint o nodwedd gymeradwyol am dani,—y mae yn fath o wiriad ar yr hen gredo mai un yw Natur i gyd. Ond o'i chario i'r fath eithaf ag a wnaed yn yr engraifft osodaf ger eich bron, ymddengys yn un dra digrifol. Yn y rhannau hynny o Gymru y bu dynion yn cloddio am lo ynddynt ceir fod lliaws o hen byllau wedi eu gadael, rai au safnau wedi eu hamgau â gwal, ereill mewn dull llai diogel, ac ereill heb nemawr ddim i atal dynion ac anifeiliaid rhag cerdded iddynt. Mewn pentref yn yr hwn yr oedd amryw hen byllau heb eu diogelu yn briodol, yr oedd yn byw, rai blynyddau'n ol, deulu a gynhwysai, tuag adeg y digwyddiad sydd gennyf i'w adrodd, fam a nifer o fechgyn a genethod. Yr oedd gan y tenlu ddau ful, ac enw un o'r ddau hyn oedd Sharper. Rhyw ddiwrnod cwympodd Sharper, o ddiffyg gofal neu o fwriad,—nid yw hawdd penderfynu pa un,—i lawr i un o'r hen byllau, a darfu am dano. Digwyddai un o'r genethod fod yn rhywle gerllaw a gweled y mul yn syrthio i'r dyfnder mawr. Rhedodd adref i ddweyd wrth ei mham am yr amgylchiad, a chan wylo yn hidl hi waeddai "Mam, mam! y mae Sharper bach wedi syrthio i lawr y pwll." "Ow, ow!" ebai'r fam yn ol, "gobeithio fod i ened o yn y nefoedd!"

Tebyg, o ran yr agwedd feddyliol ddaw i'r golwg ynddi, i'r ystori uchod yw yr un a ganlyn, yr hon a glywais yn ddiweddar. Mewn ardal fynyddig a neillduedig yng Nghymru adroddai brawd ei brofiad yn y seiat, ychydig flynyddau'n ol, fel hyn,—"Yr ydw i'n cofio bod yn Lerpwl dro yn ol, ac yn sefyll yn ymyl yr afon i edrach ar bobol yn dadlwytho llwyth o foch oedd wedi dwad o'r Werddon. Rhwsut ne'i gilydd mi syrthiodd un o'r moch i'r dŵr a mi foddodd. Wrth edrach arno fo'n boddi, 'radnod honno ddaeth i meddwl i, 'Am hynny byddwch chwithau barod.'"

Pan oeddwn blentyn lled ieuanc, y mae'n gofus gennyf fy mod ryw noswaith gyda'm mam yn nhy hen wr a hen wraig oedd gymydogion agos inni. Yr oedd yno ar ymweliad, heblaw fy mam a minnau, un neu ddwy o wragedd ereill. Un o'r pethau fu dan sylw maith oedd yr hunllef. Yr oedd un o'r merched yn cwyno ei bod yn cael ei blino yn fawr ganddo. Wedi iddi hi a'r merched ereill roi eu profiad o'r peth poenus a dieithr hwn, a nodi allan liaws o engreifftiau, dechreuodd yr hen wr, yr hwn oedd cyn hynny wedi bod yn gwrando'n astud ar y gwragedd, ddweyd ei helynt yntau yn yr un cyfeiriad, gan nodi allan un engraifft neillduol yn ei hanes gyda'r hunllef. Dywedodd wrthynt pa fodd y cafodd ymwared ag hunllef oedd ar un adeg bron a'i ladd gan amledd ei ymweliadau. Yr oedd, meddai, wedi cael lle cryf i gredu mai dyn oedd yn cydweithio ag ef, yr hwn y gwyddai ei fod yn coledd teimlad cas a gelynol tuag ato, oedd yn peri aflonyddwch iddo yn ei gwsg ac yn amharu ei iechyd. Yng ngrym y grediniaeth hon penderfynodd wneyd ymdrech, y tro nesaf y deuai'r hunllef, i godi yn sydyn ar ei eistedd a rhoi dyrnod nerth braich ac ysgwydd yng nghyfeiriad traed y gwely.

Ryw noson daeth yr hunllef fel o'r blaen, ond rywfodd neu gilydd llwyddodd Dafydd,—dyna oedd ei enw,—i roi ei benderfyniad mewn grym. Y canlyniad o hynny fu iddo gael ar ddeall yn gynnar drannoeth fod y dyn a ddrwgdybiai wedi cael ei daro, ganol y nos o'r blaen, â rhyw boen gerwin yn ei ysgwydd. Chwi welwch ar unwaith dan yr hanesyn hwn, a glywais â'm clustiau fy hun, ffurf neillduol ar y grediniaeth yn nhrawsfudiad yr enaid.

Heblaw esboniad yr hen wr, y mae un mwy cyfansawdd ar yr achos o'r hunllef. Yn ol yr esboniad hwn y mae dau fath o hunllef, y naill yn tarddu o deimlad o serch at y gwrthrych a flinir ganddo, a'r llall o deimlad gelynol. Y ffordd i gael allan prun o'r ddau deimlad fydd yn cymell yr aflonyddwr ydyw sylwi ar y cyfeiriad o'r hwn y bydd yn dechreu ymgripio hyd y corff. Os o gyfeiriad y pen y bydd iddo ddechreu a symud yng nghyfeiriad y traed, serch fydd yn cymell, ond os o gyfeiriad y traed y dechreua ymsymud, gelyniaeth fydd yr achos. Ni chlywais am neb yn petruso llawer yng nghylch cael allan foddion i atal y math cyntaf o hunllef, ond y mae un ddyfais arall, heblaw yr un enwyd eisoes, i gael ymwared â'r math olaf. Y ffordd effeithiol hon o ddinistrio holl gynlluniau gelyniaethus yr hunllef ydyw gosod gogr yn nhraed y gwely. Y rheswm am lwyddiant y ddyfais, fel y dywedir, yw mai go wan ydyw'r hunllef yn ei allu i gyfrif. Tra elfennol yw ei rifyddeg. Ni chlywais iddo erioed fedru synio am *dri*. Eithaf ei gyrhaeddiadau rhifyddol ydyw dweyd, wrth gyfrif y tyllau yn y gogr—"un twll, dau dwll," ac yna ail gychwyn; ac wedi iddo, ar ol cais a chais i fyned rhagddo gyda'r cyfrif, golli ei hun yn lân yn eu hamldra, efe a â ymaith mewn *disgust* perffaith.

Y mae amryw ofergoelion ereill fedd ddylanwad mawr ar feddyliau'r plant y cefais fy magu yn eu plith. Un o honynt oedd y grediniaeth yng nghalonnau holl blant yr ardal y byddai iddynt golli eu dannedd a magu rhai pren, os edrychent ar lyffant a'u geneuau yn agored. A'r arfer gyda ni yn blant, os digwyddai un o honom weled llyffant, oedd cau y genau yn dyn, rhoi un law arni, gwneyd cymaint o swn ag a ellid felly, a chyfeirio at wrthrych ei ofn gyda'r llaw arall. Cysylltid y gallu i ddinistrio dannedd yn y ffordd hon, yn fwyaf arbennig â'r llyffant du, ac fe fyddid yn son am hwn wrth yr enw "Llyffant du 'dafydd dannog."

Un ffurf arall ar ofergoeledd ymhlith y plant y bum yn cydchwareu â hwynt ydoedd yr ofn a'u daliai pan ddigwyddai rhywun o honom gyfeirio â'i fys at y ser. Yr oedd y grediniaeth yn ffynnu yn ein mysg y byddai i'r ser syrthio arnom os gwnelid y peth rhyfygus hwn.

Un peth arall y clywais am dano yn yr ardal y treuliais y deng mlynedd cyntaf o'm hoes, na chlywais am dano wedyn, oedd ymddanghosiad creadur ofnadwy a elwid gennym yn "neidar sgellog." Yn adeg cynhauaf yd y gwnai hon ei hymddanghosiadau tymhorol. Mawr fyddai'r son yn ein plith fel plant, bob cynhauaf yd, am y neidar sgellog oedd wedi cael ei gweled yn y fan a'r fan.

Ac y mae bellach yn bryd i minnau dewi.

Rhydychen. JOHN ROGERS.

CANIG Y GOEDWIG.

Awn awn yn llu dan ganu'n llon
Ar hyd y lasfron unig,
Gan ddilyn ysgafn droed y wawr
I balas mawr y goedwig;
Cawn weled natur hardd mewn hedd
Ar orsedd o wyrddlesni,
A'i deiliaid tawel heb un loes
Yn moes ymgrymu iddi
Yn y goedwig.

Addoli cerdd dan ddail y coed
Erioed sydd inni'n bleser,
Arwydda fryd Cymroaidd fron
Yr hen Dderwyddon syber;
Mae ysbryd gwladgar Cymru Fu
Yn glynu trwy'r canrifoedd,
Ym mraich yr ysbryd wlawiodd ffydd
Ar grefydd y cyn oesoedd
Yn y goedwig!

Llaw Ebrill hyd ein llwybrau gwâr
Sy'n gwasgar peraroglau,
Ac ar bob pren mae adar cu
Yn canu mawl i'r blodau;
A gwelwn ambell fryncyn llwyd
Fel pe mewn breuddwyd effro,
Yn synnu trwy ei ddagrau byw
At ofal Duw am dano
Yn y goedwig!

Ond syndod poenus ambell waith
Ddaw ar ei daith i'n meddwl,
Nes taflu'r goedwig er mor glyd
A'i bywyd oll dan gwmwl,
Pan ofyn rhywbeth, er ein loes,—
P'le torrwyd croes yr Iesu?
Nes dwyn ein serch o'r wyrddlas fro
Dan wylo, a chyffesu,—
Yn y goedwig!

BRYFDIR.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

IX. RHOBERT WILIAM Y PANDY.*

ADNABYDDIR Rhobert Wiliam y Pandy fel awdwr un linell, llinell nad oes Gymro mewn oed a synwyr heb ei medru,—

"Beibl i bawb o bobl y byd."

Nid hon yw yr unig linell ysgrifennodd, ac nid hon yw ei unig linell dda. Fel holl feirdd ei oes ysgrifennodd lawer o brydyddiaeth farw, prydyddiaeth heb ddim i'w edmygu ynddo ond perffeithrwydd ei gynghanedd. Ond ysgrifennodd hefyd lawer o ganeuon dymunol a byw, ac y mae yn resyn na wyddai ei gydwladwyr fwy am danynt. Nid ei fai ef ydyw hynny, oherwydd mae wedi ysgrifennu ei weithiau, mewn llaw eglur dlos, mewn llyfrau trwchus.

Ganwyd Rhobert Wiliam yn 1744. Bu farw yn 1815, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfor ar y dydd cyntaf o fis Medi yn y flwyddyn honno. Saif y Pandy Isaf, ei gartref, ar y gwastadedd trwy yr hwn yr ymddolenna'r afon Ddyfrdwy, pan newydd adael Llyn Tegid. Aml dro y bu'r bardd yn rhodianna ar hyd y dolydd gwastad blodeuog, gan edrych dros y llyn ar y cylch o fynyddoedd sy'n amgylchu'r fro, a'r Aran a'r Arennig fel brenhinesau yn eu plith. Nid ydyw'r ffaith hon mewn un llyfr, ond casgliad o'm heiddo fy hun ydyw. Yr oedd yn rhaid iddo rodio'r dolydd i fugeilia ei ddefaid a'i ŵyn, a pha fardd fedr beidio edrych ar yr Aran?

Ar fin y dolydd, ac ar ochrau'r bryniau draw, saif Llanfor, lle'r hun Rhobert Wiliam. Yma hefyd, medd traddodiad, yr hun Llywarch Hen.

Nid oes llawer i'w ddweyd am fywyd Rhobert Wiliam. Yr oedd yn amaethwr cyfrifol, ac yn gyfaill i lawer o lenorion ei oes,—Rhisiart Morus, Twm o'r Nant, a Dafydd Ionawr. Cafodd ei addysg farddonol gan Rowland Huw o'r Graienyn, a rhoddodd yntau yr un addysg i Ioan Tegid. Diddigwyddiad fu ei fywyd. Rhent, treth, materion plwy, y tywydd, cael y gwair a'r yd, helyntion bach ei gymydogion,—dyna destynau hanes ei fywyd. Taenodd rhywun gelwydd am dano unwaith. Bydd y darllennydd yn gwybod cymaint ag a wn innau am yr helynt wedi darllen amddiffyniad y prydydd iddo ei hun.

* Cymerwyd hanes y bardd hwn o'i lyfrau, oddiar lafar gwlad, ac oddiar garreg ei fedd. Drwy garedigrwydd ei ddisgynyddion y cefais fenthyg llawysgrif ei weithiau. Gwel hefyd *Cymru Fydd*, iv., 41—44; Cymru, i. 48, 116.

Hunan Amddiffyniad.

Ar y Galon Drom.

Pob gŵr a gwraig sy'n byw'n heddychlon,
Pob mab a merch sy'n caru yn ffyddlon,
Gwrandewch fy hanes i fy hunan,
Rhwydd yw f'wyllys, rhoddaf allan;
Gwrthod cam sydd anghenrheidiol
I'r hwn a'i caffo wedi ei linio yn wawd olynol,
Gwrthodaf finne gelwydd dybryd,
Mae mryd i beunydd, drwy awch hylwydd, ei ochelyd.

Mi fum gynt wrth gwrs naturiaeth
Yn dilyn pleser ofer afiaeth,
Yn cadw cwmni merched gwynion,
Ond un a gerais yn y nghalon;
A honno gefais yn ddyweddi,
Heb ddim gwrthnebiad, ond gwir dueddiad o gariad iddi;
A'r cariad hwn sydd wedi gwreiddio
Yn y gwaelod, yn fwy-fwy hynod hefo honno.

Dechreu byw'n y byd a wnaethon,
Efo'n gilydd yn un galon,
A 'chydig iawn tuag at fywiolieth
Oedd ganddom ni, ond cariad perffeth;
Gwell oedd hynny, gyda bendith,
Na chyfoeth ormod, ofer falldod, efo'r felldith;
Mae Duw yn llwyddo pawb a'i hofnant,
Fe rydd ryw fendith i'r rhai yn ddileth a'i haddolant.

'Rwyf inne yn foddlon i'r fywioliaeth
A drefno'r Arglwydd drwy Ragluniaeth,
Os cawn ni iechyd i gyd oesi
Er maint sydd o ddygyn wenwyn inni;
Mi wn fod rhai 'mhen ucha Penllyn
Yn son am dana,—y fi ni henwa un o honyn,
Nid rhaid mo'r henwi yr euog gwrthun
Sydd a helaethrwydd o oer gelwydd ar ei gelyn.

Ym mysg athrodion, oerion arwydd,
A phob cullibwyr, coelwyr celwydd,
Mi glowais fod y gair ar gerdded
O son am danaf, swn a dwned,—
Y mod i'n filen ymrafaelio â'm priod
Buredd, yn un chwerwedd yn ei churo
Ac imi ei gwneyd yn gleisie duon
Trosti yn gwbwl,—ond mawr yw meddwl am y moddion.

Pei gwyddwn pwy a luniodd gyntaf
Ystori draws o oernaws arnaf,
Nid wyf yn dewis byth mo'r dial
I ddangos ffrwythe nwyde anwadal;
Nid eiddo fi mo'r dial creulon,
Tâl Duw galluog o'i le enwog i'w elynion;
Am danaf fi, 'rwyn madde yn gwbwl
A Duw i minne a fo'n madde yw fy meddwl.

Yr oedd Marged Wiliam, ei wraig, yn iau o un flwyddyn na Rhobert Wiliam. Bu fyw dair blynedd ar ei ol, a chladdwyd hi yn ei fedd ar y nawfed dydd a'r hugain o Dachwedd, 1818.

Mae cân arall yn dangos fod Rhobert Wiliam yn wr tyner galon. Yn ei oes ef yr oedd cyfreithiau'r tylodion yn dod yn chwerwach nag y buont. Dan ddylanwad athroniaeth "ysgol Manceinion," yr oedd gwarcheidwaid y tylodion yn dod yn fwy di-dostur. Yr oedd athroniaeth y dysgedig a phoced yr anysgedig yn dweyd mai rhy dyner fu'r moddion tuag at dlawd yn byw ar gost arall. Dyma syniadau Rhobert Wiliam,—

Mae'r gair fod un o blwyfydd Penllyn
Gwedi uno i gŷd ennyn
Rhyw gyfraith yn eu mysg eu hunain
Na ddaeth erioed o ddinas Llundain,
Fod pum gini o phorffet, meddent,
Ai grio yn ddwbwl, O mor fanwl, ar y fynwent,
Ar hwnnw osodai gaban diball
I ddyn tylodedd, mae'n bla oeredd, o blwy arall.

Mae hon yn gyfraith bur anweddol,
Os awn i ystyried yn dosturiol,
Na chae dyn gwan y fan a fynno
Mewn bro saledd i breswylio;
Tra bo fo'n talu am y gaffo,
Er gwaetha'r cwbl, fo all yn fanwl fyw lle fynno;
Mae pwnc eich cyfraith i'w gyffelybu
I halen diflas, ag anaddas i gynyddu.

Beth meddwch am yr adar gwylltion
Sy'n bur gyffelyb i'r tylodion?
Nid yw y rhain yn hau na medi,
Er hyn mae'r Arglwydd yn eu porthi,
Ag felly mae fo'n porthi hefyd
Y tylodion, rai hoff union, o'r un ffunud;
Nid yw fo'n gofyn cennad undyn
I rannu ei eiddo, mae ei gariad eto at gardotyn.

Pa beth a wnaech chwi, 'rhen gybyddion,
Pe byddai meirw'r holl dylodion?
A phwy a brynnai'ch blawd a'ch ydau,
I'w gwneud yn arian yn eich pyrsau?
Cael pum swllt gan lawer gwanddyn,
A chwilydd i chwi oedd eu codi am un peceidyn;
Ond nid ewch chwithe wrth drin sothach
Oni byddont efo thyciant, fawr cyfoethocach.

Yr oedd bardd yn wr mor anhebgor mewn gwlad gan mlynedd yn ol ag yw gwerthwr papurau yn yr oes hon. Un gwaith bardd oedd canu marwnadau, canu cerddi clwb, a chanu cerddi Nadolig. Y mae Rhobert Wiliam wedi marwnadu llawer am ei gymydogion yn ardaloedd Llwyn Einion a Chefn Dwygraig. Gwnaeth hefyd liaws o gerddi clwb, a mwy na hynny o garolau Nadolig.

O dowch yn awr, o fawr i fân,
Yn gyfan yma i gofio
Dydd genedigaeth, er ein mwyn,
Mewn sylwedd, addfwyn Siloh.
Llawenydd hyfryd llawnfryd llon
I ddynion ydoedd eni
Eu ceidwad clir, yn wir ddi-wad,
A'i gariad yn rhagori;
Does neb drwy'r byd eglur, nad yw fe'n bechadur
Mawr yma, mor amhur, ag eisiau arno gysur,
Er mwyn cael â merthyr ymwrthod;
Pam oeddym ni'n gaethedd, tan rwymau anwiredd,
Yn dylu mewn dialedd, egorwyd trugaredd,
Yn rhyfedd am gamwedd caem gymod.

Ni glywsom son am Adda ein tad,
A'i rediad o baradwys,
Ag Efa ei briod, wiwglod wedd,
Hon oedd ei ymgeledd gwiwlwys;
Torri cyfraith Duw o'r nef,
A'i ddigio ef yn ddygyn,
A wnaeth y rhain, mor druain dro
Am iddyn goelio eu gelyn.
Ag felly daeth pechod, a'i golyn i'r gwaelod
Drwy eu hanufudd-dod, fel nad oedd gollyngdod
Na dyfod o'n hynod anhunedd,
Nes caffael yn bendant addewid maddeuant
Am bechod a thrachwant, a gobaith gogoniant,
A'n rhoi mewn cu fwyniant cyfannedd.

Fe anwyd inni Geidwad cu,
Mewn tristwch bu fe trostom;
Ac O na byddai'n siwr i ni
O gael ei eni ynnom!
Ond Bethlem Juda oedd y dre,
Ar gynnydd, y lle ganwyd,
Ag enw'r ddinas uchel drem,—
Caersalem lle croeshoeliwyd.
Ni glywsom ddarlleniad am ei adgyfodiad,
Ag am ei esgyniad a chyfion dderchafiad,
I'r farn a'i ddyfodiad ef wedi;
Nid hanes llythrennol, na lluniau allanol
Sydd inni'n ddigonol, heb Grist o'r tu fewnol,
A'i fod ef yn unol a nyni.

Canodd Rhobert Wiliam lawer am golliadau ei oes. Bu'n gyfaill i lawer tylawd, ac i lawer un gorthrymedig. Ond bu'n chwerw wrth y bugail di-ofal, ac mewn un gân y mae'n fflangellu'r ffasiynau oedd, yn ei oes ef, yn cymeryd lle'r het fefar a'r bectwn stwff.

Mae balchder a drygioni, olynol,
Yn ymlenwi mewn aml annedd;
Pob coegni a mursendod digwilydd
Daw o'r gwaelod, a phob drwg goledd;
Mae gwall yn llenwi'r naill a'r llall,
Wrth wisgo n wychion, a dyna arwyddion
O falchder calon, rhyw foddion, gan 'rhen fall;
Mae hyder hwn am hudo neu dwyllo pob un dall.
Mae gallt o derfysg, 'rydwy'n dallt,
I'r merched gwrthun sy'n cario coryn
O sym cwch gwenyn, i'w herbyn y bydd hallt,
Am gynnal baich o bechod,—sef bod a gormod gwallt.

Ag felly'r meibion, hefyd, sydd megis
O'r un ffunud a rhyw gynffonnau,
Crychedig wallt, gwaith barbwr, a ddodant
Yn un clwstwr o ddeutu eu clustiau;
Mae bai mewn rhwysg ar lawer rhai
Sy'n rhodio llawer ar draed balchder,
Rhyw agwedd eger, ar drawsder nid oes drai,
Yn aros mae anwiredd a llygredd heb fod llai.
Rhyw gnith sy'n amlhau ym mhlith
Pob gradd o ddynion anuwiolion
I'n dwyn dan greulon felldithion chwerwon chwith,
A'n gelyn yn ein gwylio i'n rhwydo ym mhob rhith.

Yr oedd Rhobert Wiliam yn gyfarwydd â'r hen feirdd. Cafodd lawer o'u gwaith gan Rowland Huw, yr hwn oedd wedi eu copio'n ddestlus o ryw lyfrau neu gilydd. Byddai'r hen feirdd yn ysgrifennu llawer, a hynny rydd gyfrif am fanylder ac eglurder eu gweithiau. Yr oedd Rhobert Wiliam wedi

ymraddio. Rhydd C.C. ar ol ei enw, ac esbonia mai "Carwr y Cymrodorion" yw ystyr y llythrennau hyn. Canodd farwnad ar ol Rhisiart Morus, ysgrifennodd gywydd i ganmol Dafydd Ionawr, a bu'n ymohebu trwy englynion â Thwm o'r Nant. Y mae'n amlwg oddiwrth yr englynion hynny fod Rhobert Wiliam yn dod ymlaen yn y byd, ac y mae'n amlwg mai pur helbulus oedd Twm, druan. Dyma feddwl Rhobert Wiliam am feirdd ei wlad,—

Myfyrdod a gormod gwaith
I wr enwi, ar unwaith
Dalerau, di-wael arwydd,
Sydd ar faes hen yr awen rwydd;
Yn hwn darllennwn yn llwyr
Leferydd hen lafurwyr.
Gwiwdeg Aneurin Gwawdrydd,
Hwn yma fu dda i'w ddydd;
A Thaliesin iaith lwys-wych,
Bu iraidd waith y bardd gwych;
Llewyrch a hwyl Llywarcu Hen
Fu rowiog o fêr awen;
A gwaelod gwaith D. ab Gwilim
Y sydd mor bur eglur im;
Iolo Goch, a eiliai gerdd
Was doeth-gall, o ystwyth-gerdd;
Dafydd Edmwnd ar wndwn,
A Rhys Goch, fardd hardd oedd hwn
A dau Ifan o dyfiad,—
Cethin mwyn, Deulwyn, ddau dad
Bowiog, Gwilym ab Ieuan;
D. Namor hardd, gloew-fardd glân;
Da oedd gwaith heb unwaith wg
Dewr bawl Ieuan du'r bilwg;
Breiniol Howel ab Reinallt,
Deio ab Ieuan du, gu mewn gwallt;
Tudur Aled rhed fel rhain,
O awydd, a Gytun Owain;
Iawn ganwr Owain Gwynedd,
A Sion Tudur, wiwbur wedd;
William Llyn, ddygyn am ddal
Caniad, ag Wiliam Cynwal;
Edmwnd Prys, wr hwylus rhawg
Cowrain, a Howel Ceiriawg.

Bum yn meddwl ceisio nodi neillduolion y bardd hwn, a neillduolion ei amser a'i ardal. Ond gwell i mi orffen gyda rhoddi ei ddesgrifiad ef ei hun o'r adeg yr oedd yn byw ynddi. Gwelir yn eglur mai Rowland Huw a'i dysgodd i ganu yn gryf ac yn felus fel hyn.

YSTYRIAETH AM YR AMSER PRESENNOL.

Fy mrodyr oll ym Mhrydain, mae'r adeg inni ymroi,
I 'mofyn am brawswylfod, a pharod wlad i ffoi;
Nid unrhyw wlad ddaearol, lle mae gelynol lu,
Ond hyfryd wlad Paradwys, sy'n gymwys ac yn gu.

Mae'r ffordd yn rhydd i honno, ond inni ei cheisio i'w chael,
Ffordd newydd hyfryd ddigon, hoff union iawn ddi-ffael;
Yn arwain i brif ddinas y deyrnas, fwya ei dawn,
A'i llywydd sydd alluog, trugarog enwog iawn.

O dyna'r fan i fyned am nodded fwya'n awr,
I ni, a rhai ardaloedd tu hwnt i'r moroedd mawr;
Mae rheini mewn gorthrymder, a blinder mor ddi blaid,
Tan ddwylo y Pabyddion, sydd greulon hyllion haid.

Mae son am ryfel enbyd er's ennyd ym mhob sir,
Ac ofn i'r gelyn taeredd gael torri i fewn i'n tir;
Heb ofni'r achos gwreiddiol, andwyol bechod dyn,
Sy'n byw a marw ynddo, heb fynd o hono ei hun.

Rhyw ofer ymarweddiad, ac ynfyd siarad sydd,
Di sylwedd ar y Suliau, heb fawr effeithiau ffydd;
Sou am bapurau nwddion, rwy'n ofni bron yn awr,
Sydd well gan rai na'u Beiblau, o bobloedd Brydain Fawr.

Mae cyfraith Brenin nefoedd, ar gyhoedd inni i gyd,
Cadd amharch drwy'r amseroedd gan amryw bobloedd byd;
Heb ochel ei throseddau ma'i sathru megis sarn,
Am hynny bydd terfysgoedd ar filoedd yn y farn.

Peth mawr bod yn ddi ystyr o ddwys-deg eiriau Duw!
Mae rheol ei orchmynion yn foddion inni i fyw;
A charu a'n holl galon Dduw cyfion heb nacau,
Cymydog fel ni'n hunain, mae hynny i'w goffau.

Mae adwyth codwm Eden, a nododd bob rhyw ddyn,
O hyd, ni a welwn eto, ei natur sydd yng nglŷn;
Os drwg a fydd y gwreiddin, llawn erwin felly'r nodd,
Drwg fydd y pren a'r cwbwl, rwy'n meddwl, o'r un modd.

Pa beth ond ffrwyth y felldith, i'n plith sydd megis pla,
Pob gweithred ddrwg aflawen, heb ateb diben da?
Mae medd-dod ac anlladrwydd, a lladrad aml iawn,
Pob gwagedd, camwedd cymysg, sy'n drech na dysg na dawn.

Mae balchder a chenfigen, a chynnen, llid, a chwant,
A rhai a bwriad helaeth, yn talu dant am ddant;
Cybydd-dod, ariangarwch, yn gwyro dyn o'i le,
I wrthod mawr ymwared a nodded Brenin ne.

Ynfydrwydd cwrs naturiaeth, a bariaeth sy'n y byd,
A dynion yn ymdynnu am hynny yma o hyd,
Rhyw chwant yn arglwyddiaethu i'w bennu ar bob un,
A hyn drwy dwyll yn dallu neu'n denu meddwl dyn.

Fe roddodd Duw arwyddion i ddynion yn di-au,
Drwy'r Gair a thrwy genhadon cu ffyddlon i'w coffau,
A thrwy ei ragluniaethau, rhyw foddau rhyfedd iawn,
Y fu ar hanes eto, ond inni gofio a gawn.

Yn 'r Aifft gwnaeth ryfeddodau, a mawrion bethau maith,
Yn llyfrau Moses treuthir, fe welir yno ei waith;
Rhoes ddeg o blaau trymion ar Pharao a'i weision ffol,
Am fyw yn anuwiolion, arwyddion fu ar ol.

Bu yn ein hamser ninnau ryw bethau o fawr bwys,
Caed sychder a gwlybaniaeth, drudaniaeth yn dra dwys,—
Y tlodion mewn mawr brinder, a blinder, arwa bloedd,
Yn barod iawn i drengu wrth gael eu gwasgu ar goedd.

Er hynny Duw a'n clybu yn cleber tan cin clwy,
Fe dynnai'r farn oddiarnom, a'i ddyrnod ni bu mwy;
Gwrandawodd Ef ein cwynion, fel 'roedd yn dirion Dad,
Ac eilwaith fe roes lawer o lawnder yn y wlad.

Felhyn mae'n profi dynion, drwy amryw droion drud,
A rhyfedd ei drugaredd, fod yn ein coledd cyd;
Na basai wedi ein taro, a'n torri oddiar y tir,
Am fyw mewn anghrediniaeth a bariaeth helaeth hir.

Mae rhyfel a rhyw ofid o blegid pechod blin,
Gelynion, ffals galonnau, a 'strowiau mawr ystrin,
Yn bygwth dyfod trosodd i'n treisio ni a'n gwlad,—
Does ond un Brenin cadarn a'n ceidw rhag eu brad.

Ni gawsom waredigaeth, do'n helaeth hyd yn hyn,
Er haeddu cael cyfyngdra, a gwasgfa dalfa dyn;
O herwydd fod yr Arglwydd yn llywydd nef a llawr,
Ataliodd fyrdd o fradwyr, rhag dod i Frydain Fawr.

Mae son am gestyll cryfion, a llongau mawrion maith,
A gwŷr ag arfau llymion wnai aml greulon graith;
Ar diroedd ac ar foroedd yn lluoedd ar bob llaw,
I gadw'r genedl estron, anghyfion drawsion draw.

Ond cofiwn mai nid cryfder, na dyfais doethder dyn,
Sy ddigon i'n gwaredu, heb ddim ond hynny ei hun;
'Dyw rhedfa yn eiddo'r cyflym, ca'i aflwydd er ei nerth,
Na'r rhyfel enbyd trachwyrn yn eiddo'r cedyrn certh.

Pan ydoedd pobl Israel mewn gafael gynt yn gaeth,
Tan ddwylo Pharao ddygyn, ni bu'r un gelyn gwaeth;
Achubodd Duw eu bywyd o bennyd adfyd och,
Gwnaeth ffordd o'r Aifft ei hunan i'r cyfan drwy'r Môr Coch.

Roedd Josua 'n rhyfelwr, rheolwr, llywiwr llym,
Er cymaint ei fedrusrwydd, yr Arglwydd oedd ei rym;
Pan safodd haul a lleuad ar dyner archiad dyn,
Danghosodd awdurdod, da hynod Duw ei hun.

Ar ol i Sisera gynnull ei gannoedd i'r un man,
Sef naw can cerbyd haiarn, oedd gadarn heb un gwan;
Yr Arglwydd Dduw a'u drylliodd, a gyrrodd arno gur,
Ei holl gerbydau a'i fyddin, a'r cleddyf deufin dur.

Y Sisera a ffodd ei hunan, mor druan ar ei draed,
I babell Jael gwraig Heber, ar gyfer yno gaed;
Meddyliodd am gael nodded, gan hon a 'mwared mawr,
Ond hoel iw arlais gyrrodd, hi ai lladdodd ar y llawr.

Roedd tri chan gŵr Gideon yn gryfion yn eu gwraidd,
Midianiaid a wanhychwyd ar ol eu breuddwyd braidd;
Piserau pridd, a lampau, i gyd ond pethau gwael,
Ond cleddyf 'r Arglwydd cyfion fu'r moddion, fwya mael.

Roedd Samson yn wr nerthol, rhagorol, medd y Gair,
Nes colli ei nerth trwy ddalfa Dalila, ffola ffair;
Pan gaffodd eilwaith alw ar enw'r mwya ei rym,
Gelynion a orchfygodd, a lladdodd hwynt yn llym.

Mae hanes Saul y brenin, 'roedd ganddo fyddin fawr,
'Doedd un yn ddigon glewaidd i ladd Goliath gawr;
Ond Dafydd, bugail defaid, a phlaid o'r nef yn fflwch,
Roes gorffun, derfyn dirfawr, y cawr i'r llawr yn llwch.

Roedd Zera yr Ethiopiad yn dwad o'r naill du,
I geisio cwrdd ag Asa, ag amldra llawnder llu;
Fe waeddodd Asa ffyddlon ar Dduw ei dirion dad,
Yn erbyn mil o filoedd, ar gyhoedd yn un gad.

Ac Asa gafodd gysur yn brysur hynny o bryd,
Ei elynion yn diflannu, ac yn dibennu o'r byd;
Roedd llaw yr Hollalluog yn gefnog gydag ef,
A mawr gynhorthwy nerthol, Duw'n wrol dan y nef.

Fe ballai amser i mi, i henwi yma o hyd
Y modd bu Duw yn gwared, drwy gyrrau maith y byd;
Yr un yw fe'n bresennol, tragwyddol freiniol fri,
Mae'n drech na phawb mewn ymladd, mae'n amlwg iawn i ni.

Na 'mffrostied doeth mewn doethau, na'r cryf mewn cryfder chwaith,
Cyfoethog yn ei gyfoeth, ran gofid fydd o'r gwaith;
Gwir heddwch i gydwybod yw dod i nabod Duw,
A'i Fab yr Hwn anfonodd, mae n fwyniant inni fyw.

Os Iesu gawn yn gapten, bydd llawen iawn ein llwydd,
Gwaredwr yw ei enw, gwaredu yw ei swydd;
Er codi yn ein herbyn offeryn ynfyd ffol,
Fel Buonaparte neu rywun, sy'n elyn, fo sai'n ol.

Duw cadw George y trydydd, ein llywydd doeth ei ddawn,
A'r deyrnas mewn cadernid, er bod y llid yn llawn;
A'i ddeiliaid yn bur ffyddlon, daw'n burion felly i ben,
Trugaredd a maddeuant, i'n meddiant oll, Amen.

HANES BARDD.

[Codwyd o hen lawysgrif, gan Henri Myllin.]

I'r byd er's ennyd traws anian—daethum
I deithio oes fechan;
Hefyd o fyd, yn y fan,
Felly yr af i allan.

MAM Y GYNNEN.

[Codwyd o hen lawysgrif, gan Henri Myllin.]

Magiad cychwyniad gwreichionen—a lusgir
All losgi y nenbren;
Achos bach, a chas o'i ben,
Ganwaith yw mam y gynnen.

PRYDNAWN AR BEN Y GOGARTH.

PAN yn cerdded ar hyd heolydd glân ac uniawn tref Llandudno, pan yn rhodio ym mysg y miloedd dieithriaid ar hyd ei *phromenade* ardderchog, nid hawdd fydd i'r ymwelydd sylweddoli y ffaith nad oedd yno mor ddiweddar a'r flwyddyn 1840 ond pentref bychan dinod, lle y preswyliai ychydig bysgotwyr a mŵngloddwyr, a dau neu dri o amaethwyr ar Ben y Gogarth. Y fan oedd gynt yn ddinod ac anadnabyddus, sydd erbyn heddyw yn gyrchfa pobloedd lawer, ac wedi ennill, er's llawer dydd, yr enw "Queen of Welsh Watering Places."

Y mae y dref wedi ei hadeiladu ar y lleindir sydd yn gorwedd rhwng Pen Gwygarth, neu Ben y Gogarth, a phen craig Rhyw-leden,—rhwng y Great a'r Little Orme's head, fel y gelwir hwynt gan y Sais. Pe gallai Pen y Gogarth ddweyd ei hanes wrthym, ni gaem glywed am aml i frwydr boeth a ymladdwyd ar y lleindir odditano, pan yr ymdrechai y Rhufeinwr neu y Daniad neu y Sais ddringo ei lethrau i gymeryd meddiant o'r hen amddiffynfa Brydeinig a adeiladwyd ar ei ben, yr hon a elwir hyd y dydd heddyw Pen Dinas. Y mae yr enw Orme's Head yn ein harwain yn ol at amser pan yr edrychai y trigolion gyda braw a dychryn ar longau y Daniaid creulon yn hwylio heibio i Ben y Gogarth at y lan, i anrheithio ac i ladd.

Y cwestiwn cyntaf, wrth gwrs, sydd yn dyfod i feddwl yr ymwelydd ydyw,—Pwy oedd y sant y gelwir y plwyf hwn ar ei enw? A oes rhyw wybodaeth am dano ar gael? Er mwyn taflu ychydig o oleuni ar y cwestiwn hwn, mi geisiaf arwain yr ymwelydd yn hamddenol i Ben y Gogarth, at hen eglwys Sant Tudno. Ni gychwynnwn o ben uchaf y *Promenade*, lle y mae *pavilion* mawr a chyfleus wedi ei adeiladu, gan droi ar y dde. Wedi myned heibio i'r Baths Hotel, deuwn i olwg y môr, a chawn o'r fan yma olwg dda ar y *pier* hardd sydd o'n blaenau, yr hwn sydd yn rhedeg allan i'r môr am gryn bellder. Dyma ni yn awr wrth y *toll-gate*, y fynedfa i'r Marine Drive, ffordd a wnaed ychydig flynyddoedd yn ol o amgylch ogylch mynydd Gogarth. Y mae y ffordd hon yn un o brif atdyniadau Llandudno, a gwelir miloedd lawer yn cerdded ar hyd-ddi yn ystod misoedd yr haf. Nis gellir meddwl am ffordd fwy rhamantus. Uwch ben i ni y mae craig fawr a serth, a golwg fygythiol arni; odditanom y mae y môr, a rhuad ei donnau yn swnio yn ddibaid yn ein clust. Wedi cerdded am tua milldir a hanner rhwng y graig a'r môr, fe wêl yr ymwelydd fod uchder y graig yn graddol leihau, ac yn y man, yn lle edrych i fyny ar graig fygythiol, fe wêl ochrau anwastad y mynydd, ac ambell i ddafad yn pori ei welltglas. Wedi cerdded ychydig ym mhellach, ni a ddeuwn o hyd i lwybr bychan sydd yn arwain o'r ffordd i'r mynydd uwch ben i ni. Y peth cyntaf y syrth ein llygaid arno wedi i ni ddringo i fyny ochr y mynydd ar hyd y llwybr hwn, ydyw eglwys henafol Sant Tudno. Ar yr ochr dde i ni y mae ffermdy bychan, lle y cedwir agoriadau yr eglwys. Wedi curo wrth y drws, estynnir hwy i ni gan hen wraig siriol, ar drothwy ei phedwar ugain mlwydd oed. Yr ydym yn awr yn troi ar y chwith, ac ym mhen ychydig funudau dyma ni yn myned i mewn trwy y drws i fynwent yr hen eglwys.

Saif eglwys Tudno Sant ar lechwedd gogleddol mynydd Gogarth, mewn pantle neillduedig, yr hwn a elwir hyd heddyw "Pant yr eglwys." Dywed traddodiad i eglwys gael ei hadeiladu yn y fan hon yn y chweched ganrif gan Dudno, yr hwn oedd fab i Seithenyn Feddw, brenin Gwastadedd Gwyddno, ar ymylau Ceredigion. Dywedir i Seithenyn, pan yn wallgof feddw, adael i'r môr ddyfod trwy y llif-ddrysau oedd wedi eu gosod yn ddiogelwch i Gantref y Gwaelod, ac i'r holl wlad gael ei gorlifo gan ddwfr. Ar ol y trychineb hwn, ymgyflwynodd meibion Seithenyn, a Thudno yn eu mysg, i wasanaeth crefydd. Aethant oll, medd yr hanes, i Fonachlog Bangor Iscoed at Dunawd.*

Dyna, ysywaeth, yr oll a wyddom am yr hen sant a adeiladodd eglwys y plwyf hwn. Dywedir wrthym gan y cyfarwydd mewn adeiladaeth eglwysig, y gellir casglu oddiwrth wahanol rannau yr adeilad i eglwys fwy gael ei hadeiladu yn y fan hon tua'r unfed ganrif ar ddeg, ac i honno drachefn gael ei helaethu tua'r bymthegfed ganrif. Oddimewn i'r eglwys y mae dau gauad arch, a llun y groes wedi ei gerfio arnynt. Bernir oddiwrth y cerfiad eu bod o'r ddeuddegfed ganrif, ac y mae yn ddiameu eu bod yn gorchuddio gweddillion ryw rai hynod yn eu dydd.

* Gwel "Lives of the Cambro—British Saints," tud. 368. Dywed Bingley (North Wales, vol. i. 131, 132) am yr eglwys hon,—"It is dedicated to St. Tudno, who, tradition says, was a Romish recluse of extreme purity of manners and sancity, that lived and died here. Tudno and Cybi, the founder of the Church at Holyhead, it is said, were intimate friends, and were accustomed to meet once every week near Priestholme, to join in prayer. The former was called the White Tudno, from his always going westward from the sun, and the other the Tawny Cybi, because his route led him always to meet it."

Pe buasem wedi myned ymlaen ar hyd y Marine Drive am tua milldir a hanner arall, yn lle troi i'r llwybr sydd yn arwain o honi at eglwys Sant Tudno, buasem wedi dyfod i olwg goleudy hardd Pen y Gogarth. Mae llwybr ar y dde yn arwain o'r Marine Drive at y goleudy, yr hwn sydd wedi ei adeiladu mewn lle rhamantus yn union uwch ben y môr. Wedi myned i mewn a chael golwg ar y gwydrau, dyma ni eto yn troi yn ol i'r ffordd, ac wedi cerdded am tua phum munud, ni ddeuwn at lidiart fechan yn y mur, ar yr ochr dde i ni. O danom ni a welwn ochr fawr a serth, a llwybrau defaid yn ei chroesi yma ac acw, ac ond i ni sylwi yn fanwl, ni a welwn hefyd lwybr troellog yn arwain i lawr at y creigiau uwchben y môr. Os bydd yr ymwelydd yn ddigon gwrol i'm dilyn, mi a'i harweiniaf yn awr ar hyd llwybr bychan cul a pheryglus yn union uwchben y môr. Y mae yr olygfa wyllt a welir oddiar y llwybr hwn yn ddigon i beri i ni ymaflyd a'n holl nerth yn y graig. Oddi mewn y mae tonnau y môr yn curo yn ddibaid yn erbyn y creigiau daneddog, uwchben i ni y mae craig enfawr. Os gallwn lwyddo heb bensyfrdandod i gerdded i ben y llwybr bychan, cul, peryglus hwn, ni a ddeuwn i fan nas gall lai na bod yn ddyddorol. O dan y graig fawr sydd uwchben i ni yn y fan hon, y mae math o ogof a elwir hyd heddyw "Ogof Llech." Wrth fyned i mewn iddi, chwi welwch ddwy golofn o gerrig nadd, un o bob tu i'r fynedfa, a chwi welwch hefyd fod cefn yr ogof wedi ei gwneyd o'r un defnydd. Rai blynyddoedd yn ol yr oedd yn ei chanol fwrdd o gerrig nadd, ond erbyn heddyw nid oes ond ei droed wedi ei adael. O amgylch y bwrdd hwn y mae meinciau, hwythau hefyd wedi eu gwneyd o gerrig nadd. Yn ochr y fynedfa yr oedd gynt gafn carreg i ddal dwfr. Llenwid ef â dwfr trwy gyfrwng rhigol celfyddydol wedi ei naddu yn y graig. Islaw yr ogof, yn ymyl y môr, y mae hefyd faddon *(bath)* celfyddydol i ddal dwfr. Mesura yr ogof hon tua chwe throedfedd a chwe modfedd ar ei thraws bob ffordd, a deg troedfedd o uchder. Y cwestiwn dyddorol sydd yn dyfod ar unwaith i'r meddwl ydyw,—Beth oedd amcan yr ogof neu y gell hon? Fel eglurhad arni y mae dwy dybiaeth yn cael eu cynnyg i ni. Meddylia rhai mai dyma y fan lle yr ymneillduai Tudno Sant i fyfyrio ac i weddio, mewn unigrwydd tawel, cyn adeiladu o hono yr eglwys ar y mynydd. Faint bynnag o wirionedd sydd yn y dybiaeth hon, nis gall y Celt pruddglwyfus ddychmygu am le mwy cydnaws â'i natur i ddal cymundeb â Duw ynddo,—

"O swn y boen sydd yn y byd."

Y dybiaeth arall, a'r un fwyaf rhesymol hwyrach, ydyw, mai math o bleserdy oedd yr ogof hon, wedi ei gwneyd gan rai o hynafiaid teulu Mostyn, lle y troent am luniaeth pan yn hela hyd ochrau Pen y Gogarth. Yn ymyl yr ogof, y mae cilfach arall a elwir yn awr "Ogof Hornby." Yn nechreu Ionawr, 1824, hwyliai y friglong "Hornby" allan o Lynlleifiad am Ddeheudir America, gyda llwyth a gyfrifid yn werth uwchlaw tri ugain mil o bunnau. Yn fuan wedi gadael Llynlleifiad duodd yr awyrgylch, rhuai y gwynt, ymdaflai y tonnau mawrion dros y llestr. Tua chanol nos lluchiwyd yr "Hornby" yn erbyn y creigiau ysgythrog hyn, a suddodd ar unwaith. Un dyn yn unig a achubwyd. Tafiwyd ef, y mae yn ymddangos, ar y graig, ac wedi ymdrech fawr llwyddodd i ddringo i ben y mynydd, i ddweyd ei ystori dorcalonnus. Byth er hynny gelwir y gilfach hon yn "Ogof Hornby."

Wedi dringo yn ol i'r Marine Drive, a cherdded ymlaen am tua milldir, gan syllu ar fynyddoedd Penmaenmawr ac Ynys Seiriol draw yn y pellder, ni a ddeuwn yn y man at adfeilion hen adeilad fawr ar leindir isel wrth lan y môr. Mae y môr yn prysur fwyta ymaith y lleindir isel hwn, ac y mae eisoes wedi cario ymaith lawer o adfeilion yr hen adeilad, fel nas gellir penderfynu yn awr pa mor fawr ydoedd yn yr amser gynt. Bernir yn gyffredin mai adfeilion hen fynachlog sydd yma, yr hon a berthynai i Fynachlog Aberconwy, ac a roddwyd wedi hynny yn haf-balas i esgobion Bangor.* Ym mhen ychydig flynyddoedd eto, mae lle i ofni y bydd y môr wedi cario ymaith yr oll sydd yn aros o weddillion yr hen fynachlog hon.

Yn lle myned ymlaen ar hyd y Marine Drive yn ol i'r dref, ni a drown yn awr o honi ar y chwith, ac a ddringwn i fyny ochr serth y mynydd sydd ar ein cyfer, gan gyfeirio ein camrau ar draws y mynydd at hen eglwys Sant Tudno unwaith eto. Heb fod ymhell oddiwrth yr eglwys y mae adfeilion hen adeilad arall, a elwir gan y brodorion "Llety Fadog," ac yn ei ymyl y mae olion hen fagwyrydd a adnabyddir wrth yr enw "Gwylfa y ceirw." Mae yn dra thebyg fod yma gynt hen balas yn perthyn i Fadog o Loddaeth a'i hynafiaid, y rhai a dreuliai

* Yr oll ddywedir am dani gan y Parch. P. B. Williams yn ei *Historical Account of the Monasteries and Abbeys in Wales*, ydyw, "Gogarth, now called Great Ormeshead, is in the parish of Llandidno, near Conway. There appears to have been a Religious House here at one time; afterwards it came in to the possession of the bishops of Bangor, who had a palace and a manor at the place" Transactions of the Cymmrodorion (1828) vol. ii., 447.

lawer o'u hamser yn hela ar y mynydd hwn.

Yr ydym yn awr yn troi i'r ffordd sydd yn arwain o'r eglwys ar draws y mynydd i'r dref. Yn agos i bentref bychan a elwir Pen y Gwaith, yr hwn sydd ar y dde i ni, y mae lle a elwir hyd heddyw "Maes Macrell." Tybiai y diweddar Barch. Owen Jones (Meudwy Môn), mai llygriad yw yr enw o Maes Marchell (Marcellus Field), a'i fod yn dynodi y fan lle y syrthiodd rhyw swyddog Rhufeinig.*

Yn agos i'r llannerch hon y mae lle arall a elwir "Lletty y Filiast," ac fe dybir yn gyffredin mai cromlech oedd yma. Ond barna ereill fod yn y lle hwn unwaith deml, wedi ei hadeiladu i Geridwen, duwies llawnder. Y mae y ffordd, yn union wedi gadael Pen y gwaith, yn ein harwain i lawr gallt serth at gwr uchaf y dref. Yma yr ydym yn troi ar y chwith, ac ar hyd ffordd ddrwg, greigiog, yr hon sydd yn arwain i fyny y bryn sydd ar ein cyfer uwch ben y dref. Ar y bryn hwn, Pen Dinas, yr oedd yr hen amddiffynfa Brydeinig y cyfeiriais ati o'r blaen. Y mae y lle wedi ei gyfaddasu gan natur i fod yn amddiffynfa. Nis gallai gelyn byth ddringo i fyny dwy ran o dair o'i amgylchedd, ac yr oedd y rhan arall, yn y dyddiau gynt, wedi ei chadarnhau â dau wrthglawdd, a ffos ddofn o'r tu fewn i'r isaf. Ar ben y bryn y mae olion hen luestai. Oddiar y bryn hwn gellir gweled yr holl wlad am filldiroedd lawer. Ar y dde gwelir afon Gonwy ar derfyn ei thaith tua'r môr, ac yn y pellder gellir gweled tyrau castell henafol Aberconwy. Ar y chwith y mae craig Rhiw-leden a'r môr, ac oddi tanom gorwedd tref Llandudno. Ar ddiwrnod clir y mae yr olygfa a geir oddiar Ben Dinas yn wir fawreddog.

Dyma fi yn awr wedi arwain yr ymwelydd o amgylch Pen y Gogarth, ac wedi dangos iddo rai o'i olion hynafiaethol. Mae cwmwd y Creuddyn yn llawn o enwau sydd yn ein hadgofio am wrhydri ein tadau gynt. Er fod hanes yr ymladdfa dost a'r ymdrechfa galed wedi dianc, fel hwythau, i dir anghof, nis gallodd rhyferthwy dinistriol amser, er ei holl rym, ysgubo ymaith enw y fan lle y rhoes y Cymro ei fywyd i lawr dros ei wlad. Amser a ballai i ni son am yr "Adwy Rudd" neu yr "Adwy Waedlyd," am "Fryn y Bwaau" a'r "Maes Du." Nid llai dyddorol yw yr hen enwau hanesyddol ereill sydd yn britho y Creuddyn. Draw yn y pellder dacw hen eglwys Sant Trillo, a gweddillion Llys Euryn, cartref Ednyfed Fychan, cynghorydd a phen llywydd byddinoedd Llywelyn Fawr, ac wrth droed amddiffynfa Bryn Euryn dacw Nant Symper, lle y syrthiodd rhyw Sempronius Rufeinig, ac yn ymyl craig Rhiwleden dacw balas y Penrhyn, ac yn y fan draw dacw fwlch Pant yr Ellyll. Ond mae'r dydd yn darfod, mae'r nos yn dechreu taflu ei mantell ddu dros y mynyddoedd draw, a rhaid i ninnau hwylio ein cerddediad i lawr o ben y bryn. Mae'r gweithiwr, ar ol diwrnod o lafurwaith blin yn prysuro tua chartref, a draw yn y pellder dacw'r bugail a'i ffyddlon gwn yn diflannu o'r golwg.

"Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt;
Clywir eto gyda'r wawr
Swn bugeiliaid megis cynt;
Eto tyfa'r llygad dydd
Ogylch troed y graig a'r bryn,
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn."

J. Tudno Williams.

* Gwel Geiriadur Cened. Cymru, gan Owen Jones, cyf. ii., tud. 55.

Rhydychen.

BRO MORGANNWG.

Trist yw meddwl y bydd bro Morgannwg,—y fro fu'n hoff fan Dafydd ab Gwilym ac yn destun ei gân felusaf,—trist yw meddwl y bydd yn Seisnig cyn bo hir. Nid trwy orthrymder y collir hi, ond trwy weithrediad deddf sydd yn fwy anhyblyg na chyfraith y Norman ac yn fwy di-drugaredd na llywodraeth y Sais. Y mae cyflog mawr yn y gweithiau glo, ac y mae'r llafurwyr yn gadael y meusydd gwenith i fynd yno. Daw llafurwyr o Loegr yn eu lle, i siarad Saesneg. Ni fedr yr Ysgol Sul mwy gadw'r amaethwr a'r llafurwr gyda'u gilydd, a'r bwlch rhyngddynt yn fwy-fwy bob dydd.

Dyna ddanghoswyd gan y tystion fu o flaen D. Lleufer Thomas ym Mhont Faen, ar ganol y Fro, ddiwedd mis Ebrill. Rhwng hyn ag ymdrechion di-flino'r ysgolion dyddiol i ladd yr iaith Gymraeg, bydd distawrwydd neu Saesneg dros fro Morgannwg i gyd.

CYMRU DLAWD.

Daeth erthygl i mi ar y testun hwn, gyda deisyfiad am iddo gael ymddangos ar y cyfle cyntaf, "er mwyn achos gonestrwydd." Amcenir profi nad ydyw'r Cymro i fyw, ond ei fod i farw o flaen gwareiddiad, fel cyn drigolion yr Amerig ac Awstralia. "Tybir yng Nghymru," meddir, "fod enw i lawer Cymro; ond ni ŵyr neb am dano, druan y tu allan i Gymru fach."

Pe buasai hyn oll yn wir, ni buaswn yn ei gyhoeddi, i ddigalonni rhai eisoes yn wan. Ond nid ydyw'n wir. Nid oes gyfnod yn hanes Lloegr heb Gymro ynddo. Ac yn ein hamser ni, onid oes degau o Gymry yn enwog trwy ein teyrnas? Mewn masnach nid oes neb pwysicach na Maer Llunden a Llywodraethwr Ariandy Lloegr; David Evans a David Powell ydyw y rheini'n awr. Ac yn mannau uchaf crefydd Pryden cewch y flwyddyn hon Herber Evans, James Owen, a Herbert Vaughan,—yn blaen ori'r Anibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Pabyddion.

DANIEL OWEN.

(O photograph gan P. J. Lehmann, Y Wyddgrug).

CYMRY BYW.

III. DANIEL OWEN.

CLYWAIS ddweyd lawer gwaith nas gall nofelydd ond ei ddarlunio ei hun. Efe ei hun, yn ei funudau goreu, ydyw ei arwr; efe ei hun, yn ei funudau gwaethaf, ydyw ei gymeriadau drwg. Y mae llawer o wir yn y dywediad hwn. Beth bynnag am y rhamantydd, y mae'r gwir nofelydd bob amser yn desgrifio, naill ai efe ei hun ar wahanol adegau yn ei fywyd, neu rai a adnabyddai bron cystal ag ef ei hun pan yn blentyn. Yng ngweithiau'r nofelydd cewch ef ei hun bob amser, a'i fam a'i frodyr a'i chwiorydd braidd bob amser. Nid oedd fawr o newid ym mywyd Richardson, siopwr bach gofalus prysur fu ar hyd ei oes, heb yr un pechod amlwg iawn, ac heb yr un rhinwedd amlwg iawn ynddo. Am hynny nid oes fawr o amrywiaeth yn ei gymeriadau, gellir desgrifio cymeriadau ei nofel gyntaf a chymeriadau ei nofel olaf fel dyn da iawn a dyn drwg iawn; ac nid oes rhyw wahaniaeth hanfodol hyd yn nod yn y rhain, medrai Richardson foddhau ei edmygwyr trwy roddi tro sydyn i'w ddyn drwg. Ond pechadur oedd Fielding, nofelydd mwyaf Lloegr,—dyn y sancteiddiwyd ei fywyd yn raddol dan ddy-

lanwad y wraig aberthodd gysuron ei bywyd er ei fwyn, a than ddylanwad y cof am dani pan oedd hi o gyrraedd ei edifeirwch. Ac y mae ei gymeriadau'n newid o hyd. Ca'r pechadur hunanol ei hun mewn cydymdeimlad â'i arwr cyntaf, ca'r sant ei hun mewn cydymdeimlad â'i Amelia. Ac eto Fielding ei hun, yng ngwahanol droion ei fywyd, ydyw'r cymeriadau i gyd.

Y mae Daniel Owen wedi adrodd hanes ei fywyd yn "Rhys Lewis." Yno ceir ef a'i fam a'i frawd a chymdeithion ei ieuenctyd. Wrth ddweyd hanes bywyd y nofelydd hwn,* ni wnaf ond rhoddi enwau ereill, yr enwau priodol, ar y llyfr ddanghosodd mai ei awdwr oedd nofelydd Cymru.

Ganwyd Daniel Owen yn y Wyddgrug. Hydref 20, 1836. Un o Ddolgellau oedd Robert Owen, ei dad,—cymydog da, dyn gonest, a Christion cywir. Un o Laufair Dyffryn Clwyd oedd ei fam, merch Thomas Edwards, perthynas a chyfaill i Dwm o'r Nant. Yr oedd hi wedi gweled yr interliwiadau laweroedd o weithiau,—"hyd yn nod wedi iddi adael ei phedwar ugain oed byddai gan fy mam linell o Twm i setlo popeth." Ond clywodd un y bu ei ddylanwad ar Gymru yn gymaint a dylanwad Twm o'r Nant, os nad yn fwy; bu'n adrodd pennod ddwywaith i Charles o'r Bala. Dynes fechan oedd mam Daniel Owen, ond meddai ryw wydnwch rhyfedd; cerddodd unwaith bedair a deugain o filldiroedd ar ddiwrnod poeth, ac am ddeunaw ar hugain o'r milldiroedd hynny cariodd blentyn ar ei braich. Gwelodd brofedigaethau fuasain gwneyd i lawer un ddyrysu, ymladdodd yn ddewr yn erbyn tlodi, gwyddai lawer am y byd a'i droion, ac mae'n amlwg mai'r hyn adroddodd wrth ei phlentyn ieuengaf ydyw llawer o'r doethineb y gŵyr Cymru ei fod mor wir.

Yr oedd Robert Owen a'i wraig wedi symud o Res y Cae, lle y dechreuasent fyw, i'r Wyddgrug pan aned eu mab ieuengaf,—yr ieuengaf o chwech o blant. Gweithiai'r penteulu a dau fab yng ngwaith glo yr Argoed. Ddiwrnod ffair Glamai,—Mai 12, 1837,—torrodd y dŵr yn y gwaith, a boddwyd Robert Owen a'i ddau fab ymysg ereill. "Amgylchiad ofnadwy oedd hwnnw i fy mam, a bu agos allan o'i phwyll am lawer o wythnosau, gan godi bob awr o'r nos am amser wedi claddu ei gŵr a'i dau fab, ac agor y ffenestr, gan ryw led-ddisgwyl eu gweled yn dyfod adref o'r gwaith." Cafodd y weddw frwydr galed i fagu ei phlant,—torrodd y banc lle rhoddasid arian ar ei chyfer pan oedd rheitiaf iddi wrthynt. "Ni feiddiaf ddesgrifio i chwi fy mhrofiad, wedi i mi ddyfod i ddeall pethau—y cyfyngder a'r tlodi—mwyaf a feddyliaf am dano, mwyaf yr edmygaf ddewrder, ffydd, ac ysbryd di-ildio fy mam. Ond beth yr ydwyf yn son, mi a geisiais bortreadu ychydig o'i phrofedigaethau yn Mari Lewis, —mam Rhys Lewis, — ond fy mod wedi ymatal rhag desgrifio ambell gyfyngder. Gwyddai golygydd y *Drysorfa* lle yr oeddwn yn burion." Yr un hanes ydyw hanes prydyddion a nofelwyr o hyd,—

"They learn in sorrow what they teach in song."

Er mwyn i ddarllenwyr "Rhys Lewis" ddeall cymeriad arall, gwrandawer ar Ddaniel Owen yn adrodd hanes ei frawd,—"Gwastraffodd ei athrylith mewn cylchoedd na ddylasai. Ond cafodd, drwy hir gystudd, amser i edifarhau, a mi gredaf iddo gael trugaredd."

Pan yn dair ar ddeg oed, prentisiwyd Daniel Owen, yr hwn oedd er yn blentyn yn wannaidd ei iechyd, yn deiliwr gydag Angel Jones. Ar fwrdd yr hen Angel yr oedd rhyw hanner dwsin o ddynion, rhyw gymdeithas lenyddol fechan o deilwriaid,—yn dadleu am y pum pwnc, yn darllen yr *Amserau*, ac yn trin barddoniaeth.

Yr oedd Roger Edwards yn y Wyddgrug yr adeg honno,—un nad ydyw Cymru hyd yn hyn wedi sylweddoli maint ei gymwynasgarwch i'w genedl,—a chychwynnodd gyfarfodydd cystadleuol ddeffrodd lawer meddwl athrylithgar ac a roddodd ynni defnyddiol llawer un ar waith. Gall llawer un heblaw Daniel Owen ddweyd,—"Bu y cyfarfodydd hyn o fendith anhraethol i mi."

Tuag 1864 dechreuodd Daniel Owen bregethu, yng nghwmni Ellis Edwards,—un sydd erbyn heddyw yn un o bregethwyr goreu Cymru ac yn un o athrawon goreu'r byd. Nid yn yr un cyfeiriad y gweithiai athrylith Daniel Owen; ni ddysgodd lawer yn y Bala, os ydym i'w goelio ef ei hun, ac erbyn hyn y mae wedi peidio pregethu. Bum am hir yn bur awyddus am wybod fath bregethwr oedd. O'r diwedd cefais afael ar un a'i clywsai. Siaradai, medd hwn, yn araf ac yn bwyllog ac yn afaelgar, enillai ei fater a'i ddull sylw pawb. Mae'n sicr y buasai'n dod yn bregethwr enwog, ond, yng ngwanwyn 1876 torrodd y gwaed yn ei ysgyfaint, bu'n dihoeni am flynyddau, ac ni feiddiai esgyn pwlpud mwy.

Yn ei neillduaeth dechreuodd ysgrifennu. Yr oedd Roger Edwards fyth a'i lygad arno; ac er ei waethaf gwnaeth iddo ysgrifennu i'r *Drysorfa*,—Offrymau Neillduaeth, Y Dreflan, a Rhys Lewis,—"pennod ar gyfer pob mis,

*Cymerir llawer o'r ffeithiau a'r dyfyniadau sydd yn yr hanes hwn o hunan-gofiant byr o waith Mr. Owen, hunan-gofiant ymddanghosodd yn y *Cymro* am Fehefin 11, 1891.

heb fod gennyf air wrth gefn." Wedi marw Roger Edwards, cymerodd Llyfrbryf ei le fel tasg-feistr Daniel Owen,—a thrachefn, "er mwyn heddwch," dechreuodd ysgrifennu "Enoc Huws" i'r *Cymro*. Y mae pob un o'r gweithiau hyn wedi eu cyhoeddi'n llyfr, naill ai yn Nhreffynnon neu yng Ngwrecsam. Cyhoeddwyd llyfr arall o'i waith,—"Y Siswrn,"—yn y Wyddgrug.

Nid dyma'r lle i mi geisio esbonio y nofelau hyn, gwell gennyf eu cymeryd mewn cysylltiad â hanes y nofel yng Nghymru. Mewn cysylltiad â'r hanes hwnnw ceisiaf ddangos paham y maent mor boblogaidd, a phaham y mae eu dylanwad mor fendithiol ac mor fawr. Ni raid i mi enwi un rheswm,—eu cywair crefyddol, y teimlad crefyddol dwfn ymddengys yn y digwyddiadau pruddaf a llonnaf. Dyma'r nodwedd y sylwa estron arno gyntaf. Cyfieithwyd "Rhys Lewis" i'r Saesneg,—gwaith anodd, a gwaith wnaed yn dda ar y cyfan. Digwyddodd gŵr a adwaenwn fod yn aros gyda Mr. Gladstone yn nwyrein-dir Lloegr pan ddaeth y cyfieithiad o'r wasg. Yr oedd yr hen wladweinydd wedi ei darllen,—a dywedir na ddarllen efe ond y peth fedr ddarllen yn drylwyr. Gwelodd yn y llyfr gymeriad cenedl. "Dyma syniad plentyn o Gymro am y nefoedd," meddai gan ddarllen rhan o'r nofel,—"capel mawr Iesu Grist." Hanes y capel mawr a'i bobl,—yn sant a phechaduriaid,—adroddir gan Ddaniel Owen; ni raid gofyn paham y mae hen ddiwinyddion capelau Cymru yn maddeu iddo am fod yn "true to nature."

CYMRU'N DAL I GANU.

I.

Nid gwlad y gloew gledd
Ond "Gwlad y Gân" yw Cymru,
Mae'r cleddyf yn ei fedd,
Ag Arthur Fawr yn cysgu:
Canrifoedd ar eu taith
Sydd wedi cerdded trosto
A meib ein gwlad a'n hiaith
Sydd wedi ei anghofio.

Cymru, anwyl Gymru,
Anhawdd peidio'i charu;
Yn ei llwydd, fel dan ei chroes,
Deil fy ngwlad i ganu.

II.

Tymhestloedd llawer oes
Wrthsafodd fel ei deri;
Hi ganodd er pob loes,
Mewn *lleddfnod* yn lle tewi!
Edliwied dynion ffol
Ei bod yn dlawd, i'w gwanu;
Ateba'i chreig yn ol
Nad yw yn dlawd o ganu.

Cymru, anwyl Gymru,
Anhawdd peidio'i charu;
Yn ei llwydd, fel dan ei chroes,
Deil fy ngwlad i ganu.

III.

Pa waeth, pe byddai'r "ynn"
A'r "gwyngyll" wedi crino?
Ni bydd ar lanciau gwyn
Eryri 'u heisiau eto:
Caifff mamau gadw 'u plant—
Rhianod gadw 'u dagrau—
Nid crwydro bryn a phant
I chwilio am feddrodau!

Cymru, anwyl Gymru,
Anhawdd peidio'i charu;
Yn ei llwydd, fel dan ei chroes,
Deil fy ngwlad i ganu.

IV.

Boed anfarwoldeb pur
Fel gwlith yn gloewi 'i hemyn;
Boed adgof dyddiau cur
Fel breuddwyd ar ei thelyn;
Preswylied ysbryd cerdd
Rhwng brig ei hen fynyddoedd
Tra bo cenhinen werdd
Yn tyfu yn ei glynnoedd.

Cymru, anwyl Gymru,
Anhawdd peidio'i charu;
Yn ei llwydd, fel dan ei chroes,
Deil fy ngwlad i ganu.

Porthmadog. EIFION WYN.

CAWL.

[*O in o grochane Shir Gâr*].

PWIBENNA si 'ng gwbod rhwbeth am Shir Abarteifi a Shir Gâr, fe ddile fod eng gwbod rhwbeth am gawl. Ma cawl en air mowr en e shirodd hin, ac em mharte icha Shir Bemro hefid o ran 'nhi. Ma ma gawl cig wrth reswm, a hwnnw'n werth i alw cawl arnofe, ond ma ma hefid gawl ffwt, ne gawl pen lletwad, pan na fidd cig i roi endofe. Ma Edward Ritshert, Estradmeirig, en son rwle am "fara 'chawl erfin,"—'dwedd fowr o dato i gâl en i amser e, a 'diw cawl er hen brididd ddim wedi mind mas o'r wlad en lân 'to. Fe gewch amell i foled ohonofe lawr sha Threlech-yr-erfin, a lan sha Diffrin Cletwr, a drwa sha Bleine Gwenog, ond fe wed pobol Castellnewi wrthoch chi fod erfin "en hala'r cawl en grif." Miwn amell ffarm lle nad iw hi'n de, te, ddoipen e didd a'i ganol e, fe gewch brid nawr ag lweth o gawl llath i fracwas, a 'rwedd Twm Cawl Llath em mron a thorri i fola pan celse fe ginnig arnofe. 'Dwedd phioled ne ddwi ddim mwi na mesen em mola hwch i Twm. Pam bidde hi'n fain iawn sha diwedd e geia 'co, pan on i'n grwt, fe wede amell in ta wmed maidd ne gawl dŵr fidde fe wedi gâl i fracwas weithe, ond os wedd tipin en ddiogel o flawd circh en e cawl dŵr, 'rwedd e mhell o flan e dwrach si gida nhw 'm mhob man 'nawr.

Dina gawl iw cawl scwarnog, a hwnnw 'ng goch trwiddo, ac en in brich i gid, a mor dew a gallwch chi dorri fe a chilleth. Ma gwenhingen eng gneid cawl i rifeddi hefid, os bidd tipin o gig mochin gida 'i. Ma 'i chawl hi lawer en well gen i na'i chig hi.

Rhen Ficer, ne pwi si 'ng galw diod eng "gawl brag?"—eitha enw, a 'dwes dim ise'i well e. Ma'r hen air si 'ng gweid "Pwibenna if fwia o gawl fit fwia o gig," en eitha gwir, wath ma cig em bwrw'i rinwedd i'r cawl. 'Dw i ddim em meddwl ta ffalster rhiw hen gibidd wedodd 'na ginta er mwin wrth fod din en llanw i fola â bara 'chawl e bidd e'm bita llai o gig wedin.

"Wêl e cawl'ma fowr iawn," mydde Twm Bia'r Bid wrth ifed i gawl riw getin. A 'dwedd dim rhifedd, whaith. 'Dwedd nomor i ligad ar i wmed e, na brasderin en i gorff e. Rhiw whish o beth wedd e, a nai e ddim ond codi newin o'i wal wrth ddwad o flân din.

Fe wedir am amell in en Shir Abarteifi a Shir Gâr, os bidd e'n sharad en ddistop, na cheith neb arall weid geirin ond yfe, i fod e'n berwi fel cawl, ne'm berwi fel cawl pis. A fe wedir am amell in arall wedin, os bidd en ddiflas iawn ne'n ddeir tra wrth i waith, i fod e'n drillian ne'n oiri i gawl 'n ombeidis. 'Dwes neb en falio rhw lawer am brygethwr na ffeirad os bidd e'n drillian i gawl. Ma pawb en diflasi arno fe. Pan fidd rhw fachgen bras sha Glanne'r Teifi 'ma 'n taro amell i reg weithe 'sbo'r holl na le'n cryni, fe wedir i fod e'ng galw ar e "cawl mowr." Ond chidig iawn si en rhegi nawr. Ma crefidd ne rwbeth wedi lladd yr arferiad, a 'diw hi ddim eng golled ar i hol hi.

"Fe nâ i gistal prid o gawl aildwim i swper os ca i stenin gidage a dim en e bid," mydde Tomos e Sâr pam fidd e wedi cnapo tipin weithe. "Fe na 'ne 'fid," medde Deio'r Mashwn, "ond ma'n well gen i gâl stanglwt o fara menin, a thocin o gosin poth, ne wedi bwco gida phioled o gawdel, na dim os bidda i wedi câl i blâs hi."

Shwt ma cawl, gwedwch, wedi dod em brid mor giffredin en e parte hin? 'Diw e ddim yn y Gogle, a 'dwes fowr o son am dano en Shir Forgannwg a Shir Fynwe. 'Ches i gawlin en Shir Fôn am 'n agos i flwiddin e bies i 'no. Em bowdwr e bo cegin a ffreimpane Shir Fôn i gid. 'Sda'r menwod 'no ddim ing glem i neid prid o fwid fel gall din i fita fe. 'Weles i ddim eriadiried mor ddilefeleth a nhw 'riod. Fe orfi arna i ddwad nol i Shir Gâr a Shir Abarteifi i gâl cawl. Rhwbeth en debig iw hi'n Shir Forgannwg wedin. 'Dwes dim gwelïe cenine en in man fel cewch chi'n e parte hin. Fe gewch gimint a thor ech llaw chi o weli cenin o flan amell i di sha Merthir, a Dowles, a Rhymi, ac Aber Dâr 'co, ond câl i thrawsblanni nath e genhinen i'r parte hini gida'r rhai mân nhw 'ng galw "dynon dwad" arnin nhw 'no. Shir Gâr a Shir Abarteifi am genin! En e parte lle bi Dewi Sant em biw a bod ma'r genhinen yn tiddi ore.' Ma'im bôs gida ni 'ma,—ma'n ddigon haw' i chi wbod beth iw e,—

> "Be si'n tiddi en e gweli,
> A gore i gid gan wraig e ti,
> Po breisga bo hi'n tiddi?"

'Rwedd rhiw gisilltiad rhwng Dewi a'r genhinen, gan ta beth wedd e. A nghred i iw ta fe ddoith a hi i arferiad ginta fel llisewin cawl, a tha'n i amser ê e doith cawl em brid mor giffredin. A ni sinnwn i fowr nad wedd er hen Sant en diall er hen wheddel si'ng gweid e ceith in ifo fwia o gawl fwia o gig, a nad oedd e'n folon i'r cwn a'r cathe i gal e cig wedd wedi rhoi blas a brasder en i grochan e sha Thiddewi 'co.

Wel ma'n rhaid i finne bido drillian gormod o'ng nghawl fel hin hefid, nei fe fidda mor ddiflas a chawl dŵr heb in halen.

'Nawr am gawl 'nte, a shwt mai neid e. Rhowch i Scotin i iwd blawd circh, tew nei dene, ac i Widdil i stiw, ac i folgi o Sais i gig wedi rhosto a phlwm pwding, ond rhowch gawl i Gymro, 'nenwedig os ta Whelp, ne Gardi, ne fochin o bart icha Shir Bemro fidd e. Cawl iw'r prid mwia blasis ar wmed e ddeiar gidag e. 'Diw Soyer wedi defeisio dim en debig iddo, na gwbodeth Mrs. Beeton wedi dwad mâs a dim a ddalith i gimhari ag e. Mi ewn ni 'nawr i weld cawl enc cal i neid en i fan gore,—cawl a safith wrth ech asen chi. Miwn ffermidd en Shir Gâr a Shir Abarteifi e cewch chi'r cawl gore. 'Diw hi ddim em bosib i neid e'n debig en in man arall. Mi wn i am rai o Shir Abarteifi wedi treio neid cawl en Lloiger, ond 'dwedd fowr o lewirch arno fe. 'Rwedd gida nhw bopeth at i neid e hefid,—cenin, tato, persli, safri fach, a phopeth,—a 'rwen nhw'ng gamp ar i neid e gatre. Ond 'rwedd rhwbeth en fir en e cawl o 'nhw'n neid bant. Fel man nhw 'ng gweid am Fethodistieth, os ciswch chi gario fe' ng grôs i'r ffin fe gollith i swin a'i flas, a ni fidd e ddim en amgenach na llond llester o gimisceth diflas o gig, a lliseie, a blawd circh, a dŵr, a pheth halen. A 'dwes neb ond Cymro si'n falio dim am gawl. Ma rhiw snagin o Sais ne Scotin si'n dwad lawr im plith ni weithe'ng gweid "ach"! wrth i ben e, ac en i regi fe fel bwid moch a phishwel. Ma'n rhaid i chi gal archweth at gawl. Ma gwin Oporto a chlared em brion i bobol a'r bryste gwinion, a merched a'r gwddge nweth i helpi meline i cella i fali, ond ma'n well gant gwaith gan Twm e gwas mowr i olchi i lôn goch a pheint o ddiod na holl glared e dyrnas, wath 'diw e 'riod wedi marfer i grombil i ddala rhiw lwtsh fel 'ni. Os na fidd din wedi signo blas at gawl en llath i fam, ac o 'ni'm mlân nes bidd e'n lasgrwtin, gobeth gwan fidd iddo fe lapo i wefise a llinci i phioled fel bise fe am linci'r cawl a'r cafan ar i ol e.

Dewch gida fi'n awr am dro i in o'r ffermidd si ar lan Teifi 'ma. Dina fe—ma'r hen di'n sefill lle ma fe wedi sefill am oise'n gatre tawelwch a bolonrwidd a iechid na chewch chi mo hono fe ond en e wlad. Ma anal bir y minidde, a'r cwed, a'r blode, a'r manal a'r grig, a'r ddrisïen ber en lladd pob haint ddaw'n agos i'r gwmdogeth. Pleser i'w biw mewn hen nith fel 'ma. 'Dwes wlad ar e ddeiar all ddangos i thebig hi. En agos i'r ti ma'r ffinnon em bwrw mas i dŵr gloiw, mor bir a'r grishal. Wrth gefen e ti ma'r ardd, a'r peth mwia amlwg ende iw—nid i llwini fale a phlwms, a i gwsberis a'i chwrens, ond i phâm cenin. Pe bise'r hen Ddewi Sant eng gweld gweli cenin fel hin fe gode'i ddwilo miwn sindod a diolch. Obeiti'r gweli ma imil o bersli wedi i rhoi, a rheini 'ng cwrlo fel border cap mam-gi.

'Nawr ni a ewn i'r ti ac i'r gegin. Chi welwch e rhastal 'na si dan e llofft,—ar honna ma'r hanner ore o fwch dew wedi sichi fel corn. Trowch ech lliged i weld be si'n hongian en e shime. Dina i chi shime! Ma i mhantell hi fel menwes cawres en ciscodi'r teili pan man nhw'n iste'ng gôr ar er eilwd cin swpere en e geia, ac en i llanw hi ma peder horob o gig mochin nad wes bacwn ar e ddeiar o'i fath e. Ma fe'n gadael rhiw elis en e mhen i fel bendith ar i ol, ac en torri mor felin ar olden ar e trenshwrn. Mae'n tini am inarddeg o'r gloch, a ma'r crochon en cal mind ar e tân a thri cwartar i lond e o ddwr ffinnon, a gwraig e ti'n rhoi llond llwi o flawd circh ar i wmed e. Yna mae'n torri cimint a'i chlocsen o gig eidon o dan e lofft, a chimint a'i chlocsen arall o gig mochin o'r shime, ac en i rhoi nhw en e crochon. Ma llond er eilwd o dân,—tân mate a pheth glo, a chwed a hen gipill wrth i gefen e, en ddigon i rosto eidon, a ni chimer hi fowr iawn cin bidd e crochon a'r cawl em berwi'ng grichias. Mae e wedi berwi eisws, a thin e wraig e clawr i bant, a rhoith y "blawd" miwn,—phioled o flawd circh a dŵr wedi i gimisci'n dene,—a dofir peth o goibal pôth er hen grochon am dipin. Dachreua dorri'r berw eto, a berwi geith e, a'r clawr en hongian iwch i ben e wrth e linc fel to, wath ma'r gŵr drwg en e shime weithe, a digon o felldithiw endo fe i fwrw dwrned o hiddig lawr i'r cawl. Pan neith e, ma gwraig e ti'n mind mas o'i chron en ombeidis, ac mor grac trw'r didd a gallwch chi rhwto hi. Berwi a berwi ma'r crochon, a mas law fe ddaw'm brid i ro'r "dail" endo fe. Cabbetsh iw rheni, a phanas, a garretsh, a "chwpwl" o erfin, falle, 'ng gwmpni gidanhw. Berwi geith e crochon am spel eto, a ma'm bleser i weld e pethe'n troi a thwmlo en e cawl, ac inte 'n dangos i berfe bob ergid. Amell waith—ar ddi Sil e bidd hi finicha—fe roith e wraig ddeg ne ddoiddeg o dwmplïod en e cawl. 'Nawr fe godir e crochon linc ne ddwi'n iwch, wath ma'r cinhwyshad em berwi'n rhi gloi. Dyna i chi oligfa! Pwi rifedd fod calon gwraig e ti'n downsho o lawenidd wrth weld llond cidl o gawl, a hwnnw'n ymdroi ac ymrowlo fel ma nhw ng gweid am ligad bardd pam bidd en in o'i orie pêr. Daw gwraig e ti'n awr a'i phiol a'r llwi bren i "brofi" 'r cawl. E benna gwc ar e ddeiar iw hi, ac fe ŵyr i'r gronin faint o halen si'n

ddigon i roi en e cawl. Bob en dipin fe sacith e fforc i'r cig, ac fe'i codith i'r ddisgil, a phan ddaw'r dail a'r pethe erill en ddigon fe gan nhwynte 'i codi ar ddisgil arall. Daw tro'r twmpïod cin bo'n hir, a ma'r cawl en rhidd i roi'r cenin miwn endo fe. Ma i ogle fe 'm mind trw'r holl di a mas i'r clos, ac en ddigon i hala whant ar ddin marw. Ai wmed e wedin, ma fe'n in biw o ser! Dima'r cenin o'r diwedd, llond phiol o honin nhw, wedi i "briwo" n fân, ac ambell i bersliën endin nhw. Os bidd e gwr a rhai o'r plant en lico "cenin," rhaid bod en ofalis iawn o biti nhw, ne fe an i'r gweilod miwn wincad, na ddon nhw ddim i'r wmed ond hini. Ond fenicha, berwi gan nhw, bodden ne bido.

Fe ddoith em brid "cawl" o'r diwedd. Fe ddaw'r forwm fach,—mai'n gwbod i hamser i'r blewin,—a'r phiole a'r llwie o'r car, gosodith nhw'n rhes ar e ford. Wedin fe friwith fara en e phiole—bara barlis si'n taro ore gida chawl. A dina lle bidd gwraig e ti a'r lletwad en i llaw en codi "cawl" ac en llenwi pob phiol i'r fil. O dipin i beth fe ddaw'r gŵr miwn, a'r bechgin, a'r merched, a daw pawb at i gilydd o biti'r ford a phob in em bwrw at e cawl si o'i flân e. Cawl ardderchog iw e! O bob moithe si en e bid, cawl iw'r gore o ddigon. Ma fe'm brid e galle'r brenin fita, a'r crochon en rhoglo fel e blwch o enent nard glib gwerthfawr 'ni gint.

Dof ddigon iw'r rhan ddiwetha o'r bennod. Wedi "llanw cawle," fe roir e tato miwn, a llimed o ddŵr en ddiogel, o herwidd mai cawl wedi "sichi" crin dipin rhwng e peth godwd o'r anwedd a phoppeth. Ma gwraig e ti wrthi 'nawr en torri'r cig a'i roi e ar drenshwrne i osod o flan e bobol. Ma'r tato wedi digoni hefid, a dachreuir bochio'n iawn ar e tato a'r cig, a'r dail a'r panas, a beth benna si ar e ford. Os dewisa rhiwin fe ddaw'r cosin i'r ford wedin—cosin gimint a mân melin mowr, a'i donnen e mor galed llawn hefid, a'i galon e mor boithed ag odin galch. Ac os bidd rhiw gella'n teimlo ishe, darlwnc dda o lath enwin ar ol e cwbwl, a hwnnw falle mor sir a'r piman en amal. Pecialad ne ddwi wedin ddewan i'r lan fel bwrlwm o waelod e cella.

Dina i chi gino miwn ffarm ar lan e Teifi, cino si'n llond stimog din, a na fidd dim ise prid arall ar i hol hi am orie meithon. Gwin fid na bai mwy o giniawe tebig iddi en e bid 'ma. O Gymri anwl! Ma'n drieni di fod di'n colli di afel ar di hen bethe,—di lanen, a di frethin gatre, di sane di'r ddafad, a di socase, a difrytis penlin, a di got ochor mochin, a di bais a gwn bach, a di ffedog las a chotn, a di fwididd enwog, di fwdram, di iwd rhinion, di siccan gwin, di wmed maidd, a di sopen, a di sopas. Ond ar weitha holl frad Hengist,—bradwr iw e'm parhai o hid,—ma di gawl en dala i dir en e parte hin, a miwn bri bo fe tra bo'r "hen genhinen heini" en dala'n las en di erddi. Ma fe'n ddigon i hala din i gani wrth feddwl am dano fe,—

"Ar gawl e ces i'm magi
Ar ddole glân glàn Teifi,
Stwff si en deilwng o bob mawl,
'Dwes debig cawl eng Nghymri.

Cawl si en fraster trwiddo,
A ser em mofiad arno,
A'i flas e'n tinni din emlân,
A'r cella'n ei fendithio.

Cawl si, prid benna i caffwy,
En dofi'r iwlff si endwy;
At gawl o hid e meddwl a,
Lle benna bith e biddwy.

Ma nhw 'ng gweid am rai i bod nhw 'ng galli ifed cawl en ôr, ond ma'n well gen i e pam bidd ê'n dwim. Rwdd Shon Cridd Bach, hen bridid o Abarteifi, si a pheth o'i waith e'n "Mlode Difed," en ifed cawl en ôr i fracwas, a phan wedd rhiwin eng gofin iddo, beth wedd e bido i dwmo fe,—"Hy," medde Shon, "beth werth i'w bola din os na all e dwmo cawl." Mae amell i ffarmwr en din i rifeddi dros i ddinion e fita llond i crombile o fara chawl, wath fel'ni bidda nhw 'ng grif, mydde fe. In o'r rheni wedd hwnnw âth i gyflogi gŵas shwrne i'r ffair. Fe gwrddodd ag in a gofinnodd iddo fe,—"Shwt wit ti 'n oiri di gawl?" "Drw hwthi arno fe," mydde'r bachen. "Nei *di* ddim o'r tro," mydde'r hen ffarmwr. Fe gwrddodd a'r ail a mi ofinnodd er im peth iddo, —"Drw i ddrillian e," mydde hwnnw. "Nei dithe ddim o'r tro," mynte'r ffarmwr. Fe gwrddodd nawr fach a'r tridid, a mi ofinnodd i hwnnw wedin shwt wedd e'n oiri i gawl. "Drw friwo pen e'n phiol o fara," mynte'r gwas. "Ti iw'r din i fi," mynte'r ffarmwr, "ma rhw obeth e galli *di* neid gwerth di arian.'

In gair cin dibenni. Os bith e daw rhiwin dierth lawr i lanne'r Teifi 'ma, ac os bidd e'm bwrw at gawl, ac os bidd eng gweld i lester en fach, fe geith i gisiro â'r hen reswm si'ng gweid taw "â'r phiol fach e torrodd e din i fola."

EILIR.

CYHOEDDIADAU CYFNODOL Y CYMRY.*

I. BLWYDDOLION.

The Cambrian Register, 8vo. London, 1796

II. TRIMISOLION.

Y Cylchgrawn Cymraeg, Trefecca, 1793
Y Drysorfa Gymysgedig Caerfyrddin 1795
Yr Eurgrawn, Caerlleon (?), 1800
Y Greal, Llundain, 1805
Trysorfa Efengylaidd, Abertawy, 1806
Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg, Caernarfon. 1807
Cylchgrawn Cymru, Caerlleon, 1814
Yr Hanesydd Cenhadol, Llundain, 1827
The Cambrian Quarterly Magazine, London, 1829
Y Drysorfa Hynafiaethol, Caernarfon, 1840 (?)
Y Traethodydd, Dinbych, 1845 (Treffynon)
Archaeologia Cambrensis, London, 1846 (Tenby)
Yr Adolygydd, Caerdydd, 1850 (Llanelli)
Cambrian Journal, Tenby, 1854
Taliesin, Rhuthyn, 1859

III. MISOLION.

Y Geirgrawn, Caerlleon, 1796
Trysorfa Ysbrydol, Caerlleon, 1799
Greal, neu, Eurgrawn. Caernarion, 1800
Yr Eurgrawn Wesleyaidd, Dolgellau, 1806 (Llanidloes)
Cymdeithas, Bangor, 1812
The Cambrian Visitor, Swansea, 1813
Y Cronicl Cenhadol, Caerfyrddin, 1817
Goleuad Gwynedd (a alwyd wedi hyny) Goleuad Cymru, Caerlleon, 1818
Cambro-Briton, London, 1819
Seren Gomer, Abertawy, 1820 (Caerfyrddin, Aberdar, Abertawy)
Y Drysorfa, Caerlleon, 1820
Y Dysgedydd Crefyddol, Dolgellau, 1821
Cyfaill y Cymro, Bala (?), 1822
Y Gwyliedydd, Bala, 1822
Yr Addysgydd, Caerfyrddin, 1823
Yr Hanesydd, Aberystwyth, 1823
Y Drysorfa, Aberystwyth, 1825 (?)
Yr Oes, Abertawy, 1825
Eurgrawn Mon, Caergybi, 1825
Trysor i Blentyn, Llanidloes, 1825
Lleuad yr Oes, Abertawy, 1827 (Aberystwyth, Llanymddyfri)
Y Meddyg Teuluaidd, Merthyr Tydfil, 1827
Greal y Bedyddwyr, Aberteifi, 1827
Cyfrinach y Bedyddwyr, Maes y cwmwr, 1827
Y Brud a Sylwydd, Caerfyrddin, 1828 (Llynlleifiad)
Cymro, Llundain 1830
Yr Efangylydd. Llanymddyfri, 1831
Yr Odydd, Merthyr Tydfil
Y Drysorfa, Caerlleon, 1831 (Treffynon)
Tywysog Cymru, Caernarfon, 1832
Y Gwladgarwr, Caerlleon, 1833
Trysorfa'r Ieuenctyd, Caernarfon, 1833
Trysorfa Rhyfeddodau, Dolgellau, 1833
Y Cyniweirydd, Wyddgrug, 1834
Cylchgrawn y Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Fuddiol, Llanymddyfri, 1834 (Caerfyrddin)
Yr Haul, Llanymddyfri, 1835 (Caerfyrddin)
Y Seren Ogleddol, Caernarfon, 1835
Y Diwygiwr, Llanelli, 1835
Y Wenynen, Gwrecsam, 1836
Yr Athraw, Llanidloes 1836
Y Pregethwr, Llynlleifiad, 1836
Y Dirwestydd, Llynlleifiad, 1836
Y Tywysydd, Llanelli, 1836
Cyfaill y Plentyn, Merthyr, 1836
Cronicl yr Oes, Wyddgrug, 1837
Y Cerbyd Dirwestol, Wyddgrug, 1837
Y Cyfaill o'r Hen Wlad yn America, Caerefrog Newydd, 1838 (Utica)
Ystorfa y Bedyddwyr, Caerdydd, 1838
Tarian Rhyddid, Llanrwst, 1839
Y Cenadydd Cymreig (wedi hyny, Y Cenadydd) Caerdydd, 1839
Y Cenadwr Americanaidd, Remsen, 1839
Blaguryn y Diwygiad, Aberystwyth, 1839 (?)

* Adysgrifwyd y rhestr hon gan ei hawdwr o'r *Brython* am Awst' 1859.

Yr Adolygydd, Caernarfon, 1839 (?)
Udgorn Cymru, Merthyr, 1840
Y Dirwestydd Deheuol, Llanelli, 1840
Y Dirwestwr, Dolgellau, 1840
Y Bedyddiwr, Caerdydd, 1841
Yr Ifonydd, Caerfyrddin, 1841
Y Pulpud, , 1842 (?)
Y Lladmerydd, Caernarfon,
Y Drysorfa Gynulleidfaol, Abertawy, 1842 (Caerfyrddin)
Y Cenhadydd, Caerdydd, 1842
Y Cronicl, Dolgellau, 1842
Y Cwmwl, Aberystwyth, 1843
Y Gwladgarwr, Llanidloes, 1843
Twr Gwalia, Bangor, 1843 (?)
Yr Ysbiwr, Llangollen, 1844 (?)
Y Beirniadur, Llanelwy, 1845
Yr Amaethydd, Caernarfon, 1845
Yr Eglwysydd, Treffynon, 1846
Y Tyst Apostolaidd, Llangollen. 1846
Y Golygydd, Rhydybont, 1846
Y Geiniogwerth, Dinbych 1847
Yr Ymofynydd, Penybont ar Ogwy, 1847
Y Winllan, Llanidloes 1847
Udgorn Seion, Merthyr Tydfil
Y Gymraes, Caerdydd, 1849
Yr Areithfa Gymreig, Bala, 1849
Y Cylchgrawn, Abertawy, 1851
Yr Addysgydd, Solfach, 1851
Y Wawr, Caerdydd, 1851
Y Tyst, Llangollen, 1851
Y Greal, Llangollen, 1852
Y Cenhadydd Eglwysig, Llundain, 1852
Trysorfa'r Plant, Llangollen, 1852
Y Tywysydd i'r Gymraes, Llanelli, 1852
Y Methodist, Dinbych, 1853 (Llanidloes)
Yr Oenig, Abertawy, 1854
Amddiffynydd y Gair, Caernarfon, 1854
Baner y Groes, Treffynon, 1854 (Tremadog)
Gedeon, Aberystwyth, 1855
Y Seren Orllewinol, Cincinnati
Y Llusern, Gwrecsam, 1858
Y Brython, Tremadog, 1858
Telyn y Plant, Merthyr Tydfil, 1859

IV. PYTHEFNOSOLION.

Trysorfa Gwybodaeth, neu, Eurgrawn Cymraeg, Caerfyrddin, 1770
Seren Gomer, Abertawy, 1818
Y Bardd, Minersville, Pen., 1858
Seren Cymru, Caerfyrddin, 1857
Charles o'r Bala, Caernarfon, 1859

V. WYTHNOSOLION A NEWYDDIADURON.

Seren Gomer, Abertawy, 1814
Yr Oes, Aberystwyth, 1833
Cronicl yr Oes, Wyddgrug, 1835
Y Brytwn, Bala, 1836
Y Papur Newydd Cymreig, Caernarfon, 1836
Y Freinlen Gymroaidd, Aberystwyth, 1836
Y Gwron Cymreig, Pont y ffon, 1838 (Aberdâr)
Y Protestant, Wyddgrug, 1839 (Bala)
Yr Amserau, Llynlleifiad, 1844
Y Gwladgarwr, Rhydybont, 1846
Cronicl Cymru, Jersey, 1848
Y Cymro, Bangor, 1848 (Llundain, Treffynon
Y Drych, Caerefrog Newydd, 1851
Y Gwron Odyddol
Y Gwyliedydd, Caerefrog Newydd, 1854
Y Wasg. Aberystwyth, 1854
Y Cymro Americanaidd, Caerefrog Newydd, 1855
Y Drych a'r Gwyliedydd, Caerefrog Newydd, 1855
Yr Herald Cymraeg, Caernarfon, 1855
Y Cronicl Wythnosol, Llynlleifiad, 1855
Y Cymro Ceiniog, Treffynon, 1855
Y Telegraph, Caernarfon, 1855
Gedeon, Aberystwyth, 1855
Yr Eifion, Pwllheli, 1856
Yr Arweinydd, Pwllheli, 1857
Baner Cymru, Dinbych, 1857
Y Punch Cymraeg, Caergybi, 1858
Y Gwladgarwr, Aberdâr, 1858
Y Brython, Tremadog, 1858
Y Gweithiwr, Aberdâr, 1858
Udgorn y Bobl, Dinbych, 1858

RHIGYMAU GWLAD.

Y mae llawer pennill prydferth ar lafar gwlad nas gŵyr neb pwy yw ei awdwr. Byddai casgliad o'r penillion gadwyd ar gof gwlad yn addysgiadol iawn ac yn ddyddorol iawn. Dyma ddechreu. Pwy rydd help?

I. DEIO I DOWYN.

Dyma hen benillion a glywais gan fy mam pan oeddwn yn ieuanc iawn. Y mae'n debyg mai yr hyn a fu'n achlysur i gyfansoddi'r penillion oedd yr arferiad o fyned i Dowyn yn yr haf; ac y mae "mynd i'r mor," fel y dywedir ym Mawddwy, yn arferiad hyd heddyw o ran hynny. Nis gwn yn y byd pwy a'i cyfansoddodd, ac nid wyf yn sicr o gywirdeb geiriol y gân, y mae cynifer o flynyddoedd er pan ddysgais hi. Ond os gall rhywun ei chywiro byddaf yn ddiolchgar iddo. Gwelir mai myned i Dowyn y mae Deio yn y penillion hyn, ond y mae yn dyfod oddiyno yn y rhan ddiweddaf. Hwyrach y gall rhywun ym Mawddwy ddod a'r rhan honno.

Manceinion. DEWI MAWDDWY.

Mi dderbyniais bwt o lythyr
Oddiwrth Mistar Jones o'r Brithdir,
Ac yn hwnnw 'roedd o'n gofyn.
Awn i efo Deio i Dowyn.

Ni gychwynnem ar nos Wener,
Aem i Fawddwy erbyn swper,
Ni gaem yno uwd a menyn
Wrth fynd efo Deio i Dowyn.

I lawr yr aem ac heibio'r Dinas,
Ni gaem gwrw a bwyd yng Ngwanas,
Trwy Dal y Llyn yr aem yn llinyn
Wrth fynd efo Deio i Dowyn.

Ar ol mynd at Ynysmangwyn,
Dwedai Deio, "Dacw Dowyn";
Ar ol aros yno dridie,
Teg oedd edrych tuag adre.

II. SUO GAN

Dyma suo-gân glywais fy mam yn ei chanu ganwaith pan own blentyn ym Machynlleth, a llawer gwaith y syrthiais i freichiau melus cwsg yn ei swn. Ni chlywais hi yn unlle arall.—J. D. JONES, *Lerpwl.*



III. PROFFWYDOLIAETHAU MYRDDIN.

Mae amryw hen rigymau ar lafar gwlad yn yr ardal yma yn dwyn cysylltiad, mewn rhyw fodd neu gilydd, a "phroffwydoliaethau Myrddin." Byddwn yn ddiolchgar iawn i'r sawl a fedro roddi rhai ereill tebyg i'r rhai wyf yn ysgrifennu.

Llangeitho. J. H. DAVIES.

Caerfyrddin, oer fore,
Daear a'th lwnc,
Dŵr i'th le.

Pan sycho Llyn Farch
Y sincith Caerfyrddin.

Y gath a'r wenci wargoch
Ar hyd glan Teifi lawr,
Bydd hithe'r afon Teifi
Yn rhedeg yn erbyn tir.

IV Y WYDDFA.

Y mae'r penillion hyn yn nodweddiadol iawn o frenhines Eryri. Clywais eu canu er's dros ddeugain mlynedd fel hen benillion. Gwelir fod yr ail ddwy linell yn debyg i rai briodolir gan Garneddog (II., 106) i'r hen Hywel.

Bedd Gelert. W D.

Ni 'sodai mo'm trigfa yn agos i'r Wyddfa,
Ar un o'i gorseddau, nis mynnaf mo'r bod;
Lle oer aneiri, a'r gwynt yn fy 'sgythru,
A'r gwlaw arnai'n dyrnu bob diwrnod.

Y Wyddfa wen urddas
Tŵr ucha yn y deyrnas,
A luniwyd o bwrpas
Gan addas Dduw Ne,
I ddangos rhyfeddod
Gwaith bysedd y Drindod,
Lle disgyn maith gafod yn gyfan.

Sad ei gosodiad,
Ac isel sylfaeniad
Ni symudir mo'i symudiad
Tan dwniad y rhod, [Wyddfa,—
Pan welwyd hi gynta, fe'i galwyd yn
Gorseddfa, tŵr eira, tai'r 'ryrod.

Fuasai rhaid i'r eira gwyn,
Ar dir y glyn mo'r glynu,
Dylasai fynd i fwrw ei luwch
I fannau uwch i fynu;
Fe'i gwelir weithiau yn yr haf
Ar y Wyddfa ucha yng Nghymru.

COF GOLOFN YR ESGOB MORGAN.

"Diolch, diolch, hyn nid cam
Y pennyd am gyfieithio
Drwy wir nerth yr Ysbryd Glân,
I'r Doctor Morgan, Gymro."

"O Dduw, unig Arglwydd Ior,
Dihuna'n rhagor eto,
Drwy rym dysg a synwyr maith,
I harddu iaith y Cymro."

SYR THOMAS JONES.

AR yr ail ddydd ar hugain o'r mis diweddaf, dadorchuddiwyd cof-golofn yr Esgob Morgan wrth ochr ogleddol eglwys gadeiriol Llanelwy. Y mae ei Feibl,—y Beibl cyfan cyntaf yn Gymraeg,—wedi ei gyhoeddi er ys dros dri chant o flynyddoedd; ac hyd yn hyn nid oedd un gof-golofn yn dweyd am dano, na charreg ar ei fedd. Prin y bu i Gymru gymhwynaswr mwy; ac fel cymhwynaswyr ereill Cymru, ychydig o barch sydd wedi ei ddangos gan ei gydwladwyr i'w goffadwriaeth. Cafodd ei esgeuluso gan Anghydffurfwyr oherwydd ei fod yn Eglwyswr; cafodd ei esgeuluso gan Eglwyswyr, y mae lle i ofni, oherwydd mai Beibl Gymraeg yw ei Feibl. Ond daeth diwrnod i bawb ymuno i ddangos parch i un gyfieithodd i'r Cymry "Feibl anwyl Iesu, rhodd deheulaw Duw."

Nid peth unol ag ysbryd gwladlywiaeth oes William Morgan oedd cyfieithu'r Beibl i'r iaith Gymraeg. Breuddwyd gwleidyddol yr oes oedd undeb,—un genedl, un eglwys, un iaith. Gwneyd pob peth yn Seisnig oedd amcan pob gwleidyddwr. Nid ydyw'r syniad hwn yn beth i ryfeddu ato. Newydd ddod yn rhydd oddiwrth y Babaeth yr oedd Lloegr, yr oedd yn ofni ymosodiadau gelynion cryfion, a naturiol oedd iddi geisio ymgryfhau trwy ddinistrio nodweddion cenhedlaethol Cymru a'i gwneyd yn rhan o Loegr mewn gwirionedd. Dyma'r nod ddanghosodd Thomas Cromwell i frenhinoedd a gwlad-weinyddion Lloegr,—Seisnigeiddio pob peth. Nid beth oedd oreu, na beth oedd yn fwyaf llesol i grefydd, gyrhaeddid ato; ond beth wnai Loegr yn fwyaf llwyddiannus ac yn fwyaf cryf. Yr oedd crefydd yn natur Edward y Chweched, ac yr oedd Mari,—y frenhines helbulus gam-enwir yn "Waedlyd,"—yn wraig grefyddol iawn; ond nid oedd gan Elizabeth syniad am grefydd. Eithr yr oedd ganddi syniad am eglwys; ac yr oedd wedi penderfynu, pa grefydd bynnag goeliai dyn yn·ei galon, fod yn rhaid iddo gydymffurfio â seremoniau yr eglwys honno. Hwn, ac nid crefydd, oedd y "duwioldeb rhagorol, clodfawr drwy'r hollfyd" y dywed yr Esgob Morgan fod Duw wedi addurno Elizabeth ag ef.

Nid syniad Elizabeth a Cecil yn unig oedd hwn, ond syniad llenyddiaeth oreu'r dydd. Efallai fod Morgan wedi gweled Edmund Spenser a Francis Bacon,—yr oedd y ddau ym Mhrifysgol Caer Grawnt. Y mae Spenser yn canmol llywodraeth yr ardderchog Elizabeth, ac y mae Bacon yn gofidio wrth weled colofnau'r frenhiniaeth yn dechre siglo. Ond yr oedd bardd mwy na Spenser, athronydd gwell na Bacon, yn cyd-oesi â William Morgan. A syniad William Shakespeare oedd mai'r brenin, a'r brenin eneiniog yn unig, fedr amddiffyn gwlad, a'i chadw mewn trefn.

Yr oedd syniad yr oes, felly, yn galw am ladd yr iaith Gymraeg ac am ladd pob crefydd ond y grefydd sefydledig. Cawn ddau wrthryfelwr,—yr Esgob Morgan a John Penri. Gwyddai y ddau am eu gilydd, yr oedd Penri'n cyhoeddi pamffled yn 1587, pan oedd Morgan yn Llunden yn dwyn ei Feibl Mawr drwy'r wasg. Gorfod i Benri farw'n ferthyr dros Gymru, cafodd Morgan gefnogaeth yr archesgob a'i condemniasai. Amcan yr archesgob Whitgift oedd sefydlu un eglwys genhedlaethol; i'r amcan hwn y rhoddodd John Penri i farwolaeth, i'r amcan hwn y cefnogodd William Morgan. Yr oedd siarad Cymraeg yn drosedd yr adeg honno,—yn drosedd wnai i swyddog llywodraeth golli ei swydd,—ond yr oedd un peth peryclach na'r iaith Gymraeg, sef y grefydd Babyddol. Nid oedd y perygl oddiwrth Babyddiaeth drosodd, yr oedd y Jesuitiaid yn adennill gwledydd cyfaeon oddiar y Pabyddion ar y Cyfandir. Ac yr oedd gwladweinyddion y Tuduriaid mewn ofn yr arhosai Cymru'n Babyddol, pan oedd Pabyddiaeth yn deyrnfradwriaeth yn erbyn y frenhines. Er mwyn ei gwneyd yn Brotestanaidd cydsyniodd y frenhines a'i harchesgob â'r clerigwr Cymreig ofynnai iddynt ganiatau i'r Beibl gael ei argraffu yn Gymraeg.

Yr oedd cysylltiad agos wedi bod rhwng Cymru a Lloegr, yr oedd milwyr Cymreig yn y canrifoedd o'r blaen wedi ymdyrru i ryfeloedd brenhinoedd Lloegr, a doent a geiriau Saesneg gyda hwy'n ol. Yr oedd yr iaith Gymraeg arferedig yn araf "ymlygru," er nad oedd yn fwy "llwgr" nag yw yn awr. Camgymeriad ydyw tybied nad oedd llenyddiaeth Gymreig yn blodeuo yr adeg honno. Y mae'n wir nad oedd ond ychydig lyfrau Cymraeg wedi eu hargraffu ond nid oedd celfyddyd yr argraffwr yn hen iawn. Er cymaint fu dylanwad argraffu ar y byd, yn araf iawn y cynyddodd y dylanwad hwnnw. Hyd ein canrif ni, yr oedd llawer un yn cael ei lyfrau yn yr hen ddull, sef trwy eu copio

oddiwrth lyfrau ereill. Ac yn oes William Morgan, os oedd y llyfrau argraffedig yn brin, yr oedd miloedd o lawysgrifau,—gweithiau'r beirdd yn enwedig,—ar hyd y wlad. Y mae'n wir fod nerth llenyddiaeth yn darfod. Cyn marw Tudur Aled, yr oedd geiriau llanw wedi dechre dod i mewn; ond yr oedd ffurf yr hen lenyddiaeth yn aros. Wedi oes aur llenyddiaeth y daw perffeithrwydd arddull rhyddiaeth bob amser. Barddoniaeth, rhyddiaeth farddonol, rhyddiaeth glir, — dyna'r drefn yn nadblygiad llenyddiaeth. Shakespeare, Jeremy Taylor, Addison,—dyna gynrychiolwyr y tri chyfnod yn llenyddiaeth Lloegr; ac yn llenyddiaeth Cymru ceir Dafydd ab Gwilym, William Morgan neu Charles Edwards, ac Edward Samuel, yn dilyn eu gilydd yn y cwrs naturiol. Cyfieithiwyd y Beibl Cymraeg pan oedd gwawr barddoniaeth eto'n aros ar ryddiaeth Cymru.

Ganwyd William Morgan yn y Ty Mawr, yng nghwm Ewybrnant, cwm rhamantus gwyllt rhwng Dolyddelen a Phenmachno; ac y mae rhywun wedi rhoddi ysgrif Saesneg wrth ben drws y ty i ddweyd mai yno y ganwyd yr esgob yn 1541, ac iddo farw Medi 10, 1604. O'r ardal fynyddig yma aeth i Gaer Grawnt, yn 1564. Yr oedd y brifysgol hon yn nodedig yr adeg honno am ei Phiwritaniaid ac am ei hathrawon Hebraeg. Yma y cafodd Penri ei frwdfrydedd dros y Diwygiad; yma, lle y dilynasid Tremellius gan Chevalier fel athraw Hebraeg, y cafodd William Morgan ei awydd cyfieithu'r Beibl. Yn 1575 y mae William Morgan yn ficer y Trallwm, ac ymhen y tair blynedd y mae'n ficer Llanrhaiadr ym Mochnant. Nid ydyw hanes ei fywyd wedi ei wneyd yn berffaith glir; ond tra ym Mhowys y mae'n amlwg ei fod yn pregethu ac yn gwneyd y gwaith am yr hwn yr anrhydeddir ei goffadwriaeth heddyw. Yn 1588 ymddanghosodd y Beibl mawr prydferth; ac y mae'n debyg mai'r cyflwyniad i'r frenhines, cyflwyniad llawn o deimlad diolchgar dedwydd, a ysgrifennwyd yn olaf peth. Yn 1595 gwnaed y cyfieithydd yn Esgob Llan Daff, ac yn 1601 daeth yn Esgob Llanelwy. Oes ysbeilio'r eglwys oedd yr oes honno, ond bu'r Esgob Morgan farw'n ddyn tlawd. Claddwyd ef yng nghôr eglwys Llanelwy, ond ni wyddis i sicrwydd ym mha gwr.

Y mae i Feibl yr Esgob Morgan le mawr yn hanes ac yn llenyddiaeth Cymru, o hanes crefydd i hanes yr orgraff. Y mae'r cyfieithiad yn un ygallasai Cymro ei ddeall; y mae hyawdledd yr hen farddoniaeth ynddo; ac nid oes dim wnaethai i gyfieithydd yn yr oes honno gyfieithu mor ffyddlon, ond yn unig y cof mai Gair Duw oedd yn ei roddi i rai heb obaith iachawdwriaeth mewn un ffordd arall. Gwnaeth William Morgan ei waith,—rhoddodd Feibl i'r eglwysi. Gwaith cenhedlaethau ereill oedd dwyn y Beibl hwnnw i feddiant y werin, a'i wneyd yn llusern i'w traed ac yn llewyrch i'w llwybr. A beth ydyw gwir hanes y Cymry er 1588 ond hanes y Beibl yn graddol ennill llywodraeth ar eu meddwl?

Cofgolofn bigfain ydyw'r gofgolofn ddad-orchuddiwyd ddiwedd y mis, wedi ei rhoddi gan y Cymry. Y mae'n debyg i gofgolofn y merthyron yn Rhydychen,—yn cynnwys cylch o gerfluniau o'r rhai fu'n foddion i roddi Gair Duw i'r Cymry,—William Morgan, William Salesbury, Richard Davies, Thomas Huet, Gabriel Goodman, Edmwnd Prys, Richard Parry, a John Davies. Yr oeddwn wedi meddwl llawer am weled y dad-orchuddio, ond gorfod i mi droi fy nghefn ar Gymru y bore hwnnw. Yr oedd yn fore heulog gogoneddus, tebycach i fore ym Mehefin nag i fore yn Ebrill,—bore anamserol o gynnes a disglaer. Bore tebyg fu ymddanghosiad Beibl yr Esgob Morgan i'r Cymry, tybiai llawer fod yr haf wedi dod, ond yr oedd yn rhaid wrth dymor oer sych y gramadegu a chyfieithu mân lyfrach cyn y daeth gwir haf y genedl Gymreig. A phan ddeffrodd y werin, deffro a wnaeth i ddeall y Beibl Mawr.

Bore drannoeth y dad-orchuddio chwiliais y papurau Seisnig am yr hanes. Yn y *Times* yn unig, yn nghlofn yr hanes eglwysig, y cefais ychydig bach o hanes,—fod Esgob Llanelwy'n llywyddu, yr Archddiacon Griffiths yn pregethu, a brodyr Eglwysig ac Ymneilltuol yn siarad.

Daeth y Beibl Mawr yn 1588. Ar y nawfed ar hugain o Fai, 1593, rhoddodd John Penri ei fywyd i lawr dros Gymru. Dri chan mlynedd union i'r amser hwn y flwyddyn nesaf, aberthwyd bywyd ieuanc pur, bywyd na ddylai yr un Cymro fod yn anwybodus am dano. Pa fodd y dysgir ei hanes i blant? Cof-golofn o gerrig geirwon y mynyddoedd yn sefyll yn rhywle ar ael bryniau Llangamarch,—dyna hoffwn i weld. Yr wyf yn sicr na adewir i dri chan mlwyddiant John Penri fyned heibio heb ei ddathlu'n deilwng. Gwlad y pregethu yw Cymru, a John Penri rag-welodd ddylanwad ei phulpud. Y mae cof-golofn yn y Gogledd i'r hwn hiraethodd am Feiblau i Gymru; coder cof-golofn yn y De i'r hwn hiraethodd am bulpudau Cymru, am

"Weled torf yn wyneb-lasu
O flaen mellt y Beibl mawr."

Pa fodd y cofir am dano? A fedrwn godi cof-golofn iddo?

TUDUR ALED.*

Bardd Gwladgarwch a Galar.

I. CYWYDD MARWNAD ROBT. AP SION AP ITHAEL.

Y gŵr marw, e gâr morwyn
Ddaear dy fedd er dy fwyn;
O'th ddwyn, tolc aeth yn y tir,
Wyth ugain oes i'th gwynir;
Wyth liw dy win o'th law ddau,
O'th fwyned wyth wae finnau;
Aid Robert i dy'r aberth
I'th gau drwg na'th gaid ar werth;
Am eich dwyn ym myw'ch dynion,
Yr oeres haul eryr Sion;
Os doe'r aethost, ŵyr Ithel,
Weithian Duw a'th enaid el;
Oer i Degaingl yw'r dygiad,
Er hoedl ywch y rhoid y wlad;
A cholli blaen eich holl blaid,
Oedd dynnu o Dduw d'enaid.

Afiachus fyd fu'ch oes ferr,
Och doe fryd eich dau froder;
Maesydd ym Iesu heddyw,
Ond tu'n feich a hwyntau'n fyw;
Annes er yn oes wylion
Einioes hir i'r Annes honn;
Er gorwedd un o'r gwraidd ir,
O honn oll ei hynnillir,
Merch Lŷr i'r Marchwiail wen,
Eilwaith ail o lwyth Olwen;
Ail Esyllt lwyth laes wallt lân,
For iach genym ferch Gynan,
Am ei rhodd mae a'i rhudd-aur
Yn llwyth yr Iwng yn llythr aur.

A Robert, y mae'r ebwch
Yn f'ais drom, anafus drwch:
O'th wir alaeth yr wylais,
Ag yn fôr o eigion f'ais;
Gwin a roit ym, gwyn o'r tau,
Gwlaw gwynn i'm golwg innau;
Gwaeth i feirdd, gwae o'th fawrddwyn,
Gwae ni dy ddaed gan dy ddwyn;
Merch, gwae hi, a gwayw hir,
Maen neu farr mwy ni fwrir;
Pwy sydd mor gampus heddyw,
Pwy a wŷr nerth y pren yw?
Pwy sy hael, pwy sy heliwr,
Pwy'n llew ag oen, pwy'n lle gŵr?
Pwy'n farchwr, pwy'n gerddwr gwych?
Priddwyd y campau rhwydd-wych.
Oes dyn a wyr este'n iawn,
I roi cof ar air cyfiawn?
Onid ydych yn doedud
Ni chawn y farn a chwi'n fud;
Bwrw'ch dysg, baich deau ysgol,
Beth a ŵyr dyn byth ar d'ol?
Bod heb wr na bai dy benn
Bwrw'ch ynys heb wreichionen.

Dy ddydd doe a ddiweddwyd,
Dŷn i Dduw nid i ni 'ddwyd;
Duw sydd yn dewis ei wŷr,
Duw'n myned a'n ymwanwyr;
Doe'r adwaeniad ar d'einioes,
Lifrau Duw'n dilifro d'oes;
Aeth rhyw wisg i'th oresgyn,
O'i frech ddu ar fraich oedd wynn;
Nid ai Grist o dygai rôdd,
Heb yr enaid a brynodd;
Echwyn fu ef i chwi'n faith,
I Dduw talu ddwyt eilwaith;
Dwy-ran ei gyd, yr oen gwâr,
Rhan Dduw a rhan y ddaear;
Anghydfod ar feddrod fu,
Wnai i Frenin Nef rannu;
Duw gwynn nid ai ag an-ael,
Doe dug corph godidog hael;
Doe'n brawychaist, edn brychwyn,
Dy farw oedd edifar ynn;
Duw drechaf od edrychir,
Dug angel holl Degaingl hir.

Dyn a saeth dan ei ais wyf,
Dros ei hoedl di ras ydwyf;
Dy roddi hwnt yr oedd hap,
Dy fyned a fu anhap;
Dy farw am nad wyf wirion,
Dy nodi fry dan dy fron;
Dy roi 'mysg daear a main
A derw gist i dŷ Eurgain;
Dy gŵyn dros y byd a gaf
Dy hiraeth ni's dyheuraf;
Dyn a dorau Duw'n d'aros,
Dy ddiben yw dydd heb nos.

II. CYWYDD I WENFREWI.†

Y ferch wen fu'r ychwaneg
Fal yr oedd un fil ar ddeg
Gweryddon a gai raddoedd,—
Gwenfrewi deg unfryd oedd
Cynnyrch Nef cyn oeri i chnawd,
O wirionder morwyndawd:

Caradog, lawiog o lid,
Hyd ei themi ddaeth i'w hymlid;
Lladdodd Wen, lle'dd oedd un-awr
Llyn tawdd a'i llyngcawdd i'r llawr;
Gwae'r ynfyd, er gwirion-fun,
Gwae o'i lladd, a'i golli i hun;
Trwy'i mwnwgl taro meinwen,
Treiglo'r arf trwy'r goler wen;
Rhedeg o'r pen rhai deigr pur,
Fry at wastad friw tostur;
Codi ei phen lle caed ffynnon,
Ban ei rhoes Beuno ar hon;
Clymmu hwn, cleimio'i henaid,
Wrth y corph o'i wyrthiau caid;
Nodi o'i amgylch nod ymgudd,
Nod yr arf yn edau rudd;
Tra fu'r mab ar yr aberth
A'i weddi'n Nuw e ddoi nerth;
Arwain afon o'r nefoedd
A chwys gri ei chysegr oedd;
Teyrnged pan goded Gwen,
Tarddu enaint Iorddonen;
Llai o ferw yn llif Aron,
Neu Euphrates a ffrwd hon;
Gihon yn dwyn y gwin da,
Pison, Tigris, ond hagra;

* O'r Piser Hir. † A pheth surdoes a choel crefydd Rhufain ynddo, ond barddoniaeth dda. PISER HIR.

Awel Deibr o wlad Ebryw,
Arogl o Nef i'r glun yw;
Ager gwin o'r gro a gaid,
Fel gynt o fol y gyntaid;
Mwsg o bân ymysg y byd,
Maen gwiw arogl mewn gweryd;
Man pêr ar bob maen purwyn,
Maen ag ol gwaed mwnwgl gwyn;
Beth ydy w'r ol byth a drig?
Band y gwaed bendigedig;
Dagrau fal cafod Egroes,
Defni Crist o fannau croes;
Daioni corph dyn ei caid,
Derbyn deigr dŵr bendigaid;
Dy friw gwaed fal dwfr a gwin,
Dwyn ywch wyrthiau dan chwerthin;
Crechwen gwraidd crychwyn groyw ddwfr,
Cael iechyd yn, clochau dwfr,
Aber brwd o'i berw briwdan,
Os brwd gwlith yr Ysbryd Glân,
Irder byd yw'r dŵr bedydd,
A elwir ffons olew'r ffydd;
Aed i nofio dyn afiach,
Ef â'r naill ai'n farw ai'n iach,
O'i rhad a'i gwyrth rhoed i gant,
Einioes echnos yn Sychnant,
Iechyd o'i glefyd i glaf,
Ag i hen gleirch gwahanglaf;
Enaint fwg nant y fagl,
I rai truain yw'r triagl;
Rhag heintiau fil, rhag hynt fer,
Rhag gwayw llewyg, rhag llawer,
Gwared a gai Gred ei gyd,
Gan gwynfan, gwan ag ynfyd;
Gwyliwch gant, goleuwch gŵyr,
Gwelais yno gael synwyr;
Y dall a wel, dull i wan,
A'r dyn crupl er doe'n cropian;

Aed i offrwm y di-ffrwyth,
E ddeffry hon iddo ffrwyth;
Doen' yno a dyn annoeth,
Oddi yno daw yn ddyn doeth;
Eith dau-fraich a thraed efrydd,
A fai yn rhwym, ef a'n rhydd;
Blin a thrin heb law na throed,
A ddaw adref a'i ddau droed;
Bwrw 'ddwyf ffon i'w hafon hi,
Bwrw naid gar ei bron wedi;
I fyddar help fu ddŵr hon,
Mud hi rydd ymadroddion;
Arwyddion Duw ar ddyn dwyn,
Ef ai'r marw'n fyw er morwyn.

Os help y feddyges hon
Y ddau iechyd a ddichon,—
Iechyd corph, uchod ei caid,
A chadw, fun, iechyd f'enaid;
Pob iarll ant, pawb o wŷr-llys,
Pob brenin, pob rhyw ynys;
Edwart ddaeth i dir at hon,
A'r gwery ar ei goron;
Rhoen ar wallt yr hen a'r iau,
Ag ar lawnt ei garlantau;
Magu aruthr mae'r gweryd,
Maint oedd bwys minteoedd byd;
Mae'r dyrfa mor awdurfawr,
Mae olew'r llu mal ar llawr;
Mae enaid rhydd maint y rhol
Oes Baradwys ysprydol;
Mae olew Nef ym mlaen nant,
Yn lle Beuno'n llaw Bennant;
Am un Abad mae'n obaith,
Y gwel Duw ei glod a'i waith,
Ynghoron York neu 'nghaer Non
Y gorphenno gau'r ffynnon.*

III. CYWYDD I OFYN TARW GAN SION CONWY.

Ysta wr, onest o wŷr,
Sion, aer asennau eryr
Sidan o Dderwas ydwyd,
Sion Conwy, aer Siancyn wyd;
Ni bu o wraidd dan wybr iach
Neb i'w dir o'i bedeir iach,
Cyttal a llyfr y Cattwn
Cywir a hael y ceir hwnn;
Os barn yn y maes y bon
Awr i'w ddethol ar ddoethion;
Dewr, os gweryl, dros garwr,
Os doeth ag onest o wr;
Clo ar sir yn cloi aur sieb,
Cyweirdant pob cywirdant;
Yn oes o bedair nasiwn
Y sy'n rhoi ar synwyr hwn;
Ifan yw, nid âf yn ol,
Llew dewr Ddafydd Llwyd urddol.

O gofynnaf, gyfiawn arch;
Nid erchi milgi na march;
Eithr tarw gyda thair toron,
Tew ar fath y teirw o Fôn;
Ffyrf ar ddwfr a phorfa'r ddol,
Ffroen arth a'i ffriw yn nerthol;

Ni thrŷ yngwaith yr heiyrn,
Ni thrŷ gŵys eithyr â'i gyrn,
Ni thrig, am nad aeth i'r iau,
Heb ychydig bechodau.

Ni bydd ar fynydd ei fath,
O dir Ifan i Drofath;
Os yno bydd fis Ionawr,
Mis Hydref i'r Foelfre fawr;
Pob llais o'i ddwy ais a ddel,
Profiad ar drwmp o ryfel;
Tarw a wn yn taro ŷch,
Twlc ewingraff talcen-grych,
Odid o gwildid a gwedd
Y deil gwrych ei dal grychedd;
Gwas braff ag ysgub o rawn,
Gwalc grych a golwg gwreichiawn;
Ail yw ei fath neu i liw fo,
I fwyar-liw neu forlo;
Clych Rhuddlan diddan lle dêl,
Corn yr hafod, cern rhyfel.

Eirioled Sioned ar Sion
Im fael ammod am flewmon;
Rhodd a gaf, rhwydd o'i gyfarch,
Rhodded a gofynned farch.†

* Tudur Aled a'i cant, a gresyn mai Papist oedd. PISER HIR.

† Y mae llawer o waith Tudur Aled yn fy meddiant, a bum yn hir cyn penderfynu pa ddarnau i'w cyhoeddi y waith hon. Dyma fardd mawr olaf y Cyfnod Aur, ar ei ol ef dechreua prydyddiaeth wanhau, a daw'r terfyn rhwng barddoniaeth a rhyddiaeth yn anos i'w ganfod. Ac yng nghyfiawnder yr amser hwnnw y daeth y Beibl Cymraeg.

ANAML y collodd un genedl ddau mor fawr mor agos i'w gilydd a'r ddau Sais sydd newydd farw,—Charles Haddon Spurgeon ac Edward Augustus Freeman. Yr oeddynt mor anhebyg i'w gilydd, ar lawer cyfrif, ag y gallasai dau fod,—yr oedd Spurgeon yn Ymneillduwr a Freeman yn Eglwyswr; yr oedd Spurgeon yn gydmarol anysgedig, ac y mae dysg Freeman yn syndod yr oes; pregethai Spurgeon i filoedd, darlithiai Freeman yn aml i ddau neu dri; yr oedd gwaith Spurgeon ym mhrysurdeb Llunden, a gwaith Freeman yn nhawelwch Rhydychen.

Ac eto i gyd yr oeddynt, er gwaethaf amgylchiadau addysg a bywyd, yn debyg iawn i'w gilydd. Yr oeddynt yn ddau Sais, a meddent onestrwydd a dewrder,—ie hunan-oldeb,—Sais; credent ym muddugoliaeth eu hachos, ac yr oeddynt yn barod i herio'r holl fyd, ym mhlaid y gwir. Cydymdeimlent â'r gwan ac â'r gorthrymedig,—gwnaeth Spurgeon gartref i amddifaid, a chododd Freeman ei lais hyawdl i gondemnio Awstria a Thwrci am ormesu'r Magyar a'r Slav. Siaradodd y ddau lawer, ysgrifenasant lawer; ac argraffodd y ddau wirioneddau nas anghofir hwy ar feddwl eu hoes.

Unwaith erioed y clywais i Spurgeon yn pregethu, ac nid anghofiaf yr unwaith hwnnw byth. Yr oeddwn yn Llunden, yn fyfyriwr unig, a'm meddwl yn agored i'r amheuon oedd ym mhob llyfr y gorfodid fi i'w ddarllen yng nghwrs fy efrydiaeth. Ryw fore Sul crwydrais dros y Thames, gan feddwl clywed Spurgeon. Ni wyddwn pa beth i'w ddisgwyl, ac anaml iawn y clyw Cymro bregethu fo'n llenwi ei ddisgwyliadau o unlle ond o'r pulpud Cymreig. Wedi cyrraedd y Tabernacl enfawr, rhoddwyd fi yn yr oriel uchaf, a thybiwn yn sicr nad oedd bosibl clywed gair o'r pellder hwnnw os nad oedd gan Spurgeon lais fel udgorn. Wedi'r gwasanaeth dechreuol daeth i'r golwg,—gŵr byr cydnerth y tebygwn ei fod. Darllennodd ei destun, ac yr oedd ei lais fel cloch arian. Er cymaint o flynyddoedd sydd er hynny, y mae ei lais yn darllen ei destun yn fy nghlust yn awr,—"Pwy yw hwn roddodd ei fryd ar neshau ger bron yr Arglwydd?' Nid oedd dim i'm synnu yn y bregeth, nid oedd yno felusder llais na phrydferthwch meddyliau i'm swyno, ond yr oedd y gwirionedd yn mynd yn syth i'm calon, ac yn glynu yno. Collais fy ngolwg ar y miloedd gwrandawyr, ni welwn neb ond Spurgeon ei hun, ac yr oedd hwnnw'n adrodd hen wirionedd syml yr efengyl mor argyhoeddiadol fel y teimlwn mai llais Duw ataf fi oedd ei genadwri. Ac wrth geisio ateb i gwestiynau dyrus fy astudiaeth, doi i'm meddwl, yng nghysgod pob ateb, ateb i'r cwestiwn,—"Pwy yw hwn roddodd ei fryd ar neshau ger bron yr Arglwydd." Nid oeddwn i ond un o filoedd oedd yn gwrando y bore Sul hwnnw, ac nid oedd y bore Sul ond un o filoedd y bu Spurgeon yn pregethu arnynt,—dychmyger faint y mae pechaduriaid yn ddyledus iddo.

Un neges oedd ganddo, a dyna guddiad ei gryfder. Ni cheisiai guddio ei amcan, ac os byddai unrhyw sefydliad neu unrhyw ddyn yn gweithio yn erbyn ei un amcan,—y chwareudy er esiampl, neu'r pregethwr anuniongred,—condemniai hwy'n ddiarbed. Credai nad oedd ond un ffordd i achub dynion, ac yr oedd yn ddigon gonest i ddweyd ei farn. Pe buasai wedi astudio llyfrau lawer, hwyrach y buasai'n fwy goddefgar; gwelsai fod mwy nag un ochr i lawer gwirionedd,—eithr ni fynnai weld ond un ochr, ac ni fynnai gredu fod ochr arall. Dywedir ei fod yn anysgedig. Nid ydyw hynny'n gywir. Y mae'n wir na fedrai ymhyfrydu uwch arddull Ladin Cicero, ac ni wyddai holl reolau acenion y Roeg; ond gwyddai ei Feibl, a medrai edrych yn syth i gymeriad dyn. Danghosodd mai nid ymgolli yn athroniaeth a diwinyddiaeth yr Almaen ydyw gwaith pregethwr, na dadgymalu a hollti geiriau, ond dweyd wrth rai dan eu pwn am gydymdeimlad un fu'n wr gofidus, cynefin â dolur.

Yr wyf yn cofio Freeman yn traddodi ei ddarlith gyntaf wedi ei benodi i gader Hanes yn Rhydychen. Gŵr byr corffol, gyda gwyneb braf a barf fawr oedd, yn cyhoeddi, mewn llais rhuadwy, beth fyddai astudio Hanes tra y llenwai ef y gader honno. Nid oedd ganddo ddawn i ennill; yr oedd yn rhy hoff o ddweyd y gwir mewn dull anerbyniol. Un flwyddyn yr oedd Coleg y Brifysgol yn dathlu ei milflwyddiant, os gwir y traddodiad mai'r brenin Alfred oedd ei sylfaenydd; a gwahoddwyd Freeman. Gwnaeth yntau bawb yn bur anghysurus drwy brofi'n eglur nad oedd Rhydychen ym mhrenhiniaeth Alfred yn 872 o gwbl; ond chwarddodd pawb pan gododd Robert Lowe ar ei ol i ddweyd y credai ef y buasai brenin yn yr oes honno yn debycach o lawer o roi tir pobl ereill na'i dir ei hun.

Un gonest iawn oedd Mr. Freeman. Credai mai Mr. Gladstone, Esgob Rhydychen, ac efe ei hun oedd tri gŵr enwocaf Lloegr ar hyn o bryd. Ac y mae'n ddiameu ei fod wedi gwneyd gwasanaeth oesoel i Hanes. Danghosodd yn eglur na fedrir deall hanes ein hoes ni ond yng ngoleu hanes yr hyn fu, danghosodd esiampl o gywirdeb ymchwiliwr

oedd yn foddlon i gymeryd pob trafferth, danghosodd nas gellir ysgrifennu hanes gwlad heb wybod am bob cwr o honi trwy weled. Gwaith mwyaf ei fywyd oedd ei *History of the Norman Conquest.* Nid ydyw hwn mor gynhwysfawr a gweithiau Stubbs nac mor fyw a gwaith Palgrave; ond y mae'n eglur hynod. Ei lyfr mwyaf diddan ydyw ei *History of the Saracens;* y gweithiau tebycaf o fyw, hwyrach, yw ei *Essays* a'i *Historical Geography.* Astudiodd rannau boreu hanes Cymru'n fanwl; ac ysgrifennodd hanes Tyddewi, yn gyfrannog a Basil Jones. Seisnig iawn ydyw ei gydymdeimlad; y mae ef a Green mor bleidiol ar y naill law ag y bu Sieffre o Fynwy ar y llaw arall. Cymerodd Freeman ddyddordeb mawr yn neheudir Cymru, yn ei saint ac yn ei Normaniaid. Un tro yr oedd yn malurio hanes Llanilltyd Fawr trwy ddweyd nas gallai fod yn ddim ond un o gelloedd Tewkesbury. Cododd un o hen hynafiaethwyr Morgannwg mewn dig, a dywedodd yn ei Gymraeg prin,—"Sir iw arr a leiar.' Ond medrai Freeman chwerthin wrth son am bawb a'i hanghredai, ond am Froude.

Rhyddfrydwr cadarn oedd Freeman o gredo, amddiffynnydd cenhedloedd gorthrymedig. Clywais ef droion yn adrodd hanes yr Awstriaid yn ei droi o'r wlad; cashai'r Awstriad, er ei fod yn Deuton, â chas perffaith. Gwnaeth ef a'i fab yng nghyfraith lawer iawn dros genhedloedd gorthrymedig glannau'r Danube, heblaw dweyd eu hanes.

Ar ganol ei *History of Sicily,*—yr hwn oedd i fod yn waith mwyaf ei oes,—yr oedd Freeman pan fu farw. Yr oedd wedi treulio hanner can mlynedd i astudio hanes yr ynys ddyddorol hon,—man cyfarfod Phœniciad, Groegwr, Rhufeiniwr, Almaenwr, a Mahometaniad. A dyfod o honi, fel y bu'n dyfod laweroedd o weithiau, yr oedd pan darawyd ef i lawr mor frawychus o ddisymwth yn Spaen gan y frech wen.

Nid aeth erioed i fedd un gonestach, nac un mwy didwyll. Yr oedd yn hollol ddiwenwyn, yn unplyg fel plentyn. Teimlir colled ar ol ei lais llawn soniarus; a bydd llu o gyfeillion ac edmygwyr yn meddwl yn aml am y bedd pell ar draeth dwyreiniol Spaen.

NODION Y GOLYGYDD.

CLYWAIS lawer o gwyno fod y cywyddau gyhoeddir yng NGHYMRU,—cywyddau Dafydd ab Gwilym, Dafydd ab Edmwnd, Dafydd Nanmor, a Thudur Aled,—yn anodd eu deall.

Ydynt, wrth gwrs, ond i rai wedi gwneyd ymdrech i ddysgu, nid Cymraeg yn unig, ond hen Gymraeg. Ni fedrir disgwyl i neb ond myfyrwyr ddeall y cywyddau hyn yn llawn. Ar eu cyfer hwy yr wyf yn cyhoeddi'r cywyddau, o lawysgrifau. I'r mwyafrif mawr, y mae digon o bethau ereill wrth eu bodd, yr wyf yn hyderu, yn nhudalennau CYMRU.

Yr oedd Dafydd ab Gwilym yn cyd-oesi â Chaucer, a Thudur Aled yn byw o flaen Spenser. Ni feddylia neb am ddarllen yr awduron Seisnig heb astudio, heb ramadeg, heb eirlyfr. Ac eto cwyna'r Cymro am na fedr ef ddeall ei hen feirdd heb ymdrech yn y byd.

Y mae'r efrydydd Cymreig dan anfantais fawr. Nid oes argraffiad o'r hen feirdd hyn, llawer llai esboniad ar y geiriau anodd a'r cyfeiriadau hanesyddol sydd ynddynt. Yr oeddwn wedi meddwl, ac addaw y mae arnaf ofn, rhoddi eglurhad ar eiriau anodd y cywyddau. Ond buasai hynny'n meddwl llenwi dau dudalen â phreint mân; buasai'r ysgolhaig wrth ei fodd uwch eu pen, hwyrach, ond nid mwyn tuag ataf fuasai teimladau y rhan fwyaf o'm darllenwyr.

Y mae hyn o gysur i ni i gyd. Y mae'r darnau'n haws eu deall bob mis. Y mae Tudur Aled yn haws na Dafydd Nanmor; y tro nesaf daw Edmwnd Prys neu Wiliam Lleyn; yna Huw Morus ac Edward Morus Perthi Llwydion.

Ysgrifenna Mr. Edwards, Ariandy, Llanfair Caereinion fel hyn am ysgrif Glendalough,—"Nid yn agos i Ddublin y trigai y person byd-enwog a newidiodd ei gredo gymaint o weithiau, ond a ddaliodd ei fywioliaeth hyd y diwedd. Plwy yn swydd Berks, heb fod ymhell o Windsor, ydyw Bray y person hwnnw." Cofir fod ysgrifennydd yr erthygl wedi dadgan ei sicrwydd y cai ei gywiro.

Yr wyf yn diolch am drysorau a help i Nicholas Bennett, Ysw., Glan yr Afon; y Parch. T. Talwyn Phillips, B.D.; Mrs. Ceiriog Hughes; Henri Myllin; Myrddin Fardd; R. Griffith; Carneddog; a Gwilym Ardudwy. Gorfod i mi adael allan lawer ysgrif,—Cylchgronau Mai, Dafydd y Garreg Wen, Llyfr Plwy, Ymdaith yn Annwn, rhan o'r wythfed bennod o'r Fun o Eithinfynydd, ac ereill.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

D. R.—Diolch am yr awgrym. Camgymeriad oedd dweyd mai Glyn Nedd ydyw Neath, Castell Nedd feddylid. Ie, Aber Dau Gleddau. Anfonodd y Parch. M. D. Jones drosof at gyfaill yn byw yn agos i Ferry Side Gofynnodd hwnnw i hen bysgotwr siaradus a chraff, dros 80 oed, beth oedd enw Cymraeg y lle. Ac atebwyd ef mai Llandyferi y gelwid ef bob amser. Gwelais gastell Llanstephan ar fryn yr ochr arall i'r afon; a gorfod i mi groesi afon arall cyn cyrraedd Llacharn.

D.—Y mae T. E. Ellis, A.S, yn ysgrifennwr Cymraeg campus. Nid ei Gymraeg ef yw Cymraeg yr erthygl yn y *Genhinen* y rhoddwyd ei enw dani. Cyfeithiad ydyw honno o araeth draddodedd yn Lerpwl bum mlynedd yn ol. Nis gwn pwy oedd y Cymro clodwiw a'i cyfeithodd,—nid John Parry, yn ol pob tebyg. Ond gwn i sicrwydd na fuasai Mr. Ellis ei hun yn ysgrifennu peth mor gymylog ac ang-Nghymreig. Gofynnais iddo beth oedd ystyr rhai geiriau a rhai brawddegau yn yr erthygl, ond ni wyddai yn y byd.

Crefyddwr.—Nid oes yr un o athrawon na swyddogion Coleg Aber Ystwyth wedi eu gwahardd i bregethu. Buasai unrhyw waharddiad o'r fath yn anioddefol. Nid ant o'r dref yn y term.

Llais.—Ychydig iawn o gyhoeddi llawysgrifau Cymreig sydd. Trwy ymdrech wladgarol J. Gwenogfryn Evans y gwneir mwyaf, ac ychydig iawn o gymorth roddir iddo gan Gymry. Er esiampl, ychydig iawn o fasnachwyr cyfoethog Lerpwl sy'n derbyn y cyfrolau gwerthfawr gyhoeddir ganddo: Y mae'r Cymrodorion yn dechreu hefyd; cyhoeddasant lyfr George Owen ar Benfro, ac y maent ar fedr cyhoeddi *manor rolls* Cymru.

Gwladus.—Yn yr Iolo MSS. y mae caneuon serch Rhys Goch ab Rhisiart. Y mae Morgannwg wedi bod yn enwog am ei chaneuon serch. Y mae naturioldeb ei hen feirdd i'w briodoli, i raddau pell, i'w mesurau rhyddion.

Helygog.—Y mae *Rees' Welsh Saints* yn llyfr hylaw, ond nis gellwch ddibynnu ar ei gywirdeb,—yn aml iawn y mae'r llawysgrif wedi ei cham gopio, ac yn amlach na hynny y mae'r Lladin wedi ei gam-gyfieithu. Gellir dweyd yr un peth yn union am *Four Ancient Books of Wales* Skene,—am y copio a'r cyfieithu.

J. D. J.—Yr wyf yn disgwyl y bydd gennyf erthyglau cyn hir ar hanes Machynlleth. Y mae'r llyfrau i gyd yn y Bodleian, ac felly yn fy nghyrraedd. Diolch yn fawr i chwi am eich llythyr caredig.

Llannerch Hudol.—Y mae eich erthygl yn un o'r rhai rhyfeddaf welais erioed. Erthygl i brofi mai amarddonol yw blaenoriaid a diaconiaid wrth natur! Gwn am ugeiniau o feirdd sydd yn flaenoriaid a diaconiaid. Hwyrach eu bod yn ysgafnach eu tymer na'u cyd-swyddogion, fel y gellid meddwl oddiwrth awgrym roddodd un o honynt wedi cael cinio Cyfarfod Miscl da,—

"Ha wŷr, frodyr hyfrydol—sy'n aros
Yn nhir yr ysbrydol.
Sut fase i'r Seiat Fisol
Aros byth yn Rhos y Bol?"

Dau beth wn i sicrwydd,—fod beirdd ymysg y gwŷr da gymerwch yn ysgafn, a fod eich erthygl chwithau yn y fasged.

Hen Was Cefn Brith.—Gwelwch fod y gwall wedi ei gywiro yn y rhifyn diweddaf. Y mae eich llythyr yn ddyddorol,—"Y mae dwy o afonydd o'r enw Dulas yn rhedeg i'r Irfon rhwng Llanfair a Llanwrtyd. Y mae un yn dyfod heibio Tan yr Allt, hen gartrefle Williams o Lanwrtyd; heibio'r Garth, preswylfa Fuller Maitland, yr aelod dros Frycheiniog; ac yn ymarllwys i'r Irfon ar gyfer tyddyn o'r enw Gwarafog, tua saith milltir o Lanfair Muallt. Y mae Dulas arall yn dyfod gyda godreu rhan o dir Cefn Brith, ac yn arllwys i'r Irfon ar gyfer tyddyn o'r enw Glan Camddwr, tua deng milltir o Lanfair. Nid yw y dyfryn yn fynyddig, bryniog yw. Y mae rhan o'r ty lle y trigai y merthyr Cymreig wedi llosgi, ac y mae rhan yn aros er ei amser ef. Bum yn cysgu ar y llofft yn y rhan o'r ty sydd yn aros dair blynedd a hanner."

A. B—Ydyw, y mae barddoniaeth Heine yn ddigymar o'i ryw. Ond rhaid i chwi gofio, er mai i'r Gymraeg y mae hawddaf ei gyfieithu, nad ydyw hynny'n waith hawdd. Y mae eich cyfieithiad yn dangos ystyr geiriau'r gwreiddiol, ond yr ydych heb lwyddo eto i drosglwyddo'r cyffyrddiad ysgafn nodweddiadol, y swyn sy'n gwneyd y môr a'r ser a'r pinwydd yn gymdeithion i ddyn. Dysgwch gyfieithiadau J. Morris Jones, ac adroddwch hwy wrthych eich hun nes y bo'ch clust wedi clywed eu melodi.

Lalla Rookh.—Na, ni cha Indiaid yr un manteision â Saeson yr India. Pe graddiai Indiad yn Rhydychen, a phe medrai iaith ei wlad yn berffaith, ni chai yr un faint o gyflog yng ngholegau'r llywodraeth â Sais llai ei allu a'i ddysg. Y mae llawer o efrydwyr Indiaidd yn Rhydychen, a mwy yng Nghaer Grawnt. Gellwch gael gwybodaeth bellach pe r ymohebech â Hira Lal Kumar, *Indian Appeal Office, Oxford.*

I. D.—Enw hen flaenor sydd uwch ben eich erthygl; ond traethawd anelwig ar Hegeliaeth ydyw. Y mae'n debyg nad oeddych yn deall cymeriad yr hen frawd, neu buasech yn rhoddi darluniad cliriach o hono; yn sicr nid ydych yn hanner ddeall Hegel. Cofiwch mai sylfeini eich adeilad ddylai eich athroniaeth fod, ac y mae'r sylfeini o'r golwg.

Seno.—I'r fasged. Nid erthygl ydyw, ond rhestr hirsych o ddyddiadau a ffeithiau,—llawer o honynt wedi eu cam gopio o ryw wyddoniadur. Pa beth a dâl ail gopio? Os ydych am godi eich ffeithiau o lyfrau, rhaid i chwi roddi rhyw eglurder neu ddyddordeb newydd iddynt. Ond os tynnwch eich defnyddiau oddiar lafar gwlad neu o lawysgrifau, gellir maddeu i chwi am ysgrifennu yn drwsgwl ac yn aneglur.

Brawd.—Mai 6, 1774 ydyw dyddiad geni John Elias. Bu farw Mehefin 8, 1841.

Y mae Alltud Eifion yn cyhoeddi llyfr ar dre'r Gest.

YMDAITH Y BARDD,

NEU

ALAWON FY NGWLAD.

RHYFEDD iawn, a thra anesboniadwy, ydyw anwybodaeth Cymry am hyd yn nod enwau eu halawon cenhedlaethol. Y mae pob cenedl arall yn falch o'u halawon, prin yr ydym ni'n barod i godi ein pennau i arddel ein halawon ni. Yr wyf yn cofio fy mod unwaith yn nesbarth y Prof. Nichol, pan oedd yr athraw amryddawn a hyawdl hwnnw yn darlithio ar un o'i hoff bynciau mewn Llenyddiaeth Seisnig. Yr oedd yn rhaid iddo, er mwyn egluro ei bwnc, gyfeirio at fiwsig milwrol, a sonio id am y *Marseilleise*. "Hon," meddai, "yw'r dôn filwrol oreu o donau'r byd,—gydag un eithriad." Tybiodd y myfyrwyr oll mai at "Scots wha hae" yr oedd yn cyfeirio, a chododd hwre pedwar cant o fyfyrwyr yr Alban. Wedi iddynt dewi aeth yr athraw yn ei flaen yn dawel, gan ddweyd,—"Yr wyf yn cyfeirio, wrth gwrs, at Orymdaith Gwŷr Harlech." Ond hyn oedd ar fy meddwl,—pa bryd y clywyd cyfeiriad at un o'u tonau tlysaf neu fwyaf cynhyrfus yn ennyn dim ar frwdfrydedd efrydwyr Cymreig?

Yr wyf yn credu fod Lewis J. Roberts yn gwneyd gwaith da drwy roddi alawon Cymru yng *Nghymru'r Plant*. Ac os oes plentyn na fedr ganu,—mae'n debyg nad oes, — dysged enwau alawon ei wlad. I'w helpu at wneyd hynny, dyma gân gyfansoddwyd ar gyfer dydd gwyl Dewi diweddaf ym Mangor. Y mae drychfeddwl y gân yn un hapus iawn. Beth feddylia cerddorion Cymru o honi? GOL.

O mor ddifyr, O mor anwyl
Rhodio llwybrau Cymru Fu;
A chael myned yn hamddenol
Dros y Garneg, gamfa gu;
Dringo llethrau *Cader Idris*,—
Ymddyrchafu fryn 'rol bryn;
Edrych ar yr haul yn gwenu
Bendith ar y *Gwenith Gwyn!*

Af i *Hafod y Wraig Lawen*
I gael gweld *Syr Harri Ddu*;
Ac oddiyno i *Blas Gogerddan*
Ar fy union, ffwrdd a fi;
Yn swn *Clychau Aberdyfi*
Af at fwth y *Garreg Wen*;
Yno mor *Serch Hudol* canaf
Hefo'r delyn, *Mentra Gwen!*

Bydd *Morwynion Glân Meirionnydd*
Yn fy aros "gyda'r nos;"
Mi gaf gusan gan *Ferch Megan*,
A chaf air a *Jenny Jo's*.
Pwy yw'r dlysaf? P'run yw'r oreu?
Methaf ateb yn fy myw,
Ond yn wir yr wy'n gwirioni
Hefo *Wyres Fach Ned Puw*.

Af am dro hyd *Forfa Rhuddlan*;
Ac yn nhân gwladgarol nwyd
Unaf *Ymgyrch Capten Morgan*;
Rhodiaf ddolydd *Dyffryn Clwyd*;
Gwyliaf *Godiad yr Ehedydd*
A'r '*Deryn Pur*, a'i acen lon;
Gwelaf DORIAD DYDD ar Gymru
Drwy ganghennau'r hen *Lwyn Onn*.

J. GRUFFYDD HUGHES (Moelwyn).
Coleg y Brifysgol, Bangor.

COLOFN YR ANIDDIG.

I. Y DYWYSOGAETH.

Pam, yn enw pob rheswm y defnyddir yr enw hwn mor aml, ac mewn dull mor ddi ystyr, am Gymru? Y mae'n enw hir, trafferthus i'w ysgrifennu, a thrafferthus i'w ddweyd; ac y mae'n hawdd dweyd ac ysgrifennu'r gair Cymru. Y mae'n amwys, oherwydd y mae llawer tywysogaeth heblaw Cymru; tra nad oes un amwysedd yn yr enw Cymru. Nid oes un rheswm dros ei ddefnyddio.

Ond y mae achos; a'r achos hwnnw ydyw hyn,—ymgais i ysgrifennu fel ysgrifenwyr papurau newyddion mwyaf di-chwaeth Lloegr. Nodwedd llenyddiaeth ddirywiedig yr oes ydyw ofn siarad yn glir a di-gwmpas, awydd cyfeirio'n aneglur at rywbeth yn lle ei enwi ar ei enw ei hun. Darllennwch hanes chware pel droed yn un o newyddiaduron Deheudir Cymru,—cewch weled fod pob enwau, megis "y lledr," yn cael eu dyfeisio am y bel. Aberthir symlder a synwyr er mwyn toraeth o eiriau. Yr un achos sy'n gwneyd i ysgrifenwyr ieuainc anaddfed ysgrifennu y "Dywysogaeth" lle y dylent ysgrifennu "Cymru." Wrth gwrs, os mai dangos rhyw gysylltiad â Thywysog Cymru wneir, neu os bydd eisio rhoddi pwys ar y ffaith fod Cymru wedi ei gorchfygu, ysgrifenner "Tywysogaeth." Ond, ar bob achlysur arall, byddai mor resymol siarad yn barhaus am y "Frenhiniaeth" ac am "yr arglwyddiaeth," gan feddwl Lloegr wrth y naill, a Niwbwrch wrth y llall.

II. THE VERNACULAR.

Symlrwydd ydyw prydferthwch arddull Gwell ail adrodd geiriau dealledig drosodd a throsodd drachefn na defnyddio geiriau ereill gyda'r unig amcan o amrywio. Ychydig ydyw geiriau 'r prif ysgrifenwyr, a byrion. Ond rhaid i brentis gohebwr gael ysgrifennu "vernacular" lle y dylai ysgrifennu "Welsh." Beth enillir wrth roddi gair hir anealladwy yn lle gair dealladwy byr? Dim, ond cyfle i roddi sen i'r Gymraeg trwy awgrymu nad yw ei llenyddiaeth yn glasurol.

III. DYFYNNU SAESNEG.

Yr wyf mor hoff o'r beirdd Seisnig a neb, a bydd yn dda gennyf weled ambell ddyfyniad tarawiadol o honynt mewn erthygl Gymraeg. Ond paham, tybed, y bydd rhai brodyr yn dyfynnu o Almaenwyr a Ffrancod, mewn erthygl Gymraeg, *yn Saesneg?* Dyma esiampl,—

> "Mor brydferth, onide, yw'r ddihareb Spaeneg honno,—*The truth is always green.*"

Paham na chyfeithid y ddihareb i'r Gymraeg? Yn Saesneg y mae'n ddigrifol o amwys, ac y mae'r gynghanedd yn colli. Ond mor brydferth yn wir ydyw yn y gwreiddiol, neu mewn cyfeithiad Cymraeg, —*La verdad es siempre verde*, Gwyrdd fyth yw'r gwir.

Gwelais ddyfynnu Ffrancaeg swynol Renan, mewn erthygl Gymreig, mewn Saesneg garw clapiog, pryd y gallesid ei roddi mewn Cymraeg heb i ddim o degwch ei bryd wywo. Ac y mae pregethwyr, dwbwl wfft iddynt, yn dyfynnu'r Germaniaid *yn Saesneg*, ie 'n dyfynnu yn Saesneg rai nad ysgrifenasant air o Saesneg erioed, Frodyr, paham y cyfaddefwch mai *crib* ydyw ffynhonnell eich gwybodaeth?

Y mae llawer peth yn llyfrau'r oes hon yn fy ngwneyd yn aniddig iawn. Bydd yn iachad i mi, ac yn help i rai ieuanc hwyrach, gael cwyno tipyn weithiau yn y golofn hon.



YR ODYN.

Y MAE gwynt oer miniog y gauaf yn chwythu dros y wlad lom. Bu ochrau'r bryniau fry yn llawn o flodau amryliw; bu'r eiddew ar y bont fel pe na buasai'r bont i gyd ond torch-bleth o eiddew byw yn crogi uwch ben yr afon. Bu'r dwfr yn murmur yn ddedwydd wrth ddawnsio dros ymylon y creigiau bychain draw, ac yna'n gorffwys mewn llyn du cysgodol, dan ysgaw aroglus a glaswellt hir. Bu cysgodion y bont yn hyfryd, bu dwfr yr afon yn gynnes. Bu'r gwibed yn ehedeg uwch ben y llynnoedd, bu'r brithylliaid yn nofio'n berffaith lonydd ac yn rhoi ambell i dro sydyn,—ac yr oedd pysgotwr aiddgar mor gysurus dan gysgod y bont fel na theimlai awydd torri ar eu chware yn nyfnderoedd clir y dŵr.

Ond heddyw y mae gwynt oer y gauaf yn chwythu dros y wlad lom. Nid oes flodeuyn llygad y dydd yn edrych ar yr haul oddiar y llethrau gwlybion gwyntog. Y mae cerrig a chalch y bont yn y golwg, a phrin y cofir fod ei heiddew'n fyw. Y mae'r dail wedi diflannu o flaen awel lem y gogledd-ddwyrain, a'r coed yn feinion ac anwydog. Y mae golwg oer a fferllyd ar y dwfr,—y mae'r afon yn llawn at yr ymyl, yn llawn o ddwfr oedd yn rhew ar y creigiau neithiwr ac yn eira ar y mynyddoedd.

Ar lan yr afon dacw'r odyn gynnes glyd, a'r mŵg yn ymddyrchafu o honi, trwy'r to brwyn a thrwy'r ffenestr ddu sydd uwch ben y drws. Ynddi y mae'r yd yn prysur grasu uwch eirias ardderchog o dân mawn glân. Y mae'r mawn wedi eu cario i lawr o Fwlch y Groes, o le hyfryd a iach, a gellwch benderfynu na chollwyd bywyd erioed wrth eu cynhauafu, na deigryn chwaith. Nid o ddyfnder y ddaear y cloddiwyd hwy, ac nid oes na pharddu na huddygl yn perthyn iddynt.

Oddi allan nid oes golwg barddonol ar yr odyn. Efallai mai'r rheswm am y coll hwn yw nad oes ganddi gorn simddeu, a fod ei bargodau'n dod yn agos iawn at y llawr, fel adenydd llipa aderyn a glwyfwyd. Ac mewn rhai cylchoedd nid oes enw da iddi; gwelais roddi segurwyr yr odyn yn destun tuchan-gerdd mewn eisteddfod leol, ond nid oedd fardd na fynnai ganmol yr hen sefydliad gwerinol am lawer o bethau heblaw crasu yd cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth.

Tybia rhai mai gwehilion ardal geir mewn odyn; ac y maent yn camgymeryd yn fawr. Y mae'n anodd penderfynu pwy yw gwehilion ardal. Synia rhai mai'r gloddestwyr sy'n oer ddadwrdd ar feinciau caledion uwch ben peintiau o gwrw yn y dafarn draw yw gwehilion yr ardal. Gweision ffermwyr anllythrennog ac ambell i hen loddestwr,—gweddill yr oes o'r blaen,—yw y rhain; a gwareded enaid pob hoffwr tawelwch rhag eu cyfrinach. Dywed rhai ereill mai'r llercwyr fydd yn treulio oriau wrth ffenestri siopau'r pentre, ar "eisteddfa'r gwatwarwyr," yw gwehilion ardal. Digon prin y mae'r syniad hwn yn

gywir,—gallasai'r bechgyn fynd i le gwaeth, ond yn sicr gallent wneyd gwell defnydd o'u hamser gwerthfawr. Digon prin, hwyrach, y mae gan neb hawl i ddweyd fod unrhyw ddosbarth yn wehilion yr ardal. Bydd arnaf fi awydd dweyd ambell dro mai gwehilion yw trigolion f'ardal i gyd,—y mae dau werthwr cwrw'n cael bywioliaeth gysurus ynddi, a phump neu chwech yn cael mawr elw o werthu tybaco, ond y dybiaeth ydyw y buasai gwerthwr llyfrau'n feth-dalwr mewn llai na mis, onibai am bapurau newyddion, pe meiddiai godi ei babell yn yr ardal hon. O'r ochr arall, bydd arnaf awydd dweyd, wedi ambell gyfarfod gweddi, mai gŵŷr cadarn eu meddyliau a difrif eu bywydau yw trigolion yr ardal i gyd.

Cynhulliad crefyddol yw'r cyfarfod gweddi, cynhulliad llenyddol sydd yn yr odyn; ac, fel rheol, ceir yr un bobl yn y ddau. Gellir dweyd am holl fynychwyr yr odyn eu bod yn perthyn i grefydd, yn agos neu ymhell.

Ond gadewch i ni fynd i mewn. Bydd ychydig o arogl mŵg mawn ar eich dillad wedi dod allan; ond na ofelwch, y mae'n arogl digon iach. Y mae rhwng chwech a saith ym mis Mawrth, ac y mae awel oer wleb yn chwythu oddiar y mynyddoedd eiraog draw. Trwy rigolai hen ddôr ddu fawr yr odyn, gwelwn oleu coch y tân croesawgar; ac, heb gnocio na dim, agorwn ac awn i mewn. Wedi mynd i mewn ni welwn ddim ond yr eirias o dân mawn. O'r drws at y tân y mae mynedfa gul, ac y mae'r gweddill o lawr yr odyn yn uwch na'r fynedfa, o ryw droedfedd. Ar ymyl y lle uwch hwn, eistedd y frawdoliaeth; yn nesaf i'r tân, ar y llaw chwith, y mae'r odynwr, ac edrychid ar un feiddiai eistedd yn ei sedd ef fel yr edrychid ar un eisteddai yn sedd y Llefarydd yn Nhy y Cyffredin neu yn sedd Jowett yng nghapel Coleg Balliol. Nid y seddau hyn yw yr unig rai yn yr odyn, na'r rhai mwyaf cyfforddus. Y tu ol i ddwy res o eisteddwyr y mae lle agored llawn o sachau, ac ar y rheini y mae lle clyd i led-orwedd. Ac ar garreg y bibell, y garreg drwchus enfawr sydd uwch ben y tân, y mae lle cynnes pan fo'r gwynt oeraf. Y tu hwnt iddi y mae'r glwyd, lle mae'r ceirch yn crasu, ac odditan y glwyd y mae "parlwr yr odyn."

Dyma ni wedi eistedd. Y mae distawrwydd perffaith yn teyrnasu trwy'r lle, ac ni wyddom pwy sydd yno, na pha faint. Toc daew ben yr hen odynwr yn dod i'r golwg wrth iddo blygu i daflu clepyn mawnen ar y tân gyda math o fforch goesbren hir. Clywir rhu diddarfod yr afon, ac ambell chwyrniad bygythiol gan y gwynt,—ac y mae'r swn yn gwneyd i ni deimlo'n gysurus ryfeddol wrth wylio'r fflamau cochion a gleision yn ymsaethu i fyny o'r mawn sydd newydd eu rhoddi ar y pentwr eiriasboeth. Son am dawelwch ac am ddianc o dwrf y byd,—dyma'r lle.

Nid pobl drystiog uchel lais sydd yma, ond pobl yn hoffi tawelwch. Boneddigaidd iawn ydynt i gyd; ac os bydd cweryl, rhaid i'r pleidiau gweryla mewn gwatwar-iaith orffenedig, fel y bydd yr awduron dysgedig yn ffraeo, a chymeryd amser i barotoi eu hatebion. Yr odynwr, wrth gwrs, sydd yn rhoddi ei chymeriad i'r odyn, ac yn gofalu fod popeth mewn trefn. Os bydd rhywun rhy uchel ei gloch, efe sydd i roi taw arno; os bydd rhywun yn cael cam oherwydd gwyleidd-dra, efe sydd i'w gynorthwyo. A bydd yr odynwr yn gwneyd hyn oll gyda greddf anffaeledig. Fel rheol, y mae'r odynwr yn hen, ac wedi etifeddu dull a thraddodiadu. Yn yr odyn hon ni fu, mewn can mlynedd, ond dau odynwr. Y mae pob odynwr yr un fath, ac o'r un ddull. Gŵr bychan o gorffolaeth ydyw, gyda chefn yn crymu ychydig; gŵr pwyllog ac arafaidd, a min ar ei dafod fel ar hesg. Un dreng ydyw, chwerw ei ymadrodd, ac y mae ei sen yn cyrraedd ymhell iawn. Y mae dyn o dref y tu draw i'r mynydd wedi dod i'r ardal, ac y mae'n meddwl ei hun yn llawer gwell gŵr na neb sy'n arfer dod i'r odyn, ac yn tybied ei fod yn gwybod mwy na hwy. Dyna'i lais ymffrostgar yn torri ar y tawelwch; cawn gyfle i glywed Wmffre Elis yn torri ei gnib. Dywedodd y gŵr balch hanes hunanladdiad erchyll yr oedd wedi darllen am dano yn y *Faner*. Dywedodd mor garbwl yr oedd yr hunanleiddiad wedi cyflawni ei waith, ac mor ddeheuig y medrai ef wneyd yr un gorchwyl. "Ond o ran hynny," ychwanegai'n bwysig, "dyna'r peth olaf wnaethwn i byth." "Mae nhw'n deyd," ebe'r hen odynwr yn dawel, wrth roddi mawnen ar y tân, "mai dyna'r peth olaf wnaeth ynte." Parodd dull syblyd cras yr hen wr i bawb chwerthin, a diolchai'r adroddwr hunanol yn ei galon fod y tywyllwch yn ei guddio. Llawer gwaith y tynnodd sen yr hen Wmffre chwerthin o bob congl i'r odyn, er mawr adeiladaeth i'r hwn siaradai i ddangos ei ffolineb ei hun.

Nid lle i siarad yn unig ydyw'r odyn, ond lle i orffwys hefyd. Nid oes alw ar neb i siarad, os na fydd siarad ar ei galon. Weithiau ni chlywir dim ond yr afon a'r rhew-wynt, gall pob un dybio nad oes ond efe a'r tân yn yr odyn; dro arall bydd rhywun yn adrodd ystori; a thro arall wedyn bydd rhydd ymddiddan pur fywiog. Clywais lawer o adrodd ystraeon erioed, ymysg llawer cymdeithas ac mewn llawer gwlad, ond ni chlywais yn unlle erioed ystraeon yn cael eu hadrodd mor naturiol ag yn yr odyn. Adroddaf innau hwynt.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

VII. ERLIDIAU.

"Gwyn eu byd y rhai a erlidir o achos cyfiawnder; canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." MATTHEW v. 10.

YNG ngoleu'r tân gyneuasid ym Meaux ac ym Mharis, gwelwyd fod cynulleidfaoedd cyfaeon, yma ac acw ar hyd Ffrainc, yn addoli y tu allan i furiau'r Eglwys Babaidd. A gwelodd pob Protestant yn Ffrainc fod llawer yn cerdded yr un llwybr newydd ag ef ei hun, a fod llaweroedd ereill ar gyfyng gyngor.

Saif pentref Annonay dan gysgod Mynydd Pilat, lle mae'r Rhône yn rhedeg gyda godrau gwyrddion y Cevennes. Yma, ebe traddodiad, y bu Pilat yn alltud, ac yma y mae ei ysbryd yn ceisio golchi ei ddwylo oddiwrth waed yr Hwn draddododd i'w groeshoelio. Lle ofergoelus oedd, ac enwog am ei greiriau. Dywedid fod dyn feiddiodd edrych ar y rhain wedi ei daro a dallineb; doi pererinion o bellderoedd i'w haddoli; ac agorai drysau'r carchardai, fel trwy wyrth, pan ddygid hwy allan yng ngorymdaith yr offeiriaid. Yn y pentref yr oedd gŵr wedi clywed Martin Luther, a chododd ei lais yn erbyn ofergoeledd y pentref cysglyd. Gorfu iddo ffoi am ei einioes, ond gwrthododd un a'i gwrandawsai ffoi, a bu farw wrth yr ystanc. Cyn pen ychydig o wythnosau yr oedd yr ysgolfeistr a phump ar hugain o'r pentrefwyr wedi croesawu'r Diwygiad, ac yn dihoeni yng ngharchar arch-esgob Vienne.

Saif Sancerre ar ben mynydd, a'i muriau fel coron arno, uwchlaw'r Loire, lle mae'r afon honno yn rhoi tro i'r gorllewin cyn cyrraedd Orleans. Daeth un o'r diwygwyr iddi, a chafodd y pentrefwyr lonydd i feddwl am ei bregeth. Nid rhyw lawer o ofal gymerasid o'r pentref gan ei offeiriaid,—yr oedd ei unig eglwys y tu allan i'r muriau, ac yr oedd ei fynachlog wedi ei throi yn lle i gadw'r gwin dynnid o'r gwinwydd dyfai hyd lethrau serth y bryn. Ond daeth y si fod son am y grefydd newydd yn Sancerre. Dringodd Oris, un o swyddogion y Chwilys, yno; ond rhoddodd y pentrefwyr win wrth ei fodd iddo, a chyhoeddodd yntau o bulpud Bourges mai pobl dda ryfeddol oedd yn byw ar ben y bryn. Anfonwyd swyddog arall ar ei ol, ond daeth hwnnw'n ol dan ddweyd yr un ystori, mewn siwt o ddillad newyddion. Aeth trydydd, yr hwn a dyngodd lw erchyll na fynnai ef na gwin coch na dillad newyddion; a buan iawn yr oedd barbwr y pentref yn y fflamau, a phentrefwyr ereill yn y carchar neu ar ffo.

Ond nid mewn pentrefydd bychain yn unig y clywid swn y Diwygiad. Yr oedd Melchior Wolmar yn dysgu'r grefydd newydd i'r lluoedd o fyfyrwyr ymdyrrai o bob man i Brifysgol Bourges, ac yr oedd yr un grefydd yn ymledu yn ninas fawr Orleans. Cafodd y grefydd gynhorthwy yn ffolineb offeiriaid y ddinas hon ynglyn a helynt claddu. Yr oedd gwraig un o'r swyddogion dinesig wedi gofyn cyn marw am gael ei chladdu heb y rhwysg arferol, ac nid oedd wedi gadael arian i dalu am weddiau dros ei henaid. Cyn hir haerodd y mynachod fod ei hysbryd cythryblus yn cerdded y ddaear, a symudasant o'u mynachlog yng ngŵydd yr holl ddinas, rhag ofn yr ysbryd na weddient am heddwch iddo. Aeth yn gyfraith rhyngddynt â swyddogion y ddinas, a thynnodd yr helynt sylw Ffrainc i gyd. Treiwyd yr achos ym Mharis, a daeth popeth i'r goleu trwy i un o'r mynachod gyfaddef mai efe a benodwyd gan y lleill i fod yn ysbryd,—mewn cynfas wen. Gorfod i'r mynachod sefyll ar y lle agored o flaen eglwys gadeiriol Orleans, lle y dienyddid drwg-weithredwyr, a chyfaddef eu bradwriaeth anheilwng yn erbyn yr ysbryd ymadawedig. Ymysg y dyrfa edrychai ar eu cywilydd yr oedd myfyriwr cyfraith yn y Brifysgol, o'r enw John Calfin.

Toulouse oedd prif ddinas deheudir Ffrainc,—gyda'i masnach flodeuog, ei llysoedd, ei hoffeiriaid, ei phrifysgol, a'i chreiriau. Aeth y son fod Jean Caturce, cyfreithiwr, wedi dweyd am ryw ŵyl grefyddol fod yn rheitiach gwaeddi "Teyrnased Crist yn ein calonnau" na gwaeddi "Yfed y brenin," ac y buasai crwydro drwy borfeydd Gair Duw yn llawer gwell nag ymroddi i bleserau aflan y wledd honno. Pan gymerwyd ef i'r ddalfa, cyhoeddodd y gwirionedd gyda sel; ac yn ebrwydd condemniwyd ef i farw. Cymerodd y seremoni o ddiosg dillad ei swydd oddi am dano dair awr o amser, ac yr oedd yntau'n pregethu i'r dyrfa am yr efengyl yr oedd ar roddi ei fywyd i lawr er ei mwyn. Safodd mynach ar ei gyfer, i bregethu ei bregeth angladdol. Cymerodd yn destun y gair hwnnw o lythyr Paul at Dimothi,—

"Ac y mae yr Ysbryd yn eglur yn dywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus ac i athrawiaethau cythreuliaid,"—

ac heb ddarllen ymhellach dechreuodd gymhwyso'r geiriau. Ond gwaeddodd Caturce arno oddi wrth ei ystanc,—"Darllen ymlaen." Yr oedd y mynach yn ddistaw, gwyddai fod yn yr adnod nesaf gondemniad o'i athrawiaethau ef ei hun. "Darllen ymlaen," gwaeddai Caturce, "os na wnai, mi

ddarllennaf fi." Cododd y merthyr ei lais, a chlywodd miloedd yr adnodau hyn,—

"Yn dywedyd celwydd mewn rhagrith, a'u cydwybod eu hunain wedi eu serio â haiarn poeth; yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymatal oddiwrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid, a'r rhai a adwaenant y gwirionedd."

Yr oedd enaid y dyn ar dân, ac esboniodd destun y mynach mewn geiriau suddodd yn ddwfn i lawer calon y diwrnod hwnnw. Arweiniwyd ef o flaen y barnwr i glywed darllen ei ddedfryd, ac yna at y stanc yn ol. Safodd ar risiau'r llys, ac edrychodd am y tro olaf ar gaerau a thyrau aneirif Toulouse, gan gyhoeddi uwch eu pennau,—"O balas anuwioldeb, O eisteddfa anghyfiawnder!" Rhoddwyd gwisg ynfytyn am dano, a llosgwyd ef yn lludw yn honno.

Hawdd cynneu tan ar hen aelwyd. Hen fro yr Albigensiaid oedd gwlad Toulouse, a gwelwyd y grefydd fu unwaith yn flodeuog yn neheudir Ffrainc, crefydd welodd auaf hir, yn adfywio eilwaith. Ond er gwaethaf erledigaeth danllyd y cynyddodd. Tybiodd Marot fod y "llosgi mawr" drosodd, a daeth yn ol i Ffrainc. Daliodd Cardinal Tournon ef, ar ei ffordd adref, a gwnaeth iddo gyhoeddi mai Pabydd oedd. Ac wedi i'r offeiriaid lwyr ennill y brenin, torrodd yr ystorm o'r newydd ar grefyddwyr Ffrainc.

VIII. DINASOEDD NODDFA.

"Y dydd hwnnw y cenir y gân hon yn nhir Judah,—'Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau ac yn rhagfur.'" ESAY XXIX. 1.

Ar hyd gororau Ffrainc yr oedd talaethau bychain hanner anibynnol, a dinasoedd rhyddion; ac yr oedd y rhain i gyd naill ai wedi derbyn y Diwygiad neu yn parotoi at wneyd hynny.

Yn y de, ar lethrau'r Pyrenees, yr oedd brenhiniaeth Navarre. Yr oedd brenin Navarre wedi priodi Margaret o Valois, ac yr oedd hithau wedi gwneyd y diwygiwr Gerard Roussel yn Esgob Oloron. Daeth Bearn fynyddig yn wlad hollol Brotestanaidd, ac yn noddfa i ffoaduriaid Ffrainc. Daeth yn wlad gweithdai ac ysgolion, a hyfryd oedd ei dyffrynnoedd a'i llethrau amaethedig i rai ddiangasai o dalaethau difrodedig Ffrainc.

Draw dros yr Alpau, ar wastadedd gogledd yr Eidal, yr oedd Ferarra, dan lywodraeth Hercules o Este. Priod Hercules oedd Renée o Anjou, un o'r rhai gyntaf groesawodd y Diwygiad yn Ffrainc. Yr oedd yn hynod am ei gwybodaeth, ac am swyn cariadus ei bywyd. Yn ei llys hi yr oedd croesaw i'r ffoaduriaid, bu Calfin a Marot yn cyd ddarllen salmau ynddo. Daeth amser iddi hithau ddioddef am ei chrefydd, cymerwyd ei merched oddiarni, ond ni phallodd ei ffyddlondeb, er creuloned fu'r Pab a'r Chwilys wrthi. Wedi marw ei gŵr, dychwelodd i Ffrainc, ei hanwyl wlad ei hun, a gwnaeth gastell Montargis yn noddfa i'r crefyddwyr yn eu hamser enbytaf.

Ar hyd goror dwyreiniol Ffrainc, yr oedd llinell hir o werin-lywodraethau ac o ddinasoedd rhyddion, o Geneva i Sedan, dderbyniai'r erlidiedig gyda breichiau agored. Bern gref ryfelgar a Neufchâtel, Lausanne brydferth a Basel hen,—yr oeddynt wedi ymwrthod â Phabyddiaeth i gyd. Bu gwasg Basel yn gymorth amserol iawn. Ond Germanaidd ydyw Basel, nid Ffrengig; nid Ffrainc, ond y Rhein a'r Fforest Ddu, welir draw rhwng colofnau prydferth ei heglwys.

Yn nhir y Rhein yr oedd Mühlhausen, Colmar, a Münster wedi derbyn y Diwygiad; ac yr oedd eu muriau yn noddfa ddiogel. Ymsaethai pigyn eglwys gadeiriol Strasburg o ddyffryn y Rhein, yn brydferth fel breuddwyd, i arwain camrau y rhai groesai'r Vosges o Champagne a Lotharingen; a gellid gweled Heidelberg draw wrth droed yr Odenwald glâs. Yn nyffryn y Meuse yr oedd Sedan, prif ddinas duciaeth fechan Bouillon, yn noddfa i wŷr y gogledd. O Normandi a Llydaw yr oedd yn hawdd dianc i Loegr, ac nid oedd groes na delw ar lan y môr nad oedd mewn perygl oddiwrth sel Brotestanaidd y morwyr Seisnig. Dinas noddfa taleithiau'r gorllewin oedd La Rochelle gref anibynnol, y ddinas olaf yn Ffrainc i ymostwng i'r erlidiwr.

Ond hoff noddfa diwygwyr Ffrainc oedd Geneva,—lle Ffrengig, ond heb fod dan lywodraeth Ffrainc, lle y caent groeso gan rai o'r un grefydd yn eu hiaith eu hunain.

Peth rhyfedd ydyw fod Geneva wedi gwneyd cymaint i roddi ei gryfder a'i ffurf i'r Diwygiad yn Ffrainc, ac i feddwl y byd. Nid oes ganddi ddim manteision naturiol. Saif rhwng yr Alpau a'r Jura, ac y mae y rheini'n dod yn rhy agos at eu gilydd i adael gwlad y gallasai Geneva fod yn brifddinas iddi. Ond nid ydynt yn dod yn ddigon agos i fod yn amddiffynfeydd iddi. Amgylchynnir hi gan fynyddoedd, ac y mae eu llethrau yn rhedeg i lawr ati ar bob tu,—fel pe buasai Natur wedi bwriadu iddi fod at drugaredd pob gelyn. Nid ydyw ei llyn ardderchog o un gwerth masnachol, oherwydd mai o fynyddoedd gwyllt y rhed ei afonydd iddo. Nid oedd y Rhône yn dramwyfa i'w masnach, oherwydd ymgollai mewn anialwch o greigiau newydd adael y ddinas. Nid oedd gan Geneva hanes, nid oedd wedi rhwystro ymdaith yr un fyddin, nid oedd wedi dioddef ei

gwarchae, nid oedd wedi amddiffyn y de rhag yr Almaenwyr na'r gogledd rhag y Mahometaniaid.

Ei chrefydd wnaeth Geneva yn allu yn y byd. Hyhi oedd prifysgol Protestaniaeth Ffrainc; y hi oedd Rhufen Protestaniaeth Ewrob. Yr oedd mewn lle campus at gyflawni ei gwaith,—yr oedd yn hawdd dod iddi o ddeheudir Ffrainc, yr oedd yn hawdd myned o honi i'r Almaen, ac yr oedd mewn amod â Bern gref, yr hon anfonai ei milwyr i'w chynorthwyo trwy goedwigoedd Vaud neu ar hyd llyn Geneva. Farel, un o ddiwygwyr Paris, roddodd ei chrefydd iddi. Yn Hydref, 1533, yr oedd gŵŷr Geneva mewn ffrae â'u hesgobion,—offeiriaid uchel-waed esgeulus, di-grefydd a di-dosturi,—ac yn hiraethu am ymwared oddiwrth orthrwm gwladol duc Savoy a gorthrwm crefyddol y Pab. Pan oedd yr haiarn yn boeth, daeth Farel yno, a dechreuodd ei guro. Yr oedd rhyw ddiwygiwr wedi bod yno o'i flaen, ac wedi ennill llawer o'r trefwyr trwy ddweyd y medrai eu dysgu i ysgrifennu mewn mis, a thrwy gynnyg iachau eu hafiechydon am ddim. Cafodd yr offeiriaid afael ar fynach fedrai bregethu, ond pregethodd hwnnw yr un peth â'r Diwygwyr. Yna ceisiasant wenwyno Farel, a methodd y cynllun hwn hefyd. O'r diwedd cynhaliwyd cyfarfod dadleu mawr, a chanlyniad y cyfarfod oedd troi'r dadleuwyr Pabyddol yn Brotestaniaid. Ryw ddiwrnod agorodd y bobl ddrws yr eglwys gadeiriol, a gwnaethant i Farel godi ei lais taran a phregethu ei Brotestaniaeth ynddi. Am hyn gwysiwyd Farel o flaen Cyngor Mawr y ddinas; ac wedi gwrando arno, condemniodd y Cyngor Babyddiaeth, ac nid Farel. Cyhoeddwyd yn 1535 nad oedd offeren i fod mwyach, a fod pawb i fyw yn ol yr efengyl. Aeth y lleianod ymaith dros bont yr Arve, a daeth byddin Bern i wersyllu dan y muriau hyd nes y byddai Duc Savoy wedi penderfynu gadael Geneva yn llonydd.

Ryw brydnawn yn Awst, 1536, pan oedd y Diwygiad yn flwydd oed, arhosodd cerbyd o flaen un o letydai Geneva, ac o hono daeth gŵr ieuanc saith ar hugain oed, gŵr gwelw, gyda barf bigfain hir, yn taflu trem gyflym dreiddiol ar bopeth o'i gwmpas. Adnabyddodd rhyw ffoadur Ffrengig ef, a rhedodd i ddweyd wrth Farel fod John Calfin yn y dref. Prin y medrai hwnnw gredu gan lawenydd, ac aeth i'r llety i groesawu un oedd wedi gwneyd cymaint dros y gwirionedd, er ieuenged oedd. Cafodd ef yn flinedig iawn, wedi teithio'n hir. Yr oedd wedi bod yn ei hen gartref am y tro olaf am byth, ac yr oedd yn awr yn troi i chwilio am le tawel, lle y gallai dreulio y gweddill o'i fywyd ynddo mewn myfyrdod uwch ben Gair Duw. Ni chai dawelwch yn Ffrainc byth mwy. Basel neu Strasburg oedd ei ddewis le, yr oedd yno lyfrau a dysgedigion; ni fynnai wrando ar Farel, yr hwn a geisiai ei ddarbwyllo i aros yn Geneva. Pan welodd hynny, ymosododd Farel arno, gan ei gyhuddo o ddewis ei gysur ei hun o flaen dioddef gyda Christ. Credodd Calfin mai Duw anfonodd yr efengylwr tanllyd hwn i'w gyfarfod, a gellir eto ddarllen nodyn yn llyfr Cyngor Geneva, ar gyfer Medi 6, 1536, fel hyn,—

"Danghosodd M. Guillaume Farel fod y pregethu ddechreuwyd gan y Ffrancwr hwn yn eglwys Pedr yn angenrheidiol. Gofyn i ni ei gadw yn ein mysg, a gofalu am ei gynhaliaeth. Yr ydym, am hynny, yn gorchymyn ei fod i gael gofalu am dano."

Nid oes, hwyrach, yn hanes y ddaear destun efrydiaeth mwy dyddorol na hanes Calfin yn rheoli Geneva. Heblaw llysoedd gwladol y ddinas, sefydlwyd llys y Consistori, —y llys y taflwyd cymaint o anfri arno, o oes i oes, gan rai na fedrant ei ddeall na chydymdeimlo ag ef. Y mae'r hanes wedi ei ail adrodd lawer gwaith; bu Moses yntau, ac Oliver Cromwell yn ceisio gwneyd yr un gwaith,—ceisio gwneyd i genedl war-galed bechadurus fyw bywyd o foesoldeb pur. Nid yn unig yr oedd addoliad cyhoeddus y dinaswyr dan awdurdod y Consistori; ond yr oedd eu haddoliad teuluaidd hefyd, a'u bywyd dyddiol,—eu prydiau bwyd, eu gwisg, eu rhodiad, — dan reolau manwl a chaeth. Gwnawd holl ddeddfau moesoldeb yn gyfreithiau llymion, a rhoddwyd cosb wrth bob un. Un diwrnod condemnir gwraig,—perthynas agos i Galfin ei hun,—i farw am bechod; ddiwrnod arall ceryddir un dyn am roddi enw o'r Ysgrythyr ar ei fuwch, a dyn arall am roddi enw Calfin ar ei gi.

Y mae'n hawdd gwneyd y cysgodion yn narlun crefydd mor ddidrugaredd yn dduon, ac y mae'n hawdd i ymadroddwr penwan arwynebol gondemnio credo mor haiarnaidd. Ond yr oedd y grefydd a'r gredo wrth fodd yr eneidiau difrif sobrddwys oedd wedi gadael popeth a dianc o flaen yr erlidiwr i le y caent lonydd ynddo i gymuno â Duw Israel. Pan wrthryfelodd y gŵŷr masweddol yn erbyn Calfin, medrodd eu gorchfygu'n hawdd, a gorfod i'w harweinydd golli'r bywyd na fynnai ei fyw "yn ol yr efengyl."

Deddf newydd roddodd Calfin i'r byd, nid rhyddid cydwybod. Credai mewn erlid, fel y credai ei wrthwynebwyr. Ond cyn condemnio Calfiniaeth fel credo anhygar a chaled, gadewch i ni weled fel y medrodd dynion dewrion farw drosti,—ar faes y frwydr ae wrth yr ystanc.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD VII. *(Parhad.)*

AFLWYDDIANT.

WEDI i Ddafydd ymadael a Madog, aeth ar hyd y ffordd yn hamddenol i'r Aberffraw, a phan gyrhaeddodd y dref trodd i mewn i dafarndy bychan. Yn ffodus, ac yn unol a theimladau y bardd ar y pryd, nid oedd neb yno i'w aflonyddu. Galwodd am fwyd, ac aeth i eistedd wrth y bwrdd i'w fwyta, ac i fyfyrio. Nid oedd nacâd Madog wedi siomi nemawr arno. Yr oedd bron yn sicr cyn gofyn mai ateb felly a gai. Ond yn awr yr hyn a lanwai ei feddwl ydoedd y modd goreu i weithredu yn y dyfodol er mwyn dwyn ei amcanion i ben. Gwelai nad oedd wiw iddo ymddwyn yn fyrbwyll, ac edrychai ymlaen gyda hyder i gael ymddiddan â Morfudd nos drannoeth, gan dybied y buasai, efallai, yn cael rhyw awgrymiad pa lwybr i'w gymeryd.

Pan gyrhaeddodd Lys Gwilym, dechreuodd ei gyfeillion ei holi yn selog am ei lwyddiant gyda'r hen Lawgam.

"Un ar unwaith, gyfeillion, nid wyf yn deall dim o'r hyn a ddywedwch," meddai Dafydd, gan wenu.

"Mae yn edrych yn llawen, Gwilym," meddai Madog. "Ai tybed fod yr hen Lawgam wedi syrthio mewn cariad ag ef?"

"Dim perygl," atebai Dafydd, "digwyddodd yn hollol fel y dywedasoch wrthyf cyn mynd. Ni wnai Madog roddi ei gydsyniad i mi briodi Morfudd."

"Y feuden gan Morfudd ydych yn son am dani," meddai Prys, yr hwn a ddigwyddodd ddyfod i mewn pan oedd ei feistr yn enwi y ferch o Eithinfynydd, "y fenyw ansyber, yr eneth fwyaf balch, fwyaf sarhaus ——"

"Taw, Prys, taw, paid a dweyd gair yn erbyn Morfudd," meddai Dafydd yn geryddol.

"Wel, mistar, fedrai ddim anghofio ei bod wedi difetha fy siaced wen lian a gefais yn rhodd gan ein harglwydd Ifor Hael; ac mor sarhaus y dywedodd wrthyf, pan yn taflu y gwin am fy mhen, na wyddai hi ddim pwy oeddwn i na fy mistar, ac ni wrandawai y ffolog—"

"Prys!"

"Os wyt am gadw yn ffrindiau gyda dy feistr, Prys, cymer olaf na ddywedi ddim yn erbyn y fun o Eithinfynydd," ebai Gwilym Llwyd gan wenu a gwneyd amnaid â'i lygaid ar y gwas.

"Ac wyddost ti nad ydi y merched hawdd eu cael, rhy barod i ddyfod ar godiad bys, yn werth eu cael o gwbl? Os y rhoddodd Morfudd well derbyniad i dy feistr, wedi iddo ymweled a hi yn bersonol, nag a roddodd i'w gennad, dylai hynny wneyd iawn am yr anfri blaenorol," dywedai Madog Benfras.

Edrychodd Prys yn ymofyngar ar ei feistr, fel pe buasai yn ceisio gwybod a oedd y pethau hyn felly; a phan welodd Dafydd yn chwerthin aeth allan o'r neuadd heb ddweyd un gair.

"Nid ydyw wedi maddeu iddi eto," meddai Madog.

"Nac ydyw," meddai Dafydd, "y mae Prys druan yn hynod ffyddlon gyda'i gariad â'i gar."

"Ond, dywed i ni, sut y mae pethau yn sefyll rhyngot a Morfudd?" gofynnai Gwilym Llwyd, "yr wyt yn cymeryd dy siomiant yn rhy lawen o lawer, i beri i ni ameu fod rhywbeth y tu ol i'r cwbl."

"Does dim ond yr ymwybodolrwydd o'm llwyddiant yn y pen draw er gwaethaf Madog a phawb arall; yr wyf wedi penderfynu ei hennill a'i hennill a wnaf; ac nid ydyw y gwrthwynebiad hwn ond mwy o awch i'r erlidfa. Hela yr ysgyfarnog am hanner diwrnod ac ychwaneg dros fryn a dôl, a'i dal yn y diwedd sydd bleser; ac nid dilin y rhai hanner dofion sydd yn croesi eich llwybr, ac y gallech o'r bron eu dal wrth fyned heibio. 'Omnia vincit amor' Madog, mae cariad yn gorthrechu pob peth."

"Amser a ddengys," atebai Madog yn arafaidd.

PENNOD VIII.

MORFUDD A DAFYDD.

Yr oedd Dafydd yn brydlon iawn wrth yr hen dderwen prydnawn drannoeth, a disgwyliai yn ddyfal a phryderus am Forfudd. Ofnai i rywbeth ei rhwystro, neu efallai mai prin yr oedd yn credu nad oedd ond cellwair pan yn addaw dod. Ond yn y man clywai swn troediad ysgafn, ac aeth ei holl ofnau ar chwâl, pan welodd eneth ieuanc, wedi ei gwisgo mewn mantell ddu, a'r hwd wedi ei dynnu dros ei phen, yn dyfod i gyfeiriad y dderwen. Cododd ac aeth i'w chyfarfod, ac arweiniodd hi at yr hen foncyff, ac

eisteddasant i lawr. Ni allasai Morfudd ddweyd un gair, wedi llwyr golli ei hanadl wrth redeg yr holl ffordd o'r ty, a dywedodd Dafydd,—"Adroddaf i ti gân a wnaethum wrth ddisgwyl am danat, er mwyn i ti orffwyso, a chael dy anadl yn ol,*—

"Y fun o Eithinfynydd,
F'enaid teg ni fyn oed dydd,
Fain-iawn ael, fwynion olwg,
Fanwallt aur, fy anwyllt wg;
Fy ngwynfyd rhag trymfyd tranc,
Fy nuwies addfwyn ieuanc,
Fy nrych llewyrch mewn lliwaur,
Fy rhan yw, fy rhian aur;
Fy swllt dan *sutres* elltydd,
Fy serch ar hon fwy-fwy sydd;
Fy nillyn mwynyn manwallt,
Fy nghrair,—ni chair yn ochr allt."

"Wrth sawl un o honom yr wyt wedi adrodd y gân yna, Dafydd?" gofynnai Morfudd."

"Un newydd-anedig ydyw, ac ni chlywodd neb erioed hi ond y fun sydd a chyfeiriad ati ar ei dechreu."

"Yr oeddwn wedi meddwl yn sicr na chawswn ddyfod yma heddyw, ac y buasit yn penderfynu mai dy gam-arwain a wnaethum."

"Yr oeddwn innau yn dechreu ofni dy fod wedi cael dy rwystro i gyflawni dy addewid," atebai Dafydd.

"Welaist ti fy nhad ddoe?"

"Do, gwelais ef, a bum yn ymddiddan ag ef. Oni ddywedodd ddim o'n hymdrafodaeth wrth ei ferch?"

"Naddo, un gair. Ond pan gyrhaeddodd y ty yr oedd fy mam wedi cael ei tharaw yn wael, ac yn ei bryder drosti mae'n debyg iddo anghofio. Dywed di wrthyf yr hyn a ddywedodd."

Neshaodd Dafydd ati gan gymeryd gafael yn ei llaw a'i gwasgu yn dyner,—"Fy anwylyd, nid ydyw Madog Lawgam yn foddlon i mi gael ei ferch yn briod. Nid oes gadddo ddim yn fy erbyn i yn bersonol, ond yn unig fy amgylchiadau."

"Dyna fel y mae," atebai Morfudd yn ddigllawn, "y byd, aur ac arian, yw pob peth yn ei olwg ef bob amser. Buaswn yn meddwl fod gennyf ddigon o eiddo fy hun i wneyd i fynu y diffyg o hono yn fy ngwr." Yna fel pe buasai yn edifarhau am ddatguddio cymaint o'i theimlad, ychwanegai,—"Gan mai fel hyn y mae pethau, nid gweddus i mi fod yma yn awr, a gwell i mi fyned adref ar unwaith."

Gwnaeth ymgais i godi i fynu, ond rhoddodd Dafydd ei fraich am dani a gwnaeth iddi eistedd drachefn. Gwyddai Morfudd o'r goreu ei bod yn gweithredu yn groes i ewyllys ei thad wrth aros, ond yn ei byw nis gallasai fyned ymaith.

"Aros ychydig gyda mi, fy meinwen, efallai mai dyma y cyfle olaf a gawn. Morfudd, a fuaset ti yn foddlawn i'm cymeryd yn wr pe buasai atebiad dy dad yn wahanol?"

"Gan ei fod wedi nacau, nid ydyw o un diben i mi ateb dy gwestiwn."

"Dyro ateb. Gwna. Byddai yn esmwythhad i'm calon friw."

Ni atebai Morfudd un gair, ond cadwai ei gwyneb draw oddiwrth ei chyfaill.

"Dywed un sill dy fod yn fy ngharu. Fy angyles wen! Fy lili!"

Trodd ei phen yn araf at y bardd, ond cadwai ei golygon tua'r llawr, tra y sibrydodd,—"Feallai, pe buasai atebiad fy nhad yn wahanol i'r hyn ydyw, y buaswn innau hefyd yn cydolygu ag ef."

"Yr wyf yn gwybod dy fod yn fy ngharu," meddai Dafydd yn llawen gan ei chusanu drachefn a thrachefn.

"Dafydd!" meddai yr eneth yn geryddol.

"Dywed yr enw yna eto, fy anwylyd. Ni chlywais ef erioed yn swnio mor beraidd ag ydyw heddyw, wrth ei glywed gan y llais a garaf oreu ar y ddaear.

"Wel, Dafydd, deall hyn. Nid wyt i gymeryd mantais arnaf o herwydd yr hyn a gyfaddefais; y mae ein perthynas a'n gilydd yn aros yr un."

"A wnei di addaw gwneyd yr hyn a geisiaf gennyt?"

"Pan ddywedi wrthyf yr hyn a geisi, caf weled a allaf wneyd dy gais."

"Gelli yn hawdd. Dim ond eisiau i ti fy nghyfarfod yma nos yforu i'm hysbysu a fydd dy dad wedi son rhywbeth am danaf."

"Ni allaf ddyfod nos yfory. Yr wyf gyda fy mam bob munud; ac oni bai i hen wraig o gymydoges ddyfod i edrych am dani heno, ac addaw aros gyda hi, ni buaswn yn gallu dyfod yma heno. Y mae y morwynion yn brysur gyda'u goruchwylion."

"Pa bryd y deui?"

"Ac hefyd buasai dyfod yma bob nos at yr un amser yn sicr o godi ymholiad pe buasai rhywun yn sylwi ar fy absenoldeb. Ond gwnaf fy ngoreu i ddod yma, o ran ffarwel, nos drennydd, at yr un adeg ag y daethum heno, a chofia os na weli fi yma, mai rhywbeth fydd wedi fy rhwystro. Ni byddaf byth yn torri fy ngair."

"Bydd pob awr cyhyd a blwyddyn o hyn hyd nos drennydd."

"O Dafydd! Dafydd! yr wyf yn ofni y daw gofid o hyn," meddai Morfudd gan guddio ei gwyneb yn ei dwylaw.

"Paid ag ymboeni, fy anwyl, Yr wyf fi yn hollol gysurus yn yr ymwybyddiaeth o'n serch tuag at ein gilydd."

* Rhif 31. Can. D, ab G.

Wedi ymddiddan am ychydig amser dywedodd Morfudd,—

"Rhaid i mi fyned adref yn awr, mae y lleuad yn codi, ac os arhosaf yn hwy canfyddir fi yn mynd drwy y meusydd." Aeth y ddau yn araf i lawr y bryn, a sibrydodd Dafydd "nos drennydd" wrth ei chusanu cyn ymadael.

Dilynodd Morfudd y llwybr a arweiniai drwy y meusydd tua'i chartref, ac aeth Dafydd i'r ffordd fawr a arweiniai i'r Aberffraw.

Yn unol a'i haddewid cyfarfyddodd Morfudd a'r bardd y noson grybwylledig, a hysbysodd ef nad oedd ei thad wedi son gair am dano. "O ran ffarwel," meddai Morfudd yr oedd wedi dyfod yno y noson honno, ond nid hwn oedd y tro olaf o lawer i'r ddeuddyn ieuainc gyfarfod a'u gilydd wrth y ffrwd, ac nis gall geiriau ddesgrifio pa mor felus iddynt oedd yr ymweliadau dirgelaidd hyn. Cyn diwedd yr haf yr oedd Morfudd wedi ymgredu â'r bardd, yr hwn a ganodd fel hyn yn ei lawenydd ar yr amgylchiad,—

"Sel Duw a'i hinseiliawdd,
Yn grair o'i neddair â'i nawdd,
Digwyn fyth, digon a fydd
O gwlm rhwng pawb a'u gilydd;
A dwfn yr â a difyr
Yn y tân y tyn a'i tyr!
Finnau fy nghred i f'anwyl,
A roes i'r fun gwiwlun gwŷl,—
Yn llw hydr, mewn lle hydraul,
Yn ei llaw hi, unlliw haul;
Fal y rhoed ym o rym rydd,
Yn y dwfr yr enw Dafydd.

"Gyrddwayw o serch, iawnserch ior,
Ar garu hoen eiry goror;
A doniol fu'r grediniaeth,
Da y gwn, a Duw a'i gwnaeth!
Da gwnaeth bun a llun ei llaw;
Rhoi dyrnaid a rhad arnaw,
Rheidw perffaith-deg rhadlawn,
Rhinwedd y wirionedd iawn
Llw i Dduw, o'i llawdd hau.
Llyna od gwn, llw nid gau:
Llawendwf yn llaw Indeg,
Lliw da ar hyd ei llaw deg.

'Llyfr cariad myfi a'i cadwaf
Yn benrhaith erbyn yr haf:—
Yn yr oer-ddwr yr urddwyd
Y llwy a wnaeth Morfudd Llwyd."*

Yn ystod y gauaf ni chafodd y ddau gyd-gyfarfod mor aml a phan oedd y tywydd yn hyfryd, ond bu Dafydd yn ddigon gwrol i fyned at ffenestr ei Forfudd, i gael gair a hi, ar aml i noson wlawog, ac oer-niwliog. Ond daeth yn wanwyn drachefn a chyfarfuasant fel o'r blaen yn eu hen gyrchle ger y ffrwd. Ond un noson disgwyliodd Dafydd yn ofer am ei Forfudd; aeth yno i'w chyfarfod, ond ni ddaeth ei anwylyd. Arhosodd wrth y dderwen hyd nes y gwawriodd y dydd drannoeth, gan furmur o hyd rhyngddo ag ef ei hun,—

"Eiddun, ddewis-ferch serchog,
Dduw Rhi! a ddaw hi y rhawg?"

Aeth adref a'i ddillad yn drymion gan wlith, a'i galon yn drom gan ofid. Aeth yno gyda'r nos drachefn, a phob nos am wythnos, ond ni ddaeth Morfudd yno. Gwelai ei gyfeillion Gwilym a Madog fod Dafydd mewn penbleth y diwrnodau hynny, ond gan nad oedd yn eu hysbysu hwynt o'r achos, nid oeddynt hwythau yn dewis ei flino drwy ei holi. Yr oedd Madog Benfras wedi bod am dro yn y Deheubarth, ac newydd ddychwelyd yn ol i Fôn i wybod hynt ei gyfaill.

Un prydnawn, ymhen y deng niwrnod wedi ei gyfarfyddiad diweddaf a Morfudd, eisteddai ar y boncyff gan adgofio cymaint o funudau dedwydd a dreuliasent yno gyda'u gilydd, yr oedd rhyw swyn iddo yn y man lle y bu. Cododd ei ben a gwelodd fachgen bychan yn cerdded yn droednoeth drwy ganol y ffrwd. Daeth i fynu at Ddafydd, safodd o'i flaen a dywedodd,—"Ni all aderyn hedeg i'r man y mynno tra bo llinyn wrth ei droed." Adroddai y bychan y geiriau hyn fel pe byddai wedi dysgu gwers, ac yn ei dweyd wrth ysgolfeistr; ac edrychai Dafydd yn syn arno fel pe buasai yn methu ei ddeall.

"Beth ddeudist ti machgen i?" gofynnai.

"Ni all aderyn hedeg i'r man y mynno tra bo llinyn wrth ei droed," meddai y bachgen eilwaith.

Myfyriodd Dafydd ar y geiriau, a chofiodd iddo ddefnyddio eu cyffelyb wrth Forfudd fel esgusawd am fod cyhyd heb ail-ymweled a hi.

"Tybed! tybed?"

"Beth?" gofynnai y bachgen.

"Tyrd yma 'ngwas i, ac eistedd fan hyn; ac os atebi di fi yn ddibetrus cei hwn yn eiddo i ti," meddai Dafydd, gan ddangos dernyn o arian iddo.

Aeth y bachgen ymlaen ar unwaith, ac eisteddodd ar y dderwen gerllaw i'r bardd.

"Pwy ddysgodd y geiriau barddonol yna i ti?" gofynnai Dafydd gan wenu.

"Y foneddiges Morfudd o Eithinfynydd, atebai y bachgen.

"Ddywedodd hi rywbeth arall wrthyt?"

"Dywedodd i mi eu dweyd wrth bob dyn a welwn wrth y ffrwd yr wythnos yma."

"A welaist ti rywun heblaw fi?"

"Do, gwelais ddyn echdoe a dywedais wrtho, a dyma fo'n 'ngalw yn enwau,—'Cilia o'r ffor y pryf llwyd, y lliprin llipa,' meddai, ac aeth yn ei flaen."

"P'le gwelaist ti y foneddiges Morfudd?"

* Rhif 37. D ab G

CYMRU.

Cyf. II. MEHEFIN 15fed, 1892. Rhif 11.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

X. DYDDIAU HEDDWCH.

ER nad ydyw hanes rhyfeloedd ond rhan fechan a dibwys yn hanes gwlad, o'i gydmaru â hanes heddwch, eto nis gellir darlunio bywyd yr un genedl heb ddweyd rhywbeth am ei rhyfeloedd. Ac y mae gwahaniaeth pur bwysig rhwng rhyfeloedd y dyddiau hyn a hen ryfeloedd. Amcan rhyfeloedd y dyddiau hyn yw ail drefnu terfynau, a'u hachos yn aml ydyw gwallgofrwydd gwlad neu uchelgais dinistriol a phechadurus brenhinoedd. Ond amcan yr hen ryfeloedd oedd concwest,—gorfodid cenedl gan newyn neu genedl arall i symud o'i hen gynefin, ac i geisio meddiannu tir gwell cenedl wannach. "Trechaf treisied, gwannaf gwichied" oedd hi yn yr hen amser.

Yn ein dyddiau ni y mae effeithiau rhyfel yn aros am oesau. Buan yr adnewydda cenedl ei nerth ar ol pla; ond araf iawn yr adnewydda ei nerth ar ol rhyfel. Ar ol pla cynydda'r boblogaeth gyda chyflymder mawr; ar ol rhyfel tuedda'r boblogaeth i beidio cynyddu o gwbl. Y rheswm ydyw fod pla'n difa'r rhai gweiniaid, ac felly'n cryfhau'r genedl; tra mae rhyfel yn difa'r rhai cedyrn, ac felly'n gwanychu'r genedl. Wedi ei rhyfeloedd meithion difaol, dechreuodd poblogaeth Spaen leihau, ac yr oedd cyflymder ei darfodedigaeth yn syndod i'r byd. A heddyw gwelwn effeithiau rhyfeloedd Napoleon ar Ffrainc,—ychydig freuddwydiai neb ei bod mor wan nes i ryfel newydd ddangos hynny.

Ond nid yr un oedd effeithiau rhyfel yn yr hen amser. Collid llawer o fywydau, mae'n sicr, ym mhoethder yr ymladd; ond, wedi'r frwydr, trigai y gorchfygedig a'r gorchfygwr ynghyd. Deuai gwaed newydd i'r wlad, toddai y cenhedloedd i'w gilydd, a byddai'r genedl newydd yn gryfach na'r hen. Yng ngwytheniau'r Cymro puraf y mae gwaed o anialdiroedd poeth y dwyrain a gwaed o wledydd eiraog y gogledd yn cydredeg.

Er fod y Cymry yr un bobl erbyn 613,—yn siarad yr un iaith, ac yn galw eu hunain ar yr un enw,—yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol ddosbarthiadau. Er eu bod yn yr un wlad, a than yr un brenin, yr oedd y cenhedloedd a'r llwythau eto ar wahan mewn llawer o bethau. Yr oedd yn hawdd gweled fod y dosbarthiadau wedi bod unwaith yn genhedloedd gwahanol.

Yr haen isaf oedd y genedl a elwir yn Iberaidd,—taeogiaid y cyfreithiau Cymreig. Araf iawn yr ymgymysgodd hon â'r Celtiaid ddaeth i Gymru ar ei hol,—araf iawn y collodd ei hiaith a'i harferion. Mewn cyfraith yr oedd ar wahan,—a than lawer o anfanteision,—mor ddiweddar a'r drydedd ganrif ar ddeg. Y mae'n bur debyg nad oedd priodas ymysg y bobl hyn,—nid plant y penteulu oedd y plant, ond plant y llwyth. Os olrheinient eu hachau o gwbl, trwy eu mamau y gwnaent hynny. Mor ddiweddar ag amser yr hanesydd Beda, yr oedd brenhinoedd y Pictiaid yn olrhain eu hachau trwy eu mamau,—yr oedd yr hen drefn yn aros yn y cylchoedd uchaf, fel y mae'n aml gyda seremoniau geni a phriodi a marw, pan oedd wedi diflannu o fysg y bobl gyffredin. Fel ymysg cenhedloedd barbaraidd yn awr, efallai fod gan bob llwyth ei nod, nod a roddid ar groen pob plentyn i ddangos i ba lwyth y perthynai. Fel rheol, llun rhyw anifel fyddai'r nod hwn,—gafr, carw, neu ryw aderyn hwyrach,—ac edrychid yn aml ar yr anifel hwnnw fel hynafiad y llwyth. Mor ddiweddar a'r ail ganrif ar bymtheg, y mae gŵr o'r Abermaw fyddai'n mynd at Oliver Cromwell i adrodd ei freuddwydion, yn gorffen rhestr achau hirfaith fel hyn,—"ab y Llew Coch ab y Dryw Bach." Tybed ai'r hen enwau hyn wedi aros ydyw llys-enwau Cymru,—moch Môn, geifr Arfon, cathod Rhuthyn, gwibed Mawddwy, gwartheg Llanarth?

Erbyn 613 yr oedd y taeogiaid wedi cyrraedd ystad priodas; ond nid oedd priodas yn

sylfaen i ddim o'u hen ddeddfau. Pan rennid y tir, ni rennid ef rhwng aelodau teulu, eithr rhwng aelodau'r fro. Cai pawb yr un faint, —brodor a dieithrddyn,—nid oedd perthynas teuluol ond peth dibwys a pheth newydd. Wrth ymgymysgu â'r Brythoniaid a'u hefelychu y daeth y taeogiaid i'r bywyd teuluol. Ond y mae'n debyg fod eu hen fywyd hwythau wedi effeithio i ryw raddau ar fywyd teuluol y Brythoniaid,—a hwyrach mai hynny ydyw'r rheswm nad oedd diweirdeb mor gyffredinol ymysg y Celtiaid ag ymysg Teutoniaid y gogledd, y rhai nad ymgymysgasent â'r Iberiaid i'r un graddau.

Haen arall Cymru yn 613 oedd y Celtiaid, —yn Frythoniaid a Gwyddyl. Yr oedd y rhain yn deuluoedd ac yn llwythau pan ddaethant i Gymru gyntaf, ac y mae eu cyfreithiau a'u harferion i gyd yn rhagdybio priodas a pherthynas gwaed. Rhennid y llwyth yn deuluoedd,—ac yr oedd pob teulu dan awdurdod y penteulu. Ni chwalai'r teulu hyd y drydedd genhedlaeth.

Gadewch i ni edrych ar deulu Cymreig yn 613. Dacw'r ty, ar ochr y mynydd neu ar ymyl y goedwig. Y mae ei un ystafell yn ddigon mawr i gynnal teulu cyfan. Adeilad ysgwâr neu grwn ydyw; wedi ei wneyd o goed yn eu rhisgl neu wedi eu dirisglo. Plennid y coed ar eu pennau i wneyd ochrau'r ty; yn nenddo yr oedd canghennau plethedig dan faich o frwyn neu wellt. Ar ganol llawr y ty, y tu mewn, yr oedd y tân,—yn cynnen ddydd a nos. Oddiamgylch yr ochrau yr oedd gwely y teulu, ar yr hwn yr eisteddid y dydd ac y cysgid y nos. Rhwng cylch y gwely a'r tân yr oedd llawr wedi ei orchuddio â hesg. Hesg hefyd, mae'n debyg, oedd defnydd y gwely, ond fod math o frethyn cartref garw yn ei orchuddio. Yr oedd gan bob aelod o'r teulu ei le yn y gwely teuluaidd, ac ar hynny yr oedd ei holl freintiau yn dibynnu,—ei hawl i gael ei amddiffyn gan y teulu, a'i hawl i'w ran o gynnyrch y "tir gwelyawg." Amser bwyd, cyfrannai pawb o gawl, cig, a bara ceirch, gan eistedd o gylch y tân. Gyda'r nos rhoid ychwaneg ar y tân, ac ai pob un i gysgu i'w barth penodol yn y "gwely." Gan fod pob un yn perthyn i'r "gwelygordd," yr oedd ganddo hawl i ran o'r tir aradr, hawl i'r tir pori, a hawl i hela'r baedd gwyllt a'r llwynog a'r carw yng nghoedwigoedd y teulu. Ceir darlun, ym Mreuddwyd Rhonabwy, o hen dy teulu adfeiliedig. Darlunnir tri gŵr yn teithio ar lethrau mynyddoedd Powys o flaen tymhestl. A gwelent o'u blaenau hen neuadd burddu, dal, union, a mŵg yn d'od o honi ddigon ei faint. Pan ddaethant i mewn, gwelent lawr pyllog anwastad, a braidd y gellid cerdded ar hyd-ddo, gan mor lyfned oedd, a thail gwartheg ar hyd-ddo. Lle bynnag yr oedd twll, aid dros droed yn y dwfr a'r tail cymysg. Yr oedd gwrysg celyn yn aml ar y llawr, a'r gwartheg wedi bwyta eu brig. Llychlyd a lledlwm oedd y parthau; ac yr oedd hen wraig yn y ty yn unig yn taflu ambell arffedogaid o us ar y tân, hyd nes nad oedd hawdd i ddyn yn y byd ddioddef y mŵg hwnnw. Ac am y gwely, "byrwellt dysdlyt chweinllyt" oedd dan y llian llwydgoch caledlwm.

Ond, cyn adfeilio, yr oedd y ty yn un cysurus ac eang; ac yr oedd llawer taeog yn hiraethu am hawl i berthyn i'r teulu urddasol breswyliai ynddo.

Arhosai'r teulu yn y ty hyd y drydedd genhedlaeth. Pan fyddai'r pen teulu farw, cymerid ei le gan y mab ieuengaf: a chodai'r brodyr ereill dai iddynt eu hunain ar rannau ereill o'r tir gwelyog. Ond yr oedd y tir yn aros yn eiddo cyffredin i'r teulu i gyd,—un cae wedi ei aredig gan aradr neu aradrau'r teulu. Eiddo'r teulu oedd pob eiddo hefyd, y teulu dalai'r ddirwy dros aelod bechasai yn erbyn y llwyth, y teulu a ddialai gam pob un ddrygid. Yr oedd y tir aradr wedi ei rannu'n erwau, a rhoddid ei ran o'r erwau i bob aelod o'r teulu.

Wedi marw'r brodyr, ail-rennid yr erwau rhwng cefndryd; ac wedi marw'r cefndryd, gellid rhannu eilwaith rhwng cyfyrdyr. Yna ystyrrid nad oedd y teulu'n un mwyach, yr oedd wedi ymrannu'n wahanol deuluoedd, a chyn hir byddai'n llwyth.

Ond, er ymrannu, cofiai'r tylwythau eu bod o'r un gwaed. Pan ymosodai gelyn arnynt, ymunent oll dan un arweinydd. Gan eu bod yn byw'n wastad mewn ofn rhyfel, yr oedd yn rhaid wrth arweinydd parhaus. Ac efe oedd y brenin. Nid amddiffyn yn unig oedd gwaith y brenin, arweiniai ei lwyth i ryfel ymosodol hefyd. Y tebyg ydyw nad oedd brenhinoedd ymysg y cyn-frodorion Iberaidd, arweinwyr y tylwythau Celtaidd buddugoliaethus oeddynt. Wedi ymsefydlu ymysg cenedl orchfygedig, daeth gallu'r brenin yn fwy,—yr oedd ei eisiau o hyd. Yr oedd ganddo hawl i gael ei gadw gan y llwyth,—teithiai ef a'i filwyr a'i feirch a i gŵn o ardal i ardal ar gylch, gan hawlio drws agored a chynhaliaeth ym mhob man.

Hyd yn nod cyn i'r Rhufeiniaid ddod i Gymru, yr oedd brenhinoedd wedi dechreu darostwng eu gilydd. Yr oedd Caradog wedi teyrnasu ar frenhinoedd llwythau ereill; ac yr oedd yn meddwl teyrnasu ar ychwaneg, ar frenhinoedd y llwythau arweiniai yn erbyn llengoedd y Rhufeiniaid. Danghosodd y Rhufeiniwr y gallai un ymherawdr lywodraethu mwy na llwythau'r ynys hon.

Y TYLWYTH TEG.

AWENYDD, ar dy aden,
Dwg fy nychymyg byw,
I grwydro yn ei elfen
Hyd diriogaethau gwiw
Y bodau mwyn, dyddanus
Sydd yn wrthddrychau'm cân,
Ynt byth a'u bron yn hapus,
A'u gruddiau'n deg a glân.

Y Tylwyth Teg, amheuthyn
I druan fel myfi,
Yw cefnu, dros funudyn,
Ar swn y byd a'i gri;
I blith cwmpeini dedwydd
O'ch bath, mewn llannerch werdd,—
Ymgolli'n syn ac ebrwydd
Yng nghanol odlau cerdd!

Mae yn eich plith ddatgeiniaid,
A thelynorion mwyn,
Ogleisiant wraidd yr enaid
A'u peroriaethol swyn;
Hwy ddawnsiant fel yr awel
Sy'n chwareu'n mrig y coed,
Mewn difir, ddistaw argel
Yn hoew, ysgafn droed.

Mae yn eich plith wyryfon,
Trwsiadus, glân, a derch,
A'u hagwedd fwyn, lygadlon
Yn cyson ddenu serch;
Eu cusan mwyn, llesmeiriol,
Dil mel dedwyddwch yw,
Na flinai gwefus ddynol
Ar ei rinweddau byw.

Nid rhyfedd i chwi ddenu,
I'ch rhengoedd lawer un,
Ar hyd mynyddoedd Cymru
Tra'n crwydro wrtho'i hun;
Mae miwsig eich telynau,
Gwedd eich rhianod mwyn,
A'ch hud-ddeniadol eiriau,
Yn fôr di-drai o swyn.

Y wlad lle'r ymgartrefwch,
Medd hen draddodiad, sydd
Yn gynllun gwir brydferthwch,
A'i blodau'n deg a blydd;
Ei dyfroedd fel y grisial,
A'i hawyr fyth yn glir,
A cheinion celf ddihafal
O'r bron yn gwisgo'i thir.

Beth ydyw eich hanesiaeth
Foreuol chwi a'ch gwlad?
A ydyw eich hiliogaeth
Yn hawlio Adda'n dad?
A ddichon oes wyddonol
Fel hon gael ateb clir
O barthed hanes gwreiddiol
Trigolion "teg" eich tir?

Paham mae'ch ymweliadau
Yn fwy anaml o hyd
Na phan breswyliai teidiau
Ein cenedl yn y byd?
A oeddynt hwy'n fwy gwresog
Eu croesaw i chwi, gynt,
A'u bronnau'n fwy trugarog
Wrth estron ar ei hynt?

Chwi ddeuech ar eich teithiau,
Yn fynych, ganol nos,
Cynhaliech fwyn gyngherddau
Ar lawer llannerch dlos;
Ein teidiau oe'nt ddifyrrus,
Ar hirnos gauaf du,
Wrth dân o fawn cysurus
Tra'n son am danoch chwi.

Ond er mai "teg" y'ch gelwir
Fel "teulu," yn ein hiaith,
Nid ydwyf sicr am ystyr
Yr enw, ambell waith;
Chwi fedrech, ar adegau,
Fod yn *an*-nheg a blin
A chadw, dros nosweithiau,
Deuluoedd yn ddi-hun!

Chwi rwymech, ar adegau,
Dafodau ffraeth a hir
Yn gaeth wrth daflod genau
Brodorion mwyn y tir;
Chwi daflech yn eu llygaid
Lwch swyn yn hynod chweg
A d'rysech wraidd eu henaid,—
Ffei i chwi, 'r "Tylwyth teg"

Amrywiol yw'r hanesion
A geir am danoch chwi
A'ch lliaws mawr gorchestion
Yn nyddiau "Cymru Fu";
Ond Cymru, erbyn heddyw
Sy'n brysur droi ei bryd
A'i serch oddiwrth y cyfryw
A'i denodd hi cyhŷd.

Ki ddle Liverpool,

J. Myfenydd Morgan.

LLYFR HAFOD Y PORTH.

RHESTRIR Hafod y Porth ymysg prif ffermdai mynyddig yr Eryri yn nhueddau Beddgelert. Saif wrth odreu yr Aran, —hyd lethrau yr hon y pora defaid ei berchenogion; ac fel yr awgryma yr enw, saif hefyd, wrth brif borth Dinas Emrys, yr hon a elwid yn yr oesoedd boreuol yn Ddinas Pharaon. Y mae i'r fangre enwog hanesiaeth rhyfedd a chyffrous, yn ei chysylltiad ag Emrys, y dewin Myrddin a'i drysorau, Gwytheyrn Gwrthenau — arch-fradwr y Prydeiniaid, helyntion y Rhufeiniaid, y Gwyddelod, a lladd y Dewiniaid, chwedl Dreigiau Lludd a'u dadguddiad, chwedl y Cawr,—sef Owen Finddu ab Macsen Wledig yn ymladd a Brynach Wyddel, gan ladd eu gilydd. Cyfeiria Rhys Goch Eryri at "fedd Owen" yng *Nghywydd y Gyfrinach*,—

> "Lle mae pen brawd Cystenyn
> Fendigaid, lafn drafn y drin,
> Yngwyl derw angel deurudd
> Ynghoed Pharaon ynghudd.'

Edward Llwyd o Rydychen lawer yn ddiweddarach a hysbysa,—

"A rhwng y Dinas a'r Llyn y mae Bedd Sir Owen y Mhaxen, &c."

Yr oedd "Bedd Owen" yn weladwy ymysg beddau ereill hyd rhyw bedwar ugain mlynedd yn ol. Wele ddarluniad doniol o eiddo y bardd telynegol Glasynys o'r fan,—

"Pharaon yn Eryri gynt ydoedd enw hon
Lle claddwyd Owain Finddu gan gatrawd ormes Don,
Ond Brynach yntau frathwyd â chleddyf yn y fan—
Gerllaw yn llwch mae'n llechu eu hargeledig ran,
Ac ar y meini geirwon mae gwaed y ddau o hyd
Yn gof o'r gwaedlyd ymladd—a phery tra bo byd."*

Gwelir yn amlwg fod Hafod y Porth yn ymyl llecyn o ddyddordeb hynod. Ond yr hyn sydd gennyf i'w hysbysu ydyw, ddarfod i mi daro ar ysgriflyfr perthynol i hen deulu y lle. Nid ydyw ond bychan a drylliog, ac y mae wedi ei felynu yn brydferth gan fŵg mawn tra'n cael ei gadw yn barhaus wrth law yn rhai o dyllau y pentan. Cynhwysa rhyw 13 o dudalennau, ond eglur ddigon fod rhai wedi colli, ac os na chymerir gofal mawr o hono, bydd wedi myned ar goll cyfangwbl cyn hir, gan mor dreuliedig a salw ydyw.

Trigianna y Jonesiaid yn Hafod y Porth o hil gerdd, y maent yn un o hen deuluoedd gwreiddiol plwyf Beddgelert, a gellir eu holrain o *ab* i *ab* am gyfnodau maith. Fe geir wrth fyned i mewn i hanes pob hen deulu ryw enwau neillduol digyfnewid o'r eiddynt eu hunain, a hoff enwau olynol gwehelyth Hafod y Porth ydyw *Elis*, *Sion*, a *Huw*, ac fe'm hysbyswyd gan henafgwr cofus wrth ymholi yn eu cylch, "fod hen lanc i fod yn Hafod y Porth oes ar ol oes tra bo dŵr yn rhedeg."

Oddeutu 1750 yr oedd un Sion Jones, neu fel ei gelwid gan yr hen bobl "Sion ab Elis ab Sion" yn brydydd lled ddigrif. Gwnai rigwm pan fynnai ac ar unrhyw achlysur. Y mae un dernyn ar gof eto o'i waith. Yr oedd y gwas mewn ymdrechfa lled galed gyda llo, yn ceisio ei gael i'r beudy, a'r hen wr yn sefyll gerllaw yn edrych ar yr ymrysonfa. Diangodd y llo, ac yn y ffrwgwd wrth geisio ei ddal, fe syrthiodd y gwas nes rhwygo yr hugan oedd am dano, a'r hen wr wrth weled yr anffawd a floeddiodd dan chwerthin,—

> "Wrth gydio'n eon gyda'r llo
> Fe gollodd ei ymafal,
> Syrthio wnaeth i lawr yn lwmp,
> A rhwygo'i siwmp yn siampal."

Yr oedd bechgyn Hafod y Porth oddeutu dechreu y ganrif hon yn wyr deallgar, a'r oll wedi derbyn ychydig addysg. Hwyntwy a ystyrid fel y rhai goreu i wneuthur ewyllysiau, biliau, papurau cytundebau, llythyrau, a gwahanol fusnesion y plwyf. Penteulu y lle yr adeg honno ydoedd Elis Jones, yr hwn a fu yn *Overseer* am flynyddau, ac yr oedd yn wr hynaws a charedig wrth y tlawd a'r adfydus, a pherthyn iddo ef yn bennaf y mae yr ysgriflyfr hwn. Nid efe yw gwir funudlyfr y plwyf, ond rhyw gymysgedd o gyfrifon teuluol a phlwyfol a geir ynddo—tipyn o bob peth, wedi eu hysgrifennu yn fras ac eglur, o ran defnyddioldeb ar y pryd, ac ychydig ymyraeth. Saesneg yw yr oll adran gyfrifol sydd ynddo, a Chymraeg yw'r adran lenyddol, ac y maent yn gallu ysgrifennu Saesneg o ran sillebiaeth a chyflead meddwl yn llawer gwell na Chymraeg. Y flwyddyn 1805 yw y gyntaf a gofnodir ynddo, a 1828 a welir yn olaf. Ni wnaf ddifynnu o hono ond yr hyn ag y mae rhyw hynodrwydd yn perthyn iddo mewn rhyw gysylltiad.

Wele dâl-addaweb a wnaed i ryw hen bererin oedd yn trigo dan yr un tô a'r Efail ym mhentref Beddgelert,—

"I John Robert of Tymawr in the Parish of Beddgelart in the County of Carnarvon, yoman,

* Cyfeiriaf y darllennydd at y chwedlau, y traddodiadau, a'r hanesion perthynol a Dinas Emrys, i *Pennant's Tours; Woodward's History of Wales; Iolo* MSS.; llythyrau Edward Llwyd yn y *Cambrian Journal*; "Llyfr ar yr Eryri" gan William Williams, Llandegai; "Hanes Plwyf Beddgelert," yn llyfr ac yn y *Brython*, gan William Jones (Bleddyn); "Traddodiadau'r Eryri" yn *Cymru Fu*, gan Glasynys, &c.

engage myself do here by promis to pay Owen Owenes of fedw bach in the hamlet of Namor in the Parish of Beddgelart, the County of Merionith, yeoman, or order the Sum of Ten pounds sterling with Lawfull Intrest for the same upon Demand for the valew Received.

Witness my hand this the 28 Day of September, 1805.

Witness Wm. Jones. John Roberts."

Yn nesaf, ceir cofnod gwerthiant chwech o fustych i hen borthmon ag arno yr enw mwyaf efengylaidd a welais erioed—enw ag y buasai llawer un yn crynnu wrth ei arddel, sef Matthew Emmanuel!

"Memorandum that I bought on the 12 Day of Agust 1805, Six Oxen of Ellis Jones of havod y Porth in the Parish of Beddgelart, for Ten pounds Ten Shilling the pice, which amount to £63 0 0 pay able on the 19th Day of December next without Deley.

Mathew X Manuewelle."

Wrth chwilio *registers* y plwyf dro yn ol, codais a ganlyn mewn perthynas âg ef,—

"John son of Mathew Emanuel, Hafodlwyfog, and Catherine his wife, Drover, bapt. Nov. 13, 1783."

Canfyddir fod Matthew Emmanuel yn ffermio neu letya yn hen drigle John Williams, gof aur i'r brenin Iago I., ac Ifan Llwyd, yr ymladdwr enwog. Sonia yr hen bobl ym mhobman ei bod yn fyd caled ac helbulus ar eu tadau ystalwm; oddiwrth yr addaweb uchod, cawn fod deg gini "the pice" am fustych yn bris canmoladwy. Ceir gwaith garw canmol ac erfyn cyn taro llaw porthmon i gael pris cymharol well yn awr. Ond i setlo y dirgelwch, onid yn y blynyddau hyn yr oedd Buonaparte ar ei uchelfannau? Ie, yn 1805 yr ymladdwyd brwydr Trafalgar, ac y cwympodd Nelson! Yr oedd hen ffermwr barddonol mewn ffair lled wan dro yn ol gyda'i fuwch, ond nid edrychai neb arni, heb son am gynnyg ffyrling. Wrth fynd adref, llefai yr hen frawd yn wyllt a digofus,—"Isio rhyfal sy', isio rhyfal sy', bobol, i godi prisia petha." Hynod o awgrymiadol, ond iddo ef fod yn ddigon pell o olwg y tân a thwrf yr ergydion! Er hynny, y mae rhyw wir yn yr athrawiaeth hefyd, meddent hwy. Nid anyddorol, efallai, fyddai croniclo gair am y defaid eto,—

"This is to certify that Robert Roberts has Bought on the 2th Day Octer 1835, fiftie sheeps of Ellis Jones of havod y Porth in the Parish of Beddgelart for forteen shillings a pice, which amounted to thirty five pounds pay able to the 4th Day of Decer. without Deley.

£35 0 0. R. Roberts."

Yn ddilynol, ceir derbyneb Elis Jones am yr arian, y prynnwr wedi talu i'r diwrnod; arwydd deilwng i'r oes hon ei hefelychu. Yr oedd yn bris gweddol am y defaid, ac os nad myllt oeddynt, ni raid dyrnu ar yr hen amser gynt.

Ceir, yn nesaf, ddwy eileb wedi eu copio gan Elis Jones o waith gwreiddiol rhai ereill, mewn perthynas a chadwraeth y tlodion,—

"Received November 16th 1805 of Ellis Jones, one of the Overseer of the poor, for the Parish of Llaullechyd, the Sum of Twenty Shilling for Maintaining Owen Morris, poor man, for one month, Ended December 11th 1805.

p. me M. Griffith."

Fy hen ewythr Morus Gruffudd, yr hwn a fu yn ysgolfeistr yn Llanllechid am ddeugain mlynedd, ydoedd hwn. Y mae'n ddealladwy mai brodor o Feddgelert ydoedd Owen Morus, yn cael ei gadw yn Llanllechid, a hynny mae'n ddilys trwy offerynoliaeth "yr hen sgŵl," ac yr oedd coron yn yr wythnos yn dâl teilwng am ei fwyd, ei ymgeledd, a'i lety.

"Received November 16th 1805 of Ellis Jones, one of the poor for the Parish of Beddgelart, the sum of one pound eight shilling and six pence, for maintain Jo. Richard, for one quarter, ended December 12th 1805.

in full by me John Jones."

Credaf mai rhywle ym mhlwyf Ynyscynhaiarn yr oedd Jo. Richard yn cael ei gadw, ac mai John Jones, Tyddyn Iolyn, ydoedd yr *overseer* uchod.

Troaf i adran lenyddol y llyfr yn awr, a chan mai un "Llyfr Hafod y Porth" sydd mewn bod, hyderaf y bydd hynny yn cuddio lluaws o ffaeleddau, yng nghyda rhyw eiliw gwan o blentyneiddwch a geir yn y nodiadau. Ceir, yn gyntaf, eileb o lythyr Saesneg wedi ei ysgrifennu gan Huw Jones, yr hwn ydoedd ysgolor lled wych, fel y tystia ei lyfrau ysgol yn Hafod y Porth. Bu yn drafaeliwr masnachol yn Llunden a Lerpwl, a phan yn bur ieuanc mae'n debyg yr ysgrifennodd y llythyr hwn o'r lle cyntaf a ennwyd.

O fysg crybwyllion dyddorus ereill, y mwyaf tarawiadol ohono ydyw a ganlyn:-

"I like my sutuation Great deal Better I never did at Carnarvon, I donot think of comeing to weals any more, as I think most poor place in the Kingdom."

Rhy ddrwg ydyw peth fel hyn,—bachgen o droed y Wyddfa gyrhaeddfawr yn dylorni hen wlad ei dadau! Yn sicr dylasid cerfio yr hen wireb gyrhaeddgar, — "Cas gŵr nas caro y wlad a'i maco"—yn rhywle ar ei dalcen. Ond rhaid maddeu iddo, mater o fywoliaeth oedd yn pwyso ar ei feddwl, tra'n adgofio am ei glocsiau, y shot, a'r browas a gawsai gartref yn Hafod y Porth.

Gyda llaw, gwelais eiriau wedi eu llunio mewn hynt ffôl, gan Sais hollol ddall i brydferthion natur. Ysgrifennwyd y cyfryw

yn llyfr ymwelwyr Gwesty yr Afr, Beddgelert, tra yn ei bri cyntefig yn amser Mr. David Prichard. Wele'r sylwad,—

'Fool that I was to leave a delightful home, polished friends and a cultivated country, to travel many hundred miles to see rude people, barren rocks, and wild wastes.—July, 1818."

Croes i'r llall onide? Canmol cartref, ei wlad a phopeth gâr y Sais, a gwawdio popeth Cymru. Wedi ei ysgrifennu o dano, atebir ef fel hyn, gan rywun, mewn math o drawseiriad syml a miniog, llawn o synwyr, a diolch iddo am dano hefyd,—

"Yes, friend, a fool you were in Wales to roam,
Nor less a fool before you left your home,
Him who was born a fool whom all despise,
Not Cambria's self can please or render wise,
But to the cultivated eye of taste
No rock is barren and no wild is waste." *

Oddeutu diwedd y llythyr Saesneg gwna Huw Jones y sylw canlynol,—

"I am glad to hear that my brother Jon is gone to school. I beg he will larn to write and read, as he is very short of it at present."

Ymddengys fodd bynnag i Jon gael cwrs o ysgol, fel ag y daeth yn ysgolhaig gwlad pur lew. Bu yn treulio hanner ei oes yn Nanmor, a gelwid ef yn "Sion Jones yr Hendre." Bu yn cadw ysgol ddyddiol ac ysgol nos yn hen gapel Peniel, ac afrifed yw'r chwedlau fel y byddai y bechgyn drwg direidus a fyddai yn cyrchu ato i geisio dysgu ysgrifennu eu henwau, dysgu "adision o myni," a thipyn bach o Saesneg clapiog, yn ei drin. Yr oedd yr hen fachgen wedi cael adwyth ac yn gloff, a chyda'i ffon y byddai yn stencian ar hyd y capel, yn rhoddi y gwersi angenrheidiol, a phan bechai un o'r deiliaid trwy siarad gair o Gymraeg neu rywbeth tebyg, ac i dderbyn y gosb o sefyll ar ei untroed ar ben y fainc am ddeugain munud, rhuthrai y pechadur trwy ddwylaw Sion Jones am ei noddfa, sef twll o dan y pwlpud, lle y cedwid y llechi a'r llyfrau, ond y drwg wedyn i'r hen ysgolfeistr, yr oedd y gweilch wedi torri twll yn y pen arall i'r pwlpud gyda'r mur, a phan fyddai yn waldio yn un fynedfa, rhedai y ffoadur trwy y llall, ac allan am y drws, a ffon Sion Jones yn chwyrnellu digofaint wrth ei sodlau. Drwy y cwbl dywedir ddarfod i ysgol "Sion Jones yr Hendre" wneuthur llawer er agor meddwl ieuenctyd hen ardal Dafydd Nanmor a Rhys Goch Eryri.

*Allan o'r "Descriptive and Historical Sketch of Beddgelert and its Neighbourhood," by James Hews Bransly, London: Published by T. M. Cradock, 1840. Carnarvon: Printed by W. Potter & Co. Llyfr bychan [amhosibl bron ei gael] 129 o dudalennau, a delw arbenigol meddylddrych Sais ar bob sylw drwyddo.

Yn awr, rhoddaf adran farddonol y llyfr. Ceir ynddo yr hen gerdd hynod,—"Hanes yr Hen Wr o'r Coed," ond nid ydyw yma yn hollol megis ag y gwelais hi o'r blaen, sef ar ddalen fawr o bapur fel y gwelais lu o'r hen gerddi Cymreig. Gan fod iddi gnewyllyn sail dyddorol i'r ymchwilgar, a chan fod popeth yn ei chylch mor ddieithrol a rhyfedd, goddefer i mi ei rhoddi yma, fel ag y mae wedi ei chopio neu ei hysgrifennu oddiar gof gan un o fechgyn Hafod y Porth, yn 1805. Nid ydynt wedi rhoddi prif lythyrennau yn nechreu gair yr un llinell, a cheir y sillebiaeth yn hynod o gyffredin, felly teg a'r hen gerdd i'w cyfnewid pob gwall ymddangosiadol.

YSTORI YR HEN WR O'R COED.

Dyma ystori wych i'w chofio
I'r sawl sydd ag 'wyllys ganddo
I foliannu Duw yn ffyddlon —
Mae'n ddiddanwch mawr i ddynion.

Hen wr oedd yn byw mewn crefydd,
Ac yn gweddio'n ddyfal beunydd;
Yn ei weddi 'roedd deisyfiad
Am gael un rhodd cyn ei ddiweddiad,—

Cael gwybod un o'r gwyrthiau llcia'
Yng ngwlad nef, lle 'roedd ei drigfa,
Fel y byddai'n fwy 'wyllysgar
I Dduw tra byddai ar y ddaear.

Ar fore teg fe aeth i rodio
I lwyn o goed oedd agos ato;
Ym mrig pren fe glywai yn canu
Lais aderyn i'w lonychu.

'Roedd e'n hen, fe glywsai lawer
O amryw gerddi ar dannau croywbêr,
Ond erioed ni wyddai glywed
Peraidd fiwsig cyn felused.

Pan glybu ef mor fwyn a hynny
Nesu wnaeth lle'r oedd yn canu,
Dan y pren i gael ei wrando,
Ac yno bu nes tewi o hono.

Pan y tawodd, fel na chlywai,
Efe eilwaith a feddyliai
Am droi'n ol i fynd tuag adra,
Yn wr hy i'r ty lle b'asa.

Ar hyd y ffordd 'roedd yn myfyrio
Pa hyd y buasai yno'n gwrando;
Dwy awr neu dair ef a debygai,
Dim o spas yn hwy ni buasai.

Pan y daeth i olwg cartre'
Rhyw ryfeddod fawr a wele,
Y tai oedd a'r cloddiau'n ddiball
Wedi newid mewn modd arall.

Mynd i'r tŷ tan syn-feddylio,
Pobl ddieithr ydoedd yno;
Nid oedd undyn ar adwaenai,
Ni wyddynt hwy pwy ydoedd yntau.

"Dyma helynt sy'n ryfeddol,
Arglwydd Dduw! p'le mae fy mhobol?
Heddyw'n myned o'm ty allan
A'r fath gyfnewid yma 'rwan."

"Mae'r un teulu yma'n tario
Er's blynyddoedd heb newidio;
Dieithr yw'ch rheswm, nis gwyr undyn
Am bwy'r ydych yn ymofyn."

D'wedai hen wr llwyd o'r gornel,—
"Gan fy nhad mi glywais chwedel,
A chan ei daid y clywsai yntau,
Ac ar ei ol mi gofiais innau;—

"Fynd o wr o'r ty yma allan,
O'r un enw, ac yr un oedran,
Ac ni welwyd mo'no eilwaith
Nac am dano ddim gwybodaeth."

Erbyn casglu llyfrau a'u chwilio,
'Roedd blynyddoedd wedi pasio—
Tri chant a deg a deugain,
Tra bu e'n gwrando'r fiwsig lawen.

Dyma helynt wych ryfeddol,
Gan *un* angel o'r wlad nefol;
Pa faint mwy yw clywed miloedd
Yn cydganu yn y nefoedd?

Gwybu'r hen wr wedi hynny,
Mai angel Duw oedd iddo'n canu,
Ac a draethodd iddynt hwythau
Y gwirionedd fel y buasai.

Erbyn darfod iddo dd'wedyd
Y modd y cawsai'r rhodiad hyfryd,
Nid oedd ei sylwedd yn eu sylw,
Ond un dyrnaid bach o ludw.

Ni chlybu clust, ni chanfu llygaid,
Ni wyr undyn byw ar aned
Faint llawenydd sydd i fyny,
Fwy-fwy beunydd, heb ddibennu.

Nid oes undyn a all wybod,
Na darllennydd na myfyrdod:
Ni fedrodd Paul nac Awstin hefyd
Mo gyffelybu'r fath lawenfyd.

Pwy na charai Grist yn ffyddlon
O wir ewyllys gwraidd ei galon,
Am gael mynd i'r fath lawenydd
Ac aros ynddo yn dragywydd?

Llyma ystori a ddarllennais
O lyfr print Cymraeg a welais,
Ac a ro'is y geiriau hynny
Ar lun cân i bawb i'w dysgu.

O dan y gerdd yn yr un ysgriflyfr ceir enw y llyfr,—"Drych Cristianogawl,"—ond nis gwn ddim am dano. Efallai mai o'r cyfryw ei copiwyd, os nad efe ydyw y "llyfr print Cymraeg" y mae yr ystori wreiddiol yn argraffedig ynddo. Wrth fy mhenelin gwelaf gofnodion Eisteddfod a fu yng Nghaernarfon, Medi 21ain, 1821, yn y rhai y dywedir i'r Parch. Wm. Bowen, o Gaerbaddon, wrth areithio yn Saesneg ar *Alawon Cymreig*, gyfeirio at "Gerdd yr Hen Wr o'r Coed" fel un o'r cerddi mwyaf swynol a chywrain yn yr iaith. Pwy a all hysbysu pwy ydyw ei hawdwr, a pha "lyfr print Cymraeg' gynhwysa y chwedl?

Difyr o beth fyddai cael rhyw oleuni ar y tywyllwch sydd yn gordoi yr hyn sydd fewnol o'r hen gerdd. Pwy a'i holrheinia?

Ceir, yn nesaf, bill o gerdd y canwyd llawer arni gan fechgyn Cymru adeg berw rhyfeloedd Boni. Nid wyf yn sicr mai dyma yr oll ohoni, efallai nad ydyw ond y rhan ddechreuol. Pa un bynnag, y mae yn hyn beth wmbreth o fygythion:—

CERDD RHYFEL.

Gwrandewch bawb drwy'r chwe' sir,
Sy'n glir yn galaru am filitia têg iaith,
Rhai aeth o'u gwlad allan—
Rhai gwiwlan eu gwaith;
Trwy gennad Duw'r Tad
Ni ymladdwn yn rhâd,
Ni chaiff *Bonaparti*
Byth brancio'n ein gwlad,
Mae'r *Folanteers* am wneud ei frâd,
Os daw dros y don, caiff frathiad i'w fron,
Caiff fwlet ddu ffyrnig nad eill mwy ffoi,
Gwell iddo fo lawer i'w wlad drom droi.

Yn ddilynol, ceir "Hymn i'w chanu mewn wunoes,"—mewn wylnos,—sef cwrdd gweddi noswaith cyn angladd un marw.

RHAID I BAWB FARW.

Gwel, angau yw terfyn pob dyn byw,
Marwolaeth—cyflog pechod yw,
Nid yw ein bywyd byr ond brau,
I'r bythol fyd ni awn bob rhai.

Ein bywyd ansertennol yw,
Er doe yr ym ni yma'n byw,
Ac megis fory'r awn bob rhai
I orwedd yn y ty o glai.

O, cofiwch bawb sydd yma'n awr
Cyn mynd i'm rhoi mewn daear lawr,
Fel gwelwch fi daw i chwi'r tro
I fynd oddi yma bawb ar ffo.

Ffarwel, gym'dogion call a ffol,
'Rwyf yn eich gadael bawb ar ol,
O'r ty 'rwy'n myned tua'r bedd
Lle caf dawelwch cwsg o hedd.

Methais a chanfod y penillion hyn yn yr un llyfr sydd yn fy meddiant. Y tebyg ydyw nad ydoedd yr awdwr o'r un waed a'r awen wir, gan mai pur gyffredin ydyw ei syniadau—pob pennill yn dod i'r un fan. Er hynny, pwy a wŷr y teimladau gynyrchodd yr emyn syml yma, wrth gael ei ganu mewn llu o hen wylnosau?

Gadawaf restr o bethau dibwys a dibwynt heb eu cofnodi, gan ddirgel gredu nad ffolineb hollol ydyw traian cynhwysiad Llyfr Hafod y Porth.

Nanmor, Beddgelert. CARNEDDOG.

COLEG ATHRAWOL BANGOR.

EIN HATHROFEYDD A'N HYSGOLION.

V. COLEG ATHRAWOL BANGOR.

"CAS gwr na charo'r wlad a'i maco;" ac nid nemawr hoffach yr hwn na feddo felus adgof am yr hen goleg a'i haddysgodd, ei *alma mater*. Ond pa gwm na chwmwd yng Nghymru lonydd sydd na cheir ynddo dystiolaeth i'r gwaith rhagorol a wnaed gynt ac a wneir eto gan Goleg Athrawol Bangor?

Dyweder a fynner, ond Athen Cymru'n awr yw Bangor Fawr yn Arfon. Yno y mae dylifiad colegau'r wlad. Byddant yn fuan fuan yn rhifo pump. Ac onid yw hyn oll yn deyrnged uchel o barch i graffder barn y gŵr da roddasant i'r ddinas ei choleg cyntaf, —yr un y ceisiwn roi tipyn o'i hanes heddyw. Wedi i'r fechan fyned yn fil fel hyn, eithaf difyr yw galw'n ol ddydd y pethau bychain.

Tybia llawer fod perygl i ni gael gormod o ysgolion canolraddol,—y bydd y naill yn siwr o ddifa nerth y llall. Ond myn ereill y bydd chwanegu'r cyfleusderau yn rhwym o chwanegu'r awydd am fanteisio arnynt. Mae'n debyg i Fethesda droi allan fwy o ysgolfeistri a Sir Aberteifi fwy o bersoniaid nag unlle arall yng Nghymru, oherwydd, fe ddichon, agosrwydd y naill at Fangor, ac agosrwydd ardaloedd y llall at Lanbedr. Ond nid dyna rediad hanes Cymru yn y gorffennol, —bu ei hangenion bob amser ar y blaen i'w manteision. Tyfiant naturiol yw cyfundrefn addysg Cymru, wedi codi'n raddol raddol o'r anhawsderau a'r anghenion y caffai ei hunan o bryd i bryd yn eu canol. Gan hynny, ni fedrwn gywir ddirnad gwerth y gwasanaeth a wnaeth ei Choleg Athrawol cyntaf i'n gwlad heb fwrw golwg dros sefyllfa pethau pan feddyliwyd gyntaf am ei gael.

Fel i Goleg Aber Ystwyth ar ei ol, Huw Owen fu cychwynnydd cyntaf hwn hefyd. Efe fu'n llefain yn y diffaethwch fod angen am dano, a hynny'n mhell cyn erioed ei alw'n "Syr." Ac ni raid i galon yr un Cymro wrth gymorth teitl i allu anwylo'i goffadwriaeth bendigedig ef. Hanner can mlynedd i'r flwyddyn nesaf y clybuwyd gyntaf ei lais. Ni feddai Cymru i gyd, y pryd hwnnw, fwy na chwech o Ysgolion Brytanaidd, na'r Gogledd fwy na dwy. Pe bai lle, tra dyddorol fuasai rhoddi yma'n llawn y cylchlythyr anfonwyd allan ganddo; ond gwasanaethed a ganlyn i ddangos mor ddwfn y teimlai ac mor ddigwmpas y dywedai ei neges—

"ANWYL GYDWLADWYR,—Yr ydych yn gweled angenrheidrwydd am addysg i'ch plant, ac yn caru rhyddid cydwybod; tuag at gael addysg iddynt, rhaid cael ysgolion; tuag at sicrhau rhyddid cydwybod, rhaid cael ysgolion heb fod yn dwyn cysylltiad neillduol ag unrhyw blaid grefyddol.

. . . . .

Os bydd rhyw un, yn rhyw barth o Gymru, yn cael ar ei feddwl wneyd ysgogiad tuag at gael Ysgol Frytanaidd yn ei ardal, ysgrifenned ataf; a bydd yn dda gennyf gyflwyno ei achos i'r llywodraeth, ac anfon iddo y cyfarwyddiadau angenrheidiol tuag at ddwyn yr amcan ym mlaen.

. . . . .

Mae iau orthrymus wedi cael ei gosod eisoes ar war llawer ardal trwy offerynoliaeth ysgolion; ac y mae yr un iau yn cael ei pharotoi i ardaloedd ereill; a'r unig ffordd i'w gochel ydyw codi ysgolion eu hunain ar y drefn Frytanaidd.

Ydwyf, eich ufudd wasanaethwr,

HUGH OWEN"

Nid cynt y lledaenwyd y llythyr hwn nag y bu'n foddion i godi Cymru benbaladr ar flaenau ei thraed mewn awydd am sefydlu

Ysgolion Brytanaidd. Daeth y galwadau'n gyfryw fel y gorfu i'r Gymdeithas Ysgolion Brytanaidd a Thramor benodi John Phillips yn oruchwyliwr dros Ogledd Cymru, a William Roberts, o'r Blaenau, dros y De. Pa lwydd fu ar lafur y ddau wr da hyn, ni gawn weld. Erbyn 1863 yr oedd gennym gynifer a 166 o Ysgolion Brytanaidd—pedair o bob pump o honynt dan arolygiaeth y llywodraeth.

Cyn hyn, dyna oedd mwyafrif athrawon Cymru,—teulu'r *spreg leg*, fel y galwai Kilsby hwynt. Cloffion, meddwon, anafusion; hen wrachod, yn dysgu plant i ysgrifennu ar ben yr hen fangl mawr hen ffasiwn ag yr oedd rhiwmatis bellach wedi eu hatal i gael eu bywioliaeth o hono yn y ffordd arferol. Bellach yr anhawsder mawr oedd cael cyflenwad ddigonol o athrawon priodol, rhai'n gwybod rhyw ychydig eu hunain, ac wedi eu dysgu sut i gyfrannu'r ychydig hwnnw i ereill. Gwnaeth Coleg Borough Road ran ragorol, —addysgodd i ni, erbyn 1858, dros wyth ugain o athrawon Cymreig. Ond nid oedd hyn oll agos ddigon, heblaw fod y Coleg yn methu'n lan a chyfarfod yr alwad ddoi o Loegr, ei wlad ei hun. Gan hynny, ar alwad Huw Owen a Mr. Forster, cyfarfu ym Mangor, yn Ebrill 1856, Gynadledd Addysg, yn yr hon y cynhygiodd Henry Rees fod Coleg Athrawol i Ogledd Cymru i gael ei sefydlu. Dri mis wedi hynny, yn y Rhyl, gwnaed trefniadau pellach, penderfynwyd mai Bangor fyddai'r lle, ac agorwyd trysorfa'r adeiladu hefo mil punnau tywysogaidd Mr. Robert Davies, y Borth. Y mae adlais dawn John Phillips yn casglu'r dengmil gweddill heb ddarfod yng nghlustiau gwerin Cymru byth; a phwy ond efe,—neu'r diweddar Forgan o'r Dyffryn,—allasai ei wneyd? Ond fe'i gwnaeth, a chydrhwng dwy fil rhodd y llywodraeth, gallwyd cyhoeddi'r coleg yn ddi-ddyled cyn pen blwyddyn wedi i'r bechgyn symud iddo yn Awst 1862. Ie symud, canys dechreuasid y gwaith rhyw bedair blynedd cyn hynny — yn y ty anedd sy'n awr, fel y tybiaf, gan yr Anibynwyr.



Y PRIFATHRAW JOHN PRICE, M.A.,

Coleg Athrawol Bangor.

Pa lannerch dlysach yng Nghymru dlos allesid gael na'r hon ddewiswyd ar fin y Fenai fwyn? O'n blaen, dyna Fon a'i thirionwch yn llon edrych ei llun yng ngloewder y don. O'n hol, dacw Garnedd Llywelyn a Charnedd Ddafydd, y Wyddfa a'r Elidir, yn ymryson am gusanu y cwmwl. Draw i'r dde, dacw Fiwmaris —fôr mwyn—ac ysbrydion y beirdd yn ymwibio rhwng muriau duon ei hen gastell. Ac ar ein chwith, rhwng nef a daear, dacw'r Bont Grog, a'i chadwyni enfawr yn ymestyn

"O'r ogof fawr yng Nghraig Mon
Gyferfydd ogof Arfon."

A bu Celf yma'n ddigon call i beidio ffraeo a Natur. Cododd i ni adeilad cymhesur, cadarn, o'r math harddaf, a'i furiau gwynion o faen Penmon yn peri i ni freuddwydio am adeiladau'r Eidal. Ac etyb ei fewnol i'w allanol. Heb son am dy'r prifathraw, ac ystafelloedd yr athrawon ereill, ceir ynddo le i addysgu a lletya llawn dri ugain o fechgyn; a fydd yno'r un lle byth yn wag.

O'r bron nad yw'r trefniadau teuluaidd yn berffaith, er y dichon na fethai ambell i fachgen croes a chael lle i gwyno. Ond, ar

y cyfan, y mae'r ymborth yno'n iachus, blasus, ac amrywiol. Ceisir yn deg wneyd y lle'n gartref i'r bechgyn tra oddicartref. Cedwir yno oriau rheolaidd,—eir i gysgu'n union wedi deg, a chodir cyn saith fore drannoeth. Ceir yno ddyledswydd bob hwyr a bore, heblaw Dosbarth Beiblaidd am un awr o bob wythnos. Rhydd pawb gyfrif manwl o'r modd y treuliodd ei Saboth; pa sawl addoliad y bu ynddo, neu beth a'i rhwystrodd. Gorfodir pawb i fod yn lanwedd ei berson a'i arferion. Meithrinir yn y bechgyn ysbryd o hunan-barch, tra ar yr un pryd y dysgir hwynt hefyd i barchu teimladau eu gilydd. Ac y mae'r llu mawr o hen fechgyn Bangor sy'n llanw cylchoedd o ymddiried ac anrhydedd yn ein gwlad, o'u cymharu a'r ychydig eithriadau aeth ar gyfeiliorn, yn brawf digonol na fu'r holl ofal hwn yn ofer.

Ond pwy dderbynnir i'r coleg? Bechgyn goreu Cymru, yn ol trefn eu llwydd yn Arholiad Ysgoloriaeth y Frenhines, a rhyw ychydig iawn o Saeson font wedi gwneyd yn neillduol dda. Dont o bob cwr o Gymru, ac o bob enwad crefyddol, heb eithrio Eglwys Loegr ei hunan. Yn hyn, y mae'n wir Gatholig. Gwelais yno'n cyd-fyw y Prifathraw Prys, M.A., yn Fethodist; Iwan Jenkyn, F.R.H.S., yn Fedyddiwr; a'r Parch. T. M. Evans, M.A., Coleg Dewi Sant, yn Anibynnwr. Yr oll ofynir ganddynt yw iechyd da, cymeriad da, a rhywfaint dan ugain punt o arian wrth fynd i mewn.

Tymor arferol yr aros yno yw dwy flynedd, ond mae gan y llywodraeth yn awr drefniant i alluogi ambell i fachgen meddylgar, o uchelgais canmoladwy, i ddod yn ol am flwyddyn arall, i hwylio am ei radd. Mae ym Mangor un bachgen felly'r flwyddyn hon,—wedi pasio'r arholiad cyntaf am B.A., Llunden, ac yn hwylio ymlaen am y lleill. Cymer rai o'i ddosbarthiadau yng Ngholeg y Gogledd; a pha ham nas gellir dwyn y ddau goleg i gyffyrddiad agosach a'u gilydd? Gwn y ca rhai pynciau, yn fy hen goleg i, eu dysgu'n well nag y cawsent yng Ngholeg y Gogledd; ond ofer gwadu'r fantais ddirfawr sydd gan yr olaf i gyfrannu dysg yn y gwyddonau a'r clasuron. Y mae'r athrawon goreu yno'n barod, yn wŷr profedig o ddysg a diwylliant, a'r cynorthwyon goreu at eu llaw tuag at wneyd arbrawfion yn y gwahanol wyddonau. Yn y cyfeiriad hwn, mi goeliaf, y rhed addysg athrawon y dyfodol; ac mor dda fuasai gan lawer ohonom pe na fuasem yn awr ond yn cychwyn. Pwy o'r hen fechgyn sydd heb deimlo fel finnau—ei fod wedi dysgu tipyn am lawer o bethau, ac eto heb ddysgu llawer iawn am ddim? Ond dylai addysg ysgolfeistr fod yn un a'i galluoga i droi yng nghwmni goreuon ei wlad heb deimlo'n swil. Daw'r dydd pan y bydd ysgolfeistr Rhyd Ddu a Chwm Tir Mynach, Aber Daron ac Aberffraw, yn wr o radd. A goreu oll i'r plant po gyntaf,—ond gofalu ei fod hefyd wedi ei ddysgu'n drwyadl yn y gelfyddyd o gyfrannu gwybodaeth.

Ond nid bai'm hen goleg mo hyn, ond bai'r llywodraeth. Gwnaeth Coleg Athrawol Bangor gan loewed gwaith ag unrhyw goleg tebyg yn y deyrnas. Yn wir, bu am lawer blwyddyn ar ben y rhes, a saif yn barchus iawn o hyd. O'r defnyddiau amrwd a ga, y mae'n syndod iddo droi allan cystal gwaith. Pwy byth feddyliai am i Gymry guro'r Saeson ar eu tir eu hun, fel y gwnaeth y rhain am flynyddau? Ac am ganu,—wel dyma i chwi lle mae canu. Mae'n meddwi pob arholwr yn lân loew,—yn gwneyd iddo ddisgyn o'i gadair farn a dod yn wrandawr gwâr. Cura ganu pob coleg yn y deyrnas, yr hyn sy'n glod digymysg i Mr. Hurren Harding, yr hwn a wna agos cystal gwaith a hynny hefyd mewn Celf a Gwyddon. Pan orfuwyd dysgu plant ein hysgolion i arlunio, yr oedd llu o hen fechgyn Bangor yn barod i ymafael ynddo ar unwaith heb betruso dim. Ac nid llai llwyddiannus, yn eu cylchoedd eu hunain, y ddau is-athraw arall—Mr. Davies a Mr. Roome. Gwaith yr olaf yw gwilio'r bechgyn yn gweithio yn yr Ysgol Ymarfer. Heblaw bod yn gwybod rhywbeth am Athroniaeth y Meddwl a gallu ateb cwestiynau ar y Gelfyddyd o Addysgu, rhaid i bob un, bob yn dri neu bedwar, dreulio chwech wythnos o'i ddwy flynedd i ddysgu plant yn yr ysgol hon. A dyma un o fanteision goreu'r lle. Ceidw'r athraw wyliadwriaeth fanwl dros bob un yn ei waith, cymer nodiadau, a dywed wrtho wedi hynny ei ddiffygion a'i ragorion. Bryd arall, rhydd wers gynllun ei hunan; a phryd arall drachefn rhydd un o'r bechgyn wers i ddosbarth o blant a'r oll o'r lleill yn beirniadu —weithiau'n ddigon hallt a llym. Ond pwy ohonom anghofia wersi Rhif a Mesur y coleg hwn? Pa athraw erioed weithiodd yn galetach na Thomas, a chan bwy y gwelsom fwy o allu na Phrice? Dyna i chwi ddau o hen fechgyn y Borough Road.

Bu'r coleg o'i ddechreuad cyntaf yn hynod ffodus yn ei brifathrawon. O'i ddechreuad hyd 1867, pwy allasai gael i ofalu am dano'n well na John Phillips? Am y chwarter canrif nesaf, cafodd i ofalu am dano Ddaniel Rowlands—gwr o ddiwylliant eang, trefnydd rhagorol, a gwir foneddwr Cristionogol ym mhob ystyr i'r gair. Ac yn awr y mae dan lywyddiaeth Mr. John Price, un ag y mae gennym bob ymddiried yn ei farn a'i fedr, a llawer adgof am aml i sylw pert yn ei ddosbarth Saesneg.

O'r 855 fu dan addysg yma er y dechreu, y mae'r rhan fwyaf o hyd yn gofalu am ysgolion Cymru. Mae rhai yn gofalu am rai o'r ysgolion mwyaf yn Llunden a threfydd mawr ereill Lloegr. Ond llawer a hunasant; ac ereill a ddyrchafwyd i gylchoedd uwch—i fod yn athrawon yn ein Hysgolion Gramadegol a'n Prifysgolion, ac i fod yn Arolygwyr Ysgolion. Bu John Rhys ac Owen Prys, Henry Jones a Reginald Phillips, Marchant Williams a David Adams, —a lluaws mawr ereill,—buont unwaith yn fechgyn Bangor. Gadewch i mi dreio cofio. Y mae dau yn Arolygwyr Ysgolion, a saith yn is-arolygwyr; tri'n arolygwyr dan Fyrddau Ysgolion; naw wedi graddio'n M.A.; dau-ar-bymtheg yn B.A.; pedwar yn B.Sc.; llawn ddeugain wedi gwneyd un neu ddau o'r arholiadau am radd; a'r corff mawr ohonynt yn llwyddiant perffaith yn eu proffeswriaeth.

Bu gennyf unwaith uwch meddwl o bregethwyr, cyn deall y medrant gellwair fel rhyw feidrolion ereill. Y mae gan blant Cymru hefyd feddwl mawr o'u meistriaid, ac ni fynnwn er dim newid eu barn. Felly ni ddywedaf pa waith merched a wnaem, na phwy fethai fynd drwy'r *drill* milwrol,—pwy giciai'r bel oreu, na phwy rwyfai'n salaf,—pwy fyddai'r diocaf i godi, na pha gast wnaed a'r parotaf i glwydo,—beth oedd ffratio, na pha sut y dathlem y cyntaf o Ebrill,—pwy gadd y fodrwy yn ei grempog, na pha fath araeth draddododd am dani,—pwy hiraethai fwyaf am gartref, na phwy ganai amlaf i'w Weno,—caiff yr holl bethau hyn, meddaf, fod yn gyfrinach oesol rhwng y rhai a'u gŵyr.

Un gair bach, ac yna mi dawaf. Y mae yno gerflun marmor o Syr Huw Owen, ond yr un o John Phillips. Pwy gofia hyn?

Ysgol Fwrdd G. R. Hughes.
Bethel, Caernarfon.

LLYFRYNNAU.*

YR ydym yn byw mewn oes brysur; y mae amser i ddarllen llyfrau, a'r arian i'w prynnu, yn brin. Diolch am ambell i lyfryn, y gellir ei ddarllen yn gysurus mewn awr neu ddwy. Hiraetha rhai am lyfrau meithion traethodol yr oes o'r blaen; "llyfr llafurus *solid* fydda i'n hoffi," ebe hen flaenor oedd wedi dysgu gweled gwirionedd yn nhywyll-resymeg arwynebol Butler. Mentrais ddweyd wrtho,—"Rhowch i minnau lyfryn grôt, yn dweyd rhywbeth penodol a chlir."

Bore drannoeth yr oedd amryw lyfrynnau ar fy mwrdd; a chan ei bod yn fore dryghinog, cefais esgus i'w darllen bob un.

Y cyntaf ddanghosodd ei wyneb oedd "Golygiadau diweddar ar brofion Cristionogaeth." Darllennais ef drwodd gyda bias ac adeiladaeth. Y mae wedi ei ysgrifennu gan ddisgybl i Jowett a Thomas Hill Green, a dengys yn glir duedd ysgrifenwyr goreu'r oes,—rhoi mwy o bwys ar y profion moesol nag ar y profion gwyrthiol, cyfaddasu'r profion gwyrthiol i gyfarfod tuedd wyddonol yr oes, a rhoi ffurf cyfundrefn ar yr holl brofion.

Nid yn aml y gwelir yng Nghymru lyfr fel yr ail ddaeth i'm llaw, —"Yr hen grefydd a'r grefydd newydd, sef dadl rhwng Ifan Thomas a Morgan Lewis am yr Eglwys Gatholig, ym mha un y danghosir mai hon oedd hen grefydd y Cymry." Cyfeithwyd y llyfr gan un ddanghosid i mi yn nyddiau fy mebyd fel "offeiriad yn mynd i godi allor ar ben y Garth Bach." Dyna'r cwbl wyddem am waith offeiriad Pabaidd. Ond dyma'r Eglwys Babaidd am esbonio ei hun i werin ddeffroedig Cymru. Cymer y llyfryn ormod yn ganiataol,—cymer yn ganiataol fod y Pab wedi darostwng eglwysi'r gorllewin dan ei awdurdod cyn 450, cymer yn ganiataol hefyd mai iaith ddigyfnewid yw'r iaith Ladin, iaith addoliad yr Eglwys Babaidd. Gwell iddo fuasai rhoddi mwy o bwys ar brydferthwch Pabyddiaeth Gymreig yn y Canol Oesoedd, ac ar yr erlid fu ar y Jesuitiaid. "Ni ddarfu Eglwys Brotestanaidd Lloegr erioed ennill serch y Cymry, canys da y gwyddent mai nid crefydd eu tadau oedd, ond crefydd estronol newydd, a'i bod yn cael ei rhoddi ar eu gwar trwy drais a dichell,"—dyna fel y darllennir hanes Cymru gan hanesydd Pabaidd. Ni ddeil llawer o'r rhesymau ddŵr; ond y mae'r llyfr yn dra dyddorol.

"Patagonia,"—dyna deitl y llyfr nesaf, wedi ei ysgrifennu gan un dreuliodd un mlynedd ar bymtheg yno. Caraswn i'r llyfr hwn fod yn llawer hwy, ac yn llawer llawnach. Rhydd gip-olygon dyddorol ar y wladfa Gymreig bell,—y dyffryn dyfredig, helyg y Gamwy, y paith bryniog eang, ceffylau'r addolwyr, yr Indiaid yn bwyta'r cig eu hunain, ac yn offrymu'r esgyrn i'w Gŵr Drwg. Gwelwn y Cymry lletygar caredig,—ond y mae meddwdod yn difa rhai, ym Mhatagonia. Arwr y wladfa, ebe'r llyfr, yw'r Parch M. D. Jones. Pa bryd y penderfyna'r gwladfawyr esmwythau ei hen ddyddiau trwy ei gydnabod yn deilwng am y blynyddoedd y bu'n gweithio drostynt ac am ei olud aberthodd er eu mwyn?

Yn nesaf, dyma anerchiad Herber Evans o Gader yr Undeb. Y mae'n llawn o awgrymiadau hyawdl, megis,—"Dywedir fod saith gant o genhadon Protestanaidd yn yr India; fy awgrym ydyw,—addysgent bregethwyr brodorol, dychweledigion ieuainc, ac anfonent hwy i bregethu yr efengyl a'u hachubodd, gan gredu y medr achub eu cydwladwyr hefyd."

---

*"Golygiadau diweddar ar brofion Cristionogaeth. Gan Griffith Ellis, M.A., Bootle." Wrexham, Hughes. 1892.

"Yr hen grefydd a'r grefydd newydd. Gan J. H. M., Ysgrifenydd Cymdeithas Gatholig Hanesyddol Cymru, o dan nawdd Sant Teilo." Cyfeithedig gan y Parch. J. H. Jones, Caernarfon.

"Patagonia;" darluniad o'r wlad, hanes y Cymry a'u dull o fyw, a hanes yr Indiaid. Gan Jonathan C. Davies. Treorci, D Davies

"The Free Churches and their Opportunity." Anerchiad o Gader yr Undeb Cynulleidfaol yn y City Temple. Gan Dr. Herber Evans, D.D. Llunden, Yr Undeb Cynulleidfaol.

Y GARNEDD UNIG.

YN gynnar ar foreu hafaidd yn nhes Mehefin, gadewais y brif ffordd am lwybr cul, a'i wyneb wedi ei ysgythru gan lifogydd y gauaf, a dechreuais ddringo llethr y mynydd. Ar ei gopa troais yn ol i daflu cipdrem frysiog o'm deutu cyn canu ffarwel am rai oriau i bob arwydd o wareiddiad. Ar yr aswy gwelwn bennau crwn coch-ddu moelydd Dinbych, a'r Fama yn frenhines arnynt, a'i thŵr yn goron ar ei phen; tra ar y dde ymgollai bryniau Lloegr yn y niwlen deneu y tu hwnt i wastadedd coediog Maelor. O danaf ymestynnai y ffordd wen lydan drwy ddolydd gwyrddlas nes ydoedd yn llinyn arian yn y pellder, ac yr oedd wedi ei dotio draw ac yma gan fenni yn cludo tanwydd o lofeydd Maelor i Ddyffryn Clwyd. Weithiau deuai lleisiau y certwyr yn canmol neu geryddu'r wedd i fyny ataf, ond wedi eu tyneru gan yr awel, ac yn awr ac yn y man clywid swn yr olwynion yn rhoncian dros y cerrig, ac ambell chwip yn clecian bygythion. Ond rhaid oedd gadael hyn oll ar ol, am fod mynydd unig ac anial i'w groesi. Am lawer milldir nid oedd ond grug glas-goch, ac ambell bant gwyrddlas o redyn yn eu canol, yn ymledu o'm blaen, gan godi yn drum ar ol trum fel cyfres o donnau safadwy. Nid oedd annedd dyn yn y golwg ond adail llwydwyn gwaith mŵn yn y dwyrain pell, ac ni theimlodd Crusoe yn ei ynys anial lawer iawn yn fwy unig nag y gwnelwn i pan yn dilyn y ffordd gul, fel llwybr defaid, trwy y grug tua'r dê a glannau'r Ddyfrdwy.

Yn fuan gwelais garreg hir, yn sefyll ar ei phen fel maen bedd, ar ochr y ffordd, a gwrym bychan o dir yn codi o dani. Ni fu cun na morthwyl erioed yn cyffwrdd â'i gwyneb garw ond i lunio dwy lythyren,—R.O. Am beth amser bum yn ceisio dyfalu beth allai hyn fod. Yna ymrithiodd hen hanesyn i'm cof am un a fu farw o newyn,—fel y bu llawer yn y blynyddau dilynol i ryfeloedd Napoleon,—pan yn croesi y mynydd i hwilio am fara mewn man mwy llawn o hono na'i fro ei hun, ac a gladdwyd yn y llecyn y cwympodd. Feallai, wedi'r cyfan, fod tynged hwn yn well na thynged y rhai hynny o'i gyfoedion a hyrddiwyd gan fidog y gelyn, yn wallgof gan boen, i dragwyddoldeb, ac a daflwyd yn sypynnau gwaedlyd i lenwi ffos mewn gwlad dramor. Eto y mae math o deimlad rhwng arswyd a galar yn hofran o gwmpas y ddwy lythyren yna, — unig weddillion cyd-ddyn a fu unwaith fel ninnau yn llawn gobeithion, a'i galon yn curo gan gariad, ac un y bu ei lais a'i wedd yn llonni mynwesau ei anwylion. Ond yn yr anialfan hon y mae yn gorwedd yn destun syndod teitholion, heb neb i wylo drosto ond y cymylau, neb i alaru uwchben ei feddrod ond y gwynt.

Wedi hyn dwyshaodd fy meddyliau fel yng ngwyll y cyfnos pan dawela dadwrdd y dydd wrth wylio'r haul yn marw, a'r ddaear yn ymwisgo mewn mantell o alar ar ei ol. Yr oedd yn dawel fel y bedd, heb ysgrech cornchwiglen na brefiad dafad i'w clywed yn un man, dim ond swn y traed yn ysgubo trwy y grug gam ar ol cam, heb ddwndwr dŵr yn disgyn yn y pellder na chacynen yn chwyrnellu o rygen i rygen yn fy ymyl i dorri'r distawrwydd llethol. Prin yr ydoedd pelydrau haul Mehefin mor danbaid a chynt tra y gwthiwn ymlaen i unigedd y mynydd.

Gadewais y llwybr pan oedd simdde y gwaith mŵn yn suddo o'r golwg, a daethum at lyn o ddŵr marw-lonydd, mawnllyd ei liw, allan o'r hwn y ceisiai rhai defnynnau anturiaethus ddianc trwy lithro i lawr ceulan o glai, ond buan y diflannent yng ngwely graianog sychnant yr haf. Yna cyfeiriais fy nghamrau tua rhes o greigiau calch a ymgodent uwchlaw y mynydd-dir grugog fel ton a'r ewyn wedi caregu ar ei chopa. Wrth eu traed gwelwn enau tywyll ogof yn ymagor. Can belled ag y gallai llygad dreiddio yr oedd mwswg gwelw-las yn cuddio yr ochrau, a draw yn y tywyllwch dyferai y dŵr o'r nen gan seinio fel cnul araf oerllyd bywyd. Mor llachar-gynnes oedd llewyrch yr haul ar ol gwyll iasol yr ogof, ac mor ysgafn y suai'r awelon am ymylon y graig tra y ceisiwn lwybr o glogwyn i glogwyn! Pan gyrhaeddais y pigyn a safai yn unig fel meudwy mewn tir anghyfannedd, gwelwn yno garnedd o gerrig llwydwyn gan henaint a thymhestloedd canrifoedd.

Prudd ydyw y munudau hynny pan y safwn ar fan y mae corff dynol wedi ei osod i orffwys a dwndwr byd wedi distewi. Yma mewn unigedd gorweddai teyrnged cenedl i'w gwron syrthiedig, cenedl sydd bellach wedi ymgolli yn nhywyllwch y cynoesau, gan adael yn unig ar ei hol yn nhir y hyw yr olion hyn o barch at y marw, cenedl a wyddai am ing angau, ond nid am y balm a all ei liniaru. Ni wyddent hwy, yn yr oesau rhwng gwyll a gwawl, am wynfydau'r meirw, y geiriau tlysion hynny sydd lawn o gysur a thangnefedd fel pe daethent o fro y tu hwnt i'r bedd. Eto gwnaent a allent yn eu dull syml i leddfu'r boen, ac i ddangos eu serch a'u gofal am weddillion eu dewrion. Claddent hwy ar gopâu y mynyddoedd, i'w coffa beunydd o

bell am wroniaid y dyddiau gynt, a dodent garnedd ar y bedd i nodi'r fan y gorweddent, ac i'w hamddiffyn rhag gwanc y gwylltfilod. Ni allwn lai na theimlo fod y symledd hwn yn cynnwys cymaint o barch at y rhai a hunasant ag angladdau oesau mwy diweddar gyda'u rhialtwch gwrthun. Pa anrhydedd neu les i'r marw, boed ef filwr, sant, neu bechadur, ydyw cynhebryngau mawreddus gwych, gweddiau lliosog a chân angladdol yn nyfnder nos? Os na thania dryll ergyd o ffarwel dros y beddrod, fe rua taranau y nefoedd; os na welir yng nghanol nos lewyrch rhuddgoch canwyll uwch ben yr orweddfa, syrth goleuni'r ser yn lli ariannaidd arno; ac os na chenir yr un "Fiserere" gan fynachod penfoel Abad-dy, neu "Requiem" galonrwygol gan gôr yn ei wenwisg, daw y gwynt i alaru ac ar brydiau i ddyrchu cri o wylofain o amgylch y fan.

Bum yn synfyfyrio fel hyn am beth amser tra yn eistedd o'r neilldu ac yn syllu ar y garnedd. Ac wele'r lle yn fyw o fodau dynol yn ymwau drwy eu gilydd yn ofidus eu hwynebau, er y danghosai aml fflachiad gwibiog o'u llygaid fod digofaint hefyd yn eu meddiannu. Yr oedd golwg wyllt arnynt yn eu crwyn-wisgoedd a chyda'u bwyeill cerrig, ac yr oedd amryw o honynt yn archolledig, a'r briwiau dolurus newydd eu golchi wrth ffrwd neu lyn nepell oddiyno. Yr oedd y garnedd rywfodd wedi diflannu a thwmpath bach o bridd newydd ei balu yn gorwedd ar y fan. Ar y twmpath hwn dodent garreg o un i un, ac yna ymadawent yn athrist eu gwedd. Yn olaf un gwelwn hen wr galarus yn gosod maen yn dringar ar gopa y crug, yn crymu yn hir uwch ei phen, ac yna yn cael ei arwain yn dyner ymaith. Tra yr edrychwn arnynt yn diflannu dros ddibyn y graig yng ngyfeiriad yr ogof, yr oedd yr haul fel pellen o dân yn hongian yn isel ar orwel y gorllewin, a'r lloer welw, hanner llawn, yn codi yn y dwyrain. Tynnodd ochenaid fy sylw at ffurf morwynig yn penlinio wrth ystlys y garnedd newydd, ac yn wylo fel un mewn anobaith. Siglai ei dwyfron gan rym ei theimladau, a chuddiai ei hwyneb â'i dwylaw, ac yr oedd ei gwallt du llaes yn hongian mewn anhrefn o amgylch ei phen. Ymhen ychydig gostegodd ei gofid a bu seibiant ennyd ar ei galar. Yna llamodd yn wyllt-ddigofus ar ei thraed, trodd ei golygon melltennaidd i'r gorllewin ac anerchodd yr haul, "Dos, cudd dy wrid a'th gywilydd yng nghaddug y nos, ti Huan bradwrus! Tro ymaith dy lygaid oddiwrth y brad a gyflawnaist a'r gwarth a dynnaist arnom! Oni addewaist nodded i ni, pan offrymem foreu a hwyr ar dy allorau, ac yr esgynnai mwg ein haberthau i fyny atat? Eto gwgaist arnom yn nydd ein cyfyngder, a gwenaist ar gewri y dyffrynnoedd. Da y gwnel Brenhines y Nos welwi wrth ganfod y gyflafan, a chilwgu ar deyrn digoel y dydd! Gorwedd yr wyt yma, fy nyweddi dihalog, a'th wenau mwyach ni lawenhant fy nghalon. Oer yw dy wefasau, ni allant fy nghyfarch; a thrwm yw dy glyw, ni wrendy fy nghri. O na allwn dy gofleidio, fy anwylyd, ond meini gwylofain a'n hysgarasant am byth!"

Deffrowyd fi gan rywbeth oer yn treiglo i lawr fy ngrudd. Nid defnyn o wlaw ydoedd am nad oedd brychni cwmwl ar wyneb y ffurfafen, ac nid gwlithyn mohono gan na chiliasai yr haul y tu draw i fynyddoedd Eryri, ac na wridai'r gorllewin ar ei ddyfodiad. Yna cyfodais i ail gychwyn fy siwrne, a gadewais y garnedd yn unigedd tawel y mynydd.

Aberystwyth. R. Bryan.

BEDDAU BEIRDD.

[Codwyd o hen lawysgrif gan Henri Myllin].

I. BEDD ROBYN RAGAD.

Yn fud mewn gweryd mae'n gorwedd—Ragad
A'i rugl gynghanedd;
Ni roir, gwn, yn nhir Gwynedd,
Un o'i fath rhawg yn ei fedd.

II. BEDD PRYDYDD.

Rhowch garreg bur-wiwdeg ar brydydd—oediog
Dan aden Duw'n llywydd;
A than hon gad fi'n llonydd,
Dan y farn, diau iawn fydd.

III. EDWARD LEWIS Y PRYDYDD.

Gwelwch mae'n llwch y llan—wael gorfill
'Rwyn gorwedd yn druan;
Chwithau a ddeuwch weithian
O'r erw mawr i'r un man.

Huw ab Efan.

IV. Y BEDD.

Bendigaid yw'r ty newydd—heb adail,
Heb wiail bob tywydd;
Heb nenbren na gobennydd,
Heb le teg, heb olau dydd.

Gruffydd Hiraethog.

BETH YW PRIFYSGOL?

BETH yw Prifysgol? Hawdd yw gofyn, ond nid hawdd ateb, yn enwedig ar fyr eiriau. Ond y mae'r cwestiwn yn un tra phwysig i Gymru ar hyn o bryd, ac y mae'n ddyledswydd ar bawb sydd yn cymeryd dyddordeb mewn addysg uwchraddol ffurfio, hyd eithaf ei allu, syniadau clir ar y pwnc. Gadawer i ni fraslunio, yn yr ysgrif fechan hon, ryw fath o ateb i'r gofyniad, a chymhwyso yr hyn a ddywedir at amgylchiadau Cymru.

Gyda'r mater hwn, fel gyda llawer ereill, y mae'n haws o lawer dweyd yr hyn *nad* ydyw'r peth dan sylw na'r hyn ydyw. Yn y lle cyntaf, y mae'n amlwg mai nid ysgol yn unig yw Prifysgol, pa un bynnag ai ysgol elfennol ai ysgol ramadegol, ysgol ganolraddol ai ysgol gelfyddydol, pa un bynnag ai meithrin a choethi'r meddwl ai parotoi yn uniongyrchol at un o alwedigaethau bywyd y mae'r ysgol honno. Nis gellir gorbrisio gwerth ysgolion da o bob math yn y dyddiau hyn; ond fel y mae'r gair Cymraeg yn dangos ar ei wyneb, y mae *Prifysgol* (*Hochschule* yr Almaenwyr) yn rhywbeth mwy nag ysgol,—yn ysgol yr ysgolion.

Nid Swyddfa Addysg yw Prifysgol ychwaith. Y mae Swyddfa o'r fath yn ddefnyddiol mewn unrhyw wlad; ond nid Bwrdd i gyfundrefnu'r holl addysg a roddir o fabandod i oedran gŵr yw Prifysgol fel y cyfryw. Gwnaiff Prifysgol hen a chref,—Caer Grawnt, er engraifft,—waith lawer yn y cyfeiriad hwn, am fod ganddi ei gwala a'i gweddill o athrawon; bydd gan hyd yn nod Brifysgol ieuanc ddylanwad mawr ar gyfundrefn addysg yn ei gwahanol ganghennau; ond er hynny, cofier mai nid amcan pennaf nac angenrheidiol Prifysgol yw arholi'r ysgolion.

Ac yn olaf, nid corff i roddi graddau yw Prifysgol; o'r hyn lleiaf, nid hanfod Prifysgol yw hyn, ond yn hytrach swydd ddefnyddiol a gyflawnir ganddi. Mae gradd yn arwyddlun, ond nid yn ddiben; yn nod, ond nid yn gyrchnod. Ar Brifysgol Llunden y gorwedd y bai am ddyryswch lawer ynglyn a'r mater yma ym meddwl y bobl, ond nid Prifysgol yng ngwir ystyr y gair ydyw Llunden. Ni chyfranna addysg o gwbl, ni wna ond arholi.

Beth, ynte, yw Prifysgol? Prifysgol ydyw corfforaeth, — dyna a olygir gan y gair *university*, *universitas*,— o ddynion hen ac ieuainc, athrawon a disgyblion, yn cyddysgu ac yn dilyn gwybodaeth er ei mwyn ei hun i ba le bynnag yr arweinio; dynion sydd yn dal o flaen y wlad syniadau cywir am y ddysg uchaf, tra y maent hwy eu hunain yn gwneyd yr hyn a allont i eangu terfynau gwybodaeth. Llenwir hwy, os ydynt yn deilwng o'u galwad, ag ysbryd dysg a chariad at ddysg, a thraddodant i ereill lamp gwybodaeth gyda goleuni a ddisgleiria'n fwy fwy o genhedlaeth i genhedlaeth. Pe ceid y fath ddynion yng Nghymru, wedi to neu ddau, nis gallent lai na dyrchafu safon addysg trwy'r wlad. Nid oes yn y byd heddyw brifysgolion mor enwog ag eiddo'r Almaen; a'u gogoniant arbennig hwy ydyw y llu o gyd-efrydwyr sydd yn ffurfio un corff ac yn cyd-weithio o hyd.

Ond a oes gobaith y ceir Prifysgol o'r fath yng Nghymru o gwbl? Oes, yn ddiau, os bydd i'r ysbryd cenhedlaethol, â'r hwn y cysylltir mor agos fywyd y sefydliad, brofi ei hun yn oleuedig a chraff. Y mae'r ysbryd hwnnw'n gryf; ac arno, i raddau pell, y dibynna y dyfodol. Y mae hyd yn nod yr efrydydd distaw yn ei lyfrgell, yn teimlo'r llannw'n codi; ac y mae'n gobeithio y caiff weled llong dysg yn nofio'n falch ar y tonnau. Ond ar yr un pryd y mae peryglon i'w gwynebu. Yn gyntaf oll, y mae perygl i ni orlwytho'r Brifysgol ieuanc nes iddi suddo. Cymerer arholiad ysgolion canolraddol yn engraifft; oni fyddai'n ddoeth i Bwyllgor Canolog Addysg Ganolraddol ymgymeryd â'r gwaith ei hunan,—gyda chynhorthwy athrawon y Brifysgol os mynnir,—yn hytrach na'i drosglwyddo i'r Brifysgol heb ystyriaeth bwyllog?

Ni fydd yr un Brifysgol Gymreig yn wir genedlaethol na fo'n agored i bawb heb wahaniaeth barn a sefyllfa a rhyw, ac na fo hefyd yn rhoddi lle anrhydeddus i efrydiaethau Cymreig. Dylai arweinwyr y bobl fynnu y pethau hyn; ond dylent fod yr un mor eiddigeddus dros beth arall sy'n llawn mor agos at anrhydedd y Cymry, sef safon a nodwedd graddau'r Brifysgol. Gwyddis fod graddau llawer Prifysgol yn yr Amerig wedi myned yn wawd ac yn ysgydwad pen; a hawdd y gellir dychymygu effeithiau galarus ar holl gyfundrefn addysg pan ostyngir yr hyn a gyfrifir yn uchaf. Mae'n wir mai oes dyngarwch yw ein hoes ni; ond ni ddylai'r teimlad hwnnw ymestyn hyd at raddau y Brifysgol. Er mwyn cadw'r safon yn uchel, bydd yn anhebgorol angenrheidiol i'r colegau gydweithio'n galonnog ac unfrydol, gan gael eu dal ynghyd â rhwymyn cryf, a'u cefnogi gan farn y cyhoedd.

Dylai efrydiaethau y Brifysgol fod yn rhyddfrydig ac eang, fel un ffordd i'n gwneyd yn fwy hynaws tuag at y rhai nad ydynt o'r un farn a ni. Ni fyddant yn wir genedlaethol oni chynhorthwyant ni i orchfygu rhyw ychydig ar ein chwerwder enwadol a gwleidyddol. Dylent hefyd fod yn ddwfn a thrwyadl. Dywedir llawer, a chyda gwirionedd perffaith hefyd, am y fantais o fod yn bobl ddwyieithog. Ond tra yn defnyddio'r manteision hyn i'r eithaf ni ddylem anghofio nac esgeuluso'r demtasiwn i fod yn arwynebol sydd mor barod i amgylchu pobloedd a phersonau a lefarant fwy nag un iaith. Dylid hefyd, yn drydydd, gydnabod mai er ei mwyn ei hun y ceisir gwybodaeth mewn prifysgol. Mae gwlad fechan, fel Cymru neu Switzerland, a drig yn agos at gymydogion cryf, yn dra thebyg o edrych ar addysg i ryw raddau mewn ysbryd masnachol; ond ni ddylai'r ysbryd hwnnw gael dyfod i mewn i ddirgelfa y Brifysgol. Wrth gwrs, nid yw y perygl hwn yn gyfyngedig i un wlad; y mae'r oes ei hun yn fasnachol; hyd yn nod yn yr Almaen gorfodir yr athrawon i rybuddio y myfyrwyr yn gyson rhag *Brodstudien* ("efrydiaethau bara.") Ond nid gwir natur y Cymry yw hyn; ac o'm rhan i, disgwyliwn weled Prifysgol deilwng o'r enw yng Nghymru,—os bydd Cymru yn ffyddlawn iddi ei hun, —yn gynt nag yn Llunden, lle sonnir cymaint yn y dyddiau hyn am "Brifysgol i Ddysgu."

Y mae hyn oll yn ein harwain at y pwnc olaf, sef sefydlu Cartref Dysg yng Nghymru. Dyma hanfod Prifysgol; a dyma'r diben y rhaid ei gadw mewn golwg o'r dechreu wrth drefnu ochr ariannol y Brifysgol. Gwelwyd hyn yn eglur gan Dr. Lewis Edwards flynyddoedd yn ol. Yn ei draethawd ar "Yr hen Brifysgolion a'r Brifysgol i Gymru," rhoddodd ei farn i'r perwyl hwn,—"Bydd yn rhaid cael rhyw fanteision neillduol nas gellir eu cyrraedd ond mewn cysylltiad â'r sefydliad hwn [h.y., y Brifysgol Gymreig]. Yr hyn a olygwn ydyw nifer o *fellowships* i'r rhai fydd yn sefyll uchaf yn niwedd eu hefrydiaeth. Gwyddom mai ofer fyddai son am hyn wrth y Cymry yn gyffredin. Ni wnaent ond hwtio y meddylddrych ar unwaith. Ond y mae blaenoriaid yr ysgogiad hwn yn gwybod yn well am natur prifysgolion. Gwyddant hwy mai dyma un o elfennau cryfder yr ysgolion pennaf yn y deyrnas, a'u bod yn amcanu at hyn yn awr yn Edinburgh. Ond beth bynnag am ysgolion ereill, nid yw ond ffolineb son am brifysgol Gymreig heb *fellowships*. Dylai y *Fellows* gael rhan yn llywodraethiad y Brifysgol, a gallai rhyw nifer o honynt gael cyflog ychwanegol fel cynhorthwywyr i'r athrawon sefydlog."

Yr oedd Dr. Edwards yn llygad ei le, fel arferol; y *mae'n* ffolineb son am Brifysgol Gymreig heb *fellowships*. Ni ddylai y *fellowships*, neu Ysgoloriaethau Prifysgol, fel y gellid eu galw, fod yn rhai bras; gellir disgwyl i Gymro aberthu rhyw ychydig ar allor gwladgarwch a chariad at ddysg. Ni ddylai, ychwaith, yr un o honynt fod yn segur, ond dylai fod i'r rhai a'u daliant amodau pendant o waith, pa un ai fel cynhorthwywyr ai fel ymchwilwyr i ryw gangen o wybodaeth gartref, ai fel efrydwyr yn Ffrainc neu'r Almaen, yn Athen neu yn Naples. Os tueddir neb i ameu defnyddioldeb yr ysgoloriaethau hyn, cymhared Goleg y Drindod, Dublin, â Phrifysgolion yr Alban, gyda golwg ar eu hysgol glasurol er engraifft; a thynned ei gasgliadau ei hun. Yn Victoria, dechreuwyd heb ysgoloriaethau o'r fath, ond y mae'r camgymeriad yn awr yn cael ei gywiro; gwell hwyr na hwyrach.

Yn ychwanegol at ysgoloriaethau, bydd yn angenrheidiol i ni apelio at y Llywodraeth, yn gystal ag at haeloni cyhoeddus, am wellhau ein Llyfrgelloedd, a'n Hamgueddfeydd, a'n *Laboratories*. Yn y Gymraeg,—Iaith, Hanes, a Llenyddiaeth,—mae gobaith am waith da i atdynnu sylw y cyfandir hwyrach; yn Saesneg,—Llenyddiaeth a Hanes,—y mae llawer o bethau i'w harchwilio o safle'r Cymro; ac am y gwyddorau, heblaw gwneyd eu gwaith eu hunain, rhoddant, trwy eu dull o weithio a'u hegni, symbyliad i ymdrechion mewn canghennau creill.

Os nad wyf yn camgymeryd yn fawr, nid ymfoddlona gwladgarwch Cymreig ar ffug-Brifysgol, ar y cysgod heb y sylwedd. Ac os ceir y peth iawn, yna bydd cenhedlaetholdeb Cymreig wedi ennill iddo ei hun barch y goreuon ym mhobman am iddo wneyd nid ychydig i ddyrchafu cenedl gyfan.

Coleg Prifysgol Gogledd Cymru. W. Rhys Roberts.

COED GWYNFRIG Y NADOLIG.

Nadolig a'i gnwd welaf,—yn oer dwf
Llc bu'r dail diweddaf;
Gwiail dan flodau gauaf—
Eira Duw'n dynwared haf!

Eifion Wyn.

Y FENAI DAN Y LLOER.

Fwyned dy lif, Fenai dlos,—a'i loewiad
Gan lewyrch goleunos;
Yr hud eurwawr diaros,
Gawoda'r nef gyda'r nos.

Eifion Wyn.

MAE'R WAWR AR FYNYDDOEDD ERYRI.

Y seithfed o Fai oedd "dydd gŵyl llafur" y chwarelwyr yn Nghaernarfon,—y cyntaf,—ac wedi bod ym merw gorymdaith y miloedd drwy yr heolydd, ac mewn cyfarfod seithmil brwd yn y *Pavilion*, dodais fy nheimlad ar gân.

MAE'R wawr ar fynyddoedd Eryri,
A cherdda'r ieuenctyd i gyd,
A chlywaf Gyfiawnder a Rhyddid
Yn galw 'n byddinoedd ynghyd.
Daw dengmil o feibion y creigiau
O lethrau'r mynyddoedd i lawr,
A'u llygaid gan dân y Deffroad
Yn loew fel llygad y wawr.

Mi glywaf y tabwrdd yn curo,
Mae ysbryd y wlad ar ddihun;
Mi glywa'r cyrn arian yn canu,
Mae'r dengmil yn ymdaith yn un;
Wrth ochor ireiddlanc, mi welaf
Yr hen wr a'i gefn yn crymhau,
Yn cydio dwy oes, ac yn siarad,—
"Ni fynnwn gyfiawnder ein dau."

Mi welaf y bachgen pymtheng-mlwydd
Yn cerdded yng nghanol y gâd,
A'i galon yn fflam o ddialedd
At ormes ddioddefodd ei dad.
Mae ysbryd uniondeb a thegwch
Yn berwi cerddediad ei waed,
Am weled hen ormes yr oesau
Fel llaid yr heolydd dan draed.

Mi glywaf y dengmil yn canu
Dyrchafiad Rhagluniaeth yr Ior;
Yn canu cadernid tragwyddol
Y Breuin a barthodd y môr.
Mae trydan yn cerdded y gydgan,
A tharan soniarus ei llef,
A swn buddugoliaeth gwirionedd
Sy'n cerdded mynyddoedd y Nef.

Os dal mae gormeswr y gweithiwr
Yn galed, yn gyndyn, a ffol,
Mae'r wawr ar fynyddoedd Eryri,
Ac Arthur yn dyfod yn ol.
Byddinoedd Cyfiawnder a Rhyddid
Sy'n cerdded yng nghynnydd y dydd,
Mae Arthur a'i luoedd yn ymdaith
I ollwng y caethion yn rhydd.

Mae'r wawr ar fynyddoedd Eryri,
A chwmwl rhaniadau a brâd
Yn ffoi oddiar ysgwydd y Wyddfa
O awyr llafurwyr ein gwlad.
Yn llewyrch y wawrddydd mae'r dewrion
A'u llygaid i gyd ar un llyw,
Mae Medrod, y bradwr, yn farw
Ac Arthur a'i weision yn fyw.

Caernarfon. R. R. Morris.



Y MAES A CHASTELL CAERNARFON.

"GWYL LLAFUR" Y CHWARELWYR, 1892.

CAERNARFON, MAI 7.

YN ystod y deng mlynedd diweddaf, yr wyf wedi gweled aml i "ddiwrnod mawr" yng Nghaernarfon, ond nid wyf yn cofio yr un ag yr edrychem ymlaen gyda mwy o ddyddordeb tuag ato na'r diwrnod hwn—dydd dathliad "Gwyl Llafur" ym mysg chwarelwyr Gogledd Cymru. Yr oedd amryw elfennau yn peri hyn,—newydd-deb y peth ynddo ei hun, y parotoadau helaeth ar gyfer yr amgylchiad, y disgwyliad o weled wyth mil o wŷr y creigiau yn gorymdeithio drwy ein heolydd, ac hefyd o glywed cyd-gasgliad o seirdyrf arian a phres yn chwareu "Rhyfelgyrch Gwyr Harlech" ar y Maes yn nawn y dydd.

Euthum allan yn y boreu er mwyn cael gwybod ychydig fanylion am y cyfarfod cyhoeddus oedd i gael ei gynnal yn y Pavilion, a gwelwn y masnachwyr wrthi yn brysur yn darparu arwyddion croesaw i'r chwarelwyr. Dygid allan y baneri gwychaf; ffurfid bwâu bythwyrddion, a threthid yr iaith Gymraeg yn drwm er dyfeisio geiriau annerch i'r ymwelwyr. Dyddorus oedd sylwi ar y gystadleuaeth galed oedd yn cymeryd lle rhwng y "prif fasnachdai" yn y gorchwyl o geisio argyhoeddi pawb oll mai *hwy* oedd gwir gyfeillion y chwarelwyr. Yn chwanegol at hyn, yr oedd y clybiau gwleidyddol,—y glâs a'r melyn,—yn ymwisgo âg ardderchowgrwydd. Danghosai hyn fod "Gwyl Llafur" yn cael ei chymeradwyo gan bob plaid; o'r hyn lleiaf, yr oedd yn gydnabyddiaeth fod y Tori a'r Radical yn dymuno yn dda i gyfarfod oedd yn cynnwys Syr John Gorst ar un llaw, a Mabon ar y llaw arall, ym mysg ei siaradwyr.

Tua hanner dydd dyna'r seindyrf yn dechreu cerdded drwy'r heolydd, ac y mae popeth yn bywiogi yn y fan. Awn i gyffiniau yr orsaf, a gwelir tren ar ol tren yn dod i mewn yn llwythog, a minteioedd o bobl o Ffestiniog, Nantlle, Llanberis, a Bethesda, yn cerdded yn galonnog tua'r dref. Cyn pen yr awr gellid dweyd fod y "chwarelwyr" wedi *meddiannu* Caernarfon. Hwy a welid ym mhob heol,—ym mhob man. Yr oedd eu lleisiau cryfion, calonnog, i'w clywed yn parablu Cymraeg glân gloew yn ddi-dor. Nid "How-dye-do?" fin-fain, ond "Sut 'rwyt ti, fachgen?" nid "It's a fine day," ond "Dyma ti ddiwrnod iawn, fachgen!" Iechyd i ysbryd dyn oedd mynd am dro i ganol y "bechgyn" hyn; nid oedd dim rhodres yn eu gosgedd na'u geiriau; iaith llafar gwlad ydoedd yn ei goreu, a gwn yn

dda y buasai golygydd Cymru ar ei uchelfannau pe y cawsai wib-rodio yn ddifir drwy y dyrfa hon oedd yn cadw gŵyl.

Ond tra yn mwynhau gwrando ar ymgom rydd, ddiddan, y bobl ar yr heolydd, fe ddaeth i'm cof yn sydyn nad oedd gennyf "drwydded" i fyned i'r cyfarfod mawr yn y Pavilion. I iawn ddeall y pryder hwn, digon yw dweyd mai cyfarfod i'r chwarelwyr ydoedd mewn modd arbennig; ac er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt hwy a dynion cyffredin, yr oedd yr awdurdodau wedi trefnu i bob chwarelwr wisgo arwydd ar ei frest. Defnydd yr arwydd *(badge)* ydoedd ruban gwyn, ac arno yr oedd llythyrennau cochion; yr oedd ei ffurf yn debyg i hyn,—

CHWARELWYR

GWYL LLAFUR, 1892.

Dyna docyn aelodaeth yr Wyl; yr oedd meddu hwn yn agor y pyrth, ac yn rhoi mynediad helaeth i mewn i'r Pavilion. Gwelwn fod yn rhaid cael hwn cyn y gallwn fynd i'r cyfarfod yn ddigon prydlon i weled a chlywed yr holl weithrediadau. Yr wyf yn perthyn i'r dosbarth gweithiol, ac yn falch o hynny, ond ni chefais y fraint o fod yn chwarelwr. Yr oeddwn yn teimlo i'r byw oblegid yr anffawd hon yng nglyn â'm dygiad i fyny. Paham na fuaswn yn chwarelwr? [Wedi ail-feddwl dros y cwestiwn hwn, yr wyf yn lled-dybied mai y gwir reswm ydoedd hyn—nid oedd un chwarel, ac nid oes yr un hyd yma, yn hen ardal fy mebyd.] Ond yr oeddwn yn dra awyddus i fynd i gyfarfod mawr yr Wyl, a dymunwn fynd yno yn anrhydeddus, ac nid drwy ddringo ffordd arall fel y mae arfer rhai ar adegau o'r fath. Pan yn y benbleth hon pwy ddaeth heibio ond Mr. W. J. Williams, ysgrifennydd gweithgar yr Undeb; adroddais iddo fy helynt, ac ar darawiad amrant, fe dynnodd y *badge* oedd ganddo ar frest ei gôt, gan ddweyd yn llawen, —"Cym'rwch hwn; a bydd popeth yn dda." Wedi derbyn awdurdod yr ysgrifennydd, piniais innau yr arwydd ar fy mron, a theimlwn fy hun amryw fodfeddi yn dalach nag o'r blaen! Yn y meddiant o hwn yr oeddwn yn berffaith dawel, a cherddais yn bwyllog tua'r Maes i weled y gwahanol Gyfrinfaoedd yn ymdaith dan arweiniad y seindyrf, drwy yr heolydd. Yn y llannerch lle y safwn yr oedd amryw o garedigion y chwarelwyr, er nad ydynt eto wedi dechreu cadw siop. Wrth gwrs y mae cariad masnachwyr y dref hon at y chwarelwr yn ddiarhebol,—y tuhwnt i gariad gwragedd. Ond fe geir ereill nad ydynt mor hyawdl mewn datgan eu serch yn distaw lawenhau yn nhoriad gwawr Gwyl Llafur ar ein hanwyl wlad.

Felly y cyfeillion hyn; yr oedd un ohonynt yn ysgolfeistr o ardal boblog Bethel, ac wedi dod a'i briod a'i blant i weled yr olygfa. Gerllaw, hefyd, yr oedd arlunydd, ie, arlunydd clodwiw Cymru, a deallwn wrth ei wedd nad ydoedd ei fyfyrdodau yn hepian nac yn cysgu. Ond dacw gyffro tua'r Pendist: y mae y *band* cyntaf yn gwneyd ei ymddangosiad, a nodau y gerddoriaeth fyw-lawen yn diaspedain ar furiau y Castell. Y mae yr orymdaith yn dilyn yn drefnus a hardd: cerddai y gwŷr yn gadarn fel milwyr, ond gyda hyn o wahaniaeth, — Heddwch nid Rhyfel sydd ar eu banerau. Wedi i un seindorf ddiflannu yn y pellder, dyna un arall yn llanw'r awel, ac felly am amser maith. Safasom ar y llannerch a nodwyd am hanner awr, ac erbyn hynny yr oedd yr orymdaith wedi ymddolennu yn llythyrennol am y dref. Yr oedd y seindorf gyntaf,—blaenorydd yr wyth mil pobl,—wedi dod yn ol i'r Maes cyn i'r seindorf olaf adael y lle. Ac eto ni fu un gwrthdarawiad na cham drefn. Yr oedd y cynlluniau yn rhagorol, a chawsant eu cario allan gyda doethineb a phwyll.

Bellach, y mae'n llawn bryd i minnau gychwyn tua'r Pavilion. Y mae y fynedfa sydd yn arwain at y pyrth allanol, chwi wyddoch, yn hynod o gul, a llawer brwydr galed a ymladdwyd yma, ar adeg cyfarfodydd mawr. Wrth gwrs, treiswyr sydd yn ei chipio hi ar adegau o'r fath. Nid oes gan Zacheus o ddyn unrhyw siawns yn y fynedfa hon, pan y mae ymgais torf i fyned i mewn yn debyg i ymgais llanw y môr i fyned drwy agen mewn mur. Ond heddyw yr hyn sydd yn agor y pyrth ydyw—bod yn chwarelwr. Nid taldra dyn, nid ei nerth corfforol sydd yn cario y dydd, ond presenoldeb yr arwydd gosodedig,—y "ruban gwyn" ar y frest. A chan fod hwn gennyf yr oedd y ffordd yn rhydd, a phopeth yn dda.

Ond wedi mynd at ddrysau y Pavilion fe gwrddais ag anhawsder newydd. Teimlwn yn awyddus i gael eistedd yn rhywle ar y llwyfan er mwyn bod mewn mantais i ffurfio syniad,—y syniad mwyaf cywir,—am y cynulliad. Ond buan y deallais fod y llwyfan yn gysegredig i'r "swyddogion,"—swyddogion pwyllgorau lluosog yr Undeb. Beth oedd i'w wneyd? Dyna y safon wedi codi yn awr? Nod angen y llwyfan ydyw, nid bod yn chwarelwr yn unig, ond bod yn swyddog hefyd. Gwesgais at y ddor. Clywais wr gyda chadach gwyn am ei wddf yn ymliw a'r porthwr, gan ddweyd, — "Bum innau yn

chwarelwr, frawd; onid ydych yn fy nghofio yn Chwarel y Cae?" "Ie, ie," ebe'r porthwr, "ond swyddogion yn unig sydd i fod ar y platfform." Gwelais nad oedd y cerdyn hwn ddim yn tycio. Ond gwir a ddywed y ddihareb, — "Angen yw mam dyfais." Euthum ymlaen at y ddor mor hyderus ag y gallwn, a dyma'r cwestiwn yn dod ataf gyda grym,—"A ydych chwi yn swyddog?"

"Cynrychiolydd," ebwn innau, yn foesgar.

"Cynrychiolydd o ble," meddai y swyddog.

"Cynrychiolydd Cymru."

"Brensiach anwyl!" ebai dyn o bryd tywyll a safai gerllaw i'r swyddog,—"gad i hwn basio heb ddim lol. I fyny a chi, syr!" Cymanfa. Ar adeg felly, bydd yr hen wr penllwyd a'r bachgennyn, gwragedd a phlant, yn bresennol. Heddyw, gwneir y dorf fawr i fyny braidd yn gwbl o ddynion, heb wan ifanc na gwan hen yn eu mysg. Edrychwch yma a thraw, dyna a welir,—dynion cydnerth, deallus o olwg, a thrwsiadus o wisg. Wrth dremio arnynt y syniad sydd yn dod yn naturiol i'r meddwl ydyw *nerth*—nerth corff a nerth ysbryd. Nid oes yma ddim twrf, dim terfysg; ymddengys yr oll yn ddymunol; nid oes noeth arf yn llaw yr un ohonynt, ond y mae yna ryw *rym* cyfrin yn teyrnasu ar eu gwedd. Ymddengys hynny yn ddiamheuol pan safant i fyny fel coedwig o dderi, i gyd-ganu hen emyn gysegredig y chwarelwyr;



Felly fu; cefais eisteddle fanteisiol yn ymyl boneddwr Seisnig, ffasiwnol. Na, fel mae byw fi, nid yw yn neb amgen na fy hen ffrynd—yr arlunydd!

"Sut y daethost ti i mewn?" meddwn, mewn syndod. Wedi cael yr eglurhad, deallais ein bod ill dau wedi dringo y llwyfan yng nghysgod—Cymru!

Yr oedd yr olygfa yn awr yn wir fawreddog; y llwyfan, y llawr, a'r orielau yn llawn o bobl. Ni welir ddim tebyg i hyn yn y Pavilion, ond ar foreu Sassiwn—yn yr oedfa ddeg o'r gloch, pan y bydd un o feistriaid y gynulleidfa yn annerch y dorf. Ond y mae cryn wahaniaeth rhwng y gynulleidfa heddyw a'r hyn a welir mewn emyn ag adgofion brwydrau dros ryddid yn nofio drwy ei hacenion! Rhoddir hi allan y waith hon gan chwarelwr cerddgar o'r Waen Fawr,—

"O Arglwydd Dduw Rhagluniaeth
Ac iachawdwriaeth dyn,
Tydi sy'n llywodraethu
Y byd a'r nef dy hun;
Yn wyneb pob caledi
Y sydd, neu eto ddaw,
Dod gadarn gymorth imi
I lechu yn dy law."

Dyna ganu bendigedig! A pha ryfedd? Y mae llu mawr o'r dyrfa hon yn gantorion gwirioneddol, ac y mae eu holl enaid yn y canu. I glywed yr hen bennill a'r dôn

bresennol, eu clywed yn eu gogoniant, y mae'n rhaid i chwi fynd i gynulleidfa o chwarelwyr. Dyma eu *Marseillaise* hwy; dyma guddiad eu cryfder yn y gorffennol; yng ngrym y gwirioneddau ysbrydol hyn,—cydnabyddiaeth o Dduw fel Llywodraethwr Moesol, ffydd yn ei Ragluniaeth, a'r dymuniad i "lechu yn ei law,"—dyna roddes nerth iddynt yn y dyddiau fu, a gweddi Cymru ar eu rhan ydyw, Bydded felly yn y dyfodol,—

"Yn wyneb pob caledi
Y sydd, neu eto ddaw."

Nid wyf yn bwriadu manylu ar yr anerchiadau a draddodwyd yn y cyfarfod hwn. Onid yw y newyddiaduron wedi eu cofnodi yn helaeth, a darllenwyr CYMRU yn hysbys ohonynt? Yr oedd araeth y Llywydd (Mr. W. J. Parry) yn glir, yn goeth, ac yn urddasol. Cafodd Syr John Gorst dderbyniad gweddus; yr oedd y ffaith ei fod yn siarad Saesneg yn gryn anfantais i'w sylwadau, ond bu yn ddoethach na llawer Sais a glywais yn blino tyrfa yn y Pavilion; cafodd ddoethineb, bu bron i mi a dweyd, cafodd râs i fod yn fyr. Gwych o beth fyddai i Saeson y dyfodol ei efelychu yn y rhinwedd derbyniol hwn. Siaradwyd, hefyd, gan amryw o'r chwarelwyr eu hunain, a gwnaethont eu rhan yn hynod lwyddiannus. Yr oedd ganddynt leisiau da, mater da, a dull medrus o'i gyflwyno i sylw y gwrandawyr. Dechreuent yn debyg i hyn,—"Mr. Llywydd, Foneddigesau a Boneddigion,"—mewn llais isel, sych,—ac yna troent at y gynulleidfa fawr, gan ddweyd,—"Anwyl Gydweithwyr!" mewn llais cynnes, tanbaid, oedd yn treiddio i gwr pellaf yr adeilad. Yr oedd pob un ohonynt yn gwneyd ei farc, a chyrhaeddodd un siaradwr yn bur agos i diriogaeth hyawdledd digymysg. Nid rhyfedd fod Mabon, er yn areithydd doniol a thra phoblogaidd, nid rhyfedd ei fod yn teimlo yn lled ddigalon i geisio dilyn y fath doraeth o synwyr, meddylgarwch, a dawn, ond gwnaeth yntau y gorchwyl a ymddiriedwyd iddo yn deilwng o hono ei hun, er nad ydoedd yr oedfa yn un mor "hwyliog" ag ambell un o'i eiddo yn y dref hon.

Erbyn hyn yr oedd y lle wedi mynd yn bur boeth, a da oedd gennym gael ymwahanu, a mynd allan i'r awyr agored. Y peth nesaf ar y drefnlen oedd cyfarfod yn y Maes, i glywed yr holl seindyrf yn chwareu "Rhyfelgyrch Gwyr Harlech." Yr oedd trigolion y dref a'r wlad wedi dod yno i weled a chlywed, a phan ddychwelodd y fintai o'r Pavilion, yr oedd y Maes yn orlawn, bob cwr o hono. Nid wyf yn cofio gweled cynifer o bobl ar y Maes er adeg cyhoeddi canlyniad brwydr etholiadol 1880. Yn y canol safai cerf-ddelw Syr Huw Owen—un o gyfeillion goreu gweithwyr Cymru, amddiffynnydd addysg rydd a rhad, a gŵr a aberthodd ei hun ar allor buddiannau ei wlad enedigol. Gellir dweyd fod yna gydgord hapus rhwng y gof-golofn a'r dyrfa sydd heddyw o'i hamgylch. Bron na themtid un i gredu fod ysbryd y gwron Cymreig yn gwenu ar y cynulliad, ac yn barod i ddweyd, —"Dyma ddrychfeddyliau fy oes yn dechreu cael eu sylweddoli; meibion llafur, yr ymdrechais hyd eithaf fy ngallu o'u plaid, yn ymuno a'u gilydd i amcanion uchel a theilwng. Bendith arnoch, fechgyn y chwarelau. Bellach, byddwch unol, byddwch wŷr!" Draw, dacw'r hen Gastell cadarn, a'i furiau wedi eu llenwi ag edrychwyr aiddgar—Tŵr y Gwylwyr, Tŵr y Ffynnon, a'r holl uchelfannau, wedi eu meddiannu yn hollol, a hynny nid gan filwyr estronol, ond gan Gymry llawen, a meddyliau heddwch ac nid niwaid yn cyniwair drwy eu calonnau. Yr oedd llinellau Ceiriog yn rhedeg yn naturiol i'r cof,—

"Mae ysbryd yn y Castell hwn,
Ac nid oes Gymro tan y nef
Eill basio tan y muriau mawr,
Na sylla'r ysbryd arno ef;
O ben y tŵr a phen y mur,
Fe laddodd filoedd yn ei wg,
Ond ysbryd *da* yw ef yn awr,
Er iddo fod yn ysbryd drwg."

Ie, "ysbryd *da* yw ef yn awr;" os felly, nis gallai yntau lai na llongyfarch meibion llafur ar ddydd eu Gwyl.

Ni chanwyd "Gwyr Harlech" er disgwyl am dani. Ardderchog fuasai cael datganiad gan bigion seindyrf yr ardaloedd o alaw Gymreig ar ddydd yr uchelwyl, ac nid oes fangre fwy addas i wneyd hynny na'r "Maes" hanesyddol sydd yng nghanol tref Caernarfon.

Bellach, y mae y gweithrediadau drosodd; yr heolydd wedi gwaghau, a'r tyrfaoedd wedi ymadael. Ni fu un ddamwain yn ystod y dydd, ac yr oedd ymddygiad y chwarelwyr eu hunain yn gwbl weddus a theilwng. Ein cred ydyw fod yr Wyl gyntaf hon yn llwyddiant, ac yn argoeli yn dda ar gyfer y dyfodol. Bu yn fantais i weithwyr ardaloedd amrywiol i weled eu gilydd, ac i adnabod eu gilydd yn well. Tynwyd i lawr ganol-fur y gwahaniaeth, a danghoswyd mai eu diogelwch ydyw cadw eu golwg ar eu llesiant cyffredinol. Cawsant fantais i roddi mynegiad effeithiol i'r materion hynny sydd yn dal perthynas hanfodol â'u llafur ac â'u cysuron, a rhoddasant ddigon o brawf mai nid penboethiaid eithafol sydd ynglyn âg Undeb y Chwarelwyr, ond yn hytrach dynion difrifol, wedi eu meddiannu, nid gan ysbryd ofn, ond gan "ysbryd barn, cariad, a phwyll." SYLWEDYDD.

IDRIS VYCHAN.

III.

WEDI ceisio o'r blaen ysgrifennu ychydig ar Idris Vychan fel bardd a llenor, hwyrach na fyddai yn iawn, nag yn chwareu teg a'i goffadwriaeth, ei adael heb geisio ymhellach edrych arno yn y cymeriad yr oedd yn fwyaf hysbys a nodedig,—sef fel datgeiniad gyda'r tannau. Am ddechreu ei yrfa gyda'r ddysgeidiaeth honno, ysgrifennodd ef ei hun fel hyn,—

"Y modd y dysgais i ganu gyda'r tannau ydoedd fod y teulu o ochr fy mam yn nodedig fel datgeiniaid Yr oedd fy nain yn hynod felly; byddai yr hen grythor enwog Lewis Roberts (Eos Twrog), yn aml yn ein ty ni; a chlywais ef yn dweyd ei fod yn gefnder ddwywaith i fy nain, 'a bod ein teulu ni,' chwedl yntau, yn 'gantorion i gyd.' Yr oedd Ellis Roberts (Eos Meirion), yn berthynas agos i mi o ochr fy mam. Yr oedd ef a fy mrawd Meurig (Meurig Idris) o'r un oed, ac yn canlyn eu gilydd bob amser. Deuai â'r delyn deir-res i'n ty ni, a chlywais fy nain a fy mam a'm brawd yn rhoi pennill tu mewn i'r hen fantell simneu lawer tro. Hyn a gododd awydd yn gyntaf ynwyf i ddysgu cerdd dant. Aethum i weithio at John Roberts o'r Ty Mawr, Dolgellau, yr hwn oedd yn ddatgeiniad tra enwog; medrai lawer o'r hen alawon Cymreig, ac fe fyddai yn eu chwibanu bron bob amser. Dysgais lawer o'r hen alawon wrth ei glywed ef. Yr oedd fy nghydweithwyr hefyd yn gantorion da, a byddent yn canu i mi yn lle y delyn, a minnau yn eu dilyn â phenillion. Ac fel yna y dysgais, o dipyn i beth, ganu gyda'r delyn."

Ysgrifennodd hefyd fel hyn,—

"John Roberts o'r Ty Mawr, a'm dysgodd ychydig gyda chanu hefo'r tannau, ac ar yr alaw a elwir 'Tri a Chwech' y dysgodd i mi ganu arni gyntaf. Nid oedd neb arall ar y pryd yn Nolgellau yn medru canu ar yr alaw honno."

Credaf mai dyna yr oll sydd ar gael o hanes dechreuad ei yrfa fel datgeiniad wedi ei ysgrifennu ganddo ef ei hun. Ond ar adegau, pan mewn tipyn o hwyl, byddai yn hoffi siarad am adeg ddedwydd boreu oes yn Nolgellau.

Gŵr ieuanc, pump ar hugain oed, oedd ef yn Eisteddfod Rhuddlan, pan y dringodd, megis ag un cam, i ben yr ysgol, ac y curodd hen gewri o ddatgeiniaid oedd ar y maes er ys llawer blwyddyn hir o'i flaen, a chlywais ef aml i dro yn ei ddull cartrefol a diymhongar yn dweyd,—"Mi fedrwn i ganu hefo'r tannau yr adeg honno welwch chwi." A dyma yr adeg, meddai ef, y cafodd hamdden i efrydu cerdd dant a cherdd dafod; a byddai yr awen weithiau yn ymweled âg ef yn oriau'r nos, a chodai yntau o'i wely, ac ysgrifennai ei nosfeddyliau ar barwydydd gwyn-galchog ei ystafell. A chyn iddo gysgu am y tro olaf yno, yr oedd, meddai ef, y pedwar pared agos wedi eu llenwi â'i ysgrifennu. Yr oedd yr arfer boreu oes yma yn ei ddilyn i henaint. Welis i neb parotach i dynnu y pensil allan mewn mater o iawn sillebiaeth neu gynghanedd, mewn gair neu linell. "Gadewch i ni weld sut y mae o yn edrych wedi ei ysgrifennu," meddai. Yr oedd ymddanghosiad y gair i'r llygad agos mor bwysig a'i swn i'r glust ganddo ef. Fel y dywedwyd, llafuriodd yn galed am wybodaeth yn y tymor hwn, a dywedai mai da iawn fu iddo ei fod wedi gwneyd hynny; canys yn fuan wedi gadael Dolgellau, a sefydlu yn Llunden, dechreuodd y byd a'i drafferthion wasgu arno fel na cheid amser na hamdden i efrydu ond ychydig.

Pan oedd telynau a thelynorion yn dechreu prinhau yng Nghymru, dechreuwyd yr arfer o ddynwared y delyn gyda'r llais; ac yn gyffredin gyda seiniau y mae Idris Vychan, wedi ysgrifenu, fel hyn,—Rym-tym-tirympti-dympti-tympti. Telyn groen y galwai Talhaiarn ac ereill y math yma o delyn, ac yr oedd aml i delyn groen yn ddoniol dros ben, ac yn gallu efelychu y delyn agos i berffeithrwydd. Dywedai Idris Vychan fod rhai o'i gydweithwyr felly yn Nolgellau; a chan fod y meistr ei hun yn ddatgeiniad mor enwog, yr oedd yno le campus i ymarfer â chanu gyda'r tannau. Ac yma yn ddiameu y cafodd yr ymarferiad goreu, gwell nag a gafodd byth wedyn. A bu raid i'r ymarferiad hwnnw wneyd iddo megis am ei oes. Canys wedi mynd i Loegr, collwyd yr holl gyfleusderau i ymarfer, hynny yw, i ymarfer i bwrpas gyda thelynor; a bu raid iddo gychwyn i lawer Eisteddfod i ganu gyda'r tannau, heb gael dim ymarferiad; a chlywais ef rai gweithiau yn dweyd ei fod lawer tro wedi teimlo yr anfantais a'r golled o hynny, pan ar y llwyfan yn cyd-ganu gyda dadgeiniaid medrus y gwyddai oedd wedi bod yn ymarfer yn ddyfal am fisoedd cyn hynny. Ond yr oedd ef rywfodd yn ymddangos yn barod ar bob adeg gyda phenillion ar unrhyw alaw a ddigwyddai gael ei chwareu iddo.

Nid wyf yn gwybod faint o delynorion oedd yn Nolgellau yn ei adeg ef; Robert Rowland o Lanarmon (Robin Dywyll), ac Elis Roberts (Eos Meirion), oedd y ddau y byddai yn siarad mwyaf am danynt. Dywedai y byddai Elis Roberts yn arfer dweyd am Robert Rowland fod ganddo ddwylaw a bysedd heb eu cyffelyb. A chanodd Meurig Idris y pennill canlynol iddynt,—

"Dwylaw Rhobert wnai'r delyn
Siarad, gyda theimlad dyn;
Bysedd hirion, meinion mâd,
Gwiw folir eu gafaeliad."

Yr hen delynor nodedig hwn a glywodd Talhaiarn yn chwareu yr alaw hynod "Moel y Wyddfa," ac fel yr oedd ef yn ei chwareu yr ysgrifennwyd hi am y waith gyntaf. Dywedir ei fod yn arfer gan y telynorion i sylwi llawer ar ddwylaw a bysedd, yn enwedig ar ddwylaw a bysedd eu gilydd. Nid wyf yn sicr a fu Idris Vychan yn ymarfer canu gyda Robert Rowland ai peidio. Credaf hynny gan ei fod mor hoff o son am dano. Ond gyda'i gefnder Elis Roberts bu yn canu llawer. Credai Eos Twrog mai Elis Roberts oedd y chwareuydd goreu ar y delyn deirres gododd yng Nghymru erioed; ond fel chwareuydd i'r datgeiniaid y byddai Idris Vychan yn dweyd am dano na welodd ei gyffelyb, ei fod yn deall canu gyda'r tannau lawn cystal os nad yn well na'r datgeiniaid eu hunain, ac iddo ddangos hynny yn adeg y gystadleuaeth fawr yn Rhuddlan, pan ddywedodd yn gyhoeddus wrth y beirniaid,—Gwrgant, Talhaiarn, a Meurig Idris,—nad oedd yn iawn iddynt farnu pwy oedd y goreu wedi canu dim ond un "round," ond fod eisiau dwy neu dair o'r hyn lleiaf, a dau neu dri o wahanol delynorion i chwareu; a pharodd hynny iddynt ail ddechreu y gystadleuaeth. Yr oedd Elis Roberts hefyd yn llenor enwog, a cholled fawr i lenyddiaeth Cymru ydyw fod ei draethawd buddugol ar y delyn deir-res yn Eisteddfod Llangollen, 1858, wedi mynd ar goll. Yr oedd hefyd yn gyfansoddwr cerddorol, ac yn ganwr lled enwog; ac mewn hen lyfr oedd unwaith yn eiddo i Meurig Idris, y mae carol, a'r nodiad canlynol yng nglyn ag ef,—

"Y carol uchod a gyfansoddwyd ar fyr amser i Elis Roberts a John Jones, brawd yr awdwr, i'w ddatganu ym mhlygain Eglwys Mair, Dolgellau. 1844, Meurig Idris."

Cryn fraint a fuasai clywed y ddau a ystyrrir erbyn hyn yn brif delynor a phrif ddatgeiniad yn canu carol gyda'u gilydd.

Ond fel y dywedwyd cafodd Idris Vychan lawer o ymarferiad a hyfforddiant gyda cherdd dant gan Elis Roberts. Cydnabyddodd hynny lawer gwaith; ac yn yr un llyfr ag y soniwyd am dano, ceir englyn, a nodiad wrtho fel hyn,—

"Englyn ar fy nychweliad o glera, gydag Elis Roberts, delynor, ac eraill, o fis Medi, hyd ddiwedd y Rhagfyr, 1846.

"Yn dyrus dramwy dros dri mis—y bum,
Yn ben ar wŷr Elis;
Yn wir mwy, nid hanner mis,
Yn crwydro, ceir cawr Idris."—M. J.

Bu Idris Vychan mewn rhai lleoedd gyda'r cwmni hwn, ond ychydig o fanylion a gefais ganddo o'i hanes, heblaw mai cantorion gyda'r tannau oedd ef a'i frawd, am yr hwn y dywedai mai gwaith anhawdd oedd cydganu ag ef, yn herwydd ei lais isel, gan y byddai y telynor yn gorfod chwareu yr alaw yn llawer is na'r cywair priodol, er cydgordio a llais *basso profundo* Meurig Idris. I Feurig Idris y canodd ei frawd yr englyn hwn,—

"Llais y môr yw llais Meurig,—neu daran
Yn ymdorri'n ffyrnig;
Crwn ydyw, swn crynedig,
Hynod mewn gormod o gig."

Llais bariton ysgafn oedd gan Idris Vychan, a byddai yntau yn cwyno weithiau fod lleisiau rhai datgeiniad y byddai yn gyffredin yn cydganu â hwy yn uwch na'i lais ef, ac y byddai y telynorion yn chwareu rhai alawon mewn cywair rhy uchel iddo. Cywair priodol i lais y datgeiniad, a chadw amser, oedd yn bwysig i'r telynor pan yn chwareu iddo ef; ac oni allai wneyd hynny, byddai yn lled debyg o dderbyn gwers chwerw ganddo. Gwelais ef wedi hanner gwylltio wrth wr o Sais oedd yn gerddor proffesedig ac yn delynor campus, ond heb ymarfer a chwareu i'r datgeiniaid. Llwyn Onn oedd yr alaw, a phan darawodd ein hen gyfaill i mewn yn y pumed *bar*, gyda phennill chwe' llinell, dyryswyd y telynor yn lân, a thaflwyd ef allan o'r alaw, a llefai y datgeiniad yn ei wyneb "Go on, man." Wedi i hynny fynd trosodd, dywedai y telynor mai ei brofiad oedd wedi oes lled faith o delynori, fod chwareu o'r cof i'r datgeiniaid y peth mwyaf anhawdd y bu yn ceisio ei wneyd erioed. A diameu hynny, yn enwedig felly iddo ef, nad oedd yn deall yr iaith, na chwaith yn deall dim am y gwahaniaeth sydd rhwng y canu hwn a phob canu arall. Y mae hwn, fel y dywedir, o chwith i bob math arall o ganu yn y cysylltiad sydd rhwng yr offeryn a'r canwr. Canys gyda chanu yn gyffredin y llais sydd yn canu yr alaw, a'r offeryn yn ei ddilyn mewn cynghanedd gyffelyb. Ond fel arall gyda cherdd dant; yr offeryn sydd yma yn chwareu yr alaw, a'r llais drachefn yn dilyn yr offeryn. Ni ddechreuir chwaith yn nechreu yr alaw, ond gwneir hynny yn y *bar* priodol i hyd y pennill a genir, fel y gellir diweddu ar yr un adeg a nodyn olaf yr alaw. Hynodrwydd arbennig arall sydd yn perthyn i'r canu yma ydyw mai math o adroddiad ar gân ydyw, mewn cydgord â'r alaw a chwareuir. Ni cheir dim yn debyg iddo o ran henafiaeth a neillduoledd ym mhlith holl arferion Cymru.

Ond at y testun—nid wyf yn gwybod ymha nifer o Eisteddfodau y bu Idris Vychan yn fuddugol ynddynt, cyn ei ddyrchafu yn

feirniad. Ond clywais ef yn dweyd lawer tro ei fod wedi bod mor ffodus ag ennill ym mhob cystadleuaeth y bu ynddi. Gwaith anhawdd iawn oedd ennill, meddai ef, ddeng mlynedd-ar-hugain yn ol, a bu agos iawn iddo gael ei drechu rai gweithiau, yn enwedig felly un tro pan yn cystadlu mewn Eisteddfod yn Llunden, tua'r flwyddyn 1852, gyda'r datgeiniad enwog hwnnw,—Isaac Jones, Bryn Goleu, Rhuthyn, —yr hwn, meddai, oedd y goreu o'r holl ddatgeiniaid glywodd ef. Dywedai fod Isaac Jones wedi canu yn well nag ef yn nechreu y gystadleuaeth, a bod yr alaw wedi ei nhewid lawer gwaith, ac iddynt ddal ati i ganu, tra y gallodd bysedd y telynor ddal ati i chwareu. Ond yn agos i'r diwedd methodd Isaac Jones ddwy waith,—anghofio ei bennill mewn un "round," a methu terfynu yr un pryd a'r delyn mewn "round" arall. Felly collodd y wobr. Hon a ystyriai Idris Vychan y galetaf o bob cystadleuaeth y bu ynddi; a dyma yr unig dro iddo gael ei gario yn fuddugoliaethus oddi ar y llwyfan, ar ysgwyddau ei gyfeillion. Cystadleuaeth fawr fu rhwng y datgeiniaid yn Eisteddfod Llangollen, 1858, ac Idris Vychan a farnwyd yn oreu o'r wyth oedd yn datganu. Meddai un o'r wyth wrthyf tua blwyddyn yn ol,—"Y fo oedd y goreu hefyd och chi, mi curodd ni i gyd yn eitha' teg." Er ei fod, fel y dywedwyd, wedi ennill ym mhob cystadleuaeth y bu ynddi, eto ni byddai efe byth yn ymorchestu, nac yn son am hynny, ond yn unig pan fyddid yn ei holi ynghylch pethau felly. Clywais ef hefyd yn dweyd ei fod yn ystyried rhai o'i gyd-ddatgeiniaid yn well cantorion nag ef, am fod ganddynt well lleisiau. Ond, er hynny, ni fynnai fod neb o honynt yn deall cerdd dant yn well nag ef, na chystal.

Yr oedd hefyd yn fwy nodedig na neb welais i yn ei ymddanghosiad personol wrth ochr y delyn; a chredaf fi fod y delyn o ran yr olwg arni yn hardd a swynol, a phriodol iawn y gelwir hi yn frenhines yr holl offerynau cerdd. Nis gwn ai hynny sydd yn peri fod y datgeiniaid gyda'r delyn yn rhagori yn fawr ar gantorion ereill yn eu hymgais i osod eu hunain i ymddangos yn y wedd oreu o ran eu hagwedd corfforol o flaen cynulleidfa. Nid ydynt hwy byth yn sefyll yn ddifater, gyda dau droed yn ymyl eu gilydd, ac yn edrych mewn llyfrau, fel y mae cryn lawer o gantorion ereill. Ond rhaid iddynt fod yn effro a llawn bywyd a gwyliadwriaeth, gan nad oes ganddynt lyfr na dim arall, ond yn unig y cof, i ymddibynnu arno. Ac y mae eisiau adnabod yr alaw, cofio penillion, a gwybod y lle priodol i ddechreu canu y penillion hynny, a'r cyfan i'w cofio agos yr un adeg, gyda'r gorchestwaith nodedig hwn. Y pethau hyn ynghyd a phresenoldeb yr offeryn, hwnnw y mae "iaith enaid ar ei thannau," sydd megis yn hanner ysbrydoli y datgeiniaid lawer tro. Y mae hyn oll yn wir iawn am Idris Vychan. Edrycher arno yn mynd i fynu i lwyfan yr Eisteddfod, yn cerdded braidd yn araf, a'i ben i lawr, i ymyl y delyn. Yna try ei hun o gwmpas, ac wedi taflu un golwg ar y delyn, a symud ei hun yn agosach ati, fel at gariad-ferch anwylaf, cwyd ei ben i fyny, a gesyd ei droed de ym mlaenaf, edrycha o'i gwmpas gyda gwên foddhaus, a phan ddechreua y tannau,—gyda'u rym-tym-tirympti-dympti,—mae blaen y troed de a bysedd y llaw chwith yn dechreu symud i ganlyn amser yr alaw,—ac yn sydyn dyna lais y gellir ei glywed o bob rhan o'r adeilad yn taro i mewn i'r alaw. Ac y mae geiriau y pennill yn cael eu hadrodd ar gân, a'u gosod i gydgordio yn gywrain a nodau yr alaw,—acen i acen, y mynegiant a'r brawddegau yn rheolaidd a chywir, a'r diweddu yn wir ddoniol, ac i'r eiliad yr un adeg a'r delyn. A phan yn dechreu yr ail bennill, y mae y llaw dde yn cael ei chodi i fyny, a'r pen yn cael ei godi yn uwch, a chyn diweddu y mae y llaw chwith hefyd yn cael ei chodi tua chyfeiriad y pen. Hyn ynghyda'r olwg ar y gwyneb barddonol a'r llygaid deallgar, a roddai i'r datganydd ymddanghosiad nodedig a gwir ddyddorol. Nid ydyw y gwawlddarlun sydd wedi ymddangos o hono,* ond danghosiad lled egwan o'r hyn fyddai pan wedi myned i'r hwyl yn canu gyda'r tannau.

Yr oedd Idris Vychan braidd bob amser yn canu penillion yn y cywair mwyaf, yr oedd ei lais felly yn fwy naturiol yn y cywair hwnnw, tra y mae datgeiniaid ereill yn fwy tueddol i ganu bob amser yn y cywair lleddf; ac i chwaeth a chlust y mwyafrif o Gymry, y cywair hwnnw ydyw y mwyaf swynol, yn enwedig felly gyda chanu penillion. Hyn, hwyrach, sydd yn cyfrif mai nid swyn a hudoliaeth oedd yn nodweddu ei ganu ef; ond yn hytrach credaf mai ei brif hynodrwydd oedd medr a chywreinrwydd yn gosod ei benillion ar yr alawon, a'r modd doniol y byddai bob amser yn gallu diweddu. Ni byddai byth yn hoffi bod ei hunan ar y llwyfan yn canu. Canys meddai, "Gwaith caled iawn ydyw i un." Heblaw hynny, nid oes yn agos gymaint o ddifyrrwch i'w gael. Canys bo fwyaf fyddo nifer y datgeiniaid, mwyaf oll o amrywiaeth a gwir ddifyrrwch a geir. A byddai hen Eisteddfodau agos yn wastad yn cyflogi tri o ddatgeiniaid,—ac yn un o dri y ceir hanes am Idris Vychan, mi gredaf, yn gwasanaethu am y waith gyntaf

* Gwel Cymru ii. 57.

fel datgeiniad cyflogedig, gyda Thomas Edwards, Corwen, ac Eos Môn, yn Eisteddfodd Caernarfon, yn 1862. Yr oedd hefyd yn un o dri yn Eisteddfod Aberystwyth, yn 1865, ac wedi hynny yng Nghaerlleon yn 1866, ac yma yr enillodd efe am draethawd ar ganu gyda'r tannau. Y beirniaid oedd Talhaiarn, Owen Alaw, a Pencerdd Gwalia. Nid oedd ond un traethawd yn y gystadleuaeth, a chlywais Idris Vychan yn dweyd i Dalhaiarn ddod ato yn yr Eisteddfod a'i gyfarch fel hyn,—"Y thdi ydi awdwr y traethawd yna sydd wedi dod i mewn ar ganu gyda'r tannau, ynte?" Ac yntau yn methu gwybod sut i ateb, meddai Talhaiarn wrtho,—"Wel ie, waeth iti heb wadu, does neb arall all wneyd traethawd fel yna ond y thdi," a throdd ar ei sawdl heb air ymhellach. "A bum i yn meddwl wedyn," meddai Idris Vychan, "mai dyna y ganmoliaeth uchaf gefais erioed; a waeth heb wadu, yr oeddwn yn teimlo yn falch am y dywediad, gan ei fod wedi dyfod oddiwrth fardd a datgeiniad o enwogrwydd Talhaiarn." Ac y mae amser wedi profi nad oedd dywediad Talhaiarn ymhell o'i le. Os oes rhai yn gallu ysgrifennu ar ganu gyda'r tannau, ychydig sydd wedi gwneyd hynny, er i'r pwnc fod yn destun mewn Eisteddfodau ddwywaith o'r hyn lleiaf ar ol yr adeg yma,—sef ym Mangor yn 1874, ac un traethawd a ddaeth i law; ac yn Llandudno yn 1887, pryd y daeth dau draethawd i law. Fodd bynnag, credaf y gellir dweyd mai Idris Vychan ddechreuodd y gwaith o roi hanes canu gyda'r tannau ar ddalennau llenyddiaeth Gymreig. Cyn hynny, yr oedd cyfrinach y ddysgeidiaeth wedi bod ynghadw ym mhenglogau y datgeiniaid a'r telynorion, ac yn cael ei dysgu ganddynt i'w gilydd, megis o enau i enau. A chan fod nifer y telynorion a'r datgeiniaid yn mynd yn llai bob blwyddyn, felly hefyd y mae yr hen ddull swynol o ganu gyda'r delyn yn prysur ddarfod o'n gwlad. Fel hyn yr ysgrifennai Idris Vychan am hyn chwe blynedd ar hugain yn ol,—

"Wrth feddwl fod canu gyda'r delyn wedi bod mewn cymaint o fri mewn llysoedd brenhinol ac ym mhalasau ein pendefigion, gresyn iddo, onide, golli ei fri cyntefig. Ond pan y mae unrhyw beth wedi myned yn isel ac yn anrhefnus a bron a darfod, y mae yn beth lled anhawdd i'w godi i'w fri cyntefig, bydded y peth mor deilwng ag y bo; unwaith yr a i lawr, i lawr y caiff fod. Y mae y wythien gerddorol hon wedi parhau ar hyd yr holl oesoedd, er cymaint a lefarwyd yn ei herbyn, ac y mae yn beth digon rhyfedd ei bod hi ar gael o gwbl. Os y credwn mewn Tynged, nid oedd iddi dynu ei hanadl ati a marw."

Gwnaeth Idris Vychan bopeth yn ei allu i ddal i fyny a chadw yn fyw y delyn a'r canu cenhedlaethol, fel y byddai ef bob amser yn ei alw. Ac mor brydferth a nodweddiadol ydyw yr apeliad canlynol o'i eiddo ar eu rhan,—

"Chwi fechgyn Cymru, a chwi lodesi gwlad y gân, cyfodwch o ddifrif i ddysgu ac annog eich gilydd i ddysgu penillion cymwys i'w dadganu, a mynnwch ddwyn ein hen alawon i fwy o sylw. Siaradwch yn dda am y delyn, dysgwch ei chwareu fel yn y dyddiau gynt. Oni fyddai yn beth hyfryd gweled meibion ein gwlad yn berchenogion ar delynau, telynau i'w clywed ym mhob ardal, ac ambell i henafgwr i'w weled o dan y pren almon ar aelwydydd ein gwlad yn hirnos y gauaf yn canu, fel rhyw hen dderwydd, ganiadau ar y delyn, a'r teulu i gyd yn mwynhau y wledd,—

'Pawb a'i bennill yn ei gwrs,
Heb sôn am bwrs y cybydd.'"

Unwaith, a hynny yn Lerpwl, y digwyddodd i mi weled Idris Vychan yn torri hen reol a fu yn perthyn i'r datgeiniaid, sef codi i ganu heb i wr y ty, na neb arall, ofyn iddo. Fel arall y byddai bob amser; tuedd i sefyll yn ol, ychydig o'r awydd gwthio ei hun i'r blaen oedd ynddo. Ond y tro hwn yr oedd ef a minnau a chyfaill arall yn rhodio heolydd Lerpwl un prydnawn Sadwrn, pan y clywem swn telyn mewn ty neillduol yno. Ac i mewn a ni, i ystafell fawr oedd agos yn llawn o Gymry. Yr oedd un hen ddatgeiniad yn sefyll yn bennoeth, a'i het yn hongian ar grib y delyn, popeth yn barod i ddechreu canu. Ond y mae un o'r cwmni, er mwyn tipyn o ddifyrrwch, yn tynnu yr het i lawr ac yn dweyd wrth y perchennog nad oedd ef yn ganwr digon da i gael hongian ei het ar y delyn. Hen arferiad nodedig ydyw hon, a'r cantorion goreu yn unig oedd yn hawlio y fraint o "roi cap ar y delyn." Beth bynnag, gwrthodai y canwr yn bendant ganu yr un sill heb i'r het gael ei rhoi yn ei hol. Ac wedi tipyn o ddadl, felly fu. Chwareuwyd Pen Rhaw, ac wedi canu tua hanner dwsin o benillion arni, eisteddai y canwr i lawr yn ymyl y cyfaill arall a minnau, ac wrth weled ein bod yn ddieithr, mentrodd ofyn,—"O ble yr ydach chi eich tri yn dwad, mod i mor hy' a gofyn?" "O Manchester," meddai fy nghyfaill. "Ho," meddai yntau, "ydach chi yn nabod Idris Vychan acw?" "Ydan, yn dda." "Sut y mae o? Canwr iawn hefo'r tannau ydi o. Tydw i ddim, 'ochi, yn rhoi fy hun yn rhyw lawer o law hefo'r canu penillion yma, ond am ganu hen gerddi o waith Huw Morus a Thwm o'r Nant, do's neb yn dwad i'r ty yma yn medru mwy na fi. Mi gana i dipyn o benillion eto, os leiciwch chi." Ac ymaith ag ef at y delyn, ac yr oedd yn dda gennym ei weled yn mynd. Canys ni allasem ddal lawer yn hwy heb fradychu ein hunain. Fodd bynnag, wedi iddo ganu pennill neu ddau, dyna Idris Vychan yn troi atom yn sydyn, ac yn dweyd,—"Mi

ro innau bennill y tro yma hefo fo, gan nad oes yma neb yn ein 'nabod ni." Ac er syndod i ni, cododd a safodd yn ei ochr. Ni chymerodd yr hen ganwr ddim sylw o hyn, ond canodd ymlaen. Wedi iddo orffen ei bennill, cymerodd Idris Vychan ei le, a chyn iddo fynd trwy y "round" gyntaf yr oedd yr hen ganwr wedi troi i edrych arno gydag edmygedd, ac arnom ninnau bob yn ail gyda llygaid lled eiddigus. A chyn dyfod ei dro i ganu, nesaodd atom, a gosododd ei wyneb lawer yn rhy agos i'r eiddom ni, ac meddai dipyn yn ddistaw,—" Idris Vychan ydi hwn ynte, does acw neb arall fedr ganu fel hyn ym Manchester acw. Fasa waeth i chi ddeyd wrtha i pan o'n i'n gofyn i chi am dano fo." Aeth yn ei ol a chymerodd ei dro, ac wedi darfod canu ac ysgwyd dwylaw, ymddanghosai yr hen wr yn falch ei fod yn ddiarwybod wedi cael y fraint o gyd-ganu a datgeiniad o enwogrwydd Idris Vychan. Ac ni chlywais i erioed mo hono yn canu yn well nag y gwnaeth y waith hon. Yr oedd ym mysg y pethau a ganodd rai penillion i'r delyn. Nid ydwyf ar ol hyn wedi clywed na gweled dim yn debyg iddynt, ac ni chlywais ef, na neb arall, yn eu canu ond yn unig y waith hon. Bum yn meddwl mai ei waith ef oeddynt, a'u bod felly wedi eu cymeryd ymaith gydag ef.

Byddai yn fynych yn canu yn y ddinas hon, a phob amser yn canu wrth fodd y rhai a'i gwrandawai. Y mae y Saeson yma fel rheol yn hoff iawn o ganu gyda'r tannau, a byddai aml un o honynt yn gofyn i Idris Vychan beth oedd y fath ganu rhyfedd. Dywedai ei fod unwaith yn canu mewn cyngherdd yma, a phrydnawn drannoeth clywai guro wrth ei ddrws, ac wedi mynd yno beth welai ond offeiriad Pabaidd, boneddigaidd yr olwg, yr hwn a ddechreuodd siarad trwy ddweyd ei fod yn y cyngherdd y noson o'r blaen, a bod y canu gyda'r tannau wedi tynnu ei sylw yn gymaint fel yr oedd yn unswydd wedi galw i'w weled, i gael tipyn o siarad ar hynny, gan ei fod yn credu fod canu o'r fath, unwaith, wedi bod yn ei wlad ei hun, yr Iwerddon. Gwahoddwyd ef i'r ty, lle y buwyd yn siarad am amser maith. Bu John Phillips, yn awr o'r Rhos, o'r hwn yr oedd gan Idris Vychan feddwl uchel, yn cydganu ag ef yma amryw weithiau, a chlywais ef fwy nag unwaith, cyn dechreu canu, yn dweyd,—" Idris, peidiwch a chanu 'mhennillion i, neu mi fydd yn y pen hefo fi." " Wnai i ddim," meddai yntau, tan wenu, a byddai bob amser cystal a'i air, canys nid yn hawdd y gellid cyfyngu arno gyda phenillion, gan fod ei gof fel un ystorfa ddihysbydd o bob math o honynt. A gobeithiaf fod fy hen gyfaill, erbyn hyn, wedi ychwanegu llawer at ei ystorfa yntau; canys nid dymunol meddwl fod prinder penillion neu ddiffyg amser i'w dysgu yn rhwystr ar ffordd datgeiniad mor addawol, a hynny mewn gwlad lle y mae y fath lawnder o'r pethau hynny yn ei llenyddiaeth. Tua saith neu wyth mlynedd yn ol, yr oedd Mrs. Weldon a'i chwmni yn un o chwareudai y dref, a mawr oedd y siarad am danynt a'r casglu i'w gweled. Un prydnawn daeth Mrs. Weldon yn ei cherbyd i dy Idris Vychan, i geisio ei gyflogi am noson neu ddwy,—i ganu penillion,—yn y chwareudy. Mewn cyfyng gynghor mawr dywedodd yntau wrthi fod yn wir ddrwg ganddo, ond nas gallai dderbyn ei chynhygiad haelionus. Ymbiliai hithau arno beidio gwrthod er popeth, mai hi ei hun a fyddai yn chwareu y piano iddo, a'i bod wedi cyhoeddi fod y canu penillion i fod. Ond bu raid i'r Gymraes enwog fyned ymaith yn siomedig iawn. A'r noson honno, ar lwyfan y Princess Theatre, yr oedd Mrs. Weldon yn eistedd wrth y grand piano, yn chwareu a chanu yn Gymraeg yr hen alawon Gwyr Harlech a Llwyn Onn, yn lle y canu penillion. Drannoeth gwelais innau Idris Vychan, a golwg isel a digalon iawn arno. Aeth dros yr holl hanes i mi, gyda dweyd, — " Chysgais i yr un winc neithiwr, welwch chi, yn achos y peth." A phan ddywedais fy mod yn rhyfeddu iddo wrthod y fath gynhygiad,—" Wel," meddai yntau, gyda'r deigryn yng nghil ei lygaid, " beth fuasai Mr. James a phobol y capel yn ei ddweyd." Fodd bynnag, gwn hyn, y buasai yn dda iawn iddo wrth yr arian ar y pryd. Gwyddai yntau hyn hefyd, a dyna oedd yn achos o'r methu cysgu a'r deigryn. A gallasai hefyd wneyd mwy o waith, a buasai derbyn y cynhygiad, mi gredaf, yn dwyn iddo lawer cwsmer newydd.

Bu yn canu mewn aml i le anrhydeddus, ac mewn cyngherddau ffasiwnol. Yn 1883, adeg Eisteddfod Caerdydd, gwahoddwyd ef i ganu gyda'r tannau mewn cyngherdd Cymreig yng Nghastell Caerdydd, llys yr Ardalydd Bute, a'r enwog Thomas Gruffydd o Lanofer yn chwareu y delyn deir-res iddo. A phan oedd y cyngherdd drosodd, daeth yr Ardalydd ato, ac wrth ysgwyd llaw a diolch iddo, dywedodd ei fod ef a'r wraig, yr Arglwyddes Llanofer, a'r boneddigesau a'r boneddigion ereill, wedi mwynhau y canu penillion yn fawr. Cyn hyn yr oedd wedi bod yn Covent Garden, Llunden. Yr oedd Adelina Patti yn canu yn yr un cyngherdd, a digwyddodd i'w gyd-ddatgeiniad, un arall o feistriaid cerdd dant, anghofio tynnu ei het yn yr *ante-room*, pryd y cerddodd pen cantores y byd ato, a dywedodd ei bod yn arfer gan

foneddigion dynnu eu hetiau ym mhresenoldeb boneddigesau yn yr ystafell honno. Tynnodd yntau ei het ar frys, a chan droi at Idris Vychan, dywedodd yn Gymraeg,—"Pwy andros ydi hon, dwad?" Yn Eisteddfod Llunden, 1887, cafodd Idris Vychan a'r datgeiniad enwog Eos y Berth yr anrhydedd o ganu o flaen Tywysog a Thywysoges Cymru. A dywedwyd wrtho fod y Tywysog yn dweyd ei fod yn dotio at ganu gyda'r tannau, yn enwedig felly pan oedd un o'r datgeiniaid yn canu y wyddor a'r rhifau yn Saesneg. A byddai Idris Vychan yn gwneyd hyn yn fynych.

Dyma fi, bellach, wedi bras ddilyn ei yrfa fel datgeiniad. Ond, rhag cam-arwain, na pheri i neb feddwl mai oes ddi-ofidiau, lawn o ganu, fu ei oes ef, rhaid dweyd tipyn eto. Na, yr oedd yn oes Idris Vychan lawer mwy o wylo nag o ganu. Ac er rhoddi cipolwg arni felly, ni raid ond darllen y darlun a dynnir ohoni ganddo ef ei hun yn yr englynion canlynol. Ond peidied y cyfarwydd am y tro a sylwi gormod ar y gynghanedd a nifer y sillau, canys nid oedd rhai o'r englynion yn ymddangos fel wedi eu gorffen ganddo.

"Gwag iawn fan yw'r gegin a fu—a'i swyn
A sain hoff o'm deutu,
Ond prinder, a digder du,
A'u holl och, sydd yma'n llechu.

"Rhagluniaeth gyda'r gelynion—y sydd
Y nos hon yn ddigllon,
Celu nid all fy'm calon,
Mae'n curo, nes briwio'm bron.

"A swn cnul ei helbulon—yn awchus,
Sy'n ochi fy nghalon;
Mae pob cyrch, a llewyrch llon
Rywsut â mi'n ymryson.

"O! Dduw mawr, rho hedd i mi,—O! cofia
Drwy'r Cyfaill fy nghynni,
Oes heddwch? 'Rwyf bron soddi
I lawr, i lawr, mewn dwfn li!

"Tyred, a phaid a'm taro—i eigion,
Agor drefn i wawrio,
Fy mywyd trist, fy myd tro
Yn heddwch, O! Dad, trwyddo.

"Dere yn nes at druan ŵr—ystyria
'N dosturiol fy nghyflwr;
O! clyw fy nghri,—Ti yw'm Tŵr
Gwawr ydwyt—a'm Gwaredwr."

1871. IDRIS VYCHAN.

Wel, hen gyfaill, dyma fi bellach yn dy adael, a digon tebyg am y tro olaf, gyda hyder cryf dy fod heddyw yng ngwlad y telynau, lle nad oes gofalon na gofidiau yn blino neb o'r preswylwyr, na bysedd y telynorion byth yn blino ar dynion dannau y Delyn Aur.

Manchester. ROBERT GRIFFITH.

OES DYN.

Iliad VI. 146—149.

AIL hiliad dail yw hiliad dyn,
A'i hoedl fel dail wedyn.
I'r ddaear gwasgar y gwynt
Wyw ddail 'nawr, bruddaidd helynt;
Ond ar goed yn brith rithio
Wele dardd olynol do,
Ac heb ball dwg gwanwyn allan
Y dail gwyrdd fyrdd yn y fan;
Felly hilion dynion; dod
Yn dirf wna un, a'r llall—darfod.

Aber Tawe. R. MORRIS LEWIS.

YFORY.

MAE eisiau byd gwell na hwn,
Eisiau byd gwyn i gyd:
Byd heb na phoen na phwn,
Dedwydd ac araul fyd.
Trancfyd am byth i wae;
Isod neu uwch yr wybr;
Os gwyddoch chwi pa le mae,
Rhoddwch fi ar ei lwybr?

YFORY yw enw y byd,
Ymlaen mae y llwybr, ffrynd,
Mae miloedd o hyd, o hyd,
Ar hyd y llwybr yn mynd.
Mae deugain mlynedd a mwy,
Er daethum o fewn un dydd
I'r ynys berffaith ddi glwy,—
Cartref pob blodyn blydd;
A dim ond diwrnod sy,
Rhyngof heddyw a'r fan,
Ond gwynt Y DYFODOL cry
Etyl gyrraedd y lan.
Clywais hen bobol yn dweyd yr un stori,—
Nad oes neb fyw heddyw a welodd YFORY.
Er teithio am oesoedd, pob dydd a ddatguddia—
Yr erys YFORY yng nghôl y dydd nesa.

Caer Dydd. CYNONFARDD.

GOFIDIAU HYNAFIAETHWYR.

DAETH i'm llaw y rhan gyntaf ac ail o'r *Gestiana*, hanes tre'r Gest yn Eifionnydd. Gydag ef y mae darlun o'r awdwr, Alltud Eifion, yn ei ddeunawfed flwydd a thriugain. Y mae'r llyfr yn ddyddorol iawn. Mewn un lle ceir hanes ymweliad â "chylch derwyddol" o ddwy ar bymtheg ar hugain o gerrig ar eu pennau, a "Maen Arch" yn eu canol. Erbyn mynd yno, yr oedd y ddwy garreg ar bymtheg ar hugain wedi diflannu, a'r "Maen Arch" gyda hwy. Daeth amaethwr "a dywedai mai *efe* a saethodd y cerrig er arloesi'r cae; a danghosodd ran o'r Maen Llog, neu'r Maen Arch, wedi cael ei osod yn rhan o'r clawdd." Derbyniol iawn ydyw hanes cyflawn Dafydd y Garreg Wen a geir yn y llyfr hwn.

GOHEBYDD Y "BWCH GAFR."

III.

"DA i ddim i'r hen ysgol ene foru," ebai bachgen y crydd. "Rhaid i mi gael mynd i'r ffair."

"A finne hefyd," meddai ei gydymaith. "Mi rydw i am chware triwel." Ac nid oedd hynny ddim gwaeth yng ngolwg bachgen Ifan Twm na chwareu *marbles*.

"Ma newyrth a modryb yn dwad foru," ebai mab y crydd, yn falch.

"Pasel ewyrth a modryb sy gen ti?" ebai epil Ifan Twm, mor eiddig a hynny.

"O, lot iawn," meddai yntau.

"Gei di bres gennyn nhw?"

"A phan atebodd y bachgen 'Caf,'" meddai Gohebydd wrth Flaens Evans, "welsoch chi rioed fel y syrthiodd i wep o." Yr oedd Gohebydd wedi clywed yr ymddiddan, ac wedi deall peth mor bwysig oedd y ffair yng ngolwg y plant.

Nid oedd ffeiriau Aberwilym ers talm yn rhai mawrion, eto codent allan bobl y plwyfi cylchynol yn hynod o hwylus. Erbyn hyn nid oeddynt ychwaith yn ffeiriau gwagedd. Pan ddechreuodd y porthmyn fynd i fuarth y ffarmwr i brynnu, a'r ffarmwr yntau gael blas ar farchnad y dref, gwywodd ffair y dreflan, a diflannodd duwies pleser.

Un adeg, byddai yn werth gan yr unllygeidiog Eos Mallwyd ddyfod a'i *goncertina* i ganu "Paid a thorri'th galon, Mary Ann," a "Mae'r adar yn canu Cymraeg," ond ni welid ef yn awr. Byddai y Bardd Crwst yn cyrchu yno bob amser i lafoeri ac i ganu

> "Ow ryfedd pa bryd, ow ryfedd pa bryd
> Ca i roddi 'rhen wreigan mewn arch ar i hyd."

Gwasgai yr hwsmon, a'r bugail, a'r hogyn gyrru'r wedd o'i gwmpas mewn hwyl fawr i wrando a phrynnu copi o'r gerdd, ac hefyd o Alar Gân y Mochyn Du. Ond peidiodd yntau a dod.

Ac yn awr, os byddai ar was yr amaethwr eisio prynnu pluen paun i roi yn ei het *jim crow*, neu wario ei geiniogau mewn saethu am gnau, neu daro gordd i fesur ei nerth, neu eiste mewn *swing* efo'i gariad, rhaid oedd iddo edrych at ffair Galammai y dref agosaf. Anaml y cawsai gyfleu yn Aberwilym; ac os digwyddai y fath beth ag i adran o "siou Wmbel" fedru ei ffordd yno, odid fawr na cheid Mr. Meredydd yn adgofio pobl y capel o'u dyledswydd fel crefyddwyr, ac yn erfyn arnynt gadw draw oddiwrth "yr arddanghosfa gwylltfilod, yr hon, fel yr oedd ef yn deall, oedd wedi ymsefydlu gerllaw." Ond mynd y byddai llawer o'r aelodau, a gwas y ffarmwr yn eu mysg. Gweled ychydig iawn y byddai Mr. Meredydd, a chael ar ddeall y gweddill. Eto, y syndod ynglyn â'i erfyniad oedd, ei fod wedi deall *a* gweled lawer gwaith fod amryw o bobl y capel yn chwil feddw ar noson ffair, ond prin iawn y crybwyllai am hynny!

Cludo barilau cwrw i lawr y dreflan; Enoc Elis yn llewis ei grys yn curo polion i wneyd corlannau; Martha Dafis wedi rhoi yn y pobty deirgwaith; defaid dieithr yng nghae y Bliw Lion; bachgen Ifan Twm yn crio eisio ceiniog gan ei fam; Blaens Evans Gohebydd yn arfaethu prynnu mochyn,—dyna ddigon. Ffair Aberwilym y diwrnod wedyn!

Cododd yr haul yn braf. Yr oedd yr awel yn dyner, ac adar yn canu, a heddwch perffaith yn teyrnasu ar y dreflan. Ond yr oedd y gwragedd yn golchi cerrig eu drysau yn foreuach, ac am saith o'r gloch gellid cyfrif cynifer a chwech o bobl ar y stryd ar unwaith. Ceid arwyddion cynarach o fywyd ar y siopau hefyd,—Mr. Francis, *ironmonger*, *&c.*, yn arddangos oddiallan bedyll ffrio, a rhawiau a ffyrch, a rhaffau a rheffynau; London House yn hongian i fynu siacedi llian, a hetiau, a chrysau; a Malen Jones yn rhoi bord tuallan i'w drws i werthu minceg.

Erbyn naw, pan oedd y gloch yn galw ar y plant i'r ysgol, yr oedd dieithriaid lawer wedi cyrraedd, a'r stryd yn dechreu dangos prysurdeb. Yr oedd Watcin y potiwr wedi trefnu ei botiau, ac Isaac y *tinman* ei gelfi yntau ar un ochr i'r heol, a Jim Fferins wedi codi ei stondin ar yr ochr arall. Yr oedd modryb ac ewythr bachgen y crydd wedi dod, a Johnny yn ysgwyd llaw â hwynt yn swil, a'i fys yn ei geg. Daeth Jabes Jones a'i feibion o Ben-ucha'r-cwm, dan gnoi gwelltyn, a gadael y wraig a'r ferch ddilyn yn gynnar y prydnawn. I fewn ag ef ar ei ben i dŷ Gohebydd, lle byddai arfer a "rhoi i fynu," a hysbysodd yno adeg ei gargychwyn ac adeg ei garddychwel. Gadawodd fasged a phecyn yno hefyd. Yr oedd dreser Blaens Evans yn llawn o barseli a thaclau fel ffrwyth y cwestiwn hwnnw,—"Ga i adel hwn yma, 'sgwelwch yn dda, tra bydda i'n rhoi tro bach hyd y ffair?"

"Cewch siwr," ebai hithau, "can croeso."

"Denciw. Wyddoch chi ddim ydi gŵr y Foel wedi dwad?"

"Dacw fo," ebai hithau, oddiar ben y drws. "Mi all dyn dall wbod ei fod *o* yma bob ffair."

Yr oedd gŵr y Foel wedi dihysbyddu ei dipyn Saesneg er's meityn wrth siarad efo rhyw greadur mewn cot laes, a throwsus oedd yn syndod sut yn y byd yr aeth ei goesau i mewn iddo. Wrth guro ei esgid â rhyw bwt o onnen oedd ganddo, a dangos ei dagell, a dweyd *Mister* Jones wrtho bob gair, yr oedd y Sais-borthmon hwn o Wolverhampton yn troi y Cymro o gwmpas ei fys bach, a'r cwbl a ddywedai yr olaf oedd—"yes, yes: yes, siwar: oa—yes!"

Daeth hefyd Ifan Ty'nyfedw a'i gi o'r plwy nesaf, ac Ifan y Fawnog o dros y mynydd. Pwy welodd ffair erioed yn Aberwilym heb y ddau Ifan? Neb o'r genhedlaeth hon yn sicr. Deuai'r Fawnog i r ffair yn un pwrpas i roi cynghorion—"Bydawn i chi, mi 'nawn i fel hyn ac fel hyn;" tra y teimlai Ty'nyfedw hi yn 2dyledswydd arno dreulio y rhan fwyaf o'i amser yn siop y saer yn edrych sut yr oedd pethau yn mynd ymlaen. Byddai rhyw declyn neu gilydd o'i eiddo beunydd a byth efo'r saer, naill ai cribin, neu ôg, neu offer o'r fath. Os trol fyddai yn cael ei thrwsio, fe fyddai ef yn wastad ei heisio erbyn diwrnod y ffair. Os na fyddai hi'n barod, nid oedd gan y saer ond disgwyl gwers lem am addaw heb gyflawni; ond os parod fyddai hi, ni ddeuai Ifan ddim i'w hymofyn am fis cyfan.

Ar ganol y stryd ceid tyrrau o ddau neu dri o ddynion yn ymgomio. O flaen y King's Head dacw wr y Bryn yn gawr dwylath yn gŵyro i lawr i siarad efo gŵr y Pant, yr hwn sydd gorach; a thyna Mr. Meredydd yn ei *leggings* melynion yn dyfod atynt. Tybia'r corach ei hun yn gawr, y cawr ei fod yn gorach, a'r *leggings* ei fod yn ŵr bonheddig.

Dacw Sieffre'r Foty,—gwr cringoch, gwridgoch, crych ei wallt a brych ei wyneb,—yn rhyw ledlusgo ei hun o gwmpas mewn trowsus rhips newydd ei olchi, a rhy gwta o fodfeddi. Dyna fo yn siarad efo John Jones y Felin, yr hwn, gyda thwll yng nghoryn ei het, a chlwt ar ben ei lin, oedd yn chwilota am rai o'i gwsmeriaid i geisio gwneyd "setled" â nhw. Wrth y bustach coch acw, wele wraig y Tymawr a'i basged ar ei braich yn siarad fel twrnai efo Simon Llwyn Onn, yr hwn oedd yn ceisio gwerthu ei anifail, a chadw ei hun yn effro. Yr oedd Sei mor ddiymadferth nes yr oedd bron yn rhy ddiog i siarad; ond yr oedd Catrin ei wraig wedi torri ei wallt yn grwn fel lleuad, ar gyfer y ffair, ac o gymaint a hynny edrychai yn llai breuddwydiol nag arfer.

Dacw *shandry* y Gaerwen yn sefyll wrth dy Gohebydd, a Rhobet Morus a Betsen yn disgyn. Hen frawd yn perthyn i'r oes o'r blaen yw Rhobet; yn gwisgo *gaiters* a botymau melynion, a chlos pen glin; cregin a sêl yn hongian wrth gadwen ei oriawr, cadach mawr du am ei wddf, a het befar am ei ben. Pwy oedd yn sefyll yn ymyl ond ei gymydog tal, Huw Roberts y Glyn.

"Wel, dyma hi," ebai'r Glynnwr, "y fi, sy'n byw ym mhellach na chi, yma o'ch blaen chi!"

"Na hidia mo hynny," oedd ateb Rhobet, trwy ei drwyn. "Mi ddoist yma o flaen dy well!"

"Rhad anwyl, tewch!" llefai Betsen. "Petai ni'n gwbod y'ch hanes chi'n drwyadl, mi fase'n anodd deud prun 'och chi'ch dau fydde'r gweutha." Yr oedd hi yn meddwl yn fawr o'r ddau hefyd. Yna mi aeth i mewn a dwsin o fara ceirch rhagorol, wedi eu lapio yn ofalus mewn cadach coch, yn rhodd i Flaens Evans.

Huw Roberts oedd y dyn tylotaf a'r teneuaf yn y ffair. Yr oedd ei gorff mor hir a chul, a'i wyneb mor lydan, nes adgofio dyn o hen gloc wyth niwrnod. Ond cofiwch chwi, er meined ei gorn gwddw, efe oedd y baswr goreu yn y wlad; ac er ysgafned ei gorff, a gwaced ei boced, nid oedd trymach a llawnach dyn nag ef yn y plwy i gyd.

Fel hyn cynhullai y ffarmwyr o un i un, nes yr oedd y stryd yn llawn o bobl yn ysboncio, ac yn bras-gamu, ac yn cyfarch eu gilydd mewn bloeddiadau, fel pe bai y naill ar Ebal a'r llall ar Gerizim.

Aeth yn ddwndwr ffair yn fuan fuan, ar y stryd ac yn y tafarnau yn ogystal. Yn yr olaf yr oedd y cwrw melyn a'r bibell hir mewn galw mawr,—y gwŷr cyffredin yn mwynhau y gyfeddach yn y gegin, tra yr ai y rhai a dybient eu hunain yn uchelwyr i'r *bar*—a rhwng y mwg a'r ddiod, a'r chwerthin a'r dadlu a'r taeru, a'r cerdded i mewn ac allan, yr oeddynt yn fuan yn boeth iawn mewn mwy nag un ystyr.

Ond oddiallan yr oedd twrw gwahanol yn yr awyr. Yno yr oedd swn masnach arall; nid dynion yn talu ac wedyn yn dadlu, ond yn dadlu cyn talu; swn dynion am eu bywyd yn ennill eu bara a chaws. Yr oedd y moch yn gwichian, a'r gwartheg yn beichio; y merlod yn gweryru, a'r defaid yn brefu; a'r cwbl ar draws eu gilydd. 'Roedd Watcin y potiwr yn tincian ei lestri i ddangos eu bod yn gyfan; Ifan y *tinman* yn gwrthweithio yr effaith trwy guro ei bedyll *tin* yntau â'i holl egni; Jim Fferins (yr hen Sais wedi dysgu Cymraeg) dan ei stondin yn gwneud busnes ac yn ffraeo mewn llediaith â'i wraig; a'r

cwbl am y goreu yn gwaeddi *sowld agen! sowld agen!*

"Inja-roc?" ebai James Fferins wrth ei gwsmer. "Cei tebic iawn. Tyma fo i ti. Cwilia ti tagi." Yna, troai at ei wraig. "'Rhen *black*, gna di gwerthi taffi i'r bachcen ene! Sowld agen!."

"Jinji-bred? Very good. Lle mae dy ceniog di? All right."

"Cnai? Cnegwerth? Time ydi hwne, nid ceniog. All right. Wyt ti bachcen da, mind i'r iscol? (Wrth Mrs. Fferins—"Rhen sopen, be ti'n weipio trwin efo dy ffedoc?") Sowld agen!"

"Sowld agen!" ebai Gruffudd y penwaig. "Penwig ffre-e-es! Igien am swllt!"

"Fale — fale — fale-e-e-e!" gwaeddai Lewis y wynwyn.

"All alive o—o—o!" ebai Gruffudd.

Dacw'r *tinman* yn ffoi a'i daclau yn chwalfa! Hwi—hei—hoi! Citi'r Dolau Bach yn dod a mochyn i r ffair, a'r mochyn yn benderfynol o fynd a Chiti adref. Gan hynny, rhedodd ymaith gyda'r hen wraig, ac o'r diwedd torrodd y cortyn!

Yr oedd Gohebydd newydd brynnu mochyn bach gan ffarmwr nad oedd raid iddo wrth lythyrau canmoliaeth, ac yn dyfod ag ef adref gyda chortyn am ei droed ol; ond yn ei gyffro efo Citi, gollyngodd ei afael o'i borchell, ac i ffwrdd a'r mochyn bach ar ol y mochyn mawr! Yr oedd y plant yn ewyllysgar iawn i helpu Ifan i adgasglu ei nwyddau, am y fraint o roi cic neu ddau i'r llestri *just* i weld a oedd swn ynddynt.

Yn edrych ar y miri yma drwy ffenestr y Bliw Lion, yr oedd Dafydd Benion; ac yn y ty hwnnw y bu am oriau. Edrychai ef ar ddiwrnod ffair bob amser fel galwad arno i fynd "ar ei derm." Gweithiai yn galed yn tocio gwrychoedd ac yn cau, heb brofi yr un dafn am wythnosau. Ond y diwrnod hwn ceid ef yn cerdded yn ol ac ymlaen o'r Bliw Lion i'r King's Head, a'i wyneb yn fflam, ei lygaid yn hurt, ei dafod yn chŵydd, a'i goesau—wel, yr oedd ei goesau fel arfer, meddai ef, ond fod y ddaear yn troi. Dyna gymaint o ddaearyddiaeth wyddai Deio.

Er amled ei wendidau yr oedd Deicyn yn ymfalchio mewn bod yn abl i dalu ei ffordd yn onest. Tawedog oedd ef o natur. Eithr gwnai'r cwrw ef yn siaradus ryfeddol; ond rywfodd toddai ei eiriau yn llymaid yn ei enau! Golwg ar rai o'i hen gyfoedion yn galw am lasiad fyddai yn siwr o amlygu ei hoff syniad. Felly heddyw,—"Mi ddydw i'n talu nylêd," meddai, "ac yn talu am y niod efo f'addian fy hun, ond am danat ti, hwsmon ydd Hend-dde, pam na thali di i Ifan cddydd cin dwad i fanyma."

"Be di o i ti be mae neb yn neud efo'i arian?" ebai gŵr Ty'n y Coed, i amddiffyn yr hwsmon.

"Cau *di* dy geg, Tyn y Coed," atebodd Deio, "*chdi* ddygodd hwdd Tan Ddeddwen ynte!" Fe dawodd hwnnw mewn munud.

Pwy ddigwyddodd glywed hyn, ar ei ddyfodiad i mewn, ond gŵr fferm fawr y Clegyr.

"Be ti'n cyhuddo'r dyn fel yna dwed?" ebai Mr. Jones yn wyllt. Ond nid oedd Deio'r meddwyn yn malio botwm corn pwy oedd pwy.

"Meindia dy fusnes dy hun," meddai wrtho, "edd dy fod ti'n peddthyn i'r Methadus, dwyt tithe ddim uwchlaw newid swllt d-ddwg!" Ac wedi talu am dri glasiaid i'r dynion hyn, i ffwrdd ag ef i'r King's Head.

"Dafydd Benion!" ebai'r plant ar y stryd. "Dyma Dafydd Benion!" A rhedasant a thyrasant o'i gwmpas gan lusgo yn ei got a'i freichiau, nes ei daflu bron.

"Ga i ddime gennoch chi?" gofynnent iddo am y cyntaf.

"Cedd ffwdd di," oedd ei ateb yntau gan rolio o ochr i ochr, nes eu chwalu hwy. Ond nid cynt y chwalent nag yr ail-gasglent ato.

"Na, deuwch a dime, wir."

"Ga i geniog, Dafydd Benion," meddai bachgen Ifan Twm. Hen bry' oedd ef; codod i geiniog, a cherddai yn wysg ei gefn o flaen Deio.

"Cedd ad-dde," oedd ateb Benion, a tharawodd ef ar ei ben gyda'i het nes codi hwre.

"Un arall, cyfrwysach na'i gymdeithion, a ddaeth ato ac a ofynnodd,—"Ga *i* geniog, 'sgwelwch yn dda, Dafydd Benion?"

"Hwde," meddai wrth hwnnw, ar amrantiad, "dyma iti un. 'Dwy i'n gweld y med-ddi di fanadds. Cedd ffwdd. Ddhed."

Y mae'n siwr nad euthai y plant ymaith yn unig am fod Dafydd yn peri, ond ciliasant yn awr am eu bod yn gweled y person yn nesau, a rhag i hwnnw ddeall beth oedd yn mynd ymlaen.

"Wel David," meddai'r ficer, yr hwn a'i hadwaenai ef yn dda.

David Beynon yn tynnu ei het, ac yn ei dal yn hurt yn ei law.

"Bodde bddaf iawn, syr," ebai yntau. A hithau yn ganol y prydnawn.

"Chi wedi cael tropyn, David."

"Mae'dd tddopyn bddon a'm tddipio," meddai Deicyn, yn unol a'r ysfa brydyddu ddeuai trosto bob amser pan yn ei grap.

"Cerwch chi gartre David," meddai'r ficer, a throdd ymaith.

"Hei! hwdiwch!" Safodd y person.

"Newch chi ateb un cwestiwn bach i mi, Syr?" meddai Deio wrtho, gan daro ei law yn gyfeillgar ar ei ysgwydd. Gwarchod ni,

yr oedd y bobl oedd gerllaw ar y pryd wedi dychryn. Deio Benion yn *familiar* efo'r clerig!

Gwrandawodd y gwr llen yn bwyllog ar wr y gwrych yn "ponsio ac yn constro" rhywbeth nad oedd ganddo yr amcan lleiaf beth ydoedd.

"Ond be di dy cwestiwn di?" meddai'r Parchedig, o'r diwedd.

"Wel dyma fo," meddai Benion, gan sadio ei hun. "Be—be—be fase heddyw tase foddu'n ddoe?"

"Ti yn meddw Deio!" oedd ateb gwyllt y boneddwr. "Ti yn meddw!"

"Meddw! Myn diawst, meddw fase chithe dase chi wedi yfed cymint a fi!" A throdd y ddau i'w ffyrdd eu hunain.

Castiau Deio oedd hyn i gyd. Tan gochl bod yn feddw hurt, talai'r pwyth i'r person am ryw dro gwael wnaeth hwnnw ag ef.

Yr oedd gwraig Penucha'r-cwm wedi cyrraedd ers meityn, ac wedi talu bil y crydd, a chwyno fod par Wiliam yn rhy dyn, ac esgidiau goreu Jane yn gollwng dŵr. Yn awr yr oedd hi mewn penbleth yn methu cael hyd i Jabes, ac yn ofni ei fod yn y tafarnau. Ond wedi myned gyda Gohebydd yr oedd ef i ymweled â Dafydd y Bont bren, gwr ieuanc gorweddiog.

"Wel Deio ngwas i, sut yr wyt ti?" meddent hwy wrtho, gan siarad yn galonnog, i godi ei ysbrydoedd. Ond cyn pen hir, daeth E. Heulwen Evans, yr *assistant master*, i fewn yn ei fenyg *kid*. "Sit rydich chi heddyw, Divid Willims?" ebai ef, fel *starch*. Siaradai yng nghyffelybiaeth dyn dieithr, dysgedig, o waed uchel; fel pe na chofiasai neb fod Divid Willims ac yntau wedi cydchwareu yn yr un caeau, cyd-ddysgu yn yr Ysgol Sul, a chyd-dyfu yn yr un awyr.

Erbyn amser te yr oedd treflan Aberwilym yn gwisgo ei gwedd gyffredin, ac nid oedd ond pump o bobl, a chath, yn y golwg.

Caerludd. ROBERT H. DAVIES.

ENGLYNION AR FARWOLAETH SYR WATKIN WILLIAMS WYNN.

Syr Watkin brenin bro Wynedd—dirion,
A dorwyd o'i annedd:
Mewn gweryd mae yn gorwedd,
A'i dy oer bach ydyw'r bedd.

Syr Watkin brenin ein bro—a gladdwyd,
Gwiw lwyddiant i'w eiddo;
Mae galar yma ag wylo,
Arwyl aeth ar ei ol ô.

Hir nychu i grychu grudd
Ei briod gain, bryd a gwedd
Y mae hon a'i bron yn brudd
O chwithdod ei fod yn ei fedd.

Mawr gysur pur heb ddim pall,
Lles iach hwyl, i'w llys a'i chell
Gwinwydden lwys gymwys gall,
Llaw Dduw Naf a'i llwyddo'n well.

A hir einioes i'w haer anwyl,
Drwg iawn buredd drin ei berwyl,
Llywio'n ogylch, llawen egwyl
Fwya archiad, fo ei orchwyl.

ENGLYN I'R DEG GORCHYMYN SANCTAIDD.

Deddf bur un natur a Naf,—iach ydyw
A'i chadw nid allaf:
Byth yn wir beth a wnaf,
Nych rydost oni chredaf.

ROBERT GWILYM.

ENGLYNION I ANNERCH ROBERT WILLIAM A ROLANT HUW O'R GRAIENYN.

Wyf Robert rwymbert o'm bodd—i'ch annerch
A chynnil ymadrodd;
Hen undeb anwyldeb nôdd
O honof, ni wahanodd.

Da gennyf eich hyf or'chafiaeth—drwy fyd
O drafodawl driniaeth;
Bendithion meithion i'w maeth,
A dawn yw elw dynoliaeth.

Mae gwynfyd bywyd yn beth; ond gwynfyd
Enaid ganfod pob-peth,
Yngharad tyfiad di-feth,
Duw'n ŵr blaen, dyna wir bleth.

Nid enwau doniau, sy'n adeni dyn,
Rhaid enyn goleuni,
Cenhedliad rhad fawrhydi,
Anian am nef ynnom ni.

Prophwydi gwersi gwirson,—y gwersyll
Nag arswyd am foddion,
Da gwyddost di agweddion
A Rolant Huw, yr helynt hon.

Annerch ef yn oruwch un,—yr ydwyf
Er adwyth ei gorphyn,
Rhan enaid yr hên wan-un,
A wna i hawl yn Nuw ei hun.

T. E. NANT ar frys.
Hydref 24, 1800.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

X. ROBERT HUGHES, NEUADD Y BLAWD, LLANDDEUSANT, MON.

MAB ydoedd Robert Hughes i John a Margaret Hughes, Shop Maelog. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1753, a bu farw Hydref 3, 1814, yn 61 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfachreth. Yn y Neuadd neu Dyddyn y Blawd y bu yn treulio y rhan fwyaf o'i oes. Priododd Mawrth 19, 1775, âg Ann Roberts, gwraig weddw, etifeddes Tan y Mount, yr hon a fu farw Awst 28, 1781, pan nad oedd ei blant (dwy ferch) ond bychain iawn. Gosodwyd y plant gyda theulu yn agos i Gemaes i'w dwyn i fyny, tra yr aeth Robert Hughes i fyw i Faelog fel lletywr gydag un o'i denantiaid. Clywsom ddywedyd fod ei blant yn cael eu trin mor erwin gan y teulu yng Nghemaes am fynychu y cynhulliadau Methodistaidd fel ag y darfu iddynt ddianc at eu tad i Faelog o hyd nos am ymwared.

Bu farw un o'r merched hyn yn ieuanc iawn—oddiwrth ganlyniadau y driniaeth, meddir—a darfu i'r ferch arall (Mary) briodi pan yn 17 oed gyda Robert Hughes, Ty'n y Cae, Llanfwrog. Ac aeth y bardd wedi hynny o Faelog i fyw at ei ferch yn Nhy'n y Cae, lle y bu farw yn y flwyddyn a nodwyd. Mab i'r ferch hon, sef Robert Hughes, Ty'n y Cae, Llanfwrog, a gasglodd ei weithiau ynghyd, ac a'i hargraffodd yn llyfr dan y teitl "Y Gell Gymysg." Bu cymaint o werthu ar hwn fel y dygwyd ail argraffiad o hono allan yn 1861. Argraffwyd hwn yng Nghaergybi gan Lewis Jones, yr hwn sydd yn awr yn brif ddyn y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia.

Nid oes gwybodaeth pa le y bu Robert Hughes yn yr ysgol, ond casglem oddiwrth ei lythyrau, ac y mae llawer o honynt yn awr ym meddiant ei or-wyr, Mr. John Hughes, Llys Menai, Bangor, yn Saesneg a Chymraeg, ei fod yn medru y ddwy iaith yn hynod drwyadl.

Er ei fod yn byw mewn lle bychan,—nid yw Neuadd y Blawd ond rhyw dy bychan gyda naw acer o dir,—yr oedd mewn amgylchiadau cysurus, gan ei fod yn meddu ychydig o diroedd ar ol ei dad, yr hwn oedd yn hannu o'r un teulu a Hughesiaid Kinmel a Lord Dinorben. Felly, rhaid ei fod wedi cael yr ysgol oreu ellid ei chael yn yr ynys. Y mae ei lawysgrif yn hynod o brydferth a chlir.

Ym mhlith ei bapurau gwelais lawer llythyr oddiwrth William Prisiard, Plas y Brain, Pentraeth,—bardd enwog ym Mon,—gyda'r hwn yr oedd ar delerau cyfeillgar dros ben, y mae yn bur amlwg. Byddai William Prisiard ym mhob llythyr yn ei gyfarch fel "Y Bardd anwyl a'r hen gyfaill mwyn." Ymddanghosodd un o'r llythyrau hyn yn y *Traethodydd* rhyw ddwy flynedd yn ol, o dan ysgrif o dan law y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor.

Hysbysir fi nad oedd Robert Hughes yn aelod mewn capel nac eglwys. Ond y mae yn amlwg oddiwrth amryw o'i weithiau fod ganddo ei ddaliadau diwinyddol,—

Y Cristion gwan sy'n morio, dan gwyno lawer gwaith,
Mae anian ynddo er hynny am dynnu i ben ei daith;
Ond gan fod Iesu ei hunan yn Gapten gyd ag ef,
Trwy fôr o haeddiant dwyfol caiff nofio i ganol nef.

Mae 'wyllys pob rhyw ddynion, medd rhai, yn ddigon rhydd,
Yn hunan ymddibynnol, rhyw farn gamsyniol sydd;
Gall fynd yn sant angylaidd neu fradwr ffiaidd fryd,
A newid, newid eilwaith fil canwaith, ond byw cyd.

Os gwir yw'r genadwri mae rhai'n gyhoeddi'n rhwydd,
Mae gan y Bod anfeidrol ryw wael resynol swydd,
Yn disgwyl dyn a ffurfiodd, neu luniodd, ddod i'w law;
'Rol dod gall ddiengyd eilwaith, er gwaetha ei driniaeth, draw.

Pwy roddai, ond Arminiaid, addoliad i'r fath Dduw,
Mor wael, mor aflwyddiannus, mor boenus sydd yn byw;
'Rol dioddeu, a thalu'n gyhoedd, a phrynnu miloedd maith,
Yn methu, trwy ryw gloffni, eu cael hwy gwedi'r gwaith.

Y mae'r person a'r Pab hefyd yn ei chael ganddo yn ddidrugaredd.

Y llyfr a elwir *Y Gell Gymysg* ydyw yr oll o'i weithiau sydd ar gael. Nid oedd yn amcanu dyrysu y werin gyda barddoniaeth yn llawn o eiriau mawr anhydrin,—ystyron y rhai sydd yn ddirgelwch bron i bawb ond i'r beirdd ei hunain. Ei amcan oedd cyfansoddi i'r werin, fel y dyweda

Am ganu, os gwnaf gynnyg,
Chwi dybiwch, mae'n bur debyg,
Bydd cymysg eiriau yn fy ngwaith,
Blith drafflith fel iaith drifflyg.

Fe wna gwag ofer dybiau
Gam siarad rai amserau,
Fydd yn fy ngwaith, O tewch a son,
Ddim ond iaith Mon a minnau.

Ffol ydwyf a ffaeledig,
'Rwy'n gadarn amhlygedig,
Gwnaf, er fy nghablu yn fy nghefn,
Syth rodio'r drefn sathredig.

Wrth gyfansoddi i'r werin,
Gan ofal, 'rwy'n gynefin
A lloffa geiriau at y gwaith
O ffrydiau iaith gyffredin.

Nid yw gweithiau Robert Hughes yn dangos arucheledd, ond y maent oll yn darllen yn rhwydd a naturiol; ac mewn llawer man y maent yn llawn o ddigrifwch a direidi diniwed. Y mae hefyd yn ddifrifol ar adegau, yn hynod felly pan yn darlunio y duwiol a'r anuwiol yn marw,—

Nid oes imi fawr o amser,
Er fy mod i 'nawr yn iach;
Gorwedd bydd fy nghorff llygredig,
Yn y bedd 'mhen chydig bach;
Mynd mae'r tlawd, mynd mae'r cyfoethog,
Mynd mae'r call, a mynd mae'r ffol,
Mynd mae'm ceraint a'm perth'nasau,
Mynd wnaf finnau ar eu hol.

P'le mae fy lamp? p'le mae fy olew?
P'le mae'm cariad? p'le mae ffydd?
P'le mae'm sicrwydd, a'm tystiolaeth,
A fydd yn gwneyd y caeth yn rhydd?
Pa le mae fy holl arfogaeth?
P'le mae 'nghleddyf? p'le mae'm ffon?
P'le mae gras i drechu'm natur?
Caled iawn yw'r frwydr hon.

Tyrd fy Nghapten mawr ardderchog,
Mi ddo'n g'lonnog yn dy law;
Golwg ar dy wedd wna eto
I'm holl wrth'nebwyr gilio draw;
Yn dy law af trwy ddichellion
Fy holl elynion eto i'r lan.
Mi fydda', er gwaeled yw fy nghyflwr,
Fel concwerwr yn y man.

Fe orffennodd Iesu'n helaeth,
Holl waith iachawdwriaeth dyn;
Rhag marwolaeth darfu'n cadw,
Ac wrth hynny marw ei hun;
Tyllau'r hoelion yw fy Noddfa,
Pen Calfaria yw fy nghân;
Digon ydyw Iesu yn angau,
A phan fo'r byd yn fflamau tân.

Nid oes arnaf eisiau yma
Dim ond heddwch â fy Nuw,
Digon ydyw hyn yn angau,
Ie yn wir, llawn digon yw!
Cael ymborthi ar ei gariad,
Ymbleseru yn ei waith,
Canu cân fy ngwaredigaeth,
I eithaf tragwyddoldeb maith.

Y mae'n hawdd gweled oddiwrth weithiau Robert Hughes ei fod yn sylwedydd craff ar y natur ddynol. Ymysg ereill, bu'n astudio cymeriad hen frawd fyddai'n myned o gwmpas i ymofyn elusen,—

Pedwar peth, meddai Owen, nad ydynt i'w gweled,

Hen gybydd llawn tosturi,
A lodes yn hen ladi,
Hen wraig yn forwyn ieuanc fwyn,
Dyn gonest yn dwyn gini.

Pedwar peth yn bod cyn amled,
Eto mae Owen yn methu eu gweled.

Gweld twrw gwn yn saethu,
Ac angau'n isel nesu,
Enaid dyn yn mado ar hynt,
A chwithig wynt yn chwythu.

Pedwar peth cas gan Owen eu bwyta.

Bara sur, eisionog,
Glas enwyn laeth gleisionog;
Wrth botes myglyd bydd e'n ddig,
Profadwy, a chig pryfedog.

Dyma hanes digwyddiad fu'n destun difyrrwch gwlad,—

DAU BENNILL

I brydydd ieuanc gollodd ei flwch tybaco wrth ddal penwaig,

Cydgwynwch i'r prydydd, ar gynnydd rhowch ganiad,
Yn awchus os gellwch o achos ei golled;
'Roedd ganddo fe boced i gadw tybaco,
Ei flwch a'i ddiddanwch a gollodd oddiyno;
Fe aeth mor segur gyda'i saig,
Ar lanw draw mor lon a draig,
Am benwaig i ymbwnio,
Un rhydost am eu rhwydo,
A'i ryfedd nerth i rwyfo,
Môr eigion yn ymrwygo,
A'i ddeunydd ciniaw fewn y cwch
I ddenu ei flys oedd yn ei flwch;
Wrth weithio a mwrio ar y môr,
A chadw stwr, fe aeth ei stor
A'i anwyl drysor drosodd,
O'i boced draw fe biciodd,
A gofid mawr a gafodd,
Pob gronyn drwyddo a grynnodd,
Yn uchel cwynodd yn y cwch
Oer alar blin ar ol y blwch.

Aeth blwch y mwyn brydydd, mae'n g'wilydd, i'r gwaelod,
Fe hedodd heb esgyll i wlad yr holl bysgod,
Beth bynnag na soniwn, bydd penwaig yn synnu,
Aeth dail yr hudoliaeth i blith yr hen deulu:
Daw pob penogyn wydn wanc,
A physgod cregin, a phob cranc
A'i grafanc mor ddigrifol,
Daw'r samon dewr rhesymol,
A'r morfil llwyd o'u lledol,
Pysg brithion mân wmbrethol
Fydd yn eu canlyn heb un cwch,
Yn mynd mewn blys am ddail y blwch;
Nid rhaid i'r prydydd, ddedwydd ddyn,
Ond mendio ei hwyl a mynd ei hun.
Mewn cychyn, heb wneyd cuchia',
I 'sgytio'r gêr bysgota,
Caiff gwrw a bir a bara,
A dillad hafdd heb dylla',
Ac aur mewn coda' lonaid cwch,
Rhag braenu a blys caiff brynnu blwch.

Perthyn i'r capel ai peidio, gŵr bucheddol oedd Robert Hughes. Dyma benillion ysgrifennodd wedi gweled amryw'n dyfod i'r addoliad i chwareu a chwerthin ac i ddiystyrru moddion gras,—

Chwi blant satan, mae'n druenus,
Yn wir nid gweddus ydyw 'ch gwaith;
Hawdd i chwi wybod mewn gwirionedd
Mai poen yw diwedd pen y daith;
Mynd i foddion gras i chwareu
Yw r pechodau mwya' eu maint;
Diystyrru taer weddiau,
A gwawdio swn caniadau'r saint.

Ond os ydych heb eneidiau,
Ewch draw i'r caeau gyda'r cwn,
Ymhell oddiwrth rai sy'n gweddio,
Lle nad oes yno ddim o'u swn;
Fel anifail aflan cofiwch,
Ymollyngwch gyda'r lli
I bob pleser, nac arbedwch,
O rwydau chwant na redwch chwi.

A dyma ei weddi,—

Dyro edifeirwch, Arglwydd,
I mi beunydd tra b'wyf byw,
A'm tynno, y'ngwyneb pob ystormydd,
Yn nes o ddydd i ddydd at Dduw;
Dyro ffydd a'm tynno i hefyd,
Bob rhyw funud bach o f' oes,
I'r noddfa dawel sydd dan aden
Y Gŵr fu'n gruddfan ar y groes.

Disgynnodd yr awen i'w ŵyr, sef casglydd y *Gell Gymysg*, ac y mae ei holl weithiau ym meddiant ei ferch,—Mrs. Roberts, 2, Britannia Terrace, Llanfair P. G.,—ond nid ydynt wedi eu hargraffu. Y mae ei weithiau ef oll ar bynciau Ysgrythyrol. Hwyrach y caniateir i mi ddiweddu hyn o ysgrif â'r ddau bennill yma. Rhan ydynt o farwnad a wnaeth ar ol ei daid, awdwr y *Gell Gymysg*,—

"Y mae ei gorff yn gorwedd
Yn wael ei wedd yn wir,
Ym mynwent fras Llanfachreth
Oddiwrth bob trafferth tir,
Ni chawn ni bellach bythol
Mo'i gwmni gweddol gwiw;
Ffarweliodd fyd a'i blaniau,
A'i ddrygau o bob rhyw.

"Pan 'drychwyf ar ei lyfrgell
A'r 'stafell lle bu byw
A gweled gwedi colli
Fy nhaid a'i gwmni gwiw,
Nid allaf lai na synnu,
Hiraethu hefyd fwy,
A meddwl beth wnaeth angau
A'i gleddyf mawr drwy glwy."

Bangor. R. D. Roberts.

XI. EOS GWYNFA.

Disgwyliais ers tro bellach weled rhyw law gelfydd yn ymgymeryd ag ysgrifennu erthygl ar yr hen fardd teilwng sydd a'i enw uwchben yr ysgrif hon, ond ofer yw fy nisgwyliad wedi bod hyd yn hyn beth bynnag. Yn niffyg hynny, ac i aros am ysgrif well a chyflawnach, yr wyf yn cynnyg yr ychydig grybwyllion a ganlyn. Nid wyf yn honni anffaeledigrwydd, oblegid drwy chwilio a holi llawer y daethum o hyd i'r pethau yr wyf ar fedr eu nodi. Gŵyr pawb mai nid gwaith hawdd ydyw ysgrifennu hanes unrhyw un hanner canrif wedi ei farwolaeth, yn arbennig felly pan na bydd odid ddim wedi ei ysgrifennu am dano yn flaenorol. Pa fodd bynnag, yn ol fy ngallu, amcenais at gywirdeb yn yr oll.

Ganwyd Thomas William,—neu fel y gelwid ef ar lafar gwlad,—"'rhen Domos y gwŷdd," mewn lle o'r enw Cân y Cwm, ym mhlwyf Llanfihangel y Gwynt, ger Llanfyllin, swydd Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1769. Mae'r hen dy lle y ganwyd ef wedi ei wneyd yn feudy i'r anifeiliaid ers blynyddau lawer. Bu farw yn y flwyddyn 1848, yn 79 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfihangel. Ganwyd iddo ddeuddeg o blant, o'r rhai nid oes ond un yn fyw. Enw yr hynaf o'r plant oedd Mary, yr hon a anwyd yn y flwyddyn 1794, a mab iddi hi oedd y diweddar Barchedig E. W. Jones, D.D., gweinidog yr Anibynwyr yn Johnstown, Unol Daleithiau America, yr hwn a gyfarfyddodd â'i ddiwedd alaethus yn y rhyferthwy hwnnw pan dorrodd y llyn beth amser yn ol.

Yr oedd amryw o feibion Tomos William wedi etifeddu y dalent farddonol, ond nid yn agos i'r un graddau â'r hen fardd. Gellir enwi ei fab John Williams (Ioan Gwynfa), yn arbennig felly. Yr oedd ef yn fardd gwych; cyfansoddodd lyfr neu ddau, a chryn lawer o garolau heblaw hynny. Bu John Williams yn pregethu hefyd gyda'r Bedyddwyr am gyfnod maith. Y mae yntau bellach wedi myned i huno, yn fab pedwarugeinmlwydd a rhagor.

Dywedir fod Eos Gwynfa yn cymeryd dyddordeb mawr yn yr Ysgol Sabothol a'r bobl ieuainc, ac hefyd yn cymeryd rhan helaeth yn aml mewn cyfarfodydd gweddio fel math o gynghorwr. Nid oedd wedi ei gynysgaeddu a dawn swynol i siarad, a chan ei fod gyda hynny yn dueddol i fod yn faith a sychlyd, yr oedd hyn oll yn anfantais fawr i'w boblogrwydd yn y cyfeiriad hwnnw. Meddyliodd unwaith am ddechreu pregethu, ond argyhoeddwyd ef o bosibl nad oedd wedi ei alw i'r cylch cyhoeddus hwnnw, a rhoddodd y syniad o'r neilldu. Yr oedd yn hyddysg iawn yn yr Ysgrythyrau, a phan y byddai yn cynghori, fel y crybwyllwyd, ei arfer fyddai cymeryd pennod neu adran neillduol o'r Ysgrythyr a'i esbonio, yr hwn waith, meddir, yr oedd yn lled fedrus arno.

Gwŷdd oedd yr hen fardd wrth ei alwedigaeth. Dywedir am dano ei fod pan yn ieuanc yn lled wyllt ac anystyriol, a'i fod yn defnyddio ei awen i gyfansoddi cerddi masweddaidd i gyfarfod a chwaeth lygredig ei oes. Byddai pawb yn ceisio cadw ar delerau da gydag ef rhag ofn i'w awen barod droi yn ffrewyll ffyrnig, a pheri gofid iddynt, fel y byddai yn digwydd yn aml. Os digwyddai tro trwstan gyda rhywun, fe fyddai yr hen Eos yn lled sicr o'i wneyd yn hysbys ar fesur cerdd trwy y fro i gyd. Dywedodd ei fab,—Evan Williams,—yntau bellach wedi myned i ffordd yr holl ddaear,—

wrthyf i'r hen fardd, pan ddaeth at grefydd, gasglu yr oll o'r cerddi masweddaidd a nodais ynghyd, a'u llosgi yn un pentwr, ac iddo byth wedi hynny gysegru ei awen i gyfansoddi caneuon oedd unol a chwaeth bur. Pa bryd y daeth at grefydd nis gallaf ddweyd yn iawn; yn ol a gesglais yr oedd gyda chrefydd yn lled gynnar yn ei oes.

Yr oedd Eos Gwynfa yn awdwr o gryn fri. Cyhoeddodd bedwar neu fwy o lyfrau; y pennaf ohonynt, mae'n debyg, oedd *Telyn Dafydd*, yr hwn sydd arall-eiriad o'r Salmau. Dyma ei ddarluniad o ddeddf y môr,—

"I'r môr Duw a 'roes orchymyn,
I'w ddyfroedd gadw'i derfyn,
Gan orwedd yn ei wely'n glos,
Heb fyned dros yr erchwyn."

Dyma fel yr arall-eiria Salm lxxxvii.,—

"Mae ty Adda'r ail a'i sail ar fynyddoedd,
Cadernid y Drindod, cyfamod cynoesoedd;
Pyrth Seion a gân - cânt fod yn agored,
I weiniaid ddod yno dan wylo a cherdded;
Pob cenedl drwy'r byd yng nghyd wnant ddylifo,
Bydd cyflym 'sgrifennu am eni rhai yno.

"Cantorion gwir ddawn yn llawn mewn llawenydd,
Cerddorion a'u hoffer foliannant yr Arglwydd;
A Seion cyn hir a welir yn llwyddo,
Fel dinas fawreddog na ellir ei chuddio;
Cenhedloedd y byd o i mewn a breswyliant,—
Ffynhonnau y bywyd tragywyddol a yfant."

Wesleyan College, Richmond.

Y llyfrau ereill a gyhoeddodd oedd *Manna'r Anialwch*, yr hwn sydd lyfr emynnau; a dau lyfr carolau,—*Newyddion Gabriel* a *Mêr Awen*. Dywedir fod cryn lawer yn ychwaneg o waith yr hen fardd yn aros mewn ysgrifen heb weled goleuni dydd; gresyn hynny hefyd. Onid campus o beth fyddai i ryw gyhoeddwr Cymreig ymgymeryd a chyhoeddi llyfryn yn cynnwys pigion o'i weithiau?*

Dyma fi wedi croniclo mewn cylch byr gymaint ag a ellais gael o hanes yr hen Domos William,—am yr hwn y dywedodd Ap Vychan,—"Pe buasai wedi cael manteision buasai yn un o brydyddion goreu ei oes." †

* Hyd y gwn, nid oes ond ychydig wedi ymddangos drwy y wasg am Eos Gwynfa, ac am yr ychydig grybwyllion a ymddangho odd, maent yn brin a gwasgaredig iawn. Ceir crybwylliad am dano yn *Hanes Eglwysi Anibynnol Cymru*, gan Dr. J. Thomas a Dr. T. Rees; hefyd yn y *Cronicl* am y flwyddyn 1868, tudal. 159; hefyd yn y *Geninen*, cyf. iii., tudal. 76, lle y dywedir y ceir cofnodiad am dano yn y *Montgomeryshire Worthies*, gan R. Williams, F.R H.S.

† Credaf y gŵyr y bardd coronog Cadfan gryn lawer am ei weithiau; ai rhyfyg ynwyf fyddai dymuno arno i ysgrifennu erthygl ar Tomos William fel bardd? Yn sicr y mae Eos Gwynfa yn teilyngu gwneuthur o rywun hyn iddo.

T. C. Roberts.

MAE CYMRU WEDI DEFFRO.

Mae Cymru wedi deffro
O gwsg canrifoedd hir,
Yn swn ei phlant yn wylo
Am iawnder yn y tir;
Mae hen ysbrydion traha
Fu'n sarnu hawliau hon,
Yn ymbil am ddiddymdra
A dychryn lond eu bron.

Mae Cymru wedi deffro
I ymladd os bydd raid,
Mae Duw y nef yn gwystlo
Ei ddwyfol nerth o'i phlaid;
Awn rhagom fel gwladgarwyr
Gan ddiystyrru braw,
Mae trwst "Marchogion Arthur'
Yn dyfod oddi draw!

Mae Cymru wedi deffro,
A'i llaw ar garn ei chledd,
A thwng y myn ei wrido
Dros ryddid pur a hedd;
Athrylith frwd ei meibion
Sy'n siglo gorsedd Trais,
Nes plygu pendefigion
I wrando ar eu llais.

Mae Cymru wedi deffro
Ar fynydd, glyn, a gwaen,
I weld ei phlant yn cario
Y llawryf fel o'r blaen;
Mae baner wen ein talaeth
Yn mynd yn uwch o hyd,
Ar dalfryn "Buddugoliaeth"
Fe blennir hon ryw bryd.

Mae Cymru wedi deffro
I fod yn Gymru Wen,
Mae gobaith teg yn siglo
Ei aden uwch ei phen,—
Mae anadl proffwydoliaeth
Yn dweyd heb ofn sarhad,
Fod gloewach etifeddiaeth
I ddod i ran ein gwlad.

Mae Cymru wedi deffro
I weld ei phlant yn un,
A'r gelyn ola'n cwympo
Ar lafn ei gledd ei hun;
Mae Cymru wedi deffro
I beidio cysgu'n hwy
Nes gwel ei bryniau'n fflamio
Pan na bydd amser mwy!

Bryfdir.

HEN GATECISM.

Nid anyddorol fydd yr hen gatecism hwn,—catecism ddengys gymaint oedd gwybodaeth ysgrythyrol wedi dirywio yng Nghymru erbyn diwedd y cyfnod Pabyddol. Codwyd ef o hen lawysgrif ym meddiant D. Tegid Jones, Ysw., Y Gopa, Traws Fynydd,—llawysgrif gopiwyd o un hŷn gan rywun na fedrai Ladin, tua dechreu'r ddeunawfed ganrif, ac a gasiwyd yng nghas hen Feibl mawr. Gelwir ef yn "Ymddiddanion rhwng Adram ymerodr o Rhufain ag Epig ddoeth, sef y ddau wr galla yn y bud. Ag felly yr Epig, yr hwn ydoedd o'r dwyrain a gŵr dieuthur yn Rhufain, ef a gyrchwyd ger bron Adram." "Epig gu" ebe'r ymherawdr, 'o ba le daethost?" Yr Epig atebodd ac a ddywedodd,—"Myfi ddaethym drwy wllus yr Arglwydd Dduw." Yna dechreuodd yr ymherawdr ofyn cwestiynau, ac atebai'r Epig.

PA beth yw'r nef?

Peth o ddirgeledig ddeunydd, a'i bortreiad megis coron ar led.

Pa beth sydd yn cynnal y nef?

Y ddaear.

Pa beth yw'r ddaear?

Cell o fowyd i ddynion, canys o honi mae ymborth gwyllt a gwâr yn dyfod.

Pa beth sydd yn cynnal y ddaear?

Y dyfor.

Pa beth sydd yn cynnal y dyfor?

Y maen.

Pa beth sydd yn cynnal y maen?

Y pedwar angel a ordeiniwyd, nid amgen Mathews, Margws, Luwgws, Joanus.

Pa beth sydd yn cynnal y pedwar angel?

Tân.

Pa beth sydd yn cynnal y tân?

Y dyfnder.

Pa beth yw'r dyfnder?

Pren oedd. Yn y cwbwl gan ein Harglwydd Iesu Grist.

Pa beth a welir, ac ni ellir cyffwrdd ag ef?

Yr haul yn y ffurfafen.

Pa beth yw'r haul?

Cell o fowyd i ddynion.

Pa beth yw'r lleuad?

Llewyrch o dywyllwch, addysg i rai drwg.

Pa beth yw'r ser?

Rhyfeddod i'r byd.

Beth ni chwymp byth?

Y ddaear.

Pa beth sydd yn dwyn ffrwyth heb wraidd iddo?

Llong ar y môr.

Pa beth sydd fynycha yn y byd?

Meddwl dyn.

Pa beth yw breuddwyd?

Llawenydd heb ynnill, tristwch heb golled.

Pwy fu farw, ac ni aned?

Adda.

Pwy ddydd o'r mis y bu farw?

Y pedwerydd dydd o Ionawr.

Pwy a aned ac ni bydd marw hyd o fewn tair blynedd i ddydd y farn?

Elias ac Enoch, sydd ym Mharadwys hyd oni ddelo'r Anghrist i'r byd hwn.

Pwy fu farw a'i gorff heb ddarfod byth?

Gwraig Lot, a drodd Duw yn golofn halen.

Pwy fu yr offeiriad cyntaf erioed?

Melsusadeg.

Pa fynydd na chwymp glaw o'r nefoedd arno?

Mynydd Gilboa.

Pa ddaear ni ddaw na haul na gwynt arni ond un awr o'r dydd?

Y ddaear y bu plant Israel yn i sathru drwy'r Môr Coch.

Pwy welodd yr ysgol o'r ddaear hyd y nef?

Iago.

Pa sawl blwyddyn y bu Duw heb roddi glaw ar y ddaear?

Tair blynedd a chwe mis.

Pa le y bydd dydd y farn?

Yn nyffryn Jehosaffat.

Pa le y mae'r môr yn myned pan fo'n treio?

I guddiedig wythi'r ddaear, ac eilwaith yn ei ol, yn ol ordeiniad Duw.

Pa beth a ymddengys yn fyw ar y môr, heb fod yn y llong?

Tân yn y maen, pysgod yn y môr.

Pwy gynta wnaeth arad?

Noa hen.

Pwy gynta wnaeth lythyr?

Miger Gawr.

Pwy gynta aberthodd i Dduw?

Abel wirion.

Pwy welodd y tad i hun?

Adda ac Efa, pan yrrwyd nhw allan o Baradwys, ac Abram dan wraidd y pren.

Pa beth ore ym Mharadwys, a gwaethaf yn uffern?

Einioes hir.

Pa bryd y dechreuodd Crist ymprydio?

Y degfed dydd o Fawrth.

Pa le y gorffwys enaid dyn pan fo yn cysgu?

Naill ai yn y galon ai yn yr ymenydd ai yn y gwaed.

Pa beth a wnel dyn drwg i gwsg pan fo'r enaid yn 'r ymennydd?

Fo wêl gyfflybrwydd o'r peth a ddelo yn wir, a'r peth i gofio, yn enwedig pan fo'r cylla'n gymedrol. Os yn y gwaed, di a'th weli uwch ben dyfroedd a llifeiriant, ac ni ddaw yn wir. Os yn y galon, di a weli beth a chwenychit i gael ac y byddi'n son am dano

cyn cysgu, neu ti a'th weli'n gweithio mewn gwisgoedd gwnion.

Drwy bwy y melldithiodd ac y bendithiodd Duw y ddaer?

Drwy Adda a Chain y melldithiodd y ddaear; drwy Noa ac Abram y bendithiodd y ddaear.

Paham y bydd i'r doethion blant ynfydion?

Am i'r doethion ystyried gormod, a sychu o'u natur.

Paham y bydd ar ddyn byw ofn dyn marw mwy na pheth marw?

O achos i ddyn garu cysylltigeth yr enaid â'r corff, a chashau i gwanedigaeth hwy.

Paham i gwnaethpwyd gwraig o asen gŵr mwy nag o fan arall?

Am i bod yn ganolig; ac ni ddylai godi yn anghyfarchol nac ymostwng yn rhy isel, ond bod yn ufudd i'w gŵr.

Paham na bydd hallt bysgodyn y môr, ac yn yr heli'n wastad?

Am nad o'r heli y maent yn cael i hymborth, ond o'r croew.

Bwy oedd fam Adda?

Y ddaear.

Pwy a ddarllennodd enw yr Arglwydd gynta?

Enoch.

Pa fodd y gelwir y peder afon sy'n rhedeg drwy Baradwys?

Tigris a Phision ac Euphrates ac Hidecel.

Pa hyd oedd yn llong Noa?

Tri chan cufydd o hyd, 30 o led, 40 o uchder.

Pwy a aned unwaith ac a fu farw ddwywaith?

Lasarus.

Pwy ni chrewyd ac ni anwyd?

Yr Arglwydd Iesu Grist.

Prun bennaf yn y nef ai dynion ai angylion?

Penna yw dyn, canys Duw a ddewisodd enaid dyn iddo ef.

Pa sawl mab a fu i Adda?

30 o feibion, a 30 o ferched.

Pwy aned ac na aned na'i dad na'i fam?

Meibion a merched Adda ac Efa.

Pa oedran yr aeth Adda?

Naw cant a deuddeg ar hugien.

A pha oedran yr aeth Efa?

Saith gant a phum mlwydd.

Pwy a gafodd ei fam yn forwynig?

Abel wirion, fab Adda, canys cynta un a gladdwyd oedd.

Pa ryw droedfedd deg a wnaeth Duw ar y ddaear?

Wyneb dyn; canys ped fae beder mil o bobol yn yr un man, fe ellid adnabod pob un wrth i wyneb.

Paham y rhed gwaed celen pan ddelo'r llofrudd uwch i phen mwy na phan ddelo arall?

Am ladd o Gain i frawd Abel, ac ni chaed wybod nes i Dduw ddangos yn y modd hyn.

Pa wr hyna fu erioed?

Methusalem, a fu fyw 960.

Pa hyd y parhaodd y dŵr diliw?

Blwyddyn hynod.

Pa gynhebrwng mwya fu erioed?

Gwraig Noa hen, a gafodd yr holl fyd yn i hymgladd, canys nid oedd yr amser hwnnw ond Noa a'i dri mab a'u tair gwragedd.

Pa beth leia bris a mwya dâl?

Ufudd-dod yr efengil.

Paham y cyfyd dynion yn i sefyll pan fo'r ficar yn darllen?

Oherwydd mai gwirionedd yw, a phawb a ddysg godi gyda'r gwirionedd.

Paham y gwnaed y gafell yn isa man yn yr eglwys?

I ddangos ddarfod i Dduw ymostwng i ddyn yn is nag yr ymostwng dyn i Dduw byth.

Pa sawl peth sydd gyffredin i bob dyn o'r cwbl?

Gole'r dydd, a'r dŵr, a'r tân.

Henwa imi chwe oes y byd.

Y cynta oedd Adda, yr ail oedd Noa hen, y trydydd Abraham, y pedwaredd Moses, y pumed Dafydd broffwyd, a'r chweched a fu Grist.

Pa hyd y bu Adda yn uffern?

Peder mil a chwe chant a ffeder blynedd a chwe awr.

Pa sawl dirgel beth sydd yn y byd?

Tranau ac angau a gwynt ac enaid dyn.

Beth a fu o enedigaith Crist?

Fo fu bum mil a ffum cant a ffeder blynedd.

A pheth o enadigeth Crist hyd Anghrist?

Saith mil a dau gant.

A pheth a fydd oedran yr Anghrist hwnnw?

Tair ar ddeg ar higien?

A pheth a fydd o hynny hyd ddydd brawd?

Fo fydd deigien nhiwrnod.

Ac felly terfyna yr ymholi fu rhwng Adram yr ymeroder ag Epig ddoeth.

"Terfyn gwaith bras brwnt," ebe'r Robert Edward a gododd yr ysgrifen o hen lyfr "anno Domini 1720." Codais innau ef o lyfr Robert Edward, gan newid ei orgraff trwy roddi *u*, *y*, *ac* fel y rhoddir hwy yn awr. Ond y mae'r geiriau ereill,— *i*, *glaw*, *igien*, &c,—oll fel yr ysgrifennodd R. E. Brotestanaidd hwy.

GOFYN AC ATEB.

XXXI. Y GENHINEN—Y DAFFODIL.

Pan oeddwn yn gadael Cymru ar fy ymchwil am seibiant ac iechyd, yr oedd Gwyl Dewi yn ymyl, ac efrydwyr Bangor yn dechreu ymholi am eu cenin i'w gwisgo er cof am y sant Ond "cenhinen wneyd" a wisgir fel ysnoden ar yr achlysuron hyn yng Ngholeg y Gogledd fel ymhob man arall am y rheswm fod drygsawr cenhinen y farchnad yn ddigon i ladd archwaeth dyn, os nad i syrffedu ei wladgarwch. Ond tybed mewn gwirionedd mai y llysieuyn a elwir gennym ni yn genhinen oedd cenhinen yr hynafiaid? A fyddai yn rhyfyg awgrymu y gallai mai y *daffodil* siriol,—hoff flodeuyn Herrick a Wordsworth a Tennyson,—yw ein harwyddlun cenhedlaethol wedi'r cwbl? Mis Mawrth, sef mis Dewi, yw mis y *daffodil;* melyn yw ei flodeuyn, ond nid yw y blodeuyn yn gwneyd ei ymddanghosiad hyd ganol y mis, ac felly y ddeilen werdd a wisgid ar Ddydd Gwyl Dewi. Clywais fod un math (*variety*) o'r *daffodil* yn cael ei briodoli i Gymru ymysg y llysieuwyr, ac y mae daear a hinsawdd Cymru yn hynod ffafriol i'w dyfiant. "Cenhinen Pedr" y gelwir y *daffodil* yn siroedd Arfon a Dinbych, ac y mae yn tyfu mewn rhwysg a llawnder, fel y buasid yn disgwyl oddiwrth yr enw, yn ardal *Llanbedr y Cenin* ger llaw Conwy. Gallwch chwi neu rai o'ch darllenwyr ddweyd ai "Cenhinen Pedr" a elwir y *daffodil* mewn parthau ereill o Gymru. Oddieithr i'r beirdd a'r haneswyr a'r llysieuwyr ymuno i wrthod y dybiaeth, gall y Cymro ymffrostio fod ei Genhinen yn llawn mor brydferth a phersawr a Rhosyn y Sais, ac ni raid i'w ffroenau a'i lygaid wrthryfela yn erbyn ei wladgarwch!—Yr eiddoch,

W. Cadwaladr Davies.

Alassio, Itali. Mai 21, 1892.

XXXII. CAWL.

O'n ni'n falch iawn i weld y dyn da o Abertawa yn sgrifennu mor gryf dros gawl Cymru yn ych rhifyn dwetha. Dos dim dowt i fod a yn reit wrth weid nag ôs dim yn y byd cystal a'r hen gawl anwl. Ond, ar yr un pryd, dw i ddim yr un ffordd ag e pun bo fa yn rhytag lawr cawl Shir Forgannwg.

Os gen i ddim i weid yn erbyn cawl Glan Teifi, ma fa o'r gora i rhai sy'n i lyco fa; ond ys gwetodd y brawd, os i chi am gâl *cawl*, a chawl a thâst arno, rhaid i chi ddod i'r Shir hyn I ni ddim yn cretu mwn doti cymant o betha yn y cawl, a dw i fel un ddim yn ffond o rhyw goldiach fel ma nhw yn Glan Teifi. Fe fysa r dynnon tlor hyn yn cwnni i trwyna ar y cawl ma Eilir yn son am dano. Pwy isha cig idon a chig moch, a phanas a dwmplins (ôs fala yndi nhw? a charetsh a blawd circh? Gneyd cawl ronc, cryf, nelsa petha ffor 'na.

Y cawl sy'n swyno dynnon Merthyr a Aberdar a Phont y Pridd a Llanwyno, yw cawl wedi neyd o ben gora rhag weddar, a dicyn o gân a phersli a chenin; dyna'r stwff i neyd dyn ôr yn dwym, a dyn sych wrth i fodd.

Os ôs rhwyn wedi câl i ddenu gan Eilir i feddwl ma cawl Glan Teifi yw'r gora, dos gen i ddim i weid ond gofyn iddo fa bido gneyd i feddwl fyny cyn tasto cawl Shir Forgannwg. W i bron medd vl bydd awydd am gawl cig tarw a chig moch Glan Teifi yn diflannu fel y bydd arogl esmwyth cawl cig weddar Morgannwg yn codi yn i ffroena.

Merthyr Tydfil. J. D. Jones.

XXXIII. DEIO I DOWYN.

Awdwr "Deio i Dowyn" ydoedd James Jones, tailiwr, Llanrhaiadr Mochnant, yr hwn adwaenid ym mysg y beirdd wrth yr enw Iago Mochnant. Y Mr. Jones a enwir yn y penillion ydoedd Mr. R. Jones, Uchelwr o Ros y Brithdir. Yr oedd yn gryn lenor, a bu yn dadleu â Chawrdaf ar Ymddanghosiad Ysbrydion yn yr *Eurgrawn Wesleya dd* er ys llawer dydd. Clywais James Morris, saddler, Llanrhaiadr, yn ei chanu yn fynych rhyw bum mlynedd ar hugain yn ol, ac yr oedd ar dafod leferydd amryw ym Mochnant y pryd hynny. Cynhwysa laweroedd rhagor o benillion nag a ymddanghosodd yng Nghymru. Yr oedd Iago Mochnant yn fardd rhagorol, ac yn englynnwr gwych iawn. Wele englyn byrfyfyr o'i eiddo, a gyfansoddwyd wrth gwrdd a chyfaill, ar y ffordd yn ymyl y Plasdu, newydd fod ar ei *derm*,—

"Meddwdod sy bechod nid bychan,—ennyn
nynol gyflafan;
Gyr gall i angall yngan—
Cwrw yn wir wna'r cawr yn wan."

Llangollen. Henri Myllin.

XXXIV DARN ARIAN.

A fyddwch chwi mor garedig a rhoddi i mi ychydig o fanylion am ddarn o arian bathol Cymreig sydd yn fy meddiant? Ar un wyneb iddo ceir delw dyn a'r argraff "Jestyn ap Gwrgan Tywysog Morganwg 1091"; ar y wyneb arall ceir delw dynes (rhywbeth yn debyg i *Britannia* ar ein harian ni) a'r argraff "Y Brenhin a'r gyfraith 1795." Ar ymyl y darn ceir y geiriau "Glamorgan Halfpenny."

Castell Nedd. Philip Thomas.

XXXV. FFARWEL TRW'R PWLL.

Poed hysbys i Elis o'r Nant fod yr hen Alaw Gymreig "Ffarwel trw'r Pwll" i w gweld yng nghasgliad Edward Jones, Bardd y Brenin,—*Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards;* hefyd yn *Welsh Harper* Bardd Alaw. Tybiaf nad oes achos i mi alw ei sylw at hen dôn Gymreig arall wir dda a sonnir am dani mewn modd cyffelyb gan y diweddar fardd clodwiw Ceiriog yn y *Bardd a'r Cerddor* (gwel tudal. 91), a bod hon hefyd ar gael yn y llyfrau uchod.

Llanidloes. N. B.



"Ac y doi ef ei hun i edrych arno n llosgi'n lludw."

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

IX. MERINDOL.

"Ai mŵg cartrefi anrheithiedig, O Dduw, a ddengys it fod dy deyrnas yn dod?"

TEFLIR goleuni rhyfedd ar yr erledigaethau, ac ar y gwahaniaeth rhwng yr hen grefydd a'r newydd, gan y rhyfel difaol gyhoeddwyd gan senedd Aix yn erbyn Protestaniaid diniwed Merindol. Cyn chwerwi meddyliau crefyddwyr, edrychid ar grefydd y Waldensiaid oedd yn byw yn Alpau Dauphinè fel chwim pobl ryfedd fynyddig. Yr oedd symlrwydd diniwed eu bywyd, a'r diwydrwydd wnai eu cymoedd fel Eden, wedi gwneyd i'r brenin ddweyd fod yn rhaid fod eu crefydd yn well na'r grefydd Gatholig. Yr oeddynt yn bobl ar eu pen eu hunain, hynod am eu teyrngarwch, am eu helusen, am eu bywyd gonest a phur. Yn 1535 clywsant am y diwygiadau crefyddol yn yr Almaen, ac anfonasant ddau weinidog i edrych a oedd crefydd Luther yn debyg i'w crefydd hwy. Yr adeg hon yr oeddynt yn ddeng mil o deuluoedd, yn byw mewn deugain pentref yn Venaissin a Dauphinè, heblaw cyd-grefyddwyr ar wasgar mewn trefydd Pabyddol,—y bobl fwyaf caredig a gonest a diniwed trwy wledydd cred i gyd.

Pan glywodd y clerigwyr fod dau weinidog wedi bod yn yr Almaen, codasant gri chwerw yn erbyn "hen heresi'r Waldensiaid, oedd wedi ei dioddef cyhyd." Am beth amser amddiffynnodd y brenin y crefyddwyr; ond, yn 1540, gwnaeth Archesgob Arles i senedd Aix basio'r mesur mwyaf anynol a basiwyd erioed. Yr oedd pedwar ar bymtheg o wŷr a gwragedd i gael eu llosgi'n fyw, heb gyfle i amddiffyn eu hunain, yr oedd eu perthynasau

a'u gweision i gael eu halltudio, yr oedd pawb a'u noddai i ddioddef eu pennyd. Yr oedd Merindol i'w llosgi'n lludw, yr oedd y coed o fewn dau gan llath iddi i'w diwreiddio,—fel na feddyliai fforddolion fod pentref na phobl wedi bod yno erioed. Yr oedd tri anhawsder ar ffordd yr erlidwyr, — ofnent i'r brenin wahardd eu cynllun melldigedig, yr oedd arweinydd y senedd wedi taflu ei holl awdurdod yn ei erbyn, ac yr oedd yn anodd cael milwyr digon calongaled i roi'r fath orchymyn mewn grym. Dychrynnodd y Waldensiaid yn fawr pan glywsant am benderfyniad senedd Aix, a gwnaethant gyffes eu ffydd,—hanes byr am symlrwydd eu bywyd, purdeb eu crefydd, a'u teyrngarwch heddychlon. Enillasant gyfeillion yn llys y brenin ac yn llys y Pab, a gwelodd eu gelynion nad oedd yr amser i'w difodi wedi dod eto. Ceisiasant, gan hynny, eu dychwelyd i'r ffydd Gatholig. Anfonwyd doctor diwinyddiaeth i ddangos eu cyfeiliornadau iddynt, a daeth hwnnw'n ol gan dystio ei fod wedi dysgu mwy o ddiwinyddiaeth mewn wyth diwrnod ymysg y Waldensiaid nag a ddysgasai yn ei oes o'r blaen. Yr oedd yn rhaid cael rhywun chwerwach na hwn; anfonwyd am bedwar mynach o Brifysgol Paris. Pan ddaeth y rhain yn ol, dywedodd un o honynt ei fod wedi holi plaut y Waldensiaid yn yr Ysgrythyr, ac nad oedd diwinyddion goreu'r eglwys wedi dysgu cymaint iddo ag a ddysgodd y plant bach hynny.

Nid oedd hyn oll wrth fodd arch-esgob Arles. Ac o'r diwedd, yn Ebrill 1545, daeth cyfle'r erlidwyr. Daeth Baron D'Oppede yn arweinydd senedd Aix,—dyn anuwiol ac anghyfiawn, yn cashau'r Waldensiaid â chas perffaith, oherwydd eu crefydd ac oherwydd eu bod yn rhoi nodded i'r rhai ddiangai o'i diroedd rhag ei orthrwm. Daeth Guerin yn gyfreithiwr y brenin yn y fro honno,—gŵr nwydwyllt, penboeth, pechadurus. Medrodd Cardinal Tournon ddarbwyllo'r brenin i gredu fod y Waldensiaid ar fin gwrthryfel, ac yn amcanu at fod yn anibynnol, fel canton Swissaidd. Yr oedd chwe chatrawd o wŷr traed ar eu ffordd adref o'r Eidal, diafliaid yng nghrwyn dynion, parod i'r erchyllwaith ffieiddiaf am gyflog. Heblaw y rhain ffurfiwyd catrawd arall,—bonheddigion yr ardaloedd a gwehilion y trefydd cyfagos. Rhannwyd y fyddin yn ddwy, a chychwynnodd y ddwy adran tua Merindol yn y mis Ebrill hwnnw. Ffodd gwŷr di-amddiffyn Merindol o'u blaenau, wrth weled mŵg y difrod yn codi o'r meusydd. Nid arhosodd ar ol ond y gwan, yr hen, a'r methedig,—rhai na allai ffoi. Rhoddwyd Merindol a'r pentrefydd ereill ar dân yn gyntaf peth; ac yna dechreuodd y giwed fileinig ddi-drugaredd ar ei gwaith. Ni arbedwyd yr hen wr pedwarugein-mlwydd, lladdwyd y baban oddiar fron ei fam; ac os toddid calon y milwr garw gan waedd plentyn am drugaredd, ysgrechiai Guerin ar iddo beidio atal ei gleddyf.

Wedi difa Merindol, a gwneyd y wlad amaethedig brydferth yn anialwch llosgedig, cychwynnodd byddin yr erlidwyr i gyfeiriad Cabrières. Yr oedd hen fur gwan adfeiledig o amgylch Cabrières, a rhag y byddai hwn yn amddiffyn i'r crefyddwyr, yr oedd y Pab wedi gofalu am anfon magnelau. Buan y gwnawd adwy yn yr hen fur, a rhuthrodd y fyddin ddieflig i'w gwaith. Llofruddiwyd y dynion, a heliwyd y gwragedd a'r plant i'r eglwys. Dywedodd D'Oppede wrth y boneddigion am bigo'r merched oedd yn taro eu ffansi, "i'w hyfforddi yn y grefydd Gristionogol," ac yna rhoddwyd yr eglwys ar dân, a llosgwyd y gwragedd a'r plant yn fyw ynddi. Yr oedd yr ardaloedd Waldensaidd at drugaredd y milwyr anynol meddwon, a boddhasant eu chwant a'u creulondeb i'r eithaf. Dihangodd gweddill y gyflafan i'r coed, a buont feirw'n lluoedd yno, oherwydd yr oedd y mis Ebrill yn anarferol o oer. Ac wrth farw o newyn ac oerfel, ymlawenhaent yn eu munudau olaf wrth gofio nad oeddynt wedi gwadu eu crefydd. Ychydig iawn o honynt fedrodd gyrraedd Geneva, ar hyd llwybrau mynyddig geirwon, i ddweyd yr hanes.

Dywedwyd wrth y brenin fod pedwar pentref ar hugain wedi eu llosgi, a'u gwneyd yn gydwastad a'r llawr. Ond ni fynnai wneyd cyfiawnder, ar ddadleuwyr senedd Aix yn unig y mynnai wrando, a chymeradwyodd waith ofnadwy yr erlidwyr. Ond, ymhen dwy flynedd wedyn, yr oedd Ffransis ar ei wely marw; a daeth Waldensiaid diniwed Merindol i'w feddwl. Galwodd am ei fab, a gwnaeth iddo addaw gwneyd hynny o gyfiawnder a fedrid i'w coffawdwriaeth.

Hoff arwyddair Ffransis oedd,—"Nid digon un byd." Tybid unwaith yr agorai'r brenin ei lygaid ar y byd newydd ysbrydol, ond syrthiodd yn ol i hen fyd y cnawd. Er hynny yr oedd byd newydd yn ymagor o flaen y deiliaid oedd wedi orthrymu a thlodi er mwyn boddio ei uchelgais a'i awydd am goncwest a rhyfel,—byd heddwch, byd purdeb moes, byd prydferthwch sancteiddrwydd.

Bu Ffransis farw yn 1547. Yr oedd y diwygwyr cyntaf yn prysur ddiflannu i'r bedd,—bu Marot, bardd y brenin, farw dair blynedd o'i flaen; a bu Margaret o Navarre, ei chwaer hoff, farw ddwy flynedd ar ei ol. Dyma'r ddau oedd wedi ceisio ennill Ffransis.

Yr oedd Marot wedi cynnyg iddo gyfieithiad o salmau brenin Israel, brenin ag yr oedd ei brofiad yn debyg iawn i brofiad Ffransis ei hun. Yn lle'r hen ganeuon am arwyr yr hen fyd ac am gariad, cynhygiodd Marot gân newydd i'r brenin,—

"Nid ing Aeneas yw fy nhestun i,
Ac nid eiddigedd brwd Achiles Fawr,
Nid straeon difyr hen y tylwyth teg,
Nid cariad dacar yw fy nghân yn awr.

"Ond heddyw, O fy mrenin, canaf glod
Duw'r lluoedd, Brenin y brenhinoedd oll,
Dihunaf delyn Dafydd ger dy fron,
Y delyn fwyn a fu mor hir ar goll.

"Pe clywsai Orpheus dannau'r delyn hon,
A'r gorffwys enaid sy'n ei thannau hi,
Ei delyn ar yr helyg roddai ef
I wrando. Frenin Ffrainc, wrandewi di?

"Baich ysgafn iawn yw baich y brenin hwn,
A rhyfedd esmwyth ei freuhinol iau;
Mae ganddo gysur i'r cystuddiol bl'in,
Mae ganddo falm i lwyr iachau."

Hoffodd Ffransis y salmau, tan chwerwodd yr erlidwyr ei feddwl. Gorfod i'r bardd ffoi am ei fywyd. Ffodd lawer tro, ond dyma'r waith olaf. Cyrhaeddodd Geneva, ac yno cyfieithodd ugain o salmau at y deg a'r hugain gyfieithasai i'r brenin. Ac yna, oherwydd pechod, gorfod iddo ffoi o Geneva. Trodd ei wyneb tua'r Eidal, a chroesodd yr Alpau i farw, yn dlawd ac unig, mewn gwlad estronol. Pechadurus fu ei fywyd, ond gwnaeth edifeirwch Dafydd yn rhan anfarwol o lenyddiaeth ei wlad.

Wedi marw Margaret yn 1549, diflannodd pob gobaith am heddwch rhwng y ddwy grefydd. Ymwregysodd y naill i erlid, ymwregysodd y llall i ddioddef, heb ofni yr hwn a laddai y corff. Nid oedd obaith i'r diwygwyr mwyach oddiwrth deulu brenhinol Valois,—yr oedd Margaret, cyfaill yr athrylithgar a'r tlawd a'r pur, yn ei bedd.

X. BRENIN NEWYDD.

"Pa hyd y bydd y gallu a'r awdurdod yn nwylaw y creulawn a'r amhur?"

Yr oedd Harri'r Ail yn eiddilach dyn na'i dad. Yr oedd Ffransis yn hoff o lyfrau a darluniau; rhedegwyr buan a neidwyr pell oedd wrth fodd Harri'r Ail. Gŵr galluog, hunanol, ac uchelfrydig oedd Ffransis, yn cael ei hudo i ryw ryfel beunydd gan freuddwydion am ogoniant gau; gŵr ieuanc addfwyn, hawdd ei arwain a hawdd ei dwyllo, oedd Harri'r Ail. Gwrandawodd Ffransis ar y ddwy ochr, ond Pabydd selog, yn credu'n gryf yn noethineb ei gynghorwyr, oedd Harri'r Ail.

Ymysg y rhain yr oedd Duc Guise a Chardinal Lorraine, yn cuddio uchelgais gwleidyddol dan gochl crefydd. Ond prif gynghorwr y brenin oedd ei wraig ordderch, Diana o Boictiers. Esmwythâi hon ei chydwybod drwy amddiffyn yr hen grefydd; ac er ei bod ddeuddeng mlwydd yn hŷn na'r brenin, yr oedd wedi ei swyno'n lân. Uno hen gariadau Marot oedd Diana, ac ni faddeuodd byth i'r bardd am gyfeirio at ei hoed,—

"Paham y cerir Dian hen,
Ni welaf yn fy myw;
Nid oedd ei gwanwyn iddi hi
Mor fwyn a'i hydref gwyw."

Dan allu hon, gwrandawodd y brenin ar y Baron D'Oppede yn amddiffyn ei hun am ddifodi'r Waldensiaid. Yr oedd hwn wedi dysgu adnodau i gyfiawnhau ei erchyllwaith, ac adroddodd hwynt ger bron y brenin. Cydmarodd ei hun i was Duw'n dinistrio'r Amaleciaid; ac yr oedd ei sel, meddai, yn rhy gref iddo wneyd camgymeriad hwnnw trwy adael un yn fyw. "Barn fi, O Dduw," meddai, "a dadleu fy nadl yn erbyn y genhedlaeth anrhugarog." Gwnawd Guerin yn fwch dihangol yr erchylldra, a dihangodd D'Oppede. Ond credai'r diwygwyr na ddihangai rhag barn Duw. Yr oedd bywyd o bechod yn dwyn marwolaeth erchyll yn aml, ac yr oedd yr oes yn credu yng ngweithrediad uniongyrchol Rhagluniaeth. A phan fu D'Oppede farw o farwolaeth Herod, gan dân a phryfed yn ei ysu, rhaid maddeu i'r trueiniaid erlidiedig am weled llaw Duw yn hyn oll.

Dysgodd Diana'r brenin gymeryd rhan ei hun yn yr ymdrech i ladd y diwygiad. Perswadiodd ef i ddod i wrando ar y diwygwyr yn cael eu holi gan yr esgobion, er mwyn boddhau ei sel grefyddol, ac er mwyn difyrrwch. Unwaith dygwyd tailiwr tlawd ger bron y llys; a dechreuodd y cardinaliaid a'r esgobion ei holi, er mwyn difyrru'r brenin. Atebodd y dyn eu cwestiynau ffol mewn dull tawel ac urddasol, a buan iawn y distewyd hwy. Yna dechreuodd Diana ei holi. Ni atebodd ei chwestiynau, ond ceryddodd hi yn llym am feiddio son â'i thafod halog am wirioneddau sanctaidd Duw. Gwylltiodd y brenin ar hyn, a dywedodd wrth y tailiwr y llosgid ef, ac y doi ef ei hun i edrych arno'n llosgi'n lludw. Nid atebodd y tailiwr air.

Cyflawnodd y brenin ei addewid. Gosodwyd yr ystanc o flaen ffenestr gyfleus, a pharotowd y ffagodau. Safai'r brenin ar gyfer y tailiwr, yr hwn oedd yn sefyll wrth y stanc. Wrth farw, edrychodd y tailiwr ar y brenin. Ni ddywedodd ddim,—trem brudd, hir, a difrif oedd honno. Nid anghofiodd y brenin ei edrychiad byth. Gwelai wyneb tawel prudd y tailiwr ar hyd ei fywyd, yn effro ac yng nghwsg. Nid edrychodd Harri'r Ail ar ferthyr yn marw byth ond hynny.

EDMWND PRYS.

Bardd Profiad.

AWDL Y BABAN. "Bis pueri senes."

Y Baban yn wan unwaith—i genir,
Ag yno i dwf perffaith;
Ban el yn faban eilwaith
Buan daw i ben ei daith.

Dechrau i daith heb iaith a heb wanc—i'r byd
Ar ei bedair crafanc;
O fachgen llawen ai'n llanc,
Llawn nwyf fydd dillyn ifanc.

Ieuenctyd rhyddyd rhwydol—i berygl,
A bariaeth anianol;
Ni fwrw ei fod yn farwol,
Na blin gwrs na blaen nag ol.

Daw yn ol i ienctyd yn wr,
A dewis fun deg, un a gâr,
Daw plant a llawn chwant a chur,
Duw ro'r twf, rhaid yw hau'r tir,
Dyna sydd o ddyn dan ser,
Ond un peth, rhan Duw ein Ior.

Duw Ior rhydd ragor i rai,—o ran dawn,
Er nad yw neb ddifai;
Mwy i bawb rhydd, aml bydd bai,
O'i gudd elw nag a ddylai.

Nid elw i weithred ein dwylaw,—na budd,
Oni bydd Duw'n llwyddaw;
Ag ni lwydd Duw gwyn â'i law,
Ond yr union i'w driniaw.

Unioned Duw ein anian,
Ninnau a fyddwn union,
Ein anwyl Grist a'n ennyn,
A'n annedd yn ei wiw-nen,
Iawn help sydd yn Nuw ei hun,
I'n enaid rhag ofn annwn.

Trist swn twll annwn llenwir—â'r trawsion,
Trahaus weilch llawir;
Trais an-neuw wtres enwir,
Trwy osod twyll-tros y tir.

Llawn yw'r tir lle llenwir llid,
Llawn rhwysc y beilch llyna'r rhod,
Llawer rhai a lloriau hud,
Llwau mawr a rhoi llwm wâd,
Llwgr a broch hyll a gair brwd,
Llwyra bai, mor ddall yw'r byd.

Dall ddelir dwyll a ddelan,
Dull ddiwailaidd dwyll-wedd eulun,
Dwyll ddi-elw dywell ddi-len,
Dallach ydym na deillion,
Daw llaw Dduw da'i llwydd im,
Duw ei 'wyllys deallwn.

Llwydded Duw drwydded ei roddion—grasol
Drwy'r gwir Iesu gyfion,
Gobaeth di drist Gristnogion,
Drwy fawr serch dra fo'r oes hon,

Tra fych gadr a ffladr a fflwch—newidiol,
Na oeda 'difeirwch;
Tra bom mewn glân ddiddanwch,
Troi wna'r byd at tristyd trwch.

Trwch i ddyn o'i wŷn a'i ynni,—na ddaw
Cyn i'w ddydd brydnhawni,
Cyn gweled mo'r caledi,
Cyn darfod ein arfod ni.

Rhown ni iawn weddi o'n iaith,—tra hoff yw,
Trwy Ffydd, Serch, a Gobaith;
Ddaw'n burfferf ar Dduw'n berffaith,
O flaen dim rhag rhyw flin daith.

Yn flaenaf cofia iawn foliannu—Duw
Cyn deall dy lygru,
Cyn bod pall neu an-allu,
Cais yn rhydd cyn y dydd du.

Tra fych yn chwennych na chanu—na gwledd
Drwy hedd a mawrhedd heb amharu,
Tra fych ragorwych ar garu,—arwain
Nag aur a main na gwŷr i'w mynnu,
Tra fych lym a grym heb grymu—dy gefn
Escair drefn a chrothlefn llawndrefn llu,
Yno da cofio Duw cu ei rinwedd,
A gwylio maswedd, galw am Iesu.

O gweli ddeubeth a'i gelu,—o'r un,
Rhy anawdd i barnu,
Amledd camwedd mal cymlu,
Ag arwydd gwrych a grudd grych,
Ar felin bal ar flaen bylu.

A llai tramwy gan fall dremu,
A braich blaid gweiniaid, a gwynnu—dy siol,
Nod fathol dy fethu.

Bydd oerwedd ar henwyn byddaru,
Bydd arwyl attal byddar o'i ddeutu,
Bydd ugain achos rhybudd gwanhychu,
Bydd egwan ochain, bydd gwyw nychu,
Bydd blin ag un glin yn glynu—o wendid,
Hyn fydd oblegid anfodd blygu.

Meddwl am Dduw cyn maeddu
Dy gnawd, meddal yw dy gnu;
Meddylia am ei addoli,
Gorffenni gywir ffynnu,
Cyn llymmaidd ddichwen,
Cyn llammu gwythen,
Cynithen laswen arw laesu,
Cyn darfod y rhod a rhydu—dy synwyr,
Llwyr mae oes hwyr yn amseru,
Heb yn od dafod ond tyfu,—yn fud,
Heb ddwedyd, heb wedd i'w wadu,
Yno bydd dy ddydd i ddiweddu—ffydd,
Henydd babanfydd a baban fu.

Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd a'i cant,

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD VIII. (*Parhad*).

MORFUDD A DAFYDD.

"YR oeddwn i yn y maes sydd tu ol i Eithinfynydd, a daeth i fwrw gwlaw, ac mi redais i gysgod y gwrych sydd rhwng yr ardd a'r maes, a chlywais rywun yn siarad yn ddistaw yr ochr arall ac yn galw fy enw. Y ferch oedd yno a rhoddodd ddarn o arian i mi am wneyd yr hyn a geisiai."

"A wyt yn sicr na ddywedodd ddim arall?"

"Ydwyf, syr, yn hollol sicr, a gwnaeth frys mawr i fynd i ffwrdd wedi deyd hyn."

"Wel, yn awr, gwrando arna i. Paid a dweyd y geiriau yna wrth neb eto."

"Y mae tri diwrnod o'r wythnos heb fynd, ac ni fynnwn ddigio Morfudd am y byd yn grwn. Yr wyf yn ei charu yn fwy na phawb."

Gwenodd Dafydd ar y gwron bychan troednoeth, pen-noeth, carpiog, a meddyliodd,—"Mae'n dda i dy groen di dy fod yr hyn ydwyt, neu buasit yn edifarhau dy fod wedi dweyd y geiriau yna wrth Ddafydd ab Gwilym."

"Beth oeddyt yn ddeyd?"

"O, dim ond dy fod yn fachgen pert. Am bà beth yr wyt yn caru Morfudd?"

"Am ei bod mor dda wrthyf, mae holl blant y pentra yn hoff o honi, ond fi ydyw ei chariad penna."

Chwarddodd Dafydd yn uchel, ac edrychai y bachgen yn ddigofus arno.

"Paid a sylwi arna i yn chwerthin, un garw am chwerthin ydwyf. Dos ymlaen. Ond beth yw dy enw?"

"Rhys."

"Dos ymlaen, Rhys."

"Mae hi yn ffrind i bawb, ac yn rhoddi llawer o bethau i bobol dlawd, ond ni wyr yr hen Lawgam mo hynny."

"Yr hen Lawgam?"

"Ie, ei thad ydi hwnnw. Mae nhw'n deyd mai Madog Lawgauad oedd ei enw iawn, ond ei fod wedi ei newid i Lawgam. Ond waeth pa un, gŵyr pawb fod yn rhaid camu llaw wrth ei chau."

Chwarddodd Dafydd drachefn, a churodd gefn y bachgen. Yr oedd ei ysbryd wedi llonni cymaint wrth glywed am Forfudd fel yr oedd yn barod i chwerthin am y peth lleiaf.

"Yr wyf yn gofyn i ti eto beidio dweyd wrth neb arall, gan mai wrthyf fi yn unig yr oedd yn dymuno eu dweyd."

"Sut y gwn i?" meddai Rhys gan grafu ei ben, ac yna gofynnodd yn sydyn,—"A wyt ti'n caru Morfudd?"

"Caru Morfudd!" atebai Dafydd gyda phwyslais, ac yna yn fwy pwyllog, "Ydwyf fy machgen i; mae Morfudd a minnau yn gyfeillion."

"Gan hynny mi wnaf dy gais ac ni ddywedaf wrth neb eto."

"Dyna fachgen call; ac os gweli Forfudd eto, dywed wrthi—fod yr eos bob nos yn y llwyn yn disgwyl am yr aderyn."

"Gwnaf."

"Dyna fachgen da, a dyma i ti y darn arian, a rhed i'r pentref i'w wario."

Aeth y bachgen ymaith, ac edrychai Dafydd ar ei ol, a meddyliodd mor wir oedd yr hen ddihareb,—

"Gwrandewch beth ddywed y plant."

Os bydd ar ddyn eisiau adnabod cymeriad ei gyfaill yn drwyadl, gwrandewch beth ddywed y plant; taled sylw i ymddygiadau y creaduriaid direswm, pa un ai taflu cilolwg arno ac ymbellhau oddiwrtho, ynte datgan eu llawenydd wrth ei weled a wnant. Rheol i farnu heb eithriad ydyw.

Deallodd Dafydd fod rhywbeth wedi digwydd, ac nad oedd Morfudd at ei rhyddid i fyned fel y mynnai. Nid oedd yn gweled yn glir pa ffordd i weithredu, a phenderfynodd roddi ei achos o flaen ei ddau gyfaill, a chael eu cyngor hwy. Cydymdeimlasant yn fawr â Dafydd, ac yr oeddynt yn llawen wrth ei weled yn fwy siriol ei ysbryd, a chawsant ddifyrrwch wrth ei glywed yn adrodd yr ymddiddan a fu rhyngddo a Rhys bach, cennad Morfudd. Y penderfyniad y daethant iddo ydoedd, y byddai Morfudd yn sicr o ddod i'r hen gyrchle y funud y cai ei thraed yn rhyddion, ac y byddai yn well i rywun aros yno yn wastadol am beth amser. Addawodd Madog wylied bob yn ail a Dafydd, a derbyniodd yntau y cynygiad yn llawen.

"O na allasai ysgrifennu a darllen ysgrifen," ydoedd cri Dafydd o hyd.

"Pam 'rwyt yn cwyno, pan y mae tywysogesau brenhinol yn analluog i arwyddnodi eu henwau," atebai Madog. Yn ystod y dyddiau dyfodol cadwodd Madog a Dafydd wyliadwriaeth fanwl wrth y ffrwd; ac un prydnawn pan oedd Madog ar fyned adref daeth yno fachgen bychan, ac edrychodd yn

graffus ar Fadog, ac yna trodd ymaith heb ddweyd gair. Adnabyddodd Madog ef yn y fan, oddiwrth ddesgrifiad Dafydd, mai Rhys bach ydoedd, a gwaeddodd ar ei ol.

"Hwda! Beth sy' arnat eisiau?'

"Dim gennyt ti," atebai y llanc.

"Nid Rhys ydi dy enw? Ac yr wyt yn chwilio am ddyn a gwallt aurfelyn, a roddodd i ti ddarn o arian y dydd o'r blaen?"

Edrychodd Rhys ar Fadog fel pe buasai yn ddewin, ac yna atebodd,—"Ie, felly y mae."

"Wel dywed dy neges wrthyf fi a minnau a ddywedaf wrtho yntau. Yr wyf fi yn gyfaill iddo."

"Ni ddwedaf air wrth neb ond ef ei hun pe bawn heb ddeyd wrth neb byth."

"O wel, gwell i mi fynd i ddeyd wrtho am ddod yma. A wnei di aros yma hyd nes y daw?"

"Gwnaf os daw yma cyn y nos, ne bydd arnai ofn bwgan y Glyn wrth fynd adre."

"Bydd yma yn ddigon buan, paid ag ofni."

Fel y gallesid disgwyl daeth Dafydd yno mor fuan ag y gallai ei draed ei gario, a gwelai Rhys yn difyrru ei hun drwy luchio cerrig i'r afon. Pan welodd Dafydd rhedodd ato a dywedodd yn ddifrifol a distaw,—"Mae'r foneddiges Morfudd yn peri i mi ddweyd, na ddaw yr aderyn byth eto i'r llwyn yma, mae arno ofn cathod; ac os oes arnat ti eisie gweld bwgan y Glyn, mae yn peri i ti fynd yno nos Wener pan bydd lleuad newydd, ac mi fyddi yn sicr o'i weld."

Myfyriodd Dafydd yn ddistaw gan geisio gwneyd allan ystyr y genadwri hon eto. Deallodd fod gan ei aderyn anwyl Morfudd elyn ffalsaidd fel cath, ac fod arni ofn, pe cai gyfle, mentro i'r llwyn eto. Gwyddai am y Glyn, hen adeilad bron wedi llwyr adfeilio, a chredai pawb fod yno ysbryd ar brydiau, yn enwedig ar noson leuad newydd, a lleuad lawn. Yr oedd Morfudd mor ofergoelus a'r cyffredin o ferched y wlad ac yn un hawdd iawn i'w dychryn, a phrin yr oedd yn credu ei bod yn gwneyd pwyntment i'w gyfarfod yn y Glyn. Eto nis gallai gael ystyr arall i'r geiriau. Penderfynodd fyned yno nos Wener ei hunan i weled a ddeuai Morfudd, ac os deuai yr oedd yn brawf o gryfder ei serch tuag ato. Ymhen tridiau yr oedd yn nos Wener, ac yn noson leuad newydd.

PENNOD IX.

MARWOLAETH ANGHARAD.

Brydnawn Gwener cyn i Ddafydd gychwyn i'r Glyn, safai ef a Madog ym mhorth Llys Gwilym, yn ymgomio, pan alwodd Dafydd sylw ei gyfaill at ddyn oedd i'w weled draw ymhell, yn carlamu ar draws y meusydd.

"Pwy yw y cadnaw acw tybed," meddai, "sy'n rhedeg drwy'r gwair a'r yd yn ddiwahaniaeth?"

Edrychodd Madog ond ni welai neb.

"Edrych draw, dacw fe wrth y llidiart goch acw."

"Welai neb. Wyt ti'n cofio fod golwg byr gennyf. Ond os yw yn dyfod ar draws gwlad fel ag yr wyt yn dweyd buaswn yn barnu mai negeseuydd* ydyw.

"Yn sicr i ti mai hynny ydyw; ac fel y mae yn neshau yr wyf yn gweled ryw debygrwydd ynddo i Garadog, negeseuydd Abad Llangoed; ac y mae yn dyfod ar ei union atom ni," atebai Dafydd.

"Ie'n wir, Caradog ydyw," ychwanegai yn gynhyrfus. Ymhen ychydig funudau yr oedd Caradog wedi dyfod hyd atynt, a hysbysodd Ddafydd mai ato ef yr oedd ei neges.

"Y mae gennyf newydd trwm i ddweyd wrthyt, sef bod dy gares Angharad, ferch Ifor Hael, wedi marw."

"Wedi marw?" meddai Dafydd yn synedig.

"Ie, wedi marw."

'Deuwch i mewn," meddai Madog yn feddylgar. "mae y gŵr yma mewn angen gorffwys a lluniaeth."

"Oes, wir; ac nid oes gennyf fawr o amser i ymdroi, bydd raid i mi gychwyn tua Maesaleg ar unwaith."

"Angharad wedi marw! Pa bryd y digwyddodd hyn?" gofynnai Dafydd.

"Awr cyn i mi gychwyn. Yr oedd yn wael ers tro, ond nid oedd arni awydd ymadael o gwbl o'r Lleiandy. Feallai y gelli di fyned i Langoed heno neu yfory, rhag ofn na all Ifor ddyfod mewn pryd i'r cynhebrwng."

* Negesyddion, *messengers*, ydoedd *post* y canol oesoedd. Byddai brenhinoedd, barwniaid, ac abadon cyfoethog yn eu cyfrif yn rhestr eu gwasanaethyddion Yr oedd gan Edward III. ddeuddeg yn ei wasanaeth a'r tâl a dderbynient ydoedd tair ceiniog y dydd pan ar eu teithiau, a 4s. 6c. i brynnu esgidiau. Yr oedd hyn yn gyflog lled dda pan nad oedd pris bustach ond 13s. 1c.; buwch 9s. 5c.; dafad 1s. 5c; a phan geid ffowls am geiniog y pen. Byddai dirwy drom am atal negesydd; ac yr oedd rhyddid iddynt fynd y ffordd gyntaf; drwy yd, gwair, a gerddi heb rwgnach. —Jusseraud. Y mae gan frenhinoedd eu negesyddion eto; ond gyda'r tren y teithiant yn awr. Y mae teithio cyflym o bwys mawr ambell i dro.

"Nis gallaf fyned heno, ond af yno yn ddiffael yfory," atebai Dafydd.

Aeth y negeseuydd ymaith ymhen yr awr, ac aeth Dafydd allan i fyfyrio ar ei ben ei hun. Teimlai yn ddwys iawn wrth feddwl fod Angharad ieuanc hardd wedi gorffen ei gyrfa mor fuan. Gofidiai ei galon dros Ifor a Nest yn eu profedigaeth o golli eu hunig blentyn. Penderfynodd fyned yno drannoeth, a hyderai y byddai wedi gweled Morfudd i'w hysbysu o'r newydd.

Aeth i'r Glyn pan oedd yn llwyd dywyll er mwyn bod yno yn ddigon buan. Nid oedd yntau yn hollol rydd oddiwrth ofn, felly dewisodd fyned drwy'r adfeilion tra yr oedd heb hollol dywyllu. Hen ffermdy mawr ydoedd y Glyn, ynghanol y caeau, ymhell o'r ffordd fawr. Nid oedd neb yn byw ynddo ers blynyddoedd, ac yr oedd wedi ei adael i syrthio i adfeilion; ei do wedi dryllio, a'r gwahanol ystafelloedd yn un. Yn un pen i'r adfeilion yr oedd ystafell heb fod nemawr gwaeth, ond yn unig fod ei drysau a'r ffenestr wedi darfod. Yn yr ystafell hon y dywedid y byddai yr ysbryd yn aflonyddu, a'r gred gyffredin ydoedd mai ei ddylanwad ef oedd yn cadw ymaith o hon y darfodedigaeth oedd wedi andwyo y rhannau ereill. Drwy y ffenestr gwelid y llyn llonydd, dwfn, yn cael ei amgylchu ar yr ochr bellaf gan goed tewion; ac arweiniai llwybr traed rhwng y Glyn a'r llyn, o'r naill ffordd fawr i'r llall; ond anaml iawn y gwelid neb yn myned ar hyd-ddo, er ei fod yn gynt o filldir na myned o amgylch ogylch ar hyd y ffordd. I'r ystafell yma aeth Dafydd i ddisgwyl am ei feinwen; ac nid heb arswyd y gwnaeth archwiliad o bob congl o'r hen adeilad, ond ni welodd ddim byd gwaeth nag olion y darfodedigaeth oedd yn brysur wneyd pen ar y lle. Ymwrolodd, a safodd wrth y twll, lle y bu ffenestr unwaith, i wylio y lleuad yn codi, ac edrych i gyfeiriad y llwybr y deuai Morfudd ar hyd-ddo. Yr oedd yn hollol dywyll cyn iddi ddod, y lleuad wedi codi, a machlud drachefn, a Dafydd yn dechreu anobeithio y gwelai hi y noson honno. Llawer gwaith yr oedd wedi meddwl ei bod yn dyfod, ond dylluan yn teimlo fod rhywun yn trespasu ar ei thiriogaeth, a'r llygod mawr yn cymeryd eu gwibdaith nosawl yn ol a blaen o'r llyn, oedd yr unig swn a glywai. Yr oedd ganddo glust deneu a gwrandawai yn ddyfal, ac o'r diwedd meddyliodd ei fod yn clywed ffliff, ffliff gown yn dyfod drwy y gwair. Aeth allan yn ddistaw, a gwelai rywun yn sefyll ar ben camfa oedd heb fod ymhell, fel mewn cyfyng-gynghor, a ddeuai ymlaen ai peidio. Anturiodd Dafydd roddi pesychiad bychan ac mewn moment neidiodd Morfudd i lawr oddiar y gamfa, a rhedodd i freichiau Dafydd gan grynnu o'i phen i'w thraed.

"Morfudd, fy anwylyd, paid a dychrynnu," meddai Dafydd, gan ei chynorthwyo i mewn i r ystafell.

"O nis gwn pa fodd y deuais yma erioed," meddai Morfudd, "yr oedd yn galed iawn arnaf, a marw y buaswn 'rwyn credu pe buaswn wedi gweled yr ysbryd. Ar ben y gamfa bu agos i mi a throi yn ol. Buasai y sierwydd dy fod di yma, ac wedi deall cenadwri Rhys yn iawn, yn fy nghalonogi i ddyfod."

"Nid oedd raid i ti ofni, Morfudd; yr oedd serch fy nghalon yn darllen y genadwri yn y fan, pe buasai fy neall heb wneyd hynny. O, fy anwylyd! Y mae gafael yn dy law, a chlywed dy lais unwaith eto yn ail fywyd i mi. Nis gwn sut y treuliais yr wythnosau diweddaf yma heb dy gwmni di. Ond, dywed i mi, beth oedd yr aflwydd a'n gwahanodd ni fel hyn?"

"Nid wyf yn gwybod pa fodd, na phwy a hysbysodd fy nhad fy mod yn mynychu y coed i gyfarfod rhywun. Beth bynnag am hynny, ni ddywedodd ddim wrthyf ond ei fod yn dymuno arnaf beidio myned i'r bryn ychwaneg; fod ganddo reswm digonol dros ofyn i mi, a gwnaeth i mi addaw yn sier nad awn. Ni soniodd am danat ti; ni ddaeth dy enw byth dros ei wefusau. Gwyddwn yn eithaf da ei fod yn gwybod ein cyfrinach, ond mae fy nhad yn hen iawn, ni wnai dy enwi rhag rhoddi cyfleustra i mi dy amddiffyn. Bum yn meddwl llawer am danat wrth yr hen dderwen yn disgwyl am danaf, ond nid oedd gennyf fodd i dy hysbysu hyd nes y gwelais Rhys bach, ac ymdrechais wneyd ei genadwri mor dywyll ag oedd bosibl, rhag ofn iddo gael ei holi."

"Yr oedd yn ddigon eglur i glustiau cariad. Morfudd, gan fod ein serch tuag at ein gilydd yn rhy gryf i ni allu byw ar wahan, tyrd ymaith gyda mi heno. Mae gennyf le diogel a chysurus i fyned iddo; lle na bydd berygyl i dy dad na neb arall ddod o hyd i ni. Tyrd, fy anwylyd."

"Paid a'm temtio, Dafydd. A sut y gwyddost fod fy serch tuag atat yn ddigon cryf i beri i mi adael fy nghartref, fy rhieni, a'm cyfoeth, a dilyn ar dy ol?" meddai Morfudd, gan wenu.

"Os oedd yn ddigon cryf i dy yrru yn unig, yn y nos, ar noson leuad newydd, i fan lle yr oeddit yn credu fod ysbryd yn aflonyddu, a hynny heb un sierwydd y buaswn i yno i dy dderbyn, man mor neillduedig a'r Glyn, y mae yn ddigon cryf i wneyd yr hyn a geisiaf."

"Nis gallaf, O nis gallaf, Dafydd," atebai yr eneth yn wylofus,"

CYMRU.

CYFROL III.

Dan Olygiaeth OWEN M. EDWARDS, M.A., Rhydychen.



I GODI'R HEN WLAD YN EI HOL

1892.

Argraffwyd, dros y Golygydd, gan D. W. Davies a'i Gwmni, Caernarfon.

RHAGYMADRODD.

SWN deffro ydwyf yn glywed, megis o bell, yng Nghymru o hyd. Y mae'r bywyd newydd ym mhob cylchgrawn ddaw o Gymru i mi,—ac y mae y rhai hynny bron mor aml ac mor amrywiol ag ardaloedd fy ngwlad. Y mae'r bywyd newydd ym mhulpud Cymru; Cymro glywais yn pregethu i fyfyrwyr ein Prifysgol ddiweddaf, a gwelais hen M.A. yn wylo'n hidl, a gallwn sicrhau nad oedd hwnnw wedi wylo er ys deugain mlynedd o'r blaen. Y mae Cymry ymhob man yn dechreu teimlo'r peth deimlodd pob cenedl sydd wedi gwneyd y byd yn ddedwyddach ac yn well,—mai trwy fod yn Gymry brwdfrydig, nid trwy ostwng pen wrth son am eu gwlad, y medrent wneyd mwyaf o les i'r byd. A daw'r amser pan fydd enw Cymro'n well na theitl neu radd i'r hwn a'i medd.

Y mae Cymru wedi bod i lawer un yn ddu a hagr fel pebyll Cedar; i'w meibion y mae heddyw'n wen fel llenni Solomon. Yn nhrefydd Lloegr a'r Alban, ym meusydd aur Affrig ac Awstralia, ar wastad-diroedd yr Amerig, ymhob man "o rewdir y Gogledd i Itali dlos," y mae meibion a merched Cymru'n hiraethu am dani A minnau hefyd, ar lan afonydd Babel yng ngwlad y byr helyg a'r melinau gwynt, a deimlais rym sancteiddiol hiraeth am Gymru. Y mae hiraeth am Gymru ac awydd am godi'n uwch tua'r tlws a'r da, i Gymro crwydredig, yr un peth yn union.

Clywsom son gan y rhai gynt mai trwy golli neillduolion ei genedl, trwy ymgolli ymysg dynol ryw yn gyffredin, y perffeithir y Cymro. Nid dyna'm profiad i. Yr wyf wedi gweled cannoedd, os nad miloedd, o Gymry'n ymgolli ymysg eu cymydogion; ond ni welais ennill iddynt hwy nac i'w cymydogion o hynny. Apeliaf at Gymry gweithgar ein trefydd mawrion, a gofynnaf,—"Onid Cymreigdod eich heneidiau sydd yn rhoddi nerth i chwi?" A hoffwn ofyn hefyd,—"A fedr eich plant Seisnigedig deimlo yr un dylanwadau ag a deimlasoch chwi; ac a fedrant wneyd cymaint?"

Na, trwy fod yn genedl etholedig,—mewn cyfamod ysgrifennwyd, nid ar bapur, ond ar galonnau,—y medrwn wneyd ein rhan i ddyrchafu dynol ryw. Trwy gyfamod y gwnawd gwrhydri erioed. Cyfamod oedd nerth yr Iddew a'r Groegwr, cyfamod oedd nerth y brawd llwyd a phregethwr y Diwygiad; cyfamod heb ysgrifen, a hiraeth am fynydd a chynulleidfa'n sel iddo, sydd yn gwneyd y Cymry'n allu yn y byd. Nid oes yn ein hanes ni Fynydd Sinai na Glasgow Assembly; ond, er na wnawd y cyfamod yn ol dull cenhedloedd ereill, y mae'n bod. *Un* bywyd sydd yng Nghymru, ac ymhob Cymro iawn; ac y mae hwnnw mewn cyfamod â Duw'r mynyddoedd. Tra deil y Cymry'n genedl bydd eu bywyd fel pren ar lan afonydd dyfroedd, a'i ffrwth yn ei bryd a'i ddalen heb wywo, yn faeth ac yn gysur ysbrydol i'r byd; gwywa os dryllir ef, a gwelir ei ddail melynion crin yn ymwasgaru'n gawod ddifendith ddi-werth dros wledydd y ddaear. Tra'n sugno nerth o'i undeb â'i genedl y bydd bywyd pob Cymro'n dlws fel deilen werdd ac yn werthfawr fel ffrwyth yn ei bryd.

Gwasanaethu'r ysbryd hwn ydyw neges Cymru. Yr wyf yn ceisio ei wneyd yn deilwng o'r neges honno. Nid edwyn blaid na sect. Hanes, llenyddiaeth, addysg ydyw ei faes. Bydd yr eglwys gadeiriol a'r capel, llyfr plwy a llyfr seiat, hen emyn a hen chwedl ddiddan, athroniaeth a hwiangerddi ar ei ddalennau.

Dyma ddiwedd y flwyddyn, a dyma amser apelio am help. Nid heb lafur ac nid heb golled,—yr oedd pleser yn y llafur, mae'n wir, ac ennill yn y golled,—y daeth Cymru y peth ydyw. Y flwyddyn nesaf bydd yn newyddach ac yn well. At yr hen ysgrifenwyr, ychwanegir eto ysgrifenwyr newyddion. Bydd S. Maurice Jones,—lwc dda iddo ar ei briodas,—yn darlunio golygfeydd Cymru; ac y mae gennyf ddarluniau ac addewidion gan Will Morgan, Frank Dixon, a W. R. Griffith hefyd. Bydd L. J. Roberts, B.A.,—yn awr yn athraw hanes a chân yng Ngholeg Dewi Sant,—yn parhau i ofalu am y gerddoriaeth, ac ymysg ei gynorthwywyr y mae y Parch. Ellis Edwards, M.A.; J. T. Rees, Mus. Bac.; Tom Price; William Davies, Rhydychen; D. W. Lewis, F.T.S., Bryn Aman; John Price, Beulah; R. D. Hughes, F.T.S.C., Bangor; heblaw y rhai sydd wedi anfon eisoes.

Yr ydym yn ceisio dechreu'r flwyddyn gyda rhifyn dwbl, ac yn gobeithio y gwna ein derbynwyr caredig bob ymdrech i eangu ein cylchrediad, fel y medrom eto wella.

Rhydychen, Rhag. 9, 1892. Owen M. Edwards.

CYNLLUN CYFROL III.

HANES CYMRU.

Llyfr II. 450—613. Crefydd.

Pennod XI. Yr Hen Grefydd 1, 49
XII. Yr Hen Allor 50
XIII. Yr Allor a'r Gromlech .. 51
XIV. Yr Hen Dduwiau .. 97
XV. Y Grefydd Newydd .. 145
XVI. Eglwys y Cymry .. 194
XVII. Dwy Eglwys 241

BYWGRAFFIAETH.

Dafydd y Garreg Wen 110
Meudwy Mon 9
Athan Fardd 83
Cymry Fu 31, 85, 220, 255, 269
Eos Morlais 89
Dr. John Thomas 177
Dr. Saunders 249
Aelodau Seneddol 17, 121, 232, 268
Cymry Byw 81, 127

LLENYDDIAETH CYMRU.

Beirdd Cymru,—
Sion Phylip 136
Edward Morus, Perthi Llwydion 4
Owen Gruffydd, Llanystumdwy.. 132
Edward Rhisiart, Ystrad Meurig 207
Ann Griffith 206
Daniel Ddu o Geredigion .. 79
Rhobert ab Gwilym Ddu .. 140
D. ab Gwilym o Fuallt .. 232
Bardd Du Mon 197

Beirdd Anadnabyddus Cymru,—
XI. Eos Gwynfa .. 18, 68, 70
XII. Morus ab Rhobert .. 37
XIII. William Edwards, 77, 162, 271
XIV. D. Jones y Cyntaf .. 227
XV. Sion Ebrill 254

"Cymru Fu, Cymru Fydd" .. 53
"Murmuron y Gragen" 101, 232, 279

Cylchgronau,—
Cyhoeddiadau Cyfnodol 71, 135
Seren Gomer a *Chronicl yr Oes* .. 5
Argraffwasg Gomer 67
Golygyddion Cymru 113, 209, 273

Emynnau'r Afon 57
Y Gair Mwys 133
Llysenwau 137
Llythyrau 35, 69
Hen Lyfrau Ysgrif .. 103, 213
Penillion Telyn 11
Llenyddiaeth i Blant 185
Caneuon i'w Hadrodd 200
Caneuon Dirwest 29
Caneuon Gwladgarol 115, 184, 243
Englynion .. 32, 43, 144, 173
Cywyddau Llanelwy .. 192, 228

LLENYDDIAETH CYMRU *(Parhad).*

Llen Gwerin 43, 117, 201, 215, 231
Dalen yr Hynafiaethydd 189
Eisteddfod 1892.. 149, 153, 163, 171, 221
Llyfrau Newyddion 92, 120, 219, 253

ADDYSG CYMRU.

Hen Ysgolfeistri Cymru 275
Fy Addysg 33, 87, 229

CERDDORIAETH.

Rhyddid 30
Yr Alltud o Gymru 72
Hen Gymru, Gwlad fy Nhadau .. 122
Twyll y Byd 224
Cymru Sydd 272

CARTREFI CYMRU.

Pant y Celyn 105

ARDALOEDD CYMRU.

Cymru'r Beirdd .. 65, 100, 138, 147
Llanwrin 12, 144
Talgarth 24
Llanddwyn 61, 134
Llanwddyn 211
Abermenai 245
Llanfihangel Glan Myfyr 258

Defnydd Hanes 73, 225
Siarterau Cymru 139
O'r Haneswyr .. 152, 175, 210
Pendefig yn traethu Hanes 169
Cenedlaetholdeb Cymru .. 203, 244
Gohebydd y *Bwch Gafr* 261

SYNIADAU'R GOLYGYDD, 41, 42, 91
125, 126, 174, 182, 226, 240, 278, 280

GOFYN AC ATEB, 90, 196

GWLEDYDD EREILL.

Y Diwygiad yn Ffrainc 93, 123
183, 217, 265
Homer.. .. 19, 135, 205
Shakespeare 205
Paul Gerhardt 21
Mrs. Hemans 205
Longfellow 205
Tennyson 195
Renan 235

MANION, 56, 68, 71, 172, 234

RHAMANTAU.

Ymdaith yn Annwn .. 39, 191
Y Fun o Eithinfynydd .. 44, 94, 141
186, 237, 281

CYMRU.

Cyf. III. GORFFENNAF 15fed, 1892. Rhif 12.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

XI. YR HEN GREFYDD.

YMGORFFORIAD ydyw duwiau'r cenhedloedd, naill ai o'r golygfeydd sy'n amgylchu eu trigfannau, neu o nwydau a dyheadau eu natur. Golygfeydd aruthrol a di ffurf y gogledd, wedi ymddelwi ym meddyliau gŵŷr a grwydrai i hela yn eu mysg, ydyw duwiau'r Teutoniaid,—swn y daran, gwên yr heulwen, pla'r gors, rhuthr y rhew-fynydd. Golygfeydd prydferth heulog ynysoedd Môr y Canoldir, wedi ymddelwi yn nychymyg bywiog un oedd yn adnabod ei ynysoedd, ydyw duwiau'r Groegwr,—y daran ddisymwth, duwch y nos, tanbeidrwydd haul y dydd, y lleuad trwy'r awyr glir, ewyn y don. Ac ni fedrir cwbl esbonio crefydd yr Hebreaid heb gofio am olygfeydd mawreddog diderfyn yr anialwch.

Nid oes dim deifl gymaint o oleuni ar gymeriad a hanes bore cenedl a chymeriad a hanes ei duwiau. Pan adroddir hanes crefydd Cymru'n gyflawn, ni synnwn i pe gwelid fod derwyddiaeth ei hoesoedd tywyll yn esbonio ei dull o edrych, hyd yn nod yn ei hoesoedd goleuaf, ar natur yr iawn a roes yr Iesu.

Ond gwaith anodd ydyw dweyd yn eglur beth oedd crefydd hen Gymru. Erbyn 613, gwyddom hynny, yr oedd Cymru i gyd newydd symud o farwolaeth ei hen grefydd i fywyd ei chrefydd newydd. Pa beth oedd ei hen grefydd? Da fuasai gennym fedru sefyll ar fin cyfandiroedd paganiaeth yr hen fyd, pan oeddynt yn diflannu o flaen goleuni'r efengyl. Hwyrach nad oes gyfnod mwy dyddorol, yn sicr nid oes gyfnod y gwyddis llai am dano, na chyfnod y wawr rhwng paganiaeth a Christionogaeth. Daeth y goleuni, a dywed pawb hanes y goleuni, ond ni ddywed neb hanes y tywyllwch oedd yn diflannu o'i flaen. Ni hoffai cenedl newydd ei hargyhoeddi glywed hanes y duwiau oedd wedi adael ac wedi ffieiddio. Nisonia'r haneswyr a'r cenhadon fwy am danynt nag y sonnir mewn cyrddau pregethu yn y dyddiau hyn am yr ofergoeledd a'r gred mewn dewiniaeth sydd eto'n bod ymysg miloedd o Gymry. Rhaid i ni droi i rywle arall i chwilio am hanes ein hen grefydd,—i ddarluniadau dieithriaid, i'r rhamantau sy'n cynnwys rhannau ddaeth i lawr o amseroedd paganaidd, ac i'r ofergoelion arhosodd ym mysg y bobl, ac sydd yn aros eto, er gwaethaf pregethwyr oesoedd. Ond rhaid cofio mai hawdd ydyw camgymeryd wrth dynnu o'r ffynonhellau hyn. Yr oedd dieithriaid yn sylwi, nid ar bethau

mwyaf nodweddol crefydd y Prydeiniaid, ond ar y peth a'i gwahaniaethai oddiwrth eu crefydd hwy; ac felly darlunient bethau dieithr a rhyfedd yn unig. Ac am y rhamantau, erbyn eu hysgrifennu yn y ffurf foreuaf sydd adnabyddus i ni, yr oedd yr hen ddduwiau wedi dod yn arwyr, yn farchogion neu yn elynion Arthur, eithr wedi hen newid dan ddylanwad syniadau Cristionogol. Am ofergoelion eto, er cymaint sydd wedi ei adael yn Llydaw ac yng Nghymru, y mae Rhufen wedi newid llawer arnynt,—gan droi duw'r gwartheg, er esiampl, yn sant y gwelir amaethwyr Carnac eto'n penlinio o flaen ei ddelw, a thrwy roddi Mair yn lle pob hen dduwies anwylid ac a hoffid gynt.

Yn hanes rhyfeloedd Iwl Cesar, ysgrifennwyd ganddo ef ei hun, rhoddir darluniad o grefydd Celtiaid y cyfandir, a gallwn ei gymeryd, hefyd, fel darlun o grefydd Cymru. Yr oedd y bobl dan awdurdod dau fath o lywodraethwyr,—y tywysogion, yn meddu gallu'r byd hwn; a'r derwyddon, yn meddu gallu dieithr ac ofnadwy y byd arall. Gwaith y derwyddon oedd arolygu pob peth crefyddol, gofalu am yr aberthau wneid ar ran gwlad neu wr, ac esbonio egwyddorion crefydd. Hwy oedd athrawon yr ieuanc, ac ymdyrrai gŵŷr ieuainc y gwledydd i'w hysgolion. Hawdd ydyw gweled oddiwrth hyn eu bod yn uchel ym meddyliau'r bobl, ac mewn anrhydedd mawr. Hwy oedd barnwyr y wlad; os cyflawnai rhywun drosedd, os llofruddid neb, os byddai ymrafael am etifeddiaeth neu am derfynau,—y derwyddon fyddai'n cyhoeddi'r gyfraith ac yn dyfarnu'r gosb. Os gwrthodai neb dderbyn eu cosb neu eu cerydd, boed ef un enwog neu un dinod, un cyhoeddus neu anghyhoedd, gwaharddent iddo ddod i'r aberthau. Yr esgymundod hwn oedd eu pennyd eithaf; a buan y teimlai'r esgymunedig mai pennyd anioddefol oedd,—cyfrifid ef ymysg yr euog a'r anuwiol, gochelai ei gyfaill goreu ef fel un heintus, nid oedd cyfraith a'i hamddiffynnai, ac ni ddisgynnai un anrhydedd i'w ran. Eisteddai'r derwyddon mewn man canolog, mewn llecyn cysegredig, a doi'r rhai oedd a chŵyn atynt o bob cyfeiriad.

Yr oedd yr offeiriaid hyn yn un dosbarth anibynnol, dan lywodraeth un arch-dderwydd. Y derwydd pwysicaf ymysg y derwyddon oedd yr arch-dderwydd. Weithiau cymerai un ei le yn naturiol fel arch-dderwydd ar farwolaeth y llall, dro arall byddai etholiad cynhyrfus, ac weithiau ynleddid ag arfau am y lywyddiaeth bwysig hon.

Yr oedd ganddynt lawer o freintiau. Ni ofynnid iddynt ymladd mewn rhyfel, ni osodid treth arnynt, a medrent ymgadw, os mynnent, oddiwrth bob dyledswydd wladol. Yr oedd eu breintiau'n tynnu llawer atynt, o'u gwirfodd neu drwy gymhelliad eu rhieni, i dreulio eu dyddiau wrth draed athrawon, yn lle mentro eu bywydau yn rhyfeloedd aml a ffyrnig yr amseroedd hynny. Eisteddai rhai wrth draed y derwydd am ugain mlynedd. Defnyddid ysgrifen mewn materion gwladol; ond, mewn materion crefyddol, nid oedd lyfr i fod ond y cof. Dysgid miloedd o adnodau a phenhillion. Tybient y collent eu gafael ar y [illegible]adawent i'w dysg fynd o'u dwylaw trwy ei rodd ar ysgrif; a pheth arall, tybient fod rhoddi gwybodaeth mewn ysgrif yn magu diogi yn y meddwl trwy arbed llafur. Un o'u prif ddaliadau,—daliad dynnai sylw Iwl Cesar mewn modd neillduol, —oedd eu cred yn nhrawsfudiad eneidiau. Dalient nad oedd yr enaid yn marw, ond ei fod yn mudo o'r naill i'r llall. Hyn oedd un rheswm am wroldeb y rhyfelwyr,—yr oedd ofn marw wedi ei dynnu o'u meddwl. Dysgent eu disgyblion, hefyd, y peth wyddent am y ser a'u troion, am faint y byd, am natur pethau, ac am allu a grym y duwiau anfarwol.

Teyrnasent ar bobl dra chrefyddol. I'w meddwl hwy, y duwiau oedd yn rheoli pob peth. Pan flinid hwy gan afiechydon hynod boenus, neu pan oedd raid wynebu perygl mewn brwydr, gwnaent i'r derwyddon aberthu bodau dynol yn aberth. Tybient na fedrid achub un dyn heb aberthu un arall yn ei le i'r duwiau. Yr oedd gan y genedl gyfan ei haberthau. Llenwid delw wiail anferthol â dynion byw; rhoddid hi ar dân, a llosgid y dynion yn aberth. Tybient mai yr aberth mwyaf dymunol gan y duwiau oedd llofruddion a lladron,—ond os na byddai digon o'r rhain, llenwid y ddelw â rhai diniwed.

Yr oedd eu duwiau'n debyg i dduwiau'r Rhufeiniaid, ac enwau'r duwiau hynny rydd Iwl Cesar arnynt. Eu prif dduw oedd Mercher, yr oedd ei ddelwau'n lliosog iawn, dywedent mai efe ddarganfyddodd bob celfyddyd, edrychent arno fel eu harweinydd mewn pob taith ac ymgyrch, a thybient ei fod yn rheoli arian a masnach. Ar ei ol ef, deuai Apolo, Mawrth, Iau a Minerfa. Yr un oedd y rhain, tybiai Iwl Cesar, a duwiau cenhedloedd ereill,—Apolo oedd y meddyg, Minerfa oedd duwies gwybodaeth, Iau oedd duw'r duwiau, a Mawrth oedd y duw rhyfel. Aberthid rhan o ysbail rhyfel i'r duwiau; mewn llawer yspotyn cysegredig, gwelid pentwr o ysbail wedi ei osod yno i un o'r duwiau; ac os meiddiai neb, yn ei ryfyg, gysegr-yspeilio y pethau hyn, poenid ef i'r eithaf trwy ei ddirdynnu.

EDWARD MORUS, PERTHI LLWYDION.

Porthmon oedd Edward Morus, yn byw yn y Perthi Llwydion, Cerrig y Druidion, ac un o feirdd goreu'r ail gaurif ar bymtheg, os nad y goreu oll. Bu farw yn Essex, tra'n porthmona, yn 1689, ac yno y claddwyd ef, —

"Ai clai Sais yw'r cloiau sydd
Ar wyneb yr awenydd?"

"Gardd win oedd ei gerdd wenith," ebai Huw Morus, wrth alaru ar ei ol. Canodd lawer, a rhyfedd nad argraffesid llawer o'i ganeuon mwyn. O dro i dro rhof aml gerdd o'i waith,—

"Athraw gwir, aeth i'r gweryd,
A wnai'r gerdd yn aur i gyd.'

CAROL YR HAF.

GAN godi y dydd cynta o Fai o'r claiara,
Gidag Aurora, gwir arwydd i mi,
Mae amser godidog yn twyso haf tesog,
A Phebus, olwynog oleuni.

Dydd da fo i'r haf perffaith, nod yngan naw dengwaith,
Mi'th wela di'n odiaeth yn newidio pob glyn;
A hefyd can croeso i'r wlad i lawn ffrwytho,
Lle'r wyt ti'n disgleirio yn des claerwyn.

Mae'r wlad yn dy hoffi am dy fod yn ei hoywi,
A Flora yn dy gwmni da heini dy hun;
A thithau mor enwog, mewn siaced wyrdd wlithog
Ariannog fytymog fyd twymyn.

Hyfrydwch a chysur, diddanwch i natur,
Pob math ar greadur, gwiw ryddid brau,
Hiraethodd fy nghalon am weled d'arwyddion,
A'th dirion wyrdd leision hardd lysiau.

Mi fum yn hir odde gofidus gafode
Heb weled yn unlle'r un gowntes mor lân,
Dy goron flodeuog a'th wyneb gwyn gwresog
Er blwyddyn aer rowiog i rowan.

Ow'r tirion haf perffaith, mi ofnes fynd unwaith,
O'm helynt mewn alaeth ar elor i'r gro,
O serch ar loer addfwyn, nes gweled y gwiw-lwyn,
Y dolydd, a'r dulwyn yn deilio.

Ond bellach mae ngobaith i'th gael i leteuaeth,
Diddanwch naturiaeth mwy afiaeth i mi,
Ar hyder yn fwynedd dy gymorth rywiogedd
I fynd a bun luniedd tan lwyni.

Rwyt ti mor arferol â mynydd a maenol,
Y tymor naturiol yn foddol y fydd,
I gario gorchmynion, gwiw roddiad arwyddion,
Rhwng ffyddlon ddwy galon i'w gilydd.

"Rwi 'n cyrredd pob cyrrion i'r tiroedd hardd tirion,
Ac eigion eithafion llownion er lles,
Mi garia'n wyllysgar at Fenws haul howddgar,
Y Cymro da nwyfgar, dy neges.

"Ow'r Cymro llawn pleser, prysura at ei mwynder,
Cyn darfod mo'm cwarter a'm llownder a'm lles,
Mi fydda mor fuddiol o'th du di'n amserol,
I'w denu hi i'r faenol aur fynwes.

"Mae'r coedydd yn glasu, mae'r meillion o'm deutu,
A dail y briallu yn tyfu ym mhob twyn,
A'r adar diniwed yn pyncio cen fwyed,
I'w clywed a'u gweled mewn gwiwlwyn

"Gwna hafdy clymiedig, ag adail o'r goedwig,
A thyn y glân ewig i glywed y gôg;
A newid a Gwenfron gusaneu'n gysonion,
Dan eigion coed irion cadeiriog.

"Tri mis y sydd imi mewn llan ac mewn llwyni,
A'm tes i'th wresogi, dro heini, drwy hedd,
Ni ddichon cydwybod meinir liw'r manod,
Wrth ofyn maith amod, mo'th omedd."

Can diolch, haf perffaith, tydi yw 'nghydymaith
I dramwy at loer odiaeth bydd helaeth a haws,
Mewn llwybreu mawr meithion dy ddyddieu sydd hirion
I gyrchu at liw'r hinon loer hynaws.

Pan ddel fy ngwawr hoew-wen dan gwr y ffurfafen,
Y boreu mor burwen yn llawen o'i llys
I rodio'r haf tirion, cyfarch di Wenfron,
Ar ddolydd glan afon glyn nwyfus.

A dywed hyn wrthi,—Er maint sydd i'w hoffi,
Am fod yn bur imi, per amod di feth,
Mi wnawn er lloer wengu ychwaneg na'm gallu,
Pe cawn ymgaredu a'm gwawr odiaeth.

Mi ymladdwn ag Asia, mi chwiliwn Ethiopia
Am drysor a'r India i'r iowndeg ferch,
Trefaeliwn yn ddiwid America hefyd
Mor hyfryd fy mhennyd am annerch.

Mi awn i Armenia, mi dorrwn ben Hydra,
A pherlau Tartaria, mwy hedfa, mewn hwyl,
I'r feinir a gyrchwn os mynneu ac os gallwn,
Antiriwn, hyderwn hyd arwyl.

Mae f'wyllys i felly, a'm tyn i ryfygu,
Ym mhellach na'm gallu, rwi'n ynnu mewn nwy;
Rheswm dysgeidiaeth, rheola naturiaeth,
Cynyddu mae f'afiaeth i fwyfwy.

Y cynnes haf ffrwythlon, ysbia liw'r hinon,
O gwneiff ei hais dirion fy nwyfron yn iach,
Na byddai twyllodrus pe profe lloer weddus
Arwyddion o'm hewyllys ym mhellach.

Dymuna ar loer wengu mewn cariad ymnerthu,
Meddianned ei gallu ac 'wyllys dan go,
Na throed yr anwylyd er athrod yr holl-fyd,
Mae'n embyd fy mhennyd am honno.

Ni throf oddiwrth Wenfron er da nag er dynion,
Mae serch yn llawn eigion fy nghalon heb gel;
Er godde cryn ergid mewn gafel mwy gofid,
Mi fentrwn y rhyddid a'r hoedel.

Mae cerbyd Apolo yn ymyl gorffwyso,
A'r gwelltglas yn gwawrio ac yn gwlitho mor glau,
Dos, gwaitia ar ei mowredd, mi af finneu i gyfannedd,
Mae'r heulen yn cyrredd y caerau.

Ni threulies ond diwrnod i roi mewn dibendod
Fy nghyffes ar draethod, air hynod, i'r haf;
Mi a i ddisgwil peth ffrwythiant o'm llafur mewn llwyddiant,
Cyn diwedd gwir ffyniant Gorffennaf.

EDWARD MORRIS.

SEREN GOMER A CHRONICL YR OES.

YNG Nghymru am Chwefror gofynnir cwestiwn digon naturiol, ac un hefyd sydd yn myned yn fwy pwysig a dyddorol y naill flwyddyn ar ol y llall,—"Ym mha newyddiadur neu gylchgrawn Cymreig yr ymddanghosodd erthyglau arweiniol ar wleidyddiaeth gyntaf? Ai yng *Nghronicl yr Oes*, ynte yn *Seren Gomer*, ynte ym mhle?" Os nad oes dim ond y ddau uchod i'ddyfod i mewn i'r cwestiwn, a chredaf nad oes, yr wyf yn ateb heb y petrusder lleiaf, mai yng *Nghronicl yr Oes*. Credaf y bydd y darllennydd yn foddlon i mi fod dipyn yn benderfynol ar y mater, pan ddywedaf fy mod wedi cael mantais i edrych yn lled fanwl dros yr holl rifynnau o'r naill a'r llall, oddigerth yr un rhifyn ar ddeg cyntaf o *Gronicl yr Oes*. Nid oedd *Seren Gomer* yn honni bod yn perthyn i unrhyw blaid wleidyddol; yn wir yr oedd yn hollol amhleidiol mewn ystyr wleidyddol. Yr oedd Eglwyswyr ac Anghydffurfwyr, Ceidwadwyr a Rhyddfrydwyr, yn ysgrifennu iddi. Nid oedd yn adwaen unrhyw blaid wleidyddol; yr oedd yn hollol genhedlaethol. Dyma gyngor yr hen Iolo Morgannwg i'r golygydd yn y rhifyn cyntaf, ymysg pethau dyddorol ereill,—

> Gair ym mhellach, er dim ag a wneloch ymgadwch yn wyliadwrus rhag ymrysonau crefyddol a gwladwriaethol, fel y caffoch bawb, o bob tyb a phlaid, yn ewyllyswyr da."

Ac ni wnaeth neb erioed gyngor yn well nag y gwnaeth Gomer y cyngor hwn. Nid amheuodd neb erioed ei amhleidgarwch. Yr oedd Rhyddfrydwyr eithafol, fel oedd yn perthyn i gymdeithasau y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion yn Llunden yn bleidiol iddi hyd y diwedd; ac yr oedd Ceidwadwyr, fel gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, yr un mor bleidiol iddi. Daliodd y ddysgl yn wastad i bob plaid ar hyd yr amser.

O'r ochr arall newyddiadur politicaidd oedd *Cronicl yr Oes*; a dyma yr ymdrech gyntaf efallai o'r fath yn yr iaith. Yr oedd yn bendant ac yn gryf o blaid Rhyddfrydiaeth. Ceir erthyglau arweiniol ynddo ar brif bynciau y dydd, megis, "Beth yw Toriaeth?" Ty'r Arglwyddi, Balot, y Dreth Eglwys, Syr Robert Peel, Segurleoedd Perigloriaid, &c. Mae ysbryd yr erthyglau mor ryddfrydig a beiddgar a rhai y newyddiadur mwyaf radicalaidd yn y dyddiau hyn. Dywed y Parch. Owen Jones, Llandudno, am y golygydd, y Parch. Roger Edwards,—"mai efe oedd y Rhyddfrydwr mwyaf diarswyd yng Nghymru yn y dyddiau hynny, a'r mwyaf ei ddylanwad o bawb yn y wasg Gymreig ar yr un adeg." Condemniai ormes boneddigion a stiwardiaid yn y fath fodd fel y lled-gyhuddid ef gan bregethwr mwyaf dylanwadol y Corff y pryd hwnnw, John Elias, o geisio taenu egwyddorion Tom Paine. Pregethwr ieuanc pedair ar hugain oed oedd efe ar y pryd, mewn Cyfundeb oedd yn hynod o araf yn ei symudiadau gwleidyddol. Ychydig o flynyddoedd cyn hynny,—rhyw bedair neu bum mlynedd,—y torrwyd allan o bob undeb a'r Corff ddau o'r dynion mwyaf galluog,—Caerfallwch, a Mr. Hugh Hughes, yr arlunydd (Cristion),—am bleidio rhyddfreiniad y Pabyddion. Areithiai rhai o'r dynion mwyaf dylanwadol a feddai y Cyfundeb yn gyhoeddus yn erbyn hynny, megis y Parchn. John Elias, a Richard Lloyd Beaumaris. Ac yn Sasiwn y Bala, y gyntaf ar ol cychwyn y papur, yr oedd John Elias yn taranu yn enbyd. Yr oedd mewn teimlad angerddol wrth feddwl fod aelodau o'r Corff yn cyhoeddi newyddiadur a bleidiai syniadau rhyddfrydig, gwylltion, a pheryglus; a'r Golygydd yn bregethwr! Dywedir na allai Mr. Edwards ymddangos yn gyhoeddus mewn unrhyw gyfarfod na fyddai teimladau yr hen bregethwr yn cynhyrfu wrth edrych arno. Ond yr oedd y gwr ieuanc hwn wedi ei wneuthur heb ofn. Yr ocdd yn un o'r dynion mwyaf diofn a diarswyd y gellid meddwl am dano. Aeth ymlaen yn yr un cyfeiriad am yn agos i bedair blynedd. Fel y dywedodd y Parch. David Davies, Abermaw, am dano ddydd ei angladd,—"Fe fu yma gryn daro arno yn Sir Fflint, ond daeth trwy y pair fel aur coeth. Fe arhodd ei fwa ef yn gryf hyd y diwedd." Gellid meddwl fod gwroldeb ac ysbryd diarswyd yn etifeddol yn y teulu. Mae ystori yn cael ei dweyd am dad Mr. Edwards yr hwn oedd yntau o'r un enw,—

> "Yr oedd Roger Edwards un Saboth tesog yn yr haf, fel arolygwr, newydd orffen trefnu y dosbarthiadau yn y *gallery*, ac wrth ddyfod i lawr y grisiau, fe gododd ei olwg, ac wele yr oedd y Marian yn frith o rodianwyr. Heb ddweyd gair, tarawodd ei het am ei ben, i lawr ag ef ar frys drwy y Lawnt a Phenbryn Mawr, gan sefyll ar ben y gamfa oedd y pryd hwnnw gyferbyn a chanol y Marian. Ni ddywedodd air, ond safai fel un ag awdurdod ganddo, gan edrych ar y rhodianwyr; ond yr oedd presenoldeb Roger Edwards ar y gamfa yn drech na chalongaledwch y caletaf ar y Marian, a chyn pen ychydig funudau, nid oedd yr un rhodiannwr yn y golwg. Dywedai un o honynt wedi hynny iddo gael ei daro a'r fath arswyd fel yr ofnai bob cam a gymerai fod y Marian yn ymagor o dan ei draed i'w lyncu oblegid ei rysedd. Dyna y fath un oedd Roger Edwards yr hynaf.

Ac y mae yr un ysbryd yn aros yn y teulu. Mae y mab, neu yr ŵyr, wedi profi ei

fod yn *chip of the old block* mewn llawer cyfarfod gwleidyddol, a chyfarfodydd yn dal cysylltiad ag addysg yn y blynyddoedd diweddaf.

Gan mai dyna y ddau bapur newydd cyntaf, o ddim pwys beth bynnag, a ddygwyd allan yng Nghymru, credaf mai nid annyddorol gan y darllennydd fydd cael ychydig o'u hanes. Nid oes neb yn gwybod hanes *Seren Gomer* yn well na'r Parch. Owen Davies, Caernarfon, gan yr hwn y mae yr holl rifynnau o'r dechreu i'r diwedd. Ac y mae efe yn rhoddi ei hanes yn gryno a dyddorol iawn yng nghofiant Dr. Prichard, Llangollen,—

Daeth *Seren Gomer* allan gyntaf," meddai, "yn y ffurf o bapur newydd, a chredwn mai hwn oedd y papur newydd cyntaf a gyhoeddwyd yn yr iaith Gymraeg. Ei maint oedd pedwar tudalen, yn mesur ugain modfedd wrth bymtheg. Cyhoeddwyd hi yn wythnosol o Ionawr 1af, 1814, hyd Awst 9fed, 1815, felly daeth 85 o rannau allan. Pris y 66 cyntaf oedd chwe' cheiniog y rhifyn, a phris y 19 diweddaf oedd wyth geiniog y rhifyn. Nid yw y gyfrol sydd yn cynnwys yr holl rifynnau ond prin fodfedd o drwch, ond yr oedd yn werth, yn newydd, £2 8s. 5c. heb ei rwymo. Y golygydd a'r prif gychwynydd oedd y Parch. Joseph Harris (Gomer), gweinidog y Bedyddwyr yn Abertawe. Unodd amryw foneddigion creill ag ef yn y symudiad, a chydrhyngddynt collasant tua mil o bunnau yn yr anturiaeth. Cwynir mwy oherwydd diffyg cefnogaeth mewn rhoddi hysbysiadau i mewn, nag oherwydd diffyg cylchrediad. Argreffid tua dwy fil ohoni, ar un adeg o leiaf, ond yr oedd y treulion o gyhoeddi papur o'r fath, yr adeg honno, yn peri fod y perchenogion yn golledwyr pwysig oddiwrth y gwaith. Yr oedd y papur yn hollol aneuwadol; nid oedd yn proffesu bod yn perthyn i unrhyw blaid, yn wladol na chrefyddol; ac ysgrifennid iddo gan lawer o brif ddynion y genedl, yn Eglwyswyr ac yn Anghydffurfwyr. Yr oedd ei herthyglau hanesyddol yn hynod o alluog, a thelid sylw manwl a helaeth ynddi i'r iaith Gymraeg. Yr oedd pob rhifyn yn cynnwys crynhodeb rhagorol o newyddion yr wythnos, yn gartrefol a thramor; ac nid ydym yn rhyfeddu wrth ddeall fod cyrchu mawr i'w darllen yn y tai y byddai yn cael ei derbyn. Buasai yn dda gennym allu rhoddi yr holl 'Anerchiad i'r Cymry' a ddaeth allan yn y rhifynnau cyntaf, ond rhaid boddloni ar y brawddegau canlynol a geir yn ei ddiwedd,—

'Terfynwn ein hanerchiad cyntaf hwn gyda dywedyd, llwydded gwirionedd, diflaned anwybodaeth a gormes, ymhelaethed cariad, blagured y cyfiawn, diwreiddier cynddaredd a drwg ewyllys, ymeanged preswylfeydd merch Seion, teyrnased Tywysog heddwch dros y byd, preswylied purdeb a boddlonrwydd yn holl bebyll Cymru, cadwed yr iaith gynwysfawr Gymraeg ei thir, a dyweded pob Cymro cywir Hawddamor i'r *Seren* i redeg yn ei chylchdaith o Gaergybi i Gaerdydd, ac o ddydd y flwyddyn newydd hon hyd y dydd na byddo eisiau y fath drosglwydd gwybodaeth ar biliogaeth Gomer; ardderchoged y beirdd ddosbarthiadau ein dalenau â'u cyfansoddiadau, perarogled gweinidogion yr efengyl ei hymddangosiad â'u hysgrifeniadau ac a'u hanesion cymanfaol a chenhadol, eled y beirniaid heibio i'w manau tywyll, a chofied pawb y dichon hi fod yn seren siriol fyth, er bod weithiau yn seren dan gwmwl.'

"Y rheswm fod ei phris mor uchel oedd fod y Llywodraeth yn codi toll uchel arni. Yr oedd treth y papur yn uchel iawn; ac yr oedd yn rhaid rhoddi tair ceiniog am *stamp* y Llywodraeth ar bob rhifyn ohoni."

Byddai darllen mawr arni y pryd hwn. Gan ei bod mor ddrud byddai chwech neu saith yn ymuno a'u gilydd i'w derbyn weithiau. Ac yna cynhelid math o gyfarfod i wrando y darlleniad ohoni. Gwn am dy yn ardal Brynmelyn, ger Tremadog, lle y bu hyn yn cael ei wneyd yn hir. Nid dibwys erbyn hyn ydyw gwybod am y ty, ac enw yr un fyddai yn arfer darllen, gan fod hyn yn dangos yr awydd a'r ymdrech oedd yn ein tadau am wybodaeth, a'r anfanteision yr oeddynt ynddynt. Enw y ty oedd Cae Sion, ac enw y darllennwr oedd John Thomas, yr hwn oedd gerddor rhagorol, ac a dreuliodd ei flynyddoedd olaf yn nhy capel Bethel, ger Penmorfa. A chredaf nad oedd yr hyn a wneid yn y ty hwn ond engraifft o'r hyn a wneid mewn lliaws mawr o dai yn ein gwlad yn yr un adeg.

Yr oedd deffroad cenedlaethol cryf yng Nghymru tua'r blynyddoedd hyn. Cychwynwyd nifer mawr o Gymdeithasau Cymroaidd yn y trefi, yn y pentrefi, ac yn y wlad. A chredaf fod a wnelo cyhoeddiad *Seren Gomer* a chychwyn y cymdeithasau hyn. Bu yn foddion hefyd i gadw yr ysbryd hwn yn fyw, gan ei bod yn llawn ysgrifau ar yr iaith Gymraeg. Gan hynny, mae hanes *Seren Gomer* yn ddyddorol i'r rhai sydd yn teimlo dyddordeb yn y deffroad cenedlaethol sydd yng Nghymru yn awr. Ac y mae hanes y deffroad hwnnw yn llawn o wersi i'r rhai sydd yn selog gyda'r deffroad hwn.

Mae yn amlwg mai yr hyn oedd yn cadw dyddordeb yn y cyhoeddiad fwyaf yng ngolwg y wlad oedd y rhyfel a Ffrainc. Ni buasai yn byw yn agos cyhyd oni bai am hyn. Mae hyn i'w weled yn y ffaith fod y perchenogion wedi penderfynu rhoddi y cyhoeddiad i fynu ym mis Chwefror 1815; ond wedi i "Boni" ddianc o Elba yn nechreu mis Mawrth ac i'r rhyfel gael ei chario ymlaen rai misoedd ymhellach, cadwyd y cyhoeddiad ymlaen hyd fis Awst; ond codwyd ei phris i wyth geiniog yn nechreu mis Ebrill. Yr oedd yr holl wlad yn fyw iawn i'r rhyfel yma. Pan gymerwyd Paris gan fyddinoedd Lloegr a Rwsia, goleuwyd holl ffenestri y tai ym mhrif drefi Cymru. Yr oedd y prif foneddigion i gyd yn cadw gwirfoddolwyr, ac yn rhoddi math o orfodaeth ar feibion eu tenantiaid i ymuno â'r cyfryw. Yr oedd gan Arglwydd Newborough, a Syr Thomas Mostyn, yn Sir Gaernarfon, wirfoddolwyr.

Yr oedd y llywodraeth hefyd yn anfon gwyr allan i *bressio*. Ac yr oedd y gwyr hyn yn ddychryn ymhob cwr o'r wlad. Cymerer yr hanesyn canlynol i ddangos hyn. Yr oedd gwr o'r enw Griffith Edward o blwyf Llangybi yn dychwelyd adref o Bwllheli, ac yn agos i Fourcrosses gwelai y *press gang* yn ei ddilyn. Yr oedd eu harswyd yn gymaint arno fel y dechreuodd redeg o'u blaen. Yn ymyl ffermdy Bwlch y Ffordd, yr hon sydd ar fin y brif-ffordd o Bwllheli i Gaernarfon, gwelai eu bod wrth ei sodlau, ac y byddent yn sicr o'i ddal. Ond gwelai yn ei ymyl fwyall a blocyn; a fflachiodd y syniad i'w feddwl, ond iddo dorri bysedd blaenaf ei law ddeheu, y gwnai ei hun yn anghymwys i fod yn filwr. Rhuthrodd i'r fwyell, a chyn iddynt ei ddal yr oedd wedi torri ei fys ymaith. Nid oes ond ychydig flynyddoedd er pan fu farw y gŵr hwn, ac y mae lliaws mawr yn fyw yn cofio yr amhariad oedd ar ei law, ac yr wyf yn adwaen rhai wyrion iddo. Mae yr holl bethau hyn yn dangos fod yr holl wlad yn fyw iawn i'r rhyfel, a bod yn naturiol iddynt gymeryd dyddordeb mawr yn yr hanes am dani.

Gan fod papur newydd yn beth newydd yng Nghymru y pryd hwn, hawdd y gallwn feddwl fod golygydd *Seren Gomer* yn teimlo prinder geiriau i osod allan yr hyn a ddeuai dan sylw, gan ei fod ar faes hollol newydd mewn llenyddiaeth Gymreig. A dywedir ei fod wedi gorfod bathu nifer mawr o eiriau hollol newydd i osod allan y termau cyfatebol yn yr iaith Saesneg. Mae yr un peth yn wir hefyd am olygydd *Cronicl yr Oes*. Gan fod ei faes ef hefyd yn newydd mewn llenyddiaeth Gymreig, yr oedd yntau yn fynych yn gorfod gwneyd yr un peth. Dywedir fod cryn nifer o eiriau ar gael wedi iddo ef hefyd eu gwneyd. Nac anghofied newyddiadurwyr a gwleidyddwyr y dyddiau hyn eu dyled i'r gŵr hyn.

Gwnaed llawer apeliad at y cyhoedd i gadw y *Seren* yn fyw, ond nid oedd dim yn tycio. Dyma yr anerchiad terfynol yn y rhifyn diweddaf:—

"Ie, y *Seren* wythnosol yn machludo! Dyma y rhifyn olaf o'n newyddiadur. Yr ydym yn credu mai nid ni yn unig sydd yn galaru oherwydd hyn, gwnaethom ein goreu i barhau ein cyhoeddiad yn wythnosol, eithr nid digon yr anogaeth a gawsom; er hynny, gan fod pob anair a roddir gan eraill i'n cenedl yn dolurio ein teimladau, nid naturiol genym yw ei goganu ein hunain. Er fod llawer o feibion Cymraesau yn llwyr annheilwng o'r enw Cymry, yr ydym wedi dysgu, trwy brofiad, fod yn ein gwlad lawer nad ydynt wedi plygu eu gliniau i eilun yr amseroedd. Pan ystyriom fod rhan amlaf o bendefigion a boneddigion ein gwlad yn esgeuluso iaith eu cenedl, a bod tuedd y lliaws ymhob gwlad i efelychu y mawrion, hyd yn nod pe tywysai hyny hwynt dros glogwyni dinystr,—pan feddyliom fod ein tywysogaeth yn dra thoreithiog yn ei chnwd o gybyddion—pan gofiom fod ynddi lawer o dlodion—a phan gadwom yn ein meddwl fod llawer o frodyr Dic Shon Dafydd yn ein mysg, yr hwn, wedi bod o hono ychydig flynyddau ym mysg y Saeson, a ddychwelodd i sir Aberteifi, a methodd siarad â'i fam, nes gyru am berson y plwyf i ddehongli rhyngddynt; pan ystyrir hyn oll, nid rhyfedd iawn fod papur wythnosol, gwerth wyth geiniog, yn methu sefyll. Er ein bod yn ystyried yr holl sectau uchod, ond y tlodion, yn geryddadwy, da yw tynu y gwerthfawr oddiwrth y gwael; yr ydym dan rwymau neillduol i gannoedd lawer o'n gwladwyr, y rhai a'n cynorthwyasant yn ffyddlon yn y dechreuad, ac a barhausant hyd y diwedd, tuag at y rhai yr ydym yn teimlo gwres y serchowgrwydd mwyaf didwyll; ac nis gallwn gymeryd ein cenad oddiwrthynt heb ddwyn ein tystiolaeth i'w ffyddlondeb. Yr ydym yn dychwelyd diolch diledrith iddynt oll; diolch yn fawr i chwi anrhydeddus Gymdeithasau y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion yn Llundain, diolch calonog i chwi weinidogion yr Eglwys Sefydledig yn Rhydychain, Caergrawnt, Bath, Llanerchymedd, Llanbedr, ac amryw leoedd eraill; diolch diweniaeth i chwi weinidogion yr Ymneillduwyr a'r Trefnyddion; chwi ohebwyr deallus, chwi feirdd medrus, a chwithau ein darllenwyr ffyddlon, yr ydych wedi ennill ein calon trwy eich diysgogrwydd a ch ymddygiadau hynaws; canmolasoch yn gariadus yr hyn a ymddangosai yn deilwng ynom, ac ni feiasoch yn genfigenus yr hyn a welsoch yn wallus. Ymddygasoch mor ffyddlon tuag at eich cenedl a'ch iaith ag y mae pob deiliad da yn ymddwyn tuag at ei wlad a'i lywodraeth; cyfrifasoch ei bod mor annaturiol i Gymro waeddi am ddinystr ei iaith ag yw i Frython ddymuno dinystr ffurflywodraeth Prydain. Buoch mor ffyddlon fel na byddai cywilydd gan yr hen Gomer ei hun eich arddel yn blant, pe digwyddid iddo godi o feirw. Bellach, Gymry mwynion, byddwch iach llwydded rheolwr y bydoedd chwi ym mhob gweithred rinweddol, ac addased ni i gael cyfarfod ag ef ac a'n gilydd, yn mro dedwyddwch anfarwol."

Ionawr 28, 1818, daeth *Seren Gomer* allan drachefn yn ffurf cyhoeddiad misol, ond yn dyfod allan bob pythefnos. Ei phris oedd tair ceiniog. Parhaodd felly hyd ddechreu 1820, pryd y dechreuodd ddyfod allan yn fisol, am y pris o chwe cheiniog. Parhaodd Gomer i'w golygu hyd fis Ebrill, 1825, pan y rhoes ei golygiaeth i fyny oblegid afiechyd, wedi ei ddwyn arno gan bwys gwaith, a marwolaeth ei anwyl Ieuan Ddu. O hyn hyd 1850 daeth allan yr un fath, ac i raddau yn anenwadol, ond o hynny allan aeth yn enwadol, ac yn yr un ffurf hyd ddiwedd 1860. O ddechreu 1861 hyd 1864, daeth yn gyhoeddiad chwarterol. Yn ol a ddeallais, mi ddaeth allan ar ol hyn hyd y flwyddyn 1880, yn gyhoeddiad chwarterol. Yn ol a ddeallais, ni ddaeth allan ar ol hyn hyd y flwyddyn 1880, yn gyhoeddiad chwarterol fel o'r blaen, ac y mae yn parhau felly hyd yn awr.

Ychydig eto o hanes *Cronicl yr Oes*. Fel y cyfeiriwyd yn barod, gwelais yr holl rifynnau ohono oddigerth yr un ar ddeg cyntaf. Daeth y deuddegfed allan yn Ionawr 1836; ac o hynny allan yn gyson bob mis hyd fis Ionawr, 1839. Felly os oedd y rhifynnau cyntaf yn dyfod allan yn rheolaidd bob mis, yr oedd oes *Cronicl yr Oes* yn bedair blynedd union. Ac ar ol hynny daeth y rhifyn cyntaf allan yn Chwefror, 1835. Dywed y Parch. Ellis Edwards, M.A., y Bala, mai ei dad oedd golygydd cyntaf y *Cronicl*. Am gysylltiad y Parch. Owen Jones, Llandudno, â'r papur, dywed efe mai papur arall oedd hwnnw o'r enw *Newyddiadur*, ac iddo gael newid ei enw pan ddaeth ei dad i gysylltiad ag ef. Bernir na ddaeth ond dau rifyn allan o'r papur hwn. Yr un oedd cyhoeddwr y ddau bapur, sef Mr. John Lloyd, yr hwn, wedi hynny, a fu yn gyhoeddwr yr *Amserau*. Ac ar waith Mr. Jones yn rhoddi golygiaeth y papur i fynu, daeth Mr. Edwards i'r Wyddgrug, i gymeryd yr olygiaeth yn ei le. Yr oedd *Cronicl yr Oes*, o ran maint, yn debyg iawn i *Seren Gomer*, ond ychydig yn llai efallai. Yr oedd ychydig yn fwy ei blygiad na *Baner ac Amserau Cymru*, ac yn cynnwys pedair tudalen. Ei bris oedd tair ceiniog. Yr oedd yn bapur gwir alluog. Er nad oedd Mr. Edwards ar y pryd ond pedair ar hugain oed, eto yr oedd yn ysgrifennwr medrus, ac wedi cael profiad helaeth fel llenor Cymreig. Credaf i mi weled ysgrif fechan o'i waith yng *Ngoleuad Cymru*, pan nad oedd ond pymtheg oed. Ac yn fuan wedi hynny cawn ef yn ysgrifennu i'r *Drysorfa* braidd bob mis. Pan nad oedd yn ugain oed cai ei ysgrifau y lle mwyaf amlwg yng *Ngoleuad Cymru*. Ac mewn un rhifyn dwy ysgrif o'i waith ydyw y pethau cyntaf. Ac yn y *Drysorfa* am 1831-4, ni cheid braidd yr un rhifyn na byddai un ai ysgrif neu farddoniaeth o'i waith ef ynddo. Erbyn yr adeg yr oedd yn ymgymeryd a golygiaeth y *Cronicl* yr oedd wedi ennill medrusrwydd ac addfedrwydd mawr fel ysgrifennwr Cymraeg, ac edrychid arno ar hyd ei oes fel un o'r ysgrifenwyr goreu. Cyfeiria y *Goleuad* ato fel,—"yr ysgrifennydd hylithr, synhwyrol, a nawsaidd, a'r llenor medrus, a'i ddawn yn rhedeg wrth ei ewyllys fel ffrwd lifeiriol i sianelydd rhyddiaeth neu farddoniaeth, traethawd, hanes, byr-nodiadau, neu ffug-chwedl grefyddol, lawn difyrrwch tawel ac addysg dda; y golygydd uniawn ei farn, coeth ei chwaeth, craff ei welediad, cyfoethog ei adnoddau, y rhai fyddent bob amser at ei alwad." Dywedai Ab Ithel mai "yn ei ysgrifeniadau ef y ceir yr engreifftiau puraf o Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg." Ac ebai Tegai,—"Mae Roger Edwards yn ysgrifennu mor ragorol fel y mae yn resyn iddo beidio bod gyda'i bin yn barhaus."


SEREN GOMER

NEU

GYFRWNG GWYBODAETH CYFFREDINOL

I'r Cymry,

AM

Y FLWYDDYN 1823.

CYHOEDDWYD

GAN J. HARRIS, ABERTAWE.

LLYFR VI.

Clust y Doethion a gais Wybodaeth.—Salomon.

ABERTAWE:

ARGRAFFWŶD AC AR WERTH GAN Y CYHOEDDWR.

Yn ol y Dyddiadur Methodistaidd a'r *Goleuad*, yn y sylwadau coffadwriaethol a wneid am dano yn amser ei farwolaeth, dywedir i Mr. Edwards fyned i'r Wyddgrug i olygu *Cronicl yr Oes* yn y flwyddyn 1834. Yr wyf fi yn tueddu i feddwl mai yn 1835, yr aeth i'r Wyddgrug Ond os yn nechreu 1834 yr aeth, yn ol yr awdurdodau uchod, mae y penderfyniad a basiwyd yn Sasiwn y Bala y flwyddyn honno mewn "ystyriaeth am yr amseroedd, ynghyd a'u dyledswyddau uniawn, ar y fath amseroedd a hyn," yn hollol gyd-fyned a'r hyn a ddywedwyd yn barod am Mr. Elias a Mr. Edwards, mewn Sasiwn yn y lle hwnnw. Dyma rai o'r sylwadau ar y pryd,—

"Ymlonyddu yn eu hystafelloedd ydyw y peth goreu i'r saint, Esay xxvi. 20. Gweddio llawer ar Dduw; a siarad ychydig am helyntoedd cynhyrfus y byd wrth eu gilydd. 'Beth ddylai fod fy agwedd i?' meddai Cecil, unwaith, '*silence and usefulness*, distawrwydd a defnyddioldeb.' Felly ninnau, nes delo galwad arnom i lefaru er mwyn cydwybod dros Dduw ac er ei ogoniant, gan gofio nad yw rhedeg ymhell i ryw dyrfhau yn cydsefyll â chynydd crefydd, nac ag ysbryd addfwyn y Pen Mawr, Matthew xvii. 27. A chytunasom yr un arwydd a'r hyn a ganlyn:—

"Na allwn lai na gofidio oblegid yr agweddau cynhyrfus sydd ar laweroedd y dyddiau hyn yn y deyrnas hon, a'r cynhyrfiadau ynghylch cyfnewidiadau mewn pethau gwladol ac eglwysig, gan farnu na ddylem fel corff crefyddol ymyrraeth a chyfryw bethau. Ac yr ydym yn taer ddymuno ar bob

aelod yn y corff hwn ymgadw rhag ymyrraeth ag unrhyw bethau sy'n tueddu at gynhyrfu y genedl, ac i weddio am gymhorth i fyw yn llonydd mewn pob duwioldeb ac onestrwydd."

Cynhaliwyd y Sasiwn honno, Mehefin 10, 11, a 12, 1834. Ond er y bygwth oedd ar Mr. Edwards, fel y cyfeiriwyd, o leoedd uchel ac o bob man, fe aeth y gwr ieuanc rhagddo yn yr un cyfeiriad am bedair blynedd. Ac i ddynion o'r fath yma y mae Cymru yn ddyledus am yr hyn ydyw heddyw. Nac anghofied Cymru Fydd ei dyled i goffadwriaeth Roger Edwards. Nid yw yr hyn a wnaeth i wleidyddiaeth Cymru, hyd yma beth bynnag, wedi cael chwareu teg oddiar law gwleidyddwyr ac ysgrifenwyr Cymreig. Anghofir ef ac eir heibio iddo fel pe buasai golygu papur newydd politicaidd, cryf, galluog, a beiddgar yn y blynyddoedd 1835-9, yr un peth ag ydoedd mewn blynyddoedd ar ol hynny. Gwneid hynny hyd yn nod yn ystod bywyd Roger Edwards; ond yr oedd efe mor fawrfrydig ei ysbryd fel yr oedd yn gallu tewi a son yng nghanol y fath anghyfiawnder. Credaf fod ysgrifenwyr yn fyw a rydd ffrwd chwanegol o oleuni ar y mater yma.

Fel hyn y mae Mr. Daniel Owen, y Wyddgrug, yn dweyd am dano fel golygydd y papur,—

Bryncir.

"Dywed Mr. Owen Jones fod agos yr oll o hyd yn nod y "llythyrau" a ymddanghosant ynddo dan ffugenwau, yn eiddo y Golygydd, gan mor fawr oedd ei awydd i wneyd y papur yn ddyddorol. Ceid yn y *Croniel* grynhodeb maith a manwl o weithrediadau y Senedd, newydd ion tramor a chartrefol, ac hefyd brif-erthyglau grymus a miniog ar bynciau y dydd. Yr oedd y papur mewn amryw bethau o flaen hyd yn nod ein papurau presennol. Un peth oedd yn fantais i'w boblogrwydd oedd ei fod yn bleidiwr selog i'r symudiad dirwestol, yr hwn a ddechreuodd yn yr adeg yma, ac a barhaodd mewn poethder mawr hyd nes y rhoed y papur i fyny. Cychwynnodd dau bapur arall oedd yn wrthddirwestol yn ystod yr un adeg yng Nghaernarfon, yn dwyn yr enwau *Y Papur Newydd Cymreig* a'r *Adolygydd*, ac er y priodolid eu golygiaeth i un o'r gweinidogion enwocaf, eto bu y ddau farw y naill ar ol y llall o ddiffyg cefnogaeth. Gwelais y deuddeg rhifyn a ddaeth allan o'r diweddaf, yr hwn a broffesai yn ddigywilydd mai amcan ei fodolaeth oedd gwrthwynebu y Gymdeithas Ddirwestol. Ac ni welais na phregethwr na llyfr erioed yn cadw at ei destun a'i amcan yn well. Dyna ydyw braidd bob brawddeg ohono o'i ddechreu i'r diwedd. Gwelodd y *Croniel* drauc y ddau bapur yma, ac am ryw ysbaid efe oedd yr unig bapur newydd Cymreig mewn bod. Dywedai y Parch. Owen Jones mai nid am nad oedd y papur yn talu y rhoddwyd ef i fyny, ond am i Mr. Edwards ymgymeryd a gwaith arall, a myned yn rhy brysur i ddal ei gysylltiad a'r *Croniel*. Tua'r adeg yma y dewiswyd ef yn ysgrifennydd y Gymdeithasfa.

HENRY HUGHES.

MEUDWY MON.



Y PARCH. OWEN JONES (*Meudwy Mon*).

(O photograph gan J. Eddie, Llandudno).

Ganwyd y Parch. Owen Jones, F.S.A. (Meudwy Mon), yn Llanfihangel Ysceifiog, Mon, yn 1896. O'i febyd, yr oedd ei awydd am wybodaeth yn angerddol. Gwas fferm oedd i ddechreu, addysgodd ei hun, a dechreuodd gadw ysgol ym Mhen y Garnedd. Daeth i sylw Richard Llwyd Beaumaris, ac wedyn i sylw Dr. Phillips, dyn y Beiblau. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth. Llafuriodd yn y Wyddgrug,—lle daeth dan ddylanwad Roger Edwards,—ym Manceinion, ac yn Llandudno. Bu farw yn 1889, a chladdwyd ef yn Llandudno.

Heblaw ei lafur yn y pulpud, gyda'r Beiblau, a chyda dirwest, gwnaeth lawer dros lenyddiaeth Gymreig. Bu'n olygydd papurau newyddion, ysgrifennodd lawer oedd o erthyglau, a gwnaeth lawer i ddwyn Cymry i astudio eu llenyddiaeth trwy ei *Gymru* a'i *Geinion Llenyddiaeth Gymreig.*

SYMLEDD galar dwys, fy Awen,
Ddylai wisgo'th gân yn awr,
Gwlych dy bin yn hylif gofid
Cenedl gafodd golled fawr;
Puro dagrau gloewon hiraeth
Ni wna swn chwyddedig iaith,
Ac ni all llaw wen celfyddyd
Harddu wyneb tristyd chwaith.

Mynych iawn y brethir calon
Cymru, gan angeuol gledd;
Gwaew enaid iddi ydoedd
Hebrwng Meudwy Mon i'w fedd;
Wylai'n ddistaw ddyddiau lawer,
Tra'r enynnai clwyf ei bron;
Ond o'r diwedd galarnadodd
Yr alarnad hygof hon:—

YMWELIAD A LLANWRIN.

PENTREF bychan yw Llanwrin ar lan yr afon Dyfi, tua phedair milldir o Fachynlleth a tua thair o orsaf Cemmes Road, a gellir ei weled o'r ffordd haiarn pan yn trafaelio o'r naill i'r llall o'r ddau le hyn. Saif wrth odre'r mynyddoedd uchel sy rhyngddo a Choris ac Aberllefenni, yn ymlochesu rhag oerwyntoedd miniog y gogledd a'r dwyrain, a phob amser yn ymheulo yng ngwenau Brenin y Dydd pan fo hwn uwch ei gaerau. Ychydig o dai sydd yn y pentref ac ni chlywir swn yn ei heolydd, — yn unig, clywir brefiadau'r defaid yn y meusydd, a swn curo'r eingion gan y gof wrth ei waith yn yr efail yng nghanol y pentref. Y mae yno eglwys wedi ei chysegru er coffadwriaeth i'w nawdd-sant Gwrin, ac ysgoldy, a chapel yn perthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd, a chapel hefyd gan yr Anibynwyr. Nid oes dim yn adeilad y llan i daro yr ymwelydd disylwgar, ond i'r sylwedydd craffus, fe wêl hwnnw fod eglwys Llanwrin yn un o eglwysydd tlysaf yr esgobaeth. Mesura 75 troedfedd o hyd a 35 o led oddifewn, ac y mae ynddi ddigon o le i 300 o wrandawyr. Tua 30 mlynedd yn ol, fe adnewyddwyd yr eglwys, ac nid oes nemawr, dybygaf, ond ychydig o'r hen adeilad yn aros yn awr. Y peth mwyaf anghyffredin y tu mewn ydyw'r hen ysgrin sydd yn didoli'r gangbell oddiwrth gorff yr eglwys. Dywedodd y rheithior, y Canon Silvan Evans, wrthyf nas gwelodd efe yng Ngogledd Cymru ddim ond dwy neu dair o eglwysi hefo'r addurnwaith hwn. Darn o waith hollol syml yw'r ysgrin yn Llanwrin. Yr oedd ychydig o'r gwaith gwreiddiol wedi ei fwyta gan bryfed, ac amcanwyd adferu'r gwaith gan gerfiwr diweddar, ac y mae'r cynnyg yn bur ganmoladwy. Yn y ffenestr ddwyreiniol mae yno hen wydr gwerthfawr wedi ei glytio â gwydr llawer diweddarach, ac felly yn llawer llai ei werth. Rwy'n cofio clywed Egerton Phillimore unwaith yn traethu'n hyawdl parthed rhagoriaethau darnau o'r hen ffenestr liwiedig hon. Trwy ryw anffawd torrodd y ffenestr a chollwyd amryw o ddarnau o honi; y mae rhannau helaeth, modd bynnag, eto'n sefyll, ac amlwg yw fod y gwydr sydd ynddi yn henafol iawn.

Y lle mwyaf dyddorol o bob lle yn Llanwrin, yn ddilys ddigon, yw'r rheithordy, — ty sgwâr mawr, a'i wyneb wedi ei guddio yn llwyr âg eiddiorwg tew. Yma y trigianna, ers un mlynedd ar bymtheg, un sy'n fwy cyfarwydd nag un dyn byw â llenyddiaeth a geiriaduriaeth yr iaith Gymraeg, yr hwn sydd yn awr yn ddygn a dyfal weithio ynglŷn â gwaith ag y pery ei glod am ganrifoedd. Y mae yn y Canon Silvan Evans ryw ystôr anhysbydd o wybodaeth yng nghylch pob math o bethau Cymreig, — hanes geiriau, hanes llyfrau, ynghyd a'u gwahanol argraffiadau, chwedlau, yr orgraff, barddoniaeth, emynyddiaeth, ac y mae wedi cymeryd y dyddordeb mwyaf yn y pynciau hyn er yn bleutyn. Dysgodd gan ei fam pan yn fachgen lawer o bethau ynglyn â llenoriaeth. Brodor o Lanarth yng Ngheredigion yw Silvan Evans, a hoffus yw ganddo ymgomio am ei fro genedigol. Ganwyd ef yno mewn amaethdy o'r enw Fronwilym, yn 1818. Er nad yw Llanarth yn lle mawr, y mae er hynny yn lle enwog, ac y mae i'r pentref bychan lawer o hanes felgenidfan nifer lluosog o wŷr clodwiw sy'n adnabyddus fel beirdd a llenorion ymysg eu cyd-genedl. Amaethwr oedd ei dad; ond nid ryw lawer y sieryd am ei dad, gan mai plentyn ei fam mewn modd neillduol ydoedd. Clywais ef ei hunan yn dweyd fod ei hanes boreol wedi ei ysgrifennu gan ddwyfol ysbrydoliaeth yn Niarhebion Solomon (Pen. iv. 3), — "Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, ac yn *dyner* ac yn *anwyl* yng ngolwg fy mam." Amhosibl yw dychymygu pa faint y mae'r ysgolhaig Cymreig hwn yn ddyledus i'w fam, heb ei glywed ei hunan yn pwysleisio'r geiriau *tyner* ac *anwyl* yn yr adnod. Gwraig synhwyrol, ddeallus, ddeallgar, oedd ei fam, o gyneddfau cryfion, ac wedi cael addysg y tu hwnt i wragedd cyffredin yr oes honno. Ganwyd hi yn 1777 — "blwyddin y tair caib," yn ol y dywedai'r Canon Evans. Pan yn enethig fechan clywodd lawer o lên y werin gan ei mam, a thrysorodd hwynt yn ei chof; a phan ddaeth yn fam ei hun, adroddodd hwynt drachefn i'w phlant. Silvan Evans oedd y chweched o saith o blant; ond gan i'r olaf farw pan yn ieuanc iawn, efe ydoedd i bob pwrpas yr ieuengaf yn y teulu; ac yn sicr ddigon, cafodd ragor o chware-teg a chyfleusderau i glywed ei fam yn adrodd ystoriau a llên o'r fath. Dyma'r modd y cafwyd yr oll o'r cyfryw ysgrifennwyd ganddo yn *Ystên Sioned*; a dyma'r modd hefyd y cafwyd yr hyn a ymddanghosodd o waith ei ysgrif-bin yn y penodau hynod ddyddorol a darllenadwy hynny a elwid "Llên y Werin" yn *Y Brython* (1858-64). Cofia'r canon hyd heddyw y llais dolefus hirllaes yr adroddai ei fam y geiriau hynny, —

> "Hir yw'r dydd a hir yw'r nos
> A hir yw aros Arawn."

(*Ystên Sioned*, tud. 25.)

Hi hefyd roddodd yr hanes am "Y Gwiber" yng Nghastell Emlyn (Cyf. i. o'r *Brythoń*), a chlywais y Canon Evans yn dweyd ei fod yn cofio ei fam yn seinio'r geiriau hynny a geir yn yr hanes uchod, "llef a llais,"—mor glir y maent yn ei gof,—a phe digwyddasai adroddiad ei fam o'r hanes ddoe ddiweddaf. Yn y modd yma, o enau ei fam y cafodd bron yr oll o lên y werin a ymddanghosodd yn y llyfryn a'r newyddiadur uchod. Y mae eto rai cyffelyb iddynt ar gof gan y canon, —neu yn hytrach, yn ei gof, ond heb eu hysgrifennu a'u croniclo. Diffyg amser, ynghyd ac ymroddiad dyfal a di-ildio gyda'r *Geiriadur*, gwaith mawr ei fywyd, sy'n rhwystro ymddanghosiad rhagor or chwedlau hyn mewn "preint," ar gof a chadw. Mae Cymru yn ddyledus, mewn modd neillduol, i'r wraig ragorol hon am fwy na'r hanesion difyrrus hyn, oblegid trwyddi hi y tueddwyd meddwl y llenor gyntaf erioed i astudio'r Gymraeg; ac o berthynas i'r lles a ddeilliodd drwy hynny, pwy all ei fesur neu ei bwyso?

Ystafell fechan yn y rheithor-dy ydyw y llyfrgell—"y gweith-dy' fel y geilw y canon hi. Nid oes yno le i ddarluniau neu gywrein-bethau ereill; yr unig ddarlun sydd yno ydyw cerfiad ar ddur o'r "Hen Syr" fel ei gelwid, sef y Parch John Williams, gynt Prifathraw Ysgol Ystrad Meurig a thad yr enwog Archddiacon Williams. Ond y mae yno gyfrolau ymhob man, i fyny ac i lawr, a phob astell yn yr ystafell yn drwmlwythog gan lyfrau y rhai y disgwylir allu fod o honynt yn gelfi ac arfau i'r gweithiwr. Ceir yno eiriaduron a gramadegau ymhob iaith ar gyfandir Ewrob, a mwy na hynny; gweithiau Cymreig o bob natur ac ar bob pwnc; ac y mae'r geiriadurwr yno fel gweithiwr rhagorol a medrus yn ymddangos yn feistr perffaith ar ei waith, yn eu gwybod ar ben ei fysedd, ac yn medru troi i'r fan priodol ar unwaith i brofi rhyw haeriad neu ddangos neu gywiro dyfyniad, neu i ryw amcan arall. I'r neb sy'n hoff o ddarllen, y mae gan lyfrgell ei swyn-gyfaredd neillduol ei hun, ond pan eloch i lyfrgell ysgolhaig o enwogrwydd a bri fel y Canon Silvan Evans, y mae'r swynion yn amlhau ac yn cryfhau; cyfyd ynnoch ryw deimladau anesgrifiadwy; yma yr ydych yng nghanol yr elfennau y mae'r gweithiwr athrylithgar yn gweithio arnynt, ac yn eu tylino a'u moldio i'w ddibenion neillduol ei hun. Ger eich bron ac o'ch hamgylch ar bob tu, y mae'r meusydd toreithiog y mae'r llafurwr yn medi o honynt, neu (a newid y ffigyr) dyma'r maengloddiau lle y naddir ac y cabolir y llechau sydd i'w gosod rhagllaw yn y deml orwych —a dyma'r fan hefyd, lle y gosodir maen ar faen yn yr adeilad hyd oni chwblhaer y gwaith i'w arddangos ger bron y byd llenorol, yn ei holl brydferthwch a'i ogoniant.

Nid yw'r Canon Evans yn ddim os nad yw yn wr llawn brwdfrydedd,—go brin y byddwch wedi croesi'r trothwy i'r ty, nad, odid fawr, y cewch eich hunan ar unwaith yng ngwyneb rhyw ffaith ddyddorol o berthynas i air neu frawddeg, rhyw hen lyfr neu hen awdwr. Y mae yn barod bob amser i roi darlith ar lenoriaeth Gymreig i'r hwn sydd ganddo glust i wrando neu dueddfryd at y cyfryw lenoriaeth. Prin yr eisteddwch yn y llyfrgell nad yw'r cyfrolau yn disgin i lawr o'r esty lod yn gawod drom o honynt ar y bwrdd o'ch blaen,—llyfrau o wahanol blyg, o bob math o lythyren a rhwymiad. Dyma hwynt—Gramadeg Cymraeg yn Lladin gan y Doctor Dafis, a chydag ef argraffiad o Eiriadur Salsbri (1547) yng nghyd ag argraffiad y Cymrodorion o'r un gwaith, yr hwn, mae'n debyg, a gymerwyd o'r cyf-argraff sydd yn Llanwrin, llyfryn digon hardd a hylaw i unrhyw bwrpas. Y mae'r olaf yn adargraff cywir o'r *Geiriadur* gwreiddiol oddigerth fod dwy golofn o hono ar bob tudalen yn y lythyren gyffredin ac nid fel yn yr hen gyfrol yn y lythyren ddu. Ar gefn y rhai'n daw Testament William Salsbri, er nad yw yn gopi cyflawn, ac yng nghwmni hwn daw'r Beibl,—gyda'r Apocrypha cofier, oblegid mae'r Apocrypha, o olwg lenorol, yn llawn mor bwysig ag ydyw y Beibl ei hunan. Tynnwyd y ddau olaf i lawr o'u lle, er mwyn cymharu Cymraeg trwsgl ac anghyfiaith Salsbri â chyfieithiad llyfn ac esmwyth yr Esgob Morgan a'r Esgob Parri. Yn y pentwr llyfrau, ceir cyfrol o'r *Geiriadur*, campwaith bywyd y canon, a chyda hi dyma gyfrol drwchus yn y Lladin, nas gwelir mohoni ymhlith llyfrau pob llenor Cymreig, sef yw honno Zeusss *Grammatica Celtica*,—llyfr dyfnddysg a gwir ysgolheigaidd. Wele rai o'r llyfrau sydd eisoes wedi disgin fel colomennod o'u ffenestri i'r bwrdd o'n blaen; a pharhau y mae'r gawod gyfrolau i ddisgin o hyd fel pe na byddai diwedd ar frwdfrydedd y perchennog. Modd bynnag, cafwyd diben a therfyn maes o law ar bentyrru'r cruglwyth llyfrau. Agorais y Beibl, a gofynnais am esboniad ar ramadeg y brawddegau canlynol, —a gellir cael nifer o engreifftiau tebyg iddynt yn y cyfieithiad Cymraeg. Trois i 1 Bren. xxii. 48—"Canys y llongau a *ddrylliodd* yn Ezion Gabir," lle y buasid yn disgwyl un ai "Canys y llongau a *ddrylliasant*, &c.," neu ynte, "Canys drylliodd y llongau, &c." Eto, gwel Actau iii. 2—"i ofyn elusen gan y rhai a *elai* i mewn i'r deml," lle y disgwylid

yn hytrach "y rhai a *elent*." Etyb y Canon Evans fod yn yr adnodau uchod wallau gramadegol, a glyna'n dyn wrth y rheol fel ei ceir yn y gramadegau, sef yw honno,—os bydd y prif-enw yn rhagflaenu'r perwyddiad, yna gosoder yr olaf yn y rhif unigol neu'r rhif lluosog yn ol rhif y prif-enw; ond os daw'r berwyddiad yn gyntaf, yna gosoder y berwyddiad yn yr unigol, beth bynnag fo rhif y prif-enw, oddigerth i hwnnw fod yn rhagenw personol. Er engraifft—y disgybl a ddaeth, y disgyblion a ddaethant; daeth y disgybl, daeth y disgyblion; hwy a aethant, ac aethant hwy, ond nid "aeth hwy."*

Rhoddodd y canon engreifftiau lawer o wallau gramadegol tebyg i'r uchod yng ngyfieithiad y Beibl, ac nis gallwn lai na synnu mewn edmygedd wrth ei weled mor gydnabyddus a geiriolaeth y gyfrol sanctaidd. "A ddylid ysgrifennu *cyfieithedig* neu *cyfieithiedig*?" Y mae'r canon yn selog dros gadw rheol ar y pwnc sy'n gysylltiedig a'r gofyniad hwn. Edrycha efe ar holl ferwyddiadau'r Gymraeg fel yn dod dan ddwy gyfnewidiad *(conjugation)*, un yn terfynu yn *io*, a'r llall yn *u* neu *i*. Ystyria y perwyddiadau hynny sydd a therfyniadau ereill iddynt fel rhai eithriadol neu ddi-reol, tebyg i lawer o'r fath yn y Groeg. Ei reol o berthynas i *-edig* ac *iedig* yw hon,—yn y perwyddiadau *io* gosoder *iedig*, a'r un modd am yr oll o'r perwyddiadau eithriadol hynny sy'n ffurfio eu hamserau terfynol *(finite tenses)* trwy osod yr *i* i mewn; er engraifft, briwio, briwiedig; derbyn, derbyniedig (oblegid ffurfia y gair hwn, derbyn*ia*, derbyn*iodd*, &c., yn yr amserau terfynol, ac nid derbyn*a*, derbyn*odd*, &c.) O'r tu arall, o berthynas i'r perwyddiadau yn *u* ac ereill, gosoder *edig;* er engraifft, cysylltu, cysylltedig; proffesu, proffesedig; dysgu, dysgedig (oblegid ni ddywed neb proffes*ia*, proffes*iodd*, neu ddysg*ia* a dysg*iodd*). Y mae rheswm arall ganddo am hyn,—y mae "cysylltedig" yn rhwyddach a llithricach gair na "cysylltiedig;" a'r un modd am y lleill; oblegid cofier fod *i* yn gydsain yn y geiriau hyn ac nid yn llafarai, ac y mae gan y ffaith hon, fel y gwyddis, lawer i wneyd a llythyraeth y Gymraeg. Cyfyd gwrthddadl amlwg yma,—os dilynir y rheol hon, medd y gwrth-ddadleuwr, yna dylid ysgrifennu *carad* ac nid *cariad* (o caru), *canad* ac nid *caniad* (o canu), a *cysylltad* ac nid *cysylltiad* (o cysylltu). Ie, medd y Canon Evans, hwn fuasai'r iawn gwrs i'w fabwysiadu, a dyma'r sillebiaeth a ddylid ei ddilin i fod yn gyson â'n rheol ac i ymgyrraedd at berffeithrwydd; ond gan fod y geiriau hyn, fel y maent yn bresennol, yn cael eu derbyn mor gyffredinol gan ysgrifenwyr ac wedi eu stampio gan hen arferiad, anhawdd fyddai eu newid, a gwell ydyw eu gadael fel y maent, gan syrthio yn ol ar yr egwyddor honno—"let well alone."

Dyma bwnc arall y cafwyd tipyn o wers arno — p'un ddylid ysgrifennu, *sanctaidd* a'i *santaidd?* Tybir yn gyffredin mai y Doctor Owen Puw wnaeth y cyfnewidiad hwn, sef ysgrifennu'r gair yn *santaidd* heb yr *c*. Arno ef y tadogir y bai tybiedig hwn. Druan o'r Doctor! Rhoddir rhyw gynysgaeth enfawr o bechodau arno yn ein hoes ni! Ond chware teg hyd yn oed i'r Doctor Puw. Ymddengys fod hanes llythyraeth y Gymraeg yn ein dysgu fod gan y naill ffurf cystal hawl i fod a'r llall. Fel y gwyddis, y mae i rai egwyddorion eu cyfnodau pwysig ac arbennig yn eu hanes; felly hefyd y mae gan eiriau eu cyfnodau yn yr un modd. Mae hanesiaeth yn ail-adrodd ei hunan yn fynych; felly hefyd y gwna ambell air Cymraeg, ac y mae'r uchod yn un o'r rhai hynny. A'r un modd hefo'r geiriau *Cristionogaeth* a *Christianogaeth*. Mewn un cyfnod ceir Cristion, mewn cyfnod cyn hynny ceir Cristian, ac mewn cyfnod cyn hynny drachefn ceir Cristion.

Cam byr oedd mynd o'r pwnc hwn at bwnc dyrus yr orgraff, a bu y Canon Evans yn traethu yn helaeth ar "gyhydedd y cydseiniaid." Wrth gwrs, y llafariaid sydd yn hir neu yn fyr, ond defnyddir y frawddeg hon, er mwyn dangos yr effaith a gynhyrchir ar y llafariaid sydd yn eu rhagflaenu. Cymerwyd y cydseiniaid bob yn un ac un, fel hyn,—

c, yn fer, megis nac, toc, cnwc,
d, yn hir, megis tad, rhed, byd, rhwd,
f, yn hir, megis braf, dof, twf, nef,

ac felly ymlaen. Rhai o honynt sydd amheuol, b, n, r, a daeth hyn a ni at y cwestiwn mawr o ddyblu'r *n*. Yn y cysylltiad hwn, deuwyd at bwnc dyddorol yng nglyn a gorchwyl bywyd y Canon Evans fel geiriadurwr. Cymerwyd y gair *brenin* a'i dardd-eiriau. Mynnwn i ddal yn gryf o blaid sain ac orgraff Rhydychen, ac ysgrifennu fel hyn—*brenin* fel y ceir y gair yn gyffredin yng nghyfieithiadau'r Esgobion Morgan a Parri, ac nid *brenhin* fel ei ceir mewn argraffiadau ereill o'r Beibl Cymraeg; yna y tardd-eiriau *brenhines*, *brenhinoedd*, *brenhiniaeth*, ond *breninesau* a *breniniaethau*. O gymeryd golwg ar y pwnc fel geiriadurwr, gwrthwyneba y Canon Evans hyn; oblegid buasai dilin ffasiwn Rhydychen yn ei dirio mewn anhawsderau diderfyn, ac yn ychwanegu at ei drafferthion llafurus presennol gyda'i waith. I roi ryw-

* Gwelir nad yw golygydd Cymru, er yn ddisgybl i'r Canon Evans, yn credu dim yn y rheol hon, a'i fod yn ei galw yn ramadeg gau.

fath o derfyn ar y diderfyn lafurwaith hwn, gesyd y gair yn unffurf drwy ei holl darddeiriau yn ei Eiriadur (gwel s.v. *Brenin* yn yn Rhan ii. o'r "Geiriadur Cymraeg" gan Silvan Evans). Gellir dweyd nad yw orgraff Llanwrin, mewn amryw bwyntiau, yn cyfateb i orgraff Rhydychen; gwelir hynny yn amlwg wrth gymharu cynhyrchion llenyddol Cymdeithas Dafydd ab Gwilym â "Llythyraeth y Gymraeg" gan y Canon Silvan Evans, cyhoeddedig gan Spurrell, Caer Fyrddin.

Rywfodd arweiniwyd ni i ymddiddan yng nghylch Cymraeg Gwynedd a Chymraeg y Deheubarth. Deheubarthwr selog yw rheithor Llanwrin. Ystyriaf ei Gymraeg yn debyg iawn i Gymraeg Ceredigion; a syndod mor rydd ydyw oddiwrth dafodiaith a llediaith y Gogledd, ac ystyried ei fod wedi treulio cymaint o'i oes yng Ngwynedd ymhlith pobl yn siarad y Wyndodeg. Yn iaith y De yr ysgrifennwyd gynt ryddiaith Cymru; ynddi hi yr ysgrifennwyd y Mabinogion a chyfreithiau Hywel Dda; ac ni cheir ond y nesaf peth i ddim wedi ei ysgrifennu yn y Wyndodeg cyn yn agos iawn i amser y Diwygiad Protestanaidd; a chyfieithiad rhagorol y Doctor Morgan roddodd i'r Wyndodeg y fath flaenoriaeth ar iaith y De, ac a'i gwnaeth yn safon mewn cyfansoddiad Cymreig. Cymerodd y Canon Evans Destament Salsbri i ddangos saled Cymreigwyr oedd Gwyneddwyr yr oes honno. Ymosoda yn drwm bob amser ar y dyb gyfeiliornus honno sy'n ffynnu mewn rhai parthau o Gymru, sef fod y Wyndodeg yn burach ac yn rhagorach iaith na'r Ddeheubartheg. Gwae y gŵr hwnnw ddaw dan ei ddyrnod a'i fflangell yn hynyma o beth! Gesyd yn drwm a chaled ar eiriau anghyfiaith, trwstan a di-dreigliad Salsbri, megis *eccleis*, *discipulo*, a'u cyffelyb.

Mae'n amhosibl gwybod am unrhyw bwnc yn dwyn perthynas â llenyddiaeth Gymreig nad yw'r canon yn berffaith hyddysg ynddo. Cyfeiriais un noson at emynnau Cymreig, ac anturiais nodi allan un diffyg mawr a welwn ynddynt, sef yw hwnnw diffyg unoliaeth. Y mae nifer mawr o'n hemynnau a'n penillion crefyddol yn wasgarog, yn gymysg, a didrefn o ran syniadau a meddylddrychau, a lluaws mawr o honynt yn gynifer o frawddegau a llinellau wedi eu gosod mewn mydr a math o gynghanedd, a'u bwrw at eu gilydd megis ar antur a damwain; yn lle bod y cyfan yn gwneyd i fyny un emyn ogydryw. Bai twysged helaeth o'r emynnau Cymreig yw bod yn ddiffygiol yn yr hyn a eilw'r Sais yn *continuity*. Fe ddylai emyn fod yn debyg i englyn Groegaidd, ac ynddo berffaith unoliaeth, y meddyliau yn cysylltu ac yn cydglymu hefo'r prif feddylddrych, a'r cyfan yn dwyn delw y symylrwydd eithaf a pherffeithiaf. Nodais un emyn sydd yn ymddangos i mi fel yn meddu'r rhagoriaethau hyn, sef emyn Iago Trichrug,—"Agorwyd teml yr Arglwydd yn y Nef." Darllennais yr emyn goreu medrwn, gan ail-adrodd rhai o'r llinellau sydd, ym mhlith ereill y gellir eu henwi, mor llawn o dlysni, megis

"O fewn y llenn, sancteiddiaf lŷs y nef"
"Mae hedd yn awr o'r nef i'r llawr yn lli"
"A noddfa gref o fewn y nef i ni."

Canmolai y Canon Evans hefyd yr emyn â chanmoliaeth uchel iawn, a hoffai yn fawr lawer iawn o'r llinellau sydd yn yr emyn. "Gresyn," meddai, "na chesglir yng nghyd gynhyrchion barddonol Iago Trichrug. Yr oedd, feallai, yn gryn Buwiad; ond waeth beth am hynny, yr oedd yn fath feistr ar y Gymraeg, — he was such a master of Welsh." Yr oeddwn yn falch wrth glywed yr hen esboniwr yn cael cymaint canmoliaeth gan un sydd yn feirniad dyfnddysg gwirioneddol. Wrth grybwyll am Buw a'r Puwiaid, cyfeiriodd y canon yma at yr hyn a glywodd o enau Carnhuanawc tua hanner can mlynedd yn ol. Pan oedd y rheithor yn son am *crotchets* y Doctor Puw,—"Ie," meddai Carn., a gwnaeth y sylw argraff neillduol ar Mr. Evans er nad oedd ond ieuanc y pryd hwnnw, "ie, ond cofiwch hyn, onibai am *crotchets* y doctor, ni buasai wedi eistedd i lawr ac ymegnio am ugain mlynedd i gyfansoddi ei Eiriadur, yr hwn a bery yn gofgolofn i'w athrylith a'i wasanaeth i genedl y Cymry am genedlaethau." Ychwanegodd y rheithor sylw fel math o ol-nodiad sydd wedi aros ar fy meddwl innau,—"Y gŵr sydd yn gwneyd *gwaith* bob amser, yw gŵr y cromfachau." Mentrais ddweyd fy mod yn gosod David Charles, Caer Fyrddin, yn uchaf ar ben y rhestr o'r emynwyr Cymreig, oblegid fod ei emynnau, ym mhlith rhagoriaethau ereill, yn rhagori mewn unoliaeth. "Ie," meddai'r canon, "dyna, O Fryniau Caersalem;" ac enwais innau ddau neu dri ereill megis,—

"Rhagluniaeth fawr y nef, mor ryfedd yw,"
"O Iesu byw, rho'th anian bur,"
"Y bugail mwyn o'r nef a ddaeth i lawr."

Ystyria'r Canon Evans fod Williams o Bantycelyn wedi cyfansoddi gormod o emynnau, ac mai llawer iawn gwell i'w glod a'i enwogrwydd fuasai iddo gyfansoddi tua'r hanner neu chwarter o honynt, a pherffeithio y rhai hynny. Llawer rhagorach fuasai iddo drwsio a chaboli ychydig o'i hymnau na thaflu ei gynhyrchion emynyddol yn blith draflith at eu gilydd yn y modd y gwnaeth. Amhosibl i unrhyw ddyn, pa mor odidog emynnwr bynnag y bo, gyda phob cyfleusderau

dichonadwy at gyfansoddi, mewn perffaith dawelwch a llonyddwch, llawer llai i wr o bregethwr teithiol, ysgrifennu y fath afrifed nifer o emynnau ag a gynhyrchwyd gan Williams,—ac i'r rhai hynny fod yn rhagorol i gyd. Danghosodd y Canon Evans fod lluaws o'n hemynnau yn cynnwys yr anghysonderau a'r anghydsafiadau mwyaf amlwg mewn amseryddiaeth a daearyddiaeth, y rhai nis gellir eu hystyried fel yn meddu'r briodoledd o gywirdeb. Mae rhai o'n hemynnau mwyaf adnabyddus felly. Cymerer yr emyn hwnnw a geir ym mhob casgliad "Gosod babell yng ngwlad Gosen"; a gwelir fod ynddo y cyfryw anghydsafiadau. Ac fel y cyfleir y pennill ymhlith ereill yng nghasgliad y Methodistiaid Calfinaidd, ychwanegir y diffyg y cyfeiriwyd ato uchod at y ddau ddiweddaf.

Y mae gan y Canon Evans wir barch a gair uchel i Robert Williams (Robert ab Gwilym Ddu) fel emynnwr Cymreig, a danghosodd hynny drwy ei aml-gyfeiriad at ei emynnau tlysion. Efallai fod trigiannu yn Lleyn am nifer o flynyddoedd yng nghymydogaeth cartref yr hen emynnwr wedi bod yn foddion i anwylo ei enw i feddwl y llenor. Dywedodd y canon wrthyf, y buasai yn well ganddo fod yn awdwr yr emyn,—

"Mae'r gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio,"

na bod yn gyfansoddwr yr holl awdlau eisteddfodol o amser Dafydd ab Edmwnd i lawr. Tybiaf mai hon yw'r ganmoliaeth uchaf allasai roi i'w hen gymydog Robert ab Gwilym Ddu; gwelaf yn y ganmoliaeth, hefyd, dystiolaeth tra urddasol yn cael ei ddwyn i ragoroldeb ein hemynyddiaeth. Nis gallwn lai na chofio dywediad y Cadfridog Wolfe pan ar ymosod ar Quebec. Wrth adrodd y llinell "The path of glory leads but to the grave," o alareb Gray, meddai Wolfe wrth ei filwyr,—"Gentlemen, I would rather be the author of that poem than take Quebec." Y prif angenrhaid a'r mwyaf peth mewn emyn, yn ol y Canon Evans, ydyw moliant; yn ol ei syniad ef, dyna yw emyn, sef cân o foliant,—yn iaith yr Almaen, Lobgesang,—a'r cynllun perffeithiaf o emyn ganddo ef ydyw y "Te Deum," yr hon, yn ol barn y Canon, a gynhwysa bob rhagoriaeth sy'n eisiau mewn emyn. Bu'n ymddifyrru unwaith drwy osod "Ti Dduw a folwn" ar ffurf penillion, ac adroddodd imi ddarnau o'i arall-eiriad. Fel y buasid yn disgwyl, y mae'r Canon Evans yn gwneyd gwahaniaeth pen-odol a diamwys rhwng emyn fel y cyfryw a barddoniaeth grefyddol neu gysegredig. Gofynnodd imi a wyddwn ar ba fesur cerdd y mae ei ffafr-emyn, — "Mae'r gwaed a redodd ar y groes." Yr oeddwn yn ddigon o fardd a cherddor i ateb mai ar y mesur Salm. Yna gofynnodd drachefn i mi—Paham y mae cyn lleied o donau ar y mesur hwn? Yr oedd y posio pellach hwn tu hwnt i mi, ac nis gallwn roi un math o atebiad i'r gofyniad. Dyna'r ateb roddodd efe ei hunan i'w gwestiwn,—"Mesur Cymreig yw'r mesur Salm, a chan nad oes mo'r mesur hwn gan un genedl Ewropeaidd arall, yr ydym fel cenedl yn rhwym o fod yn ddyledus yn hollol neu bron yn hollol i'r cyfansoddwyr cerddorol Cymreig yn unig am y tonau cymwys i'r mesur hwn.

Y LLYNGHESYDD MAYNE.

(O photograph gan Russell a'i Feibion, Baker Street, Llundain).

Dymunol dros ben oedd clywed y Canon Evans yn datgan ei syniadau am rai o'r llenorion Cymreig. Saif Carnhuanawc yn uchel yn ei feddwl. Fel y dywedais o'r blaen, cyfarfu ag ef pan nad oedd ond ieuanc. Ystyria Carnhuanawc yn wir wladgarwr, yn eofn i ddweyd wrth ei gydgenedl eu hanes yn y gorffennol fel yr ymddanghosai iddo ef, heb ddim ynddo o'r ffug-wladgarwr yn ewyllysio eu harganmol a'u gwenieithio a'u twyllo gyda rhamantau gwneyd, gan geisio dangos eu rhagorion uwch law pob cenedl dan haul. O berthynas i Ab Ithel, rhagflaenydd y Canon yn rheithoriaeth Llan y Mowddwy, dywed nad oedd digon o'r amheuwr yn ei natur, a'i fod yn rhy grediniol, a bod ynddo hefyd ormod tuedd i drafnidio ar ei wladgarwch.

Y mae f'ysgrif yn mynd yn hir, rhaid i mi adael y gweddill o'r hyn glywais yn Llanwrin hyd dro eto,—meddwl y geiriadurwr am lenorion Cymreig, a darluniad o'i fywyd diddan yn ei gartref. Cawsom ymgom am Garnhuanawc, am Ab Ithel, am y Llyfr Gweddi, am Edward Llwyd, ac am ddisgyblion Silvan Evans.

Aber Ystwyth. DAVID SAMUEL.

DAU AELOD SENEDDOL.

PRYDNAWN Sabath, Mehefin 19, bu farw Lewis Llewelyn Dillwyn, yn Abertawe. Hunodd wedi gweithio trwy oes hir dros egwyddorion Rhyddfrydig, ac wedi gweithio hyd y diwedd. Teimlir gan y ddwy blaid wleidyddol fod colled fawr ar ei ol,—teimla'r naill ei bod wedi colli rhyfelwr grymus a di-ildio; teimla'r llall ei bod wedi colli gwrthwynebydd teg, gonest, ac anrhydeddus.

Ganwyd Lewis Llewelyn Dillwyn yn 1814, yn Abertawe. Nid oedd yn Gymro o waed, er hynny, eithr yr oedd gwaed ardderchocaf Lloegr yn ei wythienau, — gwaed y Crynwyr. Daeth ei dad, Lewis Weston Dillwyn, i Gymru fel cymhwynaswr, i ddadblygu adnoddau mwnol y wlad. Gwnaeth waith da fel arolygwr gwaith llestri pridd, a gwaith da fel cynrychiolydd Morgannwg yn Nhy'r Cyffredin o 1832 hyd 1837. Ac felly'r mab.

Yr oedd yn wr profiadol, o farn addfed, wedi ymnerthu yn llawn yn yr egwyddorion y bu mor ffyddlon iddynt trwy ei fywyd hir, pan etholwyd ef yn aelod dros Abertawe yn 1855. Dywedir yn aml mai pobl benchwiban gyfnewidiol ydyw'r Cymry; ond anhawdd fuasai cael etholaeth wedi cadw yr un cynrychiolydd mor hir,—am agos i ddeugain mlynedd. Am ddeng mlynedd ar hugain bu'n unig gynrychiolydd Abertawe. Yn 1885, rhannwyd yr etholaeth,—y dref a r wlad. Etholwyd ef dros y dref, drwy fwyafrif o 1,140; ac erbyn 1886, pan fu cymaint o wanhau ar ei blaid, nid oedd cred pobl Abertawe yn Nillwyn wedi gwanhau dim, fel y dengys ei fwyafrif o 1,300.

Dyn egwyddor, ac nid dyn plaid er mwyn plaid, oedd Dillwyn. Yr oedd yn Rhyddfrydwr oherwydd mai Rhyddfrydiaeth oedd ei egwyddor a'i gredo; ac ni phetrusai wrthwynebu ei arweinwyr os tybiai eu bod, am eiliad, yn troi o'r llwybr ystyriai ef yn llwybr union Rhyddfrydiaeth.

Dyn a'i fryd ar wneyd daioni oedd, ac nid dyn a'i fryd ar swydd. Ni roddwyd swydd iddo mewn unrhyw Weinyddiaeth, er meithed a phwysiced ei wasanaeth. Y mae'n debyg fod hynny yn unol a'i feddwl anibynnol ef; ac yr oedd ei lais, o'r fainc flaenaf islaw y gangell, yn un mor bwysig a llawer llais odddiar fainc y gweinidogion.

Dyn y gwneyd oedd, ac nid dyn siarad. Ni feddai nerth na hyawdledd ymadrodd. Buasai'n anhawdd i ddyn dieithr ddeall paham y gwrandewid arno mor astud gan bawb, tra'n ymlafurio drwy ei ddyddiadau a'i ffeithiau a'i ffigyrau sychion i brofi fod Eglwys Loegr yng Nghymru wedi methu llenwi ei hamcan. Ond gwyddai ei gydaelodau am brydferthwch ei fywyd ac uniondeb di-wyrni ei amcanion. Gwelodd y rhai hynaf o honynt ef yn ychwanegu penwynni a phrofiad at ddoethineb a gonestrwydd wrth wasanaethu ei wlad, ac ni watwarwyd ei gyngor gan rai ieuengach nag ef.



LEWIS LLEWELYN DILLWYN.

(O photograph gan Russell ar, Feibion, Baker Street, Llunden).

Rhyddfrydiaeth fyw, yn tyfu ac yn ymnerthu at droion newyddion hanes y byd, oedd Rhyddfrydiaeth Dillwyn. Nid gwiw gwatwar Rhyddfrydiaeth yr hen Ryddfrydwr, sy'n sefyll i edmygu amcanion y dyddiau gynt, ac yn wan ei ffydd mewn milwyr newyddion na wyddant fawr am yr hen frwydrau. Ond y mae gwell a chadarnach defnydd yn yr hwn geidw ar y blaen o hyd, gan gredu nad oes bosibl gorffen pob peth, ac nad oes gan neb hawl i sefyll. Yr oedd Dillwyn yn Nhy'r Cyffredin cyn geni llawer o arweinwyr Cymru sydd ynddo'n awr; ond nid oedd ef fodfedd ar ol yr un o honynt. Cadwodd frwdfrydedd ac ireidd-der ei ieuenctyd hyd y diwedd, cyn huno'n ddennaw a thrigain oed.

Erys ei enw yn hanes Cymru. Erys yn hanes ei gweithfeydd, — ei halcan a'i dur. Erys yn ei hanes gwleidyddol, — fel enw un arweiniodd lawer achos, y chwarddid am ei ben gan ei gyfeillion ei hun fel un anobeithiol, i fuddugoliaeth.

Nid oedd cysylltiad y Llynghesydd Mayne â Chymru mor agos nac mor hir. Cynrychiolai fwrdeisdrefi Penfro yn Nhy'r Cyffredin. Yr oedd yn Geidwadwr selog a chyson; a chofir am dano fel un fedrodd orchfygu Lewis Morris mewn brwydr etholiad. Bu farw Mai 28, noson gwledd Arglwydd Faer Llunden.

EOS GWYNFA.

TEIMLWN yn lled hapus wrth ddarllen pwt ysgrif T. C. Roberts yn y rhifyn diweddaf ar yr hen Domos Williams,—Eos y Mynydd, ond yn ddiweddarach Eos Gwynfa, —am fod yr hen fardd yn un o awenyddion y gymydogaeth y cefais fy magu ynddi, ac felly, yn ennyn rhyw ddyddordeb yn fy mynwes at ei athrylith. Cof gennyf weled y bardd ryw unwaith yn fy mywyd, a hynny o gylch chwe blynedd a deugain yn ol, yn dyfod o faelan John Jones, argraffydd, Llanfyllin. Bardd Mawddach oedd argraffydd blaenorol ei lyfrau, ond yr oedd y bardd hwnnw wed symud o Lanfair Caereinion i Lunden, a'r un argraffwasg wedi ei phwrcasu a'i sefydlu yn Llanfyllin y pryd yma.

Yr oedd Thomas Williams o ran taldra o faintioli cyffredin, yn ddyn cydnerth, mewn gwisg wladaidd a chryno, a rhywbeth yn feddylgar ac athrylithfawr yn ei wynepryd. Yr oedd hyn, efallai, tua'r amser y cyhoeddid "Mer Awen," ac yr oedd y bardd mewn gwth o oedran ar y pryd. Dywedai un o'i feibion wrthyf unwaith i'w dad gael ei eni yn y Ffwlstryt, amaethdy bychan ym mhlwyf Llanfyllin, heb fod yn rhyw bell iawn o'r ffordd yr eir o'r lle olaf i Lanfihangel; ond chwarddai Ioan Gwynfa am ben ei frawd, a dywedai yn sicr mai yn Nhyffwrn, Llanfihangel, y ganwyd y "bardd gwlad" doniol. Modd bynnag, treuliodd yr hen fardd y rhan fwyaf o'i oes hirfaith ym Mraich y Waun, ardal noethlom yn lled agos i Bontysgadarn, ar gyfer pentre anghysbell Llanfihangel. Bu y rhan fwyaf o'i oes yn aelod dichlynaidd iawn yn eglwys fechan yr Anibynwyr yn y lle. Yr oedd yr hen wr yn meddu cymeriad rhagorol, a phawb yn y wlad yn ei fawrygu a'i barchu ar gyfrif ei ddiwioldeb a'i dalentau disglaer.

Blodeuai bagad o feirdd galluog yn y gymydogaeth a'r cyffiniau yn ei ddyddiau ef, megis Harri Craig y Gath; John Hughes, Pontrobert; Ab Olifer; William Jones, Dolhowel; Evan Williams, Clochydd, fu yn ymryson prydyddu a Thwm Nant; Ann Griffiths, Dolwar; Morris Jones, Talwrn; Twm Nant, Dolobran; Ieuan Cadfan; William Jones, Gwrgant; Ieuan Ddewon; a John Jones, Myllin. Yn eglwys Llanfihangel y claddwyd y farddones gaeth ddigyffelyb, Gwerfyl Fychan o Gaergai, yr hon a briododd ag un o Fychaniaid mawr Llwydiarth, hen balasdy enwog iawn gynt, o fewn rhyw filltir i Fraich y Waun. Gwelir oddiwrth y rifres uchod fod ardal Llanfihangel yn gynyrchiol iawn o feirdd.

Llangollen.

Ysgrifennodd y diweddar Robert Jones, Rotherhithe ysgrif ddyddorol iawn ar Thomas Williams i'r *Montgomery Collections* yn Saesneg, hefyd cyfieithodd un o'i garolau goreu i'r iaith honno, a chyfieithydd campus iawn ydoedd y rheithor gwladgarol. Ac y mae erthygl ar yr hen fardd yn un o gyfrolau y *Darlunydd*, ac ymddanghosodd un arall, gan yr un ysgrifennydd yn Saesneg, yn rhai o rifynnau yr *Oswestry Advertizer* ryw naw neu ddeg mlynedd yn ol, ynghyda chân o waith y bardd i "Ned y Steward." Yr oedd y gân hon wedi myned ar goll yn lân, a chafodd yr ysgrifennydd drafferth enbyd i'w chael bob yn linell o enau ei fab Ioan Gwynfa, yr hwn oedd mewn gwth o oedran, a bron wedi anghofio yn llwyr un o ganeuon mwyaf poblogaidd ei dad.

Camgymeriad ydyw dweyd fod "Telyn Dafydd" yn aralleiriad o'r Salmau, ni chynhwysa y gwaith ond rhannau o honynt, ac y maent yn llithrig ac awenyddol iawn. Meddyliai Gwallter Mechain yn uchel iawn o'r gwaith, ac edmygai S. R. emynnau Thomas Williams yn fawr, a dywedai eu bod yn gryfion, hedegog, ac ystwyth ryfeddol. Dywedai y Parch. Robert Jones, Rotherhithe, fod rhai o'i garolau y pethau goreu yn yr iaith. Y mae y rhelyw o'i farddoniaeth ar destynau lleol, yr hyn sy'n milwrio yn erbyn eu poblogrwydd.

Claddwyd yr hen fardd ym mynwent Llanfihangel, ac yr oedd carreg las gyffredin uwch ei weddillion pan welais ei feddrod ddiweddaf, a hynny pan oeddynt yn dadorchuddio cofgolofn Ann Griffiths. Yr oedd Caledfryn ac ereill yn y fynwent ar y pryd, ond ni welais yr un o honynt yn sylwi ar fan fechan ei fedd, ac ni chlywais yr un gair yn cael ei yngan am dano ef na Gwerfyl Fychan, a "Harri Parri per,' er eu bod yn gladdedig o fewn nifer fechan o latheni iddynt, yn yr un llannerch pruddaidd. Yr oedd pawb ryw-fodd wedi pendroni y diwrnod hwnnw, ac ni siaradai neb am ddim ond am rinweddau ac emynnau anfarwol y farddones enwog o Ddolwar Fechan. Chware teg iddynt; onid dydd i ddathlu coffadwriaeth y seraffes enwog ydoedd mewn gwirionedd, a phwy oedd deilyngach o gael dydd yn Llanfihangel y Gwynt nag Ann Griffiths, — bywyd, llythyrau, ac emynnau godidog yr hon a berarogla'n hyfryd am oesau di-ri ar hyd glannau gwylltion y Fyrnwy fawr?

Heddwch iddo, gorffwysed y dywarchen

"Yn ysgafn ar ei fron."

HENRI MYLLIN.

YMBIL PRIAM AM GORFF HECTOR.

(*Homer, Iliad, Llyfr XXIV.* Llin. 469—570).

Un o'r goiygfeydd olaf a mwyaf tarawiadol yn yr Iliad ydyw Priam yn ymbil âg Achiles am gorff ei fab. Yng ngwarchae Caer Droia, Achiles oedd prif wron yr ymosodwyr, a Hector oedd prif amddiffynnydd y ddinas. Bu ymladd rhwng y ddau, ac Achiles orchfygodd. Llusgodd gorff Hector wrth ei gerbyd i wersyll y Groegiaid; ac, yn ei lid oherwydd colli ei gyfaill Patroclos, buasai wedi gadael i'r cwn fwyta'r corff. Daeth yr hen wr Priam, wedi ei arwain gan dduw heibio'r gwylwyr, i ymbil am gorff ei fab. Cafodd ef, a dygodd ef i Gaer Droia yn y nos. Yr oedd yno wylo mawr. Derfydd yr Iliad gyda chladdu Hector.

WEDI eu gyrfa, maes o'i gerbyd llamodd Priam idd y llawr,
A gadawodd ef Idaios yno i aros, erddo i ddawr
Am y meirch a'r mulod. Yna'r henwr ar ei union aeth
Tua'r bwth lle'r oedd Achiles, ffafryn Zeus, a'i weled wnaeth
Wrtho'i hunan, a'i gymdeithion a eisteddent ar wahân.
Dau yn unig,—Antomedon, ac Alceinos, 'rhwn o hân
Oedd o Ares,—safai'n barod i weinyddu idd ei raid.
Ar gymeryd bwyd a diod dim ond newydd roddi paid
'Roedd y gwron; hyd yr awron ger ei fron y safai'i fwrdd.
Heibio'r ddau, heb wybod iddynt, nesai Priam mawr i gwrdd
Ag Achiles; daliai'i ddeulin, a chusanai'r dwylaw erch,
Dwylaw llofrudd dialeddol laddas siriol feib ei serch.

Megis, wedi lladd ei gyd-ddyn yn ei enedigol wlad,
Daw ar ddyn orlethol adwyth, ac o'r man y'i magwyd 'mâd
Ar wib daith i dir dieithriaid, a than do rhyw gefnog ddyn,
A'r sawl a'i gwelant a ryfeddant, ac a syllant arno'n syn.
Felly, o weled Priam ddwyfwedd synnodd ar Achiles 'nawr,
A'i gymdeithion ar eu gilydd syllent, gan ryfeddu'n fawr.

Yntau Priam, gan ymbilio a dymuno arno, medd,—
"Galw'th dad i gof, Achiles, delw'r duwiau ran dy wedd,
"'Rhwn gan oedran, fel fy hunan, 'nawr sy bron ar fin y bedd.
"Ac, o ddigwydd, ei gymydogion a'i lluddedant ar bob llaw,
"Ac nid oes yn agos ungwr geidw ddrwg a distryw draw.
"Eto'n ddilys, tra fo'n clywed fod ei anwyl fab yn fyw,
"Dan ei fron ymlona'i galon, a gobeithlon beunydd yw
"Am dy wel'd yn dyfod adref o Gaerdroia'n lân dy liw.
"Minnau, O! mor druan ydwyf; megais feibion hardda'u llun
"Yn nheg Droia, ac o honynt, credaf, ni adawyd un.
"'R ydoedd imi ddeg a deugain pan ddaeth meib Achaia'n llu,
"Pedwar mab ar bymtheg heinif imi roddwyd o'r un bru,
"A'r rhai ereill imi aned o'm gordderchion yn fy nhy.
"A'r mwyafrif, Ares ffyrnig llaesu wnaeth eu gliniau cu,*
"Ond yr unig un oedd gennyf er eu diffyn hwy a'r dref,
"Pan dros wlad ei hun ymladdai, gynnau 'th hunan lleddaist ef,
"Hector; ac at longau gwlad Achaia yma dof er mwyn
"Prynu gennyt ti ei gelain, drudfawr bridwerth it' gan ddwyn.
"Felly'r duwiau parcha, i minnau o dy dostur dangos di,
"Fyth gan gofio'th dad, Achiles; gymaint gwaelach gwelir fi,
"'Rhwn a feiddiais fwy na feiddiodd eto erioed ar ddaear ddyn,—
"Llaw a lâs fy meibion mwynaf, codi honno at fy min."

Felly dwedodd, a chynhyrfodd yn y gwron duedd gref
Am ei dad i wylo; yntau'n dirion 'nol a'i gwthiodd ef.
Cofus ddeuddyn—un am Hector arwrleiddiol wylai'n fawr,
Ac ymgreiniai wrth draed Achiles yn llorweddol ar y llawr
Yntau am ei dad ei hunan a gwynfannai, ac ar bryd
Am Patroclos; swn eu halaeth drwy'r neuaddau godai i gyd.
Ond gan alar pan ddigonwyd dwyf Achiles, ac yr aeth
Hiraeth blin o fron ac aelod, gado'i sedd yn sydyn wnaeth,

* "Llaesu gluniau,"—Ymadrodd Homeraidd am ladd.

Ac estynnodd i'r henafgwr law i'w godi'n ol i'w le,
Ac â chwim adeiniog eiriau 'i annerch wedyn wnai efe,—
"O druanwr! gwaeau lawer, diau, gefaist i dy ran.
"I wyddfod gŵr a lâs gynifer o dy feibion glewion glân
"A pha fodd y darfu it, feiddio dod dy hunan yma 'mlaen
"Dur dy galon ddewr; ond tyred, eistedd ar y gadair hon,
"Er ein cur, gadawn i'n gofid ymdawelu dan ein bron.
"Ofer byth o oerllyd wylo ddisgwyl unrhyw dda i ddod;
"Canys y duwiau benodasant wael farwolion felly i fod,
"Sef i fyw'n ofidus fythol, tra dihelbul ydynt hwy.
"Ar neuaddlawr Zeus yn gorwedd, wele, mae costrelau ddwy,
"Llawn o'r rhoddion rydd i ddynion, un o ddrwg ac un o dda.
"'R rhain i neb y derch Daranydd, os eu gweini'n gymysg wna,
"Diau hwnnw teg a garw bob yn ail i'w gwrdd a ga.
"Ond i'r neb y dyry o'r drygau, mawr drychineb arno ddyg,
"A dirdynnol gur i'w erlid fythol ar y ddaear fyg,
"Ac heb barch gan dduw na dynion hwnt ac yma'r ä o hyd.
"Felly i Peleus yn dra helaeth rhoes y duwiau ddoniau drud,
"Gŵr yn ddiau a ragorodd mewn meddiannau, a'i bethau byd,
"Ar bob dynion; ar y dewrion Furmidoniaid bu yn ben,
"Ac iddo'n wraig, ac e'n farwolddyn, y dodasant dduwies wen.
"Drwg, er hynny, arno yntau Duw osododd, fel y gwŷs,
"Am nas ganed iddo'n feibion ach o lywion yn ei lys:
"Onid unmab a genhedlodd, hwn o hoedl hynod frau;
"Ac yn awr cysuro, i henaint ef ni allaf—pell o'm pau
"Yma'n Nhroia'r wyf yn oedi gan dy boeni di a'th blant.
"Tithau, hendad, clywn fod gennyt gynnau olud uwch dy chwant,
"Belled ag yw Lesbos, mangre Macar, draw yn derfyn-gylch,
"Fry i Phrygia, a'r holl oror faith eangfor Hele a ylch:
"Am dy holl feddiannau, hendad, tithau oeddit fawr dy fri,
"Ac am feibion dewrion, hefyd, hynod, meddant, oeddit ti.
"Ond gan roi o'r Rhai Nefolion arnat ti'r dioddefaint hwn,—
"Lladd ac ymladd gylch dy ddinas sydd yn ddibaid—dan dy bwn
"Dal i fyny, paid a chadw'n gyson yn dy galon glwy;
"Waith am anwyl fab dy fynwes ni chei les o wylo'n hwy,
"A'i gyfodi ef nis gelli, cynt daw iti ddrwg fo mwy."

Gan ei ateb yr henafgwr, Priam harddbryd, wrtho medd,—
"Da di, eto, wych dywysog, paid a'm gosod i ar sedd,
"Tra'n ddisylw gorwedd Hector yn dy babell; ond heb oed
"Gollwng ef i mi, fel gwelwyf ef â'm llygaid hyn, a boed
"Iti dderbyn helaeth bridwerth, 'rwyf yn erfyn, a'i fwynhau
"Yn dy wendeg wlad dy hunan—am it' heddyw ganiatau
"I mi ddod o'th flaen, ac eilwaith weld pelydron hylon haul."
Ond Achiles, brysiog ateb wnai â chilwg ar ei ael,—
"Gochel f'aflonyddu 'mhellach, henwr, waith tueddu'r wyf
"O honof f'hun i adfer Hector. Ataf daeth negesydd dwyf,
"Hi o'r hon y'm ganed ydoedd, merch Dihenydd mawr y don,
"Ac mi'th adwaen, a deallaf, Priam, di a'th ymdaith hon,
"Mai rhyw dduw a'th ddug at longau Groeg, ac yma ger fy mron.
"Marwol ddyn ni feiddiai ddyfod, ie'm mlodau boreu 'i ddydd
"Tua'n gwersyll; caled iddo rhag ein gwylwyr gadw'n gudd,
"Ac nid rhwydd y mynnai folltau ein mawreddog ddorau'n rhydd.
"Felly f'enaid yn ei ofid na chynhyrfa, rhag i mi
"Fethu goddef yn fy lluest, ie ymbiliwr fel tydi,
"A phechu'n erbyn y gorchymyn a dderbyniais oddi fry."

Abertawe. R. Morris Lewis.

PAUL GERHARDT.

SAIF y gŵr hwn ym mhlith emynwyr Germany, yn o debyg i Williams o Bantycelyn ym mhlith emynwyr Cymru,—yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na neb o honynt. Y canlyniad yw, fod ei odlau ysbrydol yn adnabyddus i bob dosbarth, o'r brenin i'r cardotyn, ac felly yn allu parhaus i lefeinio cymdeithas â syniadau crefyddol ac efengylaidd. Er ei fod yn ei fedd er ys mwy na dau cant o flynyddau, y mae efe yn llefaru eto.

Ganwyd Gerhardt mewn tref fechan yn nhalaeth Saxony, ag iddi enw hir—Graefenhainichen; yr oedd yn hanu o deulu parchus, gan fod ei dad yn *furgomaster*, neu faer y dref, a chafodd y manteision addysg goreu oedd o hyd cyrraedd, ond nid yw'n wybyddus iddo fod yn un o'r prifysgolion. Nid oes ond y nesaf peth i ddim o hanes ei febyd ar glawr, ond iddo gymeryd at y gorchwyl o addysgu plant gŵŷr mawr, ac iddo barhau wrth hynny nes yn bump a deugain oed. Disgwyl yr oedd am wagfan yn rhestr y clerigion, a chafodd ddisgwyl yn hir; a hwyrach na fu hynny ond ennill iddo ef ac i'r bobl, oblegid cadwyd ef rhag y brofedigaeth o draethu pethau amrwd cyn fod ei wybodaeth yn glir a'i brofiad yn addfed. O'r diwedd daeth ei awr, aeth eglwys Mittenwald yn wag trwy farwolaeth y gweinidog, Probst Caspar Göde, ac anfonodd heddynadon y lle at heddynadon Berlin i ofyn os gwyddent pa le y cawsent ddyn cymwys i lenwi'r bwlch; hwythau a gymeradwyasant Gerhardt fel un teilwng i'r swydd, ar gyfrif ei fywyd diargyhoedd, ei ddysgeidiaeth helaeth, a'i ysbryd heddychol. Gwahoddwyd ef i bregethu, er cael siampl o'i ddawn, arweiniodd hynny i alwad oddiwrthynt, â'r hon y cydsyniodd gyda pharodrwydd, a neillduwyd ef i'r swydd weinidogaethol yn eglwys St. Nicholas, Berlin, ar y deunawfed o Dachwedd, 1651. Ym mhen tair blynedd, ymbriododd â Maria, merch i Andreas Berthold, dadleuydd yn un o lysoedd uchaf Berlin, yn nheulu yr hwn y buasai yn athraw. Ni fu ei arosfa yn hir yno—chwe mlynedd,—am y rheswm fod draen yn ei nyth. Disgwyliasai y curad oedd o dan Göde y dyrchafasid ef i'r fywoliaeth ar farwolaeth ei feistr, ac am i'r swyddogion basio heibio iddo i ymofyn dyn dieithr, gwnaeth y siom ei deimlad yn ddolurus, a'i dymer yn afrywiog. Nis gallasai Gerhardt help, ond gan fod dynoliaeth yr hyn ydyw, methodd Diacon Allborn ac yntau gydweithio'n gysurus; a phan gafodd gynnyg, ar farwolaeth Probst Peter Vher, i fyned yn gyd-weinidog i'r eglwys lle'r ordeiniasid ef, derbyniodd ef yn llawen, gan obeithio fod tymor ei ofid ar ben. Ond, druan o hono, aeth o'r mŵg i'r tân; os drwg ym Mittenwald, gwaeth o lawer ym Merlin, yn gymaint a bod ei elyn yno yn fwy galluog i'w ddrygu. Rhoddaf hanes yr helynt trwy ddifynnu darn o ysgrif a gyhoeddwyd gennyf bymtheng mlynedd yn ol:—"Yr oedd Prwsia yr amser hynny o dan lywodraeth gadarn Etholydd Brandenburg,—yr 'Etholydd Mawr' fel ei gelwid,—gŵr cadarn yn ei oes, ac a berchir gan ei wlad hyd heddyw fel sylfaenydd ei mawredd. Mewn ystyr grefyddol, yr oedd corff y bobl yn Lutheriaid o gred a phroffes, tra'r oedd yr etholydd yn perthyn i'r Eglwys Ddiwygiedig. Y gwahaniaeth rhyngddynt oedd, fod yr olaf i raddau yn gul a Chalfiniaidd, a'r llall yn rhydd ac Arminaidd. Yn 1662, galwodd yr etholydd ynghyd gynghorfa, yn gyfansoddedig o oreugwyr y ddwyblaid, gyda'r bwriad i benderfynu y dadleuon rhyngddynt, neu, o'r hyn lleiaf, i gyhoeddi fod yr hyn yr anghytunent arno yn 'ddibwys.' Ond pa fwyaf ymresymai y doctoriaid, pellaf oll yr aethent oddiwrth eu gilydd, a'r diwedd fu waeth na'r dechreuad. Yr oedd Calfiniaeth y dyddiau hynny yn fwy eofn ac anhyblyg na Chalfiniaeth ddiweddar ein gwlad ni, a'r canlyniad oedd fod yr *odium theologicum* yn brwmstanu'n drwm ym mhwlpudau y ddwy blaid.

"Penderfynodd yr etholydd roddi terfyn i'r ymrafael. Cyhoeddodd gyfraith yn gwahardd i weinidogion y naill blaid ymosod ar y llall o'r areithfaoedd, a galwodd ar bob gweinidog Lutheraidd i lawnodi gweithred yn cynnwys addewid drylwyr o'i ufudd-dod. Cynhyrchodd hynny gynnwrf nid bychan, gan fod eu cyffes, a elwir *Forma Concordiæ*, yn condemnio yr Eglwys Ddiwygiedig, yn y modd mwyaf pendant. Gomeddodd lluaws o honynt lawnodi'r weithred—ac yn eu mysg Gerhardt; a phawb a anufuddhaodd orchymyn yr etholydd, trowyd hwynt allan o'u bywiolaethau, a gwaharddwyd iddynt hyd yn nod gynnal addoliad yn nhai eu cyfeillion. Yn y cyfwng anfonwyd deiseb gan heddynadon y ddinas ac aelodau St. Nicholas, am ganiatad i Gerhardt i weinidogaethu iddynt megis cynt; ac wedi hir ddisgwyl, caed atebiad ffafriol; ond anfonwyd yn gyfrinachol ato, y disgwylid iddo gydsynio ag ysbryd y gyfraith, er nad oedd wedi cydsynio â'i llythyren. Gomeddodd Gerhardt dderbyn rhyddid ar delerau o'r fath, gan ddywedyd,—'Yr wyf yn ofni Duw, gerbron gorseddfainc yr hwn y bydd yn rhaid i mi ymddangos; nis caniata fy nghydwybod i mi ymddwyn yn llechwraidd.' Ar hyn gorchymynnodd yr etholydd ei droi allan o'i swydd, a bu raid iddo, fel Abraham, i fyned allan

heb wybod yn y byd i ble. Dengys yr anghydweleddiad yn amlwg yr anhawsderau a gyfyd oddiwrth gysylltiad eglwys Crist â'r wladwriaeth; yr oedd yr etholydd yn amcanu yn dda wrth orchymyn, a Gerhardt yn amcanu'n dda wrth anufuddhau, a thrueni na ddysgai brenhinoedd a chynghorau i beidio ymhel â rhyddid cydwybod; oblegid os metha rheswm argyhoeddi dynion o'u camsyniad, nid yw ond ofer ceisio gorfodi neb yn groes i'w ewyllys."

Wel, beth ddaeth o hono wedyn? Fe ofalodd y Duw anfonodd gigfrain i borthi Elias wrth afon Cherith, na chafodd Gerhardt oddef eisiau dim; derbyniodd alwad i archddeoniaeth Saxony, lle y treuliodd y saith mlynedd olaf o'i oes, wedi claddu ei wraig a phedwar o blant, a dim ond un wedi ei adael yn gwmni iddo yn ei henaint. Bu farw y seithfed o Fehefin 1676, yn ddeg a thriugain oed, ac aeth trwy'r glyn yn fuddugoliaethus dan adrodd yr wythfed pennill o un o'i emynnau,—

"*Kann uns doch kein Tod nicht töden, &c.*"

Nis gall angeu ladd yr enaid,
Dim ond chwalu'r ty o glai;
Ni gall siglo fy ymddiried,
Caf yn fuan dy fwynhau;
Rhydd ymwared rhag pob gofid,
Ffwdan bywyd ddaw i ben;
Egyr ffordd i'r bythol wynfyd,
Yn y llys tu hwnt i'r llen.

Yno medaf gnwd o bleser,
Cnwd toreithiog, addfed, llawn;
Hauwyd ym mhriddellau amser,
Mewn wylofain aml iawn;
Da digymysg ni cheir yma,
Nid oes para i'r mwynhad;
Ond tu draw i'r bedd mi wela
Hedd tragwyddol ei barhad.

Claddwyd ef tu fewn i'r eglwys, ond nid oes neb a wŷr pa fan; y mae darlun yn hongian ar y pared, ac ar ei waelod ceir y geiriau hyn,—

"Theologus in cribo Satanæ versatus."
"Diwinydd a nithiwyd â gwagr Satan."

Yn y rhagymadrodd i'w waith, dywed Feustking,—"Cafodd Gerhardt y diafol, y byd, a gelynion crefydd yn barhaus ar ei war, â'r rhai y bu'n ymladd ar y dde ac ar yr aswy, ddydd a nos, gan weddio'n ddibaid." Ie, dyna brofiad plant y Goruchaf, brodyr y gŵr cynefin â dolur, ym mhob oes, am nad ydynt o'r byd hwn; ond syniad lluaws am lwyddiant y weinidogaeth yw—"managio'r saint" (?), cyfrwysdra i dirin gair Duw'n dwyllodrus, fel ag i allu osgoi gwaradwydd y Groes; ond nid oes osgoi arni i'r rhai sydd yn byw'n dduwiol yng Nghrist, y mae'r cyfryw, fel Gerhardt, yn sicr o gael eu herlid gan Satan, y byd anuwiol, a'r rhai crefyddol digrefydd yn yr eglwys.

Ond rhaid gadael ei fywyd i ddod at ei emynnau. Dechreuodd gyfansoddi ymhell cyn ei ordeinio; ond pan yn weinidog ym Mittenwald, St. Nicholas, a Berlin, y cyfansoddodd y rhan oreu o honynt. Ni wnaeth gymaint ag un wedi symud i Lubben. Cyhoeddodd y rhan gyntaf o honynt dan yr enw *Praxis Pietatis Melica*, ac ar ol ei gladdu, cyhoeddwyd argraffiad llawnach dan olygiaeth ei fab. Rhif yr oll yw 123, rhai o honynt yn ugain pennill o hyd. Hyn oedd gwendid ei athrylith,—diffyg cydgrynhoad; ac wrth ganu mor faith, elai y llaeth yn lasdwr. Ei ragoriaeth yw symlrwydd iaith a thynerwch teimlad, ac y mae gwythien o lawenydd buddugoliaethus yn gwresogi r cwbl; ymlidiai ymaith bob gofid â swyn telyn Seion, fel yr ymlidiai Dafydd yr ysbryd drwg oddiwrth Saul frenin. Bellach mi roddaf o flaen y darllennydd siampl o'i waith, gan hyderu y byddant o wasanaeth i grefydd mewn gwisg Gymreig. Y mae'r flaenaf ar ddioddefaint Crist, sylfaenedig ar broffwydoliaeth Esaiah am dano fel gwas yr Arglwydd. Ei hyd yn y gwreiddiol yw deg pennill, ac y mae gyda'r mwyaf poblogaidd o'i holl emynnau, ond nid yw yn hollol ddianaf. Erys yn rhy hir ar ddioddefiadau corfforol y Gwaredwr, yn ol dull y canol oesau; ac y mae diwedd y pumed pennill i raddau yn ddichwaeth, lle y sonia fod genau Crist wedi dwyn iddo laeth a melusach bwyd lawer tro,—

"Dein mund hat mich gelabet
Mit milch und süser kost,
Dein Geist hat mich begabet
Mit wancher himmelslust."

Heblaw hynny, yn y pennill olaf y mae'n rhedeg yn rhy bell i dir Eglwys Rhufen gyda golwg ar y groes wrth farw, sef croes o bren yn llythrennol,—

"Erscheine mir zum schilde,
Zum trost in meiuem tod,
Und las mich sehn dein bilde
In deiner kreuzesnoth;" &c.

Fy ymgais wrth gyfieithu yw, nid troi'n llythrennol, ond rhoi'r ystyr, ac ymdrechu gwneyd y penillion i fod yn ddefnyddiol,—

I.

"*O haupt voll blut und wunden.*"

Mesur 7, 6.

O sanctaidd ben a glwyfwyd
Unwaith dan goron ddrain,
O fynwes dyner wanwyd
Gan ddur y bicell fain;
Y pen wisgasai fawredd
A wisgir gan sarhad,
Ond yn ei warth a'i waeledd
Rhof Iddo wir fawrhad!

Ei harddwch odiaeth wywodd,
Ow! gwelw yw ei wedd,
Yr Arglwydd a'i tarawodd
A min y Dwyfol gledd;
Mae'r prydferth wedi'i hagru
Gan ing ei boenau mawr,
A'r cadarn wedi ei faeddu,
Cadd angeu'i ben i lawr!

Pechodau'r byd a roddwyd
Yn gyfan arno Ef,
Digonol Iawn a dalwyd,
Boddlonwyd deddf y nef;
Ei fywyd roes yn aberth
Maddeuant trwyddo gawn,
Myfi a wnaeth y camwedd
Ond Iesu wnaeth yr Iawn

Ga'i fod yn gyd-gyfrannog
A 'Mhrynnwr yn ei loes,
Ga'i wisgo'r goron bigog,
A threngu ar y groes?
Melusder gaf o'r chwerwder
Dedwyddwch gaf o'r poen,
A bywyd gaf trwy farw
Ar groes yr Addfwyn Oen.

Mawl iddo mwy o galon,
Y cyfaill anwyl, pur,
Ddioddefodd rhwng y lladron
Mor ffyddlon dros y gwir;
Yn ffyddlon i'r gwirionedd
Dysg finnau hefyd fyw,
Nes marw mewn tangnefedd
Yng nghôl trugaredd Duw.

II.

PENDERFYNIAD Y CRISTION.

Mesur C. D.

Rwy'n penderfynu rhoddi 'mryd
Ar fyd sydd uwch y llawr,
Lle trefnir imi gartref clyd
Tu hwnt i'r cystudd mawr;
Y galon hon sydd weithiau n llon
Pryd arall galar sydd,
Ond ty fy Nhad, a'r nefol wlad,
'Does yno neb yn brudd.

Er hyn rhaid mynd trwy ddyffryn du
Rhaid rhodio'r llwybr llaith,
Cyn canu'r anthem gyda'r llu
Sydd draw ar ben eu taith;
Mae arnaf ofn yr afon ddofn,
Fy mron sy'n llawn o fraw,
O! Geidwad cu, yng ngrym y lli'
Rho afael yn Dy law.

III

YMDDIRIED MEWN RHAGLUNIAETH

"Befiehl du deine wege."

Mesur 7. 6.

I'r Arglwydd rho dy ofal
Tra yn yr anial maith,
Ei gadarn law a'th gynnal
Dan holl flinderau'r daith;
Y llaw sy'n ffrwyno'r stormydd
A gwibiog fellt y nen,
A dywys d'enaid beunydd
Nes delo'r daith i ben.

Yn ddyfal wrtho disgwyl,
Gan arfer gweddi'r ffydd,
Am lwyddiant ar bob gorchwyl
Cyfreithlon, nos a dydd;
Ond iti arfer gweddi
Pob peth sy'n werth ei gael
A ddaw, heb hunan-boeni *
O law'r Creawdwr hael.

Mae'th gariad digyffelyb
At ddynion, dirion Dad,
Yn cuddio troion bywyd—
Y gofid a'r mwynhad:
Dy lygad craff a genfydd
Y da a'r drwg o draw,
'Rwy'n gadael y dyfodol
Yn hollol yn dy law.

Mae'r diafol a'i angylion,
Cenhadon uffern fawr,
Am ddyrysu doeth amcanion
Y Nef, at lwch y llawr;
Ond rhaid cyflawni'r bwriad
Wnaed cyn sylfaenu'r byd,
Hen ddyfais Ddwyfol gariad
A bery'r un o hyd.

Os bydd y nef yn gwgu,
Tu hwnt i'r cwmwl gwel
Y goron hardd a'r orsedd,
Yng ngwlad y llaeth a'r mel;
Heb loes, na chlwy' na gofid
Yn iach ryw ddydd a ddaw,
Cei seinio anthem gwynfyd
A'r palmwydd yn dy law.

Dyna bump o ddeuddeg pennill; yn y pedwarydd, daw un nodwedd arbennig sydd yn perthyn i emynnau Germany i'r golwg, sef crediniaeth fod y diafol a'i ganlynwyr anweledig yn ceisio difetha saint Duw â u holl egni. Soniai Luther am hynny, yn ei emyn orchestol ar Dduw fel amddiffynfa, fel y canlyn:—

"Und wenn die Welt voll Teufel war."

Ac yr oedd y "Teufel" yn blino Gerhardt drachefn a thrachefn. Erbyn hyn y mae offerynoliaeth y diafol wedi bron llwybr ddiflannu o gredo'r eglwys, ond y mae efe eto "fel llew rhuadwy yn rhodio oddiamgylch gan geisio r neb a allo ei lyncu," a hwyrach mai diflyg crediniaeth yn ei gynllwynion sydd yn cyfrif am gyfodiad a lledaeniad ysbrydoniaeth, a ffolineb au cyffelyb. A gellid dweyd yr un peth am wasanaeth angylion da, y rhai a gastellant o amgylch y cyfiawn, nad yw'r grediniaeth yn eu hamddiffyniad yn ddigon pendant i fod o un gwerth ymarferol mewn bywyd. Ond fe ofala Duw na chaiff yr un rhan o'i wirionedd ei ddiystyrru'n hir.

W. A. Griffiths.

Sketty

* *Selbsteigner pein.*

EGLWYS TALGARTH.

TALGARTH.

"Dyma'r fan, tr'wy byw mi gofiaf,
Gwelais i di gynta erioed,
O flaen porth yr eglwys eang
Heb un twmpath dan dy droed,
Mewn rhyw ysbryd dwys sylweddol,
Fel yng ngolwg dydd a ddaw,
Yn cynghori dy blwyfolion,
A dweyd fod y farn ger llaw."

ADYMA'r eglwys lle gorwedd Howel Harris, udgorn y Diwygiad! Yn yr eglwys acw yr argyhoeddwyd ef, a rhoddwyd ef i orwedd lle y clywodd lais Duw yn cynnyg trugaredd iddo. A dacw'r fan lle pregethai pan basiodd William Williams, ar ei ffordd adref o'r ysgol i Bant y Celyn. Bore gofiwyd byth gan William Williams oedd hwnnw,—

"Dyma'r boreu, byth mi gofiaf,
Clywais innau lais y nef;
Daliwyd fi wrth wys oddiuchod,
Gan ei swn dychrynllyd ef."

Ychydig o lanerchi ar ddaear Cymru sydd mor gysegredig i deimlad Cymro a'r llannerch hon,—lle gwelwyd apostol cynhyrfus y Diwygiad yn pregethu argyhoeddiad i emynnwr y Diwygiad.

Llannerch dawel, brydferth ydyw. Y mae ar ychydig o godiad tir, a dringir iddi o dref fechan Talgarth welwn o bobtu i aber Enig, a helyg ac ysgaw rhyngom a hi. Y mae golwg hyfryd ar y wlad oddiamgylch, saif cylch o fynyddoedd gwyrddleision fel gwylwyr uwchben y fynwent, a chyfyd tŵr ysgwar yr eglwys i fyny'n uchel ac yn hyf, i ddangos yspotyn mwyaf cysegredig y fro ddyddorol a phrydferth hon. Y mae'n bedwar o'r gloch ar gloc yr eglwys, ac y mae distawrwydd adfywiol nawn haf wedi disgyn, fel gwlith, ar y wlad ffrwythlawn dyfadwy. Y mae rhyw orffwys breuddwydiol yn meddiannu f'enaid innau wrth neshau at y fynwent; a su hen ddigwyddiadau, fel ysbrydion llawer cnul a llawer claddfa, yn llenwi'r distawrwydd ar nawn haf. Y mae hud dros bopeth, prin y mae digon o natur beirniadu ynnof i gael poen oddiwrth y cerrig beddau di chwaeth, gyda'u llythrennau efydd, sydd ym mhlith hen gerrig mwsoglyd y fynwent. Sefais, ar ddamwain, cyn dod at borth yr eglwys, a disgynnodd fy ngolwg ar fedd,—

In
Memory of Howell
Harris who died
March ye 9th 1730
Aged 58.
Christ was my guide on
Earth; and death shall be my gain
because in him I put my
trust Salvation to obtain.
This Tomb was erected
by Susanna his beloved
wife of Trevecka.

Gofynnwn i gyfaill oedd gyda mi ai hon oedd carreg fedd Howel Harris,—yr oedd yr

TREFECA. TY'R PRIFATHRAW.

enw yno, ond gwelwn mai nid dydd ei farw ef oedd arni, nac enw ei wraig. "Nage," oedd yr ateb, "carreg fedd ei dad ydyw. Ar hon y dywedir fod Howel Harris yn pregethu pan safodd Williams Pant y Celyn wrth fynd heibio, i glywed ei alwad ef ei hun." Y mae'r llythrennau mor berffaith ag yr oeddynt pan safai Howel Harris, os safai hefyd, ar y garreg i gyhoeddi ei newyddion rhyfedd. Yr oedd gwirioneddau'r byd tragwyddol mor fyw o'i flaen ef fel mai prin y sylwai, hwyrach, ar yr olygfa o'i gwmpas. Eneidiau anfarwol, nid mynyddoedd a lamant fel hyrddod a bryniau a branciant fel ŵyn defaid, a welai ef. Ond maddeuer i mi, o gyneddfau gwannach a chyda llai o ddychymyg, am syllu ar yr olygfa. Y mae'n araf godi o'm blaen, fel yr oedd y diwrnod y

TREFECA. Y LLYFRGELL.

daliwyd yr emynnwr â gwys oddi uchod. Dacw Howel Harris ar y garreg fedd, a'i lais yn ddychryn i'r dyrfa sy'n gwelwi o'i flaen. Dacw wr ieuanc ar ei ffordd adref o'r ysgol wrth ddrws y fynwent, yn gwasgu'n agosach i gwr y dorf, ac yn colli golwg arno ei hun wrth wrando, mewn syndod a dychryn, ar y llais taran hwnnw. O flaen y pregethwr y mae chwech o yw mawreddog,—y maent yno eto, yn eu duwch wylofus,—a thref Talgarth. Uwchben dacw'r Mynydd Du; ac o amgylch y mae bryniau blodeuog ardal sydd ymysg ardaloedd tlysaf Cymru.

Ni raid myned ymhell i gael hanes olaf y pregethwr gynhyrfodd fwyaf ar Gymru o'r holl bregethwyr fu yng ngwlad y pregethu erioed. Eis ymlaen trwy'r fynwent, ac at ddrws yr eglwys. Y mae'r eglwys yn isel a llydan; ac yn drymaidd iawn y tu mewn. Cerddais yng nghyfeiriad y côr a gwelwn ysgrifen ar garreg ddu ym mur yr eglwys. Copiais ef, goreu gallwn, ar ddarn o hen lythyr,—

Near the altar lie the remains of
HOWELL HARRIS Esquire
Born at Trevecka January the 29th 171¾.
Here where his body lies, he was convinced of sin,
had his pardon sealed,
and felt the power of Christ's precious blood,
at the Holy Communion.
Having tasted grace he resolved to declare to others
what God had done for his soul.
He was the first itinerant preacher of redemption
in this period of revival in England and Wales.
He preached the gospel
for the space of 39 years,
till he was taken to his final rest.
He received all who sought salvation
into his house.
Thence sprung the family at
Trevecka
To whom he faithfully ministered unto his end
as an indefatigable servant of God,
and faithful member of the Church of England.
HIS END
was more blessed than his beginning.
Looking to Jesus crucified
he rejoiced to the last that Death had lost its sting.
He fell asleep in Jesus at Trevecka July 21. 1773.

Gwelais lawer carreg fedd mewn llawer gwlad mewn llawer lle rhyfedd,—gwelais y garreg ar fedd gwag Dante, gwelais fedd Chateaubriand mewn craig yn nannedd y tonnau, gwelais feddau rhai enwog mewn eglwysi mawrwych,—ond ni ddarllennais, hyd y gwn i, ysgrifen fedd mor darawiadol a'r ysgrifen yn eglwys drymaidd dywell Talgarth. Nid ydyw'n esbonio fawr, y mae'n gamarweiniol mewn rhai pethau. Y mae greddf, fe ddywedir, yn gwneyd i bob perchen anadl dynnu at fan ei enedigaeth i farw. Hyfryd i Howel Harris oedd huno lle y clywodd y bywyd newydd yn ymweithio yn ei enaid. Teimlwn fod mwy na bedd yn eglwys Talgarth; teimlwn fy mod ar lecyn genedigaeth Cymru newydd. Na soniwn am enwad wrth son am Howel Harris. Can croeso i'r Eglwys Sefydledig ei hawlio, enilla gymeriad ymysg y Cymry iddi ei hun trwy wneyd. Can croeso i'r Anibynwyr, disgynyddion y cewri, ei hawlio fel ail gryfhawr eu ffydd a'u nerth. Can croeso i r Methodistiaid ei hawlio fel eu cychwynnydd, ac i'r Wesleaid ei anwylo fel cyd-weithydd eu cychwynnydd hwythau. Ond dyn i Gymru oedd Howel Harris. Beth bynnag arall fedrir ddweyd am ei hyawdledd ac am ei athrylith, ac am ei gynlluniau rhyfedd, gellir priodoli deffroad Cymru, o gwsg oedd yn marweiddio ei nerth cenhedlaethol, iddo ef yn fwy nag i neb arall.

Ond y mae ychwaneg ar y garreg. Dyma ran a'm hadgofia am y teimladau daiarol,—teimladau ag arlliw y nef arnynt,—oedd mor gryf yn ei enaid. Ar ei deithiau pregethu, yn ei weddiau, yn ei freuddwydion, yn ei ofnau, y mae un nad enwa yn bresennol yn barhaus. Bum yn darllen ei lythyrau ati, a'r cynnyg priodas. Wedi hanes yr ymserchu a'r ofni,—stori sydd mor hen, ac mor newydd,—dyma ei hanes olaf hithau,—

Under the same stone lie also the remains of his late wife
ANN HARRIS.
Daughter of John Williams of Skreen, Esquire,
who departed this life March 8, 1770, aged 58.
She loved the Lord Jesus, relied on his redeeming
grace and blood and with her last breath de-
clared her confidence in HIM.

Mewn awr hamddenol, ryw dro, cesglais lythyrau caru dyddorol. Yn eu mysg yr oedd un oddiwrth Nathaniel, mab Daniel Rowland, at ferch Howel Harris. Dyma air o'i hanes hithau, ac adnod Gymraeg,—a diolch am dani,—ar waelod y garreg.

They left one beloved child, who was the constant
object of their prayer and care, and who honours
their venerable memory.
"A'r doethion a ddisgleiriant fel dis-
gleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a
droant lawer i gyfiawnder a fyddant
fel y ser byth yn dragywydd."
DAN. XII. 3.

Y mae addewid yr adnod hon i Howel Harris, os i neb. Cwsg yn hyfryd, apostol Cymru,—

"Cwsg i lawr yn eglwys Talgarth,
Lle nad oes na phoen na gwae;
Mi gai godi i'r lan i fywyd,
Sy'n dragwyddol yn parhau."

Wrth adael eglwys Talgarth o'm hol, synnwn fod ysgrifen y cerrig beddau yn Saesneg. Yn .adeg Howel Harris, yr oedd Talgarth yn ardal Gymreig. Y mae'n sicr ei fod ef ei hun wedi ysgrifennu mwy o Saesneg nag o Gymraeg; er hynny ysgrifennai Gymraeg rhagorol. Y mae cryfder ac eglurder yn ei arddull na chawn hwynt yn neb o'i gyfeillion, heb eithrio Williams Pant y Celyn. Pregethodd Gymraeg yn holl siroedd Cymru,—a rhaid cofio mai nid Cymraeg clapiog a llediethog fedr yrru'r efengyl i galonnau dynion,—ond pregethodd lawer yn Saesneg hefyd. Edrychai dilynwyr Whit-

field arno fel yr unig un fedrai gario gwaith eu gweinidog ymlaen, a gwahoddasant ef yn daer i Lunden, i bulpud gwag Whitfield. Yn ei ddyddiau ef, y mae'n debyg fod dylanwad Hereford yn prysur Seisnigo y Gelli a Thalgarth. Erbyn heddyw nid oes ond dyfodiaid yn siarad Cymraeg yn y Gelli ac nid oes ond hen bobl yn ei siarad yn Nhalgarth.

Ar y ffordd o'r eglwys i lawr i'r dref, troisom i fynwent fechan capel y Methodistiaid. Yno gwelais lawer o gerrig beddau a'r ysgrifen arnynt yn Gymraeg. Yr oedd llawer hen adnod yno yn ei llawn flas,—"Nac ofna, braidd bychan;" "Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymerodd ymaith, bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." Ond dywedai'r gweinidog, Cymro diddan o Drecastell, na phregethir Cymraeg yn y capel hwn yn awr.

Peth prudd iawn i mi ydyw gweled yr iaith Gymraeg yn cilio. Y mae'n cilio mwy yn y De nag yn y Gogledd, oherwydd angenrheidiau masnach ac oherwydd diffyg sel. Nis gwn pa fodd i esbonio hynny, ond y mae'n ymddangos i mi fod merched ieuainc y Deheudir yn rhyw led feddwl eto mai iaith y werinos aniwylliedig yw'r iaith Gymraeg. A gresyn ydyw gweled ambell benteulu, blaenor hwyrach ar achos Saesneg, yn llenwi ei silffoedd â llyfrau Saesneg nad oes na difyrrwch nag adeiladaeth enaid ynddynt, tra'n dangos ei anwybodaeth trwy ddweyd na fedd yr iaith Gymraeg lenyddiaeth o gwbl. Merched ieuainc di feddwl, ysgolion merched, arolygwyr ysgolion rhagfarnllyd ac heb gydymdeimlad â gwir ysbryd llenyddiaeth, athrawon na feddyliodd Rhagluniaeth am iddynt wneyd gwell gwaith na rhwymo pecynau,—dyna rai sy'n gwneyd eu goreu i ladd yr iaith Gymraeg. Yr wyf yn ddigon o Pharisead i ddiolch nad wyf fi fel yr un o'r rhai hyn. Son am garu, priodi, a byw; gallaf ddweyd i mi wneyd y cwbl yn Gymraeg. Yr wyf yn tybio y dylai pob Cymro gyflawni goruchwylion sancteiddiaf ei fywyd yn Gymraeg. Yr wyf yn meddwl fod morwynion glân Meirionnydd, er gwaethaf ysgol Dolgellau, yn ysgrifennu eu llythyrau serch yn Gymraeg, a diolch iddynt am hynny. Ond cyfarfyddais ferch i hen Gymro gwladaidd yn Sir Gaerfyrddin a ddywedodd wrthyf,—"Young ladies don't speak Welsh in South Wales." Y mae gennym lawer i'w wneyd tuag at godi ein cenedl. Cyhoedder ar bennau'r heolydd fod raid i Gymro uniaith dalu am gyfieithu ei dystiolaeth mewn llys cyfraith yn ei wlad ei hun, fel pe buasai ef yn bod er mwyn y barnwr, ac nid y barnwr er ei fwyn ef. Cyhoedder, hyd nes y deffry holl Gymru, fod gwers lyfrau ysgolion dyddiol Cymru'n Saesneg, ac nad ydyw'r addysg roddir i filoedd o blant ond cam-addysg.

Ond, yr wyf yn crwydro ymhell. Wrth gofio, yr oeddwn yng nghwmni athraw a merch ieuanc, yn pasio trwy dref Talgarth tua Threfeca, hen gartref Howel Harris. Tref fechan gysglyd, eithaf dymunol ydyw Talgarth, lle glân mewn pant, a'i thrigolion, yn ol pob peth welwn ac a glywn, yn ddeddwydd a charedig. Nid oeddwn yn cofio dim am ei hanes, ac felly nid aroshasom ddim ynddi.

Cawsom fwynhau golygfeydd prydferth ac awel nawnol yn suo dros gaeau o feillion peraroglus wrth gerdded y filldir sydd rhwng Talgarth a Threfeca. Sylwn fod amryw fechgyn ieuainc yn ein pasio ar y ffordd, ac yn moes-ymgrymu i'r athraw ac i'r ferch ieuanc. Yr oedd golwg guriedig ar eu gwynebau, ac yr oedd conion ar eu gên wnai i mi feddwl am eiriau Goronwy Owen,—

> "Pleidwellt na laddai pladur,
> Rhengau o nodwyddau dur;
> Drciniach, fel pigau draenog,
> Hyd en ddu, fel dannedd og."

Hysbyswyd fi mai rhai o fyfyrwyr Trefeca oeddynt, ar ganol eu harholiad, a bum yn synnu lawer gwaith pam y mae ein gwallt yn mynd yn afler wrth i ni wneyd rhyw dipyn o waith meddwl; a phaham y mae ein barf yn tyfu mor gyflym, wrth i ni bensynnu uwch pwt o erthygl, nes gwneyd i ni ofni y cuddia'r erthygl o'n golwg. Gwelais yr un bechgyn ychydig wedi hyn, mor llawen a'r gôg ac mor binc a phe buasent rai o wŷr Caer Grawnt newydd raddio. Nid oedd raid i mi ofyn a oedd yr arholiad drosodd.

Wrth gerdded ymlaen, a dyfalu tebyg i beth fyddai Trefeca, cefais fy hun mewn ysgwrs â'r ferch ieuanc, sut bynnag yr arweiniwyd ein meddyliau at y fath destun, am un fu'n cyd-efrydu â mi flynyddoedd yn ol. Y mae ysfa dweyd ffaeleddau yn dod dros un weithiau, ond teimlais fod y ferch ieuanc yn troi pob ffaeledd yn rhinwedd yn ei meddwl ei hun,—

> "Fe fydd beiau fwy na digon
> Lle y byddo digter creulon;
> Ond lle bo cariad y canmolir
> Y rhyw ddyn yn fwy na ddylir."

Ond dacw Drefeca yn y golwg. Ymgyfyd fel llinell hir o gestyll a thai diwedd y Canol Oesoedd, dros gaeau gweiriog. Oni bai am y capel hyll ar y chwith,* buasai'n adeilad tarawiadol a phrydferth iawn. Yma, mewn tawelwch, y treuliodd Howel Harris y rhan fwyaf o'i oes. Wedi'r ymrafael, pan

* Nid yw i mewn yn y darlun. Daw darlun o'r hen Drefeca, fel yr oedd cyn codi'r capel, gydag erthygl Mr. D. Davies, Ton, ar y coleg.

MYNWENT LLANGASTY A LLYN SAFADDAN.

welodd ei fod yn colli gafael ar y dychweldigion drowd trwy ei weinidogaeth ef ei hun, gadawodd ei bregethu teithiol, ac ymneillduodd i'w gartref, gan wneyd Trefeca yn gartref i bawb hoffai adael ei fro a dyfod i gyd-weithio ac i gyd-addoli. Ffurfiai'r holl gwmni un teulu, yr oedd eu heiddo'n gyffredin, ac yr oedd cynllun eu bywyd yn debycach i freuddwyd rhyw athronydd nag i gynllun yn cael ei weithio allan gyda brwdfrydedd a llwyddiant. Tuag at gadw cymdeithas fel hyn gyda'i gilydd yr oedd eisiau mwy na chrefydd a hyawdledd, yr oedd eisiau medr anghyffredin mewn trin dynion. Nid oes odid i ddim yn hanes Cymru mor ddyddorol ag ymgais Howel Harris i sylweddoli, rhwng bryniau Cymru, gynllun yr eglwys yn nyddiau yr apostolion. Yng ngwyneb pob anhawsderau, — diogi, ymrysonau, gwrthgiliad, priodi anghydmarus ymysg aelodau'r teulu,—yr oedd Trefeca dan Howel Harris yn llwyddo ac yn blodeuo. Bu'n fwy llwyddiannus, hwyrach, na'r un a geisiodd sefydlu cymdeithas o'r fath. Yn grefyddwyr, yn filwyr, yn weithwyr,—enillodd "Teulu Trefeca" barch ac edmygedd rhai wawdiai, ar y cyntaf, y syniad o godi monachlog yn Nhrefeca. Ebe Williams Pant y Celyn,—

"Pam y treuliaist dy holl ddyddiau
I wneyd rhyw fynachlog fawr,
Pan y tynnodd Harri frenin
Fwy na mil o'r rhain i lawr?
Diau buasit hwy dy ddyddiau,
A melusach fuasai 'nghân,
Pe treuliasit dy holl amser
Yng nghwmpeini'r defaid mân."

Nid yn aml y cofir mai ychydig o'i oes roddodd Howel Harris i bregethu. Cwestiwn ei frodyr oedd,—

"Pam y llechaist mewn rhyw ogof,
Castell a ddyfeisiodd dyn,
Ac anghofiaist y ddiadell
Argyhoeddaist ti dy hun?"

Pe buasai wedi cadw tân ei bregethau cyntaf hyd y diwedd, buasai'r Diwygiad yng Nghymru wedi bod yn fwy tanllyd ac yn fwy cyflym hyd yn nod nag y bu. Ond ffurfio "teulu," tebyg i'r eglwys yn adeg yr apostolion, oedd ei amcan ef; a gwastraffodd ar Drefeca y llafur yr oedd holl Gymru yn dyheu am dano,—

"Ai bugeilio cant o ddefaid,
O rai oerion, hesbion, sych,
Adeiladu iddynt balas
A chorlannau trefnus gwych,—
Etyb seinio pur Efengyl,
Bloeddio'r Iachawdwriaeth rydd,
O Gaerlleon bell i Benfro,
O Gaergybi i Gaer Dydd?"

Dyma ni'n troi o'r ffordd, ar hyd rhodfa trwy gae gwair, at wyneb y coleg. O'i flaen y mae coed bytholwyrdd lawer; ac y mae golwg henafol ar yr holl adeilad mawr di drefn, ar ei ffenestri crynion tyrog, gyda'r cloc a'r lantar yn sefyll uwchben y cwbl.

Aethom heibio'r wyneb, a thrwy ddrws yn yr ochr i ystafelloedd bychain, ond hynod ddiddos a chysurus. Wedi hwyr-bryd blasus, digwyddais edrych ar nenfwd wyngalchog yr ystafell yr eisteddem ynddi, a gwelwn enw Jehofah mewn llythrennau Hebraeg uwch ein pen. Dywedodd yr athraw Williams wrthyf mai yn yr ystafell hon yr arhosai Countess Huntington pan ar ymweliad â Howel Harris, ac y mae'n sicr fod arddeliad mawr wedi bod ar lawer dyledswydd deuluaidd yn yr ystafell gysegredig.

Treuliais amryw ddyddiau dedwydd yn Nhrefeca. Crwydrwn, wrth f'ewyllys, drwy'r ystafelloedd lluosog, fu unwaith yn gartref i "deulu" rhyfedd Howel Harris. Cyfarfyddwn ryw fyfyriwr beunydd, treiwn gofio ei wyneb er mwyn ei astudio, a chydmaru fy meddwl am dano â meddwl gwraig yr athraw, yr hon oedd yn adnabod pob myfyriwr yn dda. Teimlwn fod Trefeca yn gynllun o goleg,—mewn lle iach tawel,—ac yr wyf yn sicr fod yr addysg gyfrennir ynddo yn drylwyr ac yn gynhwysfawr, ac yn union yr hyn y mae pregethwyr mewn angen am dano er parotoi ar gyfer eu gwaith mawr. Hen weithdy'r "Teulu" ydyw un o'r ystafelloedd darlithio, a danghoswyd i mi dwll trwy yr hwn y gallai Howel Harris weled, yr adeg a fynnai, pa fodd yr oedd pethau'n mynd ymlaen yn y gweithdy. Y mae'r llyfrgell yn cynnwys un o'r casgliadau goreu o lyfrau Cymraeg welais erioed; casglwyd hi, yr wyf yn meddwl, trwy lafurus gariad y Parch. Edward Matthews. Cynhwysa hefyd ddyddiaduron a llythyrau Howel Harris, y mae y rhain o'r dyddordeb a'r pwys mwyaf, ac y mae'n syn gen i na fuasai rhyw Fethodist selog wedi eu cyhoeddi. Nid oes fawr o ffordd o Drefeca i Lyn Safaddan. Llecyn mwyn ydyw'r llyn hwn, treuliais ddiwrnod hyfryd ar ei ddyfroedd. Croesasom ef droion, a gadawsom i'r cwch sefyll ymysg yr hesg tal sy'n tyfu o waelod y llyn tra'r oeddym yn gwylio'r eleirch ac yn mwynhau'r golygfeydd oedd wedi ymddelwi yn y dyfroedd clir.

Gadewais Drefeca yn blygeiniol, ac yr oedd awel iach y bore yn gwneyd fy meddwl yn ddigon effro i gofio darluniad Williams, adeg marw Howel Harris, o'r lle dyddorol oeddwn yn adael o'm hol,—

"Mi af heibio i'r palas euraidd
Sydd â'r angel ar ei ben,
'Drychaf ar y castell cadarn
Sy a'i begynau yn y nen;
Ac mi rof ochenaid ddofon,
Gan ryw synnu ynnwyf f'hun,
Fel mae'r nef yn trefnu ei throion
I ddiddymu dyfais dyn.

"Er cadarned yw'r adeilad,
Ac er teced yw ei wedd,
Y mae'r perlyn goreu ynddo
Heddyw'n gorwedd yn ei fedd;
Ac nis gwel e mwy mo hono
Fel y gwelodd ef o'r bla'n,
Hyd y dydd bo'n cael ei losgi
Gyda'r byd yn danllwyth dân."

CODWN YN LLUOEDD.*

I.

Codwn yn lluoedd, safwn dros y gwir,
Dirwest a orfydd cyn bo hir,
Gelyn dyncliaeth gryna ar ei sedd,
Profed ei galon fin ein cledd.
Dewr ymladdwn, y mae rhinwedd lan
Heddyw yn ein llwytho ag arfau tân,
Duw a dynion sydd yn gryf o'n plaid,
Rhodiwn yn y blaen, a gorchfygu raid.

II.

Sychwn y cwpan marwol yn y wledd,
Torrwn gostrellau'r gwin a'r medd,
Heriwn y gelyn, hawliwn yn fwynhad
Sobrwydd a heddwch lond y wlad;
Cwymp y gelyn yn prysuro sydd,
Caethion y gyfeddach ddaw'n rhydd, yn rhydd,
Baner dirwest, byth i'w thynnu lawr,
Chwifia yn y gwynt wedi lladd y cawr.

Dyfed.

* Y mae Mr. Jenkins, Aber Ystwyth, wedi trefnu alaw ar y gân ddirwestol hon.

RHYDDID.

Geiriau gan I. ab Ioan.
Doh D.

Gan John Price, G.T.S.C.,
Beulah, Brycheiniog.

mp *cres*

:s	m	:-	.r	:m	.f	s	:—	:l	.t	d'	:-	.s	:s	.l	t	:—	:t	.d'
:m	d	:-	.t₁	:d	.r	m	:—	:r		s	:-	s	:m	.m	re	:r	:s	
:s	s	:-	.s	:s	.s	s	:—	:s		s	:-	.d'	:s	.fe	fe	:s	:r'	
:d	d	:-	.d	:d	.d	d	:—	:f		m	:-	.m	:d	.d	t₁	.l₁ :s₁	:s	

mf.

r'	:-	.l	:t	.d'	r'	:—	:r'	.m'	d'	:-	.t	:d'	.l	s	:—	s
l	:—		:r		s	:—	:s		s	:—		:fe		s	:—	m
l	:-	.d'	:t	.l	t	:—	:t		d'	:-	r'	.d'		t	:—	d'
fe	:—		:fe		f	:—	:f		m	:l₁		:r		s₁	:—	d

f. G. D. t.

l	:-	.l	:m	.l	s	:f	:f		ta f	:-	.t₁	:d	.r	m	:—	:fe t
m	:-	.d	:de	.de	r	:—	:r		r l₁	:-	.s₁	:s₁	.t₁	d	:—	:r s
d'	:-	.m	:l	.l	l	:—	:l		s r	:-	.r	:s	.s	s	:—	:l r'
l₁	:-	.l₁	:l₁	.l₁	r	:—	:d		ta₁ f₁	:-	.f₁	:m₁	.s₁	d	:—	:d f

ff > *rall.* < •

d'	:-	.t	:d'	.m'	m'	:-	.r'	:d'	.l	s	:—	:l	t	:r'	:—	d'	:—
s	:-	.s	:m	.l	l	:—	:r			r	:—	:m	f	:f	:—	m	:—
s	:-	.d'	:d'	.d'	d'	:—	:l	.d'		d'	:t	:d'	r'	:t	:—	d'	:—
m	:-	.m	:l	.s	fe	:—	:fe			s	:—	:s	s	:s	:—	d	:—

I.

O Ryddid, hawddgar wedd,
Oruchel dduwies hedd,
Boed llwydd i ti, boed llwydd i ti;
Prydferthach yw'th wisg wen
Na'r lloer sy'n harddu'r nen;
A'r goron ar dy ben,
Mor hardd, mor hardd yw hi!

II.

Wrth fynd ar hyd y ffyrdd,
I wneuthur lles i fyrdd,
A'u rhoi hwy'n rhydd, a'u rhoi hwy'n rhydd,
Cei gan yr eos gân,
A mawl yr adar mân;
Can's canmol Rhyddid lân
Maent hwy, maent hwy bob dydd.

CYMRY FU.

"Full many a flower is born to blush unseen,
And waste its sweetness on the desert air."

I. WILLIAM WILLIAMS, DOLOBRAN, DINAS MAWDDWY.

ENW fy nhad yw pennawd hyn o ysgrif. Yr oedd yn ddyn hynod yn ei ddydd ar amryw ystyriaethau.

Un hoff iawn o unigedd oedd, er y cai'r mwynhad mwyaf yng nghymdeithas rhai o gyffelyb feddwl. Casglodd wybodaeth uwchlaw y cyffredin o'i gydoeswyr; a hynny o dan anfanteision mawr. Nid wyf yn gwybod iddo gael diwrnod o ysgol erioed, oherwydd gweithiwr tlawd oedd fy nhaid, yr hen Ddafydd Wiliam Abergynolwyn, ac nid yw yn debyg y gallasai roddi llawer o ysgol, yn enwedig yn y dyddiau hynny, i'w blant.

Cyfaill pennaf fy nhad ydoedd llyfr, a gallesid bod yn sicr y deuid o hyd iddo mewn un o ddau le yn wastad; sef gyda'i orchwyl diwrnod gwaith, neu yn y gongl gyda llyfr. Hunan ddysgwr oedd, fel llawer un arall yn ei ddyddiau ef. Cydnabyddid ei fod yn ysgolhaig, medrai ddeall tipyn ar bedair o ieithoedd,—y Gymraeg, y Saesneg, y Roeg, a'r Lladin. Gyda'r Roeg a'r Lladin y byddai yn ymboeni yn ei oriau hamddenol.

Carai addysg fel y mae'r cybydd yn caru arian ac aur, ond ni wnaeth ddefnydd ymarferol ohoni. Hoff beth oedd ganddo. Bum yn synnu lawer gwaith fod dyn o'i ddysg ef, ac yn ddyn sobr a diwyd, mewn amgylchiadau mor gyffredin, prin y gallai gael deupen y llinyn yng nghyd yn fynych. Byddaf yn arfer meddwl y dylai addysg dalu ar ei hol i'w pherchennog. Nid yw hynny ond teg. Oherwydd costia yn ddrud iddo. Costia amser gwerthfawr, a llafur caled. Er ein bod yn edrych ar addysg fel peth rhad y dyddiau hyn, ac fel peth yng nghyrraedd pawb, eto costia lafur caled i'w pherchennog. Nis gellir ei phrynnu hi fel prynnu dilledyn, na, y mae'n rhaid iddi fynd yn rhan o'r dyn ei hunan. Ac nis gŵyr neb ond yr ysgolhaig galeted y gwaith. Y mae yr ysgolhaig yn hollol ar ei ben ei hun yn y mater hwn. Y mae i bob llafurwr arall seibiant rywbryd yn rhywle; ond y dyn sydd a'i nod ar gyrraedd rhyw bwynt neillduol mewn addysg, nid oes iddo lonyddwch na dydd na nos, yng nghwsg nac yn effro, hyd oni chyrhaeddo y nod hwnnw. Byddai Ap Vychan yn son am chwysu uwch ben llyfr, a gwyddai ef am beth felly. Ond dyma oeddwn yn mynd i'w ddweyd, na thalodd addysg fy nhad erioed ar ei hol, er iddo lafurio yn galed i'w hennill. Gwelais lawer un yn dyfod ato i ofyn ei gyngor mewn rhifyddiaeth neu mewn iaith, a rhoddai gyfarwyddyd iddynt yn ewyllysgar iawn ac am ddim, ac hwyrach gatied a chwpanaid o de cyn yr elent ymaith. Dyna ei ffordd. Ond o ddau eithafion, gwell gennyf yr ochr yna na bod yn rhy grintachlyd gyda'r tipyn gwybodaeth sydd gennym. Er hynny yr wyf yn addef mai gwendid yn fy nhad oedd talu mor ddrud am ei addysg, a'i rhoddi mor rhad.

Ei ddull o gyrraedd ei wybodaeth oedd myfyrio gartref a myned ambell i waith i'r Bala at Dr. Edwards, a chymerai hynny iddo bythefnos neu dair wythnos rhwng mynd a dyfod. Wrth ddod adref, deuai dros Fwlch y Groes, a galwai heibio Ab Ithel yn Llan y Mawddwy. Yr oedd efe ac Ab Ithel yn gyfeillion mawr. Mynych yr elai y ddau i Dy'n y Braich at Ifan Jones, tad y bardd John Jones, oherwydd yr oedd ganddo lyfrgell ragorol, yn enwedig i hynafiaethydd fel Ab Ithel. Yr wyf yn cofio gweled Ab Ithel yn troi heibio ein ty ni pan ar ei ffordd adre o daith, yn bur newynog. Gofynnodd am frechdan; a chododd fy mam y dorth a'r ymenyn i'r bwrdd. Torth fawr oedd y dorth, fel torthau Mawddwy, a'r olwg arni fel talcen ty. Dyn go wanllyd oedd Ab Ithel o ran corff; ac, wrth weled maint y dorth, gofynnodd i fy mam ei thorri iddo.

Yr oedd fy nhad yn dipyn o fardd hefyd, o leiaf yr oedd yr elfen farddonol ynddo. Yr oedd yn deall cynghanedd, ac yn medru cynghaneddu'n rhwydd. Nid pob bardd sydd yn medru cynghaneddu, ac nid pob cynghaneddwr sydd yn medru barddoni. Eto ychydig iawn a gyfansoddodd. Weithiau cynhyrfid ychydig ar ei awen gan gymeriad heb fod wrth ei fodd. Yn y drws nesaf yr oedd saer yn byw, yr hwn a gadwai felin Cerist ac a brynnai ieir gan wr o Gwm Cowarch. Tipyn yn wawdlyd oedd cerdd fy nhad iddo,—

"Yn aelod Seneddol Siarl Ifan a wneir
Pan dalo gŵr Cowarch i gyd am yr ieir."
"Tollwr chwyrn, twyllwr â chod,
Saer o Deifi, sur 'i dafod."

Yr oedd Gutyn Ebrill yn hen gyfaill i fy nhad, ac yr oedd yntau'n fardd a llenor gwych. Saer ydoedd wrth ei alwedigaeth, a gweithiai ar ystâd Caerynwch, a phan fyddai yn gweithio yng nghwm Cerist ar yr ystâd uchod, wedi noswylio deuai at fy nhad i gael ymgom, o herwydd yr oedd yn an-

hawdd iddo gael neb arall o gyffelyb feddwl. Yr wyf yn eu cofio'n canu i un o garwyr trwstan Cwm Cowarch, yr hwn aeth dros ei ben a'i glustiau i hogsied bwyd moch wrth ddianc o flaen llanciau direidus y cwm.

Engraifft o waith fy nhad fel prydydd yw'r englyn hwn ar farwolaeth hen wr Cae'rlloi, perthynas i hen deulu Dolobran,—

"O Gae'rlloi i gwr y llan—hwn gyrchwyd
I garchar y graian,
Cyfyd i fywyd o'r fan,
Ymedy â chwsg mudan."

Nid wyf yn gwybod iddo gyfansoddi dim erioed at gystadleuaeth, oddieithr at Eisteddfod Dinas Mawddwy yn 1855, pan y meddyliodd gystadlu ar englyn i'r Gwibedyn. Ni anfonodd ei englyn i mewn; a phe yr anfonasai ef, ni fedrasai fynd a'r wobr oddiar englyn Glasynys,—

"Bywydol fach wibedyn,—ei osgo
A'i wisgiad sydd ddichlyn,
Ac o dy foch gwaed a fyn,
Enynol yw ei wenwyn."

Calfiniad oedd fy nhad o ran ei gredo ddiwinyddol, a chyda'r Methodistiaid Calfinaidd y treuliodd y rhan oreu o'i oes. Ond oherwydd iddo gael siom, fe ddigiodd ac aeth i'r Eglwys Sefydledig. Fe drodd ei gôt, ond ni throdd ei galon; oherwydd ychydig o ddiwrnodau cyn iddo farw gyrrodd am un o'i hen gyfeillion, John James, a dyna oedd yr ymddiddan rhyngddynt,—yr achos Methodistaidd a'r athrawiaeth. Nid wyf yn gwybod pa un ai uchel Galfiniaeth ai Calfiniaeth gymedrol a ddaliai, pe bae waeth am hynny. Yr oedd ei ddull o esbonio'r Beibl dipyn yn wahanol i'r dull cyffredin. Nid oedd ganddo esboniad o fath yn y byd. Buasai yn dda iawn gennyf fi pe buasai ganddo un. Credaf fod esboniadau da wedi bod yn gaffaeliad mawr i ddeiliaid yr Ysgol Sul yng Nghymru. Ond ychydig o bwys a roddai fy nhad ar esboniad. Ei ddull ef ydoedd cydmaru yr Hen Destament a'r Testament Newydd â'u gilydd, cydmaru y ddau gyfieithiad, y Cymraeg a'r Saesneg, a cheisio darllen tipyn ar ei Destament Groeg. Yr oedd yn ei farwolaeth yn gyffelyb i'r hyn ydoedd yn ei fywyd, yn hynod o dawel a hunanfeddiannol. Bu farw Chwefror 12, 1864, yn drigain mlwydd oed. Ei afiechyd ydoedd y darfodedigaeth; ac o bob afiechyd byddaf yn meddwl mai hwn yw yr un mwyaf dymunol, oherwydd y mae'n rhoddi hamdden i'r claf i ragfeddwl am y dyfodol mawr sydd o'i flaen. Y mae'n myned wrth ei bwys megis at yr afon. Nid anghofiaf byth yr olygfa a gefais arno y boreu y bu efe farw. Galwyd fi i fyny i'r llofft, ond yr oedd wedi myned yn rhy bell i'r glyn i wneyd sylw o honof. Ond cefais un o'r golygfeydd mwyaf dymunol a gefais erioed arno, a hynny yng nglyn cysgod angau. Yr oedd gwên ar ei enau mewn tawelwch perffaith. Bum yn meddwl lawer gwaith pa beth barodd iddo wenu felly, yr adeg honno. Meddyliwn weithiau mai y syniad ein bod ni y plant o amgylch y gwely, yn cael yr olwg olaf arno; meddyliwn dro arall mai gweld y Gŵr yr hwn y gobeithiasai ynddo yr ydoedd, yn dyfod i'w gyfarfod. Y mae llinellau Ioan Machno yn bortread byw i mi o hono yn ei gystudd ac yn ei farwolaeth,—

"Ewyllysgar mewn llesgedd—ydoedd ef,
Dedwydd iawn ei ddiwedd,
Gwenai pan newidiai 'i wedd
Yn oer afael hun ryfedd."

Yr oedd wedi trefnu popeth mewn perthynas i'w gladdedigaeth. Byddai'n siarad am hynny fel pe buasai yn siarad am ddiwrnod ei briodas, gyda'r boddhad mwyaf. Yr oedd arno ofn bod yn rhy gostus hyd yn nod y diwrnod hwnnw. "'Does dim brys am garreg fedd i mi," meddai, "fe wna honno y tro pan ddaw'r plant i ennill, a chofiwch am beidio rhoi dim byd arni hi ond fy enw i." Ei deimlad oedd,—

"Gwnewch imi feddrod wrth ffrydlif y mynydd,
Na cherfiwch un llinell i adrodd fy hynt,
Yno telored glas donnau'r afonydd
Eu cerddi yn gymhlith â chwiban y gwynt."

Wrth adael fy nhad dan hen ywen fawr ganghennol mynwent hynafol Mallwyd, ni fedraf yn well na dodi yma un o'r englynion hoffaf ganddo,—nis gwn pwy yw yr awdwr, pe bae fater am hynny, englyn beddargraff dynolryw yn gyffredinol,—

"Yr Ion pan ddelo'r ennyd—ar ddiwedd
O'r ddaiar a'n cyfyd:
Bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd."

DEWI MAWDDWY.

Y FENAI DAN YR HAUL.

O Fenai! haf ei hunan—wrida'i lun
Ar dy lanw weithian;
Gyniweiriol gen arian—
Y dydd lysg rhwng dy ddwy lan!

EIFION WYN.

TAITH BYWYD.

[Codwyd o hen lawysgrif gan Henri Myllin].

Yn wan brudd-faban i fyd—y daethum
I deithio gofalfyd;
Gwan heb gel yn dychwelyd,
Allan yn faban o fyd.

"Daeth yr hen dy i'm co gweiwn y mŵg."

FY ADDYSG.

II.

PAN adewais f'ystori ddiweddaf yr oeddwn ar ben carreg o flaen yr ysgol, a lliaws o fechgyn direidus yn gwaeddi o'm cwmpas, gan fy orchymyn, dan boen curfa, i ddweyd straeon, ac i ateb cwestiynau rhyfedd ofynnent imi. Toc, er mawr lawenydd i mi, canodd y gloch. Rhedodd pawb i'r ysgol, a dois innau i lawr o ben fy mhulpud carreg,

a rhedais ar eu hol. Wedi mynd i mewn, canfyddais yn union mai ofer oedd fy llawenydd, ac y buasai'n well i mi fod ar ben y garreg nag yn yr ysgol. Ffigiwr ambriodol hwyrach fuasai dweyd mai o'r badell ffrio i'r tân y dois, ond teimlwn mai rhywbeth felly oedd y cyfnewidiad. Gwell i mi, wedi'r cwbl, oedd trugaredd prin ac amynedd byr fy nghyd-ysgolheigion nag anghyfiawnder yr ysgolfeistres.

Yr oedd rhywun direidus wedi rhoi pin a'i ben i fyny ar y fainc, yn y lle y disgwylid i mi eistedd ar fy nyfodiad i'r ysgol. Tybiai'r plant, mae'n ddiau, y dylaswn anfarwoli'm dyfodiad i'r ysgol trwy lamu oddiar y fainc, a rhoi bloedd erchyll, heb un rheswm canfyddadwy am y fath hyawdledd. Ond fel y digwyddodd y peth, nid ar flaen y pin yr eisteddais. Byddai'r person yn eistedd yn y lle y rhoddasid ef ambell i dro, wedi i'r plant fynd allan, ar ei ymweliadau â'r ysgol i edrych y *registers*. Daeth i'r ysgol y diwrnod hwnnw, yr oedd yn ffyddlon iawn, fel y dylai gwarcheidwad ysgol fod. A eisteddodd yn ei le arferol, nis gwn.

Ffordd bynnag, pan ddaethom i mewn, galwyd am ddistawrwydd. Daeth distawrwydd fel y distawrwydd glywir o flaen ystorm o fellt a tharanau. Ni fum mewn lle mor ddistaw erioed. Gwyddwn mai peth rhyfedd oedd distawrwydd fel hyn, ni fuaswn yn coelio y medrai cynifer o blant llawn bywyd a direidi fod mor ddistaw. Yr oeddynt fel llygod.

Safai'r ysgolfeistres wrth y ddesc, ac yr oedd y wialen yn ei llaw. Deallais wedyn mai pregeth draddodai ar ddyledswydd plant tuag at weinidogion cyfreithlawn yr efengyl, sef eu parchu a'u gwasanaethu ym mha le bynnag yr elem. Ond nid oeddwn i'n deall yr un gair. Yn unig gwelwn ol gwaith ar y wialen, yr oedd y brigau mân wedi cwbl ddirisglo,—a meddyliwn fod hyn yn arwydd ddrwg. Yr oedd pregeth yr ysgolfeistres yn bur hir. Ehedodd fy meddwl innau at y caeau gwair, at y cerrig mân ar lan yr afon, ac at fy nghi y gwyddwn ei fod yn fy nisgwyl trwy'r dydd. Daeth yr hen dy i'm cof; gwelwn y mŵg yn esgyn o'r corn simdde rhwng y coed, oherwydd yr oedd yn tynnu at amser te; yr oedd mor ddistaw fel y dychmygwn glywed y dŵr yn disgyn dros y graig dan y ty. Gwelodd y bachgen osododd y pin yr olwg freuddwydiol oedd arnaf, a gwelodd y wialen. Ni fu'n hir yn gorffen ei gynllun. Yr oedd pregeth yr ysgolfeistres yn tynnu at y terfyn, ac yr oedd yntau mewn perygl. Byr iawn oedd y pen olaf, a chlywais un gair ddeallais, sef pin. Wrth glywed y gair, troais yn sydyn i edrych ar yr ysgolfeistres. Yr oedd ei llygad arnaf, ond ni wyddwn pam. Gofynnwyd cwestiwn, a bu distawrwydd perffaith am eiliad. Yna daeth llais y bachgen hwnnw, yn cyhoeddi mewn ateb i'r cwestiwn,—"Ab Owen." Wrth glywed f'enw, troais yn anesmwyth yng nghyfeiriad y wialen. Er fy mod yn anwybodus ac yn hollol ddiniwed, yr oedd rhyw feddwl ynnof y byddai'r wialen honno a minnau'n agosach at ein gilydd cyn hir. Ni fedrwn achub fy ngham, oherwydd condemniwyd fi yn Saesneg, ac ni wyddwn amcan paham yr oedd y wialen i ddisgyn arnaf hyd nes yr oedd yn rhy hwyr i apelio at neb. Ni waeth i mi heb ddesgrifio'r gosb,—hwyrach fod rhai'n darllen y llinellau hyn heb fod o gyrraedd cosb gyffelyb,—ond gallaf ddweyd hyn, y buasai'n llawer gwell i mi fod wedi eistedd ar y pin, a chael fy nghosbi am gadw swn. Yr oedd gan yr ysgolfeistres feddwl uchel o lywodraethwyr yr ysgol, yn enwedig o'r person,—os oeddwn i fesur ei pharch oddiwrth faint y gosb.

Trwy weddill y prydnawn bum yn wylo ac yn ochain ac yn cynllunio bradwriaeth. Nid ydyw cosb yn gwneyd neb yn well. Y mae'n debyg fod rhyw gymaint o'r bwystfil mewn plentyn, a dadblygodd y wialen lawer arno ynnof fi y prydnawn hwnnw. Mwyn i mi fuasai cael gosod pinnau dan filoedd o bobl, er nad oedd y syniad erioed wedi cael lle yn fy meddwl o'r blaen. Esboniasid i mi gan yr ysgolfeistres tra'r oedd y wialen uwch fy mhen, mewn Cymraeg lledieithiog, paham yr oedd y gosb i ddisgyn arnaf. Meddyliwn innau yr hoffwn roi pin yng nghader y tafarnwr mawr y tybiwn mai efe oedd brenin y pentref, a phin yn set y pregethwr yn y pulpud, a phin yn seddau yr holl wŷr y clywais fy nhad yn eu darlunio'n eistedd yn y Senedd.

Pan ddaeth hanner awr wedi tri,—awr gollwng,—ymadewais a'r ysgol dan gredu yr edrychid arnaf fel bachgen drwg. Teimlwn fel Ismael, fod llaw pawb yn fy erbyn, a'm llaw innau yn erbyn pawb. Byth er hynny y mae gennyf ryw fath o gydymdeimlad â gwrthryfelwr a chwyldrowr, Pan ddarllennais Goll Gwynfa, lawer blwyddyn wedyn, cydymdeimlwn â Satan er fy ngwaethaf. Pan ddarllennais ei ddrama oreu gwelais fod Shakespeare yn rhoi ei holl athrylith ar waith i gondemnio Macbeth; edmygais innau Facbeth, er ei waethaf.

Ni ddywedais lawer o hanes fy niwrnod cyntaf yn yr ysgol, er cymaint oedd yr holi arnaf, wedi mynd adre. Ac ni ddywedaf fy meddwl am addysg elfennol Cymru hyd nes yr adroddaf fel y treuliais un diwrnod arall yn amser fy ysgol fy hun.

TRYDYDD SYPYN O HEN LYTHYRAU.

I. RHIST. MORYS, YSW., AT Y BARDD COCH.

Llundain, 7ed Gorphenaf 1779.

Anwyl Gyfaill,—

Dyma eich llythyr o'm blaen. Mi ddymunwn fel chwithau fod amgenach pennau'n trin yr Eurgrawn; ond fe wna les yn ei gyflwr presenol. Ie, ïe, celwydd bob gair ymhlith y gwragedd rholio ynghylch y Goronwy Fardd, rwy'n ofni yn fy nghalon nad byw mono; ac os e, nid oes obaith ei weled yma fyth mwyach, oni ddaw rhyw droad mawr ar fyd. Mi adwaen Sion Llwyd Bontenlli o'r goreu, a phan welwyf nesaf mi baraf iddo 'sgrifenu attoch.

Mae rhyw fran ddu wedi mynegi i mi 'n ddiweddar fod rhyw amryfusedd mawr rhwng fy chwaer yna a'i gŵr, a'i fod yn bygwth ei bwrw ymaith yn ei henaint! Byddwch cyn fwyned a gyrru imi gywir hanes yr amrafael rhyngthynt; canys mae a glywais wedi fy synnu'n aruthrol! Pan gaffwyf eich atteb mi 'sgrifenaf at y gwr pendronus hwnnw.

Mi wyf, ar frys mawr, yr eiddoch oll

RHIST. MORYS.

II. ROBERT ROBERTS, CLYNNOG, AT ROBERT JONES, RHOSLAN.

Clynnog, Awst 18, 1796.

Anwyl Frawd a Thad mewn ystyriaeth,

Meddyliais lawer am danoch er pan gwelais chwi ddiweddaf. Weithiau byddai fy meddwl yn carlamu tros yr Eifl ddyrchafedig i gyfeillachu â chwi yn ardaloedd Lleun, ond y cwbl fel breuddwyd y newynog yn gadael fy enaid yn wag. Llawer triniaeth a gefais o ran fy nghorff a fy meddwl. Pan ymaflodd y *colic* ynof a'i grafanc lewaidd, meddyliais na ollyngai mo honof, nes fy anfon i'r byd trag'wyddol. Dechreuais gyda pheth cyffro drwsio fy lamp, ac yr oedd holi manwl arnaf pa beth oedd genyf i wynebu'r byd tragwyddol. Teimlais megys daeargryn trwy fy holl grefydd i gyd; meddyliais ar rai munudau y gwadwn fy mhroffes o Fab Duw, ac y byddwn farw yn druenus iawn. Yr oedd tân fy ngwasfa yn llosgi fy hen brofiad fel carth crin-gras. Yna yr oedd rhyw floedd fel hyn trwy fy enaid,—"Ai tydi a fu yn bloeddio y'ngwyneb y byd, fod Aberth Crist yn ddigon i'r penaf o bechaduriaid? Cred yrwan trosot dy hun! '—a minau yn teimlo fy enaid yn myned i'r clawdd; ond yn yr ystorm yma, cefais làn yn y geiriau hyn—"Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau," Colos. 1. 14, a 1 Tim. 3. 16. Eich ffyddlon Frawd,

R. ROBERTS.

III. EOS GLAN TWRCH AT EBEN FARDD

Floyd, Onieda County,
New York

Mai 12eg 1853.

Eben Fardd

Anwyl Syr,

Yr wyf yn gobeithio y maddeuwch i mi am fy hyfdra, (er fy mod yn ddyeithr i chwi) yn eich anerch i ofyn cymwynas oddiar eich llaw. Yr wyf yn ymhyfhau arnoch chwi am fod brawdoliaeth grefyddol rhyngom, ac am y meddwl uchel sydd genyf am danoch fel Bardd a Beirniad. Gadewais Gymru er's 25 mlynedd yn ol, ac yr wyf wedi treulio llawer o fy amser yma gyda chenedl ac iaith arall. Ond pan yn ngwlad fy ngenedigaeth trafferthais gryn lawer i ddysgu elfenau a rheolau Barddoniaeth; ac fel y mae trydan ac agerdd wedi ein nesu at Gymru, mae ei defodau a'i gwyliau wedi nesu at ein mynwesau. Gwelais yn un o'n cyhoeddiadau yma hysbysiad am Eisteddfod Dolgellau. Tynwyd fy sylw at y *Croeshoeliad*, am ei fod yn destyn bras i'r fyfyrdod fyw arno yn fwy na meddwl ynill y wobr;—yr achos imi anfon yr awdl hon i Ddolgellau cyn bod galw am y cyfansoddiadau i mewn ydoedd am y buasai yn rhy ddiweddor i anfon wedi i'r alwad gyrhaedd y wlad hon, fel ag y digwyddodd gydag Eisteddfod Madog. Yr wyf wedi clywed nad ydyw Eisteddfod Dolgellau i gael ei chynal; a'r gymwynas sydd genyf i ofyn i chwi ydyw darllen yr Awdl a rhoddi gair o gymeradwyaeth iddi os gellwch *wneyd hyny yn gydwybodol*. Yr wyf am gyhoeddi llyfryn bychan o farddoniaeth yn fuan, yn y wlad hon, fel yr antur gyntaf o'r fath. Ni ddymunwn gyhoeddi pethau dfwerth, er y gallech chwi yna farnu wrth ein cyhoeddiadau na waeth beth a argreffir. Ni bydd eisiau i chwi anfon yr Awdl imi; dim ond anfon llythyr, a gallaf dalu y postage yma. Felly ni bydd un math o gost arnoch; ac os bydd ar fy llaw rhyw dro i wneyd cymwynas i chwi yn y wlad hon, bydd yn hyfryd genyf gael y cyfleusdra—Os dymunwch wybod rhywbeth am danaf, gallwch ei gael trwy ddau weinidog o'n cyfundeb sydd o'r wlad hon yn bresenol yn Nghymru sef, y Parchedigion David Williams a J. Jones—Yr wyf yn erfyn yn ostyngedig arnoch gydsynio a'm cais.

Ydwyf, anwyl Syr, yr eiddoch gyda pharch,

JOHN EDWARDS
(Eos Glan Twrch)

IV. ROBERT JONES, ROTHERHITHE, AT EBEN FARDD.

Anwyl Syr,

Mae hiraeth trwm arnaf am y Piser, ac awydd mawr i ddi-sychedu fy ysbryd allan o'i ddyfroedd Heliconaidd. Eto, nid da fyddai genyf ei ddwyn ymaith oddiar brif-fardd cyn iddo ei ddarllen yn drwyadl.

Os rhydd ei feddiant am ychydig o amser yn ychwaneg ddywenydd i chwi, na ddanfonwch ef hyd nes y clywch eto oddi wrthyf.

Ond da chwi gwnewch englyn ac ysgrifenwch ef a'ch llaw eich hun ynddo. Hyn a ddeisyfaf arnoch yn daer.

Mae Talhaiarn wedi rhoddi pob cyfarwyddyd yn ei "warrant."

Ydwyf gyda phob parch

eich ffyddlawn wasanaethudd

ROBERT JONES.

Eben Vardd.

Persondy'r Holl Saint, Rhudd ddwr-hydd, Mai 21, 1856.

Felly y dywaid y "Llew" y mae ystyr Rotherhithe, ac yn yr hen lyfrau gelwir y fan "Red-reef."

V. GLAN ALUN AT EBEN FARDD.

Cefn y Gader, Wyddgrug.

Ionawr 13 1859.

Anwyl Gyfaill,

Y mae mewn bwriad i gynal cyfarfod yn Dinbych yr wythnos nesaf i ystyried a ellir ddim gosod y gyfundrefn Eisteddfodol ar ryw gynllun mwy teilwng i wybodaeth a moesau cynyddol y genedl. Yr wyf yn meddwl fod y *Saeson* a'r *mawrion*, yn Nghymru, braidd yn dueddol i edrych arnom ni a'n llenyddiaeth yn fwy diystyr nag y dylent.

Yr wyf fi yn bwriadu, os caf gymhorth, i ddod allan yn lled blaen a helaeth ar yr achlysur. Byddai yn ffafr *bersonol* ac yn foddhad i mi os gwnewch *chwi* ddyfod yno. Y mae eich henw mor bendifaddeu gyssylltiedig a llenyddiaeth yr oes, fel y gwnai eich *presenoldeb* roi arben*igrwydd* ar y *cyfarfod*. Cewch ddweyd gan *lleied* ag y fynoch. Yr ydych gymaint ar y blaen i ni oll mewn barddoniaeth, fel y gellwch hyfforddio gadael i ninau *barablu* tipyn mwy. Ond os gwnewch ychydig sylwadau i'r un pwrpas a'r hyn a welais o'ch llaw yn y *Brython* ychydig yn ol, byddai yn dra chymeradwy.

Fe delir eich costau i Ddinbych ac yn ol. Er mwyn *gwladgarwch dewch am unwaith.*

Yr eiddoch yn bur,

THOMAS JONES.

Eben Vardd.

VI. IOAN PEDR AT OWEN WILLIAMS, WAEN FAWR.

Independent College,

Bala, Mawrth 22fed, 1870.

Anwyl Syr,

Byddaf yn dra diolchgar am ychydig o hanes Morus ab Robert o'r Bala. Yr wyf wedi llwyddo i gael ei "Gyngor i'r Cymry" a'r chwedlau a'r cyfansoddiadau yn y "Gwyliedydd." Y mae "Blodeugerdd Cymru" yn fy meddiant hefyd. Yr hyn sydd arnaf eisiau yw ei gywydd i Lyn Tegid. Gwn ei fod wedi ei gyhoeddi ar ffurf cerdd ac yn nglyn a chyfansoddiadau eraill yn llyfryn bychan. Efallai ei fod wedi ei ail argraffu mewn rhyw hen gyhoeddiad; os felly yr ydych chwi yn dra sicr o wybod am dano. Byddwn yn bur falch o unrhyw ffeithiau am dano, neu gyfansoddiadau o'i eiddo, ar nad ydynt yn y trysorfâu a enwais.

Ymddengys fod eich Geiriadur wedi myned yn dra phrin, os nad allan o'r farchnad, erbyn hyn. Y mae Mr. Robert Vaughan Jones, mab Bochyrhaiadr, yn rhoddi gwerth mawr ar y copi sydd yn ei feddiant. Clywais Mr. G. Jones, llyfrwerthydd, y Bala, yn adrodd hanes dyddorol am eich Geiriadur. Daeth Prince Lucien Bonaparte i'r Bala flynyddau yn ol, a galwodd am y llyfrwerthydd ato i'r *Lion*. Daeth eich Geiriadur i mewn i fod yn destyn ymddiddan. Yr oedd ei Uchelder wedi cael copi o hono yn Machynlleth ac wedi talu 20s. am dano mewn cyflwr gwael. Yr oedd gan G. J. well copi yn ei feddiant a rhoddodd ei uchelder 20s. iddo ar y ffair.

Maddeuwch imi, anwyl Syr, am eich blino fel hyn, a minau mor ddyeithr i chwi. Gan ddymuno hir oes ac iechyd i barhau yn ngwasanaeth eich cenedl, a chan obeithio y cyfodir yn fuan eto y "Brython" neu ryw gyhoeddiad cyffelyb i fod yn gyfrwng gohebiaeth rhyngoch chwi a'ch edmygwyr lluosog.

Gorffwysaf yr eiddoch yn gywir,

JOHN PETER.

OL NODYN.

Cefais y cyntaf, y trydydd, y pedwerydd, a'r pumed o'r llythyrau hyn trwy garedigrwydd Myrddin Fardd; rhodd y Parch. T. Talwyn Phillips, B.D., yw'r chweched. Y maent yn eu horgraff wreiddiol, ni ychwanegwyd ond ambell atal nodyn.

Nid yw Eos Glan Twrch mor adnabyddus yn y wlad hon ag yn yr Amerig, lle bu farw ychydig amser yn ol. Y mae iddo frawd, hen wr tal hardd, yn byw eto ar lethrau Cynllwyd. Cedwir y Piser Hir, gyda llyfrau creill Robert Jones, yn llyfrgell gyfforddus Abertawe. Cyhoeddir llawer o'i gynnwys eto, trwy ganiatad caredig, yn y cylchgrawn hwn. Y mae'n dda gennyf fedru rhoddi Cywydd Llyn Tegid yn y rhifyn hwn. Codwyd hi o lawysgrif wnawd yn ystod bywyd Morus ab Rhobert, trwy ganiatad D. Tegid Jones, Ysw., Traws Fynydd.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

XII. MORUS AB RHOBERT.

O HOLL feirdd anadnabyddus Cymru, nid oes odid un wedi ei esgeuluso yn fwy na Morus ab Rhobert. Yr oedd yn wir fardd, y mae meddylgarwch tarawiadol yn ei holl weithiau, ond gwyddis mor ychydig am dano fel y dywed geiriadur sy'n unig drysorle llawer o ysgrifenwyr traethodau buddugol,—"nid ymddengys fod dim ond ambell englyn damwain o'i waith ar gof a chadw."*

Yr oedd Morus ab Rhobert yn byw yn y Bala yn ystod teyrnasiad y frenhines Ann. Yn yr oes deyrngarol ac eglwysig honno, yr oedd Morus ab Rhobert yn rhyddfrydig ei olygiadau ac yn Ymneillduwr. Hwyrach ei fod yn perthyn i'r praidd bychan o Anibynwyr fu yn y Bala o ddyddiau Morgan Llwyd o Wynedd, yn dal eu llusern wan i oleuo hyd nes y daeth Howel Harris i roddi nerth newydd iddynt.

Cafodd Dafydd Elis afael yn un o'i gywyddau, a rhoddodd hi yn ei Biser Hir. Ar ei hol ysgrifennodd nodyn, i gydmaru heresi Morus ab Rhobert ac eglwysyddiaeth selog rhyw fardd a ysgrifennai yn ei erbyn, ac i ddweyd nad oedd y cywydd heb ei feiau cynghaneddol. Gwylltiodd yr hen Iolo Morgannwg yn erwin wrth ddarllen yr olnodyn hwn, ac ysgrifennodd,—"O dd——l, a'i Ymneillduwr oedd?" A chondemnia Ddafydd Elis am weled bai yng "nghywydd ddifai Morus ab Rhobert."

Y Beibl oedd llyfr Morus ab Rhobert, ac y mae delw y llyfr ar ei holl weithiau. Y mae ei Feibl,—Beibl y Dr. Parri,—yn awr ym meddiant ei ddisgynyddion ym Mhant Saer, Llanuwchllyn. Yno, hefyd, y mae cloc rhyfedd, o waith llaw gywrain y bardd, wedi ei wneyd yn rhan o ddodrefnyn arall.

Bardd Llyn Tegid oedd Morus ab Rhobert, a bardd tragwyddoldeb. Y mae'n debyg iddo dreulio mwy o amser uwch ben yr adnodau sy'n son am dragwyddoldeb yn y Beibl Mawr nag wrth ben cynlluniau ei gloc.

Bu llawer o son am ei Gywydd Llyn Tegid, a eilw efe ei hun yn Gywydd Tragwyddoldeb. Y mae'n engrhraifft dda o'r bywyd a'r meddylgarwch sydd yn ei ganeuon, er fod y ganhanedd yn llyffethair arno.

* Y mae llawer o waith Morus ab Rhobert ar gof a chadw. Ceir ychydig o fanylion am dano yn y *Gwyliedydd* am 1823 (tud. 273), ac yn y *Brython* am 1860 (265, 270). Y mae chwe darn o'i waith yn y *Blodeugerdd*, un yn y *Piser Hir*, a llawer un mewn llawysgrifau ar hyd y wlad heblaw Cywydd Llyn Tegid a Chywydd Cantre'r Gwaelod.

Aeth at fin Llyn Tegid ryw brydnawn dryghinog,—

"A myfi ar lan hafan hir,
Dŵr rhyfedd, diau y rhifir
Tair milldir o dir da,
Gwych iawn-fodd, o'i gychwynfa
Ar hyd i aber, rwy'n rhyw dybied,
A milldir, a lwfin,* o led,—
Daethum, wrth ryw ymdeithio,
A'r dryc-hin i'w fin fo.

"Gwelwn don, geulan dene,
Yn troi i'r lan, tra oer le,
A thon o'i hol ffrwythol ffres,
Ar ddwywad i'w gorddiwes;
A'r drydedd oedd floeydd flin,
Nod alaeth yn ei dilin;
Bob yn un bu boen anian,
Tra mawr lu yn tramwy i'r lan;
Pan eler mewn poen eilwaith,—
Deunaw mil o donnau maith;
'Roedd rhyfedd arwydd rhy fawr
Yn igion mwy o'r eigion mawr;
Tair ias drom, teriest dro
Yn hwyr iawn yn hir yno,
I weled gwedd, diwedd da,
Weithian, y don ddiwaetha;
Tariwn i hyd hwyrnos,
O'i herwydd yno i'w haros,—
Nid oedd, faith helaeth hynt,
Ddu ddyrnod, ddiwedd arnynt;
Ag ar hyn, gwir hanes,
Cyfleusdra ag odfa ges
I fyfyrio, tro trwch,
Y dyddiau o anedwyddwch
A gaiff y dyn cyndyn cas
A soddwyd gyda Suddas."

Yna daw'r bregeth,—

"Gwylier byth, gwae elo o'r byd
I ddalfa tragwyddolfyd;
Lle mawr y boen, llwm arw bant,
Archoll gwyn, erchyll geunant;
Llyn o dân, llawn, di dor,
Gwae gan-dyn o'r gagendor!

"Llwyr wael fodd, lle o'r eilfyd,
Llithrigfa llwyth o ddrygfyd,
Pwll diwaelod, pell y delom,
Bob un draw o'i boen drom;
Pair o dân, pwy a red yno
Tan y gwae ond dyn o'i go?
Gwae a rediff, garw ydiw
O gefen tân digofaint Duw.
Wylofain, llefain, hyll wedd,
Rhwngch yn dwyn rhincian dannedd.

"Oerfel trwm ar fil try
A rhyw anwyd i'w rhynnu;
A gwres byth, lle y cras boethan',
Aruthrol ddieithriol fan!
A'u dwylo a'u traed, dial trwm,
Yno i'w cael yn un cwlwm;

* Lwfin. O'r Saesneg *allowing*. "Tipyn dros ben" yw ei ystyr.
† *Teries*. O'r Saesneg *tarry*.

Mewn tân a brwmstan a braw,
Cythreuliaid i'w caeth-riwliaw.
Yn suddo'n syth byth tra bon',
Dyna fisdiff * dad feisdon."

Fel gwir fardd, a Morus ab Rhobert ymlaen i ddarlunio y pethau na cheir yn uffern. Felly hefyd Edgar Allan Poe, wedi desgrifio dychrynfeydd y dyn gafodd ei hun mewn bedd wedi ei gladdu'n fyw, a wna iddo feddwl am y gwynt rhydd yn crwydro drwy'r glaswellt uwch ei ben, ac am barodrwydd ei berthynasau a'i gyfeillion i'w waredu pe gwyddent ei fod yn fyw,—peth na chaent wybod byth. Felly hefyd y meddylia un yng ngharchar uffern am bethau nad oes yno,—

" Heb liw dydd, heb le diddan,
Heb lawnt teg, heb wely ond tân."

Gwelir dioddef y colledig, a chrug lef ei gydwybod fel 'carreg lefain; clywir ei "dragwyddol a greddfol gri."

" Heb loer, heb ddwr oer, aruth !
Heb ffrwyth un funud fyth.
Wylant hwy, mwy na môr,
A'u llygaid fel hyll ogor
Yn hidlo dagrau'n hed-li,
Tragwyddol a greddfol gri
Enaid a chorff heb orffwys,
Eu barn fydd arnyn yn bwys.

" Ond dau beth, i'm tyb i,
Swyddau pen, sydd i'w poeni,—
Y gair *Byth*, gwae oer eu bod
Ach dibwyll, a chydwybod.
Gofynnau' yn gyfaniaith
I gydwybod, mawrnod maith,—
'Ai byth y rhoddwyd ein barn
Acw i'n gadel ?' Cwyn gadarn -
Cydwybod, fel mil, yn ddilyth,
Ddi-wad boen, a ddywed—'Byth !'
Di wyt siwr yn dadsain
Crug lef fel carreg lefain ;
Cwyno raid mai cnoi yr ydwyc,
Cry fwystfil dieiddil wyd ;
Glaen llym lais, beleu llawn-lid,
Blin-waen heb le i newid ;
Na gobeth, Duw sy'n gwybod,
Draw, er hun, am droi y rhod.
Gweli'n hir, galon haiarn,
Odfa fer wedi'r Farn."

Yna clywn swn y tonnau drachefn, yn son am dragwyddoldeb,—

" Munudiau fel dyddiau'r don,
Ag orig fel misoedd geirwon ;
A phob mis, gwyddis ar goedd,
Blin cdde, fel blynyddoedd ;
Blynyddoedd fel oesoedd ysig,
Dan wialen Dduw, a'i law'n ddig ;
Ag oesoedd yn fisoedd fae,
A'u tyniad fel y tonnau "

Clywir melldithion y colledig,—melldithio'r fangre ofnadwy honno, melldithio dydd genedigaeth, melldithio mam,—

" Godde yn dyn a gweiddi yn dost,
Melldithio'r man lle y daethost,
Rhegi'r dydd, oer ludd ar led
A'th einioes gynte yth aned ;
Rhegi'th fam, rhy gaeth fodd,
Was gerwin, a'th esgorodd ;
Crefu am Angeu, tene tau,
Er dibennu dy boenau."

Ie, gwaeddir am Angeu, ond,—

" 'Ni wna Angeu, gledde glâs,
Gam yno o gymwynas.'
Ond byw a raid, fy enaid, fyth,
Diystyrwch sy dost aruth."

Y mae'r bardd wedi gofalu gwneyd i ni gashau'r pechadur colledig, wedi ei hagru gan effeithiau ei bechod ei hun, ac ni theimlwn ei fod yn dweyd mwy na'r gwirionedd pan ychwanega at ei boenau,—

" Angylion, a dynion da,
A'th Dduw wedyn, a'th wawdia ;
Am wrthod dydd rhydd rhad
Ei drugaredd a'i gariad."

Ac yna try Morus ab Rhobert at y byw, hanner can mlynedd cyn i neb glywed llais Howel Harris ar lan Llyn Tegid,—

" Clyw, ddyn, rhag cwilydd wyneb,
Weithian a wyd waeth na neb ;
Ai carreg, dan freudeg fron,
Den galed, yw dy galon ?
Ai cyff o bren, coffa heb raid,
Plwm dinerth, yw dy enaid ?
Ai 'nifel gwar-isel gresyn,
Arwydd dost, ar wedd dyn ?
Ystyria'n awr, os dyn wyd,
A dewis yn fwy diwyd ;
Ofna'r boen, enfawr byth,
Uffern erwin, ffwrn aruth ;
Ofna Dduw yn fwy, O ddyn,
Dechre cyn amser dychryn ;
Gwylia ymroi galw am ras,
Cei feddyg fo cyfaddas :
Galw'n llym, ag wyla'n lli,
Rhed ato, mae'n rhaid iti ;
Dywed,—'Arglwydd, rhwydd rhodfawr
Maddeu fy meiau mawr ;
Clyw weithred un cla athrist,
Yma'n crefu er mwyn Crist ;
Am fy achub o'm haflan fuchedd
Cyn y bwy acw'n y bedd ;
Na ollwng fi o'th law allan
I uffern dost, y ffwrn dân."

Codais y cywydd o lyfr ysgrifennwyd rhwng 1717 a 1723 gan un adnabyddai Forus ab Rhobert, os nad gan Forus ab Rhobert ei hun. Y mae gan y môr a'r tonnau ryw swyn i'r bardd hwn, y mae cywydd arall o'i waith yn son am orlifiad Cantre'r Gwaelod.

Adlais pregethau'r Piwritaniaid sydd yn ei holl ganeuon. Clywodd Forgan Llwyd o Wynedd, priodod ei ferch John Evans o'r Bala, felly saif Morus ab Rhobert rhwng y ddau gyfnod o ddiwygiad, gan gyhoeddi'r hen genadwri wrth afonydd Babilon,—

" Pa hyd, ynfydion hyn o fyd,
Yr ych yn caru'r ffwrn dywyllddu,
Drwy ffol ymwerthu i ymwrthod â Duw cŷd ?
Gochelwch, ar ddydd dial,
Heb atal, dreial drud."

* *Misdif*; mischief. Gwelir fod Morus ab Rhobert yn bur hoff o eiriau Saesneg.

YMDAITH YN ANNWN.

IV.

NOSON ERCHYLL.

"Y nos honno, tywyllwch a'i cymero; na chydier hi â dyddiau y flwyddyn, ac na ddcued i rifedi y misoedd."—Job.

DYWEDAIS yn y bennod ddiweddaf ein bod wedi cychwyn o ystafell yr hen wr ar ol iddo ddarlunio inni y pethau cyntaf welodd yn Uffern. Yr oeddwn wedi meddwl unwaith mai gwallgof oedd; ond yr oeddwn yn teimlo fwyfwy fod yr hen wr wedi gweled y peth oedd yn ddarlunio. Danghosai ddau ddarlun inni. Gwelsom un o'r gwynebau mewn ffenestr, yn ffenestr y ty lle cyflawnwyd y llofruddiaeth. A'r noson wedi clywed hanes pyrth Uffern, gwelsom wyneb yr eneth lofruddiedig yn yr un man. Penderfynasom ddarganfod dirgelwch y ty hwnnw, a rhoddi pen ar y pryder a'r ofn oedd yn ein gwneyd gen wanned a phlant. Aethom ein tri at y drws, ac yr oedd ofn yn ein cadw'n agos at ein gilydd. Yn y ty yr oedd y perygl, os oedd perygl hefyd, ond yr oedd arnom ormod o ofn edrych yn ol drach ein cefn, rhag ofn fod rhywbeth yn ein dilyn.

Curodd Meredydd wrth y drws. Nid oedd yn dweyd gair, ond cerddai fel un yn ymwroli yn erbyn ofn. Digon ysgafn y curodd, tybiwn mai crynnu gan ofn ar y drws yr oedd ei law. Ni ddaeth ateb. Dyfnhaodd y distawrwydd, a thybiwn fod oes o amser rhwng y curiad cyntaf a'r ail guriad ar y drws. Toc curodd Meredydd wedyn, a thybiwn fod adsain y curo hwnnw i'w glywed dros Lerpwl i gyd. Er aros yn hir, ni ddaeth ateb. Ac am wn i nad oeddym yn ofni ateb yn fwy na dim.

"Treia'r drws, Meredydd," ebe Wil, "hwyrach y medrwn fynd i mewn." Rhoddodd Meredydd ei law ar y glicied; ac agorodd y drws o'n blaenau, megis o hono ei hun. Ni welem ond tywyllwch dudew y tu mewn i'r ty. Buasai'n dda gennym gael troi'n ol, ond ni feiddiem droi ein cefnau ar y tywyllwch hwnnw. Teimlem fod rhyw elyn yn llechu yn y ty, ac ni feiddiem droi ein cefnau arno. Tynnodd Wil fatsen o rywle, a thaniodd hi. Yn ei goleu aethom i mewn i'r ty. Nid oedd yno ond lle gwag. Yr oedd lludw a glo ar hanner ei losgi yn lle'r tân, ond ni wyddem er ys pa faint yr oedd y tân wedi mynd allan. Yr oedd yno ychydig o ddodrefn,—cader a'i gwaelod wedi dryllio, cwpwrdd o ddil fu unwaith yn wyn, a bwrdd drylliog. Ar y bwrdd yr oedd hen botel win, a chanwyll yn ei cheg. Yr oedd y ganwyll wedi rhedeg i lawr hyd ochrau'r botel, ond yr oedd tipyn o honi'n aros. Aeth Wil a'i fatsen ati, a gwnaeth iddi daflu ei goleu gwannaidd dros y ty tlawd a gwag. Heblaw y rhain, yr oedd yno wellt a darnau o bren. Tybiem mai pethau rhy ddi-werth i'w mudo o'r ty gan ei breswylwyr diweddaf oedd y pethau hyn oll.

Er na chyfaddefem hynny i'n gilydd, yr oeddym yn anadlu'n llawer rhyddach wedi gweled nad oedd dim yn y ty. Mentrais fynd at y ffenestr, yn yr hon y gwelsem y ddau wyneb. Ar silff y ffenestr gwelais beth a'm llanwodd â dychryn,—llythyr yn llawysgrif fy nhad, wedi ei gyfeirio ataf fi! Yr oedd fy syndod a'm dychryn yn ddigon i wneyd i'm gwallt godi ar ei sefyll. Ofnwn weled ysbryd, yr oeddwn yn barod i'w wynebu. Ond dyma beth rhyfeddach, llythyr oddiwrth y marw ataf fi, wedi ei adael yn y lle rhyfedd hwn. Nid oeddym wedi dweyd gair wrth ein gilydd hyd yn hyn; a phan oeddwn ar ddangos y llythyr iddynt, clywem swn troed wrth ein pen.

Yr oeddym wedi anghofio am y llofft. Yr oedd y grisiau yn cychwyn o ochr y tân, ac yn mynd uwchben y drws. Yr oedd y grisiau rhyngom â'r drws, ac yr oedd rhywun yn dod i lawr ar hyd-ddynt. Gwasgasom at y mur pellaf, yng nghysgod y cwpwrdd. Toc gwelem goesau hirion mewn llodrau brethyn du'n dod i lawr. Yr oedd ganddo ganwyll yn ei law, o gŵyr du. Dyn tal oedd, ac ni welais erioed ddyn â golwg mwy bwystfilaidd arno. Nid golwg anifeilaidd llofrudd neu dorrwr ty cyffredin oedd arno; teimlwn mai gŵr o athrylith a dysg oedd, wedi ymroddi am flynyddoedd i wasanaeth Satan. Gwelais fflach modrwy aur ar ei fys, ac yr oedd cadwen felen ar ei wasgod ddu. Yr oedd mewn du i gyd, ac yr oedd y ganwyll gŵyr yn taflu goleu anaturiol ar ei wyneb hagr, oedd wedi ei gochi gan anghymedroldeb ac wedi ei hyllu gan ymroddiad i chwantau aflan. Yr oedd fel pe'n chwilio am rywbeth, ac yn dod tuag atom, a'i ben i lawr. Teimlwn yn sicr mai chwilio am y llythyr oedd yn fy llogell i yr oedd. Pan ddaeth at y bwrdd, ni synnodd wrth weld y ganwyll yn oleu, a daeth yn ei flaen at y ffenestr. Chwiliodd y silff yn fanwl, yna gollyngodd reg ddychrynllyd, trodd ar ei sawdl, a rhedodd i fyny'r grisiau fel y gwynt.

"Y Nefoedd anwyl," meddai Wil, gydag iddo fyned, "gadewch i ni fynd oddi yma

gynted y gallwn. 'Does arna i ofn yr un ysbryd, ond yr ydw i'n credu mai'r diafol ei hun, ar ffurf dyn, ydyw hwnyna."

"A welaist ti ef o'r blaen?" ebe Meredydd.

"O'r blaen, do."

"Pwy ydi o?"

"Pe bawn i'n dweyd, byddai ar y crogbren ymhen yr wythnos. Rhyfedd, rhyfedd o ba le y daeth. 'Roedd o yn yr Aifft dair wythnos yn ol. Mi a'i gwelais yn yr anialwch. Dowch, fechgyn.'

Siaradai gyda thôn benderfynol, ac yr oedd yn dda gennym ninnau gael gadael y ty. Wedi cyrraedd yr ystryd, ebe Wil,—

"Meredydd anwyl, fedra i byth fynd adre fy hun. Taswn i'n gwybod beth welwn i, ni ddeuaswn i ddim o fewn y ty yna am y byd i gyd. *Rhaid* i mi ddeyd yr hanes wrth Ruffydd Llwyd. Rwyt ti'n bregethwr, a finne'n forwr tlawd. Mi fuon yr un fath, a taset ti'n gadel i mi ddwad hefo Gruffydd heno,—"

Torrodd y morwr i wylo ar ganol ei ystori. Yr oedd yn amlwg fod rhyw ddychryn wedi disgyn arno pan welodd y dyn oedd yn chwilio am y llythyr. Ond tawelodd pan ddywedodd Meredydd y byddai croesaw iddo ddod gyda mi. Yr oedd fy nghywreinrwydd innau'n drech na'm hofn. Yr oeddwn yn llosgi o awydd gwybod beth oedd y llythyr, a beth oedd ystori Wil.

Cyn hir yr oedd Wil a minne yn yr un ystafell ag o'r blaen. Ond dywedodd Wil na ddiffoddai'r ganwyll, ac nac ai i'w wely er dim. Chwiliasom yr ystafell onglog yn ofalus, edrychasom dan y gwelyau, nid heb ofn. Yr oedd yno un drws heblaw y drws y daethem i mewn drwyddo. Treiasom ef, ond yr oedd clo diogel arno.

Yna aethom i'r gornel bellaf oddiwrth y drws cloedig hwn, a dechreuasom ar ysgwrs na orffenasom byth, ar y noson erchyll honno.

"Gruffydd," ebe Wil, "mi glywais lais dy dad neithiwr, ac mi a welais un wnaeth gymaint o gam âg ef ac â dy ewythr. Ond ni fu hynny'n gymaint o ddychryn i mi. Yr wyf fel pe wedi arfer ag ymwelwyr o'r byd arall."

Yr oedd Wil o ddifrif, yr oedd yn hawdd gweled oddiwrth y ffaith ei fod yn siarad mewn dull mor lenyddol. Er mor ddifrifol oedd yr adeg, nis gallwn beidio gwenu wrth gofio y byddai Wil bob amser yn cofio ei ramadeg pan yn siarad o ddifrif.

"Heno," meddai, "mi welais un o bobl y byd hwn, ac y mae arnaf fwy o'i ofn na neb sydd wedi gadael y byd hwn."

"Pwy ydi o?"

"Llofrudd dy dad."

"Llofrudd fy nhad, Wil! Ni feddyliais fod a fynno neb ond dau a marwolaeth fy nhad. Mae fy ewythr wedi dianc oddiar ffordd cyfiawnder, ac ni fedrid cael prawf fod a fynno'r ddynes honno ddim a'r peth. Ond yr wyf yn sicr mai ei gwaith hi oedd."

"Nid wyt ymhell o dy le. Ond y dyn a welaist heno ydyw'r llofrudd. Mi ddywedaf y stori i gyd wrthyt heno. Rhaid i mi ei chael oddiar fy nghydwybod. Ond gwna dy feddwl i fyny i beidio mynd i dy wely heno. Bydd y bore wedi dod cyn i mi orffen."

"Paid ag ofni am hynny, Wil," ebe finnau, "ychydig iawn o awydd cysgu sydd arnaf heno."

"Wel mi ddechreuaf yn y dechre. Nos Wener, yr ail ar hugain o Hydref, 185—, yr wyf yn cofio fel doe, mi gyfarfyddais dy dad wrth lidiart yr Hendre. Yr oedd yn mynd i fyny i'r mynydd, ac mi dynnodd sgwrs a fi, yn ol ei arfer. Un clyfar iawn i sgwrs oedd dy dad, a byddai'n siarad llawer iawn â fi. 'Rydw i'n mynd i'r mynydd, wel di,' meddai, 'mae hi'n siwr o wneyd storm fawr heno, a rhaid i mi godi'r rhesel, rhag ofn i'r dŵr fynd a hi. Un go ddrwg ydi'r afon yma, fel tydithau, Wil, pan fydd hi wedi torri dros y terfynau. Wyddost ti be fum i'n wneyd heddyw?' 'Na wn i,' ebe finne. 'Mi fum yn sgrifennu llythyr at Ruffydd i'r ysgol. Ei di a'r llythyr i'r post drosof fi?' 'Af a chroeso,' medde finne. Tynnodd lythyr o boced ei got, a rhoddodd ef i mi. Yr oedd y llythyr yn llawn o ryw bapurau, ac yr oedd wedi rhoi Mr. wrth dy enw, ni welais mono erioed wedi gwneyd hynny o'r blaen. Mi wela'r llythyr o fy mlaen y munud yma, a blotyn o inc ar ei gornel. Fel hyn yr oedd."

Tynnodd Wil bapur o'i boced, ac ysgrifennodd,—

To Mr. Griffith Lloyd,
care of Rev. J. Sharpe-Whackem,
Lindley Murray House,
Genteelton.

"Ond," meddai, gan fynd ymlaen gyda'i stori, "mi ddywedais wrtho nad ai gyda'r post y noson honno, a dododd yntau ef yn ei ol."

Yr oeddwn wedi anghofio'r llythyr gefais ar silff ffenestr y ty hwnnw, ond daeth y meddwl i mi,—tybed ai yr un oedd? Tynnais ef allan.

"Wil," meddwn, "ai hwn oedd?"

"Dyma'r llythyr," ebe Wil. "Fe'i cawd yn ei boced, mae'n debyg. Ond, aros funud, Gruffydd, y mae hwn yn lân ac heb ol dwfr arno, ac yntau wedi bod yn yr afon am ddiwrnod a noswaith."

TUDALEN Y GOLYGYDD.

WEDI cyrraedd diwedd blwyddyn, yr wyf yn hyderu y caiff Cymru fyw'n hir. Y mae ganddo waith i w wneyd, ac y mae ei ysgrifenwyr yn llawn awydd gwneyd y gwaith hwnnw,—ennyn dyddordeb gŵŷr ieuanc Cymru yn hanes a llenyddiaeth eu gwlad, codi awydd darllen, agor hanes a llenyddiaeth gwledydd ereill o flaen bechgyn Cymru, gwneyd cariad at Gymru yn reddf ym mhob plentyn. Pe gallem gwnaem y Cymry'n genedl o fyfyrwyr. Os medrwn, danghoswn mor ddymunol yw'r goleuni, mor felus yw gwybodaeth, mor ddyrchafol yw crefydd a moes. Ceisiwn wneyd Cymru yn gyfryw, yn y gyfrol newydd hon, fel na fedr Cymro lai na dangos ei rifynnau i'w gyd Gymro ym mhob man.

Yr wyf wedi trefnu gyda rhai o brif gyhoeddwyr Lloegr a'r Alban a'r Amerig i gael darluniau prydferth i'r rhifynnau sydd i ddod. Ni fydd dim llai o ddarluniau gan arlunwyr Cymreig; ond, gyda'r rhain, ceir pigion gweithiau arlunwyr gwledydd ereill.

Yn y rhifyn nesaf bydd erthygl ar yr Etholiad. Bydd drosodd erbyn hynny, a theimlad plaid wedi oeri digon i edrych arni yn null yr hanesydd. Yr wyf wedi trefnu i gael darluniau o'r holl aelodau seneddol Cymreig, gyda bywgraffiadau byrion. Bydd mapiau gwleidyddol o Gymru, hefyd, ar wahanol adegau,—megis cyn 1832, yn 1843, yn 18 8, yn 1885, yn 1886,—i ddangos pa fodd y bu llais Cymru yn yr adegau pwysig hyn.

At restr y rhai ydym wedi golli rhaid ychwanegu enwau n twymngalon Athan Fardd, ac Eos Morlais, canwr ein halawon. Yr wyf yn disgwyl y bydd darlun o'r ddau yn y rhifyn nesaf, gyda hanes.

Y mae Dewi Huws, Swyddfa Argraffu Buddug, Llanelwy, yn cyhoeddi llyfryn bychan destlus at y Nadolig, pigion o'r hyn ddywed y beirdd Cymreig am ddydd geni'r Iesu. Y mae darluniau bychain ar bapur amryliwiog, yn ei wneyd yn rhodd Nadolig gymhwys i blentyn. Nid yw hyn ond dechreu. Bydd Cymru'n llawn o lyfrau bychain tlysion cyn hir.

Dylasai fod adnod o'r Pregethwr o flaen y dernyn ar "Oes Dyn" yn y rhifyn diweddaf, gyfieithwyd o Homer gan R. Morris Lewis. Rhyfedd mor debyg yw'r ddau ddarlun.

"Fel o'r dail gleision ar bren brigog y mae rhai yn syrthio, a rhai yn torri allan; felly y mae cenhedlaeth cig a gwaed, y naill sydd yn marw a'r llall yn geni."

Pe buaswn i'n ddigon o fardd i ymgeisio am gader yr Eisteddfod, buasai'n well gennyf fod yn ail nag yn gyntaf. Pe buaswn yn gyntaf, cawswn fy nghadeirio yng ngŵydd y miloedd, a buasai'r papurau newyddion yn dweyd ym mha le y ganed fi a beth sydd gennyf at fyw. Eithr cuddid fy awdl mewn llyfr mawr a hyll a drud, ac ni fyddai son am dani nwy. Pe buaswn yn ail oreu, gallwn gyhoeddi f'awdl fy hun, am ychydig o geiniogau, ac felly ei rhoddi yng nghyrraedd miloedd o'm cydwladwyr Dyma wnaeth Ceulanydd; dyma ei awdl ail-oreu o'm blaen, wedi ei hargraffu yn Llanelli, ac ar werth am chwe cheiniog. Caf ei darllen a'i mwynhau wrth fy mhwys; ond pa bryd y caf weled awdl Pedrog?

Anfonodd Ceunantog lythyr dyddorol am Iago Mochnant ac Eos Gwynfa. Cyhoeddaf ef fel trydedd erthygl ar yr hen Eos. Edrydd Ceunantog ei helbulon yn ceisio cael hanes Iago Mochnant. Tybiodd un hen wr fod yr holiedydd am wneyd elw o'r wybodaeth, ac nid oedd bosibl cael ychwaneg o hono ef. Yna aeth at J. Griffiths, hen glochydd parlysedig Llanrhaiadr. Dywedai hwn ei fod yn adnabod Iago Mochnant, mai James Morris oedd ei enw, a'i fod ef wedi torri englynion o'i waith ar garreg fedd ym mynwent Llanarmon Mynydd Mawr. Canodd yr hen glochydd gân arall o waith Iago Mochnant, ar ryw alaw nas gall Ceunantog ei chofio. Dechreu'r gân yw hyn,—

"Ar ddydd Sul yr aethum i dy fy nhad,
I geisio'n rhad yn nhy fy nhad,
Ar ddydd Sul yr aethum i dy fy nhad
I geisio'n rhad fy nghinio.

"Mi gododd fy mam i roi i mi fwyd,—
'O fy machgen llwyd, tyrd i 'mofyn bwyd';
Mi gododd fy mam i roi i mi fwyd,—
'O fy machgen llwyd, tyrd heibio.'"

Ysgrifenna "Cardi" o Aberystwyth i gynnyg fod ymgais i'w gwneyd i buro'r iaith Gymraeg. Cynhygia fod dau neu dri i'w penodi i ddewis geiriau i gymeryd lle y geiriau Saesneg ddefnyddir gennym, a fod cymdeithas i'w ffurfio er rhoddi awdurdod ar eu gorchymyn.

Yr wyf yn cydymdeimlo a'r amcan, ond nis gellir ei gyrraedd yn y dull hwn. Yn un peth, nis gellir cael dau neu dri fuasai'n cydweled. A pheth arall ni fedrai'r un gymdeithas orfodi'r wlad i dderbyn geiriau gwneyd. Er esiampl, noda Cardi'r gair "rheilffordd," fel un y dylid ei ddefnyddio; ac y mae'n debyg y buasai dau neu dri'n bathu llawer gair tebyg iddo. Ond fel rheol cyfieithiad o'r Saesneg fuasai eu geiriau, cyfieithiadau anghydnaws ag ysbryd yr iaith Gymraeg. Y mae gair gwlad am *railway* nad oes bosibl ei well,—sef ffordd haiarn. Yr un ydyw gair y Ffrancod hefyd, —*chemin de fer*. Codi ysbryd y Cymry sydd eisiau, y mae ganddynt ddigon o eiriau, ond eu bod yn rhy ofnus neu'n rhy fursenaidd i'w defnyddio. Pe buasai pawb o'r un ysbryd a Chardi a minnau, ni fuasai eisiau son am ddiwygio'r iaith.

Oedwyd cyhoeddi erthygl ar John Penri a threm ar hanes yr Iwerddon, rhag i neb feddwl mai y bwriad oedd effeithio, y naill ffordd neu'r llall, ar yr Etholiad. Hwyrach y medrir gwneyd lle iddynt yn y rhifyn nesaf.



Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala.

Ab Nudd.—Y mae rhestr o gylchgronau Cymru mewn llaw, ac yr wyf yn disgwyl y bydd lle iddi yn y rhifyn nesaf.

Carwr Purdeb.—Nid wyf yn ameu purdeb eich amcan; ond nid ydyw'ch gwybodaeth yn ddigon i ysgrifennu mor benderfynol ar y pwnc pwysig hwn. "Cenwyd mil edd o emynnau" ebe chwi, "i ganmawl profiad duwiol, ond ni chanodd neb, yn amser y Diwygiad ganmolir gymaint, yn erbyn anlladrwydd." Darllenasoch ryw lyfr hymnau, hwyrach. A oeddych yn disgwyl cael cerdd yn erbyn caru wedi nos yno? Canodd Benjamin Evans wyth a thrigain o benillion yn erbyn y pechod hwn yn 1833. Dyma un pennill,—

"'N enwedig pob penteulu, heb fethu mwy o hyd,
Ond ymdrech hwy â'r ienctyd, gael ymlid hyn o'r byd;
Heb ddadleu gwagresymau, ond geiriau i gyd bob darn
A ddalio dân a phurdeb, disgleirdeb goleu'r farn."

Morwr.—Nis gwn ddim o hanes John Evans y môr-leidr, ond hynny sydd mewn llyfr bychan gyhoeddwyd yn Stockton tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Dywedir yn hwnnw mai Cymro o Nefyn oedd John Evans. Dechreuodd ei yrfa fel môr-leidr tua thueddau Jamaica. Dygodd gweh i ddechre, ac yna dygodd long. Aeth i dy tafarn ar y lan unwaith, ac ebe'r wraig wrtho,—"Gobeithio y dowch yn fuan eto." Daeth y noswaith honno, a lladratodd hynny oedd ganddi. Bu'n gwibio ymysg ynysoedd yr India Orllewinol yn hir, gan ymosod ar longau Spaen. Saethwyd ef yn y diwedd gan un o'i wŷr ei hun—yr hwn oedd wedi digio wrtho,—er gulan i'r criw lladronllyd.

H. Bonshall.—Darllennais eich traethawd. Nid wyf yn hoffi ei arddull nac yn cydymdeimlo a'i fater. Gallwn feddwl eich bod yn ceisio dynwared arddull Carlyle; efallai eich bod rhy ieuanc i weled mor arwynehol ydyw Carlyle mewn gwirionedd, ni ddylai neb fod yn rhy ieuanc i wybod mai arddull na ddylid ei hefelychu ydyw ei arddull. Nid wyf yn credu mai bendith i'r byd fyddai cael pawb i siarad Saesneg. Mor bell ag y mae crefydd, meddwl, a llenyddiaeth yn mynd, buasai'n anffawd fawr i'r byd. Yr wyf wedi hen alaru ar y ffilioreg glywir mor aml,—mai o'r Sais y mae gwaredigaeth y byd i ddod. Ni chlywais neb ond rhai na wyddent ddim ond Saesneg yn dweyd mai Saesneg ddylai fod yn iaith y byd, ac na ddylai'r Gymraeg, o bob iaith, fyw. Nid ydyw hynny ond rhywbeth tebyg i ddweyd y buasai'n dda i'r byd pe buasai'r Persiaid wedi difodi cenedl fechan y Groegiaid. Cydmeiwch feddwl a llenyddiaeth Cymru Seisnig â rhai Cymru Gymreig, a bernwch drosoch eich hun.

T. T.—Y mae *okeynur* yn eithaf gair am *bicycle*, am a wn i. Nid oes ond dau reswm yn ei erbyn. Yn gyntaf, ni dderbynnir ef gan y wlad. Yn ail, y mae llawer gwell gair nag ef mewn arferiad, sef ceffyl haiarn. Gwna hwn y tro am *bicycle* a *tricycle*,—nid olwynion yn unig ydyw'r rhai hyn.

Gwyrfai.—Nid wyf yn rhwystro ysgrifennu "Llundain" a "Phrydain" a "Rhufain," yng Nghymru, os dewiso ysgrifenwyr yr erthyglau. Y mae digon o resymau dros y ffurfiau hyn, fel dros y ffurfiau arferol. Eithr byddaf yn newid "Rhydychain" bob amser, gan deimlo'n sicr mai mewn camgymeriad neu mewn anwybodaeth yr ysgrifennwyd ef.

G. B. (Dwyran).—Yr wyf yn hoffi'r erthygl, y mae gwaith mauwl arni. Byddai'n dda gennyf gael eich enw dani, er nad ydyw hynny yma nac acw.

Alaw Trefor.—Diolch yn fawr. Bydd yr hen alaw swynol yn y rhifyn nesaf. Yr wyf yn sicr y bydd yn dda gan filoedd ei chael.

Alcanwr (Cwmbwrla).—Gofynna Alcanwr (1) Ym mha le y gall gael darlithiau David Charles Davies ar Gristionogaeth, ac am ba bris. (2) Beth sydd yn graig rhwystr i gyhoeddi gweithiau Islwyn. (3) Ym mha le y ganwyd y Parch. T. J. Williams (Myddfai), a beth oedd ei oed pan yn marw. Pwy a'i hysbysa?

Pryderi Fab Pwyll.—Nid oes eiriadur, rhad na drud, yn esbonio Cymraeg y Canol Oesoedd. Y mae'r Dr. W. O. Puw yn esbonio llawer o eiriau Dafydd ab Gwilym, ond synnwch at rai o'i darddiadau. *Grammatica Celtica* Zeuss a *Lectures on Welsh Philology* Rhys ydyw'r llyfrau goreu ar yr iaith. Nid ydyw gweithiau'r beirdd Cymreig wedi eu cyhoeddi, rhagor eu hesbonio. Yr wyf yn ceisio rhoddi enghreifftiau o bob oes yn y cylchgrawn hwn. Hyd nes y cawn lyfrau safonol,—

"Rhown ein goleu gwan i'n gilydd,
Ar hyd y nos."

Cyfaill.—Dau lyfr sydd wedi ymddangos yng Nghyfres Llyfrau'r Bala, a thri yng Nghyfres y Werin. Gwelais lawer tro grybwylliad nad ydyw ffeithiau rhai o honynt yn gywir; ond hyd y gwn i, nid oes dim yn yr un o honynt ond yr union wir. Mor bell ag y mae a fynno fi â'r gyfres yr wyf yn desgrifio pethau welais â'm llygaid fy hun; ac y mae rhai beirniaid, gyda sicrwydd anwybodaeth, yn cyhoeddi mai pethau anhygoel yw pethau welir bob dydd mewn gwledydd heb fod fil o filldiroedd o Gymru.

X.—Ie, torri croes ar ol eu henwau wnai brenhinoedd unwaith. Ni ddylid casglu oddiwrth hyn nas gallent ysgrifennu, er mai ychydig iawn yn sicr, ond gwŷr eglwysig oedd yn ddigon dysgedig i dorri eu henw. Torrai pob un lun croes,—arwydd eu ffydd,—a doi eu hysgrifenyddion i dorri enw pob un wrth ei groes. Ond heddyw, arwydd anallu i dorri enw, nid arwydd ffydd, ydyw'r groes.

G. R. H.—Enw ymysg teilwriaid ydyw "chwipio'r gath"; ac, hyd y deallaf, mynd ar deith tailiwr trwy Sir Fon ydyw ei ystyr.

Llyfrgarwr.—Y mae Alltud Eifion yn cynnyg saith gyfrol o'r *Gwyliedydd* am dair gini, a thair cyfrol o'r *Brython* am sofren,—yr oll wedi eu rhwymo.

Dyma englyn arall y Brud a'r Darogan,—

DERWYDDIAETH.

Drwy Emlyn daw i'r amlwg—Babel gerth
A Beibl gau dichelldrwg,
I'w lyncu draw hen gloncwy drwg
I'r genedl fydd ŵy Morgannwg.

OFERGOELION CEREDIGION.

I roddi syniad am sefyllfa meddwl a moes ein tadau, nid oes dim yn well na rhestr o'u hofergoelion. Edrychir gyda dirmyg ar ofergoelion y dyddiau hyn. Ond dylid cofio mai blaenffrwyth meddwl ein cenedl ydynt.

Os caffai rhywun ddarn o arian ar y llawr, credid fod perthynas agos iddo i farw.

Credid fod y sawl a enid yn y nos yn sicr o weled gweledigaethau yn y nos, megis ysbrydion, claddedigaethau, &c., cyn y byddai farw.

Os digwyddai i rywun glywed y gôg pan y byddai arian yn y llogell, credid y byddai yn lwcus yn ystod y flwyddyn.

Credid fod clywed ci yn udo yn y nos yn arwydd sicr o farwolaeth.

Credid fod clywed ceiliog yn canu yn y nos yn arwyddo marwolaeth.

Os croesai piogen eu llwybr, pan y byddent yn mynd ar neges, credent y digwyddai anhap ar y ffordd.

Credid fod gweled lleuad newydd drwy ffenestr yn arwyddo anlwc yn ystod y mis. Ond os gwelid hi allan yn union ar gyfer, credid y byddid yn lwcus.

Credid fod clywed swn yn y glust—y gloch farw fel ei gelwid,—yn arwyddo fod rhywun agos yn marw.

Os byddai cosi ar y trwyn, credent fod rhywun yn siarad am danynt.

Os deuai buwch a dau lo, credid fod perthynas agos i'r perchennog i farw.

Credid fod gweled cath yn glanhau ei gwyneb yn arwyddo y deuai un dieithr i'r ty.

Os dodwyai iar wy dau-felyn, credid fod anlwc i ddigwydd i'r teulu yn y man.

Os y gwlawiai ar arch ar ddiwrnod angladd, credid fod yr hwn oedd yn yr arch yn ddyn duwiol.

Pan welid ceffyl gwyn, gwncid croes ar y llawr a phoerid i'w chanol. Yna credid y byddid yn lwcus.

Rhoddid llawer o bwys ar yr olwg a geid ar yr oen cyntaf yn ystod y flwyddyn. Os gwelent ben yr oen, credent y byddent yn lwcus. Ond os gwelent y tu ol iddo, credent y byddent yn anlwcus.

Pan welent un frân, pan yn myned ar neges, byddent yn anesmwyth iawn. Ond os gwelent ddwy fran byddent yn llawen, am fod gweled un yn argoeli drwg, a gweled dwy yn arwyddo da. Dyma fel y dywedent,—

Un fran unig,
Siwrnai ffyrnig;
Ond dwy frân ddu
Lwc i fi.

Yr oedd modd i swyno ymaith y drwg. Dyma fel y gwneid,—gwneid croes ar y llawr a phoerid yn ei chanol, yna byddai y drwg wedi ei swyno ymaith.

PEDRO.

ENGLYNION BRUD A DAROGAN.

RHAI o'r dyddiau diweddaf daethum ar draws yr englynion canlynol, ymysg cronfa o ysgrifau hen a diweddar sydd yn fy meddiant. Cyfansoddwyd hwy tuag ugain mlynedd 'yn ol, a dygant oll y penawd—"Englynion Brud a Darogan," gyda'r nod cyfrin /|\ uwch eu pen, a'r cêl-enw "Syr Meirig" o dan yr oll. Credaf mai y diweddar Ceiriog yw eu hawdwr, ond os wyf yn methu, diolchgar fyddaf i'r neb a'm cywiro.

Dyffryn. GWILYM ARDUDWY.

I. LLAWR-Y-GLYN.

E ddaw Llawr-y-glyn rhyw ddydd—yn
O faint na'r Drefnewydd; [fwy
Ni cheir man yn ochr mynydd
Mor fawr yn y "Cymru Fydd."

II. PABYDDIAETH.

Yng Ngwalia efengylaidd—codir
Lle cadarn mynachaidd,
Gwasg, pobol, ac esgob Pabaidd,—
Pan ddaw'r hin y penddua'r haidd.

III. AGERBEIRIAU.

Pan ddaw Llew o'r Byd Newydd—i ruo
Ar raian ein glennydd,
Yn gyrru ein hagerydd
Nid glo ddeil, ond goleu ddydd.

IV.

Y wystrys a ddinistrir,—ond eto
Y daten ddiglwyfir;
Eto y wlad dylodir,
A chlwy' y moch a chlem hir.

V. Y DEGWM.

Pwrs anwyl y personiaid—a roddir
Idd ein hysgol feistriaid;
Yna'n y plwy' ni bydd plaid
Dostach na'r Methodistiaid.

VI.

Mentra Mon ym mhen tro maith—a dyrchu
Sarff Dorchog am unwaith;
Yna'n hyf yn ein hen iaith,
Haul addoli ddaw eilwaith.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD IX. *(Parhad.)*

MARWOLAETH ANGHARAD.

"Paham na wnai fy nhad anghofio golud, a meddwl mwy am gysur ei ferch?"

"Yr wyf yn sicr pe gwelai ni wedi priodi y gwnai faddeu y cwbl i ti."

"Na wnai byth; yr wyf yn ei adnabod yn rhy dda."

"Wel, Morfudd, gallwn fyw heb ei faddeuant. Ond i ni gael ein gilydd, digon yw, onide?"

"Rhaid i mi feddwl am fynd adre, dywedaf wrthyt y tro nesa fy mhenderfyniad ynghylch yr hyn a ofynni."

"Pa bryd y'th welaf eto, Morfudd?" gofynnai Dafydd, gan ei harwain o'r ystafell.

"Pwy wyr? Nis gallaf roddi un addewid."

"Yr wyf fi wedi cael newydd drwg heddyw, sef, fod Angharad, merch Ifor Hael, wedi marw yn Lleiandy Llangoed. Clywaist fi yn son am dani, yr oedd wedi ei chwbl urddo yn fynaches ers rhai misoedd bellach. Rhaid i mi fynd yno yforu, ac efallai y byddaf yno am dridiau neu bedwar; ond yr wyf wedi meddwl am gynllun iawn i'th hysbysu pa bryd y byddaf wedi dychwelyd."

"Dyma ni yn y ffordd rwan, rhaid i ni siarad yn ddistaw a bod ar ein gwyliadwriaeth," meddai Morfudd.

"Rhaid. Ie, dyna oeddwn yn mynd i ddweyd. Y mae y Glyn i'w weled o ffenestri Eithinfynydd, onid ydyw?"

"Ydyw."

"Wel cofia di ——. Mae rhywun yn dod i'n cyfarfod; llithra i'r gwrych fan hyn," meddai Dafydd yn frysiog gan dynnu ei fantell dros eu pennau yn y tywyllwch. Aeth llanc hanner meddw heibio gan fwmian, —"Myn gafr, mi weles i rywun yn mynd o mlaen i yndê."

Wedi iddo fyned ymhell o glyw daeth y ddeuddyn allan o'u lloches, ac aeth Dafydd ymlaen gyda'r hyn oedd ar fedr ddweyd. "Ie cofia di edrych bob nos, i gyfeiriad y Glyn, pan y bydd wedi tywyllu, ac os gweli di oleu yn ffenestr yr ystafell y bum ynddi heno, gwybydd y byddaf fi yno yn dy ddisgwyl. Casglaf bentwr o danwydd a rhoddaf hwynt yn ffagl, yn goelcerth. Ha fel y dychrynna rhai pobl o amgylch pan welont oleu yn ystafell yr ysbryd. Lle iawn wyt wedi ei ddewis yn wir, Morfudd."

"Ac os na ddeuaf mewn atebiad i'th arwydd, gwyddost mai rhwystrau fydd ar y ffordd." Yr oeddynt erbyn hyn wedi cyrraedd porth a arweiniai drwy ydlan Eithinfynydd, drwy yr hon yr oedd Morfudd am fyned i mewn.

"Ffarwel am ychydig, fy anwylyd," ebai Dafydd, gan ei chusanu, "a gobeithio y byddi yn barod i roi ateb gwahanol i mi y tro nesa. Yr wyf wedi gofyn i ti yr un peth lawer gwaith, ufuddha i dueddiad dy galon." Gyda hyn dyma dwrf mawr yn y gwrych gerllaw iddynt; hanner cant neu ychwaneg o chwiaid yn clegar ar unwaith, am iddynt gael eu haflonyddu yn y gwrych lle yr oeddynt yn cysgu. "Rhed, rhed, Dafydd!" meddai Morfudd, "byddent allan yn meddwl fod rhywun yn dwyn ffowls."

Drannoeth cychwynnodd Dafydd o Lys Gwilym i Langoed. Yr oedd ymddanghosiad gwahanol iawn arno yn myned at yr Abad y tro hwn rhagor pan ar ei daith yn chwilio am Angharad. Bryd hynny dyn o wisgiad syml fel gwas, heb na march na neb yn ei ganlyn, a gurai yn y porth; ond heddyw gwisgai fel boneddwr, marchogai ar anifail ardderchog, a'i was wrth ei ochr ar farch arall. Agorwyd iddynt gan yr hen borthor, ac wedi rhoddi gorchymyn i lanc fyned a'r ceffylau i'r ystabl, arweiniodd Dafydd a Phrys i'r cyntedd.* Yr oedd y cyntedd yn llawn o bobl, ac arweiniwyd Dafydd i mewn i'r fynachlog i ystafell yr Abad, yr hwn a'i derbyniodd yn llawen.

"Y mae yn hyfrydwch gennyf dy weled eto, fy mab," meddai yr Abad, gan gymeryd gafael a'i ddwylaw yn nwylaw Dafydd, "Ac er mai ar achlysur o farwolaeth ein hanwyl chwaer yr wyt wedi dyfod, y mae yn dda iawn gennyf dy weled. Y mae hi, cred fi, mewn gwell byd na ni, ac y mae yn fwy o ennill iddi o lawer ymadael o'r Lleiandy i'r nefoedd, nag a fuasai iddi fyned yn ol i dy ei thad, i fyd y temtasiynau. Yr oedd yn hollol barod i ymadael; wedi arwain bywyd pur er pan yma, a'i phechodau i gyd wedi eu maddeu."

* *Cyntedd.*—Ynglyn a mynachlogydd byddai ystafell fawr wedi ei hadeiladu oddi allan, ac yn anibynnol ar y fynachlog ei hun. Defnyddid hon i roddi llety noson i fforddolion - marchnadwyr, pedleriaid, clerwyr, cerddorion—a dramwyai o fan i fan, ac a ddeuai at fynachlogydd i ddeisyf bwyd a llety. Ni byddai yn yr ystafell ond byrddau a meinciau, a chysgai y lletywyr ar y brwyn a orchuddiai y llawr. Ond byddai ymwelwyr o fri yn cael eu croesawu i'r fynachlog heb orfod aros yn y cyntedd.—*English Wayfaring Life in the XIVth Century.*—Jusseraud.

"Mae hynny yn ddiameu," atebai Dafydd.

"Mae'n debyg dy fod yn dymuno gweled yr hyn sydd farwol o honi. Gyda llaw, ni wyddwn mai dy gares ydoedd, nes yr hysbysodd y Brawd Brian fi wedi iddi farw ddoe, ac yna anfonais Garadog atat ar unwaith. Y mae mewn ystafell fechan gerllaw yr eglwys, daw Brian i'th arwain yno."

Yr oedd Brian hefyd yn datgan ei lawenydd wrth weled Dafydd, er ei fod o dan yr amgylchiadau yn ceisio rhoddi ffrwyn ar ei hoenusrwydd naturiol.

"Nid wyt yn edrych ddim gwaeth er pan fum yma o'r blaen, Brian," meddai Dafydd gan fyned ar ol y brawd.

"Nac ydwyf, mi wn. Bywyd braf ydym ni yn ei gael, heb ofal byd i'n curio, na themtasiynau i syrthio iddynt, ac edifarhau. Bywyd dymunol yw bywyd y Brodyr Llwydion, Gwilym."

"Dafydd ab Gwilym, os gweli di'n dda."

"O ni wyddwn beth oedd dy enw ond Gwilym."

"Ie, bywyd diofal iawn ydi dy fywyd di, Brian; ond nid wyt yn cael profi blas y teimladau mwyaf swynol ar y ddaear. Os wyt yn osgoi y chwerw, nid wyt yn cael y melus ychwaith. O'r hapusrwydd eithafol! O'r hyfrydwch angherddol! O swyngyfaredd serch na wyddost ddim am dano! Nis gallwn i arwain bywyd fel tydi, 'Melus; moes mwy,' meddaf."

"Ie ond 'cheir mo'r melus heb y chwerw,'" atebai Brian.

"Waeth er hynny, dowch a'r ddau ynte, ond rhaid i mi gael y melus. Ac hefyd, yr wyf yn meddwl fod eich bywyd chwithau yn hynod wahanol i'r hyn yr arfaethodd eich sylfaenydd, Ffransis Sant, iddo fod. Heb esgidiau am eich traed, na gwisg esmwyth; heb arian, na thy i drigo ynddo, ond byw ar y lluniaeth a'r llety a dderbynioch gan garedigrwydd am eich gweithredoedd da."

"Ie, felly yr oedd yn siwr, ond rhaid i ni newid gyda'r oes. Os yw y mawrion yn hoffi adeiladu mynachdai, a rhoddi aur ac arian i ni i drigo ynddynt, ffolineb ynnom fyddai gwrthod y fath fendithion. Y mae digon o'r urdd yn fynachod crwydrol o hyd. A pha un, meddaf, ai y mynachod crwydrol hyn,—sy'n bla ar y wlad—ynte nyni sydd oreu ein bucheddd?"

"Rhaid i mi gyfaddef mai chwi o lawer."

"Wel dyma lle y gorwedd dy gares yn dawel," meddai y mynach gan agor drws yr ystafell.

Taflodd y mynach ei hwd oddiar ei ben, a daliai Dafydd ei gap yn ei law ac aethant i mewn. Edrychai Angharad yn swynol iawn, yn hollol fel pe buasai yn cysgu, a gwên ar ei gwyneb. Safai croes arian wrth ei phen, ac un arall wrth ei thraed, ac yr oedd y chwiorydd wedi gwneyd llun croes o flodau gwynion, a'i gosod i orffwys ar ei mynwes. Gorchuddid yr ystafell, nen a pharwydydd, a llian claerwyn, a llanwyd y lle â pherarogl.

"A fuaset ti yn hoffi i mi aros yma gyda thi?" gofynnai Brian.

"Nid oes angen am hynny, frawd; eisteddaf yma fy hunan i wylio a myfyrio am ysbaid," atebai Dafydd.

Aeth Brian ymaith, ac eisteddodd Dafydd wrth y ffenestr, trwy yr hon y chwareuai pelydrau yr haul ar ei wallt aurfelyn. Meddyliai am yr amser gynt pan oedd ef ac Angharad yn mwynhau eu hunain ar lanerchau prydferth tir Maesaleg. Ond heddyw yr oedd ef yn gorfod edrych arni yn gorwedd yn fud, oer, a dideimlad; wedi cefnu ar fwyniant a stormydd y byd hwn am byth. Fel arfer, pan y byddai ei feddwl yn rhedeg yn ddwys ar rywbeth neillduol, torrai allan mewn barddoniaeth. Tynnodd lyfr bychan o'i logell, ac yno wrth eistedd yn ystafell y marw, cyfansoddodd y farwnad swynol i ferch ei noldwr, Ifor Hael.

PENNOD X.

Y BRIODAS YN Y LLWYN.

Daeth Ifor o Faesaleg, gydag amryw o'i gyfeillion, i Langoed i gladdu ei ferch, ac wrth gychwyn yn ol adre gwnaeth ei oreu i geisio gan Ddafydd ddychwelyd gydag ef i'r Deheudir, ond nis gallai Dafydd adael ei Forfudd er cymaint oedd ei serch tuag at Ifor. Felly, dychwelodd Ifor a'i gyfeillion adre, ac aeth Dafydd gyda Madog Benfras, yr hwn oedd wedi dod i'r cynhebrwng, yn ol i lys Gwilym Llwyd.

Cychwynasant o'r Abaty yn y bore, a chyda'r nos yr un diwrnod aeth Dafydd at y Glyn, i gyflawni ei addewid. Casglodd bentwr mawr o danwydd, ac wedi iddi dywyllu digon rhoddodd dân ynddo, ac aeth allan i'r goedwig gerllaw i wylio y goelcerth, ac i edrych a ddeuai rhywun heibio i weled beth oedd y tân. Nid oedd neb yn ddigon gwrol i wynebu yr ysbryd, darfyddodd y tân ac aeth Dafydd i mewn drachefn. Yr oedd yn

gweled pob munud yn awr, hyd nes y daeth Morfudd.

"Ple buost ti cyhyd, fy anwylyd?" meddai, gan fyned i'w chyfarfod at y gamfa.

"O Dafydd! tair gwaith er pan gychwynnais bu gorfod i mi ymguddio rhag cael fy ngweled ar y ffordd. A'r tro olaf fe safodd dau ddyn gerllaw y fan lle'r oeddwn, i ymddiddan am y goleu mawr oeddynt wedi ei weled yn y Glyn heno. Cytunasant a'u gilydd i ddod yma y tro nesaf y gwelant ef i edrych beth ydyw, nid oedd arnynt ofn o gwbl, meddant."

"Dim ofn yn wir. Buasent yn dod yma heno yn ddioedi oni bai fod arnynt ofn. Dim perygl y deuant yma, os na byddant wedi meddwi, ac yn dyfod bron yn ddiarwybod iddynt eu hunain."

"Pa bryd y deuaist yn ol?"

"Heddyw. Bum chwe diwrnod i ffwrdd, ac yr oedd fy hiraeth am danat yn fawr. A oes gennyt ateb gwahanol i mi erbyn hyn, Morfudd?"

Edrychodd yr eneth allan drwy y ffenestr, fel pe yn ymresymu rhyngddi a'i hun beth i'w wneyd. Gwyddai nas gallai gael cysur ond gyda Dafydd, edrychai pob man yn oer a difywyd hebddo, ac yr oedd wedi dod i'r Glyn y noson honno gyda llawn fwriad i wneyd fel y dymunai. Ond pan ddaeth yr adeg teimlai yn anhawdd cydsynio; nid o ran ei theimlad ond ofnai y canlyniadau.

"Morfudd! fy nuwies! llefara yr hyn y mae dy galon yn ei ddywedyd, a thyred gyda mi."

"Pe cydsyniwn a'th gais Dafydd, ymha le y byddai y briodas, pa eglwys, na ddeuai fy nhad i wybod, ac yn hatelid?"

"Paid pryderu ynghylch pethau fel yna, f'anwylyd. Yr wyf fi wedi parotoi pob peth. mae y fodrwy yn fy llogell, y funud yma, Nid oes eisiau myned i'r eglwys i briodi; paham nas gallwn fyned drwy y ddefod yn y llwyn?"

"Yn y llwyn? O na."

"Ie, yn y llwyn. Gwrando Morfudd; Cymry ydym ni, Brythoniaid, ac estronol yw y grefydd Rufeinig hon sydd yn ein plith, a'r eglwys. O ba le y daeth? Chwilier Cymru o ben Caer Gybi i ben Caer Dydd, ac ni cheir un ardal ynddi am ba un y gellir dweyd,—dyma y fan lle y gwreiddiodd, y tarddodd allan, ac y tyfodd yr eglwys sydd yn awr a'i changhennau yn ymestyn i bob cwr o'r wlad. Na, nis gellir byth ddweyd fel yna. Yr oedd ein hynafiaid yn byw, addoli, priodi, a chladdu, cyn i'r estrones hon erioed sangu tir ein Cymru fach. A phaham nas gallwn ninnau wneuthur yr un fath, a bwrw ymaith o'n gwlad 'y dieithr beth hwn' fel ysbwriel, y hi a'i phlant cyfreithlawn a naturiol, y rhai sydd yn cyflawni mwy o droseddau eu hunain, nag y maent yn ei faddeu i ereill. Beth mor gysegredig i briodi ynddo, fy Morfudd, a llwyn o dderw uchelfrig, gyda haul y nefoedd yn gwenn arnom yn ddirwystr, ac yn ein bendithio? Y mae gennyf un i weinyddu y gwasanaeth ac yna af a thi i gell meudwy i aros hyd nes y bydd yn ddiogel i ni gychwyn i'r Deheubarth."

"Dynion drwg ydyw y meudwyiaid, yn ol yr hyn a glywais ac a welais," atebai Morfudd.

"Y mae hwn yn feudwy gwirioneddol a chanddo lythyrau oddiwrth y Pab.* Yr wyt yn gweled, pe cychwynnwn ar unwaith tua'r Deheudir, y tebygolrwydd ydyw y caem ein herlid, a'n goddiweddyd, a chai dithau dy ddwyn adref."

"Ym mha le y mae cell y meudwy hwn?"

"Yr ochr arall i'r ynys, mewn craig gerllaw Llangoed, ac ni all neb ddod o hyd i ni yno. Yn y gell hon yr ymguddiodd Merfyn Frych pan orchfygwyd ef am dymhor gan filwyr Egbert, ac y chwiliwyd am dano ym mhob congl o'r ynys. Yr wyf fi dan lw i beidio datguddio i neb ym mha le y mae, ond os bydd arnaf angen am ymguddfa ar unrhyw adeg y mae rhyddid i mi i fynd yno. Y ffordd y deuais i i wybod am dani oedd drwy achub bywyd yr hen feudwy pan ymosodwyd arno gan ddau leidr penffordd. Yn ei ddiochgarwch i mi am ei achub aeth a mi gydag ef a danghosodd y gell, a dywedodd nad oedd neb ond ef a minnau yn awr yn fyw yn gwybod am dani. Gwna, fy morwyn wen, gydsynio â'm cais; nis gallwn ymgyfarfod fel hyn yn hir eto, bydd rhywun yn sicr o ddod i wybod, ac ni wyddis pa beth a wna Madog Lawgam i'n gwahanu."

Ond ni wnai Morfudd addaw y noson honno, er holl daerineb Dafydd. Cyfarfuasant a'u gilydd lawer gwaith wedi hyn, weithiau yn y llwyn, a thro arall yn y Glyn. Yr oedd son am y goleu rhyfedd a welid yn y Glyn, ar rai nosweithiau, wedi mynd dros yr holl wlad. Un noson, pan oedd Dafydd yn y Glyn yn disgwyl am Morfudd, yr oedd y tân wedi llosgi ac wedi diffoddi, ac yntau yn gwylied yn ddistaw yn y tywyllwch.

* Yn y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg, amlhaodd meudwyiaid gymaint fel yr oedd yn ofynnol rhoddi ryw atalfa arnynt. Pan y blinai dyn weithio, troai yn feudwy, trigai mewn cell, nid mewn lle unig, ond y rhan amlaf yn ymyl tref ar y ffordd fawr, ac estynnai ei law at y rhai a elai heibio am roddion. I atal y drwg hwn cyhoeddodd y Pab fod yn rhaid i bob meudwy gael llythyrau o awdurdod o Rufen, ac fod pob marchog nas gallai ddangos y cyfryw pan ofynnid am danynt yn agored i gosp.—Jusseraud.

Meddyliodd ei fod yn clywed ryw sibrwd heb fod ymhell oddiwrtho; aeth yn nes i dwll y ffenestr, a gwrandawodd; clywai rywun yn siarad, a gwrandawodd drachefn.

"Gwell gennyf nag arian yr hen Fadog pe cawn allan ymha le y bydd yn mynd, pe ond i boeni ychydig ar y cena balch Dafydd ab Gwilym," meddai y llais.

"Ni waeth gen i am dano, cael yr arian ydi fy amcan i. Yr wyf yn gweled yr hen Lawgam yn cynnyg yn no dda wrth addaw punt os darganfyddwn ymha le y mae y ferch yn cyfarfod â'i chariad,' atebai llais arall.

"Oni bai am yr arian ni buaswn innau chwaith yn dod i'r lle melldigedig hwn, byddaf yn dechreu arswydo oriau cyn dod, a dyma ni wedi bod yma dair noson heb weled dim."

"Ie, ond ni ddaethom yma ar noson y tân o'r blaen, yr oedd arnat ti ormod o ofn."

"Doeddet tithau ddim gwell, paid a meddwl."

"Nac oeddwn, 'rwyn cyfaddef. Ond heno yr wyf yn teimlo yn ddigon dewr i fynd i mewn i 'stafell yr ysbryd; ddoi di?'

"Dof, os wyt ti'n mynd."

Edrychodd Dafydd drwy y ffenestr, a gwelodd ddau ddyn yn mynd heibio y gongl. Yn ffodus, yr oedd y drws yr ochr arall i'r ystafell, a thra yr oeddynt hwy yn myned heibio y talcen, ymwthiodd Dafydd allan drwy y ffenestr. Aeth yn ei flaen i gyfeiriad y gamfa mor ddistaw a brysiog ag y gallai er mwyn rhoddi rhybudd i Forfudd. Cyfarfyddodd a hi ar y llwybr yr ochr draw, a dywedodd wrthi ei fod yn ofni eu bod yn cael eu gwylied gan ddau ddyn oedd yn y Glyn ar y pryd. Gyda hynny dyma ysgyfarnog yn rhuthro heibio, a rhoddodd Morfudd ysgrech fechan o ddychryn. Mewn eiliad daeth y ddau ddyn allan o'r Glyn, gan waeddi eu bod wedi eu dal.

"Tyrd, Morfudd," meddai Dafydd, gan godi ei fantell, a'i gleddyf, a gafael yn ei llaw, a chychwyn rhedeg i lawr y llwybr, tra y dilynai y ddau ar eu holau.

"Paid gwaeddi, y ffwl," meddai un o'r ddau wrth y llall, "neu bydd rhywrai ereill yn dod i'n helpu i'w dal, ac yna byddai raid i ni rannu yr arian."

Wedi hyn dilynasant yn ddistaw, ond yr oedd Dafydd a Morfudd yn ennill tir arnynt o ddigon, ac wedi rhedeg rhai milldiroedd gwelsant mai ofer oedd eu gwaith a throisant yn ol.

Parhaodd Dafydd a Morfudd i redeg ymlaen am lawer o amser wedi i'w herlidwyr ddychwelyd. Yr oedd yn noson hyfryd yn Awst, ac nid oedd rhedeg ychydig filldiroedd yn fawr o orchest i Forfudd na Dafydd. Pan deimlasant eu bod yn lled ddiogel i orffwys am ychydig, troisant i mewn i berllan oedd wrth ymyl y ffordd, a rhoddodd Morfudd ei phwys ar goeden tra y tynnai Dafydd ddau afal addfed oddiar y brigyn,—

"Dyma ni fel Adda ac Efa yng ngardd Eden, ond mai fi sy'n rhoddi yr afal i ti, yn lle ei gael gennyt,—

"Efa wyd, y ddyn wiw fau,
Adda, f'anwyl, 'ddwyf finnau."

"Pwy oedd y dynion rheini tybed?" meddai Morfudd, gan fwyta yr afal.

"Yr wyf yn meddwl mai dau o weision Eithinfynydd oeddynt. Beth wyt ti am wneyd, Morfudd, am fyned ymlaen, ynte yn ol? Rhaid i ti ddewis heno rhwng dy dad a minnau. Gobaith gwan iawn sydd gennyf y caf dy weled eto i ymddiddan â thi os ei yn ol, wedi i'r ddau hyn ddweyd eu stori wrth dy dad."

"Yr wyf wedi cychwyn yn rhyfedd, yn hollol ddifeddwl ac anfwriadol, ond mae fy nghalon yn dweyd nad oes dim troi yn ol. Ymlaen, ymlaen, bellach, Dafydd."

"Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar o'm calon i'r dynion hynny, pwy bynnag oeddynt, am wneyd i ti gychwyn er dy waethaf. I ba le yr awn nesaf, fy ngeneth i? A wyt wedi blino? Feallai mai gwell i ni droi i'r gwesty nesaf a gawn er mwyn i ti gael gorffwys."

"Na, na, na, paid a throi i unlle. Os gallwn drwy ryw fodd fyned i ben ein taith heb i un creadur byw ein gweled goreu oll. Faint o ffordd sydd o'r fan hyn i gell y meudwy hwnnw yr oeddit yn son am dano?"

"Y mae llawn ddeng milldir."

"Gallaf gerdded hynny eto yn hawdd, mae'r afal yma wedi fy adgyfnerthu."

Cychwynasant drachefn ar eu taith, a dewisodd Dafydd y llwybrau mwyaf dirgelaidd y gwyddai ef am danynt, a chyrhaeddasant gell y meudwy cyn i'r wawr dorri, heb gyfarfod a neb ar y ffordd. Ni fuasai neb yn dychmygu fod cell yn y fath le; yr oedd yn rhaid iddynt fyned hyd lwybr cul, fel llwybr defaid hyd ochr y graig wrth ben y môr, hyd nes yr oeddynt agos hanner ffordd i lawr, ac yna esgyn ychydig drachefn i gilfach. Ac yn y gilfach yr oedd y fynedfa i'r ogof, yr hwn oedd yn cael ei guddio gan ddraenen fawr. Aethant i mewn, ac ar hyd llwybr trofaog yr hwn o'r diwedd a derfynnai mewn ystafell fechan lwm, dywyll, a thwll wedi ei dorri drwy y graig uwchben i'r awyr agored. Yr oedd mor oer nes y crynnai dannedd Morfudd, a chauai ei mantell yn fwy clos am dani. Ystôl, bwrdd pren, canhwyllbren, a llun croes ar y pared ydoedd unig ddodrefn yr

ystafell. Arweiniodd Dafydd Forfudd i un pen i'r ystafell, a chyda hynny agorodd drws yn y pared, gan daflu ffrydlif o oleuni arnynt, a daeth hen wr penwyn, a barf wen laes, drwyddo.

"Ai tydi sydd yna fy nghyfaill Dafydd?" gofynnai, "pwy arall a allasai fod?"

"Ie, Myrddin, myfi sydd yma yn dymuno lloches i mi a'm cydmar," atebai Dafydd.

"Dewch ymlaen i'r fan yma," meddai y meudwy gan fyned yn ol i'r ystafell. Y fath wahaniaeth a welai Morfudd rhwng y ddwy ystafell! Yn yr olaf yr oedd tân siriol yn llosgi a chanwyll yn oleu ar y bwrdd, cadeiriau cysurus i eistedd arnynt, a mainc lydan ar yr hon yr oedd dau neu dri o gwrlidau crwyn, yr hon yn ddiameu a wasanaethai fel gwely i'r meudwy; ac mewn cwpwrdd yn y gongl yr oedd pob llestr angenrheidiol at barotoi ymborth. Wedi i'r meudwy ddiffodd y ganwyll gwelsant fod ffenestr hir gul wedi ei thorri yn ochr y graig yr hon a oleuai yr ystafell yn ystod y dydd. Gwelent drwyddi yn awr y wawr yn torri draw, a'r môr yn llenwi ar y draethell islaw.

"Dyma ystafell gysurus," meddai Morfudd wedi i'r meudwy eu gadael eu hunain.

"Ystafell y meudwy ydyw y llall, a phe buasai i rywun ddigwydd cael hyd iddi ni buasant byth yn dychmygu fod yma ystafell arall. Y mae y darn craig yna sydd yn troi ar ei cholyn mor anweledig o'r tu allan i'r ystafell yma, ac yn edrych fel y creigiau ereill sydd o amgylch yr ystafell arall. Ystafell yr athronydd yw hon; y mae y meudwy yn ddyn dysgedig ac er mwyn cael llonydd a chysur i fyned ymlaen gyda'i astudiaeth y gwnaeth hon. Bu am ddeng mlynedd yn ei naddu o'r graig, ac y mae eto yn gwneyd ryw welliant beunydd. Yn yr ystafell arall y bu Merfyn Frych yn cuddio rhag ei erlidwyr. Dyma fe'n dod yn ol."

Wedi ychydig ymddiddan rhyngddynt, enillodd y meudwy edmygedd Morfudd drwy ei hynawsedd a'i diriondeb. Hysbysodd Dafydd ef o'r holl amgylchiadau, a dywedodd yr hen wr ei fod yn cydymdeimlo â hwy, a fod croesaw iddynt wneyd eu cartref yn ei gell hyd y mynnent. Huliodd Myrddin y bwrdd a bara a chig a medd, ac wedi iddynt orffen bwyta, parotodd y meudwy ei hun, i fyned i Lys Gwilym i hysbysu cyfeillion Dafydd ymha le yr oedd, hynny yw, ei fod yn ddiogel, ac i beri i Fadog Benfras ddyfod yno yn ddioed. Cyrhaeddodd Myrddin Lys Gwilym cyn canol dydd, a chychwynnodd Madog ar ei geffyl tua Llangoed cyn pen ychydig funudau wedi dyfodiad y meudwy. Nid oedd Madog i fyned i'r gell, ond addawodd Dafydd ei gyfarfod wrth afon y Rhyd. Dafydd oedd yno gyntaf, a phan welodd ei gyfaill yn dod o bell, aeth ymlaen i'r gwesty i'w aros.

"Wel Dafydd bach, wyt ti wedi troi yn yspeiliwr?" meddai, gan ddisgyn oddiar ei farch.

"Ydwyf, ac af i nol yr ysbail yn awr i ti ei weled. Tyrd di, ar ol it gael llymaid o ddiod, i'r llwyn acw, byddwn i yn dy ddisgwyl. Yr wyf dan lw i beidio mynd a thi i'm lloches, Madog."

"Yr wyf yn gwybod hynny, Dafydd, dywedodd y meudwy wrthyf, ac nid ydwyf yn cymeryd yn angharedig arnat ti."

Aeth Dafydd i gyrchu Morfudd i'r llwyn, a chyn hir gwelent Fadog yn dyfod atynt.

"Dyma y person sydd yn mynd i'n priodi," meddai Dafydd.

"Nid ydyw hwn yn debyg i berson, y mae yn fwy tebyg i fardd, golwg lled anghall fel bydd arnynt yn gyffredin, a chochliai dlim na welais ef yn Eithinfynydd," atebai Morfudd yn chwareus.

Yr oedd yr haul yn gwenu a'r adar yn canu, ac awel beraroglaidd yn dod drwy y coed oddiar y gwair oedd yn gorwedd ar y meusydd, a'r gloywon byw a'r gwibed yn hedeg o amgylch yn ddioglyd yn y gwres.

Safai Madog Benfras yn bennoeth o dan gysgod derwen gref, a'r llyfr yn ei law, a phenliniai Dafydd a Morfudd ar y gwelltglas o'i flaen, tra y darllennai y gwasanaeth priodas wrth eu pennau, ac y bendithiodd hwynt. Yr oedd Madog yn teimlo yn wirioneddol y geiriau a lefarai, ac yn gweddio o'i galon ar i Dduw eu bendithio. Edrychai Morfudd yn hardd yn ei gwisg wen, ei gwallt aurfelyn yn goron blethedig ar ei phen, a'i llygaid gleision yn edrych yn bryderus, ac eto yn garuaidd, ar Ddafydd.

Ar ol gorffen y seremoni ffarweliodd Madog â hwynt, a hysbysodd Dafydd ei fod yn cychwyn tua'r Deheudir drannoeth.

"Deuwn ninnau hefyd mor fuan ag y gwelwn ein ffordd yn glir," meddai Dafydd.

"Hir oes a phob llwyddiant," gwaeddai Madog, gan chwifio ei law wrth fyned ymaith.

DAFYDD A MORFUDD.

Y myd wen, mi yw dy wr,
A'th was, i'th burlas barlwr.
Dy loches cynnes yw'r coed,
Tegan wyt ti mewn tewgoed!
A'th drws ail Fenws feinir,
Feddal wisg o'r haf-ddail ir.
Efa wyd, y ddyn wiw fau,
Adda, f'anwyl, 'ddwyf finnau

ABATY TINTERN.

"Nid oes yno, o gôr i gangell.
Un erddygan ond y gwynt."

ALUN.

CYMRU.

Cyf. III. AWST 15fed, 1892. Rhif 13.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

XI. YR HEN GREFYDD.

(Parhad).

AR awr claddu, tafient bob peth oedd anwyl gan yr ymadawedig i'r tân,—hyd yn nod creaduriaid byw. Ac ychydig cyn amser Iwl Cesar, pan fyddai'r seremoniau claddu drosodd, llosgid y caethion a'r beth dyn sylw pawb yn ei ddarlun ydyw yr aberthu bodau dynol a dyfodiad derwyddiaeth o Bryden. Am aberthu bywyd dynol, nid oes gysgod amheuaeth nad oedd y derwyddon yn ei wneyd. Yr oedd Iwl Cesar yn hollol gyfarwydd ag aberthu dyn er mwyn ei wlad, gwyddai am ystori'r Rhufeiniwr lamodd i'r agen, i achub Rhufen trwy aberthu ei fywyd



XII. YR HEN ALLOR.

gweision anwylaf gan y marw, fel y dilynent ef i'r byd arall yr oedd y derwydd yn ceisio tremio iddo trwy'r tywyllwch mawr.

Rhoddir y darluniad hwn o grefydd y Celtiaid gan un a welodd ei seremoniau, a chan un sydd yn ysgrifennu heb ragfarn, ond gyda chywreinrwydd a syndod. Y ddau Ac y mae eto arferion ymysg y Cymry a'r Gwyddelod, fel y cawn weled, sydd yn barhad o'r peth oedd unwaith yn llosgi'n fyw. Am losgi hoff bethau'r marw ar ei fedd, neu ar y lle y llosgwyd ei gorff, gwneir hynny ym Mhatagonia hyd heddyw. Ac os aberthid anifel, nid oedd aberthu caethwas ond yr un

peth; dylid cofio fod hyn oll cyn i'r efengyl ddysgu fod pob enaid yn werthfawr ger bron Duw ac yn meddu hawl i ddal cymundeb â Duw.

Y mae dywediad Cesar mai o Bryden y daeth derwyddiaeth yn awgrymu llawer cwestiwn dyddorol. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng crefydd y Celt a chrefydd yr Iberiad? Beth ydyw'r gromlech? Paham y gwanhaodd derwyddiaeth Pryden? Pryd y gwelwyd gwawr yr efengyl? Ond rhaid gadael y cwestiynau hyn i benodau ereill.

XII. YR HEN ALLOR.

Wrth adrodd hanes yr hen allor, rhaid i ni fynd, yn gyntaf oll, at haneswyr estronol. Nid oes Gymro faidd edrych yn ol, ar wawr yr efengyl, i dywyllwch crefydd ei dadau. Dywed Gildas fod yr eilunod yn aros yn ei amser ef, ond ni ddywed ddim o'u hanes. Ond dywedir llawer gan ddieithriaid,—gan Diodorus Siculus, hanesydd llafurfawr oedd yn byw yn Sicily tua hanner can mlynedd wedi geni Crist; gan Strabo, anwyd yng Nghapadocia, ac a dreuliodd oes o dros ddeng mlynedd a phedwar ugain i ddarlunio cenhedloedd y ddaear; gan Tacitus, mab yng nghyfraith y llywodraethwr Rhufeinig goreu fu ym Mhryden, sef Agricola. Dywed y rhain mai allorau gwaedlyd oedd allorau'r Celtiaid, ac mai gwaed dynol a'u cochai. I ennill bendith y duwiau, ac i dreiddio i'r dyfodol, yr oedd yn rhaid aberthu bywyd dyn. Dywedir y byddai'r derwyddon yn hoffi edrych ar ymgreiniadau'r truan aberthid, ar ol rhoi'r ddyrnod farwol iddo, er mwyn gweled oddiwrthynt beth fyddai yn y dyfodol.

Peth cyffredin oedd aberthu gweision pan fyddai eu meistr farw. Felly hefyd aberthid carcharorion, hyd yn nod brenhinoedd, pan fyddai gŵr enwog farw o'i glwyfau mewn rhyfel. Ond er mwyn yr ymadawedig yr aberthid y rhain, nid yn gymaint er dyhuddo'r duwiau. Tybid y byddai'n rhaid i'r rhai aberthid wasanaethu'r marw yn y byd arall. Wedi gwasanaethu ei arglwydd trwy ei fywyd, rhoddid y gwas i farwolaeth ar ei fedd, er mwyn i'r un gwasanaeth gael ei roddi y tu hwnt i'r bedd. Rhoddid y carcharorion i farwolaeth,—llosgid hwy neu cleddid hwy yn fyw o amgylch bedd brenin marw,—er mwyn iddynt fod yn gaethion iddo yn y byd arall. Dyma oedd, o Gaer Droia Homer i balas Tara yn yr Iwerddon, o godiad hyd fachludiad haul. Nid oedd bywyd y byd arall ond parhad o fywyd y byd hwn. Nid oedd yn y byd hwnnw lonydd i'r hwn a garcharwyd, nid oedd y gwas i'w ryddhau oddiwrth ei feistr, yr oedd llais y gorthrymydd i'w glywed o hyd. Byd di-obaith oedd byd yr hen Gymry. O ddwylaw offeiriaid didosturi syrthiai'r truan i ddwylaw duwiau na wyddent am drugaredd; pan adawai ei drueni a'i galedwaith yma, gwyddai y byddai ei feistr a'i chwip wrth ei ben yn y byd arall hefyd. Y mae gwawr dyfodiad yr efengyl yn gan goleuach a phrydferthach i'r hwn edrycho arno o dywyllwch derwyddol yr hen fyd.

Un o brif ofnau'r dyddiau hynny oedd ofn newyn. Hyd amser cydmarol ddiweddar, doi newyn i wledydd y cyfandir,—yn wir gwelir ei wyneb erchyll weithiau hyd yn nod yn ein dyddiau ni,—gan ddifa llwythau cyfain, nes y tyfai glaswellt ar eu llwybrau. Os gadawai y newyn rai, deuai'r pla i ladd yr hwn adewid; a thrugaredd iddo fuasai cael marw'r farwolaeth gyntaf. Nid oes, efallai, afiechydon mwy poenus a marwol na'r afiechydon sy'n dilyn hanner blwyddyn o newyn. Nis gallaf wneyd yn well nag adgoffa'r hyn ddywed yr hanesydd Groegaidd am y pla yn Athens,—tybiai'r bobl oedd wedi dod trwyddo, meddai, nas gallent farw mwy. Yr oedd y pla yn ddioddef mor ofnadwy fel y meddylient fod hyd yn nod Angeu ei hun wedi methu eu lladd.

I wg y duwiau y priodolai'r hen Gymry yr holl ddioddefiadau hyn, ac nid rhyfedd fod eu haberthau'n aml. Ar adeg bendithio'r cynhauaf byddai llwyth neu genedl gyfan yn aberthu aberth mawr. Llenwid gŵr gwellt anferth â dynion, a llosgid hwy'n fyw mewn un goelcerth fawr. Ni ddiflannodd yr aberth hwn yn hollol gyda dyfodiad yr efengyl. Hyd deyrnasiad Louis xiv, yn nechreu'r ganrif ddiweddaf, yr oedd yn arferiad llenwi basged enfawr â chathod, a'u llosgi'n fyw. Digon prin y mae'r aberth ofnadwy wedi diflannu eto. Gall yr ymchwilgar weled olion o hono yn Llydaw; ac yr oedd yn aros, mewn un ffurf, hyd yn ddiweddar iawn yn ucheldiroedd yr Alban. Ar Galanmai byddai gwledd wedi ei hulio ar y glaswellt, adeg gofyn i'r ysbrydion fendithio'r cnwd. Tynnid byrra gwtyn am aberth, a byddai raid i hwn dynnai'r cwtyn neidio deirgwaith drwy'r tân.* Unwaith, llosgasid ef yn aberth byw.

Ymysg y Teutoniaid, mygid rhai euog o bechodau aflan mewn cors. Ymysg y Celtiaid llosgid hwy'n fyw. Os byddai dyddiau aberth yn agos, hwy roddid ar yr allorau, ac ystyrrid fod dynion drwg yn aberth mwy cymeradwy ger bron y duwiau na dynion da. Hyd yr ail ganrif ar bymtheg, yr oedd llosgi am bechod,—mewn enw o leiaf. Ar fryniau

*Cefais lawer o'r cyfeiriadau hyn yn llyfr Elton,—*Origins of English History.*

gororau Cymru rhoddid y drwg weithredwr mewn ty o redyn sych a gwiail, a rhoddid y ty ar dân. Ond gadewid i'r dyn ddianc,—ni ddioddefai, mae'n debyg, ond y dianrhydedd a llosgi ei wallt. Hyd heddyw, mewn llawer man yng Nghymru, "llosgir" dynion. Dyna'r ymadrodd,—"dyn drwg ydyw, bydd yn cael ei losgi cyn bo hir." Gwneir gŵr gwellt, mor debyg i'r gŵr byw ag y medrir, o un wedi llithio gwraig briod neu wedi cyflawni rhyw bechod anfad arall nad oes tebyg y cosbir ef am ei wneyd. Yna, yng nghanol nos, llosgir y gŵr gwellt, yng nghanol banllefau gwawd yr edrychwyr, y rhai ofynnant gwestiynau iddo fel pe bai'n fyw. Y mae ar lawer un ofergoelus gymaint o ofn cael ei losgi a chael ei grogi,—tybia ei fod yn esgymunedig, ei fod dan warth bythol, ac na fydd llun ar ei fywyd byth. Yr wyf yn adnabod rhai sydd wedi cael eu "llosgi;" ac y mae rhai o honynt fel pe'n teimlo eu bod wedi eu haberthu unwaith am byth i'r ysbryd drwg. Ond y mae rhai ereill nad ydynt nemawr gwaeth er cael eu hoffrymu, yn y dull hynafol hwn, i hen dduwiau'r cynfyd. Yr wyf yn adnabod offeiriad sydd wedi ei draddodi i'r ysbrydion drwg. Gwnaeth ryw gamwri tybiedig yng nglyn â chladdu; a llosgwyd ei ddelw wrth borth y fynwent. "Mae'r person wedi ei losgi" oedd ar wefusau pawb bore drannoeth; ond ni wyddai neb pwy fu'n chware rhan offeiriaid yr hen dduwiau.

Tybid na safai adeilad newydd os na aberthid bywyd dynol ar ei garreg sylfaen; a pho mwyaf fyddai'r dioddef ar ran yr aberth a'r aberthwr, mwyaf yn y byd y gwenai'r duwiau. Yn nyddiau Ahab, brenin Israel, cawn hanes am un yn rhoddi ei ddau fab anwylaf, "yr hynaf a'r ieuengaf," yn aberth i dduwiau creulawn wrth osod sylfeini Jericho,—

"Yn ei ddyddiau ef, Hiel y Betheliad a adeiladodd Jericho. Yn Abiram, ei gyntaf-anedig, y sylfaenodd efe hi, ac yn Segub, ei fab ieuengaf, y gosododd efe ei phyrth hi."

Darlunia Plutarch y Phoeniciaid yn rhoddi plentyn yn fyw yn y mur, ac yn rhoddi melusion iddo, ac yn canu offerynau, hyd nes yr oedd y saer maen yn barod i roddi'r briddfaen olaf yn ei lle, i'w guddio o'r golwg. Dywed Grimm draddodiad sydd yn profi'r un peth,—

"Er mwyn gwneyd castell Siebenstein yn anorchfygol, rhoddwyd plentyn yn y mur, plentyn a werthwyd gan ei fam am aur. Tra'r oedd y seiri meini wrth eu gwaith, meddai'r hanes, yr oedd y plentyn yn eistedd, ac yn bwyta brechdan. 'Mam,' meddai, 'mi a'ch gwelaf.' Yna,—'Mam, mi a welaf dipyn o honoch eto.' A phan osodwyd y garreg olaf, gwaeddai,—'Mam, wela i ddim o honoch yn awr.'"

Y mae hanes am yr adeiladydd ei hun yn gorfod murio ei gariad o'r golwg,—mwyaf yr ing, goreu'r aberth.

Dywed traddodiad fod Gwrtheyrn, yr hwn a groesawodd y Saeson gyntaf i'r ynys hon, wedi troi i chwilio am ddinas noddfa rhag ei gyngrheiriaid bradwrus. Crwydrodd drwy lawer o'r wlad i chwilio am le cyfaddas i godi caer. O'r diwedd daeth i Wynedd, a chafodd le wrth ei fodd, meddir, ymhlith mynyddoedd Eryri. A dywedodd ei wŷr doeth wrtho,—"Adeilada ddinas yn y fan yma, bydd yn ddiogel byth rhag y barbariaid." Ac anfonodd y brenin am seiri coed a seiri meini, a chasglodd ddefnydd at godi'r gaer. Ond diflannodd y defnydd mewn un noson; ac wele, nid oedd yno ddim, mwy na chynt, at adeiladu'r gaer. Casglwyd defnyddiau drachefn a thrachefn, o bob cyfeiriad, ond diflanasant yn y nos fel o'r blaen. A gofynnodd Gwrtheyrn i'w ddewiniaid paham yr oedd eu holl lafur yn ofer fel hyn. Dywedasant hwythau,—"Rhaid i ti ddarganfod mab wedi ei eni heb yr un tad, a'i ladd, a thaenellu ei waed ar y lle yr wyt yn meddwl adeiladu dy gaer arno, onide ni lwyddi byth." Ac anfonodd y brenin genhadon i chwilio am blentyn felly. Pan ddaethant i le y dywed traddodiad diweddarach mai Maesaleg oedd, clywsant blant yn chware pel. Ac ebe un o honynt wrth un arall yr oedd wedi ffraeo ag ef,—"Bachgen heb dad wyt ti, ddaw dim da o honot byth." Daliodd y cenhadon y bachgen, ac aethant ag ef i fynyddoedd Eryri at Wrtheyrn. A rhyw ddiwrnod daeth y diwrnod i aberthu'r bachgen. Ac ebe ef wrth Wrtheyrn,—"Paham y daeth dy weision a mi yma?" "I'th roddi i farwolaeth," ebe Gwrtheyrn, "fel y taeneller dy waed ar y lle y codir fy nghaer; heb hyn ni saif." Yna aeth yn siarad rhwng y bachgen a'r dewiniaid. Dywedodd wrthynt fod dwy ddraig yn cysgu dan y lle, yn hwnnw; ac wedi tirio, dyna lle'r oeddynt—draig wen a draig goch. Y diwedd fu i'r bachgen ddweyd mai efe oedd Emrys Wledig, ac i'r wlad honno ddod yn eiddo iddo.

Dengys yr hen draddodiad hwn ymdrech rhwng y rhai fynnai aberthu bywyd dynol, fel yn yr hen amser, a'r Rhufeiniaid ddygodd syniadau llai creulawn am adeiladu. Gellir rhoddi llawer o enghreifftiau ereill, o hanes Cymru ac o hanes yr Iwerddon, o aberthu dynion yn fyw i'r duwiau er mwyn i'r adeiladau sefyll.

Wedi dyfodiad Cristionogaeth, aeth yr hen dduwiau'n ysbrydion drwg, a chafodd y Gŵr Drwg lawer o'r anrhydedd a'r aberthau berthynai unwaith iddynt hwy. Y mae un

chwedl adnabyddus am aberthu wrth godi pont. Yn un o lecynau mwyaf anghysbell Cymru y mae un bont yn cael ei galw eto ar enw un o'r duwiau y tybid ei fod yn gofalu am bontydd,—Pont y Gwr Drwg. Dywed yr hanes mai efe ei hun a'i cododd, a'i fod wedi gofyn aberth i'r hen wraig y cododd hi er ei mwyn. Yr aberth oedd y peth byw cyntaf groesai. Yr oedd yn meddwl yn sicr mai'r hen wraig fyddai'r peth byw hwnnw. Ond anfonodd hi ei chi o'i blaen, ac nid oedd hwnnw'n aberth gwerth trafferth yr ysbryd drwg. Traddodiad ydyw'r hanes hwn, mae'n sicr, am yr aberthu bywyd fu wrth osod sylfeini pontydd i lawr.

XII. YR ALLOR A'R GROMLECH.

Ai'r allor ar yr hon yr aberthid dynion ydyw'r gromlech sydd eto'n aros?* Hwyrach mai ie; ond nid allor oedd y gromlech ar y dechreu. Mae'n ddigon tebyg i allor gael ei gosod dan lawer cromlech, er hynny, yn ddiweddarach.

Fel y gwelsom, cyfuniad o'r Celt a'r Iberiad ydyw popeth Cymreig,—yn sefydliad, yn gredo, yn nodwedd cymeriad. Eiddo'r Iberiad oedd yr allor; eiddo'r Celt oedd y gromlech.

Pan ddaeth y Celt i Gymru, a chael yr Iberiad llygat-ddu yno, gwelodd fod crefydd ryfedd yn y wlad honno. Nid oedd yn rhyw dra chrefyddol ei hun, ond cyn bo hir daeth dan ddylanwad duwiau'r bobl oedd wedi orchfygu, a daeth i'w hofni ac i gredu ynddynt. Y mae yn ddigon tebyg fod y concwerwyr Celtaidd yn llai o lawer mewn nifer na'r Iberiaid gorchfygedig. Hawdd ydyw credu, oherwydd hyn, i grefydd y gyfran fwyaf arhosol o'r bobl aros yn grefydd y wlad. Dyna fel y bu ar y Cyfandir,—yr oedd arfau'r Celt, a'r Teuton wedyn, yn drech nag arfau hen drigolion y wlad; ond, braidd bob amser, y mae crefydd y gorchfygedig yn ennill y concwerwyr. Felly y bu yn Lloegr; daeth meddwl a chrefydd a thraddodiadau'r Brythoniaid gorchfygedig yn feddwl a chrefydd a thraddodiadau'r gorchfygwyr Seisnig ac Anglaidd.

Allor yr Iberiad oedd yr allor waedlyd honno. Ei grefydd ef oedd derwyddiaeth. Yr oedd crefydd ac addoli yn ei natur, ac yr oedd ofn byd arall yn ei wneyd yn wasaidd i'r offeiriaid oedd yn gwybod meddwl y duwiau. Ond yr oedd gan y Celt fwy o nerth corff, a llai o ddychymyg. Nid oedd rhyw lawer o wahaniaeth rhwng ei dduwiau ef a dynion, mwy nag oedd rhwng duwiau'r Teutoniaid a dynion. Ymffrostiai yn ei nerth ei hun, wrth hela'r baedd a'r arth, ac wrth gyfarfod ei elyn mewn brwydr ffyrnig. Y parch a dalai o gwbl, fe'i talai i ysbrydion ei gyndadau, ac nid oedd ei dduwiau ond ei hynafiaid ef ei hun.

Y mae'r gromlech ar lun y ty. Yn aml y mae cylch o gerrig geirwon ar eu pennau yn y ddaear, a dwy res o gerrig ereill yn myned tuag atynt. Ar y rhain, un waith, yr oedd to o bridd,—dyna dy cyntefig y llwyth. Gwnawd y bedd ar lun y ty,—preswylfa'r marw oedd. Ym mhlith rhai llwythau paganaidd, hyd y dydd hwn, gadewir yr hen dy i gorff marw'r pen teulu, a thry'r teulu allan i chwilio am dy newydd. A oedd y llwythau'n addoli wrth y gromlech, wrth fedd eu pennaeth? Mae'n ddiameu eu bod; nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng dal cymundeb â'u hynafiad a'i addoli. Yn y gromlech yr oedd eu pennaeth coll yn byw, a chyda pharch y dynesent at y lle. Ceidwadol iawn ydyw dyn, ymhob oes, gyda seremoniau claddu. Yr oedd y gromlech,—ty'r marw, ar lun ei adeiladau cyntaf, ogofeydd yn y ddaear hwyrach; tra'r oedd ty'r byw ar gynllun mwy cyfaddas at anghenion newyddion y bobl.

Ond, wedi dod i gyffyrddiad â'r Iberiad, cafodd y Celt syniadau ereill am fyd y bedd. Dysgodd grefydd newydd,—sef derwyddiaeth. Y mae'n ddi ddadl mai o'r Iberiad gorchfygedig y cafodd Celtiaid Ffrainc a Phryden y grefydd hon. Ymysg yr Iberiad, yn eithafion gorllewinol Cymru, yr oedd ei dysgawdwyr goreu. Oddiyno, sylwai dieithriaid, yr adnewyddid derwyddiaeth; oddiyno y deuai ei hoffeiriaid.

Y mae'n amlwg beth oedd effeithiau'r grefydd dywell hon. Yn un peth, gwnai i ddynion gofio fod duwiau creulon eiddigus yn gwylio symudiadau eu bywyd; a pheth arall, rhoddai ddylanwad anarferol i'r offeiriaid. Ei drwg oedd,—gwnai fywyd dynion yn anhapus, dan gysgodion tywyll o hyd; a rhoddai allu dirfawr yn nwylaw offeiriaid wyddent pa fodd i orthrymu. Ei da oedd,—rhoddai atalfa ar nwydau hunanol yr anwar; a rhoddai allu yn llaw rhywun heblaw'r Celtiaid aristocrataidd.

Y mae hanes Cymru'n ail adrodd ei hun o hyd. Buasai'r Iberiad gorthrymedig yn anobeithiol wasaidd i'w orchfygwr Celtaiddoni bai am ei dderwyddon. Yr un fath buasai'r Gwyddel yn rhoddi ei fywyd dros ei bennaeth, oni bai am ddylanwad mwy dyrchafol,—yn yr adeg aeth heibio beth bynnag,—yr offeiriaid. Ac yn niwygiadau crefyddol Cymru, yn y ganrif ddiweddaf, daeth gallu ysbrydol i gymeryd lle gallu tymhorol, daeth y pregethwr yn gymaint o allu yn y wlad â'r meistr tir.

* Gwel ddarlun o'r gromlech ger Trefdraeth yn nechreu'r rhifyn diweddaf.

CYMRU FU: CYMRU FYDD.

I WLAD Gymru bu mil beirdd—a'u mêl wawd
Aml ydoedd; a phrifeirdd
Ynddi yn gwau odlau heirdd.

Wele di gêst, wlad y gân,
Do, beraidd wawd y beirdd hen;
Cefaist DDAFYDD, gywydd gwin, 1340*
Yn wir, un mwy, GRONWY MÔN. 1750

Hen feirdd fu i Gymru gynt—
Oedd gynnes cerdd a genynt;
Annisbur odlau ysbrydlon,
Yn gân frwd o eigion y fron.

O, fal y cenid, o fawl acenion,
Gerddi dwys agwrdd i dywysogion,
Didlawd ofegwawd i bendefigion,
Hen wyr i daro dros Gymru dirion,
Colli eu gwaed dan draed er hon—wladgar
Wyr dewrwych, a hygar eurdorchogion.

Molai TALIESIN ?550
Urien ac Elffin
Gynt; ac ANEURIN gant gân hiraeth— ?550
Canu Gododin
"Cydwyr cyfrenin,"
Wylo am fyddin cytrin Catraeth.

Alar chwith i LYWARCH HEN ?580
Alaru ar ol Urien;
Eilwaith wedi Cynddylan
Bwy nas gŵyr ei boenus gân;—
"Ystafell Cynddylan ys tywyll—heno
Heb dân heb gerddeu
Dygystudd deurudd dagreu."

MEILIR gynt, molai ar gân 1140
Cwynai ar ol Ap Cynan; [gledd
GWALCHMAI 'n hoew i'r gloew ei 1170
A ganai—Owain Gwynedd;
CYNDDELW yn unddelw a wnâi 1170
Neu Gyfeiliog a folai;
E gant CYFEILIOG yntef 1170
(Llyw yn fardd!—llyna fu ef;)
Ys moli aerweis Maelor,
Nifer gwych, yfwyr ei gorn.

I'w lyw y canai LYWARCH 1210
AP LLYWELYN—myn fy mharch;
Godidog eurfant gantawr
A fu i Lywelyn Fawr.

BLEDDYN FARDD a'i wawd harddaf—a'r 1280
AB YR YNAD gofiaf, [enwog 1280
Os cofiaf y dewraf dyn,
"Llywelyn ein llyw olaf."

Nid oes i ni dywysog,
A gwir yw, wedi ei grog.
Walia wen, Ow, alanas!
Ei holaf lyw, ef a lâs.

Ai dy feirdd, yr hen wlad fau,
Od gwn, a welid gynnau,
Yn Llundain yn ymgreiniaw
Ger bron yr hydr estron draw?
A'r cyfryw lyw! awrddwl af,
I ddirgeledd ergiliaf,
Och, fy nhud—a chofio wnaf
Lywelyn dy lyw olaf.

O awen, mae dy loewaur?
Podd rhydywyllodd dy aur?

Ar ol Llywelyn eraill a welaf,
Yn urdd o ryw gewri, feirdd rhagoraf.
IOLO GOCH, ynad glew, gwych a enwaf; 1010
Engir ydd eiliodd wawd angerddolaf
Yn hwyrddydd ei oes harddaf—i Lyn Dŵr—
Mawr ddiffynnwr Cymru oedd, a'i phennaf—
"Galw gar bron, gwae Loegr o'i brad,
Lu Brytaen hylwybr atad;
Dyga ran dy garennydd,
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd!"

Cofiaf gu harddaf gerddi—a eiliodd
LLYWELYN GLYN COTHI; 1460
Goleuddawn fawl arglwyddi,
Golud a nawdd ein gwlad ni,
Dewr i'w gwarchadw rhag archoll
Neu gam ran, hen Gymru oll.

Yntau a'i gân a'u taniai,
Yn enw y Nef, hynny wnâi—
"Arth fry ydwyt wrth fradwr;
Tâl frad trwy gennad un Gwr!"

I ryfela, dewr filwyr
Fuon hwy; a chyfiawn wŷr—
"Ar gelwydd y gyr gilio,
Ac ar y ffals y gyr ffo."

Gwŷr iawn a garai heniaith,
Gwŷr hael a garai eu hiaith;—
"Yn y plas cwmpas y caid
Brud heniaith y Brutaniaid."

Ein hiaith i'r bonedd heddyw,
"*Barb'rous jargon*" weithion yw;
Swn traws y "*peasant*," a rhu
I'r "*ignorant*" i'w rygnu.

Bwy fy ngwlad yn geiniad gai
I philistiaeth a'i phlasdai,
Tref Gath a'i Goliathau?
Am salmydd, Ddafydd neu ddau!

*Rhoddir ar yr ymyl yr adeg y blodeuai'r beirdd.

Uchel loew-wawd, na chlywem!—sain hygar
I Seisnigaeth falchdrem;
Rhydd eilier rhyw gerdd hoewlem—megystân,
Hoew brysur fo'r gân i breserfwyr gêm.

Rhown arwyrain aur-eiriog—am radau
Ein Nimrodiaid nerthog;
Helant gadarn sgyfarnog
Heb eiliw ofn, ac heb lôg!
Geir adrodd eu gwrhydri,
A'u glewdid i'w hymlid hi?

A dygwch ddethol folawd,
A pharch i chwareuon ffawd;
A dygwch i redegwyr
Ceffylau—a gorau gwŷr;
Dyrchwch, llefwch yn llafar
Eu peraidd glod, giwdod gwâr.

Rhyw chwai eiriau rhy chwerwon?
Chwerw, fy mrawd, â chur fy mron.
Hen fonedd a fu unwaith
I'n gwlad gu, loewed ei gwaith!
I'w lle daeth bonedd heddyw,
A'u goreu waith gware yw;
Gware yw eu goreuwaith,
Ba waethaf eu gwaethaf gwaith?
Yn rhyw garn Saeson trawsion y troisant
Rhagor-iaith wiwdeg Gymraeg wrthodant,
Sarhaus, trahaus, y'i diystyrasant.
Eres trwy oesoedd eu gwlad rwystrasant,—
Yn lle'i llywyddu i wellwell lwyddiant,
O'u calon yn gyson dirmygasant
Ei holl ddyhewyd, ei chŵyn a'i mwyniant;
A'i chrefydd lŵys, dwys y'i herlidiasant;
Un da o Walia welant—y rhenti
A rheibus egni o'r bau a sugnant.
Ond prif wyddfod
Yr Eisteddfod
Am aur y god, O Gymru! gânt;
Ac yn y lleoedd uchaf y safant,
Dieithr eu drych, odiaeth, yr edrychant,
A'u Saesneg carbwl geciant—i foli
(Ys diwerth stori!) iaith ddiystyrant.

Adrodder teg, hardd-deg hynt,
A hanes un o honynt.

Am ei ddawn ef, meddiannu
A chydio maes wrth faes, fu;
A chau'r tir oedd biau'r bobl,
Do o dir cyd, aed a'r cwbl,
I'w feddu oll ef oedd abl.
I wirion tlawd yn aros
Yr oedd ochr ffordd a chwr ffos.

Daw rhyw wan truan un tro,
Ag amrant ŵyl, rhyw Gymro,
Yn isel iawn i geisio
Lle i'w ŵth, y lleiaf fo;
Gofyn darn i fyw arno
O anwyl dir ei wlad o!

A'r lleidr mawr, llawdrwm yw ef,
Taeog, brwnt; ac ebr yntef—
'Dos,' medd ef, 'os dewisi
Cyfoda d'adeilad di.
Ac i'th arglwydd bob blwyddyn
Rhoi'n rhent ryw hyn a rhyw hyn.'
Mwy yna o swm a enwir
Na thaliad hawl bythol y tir.
'Ond cofia, daw y cyfan
Yn eiddo i mi'n y man.
Dos, fel hyn, os dewisi
I fyw'n rhad ar fy nhir i.'

O wron! O wladgarwr!
O haelionus serchus wr!
"Oes genau na chais ganiad,
A garo lwydd gwyr ei wlad?"

Awn yn mlaen ddeugain mlynedd,
Y mawr fawr ysbeiliwr fedd
Faith dref a'r holl gartrefi
A wnaeth ei thrigolion hi;
Ni fu raid i'w fawrhydi—godi maen,
Na rhoi ar faen un maen o'i meini.

Yna'r hocedwr cadarn
Aeth o fyd yn noeth i farn.

A ddywedwyd yn ddidwyll
Erioed am ei ddirfawr dwyll,
Am i'r gŵr orthrymu'r gwan,
A'i hynaws garu ei hunan?

Neu gadd yr arglwydd a'i "lwyddiant"—ei droi
Yn drist i fro 'i haeddiant,
Bro gyfiawn ebargofiant,
Yn ddison, heb dôn, heb dant?

Naddo; eithr fe gyhoeddir
Eisteddfod hynod cyn hir;
A rhennir cadair honno
Am ddidawl fawl iddo fo.
Gyda'r ferth gadair e fydd
Melynaur i'r moliannydd.

Yna'r beirdd er y wobr ddaw
I eiliaw cân o foliant;
Yn ddilesg iawn ydd eiliant—ei ddirif
Haelioni foliannant;
Wedi gweyd ei radau gant,
Ei haelioni ail enwant.—

Y wlad a'r tai ladrataodd—yna
Ambell geiniog rannodd;
Weithion ei waith (a thawn ni)
Heb wyrni Duw a'i barnodd.

Wenhieithwyr, gwybyddwch chwithau—mell-tith
A malldod i'n ffroenau
Yw'ch awdlau gwag, chwedlau gau,
Anfadwaith eisteddfodau.

Ai er gwobr, neu am ryw ged,
Yr wylodd Tudur Aled?
A hynny am wŷr uniawn,
Ac am wŷr oedd Gymry iawn.
Wedi'u marw dyma'i araith—
A mawr ei ofn am yr iaith—
"Duw gwyn, er digio ennyd,
Ai difa'r iaith yw dy fryd?"

Yr awr hon nid er yr iaith—na'n cenedl
Hen, y cawn gywreinwaith;
Ond cawn aflerw oferwaith,
Lawer er mael—gwael yw'r gwaith.

Ie'r wobr a â a hi,
A'r elwch sy'n rheoli.
Rhyw genedl gaeth—saeth yw sôn—
Yma ŷm yn llaw Mamon.

Arglwyddi, yn wir, gwleddant
Yn segur ar gur rhyw gant;
A beirdd sydd ofer gleriach
Yn brefu am ryw wobr fach;
A gweision Iôn, hyn sy'n waeth,—
Boddio am gydnabyddiaeth,
Neu ymladd am hen waddol,
A'r wir efengyl ar ol.

Am ysbryd dewr y cewri
Welid un waith i'n gwlad ni!
Ymosod ar bechodau,
Dinoethi pydrni ein pau;
Pregethu'r Mab a'i aberth,
A'i fyw hardd, mwyaf ei werth.

Nid un budd, cydnabyddiaeth—na degwm
A'u dug i'r filwriaeth;
Taniodd Iôn eu calonnau
A'i rasusau—hwythau aeth.

Nid rhyw ffurfiol reolau—a dadwrdd
Gosodedig eiriau;
Un allor, na chanhwyllau,
Nid rhwysg gwag a rhodres gau;

Nid naddu diwinyddiaeth—a hollti
Gwelltyn coeg athroniaeth,
A hedeg uwch gwybodaeth,
O olwg gŵr, i niwl caeth.

Ond, yn g'oedd, argyhoeddi—y byd drwg
O bob trais drygioni;
Ni wyrent genadwri
Crist ei hun—ein heilun ni.

A fu ail neu hefelydd—neu goethed
Pregethwr y Mynydd?
Paul oedd burion athronydd,—
Ond awn at Ffynnawn y ffydd

Hyd ddaear werdd bu'n cerdded—a rhoes ef
Ryw siampl i'w dynwared;
Ac athro fu 'mhob gweithred,
A geiriau *Crist* yw gwir Cred.

Ni ddaeth i ddiddymu'r ddeddf—
E roddes in' oreuddeddf,
Gyflawnach na'r ddeddf arall,
Fanylach, llymach na'r llall.
A nod angen ei gennad—
'A *wnel* ewyllys fy Nhad!'

Pa le y mae gwŷr eon
A faidd fynegi'r ddeddf hon?

Ym mryn a dyffryn mae Cymru'n deffro—
'Mae y cyfryw oedd i'm cyfarwyddo?
Mae y dewrion, heb ofni ymdaro,
El i wyneb y gelyn heb gilio—
Wŷr o ffydd a'i gyr ar ffo?—mae'r cyfiawn?
Mae im' wŷr uniawn, mae a'm harweinio?'

Eithr os du yw, na thristawn,
Mewn da bryd, cyfyd cyfiawn
I'th arwain o gaeth oror
I rydd wasanaeth yr Ior;
Dwyn o aflan wasanaeth
Gau Famon feibion dy faeth;
E dyr gwawr, wlad ragorwen,
Na wyla, O Walia wen.

Di fegi bendefigion—oreugwyr,
Uchelwyr, â chalon
I'th garu fy nglân fanon,
A charu'th iaith, heniaith hon.

Ac fe ddaw it heirdd feirddion—i ganu
Gogoniant y cyfion;
Ac â newydd ganeuon
A thanbaid enaid y dôn'.

Gwŷr crefydd a geir, cryfion—yn nerth Duw
Wrth y dyn yn eon,
Gryf, a lefair air yr Ion—
Ofni Duw'n fwy na dynion;

Gwŷr a ddadymchwel gelwydd—hen gaerau
Goror anonestrwydd;
Rhagrith diafl, a'i bob aflwydd;
Gweniaith, ffug waith, ffy o'u gŵydd;

Ni bydd rhith lledrith anlladrwydd—drwot
Distrywir pob arwydd;
Gwlad ry eurglod i'r Arglwydd,
A thi'n wlad o faith iawn lwydd.

Ni thrig annoeth ddrygioni—ynod mwy
Na dim ol gwrthuni;
Nac anwybod na thlodi,
Yn wir, nid adwaeni di:

Ynod bydd pob daioni—hoff bau deg,
A phob digoll dlysni;
Pob gwybod a medr fedri,
Aml fydd dy ddrud olud di.

Gras a dysg, oreu ystôr
Ynod gaf yn dygyfor;
Ba ryw wall a fydd i'm bro?
Ba ddawn, a'r na bydd yno?

Geiriau anwyl GORONWY 1750
Yr awr hon fe'u gwirir hwy;—
"Yn lle malais, trais, traha,
Byddi'n llawn o bob dawn da,
Purffydd a chariad perffaith;
Ffydd, yn lle cant mallchwant maith;
Yn lle aflwydd, tramgwydd trwch,
Digon o bob ryw degwch,
Undeb a phob rhyw iawnder,
Caru, gogoneddu Ner."

Dyma wlad wen ysblennydd;
O feirdd, wele Gymru Fydd!

Och wŷr, na syllwch arni
Heddyw am ei bod ddu hi;
Caeth yw, ac ar ei haraul
Hoff wedd hi y craffodd haul;
Ac ym mro Aifft, Gymru wiw,
Os du wlad, ys teledlw!

Bwy gei o'th feib, o gaeth fan,
A'th ddwg yna i'th Ganan?
Chwi feib awen, eleni,
Cyfodwch, cychwynnwch chwi:
I'r anghred rhodder engraifft
Rhodder hèr i dduwiau'r Aifft.

Cenwch ogoniant Canan,
Cenwch ei phryd, gloewbryd glân;
Amled ynddi lili lon,
A rhyw siriol ros Saron;
Ac O, yr enwog rawnwin
A geid i'w gwinllannoedd gwin;
Gwridog o ryw deg aeron
Llwyni a pherllannau hon;
A'i ffrydiau hoff a redodd
Laeth a mêl, helaeth y modd;
O chenwch, cenwch bob cân
Ag wyneb tua'r Ganan.

Llanfair Pwll Gwyngyll, Môn.

* * * *

A gâr rhyw fab gwir ei fam?
Un eilfydd i'w anwylfam?
Minnau, ai hoff i'm henaid
Fal Cymru gu, un fro gaid?
Gweddw fam a'm magodd a fu,
Hon gerais os gwn garu;
Gymru lân, wyt ychwaneg—
Chwaer wyt im, a chariad deg.
Pob rhyw aur, rhuddaur roddwn,
Mwy na gwerth pob meini, gwn,
Rhyw iesin feini crisiant,
Neu iasbis gwych hysbys, gant;
A pha ryw orhoff fererid,
Neu ba ryw em fae'n rhy brid?
Mwy na pherl, gem na phuraur,
Rhof iddi well rheufedd aur;
Rhoi'r fron a'r galon i gyd,
A'r llaw fau a'r holl fywyd,
Pob myfyr pwyllig, digoll,
Yn barod iawn a'm bryd oll;
Fy nyddiau rof yn addwyn,
Ie, rhoi'm hoes er ei mhwyn.

Ac mae rhyw fil, Gymru fau,
Dynion canmwy eu doniau,
Ddyry eu hardd einioes ddrud,
Ddihefelydd fyw olud!
O deced ymysg gwledydd,
Ac O mor fawr, Gymru fydd.

Dy loew ddawn, dy gyfiawnder—yna gerdd
Yn deg wawl goleuber;
A thi, ys hardd ymhlith sêr,
Dywynni'n gannaid Wener;
Ac ar g'oedd holl bobloedd byd
A wêl hefyd dy leufer.

Fy nhudwedd, dyma'm gweddi—
Weld awr deg dy loewder di.
A thithau, gorthaw, f'awen,
Doed yr awr, Iôr mawr. Amen.

JOHN MORRIS JONES.

CYLCHGRONAU AWST.

MWYFWY cenhedlaethol, a llai sectol, y daw cylchgronau Cymru o hyd. Y maent oll, heb eithriad braidd, wedi eu gorchfygu gan ysbryd y Deffroad. Y mae'r *Diwygiwr* yn llawn ysbryd Eisteddfod yn ogystal ag ysbryd cwrdd crefyddol; y mae'r *Haul* yn son am Edward Richard o Ystrad Meurig a llenyddiaeth Gymreig yr ail ganrif ar bymtheg; y mae'r *Cerddor* yn addaw cyhoeddi hen alawon Cymru; y mae'r *Cennad Hedd* mor ddyddorol hanesyddol ag erioed; ac y mae'r *Drysorfa'n* cynnwys manylion fydd yn ddyddorol i hanesydd Methodistaidd y dyfodol. Y mae'r ysbryd cenedlgarol yn cryfhau bob dydd, ac ni fyn y bobl gylchgrawn os na fydd arwyddion amlwg ei fod yn canlyn ei oes. Ni wna cyfleithiadau o bregethau estronol ac eiddil bethau'r wasg Seisnig y tro mwyach, rhaid son am fywyd Cymru.

DYSGU CYMRAEG.

Y MAE Cyngor Aberystwyth wedi apwyntio athraw Cymreig. Yr oedd arnaf ofn y ceisient rywun i wneyd gwaith arall, a rhoddi enw athraw Cymreig arno i foddio a thwyllo gwlad. Y mae'n mynd yn rhy bell ar y dydd i wneyd hyn. Y mae pobl yn dechreu holi beth y mae ein colegau'n wneyd dros yr iaith Gymraeg, ac y maent yn ateb,—"Dim." Pa fodd y gall athraw Cymraeg wneyd ei ddyledswydd tra y mae'n was bach i ddau neu dri o athrawon ereill?

Y mae eisiau gramadeg hanesyddol, y mae eisiau geiriadur hen Gymraeg, y mae eisiau cyhoeddi cywyddau beirdd goreu Cymru. Byddwn yn disgwyl llawer oddiwrth Mr. Edward Anwyl, yr athraw Cymraeg apwyntiedig.

"Codasant ddarlun o ddisgleirdeb y Gaersalem nefol, i'w gweled dros ddyfroedd oerion, o flaen llawer un yn dioddef afiechyd a thlodi."

EMYNNAU'R AFON.

HEN syniad, ymron mor hen a meddwl dyn, ydyw'r syniad fod afon rhwng y byd hwn a'r byd arall. Rhedai afon, yn ol llenyddiaeth foreuaf y byd, oddiamgylch y ddaear, ac nid oedd dyn erioed wedi mentro i honno. A phan aeth llongau Tyrus allan rhwng colofnau Melcarth, i'r afon ddieithr hon, gan ddwyn trysorau'n ol, nid oedd

longwr arall feiddiai eu dilyn. Y Groegwr oedd yn ddigon hyf i dreiddio i ddirgeledigaethau y syrthiai rhai ereill mewn arswyd o'u blaen, ac efe chwiliodd For y Werydd, y tu allan i'r colofnau, ac a ddywedodd beth oedd yno. Ar ei ol daeth y Rhufeiniwr, gan orchfygu. Diflannodd dirgelwch yr hen afon o flaen gwybodaeth y teithiwr a beirniadaeth yr athronydd.

Ond arhosodd y syniad o hyd. Yn y chweched llyfr o Aenid Vergil, y mae darluniad o'r afon, darluniad nad anghofiwyd ac nac anghofir yn llenyddiaeth y byd. Wedi aberthu, cychwynnodd Aeneas a'r Sybil tua gororau tywyllion distaw'r angeu. Teithiasant dan oleu gwan, fel goleu lleuad trwy gymylau trwchus nos, tua'r afon. Yno yr oedd popeth erchyll a drwg,—yno'r oedd Rhyfel a Marwolaeth, yno yr oedd ffurfiau ofnadwy yr hen chwedloniaeth, ac yn eu canol yr oedd y goeden enfawr gysgodol, dan ddail yr hon yr ymnytha breuddwydion twyllodrus. Daethant at ddwfr lleidiog yr afon, clywsant swn undonog ei rhaiadrau, a gwelsant y badwr ofnadwy oedd yn cario'r llif o eneidiau, llif di-ddarfod, drosodd i'r ochr draw. Fel y dail yn syrthio oddiar y coed pan ddechreuo oerfel yr hydref; fel adar yn ehedeg yn lluoedd o'r tir i'r mor rhag yr oerfel, i chwilio am wlad fwy heulog,—felly'r ymdyrrai'r meirw at lan yr afon. Dyma ddwfr dwfn Cocytus, i'r hwn y daw holl ymchwydd tywodlyd Acheron. Trwy ddangos cangen euraidd, medrodd Aeneas a'r Sybil fynd i'r cwch; gruddfannai'r hen gwch dan eu pwysau, gan ollwng dwfr corslyd i mewn. Ond, o'r diwedd, cyrhaeddasant yr ochr draw,—glan leidiog yr afon a'i hesg.

Y mae'n debyg mai nid yn llenyddiaeth Rhufen, nac yn llenyddiaeth Groeg ychwaith, y sonnir gyntaf am afon angeu. Digon tebyg fod y syniad wedi dod oddiwrth bobl hŷn na'r Rhufeiniaid, a hŷn na'r Groegwyr, oddiwrth gyn-frodorion bro Epirus a gwerin yr Aifft, y werin fu'n codi'r pyramidiau yn fedd i'w gorthrymwyr. Y mae afon, fe ddywedir, yn Epirus, o'r enw Acheron, a golwg marw ar ei dwfr. O Homer i lawr, y mae beirdd wedi edrych arni fel afon marwolaeth; dywedant fod yn rhaid i eneidiau y marw ei chroesi. Y mae llyn, hefyd, ger Memphis yn yr Aifft, ac ar draws hwn cerrid ysbrydoedd y marw i dderbyn eu dedfryd. Charon y gelwid y cychwr. Daeth hanes yr afon hon yn rhan o grediniaeth Groeg, fel y daeth llawer o chwedloniaeth crefyddau tywyll yr hen fyd. Felly, cyn i blant Israel ddod i'r Aifft, yr oedd y syniad am afon angeu yn bod ymysg gwerin yr Aifft. A hwyrach iddynt weled y llyn y byddai'r marw'n ei groesi ar eu hymadawiad.

Ond nid syniad Beiblaidd, hyd y gwn i, ydyw'r syniad fod afon ddofn, a'i hymchwydd yn dymhestlog, rhwng byd y gwae a'r byd heulog dedwydd yr ochr draw. Nid yr un yw Iorddonen y Beibl ag Iorddonen yr emynnau Cymreig. Afon fechan ydyw'r wir Iorddonen, yn rhedeg trwy ganol Gwlad yr Addewid, nid gyda'i therfynau. Afon fawr ydyw afon yr emynnau, yn rhedeg rhwng y ddau fyd, afon na fedr neb ei chroesi ond unwaith, afon na fedr neb ei chroesi'n ol.

Nid oes swn ofn yn y cyfeiriadau sydd yn y Beibl at yr Iorddonen. Dewisodd Lot wastadedd yr Iorddonen yn wlad iddo. Sonnir am dani fel rhyw afon arall,—"yr Iorddonen hon,"—yng ngweddi Jacob. Cafodd Moses weled y wlad dda oedd y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, ond ni chafodd ond golwg o ben Pisgah ar y rhan arall o'r wlad, oedd y tu hwnt i'r afon. Nid ofn, ond llawenydd, oedd yn meddiannu calonnau'r Israeliaid wrth sefyll ar lan yr Iorddonen; rhannodd ei dyfroedd o flaen y llu, a cherddodd yr offeiriaid oedd yn dwyn arch y cyfamod ar dir sych. Cofiwyd am y mynediad trwodd yn hir,—"Beth ddarfu i ti, O for, pan giliaist," ebe'r Israeliaid gorfoleddus, "a thithau, Iorddonen, paham y troaist yn ol?" Nid afon i wahanu Israel oddiwrth y cenedl ddyn oedd ychwaith, er fod Moses wedi rhagweled y rhannai'r llwythau'n ddwy ran. O'r dechreu, drwgdybiai'r llwythau ereill fod eu brodyr y tu arall i'r Iorddonen yn ymddieithrio; ac yn fuan iawn yr oedd mawr ofal calon am neillduaeth Reuben.

Fel afon Israel yr edrychid ar yr Iorddonen. O fynydd Hermon hyd y Môr Coch, o'i tharddiad i'w diwedd, rhedai drwy dir yr addewid. Pan orchymynnodd Eliseus i Naman y Syriad ymolchi yn Iorddonen Israel er mwyn colli ei wahanglwyf, digiodd Naman, a gofynnodd,—"Onid gwell Abana a Pharphar, afonydd Damascus, na holl ddyfroedd Israel?"

Ychydig sonnir am yr Iorddonen gan broffwydi Israel. Y mae'n debyg fod Jeremeia ieuanc ofnus wedi crwydro o'i gartref yn Anathoth at ei glan, a'i fod wedi ei gweled pan oedd llif mawr ynddi. Pan doddo'r eira ar fynyddoedd Libanus yn y gwanwyn, ä'r Iorddonen yn llond ei gwely, gan yrru'r bwystfilod gwylltion o'u llochesfeydd yn ochrau ei dyffryn cul. Yr oedd ymchwydd yr Iorddonen wedi gwneyd argraff ar feddwl Jeremeia. Wrth gofio am ei lli, gofyn,—"Pa fodd y gwnei yn ymchwydd yr Iorddonen?" Hwyrach ei fod yn darlunio y peth welodd pan yn son am farn-

edigaeth Edom,—"Wele, fel llew y daw i fyny oddi wrth ymchwydd yr Iorddonen, i drigfa y cadarn." Cyfeiria Zachariah hefyd at ruad y llewod wrth orfod gadael eu llochesfeydd, oherwydd fod dwfr yr Iorddonen yn codi,—"llef rhuad y llewod ieuainc, am ddifwyno balchder yr Iorddonen."

Yn y Testament Newydd, yr unig hanes a gawn am yr Iorddonen ydyw hanes rhywun yn ei chroesi, neu yn cael ei fedyddio ynddi. Y peth tebycaf i'r darluniad o'r Iorddonen yn yr emynnau ydyw hanes Elias yn esgyn i'r nefoedd. Yr oedd ef ac Eliseus wedi croesi'r Iorddonen, pan ddaeth cerbyd tanllyd a meirch tanllyd i geisio Elias. Ond ni roddir yr awgrymiad lleiaf fod yr Iorddonen yn debyg i afon angeu.

Y mae y syniad am afon ddofn dymhestlog rhwng dau fyd yn ddieithr, felly, i bobl gwlad y Beibl. Un rheswm am hynny, mae'n ddiau, ydyw hyn,—nid oes afon yn y wlad honno y gellir edrych arni gydag ofn. Gwlad sych ydyw, a'i diffyg ydyw diffyg dyfroedd. Swn ymhyfrydu sydd yn y Beibl pan sonnir am afon, nid swn ofn. Yr oedd afon yn myned allan o Eden, gardd pren y bywyd. Wrth weled hyfrydwch cyfaneddau Israel o'i flaen, ebe Balaam,—"Ymestynnant fel dyffrynnoedd, ac fel gerddi wrth afon, fel olewydd a blannodd yr Arglwydd, fel y cedrwydd wrth ddyfroedd." Yn Salmau Israel, hyfryd yw meddwl am yr afon,—"Ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt, canys gyda thi y mae ffynnon bywyd." "Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw, cysegr preswylfeydd y Goruchaf." Dywed Esaia am Dyrus mai wrth ddyfroedd lawer, had Sihor, cynhauaf yr afon oedd ei chnwd hi. Lle hyfryd oedd glan yr afon, yr oedd y duwiol fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd a'i ddalen ni wywa. Nid terfyn oer i lwybr blodeuog oedd yr afon, ond achos prydferthwch a dymunoldeb y llecyn y rhedai drwyddo.

Y mae rheswm arall am nad edrychir ar angeu yn y Beibl fel afon. Nid oedd gwahaniaeth mor glir wedi ei wneyd rhwng y byd hwn a'r byd arall. Yr oedd presenoldeb Duw'n beth mor wir i'r Iddew fel mai prin y sylweddolai fod gwahaniaeth rhwng ei nefoedd a'i ddaear. Y mae'n anodd gwybod pa un ai am y Gaersalem nefol ynte am y Gaersalem newydd y bydd yn canu. Tebyg i salmau Israel yn hyn ydyw emynnau Ann Griffiths, y mae'r cymundeb â Duw mor agos fel nad oes fawr o wahaniaeth rhwng nefoedd a daear.

Yn emynnau Cymru, ca'r Iorddonen gymeriad hollol newydd. Yn y rhain y mae'n afon fawr a dieithr, gydag eneidiau pryderus yn ofni ar ei glan. Nid afon a'i dyfroedd yn ffrwythloni dyffryn ydyw mwy, ond llif yn ymgynhyrfu ar ororau oerion Angeu. Nid oes hyfrydwch wrth feddwl am dani,—

"Hen afon yr Iorddonen,
Rhaid i mi groesi hon;
Wrth feddwl am ei thonnau,
Mae arswyd dan fy mron;
Ond im' gael 'nabod Iesu,
A'm carodd cyn fy mod,
Af trwyddi'n ddigon tawel,
A'r gwaelod dan fy nhroed.'

Mae rhyw emynnwr anadnabyddus arall wedi canu am yr un ofnau,—

"Mae golwg ar byrth angau
Yn erchyll iawn i mi,
Mae dyfroedd yr Iorddonen
Yn ddyfnion ac yn ddu;
Bydd rhodio'r dyffryn tywyll
Yn drwm i'm henaid trist,
A r ffordd yn dra dieithr
Heb gwmni Iesu Grist."

O'r holl emynwyr Cymreig, Ieuan Glan Geirionnydd ydyw emynwr yr afon. Nid ydyw mor athrylithgar a Williams Pant y Celyn neu Ann Griffiths; y mae mwy o ol disgyblaeth lenyddol ar ei emynnau, ond ni feddant naturioldeb Williams na meddylgarwch prydyddol yr eneth wledig o sir Drefaldwyn. Er hynny, y mae miloedd o bererinion wedi cael nerth a chysur yn ei odlau. Codasant ddarlun o ddisglaerdeb y Gaersalem nefol, i'w gweled dros ddyfroedd oerion, o flaen llawer un yn dioddef afiechyd a thlodi. Dyma brif emyn yr afon,—

"Ar lan Iorddonen ddofn
Rwy'n oedi'n nychlyd,
Mewn blys mynd trwy, ac ofn
Ei stormydd enbyd;
O na bai modd i mi
Osgoi ei hymchwydd hi,
A hedfan uwch ei lli,
I'r Ganan hyfryd!

"Wrth gofio grym y dŵr
A'i thonnog genlli,
A'r mynych rymus wr
A suddodd ynddi,
Mae braw ar f'enaid gwan
Mai boddi fydd fy rhan,
Cyn cyrraedd tawel lan
Bro y goleuni.

"Ond pan y gwelaf draw
Ar fynydd Seion,
Yn iach heb boen na braw,
Fy hen gyfeillion,
Paham yr ofnaf mwy?
Y Duw a'u daliodd hwy
A'm dyga innau drwy
Ei dyfroedd dyfnion."

Ni fuasai erthygl ar emynnau'r afon yn llawn heb un arall o waith Ieuan Glan Geir-

ionnydd, a phwy nas medr hi ar dafod leferydd,—

"Enaid cu, mae dyfroedd oerion
Yr Iorddonen ddu gerllaw;
Eto, gwel, mae 'r ddinas sanctaidd
Ar y lan yr ochor draw;
Yno mae dy hen gyfeillion
Wedi dianc uwch pob clwy,
Yn dy aros, er cael cyfran
O'u dedwyddwch hyfryd hwy.

"Paid ag ofni, ber yw 'r fordaith,
Ac mae 'r Archoffeiriad cu
Yn dy aros yn y dyfroedd,
Er dy ddwyn i'r ddinas fry;
Clyw seraffaidd seiniau 'n 'hedfan,
Draw o frodir Seion fryn,
Gwel ei heuraidd byrth yn agor
Drwy y niwl sy 'n toi y glyn.

"Ffarwel fyd, a ffarwel deithio
Yn yr anial dyrus mwy;
Ffarwel gnawd, a ffarwel lygredd,
Ffarwel boen, a phob rhyw glyw!
Mae 'r tywyllwch yn gwasgaru,
A'r goleuni yn cryfhau;
'Nawr 'r wy 'n gweld y pur drigfannau,
'Hed, fy enaid, i'w mwynhau."

Ymchwydd du'r Iorddonen a disgleirdeb yr ochr draw ydyw testynau myfyrdod Ieuan Glan Geirionnydd o hyd, a gellir darlunio ei feddwl trwy roddi un o'i benillion ei hun,—

"Rwy 'n sefyll ar dymhestlog lan
Yr hen Iorddonen ddu,
Gan syllu 'n ddwys, mewn hiraeth clau,
Ar fryniau 'r Ganan fry."

Yr un oedd meddyliau Williams Pant y Celyn am yr afon, ond eu bod yn ofnau enaid cryfach a mwy. Dyma dri phennill o un o'r emynnau mwyaf mawreddog fedd y byd,—

"Tragwyddoldeb! mawr yw d' enw,
Ti mae 'n ddiau yw fy lle;
Huriwr un diwrnod ydwyf,
Fry mae 'm cartref yn y ne;
Mae 'm diwrnod bron a gorffen,
Mae fy haul bron mynd i lawr,
Mae pob awel yn fy chwythu
Tua 'r tragwyddoldeb mawr.

"'R wyf yn foddlawn iawn i 'mado,
Trefna 'r awr, a threfna 'r man,
Ond yn ymchwydd yr Iorddonen
Dal fy enaid llesg i'r lan;
Na'd fi soddi yn y tonnau
Pan bo angeu 'n fawr ei rym,
'Mafael ynnof yn dy freichiau,
Na'd i'm henaid ofni dim.

"Mae 'nghyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mlaen,
Rhai fu 'n mynd trwy ddyffryn Baca
Gyda mi tua Salem lân;
Yn y dyffryn tywyll garw
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy,
Mae'r addewid lawn i minnau,
Pam yr ofna 'm henaid mwy?"

Ni roddaf ond un pennill eto, y pennill olaf o emyn Dafydd Wiliam o Landeilo Fach,—

"Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,
Nid oes neb a ddeil fy mhen
Ond fy anwyl briod Iesu,
A fu farw ar y pren;
Cyfaill yw yn afon angeu,
Ddeil fy mhen i uwch law'r don,
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddyfwn hon.

A raid dweyd am emynnau mor eneiniedig nad ydyw eu sail yn Feiblaidd? Rhaid, yn ddiameu. Ond na feddylier fod hynny'n tynnu dim oddiwrth eu gwerth. Yr anfarwoldeb ddygwyd i oleuni drwy'r efengyl ydyw eu mater, ni waeth pa un ai o un o broffwydi ysbrydoledig Israel neu ai o feirdd y cenhedloedd y cymerwyd dull y darlun.

O ba le y daeth y darlun? Nid oes gennyf un amheuaeth mai o baganiaeth yr hen fyd, o Vergil yn enwedig. Ni ddaeth o Vergil yn uniongyrchol hwyrach, ond ei ddarlun ef ydyw darlun Williams Pant y Celyn a darlun Ieuan Glan Geirionnydd o afon angeu. Yr hwn ddygodd ddarlun Vergil i lenyddiaeth yr eglwys Gristionogol, yn ol pob tebyg, oedd Dante. Daeth Dante mewn cyfwng pwysig,—pan oedd llenyddiaeth Ladin yn dechreu gwywo, a llenyddiaeth genedlaethol yn dechreu dadblygu ym mhob gwlad. Hyd yn hyn, Lladin oedd unig iaith lenyddol y byd; nid oedd ieithoedd y gwahanol wledydd ond tafodieithoedd dirmygedig. Hyd yn hyn, llenyddiaeth Ladin oedd yr unig lenyddiaeth, nid edrychid ar farddoniaeth mewn ieithoedd ereill ond rhywbeth hanner y ffordd rhwng Lladin ac udiad cwn. Ond, yn amser Dante ac Owen Glyn Dŵr, yr oedd cenhedloedd Ewrob yn deffro, ac yn hawlio llenyddiaeth yn eu hiaith eu hunain. Yr iaith gyntaf i ddod yn glasurol oedd yr Eidaleg, a Dante roddodd iddi lenyddiaeth. Y mae'n anodd sylweddoli gymaint oedd dylanwad Dante ar y canol oesoedd, aeth ei feddyliau a'i ddarluniadau'n rhan o feddwl ei oes. Un o'r golygfeydd hynotaf yn ei *Uffern* ydyw'r eneidiau coll yn ymgasglu, dan wyll y nos dragwyddol, ar lan hen Acheron wylofus, hyd nes doi'r cychwr Charon i'r golwg, a'i wallt gwyn, a'i lygaid fel marwor byw.

Mae dychymyg pob oes wedi chware o gwmpas cyffiniau tywyll angeu; ac y mae'r glyn tywyll a'r afon ddofn, Acheron a'r Iorddonen, afon Epirus a llyn Memphis, wedi eu defnyddio gan y prydyddion Cymreig sydd wedi dweyd eu profiad yn "emynnau'r afon."

LLANDDWYN.



S gwelodd y darllennydd ddarlunlen o Gymru yn digrif ddangos ein gwlad fel hen wreigen grymedig yn cario siroedd Fflint a Dinbych ar ei chefn, mae yn sicr ei fod wedi sylwi ar Falltraeth, neu aber yr afon Cefni, yn enau agored iddi; ond hwyrach na sylwodd ar orynys fechan Llanddwyn fel dafaden yn hongian wrth ei gwefus isaf. Mewn geiriau eraill, saif Llanddwyn ar y penrhyn mwyaf deheuol i ynys Mon, sef eithafbwynt y gefnen sydd rhwng afonydd Braint a Chefni. Yn ei sefyllfa bresennol, nid yw y lle ond gorsaf bywydfad, a goleudy, o dan arolygiaeth awdurdodau Porthladd Caernarfon, a lle y mae pedwar o dai i'r un nifer o wylwyr, y rhai a ofalant am y goleuni ac a ffurfiant ran o ddwylaw y bywyd-fad.

Mae hefyd yn lle bychan poblogaidd iawn fel cyrchfan i bleserwyr i fyned yno yn yr haf ond fel y mae y gwaethaf y modd, nid oes yno ddim darpariaeth ar gyfer ymwelwyr ond a wneir gan wragedd y gwylwyr. Er hynny, y mae y croesaw, fel y mae, a'r adnewyddiad i gorff ac ysbryd a dderbynnir o awel y môr a'r golygfeydd i gyfeiriad mynydd ac eigion, yn ddigon o ad-daliad i'r ymwelwr o ba bellder bynnag y delo.

Cyn i'r goleudy gael ei sefydlu, a chyn i'r oleu-long gael ei gosod megis yn nrws y môrgilfach peryglus hwn, a phan oedd llongadeiladwaith yn llai perffaith nag ydyw yn awr, ni fyddai un gauaf, nac hyd yn oed un ystorm yn myned heibio heb i longddrylliadau gymeryd lle ar y banciau tywod sydd oddeutu y penrhyn. Gellid ysgrifennu cyfrol ddyddorol o hanes torcalonnus am drychinebau ddigwyddodd ar y traethau hyn flynyddoedd yn ol; ond erbyn hyn, oherwydd y rhesymau a nodwyd, anfynych iawn y camgymerir môrgilfach Caernarfon am y ffordd i Lynlleifiad heibio i Ben Caergybi.

Wedi ysgrifennu ychydig fel hyn am Landdwyn fel y mae, ac fel yr oedd yn ddiweddar cyn adeiladu y goleudy, ceisiaf nodi rhai o hynodion y lle yn y dyddiau gynt, cyn i gynhyrfiadau y môr fwrw tywod i r lan, ac i wyntoedd cryfion y de a'r gorllewin ei hau, nes gorchuddio plwyf cyfan, a gwneyd un o lanerchoedd ffrwythlonaf Mon yn anialwch anhrigiannol.

Pe safai unrhyw ddyn ar derfyn uchel de-orllewinol plwyf Niwbwrch, ychydig i'r gorllewin o eglwys y plwyf hwnnw, ac ar y graig yn ymyl Carreg yr Eithin, yn agos i Lys Rhosyr y cyfeirir ato yn un o gywyddau Dafydd ab Gwilym, fe gai weled ar unwaith hen blwyf Llanddwyn, tua dwy filltir o hyd ac oddeutu yr un faint o led, yn gwneyd i fyny y rhan ddeheuol o'r gefnen y cyfeiriwyd ati o'r blaen. Y mae'r holl arwynebedd yn orchuddiedig gan fryniau a phonciau o dywod, y rhai yn brin a orchuddir gan forhesg. Heb son am yr hynafiaethydd, nid yw yr olygfa'n anyddorol i'r hwn sydd yn ymfoddhau yn unig ar yr hyn a wel y llygad, oblegid ar ei aswy caiff gyfrif copâu mynyddoedd a moelydd yr Eryri o Benmaenmawr i Garn Fadryn yn Lleyn, mae môr-gilfach Caernarfon fel llyn mawr o'i flaen, ac ar y dde gwelir Bodorgan, aneddle ardderchog y Meurigiaid, yn ymyl yr hwn y safai yr hen Fodowen gynt, lle y trigai Syr Arthur Owen, Barwniad, yn amser y frenhines Ann. Yr oedd Oweniaid Bodowen ac Orielton, sir Benfro, o'r un cyff. Fel y sylwyd, yr oedd plwyf Llanddwyn oddeutu dwy filltir o hyd ac o led, gyda gorynys fechan yn ymwthio i'r môr, ar yr hon y mae'n sefyll yr unig dai sydd yn y plwyf, y rhai, gyda'r goleudy, a adeiladwyd yn gynnar yn y ganrif hon. Ar yr orynys hefyd y mae yr hyn sydd weddill o adfeilion yr hen eglwys.

Er chwilio ac ymofyn llawer, braidd y cefais seiliau digonol i'm galluogi i benderfynu pa un ai eglwys blwyfol oedd yma o dan arolygiaeth esgob Bangor, ai monachlog o ryw radd. Gwelais gyfeiriad ati fel Llanddwyn Abbey; awdwr arall a'i geilw yn briordy, neu fonachlog o'r ail radd; ond cyfeiria yr hynfieithydd craff ac ymchwilgar Rowlands at Landdwyn fel prebendariaeth, yr hon gynt oedd gyfoethog iawn, ac a ddaliwyd gan ddynion enwog yn hanes Cymru, megis Risiart Cyffin ac Edmwnd Prys.

Pa un bynnag ai plwyf ai tir o dan awdurdod mynachod Benedictaidd a drigai mewn monachdy ar orynys Llanddwyn oedd y llannerch a elwid gynt ar yr enw, ond yn awr a adnabyddir fel y Gwningar Fawr, nid yw mwy o dan awdurdod eglwysig yn y byd, oblegid dywed Rowlands yn y flwyddyn 1710,—"Am y rhan arall," (hynny yw, y rhan helaethaf

sydd ar wahan oddiwrth yr orynys a elwir yn awr Llanddwyn) "y mae yn hollol dywodlyd ac aniwylliedig, oddigerth ychydig lanerchau yn agos i Niwbwrch, y rhai nad ydynt yn anghymwys i gynyrchu yd, ond oddiar y rhai ni chesglir degwm am nad oes yno un gweinidog plwyfol yn apwyntiedig."

Mewn rhan arall o'i draethawd, dywed yr un awdwr,—"Yn awr (1710) ni chynhwysa oddiar chwech neu saith o aneddau, a pheth sydd hynod, nid oedd yma ddim mwy nag wyth o drigleoedd ('gwely' megis y gelwid hwy y pryd hynny) yn amser Edward III."

Oddiwrth yr adroddiadau hyn yr ydym yn casglu fod y tywod dinistriol wedi dechreu difrodi y plwyf er ymhell yn ol, yn y canoloesoedd beth bynnag; a bod y tywod dywededig yn ddadwaddolydd effeithiol.

Cyfeirir at yr wyth "gwely" oedd yma yn amser y brenin Edward III. Gallasai y rhai hynny fod yn dir-ddaliadau neu ffermydd mawrion; oblegid casglwn,oddiwrth ddisgrifiad Rowlands o welyau mewn plwyfi eraill yn y cwmwd, fod "gwely" yn lle mawr, fel yr oedd dau neu dri yn aml yn gwneud trefgordd. Credaf nad oedd aneddle yn amser Rowlands yn gyfystyr a "gwely" yn amser EdwardIII. Mae olion aneddleoedd mewn amryw fannau ar yr ochr ddwyreiniol i'r plwyf, sef y rhan fwyaf cysgodol yn amser ystorm; ond ceir olion "gwelyau" ym mhob cyfeiriad yn yr enwau sydd wedi aros ar fonciau, breichiau, a llanerchau. Pe buasai Rowlands wedi gadael i ni enwau y tai oedd yn aros, yn ei amser ef, cawsem lawer o gymorth i benderfynu yr hyn sydd yn awr yn amhosibl. Mae ychydig o bobl yn awr yn fyw sydd yn cofio yr Hendai a Chrochon Llanddwyn heb eu llwyr ddinistrio; yn wir, y mae dynion canol oed, ag sydd wedi bod yn ymddiddan gyda phreswylwyr olaf yr Hendai, ac yn cofio yr hwn fu'n amaethu Crochon Llanddwyn. Gellir casglu nad oedd Pentref Danw neu Dwynwen wedi rhagflaenu y ddau le hyn ond ychydig amser. Felly yr wyf yn credu nad oedd "aneddleoedd" Rowlands ond ychydig dai neu dyddynod ar lechwedd cysgodol o'r plwyf, rhai o honynt, megis Pentref Danw, yn ddim ond tai gweithwyr, disgynyddion y werin oedd gynt yn gysylltiol â'r "gwelyau" a wnaent i fyny gorff y plwyf ar y gefnen a thua'r gogledd a'r gorllewin.

Am safleodd y gwelyau hyn nis gellir ond dyfalu, a hynny trwy briodoli yr enwau, a roddir ar y bonciau tywod a llanerchau yma ac acw ar hyd y plwyf, i'r tai neu y ffermydd a orchuddiwyd gan y lluwchfeydd tywod, ac a ffurfiasant y bryniau, y breichiau,a'r ponciau welir heddyw. Gallaf enwi rhai o honynt, oddiar fy nghof, megis Penrhos, Bryn Ys gawen, Bryn Llwyd, Cerrig Gwladus, Y Fuches, Bryniau Dwynwen, a Cherrig Canhwyllau. Ac i brofi nad dyfaliad hollol yw yr uchod, dyma ddywed Rowlands,—"Y mae y cyfan o'r bron wedi ei orchuddio gan drwch mawr o dywod, yr hwn a yrrir gan y gwyntoedd cryfion oddiar lennydd cyferbyniol Arfon; ac mae y lluwchfeydd tywod yma wedi bod mor andwyol i'r llannerch hon fel y maent wedi llwyr orchuddio tai a gerddi, a gweirgloddiau, y rhai debygid oedd yn gynhyrchiol dros ben yma yn yr oesoedd gynt, fel y gweinid cynhaliaeth gysurus i lawer o deuluoedd; ond y mae eu haneddau yn awr wedi eu claddu yn ddwfn dan y bryniau tywodlyd yma; eto ar amserau bydd y gwyntoedd ystormus yn chwalu y tywod, ac yn dadenhuddo yr adeiladau i oleu dydd, fel eu gwelwyd gan lawer; ond fe'u cleddir yn ddwfn eilwaith mewn byr amser, lle y byddant yn gladdedig am oes drachefn efallai."

Wrth i hynafieithydd rodio ymysg y bryniau tywod hyn, a chanfod pethau i gadarnhau yr hyn ddywed Rowlands, nis gellir llai na dilyn y meddwl a'r dychymyg i'r hen amser gynt, pan oedd y llannerch hyfryd ond anial hon yn blwyf poblog, ac yn un o'r bywoliaethau eglwysig goreu yng nghwmwd Menai.

Bryniau tywod Asyria, ynghyda thraddodiadau yr Arabiaid, a gynhyrfodd chwilfrydedd Layard i wneud yr ymchwiliadau llwyddiannus a ddygodd Ninifeh golledig i'r amlwg i fod yn dyst adgyfodedig i wirionedd yr Ysgrythyrau sanctaidd. Felly yn gyffelyb y mae enwau lleoedd, hen sylfeini dadorchuddiedig, a'r tomennau cregyn yma ac acw fel crewynau cloron,—y maent fel iaith farw, ond eto yn distaw lefaru am drigolion Llanddwyn yn yr hen amser.

Ychydig ddyddiau yn ol cefais yr hyfrydwch o ymddiddan gyda gŵr parchus a deallus, yr hwn sydd wedi trigiannu am flynyddoedd lawer ar derfynau y Gwningar Fawr. Ymhlith pethau ereill hysbysodd fi o'r hyn a welodd ef ei hun ryw wyth neu ddeng mlynedd yn ol i gadarnhau yr hyn ddywed Rowlands mewn perthynas i ail ymddangosiad sylfeini hen dai plwyf Llanddwyn. Gan drigolion y parthau hyn o Fon gelwir rhes o fryniau tywod yn "Fraich." Mewn lle uchel ar lechwedd greigiog y mae Braich Cerrig Canhwyllau. Am ychydig amser symudwyd y Braich gan ystorm, a daeth i'r golwg amryw sylfeini tai anghysylltiol, ynghyda sylfeini y magwyrydd cerrig a amgylchai y gerddi oedd rhwng a thu ol i'r tai. Wedi i mi draethu fy marn wrtho ynghylch tarddiad enwau y breichiau a'r ponciau, gofynnais i'm cyfaill beth oedd ei

dyb ef am y sylfeini a welodd,—pa un ai olion ffermdy a'r beudai oeddynt, ynte tai cyffredin i werinwyr. Yr oedd yn meddwl yn gryf mai y golygiad olaf yw y tebycaf i fod yn gywir, oblegid fod maintioli y tai yn fychan, a'u bod yn anghysylltiol. Yr oedd olion y gerddi hefyd yn gwneyd iddo gredu mai tai gweithwyr oeddynt. Os felly, efallai mai tai gweithwyr rhwymedig wrth "wely" Cerrig Canhwyllau yn y canol-oesoedd oeddynt.

Yr oedd y pridd yn aros yn agenau y creigiau heb ei lwyr ddifa trwy weithrediad y tywod, ond ymddanghosai yn sych a di nodd fel y tywod. Sicrhai fy nghyfaill fi ymhellach fod arwynebedd y plwyf wedi newid agos yn hollol mewn parthau yng nghorff y deng mlynedd ar hugain diweddaf; fod pantiau oedd gynt yn borfaog wedi eu troi i fod yn dywodlyd a noeth; a fod llawer ponc fawr fel Bryn Llwyd wedi eu gwneuthur yn wastad.

Am y cregin y cyfeiriais atynt, dywed Rowlands,—"Nis gallaf ddweyd dim am y cregin hynod, o'r rhai y mae cyflawnder ar y glennydd hyn, nac am amryw o bethau ereill teilwng o sylw mewn cysylltiad a'r lle hwn." Os yw'm tyb yn gywir mai at y pentyrrau cregin yn y pantiau rhwng y bryniau tywod y cyfeiria yr henafiaethydd, yr wyf yn rhyfeddu na fuasai wedi penderfynu mai olion diwydrwydd diweddaf y trigolion oeddynt, pan oedd yn rhaid iddynt droi i'r môr a'r traeth am eu cynhaliaeth yng ngwyneb difrod y tywod ar y tir, cyn eu gorfodi i ymadael o'u cartrefi o herwydd diffrwythder eu meusydd gorchuddiedig.

Yr oedd yr eglwys yn gysegredig i Ddwynwen neu Donwena, merch Brychan Brycheiniog. Dywedir fod i Frychan lawer o feibion a merched, i'r rhai, ymhob rhan o Gymru, y mae eglwysi yn gyflwynedig. Ar ganol yr orynys, ar le gwastad rhwng y creigiau, y saif gweddillion yr hen gysegr. Dywed Rowlands ei bod yn ei ddyddiau ef "a'r olwg arni yn bruddaidd, wedi ei diosg o'i tho, a'i gadael i gwympo i adfeilion dan effeithiau dinistriol amser." Os oedd yn llwydaidd a thlawd yn ei ddyddiau ef, y mae'n llawer mwy felly erbyn hyn. Clywais fod rhai o ymddiriedolwyr porthladd Caernarfon yn dra gofalus rhag i unrhyw weithred o eiddo y gwylwyr sy'n aros yn y lle, neu gamymddygiadau ymwelwyr, gynorthwyo yr ymosodiadau a wneir arni gan amser ac ystormydd; ond yr wyf yn deall nad oes unrhyw ymgais wedi ei wneyd erioed tuag at adgyweiriad. Yr oedd ty y prebendari yn amser Rowlands mewn cyflwr gwaeth na chyflwr yr eglwys. Er fod muriau yr eglwys yn sefyll yn gadarn a diagenau y pryd hwnnw, y maent yn adfeiliedig iawn yn awr; ond am dy y prebendari, y mae'n rhaid i mi addef na ddigwyddodd i mi sylwi ar y man lle y safai, os oes unrhyw weddillion o hono eto yn aros.

Yr oedd yr orynys yn gysylltiedig wrth y rhan arall o'r plwyf yn amser Rowlands, ond canfyddai ef arwyddion ei bod ryw bryd yn cael ei hamgylchu gan y môr; gan hynny rhaid fod yr ynys fechan unwaith yn hynod neillduedig, ac felly yn gyffelyb i gysegrfannau ereill ar lannau Prydain. Bum yn ymddiddan â rhai oedd yn cofio yr orynys yn benrhyn cysylltiol a'r tir, pryd yr oedd gwddf o fryniau tywod yn eu gwneyd yn un; ond ar ryw ystorm erchyll torrodd y môr trwy y cysylltiad, nes gwneyd y lle yn ynys ar y llanw. Yn awr, ers ychydig flynyddau, y mae gwddf celfyddydol wedi ei adeiladu, fel y gellir tramwy ar bob adeg.

Enwir amryw fu'n dal y fywoliaeth cyn apwyntiad Risiart Cyffin, yr hwn oedd prebendari Llanddwyn yn y flwyddyn 1485. Yn y flwyddyn honno tiriodd Harri Tudur, iarll Rismwnt, yn neheudir Cymru, a chasglodd fyddin o'i gydwladwyr Cymreig; ac ar ol brwydr Bosworth a marwolaeth Risiart III., meddiannodd orsedd Lloegr. Cyn yr ymgyrch hwn yr oedd Risiart Cyffin, fel eraill o uchelwyr Cymru, yn dal cymundeb agos â Harri pan oedd yn Llydaw. "Oddiyma," sef o Landdwyn, medd Rowlands am Risiart Cyffin, y Deon du, "dygai ymlaen ei ystrywiau cyfrwys yn erbyn y brenin Risiart III." Yr oedd y prebendari Risiart Cyffin yn ddeon Bangor hefyd er y flwyddyn 1480. Olynydd y Deon du ym mhrebendariaeth Llanddwyn oedd William Owen fab Owen Meuric o Fodowen, o Elen ferch Rhys ab Meredydd o Lynllifon. Un o flaenoriaid gwyr Mon ym mrwydr Bosworth oedd Llywelyn ab Einion, henafiad i'r William Owen a enwyd. Mae y rhai a dybia mai priordy Benedictaidd oedd Llanddwyn yn meddwl mai oherwydd y cynorthwy a roddodd teulu Bodowen i Harri VII. y rhoddwyd y rhandir hwn yn etifeddiaeth i'r teulu hwnnw ar ddadwaddoliad y monachlogydd yn amser Harri VIII. Ond y mae Rowlands, yr hwn a gyfeiria at Landdwyn fel prebendariaeth yn esgobaeth Bangor, yn dweyd mai esgob Bangor a ddyroddodd y lle, wedi iddo fyned yn ddiwerth fel tir amaethyddol, i deulu Bodowen i'w wneud yn gwning-gaer. Mewn man arall dywed yr un awdwr mai yn y goron y gorweddai yr hawl i gyflwyno i'r fywoliaeth hon. Nid yw yn egluro y modd yr oedd gan yr esgob ryw bryd hawl i'w chyflwyno mewn dull arall i deulu Bodowen. "Y person olaf

a fu yma oedd Edmwnd Prys, archddiacon Meirionnydd, yr hwn a gymeradwywyd Ebrill 16, 1580."

Cawn weled ymhellach ymlaen y modd yr arferid ychwanegu gwerth y fywoliaeth cyn y Diwygiad, pan oedd y Babaeth mor lwyddiannus i osod ei threthi gormesol ar ysgwyddau lleygwyr anwybodus ac ofergoelus. Ni chodid cyllid yn y dull hwnnw yn amser Edmwnd Prys, ac yn ol yr hanes sydd gennym nid oedd degwm y plwyf y pryd hwnnw ond bychan, os oedd rhywfaint i'w gael, oherwydd fod y tywod eisoes wedi gorchfygu pob ymgais i'w wrthsefyll. Os felly, beth oedd gwerth y plwyf i'r archddiacon enwog? Tybiaf nad oedd o unrhyw werth ariannol, ond fod cadair prebendariaeth Llanddwyn, yn yr eglwys gadeiriol, yn un anrhydeddus yn unig, fel y mae cadair Penmynydd yn bresennol, ac yn gyffelyb i ganoniaeth fygedol. Nid wyf fi fy hun yn credu fod Edmwnd Prys erioed wedi bod yn trigiannu yn Llanddwyn. Mae y cyhoeddiad a ganlyn, a elwir gan Rowlands yn "Freinlen Llanddwyn," yn ymddangos fel prawf cryf mai prebendariaeth oedd, ynglyn ag esgobaeth Bangor,—

"BREINLEN LLANDDWYN.

Bydded hysbys i bawb trwy hyn ein bod ni Gruffydd Young, athraw yn y gyfraith, archddiacon Meirionnydd, dirprwywr pennaf y gŵr hybarch Dom. Wilhelm Vaughan, cynon eglwys Bangor, a phrebendari eglwys brebendaethol Llanddwyn, ac wedi ein doniaw ag awdurdod briodol i enwi dirprwywr neu ddirprwywyr eraill yn ein lle; at ein hanwylyd yng Nghrist, Meistr Ifan ab Bleddyn, archddiacon Mon, Meredydd ab Tudur, a Meredydd ab Cynrig, ysweiniaid i esgob Bangor, annerch, — gan feddu cyfiawn hyder yn niwydrwydd eich gofal, yr ydym ni trwy y gweithredoedd hyn yn eich penodi chwi, yn gysylltiedig ac ar wahan, fel dirprwywyr a chynrychiolwyr yn ol grym, ffurf, ac effaith yn ddirprwyaeth yny peth hyn a ganiatawyd i ni gan yr unrhyw gynon a phrebend, er casglu ffrwythau, offrymau, a buddiannau, o ba natur bynnag, a berthyn i ddywededig eglwys brebendaethol Llanddwyn; ynghyd ag awdurdod i argyhuddo, hyd yn ned o flaen unrhyw farnwyr lleygol, un Iorwerth Fychan, person Llanddoget, yn esgobaeth Llanelwy, yr hwn a honna hawl i offrymau yr eglwys brebendaethol ddywededig, gan eu cymeryd ymaith trwy drais cysegr yspeilgar; a hefyd i erlyn eraill a geir yn euog yn yr achos yma, yn ol y gyfraith. Er tystiolaeth i'r hyn dodwn ein sel wrth y weithred hon.

Rhoddwyd yn ein castell yn Llanbadarn 19 Ion o.c. 1404."

Wrth ddarllen y weithred cyfyd llawer o gwestiynau yn y meddwl, a gogleisir ein cywreinrwydd i geisio ychwaneg o fanylion nag a roddir gan Ruffydd Young; nis gallaf ddweyd dim ymhellach ynglyn â Gruffydd Young, na Wilhelm Vaughan. Wrth edrych dros "Enwogion Môn," gan Walchmai, canfyddir fod un Bleddyn ab Hwfa, boneddwr o Lifon, yn swyddwr cyfreithiol yn amser trefnu y Terfyniaeth, gan John des Delves, yn 1352. Gallasai Meistr Ifan ab Bleddyn, archddiacon Môn, y dirprwywr cyntaf fod yn fab i'r Bleddyn uchod, neu yn gâr iddo. Nid wyf yn ameu nad tad Owen Tudur, Penmynydd, hiliogaeth yr hwn,—Ty Tudur,—fu'n eistedd ar orsedd Lloegr, oedd Meredydd Tudur, oblegid cyfenw Cymreig Owen oedd Owen ab Meredydd Tudur. Yr wyf yn credu mai o Borthamel yr oedd Meredydd ab Cynrig, oblegid yr oedd Cynrig Ddu ab Cynrig yn un o foneddigion cwmwd Menai yn amser sefydliad y Terfyniaeth yn 1352. Mewn nodiad eglurhaol yn nhraethawd Rowlands dywedir fod Meredydd ab Cynrig, y trydydd dirprwywr, yn trigiannu ym Mhorth y Mael, yr hyn fel y tybiaf oedd hen enw Porthamel, palas henafol ond prydferth ar lan y Fenai rhwng Plas Coch a Phlas Llanidan, a'r lle a breswylir gan arglwydd Boston pan yn aros ar ei etifeddiaeth yn ynys Môn. Nis gwn ddim am Iorwerth Fychan, person Llanddoget, yr hwn a honnai hawl i offrymau Llanddwyn, a'r hwn a'u cymerai ymaith "trwy drais cysegr yspeilgar." Hwyrach mai nid peth newydd dan haul yw rhyfel y degwm.

Os edrychwn ar fonciau tywod Llanddwyn, a'r anffrwythlonrwydd sy'n teyrnasu yno yn awr, ac os ceisiwn fyw yn ein dychymyg am ychydig funudau yn amser yr anghydwelediad rhwng Wilhelm Vaughan ac Iorwerth Fychan, cawn weled dau ddarlun gwrthgyferbyniol, fel haf a gauaf. Yn y darlun cyntaf gwelir ychydig ddefaid yma ac acw yn y pantiau yn dyfal chwilio am y glaswellt teneu. Mewn cwr o'r darlun hwn gwelir rhai o drigolion Niwbwrch yn torri y morhesg, â'r hwn y gwneir tanau a matiau, yr hyn yw cangen diwydrwydd llawer yn y dref henafol; a gwelir gwŷr yn dal y gwningod, hiliogaeth y creaduriaid bychain a ddygwyd yma efallai gan Owen ab Meuric o Fodowen, yr hwn a wnaeth y plwyf yn Gwning-gaer.

Mae y darlun arall, darlun o Landdwyn yn y canoloesoedd, yn hollol wahanol. Y pryd hynny yr oedd y lle yn brebendariaeth gyfoethog, ac fel y gwelsom bu dau yn ymgyfreithio am y cyllid neu yr offrymau. Edrychwn ar y pethau a wnai y lle yn werth i'r cynon osod ei gŵyn o flaen athraw cyfraith ac i berson o esgobaeth arall ddwyn yr offrymau "trwy drais cysegr yspeilgar." Gwnawn hyn mewn erthygl fer arall.

Dwyran. OWEN WILLIAMSON.

PONT LLANGOLLEN.

CYMRU'R BEIRDD.

II.

PONT LLANGOLLEN.

Y balch, a'r gwael gardotyn llwm,
Tros y bont brys deithiant hwy:
Carpiau gwylltion, gwisgoedd gwych,
Tlodi, mawredd, gwae, a chlwy;
Chwerthin, wylo, brysio i ffwrdd,
Awr 'rol awr, yn dyrfa gref,
Tra islaw mae y Ddyfrdwy wyllt
Yn murmur mewn wylofus lef;
Prysuro mlaen, gofid a chân,
Gwagedd yn ei rwysg bob awr;
Llwm garpiau, ac ysblander fydd
Tra y rhed yr afon fawr.

Yr hoenus foneddiges deg,
Deithia hyd y bont yn llon;
Y swga garpiog y tu draw
Fedda galon falch fel hon;
Heirdd flodau, a breuddwydion ffol,
Llwch, a dirfawr drwst am aur,
Hen wŷr yn dilyn cysgod gwael,
Plant a heulog lygaid claer;
Prysuro mlaen, gofid a chân,
Gwagedd yn ei rwysg bob awr;
Llwm garpiau, ac ysblander fydd
Tra y rhed yr afon fawr.

Storm a heulwen, heddwch a ffrae,—
Tros y bont yr ant ar frys;
A theithiant gyda llanw'r byd
Trwy y gwlaw, y llaid, a'r chwŷs
Ac ni wŷr neb eu colli hwy
'Rol cilio i'r cysgodau prudd,
Ni chlywir mwy eu cerddi gwyllt,
Ar wyrdd lan y Ddyfrdwy rydd;
Prysuro mlaen, gofid a chân,
Gwagedd yn ei rwysg bob awr;
Llwm garpiau, ac ysblander fydd
Tra y rhed yr afon fawr.

HENRI MYLLIN.

DYFFRYN MAWDDACH.

Wyt orlawn o swynion, hen ddyffryn tlws Mawddach,
Llaw fawr Awdwr natur fu'n hael wrth y gwaith
O wasgar teleidion na cheir eu prydferthach
Yn harddu un dyffryn drwy'r eang fyd maith;
Ceir ynnot yn gymhleth y mawr a'r arddunol,
A thrwyddo sidan-we o'r tyner a'r swynol,
Nes gwneyd un ddarlun-len ddi-ail a gorchestol, [iaith.
Anhawdd ei desgrifio gan bwyntel nac
Fel dewrwych warchodlu a'u breichiau estynol
Y ceir y mân fryniau i'th wylio o hyd,
Eu pennau ddynoethwyd yn foel gan erch ruol
Ystormydd didostur,—wrth wylio dy gryd;

A hithau y Gader fel hyf gadlywyddes
Rydd eirchion i'r bryniau y rhai yw ei chadres,
I'th wylio—i'th noddi fel pe baet frenhines,
Hen ddyffryn tlws Mawddach,—pa ddyffryn mor glyd?

Mewn gwely tywod-lyfn y Fawddach aflonydd
Fel arian toddedig ddolenna i'w thaith,
Er mwyn ymbriodi ag Wnion Meirionnydd,
Y cwpwl sisialant yn fwyn yn eu hiaith;
Y coed hyd eu glennydd yn llon gurant ddwylaw
Er dathlu'r amgylchiad,—ceir adar yn pynciaw,
Tra'r pâr priodasol mor nwyfus a difraw
A frysiant i'w cartref,—y môr eang maith.

Dy ochrau a frithir â dolydd teg iraidd,
Lle chwery y milod yn ysgafn a llon;
Ceir ambell lyn bychan fel botwm ariannaidd
Yn harddu'r gob werdd-las orchuddia dy fron; [ystlysau,
Dwy brif-ffordd dramwyol red hyd dy
Sydd iti yn fron-wisg i gynnal dy rinau,—
Gan gadw prydferthwch edmygol dy fryniau
I fwyn lygad-dynnu pob estron o'r bron.

Ceir pont yr Abermaw fel rhwydwaith ar-dderchog, [ben,
Neu wddf-dorch addurnol o amgylch dy
A'r hoew gerbydres, a'i mwg fel sarff droellog
Ymddyrcha'n arafaidd a phrydferth i'r nen;
Ar un cwr o honot, henafol dlws ddyffryn,
Ceir treflan Abermaw a'i chlod yn ddiderfyn,
Ei hoffder i'w golchi ei thraed yn yr ewyn,
Er bod yn fun decaf a fedd Cymru Wen.

Ar hyd dy odreuon ceir bychain bentrefydd,
Bontddu,—rhyw *Hafilah,—bro'r aur hyd ei sail,
Llanelltyd, ac Arthog a'i henwog chwarelydd,
Rhai fuont ffon bara i weithwyr di-ail;
Ar lewys y gelltydd sydd yn dy gysgodi
Ceir iraidd dalgryfion goed teg fel baneri
Yn chwareu â'r awel,—bryd arall ymdrochi
Ar fynwes y Fawddach,—dan wenau yr haul.

Ar bob tu i'r Fawddach ceir heirddion balasau
Sydd megis cain emau yn britho dy dir,
Un tu ceir Glan Mawddach dan eurliw belydrau,
A phalas Bodowain yn gwenu yn glir,
Gan roddi cyfarchiad i Dy'n-y-coed Arthog,
A'r hen Garthyngharad a'i dyrau ardderchog
Ddychwela'r croesawiad, a Chaerdeon enwog
Gaiff fawl fel palasdy hen wron y sir.
Amrywiol fân nentydd yn drystfawr ymlithrant
I lawr dros y llethrau i'r Fawddach islaw,
Gan faint eu prysurdeb—gorffwyllog ymboerant
I wyneb pob gwrthrych i'w rhwystro a ddaw
Ar ol caled ymladd daw'r Cain a'i chwaer Camlan
I harddu dy fynwes fel dwy gadwen arian,
Am ennyd ymddofant—ac yna rhont gusan
I'r Fawddach, gan fyned i'r môr law yn llaw.

Dyffryn. GWILYM ARDUDWY.

* Gen. ii. 11.

MYNWY.

Gwyllt Walia ydwyt tithau, Mynwy gu!
Dy enw'n unig a newidiaist ti.
Ein heiddo ydwyt trwy hynafol rodd,
Ac ysbryd gwlad y rhaiadr ni chyffrôdd
Ar dy fynyddoedd, ni'th adawodd di
Pan fynnai Lloegr dy resu ymysg ei siroedd hi.

Bob amser nid rhaniadau Anian yw
Rhaniadau daearyddiaeth—ysbryd byw
A gorwyllt Gwalia sydd yn crwydro o hyd
Dros dy fynyddoedd, trwy'th ddyffrynnoedd clyd,
Tarana ar y bannau, rhuthra i lawr
Ar wyn y nentydd yn y storom fawr.
Nid hyglod ydyw dy fynyddoedd di
Am serthedd, uchder, a beiddgarwch hy,
Eu nerth wastraffant yn eu lluosawgrwydd,
Ac eto y mae ynddynt ardderchawgrwydd.

ISLWYN.

NEFYN.

Mi af oddiyma i ben Carn Fadryn
Er mwyn cael gweled eglwys Nefyn;
O ddeutu hon mae plant yn chwarau,
Lle dymunwn fy mod innau.

HEN BENNILL.

PENMAENMAWR.

Fel 'rown i ar ryw noswaith
Yn myned ar fy nhaith,
Rhwng Aber Wen a Chonwy
Ac yno lwybr maith,
A minne'n ddieithr ddigon
Yn disgwil torri'r wawr,
Peth hylla 'rioed a welais
Oedd pen y Penmaen Mawr.

HEN BENNILL.

BEDD YN LLANLLECHID.

Hiraeth ddaeth, fel saeth, i'm calon,
Gyda chnwd o ddwys och'neidion,
Pan ganfyddais fedd f'anwylyd
Yn y llwch ym mhlwy Llanllechid.

HEN BENNILL.

ARGRAFFWASG GOMER.

WRTH ddarllen *Seren Gomer* yn y rhifyn diweddaf, meddyliais mai nid annyddorol fyddai'r ychydig gofnodion a ganlyn am Joseph Harris (Gomer). Gwnaeth y gŵr clodfawr hwn mor ragorol i'n cenedl, a gweithiodd mor ddiflino o blaid ein hiaith a n llenyddiaeth gyfnodol fel y mae ei enw yn ddilys ddigon yn teilyngu coffadwriaeth yn ein plith hyd byth. Dyma'r paragraff sy'n cofnodi ei farwolaeth ar ol dygn gystudd,—ceir y nodiad yn y gyfrol o'r *Seren* am 1825 (Llyfr viii), mis Medi,—

"Bu farw—Yn Abertawe ar y 10fed o Awst, yn 52ain oed, ar ol agos i ddeuddeg mis o nychdod, y darfodedigaeth, y Parch. Joseph Harris (tad y diweddar Ieuan Ddu), Gweinidog Eglwys y Bedyddwyr yn y dref uchod, &c. Yr oedd yn wr cyfrifol a pharchus gan bob enw o broffeswyr; ac yr oedd ei ddiwydrwydd i ddiwygio yr Omeraeg, a i sel drosti, yn rhagori ar holl ddysgedigion ei oes. Enwogodd ei hun gymmaint, ym mhlith ei gydwladwyr, fel y cedwir coffawdwriaeth barchus am dano, ac nid â ei enw i lwch anghof Tra Mor Tra Brython. Gadawodd ar ei ol, weddw a thair o ferched i gyd-alaru a thrigolion y wlad, a chydgwyno eu colled am ŵr ag oedd mor anwyl gan ei deulu, mor barchus gan yr eglwys, ac mor enwog yn holl drigfannau meibion Gomer.

Yn ymyl hyn mae cofnod o farwolaeth Eben. Morris, Twr Gwyn, Ceredigion. Yn 1825, y flwyddyn y bu farw Gomer, symudwyd y *Seren* o Aber Tawe i wybren mwy gogleddol yng Nghaer Fyrddin, ac fel hyn yr ysgrifennodd olynydd Gomer yn yr olygiaeth,—

'Gyd-wladwyr Caredigol—'Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth,' &c. Pwy yn ein plith, flwyddyn i heddyw, wrth ddarllen Cofiant Ieuan Ddu, a allasai ragddweud y buasai yn awr yn llawn bryd ysgrifennu Cofiant i'r Cofiannydd medrus, a chanu galarnad am y galarnadydd teimladwy ac wylofus. Mawrion a phwysig yw y cyfnewidiadau a ddygwyddasant yn ein plith y flwyddyn hon; Holl wybodaeth yn unig a ŵyr pa ryw newyddion o'r cyffelyb a gyhoeddir trwy ein broydd, cyn y bydd i fisoedd y flwyddyn nesaf orphen eu treigliadau grymmus. Er trymmed y ddyrnod a gawsom, ac er gorfod i'n clustiau glywed y newydd galarus fod enwog sylfaenydd a diweddar olygydd y 'Seren' wedi ei orchfygu gan yr Angeu du; etto, y mae yn hyfryd gan ein calon, wrth adolygu llwybr ei ymdeithiad; i weled ei fod wedi ymddwyn trwy gydol ei farwol daith mor deilwng o egwyddorion dynoliaeth, o reolau Cristionogaeth, a hefyd o ddyledswyddau pwysig y weinidogaeth. Dangosodd yn amlwg mae gwaed Cymro oedd yn rhedeg yn ei wythenau, trwy yr ymdrechion a wnaeth i oleuo ac i wareiddio ei gydgenedl, a thrwy y glewder a'r gwroldeb diymollyngiadol (unyielding) a ddangosodd yn achos y 'Seren.' Er fod golygiaeth y 'Seren' yn gyflawn gymmaint gorchwyl ag ydyw golygu dau neu dri o gyhoeddiadau o'r un faintiolaeth yn yr iaith Saesonaeg; etto, efe a safodd yn ddiachwyn a diflino wrth ei orchwyl gorchestol dros fwy na saith o flynyddoedd cyfain; am ba achos y mae ei enw yn deilwng o gael ei osod, mewn llytherennau aur, ym mysg y blaenaf o wroniaid Cymru. Er colli Iwan, a Symmons, a Ieuan Ddu yn olynol, ac er cael ei adael megis yn unig ar boethfannau y maes; etto ni chiliodd ef fel llwfr yn nydd yr ymdrech, eithr safodd wrth ei swydd, hyd oni ddygwyd ef gan afiechyd i safn y beddrod oer. Ac hyd yn nod pan welodd fod yn rhaid iddo yntau hefyd, ar fyrder, i ddisgyn i ddystawrwydd, ni oddefai ei sêl iddo oedi dyfod trosodd i Gaer Fyrddin, fel y gallai osod y 'Seren' i fyny yma, a'i ddwylaw ei hun, cyn ei farw."

(Caer Fyrddin, dyddiedig Rhag. 1, 1825).

Tybiaf fod y difyniad hwn yn werth ei gael oblegid rhagoroldeb ei Gymraeg, llyfnder yr ymadroddion, a mantoliad y brawddegau.

Feallai y bydd yr ychydig hanes canlynol am hen argraffwasg Gomer yn dderbyniol. Yn holl groniclau cynnydd a llwyddiant Aber Ystwyth, nid oes yr un bennod sy'n fwy dyddorus na hanes hen argraffwyr ac argraffweisg y dref. Mae Aber Ystwyth, sy'n awr yn wirioneddol Athen Cymru, yn ddyledus iawn i Gaerfyrddin am ei hargraffwyr boreol; ac feallai fod trefydd ereill hefyd yng Nghymru yn llawn mor ddwfn yn y ddyled a'n tref ni. Credaf mai Caer Fyrddin oedd Liepzig Deheudir Cymru yn nechreu y ganrif hon. Brodor oddi yno oedd Samuel Williams, tad y diweddar Henadur Philip Williams, argraffydd o'r dref hon, yr hwn a osododd wasg yma yn 1809, ac efe oedd y cyntaf i argraffu yn Aber Ystwyth. Yn 1827 daeth ei nai, Sam Thomas, yma i fyw; a'r argraffydd hwn a gyhoeddodd, yn 1828 ac 1829, *Lleuad yr Oes* o dan olygiaeth yr enwog Brutus, hyd nes y symudwyd y *Lleuad* yn 1830 i oleuo yn ffurfafen Llanymddyfri. O berthynas i argraffwasg Sam Thomas, gellir dweyd fod iddi draddodiadau a hanes, oblegid hi oedd hen wasg yr athrylithgar Ieuan Ddu (John Ryland Harris), unig fab ac anwyl-ddyn ei enwog dad Gomer. Ar ol marwolaeth amhrydlawn Ieuan ieuanc, cyn ymagor o'r blodeuyn i'w lawn faint a'i ysblander, aeth y wasg i feddiant ei olynydd, J. A. Williams, o Abertawe, cefnder Philip Williams. Prynnwyd y wasg wedi hynny gan Sam Thomas, ac ymhen blynyddoedd prynnwyd hi drachefn gan Philip Williams, ac yn ei swyddfa ef y bu yr hen wasg yn gwneyd gwaith rhagorol am flynyddoedd, ond dim i'w gydmaru â'r gwasanaeth a wnaethai i'n gwlad a'n cenedl yn ei hamser heulog dan Ieuan Ddu. Eto, bu ambell wr gwir dalentog yn gweithio arni yn swyddfa Philip Williams,—gallaf enwi Robert Jones (Adda Fras), gŵr teilwng a boneddigaidd, o ysbryd llednais ac o gynheddfau meddwl

tu hwnt i'r cyffredin, yn fardd chwaethus ac awenyddol ac yn englynwr penigamp.

Ar ol yspaid maith o amser wedi ei dreulio mewn amryfath wasanaeth, daeth yr adeg pan y dechreuwyd edrych ar yr hen wasg fel wedi dihysbyddu ei nerth ac wedi gweithio ei hun allan, a gosodwyd hi mewn congl o'r neilldu. Ac mewn congl y safai yn 1854 wedi ei hesgeuluso, yn hollol ddi sylw, yn druan ac yn resynol. Edrychid arni fel dodrefnyn di werth a di ddefnydd. Ar ol gwasanaethu ein cenedl am amryw o flynyddoedd, wedi iddi heneiddio a mynd o'r ffasiwn, deallwyd fod ei dyddiau wedi eu rhifo,—gwelwyd y llaw yn ysgrifennu ar galchiad y pared; aeth y gorchymyn allan i'w llwyr ddifa, ac yn ebrwydd yr oedd y dinistrwyr wrth y drws. Acth yr Iconoclastiaid a'r Vandaliaid at eu gwaith ysgeler anfad! Dirdynnwyd yr hen wasg yn ddarnau oddiwrth eu gilydd, gwerthwyd rhannau o'r ffrâm fel hen haiarn, a defnyddiwyd y gwaith coed oeld ynddi yn danwydd. *Infandum*, anrhaethadwy! fod y peiriant trwy'r hwn y gwasgarwyd drwy ein gwlad gynhyrchion meddwl a chalon Gomer a Ieuan Ddu a'u cyd-lafurwyr wedi ei ddedfrydu i'r fath anghlodfawr dranc. Megis y gosodir hen faneri milwrol mewn eglwysi, yn arwyddion o barch i goffawdwriaeth y rhai sy'n syrthio ar "boethfannau y maes," dylasai'r wasg hon fod wedi ei gosod mewn rhyw amgueddfa, ddinasol neu golegol, oblegid gellir dweyd gyda Milton fod gan y wasg hithau ei buddugoliaethau, nid llai nodedig nag sydd gan ryfeloedd. Yn anffodus y syrthiodd coelbren hen wasg Gomer a Ieuan Ddu, a chreulawn fu ei thynged.

Aber Ystwyth. DAVID SAMUEL.

RHEOL.

O'm rhan fy hun, nid wyf yn credu rhyw lawer mewn rheol. Ni welais reol erioed yr hoffwn ei chadw ar bob amgylchiad, yn enwedig rheolau gramadegol. Ond byddaf yn barod i wrando cerydd er hynny. A dyma chwipiad pur drwm i mi, sef llythyr oddiwrth lenor adnabyddus iawn. Ni fyn roddi enw ond "Glan Teifi."

"Yn 'Ymbil Priam am Gorff Hector' yn y rhifyn diweddaf, defnyddia y cyfeithydd galluog 'lâs' am 'laddodd' ddwywaith. 'Lladdwyd' yw 'llâs' fel y ceir ef yn y Beibl. Nid yw dan yr un ddeddf a 'câs' a 'cafas.' Da fydd galw sylw at hyn, fel y gocheler y bai gan lenorion ieuainc, ac na chamarweinier hwy gan wr o safle uchel fel y cyfeithydd uchod. Mae llacrwydd diesgus wrth ysgrifennu Cymraeg. Troseddir rheolau bron ar bob llaw ac ym mhob man, heb neb yn ystyried. Nid oes 'frenin yn Israel' yn y peth hwn. Cymer pawb ei lwybr ei hun, nes y mae rheolau gramadeg mor ddidrefn a chroes-yn-groes pryf copyn ar âr newydd. A fynnwch chwi hanesyn i egluro'r peth.

Gynt yn 1851 mynnai y Parch. J. Williams, Llangadog, 'garu' ag eglwys Castellnewydd, a phriododd hi. Ryw nos Sul aeth i fewn yno i bregethu am 6, ac er ei syndod cafodd 'garwr' arall, Davies, Beriw, yn eistedd yng nghadair y pregethwr dan y pulpud. Hen ddyn tal, maith, diflas, na fynnai neb ei wrando ddwywaith, oedd Davies, ond direidus i'r carn Aeth Williams ym mlaen ato yn llawn ffrost, a V fawr. Ni syflodd Davies. 'Mae yn bryd dechreu,' ebai Williams. 'Ydyw hi?' ebai Davies, gan gilolygu ar y cloc. 'A wyddoch pwy wyf *fi?*' ebai Williams. 'Na wn i. Mae cynifer o gryts yn codi yn weinidogion yn awr fel nad wyf yn adwaen eu hanner.' 'Myfi yw *Williams Llangadog*.' 'O ie fe, wel, dechreu di dipyn ar y cwrdd, mi bregetha innau,' ac felly y buasai oni chyfryngasai rhyw ddiacon a glywai'r ymgom. *Verbum sap.*"

ARFAU'R NEF.

Y MAE llawer o feirdd yn Sir Drefaldwyn nad oes ond ychydig iawn yn gwybod am danynt. Y mae T. C. Roberts a Cheunantog a Henri Myllin wedi lled addaw ambell ysgrif. Y mae Ceunantog yn apelio at Fyrddin Fardd, yr hwn fedd ryw faint o waith braidd bob bardd y gellir ei enwi. Dyma un o emynnau Eos Gwynfa.

Arfau'r nef sy'n chwareu'n awr
Dan y meini,
Llwyddiant, llwyddiant ar y llawr,
Yw ein gweddi;
Efengyl Iesu elo ar led,
Dan arddeliad,
I'r duon grwyn a'r rhai digrel
Gael arbediad.

Mae galaru am y glyn
Esgyrn sychion,
Hiraeth am fywhau'r rhai hyn
Sydd ar Seion;
Doed anadliad awel Nef
Ar y dyffryn,
Deutur Duw, a'i Ysbryd ef,
Yn ei chanlyn.

Wrth bregethu'r Iesu a'i waed,
A'i archollion
Fe ddaw tyrfa ar eu traed
Oedd yn feirwon;
Brysied dydd y jiwbili
Dros y ddaear,—
Egyr udgyrn Calfari
Ddrysau'r carchar.

Am ein brodyr ry'm ni'n brudd
Dan ein lludded,
Eisiau gweld y rheini'n rhydd
O'u caethiwed;
Rheded yr efengyl fawr
Dan ei llwyddiant,
Nes dêl Seion ar y llawr
Yn ben moliant.

LLYTHYRAU EBEN FARDD.

I. EBEN FARDD AT SION WYN O EIFION.

Llangybi,

Tachweddd 21ain, 1822.

Anwylaf Gyfaill

Yr wyf yn cymeryd y gorchwyl mewn llaw o ysgrifaw ychydig o linellau atoch. Goheithiwyf eich bod yn meddu cyfran gysurus o iechyd, ni chlywais i ddim amgen, pa fodd bynag. Efallai eich bod bellach wedi dysgwyl a llygadrythu llawer am Seren Gomer, gallwch ei chanfod heddyw yn pelydru yn ei thanbeidrwydd llewyrchawl ar Chwilog, a'i iseldir ffrwythawl.

Ysgrifodd Clywedydd a'i wrthebwyr i y rhifyn hwn, a dywed y chwedl mai Iago Trichrug yw y Clywedydd, ac mai eiddo rhai o'r Anymddibynwyr oedd yr ymadrodd a ddyfynai ef, ac yn wir prin y gallaf ameu y chwedl am Glywedydd wrth edrych ar ei ddull yn ysgrifaw, ac y darlun a rydd Sylwedydd o hono yn y Seren. Y mae W. Jones, Pwllheli, wedi danfon y cyfieithiad a grybwyllais am dano wrthych i'r Seren, efallai yr ymddengys yn y nesaf neu'r nesaf ar ei hol, yr wyf yn tybio mai yr un dyben oedd ganddo yn ei yru i Gomer ag oedd ganddo yn ysgrifaw a'r "Ryddid y Pabyddion," yr hon ysgrif a dybia ef yn anwrthwynebol, mal y dywedodd wrthyf,—"y buasai rhywun wedi dangos ei big yn ei herbyn bellach pe meiddiasai." Ai gwir hyn?

Y mae genyf gywydd, a gysoddais i "Foddlondeb," yr wyf wedi ei draddodi yn bresenol i ddwylaw W. Jones a Dewi.* Addawsant ei yru i'r Seren, ni wn i a yw ar ei daith yno ai peidio. Cynwysai ynghylch can llinell. Rhaid imi dalfyru heno ar hyn. Dymunaf arnoch yru llinell gyd a'r bachgenyn foru. Ni feddaf esgus yn y byd i roddi drosof fy hun ond hono o eiddo Sion Owain,—

"Brys a wna waith bras yn wir."

Ydwyf eich diffuant,
Ei annheilwng gyfaill,
CYBI EIFION.†

Mr. John Thomas,
Chwilog, Eifionith.

*William Jones, fferyllydd, Pwllheli, a Dewi Wyn o Eifion.

†Defnyddiodd yr enw barddonol hwn am lawer o flynyddoedd.

Ysgrifennwyd y ddau nodyn uchod gan Fyrddin Fardd, trwy garedigrwydd yr hwn y cefais y ddau lythyr, yng nghyd ag ereill. Gwel ereill o lythyrau Eben Fardd yn yr "Adgof uwch Angof." Yr wyf yn disgwyl gweled cyfrol arall, o lythyrau Ieuan Gwynedd a Sion Gwynedd ac ereill, cyn hir.

II. AT YSGRIFENNYDD EISTEDDFOD.

Clynnog fawr,

Gorph. 22, 1850.

Anwyl Syr,

Mewn attebiad i'r eiddoch o'r 17eg or mis hwn yn gofyn "rhyddid i osod fy enw ar eich hysbysai fel beirniad barddonol eich Eisteddfod ddyfodol," yr wyf yn dymuno eich hysbysu fy mod yn cael fy nhueddu i gydsynio â'ch cais, a sefyll yn feirniad am un tro etto, er y rhagwelaf y bydd "yr hynt hon," y mae yn debygol, "gyda llawer o sarhâd &c." Hoffwn i'r Pwyllgor ystyried eu pennodiad o honof yn dda, cyn penderfynu arno, ac os, wedi addfedu eu meddwl ar y peth, y byddant yn dal yn eu dewisiad, teimlaf fy hun yn rhwym o gydsynio. Ar yr un pryd, os tueddir hwynt i alw eu penderfyniad yn ol, a dewis arall, ni bydd yn un tramgwydd i mi iddynt wneyd hynny. Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am eich gwelliant synwyrlawn yn penodi beirniad gwahanol ar y traethodau.

Y mae eich sylwadau ar "Ieuan Gwynedd" a'i ymddygiadau yn bur briodol, feddyliwn; nid wyf fi yn gwybod dim llawer am dano, dim yn bersonol; ymddengys i mi ei fod yn meddu dysg a thalentau helaeth, ac athrylith rymus; ond y mae yn bigog dros ben, ac yn anhawdd ei foddio; tybiwn i fod gan *gyfeillgarwch personol* ddylanwad diderfyn arno, a gwyn fyd ei gyfeillion; beth bynnag fydd eu maint, gwna ef hwy yn *gauri;* beth bynag fydd eu lliw, gwna ef hwynt yn *wynnach nag eira;* ac yn y gwrthwyneb gydag estroniaid, gan nad beth fyddo eu teilyngdod.

Anwyl Syr,
Gyda fy nghyfarchiadau parchus i'r Pwyllgor,
Yr eiddoch yn ufudd a chywir,

EBEN FARDD.

Mr. J. Morgan,
"Llangollen House,"
Merthyr.

"Yr wyf yn llwyr argyhoeddedig fod hymnau'n well heb gynghanedd yn gyfan-gwbl. Dywedais hyn wrth y Parchedigion W. Rees a W. Ambrose, ac yr oeddynt yn cydweled â mi'n unfrydol."

1849. EBEN FARDD.

EOS GWYNFA AC IOAN GWYNFA.

LLAWEN oeddwn o weled T. C. Roberts yn rhifyn Mehefin, yn codi i sylw enwogion y cymoedd hyn. Bum innau ar fwriad ysgrifennu rhyw nodion ar Eos Gwynfa, a'i fab Ioan Gwynfa. Ond yr oeddwn, fel yntau, yn disgwyl a gobeithio am i rywun mwy medrus na fi ysgrifennu rhywbeth yn deilwng am danynt hwy a'u gweithoedd. Tybiaf fod yr oll o'r llyfrau a gyhoeddodd y ddau yn fy meddiant, ond fod rhai dalennau yng ngholl mewn rhai o honynt. A chennyf hefyd amryw o fân bethau wedi eu hysgrifennu o enau Ioan Gwynfa ei hun. Gŵr parod iawn ei awen am atebiad byr a ffraeth oedd efe. Os caf hwyl ac amser, hwyrach yr anfonaf ryw fân betheuach felly, os byddant yn dderbyniol gennych.

Ym Mraich y Waen gyda'r Anibynwyr, y dechreuodd efe bregethu, ar nos Saboth o flaen y diweddar Barch. Morris Hughes. Ei destun ydoedd,—"Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth, trwy ei waed ef." Dywedodd wrthyf mai ei dad ac yntau a gychwynnodd yr achos yno. Bu yn pregethu am flynyddoedd gyda'r enwad uchod, cyn ei adael. Adroddai wrthyf ei fod, yn fuan wedi iddo droi at y Bedyddwyr, yn myned ryw fore Sul at ei gyhoeddiad i Gynwyd, pan yn ymyl yr Eithin clywai rywun ar ferlen yn dod ar ei ol, pwy ydoedd ond y Parch. W. Roberts, Pen y Bont Fawr, yn myned bron i'r un gymydogaeth ag yntau i bregethu, ond i enwad arall. Disgynnodd a chafodd yntau fyned ar gefn y ferlen. Gofynnodd iddo beth oedd yr achos ei fod wedi troi at y Bedyddwyr. "Methu," ebai yntau, "cael boddlonrwydd i'm meddwl ar fedydd. Gan mai un Arglwydd, un ffydd, ac un bedydd, sydd, yr oeddwn am gael fy nhrochi, ac felly yr wyf fi wedi cael y *ddau*, a chan hynny yr wyf fi yn iawn." A dadleu yn gyfeillgar y buont ill dau ar fedydd,—eithaf testun i ddau deithiwr dros gwr o gopa'r Berwyn ar dywydd tesog ydoedd dwfr,—hyd o fewn tair milldir i Gynwyd.

Dywedai wrthyf ei fod yn meddwl dod yn ei ol at yr Anibynwyr, ond fel y daeth dadleuon ar fedydd ar y pryd i ferwi y wlad, ac aros a wnaeth gyda gwŷr y dwfr hyd derfyn ei oes.

Hwyrach y goddefwch chwi i mi yma gywiro un gwall o eiddo y Parch. W. A. Griffiths, yn ei "Hanes Emynwyr Cymru." Rhestrir T. Williams (Eos y Mynydd neu Eos Gwynfa) ganddo gydag emynwyr Eglwys Loegr, yn lle gyda'r Anibynwyr. Aelod a diacon gyda'r enwad hwnnw ym Mraich y Waen oedd efe. CEUNANTOG.

Argraffwyd *Manna'r Anialwch*, — llyfr bychan destlus Eos Gwynfa, agos i gan tudalen,—yn Llanfair Caereinion yn 1831. Y mae llawer o'r emynnau sydd ynddo yn cynnwys ymadroddion rhy gyffredin, ond y mae difrifwch ynddynt oll, a gwir brydyddiaeth yn aml. Yn ei ragymadrodd byr, dywed ei fod yn cynnyg cyngor gafodd gan John Roberts Llanbrynmair,—"na roddwn fyth bin ar bapur heb fod tuedd yn y gwaith i wneyd lles i eneidiau." "Dyma y llyfryn yn cael ei gynnyg i'ch plith," meddai, "mewn iaith sathredig, hawdd ei ddeall, esmwyth i'w ganu." Dyma rai o'r emynnau'n dilyn.

I.

Trwy y cysgodau cudd,
Roedd rhai'n canfod
O bell, â golwg ffydd,
Iesu'n dyfod;
Yn Sylwedd mawr ei ddawn,
I dalu perffaith iawn,
A rhoi gollyngdod llawn,
A llwyr wneyd cymod.

Gwaed yr aberthau pell
Oedd yn llefaru,
Mai gwaed fyrddiynau gwell
A fyddai'n talu;
Wrth i'r offeiriaid ladd
Creaduriaid glân bob gradd,
'Roedd gwaed y rheini'n gwadd
Cred yn yr Iesu.

'Roedd dynion sanctaidd Duw
Tan y cysgodau,
Yn canfod modd i fyw,
Ar draul y Meichiau;
Gan dynnu ar eu taith,
Ym myd yr anial maith,
Dan gwyno lawer gwaith
Am ben eu siwrnau.

Ac edrych draw o bell
A wnaent yn fynych,
Gan waeddi,—*Gwlad sydd well*
'Rym ni'n ei chwennych;
Dieithriaid am eu hoes,
Yn cyfarch pob rhyw loes,
Gan gredu yn Oen y groes,
Dyma eu gwrthrych.

II.

Tithau gartre'n clymu'r napcyn,
Dweyd yn *ddrwg* am feistr *da*,—
Ac yn treulio dyddiau'th fywyd
Yn segurllyd amser ha!
Ofer iti yng ngwyneb angeu,
Son am olchi yn y gwaed,
Pan fo'r Barnwr mawr yn ordro
I dy rwymo ddwylaw a thraed.

III.

Wrth gofio am dy gur
Yn diodde'r hoelion dur,
Rho galon bur, a gwiwlon barch;
Ac adnewyddiad rhydd,
Cryfhad i'n hegwan ffydd,
Hyd hwyr y dydd, i gario d' arch.

CYHOEDDIADAU CYFNODOL Y CYMRY.

II.

[Cyhoeddwyd rhestr o Gyhoeddiadau Cyfnodol Cymru o'r dechreu hyd 1859 yng NGHYMRU Mai, Rhif. 10. Mewn rhifyn dyfodol, i wneyd y cwbl yn gyflawn, cyhoeddir rhestr o'r wythnosolion.]

I. TRIMISOLION.

Y Beirniad, Llanelli, 1859 (Merthyr Tydfil)
Seren Gomer, Caerfyrddin, 1861
Y Cymmrodor, Llundain, 1862
Llyfr y Plant, Llangollen, 1862
Y Brython, Tremadog, 1863
Yr Eisteddfod, Gwrecsam, 1864
Seren Gomer, Aberdâr, 1880
St. David's College Magazine, Llanbedr, Pont Stephan, 1880
Newyddion Da, Treffynon, 1881
Y Llenor Cymreig, Corwen, 1882
Y Geninen, Caernarfon, 1883

II. MISOLION.

Yr Athraw, Merthyr Tydfil, 1828
Y Cymedrolydd, Caerlleon, 1835
Y Brud Cenhadol, 1837
Y Gwron Odyddol, Pontyfon, 1838
The Pembrokeshire Congregational Magazine, 1839
Y Gwir Fedyddiwr, Dolgellau (?) 1842
Ifor Hael, Caerdydd, 1850
Y Wawrddydd, Caerfyrddin, 1850
Yr Amaethwr, Caerdydd, 1851
Udgorn Dirwest, Bethesda, 1851
Yr Hyfforddwr, Gwrecsam, 1852
Blodau Cerdd, Aberystwyth, 1852
Yr Athraw Cerddol, Llanidloes, 1854
Yr Hyfforddiadur, Gwrecsam, 1855
Y Gwerinwr, Llynlleifiad, 1855
Yr Annibynwr, Bethesda, 1856 (Llanfyllin)
Yr Arweinydd, Pwllheli, 1860
Y Gwyliedydd, Aberdâr, 1860 (Caerfyrddin
Yr Aelwyd, Caernarfon, 1860
Y Llenor, Caernarfon, 1860
Baner y Plant, Dolgellau, 1861
Yr Ymwelydd, Bala, 1861
Greal y Corau, Dinbych, 1861
Y Nofelydd, Llanerchymedd, 1861
Y Cerddor Cymreig, Rhuthyn, 1861 (Gwrecsam)
Yr Arweinydd, Aberystwyth, 1862
Llyfr y Plant, Llangollen, 1862
Trysorfa y Plant, Treffynon, 1862
Baner y Teulu, Aberystwyth, 1862
Golud yr Oes, Caernarfon, 1862
Yr Ardd, Bethesda, 1863 (Dolgellau)
Y Symbylydd, Lerpwl, 1864
Y Winllan, Lerpwl, 1865
Y Cyfaill Eglwysig, Caerfyrddin, 1867
The Dawn of Day, Caerfyrddin, 1868
Y Llusern, Lerpwl, 1869
Cerddor y Tonic Solffa, Gwrecsam, 1869
Y Gwyliwr, 1870
Yr Arweinydd, Aberdâr, 1870
Dysgedydd y Plant, Dolgellau, 1871
Y Medelwr Ieuanc, Aberdâr (?), 1871
Y Gerddorfa, Pontypridd, 1872
Cronicl Canol y Mis, Conwy, 1872
Y Ffenestr, Aberdâr (?), 1873
Amddiffynydd yr Eglwys, Rhyl, 1874
Cydymaith y Plentyn, Pontypridd, 1876
Y Darlunydd, Caernarfon, 1876
Y Ddraig Goch, Bala, 1876
Yr Ymwelydd, Porthmadog, 1877
Yr Ymwelydd Misol, Treorky, 1877
The Congregational Magazine, Llundain, 1877
Yr Ysgol Gerddorol, Llanelli, 1878
The University College of Wales Magazine, Oswestry, 1878, (Aberystwyth)
Yr Arweinydd Annibynol, Ystrad Rhondda, 1878 (Treorky)
John Jones, Talysarn, 1878
Y Frythones, Llanelli, 1879
Cyfaill y Plant, Walton, 1879
Y Dyngarwr, Caernarfon, 1879
Y Berllan Gymreig, Aberdâr, 1879
Yr Ysgol, Treffynon, 1880
Cronicl y Cerddor, Trcherbert, 1880
Y Perl Cerddorol, Merthyr Tydfil, 1880, (Rhosymedre)
Y Bugeilydd, Rhyl, 1881
Y Cenad Hedd, Merthyr Tydfil, 1881
The Red Dragon, Caerdydd, 1881
Newyddion Da, Treffynon, 1881
Cyfaill yr Aelwyd, Llanelli, 1881
Cenhadydd Cwm Tawe, Abertawe 1881
Yr Herald Cenhadol, Treorky, 1881
Athrofa y Plant, Caernarfon, 1881
Y Bedyddiwr Bach, Llundain, 1882
Y Ceidwadwr, Caernarfon (?), 1882
Y Llusern, Caernarfon, 1883
Cerddor y Cymry, Llanelli, 1883
The Newtown Monthly, Dretnewydd, 1883
Cymru Fydd, Dolgellau, 1888
Y Llusern, Caernarfon, 1889
Baner y Plant, Corwen, 1889
Cyfaill y Plant, Blaenau Ffestiniog, 1890
Y Pregethwr, Bala, 1890
Y Pulpud, Bala, 1890
The Welsh Review, Llundain, 1891
The Aberystwyth Young Men's Magazine, Aberystwyth, 1891
Cymru, Caernarfon, 1891
Cymru'r Plant, Caernarfon, 1892
Y Solffaydd, Merthyr Tydfil, 1892
Cyfaill yr Aelwyd a'r Frythones, Llanelli, 1892

III. PYTHEFNOSOLION.

Cylchgrawn Rhyddid, Caernarfon, 1839
Y Gwron Cymreig, Aberdâr, 1852
Y Gwyliwr, Caernarfon, 1869
Y Tŵr, Aberdâr, 1870
Y Wyntyll, Caernarfon, 1883

Tal y Bont, Ceredigion. W. DAVIES.

DR. LLYWELYN IOAN EVANS.

Gorffennaf 25, bu farw Dr. Llywelyn Ioan Evans yn y Bala, yn bedair mlwydd ar bymtheg a deugain oed. Newydd adael Lane Seminary, Cincinnati oedd, a newydd gyrraedd y Bala, lle y gobeithid y treuliai y gweddill o'i ddyddiau fel athraw Hebraeg Ganwyd ef yn y Wyddgrug yn 1833, ac y mae wedi llenwi lle pwysig yn llenyddiaeth ddiwinyddol yr Amerig er ys deng mlynedd a'r hugain. Ni chafodd ond prin ddechreu ar ei waith fel athraw yn yr athrofa yr oedd yn fyfyriwr ynddi'n dair ar ddeg oed.

EMYN WILLIAM EDWARDS.

"Tragwyddol foli fydd,
Fe gariodd Iesu'r dydd,
Fe fyn yn rhydd yr ethol ryw;
Anhraethol wir ryddhad
Sydd yn y nefol wlad
Lle mae fy Nhad a'm Iesu'n byw.

"Ni chollir un o'r had
Etholwyd gan fy Nhad,
Fe'u myn i wlad o ddwyfol wledd,
Cant yno i barhau
Anhraethol lawenhau,
Wrth gael mwynhau ei hyfryd hedd."

YR ALLTUD O GYMRU.

Alaw Gymreig.

Doh G. *Yn swynol.* | Cyng. Alaw Trefor.

















Mae'r alltud o Gymru yn gwylied y Lloer,
Oleua'r gwastadedd yn wannaidd ac oer,
Mae'n gweled ei gwyneb yn debyg i un
A yrrwyd gan angel o'i chartref ei hun.
Nis gall ef ddim gwenu, er edrych yn der,
Nag uno cŏr nefol perseiniol y ser;
Yn ei alar mae yntau a'i ddwylaw ymhleth,
Y mae hiraeth am Gymru yn boddi pob peth.

Nid oes ganddo neb arall i ymgomio ag ef,
Mae'n siarad a'i hunan yn hen iaith ei dref,—
"O na bawn yn Lleuad am funud neu fwy,
Gael edrych a thwynnu ar Hafren ac Wy."
Mae'n cau ei amrantau er mwyn rhoi boddhad
I'w feddwl ehedeg yn ol i'r Hen Wlad.
Amgylchwn y ddaear, y ffaith yma gawn,
Yng Ngwalia mae'r galon ble bynnag yr awn.

Y SENEDD-DY.

ETHOLIAD 1892.

NI raid i neb ofni, wrth ddarllen yr ychydig nodiadau hyn, fy mod yn ceisio tynnu gwleidyddiaeth plaid i gyhoeddiad nad oes a fynno â phlaid nag â sect. Fy amcan yw dweyd hanes yr etholiad yn unig; gan feddwl mor ddyddorol, erbyn hyn, ydyw'r rhestrau o gynrychiolwyr Cymru roddir yn yr hen gyfnodolion Cymreig.

Y mae Etholiad 1892 yn un hynod yn hanes seneddol ein gwlad. Dyma'r etholiad cyntaf, mewn gwirionedd, ar ol ail-drefnu'r ddwy blaid sydd bob amser yn ymryson am awenau llywodraeth y wlad.

Cyn 1688, y brenin oedd yn teyrnasu ar yr ynysoedd hyn, ag eithrio'r deng mlynedd o weriniaeth wedi'r Rhyfel Mawr. O 1688 i 1832, y tir-feddianwyr oedd yn llywodraethu, a'u harwyddair hwy oedd "Quieta non movere,"—gadael pethau fel y maent. Yn 1832, aeth y gallu o ddwylaw'r tir-feddianwyr i ddwylaw'r bobl, ond araf iawn fu'r bobl i ddeall beth oedd y gallu roddwyd iddynt. Daeth dwy blaid,—y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr,—y naill yn awyddus am symud ymlaen, a'r llall am fod yn ochelgar rhag symud yn rhy gyflym a rhag symud mewn camgyfeiriad. Yr oedd gŵyr egwyddorol yn perthyn i'r ddwy blaid; ac yr oedd yn perthyn i'r ddwy blaid, hefyd, rai nad oedd ganddynt ddim mewn golwg ond eu buddiannau eu hunain neu fuddiannau eu dosbarth. Fel y deallai'r bobl fod y gallu yn eu dwylaw, daeth y ddwy blaid i gredu mewn mynd ymlaen. Erbyn 1885 yr oedd gan y blaid Ryddfrydig fwyafrif mawr, a digon o allu i wneyd cyfnewidiadau mawrion. Ond yr oedd y blaid Geidwadol yn barod i wneyd cyfnewidiadau hefyd.

Cyn gwneyd y cyfnewidiadau hyn, daeth cwestiwn arall,—pa un ai un senedd sydd i reoli dadblygiad pob rhan o'r wlad, ynte ai pob rhan sydd i reoli ei dadblygiad ei hun? Gorfod i Mr. Gladstone astudio'r cwestiwn hwn oherwydd fod yr aelodau Gwyddelig, dan arweiniad Charles Stewart Parnell, wedi penderfynu fod yn rhaid i'r Iwerddon gael rheoli ei materion ei hun. Ceisiodd Mr. Gladstone, fel blaenor y blaid Ryddfrydig, roddi iddi'r gallu hwn; ond gwrthododd adran o'r blaid ei ddilyn, a gorfod iddo ymddiswyddo yn 1886. Yn Etholiad 1886, y cwestiwn oedd,—a oedd yr Iwerddon i gael rheoli ei materion ei hun? Yr oedd y teimlad yn erbyn iddi gael, a chafodd yr Undebwyr fwyafrif mawr. Ond, yn ystod tymor y Weinyddiaeth Undebol, gwelwyd mai yng nghyfeiriad llywodraeth leol yr oedd y byd yn mynd. Yn 1888 rhoddodd yr Undebwyr eu hunain senedd fechan,—heb lawer o allu ar y cyntaf, mae'n wir,—i bob sir; ac etholwyd aelodau y Cynghorau Sir gyda'r un amcan ag yr etholid aelod seneddol.

Erbyn 1892 yr oedd teimlad cryf yn ffafr ymreolaeth heblaw yn yr Iwerddon. Y mae'n debyg na fu Llunden a Chymru erioed o'r blaen yn cyd weithio tuag at gyrraedd yr un amcan. Ond eleni y mae Llunden am ychwaneg o allu i lywodraethu ei materion ei hun, ac felly Cymru. Y mae'r un teimlad yn gryf yn yr Alban hefyd; a phe buasai'r eglwys sefydledig yn Eglwys Loegr yn lle bod yn Eglwys yr Alban, buasai cwestiwn yr eglwys yn cryfhau'r awydd am ymreolaeth.

Yn 1892, felly, nis gellir rhannu'r pleidiau yn Geidwadwyr a Rhyddfrydwyr fel o'r blaen. Nid pa un ai yn araf ai yn gyflym yr

eir ymlaen ydyw'r cwestiwn yn awr, ond pa un ai drwy un senedd ai trwy lywodraeth leol hefyd yr eir ymlaen mewn gwareiddiad. Undebwyr ac Ymreolwyr ydyw'r pleidiau'n awr; ac fel y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn y dyddiau fu, y mae gan bob un o'r ddwy blaid ei gwaith i'w wneyd.

Ymreolaeth fydd arwyddair y dyfodol,—nid oes eisiau proffwyd i ddweyd hynny. Y mae ofn rhyfeloedd yn darfod, y mae'r syniad fod mawredd tywysog yn gofyn gwlad fawr yn darfod,—edrychir ar lywodraeth, o hyn allan, o safle manteision y wlad a lywodraethir. O hyn allan, bydd raid i wlad gael llais yn apwyntiad pob rheolwr, pob barnwr, a phob ynad, yn ogystal ag yn apwyntiad pob seneddwr. Rhaid i'r rheolwr, y barnwr, a'r athraw feddu ymddiried gwlad, cyn hir.

Cyn sylwi ar yr etholiad yng Nghymru, gadawer i ni roddi enwau'r aelodau Cymreig, rhif yr etholwyr, a'r mwyafrif gafodd yr aelod etholedig. Y mae'r rhifynnau Rhufeinig yn ateb i'r rhifynnau ar y mapiau. Y mae enwau'r aelodau Undebol mewn llythrennau italaidd. Lle na roddir mwyafrif, nid oedd gwrthwynebiad.

ETHOLIADAU CYMRU YN 1886.

Etholaeth.	*Rhif.*	*Aelod.*	*Mwyafrif.*
I. Mon.	10,903	T. P. Lewis.	1,718
Caernarfon,—			
II. Bwrdeisdrefi	4,723	D. Lloyd George.	196
III. Arfon	9,354	W. Rathbone.	
IV. Eifion	9,633	J. Bryn Roberts.	2,977
V. Meirion	9,137	T. E. Ellis.	3,238
Dinbych,—			
VI. Bwrdeisdrefi	3,521	*Anrh. G. T Kenyon.*	98
VII. Gorllewin	9,915	J. H. Roberts.	2,333
VIII. Dwyrain	9,941	G. Osborne Morgan.	765
Fflint,—			
IX. Y Sir	10,075	Samuel Smith.	1,452
X. Bwrdeisdrefi	3,710	J. H. Lewis.	359
Maldwyn,—			
XI. Y Sir	9,880	Stuart Rendel.	715
XII. Bwrdeisdrefi	2,936	*Syr P. Pryce Jones.*	112
XIII. Ceredigion	13,155	W. Bowen Rowlands.	1,971
Caerfyrddin—			
XIV. Bwrdeisdrefi	5,298	E. R. Jones.	225
XV. Gorllewin	9,262	J. Lloyd Morgan.	
XVI. Dwyrain	9,136	Abel Thomas.	3,116
Morgannwg,—			
Abertawe,—			
XVII. y dref	8,447	R. D Burnie.	722
XVIII. y wlad	10,017	Syr Hussey Vivian.	5,026
XIX. Caer Dydd	16,886	Syr. E. J. Reed.	686
XX. Merthyr	17,271	D. A. Thomas.	9,644
XXI. (dau aelod)		W. Prichard Morgan.	9,452
XXII. Gŵyr	11,937	D. Randell.	
XXIII. Rhondda	9,457	W. Abraham.	
XXIV. Canol.	11,373	S. T. Evans	4,016
XXV. De	12,481	A. J. Williams.	918
XXVI. Dwyrain	11,741	Alfred Thomas.	2,967
Penfro,—			
XXVII. Bwrd'sdrefi	5,980	Egerton Allen.	195
XXVIII. Y Sir	10,895	W. R. Davies.	1,099
Mynwy,—			
XXIX. Bwrdeisdrefi	7,697	A. Spicer.	293
XXX. Gogledd	12,130	T. P. Price.	1,157
XXXI. Gorllewin	11,251	M. Warmington.	5,319
XXXII. De	13,211	*Anrh. F. Morgan.*	721
XXXIII. Brycheiniog	10,051	W. F. Maitland.	1,258
XXXIV. Maesyfed	4,535	Frank Edwards.	233

Wrth edrych ar y rhestr hon, gwelir fod Cymru ymron i gyd yn perthyn i'r un blaid. Yr eithriadau ydyw y ddwy etholaeth leiaf a'r rhan ddeheuol o Sir Fynwy. Dywedir mai Gwrecsam, lle ar Glawdd Offa, sy'n rhoddi ei nerth i Undebiaeth bwrdeisdrefi Dinbych; ac y mae bwrdeisdrefi Maldwyn,—er mor frwdfrydig ydyw Llanfyllin a Llanidloes,—ar y gororau hefyd. Er gwell neu er gwaeth, y mae Cymru'n unol iawn.

Gwelir hefyd mai'r rhan weithgar o'r Ymreolwyr sydd wedi ennill tir yn Etholiad 1892. Cododd mwyafrif Osborne Morgan o 26 i 765, er fod Syr Watcyn, "y tywysog yng Nghymru," barwnig ieuanc poblogaidd ac awyddus i wneyd daioni, yn ei erbyn; cododd mwyafrif Lloyd-George o 18 i 196 er fod un o'r Cymry mwyaf poblogaidd, Syr John Puleston, yn ei wrthwynebu; cododd mwyafrif T. E. Ellis o 1267 i 3238, er fod amaethwr Ymneillduol yn ymgynnyg yn ei erbyn; a chafodd S. T. Evans fwyafrif aruthrol er ei fod wedi gwrthod yfed iechyd da i'r Frenhines yng ngwledd Arglwydd Faer Llunden.

Sylwer nad oes yr un aelod o Gymru ymhlith yr adran Ryddfrydol o'r Undebwyr, er cymaint o swyn sydd yn enwau Bright a Chamberlain. Cododd mwyafrif T. P. Lewis

o 307 i 1718, er fod Morgan Lloyd, gyda'i wasanaeth amhrisiadwy i addysg Cymru, yn ei erbyn; taflwyd Cornwallis West o sir Ddinbych gyda mwyafrif o 2333; a chododd mwyafrif Bowen Rowlands yng Ngheredigion, er fod Cymro o fywyd anrhydeddus yn ei erbyn, o 9 i 1971.

Yr etholaeth fwyaf yng Nghymru ydyw etholaeth Caer Dydd, gynrychiolir gan Syr E. J. Reed; yr etholaeth leiaf ydyw bwrdeisdrefi Maldwyn, gynrychiolir gan Syr P. Pryce Jones. Y mwyafrif mwyaf ydyw mwyafrif D. A. Thomas ym Merthyr Tydfil; y mwyafrif lleiaf ydyw mwyafrif yr Anrhydeddus G. T. Kenyon ym mwrdeisdrefi Dinbych. Gellid dweyd llawer o fanylion am yr etholiad; ond y ffaith bwysig ydyw,—mor bell ag y mae cynrychiolaeth seneddol y dyddiau hyn yn dangos hynny, y mae Cymry'n unllais.

Cri y blynyddoedd nesaf fydd deddfau lleol, a mwy o awdurdod i'r cynhulliadau lleol. Cri y llywodraethwr ydyw un grefydd, un ddeddf, un gallu. Cri y bobl ydyw rhyddid cydwybod, deddfau lleol, ac ymreolaeth. Hyd yn hyn, er dyfodiad y Norman yn 1066, llywodraethwyd Lloegr gan swyddogion apwyntiedig gan y Goron; gan y sirydd i ddechreu, a'r ustus heddwch wedyn. Rhwng 1284 a 1536 gormeswyd Cymru gan anghyfraith arglwyddi a chan gyfraith y brenin. O 1536 hyd 1832 llywodraethwyd Cymru gan swyddogion Seisnig neu gan Gymry wedi eu Seisnigeiddio, hyd nes nad oes odid i wr teitlog Cymreig yn medru siarad Cymraeg. Yr oedd siarad iaith ei wlad yn anghymwyso Cymro i swydd, ie, yn ol y gyfraith. O 1832 hyd 1872 bu'r werin yn deffro ac yn dioddef, yn crwydro'r anialwch,—fel yr Israeliaid gynt,—am ddeugain mlynedd. Bu ugain mlynedd arall yn condemnio'r hen lywodraeth trwy gwbl newid cynrychiolaeth Cymru. Hawdd proffwydo y bydd newid mawr ar grefydd, ar ynadon, ar athrawon, ar bob swyddogaeth yng Nghymru gyda hyn.

Y mae hyn oll yn fater o hanes, ac nid yn haeriad plaid. Y mae gwerin Cymru wedi cymeryd yr awenau i'w llaw ei hun; ac yn fuan iawn bydd y Cyngor Sir a'i air yn air ar ei ardal ei hun.

Hawdd gweled pa welliantau wneir gan lywodraeth y werin, ysgubir ymaith yr hyn sy'n aros o orthrwm llawer oes. Ond nid mor hawdd, hwyrach, ydyw credu y bydd gan y werin demtasiynau mawrion. Mewn gwledydd ereill y mae'r gweithiwr wedi bod

ETHOLIADAU CYMRU YN 1892.

mor drahaus a hunanol a'r un tirfeddiannwr ddaeth dan ffrewyll beirdd Cymru erioed. Yn rhai o'r trefedigaethau y mae'r werin yn mynnu deddfu yn erbyn i'r Chinead ddod i'r un wlad a hwy.

Perygl ymreolaeth fydd hunanoldeb, a diffyg cydymdeimlad â gwledydd ereill. Pe medrai, bradychai llawer un ym Mhryden achos Masnach Rydd. Y mae'r syniad anwaraidd ac anghristionogol eto'n aros, ymysg llawer gwerin, na fedr dosbarth na gwlad lwyddo ond ar gost dosbarth neu wlad arall. Mae'n resyn meddwl fod llawer o Gymry'r Amerig wedi gwadu achos Masnach Rydd; er mwyn gwneyd gweithiwr yr Amerig yn dew, yn ol un darlun welais yn un o bapurau Cymreig yr Amerig, rhaid newynu gweithiwr Lloegr. Cofied gwerin Cymru nas gall byth ennill dim, yn y pen draw, trwy niweidio ereill. Yr wyf yn gobeithio, ac yn credu ambell dro, y bydd addysg Cymru'n waredigaeth iddi rhag llawer temtasiwn. A'r addysg honno ydyw addysg yr Ysgol Sul.

Mewn rhifynnau dyfodol, rhof fapiau o Gymru yn adeg yr hen etholiadau,—adeg rhyddfreinio'r Pabyddion, adeg rhyddfreinio'r Iddewon, adeg rhyddhau r caethion, adeg estyn yr etholfraint.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

Y MAE'R Etholiad diweddaf yn esgus dros amhrydlondeb mewn llawer cyfeiriad, dyrysodd lawer amcan. Tra'r oedd ereill yn disgwyl yn awchus am ganlyniadau'r pleidleisio, yr oeddwn innau'n ddrwg fy hwyl yn disgwylam brawflenni Cymru. Ac yn y diwedd, gorfod imi ddewis rhwng peidio darllen y prawflenni'r ail dro a gadael i'r cyhoeddiad fod ddiwrnod ar ol ei amser. Yr wyf wedi penderfynu na fydd, hyd eithaf fy ngallu, ddiwrnod ar ol ei amser. Dyna'r rheswm paham y mae aml fai argraffyddol yn y rhifyn diweddaf. Ond nid oes fai digon pwysig, yn yr un o'r erthyglau, i gamarwain neb.

"Gan fy mod yn mawr edmygu Dafydd ab Gwilym, a chan fy mod yn ddiweddar wedi gwerthu man ei enedigaeth, neu o leiaf y lle y dywedir iddo dreulio ei febyd ynddo gyda'i dad, sef Broginin, i Syr Pryse Pryse, Bart., Gogerddan, — daeth i'm meddwl y dylid codi rhyw fath o gofgolofn iddo ar y llecyn. Crybwyllais hyn wrth Syr Pryse, ac yr wyf yn credu y rhydd gynhorthwy, gyda golwg ar le a chyfraniad.

Meddyliwn, pe codid cof-golofn, y dylai'r dadorchuddio gymeryd lle pan gynhelir Eisteddfod Genedlaethol yn Aber Ystwyth. Y mae gennyf fanylion ereill yn fy meddwl na waeth i mi heb eu hysbysu ar hyn o bryd. Os ydyw'r syniad wrth eich bodd, rhof gymorth i'w sylweddoli'n llawen.

"*Bryn Hyfryd, Towyn.*" "O. Daniel."

Yr wyf o galon yn cyflwyno'r llythyr hwn i ystyriaeth pob Cymro. Eisteddfod frwdfrydig fuasai Eisteddfod dadorchuddio cofgolofn prif fardd Cymru. Ac onid yw Lewis Morris, hefyd, yn huno yn Llanbadarn, heb ddim i ddangos ei fedd? Traethed ereill eu meddwl. Yr wyf yn gobeithio fod teimlad cryf yng Nghymru ar hyn o beth.

Llawer a gwynir fod Cymraeg y Cymro ar ffordd ei lwyddiant, ac nid oedd gan farnwr well neges yn sir Fon ychydig ddyddiau'n ol nag erfyn ar y Cymry ymseisnigo gyda brys. Pe gwyddid y cwbl, nerth ydyw ei Gymraeg i Gymro, ac nid llyffethair. Danghosir hyn gan lwyddiant Miss Mary Catherine Ellis, y Gymraes ieuanc o Fanchester sydd wedi graddio mor anrhydeddus yn y Victoria University. Er mai ym Manchester y ganwyd ac y magwyd hi, sieryd Gymraeg mor ddilediaeth a phe buasai newydd ddod o sir Fon. Dywedir mai geneth fwyn a llawn bywyd ydyw, yn meddu penderfyniad a chariad at waith, ac yn meistroli pob peth y try ei meddwl ato, boed gerddoriaeth neu iaith neu ryw wybodaeth arall. Y mae hefyd yn athrawes gampus yn yr Ysgol Sul Gymraeg. Dylai pwyllgorau addysg Cymru fod a llygad ar un fel hon.

Y mae lle i gredu y bydd Eisteddfod y Rhyl, a gynhelir cyn i rifyn arall ymddangos, yn un o'r eisteddfodau mwyaf mawreddog yn hanes Cymru. Y mae'n sicr y tyn y cystadleuaethau canu dyrfaoedd mwy nag erioed. Am y brif wobr o ddau gant o bunnau, bydd cystadleuaeth rhwng corau Caernarfon, Dowlais, a Birkenhead. Y mae deuddeg o gorau meibion wedi anfon eu henwau, yn cynnwys y corau enwocaf yn Ne a Gogledd Cymru. Bydd yno bedwar côr Cymreig, a chwe chôr plant. Peth newydd fydd y gystadleuaeth corau merched, rhwng chwech o gorau Seisnig a Chymreig. Y mae'n debyg mai tynnu mawr fydd rhwng yr wyth seindorf bres.

Peth a dyn filoedd i'r Eisteddfod fydd oratorio newydd Dr. Joseph Parry,—"Saul o Darsis." Cymerir rhan Paul gan Ffrancon Davies; a chydag ef bydd Ben Davies a Maggie Davies, a chôr ac *orchestra* o dri chant a hanner. Daw'r dydd y gwelir Eisteddfodau Cymru n fagwrle cyfansoddwyr Cymreig; os bydd cynhulliad cenedl yn galw am gyfansoddiadau ar destynau Cymreig, y mae'r cyfansoddiadau'n sicr o ddod. Disgwylir yn hyderus y bydd "Dafydd a Saul" David Jenkins yn cael yr un lle ym Mhont y Pridd.

Y mae nifer mawr o draethodau a darnau barddonol yn llaw'r beirniaid hefyd. Bydd rhifyn nesaf Cymru'n rhifyn arbennig i'r Eisteddfod Genhedlaethol.

At nifer y rhai gollasom y flwyddyn hon chwith ydyw gorfod ychwanegu enw Dr. John Thomas. Bydd ar babell yr Eisteddfod enwau llu o rai wedi marw yn ystod y flwyddyn hon. Bydd darlun a bywgraffiad yn y rhifyn nesaf.

Bydd yn y rhifyn nesaf ddarluniau o'r Eisteddfod, bardd y gader, bardd y goron, Eos Morlais, Dr. John Thomas, a rhai o'r aelodau seneddol Gymreig.

Ymysg yr erthyglau sy'n aros am le, y mae rhai ar y testynau hyn,—Dafydd y Garreg Wen, Llysenwau Cymru, y Gair Mwys, Traddodiadau Penllyn, Can Mlynedd o Ddiwinyddiaeth, Llyfr Plwy, Llyfr y Seiat, Llan y Mawddwy, Pant y Celyn, Siwrne i Fangor, Llywarch Hen, Llyn Tegid, Pont Rhyd Fendigaid, Dysgu Cymraeg, a lliaws mawr o erthyglau ereill, hen farddoniaeth, barddoniaeth newydd, tonau, ac amrywion. Y mae gennyf gynllun i gyhoeddi mwy nag a gynnwys Cymru'n awr, ond nid yw'r cynllun hwnnw wedi ei weithio allan eto.

Yr wyf yn disgwyl y medraf gyhoeddi wyneb-ddarlun prydferth gyda rhifynnau Cymru o hyn allan,—darluniau o olygfeydd Cymru a chymeriadau ei hanes. Gwelir fy mod yn gwario derbyniadau'r cyhoeddiad i gyd er ei helaethu. Yr wyf yn disgwyl y tâl ei ddarllenwyr i mi trwy ei ddangos i ereill, i godi'r hen wlad yn ei hol.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

XIII. WILLIAM EDWARDS.*

YMYSG y to o flaenoriaid fu yng nghapel mawr y Bala o flaen yr hynaf sydd yno'n awr, yr oedd hen wr byr crymedig, yn gwisgo berwig, o'r enw William Edwards. Gwŷdd oedd wrth ei alwedigaeth, a bu'n gweithio'n hir yn ffatri Ffrydan gerllaw'r dref, pan oedd honno yn nwylaw Gabriel Dafydd. Dywedir mai dyn cas, digon pigog, oedd wrth natur, ond fel yr effeithiodd gras arno. Hyn, mae'n debyg, oedd y rheswm na wnawd ef yn flaenor ond ar unwaith a rhai iau nag ef. Ond, o ran hynny, nid ystyrrid ei fod yn ddyn galluog gan ei gymydogion, er y medrai gael hwyl ar ganu emyn ambell i dro.

Yn nhref y Bala, yn y pen agosaf i'r llyn, yr oedd yn byw. Ar gyfer ei dy safai coeden, yn yr ystryd, ac yr wyf yn meddwl ei bod yno eto. Yr oedd yr emynnydd wedi priodi merch i John Evans o'r Bala, ac yr oedd y ddau yn byw dan yr unto.

Pan yn y capel, eisteddai William Edwards yn y set fawr, yn union dan y pulpud. Felly byddai a'i wyneb at y bobl, ac efe fyddai'n cyhoeddi. "Mewn llawer o bethau," ebe Iago, "yr ydym ni bawb yn llithro." Llithrodd William Edwards unwaith. Nid oedd llwyr ymwrthod yn gyffredin yr adeg honno, hyd yn nod mewn blaenoriaid. Medrodd y diafol gael William Edwards i'r Onnen, y dafarn safai yng nghanol tafarnau'r dref, ac ar ddiwrnod ffair. Yfodd y blaenor ormod, a meddwodd. Syrthiodd ar ei hyd o flaen pawb ar stryd y Bala, a chollodd ei ferwig.

Ni fuaswn yn dweyd hyn oni bai fod y brofedigaeth,—ac yr oedd yn brofedigaeth chwerw iddo ef, — yn esbonio llawer o'i emynnau. Yr oedd ei edifeirwch yn fawr. I ddangos ei ddrwg haeddiant i'w frodyr, gadawodd ei gornel yn y set fawr dan y pulpud, ac eisteddodd yn y gornel bellaf fedrai gael yn yr oriel.

Yr oedd ganddo frawd Joseff Edwards, ond nid oedd yn gystal bardd. Er hynny gwnaeth ambell emyn. Anibynnwr oedd Joseff; a rhyw dro yr oedd pregethwr yn dod i Lanfor i lefaru. Ac ebe Joseff wrtho, —"A fyddai ryw ods gennych gymeryd yr adnod a'r adnod yn destun? Yr wyf fi wedi gwneyd emyn, ac y mae arnaf flys ei dreio." Nis gwn a bregethodd y pregethwr yn ddi fyfyr, ond dyma'r emyn ganwyd ar ddiwedd y bregeth,—

"Er inni oll yn Eden
Fel deilen fynd i lawr,
Cacd trefn i'n codi i fyny
Trwy Grist, yr Aberth mawr,
A'n gosod ar gadarnach
A llawer sicrach sail,
Sef bywyd a marwolaeth,
Eiriolaeth Adda'r ail."

Oddiar wefusau hen wr y cofais y pennill hwn. Ond y mae emynnau William Edwards yn ddiogel mewn argraff. Cyhoeddwyd hwy yn 1818, yn y Bala, gan Robert Saunderson, yn llyfr bychan pedwar ugain tudalen. "Ychydig hymnau ar destunau athrawiaethol a phrofiadol" ydyw teitl y llyfr. Y mae ynddo saith a thriugain o emynau, ond dim rhagymadrodd.

Un o nodweddion William Edwards oedd yr hyfrydwch gaffai wrth edrych ar goed tyfadwy a meusydd ffrwythlon,—

"Y rhai o dan dy gysgod, Ion,
Yn gyson a arhosant;
Dan lewyrchiadau'th wyneb pryd,
Y rhain fel yd adfywiant.

"Blodeuant, tyfant tua'r nen,
Fel y winwydden ffrwythlon
A bydd eu harogl wrth eu trin,
Mor bêr a gwin Lebanon.

"Lledant eu gwraidd mewn daear fras,
Wrth afon gras y bywyd,
Eu ceinciau gerdd, eu tegwch fydd
Fel olewydd yn hyfryd."

Dyma emyn, llai adnabyddus, yn dangos yr un ymhyfrydiad,—

"Daw ffrwyth y gronyn gwenith,
Fu farw ar y bryn,
O blith yr holl genhedloedd,
Ryw fore'n hyfryd wyn;
Er bod o dan rewogydd
A stormydd o bob rhyw,
Hwy ddeuant oll yn aeddfed,
I weled wyneb Duw.

"Yn amser y cynhauaf,
Ar ddiwedd hyn o fyd,
Y cesglir yr ysgubau,
Yr efrau oll i gyd;
A bwrir hwy'n ddirmygus
I ganol ffwrn o dân,
A'r gwenith i'r ysgubor
Oll wedi eu nithio'n lân."

Awelon balmaidd a dŵr grisialaidd,—y mae William Edwards yn meddu cariad gwir fardd at y rhain i gyd. Dyma emyn ag awel y Diwygiad ynddo,—

*Nis gwn ddim o ddyddiadau bywyd William Edwards; oddiar lafar gwlad y codais yr ychydig fanylion hyn. Hwyrach y medr rhyw gyfaill o'r Bala ychwanegu a chywiro.

"Ewch ymlaen awelon grymus,
Chwythwch ar yr anial fyd,
A dadwreiddiwch ar eich cyfer
Gedrwydd cryfa'r ddraig i gyd,
Fel bo'r ddaear
Oll yn eiddo'n Harglwydd ni.

"Y mae f'enaid gwan yn gwenu
Wrth eich swn, awelon ne,
Yn gwasgaru anwybodaeth
Cysgod angeu o bob lle,
Goleu bywyd
Sydd yn dilyn ar eich ol.

"Udgorn grasol yr efengyl,
Sydd yn bloeddio yma a thraw,
Beddau filoedd gaiff eu hagor,
A'r marwolion allan ddaw,
Geiriau bywyd
Yw lleferydd Mab y dyn.

Y mae emyn arall o'i waith, a llawn cymaint o fywyd ynddo,—

"O am deimlo awel rymus
Heddyw o Galfaria fryn.
Chwytho'm henaid tua'r ffynnon
Lle mae modd i'w gannu'n wyn,
Byth ni lwyda
Bywiol ddwr y ffynnon hon.

"Dyma'r ffynnon a agorwyd
Ar Galfaria un prydnawn,
Myrdd myrddiynau olchwyd ynddi,
Mae'i rhinweddau eto'n llawn,
Gad i minnau
Brofi ei heffeithiau pur.

"Dyma ddyfroedd, ond eu hyfed,
Dyr fy syched at y byd;
Dyma ddyfroedd, ond eu teimlo,
Olch fy meiau oll i gyd;
O fy enaid,
Yf yn helaeth ar dy daith."

Y mae llawer o obaith yng nghaneuon William Edwards; nid ydyw mor leddf, er ei gwymp, a llawer o'r emynnwyr Cymreig,—

"A heibio'r nos gymylog hon,
Mae'r boreu bron a gwawrio,
Bydd Seion Duw, a'i gruddiau'n llon,
Yn magu meibion eto.

"O cyfod, Seion, na fydd brudd,
A gwel y dydd yn gwawrio;
Cai ar dy fronnau fagu plant,
Mewn llwydd a ffyniant eto.

"Er bod ar lawr yn wael dy fri,
Flynyddau'n ddi-epiledd;
Cai blant o groth yr arfaeth gu,
I'w magu mewn gorfoledd.

"Anrhydedd mawr i ti gael trin
Gwir blant y Brenin Alpha,
Y rhai a brynnodd ef, cyn hyn,
A'i waed, ar fryn Calfaria.

"Cael gweld y rhain yn tyfu'n hardd,
O fewn i ardd Jehofah,
A wna i'th galon lawenhau,
Pan fo ei dagrau amla."

Dyma emyn arall, llawn o obaith cryf,—

"Nid ydyw perlau penna'r llawr,
Er hardded yw ei gwedd,
Ddim i'w cydmaru, Iesu mawr,
A defnyn o dy hedd;
O gwyn ei fyd gai weld yr awr,
I fod yn berffaith lân,
Ar fynydd Seion gyda'r Oen
Yn seinio'r newydd gân.

"Mae byw mewn gobaith am y dydd
Caf roi fy maich i lawr,
Yn llawenhau fy enaid prudd
Yng nghanol cystudd mawr;
A chael ei weled fel y mae
Heb orchudd ar ei wedd,
A bod yn debyg iddo byth
Mewn dinas lawn o hedd."

Y mae gramadeg William Edwards ar fai ambell i dro. Gwelir fod yr emynnwr, yn y pennill diweddaf hwn, yn llithro, megis heb yn wybod iddo, o un gwrthrych at un arall. Dydd gorffwys sy'n llanw ei feddwl wrth ddechreu ei bennill, ond cyn y diwedd y mae'r Iesu yn llond y dydd hwnnw. Mae aml ramadegydd gondemnia'r pennill, ond yr wyf yn amheu a wna un dyn duwiol. Peth i'w thorri ydyw rheol, gan wŷr sydd wedi cyflawni'r gyfraith. Ond prin, hwyrach, yr oedd William Edwards ym mysg y rhai hyn.

Y mae un o'i emynnau yn dechreu gyda'r un llinell ag emyn Charles o'r Bala,—

"Dyfais fawr tragwyddol gariad,
Trindod o bersonau'n un,
Draw mewn arfaeth forau gadarn,
Ydyw iachawdwriaeth dyn;
Anchwiliadwy,
Fydd ei dyfnion bethau byth.

"O ddirgelwch anrhaethadwy,
O ddoethineb faith y Ne,
Duw yn cymryd natur ddynol,
Byw a marw yn fy lle;
Minnau'r euog,
Yn cael bywyd yn ei glwy.

"Dyma orchwyl anherfynol
Lluoedd disglaer nef y nef,—
Chwilio beunydd i ddyfnderoedd
Dwyfod ei gnawdoliaeth ef;
Dyma foroedd
Dyfnion ryfeddodau gras"

Mae rhyw hyawdledd esmwyth yn gwneyd llawer o emynnau William Edwards yn felus i mi. O lawer, gallwn nodi hon fel esiampl,—

"Mae tyrfa hardd eu gwedd
Yn byw tu draw i'r bedd
Ar aberth hedd Calfaria fryn;
Rhinweddol yw ei glwy,
Eu gwarth ni welwyd mwy,
Fe'u gwisgodd hwy mewn gynnau gwyn.

"Dilynwn ninnau 'u hol
Nes gorffwys yn ei gôl,
Oddiyno'n ol ni ddeuwn byth;
Mewn môr o ddwyfol hedd
Cawn gyd-fwynhau y wledd,
Ar siriol wedd yr Oen dilyth."

DANIEL DDU O GEREDIGION.

CLYWAIS y diweddar John Griffith, Rheithor Merthyr Tydfil, gŵr a nodweddid gan ryw dipyn o wreiddiolder meddwl a dysg, yn gymysg â llawer iawn o arnwyth (*eccentricity*), yn dweyd fod Ceredigion yn nodedig mewn tair o ystyriaethau,—sef am ei hoffeiriaid, ei hysgadan cochion, a'i moch. Dichon fod peth gwirionedd yn y sylw. Ond beiddiaf honni fod Ceredigion wedi ennill iddi ei hun mewn cyfeiriadau ereill hefyd. Cawsem brawfion eglur o hyn ped edrychem ar hanes neu ar wedd bresennol yr hen sir.

Dichon nad ydyw enw Daniel Ddu mor adnabyddus ag enw rhai o feibion llen ac awen Cymru. Dichon hefyd taw un rheswm am hynny yw y ffaith ei fod yn foneddwr chwaethus yn gystal a bardd ac ysgolor. Ac y mae dweyd ei fod yn foneddwr yn ddigon i brofi nad ymostyngai efe i fod yn gyfrannog yn y dyfeisiau a'r castiau hynny sydd ar lawn waith yn yr oes hon mewn llan a chapel er chwyddo poblogrwydd ac ennill tipyn o awdurdod.

Ganwyd y Parch. Daniel Evans, B.D. (*Daniel Ddu o Geredigion*) ym Maes Mynach, ym mhlwyf Llanfihangel Ystrad, Ceredigion, yn y flwyddyn 1792,—can mlynedd i'r flwyddyn hon. Yr oedd ei dad yn amaethwr llwyddiannus ei fyd, a Daniel ydoedd yr ail o dri o feibion. Fe genfydd y cyfarwydd i Ddaniel Ddu anadlu am y tro cyntaf mewn rhandir lle y coleddir daliadau Undodaidd yn dra chyffredinol. Modd bynnag, ni amcanwyd gwneuthur pregethwr Undodaidd o hono, eithr yn hytrach, anfonwyd ef i ysgol ramadegol Llanbedr Pont Stephan, at y Parch. Eliezer Williams,—mab yr hen Beter yr esboniwr, i ddysgu elfennau Groeg a Lladin, i'w barotoi gogyfer a Rhydychen, er gwneyd offeiriad o hono. Ac i Rydychen yr aeth. Yr oedd Ioan Tegid ac yntau yno ar yr un pryd, ac yn gyfeillion mynwesol. Yn nyddiau fy mhlentyndod, yr oedd yn byw yn ardal Blaen Pennal hen dafarnwr pur ddoniol a gwreiddiol ei gyrhaeddiadau a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw Wil Jobin. Cerddodd Wil lawer gwaith yr holl ffordd o Flaen Pennal i Lunden ac yn ol, ac wrth fyned trwy Rydychen galwai i weled Daniel Ddu ac Ioan Tegid, a chawsai ychydig sylltau yn ei logell ganddynt. Un tro, cariodd Wil blentyn bychan o ŵyr iddo ar ei gefn yr holl ffordd o Lunden i Sir Aberteifi.

Ond awn ymlaen gyda hanes gyrfa athrofaol Daniel Ddu. Mewn amser priodol, enillodd y gradd o B.D., gwnaed ef yn gymrawd o Goleg yr Iesu. Yr oedd yn ysgolhaig clasurol gwych, fel y prawf y darnau barddonol Lladinaidd a geir yn y gyfrol a gyhoeddwyd o'i weithiau.

Ymddengys i'r bardd dreulio cryn ysbaid o i fywyd llenyddol heb amcanu at gyfansoddi dim byd gorchestol neu faith iawn. Ymfoddlonai ar gyfansoddi englyn i bont neu afon, neu ychydig linellau i'w gosod ar garreg bedd. Yn hanes gweithrediadau Eisteddfod fawr Caerfyrddin, a gynhaliwyd yn y flwyddyn 1819, ceir cyfeiriad syml a byr ato. Yn wir, yr unig sylw a wneir o hono ydyw,—

"*That at the opening of the proceedings Mr. E. Williams, Iolo, the* OLD *bard of Glamorgan, appeared leaning on the arm of the young bard of Cardiganshire, the contrast between youth and age rendered the circumstance peculiarly interesting.*"

Ymddengys mai arwr yr Eisteddfod hon oedd Gwallter Mechain. Enillodd ddwy wobr farddonol ac un ryddieithol ynddi. Cawn i'r hen Iolo anwyl, ar yr achlysur hwn, rwymo riban las am fraich Gwallter Mechain ar ei waith yn eistedd yn y gadair. Yr adeg hon gwnaed Esgob Ty Ddewi hefyd yn dderwydd; a thra yr elai Iolo drwy y seremoni, yr oedd gwên hapus ar wyneb yr esgob.

Erbyn adeg cynnal Eisteddfod 1823, cawn fod Daniel Ddu o Geredigion wedi casglu digon o nerth ac eofndra i gyflawni gwrhydri. Traddododd araeth agoriadol nodedig o goeth a chenedlgarol. Efe, y tro hwn, oedd yr enillydd ar destun y gadair, sef "Coleg Dewi Sant." Efe hefyd oedd y buddugol ar "Fuddugoliaeth y Groegiaid ar y Tyrciaid," ac efe hefyd a enillodd y tlws arian ar ganu am "Ifor Hael."

Cyhoeddwyd cyfrol drwchus o'i weithiau barddonol, dan yr enw "Gwinllan y Bardd" yn y flwyddyn 1831; a dygodd Mr. Jenkin Davies, Llanbedr Pont Stephan ail-argraffiad allan o fewn yr ugain mlynedd diweddaf, yr hwn a olygwyd gan y diweddar Ioan Mynyw, o Dregaron. Mae y cyfansoddiadau yn glasurol a choeth nodedig. Ceir eu bod yn adlewyrchu tlysineb ac amrywiaeth natur yn hynod o ffyddlawn. Dywedir nad oedd y gynghanedd yn unrhyw hual neu lestair i'w awen rymus ef. Yr oedd yn hynod am ei deimladau tyner a thrugarog. Nis gallasai oddef sathru hyd yn nod trychfilyn y llwch. Ceir arddanghosiad tra chywir o'r dyn ei hun yn ei awdl gampus ar "Greulondeb at Greaduriaid Mudion."

Cashai Daniel Ddu â chas cyflawn bob rhodres a mursendod, a gwyddai y ffordd i barchu dyn fel dyn, ac nid fel dim arall, uwch neu is. Clywais wr o felinydd, yn y gymydogaeth y maged fi ynddi yn Sir Aberteifi,

yn dweyd ei fod ef unwaith yn digwydd cyddeithio â Daniel Ddu i Aberaeron; ac ar y ffordd cyfarfuasant a gwr pur drwsiadus ei ymddanghosiad, ar gefn march porthiannus a braf. Tynnodd y melinydd, druan, ei het i'r gŵr trwsiadus, gan dybied, wrth ei ymddanghosiad, ei fod yn rhywun go bwysig yn y sir. Wedi i'r gŵr dieithr eu pasio, trodd Daniel Ddu at ei gydymaith, a gofynnodd iddo,—"A ydych chwi yn adnabod y dyn yna?" "Nag w i, syr," meddai'r melinydd. "Wel," ebai'r bardd, "yr ydych wedi gwneyd tro ffol iawn; efallai eich bod wedi tynnu eich het i'r cnaf gwaethaf yn y wlad."

Dywedir y medrai Daniel Ddu ysmalio cryn dipyn, ar adegau, er mor bruddglwyfus ydoedd tôn gyffredin ei ysbryd lleddf. Yn ei ddyddiau ef cedwid tafarndy bychan, heb fod yn nepell o'i gartref, gan hen wreigan a adnabyddid wrth yr enw Nansi Dafydd, yr hon, gyda llaw, ydoedd yn bopeth ond teg ei phryd a glân yr olwg. Ymddengys fod yr hen greadures hagr wedi ceisio lawer tro gan Ddaniel Ddu wneyd pennill neu englyn iddi hi; hynny yw, ei chymeryd hi yn destun i ganu arno. Ryw dro, pan ddigwyddai Daniel eistedd yn y gornel, gan fwynhau ei hun, dyna'r hen wraig yn dechreu edliw iddo nad oedd wedi cyflawni ei addewid iddi hi, drwy wneyd pennill iddi. "Wel," ebai'r bardd, "beth be bawn yn cynnyg ar y gorchwyl yn awr?" "O'r gore'n wir, Mistir Evans, bach," meddai'r hen wraig, mor wyneb-lawen ag y gallai creadures hagr fel hi edrych. Yna, wedi meidyn o fyfyrdod, adroddodd y bardd dan wenu y llinellau hyn,—

"Pan fo'r meirw yn cyfodi,
Nansi Dafydd ddaw ger bron;
Yna d'wed yr holl angylion,
'Arglwydd mawr! o b'le daeth hon?'"

Ond, rhaid i mi bellach ddirwyn f'ystori i'r pen. Crybwyllais eisoes y gogwyddai y bardd at y pruddglwyfus o ran tôn ei ysbryd, ac i hyn, mae'n debyg, y rhaid cyfrif am ei farwolaeth alaethus ar yr 28ain o Fawrth, 1846, ac efe eto ond pedair mlwydd ar ddeg a deugain oed. Claddwyd ef ym mynwent Pencarreg, ym meddrod y teulu. Priodol iawn ydyw cyfeiriad cynnil a theimladwy y diweddar Ioan Cunllo at nodweddion cyfansoddiad meddyliol y bardd, a'r cysylltiad allasai fod rhwng hynny a dull ei farwolaeth,—

"Amhosibl ydyw mesur
Caledi cynni y cûr
A rwygai'r natur egwan,
Lethai ei ddynolaeth wan,
I isel suddawl loesion,
Gythruddai, ferwinai 'i fron,
Yn llawn pwyll, ni all neb byw
Eu dwedyd,—gormod ydyw.
Ni wyddom faint ei ddioddef,
Ni ŵyr un ond Ior y nef."

Gwnaeth rhywun y sylw am y diweddar arch-englynwr o'r Gaerwen, Dewi Wyn o Eifion, y buasai ei fyd yn llawer mwy cysurus pe buasai wedi digwydd priodi. Fel y gwyddis yn dda, cwyno a gruddfan byth a hefyd mewn pruddglwyf du yr oedd Dewi Wyn. Braidd na themtid finnau i ddweyd yr un peth am Ddaniel Ddu. Nid oedd natur wedi ei fwriadu i arwain bywyd mynachaidd, er taw ym Maes Mynach y ganesid ef. Buasai yn well iddo, o lawer, briodi un o rianod llygadlon a hawddgar glannau y Teifi, nag ymlynnu, fel y gwnaeth, wrth yr elw a dderbyniai fel Cymrawd o Goleg yr Iesu. Os elai ei logell yn wacach drwy briodi, elai ei galon yn gynhesach a llawnach, ac ni buasai cymaint o le i bruddglwyf ynddi.

Ond, os edrychai efe ei hun ar briodas gyda'r unrhyw ofnadwyaeth ag a briodola i fynwes y ferch ieuanc yn ei benillion tlysion a thyner "Bore'r Briodas," nid rhyfedd yn y byd iddo aros yn hen lanc. Mae arnaf flys dyfynnu y penillion oddiar fy nghof. Nid ydyw *Gwinllan y Bardd* o hyd cyrraedd. Dyma y penillion, a hwy a gânt wasanaethu fel clo i'm chwedl am y tro,—

BORE'R BRIODAS.

"Fe wawriodd y bore arbennig ei bwys,
Mae'r amser yn brysur, nid difyr ond dwys;
Bydd allwedd f'ewyllys gan arall ar fyr,—
Ymbwyllwch, feddyliau, neu'm calon a dyr!

"Y bechgyn a'r merched llon llawen a ddaw
Yn fuan i weled cael clymu fy llaw;
Pan rwymid rhai ereill bum lawen fy hun,
Yr awrhon fy mynwes o'r gwaelod a gryn.

"Mi gofiaf yr adeg nad oedd gennyf well
Un bachgen nag arall drwy'r ardal ym mhell;
Eu cael neu eu colli, un argraff ni wnai,
Mi ganwn mor llawen â'r gog ym mis Mai.

"Fy nghalon, fy nghalon, pa fodd aist fel hyn?
Pa beth sy'n dy rwymo di heddyw mor dyn?
Ni ddaw un llawenydd yn agos i'th gell,
Y gân a'r gorfoledd ciliasant ym mhell.

"Gad i mi'th gofleidio, fy chwaer dyner, wych,
Mae'r dagrau'n fy nadael i'mdrwsio'n y drych:
Mae côf am gyfeillach boreuddydd ein hoes
Yn dwyn i'm meddyliau drwm lwythau o loes.

"Fy nhad anwyl-dirion, cofleidia fi, 'nhad,
Mae hiraeth yn brathu 'i bicellau trwy'm iâd;
O! boed fy myd newydd mor ddedwydd i mi
A'r dyddiau a dreuliais fy nhad, gyda thi.

"Fy mam addfwyn-dirion, cofleidia dy ferch,
Rhed atat trwy 'monwes afonydd o serch;
O! boed fy myd newydd mor esmwyth i mi
A'r oriau a dreuliais, fy mam, gyda thi.

"Ond gwreiddiau fy nghalon sy'n rhwym gan yr un
A swynodd fy enaid â harddwch ei lun;
Beth bynnag fy rhan, mi ymunaf âg ef.
A ngobaith beunyddiol ar Lywydd y Nef."

Liverpool. J. MYFENYDD MORGAN.

CYMRY BYW.

IV. Y CANON SILVAN EVANS, B.D.

GANWYD Daniel Silvan Evans ar fore dydd Sul, yr unfed ar ddeg o Ionawr, 1818. Llawer gwaith y dywedodd fod Solomon wedi ysgrifennu hanes bore ei oes yn yr adnod honno,—"Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, ac yn dyner ac yn anwyl yng ngolwg fy mam." Erbyn hyn y mae'n mynnu dweyd, gyda'r Moses wnaeth gymaint dros ei genedl, —"Ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes."

Yr ysgol gyntaf gafodd oedd ysgol a gedwid mewn hen dy annedd yn agos i fwth ei dad. Dechreuodd, yn ol braint a defod y dyddiau hynny, yn y llyfr ceiniog; o hwnnw aeth i "Vyse's New London Spelling." Yn ol trefn yr oes honno dylasai yn nesaf fyned i'r Testament, ond neidiodd o'r Silliadur i'r Beibl; a chyn pen y ddau fis, er tipyn o anhyfrydwch i'w gyfoedion, yr oedd ymlaenaf yn nosbarth y Beibl,—y llyfr ysgol uchaf yn y dyddiau hynny.

Yr ysgol gyntaf o werth gafodd wedi hyn oedd ysgol Dr. Phillips yn y Neuadd Lwyd, yr hon a gynhelid mewn ty bychan diolwg ryw ddwy filltir oddiwrth annedd ei rieni. Bu yno, yn awr ac eilwaith, am ryw ddwy neu dair blynedd. Athraw da yn ei ffordd, yn ol meddwl ei ddisgybl am dano, oedd y Dr. Phillips, ac yn ei ysgol ef y dechreuodd y geiriadurwr ymgydnabyddu â Lladin a Groeg.

Y PARCH.
GANON SILVAN EVANS, B.D.
(*O photograph gan Rees & Pilcher, Llunden*).

Yn nechreu term 1846, aeth Silvan Evans i Goleg Dewi Sant. Yn ystod y flwyddyn olaf o'i arhosiad yno, yr oedd yn ddarlithydd,—ar Gymraeg, bid sicr, —tra'n gorffen ei efrydiaethau ereill. Cyn gadael y coleg, yr oedd wedi dechreu ar waith mawr ei fywyd; yr oedd ei Eiriadur Saesneg a Chymraeg,—a orffennwyd yn 1858,—yn dechreu cychwyn trwy'r wasg yn Ninbych. Ni raid dweyd ei fod, yn ystod ei arhosiad yn Llanbedr, wedi cyrraedd ffon uchaf yr ysgol, sef y dosbarth blaenaf ac ysgoloriaeth. Cymerodd ei B.D. yn 1868. O 1875 hyd 1880 bu'n arholydd Cymraeg yn ei hen goleg.

Gadawodd Lanbedr ym mis Rhagfyr, 1848, ac urddwyd ef yn ddiacon ar yr ail ar bymtheg o'r mis hwnnw gan Esgob Bangor, y Dr. Bethel. Efe oedd y "gospeller" yng ngwasanaeth yr urddiad. Ei guradiaeth gyntaf oedd Llandegwning a Phenllech, — perthynol i Laniestyn, — yn Lleyn. Bu yno hyd farwolaeth rheithor Llaniestyn, i'r hwn yr oedd yn gurad, sef am dymor o bedair blynedd. Ar hynny cymerodd guradiaeth Llangian a Llanfihangel Bachellaeth,—o dan Lanbedrog,—yn yr un gymydogaeth, a bu yno ddeng mlynedd, sef o 1852 i 1862. Yn 1862 rhoes Esgob Bangor iddo bersoniaeth Llan ym Mawddwy. Ar farwolaeth Nicander, cynhygiodd yr esgob iddo fywoliaeth Llanrhyddlad; ond gwrthododd adael Llan ym Mawddwy. Yn 1876, rhoddes yr ungwr iddo rectoriaeth Llanwrin. "Yr wyf bellach," meddai mewn llythyr ataf, "wedi bod yma un mlynedd ar bymtheg; ac oddiyma, fel yr ymddengys, y'm cleddir." Yn 1889 rhoddwyd iddo ganoniaeth yn Eglwys Gadeiriol Bangor gan yr Esgob Campbell; a phrebendariaeth Llanfair, yn yr unrhyw, gan yr Esgob Lloyd. Nid oes i'r anrhydedd hwn un gwerth ariannol; er hynny, y mae anrhydeddu'r geiriadurwr gan yr esgob wedi peri boddhad mawr yng Nghymru.

Anodd iawn ydyw mesur dylanwad Silvan Evans ar lenyddiaeth Gymreig. Nid ei Eiriadur mawr, sy'n awr yn dod trwy'r wasg, ydyw unig waith ei fywyd. Bu'n golygu'r *Archaeologia Cambrensis*, dros y Cambrian Archæological Association, am bedair blynedd, sef o 1872 hyd 1875. Ymryddhaodd oddiwrth yr olygiaeth yn 1875, pan unwyd yr olygiaeth ag ysgrifenyddiaeth y gymdeithas,—swydd oedd yn gofyn llawer o grwydro. Efe gyfieithodd dri o'r "Four Ancient Books of Wales," gyhoeddwyd gan Dr. Skene. Y tri gyfieithodd oedd Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Aneurin, a'r darnau prydyddol yn Llyfr Coch Hergest.

Ond nid enaid sych geiriadurwr neu hynafiaethydd pur yw enaid Silvan Evans. Gwêl y prydferthwch sydd mewn gair ac mewn hen gân, ac y mae'n fardd da ei hun. Efe ydyw'r cyntaf i ysgrifennu dim ar lên

y werin, fel y cyfryw, yn Gymraeg; yn y *Brython*, a olygid ganddo, yr ymddanghosodd yr enw gyntaf, yn 1858.* Y mae yr hen ystraeon roddodd yn "Ysten Sioned" yn ddifir ryfeddol, ac y mae ei delynegion yn felodaidd a melus iawn.

"Hoff yw gwên y bore glân,
Gwawr huan a'i phelydron;
Hoff yw gwrando'r adar mân
Yn plethu eu caneuon;
Hoff a mwyn yw rhodio'r ardd
Ym mhlith y rhos a'r lili;
Ond mil hoffach gan y bardd
Yw'r fro y'i ganed ynddi.

"Hoff yw rhodio, deg brydnawn,
Hyd lwybrau'r gwigoedd gwyrddion;
Hoff yw'r cerddor mawr ei ddawn,
A hoff yw gwaith prydyddion;
Hoff yw cainc yr eos bêr
O gylch y lawnt agored,—
Ond mwy hoff na dim is sêr
Yw bryniau'r fro lle'm ganed.

"Hoff yw goleu'r lleuad wen
I dawel rodio allan;
Hoff yw'r fraith serenog nen,
A holl brydferthwch anian;
Hoff gan rai yw nofio'r lli
I gasglu 'nghyd gynysgaeth,
Ond mil hoffach gennyf fi
Yw bro fy ngenedigaeth."

Nid y leiaf ran o waith Silvan Evans fu ei waith fel athraw Cymraeg yn Aber Ystwyth, lle bu'n athraw o 1875 hyd 1883. Yn 1883 rhoddodd ei gader i fyny. Gresyn na fuasai holl fechgyn y coleg wedi manteisio ar ei ddarlithiau, a cholled fawr i'r coleg oedd ei ymadawiad oddiyno. Nid oedd Cymraeg yn talu, meddylid, yn yr arholiadau; ac am hyny, ni byddai'r dosbarth mor liosog a'r dosbarthiadau ereill. Ond dalier sylw mai'r bechgyn cyson yn narlithiau'r athraw Cymraeg oedd y rhai mwyaf llwyddiannus mewn arholiadau ereill.

Gwledd oedd cael myned i ddosbarth Silvan Evans yn Aberystwyth. Ystafell fechan ym mhen draw y *corridor* cyntaf oedd ei ddarlithfan. Yr wyf yn cofio'n dda am y noson y curwn gyntaf wrth ei ddrws, a chopi o'r Mabinogion yn fy llaw. Yr oedd wedi dod i lawr o Lanwrin, yn ol ei arfer, i gyfarfod ei ddosbarth. Pan aethom i mewn, safai a'i gefn at y tân,—gŵr tal, golygus, pur urddasol ei ymddanghosiad. Yr oedd gwên ar ei wyneb, ni welais ei wyneb heb wên erioed,—ond mewn darlun. Tybiwn fod ieuenctyd bythol yn ei lygaid,—anaml y gwelir llygaid mor lawn o fywyd, yn enwedig wrth adrodd hanes hoff air. Dosbarth difyr iawn oedd y dosbarth, oherwydd nad oedd dim byd ffurfiol yn perthyn iddo. Eisteddem o gwmpas bwrdd, a darllennem ryw lyfr Cymraeg o arddull dda,—y Mabinogion neu'r Bardd Cwsg neu Ddrych y Prif Oesoedd. Arweiniai'r athraw ni i ymgomio am eiriau ac arddull y llyfr. Yr oedd ei ddull y dull goreu o gyfranu addysg,—dull yr Ysgol Sul. Yr oedd yn rhoi ei hun megis un o honom ninnau, dysgai rywbeth ei hun oddiwrth ein gwahanol dafodieithoedd, a byddem ninnau'n dysgu heb yr ymdrech leiaf. Gwnai ei fater yn ddyddorol, a rhoddai awydd chwilio a darllen ynnom. Yr oedd yn gweled y tlws a'r tarawiadol mewn hanes gair neu mewn ofergoeledd; a llawer tro, wedi awr y ddarlith, y buom yn adrodd ystraeon ysbrydion bob yn ail. Agorodd fywyd a meddwl Cymru o'n blaen, ac y mae'n ddiameu gennyf nad oes yr un o'i ddisgyblion na theimla'n ddiolchgar iddo byth. Mewn colegau ereill, bu arnaf fi lawer o hiraeth am ymgom ddifir ac am wên chwareus yr athraw Cymraeg yn Aberystwyth.

Y mae Silvan Evans wedi gadael efrydwyr Cymraeg ar ei ol pa le bynnag y bu. Bum yn crwydro gyda Myrddin Fardd trwy Eifionnydd ychydig ddyddiau'n ol, a dywedai mai yn yr amser y bu Silvan Evans yn Lleyn y dechreuodd yntau gasglu llawysgrifau Cymreig. Yn nyddiadur Eben Fardd, dan Mawrth 31, 1848, dywed ei fod yn rhoddi benthyg y "Blodau Ieuainc" i gurad Clynog. Gwelais innau fenthyca llawer o lyfrau Silvan Evans, ac ychydig o Gymry sydd heb ddarllen rhywbeth o'i waith. Denwyd ef ei hun at lenyddiaeth Gymreig; o serch, ac nid o ddyledswydd yn unig, y gwnaeth ei waith. Nid rhyfedd, felly, ei fod yn denu disgyblion iddo ym mhob man.

* Y mae rhestr o'r gweithiau gyhoeddodd ac a olygodd yn dangos gwaith Silvan Evans yn fwy hyawdl na dim arall,—

1843. Blodau Ieuainc. Gan mwyaf ar fesur cerdd. Y llyfr cyntaf gyhoeddodd.
1846. Telynogion.
1853. Bardd Cwsg Elis Wyn, gyda nodau eglurhaol (ail a thrydydd argraffiad).
1854. Cyfieithiad Edward Samuel o De Veritate Grotius.
1858. Geiriadur Saesneg a Chymraeg. Y Brython.
1861. Llythyraeth yr Iaith Gymraeg.
1868. Gwaith Gwallter Mechain,—tair cyfrol wythplyg, dwy yn Gymraeg ac un yn Saesneg.
1869. Llyfryddiaeth y Cymry Gwilym Lleyn.
1872—1875. Archaeologia Cambrensis.
1876. Gwaith Ieuan Brydydd Hir.
Llyfr Gweddi Abercarn. Dros Arglwyddes Llanofer.
Stephens' Literature of the Kymry.
Lewis Morris' Celtic Remains (i'r Cambrian Archaeological Association).
1881. Telynegion (ail argraffiad).
1882. Ysten Sioned (mewn rhan).
1883. Athrawiaeth yr Eglwys yn Wirionedd y Beibl. Dros Gymdeithas Traethodau Esgobaeth Bangor.
Geiriadur Cymraeg a Saesneg. Y mae hwn yn cerdded drwy'r wasg yn awr; y mae 1200 o dudalennau wedi eu hargraffu.

Heblaw y rhai hyn, ysgrifennodd lawer o bryd i bryd yn y gwahanol gyhoeddiadau Cymreig, yn y *Revue Celtique*, ac yn yr *Academy*. Tua deng mlynedd yn ol, yn y cyhoeddiad diweddaf, lladdodd y "sin-eater" yr anrhegasid Cymru ag cf. Cyfieithodd *Rasselas* Johnson hefyd, i'r *Haul*,

YR oedd ein cyfaill calon wresog Athan Fardd tua deuddeg a deugain oed, pan fu farw ddiwedd Ebrill diweddaf yn nhref Abertawe.

Yr oedd Cymru ddarllengar braidd i gyd yn ei adwaen o ran enw, ond nid cymaint oedd yn ei adwaen o ran gwedd, am ei fod wedi treulio cryn dipyn o'i fywyd allan o Gymru. Yr oedd ganddo liaws o gyfeillion nas gwelsant ef erioed, ac nad ydynt yn gwybod llawer o hanes y Cymro gwladgarol hwnnw, ac er mwyn y cyfryw ceisiaf roi i ddarllenwyr Cymru grynhodeb byr o'i hanes.

Ganwyd ef ym mhlwyf Llangyfelach, heb fod ymhell oddwrth y clochdy sydd wedi ei ddadgysylltu oddiwrth yr eglwys, ac heb fod ymhell oddi wrth y fynwent oer i'r hon y canodd y bardd,—

> "Ni fuo'i 'rioed mewn oerach man
> Na mynwent Llangyfelach."

Symudodd ei rieni, pan oedd Athan yn blentyn, i Gastellnedd, symudodd Athan pan yn llanc i Gasnewydd. Yr oedd y llanc Athan wedi dechreu ymserchu mewn beirdd a barddoniaeth pan yn bur ieuanc, ond wedi myned i Gasnewydd y cafodd ei dynnu allan mewn gwirionedd. Cyfarfyddodd yno â llu o feirdd a llenorion,—megis Nefydd, a Ioan Emlyn, a Dewi Wyn o Essyllt, a Leon, ac Islwyn, a thaniodd y cyfryw natur frwd y cyfaill ieuanc calon agored, a daeth allan yn llengarwr, ac ieithgarwr, a gwladgarwr angerddol megis ar un waith. Nid aeth cwmni Casnewydd byth yn angof, na'u dylanwad byth yn ddirym; soniai Athan am danynt hyd y diwedd,—yn enwedig am Islwyn. Nid oedd neb, am wn i, erioed wedi siarad pum munud ag ef heb glywed rhywbeth am Islwyn.

Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf fod yn syn fod Athan wedi ymserchu cymaint yn Islwyn, gan mor anhebyg yr ymddanghosai y ddau. Ond wrth siarad ag Athan, ac wrth dreiddio yn raddol i ddyfnder ei galon, ceid fod honno mor brudd ac mor freuddwydiol farddonol a'r eiddo Islwyn, er fod rhywbeth digon tebyg i erwinder ar y wyneb.

Yma y priododd y bardd, ac oddi yma pan rhwng pump a chwech ar hugain oed y symudodd i Loegr, a bu yno hyd o fewn rhyw wyth mlynedd i'w farw. Ychydig wyddai neb o'i gyfeillion am dano yn ystod yr amser y bu yn Lloegr. Ambell linell "O Afon Mouth ar fin môr," ac ambell lythyr at ambell gyfaill mynwesol oedd yr oll o'i hanes a gai ei wlad a'i genedl yn ystod yr holl amser y bu yno.

Yn Abertawe wedi iddo ddychwelyd yn ol o Loegr y daethum i'w adwaen, ac wedi unwaith adwaen Athan nid oedd modd peidio gwneyd cyfaill o hono. Yr oedd ei natur mor garedig, ei dymer mor wresog, ei galon mor Gymreig, a'i holl ddyn mor wladgarol a chywir fel y glynai pob cyfaill a wnelai wrtho yn dyn.

Bu yn ceisio cadw siop am ychydig amser yn Heol Fawr, Abertawe, yn ymyl gorsaf y *Great Western*. Gwerthu llyfrau a wnai mewn enw,—galwodd cannoedd o gyfeillion yn y siop honno, ond ychydig iawn aeth oddi yno wedi prynnu llyfr. Galw i weled Athan, a galw i glywed Athan yn siarad wnai y cyfeillion, ac nid galw i weled llyfrau,—yn wir, ychydig iawn o lyfrau oedd yno ran hynny,—yn yr ystafell wrth gefn y siop yr oedd yr holl waith yn cael ei wneyd. Yr oedd lle cynnes croesawgar yno. Gresyn na fuasai golygydd Cymru a'i lantern wedi tynnu llun yr hen siop a'r hen ystafell yno. Yno yr oedd tair cadair farddol Athan, a bwrdd, a bocs pren mawr, a thân cynnes, a phocer coch yn y tân i danio pibell, a jwg a the twym bob amser wrth gefn y tân. Nid wyf yn cofio gweled yr ystafell honno erioed braidd heb ryw gyfaill ynddi. Nid wyf yn cofio gweled y tân erioed heb y pocer,—oddi gerth pan fuasai y pocer yn llaw Athan yn tanio y bibell. Ac nid ydwyf erioed yn cofio gweled y pentan heb y jwg a'r te, oddi gerth pan fuasai hi yn llaw y bardd yn cymeryd llwnc.

Doniol iawn oedd gweled a chlywed Athan yn dadleu yn frwd, a'r pocer poeth yn ei law; ac ynghanol gwres y ddadl, gwelwyd ef yn myned i'r siop i ateb cwsmer a'r pocer yn ei law, yr hyn fu'n dychryn llawer cwsmer gwan, ac yn foddion gyrru y cyfryw i beidio dod yno mwy.

Nid siopwr oedd Athan, ond bardd, a llenor, ac ieithgarwr, a gwladgarwr. Cafwyd llawer gwers werthfawr ganddo yn yr ystafell honno ar iaith a gwlad a chenedl Cymru; a bu yn fendith i lawer o fechgyn droi i fewn ato i'w glywed yn acennu ac yn cynanu geiriau Cymraeg.

Yr oedd yn gwybod mwy o hen eiriau Cymraeg na neb a adwaenwn, ac yn cofio lle yr oeddynt yn cael eu defnyddio. Yr oedd yn hoff iawn o'u defnyddio wrth ysgrifennu barddoniaeth, a chredaf i hyn fod yn ei erbyn ambell dro mewn cystadleuaeth,—yr oedd Athan yn gystadleuwr mawr,—bu hen eiriau

anghynefin yn foddion i'w gadw yn ol yn ddiddadl lawer tro. Ond waeth am hynny; wrthynt y glynai y bardd o hyd.

Bardd o'r hen ysgol yn llwyr oedd ef. Yr oedd yn credu yn y gynghanedd, ac, yn wir, yn gynghaneddwr godidog hefyd. Canodd fwy o englynion Saesneg na neb y gwn am dano,—canu englynion yn yr iaith honno er mwyn i'r Saeson anwybodus wybod rhywbeth am brydferthion yr hen gynghanedd Gymreig.

Ni fu yn llwyddiannus iawn fel bardd am y rheswm wyf wedi nodi feallai. Ond os na fu yn llwyddiannus, canodd fwy na llawer o awdlau, ac englynion, ac emynnau. Canu emyn, neu ganu englyn, neu ddadleu am ryw air y cawn Athan braidd bob tro y digwyddwn droi i fewn.

Codi ei wlad a'i genedl a chadw ei iaith yn fyw oedd pwnc ei fywyd,—ac ai yn fwy selog gyda hyn hyd ei fedd. Nid wyf yn cofio cyfarfod â neb erioed mor selog ynglyn a'r pethau hyn ag oedd ef, na neb feallai yn dadleu drostynt yn fwy gonest a brwd.

Yr oedd yn llawn gwaith hyd ei gystudd diweddaf. Efe oedd cychwynnydd "Cymrodorion Abertawe," y rhai na siaradent yn eu cyfarfodydd ond yn Gymraeg. Y mae y gymdeithas hon yn flodeuog heddyw, ac enw Athan yn anwyl yn ei gysylltiad â hi. Gweithiodd yn egniol, fel y gŵyr llawer, gyda'r Eisteddfod Genhedlaethol fu yn Abertawe yr haf diweddaf, ac nid oedd neb mwy gonest a gwladgarol nag ef ar y pwyllgor.

Yr oedd ynddo lawer o bethau a ymddanghosai yn arw ar y wyneb, ond oddi fewn, yn ei galon, nid wyf yn credu i mi adnabod caredicach a gonestach a symlach erioed. Bu yn dihoeni am tua phedwar mis, a dadguddiodd hynny elfennau mwyaf tyner a chrefyddol ei gymeriad, a daeth ei gyfeillion agosaf i wybod fod Athan yn gyfoethog yn yr ystyr honno hefyd.

WATCYN WYN.

II.

Pan gladdwyd Athan Fardd, yn Ebrill diweddaf, teimlwn fod yr iaith Gymraeg wedi colli un o'i noddwyr mwyaf brwdfrydig, a fod Cymru wedi colli un o'i phlant ffyddlonaf. Ganwyd ef yn Llangyfelach, ac yn ei gartref y claddwyd ef, wedi bod lawer o'i amser ym mysg estroniaid, ac mewn hiraeth am swn yr iaith Gymraeg. Carodd Gymru'n angerddol,—dyna un o'r geiriau a'i nodweddai,—ac ni chauodd bedd erioed ar gyfaill cynhesach ei galon.

Yr wyf yn cofio fy nghyfarfyddiad cyntaf ag Athan Fardd yn dda. Ryw ddiwrnod gwlawog yr oeddwn wedi dod ar fy nhro i Abertawe. Yr oeddwn wedi dod dipyn yn gynt na'r adeg yr oedd cyfaill i'm cyfarfod yn yr orsaf, a cherddais ychydig o gwmpas,—ni fedrwn fynd ymhell, gan y gwlaw. Gwelais siop lyfrau fechan ar gyfer yr orsaf, a hen lyfrau Cymraeg yn ei ffenestr. Trois i mewn, a chyda fy mod wedi rhoddi fy ngwlaw-len wleb o'm llaw, daeth gŵr tal, hardd, barfog,—tebycach i filwr nag i siopwr i mewn. Dywedais ffaith wyddai wrtho,—yr oedd yn rhaid i mi ddweyd rhywbeth i ddechreu ymgom,—fod ganddo lyfrau Cymraeg. Dechreuasom edrych drwyddynt, a gwelais yn union fod y siopwr yn fwy awyddus am i mi gael llyfrau da nag oedd am gael arian am danynt, a mynych y gofynnais a oedd yn peidio gwneyd cam ag ef ei hun trwy werthu am bris mor isel.

Wedi i mi gael pecyn go dda, gofynnodd i mi o ble'r oeddwn yn dod. Dywedais innau mai o Rydychen. Tynnodd lyfr allan, a gofynnodd i mi ysgrifennu f'enw ynddo. Gwneis innau hynny, a rhoddodd y siopwr ei wydrau ar ei lygaid i'w ddarllen. Yna cododd ei ben i fyny, cododd ei wydrau oddiar ei lygaid, a chyda fflach ddigofus angerddol yn ei lygaid, ebe ef, mewn llais oedd yn hanner gofyn cwestiwn ac yn hanner cyhuddo, —"Ddyn, a'i chwi sy'n ceisio dinistrio'r iaith Gymraeg!" Dywedais mor addfwyn ag y gallwn i nad oedd dim yr ofnwn i ei weled gymaint a dinistrio r iaith Gymraeg, mai efrydydd oeddwn newydd agor fy llygaid ar ardderchawgrwydd ei llenyddiaeth, a fy mod yn aberthu pob munud segur oedd gennyf i'w hastudio. Wrth i mi ddweyd hyn yr oedd gwedd arw Athan yn tyneru. Gofynnodd i mi a wyddwn pwy oedd Athan Fardd. Dywedais innau na wyddwn, ond fy mod yn gwybod pwy oedd Nathan Dyfed. "Na ofelwch, fy machgen i," meddai, "y fi yw Athan Fardd." Ymesgusodais innau am fy anwybodaeth, trwy ddweyd mai Cymro yn gorfod byw yn Lloegr oeddwn. Apeliodd hyn at gydymdeimlad Athan ar unwaith, ond nid oedd eto'n sicr nad oedd gennyf ryw fwriad, beth bynnag am allu, i ddinistrio'r iaith Gymraeg. Trodd at yr orgraff,—ac, er syndod mawr iddo ef ac er peth syndod i minnau, gwelodd nad oeddwn am newid dim heb resymau digonol, ac nad oeddwn am newid ond y nesaf peth i ddim. Rhoddodd wahoddiad cynnes i mi i ystafell arall, lle, meddai ef, yr oedd llawer o feirdd wedi ymgynnull. Ond gorfod i mi wrthod y gwahoddiad hwn, gan dybied fod fy nghyfaill yn disgwyl am danaf yn y gwlaw.

Yr oedd gwyneb tarawiadol y bardd,—trwyn Rhufeinig, y talcen mawr uchel, a'r llygaid tanllyd,—yn un amhosibl ei anghofio.

Tybiwn y buasai'n amhosibl cael gwell darlun o fardd, pe cawsai fyw'n ddigon hen i'w gorff grymu tipyn ac i'w wallt wynnu. Daethom yn gyfeillion mawr. Danghosodd i mi leoedd hynod Abertawe. Bu'n darlithio'n hir i mi ar garreg fedd Christmas Evans. Medrai gael gwybod a fyddai rhyw fardd yn pregethu o fewn cyrraedd y Sabathau,—teimlai Athan na fedrai neb bregethu'r efengyl fel bardd. Gydai'i gyfeillion yr oedd wrth ei fodd. Ei ddedwyddwch oedd cerdded un o heolydd Abertawe ar ddiwrnod braf rhwng dau fardd,—Dafydd Morgannwg ar y dde a Dyfed ar yr aswy. Nid oedd brenin yn ddim iddo ef wrth fardd; ac yr wyf yn ameu a gredai fod iaith angylion yn felusach na'r iaith Gymraeg.

Ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn hon, ysgrifennodd air o galondid i mi. Dyma ddechreu a diwedd y llythyr,—

"Fy anwyl frawd,

Clywais eich bod dan ddylanwad yr anwydwst, ond eich bod yn llawer gwell, ac am y newydd cysurlawn hynny yr wyf yn ymlawenhau, gan fawr ddiolch. Minnau hefyd wyf yn gaethwas i'r unben afiach, creulawn, er ys mis; ac y mae wedi gwneyd difrod anaele ar fy nghyfansoddiad, ac hawdd allaf ddweud,—'Efe a wnaeth fy nghnawd a'm croen yn hen, efe a ddrylliodd fy esgyrn.' Mae fy ymenydd wedi mynd i wlad Hud i dreulio'r gwyliau; archwaeth a nerth a giliasant oddiwrthyf, nid yw cigau ednod helwriaeth ac eidionau ond ysgymunbethau yn fy ngolwg. Mae fy nhgorff yn crynu fel aethnen, a'r trwst lleiaf sy'n fy mrawychu, fel pe'm helid gan ddrychiolaethau y tryblith! A mi yn fy ngwely ddydd Nadolig, a ddialeddais fachigyn ar fy ngelyn drwy wneud englyn iddo,—

"Haint Rwsia ar ei hynt dreisiol—wanodd
Ynwyf ei ddwrn marwol;
Ac mi deimlaf arnaf ol
Ei ddygn winedd gwenwynol!

"Dyma fo fy mrawd, a thybiaf eich clywed yn sibrwd fod yr anwydwst wedi fy ngadael i, ac ymgorffori yn yr englyn! Da fyddai gennyf pe nad osodech englynion yn cynhwys beiau cynghaneddol yng Nghymru,—nid hen englynion a feddyliwyf, ond gweithiau y cynghaneddwyr byw. Os englyn, gadewch i ni gael englyn difai gynghanedd, beth bynnag.

"Maddeuwch y nodyn afluniaidd hwn; nid oes gennyf un lywodraeth ar y pin,—mae fy llaw yn mynd fel pe ddim yn perthyn i mi.

"Mi wyf, eich angerddol gyfaill,
"Athan Fardd"

Ychydig wedyn anfonnodd cyfaill ddau englyn gyfansoddodd Athan yn ei wely,—

"Y nos mae Athan anesmwythaf—pan
Dry pawb eu cefn arnaf;
Yn fy ingoedd cyfyngaf,
O Dduw Ior, clyw weddi'r claf.

"Bydd Di yn gwmni i'r gwan—anhwylus
Sy'n ei wely'n gruddfan;
A dal Di dy law o dan
Adwythig enaid Athan."

Cyn i mi gael cyfle i fynd i edrych am dano yr oedd yn ei fedd. Er mai dyn tlawd oedd, claddwyd ef fel tywysog, ac yr oedd wedi cael anrhydedd tywysog tra bu byw. Er cymaint a feir ar aniolchgarwch gwlad, nid heb anrhydedd yng Nghymru y bydd yr athrylithgar a'r cenedlgarwr. Adnabyddai gwlad Athan, ac adnabyddai yntau Gymru ar ei goreu. Yr oedd yn ddall i feiau ei genedl; ac o bob un yn y byd, yr un y dylem ddiolch mwyaf i Ragluniaeth am dano ydyw un dall i feiau. Y mae digon o feirniaid, gwŷr angerddol sy'n brin. Brwdfrydig hyd at dân oedd Athan Fardd. Ofnid y collai ei dymer yn Eisteddfod Abertawe, wrth arwain, ond triniai y glowyr fel tad yn trin plant. Prydferthwch llenyddiaeth Gymreig yn unig welodd; ond beth am hynny? Clywais rai yn beio ei frwdfrydedd; er nad oeddynt hwy wedi gweled prydferthwch llenyddiaeth yn y byd Ac os yw'r Himalaya, draw ymhell, yn uwch na Bannau Brycheiniog, ni ddylid beio un am edmygu'r Bannau er hynny, ac am ddweyd mai hwy yw'r mynyddoedd uchaf a welodd ef erioed. Carai Athan lenyddiaeth Cymru'n angerddol, a cheisiodd ddangos i ereill y prydferthwch a'i swynai ef ei hun. Gallasai ymgolli mewn pleserau llai ysbrydol neu yn yr ymdrech am gyfoeth, fel ereill; ond dewisodd ran well na'u rhan hwy.

Y PARCH. DAVID RICHARDS, CAERNARFON.

"Ymddyheua'r wlad am dano,
Fel y sychdir am y gwlaw,
Codid myrdd o ddisgwyliadau
Pan y byddai ef gerllaw;
Un drychfeddwl mawr ei fywyd
Oedd cyhoeddi'r dwyfol ddawn,
A chael Duw a dyn i gymod
Drwy yr anfesurol Iawn."

YR ydwyf yn hiraethus iawn ar ei ol, o herwydd ymgylymodd fy nghalon wrtho er dyddiau dedwydd mebyd; ac y mae yn chwith gennyf feddwl ei fod wedi tewi yn yr angeu. Mor ddifyr y chwareuem, mor egniol y dysgem adnodau ac emynnau, ac yr adroddem hwy yn hen gapel Pen y geulan. Darllenasom lawer gyda'n gilydd ar lu o lyfrau, megis *Rhyddid yr Ewyllys*, *Athrawiaeth yr Iawn*, Holwyddoregau R. Prichard, Butler, a holl weithiau Vu'can. Siaradem a dadleuem lawer am lyfrau, personau, a phethau.

Nid wyf yn meddwl fod dyn hawddach ei adnabod na'r Parch. D. Richards.

Yr oedd felly pan yn blentyn wrth chwareu, a gallwn adrodd aml hanesyn i brofi hyn. Dyn hollol syml, unplyg, a naturiol ydoedd. Yr oedd ei galon yn ei chwerthiniad, a gellid gweld ei galon drwy ei ddagrau. Yr oedd yn gas ganddo ragrith. Meddiannid ef a natur ddynol nodedig o dyner. Ni wnelsai y tro byth i fod yn angel newyddion drwg. Mab diddanwch oedd efe. Tywalltodd olew a gwin i glwyfau llawer calon. Os oedd ochr wan i'w gymeriad, cyfodai o'i ordynherwch. Un o nodweddion prydferthaf ac amlycaf ei gymeriad oedd uniondeb diwyrni dros yr hyn a ystyriai oedd iawn. Profodd hynny droion fel gweithiwr gartref, yn y Dinas, pan yn laslanc. Yr oedd yn agored i fethu weithiau, fel pawb o honom, ond dim ar gam, yn wirfoddol, nis gwnai. Yr oedd ei ffyddlondeb a'i aiddgarwch o blaid pob achos da yn ddifesur. Achos Duw oedd ei achos, ewyllys Duw oedd ei safon a'i reol, a gogoniant Duw oedd ei nod a'i amcan. Nid gweithiwr achlysurol oedd efe, ond un a'i gwnaeth yn bwynt dros ei holl fywyd i fod yn ffyddlon gyda phob peth a ymddiriedid iddo, ac a ofynnid ganddo. Gadawodd bob cylchdaith y bu yndd yn well nag y cafodd hi. Yn ei farwolaeth, collodd ei enwad a'i wlad un o'r gweinidogion ffyddlonaf a mwyaf llwyddiannus.

Un o hen deulu y Parc, Dinas Mawddwy, ydoedd. Ffarmdy bychan yn ymyl, y Dinas ydyw'r Parc. Mae i'r lle hwn hanes dyddorol iawn fel cartref llu o grefyddwyr ym Mawddwy. Dyma gryd Ymneilltuaeth yn y Dinas. Yma y cartrefai yr hen emynnwr melus, Hughes o'r Dinas, am ddeng mlynedd ar hugain. Yma y ganwyd ac y magwyd y gweinidog ffyddlon Mr Hughes, Penmain. Ac ar ei ol ef daeth yn gartref i David Jones, y Parc, taid gwrthrych yr ysgrif hon. Magodd David Jones chwech o fechgyn, pedwar o honynt a ddaethant yn flaenoriaid tra ffyddlon gyda'r achos Wesleyaidd yn Ninas Mawddwy. John Jones, mab y Parc, oedd y blaenor cyntaf a fu farw yn y Dinas. Ond y mae yr olaf o honynt wedi tewi erbyn hyn yn yr angeu, ac ysgrifennydd hyn o linellau yw yr unig un o'r teulu lluosog a chrefyddol hwn sydd yn aros yn awr gyda'r achos yn y Dinas. Y mae llawer i'w ddweyd am hen deulu y Parc, ond gadawn y cyfan gyda dywedyd fod Elinor Richards, merch D. Jones, yn wraig hynod iawn am ei chrefydd. Mae son hyd y dydd hwn am ei gweithgarwch, ei phrydlondeb, a'i gweddiau cyhoeddus gyda chrefydd er pan oedd yn ferch ieuanc. Yr oedd gan David Richards deimladau tyner a pharchus iawn tuag at goffadwriaeth ei fam, a byddai weithiau, yn ei bregethau, yn gwneyd cyfeiriadau tyner ati, gan gydnabod ei ddirfawr rwymau i ddiolch am iddo gael ei fendithio a'r fath fam i'w gyfarwyddo at Grist fel unig Geidwad pechadur. Ie, gwraig synhwyrol, ddeallus, grefyddol iawn oedd mam D. Richards, ac un o gynheddfau cryfion. Yn y modd yma, cafodd fy nghyfaill yr amaethiad crefyddol goreu o'r cychwyn, gan y wraig grefyddol a rhinweddol hon, fel nad ydyw o un syndod i'r sawl a'i hadnabu hi, iddo ddyfod yn ddyn mor anghyffredin. Ganwyd ef yng Ngorffennaf 26, 1850. Cafodd afael ar grefydd bersonol yn foreu ar ei oes. Nid yn fuan yr anghofiaf ei dderbyniad ef a thri ereill, yn hen gapel Pen y geulan. Cofiaf yn felus hefyd am lawer cyfarfod eglwysig a gawsom, gyda'r hen flaenor ysgrythyrol William Jones, Ty Newydd. Mae yntau, erbyn hyn wedi huno, ar ol tywydd digon ystormus.

Rywbryd yn y flwyddyn 1870 y dechreuodd David Richards bregethu. Ym Mehefin, 1871, aeth yn was cyflogedig i Abertawe, ac oddi yno i Liverpool. Cofiaf yn dda ei bregeth gyntaf yn y gyfeillach ar y geiriau awgrymiadol hynny,—"Bydd ffyddlon hyd angeu, a mi a roddaf i ti goron y bywyd." Clywais ef, hefyd, yn pregethu yn dra llwyddiannus y tro cyntaf o flaen y gynulleidfa ar nos Saboth ar y geiriau hynny,—"Canys gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd."

Enillodd safle hynod barchus fel pregethwr. Nid oedd wedi cael y fantais o addysg athrofaol; ond fel y dywed un gŵr dysgedig wrthyf, "Deallai y gwyddorau rhif a mesur yn lled dda, a deallai ddigon o Roeg i ddarllen a deall y Testament Newydd yn lled rwydd." Yr oedd rhyw wydnwch arbennig yn perthyn iddo. Pregethodd lawer, a phob amser gyda gwres a nerth. Dyn o ddifrif ydoedd yn yr areithfa fel ym mhob man arall. Siaradai â chydwybod ac â chalon ei wrandawyr. Teimlai y mwyaf anystyriol. Nid amcanai at bethau mawrion wrth bregethu, ac eto yn ei esboniadaeth, fel rheol, byddai rhyw fath o newydd-deb a'i gwnelai yn ddyddorol i'r pen. Pregethai yn naturiol a difrifol, heb rith na rhodres yn agos ato. Byddai ei bregethau bob amser yn goeth, yn ysgrythyrol, yn newydd, ac ymarferol. Ac fel y cynhesai yn ysbryd ei fater, byddai ganddo floedd barod a dreiddiai fel gwefr trwy holl gyrrau y gynulleidfa. Bu yn llafurio yng nghylchdeithiau Llanfyllin, Cefn Mawr, Birmingham, Caernarfon, Llanrwst, Conwy, Bagillt, Lerpwl, a Chaernarfon eilwaith. Mae pob dyn gwir fawr yn fwy byw ar ol iddo farw. Ac y mae David Richards, er wedi marw, yn llefaru eto. "Cu iawn fuost gennyf fi."

Dinas Mawddwy. TEGWYN.

FY ADDYSG.

III

Y mae llawer un yn medru edrych yn ol ar ddyddiau ei ysgol fel dyddiau dedwyddaf ei fywyd. Ni fedraf fi wneyd hyn. Y mae llawer un yn gwybod mai ei athraw cyntaf roddodd iddo y trysorau gwerthfawrocaf fedd,—cred mewn gonestrwydd ac yn Rhagluniaeth, cred mai lle heulog ydyw'r byd i rywun fo a'i fywyd yn iawn, cariad at ei gyd ddyn a pharch tuag at wŷr i'r rhai y mae parch yn ddyledus. Ni chefais i y pethau hyn,—y pethau gefais i oedd teimlad fy mod dan gyfraith haiarnaidd nas gallwn ei deall, a fod yn rhaid dweyd celwydd cyn y medrwn achub fy ngham. Ni ddeallais f'athrawes erioed, oherwydd ni siaradai air fedrwn ddeall. Buasai'n fendith anrhaethol i mi pe na welswn yr ysgol erioed.

Ond, i fynd ymlaen gyda'm hanes, yr oedd dydd i dydd yn ychwanegu blinder i mi yn yr ysgol. Nid oedd y llyfrau a roddid o'm blaen ond tywyllwch di-obaith i mi, ac yr oedd yr esboniadau gynhygid arnynt yn dywyllach fyth. Collais fy hoen, ac nid oedd blentyn anedwyddach yn y fro honno i gyd. Blinodd y rhai hoffai wrando f'ystraeon arnaf. Gadawyd fi at drugaredd rhai eiddigus o'm doniau prin, a churid fi'n ddi-drugaredd hyd nes y dysgais ymladd. Yr wyf yn cofio dargan-fod fod ysbryd llofrudd ynnof ryw dro, pan yn anelu carreg at ben bachgen oedd wedi gwneyd i mi golli'm tymer. Pan dan ofal fy nhad, a than ei addysg,—er lleied oedd cylch ei ddarllen,—yr oeddwn yn hapus, a'm henaid yn heddychlon. Ond magwyd ysbryd drwg ynnof yn yr ysgol; ac, ar adegau, y mae yn fy mhoeni byth. Pan fo plentyn yn awyddus am ddysgu, ond heb y gallu i ddeall ei athraw'n siarad Saesneg, fy ngweddi ydyw ar iddo gael ei wared oddiwrth y teimlad ei fod dan deyrnasiad anghyfiawnder a chreulondeb. Pan fydd wedi anghofio'r wialen, edrych ar bawb fydd yn siarad Saesneg fel ei elyn naturiol byth.

Yr wyf yn cofio'r ysgol honno'n dda,—y paent melyn-wyrdd oedd ar ei muriau, y llechau cerrig oerion, y llawr coed treuliedig, y wialen ar y ddesc, y darnau bychain o wydr oedd yn y ffenestri, a'r cloc yr oedd diogi wedi ymgylymu am ei fysedd.

Cyn hir aeth yr ysgol yn anioddefol i mi. Collwn fy nghysgu'r nos wrth feddwl am dani; ac, o'r diwedd, er ymdrech galed, teimlais na fedrwn fynd iddi mwy.

Ryw fore, mi a i cofiaf byth, ymgyddiais mewn gwrych o ddrain,—ac yr oedd arogl blodau'r drain yn fil mwy dymunol nag arogl paent melyn-wyrdd, – hyd nes oedd y plentyn olaf wedi mynd i'r ysgol. O mor dawel a hyfryd oedd pob man wedi i'r plentyn olaf fynd i'r ysgol!

"Dysgais garu miwsig rhaiadrau."

Crwydrais lawer, pan ddylaswn fod yn yr ysgol, ar hyd yr ardal. Yr wyf yn cofio llawer peth rhyfedd welais ac a glywais, yn yr oriau crwydr hyn, ymysg gweision ffermwyr. Un tro dois i ystabl ffermdy heb fod ymhell o'r ysgol ar adeg seremoni ryfedd. Yr oedd y gwas, gŵr cadarn cydnerth, yn bedyddio'r ceffylau trwy wneyd llun y groes ar eu talcennau. Gorfod i mi fod yn ddistaw iawn tra bo'r seremoni'n mynd ymlaen. Yna gofynnodd i mi a welais fedyddio ceffylau o'r blaen. Dywedais na wyddwn i fod neb ond plant yn cael eu bedyddio. Dywedodd yntau mai ceffylau drwg iawn fydd ceffylau heb eu bedyddio. Gyda hynny daeth plentyn bach tlws o rywle ar ei rawd tua'r ystabl. "Weli di glust hon?" meddai, gan ddangos clust greithiog dan gudynnau gwallt. "Ceffyl heb ei fedyddio gydiodd ynddi, wel di, a'i ddannedd, ac mi dorrodd ddarn o'i chlust. Os doi di byth yn wagnar, cofia di fedyddio dy geffylau, neu mi dron' y drol, neu mi dorran' ddarn o

dy glust ti." Yr oedd y gwas hwnnw'n credu mewn bedyddio ceffylau, ond nid wyf yn sicr a oedd yn teimlo fod rhyw lawer o rin yn y bedydd gafodd ei hun. A llawer chwedl ofergoelus glywais,—cefais gipdrem i fywyd nas gwyddwn ddim am dano o'r blaen.

Nid dyddiau dreuliwyd yn hollol ofer oedd y dyddiau y bum yn crwydro yn lle mynd i'r ysgol. Dysgais garu prydferthwch natur â chariad angerddol. Bum yn gwylio'r cymylau oddiar ael llawer bryn serth, bum yn synnu at gylchroion esmwyth y genllif goch wrth edrych arni oddiar gopa craig serth, darganfyddais nad oedd dyfnder coedwig yn lle unig, dysgais garu miwsig rhaiadrau,—yr oeddwn yn berffaith ddedwydd tan ddoi'r ysgol i'm cof, a than gofiwn mai mewn anufudd-dod i'm rhieni yr oeddwn yn byw. Ond yr oedd bywyd fel hyn yn rhy hapus i bara'n hir; o'r diwedd dywedodd rhywun wrth fy mam fy mod ymhell o'r llan, mewn cwm anghysbell, yn ystod oriau'r ysgol. Dechreuwyd chwilio, a buan y daeth fy holl fai i'r golwg. Yr oeddwn mewn ofn mawr, ac mewn cywilydd mawr. Ond y dychryn mwyaf, wedi diodde'r gosb, oedd meddwl am fynd i'r ysgol yn fy ol.

Yr oedd hen wr gwargam, a llygaid bychain treiddgar ganddo, wedi dweyd wrthyf am wledydd pell. Nid wyf yn meddwl iddo fod erioed o'r ardal, ond soniai beunydd am "awel lem Siberia" ac am "awel falmaidd y de" fel pe buasai'n berffaith gyfarwydd â hwy. Dywedodd hanes y môr wrthyf, ac fel yr oedd rhai'n mynd mewn llongau i wledydd pell, i gyrchu eurafalau a lemonau a phob rhyw hyfrydwch. Penderfynais innau, rhag mynd i'r ysgol, ddianc i'r môr. Yr oedd yn well gennyf awel falmaidd y de nag awel lem Siberia; a thybiwn fod yr awel falmaidd tua chyfeiriad codiad haul,—meddyliwn fy mod wedi ei theimlo rai troion pan fyddai'r awyr yn gloewi yn y bore, a cherbyd tân yr haul yn dod dros y mynyddoedd. Codais yn fore, yn yr haf oedd hi, a chychwynnais. Ond daeth lludded mawr drosof, a newyn. Nid oedd y môr yn y golwg o'r mynydd uchaf. Ni welwn ond mynyddoedd heb derfyn arnynt.

Troais adre'n ol. Nid oedd dim o'm blaen ond anobaith a'r ysgol. Erbyn cyrraedd adre, yr oeddwn yn wael. Bum mewn twymyn, ac araf iawn y bum yn gwella. Erbyn i mi ail ddechreu mynd i'r ysgol, yr oedd athraw newydd wedi dod.

DIC ABERDARON.

(Dernyn o Ddyddlyfr Eben Fardd.)

GORFFENNAF 26, 1838. Ar fy nyfodiad i'r ty o'r ysgol y prydnawn, pwy gefais yn eistedd ar gader ond yr ieithyddwr enwog Dic Aberdaron, yn prysur fwyta wicsen, yr hon, gyda thipyn o drafferth, a ystwffiai i'w geg oedd ymron yn guddiedig trwy wrych mawr o flew,—barf wedi gordyfu yn y dull Iddewig.

Dechreuasom siarad am Gornelius Agrippa, brenin y swynwyr. Yr oedd ei weithiau gan Ddic gydag ef, yn yr iaith Ladin, gyda'r dirgeledigaethau Cabalistaidd fel atodiad. Ymddanghosai ei fod yn credu yn yr athroniaeth gudd, a fod ganddo feddwl uchel o Agrippa. Dywedodd fod John Calfin wedi llwyddo i losgi Servetus, ond fod ei holl ystrywiau yn erbyn Cornelius Agrippa wedi methu; yr oedd y swynwr hynod, fe sylwai 'n ysmala, yn anghlwyfadwy oherwydd ei wybodaeth o'r Gelfyddyd Ddu. Ymddanghosai ei fod yn elyn mawr i John Calfin, a dywedai mai ystyr ei enw wedi ei gyfieithu i'r Galdaeg fuasai'r un peth a "Sion y Cwn" yn Gymraeg. Oddiwrth hyn tynnodd gyffelybiaeth isel a di-chwaeth, mai ci yn cyfarth ac yn brathu oedd Calfin, a'i fod unwaith wedi rhostio'r ysgyfarnog yn fyw, gan gyfeirio at Servetus. Rhoddodd hyn ddifyrrwch mawr iddo, a chwarddodd yn y dull mwyaf calonnog; ac ynghanol pob stori deuai ei feddyliau'n ol yn aml at Sion y Cwn,—yr hwn air a ddywedai'n wawdlyd, ac yna chwarddai'n uchel.

Dywedai ei fod wedi rhoddi ei Eiriadur Cymraeg i P. A. Mon, i gael tanysgrifwyr ato,—yr oedd ef yn mynd i'r Gaerwen i weld Dewi Wyn. Dywedais fod Dewi Wyn a'i feddwl mewn cyflwr drwg, oherwydd rhyw iselder meddwl, fel y clywais, yn codi oddiar amheuon crefyddol. Atebodd yntau ar unwaith ei fod, efallai, wedi ei frathu gan un o gwn Sion y Cwn.

Ar y cyfan, yr wyf yn cyfrif Dic yn un o'r rhai gwirionaf y siaredais a hwynt erioed, ar bob peth ond iaith,—yn y gangen hon y mae wedi cyrraedd gwybodaeth aruthrol, bron yn gyfangwbl trwy ei ddyfalbarhad a'i allu naturiol ei hun. Ond mewn gwybodaeth gyffredinol, buasai'n fwy priodol i enwi gyda ffyliaid naturiol na chyda dynion o synwyr cyffredin. Y mae'n anghoeth, yn wirion, yn ddi-chwaeth, yn anwybodus, ac yn anhydrin.

EOS MORLAIS.

CANODD Eos Morlais alawon Cymru nes gwneyd i'r genedl i gyd weled eu prydferthwch. Yn adeg deffroad Cymru, deffroad yn yr hwn yr adnabyddodd Cymru ei hun, yr oedd Eos Morlais yn gynrychiolydd o'r deffroad yn ei agwedd gerddorol. Canodd Doriad y Dydd a Phlas Gogerddan nes gwneyd i bob Cymro ymfalchio yn alawon ei genedl.

Ganwyd Robert Rees *(Eos Morlais)*, mewn bwthyn bychan ar fin afonig Morlais yn Nowlais, y pumed o Ebrill, 1841. Pan tua naw mlwydd oed yr oedd yn ennill ei damaid yn un o weithfeydd Dowlais, ac ni chafodd ond ychydig iawn o ysgol ar hyd ei oes. Ond gwelwyd yn fuan fod gan y bachgennyn tlawd lais hynod am ei felusder, ac yr oedd "Robin bach" yn ffafr pawb oherwydd ei allu i adrodd a chanu. Er cyfoethoced oedd ei lais tenor ardderchog wrth natur, gwnaeth ei oreu i'w ddiwyllio; ac er mor ychydig o ysgol gafodd, yr oedd yn efrydydd caled a thrwyadl. Daeth yn arweinydd côr Bethania yn Nowlais; a daeth oddiyno, tra eto'n ieuanc, i arwain côr eglwys Anibynnol Soar, yn Abertawe. Fel arweinydd, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf trwyadl; ac yr oedd gonestrwydd ei feirniadaeth yn ddychryn i'r diog ac wrth fodd yr aiddgar. Yn Nhowyn Meirionnydd y daeth i sylw holl Gymru gyntaf; ac wedi hynny, pa ardal sydd heb ei glywed yn arwain cymanfa ganu, neu'n gwefreiddio'r dorf â "Bedd Llywelyn" neu "Peidiwch gofyn imi ganu"?

(O photograph gan C. H. Evans, Abertawe).

EOS MORLAIS.
1841—1892.

Taflai ei enaid i'w gân. Torrodd i wylo, meddir, wrth ganu "Dim ond deilen," pan newydd gladdu ei wraig. Dywedodd wrthyf, pan newydd ganu "Peidiwch gofyn imi ganu" fod Tanymarian wedi wylo yn Aberaeron wrth ei glywed yn canu'r pennill olaf. Nid oedd hynny yn ryfeddod yn y byd i mi,—yr oeddwn wedi wylo fy hun.

Er ys dros ugain mlynedd, y mae clywed Eos Morlais wedi bod yn hoff i'r Cymry. Dywedir, pe cawsai addysg yn ieuanc, y buasai'n un o ddadgeiniaid goreu'r deyrnas, ac mai anaml y cawsai'r Cymry ei wasanaeth. Ond bu fyw yng Nghymru. Cafodd Abertawe ef trwy oes ei lafur, a gwnaeth lawer dros ddirwest, dros ganiadaeth y cysegr, a thros alawon cenhedlaethol yng Nghymru.

Arweiniodd gor Eisteddfod Abertawe yn 1891. Ond, er mor gampus y gwnaeth ei waith, yr oeddwn wedi synnu ei weled yn edrych mor guredig a gwelw. Clywais ei fod wedi colli ei iechyd; ac wedi hynny, deallais ei fod yn gwaelu o hyd. Yr oedd gyda Chymrodorion Abertawe ar ddydd gwyl Dewi eleni, ond yr oedd yn gwybod fod llaw angeu arno. Mewn araeth Gymraeg orlawn o deimlad, meddai,—"Byddaf gyda chwi'r flwyddyn nesaf eto," meddai, "ond ni chlywch fi'n canu." Y mae Eos Morlais eto gyda ni yn yr ysbryd; ac y mae ei enw'n fyw ini mewn llawer alaw glywsom yn ei llawn felusder oddiar ei wefusau ef. Ar y seithfed o Fawrth aeth i gymanfa ganu Dowlais, a dyna ei ymddanghosiad cyhoeddus diweddaf,—yn y lle y canodd gyntaf erioed. Bu farw yn ei gartref yn Abertawe, Mehefin 5, a chladdwyd ef wrth gapel Methodistaidd Aberdulais, yng nglyn Nedd, ym meddrod ei wraig a gollasai.

Nid yw'n ormod dweyd fod gwlad mewn galar am Eos Morlais. Pan glywyd y newydd, o Fynwy i Fon, yr oedd rhywun, ym mhob ardal, wedi ei glywed yn canu nes gwneyd iddo anghofio ei hun, ac yn gollwng ochenaid wrth feddwl fod y llais mwyn gwefreiddiol wedi tewi am byth. Gallasai llawer un ddweyd, o waelod calon, y geiriau cedd ar flodeuglwm ar ei arch,—

"O na chawn gyffwrdd a llaw nad yw,
A chlywed y llais sy'n fud."

Na feddylier fod canwr yn llai anfarwol nag ysgrifennwr. Dysg i ereill hoffi caneuon, a chenir hwynt wedi iddo ef dewi.

GOFYN AC ATEB.

XXXVI. EMYN.

Beth ydyw ystyr y llinellau hyn yn emyn Ieuan Glan Geirionnydd,—

"A'r mynych rymus wr
A suddodd ynddi."?

Rhos Llannerch Rugog J. Denbigh Jones.

XXXVII. JOHN AB JOHN.

Ym mysg beddfeini mwyaf henafol mynwent ein plwyf, ceir carreg ddinod yn gorwedd yn gydwastad a'r llawr, ac yn orchuddiedig bron gan laswellt a phridd, ac arni y cerfiad canlynol,—

"John ab John dyed 3rd of March, 1699."

Gan mai ar feddau mawrion neu enwogion yn unig y rhoddid carreg i ddynodi eu hunell i'r oesoedd dilynol yn y cyfnod hwnnw, rhaid fod hwn yn rhywun o dras uchel neu o ddylanwad diamheuol. Clywais fod Crynwr o'r enw, ac mewn angladd yn ddiweddar fe'm hysbyswyd gan gymrawd ymchwilgar, mai "man fechan ei fedd" ef ydyw hwn. Dywenydd gennyf fuasai cael gair o hanes John ab John, er mwyn cael allan i sicrwydd mai ei fedd ef yn wirioneddol a welir ym mhriddell mynwent Beddgelert.

Bedd Gelert. Carneddog.

XXXVIII. PUMLUMON.

Nid Plunlumon na Plumhumon, ond Pumlumon, yw dull yr enw yng *Nghilhwch ac Olwen*, un o'r rhai hynaf o'r hen chwedlau Cymreig,—

"Pan yttoed gei abedwyr yn eisted ar benn pumlumon, ar garn gwylathyr ar wynt mwyaf yny byt.," etc.

"Pan oedd Cai a Bedwyr yn eistedd ar garn o gerrig llyfnion ar ben Pumlumon, ar y gwynt mwyaf yn y byd;" etc.

Nis gellir cael gwell awdurdod na hwn. Os cyfieithir y gair i'r Saesneg, *Five Beacons* [Pum—pump—*five*, lumon — llumon—*beacon*] fyddai yr enw.

Caer Baddon. H. J. Evans.

XXXIX. BON NANT.

Wrth ddarllen ychydig ddyddiau yn ol am y ddamwain ofidus gymerodd le yng nghymydogaeth yr Alpau trwy lithriad yr *avalanche*, gwelais fod nant yng nghesail y Mont Blanc yn myned dan yr enw hanner Cymreig, "Bon Nant," neu fel y cyfieithia'r papur Saesneg ef,—"The Good Stream,'—yr hyn a m sicrhai mai Nant oedd i'w feddwl wrth "Nant.' Rhed i lawr ochr y Mynydd Gwyn i r afon Arve, yr hon a'i cymer i lawr i'r Rhône yn ymyl Geneva.

Carwn wybod sut yr amsefydlodd y gair Cymreig hwn mor bell oddiwrth ei gyd-giriau, gan nad oes un debyg iddo yn y Ffrancaeg, nac yn yr ieithoedd cylchynol, gan belled ag yr wyf yn gwybod. Y mae iddo ei hanes yn ddiameu. Y mae dwfr y nant yn cael ei ystyried yn rhinweddol,—feallai oblegid yr elfen Gymreig sydd ynddi!

Manchester. Dyfnwal.

XL. CAWL.

Pwy yw awdwr y ddau englyn hyn?

"Oerfel yw cawl erfin—bob tymor
Heb damaid o gigyn;
Cynnes yw cawl cenin;—
I fol gwr mae fel gwin!"

"Tafarn cadarn y cawl - fu unwaith
Yn enwog am ddwrgawl;
O ddigon fe aeth yn ddi-gawl,—
Llymrig, heb na chig na chawl."

"*Shir Gâr.*" "Cawl naw Blawdyn."

XLI. DYDD YR ARGLWYDD.

Codais yr isod o hen Feibl fy nhaid. Nis gwn pwy yw yr awdwr. A wyddoch chwi?

O dyma'r dydd, penodol yw
I w gadw i Dduw yn unig,
Y Sabboth glan rhown ynddo glod
I'r Drindod fendigedig.

Dydd i gyfodi'n foreu iawn
I ofyn dawn i'r enaid,
A dydd sydd raid ei dreulio'n hwyr,
A'i gadw'n llwyr i r Ceidwad.

Dydd i ymprydio oddiwrth bob chwant
A dydd i blant yr Arglwydd,
Dydd yw a rowd i ddynolryw,
A dydd i Dduw'n dragywydd.

Dydd yw i Dduw i borthi'i blant,
Rhai a ddisgwyliant wrtho,
Dydd rhoddion Crist, dydd rhanu gras,
Rhown ddiolch addas iddo.

Y seithfed dydd gorphwysodd Duw
Oddiwrth bob amryw orchwyl,
A dyma'r dydd cyfododd Crist,
Na fyddwn drist, rai anwyl.

Wel dyma'r dydd i ofyn ffydd
A chynydd yn yr enaid,
Yn ddiwyd iawn disgwyliwn ddawn,
Mae Duw yn llawn o gariad.

Birmingham. J. R. Evans.

XLII. CANEUON LLYDEWIG.

Ym mha le y gallaf gael y casgliad goreu o'r caneuon Llydewig? A fedrir dibynnu ar gywirdeb y *Barsaz Breiz?* Os nad ellir, pa lyfr arall sy'n cynnwys alawon a chaneuon gwlad Llydaw?

Caer Lydd. J. Owen.

XLIII. EDWARD MORUS.

A oes rhyw obaith y cyhoeddir gwaith Edward Morus o r Perthi Llwydion? Hefyd da fuasai cael pigion o weithiau'r beirdd gydoesai ag ef.

Ffestiniog. J. Evans.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala.

J. P. J.—Yr ydych yn camgymeryd. J. Morris Jones a gyfieithodd y dernyn o Heine. Ni wneir ond ei ddyfynnu yn Nhro yn yr Eidal,—

"Fel y crynna delw'r lleuad
Ar gynhyrfus donnau'r lli,
Hithau'n tawel grwydro ei hawyr
Las ddigwmwl hi;

"Felly crwydri dithau, Olwen,
Hyd dy lwybrau tawel di,
Tra mae th ddelw'n crynnu, crynnu,
Ar fy nghalon i."

Anibynnwr. — Ymadrodd pur newydd ydyw "cydwybod yr Anghydffurfwyr,"—*the Nonconformist conscience*. Ysgrifennodd gweinidog Wesleaidd lythyr i'r *Times*, Tachwedd 28, 1890, yn dweyd nas gallai cydwybod yr Anghydffurfwyr oddef Parnell ar ol y treial yn y llys ysgar. Wedi hynny, defnyddiwyd yr ymadrodd gan lawer.

G. W. R.—Ydyw, y mae'n resyn nas gall gweision y ffyrdd haiarn a'r llythyrdy siarad Cymraeg. Ond i'n gwaseidd-dra ein hunain yr ydym i ddiolch. Dylem ofyn am docyn yn Gymraeg, a'i fynnu yn Gymraeg. Dylem anfon pob teligram i Gymru ac o Gymru yn Gymraeg. Os ymddygir tuag atoch fel y dywedwch, ysgrifennwch at y Postfeistr Cyffredinol neu at un o gyfarwyddwyr y ffordd haiarn. Y mae'r Postfeistr newydd roddi rhybudd cyhoeddus i weision y cyhoedd yn erbyn coegni a diffyg boneddigeiddrwydd.

Ab Aeth.—Nid ydyw "heter' ddim amgen na'r gair Saesneg *heater*. Y dernyn triongl o haiarn roddir yn eiriasboeth o fewn haiarn smwddio ydyw. Yr wyf yn cofio hen ddiacon yn darlunio pregeth fel hyn unwaith,—"Yr oedd hi fel heter; o ba gyfeiriad bynnag yr edrychech arni, 'roedd hi'n mynd yn big."

Hanner cadach ysgwar ydyw "cadach Gaenor," wedi ei dorri o gornel i gornel. Gelwir ffyliaid yn gadachau Gaenor oherwydd fod y cadachau hynny'n hirion iawn un ffordd ac yn fyrion iawn ffordd arall, —"hir a byr."

Bachgen.—Bydd erthyglau rysgoloriaethau Rhydychen mor fuan ag y ceir lle iddi. Hoffwn, yn enwedig, ddangos pa fodd y medr athraw ysgol elfennol gael cwrs addysg y Brif Ysgol, er mwyn ei gymhwyso at swydd arolygwr.

J. E.—Dywed J. E. mai hoff englyn W. Williams, Dolobran, ac nid ei waith, ydyw'r englyn ar hen wr Cae'rlloi,—tud. 37. Gwallter Mechain a'i gwnaeth, eb ef, yn 1840.

Ceunantog.—Dyma ddarn o lythyr Ceunantog. "Dymunaf ar Mr. T. C. Roberts ysgrifennu rhyw nodion ar enwogion a hynodion Cwm Nant y Fyllon a'r cymoedd cylchynol. Am yr hen uchelwr a'r bardd Morris Jones o'r Talwrn, mae ym meddiant Myrddin Fardd waith i'r gŵr hwn mewn ysgrifen fel y crybwylla mewn llythyr ataf. Bydded iddo yntau fod mor hynaws, yn ol ei arfer, ag adysgrifio peth, os nad yr oll, o'i waith a'i anfon i'r "Cymru." Am Eos Myllon, Ieuan Doefon, mae gennyf fi dwysged o waith y gŵr hwn, ond heb drefn na dosbarth. Ac feallai y ceir rhyw ysgrifau ar rai o honynt hwy ac ereill gan Henri Myllin.

Alltud Eifion.—Gwnes gamgymeriad trwy ddweyd mai saith cyfrol o'r *Gwyliedydd* sydd ganddo. Y mae'n cynnyg y pedair cyfrol ar ddeg yn gyflawn,—copi y diweddar Mr. Breese o Borth Madog, am dair gini. Un copi o'r *Brython* sy'n weddill. Anfonodd y golygydd profiadol hwn hen gywydd imi, a chyngor,—gochel y demtasiwn o ddefnyddio cylchgrawn cenhedlaethol i bregethu rhinweddau fy sect neu fy mhlaid fy hun. Nid ydyw'n anodd iawn gwneyd hyn; y mae digon o waith y gellir ei wneyd i Gymru,—o bob plaid a sect.

Prydlon. - Yr wyf yn gwneyd fy ngoreu i gael yr erthyglau sydd i'w parhau mor fuan ag sydd bosibl. Ond rhaid, er mwyn gwneyd lle i bethau ereill, gadael rhai o honynt allan weithiau. Dyna'r unig reswm paham y gadawyd y bennod ar y Diwygiad yn Ffrainc allan o'r rhifyn diweddaf. Weithiau bydd anffawd yn rhwystro i mi gyflawni'm haddewid i'r mis. Methais a chael darlun o Athan Fardd. A oes un, tybed? Os oes, byddwn ddiolchgar iawn am ei fenthyg.

Ysgrythyrwr. - Ie, Ecclesiasticus, nid y Pregethwr, ydyw'r llyfr y dylaswn ddweyd i'r adnod ddod o hono. Ecclesiasticus oedd i lawr yng nghopi Mr. R. Morris Lewis; cam-ddarllennais innau ef yn Ecclesiastes. Nid oes da o fod mewn gormod brys. Nis gwn a ydych chwi'n ddiwiol a'i peidio, ond gwn fod dynion duwiol iawn yn cael blas ar yr Apocrypha.

Hen Ffasiwn. - Nis gwn beth sydd yn anuniongred ym Marcus Dodds. Clywais ei fod wedi ei alw i gyfrif am rywbeth yn Ysgotland. Bum yn gwrando ar araeth feddylgar ganddo yn Rhydychen unwaith. Amcan yr araeth oedd profi gwirionedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu. Cododd canon dysgedig ac adnabyddus ar ei ol i'w gondemnio am ei ofergoeledd. Gallwch feddwl oddiwrth hynny nad ydyw'n rhyw bell iawn.

Dysgwr. — Lewis, Penygroes, sy'n cyhoeddi "Adgof uwch Anghof." Llythyrau llenorion Cymreig, wedi eu casglu gan Fyrddin Fardd, ydyw; a buasai'n amhosibl i chwi gael llyfr mwy difir at ei roddi'n anrheg.

Mab y Bala.—Y mae'n dda gennyf eich hysbysu fod map ieithog o Gymru newydd ei gyhoeddi yn "Wales and her Language," - gan J. E. Southall, 143, Dock Street, Newport. Coron ydyw ei bris.

Gramadegwr.—Nid oes gennyf reolau pendant ar orgraff na gramadeg. Byddaf yn gadael gair yn ei ffurf leol weithiau, yr wyf yn meddwl yr ychwanegir at ddyddordeb llawer erthygl felly.

Bach ab Bach.—Yr wyf yn meddwl cyhoeddi siarterau Cymru, gan ddechreu, y mis nesaf ond odid, gyda siarter Pwllheli.

D. R. J. (Cambria, Wis.).—Diolch yn fawr; y mae'r gân yn aros ei lle.

Clerwr.—Peter Evans, Caernarfon, argraffodd "Ddiliau'r Delyn." Cynhwysa 282 o benillion telyn.

Monwyson.—Y mae llawer o waith Lewis Morris Mon heb ei gyhoeddi; bydd llawer yn rhifynnau Cymru.

W. D. S.—Anwireddus hynod ydyw'r adroddiad y cyfeiriwch ato am ethol athraw Cymraeg yn Aberystwyth. Nid ydym ni olygwyr Cymreig mor ofalus gyda'r gwir ag y gallem fod.

LLYFRAU NEWYDDION.

XVII.

WALES AND HER LANGUAGE, considered from a historical, educational, and social standpoint, with remarks on modern Welsh Literature, and a linguistic map of the country. By John E. Southall, 149, Dock St., Newport.

Llyfr o agos i bedwar can tudalen, wedi ei argraffu'n ddestlus a'i rwymo'n dda, gyda map ieithyddol mawr lliwiedig, ydyw'r llyfr hwn. Ei bris ydyw coron, ac y mae hynny'n rhad. Amcan y llyfr ydyw dangos y camgymeriadau wneir yng nghyfundrefn addysgol Cymru drwy beidio gwneyd defnydd o iaith y wlad. Ganwyd yr awdwr yr ochr chwith i Glawdd Offa, ac y mae hyn yn sicrhau tuedd amhleidiol. Nid Cymro sydd yn llefaru wrthym yn y llyfr hwn, ond estron wedi gwneyd ymdrech galed a llwyddiannus i ddeall y Cymry a'u gwlad. Nid estron y mynnai'r awdwr alw ei hun, cyfaill ydyw. Y mae gonestrwydd a symlrwydd y cyfeillion yn ei arddull; ni rydd efond yr enw lle y rhydd ereill "sant," ac ni eilw adeiladau elwid gan ereill yn "eglwysi" yn ddim ond "lle."

Yr wyf yn credu y cydolyga pob un diduedd ag awdwr y llyfr wrth iddo drin hanes yr iaith Gymraeg. Teimla llawer un ei hun yn deffro o'i gysgadrwydd, wrth ddarllen y llyfr, ac yn gofyn,—"Paham, yn enw pob rheswm, y gadewir i'r Llywodraeth geisio dinistrio'r iaith Gymraeg, heb ddweyd gair yn ei herbyn?" Danghosir fod rhan fawr o'r genedl wedi dysgu siarad Cymraeg heb gymorth un awr oddiwrth y Llywodraeth, a'i bod wedi mynd yn rhyw ail natur i'r Cymro beidio gofyn am gymorth. Danghosir tri ymgais i ladd yr iaith Gymraeg,—

1. Ymgais Harri VIII, ei gyfreithiau, a'i swyddogion.
2. Ymgais yr esgobion yn y cyfnod Hanoferaidd.
3. Ymgais y Llywodraeth yn y dyddiau hyn,—gyda chymorth sylweddol o wahanol gyfeiriadau.

Fel meddyginiaeth cynhygia,—

1. Gwneyd Cymraeg, yn ogystal a Saesneg, yn orfodol yn ysgolion dyddiol Cymru Gymreig; a chefnogi dysgu Cymraeg yn y rhannau Seisnig.
2. Gorfodi pob athraw i ddysgu Cymraeg yn y colegau athrofaol.
3. Gwneyd Cymraeg yn rhan orfodol yng ngradd y Brifysgol, pan ddaw.

Cynhygia hefyd y dylai anwybodaeth o'r iaith Gymraeg rwystro neb a fo yn yr anwybodaeth honno fynd yn ustus heddwch yng Nghymru Gymreig. Y mae'n amheus gennyf fi a oes gŵr teitlog yng Nghymru fedr siarad iaith ei wlad yn rhigl; a gwn am dirfeddianwyr heb fedru gair o Gymraeg tra na fedr eu tenantiaid air o Saesneg. Ac eto y mae'r crach ysweiniaid hyn wedi byw trwy eu bywyd ymysg eu tenantiaid; dont i gyfarfodydd gwarcheidwaid yn ddigon digywilydd, a hawliant fod pob peth yn cael ei gyfeithu i'r Saesneg er eu mwyn hwy. Bendith i Vaughan-Campells a Vane-Temptests Cymru fydd y deffroad a wna iddynt ddysgu Cymraeg cyn hir, neu golli pob rhithyn sy n weddill iddynt o awdurdod yn y wlad.

Y mae'r map yn dri lliw. Gwyrdd yw corff y map, dynoda'r ardaloedd lle siaredir neu y deallir Cymraeg gan fwy na thriugain y cant o'r bobl. Y tu allan, ar y gororau, y mae ymyl las,—i ddynodi'r ardaloedd na siaredir dim Cymraeg ynddynt. Dechreua'r ymyl glas tua Phenarlâg a Chaergwrle, gan gymeryd Gwrecsam i mewn. Yna y mae tor ynddo, lle daw Cymru Gymreig i daro ar Sir Amwythig. Ger Llan y Mynech dechreua'r ymyl las drachefn; ac wedi gadael Trefaldwyn a'r Dre Newydd, ymleda dros Sir Faesyfed. Wedi bwlch arall, cawn ddwyrain Mynwy yn las, a Gŵyr, a Phenfro Seisnig. Rhwng y glâs a'r gwyrdd y mae llannerch goch,—lle y siaredir Cymraeg gan lai na thri ugain y cant. Y lliw hwn sydd ar y Rhos (gwyrdd iawn ddylasai'r Rhos fod), Llanidloes, Pont y Pwl, Pont Faen, a Llacharn.

Y mae toraeth o wybodaeth fuddiol a difir am lenyddiaeth ac argraffu a sefyllfa'r iaith Gymraeg trwy'r llyfr. Bydd yn fendith fawr i bob Cymro fedr Saesneg gael ei ddarllen.

XVIII.

THE LIFE OF HOWELL HARRIS, the Welsh Reformer, By Hugh J. Hughes. 440 tudalen. Darlun. Llian. 5s. Casnewydd, W. Jones.

Y mae'n ddiameu fod gan Howel Harris fwy o ran na'r un dyn arall yn y symudiad elwir erbyn hyn yn ddeffroad Cymreig. Mynd i mewn i'w lafur wnaeth llawer ag y mae eu coffadwriaeth, hyd yn hyn, wedi cael mwy o chwareu teg na'i goffadwriaeth ef. Yr oedd yn un o'r gwŷr rhyfeddaf, ac yn un o'r gwŷr mwyaf athrylithgar welodd Cymru erioed. Mewn amgylchiadau mwy cyffrous, y mae'n ddiameu y buasai'n un o wŷr hynotaf y ddaear. Gellir rhannu ei fywyd yn dair rhan, pob un tuag ugain mlynedd, ugain mlynedd addysg, ugain mlynedd pregethu, ac ugain mlynedd yr unigedd yn Nhrefeca.

Gwyddis am Mr. Hughes fel bywgraffydd, oherwydd ei fod wedi ysgrifennu bywgraffiad tarawiadol a grymus am David Howell. Y mae y llyfr hwn, hefyd, wedi ei ysgrifennu mewn arddull dda, ac ni chyll y darllennydd ei ddyddordeb o'r dechreu i'r diwedd. Y mae Mr. Hughes wedi gwneyd defnydd helaeth iawn o lythyrau Howel Harris; ac y mae wedi rhoddi llawer darn o'r dyddiaduron rhyfedd sy'n dweyd hanes teithiau Harris. Hwyrach y dylasai fod wedi rhoi mwy o'r rhai hyn,—y mae cyfrolau o honynt yn Nhrefeca heb eu hargraffu erioed. Y mae'r llyfr yn llawn ac yn dda iawn ar deithiau Harris, feallai y cyhoeddir pigion o'r dyddiaduron rywbryd fel cydymaith iddo. Byrrach, ond nid llai dyddorol, ydyw'r hanes roddir am ugain mlynedd olaf ei oes. Y mae hanes ymgais Howel Harris i sefydlu cymdeithas yn Nhrefeca yn un o'r rhai mwyaf dyddorol o'r llawer hanes sydd gennym am ymgeisiadau cyffelyb i fyw yn ysbryd Crist ac i ddifodi'r gwahaniaeth rhwng tlawd a chyfoethog. Wedi'r cweryl rhyngddo a'r Methodistiaid,—ei ddiadell ef ei hun,—ymneilltuodd i Drefeca, gan lywodraethu yno fel y mynasai lywodraethu ar Gymru. Ei seiadau, ei filwyr, ei felinau, ei anhawsderau,—y mae eto ddigonedd o waith i'r hanesydd neu'r nofelydd cyn y bydd Cymru'n adnabod Howel Harris fel yr oedd. Y mae llyfr Mr. Hughes yn llyfr yn ei bryd, a bydd ei ddarllen yn fendith i filoedd.

XIX.

Y GESTIANA, sef hanes tre'r Gest, yn cynwys y cofnodion hynafiaethol plwyfi Ynyscynhaiarn a Threflys. Gan Alltud Eifion, Tre Madog. Chwe rhan, 2s. 6c. oll.

Dyma lyfr dyddorol, cynhwysa hanes Dafydd y Garreg Wen, Syr John Owen o'r Clenenau, Edward Samuel, Elis Owen, Emrys, Bardd Treflys, Ioan Madog, Tegidon, ac ereill.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

X. DEDDF GREULON.

YR oedd ei ganghellydd Olivier a'i gynghorwyr eglwysig ereill bob amser wrth benelin y brenin yn erfyn arno ddinistrio heresi newydd. Ym Mehefin, 1551, pasiwyd Deddf Chateaubriant,—yr hon a wnaeth greulondeb yr erlidiwr mileiniaf yn gyfraith y wlad, yr hon orfodai bob ustus i ymddwyn tuag at y Calfiniaid fel nad ymddygasai neb ond y rhai creulonaf a mwyaf anynol hyd yn hyn. Dyma'r gyntaf o restr hir o gyfreithiau gwaedlyd. Adgyfodwyd pob hen gyfraith erlid, rhoddwyd grym newydd ynddynt, a gwnawd rhai newyddion creulonach na'r hen. Llosgi wrth y stanc,—yr oedd hwnnw'n hen beth. Ail gyneuwyd hen goelcerthi, ail agorwyd drysau rhydlyd daeargelloedd, ail gyweiriwyd llawer arteith-glwyd,—yr oedd yr efengylwr wedi deffro ei erlidiwr wrth ddeffro ei hun. Medrai y llysoedd eglwysig yn ogystal a'r llysoedd gwladol gondemnio i farwolaeth, ac ni fedrai'r condemniedig apelio oddiwrth yr un o honynt. Tybiai'r erlidwyr anianol mai trwy eu hamgylchiadau bydol y medrent wneyd mwyaf i ladd y grefydd newydd. Yr oedd un ran o dair o olud yr heretic i fynd i'r hwn a'i cyhuddai; yr oedd eiddo y rhai ddiangai i Geneva i syrthio i ddwylaw'r brenin ac ni chai neb ei brynnu,—os oedd y crefyddwr am adael ei wlad i gael heddwch cydwybod, yr oedd yn rhaid iddo wneyd hynny'n dlawd. Nis gallai mam anfon ceiniog i'w mab ddiangasai er mwyn ei grefydd. Nid oedd neb mwyach i gael lle yng ngwasanaeth y brenin, ac nid oedd neb mwyach i gael dysgu unrhyw wybodaeth os na fedrai brofi ei fod yn Babydd trwy drwydded rhyw offeiriad. Yr oedd y clerigwyr yn ameu'r barnwyr, a gwnawd llys i wylio eu bod yn rhoddi'r ddeddf greulawn mewn grym.

Deddf Chateaubriant oedd ateb y clerigwyr i brotest Calfin. Protestiai Calfin yn erbyn condemnio am grefydd, tra nad oedd crefydd yn drosedd yn erbyn cyfraith y wlad. Ond o hyn allan, yr oedd y Calfiniad, wrth arddel ei grefydd, yn torri cyfraith ei wlad.

Gwnawd ymdrech galed i roddi'r ddeddf mewn grym. Cawn yr un hanes mewn llaweroedd o ardaloedd Ffrainc,—condemnio heretic, hwnnw'n marw'n fuddugoliaethus dan ganu salmau Clement Marot â'i anadl olaf, ac eglwys yn codi, fel pe o'i lwch, i gredu ac i ddysgu ei athrawiaeth. Gadewch i ni weled pa fodd yr ymdarawodd eglwys Paris tan yr erledigaeth hon.

Er gwaetha'r ddeddf, cynyddodd y ddiadell fechan ym Mharis, ac yr oedd yno addoli brwd. Yn 1557 yr oedd y Spaenod yn goresgyn Ffrainc, ac er fod Coligni'n gwneyd ymdrechion arwraidd i'w rhwystro, ofnid y gwelid hwy'n gwarchae ar Baris cyn hir. Yn eu hofn, trodd y boblach ar y dyrnaid Calfiniaid, gan ofer gredu mai hwy oedd achos melldith Duw a buddugoliaethau'r Spaenod. Ar y trydydd o Fedi, 1557, yr oedd tri neu bedwar cant o'r Calfiniaid wedi ymgynnull mewn ty yn heol Iago, yn ymyl y Sorbonne, i weddio am i Dduw droi ei lid oddiwrth eu gwlad, ac i gyd gofio am farwolaeth eu Gwaredwr. Tra'r oeddynt hwy wedi ymgolli yn ysbryd eu haddoliad, yr oedd ychydig o offeiriaid yn prysur gasglu tyrfa o erlidwyr o amgylch y ty, i rwystro neb adael yr adeilad hyd nes y deuai'r milwyr yno. Ar ganol nos, pan agorodd yr addolwyr ddrysau'r ty, gan ddisgwyl cael yr heolydd yn ddistaw a thawel fel arfer, daeth cawod o gerrig i'w cyfarfod, a gwelent fod tyrfa lidiog wedi amgylchynu'r ty. Yr oedd tyrfaoedd ereill yn dylifo atynt, a'r clychau'n canu. Yr oedd dau beth o flaen y crefyddwyr,—os arhosent yn y ty, condemnid hwy i farw dan y ddeddf; os aent allan, byddai eu bywydau mewn perygl gan yr offeiriaid a'r dorf. Cofiasant mai llwfr iawn yw torf, a phenderfynodd y rhan fwyaf o honynt fentro allan. Aeth y gŵr arfog ymlaenaf, i glirio'r ffordd, a dilynwyd hwy gan y lleill. Un syrthiodd dan y gawod gerrig, ac yn fuan iawn yr oedd yr erlidwyr anynol wedi darnio'r corff marw. Megis yn wyrthiol, diangodd y lleill.

Ond yr oedd tua deg a'r hugain o'r crefyddwyr,—gŵyr, gwragedd, a phlant,—wedi ofni dilyn y lleill i'r heol, ac wedi aros yn y ty. Gwelid hwy yn y ffenestr, yn apelio at drugaredd y dyrfa greulon a llwfr oedd yn ceisio torri'r drws. Ar doriad y dydd, pan oedd y drws wedi ei ddryllio, a'r gyflafan ar ddechreu, daeth swyddog y brenin yno gyda llu o filwyr, ac nis gallai lai na wylo wrth weled yr olygfa dorcalonnus. Gorchymynnodd wylio'r drws, ac ysgrifennodd hanes y cynhulliad fel hyn,—

"Darllennwyd y Beibl yn Ffrancaeg tra'r oedd y crefyddwyr yn dod at eu gilydd. Pan ddaethant oll, penliniasant ynghyd, a gweddiodd eu gweinidog. Esboniwyd natur y sacrament, yn ol epistol Paul at y Corinthiaid. Dywedwyd y byddai cyfrannu'n ddamnedigaeth i bob un gwrthryfelgar, i bob un anufudd i'w uchafiaid, i'r godinebwr a'r lleidr. Daeth y rhai oedd i gyfrannu ymlaen, a chymerasant y gwin a'r bara o law'r gweinidog, yr hwn a'u hysbysodd mai corff a gwaed Crist oedd. Gweddiwyd dros y brenin, dros heddwch y deyrnas, dros y tlawd adfydus, dros yr eglwys. Canwyd ychydig salmau hefyd."

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD XI.

DWYN MORFUDD YMAITH.

DYDDIAU dedwydd i Forfudd a Dafydd a ddilynodd y briodas yn y llwyn. Yr oedd y meudwy y rhan fwyaf o'r amser yn tramwy o fan i fan, ac yn dod i'r gell ambell dro am ychydig funudau i weled y ddeuddyn ieuainc, ac i gyrchu rhywbeth y byddai arno angen am dano. Felly yr oedd Dafydd a Morfudd yn cael y lle iddynt eu hunain, ac yn byw fel brenin a brenhines. Treulient eu dyddiau bron yn hollol yn yr awyr agored,—yn y coed, ac wrth lan y môr. Un diwrnod aeth Dafydd i Feaumaris i brynnu defnydd i wneyd tannau i'w delyn, yr hon a gariodd Merlin iddo o Lys Gwilym. Yr oeddynt wedi bod saith wythnos yn y gell, ac erbyn hyn wedi mynd yn hyf a diofn, ac yn bwriadu cychwyn am y Deheubarth drannoeth. Arhosodd Morfudd adre, tra yr elai Dafydd i'r dref; sicrhai ef nad oedd arni ofn, ac nad ai ymhellach na phen y graig i'w wylied yn ol. Addawodd Dafydd wneyd pob brys, a chan ei chusanu lawer gwaith ymadawodd. Cafodd yr hyn oedd eisiau yn ddioed yn y dref, a chychwynnodd yn ol heb aros dim. Pan yn myned trwy Lanfaes gwelai ddyn yn chwareu telyn ledr o flaen tafarn fach, a thwr o blant a rhai mewn oed yn gwrando arno. Safodd yntau i wrando, ac ymhen tipyn o amser dechreuodd ymddiddan â'r dyn, yn Saesneg, ynghylch teilyngdod y delyn ledr a'r delyn dannau. Wedi ymdroi fel hyn oddeutu hanner awr, ail-gychwynnodd i'w daith, a phan yn agoshau at ei therfyn, gwelai dyrfa o ryw ddwsin o ddynion yn marchogaeth heibio ar hyd y ffordd fawr. Yr oedd yn rhy bell yn y coed i'w gweled yn eglur, a marchogasant ymlaen yn gyflym iawn, fel nad oedd lliw o honynt i'w weled pan gyrhaeddodd Dafydd y ffordd. Croesodd y ffordd ac aeth i'r coed yr ochr arall, ac ymhen ychydig yr oedd wrth y graig goruwch yr ogof. Nid oedd Morfudd allan yn disgwyl am dano. "Mae y marchogwyr yna wedi ei dychrynnu a pheri iddi fyned i mewn," meddai Dafydd. Aeth i'r gell, ac i'r ystafell bellaf, gwelai ei mantell, a ffunen lawnt o'i heiddo, *ond nid oedd Morfudd yno.*

"Morfudd! Morfudd!! fy anwylyd, pa le'r wyt?" gwaeddai Dafydd, ond nid oedd neb yn ateb. Aeth allan i ben y graig gan lefain,—"Fy Morfudd! fy meinwen! y mae dy Ddafydd yma yn dy ddisgwyl," ond ni welai neb, ac ni chlywai lais. Fflachiodd yn sydyn i'w feddwl y gallai fod wedi ei dwyn ymaith. Aeth ymlaen i gyfeiriad y ffordd fawr, ac edrychodd o'i amgylch, a gwelai ol traed dynion yn y pridd ar y llwybr. Syrthiodd ei galon gan ddychryn, a dywedodd gydag ochenaid,—"Yn ddiddadl y mae fy ngwraig wedi ei dwyn oddiarnaf, gan y marchogwyr a welais yn mynd heibio. O na buaswn gartref yn gynt! Pe buaswn heb ymdroi gyda'r dyn a'r delyn ledr—dyma fe, dyma fe, yr hyn a ddywedodd yr hen wrach wrthyf fisoedd yn ol. Gwae, gwae, fi!" a bwriodd Dafydd ei hun ar ei wyneb ar y ddaear, gan ymdreiglo mewn ing yn y glaswellt, a llefain,—"Morfudd fy anwylyd! tyrd yn ol." Yn y cyflwr hwn y cafodd y meudwy ef, a dymunodd arno godi a dod gydag ef i'r gell. Ufuddhaodd Dafydd, ac wedi i'r meudwy dywallt ychydig win, ac iddo yntau ei yfed, daeth yn ddigon tawel i ddweyd ei ofid i'w gyfaill. "Yr oeddit yn dy le wrth feddwl mai gyda'r dyrfa o farchogwyr y dygwyd hi ymaith. Yr wyf yn adnabod Madog Lawgam, ond nid yw ef yn gwybod dim am danaf fi, a chyfarfyddais ef, a dau neu dri o'i gyfeillion, a gwas neu ddau yn eu dilyn. Yn y canol, rhwng ei thad a marchogwr arall, eisteddai Morfudd ar ferlyn gwineuddu. Gwyddwn o bell mai nid merch gyffredin oedd yn dyfod gyda'r dynion, gan ei bod yn marchogaeth yn y dull newydd.* Pan oeddwn i yn myned heibio trodd olwg torcalonnus arnaf, fel pe buasai yn dymuno arnaf dy hysbysu di o i hanffawd, a gwnes innau amnaid, mor ddirgel ag y gallwn, arni."

Ni atebodd Dafydd un gair, ond rhoddodd bwys ei ben ar ei law.

"Y mae hyn yn gysur yn yr amgylchiad yma," ychwanegai y meudwy, "ein bod yn gwybod i ba le yr aeth."

"Ydyw. Yr oeddwn yn meddwl na fuasai neb byth yn dod o hyd i ni fan hyn," atebai Dafydd.

"Ac ni fuasai chwaith, yr wyf yn sicr o hynny, pe buasai hi yn y gell. Ond ti gei di weled mai mynd yn rhy bell i'r coed, neu efallai i'r ffordd a wnaeth, ac mai felly y daliwyd hi."

"Mae arnaf finnau ofn, gan ei bod wedi addaw fy ngwylied yn dod yn ol. A

* Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg y dechreuwyd defnyddio pilyn gan ferched, cynt marchogent fel dynion.

minnau—a minnau yn ynfytyn yn ymdroi gyda dyn a thelyn ledr, neu buaswn yma mewn pryd, a buasem ein dau i mewn yn y gell o gyrraedd ein herlidwyr."

"Ar bethau mor fychain, ynddynt eu hunain, y mae ein hapusrwydd, neu ein trueni yn dibynnu weithiau, onide? Ond paid a digalonni Dafydd, yr hyn a wnaed unwaith a ellir ei wneyd drachefn."

"Beth?"

"Ei dwyn drachefn."

"Na," meddai Dafydd gan ysgwyd ei ben, "anhawdd fydd hynny eto. Bydd gwyliadwriaeth fanwl yn cael ei roddi ar ei symudiadau o hyn allan."

"Wel, wel Dafydd, byddi di yn arferol o edrych y tu hwnt i bob rhwystrau, i ddwyn dy amcanion i ben."

"Y mae fy ngofid wedi fy llwfrhau. Ond yr wyf yn meddwl yr af heno i dy fy nghyfaill Gwilym Llwyd, ac wrth fynd drwy Rosyr feallai y clywaf rywbeth a fydd yn gymorth i mi."

"Ie, dos fy mab, gwna hynny lareiddio ychydig ar dy boen, beth bynnag."

"Aml ddyddiau dedwydd yr ydym wedi eu treulio yn y fan yma! Nefoedd ar y ddaear oedd, ond yn awr y mae y cwbl drosodd."

"Y mae y gell yma yn agored i chwi eto, ac nid oes neb ond chwi a minnau a ŵyr y ffordd iddi. Mae ar y bobl gyffredin fy arswyd, y maent yn meddwl fy mod yn rhywbeth mwy na meudwy diniwed, fod gennyf gymdeithas â galluoedd y tywyllwch. Ni wnai yr un o honynt fy nilyn i'r gongl neillduedig hon, o ran chwilfrydedd na dim arall, pe cawsant eu pwysau o aur, felly yr wyf yn cael llonyddwch."

Fel y dywedodd y meudwy, pe buasai Morfudd i mewn yn y gell ni buasai wedi ei dwyn ymaith. Ond wrth weled Dafydd yn hwy nag y disgwyliodd, aeth ymlaen oddiwrth y graig ar hyd y llwybr a arweiniai drwy y coed i'r ffordd fawr, gan ddisgwyl gweled Dafydd yn dod ar hyd y llwybr yr ochr arall. Dechreuodd hel blodeu, a dail Hydref, y rhai oedd o bob lliw, melyn a choch a gwyrdd, ac yr oedd yn bwriadu eu plethu yn het fedw i'r bardd. Tra wrth y gorchwyl hwn, cipiwyd hi ymaith fel Proserpine gynt, a dodwyd hi ar ei merlyn ei hun wrth ochr ei thad, a chychwynasant ymaith. Yr oedd y cwbl drosodd mor fuan, fel nad oedd Morfudd yn sylweddoli beth oedd yn digwydd hyd nes y cychwynasant am ei chartref. Yna rhoddodd un lef wylofus, gan waeddi ar Ddafydd ddod i'w hachub. Ni atebodd neb i lef Morfudd, ond gyrasant ymlaen yn gyflym heb aros unwaith ar y ffordd. Wedi cyrraedd Eithinfynydd aethpwyd a Morfudd rhag ei blaen i'w hystafell, a gosodwyd hen wreigan sarrug i'w gwylio. Nid oedd yn sylwi ar neb na dim, prin y credai ei thad ei bod yn gwybod pwy oedd yn marchogaeth gyda hi adref, ac nid oedd wedi dweyd yr un gair er pan lefodd am Ddafydd wrth gychwyn o Langoed. Yr hyn a gymhellodd Fadog Lawgam i ddyfod i Langoed oedd clywed i Ddafydd fod yn byw yn yr Abaty am beth amser, ac y gallai gael gwybod rhywbeth o'i hanes, a damwain hollol oedd iddo gael hyd i Forfudd ar y ffordd.

Pryderai ei mam lawer o'i hachos, ond atebai Madog—"Daw i'w phwyll ymhen ychydig o ddyddiau.' Ond ni wnaeth Morfudd symud o'i gwely, na bwyta tamaid o fwyd am dri diwrnod. Y bedwaredd noson, yr oedd yn gorwedd yn effro yn ei gwely, a'r hen wrach yn gorwedd ar swp o wellt wrth draed y gwely, ac yn chwyrnu dros y lle. Meddyliodd ei bod yn clywed ryw swn oddiallan heblaw y gwlaw yn curo ar y gwydr. Cododd at y ffenestr, a gwrandawodd. Clywai lais distaw rhwng chwyrniadau yr hen wraig, yn sibrwd rhywbeth. Agorodd y ffenestr yn ofalus, a chadwodd ei hun o'r golwg, a gwrandawodd drachefn, a chlywai y llais yn dweyd,—

"Morfudd fy nghrair ddiwair-bwyll,
Mamaeth tywysogaeth twyll!
Mawr yw'r wal am aurwialen,
Nis clywi, rhaid gwaeddi Gwen!—
Tosturia wrth angeu glwyf,
Tywyll yw'r nos, twyllwr n'wyf;
Nebydded flined fy nhro,—
Wb! o'r hin o'r wybr heno.
Ni byddwn allan y nos,
Ni thuchwn ond o'th achos;
Ni ddown i oddef, od gwn,
Bennoeth gur be na'th garwn!
Ni byddwn dan wlaw ac ôd
Ennyd awr onid erod." *

"Dafydd!" meddai Morfudd, a'i phen allan drwy y ffenestr.

"Morfudd!" atebai Dafydd, gan edrych i fyny.

"O fy ngwr, pa beth a wnaf?"

"Aur fy mywyd! Yr wyf bron marw o hiraeth am danat," atebai Dafydd yn ddistaw. "Onid oes modd i ti ddianc allan?"

"Nac oes yn wir, yr wyf wedi fy nghloi yn yr ystafell hon, ac mae'r hen Sidi yn fy ngwylio bob munud nos a dydd, y mae yma 'rwan, ond ei bod yn cysgu."

"Gwrando, fy Morfudd anwyl, ar gyngor gan dy fardd. Paid ag ymgildynnu yn erbyn dy dad, ond gwna ymddanghosiad, o leiaf, i ufuddhau iddo. Cymer arnat fy anghofio i, a boddloni i aros gartref. Felly y cei di ryddid buan, ac felly y caf finnau gyfle i dy gymeryd ymaith drachefn. Rhyfedd fy mod

* Rhif 53. D. ab G.

yn dy gynghori i dwyllo, onide? Ond ar Giwpid y mae y bai."

Nid oes gan neb hawl i'n gwahanu," atebai Morfudd yn gynhyrfus," nyni sydd wedi ymbriodi a'n gilydd. Mor gysurus y treuliasom yr wythnosau yn Llangoed, wedi y briodas yn y llwyn."

"Paid wylo, fy morwyn wen! y mae dy ddagrau yn disgyn yn boeth ar fy ngwyneb, a phob un yn treiddio drwodd ac yn serio fy nghalon."

"Pwy sy' 'na?" ebai yr hen wrach, mewn llais gwichlyd, wrth ddeffro.

"Dos! dos! fy nghariad, y mae y wrach yn deffroi. Dos! dos!" meddai Morfudd wrth ei weled yn ymdroi. Taflodd Dafydd gusan iddi a'i law ac aeth ymaith, ac arhosodd Morfudd yn y ffenestr, gan furmur geiriau cân a ddysgasai Dafydd iddi wrth lan y môr.

"Pwy sy' na?" ail ofynnai Sidi wedi codi ar ei thraed.

"Y fi; pwy arall wyt yn ddisgwyl weled?" atebai Morfudd.

"Pwy sy'n siarad gyda thi?"

"Hen wrach ddrwgdybus o'r enw Sidi, os gwyddost am un felly."

"Na, pwy oedd yn siarad a thi pan oeddwn yn cysgu?"

"Wel dyna ti yn siarad yn gall; neu, y mae'r hyn a ddywed y pentrefwyr am danat yn wir, sef dy fod ar rai prydiau yn cael dy feddiannu gan frenin y tywyllwch."

"Yr wyf yn sicr i mi glywed rhywun yn siarad â thi pan oeddwn yn deffro."

"Dyna ddigon. Yr wyf finnau yn sicr i ti glywed dy chwyrniadau soniarus dy hun. Ni wyddwn ei fod yn waharddedig i agor y ffenestr i gael awyr iach, os na chaf fynd allan. Cau y ffenestr," meddai Morfudd, gan fynd yn ol i'w gwely.

"Amser rhyfedd ydi'r nos i gael awyr iach," murmurai yr hen wraig gan hercian i gau y ffenestr. Ond cyn gwneyd hynny, rhoddodd ei phen allan, er mwyn boddio ei chywreinrwydd, a thawelu ei chydwybod; ond ni welodd neb, yr oedd Dafydd erbyn hynny yn ddigon pell. Cysgodd Morfudd yn dawel y noson honno, a phan ddeffrodd y bore gwelodd ei thad yn eistedd yn yr ystafell.

"Gan dy fod yn effro, mi ddywedaf fy neges wrthyt. Yr wyt i addaw gwneyd un o ddau beth cyn cei ryddid i ddod allan oddi yma,—un ai priodi y dyn a ddewisais yn wr i ti, neu dreulio gweddill dy oes mewn lleiandy. Dewis di pa un, a gad i mi wybod."

Cauodd Morfudd ei llygaid, a dywedodd yn ddistaw,—"Caf amser i fyfyrio ar hyn?"

"O, cymer hynny a fynnot o amser, ond cofia na chei fynd allan o'r ystafell yma cyn penderfynu y naill ffordd neu y llall," atebai Madog Lawgam, gan godi i fynd allan. Daeth Sidi i mewn yn ei le, a throdd Morfudd ei gwyneb at y pared, gan ruddfan yn ei gofid.

"O na fuaswn farw yn fy nghwsg," meddai. "Dafydd, pa beth a wnaf? Pa un yw y goreu? Yr wyt wedi peri i mi ufuddhau i'm tad, ond a ddaeth hyn i dy feddwl erioed? Priodi arall, a minnau yn wraig eisoes; gwisgo gwisg lleian a chennyf wr. O na chawn ei weled i ofyn iddo."

Aeth pythefnos heibio, ac eto yr oedd Morfudd yn oedi'r amser i roddi ateb i'w thad. Ai at y ffenestr bob nos, ond ni ddaeth Dafydd yno o gwbl, ac yr oedd Morfudd yn rhyfeddu pa le'r oedd heb anturio ei gweled ers pythefnos. Tra yn ceisio dyfalu yr achos o'i absenoldeb, hysbyswyd hi gan Sidi fod y bardd Dafydd ab Gwilym wedi torri ei goes, ac yn gorwedd yn analluog yn yr Aberffraw.

"Sut y bu'r anffawd?" gofynnai Morfudd yn bryderus.

"Wn i ddim; ond yn sicr mai efo ryw ysgarmes efo rhywun, neu feallai mai cael ei ddal yn trespasu mewn lle na ddylasai ddarfu; y dyn drwg ganddo hefyd."

Cododd Morfudd ei llaw, ac aeth at yr hen wraig, ar fedr ei hysgwyd am ei geiriau maleisus; ond cyn gwneyd, cofiodd, er ei holl sarugrwydd, ei bod yn hen, a gadawodd i'w llaw ddisgyn i lawr.

Wrth weled nad oedd obaith iddi gael cyfarwyddyd gan Ddafydd, am ysbaid hir, penderfynodd ddweyd wrth ei thad y tro nesaf y deuai i ofyn iddi, mai priodi y dyn oedd ef wedi ei ddewis a wnai. Meddyliodd y cawsai fwy o ryddid felly na phe buasai yn myned i leiandy, lle y byddai gwyliadwriaeth fanwl ar ei symudiadau. Druan o honi!

EMYN WILLIAM EDWARDS.

"Mae'r iachawdwriaeth glir
Yn dechreu llifo'n wir
Dros anial dir negroaid du;
Pob cenedl, llwyth, ac iaith,
Dros wyneb daear faith,
A welant waith yr Iesu cu.

"O fendigedig awr,
Disgleiriodd boreu wawr
Ar anial mawr yr India bell;
Ymdaenu mae o hyd
Efengyl hardd ei phryd,
Hi leinw'r byd âi n'wyddion gwell.

"Holl anwybodaeth mawr
Y byd a syrth i lawr,
O flaen y wawr nefolaidd wiw,
C'wilyddia'r delwau i gyd,
Bydd Iesu a'i aberth drud
Yn llanw bryd holl ddynol ryw."

" Draw ar y cefnfor yn gyntaf y wendon ymfriga, ond wedyn
Draws y lan yn doredig ymdyrfa, neu am y clogyrnach
Cwyd ei bwaog ben, a phoera for-ewyn i'r awyr.

HOMER. Iliad IV., 424—6.

CYMRU.

Cyf. III. MEDI 15fed, 1892. Rhif 14.

HANES CYMRU.

(Llyfr II.)

XIV. YR HEN DDUWIAU.

WRTH edrych ar hen dduwiau Cymru, gwelwn fod dau ddosbarth mawr o honynt,—duwiau tylwyth a duwiau gwlad. Gweli, ddarllennydd, fy mod yn ceisio esbonio meddwl a chrefydd bore Cymru trwy ddangos eu bod yn gynnyrch uniad dwy genedl anhebyg i'w gilydd ym mhob peth. Yr oedd yr Iberiad wedi ymsefydlu yn y wlad, ond crwydryn oedd y Celt; yr oedd yr Iberiad heb gyrraedd ystad priodas, yr oedd y Celt yn perthyn i deulu ac i dylwyth. Mab ei wlad oedd yr Iberiad, mab ei dad oedd y Celt.

Duwiau'r Celt ydyw'r duwiau tylwyth; duwiau'r Iberiad ydyw'r duwiau gwlad. Hynafiad y llwyth oedd duwiau'r Celt, fel duwiau ei holl frodyr Aryaidd. Hoffder y Celt a'r Teuton oedd olrhain eu hachau'n ol i'w duwiau; a phan ddaeth Cristionogaeth, ceisiasant roddi lle i'w duwiau yn y llinyn achau redai o'u henwau hwy i "fab Adda fab Duw." Yng nghroniclau'r Saeson, cawn yr olrheiniwr achau mewn penbleth. Yr oedd wedi rhedeg achau teulu brenhinol Wessex drwy hynny o dduwiau Teutonaidd y gwyddai am danynt; ond nis gwyddai pa fodd i'w cysylltu â phatriarchiaid yr Hen Destament. Daeth o'r anhawsder trwy ysgrifennu fel hyn,—"fab Sceaf, hynny ydyw, mab Noa; ganwyd ef yn arch Noa,"—ac yna yr oedd ei dasg yn un hawdd.

Ond duwiau gwlad oedd duwiau'r Iberiaid, nid â theuluoedd, eithr â lleoedd, yn enwedig â ffynhonnydd a llynnoedd, y cysylltir hwy. Gwerinol oedd ysbryd yr Iberiaid, gyda thuedd gref at grefydd; brenhinol oedd ysbryd y Celtiaid, gyda thuedd gref at hela. Yr oedd duw yr Iberiad yn fwy na dyn oherwydd ei allu goruwchnaturiol; yr oedd duw'r Celt yn fwy na dyn oherwydd ei gadernid ac oherwydd fod y gallu yn ei law. Edrychai'r brenin Celtaidd arno ei hun fel disgynnydd ac aer duw ei dylwyth, yr oedd awdurdod y duw yn awdurdod iddo yntau, ac offeiriad y duw yn offeiriad iddo yntau. Y mae'r gwahaniaeth hwn yn aros byth rhwng y Cymro a'r Sais. Nis gallaf wneyd yn well na rhoddi geiriau John Rhys ar y pwnc hwn. Gwelir ei fod ef yn dweyd Celt lle y dywedaf fi Iberiad, a gwelir hefyd ei fod yn croniclo ffaith nas gall newid ei farn am dani.

"Y mae ein brenhines y funud hon wedi ei chyhoeddi'n deyrn ar holl lysoedd Pryden, nid y rhai gwladol yn unig, ond y rhai eglwysig hefyd; gan weithredu trwy ei gweinidogion, hi sy'n penodi rhai i'r swyddau uchaf yn yr Eglwys. Dyna, felly, un ochr i'r darlun,—y frenhines yn ben ar un o'r ddwy eglwys gydnabyddir gan y Wladwriaeth. Ar yr ochr arall, gwelwn y Celt, mewn gwrthryfel parhaus yn erbyn y ddwy Eglwys Wladol, naill ai'n Babydd, megis yn yr Iwerddon, neu'n Anghydffurfiwr, megis yng Nghernyw, Cymru, ac Ucheldiroedd yr Alban."*

Pan ddaeth Cristionogaeth, beth ddaeth o hen dduwiau'r byd? Gwyddom beth ddaeth o hen dduwiau aflan Canan a Syria,—aethant yn gythreuliaid. Fel y gwelwn hwynt yng *Ngholl Gwynfa*, ymunasant â byddin yr angel gwrthryfelgar, a syrthiasant gydag ef,—Moloch greulawn, Belial anllad, Beelzebub, a'r cwbl i gyd. Nid oedd duwiau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid cynddrwg; diorseddwyd hwythau, ond arosasant fel arwyr llenyddiaeth.

Pan ddaeth Cristionogaeth i Gymru, yr oedd holl drigolion y wlad yn addoli duwiau Iberaidd, neu dduwiau Celtaidd wedi eu gwneyd yn debyg i dduwiau'r wlad. Yr oedd rhai o honynt, hwyrach, mor erchyll, fel y trowd hwy, gan y cenhadwr cyntaf, yn gythreuliaid i'w hofni. Ac erbyn hyn, y mae'n debyg, y mae eu henwau wedi eu hanghofio. Ychydig iawn, oherwydd yr angof hwn, sydd gennym o enwau brodorol

*The Hibbert Lectures, 1886, tud. 227. Fel gwir ymchwiliwr, y mae'r athraw hwn yn newid ei farn yn bur aml, ac y mae bob amser yn hoff o gywiro ei hun. Cefais lawer o gymorth o'i ddarlithiau Hibbert wrth ysgrifennu'r bennod hon.

ar y Gŵr Drwg.* Y mae'n debyg fod enw un o'r hen dduwiau erchyll, fodd bynnag, eto'n aros,—sef Ellyll, yr un ag Ailill y Wyddeleg.

Ond pan bregethwyd yr efengyl gyntaf yn Gymraeg, o ba le y cafodd y cenhadwyr enwau ar y Duw a bregethai? Enwau rhai o'r hen dduwiau goreu a gafodd. Enwau estronol ydyw *eglwys*, *offeiriad*, *teml*, *sant*, *gosper*; ond enwau Cymraeg ydyw Duw a Naf. Yr oedd Duw yn enw ar y dydd neu'r goleuni; a Naf Gysefin oedd "arglwydd cyntaf a gwreiddiol" y wlad.

Ond am y rhan fwyaf o dduwiau Cymru, collasant eu duwdod ar wawr Cristionogaeth, a daethant yn ddynion. Hwy ydyw'r arwyr sy'n gwneyd cymaint o ryfeddodau yn y Mabinogion. Gadewch i ni edrych ar ychydig o honynt.

Lludd Law Arian oedd duw trafnidiaeth ar for a thir, perchennog a rhoddwr diadell-oedd a llongau. Y mae olion ei deml i'w gweled eto ar lan yr Hafren, mewn lle yn dwyn ei enw,—Lydney. Y mae Lydstep yn neheudir Penfro. Yr oedd teml i'r un duw, mae'n ddiameu, yn y lle y deuai llongau i fyny'r afon Tafwys,—lle mae Llunden yn awr. Dyna ystyr yr enw Cymreig am y brif-ddinas, — Caer Ludd; a dyna ystyr enw Ludgate Hill hefyd. Cofid am Ludd fel gwaredwr ei wlad oddiwrth dair gormes.†

Hen dduw dyddorol arall oedd Myrddin. Syrthiodd hwn mewn serch, a danghosodd i'w gariad pa fodd y medrai wneyd palasdy hud, palasdy na fedrai carcharor ddod o hono byth. Gwnaeth hithau balasdy felly o gwmpas Myrddin pan oedd yn cysgu, ac yn y ty gwydr hwnnw y mae Myrddin byth. "Myrddin Emrys," ebe'r traddodiad, 'a aeth i'r môr i Enlli mewn ty gwydr, am ei gariad; lle y mae eto." Dywed traddodiad arall ei fod wedi cludo gydag ef i Ynys Enlli, yn ei balas gwydr, dri brenhindlws ar ddeg Ynys Pryden,—sef cleddyf Rhydderch Hael, yr hwn ai'n fflam y funud y tynnid ef o'i wain; llen Arthur, a wnai yr hwn a'i gwisgai'n anweledig, tra y gwelai ef bawb; pais Padarn Beisrudd, na wnai y tro ond i fonheddig; mantell Tegau Eurfron, a guddiai y wraig ddiwair, a'r ddiwair yn unig, hyd y llawr; cyllell Llawfrodedd Farchog, wasanaethai ar bedwar gŵr ar hugain; desgil Rhagen Rydderch a chorn Bran-galed, ar y naill ceid y bwyd a ddymunid, ac yn y llall y ddiod a ddymunid; gwyddbwyll Gwynddolan, lle chwareuai'r gwŷr aur o honynt eu hunain ar y cloriannau arian; ysgalen Tudno, a lanhai arf y dewr, ac a bylai arf y llwfr; cebystr Clydno, i'r hwn y doi y march a fynnid; pair Dyrnog Gawr, yn yr hwn y berwai bwyd y dewr yn y man, ond bwyd y llwfr byth; a mwys Gwyddno Goronhir, yr hwn a droi fwyd un yn fwyd cant. Os gwir fod Myrddin wedi mynd a'r holl bethau hyn i'w garchar gwydr yn Ynys Enlli, nid oedd yn dduw anedwydd iawn, er ei fod yn anfarwol mewn caethiwed. Aeth ag un peth arall, sef cader Morgan Mud Mwynfawr; pwy bynnag eisteddai yn hon, byddai yn y lle a ddymunai. Y rhyfeddod ydyw na fuasai Myrddin yn gadael ei garchar gwydr yn hon.

Y mae Llyr wedi dod yn enw adnabyddus oherwydd ei fod yn destun un o ddramau gore Shakespeare, ac y mae Coel wedi aros mewn hwiangerdd. Duwies fu mewn bri mawr oedd Elen Luyddawg. Y mae darluniad prydferth o honi ym Mreuddwyd Macsen Wledig. Gwelodd Macsen hi mewn breuddwyd, yn eistedd mewn cader aur, ac yr oedd mor anodd edrych ar ei thegwch disglaer ag ar haul pan fydd decaf. Mewn amser anwylwyd ei henw trwy ei gysylltu ag enw'r ymerawdr Rhufeinig cyntaf gofleidiodd Gristionogaeth. Gelwir y ffyrdd Rhufeinig sy'n croesi ein mynyddoedd ar ei henw hi.

Clywai Mâth Hen beth a ddywedid mewn unrhyw bellder; ond yr oedd llawer o dduwiau a rhyw anaf corfforol neu arwydd henaint arnynt, megis Tegid Foel a Dyfnwal Moelmud. Gwydion ab Don ydyw'r mwyaf prydddol a difir o'r holl hen dduwiau,—efe greodd Flodeuwedd o wahanol flodau, efe ddaeth a moch o'r de, efe oedd yr hanesydd hyawdl a'r adroddwr ystraeon difir. Gwyn oedd brenin y Tylwyth Teg a'r marw, Cai oedd duw'r tân, Beli Mawr oedd duw rhyfel, Pwyll fedrodd reoli uffern drwy rym a doethineb. Yr oedd Owen a'i frain yno hefyd, a Pheredur, a llu o dduwiau ereill. Nid Elen oedd yr unig dduwies ychwaith; yr oedd Ceridwen ymysg duwiesau hen Gymru, yn parotoi defnynnau doethineb yn ei phair ger llyn Tegid; yr oedd Dwynwen yno hefyd, duwies cariad, a'i ffynnon yn dadguddio cyfrinion serch.

Y mae llawer llecyn yng Nghymru fu'n gysegredig gynt i'r hen dduwiau. Y mae llyn du trist yn Eryri o'r enw Dulyn. Aberthid ar ei gerrig unwaith aberthau i dduw'r gwlaw. Ddechreu'r ganrif hon, ceid gwlaw drwy daflu dŵr ar y garreg bellaf yn y llyn, a elwid yn "allor goch." Y mae llawer crug a thomen a gorsedd fu'n gysegr i ryw dduw a ofnid gynt. Ni feiddiai neb fynd i orsedd Arberth heb orfod dioddef poen corff-

* Gwel erthygl ar enwau'r diafol, gan Henri Gaidoz, ym *Mélusine* Awst. Dengys mai o'r Saesneg y daw y rhan fwyaf o enwau'r Cymry arno.

† Gwel fabinogi Lludd a Llefelys. Arg. Rhydychen, 93—99.

orol am ei ryfyg;* ni fedr neb gysgu ar ben Cader Idris heb fod yn barod i dderbyn un o dri pheth a gynhygid iddo,—athrylith, gwallgofrwydd, neu farwolaeth. Y mae llawer pen bryn nas gellir cloddio ynddo heb dynnu ystorm o fellt a tharanau, —y mae ofn yr hen dduwiau wedi aros eto yng ngreddf gwlad.

Lle'r arhosodd gallu'r hen dduwiau hwyaf oedd o gylch ffynhonnau. Yr oedd ugeiniau o ffynhonnau hyd Gymru, ac yr oedd ugeiniau o fân dduwiau'n warcheidwaid i'r rhain, duwiau fedrai daro â chlefyd, neu iachau. Gwaith cymharol hawdd i Gristionogaeth oedd gorchfygu'r duwiau pwysicaf; ond gwaith anoddiawn oedd gorchfygu'r mân dduwiau hyn. Arhosasant hyd ein dyddiau ni. Y peth wnaeth y cenhadon Cristionogol oedd cymeryd lle'r hen dduwiau, a chymeryd meddiant o'r ffynhonnau eu hunain. Daeth sant at y ffynnon, yn lle'r hen dduw, a daeth y bobl a'u hafiechydon at y dyfroedd yr un fath. Wrth odreu Carn Bentyrch yr oedd ffynnon rinweddol, a delw duw,—mae'n debyg,—yn ei gwylio yn agen y graig wrth ben. Daeth Cybi sant, ebe'r hanes, i Langybi; galwyd y ffynnon yn ffynnon Gybi, a rhowd y sant i eistedd yn gysurus yn y graig yng nghader yr hen dduw. Rhoddwyd sant yn lle hen dduw i warchod dyfroedd iachaol ffynnon Degla hefyd. Gorweddai'r claf dan allor yr eglwys drwy'r nos, a gollyngai aderyn i ehedeg o gwmpas yr eglwys wag. Os byddai'r aderyn yn farw yn y bore, byddai afiechyd y pererin wedi myned iddo ef, a'r pererin ei hun yn holliach. Yn chwarter cyntaf y ganrif hon, yr oedd dyn ar ei brawf am gael arian trwy dwyll, sef haeru fod enwau rhai wedi eu melldithio yn ffynnon Elian, ac y medrai ef dynnu'r enwau ymaith am arian. Dywedai hefyd y medrai roddi enwau yn y ffynnon, ac y doi'r haint a fynnid ar berchenogion yr enwau hynny. Pan gyhuddwyd y swynwr hwn mewn llys gwladol, dywedir fod amryw ereill, mewn rhannau ereill o'r wlad, yn ennill bywoliaeth fras yn yr un modd. Bu amser pan oedd y ffynhonnau mewn bri mawr, ac nid oedd twyllwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gwneyd dim ond parhau seremoniau oedd mewn bod er dyddiau paganiaeth, seremoniau na thorrwyd ar hyd yr oesoedd, hyd nes y syrthiasant i'w dwylaw esgymun hwy.

Pwy na chlywodd am rinweddau ffynnon Gwenffrewi? Y mae Iolo Goch, bardd Owen Glyn Dŵr, wedi canu ei chlodydd; a thybir hyd heddyw fod rhinwedd yn ei dwfr, ac yn ei mwswgl peraroglus a'r yspotiau gwaed arno. Heddyw gellir gweled pennau Gwyddelod a Saeson ofergoelus y Gororau allan ohoni, tra yn cyffesu eu pechodau ac yn dwyn eu pennyd.

Un rheswm am lwyddiant Eglwys Rhufen yng Nghymru, ac am gariad y Cymry tuag ati, oedd ei pharodrwydd i gymeryd mantais ar ofergoelion y wlad. Daeth yr Iesu i ddinistrio offeiriadaethau'r hen grefyddau, trwy offrymu un aberth am byth, ond cymerodd Pabyddiaeth yng Nghymru ffurf yr hen offeiriadaeth baganaidd. Daeth tyrfaoedd o saint i gymeryd lle'r duwiau a'u derwyddon; ac ni welai'r bobl unrhyw gyfnewidiad mawr. Yr oedd ffynhonnau ugeiniau hyd y wlad, safodd y saint wrth y rhai hynny, a daeth awdurdod yr hen dduwiau yn eiddo iddynt hwy. Graddol ymlygrodd Cristionogaeth, hyd nes y daeth yn gymysgfa o grefydd ac ofergoeledd; ac hyd yn nod yn nyddiau John Penri yr oedd yn mynd yn fwy ofergoelus o hyd. A hyd heddyw, er gwaethaf y Beibl Cymraeg a'r Diwygiad, y mae parch ofergoelus mewn llawer man i'r hen ffynhonnau. Gwn am lawer ffynnon nad oes neb, trwy wybod i mi, yn mynd iddi i ymiachau; ond eto, gyda'r nos, dywedir rhyw ystori ryfedd am rin ei dwfr neu am rywbeth ddigwyddodd yn agos ati. Ac ni synnwn i ddim nad oedd adgof am hen ofergoelion yn dwyshau teimlad llawer un, wrth ganu'n orfoleddus,—

"Caed ffynnon o ddwr ac o waed,
I olchi rhai duon eu lliw;
Ei ffrydiau a redodd yn rhad,
I'r ardal lle'r oeddwn i 'n byw."

Oddiwrth y penodau hyn ar grefydd Cymru, gwelir fod nodweddion ei mheddwl, trwy bob cyfnewidiad a than bob diwygiad, yn aros yr un. Yn ei hofergoeledd ac yn ei chrefydd, y mae Cymru yr un; a chawn weled fod ei hen grefydd yn esbonio dull ei chrefydd newydd. Gwlad grefyddol fu Cymru drwy ei holl hanes,—

"Pan ledo'r hwyr dros hon ei gaddug llwyd,
Arogldarth mawl o'i mil aneddau gwyd."

A'i chrefydd rydd nodwedd i'w meddwl. Codi o grefydd i grefydd ydyw ei hanes. Try'r hen grefydd yn ofergoeledd yng ngwawr crefydd newydd. Eithr nid mewn cylch yr edrydd yr hanes ei hun. Mae pob gallu newydd yn well na'r hen, ac yn meddu mwy o hawl i deyrnasu.

"Diflannodd ofergoelion llawer oes
Fel pethau diddym o flaen grym y Groes.
Bloedd Jubiliaidd glywid dros ein gwlad
Pan seiniodd yr Efengyl ddydd rhyddhad.
Fe synna'r teithiwr ganfod ar ei hynt
Addoldai lle y bu rhyfeloedd gynt.
Oes ar ol oes ei chreigiau geirwon fry
A faith adseinient i'r rhyfelfloedd hy,
Efengyl yw yr adsain ro'nt yn awr
Tra yn cysgodi y Gymanfa fawr!"

* Gwel fabinogi Pwyll pendefig Dyfed. Arg. Rhydychen, 1—25.

ENWAU'R DIAFOL.

Ym *Mélusine* am Awst, rhydd Gaidoz restr o enwau'r diafol yn yr iaith Gymraeg. Y rhyfeddod ydyw fod mor ychydig o honynt. Y gair Groeg *diafol* ydyw'r cyntaf enwir, a'r llygriad o hono na ddefnyddir ond gan hoff gyfeillion y gŵr drwg. Yna daw *cythraul* o'r Lladin *contrarius*,—gelyn; a dywed M. Gaidoz mai gair y pulpud yw hwn. Nid enw hen dduw ydyw *andros*, meddai ef, ond gair gwneyd. Dyma'r enwau ereill gasglodd,—*cyhuddwr, camgyhuddwr, cablwr, achwynwr, y fall, y ddera, yr ysbryd drwg, y gwrthwynebwr uffernol, athrodwr, y gŵr drwg, yr hen fachgen, yr hen was, yr hen frawd, yr hen ewythr, y gelyn, y gelyn enbyd, Dic ty poeth, Nic, Bo Dsiei* (Saesneg *bogey*), *Bo Lol*. Gwelir mai enwau ysgrythyrol, enwau ysgeifn, neu enwau Saesneg ydyw ei enwau i gyd; ni chadd un o enwau'r hen chwedloniaeth.

FFYNNON ELIAN.

(O'r *Gwyliedydd* am 1831, tud. 216).

John Evans a gyhuddwyd o dderbyn saith swllt oddiar Elizabeth Davies, drwy gymmeryd arno y gallai iachau ei gwr, Robert Davies, o'r afiechyd a'i blinai, wrth dynu ei enw allan o'r ffynon.

Elizabeth Davies a dystiodd fel hyn: Y mae fy ngwr wedi bod yn afiach am lawer o flynyddoedd. Clywais am rinweddau Ffynon Elian. Teithiais 22 filltir i ymgynghori â'r carcharor, yr hwn oedd yn oruchwyliwr y ffynon. Gofynais iddo a oedd enw fy ngwr yn y ffynon; atebodd, na wyddai yn iawn, ond yr anfonai i edrych. Danfonodd eneth fechan, yr hon a ddychwelodd gyda dysglaid o gerig bychain, a llechau wedi eu nodi âg amrywiol lythyrenau. Edrychodd arnynt, a dywedodd nad oedd enw fy ngwr yn eu plith. Anfonodd yr enethig yr ail dro, yr hon a ddychwelodd gyd âg ychwaneg, y rhai a daflwyd ar y bwrdd; a gwelais gareg â'r llythyrenau R. D. a thri croes arni. Dywedais, ai hwn yw enw fy ngwr? atebodd yntau, ie. Dywedais nad oeddwn i ddim wedi fy moddloni, a gofynais a oedd enw fy ngwr mewn llyfr. Atebodd y carcharor, "Ni roddais i mo enw eich gwr yn y ffynon, onidê buasai hefyd yn y llyfr, ond dangosai y dwfr pa un ai ei enw ef oedd efe ai peidio." Aethom at y ffynon, yr hon sydd yn yr ardd yn agos at dŷ y carcharor. Cymmerodd ychydig o ddwfr allan o'r ffynon, a dywedodd, "Y mae y dwfr yn troi ei liw, enw eich gwr ydyw yn ddigon sicr." Gofynais pa faint a gostiai i mi i dynu enw fy ngwr allan o r ffynon: dywedodd mai deg swllt oedd y pris isaf. Dywedais wrtho nad oedd genyf ddim arian, ond y gallwn ddyfod â hwynt drachefn. Gofynais genad i fyned a'r gareg adref, rhoddodd ganiatâd i mi; ond nid oeddwn i'w dangos hi i neb yn y byd. Gofynais pa beth a wnawn â hi, atebodd, "*Rhaid i chwi ei malurio hi, a'i rhoddi hi gyd âg ychydig o halen yn y tân!*" Wedi hyny aethum adref. Ym mhen deufis aethum yno drachefn, gyda W. Davies, fy mrawd y'nghyfraith. Yr oedd y carcharor yn groes iawn am fy mod wedi hysbysu yr amgylchiad i Mr. Clough, Ynad Heddwch; ond dywedodd y gwnai rywbeth imi er mwyn fy mrawd y'nghyfraith. Dywedodd y byddai raid i mi gael costrelaid o ddwfr y ffynon, a rhoddi naw swllt am dano. Cytunais âg ef am saith swllt: "Yr hyn (eb efe) raid i chwi roddi i'r ffynon." Rhoddais yr arian i'r ffynon, ond cymerodd y carcharor hwynt, a dododd hwynt yn ei logell. Yna swniodd y carcharor ryw eiriau, y rhai oeddynt yn debyg i Ladin, ond ni allwn ddeall dim ond enw St. Elian. Y carcharor a ddywedodd fod yn rhaid i fy ngwr gymmeryd y dwfr dair noswaith olynol, a'r un pryd ddarllen allan ran o'r 38 Salm. Gofynais iddo pwy a roddodd enw fy ngwr yn y ffynon, ond ni fynegodd i mi; cithr dywedodd, os dymunwn i, y rhoddai efe y gwr hwnw yn y ffynon, ac y dygai arno pa glefyd bynag a ewyllysiwn i. Telais y saith swllt iddo.

Y carcharor yn ei amddiffyniad a ddywedodd na ddarfu iddo ef erioed anfon am neb i ddyfod i'r ffynon, ac ni ddywedodd fod unrhyw rinwedd yn y dwfr; ond os oedd rhyw un yn credu fod, ac yn ewyllysio rhoddi arian iddo ef, derbyniai gymmaint ag a roddent hwy. Cafwyd ef yn *Euog*. Y Barnydd a ofidiai yn fawr fod dynion mor ofer-goelus ac mor anwybodus ag i gredu y gallai dyn drwy y fath foddion leihau neu drymhau clefyd ar ddyn arall. Dyfarnwyd y carcharor i *Chwe mis o garchar, a llafur caled.*

FFYNNON COED LLAN.

Tôn,—*Ynys Brydferth y Môr.*

Y mae Ffynnon Coed Llan, neu Ffynnon St. Myllin, mewn craig ar fin y ffordd sy'n arwain o reithordy Llanfyllin i Ben Coed Llan. Yn ei dyfroedd iachusol yr arferai Myllin Sant fedyddio ei ganlynwyr drwy drochiad,—y cyntaf ym Mhryden, meddir, i fedyddio felly. Perthyn llawer o len gwerin i'r ffynnon henafol hon.

Hyfryd yw ffynnon Coed Llan,
Hyfryd yw'r graig y llon dardda;
Cynnes a swynol yw'r fan,
Cynnes yn hanes hen Walia;
Yma bu Myllin y sant,
Tystia yn gyfiawn hen gofion,
Yn hyfryd fedyddio ei blant
Yn nyfroedd grisialaidd y ffynnon;

Hyfryd yw'r fwyn ffynnon fach,
Peraidd ei dyfroedd ac iach;
Llifa'n ddi-orffwys o hyd,
I dorri'n hanghenion i gyd.

Chwedleuwyd cryn lawer erioed,
Yn ymyl y ffynnon risialog,
Gan brydferth rianod pob oed
Am eu cariadau godidog;
Ac eto chlybuwyd 'rioed fod
Y ffynnon yn adrodd hen chwedlau,
Na byth yn rhoi gormod o glod
Nac anghlod i'r mwynion lancesau.

Hyfryd yw'r fwyn ffynnon fach, &c.

Hyfryd yw Ffynnon Coed Llan,
Llifa er's cannoedd o flwyddi,
Dioda y nerthol a'r gwan,
Dioda yr henaidd a'r heini;
A phara i redeg wna hon
Am oesau sydd eto i ddyfod,
Pryd byddo y dewraf ei fron
Yn tewi ar waelod y tywod.

Hyfryd yw'r fwyn ffynnon fach, &c.

HENRI MYLLIN.

MURMURON Y GRAGEN.



O HOLL feirdd Cymru, Glasynys, mae'n ddiameu, yw bardd y môr. Y peth ydyw Byron a Swinburne i lenyddiaeth Lloegr, hynny ydyw Glasynys i lenyddiaeth Cymru. Swn y môr sydd yn ei ganiadau goreu,—su pell breuddwydiol, swn dieithr llawn o feddwl anelwig. Fel y gragen furmurol y sonia am dani, miwsig y môr geir ganddo yntau hefyd. Y mae *Murmuron y Gragen*, ni raid dweyd, yn un o ddarnau desgrifiadol goreu llenyddiaeth Cymru. Y mae meddylgarwch dieithr ynddi, ond y mae holl olygfeydd nodweddiadol glan y môr ynddi hefyd. Pwy na's cofia ymchwydd y don, a'i hewyn, a'r awel o'r môr, a su acthus y llanw, wrth ddarllen y gân?

Yr wyf yn ei chyhoeddi o hen gyfrol o'r *Tractlıodydd* Y mae'm darllenwyr wedi sylwi, mae'n ddiameu gennyf, mai nid trysorle i gynyrchion ysgrifenwyr byw yn unig ydyw CYMRU. Y mae cylchgronau ereill at y pwrpas hwn. Yr wyf am ail godi darnau goreu ein hen lenyddiaeth, os bydd y darnau hynny o gyrraedd y werin. Dangos prydferthwch llenyddiaeth Cymru yw f'amcan, ac yr wyf am gyhoeddi darnau goreu y llenyddiaeth hon,—o lawysgrifau, o hen gylchgronau, ac o hen lyfrau.

Y mae llawer dernyn tebyg i *Furmuron y Gragen* yn llenyddiaeth Cymru. Yr oedd Sion Phylip yn byw ar lan y môr, ac y mae su tragwyddol y tonnau yn ei ganeuon yntau. Yr oedd Morus ab Rhobert ar lan Llyn Tegid, yn clywed yr un swn, ac yn ei ddarlunio. Y mae yng ngherddi Llydaw hefyd.

I.

MIN diweddydd teithio wneuthum draws y morfa tua'r traeth,
Tybiais glywed adswn TYNGED yn chwedleua'n ffri a ffraeth;
Clywais hefyd suol-siffrwd, fel bydd ffrwd yn sibrwd *Ust*,
Yn y pellder wedyn clywais,—"*Dyro gragen wrth dy glust.*"
Hyd y feisdon crwydrai'r wendon, gan ymdaenu dros y traeth,—
Weithiau'n codi yn ei chwman, weithiau'n llonydd megis llaeth;
Byddai weithiau'n hir a chribog, a chantellog yn ei thro,
A phryd arall yn cynddeiriog ruglo'r cregyn yn y gro.
Gwelwn yn y du Orllewin dew gymylau'n do ar do,
Rhai'n fynyddau creigiau gwgus, ereill megis bryniog fro.
Rhuai'r môr, a thyrfai'r tonnau, moryn ar ol moryn ddaeth
Fel i ddangos ei wrhydri wrth ymlafnio hyd y traeth,
Sisial 'roedd y gro a'r cregyn wrth eu rhygnu yn ddi-ball,
Minnau yn y mor luwch-ddryghin yn palfalu fel un dall.
Tybiwn glywed ar y môr-lan yr ymddiddan gyda'r Ust;—
"*Dos i'r traeth a phiga gragen, dyro honno wrth dy glust,*
Clywi ynddi'r Morforwynion yn clodfori'r tonnog gôr,
Clywi hefyd y cyfrinion sydd yng nghadw gan y môr."

Eis i lawr i'r traeth i chwilio, cefais gragen yn y man,
Wedyn myned wnes i wrando'r hyn a glywswn ar y lan.
Du fantellog dawch y Dwyrain, i'r Gorllewin rithiog len,
Ymdaenasant nes oedd pygddu fwrllwch tew o gylch fy mhen.
Codai'r môr ei ruwch yn feiddgar, gwaeddai'r tonnau'n wallgof groch,
A phob cragen ar y feisdon oedd yn swnio megis cloch.
Methai'r gwynt a bod yn llonydd, rhuthrai'n hyf gan faeddu poer,
Ac ysgytiai'r tonnau'n enbyd. Rhwng dau gwmwl, corniog loer
Daflodd oleu gwelw egwan, goleu rhithiog, dawnsiog, gwyllt,
Goleu arlliw gwibiog fellten pan fo GRYM yn lluchio byllt.

Gwelwn long neu rywbeth tebyg,—ar amrantiad collodd hon:
"Soddi, soddi, boddi, boddi," ydoedd stwr y drystiog don.

Dyma'r gragen! Beth yw'r dwndwr? Su wylofus ynddi sydd,
Swn y tonnau'n curo'r glannau,—tonnau'r nos ar draeth y dydd;
Swn unoldeb anfarwoldeb ym mhellderau'r byd a ddaw
Sydd i'w glywed yn y gragen yn ymdyrfu yn ddi-daw.
Ing a gofid, gloes wylofain, braw ac ubain, poen ac aeth,
Glywir draw ym mysg y tonnau sydd yn golchi'r bythol draeth.
Clywaf oergri cyfaill difri', cyni'n cnoi ei enaid caeth,
A gwiberod, seirff, a nadrodd, a'u colynau megis saeth
Yn ei bigo,—gwenwyn marwol yn eplesu 'i dyner gnawd,
Dirdyniadau llym llosgiadau yn ei ffaglu, druan tlawd!
Ingoedd wleddant ar ei galon, cigfrain sydd yn bwyta'i fron,
Yntau'n llefain,—"*O! na fyddwn dan ryw ebargofus don.*"
Edrych, gwel ei lygaid gwelw, delw angeu yn y ddau,
Yntau'n llefain nes mae'r twrw yn y gragen yn lleihau.
Gwelais fachgen llawen llawen, cyn i Gynnen las ei bryd
Ei ddyfetha, drwy wybeta hyd ei lwybrau yn y byd;
Gwelais ef fel awel dawel yn y coed ar foreu Mai
Llanw bywyd yn ei gludo draw, heb neb yn son am drai,
Gwrando'i drydar dwfn gwynfannus sydd yn ysu'r ddwyfron hyn,
Galarganu mae ei farwnad fel yr alarch ar ryw lyn.
Os oes eisiau angel deimlad, gwrandaw ganiad gwlad yr hedd,
Er mwyn cael gair o dragwyddoldeb, *rho dy glust wrth ddrws y bedd.*

Llong yn Colli? Boddi! Boddi! O! mae hyn yn toddi nghnawd,—
Gweld y dwylaw oll yn suddaw! O! ddolefau'r truain tlawd!
Ond mi glywaf yn y gragen son am drymach peth na hyn,
"Yr adlefau yn ddialgar sydd yn ceisio damnio'r gwyn!"—
Dynion nef a dynion daear, bydd edifar i chwi'r gwaith,
Ni ddileir mo'ch culni gwrthun oesoedd tragwyddoldeb maith.
Sisial, sisial mae ryw seiniau, dwsmel eiriau gwlad yr hedd,—
Er mwyn cael gair o dragwyddoldeb, rho dy glust wrth ddrws y bedd.
Clywi Fwynder, morwyn Hyder, pan yn syber wrth ei swydd
Yno'n canu, yn suo-ganu, odlau llawen meibion llwydd:
Clywi Gariad pur yn siarad gwir farddoniaeth ar y graig,
Dau yn uno, doed a ddelo, i fod mwy yn wr a gwraig!
Cysegredig fyddo'r clogwyn! nefol engyl daenont wyl
Adenydd drosto, nes y delo eurog ddydd y priod wyl.
Ond mae swn ar for-lan einioes gan y gwynt wrth suo Ust,
"*Pan ar draethell tragwyddoldeb, cadw'r gragen wrth dy glust.*"

Mae murmuron glân ysbrydion, miwsig moesol amser gwell
Yn y gragen, ac argoelion clir nad ydyw ddim ym mhell;
Y mae'r wendon ar y feisdon wrth ymdaenu'n gwenu'n awr,
Ciliodd gwg, diflannodd gofid, o flaen llygaid teg y wawr;
Y mae'r blodau'n dechreu agor, blagur dail sy'n cuddio'r coed,
Anian dlos sy'n prydferth wisgo esgid feillion am ei throed.
Dros brydnawn y bydd wylofain, yn y bore hyfryd ddydd,—
Mae ym mynwes y dyfodol lawer rhodd i'r teulu rhydd.
Sued tonnau cribog amser ar draethellau'r byd a ddaw,
Canaf finnau heb un pryder tra bo'r gragen yn fy llaw,
Ac os daw dros fynydd Gofid awel oer i suo Ust,
Dilyn wnaf gynghorion Tynged,—rhof y gragen wrth fy nghlust.

AMRYW flynyddau yn ol, dacth i fy nwylaw, am ychydig ddyddiau, hen ysgriflyfr hynod o ddrylliedig, yn perthyn ar y cyntaf, meddent hwy i mi, i rai o hen deuluoedd Isallt, yn Eifionnydd—tarddle a phreswylfod y lluaws meddygon enwog. Danghosai ei gynhwysiad fod rhai o fechgyn Isallt yn hoffwyr awen a chân, ac wedi ysgrifennu ambell i gerdd o eiddo eu cymydogion, neu yn dal rhyw berthynas a r cyfryw, yn y llyfr hwn, i fod ar gof a chadw, ac yn hwylus wrth law i'w diddanu yng nghwrs eu bywyd.

Ni chefais amser digonol i ysgrifennu fawr o hono, o herwydd y gwaith, trwy ei fod mor dipiog. Gwelais ynddo "Gerdd i ofyn Ffon i John Roberts" o waith un William David, ond ni chodais ond pum pennill allan o'r dwsin a gynhwysai.

Y mae mwyafrif y geiriau wedi eu camsillebu mewn rhyw fodd heb fod yn gywir, a chan yn ddilys mai diffyg dysg ydoedd yr achos, credaf mai doethineb ydyw croniclo y penillion yma yn eu gwisg orcu ac nid yn eu carpiau, ac eto heb ymyryd dim a'r syniadau.

CERDD Y FFON.

Clyw dy annerch, clod inni mewn rhigil anrheg,
Y Cymro mwyneiddlon, a'r purion ŵr pert,
Rwy' yn gyrru yn ddigerydd i fyned i Eifionnydd,
Glod ebrwydd am rybudd Sion Robert.

Mi glywais gan bobol awch gymwys o'th ganmol,
Eich bod yn rhagorol, da ddoniol o ddyn,
Rhof finnau ar fy nhafod trwy daerni bob diwrnod
Wir fawrglod yn gafod i'r Gyfyng.

Pen cretfdwr y fordor, a blinion a blaenor,
Yn seinior a thyrnor, a chrythor a chrydd,
Ni aned mwy dawnus—i'n gwledydd mor ffodus,
Mor barchus, mor hwylus a hylwydd.

Gwnewch delyn a'ch dwylo, am ffidil hoff ydio,
Ag organ gywiro—un cryno am y crwth,
Yn ethol fe weithia mewn purddawn gypyrdda',
Esgidia', debyga', gwna 'u bygwth.

* * * * *

Mae'n cerdded lle creigiog, anialwch go niwliog,
Hyd fryniau Dôlfriog yn donnog bob dydd,
Mae hwn yn frâs lamwr a gwirddoeth hen gerddwr,
A sbonciwr a neidiwr anedwydd.

O waith WILLIAM DAVID.

Gwelwch mai pur gymysglyd ydyw ei ramadeg. Siarada â'r person, ac am dano hefyd, bob yn ail; ond chware teg, y mae yn canu yn ddygn ar yr hen fesur doniol "Tri Th'rawiad,"—mesur anwylaf yr hen bobl,

I esbonio ychydig ar y gerdd, ymddengys mai at rywun gorhynod o alluog, oedd yn byw ar y pryd yn y Gyfyng, yn ardal Llanfihangel y Pennant, yn Eifionnydd, yr oedd y gerdd yn cael ei hanfon; ac fel y mae yn ddyddorus i mi, rhaid mai un o gymydogaeth Beddgelert ydoedd William David ei hawdwr, a hwnnw yn byw, fel y tybiaf, yng Ngwastad Annas,—yr amaethdy uchaf ei safle yng Nghymru, ac eithrio, efallai, Cwm Dyli, mangre sylw y beirdd Ieuan Glan Geirionnydd, Glasynys, ac ereill.

Clywais fod Dafyddiaid Gwastad Annas yn dipyn o brydyddion, ac y mae yn fy meddiant bwt o gerdd o waith Elin William o'r un lle, yn gofyn am gwpl o hwyaid gwylltion o Lyn Gwynant, oddiwrth lanciau Hafod Lwyfog.

Gwelir oddiwrth "Gerdd y Ffon" mai yn Nôlfriog yn Nanmor yr oedd y gofynnydd Sion Robert yn trigiannu. Wedi chwilota, canfyddaf nad oedd yn bosibl iddo drigiannu ym mhalasdy Dôlfriog,—cartref Gwen, gwrthrych molawdau Rhys Goch Eryri a Dafydd Nanmor,—gan mai yr Anwyliaid oedd yno y cyfnod hwnnw. Yr oedd y "llamwr, y cerddwr, y sbonciwr, a'r neidiwr," —ac eto un yn gofyn am ffon,—yn byw am y terfyn bron a'm cartref, mewn bwth clyd o'r enw Ty'n y Geirth, yr hwn sy'n awr yn fyrddyn, ond a hynodwyd gan hen gymeriadau digrif o'r enw Owen Sion a Neli Sion.

Yr unig gerdd arall a'm tarawodd â neilldnolrwydd i'w chopio yn ofalus bob gair, o hen lyfr Isallt, ydoedd "Dechreu Caniad y Gog ar Driban i 'Fionnydd."

O dani ceir enw rhyw Hugh Roberts fel ei chyfansoddwr, ond rhyfedd iddo lunio y fath benillion bywiog, a'u cyflead i lawr mor ddi-lun a gwallus,—diweddglo pob pennill wedi ei roddi yn 'Fionnydd, Eifionnydd, Ifionnydd, ac Yfionnydd. Fel gyda'r llall, teg yw cyfnewid gob gwall, fel yr ennillo haeddiant o glod ac edmygedd.

CANIAD Y GOG I EIFIONNYDD.

Mesur "*Triban.*"

Hoff gan rai gân 'hedydd,
I fod ar hyfryd feusydd;
Hoff gan innau ddweyd yn hy'
Ar f'einioes gainc i Eifionnydd.

Hoff gan galon cybydd
Hel golud at eu gilydd;
Mwy gan inna' fyw bob hin,
Yn rhywle ar fin Eifionnydd.

Hoff gan lances lonydd
Gael caru'n bur ddigerydd;
Hoff gan inna' droedio'n wir
Rhyw fan ar dir Eifionnydd.

Nid ydyw'r gôg trwy'r gwyggydd,
Wrth eilio'i chân a'i chywydd,
Na'i horgan perth mewn ergyd pur
Mor fwyn a gwŷr Eifionnydd.

Er myned clod trwy'r gwledydd
Am forwynion Sir Feirionnydd;
Mae tegwch merched hardd o bryd
Yn loyw hyd Eifionnydd.

Mae ynddi ddeiliog ddolydd,
A goror môr a mynydd;
Ni chreodd Duwdod dan yr haul
Un faenol ail Eifionnydd.

Ffraeth yw'r wlad o ffrwythydd,
Haidd, rhûg, a gwenith, gwinwydd;
Caws a 'menyn, cig, heb wg,
I fyny a ddwg Eifionnydd.

Terfyna tair o afonydd
Sef Colwyn, Llyfni, ac Erchwydd;
Y rheini sydd fel caer heb wad
Yn ffin i wlad Eifionnydd.

Gore tân i gynnydd,
Twymna glo y gwledydd,
Gore'n wir gan i be cawn
Ymdwymno wrth fawn Eifionnydd.

O! glysed i'w ei heglwysydd,
A'u gwyddor cryf o grefydd;
Nid oes un dyn yn ofni Duw
Na charo fyw yn Eifionnydd.

Er glased glaned glennydd
Mon wen, a'i mwyn awenydd,
Hawddgaraf fan lle'r hoffwyf yw
Tan fanod lyw yn Eifionnydd.

Ni welais trwy y gwledydd
Un lle mor llawn llawenydd,
Mi fedrwn goelio fod ne' im rhan
Yn rhywfan yn Eifionnydd.

Er mynd o'n nghorff tros wledydd,
A'r galon gyda'i gilydd.
Mi ddweda'n union wir i chwi,—
Mae f'enaid yn Eifionnydd!

Y gôg, ynghyd a'r hedydd,
Ledaenant eu hadenydd,
Cânt fynd o bedwar rhan y byd
Pan fynnant, hyd Eifionnydd.

Dyn diwyd wyf, di-ddeunydd,
Diglydwch ar draws gwledydd;
I'm galw'n ol geill gair Duw ne'
Pan fynno, adre' i Eifionnydd!

Hugh Roberts a'u Cânt, tua 1769.

Pwy allasai yr Hugh Roberts hwn fod tybed? Ymddengys ei fod wedi crwydro llawer, efallai fel morwr. Pa un bynnag, yr oedd ganddo amcaniaeth lew ynghylch llunio penillion ar fesur Triban.

Goddefer i mi grybwyll, gyda llaw, fod rhyw swyn yn nhelynegion ysgafn a dawnsiol "Caniad y Gog." Lewis Morus (Llewelyn Ddu o Fon) gymerodd y gog gyntaf i gyhoeddi rhinweddau "morwynion glân Meirionnydd." Yr oedd ei ganiad oddeutu 1769 "yn ei ffreim," ei harddull yn newydd a chanadwy, ac yn dechreu lledaenu i afael y werin trwy gymoedd a phentrefi Cymru, oherwydd y gwerthiant mawr oedd arni yn y ffeiriau, a chanu gyda'r tannau yr adeg honno mor gyffredinol ar yr aelwydydd ac yn y tafarnau. Gan angerdd ei foddhad gyda cherdd Lewis Morus, ceisiodd Hugh Roberts roddi ei awen ar hwyl i ganu "Caniad y Gog i Eifionnydd," i'w efelychu. Mae'n sicr mai at "y Llew," chwedl Goronwy Owen, y cyfeiria pan yn cyfeirio at "Mon wen—a'i mwyn awenydd," gan mai trwyddo ef yr aeth

clod trwy'r gwledydd
Am forwynion Sir Feirionnydd.

Nid oes odid benillion yn ein hiaith a chymaint o ganu wedi bod arnynt a

Da ydyw'r gwaith, rhaid dweyd y gwir,
Ar fryniau Sir Feirionnydd,
Golwg oer o'r gwaela gawn
Mae hi eto'n llawn llawenydd,
Pwy ddisgwyliai canai'r gog
Mewn mawnog yn y mynydd?

Oherwydd poblogrwydd parhaol cân Lewis Morus, gweodd y bardd melus Ieuan Glan Geirionnydd "Ganiad y Gôg i Arfon"—penillion ag y byddaf wrth fodd fy nghalon yn eu canu ar ben rhai o fryniau Nanmor, ar ddiwrnod difyrrus o haf, tra "y Wyddfa noddfa neuaddfawr," chwedl Robin Ddu o Hiraddug, yn y golwg, ynghyda glasdir llaith Cantre'r Gwaelod yn y pellder. Ymddangosasant gyntaf yn y *Gwyliedydd* am 1824, ac er hynny enillant sylw hoffwyr y tlws a'r dymunol,—

Ple mae cynnar gaaiad cog
Mewn glaswydd deiliog glwysion,
Dyfnion neint, a chreigiau serth,
A phrydferth reieidr mawrion?
Ar Eryri uchel wawr,
Yn erfawr lannau Arfon!

Yn y flwyddyn 1834, ar ddalennau y *Gwladgarwr*, cafwyd gan yr hen lanc parchus Ellis Owen, o Gefn y Meusydd, y dernyn prydferthaf o'i holl weithiau, sef "Molawd i Eifionnydd" ar ddull "Caniad y Gog." Dilynwyd ef mewn atebiad, yn yr un cyhoeddiad, gan fardd ieuanc o gymydogaeth Talsarnau, sef R. Tecwyn Meirion, gyda chathl wir swynol,—yn ol dull "Caniad y Gog" eto,—yn dyrchafu clodydd Meirion, ei frodir enedigol,—

Pa le clywir cogau'n canu,
A'r adar ceinber yn emynnu
A'u sû nefawl a swn afon,
Ond rhwng creigiau muriau Meirion!

Syndod ddarfod i'r bardd o Gefn y Meusydd gyfansoddi mor debyg i arddull Hugh Roberts, a hwnnw wedi canu rhyw bump a thrigain o flynyddoedd o'i flaen. Eto nid ydwyf yn tybio am eiliad ddarfod i'r cywir Ellis Owen fanteisio ar un gair na syniad o'r gerdd ddywededig; os y gwelodd rhyw dro hen lyfr ysgrif Isallt.

Carneddog.

Nanmor, Beddgelert.

Y FYNEDFA AT BANT Y CELYN.

PANT Y CELYN.

"YM mhle *mae* Pant y Celyn?" ebe athraw yn un o golegau'r Methodistiaid Calfinaidd wrthyf unwaith. Yr oedd tôn gwerylgar yn ei gwestiwn, oherwydd ei fod yn gorfod gofyn peth oedd yn dangos cymaint o anwybodaeth. Nid oeddwn yn ddigon rhagrithiol i ddweyd fy mod yn synnu at ei anwybodaeth, oherwydd ni wyddwn fy hun, cyn mynd yno, ymha un o bedair neu bum sir yr oedd Pant y Celyn. Er hynny nid oes odid aelwyd yng Nghymru nad ydyw Pant y Celyn yn air teuluaidd arni.

Ryw ddiwrnod yn yr haf diweddaf yr oeddwn yn teithio o fynydd-diroedd Llanwrtyd drosodd i ddyffryn Tywi, ac i lawr ar hyd y dyffryn enwog hwnnw. Wedi rhediad chwyrn i lawr hyd ochrau'r mynyddoedd, daethum i Lanymddyfri gyda'r nos. Ni welwn fawr o dref na dim, o'r orsaf; a throais i'r gwesty cyntaf gefais. Yr oedd yno dân braf,—yr oedd yr hin yn oer a gwlawog, er mai haf oedd. Yr oedd yno fwyd da ac iachus mewn ystafell lân hefyd. Fel rheol, pur anghysurus ydyw lletydai Cymru o'u cydmaru a lletydai gwledydd ereill, yn enwedig tai dirwest. Gadewir y ffenestri yng nghauad ddydd a nos, nes y bo arogl anhyfryd ar yr ystafelloedd ac ar y dodrefn; gadewir llwch i hen gartrefu ar bob astell ac ym mhob cornel; a bydd rhigolau duon, digon i ladd archwaeth y cryfaf, ar y *cream-jug* o wydr tawdd. Ond, yn y gwesty hwnnw ger gorsaf Llanymddyfri, yr oedd popeth gen laned a'r aur; yr oedd ol dwfr grisialaidd ar bob peth. Yr oedd y llian gwyn fel yr eira, yr oedd y siwgr fel pe'n disgleirio yn y llestr gwydr mawr, taflai'r tân oleuni rhuddgoch ar gwpanau glân fel y cwrel. Yr oedd y bara can, yr ymenyn, a'r caws yn flasus, yr oedd yr hufen yn felyn dew, yn ddigon tew, chwedl Kilsby, i geiniog nofio ar ei wyneb yn ddi-brofedigaeth. Ac am y te, wel, te oedd; nid y drwyth roddir o'm blaen yn aml, trwyth nas gwn ar ddaear wrth ei hyfed beth sydd yn y tepot gyda'r dŵr,—pa un ai ffa'r corsydd ai dail carn yr ebol ai sug tybaco.

Wedi dadluddedu o flaen y tân, bum yn darllen gweithiau S. R. oedd yn yr ystafell. Ymgollais yn y rhai hynny hyd nes y daeth gŵr y gwesty i ddweyd fod y tân bron a mynd allan. Cefais hanes y wlad ganddo, yn grefyddol a gwleidyddol yn bennaf, o safle Bedyddiwr Arminaidd. Cefais bob manylion hefyd am y ffordd oreu i gyrraedd Pant y Celyn. Yr oedd pobl fonheddig o Saeson yn aros yn yr un ty, a thybiwn unwaith, gan eu bod hwythau'n mynd i'r un cyfeiriad, y medrem gyd-logi cerbyd. Ond, erbyn cael ymgom, trwy wr y tŷ, nid oeddynt hwy wedi clywed gair erioed am Williams Pant y Celyn. Yr oeddynt wedi clywed llawer o son am Dwm Sion Cati, ac i chwilio am ei ogof ef yr oeddynt yn mynd. Pe buasai Twm Sion Cati yn ei ogof, os gwir pob stori, ni fuasai'r brodyr hyn mor awyddus am fynd yn agos ati.

Bore drannoeth, nid cyn i fwyafrif pobl Llanymddyfri godi, yr oedd cerbyd wrth ddrws y gwesty, a gyrrwr ynddo, yn barod i'm cludo tua Phant y Celyn. Nid oedd y gyrrwr yn un siaradus; yn wir, pur anodd oedd cael ystori o hono. Rhoddodd ei ddistawrwydd fwy o hamdden i minnau edrych o'm cwmpas, a meddwl am emyn ar ol emyn ddoi i'm cof wrth deithio ymlaen hyd gynefin ffyrdd y per ganiedydd. Rhedodd y merlyn, a'i fwng yn yr awel, hyd y ffordd o'r orsaf i'r dref, heibio i ysgol Llanymddyfri. Yna trodd am y gornel tua'r gogledd, gan fynd yn chwyrn trwy'r brif ystryd. Golwg farwaidd iawn oedd ar Lanymddyfri, gwelais y glaswellt yn tyfu ar gyrrau'r heol, a thybiwn fod golwg mynd yn ol yn y byd ar yr hen fangre enwog i gyd. Gadawsom gapel prydferth ar y chwith, capel coffadwriaethol Williams Pant y Celyn,—capel Saesneg, ysywaeth. Ymhen tipyn, wrth fynd allan o'r dref i'r wlad agored, yr oeddym yn pasio adeilad arall. Ar y dde yr oedd hwn, ac yr oedd golwg urddasol arno, er gwaethaf ei henaint a'i dlodi. Gofynnais i'r gyrrwr ai hwnnw oedd ty'r Ficer, a dywedodd yntau mai ie. Temtid fi i feddwl am yr hen Ficer a'i Ganwyll y Cymry a'i drallodion; ond treiais beidio gwneyd hynny, er mwyn craffu ar bob cam o'r ffordd rhwng y dref a Phant y Celyn.

Dôl werdd lydan a Llanfair ar y bryn i'w weld drosti,—dyna welsom gyntaf wedi gadael y dref. Gwyddwn mai yn y Llanfair hwnnw y claddwyd Williams. Collodd Llanfair ar y bryn o'n golwg, a dilynasom ffordd wastad hyfryd gydag ymyl y ddôl a than gysgod bryn creigiog. Daethom i gwm cul, lle'r oedd yr afon wedi torri ffordd iddi ei hun i adael y mynyddoedd. Dyma ddôl wastad eto, a choed o bobtu iddi, lle hyfryd ddigon. Dacw fynydd yn codi o'n blaenau; daeth awydd canu drosom,—

" Ar ddisgwylfa uchel gribog
Disgwyl rwyf er's hir brydnawn,
Edrych am yr hindda hyfryd
'Nol cawodydd geirwon iawn,
Ac i'm hysbryd,
Trwy'r cymylau, weld y wlad."

Hyd yn hyn yr oedd wedi bod yn bwrw gwlithlaw, ac yr oedd y wlad dan niwl llwydlas. Fel yr oeddym yn agoshau at y mynydd hwnnw, daeth awel o'r de, a dechreuodd y niwl dorri a chilio. Llawer gwaith y gwelodd yr emynwr awyr lâs drwy'r cymylau ar y ffordd hon, a llawer gwaith yr hiraethodd am dani,—

" Pa bryd caf deimlo'r awel gref
Sy'n chwythu i ffwrdd gymylau'r nef,
I mi gael gweled Salem bur?
Gogoniant dwyfol uwch y rhod
Nas gwelodd llygaid dyn erioed,
Ac nas mwynheir mewn anial dir."

Dyma'r ffordd yn troi i'r ochr arall i'r dyffryn; dacw'r afon yn troelli, ol a gwrthol, fel pechadur yn yr yrfa trwy'r anialwch. Ond y mae swn dedwydd yn ei dwndwr, wrth adael ei gyrfa wyllt yn y bryniau a dechreu llifo'n esmwyth gydag ymyl y ddôl,—

" Mi deithiais ran o'r anial maith,
'Dwy'n deall pellder pen fy nhaith,
Mewn gwledydd sychion, dŵr nid oedd;
Yn awr rwy'n disgwyl, fore a nawn,
O'r nefoedd ddŵr a sypiau grawn,
Wna'm henaid egwan wrth ei fodd."

Dacw'r ffordd yn rhedeg yn syth yng nghyfeiriad y mynydd unig hwnnw. Ni wyddem beth oedd yn guddio,—dyffrynnoedd, gwlad wastad, ynte mynyddoedd uwch. Dyma drofa yn y ffordd, o honi gwelem draw, heibio'r mynydd, fynyddoedd ereill, uwch o lawer, heb rif,—

" Er c'uwch y bryniau uchel fry,
A swn tymhestloedd tywyll, du,
A'r holl freuddwydion ofnau sy,
Anturiaf eto 'mlaen;
Mae nerth y nefoedd fry yn fwy
Na myrdd o'u dychryniadau hwy;
Mae haeddiant dwyfol farwol glwy
Yn drech na dŵr a thân."

Gydag inni gael golwg ar y wlad y tu hwnt i'r mynydd, cauodd gorchudd o wlaw am dani. Dechreuodd y gwlaw yrru dros y dyffrynnoedd, ac yr oedd y gwynt yn dolefain wrth ysgubo dros fryn a phant. Pe buaswn yn hollol ddieithr i'r wlad, tybiaswn mai dros ryw wastadedd mynyddig, heb ddim ond pyllau mawn a chrawcwellt ac ambell ddafad esgymun, yr oer anadlai'r awel. Ond yr oeddwn wedi cael golwg ogoneddus ar y wlad dan haul nawn y dydd cynt; a gwyddwn, oddiwrth emynnau Williams, fod ei gartref mewn gwlad brydferth,—

" Dyma'r man dymunwn drigo,
Wrth afonydd gloewon, llawn,
Sydd yn llifo o ddŵr y bywyd
O las foreu hyd brydnawn,
Lle cawn yfed
Hyfryd gariad fyth a hedd."

Oddiwrth olygfeydd yr ardal hon y cafodd Williams ei liwiau i ddarlunio gwlad yr hedd,—

" Mi welaf draw, o bell,
Baradwys hardd ei gwedd,
A phrennau llawer gwell
Yn perarogli hedd;
O hyfryd wlad, tu draw pob gwae,
Gwyn fyd gawn heddyw dy fwynhau."

Ond y mae'r gwynt yn dolefain, a'i swn fel swn cornchwiglen, ond ei fod yn fwy parhaus ac yn fwy lleddf. Daethom at le yr oedd yr afon a'r ffordd yn ymrannu'n ddwy. Troisom

ni ar y chwith i lawr ffordd serth, a gwelem ffordd union o'n blaenau, a bryn uchel, a chlawdd ar ei draws, fel cadwen wedi ei thaflu drosto. Ond ychydig ymlaen fedrem weld, gan y niwl a'r gwlaw. Mynych ddymuniad oedd am i'r niwl godi, ac am gael gweled gogoniant y wlad,—

" Rwyf yn dechreu teimlo eisoes
Beraroglau'r gwledydd draw
Gyda'r awel bur yn hedeg,
Diau fod y wlad gerllaw;
Tyrd, y tir dymunol hyfryd,
Tyrd, yr ardal sydd heb drai,
Dy bleserau o bob rhywiau,
Gad im bellach eu mwynhau."

A chyn bo hir daeth awel eilwaith o'r de, ysgafnhaodd yr awyr, a gwelem rimin glâs o ac nid rhyfedd fod ei emynnau gore mor llawn o honynt.

" Rwyf yn gweled bryniau uchel
Gwaredigaeth werthfawr lawn,
O na chawn i eu meddiannu
Cyn machludo haul brydnawn;
Dyma'm llef tua'r nef,
Addfwyn Iesu, gwrando ef."

Llawer gwaith, wedi taith flinderus, y bu Williams yn edrych tua bryniau ei gartref oddiar y ffordd uchel hon, ac ar yr eangder o fynyddoedd welem y tu hwnt iddynt,—

" Mae fy enaid yn ehedeg
Ar adenydd ysgafn ffydd,
Ac yn syllu drwy'r eangder
Uchel, maith, at bethau fydd;
'Nawr mi welaf
Wlad o hedd yn agoshau."

PANT Y CELYN.

fynyddoedd pell o'n blaen. Yr oedd y ffordd erbyn hyn yn debycach i ffordd dre ddegwm nag i brif-ffordd, yn dirwyn i fyny hyd ochr bryn serth. Wrth i ni godi i fyny yr oedd yr olygfa'n ehangu o hyd, gan roddi teimladau hyfryd i ninnau, a gwneyd inni feddwl ein bod yn gadael y gwlaw a'r gelltydd serth ar ein hol—

" Rwyf yn teimlo gwynt y deheu,
Yn anadlu awel bur,
Ac yn ysgafn garlo f'enaid
Draw i fryniau'r Ganan dir;
Aed y gauaf garw heibio,
Darfu'r oer dymhestlog wynt;
Na ddoed mwy'r cawodydd duon
I fy mlino megis cynt."

O'r diwedd daethom i ben yr allt, a chawsom olwg ogoneddus ar y bryniau dan orchudd ysgafn tyner o niwl. Llawer gwaith y bu Williams yn syllu arnynt oddiar y ffordd hon,

" Rhwng cymylau duon, tywyll,
Gwelaf draw yr hyfryd wlad;
Mae fy ffydd yn llefain allan,—
'Dacw o'r diwedd dy fy Nhad.'
Digon, digon!
Mi anghofia'm gwae a'm poen."

Ond nid ydym eto ym Mhant y Celyn, er ein bod yng ngolwg y wlad. Rhed y cerbyd yn chwyrn i lawr y bryn, a dyma ni mewn dyffryn cauad coediog, gyda chapel bychan uwch ben y naut. Capel Anibynwyr Pentre Tygwyn ydyw, ac y mae'r dyddiad 1719 arno. Ni chefais fawr o amser i edrych arno, ond yr wyf yn cofio gweled bedd Daniel Howells o Lanymddyfri, fu'n pregethu am bymtheng mlynedd a deugain.

Wedi gadael y pentre bychan hwn, yr oedd rhiw serth o'n blaen; ac erbyn i mi ddod o fynwent y capel, gwelwn y cerbyd tua

hanner y ffordd i fyny'r rhiw, a'r ceffyl yn gorfod ei dynnu o ochr i ochr, er mwyn lladd yr allt rywsut. Deuai un o emynnau Williams i'm cof innau o hyd,—

"Wel, f'enaid, dos ymlaen,
'Dyw'r bryniau sydd gerllaw
Un gronyn uwch un gronyn mwy,
Na hwy a gwrddaist draw;
Dy angrhediniaeth gaeth,
A'th ofnau maith eu rhi,
Sy'n peri i't feddwl rhwystrau ddaw
Yn fwy na rhwystrau fu."

Ond dyma fi wedi dal y cerbyd, ac ar ben y rhiw. O'n blaen, o bobtu'r ffordd, yr oedd caeau gweiriog, ac awel esmwyth aroglus yn anadlu drostynt. Troisom trwy lidiart ar y dde, a dilynasom ffordd oedd yn croesi'r cae gwair i gyfeiriad yr afon. Toc daeth yr afon i r golwg, a gwelsom ei bod yn rhedeg gyda godreu'r cae. Wrth i ni droi gyda'r ffordd gwelem lwyn o goed o'n blaen, yr oedd coed hefyd yn nyffryn yr afon, a throstynt oll gwelem y mynydd yn dawel a thlws. Llc hyfryd, pell o dwrf y byd, ydyw Pant y Celyn,—

"Dyma'r man dymunwn aros
O fewn pabell bur fy Nuw,
Uwch terfysgoedd ysbryd euog,
A themtasiwn o bob rhyw;
Dan awelon
Peraidd hyfryd tir fy ngwlad."

Cerddais ymlaen tua'r ty, nid ydyw yn y golwg tan ddeuir i'w ymyl. Wedi mynd i mewn i'r buarth, gwelwn o'm blaen dy newydd, gydag un talcen i'r llechwedd a'r llall at yr afon. Rhyngddo a'r afon yr oedd glyn bychan swynol, llawn o goed. Yn union o'i flaen, i dorri grym y gwynt ac i gadw pethau, yr oedd hen dy to brwyn. Teimlwn, er nad oedd dim yn darawiadol iawn yn y ty, fod y fangre'n un hyfryd a tharawiadol iawn. Eis ymlaen at y ty, cnociais, a daeth geneth lygat-ddu, rhyw bedair ar bymtheg oed, i'r drws. Yr oeddwn wedi gweled y darlun o Williams sydd yn llyfrgell Abertawe, a theimlwn fod yn rhaid fod yr eneth hon yn perthyn iddo. Tybiwn mai pen prydferth a llygaid duon oedd gan y per ganiedydd.

"Dyn dieithr o'r Gogledd ydwyf," ebe fi wrth yr eneth honno, "wedi dod i weld Pant y Celyn."

"Chwi gewch ei weld, a chroeso. Dowch i mewn. Mae'n resyn eich bod yn cael diwrnod mor wlawog."

Arweiniwyd fi i mewn, a gwelais fod lletygarwch Cymreig o'r iawn ryw ym Mhant y Celyn. Nid oeddynt wedi'm gweled i erioed o'r blaen, ac ni wyddent a welent fi byth wedyn. Ond mynnent gael gwneyd te i mi; a phan wrthodais, daethant a glasiad o lefrith oedd yn gwneyd i ni sylweddoli dymunoldeb "gwlad yn llifeirio o laeth a mel." Arweiniwyd fi i ystafell Williams, ystafell isel dan drawstiau mawr. Yr oedd cader Williams yno, yn yr hon yr ysgrifennodd ei hanes ysbrydol mewn cynifer o ddulliau. Cynhygiwyd i mi eistedd yn y gader, ond yr oedd rhyw hanner ofn yn rhwystro i mi wneyd hynny. Yr oedd IHS, —Iesus hominum Salvator, Iesu Gwaredwr dynion,—ar galchiad y nenfwd yn yr ystafell fechan unwaith. Trwy'r ffenestr yr oedd llecyn gwyrdd bychan i'w weled, a'r ty to brwyn dros ei ben. Ar ben y grisiau, gwelais gloc Williams, gyda gwyneb o bres gloew, a thic trwm marw. Yr oedd yr hen gloc a'r hen gader yn dwyn i'm meddwl lafur ei ocs ryfedd. Hwyrach fod llawer o'r Diwygwyr yn bregethwyr mwy nerthol na Williams Pant y Celyn. Ond ni weithiodd yr un o honynt yn galetach, ac ni fydd dylanwad yr un o honynt mor barhaol a'i ddylanwad ef. Efe, trwy ei emynnau, sydd wedi gwneyd y Diwygiad yn rhan o fywyd Cymru, ac wedi gwneyd iddo esgor ar ddeffroad cenedl,—deffro i feddwl ac i fyw. Fel cydoeswyr Shakespeare yn Lloegr, nid edrychai cydoeswyr Williams Pant y Celyn arno fel y bardd na'r meddyliwr mwyaf yn eu mysg. Barnent ei emynnau gan gofio am anhawsderau cynghaneddu,—gwaith, o fawr ofal Rhagluniaeth am ddyfodol Cymru, na cheisiodd efe ei wneyd. Yr oedd mwy o ramadeg yn emynnau Thomas Jones o Ddinbych a mwy o gynghanedd yn emynnau'r gŵr rhyfedd athrylithgar o Ramoth, ond Williams ydyw'r per ganiedydd er hynny. Clywais fod Dr. Edwards wedi chwilio am un i ysgrifennu erthyglau ar hymnau Pant y Celyn, a'i fod wedi gofyn i Eben Fardd ymgymeryd â'r gwaith. Safodd Eben Fardd uwch eu pennau fel gramadegydd. Gwrthododd Dr. Edwards ei feirniadaeth, a gofynnodd i Wilym Hiraethog sefyll uwch eu pennau fel bardd. Clywais ddweyd fod Williams wedi ysgrifennu gormod, ac y buasai'n well iddo fod wedi aros mwy uwchben ei linellau, i'w gloewi gogyfer a'r beirniad gor-fanwl byr ei lathen ddeuai gyda'r oes wannach oedd yn dod ar ei ol. Dyna ddywedir hefyd am Wordsworth, dyna ddywedir am Geiriog,—ac y mae'n dangos mor ddiwylliedig ac mor fas ydyw tir meddwl y rhai a'i dywed.

Ond dyma wr ty Pant y Celyn. Diacon gyda'r Anibynwyr ydyw, ac un diddan iawn ei ystori. Gwyddai hanes John Penri'n dda, ac yr oedd yn cofio'r Siartwyr yn y De. Ond, rhag ofn i mi feddwl ei fod yn rhyw eithafol iawn, dywedodd, gyda gwên chwareus yn ei lygaid, ei fod yn talu'r degwm fel yr oen.

Yr oedd hen gloc Pant y Celyn, gyda'i dipiadau trymion, yn mynd mynd ar ben y grisiau, a gorfod i minnau ymadael heb gael holi ond ychydig iawn. Ond dymunol i mi oedd teimlo fod teulu'r emynnwr ym Mhant y Celyn o hyd. Yno yr arhosent, tra cof am dano yn y wlad y gwnaeth gymaint drosti, yw'm dymuniad i.

Wrth sefyll ger Pant y Celyn, teimlwn fy mod yn cael esboniad ar lawer emyn. Ar y llecyn hwn bu Williams, lawer tro, yn teimlo awel y dehau, fel y teimlaf finnau hi'n awr, ac yn ei chroesawu,—

"Deuwch yr awelon hyfryd,
Deuwch dros y bryniau pell,
Dau eich aden dawel, rasol,
Dygwch y newyddion gwell;
Dygwch newydd at fy enaid,—
Fy enaid innau yno gaed,
Dedwydd enw'n argraffedig
Yn yr iachawdwriaeth rad."

Yma y bu'n disgwyl am y gwanwyn, ac am yr awel dyner o'r de,—

"Nad i'r gwyntoedd cryf dychrynllyd,
Gwyntoedd cryf y gogledd draw,
Ddwyn i'm hysbryd gwan trafferthus
Ofnau am ryw ddrygau ddaw;
Tro'r awelon
Oera'u rhyw yn nefol hin."

Yma y gwelodd y wawr, lawer diwrnod hyfryd, yn torri ar y mynyddoedd draw, wedi noswaith o golli cysgu wrth ofni am ei ffydd,—

"Draw mi wela'r nos yn darfod,
Draw mi welaf oleu'r dydd,
Yn disgleirio dros y bryniau,
Melus yn y man a fydd;
Ffy gelynion pan ddêl goleu,
Ni all pechod, er ei rym,
A'i holl wreiddiau yn fy natur,
Sefyll Haul Cyfiawnder ddim."

O'r llecyn hwn y bu'n gweld y caeau'n tyfu, a'r blodau'n lledu eu hwynebau i oleuni cynnes yr haul. Dacw'r llygad dydd ar y weirglodd brydferth, a'r glaswenwyn, a mantell fair, a'r ben-galed, a chynffon y gath,—ond

"Ofer imi weld y ddaear
Yn egino'i hegin grawn,
Ofer imi weld yr heulwen
Fawr yn estyn ei phrydnawn,
Ofer imi weld y blodau
Yn dadguddio'u dirif liw,
Tra fo neb rhyw un creadur
Yn cysgodi gwedd fy Nuw."

BEDD WILLIAMS PANT Y CELYN.
(O *Gymru'r Plant*).

A dacw fynyddoedd yn ymestyn i'r gogledd, i gyffiniau Ystrad Ffin. Yma y bu'r hen emynnwr, pan na fedrai deithio mwy, yn canu ei emyn bendigedig ei hun,—

"Rwy'n edrych dros y bryniau pell,
Am danat bob yr awr;
Tyrd, fy anwylyd, mae'n hwyrhau,
A'm haul bron mynd i lawr."

Teimlwn, wrth adael Pant y Celyn, fy mod yn troi'm cefn ar un o lanerchi mwyaf cysegredig Cymru. Y mae golygfeydd y fro hon wedi ymddelweddu yn yr emynnau sydd, yn eu tro, wedi rhoddi eu delw ar feddwl Cymru. Synnwn fod golygfeydd Pant y Celyn mor gartrefol i mi; yr oeddwn wedi eu gweled yn yr emynnau, bob un. Trwy'r golygfeydd hyn y cafodd Williams y darluniadau o'r nefoedd sydd, erbyn hyn, yn rhan o freuddwydion ac o obeithion pob Cymro. Gwened yr haul arnat byth, ti gartref per ganiedydd Cymru!

Cyn y nos, ail gychwynnais o Lanymddyfri, a dringais i fyny i eglwys Llanfair ar y bryn. Gyda chynhorthwy caredig y curad, cefais olwg ar du mewn yr eglwys,—tu mewn hir tywyll,—ac ar bopeth oedd ynddo, o'r lle dwfr swyn sydd yn ei mur er cyn y Diwygiad Protestanaidd, i'r groes bres y mae rhywun defodol newydd osod ar yr allor. Y mae bedd a chofgolofn Williams wrth ochr Pant y Celyn i'r eglwys. Y mae golygfa brydferth oddiar ben y bryn hwn, oddiwrth y bedd, ar y wlad oddiamgylch; ond ofer fuasai dechreu dweyd hanes y fro hanesiol hon. Y mae'r golofn o wenithfaen Aberdeen, ac y mae'r argraff sydd arni wedi ei godi oddiar y garreg las oedd ar fedd Williams o'r blaen.

Y mae eu mab hynaf a'u mab ieuengaf,—William, fu farw yn 1818, a John, fu farw yn 1828,—yn gorwedd gyda hwy. Yr un oed a'u tad oedd y ddau pan fuont feirw.

Gofid i mi ydyw gweled brawddegau Saesneg chwyddedig,—adlais o arddull Dryden,—ar feddau cedyrn Cymru. Gwyn fyd na roddid ar eu bedd eiriau anwyl iaith eu Beiblau, eu gweddiau, a'u pregethau. Dyma'r ysgrif, —y mae'n arw gennyf mai Saesneg ydyw,—

Sacred to the Memory of
the
Reverend WILLIAM WILLIAMS, of Pantycelyn,
author of several works in prose and verse.
He waits here the coming of the morning star
which shall usher in the glories of the first resurrection
when, at the sound of the archangel's trumpet
the sleeping dust shall be re-animated
and Death for ever shall be swallowed up in victory.

He laboured in the service of the gospel for near half a century,
and continued incessantly to promote it both in his labour and writings,
and to his inexpressible joy beheld its influence extending in its efficiency, witnessed in the conviction and conversion of many thousands.
After languishing some time he finished his course and life together,
January 11th, 1791. Aged 74.

Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid ac heb boen,
Mae'n canu o flaen yr orsedd ogoniant Duw a'r Oen;
Yng nghanol myrdd myrddiynau yn canu oll heb drai,
Yr Anthem ydyw cariad, a chariad i barhau.

Also the remains of
MARY
the pious and beloved wife of the said
WILLIAM WILLIAMS
who departed this life 11th of June, 1799. Aged 78.
Her unfeigned piety, amiable conduct,
and unblameable deportment through life
are too well known to require any further
Encomium.

Cyn i mi adael Llanfair ar y bryn, daeth un heulwen hyfryd euraidd ar yr yw ac ar wlith y beddau; ac yn fuan iawn gwelwn yr eglwys a'i bedd yn diflannu o'm golwg yn y pellder ac yn y gwlaw.

DAFYDD Y GARREG WEN.

II.

BU'R hyn a ysgrifennais o'r blaen ar Ddafydd y Garreg Wen yn foddion i ddwyn i'r amlwg lythyr nodedig ar yr un pwnc dyddorol ym mhrif gyhoeddiad cerddorol Cymru. Dylaswn fod wedi aros mwy ar y dystiolaeth bendant sydd i'w gweled yn yr hen lyfr prin hwnnw, y "Welsh Harper," fod yr alaw wedi ei chwareu wrth fedd Dafydd yn sicr. Dywedir hyn gan neb llai na'r enwog John Parry, Bardd Alaw, gŵr hwyrach nad oedd neb yn ei oes, ond yn unig Bardd y Brenin, yn gwybod mwy am hen alawon. Ond dilynwn linyn y dystiolaeth ymhellach nes y cysylltir hi â'r un a eilw efe yn hen ffarmwr a cherddor o ymyl Tan y Bwlch,—"Fel cadarnhad i'r traddodiad a ennwyd," meddai, "hysbyswyd fi yn ddiweddar gan Lewis Roberts, hen ffarmwr a cherddor yn byw yn agos i Dan y Bwlch, ddarfod i hen wr parchus unwaith ddweyd wrtho ei fod ef yng nghynhebrwng Dafydd y Garreg Wen, ac iddo glywed y delyn yn chwareu yr alaw a nodir, ar yr amgylchiad galarus." Dyna fel y dywedir, ond pwy oedd y Lewis Roberts hwn? Nid oedd eisiau gofyn hyn pan ysgrifennwyd y geiriau. Canys yr oedd enw Lewis Roberts, yr hwn a dreuliodd ran fawr o'i oes faith fel ffarmwr bychan yn agosi Faentwrog, yn ddigon hysbys fel Eos Twrog, y crythor enwog a'r datgein-

iad gyda'r tannau heb ei ail, am yr hwn y dywedodd Meurig Idris,—

"Ystyrrir Eos Twrog—yn bencerdd
A byncia'n odidog;
Mwyn ei glust dan almon glog
Drwy Wynedd yn dra enwog.

"Difera clod i Feirion—o'i dalent
Gyda'r delyn fwynlon;
Gŵr call yn deall y dôn
Yw Twrog, hen wr tirion."

Ganwyd ef yn 1756, saith mlynedd ar ol marw Dafydd y Garreg Wen. Bu farw yn 1844, a dyma ddywedir am dano mewn hen *Ddysgedydd* am Fehefin yn y flwyddyn honno,—

"Yn yr hen ddyddiau dedwydd a aethant heibio, pan oedd cân, a llawenydd, ynghydag amrywiol gampau diniwed ereill mewn bri yn ein gwlad, anaml y ceid un a efelychai wrthrych y cofiant hwn. Nid yn unig fel cerddor yr oedd yn rhagori, ond fel hanesydd gwladol a chrefyddol. Cynysgaeddwyd ef â deall cyflym, cof cryf, ac amgyffrediadau bywiog, fel y parai ei gyfeillach fawr ddifyrwch ymhob man ag y byddai."

Dyna pwy oedd Lewis Roberts, ond pwy eto oedd yr hen wr parchus oedd yn y cynhebrwng? Nid ydyw Bardd Alaw wedi gweld yn dda ddweyd, er mai diameu i Lewis Roberts ddweyd hynny iddo. Yn hytrach rhoddwyd y gair Seisnig cryf *venerable* o flaen ei ragenw i ddangos ei fod yn un y gellid ymddiried ei fod yn dweyd y gwir pan yn adrodd i Lewis Roberts am gynhebrwng Dafydd y Garreg Wen. A heddwch byth i lwch yr hen grythor diddan am iddo ddweyd yr hanes i Fardd Alaw, ac felly gadw rhag colli y dystiolaeth bwysicaf a chryfaf o ddigon sydd ar gael am hyn. A rhoddi at hynny drachefn leferydd yr alaw ei hun, mae yn anhawdd meddwl sut y gellir gwadu na gwawdio yr hen draddodiad prydferth. Yn ol y traddodiad a'r dystiolaeth, ymddengys fod y sicrwydd mwyaf i'r alaw gael ei chwareu wrth y bedd. A chredaf fod hynny, fel y dywedwyd, yn mynd ymhell i brofi mai Dafydd a'i cyfansoddodd. Os nad felly, pa reswm a roddir dros fod ei enw arni? Canys y mae enwau hen alawon bob amser yn awgrymu rhywbeth am eu cysylltiadau, eu hanes, a'u nhodwedd; neu ynte a ydyw yn rhesymol credu y buasai i amgylchiad mor ddibwys, a chyffredin yn yr adeg honno, fod yn foddion i beri i'r wlad newid enw alaw mor nodedig, yn enwedig os nad gwaith yr un hwnnw y mae ei enw arni oedd hi? Dywedir fod canu telyn wrth fedd telynor yn beth digon cyffredin yng Nghymru gynt, a fod y gair "chwareuir telyn ar dy fedd" yn cael ei arfer fel bendith, ac yn aros ar lafar gwlad eto mewn rhai mannau. Os felly, pa gyfrif a roddir am y ffaith nad oes draddodiad na hanes am gymaint ag un o'r hen alawon ereill wedi eu defnyddio ar achlysuron cyffelyb? Mae llawer o honynt yn briodol iawn i amgylchiad felly, ac yn ddiameu wedi eu defnyddio felly lawer gwaith, er fod pob cof o hynny wedi ei golli. A'r unig reswm a allaf fi weled fod yr amgylchiad hwn wedi ei gadw mewn cof rhagor ereill cyffelyb ydyw, rhagoroldeb yr alaw ei hun,—tlysni a thynerwch heb ei gyffelyb,—ynghyd a'r ffaith iddi gael ei chyfansoddi yn fwriadol fel marwnad gan y telynor y mae ei enw arni.

Yn nechreu y llythyr y cyfeiriais ato ar Ddafydd y Garreg Wen, dywedir i Ieuan Glan Geirionnydd gyfansoddi y penillion swynol "Fenyw fwyn, gwrando gŵyn" fel cerdd i'w chanu ar yr alaw "Difyrrwch gwŷr Cricieth,"—yr hon, fel y dywedir, sydd waith Dafydd y Garreg Wen. Nid oes dim yn erbyn hynny, ond hwyrach y goddefir i mi adrodd un peth a glywais am y gerdd hon, i ddangos ei chysylltiad cyntaf o'r hyn lleiaf ag alaw arall. Un waith, pan yn Llanrwst, digwyddais fod yng nghwmpeini yr hen gymeriad diddan a thalentog, y diweddar John Williams y Post. Dywedai ei fod ef ac Ieuan Glan Geirionnydd yn gyfoedion a chyfeillion mawr pan yn ieuanc, ac y byddai yn arfer dangos llawer o'i weithiau barddonol iddo. Un waith daeth Ieuan ato i Lanrwst, a rhoddodd iddo gopi o gân y "Fenyw fwyn," yr hon, meddai, a gyfansoddodd i'w chanu gyda'r tannau, ar yr alaw "Morfa Rhuddlan." A rhybuddiodd ef ar yr un pryd beidio dweyd i neb pwy oedd y cyfansoddwr. Fodd bynnag, danghosodd John Williams y gerdd i gyfaill arall, y bardd Glasfryn,—neu, fel y gelwid ef yr adeg honno, Edward Jones y Printer, yr hwn yn ddistaw a'i hargraffodd. Danghosodd rhyw un gopi o honi i'r awdwr. Yntau, wedi ei ddigio yn fawr, a ddaeth i Lanrwst ar frys. Gofynnodd i John Williams beth oedd wedi ei wneyd a'r gerdd. Dywedodd yntau iddo fethu peidio a'i dangos i Edward Jones, ac iddo fynnu ei benthyg am ddiwrnod. "Wel," meddai yntau, "y mae ef wedi ei hargraffu, dangoswyd copi i mi o honi boreu heddyw." Ymaith a'r ddau i'r argraffdy, a galwyd Edward Jones. Cyfaddefodd yntau i'r gerdd ei swyno gymaint fel yr argraffodd nifer bychan o honi, a'i fod hefyd wedi rhoi ychydig gopiau i gyfeillion. "Wel," meddai Ieuan Glan Geirionnydd, "rhaid i chwi ar unwaith fynnu y rhai hynny yn ol, a rhoddi i mi y copi gwreiddiol, a phob un arall sydd gennych." Ac felly fu.

Cyfansoddodd Lewis Morus Mon gerdd ar yr un mesur; ac y mae yn ymddangos fod honno i'w chanu gyda'r tannau ar yr un alaw, a cheir un pennill o'r gerdd fel

engraifft o benillion ar "Forfa Rhuddlan" yn *Welsh Bards* Bardd y Brenin. Dechreua pennill Lewis Morus,—

"Ladies glân, fawr a mân,
Dyma gân gynnes:
Clod i fun, hardd ei llun,
Liwdeg, fu'n lodes,—"

ac hwyrach mai oddiwrtho y cymerwyd y syniad o ganu yn yr un mesur, ar yr un alaw, gan Ieuan Glan Geirionnydd. Fodd bynnag, y mae y gerdd yn briodol iawn ar yr alaw, ac yn brydferth dros ben wrth ei chanu, fel y cenid hi unwaith, bob yn wyth llinell, yn ol y drefn a elwir yn "sill am dant,"—i ddechreu ar hanner curiad yn ail far yr alaw, yr un fath yn yr hanner cyntaf a'r hanner olaf ohoni.

Dywed awdwr yr erthygl ar Ddafydd y Garreg Wen yng *Nghymru Fu* am yr alaw "Difyrrwch Gwŷr Cricieth" i Ddafydd ei chyfansoddi ar gyfer gwylmabsant y lle hwnnw, ac iddo yn fuan wedi hynny flino gartref, a chychwyn, a'i delyn ar ei gefn, i chwilio am ei frawd Rhys, a'i gael yn arddwr yn Roslin Castle, yn yr Alban; iddo fod yno am hir amser yn fawr ei groesaw; a phan yn hwylio i gychwyn adref, gofynnodd boneddwr iddo gyfansoddi cân fel coffadwriaeth o'i arosiad yno. Rhoddodd Dafydd iddo "Ddifyrrwch Gwŷr Cricieth," a galwyd hi yn yr Alban yn "Roslin Castle." Dywedir hefyd i Ddafydd gael anwyd trwm ar y daith bell hon, ac i hynny arwain i'r darfodedigaeth fu'n achos o'i farwolaeth. Yn ol y llythyr, drachefn, cefnder i'r telynor oedd y garddwr hwn, a dywedir fod Dafydd, yn ol pob tebyg, wedi anfon yr alaw "Difyrrwch Gwŷr Harlech" iddo i Roslin Castle. Y mae darlun o'r hyn oedd yn aros o adfeilion Roslin Castle tua dechreu y ganrif hon o fy mlaen. Wrth yr hanes sydd ynglyn ag ef, gellir ameu a oedd neb yn byw yno yn adeg Dafydd y Garreg Wen; wedi hynny yr adeiladwyd, yn adfeilion yr hen gastell, y palasdy sydd yno yn awr. Ond, er hynny, rhaid fod rhyw sylfaen i'r hyn a ddywedir yn yr erthygl, a'r llythyr, lle y ceir rhai pethau pur debyg i'w gilydd; a pha ryfedd,—ateb i ofyniadau Ellis Owen ydyw y llythyr. A chan Ellis Owen y cafodd Glasynys, awdwr yr erthygl yng *Nghymru Fu*, y rhan fwyaf o'r hanes sydd ynddi. A'r gŵr da o Gefn y Meusydd hefyd a lwyddodd i gael carreg ar fedd Dafydd y Garreg Wen yn eglwys Ynys Cynhaiarn. Ond credaf fod awdwr y llythyr yn camgymeryd pan yn meddwl fod yr alaw a'r traddodiad yn hollol adnabyddus yn yr Alban. Pe buasai hynny yn ffaith, ni buasai gŵr fel Sir Walter Scott heb wybod a dweyd hynny, yn enwedig mewn cysylltiad a'i gân i Ddafydd y Garreg Wen. Dyma'r gân honno, y teitl, a'r nodiadau yn gyflawn, fel yr ymddanghosodd yn 1820, dan law yr awdwr ei hun, mewn casgliad o farddoniaeth o'i waith, lle hefyd y ceir cân arall wedi ei chyfansoddi ar gyfer yr alaw "Ymdaith y Mwnc,"—y ddwy wedi eu gwneyd fel geiriau i'r alawon hynny, yng nghasgliad George Thomson o alawon Cymreig.

THE LAST WORDS OF CADWALLON.

Written for George Thomson's Welsh Melodies.

There is a tradition that Dafydd y Garreg Wen, a famous Welsh bard, being on his death bed, called for his harp, and composed the sweet melancholy air to which these words are united, requesting that it might be performed at his funeral.

Air,—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

"Dinas Emlyn lament, for the moment is nigh
When mute in the woodlands thine echoes shall die;
No more by sweet Teifi Cadwallon shall rave,
And mix his wild notes with the wild dashing wave.

"In Spring and in Autumn thy glories of shade
Unhonoured shall flourish, unhonoured shall fade;
For soon shall be lifeless the eye and the tongue
That viewed them with rapture—with rapture that sung.

"Thy sons, Dinas Emlyn, may march in their pride,
And chase the proud Saxon from Prestatyn's side,
But where is the harp shall give life to their name?
And where is the bard shall give heroes their fame?

"And O Dinas Emlyn! thy daughters so fair,
Who heave the white bosom, and wave the dark hair—
What tuneful enthusiast shall worship their eye
When half of the charms with Cadwallon shall die?

"Then adieu, silver Teifi! I quit thy loved scene
To join the dim choir of the bards who have been,
With Llywarch, and Maelor, and Merlyn the old,
And sage Taliesin high harping to hold.

"And adieu, Dinas Emlyn! still green be thy shades,
Unconquered thy warriors, and matchless thy maids,
And thou, whose faint warblings my weakness can tell,
Farewell my loved harp! my last treasure, farewell."

SIR WALTER SCOTT.

Mae agos yn sicr mai fel traddodiad Cymreig anhysbys y lleferir am y traddodiad yma, ac hefyd mewn nodiad arall o eiddo yr un awdwr yn y *Lady of the Lake*. A gellir casglu nad oedd y traddodiad yn rhyw hysbys iawn yng Nghymru, heb son iddo fod felly yn yr Alban, canys dywedir yn y *Welsh Bards*, y llyfr cyntaf yr ymddanghosodd y traddodiad ynddo, mai yn Sir Gaernarfon yr oedd ar lafar gwlad. O'r llyfr hwnnw, yn ddiameu, y cafwyd ef gan Syr Walter Scott, a phe buasai Dafydd y Garreg Wen yn digwydd bod yn Ysgotiad, buasai y bardd ramantwr enwog agos yn sicr wedi ei wneyd yn arwr i gerdd-ramant anfarwol.

Manchester. ROBERT GRIFFITH.

GOLYGYDDION CYMRU.

I. GOLYGYDD "Y TRAETHODYDD."

YMAE llenyddiaeth Gymreig yn ddyledus i olygyddion cylchgronau uwchlaw pawb. Hwy roddodd fywyd llenyddiaeth ddiweddar, hwy agorodd feusydd newyddion, hwy roddodd yr addysg oreu i Gymru,—oni bai am danynt hwy, tlawd a gwyw fuasai llenyddiaeth ein gwlad heddyw. Nid anamserol, felly, fydd cyfres o erthyglau ar olygyddion, byw a marw. Yr wyf am ddechreu gyda golygyddion byw, a chyda phwy y dechreuaf ond gyda golygydd y *Traethodydd*.



(*O photograph gan J. Wickens, Bangor.*)
Y PARCH. DANIEL ROWLANDS, M.A.,
Golygydd "Y Traethodydd."

Ganwyd y Parch. Daniel Rowlands, M.A., yn Llangefni, ym Mon, yn 1827. Y mae hanes ei addysg yn debyg i hanes llawer Cymro ar ei ol, —Ysgol Genedlaethol, gyda gorfod i fynd i'r eglwys, dechreu pregethu, coleg diwinyddol, a gradd anrhydeddus mewn gwlad estronol. Yn 1848 yr oedd dan olygydd cyntaf y *Traethodydd* yn y Bala; wedi tair blynedd yno, aeth i'r Alban, i Brifysgol Edinburgh, lle cymerodd ei M.A. yn 1855. Aeth i'r weinidogaeth, a bu'n allu mawr er daioni yng Nghymru am ddeng mlynedd fel gweinidog y Methodistiaid yn Llanidloes. Ar ol marw'r Parch. John Phillips, dewiswyd Mr. Rowlands i lenwi ei le fel Prif-athraw Coleg Athrawol Bangor. Bu yn y swydd hon hyd y flwyddyn ddiweddaf, ac yn ystod ei lywyddiaeth cydnabyddid fod Coleg Athrawol Bangor yn un o'r colegau athrawol uchaf yn y deyrnas; ac y mae yn dal ei dir, yr wyf yn meddwl, hyd heddyw. Er ei fod wedi rhoddi'r llywyddiaeth i fyny, y mae Mr. Rowlands yn dal perthynas agos a'r coleg drwy yr ysgrifenyddiaeth.

Ni wasanaethodd Mr. Rowlands Gymru ar draul anghofio ei enwad ei hun. Y mae yn un o'r pregethwyr mwyaf llafurus sy'n perthyn iddo, ac yn un craff a thirion ar bwyllgor. Cafodd bob anrhydedd fedr y Methodistiaid ei roddi iddo,—bu'n Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd yn 1881, ac yn Llywydd y Sasiwn Gyffredinol yn 1890.

Er hynny, dyn cenedl ydyw, ac nid dyn sect. Fel apostol dirwest ac fel golygydd y *Traethodydd*, y mae wedi gwneyd gwaith amhrisiadwy, gwaith yr erys ei ddylanwad ar fywyd Cymru byth. Fel golygydd cylchgrawn meddylgar y mae a fynnom ag ef yn awr.

Mewn rhyw fath o gysylltiad a'r *Traethodydd* y dechreuodd ysgrifennu Cymraeg. Ar gais Dr. Edwards, ysgrifennodd erthygl ar John Milton i'r *Methodist;* y canlyniad oedd cael gwahoddiad i ysgrifennu ar yr un testun i'r *Traethodydd*, yr hwn oedd dan yr un olygiaeth, — Dr. Edwards a Roger Edwards. Ac yn 1852 ysgrifennodd ddwy erthygl ar "Weithiau Rhyddieithyddol Milton." Yn 1853 ysgrifennodd erthygl arall ar wneyd y goreu o'r ddau fyd. Yn 1862 ail ddechreuodd ysgrifennu, gydag erthygl nodedig o ddyddorol, — un ddeffrodd lawer i feddwl,—ar ddarganfyddiadau yn yr Aifft. Y Daucanmlwyddiad, Francis Bacon, Y Gair yn y Cnawd ac yn y Llyfr, Gweithodd Dr. Cunningham, Hen Emynnau, y Ddau Drichanmlwyddiad, Yr Iesu a'i ddilynwyr,—amlhaodd ei erthyglau, a gwelwyd gryfed a thlysed oedd ei Gymraeg. Ac yn 1865 daeth yn olygydd y *Traethodydd*.

Nid gwaith hawdd oedd cadw safon y *Traethodydd*, a buasai llawer un yn dychryn rhag y dasg. Cychwynasid ef yn 1845, ac yr oedd wedi dwyseiddio ac eangu ysbryd Cymru yn yr ugain mlynedd hynny. Syniad Dr. Edwards oedd ei gychwyn, Roger Edwards roddodd iddo ei enw. Yn y Bala, yn haf 1844, y penderfynodd y ddau ei ddwyn allan, a'r ddau'n olygyddion. Yn 1879 dywedodd Dr. Edwards brofiad llawer

golygydd,—"Y mae'n amheus a fuaswn mor barod i ymgymeryd â'r olygiaeth pe gwybuaswn ar y cyntaf yr holl drafferth oedd i ganlyn." Rhoddodd y *Traethodydd* ynni newydd i feddwl Cymru, trwy agor llenyddiaeth gwledydd ereill o'i flaen, a thrwy dyneru ysbryd chwerw plaid. "Dywedwyd wrthyf," ebe Dr. Edwards, gan rai oedd wedi cael mantais i wybod, i'r *Traethodydd* fod yn foddion arbennig i roddi diwedd ar y cyndyn ddadleu, ac i leddfu teimladau y gwahanol enwadau at eu gilydd, trwy iddo ddangos fod mwy o wirionedd gan bob plaid nag a feddylid gan y pleidiau ereill." Canmolai y Dr. Owen Thomas gyfrolau'r *Traethodydd* fel yr arweinydd goreu, mewn Cymraeg eglur, i gylchoedd uchaf Athroniaeth a Diwinyddiaeth. Ymysg ysgrifenwyr y flwyddyn gyntaf yr oedd John Hughes Lerpwl, Eben Fardd, Dr. Parry, David Charles Caerfyrddin, Henry Rees, Glan Alun, David Jones Treborth, John Phillips, Owen Thomas, John Hughes Pont Robert, John Owen Ty'n Llwyn, Richard Humphreys, James Williams, a Morris Davies. Yn y blynyddoedd wedyn daeth ysgrifenwyr ereill, —John Mills, Gwilym Hiraethog, Edward Morgan, Ieuan Gwynedd, Hugh Owen, Kilsby, Thomas Phillips, Tegidon, Henry Richard, Ioan Pedr, J. R., Caledfryn, Islwyn, Ceiriog, David Charles Davies, a llawer sydd eto'n fyw.

Erbyn 1865, er fod y *Traethodydd* wedi ennill lle yng Nghymru, nid oedd gwaith golygydd yn ddim llai. "Y mae ei ddarllenwyr yn awr yn sefyll ar lefel sydd gryn lawer yn uwch, a phrin y gellir disgwyl iddynt deimlo y fath ddyddordeb cyffrous ynddo ag a wnelid pan ydoedd y cyhoeddiad yn ieuanc ac yn newydd." Ond y mae'r hen gyhoeddiad mor newydd ac mor dderbyniol ag erioed. Nid oes dim yng Nghymru wedi eiddigeddu wrth ei lwyddiant, nac wedi treio cymeryd ei le. Y mae'n fyw eto, ymysg lliaws o gyhoeddiadau newyddion, yn llenwi bwriad ei gyhoeddwyr o hyd. Ei neges ydyw dysgu'r Cymry i feddwl, ac i feddwl meddyliau eang a rhyddfrydig. Y mae pob man yn faes iddo,—Geneva a Llandrindod, Llydaw a Chanan a thu hwnt i'r Mynyddoedd Creigiog. Edrydd hanes Plato ac Owen Gruffydd o Lanystumdwy, Bacon ac Ann Griffiths, Newton a Thudur Aled, Goethe a Jones o Ramoth.

Yr un yw y *Traethodydd* wedi 1865 a chyn hynny. Y mae'r testynau yr un mor ddyddorol,—Ioan Aurenau a John Howe, Brutus a Goronwy Owen, Vergil a Mr. Gladstone, Abraham Lincoln a Richard Jones Llanfair. Gwelir yn eglur, oddiwrth gynhwysiad cyfrol 1866 fod y golygydd newydd yn gwybod sut i roddi cyfrol iawn i'w dderbynwyr, a mwynhad mawr oedd cael cyfieithiad Owen Jones o'r Antigone, Cwm Tawy Thomas Levi, Hanes Teulu Trefeca gan Islwyn, ac Ymdaith Gwŷr Sherman gan Thomas Apsimon. Yn yr un gyfrol, hefyd, yr oedd barddoniaeth gan Islwyn, Ceiriog, Tafolog, Ossian Gwent, Llystyn, a Gaerwenydd, ac erthyglau grymus ac amserol. O hynny hyd heddyw, y mae'r *Traethodydd* yn dal yn ei flas, ac y mae'r golygydd yn cael gan ysgrifenwyr goreu Cymru roddi eu gwasanaeth i'w cenedl drwyddo.

Beth ydyw dylanwad y golygydd ei hun ar y *Traethodydd*? Yn un peth, y mae a fynno'r erthyglau fwy a Chymru'n union-gyrchol nag o'r blaen. Peth arall, y mae a fynnont fwy a phynciau'r dydd. Ni adawodd y golygydd hoff bynciau efrydiaeth ei ieuenctyd,—cawn ysgrifau yn 1866 ar Stuart Mill a Syr William Hamilton, yn 1875 ar waith olaf John Stuart Mill.

Ond ar bynciau y dydd yr ysgrifenna rymusaf,—Beth am yr Eglwys Sefydledig? Rhyddhad Crefydd, Mr. Gladstone, Adroddiad Cyngor Addysg 1870, Byrddau Ysgol, Cynhygiad Mr. Miall, Deddf Addysg 1870, Yr Ysgol Sabothol, Er 1830, Etholiad 1874, Y Brifysgol, Y Senedd-dymor, George Müller, y Cwestiwn Dwyreiniol, a thestynau tebyg. Ond ei hoff bwnc, o holl bynciau'r dydd, ydyw dirwest; y mae ei ysgrifau ar y pwnc hwn yn fwy grymus na'i ysgrifau ar addysg ac ar y Beibl, y mae'n ddiameu mai efe a ysgrifennodd oreu o neb ar ddirwest. Yn hanes dirwest yng Nghymru, ceisir mesur dylanwad ei erthyglau amserol,—Y Fasnach Feddwol, Gwinoedd y Beibl, Anghymedroldeb, Pwyllgor yr Arglwyddi ac Anghymedroldeb, Clefydon Diweddar, Cynhygiad John Roberts, Cychwyniad yr achos dirwestol yng Nghymru, Cau y Tafarnau ar y Sabath, Cynllun Gothenburg, y Fasnach mewn Helbul. Buasai'r erthyglau dyddorol a nerthol hyn, pe cyhoeddid hwy'n llyfr, yr hanes goreu fedrid gael am ddirwest yng Nghymru.

Wrth gadw nodweddion goreu'r *Traethodydd*, nid ydyw'r golygydd yn boddloni arnynt. Y mae'n barod i newid, os newid fydd y goreu. Pan oedd ereill yn gwawdio "orgraff Rhydychen," cyhoeddodd Mr. Rowlands ei fod ef er ys llawer o amser yn teimlo'n anfoddlawn i'r dybliadau tarddiadol, ac i'r gogwyddiad oddiwrth Gymraeg llafar mewn ufudd-dod i'r hyn a sefydlasai Pughe fel Cymraeg safonol. Wedi ymgynghori â John Rhys a J. Morris Jones, daeth orgraff syml a naturiol Rhydychen yn orgraff y *Traethodydd*.

CANEUON GWLADGAROL.

Nid ydyw ysbryd Ceiriog a Mynyddog wedi marw; a da dd gennyf gyhoeddi ambell i gasgliad bychan fel h yn sy'n dangos fod y beirdd dan ddylanwad y Deffroad. Gwelir od un o'r caneuon wedi ei chanu yn yr Amerig, an nai i John Jones o Dal y Sarn.

I. FY NGWLAD YN BYWHAU.

'RWY'N hoffi caniadau fy nydd, gyfaill,
Yn caru emynnau fy nydd;
Nid wylo mewn gwlad sydd yn gaeth yr wyf,
Ond canu mewn Cymru sy'n rhydd.

Rwy'n cofio cadwynau fy ngwlad, gyfaill,
A thincian gefynnau fy ngwlad;
Ac O, bu fy nghalon yn gwaedu'n hir
Yn nolef hen froydd fy nhad.

Rwy'n cofio y gweithiwr ar lawr, gyfaill,
Fe'i clywais yn gruddfan ar lawr;
A throed llawer un ar ei wddwf gwael,
Ac yntau yn *marw* bob awr.

Fe gerddais i fynwent fy mro, gyfaill,
Hir-dremiais ar fynwent fy mro;
A beddau y tlawd gan wŷr mawrion gaent
Eu hagor a'u llanw bob tro.

Tylodion fy ngwlad yn eu gwaed, gyfaill,
Yn syrthio, yn trengu 'n eu gwaed;
Cleddyfau'r pendefig 'n eu taro i lawr,
A'u cyrff fel y ffyrdd dan ei draed.

Breuddwydiwyd fod Arthur yn dod, gyfaill,
A chenid fod Arthur yn dod;
Ac heddyw mae Rhyddid a'i hudgyrn aur
Yn swnio dynesiad ei droed.

Penmaen Mawr. GWYLFA.

II.—CLODDIAU'R GWEIRGLODDIAU

HEN hen gloddiau
Y gweirgloddiau,
Maent yn geimion,
Ond yn dlysion,
Ac yn anwyl gan fy nghalon.
Gyda'u godrau
Treigla ffrydiau,
Hyd ro gleision,
A'u hymylon
Wisgir gan y grug bach gwyrddion.

Yn eu hochrau,
Gwelir weithiau
Feini llŵydion;
A'r cen brithion,
Wisg eu bron â gem a choron.
Rhyngddynt hwythau
Tyf llanerchau
Coed llus tewion,
Gwyrdd-frig, tlysion,
Cymysg gyda'r glaswellt byrion.

Pan hyd lannau
Y mân ffrydiau
Ceimion, geirwon,
Ni fydd ddichon
Iddynt yno fod yn union.
Ond mae 'u gwarrau,
Ar hyd mannau
Gwastad, sychion,
Llawn mor geimion,
A mwy anwyl gan fy nghalon.

Pwy fu yno
Yn eu gweithio?
Pan gaent ennyd
O seguryd,
Beth oedd osgo eu meddylfryd?
Wnaent ymgomio,
A phroffwydo
Am gwrs bywyd?
Gloddiau'r cynfyd
Rhoddwch hanes eich hieuenctyd.

Cambria, Wis. D. R. JONES.

III.—BANER CERDDORIAETH.

HEN wlad y caniadau sy'n dringo
I sylw y byd yn awr;
Mae baner cerddoriaeth yn chwifio
Ar ben pob mynydd mawr;
Os collodd ei rhyddid,
Ni chollodd ei chân;
Mae hon yn ei hysbryd,
Fel ysol dân—
Yn fflam anorchfygol o hyd;—
Dan faner cerddoriaeth,
Myn weld goruchafiaeth,
Cyn hir, ar holl wledydd y byd.

Dan faner ardderchog cerddoriaeth,
Ymrestrwn, fawr a mân;
Daw, daw, yn y man fuddugoliaeth
I Gymru, gwlad y gân;—
Yr uchaf yw'r Wyddfa
Yng Ngwalia Wen;
Ei chopa ddyrchafa
I entrych y nen,
Uwchlaw y mynyddoedd i gyd;
A'i phen fel yr Wyddfa,
Ddyrchafa hen Walia,
Cyn hir, uwch holl wledydd y byd.

Mae gennym yng Nghymru fynyddig,
O dan y faner hon,
Ryw lu o arweinwyr profedig,
Ni awn ymlaen yn llon;—
Nid rhyfel a distryw,
A bloeddio i'r gad,
Yw'r twrf glywir, heddyw,
Ar hyd ein gwlad—
Sain cân sydd yn llenwi pob man;
Rhyw fôr o gerddoriaeth
Yw'r holl Dywysogaeth
Sydd fyth yn ymchwyddo i'r lan.

Hen wlad y caniadau sy'n dringo
I sylw y byd yn awr;
Mae baner cerddoriaeth yn chwifio
Ar ben pob mynydd mawr;
Os collodd ei rhyddid,
Ni chollodd ei chân;
Mae hon yn ei hysbryd,
Fel ysol dân—
Yn fflam anorchfygol o hyd;—
Dan faner cerddoriaeth,
Myn weld goruchafiaeth,
Cyn hir, ar holl wledydd y byd

Betws y Coed. ABBEY.

IV.—HEN GYMRU FYNYDDIG

Cyfansoddwyd y llinellau hyn pan yn tramwy yn ddiweddar trwy ran o Gymru.

O Gymru fynyddig, magwrfa y cedyrn,
Ti ydwyt i'm golwg yn hyfryd a hardd,
Pob mynydd a dyffryn o'th fewn sy ddymunol
I swyno darfelydd ac awen y bardd;
Yr ysbryd gwladgarol sy'n codi i fyny
I ganu dy glodydd yn uchel i'r nen,
I ddatgan i'r bobloedd a'r byd sydd o'th amgylch
"Mai Cymru fynyddig fydd eto yn ben."

Er gwaethaf gorthrymder a thrais dy elynion,
'Rwyt eto yn aros yn uchel dy fri,
Ni roddwyd i lawr d'urddasol ogoniant,
Mae'th feibion a'th ferched yn ffyddlon i ti;
Fe geisiwyd, do, ganwaith, i lethu dy heniaith,
Ei gosod yn sathrfa a'i chuddio dan len.
Ond nofiodd yn dawel yng ngwyneb pob cenllif,—
Iaith Cymru fynyddig fydd eto yn ben.

Mae Cymru'n ymddeffro i fynnu ei hawliau:—
Ni fyn yr un estron yn llywydd ei thir,
Myn ryddid crefyddol a gwladol i'w meddu
A'i gwneyd yn debycach i'r "nefol wlad bur."
Yn awr, fy nghydwladwyr, edrychwch i fyny,
Na chuddiwch eich hunain mewn gwarth a sarhad,
Mae'n cyfnod caethiwus yn cyflym fynd heibio,
Mae'r dyddiau yn nesu cawn GWEL RYDDHAD.

Birkenhead. HUGH PARRY.

V.—HEN GESTYLL ANWYL CYMRU.

(Y GERDDORIAETH GAN R. S. HUGHES, R.A.M.)

Hen gestyll anwyl Cymru
Enynnant wladgar dân,
Mewn rhyddiaeth a barddoniaeth,
Mewn calon ac mewn cân;
Os rhoddwyd eu preswylwyr
Gan ormes yn y bedd,
Mae delw anfarwoldeb
Yn aros ar eu sedd.

Hen gestyll anwyl Cymru,
Fel drych adgofion lu,
Trwy'r oesau adlewyrchant
Wroldeb Cymry fu,
Pan gwympa cestyll gormes,
Cadernid, trais, a brad,
Bydd cestyll anwyl Cymru
Yn addurn ar ein gwlad.

Hen gestyll anwyl Cymru
Fel tlysau ar ei bron,
Yn wobrwy am wroldeb
Gwladgarol feibion hon;
Fel glyna'r eiddew gwyrdd-liw
Yn ffyddlon wrth y mur,
Y glynodd eu calonnau
Wrth egwyddorion pur.

Hen gestyll anwyl Cymru,
Gyd-safant hyd y bydd
Yr olaf Gymro'n cefnu
Ar wyneb Cymru rydd;
Pan losgu'r greadigaeth
Hwy fyddant yno'n ben,
Yng nghanol fflamau du-goch
Dywyllant haul y nen!

BRYFDIR.

VI.—CADER FRONWEN.

Alaw,—*Ar hyd y nos.*

I ben Cader Fronwen fawr-fri,
Ar hyd y nos,
Awn i weld yr haul yn codi
Ar hyd y nos,
Dringo wnawn ei chrugog lethrau,
Ar hyd llwybrau stormydd oesau,
Lle bu'r Tylwyth Teg yn chwarau,
Ar hyd y nos.

Deffro wnawn y grugieir clegrog,
Ar hyd y nos,
Gysgant yn eu cestyll brwynog,
Ar hyd y nos,
Syllwn ar y Ddyfrdwy lydan,
Dan belydrau'r lleuad ddiddan,
Ar y doldir fel sarff arian,
Ar hyd y nos.

O! mor swynol yr olygfa,
Ar hyd y nos,
Yn nhawelwch gwlad yr eira
Ar hyd y nos,
Eistedd ar glustogau anian,
A'r cymylau gwynion pur-lan
Fydd ein diogel ddiddos hugan,
Ar hyd y nos.

Ar ei choryn gwnawn orffwyso,
Ar hyd y nos,
Lle bu Glyndŵr gynt yn gwylio,
Ar hyd y nos;
Cofgolofnau ein gwrolion
Ydyw ein mynyddau mawrion,
Dringwn ninnau seddau'r dewrion,
Ar hyd y nos.

Cynwyd. EDNANT.

VII.—MAES CROGEN.

Nis gallaf beidio rhoddi un o gerddau Ceiriog fel amen, trwy ganiatad y cyhoeddwyr,—Hughes a'i fab.

Alaw,—*Y Fwyalchen.*

Y frwydyr aeth drosodd o'r diwedd,
Gorchfygwyd y gelyn yn llwyr,
A'r ser edrychasant ar Wynedd,
A'r bore ddilynodd yr hwyr.
'Roedd yno rai ieuainc yn gorwedd,
Am sefyll dros Wynedd yn bur,
Yn fore daeth mamau a gwragedd,
I chwilio am feibion a gwŷr.

Fe ganai mwyalchen er hynny,
Mewn derwen ar lannerch y gâd;
Tra'r coedydd a'r gwrychoedd yn lledu,
Eu breichiau dros filwyr ein gwlad.
Gorweddai gŵr ieuanc yn welw,
Fe drengodd bachgennyn gerllaw,
Tra'i dad wrth ei ochr yn farw,
A'i gleddyf yn fyw yn ei law!

Gan frodyr, chwiorydd, a mamau,
Fe gasglwyd y meirwon ynghyd,
Agorwyd y bedd, ac fe'i cauwyd,
Ond canai'r fwyalchen o hyd.
Bu brwydyr Maes Crogen yn chwerw,
Gwyn fyd yr aderyn nas gŵyr
Am alar y byw am y meirw,
Y bore ddilynodd yr hwyr.

Y TYLWYTH TEG.

I.

TRA'N darllen nodiadau yng Nghymru ar ofergoelion Sir Aberteifi, daeth lliaws o hen ystraeon y dyddiau gynt i fy nghof, rhai fyddai yn cael eu hadrodd gan yr hen bobl, ar hirnos gauaf, yn neillduol felly ar ben pentan Ifan y Gof. Yr oedd rhai o honynt yn ddigwyddiadau gwirioneddol a hynod, rhai o honynt o gyfres Hud a Lledrith, a rhai o honynt yn codi o ddychymyg meddwl ofnus ac ofergoelus.

Un o'r rhai mwyaf diniwed ac ofergoelus a fyddai yn mynychu efail yr hen Ifan oedd John Davies yr *Exciseman*. Deuai John yma yn aml i guro pedolau i geffyl ei dad o'r enw "Bob," ac ni cheid byth sewrs gyda John heb iddo ddweyd rhywbeth am Bob. Bu John ym moreu ei oes yn *exciseman* yn yr Iwerddon; ond collodd ei le yn fuan. Yna gwnaeth ei dad iddo ddysgu crefft saer, ac o dipyn i beth dechreuodd John hefyd ar waith paentiwr. Ond mae'n rhaid cyfaddef na dderbyniodd un o'r ddwy grefft lawer o urddas o'i chysylltiad âg ef. Yr oedd tueddfryd a thalent John yn rhedeg yn hollol i gyfeiriad arall, sef cerddoriaeth leisiol ac offerynol. Efe oedd meistr y gân yn yr eglwysi a'r capeli blaenaf yn y rhan yma o'r sir am amser maith. Medrai ganu'r *flute*, *clarionette*, *bass viol* yn gelfgar, ac yr oedd wedi mynd dros brif weithiau Handel, Mozart, Haydn, a Beethoven*, tra un o'i *favourites* oedd cân y *witches* ym "Macbeth." Ni welid byth mo John Davies heb ei *flute* yn ei boced, a mynych, mynych, y byddai John yn "rhoi tonc" iddi.

Tua'r flwyddyn 1860 yr oedd adeiladydd o Aber Aeron yn codi ficerdy yn Nantcwnlle, oddeutu naw milltir o Aber Aeron, nid nepell o Langeitho. Yma yr oedd John yn gweithio fel paentiwr, ac ar hanner wythnos ryw dro anfonwyd ef ar neges i Aber Aeron. Cychwynnodd John yn ol o'r dre yn y prydnawn, ac yr oedd ganddo ei ddewis o ddwy ffordd,—naill ai trwy ddyffryn Aeron heibio Dalsarn, neu dros ucheldir Cilcenin heibio y Rhiwlas. Unig iawn oedd yr olaf; ond yr oedd yn ferrach o ddwy filldir. Dewisodd John hi, a brysiodd i gyrraedd pen ei daith cyn nos. Bu chwant mawr arno droi i mewn i'r "Commercial" yng Nghilcenin i weld ei hen ffrynd Llywelyn, ond cofiodd fod yr hwyr yn neshau, a fod yn rhaid iddo basio heibio bwganod y rhosydd a chylch y Tylwyth Teg ar ben y mynydd. Wedi cerdded milltir ymlaen daeth at y "Rhiwlas Arms," lle byddai y gŵr ymadroddus Ifi'r Groesffordd yn wastad yn y cornel a'i ateb yn barod i bob gofyniad. Meddyliodd John,—'nawr ei fod o fewn tair milldir i ben ei daith,—mai purion peth fyddai cael un peint o gwrw Ifi i'w gryfhau a'i wroli i gwrdd a'r ysbrydion. Aeth i mewn, ac yma yr oedd Daniel Roli a llawer o hen gyfeillion John. Yfwyd ychwaneg nag un peint, ac ar ol tynnu ei *flute* o'i boced, anrhegodd John y cwmni â llawer o'r hen alawon Cymreig,—"Ar Hyd y Nos," "Glan Meddwdod Mwyn," "Llwyn On," &c. Erbyn hyn yr oedd yn wyth o'r gloch,—yng nghanol mis Hydref. Cychwynnodd John o'r ty gan fostio wrth y cwmpeini nad oedd arno ddim ofn; ond, druan o hono, mor gynted ag yr aeth allan i'r tywyllwch a'r distawrwydd dechreuodd ei galon guro yn gyflym, gyflym. Er hynny aeth ar hyd y ffordd o'r Groesffordd tuag at yr Hendraws, a throiodd i'r ffordd oedd yn arwain yn gywir i Nantcwnlle. Am gryn bellder nid oedd clawdd ond un ochr i'r ffordd, a rhosdir maith agored yr ochr arall. Gwyddai John ei fod i basio heibio i Dy-clottas, a disgwyliai bob munud weled goleuni yr hen wraig a drigai ynddo, Peggi Ty-clottas. Trwy ryw anffawd yr oedd John wedi troi o'i ffordd i'r rhos; ond gwelodd oleuni o'i flaen, ac aeth ymlaen yn ffyddiog. Dilynodd y goleuni am gryn amser, ond ni ddaeth at yr un ty, a sylwai fod y goleuni yn trafaelu ac yn rhoi ambell naid fechan.

Ar doriad gwawr drannoeth, clywai yr hen Beggi Ty-clottas, a hithau rhwng cwsg ac effro, ryw fiwsig hynod, hynotach na dim a glywsai erioed o'r blaen. Meddyliodd yn gyntaf mai toili oedd yno wedi dod i'w rhybuddio o'i mharwolaeth agos. Yr oedd credu yn y toili yn rhan o Gyffes Ffydd Peggi. Ond wrth wrando yn astud, sylwai Peggi mai nid yn y cywir lleddf yr oedd y miwsig, ond ei fod o ysbryd chwareus, ysgafn, a nwyfus. Nid toili oedd yno felly. Meddyliodd wedyn mai rhyw aderyn oedd yn pyncio. Yr oedd Peggi wedi clywed yr ehedydd lawer gwaith ar doriad gwawr yn telynori moliant i'w

* Teulu rhyfedd am gerddoriaeth oedd teulu ei dad, yr hen James Davies. Ar brydiau byddai y tad yn chware y *clarionette*, James ei fab yn chware y crwth, John y *bass viol*, ac Elisabeth eu chwaer yn rhedeg dros dannau y delyn ac yn canu â'i llais melus. Nodweddid pob un o honynt â thrwyn Rhufeinig, ac yr oedd pob un o honynt dros chwech troedfedd o daldra. Efallai y cawn ysgrif ar y teulu hwn ryw bryd.

Greawdwr. Yr oedd hefyd wedi clywed y cornicyll ac adar ereill yn torri ar unigedd ei phreswylfod. Ond ni chlywodd erioed dderyn fel hwn yn canu, canu, o hyd heb orffwys eiliad. O'r diwedd cododd o'i gwely ac aeth i'r lan i'r rhôs i weld beth oedd yno. Er syndod iddi gwelai ddyn yn eistedd ar ben twmpath, ac yn chwythu yn gyson i ryw offeryn, heb wneyd un sylw o Peggi. Aeth Peggi i ymyl y dyn a gofynnodd mewn llais uchel,—"Beth ych chi yn wneyd fan hyn?" Dyma'r dyn yn cyffro, peidio a chwythu, a chydag edrychiad sarrug, dywedodd,—"O'r ——, yr ych wedi spwylio'r cwbl; yr oedd hi *just* a mynd yn fargen." Danfonwyd Peggi ymaith, a dechreuodd John chwareu drachefn, ond i ddim effaith. Ni ddaeth y cwmni yn ol i orffen y fargen, ac mewn hwyl ddrwg aeth John i'r "Rhiwlas Arms" i gael peint i wlychu ei wefusau oedd wedi bod yn chwythu yn galed drwy gydol y nos.

Ar ol clywed y stori am John a'r Tylwyth Teg, holais ef y cyfle cyntaf a ges, sut y bu arno. Wedi desgrifio fel y collodd ei ffordd, ac fel y dilynodd y goleuni, aeth John ymlaen yn ei ddull ef o siarad (yr oedd hanner ei eiriau yn Saesneg yn wastad):—"Wrth ddilyn y gole, bachgen, gweles o'r diwedd *ring* a *lot* o *ladies* bach yn downsio ynddi, a thyma un honinhw yn cynnryd fy mraich a dechreues inne ddownsio. Ond ymhen spel fach dyma'r *Queen*, bachgen, yn dod ymlan ata i o'r canol, ac yn gofyn 'O ba le rych chi'n dod.' Gwedes inne,—'O wlad y ddaear,' ac mai *painter* own ni. Dywedodd hithe nad oedd eise *painter* yno, achos nag oedd dim byd yno yn mynd yn hen. A'roen nhw yn *beautiful*, bachgen! Yna tynnes i fy *flute* allan, a weloch chi'r rioed shwt beth, mor gynted a wnes i roi tipyn o miwsig iddi nhw. Yr oedd yno boiti cant o *ladies* bach, tebyg iawn o ran *size* i Mary chwaer teilwr bach Dihewid,* i gyd mewn *white dresses*, a rheini ddim yn dod i lawr ymhellach na'u penliniau—tebyg iawn, fachgen, i'r *ladies* bach weles i mewn *Pantomime* yn Llunden, ond eu bod yn lanach o lawer. Chwareues gwpwl o *Irish* airs iddynt, ond nid oeddynt yn hidio dim am daninhw, nag am *Scotch* nag *English* chwaith. Dywedodd y *Queen* eu bod nhw o *Welsh descent*, ac yna rhoes i rai o "*Gems*" Owen Alaw iddynt, a dyma hi *off*, y *Queen* a'r cwbl yn *regular merry-go-round*. Does i yn fuan yn *favourite* mawr yno. Gofynnes am lymed i yfed iddynt, ond dealles eu bod nhw yn *teetotals*. Fe syrthies i mewn cariad ag un o'r *ladies*, a gofynnes i'r *Queen* a gawswn i hi. Mi 'wedes wrthi fod gennyf geffyl o'r enw Bob, a chart† o'm gwaith fy hun. Atebodd hithe nad oeddyn nhw yn arfer *mixio* a phobl y ddaear, ond am fod fi shwt gantwr y gwnae hi gonsentio ar y *condition* fy mod i a'r *lady* fach yn mynd i ben Trichrug yn fisol ar y nos "*full moon*," i roi tro am danynt. 'Rown i'n meddwl, bachgen, am yr hen Bob yn cael ei wala o geirch am fynd i ben y Trichrug i gario y *lady* fach a fi i'r lan, tra yr oedd y *Queen* yn cydio mewn crochan a'i lond o aur er mwyn ei roddi i fi yn waddol. Ond pan own i *just* yn cydio ynddo, dyma'r henBeggi Ty-clottas yn gwaeddi arna i, ac yn *spwylo'r* cwbl. Mor gynted ag y gwelodd y *ladies* yr hen Beggi, dyma nhw i lawr i'r ddaear drwy ryw *steps*, ac yr oent wedi *vanisho* cyn gallwn i ddweyd 'Jack Robinson.' Chwareues i wedyn ac eilwaith ond i ddim diben, bachgen. Yr oedd yn *too late*, a byddai *transporto* yr hen Beggi yn rhy fach o lawer."

Pan mewn gwth o oedran priododdd John, ac wedi gweled ei dri-ugain mlwydd aeth i Forgannwg i edrych am waith er cynnal ei deulu. Yr oedd chwilio am waith mewn ardal ddieithr yn beth chwithig i John, a galwodd heibio i'w gyfaill bore oes, yr hybarch Archddiacon Griffiths, Castell Nedd. Fel arfer, gwnaeth y gŵr parchedig ei ran iddo, ac aeth John i wasanaeth adeiladydd yn Resolven. Bu yno am ddwy flynedd, ac adnabyddid ef gan fechgyn Morgannwg fel "yr hen gantwr." Wedi dod gartref drachefn clywid John yn aml yn dweyd,—"Oni bai am yr hen Beggi Ty Clottas ni fuasai raid i fi i fynd i gario *mortar* i Resolven." Ychydig flynyddau yn ol bu John farw, wedi cyrraedd o'i gryfder ymron bedwar ugain mlynedd, yn credu yn ddiysgog ym modolaeth y *ladies* bach, ac yn coleddu teimladau drwg at yr hen Beggi Ty Clottas.

II.

Rhag ofn y bydd rhai o'ch darllenwyr yn barod i anghredu stori John Davies, am ei fod er yn blentyn yn bleidgarwr i'r Tylwyth Teg, ac yn rhagdueddu i gredu ym modol-

* Maintioli'r "teilwr bach" yw 3 troedfedd ac 8½ modfedd, ac y mae'n pwyso 65 o boundau. Yr oedd Mary ei chwaer fodfedd a hanner yn dalach. Mae John Harris yn byw yn awr—yn 77 mlwydd oed—ychydig y tu allan i Aber Aeron.

† Yr oedd John yn ystyried ei gart yn un o orchestion ei fywyd. Yr oedd wedi bod yn ei adeiladu ar lofft stabal; ond erbyn ei orffen—och fi!—yr oedd yn rhy fawr i ddod allan trwy y drws. Achosodd hyn ddifyrrwch mawr, a bu raid cael masiwn i dynnu y wal i lawr. Sylwyd hefyd fod pen blaen y cart yn lletach na'i ben ol; ond er ei holl ddiffygion, mawr oedd balchder John Davies pan welodd Bob ynddo am y tro cyntaf.

aeth y teulu, adroddaf hanesyn arall a glywais o enau tyst sydd hyd y dydd hwn yn methu credu yn lan ym modolaeth y Tylwyth Teg, er nas gall gael unrhyw esboniad arall ar amgylchiad hynod yn ei fywyd. Cymerodd y digwyddiad hwn le hefyd ar ganol dydd, nid fel cyfarfyddiad John Davies a'i *ladies* bach yn y nos. Yr oedd yma hefyd ddau dyst,—dau ddyn cyfrifol yn gweld yr un peth. Tystiolaeth cyfaill oedd tystiolaeth John Davies; tystiolaeth gelyn yw tystiolaeth David Evans. Y mae David Evans,—sydd yn byw o dan arwydd y "Llew Coch" yn Aber Aeron, — yn un o'r dynion mwyaf blaenllaw yn ein tref fechan, mewn materion eglwysig a gwladol. Y mae wedi bod yn llanw y swydd o arolygwr yr Ysgol Sul yng nghapel yr Anibynwyr yn Aber Aeron. Ymofynnir â David Evans mewn materion dyrus a phwysig, ac y mae'n eistedd ar bwyllgorau o bob math mewn cysylltiad â thref Aber Aeron. Nid yw yn ofergoelus ar un pwnc, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Mewn gair, y mae yn ddyn synhwyrol a geirwir, ac yn barchus yn y gymydogaeth y preswylia ynddi. Gwel y darllennydd felly fod ei dystiolaeth yn werth ystyriaeth.

Ym mis Awst, 1862, galwedigaeth David Evans oedd dilyn wagen goed; ac yng nghwmpeini Evan Lewis o'r Fron Wilym,—y ddau o gymydogaeth Llanarth,—aeth i mofyn llwyth o goed deri i Aberhonddu at adeiladu llongau yn y Cei Newydd. Ar eu ffordd adref, wedi dod heibio i'r *Feathers*, y tu yma i Lanwrda, wrth ddyfod i'r lan i Gwmdwr, rhoddasant hamdden i'w ceffylau, ar gyfer Maestwynog. Yr oedd yn ddau o'r gloch ganol dydd, ac mewn cae cyfagos o dan y ty yr oedd medelwyr yn medi gwenith. Wrth edrych ar y fron serth tu cefn i'r ty,—lle yr oedd coed deri wedi eu torri y flwyddyn flaenorol, a glasgoed tew yn tyfu ar y boncyffiaid,—gwelodd D. Evans oddeutu hanner cant o ryw sopynau bychain, fel y tybiodd ar yr olwg gynta. Ond wrth edrych yn fwy craffus, sylwodd eu bod yn symud, ac yna meddyliodd mai medelwyr oeddynt. Yr oeddynt oll wedi gwisgo yr un fath yn hollol. Cerddodd y bobl hyn un ar ol y llall i'r lan ar hyd llwybr troellog drwy ganol y fron, a'r cerddediad yn gyflym iawn. "Ifan! Ifan!" ebai David Evans, "beth yw'r bobol sydd yn mynd i'r lan y llwybr drwy ganol y glas dderw acw?" Cyn ei fod wedi cael amser i wneyd rhagor o sylwadau, yr oedd y blaenaf o'r bobl wedi cyrraedd gwastadedd bychan crwn ar ben y fron. Dyna'r lleill yn ei ganlyn yn gyflym; ac fel y byddai pob un yn dod i'r lan, cymerent naid i ddawnsio, a ffurfient gylch. Gan fod ochr bellaf y cylch o olwg y ddau sylwedydd synedig, neidiasant i'r lan i ben y wageni, a safasant ar eu traed. Yna gwelent y cylch yn grwn. Ar ol dawnsio am ysbaid fer, dyma un o'r dawnswyr yn troi i fewn i ganol y cylch, a chanlynwyd ef o un i un gan y lleill, nes yr ymddanghosent fel scriw ebill. Yna diflanasant i'r ddaear. Ymhen ychydig dyma un yn corco i'r lan, ac yn edrych i bob cyfeiriad fel llygoden, a dilynwyd ef eto gan y lleill yr un modd. Yna wedi dawnsio fel o'r blaen am gryn ysbaid, aethant o'r golwg yr un modd a'r tro blaenorol, fel pe baent wedi gweled y ddau wagenwr oedd yn eu gwylio o fewn pedwar canllath iddynt. Yr oedd y ddau gyfaill wedi eu syfrdanu; nid oedd ganddynt yr un syniad beth oedd y bobl welent yn ymddwyn yn y fath fodd. Safasant am gryn hanner awr i edrych, ond nid ymddanghosodd y dawnswyr drachefn. O'r diwedd aethant ymlaen ar eu taith. Wedi dod ar draws hen wr yn torri cerrig, gofynasant iddo beth oedd y bobl oedd yn dawnsio ar ben y cylch tu cefn i Faestwynog. Atebodd yr hen wr nas gwyddai ef, ond ei fod wedi clywed ei dadau yn dweyd fod y Tylwyth Teg i'w gweled yno yn ei amser ef. Gwenodd y ddau gyfaill pan gawsant yr esboniad hwn. Yn nes ymlaen gofynnwyd yr un cwestiwn i ddyn yn trin clawdd drain, ond ni wyddai ef ddim. Wedi cyrraedd Cefn-sarth, adroddasant y stori i'r hen wr oedd yn gollwng y *gate*; ond chwarddodd ef am eu pennau. Y mae llawer, heblaw yr hen wr, wedi chwerthin am eu pennau wrth glywed y stori yn ystod y deng mlynedd ar hugain sydd wedi mynd heibio. Ond fel y mae'r Parchedig Ganon Silvan Evans yn dweyd yn *Ystên Sioned*,—"nid datod cwlwm yw ei dorri;" ac y mae rhywbeth yn y digwyddiad hwn yn wahanol i'r chwedlau cyffredin ynghylch y Tylwyth Teg. Yr oedd y ddau ddyn yn eu hamser goreu, nid oeddynt ofnog nac yn credu mewn bwganod neu y Tylwyth Teg; ni feddylient am ddim o'r fath beth pan y gwelsont y dynion yn dawnsio. Gwelodd y ddau y cyfan oll yr un wedd â'u gilydd; a siaradent â'u gilydd ynghylch yr hyn oedd yn myned heibio gerbron eu llygaid. Ai dyfeisio chwedl anwir a wnaethant? Nid oedd yn un fantais iddynt i dreio twyllo neb, ac nid oedd dim i'w cymell a'u hannog i ddyfalu anwiredd noeth, a cheisio gennym ei gredu. Y mae D. Evans heddi—er nad yw yn credu ym modolaeth y Tylwyth Teg—yn barod i gymeryd ei lw ar eirwiredd yr hyn a adroddir ganddo. Pwy, ar ol hyn, a wâd nad oes llawer o bethau cydrhwng y byd hwn a'r ysbrydol nad yw ein hathronwyr pennaf wedi dod hyd yn nod i gyffyrddiad âg ymyl eu gwisg?

III.

Yng nghân "John Davies, Glan Dŵr yn Nyfed,"—genedigol o Lanarth, Ceredigion—i'r afonig Llethi—(a gyhoeddwyd yn llyfryn yng Nghastell Newydd yn Emlyn yn 1868), cyfeiria yr awdwr at hen draddodiad oedd yn bod yn Llanarth am gartrefle y Tylwyth Teg ar ben y Bannau Duon. Dyfynnaf yr hyn sydd berthynol i'r testun hwn, ynghyd a sylwadau yr awdwr ar waelod y ddalen,—

"Ble mae dy ddechreu, Llethi hen,
A dechreu sydd i ti;
'Does dim heb ddechreu iddo'n bod,
Ond Duw dy ffrydiau di.

"Ai wrth y Bannau Duon draw,
Lle trig y Tylwyth Teg,
Gan chwareu'n lluoedd ar bob llaw,
Mewn dawns mor iach a chweg.

"Er lleied yw dy ffrwd pryd hwn,
Mae'n ddigon iddynt hwy
I neidio trosot 'nol a blaen,
Neu nofio'th ddyfroedd trwy.

"Paham mae gan ysbrydion pur
Fath hoffder yn y ffrwd;
'Does fan a garant yn y byd
Fel afon gain ddirwd."

"Y mae cefn uchel o dir i'r dwyrain-ddeheu o bentref Llanarth a elwir Y Bannau Duon; a'r traddodiad oedd bod y Tylwyth Teg yn byw yma. Yr oedd yno ys llawer dydd lawer o grugiau o *fatau* a thywarch. Ar ddydd heulog, cymylog, a gwyntog, neu ar noson loerog, gymylog, a gwyntog, gallasai edrychwr o draw feddwl bod y rhai hyn yn symud, yn ol y byddai y goleu a'r cysgod yn disgyn arnynt bob yn ail; a'u bod yn rhedeg yn gyflym hefyd pan fyddai y gwynt yn gryf ac yn gyrru y cymylau. Hyn, mae'n debyg, fu dechreuad chwedl y Tylwyth Teg ar y Bannau Duon. Er hynny y mae y Tylwyth Teg yn nhraddodiad lliaws o genhedloedd y byd. Math bychan o ysbrydion dychmygol ydynt, o'r ddau ryw, ar lun dynion. Y chwedl yw eu bod yn cyrchu i dai yn gwmniau, ac yn gwobrwyo glendid, eu bod yn dawnsio ac yn ymddifyrru ar weirgloddiau yn y nos. Gwyrdd yw lliw eu dillad, a thybir y gwelir ol eu traed bychain ar y borfa mewn cylchau gleision yn hir ar ol y dawnsiau. Cipiant ymaith hefyd fabanod difedydd,—chwedl y Cristionogion,—y rhai ni welir mwyach ymhlith eu ceraint, gan adael ar ol eu plant eu hunain yn eu lle. Y dyb fwyaf cyffredin am chwedl y Tylwyth Teg yw mai yn y Dwyrain y dechreuodd, ymhlith y Persiaid a'r Arabiaid. Galwai y Persiaid hwy *Peris*, a'r Arabiaid *Ginn*. Rhoddai y rhai hyn wlad neillduol iddynt i fyw ynddi, yr hon a alwent *Ginnistan*, gwlad y Tylwyth Teg. Galwai yr hen Roegiaid hwynt yn ol y mannau lle yr arhosent. Tegau y mynydd a alwent *Oreades;* Tegau yr afon, *Naiades;* Tegau y môr, *Nereides;* a Thegau y coed neu y derw, *Dryades*. Y llwyth mynyddig, yr *Oreades*, wrth gwrs, gartrefent ar y Bannau Duon. Y mae'n debygol bod hen wirionedd yn sylfaen i'r traddodiad, sef ymddangosiad angelion ymhlith boreuwyr byd."

Tomos Dafis.

Ty Compton, Aber Aeron.

LLYFRAU NEWYDDION.

XX.

Hymnau yr Eglwys, o ddetholiad y Parch. Ganon Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai). Gyda thonau. Hen Nodiant. Caerfyrddin, W. Spurrell a'i fab.

Am un peth ynglyn a'r llyfr hwn nis gall fod dwy farn, sef am brydferthwch ei ymddanghosiad. Detholwyd y tonau a'r emynnau er mwyn eglwys sydd yn dod yn "fwy grymus, catholig, a chenhedlaethol o ddydd i ddydd." Ni raid dweyd ond fod *hen* emynnau a *hen* donau cynulleidfaol Cymru yma.

XXI.

Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwy Llanberis a'r amgylchoedd. Gan William Williams, Llanberis. Amlen, 150 tudalen. 1s. Llanberis, R. Owen.

Da iawn cael ambell lyfr o hanes lleol fel hwn. Ceir pleser wrth ei ddarllen gan rai na fu erioed yn Llanberis. Eir ar ymdaith drwy'r mynyddoedd, heibio i'r olion hanesyddol sydd hyd ochrau'r Wyddfa. Yna ymdrinir a hanes Castell Padarn a Llys Dinorwig, rhoddir hanes crefydd sefydledig ac ymneilduol, hanes hen ysgolion, a hanes y beirdd, bid siwr. Buasai ymylon lletach ac ambell ddarlun yn harddu'r llyfr.

XXII.

Darlithiau Esboniadol ar yr Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. R. Jones (Glan Alaw). Llian, 324 tudalen. 2s. 6c. Caernarfon, W. Gwenlyn Evans.

Dyma ddeg ar hugain o ddarlithiau tarawiadol. Y mae arddull Glan Alaw yn hynod ystwyth a chlir. Hawdd iawn ydyw darllen y darlithiau,—y maent yn ddyddorol, yn newydd, ac yn fyw. Y mae melodedd y cyfansoddiad yn gwneyd i'r darllennwr droi dalen ar ol dalen heb wybod, a mynd ymlaen heb flino dim.

AELODAU SENEDDOL CYMRU.

I. SIR DDINBYCH.

MEDD dri aelod. Yr aelod dros y dwyreinbarth, dros lowyr Rhos Llannerch Rugog a'r Cefn Mawr, ydyw George Osborne Morgan. Ganwyd ef yn 1827. Cafodd ei addysg yn ysgol enwog yr Amwythig ac yng ngholeg Balliol, Rhydychen. Yr oedd ei yrfa yn Rhydychen yn un o'r rhai disgleiriaf. Daeth yn aelod dros Sir Ddinbych yn 1868; yr oedd yn Arglwydd Ddadleuydd Cyffredinol yng ngweinyddiaeth Ryddfrydig 1880, ac yn is-ysgrifennydd y Trefedigaethau yn 1886.

Y Gwir Anrhydeddus
George Osborne Morgan.
(O photograph gan Walery).

Ganwyd George Thomas Kenyon, yr aelod dros y bwrdeisdrefi, yn Llunden, Rhagfyr 23, 1840. Mab trydydd Arglwydd Kenyon ydyw. Addysgwyd ef yn Harrow, ac yng ngholeg Eglwys Crist yn Rhydychen. Hanes oedd pwnc ei efrydiaeth, a chafodd anrhydedd ail ddosbarth ynddo yn 1864. Methodd ennill ei sedd yn 1874 ac yn 1880; enillodd hi yn 1885, a chadwodd hi yn 1886 ac 1892.

Yr Anrhydeddus
George Thomas Kenyon.
(O photograph gan J. Edwards, Hyde Park Corner).

Aelod ieuengaf Cymru ydyw John Herbert Roberts, yr aelod dros wlad amaethyddol gorllewinbarth Dinbych. Ganwyd ef Awst 8, 1863. Mab ydyw i John Roberts, Bryn Gwenallt. Cafodd ei addysg yng ngholeg y Drindod, Caer Grawnt, a Hanes oedd ei efrydiaeth yntau. Teithiodd o amgylch y byd, gan ymweled a Bryniau Casia, a chyhoeddodd hanes ei deithiau'n llyfr. Y mae'n ynad heddwch yn Sir Ddinbych, ac yn gynghorwr sir dros Abergele.

John Herbert Roberts.
(O photograph gan Mowell & Morrison, Liverpool).

II. SIR FON.

Un aelod sydd dros Sir Fon yn awr, a hwnnw ydyw T. P. Lewis. Masnachydd ydyw, a mab i amaethwr. Addysgwyd ef yn Ysgol Genhedlaethol Llanfechell. Ni raid dweyd iddo hefyd gael addysg amhrisiadwy yr Ysgol Sul. Yr addysg hon, mae'n ddiameu, a'i gyrrodd i wlad Canan i weled golygfeydd y Beibl. Y mae'n ynad, yn henadur sir, ac yn unarddeg a thriugain oed.

Thomas Palestina Lewis.
(O photograph gan Russell a'i Feibion Llunden.)

III. SIR FRYCHEINIOG.

Aelod Sir Frycheiniog ydyw William Fuller Maitland. Yn ei sir y mae'n byw, ger Llanfair Muallt. Addysgwyd ef yn Harrow ac Eglwys Crist, ac y mae'n awr yn wyth a deugain oed. Etholwyd ef yn aelod dros Frycheiniog yn 1872, a byth er hynny y mae'n aros yn ei le. Y mae i'r sir hen enw fel sir Ryddfrydig, ac y mae ei haelod fel hithau.

William Fuller Maitland.
(O photograph gan J. H. Goldie, Abertawe).

IV. SIR BENFRO.

Y mae dau aelod dros Benfro. Aelod y bwrdeisdrefi yw Charles Francis Egerton Allen. Addysgwyd ef yn Eton a Chaer Grawnt. Mae'n byw yn Ninbych y Pysgod ac y mae'n bump a deugain oed. Yn yr India y gwnaeth waith ei fywyd, fel cyfreithiwr. Bu yn ddadleuydd y llywodraeth ym Murmah, ac yn Recorder Rangoon. Fel Syr William Markby a barnwyr Indiaidd ereill, y mae'n credu'n gryf mewn Ymreolaeth.

C. F. E. Allen.
(O photograph gan E. Allen, Hwlffordd.)

HEN GYMRU, GWLAD FY NHADAU.

Y Geiriau gan PHILIP JONES
(*Cymru'r Plant*, Ebrill 1892).

LEWIS J. ROBERTS, B. A.,
Coleg Exeter, Rhydychen.



I.

Hen Gymru, gwlad fy nhadau,
Paradwys wyt i mi;
Dy fryniau a'th fynyddau
Sydd uchel iawn eu bri;
Dy ddolydd a'th ddyffrynnoedd,
A'th ffrydiau gloewon glân,
Sy'n ennyn yn fy mynwes
Wladgarwch pur yn dân.
Tra dwfr yn yr aig,
Tra adsain yn y graig,
Fy arwydd air fydd Cymru,
A Chymro, a Chymraeg.

II.

Bydd coffa am Gader Idris,
A phen yr Wyddfa fawr,
A Bannau gwych Brycheiniog,
Tra'r erys daear lawr;
Bydd coffa am Lywelyn,
Llyw olaf Cymru fad,
Dewr wron roes ei fywyd
Yn aberth dros ei wlad.
Tra dwfr yn yr aig,
Tra adsain yn y graig,
Fy arwydd air fydd Cymru,
A Chymro, a Chymraeg.

III.

Mae llawer Cymro heddyw,
Ymhell o dir ei wlad,
Yn cofio gyda phleser
Am anwyl dy ei dad,
Beth bynnag a anghofiwn,
Trwy drais neu unrhyw gam,
Nis gallwn byth anghofio
Ein gwlad a iaith ein mam.
Tra dwfr yn yr aig.
Tra adsain yn y graig,
Ein harwydd air fydd Cymru,
A Chymro, a Chymraeg.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

X. DEDDF GREULON. (*Parhad*).

PAN gafwyd yr adroddiad hwn, gorchymynnwyd i'r crefyddwyr fynd allan, a phrin y medrai y milwyr eu cadw rhag cynddaredd y dorf. Cam-driniwyd y gwragedd,—braidd i gyd o deulu urddasol, a rhai'n perthyn i'r llys,—a gwnawd eu dillad yn gareiau am danynt. Curwyd y dynion, yn enwedig rhai y tybid mai gweinidogion oeddynt, ymron i farwolaeth.

O'r diwedd cyrhaeddwyd carchar y Châtelet. Gwelodd y crefyddwyr nad oedd cyfraith Ffrainc yn ddim mwy trugarog nag anghyfraith torf o erlidwyr. Tynnwyd y llofrudd a'r lleidr o'r daeargelloedd dyfnaf a butraf, er mwyn gwneyd lle i forwynion y frenhines ac i wŷr yr oedd eu bywyd yn addurn i'w gwlad. A thra'r oedd y daeargelloedd yn clywed swn melus salmau Dafydd, yr oedd pulpudau Paris yn llawn o rai'n rhoddi'r pechodau mwyaf anfad a gwarthus yn erbyn y crefyddwyr. Ac, o'r diwedd, daeth dydd y prawf o flaen barnwyr y brenin.

Rhoddwyd tri ar eu prawf. Hen wr tri ugain mlwydd oed, o'r enw Nicolas Clinet oedd un, athraw ysgol, ac un hynod fedrus i ddysgu plant ac i argyhoeddi rhieni. Cyfreithiwr enwog o'r enw Taurin Gravelle, aelod o Senedd Paris, oedd yr ail. A gwraig weddw ieuanc brydferth o'r enw Philippe de Luns oedd y drydedd. Cafwyd hwy oll yn euog gan lys oedd wedi ei benodi i'w collfarnu.

Yr oeddynt wedi ofni wynebu'r dorf ym Mharis y noson honno, ond nid oedd arnynt ofn wrth wynebu marwolaeth y merthyr. Cyn cychwyn o'r carchar torrwyd eu tafodau ymaith, nid oedd dim ofnai'r clerigwyr yn fwy na hyawdledd perygl y merthyron hyn wrth farw. Safodd Gravelle wrth y stanc, yng nghryfder blodeu ei oes, gan edrych yn dawel a siriol tua'r nefoedd, fel pe buasai'r fuddugoliaeth wedi ei hennill yn barod. Edrychai Clinet tua'r nefoedd hefyd, ond yr oedd prudd-der yn ei drem,—yr oedd yn hen a gwan. Safai Philippe de Luns,—nid oedd eto ond ieuanc, dim ond tair ar hugain oed, —wrth ochr y dienyddiwr, ac yr oedd y wên oedd ar ei gwyneb yn ei gwneyd yn brydferthach nag erioed. Dywedwyd nanes y marw hwnnw fel hanes buddugoliaeth fawr mewn miloedd o seiadau dirgel trwy hyd a lled Ffrainc. "Yr oedd yn fuddugoliaeth fawr. Ymosododd Satan ar gariad yr ieuanc at fywyd yn Gravelle, ar lesgedd henaint yn Nicolas Clinet, ac ar ofnau geneth yn Philippe de Luns; ond danghosodd Duw y medr cariad at y gwirionedd wneyd i'r ieuanc anghofio'r byd, a'r hen anghofio ei lesgedd, a throi ofn gwraig wan yn ddewrder mwy na dewrder arwr."

Cyn hir dygwyd dau arall ger bron y barnwyr anghyfiawn. Meddyg oedd un, ddaethai o Normandi i Baris y dydd o flaen noson y cyfarfod; a chyfreithiwr, un o wŷr brwdfrydig Poitou, oedd y llall. Didrugaredd fu eu barnwyr, a chreulawn fu eu marwolaeth.

Dau efrydydd oedd y ddau nesaf, rhai wedi dod o'r de i'r brif-ysgol, y naill o Agen a'r llall o Oloron. Cyn iddynt orfod dioddef, yr oedd llysgenhadwyr yr Almaen wedi dweyd eu meddwl wrth y brenin am y llosgi hwn. Alltudiwyd rhai, a diangodd ereill, a dihoenodd dau yn y carchar hyd nes y daeth marwolaeth i'w rhyddhau.

XI. EGLWYS GALFINAIDD FFRAINC.

Hyd 1555 nid oedd y Calfiniaid wedi ffurfio eu hunain yn un eglwys. Ystyrient eu hunain yn aelodau o'r Eglwys fawr yng Nghrist, ond nid oedd ganddynt na gweinidog na sacrament eu hunain. Y clerigwyr oedd wedi erlid a llosgi eu brodyr; o'r cardinal i'r isaf yr oedd y rhain wedi penderfynu, yn chwerwder casineb, y mynnent ddinistrio'r Diwygiad trwy'r cleddyf a thrwy dân. Ac a oedd y clerigwyr hyn i fedyddio plant yr erlidiedig, ac i roddi iddynt yr elfennau yn sacrament corff a gwaed Crist?

Ymysg y brodyr ym Mharis yr oedd gŵr bonheddig o wlad Maine, a ganwyd ei faban cyntaf-anedig yn 1555. Gwahoddodd ei gyd-addolwyr i w dy ryw ddiwrnod, a dywedodd ei hanes wrthynt. Nis gallai oddef i'r erlidwyr hynny fedyddio ei blentyn; ac yr oedd yn berygl bywyd cymeryd y baban ar draws Ffrainc i Geneva. Apeliodd atynt yn daer, yn enw eu Duw, gan ofyn iddynt wneyd eu hunain yn eglwys, a dewis gweinidog, blaenoriaid, a llys Consistori. Wedi ympryd a gweddi, penderfynasant wneyd ei gais; a'u gweinidog cyntaf oedd gŵr bonheddig ieuanc o Anjou, y Sieur de la Rivière. Gŵr ieuanc tair ar hugain oed oedd hwn, wedi byw peth amser yn Geneva. Trodd cariad cryf ei dad yn gasineb ffyrnig tuag ato pan gofleidiodd y Diwygiad. Daeth yn weinidog cyntaf yr eglwys Galfinaidd yn Ffrainc, pan oedd y brenin a'r Cyngor llosgi yn ymegnio i losgi pobl y grefydd; a gwelodd eglwysi diwygiedig ereill Ffrainc yn dilyn esiampl yr

eglwys fechan ym Mharis, cyn marw wrth yr ystanc yn 1572, yn ei gartref ei hun.

Wedi ymffurfio'n fân eglwysi fel hyn, y peth nesaf oedd eu huno'n un eglwys. Mewn gwirionedd yr oeddynt yn un o'r blaen, oherwydd y warogaeth dalent i eglwys Geneva, ac yr oedd pob un o honynt wedi ei llunio yn ol patrwm eglwys Calfin. I Geneva yr apelid am gymorth ac am gyngor. Er esiampl yr oedd brawd goludog yn eglwys Tours, un oedd wedi mynnu pregethwr ar ei elw ei hun i bregethu iddo ac i'r brodyr tlotach. Nid oedd ond Geneva fedrai esgymuno'r dyn trahaus a mynd a'i bregethwr oddiarno.

Ym Mai 1559 ymgyfarfyddodd cynrychiolwyr yr eglwysi am y tro cyntaf, yn y gynhadledd genhedlaethol gyntaf o un ar bymtheg, ym Mharis. Cynhadledd ryfedd oedd honno, yr oedd y cleddyf wrth ben pawb eisteddai ynddi. Yr oedd y brenin wedi penderfynu dod a'r Chwil lys i Ffrainc, yr oedd pobl Paris yn credu mai'r diwygwyr oedd achos eu dioddef, ac yr oedd lludw eu brodyr llofruddiedig eto'n mud-losgi o fewn ergyd carreg i'r fan yr eisteddai'r cynrychiolwyr ynddo. Yr oedd mor anodd cyfarfod fel na ddaeth neb ond cynrychiolwyr Dieppe o'r wlad y tu gogleddol i'r Seine, ac ni ddaeth neb o Languedoc na Guienne na Dauphiné nag o dri ugain eglwys Provence. Un eglwys ar ddeg yn unig feiddiodd anfon cynrychiolwyr,—Paris, St. Lo, Dieppe, Orleans, Tours, Angers, Poictiers, Châtelerault, Saintes, Marennes, a St. Jean d'Angely.

Adlewyrchir cymeriad anhyblyg y gwŷr hyn, cynrychiolwyr rhai nad oedd ofn marw yn ddim iddynt wrth ofn pechu, yn y Cyffes Ffydd a wnaethant,—mor syml, mor glir, wrth ddangos y berthynas sydd rhwng enaid pechadurus a'r Duw llidiog. Calfinaidd ydyw diwinyddiaeth y Gyffes, ac efengylaidd iawn; gwerinol ydyw natur yr eglwys, ond gyda lle i wŷr o allu anghyffredin anfonir gan Dduw i ail-adeiladu; ac yr oedd y crefyddwr i ymostwng i ddeddf y wlad, er ei bod yn ddeddf anghyfiawn, os medrai wneyd hynny heb dorri deddf Duw. Mewn deugain o erthyglau ereill deffinir yr eglwys yn ei ffurf allanol,—y gweinidog, y blaenoriaid, y diaconiaid, a'r Consistori, sef y llys disgyblaethol; y cyfarfod dosbarth, y cyfarfod talaethol, a'r gymanfa genhedlaethol. Dengys manylrwydd clir a threfn berffaith yr erthyglau hyn ol llaw Calfin,—efe, o'i eglwys yn Geneva, oedd yn llunio'r Eglwys Ddiwygiedig oedd yn prysur ddod yn allu yn Ffrainc.

Ysgrifennwyd Cyffes Ffydd crefyddwyr Ffrainc pan oedd eu crefydd ar ei chryfaf ac ar ei phuraf. Dengys Galfiniaeth Ffrainc ar ei goreu, ac yn ei hoes aur. Daeth pan oedd yr erlid newydd wneyd y diwygwyr yn un corff. Pe buasai wedi dod yng nghynt, buasai'n achos ymraniadau; pe buasai wedi dod yn ddiweddarach, maniffesto politicaidd fuasai, ac nid Cyffes Ffydd. Yr oedd dyddiau drwg yn agos. Gorfod i'r crefyddwyr ddod yn blaid boliticaidd, oherwydd ymosodiadau eu gelynion, ac yna gorfod iddynt herio'r gyfraith ar faes y gwaed. Aeth yr oes aur yn oes arian, a'r oes arian yn oes haiarn. Yn 1559 yr oedd y crefyddwyr yn barod i ddioddef ac i herio angeu. Ac yr oedd dioddef ac angeu ar ddod.

XII. COLIGNI.

Ond pa fodd y gallai eglwysi o bobl heddychlon wrthsefyll gallu milwrol yr erlidiwr? Daeth y perygl a'r ymwared gyda'u gilyd l.

Yng ngwanwyn 1557, gofynnodd Cardinal Lorraine i'r Pab am Chwil lys yn Ffrainc. Cydsyniodd y Pab, a chydsyniodd y brenin, ond protestiodd Senedd Paris yn erbyn llys nas gallai Ffrancwr apelio o hono at ei frenin nac at gyfraith ei wlad. Ac heblaw hynny, yr oedd y Ffrancod wedi eu gorchfygu gan y Spaenod; yr oedd yn rhaid iddynt wrth help yr Almaenwyr, ac ni fynnent hwy, a hwy'n Brotestaniaid, roddi help i wlad feddai Chwil lys.

Yn ol cynllun y Pab yr oedd tri swyddog i reoli'r Chwil-lys, — cardinaliaid Lorraine, Bourbon, a Châtillon. Erlidwyr oedd y ddau flaenaf; gŵr teg, yn cydymdeimlo a'r diwygwyr, oedd Châtillon. Ceisiwyd ei roddi yn y swydd hon er mwyn rhwymo ei ddwylaw ef a'i ddau frawd. Ni fedrai helpu'r diwygwyr, gan na fyddai ei bleidlais ond un yn erbyn dwy.

Yn nheulu Coligni yr oedd tri brawd,—cardinal, cadfridog, a milwr. Yr oeddynt o waed mor uchel ac o gymeriad mor bur a neb yn Ffrainc. Yr oedd eu mam, Louise o Fontmorenci, yn wraig oreu a duwiolaf yr oes; yr oedd yn ferch i deulu urddasolaf Ffrainc Babyddol, ond yr oedd yn cydymdeimlo a'r Diwygiad. Ni fedd hanes y byd dri brawd fel ei thri mab,—Châtillon, Coligni, a D'Andelot. Cyn dweyd eu hanes, gadawer i mi ddweyd beth fu eu diwedd. Bu D'Andelot farw o ludded ar faes y gwaed, wedi arwain byddin ar ol byddin o Almaenwyr a Llydawiaid yn blaid i'r diwygwyr. Bu Coligni, un o arwyr y byd, farw yng nghyflafan St. Bartholomew, tra'r oedd tywysogion y Diwygiad yn cwympo trwy frad o'i gwmpas. Bu Châtillon, yr hynaf, farw yn Lloegr. Yr oedd wedi dod i erfyn am gymorth i'r Diwygwyr, a bu farw. Claddwyd ef yn yr eglwys gadeiriol Caer Gaint; ac yno y gorwedd ei gorff hyd heddyw.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

AR dudalen arall gwelir Cywydd y Wylan o waith Sion Phylip. Ceisiais roddi hynny o esboniad sy'n hollol angenrheidiol o'i flaen, nid oedd dim lle, ar waelod y ddalen. O hyn allan, rhoddir nodiadau esboniadol gyda phob hen gywydd. I bawb sydd yn hoffi golygfeydd glannau'r môr, yn enwedig glan y môr rhwng y Bermo a Mochras, tâl y cywydd hwn yn dda am ei astudio.

Dymunwn ar ysgrifenwyr beidio defnyddio *eiddo, presennol, cyfryw, y rhai a, pa rai, ein gwrthrych, ni, uchod,* ond pan fydd raid wrthynt. Goreu po fyrraf fydd geiriau; caffed pob un ras ataliol, cyn ysgrifennu *bodoli*, i gofio y gwna *bod* y tro i ddangos yr un meddwl. Na ysgrifenner y rhagenw *i* yn *I*, oddigerth pan gyfeirir at Dduw. Bydd cofio am yr awgrymiadau hyn yn peri i ysgrifenwyr roddi llai o drafferth i bin golygyddol prysur.

Gwelir fod wynebddalen y mis hwn yn waith Frank Dixon, Abertawe. Golygfa ar draethell Gŵyr ydyw, wedi ei darlunio i ddangos meddwl un o gyffelybiaethau Homer, yng nghyfieithiad R. Morris Lewis. Gwelir fod Mr Lewis wedi gwneyd i Homer siarad Cymraeg. Cynghorwn ddarllenwyr ieuainc i ddysgu'r dernyn allan.

Dyma ddwy gyfres newydd eto'n cychwyn yn y rhifyn hwn,—golygyddion Cymru, a hen siarterau Cymru. O holl gymhwynaswyr Cymru, ei golygyddion sydd wedi cael eu cydnabod leiaf. Nid oes neb wedi gweithio'n galetach na hwy, nid oes un dosbarth o lenorion wedi gorfod ymladd yn erbyn cymaint o anhawsderau, a hwyrach nad oes neb wedi gwneyd cymaint i ddeffro meddwl Cymru ac i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Pan gyhoeddir llyfr, dyna ddiwedd; ac os methiant fydd, ni wyr y cyhoedd hynny. Ond gyda chylchgrawn, y mae'r gofal yn un heb ddiwedd iddo; ac oni ddyfeisir rhyw gynllun newydd bron bob mis i foddhau darllenwyr hawdd eu blino, marw fydd. Gwnaf fy rhan i ddangos ein dyled i'r gweithwyr hyn.

Am y siarterau, y mae arnaf ofn mai sychion iawn fyddant i'r rhan fwyaf, gan na fydd na hanes nac esboniad gyda hwy,—dim ond cyfieithiad llythrennol o'r Lladin. Ond ni ddeuant yn aml, dim ond unwaith mewn rhyw dri neu bedwar mis. A phan ddof at eu cyfnod wrth adrodd hanes Cymru, bydd yn werth gan y darllennydd droi yn ol atynt. Dyddiad hon yw 1422.

Yr wyf yn gofidio nas gallaf gyflawni yn y rhifyn hwn y cwbl o'r addewidion wneis yn y rhifyn diweddaf. Nid yw hanes Dr. John Thomas yn barod,—rhaid ei adael tan y nesaf; nid oedd amser ychwaith i gael darlun o Feiriadog, i ddod gyda hanes ei fywyd.

Yr un rheswm wnaeth i mi adael yr Eisteddfod tan y rhifyn nesaf. Yr wyf yn ymdrechu gwneyd darluniau CYMRU mor brydferth ag y medraf, ac ni fuasai amser i gael darluniau'r Eisteddfod, wedi eu gwneyd gyda'r gofal dyladwy, mewn pryd at y rhifyn hwn. Rhifyn yr Eisteddfod a Dyffryn Clwyd fydd y rhifyn nesaf.

Dyma lythyr ar yr un neges a llythyr Mr. O. Daniel, a gore po fwyaf ar y testun hwn,—

"Ysgrifenna Mr. O. Daniel yn y rhifyn diweddaf ei fod wedi gwerthu Bro Gynin, man ganwyd Dafydd ab Gwilym. Bu yr un hysbysiad ar ol hynny ym mhapurau newydd y De, wedi ei godi o'r CYMRU, mi dybiaf. Tybiais pan welais ef gyntaf mai camgymeriad oedd, ac y mae ymchwiliad pellach wedi profi hynny. Mae dwy Fro Gynin—Bro Gynin Fach a Bro Gynin Fawr, ac afon fechan yn eu gwahanu. O un tu i hon mae plwyf Llanfihangel Geneu'r Glyn, ac ynddo y saif y lle a elwir Bro Gynin Fach. Hwn yw'r lle werthwyd yn ddiweddar i Syr Pryse. O'r tu arall mae plwyf Llanbadarn Fawr, ac yma, onide, ym Mro Gynin Fawr, ac nid ym Mro Gynin Fach, y dywedir i Ddafydd weled goleuni gyntaf, a threulio rhan o'i ddyddiau. Mae'n wir y perthyn hefyd ryw gymaint o ddyddordeb i Fro Gynin Fach. O'r afon y cyfeiriwyd ati y mae bryn yn codi yn serth, ac ar lethr hwn y mae lle a elwir 'Cader Dafydd ab Gwilym.' Ychydig amser yn ol aethum i a'm cyfaill Mr. R. Bryan i weled y gader, a chartref tybiedig y bardd. Ychydig iawn welsom, er ein gofid, i ennyn ynnom adgof am a fu, oblegid nid llawer o olion y 'gader' oedd i'w gweled. Mae amryw o hen bobl y lle yn gynefin iawn â'r enw 'Cader Dafydd ab Gwilym,' ac yn gallu cyfeirio eu bys at y lle; ond erbyn yr elo y teithiwr yno, ca chwilio yn ofer, druan, am dani yng nghanol eithin a drain. Dywed fy nhad wrthyf fod yno, ychydig flynyddoedd yn ol, eisteddfa naturiol ar ochr y bryn, ac fod traddodiad yn y lle y byddai Dafydd ab Gwilym yn arfer eistedd yno ar ol dringo mor bell.

Wrth reswm, nid oes a wnelo perchenogaeth Bro Gynin Fawr â'r mudiad am godi cofgolofn i'r bardd. Boddlona pob meistr tir i hynny, ni a obeithiwn. Mae'r awgrym yn un ragorol, a gobeithio y cymerir hi i fyny yn frwdfrydig a selog.

Pen y Garn, W. JENKYN JONES.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala.

Cylchgronwr.—Yr wyf innau'n credu fod y *Brython* yn llawer difyrrach na'r *Gwyliedydd*. Dywed Alltud Eifion na chafodd na chydnabyddiaeth na diolch gan ei genedl am dano. Bu'n gryn golled ariannol.

E.—Y mae'n dda gennyf eich bod yn hoffi'r wyneb-ddarlun. Yr wyf yn disgwyl y daw un gyda phob rhifyn, rhai gwerth eu cadw.

Gwladgar.—Ni wnai cyhoeddi eich erthygl unrhyw les. Y mae pob gair ddywedwch wedi ei ddweyd gan amryw bapurau newyddion; a pheth annoeth ac anheg oedd ei ddweyd o gwbl. Yr oedd yn rhaid i Gyngor Aber Ystwyth ethol athraw Hanes; nid ydyw athraw Cymraeg, yn ol trefn bresennol addysg Cymru, ond addurn y gallesid gwneyd hebddo. Y cwestiwn o flaen y Cyngor oedd,—pa un ai ethol athraw at Gymraeg yn unig wneid, ynte boddloni ar ethol athraw Hanes fedrai ddysgu rhyw ychydig o Gymraeg hefyd. Er anrhydedd iddo, penderfynodd y Cyngor fynnu athraw i roddi ei holl amser i ddysgu Cymraeg.

Ond yr oeddynt mewn anhawsder. Nid oedd ganddynt ond £200, yr arian gai Mr. J. E. Lloyd am ddysgu Hanes a Chymraeg, i'w rannu rhwng y ddau athraw newydd. Ychwanegwyd £40 at hyn trwy haelioni'r Prifathraw ac ereill. Hawdd i chwi ac arall, na roddodd ddimeu at y Coleg erioed, gamddarlunio gwaith y rhai sydd wedi aberthu cymaint o arian ac amser dros Aber Ystwyth.

Nid ydyw £120, wedi'r cwbl, yn gyflog rhy fychan i fechgyn ieuainc yn dechreu, mewn lle mor rad, ac am waith mor gymedrol. Y mae llawer o'r un cyrhaeddiadau yn gweithio'n galetach mewn ysgolion am gyflogau llai. Fel y bydd eu gwaith yn llwyddo, y mae'n debyg y daw ffoidd i godi yn eu cyflogau.

Selog.—Y mae rhai heblaw'r Cymry'n ceisio ennill y Llydawiaid at Brotestaniaeth. Pan ddeuant drosodd i Jersey, yn wŷr a gwragedd a phlant, i godi tatws, bydd cenhadwr yn eu mysg. Dywedir fod tair mil a hanner o Lydawiaid yng nghynhauaf tatws Jersey eleni,—rhyw deirawr o hwylio sydd i'r ynys o Lydaw.

Emyr Llydaw.—Y mae'r Archddiacon Pryce yn parotoi hanes yr eglwys yn Gymraeg.

M. R. Maesgoleu.—Diolch. Bydd darluniau o'n holl aelodau seneddol yng Nghymru. Daw darluniau o'r gwŷr a ennwch, hefyd, yn eu hamser. Yr wyf yn meddwl y cyhoeddir llyfr o waith y Canon Silvan Evans yng Nghyfres y Werin.

Cymro o Gymru.—Diolch yn fawr. Goreu po fwyaf o hen alawon anghyhoeddedig fedrwch anfon.

G. Bethesda.—Nid yr un yw Eos Gwynfa, er mai Thomas Williams oedd ei enw, a Thomas Williams, Morgannwg, awdwr,—

"O th flaen, O Dduw, rwy'n dyfod,
Gan sefyll o hir bell."

Os wyf yn cofio yn iawn, y Thomas Williams hwn yw awdwr y farwnad ardderchog ar ol Peter Williams. Gweinidog Anibynnol Bethesda ym Morgannwg oedd, lle y bu farw ryw dri ugain mlynedd yn ol. Gwel "Hanes Emynwyr Cymru," gan y Parch. W. A. Griffiths, cyhoeddedig gan W. Gwenlyn Evans, Caernarfon.

Llais o'r Llwyn.—Hoffwn weled yr erthygl. Ni fedraf gyhoeddi ond erthyglau byrion, byw, yn cynnwys rhywbeth newydd. Ni hoffwn weled un erthygl yn hwy na phedair tudalen o Gymru, os na fydd darluniau gyda hi.

Ap.—Gwnaf fy ngoreu dros y llyfr.

W. D., Lerpwl.—Enfyn W. D. ddernyn o'r *Daily Post*, papur y mae Philistiaeth yn ymwthio iddo'n awr, yn galw sylw mewn llythyrennau breision at lwfrdra creulon yng Nghymru. Y llwfrdra oedd gwaith dau Gymro yn Nantglyn yn gadael Sais dybient oedd wedi meddwi i orwedd ar ochr y ffordd. Ni chyhoeddaf ef. Anhegwch llwfr a chreulon oedd ei gyhoeddi erioed er mwyn taflu gwarth ar Gymru. Yn y golofn agosaf at o yn yr un papur, yr oedd hanes Saeson yn Lerpwl yn ysbeilio'r hyn waredid o dai ar dân, a hynny o flaen llygaid yr heddgeidwaid. Ac ar y tu dalen arall yr oedd hanes Cymry'n mentro eu bywydau i achub y glowyr o'r *after-damp* ofnadwy ar ol y danchwa yn Aber Cynffig. Paham y mae papurau'r Saeson mor falch o ryw yspotyn tybiedig, pa mor fychan bynnag y bo, ar gymeriad Cymru?

Gofyn.—A ŵyr rhywun pwy yw awdwr yr emyn hwn? Mrs. R. M. Davies, Garth, a glywais yn ei adrodd.

"Arglwydd cadw yn y storom
F'enaid dan dy aden gu,
Cadw ynnof ysbryd gweddi
Hyd nes deloi atat ti;
Estyn allan fraich dragwyddol,
Dal fi yn yr anial maith,
Nad i'm llong i fynd yn chwilfriw
Hyd nes cyrraedd pen fy nhaith."

R. Elwy.—Gwir na ddanghosir yn yr erthygl ar Emynnau'r Afon pa fodd y daeth y syniad o Ddante i'r beirdd Cymreig. Oherwydd ei bod yn hir, gorfod i mi fel golygydd ei chwtogi. Yn y darn adawyd allan danghosir fod darlun Dante wedi dod yn rhan o lenyddiaeth yr eglwys ym mhob gwlad. Trwy John Bunyan, y mae'n ddiameu, y daeth i'r emynnau Cymreig.

J. Owen.—Y mae llawer o dorri Sabath yng Nghymru, ond nid ydyw eich erthygl yn ddigon dyddorol i'w chyhoeddi. Ni ddarllennai'r torwyr Saboth hi. Y mae llawer iawn o dorri dyddiau ereill yr wythnos hefyd. Gweithia rhai ar y Sabath, pan na ddylent; y mae ereill yn diogi ar ddyddiau'r wythnos, pan y dylent weithio.

J. Charles.—Nis gwn pryd y sonnir gyntaf yn llenyddiaeth Cymru am Werddonau'r Lli. Y mae gan lawer cenedl arall draddodiadau am ynys werdd brydferth, yn rhywle ym môr y gorllewin, dan oleuni machlud haul.

Clerwr Cymreig.—A fedr rhywun esbonio'r arferiad Gymreig o adrodd hanesion gyda'r delyn? Dywed Glasynys yr arferid canu'r Mabinogion gyda'r delyn. A oes rhyw sail i'w ddywediad?

V. MEIRIADOG.

GANWYD Meiriadog Ebrill 24, 1813, mewn tafarn o'r enw *Queen's Head*, Llanrwst, ac ennwyd ef Mai y 7fed gan y Parch. John Thomas, gweinidog y Bedyddwyr. Enw ei dad oedd Thomas Edwards, yr hwn oedd yn *currier* wrth ei grefft. Mab oedd ei dad i John a Mary Edwards, Twnnan Isaf, Llanelian. Yr oedd hwn yn gefnder i Thomas Edwards *(Twm o'r Nant)*. Enw gwyryfol mam Meiriadog oedd Elizabeth Davies, merch David a Mary Davies, Nant, Llanddoged, ger Llanrwst. Merch oedd Mary Davies, Nant, i John Evans, Pen y Garth, Llanddoged, yr hwn a gafodd ei fedyddio gan John Thomas, Llanrwst, pan yr oedd yn 93 mlwydd oed, ac a fu byw naw mlynedd ar ol hynny. Claddwyd ef ym mynwent Bethel, Llanrwst, yn yr oedran o 102. Bechgen chwareus oedd gwrthrych ein hysgrifell, ond hynod o ufudd i bawb. Yn Awst 1826, prentisiwyd ef yn grydd gyda Moses Jones, a dysgodd ei grefft yn rhagorol. Fel gweithiwr, dywedir ei fod yn gyflym tu hwnt i grediniaeth, fel y gallai ddyblu y ddau gyflymaf a fu erioed yn cydweithio âg ef; ac y mae dau o honynt yn fyw yn awr a allant gyd-dystiolaethu i'r gwirionedd hwn, sef Abraham Morris, Llanerfyl; a Charles Foulkes, Llanfyllin.

Ysgolion gwledig a gynhelid yn ei adeg ef yn Llanrwst a'r cylchoedd. Gwir fod yno enw o "Ysgol Rad," er mai "Ysgol Ddrud," yn briodol ydoedd hi, sef i blant boneddigion yr ardal. Yr ysgol gyntaf y bu ynddi oedd yng nghapel y Bedyddwyr, a gedwid gan Fardd Du Môn. Er mai hon oedd ei ysgol gyntaf, nid yw efe yn cofio ei fod mewn unrhyw lyfr ond llyfr darllen, sef y Beibl. O'r ysgol hon, aeth i ysgol a gedwid yn Denbigh Street, gan un John Gibson, yr hwn oedd yn gi o ddyn, a bwystfil o ysgolfeistr. O'r ysgol hon eto, aeth i ysgol y Tabernacl, Scotland Street, a gedwid gan y gweinidog, y Parch. Peter Griffiths, taid y R. Foulkes-Griffiths o du ei dad, y sonnir am dano eto. Yn ddiweddaf oll, aeth o hon i ysgol yr "Ysgubor Gerrig," fel y gelwid hi, ger Trefriw, a gedwid gan un Robert Hughes. Yr oedd yr athraw hwn yn ysgolfeistr galluog.

Yr oedd John Edwards, cyn cael ei enw barddonol, yn cael ei ogleisio gan ysfa barddoni er yn blentyn. Pan o saith i wyth oed, aeth i edrych am ei chwaer Mary, oedd yn byw gyda'i thaid a'i nain yn Nhwnnan Isaf, ac i'w hanrhegu â Beibl newydd. Yn flinedig ar ei siwrnai, ac yng ngolwg môr Colwyn, efe a eisteddodd ar ochr y ffordd. Yna efe a agorodd y Beibl newydd oedd i fod yn eiddo i'w chwaer; a'r darlleniad cyntaf a ddaeth dan ei olygon ydoedd, fod "pechodau Israel fel tywod y môr, yn aneirif." Cyn codi i ail gychwyn i ben ei daith, efe a wnaeth y pennill hwn,—

> "Mae fy mhechodau'n amal iawn,
> Fel tywod mân y môr;
> Ond mae yn haeddiant Iesu mawr
> Ryw gyfoeth mwy yn 'stôr."

Tua'r flwyddyn 1827, os ydys yn cofio yn iawn, y cyhoeddodd Gwilym Padarn ei lyfr *Eos Padarn*. Yn y cyfnod hwn yr oedd un o gyfoedion Meiriadog, o'r enw Joseph Roberts, a elwid yn Joe Fawr, yn tybied ei fod yn well prydydd nag ef; ac i ddangos ei dalent fel prydydd, efe a ganodd i awdwr y llyfr *Eos Padarn*, fel hyn,—

> "Gwilym Padarn yw,
> Yn misio credu Duw."

Ac heb ymdroi, ebe Meiriadog,

> "Dwl o brydydd ydyw Joe,
> Yn rhy hurt i wneuthur llo."

Yn y flwyddyn 1828, yr oedd un John Williams, Trwyn Swch, Llanddoged, ger Llanrwst, yn Athrofa y Fenni; ac yng *Ngreal y Bedyddwyr* yr un flwyddyn yr oedd ganddo englynion ar "Gallineb." Tra yn yfed te yn nhy tad ein bardd, adroddai John Williams y rhai hynny yng nghlyw pawb. Hanner un o honynt oedd fel hyn,—

> "Callineb yn neb ond yn Iôr—ni cheir
> 'N anchwiliadwy drysor."

"Y mae hwnyna yn wallus, ac yn gyfeiliornus hefyd," ebai y bardd ieuanc.

"Cau dy geg, be wyddost ti," ebai John Williams.

"Gwn," oedd yr ateb, gan ychwanegu,—"ni fu Duw erioed yn *Dduw call*. 'Yr unig *ddoeth Dduw*' ydyw Duw, John Williams, ac nid *Duw call*. Hunan les y sy mewn *Callineb*, tra lles cyffredinol y sy mewn *Doethineb*."

Yn oriau hamddenol ei brentisiaeth, dysgodd gysodi yn argraffdy John James (*Pyll*). Dysgodd hefyd waith *currier*, ond y naddu, am ei fod yn rhy fyr o gorff i'r gwaith hwnnw. Yn niwedd Awst, 1829, aeth oddicartref i Rosymedre, at fodryb iddo gyfnither ei fam, sef Jane Foulkes, gweddw y Parch. Richard Foulkes (*Silas Glan Dyfrdwy*), taid R. Foulkes-Griffith a fu yn ymornestu am gynrychiolaeth y Merthyr yn erbyn Pritchard

Morgan, A.S. Tra yn Rhosymedre am yr ysbaid o un mlynedd-ar-ddeg, bu yn lled ddiwid mewn llenydda a barddoni, yng nghyda chryn dwysged o gerddora hefyd. Enillodd droion mewn traethodau ar wahanol destynau, megis "Dyledswydd plant at eu rhieni," "Hanes Iesu Grist," "Cwympiad y dail," &c., &c., a hynny pan yn ieuanc iawn, y rhai a gyhoeddwyd yn y gwahanol gyfnodolion,—sef Yr Athraw i Blentyn, Yr Haul, Y Dysgedydd, Seren Gomer, Y Bedyddiwr, &c. Pan o gylch dwy-ar-bymtheg oed, enillodd ar "Ddioddefaint yr Emmanuel ar y Groes" mewn englynion, ac ar y *Reform Bill* yn 1832. Enillodd drachefn mewn penillion ar "Ryddhad y Caethion," Awst 1af, 1838. Yn Hydref 1839, dyfarnwyd ef yn fuddugol am yr englynion goreu ar "Ddyrchafiad yr Uchgadben Llwyd, Bryniestyn, i'r Farchogiaeth (*Knighthood*)," yn Eisteddfod yr Iforiaid yng Ngwrecsam; ond gan i T. R. Jones (*Gwerfilyn*) wario yr arian, ni chafodd yntau ei wobrwyo. Ymgeisiodd am y wobr am y bryddest ar farwolaeth Syr Watkin Williams Wynn (tad y diweddaf) yn Eisteddfod y Gordofigion yn Lerpwl yn 1840, ond gorchfygwyd ef gan y Parch. G. Edwards (*Gutyn Padarn*), Llangadfan.

Yng nghanol Gorffennaf 1840, symudodd i Lanfair Caereinion, i argraffu Esboniad Dr. Adam Clarke, &c. Ar Hydref y 10fed, 1842, yn swyddfa y cyfreithiwr Lloyd Williams, Llanfyllin, priodwyd ef âg Elizabeth Watkins, merch hynaf y Parch. William Watkins, Llanfair Caereinion. Ar ddydd Llun, Ionawr 2il, 1843, aeth i Gaer Dydd, i swyddfa *Y Bedyddiwr*, argraffwasg Llywelyn Jenkins, mab Dr. John Jenkins, Hengoed. Bu yno am ddwy flynedd yn cysodi ac yn golygu y cyhoeddiad hwnnw. Gan i'r swyddfa gael ei gwerthu, newidiwyd y dwylaw; felly bu raid i Feiriadog ymadael, gan gyfeirio ei gamrau tua Merthyr Tydfil. Arosodd yno am tua blwyddyn a hanner; y naill wythnos yn argraffu, a'r wythnos arall yn gweithio botasau. Yn y tymor y bu yng Nghaer Dydd a'r Merthyr, beirniadodd mewn aml Eisteddfod. O dan ei feirniadaeth ef yr enillodd Dewi Wyn o Esyllt gyntaf erioed, a hynny mewn Eisteddfod Iforaidd yng Nghaer Dydd, ac wedyn yn Nowlais, mewn traethodau a barddoniaeth. Tra yn y Deheudir enillodd Feiriadog yntau lawer o brif wobrwyau Eisteddfodol, nes oedd y *Southman* wedi myned yn eiddigeddus wrth y *Northman*. Testun Cadair Eisteddfodol Cymreigyddion Merthyr yn Nadolig, 1845, oedd "Buchedd y proffwyd Jonah." Cyfansoddodd Meiriadog ei awdl ar y testun, ac enillodd y gamp hefyd, er ei fod wedi symud o Ferthyr i Lanfair Caereinion yn Awst 1845. Tybid nad oedd ef yn ymgystadlu, gan iddo ymadael â'r ardal. Penderfynwyd o hynny allan wylied ei lwybrau. Yn destun i'w Cadair Eisteddfodol am Nadolig 1846, rhoddasant "Elias a phroffwydi Baal ar fynydd Carmel," yng nghyda gwobr i r cyntaf a'r ail. Gwallter Mechain oedd beirniad yr awdlau. Am iddo ddyfarnu Meiriadog yn oreu, darnodwyd iddo ei fod wedi rhoddi y "tincwd yn bencwd." Nathan Dyfed oedd yr ysgrifennydd. Ceisiwyd gan Wallter Mechain feirniadu y flwyddyn ddilynol, ond gwrthodod yn bendant, gan eu cynghori i feirniadu eu hunain, a rhoddi eu pencwd yn dincwd. Ceir yr hanes hwn yn fanylach yn *Adgof uwch Anghof*, gan Myrddin Fardd. Yn Eisteddfod Iforiaid Gwentlliwfilwr yr un flwyddyn ennillodd y tlws cadeiriol am ei awdl ar ddydd geni mab Cefn Mabli,—yr hwn a anwyd ar Ddydd Gwyl Dewi Sant, 1846,—yr hon a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Leon.

Y testun nesaf oedd "Cefn Mabli," yn rhywle yng Ngwent, nad ydys yn cofio y fan, tua'r flwyddyn 1849, fel y tybir. Bu yn olygydd i gyhoeddiad misol o'r enw *Yr Hyfforddwr* am y blynyddoedd 1852, 1853, ac 1854. Trowyd ei enw yn *Yr Hyfforddiadur*, ond ni pharhaodd yr enw newydd yn hwy nag o Ionawr hyd Awst, 1855, o ddiffyg cefnogaeth. Bu hefyd yn golygu barddoniaeth cyhoeddiad misol o'r enw *Yr Arweinydd*, o dan olygiaeth Mathetes ac ereill, o argraffwasg Aber Dâr. Ar ol yr ysbaid o ddistawrwydd Eisteddfodol, wele Lanwddyn yn cyhoeddi testynau Eisteddfod Dalaethol Powys, ac i'w chynnal am ddau ddiwrnod, yr 11eg a'r 12fed o Fehefin, 1873. Testyn y Gadair oedd *Y Ffurfafen*. Tri chan llinell oedd yr awdl i fod. Gan i'r testun ogleisio y bardd, efe a ymgystadlodd, ac a enillodd. Derbyniodd y tlws arian, a'r gadair yn gerfiedig arno. Er iddo fod yn Eisteddfod y Gadair Ddu yng Ngwrecsam, ac yn Eisteddfod Liverpool, nid oedd ganddo linell ar ddim a berthynai iddynt. Gan iddo ennill y gadair ar Elias a phroffwydi Baal ar fynydd Carmel yn y Merthyr yn 1846, ac mai "Elias y Thesbiad" drachefn oedd testun cadair Eisteddfod Dalaethol Powys ym Meifod Awst 16, 1892, teimlai fel yn ddyledswydd arno i ymgystadlu ar y testun; ac felly y gwnaeth, a llwyddodd yn ei ymgais. Cadeiriwyd ef gyda rhwysg yn ol Braint a Defod Beirdd Ynys Pryden, a hynny yn y bedair ugeinfed mlwydd o'i oedran, o'r hyn ni cheir enghreifft gyffelyb wedi cymeryd lle erioed o'r blaen yng Nghymru.

YM MRO Y BEDD.

MOR leddf-swynol i'r cystuddiedig ei enaid yw troi o ddwndwr byd i dawelwch y fynwent, a rhodio ennyd ym mro y bedd! Nid oes odid lecyn lle y preswylia dyn nad oes yno hefyd lannerch gysegredig, man y gall deimlo ei fod yn sangu ar "erw Duw," ac anghofio'r gofidiau sydd wrth feddwl am y bywyd fu a'r bywyd ddaw. Y mae gan bob un a gollodd gyfaill anwylgu ei sancteiddle sancteiddiolaf i ymneillduo iddo i gael ei ddwyshau a'i buro gan adgofion hiraethus, man i addunedu bod yn deilwng, pan ddelo'r dydd i hedfan ymaith, o gael ymuno gydag ef heb "ofn ymadael mwy." Ond y mae mannau lle y gellir cymuno â'r cyndadau ymadawedig heb loes ingol bersonol, man cysegredig pobloedd lawer, man y mae mawrion yn huno wedi eu darostwng gan un mwy, man i wreng fod yn addfwyn a bonheddig yn ostyngedig wrth ganfod eu gorweddle. Dyma fan i amgyffred bychandra bywyd a'i watwareg lem, i deimlo oferedd uchelgais a gwagedd rhwysg, i sylweddoli gwrthuni crebachlyd hunan-les a mawredd aruchel byw er mwyn ereill, er iddynt wrthod yr aberth a diystyru y fraint.

Yn nhawelwch y mynyddoedd deuwn weithiau ar draws mangre galar yn yr hen amseroedd tywyll ond nid anynol, gyda chrug o gerrig geirwon yn dynodi'r bedd. Yn y distawrwydd o'n deutu clywn megis llais yn esgyn o'r bedd ac yn sibrwd,—"Aberthais fy einioes dros fy mhobl ac ni anghofiasant fi. Eu gofid a ddarfu, a hwythau a ddiflanasant, ond wele gofadail eu cariad yn aros byth." Mae symledd arddunol yn y garnedd. Cusenir hi gan oleuni y wawr, a sychir ei dagrau gan heulwen y boreu cyn ymweled a'r dyffryn islaw, ac arni hi yn garuaidd ym mrig yr hwyr yr erys gwenau olaf yr haul, a chwery chwaon y bryniau alawon rhyddid yn wastadol o'i chwmpas. Ni welir yma arwyddion o falchder na hunan-dosturi, dim ond gofid pur am y marw. Nid oes yma ymgais i bruddhau y meddwl ag allanolion trymaidd, na dim o'r pruddglwyf hwnnw sy'n hofran yng ngwyll canghennau yr ywen ddu, neu dan ddistiau tywyll eglwys henafol, dim ond Natur yn ei phurdeb syml. Dyma'r fan i deimlo mor deneu yw y fantell bridd sydd rhyngom a'r anweledig, ac mor agos yw yr enaid at ei breswylfa dragwyddol.

Os awn o lonyddwch y llan i lonyddwch mwy y fynwent i ymdroi moment ymysg y beddau a orwedd o amgylch yr adail sydd yn gysgod o anfarwoldeb ym mro marwolaeth, cawn feddau a'r cerrig cof wedi malurio a'r enwau wedi diflannu, ereill megis yn ymfalchio yng ngheinder eu meini newydd a'u blodau siriol; cawn lawer twmpath gwyrdd dienw, ac ambell wrym o bridd newydd ei dirio yn edrych yn llaith fel wedi ei wlychu gan gawodydd o ddagrau. Yma daw y gofid yn nes atom, yn fwy personol ac anhawdd ei ddosrannu. Teifl ei gysgodion pruddaidd drosom fel cwmwl trwm yn crogi uwch ein pen; bron na thybiwn glywed cloch y llan yn lleddf-ganu ein cnul ninnau hefyd, a thrwst

traed y galarwyr yn agoshau. Gwyn ei fyd ef y mae'r Ysbryd yn dywedyd ei fod yn gorffwys oddiwrth ei lafur, a'i weithredoedd yn ei ganlyn!

Pan drown o ddadwrdd masnach Llunden i Fynachlog Westminster i ymlwybro megis "yng ngwyll y duwiau" rhwng colofnau bwaog y fedd-deml brudd, cawn weled mor isel a diymadferth y gorweddant hwy fuont unwaith yn eu rhwysg a'u grym yn syndod byd, a derfydd eiddigedd o'r fynwes, a chymer tosturi ei le. Wrth sylwi ar oleuni y ffenestri lliwiedig yn egwan grynnu ar gynifer o gofnodion am freuder bywyd, daw arswyd arnom, a da fydd myned i gongl y beirdd i geisio diddanwch wrth syllu ar gof-golofn fynor y cerddor a wyddai fod ei Brynwr yn fyw, ac a'i molodd yn ei "Fessiah" anfarwol. Canfyddwn ddysgeidiaeth goeg a ffurfiol, a cherfluniau digon dichwaeth weithiau ar y beddfeini, ac yn eu plith iachus yw myned i edrych ar y garreg syml honno sydd a dim ond "O rare Ben Jonson" yn doredig arni. Gwelwn ysywaeth lawer o eudeb a rhodres yn y fan y dylai'r cyfan fod yn ddidwyll a gostyngedig, a gwagedd yn mynnu ymddangos ar drothwy byd lle yr ysir pob peth ond purdeb a gwirionedd. Cawn yn fynych ein hadgoffa yma am deithi hagr bywyd yn ogystal a'i degwch a'i addewidion am ddyfodol llawn o ddedwyddyd. Pa un ai galar am ofidiau bywyd a thristwch am ei fychander, neu lawenydd am obaith ymadael â phob bryntni a'n meddianna, pan adawn y meirw o'n hol, ac y deuwn eilwaith i dir y byw?

Mae edrych ar fywyd ac angeu dan ddylanwad y garnedd, y fynwent, a'r fynachlog fel gwylio'r haul yn marw o wahanol fanau. Os safwn ar draethell y gorllewin yn ei wylio yn suddo dros ddibyn yr orwel, a chymylau yn llu disglaer o'i amgylch mewn gwisgoedd ysblenydd o borffor ac ysgarlad, gwelwn lwybr aurfelyn yn ymestyn atom ar hyd gwyneb glaslyfn y môr, a theimlwn awydd angerddol am hedeg hyd-ddo i'r gogoniant gorwych draw. Ennyn hiraeth dwys fel yna am ehedeg ymaith a bod mewn hedd wna'r garnedd.

Os byddwn dan ganghennau deiliog coedwig pan fo'r dydd yn hwyrhau, gan daflu atom ei belydrau olaf o liw arian rhwng breichiau duon y coed, cawn ganiadau yr adar yn darfod o un i un, gan ein gadael o'r diwedd mewn distawrwydd, a daw tywyllwch yn nes nes atom nes ein hamgau. Yn yr unigedd du hwn, a'r distawrwydd sydd yn dyfnhau o'n hamgylch, syrth prudd-der arnom, gan lethu ein hysbrydoedd. Cynyrchu gofid llethol a phruddglwyf hunanysol y mae'r fynwent. Buom yng nghanol ysgythredd Eryri pan oedd yr haul yn diflannu dros ysgwyddau y mynyddoedd cyn disgyn o hono i'r eigion. Ar un tu gwelem gysgodion du mynyddoedd y gorllewin yn ymgyrraedd atom. Llechai bygythion dan ael pob clogwyn, a gwgai arswyd o'r uchelder. Ond gyferbyn wele oleuni ysgarlad yn disgyn ar wyneb y creigiau gan dyneru pob rhychyn, a lliw gwridog yn gwneyd i'r mynyddoedd geirwon wenu gan addfwynder. Cysgodion a dychryn yn deilliaw o gefnu ar Ffynhonnell Goleuni, a heulwen dyner ei gwawl yn tarddu o gadw'r gwyneb byth yn sefydlog arno—dyna genadwri y fynachlog.

Byddwn weithiau yn rhyfeddu at ymddygiad y byd tuag at feddau ei garedigion a'i gymhwynaswyr goreu. Gwelwn yn y fynachlog a ennwyd gerfluniau mawreddus a hardd ar feddau rhai a fuont ddigon diles yn eu hoes a'u cenedl, a charreg syml ar y bedd y bu Cromwell gadarn dros y gwir yn huno ynddo, cyn i Siarl II. ymddigrifo yn sarhad ei weddillion. Ond gallwn yn nes adref a chyda chalon fwy dolurus weled dyfnder athrist y cyfryw esgeulusdra drwy ymweled â Mynachlog Ystrad Fflur, sydd a'i blodeu oll wedi gwywo, a'i mawredd wedi diflannu. Cawn chwilio'n ofer am feddrodau tywysogion Cymru a gladdwyd yno, wedi hir a dirfawr gur yn amddiffyn eu gwlad hyd gyfnos bywyd, a "chymrut abit y grefydd" am danynt, er mwyn treulio noswyl dawel i ymbarotoi gogyfer a'r heddwch anherfynol oedd yn agos. Pa faint mwy y briw pan gofiom nad oes ond yr enw yn unig,—Cefn-y-bedd,—i ddynodi'r fan y syrthiodd Llyw Olaf ein gwlad cyn gweled gobaith am dangnefedd yn dechreu llwyd-wawrio ar Gymru, na chael cyfranogi o gysuron ei grefydd ym munudau olaf ei fywyd?

Weithiau gwel y byd ei gamsyniad, ac ymdrecha wneyd iawn drwy anrhydeddu beddau y rhai a ddirmygwyd ac a wrthodwyd ganddo gynt, ac hyd yn oed cawn ambell fedd gwag i Fozart neu Ddante yn derbyn gwarogaeth a warafunwyd i'r dyn. Mewn gorawydd am anrhydeddu coffadwriaeth gŵr gwelwn ddynion yn aml yn gwyrdroi ei ddysgeidiaeth, ac yn eu sel i barchu y fan y gorffwys ei gorff, sangant dan draed anwyl bethau ei enaid. Canfyddir hyn yn ei holl erchylldra yn Eglwys y Bedd Sanctaidd yn y ddinas a ddylai fod o bob man yn drigfan hedd. Yno milwyr Islam yn unig sydd yn atal Cristionogion dall-bleidiol rhag tywallt gwaed eu gilydd ar y fan y tybiant y bu corff Tywysog Tangnefedd yn aros ennyd am adgyfodiad. Yn y croesau ar gerrig ein beddau gwelwn arwydd ei waradwydd wedi troi yn arwydd gobaith am

dangnefedd, ond wele fangre'r cymod yn cael ei droi yn lety cynnen.

Mor bur ei syniadau ac eang ei galon yr â dyn pan fyddo ei feddwl beunydd yn hedfan ar gyffiniau dieithriol y ddeufyd! Yn nyddiau diwylliant Groeg a Rhufen cawn fod rhai dyrchafedig a dwys eu meddwl yn ceisio cynefino â'r bywyd ar ol hwn trwy ddarlunio eu harwyr yn ymweled a Hades. Mor hoffus ganddynt ganu am Orpheus hiraethus, ddwyfol ei gân, yn ymofyn ei anwylyd yn ol o wlad gwyll! Bryd arall testun eu cân fydd Ulysses gyfrwysgall, wedi ei guro gan stormydd, yn ymddiddan ag ysprydion gwroniaid Achaia, neu Aeneas uchelfrydig yn ceisio cofleidio rhith ei fam ym mro'r cysgodion. Nid ydyw Horas fwyn byth yn fwy tyner na phan yn son am y llwybr y rhaid i ni oll ei dramwy, am y llety cyfyng a'n derbyn yn niwedd yr yrfa, neu am y Gennad a'i law-ffon aur yn arwain eneidiau i diriogaeth Pluto. A chanrifoedd ar ei ol ef, bu enaid tanbaid Dante "yn dilyn ei seren" drwy froydd ing a gwae, hyd lechweddau mynydd y puredigaeth i drigfannau gwawl a gwynfyd. Gwell gan ereill mewn oesau mwy diweddar hofran y tu yma i'r pyrth heb brin geisio mwy. Ceir Addison addfwyn yng nghladdfa mawrion Pryden yn canfod dydd pan fyddant oll yn gydoeswyr ag ef, a Gray ddwys ddiymhongar yn y fynwent wladaidd yn gweled ei briddell gul ymhlith beddau yr iselwael. Wedi blino ar bererindod bywyd croesawa Raleigh ei orffwysfa dawel, a chlodfora'r hwn sydd a "Hic Jacet" yn bennawd iddo; tra y synfyfyria meddyg crefyddol o Norfolk ar bethau anwadal y byd uwch darnau o lestri pridd y cynoesau. Cawn gadweinydd anfarwol ei fri o Gorsica yn ymnerthu i ryfel pan yn canfod deugain canrif yn syllu arno o bennau bedd-fynyddau brenhinol yr Aifft, a bardd distadl o Gymru yn wylo dan ganghennau ywen ddu ar fedd y dyn tylawd. Ar un llaw gwelwn Ganghellydd Lloegr yn athronyddu ar angeu a'i boenau, a llenor-sant o Rwsia yn dyfal wylio fflam bywyd yn dirgrynu yn fwy fwy araf a gwan nes llwyr ddiffodd yn nhywyllwch marwolaeth; ac ar y llall emynnydd ofnus o Arfon ar lan yr Iorddonen yn ennill hyder i groesi ei lli wrth weled tyrfa iach yr ochr draw.

Pan ddelo yr amser i fudo oddi yma, mor wahanol y mae dynion yn ymddwyn! Bydd rhai yn ofni byw ac yn rhuthro'n eofn i farw, ereill yn glynu yn dyn wrth eu heinioes ac am ffoi o wyddfod angeu. Cawn ereill ym mawredd eu henaid nad ofnant fywyd ac na chiliant oddiwrth angeu. Gall pagan doeth o Athen gysuro ei ddisgyblion â sicrwydd am anfarwoldeb yr enaid pan y mae cwpan y gwenwyn ar ei wefusau, ac apostol ar fin ei ferthyru yn Rhufen lawenychu fod coron gogoniant ar ddyfod i'w ran. Ond gwyddom am Un Gofidus i'r hwn nad oedd y bywyd hwn namyn cynefindra â dolur, ac angeu ond agorfa i ogoniant tragwyddol, yr hwn un noson mewn gardd a chwysodd megis defnynnau o waed, ac a ddwys weddiodd am i'r cwpan fyned ymaith oddiwrtho; ond "Dy ewyllys Di a wneler." Yfodd hi i'w gwaddodion, a throdd ei chwerwedd yn felus i ereill. Dyna olygfa fwyaf galonrwygol yn ing ei ddynoliaeth dyner, a mwyaf aruchel yn nwyfoldeb ei hunanymwadiad er y dydd hynod hwnnw ymysg prennau gardd arall y dug camwedd angeu a'r bedd i'r byd.

Pwy fu mewn galar am farw un cu ganddo na theimlodd, yn ei oriau mwyaf dwys wedi i angerdd yr ing liniaru digon iddo ystyried, mai cymysgedd cyfeiliornus ydyw y syniadau sydd gennym am einioes ac angeu? Y mae tryblith o ddoethineb a ffoledd, o wae a gwynfyd, yn berchen enw sydd ag arogl per-flodau Gwynfa arno. Un foment ehedwn ar adenydd y wawr i froydd hyfryd, a gwelwn weledigaethau nefol; a'r nesaf byddwn yn ymdrybaeddu yn y dom, a'n llygaid wedi eu dallu gan y llaid. Ai hyn ydyw einioes, anrheg amhrisiadwy y Creawdwr? Byddwn yn galw y Gennad, sydd yn gosod y corff i orffwys ac yn arwain yr enaid drwy y porth cyfyng tywyll i wlad nad oes angen haul i oleuo ei heangder diderfyn, yn Angeu. Daw cyfeillion i alaru ac i wylo dagrau o dosturi uwchben y marw, a cheisiant harddu ei fedd â blodau perwynion yn ddangoseg o'u cariad yng nghanol eu gofid, fel gwên heulwen ar gwmwl. Efallai y deuant o bryd i bryd i ymweled a'r bedd ym munudau melyn hwyrddydd pan fo berw'r byd yn llonyddu, ac yn nistawrwydd y fynwent clywant adlais y dyddiau gynt yn eu henaid ac odlau hiraeth yn eu galw draw. Ond beth am danynt hwy sydd wedi ymadael? Gwyddom nad oes na loes na chur yno, na deigryn ar rudd, ond rhaid fod tosturi, megis tosturi tad wrth ofid ei blentyn, yn llifo i'w henaid pan welant rai yn galaru am danynt a hwythau gymaint mwy dedwydd eu byd. Onid hyn all fod iaith eu calon,—"O rai anwyl! wedi eich hamdoi a dirgelwch ofnadwy, eto yn galaru am y rhai a ddaeth allan o hono; wedi eich gadael yn ymdrechu â marwolaeth a beunydd yn nychu, eto yn tosturio wrthynt hwy a gawsant oruchafiaeth arno! Ai chwychwi yn ingoedd Angeu sydd wynfydedig, ai nyni na welwn angeu mwy?"

Aber Ystwyth. R. Bryan.

OWEN GRUFFYDD O LANYSTUMDWY.

Ganwyd Owen Gruffydd ym mhlwy Llanystumdwy, tua'r flwyddyn 1613; ond cawn ef yn treulio rhan fawr o'i oes yn ardal Penmorfa a Dolbenmaen. Efallai fod ganddo ysgol neu ryw alwedigaeth gyda'r Esgob H. Humphreys pan oedd yr esgob duwiol hwnnw yn byw yn ei hen dreftadaeth yn y Gesail Gyfarch, Eifionnydd. Yr oedd yn gyfaill mawr i'r esgob, yr hwn oedd ganddo feddwl mawr o hono. Rhoddodd dyddyn bychan, lle i gadw dwy fuwch, iddo am ei oes, lle sydd yn agos i'r Gesail a elwir hyd heddyw "Tyddyn Owen." Yr oedd y bardd yn hannu o deulu urddasol, yn fab i'r Parch. Griffith Owen, Cefn Treflaeth. Nis gwyddis ym mha le'r oedd ei dad yn gwasanaethu; gallai ei fod wedi ei droi allan, gan ei fod yn byw yn amser cythryblus ac erlidgar Oliver Cromwell. Ar dir y Gesail, mae'n debyg, yr oedd pan y cyfansoddwyd y gan sy'n dilyn, sef uwch ben Coed y Dyffryn, "Dyffryn y Cogau," ar yr hwn enw y gelwid y gwaelodion islaw Penmorfa a elwir yn awr Dyffryn Madog. Yr oedd ei gymwynaswr, yr esgob, wedi ymadael i Hereford ers tua phum mlynedd pan gyfansoddodd y bardd y gân hon, sef pan oedd yn ei nawsaith o'i oedran.

Yr oedd yn brifardd ei oes, ac ni wyddis am neb wedi cyfansoddi cymaint yn yr oes yr oedd yn byw o gywyddau marwnadol ac anerchiadol i uwchafiaid y tir ar y pryd, y rhai fu yn garedig ac elusengar i'r bardd yn niwedd ei oes, pan wedi myned yn dywyll ac analluog. Dywed Dafydd Ddu Eryri iddo ysgrifennu hanes bywyd Owen Gruffydd yn Saesneg a Chymraeg yn y flwyddyn 1805.

Wedi iddo golli ei olwg, byddai William Elias, Bryn y Beddau, yr hwn oedd yn byw am yr afon â'r Ty Mawr, Llanystumdwy, lle trigai y bardd, yn ysgrifennu ei farddoniaeth. Dywedir fod ei holl waith yn bum llyfr, heblaw ei lyfr Achyddiath (gwel *Cell Meudwy*, tudal. 59).

Bu farw yn y Ty Mawr, Llanystumdwy, yn y flwyddyn 1730, yn 87 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent St. Ieuan, Llanystumdwy.

Tremadog. Alltud Eifion.

YMDDIDDAN RHWNG Y PRYDYDD A'R GOG.

(Mesur,—*Blodau'r Dyffryn.*)

"Dydd da f'o i'r Gwcw loyw lân,
A'th firi gân ar forau;
Mae son dy barch am swn dy big,
Wers diddig, er ys dyddiau;
I diwnio'r twyn am danat ti
'Roedd mwy na mi'n ymofyn;
Paham y rhoddaist gymaint oed,
Cyn deffro yng nghoed y Dyffryn,
Gan fod mor ffrwythol, lwyddol les,
Fawl addas wres y flwyddyn?"

"Y Prydydd mwyn, pa raid i mi
Mo'r gwyro i ti nag arall;
Ond i'r sawl i'w enwi sydd
Yn ol ei rybudd diball?
Yr ydwyf fi'n cyflawni, clyw,
Orch'mynion Duw hyd angeu;
I foddio Ner na fydd yn ol,
O'th daith amserol dithau;
Ar drechu trachwant, blysiant bla
Daearol, gwna dy orau."

"Ai rhybudd wyd, a'th las-lwyd liw,
Yr edn wiw i anrhydedd?
Ar fy nifetha'n clymu clod,
Fwyn awen, fod fy niwedd;
A geiriau braw i'm gyrru'n brudd,
Gosodaist newydd sydyn,—
I farw o'i fodd ni fydd neb
Boddlonus wyneb blwyddyn;
A'r byd amserol, deithiol do,
Gâd eto im' dopio tipyn."

"Er gwyched meillion hinon ha,
Na chynnyg, gwylia chwennych
Ond a roddo Duw i'th ran,
Ar wedd dy oedran edrych;
Yr wyt yn sefyll ar naw saith
O flwyddi'th ymdaith yma,
Ar hyn o oedran, gyfan gŵyn,
Bu farw'r forwyn bura,
Oedd fam dy Brynwr, Barnwr byd,
Mesurwr hyd dy yrfa."

"Mae son yn wir am seithiau naw,
Ymostwng, daw dy gwestiwn,
Y bydd yr ola o'r rhain yn byw,
Yn trwsio at ryw altrasiwn;
Moes dy gynghor pa beth a wnaf,
Pa fodd yr af i rifo
Fy nyled drom? Mae'n llom fy llaw,
I'm Prynwr draw ympirio;
Yn brysur iawn pan basio'r oes,
I'm gwedd nid oes ymguddio."

"Am bob drygioni, ffansi ffol,
Difrifol edifara;
A thafl y byd o'th ol ym mhell,—
Am drysor gwell ymdrwsia;
Edifeirwch a gwir ffydd
Yng Nghrist a fydd yn foddion
I'th ddwyn, er gwaethaf dy holl gas,
Yn siwr i ddinas Seion;
Lle cei'n drag'wyddol, fywiol fyw,
Yng ngolwg Duw a'i 'ngylion."

"Dduw, maddeu i mi fy meiau mawr,
Pob dydd ac awr a gerais;
A'th holl orch'mynion cyfion cu,
Ni wiw mo'r taeru, torrais;
Nac edrych, Dad, nid wyf ond gwan,
Ar lawnder anheilyngdod;
Ond ar haeddiant Oen Duw'r hedd,
A'i sanctaidd fuchedd uchod;
Er mwyn ei gariad ar y groes,
Nag omedd, moes dy gymod."

Llanystumdwy. Owen Gruffydd.

Y GAIR MWYS.

YCHYDIG o eiriau a dywediadau mwys, mewn cydmariaeth ag ieithoedd ereill, sydd yn yr iaith Gymraeg. Y mae'n hawdd cael faint a fynnir o eiriau mwys yn yr iaith Saesneg, hoff waith ambell i gloncyn ar-wynebol ydyw chwilio am danynt, a rhan o waith ysgrifenwyr colofnau difir y cylch-gronau ydyw gwneyd brawddegau fel hon,—

"As Hugh Hughes was hewing a yule log from a yew tree, a man dressed in clothes of a dark hue came up to Hugh and said, 'Have you seen my ewes?' If you will wait until I hew this yew, I will go with you anywhere in Europe to look for your ewes,' said Hugh."

Weithiau y mae'r Cymro'n chware ar air amwys yn fwriadol. Yr wyf yn cofio hen berson yn Sir Aberteifi,—hen Dori o'r iawn ryw, yn cashau Ysgolion Brytanaidd â chas cyflawn, —yn adrodd ysgwrs fu rhyngddo ag amaethwr, gyda blas mawr. Yr oedd yr amaethwr wedi bod a'i hogyn bach,—hog, chwedl pobl Sir Aberteifi,—yn yr Ysgol Frytanaidd. "'Lle buoch chi?' mynte fi wrtho fe. 'A'r hog acw yn y Briwtis Scwl,' mynte fe.'" Ond sylwer fod dros hanner mwysedd yr ysgwrs hon yn fwysedd Saesneg.

Y mae llawer o ddychmygion plant Cymru yn troi ar amwysedd gair. "Roedd y ddafad ola ymlaena," meddai Gwyneddwr, yr hwn a swnia'r geiriau *goleu* ag *olaf* yr un fath. "Beth sydd yn yr afon ar le sych?" gofynnir weithiau; a thro arall gofynnir y cwestiwn, gan ddisgwyl yr un ateb, sef dwfr, fel hyn,— "Beth sydd yn yr afon ar les ych." Bydd pobl minion Menai'n chware ar amwysedd dau wrthrych, pan ddywedant,—

"Had maip Mon,
Hauwch hwy'n gynnar mi ddon';
Os y don' nhw, ddon nhw ddim,
Ac os na ddon' nhw mi ddon."

Y gamp ydyw gwybod pa un ai had maip ai brain feddylir wrth bob "hwy."

Ond y gair mwys digrifaf ydyw'r hwn a ddywedir heb feddwl. Gwneir hyn yn aml iawn trwy gymysgu dau ddarlun. Yr wyf yn cofio pregethwr eithaf coeth, a hynod ochelgar, yn temtio ei gynulleidfa i wenu ryw dro drwy syrthio i'r brofedigaeth hon. "Bobol," meddai, "mi fydd arna i ofn agor fy ngheg weithiau, rhag ofn i mi roi fy nhroed ynddi." A dywedir fod cynulleidfa heb fod ymhell o eglwys gadeiriol Bangor fydd yn edrych tua sêt teulu neillduol pan ledir yr emyn,—"Da iawn i bechadur bod afon"; tra mae'r pregethwr, druan, yn hollol anymwybodol fod y fath le a Bodafon yn bod.

Ambell dro cyfyd amwysedd o gyfeithu priod-ddull estronol. Yr oedd Sian Ifan yn darllen y *Faner* ryw dro, a Sion Ifan yn gwrando, gan wneyd sylwadau o esboniad neu o ryfeddod fel yr elai Sian ymlaen. "Canodd Tarw'r Cribigiau yn ardderchog," darllennai Sian, "tynnodd y ty i lawr yn lân." "Yn diar i mi," ebe Sion, tra'r oedd Sian yn cael ei gwynt. "Yn diar mi, dene ganu. Mi glywes o'r blaen am ddrym y Twenti Thyrd yn torri ffenestri Gwrecsam, ond ni choelia i byth y medr un dyn dynnu ty cyfa i lawr, tase fo ddim ond ty brics."

Clywais ysgwrs amwys unwaith rhwng hen wr a hen wraig. Yr oedd yr hen wr yn pasio adre o'r ffair, a'r hen wraig yn sefyll ar ben ei drws. Un go hagr oedd, ond boddheid hi'n fawr drwy awgrymu ei bod gen hardded a llawer un.

"Sian Wmffre," ebe gŵr y ffair, "mi weles dy hagrach di."

"Do'n wir, Mr. Jones," ebe Sian, yn llawen.

"Do, wel di, ond mae hi wedi marw ers talwm."

Erbyn hyn yr oedd yn hen bryd i Mr. Jones symud yn ei flaen, rhag clywed ei hanes, a hanes ei dadau.

Clywais hogyn yn dychrynnu amaethwr ar gynhauaf gwair pan fyddai'r gwair hadyd yn sych fel carth ac yn barod i'w gario, trwy godi ei law a gwaeddi, — "Dacw law." "Glaw," gwaeddai'r amaethwr mewn dychryn, gan syllu'n bryderus ar y nefoedd las ddigwmwl, "ym mhle gwel di o?" "Dyma fo," meddai'r direidus, gan ddangos ei ddwrn, a chan wneyd ei hun yn barod i osgoi cribin hedegog.

Dywedwyd wrthyf am un dyn yn chware ar air amwys pan oedd mewn perygl am ei fywyd; ond, yn sicr, yr oedd hwnnw o'i go. Hen gardotyn o'r enw "Elis Wiliam o'i go" ydoedd, a cheisiodd groesi afon Gonwy yn ymyl y fan lle mae Pont Rhyd Lanfair, ar li mawr. Pan oedd yng nghanol y lli, gwaeddai'r bobl o'r ochr arall arno ennill ar y dŵr, sef prysuro a throi ei wyneb yn erbyn y cenllif. Ond atebodd "Elis o'i go," a'r dwfr at ei enau, y doi yn o lew os medrai ddod allan yn ddigolled, dan yr amgylchiadau.

Yr wyf yn cofio am wr nad oedd ganddo ond un cwestiwn i'w ofyn. Gofynnodd ef ar hyd ei fywyd. A dyna oedd,—"Prun o honom ni sy'n cofio bellaf yn ol?" Yna ymffrostiai ei fod yn cofio clywed drws yr eglwys yn cau ar ol ei fedyddio. O'r diwedd deallodd pawb amwysedd ei haeriad, a gofynnid,—"Ie, ond faint ar ol eich geni?"

Clywais hen grafaglach cloff, holwr heb ei fath, yn cael ei wneyd gan dorrwr cerrig oedd yn prysur weithio ar ochr y ffordd. "A oes

rhyw newydd, Tomos Wiliam?" ebe'r holwr. "Oes," ebe'r torrwr cerrig, "yr oedd Harri'r Wern yn dechre byta'i frecwast cen iached a minne. 'Roedd o wedi darfod cyn pen yr awr." "Diar mi, Tomos Wiliam, tagu ddaru o?" "Nage, darfod yn naturiol." Hobiodd yr holwr ar hyd y plwy i ddweyd yr hanes, cyn clywed mai darfod bwyta wnaeth Harri'r Wern. Ond y mae hwn yn hen ddigrifwch patriarchaidd, llawer un yrrwyd ar siwrne'r holwr cloff hwnnw.

Adroddir am ddisgybl yn mynd at athraw unwaith, ac yn cael ei hun mewn anhawsder mawr pan ofynnodd yr athraw iddo am air mwys. "Duw am air a'm helpo!" meddai. Tybiodd yr athraw ei fod wedi darganfod mwysedd yr ymadrodd "Duw a Mair a'm helpo," a chanmolodd ef.

Clywais am un gurodd fachgen am ddwyn pys o'i ardd; a phan gyhuddid ef o greulondeb, atebai, "Ni wnes i ond ei guro â'm bys." Bu ceryddu hen bregethwr go arw mewn seiat unwaith am guro'r wraig. Dywedodd na wnaethai ond ei cheryddu â'r Gair; ond nid esboniodd mai wedi rhoddi Beibl ysgwâr mewn sach yr oedd, a wabio'r wraig dafotrwg â hwnw.

Y mae un gân, o waith person, Peter Lewis o Gerrig y Drudion, yn troi ar air mwys. Dyma fel y mae mewn llawysgrif sy'n perthyn i amser yr awdwr,—

"Hi aeth, f'anwylyd, yn Glan-gaua,
Di wyddost am y rhew a'r eira;
Dywed imi'n ddi-gyfrinach
Pam na wisgi Lewis bellach.

"Di gei own o sidan siopau,
Di gei grys o'r holand gorau;
Di gei'r ffasiwn a ddymunech,
Di gei Lewis fel y mynnech.

"Rhai ront lewis am eu breichiau,
Rhai ront lewis wrth eu cefnau;
Cymer ffasiwn newydd, Gwenfron,
Dyro Lewis wrth dy ddwyfron.

"Arferol i bob merch fo graddus,
Am ei breichiau wisgo llewis;
I'r gwrthwyneb synia dithau,
Am dy Lewis gwisg dy freichiau.

"Gweles ganwaith lewis gwynion,
Gan gyffredin a bon'ddigion;
Am dy weled mi rown fawrbris
Yn dda dy le, yn ddu dy Lewis.

"Gweles lawer merch na rusai
Yn ei llewis blannu pinnau;
Tithau fuost yn fwy dibris,
Saethau blennaist yn dy Lewis.

"Oer yw ty heb dân y gaua,
Oer yw cenllysg, oer yw eira;
Oer yw'r hin pan fo hi'n rhewi,
Oer yw merch heb Lewis ganddi.

"Bydd di fwyn, a rhwydd dy galon,
Paid ag edrych arnai'n ddigllon,
Rhag ofn dyfod Angeu dibris
I ymaflyd yn dy Lewis."

LLANDDWYN.

II.

YN gyntaf, yn ol hanes, traddodiad, a phob arwyddion, yr oedd y plwyf hwn, cyn ei orchuddio gan y tywod, yn cynnwys y tir gyda'r goreu ym Mon, a'i boblogaeth yn lliosog. Ond nid degwm oddiar y tir oedd ffynhonnell bennaf cyllid y prebendari, oblegid pe buasai amaethyddiaeth y lle o'r fath oreu, ni fuasai y cynnyrch yn fawr o blwyf pedair milltir ysgwâr. Yma yr oedd Ffynnon y Cariadau, at yr hon y deuai minteioedd o bob cyfeiriad i addunedu ac offrymu ynglŷn a'r pwnc pwysig sydd yn cynhyrfu calonnau pobl ieuainc, ac yn agor y boced a'r llaw. Nis gallaf fi ddesgrifio y seremoniau, yn enwedig ar y pumed ar hugain o Ionawr, sef dydd Gwyl Dwynwen, a gymerai le wrth y ffynnon, ac ar ben Craig Esyth. Dygai y bobl ofergoelus offrymau lawer, ac ymofynnent â'r rhai a broffesai ddarllen y dyfodol yn symudiadau y pysgodyn, i ddeall ffawd carwriaeth, ac i wneyd diheubrawfion o ddiweirdeb. Cyn symud ymaith y dywarchen lâs oddiar ben Craig Esyth, dywedir y byddai y lle bob amser yn llawn o lythyrennau i ddangos enwau y rhai a gyfrifid yn gariadau. Arferid torri llythyrennau fel hyn am rai blynyddoedd i'r ganrif hon, fel pe buasai yn draddodiad trwy hen arferiad o'r hyn gymerai le wrth selio ar ben Craig Esyth y dyweddïad a wnaethid wrth ffynnon Dwynwen.

Os oedd llythyrennau Craig Esyth yn yr oesoedd diweddar wedi disgyn i fod yn fath o gellwair ag amgylchiadau neillduol yr ieuenctid, felly hefyd fe aeth yr hen ffynnon i fod yn fan i lawer un ofergoelus, digofus, a dialgar, i fwrw eu hoffrymau o nodwyddau i geisio niweidio eu cymydogion trwy swyngyfaredd. Mae yr holl bethau hyn wedi diflannu ers blynyddau; a Llanddwyn, fel rhyw fan arall, yn lle gwareiddiedig, heb ymhonni bod yn fangre mwy neillduol na lleoedd ereill i gynhyrchu llwyddiant neu aflwyddiant yn amgylchiadau dynion. Ond y mae yn rhaid cydnabod nad oes dim yn fwy poblogymhlith ieuenctyd y parthau hyn yn yr haf na ffurfio mintai lawen i fyned i Landdwyn am ddiwrnod o ddifyrrwch iachus a diniwed.

Mae Oweniaid Bodowen, a changhennau o'r teulu a ymsefydlodd yn Niwbwrch fel meddianwyr Llanddwyn, a mannau ereill, wedi darfod yn llwyr.

Dwyran. OWEN WILLIAMSON.

CYHOEDDIADAU CYFNODOL Y CYMRY.

III.

YR WYTHNOSOLION, &c.

The Cambrian, Abertawe, Abertawe, 1804
North Wales Chronicle, Bangor, 1807
The Welshman, Caerfyrddin, 1831
Carnarvon and Denbigh Herald, Caernarfon, 1832
Cylchgrawn Rhyddid, Caernarfon, 1836.
Baner Gwynedd, Caernarfon, 1837
Swansea Journal, Abertawe, 1840
Y Figaro, Bangor, 1843
Anti-Figaro, Caernarfon, 1843
Pembrokeshire Herald, Haverfordwest, 1844
Yr Ysbiwr, Llangollen, 1844
Cardigan Herald, Aberteifi, 1844
The Principality, Caerdydd, 1847
Swansea and Glanmorgan Herald, Abertawe, 1847
The Wrexham Advertiser, Wrexham, 1848
Montgomeryshire Mercury, Drefnewydd, 1849
Seren Cymru, Caerfyrddin, 1851
The Tenby Observer, Tenby, 1853
South Wales Press, Llanelli, 1853
Llandudno Directory, Llandudno, 1854
Flintshire Observer, Treffynon, 1855
Rhyl Record, Rhyl, 1855
Llandudno Register, Llandudno, 1856
Abergele and Pensarn Visitor, Abergele, 1856
Cardiff Times, Caerdydd, 1857
Aberystwyth Observer, Aberystwyth, 1858
Mid-Wales Telegraph, Llanidloes, 1859
Baner ac Amserau Cymru, Dinbych, 1859
Cardiff Shipping Gazette, Caerdydd, 1859
Montgomeryshire Express, Drefnewydd, 1860
The Carmarthen Weekly Reporter, Caerfyrddin, 1860
Neath Gazette, Castellnedd, 1860
The Cambrian News, Oswestry, 1860 (Aberystwyth)
The Llangollen Advertiser, Llangollen, 1860
Pembroke Dock Gazette, Penfro, 1861
Roath Chronicle, Roath, 1862
Aberdare Times, Aberdâr, 1862
The Llanelly Guardian, Llanelli, 1863
Cyfaill y Werin, Castellnewydd Emlyn, 1863
Y Byd Cymreig, Castellnewydd Emlyn, 1863.
Merthyr Express, Merthyr Tydfil, 1865
Y Briwsion, Caernarfon, 1866
Papyr y Bobl, Bangor, 1866
Cardigan Advertiser, Aberteifi, 1866
The Brecon County Times, Aberhonddu, 1866
Y Glorian, Caerlleon, 1867
Y Fellten, Merthyr Tydfil, 1868
Y Dydd, Dolgellau, 1868
Y Dywysogaeth, Rhyl, 1868
North Wales Guardian, Wrexham, 1869
The Western Mail, Caerdydd, 1869
Y Goleuad, Caernarfon, 1869 (Dolgellau)
Weekly Mail, Caerdydd, 1870
South Wales Daily News, Caerdydd, 1871
Y Tyst a'r Dydd, Merthyr Tydfil, 1871
The Rhyl Guardian, Rhyl, 1872
Llais y Wlad, Bangor, 1874
Tarian y Gweithiwr, Aberdâr, 1875
Y Genedl Gymreig, Caernarfon, 1876
North Wales Express, Caernarfon, 1876
Y Chwarelwr, Llanberis, 1876
Cardigan Observer, Aberteifi, 1876
Cardiff Free Press, Caerdydd, 1876
Menai Straits Visitor, Bangor, 1877
Beaumaris Visitor, Beaumaris, 1877
Rhyl Advertiser. Rhyl, 1877
Y Rhedegydd, Ffestiniog, 1877
Swansea Shipping Gazette, Abertawe, 1877
Barmouth Advertiser, Abermaw, 1877
Y Gwyliedydd, Rhyl, 1877
Y Celt, Bala, 1878 (Caernarfon, Rhyl, Bangor)
Merionethshire Herald, Caernarfon, 1879
Bridgend Chronicle, Bridgend, 1879
Y Meddwl, Walton, 1879
Free Press, Penfro, 1879
Montgomery Post, Trallwm, 1880
Cyfaill yr Aelwyd, Llanelli, 1880
South Wales Echo, Caerdydd, 1880
Holyhead Mail, Caernarfon, 1881
Denbigh Free Press, Dinbych, 1881
Gwalia, Caernarfon, 1881
Pontypridd Chronicle, Pontypridd, 1881
Yr Wythnos, Corwen, 1881
Daily Cambrian, Abertawe, 1882
Y Llan a'r Dywysogaeth, Rhyl, 1882
Yr Amaethwr, Caerfyrddin, 1882
The Rhondda Gazette, Ystrad Rhondda, 1882
Pembroke Record, Penfro, 1882
Yr Amseroedd, Caernarfon, 1883
The Bangor Observer, Bangor, 1883
Hwyl, Caernarfon, 1883
County Herald, Treffynon, 1883
Briwsion, Caernarfon, 1885.
Y Seren, Bala, 1885.
Cardigan Bay Visitor, Aberystwyth, 1887
Udgorn Rhyddid, Pwllheli
The Merionethshire News. Dolgellau, 1888
The South Wales Star, 1890
Glamorganshire Free Press, Pontypridd, 1891
The Welsh Weekly, Caer Dydd, 1891

Talybont, Ceredigion. W. DAVIES.

DAU LU.

Iliad IV. 422—436.

MEGIS ar draeth pell-adseiniol ymddiwel gwaneg y weilgi,
Don ar ol ton, o dan araf gynhyrfiad gwynt y gorllewin.
Draw ar y cefnfor yn gyntaf y wendon ymfriga, ond wedyn
Draws y lan yn doredig ymdyrfa, neu am y clogyrnach
Cwyd ei bwaog ben, a phoera fôr-ewyn i'r awyr.
Felly, reng ar ol rheng, yn awr y Danaaid a gyrchent
Yn ddidor i ryfel. Pob cadben i'w filwyr ei archion a roddai,
Hwythau oll mewn mudanrwydd elent,—ac odid meddyliech
Fod cymaint torf yn canlyn â llais o fewn eu mynwesau—
Yn ddistaw gan ofn eu llywyddion yr elent; a'r efydd cywreindeg
A wisgai'r lluoedd, am danynt dywynnai, a hwy yn ymsymud.
Ond am y Troiaid—megis ym muarth boneddwr goludog
Y saif ei ddefaid aneirif, tra'n araf y godrir eu gwynlaeth,
Gan frefu, brefu'n ddiatal wrth glywed lleferydd eu hwynos;
Felly dolefain y Troiaid o'r fyddin faith a gyfodai.

Abertawe. R. MORRIS LEWIS.

SION PHYLIP O ARDUDWY.

Y mae bedd Sion Phylip wrth ffenestr ddwyreiniol eglwys Llandanwg, ar draeth Meirion. Y mae'r môr o fewn ychydig lathenni i'r eglwys, sydd a thywod ar ei llawr. Ni chynhelir gwasanaeth yn hon,—gadawyd hi i'r gwylanod a'r marw. Ar ei chyfer, ar benrhyn, saif Mochras, hen gartre Sion Phylip.

Bum yn chwilio am fedd Sion Phylip ychydig ddyddiau'n ol. Cefais ef yng nghysgod yr eglwys. Bum yn tynnu'r pridd oddiarno, i ddarllen y ddwy lythyren a'r dyddiad,—S. Ph. 1660, a'r englynion. Digwyddodd peth oedd yn darawiadol iawn i mi. Tra'r oeddwn with y bedd, chedai gwylan uwch fy mhen, gan swnio'n gwynfannus. Cofiwn mai i'r wylan y canodd Sion Phylip un o'i gywyddau goreu. Halsio, neu Halcyon, gwraig fu'n galaru ar lan y môr am ei gŵr, wedi ei throi'n aderyn yw'r wylan. Pan yn methu croesi afon y Bermo, gyr Sion Phylip hi'n gennad at ei gariad.

CYWYDD YR WYLAN.

YR wylan deg ar lan y dŵr,
Loew blu gofl, abl o gyflwr,
Ni'th ddeil heliog, ni'th ddilyn,
Ni'th fawdd dŵr, ni'th fedd dyn;
Crefyddwraig fwyd, saig o fôr,
Cregleisferch cyrau glas-for;
Taria ar lled trwy war y llyn,
Ysgwyd yna ysgadenyn;
Merch fedydd ddedwydd ydwyd,
Is lawn i *Neptunus* lwyd;
Chwith gennyd yr symud sydd
Ar dy fyd, oer dy fedydd.

Halsio, fun liwys feinael,
I'th alwyd di'th wlad hael;
Ag ar y dŵr, gweryl da,
I'r tonnau yr aet yna;
Ac yn wylan ganolwyllt,
Y'th droed, edn wendroed wyllt;
A byw'n ysgydferch bysgodfwyd,
Tan yr allt a'r tonnau'r wyd;
O'r un gri am dy briawd
Wyd o waedd braff hyd ddydd brawd;
A fu 'rioed ar fôr iach,
Nofyddes wen ufuddach?
Clyw gŵyn bardd, glog wen burddoeth,
Cowen myrn awen môr nceth;
Curiais drwy'r ais o draserch,
Curio i'm hoes cyn caru merch;
Ymbiliais a'm mabolaeth,
Am un oed a mi a wnaeth;
Ar oed heddyw'r ydoedd,
Mawr fu'r och, mor ofer oedd!
Nofia, nag anghofia nghwyn,
I gyfeirio y gu forwyn;
Hed i'r lan, hydr oleuni,
A dywed lle y'm dalied i;
Wrth aber, nid tyner tôn,
Bermo adwyth, byrm oerdon;
Man trist ym mhob munud draw,
Mor duoer y mordwyaw;
Codais, trafaelais tra fu
Blygain, at wyneb liwgu;
Dyddhau a wnaeth ar draeth drain,
Dydd oer o'r de-ddwyrain;
Nithio gro 'naeth hagrwynt,
Noethi cerrig nyth corwynt;
Troi'r arwydd trwy'r wawrddydd,
Trwch trych yn trochi traethydd;
Lliw inc fu gylch llyncfa gwynt,
Lle anadl gorllewinwynt;
Garw yw'r traeth mewn goror trin,
Os garw llawes gorllewin;
Gloesio'r môr, glasu'r main,
Gloesio dŵr glas o'r dwyrain;
Gloes fawr ar loer glas-for gwlad,
Gloes liwiwyd y glas leuad;
Gloes o'r llyn glas a'r lled,
Gloes sarff yn glaf o syrffed;
Gloes drom yn lle gwelais drai,
Glafoerion gwlaw a fwriai;
Gwely duoer glaw dwyallt,
Gweilgi môr heli mawr hallt;
Sug ffwrn-bwll soeg uffernboer,
Safn sugn ddafn sugnedd oer;
Glwth ei saf ar euafnos,
Glwthineb yn wyneb nos;
Cae erchwynlyb crochanlyn,
Cae gwahardd rhwng bardd a bun;
Cauaidd hullborth cawdd hall'bwll,
Cilfach trym afiach tir 'nhwll;
Cromlech yr holl afiechyd,
Cul fudr bwll clefydau'r byd;
Pwll cur o'r pyll-for cau,
Pell yw naid pwll y nodau;
Cyfuwch ar drym cuwch y dring,
Cyfod ysdormdaith cyfing;
Ni threia fyth, ni throe fo,
Nid awn drwodd dan dreio;
Tri dŵr ae tua'r dwyrain,
Tri dyfnder rhifer yr rhain;
Dŵr Euxine dŵr glân draw a'n gwlych,
Dŵr Adria dŵr yw edrych;
Dŵr rhydd ae tua'r rhuddallt,
Dŵr No hên wedi droi'n hallt;
Dŵr fferm aber y Bermo,
Dŵr a bâr, yn dir y bo.

LLYSENWAU.

NID ydyw ei lys-enw, o angenrheidrwydd, yn taflu dianrhydedd ar yr hwn a'i medd. Ambell dro y mae'r llysenw yn well, a mwy nodweddiadol, na'r enw. Yn yr hen amser, y llysenw, yn aml, fyddai'r enw arferid amlaf. Yn y dyddiau hyn rhaid enwi plentyn cyn gweled beth fydd ei natur, oherwydd rhaid ei gofrestru wrth ei enw ym mhen chwech wythnos wedi ei eni, ac ni fedr neb ddweyd beth fydd nodwedd bywyd plentyn chwech wythnos oed, na beth fedd ei ymddanghosiad. Felly rhaid rhoddi rhyw enw arno, ac fel rheol gelwir ef yn Jon. Weithiau ceisir proffwydo rhyw dipyn; ond daeth llawer Gwen yn felen fel sipiones, a llawer Gras yn felldith i'r hwn a ymbriodai â hi. Ond er gwaethaf y gof-restr, y mae arfer gwlad yn mynnu rhoddi enw ar lawer bod yn ol ei doethineb ei hun. Fel llawer Naso yn Rhufen gynt, ac fel Iorwerth Drwyndwn, rhoddir enw ar lawer un oddiwrth faint a ffurf ei drwyn. Enwir llawer un oddiwrth ei lygaid fel hwnnw, yn amser Owen Glyn Dŵr, a elwid yn Hywel Lygaid Brith. Ca llawer un ei enw oddiwrth duedd ei fuchedd,—Hywel Dda neu Hywel Ddrwg. Ac yn aml iawn rhoddir enw ar wr neu wraig oddiwrth ryw dro cofiadwy yn eu hanes hwy neu yn hanes eu teulu.

Y tro hwn, yr wyf yn bwriadu ysgrifennu ychydig am lysenwau lleoedd, gan adael llysenwau personol hyd adeg arall. Bu eiddigedd chwerw rhwng gwahanol ardaloedd, ac ymgyfarfyddai eu trigolion ar adeg benodol bob blwyddyn i ymdrechu cicio pel droed, neu i ymladd hen gwerylon hwyrach. Ac nid oedd hyn, mae'n ddiameu, ond parhad o ryfeloedd gwaedlyd ymleddid unwaith rhwng gwahanol deuluoedd a gwahanol lwythau. Byddai talent y pleidiau, yn ogystal a'u nerth, ar waith, a dyfeisiwyd llawer llysenw sy'n aros hyd heddyw, i daflu rhyw belydr gwan o oleuni ar deulu neu dylwyth oedd yn ddieithr ac newydd ymsefydlu trwy drais yn y wlad, ond sydd fel eu cymydogion erbyn hyn.

Y llysenwau mwyaf cyffredin yng Nghymru ydyw llysenwau oddiwrth anifeiliaid. Tybir y byddai gan bob llwyth unwaith lun rhyw anifel yn farc, ac yr edrychai'r llwyth ar yr anifel hwnnw fel ei hynafiad. Dywedir i'r Saeson ddod i'r ynys hon yn gyntaf dan lywyddiaeth Hengist a Horsa,—ceffyl a chaseg; ond y peth feddylir ydyw mai ceffyl a chaseg oedd marc llwyth y dyfodiaid anwaraidd hynny. Mewn amser, wedi i Gristionogaeth ddod, daeth yr enwau anifeiliaid yr ymffrostid ynddynt gynt yn fater cywilydd. Ni chofid hwy mwy ond gan elynion y rhai ymfalchiai ynddynt unwaith; a daeth yr hen enwau balch yn llysenwau dirmygedig.

Y mwyaf adnabyddus o'r rhain ydyw "moch Mon." Y mae Mon yn ynys ac yn meddu hanes y geill ei meibion ymfalchio ynddo, ac am hynny y mae pobl Mon yn dueddol i edrych arnynt eu hunain fel prif lwyth Cymru. Ac aml y clywant eu hen enw,—"moch Mon." Ryw dro daeth un o wŷr yr ynys i weithio i Ddinbych. "Dyma un o foch Mon eto," meddai pobl y dref wrtho. "Ia," meddai yntau, "a oes yma un o gŵn Dinbach fedar gydio yn i glust o?"

Cwn Dinbych, cathod Rhuthyn, geifr Arfon, ceirw Llanfyllin, gweryrod Llanuwchllyn, gwibed Mawddwy, hwyaid Niwbwrch, gwartheg Llanarth,—y mae y rhestr yn un hir iawn. Clywais fod pobl rhyw gwr o Lanarth yn cael eu galw'n adar bras yr yd. Eithaf enw ydyw brain Harlech,—y mae golwg ar y castell a'r graig yn dwyn brain i'n cof. Ni ddigia'r trigolion am eu galw'n frain; weithiau cyfeiriant atynt eu hunain yn falch fel "yr hen frain." Ond yr wyf yn meddwl y gwneir rhyw wahaniaeth rhwng brain y dref a brain y wlad.

Y mae'n amlwg mai'n ddiweddarach, trwy gam-esbonio enw'r lle, y galwyd pobl Llandrillo yn lloiau. Ond dyma ysgwrs glywais laweroedd o weithiau, ac y mae wrth fodd gwlad,—

"Ym mhle 'rwyt ti'n byw yrwan?"

"Yn Llandrillo."

"Ho, mae yno bedwar o honoch chwi felly."

Ca llawer lle lysenw oherwydd ansawdd tybiedig meddwl ei bobl. Y mae pawb yn gyfarwydd ag enw ffyliaid Aberdaron, ac wedi clywed llawer ystori ddigri am y ffyliaid yng nghwr Lleyn; ond nid pawb ŵyr, hwyrach, fod trigolion y Bala,—Athen Cymru, chwedl y papurau newyddion,—yn cael eu galw'n ffyliaid y Bala. Ca rhai lleoedd eu llysenw oddiwrth eu rhodiad,—megis "byddigions Llandderfel;" ac yr wyf yn meddwl mai enw'r ardaloedd cylchynol ar bobl Rhydlydan ydyw "diwciaid y Bont."

Y mae llysenwau a darluniadau gwawd i'w cael amlaf ar derfynau hen lwythau, terfynau ellir olrhain yn hawdd oherwydd y gwahaniaeth tafodiaith. Byddai pobl y ddwy ochr i'r Garneddwen yn gwawdio bwydydd eu gilydd. Ebe pobl Penllyn,—

> "Llanfachreth yr uwd tew,
> A'i lond o flew cyffyle."

Ac ebai pobl Llanfachreth yn ol,—

> "Penllyn llymru tena,
> A'i lond o drochion sana."

Byddai pobl yr Abermaw yn gwawdio pobl Penllyn a phobl Dolgellau yr un modd,—

"Dowcars y Bala
Heb ddim fala;
Dowcars y dre
Bara gwyn a the."

Rhoddir enwau goruchwylion rhai lleoedd yn llysenwau arnynt. Un o'r engrheifftiau goreu ydyw "cryddion Llannerch y Medd." Dywedir fod y cryddion hyn yn hynod am eu ffyddlondeb i'w gilydd, ac am eu direidi. Nid gwely o rosynau fyddai i'r hwn ddisgynnai ymysg cryddion Llannerch y Medd. Pan ffraeai'r dieithr ag un o'r cryddion, cymerai llawer un o honynt arno gadw chware teg, gan ddweyd yn uchel "chware teg i ddyn dieithr," ond, ar yr un pryd, pigai ef â'i fyniawyd o'r tu ol. Felly daeth enw cryddion Llannerch y Medd i feddwl tipyn bach o ddireidi a dichell.

Dywedir fod pobl yn rhywle yng nghwr uchaf Llanberis fedd ddigon o wroldeb i gyhoeddi rhyfel ar funud o rybudd yn erbyn meistr neu was. A'r enw gefais i arnynt ydyw Abysiniaid ond y mae'n amlwg nad ydyw'r enw hwn yn rhyw hen iawn. Y mae'r enw roddir ar drigolion rhan isaf plwyf Llanwenog,—Gwyddelod bro Gwenog,—yn yn llawer hŷn, ac yn dod i lawr, efallai, o'r amser pan oedd dwy genedl yn y plwyf amryddawn hwnnw.

Llysenwir pobl broydd oherwydd rhyw dro trwstan yn eu hanes; neu yn hytrach, efallai, dychmygir hanes i esbonio hen lysenw. Yr enw glywais ar bobl Llanilltyd Fawr, ar odreu Bro Morgannwg, ydyw "un ar ol," neu fel y dywedir ef yn awr yn y fro hanner Seisnig honno,—"Wan a wanting." Y stori ydyw fod un o bobl Llanilltyd Fawr wedi ei benodi unwaith i gyfrif y bobl, i edrych a oeddynt yno i gyd. Rhifodd hwynt lawer gwaith, ond yr oedd y cyfrif un yn fyr o hyd. Methai ddirnad pwy oedd ar ol, hyd nes y cofiodd, o'r diwedd, nad oedd wedi cyfrif ei hun. Y mae ystori wedi ei dyfeisio hefyd i esbonio "lladron Morgannwg" a "gwaedgwn Gwent."*

Weithiau defnyddir talfyriad o enw lle fel llysenw; pwy na chlywodd yr enw Cardi ar bobl Ceredigion, a'r "hen Shirgar" am bobl Sir Gaer Fyrddin?

Y mae gan lowyr Sir Ddinbych lysenwau ar bawb ymron. Eu henw ar rai ddaw atynt o weithydd plwm Fflint,—pobl yn siarad iaith Gwynedd,—ydyw "pobol yr hen wlad" neu "bobol y Dalar Goch," ond nis gwn i beth yw'r esboniad ar y geiriau hyn. A phaham, tybed, y rhaid galw Halcin yn "Bentre'r Cythraul?" Hwyrach fod esboniad deifl oleuni lawer ar hen draddodiadau'r fro.

CREIGDIR CYMRU.

I.

Boddloni wnawn ar gaban coed,
Dan do o frwyn yn llechu;
Pe byddai, fel y grug, a'i droed
Ar ddarn o greigdir Cymru:
Lle chwery'r afr a'i myn erioed,
Lle câr y cudyll nythu.

II.

Lle yr ymdeifi y rhaiadr syn
Dros erchwyn y clogwyni;
A'i luwchion poeth fel ffroendarth gwyn
Rhyfelfeirch wedi ffromi!
Lle hwylia cymyl dros y glyn,
Fel llongau i angori.

III.

Cawn yno gwmni'r ŵyn a'r hydd,
Y dymhestl a'r awelon;
Neu, fel yr helyg, dreulio'r dydd
Ar fin rhyw ddyfroedd oerion;
Arddunedd, tangnef, awyr rydd,
A minnau'n gymydogion.

IV.

Cawn yno mewn dinodedd fyw,
Yn ymyl anfarwoldeb!
Cawn yno deimlo mwy o Dduw,
A llai o hunanoldeb;
Pob chwa yn torri ar fy nghlyw,
Gyfrinach tragwyddoldeb!

V.

Boddloni wnawn ar gaban coed,
Dan do o frwyn yn llechu;
Pe byddai, fel y grug, a'i droed
Mewn cwmwd tawel felly;
Newidid symledd coed a brwyn
Yn fawredd, o dan hudlath swyn,
Hen greigdir anwyl Cymru.

EIFION WYN.

*Iolo MSS. 66.

SIARTERAU CYMRU.

I. SIARTER PWLLHELI.*

Cadarnhad breintiau i wyr a dinasyddion tref Pwllheli.

Y BRENIN i bawb at y rhai, &c., iechyd. Darllenasom lythyr gwarant yr arglwydd caredicaf, ac o'n blaen y brenin diweddar, o'r pryd y bu Dywysog Cymru, a wnaed yn y ddinas hon,—

"Harri, cyntafanedig brenin urddasol Lloegr, Tywysog Cymru, duc Aquitania, Lancaster a Chernyw, a iarll Caer, i bawb at y rhai y daw y llythyr presennol, iechyd! Darllenasom lythyrau gwarant yr arglwydd Harri, diweddar frenin Lloegr a Ffrainc ac arglwydd Iwerddon, i sicrhau i breswylwyr dinas Pwllheli, a wnaed yn y ddinas hon,—

'Harri, trwy ras Duw brenin Lloegr a Ffrainc, ac arglwydd Iwerddon, i bawb at y rhai y daw y llythyr hwn, iechyd. Darllenasom lythyr gwarant yr arglwydd Edward, cyntafanedig urddasol frenin Lloegr a Ffrainc, diweddar Dywysog Cymru, duc Cernyw a iarll Caer, a wnawd yn y ddinas hon,—

'Edward, cyntafanedig brenin urddasol Lloegr a Ffrainc, Tywysog Cymru, duc Cernyw, a Iarll Caer, i'r arch-esgobion, esgobion, abadau, periglor-iaid, rhaglawiaid, uchelwyr, swyddogion a phawb ei ddeiliaid a'i ffyddloniaid, at y rhai y daw y llythyr hwn, iechyd. Bydded hysbys ein bod, drwy ewyllys a chydsyniad ein hanwyl a'n ffyddlawn Nigellus De Sohareyn, ein milwr graddol, i'r hwn yn ddiweddar y rhoddasom ac y caniatasom drefi Nefyn a Phwllheli, gyda'u meddiannau, yng Ngogledd Cymru, hyd derfyn ei oes, a thrwy ddirwy o bedair punt ar hugain i ni drwy y gŵr hynaws oddiwrth y ddywededig dref, Pwllheli, rhoddasom a chaniatasom ar ein rhan ein hunain a'n hetifeddion i breswylwyr y ddywededig dref, Pwllheli, fod i'r ddywededig dref Pwllheli fod yn fwrdais rydd, ac fod i breswylwyr y ddywededig fwrdeisdref fod yn fwrdeisdrefwyr rhyddion, ac fod iddynt gael corfforaeth fasnachol, gyda chwmni, a phob rhyddid, a defodau rhydd o bob natur a berthynant i'r cyfryw fwrdais rydd, a hynny yw, y cyfryw ryddid a defod ag a fedd ein bwrdeisdref-wyr yn nhref Niwbwrch yn Sir Fon yn eu bwrdais hwy. Ac fod i'r dywededig fwrdeisiaid, a'u holynwyr am byth, gael a chadw drwy gyfamod cadarn gan y dywededig Nigellus, hyd derfyn ei oes, ac ar ol ei farwolaeth ef, gennym ni a'n hetifeddion, y ddywededig ddinas, gyda'r holl freintiau rhag-ddywededig a'r buddianau ereill a'u cysylltiadau cyffredinol. Gan ddarparu yn wastad fod i'r dywededig Nigellus hyd derfyn ei oes, ac i ninnau a'n hetifeddion ar ol ei farwolaeth ef, gael pedwar ugain swllt o dâl blynyddol, dyledus yn lle ac yn enw ad-daliad am ein hawliau yno yn flyn-yddol. Hefyd rhoddasom a chaniatasom, drosom ein hunain a'n hetifeddion, i'r dywededig fwrdeis-iaid ym Mhwllheli, ac i'w holafiaid dros byth, iddynt gael a chynnal yn y ddywededig ddinas ddwy ffair yn flynyddol, sef un ar wyl a chywledd y Dyrchafael a'r llall ar wyl a chywledd yr Holl Saint, ac fod iddynt gynnal marchnadoedd yno ar ddydd Sul ym mhob wythnos dros byth, fel yr arferent ei chynnal yn flaenorol. I'r hon farchnad caniatawn i drigolion ein cwmwd Cafflogion gael hawl i ddyfod, ac ereill, y rhai cyn y pryd hwn a arferent ddyfod i'r farchnad ragddywededig, drwy dalu i'r dywededig Nigellus, hyd derfyn ei oes, ac i ninnau a'n hetifeddion ar ol ei farwolaeth, bedair punt ar ddeg yn flynyddol ar wyl y Pasg a gwyl Sant Mihangel yn gyfartal, ar gyfrif y dywededig gyfamod, ac am yr holl freintiau a buddiannau rhagddywededig, drwy y rhagddywed-edig daliad blynyddol o ddeugain swllt i'r dywed-edig Nigellus, hyd derfyn ei oes, ac i ninnau a'n hetifeddion ar ei ol fel y dywedwyd o'r blaen. Am hynny ewyllysiwn, a chyfarwyddwn yn gadarn, a chaniatawn drosom ei hunain a thros ein hetifedd-ion ar i'r ddywededig ddinas Pwllheli fod yn fwrdeisdref rydd, ac fod i'r dynion a breswyliant y ddywedig ddinas fod yn fwrdeisdrefwyr rhyddion, ac ar fod iddynt gorfforiaeth fasnachol, gyda chwmni a phob rhyddid a defodau rhydd o bob natur perthynol i fwrdeisdref rydd, sef y cyfryw freintiau a defodau ag a feddianna bwrdeisdrefwyr ein dinas Niwbwrch yn Sir Fon, yn eu bwrdais hwy. Ac fod i'r dywededig fwrdeiswyr a'u holynwyr am byth feddiannu a dal wrth gyfamod sicr y ddywed-edig fwrdais gyda phob rhyddid, braint a meddiant rhagddywededig am bedair punt ar ddeg i'w talu yn flynyddol i'r dywededig Nigellus am ei oes, ac ar ol ei farwolaeth i ni a'n hetifeddion dros byth, ar wyl y Pasg a gwyl Fihangel yn gyfartal, y dywededig daliad blynyddol o ddeugain swllt i'r dywededig Nigellus hyd derfyn ei fywyd, ac i ni a'n hetifeddion ar ol ei dranc yn cael eu dychwelyd fel y dywedwyd eisoes. Ac ar fod iddynt gael a chynnal yn y ddywededig fwrdais ddwy ffair yn y flwyddyn, sef un ar wyl a chywledd Dyrchafael y Santaidd Groes, a'r llall ar wyl a chywledd yr Holl Saint. Ac ar fod iddynt gael marchnad yno ar ddydd yr Arglwydd bob wythnos fel o'r blaen, ac fod trigolion ein cwmwd Cafflogion gael eu goddef i ddyfod yno, ac ereill, y rhai a arferent ddyfod i'r ddywededig farchnad cyn y pryd hwn, fel y dywedwyd o'r blaen. Yn dystiolaeth o'r hyn rhoddwyd ein sel wrth ein llythyr hwn. Rhodd-wyd yng Nghaernarfon y pedwerydd dydd ar ddeg o Chwefror, y ddeuddegfed flwyddyn o'n teyrnasiad. I hyn yn dystion John de Delves ein cynrychiolydd (*lieutenant*) brawdlysol yng Ngogledd Cymru, Robert de Parys, ein milwr graddol, yn yr un diriogaeth, a llawer ereill.'

"Ac yr ydym ni, drwy ein bodd, ac mor bell ag y gorffwys ynnom, drosom ein hunain a thros ein hetifeddion, yn derbyn, cymeradwyo, a chadarnhau y rhagddywededig lythyrau a pob peth a gynhwysant, ac a fernir eu bod yn eu cynnwys; a'r rhyddid, a'r defodau rhag-ddywededig, i'r rhagddywededig wyr Pwllheli a'u holafiaid, yn ol rhediad y llythyr presennol, a ganiatawn, ac a gadarnhawn fel yr arferent hwy a'u blaenafiaid fwynhau a defnyddio y rhyddid a'r defodau rhagddywededig er amser gwneuthuriad y llythyrau rhagddywededig yr unrhyw dywysog. Yn dystiolaeth o'r hyn

* Cyfieithwyd y Siarter hon gan gan Ioan Pedr.

parasom i'n llythyr gwarant hwn gael ei wneuthur. Yn dyst fy hunan yn Westminster y chweched dydd a'r hugain o Chwefror, y chweched flwyddyn o'n teyrnasiad."

Ac yr ydym ni, drwy ein hewyllys da, ac ar gyfrif y cyfryw ddirwy o ugain swllt yr hon a dalodd yr unrhyw ddynion dinas Pwllheli i'n cymorth ni, drosom ein hunain a'n hetifeddion, ac mor bell ag y perthyn i ni, yn derbyn, cymeradwyo, a chadarnhau y llythyrau rhagddywededig, a'r hyn oll y bernir eu bod yn eu cynnwys, ac i'r rhagddywededig bobl, a'u holafiaid, caniatawn a chadarnhawn y rhagddywededig ryddid a defodau, megis yr arferasant hwy a'u henafiaid arfer a mwynhau y cyfryw ryddid a defodau rhagddywededig o'r pryd y gwnaethpwyd ac y cadarnhawyd y rhagddywededig lythyrau. Yn dystiolaeth o'r hyn y rhoddwyd ein sel wrth y llythyr presennol. Rhoddwyd o dan ein sel yn Westminster yr ail ddydd ar bymtheg o Chwefror, yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad ein hardderchocaf arglwydd a thywysog rhagddywededig. Eithr yr ydym ni yn cymeradwyo, awdurdodi a chadarnhau unrhyw lythyrau ein dywededig dywysog ynghylch y cyfryw ryddid a defodau na ddirymwyd yn y radd leiaf, drwy gyngor, a chydweledíad y ddwy radd ysbrydol a thymhorol ymgynulledig yn y Senedd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Westminster, fel y tystia y llythyrau gwarant rhagddywededig ac fel yr hawliodd ac yr arferodd hyd yma yr unrhyw bobl a bwrdeisiaid y rhagddywededig ddinas eu rhyddid a'u defodau rhagddywededig er pan y gwnaethpwyd ac y cadarnhawyd y rhagddywededig lythyrau. O'r hyn, &c., T. R. yn Westminster y xxi. dydd o Fai.

Cynysgaeddwyd â'n Sel gyfrin.

RHOBERT AB GWILYM DDU.

Y mae'n dda gennyf fedru rhoddi ychydig o bigion anghyhoeddedig o waith awdwr "Mae'r gwaed a redodd ar y groes." Codwyd y cyntaf o lawysgrif gan Geunantog; cafodd y Parch J. R. Evans y llall gan nith ferch chwaer y bardd,– Mrs. Ellis, Pen y Bont, Llanbedr.

I. CARIAD CRIST.

Ephes. iii. 18.

Mae cariad Crist uwchlaw pob dawn,
Pwy ŵyr ei lawn derfynau!
Ni chenfydd llygad cerub craff
Na seraff ei fesurau.

Mae hyd a lled ei gariad Ef
Uwch nef y nef yn llifo;
A dyfnach yw na llygredd dyn,
Heb drai na therfyn arno.

Mae'r hyd a'r lled a'r uchder maith
Mewn perffaith gydweithrediad,
I'w gweld yn amlwg ar y bryn,
A'r gwaed yn llyn o gariad!

Y cariad oedd er cyn creu dyn
Erioed heb un dechreuad,
Sydd yn dragwyddol i barhau,
A'i ddyddiau heb ddiweddiad.

R. W.

II. COEL.

"Rhoi coel ar y gog a'r bioden,
Ac ar y ddallhuan dinllaes;
Rhoi coel ar rinwedd y fronwen,
A'r falwen dorfelen ar faes;
Rhoi coel ar lygredig greadur,
Pa reswm, pa synwyr, pa sail,
Rhoi coel ar y ceiliog, rhag c'wilydd,
Y meillion, y dolydd, a'r dail.

Nid cyson rhoi coel ar giw caseg
Cyn iddo ef redeg erioed.
. . . .
Dewiniaeth, swynyddiaeth sy'n eiddil,
Lleferydd fy Meibil i mi."

III. HEN FYNACHLOG.

Wel, dyma hen fynachlog,
Merch hyna' i Rufain chwannog,
A chwi gewch sugno wrth eich blys
O'i lleidus ddyfroedd llidiog.
Rhoi dŵr i olchi pechod
Ar bennau eich babanod,
A'u gwneyd ar frys pan deimlo chwant
I gyd yn blant y Drindod.
Rhoi cymun i rai cleifion,
Rhyddhad i wragedd gweigion,
A chadw wylnos ar brydnawn
Sy'n ynfyd iawn i Gristion.

IV. BETI A MARI.*

Mae Beti bach Boduan
Yn Fethodistiad trwstan,
Ni choelia neb o berchen ffydd
Y rhegi bydd yr hogan.

Mae Beti bwt o'r Betws
Yn dwt am olchi tatws,
Mae'r saer yn Sir Gaer yn sorri
Hwyrach mewn hiraeth am Mari,
Mae poenau dan ei fron heb ri'
A Wiliam heb ddim eli.

* Morwynion fu gyda'r bardd ym Metws Fawr oe y Beti a Mari y cyfeirir atynt.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD XII.

YR AIL BRIODAS.

WEDI rhoddi yr addewid i'w thad cafodd Morfudd ddyfod allan o'i charchar, a'r lle cyntaf yr aeth oedd i'r ardd, i weld pa fodd yr oedd ei hoff rosynau cochion a gwynion wedi blaguro er pan fu yno o'r blaen. Bu yno am ysbaid yn trin y blodeu, yn tynnu ymaith y dail crinion, ac yn rhwymo rhai brigau gweinion. Yr oedd yn estyn ei llaw i dynnu rhosyn mawr llawn blagur i fyned gyda hi i'r ty pan welodd gysgod rhywun rhyngddi â'r haul, o'r tu ol iddi. Cododd yn sydyn ar ei thraed i weled pwy oedd yno, a rhoddodd lef, ac ymaith a hi ar redeg i'r ty.

"Beth sydd wedi dy ddychrynnu, Morfudd?" gofynnai ei mam wrth weled ei gwyneb gwelw.

"O mam! mae rhyw greadur rhyfedd yn yr ardd. Duw a ŵyr pa un ai dyn ai ellyll ydyw. Daeth ataf heb i mi wybod."

Gyda hyn daeth Madog Lawgam i mewn, yn cael ei ddilyn gan ddyn bychan, gwargrwm, hen, a hagr.

"Dyma Gynfrig Cynin, bonheddwr o Frynllyn, ger y Bala," meddai wrth Forfudd, "ac y mae wedi dod yma gyda'r bwriad o'th gymeryd di yn wraig iddo, ac yn feistres ar Frynllyn."

"Ei wraig!" meddai Morfudd yn ddychrynedig, gan afael yn dyn yng ngown ei mam.

"Yr ydym wedi cyfarfod o'r blaen yn yr ardd, ond aeth y ferch ymaith cyn i mi gael cymaint ag ysgwyd llaw a hi," meddai Cynfrig, gyda gwên, yr hyn a'i gwnai yn fwy hagr fyth.

Amneidiodd Madog ar ei wraig, ac aeth y ddau allan o'r neuadd, gan adael Morfudd ei hunan gyda'r darpar wr. Ni bu yr olaf yn ol o wneyd defnydd o'r cyfleusdra, a neshaodd at Forfudd gyda'r bwriad o'i hanwylo a'i chusanu. Ond yr oedd Morfudd yn rhy gyflym iddo, a rhuthrodd heibio i'r pen arall i'r ystafell gan roddi tro chwyrn iddo wrth fyned, nes y bu agos iddo syrthio i lawr. Fel hyn y buont am gryn amser; Cynfrig yn dilyn yr eneth o'r naill gongl i'r llall o'r ystafell fawr, a hithau yn ei osgoi pan y byddai bron iawn a chael gafael ynddi. Yr oedd yn olygfa mor ysmala fel y torrodd Morfudd i chwerthin, er ei holl ofid, a chwarddodd fwy drachefn pan welodd ddwy forwyn wedi cilagor y drws ac yn mwynhau y chware. Ond po fwyaf yn y byd y chwarddai Morfudd, mwyaf digllawn yr ymddanghosai Cynfrig. Ysbonciai yr eneth ar gader a bwrdd, fel aderyn ar frigau coeden, nes o'r diwedd y gwelodd ei herlidiwr mai gwaith ofer oedd ceisio ei dal, ac aeth allan o'r neuadd yn ddrwg ei hwyl, gan sibrwd,—"Cei dalu am wneyd gwawd o honof fel hyn, fy lodes, pan ddeui i Frynllyn."

Ar ol iddo ei gadael ei hunan, daeth ei sefyllfa o flaen ei meddwl yn ei holl atgasrwydd, a cherddodd yn araf i'w hystafell a chlodd y drws arni. Meddyliai mor galed a chreulon oedd ei thad tuag at ei unig blentyn,—ei gorfodi i briodi creadur anolygus, hen, yn unig am fod ganddo lawnder o gyfoeth. Buasai priodi dyn ieuanc hardd yn gosp anrhaethol, tra yr oedd wedi rhoddi ei llaw a'i chalon i arall, ac yn gwisgo ei fodrwy ar ei mynwes. Ond nid oedd troi yn ol yn awr. Er y munud yr addawodd Morfudd briodi dewisddyn ei thad, yr oedd parotoadau ar gyfer y briodas yn cael eu gwneyd, ac yr oedd son am y wledd fawr oedd i fod yn Eithin Fynydd wedi mynd drwy y wlad.

Clywodd Dafydd am dani yn Aberffraw, ac yr oedd fel cnul cloch marwolaeth iddo. Yr oedd wedi bod o amgylch cartref ei hoff Forfudd amryw nosweithiau, ar ol y tro y bu yn ymddiddan â hi yn ei ffenestr, ond yr oedd rhywun o hyd yn ei luddias i fyned yn agos at y ffenestr. Un tro yr oedd wedi mynd drwy borth yr ardd, pan y safodd un o weision y ty yn sydyn o'i flaen a chymerodd afael yn ei fraich. Digwyddodd fod y gwas yma yn teimlo yn garedig at Ddafydd a Morfudd, a dywedodd wrth y bardd ei fod yn dymuno cael ymddiddan ag ef. Aeth y ddau yn ol drwy y porth ac i'r ffordd.

"Y mae fy meister drwy ryw fodd yn gwybod am dy ymweliadau yn y nos i geisio gweled Morfudd; ac y mae un o honom ni y gweision yn gorfod aros allan yn ein tro i wylio ei ffenestr."

"Yr hen wrach a ddywedodd wrtho, rwy'n siwr."

"Wn i ddim yn wir, ond fel'na mae hi. Ac hefyd yr ydym i dy ddal di am dresmas os deui yn agos i'r ty."

"Felly, yr wyt ti am fy nghymeryd i'r ddalfa heno?"

"Nac ydwyf. Mae'n ddrwg iawn gen i drosoch chwi eich dau. Yr wyf finnau yn caru geneth bert, Beti, morwyn y person, ac anhawdd fuasai gennyf fi ei rhoddi i fyny.

"Sut mae Morfudd y dyddiau hyn?"

"Nid oes neb yn cael ei gweled ond ei thad a'i mam a'r hen Sidi. Clywais rywun yn dweyd fod ei thad am ei hanfon i leiandy."

"Os gweli hi, ac os cei gyfle dywed wrthi fod ei bardd yn gwneyd ei oreu i'w gweled, ac yn benderfynol o lwyddo."

"Gwna, mi wnaf, yn sicr i ti."

Dychwelodd Dafydd i'r Aberffraw ac ni chynhygiodd weled Morfudd drachefn o dan ei ffenestr, gan y gwelai mai ofer oedd, ac fe-allai y gwnaethai drwy hynny achosi mwy o boen i'r un a garai. Ystori gelwyddog o ddychymyg yr hen Sidi oedd ei fod wedi torri ei goes.

Ni chysgodd Morfudd o gwbl y noson cyn dydd y briodas, ond eisteddai yn llonydd ar erchwyn ei gwely, gan ddyfeisio a oedd modd dianc oddiwrth ei thynged. Unwaith bu mor ffol a gwneyd pecyn o ychydig bethau, gan feddwl ei daflu allan drwy y ffenestr, a dilyn ei hunan ac ymguddio yn y coed. Ond ym mha le y gallai ymguddio nas gallai ei thad ddod o hyd iddi? Na, nid oedd ffordd i ddianc, ond rhaid oedd iddi aberthu ei hun ar allor ariangarwch ei thad. Nid oedd yn wylo, yr oedd ffynhonnau ei dagrau fel pe buasent wedi eu sychu i fyny. Yn unig sibrydai rhwng ocheneidiau, "Dafydd! Dafydd! fy anwylyd a'm bardd! mor dyner a hardd ydwyt O na chlywn swn dy droed, yr wyf yn ei adnabod o bell. Mae rhyw swyn i mi pan y byddi yn agos. Gwn pan y byddi yn bresennol, pan na fyddaf wedi dy weled, na'th glywed, mae fy nghalon yn dweyd wrthyf pan y byddost ti gerllaw. Fy nghariad!"

Dydd y briodas a ddaeth; dydd cynylog a du i Forfudd, er fod yr haul yn tywynnu, a'r hin yn dawel iawn. Yr oedd y ffyrdd o Eithin Fynydd i Eglwys Rhosyr yn llawn o edrychwyr, yn disgwyl gweled y dyrfa briodasol yn myned heibio. Llannwyd yr eglwys ymhell cyn yr amser, a difyrrai y disgwylwyr eu hunain drwy ddatgan eu barnau i'w gilydd am y gŵr ieuanc, ei berson, ei gymeriad, a'i feddiannau. Yr oedd rhai yn gorliwio ei hagrwch a'i fychander, ac ereill yn son am ei gyfoeth anrhaethadwy ac yn proffwydo yr hawddfyd a ddeuai i ran Morfudd fel ei wraig. Testun syndod hefyd ydoedd y cerbyd ysblenydd oedd wedi dod i Eithin Fynydd, cerbyd Cynfrig Cynin, i'w cario i'r eglwys ar ddydd y briodas, ac i'w cario adre i'r Bala wedi hynny.

"Dyma y cwmni priodasol yn dod. Dacw nhw," meddai y naill wrth y llall wrth weled cwmwl o lwch yn codi ar y ffordd draw ymhell. Ym mlaenaf yr oedd cerbyd mawr pedair olwyn, cerbyd Cynfrig Cynin, yn cael ei dynnu gan chwe march. Cerbyd hir, cul, oedd hwn, a nen fwaog iddo, yr hwn oedd wedi ei liwio yn wyn ac ag aur oddiallan, ac a orchuddid oddimewn â llenni o sidan glâs. Yr oedd seddau ar bob ochr iddo, a chlustogau sidan glâs arnynt. Yn ei dalcen yr oedd y drws, ac yr oedd pedair ffenestr yn y cerbyd, dwy ar bob ochr. Yr oedd yr olwynion,—er eu bod yn fawr a chryfion i ateb i'r ffyrdd geirwon,—wedi eu cerfio a'u goreuro yn ysblenydd. Cerbyd cyffelyb ydoedd i'r cerbyd a roddodd y brenin Iorwerth yn anrheg i'w frenhines. Digwyddodd i Gynfrig fod yn Lloegr a gweled y cerbyd hwnnw, a phan benderfynodd briodi Morfudd, mynnodd gael un cyffelyb. Pa ryfedd fod y Monwyson yn credu fod perchennog y fath gerbyd gwych yn feddiannol ar gyfoeth tywysogaidd? Dywedid hefyd fod ganddo ysgraff wedi ei gwneyd yn bwrpasol i gario y cerbyd dros y Fenai. Ar ol y cerbyd marchogai llu mawr o gyfeillion Madog, y rhai a ddaeth o bob cwr o Gymru i fod yn bresennol yn y briodas a'r wledd a ddilynai; a llannwyd eglwys fechan Rhosyr yn orlawn, a bu raid i lawer aros allan. Nid oedd neb byw yn cofio gweled y fath olygfa ag a welwyd yn y briodas y bore hwnnw; y fath anghydmariaeth rhwng y priodfab a'r briodferch. Safai Morfudd wrth yr allor, i bob golwg yn hollol dawel a di-gyffro, a'i gwyneb mor wynned a'r wisg sidan wen oedd am dani, a'i gwallt aur-felyn yn cystadlu mewn prydferthwch â'r tlysau aur a wisgai, ac yn ennill yn y gydmariaeth. Nid oedd yn rhy oleu fel ag i ymddangos wedi colli ei liw, nac ychwaith yn rhy dywyll i rai ei alw yn goch, ond

"Bargod haul goruwch brig ton,
Llurig euraid, lliw'r goron."

I un a fuasai yn dal sylw manwl arni, fe welai, er ei holl dawelwch ymddanghosiadol, fod môr o ofid yn ei llygaid gleision tywyll, ac fod o'r golwg galon yn gwrthryfela yn erbyn gormes a ffawd. Gerllaw iddi safai Cynfrig Cynin, yr hwn a edrychai yn llai a mwy afluniaidd nac erioed wrth ochr ei briod feingorff, dal, hardd; edrychai yr un hyd a lled, ac yn brin y cyrhaeddai ei ben at ysgwydd Morfudd. Daliai Morfudd ei golwg ar y ffenestr, fel pe yn ceisio treiddio i'r dyfodol tywyll, ond yr oedd llygaid llymion Cynfrig yn cyniwair o fan i fan drwy'r dorf, ac yn ysbio ar bawb a phob peth, ond yn dychwelyd beunydd i edrych gyda boddhad ar wyneb ei gydmar. Terfynwyd y gwasanaeth, ac aeth y par adre, yng nghanol banllefau o ddymuniadau da gan y dorf ar hyd y ffordd. Unwyd dau mewn glân briodas, gyda holl

ddefodau yr eglwys wrth weinyddu yr ordinhad ddwyfol, i'w gwneuthur yn anwahanol tu yma i angeu. Penderfynwyd fod y galon i garu, y deall i anrhydeddu, a'r ewyllys i ufuddhau, ar un llaw; tra, ar y llaw arall, yr oedd cariad, cysur, a nodded i gael eu hymarfer. Unwyd dwy law, ond gwahanwyd dwy galon. Ai o'r nefoedd y mae priodasau fel hyn?

Yr oedd y wledd briodasol yn Eithin Fynydd i barhau am bedwar diwrnod, ac wedi hynny yr oedd Morfudd i ymadael gyda'i gŵr i'w chartref newydd, ym Mrynllyn. Ni ddaeth Morfudd i blith y gwahoddedigion y ddau ddiwrnod cyntaf, ymesgusododd o herwydd afiechyd. Ond y trydydd dydd gwnaeth ei hymddanghosiad, ac aeth allan i r cae i weled y campau. Cynfrig, yn gwybod nad oedd ganddo afael o gwbl ar galon Morfudd, a'i gwyliai yn fanwl, gan ddrwgdybio fod ganddi amcan mewn golwg wrth ddyfod allan. I ba le bynnag yr ai, dilynai Cynfrig hi o bell. Yr achos i Forfudd ddyfod allan ydoedd gweled Rhys bach ymhlith y dyrfa drwy ei ffenestr, a meddyliodd y gallai fod ganddo genadwri oddiwrth Ddafydd. Yn fuan wedi iddi fynd allan, canfyddodd Rhys hi, a daeth ati ar redeg.

"Gostwng dy ben, y foneddiges Morfudd," meddai.

Cydsyniodd hithau â'i gais, a chusanodd y bachgen hi, gan ddweyd,—"Mae o wedi peri i mi roi hwnna i ti, ac ymolchais fy ngwyneb yn lan cyn dwad i'w rhoi."

"Dyro dithau hwn iddo yntau oddiwrthyf fi," meddai Morfudd, gan ei gusanu drachefn.

"Dywedodd hefyd y byddai yr eos yn 'hedeg yn aml drwy Arfon a Meirion, ac y byddai i'w chlywed yn aml yn canu yn y nos, a chei ei chlywed os gwrandewi di."

"Dywed wrtho y gwrandawaf yn ddyfal," atebai Morfudd.

Edrychodd lawer ar y gwynebau a ymrithiai o'i blaen, gan ddymuno gweled gwedd yr un a garai, ond nid oedd ef yno. Barnai Dafydd mai gwell oedd iddo gadw yn gudd iedig yn Llys Gwilym, na dyfod i r wledd. Ofnai y buasai ei bresenoldeb yno yn temtio Madog Lawgam i'w roddi yng ngharchar, ac y buasai hynny yn poeni mwy ar Forfudd na'i absenoldeb, ac yn ei luddias i'w dilyn i'r Bala.

Gyda bod Rhys bach wedi gadael Morfudd, daeth Cynfrig ati, a gofynnodd pwy ydoedd, a pheth oedd ei neges.

"Bachgen o'r pentre," atebai Morfudd, gan gerdded yn araf i gyfeiriad y ty.

"Beth ddywedodd wrthyt?" gofynnai Cynfrig drachefn.

Safodd Morfudd ac edrychodd arno gyda dirmyg; yn hollol fel y buasai brenhines yn edrych ar wehilyn o ddeiliad yn beiddio gofyn am ei hawdurdod i ymddwyn fel yr ewyllysiai.

"Cynfrig Cynin," meddai, "gwell i ni ddyfod i ddealltwriaeth trwyadl ar unwaith. Nid wyf wedi arfer cael fy holi am hyn ac arall, na'm galw i gyfrif mewn un modd, tra yr oeddwn yn ieuanc gartref, ac yr wyf yn dymuno iti ddeall nad ydwyf yn bwriadu ar hyn o bryd ddechre ateb cwestiynau ynghylch fy ymddygiadau rhagllaw."

Yr oedd gwaed tywysogion Cymru yn rhedeg yng ngwythienau Morfudd, ac nis gallai, fel hwythau, oddef mathru ei hiawnderau, heb godi arfau gwrthryfel. Ond lle y carai, byddai fel oen yn dyner ac addfwyn.

Gostyngodd Cynfrig ei ben a dechreuodd feddwl na byddai ei wraig yn un mor hawdd ei thrin ag y dymunai.

Wedi i Forfudd fyned i'r ty, aeth Cynfrig Cynin i chwilio am y bachgen a'i cusanai. Ar ol cerdded ychydig o amgylch, cafodd hyd i'r bachgen, a gofynnodd ei enw.

"Rhys!" atebai y bachgen, gan edrych yn herfeiddiol arno.

"Rhys, O aie? Wel, dywed wrthyf, Rhys, am ba achos yr oeddit yn cusanu Morfudd gynna? Roddodd hi arian i ti?" gofynnai gan ymdrechu bod yn siriol a denu y bachgen i siarad.

"Rhoid arian, naddo! Ni byddaf yn arfer gwerthu cusanau."

"Twt, twt fachgen, gwyddost beth ydw i'n feddwl."

"Ac nid wyf yn tybio fod raid i'r foneddiges Morfudd dalu am gusanau 'chwaith."

"'Rwyn gweld mai cadnaw, neu ffwl wyt ti ———."

"Tipyn o'r ddau, syr ———."

"Os na thewi di, mi ro i dro yn dy gorn di," ysgyrnygai Cynfrig.

"Anhawdd fuasai gwneyd hynny, ymhlith cymaint sy'n fy adnabod."

"Wyt ti am ddyweyd wrthyf am ba beth yr oeddit yn cusanu Morfudd, a hithau yn dy gusanu di?"

"Am ba beth y bydd pobl yn cusanu eu gilydd? Wyddost ti ddim? Chefaist ti gusan erioed? Ddaru ti ddim dweyd erioed wrthi,—'Gostwng dy ben i mi dy gusanu.'"

Tra y dywedai Rhys hyn, cerddai yn araf yn wysg ei gefn oddiwrth Gynfrig, ac wedi rhoddi pwyth iddo o herwydd ei fychander rhedodd ymaith, ac ni welwyd ef mwy y diwrnod hwnnw, gan adael Cynfrig heb fod ronyn doethach. Gwae iddo,pe cawsai Cynfrig afael yn ei fwng coch mewn lle unig.

Terfynodd y wledd ar ddydd Sadwrn; a'r Llun canlynol yr oedd Morfudd i ymadael o Fon.

YMWELIAD A LLANWRIN.

II.

MAE rhai pobl ar ol eu hoes ymhell; ereill a geir yn llusgo yn araf ac yn drwm, a chryn dipyn o orchwyl yw eu cael i gyrraedd safon yr oes y maent yn byw ynddi ac i gydgerdded â hi. O'r ochr arall, y mae rhai gwroniaid i'w cael bob amser ar y blaen ac yn arwain. Ychydig iawn yw nifer y rhai sydd ymhell bell o flaen eu hoes. Ond un o'r rhai olaf hyn ydoedd Edward Llwyd, yr hynafiaethydd enwog o Geredigion (1660—1709), awdwr yr *Archaeologia Britannica* (1707). Dyma wr hefyd y mae gan y Canon Evans feddwl uchel-fawr am dano, fel ysgolhaig gwir ragorol ac ymhell o flaen ei ddydd—gŵr yr oedd ei ddamcaniaethau mor gywir a chynhwysfawr a rhai'n hoes ni.

O berthynas i amser gweithio y Canon Evans gellir dweyd cymaint a hyn,—fod ei waith rhagoraf, pan yr oedd yng nghyfnod goreu ei fywyd, wedi ei wneyd rhwng chwech a naw o'r gloch yn y boreu; a gellir dweyd yr un peth am ei waith yn awr. Creda'r Rheithor yn gryf mewn cael perffaith ddistawrwydd a thawelwch at ei orchwylion llenorol. Tua naw o'r gloch, daw gŵr y post a'r llythyrau. Ar ol darllen y rhai'n, os na bydd galw mawr iawn, a y geiriadurwr yn ol at ei waith drachefn hyd ganol dydd. Yn y prydnawn atebir ac ysgrifennir llythyrau. Yn yr hwyr, ymhoffai'r Rheithor, pan oedd y teulu yn lliosog, fod gyda hwynt yn eu canol, yn ymserchu yn eu cwmni. Dyma'r adeg yr ymgydnabyddai â llyfrau dyddorol mewn cyfeiriadau nad oeddynt yn dwyn cysylltiad â phynciau llenoriaeth Gymreig. Dyma'r adeg hefyd yr arferai ddarllen y newyddiaduron i weled cwrs y byd. Hyn oedd hen reol y Rheithor,—os yn wir y gellir yn briodol gymhwyso'r gair "rheol" at un sydd yn aml yn hoffi awgrymu mai ei reol ef yw bod yn ddi-reol.

Gŵr llawn o arabedd yw Mr. Evans. Mae ei ffraethineb yn ddiamheuol, ac yn adnabyddus i bawb sydd yn ei adwaen yn dda ac wedi cael profiad o'i gymdeithas ddiddan. Rhoddaf un engraifft o lawer y gellid eu henwi. Wrth son am gytundeb wnaethpwyd rhyngddo ag un o argraffwyr Cymru pan gyhoeddwyd un o'i lyfrau, dywedodd iddo anfon at y cyhoeddwr a'r argraffydd, y byddai yn foddlawn ar ychydig o gopiau o'r gwaith fel yr unig daliad am ei lafur. Pan ddaeth y llyfr o'r wasg, anfonodd y cyhoeddwr ddwsin o gopiau i'r awdwr. Gan fy mod yn tybied fod hyn yn rhy "ychydig" fel taledigaeth am ei waith, dywedais fod ei argraffydd wedi cyflawni *llythyren* yr amodau ond nid ei hysbryd. "Gwir," ebai yntau, "ond, cofiwch mai nid pobl ysbrydol ydym, ond pobl llyth'rennog,"—"We are not men of spirit but men of letters."

Hoff yw gan y Canon Evans ymddiddan ar bynciau ereill heblaw y pwnc y mae wedi wneyd bron yn feddiant iddo ei hun. Y mae yn barod i arllwys ei syniadau yng nghylch yr Eglwys a phynciau yng nglyn a Dadgysylltiad a Dadwaddoliad; Enwadaeth a'r Enwadau; a'r problemau sydd yn awr yn llanw awyrgylch Cymru. Dyna bwnc hefyd a gyfyd ei ben yn aml aml yn ei ymddiddanion, — agwedd grefyddol Cymru yn ein dyddiau ni, a chrefyddwyr ein hoes ni o'u cydmaru â'n tadau a'n teidiau. Ymddigrifa mewn cael gwybod tipyn o hanes rhai o'r Cymry ieuainc sy'n dyrchu eu pennau yn ein gwlad, yng nghyd a rhai sydd eto i ennill gradd dda yn y Prif-ysgolion. Mae amryw o'r gŵr ieuainc hyn yn hen ddisgyblion iddo, wedi eu meithrin ganddo ym more eu gyrfa mewn llenoriaeth a gramadeg Gymreig pan y bu efe yn ddarlithydd yn y canghennau hyn yng Ngholeg Aberystwyth. Llawenydd yw ganddo weled llwyddiant llawer Cymro ieuanc fu dano yn y Coleg yno. Mae Silvan Evans wedi bod bob amser yn noddwr llenorion ieuainc, ac nid yw ei hoffder o honynt eto wedi diflannu; teimla yn foddus a llawen yn eu mysg yn mwynhau eu cwmni,—yr unig amodau ydyw fod ganddynt ddawn i wrando, a dyddordeb yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Os bydd gŵr ieuanc yn feddiannol ar yr anhebgorion hyn, gellwch fod yn sicr y bydd y Canon Evans yn ei elfen yn ei gymdeithas ef.

Aberystwyth. DAVID SAMUEL.

ENGLYNION MARWNAD R. CYNWAL.

(O un o ysgrifyfrau D. Elis.)

Bardd Sion rhyw union medd rhai,—a edwyn
Rhiwedog Aer difai;
Dic Cynwal, da y canai,
Mewn clod aeth yma'n y clai.

O'r heirddion feirddion aeth o fyd,—serfyll
Dwys i'r fwyn gelfyddyd,
Plas Rhiwedawg freiniawg fryd,
Cynwal fo oreu cennyd.

ROLANT FYCHAN, Yswain, a'i cant.



CASTELL RHUDDLAN.

"Os caru cofio'r wyd,
Am ddolydd Dyffryn Clwyd,
O cofia gofio'r dewr sydd yno dan dy droed."

CYMRU.

Cyf. III. HYDREF 15fed, 1892. Rhif 15.

HANES CYMRU.

(Llyfr II. 450—613).

XV. Y GREFYDD NEWYDD.

YR oedd galluoedd rhyfedd, mewn amseroedd enbyd, wedi parotoi Pryden at ddyfodiad yr efengyl. Yr oedd derwyddiaeth wedi colli ei grym, ni fynnai y Rhufeiniwr gyd-ymgeisydd mor bwysig ag arch-dderwydd; yr oedd yr hen grefydd wedi colli pob gwir allu gwladol, fel Iddewiaeth ym Mhalestina, ac yr oedd y derwyddon wedi dechre ymddirywio,—cyn bo hir nid oeddynt ond swynwyr digon dirmygedig, ond yng ngolwg y werin orthrymedig. Ac nid yn unig yr oedd cymeriad yr hen dduwiau wedi newid, ond yr oedd llawer o dduwiau newyddion wedi dod gyda'r Rhufeiniaid. Yr oedd milwyr Rhufen wedi eu hel o bob gwlad, ac yr oeddynt wedi dod a'u duwiau gyda hwy. Yr oedd y llengoedd wedi ymwersyllu ar lawer goror,—ar fin anialwch Arabia, ar ymyl fforestydd tywyllion a chorsydd anhygyrch y gogledd, ar draeth môr y gorllewin,—ac wedi dysgu addoli llawer duw rhyfedd a ofnid yn y lleoedd tywyll hynny. Nid peth anghyffredin oedd clywed am ddyfodiad rhyw dduw newydd i'r ynys.

Ond daeth crefydd newydd iawn. Daeth son am un i'w addoli, a hwnnw wedi ei groeshoelio. Hawdd y gallai'r gorthrymedig, fu'n ofni'r groes eu hunain, gydymdeimlo ag ef. Ond nid derbyniol i'r llywodraethwr a'r milwr Rhufeinig oedd un wedi ei groesholio; ac nid derbyniol i neb oedd un wedi marw, o farwolaeth felldigedig y groes neu ryw farwolaeth arall. Ac nid rhyfelwr oedd yr un gynhygid fel Gwaredwr, ond un heddychlon a thrugarog, a'i fywyd a'i eiriau fel bywyd a geiriau plentyn.

Daeth hwn pan oedd y byd wedi blino ar ryfel, pan oedd yr hen wleydd wedi suddo i anfoesoldeb,—daeth i bregethu am deyrnas o heddwch a phurdeb. Derbyniwyd ef, medd rhai, oherwydd fod y byd mor ddrwg, wedi alaru ar ddrygioni. Gwyddom mai o'r teuluoedd mwyaf trachwantus a diffaith y daw'r rhai tra chrefyddol hyd ofergoeledd, y mae'r hen natur ffyrnig wedi gweithio ei hun allan. A daeth yr efengyl, ebe rhai, at genhedloedd wedi blino ar derfysg, cenhedloedd yn dyheu am dawelwch ac arweiniad yn nyddiau eu henaint. A pharhaodd Cristionogaeth yn grefydd dioddef, yn grefydd "rhoi'r gern arall," hyd nes y daeth cenhedloedd newyddion,—y Normaniaid o'r gogledd fel rhew llifeiriol, a'r Saraseniaid o'r dwyrain fel lafa toddedig,—i wneyd i Gristionogion gydio mewn arfau drachefn, ac i wneyd Cristionogaeth yn filwrol. Mwynach ydyw meddwl fod daioni a chariad at dynherwch yn aros yng nghalonnau meibion dynion, hyd yn nod yn yr amseroedd gwaethaf, ac mai at y daioni a'r tynherwch hwnnw yr oedd crefydd yr Iesu yn apelio.

Yr ydym wedi cael trem ar gyflwr ein hynys yng nghaethiwed yr hen grefydd, pan oedd corff ac enaid dyn mewn rhwymau, a'r dyfodol a'r byd arall yn dywyll ddi-obaith iddo. Yfodd waddod y cwpan erchyll, ie, sugnodd ef. Ni fedrai'r carcharor frysio i gael ei ollwng yn rhydd, rhaid oedd marw yn y pwll. Y mae darlun arall, darlun o oleuni rhyddid Duw'n torri ar fyd o orthrymder a thywyllwch. Esay yw proffwyd y goleuni,—goleuni y bywyd,—ni fedraf ddarllen ei benodau mawreddog heb dybio fy mod yn gweled dyfodol gogoneddus dynolryw, pan fydd cenhedloedd rhyddion yn byw yng ngoleuni Duw. Paham y derbyniodd Pryden yr efengyl? Am fod yr Iesu'n dweyd ei hanes hi wrth gynnyg ei hun fel Gwaredwr iddi,—

"Ysbryd yr Arglwydd Duw sydd arnaf, oherwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd, efe a'm hanfonodd i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym, i gyhoeddi blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd a dydd dial ein Duw ni, ac i gysuro pob galarus, i osod i alarwyr Seion ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwisg moliant yn lle ysbryd cystuddiedig, fel y gelwid hwy yn brennau cyfiawnder, yn blanhigin yr Arglwydd, fel y gogonedder ef.

"Adeiladant hefyd yr hen ddiffaethfa, cyfodant yr anghfaneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaeth, ac anghyfanedd-dra llawer oes.

"Yn lle cywilydd y cewch ddau-ddyblyg, ac yn lle gwaradwydd hwy a lawenychant yn eu rhan, am hynny yn y tir y meddiannant ran ddwbl, llawenydd tragwyddol fydd iddynt. Canys myfi yr ARGLWYDD a hoffaf gyfiawnder, yr wyf yn casau trais yn boeth-offrwm, ac a gyfarwyddaf eu gwaith mewn gwirionedd, ac a wnaf â hwynt gyfamod tragwyddol."

Rhaid i mi ofyn un cwestiwn er nas gallaf ei ateb. Pa bryd y daeth yr efengyl i Bryden, a phwy a'i pregethodd gyntaf? *

Dywed rhai fod yr efengyl wedi dod i Bryden yn y ganrif gyntaf, —trwy Claudia, Pomponia Græcina, Brân, neu rai o'r apostolion. "Y mae Eubulus yn dy annerch," ebe Paul yn ei ail lythyr at Dimotheus, "a Pudens, a Linus, a Chlaudia, a'r brodyr oll." Yn Rhufen yr oedd Paul, yn amser ei ail dreial ger bron Nero, pan ysgrifennodd y llythyr. Y mae Martial, bardd Lladinaidd oedd yn blodeuo tua diwedd y ganrif gyntaf, yn dweyd fod Claudia'n wraig newydd briodi Pudens, a'i bod yn dod o Bryden. Tybir mai yr un oedd Claudia cân Martial a Chlaudia epistol Paul. Tybir hefyd mai Prydeiniwr oedd Pudens, a fod ei enw'n aros ar garreg ddarganfyddwyd ger Chichester, carreg yn dweyd iddo roddi lle i godi teml baganaidd. Ond nid oes ond darn o'r enw'n aros, dim ond y darn olaf *ente*, a gallai hwn fod yn ddarn olaf ugeiniau o enwau. Nid oes yma, fe welir, ond cyfres o dybiau; hwyrach fod Pudens a Chlaudia wedi gweled caethion Prydeinig yng ngosgordd cadfridogion buddugoliaethus ac wedi gweddio am lwyddiant yr efengyl ym Mhryden, a hwyrach na feddyliasant am Bryden erioed.

Dywed Tacitus fod Pomponia Græcina, gwraig y Plautius y canmolwyd cymaint ar ei fuddugoliaethau ym Mhryden, wedi ei chyhuddo yn Senedd Rhufen am broffesu rhyw goelgrefydd estronol. Tybiodd rhai mai Cristionogaeth oedd crefydd ei bywyd hi,—"bywyd o bruddglwyf di-dor,"—ond ar ba sail nis gwn.

Hen draddodiad anwyl arall ydyw mai Brân, tad Caradog, ddaeth a'r efengyl i Bryden. Awd ag ef mewn gyfynnau i Rufen; ac yno, wedi addurno gosgordd buddugoliaeth Publius Ostorius, enillwyd ef at Gristionogaeth. Daeth adref a'r efengyl gydag ef. Ond ni ddywed Tacitus ddim am dano, er y dywed fod gwraig a brodyr Caradog yn dilyn y gorchfygwr trwy ystrydoedd Rhufen.

Llawer traddodiad sydd, hefyd, am apostol yn pregethu'r efengyl ym Mhryden. Y mae haneswyr aiddgar wedi chwilio llythyrau a phregethau ac esboniadau y tadau apostolaidd, ac wedi dal yn fanwl ar bob brawddeg all fod yn cyfeirio at bregethiad yr efengyl yn ein hynys ni. Dywed Clement a Basil ac Ioan Aurenau fod Paul wedi pregethu yn eithafoedd y ddaear, a dywed rhyw brydydd o'r enw Venantius Fortunatus, tua 580, mewn iaith chwyddedig, fod dysgeidiaeth Paul wedi croesi'r môr i Bryden. Ond nid oes ronyn o sail i'r traddodiad fod Paul wedi bod yma ei hun.

Dywed rhyw esboniwr, nas gwyddis ei enw, fu'n ceisio esbonio gweithiau Paul a Phedd dros wyth can mlynedd wedi eu marw, for Pedr wedi ymweled â Spaen, Ffrainc,* "a'r ynysoedd cylchynol." Ond y mae'r esboniwr hwn yn camgymeryd hyd yn nod wrth adrodd ffeithiau, a chorsen ysig iawn ydyw ei dystiolaeth os ceisir profi oddiwrth ei eiriau fod Pedr wedi bod yma erioed.

Y mae rhai o fywgraffwyr y saint yn dweyd mai i Bryden y daeth Seimon; ond tebycach o lawer mai ym Mhersia, yn eithaf arall y byd, y merthyrwyd ef. Dywed esboniwr fu'n ysgrifennu yn nechreu'r chweched ganrif fod Phylip wedi dod i Ffrainc, a'i fod wedi anfon cenhadon at y cenhedloedd barbaraidd oedd yn trigo ar lan cefnfor y gorllewin. O dipyn i beth tyfodd traddodiad o'r geiriau hyn,—fod Phylip wedi anfon yr efengyl i Bryden hefyd. Y mae un croniel yn dweyd fod Iago wedi dod i Bryden; waeth heb ymholi prun o'r ddau, oherwydd yr ydys yn sicr erbyn hyn mai ffug yw'r croniel hwnnw.

Yn y ddadl fawr rhwng Eglwys yr Iwerddon ac Eglwys Rufen yn Whithy, yn 664, dywedodd Colman mai Ioan roddodd i'w eglwys ef amseriad ei phasg. A dychmygodd un mai Pryden oedd yr ynys yr alltudiwyd Ioan iddi.

Dychmygodd rhywun arall mai'r Aristobulus enwir yn llythyr Paul at y Rhufeiniaid a ddaeth a'r efengyl i ynys Pryden. Yr oedd hwn yn un o deulu Herod, ac yn llywodraethu Armenia; ond nid oes sail i gredu ei fod yn esgob ac wedi bod yn ein hynys ni, os oedd yn Gristion o gwbl.

Chwedl arall, ddiweddarach, ydyw hanes Joseff o Arimathea'n dod yn ei gwch dan arweiniad goruwchnaturiol, ac yn plannu ei ffon ar wastadedd Glastonbury.

* Y mae'r holl dystiolaethau wedi eu casglu at eu gilydd yn *Ecclesiastical Councils* Haddan a Stubbs, I. 3—126. Dilynir trefn Haddan a Stubbs yn y gweddill o'r bennod hon, gydag ychydig o ychwanegiadau.

* Er mwyn eglurder, yr wyf yn galw *Gallia*'n Ffrainc, er na ddaeth y Frank iddi am ganrifoedd wedi'r amser hwn.

CYMRU'R BEIRDD.

III.

MORFA RHUDDLAN.

CILIA'R haul draw dros ael bryniau hael Arfon,
Llenni'r nos sy'n mynd dros ddôl a rhos weithion;
Pob rhyw chwa ymaith a gilia o'r llwyni;
Ar fy nghlust draw mae ust y don yn distewi;
Dan fy mron clywa'm llon galon yn curo,
Gan fawr rym digter llym, wrth im' fyfyrio
Ar y pryd pan fu drud waedlyd gyflafan,
Pan wnaed brad Cymru fad ar Forfa Rhuddlan.

Trwy y gwyll gwelaf ddull teryll y darian;
Clywaf si eirf heb ri' arni yn tincian.
O'r bwau gwyllt mae'n gwau saethau gan sio;
A thrwst mawr nes mae'r llawr rhuddwawr yn siglo;
Ond uwch sain twrf y rhain ac ochain y clwyfog,
Fry hyd nef clywir cref ddolef Caradog,—
"Rhag gwneyd brad ein hen wlad, trown eu cad weithian,
Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan."

Wele fron pob rhyw lon Frython yn chwyddo,—
Wele'u gwedd, fel eu cledd fflamwedd yn gwrido;
Wele'r fraich rymus fry'n dyblu'r ergydion;
Yn eu nwy' torrant trwy lydain adwyon;
Yr un pryd Cymru i gyfyd ei gweddi,—
"Doed yn awr help i lawr yn ein mawr gyni;
Boed i ti, O! ein Rhi, noddi ein trigfan; [lan!
Llwydda'n awr ein llu mawr ar Forfa Rhudd-

Troswyf d eth, fel rhyw saeth, a laeth a dychryn,
Och! rhag bost, bloeddiau tost ymffrost y gelyn;
Ond O! na lawenha fel a wnai orchest;
Nid dy rym ond dy Ri ddug i ti goncwest.
Ow! rhag braw'r dorf sy draw'n gwyliaw o'r drysau,
Am lwydd cad Cymru fad,—rhad ar ei harfau;
Mewn gwyllt fraw, i'r geillt fry, rhedy pob oedran,
Wrth weld brad gwŷr eu gwlad ar Forfa Rhuddlan.

Bryn a phant, cwm a nant, lanwant â'u hoergri;
Traidd y floedd draw i g'oedd cymoedd Eryri;
Yr awr hon y mae llon galon hen Gymru,
Am fawr freg ei meib teg, gwiwdeg, yn gwaedu:
Braw a brys sydd trwy lys parchus Caradog;
Gwaeddi mawr fynd i lawr flaenawr galluog:
Geilw ei fardd am ei fwyn delyn i gwynfan,
Ac ar hon tery dôn hen "Forfa Rhuddlan!"

Af yn awr dros y llawr gwyrddwawr i chwilio
Am y fan mae eu rhan farwol yn huno;
Ond y mawr Forfa maith yw eu llaith feddrod,
A'i wyrdd frwyn a'i hesg lwyn, yw eu mwyn gofnod;
Ond caf draw gerllaw'r llan drigfan uchelfaith
Ioan lân, hoffwr cân, diddan gydymaith;
Ac yn nhy'r ficar fry, gan ei gu rian,
Llety gaf, yno'r af o Forfa Rhuddlan.

IEUAN GLAN GEIRIONNYDD.

SYCHARTH.

O gylch milltir, neu ragor, o Lansilin, yng nghy feiriad Llangedwyn, y mae "Sycharth, buarth y beirdd," lle yr oedd llys gorwych Owen Glyn Dŵr, sef "ty pren glân mewn top bryn glas;" ac ym mhellach, yn ol iaith Iolo Goch, bardd teuluaidd llys Owen,—

"Anodd yn fynych yno
Weled na chliced na chlo.
Na gwall, na newyn, na gwarth,
Na syched fyth yn Sycharth."

Yma, yn ol traddodiad, y bu Edmund Mortimer, Earl Grey, a Dafydd Gam, yn garcharorion rhyfel gan Owen. Yma hefyd yn ol traddodiad arall, yn y flwyddyn 1404, y bu Dante,* y bardd Italaidd enwog, yn ymwelydd â Glyn Dŵr Llosgwyd Sycharth yng ngwanwyn y flwyddyn 1405 gan Harri V. fel nad oes erbyn heddyw ryw lawer iawn o olion mawredd ac ardderchogrwydd y llys i'w ganfod. Yn yr olwg ar ei le yr ysgrifennwyd y llinellau dilynol;—

O wele olion o balas y gwron,
Sef Owen, gŵr union, oedd galon i gyd;
I'w dy heb ddiffygio 'roedd pawb yn cyfeirio,—
Mawr groeso gaent yno bob ennyd.

'Roedd son am ei fwydydd drwy gydol y gwledydd,
A beunydd dadgenid ei glodydd yn glau;
I'w wleddoedd yn gyson e gyrchai enwogion,
A beirddion o amgylch y byrddau.

'Roedd Iolo yn chwarau y delyn mewn hwyliau,
A thynnai beroriaeth yn bur o bob tant;
A'i awen yn nwyfus fel miwsig soniarus,
Mor hapus, mor felus ei foliant.

Glyn Dŵr ydoedd ffyddlon, bob amser yn dirion,
Nid oedd yn ei galon ddim gwarth;
Ei lys oedd agored heb unrhyw gaethiwed,
Na lludded na syched yn Sycharth.

Mor chwith yw myfyrio am Owen ac Iolo,
Ddau anwyl sy heno yn huno mewn hedd;
Tra'r palas uchelfri sy'n garnedd mewn gwerni,
A mieri lle gynt y bu mawredd.

Mae golud a mawredd, hir glod ac anrhydedd,
A bonedd yn cilio yn gyflym o'r byd,
Palasau a muriau yn mynd yn adfeiliau,
A thyrrau o'u saflau yn syflyd.

HENRI MYLLIN.

* Nis gall hyn fod. Bu Dante farw yn 1321. Eto y mae i'r traddodiad ei ystyr.—GOL.

YN NYFFRYN CLWYD.

Alaw,—Dyffryn Clwyd.

Yn Nyffryn Clwyd nid oes
Dim ond darn bach o'r groes
Oedd gynt yn golofn ar lâs fedd;
Y bugail gân i'w braidd,
Tra Einion Ririd Flaidd
Yn gorffwys dan ei droed gan afael yn ei gledd.
Ond cedwir ei goff-had,
Fr mewn pridd, mewn parhad,
Glân yw ei geddyf fel erioed;
Os caru cofio'r wyd,
Am ddolydd Dyffryn Clwyd,
O! cofia gofio'r dewr sydd yno dan dy droed.
Mewn angof ni chant fod,
Wŷr y cledd, hir eu clod,
Tra'r awel dros eu beddau chwyth;
Y mae yng Nghymru fyrdd
O feddau ar y ffyrdd,
Yn balmant hyd ba un y rhodia Rhyddid byth!

Ceiriog.

DYFFRYN CLWYD.

(Trwy ganiatad y Cyhoeddwyr,—Hughes a'i Fab, Gwrecsam.)

Hoff Ddyffryn Clwyd a erys yn dragywydd
Fel darn o'r nef, yng nghofion yr ymdeithydd.
Llifeiriol lawnder donna dros ei ddolydd,
Aur fôr cynhauaf yma sy' ysblenydd.
Ar hyd ei ochrau fel i'w lawn amddiffyn
Heirdd furiau o fynyddoedd sy'n ymestyn,
Gwyrddlesni'r fro yn dâl am eu cysgodau
A weua iddynt fentyll o bob lliwiau.

Uwchlaw desgrifiad yw y swyn amgylcha
Y preswylfeydd a frithant yr olygfa;
Mor syml, mor llon, ar hyd y fro eu gwelaf,
Y gair Dedwyddwch ar eu mwg ddarllennaf.
Heddychol fannau, lle y câr Hapusrwydd
Breswylio gydag Anian a Boddlonrwydd.
Prydferthwch ogylch, a thangnefedd ynnoch,
A gwên y Nefoedd sy'n tywynnu arnoch.

Mae Anian yma fel yn llunio dyn
I'w hagwedd lonydd ac i'w delw ei hun;
Nerth yn y corff, bywiogrwydd yn y meddwl,
A wna ei oes yn hirddydd llon digwmwl;
Mor ddedwydd yw ei gyfran hwyrddydd odiaeth,
Pan fyddo'r fro yn llafar gan beroriaeth,
Cyngherddol adar ar y coed yn pyncio,
A'r dail yn sibrwd hanner-geiriau wrtho!

Prif fendith, pennaf addurn yr olygfa,
Y brydferth Glwyd a lonydd ymddolenna.
Ni ruthra heibio gyda thwrf tymhestloedd,
Mae ysbryd yr olygfa ar ei dyfroedd!
Trwy ganol rhyfeddodau y gwelediad
Mor araf a myfyrgar ei mynediad!
Dirwyna ei harianllif dros y dolydd,
A mynych ymohiria rhwng y coedydd,
Ac o'i chyfeiriad union aml troa
Fel un a fynnai *lawn* fwynhau'r olygfa,
A phan ymedy tua ffordd y moroedd
Y mae rhyw swn o hiraeth ar ei dyfroedd.

Islwyn.

MOEL FAMAU.

Ha! Foel wech odidog, llawn hanes henafol,
Llefara'th ael freiniol hir einioes erioed,
Yr aur-wawr a neidia i'th goryn uchelgrib
I weled y dyffryn a chwardd dan dy droed;
Aurora, fel benyw'n ngogoniant ei mawredd,
Deifl edyn ei chariad dros dlysni dy rudd,
O fewn i dawelwch hon, eurgylch ddwyfoledd,
Cwrdd dyn â Shecina ar doriad y dydd.

Hen Foel a'th ben banol, dy lethrau gwych oesol
Sai'n golofn derfynol dwy sir hoffa'n gwlad,
Buost fanon lawn harddwch, a thyst cyflafanau
Blynyddau'r hen oesoedd drwy aml erch gâd;
Wyt addurn gan natur i Ddyffryn Clwyd clodfawr, [wedd,
A nawdd i'w fendithion a chwardd dan dy
Rhuthr wyntoedd y nefoedd a daw fel mudanod,
Ac ar dy hael ddwyfron cant huno mewn hedd.

Ac ar dy hen fynwes tardd ffynnon iachusol,
Ei dyfroedd per yfwyd gan fyrdd ymhob oes,
Fe ddichon fod hithau, fel ereill yng Nghymru,
Yn uchel ei choelion dan gysgod y groes;
Henafgwr diniwed, neu wyryf siomedig,
Arweinir gan gredo hen daid neu hen nain
Hyd ati, fe ddichon, am ryfedd gyfrinach
Uwch gwyneb llygadlon, di dwyll "Ffynnon Cain."

Ond ar dy heirdd lethrau ceir balmaidd awelon,
A chwery hen dannau aur delyn y dail,
Bro ryfedd y gwyntoedd, herfeiddle gwylltineb
A mangre tawelwch, a hoen heb eu hail;
Lle tyf, ac y chwardda eurflodeu yr eithin
Dan drem yr ymwelydd rhwng defaid ac ŵyn
Encilfa y cigfrain, a'u haml grawc cergras,
O holltau y creigiau uwch mwsogl a brwyn.

Trebor Mon.

Er yr holl gyfnewidiadau
Fu yng Nghymru hardd ei llun,
Ni'th ysgogwyd di, Foel Famau,
Mae dy wedd o hyd yr un;
Llawn o degwch yw dy wisgoedd,
Trwy y stormydd mwya' 'rioed,
Mae dy amwisg drwy yr oesoedd,
Fel na baet ond ieuanc oed.

Os yw pethau hen yn llithro
I dir angof yn ein byd,
Yn dy henaint 'r wyt ti eto
Fel ieuengaf beth o hyd;
Ti, hen fynydd, mewn anrhydedd,
A ddyrchafwyd hyd y nen;
Ac fe gerfiwyd ar dy orsedd,—
"Byw am byth fydd Cymru wen."

D. Ceridwyn Roberts,
Maeshafn, y Wyddgrug.

MORFA RHUDDLAN.

I.

Forfa, rhof ar fyr hynt
Naid yn ol cyn doi'n helynt,
Cyn dyddiau cwyn a dioddef,
Ysig loes a gwaeol lef;
Cyn arf syth cyn-hyrfus haid,
A thost driniaeth estroniaid;
Cynaraf bwynt canrif bell,
Cyn y cêst y cain Gastell.

Y Morfa bryd yma oedd
O brudd liw, heb hardd leoedd;
Ond anwar anhygar nant,—
Lwydaf anial di-fwyniant,—
Ydoedd bur nodded ddi-baid,
A nefoedd ein henafiaid.
A'r dig wyllt yr adeg hyn,
Fel heddyw, drwy ha'r flwyddyn
Ag helaeth nôdd gwlith y nen
Dirf olchid; a'r fwyalchen,
Bybyr gerdd, bob boreu gwyn
O lwyn dail a wnai delyn;
Ni ddoi yno fyddinoedd
A'u nwydau erch, ac nid oedd
Yn y wlad ormesol wŷr,
Na drygionus drigianwyr.
Mor gu oedd hen Gymry gynt!
Diddan, ddiniwed oeddynt;
Hwynt heb rwysg hoffent eu bro,
A'u byw diboen, heb dybio,
Druain bach, doi'r un bod
Byth i wanu'r bwthynod.

Ond wedi hir, hir, fwynhau
Mwyn heddwch rhwng mynyddau,
Daeth adeg adwyth wedyn;
Dyddelwai brad ddôl a bryn;
A dychryn oedd yn dechreu
Hyd y wlad i lidiol hau
Gofid a gwae; i fyd gwyn
Hyrddiad arfau rodd derfyn.
Llef rhyddid ddistrywid tra
Grym arfog ar y Morfa.
Drosto ef daeth i'w dristau
Acen finiog cwynfanau;
Ar y fan bu garwaf ol
Y dyrnodwyr niweidiol.

Gresyn oedd i groesion wŷr
Erlid goreu wladgarwyr;
Cyni blin i egwan blaid
Roes cais anwar Sacsoniaid
I drechu gwlad â'u herch gledd,
A'i dilyn a dialedd.
Yng nghyrraedd llosg angerdd llid
Beirdd hwyliog yn brudd welid;
Ac ofer yr amser hyn
Oedd hudoledd y delyn.

Un dydd yn sydyn y daeth
Fawr ddolef,—arwydd alaeth.
Cyffrodd cur wrth gyffwrdd corn,—
Erlidgar waeol udgorn,—
O mor hyf a chryf a chras
Yw yr hen udgorn adgas;—
Drydaniad er dihuno
Niweidiau brad a nwyd bro!
Oes wr fyth fesurai'i fâr,—
Nwydfawr udgorn difrodgar?—
Gwys i'r anwel ddirgel ddôr—
Gwys gweryd i'w gwsg oror—
Udiadau am waed ydoedd—
Angau yn hyf yngan oedd!

Rhybuddiai, cyhoeddai hyn
Er galar, gamrau gelyn,
O Mersia, Offa ddiffaeth,
Yn llym ei ddull yma ddaeth.

Un drwg ei nwyd, a rhyw gna'
Llym-warsyth oedd llyw Mersia;
Un a dreuliai'n filain fod
Oes yng nghadfaes anghydfod.
Caled ddig at ein gwlad dda
Oedd aniffodd yn Offa.
Sais maleisus, melusach
Na gwin fu gwanu y fach
Genedl a oresgynid
Hyd dranc llu drwy wanc a llid.
Gwasgarwr megis gerwin
Ddiafol oedd; yng ngwydd y flin
Anrhaith fu 'r oedd wrth ei fodd—
Uwch mileinwch ymlonnodd.

A'i hyf eirf i'r Morfa hoff
Disgynnodd, d'wysog anhoff,
Trodd Gwynedd lonwedd yn wlad
Gymylog â'i ymweliad;
Y blinfyd a'r tristyd trwch
Lwyr ataliai'r tawelwch.

Caradog, i waredu
Ei fwynaidd wlad, drefnodd lu,—
Llu gwrol,—gallu gwerin
I goeg lyw heb blygu glin;
Pybyr frodyr gwefrêdig—
Arweinwyr dewr yn awr dig,
O wych lwydd gyda chleddyf,
Brodyr heb un bradwr hyf.

Ffromodd Offa; 'r amddiffyn
Greulonodd, daniodd y dyn.

Yna'r blin frenin a'i frol
Reibiodd gewri beiddgarol;
Yn y trwst crechwennai tra
A'u trwm eirf trwy y Morfa,
Fintai hyll, tyrfent allan;
A gwlad i gyd siglid gan
Swn ei farus niferoedd
A'u nwyd erch; ond dim nid oedd
I lwfrhau gwladgarol fron
Mor ddiles a'r myrdd loesion.

Caradog fel cawr rodiai,
A throi nerth i'w wŷr a wnai;
Yn siriol dros ei orawr
Rhyfelai ef; arf i lawr
Ni roi'r puraf ddewraf ddyn
I Offa; tra'n amddiffyn
Hen Gymru Fu, wrth ei fodd
Caradog i'w dranc rodiodd!

Anelu er dwfn alaeth
I'w fynwes ef a wnai saeth;
Yn wedd wael trodd i welwi;
Er hyn oll, y blaenor ni
Lareiddiodd; ar ddôl ruddwaed
Arweiniai'i wŷr yn ei waed!
Ond hwn, er ei fryd a'i nwyd,
Was alaethus, a lethwyd;
A'i wlad hoff a'i golud da
Arddelodd â'r waedd ola',—
"Wŷr! gyda'ch her, gwawdiwch haid,
A chrochfloeddiwch, erch fleiddiaid!
Cofia'm bychan, druan dras,
Erchyllderau'ch llu diras;
Yn addfwyn er mwyn fy mhau
Molaf ing ym mhalf angau!"

Ac wedi ei fynd gyda fo,
Cad gampus fu'n cydgwympo.
Sigliad erch! is gwaeol don
Gwelw lewyg wele luon
Grymusa'r gwŷr amser gynt—
Mawrion Cymru, 'n cau 'u hemrynt!
O blith y byw i laith bant
Cysgle oesol, casglasant.

Offa'i hun i unrhyw ffau
Ni ddiengodd o'i angau;
Drwy nerthol, arswydol saeth,
Gwyrwyd Offa, gawr diffaeth.

O adeg gwae, hyd y gain
Fro dylifai'r dolefain;
Drwy eithaf gwlad dyrchafwyd
Y finiog lef; enwog Glwyd,
Welwodd hi pan glywodd hon
Faich yr oslef echryslon?
Awr gwenau y wawr gynnar,
Yn helaeth iawn, y gwlith ar
Fyrdd o feirw ddiferodd
Yn ddi-werth ei nerth a'i nodd;
Nid oedd haul ddedwyddolai
Oerliw rwym y marwol rai.

O! Garadog wiw rodiad,
Lwyr daniol wr, dwyn ei wlad
I ddedwydd lwydd, ydoedd lâu
Sail amod is ei luman.
Y cryfaf, goraf o'n gwŷr,
Athraw'n hystwyth ornestwyr;
Dyddorol glod i'w ddewredd
Bery byth er barau bedd.
Enw y gwron drwy'n gorawr
Cadwn ef; ac hyd yn awr
Trengiad yr haul, teyrnged ry'
Athrylith ar ei wely.

Wr dewr, mae'i ymroad o
Yn diatal ddweyd eto
Nad nerthol, elynol lid
All farweidaio llef rhyddid;
Bwriad ban ei ysbryd byw
Yn gynhyddol gawn heddyw
Yn ein plith, ac yn ein plant
Y dyheuadau 'hedant.

II.

O! mor hoff ym moreu ha'
Dy gyfarfod, gu Forfa.

Yn nhlysedd hedd caf fan hon
Feddau arwyr fu ddewrion;
Beddau heb gofeb iddynt
Yw eiddo'r gwŷr fu ddewr gynt.
Wŷr celyd, o fryd di-fraw,
Yn ddi-son, dystion distaw
O'u gwladgarol, nerthol nwyd,
Ai chwi, dyweirch, adawyd?
Hyglod wŷr; drwy'n Gwalia deg
Fe'u cerir; ni f'ai carreg
Wiwbrid fynor yn wobrwy
Ddigon hardd i'w hegni hwy.

Luniaidd wlad i lonydd lu
Cariadus; anhawdd credu
Y bu hon un dydd yn bau
Dig enyniad cynhennau;
Yn ddiddig i'n gŵydd heddyw,
Gwerdd liwgar ddôl a gardd yw.
Mwynhaf yr hedd, mae yn fro
O swynion; nid oes yno
Aidd cuchiog, na chledd cochwawr
I boeni neb yno'n awr;
Di-rwyg yw'r wen diriogaeth;
Ni cheir swn y chwerw saeth
Yn hedeg yn ofnadwy,
Na charnau meirch arno mwy,
Ag hyf lam yn cyflymu,
A'r floedd erch i ryfel ddu.

Heddyw rhydd a dedwydd rai
Yw'r di-ddwndwr dyddyndai;
Yn ir eu gwedd, llu ar gân
Fed o'r hawddfyd di-ruddfan;
Torf dirion heddychlon dda
Heb awydd plygu bwa;

Na saethu chwaith saethau chwyrn,
Nac ud waedgar cad udgyrn.

Finnau, wannaf awenwr
Yma gaf rhyw ddinam gwr
I'm telyn derfyn y dydd,
Ac awen i wau cywydd;
A chaf heddwch i foddi
Ing a chroes a phang a chri.
"Ieuan"* o 'mlaen ymlonnodd
Ar y fan mewn tyner fodd;
Oddiyma'i gerdd emog o
Addurnid; ac oddiarno
I'r ne' gain y rhedai'n rhydd
Ei dwym enaid, emynnydd.
Canaf heb ffyrnicaf nwyd
Y leddf alaw† ddwyfolwyd
Drwy'n boreuol, lethol aeth—
Cynaraf bwnc ein hiraeth.
Am fy oes cawn yma fyw
Mewn rhyddid; mwynheir heddyw
Ddifir hwyl, a cha'dd y fro
Dawelwch wedi wylo.

Is gwawl ac urddas gwiwlan
Yr haf des mae'r Morfa dan
Goronau oll; pwy geir na
Roi hawddamor oddiyma?
Cain ymdecau'n myd y coed
Wnel angel ddail ieuengoed;
Hyd-ddo ef mae coedydd iach
A byth wyrddion; beth harddach
Na dull anwyl dillynaf
Ei feusydd yd fisoedd haf?

Defaid ac wyn diofal
Sy' dan des o hyd yn dal
I lynu wrth adlonol
Arlwyon Duw ar len dôl;
Mewn awyr rydd mwynha' rhai'n
Fywyd iachaf diochain.

Mewn hwyl hir mae yno lon
Deg rianod gorwynion;
Hardded ynt! i'm cwrdd y dêl
Wyneb hwnt i ddawn pwyntel!
I'w rodio ef heb air dig
Daw cariadau caredig;
I'r ddau hoff mor beraidd yw,—
Paradwys y par ydyw.

Hyd y Morfa, fwyna' fan,
Mae pennaf gampau anian;
Rho, ddi-ffydd, i'r glennydd glain,
Dro yma, gredwr damwain,
Ac hyfaf wr, cofi fod
Dy draed, wadwr y Duwdod,
Hyd y llannerch dillynaf
A gerdda neb—greodd Naf!

* Ieuan Glan Geirionnydd.

† "Morfa Rhuddlan."

Yn haul hwn a'i awel iach,
Ar ofid a chur afiach,
Ysig ddyn llesg ddaw yn llon
Fuddugwr heb feddygon.

Rhuddlan draw, ddi elyn dref,
Sydd gre' achles ddi grochlef;
Hoffed yw hi; caffed hon
Esmwythyd oesau meithion.

Ni hawlir o dan heulwen
Cystal llys a'r Castell hen;
Ei furiau saif i'r oes hon
Yn goronwaith cywreinion;
Arnynt llu blwyddi ni wnant
Fennu; beth, a fynnant
Aros ri' oesau ar ol
Y farn, furiau anfarwol?
Llu unwaith ddaeth yn llonheirdd,
O drwst byd i arwest beirdd;
Rhwng ei furiau 'nghyfaredd
Llôn y wlad caed dillyn wledd;
Eisteddfod o fost haeddfawr—
I'n Gwalia fyth ein gwyl fawr;
Ryw nifer fach, fach sy'n fyw
O'i hawenyddion heddyw.

Y mor mawr sy'n murmuraw,
Molwn ei drem a'i lun draw;
I wŷr heb ri' ei dêr bryd,
Hardd eigionfor, ddug Wynfyd;
A thywyn merth, buan mawr,
A'i dda rinoedd arianwawr
Ddifyrra'i wedd foreu ha',
A'i fythol afiaeth lifa.

A phin o aur hoffwn hwyl
I arlunio Rhyl anwyl.
Mor lanfwyn mae Rhyl hoenfyw,
Iaith ei thawel awel yw,—
"Dof a iechyd i fochau
Lluosog wŷr sy'n llesghau."

Rhodio foreu difyrraf
Hyd lan y Glwyd lonna glaf.
Daw rhai fu gynt o rif gwŷr
Anheimladwy'n hymlidwyr,
Foreu a hwyr i fawrhau
Nodded lonydd dy lannau.
Cymry llon gan Saeson sydd
Yn cael hudol swn clodydd:
Ac â mawr nwyf Cymry naid
Nes cusanu Sacsoniaid.

Iechyd-lannerch adlonaf,
Ein henwog wyl arno gaf;
Heddyw arno'n ddiddyrnod
Brwydrau heirdd beirdd sy'n bod.

Diwendid yw eu hundeb,
Ni chlywodd, ni welodd neb

Ymrysonau mor swynol,
Na myrdd o fri mor ddifrol.
Drwy nerthol, awenol wau,
Y cwyd arwyr cadeiriau;
Hyn i dorf yw pwnc y dydd,
Creu cainc oreu concwerydd;
Ac y'ngheinion cynghanedd
Y codir hwyl, cedwir hedd;
A'n Harwest yn dra thiriawn
Heb ladd neb a lwydda'n iawn.

Le diwyd ym mhlaid awen,
A mawr feirdd; y Morfa hen
Arddelir yn fro ddilyth
Cantorion a beirddion byth.

Hedd-lannerch, ymfoddlonwn
Oriau f'oes i'r Morfa hwn;
Heb ddim ond gwên, glirwen, glau,
Heinyf anian a finnau;
Ac aros yn llawn gorhoen
Heb ddim aur er boddi 'mhoen;
Na rhoi serch ar glodfawr swn,
Sy'n d'rysu; ond arhoswn
Yn ganlynwr gwen linell
Y ddringfa i Wynfa well.

ELFYN.

ELFYN.
(O photograph gan Ford Smith, Llandudno).

TAITH TRWY DDYFFRYN CLWYD YN 1188.

Nid oes odid ddim deifl fwy o oleuni ar Gymru'r canol oesoedd na hanes difir tro Gerald Gymro trwy Gymru yn 1188. Daeth gyda'r archesgob Baldwin, yr hwn deithiai i chwilio am filwyr i fynd i Ryfeloedd y Groes, ac a godai ysbryd tebyg i ysbryd y Diwygiadau wrth fynd.

CROESASOM afon Gonwy neu yn hytrach gulfor bychan, dan Ddeganwy, gan adael monachlog Gistercaidd Conwy ar ein de ar lan orllewinol yr afon. A daethom i Ruddlan, castell ardderchog ar lan afon Clwyd, yn perthyn i Ddafydd, mab hynaf Owen; ac yno, wedi gwahoddiad taer gan Ddafydd, cawsom groeso mawr y nos honno.

Y mae ffynnon heb fod ymhell o Ruddlan, yn ardal Tegeingl, yr hon sydd nid yn unig yn treio ac yn llenwi ddwywaith mewn pedair awr a'r hugain fel y môr, ond yn codi ac yn gostwng ar adegau ereill, ddydd a nos. Dywed Troges Pompeius fod tref yng ngwlad y Garamantes lle mae ffynnon sy'n boeth ac oer bob yn ail, ddydd a nos.

Perswadiwyd llawer yn y bore i ymroddi i wasanaeth Crist, ac aethom ymlaen o Ruddlan i eglwys gadeiriol fechan Llanelwy. Yno gweinyddodd yr archesgob yr offeren, ac aethom yn ein blaenau trwy wlad gyfoethog mewn mwn arian,—lle y ceisir arian yn ymysgaroedd y ddaear,—i gell fechan Basing, lle y treuliasom y nos.

Y diwrnod wedyn teithiasom hyd dywodfryn hir, nid heb beth ofn, gan adael bro goedwig Coleshill,—"bryn y glo,"—ar y dde. I'r fan yma y daeth Harri'r Ail yn ein hamser ni, yn llawn brwdfrydedd yr ieuanc annoeth, gan fentro i'r glyn coediog wrth ymosod ar Gymru. Yno gorthrechwyd ef yn llwyr, gyda lladdfa fawr. Ymosododd y brenin hwnnw ar Gymru deirgwaith,—yma; yn y De, ar draeth Morgannwg a Gŵyr, gan fyned gen belled a Chaerfyrddin a Phencader, a dychwelyd trwy Elenydd a Melenydd; ac yng ngwlad Powys, ger Croes Oswallt. Ond yn yr holl ymgyrchiadau hyn bu'r brenin yn aflwyddiannus, oherwydd anghymwysder cynghorwyr.

Yng nghoed Coleshill, lladdwyd Cymro ieuanc wrth basio trwy fyddin y brenin. Ni adawai milgi oedd gydag ef ei gorff am wyth niwrnod, er na chafodd fwyd, ond amddiffynnodd ef yn ffyddlon yn erbyn ymosodiadau cwn, bleiddiaid, ac adar rhaib,—gydag ymlyniad rhyfeddol. Yr oedd y Saeson yn elynion chwerwon i'r Cymry, ond fel ffafr i'r ci, yr hwn oedd erbyn hyn bron a newynu i farwolaeth, claddasant y corff, oedd weithian yn drewi, gyda'r defodau arferol.

FFRANCON-DAVIES. BEN DAVIES.
MISS ELEANOR REES. MISS MACINTYRE. MISS MAGGIE DAVIES
LUCAS WILLIAMS. MISS MEDORA HENSON. NORMAN SALMON.

EISTEDDFOD Y RHYL.

CYCHWYNNAIS yn brydlon i'r Eisteddfod, a thua phump o'r gloch ddydd Llun yr oeddwn yng ngorsaf Corwen, yn rhodio'n ol a blaen, gan ddisgwyl tren Dyffryn Clwyd. Nid yw gorsaf yn lle mwyn i aros ynddo,—lle oer ydyw, a phob erchyllderau llenyddiaeth wedi eu casglu i'w llyfrfa, a neb i'w weled ond ambell i lanhawr peiriannau seimlyd, a dim yfadwy yn unlle ond gwirodydd. Ond y mae gorsaf Corwen yn well na llawer lle,—y mae'r llyfrfa yn un o'r rhai goreu yng ngorsafoedd Cymru, y mae golygfeydd yn brydferth,—y Berwyn uwch ben a'r Ddyfrdwy odditanodd,—ac y mae y dref lân dawel yn ymyl.

Cyn i'r tren ddod daeth hen gyfaill ataf, a chydag ef yr oedd Elias Owen, awdwr y "Croesau Cerrig." Gŵr diddan ryfeddol ydyw'r hynafiaethydd hwn, un gwrid-goch bywiog, yn llawn hanesion am bethau cywrain. Weithiau cwynai oherwydd afiechyd a helyntion byd, ac yna byddai'n llawn llawenydd wrth ddweyd hanes Cutiau'r Gwyddelod neu ryw ystori darawiadol. Pan ymadawodd â ni, buaswn yn meddwl nad oes un hapusach yn y byd. Y mae'n awr ar ganol cyfansoddi llyfr ar "The Holy Wells of Wales"; a chan ei fod yn un o'r haneswyr mwyaf gofalus, yn chwilio pob ffynnon yn fanwl cyn ei desgrifio ac yn holi hen bobl o'i chwmpas am draddodiadau, bydd ei lyfr yn un gwerthfawr iawn.

Dyma ni'n cychwyn i lawr i Ddyffryn Clwyd, yn swn ystraeon difir yr hynafiaethydd. Ni bum erioed yn teithio trwy'r dyffryn hwn heb deimlo rhyw adfywiad ysbryd rhyfedd.

Y mae iddo hanes rhyfedd, bu'n faes brwydr rhwng Cymry a Saeson am ganrifoedd, ac y mae un o feirdd mwyaf Cymru wedi tynghedu'r ymwelydd i gofio am y dewr sydd yma dan ei droed. Codwyd cestyll lawer,—castell Rhuddlan, castell Dinbych, castell Rhuthyn, —i wgu ar y dyffryn ac i ladd ei Gymraeg; ond dyma'r cestyll yn adfeilion, a Dyffryn Clwyd mor Gymreig ag erioed. Y mae Rhagluniaeth wedi gwenu ar y dyffryn gogoneddus, y mae ei wenith yn euraidd eto a'i Gymraeg mor loew ag erioed, er fod y dinistrydd wedi ei briddo a'r gorthrymwr wedi peidio a'i gyffro. Ychydig feddyliai Robert o Ruddlan, pan yn ceisio difodi'r Cymry cyn 1092, y buasai Miss Mary Thomas yn canu "Cymru fu, Cymru fydd" yn 1892 ar y dyffryn, a thorf fwy nag a welodd ef erioed o Gymry'n uno'n orfoleddus yn y gân.

Ychydig o syndod ydyw fod llawer o ymladd wedi bod am Ddyffryn Clwyd. Yr oedd yn ei wedd oreu y nawn Llun hwnnw. Yr oedd y gwenith yn barod i'r cryman, neu'n sypiau lond y cae. Yr oedd gwrid hwyr brydnawn yn arllwys ei gyfoeth ar bob peth,—

"Hoff Ddyffryn Clwyd a erys yn dragywydd
Fel darn o'r nef, yng nghofion yr ymdeithydd.
Llifeiriol lawnder donna dros ei dolydd,
Aur for cynhauaf yma sy' ysblenydd.

Ond, er fod Elias Owen a Rhagluniaeth a Dyffryn Clwyd wrth fy modd, na thybia, ddarllennydd hoff, fy mod yn mynd i'r Eisteddfod dan wenu, er mwyn tywallt englynion mawl ger bron pob bodolyn, ac er mwyn canmol pob peth. Mewn ysbryd chwerw cwerylgar yr oeddwn yn mynd tua'r Rhyl. Yr oedd fy iechyd wedi ei amharu gan orlafur, ac yr oedd digon o finegr yn fy nghyfansoddiad i adolygu llyfrau mewn dull na adolygwyd llyfrau Cymraeg ynddo erioed o'r blaen. Yr wyf yn cyfaddef hyn o'm hanes personol fy hun er mwyn dy roddi ar dy wyliadwriaeth, pwy bynnag ydwyt, sy'n dod gyda mi mewn dychymyg i Eisteddfod y Rhyl, rhag meddwl mai ymson un amyneddgar a hynaws a glywi.

Yr oedd gennym awr i aros yn Ninbych. Dywedais wrth fy nghyfaill, gyda thôn cwestiwn, na ddeallais i erioed mo linell Dyffryn Clwyd. Yr oedd tren y Rhyl wedi mynd ddau funud union cyn i'n tren ni gyrraedd; a dywedodd fy nghyfaill ei feddwl am wŷr y ffordd haiarn, debygwn, fel y buasai'n rhybuddio ei blwyfolion pe buasent oll newydd ddychwelyd oddiar eu term.

Rhoisom dro drwy Ddinbych. Dringasom i fyny heol lân serth, gwelsom gof-golofn uchel yn edrych yn fawreddog a dirmygus ar yr anedd-dai oedd o'i hamgylch. Hawdd gweled fod tref Dinbych yn dref o ddiwylliad uchel, — danghosir hynny gan lendid ei hystryd oedd, gan ffenestri ei siopau, a chan y blodau welir ymhob man ynddi. Y mae'n deilwng frenhines ar Ddyffryn Clwyd. Toc daethom i le gwastad, lle mae'r ysgwâr, ac oddiyno dechreuasom ddringo drachefn, dan gysgod muriau trwchus y castell.

Wedi cyrraedd pen y golwg, wele fynyddoedd Nantglyn o'n blaenau, a'r dyffryn. Yr oedd y lliwiau'n ysblenydd, —yr oedd gwyrdd yr allodd fel pe'n fyw, a'r gwenith melyngoch fel pe ar dân. A thraw, dros wlad amryliw ogoneddus, ymgodai bryniau llwydion gwlad Twm o'r Nant. Ar y gwastadedd odditanom gwelem y Gwallgofdy. Clywais lawer tro fod rhai'n ofni gwallgofrwydd yn hoff o sefyll ar lecyn fel hyn, i broffwydo lle fydd eu cartref. Proffwydant, druan, fel y Swift welodd goeden a'i brig wedi ei ddeifio gan fellten,—"Fel y goeden acw yr wyf finne, yn dechre gwywo yn yr un fan." Tra yno'n syllu mewn distawrwydd, llithrodd dyn a golwg euog arno, a phecyn ar ei ysgwydd heibio i ni, a diflannodd gyda'r clawdd. Cofiais, ymhen ennyd, mai bachgen mewn amgylchiadau da oedd, wedi twyllo geneth yr adwaenwn ei theulu. Ni wyddwn pa beth ddaeth o hono,—tan y funud honno. I ba le bynnag yr oedd yn mynd, ni holaf fi ddim ar ei ol. Llawer o ddarluniau gwledig Twm o'r Nant ddaeth i'm meddwl; a themtid fi i grwydro i fro ei enedigaeth ac i'r llanerchau ddarlunia, yn lle mynd i Eisteddfod y Rhyl. Ond, tra'r oedd y gwyll yn gwneyd i'r hen gastell fry edrych yn drymaidd a du, a thra'r oedd y wlad yn dwyseiddio dan y nos, troisom i lawr hyd ystryd hir Dinbych yn araf, ac ni chlywsom air ond Cymraeg ymhob man. Yr oedd yn rhy dywyll i ni weld eglwys Llanelwy na chastell Rhuddlan, ond cawsom olwg nas anghofiaf ar y morfa. Bu'r tren yn aros tipyn cyn mynd i orsaf y Rhyl, a syllem ninnau mewn syndod ar y morfa maith. Yr oedd cymylau lawer yn hofran uwch ben y morfa a'r afon, a'r lleuad lawn yn codi'n araf a gwelw, gan lifeirio goleuni ar lynnoedd y morfa ac ar donnau'r afon. Ymchwydd esmwyth yr afon, y goleu tyner ar y morfa a'r mân lynnoedd, gwlith hyfryd y nos, a distawrwydd perffaith y noson honno,—anhebyg iawn oedd hyn oll i swn aflafar brwydr, swn y meddwl pob Cymro am dano wrth feddwl am Forfa Rhuddlan.

Llawer ddywedasid wrthyf na fedrwn gael lle i gysgu yn y Rhyl, gan mor lawn oedd. Treiais y gwesty agosaf i'r orsaf, a dywedasant fod ganddynt un ystafell, ac un yn unig, heb ei gosod. Cefais y westywraig,—hen ferch, debygwn,—yn un hynod garedig; a thynnais gydnabyddiaeth a beirniad cerddorol oedd yn aros yn yr un ty,—gŵr ieuanc

dymunol hynod, a roddodd lawer o wybodaeth am y darnau genid yn yr Eisteddfod. Cawsom dro ar hyd *Promenade* ardderchog y Rhyl, yn awel adfywiol esmwyth y nos, cyn ccisio gorffwys. Cyn hir dechreuais feddwl nad oedd neb ond y ni ein dau yn meddwl gorffwys y noson honno. Swn tren ar ol tren, swn traed tyrfaoedd, swn canu a chanu, —tybiwn y cynhelid yr Eisteddfod o gwmpas fy ngorweddfan. Yr oedd lliaws o gerddorion o'r De yn aros yn yr un ty a mi,—dyna'r esboniad,—ac yr oeddynt yn ymarfer at gystadleuaeth trannoeth. Yr oedd yno amryw'n canu "Ymson y cariad-lanc," o waith William Davies; yr oedd tenor arall neu ddau'n mynd trwy eu rhan o "Alar Du" W. T. Rees; ac yr oedd baritone unig yn cael hwyl fawr ar Ha! Ha! "Revenge" Hatton. Ond cyn y bore distewodd pethau, cefais innau gwsg byr aflonydd, a breuddwydiais fod yr Hen Fachgen wedi daly beirdd, ac yn canu "Ha! Ha!" wrth eu pennau pan ddolefent am drugaredd.

Codais yn blygeiniol drannoeth, ac yr oeddwn wrth y Post cyni'r llythyrau ddod. Yr eisteddfodwr cyntaf gyfarfyddais oedd Iwan Jenkyn, a chawsom dro drwy'r heolydd. Yr oedd y Rhyl drwyddi draw wedi ei haddurno â baneri amryliw; a chanmolai fy nghyfaill sel y bobl. Ond nid oedd ystyr yn y byd i'r baneri,—chwiflasant yn y Gyngres Eglwysig mae'n debyg, ac y maent yr un mor briodol i arddanghosfa anifeiliaid, fel y gwelir os cynhelir un yn y Rhyl. Onid yw'n resyn na welem ambell faner Gymreig? Ai draig goch yw'r unig lun fedr bysedd merched Cymru lunio? Arf-beisiau talaethol Cymru, seliau'r Cynghorau Sir, y genhinen,—y mae digon o luniau priodol. Tybiwn yn sicr fod pobl y Rhyl yn meddwl fod Maer Llunden, oedd i ddod i'r dref y diwrnod hwnnw, yn llawer pwysicach na'r Eisteddfod. Felly hefyd y tybiai'r beirdd, oherwydd cynhaliwyd gorsedd neillduol i roddi gradd iddo.

Yr oeddym wedi darllen mewn hysbysiad angramadegol fod "beirdd ynys Prydain" yn cynnal gorsedd "yn Cadlâs Orllewinol y Gerddi Palasaidd." Nid oeddwn wedi gweld y cwareu hwn erioed; a brysiais ymaith i gael boreufwyd cyn i'r orymdaith gychwyn. Gyda'm cyfail cerddorol, yr oeddwn wrth Neuadd y Dref pan oedd y seindorf yn cychwyn, a gorymdeithiais rhwng Iwan Jenkyn a Morier. Eisteddfod Pont y Pridd oedd ar feddwl y naill, ac yr oedd Morien yn son am ei ddarganfyddiad diweddaf. Dyma oedd hwnnw,—o Gymru y cafodd y Groegiaid eu Bacchus, trwy dorri pen Gwion Bach a rhoi cynffon newydd iddo. Tybiwn ynnof fy hun nas gallai hyd yn nod dychymyg Morien fynd yn bellach na hyn, hyd nes y clywais ei araeth o gylch yr "Orsedd." Cyrhaeddasom y Gerddi Palasaidd, ac wele, yr oedd yr Orsedd garreg ar bantle gwyrdd, a nifer o gerrig o'i chwmpas. Yno yr oedd Clwydfardd batriarchaidd, a Chadfan bereidd lais, a Watcyn Wyn ddireidus, a lliaws ereill anadnabyddus i mi. Clywais Forien yn dweyd mai ym Mhont y Pridd y gorffwysodd yr arch, a gwelais Ddeon Llanelwy yn gwneyd gwar ddefosiynol wrth i ddau fardd ei arwain i'r cylch cyfrin.

Troais tua'r babell. Yr oedd Ardalydd Bute ymysg yr ychydig bobl oedd yn edrych

ARGLWYDD ESGOB LLANELWY.
Cadeirydd y Twyllgor Gweithiol.

arni, a chyn hir gwelais Syr John Puleston yn gwibio fel gloyn byw o'i chwmpas. Yr oedd yn babell ardderchog, ar lun eglwys gadeiriol. Adeilad hirgrwn ydoedd, gyda dwy aden. Yn y naill aden yr oedd yr esgynlawr ac ystafelloedd y pwyllgorau, ac yn y llall yr oedd un o'r tri lle at ddewisiad pobl y trydydd dosbarth. Yn union o flaen yr esgynlawr yr oedd seddau cyfrifol, ac o bobtu iddynt seddau y dosbarth cyntaf. Y tu ol i'r rhain yr oedd seddau'r ail ddosbarth; ac o bobtu i'r oll, yn nau ben y babell, yr oedd lle i'r trydydd dosbarth. Yr oedd wyth gant o faneri trwy'r babell, a llawer o arwydd eiriau. Yr enwau ar lenni'r babell oedd,—Ap Vychan, Cynddelw, Glanffrwd, Nicander, Gwilym Hiraethog, Iuan Glan Geirionnydd, Estyn, Eben Fardd, Caledfryn, Cynfaen, ac Eos Morlais. Hyfryd oedd gweled enw Felicia Hemans hefyd, bu a fynno hithau lawer â Dyffryn Clwyd.

Tua hanner awr wedi deg daeth Maer Llunden, a chafodd groesaw cynnes gan y rhai oedd wedi dod yn ddigon cynnar i'w weled. Dechreuodd yr Eisteddfod mewn hwyl Gymreig,—gydag alawon Cymreig gan seindorf y Rhyl, anerchiad Cynonfardd, ber awdl hir arferol Hwfa Mon, "Hen Wlad y Menyg Gwynion" gan Lucas Williams, a darlleniad Cymraeg campus o'r anerchiad i Faer Llunden gan Arthur Rowlands. Yna cododd y Maer i'n hannerch. Dywedodd yr hen stori,—yr hanes carbwl a chamarweiniol ydym wedi glywed oddiar lwyfannau'r Eisteddfod ugeiniau o weithiau,—ac enynnodd frwdfrydedd eithaf y dorf trwy ddiweddu ei araeth yn Gymraeg. "Mae'n dda gyda fi," meddai, "'mod i wedi dod gartre. 'Rwy wedi dod tua thre, a 'rwy i'n teimlo 'mod i yn nhre."

Blinais ar gystadleuaethau, ac ni ddois yn ol i'r babell hyd nes oedd corau'r plant wedi dechre canu. Erbyn hyn yr oeddwn wedi cael gafael ar lu o hen gyfeillion, a dyma brif swyn yr Eisteddfod i mi,—nid oes fawr o berygl i'r rheini fy annerch yn Saesneg. Toc daeth cystadleuaeth y corau Cymreig, a chyda hynny y canu penillion telyn. Ni wyddwn ddim am y darnau genid gan y corau, ond gwyddwn fod y wobr am ganu penillion yn druenus o fechan. Yn sicr dylai'r Eisteddfod wneyd mwy i ail godi'r hen ganu diddan hwn.

Wedi'r cyfarfod,—yr oedd erbyn hyn yn brydnawn,—cawsom olwg ar y gerddi a'r dref. Gwelsom fod y babell mewn lle hyfryd, cerddasom ymlaen at fur y gerddi, i weled yr olygfa ogoneddus ar fôr a mynydd sydd wedi gwneyd Rhyl yn un o hoff ymdrochfeydd Cymru. Buom yn cerdded ar hyd y tywod, ac yn edmygu'r ysbryd anturiaethus wnaeth bentref bychan dinod yn dref mor wych. Yr oedd yn demtasiwn treulio'r noson ar y traeth, yn swn y môr, ond i'r babell yr aethum i wrando "Elias" Mendelssohn. Peth a'm tarawai i yn chwith oedd gweled Elias mewn hwyr-wisg y dyddiau hyn. Onid gwell i Lucas Williams fuasai gwisg urddasol y dwyrain,—fel gwisg Elias ei hun? Arweiniodd hyn fy meddwl at beth arall. Yr wyf yn hiraethu am y diwrnod y bydd cerdd a chân Cymru wedi ymbriodi, a'r DDRAMA GYMREIG o'r diwedd wedi ei geni. Ai ofer disgwyl gweled drama Gymreig yn cael ei hactio un noson o'r Eisteddfod? Ac os mai drama grefyddol fydd, goreu yn y byd. Y peth ellir ei wneyd yn Oberammergau, medrir ei wneyd yng Nghymru hefyd.

Yr ail foreu cefais J. M. Jones a Thudor Evans yn gymdeithion difir. Wedi cân yr Eisteddfod, safodd Ardalydd Bute i draddodi ei araeth. Yr oedd golwg hardd arno, a darllennai'n eglur draethawd penigamp ar hanes Cymru. Y mae'r pendefig hwn yn fwy o'i ysgwyddau i fyny na phendefigion a chyfoethogion Cymru; a meddyliwn wrth ei weled y lles anrhaethol fedrai rhai yn ei sefyllfa ef wneyd pe meithrinent dipyn llai ar eu cwn hela, a thipyn mwy ar eu heneidiau druain. Pan oedd yr Ardalydd yn braslinellu hanes Cymru, ac yr oedd yn ddyddorol iawn i'r rhai oedd yn ddigon agos i'w glywed, yr oedd y cynhwrf ym mhen pellaf y babell, lle na chlywid gair, yn cynyddu. Gwelodd y darllennwr anfanteision y bobl bell, a chyflymodd i derfyn ei araeth feddylgar. Yr oedd yn amheuthyn mawr ar ol y druth ddiystyr ydym yn glywed mor aml am hanes yr Eisteddfod a derwyddiaeth, ac ar ol y geiriau hirion o ganmoliaeth Saesneg a roddir i'r iaith Gymraeg ac i rinweddau diderfyn y Cymry,—a hynny'n aml gan rai na fedd yr iaith na'r rhinweddau tybiedig.

Daeth llu o feirniadaethau, a buan iawn yr oedd y bobl mewn hwyl. Yr oedd pawb yn ddedwydd ac amyneddgar wrth glywed y telynau, a gadawsant i Syr Theodore Martin fynd i ddiwedd ei anerchiad, bron. Peidiodd y gwlaw, gwenodd yr haul, a daeth distawrwydd dros dorf ddedwydd yn gwrando ar y tannau. A phan ddaeth genethig yn yr hen wisg Gymreig ymlaen at y delyn, torrodd brwdfrydedd y dyrfa'n fanllef.

Ymysg llu beirniadaethau'r bore hwn, un o'r rhai mwyaf dyddorol oedd testun beirniadaeth Dewi Ogwen a Deon Llanelwy. Y oedd Arglwydd Penrhyn wedi cynnyg gwobr o ddegpunt am y traethawd goreu, yn Gymraeg, ar fanteision medru siarad Saesneg.

Cawsai ei arglwyddiaeth fwy o les pe cynygiasai haner canpunt am draethawd, Saesneg wrth gwrs, i ddangos i wŷr teitlau a chyfoeth beth yw manteision siarad Cymraeg yng Nghymru. Y mae rhieni Cymru, mewn amser aeth heibio, wedi gwneyd ymdrechion arwraidd i ddysgu Saesneg i'w plant, a rhoddi pob addysg angenrheidiol iddynt. Beth pe buasai bonheddigion Cymru wedi gwneyd un ran o ddeg o'u hymdrech i ddysgu Cymraeg i'w plant hwy? Pe gwnaethent hynny, ni fuasai eu plant yn estroniaid yn eu gwlad eu hunain heddyw, — heb barch, heb allu, heb warogaeth ond a brynnant. Ai mewn gwawd y taflodd Lord Penrhyn y tipyn gwobr hwn?

Rhoddodd "Yn iach i ti Gymru," gan Miss Pattie Hughes, fy ysbryd chwerw wrth ei fodd; ac ail enillais fy mharch at yr Eisteddfod trwy glywed mai Iolo Caernarfon oedd y buddugol ar y fyfyrdraith,— "Yna y bydd y diwedd." Hiraethwn am fanteision yr hen Eisteddfodau bychain, pan ddarllennid y darnau buddugol. Yn ol pob tebyg rhaid i mi aros blwyddyn a hanner cyn y caf weld y fyfyrdraith hon. Nid rhyw lawer o ganmoliaeth, os deallais, oedd cader y bardd yn gael. Daeth Gwilym Eryri i ddeibyn gwobr am hir a thoddaid; a Miss Muriel Edwards, merch Esgob Llanelwy, am ddarlunio. Cafwyd cystadleuaeth denor ardderchog, a gŵr ieuanc o Dreforis enillodd.

Yr oedd y babell yn orlawn erbyn hyn, oherwydd yr oedd y brif gystadleuaeth gorawl yn ymyl. A dyma lais clir peraidd Cadfan yn galw ar y corau. Nid oedd gennyf i un amheuaeth nad côr y De enillai, ond dywedai Gwilym Alltwen y buasai'n well i mi beidio penderfynu nes y clywn y ddau gôr yn canu. Pan oedd Pencerdd Gwalia'n canu'r delyn gwaeddwyd am rywbeth Cymraeg, a chododd Hwrê pan ddechreuodd ar Orymdaith Gwŷr Harlech. Yr oedd heulwen gynnes yn chware ar ddeng mil o wynebau, a dechreuodd pawb ganu "Hen Wlad fy Nhadau" tra'r oedd aelodau côr y Gogledd yn araf ymdeithio i'w lle. Y tri darn i'w canu oedd "Canwn ganiad newydd" Dr. Parry, "Cwsg, filwr, cwsg" J. H. Roberts, ac "In Sempiterna Saecula" Rossini. Gwrandawodd y miloedd fel delwau, dan heulwen braf. Ac yr oedd pawb yn dal ei anadl wrth wrando ar y dyfarniad. Tybid unwaith mai i du'r De y troi'r fantol; ond, yn fuan iawn, yr oedd gwraig yr esgob yn rhoddi'r wobr i arweinydd côr y Gogledd. Derbyniodd pawb y dyfarniad yn berffaith dawel.

BARDD CADER Y RHYL.

Y PARCH. E. GURNOS JONES, PORTH CAWL.

(*O'r "Cymro."*)

Wrth edrych dros raglen y cyngherdd, gwelais nad oedd yno ond tair cân Gymraeg o dair ar hugain. Gallaswn glywed y caneuon hyn yn Llunden yr amser a fynnwn; fel pob Eisteddfodwr arall, yr oeldwn wedi disgwyl caneuon Cymreig. Gadewais y Rhyl, yn flin fy ysbryd, cyn y cyngherdd, a throais am dawelwch tua Llanelwy henafol. Yma yr oedd popeth yn hen ac yn ddistaw, ac nid yn newydd spon ac yn croch-floeddio fel yn y Rhyl. Arhosais mewn gwesty hen ffasiwn, a'i ystafelloedd yn eang a distaw. Yr oedd yr Eglwys Gadeiriol ar fy nghyfer, a chyfieithydd y Beibl yn huno ynddi. Yma y bu Sion Tudur yn darlunio pechodau ei oes ac yn croesawu'r Beibl Mawr. Yma y cyfarfyddai beirdd mewn oesoedd aeth heibio; a llawer

darluniad a welais, mewn cynghaneddion difai, o brydferthwch y lle hwn. Yn lle ysgrechiadau'r tren disgynnai nodau'r gloch hwyrol, fel breuddwydion esmwyth, ar fy nghlust. Ond nid wyf yn fardd,—er fod Eifionnydd wedi awgrymu unwaith y gallaswn, hwyrach, gael un o raddau'r Orsedd,—onide darluniaswn esmwythdra adfywiol y cwsg fwynheais y noson honno.

Bore ddydd Iau bum yn llyfrgell yr esgob, a chefais y fraint o ddarllen hanes ymweliad J. Wynne â rhannau o sir Feirionnydd yn 1723, llawysgrifau sy'n taflu ffrwd o oleuni newydd ar gyflwr y wlad cyn iddi glywed llais Howel Harris. Crwydrais o amgylch yr hen fangre hanesiol, ac yr oedd wedi hanner dydd pan eis i dren gorlawn o bobl yn troi i'r Rhyl i weld y cadeirio. Ac yr oeddym mewn pryd.

Bum yn eistedd ymysg pobl ddiddan am amser. Un tro clywais gerddor yn troi'n ol at T. E. Ellis a Lloyd George i ofyn ai Cymraeg fyddent yn siarad yn y Senedd,—oherwydd dyna'r iaith glywai o hyd y tu ol iddo. Yr oedd Lleufer Thomas yno, wedi gwrando helyntion y llafurwr; yr oedd athraw Cymraeg ac athraw Saesneg ac is-athraw Groeg Bangor yno; yr oedd Mrs. Ellis Jones Griffith yno; yr oedd John Rhys yno; yr oedd yno aelodau seneddol ac athrawon a chantorion a beirniaid a phob math o hen gyfeillion yn yr Eisteddfod. Yr oedd yno arlunwyr, hefyd, wrth gofio; yr oedd un direidus wedi trawsffurfio llun Emlyn Evans yn llun Mephistopheles, a llun David Jenkins yn llun Beau Rimmel. Gwelais un o gynhyrchion yr hen Eisteddfodau hefyd, ac yr oedd rhywun ar y llwyfan bron bob dydd, yn groes i chwaeth a theimlad llaweroedd, yn ei ddal i fyny ger bron y lliaws. Gwnaeth Llew Llwyfo lawer, mi glywais, i ddiddanu'r Cymry flynyddau yn ol, ond ni wyddom ni Gymry ieuainc ddim am dano; harddach o lawer fuasai i'w garedigion ofalu am dano yn ddistaw, ac esmwythach i'w deimad.

Pryd daw'r cadeirio? Y mae swn yn y gwynt fod rhywbeth o'i le. Dacw'r gader, a dacw'r beirdd yn ymgynnull. Dacw'r ddau feirniad, Gwynedd a Watcyn Wyn, a Hwfa Mon rhyngddynt. Wedi eiliad o ddistawrwydd perffaith dywedodd Hwfa Mon fod y ddau feirniad yn methu cyd-weled, a'i fod yntau wedi penderfynu drostynt. Nid wyf yn cofio beth ddywedodd am dân fflamllyd a gwreichion byw, ond dywedodd fod "Hen Ddosbarth" yn gwir haeddu'r gader. Dywedodd Gwynedd nad oedd, a fod awdl "Bengel" yn well na'i awdl ef. Ond "Hen Ddosbarth" oedd i gael y gader, a dyma alw am dano i godi ar ei draed. Cododd y bobl oll ar eu traed i weled y bardd, a dyna lais clir Cynonfardd,—"Bobol anwyl, chewch chwi ddim cadeiriau i gyd." Wedi cynhwrf a llygadrythu, dacw ddau fardd yn arwain gŵr a llygaid gwibiog tua'r esgynlawr; ac, am i ni fod yn llonydd, hysbysodd Cynonfardd ni mai'r Parch. E. Gurnos Jones, Porth Cawl, ydoedd. Canodd Miss Mary Thomas "Freuddwyd y Frenhines" fel cân y cadeirio, ac yna awd drwy'r seremoni. Pe buaswn arlunydd, buasai gennyf ddarlun o'r olygfa. Eisteddai'r bardd yn y gader dan gysgod Hwfa Mon. Ar y llaw dde yr oedd y ddau feirniad. Yn nesaf atynt safai Clwydfardd ac Elfyn,—y bardd dybiai Gwynedd oedd oreu. Yn eu hymyl safai'r Canon Howell a Chynonfardd. Ar y llaw chwith safai Dewi Ogwen. Dipyn ymhellach yr oedd Esgob Llanelwy, Syr Watcyn Williams Wynn, a'r Prifathraw Owen. Yn eu hymyl eisteddai deon newydd Llanelwy, ac ar gwr yr esgynlawr gwelid Ardalydd Bute yn dal ac urddasol. Y tu ol iddynt yr oedd llu o feirdd,—Penfro a Bryfdir oedd yr unig rai y gwelwn i eu gwynebau. Tu ol i'r oll safai Elis Wyn o Wyrfai. Nid oedd cymaint o urddas ag a welais yn y seremoni; ond yr oedd digon o dân yn y dadganiad o "Hen Wlad fy Nhadau."

Gwaith arall y nawn oedd cystadleuaeth y corau meibion,—"Meib y Don" Jenkins, ac "Ar Ragfuriau" Saintis,—a dywedir fod Caernarfon wedi curo Treorci'n deg.

Nos Iau oedd prif noson yr Eisteddfod. Dadganwyd oratorio newydd Dr. Parry,—"Saul o Darsus,"—am y waith gyntaf. Nid wyf fi fawr o gerddor, ond yr oedd yr oratorio hon yn ddigon dramayddol i mi ei mwynhau. Treuliais deirawr lawn o fwynhad dyrchafol ac addolgar; a phan dorrodd y gynulleidfa i ganu "Diniweidrwydd," yr hen dôn sydd wedi ei gweu i mewn yn yr oratorio, mwmiais innau ganu gyda hwy. Daw'r ddrama cyn hir, a daw'r Eisteddfod yn fagwrle i gynhyrchion fel hyn,—nid yn lle i ailadrodd cân ac oratorio geir ym mhob man.

Daethum i lawr yn ddigon bore ddydd Gwener i gael rhodio gyda glan y môr cyn i'r cyfarfod ddechreu. Clywais Gadfan yn galw yn Gymraeg ar Arglwydd Mostyn i lywyddu. Dywedodd y gŵr ieuanc hwn hanes y teuluoedd brenhinol wrthym; ond cynhesodd fel yr ai ymlaen, a dywedodd hen hanes yr Eisteddfod a'r hen broffwydoliaeth,—"eu hiaith a gadwant." Canodd Miss Mary Thomas "Gymru Fydd" yn ardderchog, ac unai'r dorf, gyda theimlad tanllyd, yn y gân. Wedi gwrando plentyn yn canu crwth gyda medr rhyfeddol, clywyd John Rhys yn dyfarnu'r wobr am y prif draethawd. Pan ddywedwyd

mai Charles Ashton oedd enw'r buddugwr, cawd "Hwrê"; cofid mai heddgeidwad ydyw'r llenor diwid ac ymchwilgar hwn.

Prif waith y bore oedd coroni bardd y bryddest. Yma, hefyd, yr oedd y beirniaid mewn penbleth. Penderfynasant roddi'r goron a hanner y wobr i un, a hanner y wobr i'r llall. Galwyd am i wr y goron sefyll ar ei draed, a safodd un tal, a golwg glasurol arno,—tebyg i athraw athroniaeth. Hysbyswyd mai Iolo Caernarfon oedd, a chafodd dderbyniad tywysogaidd wrth ei goroni. Y Parch. Ben Davies, Pant Teg, oedd yr ail.

Yna aeth y cyfarfod hir ymlaen hyd nes oedd yn amser y cyngherdd bron,—yn cynnwys dadganiad chwech o gorau merched a naw seindorf. Nid eis i'r cyngherdd Seisnig a gynhelid y nos. Ond cefais bedair awr hyfryd ar y traeth. Weithiau meddyliwn am Lasynys, dro arall tybiwn weled Robert o Ruddlan yn dawnsio o gynddaredd ar ben y mynydd draw. Ac o'r diwedd cefais fy meddwl blin yn ol at yr Eisteddfod.



DR. JOSEPH PARRY.

A chymeryd popeth at eu gilydd, tybiwn ei bod yn Eisteddfod lwyddiannus; y fwyaf llwyddiannus, efallai, o'r un. Y mae'r pwyllgor yn haeddu diolch cenedl am eu llafur ac am eu doethineb. Nid gwaith hawdd ydyw gofalu am Eisteddfod Cymru erbyn hyn, nid heb lafur dirfawr a llawer o bryder rhywrai y daw ei noson olaf. Ond, fel pob hen sefydliad, y mae rhai brychau ar ei chymeriad eto, a gwneir yr un camgymeriadau o flwyddyn i flwyddyn. Y mae amser yn ei phuro er hynny,—y mae'n dod yn fwy Cymreig er gwaethaf ymdrechion di-flino i'w Seisnigeiddio, y mae'r beirdd sychedig yn prysur gilio a gwŷr grymus di-lychwin yn cymeryd eu lle. Y mae bywyd iach nerthol Cymru yn graddol wneyd yr Eisteddfod yn allu i hyrwyddo a rheoli gwir addysg ac athrylith. Ond meiddiaf eto gyfeirio bys beirniadaeth at rai pethau.

Yn un peth, ni chawsom hanner digon o'r delyn a chanu penillion. Byddai golwg ar y delyn yn gwneyd y dorf yn ddistaw a chlust-deneu ar unwaith, ac nid oedd dim yn yr Eisteddfod a fwynheid yn fwy na chlywed "Morfa Rhuddlan" a "Gwŷr Harlech" oddiar ei thannau. Ond och! dyma offerynau pres a swn Philistaidd tôn Almaenaidd wedi cymeryd lle'r delyn, ie yn seremoni cadeirio'r bardd. Mor frwdfrydig hefyd, oedd y derbyniad gafodd y rhai ganai benillion. Amser yn ol edrychid ar yr hen ganu diddan hwn fel canu'n perthyn i esgymun a meddw, ond gwelir ef eto mewn bri. Beth a fyddai i rai o'n prif gantorion ei godi? Clywais Mary Davies yn canu penillion yn Rhydychen, a theimlais fod rhyw swyn anirnadwy yn yr hen ddull hwn o gyrraedd y galon. Wrth gofio, ym mha le yr oedd Mary Davies? Clywais laweroedd yn dweyd fod yr Eisteddfod yn weddw hebddi; ond y mae'n ddiameu gennyf mai hollol amhosibl oedd iddi ddod.

Dyma beth arall hefyd,—a yw beirniaid yn cofio yr anghyfleusdra berir trwy newid amser y dyfarniadau? Gwelais fachgen o was wedi cael un diwrnod i ddod i'r Rhyl, a dewisodd adeg dyfarnu gwobr oedd wedi ymgeisio am dani. Aeth mor agos at y llwyfan ag y caniatai ei boced; a phan ddaeth adeg y dyfarnu,—hysbyswyd nad oedd y beirniaid eto wedi llwyr benderfynu, ac y gobeithid y byddent yn barod erbyn drannoeth. Drannoeth byddai'r bachgen, druan, yn gafra yd.

Nid oedd y babell wrth fy modd ychwaith. Hwyrach y bydd rhai o gyfeillion brwdfrydig Pont y Pridd yn darllen y llinellau hyn, a fod arlunwyr yn eu mysg. Dylai'r babell gael addurniadau teilwng,—nid baneri wna'r tro i bob peth. Dylai peis-arfau'r Cynghorau Sir, ar bob cyfrif, fod o amgylch y babell, ac enw pob sir dan y darlun. Ac na anghofier Mynwy; ond, os bydd lle, rhodder llinell o gân Islwyn, ei phrydydd,—

"Cymru ydwyt tithau, Mynwy fad."

Dylai enwau Llywelyn, Glyn Dŵr, yr Esgob Morgan, a Gruffydd Jones Llanddowror fod yno hefyd. Ac, ar bob cyfrif, na anghofier enw JOHN PENRI, y gŵr ieuanc roddodd ei

fywyd i lawr dros Gymru dri chan mlynedd i'r flwyddyn nesaf.

Nid oedd y rhannu gwobrwyon wrth fy modd ychwaith. Gwn fod yn anodd i feirniaid gyd-weled, a fod yn anodd iddynt benderfynu'n aml, ond paham y rhaid iddynt gyhoeddi eu hanawsderau a'u cwerylon ar lwyfan yr Eisteddfod? Ynfydrwydd ydyw dweyd fod dau draethawd yn gyfartal, ac y dylid rhannu'r wobr. Gwelais filoedd o draethodau, ond ni welais ddau draethawd erioed nad oedd digon o wahaniaeth rhyngddynt. Penderfyner, mewn rhyw ffordd, prun yw'r goreu; ac enwer ereill, os yn deilwng, fel rhai'n dod yn agos ato. Y mae gogoniant gwobr yn colli trwy ei rhannu. Un gader, un goron, un wobr sydd, i un buddugwr. Gof ler hefyd am urddas yr Eisteddfod. Na adawer i eiddilod hysbysu eu bod, trwy gynnyg gwobr am ryw waith wneir iddynt hwy. Os rhoi gwobr, dylid ei rhoddi'n ddiamodol i'r pwyllgor, a'r pwyllgor neu'r ymgeisydd ddylai gael y peth gwobrwyedig. Y mae cyfeillion calon-gynnes a pherffaith onest wedi meddwl y gwnant les i ryw arlunydd ar hanner newynu, a thipyn o les iddynt eu hunain, mewn dull fel hyn. Ond dylai'r pwyllgor fod yn ddigon doeth i ddweyd wrth bawb, o Lord Penrhyn i lawr, mai hwy sydd i benderfynu beth sy'n destun teilwng.

Ac yn awr dyma fi'n dod at hen destun. Nis gallaf ddirnad paham y mae Eisteddfod y naill flwyddyn ar ol y llall mor Seisnigaidd. Yr oedd swyddogion Eisteddfod y Rhyl fel pe wedi penderfynu mynnu popeth yn Saesneg,—Saesneg oedd addurniadau'r swyddogion a'r beirniaid, Saesneg oedd pedair ar bymtheg o bob ugain o ganeuon y cyngherdd, Saesneg oedd araeth pob llywydd. Ac eto Cymraeg oedd yn talu. Pe na buasai am y cadeirio a'r corau a "Saul o Darsus," —pethau Cymreig yr Eisteddfod,—cawsai'r pwyllgor dalu'n ddrud am ei ffolineb.* Er gwaethaf pawb trodd yr Eisteddfod yn un Gymreig,—Cymraeg yn unig siaradai'r arweinwyr, Cymraeg yn unig oedd y beirniadaethau y gwrandewid arnynt, Cymraeg oedd pob *encore*, Cymraeg oedd yn mynd, a Chymraeg oedd yn talu. A diolchgar iawn oeddwn i a llawer i gantorion fel Miss Olive Grey, oedd a chaneuon Cymraeg wrth eu henwau bob tro.

Yr oedd Cymry yn yr Eisteddfod yn ddrwg eu hwyl oherwydd na chaent glywed siarad a chanu Cymraeg. Yr oedd yno Saeson o'r un feddwl ag un glywais yn gwaeddi,—"For goodness' sake, give us some Welsh airs." Ond teimlwn yr amcanai llawer oedd ar y llwyfan ddefnyddio'r Eisteddfod i'w hoff amcan, sef Seisnigeiddio Cymru. Yr hen chware gawsom eleni eto,—y llwyfan yn pregethu i'r dorf y dylai fedru Saesneg, a'r dorf yn dweyd na fynnai ond Cymraeg. Yr oedd yno Geidwadwyr yn ddigon radicalaidd i geisio newid iaith Cymru trwy drais, yr oedd yno fonheddigion o Gymry heb fedru torri Cymraeg. Ar ol gwers etholiadau'r Cyngor Sir, ar ol gwers yr Etholiad, yn enw pob rheswm, paham y mae rhai teitlog a chyfoethog Cymru mor ddall? Y mae bywyd yn yr iaith Gymraeg, a grym yn y teimlad Cymreig, ac nid gwên pendefig neu faer fedr eu swyno, er y medr gwên felly dynnu geiriau o addoliad ymron oddiwrth "dderwydd" a bardd. Yr oedd pendefigion Cymreig ar lwyfan Eisteddfod y Rhyl heb fedru Cymraeg, ond y mae'n amheus gennyf a oes un o honynt nad ydyw'n dysgu Cymraeg i'w blant. A mentraf broffwydo y gwelaf cyn fy marw Eisteddfod heb ddim ond Cymraeg drwyddi,—mewn cân, mewn dyfarniad, mewn oratorio, ie ac mewn araeth lywyddol hefyd.

Yr oedd llu o fân gyfarfodydd o gwmpas yr Eisteddfod. Y mae'n amhosibl myned iddynt i gyd, heb fawr flinder ysbryd. Er hynny bum mewn rhai. Gwelais Marchant Williams yn goruwchlywodraethu ar lu o feirdd gwrthryfelgar. Clywais bapur David Lewis yn enwi tri o'r rhai sy'n cyhoeddi hen lawysgrifau Cymreig, heb son am un wnaeth gymaint a'r tri gyda'u gilydd, sef J. Gwenogfryn Evans. Ac ni fyddaf byth yn colli cyfarfodydd Cymdeithas Dafydd ab Gwilym. Cyfarfodydd preifat ydyw'r rhain, ond croesawyd amryw sydd megis wedi ymaelodi erbyn hyn,—T. E. Ellis, D. Lloyd George, W. Lewis Jones, a W. Jenkin Thomas. Y llywydd ydyw John Rhys, a threulir y cyfarfodydd gynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod i gael hen Rydycheinwyr at eu gilydd, ac i feirniadu pob peth mewn ysbryd diddan a dedwydd.

Yn y cyfarfod dreuliwyd i wrando a thrin papur Elfed Lewis ar Eisteddfodaeth, tarawodd Ellis Edwards yr hoel ar ei phen. Nid rhyfedd, meddai, fod dylanwad y bardd Cymreig yn gyfyng,—y mae'n canu mewn dull na fedr y bobl ei ddeall na'i fwynhau. Y mae cenhedloedd gwareiddiedig ereill wedi gadael y cynghaneddion er ys canrifoedd, ond y mae'r Eisteddfod yn helpu i gadw'r Awen Gymreig yn ei rhwymyn o hyd. Onid ynfydrwydd ydyw meddwl gwneyd i feirdd fel Islwyn gadw at fân reolach barddoniaeth gaeth? Os ydyw meddwl Cymru i ymddadblygu mewn cerdd, rhaid torri'r gefynnau hyn. Da fuasai i'r Eisteddfod wneyd a

*Talwyd £180 noson "Elias," a £606 noson "Saul o Darsus."

barddoniaeth yr hyn y mae wedi wneyd a rhyddiaeth. Gadawer i'r beirdd ddewis eu testun a dewis eu mesur, a rhodder y Gader i'r goreu. Ceid felly brydyddiaeth ddarllennid gan filoedd, prydyddiaeth ddyrchafai Gymru,—ac nid llinellau cywrain na ddarllennir hwy byth ond gan ryw ychydig iawn,—

"Daw adeg ar farddoniaeth na fydd un
Gyfundrefn gaethol o fesurau blin,
Na deddf
Ond greddf."

Na feddylier fy mod yn tybio, yn ol arfer rhai, mai barddoniaeth Saesneg yw cynllun y bardd Cymreig. Ond yn sicr, dylai'r bardd Cymreig gael yr un rhyddid. Pa fodd y gellir rhoi barddoniaeth athronyddol mewn cynghaneddion? Nid cywydd nac awdl sydd eisiau yn ein dyddiau ni, ond cân wladgarol danllyd, canig i ddangos y tlysni sydd mewn purdeb, arwrgerdd mewn mesur rhydd. Nid ar y ffurf, ond ar y meddwl, yr edrychir yn awr. Nid oes y mân reolach yw oes deffroad.

BARDD CORON Y RHYL.

IOLO CAERNARFON.

"O ddedwydd adeg, pan lifeiria cerdd
O'r enaid pur, fel ffrwd o'r goedwig werdd!
Pan welir ar ei holl feddyliau ef
Oleuni'r gwlith, a glâs a dwfn y nef."

A dyma Eisteddfod 1892 wedi mynd. Dengys mai canu, barddoni, ac athronyddu ydyw hoff bethau'r Cymry. Ni ddaeth dim newydd i'r golwg. Clywais y beirniaid yn dweyd fod y traethawd ar athroniaeth yn llawer gwell na dim gawd o'r blaen, a fod gwahaniaeth rhyfedd rhwng y bryddest a phryddestau ugain mlynedd yn ol. Ond am gyfansoddi cerddoriaeth, am gerfio, ac am bopeth yn gofyn addysg ac amynedd,—"neb yn ymgeisio" neu "neb yn deilwng" oedd yr hanes o hyd. Dengys yr Eisteddfod fod gobaith ardderchog o werin Cymru; a dengys mai athrylith wyllt, ddi-ddiwylliant, ddi-amynedd ydyw ei hathrylith eto. Ar ei chyfundrefn addysg y mae'r bai. Y mae'r addysg roddodd y llywodraeth i Gymru Gymreig yn waeth na phe buasai heb addysg. Y mae athrylith ym mhlant Cymru; ond nid diwyllio eu meddwl ydyw amcan yr addysg a roddir iddynt, ond dysgu Saesneg iddynt a gwneyd *parrots* o honynt. Hyd yn hyn y mae'r Ysgol Sul, trwy ei gwaith ardderchog, wedi cuddio effaith y gyfundrefn arall. Ond dengys yr Eisteddfod, a dengys Prifysgol pan ddaw, mai cam dybryd wneir â Chymru. Y mae'r amser wedi dod i newid pethau, y mae'r amser wedi gwawrio pan gaiff y Cymro well addysg ysgol na'r addysg a gafodd. Cafodd addysg a'i hunig amcan i ladd ei iaith; caiff addysg i eangu ei gydymdeimlad, i reoli ei athrylith, ac i ddwyn o'i enaid a'i ddwylaw feddwl a gwaith erys byth. Ni feddylia neb am holi a oes cynghanedd cydsain yn y brydyddiaeth sydd i ddod. Meddwl ac enaid fydd pob peth. Y mae parch yr Eisteddfod yn fawr, ond nid yw'n ddim wrth a fydd.

WILLIAM EDWARDS YR EMYNNYDD.

ER na fum erioed o'r blaen yn ysgrifennu i'r wasg, yn fy myw nis gallaf beidio codi fy llef i dreio gwneyd ychydig mwy o gyfiawnder â chymeriad parchus a hoffus gan bob Cristion a'i hadwaenai, a chan y gwirionedd ei hun.* Os bu ail Nathanael erioed, William Edwards ydoedd hwnnw. Nid un "pigog, cas," oedd efe; neu, os oedd felly y deugain mlynedd cyntaf o'i oes, yr oedd yr un mlynedd a deugain olaf yn dangos ei fod wedi graddio yn uchel yng ngholeg Gras. Yr oedd wedi ei droi a'i "wneyd fel plentyn bach" yn ystod y blynyddoedd hyn, a phrif nodweddion ei gymeriad oedd diymhongarwch, diniweidrwydd, uniondeb, a chalon lawn o gariad at Iesu, ac ymroddiad i'w wasanaeth Ef o flaen pob peth.

Pan oedd yn bedwar ugain oed bu farw wyr bach chwech oed iddo, am yr hwn yr oedd ei serch wedi ymglymu mor gryf, a'r hiraeth mor arteithiol am dano, fel y cafodd fyned ato ymhen y chwe mis; a chafodd ei roi i orwedd yn yr un bedd yn Llanfor. Yr oedd wedi colli wyrion bach o'r blaen, a chanodd y penillion a ganlyn ar ol dau o honynt,—sef

Catherine, a fu farw Tachwedd 11, 1837, yn flwydd oed; a William, a fu farw Tachwedd 20, 1837 yn flwydd ac wyth mis oed,—

"A gest ti, William, dwed yr hanes,
Gan dy chwaer gyfarchiad cynnes,
Pan yr est mewn cerbyd tanllyd
Gynta i mewn i dir y bywyd?"

'Do, ces gan Cathrin gyfarch tirion,—
'Fy anwyl frawd, 'ddoes ti yma'r awrhon?
Ym mreichiau pwy, fy mrawd caredig,
Y daethost trwy hen afon ffyrnig?'

O Cathrin bach, ces ddod ym mreichiau
Yr engyl glân a'th ddygodd dithau;
Buont imi yn osgorddion
Trwy dywysogaeth yr ellyllon.'

"Gado tad a mam a wnaethom
I hiraethus wylo am danom:
Ond gwyn ein byd; cawn ymhyfrydu
Yn heddychol wedd ein Iesu.

'O rieni, peidiwch wylo,
Cawsom nefoedd heb ei cheisio;
Tangnefedd fel y môr i'n llonni,
Heb inni 'rioed arswydo'i golli."

Nid oedd ganddo feddwl mawr o hono ei hun fel bardd, ac ni chymerodd fawr o boen i berffeithio ei hun, ond yr oedd emynnu yn dyfod yn naturiol iddo: ac nid rhyfedd,—yr oedd yn nai, fab brawd, i Robert Williams y Pandy.

Achos y Gwaredwr oedd prif bwnc ei fywyd, a gofalai yn ffyddlon am bethau allanol y ty. Yn ei dy ef, yr hwn a safai yn y rhan hwnnw o'r dref lle mae y "Green" fyth gofiadwy, a'r Domen enwog, y cedwid llenni y tabernacl, sef yr hyn y gwisgid y pulpud ac eisteddleoedd y Sasiwn â hwynt. Yr oedd ei sel yn wenfflam ar adegau y Sasiwn, ac yr un modd bob amser gyda'r Ysgol Sul. Bu'n ffyddlon ganlyn Mr. Charles pan yn sefydlu Ysgolion Sabothol o gwmpas y Bala, a byddai yn ymweled â hwynt o dro i dro. Bu yn athraw ffyddlawn hyd ei farwolaeth. Ei brif emynnau a garaf ydyw y rhain,—

I.

Does neb ond Ef, fy Iesu hardd,
A ddichon lanw 'mryd;
Fy holl gysuron byth a dardd
O'i ddirfawr angau drud.

Does dim yn gwir ddifyrru f'oes
Helbulus yn y byd,
Ond golwg mynych ar y groes,
Lle talwyd iawn mewn pryd.

Mi welaf le mewn marwol glwy'
I'r euog guddio'i ben;
Ac yma llechaf nes mynd trwy
Bob aflwydd is y nen.

II.

Fy enaid, ymorffwys ar aberth y groes,
Does arall a'th gyfyd o ddyfnder dy loes;
Offrymodd ei hunan yn ddifai i Dduw,
Yn haeddiant yr aberth mi gredaf caf fyw.

Mae munud o edrych ar aberth y groes
Yn tawel ddistewi môr tonnog fy oes;
Mae llewyrch ei wyneb yn dwyn y fath hedd,
Nes diffodd euogrwydd a dychryn y bedd.

III.

Nis gallodd angau du
Ddal Iesu'n gaeth,
Ddim hwy na'r trydydd dydd,
Yn rhydd y daeth;
Ni ddelir un o'i blant,
Er mynd i bant y bedd;
Fe'u gwelir ger ei fron
Yn llon eu gwedd.

Wrth weld yr angau du
Yn nesu'n awr,
Rwy'n ofni ambell dro
Wrth gofio'r awr;
Pan gwelwy'r gwaith trwy ffydd
Y trydydd dydd wnaeth Duw,
Mae 'ngobaith yn fwy cry'
Do'i fyny'n fyw.

Pan fu fy Arglwydd mawr
Yn llawr y bedd,
Cynhesodd wely i mi
Rhag oeri'm gwedd;
Yn rhydd, ryw ddydd a ddaw,
Rhowch fi â'ch llaw'r un lle;
Rwy'n caru, er yn wan,
Y fan bu fe.

Porthaethwy. CATHERINE DAVIES.

*Y mae ysgrif yn rhifyn Awst ar William Edwards, yr hwn a roddir ymysg y "Beirdd Anadnabyddus." Oherwydd diofalwch a phrinder gwybodaeth cymerwyd golwg unochrog iawn ar ei gymeriad yn yr ysgrif honno. Y mae'n dda iawn gennyf gael yr ysgrif hon.

Y CENHADWR.

OFFERYN Duw, a'i ffrynd Ef,
Da gennad y deg wiwnef,
Un wybydd na rydd yr Ion
I segurwas ei goron;
Fwyn, gywiraf, ne' geraint,
A'i lond o sel i wneyd saint.

Genhadwr, ei deg nodwedd—yw ynni
Enaid; dros y Mawredd,
Dyna fo y dyn a fedd
Ddiwaelod angerddoledd

Enaid ban gan y Duw byw
Drwyddedwyd i'w urdd ydyw
Meddu y mae awyddyd
Di-ball am weled y byd
Yn uniawn heb un annuw,—
Cread oll yn caru Duw.

Hyd y byd ei fryd di-ball
Yw ymorol am arall,
A denu enaid annoeth
I adwaen Duw fel dyn doeth.

Gennad hyf! egni dwyfol—ddihuna
Wraidd ei enaid nerthol;
A goreu fwriad gwrol—dyma was
A dwng i urddas ysbryd angerddol.

Ni luniwyd gan hil annwn
Ddig arf a ddug grefydd hwn.

Genhadwr, gobeithiwr uwch gwag bethau
Ydyw; ei hyder fedd ehediadau
Draw i ddigilwg aur-diroedd golau,
A gorwych fonedd rhagorach fannau;
Yno, o hyd, i'w mwynhau,—uwch un rhaid,
Ymrydd ei enaid i wadd myrddiynau.

O! uchelgais uwch holgar—anianawd
Dynionach anfoddgar;
Mewn gwas gwiw mae'n gais a gâr
Efelychu nef lachar.

I deca' nod cwyd Cenhadwr,—i wawl
Nes gwela'n llaw'r Crewr
Un boreu gwyn 'mhob rhyw gwr
Froydd Eden, freuddwydiwr.

Am wag orchest ymgyrchu—ni wna hwn,
Yn uwch mae yn syllu
Na dwl aidd y bydol lu,—
Rhy bris ar wobrau Iesu.

Eitha'i nod yw gwaith ei Ner,—am hwnnw
Mae'i enaid; difwynder
Iddo yw tai gwleddoedd ter,
A dibrisdod eu brasder.

Drwyddo ef i'r dyhir ddyn,
Y da Grist a gâr estyn
Ei ragoraf drugaredd
A'i hawl i fyd na wel fedd.

Dyma un dros rawd y môr
Hed i gyrraedd dig oror;
Ac wrth halog, gerth elyn,
I ddweyd am Dduw, dyma ddyn!

Ddewr Gennad! drwy ddryghinoedd—at ei
Teithia; yn nwfn leoedd [waith
Y niwl a'r gwyll deil ar goedd
Lamp oleuwemp i luoedd.

Huddo'i hoewaf ddyhewyd—ni ellir;
Hollol ofer hefyd
I wadu th gri yw di-dor
Raib eigionfor, baganfyd!

Anhudolus ardaloedd,—i feddwl
Clafeiddio ysbrydoedd
Egni hwn, nid digon oedd
Erchyllderau'ch holl diroedd!

Y tanbaid sant, enbyd son—am erchyll
Ymorchest gwŷr duon,
A hyll hanes cynllwynion—atgasaf
Gwlad o lwfreiddiaf gelyd lofruddion,

Ni fedda hynny foddion—wanycha
Swyn uchel ei galon;
I'w law, gwna efengyl Ion
Ddryll farweiddia'r llofruddion.

Un dydd pan derfydd y daith,
â hwyl e' fola filwaith
Uwch holl degwch llu di-goll
O fewn y nef yn wyn oll.

Yn ieuanc cyneua awydd—o'i fewn
Am fod yn Genhadydd;
I ryfel â gau-grefydd
Ymrydd ef ym moreu 'i ddydd.

Teimlad dyfna' a enynna
Yn ei enaid,
Fod y Meddyg heb ei gynnyg
I baganiaid.

Ei lachar rudd sy'n gwlychu—fod un bod
Na goror isod heb garu'r Iesu.

Erchyll fro, sy'n gwisgo gwedd
Ister nos truenusedd;
Hanes hon sy'n ei swyno;—mae di-baid
Dynfaen i'w enaid yn y fan honno.

I dy'n gwron dyngarol,—dowch i'w weld
A chawn hanes ingol
Negroaidd fangre waeol;—ac ini
Yn falch ca' nodi ei "Flwch Cenhadol."

I ddiffaethwyll, dywyll dir,
Ei geiniogau gynhygir.

Os mai prin yw swm y pres,
Er hynny, cofier hanes
Y sel sy'n ei fynwes o;—drwy nef lân
Iesu ei hunan ddwed bwysau honno.

Gwres teimlad ei gariad gwir
I'w ddwy hadling ddyhidlir;
Digia Ion wrth enaid gŵr
A ddiraddia eu rhoddwr.

Yn ddiwid ei weddiau
A geir dros addolwyr gau.

Ei eiddilaidd fach ddwylo—a wesgir
Cyn cysgu o hono;
Ufudd lanc, mae 'i feddwl o
Yn nigred fyd y negro.

Annerch nef gyda pharch wna,
A'i dirf enaid erfynia
O'i ddwysedd,—"Arglwydd Iesu,
Gâd im' fynd at y 'dyn du.'"

O! "Anfon fi," na fu'n fud—yn nef Ior,
A fu hwn; i fyny
Dan ysgog hedai'n esgud
Drwy ganol y dwyfol dud.
Yn fwynaidd y llef honno—wrth gannaid
Waredydd enaid siaradodd yno.

Yn bur o'r nef un borau—deuai'r wys;—
"Dos DROSOF!" ac yntau
A garodd arch y geiriau:
Nefoedd hwn oedd ufuddhau.

Mae 'i weddw fam iddo fu—yn nodded,
Heddyw yn galaru;
I hon yr ymwahanu
Sy'n awr ddwys, yn awyr ddu.

Cyn i'w lestr hwylio at estron,—i'w weld
Daw ei lu cyfeillion;
â'u llwythawg ruddiau lleithion
Yn ymbruddhau mae bwrdd hon.

Ac o draw cyn codi'r hwyl,
A myned, ei fam anwyl
A ddêl i wasgu 'i ddwylo,
Yn drist, am yr olaf dro.

Ar ddialgar ddu weilgi—hi dremia'n
Drymaidd; llawer gweddi
O fewn ei syn fynwes hi,
O! Genhadlong, genhedli.
Ond pan gofia'n rhwyg afar—dydd garw,
Mai Duw a'i geilw, ymedy galar.

Yntau, ei hunig blentyn,—a'i haddfwyn
Leddfa; pan hyd lynclyn
Eigion cuchiog yn cychwyn,
â dwys fodd deisyfa hyn,—
"Dduw, dan d'adenydd dinam,
Ynghudd fyth, bo 'ngweddw fam,"

Ymwthia'r llong ymaith i'r llif,—y môr
A gymera'n heinif;
A dagrau brwd geir heb
I'w dilyn dros y dylif.

Llamu'n llon mewn eigion wna,
Ac o'r olwg yr hwylia
I'w hynt, fel pe'r hoffai hi
Y gwronddyn geir ynddi.

Er garwed, dyfned y don,—er ei rhu,
Er ei rhaib echryslon,
A'i holl stwr hyf, y llestr hon
Ni orthrechir a'i throchion.

Er ei bâr, adwaena'r don
Law Rheolwr awelon;
Ni ad Ef i wynt na dŵr
Niweidio y Cenhadwr.

Er i eigion mawr wgu,—ni ry fraw
I'w fron; i'w waredu
O'i ddulawr cadd wylwyr ou
Yng nghlysaf engyl Iesu.

Nid yw dyfnion, fawrion ŷr,
Yn ei dyb ddim ond ebyr

A'i lais anwyl o swynion,—i'r da Ior
Dyry' fawl hyd Neifion,
Heb i'r gwenyg brigwynion
Amharu dim ar ei dôn.

Am ei nod bob munudyn—sonia hwn,
Nes yw nef yn adwyn
Acen hudol Cenhadwr
Hyd y dŵr yn d'wedyd hyn,—

"O mro wen dros y môr af,
Er deall y mordwyaf
I drig lom, i ddyfnder glyn—o ddrysni
Anhygyrch imi—mae Duw'n gorchymyn.

"I anwar lwyth, seiniau'r lân
Lon efengyl, wnaf yngan;
Yn lân o bell aflun bau
Gweddiaf y gau dduwiau;

"I droi enaid yr annuw
Fy nigon fydd 'DICHON DUW'"

Hudolus dant ei dlos dôn
Foddia'r nefoedd ar Neifion.

Wedi ei daith daw i dir
â du eilunod lenwir.

O! bellenig bwll annuw;
Dyna dir heb adwaen Duw!

Wrth weled ardal anial fel yna,
Gofal ei enaid i Dduw gyflwyna;
Er ei brodorion—reibwyr dyhira'—
A'i herch awelon ei chyrrau chwilia;
Ar y du gwmwd llygredig yma—
Grefyddol enaid—y gwir foddlona;
Ar anwir dir y gwas da—gyfyd lon,
Decaf olygon—Duw a'i cyfloga.

Tlawd, heb ogoniant, O! wlad baganaidd
Yw, heb ireiddwch, a'i gwedd yn bruddaidd;
Oes un na ffoai o'i seiniau ffiaidd,
Ei chynni clwyfus a'i chwaon clafaidd?
Ni lonna'r fro afluniaidd—â nodyn
Un cnawd di-golyn, nac enaid gwylaidd.

Gweld dylni, cyni pob cwr—o'r wlad hon
Daniodd ein gwron—dyna ddyngarwr!

Dros ei Waredwr y dewr siarada;
Yn dwym a diflin o'i blaid ymdafla;
â gwenau addfwyn i'r unig noddfa,
A chyflawn heddwch, aflan wahodda;
Ond, Och! ar y "Newydd da"—o rasol
Enau'r un duwiol, dyn ni wrandawa!

Ar unwaith o'i flaen bryniau—anhawster
Sy'n estyn eu pennau;
Yn ebrwydd hyd ei lwybrau—blinderus,
Daw serth, enbydus, wrthwynebiadau.

Troi i'w watwar a'i hwtio—i'w wyneb
Wna paganiaid; eto,
Uwch anialwch, anwylo
Gelyn erch wna'i galon o.

Dig anuwiaid gyneuir—i'w erbyn,
A'i arbed ni cheisir;
Ei ddyrnaid dodrefn ddarnir,—ei hoff blant
A'i wraig a lusgant, a'i drig a losgir.

Ar ei neges ysgyrnygant,—ei daer
Genadwri wawdiant;
Gwrando ei weddi ni wnant,—o'i gwmpas
Ag eirf i'w luddias y gorfoleddant.

O! aidd erch, a ddaw i wŷdd
Uffern hagrach ffyrnigrwydd?

Teryll haid! trwy y llu—nid oes ar ol
Y cennad gwrol un cnawd i'w garu!

A'i egni dwl, bagan du
Ei orchest yw amharchu
Gwir was yr Ion groesai ru—angerddol
Y gwenyg oesol i gynnyg Iesu.

Ai digalonni ym myd gelynion
A dod yn ol i dud ei anwylion?
Ai ameu'r Iesu a throi i ymryson,
A didduw wadu ei addewidion?
Ar gelwydd ai rhoi'i galon?—â'r Ion gwiw
Ai ofer edliw a throi'n afradlon?

Mewn braw, ai dyna wna'r cennad unig
Yn merw iasau a'i fron mor ysig?
O! na'i fwriadau sy'n rhy wefredig
O wawl i'w gadw'n ddihalogedig;
A gwêl ei ffydd y trydd trig—anrasol
Yn ardal hudol ysbrydoledig.

O'i fro daw hyf wŷr di-hedd
I'w ymlid, ond nid amledd
Dioddefiadau ddifodant
Ryfedd sel yr ufudd sant;
Ac i'w waith di-rym yw cwyn,
Ebwch enllib, a chynllwyn;
'Does enaid is y wiwnef
Ddiffodda aidd ei ffydd ef.

Dewr yw ef; yng ngwydd di-ri'
Anghenion, ie, 'nghynni
Afluyddiant gorfoledda,
Ac yn y niwl canu wna;
Er cynhen a dryghinoedd
Erchaf wlad, y dyrcha floedd
Foliannus; nid afluniaidd
Froydd hon farweiddia'i aidd

Ni thyfodd saeth a fedd su
Neu wenwyn i'w ddychrynnu,
Ar lennyrch o greulonedd
Y cana fo, ac ni fedd
Aruthr amhur orthrymydd
Un wayw ffon wywa'i ffydd.
Nid rhew du a oera'i dân,
Na'r canliw eira ceinlan.

Er niwloedd yr anialau,—er cynni
Ar ddryghinog lwybrau,
Cofio ing, cofio angau—'r Difeius,
Felusa'u dyrus anghyfleusderau.

Gwel driniaeth gwael, druenus—baganfyd
Heb gwynfan anhapus;
Ni thry' hwn rhag aruthr hil,
Nac anwarfil cynhyrfus.

Ddiwid wr, yn ei Dduw da—mewn ing caeth,
A thramawr alaeth, yr ymwrola.

Brodorion yn byw ar daeru—di-râs
Ydyw'r hil baganddu;
Parod yw llid ysbryd llu
Am greulawn ymgwerylu.

O aethus, warthus anferthwch—rhyfel,
Arafa'u pybyrwch;
Cennad Duw ddug gannaid wawl
Luddia'u heriawl ddyhirwch.

Tra ennyn twrf taranol,—a bloddest
Cableddwyr anrasol,
O'i enau ef, deuair naid—
"Duw" ac "Enaid"—i'w canol!

Drwy synied ar eu swynion,—gelyn drwg
A gladda'i gilwg—wyleiādia'i galon.

Ag ynni y da gennad
Tawela, ymloewa'r wlad,
Heb elyn hyf i'w blinhau
Na chweryl yn ei chyrrau.

Ac â'r Gwirionedd, gledd glân,
Dwysbigir nwydus bagan;
Dyma ef, enaid amhur,
A gwyredig greadur,
Ddwl addola ddu eilun,
Eiddil waith ei ddwylo'i hun,
Ger di-frâd Gennad gwiwnef,
Arafa'i stwr a'i fost ef;
O lennyrch marwol annwn,
A dylni dêl enaid hwn.

Nid yw lliw anwiw wyneb,
Iaith an-hawdd, na thylwyth neb,
Gan wridog, wyn Waredydd,—yn rhwystrol
I lu anuwiol gael calon newydd.

Bydd lawen, bagan anwiw,
Nid ar *wlad*, ac nid ar *liw*,
Ond ar *enaid* yr annuw
Dyryslyd, oer, sylwa Duw.

Hoff Genhadwr,
Dewraf deithiwr,
Negeseuwr enwog Seion;
Taro'n ysol
Ar anuwiol,
Wna'i lymdreiddiol ymadroddion.

Gall ymherygl llem orawr
Ddal ei hun; ni rydd i lawr
Ei arfau, ond cyferfydd
Angeu'n falch, os angen fydd.
Dyn yw ef na cheidw'n ol
O wlad afiach, wawl dwyfol;
Heb ubain traidd yn bybyr—i ganol
Y tir angeuol lle trenga awyr!

Dyma enbyd fyd a fedd
Archoll hagrwch a llygredd;
Duaf le difaol wŷr,
Hen drobwll o gnawd-reibwyr,
Oes wron dros yr Ion draidd
I wneyd hwnnw'n Edenaidd?

Onid rhyfyg yw trafod—y syniad
O swyno dyhirod?
Ar greu ser o gry sorod
Parddu a niwl pwy rydd nôd?

Anialdir anuwioldeb!—oes gobaith
Ysgubo'i greulondeb?
Anwiredd noeth! ni rydd neb
Lam i ardal amhurdeb.

Ymaith, dos, amheuaeth dyn,—Ion, addas
Ddefnyddia offeryn—
Angel wr â'i Dduw ynglŷn
Ddena oerddu anwarddyn.

Dywyll baganiaid duon,—Duw yr hedd
Sy' drwy 'i Gennad ffyddlon,
Yn denu'r haid anwar hon
I'w gloriannau'n glaerwynion.

Ha! ddyn a ddichon drwy'r ddawn oddiuchod,
I wŷr y camwedd gymhwyso'r cymod;
Dewisa eiriol am arbed sorod
O ergyd ddirfawr y gwae diddarfod;
O! bagandir heb geiudod!—ym mhob cwr,
Natur dy arwr yw troi dyhirod.
Dena â thôn dyner,—ac â dyfal
Lais geilw ardal o'i hysgelerder.

Anturia drwy'r front orawr,
I'w nosaidd lyn sudda i lawr,
A'i law'n dal yn y glyn du
Lamp rasol, wemp yr Iesu.

Am ei elyn ymhola,—er ei droi;
Rhad ras y Gorucha'
Yn wledd wir, yn arlwy dda,
I'w erlidwyr a leda.

Ddihefelydd ddyfalwch!—anialdir,
Cyn ildio i'r gwyllwch,
Y rhed ei waed i'r Duw Ior
Ar dy allor, dywyllwch!

Yn addas myn gyhoeddi
Dihafal drefn Dwyfol Dri;

A sicrha nas ceir eon—anwar-deyrn,
Mewn awdurdod greulon,
I ddial ddaw, luddia hon
Rhag aileni'r gelynion.

Egyr y drws i greadur isod
I arwain buchedd heb arni bechod;
I mewn i'w dy mae yn dod—yn llonwawr,
A'r golud rhinfawr i glyw truanfod.

Iawn lafurwr wnel fawrwaith,
Iesu'i hun all brisio'i waith.

â thecaf iaith, cyfieithiad
O Air ei Lyw ry' i'r wlad;
A thrwy holl goeth eiriau hwn
Olion talent a welwn.
I arwr iawn, goreu 'i ryw,
Cofadail decaf ydyw;
Haeddol waith, mae dedwydd lu
Na fiinant ei foliannu.
Ynni teg ei dalent wir
Drwy'i gu ddail dragwyddolir;
Têr olud, gorchest drylen,
Athrawol wyrth yw ar len;

Wir lafur dwfn ar Lyfr da,
Awdlau angel deilynga.

Air didwyll, anghredadyn,—wele hwn,
Wrth dy law i'w dderbyn;
Tro i'w ddail, ceir trwy'i ddilyn
Deyrnas Dduw, druenus ddyn.

Gwiw oes amlwg o symledd—dreulia ef
Drwy wlad o greulonedd;
Ac fan yma hoffa hedd
Deniadol y dinodedd.

I'w eiddil annedd yr ymfoddlona;
Coegni oferedd fel gwegni fwria;
Am dant neu fwyniant ni ymofynna;
Yn nhawch ei anial er dim ni chwyna;
Ond drwy iseldrem a dyrus waeldra
Y wlad anghyfiawn, golud anghofia;
Ei ddirboenwyr dderbynia;—drwy isod
Ymbil â sorod yr ymblesera.

Di-foethau ydyw ei fwthyn—unig,
Er hynny, heb derfyn
Mae di-wall emau dillyn,
A "Digon Duw" gan y dyn.

Gyneuedig Genhadwr!—yngana
Rhag anghenus gyflwr,
Ac o bellaf, gaethaf gwr,
Gwlad encil daw ieuancwr.

Edliwier, wrth chwedleua—ei hagrwch
A'i ddugroen i hwna—
Ond er hyn nid gwynder ia
A'i gymeriad gymhara!

Y ddu eneth at ddaioni—a ddenir,
Drwy ei ddoniau difri;
Rian i'r Ior, enwir hi
Yn ddi-ail, wylaidd lili.

Dwed â bloedd daw Duw o blaid
Oedranus, flin drueiniaid.

Mae'r gwas dros drefn gras yn gry,—a
Wrth y duon obry, [dywed
â mwynder iaith, mai nid rhy
Hen i'w thriniaeth yw rheiny.

Tra'n eu gwendid, troi'n gyndyn—wna
Daiaren i'w herbyn, [dorau
Ond dwed,—"Agored wedyn
Yw drws Duw i aros dyn."

Nid yr oed, ond y rhodiad—tryloew,
Yw amod cadw ym myd y Ceidwad.

Hwyr a boreu'r barbariaid—a lesia,
Ni chlywsant un enaid
Mor dda ei bwnc, mor ddi-baid
Ei daerineb, drueiniaid.

E fwrir eu harferion—i anghof
Gan efengyl gyson;
A'i hardd wedd, o'u broydd hon
Dry gredoau'r gwŷr duon.

Geilw drueiniaid gwael a dirinwedd
I weld rhagorion dwyfol drugaredd;
Hyrwydda genedl at hardd ogonedd,
A hyfryd lennyrch o'i hafradlonedd;
Gadawant bob gau duedd;—ger ffrwyth da
Ei lafur gwelwa eu hofergoeledd.

Am y nef ymgomio wna—Cenhadwr,
Ac eneidiau dua'
I'w chu heddwch wahodda,—a phob dydd
Pwnc ei leferydd yw Pen Calfaria.

Adrodda am hydreiddiol,—hir adwyth
Y Gwaredwr dwyfol;
A'i lawn aidd dilyna ol
Oriau'i loesion parlysol:—

Dygasedd y brâd gusan,—ei hawlio
Gan ei elyn aflan,
Ysig loes yr Iesu glân
Aeth is amharch Gethseman;

Gwadu a fflangellu'r Gŵr,
Y poer i wyneb Prynwr,
Adwyth ei drist ymdaith drom
Drwy'r isterau, a'r storom
A danbaid ymdreiglai dros
Y Dibechod heb achos;
Holl gofres hanes ei hynt— edrydd o,
I ddydd yr hoelio, ddiwedd yr helynt.

O! loesion, pan y clywsant—eu hanes,
Hir synnu a wnaethant:
Llaweroedd ar diroedd du,
Drosot, Iesu, dristasant.

Ac at rad gariad y Gŵr,
Rhyfedda gau grefyddwr.

Genhadwr, â gwên hudawl
I rai gwyllt y taena'r gwawl.

Yn dwym o'i enau dymunol—y daw gras,
A chyda grym dwyfol
Geiriau'r ffydd, caiff goror ffol
Argyhoeddiad tragwyddol.

Yn ddwysgall mae'n addysgu—yr anwar
Enaid; am yr Iesu
Deil i ddweyd, ac ardal ddu
A hyfforddir o'i pharddu.

Ddiwyd waredydd eon,—o'u ffyrnig
A'u huffernol eigion,
Glaniaw y dig elynion
Wna trosodd at orsedd Ion.

Uwch eu halog dawch wyla,—yn wastad
Drostynt yr ymbilia;
Ac fel hyn y cyflwyna
Yr aflan wŷr o flaen Na';—

"Fy Nhad, yn isel 'rwyf yn dynesu
O hyll bau erchyll nad yw'n dy barchu;
I wyll dîg dalaeth colledig deulu,
Fy Ior, na hyrddier y fro anwarddu;
Rhag awr ei ddinistr, i gywir ddenu
Y digred enaid doed gwawr i d'wnnu;
Yn dda greadur gwna iddo gredu
Goludoedd galwad i'w ddiogelu;
Yn hwy o dan drueni du,—na chlo
Drigleoedd isod, O! Arglwydd Iesu!

"Hyll fyd anwarddwl, llifed iawn urddas
Dy wawl Di arno,—'Deled dy deyrnas.'
"Y wlad ddu, aflan, mor galed, ddiflas,
Ydyw dy hirnych,—'Deled dy deyrnas.'

"Druain frodorion, ofer, a diras,
Tlawd ydyw arnynt,—'Deled dy Deyrnas.'"

A'i floedd ef y ddwyfol ddôr
Sy' i'w neges yn agor.
'E ddêl i'w weddi lwyddiant,—ac yna
Paganiaid mewn moliant
Yn falch oll o afael chwant,
A dirywiadau rodiant.

Yn llu i'w garu daw gwŷr—tywell fro—
Gelynddu, halog eilunaddolwyr;
A gresynol gors annuw
O dan dwf ddaw'n Eden Duw.

Anial llwm, heddyw yn lle
Ei halog olwg, wele,
Ddiwid, ddedwydd ddiadell,
A'i molawd am y wlad well.
I loewi'r fan, gwelir fod
Heulwen dwyfol yn dyfod;
Ei wawl di-gêl o'r wlad gaeth
Danbeidia anwybodaeth.

Yn eglur mewn pell drigle
Mwynheir naws emynnau'r ne'.

Yna awr adenir dynion
O bob llwyth; i babell Ion
O'r drwg dir i drigo daw—anufudd
Eilun addolydd yn lân ei ddwylaw.

Yn MLAEN yn ymolwynol—i'w hirbwynt
Aiff y cerbyd nefol;
Gyda rhwysg gedy ar ol
Angau'r don angrhediniol.

Yn MLAEN yw ei nod am lwydd
O wyredig waradwydd;
Yn MLAEN nes daw miliynau
I wawl y bur nefol bau;
Yn MLAEN nes y moliennir
Ior a dawn ymhob rhyw dir;
Ac YMLAEN drwy dranc am le
Iddo'i hun mewn hardd wiwne'.

Ie 'MLAEN fyth am lon fawl—ei hapus
Fraint ar gyhoeddus fryniau tragwyddawl.

Hyllig wedd y tywyll gwr
A newidia Cenhadwr.

Ei ddirwgnach, ddewr egni,—a'i lawn sêl,
Hynny sy'n coroni
Einioes hwn; ei hanes hi
Sydd hanes o ddaioni.

Mewn dedwyddwch a dyfalwch,
Dod i'w foli,
Wna trueiniaid o baganiaid
Heb eu geni.

Gwlad gyfan glyw adgofio—ei eiriau,
Ac yn aros eto
Mae eu rhin; nid ânt ym mro
Lawen engyl, yn ango'.

Distaen dystion o'u dwyster
Hwnt yw torf o seintiau ter.

Ca'i enw gan lu cannaid—eurwech bau,
Barch byth; llawer enaid
O fewn y nef wen a naid
I'w grybwyll wrth geriwbiaid.

Eneidiau, am Genhadydd,
Eich canu i fyny fydd;
Wedi eich dwyn o dawch du
I nef wennaf i fyny,
Yno harddwch cain erddi,—ac urddas
Y cyrddau uchelfri,
Wir edrydd werth gwrhydri
Ei oes o chwys drosoch chwi.

Munudyn gan y dyn da
Ni segurir nes gwawria
Y dydd dêl pob didduw du
Drosodd i bleidio'r Iesu.

Y sant drwy'i lwyddiant ymorfoledda,
â mawl yn uchel ymlawenycha;
â dedwydd hylais ei Dad addola,
A'i wyneb anwyl ar bawb a wena;
Y dwys gennad, esgynna—bob rhyw ddydd
Ei ganig newydd i'r gwyn gynhaua.'

...

Doi, bagan, yn lân dy liw
O anwiredd; mewn eurwiw
Ardal wen, mae ffrydiau lu,
Digonol i dy gannu.

Yng nghroes ac angau'r Iesu,—o'th gadwyn
Cei'th godi i fyny;
O'r halog wŷn, cei'r Law gu,
Groeshoeliwyd i'th grisialu.

O! wyn gyfnod, pan gefnir
Ar bob erchyll, dywyll dir;
Hwnt-barthau ddônt i berthyn—i'r Iesu,
Ceir oesoedd o wanwyn;
Hedd adeg, ni fydd wedyn
Enaid neb i'w wneyd yn wyn.

ELFYN.

PENDEFIG YN TRAETHU HANES.

UN o bethau hynotaf Eisteddfod y Rhyl oedd anerchiad Ardalydd Bute. Peth rhyfedd fod enw mor hanesyddol ac athrylith hanesydd wedi ymgyfarfod; nid yn aml y gwnant. Y mae etifeddiaethau Bute, yng Nglasgow ac yng Nghaer Dydd, yn eithafion yr hen Gymru ymestynnai o'r Hafren hyd y Clyde. Bute hefyd yw olynydd hen ieirll Morgannwg,—yn ei feddiant ef, heddyw, y mae castell Caer Dydd, castell Caerffili, a'r Castell Coch. Bu'n efrydydd ar hyd ei fywyd, ac yn sylwedydd craff. Sieryd gydag awdurdod ar gyn-iaith Teneriffe a'r Aifft, y mae wrth ei fodd yn llenyddiaeth Groeg ar ei hyd, darllenna Gymraeg yn rhwydd, ac edrydd ddarnau oddiar ei gof, ac efallai ei fod yn gwybod cymaint a neb am hanes eglwysig yr Alban. Ychydig sydd wedi gwneyd mwy tuag at gyhoeddi hen lawysgrifau, ac y mae lluoedd o ddysgedigion ac ysgolion, —heb són am Brifysgol Glasgow a Choleg y Brifysgol yng Nghaer Dydd, —yn ddyledus iddo am gymorth a chefnogaeth.

Yn ei ymchwiliadau ei hun, y mae Ardalydd Bute yn orofalus hyd at fod yn ofnus. "Tybio" neu "feddwl" y mae o hyd, ac nid dweyd.

ARDDERCHOCAF ARDALYDD BUTE
(O photograph gan Russell a'i Feibion).

Dechreuodd ei araeth yn y Rhyl trwy roddi i'r Eisteddfod ganmoliaeth a haeddai, a chanmoliaeth oedd yn werth ei gael. Danghosodd ei bod yn gynhulliad o gydymgeiswyr mewn meddwl a chelfyddyd, ac nid fel rhai cynhulliadau cenhedlaethol ereill, —yn ennyn nwydau, yn dwyn hap-chwareuon a phechod gyda hwynt. Rhoddodd i genedl y Cymry y ganmoliaeth uchel fedr ysgolhaig roddi,—dywedodd fod yr haul fu'n tywynnu mor ddisglaer ar wlad Groeg wedi goreuro peth ar ei bryniau hithau.

Yna dechreuodd amlinellu hanes Cymru. Dechreuodd gyda'r cyfnod cyntaf,—ymadawiad y Rhufeiniaid, gan adael eu hol, ac yn enwedig eu Cristionogaeth; colli'r Gogledd ac ymffurfiad ein Cymry ni. Yna arhosodd ennyd i dalu teyrnged o barch i hen gyfaill a chydlafurwr,—W. F. Skene,—a fuasai farw ychydig ddyddiau cynt. Gwnaeth Skene lawer i daflu goleuni ar y cyfnod tywyll hwn yn hanes Cymru, ond daeth amser iddo droi ei olwg oddiwrth ei gartref dacarol i'r wlad yn yr hon, hyd y gwyddom ni, nid oes nac afiechyd na blinder na henaint na marwolaeth. Nid oedd lle mwy priodol i goffa am dano, meddai, nag yn Eisteddfod y bobl y gwnaeth gymaint dros eu hanes. Nid yn ddireswm y mae greddf Cymro'n ei arwain at y cyfnod astudiodd Skene. Fel y rhoddodd Groeg ganiadau Homer i'r byd yn nyddiau ei phurdeb cenhedlaethol, felly hefyd y rhoddodd Cymru i'r byd ramantau Arthur pan oedd ei chenedlaetholdeb yn fwyaf pur. "Y mae'r rhamantau hyn, fel caniadau Homer, wedi gorchfygu llawer cenedl ymhell o'r wlad roddodd fod iddynt; ac ni welaf fi, ar orwel tebygolrwydd dynol, un cwmwl sy'n dangos y teflir hwy i'r cysgod. Dyma'r cyfnod swynodd athrylith Tennyson; ac yn y dyddiau hyn, pan y mae dynion yn ymdyrru o gyrrau eithaf y ddaear i Fayreuth i wrando *Parsifal* Wagner, hawdd y gallwch gofio mai Cymro oedd y Parsifal hwn."

Yna trodd y darlithydd at yr ail gyfnod, cyfnod a alwai'n "gyfnod yr arglwyddiaethau."

"Yr oedd yr arglwyddiaethau hyn, o'r rhai yr oedd Morgannwg yn berffeithiaf, yn debig i wladwriaethau; a rhaid oedd wrth nerth Edward y Cyntaf, yr hwn orchfygodd dywysog olaf Cymru, i ddechreu dinistrio gallu'r arglwyddi hyn o'r un genedl ag yntau." Yn y cyfnod hwn bu tair ymgais. Yr olaf o'r rhain oedd ymgais yr hwn a elwir yn gyffredin yn Owen Glyn Dŵr. Cyn hyn, yn union wedi cwymp tywysog olaf Cymru,—"os yn wir yr ydym i wrthod y teitl hwn i Owen Glyn Dŵr,"—cawn ymgais egwan i ymuno a'r Alban a'r Iwerddon yn erbyn Lloegr. A chyn hynny, cawn hanes prudd ymdrech Llywelyn y Llyw Olaf. "Y mae'r hanes prudd hwn yn ddyddorol oherwydd pwysigrwydd yr hyn ymdrechid am dano, ac nid oherwydd fod Llywelyn ei hun yn ddyddorol, —y mae'n amhosibl cael syniad clir am dano ef. Ni fedrais erioed, er ymlafurio drwy'r holl bapurau Lladin sy'n dweyd am dano, ac er fy mod yn awyddus i'w weled,—ni fedrais erioed gael darlun i mi fy hun o hono fel yr oedd. Nid ydyw fel haul yn ffurfafen ei amser. Tebycach ydyw, feddyliwn i, i ryw blaned gudd; gwelsom oddiwrth ei heffeithiau ei bod, ond y mae hi ei hun yn anweledig."

Daeth y trydydd cyfnod gydag esgyniad teulu Tudor i orsedd Lloegr. Dyma "gyfnod Llys Llwydlo." Gwnaeth y Tuduriaid beth na cheisiodd tywysogion Cymru ei wneyd,—canolbwyntio teimlad Cymreig, a'r hyn adawsid o arferion lleol Cymru mewn un lle. Y lle hwnnw oedd Llwydlo. Yr oedd Llwydlo'n ganolbwynt cyfraith i Gymru, os nad yn ganolbwynt cymdeithasol hefyd. Gwnawd Cyngor o'r prif ddynion oedd yn dal cysylltiad â Chymru.

"Wrth ddileu ei llysoedd cyfraith neillduol, ac wrth ei gwneyd yn rhan o Loegr, ni roddodd Harri'r Seithfed derfyn hollol ar Ymreolaeth Cymru, eithr gadawodd ymddanghosiad urddasol Ymreolaeth yn Llys y Gororau yn Llwydlo. Cofir y llys hwn drwy'r holl fyd Seisnig oherwydd mai yn ei wyliau diwylledig ac ardderchog ef, ar noson gwyl Fihangel 1634, yr actiwyd 'Comus' John Milton,—peth mor debyg i Eisteddfod. Ac ynglyn a Llys Llwydlo, a faddeua'r cynhulliad hwn i mi am ei adgofio,—pan orfod i ganlynwyr Harri'r Seithfed gilio ar ol y Gwrthryfel Mawr o flaen teyrn llai cyfansoddiadol,—mai Cymro oedd y gormesdeyrn newydd? Yr oedd teulu Oliver Cromwell wedi newid eu henw ar ol gadael bro Morgannwg, ond defnyddiai Cromwell yr enw Williams a'r llew arian.

"Cyn hyn daliai Iarll Caer Gymru ymron hyd afon Gonwy; daliai ieirll yr Amwythig a Threfaldwyn ddyffryn y Fynwy a rhan uchaf dyffryn yr Hafren; daliai ieirll Henffordd Gymru o Henffordd hyd Aberhonddu; ac yr oedd teuluoedd Clare a Marshall yn dal glannau moroedd Carloew, Mynwy, Morgannwg, Caerfyrddin, Penfro, ac i fyny hyd Aberystwyth. Nid oedd gan y Cymry anibynnol, felly, ond Ynys Mon a broydd mynyddig y Wyddfa a Phlunhumon, Maesyfed a gogledd Brycheiniog, a rhwng y rhai hyn a'r môr. Ac yn y gornel yma y bu ymdrech olaf cenedlaetholdeb Cymru, yn amser William a Mary.

"Dilewyd Llys Llwydlo, mentraf ddweyd, nid am ei fod yn anghyfleus i bobl Cymru, ond am fod eu cenedlaetholdeb yn anghyfleus i'w rheolwyr newyddion. Ac felly, wedi ei diosg o arwydd olaf ei chenedlaetholdeb, aeth Cymru i'r peth ddarlunnir mor gywir fel glyn cysgod angau y ddeunawfed ganrif.

"Rai blynyddoedd yn ol yr oeddwn yn digwydd treulio amryw ddyddiau yn Cintra, ym Mhortugal, a rhoddwyd i mi ganiatâd i weled gardd gwladgarwr Portugeaidd enwog, diweddar Dduc Saldanha. Yr wyf yn cofio fod ynddi golofn, gydag ysgrifen rywbeth fel hyn,—'O gariad Duw, ti yw gwir ffynhonnell ein cariad at ein gwlad.' A chan fy mod wedi son am genedl yn gorwedd yng nglyn cysgod angau, meiddiaf gymeryd proffwydoliaeth o Air yr Hwn sy'n Dad nef a daear, a dweyd ei fod yn ddyffryn y gall gwynt bywiol anadlu drwyddo, wrth ei orchymyn Ef. Anadlodd gwynt felly dros Roeg. Hwyrach ei fod yn dechre codi yng Nghymru. Y mae cwrs amser yn dod a phethau sy'n ddyddorol iawn ynddynt eu hunain, ond sydd yn fwy dyddorol fyth yng ngoleu hanes. Bu amser pan oedd y Bruces yn ceisio uno'r holl Geltiaid, i amddiffyn eu gilydd. A gredasant hwy beth sydd erbyn hyn wedi digwydd,—Lloegr, wrth geisio dileu Ymreolaeth y cenhedloedd ereill, wedi taflu ymaith ei Hymreolaeth ei hun? Y mae ystormydd erchyll wedi bod pan ddeffroai cenedl Geltaidd. Ysgubodd ystorm felly dros Ffrainc gan mlynedd yn ol; ond nid yr elfen Gymreig roddodd ei herchryslonrwydd i'r dymhestl, fel y dengys rhyfel La Vandeé. A ninnau hefyd, wrth sefyll heddyw ymysg gweddillion y genedl Brydeinig, hawdd y gallwn gredu y clywn swn gwynt ac ysgwyd esgyrn; a hwyrach fod yr awel fywiol yn dod, i anadlu bywyd newydd i'w cenedlaetholdeb. Gallwn edrych i'r peth ddaw, nid mewn ofn, ond mewn gobaith. Gallwn ddweyd geiriau'r proffwyd Hebreig, pan safai mewn perlewyg ymysg gweddill ei bobl, a phan wasgai cwestiwn y dyfodol tywyll ar ei enaid, a phan atebodd,—'O Arglwydd Dduw, ti a wyddost.'"

TAITH BARDD I EISTEDDFOD Y RHYL.

GANOL dydd Llun, Medi y pumed, perswadiais fy hun y cymerwn daith i Eisteddfod y Rhyl. Mor fuan ag y gwneuthum fy meddwl i fyny, wele chwyldroad drwy yr holl dy. Yr oedd Nel, y wraig yma, yn picio o gwmpas cyn sionced a bronfraith Ebrill. Dacw ddwr yn y boular, sospon mawr ar y tân, a'r twb golchi ar y llawr; Mary Jane yn colli ei gwynt wrth nol sebon; Marged Ann yn chwys dyferyd wrth gario starts; a Wil bach wedi syrthio ar ei hyd-gyhyd yn ei ddillad newydd wrth nol lliw glas. Helynt fawr; brwsio'r siwt oedd am danaf yn Sasiwn Bangor; blacio'r bwtsias oeddwn wedi ordro i fynd i'r cinio rhent nesaf. Yr oedd Nel eisiau aros ar ei thraed wrth gâs y cloc drwy y nos er mwyn i mi fod yn siwr o godi mewn pryd; a pherswadiodd fi i fwyta swper ddwywaith rhag ofn na chawn amser i fwyta 'mrecwest drannoeth. Aethum i ngwely yn lled gynnar; ond ni chysgais yr un winc gan waith y plant yn taeru hefo'u gilydd yn y llofft nesaf beth oedd "Beirdd y Meini Gwynion." Clywais Wil bach, druan, yn cael bonclust gan ei frawd hynaf am ddweyd mai "Ffinians" oeddynt. Tadogais y cyngerdd a ddilynodd ar y "glustan' a gafodd. Wedi llwyr flino yn fy ngwely, codais pan nad oedd ond tua phedwar yn y boreu. Wedi i mi ymolchi a shafio gyda'r sebon a bwrcaswyd yn arbennig ar gyfer yr amgylchiad, prysurais i wisgo am danaf. Cefais frecwest cystal a brecwest esgob, ac wedi canu yn iach i Nel a'r plant, yr oeddwn yn y stesion awr a hanner yn rhy fuan. Ofnwn i'r wraig wybod hynny, neu buasai yn fy nol i gael brecwest wedyn. Aethum i'r swyddfa i ymofyn tocyn, a chan mai hen Gymro iawn ydwyf, dywedais wrth y clercyn lartsh a dorsythai o flaen fy wyneb,—"Tocyn ataith pedwar diwrnod i'r Rhyl." Gwaeddodd y llefnyn *No Welsh*, a chyflwynodd i mi reg ag arogl rasys ceffylau, ffwtbol, a bagatel arni. Codais fy Nymbar L, ac yr oeddwn ar fin ei dadansoddi ar ei gorpws haerllug, pryd y daeth boneddwr caredig i mewn ac y cyfryngodd, a dywedodd wrth yr hogyn main yn Saesneg beth oedd fy neges. Wrth gwrs, gallaswn wneyd hynny fy hunan, ond dywedais yn Gymraeg i wrthdystio yn erbyn penodi hogiau'r Saeson yn swyddogion mewn gorsafoedd gwledig yng Nghymru. Estynnodd y tocyn i mi gyda chymaint o surni a phe buasai wedi treulio canrif mewn warws finegr. Neidiais i'r tren, a fy Nymbar L—yn gyfa—gyda fi. Yn y cerbyd yr oedd pedwar neu bump o hogiau direidus. Wincient ar eu gilydd, pwnient benelin y naill y llall, chwarddent yn barhaus, ac edrychent arnaf bob yn ail. Dechreuais deimlo fy nghadach a fy ngholer, i weled a oeddynt yn iawn; edrychais a oedd fy het yn ddidolc,—a diolch i Nel yr oedd popeth yn ei le. Gofynnodd un o'r bechgyn am weld fy Nymbar L; rhoddais hi iddo. Gwelais ef yn rhoddi winc ar y llall, ac yn dweyd mai wedi ei phrynu i gyfro stondin fuciog a ffeiar awê yr oeddwn. Yr oeddwn braidd yn ddig wrtho hefyd, ond yr oedd yr hogiau oll yn rhai mor ddigrif, fel yr ymateliais rhag cythruddo wrthynt. Clywn un yn dweyd,—"*Queer old fellow;*" un arall,—"*Looks rather queer;*" tra y dwedai y trydydd, nes peri i mi feddwl ei fod yn fy nghyfarch,—"*Rum old chap.*" Dywedais wrtho na chymerwn ddim, fy mod yn ditotal.

Dyna fi wedi manylu digon a gormod ar hanes fy nhaith. Rhaid dod yn fwy difrifol bellach.

Sylwais fod y dref wedi ei haddurno yn rhagorol; ond, fel addurniadau y babell, yr oeddynt yn rhy an-Nghymreig o lawer. Addurniadau oedd y rhan fwyaf o honynt a fuasai yn gwneyd y tro i arddanghosfa geffylau neu redegfa cychod. Fel un o "Feirdd Braint a Defawd," ys dywedir, holais ymha le yr oedd yr Orsedd, pryd yr hysbyswyd fi yn sych gan blisman rhyddieithol fod yn rhaid talu swllt am fyned i'w gweled. Gan fy mod, er yn blentyn, yn arfer rhoddi ceiniog am weled *Punch and Judy*, nid oedd gennyf lawer o wrthwynebiad i roddi swllt i bwyllgor y Rhyl am weled Gorsedd Beirdd Ynys Pryden. Ond chwareu teg i'r Pwyllgor, cefais lawer iawn o bethau am fy swllt. O fewn ergyd carreg i'r Orsedd gysegredig yr oedd yno *Cheap Jacks*, *Merry-go-rounds*, *Shooting Galleries*, &c. Cwmni chwaethus ac anhebgorol iawn i'r Eisteddfod, onide? Dyma i chwi ieuo cydmarus! "*Have a shot*" a'r "Gwir yn erbyn y byd;" "*Try your weight*" ac englynion y beirdd; "*Sold again*" a Gweddi'r Orsedd! Wedi gresynu uwchben y dirywiad Eisteddfodol hwn, aethum ymlaen i'r Cylch Cyfrin, lle, gyda seremoni ryfeddol, y cyflwynwyd i mi docyn rhad gan Iago Tegeingl. Ysgydwais law â llu mawr o feirdd ac ol bod ar eu traed yn hwyr a chodi'n foreu arnynt, fel y finnau. Golwg hurt ac absennol oedd ar Glwydfardd, tra yr edrychai Hwfa Mon fel pe newydd ddod allan o'r coed; ac yn chwilio yn barhaus am ryw wyneb yn y cynulliad i wenu arno. Dyma un o ffyrdd Hwfa i fyned yn boblogaidd. Adroddwyd gweddi'r Orsedd gan Ddewi Ogwen. Peth od yw gweled yr

hen bregethwr diddan o Wrecsam yn Eisteddfodwr, ac yn dotio ar ffugenw. Ydyw yntau, hefyd, yn ymgeisydd am le'r Archdderwydd? Tybed fod eisiau gweddio yn yr Orsedd? Pa un ai *adrodd gweddi*, ynte *gweddio* a wneir yno? Tybiaf fod y naill a'r llall yn ddiangenrhaid. Nid yw y bobl yn credu yng Ngweddi'r Orsedd, nac yn ei pharchu fel y cyfryw. Gellir dweyd am dani fel y dywedodd Wordsworth am emyn Keats i Pan,—ei bod yn ddernyn ardderchog o baganiaeth. Mae yn bryd i ni wneyd cymwynas a'n hanrhydedd fel cenedl drwy anrhegu ebargofiant â rhyw ffwlbriyddiaeth fel hyn. Nid oes odid neb yn ei gwrando nac yn ei hadrodd gan ystyried yn ddifrifol. Lleferydd dyn fel athronfardd ac nid fel pechadur ydyw. Ond ar bechaduriaid, ac nid ar feirdd y mae Duw yn gwrando. Gŵyr pawb fod pob bardd yn bechadur, a llawer o honynt yn bechaduriaid mawrion iawn hefyd; ond efallai nas gŵyr pawb nad ydyw pob pechadur yn fardd. Gwir fod gennym ugeiniau o weddiau barddonol, megis rhai Dafydd frenin; ond y mae mwy o'r pechadur mewn un frawddeg o honynt hwy nag sydd yn yr oll o weddi'r Orsedd. Yr oedd y Salmydd yn bechadur barddonol heb fod yn fardd pechadurus. Tybiaf nad oes anghysondeb yn hyn yna. Nid yw gweddi'r Orsedd yn un farddonol. Nid oes ynddi farddoniaeth o gwbl. Gweddi hollol athronyddol ydyw, gweddi nad yw wedi ei chyfansoddi yn yr un byd ag edifeirwch. Buasai yn gwneyd y tro i'r dim i un o'r athronwyr Paganaidd, megis Socrates neu Plato. Am a wn na fuasai meddylwyr fel Carlyle, Emerson, Matthew Arnold, neu Spencer yn foddlon i adrodd gweddi'r Orsedd lawer gwaith yn y dydd. Y gwir yn eglur yw, nad oes ddigon o arogl yr efengyl ar y weddi hon, ac felly nid yw pobl yr Ysgol Sul yn malio dim ynddi. Y foment y bydd y gweddiwr cyflogedig yn benthyca difrifwch, ac yn llaesu gwefl i'w hadrodd, bydd un dosbarth o'r cynhulliad yn yr Orsedd yn dechreu gwenu, a'r dosbarth arall yn edrych yn ffieiddlym ar yr holl ynfydrwydd. Pe buasai rhywun yn esgyn y maen ac yn gweddio yn debyg i'r dull arferol o weddio yn gyhoeddus, buasai y bobl yn gwrando yn barchus ac yn ymddwyn yn foneddigaidd.

Ond dyna ddigon ar y weddi. Beth am yr anerchiadau? Wel, dacw'r beirdd yn heidio o gwmpas y Maen Llog; pob un a mymryn o bapur yn ei law. Ac y mae ambell un o honynt yn meddwl ei fod yn cael ei osgorddio drwy byrth anfarwoldeb wrth arddangos rhyw ddau neu dri o dlysau arian a enillwyd ganddo mewn cyrddau llenyddol saith a chwech. Fel arfer, anerchiadau truenus o waelion a gafwyd yn y Rhyl. Dyma un dernyn adroddwyd,—

> "Dyma'r lle, a dim o'r llaid,
> I anuno un enaid;
> O! na, na, enynna'n uwch
> Y gu gyfa gogyfuwch."

Pwy o fewn milldiroedd i'w synwyr a gymerasai ran mewn Gorsedd lle y caniateid tinceryddiaeth fel llawer o "farddoniaeth" yr Orsedd? Os cynghaneddu a dim arall sydd eisiau yng Ngorsedd, o'r goreu, af ati,—

> "Gwibiwn graig heb un grigwd,—rhoddwn her
> I ddynwared mwgwd;
> Gynnar fargen rhof hergwd;
> Ceffyl am C ffwl a mwd."

> "Dacw i'm damaid camu hyd yma,
> Duwiol yw darfod wele dy yrfa,
> Gan regu chwaneg yn rhwyg ewch yna,
> Gwelych y llwynog hwyliwch y llonna',
> Estynnwch ffos tan awch ffa—i gamu
> Dyferwn olud y frân i hela."

Mae yn hen bryd nithio ychwaneg ar gobleriaid y glec a disgyblion y bysedd allan o'r Orsedd. Yr oeddwn yn cael hwyl with edrych ar ddefosiwn Gwynedd pan yn cyflwyno ymgeiswyr am urdd i Glwydfardd. Dechreuai gyda phob ymgeisydd drwy ddweyd, —"Hybarch Archdderwydd, goddefwch i mi gyflwyno i chwi," &c. Dewi Ogwen hefyd a gyflawnai wasanaeth cyffelyb, a difrifwch dienyddwr ar ei wyneb. Dywedir wrthyf fod pob un o'r ymgeiswyr am urdd yn gorfod talu pum swllt am dani. A gaf fi ofyn i ba le y mae yr arian hynny yn myned? Pan sefydlwyd Cymdeithas y Dimdodion, nid amgen Cymdeithas yr Orsedd, yng Ngwrecsam, yn 1888, yr oeddwn yn bresennol, a chasglwyd punnoedd yno tuag ati. Beth a ddaeth o'r arian hynny? Buaswn yn hoffi gwybod a roddwyd cyfrif o honynt ryw dro?

Y Bo Lol.

(*I barhau*).

LLAS.

Mewn perthynas i nodiad Glan Teifi,—diolch iddo am dalu sylw i'r cyfeithiad,—ar y gair *llâs*, ymddengys fod angen am ryw ychydig o eglurhad. Nid y gair *llâs*=lladdwyd, fel y'i harferid yn y cynoesoedd, ac fel y mae hefyd yn Dat. ix. 18, oedd gennyf mewn golwg, ond *llâs*, crebachiad o *lladdas*, neu *lladdws*=*lladdodd*. Defnyddir y gair felly, mewn ystyr gweithredol, gan neb llai na Gwilym Hiraethog, yn ei awdl *Heddwch*,—

> "Yn y farwol dorf oerwedd
> Acw a lâs y ffyrnig gledd."

Abertawe. R. Morris Lewis.

DALEN O ENGLYNION.

YR IAITH GYMRAEG.

E gawsom Hebraeg yn Gosen,—y Roeg
Yn ei grym yn Athen;
Ond o eiriadur Eden
Caed iaith dda gwyllt Walia Wen.

Iaith gywrain goeth ei geiriau,—aml ydynt,
Melodus eu seiniau;
I'r ehud eu golud mae'n gau,
Drwy gloedig dreigliadau.

Colegau'r ysgolheigion—a'i rhoisant
Yn rhes eu hefrydion:
Boneddig bendefigion
Eu gwiwdasg yw dysgu hon.

Arddunol iaith barddoni,—oludog,
Ni lwyda ei thlysni:
Iaith gwyddor, rhaith, a gweddi,
Iaith y nef yw ein hiaith ni.

Trueni os daw estroniaith—i ymlid
O'n temlau ein mamiaith;
Ni roed yng nghôl unrhyw iaith
Fri a thân y Frythoniaith.

Hudolus iaith "'r hen Dalysarn,"—fuodd
O dan fwyell rhagfarn;
Ond perlau hyd forau'r farn
Gedwir o iaith Hu Gadarn.

Iaith fwyn, odiaeth, fynheidiau,—iaith fy mam,
Iaith fy mhin a'm hodlau:
Iaith fâd fy holl serchiadau,—a thystiaf
Mai hi lefaraf i'm holaf oriau.

Llanelli. DEWI MEDI.

GORSEDD EISTEDDFOD Y RHYL.

CADWEN O DDEUDDEG O ENGLYNION.

Yn nhref Rhyl ar ymylon—gwely'r aig,
Wele'r wyl i'r beirddion;
Ca'r Eisteddfod hyglod hon
Hedd-lannerch ddi-elynion.

Ddi-elynion hedd-lannerch—iach, heulog
I'n huchelwyl ardderch:
Ymfwynhau wna doniau derch,
Mwynion,—wrth gyd-ymannerch.

Cyd-ymannerch, ymserchu—yn nefion
Hynafol gwlad Cymru;
Heb yn ein mysg derfysg du,
Nac un arf yn cynhyrfu.

Cynhyrfu nid oes, ond cân arfoll—roir
I'r Wyl; heb "dwyll pengoll:"
Cydeiliwn groesaw, bawb oll,
Mewn cân-erddygan ddigoll.

Ddigoll groesaw meib awen,—llon arawd
Ein llenorion trylen;
Tyrfa ddaw o Walia wen
O'n cenedl heb swn cynnen.

Cynnen nid oes, ond canu,—hudolus
Yn hen delyn Cymru;
Heb noeth arf neb, na thyrfu
Ceir hedd yn ein Gorsedd gu.

Gu Orsedd ar gywirsarn - Gwirionedd,
Yn ddi-gryn a chadarn;
A'i llaw byth ar wyntyll Barn,
Di-rin-us dry yn wasarn.

Yn wasarn gwehilion esyd,—gweinion
Ganwyr di-gelfyddyd;
Ond dyry heb un diowryd
Ei nawdd i awen o hyd.

Awen o hyd ga yn hon—anrhydedd
Ymgeledd twymgalon,
I haeddog wŷr rhydd goron,—
Ddoniau llad ei hurddau'n llon.

Llon wroniaid llawn rhinwedd—hyrwyddant
Wir addysg ein Gorsedd;
Iaith Gwalia wnant goeth goledd
A'i chân byth hyd erchwyn bedd.

Hyd erchwyn bedd dyrchwn bill—i'n hen iaith
Ein llên hoff a'n hesill,
Caned awen ei phennill
Yn Gymraeg tra seinia sill.

Sill o hon sy' well ini - na stwr hen
Estroniaeth ddidlysni;
Tra eigion yn trochioni,—
Eurgain iaith CYMRAEG I NI.

Ffestiniog. BARLWYDON.

CYNNYDD Y SAESNEG.

Estron aeg yw'r Saesneg sydd—ym Mynwy
Yn myned ar gynnydd;
Ei chynan yn fuan fydd
Tros Fôn a phlwyf Trawsfynydd.

Daw'r Saesneg i Geredigion,—myn nodded
Rhwng mynyddau Arfon;
Ei geiriau sych, garw son,
Diriant i Aberdaron.

I waelod Abergele—y'i cludwyd,
Ac aelwydydd Gwynfe;
Daeth fel llif dylif i'r De,
I'r heolydd a'r Reilwe.

Ymwthio y mae weithion - i gannoedd
O geginau beirdd beirddion;
Gwawria awr y gweir hon
Yng nghalonnau englynion.

Tafod Eisteddfod ein tir—a'i seinia,
Saesoneg orseddir;
A rhyw Sais o dre y sir
Yn y dderw gadeirir.

Gwahoddir Seisnigyddiaeth—i bob llys,
I bob llan drwy'n talaeth;
Yn ei rhwysg i'r "Cwrt Bach" yr aeth,
Yna, i Seion ysywaeth.

Llanelli. DEWI MEDI.

NODWEDD Y CRISTION.*

(Dim ond *un* gydsain ym mhob englyn.)

N

Un yw hwn â Ne'n uno, - o anian
I wemi Iôn yno,
Uniawn in' ei eneinio,
Uniawn un ei enw O.

B

Os oes us a si iasau - i asio
A'i oes o ias eisiau ;
Os ei oes sy oes o hau,
Was Iesus, à i oes oesau.

DD

E ddeuodd i weddio,—addawa
Ei Dduw hedd i'w eiddo ;
E ddaw hedd ei Dduw iddo,
A hedd yw ei ddiwedd o.

L

Hylaw yw ei law i lywio, –ei hil
Hwylia o le wylo ;
Wele ail ei Lyw yw o,
A haul yw i oleuo.

D

Ei Dad yw Duw y duwiau, –a diwâd
Ei dy yw Duw diau ;
Diwyd yw o hyd i hau
Da ei dud, Duw ei dadau.

R

Yr arwr a ŵyr orau –air ei Iôr,
I'w air rhy ei oriau ;
E ry a ŵyr, er oer iau,
Ar ei Iôr a'i wir eiriau.

Parch. T. Pierce

* Rhoddwyd yr englynion cywrain hyn i mi gan Mr. Bennett, Glan yr Afon ; rhoddwyd hwynt iddo ef gan ei gyfaill Mynyddog ; a rhoddwyd hwynt i Fynyddog gan eu hawdwr. Yr wyf yn credu na welsant oleu dydd o'r blaen.

Y BARDD CORONOG.

Dan goron mae dyn gerir –yn felus
Gan filoedd cin brodir,
I galon gw ad gwel yn glir,
Yno Iolo anwylir.

Gwawl uniawn bro goleuni —yn llewyrch
Ei alluoedd gwynfri,
Hyd Wynedd rhed daioni
O sail nerth ein Hislwyn ni. Bryfdir.

NODION Y GOLYGYDD.

GWELIR mai rhifyn yr Eisteddfod a Dyffryn Clwyd yw y rhifyn hwn, a gorfod i lawer erthygl aros mis er mwyn gwneyd lle i awdl, cywydd, ac englyn. Y mae llu o erthyglau, ystraeon, traddodiadau, caneuon, a thonau yn aros lle. Rhaid gadael y llyfrau newyddion am fis hefyd.

Y mae llenor enwocaf Ffrainc a bardd enwocaf Lloegr newydd farw. Yr oedd cysylltiad agos rhwng y ddau â Chymru,—ymffrostiai Renan mai Cymro oedd, a rhoddodd Tennyson ei flynyddoedd goreu i adrodd chwedlau Cymru ac i ddarlunio ei golygfeydd. Y mae Ifan T. Davies,—un cyfarwydd â holl waith Renan ac â Llydaw,- yn ysgrifennu erthygl ar y Llydawr ; ac yr wyf yn disgwyl y rhydd T. E. Ellis neu D. R. Daniel ddarluniad o r gladdedigaeth,—yr oedd y ddau yn edrych ar yr orymdaith gyda Gaidoz, o un o ffenestri'r Sorbonne, wedi teithio ar hyd nos o Lucerne.

Dyma ddernyn o lythyr T. E. Ellis, A.S., o'r Tyrol, lle y bu gydag Acland a D. R. Daniel ym Medi,—

"Daethom i Innsbruck nos Sadwrn ar ol taith ogoneddus dros yr Arlberg. Dydd Sul buom yn addoli yn ymyl cof-golofn Andreas Hofer, ac yn ymweled a'r bryn lle'r enillodd ei frwydrau ac yr enillodd ac y cadwodd Innsbruck. Mae *bronze statue* ardderchog o Arthur,—gyda'r ddraig goch ar ei lurig,—ymysg y cwmni sy'n gwylio bedd Maximilian. Gwlad hardd yw'r Tyrol, a dyddorol ei phobl. Maent yn llawn mor gretyddol a'r Cymry, ac nid ydynt wedi dioddef oddiwrth Philistiaeth Lloegr."

Yn niwedd mis Awst bu farw un sydd wedi gadael ei ol ar lawer Cymro,—R. L. Nettleship, athraw Athroniaeth yng ngholeg Balliol. Bu farw ym mlodau ei ddyddiau, ac yng nghanol ei nerth. Galarus ac anghredadwy oedd y newydd ddaeth o Chamouni, fod R L. Nettleship wedi marw o oerfel a lludded wrth esgyn Mont Blanc.

Ychydig, fel rheol, wyddis am athrawon goreu Rhydychen y tuallan i Rydychen ei hun. Y maent yn aberthu eu clod eu hunain er mwyn gwneyd eu disgyblion yn alluoedd er daioni yn y byd. Felly y gwnaeth yr athraw ardderchog hwn ; ac ychydig fuasai'r cyhoedd yn wybod am dano oni bai am nofel grefyddol gyhoeddwyd ychydig o amser yn ol, nofel yr oedd ef a'i gyfaill T. H. Green yn arwyr ynddi.

Ond cofia ei ddisgyblion am y deffroad meddwl ddilynai ei ddarlithiau, ac am ei garedigrwydd di-derfyn ; cofia ei gyfeillion am ei ddoethineb ac am ei uniondeb di-wyrni. Anaml y syrthiodd athraw mor gampus i feild mor anamserol.

Ar y nawfed a'r hugain o Awst bu farw un o haneswyr yr Alban, yn hen wr pedair a phedwar ugain. Gwnaeth lawer i hanes Cymru hefyd.

Ganwyd William Forbes Skene yn Inverie, yn 1809 Pan yn ieuanc iawn, arhosai weithiau gyda'i ewythr, Pennaeth Glangarry, a hyn a dynnodd ei sylw at fyd y Celtiaid. Pan yn wr ieuanc, yr oedd yn un o'r cyfreithwyr mwyaf manwl a thrylwyr yn llysoedd yr Alban,—nid oedd odid neb wyddai gymaint am achau a chroniclau. Yn 1837 cyhoeddodd draethawd ar yr Ucheldirwyr, yn 1868 ymddanghosodd ei *Four Ancient Books of Wales*. Yn y llyfr hwn, er llawer camgymeriad, gwnawd llawer dros lenyddiaeth a hanes tore Pryden, ac ni wiw i'r un hanesydd fyn wybod hanes Cymru beidio darllen y llyfr hwn. Wedi hynny cyhoeddodd Skene lawer o lyfrau hanesyddol, ac yn olaf un ei *Celtic Scotland*. Yr oedd gwaith lawer iddo wedyn, ond dywedodd wrth ei gyfeillion fod raid iddo droi ei feddwl at fyd arall. Er dysgediced oedd, hoffai ystraeon plant, ac ysgrifennodd lawer iddynt. Yr oedd yn ddyngarwr aiddgar ac yn Gristion gloew.

ROBERT O RUDDLAN.

Ganwyd Ordericus Vitalis ar lan yr Hafren, yn ymyl yr Amwythig, Chwefror 15, 1075. Ordelirius, un o Orleans, oedd ei dad,—un o wŷr iarll yr Amwythig. Penderfynodd hwn ymwadu a'r byd, aeth i fynachdy yn Lloegr, ac anfonodd ei fab deg oed dros y môr i fynachdy Ouche, –lle mewn coedwig, gyda llyfrgell dda. Treuliodd Ordericus ei fywyd i adrodd hanes. Un tyner hiraethlawn oedd, ond canodd glod gwŷr creulon traws. Bu farw tua 1142. Dyma ddernyn o'i lyfrau,—llyfrau llawn o ddarluniau cyffrous.

OHERWYDD yr ergyd dderbyniodd Lloegr yn ystorm y gwrthryfel hwn,—pan oedd ei thrigolion yn clwyfo eu gilydd, a dwy blaid yn ceisio diorseddu ac amddiffyn y brenin,—arweiniodd Gruffydd, brenin Cymru, fyddin i gyffiniau Lloegr, a distrywiodd y wlad o amgylch Rhuddlan â chleddyf ac â thân, gan ddwyn ysbail a charcharorion lawer.

Pan ddaeth Robert, arglwydd Rhuddlan, adref o warchae Rochester, clywodd am yr holl erchyllderau hyn, llanwodd ei golledion ei feddwl â chwerwder, ac yn ei wylltineb bygythiodd y bygythion mwyaf ofnadwy. Yr oedd yn farchog dewr a gweithgar, yn wr tafod-rydd, yn elyn perygl, ond yn haelionus, ac yn enwog am lawer gweithred ddewr. Bu yn un o ysweiniaid Edward frenin, a chan hwn y gwnawd ef yn farchog. Yr oedd ei dad Umfrid, fab Amfrid, o hil Ddanaidd; yr oedd ei fam Adeliza'n chwaer i Hugh Grantmesnil, o deulu anrhydeddus Giroie. Yng nghanol ei oruchwylion milwrol, nid anghofiodd y rhyfelwr enwog hwn yr eglwys, oherwydd ymddygai tuag at y clerigwyr a'r mynachod gyda pharch mawr, a rhoddai elusen i'r tylawd yn ol ei foddion.

Yr oedd abaty St. Evroult yn anwyl iawn iddo, a gwaddolodd hi yn ol ei allu; oherwydd yno yr oedd ei frodyr Arnold a Roger yn fynachod, ac yno y claddesid ei dad a'i fam a'i berthynasau ereill. Heblaw cyfoeth yn Normandi, rhoddodd i'r abaty hwn ddegwm ei felinau, a degwm ei holl renti, a degwm ychwanegol ei fwtri a i seler. Rhoddodd yr un Robert i fynachod Evroult hefyd y Cwm Bychan, yn cynnwys dwy fferm ac ugain o gaethion arnynt; rhoddodd hefyd eglwysi a degymau a rhenti ereill iddynt.

Daeth Robert fab Umfrid drosodd i Loegr gyda'i dad pan yn bur ieuanc, a bu yng ngwasanaeth Edward frenin, yn ei dy ac yn ei fyddin, hyd nes y gwnawd ef yn farchog. Ac yna, wedi ymwisgo mewn arf-wisgoedd ysblenydd, a chydag arwyddion anrhydeddus o ffafr y brenin, meddyliodd am ymweled â'i berthynasau; ac wedi cael caniatâd y brenin, dychwelodd i'w wlad mewn llawenydd mawr. Wedi brwydr Senlac, tra'r oedd William frenin yn ymdrechu yn erbyn gwrthryfel ar ol gwrthryfel, daeth y marchog ieuanc yn ol, gyda'i gefnder Huw, fab Richard o Avranches, ac enillodd anrhydedd a chlod yn y brwydrau. Wedi llawer camp, aeth i wasanaeth Huw, yr hwn a wnaed yn iarll Caer, ac a wnaeth Robert yn arweinydd ei luoedd ac yn llywodraethwr ar ei holl iarllaeth.

Yr adeg honno rhyfelodd Cymry'r gororau'n ffyrnig iawn yn erbyn y brenin William a'i ganlynwyr. Am hynny, adeiladwyd caer yn Rhuddlan, wrth orchymyn y brenin, i roddi arswyd ar y Cymry; a rhoddwyd ef yng ngofal Robert, fel yr amddiffynnai ororau Lloegr rhag y barbariaid hynny. Aml frwydr fu rhyngddo a'r Cymry terfysglyd, a llawer o waed a dywalltwyd. Wedi amryw frwydrau ffyrnig, ffordd bynnag, gyrrwyd y trigolion Cymreig yn eu holau; ac estynnodd Robert ei derfynau, gan adeiladu castell cadarn ar fynydd Diganwy, yn ymyl y môr. Am bymtheng mlynedd cospodd y Cymry'n greulawn, gan gymeryd gafael yn eu tir, er eu bod yn ymfalchio yn eu hen anibyniaeth, ac er iddynt wrthod ymostwng mewn un modd i'r Normaniaid. Ymosododd arnynt, treiddiodd i'w gwlad trwy goedwigoedd a chorsydd a thros bennau mynyddoedd, a gwnaeth bob math o golledion iddynt. Lladdodd rai heb drugaredd, fel gyr o wartheg, pan ddaeth o hyd iddynt. Taflodd rai ereill i ddaeargelloedd, lle dioddefasant gaethiwed hir. Ereill a ddarostyngodd i gaethiwed creulon a chywilyddus. Nid ydyw'n deilwng fod Cristionogion yn gorthrymu eu brodyr mewn dulliau fel hyn,—rhai wedi eu hail eni mewn bedydd sanctaidd trwy ffydd yng Nghrist.

Uchelgais ac arian-garwch oedd y galluoedd nerthol a yrrodd Robert ymlaen i'r lladradau a'r llofruddiaethau ofnadwy hynny, rhai yn y diwedd a'i hyrddiodd i bwll distryw. Ar y trydydd o Orffennaf, digwyddodd Gruffydd, brenin Cymru, ddod i'r lan gyda thair llong dan y mynydd a elwir Pen y Gogarth. Ymwasgarodd y môr-ladron hyn dros y wlad, gan ddifa ymhobman fel bleiddiaid rheibus. Aeth yn drai, a gadawyd y llongau ar y tir sych; ac ysgubodd Gruffydd a'i ganlynwyr holl wŷr ac anifeiliaid y wlad i'r llongau oedd yn gorwedd fel hyn ar y traeth.

Tra'r oedd y pethau hyn felly, deffrowd Robert o'i gwsg canol dydd gan waeddiadau ei bobl, a gwelodd yr ymgyrch elynol hon i'w diriogaethau. Neidiodd ar ei draed mewn munud, yn ddiarfog fel yr oedd, ac anfonodd genhadon ar unwaith trwy yr holl fro i alw i ganlynwyr i'r gad. Cyn iddynt ddod at

e

eu gilydd, yr oedd Robert wedi ymlid ar ol y Cymry, gydag ychydig filwyr. Cyrhaeddodd ben mynydd Pen y Gogarth, yr hwn sydd uchel iawn, a gwelodd, i lawr odditano, y môr-ladron yn rhwymo eu carcharorion, ac yn eu gyrru gyda'r gwartheg i'w llongau. Ar hyn dyma Robert, yn ddewr fel llew, yn galw ar ei filwyr, ac yn gorchymyn iddynt, er lleied oedd o honynt, ymosod ar y Cymry oedd ar y traeth, cyn i'r llanw ddod i mewn. Ond hwy a ymesgusodasant, oherwydd eu bod yn ychydig, ac oherwydd fod yn anodd iawn mynd i lawr hyd wyneb serth y mynydd. Ar hynny llanwyd Robert â gofid, oherwydd gwelodd nad oedd y gelyn ond yn disgwyl y llanw i ddianc; ac yn ei awydd, rhedodd i lawr ochr y mynydd, heb wisg filwrol, ac heb neb i'w ganlyn ond un milwr, rhyw Osbern d' Orgères. Wrth ei weled yn dod i ymosod arnynt, a'i fod heb wisg ddur ac heb neb ond un milwr gydag ef, taflodd yr holl Gymry eu picellau ato gyda'u gilydd, a syrthiodd Osbern ddewr wedi ei glwyfo'n angeuol. Ond tra y gallodd Robert sefyll a chydio yn ei darian, ni feiddiai neb ddod yn agos ato ac ymosod arno â'r cleddyf. O'r diwedd syrthiodd y milwr di-arswyd ar ei liniau, wedi ei drywanu gan bicellau. Pallodd ei nerth; syrthiodd ei darian, yn drom gan bwysau'r picellau oedd ynddi, o'i law. Cyflwynodd ei enaid i'r Hollalluog ac i Fair mam Duw. Yna rhuthrodd yr holl Gymry arno; torasant ei ben yng ngwydd ei bobl, a hoeliasant ef wrth yr hwylbren fel arwydd o'u buddugoliaeth. Gwelodd llawer yr olygfa hon o ben y mynydd, gyda gofid a chynddaredd, ond nis gallent estyn cymorth i'w harglwydd. O'r diwedd daeth pobl y wlad i'r fan yn lluoedd. Ond yr oedd yn rhy hwyr. Nis gallent achub eu harglwydd, yr oedd wedi ei ladd. Ond er hynny cawsant longau, ac ymlidiasant ar ol y môr-ladron mewn gofid, wrth weled pen eu harglwydd yn cael ei gario ymaith ar hwylbren llong y gelyn. Wrth weled yr ymlid, ac wrth weled fod rhoddi pen Robert ar yr hwylbren yn cynddeiriogi ei bobl, tynnodd gŵŷr Gruffydd y pen i lawr, a thaflasant ef i'r môr. Wedi gweled hyn, rhoddodd gŵŷr Robert yr ymlid di-bwrpas i fyny. Codwyd ei gorff oddiar y traeth gyda galar mawr ac uchel oddiwrth ei ganlynwyr,—yn Normaniaid ac yn Saeson,—a chludwyd ef i Gaer, lle y claddwyd ef yn abaty'r forwyn Werburgh Santes. Newydd ei adeiladu oedd yr abaty hwnnw, gan Huw, iarll Caer, yr hwn a sefydlodd gwmni o rai'n gwasanaethu Duw ynghanol torfeydd anifeilaidd y gaer honno.

Rai blynyddoedd wedyn daeth y mynach Arnold, fab Umfrid, drosodd i Loegr; ac aeth a gweddillion ei frawd i abaty St. Evroult, yn Normandi. Derbyniwyd hwynt gyda phob dyledus barch gan yr abad Roger a chan y mynachod, a chladdwyd hwynt yng nghladdfa'r mynachod ar ochr ddeheuol yr eglwys. Gadawodd yr Arnold hwn y fyddin yn ei ieuenctid, a daeth yn fynach, gan wasanaethu ei urdd yn ffyddlon am agos i hanner can mlynedd. Teithiodd lawer at ei berthynasau, i Loegr a'r Eidal, i gael cyfoeth a meddiannau i'w abaty. Dioddefodd lawer o wawd, ond ni ddigalonnid ef gan unrhyw rwystrau. Efe gododd y bwa carreg, sydd eto'n sefyll, dros fedd ei frawd. Addurnwyd y bwa a'r bedd gyda darlun amryliwiog gan yr arlunydd Rainald, a gyfenwir Bartolomeo; a chyfansoddodd Vitalis y Sais farwnad, ar daer ddeisyfiad Arnold.



Y TABERNACL, NETHERFIELD ROAD.

Hyd yn hyn, y mae Ordericus Vitalis, "y Sais," yn dweyd ei ystori ei hun, ac yr oedd wedi cael yr hanes gan deulu Robert o Ruddlan. Yna diwedda ei bennod gyda'r farwnad gyfansoddodd am Robert. Nid yn hollol o'i fodd, y mae'n amlwg, ond ar daer ddeisyfiad, y galarodd ar ol un mor ddiffaith. Dywed am y castell cadarn gododd ar fin yr orllewinol don, uwch dyffryn prydferth Clwyd. Edrydd am ei wrhydri yn erbyn y Cymry,—fel y ffodd Llu Bleddyn ab Cynfyn o'i flaen, fel y bu Hywel a Gruffydd ab Cynan yn dihoeni yn ei ddaear-gelloedd, fel y plygodd Trahaearn ei lin. Yna dywed hanes ei farw, heb son am ddim ond ei wroldeb. Ac yn olaf peth, chwilia am rywbeth i'w ddweyd am ei grefydd.

"A thithau Mair, ti noddi'r eiddil gwan,
Rho dy eiriolaeth gadarn ar ei ran."

DR. JOHN THOMAS.

YCHYDIG dros flwyddyn yn ol galarai Cymru ar ol y tywysog bregethwr Dr. Owen Thomas. Cymysgai pob enwad a phlaid eu dagrau uwch ei fedd, a chydunai pawb, yn ddiwahaniaeth, i ddatgan rhinweddau ac edmygu cymeriad y gŵr mawr a gymerasid ymaith. Cafodd yr amlygiad cyffredinol hwn o alaeth dwys ar ol ei frawd effaith ddofn ar feddwl Dr. John Thomas, a chofiaf yn dda iddo ddweyd wrthyf un prydnawn yn fuan wedyn fod Cymru, er ei holl diffygion, yn anwyl iawn o'i chymwynaswyr goreu, ac yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth. Ychydig feddyliwny pryd hwnnw y rhoddid cyfle i Gymru, ymhen ychydig gyda blwyddyn, i ategu y dywediad yn ei achos ef ei hun, ac y gelwid arni i "wlitho ei fedd" ac i ddatgan ei gwerthfawrogiad o'i waith a'i gymeriad yntau. Ac yn sier gwnaed hyn yn gyffredinol iawn. Credaf na byddwn yn tynnu dim oddiwrth alluoedd uchel a chymeriadau disglaer a gwasanaeth gwerthfawr y lliaws gwŷr cryfion a gymerwyd o'n plith yn ystod y deng mlynedd diweddaf, pan yn dweyd fod yr amlygiad o alar, a'r teimlad o golled, yn fwy *cenedlaethol* ar ei farwolaeth ef nac yn hanes neb arall yn ystod y blynyddau hyn. Y rheswm am hyn ydoedd, nid ei fod yn fwy dyn, nac, efallai, yn gymaint a rhai o honynt, ond fod ei gymeriad yn fwy aml-ochrog, a'i wasanaeth yn fwy amrywiol. Nid pregethwr yn unig oedd Dr. John Thomas, er mai hyn ydoedd bennaf, ac mai hyn a roddodd iddo y safle a'r modd i'w ddylanwad gael ei deimlo i gyfeiriadau ereill, ond yr oedd hefyd yn ddirwestwr mawr, yn llenor coeth, yn newyddiadurwr craff, yn arweinydd ac areithydd gwrol a hyawdl mewn gwleidyddiaeth a chrefydd. Gwnai hyn gylch ei wrthwynebwyr a'i edmygwyr, ei ddylanwad a'i waith, led-led a'r genedl; ac oblegid hynny teimlid y golled o'i farw yn dra chyffredinol. Cydunai y newyddiaduron a fynnhai ei ddilorni o'r blaen, a gwleidyddwyr a drigai yn y pegynau oddiwrtho, ac hyd yn nod Eglwyswyr a chlerigwyr na ddeuai yn nes na hyd y cledd ato yn ystod ei fywyd, i blethu gyda'i gyfeillion goronbleth o flodau i'w gosod ar ei arch,—mor wahanol eu lliw mae'n wir a'r pleidiau a'u dygai, ond oll yn bersawrus. Ac mor belled ag y gwelais, ni thybiodd neb hi yn ddyledswydd arno ddarparu'r draen, dan yr esgusawd ystrydebol nad yw rhosynau yn gyflawn hebddo. Yn ystod ei fywyd bu fwy nag unwaith, yn oddefol neu yn weithredol, ar ddalennau pob newyddiadur a misolyn yng Nghymru, nid oes gwmwd na thref yn y wlad lle ni phregethodd, cyrhaeddai ei ysgrifau i bentrefi anhygyrch a thyddynod mynyddig, fel nad oedd yn gymaint syndod fod y genedl mor gyffredinol yn gwylio'i afiechyd olaf gyda phryder dwys, ac yn gostwng pen ar ddydd ei farwolaeth.

Y PARCH. J. THOMAS, D.D.

Ond yr oedd Dr. Thomas yn enwadwr mawr hefyd, a chredaf mai am ei fod yn gymaint dyn i'w enwad yr oedd yn gymaint gŵr i'w genedl. Mynych y clywir fod enwadaeth Cymru yn niweidio ei chenedlaetholdeb, a diau ei fod pan y mae yn gyfystyr a rhagfarn cul, cenfigenllyd, crebachlyd plaid neu *sect* grefyddol. Nid oes dim yn fwy diuistriol i fywyd cenedl nac i gyfran o honi geisio cau allan y posiblrwydd i wirioneddau fod heblaw y rhai a gredant hwy, a thybio nad oes gan neb fusnes i feddu cydwybod wedi ei goleuo yn fwy neu yn llai na'r eiddynt hwy. Ond pan saif y gair am argyhoeddiad dwfn o wirionedd, a ffyddlondeb tawel i gydwybod, a hynny yn gyfochrog â'r eangfrydedd a'r rhyddfrydigrwydd llwyraf tuag at rai a wahaniaetha mewn barn a theimlad, y mae enwadaeth y pryd hwnnw yn golygu yr egwyddor a'r gallu mwyaf grymus a benditfawr yn ffurfiad cymeriad unrhyw genedl. Ni bu Anibynnwr cryfach a mwy egwyddorol na Dr. Thomas erioed; credai yn ysgrythyroldeb y drefn, ei chydnawsedd ag ysbryd Cristionogaeth, a'i chysondeb hollol a deddfau a chyfansoddiad y meddwl dynol. Ond ni bu neb mewn mwy o gydymdeimlad â'r enwadau ereill, cydweithiai â hwy ymhob achos da, ac ai i drafferth barhaus i ddeall eu symudiadau, a llawenhai beunydd wrth weled eu cynnydd a'u dylanwad. Darllennai newyddiaduron pob enwad, yr oedd yn adnabod ac yn hoff o glywed eu prif bregethwyr,

a gwelai yn glir werth ac angen eu gwasanaeth i foes a chrefydd. Yr oedd ei ffyddlondeb diwyro ef ei hun i egwyddor yn peri iddo barchu yr un peth ym mhawb. Rhoddai hyn drwydded iddo i ymddiriedaeth pob enwad ac yn y diwedd i ymddiriedaeth y genedl. Enwadwyr mawr ydyw y cenedlaetholwyr goreu yn y pen draw; trwy y blaenaf y cymhwysir hwynt i fod yr olaf.

Yr oedd Dr. Thomas yn 71 mlwydd oed pan fu farw ar y 14eg o fis Gorffennaf diweddaf. Yng Nghaergybi y ganwyd ef yn 1821, mewn ty sydd eto yn aros fel yr oedd. Mae'r Ysgotiaid a'r Saeson yn hoff iawn o gadw tai genedigaeth eu henwogion, ond yr ydym ni, y Cymry, yn rhy dlawd neu yn rhy rywbeth i dalu fawr sylw i bethau o'r fath. Trueni gweled y bwthyn lle ganwyd John Jones Talysarn wedi myned yn adfail. Ond mae y tai lle ganwyd Owen a John Thomas yn gyfannedd hyd hyn, beth bynnag, y naill yn heol Edmund, a'r llall yn heol Thomas yn ninas Cybi. Ond nid ynglyn a Chaergybi yr oedd adgofion mebyd Dr. Thomas, canys, pan oedd efe yn blentyn chwe mlwydd oed, symudodd ei rieni i fyw i Fangor, ac un o fechgyn Bangor yr ystyriai ef ei hun bob amser. Yr oedd yn un o wyth o blant, o'r rhai nid oes ond tri yn aros,—Mr. William Thomas, yr areithiwr dirwest adnabyddus; y Parch. Josiah Thomas, M.A., ysgrifennydd cenadaeth y Methodistiaid Calfinaidd; a'r chwaer ieuengaf, Miss Sara Thomas, y rhai oll a drigianna yn Lerpwl. Magodd y rhieni distadl ym Mangor eu plant yn y seiat, ac yr oedd ol y fagwrfa arnynt. Gwyddai Owen a John Thomas eu Beibl yn rhigl, a gallodd y ddau wneyd y tro ar hyd eu hoes heb fynegair. I'r seiat a'r fam yr oedd priodoli hyn, y rhai, gyda'r Ysgol Sul a'r pwlpud, ydyw gwneuthurwyr Cymru ddiweddar. Yfodd John gynghorion ac addysg y seiat, a gwnaed Piwritan o hono. Ac er iddo gefnu ar y Methodistiaid, ni chefnodd eu haddysg a'u hargraff arno ef. Mynnodd ffurf-lywodraeth eglwysig fwy cydnaws â'i chwaeth, ond nis gallodd, ac ni ddymunodd, ymysgwyd oddiwrth yr athrawiaeth iachus y porthwyd ef arni y pryd hwnnw. Yr oedd hon yn un o *fibres* ei feddwl a'i gymeriad hyd y diwedd. Tyfodd o hyd, ond ni newidiodd; dadblygodd lawer, ond ni ddaeth yn ddim byd arall.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed cawn ef yn newid ei enwad, ac yn ymuno â'r Anibynwyr. Yr oedd newid enwad y pryd hwnnw yn golygu llawer iawn mwy nac y gwna yn awr, nid am fod y gwahaniaeth yn fwy, ond am y gosodid mwy o bwys arno. Yn wir, yr oedd newid enwad yn gyfystyr a newid byd yn feddyliol, ac weithiau yn gymdeithasol, y dyddiau hynny. Yr oedd holl gysylltiadau John Thomas yn angerddol Fethodistiaidd; llanwai ei dad y swydd o flaenor, ac yr oedd ei frawd Owen eisoes wedi dechreu pregethu ac yn cael cefnogaeth wresog pob Methodist yn y cylch. Rhaid felly fod enciliad John at y "Sentars sychion" yn golygu aberth mawr o adgofion, a theimladau, a chysylltiadau anwyl iawn. Naturiol yw ymholi, a cheisio eglurhad ar y fath drobwynt pwysig. Nid oes gennyf yr amheuaeth leiaf nad oblegid ei argyhoeddiad dwfn yr ymddygodd, a chawn mor gynnar a hyn flaenbrawf boreu o'r gwroldeb eofn dros farn ac egwyddor a ddaeth mor nodweddiadol o'r *dyn* wedi hynny. Ond nid yw hyn yn llwyr ateb y cwestiwn. Beth neu pwy ddechreuodd gynhyrfu ac aflonyddu ei feddwl ar y mater, a phwy a'i harweiniodd i gymeryd y cam pwysig? Er fod pobl yn dadblygu yn ddiwinyddion cryf yn ieuainc iawn yn awyrgylch ddadleuol y dyddiau hynny, eto nis gallwn dybio fod llanc mor ieuanc, yn cael ei amgylchynnu gan y fath ddylanwadau, yn barod i gymeryd naid fel hwn, heb fod rhywun o'r golwg yn arwain a symbylu. A diau mai y rhywun hwnnw oedd Dr. Arthur Jones, yr hwn oedd yn weinidog yr eglwys Anibynnol yn y dref. Yr oedd Dr. Jones yn un o ddynion mwyaf llygad-graff ei oes, a rhoddai ei swydd fel athraw ysgol Dr. Williams ym Mangor gyfleusderau eithriadol iddo i ddod i adnabod dynion ieuainc, a gweled beth oedd ynddynt. Ac nid oedd yn petruso myned dros glawdd ei enwad ei hun i gefnogi dynion ieuainc teilwng, a mwy nac unwaith y bu ei nawdd a'i hyfforddiant yn foddion i ddenu rhai felly i wersyll Anibyniaeth. Efallai na flinid mohono ef rhyw lawer gan gyhuddiadau cydwybod ar y mater, canys Methodist wedi troi ydoedd ef ei hun. Yr oedd wedi cael blas ar y tro ei hun, fel na phetrusai gefnogi, os nad i gymell, ereill i ddilyn ei ol. Nid yw hyn yn gwneyd i ffwrdd o gwbl a newidiad barn John Thomas ieuanc,—dyma yn sicr wir achos yr ymneillduad,—ond y mae yn egluro yn naturiol pa fodd y dygwyd y newidiad oddiamgylch. Rhoddodd geiriau y Dr. ei hun le i mi gasglu mai dyma dreigliad naturiol yr amgylchiad.

Wedi bod yn yr ysgol am dymor cawn ef yn nesaf yn ysgolfeistr ei hun. Nid yw yn wybyddus i bawb ei fod wedi bod yn llanw y swydd hon yn ardal Tabor yn Eifionnydd, ac wedi hynny ym Mhrestatyn, ger y Rhyl. Yr wyf yn cofio i mi mewn rhyw gysylltiad ddweyd wrtho ei fod "mor *exact* ag ysgolfeistr," a chyda gwên atebodd mai yn y cymeriad hwnnw y gadawodd dy ei fam gyntaf erioed. Yr oedd *method* a

chywirdeb, a gofal ysgolfeistr am y "pethau bychain" yn amlwg iawn ynddo. Erbyn hyn yr oedd wedi dechreu pregethu, a rhoddwyd cyhoeddi wedyn ar lwyfannau cyfarfodydd amddiffynnol ac mewn papurau gwrth-ddirwestol ei fod wedi adeiladu tafarn er pen pur fuan ar yr athrawuac aeth yn ddisgybl ei hun i Marton yn sir Amwythig ac yn ddiweddarach i'r Neuaddlwyd. Difir oedd ei glywed yn adrodd ei hanes yn yr ysgolion hyn, yn enwedig y teithiau pregethu a gymerai y myfyrwyr, a chyfaddefai y Dr. mai yn y ffaith fod yr eglwysi yn meddu ymddiriedaeth yn yr ysgolion, a thrwy hynny yn rhoddi derbyniad i'w myfyrwyr, yr oedd y fantais fwyaf o gael bod yn ddisgyblion ynddynt. O'r Neuaddlwydd y galwyd ef i weinidogaeth hen eglwys barchus Bwlchnewydd yn 1842, lle yr arhosodd am wyth mlynedd. O'r Bwlchnewydd symudodd i Lyn Nedd, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr am bedair blynedd. Yr oedd erbyn hyn wedi dod yn adnabyddus trwy Dde a Gogledd fel "pregethwr mawr" ac ysgrifennwr bachog. Ni bu yn hir ar ol hyn cyn dangos y medrai ymladd â'i ysgrifbin yn ddewr dros ei egwyddorion. Yma yr adeiladodd y siop, a drowyd wedi ei ymadawiad ef, ac wedi iddo ef ei gwerthu i arall, yn dafarn; a bu rhai a wyddai yn amgenach yn mwyn elw personol, yr hwn ddarnowir sydd yn fwy dieflig na chelwydd. Yn ystod y blynyddau hynydaeth i gyfathrach agos â D. Rees, Llanelli; T. Rees, Abertawe, wedyn; Evans Capel Seion; Williams, Llandilo; ac ereill o wŷr grymus Anibynia. Yroedd *training* gyda chadfridogion fel hyn yn ei gwneyd yn beryglus i fesur cledd â'u disgybl.

BWLCHNEWYDD, MAES CYNTAF EI WEINIDOGAETH.

Wedi symudiad Dr. William Rees o'r Tabernacl i Salem, Lerpwl, rhoddwyd galwad unfrydol i John Thomas ddod yn olynydd iddo yn 1854. Derbyniodd hi, a dechreuodd ar ei lafur o dan amgylchiadau heb fod y rhai mwyaf addawol. Cyn hir gwelwyd fod olynydd teilwng i Williams o'r Wern a Hiraethog wedi ei sicrhau. Gweithiodd yn egniol i dalu y ddyled, ac ymhen deuddeng mlynedd, oherwydd symudiad y boblogaeth Gymreig i rannau ereill o'r dref ifyw, ymgymerodd yr eglwys, trwy ei gymhelliad ef yn bennaf, ag adeiladu y Tabernacl presennol yn Netherfield Road trwy draul fawr. Yma yr arhosodd hyd y diwedd, yn serch a ffafr pobl ei ofal, ac anfynych y bendithiwyd

YR HEN DABARNACL, GREAT CROSSHALL STREET.

eglwys â gweinidogaeth mor rymus a llwyddiannus. Am y tymor maith o dleunaw mlynedd a'r hagain safodd yn ddewr ar y mur, "âg un llaw yn gweithio yn y gwaith" yn darparu achles grefyddol i Gymry ieuainc Lerpwl; "ac â'r llaw arall yn dal arf" yn erbyn gelynion crefydd, moes, a rhyddid. "Efe oedd ganwyll yn llosgi, ac yn goleuo," a bu nid yn unig Gymry Lerpwl ond Cymry Cymru i gyd yn gorfoleddu dros amser hir yn ei oleuni ef. Yr oedd yn amlwg ddiwedd y flwyddyn ddiweddaf fod ei iechyd yn pallu, ond nid gŵr oedd efe i roddi fyny ar chware bach. Mynnai fyned i Ferea, Mon, i ddarlithio y diwrnod olaf ond un o'r flwyddyn, ac er iddo gael ei gymeryd yn lled wael ar hanner y ddarlith, aeth yn ei flaen drannoeth i Gaergybi i gymeryd rhan yng nghyfarfod y Calan, a phregethodd am y tro olaf oddicartref yn ei dref enedigol oddiar y geiriau awgrymiadol "Ond yr ydym yn hyf, ac yn gweled yn dda yn hytrach fod oddicartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd." Pregethodd y ddau Sul dilynol gartref, ond yr oedd yn bur lesg. Yn ol ei arfer eisteddodd i lawr nos Sadwrn Ion. 16eg, i ysgrifennu "Ymylon y Ffordd" i'r *Tyst*, ond bu raid iddo eu gadael ar yr hanner, ac ni bu yn alluog wedyn i ysgrifennu na phregethu. Deuai rhyw gymaint yn well yn awr ac eilwaith, ond yr oedd yn amlwg fod ei nerth yn treio. Siriolodd yn fawr pan ddaeth ei frodyr a'i gyfeillion i fyny yn llu i ddathlu gwyl ei Jiwbili ym mis Mai, ac i gyflwyno iddo y dysteb genedlaethol o dros £1000 a gasglesid y misoedd blaenorol; ac nid anghofir yn fuan ei wedd a'i ciriau yn y cyfarfod hwnnw. Er gwaeled oedd, nid oedd dim o ol ei afiechyd ar yr hyn a ddarllennodd ei feibion drosto i'r cyfarfod. Tybiai ef ac ereill y buasai newid awyr a hin gynhesach yn ei adfywio, ac aeth i Southport am ychydig amser, ac wedi hynny i Golwyn, ond i ddim pwrpas; bu farw yn dawel yn *Uwch y Don*, ar y 14eg o Orffennaf, ac ar y dydd Mercher canlynol claddwyd ei weddillion ym mynwent Anfield, heb fod nepell oddiwrth ei frawd Owen, pryd y daeth tyrfa fawr o wŷr bucheddol o bob rhan o'r wlad i dalu eu parch a'u cymwynas olaf iddo. Yr oedd daear Anfield yn gysegredig o'r blaen, oherwydd y lliaws gwŷr enwog a huna dan ei thy weirch gwyrddlas, ond bydd yn llawer mwy felly yn awr, wedi rhoddi o honi fan beddrod i gorff lluddedig un o'r Cymry mwyaf gwladgar, mawrfrydig a gwrol,—Dr. John Thomas.

Yn ystod y tair blynedd diweddaf cefais gryn fantais i ddod i'w adnabod yn dda, ac i sylwi ar brif nodweddion ei feddwl a'i gymeriad. Nid yn yr amlwg mae llwyr adnabod dyn; mae lliaws all farw yn wrol dros egwyddorion mawr, pan fo byd yn gweled ac yn synnu, nas gallant gymaint a chadw eu tymer ar yr aelwyd o dan rai amgylchiadau. Yn ei dy y deuais i adnabod Dr. Thomas, ac i'w ddeall yn iawn; yr oeddwn wedi ei glywed yn pregethu o'r blaen, ac wedi ei weled *o bell*. Ac *o bell* ymddangosai yn ddyn llym, cryf, braidd yn sarrug, ac ofnadwy o uniawn, fel pe bae ei farn a'i gydwybod wedi rhoi ei deimladau yn y carchar nesaf i mewn, nad oedd ond gwyrth yn unig a'u dygai allan. Mae'n wir fod y wyrth yn cael ei chyflawni yn aml yn y pulpud, ond tybiem mai er ei waethaf yr oedd hynny. Gwyrth oedd hi wedi'r cwbl, debygem,—*sense*-a barn a chydwybod oedd llinell amlwg ei gymeriad. Ond buan y darbwyllwyd fi pan ddaethum yn nes ato. Ni bu tynerach gŵr erioed. Ni byddai mewn ty dieithr am chwarter awr cyn i'r plant i gyd wneyd arwr o hono, a hwynthwy o bawb ydyw y bairniaid goreu ar y pen hwn. Cydymdeimlai heb wneyd stwr. Wrth ysgwyd llaw â gŵr ieuanc oedd wedi colli y cwbl pan losgwyd y siop lle y gwasanaethai, gofalai fod sofren yn slipio iddi. Un o'r cymwynasau diweddaf a gefais wneyd drosto oedd anfon £5 i frawd ffyddlon mewn gweinidogaeth dlawd. Er fod ei ddeall yn gryf, a'i ewyllys yn anhyblyg bron, yr oedd ei galon mor syml a meddal a chalon baban.

Ond cydnabyddaf fod y teimladrwydd fel rheol o'r golwg. Yr hyn oedd barhaus yn y golwg oedd dewrder ac unplygrwydd diwyro. Yr oedd ei argyhoeddiadau yn gryfion ar bopeth. Priodolai llawer i geidwadrwydd ystyfnig yr hyn y dylid eu priodoli i'w argyhoeddiad dwfn, a safai yn wrol dros hwnnw beth bynnag fyddai. Mae yn wir fod ganddo barch i'r hen, os byddai yn dda a defnyddiol. Ni newidiai ar gyfrif yn y byd goler *stand up* a'i esgidiau *bluchers*, am yr ystyriai hwy yn well na dim gafwyd yn eu lle. Os daliai yn dyn dros ei hen gredo, gwnai hynny am na chyfarfodd â'i ragorach. Ac eto ni thorroddneb erioed fwy o dir newydd. Yr oedd ar flaen y fyddin tra bu byw, a bu farw a'i droed ochr yn ochr a'r arweinwyr ieuengaf a dewraf yng ngwleidyddiaeth, llenyddiaeth, a symudiadau cenedlaethol a chrefyddol Cymru oreu. Wedi iddo wneyd ei feddwl i fyny fod cwrs penodol yn *iawn*, glynai wrtho trwy bopeth. Yr oedd yn hollol agored i bob goleuni newydd ac ystyriaethau teg, ond mynnai fod yn deyrngarol i'w gydwybod ymhob mater, hyd yn nod pe costiai hynny yn drwm i'w deimladau a'i logell. Gyda dirwest, gwleidyddiaeth, a chrefydd, yn holl symudiadau pwysig ei enwad a'i genedl, ni welais neb yn methu gwybod pa le i'w gael

ef. Ac eto, na feddylied neb ei fod yn ddiofn ac ystyfnig. O'r braidd y gallwn gredu y stori a gyhoeddwyd am dano yn ddiweddar, ei fod ar un adeg wedi neidio oddiar ei geffyl a hanner dagu y lleidr a fynnai gymeryd ei arian oddiwrtho yn yr hen amser. Dyn digon ofnus yn naturiol ydoedd. Gwroldeb cydwybod a meddwl oedd ei wroldeb ef, ac nid gwroldeb giau ac asgwrn. Dyn *timid* oedd, a chyfaddefai hynny ei hun. Gwell fyddai ganddo fyned filldiroedd allan o'i ffordd na myned heibio Perfeddgoed bach, yng nghymydogaeth Bangor yn y nos, rhag ofn y byddai yn rhaid iddo wynebu y bwgan oedd yn arfer gwneyd ymweliadau nosawl â'r lle. Beth allasai ddigwydd pe y gorfodid ef i amddiffyn ei hun, nis gwn, ond hawa gennyf gredu iddo orchfygu trwy siarad na thrwy dagu. Ac y mae y ffaith na chlywodd neb o'r teulu ddim am y stori yn cadarnhau yr hyn a dybiaf. Gwrol foesol oedd, ac yn nhiriogaeth moes a chydwybod safai dân o holl fagnelau y gelyn.

Yr oedd yn un o'r dynion craffaf a gyfarfyddais erioed. Gwelai drwy bopeth. Yr oedd hyn yn ei lygaid. Pan yn pregethu tremient drwy y gynulleidfa, ac yr oedd eu symudiad aflonydd a'u disgleirdeb fel fflachiad mellten. Yr oeddynt yn fynegiant cywir o'i feddwl. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf byw a chraff ei feddwl, a phe gofynnid i mi ei ddosbarthu fel meddyliwr, buaswn yn dweyd mai dyna ei gryfder. Craffu a chwalu a dadrys oedd ei hoff waith. Gwelai rhwng y cysylltiadau, a chyda medrusrwydd difeth agorai y pwnc i fyny. Meddai ar feddwl *analytic* hollol, a phe buasai wedi myfyrio yn y gwyddorau diau y buasai yn feintonydd rhagorol. Yr oedd ei bregethau yn gynllun o ddosbarthiad clir a naturiol. Nid oedd yn gymaint o ddiwinydd ag oedd o esboniwr, ac yr oedd hyn i'w briodoli i'w dueddfryd naturiol. Dyma a'i gwnai yn llywydd mor fedrus mewn cyfarfod, yn ddadleuydd mor effeithiol mewn cynhadledd, yn sylwedydd mor graff yn ei lithiau newyddiadurol, yn gynghorwr mor ddiogel, ac yn areithydd a phregethwr mor argyhoeddiadol. Yr oedd wedi darllen ei Feibl a'r natur ddynol gyda *microscope*, a gwyddai am y cornelau a'r manylion oll.

Yr oedd yn byw a bod yn *ymarferol*. Diau y gallasai fod yn ddwfn a phell, ond yr oedd wedi israddoli popeth i waith. Gallasai hollti blew cystal a neb, ond ni wnai hynny os na byddai rhyw amcan i'w gyrraedd. Yr oedd yn ddyn duwiol iawn, ac yn ddyn duwiol ymarferol, ac oblegid hyn yr oedd yn ddibaid yn gweithio. Nid yw y damcaniaethau a adawodd yn llawer, nid tybio oedd ei gryfder, ond y mae y gwaith a wnaeth yn aruthrol. Ni welwyd erioed ddyn mwy *byw*. Hyd yn nod ar ei wely angau yr oedd yn fyw i lenyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefydd, popeth a arferai fyned a'i fryd pan yn iach. Unwaith y clywais ef yn son am farw, a'r pryd hynny er datgan ei ddewisiad o hono yn hytrach na dihoeni yn hir yn y gongl. Yr oedd yn ddiwid ddiddiwedd. Pregethai rhyw 250 o weithiau bob blwyddyn, darlithiai yn fynych; o'r flwyddyn 1867 golygai y *Ty. t*, ac ysgrifennai ddwy erthygl faith iddo yn wythnosol, ac hyd yn nod ar ei wely cystudd golygai y *Dysgedydd*; areithiai bron yn wythnosol ar lwyfan dirwest, gwleidyddiaeth, neu ryddid crefyddol, ac fel rheol ysgrifennai yr un pryd gofiant neu waith llenyddol arall. Yr oedd eisoes wedi dechreu ar gofiant ei frawd, ac wedi ysgrifennu cannoedd o dudalennau o'i gofiant ei hun. Ac eto ni ddywedwyd mo'r hanner. Tra yn ei iechyd, gweithiodd yn gyson yn ystod y blynyddau diweddaf ar waith llenyddol yn unig o wyth i ddeng awr y dydd. Ymhlith ei weithiau llenyddol y mae *Hanes Eglwysi Anibynnol Cymru* yn bum cyfrol, pedair o'r rhai a ysgrifennwyd ganddo ef a'r diweddar Dr. Rees, Abertawe, ynghyd, ond yr olaf a gyfansoddwyd ganddo ef ei hun; *Cofiant y tri brawd*—John Stephen, David Stephen, a Noah Stephen; *Cofiant y Parch. J. Davies, Caerdydd; Cofiant y Parch. Dr. Rees, Abertawe*, dwy gyfrol o bregethau, heblaw lliaws o erthyglau i fisolion Cymru. Yr oedd yn nofelydd rhagorol fel y prawf *Arthur Llwyd* ac *Emrys Hughes*.

Yr oedd Dr. Thomas yn ddyn mawr ymhob ystyr, ond uwchlaw popeth yr oedd yn *bregethwr* mawr. Yr wyf eisoes wedi awgrymu beth oedd rhai o nodweddion ei bregethau, sef eu hysgrythyroldeb, a'u dosbarthiad clir a naturiol. Yr oedd pob meddylddrych wedi ei weithio allan yn drefnus, a'r cyfanwaith mor eglur a thryloew a'r grisial. Ni adawodd gynulleidfa erioed mewn niwl, ac ni bu erioed yn cardota sylw pobl, ac yn erfyn arnynt, ei "ddilyn." Yr oedd bob amser yn ddyddorol, am ei fod bob amser yng nghyrraedd pawb. Yr oedd yn feistr ar iaith, a hawdd oedd gweled fod ysgrifennu parhaus i'r wasg am ddeugain mlynedd wedi ei wneyd yn llefarwr dillyn, yr hyn na cheir mo hono ond anaml ymysg y pregethwyr mwyaf dylanwadol. Yr oedd ei eglurhadau bob amser wedi eu cymeryd o fywyd cyffredin pobl neu o'r Ysgrythyr. Ac uwchlaw popeth yr oedd un gwirionedd mawr yn rhedeg trwy yr holl bregeth. Yr oedd yno bob amser asgwrn cefn o athrawiaeth gref ac iach. Ond, dyma derfyn gosodedig f'erthygl, rhaid desgrifio ei bregethu mewn erthygl arall.

Lerpwl. H. M. Hughes.

Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

Croniclydd.—Yr ydych yn camgymeryd pan ddywedwch fod y Chwilys Pabaidd wedi marw. Y mae'n fyw eto, ac yn weithgar. Ychydig amser yn ol condemniodd Sais, deiliad i'n brenhines, i alltudiaeth am ei oes. Aeth yntau o Loegr, o'i ewyllys ei hun. Y mae'n sicr na fedr neb byth adrodd hanes daeargelloedd y Chwilys yn llawn. Y mae peth o'u hanes, yn eu llyfrau eu hunain, yn yr Amgueddfa Brydeinig, ac y mae cofnodion eu gwaith yn Ynysoedd Teneriffe wedi eu cyhoeddi. Ond trwy ddamwain y daeth y rhain i'r golau. Ni fedr neb ond y Pab, fel arch Chwilyswr, eu dangos; a dinistrid hwy, mae'n ddiameu, pe tybid fod bryd llywodraeth yr Eidal ar eu cydio ryw dro.

P.—Nis gwn am un llyfr yn cynnwys y prif resymau dros i Gymro fedru Cymraeg. Y mae miloedd o honynt. Y mae'r gwir ar y pwnc wedi ei ddweyd yn eglur yn llyfr J. E. Southall,—"Wales and her Language." Pur ysgafn ydyw llawer o'r papurau Seisnig o'r hyn ddywed, ond bydd y dyfodol yn ei gyfrf yn broffwyd.

Metropolitan.—Y ddau lyfr goreu ar ddechre hanes Pryden ydyw *Celtic Britain* John Rhys ac *Origins of English History* Elton. Os mynnwch wybod manylion yr hen gref yddau, darllennwch ddau lyfr diweddaraf John Rhys,—*Celtic Heathendom* ac *Arthur*. Yn y llyfrau hyn cewch gyfeiriadau at rannau mewn llawer o lyfrau ereill. Y maent i gyd, wrth gwrs, yn yr Amgueddfa Brydeinig.

W. S., Caerdydd.—Mewn lle o'r enw Field Place, ger Horsham, Sussex, y ganwyd Percy Bysshe Shelley, Awst 4, 1792. Treuliodd lawer o'i amser yng Nghymru. Boddodd ar draeth Liverno, yn yr Eidal, ac yno y llosgwyd ei gorff. Dathlwyd ei ganmlwyddiant yn Horsham ar y pedwerydd o Awst diweddaf; traddodwyd darlith arno gan Edmund Gosse, a chanwyd rhai o'i gaueuon gan Sims Reeves.

W. H. (Llanrwst).—Nis gwn pa un ai Tudur Aled ai Gwerfyl Fychan ydyw awdwr y llinellau. Mewn rhai ysgrifyfrau y maent yng nghywydd y naill, ac mewn rhai ereill y maent yng nghywydd y llall. Adroddir hwy ar lafar gwlad yn Llanuwchllyn fel gwaith Gwerfyl Fychan, ac y maent yn ddigon tebyg i'w gwaith; on hwyrach fod mwy o ysgrifyfrau yn eu priodoli i Dudur Aled.

Ab Sais.—Nid ydych yn dyfynnu'r llinellau'n gywir. Fel hyn y maent,—

> "Yawned in mid-lists the quaking earth,
> And from the gulf, tremendous birth!
> The form of Merlin rose."

Nid Tennyson yw ei hawdwr ychwaith. Llinellau olaf y pumed pennill ar hugain o drydedd ganto "The Bridal of Triermain," o waith Syr Walter Scott, ydynt.

Unig.—Peidiwch camgymeryd. Gwell i chwi beidio uno unrhyw *Correspondence Classes* heb gael gwybod gan rywun a adwaen yr addysgwyr beth ydynt. Os ydych yn parotoi at arholiadau Llunden, gwnewch ymdrech i fynd i golcg, neu gofynnwch i ryw ddisgybl beth yw trefn eu gwaith yno. Ni chewch ddim lles oddiwrth y gymdeithas a ennwch.

R. O. L.—Y mae llawer o'r beirdd wedi newid eu henwau, neu newidiwyd hwy iddynt. Yn 1829, rhoddodd y Parch. Edward Williams, gweinidog gyda'r Bedyddwyr fu farw yn Aberystwyth, yr enw Meiriadogyn i Feiriadog; ac ail-fedyddiodd Caledfryn ef yn 1840, gan ddweyd,—

> "Meiriadog mwy yw'r awdwr."

Y mae'r beirdd yn llygad eu lle wrth gymeryd enwau Cymreig. Gwir nad oedd ar Ddafydd Nanmor a Thudur Aled eisiau ffugenwau; ond enwau Cymreig, nid enwau Seisnig, oedd enwau Cymry'r oesoedd hynny.

Buallt.—Os ydych o ddifrif wrth ofyn i mi ddweyd fy marn yn onest am yr awdl, chwi a'i cewch. Yr wyf wedi darganfod amryw gynghanddigon cywir ynddi, ond ni ddarganfyddwn ddim synwyr yn fy myw.

Cymro o Gymru.—Yr oedd y don "Bwth fy Nhad" wedi ei chysodi; ond dywed L. J. Roberts ei bod wedi ei chyhoeddi'n barod. Ysgrifennwyd y geiriau gan Silvan Evans pan oedd yn ieuanc; a gwnawd tôn arnynt gan saer o Lanilar o'r enw Charles James. Ymddanghosodd yn y *Cerddor Cymreig*, rhif 35. Yr oedd yn boblogaidd iawn ryw ddeng mlynedd a'r hugain yn ol, a hawdd oedd meddwl mai alaw ar lafar gwlad er ys cyn cof oedd.

Peithwr.—Y mae'r Gaeleg yn iaith fyw iawn yn yr Alban. Dywedir fod rhywun ym mhob sir yn ei deall. Siaredir hi gan ddeg a thriugain ym mhob cant yn y gogledd orllewin. Sutherland, Inverness, Ross a Chromarty, ac Argyll ydyw ei phrif siroedd. Y mae cylchgrawn i drin ei hanes a'i llenyddiaeth newydd ei gychwyn gan John Mackay, 17, Dundas Street, Kingston, Glasgow. Ei bris yw hanner coron yn y flwyddyn.

T. Wilson.—Y mae Mr. Wilson yn galw sylw at yr hen "Ddifyrrwch Crefyddol," ac addaw ambell ddernyn o hono, megis,—

> "Ni welwn fawr ofal fod Duw yn ein cynnal,
> Daw'r Mab ynte'n ddyfal rhag dial bob dydd
> Yn eiriol yn wastad er i daer bechaduriaid
> Gael nawdd Duw a'i gariad drwy ei gerydd."

J. B. J. (Manchester).—"A ydyw yn ddiraddiad ar ddyn fod yn heddgeidwad? Os ydyw, beth yn y swydd sydd yn peri hynny? Onid ydyw y mwya rif yn edrych i lawr arnynt gyda gradd o ddiystyrrwch?" Nid oes diraddiad yn y swydd, y mae'n swydd anrhydeddus iawn, ac yn gyfle i wneyd llawer o ddaioni. Mewn rhai mannau o Gymru, gosodid Saeson uniaith anwybodus trahaus yn heddgeidwaid; a chyfiawn ddiystyrrid hwynt gan genedl y Cymry,—cenedl fedd hynawsedd naturiol gwir foneddigeiddrwydd. Cyn belled ag y mae a fynno fi â heddgeidwaid Cymru,—ac ni chawsom drallod oddiwrth ein gilydd erioed, gwelais hwy yn deilwng o'u swydd bwysig; a gwn am rai o honynt wedi dioddef oddiwrth eu huchafiaid oherwydd cydwybod. Dylent fod yn ddoeth, yn bwyllus, ac yn hollol ddi-draha.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

XIII. GOBAITH AM NODDFA.

GWELODD Gaspar de Coligni nad oedd obaith i'r Diwygiad am fuddugoliaeth am amser maith yn Ffrainc. Trodd ei lygaid tua'r byd newydd, lle'r oedd y Spaenod a'r Portugeaid er ys can mlynedd yn ennill cyfoeth ac yn plannu eu crefydd. Tybiodd y gellid gwneyd Ffrainc newydd, Ffrainc Galfinaidd, yn yr Amerig, i'r hon yr ymfudai crefftwyr a bonеddigion Ffrainc, i fwynhau'r rhyddid cydwybod na fedrent gael yn yr hen wlad. Yn 1554 nid oedd dim ymheilach o feddwl Coligni nac ychwanegu rhyfel cartrefol at ofidiau aml ei wlad. Cydymdeimlai â'r Diwygiad; a thybiai, pe ceid gwlad noddfa y tu hwnt i'r cefnfor, yr ai pob un yno pan na oddefai ei gydwybod iddo aros yn Ffrainc yn hwy.

Yn 1554, cafodd Coligni afael ar un o farchogion Malta, Villegagnon wrth ei enw. Yr oedd hwn yn gynllun o arweinydd i ryw ymgais freuddwydiol felly. Yr oedd wedi dysgu llawer iaith, ac wedi ymwneyd rhywfaint â holl gelfyddydau ei ddydd; yr oedd yn forwr medrus a di-ofn, ac yr oedd wedi gweld llawer o frwydro ar dir a môr. Yr oedd yn llawn awydd crwydro, yr oedd ei feddwl gwibiog yn newid o hyd; ymroddai â'i holl enaid i ymgais newydd a rhyfedd, ond nid oedd ganddo amynedd i ymladd yn erbyn anhawsderau, ac i wylio tyfiant araf trefedigaeth ieuanc.

Daeth hwn at Goligni, a dywedodd y medrai sefydlu trefedigaeth, ar lannau Brazil, fyddai'n noddfa i'r erlidiedig. Hoffodd Coligni y syniad yn fawr. Aeth at y brenin, yr hwn a'i carai, a chafodd ganddo roddi dwy long fawr i Villegagnon, yr hwn addawodd ddod a thrysor di-derfyn adre. Yn haf 1555, aeth Villegagnon a'r ddwy long fawr i'r môr, ac erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd wedi cymeryd meddiant o ynys fechan ar draethell Brazil, heb fod ymhell o Rio de Janeiro. Adeiladodd gaer ar yr ynys, a galwodd hi'n Gaer Coligni. Anfonodd un o'i longau'n ol, i ofyn am ychwaneg o longau, o bregethwyr, ac o ymfudwyr. Anfonwyd ei lythyrau ymlaen i Geneva. Yng ngauaf 1556, aeth tair llong i'r môr o Honfleur, gyda thri chant o Galfiniaid o Geneva,—dau o honynt yn weinidogion,—a'r oll dan lywyddiaeth De Corguilleray, cyfaill mynwesol Coligni, wedi ffoi o Ffrainc oherwydd crefydd. Ymysg yr ymfudwyr hyn yr oedd gŵr ieuanc o ddeheudir Ffrainc o'r enw Jean de Lèry. Cawn ei weled eto, yn herio gelynion y Diwygiad oddiar furiau Sancerre. Ysgrifennodd hwn hanes mordaith dymhestlog y Calfiniaid, a'u gobaith a drowd yn siomedigaeth, yn ei noddfa dawel ar lan llyn Leman pan oedd y rhyfeloedd wedi peidio ac yntau'n hen. Dywed yr hanes mewn dull sychlyd, heb ymgeisio at arddull na hyawdledd; heb ddychmygu ac heb ryfeddu dim ei hun, dywed hanes y pethau newydd a rhyfedd welodd yn ystod ei fywyd ystormus.*

"Yn Chwefror, 1557, gwelsom dir o'r diwedd, wedi mordaith o bedwar mis. A thir oedd, nid cymylau symudol. Yr ydym yn sylwi ar wyrddlesni Brazil, ac yr ydym mewn ofn mawr wrth feddwl am y barbariaid a'r Portugeaid. Yn mis Mawrth cyrhaeddasom Ynys Coligni, a chroesawodd Villegagnon ni gyda llawenydd mawr. Ysgrifennodd y llythyr ddaethom o Geneva yng nghoflyfr ei deyrnas, fel y gallai ddilyn ei gynghorion sanctaidd yn fanwl, ebai ef. Yn union wedi i ni gyrraedd, casglwyd y bobl at eu gilydd mewn dyffryn teg yng nghanol yr ynys. Daeth Villegagnon i'n canol, a gweddiodd. Yna pregethodd ein gweinidog i'r bobl oddiar y geiriau hyn,—

'Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hynny a geisiaf, sef caffael trigo yn nhy yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml.'

Wylai Villegagnon ac ocheneidiai dan y bregeth; ond drannoeth rhoddodd wreiddiau chwerw a dwfr drwg yn fwyd a diod inni, a gwnaeth i ni gario cerrig at ei gaer, heb gofio mor wan oeddym wedi mordaith mor hir. Ar yr unfed ar hugain o Fawrth, gweinyddasom ordinhad Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf yng Nghaer Coligni, yn ol dull Geneva. Yr oedd yno un Jean Contat, yn galw ei hun yn M. Hector, wedi ei addysgu yn y Sorbonne,—ac nid oeddym yn rhyw siwr iawn o hono. Felly rhoisom gwestiynau celyd iddo, a gwnaethom iddo ymwrthod â Phabyddiaeth yng nghlyw pawb. Yna dywedodd Villegagnon nad oedd y rhai oedd heb dderbyn y Diwygiad yn deilwng o weled yr ordinhad, a gorchymynnodd iddynt fyned allan. Yna gweddiodd ar ei droed-len felfed, yr hon a gerrid y tu ol iddo bob amser gan ei was, a chyflwynodd ei gaer i Dduw mewn dwy weddi hir. Ac am beth amser bu fyw'n ol yr efengyl, gan gosbi hyd yr eithaf y rhai fywiai mewn amhurdeb gyda'r barbariaid.

* Argraffwyd ei lyfr yn La Rochelle yn 1578. Yn llyfrgell Geneva y bum yn ei ddarllen. Yn y bennod yr wyf yn rhoi crynhodeb o'r llyfr, gan geisio dynwared arddull Lèry.

"Ond cyn yr ail-gymundeb yr oedd gŵr y Sorbonne wedi darllen peth ar ei Feibl, er mwyn parotoi ei hun i fod yn esgob ar holl deyrnas Villegagnon. A chododd anhawsderau. Dechreuodd Villegagnon draethu syniadau rhyfedd,—fod eisiau rhoi dwfr yng ngwin y cymun, fod bara'r cymun yn dda i'r corff yn gystal ag i'r enaid, y dylid rhoi halen ac olew yn nwfr y bedydd, nas gallai gweinidog ail-briodi,—a mynnai ddilyn ei feddyliau gwyllt ei hun, yn lle symlrwydd yr Efengyl. Cyn hir darfyddodd ein gwin; ac yr oeddym mewn penbleth a fedrem weinyddu'r ordinhad gyda dwfr. Er mwyn dod o'r holl anhawsderau hyn, dychwelodd Chartier, un o'n gweinidogion, i Geneva i ymgynghori a Chalfin. Wedi iddo ef fyned, dechreuodd Villegagnon ein gorthrymu, yn ei wisg o sidan melyn ac ymyl o felfed du, mewn dull creulon a thrahaus. Trodd yn Babydd,—rhagrithio, hwyrach, yr oedd trwy'r holl amser,—a phenderfynodd erlid, fel yr oedd y brenin erbyn hyn yn erlid yn Ffrainc, gan ddweyd mai dysgeidiaeth y Sorbonne fyddai unig ddysgeidiaeth ei ynys ef. Wedi iddo wadu'r efengyl nid oeddym mwyach yn ddeiliaid iddo, a gwrthodasom gario ychwaneg o gerrig a phridd at ei gaer. Dywedodd ei fod yn ein cashau fwyfwy, a fod yn rhaid i ni ymadael o'r ynys. Medrasem ei yrru ef ymaith; ond ni wnaem, rhag rhoddi anfri ar yr Efengyl. Taflodd dri o honom i'r môr, ac anfonodd y gweddill i'r môr mewn llong oedd yn gollwng, gyda llythyr wedi ei guddio mewn anrheg i'r brenin i ddweyd mai hereticiaid peryglus oeddym. Aethom ninnau i'r lan ar y cyfandir yn ymyl, a buom byw ymysg y barbariaid, gan ddisgwyl am long. Wedi disgwyl dau fis, wele long yn dod. Aethom ar ei bwrdd, ac wedi dioddef anirnadwy oddiwrth newyn a pheryglon nes oeddym yn grwyn ac esgyrn, glaniasom ym Mlavet, ar draeth Llydaw, yn 1558."

Dyma hanes yr ymgais i sefydlu trefedigaeth Galfinaidd yn yr Amerig. Pe buasai wedi llwyddo, gymaint yn wahanol fuasai hanes y byd! Nid oedd Villegagnon yn ddyn doeth mae'n amlwg, ond gwelodd na fedrai ef a'r Calfiniaid gyd-fyw. Yr oedd arno ef eisiau caer, yn ol dull arglwyddi'r amser hwnnw, yr oedd arnynt hwythau eisiau cyd-raddoldeb; yr oedd ef yn credu y dylai gael llywodraethu ar gydwybodau trwy ei esgob, ni fynnent hwythau ond yr Efengyl. Yr oedd ar y bobl eisiau Swper yr Arglwydd bob un yn ei ffordd ei hun, a gwelodd Villegagnon nad oedd dim am dani ond un grefydd ac erlid y rhai wrthodai ei derbyn. Wedi colli'r Calfiniaid, ni fedrai Villegagnon lwyddo, ymosododd y barbariaid a'r Portugeaid arno, a gorfod iddo yntau droi i'r môr ac adref. Wedi cyrraedd Ffrainc, ysgrifennodd lyfr i brofi mai annawsderau di-derfyn fyddai o flaen y neb adawai Eglwys Rhufen.

Nis gallai'r Ffrancod ymrannu'n ddwy genedl felly, gyda'r cefnfor rhyngddynt. Gorfod iddynt ymladd y frwydr ar dir eu mam-wlad,—tad yn erbyn mab, a brawd yn erbyn brawd. Trodd y Calfiniad ymaith, gyda chalon drom, oddiwrth y gobaith am wlad newydd; ac ymwregysodd ar gyfer yr ymdrech ofnadwy dros ryddid ei gydwybod a'i Dduw.

BRWYDR CROGEN.

Ymladdwyd y frwydr hon yn 1164, yn agos i Gastell y Waun, ar lannau Ceiriog, rhwng byddinoedd Owen Gwynedd a Harri II. Gorchfygwyd y Saeson, a gorfu arnynt encilio am ddiogelwch i fynydd y Berwyn tua chymydogaeth Llanarmon.

Cenwch, brydyddion Cymru lân,
Glod Owen Gwynedd ddewr ar gân;
Ei lygaid llym oedd lawn o dân
Ar feusydd gwyrddion Crogen.
Fe wenai rhyddid ar y wlad
Pan ddaeth hen arwr Cymru fad,
A'i filwyr dewr yn erbyn cad,
Ar feusydd gwyrddion Crogen.

Yno'r gwrhydri mwyaf wnaed,
'Roedd Ceiriog wyllt yn goch o waed,
A meirch yn gannoedd o dan draed,
Ar feusydd gwyrddion Crogen;
'Roedd trwst y frwydr boeth yn fawr,
Pob Brython oedd fel nerthol gawr,
Yn medi'r Sacson oll i lawr,
Ar feusydd gwyrddion Crogen.

Dan wenau'r lloer gorweddai'n fud
Y milwyr dewraf yn y byd,
A gwên marwolaeth yn eu pryd,
Ar feusydd gwyrddion Crogen.
Gyflafan dost—O erchyll farn!—
Cyrff dynol hyd y llawr yn sarn;
Pob cledd a yrrwyd at y carn,
Ar feusydd gwyrddion Crogen.

Heddwch i lwch yr arwyr pur
A fuont gedyrn fel y dur,
Gan ddal eu rhych, er gwactha'r cur,
Ar feusydd gwyrddion Crogen;
A boed i'r tyweirch ar eu bedd
Barhau o hyd yn ir eu gwedd;
Ac na ddefnyddier byth mo'r cledd
Ar feusydd gwyrddion Crogen.

HENRI MYLLIN.

LLENYDDIAETH I BLANT.

AN yn crwydro trwy Gymru, nid oes dim yn fwy prudd i mi nag anwybodaeth dygn plant Cymru am bethau goreu hanes a meddwl eu gwlad eu hun. Bum yng nghartref Dafydd y Garreg Wen, ac ni wyddai geneth fach ddeallgar a'm harweiniai ddim am yr alawon swynol gysyllta traddodiad â'r telynor hwnnw. Bum wrth fedd Elis Wyn o Lasynys, a methais gael plentyn na neb arall ym mhentref Llanfair oedd wedi clywed son am Fardd Cwsg erioed, er ei fod yn huno o fewn ychydig lathennau i'w preswylfod. Bum yng Nglyndyfrdwy, cyfarfyddais yno fachgen llygadlon, ond nid oedd wedi clywed son am Owen Glyn Dŵr. Y mae'n amheus gen i a oes blentyn yn Llanfair Mualit ŵyr ddim am Lywelyn. Ac eto y mae y plant i gyd mewn ysgol,—mewn ysgol gynhelir gan drethi wedi eu talu gan rai y mae "Codiad yr Ehedydd" ac Owen Glyn Dŵr a Llywelyn yn enwau anwyl iddynt.

Gofynnais i lawer ysgol-feistr paham yr oedd y plant mor anwybodus. Yr ateb yn ddieithriad oedd,—"Ni fedrant gael llyfrau. Y mae llyfrau Cymraeg yn ddrudion, yn hyllion, ac yn anodd eu cael. Rhowch i ni lyfrau, a ni a ddysgwn hanes eu gwlad eu hunain i'r plant."

Yr wyf wedi penderfynu, hyd eithaf fy ngallu i, na chaiff plant Cymru ddioddef eisiau llyfrau'n hwy. Yr wyf am roddi pethau goreu meddwl eu gwlad yn eu cyrraedd. Ni waeth heb son am ddyfodol Cymru ac am obaith y dyfodol, tra'r plant heb wybod dim ond yr hen hanesiaeth ragfarnllyd a chamarweiniol fyddai mewn llyfrau ysgol Seisnig.

Y mae gennyf un gyfres o lyfrau i blant, i'w cymeryd yn fy mhoced gyda mi, a'u rhoddi i blant yma ac acw. Y mae dau yn nwylaw'r argraffydd yn awr,—math o Rodd Mam o hanes Cymru, a chyfrolig fechan o'r enw "Plant y Beirdd." Yn y llyfryn hwn y mae darluniadau beirdd o blant,—Gwên Llywarch Hen; Sion y Glyn, plentyn Lewis Glyn Cothi; Sami Bach, mab yr Hen Ficer; Elin Goronwy Owen; Mair Williams Pant y Celyn, Angharad Gwilym Hiraethog, a llawer plentyn arall. Llyfrynnau ceiniog yw y rhain.

Y mae gennyf gyfres arall i bobl ieuainc,—llyfrau tair ceiniog yr un, gyda'r darluniau goreu fedraf gael,—hanes arwyr Cymru, a chlasuron Cymru. Yn gyntaf daw Hanes Cymru bychan hylaw. Yna dywedir hanes arwr sy'n cynrychioli pob cyfnod, Arthur, Dewi Sant, Gruffydd ab Llywelyn, Llywelyn ein Llyw olaf, Owen Glyn Dŵr, yr Esgob Morgan,—ac i lawr i'n dyddiau ni. Ymysg y clasuron bydd y Llyfr Du a'r Llyfr Coch, Cywyddau'r Cyfnod Aur, marwnadau Tudur Aled, a phethau goreu llenyddiaeth Cymru hyd y dyddiau hyn. Y mae pedwar o'r llyfrau yn nwylaw'r argraffydd yn awr—Hanes Cymru, Hanes y Ffydd yng Nghymru (Charles Edwards), John Penri, a Dinistr Jerusalem (Eben Fardd). Bydd darluniau ym mhob un. Ac fel hyn, o lyfryn i lyfryn, yr wyf yn disgwyl dod a phethau goreu Cymru i afael ei phobl ieuainc a'i phlant.

Mewn gwaith fel hyn, a gaf fi ofyn am gymorth? Ni fedraf fforddio rhoi'r llyfrau am ddim, ac nid oes gymdeithas i'm helpu i'w lledaenu. Apeliaf at gymdeithasau llenyddol ac at garedigion plant Cymru. Dyma lyfrau ellwch wasgaru wrth y cannoedd heb fawr o dreth ar eich cyllid. Yn awr ydyw'r amser. Daliwn oleu i'n plant wrth iddyn ddringo.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD XIII.

BRYNLLYN Y BALA.

YR un diwrnod ag yr ymadawodd Cynfrig Cynin a Morfudd o Eithinfynydd, aeth Dafydd i Landdwyn at oracl Dwynwen santes.* Wedi talu ei rodd i'r drysorfa, erfyniodd ar i'r santes ei lwyddo i weled Morfudd. Pa un a oedd yn credu yng ngallu Dwynwen i ddwyn hyn o amgylch; ynte a oedd, fel dyn ar foddi, yn nyfnder ei drallod, yn gafael mewn gwelltyn, nis gellir dweyd. Aeth yn ol i'r Aberffraw, ac yn y prydnawn ffarweliodd â'i gyfaill Gwilym Llwyd, a chychwynnodd ef a Phrys ar eu ceffylau tuag Aber Menai. Yr oedd yn ddiwrnod oer yn niwedd Hydref, fel rhag-redegydd y gauaf oedd i ddilyn, chwythai yn lled gryf o'r gorllewin, ac yr oedd ewyn gwyn ar frigau y tonnau. Pan gyrhaeddasant, yr oedd yr ysgraff ar gychwyn, ac aethant rhag eu blaenau arni i groesi i'r ochr draw.

"Bu agos i ni gael anlwc y bore," meddai dyn yr ysgraff wrth Ddafydd.

"Sut felly?"

"Merch Eithinfynydd a'i gŵr oedd yn croesi ar ei ysgraff ei hun, ac yr oedd y gwynt yn dal ar y cerbyd mawr, nes y meddyliais i mai eu cario allan i'r môr a gawsent. A hynny fuasai y canlyniad hefyd, oni bai i ni roi help llaw iddynt."

"A gyrhaeddasant y lan draw yn ddiogel o'r diwedd?"

"Do, ond yr oedd yn wir ddrwg gennyf dros y ferch, er ei bod hi yn edrych yn fwy didaro na neb."

Wedi cyrraedd y lan draw, holodd Dafydd pa ffordd yr aeth y cerbyd y bore. Yr oedd pawb wedi sylwi ar y cerbyd mawr gwych, a hysbyswyd ef mai i gyfeiriad Llanbeblig yr aeth. Gwelodd Dafydd mai trwy Feddgelert yr oedd Cynfrig am fynd adre, ac er fod y ffordd braidd yn arw, yr oedd yn gynt na mynd drwy Fangor a Betws y Coed. Nid oedd ar Ddafydd eisiau eu goddiweddyd ar y ffordd, a thramwyodd ymlaen yn hamddenol, ac arhosasant y noson honno ym Metws Garmon. Clywsant fod y cerbyd wedi mynd heibio yn gynnar yn y prydnawn, ac y byddai yn debyg o aros y noson ym Meddgelert.

Yr oedd Dafydd a Phrys ar eu meirch yn fore drannoeth, a mwynhai Dafydd ei hun wrth weled golygfeydd ardderchog mynyddoedd Eryri. Oedasant am ychydig ym Meddgelert i gael bwyd, ac ymgeleddu y meirch, a dywedodd gwraig y llety mai yno yr arhosodd Cynfrig a Morfudd y noson cynt, a'u bod wedi cychwyn ymaith er's dwy awr. Wedi mynd tros Bont Aber Glaslyn, sylwodd Dafydd ar rywbeth yn myned o'u blaen yn y pellder.

"Beth, ai cerbyd ydi 'nacw, Prys?" gofynnai.

"Ie, fel 'rwyn fyw, cerbyd Cynfrig Cynin hefyd."

"Nid ydynt yn teithio ymlaen yn gyflym. Dylasent fod ymhellach na hyn mewn dwy awr o amser."

"Nid wyf yn gweled y cerbyd yn symud dim ymlaen."

"Feallai mai gadael i'r meirch gael eu hanadl y maent cyn cychwyn i fyny'r allt sydd o'u blaenau."

Fel yr oeddynt yn nesu, gwelai Dafydd fod y cerbyd yn gorwedd led ochr ar y ffordd, wedi colli un o'i olwynion ol, a safai Cynfrig a Morfudd ar y ffordd yn edrych arno mewn penbleth pa beth i'w wneyd. Pan edrychodd Morfudd i fyny i weled pwy oedd yn dyfod, ymdaenodd ton o wrid dros ei gwyneb gwelw, a gwnaeth Dafydd amnaid dirgel arni i fod yn ddistaw a pheidio ei ddatguddio, gan y gwyddai nad oedd Cynfrig Cynin yn ei adnabod.

"Beth yw'r aflwydd; olwyn wedi colli?" meddai Dafydd pan ddaeth atynt.

"Ie, drwg aflwydd. Ond gwaeth na hynny, nid oes ond dau o'r chwe' march yma yn addas i farchogaeth arnynt, y ddau yr oedd y ddau was yn marchogaeth arnynt ar y blaen. Ac o'r ddau hyn, y mae un yn rhy ieuanc ac ysbrydol gan fy ngwraig na minnau anturio ei farchogaeth. Felly nid oes gennym ond un ceffyl rhyngom, ac yr wyf wedi cynnyg iddi gael dyfod yn fy sgîl, ond ni wna hynny." "Na wna meddaf fi,"—meddai Dafydd yn ddistaw, ac meddai yn uchel,—"Yn wir, y mae wedi digwydd yn hynod o anhwylus arnoch, ond os buasech yn cymeryd benthyg fy ngheffyl i, i chwi neu i'r foneddiges, y mae i chwi roesaw. Cymeraf finnau

* Dwynwen santes ydoedd y *Venus* (Gwener) Gymreig, yr hon a reolai mewn achosion cawriaethol a phriodasol. Deuailluoedd o bob cwr o'r wlad at yr oracl i Landdwyn, a thaflent eu rhoddion i mewn i'w thrysorfa gan erfyn am ei chymorth. Casglwyd fel hyn gyfoeth mawr, gymaint fel y bu yn achos brwydr rhwng gwahanol bleidiau crefyddol yn amser Owen Glyn Dŵr.—Topo, Hist. of Wales, Britton.

un fy ngwas, a gall ef ddyfod gyda'ch gweision chwi neu gerdded ar fy ol."

Petrusodd Cynfrig fel pe yn methu gwneyd ei feddwl i fyny.

"Peidiwch ag ofni derbyn fy nghynhygiad, yr wyf fi yn myned drwy y Bala, ac ni bydd ddim o'm ffordd."

"Dylwn aros yma i weled y cerbyd yn cael ei adgyweirio; yr wyf yn meddwl mai mynd ag ef yn ol i Feddgelert fydd raid."

"Gan hynny, gadewch i'r foneddiges ddyfod gyda mi a'm gwas, ac un o'ch gweision chwi, os mynnwch, i'w chartre."

Edrychodd Cynfrig ar y cerbyd oedd wedi costio cymaint iddo, ac yna ar Forfudd, ac wedi hynny ar y boneddwr ieuanc oedd yn cynnyg eu cynorthwyo mor garedig. Na, yr oedd yn rhy olygus o lawer iddo fentro gadael i Forfudd fyned gydag ef ei hunan, gwell oedd ganddo adael y cerbyd ar ol. Felly penderfynodd dderbyn cynygiad Dafydd am y ceffylau. Neidiodd y bardd i lawr a chododd Forfudd ar ei geffyl ei hun. A moment hyfryd oedd pan wasgodd Dafydd ei llaw wrth roddi yr awenau iddi. Arweiniodd un o'r gweision geffyl Cynfrig ymlaen, a chymerodd Dafydd Fleddyn gan Brys, ac yntau y ceffyl ysbrydol, a chychwynasant ar eu taith drachefn. Gadawyd dau was Cynfrig i ofalu am y cerbyd, ac addawodd yntau ddod yno drannoeth wedi danfon Morfudd i Frynllyn. Cyrhaeddasant Frynllyn cyn iddi dywyllu, a gwahoddwyd Dafydd i aros yno y noson honno am ei garedigrwydd. Cydsyniodd y bardd yn llawen, er ar yr un pryd teimlai ei fod yn cymeryd mantais anheg ar ei elyn, ond ceisiai dawelu ei gydwybod a'r ddiareb Saesneg—"Everything is fair in love and war."

Ty hir dau uchder llofft ydoedd Brynllyn, wedi ei adeiladu ar fryn bychan, fel yr arwydda ei enw, oddeutu hanner y ffordd rhwng Llangower a Llanuwchllyn. Amgylchynnid ef gan lwyni tewion o goed, ond yr oedd y llyn i'w weled o ffenestri uchaf un talcen. Arweiniai y drws allan yn gyntaf oll i neuadd fawr, yr hon, fel y rhan fwyaf o dai boneddwyr, a gymerai y rhan fwyaf o'r ty. Agorai drysau o bob ochr iddi i ystafelloedd ereill, ac yn y pen draw yr oedd y grisiau i esgyn i'r llawr uchaf. Yr oedd Cynfrig Cynin wedi cymeryd trafferth i wneyd Brynllyn yn hardd i dderbyn ei wraig, ac nid oedd gan Forfudd le i gwyno ei bod wedi dyfod i le salach nag Eithinfynydd,—yr oedd Brynllyn lawn mor gysurus a moethus ag oedd plas Madog Lawgam ym Mon.

Cyn mynd ymaith drannoeth aeth Cynfrig a Dafydd i weled ei anifeiliaid a'i dda bydol, a daeth Dafydd yn hysbys o arferion bywyd Brynllyn yn allanol a mewnol. Ychydig a feddyliai Cynfrig y byddai ganddo gymaint i wneyd â'r gŵr ieuanc yn y dyfodol. Ymadawsant â'u gilydd yn siriol, ac aeth Dafydd a Phrys i dref y Bala. Bwriadai Dafydd aros yn y dref am ychydig ddyddiau, gan feddwl y cai gyfle i ymweled â Morfudd drachefn, nid oedd wedi gallu dweyd gair wrthi yn gyfrinachol tra y bu ym Mrynllyn. Gorchymynnodd i Brys roddi y ceffylau yn yr ystabl, ac aeth i mewn i'r gwesty. Yr oedd y gegin yn llawn o deithwyr, a'r oll yn ymddangos yn gwrando yn selog ar rywbeth oedd un pedler yn ei ddweyd, ond pan aeth Dafydd i mewn tawodd y pedler yn sydyn.

"Bore da, foneddigion!" meddai Dafydd yn siriol, "peidiwch a gadael i mi rwystro eich ymddiddan."

"Diw e ddim yn gwibod," sibrydai y pedler o Benfro wrth gyfaill iddo, ond clywodd Dafydd ef.

"Gwybod beth?" gofynnai.

"Mi ddywedaf wrthyt os deui allan gyda mi," meddai hen wr, gan godi o'r gongl dywyll lle yr oedd yn eistedd.

"Merlin; tydi yn y fan yma!" meddai Dafydd yn llawen wrth weled y Meudwy o Fon. Aeth y ddau allan gyda'u gilydd, a cherddasant yn araf o'r dre i gyfeiriad y llyn.

"Y mae gennyf newydd drwg i'w ddweyd wrthyt, sef fod dy ewythr Llywelyn ab Gwilym Fychan, o'r Ddôl Goch, wedi marw, wedi ei ladd,"* meddai y Meudwy.

"Wedi ei ladd! gan bwy?" gofynnai Dafydd gan roddi ei law ar ei gleddyf.

"Nis gwn gan bwy. Y pedler yna sydd newydd ddychwelyd o'r farchnadfa wlân yng Nghaerfyrddin† oedd yn dweyd yr hanes. Hynny oedd yn ei ddweyd pan y daethost ti i mewn, ac y tawodd."

"Awn yn ol i gael gwybod hynny a ŵyr y dyn yma," meddai Dafydd gan droi yn ol.

Nis gallai y pedler daflu goleuni ar y digwyddiad, ychwaneg nag iddo gael ei ladd yn ddirgel gan wylliaid, Saeson o Benfro.‡ Wedi clywed hyn daeth Dafydd a Merlin allan drachefn, a cherddasant am beth amser mewn distawrwydd.

"Rhaid i mi fynd i Emlyn heb oedi, i weled ai gwir yw y newydd galarus hwn," meddai Dafydd gydag ochenaid. "Ac yr wyf am ofyn i ti wneyd cymwynas i mi. Ti a wyddost fy holl hanes, ac nis gallai neb ond tydi fy nghynorthwyo yr adeg yma. Y mae Rhagluniaeth fel pe yn gofalu y byddi di wrth law pan y bydd yn gyfyng arnaf."

* Gwel Awdl Farwnad, Rhif 232. D. ab G.

† Yn ol gorchymyn Senedd Iorwerth III. yr oedd y farchnadfa wlân, plwm, a lledr yng Nghymru i'w chynnal yng Nghaerfyrddin yn unig.

‡ Hanes Cymru, G. ap Rhys. Cyf. II.

"Mi wn dy ddymuniad cyn i ti ei ddweyd. Eisiau i mi fynd i Frynllyn, onide?"

"Ie," atebai Dafydd, gan edrych ar draws y llyn i gyfeiriad cartref ei anwylyd. Dywedodd wrth y Meudwy hanes ei gyfarfyddiad â Chynfrig ar y ffordd, ac iddo eu hebrwng adref, a threulio noson ym Mrynllyn.

"Cyfarfyddais innau â hwynt yn Aber Menai, a chefais gyfle i ddweyd gair neu ddau i galonogi ychydig ar Forfudd, tra yr oedd y Bwa Bach, fel yr wyt yn ei alw, o'r golwg."

"Hyn yw y gymwynas a geisiaf gennyt; i ti fynd i Frynllyn a rhoddi ar ddeall i Forfudd fy mod wedi gorfod mynd i'r Deheubarth, a'r achos o hynny. Ac os bydd cyfleusdra i ti siarad gair â hi ei hunan, carwn iddi wybod y deuaf yn ol i ymweled â hi mor fuan ag y bydd modd."

"Paid a phetruso dim, mi wnaf dy neges yn y ffordd oreu. Ymha le y'th welaf? Yr wyf fi ar daith i Fynwy, ac os ei di i Faesaleg o Emlyn gallwn gyd-gyfarfod yno, a pha un bynnag a ddaw yno gyntaf bydded iddo aros am y llall."

"O'r goreu; bydded felly."

Ymadawodd y ddau â'u gilydd a chychwynnodd y Meudwy i Frynllyn. Wrth neshau at y ty clywai rywun yn siarad mewn llais uchel cwerylgar, a deallodd mai llais y Bwa Bach ydoedd. Aeth y Meudwy i mewn drwy y drws, a safodd yno, ond ni sylwodd neb ar ei ddyfodiad. Eisteddai Morfudd a'i chefn ato, ac yr oedd Cynfrig mewn gormod o dymer ddrwg i sylwi ar neb na dim. Edrychai Merlin arno yn syn, a meddyliodd nad oedd dim rhyfedd i Ddafydd ei urddo â'r enw Bwa Bach. Y fath gosb oedd i fenyw hawddgar brydferth orfod treulio ei holl fywyd yn ei gymdeithas!

"Yr wyt wedi fy nhwyllo o'r cychwyn. Ti a wyddit yn eithaf da mai Dafydd ab Gwilym oedd yr hwn a'n cyfarfyddodd ar y ffordd, ac a roddodd fenthyg y ceffylau," meddai Cynfrig yn nwydwllt.

"Gwyddwn," atebai Morfudd yn dawel.

"Paham, ynte, na fuasit yn dweyd wrthyf?"

"Nid oeddwn yn gweled fod angen am hynny, gan nad oedd neb wedi gofyn i mi pwy ydoedd."

"A wyt yn meiddio dweyd wrthyf nad hwn oedd dy gariad ym Mon? Wyt ti'n gwadu hyn? Onid gydag ef y diengaist o dy gartref clyd?"

Gostyngodd Morfudd ei phen mewn cadarnhad i'w ofynion, ac yr oedd ei gweled mor oer a didaro yn ei yrru yn gynddeiriog.

"Hi! hi! tro da iawn fuasai i mi adael i ti ddod adre gydag ef hebddof fi. A'r cenaw yn treulio noson dan fy nghronglwyd! Hi! hi! paid meddwl y cei di ac ynte wneyd Brynllwyn yn fan cyfarfod, a'i berchennog yn ffwl."

"Os ydych wedi darfod, caniatewch i mi fyned i'm hystafell," meddai Morfudd, gan godi oddiar y gader; ac wrth weled y Meudwy yn sefyll wrth y drws ychwanegodd, — "Dacw ddieithryn, arweiniwch ef i mewn."

Nid oedd y Bwa Bach yn adnabod Merlin, ac aeth ato gan wenu a deisyf arno ddod ymlaen at y tân, ac eistedd i lawr. Byddai Cynfrig Cynin, er ei holl grintachrwydd, yn hynod o ofalus i gadw rheolau moesgarwch a lletygarwch. Hoffai gael ei ystyried yn foneddwr hael, a'i dŷ a'i fwrdd yn rhydd i bawb. Pan welodd Morfudd mai Merlin oedd yno arhosodd yn y neuadd, ac eisteddodd gyda'r Meudwy a Chynfrig wrth y tân i glywed newyddion. Byddai pob ymwelydd pan ddeuai gyntaf i dŷ yn teimlo yn ddyledswydd arno adrodd yr hyn a welodd ac a glywodd yn ystod ei daith; a byddai aml un, er mwyn gwneyd argraff ar ei wrandawyr, yn rhoddi dernyn lled helaeth o'i ddychymyg ei hun at yr hanes gwreiddiol. Ond nid un o'r rhai hyn oedd Merlin.

"Newydd drwg sydd o'r Deheu, onide?"

"Beth ydyw?" gofynnai Cynfrig.

"Chlywsoch chwi ddim fod y bardd a'r boneddwr hynaws Llywelyn ab Gwilym Fychan o Emlyn wedi ei ladd?"

"Naddo!"

"Gwelais ei nai, Dafydd ab Gwilym, a'i was yn cychwyn ar eu taith i'r Ddôl Goch heddyw i weled ai gwir yw y stori."

Dywedodd y Meudwy hyn yn hollol ddidaro, heb edrych ar Forfudd, ond gwyddai ei bod yn sicr o wrido wrth glywed am y bardd. I dynnu ymaith sylw y Bwa Bach, gofynnodd yn sydyn, gan edrych drwy y ffenestr,—"Ai eich mech chwi yw y rhai acw sydd yn y cae yd?"

"Ie, mae'n sicr," meddai Cynfrig gan fyned allan, a melldithio Shon y gwas bach am ei esgeulusdra. Golwg byr iawn oedd gan y Bwa Bach, ac nis gallai ef weled a oedd y moch yn y cae ai peidio, ond yr oedd yn bur barod i feddwl y gwaethaf am ei wasanaethyddion.

"Efe a'm gyrrodd yma," meddai Merlin yn ddistaw a brysiog, wrth Forfudd, wedi i'r llall fynd allan, "a dywedodd y deuai yn ol mor fuan ag y gallai."

"Gwell iddo beidio dod yma, mae Cynfrig Cynin am ei ladd," atebai Morfudd, "ond yr agosaf i'r llyn yw fy ffenestr i."

DALEN YR HYNAFIAETHYDD.

II. YMDDIDDANION TALIESSIN, MERDDIN, A GWENDDYDD.

Cadwyd y dernyn hwn o'r un ysgrifyfr ag y cadwyd cywydd Rhys Nanmor (CYMRU, iii. 2) o hono. Nid ymddengys y llawysgrif yn hŷn na chanol yr ail ganrif ar bymtheg. Gwelir fod yma gyfeiriad at y Diwygiad Protestanaidd ac at Charing Cross.

Dinas Mawddwy. CHARLES ASHTON.

Merddin ai dowaid /

KADARN a throwsion a ddistrowir
Pen fo pren diodde ymhob rhandir
Rhyfel y gwarthog a heddychir
Nwy a oreskin terfin y tir
Cadwaladr a Kynan i renir
Kleddaü or deaü a ordeinir
Ni ddiorfydd hwnw hyd pan heddychir /
Kleddaü daü finiog pan i sorrir
Meidr ladd a fo anghowir /
Saeson a ddifa ymhob rhandir /
Gwaed Ffraink a ddifethant.

Gwenddydd a ofynodd, i brawd Merddin, beth a füdd oed Iessü pan ddigonir /.

Mil a chwechant a deg a deigain /n/ wir./
a llawer o ryfeddod hüd hynü a welir./
lladd a llosgi, a chosbi a fynir
y gwr a gladdwyd, a ddatkleddir
Brenin hyddychol o Sais nis gwelir
yn ol hynü Sant nis goddefir /
y Tarw tri nattür, a goronir /
a hwnw or marw, a Broffwydir

Taliessin ai traethodd

Pan fo oed Iessü, mab Rhian./ yn fil a haner ag Vnarddeg ar higain llawn./ yn y dyddiaü ar ol hynü i lladd y brawd y llall, y tad y mab./ ag r ymhylogant y brawd ar chwaer / a llawer o bechodaü eskymin eraill a fydd ar y ddaiar / ar hen wŷr a orweddant gidaü morwynion / ar offeiriaid drwg gydai morwynion twylledig./ ag yna i gollyngir gwaed ar y ddaiar / ag ir halogür Temlau saint Ar Escobion a lwybrant i ddrwg weithredoedd / ag i bydd ffyrnig chwydd gorthrwm a ffechod a Sodoma / yna i bydd treiswyr / a dynion a gasant gyfiownder, ag a garant y kam./ A bradwyr Rhüfain a amkanant, o heddiw hüd y forü gadw r kam / ag i adór iawn / er kael da./ Ag yn y dyddiaü hynü bydd dynion ysglyfaid yn vdonol / a garant i gwobrwiaü, er kadarnhaü i kelwydd / ag i dileir kyfraith a gwirionedd / yna i bydd kynwŕf, yn y ddaiar mewn llawer o leoedd, ag yn yr ynysoedd, ar Brenhinaethaü a balla ar y dynion / ag ar y ddaiar / ar ddaiar adewir yn ddiffaeth ag yno i bydd newyn mawr yn y Gristnogaeth./ ag ni all yn dillyn ddüddanü i'w gilydd / ag yna i bydd tyrnas ddüradlawn, a ffobl yn feilchion, a ffawb yn gorllwyn / yno i bydd anarlloes y krio / ar Tarw a gerddo / o / gryfder / ar moroedd a sathra, ac ni chaiff neb orfod ar ddim / tra fo r Tarw yn dwyn i fowüd./ Trügarog a fydd ef a chadarngyfion.

Merddin a ddwedodd y kyfode Kath las yn y dwyrain gida llew a draig / ag a wahardd Bleiddiau lloegr / yna i llyfodraethür y tir, rhwng y gath ar Ebol / Ac yna i kyfyd gidar anrhyde ld lloegr / yna y kyfyd gafar gida llew / yna y daw o'r dyrnas Alarch / a rhwngtho ar Afar e fydd battel estronol fawr/ yn lle a elwir *Gwiyn aür* / yna düllüan or dwyrain a gryn rhag gofal / yna i kyfyd kigfran a ffig felen / a hono a wna grynfa ar lawer / yna i bydd marw o Angaü disyfel / yn ol hynü i kyfü l y deryn y Grüffwnd ag a wna / ag iddo a lain goch, ag iddo i bydd llawer o adar / ag ef a ffü dros lawer / o / rannau Kymru / ar Grüffwnt a gymer hedfa tü a Throia / ag yna i daw gwalch ag Eryr a thraed aür / ag a ostwng ystlyssaü r Grüffwnt, ag a ddistrowia llawer oi ddewis adar / ag yna i delir / ag i dygir at y llew./ Yna i kyfüd kynwr yn y tir / ag i bydd soriant mawr yn i misg / rhwng kenedl a chenedl / rhwng y brawd ar llall / ar tad ar mab / yna i kwkyllaü mawr a ffennaü bychen / *ag a esgüdiaü anweddüs* / ar plant a fydd llwydion ar bobl yn / o / fyrion / yna i kyfyd tri thwysog o falchder / ag a ddistrowiant y tir / yna r daw r Bi / ag a ddistrowia yn o'r tri / ar ddaü eraill a edü r tir a hynü o achos y Blaidd o'r dwyrain / ef a wna lawer o ddrwg i loegr / ag i gymrü / ag ef a gais ddistrowio r fflowrdilüs / yna y Blaidd a fydd marw ar ddwr / yna i daw keiliog bychan or Nordd, a hwnw a bair difa y Saeson / Ag yna i kaiff y Brüttaniaid fod yn bena / yna i bydd pawb yn chwedleüa a hynü a gwynir hyd fynydd r Assia, yna i daw hil Ednyfed yn a fydd pena / a hwnw a elwir Harri, medd Düw gorvchaf / vn a gerdda / arall a lithra/ Ag yngwlad Hafren i gwladycha / a Manaw a lisg, a dülin a lisg. / yn modd kaetha / yn fflamawg i gwelir / yn y kerrig gwnion / a hynw iw r arwyddion pena / Ag yna i tiria mab y dyn Sabela / tair morwyn koronog a fydd yn hir Saxonia / a dwy a daria / ar llall a lithra / gwae Loegr oi dyfodiad / medd y gwr doetha./ Ar dri ffimp y barna, gwedi hynü fe lithra, ag yn fawr i ofn rhag i elynion pena / ag o hynü allan / gwae r sais or drigfa./ Ag yna fo ddaw eilwaith, ag ymdrwssia./ Ag yna i kaiff Bryttaniaid dir Saxonia / ag a fydd drecha / ag a orchelif kynwr kors fochno / yno i syrth pob Sais ir llawr yn farw / ag yno i bydd bob Kymro yn gadarn / ag yno i bydd pob kâd yn y dehaü yn wrol / yna i bydd i Bran Irien yn kael i hedfa / Ag o hynü allan Griff: a fydd pena / ag i gefn y Sais i bydd gwaetha / mynich ar feirch a welir yna / Ag wrth faen Kan Owen i bydd y gorffwysfa / Ag yn Rhüd y tyfod düon y gorchfyga / An ynghastell y felallt r ymgweiria / ag yn Onslow heath fe fydd gadarna / ag yn Siaring

kross ymgadarnhai i fyned ir Bryn gwyn i gael i esmwythra / ag yn Nant y glo i bydd mawr laddfa ar bobl Saxonia / ag ynill koron tir y beilchion balcha / ag yn hir fenidür i bydd sancteiddia / ag ef a ynill Gaersalem, medd y gwyr sancteiddia./

Merddin ai traethodd./

fo ddaw byd drüd esgidie / aml pob gwas n dwyn kledde / a mil ymhob kyssygr a ymladde / aml sidan a melfed lle nis gwedde / aml lladron ym mylche / ag ar ol hynü marfolaeth / ag oni bydd Düw da, gormodd dialedd / ag aml dorri priodasse / a llawn pob llan o arfe / a drüdaniaeth heb eissie / Ef a ddaw byd i büdd gwynfyd hefyd, ar tai n glüd./ yn llawn or vd, ar gwyr yn glüd / a ffawb i gud / a ffont or fan kyn Kalan mai / Owain gwedi hynü biaü Kymrü / Kymro hyfryd./ ag Alltüdion fal llif i afon / llithrant i gid, pan ddel Owain i fanaw, ai farch yn i law./ i gelwir ef gwr a gwyr iddaw./

Taliessin ai traethodd./

Rhwng Merddin a Gwenddydd i chwaer./

Gwenddydd./

Beth a ddaw i ninaü / o drüan genedl golledig /.

Atteb./ diamaü fo ddaw arch gwerid och kamaü ag a rüdd i chwi ych kyfiownder / ag a ddengis ir Saeson i drwgwaith./ ai hanwiredd ag yn lloegr i koffeir yddynt i ffalster ag am i twyll, i kollant i hanrydedd./

Pa bryd fydd hynw? pan gwymp y delwaü ar padreüaü./ ag yn anaml llosnyraü a gweddiaü./

Pa bryd fydd hynw? pan fo r ôd ar glaw / ar vd yn ffaeliaw / ar drüd fyd yn ol a ddaw yn ddiogel /.

Pa bryd fydd hynw? pan fo r kroesau wedi kolli i henwaü./ a haner y ffrwythau / ag yn fawr i heisiaü r tlawd mewn adfyd / llawer a ymdrechant i gael gormoddiant / rhag maint i chwant / kaent y gwaetha /

Yna i daw pregethwyr brithion digllon i diodde./

Pa bryd fydd hynw? pan fo y tlawd mewn anobaith o gaffael kowaeth./ a bydd gwell bwa a saeth na büwch i roi llaeth./

Pa bryd a fydd hynü? pan fo y prif yn Bymp rhan, a ffob man ar gychwyn yna i daw gwres i'r yri / ag y daw y tiroedd a ranwyd ir vnllaw./ in porthi / ag Aberth trwy ddyfin yn ddifai / oi berchi / a bwrw kad kenedl / y gwaeth lin waethwaeth drwy i hamerchi / yna i daw Bran yn ddiamaü ymisg Mynydd r Yri./ Ag oi nerth i chwarddwn ag i byddwn ddigri./

Merddin./

Dwy flynedd a haner di hedd i genedl bedydd / a haner y drydydd, hinon y winoedd, koel kael kylanedd./ parlament kynddeiriog brad, pan i gwelir./ Yna i bydd dechre rhwng dau lü (o) Loegr. Yna i bydd rhwng Gwy a Hafren refela fwyfwy./ Yna i bydd lleüad a llew mewn llü./ Yna i bydd llongaü balchfüchedd ynghamlan./ Yna i bidd Gwiddil yn dyfod am ben Rhyddlan./ Yna i bydd llewenach Rhianedd./ O herwydd i dwedaü amgylch ffrydiaü kas./ a dinistr ar y lan./ Yna i bydd treiswyr yngwystlon./ Yna i bydd swyddog yngharchar / yna i bydd ball ar Saeson / a chrair a lladrad./ ag ymbell gariad yngwlad Brython./ Yna i bydd haf gwanawg/ a chynhaiaf baslawg, medd

Gwenddydd./

Yna i rhenir treth / ag fith ni thelir / ag nis gorfyddir./ Yna i bidd r haül yn i ddeüwres / yna i bydd yn Nyfi longaü / yna i bidd y Baedd yn oeri / a dyfin gwyr i Refela ar fris, hüd yn fro Kaer, yna i bidd rhwng Aber poriddon a Rhüd y tyfod düon./ y maes ar y Saeson ar wyr llür./ Yna kyn pen y flwyddyn i bydd kâd Kors fochno./ Yna i bydd gweddior Iessu heb ormesiad./ Yna i bydd ymbil ar hil Sexbwrda / yna i bydd gwatwar am ddarpar Owain./ Yna i bydd, pan fo deng dengwaith blwyddyn onid vn / yn flin i daith a ddaw / ag a wneiff tri chyfodiad / ag enkiliad ddwywaith / ag yn y trydydd i bydd. büd brith wrth fodd fynghalon heb y Merddin./

Merddin a Gwenddydd.

Gwenddydd a ofynodd iw brawd./ pamser i daw gorchafieth i hil y Bryttaniaid? pan fo pobl a gwaith Reiol / or byd yn ddigonol / yna megir gwenwyn, ag i tyf kynfigen rhwng meibion Arglwyddü / ag a ennynir y ffagl er hür i Harri / a hono a wenwyna lle i bo amla trefi./ pa amser a fydd hynv? pan fo Kymro yn ochain a dirfawr dolür / a dadle beünydd / yna i kyfüd llew kryf o gred A ffydd / ag Owain oi flaen yn aflonydd./ Pan fo mel yn i geneüaü / ar llefrith yn i gwefüssaü / ar Bistl yn i kalonaü / ag oedran Crist mil pymkant ag wyth a deügain / yna i bydd twyll yn agos./ Pan fo y Gath yn y dwyrain / a llosgwrn Sarff iddi / a hono a gosba holl fleiddiaü lloegr / dynar amser y lladd y mab i fam / i / hün./ a hwnw a elwir Twysog darogan / ar koronog faban / ar amser hwnw y kaiff y Bryttaniaid y gorüchafiaeth / pan fo r llwynog yn pregethü / a chynafon krüf yn kyfarth / ag esdron genedl yn orüchaf arnomi / yna i daw i law at y ganllaw deilyngaf / ag i kodir graddaü kanawon Troiaf / Ag y daw Owain Gwlain goleüaf / i ddial ar sais i drais, ai hir drigfa, a chymru bith a feddiana r ynis gadarna./

Y Merddin ag a ddowaid ymhellach wrth Gwenddydd i chwaer./ sef

Y Bryttaniaid da fyddant / y goraü or holl giwdawd y Gristnogaeth / kanys mi a ddywedais itti am r Eryr mawr o Wynedd is Conwy / ef a biaü vfyddegoliaeth / kanys mi a ddwedais itti, r ymddiddan rhwng r Eryr mawr ai holl frenhinoedd / o enyssoedd eraill./ pan elwais yr Eryr mawr am i Broffwyd o Wynedd is Conwy y gofynodd r Eryr mawr ir proffwyd / pan ddaeth gar i fron / mae feibion r ystafell a roes attat ti./ yn scrifenedig i henwau y Mamos heb y proffwyd / pan ddel ych farglwydd frenin koronog / ti a gerddych rhwngoch./ Yr ydis yn lladd ych gwerin ynghors fochno./

Pa ham / heb y Brenin /

[Yma y terfyna'r dernyn.]

YMDAITH YN ANNWN.

IV. *(Parhad.)*

NOSON ERCHYLL.

"NID ym mhoced fy nhad y cefais ef, Wil, ond ar silff y ffenestr yn y ty y buom ynddo heno. Ni welais ef tan heno, ac ni ddarllennais ef erioed."

"Gruffydd," ebe Wil, gyda difrifwch mawr, "y mae Rhagluniaeth wedi penderfynu fod y dyn dieflig yna i gael ei grogi. Ond cofia mai gwaith perygl fydd mynd ar ei ol. Darllen y llythyr, Gruffydd, y mae cynllun yn dod i'm meddwl."

Dechreuais innau ei ddarllen, llythyr olaf fy nhad ataf, a llythyr nad oeddwn wedi ei weled erioed o'r blaen. Yr oedd y llythyr wedi ei ysgrifennu gyda'r manylder mwyaf, gyda mwy na manylder arferol fy nhad. Nid oedd yn hir.

Fy anwyl Ruffydd,

Nis gwn beth sy'n gwneyd i mi ysgrifennu atat heddyw. Yr wyf yn teimlo fel na theimlais erioed o'r blaen, a breuddwydiais neithiwr na chawn dy weled byth mwy. Nid ydyw breuddwydion ond twyllodrus, er hynny y maent yn anesmwytho'r meddwl, Gwyn fyd na fedrem gadw pob ofnau i ffwrdd o'r meddwl gwibiog, a myfyrio yn ei gyfraith Ef ddydd a nos.

Y mae'm meddwl yn anesmwyth iawn am dy ewythr er ys misoedd. Y mae gan y ddynes felldigedig yna ryw ddylanwad rhyfedd arno. Yr wyf yn ei chashau er fy ngwaethaf, ac y mae rhywbeth yn dweyd wrthyf y daw drwg i'n cyfarfod oddiwrthi. Y mae rhyw ddyn dieithr wedi dod ati hi a dy ewythr er echdoe. Tybiais pan welais ef mai'r diafol ei hun oedd, mewn dillad gŵr bonheddig. Gwyddost fod gennyf hawl ar holl eiddo dy ewythr, eiddo rhannog a mi yw ei eiddo i gyd. Yr oeddwn wedi meddwl gadael fy rhan iddo yn fy ewyllys, ond yr wyf wedi dweyd wrtho er ys misoedd na chaiff ryddhad os na yr y ddynes yna i ffwrdd cyn heno. Nid oes un tebygolrwydd y gwna, ac am hynny yr wyf am wasgu fy holl hawliau ano yfory. Yr wyf wedi gwneyd fy ewyllys, dyma fi yn ei hanfon i ti i'w gweled cyn ei harwydd-nodi, a gweli dy fod yn cymeryd fy lle ym mhob peth.

Yr wyf yn disgwyl, erbyn nos yfory, y bydd fy holl anesmwythder ar ben. Breuddwydiais weled dy fam neithiwr yn dod i'm cyfarfod ar lwybr y rhos. Y mae fy hiraeth am danat yn cryfhau wrth ysgrifennu. Tyrd adref yfory, byddaf a'r cerbyd yn dy gyfarfod yn y pentref tuag wyth. Hyd hynny, derbyn gofion serchog

Dy Dad.

"Fel y gwyddost, Wil," meddwn, "ni ddaeth fy nhad i'm cyfarfod y noson honno. Tydi ŵyr pa fodd y cyfarfyddodd ei ddiwedd. Nid yw'r golud yn ddim, ni waeth gen i pe bawn heb hwnnw byth. Ond ni fedraf fi ddim byw'n hwy heb wybod yr banes. Cychwynnais ar fy union wedi clywed dy fod yn Lerpwl, ac yr wyf wedi penderfynu nad af yn ol heb wybod y cwbl."

Yr oedd Wil yn welw ac yn crynnu, ond toc ymdawelodd. "Gruffydd," meddai, "cei wybod y cwbl. Wedi rhoddi'r llythyr yn ei boced yn ol, aeth dy dad i fyny i gyfeiriad y mynydd, hyd ochr y ceunant. Ymhen rhyw hanner awr wedi iddo fynd, dyma'r dyn a welsom heno'n dod heibio ein ty ni, ac yn gofyn y ffordd i dŷ dy dad. Mi ddwedes inne ei fod newydd fynd i fyny i'r mynydd, a fod dy ewythr wedi mynd yno o'i flaen. Gofynnodd i mi a ddown gydag ef i chwilio am dano, a dywedes inne y down. Pan oeddym ymron wrth lidiart y mynydd, pwy oedd yn ein cyfarfod ond dy ewythr, yn crynnu fel y ddeilen. Ac medde fi wrtho,—

"'Dyma ryw wr bonheddig ag eisio gweld Mr. Llwyd.'

"'A mae fy mrawd newydd gael ffit,' ebe yntau. 'Dacw fo'n gorwedd ar ochr y mynydd, ac yr oeddwn yn rhedeg i lawr i'r Ffridd i 'nol tropyn o frandi iddo. Y mae wedi cerdded gormod, ac yntau heb fod yn iach.'

"'Mor lweus!' ebe'r dyn dieithr, 'yr ydw i'n ddoctor.'

"'Diolch am hynny,' ebe d'ewythr, a chychwynnodd y ddau i fyny at dy dad. Yn sydyn trodd y doctor yn ei ol, ac ebe fo wrtha i,—'Fachgen, rhed di i ymofyn y brandi, a dywed wrth Mrs. Ffeins y dof *fi*'n ol.' Rhedais inne i'r Ffridd, a dywedais yr hanes wrth Mrs. Ffeins.

"'*Rwyt* ti'n fachgen ifanc neis,' medde hi wrtha hi, 'dyma i ti lymed o ddiod tra bo fi'n gwneyd y brandi'n barod.'

"Mi yfes inne ryw ddiod felus, a'r peth nesa ydw i'n gofio ydi deffro a chur mawr yn fy mhen. Yr oedd yn nos, a'r peth cyntaf glywn oedd rhywun yn dod i mewn. 'Dyna ddiwedd ar y ddau gyth—l,' ebe llais dwfn y doctor cyn fy ngweled; ond pan welodd fi, taflodd swllt i mi, a pherodd i mi fynd i'm crogi. Mi welaf fi i grogi o. Yr oedd rhywbeth yn dweyd wrthyf fod dıwg yn bod, a bore drannoeth dyma'r newydd fod dy dad wedi boddi, a fod dy ewythr ar goll. Dechreuais inne ofni. 'Pwy coelith fi?' meddwn wrthaf fy hun. Ac fel yr oeddwn i wiriona, mi ddenges i'r môr y nosweth honno. 'Roedd arna i ofn gweld gwyneb melldigedig y dyn hwnnw wedyn, ac ofn iddo fo ddeyd mai fi foddodd dy dad. Ond, aros funud, gad i mi ddeyd harcs Mrs. Ffeins, y ddynes wrtha ti."

Yr oedd yn galed iawn arnaf wrth wrando ar stori Wil, a gwrandawn am fy mywyd ar bob gair. Ehedai fy meddwl i'r mynydd unig hwnnw, lle'r oedd fy nhad wedi ei adael gyda'r ddau ddyn a'r ddynes, a chyda liythyr yn ei boced yn gofyn i mi ddod adre ato. Methwn gadw'm pen rhag dechreu nofio, ac yr oedd wylo ac ocheneidio bron a'm trechu. Yr oedd Wil wedi cymeryd ei anadl i ddweyd hanes yr hon lofruddiodd fy nhad ac a chwerwodd ei fywyd.

"Ac yrwan," meddai, "dyma fi n deyd yr hyn a wn am dani *hi*."

Gydag iddo ddweyd hyn, dyma ddrws ar fy nghyfer yn agor, ac wele'n dod o hono y ddynes welswn y nos o'r blaen,—a gwaed fy nhad ar ei dwylaw. Ni fedrai fy meddwl blinedig ddal ychwaneg, a chlywn fy hun yn suddo'n esmwyth i ddyfroedd mawr.

V.

ANNWN ETO.

Y peth nesaf wyf yn gofio ydyw gweled yr haul yn codi'n ogoneddus ar fore o haf dros Foel y Graig. Yr oeddwn yn fy ngwely gartref, a gwelwn drwy'm ffenestr ehedydd bach yn ymhoewi yng ngoleuni tanbaid yr haul, ac yn codi o uchder i uchder fel pe buasai rhywbeth yn ei dynnu i fyny er ei waethaf. Yna, mewn eiliad, daeth yr holl noson erchyll honno i'm cof. Gwaeddais mewn cyffro,—"Lle mae Wil?" Daeth genethig fach at erchwyn fy ngwely a dywedodd,—"Mae Wiliam Edward yn rhy sal i'ch gweld. A 'does neb i'ch gweld ond y fi nes daw'r doctor. A rhaid i chwi beidio holi dim. Os leiciwch chwi, mae'r doctor yn foddlon i mi ddarllen rhywbeth i chwi."

"Wel, darllennwch rywbeth."

"Mae rhyw hen wr wedi anfon llyfr i chwi, wedi ei ysgrifennu â'i law ei hun. Hanes rhyfedd iawn ydyw, ei hanes yn mynd i rywle eilw ef yn Annwn. Yr wyf fi wedi darllen ychydig o ddalennau, ac wedi dod at le y mae dyn heb yr un pen yn gofyn iddo a welodd waed ar ymyl cwch ar draeth Deganwy. Gaf fi ddarllen hwnnw?"

"Cewch," meddwn; yr oedd ei llais yn fwyn neilltuol, a dechreuodd ddarllen fel hyn,—

"Er cymaint fy nychryn wrth weled y cwestiynwr rhyfedd hwn, dywedais yn dawel na welid gwaed ar draethell Dinbych na Fflint. 'Gwlad y menyg gwynion ydyw Cymru,' meddwn, 'nid oes yno drais a gwaed.' Ac ychwanegais mai o Loegr y daethwn i Annwn, i chwilio am un lofruddiesid yno. Taniodd y llygaid yn y pen, daliwyd ef yn fy ngwyneb tra doi hanner ysgrech dros y gwefusau,—'Menyg gwynion yng Nghymru! Gorfod i mi gael fy ngorff o Evrault a'm pen o waelod y môr. Ond y mae gwaed ar ol ar draeth Deganwy.'

"'Y Nefoedd Fawr, ai dyma yw Annwn?' meddwn, wrthyf fy hun.

"'Annwn,' meddai, 'nage. Y mae yma weddio. Tyrd gyda mi.

"Gadawsom y porth eiriasboeth, ac aethom ymlaen i'r castell. Dringasom un o'r muriau, a gwelwn fod y castell uwch glan afon mewn dyffryn clodfawr. Ond yr oedd yr afon wedi sychu, ac nid oedd glaswelltyn i w weled ar y bryniau a'r mynyddoedd i gyd. 'Gwrando,' ebe'r pen. Clywn swn llais addolgar yn dod o bell. Bob yn ychydig, wrth glustfeinio, deallwn eiriau'r gân. 'Mynach ydyw, yn gweddio drosof fi,' ebe'r pen yn ddistaw. 'Rhaid i mi aros heb ei weled nes y gorffenno ei weddi.' Yr oedd y llais yn dwyshau, wrth ddod i ddiwedd ei gân,—

"A thithau, Mair, ti noddi'r eiddil gwan,
Rho dy eiriolacth gadarn ar ei ran,—
Pan wanodd gwaew-filwyr Cymru ei fron,
A phan adawodd ef y ddaear hon,
Yn awr marwolaeth cododd hwn ei lef,
A'i anadl olaf galw arnat ti wnaeth ef.'

CYWYDDAU LLANELWY.

I. BEIBL Y DOCTOR MORGAN.

Y Beibl ar led os credwn
A'i dengys, hysbys yw hwn;
Dyn llawn a dawn llawenydd
Di ffael, Doctor hael, a'i rhydd,
Y Beibl a wnaeth ein pobl ni,—
Praff adail y proffwydi
O'i fewn sydd, rhag cerydd caeth
Fydd gennym feddyginiaeth;
A rhad Duw yr hauwyd hwn,
Am ei hau nag amheuwn;
Dan ddwylo rhodio nid rhaid
Drwy gael i'n driagl enaid,
Os yn y drych harddwych hwn
Ar y drych yr edrychwn,
Cyfraith grymuswaith Moesen,
Cyfarwyddyd y byd o'i ben,
Caf resdio cof ar osdeg
Cyfraith Duw a'i waith yn deg.
Y Beibl maith yn ein iaith ni
Yw'r haul yn rhoi 'i oleuni;
A'r Doctor, cyngor y caid,
A'i troes in, rhag trais enaid,
Bydd rhydd ar gynnydd gannoes,
A bydd rhwydd i'r neb a'i troes.

IEUAN TEW.

CYMRU.

Cyf. III. TACHWEDD 15fed, 1892. Rhif 16.

HANES CYMRU.

(Llyfr II. 450—613.)

XVI. EGLWYS Y CYMRY.

RHAID cyfaddef mai chwedl ydyw'r oll ddywedir am Gristionogaeth ym Mhryden yn y ganrif gyntaf. Adroddir chwedl arall am ddyfodiad Cristonogaeth yn yr ail ganrif. Dywed Nennius fod brenin o'r enw Lleufer Mawr wedi anfon cenhadau at Bab Rhufen, i ofyn am efengylwyr. Ond y mae'n amlwg fod Nennius yn tynnu ei ddywediad o hanes nas ysgrifennwyd tan y chweched ganrif; a chrewyd hanes Lleufer Mawr, mae'n ddiameu, er mwyn profi awdurdod eang y Pab.

Ond, tua 200, y mae Tertullian yn dweyd fod Cristionogion mewn lleoedd ym Mhryden nad oedd y Rhufeiniaid wedi eu cyrraedd. Ac o'r flwyddyn 200 y mae hanes eglwys y Cymry'n dechre. Er mwyn eglurder gellir rhannu hanes yr eglwys yn gyfnodau fel hyn,—

200—300. Cyfnod y tyfu.
300—400. Cyfnod y trefnu.
400—500. Cyfnod yr heresiau.
500—613. Cyfnod y saint.

Ni wyddom ryw lawer am gyfnod y twf, nid oes fawr o fanylion am y dull yr ymledodd yr efengyl dros ein hynys gyntaf. Aneglur a chymylog, ond prydferth iawn, er hynny, ydyw bore peli ein crefydd ni. Ni fedr yr hanesydd ysgrifennu dyddiadau na darlunio cymeriad y pregethwyr cyntaf,—y mae y rhai hyn wedi cilio i ddistawrwydd bythol. Ond medr y bardd weled eglwys Brydeinig yn graddol ymffurfio, fel teml Solomon yn codi heb swn morthwylion, neu fel cedrwydden yn cynyddu yn Libanus. Gwelai'r tadau apostolaidd Bryden yn derbyn yr efengyl, ac y mae aml un o honynt yn ymlawenhau wrth ddarlunio'r efengyl wedi cyrraedd eithafion byd, ie wedi cyrraedd Pryden. A phan erlidiodd Diocletian y Cristionogion yn 304, cafwyd rhai ym Mhryden i roddi eu bywyd i lawr dros y ffydd.

Gwyddom beth mwy am gyfnod y trefnu, oherwydd fod Cristionogion o Bryden wedi croesi'r môr i gyd-ymgynghori â'u brodyr ynghylch materion eu ffydd. Ccir eu hanes mewn cyngor ar ol cyngor, a phob amser ar ochr yr union-gred. Yr oedd tri esgob Prydeinig yng Nghyngor Arles yn 315. A phan gododd yr ymryson chwerw ynghylch natur y Drindod, cawn Brydeiniwr bron ymhob Cyngor o bwys. Yr oedd esgobion Prydeinig yn Nice yn 325, pan oedd Athanasius yn amddiffyn y ffydd yn erbyn heresiau newyddion; a chawn hwynt yn unfryd â'u brodyr ar y cyfandir, ac yn trefnu eu heglwys a'u ffydd yn yr un modd. Erbyn 400 yr oedd Pryden yn un o wledydd cred. Yr oedd eglwysi yma ac acw ynddi, yr oedd allorau Duw ymysg allorau drylliedig yr hen ddduwiau. Yr oedd son am demlau rhyfedd; dywed Ierom yn 388 fod llawer yn son am deml Duw, a gofyn iddynt gofio geiriau'r apostol,—"Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo ynnoch?" Ac yna, meddyliodd fod yr hanes wedi mynd i bob man, fod yr efengyl yn allu yng Nghaersalem, lle y dioddefodd yr Iesu, ac ym Mhryden, y lle pellaf oddiwrth Gaersalem,—"O Gaersalem ac o Bryden y mae'r wlad nefol yr un mor agored; y mae teyrnas Dduw ynnoch chwi." A thra mae Ioan Aurenau, tua 400, yn llawenhau fod Prydeiniaid fu n bwyta cnawd dynol yn awr yn meithrin eu heneidiau trwy ympryd, dywed Ierom, — "Un Crist addolir gan Bryden a Gallia, ac Affrig a Phersia, a'r Dwyrain ac India, ac un rheol y gwirionedd sydd iddynt." Yr oedd y cymundeb agosaf rhwng eglwysi Pryden ac eglwysi'r Cyfandir, ac yr oedd pererinion Prydeinig yn cyfarfod pererinion o eithafoedd Persia yng ngwlad Canan. Cyfnod dedwydd i'r eglwys oedd hwn, cyfnod llawenydd llwyddiant ac ieuenctyd, cyfnod gobaith fedrai weled gwaith mil o flynyddoedd yn cael ei wneyd mewn un dydd, cyfnod ffydd fedrai fwrw mynyddoedd i'r môr. Yr oedd Llydaw hefyd yn derbyn yr efengyl; a chyn 400 yr oedd y Gwyddelod wedi cymeryd bachgen yn garcharor yn

Ystrad Clwyd. A'r bachgen hwnnw oedd Padrig, apostol yr Iwerddon.

Yna daeth cyfnod o ofidiau i'r eglwys ieuanc. Rhwng 400 a 500 daeth heresiau i'w rhannu, a daeth y Saeson paganaidd i ymosod arni o'r tu allan. Cyn 415, yr oedd yr Eglwys Gristionogol yn gwybod am ddysgawdwr o Bryden, oedd wedi teithio trwy Rufen ac Affrig i Gaersalem, gydag efengyl newydd. Pelagius oedd ei enw; a chan mai Prydeiniwr oedd o genedl, mae rhai, gyda mwy o wladgarwch nag o wybodaeth, wedi tybied mai cyfieithiad o'r enw Morgan yw'r enw Pelagius.* Dysgai Pelagius ryddid yr ewyllys, a chondemniwyd ef yn ddi-arbed gan Ierom o'i gell ym Methlehem a chan Awstin, y mynach sydd wedi goruwchlywodraethu cyhyd ar feddwl dyn. Y mae dwy ochr i'r gwirionedd,—anibyniaeth ac ufudd-dod, rhyddid ewyllys ac etholedigaeth, rhyddid cydwybod a chyfundrefn. Pregethai Pelagius y naill, pregethai Awstin y llall. Rhyddid crefyddol ydyw dyhead y Prydeiniwr erioed; am drefn anhyblyg, am un ffydd uniongred, am un Eglwys y dyheai Rhufeiniad. Yr oedd ysbryd ei oes yn erbyn Pelagius, medrodd Awstin gondemnio ei ddysgeidiaeth, nid fel hanner gwirionedd, ond fel heresi groes i'r gwirionedd; a medrodd ddefnyddio grym y gallu gwladol i erlid disgyblion y Prydeiniwr. Ymosodwyd ar ei heresi yn ei wlad enedigol. Yn 429 daeth Germanus a Lupus,—Garmon a Bleiddian,—esgobion Auxerre a Troyes, i bregethu yn erbyn Pelagiaeth ym Mhryden. Daeth cynhulliad enfawr i'w cyfarfod i Verulanium, a dywed eu brodyr yn y ffydd i'w hyawdledd orchfygu eu gwrthwynebwyr yn llwyr. Dywed traddodiad iddynt fod yng Nghymru, ac y mae yn ddiameu fod iddo sylfaen o wirionedd. O'r cyfarfod mawr yn Verulanium, aeth y ddau esgob ymlaen i'r gogledd orllewin, hyd nes y daethant i lannau'r Ddyfrdwy ac i fro'r Alun. Tra yn pregethu yno, daeth y newydd fod y Pictiaid barbaraidd ar ymosod arnynt. Arweiniodd Garmon ei ddisgyblion yn erbyn y gelyn, a ffodd y gelyn wrth eu clywed yn bloeddio "Haleliwia,"—gair eu gorfoledd,—a'r bryniau yn eu hateb. Llwyddodd y disgyblion yn eu neges; dros gan mlynedd wedi eu dod, y mae Gildas yn son am heresi Pelagius gyda'r casineb a'r diystyrwch mwyaf. Ond, rhwng 450 a 500, dylifodd barbariaid Teutonaidd i ynys Pryden; daethant fel ffrwd dros ran ddwyreiniol yr ynys, gan ei thaflu'n ol i baganiaeth, a chan wahanu eglwysi Cymru a'r Iwerddon yn y gorllewin oddiwrth eglwysi'r Cyfandir. Rhwng 500 a 600 gadawyd Eglwys y Cymry iddi ei hun,—yr oedd gwlad o farbariaid terfysglyd gelynol rhyngddi â Rhufen ac â Chanan, man geni a man trefnu y ffydd Gristionogol. Y canlyniad oedd, ymddadblygodd y ddwy eglwys mewn dulliau gwahanol; a phan ail gyfarfyddodd Cristionogion o Gymru a Christionogion o Rufen dan goeden dderwen yn rhywle yn nyffryn yr Hafren, darganfyddasant nad oedd eu ffydd mwyach yr un.

Nis gallesid disgwyl i Gristionogaeth Cymru a'r Iwerddon a Christonogaeth Rhufen ddadblygu yn yr un dull. Yn y gwledydd Lladinaidd, yr oedd traddodiadau am drefn anhyblyg llywodraeth Rhufen yn gryfion iawn. Ond yng Nghymru, ac yn enwedig yn yr Iwerddon, yr oedd ysbryd anibyniaeth yn gryfach nag ysbryd trefn. Ar ffurf llywodraeth berffeithiedig y tyfodd Cristionogaeth,—yn fuan iawn ffurfiwyd yr eglwysi'n esgobaethau, yr egobaethau'n arch-esgobaethau, ac unwyd yr holl gyfundrefn daclus dan lywodraeth esgob Rhufen, fel yr unid yr ymherodraeth dan lywodraeth ymherawdr Rhufen.

Ond yng Nghymru ac yn yr Iwerddon, nid oedd dadblygiad yr Eglwys mor reolaidd, yr oedd yr holl drefniadau'n llawer mwy ystwyth. Ar anibyniaeth llwythau, nid ar undeb ymherodraeth, yr oedd Eglwys Cymru ac Eglwys yr Iwerddon wedi eu sylfaenu. Llac iawn oedd yr undeb, yr oedd yr anibyniaeth yn gryf. Yr oedd llu o esgobion yng Nghymru fel mewn gwledydd ereill, ond y mae'n debyg mai pregethwyr enwocaf y wlad oeddynt; nid oedd y wlad wedi ei rhannu'n esgobaethau, ac un esgobaeth wedi ei rhoddi dan ofal neillduol un dyn. Ni fu arch-esgob ar Gymru erioed. Tybiodd Gerald Gymro fod Tyddewi wedi bod yn arch-esgobaeth unwaith, a meddyliai Owen Glyn Dŵr am roddi iddi yr anrhydedd yn ol. Ond camgymerodd Gerald, trwy dybied fod Eglwys Cymru wedi dadblygu yr un fath ag eglwysi gwledydd Lladinaidd. Araf iawn fu'r Cymry i rannu eu gwlad yn esgobaethau; ac ni fu ganddynt arch-esgobaeth erioed.

Rhwng y blynyddoedd 500 a 600, yr oedd gan y saint ddau waith. Un oedd efengylu i'r rhai oedd eto'n baganiaid,—megis y Gwyddyl oedd yn eithafion Dyfed a'r Pictiaid oedd yn parhau i ymwthio o fynyddoedd yr Alban tua'r de. A'u gwaith arall oedd cadw ysbryd Cristonogaeth yn fyw yn ystod cyfnod o ryfeloedd gwaedlyd. Aml iawn y cawn hanes sant yn ceryddu brenin.

Ond rhaid gadael hanes y saint a'r esgobaethau tan y rhifyn nesaf.

* Ceisir rhoddi'r un ystyr i'r gair Morgan ag i'r gair Pelagius trwy ddweyd mai *môr* a *geni* yw ei rannau, ac mai "wedi ei eni ar lan y môr" feddylir wrth y gair Morgan. Ond Morcant yw hen ffurf y gair. "Morien" fuasai'r cyfieithiad goreu o "Pelagius."

DALEN O TENNYSON.

Ganwyd Alfred Tennyson mewn pentref bychan tawel ar wastadeddau tonnog Lincolnshire, Awst 6, 1809. Oddiwrth ei dad, rheithor Somersby, y cafodd harddwch ei gorff; oddiwrth ei fam,—lawn o ddychymyg a chydymdeimlad,—y cafodd wedd freuddwydiol ei feddwl a melusder esmwyth ei iaith. Bu'n barddoni trwy ei fywyd, ond pan ddychrynnid ef am amser gan adolygwyr di-drugaredd. Cyhoeddwyd ei gyfrol fechan gyntaf yn 1826, yn 1850 daeth *In Memoriam*, ac yn 1859 daeth pedair rhan gyntaf yr *Idylls of the King*. Ail adroddodd hanes Arthur,—testun wrth fodd ei ysbryd mawreddog a chrefyddol. Bu'n crwydro yng nghymoedd Cymru, gan chwilio am gynhyrfiadau'r awen,—ar lan Llyn Tegid, ac ar draeth Meirionnydd. Bu farw fore'r chweched dydd o Hydref, a *Cymbeline* Shakespeare yn ei law. Yr oedd ffrwd o oleuni'r lleuad ar ei wyneb pan ymadawodd

> " to the island valley of Avilon,
> Where falls not hail or rain or any snow,
> Nor ever wind blows loudly."

"YN YSBYTY'R PLANT."

[Fe dybir fod un o weinyddesau'r ysbyty yn adrodd yr ystori a ganlyn wrth foneddiges garedig oedd yn talu un o'i hymweliadau dyngarol a'r sefydliad.]

I.

GALWASAI ein meddyg un arall—un dieithr yn y dref,
Ond aeth iasau drwy fy nghalon pan gyntaf gwelais ef;
'Roedd newydd ddychwelyd o Ffrainc, ac ysgolion gwledydd draw,—
Gwallt coch, llais mawr, a throm ddidostur law!
Fe wnaethai bethau hynod, ond credem yn gytun
Mai gwell oedd ganddo *drin* yr arf nac *arbed* aelod dyn.
Hawdd gennyf feddwl hynny; mor arw oedd ei wedd!
Y gallai ysgafn-gellwair yn ymyl angau a bedd,
Trywanu'r ci diniwed ddilynai ol ei droed
Er mwyn ei *weld* yn marw—fath ryfyg sydd yn bod!

II.

'Roedd yma fachgen bychan,—rwy'n siwr y trengai llu
O'n dioddefwyr onibae am serch a gwenau cu,—
Ie, yma 'roedd y bychan a'i esgyrn oll o'u lle,
Effeithiau damwain erchyll mewn melin yn y dre,
Bu'r meddyg yn ei drwsio, ond oeraidd oedd ei drem,—
" Dim gobaith am adferiad "—dyna ei ddedfryd lem,
" Daw'ch trafferth chwi i derfyn yn ebrwydd," ebai ef,
Dywedais,—" Caf roi' ofal i'r Iesu yn y nef;
Rwy'n mynd a'r bychain beunydd mewn gweddi ato E."
Atebai,—" Beth! all gweddi roi asgwrn yn ei le?"
A chlywais ef yn mwmial mewn goslef gras, ddi-ffydd,—
" Am yr Iesu da (fel dwedwch chwi) y mae *wedi* gweld ei ddydd."

III.

Wedi? A ddaeth ei ddydd? Onid dechreu mae ei daith?
Pe celwydd fuasai gobaith byd, sut gallwn wneyd fy ngwaith?
Nis gallwn ddal i edrych ar loesion poenau tyn,
Onibae am eiriau'r Iesu,—" I mi y gwnaethoch hyn?"

IV.

Aeth ymaith. Minnau aethum i fysg y plantos mân;
Ie, dyma wely bychan ein lodes fwynaidd, lân;
Gwag ydyw fel y gwelwch; collasom Emmie dlos,
Oedd dawel fel amynedd, oedd dyner fel y rhos.
O, ei diddanion clysion! cynhyrfent ddagrau cudd,—
Dyna'r plentyn mwyaf addfwyn a welais yn fy nydd.
Gyrasoch flodeu iddi, rhai prydferth, per eu sawr,
A hithau a'i cofleidiai dros lawer hirfaith awr.

Nid yw y sawl a rodiant yng nghanol swynion haf,
Yn dirnad am y pleser ddwg blodyn bach i'r claf;
Drwy hwnnw gwel ef degwch yr heulwen ar y bryn—
I ysbryd fo "yng ngharchar" rhyw nef yw'r blodyn gwyn!
A'r pwysi rhwng ei bysedd fe blethai' dwylo 'nghyd—
Gwywedig oedd ei gruddiau, ond prydferth iawn 'run pryd,
Fe gysgodd; daeth y meddyg, ond dwedai yn fy nghlyw,—
"Rhaid *oedi* hyd y fory; rwy'n ofni nas gall fyw."

V.

Fe gerddais gyda'r meddyg at risiau mawr y ty,
A dychwel wnes yn ddistaw heb wybod iddi hi.

VI.

Ond er pan wyf weinyddes ni fum mor brudd fy mron,—
'R oedd Emmie wedi ei glywed; siaradai'r funud hon,—
"Mae'n dweyd (medd wrth gyfeilles) nas gallaf fyw; beth wnaf?"
"Pe bawn i chwi, gofynnwn"—medd ffrind yr eneth glaf—
"I'r Iesu am fy helpu. Mae'r darlun," ebai hi,
Sydd ar y mur, yn dweyd, 'Gadewch i blant ddod ataf fi.'"
[Y chwi a roes y darlun; mae ar y mur o hyd,
A hoff yw'r plant o weld rhai bach o gwmpas Prynnwr Byd].
"O'r gorcu, gwnaf," medd Emmie, "er hyn nis gwn yn iawn
Pa sut gall wybod p'rûn wyf fi, a'r lle mor hynod lawn!"
Meddyliai'r llall am ennyd; ond dyma'i hateb syn,—
"Rhowch eich breichiau allan, Emmie, oddiar y cwrlid gwyn,
A dwedwch mai'r enethig (wrth Iesu yn y nef)
Sydd a'i breichiau ar y cwrlid a eilw arno Ef!"

VII.

Gwyliaswn dair nos wrth ei gwely,—nis gallwn wylio'n hwy,
'Roedd fy mhen fel pe yn hofian—ni fedrwn aros mwy.
Hon oedd fy noson orffwys, ond O mor faith oedd hi!
Clywais daranau'n rhuo, a'r cenllysg ar ffenestr y ty;
Clywais ddieithriol ddolef yn nhwllwch tew y nos,
Fel brefiad oen colledig ar ddibyn dwfn y ffos;
Ac yn fy nghwsg toredig fe welwn y gyllell draw,
Meddyliais am fy Emmie nes deffro'n oer gan fraw!
Fe'i gwelwn yn fy ymyl a'i gwên fel gwawr y nef,—
Ar hynny daeth y meddyg; aethum ati gydag ef.

VIII.

Dygasai ei arfau miniog. Ai huno ydyw hyn?
Ai breichiau gwynion, anwyl, oddiar y cwrlid gwyn;
Son fod ei ddydd Ef drosodd! Ymaith a'r syniad ffol,—
Gwaredwr y plant a'i clybu,—aeth adref yn ei gôl!

Caernarfon. R. D. ROWLAND.

HEN BENILLION.

Dyma hen benillion a ddysgodd fy mam i mi, pan yn fachgen o chwech i saith oed, oddeutu 36 mlynedd yn ol. A fedr rhywun ddweyd wrthyf pwy yw eu hawdwr?

"Yng ngardd Gethsemane
Bu Iesu'n chwysu'r gwaed;
Ac ar y groes yn dioddef
I brynnu pardwn rhad.

"Yn greulon iawn yr hoeliwyd
Yr Iesu ar y groes,
I gadw pechaduriaid
Rhag dioddef mawrion loes.

"Er dyfned yw y dyfroedd,
Er poethed ydyw'r tân,
Er cryfed yw'm gelynion
Caf gymorth, af ym mlaen."

Tan y Bwlch. THOMAS WILSON.

BARDD DU MON.

"There is a voice from the tomb sweeter than song. There is a remembrance of the dead, to which we turn even from the charms of the living."—WASHINGTON IRVING.

DIOLCH i'r CYMRU am "godi'r hen wlad yn ei hol,"—ei beirdd, ei cherddorion, ei hynafiaethwyr, a'i hathrawon. Yng nghanol anfanteision addysg a chyfryngau ereill diwylliant, syndod yw meddwl fod Cymru fu mor gyfoethog o dalentau. Ni fuasai yn achos rhyfeddu pe buasai manteision y blynyddoedd diweddar wedi llwyr gymylu gogoniant ein hynafiaid, ond erys yn ffaith fod eu coffadwriaeth yn fendigedig a'u gweithiau yn ddisgleiriach nag erioed. Hen farddoniaeth! Hen gerddoriaeth! Mae amser yn eu cysegru, ac y mae blwyddyn ar ol blwyddyn yn ychwanegu at eu prydferthwch, yn codi eu gwerth. Mae diwylliant trwy efrydu llafur ein tadau, ac y mae cymdeithas â hwynt yn gyfrwng mwynhâd. Wrth adrodd hanes Bardd Du Mon caf ddwyn gerbron y darllennydd *genius* yr oes o'r blaen.

Enw ei dad oedd Owen Williamson, ac enw ei fam oedd Dorothy. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1807, mewn ty yng nghanol llwyn o goed, yn agos i bentref tawel Halcyn, sir Fflint. Garddwr oedd y tad ar ystâd enfawr y Grosvenors. Yr oedd yn ddyn darllengar a deallus. Ystyrrid rhai o'i syniadau yn wylltion, a phe y cyhoeddasid hwy y pryd hynny ar ddu a gwyn, diameu y buasent yn cynhyrchu llawer o 'stwr a siarad. Ond erbyn hyn nid yw y syniadau hynny ond erthyglau cyffredin yng nghredo Cristionogion.

Ymddengys mai tipin o Galfin oedd person Halcyn. Ceisiodd gosbi y baban diniwed o herwydd syniadau y tad, trwy wrthod ei fedyddio. Ond buan y plygwyd ef gan y rhybudd y rhoddid yr achos o flaen Arglwydd Esgob Llanelwy, a bedyddiodd y plentyn yn Robert. Mae bai ar ambell i berson.

Yma y magwyd ac y meithrinwyd Robert hyd nes oedd yn ddeuddeg oed, pryd y symudodd ei rieni i fyw i Lanwnda, sir Gaernarfon.

Mor bell ag y medraf weled, ni chafodd erioed ddiwrnod o ysgol. Rhyfedd onide, y bydd aml un wrthodir iddynt freintiau addysg boreu oes yn dod yn gewri mewn gwlad ac eglwys, ac amddifadiad o freintiau megis yn cynneu sel danbaid yn eu mynwesau, ac yn cynhyrchu ymroddiad diwyrni i ragori ar ereill. Un felly ydoedd Robert. Gwrthodwyd iddo freintiau addysg ysgol ddyddiol; trodd yntau hen aelwyd y bwthyn, wrth oleu tân coed hirnos gauaf, yn ysgol, ac efe ei hun yn ysgolfeistr. Pwy na lethid gan y fath anhawsderau? Ond nid un i wangalonni yng nghanol mynyddau o rwystrau oedd y bachgen Robert. Torrodd ffordd trwyddynt i enwogrwydd. Ni fu yn hir cyn dyfod yn ddigon medrus i addysgu ereill yn elfennau gwybodaeth a dysgeidiaeth. Trwy gymhorth offeiriaid Llanwnda a'r Bont Newydd bu yn cynnal ysgolion yn y lleoedd hyn. Bu hefyd am ychydig amser yn Llanrwst. Pan yn ddeunaw oed, clywodd fod eisiau ysgolfeistr yng Nghaergybi. Croesodd borth enwog Aber Menai, a'i wyneb tuag yno. Rhaid oedd myned trwy Niwbwrch,—hen ben tref Mon. 'Roedd y ffordd yn faith, a rhaid oedd codi stêm. Trodd i mewn i siop un John Pritchard i geisio tybaco. Gwelodd y gŵr da hwnnw mai ysgolfeistr ydoedd. Gwisgai ysgolfeistriaid y dyddiau hynny gadach gwyn, tebyg i'r cadach wisgir gan bregethwyr enwadol Cymru yn awr, i'w gwahaniaethu oddiwrth feidrolion ereill. Cyn ymadael â'r siop, yr oedd dawn dweyd John Pritchard wedi ei berswadio i ymsefydlu yn Niwbwrch, a chodi ysgol yno. Ni allasai wneuthur hyn heb gymorth a charedigrwydd y Parch. Henry Rowlands, ficer y plwyf,—a hannai o'r un teulu a Rowlands y Mona Antiqua, a Rowlands, Esgob Bangor,—a'r Parchn. John a Hugh Pritchard, teulu caredig Dinam, y rhai fu yn noddwyr haelionus iddo.

Na ddirmyger gwaith ac ymdrechion yr Eglwys Gymreig o blaid addysg yn yr amser aeth heibio, heb ond ychydig os dim cefnogaeth. Cofier mai gwaith cariad ydoedd, a bod eisiau hunanaberth mewn amser ac arian i'w gario ymlaen.

Tra yn Niwbwrch tyfodd amgylchiadau gymaint o'i gwmpas fel ag i wneuthur ei gysylltiad â'r lle yn anwahanadwy. Yma cafodd wraig, Jane Roberts, dynes fechan, sionc, a diwid; yma y magodd deulu mawr o blant; yma y claddodd ei ferch Margaret, a'i fab Dafydd; yma y daeth i enwogrwydd fel bardd. Yma yr ymladdodd lawer brwydr; yma yr enillodd lawer llawryf. Ai rhyfedd yr ofnai farw yn unman ond yma, a'i gladdu ond ym medd ei hoff Fargaret?

Ei enw barddonol yw pennawd fy ysgrif. Nis gwn paham y cymerodd yr enw. Clywais i Fardd Du Mon arall fod flynyddoedd o'i flaen; gwn fod Llyn Du wrth ymyl Niwbwrch, a chlywais mai ar amgylchiad "du" y cyfansoddodd ddernyn barddonol gyntaf,—ar ol ei Fargaret.

Bywyd llafurus fu ei fywyd. Rhaid ei fod yn meddu diwidrwydd digyffelyb i gyfansoddi cymaint mewn cyfnod mor fyr. Dengys pob cyfansoddiad ymchwiliad manwl a

darllen helaeth. Mae amrywiaeth ei destynau yn profi ei fod yn hyddysg mewn llawer cangen o wybodaeth. Ymgeisiodd lawer mewn Eisteddfodau, ond nis gellir dweyd i ffawd ffafrio llawer arno.*

Amhosibl yw i mi wneuthur cyfiawnder ag ef fel bardd. Nid wyf fardd, na mab i fardd, nac yn deall dim ar farddoniaeth. Ac eto anghyflawn yw ysgrif ar fardd heb gyfeirio ato fel bardd. Mae hyn yn eithaf amlwg i bawb ddarllenno ei weithiau,—ei fod yn meddu ar wybodaeth eang, diwidrwydd diball, a chywreinrwydd diguro. Ond gadawaf ef i siarad drosto ei hun. Trwy hynawsedd ei fab cefais olwg ar ei weithiau angyhoeddedig, a difynnais ychydig o'i bryddest ar "Ddoethineb Duw." Maddeuer i mi os y darnau gwaelaf bigais; ac os y goreu ydynt, nid yw hynny ond damwain.

Dynesa y bardd at destun mor eang gydag ofn a dychryn rhag iddo,—

". . . drwy ffolineb a chnawdol ddych'mygion
Ddyrysu, a methu dychwelyd o'r eigion."

Eto cymer galon, ac yng nghysgod

". . . dwyfol gynorthwy doethineb y moriaf,
A than ei harweiniad ysbrydol dychwelaf;
Hi'n unig a'm ceidw ar leoedd priodol,
Ac hefyd a'm tywys i'r hafan ddymunol."

Wedi desgrifio gorchestion doethineb dynion yn dyfeisio yr awyren, yr agerdd,—

'Gweld modd i'w ddefnyddio a'i gau mewn pibellau
A thrwy ei ddirwasgu chwanegu'i effeithiau,"

cwmpawd y morwr, trwy

"Ganfod galluog effeithiau'r maen tynnu
I beri i'r Nydwydd reolaidd weithredu,
A bod fel myneg-fys neu nodyn cyfeiriol
Yn cywir arddangos y Pegwn Gogleddol,"

* Gellir enwi ymhlith ei *Gynhyrchion Gwobrwyedig*,—(1) Englynion Pont Menai yn Eisteddfod Beaumaris, 1832, pan oedd y Frenhines Victoria yno; (2) Englynion Mynydd Paris, yn Llannerch y Medd, 1835; (3) Marwnad i Mr. Oak'ey, yn Ffestiniog, 1834; (4) Marwnad i Syr Watcyn W. Wynn, yn Llynlleifiad, 1840; (5) Pryddest, "Hiraeth ar ol Mabolaeth," yn yr un Eisteddfod; (6) a (7) Dwy bryddest, Argraffyddiaeth ac Amaethyddiaeth, yn Eisteddfod Bryngwran, 1842; (8) Cerdd draith er Côf am y Seryddwr Enwog Cymreig J. W. Thomas (Afonwyson), o'r Observatory, Greenwich; (9) Marwnad i Rowlands, yn Eisteddfod Niwbwrch, 1842; (10) Pryddest i Afon Menai, yn Eisteddfod fawr Aberffraw, 1849. Ymhlith y cyfansoddiadau *argraffwyd* ganddo gellir enwi,—(1) Y Self-Instructor i Gymro ddysgu Saesneg; (2) Awdl y Greadigaeth (Aberffraw); (3) Awdl yr Adgyfodiad (Rhuddlan); (4) Pryddest y Nadolig; (5) Llyfr ar Arddwriaeth. Ymhlith ei gyfansoddiadau *anargraffedig* gellir enwi,—(1) Gramadeg Tair-leithiawg, sef Ieithiadur Cymraeg, Saesonaeg, a Ffrancaeg; (2) Llyfr ar Seryddiaeth; (3) Awdl ar Dderwyddiaeth; (4) Awdl, "Gwir yn erbyn y byd"; (5) Pryddest, "Doethineb Duw"; (6) Pryddest, "Golygfa Moses o ben Pisgah." Dyna restr go helaeth mewn cyfnod o tua ugain mlynedd.

gorsafoedd yr amryw blanedau, yr elfen drydanol, adnabod naturiaeth nitr, a halen,

"Maent oll yn dyrchafu dynoliaeth i fawredd
Ac yn urddasoli y byd ag anrhydedd."

. . . . . .

"Ond myrddiwn hynotach yw gweled y mudion,
Yn cael eu haddysgu yn wir ysgoleigion,
A gweled y deillion yn darllen â'u bysedd,
Ac felly yn deall holl air y gwirionedd;
Datguddiad o eiddo doethineb Duw ydyw
Hyn oll, er anrhydedd a lles i ddynolryw."

Ni raid i neb ar y ddaear nac yn y nef ymholi am gartref, oherwydd

"Mae'r Cread yn tystio'n ddibetrus ar unwaith
Ei bod yn bodoli'n y Duwdod yn berffaith."

Mae doethineb arfaethol Duw mor ddisglaer fel

"Nas gall golwg ddynol arsyllu byth arni
Heb len o feidroldeb o'i chylch yn wisg iddi."

Ac mae cymaint o ddirgelwch yn Llyfr mawr yr Arfaeth,

"Fe erys dirgeloedd o'i fewn er ei chwilio
Nes del y Farn olaf, heb gael eu datguddio."

Os disgleiriai gwyneb Moses gymaint wedi bod ym mhresenoldeb y Duwdod ond am ddeugain niwrnod, fel nas gallai yr Israeliaid edrych yn graff arno,—

"Pa faint mwy gogoniant a llachar oleuni
Sy'n gwisgo Doethineb ac yn ei choroni
Yr hon sydd yn trigo erioed mewn anrhydedd
Yn llewyrch tanbeidiol a gwyddfod y Mawredd?"

Mae disgleirdeb doethineb Duw'n gymaint fel bu raid estyn

". . . Gwahanlen rhwng Ion a'r hil ddynol
Yn grwngylch o gwmpas y byd yn gylchynol;
Er hynny gwnaed ynddi ffenestri godidog,
I'n weled Doethineb i raddau mawreddog."

A phan ddisgynnodd y Ceidwad

". . . i blith daearolion
Yn gwisgo naturiaeth a delw wael dynion,"

yr oedd disgleirdeb ei ddoethineb gymaint

"Er iddo ymostwng mor isel a'r preseb,
Mewn gwendid a thlodi'n ddiaddurn ei ddyndeb;
Canfyddid cyflenwad o honi'n ei berson,
Mewn trefn yn pwrcasu maddeuant i ddynion."

Wedi'r cyfan oll, wedi ysgrifennu agos i dair mil o linellau i geisio dangos doethineb Duw yn y greadigaeth, yn nhrefn ei ragluniaeth, ac yn nhrefn Iachawdwriaeth, pe meddai leferydd seraffiaid, hyawdledd angylion, a donau cerubiaid, ni allai ddweyd yr hanner,—

"Mwy yw dy Ddoethineb, O Dduw, a'th ddaioni
Na'r clod a all dynion ac Engyl ei roddi,"

a syrth ar ei liniau mewn gweddi,—

"O Ior, dod i minnau ddechreuad Doethineb
Sef gwir 'Ofn yr Arglwydd' i'th garu mewn purdeb;
Fel wedi yr hunwyf y caffwyf drwy hoenedd
Ei bythol ryfeddu yngwlad y tangnefedd,
A'th foli'n ddiddiwedd yn llewyrch dy wyneb,
Am i'm gael adnabod gwaith hynod Doethineb."

Dywedais na fu ei lwyddiant Eisteddfodol yn fawr. Daeth i'w ran i yfed wermod chwerw Eisteddfod, a surwyd ei enaid ganddo. Bu helynt blin ynglyn ag Eisteddfod y 'Berffro. Testun y Gader oedd "Y Greadigaeth," a'r beirniaid Eben Fardd, Jocyn Ddu, a Joseph Jones Caernarfon. Methai y beirniaid a chytuno, a hynny i raddau anghyffredin. Rhoddai Eben Fardd y llawryf i Ambrose; Joseph Jones i Fardd Du Môn; Jocyn Ddu i Nicander. Dyma'r pryd yr anghofiodd y doniol Talhaiarn ei hun gymaint fel ag i rwygo ei awdl yn ddarnau ar y llwyfan. Pan oedd cymaint o wahaniaeth barn, diameu fod gan y pwyllgor rywbeth i'w ddweyd. Rywfodd neu gilydd cafodd y Bardd Du hysbysrwydd mai efe gadeirid. Aeth yntau i'r Eisteddfod, a rhoddwyd ef i eistedd wrth ochr y Gader. Ond ynghanol berw gwyllt, Nicander gadeiriwyd. Ceisiodd pobl dda Aberffraw wneyd i fyny am siomiant y Bardd Du trwy gasglu yr un swm a'r wobr iddo, a rhoddodd Nicander ei hun ddwy bunt. Ond ni allasai unrhyw beth wneyd i fyny am golli'r Gader. Dyna oedd uchelgais ei fywyd, ond bu farw hebddi. Hawddach meddwl na desgrifio yr effaith gafodd yr amgylchiad ar y Bardd Du, a theimlodd y siom hyd ei fedd. Nis gwn yn amgenach na chadeiriwyd y goreu; ond hyn a ddywedaf, mai creulondeb o'r mwyaf ydoedd hysbysu'r Bardd mai efe a gadeirid, ei gludo'n llesg ei gorff a gwael ei iechyd i'r Aberffraw, a'i ddodi i eistedd ar y llwyfan wrth y Gader, ac yna cadeirio un arall o flaen ei lygaid!

Ymhyfrydai wrth chwareu gyda'r cynghanedddion ac wrth weu enwau yn doddeidiau a chywyddau. Am hyn y condemnid ef yn bennaf yn yr awdl hon. Ond ymddengys rhai mannau o'r awdl yn gamp-weithiau mewn plethu cynghanedddion dyrus. Dyma ychydig engreifftiau:—

"Y maill gwyn a'r melyn myg,
Iraidd eu twf, a'r haidd teg;
Gorwych a hardd geirch a rhyg,
Neith a chu, a gwenith chweg.
Ter ffacbys, a phys, a ffa'n
Diwylliawg neidio allan,
Cloron ac erfin clirwymp,
A bresych gorwych a gwymp,
Rhesin a glwys reis yn glau,
Moron a chucumerau."

Eto,—

"Acw yn nepell mae Canopus,
Auriga, Aquela, ac Equlus,
Ac acw o'r golwg y ceir Regulus,
A golcu seirian Rigel a Sirius,
Y Draco erfawr, Hydra, a Corvus,
Segitta orwech, a Segittarius,
Ara, Don, ac Eridanus,—Nebule
Dwy Cor, ac wele! y deg Herculus."

"Ar nir Ion, oreirian arch,
Wele! ehedai'r alarch,
Y winc lon,—y ciconia,
A'r ydfran yn hylan. Ha!
Wele atynt y fwltur,
Cuddan, a'r pelican pur."

Rhaid oedd aberthu barddoniaeth pan yn rhestru y creaduriaid fel hyn, oherwydd yr amhosibilrwydd i blethu digon o farddoniaeth gyda chynghanedd mor sech.

Ond er dangos yr ymddyrchafai yntau ar brydiau uwchlaw y pentwr esgyrn, gan ddwyn ysbryd barddoniaeth i anadlu arnynt, dyma engraifft neu ddwy. Dyma ddesgrifiad o fywyd cyn y Cwymp,—

"Bywyd o fywyd yn adfywio,—pob
Peth yn fywyd cryno;—
Bywyd yn iach fywyd o
Hydreiddiawl fywyd drwyddo.

"Dim cur,—dim dolur,—dim duloes,—di m poen,
Dim pennyd na chwerwloes,
Dim cri crain—dim cario croes,
Dim anach. Dyma einioes."

Ond ar ol pechu, aeth Adda fel ffynnon o lygredigaeth, ffrydiau yr hon a anurddent yr holl ddaear,—

"Llychwino, anurddo wnaeth
Degwch y Greadigaeth;—
Dyg felldith i blith ei blant
O ganol ei ogoniant.
Bwriai hwy i bair o haint,
Ac afon o ddigofaint.—
Dygai y Greadigaeth,
O'i breiniau oll bron i aeth,
Awyr,—nef—a'n daear ni—gynhyrfent
A hir daranent ei fawr drueni.
Duodd y nen ysblenydd,
Egwyl deg, 'awel y dydd,'
Natur a gai yn troi'i gwedd
I wgu ar ei wagedd."

Ond rhaid ymatal gyda rhoddi y wers fawr i bob dyn,—

"Ystyr ddyn y dinistr ddaw,
Fel i eres faluriaw,
Goraddien waith y Gwir-Dduw;—
Ofna ddewr,—cais ef yn Dduw."

'Roedd yr anhawsderau y llafuriai danynt yn ddigon i lethu dyn o benderfyniad llai gwrol. Nid lle manteisiol i gyfansoddi ydyw ty bychan, yn cynnwys ystafell neu ddwy a'i lond o blant yn ddigon mynych. Ni feddai ond corff llesg a gwael, ac yr oedd afiechyd lawer tro yn ei gyfyngu i'w ystafell wely. Dywedir mai yn ei wely y cyfansoddodd un o'i bryddestau,—Y Nadolig,—gan ei hysgrifennu ar wyneb megin. Pan yn dioddef o dan glefyd trwm, aeth cyfaill unwaith ato pan oedd ar ei foreufwyd, a gofynnodd, "Pa beth sydd gennych?" Yntau yn fyrfyfyr a atebodd,—

"Diferyn fel hyn o laeth—a bara
Hwyr a bore'n lluniaeth;
Hyn, wele! yn gynhaliaeth
Ydyw fy mwyd a fy maeth.'

Treuliodd lawer noson i ddysgu bardd-oniaeth i fechgyn ieuainc restrir yn awr ymhlith prif feirdd Cymru.

Fedrai ddim edrych ar Fardd Du Mon heb edrych ar un benderfynodd ragori yn y byd. Ac nid siomiant fu ei ymdrechion. Er na chafodd fanteision boreu oes, er na chyfoethogwyd ef â moethau y byd, ac er y gomeddwyd iddo gorff cryf ac iachus, mae'r ffaith iddo ddyfod mor hyddysg yn y Gymraeg, Saesneg, a Ffrancaeg, ac iddo fel bardd allu sefyll ar yr un llwyfan a Nicander ac Emrys, yn profi nad ofer fu ei benderfyniad. Llanwer meibion dyfodol Cymru a chyffelyb benderfyniad.

Bu farw ar yr unfed ar hugain o Fedi, 1852, pan nad oedd ond pump a deugain oed. Claddwyd ef ym mynwent hynafol Eglwys St. Pedr, Niwbwrch, ac ar lech ei fedd cerfiwyd gan ei fab yr englynion canlynol o waith Eben Fardd:—

"Fe roddwyd ym medd Fardd Du Mon,—llenor
Llawn o bethau ceinion;
Mae'n enw a saif mewn iawn son
Tra Menai, tua'r minion.

"Nid craig fawr, nid careg sedd - namyn cân
Yw maen côf ei fawredd;
Dywed Awen hyd y diwedd
Ei fodd, a'i lun, a'i feddwl wedd."

Rhydychen. BEN JONES.

Y BYD AR WERTH.

[EFELYCHIAD.]

Y BYD ar werth! Gwnewch furlen chweg
I alw'r prynwyr goreu sydd;
Pwy gynnyg ar fy nghyfoeth teg
I ollwng f'ysbryd blin yn rhydd?

Mae'n mynd. Rwy'n gwerthu oddiar fy llaw.
Pwy ddaw i brynnu'r tegan cain,
Tarawaf ef i'r cyntaf ddaw,
Y byd! Y byd! pa faint, pa faint?

Godidog fyd! Mae'i ddrych yn dda
Ond twyllodd fi, rhodd i mi glwy.
Nid yw yr hyn ymddengys, na,
Ar werth; nid wyf am dano'n hwy.

Dewch, trowch o'i gwmpas rhag bod coll,
Ni fynnwn i chwi brynnu'n ddrud;
Mae'n mynd! yn mynd! rhaid gwerthu'r oll,
Pwy brynna loewon *Ddagrau'r* byd?

Ei *Gyfoeth*, yn bentyrrau aur,—
Pwy gynnyg? Ond rhaid dweyd y gwir,
Ni werthwyd gwaelach nwydd mewn ffair
Rhown *Ofal* gydag aur a thir.

Ah, dyma ddarn a'ch gyrra'n ffol
O'r wlad brydferthaf welodd dyn,—
Llys, bwthyn, coed, maes, bryn, a dôl,—
Pwy bryn le beddrod iddo'i hun?

Ei *Gariad*—cadwen hudol a
Chref, rwyma Harddwch am y fron,
Gwn am ei nerth, ah, gwn yn dda,
Mae'n mynd! rhaid gwerthu, faint am hon?

Rhaid gwerthu Cariad er ei gael,
I mi mai'i swyn a'i hud heb hoen,
Pwy bryn y g'lomen ddi-blyf wael?
Anadliad gwynfyd—storm o boen.

Bangor.

Ei *Gyfeillgarwch*, perl, prin, drud,
Pwy gadd ei wynfyd heb ei wae?
Brau, gau, a gwamal—gwerth dim byd,
Pwy gynnyg arno—fel y mae?

Mae'n mynd! yn mynd, y funud hon,
Un, dwy, tair gwaith—mae'n isel iawn,
Bu unwaith i'm yn bopeth bron
Ond, corsen grin—ei werthu wnawn.

Enwogrwydd—codwch ef yn uwch,
Mor lachar yw ysblander hwn!
Y Miloedd! dyma fargen iwch
Pa faint? mae'n werth y byd yn grwn.

Clywch fel y trystia. A yw'ch bryd
Ar gyrraedd pen Olympus gain?
'Nawr, prynnwch! a chewch lywio'r byd
A'i felldith iwch yn goron ddrain.

Ei *Obaith* 'nawr; ah, seren wiw
Siriola fron y pruddaf wr,
Ond 'r eiddof fi, sy'n ddwfn ei briw;
Pa faint am sicraf, olaf dŵr?

Pe na bae methiant wedi'm cau
Y trysor hwn a'm daliai i'r lan,
Ond Poen drwy Obaith sydd yn gwau
A rhaid rhoi i fyny yn y man.

Uchelgais, *Balchder*, *Dull*, a *Gwedd*,—
Gadawaf hwy o'm hol yn awr;
Dysg Gofid, tra yn cloddio bedd,
I'r galon falchaf blygu'i lawr.

Mae'r Sirydd, Angau,'n gwerthu'r byd,
Fy nwys ochenaid i ni chlyw,
Ond caf y pethau gorau i gyd,—
Fy *Ffydd*, *Fy Meibl*, a *Fy Nuw*.

LLEW TEGID.

Y TYLWYTH TEG.

I.

RWY fod pawb yn cymeryd dyddordeb yn y Tylwyth Teg, fod lliaws yn ysgrifennu ystraeon byrion i mi am danynt, a chan na wna'r hen chwedlau diddan ddim niwed mwy i grefydd na moes, yr wyf yn cychwyn cyfres o hanesion adroddid am danynt o fin nos dan bryd swper yng ngwahanol ardaloedd Cymru. Y mae gennyf ddau amcan wrth wneyd hyn. Un ydyw rhoddi diddanwch i rai sy'n hoff o ddarllen hanes hen ofergoelion di-niwed. A pheth arall ydyw helpu'r hanesydd trwy gasglu'r hanesion at eu gilydd, gan wybod eu bod yn taflu goleuni ar gyfnodau nad ydyw eu hanes hyd yn hyn ond gwyll.

II. NANT YR EIRA.

Lawer blwyddyn yn ol clywais un ystyrrid yn gryn awdurdod ar hen hanesion yn sicrhau tyrfa o blant fod y Tylwyth Teg yn bod. Pwyntiai â'i fys at gefnen o fynydd noethlwm di-gysgod, a dywedodd fod Nant yr Eira yn unigedd y mynydd, ymhell dros y gefnen honno. Yr oedd rhai o honom wedi crwydro gyn belled a'r hafoty unig hwnnw, ac wedi gweled ei un goeden gorachaidd yn llechu yng nghysgod ei furiau anghyfannedd rhag y gwynt miniog ddoi yn y gauaf dros eangderoedd eiraog y mynyddoedd draw. "Wel," meddai'r adroddwr, tra y teyrnasai distawrwydd anghynefin drosom, "yr oedd fy nhaid yn cadw hafod yn Nant yr Eira. Yr oedd wedi clywed lawer gwaith fod y Tylwyth Teg yn y mynydd, yr oedd wedi gweled eu hol yn dawnsio ar lanerchau teg ar y mynyddoedd, ac yr oedd wedi eu gweled draw ymhell, ond ni fynnai'r cwn redeg atynt er dim. Ryw noswaith yr oedd fy nhaid yn Nant yr Eira yn nyfnder y gauaf, ac yn dechre parotoi i fynd i'w wely. Edrychodd allan drwy'r ffenestr fach,—'doedd hi ddim digon i ddryw ddod drwyddi,—a gwelodd fod storm yn dod. Yr oedd eira gwyn dros y mynyddoedd ymhob man, eira caled a sych, wedi rhewi lawer gwaith. Yr oedd yn oleu iawn, medrai nhaid weld pen Moel Mygenna'n glir; ond yr oedd swn gwynt yn brochi draw ymhell y tu hwnt i'r mynyddoedd. A dywedodd nhaid wrtho ei hun y byddai lluwch mawr neu feiriol mawr cyn y bore.

"Pan oedd fy nhaid ar dynnu ei ben o'r ffenestr, i fynd i'w wely, dyma'r cwn yn deffro o'u cwsg ac yn cyfarth.

"'Diar mi,' meddai, 'pwy sy'n dwad yr amser yma ar y nos i le fel hyn?'

"Agorodd y drws, ac wele lu o bobl fychain yn dod i lawr ochrau'r mynydd at Nant yr Eira. Yr oedd yno filoedd o honynt, mewn cotiau gwyrddion a chapiau hirion, a'r cwbl yn dod yn ddistaw a chyflym i lawr ochr y Lledwyn ac i fyny at y drws. Cauodd nhaid y drws, a daeth ofn drosto wrth glywed y cwn yn ochain. Rhodd ei gefn ar y drws, rhag ofn iddynt ddod i mewn. Toc dyma un o honynt yn codi'r gliced, a dyma lu'n gwthio yn erbyn y drws. A gwthiodd fy nhaid yn eu herbyn am ei fywyd. Bu'n gwthio drwy'r nos. Yr oedd y storm yn codi o hyd, ar ol y lluwch daeth meiriol, aeth y tân mawn allan, ond ni feiddiai nhaid adael y drws. Bob tro y doi pwff o wynt, a phob tro y doi swn meiriol newydd, ymdaflai'r Tylwyth Teg yn erbyn y drws; ac yr oedd fy nhaid yn chwys dyferu wrth gadw'r drws trwy'r nos. O'r diwedd daeth y bore; a phan agorodd fy nhaid y drws nid oedd yno yr un o honynt. Nid oedd dim yn y golwg ond y ddaear lâs, ac amboll luwchfa eira."

Nid oedd neb yn y gynulleidfa honno yn teimlo'r awydd lleiaf i ameu nag i ofyn cwestiynau'r anghredinioL Ond gofynnodd un yn ofnus beth ddigwyddasai pe doisai'r Tylwth Teg i mewn; ac atebodd yr adroddwr, gan edrych mor ddoeth a Solomon, nad oedd wybod yn y byd.

III. UN O'U HARFERION.

Dyddorol ydyw'r hanesion am y bodau dengar hyn, ond gwelaf mai mewn amheuaeth yn eu cylch y mae ysgrifenwyr eu straeon.

Ym mhlwy Ysbyty Ifan yma, mae fferm o'r enw Trwyn Swch; ac yno, bedwar ugain mlynedd yn ol, trigai gŵr a gwraig ieuanc. Ganesid iddynt efeilliaid, ac un diwrnod, a'r gŵr oddicartref, aeth y wraig allan i odro, gan adael y gefeilliaid yn y cryd. Pwy ddaeth i fewn ond un o'r Tylwyth Teg, ac yn unol a'u castiau arferol, aeth a'r babanod ymaith, gan adael dau cdlych o'i epil ei hunan

yn eu lle. Dychwelodd y fam, ac yn ei chynddaredd pan ganfu'r cyfnewidiad, cipiodd yr estroniaid yn ei dwylaw, a phrysurodd a hwy i ben y bont sydd yn croesi ceunant erchyll y Gonwy, yn agos i'r ty, a hyrddiodd hwy i'r corbwll islaw! Yn y fan yr oedd y lle'n heidio o Dylwyth Teg, rhai o honynt yn ceisio achub eu cyfneseifiaid, a'r lleill yn prysuro at y ddynes. "Crap ar y Wrach! Crap ar y Wrach!" gwaeddai un o'u penaethiaid." "Rhy hwyr, grafaglach!" gwaeddai'r wraig yn fuddugoliaethus oddiar ben y geulan. Rhedodd rhai o honynt ar ei hol at y ty; ac yn eu brys gadawsant ar eu holau dystiolaethau pendant o'u bod, ac o un o'u harferion.

Yn awr, ohebwyr digred, beth ddywedwch chwi, tybed, pan hysbysir chwi fod y tystiolaethau hyn,—tystiolaethau gweledig teimladwy,—ar gael heddyw? Bu agos i mi fedru cael cyfle i ddwyn un o honynt i'w anfon i'r Gol., fel y byddai ei argyhoeddiad ef yn sicr, ond methais.

Nid yn unig yr oedd y Tylwyth Teg yn bod, ond *yr oeddynt yn arfer ysmocio*,—gwelsom y catiau a ddefnyddient! Collodd tri neu bedwar eu catiau ar y cae wrth redeg ar ol gwraig Trwyn Swch, a chafwyd hwy yno wedyn! * Catiau wedi eu gwneyd yn ddel o garreg lâs y ceunant ydynt, oddeutu dwy neu dair modfedd o hyd. Cafwyd amryw o honynt o dro i dro yn agos i ogof Trwyn Swch, a chan mai "catiau'r Tylwyth Teg" y gelwir hwy, a'u bod yn gysylltiedig â'r hanesyn ar lafar gwlad, pa le mwyach sydd i amheuaeth yng nghylch bod y Tylwyth Teg?

Ysbyty Ifan. R. H. Roberts.

IV. YSTORI FY NAIN.

Cnoc! cnoc! cnoc! yn nrws yr Hafod un gyda'r nos. Aeth y wraig i agor, ac yno yr oedd bachgen bychan yn wylo.

"Be sy arnat eisie?" gofynnai y wraig.

"Rwyf wedi colli'r ffor', gai aros yma heno?" atebai y bachgen.

"O ble doist ti, ac i ble rwyt ti'n mynd?"

"I chwilio am wlad y Tylwyth Teg," atebai Hywel drwy ei ddagrau.

"Nid fan yma mae gwlad y Tylwyth Teg," atebai y wraig yn sarrug, a chauodd y drws ar ei wyneb.

Nid oedd gan Hywel na thad na mam, ac yr oedd y bobl y trigai gyda hwynt mor frwnt wrtho fel y penderfynodd ddianc ymaith. Yr oedd wedi clywed llawer o son am wlad y Tylwyth Teg fel lle dedwydd iawn, ac yno yr oedd yn bwriadu mynd os gallai. Crwydrodd drwy y dydd, a chan ei fod yn ofni aros allan drwy y nos, aeth at yr Hafod i ofyn a gai aros yno hyd y bore. Ond dynes flin sarrug oedd gwraig yr Hafod, ac ni wnai adael i Hywel aros yno, ac felly bu raid iddo chwilio am le arall. Wedi cau y drws dychwelodd y wraig i'r gegin. Nid oedd na gwas na morwyn wrth y ty, ac yr oedd y gŵr wedi mynd i'r dref i neges. Teimlai yn anesmwyth iawn ei meddwl am iddi droi Hywel bach ymaith. Credai yn y Tylwyth Teg, ac ofnai dynnu eu dig ar ei phen.

"Beth os un o blant y Tylwyth Teg oedd y bachgen," meddai wrthi ei hun.

"Wel, fe dâl y Tylwyth Teg i tithau," atebai llais gerllaw iddi, neu dychymygodd hynny.

Dychrynnodd yn fawr, ac aeth i'r drws i chwilio am Hywel, ond nid oedd yno. Cauodd y drws ac aeth yn araf hyd y ffordd i gyfarfod ei gŵr o'r dref. Ar y ffordd yr oedd llwyn o goed derw lle yr oedd clytiau crwn y Tylwyth Teg, a lle y byddent ar noson newydd-leuad yn canu ac yn dawnsio. Pwy bynnag a glywai y canu peraidd hwnnw a swynid ganddo, a denid hwy i ganol y cylch, ac yno y dawnsient eu hunain i farwolaeth. Clywodd gwraig yr Hafod y canu y noson hon, ac er cau ei chlustiau a chodi ei mantell dros ei phen, yr oedd yn cael ei denu ato. Gafaelai y drain yn ei dillad, a rhwygwyd hwynt, ond mynd ymlaen a wnai hyd nes y cyrhaeddodd y cylch, a dechreuodd ddawnsio, a llu mawr o'r bobl fychain yn canu ac yn dawnsio o'i hamgylch.

Fel hyn y cafodd ei gŵr hi ym mhen rhai oriau. Ni welai ef neb ond y wraig yn dawnsio yn ei dillad carpiog nes yr oedd bron a syrthio. Aeth a hi adre ar gefn ei geffyl, a bu yn hir yn wael.

Wedi i Hywel droi oddiwrth yr Hafod, aeth at fwthyn bychan, lle y cafodd garedigrwydd a chroesaw er mai tlawd oedd y bobl a drigai yno. Gwnaeth ei gartref gyda hwynt o hynny allan, ac edrychid arno gan bawb yn yr ardal fel un o blant y Tylwyth Teg, meddai fy nain. A phriodolid gwaeledd gwraig yr Hafod, a llwyddiant dyfodol teulu y bwthyn, i'w dylanwad hwy.

Birkenhead. Essyllt Wyn.

V. DOD YN OL.

Adwaenwn un y tybid mai plentyn y Tylwyth Teg oedd. Credai pawb ond ei fam fod y Tylwyth wedi newid dau faban yn y nos. Digiai'r dyn yn aruthr os dywedid mai un o'r Tylwyth Teg oedd.

"Robin," meddai wrth gymydog, "i be deudest ti mod i wedi fy newid gen y Tylwyth Teg?"

"Ho!" ebe hwnnw, "ddoist ti'n ol?"

* Cetyn y galwn ni bibell fer.

CENEDLAETHOLDEB CYMRU.

NID anfuddiol, mewn cyfwng fel hwn yn hanes ein cenedl, pan y mae cymaint o son am genedlaetholdeb, fyddai gofyn beth yw yr egwyddorion ar y rhai y seilir cenedlaetholdeb Cymru, a'r dyledswyddau sydd yn gorffwys arnom fel cenedl yn y dyddiau hyn.

Llawer sydd yn ein dyddiau ni o son am genedlgarwch yng Nghymru. Ar y naill law ceir dynion yn ysgrifennu ac yn siarad yn uchel o blaid cenedlgarwch; ceir ereill a'u holl egni yn ceisio dangos mai camgymeriad dybryd yn yr oes oleu hon, ac yn yr ymherodraeth Brydeinig ac mewn gwlad efengyl, ydyw son mwyach am y fath beth, ac yn cyfrif pleidwyr yr ysbryd cenedlgarol, a'u mynegiant o hono, yn ddallbleidwyr penboeth. Y mae llawer Cymro, druan, rhwng y ddwyblaid yma yn methu gwybod i ba le i droi. Yng ngwaelod ei galon y mae yn credu mor gryf ag erioed mai "Cas gŵr nas caro'r wlad a'i maco;" ac y mae ei fynwes yn llawn sel dros ei wlad. Pan y bydd yn canu ei halawon, ac yn cael blas ar ei hemynnau a'i hen donau cynulleidfaol, ac yn hiraethu am danynt mewn gwlad estronol, pan gynhyrfir ei fynwes gan adgofion am gewri y pulpud, meistriaid y gynulleidfa, y rhai rid ydynt mwyach, pan edrycho ar y gwaith a wnaed gan ei dadau i lanhau Cymru oddiwrth bob math o ffolineb a drygfoes, ac i'w throi yn "Hen Wlad y Menyg Gwynion,"—y pryd hynny y bydd yn teimlo yn ei galon mai gwlad yw Cymru y dylai fod yn falch o honi. Ond nid yw neb o blant dynion yn dewis cael ei gyfrif yn benboeth, a cheisia'r Cymro gwladgarol gael rhyw resymau cryfach dros ei frwdfrydedd na'i gariad at Gymru yn unig. "Cariad a guddia liaws o bechodau." Ac er feallai nad yw gwir gariad un amser yn chwilio am y paham, eto hwyrach fod rhywrai yng Nghymru sydd yn wastad yn awyddus i gael eu hargyhoeddi yn hyn yma hefyd drwy y deall, fel y gallont roi ateb i estroniaid am y ffydd sydd ynddynt.

Yn yr ysgrif hon ceisiaf ddweyd ychydig eiriau, awgrymiadau yn bennaf, i ddangos beth yw hanfod gwir genedlgarwch yng Nghymru, a beth yw y rhwymau sydd arnom oll i fod yn genedlgarol. Ni fydd raid i neb mwyach, yr wyf yn hyderu, yn ein plith, edrych i lawr o safle "y gŵr gwybodus" ar ereill o'n cydgenedl fo yn dangos brwdfrydedd dros Gymru. Nid oes dim sydd yn creu y fath ysbryd taflu dwfr oer ar frwdfrydedd ag ychydig o wybodaeth; ac nid oes neb, i'r sawl sydd wedi yfed yn helaeth o ffynhonnau gwybodaeth, yn fwy dirmygedig na'r hwn sydd byth a hefyd o'r safle uwchraddol yn taflu dwfr oer felly ar frwdfrydedd ereill. Y mae digon o bethau yn y byd yma i oeri brwdfrydedd y mwyaf tanbaid, heb i'r gŵr gwybodus gymeryd y gwaith mewn llaw ei hun. Ac y mae yn dda hefyd fod yn y byd yma ddigon o bethau i gynneu brwdfrydedd er gwaethaf y gwybodusion a holl siomedigaethau bywyd.

Pe buasai ein hynafiaid wedi ildio yng ngwyneb yr holl wrthwynebiad a gawsant hwy, pa fath lun fuasai ar Gymru heddyw? Pa fath lun, fe ofynna'r gwrth-genedlgarwr deallgar, oni fuasem yn Saeson? Yn lle bod yn Gymry anwybodus a thlodion, yn gymynwyr coed i'r Saeson, oni fuasem cystal a hwythau, ac yn derbyn eu holl freintiau hwy? Yn lle cael trafferth a helbul i ddysgu Saesneg, buasem o'n mebyd yn gallu siarad iaith prif genedl y ddaear. Ffolineb perffaith, meddant, yw meddwl am gymharu ystad Cymru yn awr a'r hyn a allasai fod pe buasem yn Saeson. Cymharer y rhannau hynny o Gymru sydd wedi dyfod fwyaf dan ddylanwad Saeson a'r rhannau lle y bu leiaf o'u dylanwad, ac fe geir gweled yn amlwg y fath ragor sydd rhyngddynt o ran gwareiddiad.

Ond eto gallwn yn eithaf naturiol ofyn,—os bu rhai o'n hynafiaid mor ffol ag aros yn Gymry,—oni wnaeth ereill o'u dilynwyr ryw les i'n gwlad drwy wneyd y goreu o'r amgylchiadau? Tybed na dderbyniasom ryw les oddiwrth y diwygiadau grymus aeth dros ein gwlad? Tybed na fu dynion fel Howel Harris, Rowland o Langeitho, Charles o'r Bala, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, John Jones Talsarn, Thomas Aubrey, Hiraethog, Henry Rees, gwroniaid Llanbrynmair, Owen Thomas, ac ereill yn rhai y gall eu cenedl deimlo yn falch o'u gwaith? Ai dibrisio a dadwneyd y gwaith a wnaethant hwy, dan gwyno am mai Cymry ac nid Saeson ai gwnaeth, yw ein dyledswydd heddyw? Yr wyf yn meddwl y gwel pob Cymro rhesymol nad oedd y diwygiadau crefyddol hynny ond dechreu cyfnod hanes gwirioneddol Cymru. Y maent wedi dwyn ffrwyth ac i ddwyn ffrwyth mewn diwygiadau gwleidyddol ac addysgiadol a llenyddol. Yn sicr, wrth edrych ar yr hyn a wnaed dros Gymru gan ddynion a erlidiwyd am eu hymdrechion, nis gall mynwes y Cymro lai nag ymchwyddo o falchder a phenderfynu efelychu ei hynafiaid yn y gwaith o ddiwygio ei genedl.

Y mae yn rhyfedd heddyw fel y mae yr ysbryd cenedlgarol a brwdfrydig yma yn dechreu gafael ym mhendefigion Cymru, ac

y mae y llanw o ysbryd cenedlgarol sydd mor gryf yn etifeddion y diwygiadau crefyddol yn llifo drosodd i galonnau deiliaid Eglwys Loegr. Feallai y daw y llanw rywbryd mor gryf ynddi hithau fel y bydd yn dyheu am ddatod y rhwymau sydd yn ei dal wrth yr Eglwys yn Lloegr, ac yn penderfynu dyfod yn Eglwys Gymreig iydd a chenedlaethol, – olynydd yr Eglwys Brydeinig apostolaidd a'i Diwygiadau Methodistaidd. Camgymeriad mawr ydyw i neb feddwl nad oes gan neb hawl i fod yn genedlgarwyr yng Nghymru ond Ymneillduwyr.

Yr wyf yn ofni fod llawer o'r ysbryd gwrth-genedlaethol yng Nghymru yn codi o'r syniad nad oes neb o'r mawrion a'r penaethiaid eglwysig a gwladol yn dilyn y ffydd hon. Fe ŵyr y sylwgar nad yw hyn yn bod, fod amryw o'n prif ddynion, os nad ydynt eto wedi mynegi yn gyhoeddus eu bod o blaid y sefydliadau hynny y byddant, os ydynt yn gyson, yn bleidiol iddynt,—er hynny yn dangos yn eithaf amlwg drwy eu hymddygiadau eu bod mor llawn o ysbryd cenedlgarol a neb, ac nad ydynt ond yn disgwyl i farn y wlad addfedu iddynt hwythau ddangos eu hochr yn amlwg.

Y mae yn bwysig ymdrin yn gyntaf â'r rhesymau yma sydd yn peri i lawer gloffi rhwng dau feddwl gyda golwg ar eu cenedlgarwch. Y mae yn naturiol i rai sydd yn teimlo eu hunain yn analluog i farnu drostynt eu hunain i edrych ar farn y rhai a gyfrifant yn oreugwyr y genedl o ran gwybodaeth ac addysg. Nid anaturiol, felly, ydyw iddynt edrych ar farn y penaethiaid. Wedi gweled, yr hyn sydd yn dyfod yn amlycach bob dydd, fod mawrion a phenaethiaid Cymru,—yn Ymneillduwyr ac yn Eglwyswyr,—yn dyfod yn bleidwyr mwyaf selog y symudiadau cenedlaethol, ni bydd raid iddynt betruso mwyach. Y mae hen deuluoedd pendefigaidd Cymru bellach, ac ereill sydd drwy briodas wedi dyfod i berthyn iddynt, yn dyfod i weld eu bod hwy o uwch gwaed ac o linach uwch na'r bendefigaeth yn Lloegr. Y mae teuluoedd pendefigaidd Cymru yn hannu gan mwyaf o deuluoedd brenhinol eu hunain, a thrwy eu gorchfygiad gan y Saeson wedi cael cymaint o gam a cholled a neb. Yr oedd eu teuluoedd hwy yn noddwyr llenyddiaeth yn llysoedd Cymru, pan nad oedd gan y Saeson lenyddiaeth gwerth son am dani. Yr oeddynt yn etifeddion gwareiddiad uchel yr ymherodraeth Rufeinig pan nad oedd meibion Hengist ond barbariaid, ac arhosodd traddodiadau y cyfnod Rhufeinig yn hir yn y llysoedd Cymreig. Yn yr amser aeth heibio, tuedd y pendefigion Cymreig, fel yr oedd yn eithaf naturiol, oedd bod yn geidwadol. Yr oeddynt yn geidwadol am eu bod yn genedlgarwyr ac yn parchu eu hynafiaid. Erbyn heddyw mae pethau wedi newid; y maent yn dechreu gweled mai gyda phlaid newydd y mae gwir barch i hawliau cenedlgarwyr, ac yn fuan yr wyf yn disgwyl gweled yr hen deuluoedd Cymreig a'u perthynasau, etifeddion brenhinoedd Cymru Fu, yn cadw i fyny draddodiadau cenedlgarol eu tadau, ac yn gweithio ochr yn ochr a'r blaid newydd yng Nghymru, sydd yn awyddus uwchlaw popeth i roi mynegiant dyladwy i'r hawliau hynny. Ai gweddus fyddai eu gweled hwy a'u goruchwylwyr, dynion sydd yn foneddigion eu hunain ac yn Gymry i'r carn, yn gweithio ochr yn ochr a theuluoedd culion gwrthnysig o Saeson ac Ysgotiaid heb draddodiadau teuluol, i wrthwynebu dyheadau eu cenedl eu hunain? Ac felly yn gymwys gyda'r rhai hynny sydd yn perthyn i Eglwys Loegr yng Nghymru,—yn lle ymfalchio mewn perthyn i Eglwys sydd yn eu dibrisio am eu bod yn Gymry, yn edrych ar weinidogion yr Eglwys yng Nghymru fel rhai o salach defnydd na phersoniaid Lloegr ac yn eu dirmygu am na baent hwy yn dilyn defodaeth a rhwysgfawredd Pabyddol y personiaid Seisnig, nid yw yn rhyfedd fod aml i weinidog eglwysig yng Nghymru yn dyheu am ryddid o'i gafaelion, yn dyheu am barch ac ymddiried ei gyd-genedl. Yng nghalonnau rhai o ddeiliaid yr hen eglwys, y mae y gwladgarwch puraf i'w gael, ac oni bai fod ofn ar aml un ddigio rhyw Sais trahaus all fod yn byw yn ei ymyl ac yn dymuno dysgu gwleidyddiaeth iddo, buasent yn fuan yn dangos yn amlwg mai gyda'u cenedl eu hunain y mae eu calonnau. Ond na ddigalonned neb o honynt, nid yw y dydd ymhell pan y bydd perffaith ryddid iddynt i roi mynegiant amlwg o'u teimladau dyfnaf.

Ond feallai fod ereill o'n cenedl yn awyddus i gael rhesymau cryfach na bod y pendefigion a'r mawrion yn dechreu dangos brwdfrydedd cenedlaethol. Ac i'r rhai hynny y mae yn ofynnol i ni esbonio beth yw nod ac amcan cenedlgarwch, a pha fodd y gellir cyfiawnhau cenedlaetholdeb mewn deiliaid o ymherodraeth fawr fel hon. I'r sylwedydd arwynebol y mae yr hen syniad yn aros nad oes gan genedlaetholdeb hawl i ddangos ei hun os bydd cenedl wedi ei gorchfygu ac yn cael ei llywodraethu gan arall. Meddyliant nad oes gan y genedl honno hawl i son am ei chenedlaetholdeb nag i ymfalchio mewn dim o'i hanes, os na fydd yn abl ac yn debyg o adennill â'r cledd yr hyn a gollodd. Ond a ydyw hyn yn wirionedd? Mewn erthygl arall ceisiaf ddangos nad oes a fynno cenedlaetholdeb Cymru a'r cledd.

Aberystwyth. E. Anwyl.

DALEN O GYFLEITHIADAU.

HOMER YN DYSGU YMOSTYNGIAD.

ODYSS: xviii. 130—142.

"A dderbyniwn ni gan Dduw yr hyn sy dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg?'—JOB.
"Myfi a ddysgais, ym mha gyflwr bynnag y byddwyf, fod yn foddlon iddo."—PAUL.

DIAU daear faith ni feithrin un eiddilyn fel y dyn,
O bob dim ar hon anadla, neu ymlusga'n wael ei lun.
Am ddioddef drwg i ddyfod ni feddylia'i fron, cyhyd
A bo'i liniau'n hoew heini, a daioni iddo ddyd
Duwiau gwynion; ond os gofid hwy a ddodant arno i ddwyn,
Dan ei bwn anhydyn odiaeth yw, a'i galon gyson gŵyn.
Canys syniad dyn daearol a newidia'n ol y dydd;
Fel y câ gan Dad y duwiau, felly ei feddwl yntau fydd.
Wele, gynt yn llwybyr llwyddiant byd a'i fwyniant, minnau fum;
Gwnaethum lawer gweithred anfad, dan gymhelliad gallu a grym,
Yn ddibryder tra 'roedd brodyr a fy nhad yn nodded im,—
Felly marwol ddyn, yn hollol ffol a phenrydd byth na boed,
Ond ar ddoniau'r duwiau'n dawel, bid a fyddo'r hyn a roed.

Abertawe. R. MORRIS LEWIS.

CANIADAU ARIEL.

Allan o *Tempest* Shakespeare.

DEUWCH, deuwch i'r traeth melyn,
Deuwch bob yr un,
Ac wedi plygu a chusanu
Y don i ddistaw hun,
Yn ddestlus troediwch yn ol ac ym mlaen,
Ysbrydion mwyn, cydgenwch y gân.

I lawr yn y dyfnder gorwedda dy dad;
Ei esgyrn yn awr sydd i'r gwylar yn rhad;
A pherl yw ei ddau lygad.
Pob peth ynddo ef oedd yn wael a gwywedig
Yn awr môr-newidiwyd i em cyfoethedig,—
Rhyfeddol y newidiad!
A phob awr o'r dydd mae dewines y don
Yn seinio ei farwol gloch yn llon:
Clywch! Ding-dong,
Ding-dong-dong!

Tra gorweddwch yma'n chwyrnu,
'N wyliadwrus fradfwriadu
Mae eich gelyn cyfrwys.
Am eich bywyd os gofelwch,
Ymaith hepian chwi ysgydwch;
Deffrwch ar eich mawr-frys!

Lle sugnai gwenynen,
Yno 'r wyf fi;
Yng nghloch y symylen,
Eto 'r wyf fi.
Yno gorweddaf pan gria dylluan,
Ar gefn yr ystlumyn cymeraf fy hedfan,
I ganlyn yr haf ehedaf i bobman
Yn llawen, yn llawen, y byddaf fi byw,
O dan y blodeuyn prydferthaf ei liw.

Caerbaddon, H. J. EVANS.

BEDDAU'R TEULU.

Rhydd-gyfieithiad o "Graves of a Household" Mrs. Hemans.

CYD-DYFENT oll yn gu a llon
Ar aelwyd ty eu tad;
Ond huno wnant mewn beddau pell,
Mewn llawer estron wlad.

Un hoffus fam, yn niwedd dydd,
Fu'n crymu uwch eu pen,
I wylio hun anwylion sydd
Yn awr tu draw i'r llen.

Wrth afon yng ngorllewin byd
Mewn coedwig gorwedd un;
Y fan, yng ngwyll y cedrwydd du,
A ŵyr yr anwar ddyn.

Y môr glâs eang geidw un
Ym mro y perl mewn hedd;
Anwylaf oedd, ond ni chant ddod
I wylo ar ei fedd.

Is gwinwydd, lle y cwympodd llu,
Y gorwedd un dan draed;
Ei faner rwymodd am ei fron
Yn Spaen ar faes y gwaed.

Ar un y gwlawia'r myrtwydd ddail,
Pan sua'r awel fain;
'Mhlith blodau'r Eidal gwywodd hi,
Yr olaf un o'r rhain.

Dan un pren gwyrdd chwareuent hwy,
Sy'n gorffwys ar wahan;
Wrth lin un fam gweddient gynt,
Neu unent yn y gân.

Eu gwên a fu'n goleuo'r ty,
Eu cân a'i gwnai yn llon;
Gofidus serch, os nad oes byd
Tu hwnt i'r ddaear hon!

Aberystwyth. R. BRYAN.

DARFU Y DYDD.

"The day is done."—LONGFELLOW.

Darfu y dydd, a'r tywyllwch
Oddiar aden y nos ddaw i lawr,
Fel pluen yn disgyn i waered
O asgell rhyw eryr mawr.

Gwena goleuni y pentref
Trwy ganol y niwl a'r gwlaw,
A phrudd-der nas gallaf ei gynnal
Yn drwm ar fy enaid ddaw.

Rhyw deimlad o brudd-der a hiraeth,
Na pherthyn i boen neu fraw;
A thebyga i drallod yn unig
Fel tebyga y nifwl i'r gwlaw.

O tyred, a darllen im' o llig,
Un seml aiff i'm calon brudd,
A liniara deimlad anesmwyth,
Ac a ymlid bryderon y dydd.

Nid o ganeuon y prif-feirdd,—
Ddyrchafant ym mhell uwch law—
Y clywn drwy fynedfa Amser
Adsain eu traed o draw.

Canys fel nodau rhyfelgan
Eu grymus *feddyliau* sy',
Yn awgrymu *llafur* bywyd,
Ac *ymdrech* diddiwedd hefyd;
Ond heno am *orffwys* 'r wyf fi.

Darllen ryw fardd mwy distadl,
Y ffrydiodd *o'i galon* gân,
Fel cawod o gwmwl hafddydd,
Neu ddagrau o'u cartref glân;

Yr hwn, trwy ddyddiau o lafur,
A nosweithiau blinion hir,
A glywai o fewn ei enaid
Fiwsig soniarus a chlir.

Dyna'r caneuon fedd allu
I dawelu temestl cur,
A deuant fel deua molawd
Ar ddiwedd gweddi wir.

Yna darllen o'r gyfrol werthfawr
Dy ddewis gân ar fy nghais,
Ac at odl y bardd ychwanega
Swyn a melusder dy lais.

A llenwir y nos a melodedd;
A gofalon y dydd a'u twrdd,
Fel Arabiaid, godant eu pebyll,
Ac mor ddistaw a hwy ant i ffwrdd.

WM. GRUFFYDD HUGHES.

Tanygrisiau.

NATUR YN GWYWO.

Rhydd-gyfieithiad.

OFNADWY ysbryd heddyw'n brysur sydd,
A chwyfia'n awr y gwyllt elfennau croch
Eu lluman erch; ewyn na tonnau'r aig;
Y cwmwl ddaeth; y deifiol gorwynt blwng
Wyllt ruthra ar ei garlam draws y byd;
Y llwydgoch ddail oll hyrddir oddiar
Eu cangau crin, gwneir balchder gwyrddlas
Yr eang goedwig yn anialwch llwm. [fron

Rwy'n caru'r brudd gerddoriaeth sydd yng nghol
Awelon llym yr Hydref, ynddynt hwy
Clyw'r enaid adlais o ardaloedd pell;
Mewn cydymdeimlad rhyfedd chwydda'm bron,
Uwch, uwch i'r nef cwyd f'ysbryd bach ei ben
Po uchaf rhuad brigwyn donnau'r môr.

Y Gerlan. J. OWEN.

ANN GRIFFITH.

(Y rhagymadrodd i gasgliad bychan o emynnau gyhoeddwyd gan J. Evans yng Nghaerfyrddin yn 1809).

Y RHAN fwyaf o'r Hymnau canlynol a gyfansoddwyd gan Ann Griffith, gynt gwraig Thomas Griffith o Ddolwâr, yn Llanfihangel, Swydd Drefaldwyn—Maent yn dangos ehediadau cryfion, a golygiadau ar Berson Crist a'i aberth sydd oruchel a thra gogoneddus. Wedi gorphen er ys dyddiau â'i thaith drafferthus yma, mae, heb le i ameu gan neb oedd yn ei hadnabod, gyda y dorf orfoleddus fry, yn syllu ar y Person â garodd, ac y canodd am dano yma mor hyfryd. Ymadawodd, gan orphwys yn dawel ac yn ddiysgog ar drefn sefydlog a chyfammod sicr y Drindod, mewn perthynas i gadwedigaeth pechaduriaid trwy y Cyfryngwr mawr—Gellir gweled yn eglur, yn agwedd ei hysbryd, y fath yw dysgeidiaeth yr Ysbryd Glân i bechadur. Nid goleuni heb wres yw ei oleuni; nid syniad cnawdol am Grist, heb barch mwyaf goruchel iddo, mae yn ei genhedlu; ond mae ei oleuni yn dysgu pechadur i adnabod Crist yn gywir, yn ol tystiolaeth y gair am dano; ac hefyd yn llenwi y meddwl â'r cariad a'r parch mwyaf iddo—Trwy yr un ddysgeidiaeth, y caffom ninnau ein haddasu i'r un lle.

Bala. T. CHARLES.

EDWARD RHISIART, YSTRAD MEURIG.

I.

Mawrion yn Ystrad Meurig—a godwyd,
Rhyw gedyrn dysgedig:
Hynod res, eu henwau drig
Yn y wlad yn weledig.

GWYNIONYDD.

MEDDYLIAIS fod y cyfnod presennol,—cyfnod deffro cenedlaethol ac estyn moddion addysg i gyrraedd pob gradd,—yn un tra phriodol i alw sylw at goffadwriaeth yr hen Edward Rhisiart, Ystrad Meurig—un o *pioneers* addysg uwchraddol yng Nghymru, ac un ydoedd megis y ceiliog yn canu cyn dydd, pan oedd tywyllwch yn gordoi gwyneb y wlad, ie, un y costiodd hyrwyddo tipyn ar gwestiwn addysg ymhlith ei genedl rywbeth mwy iddo na llefaru geiriau bost. Costiodd iddo fyw bywyd hen-lancyddol, cynnil, a darbodus, ac ymneillduo oddiwrth bob rhwysg a ffasiwn.

Ganwyd Edward Rhisiart ym mhentref bychan, ond enwog, Ystrad Meurig, sir Aberteifi, ym mis Mawrth, 1714. Ei dad, Thomas Richard, ydoedd deiliwr a thafarnwr, cyffredin ei fyd. Yn hytrach, dywed un ysgrifennydd mai ei fam ydoedd dafarnwraig. Ymddengys taw Gwenllian oedd ei henw hi, ac adnabyddid hi gan hen ysgolheigion Ystrad Meurig wrth yr enwau "Hen Wenllian" a "Modryb Gwen." Yr oedd i Edward frawd, o'r enw Abraham, yr hwn a addysgwyd yn ysgolion gramadegol Henffordd a Chaerfyrddin, ac, yng nghwrs amser, a aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen. Cymerodd y brawd hwn, yn herwydd cyfyngder amgylchiadau, y cynllun o addysgu ychydig fyfyrwyr yn Eglwys Ystrad Meurig yn ystod gwyliau Rhydychen. Dyma, fel yr ymddengys, fu yn gnewyllyn yr hyn, mewn blynyddoedd dyfodol, a ymddadblygodd i fod yn Ysgol Ramadegol enwog Ystrad Meurig.

Diau mai o dan aden a nawdd y brawd hwn y dechreuodd Edward Rhisiart ei efrydion clasurol, y rhai a ddygodd ymlaen i'r fath raddau o berffeithrwydd yn ei flynyddoedd addfetach. Ond cyfarfyddodd ei frawd Abraham â'i ddiwedd trwy syrthio oddiar graig a elwid "Craig Colomennod." Mewn canlyniad, anfonwyd Edward i ysgol Ramadegol Caerfyrddin, yr hon a ddygid ymlaen ar y pryd gan y Parch. Mr. Maddox. Wedi hynny, symudodd i Bontygiddo, ym mhlwyf Llanarth, Ceredigion, lle y bu dros ryw dymor o dan ofal y Parch. Mr. Pugh, gŵr a ystyrrid yn ysgolor Groeg pur dda. Nid yw y manylion ar gael o barthed i hyd tymhorau ei arhosiad wrth draed y ddau Gamaliel hyn.

Yn fuan gwedi hyn, cawn fod teuluoedd John Lloyd, Ysw., o Ffosybleiddiaid a Richard Stedman, Ysw., o Fynachlog Ystrad Fflur, yn rhoddi croesaw brwd a chynnes iddo.

Tua'r flwyddyn 1734 neu 1735 agorodd Edward Rhisiart ysgol ei hun yn Ystrad Meurig, yr hon, o dipyn i beth, a gyrhaeddodd ychydig enwogrwydd. Ond er fod nifer ei ysgolheigion yn cynhyddu ac yntau yn graddol ennill bri fel athraw, digwyddodd amgylchiad tra hynod yn ei hanes, yr hwn, gyda llaw, a deifl oleuni pur danbaid ar onestrwydd a chydwybodolrwydd manwl y dyn. Torrodd yr ysgol i fyny yn ddisymwth, gan gyfaddef ar goedd nad oedd yn ddigon gwybodus i addysgu ac arwain ereill, a bod yn rhaid iddo lymu mwy ar ei gryman ei hun. Pur ychydig o hil syrthiedig Adda fuasai yn ddigon gonest i wneyd cyfaddefiad rhydd, diamwys fel yna. Buasai y rhan fwyaf o ddynion yn ceisio taflu y bai wrth ddrws Rhagluniaeth, a dweyd fod eu hiechyd yn wanllyd, neu roddi ryw esgusawd golygus cyffelyb, yn hytrach na chyfaddef diffyg goleuni. Mae calonnau dynion, yn gyffredin, yn rhy dywyll i ganiatau iddynt addef y tywyllwch sydd yn eu deall. Ond ni pherthynai *humbug* i Edward Rhisiart, ac ni chyffyrddodd hufen mursendod yr oes hon erioed â'i wefusau.

Ond, i fyned ymlaen efo'r ystori. Gwedi torri o hono i fyny yr ysgol, ymroddodd â'i holl egni i ddiwyllio ei feddwl ei hun ac ymrwbio wrth awduron clasurol Groeg a Rhufen, "mewn amser ac allan o amser." Am ysbaid dwy flynedd, cyfeiriai ei gamrau bob dydd, am bedwar o'r gloch yn y boreu, i Eglwys Ystrad Meurig, heb unrhyw gydymaith ond y bardd awenber, yr hynafiaethydd medrus, a'r ysgolhaig gwych, Ieuan Brydydd Hir, gŵr genedigol o'r Gynhawdref, ffermdy ym mhlwyf Lledrod, nid yn nepell o Ystrad Meurig, ac un y bu ir Eglwys Gymreig ei hanner "glemiaw," — chwedl Kilsby,—ar hyd ei oes, am yr unig reswm ei fod yn fwy talentog na'i frodyr. Yn y modd hwn, dygodd Edward Rhisiart ei efrydiaeth ymlaen gyda dyfalbarhad ac egni am ddwy flynedd gyfan, heb esgeuluso ei orchwyl haf na gauaf. Bob boreu, cyn ymaflyd yn ei oruchwylion efrydol yn yr eglwys, troai ei wyneb at Dad yr holl drugareddau mewn gweddi.

O'r diwedd teimlodd ei hun yn ddigon cryf ac arfog i ail-agor yr ysgol, yr hyn a

wnaeth yn y flwyddyn 1746; a dywedir i liaws mawr o efrydwyr ymdyrru iddi o bob cwr o Gymru. Tua'r adeg hon, gadawodd y Parch. Thomas Oliver,—gŵr ag y mae ysgrifennydd y llinellau hyn yn rhyw berthynas pell iddo,—periglor Dudley, yr hwn ydoedd frodor o Ledrod, plwyf yn ffinio â phlwyf Ystrad Meurig, dyddyn a £40 yn ei ewyllys i gynnal ysgol yng Ngheredigion ar gyfer nifer arbennig o fechgyn tlodion. Rhoddwyd yr hawl i benodi meistr i'r ysgol yn llaw Mr. John Lloyd, Ffosybleiddiaid, a'i ddisgynyddion. Ond, trwy ryw anhawsder cyfreithiol, diddymwyd y rhodd haelionus hon. Modd bynnag, gwnaeth Mrs Oliver, y weddw, bopeth yn iawn, gan gyflawni bwriad ei gŵr, a bod yn ffyddlawn i'w ddymuniadau *wedi* i angau eu gwahanu. Trwy garedigrwydd y wraig rinweddol hon, cyflwynwyd amryw ffermydd perthynol iddi i fod yn eiddo parhaus i'r ysgol. Penodwyd Mr. Edward Rhisiart i fod yn athraw. Ymroddodd yntau o ddifrif at ei waith, gan fyw yn gynnil, darbodus, a dirodres, fel o'r blaen; ac, yn raddol, cynhyddodd golud, ond ni roes ef ei galon arno. Yn hytrach, ffurfiodd y bwriad cenedlgarol o sefydlu Ysgol Ramadegol arall, er budd plant tlodion ei gymydogaeth ei hunan. Cawn iddo, yn y flwyddyn 1754, neillduo tyddyn at waddoli ysgol trwy weithred yn Llys y Canghellydd. Yn y flwyddyn 1771, trwy weithred gyffelyb, neillduodd amryw diroedd ereill i'r un perwyl; ac yn y flwyddyn 1774, gwnaeth weithred newydd er atal camddefnydd o'i haelioni. Cawn iddo gyflwyno lliaws o ffermydd yn y modd ac i'r amcan hwn. Priodolir ei lwyddiant yn dyfod i feddiant o gymaint o eiddo i ddiwidrwydd a chynildeb ei fam ac yntau. Trefnodd fod Esgob Ty Ddewi, Iarll Lisburne, Dr. William Powell o Nant Eos, James Lloyd, Ysw., Mabwys, a Thomas Hughes, Ysw., Hendrefelen, a'u hetifeddion, i fod yn ymddiriedolwyr. Dyddiad ei ewyllys ydyw Chwefror 28, 1777. Cyflwynodd hefyd ei lyfrgell lawn a chyfoethog at wasanaeth yr ysgol. Gelwir y sefydliad yn awr yn "*Lledrod and Ystrad Meurig Grammar School.*" Ceir rhai atodiadau tra arwyddocaol wrth ei ewyllys. Dyma un,—

"At fy nghymunweinyddion. — Fy ewyllys yw llesoli yr oes bresennol yn gystal a'r cenedlaethau dyfodol. Gadawer i gariad orthrechu hunan-lesad. Gwerther fy meddiannau presennol yn y dull mwyaf manteisiol, a phriodoler yr arian i brynnu llyfrau i'r llyfrgell. Rhoddwch fy nillad a'r bwydydd a fyddant yn y ty i'r tlodion. Gwneler hyn gyda phwyll." Onid oes ysbryd Cristionogol, llydan, ac iachus, yn rhedeg trwy ac yn trwytho yr atodiad byr hwn?

Teg ydyw crybwyll yn y fan yma nad oedd Edward Rhisiart yn credu nemawr yn y diwygiad crefyddol grymus a gynhyrchid trwy weinidogaeth ei gyfoeswr a'i gymydog, Daniel Rowland o Langeitho. Nid wyf yn cynnyg unrhyw eglurhad ar ei farn a'i deimlad; dim ond crybwyll y mater fel ffaith.

Dylwn, yn bendifaddef, grybwyll i "Ddafydd Ionawr mawr Meirion" fod yn efrydydd yn Ysgol Ystrad Meurig yn nyddiau Edward Rhisiart; a dywedir mai ar lan yr afon Teifi, ar brydnawngwaith ystormus, y cyfansoddodd Gywydd y Daran, pan oedd â'i glustiau ac â'i galon ei hun yn sylweddoli yr

> "Wybrendwrf, draw drwy'r bryndir,
> A dychryn drwy'r dyffryn dir,"

ac yn gweled y fellten fforchog yn gwau o'i gwmpas gyda rhwysg dwyfol.

Yn ysgol Ystrad Meurig yr addysgwyd Dewi o Ddyfed, Llallawg, a'r diweddar Archddiacon Jennings, rhagflaenydd Archddiacon Farrar yn Westminster Abbey. Nid pawb sydd yn gwybod mai gŵr genedigol o geseiliau Mynydd Bach Llyn Aeddwen ydoedd Jennings. Ond dyna'r ffaith. Anfonwyd ef i Ysgol Ystrad Meurig i ddechreu fel cwmpeini i fab Llwyd o Fabwys. Ychydig a feddyliai yr hen Lwyd ar y pryd y deuai Jennings ddistadl, dlawd, i fod yn archddiacon mynachlog Westminster. Ond, mae llwybr Rhagluniaeth yn fain a dyrus, chwedl yr hen wraig honno o Flaenpennal.

Un o Swyddffynnon, gerllaw Ystrad Meurig, oedd y gŵr gor-ddysgedig hwnnw, yr Archddiacon Williams o Geredigion, yr hwn oedd unwaith yn athraw ym Mhrif Ysgol Edinburgh. Bu brawd iddo, os nad dau, yn athraw yn Ystrad Meurig. Gwelais ferch i un o honynt, nith i'r Archddiacon, ar dro yn Ystrad Meurig flynyddau yn ol. Bu gŵr o'r enw Morris yn athraw ar yr ysgol hon, yr hwn oedd berthynas i'r bardd o'r un enw sydd wedi canu mor dda ar Hades, a thestynau ereill. Bu y Parch. L. Evans, cefnder i ddiweddar bennaeth Coleg yr Iesu, Rhydychen, yn brif athraw yma am flynyddoedd. Y prif athraw presennol yw y Parch. John Jones, M.A., gŵr ag y mae ei glodydd fel ysgolhaig clasurol yn hysbys. Ei fab ef, Vernon Stanley Jones, a enillodd yr ysgoloriaeth o fil o bunnau yn Eton ychydig flynyddau yn ol. Y Cymro cyntaf a enillodd hon oedd Dr. Rowland Williams; a da gennym ddeall fod Cymro o Ystrad Meurig yn ei dal yn awr. Y tro nesaf, sylwaf ar fugeilgerddi Edward Rhisiart.

Liverpool. J. MYFENYDD MORGAN.

GOLYGYDDION CYMRU.

II. GOLYGYDD "YR HAUL."

Y MAE hanes Elis Wyn o Wyrfai yn un tra dyddorol,—ei awydd am addysg, ei lafur caled i ddringo i safleoedd o awdurdod y gallai wasanaethu ei bobl o honynt, a llawnder ei lafur llenyddol maith. Gwelodd lawer o'r llon a'r prudd, fel ereill, ac y mae tynherwch llawenydd a phrudd-der Cymru yn ei ysgrifeniadau. Nid wyf fi yn gweled lygad yn llygad ag ef ar bob pwnc, ond yr wyf yn ysgrifennu hyn o nodion gyda theimladau cynnes tuag ato. Cefais ef yn gyfaill hynaws er ys blynyddoedd bellach; ac yr wyf yn cydymdeimlo ag ef heddyw yn ei golled alaethus, gan wybod mai profiad Abraham yn yr hen Gaer Arba honno ydyw ei brofiad yntau,—"Dieithr ac alltud ydwyf fi gyda chwi; rhoddwch i mi feddiant beddrod gyda chwi, fel y claddwyf fy marw allan o'm golwg."

Ganwyd Ellis Roberts Chwef. 13, 1827, yn Nhyddyn Madryn, Llandwrog, yn sir Gaernarfon; ac efe oedd trydydd mab Morris a Margaret Roberts o'r lle hwnnw. Y mae hanes ei febyd yn ddyddorol oherwydd ei fod yn dangos, mewn goleu tarawiadol iawn, awydd aniwall am wybodaeth pan oedd manteision addysg yn brin ac yn ddrud yng Nghymru.



(O photograph gan Russell a'i Feibion.)

Y PARCH. GANON ELLIS ROBERTS
(Elis Wyn o Wyrfai),
GOLYGYDD "YR HAUL."

Gwyn fyd pob plentyn fedr ddweyd mai ei fam a'i hyfforddiodd ym mhen ei ffordd. Dysgwyd Ellis Roberts i ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg gartref gan ei fam cyn bod yn ddeg oed. Arferai'r fam honno roddi gwersi mewn darllen ac ysgrifennu i'w thri bachgen hynaf bob dydd. Darllennent bob yn ail adnod iddi bron bob prydnawn, tra y byddai hi'n gwnio. Ac onid mam ddedwydd oedd, —yr oedd yn gwneyd ei gwaith, ac yn clywed geiriau Duw oddiar wefusau ei rhai bach ar yr un pryd. Darllennai plant Margaret Roberts y Testament a'r Salmau, ac yna'r Beibl i gyd. Yr oedd Ellis yn dechreu darllen y Testament gyda'i frodyr pan yn bedair oed.

Pan yn unarddeg aeth y bachgen i'r felin i helpu ei dad, a daliodd at waith melinydd tan oedd yn dair ar hugain. Yn ystod yr amser hwn cadwodd ddigon o arian i gael dwy flynedd o ysgol. Ond yr oedd yn addysgu ei hun drwy'r cyfnod hwn. Dysgodd Saesneg llyfr mewn ysgolion nos, a rhifyddiaeth, a *book-keeping* at wasanaeth y felin. Dysgodd elfennau Lladin yn drwsgl hefyd, a phroblemau cyntaf Euclid, gyda meibion rheithor Llanllyfni.

Cafodd lawer o help gan ei dad, yr hwn oedd fardd gwlad da, a mab i fardd ac ysgolhaig da,—Robert Morris, Llanystumdwy. Yr oedd ganddo ddigonedd o lyfrau Cymraeg, Saesneg, a Lladin, gyda geiriaduron i'r tair iaith. Darllennai Ellis y rhain bob cyfle gai, yn enwedig *Prydnawngwaith y Cymry*, *Hanes y Ffydd Ddiffuant*, Carnhuanawc, *Taith y Pererin*, *Bardd Cwsg*, yr *Apocrypha*, *Gardd Eifion*, Gwaith Beirdd Mon, *Corff y Gainc*, a'r Beibl wrth gwrs.

Yn niwedd 1850 aeth i'r ysgol at Eben Fardd, a threuliodd chwe mis yno. Yn 1851 derbyniwyd ef drwy arholiad i Goleg Hyfforddiadol Caernarfon. Oddiyno, yn 1852, aeth i gadw ysgol i'r Waen Fawr, gan ddal at wersi'r coleg o hyd,—ac yn y flwyddyn wedyn cafodd dystysgrif ail adran yn yr ail ddosbarth. Yn 1854 aeth i gadw ysgol Llwyn y Gell, Ffestiniog, a gynhelid gan Mrs. Oakeley. Yno daeth y Parch. John Sturkey, sy'n awr yn rheithor Marchwiail, ato i dderbyn gwersi yn yr iaith Gymraeg. A darllenasant yr efengylau yn y Roeg gyda'u gilydd, a rhai llyfrau o'r *Aenid*.

Urddwyd ef yn ddiacon gan yr Esgob Short yn 1862, wedi arholiad rhagarweiniol yn gystal a'r arholiadau cyffredin, ac yn offeiriad yn 1863. Aeth i guradiaeth

Rhosymedre yn 1862, ac o wlad y mŵg a'r glo aeth i wlad fynyddig ac iach Llanfihangel Glyn Myfyr, fel rheithor, yn 1866. Yn 1872 cafodd reithoriaeth Llangwm, ardal eithaf anghysbell a mynyddig yn ol syniadau pobl nad ydynt yn hoff o dawelwch a neillduedd, ac yno y mae hyd y dydd hwn. Eleni y rhoddwyd iddo ganoniaeth fygedol yn eglwys gadeiriol Llanelwy.

Nid ei ddyledswyddau eglwysig yn unig gyflawnodd, bu ei lafur yn doreithiog ym meusydd llenyddiaeth Cymru. Canodd awdlau, er heb wobrau, am faes Bosworth, ac am ieuenctyd, ac am dymhorau'r flwyddyn,—ac y mae y rhai hyn oll yn argraffedig. Y mae ei restr anrhydedd Eisteddfodol yn faith ac yn bwysig,—awdl Boadicea yn Rhuddlan, 1850; y Caethwas yn Ffestiniog, 1854; cader Dyfed yn Llanelli, 1856, am awdl ar y Saboth; awdl Beli a Brân yn Eisteddfod Powys yn Rhuthyn, 1857; cader Eryri yng Nghaernarfon yn 1870 am awdl ar Wareiddiad; coron Caernarfon yn 1880 am bryddest ar Fuddugoliaeth y Groes; cader Powys yn Llangurig, 1882, am awdl ar Gurig Sant. Dechreuodd feirniadu i Eisteddfod genedlaethol Bangor yn 1874, ac y mae wedi cymeryd rhan ymhob un byth er hynny.

Cyfieithodd esboniad yr Esgob How ar yr Efengylau, yn bedair cyfrol, ac efe yw golygydd *Hymnau yr Eglwys*. Gwnaetu lawer dros lenyddiaeth gyfnodol Cymru. Bu'n ohebydd cyson i'r *Cymro* a'r *Llan a'r Dywsyogaeth* rhwng 1860 ac 1884. Yn Ionawr 1885 dechreuodd olygu'r *Haul*, ac y mae yn aros yn y gwaith hwn o hyd. Ychydig ond rhai profiadol mewn gwaith tebyg fedd syniad am y gwaith sydd ynglyn a golygu misolyn fel hwn. A phan ddywedaf mai gwaith y golygydd yw'r holl ysgrifau di-enw, gwel darllenwyr y cyhoeddiad eglwysig faint y maent yn nyled Elis Wyn o Wyrfai. Y mae'r *Haul*, fel o'r blaen, yn gwasanaethu'r eglwys sefydledig yng Nghymru; ond y mae ei ysbryd wedi tyneru a lledu dan ofal Elis Wyn. Er ffyddloned ydyw i'w eglwys, llenor Cymreig ydyw'r golygydd yn gyntaf peth. Nodwedd ei arddull a'i feddwl ydyw ei gariad at dlysni,—dyna pam y mae ei iaith mor felodaidd a llefn, a dyna wna iddo bob amser roddi cymaint o bwys ar brydferthwch trefn mewn addoliad. Y mae'n olygydd gofalus, ni cheir gwall gwasg yn yr *Haul*, nac erthygl heb ei heisio ac heb ei thaclu. Bydd y cyfrolau fu dan ei ofal yn meddu gwerth llenyddol a dyddordeb yn oesau dyfodol Cymru.

Clywais droion fod nofel Elis Wyn o Wyrfai,—"Llan Cwm Awen,"—yn fath o hunan-gofiant yr awdwr. Ac yr wyf yn gwybod mai dyna ydyw,—nid yn gymaint fel darluniad o'i amgylchiadau personol, ond profiad personol yr awdwr ydyw, a darluniad o'i fywyd mewnol. Gwn fod yr holl hanes, mewn gwirionedd, yn ffeithiau, a rhai adnabyddodd yr awdwr yw'r cymeriadau, oddigerth Llywelyn Llwyd ac Angharad. A hwyrach ei fod yn adnabod y rhai hynny, hefyd, fel rhai gwirioneddol. Anodd iawn ydyw creu,—gwisg ac enw ydyw'r unig ffug,—a phan glywaf fod cyfaill wedi cyhoeddi nofel, meddyliaf bob amser mai yn honno y caf yr hanes goreu am dano ef ei hun.

Y mae Cymru, a'r eglwys sefydledig yn enwedig, dan ddyled fawr i olygydd yr *Haul* am gymorth i ymburo ac i ymgoethi, ym mhrydferthwch bywyd y meddwl a'r gân.

HEN SASIWN.

(Codwyd o lawysgrif Ebenezer Richard).

Mewn Cymdeithasiad Flyneddol a gynnaliwyd yn Llangeitho Awst 6, 7, 1829.

Bu eisteddfod am 8 y boreu cyntaf. Am 10 ymddyddanwyd a William Llewelyn ac a Benjamin Evans fel rhai i gael eu neillduo, am eu crefydd bersonol ac am eu golygiadau ar y gwaith, yn enwedig y gorchwyl newydd y galwyd hwy atto. Cafwyd llawer o foddlonrwydd yn eu hattebion.

Am 1, Mr. Arthur Evans yn Gymedrolwr,—Bod y Gymdeithasfa nesaf i fod yn Cryghywel, Hyd. 20, 21, 1829.

Cyffawyd cyfarfodydd y Gogledd, ac annogwyd rhai i fyned iddynt. Annogwyd at orphen y casgliad cennadawl.

Crybwyllwyd am Jubili'r Ysgolion Sabbothawl.

Ymddyddanwyd a Lewis Edwards fel pregethwr ieuange ar ei dderbyniad i'r Corph. Am ei brofiad gan Mr. Jno. Roberts, am ei farn gan Mr. J. Evans, am ei gymmelliadau i'r gwaith gan Mr. William Roberts, Amlwch.

Am 8 y 7fed ordeiniwyd pedwar o'r brodyr yn y drefn ganlynol, sef Edward Jones a David Jenkins dros sir Aberteifi, Benjamin Evans dros sir Forganwg, a William Llewelyn dros sir Benfro.

Dechreuwyd trwy fawl a gweddi gan Gruffydd Solomon. Yna darllenodd Mr. John Roberts yr Ysgrythyrau appwyntiedig ac a weddiodd mewn modd taer a dwys. Gofynnodd yr ysgrifenydd a oedd y Corph wedi trafaelu yn rheolaidd yn newisiad y brodyr hyn hyd yma. Attebodd Thomas Lewis, Tal-llychau,* fel un o'r cynrychiolwyr a throstynt oll, ei fod yn hollawl reolaidd. Llefarodd Mr. William Hafard yn fyr ac yn oleu am nattur eglwys. Gofynodd Mr. William Roberts Amlwch y gofyniadau Yna gofynodd Mr. Williams, am gymmeradwyaeth y Corph yn bresennol o honynt, yr hyn a arwyddwyd yn unfryd gan bawb. Rhoddwyd y cyngor gan T. Richard, a gorphenwyd trwy weddi gan James Hughes sir Carnarfon.

*Awdwr,—"Wrth gofio ei ruddfannau'n yr ardd."

LLANWDDYN.

FEL YR OEDD AC FEL Y MAE.

DAETH i fy mryd, dair neu bedair mlynedd yn ol, i ymweled a Llanwddyn. Ar foreu teg o haf, yn y flwyddyn 1888, a haul Mehefin yn gwenu ar fryn a dôl, gan wasgar ei belydrau llachar er hapusrwydd i filoedd o greaduriaid heblaw fy hunan, cyfodais yn foreuach nag arferol gan benderfynu rhoddi fy mwriad mewn gweithrediad. Cymerais, neu yn hytrach cymerasom,—oherwydd yr oedd dau gydymaith gyda mi,—y tren yng ngorsaf Croesoswallt, ac ar ol pedair milldir o deithio ar hyd y ffordd haiarn, disgynasom yng ngorsaf Llynclys. Yma, tra yr oedd fy nau gydymaith yn chwilio am gerbyd, ac yn gwneyd parotoadau gogyfer a'u taith, mwynheais fy hun trwy fyned i edrych ar y llyn oedd yn gorwedd yn dawel a llonydd yn ymyl yr orsaf oedd yn dwyn ei enw. Nid ydyw Llynclys ond bychan o ran maintioli. Cuddia oddeutu erw o dir. Ond er ei fychandra y mae yn hynod o dlws; yr ydoedd felly yn enwedig y boreu hwnnw. Nid hir y bum yno cyn gweled un o weithwyr y gymydogaeth yn troi allan o'i fwthyn clyd i fyned at ei waith ar un o'r ffermydd cyfagos. Cyfarchais well iddo, a holais ef am y llyn. Aeth yntau yn frysiog trwy yr hanes sydd, yn ddiau, yn wybyddus i ti, ddarllennydd. Oesau yn ol safai plas gorwych yn y fan y mae y llyn yn awr, ond oherwydd drygioni ac anuwioldeb ei breswylwyr, disgynnodd arno felldith y Goruchaf, yr hon a barodd i'r ddaear ymagor, a llyncu y palas a'i breswylwyr, gan ei lwyr ddileu oddiar wyneb y ddaear. Llanwyd y gwagle â'r llyn a elwir yn Llynclys; ac ystyr y gair, yn ol hen draddodiad, ydyw,—llys suddedig. Nid anghofiodd y gweithiwr ddweyd, ychwaith, fod y llyn, yn ol tyb y gymydogaeth, yn ddiwaelod. Credai yn ddiysgog yng ngwirionedd y ddamcaniaeth; a chan mai ofer ydoedd ceisio ei ddarbwyllo am dwyll y chwedl, gadewais iddo fyned ymaith.

Erbyn hyn yr oedd fy nau gydymaith yn barod, ac yn disgwyl am danaf, i gychwyn i'n taith. Yn y man cawsom ein hunain mewn cerbyd cysurus, dynnid gan geffyl golygus a chryf trwy blwyf Llanyblodwel. Cyffyrdda Clawdd Offa â'r plwyf hwn, yr hwn a roddodd, y mae yn ddiameu, iddo ef ac i'r eglwys yr enw. Beth arall a all fod ystyr yr enw ond Llan-y-blaid-wal? Saif yr enw yr un, ond y mae yr ymbleidio wedi darfod. Y mae canolfur y gwahaniaeth rhwng y Sais a'r Cymro wedi ei dynnu i lawr yn llythyrennol ac ymarferol, oherwydd y mae y cydgordiad perffeithiaf heddyw rhwng y ddwy genedl o bob tu i'r clawdd, oedd yn derfyn i'w hynafiaid. Ac er mai enwau Cymreig sydd ar y llefydd o amgylch, eto perchenogir hwynt heddyw gan mwyaf gan ein brodyr y Saeson. Y mae toraeth o faterion dyddorol i'r hynafiaethydd oddi fewn ac allan i eglwys y plwyf hwn. Saif yr eglwys, gan gyfodi ei thŵr yn uchel i'r lan, ar lan yr afon Tanat. Oddi mewn y mae yn gampwaith celfyddyd, gydag olion hynafol iawn. O'i hamgylch, oddi allan, gwelid hen goffinau meini, y rhai, pe medrent, a adroddent lawer ystori ddyddorol am a fu.

Oddi yma daethom i Langedwyn, lle yr arosasom ennyd i edrych ar gofadail ydiweddar Syr Watcyn,—y tywysog yng Nghymru, fel y'i gelwid. Saif y gofadail yn y fynwent ar ymyl y ffordd, a gwyneba y palasdy, lle y triga ei weddw oedrannus.

Yn nesaf daethom i Lanrhaiadr ym Mochnant, a thra yn edrych ar y lle rhedai ein meddyliau yn ol i'r amser gynt, pan yr oedd y Dr. Morgan yn rheithor y plwyf. Yma y gorffennodd gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg. Llawer byd a sonnir yn awr am waith awdurdodau bwrdeisdref Lerpwl yn cronni dyfroedd y Fyrnwy, a'u troi i wasanaeth eu dinas fawr. Ond nid yw y camp celfyddydwaith hwn ond gwaith bychan yn ymyl yr hyn a wnaeth y Dr. Morgan ym mhlwyf dinod Llanrhaiadr. Trodd ef y dyfroedd byw i redeg i bob aelwyd yng Nghymru. Ac wrth feddwl am hyn, rhedodd i'm cof bennill rhagorol Tudno, y bwriadwyd ei roddi ar gof-golofn yr Esgob Morgan yn Llanelwy,—

> "Wele gofadail i guaf awdwr
> Droes agoriadau drws y Gwaredwr;
> Cyflwynai erom, fel cyllawn arwr,
> Ei gysegredig oes i'w Greawdwr;
> Fyth-gyfoethog gyfieithwr! drwy'r oesoedd
> Mawrygwn, bobloedd, Morgan y Beiblwr."

Oddiyma daethom i Bennant Melangell. Dywed un hen draddodiad mai merch i frenin Gwyddelig ydoedd Melangell, yr hon a dyngodd lw o wyryfdod; ac er mwyn cadw ei llw, a rhag ei thad, yr hwn a fynnai iddi ymbriodi â rhyw dywysog Gwyddelig, ffodd i'r ardal anghysbell hon, lle y treuliodd weddill ei hoes yn wyryf deg. Rhoddwyd iddi ddarn o dir gan Frochwel Ysgythrog, tywysog Powys, i sefydlu abaty arno, yr hyn a wnaeth, a bu yn abades ynddo hyd ddydd ei marwolaeth. Wedi ei marwolaeth claddwyd hi ym mynwent y Pennant, yr hwn alwyd byth wedyn yn Bennant Melangell. Y mae llawer o draddodiadau am dani yn y plwyf, a dywedid

na wnai un o'r plwyfolion, hyd ddechreu y ganrif hon, ladd ysgyfarnog, am y credent fod nawdd Melangell dros y creaduriaid er pan y llochesodd o dan ei mantell un o honynt a helid gan Frochwel, y tywysog, yn y flwyddyn 604. Ei gweled yr adeg honno mewn ffurf ddefosiynol yn y goedwig, a'r ysgyfarnog o dan ei mantell, a barodd iddo roddi darn o dir iddi i adeiladu ei habaty. Dywedid hefyd pe gwelai un ysgyfarnog,—y dosbarth hwnnw o greaduriaid a elwid yn y gymydogaeth yn "ŵyn Melangell,"—yn cael ei hela gan y milgi cyflymaf, na fuasai raid iddo ddweyd ond "Duw a Melangell fyddo gyda thi" er sicrhau iddi ddiogelwch rhag ei gelyn.*

Gadawsom y Pennant, a chyn hir amser daethom i Hirnant, lle y gwelsom enau y twnel a wnawd o dan y mynydd i gludo y dwfr o Lanwddyn ar ei ffordd i Lerpwl. Troisom i fewn i'r gwesty yma i adgyfnerthu tipyn ar y dyn oddi mewn, a thra y buom wrth y gorchwyl pleserus hwn gogleisid ein clustiau a'n teimladau gan fiwsig melodaidd hen delynor. Chwareuai hen alawon Cymru ar ei delyn oddi allan, a swynol iawn y swniant ar ein clustiau.

Unwaith drachefn cychwynasom i'n taith, ac ar ol croesi rhyw dair milldir o fynydd-dir cyrhaeddasom derfyn ein siwrnai. Y peth cyntaf a dynnodd ein sylw ydoedd y mur,† neu y gwrthglawdd cadarn oedd bron wedi ei gwblhau ar draws gwddf y dyffryn er cronni dwfr yr afon yn llyn. Gosodwyd ei sylfaen i lawr gan y diweddar Arglwydd Powys yng Ngorffennaf y flwyddyn 1881, pryd y traddododd un o'r areithiau mwyaf dysgedig a draddododd erioed. Mesura y mur ar ei hyd 1,255 o droedfeddi; ei led yn y gwaelod yw 100 troedfedd; a'i uchder o'i sylfaen i'r lan ydyw 139 o droedfeddi. Safasom ar y mur anferth hwn, gan edrych ar y dyffryn a orweddai o'n blaen, ac anhawdd oedd dychmygu am le wedi ei wneyd gan natur yn fwy cyfaddas i'r diben o wneyd llyn o hono na hwn. Rhedai dau fynydd cyfochrog o bob tu iddo, ac yn y pellder ymnesent at eu gilydd, gan ffurfio dyffryn, trwy yr hwn y rhedai y Fyrnyw furmurol. Tua dwy filldir a hanner o'r mur, yn y dyffryn cysgodol hwn, y saif pentref Llanwddyn. Heddyw gwelid lliaws mawr o dda a defaid yn ymborfâu yn hamddenol ar y gwastadedd, gan fwynhau rhoddion hael Rhagluniaeth, er nad ydoedd y dyffryn i'w gymharu mewn ffrwythlondeb â dyffrynnoedd ereill Cymru. Cyfeiriasom ein camrau tua r pentref; ac wrth fyned pasiem heibio i fwthynod y gweithwyr, y rhai a dynnid i lawr. Ni adeiladwyd hwynt ond i fod dros dymor yn unig, ac am hynny nid ydoedd eu tynnu i lawr yn rhyw orchwyl torcalonnus iawn. Am tua saith mlynedd bu y lle anghysbell hwn yn boblog gan weithwyr, ond gellid gweled wrth y parotoadau mawrion i ymadael na fyddai felly yn hir. Pasiasom heibio i'r tŵr, a genau y twnel oedd i gludo y dwfr o dan y mynydd i Hirnant,—yma gwelem gampwaith celfyddyd. Yn y man daethom i'r pentref, a chawsom bawb yn prysur barotoi i ffoi rhag y diluw. Yr oedd yr eglwys a gysegrwyd i goffadwriaeth Ioan Fedyddiwr, a ddelid gynt gan y *Knights Hospitallers*, wedi ei dadwisgo o'i holl gelfi, gan adael yn unig y muriau moelion i aros diwrnod eu dymchweliad hwythau, garreg oddiar garreg, yr hwn nid ydoedd nepell. Yr oedd preswylwyr Dinas y Meirwon wedi eu symud eisoes yn drefnus i'w preswylfod newydd ar y bryn ar du gogleddol y mur. Cawsom ymgom â rhai o breswylwyr y pentref, yn wŷr a gwragedd,—a dywedent nad oeddynt erioed wedi dychmygu y cawsent hwy eu haflonyddu. Er gweled y mur yn beunyddiol ddyrchafu i'r lan, ac er iddynt gael eu hysbysu o'r adeg y buasai yn rhaid iddynt ffoi am eu heinioes i'r mynydd, eto anghredinwyr y mynnent fod. Ond heddyw dyna eu bythynod yn cael eu tynnu i lawr, a hwythau yn gorfod ffoi. Fel y cynddiluwiaid gynt, ni chredent hyd nes y'u gorfodwyd. Cyfaddefent mai anhawdd ydoedd ymadael â lle eu genedigaeth. Rhuthrai adgof ar ol adgof o amser eu hieuenctyd i'w cof. Yno y ganwyd ac y magwyd hwynt, ac ar y dolydd islaw yr arferent chwareu pan yn blantos mân. Er nad oeddynt i fyned yn nepell, eto anhawdd ydoedd torri eu cysylltiadau â'r hen ddyffryn anwyl a chyrchleoedd hapus eu mebyd. Rhwng bodd ac anfodd myned a orfu iddynt wneyd, a myned adref a orfu i ninnau y noson honno, i ddychwelyd ymhen ychydig fisoedd i weled y cyfnewidiad mawr a rhyfedd.

Safasom uwaith drachefn ar y mur, lle y safasom fisoedd cyn hynny, a gwelem o'n blaen tua chwe milldir o ddwfr o'r mur i enau y Fyrnwy. Dywedir fod arwynebedd y llyn yn 1,115 o erwau; ac felly y mae yn fwy o bymtheg erw na llyn y Bala. Rhodiasom o'i amgylch ar hyd y ffordd newydd a wnaed; ac yn wir mawr oedd y cyfnewidiad. Ar ol talu ymweliad a'r eglwys fechan ar y bryn, a'r gwesty godidog yn ymyl, dychwelasom o Lanwddyn trwy Lanfyllin, hyd yn hyn am y tro olaf.

ISFRYN.

* Rhoddir y chwedl hon gyda chyfieithiad o honi yn y drydedd gyfrol o'r *Archæologia Cambrensis*.

†Ar y mur y mae ffordd a mur-ganllawiau iddi; oddi tan y ffordd y mae bŵau i ollwng allan y gor-llanw yn y llyn.

HEN LYFRAU PLWY.

II. LLYFR PLWY LLANUWCHLLYN.

RHYW ugain mlynedd yn ol digwyddais droi i dy ewythr i mi, a gwelwn bentwr o hen lyfrau carpiog a llaith wedi eu hel at eu gilydd o bob hen gorneli, yn barod i'w cludo i ffos y felin gerllaw. Yr oedd llu o honynt yn bur anyddorol i mi,—pregethau Saesneg sych-foesol a di-enaid y ddeunawfed ganrif, cyfrolau trwchus o enwau rhai wedi taflu rhyw swllt at achosion da, hen draethodau ar y diluw ac ar y planedau ac ar fesur coed. Toc, pan oedd fy mysedd yn dduon gan lwch llaith y llyfrau a phan oeddwn ar roddi i fyny gloddio i'r pentwr, rhoddais fy llaw ar ysgriflyfr, heb yr un amlen iddo, y mwyaf carpiog o'r holl gwmni carpiog hynny. Dechreuais ei ddarllen,—a buan iawn yr enynnwyd fy nyddordeb gan hanes plwyfo begeriaid a lladd llwynogod a chathod coed.

"Fy ewythr," ebe fi wrth hen wr rhadlon deg a thriugain oed, oedd yn ysmygu mewn heddwch dan goeden wrth ddrws y ty,—canys canol haf tesog oedd hi,—"fy ewythr, o ble daeth yr hen lyfr yma, a beth ydi o?"

Rhoddodd yr hen wr ei bibell ar y garreg farch a dechreuodd graffu ar yr hen lyfr drylliedig. "Hen lyfr y festri ydyw," meddai. "Y mae o yma ers deugain mlynedd. Yr ydw i'n cofio fel doe 'mod i wedi troi at siopwr yn y Llan ddeugain mlynedd yn ol, i brynnu tybaco. Mi gwelwn o'n rhwygo dalennau hen lyfr i lapio'r tybaco. Mi ofynnes inne beth oedd y llyfr, a'r ateb ges i oedd mai llyfr o'r eglwys, oedd y clochydd wedi ei werthu i lapio nwyddau siop. A chan fy mod i'n dal i sbio arno, mi rhoddodd y siopwr o i mi. Mi cei dithe fo gen inne, os gwnei di rywbeth a fo."

Y mae'r dalennau cyntaf wedi colli, a'r dalennau olaf; ond y mae hanes y plwy yma yn bur gyflawn rhwng 1711 a 1750. Yr oedd hwn yn gyfnod dyddorol iawn i mi. Clywswn fod rhai o'r Fychaniaid ymysg gwrthryfelwyr 1715 a 1745, ac yr oedd hen draddodiad yn y fro fod dau o honynt wedi dod yn ol i'r Prys o frwydr Culloden, wedi lladd eu chwaer yn ei gwely yn ynos oherwydd ei bod yn caru'n groes i'w hewyllys, ac yna wedi croesi'r môr am eu bywyd i rywle na ddaeth gair o'u hanes o hono byth. Gwyddwn fod y cyfnod yn un hynod yn hanes crefydd hefyd, pan oedd disgyblion Morgan Llwyd wedi darfod, a phan na chlywsid llais Howel Harris eto oddi ar garreg farch y Felindre.

Dyma ran o "gyfri Thomas Edward, warden am y flwyddyn 1711,"—

Yn gynta fo dalodd am gymisiwn i gael i lw	0	1	9
Am i lw fo dalodd	0	0	6
Am ddiod wrth gymerud i lw	0	0	4
Am wialen hayarn a hoilion i ddal y pulpud	0	1	8
Am ddiod rhwng y plwufolion wrth osod y pulpud	0	1	6
Am ddanfon y plentun o'r plwu i Arth beibio i Morus Gruffydd	0	1	6
Am gau y fynwent a rhoi brwun yn yr eglwys beder gwaith yn y flwyddyn	0	9	6
Am wudro yr eglwys	0	14	3
Am ddiod wrth osod y gwaith	0	0	9
Am ddwu gath goed a chwe llwunog i Gryflydd Thomas	0	7	6
Am lwunog yn noludd yr Afon	0	5	0

Llawer glywais o dro i dro, yn efail y gof ac yn yr odyn, am y gath goed. Disgynnai oddiar gangau'r coed ar yr hwn gerddai neu a farchogai hyd y ffordd, a gobaith gwan oedd i hwnnw am ei fywyd meddir. Ofnwn yn ddirfawr wrth fynd adre, ac ni cherddwn dan goeden am y byd, ond hyd heddyw yr wyf mewn anwybodaeth perffaith am natur a hanes y gath goed. Yn unig mi a wn ei bod yn ddigon adnabyddus yn Llanuwchllyn yn nechreu'r ganrif ddiweddaf, ac yn wir hyd ei diwedd hi.

Y mae un peth pur awgrymiadol yng nghyfri Owen Richard, warden yn 1712, sef swllt am ben rhaw newydd a durio caib. Talwyd i rywun un swllt ar ddeg "am mendio y beibl a'r comon prayar." Dyma ddarn o gyfrif i ddangos fel y cerrid coeden,—

Am bren yn Rhiwedog	0	19	3
Am i dynnu o'r coud at y Llun i John Jones o Lanfawr	0	2	6
Am i gario dros y llun i John Morgan	0	1	6

Y mae yr enwau dipyn yn wahanol i enwau plwyfolion ein dyddiau ni,—Robert Arthur, Mary ych Cadwalad, Jane Morgan Hugh, Gwen Robt. Wiliam. Ond heddyw prin y mae Cymro mynyddig a'i hystyria yn fraint cael ei alw ar enw Arthur Fawr, gwell ganddo fod yn Jon Jôns. Ac nid oes wraig labrwr drwy'r fan na ddisgwylia i'r siopwr ei chyfarch fel Musus Jôns.

Hawdd ydyw canfod pwy oedd gelynion yr amaethwr oddiwrth y cyfrifon,—

Am dynu cowion brain yng Nghaer Gai a Glan Llyn, deuddeg igien	0	3	0
I Robert Edward Richard am giw cigfran	0	0	2
I William Roberts o Gefen y Prys am ladd llwynoges	0	5	0
I Thomas Griffith o'r Trowsgoud a'i feibion am ladd llwynog a phump o genawon	0	17	0

Lladdodd Tomos Gruffydd laweroedd o lwynogod ac o gathod coed,—yr oedd cathod

coed i fyny yn y Trawsgoed, ac yn uwch i fyny yng nghanol y mynyddoedd.

Dyma linell ddengys mai anwastad oedd llawr brwynog yr hen eglwys,—

I Ellis Maurice am fflagio yr allor, ag am gario pridd i'w gwastadhau hi, ag amriw fannau ereill yn yr eglwys, ac am drwsio bwlch yn y beddrod.	0	2	0

Yr oeddis newydd adnewyddu yr eglwys, neu ryw ran o honi beth bynnag. Hanner can mlynedd cyn hynny yr oedd y plwyfolion wedi adeiladu clochdy newydd ar fur talcen yr hen eglwys, ac yr oedd Rowland Fychan, wrth edrych arno o Gaer Gai, wedi ei ddesgrifio fel hyn,—

"Tebyg i het newydd ar ben hen lanc
A fyddo ar drancedigaeth."

Nid oedd pryd o fwyd yn costio rhyw lawer; chwe cheiniog oedd Cadwaladr Jones yn dalu yn 1718 am "fwyd a diod i'r pen cwnstabl" wrth ddod o'r Bala.

Cesglid llawer i'r tlodion, yn yr eglwys ac mewn claddedigaethau, ac y mae'n amlwg y byddai aml un yn gofalu am roddi ffyrling yn ei boced cyn cychwyn. Nid i deulu'r hwn a gleddid y gwneid y casgliad, fel yn sir Gaernarfon a Mawddwy, ond i'r mwyaf rheidus yn y plwy. Y mae'n debyg mai cynhulliad yr eglwys a chynhulliad claddu fyddai'r rhai mwyaf lliosog; ond erbyn hyn y mae'r claddedigaethau mawrion yn prysur ddarfod, ac y mae llai o wastraff ar amser gan rai'n cymeryd mantais ar achlysuron galarus i ddod at eu gilydd i hel straeon. Casglwyd chwe swllt a thair ffyrling i Jane Morgan Hugh yng nghladdedigaeth Rowland Ellis; yr oedd ffyrling hefyd yng nghasgliad gŵr tlawd o Lan 'Sant Ffraid ym Mechen oedd yn ymhyfrydu mewn enw digon hir i fab duc,—John Rowland Shon Howel. Y mae llawer enw ty yn rhestr y tlodion nad oes yn awr ond ochr bryn neu ddôl werdd lle y bu gynt,—Ty Gwyn ar y Ddôl, y Parc Bach, Prys Bach, Prys Uchâ, Ty'n y Pistyll, Ty'n y Celyn, y Gitel, Ty'n y Gwrych. Casglwyd aml dro i Gaynor Morgan Owen hyd nes o'r diwedd y talodd y plwy ddeuswllt am amdo iddi. Casglwyd unwaith i wraig yn sir Faesyfed oedd wedi cael colled drwy dân; a gofalwyd am hen wr a ddaeth o rywle dros Fwlch y Groes, gan ddweyd ei fod dros gan mlwydd oed. Dro arall telir am gynnal gwraig milwr glafychodd pan oedd ei gatrawd ar ei ffordd i Aberystwyth.

Mewn un lle y mae taid, tad, a mab o Nant y Deilie a'r Wern yn cyd-eistedd yn y festri,—Dafudd Stephen, Stephen David, a David Stephen.

Dyma ychydig o gyfrif Henry Jones, warden yn 1732,—

Talodd am drwsio ystrodyr yr elawr feirch yn y Bala	0	0	8
Gwariodd wrth waitio am i thrwsio hi	0	0	4
Talodd i Mr. Peter Powell, y rurall dean, wrth viewio yr eglwys	0	3	8
Gwariodd am ddiod yr amser hwnnw	0	0	4

Pan nad oedd ffyrdd ond llwybrau traed, rhaid oedd wrth yr elor feirch. Dau bren hir oedd, a lle i'r arch ar eu canol; yr oedd dau geffyl rhwng y breichiau, un ymlaen ac un yn ol. Nid wyf yn cofio elor feirch yn y plwy hwn; ond y mae un yn Llangower, y plwyf nesaf, —gwelais hi ychydig ddyddiau'n ol yn yr ywen.

Ysgrifennir hanes cyrddau'r festri gan y person, yn Saesneg. Y mae rhai o'r enwau yn enwog yn hanes llenyddiaeth Cymru. Yn gyntaf rhai arwyddir y cofnodion gan Fychaniaid Caer Gai, disgynyddion Rowland Fychan, a Gwerfil Fychan hwyrach. Ar eu holau hwy daw llu o berchenogion tiroedd ereill, pob un yn byw yn ei dyddyn ei hun,—y Prys, Llwyn Gwern, Nant y deilie, Blaen Lliw, a llu ereill. Erbyn heddyw, yn yr holl blwy eang, nid oes ond un o'r ystadau bychain yn aros yn anibynnol ar yr un tirfeddiannydd mawr. Y mae disgynyddion Seimon Morgan eto'n dal eu treftadaeth hyd y dydd hwn, er gwaethaf gwanc tirfeddianwyr mawrion ac ystrywiau cyfreithwyr yr hen amseroedd,—ystrywiau wna i lawer hen ffarmwr led dybio eto mai mynd dros ben pobl ereill yw gwaith pob twrne. Er fod rhai o ddisgynyddion Seimon Morgan yn gwisgo ei gyfenw, nid oes neb o honynt, trwy wybod i mi, yn galw ei hun yn Seimon.

Am y lleill, y mae eu disgynyddion yn yr Amerig ac yn nhrefydd mawrion Lloegr, ac nid oes bia yr un o honynt fodfedd o dir yn Llanuwchllyn. Dyma Henry Humphreys a Rowland John wedi torri llythyrennau cyntaf eu henwau fel y torrent hwy ar ochrau eu defaid gyda'r llythyren bits. Dyma David Stephen wedi medru torri "capitol D,"—llawer o ymryson torri'r llythyren hon fu gan yr hen bobl hyd ochrau'r cerrig gleision. Dyma Simon Owen wedi treio torri S, ac wedi gorfod ei galw "the mark of Seimon Owen." Ni threiodd Thomas Edward a Reinald Evan dorri dim gwell na chroes. Ond y mae y rhan fwyaf yn ysgrifennu llaw dlos, yn enwedig Simon a John Morgan, Rowland Sion, John Evans, a Robert Lloyd.

Y mae rhyw ramant fechan yn gysylltiedig âp hob un o'r enwau hyn.

CHWEDLAU A CHANEUON LLAFAR GWLAD.

Y DARN cyntaf o lenyddiaeth llafar gwlad lynodd yn fy nghof oedd,—

"Llanciau'r Eryri,
A'u gwyn gyll a'i hennill hi."

"Sut yr ydach chi heddyw, lanciau'r Eryri?" Dyna bob amser fyddai cyfarchiad hen ffarmwr cefnog o ymyl Llanrwst i dwr o hogiau yn chwareu; a byddai ei glywed yn ein galw yn llanciau'r Eryri yn peri i ni benbleth nid bychan, a thaeru hyd ymladd am ystyr y geiriau. O'r diwedd cawsom esboniad wrth fodd calon arnynt,—fod llanciau'r Eryri yn cysgu mewn rhyw ogof yn y Wyddfa, a ffyn cyll yn eu dwylaw, yn barod i ruthro allan ar funud i amddiffyn eu gwlad. A chofiaf yn dda y fath galondid a roddodd presenoldeb yr arwyr dychmygol hyn i ni y plant, gan fod arswyd Nicolas o Rwsia a'i fyddin fawr wedi disgyn ar blant gwlad a thre yr adeg honno.

Ac yn y cyfnod yma y clywais hen wr yn adrodd hanes llafar gwlad am enwogrwydd Llanrwst yn yr hen amser fel cartref gwneuthurwyr telynau a chrythau, telynorion a thelynoresau, beirdd a baledwyr, a chantorion gyda'r tannau. Fel adgof o'r hen fri, dywedodd iddo unwaith weled priodas yn cerdded o westy yr "Harp" i'r hen eglwys, a chrythor, yn chwareu ar ei grwth, yn cerdded o'i blaen yr holl ffordd i'r eglwys ac yn ol. Ie, lle difir oedd Llanrwst pan oedd y Wynniaid yng Ngwydir a Chae'r Melwr, y Llwydiaid yn Hafodunos a Phlas Madog, Syr Thomas Kyffin ym Maenan, Nanney Wynn yn y Belmont, a'r Canon Hywel Holland Edwards yn y Pennant. Gwelais fedd hwn yn Westminster Abbey, a rhan o'r fedd-argraff yn dweyd ei fod unwaith yn "canon of this church." Yr oedd unwaith gŵn hela llwynog yn Hafodunos a Phlas Madog, a chŵn hela ysgyfarnog yn y Belmont. Y delyn hefyd oedd bleser palasau yr hen foneddigion; yr oedd Nansi Delynwraig yn eu difyrru yn Hafodunos, ac Ifan y Gorlan yn y Belmont,—ac er caledu ei fysedd at y gwaith o delynori byddai yn aml, meddir, yn rhedeg haiarn poeth ar draws blaen y bysedd, gan ddweyd fod bysedd caled yn tynnu gwell sain o'r tannau. Hefyd yr oedd Robin y Delyn-wiw yn byw yn Llanrwst mewn rhwysg mawr; un ystafell oedd yn ei dy, a'r mul mewn meddiant o un gornel iddi, a'r delyn y gornel arall. Ni chlywais i ddim hyd sicrwydd beth oedd yn ei wneyd a'r mul; ond digon tebyg mai i'w gario ef a'i delyn pan fyddai priodas, eisteddfod, neu wylmabsant, chwareu interliwd, neu noswaith lawen, yn digwydd bod yn rhy bell iddo gerdded yno. Canys gŵr pwysig ym mhob cyfarfod a gwledd o'r fath oedd y telynor yn y dyddiau gynt. Gellir casglu fod Robin yn chwareuydd gofalus, mae ystyr ei ffugenw yn profi hynny; dywedir iddo ei gael am ei fod yn treulio gormod o'i amser i gyweirio ei delyn, rhag chwareu ar dannau lleicion, allan o gywair. Digrif iawn fuasai ei weled yn cychwyn gyda'i delyn i glera, ar gefn mul; a gwyn fyd na welid eto yng Nghymru ambell i hen delynor yn dwyn ei delyn, ac yn galw yn y palas a'r bwthyn; canys nid oes dim mwy hyfryd i glyw y gwir Gymro na llais telyn yn canu hen alawon anghydmarol ei wlad. Rhobert Ifan oedd enw bedydd yr hen delynor; ac yr oedd hen gymeriad gwreiddiol arall o'r un enw yn byw yn Llanrwst yn fuan ar ei ol, os nad yr un adeg, — Robert Ifan, helsmon y Belmont. Dilyn y cwn hela gyda chwip a chorn fu gwaith ei fywyd ef; a mynych iawn yn yr helfa y byddai llais hen foneddwr y Belmont ar ei helfarch gwyn yn bloeddio dros fryn a bro,—"Rhed Robin," a'r ateb,—"Rhedwch ych hun, fedra i redeg dim chwaneg i chi,"—yn tramwy yn ol cyn i adsain llais y meistr ddarfod. Byddai y ddau yn ffraeo llawer, ond yr oeddynt yn gyfeillion calon trwy'r cwbl. Rhyw brydnawn cerddodd Rhobert Ifan at ddrws parlwr ei feistr, ac wedi curo unwaith neu ddwy, agorodd y drws. Wedi gweled pwy oedd yno, mae'r hen foneddwr yn gofyn,—

"Wel, Robin, beth sydd arnat ti eisiau 'rwan?"

"Wedi dwad yma, syr, i edrach gawn i fynd i'r capal heno?"

"Beth sydd yno, Robin?"

"John Elias o Fon yn pregethu."

"Ydi o yn bregethwr da, Robin?"

"Ydi, syr."

"Wyt ti yn meddwl y medar o bregethu yn well na fi, Robin?"*

"Medar wir, syr, o lawer iawn hefyd."

"Wel, prun bynnag am hynny, Robin, chei di ddim mynd i'w wrando fo."

"O'r gora, syr, mi ddeuda innau yn y Farn boch chi yn fy rhwsdro i i'r capal."

"Taw, Robin! chei di ddim agor dy hen geg fawr yno, fel yr wyt ti yn cael yma."

Ym mhen amser ar ol hyn y mae Rhobert Ifan, eto, gyda chalon drom a chamrau araf, yn cerdded at glaf-wely ei hen feistr caredig, yr hwn oedd ar fin marw. Ffarweliodd y ddau am byth, a dywedodd y meistr ei fod wedi cofio am Robin. Deugain punt yn y flwyddyn tra y byddai byw oedd meddwl hyn

*Hen berson oedd Nanney Wynn.

Y mae llawer o flwyddi hirion wedi eu treulio er pan roddwyd J. Nanney Wynn, Yswain, Rhobert Ifan yr Helsmon, a'r telynor Ifan Jones y Gorlan, eu tri ym mhridd mynwent henafol Llanddoged, ger Llanrwst. Mae'r Belmont agos yn anghyfannedd, heb swn corn hela na sain telyn yn aros o'r bri gynt. Ond er bod yr olaf o'r hen foneddwyr Cymreig fu yn noddi beirdd, telynorion, a datgeiniaid, yn huno yn nhy eu hir gartref er ys llawer dydd, y mae yn Llanrwst eto ychydig a ystyrrir yn ben campwyr am farddoni yn y mesurau caethion a chanu gyda'r tannau,—dau beth na cheir mo honynt ymhlith arferion na hanes un genedl ond y Cymry.

Pa bethau bynnag a ellir ddweyd am ganu gyda'r tannau fel difyrrwch teuluaidd neu gymdeithasol, y mae un rhinwedd arbennig yn perthyn iddo,—ei fod wedi bod yn achos i werinwyr ein gwlad ddysgu ar dafod leferydd gannoedd o hen benillion a cherddi, a hynny er mawr adeiladaeth iddynt eu hunain a difyrrwch i ereill, heblaw cadw llenyddiaeth farddonol eu gwlad rhag colli.

Yr wythnos o'r blaen, pan oeddwn yn siarad am benillion a cherddi llafar gwlad gyda hen gymeriad diddan o Lanrwst, meddai ef dipyn yn sydyn,—"Dyma i chi hen bennill y byddai fy nain yn ei ganu bob amser, a chlywais i neb arall yn gwneyd; hwyrach y medrwch chi ddeyd be ydi meddwl y ddau air sydd yn ddechra iddo. Dyma fo,—

'Titrwm tatrwm Gwen lliw'r ŵy
Fy nuwies gla,' fy newis glwy,
Swn clychau'n canu'n glos
A'u dyblu dros y ddeu-blwy;
'N ail i alarch neu walch gwyn
Yn cwynfan ar lyn Conwy.'"

Dywedais innau na wyddwn ar y ddaear beth oedd ystyr y ddau air dechreu, a fod meddwl y pennill i gyd i mi yn dywyll iawn, ond y gallai mai gwaith rhyw hen brydydd yn moli, neu ynte yn cwyno i'w gariad-ferch oedd.

"Glywsoch chi gerdd John Jones, y farf wen, neu 'Garmon,'—fel y bydda fo yn galw ei hun weithia, i Owen, mab Pant Llin Mawr, dywalltodd oil poeth i glust y ceffyl?" "Naddo, ond clywais yr hanes, ac ni wyddwn i ddim fod cerdd wedi ei gwneyd iddo." "O oes. Gan fod y teulu yn bobol fawr phrintiwyd dim o honi ond yn unig un copi i bob un o honynt hwy. Owen sydd yn deyd ei brofiad yn y gerdd cyn cychwyn i'r transport. Byddai rhai yn deyd fod gan John Jones y printar law ynddi. Canais i lawer arni er's talwm. 'Earl of Moira' oedd enw'r mesur, bydd hefyd yn cael ei chanu gyda'r tannau." Dyma fyr hanes Owen Owens, mab Pant Llin Mawr. Ar brydnawn Saboth yn agos i ddechreu y ganrif hon, yr oedd dau ddyn wedi bod yn hel cnau, ac yn eistedd i'w bwyta mewn llwyn o goed yng nghwr cae, lle yr oedd pedwar neu bump o geffylau yn pori; a gwelent ddyn oeddynt yn ei adnabod yn cerdded yn hamddenol at y ceffylau, ac yn dal un o honynt erbyn ei fwng; yna yn tynnu rhywbeth o logell ei gôt,—potel o vitroil oedd, a thywalltodd hwnnw i glust y creadur diniwed, er dial ar ei berchennog. Dyna drosedd Owen Pant Llin Mawr, a thalwyd iddo trwy ei alltudio am ei oes i ryw wlad bell. Clywais rai yn dweyd mai hanner gwallgofddyn oedd, ac ereill ei fod yn ddyn dysgedig a thalentog iawn; ac felly mi gredaf y mae awdwr y gerdd yn edrych arno,—

"Y llong sy'n dwyn ymaith ar fyrder i'r fordaith
Ymhell dros ddyfnderau'r faith don,
Oddiwrth fy holl ffrindiau a'm hanwyl berth'nasau,
Nofio dan hwyliau mae hon.

"O lestr hardd lun, a'm denfyn i'r daith
Na wyddys mewn effaith yn awr,
Wrth feddwl yn ddibaid am wlad fy alltudiad
Mae prudd-der fy enaid yn fawr.

"I'm hanwyl gyfeillion o ffarwel os dichon,
Mae'r galon dan brofion yn brudd,
Cyn llwyr ymadawiad a gwlad fy henafiaid
Cyflwynaf ochenaid i chwi.

"Cyn hwylio'r llong hon, dros frig aml don,
Cymysgaf ddeigr heilltion â hwy,
Tra gwelwyf dan wylo y tir rwy'n ei ado,
Na welwyf mo hono byth mwy.

"Chwi greigiau'r Eryri drcs faith genedlaethau,
Er gwaetha' hinsoddau'n dal sydd,
Lle bu fy nghyndadau am ryddid a breintiau
Yn ymladd hyd angau'n eu dydd,—

"Mae dewrder dilai ein clodfawr wŷr clau
Yn llenwi dalennau dilys,
Chwi ddrychau gogoniant i ryddid a llwyddiant
Yn iach i chwi'n bendant am byth.

"Ymwelaf yn ddiau mewn gweledigaethau
A'u bryniau a'u glannau teg clyd,
A'r nos mewn breuddwydion am hoffder fy
I'w rhifo hwy'n gyson i gyd. [nhgalon,

"'Nol deffro fel hyn bydd tristwch tra syn
O'm hamgylch, heb derfyn y daw,
Nes del angel tyner i lawr o'r uchelder
I m gollwng o brudd-der a braw."

Ar heolydd Llanrwst agos i ddeugain mlynedd yn ol, gallesid gweled bob boreu haf neu auaf, gwlyb neu sych, hen wr milwrol yr olwg arno, ei farf yn hir ac yn wen fel yr eira, llian gwyn ar draws ei ysgwydd, a darn o sebon yn ei law. Dyna John Jones y farf wen, awdwr y gerdd, yn mynd i afon Conwy i ymolchi,—hen fardd-filwr wedi dianc a'i einioes ganddo o beryglon a dinistr brwydrau gwaedlyd y "Peninsular War" a Waterloo. Bydded y gerdd yn goffadwriaeth bythol i'w enw.

Manchester. ROBERT GRIFFITH.

COLIGNI.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

XIV. ARWEINWYR.

DAETH yn rhaid ar grefyddwyr Ffrainc i apelio at y cleddyf. Yr oedd yr erlidiwr wrth eu sawdl o hyd, ac yr oedd pob dinas noddfa wedi diflannu o bob man y gallai hyd yn nod gobaith Cristion ei gweled y tu yma i'r bedd. Ond pan ddaeth awr y frwydr, gwelwyd fod gan Galfiniaid erlidiedig Ffrainc arweinwyr nas gallai un wlad ymffrostio yn eu rhagorach.

Un o'r rai cyntaf welent ar faes brwydr oedd milwr ieuanc. Yr oedd François D'Andelot mor enwog fel milwr ag oedd ei frawd Coligni fel cadfridog, efe oedd arwr milwyr Ffrainc. Yn 1551 cymerwyd ef yn garcharor yn rhyfel yr Eidal, a bu'n dihoeni am bum mlynedd yng nghastell Milan. Anfonodd Renée o Ferrara weithiau Calfin iddo, i'w darllen yn unigedd ei garchar, a thorrodd goleuni mawr ar ei feddwl. Yr oedd D'Andelot wedi gwneyd llawer dros ei wlad, ac ystyrrid mai campwaith milwrol oedd ei waith yn anfon milwyr i St. Quentin, lle'r oedd ei frawd mewn perygl oddiwrth y Spaenod. Ond yr oedd teulu Guise ar eu gochel rhagddo, a phenderfynasant wneyd iddo golli ffafr y brenin. Medrodd Cardinal Lorraine gael gafael mewn llythyr ysgrifennodd D'Andelot at ei frawd Coligni, ac ar gyfrif hwnnw aeth at y brenin a chyhuddodd y milwr o heresi. Gwahoddodd y brenin D'Andelot i swpera gydag ef, a gofynnodd iddo a oedd llawer o bethau ddywedid am dano'n wir,—ei fod wedi pregethu'r efengyl yn nyffryn y Loire wrth fyned o'i garchar yn yr Eidal, ei fod wedi pregethu'r un efengyl yn ei gartref Llydewig, ei fod wedi canu

salmau mewn cynhulliad ym Macs yr Offeiriaid yn Mharis, a'i fod yn Galfiniad. Atebodd D'Andelot ei fod wedi ceisio cael pregethu'r efengyl yn ei phurdeb; na welai unrhyw ddrwg mewn canu salmau, er nad oedd yn y cynhulliad hwnnw; ei fod yn ddeiliad teyrngarol i'r brenin, ond fod yn rhaid i'w gydwybod fod yn rhydd. Ni welai'r brenin fai arno, ond yr oedd Cardinal Lorraine wrth ei ochr, a gofynnodd i'r brenin a oedd D'Andelot yn credu yn yr offeren. Dywedodd yntau ei fod yn credu mai dychymyg dynion oedd i gyd. "Ar hyn enynnodd sel ei dra Christionogol fawrhydi, a thaflodd ddysgl at ei ben." Tarawodd y ddysgl fab y brenin, a gorfod i D'Andelot fynd i garchar am ei heresi. Ond, er gwaethaf erfyniadau'r Pab, gollyngwyd ef yn rhydd.

Nis gwyddis pryd y derbyniodd Coligni'r Diwygiad. Yr oedd ei fam,—Louise o Fontmorency, merch un o deuluoedd arderchocaf Ffrainc,—yn un o ferched goreu a phuraf ei hoes, ac yr oedd hi'n llawn cydymdeimlad â'r diwygwyr. Mab ieuengaf y teulu, D'Andelot, oedd y cyntaf o honynt i ddweyd ar goedd ei fod ef dros y Diwygiad. Cymerodd Coligni amser hir i feddwl, yn ol ei arfer, a myfyriodd uwchben ei Feibl yn nhawelwch distaw ei garchar yn Spaen, lle y bu ar ol ei gymeryd yn garcharor wrth amddiffyn ei wlad yn St. Quentin. Diwygiwr fu ar hyd ei oes, purodd lawer ar foesau erchyll y fyddin, ac yr oedd ei gartref yn ddarlun o ddedwyddwch a phurdeb. Tra'n myfyrio ar bethau rhyfedd y Beibl yn ei garchar, daeth llythyr oddiwrth Galfin ryw ddiwrnod, i ddweyd fod Duw wedi ei alw i'r anialwch, i siarad ag ef. Ac yr oedd enaid mawr Coligni, wrth hiraethu am y gwirionedd, yn symud o hono ei hun i gyfeiriad y Diwygiad. Pan ddaeth adre o'i garchar, rhoddodd ei swyddau gwladol i fyny; a dywedid ei fod am ymneilduo o'r byd, i fyfyrio ac addoli. O'r diwedd, ar erfyn taer Charlotte de Laval, ei wraig gariadus a thywysogaidd, dywedodd ei fod yntau hefyd dros y Diwygiad. Ac o hynny allan, Coligni brudd feddylgar ydyw canolbwynt banes y Diwygiad yn Ffrainc. Mewn llawer cynhadledd gwelwn ef yn erfyn dros y diwygwyr, ar lawer maes brwydr alaethus gwelwn ef yn cyllunio pa fodd i ail-ennill y dydd,—gyda'i big dannedd wrth ei enau, fel y byddai pan mewn myfyrdod dwys. "Gwared fi," gweddiai'r Pabydd, "rhag offeren L'Hôpital, rhag gwên Condé, a rhag pig dannedd Coligni."

Ym maes y Brifysgol y bu'r canu salmau y gofynnodd y brenin i D'Andelot a oedd wedi bod yno. Gynted ag y dechreuai un o'r diwygwyr ganu salmau gadawai pawb ei chwareu, ac ymunai â hwy. Yr oedd cymaint o frwdfrydedd a thân yn y canu nes swyno pawb. Anghofiodd poblach Paris eu sel yn erbyn y Diwygiad, hyd yn nod y rhai mwyaf anwybodus o honynt, a dywedent mai cywilydd o beth oedd rhwystro canu mor fwyn. Ac ni feiddiai neb aflonyddu ar y canu, oherwydd yr oedd rhai o bendefigion mwyaf urddasol Ffrainc ymysg y cantorion. "Yn ystod y rhyfel yn erbyn Spaen," ebe hanesydd Jesuitaidd, "llygrwyd llawer o'r pendefigion gan yr heresi. Yr oedd cenhadon Calfin wedi rhoddi'r gwenwyn iddynt hwy ac i'r bobl yn eu cyfarfodydd dirgelaidd ac mewn llyfrau bychain yn son am enwau denu,—Crist, Diwygiad, Duw yn nerth, yr Efengyl." Cerrid gwaith Margaret o Valois ymlaen gan Renée o Ferrara a Duces Etampes. Yr oedd mab yng nghyfraith Margaret, Antoine o Fourbon, yn ganwr salmau mawr, ac yn arwain y gân; yr oedd ef a'i frawd,—Louis, duc Condé,—yn canmol y diwygwyr ac yn rhoddi nodded iddynt.

Yr oedd y Diwygiad wedi ennill hyd yn nod aelodau Senedd Paris. Safodd De Bourg yn y Senedd, a chyflawhaodd y crefyddwyr, gan ddweyd y medrent brofi eu daliadau, fod eu bywyd yn gan purach na bywyd eu herlidwyr, a fod Duw gyda hwynt yn y fflamau. Yn adeg priodas merch y brenin, penderfynwyd galw aelodau'r Senedd o flaen y brenin. Gorchymynnodd y brenin i'r aelodau ddweyd eu meddwl yn hyf. Yr oedd holl elynion y Diwygiad yno,—duc Guise, Cardinal Lorraine, a'r cwbl. Cododd Du Bourg ar ei draed eto, a siaradodd yn hyf ger bron y brenin, gyda hyawdledd mawr. "Son am anhrefn crefydd," meddai, "onid anfoesoldeb ac ofergoeledd Eglwys Rhufen yw ei achos? Onid anghyfiawn yw erlid y rhai ddarganfyddodd lygredigaeth yr eglwys yng ngoleuni'r Beibl? Ai peth ysgafn yw condemnio i farwolaeth rai sydd o ganol y fflamau yn medru galw ar enw Crist?" Yr oedd y brenin yn anedwydd ac mewn penbleth; ond esmwyth-haodd y cardinaliaid ei gydwybod aflonydd, ac anfonwyd Du Bourg i'r Bastille. Yr oedd ei elynion wedi penderfynu rhoddi eu harswyd ar y diwygwyr trwy anfon un o seneddwyr enwocaf Ffrainc i'r fflamau. Gwnaeth Calfin ei oreu i'w achub, anfonodd tywysogion yr Almaen i erfyn ar ei ran,—ond yn y Bastille yr arhosodd.

Cyn dydd ei brawf, dechreuodd llawenydd priodas merch y brenin. Ar y dydd olaf o Fehefin, 1559, yr oedd y brenin mewn ffugymladdfa; a thrwy ddamwain, aeth picell Montgomery, marchog ieuanc, i'w lygad.

Pan oeddynt yn ei gario o'r maes, edrychodd i fyny at y Bastille du oedd yn gwgu uwch ben; lle'r oedd y diwygwyr, a dywedodd ei fod wedi digio Duw trwy erlid y Calfiniaid. Perswadiodd Cardinal Lorraine ef i fygu meddwl o'r fath, gan ei sicrhau mai Satan oedd yn ei demtio. Collodd y brenin ei leferydd gyda hynny, cludwyd ef i'r neuadd barotoisid at y briodas, ac yno y bu farw. Ymysg ereill, daeth Montmorenci i weled corff Harri'r Ail. Gorchymynnodd iddynt roddi corff y brenin ar ryw len arall; oherwydd gwelodd eu bod, yn eu ffrwst, wedi ei roddi ar len yr oedd yn ysgrifenedig arni,—"Saul, Saul, paham yr wyt yn fy erlid i?" "Tybiai'r Protestaniaid," ebe un garai'r brenin, "fod Duw wedi ei daro dan gysgod carchar eu brodyr, credai'r Pabyddion ei fod wedi ei daro am ryw bechod arall; un da a gostyngedig a maddeugar oedd, a selog iawn dros yr hen grefydd."

Wedi marw'r brenin daeth treial Du Bourg. Ni chaniateid iddo gael ei brofi gan ei gyd-aelodau, yn ol braint seneddwr, am fod ei bechod yn rhy echrydus. Ni wrandawai Olivier, y canghellydd anghyfiawn, ar ei apêl. Treiodd Condé a Choligni ei achub, erfyniodd Etholydd Pfalz am dano i'w goleg yn Heidelberg, a gwnaeth ei deulu,—y mwyaf anrhydeddus yn Auvergne i gyd,—gymaint allent i gael cyfiawnder iddo. Ni phlygai yntau ddim; anfonodd at ei gyd-grefyddwyr ym Mharis na ddianrhydeddai ef y ffydd. Yr oedd yn boblogaidd iawn, ofnai ei elynion y gwneid ymgais i'w achub ar y ffordd i'r dienyddle, ac yr oedd dewin enwog newydd broffwydo y byddai Du Bourg ymhell yn fuan iawn. Y nos o flaen y Nadolig,—noswaith dienyddio lladron a llofruddion,—rhag i'w hanadl ddifwyno dydd genedigaeth Crist, anfonwyd Du Bourg i'r Place de Grève, a chwe chant o filwyr o'i amgylch. Cofiodd e farnwyr yn hir am ei ffarwel, ail-adroddodd Olivier hi flynyddoedd wedyn mewn anobaith ar ei wely angau. "Cofiwch ddydd barn Duw, wedi'r holl losgi hwn. Byddwch fyw i feddwl am hyn, o farnwyr; am danaf fi, yr wyf yn mynd i'm marwolaeth." O'r dienyddle gwaeddodd,—"Fy nghyfeillion, nid fel llofrudd neu leidr yr wyf yma, dros yr Efengyl yr wyf yn marw." A chyn i'r fflamau ei ddifa, clywyd ef yn gweddio,—"Fy Nuw, paid a'm gadael, rhag i mi dy adael di." Yr oedd wedi dweyd lawer tro fod Crist gyda'r diwygwyr yn y tân.

Marw hyawdl oedd y marw hwnnw. "Nid oes drwg mewn crefydd," ebe'r bobl "y buasai dyn fel hwn yn rhoddi ei fywyd i lawr o'i fodd drosti." Adroddai myfyrwyr ei hanes y noson honno, dan wylo. A thros Galfiniaid Ffrainc daeth y meddwl yma,—y byddent farw yr un fath cyn y gwadent eu Gwaredwr. Ond, o glustfeinio, gellid clywed swn minio'r cleddyf.

LLYFRAU NEWYDDION.

Gemau Gwalia. Casglwyd gan y Parch. W. Parri Huws, B.D. Amlen, 120 tudalen. 1s. Lloyd Roberts, Blaenau Ffestiniog. Casgliad gwerthfawr ydyw o ddarnau beirdd byw, darnau heb fod yn argraffedig o'r blaen. Y mae ynddo amrywiaeth mawr,—pob math o fesur a phob math o destun,—a gwaith difir ydyw troi a throsi ei ddalennau,

Difyrion Barddonol. Gan J. Gwyndud Jones. Amlen, 128 tudalen. 1s. E. W. Evans, Dolgellau. Darnau byrion ydyw cynnwys y llyfr hwn, rhai doniol, llawn hwyl a mynd, a llawn o gynhyrchion roir mewn dull nas gellir eu hanghofio. Bydd llawer o ganu, mae'n ddiau, ar y caneuon hyn.

Lloffion yr Amddifad. Gan Tryfanwy, Porth Madog. Amlen, 18 tudalen. 1s. D. D. Lloyd, Porth Madog. Y mae delw bywyd trist yr awdwr ar ei ganeuon,—darlunia dlysni bywyd yr aelwyd a swn y gwynt a gogoniant mynyddoedd tra'n cofio o hyd eu bod oll yng ngholl a distaw iddo ef. Deffroir meddwl y darllennydd o hyd wrth ddarllen y llyfr gan ryw fflach,—fflach athrylith bur.

Transactions of the Liverpool Welsh National Society. Yr ysgrifennydd yw W. R. Owen, 11, Montpellier Terrace, ac y mae wedi trefnu areithiau defnyddiol a da. Cymraeg ydyw rhai Keri Evans ar hawliau cenhedlaetholdeb, a Gwyneddon ar Williams Pant y Celyn. Saesneg ydyw'r gweddill,—Professor Tout ar Gymru'r Stuarts, Syr Owen Roberts ar ddarllen gartref, yr Archddiacon Howell ar genhedlaetholdeb Cymru, y Parch. John Hughes ar genhedloedd, W. H. Preece ar alluoedd natur nas dofwyd eto, ac A. N. Palmer ar enwau lleoedd.

Cant o hanesion difyrus, at wasanaeth ysgolion dyddiol, 121 tudalen. 1s. Hughes, Gwrecsam. Dyma lyfr yn ei bryd. Nid ydyw'r hanesion yn Gymreig, na'r Cymraeg yn ddigon synnl a llithrig. Cofier am hyn yn amser ail argraffiad.

Samson. Drama ddirwestol. Gan y Parch. J. Evans (Ioan o Feirion), Nelson, Morgannwg. Amlen, 42 tudalen. 6c. I. Jones, Treherbert. Hanes Samson wedi ei roddi ar ddull drama ydyw hwn; ac y mae'n ddifir ac addysgiadol iawn.

CYMRY FU.

II. Y PARCH. JOHN BRYAN, CAERNARFON.

CAM ag aml ddyn yw olrhain hanes ei fywyd yn y byd, a cham a'r rhai raid ddarllen yr hanes, ond cymwys yn ddiau yw sylwi ar fywyd John Bryan. Ac er y lles a wnaeth, drwy ei lafur a'i ddiwidrwydd, ni chafodd ddyledus barch, hyd yn oed gan ei gyd-genedl, mwy na llawer o'i flaen, a mwy na llawer, mae'n debyg, ar ei ol.

Ganwyd ef yn Llanfyllin, yn 1770. Yng Nghaerlleon y treuliodd flodeu ei ddyddiau, ac yno y derbyniwyd ef i'r weinidogaeth Wesleyaidd yn 1801. Gyda'r Saeson y dechreuodd, yn ystod ei ddeng mlynedd yng Nghaer; ond, tua 1799, gwnaeth un Edward Jones iddo droi ei sylw at y Cymry. Yn 1800 byddai'n ymweled yn achlysurol â thref Rhuthyn, cafodd oedfa rymus yn Chwefror, pryd yr ymunodd llawer â'r achos. Nid oedd Wesleyaeth y pryd hwn, yng Nghymru, ond megis yn ei babandod, ac nid oedd trwy'r byd i'w cheffelybu â'r hyn yw heddyw.

Yn 1802, yr oedd Mr. Bryan i bregethu ym Mrynsiencyn ar noson waith, ac yr oedd un o'r enw Mrs. Williams am ymuno gyda'r ddiadell yn Llanfair Pwll Gwyngyll. Ond yr oedd y gŵr yn wyllt yn erbyn. Mynegodd Mrs. Williams ei phenderfyniad o glywed Mr. Bryan yn pregethu. Ceisiodd y gŵr ei hatal; ond methodd. Aeth y wraig i'r capel, ac aeth y gŵr i'w wely, wedi ffromi yn ddigllon. Yn y man syrthiodd i drwmgwsg. Yr oedd y gwely yr un llawr a'r gegin. Ymhen ennyd dacw ef yn codi, gan chwilio pob man. Clywodd y forwyn ef, a gofynnodd am beth yr oedd yn chwilio. "Ond am fy mhen, hogan," oedd yr ateb. "Yn tydi'ch pen chi ar ych corff chi." Teimlodd yntau, a chafodd fod ei ben ar ei gorff drachefn, fel roedd y goreu. Ac ebai,—"Wel, mae'n debyg gen i mai breuddwyd oedd o. Gwelwn Mr. Bryan yn nesau ataf, gan dorri fy mhen i ymaith yn lân." Prysurodd wedyn ar ol ei wraig i'r oedfa, a phan nesaodd at y drws, clywai Mr. Bryan yn darllen ei destun,—"Ac yr awrhon hefyd y mae y fwyall wedi ei gosod ar wreiddyn y prennau; pob bren gan hynny nid yw yn dwyn ffrwyth da a dorrir i lawr ac a deflir yn tân." Aeth y gair adref i'w galon, a bu efe a'i wraig yn aelodau ffyddlon gydag achos yr Arglwydd.

Dyma un amgylchiad rhyfedd arall. Digwyddodd hyn ym Meaumaris. Pan oedd Mr. Bryan un diwrnod yn barod i ymeillio, yn y man dyna guro wrth y drws. Boneddwr oedd yno dan argyhoeddiad trwm yn gofyn am gynhorthwy a chyfarwyddyd. Aeth Mr. Bryan ato yn llewys ei grys, a'r sebon ar ei wyneb, a'r ellyn yn ei law. Atolygodd arno ddweyd ei stori, ac wedi iddo ddarfod, dywedodd wrtho am fyned ar ei luniau. Hynny a wnaeth. Ac aeth Bryan i weddi ar ganol y llawr yn llewys ei grys, a'i wyneb yn sebon, a'r ellyn yn ei law. Cafodd y truan drugaredd, ac aeth adref yn holl iach. Ac nid oedd yn neb llai na'r Alderman Bowers o Gaer, tad y Parch. John Bowers, llywydd y Gynhadledd yn 1858. A dywedir fod iddo ŵyrion yng Nghaer sydd yn ffyddlon i'r achos Wesleyaidd heddyw.

Yr oedd Mr. Bryan yn fardd—yn fardd da, er na chymerodd amser i feistroli y mesurau caethion. Ac er profi ei fod yn fardd, nid oes eisiau i ni ond cyfeirio y darllennydd at lyfr hymnau y Wesleyaid. Efe yw cyfieithydd emynnau rhagorol yr anfarwol Charles Wesley, ac y mae "Wesley" dan yr emynnau hynny. Gan fod y llyfr hymnau wrth law, gwelaf mai efe oedd cyfieithydd y llinellau yn dechreu

"Anfeidrol anerfynol fod, &c."
"Cyduned nef a llawr, &c."
"Oes modd i mi bechadur gwael, &c."
"O fugail mawr, tosturiol dad, &c."
"Ar fin y dibyn du, &c."

Gwelir drwy hyn ei fod wedi cyfoethogi emynyddiaeth ei wlad. Efe oedd awdwr yr emynnau ar ganmlwyddiant Wesleyaeth, ac feallai fod y darllennydd yn gydnabyddus â'i benillion er coffadwriaeth am Sian Sion. Pa wedd bynnag, nis gallaf ymatal heb eu rhoddi iddo,—

Yn canu nefol gân
Yn Seion y mae Sian,
Heb deimlo clwy;
Ym mhlith haidd gwmni'r nef,
Mae'n uchel godi ei llef,
Gan waeudi, "Iddo Ef,"
Heb dewi mwy.

Croes Crist a'i angeu drud,
Tra teithiodd yn y byd,
Oedd swn ei chân;
Pan glywai'n rhywle son
Am rinwedd gwaed yr Oen,
Ei henaid yn ddiboen
Ai oll ar dân.

Yn holl odfaon gras,
Pan gai ei henaid flas,
Ar eiriau'r nef,
Ar unwaith torrai trwy,
Nis gallai 'matal mwy,
I ganu am farwol glwy
Nes llenwi'r lle.

Bu farw ar yr 28ain o Fai, 1856, yn 86 mlwydd oed.

EGWISFRYN.

TAITH BARDD I EISTEDDFOD Y RHYL.

II.

HEFO'R Orsedd y diweddais fy llith o'r blaen. Peidied y llu Lilipwtiaid llenyddol hynny, sydd ar drengu wrth olrhain clec, a meddwl mai yr unig brawf o wladgarwch ydyw bytheirio englyn neu ddau ryw unwaith yn y flwyddyn oddiar y Maen Llog. Fel rheol, mae ein gwladgarwyr goreu a'n beirdd goreu yn sefyll y tu allan i'r Cylch Cyfrin. Nid o ddiffyg parch i'r Orsedd y gwnant hynny, ond am nad oes ganddynt feddwl yn y byd o'r rhan fwyaf o'r haflig a achlesir gan yr Orsedd.

Ond i ddod yn fwyaf arbennig at y Rhyl; caf fyned i'r ffordd yna eto, efallai. Wedi i'r beirdd orffen annerch, ac i nifer gael eu hurddo yn feirdd ac ofyddion, dacw Hwfa Mon i ben y Maen. Saif yn dalsyth ac awdurdodol, ac edrycha wrth fodd ei galon. Gan fod awel gref yn chwythu, mae cudynau ei laeswallt yn dawnsio ar eu hadenydd. Ond dyma floedd anferth. Dim ond un gair; "Gosteg!" meddai Hwfa. Dyna addolwyr Sianiyddiaeth yr Orsedd yn trimio eu gwynebau i edrych yn ddefosiynol; dyn y *Punch and Judy* yn cau ei fusnes i fyny; babanod yn anthemu mewn ofn; aelod o'r tân-frigad yn gofyn oedd eisiau nol y peiriant allan; a *general manager* yr "*Aunt Sally*," gan dybied fod holl heddlu sir Fflint ar ei ol, yn dianc am ei fywyd, gan beri dinistr anadferadwy ar y stondin fincieg agosaf ato! Wedi sicrhau pawb fod awdurdodau y Maen Llog yn fodau gwareiddiedig, dacw Ddemosthenes urddedig Gorsedd Beirdd Ynys Pryden yn dechreu ei arawd arferol. Wedi cyfeirio at yr haul, y mynyddoedd, y cymylau a'r "creigiau crog," dywed,—"Deuwch gyda fi i'r ddôl; welwch chwi yr ysgyfarnog fach, fywiog, chwim, hoyw, fuan, gyflym, heinif, ystwyth, yn codi ar y dalar werdd. Dyna hi yn ysgyfarnogeiddio yn ei blaen, a'r milgi yn milgieiddio ar ei hol!" Wedi i'r areithiwr gymeryd ei anadl, mae yn gwahodd y cynulliad i Eisteddfod Pontypridd gyda'r geiriau,—"Dowch o bob man; dowch o'r mynyddoedd; dowch o'r dyffrynnoedd; dowch o'r dinasoedd; dowch o'r trefydd; dowch o'r pentrefydd; dowch o'r Deheubarth; dowch o'r Gogleddbarth; dowch o'r Dwyreinbarth; dowch o'r Gorllewinbarth; dowch o'r uchelbarth; dowch o'r canolbarth; dowch o'r dyfnderbarth!" Mae rhai yn y cynhulliad yn chwerthin; ereill mewn perlewygedd wrth ryfeddu at gampau athrylith; a nifer o ddynion ieuainc chwaethus yn wincio yn awgrymiadol ar eu gilydd. Holai merch ieuanc oedd gerllaw i mi pwy oedd yn cael ei felldithio; gofynnai ereill a oedd "noeth arf yn erbyn" rhywun, a "chyrch cyflafan" i fod, neu a oedd rhyw feirdd yn cael eu berwi ym mhair Ceridwen am "gyflawni anfri, anfoes, neu anwir?" Ni chymerais hamdden i ateb, ond i dynnu blas yr iaith ystwythgamp, barabldrefn, a boddgar gymhenddull ei hamrywiogsain, aethum i lan y môr, a chyflogais *German Band* i chwareu *Ta-ra-ra*, &c.

Rhoddais geiniog i bob hyrdi-gyrdi a gyfarfyddais ar fy ffordd yn ol i'r babell, a dyma ryw ddyn sydd yn dioddef er's blynyddau oddiwrth dwymyn y glec yn fy nghyfarch gyda'r geiriau,—"Welsoch chi 'marddoniaeth ddweutha i?' Gan fy mod yn teimlo yn lled sinsuraidd, dywedais wrtho,—"Do, gobeithio." Barddoniaeth yn wir! Ni wyddai yr isloeryn pendew ddim mwy am farddoniaeth nag a wyddai Hottentot am "Draws Fantach." Wedi gadael hwn, dyma ddynyn arall ataf i ofyn a roddwn i ddau swllt iddo yn danysgrifiad at lyfr oedd ganddo yn y wasg. Ar ddydd cynhebrwng yr anwyl Drebor Mai, rhoddais i, ymhlith amryw ereill, swllt am lyfr ymlaen llaw i'r gŵr hwn. Ni chafodd yr un o honom byth mo'r llyfr, nac, wrth gwrs, yr un o'r sylltau yn ol. Awgrymais y ffaith iddo mewn dull mor esmwythfelfedaidd ag y gallwn; ond trodd ar ei sawdl ar unwaith, a bu yn wyliadwrus i fy osgoi am y gweddill o'r Eisteddfod. Wedi myned i fewn i faes y babell, tarewais ar gwmni o feirdd,—y dosbarth diddan, hwyliog, diwenwyn, a di-chwydd o'r beirdd a feddyliaf. Am ennyd teimlwn ddyfroedd oerion hiraeth yn ymdonni dros fy enaid. Meddwl a wnes am yr hen griw doniol y byddwn yn treulio Eisteddfod gyda hwy ddyddiau a fu. Wynebau newyddion a welwn gan mwyaf. Ceiriog a'i freuddwyd am y Ford Gron; Alfardd hyawdl, yr hwn a fyddai yn sicr o chwareu rhyw dric gydag ambell brydydd diniwed cyn diwedd yr Eisteddfod; Iolo Trefaldwyn, yr hwn, fel y byddai Mynyddog yn dweyd, "a gynrychiolai deneurwydd yr Orsedd;" Ioan Arfon onest—efe oedd plisman y cylch; Robyn Wyn gyda llond sach o hanes Eben Fardd a Robert ab Gwilym; Idris Fychan, yr hwn a'n cadwai ar ein traed drwy y nos i ganu hen benillion na chlywodd neb mo honynt o'r blaen; Taliesin o Eifion, dychanwr y crydcymalau; Gethin, athronydd y dorth geirch, y siot, a'r llwy bren; Dewi Wyn a Nathan Dyfed,—yr un o honynt yno. Coffa digrif ryfeddol am Ddewi a Nathan yn codi llond gwesty o ddieithriaid

bedwar o'r gloch y boreu yn Eisteddfod Dinbych, gan waith y ddau yn taeru (yr oedd Nathan yn clywed yn drwm iawn) yn eu gwelyau ynghylch cywirdeb llinell o gynghanedd. Nid oedd ball ar ddoniau Nathan. Dyfynnai o'r naill awdurdod ar ol y llall, ac yr oedd ei esiamplau o linellau yn ribedio i bob cornel o'r ty. Yr oedd Dewi, yntau, yn llym yn erbyn cymeryd ei orchfygu, ac ni chafwyd atalfa ar ffrydlifoedd eu hathrylith hyd nes y bu i wr y ty, a chlamp o Goliath Seisnig mawr a safai rhyngddynt yn ei grys nos a'r brws llawr yn ei law, fygwth eu cludo i'r palas eang sydd gerllaw y dref. Heddwch i'r hen ffrindiau i gyd.

Wel, wedi myned at y beirdd, y cwestiwn naturiol cyntaf oedd, pwy gawsai y Gader? Berw meddai rhai; Dyfed meddai ereill; Elfyn meddai ereill; Pedrog meddai ereill. Dywedodd rhywun fod y beirniaid yn annghytuno, a dywedodd arall ei fod yn gwybod er's mis mai cader wag a fyddai yn y Rhyl. Deuwyd i'r penderfyniad mai dyna oedd y peth tebycaf. Tra yr oeddym ar ganol ein dyfaliadau, dyma gennad yn ein cyrchu i'r babell i wrando tynged yr awdlwyr. Nid yw o ddiben i mi fyned dros yr hanes, gan ei fod eisoes wedi ei ddweyd lawer gwaith. Ond methwn a deall paham yr oedd eisiau i Hwfa Mon waeddi cymaint wrth draddodi yr hyn a wnaeth fel canolwr. Wrth ei wrando, meddyliwn am ystori a glywais ynghylch hen feddyg yn troi i eglwys i ymochel cawod o wlaw. Eisteddodd yn ymyl brawd stoicaidd iawn yr olwg arno. Rywbryd tua chanol ei bregeth dacw'r person yn ymollwng i wylo. Gofynnodd y meddyg i'r dyn oedd yn ei ymyl, paham yr oedd y pregethwr yn wylo. "Tase hi," meddai y dyn, "cyn feined arnoch chwi am rywbeth i'w ddweyd ag ydyw hi ar y gŵr acw, mi fase chithe yn crio hefyd."

Gadewais y beirdd i ddadlu yn frwd a selog ynghylch y Gader a'r Goron, ac ymneillduais i bentref bach heb fod ymhell o'r Rhyl. Yr oedd gennyf ffordd ddifyrrus i'w cherdded. Teimlwn yn falch am fod fy nhroed unwaith eto ar "Ddyffryn clodfawr Clwyd." O'm deutu yr oedd natur fel pe yn ei gwisg oreu. Ni anturiai yr un cwmwl dorri ar lasder y ffurfafen. Ymgofleidiai haul a mynydd. Ymbarotoai teyrn mawr y nen i fachlud gyda chymaint o rwysg a phe buasai yn myned i ddathlu genedigaeth paradwys. Gwelwn ambell flodyn gwyllt yn ymyl fy nhraed mor wylaidd a phe buasai am gynnyg ymddiheurad dros ei ymgais seml i ychwanegu at brydferthwch yr olygfa. Yr oedd y maes gwenith

> "Fel cerub del, penfelyn,
> O fraich dôl yn cyfarch dyn.

Ymlithrai y Glwyd yn lladradaidd drwy y dolydd fel gwyryf ofnus yn chwilio ei chyfrinion ei hun. Ymorffwysai y nawnddydd ar lethrau Moel Famau mor dyner ag anadl cariad ar fynwes prydferthwch. Dechreuais yn ddedwydd ymddiddan â mi fy hun. Yn fuan cefais gwmni ysbrydion hen ddyddiau gynt a dreuliais yma ac acw hyd y Dyffryn. Siaredais yn ddifir gyda hwy, ac nid oedd gennyf yr awydd lleiaf am ddianc rhagddynt. Mewn moment o lesmair breuddwydiol torrais allan i ddechreu rhigymu,—

> "Canaf am fwynderau ieuainc,
> Canaf am ad-dyniad grudd,
> Canaf am gyfaredd calon,
> Canaf am freuddwydion dydd;
> Canaf am wyrddlesni bywyd,
> Canaf am gyfrinach dôl,
> Ac wrth ganu hynny, canaf
> Ddyddiau caru yn eu hol.

Ar hyn dyma ruad tarw am y gwrych a fi yn llamsachu fy holl farddoniaeth i wadnau fy nhraed. Yr oeddwn yn y pentref y cyfeiriwn ato cyn pen ychydig eiliadau. Yn fuan wedi eistedd yn y gwesty yno, dyma oracl y pentref ataf. Mae ef yn cadw melin, gefail, siop, fferm, iard lo, &c., ac yn bwt o brydydd. Wedi llathennu busnes y Gader a'r Goron, gofynnodd i mi a welais yr englynion i'r "Pelydryn," y rhai y methai y beirniaid gytuno yn eu cylch. Wedi i mi ateb yn nacaol, pletiodd ei wefl fel Bardd Gorsedd, ac adroddodd hwy i mi fel hyn,—

> "Am eiliad, ffladriad melyn,—a'i ganaid
> Ogoniant i'w ganlyn,—
> Yn chwareu drwy'r goleu gwyn
> Paladrawg, yw'r Pelydryn."
>
> PALADR I.

> "Pelydryn melyn, am eiliad,—llef Duw,
> Llif o dân dadguddiad,—
> A gwên yn rhoi dadganiad
> I'r meidrol o'r Dwyfol Dad."
>
> DEWI WYN.

Hysbyswyd fi mai y diweddaf a fernid yn oreu gan Hwfa Mon, y canolwr. Dechreuodd yr oracl a minnau feirniadu y ddau englyn, yn enwedig y buddugol tlawd, yn llym iawn. Gan ein bod yn dweyd y drefn yn lled boethlyd gofynnodd Sais a eisteddai ar ein cyfer yr achos o hynny. Esboniasom iddo oreu y gallem. Gofynnodd a oedd dim yn bosibl cael cyfieithiad llythyrennol o'r englyn goreu. Ar eiliad anfonodd yr oracl am ei fab ieuengaf, yr hwn oedd newydd basio arholiad yn y Llyfr Corn. Dyma gyfieithiad y bachgen,—"A yellow sunbeam for a second, the voice of God, a flood from the fire of revelation, and a smile manifesting the divine Father to the finite." Adroddasom y cyfieithiad i'r Sais, a'r foment y clywodd ef, canodd y gloch am ei slipars, ac aeth i'w wely yn glap.

Tybed, mewn difrif, nad oedd well englynion na'r uchod yn y gystadleuaeth? Mae cymaint o farddoniaeth mewn "redi recnor" ag sydd yn y ddau yna. Onid oes wall bychan yng nghyrch yr englyn cyntaf,—*d—t?* Ac yn ol yr hyn a ddysgir gan y canolwr, onid oes ynddo grych a llyfn,—*gwyn—pelydryn?* Ond ni soniwyd ganddo o gwbl am hyn. Edrycher ar yr englyn goreu. Rhaid wrth y gair *ydyw* ynddo cyn y darllenna yn iawn. Ai *melyn* ydyw pelydryn, ac ai am *eiliad* y bydd? Pa briodoldeb sydd mewn dweyd fod pelydryn yn *llef Duw?* Yr un faint ag sydd mewn dweyd mai edrychiad Duw ydyw carreg galch. Ac ni waeth son am ffedog dadblygiad nag am "dân dadguddiad." Meddylier am funud am yr un peth yn felyn, yn llef Duw, yn llif o dân, ac yn wên, a'r wên honno yn rhoi datganiad o Dad dwyfol! Ond i adael y cowdal, adroddaf yr englyn unwaith eto wrth logi hers cyfiawnder i'w gludo i fynwent ebargofiant. Mae englyn fel hyn, yr un fath a'r alarch, yn canu ei farwnad ei hun. Diolch am allu i anghofio. Mae mor werthfawr, ar lawer amgylchiad, a'r gallu i gofio. O! ysbryd y digrif "Archfardd Cocosaidd Tywysogol," ys galwet dy hun, wrth glywed englynion seilion yr Eisteddfod Genedlaethol, ai tybed fy mod unwaith eto yn ffair Llangefni, a thithau gyda dy lais eosaidd yn sibrwd yn fy nghlust,—

"Hen wr oedd fy nhad yn byw yn y Borth,
Yn gyru cwch ar hyd y dwr er mwyn i mi a mam
Ond heno mae o'n huno hynod [gael torth;
Hefo'r graian a'r cacynod;
Afiechyd oedd ei waeledd,
A marw wnaeth o'r diwedd."

Bravo'r archfardd! Mae dyn yn cael ei demtio i gyflawni hunanladdiad er mwyn cael beddargraff fel yna. Y cocosyn difir! Medrai efe wneyd i ni chwerthin hyd yn nod wrth ddarllen beddargraff ei dad, ond am englynion y Rhyl maent hwy yn ddigon amrwd i godi diffyg treuliad ar gorn simdde. Coffa da am yr archfardd, pan redem râs gydag ef yn Eisteddfod Llannerch y Medd, pan wisgasom ef â rubanau seithliw yr enfys yn Eisteddfod y Borth, ac y gwnaethom dysteb o silcan lwyd ail llaw iddo yn Eisteddfod Bangor (1874). Yr oedd yr archfardd yn ddigon gonest i arddel ei hun fel cocosyn. Yn ei onestrwydd yr oedd ei athrylith. Ond, os gwelwch yn dda, yr oedd ymron pawb yn y Rhyl yn meddu ar y ddawn ddigwilydd i berswadio eu hunain eu bod yn feirdd.

Ond rhaid a fu i mi droi tuag adref. Yn y tren yr oedd llafnyn o sowldiwr a rhyw hen wr unfraich yn traethu ar ragoriaethau wisci, ac yn taeru pa nifer o laseidiau a allent hwy yfed o hono heb feddwi. Da oedd gennyf eu gweled yn myned i lawr mewn stesion heb fod yn nepell, i roddi prawf ar eu galluoedd trafiyncol, mae'n debyg. Yn y pen arall i'r cerbyd yr oedd dau fardd a ffugenwau ganddynt yn taeru nes oeddynt yn chwys mai yn ol yr oedd y tren yn myned. Gwnaethum fy ngoreu i'w hargyhoeddi o'u camsyniad. Ond yn hollol ofer. Tybient eu bod yn gymaint awdurdodau ar symudiadau y tren ag a oeddynt ar symudiadau y gynghanedd. Dechreuasant fy melldithio gydag englynion, a thra yn cael fy nhanbelenu gyda'r cyfryw, y gadewais hwynt. Erbyn cyrraedd at fy mwthyn, nid oedd neb yn fy nisgwyl. Pan yn cychwyn nid oedd Nel na minnau wedi cytuno yng nghylch hyd fy *holidays*. Tybiai hi fy mod yn dod yn ol y noson gyntaf; ac yr oedd y stêm eisteddfodol wedi gwneyd i mi anghofio anfon gair gartref. Tybiwyd fy mod ar goll. Yr oedd cenhadau wedi crwydro mynyddoedd i chwilio am danaf, ac yr oedd holl lynnau ac afonydd y gymydogaeth wedi eu chwilio. Nid oedd ambeuaeth nad oeddwn, gan rai, wedi trengu, tra y barnai ereill mai wedi dianc dros y môr yr oeddwn. Tadogid arnaf bob gweithred ddrwg oedd wedi cymeryd lle o fewn y gantif yn yr ardal. Y fi oedd wedi dwyn *watch* y person, wedi torri cynffonnau gwartheg yr Hafod, ac wedi gwenwyno mochyn y Fron. Yr oedd dyhirod penna'r cread yn angylion yn fy ymyl. Ni fu gan y diafol ei hun brentis mwy llwyddiannus na fi. Ond daethum yn ol. Gwelwn fod y Biwr O wedi ei thorri, er mwyn cael hyd i fy ewyllys. Ond gan fy mod wedi gadael fy holl eitifeddiaeth i Nel a'r plant, yr oedd gwyneb Nel yn un wên fawr, lydan, o glust i glust, a dawnsiodd yn ei chlocs ar y llawr cerrig gyda chymaint o hoenusrwydd a dawns gyntaf yr awel. Cefais fy nghateceisio yn arswydus gan y plant. Dyna i chwi gownsleriaid am groesholi! Ond wedi iddynt ffarwelio â'r tamaid olaf o driffwys o fferins, ac i minnau gadw cyfarfod y beirdd gyda hwy, aeth pawb i'w wely yn dawel a difir.

Y Bo-Lol.

OL AIR.

Dyma ddiwedd hanes Eisteddfod y Rhyl, mor bell ag y mae a fynno fi â hi. Gwnaeth waith da, a phleserus iawn yw'm hadgofion i am dani. Treiais blesio'r beirdd trwy roddi iddynt y cynhyrchion goreu yn fy nghyrraedd, —nid oedd bosibl cael y rhai buddugol. Gwell gennyf farddoniaeth rydd fy hun, er fy mod wedi astudio cynghanedd y Gymraeg a'r hen Saesneg. Ond nid i'm boddio fy hun yr wyf yn fy swydd o olygydd. Y Gol.

TWYLL Y BYD.*

(Hen Alaw Gymreig.)

Geiriau gan Williams, Pantycelyn.
Doh Ab. (*F. minor*)

Cynghaneddwyd gan John Jones,
Llyfrwerthwr, Aber Aeron.











Megis llestr hen a drylliog
Ydyw'r byd ar for tymhestlog,
Pleser braf yw edrych arno;
Ond peryglus iawn bod ynddo.
Os daw un i maes o'r tonnau
Ar ystyllen friwllyd denau,
Fe glyw stŵr ar y dŵr
Dwndwr yr angau,
Draw ym mhell gan ryw fyrddiynau
Aeth yn iach i'r llestr gynau.

* Cenid yr hen alaw hon gan fy nain (Dinah Jones, Blaendyfel), tua 80 o flynyddoedd yn ol, a chan ei phlant a'i hwyrion ar ol hynny; ond ni welais hi erioed mewn argraff nac ysgrif. Gwelir oddiwrth Gofiant y Parch. W. Evans, Tonyrefail, mai dyma hoff eiriau yr hen batriarch hwnnw, a chanai hwynt yn aml, ar yr hen alaw hon, yn ddiameu,—J. J.

1868.

I.

Ty'n llwyn, Bangor, Hyd. 12ed, 1868.

Anwyl Syr,—Galwodd Mr. Jones yma ryw ychydig o ddyddiau'n ol, gan awgrymu y buasai'n ddymunol i mi, gyda thenantiaid ereill ystad y Faenol, bleidleisio dros Major Pennant. Y mae'n ddrwg iawn gennyf ddweyd nas gallaf wneyd hynny heb ymadael â thawelwch fy meddwl fy hun. Heblaw fy mod yn cyd-weled â gwladlywiaeth Mr. Gladstone yn gyffredinol, yr wyf yn ystyried fod yr adeg hon yn adeg bwysig iawn yn hanes ein gwlad. I lywodraethu'r Iwerddon, rhaid i'r Senedd Brydeinig naill ai gwaddoli Pabyddiaeth neu ddadgysylltu a dadwaddoli yr eglwys Brotestanaidd yn y wlad honno. Ni fedrai r cwrs cyntaf beidio cryfhau'r blaid ddefodol yn Eglwys Loegr, yr hyn a fawr ofnir, nid yn unig gan Anghydffurfwyr Protestanaidd y wlad hon, ond gan y blaid efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig.

Dan yr ystyriaethau hyn, yr wyf yn teimlo nad oes dewis i mi ond pleidleisio gyda'r ymgeisydd Rhyddfrydig. Yr wyf wedi meddwl llawer am y peth all y canlyniadau fod, ond y mae'r canlyniadau dan oruchlywodraeth Rhagluniaeth oll ddoeth.

Arhosaf, anwyl syr,

Yr eiddoch yn ddidwyll,

Jno. Millington, Ysw. JOHN OWEN.

II.

Ty'n llwyn, Bangor, Hyd. 12ed, 1868.

Anwyl Syr,—Yr wyf yn deall i chwi alw yma ynghylch fy mhleidlais dros y sir, a fod ei Harglwyddiaeth wedi galw wedyn. Yr ydych yn hoffi ymwneyd didderbyn-wyneb, felly rhaid i mi ddweyd wrthych mai Rhyddfrydwr ydwyf mewn gwleidyddiaeth, a fod yn rhaid i mi bleidleisio dros yr ymgeisydd Rhyddfrydol neu weithredu yn erbyn f'argyhoeddiadau. Yr wyf yn eich sicrhau fod yn arw gennyf nad ydym yn cyd-weled yn ein golygiadau politicaidd, gan fod Arglwydd Penrhyn a'i ystiwardiaid wedi ymddwyn bob amser tuag ataf fi fel cymydogion da.

A fyddwch mor garedig a dangos hwn i Major Pennant, i arbed iddo y drafferth o alw eto.—Arhosaf, anwyl syr,

Yr eiddoch yn ddidwyll,

Mr. Easson. JOHN OWEN.

M

III.

Gwydyr Arms & Eagles Hotel,

Llanrwst, Hydref 19eg, 1868.

Anwyl Syr,—Yr wyf yn ysgrifennu i ddiolch i chwi am eich cefnogaeth gadarn ac anibynnol i'r achos yr ydwyf fi'n arweinydd



(O photograph gan J. Thomas, Cambrian Gallery.)
JOHN OWEN, TY'N LLWYN,
PREGETHWR AC AMAETHWR.

iddo yn y sir hon,—sir Gaernarfon wyf yn feddwl,—ac yr wyf yn gobeithio y dilynir eich esiampl ardderchog gan filoedd.

Yr wyf yn meddwl fod teulu'r Faenol yn llawer rhy uchelfrydig i dywallt eu chwerwedd ar unrhyw un a bleidleisio yn ol ei egwyddorion a'i gydwybod.

Yr eiddoch, yn ffyddlon iawn,

T. LOVE D. JONES-PARRY.

IV.

To Mr. John Owen, Ty'nllwyn, Bangor.

I, John Millington, . . . Agent for G W. D. Assheton Smith, an infant, and also for J. N. F. Astley, Esq., the surviving trustee appointed to act during the minority of the said G. W. D. Assheton Smith . . . do hereby give you notice to quit . . .



Anfoner pob gohebiaethau, o hyn hyd y rhifyn nesaf, i Owen M. Edwards, Lincoln College, Oxford.

D. B. Evans (Macclesfield).—Spurrell, Caerfyrddin, sy'n cyhoeddi geiriadur y Canon Silvan Evans.

D. W. (Dinbych).—Y mae lluoedd o lyfrau, yn Saesneg a Ffrancaeg, ar hanes Chwyldroad Ffrainc. Un o'r rhai mwyaf tarawiadol ydyw L'Ancien Régime et la Revolution gan De Tocqueville. Yn Saesneg, heblaw Carlyle, gellwch ddarllen gweithiau Croker, Smyth, Von Sybel, Mackintosh, Justin McCarthy, a Morse Stephens. Y mae gan Mrs. S. R. Gardiner lyfr bychan hanner coron ar y chwyldroad rhyfedd hwn.

W. Humphreys.—Diolch yn fawr. Y mae gennyf amryw o lythyrau J R. Jones o Ramoth yn aros eu lle. Y mae gennyf erthygl, gyda darlun, ar Fryn Melyn, ei gartref, hefyd. I mi, bendigedig yw ei goffadwriaeth.

Emoel Hir.—Yr oedd llawer o "lake dwellings,"—tai ar bolion mewn llynnoedd yn y wlad hon. Y mae polion un newydd eu darganfod ger Glastonbury. Yr oedd un hefyd yn Llyn Safaddan. Er diogelwch y codid hwy; a hwyrach mai eu dinistr hwy roddodd fod i'r traddodiadau am lyn yn llyncu dinas geir yn Llynclys, y Bala, Trallwm, &c.

Hoffwr Telyn.—Cynhygia'r brawd calon gynnes hwn hanner gini i mi at brynnu traethawd ar ganu gyda'r tannau i'w gyhoeddi yng Nghymru, ac ar wahan. Os hoffa rhywrai helpu ein llenorion mewn dull fel hyn, gwnaf fy ngoreu i roddi eu bwriad mewn grym. Wrth gwrs ni wnaethwn awgrym fel hyn pe'n derbyn dime o elw oddiwrth y cyhoeddiad, neu'n meddwl derbyn dime byth.

Midian.—Diolch. Nis gwn am ddim wedi ei gyhoeddi ar Rys ab Tewdwr. Fel amddiffynnwr Cymru rhag y llanw Normanaidd y mae'n arwr Cymreig. Amser a ddanghosodd ai budd i Gymru oedd rhwystro ei chwbl Normaneiddio,—pa un ai yn y gororau ai yng Nghymru Gymreig y mae'r cryfder a'r athrylith heddyw? Daeth deffroad llenyddol gydag ef hefyd.

W. Ryder.—Daw hanes Sion Ebrill yn y nesaf, os bydd lle. Ie, "I. Ph. 1600" sydd ar garreg fedd Sion Phylip; ac nid fel y dywedir yn y nodyn o flaen Cywydd y Wylan.

Pedro.—Gofyn i mi pam y rhydd Cymry enwau Saesneg ar eu tai ac wrth ben eu masnachdai, pan mai Cymraeg yn unig ddeallir yn eu hardaloedd. Cyfaddefaf ar unwaith na fedrais erioed ddeall, ac yr wyf yn rhyfeddu mwy o hyd.

W. W. (Llanrwst). — Dymunwn gydnabod derbyn yr hen ddarlun o Sasiwn y Bala. Y mae'n ddyddorol iawn; rhoddaf ef i'r cerflunydd a chyhoeddaf ef yn un o'r rhifynnau nesaf. Cymerir pob gofal o hono.

J. E S.—Pump a chwech, nid coron, yw pris "Wales and her language" gan J. E. Southal.

Scholasticus.—Nis gallaf ateb eich cwestiwn yn well na thrwy roddi'r dyfyniad hwn o'r *Liverpool Daily Post* am Awst 16, 1892,—

EXCESSIVE PUNISHMENT OF A SCHOOLBOY.

Mr. Philip Robert Forder, headmaster of the Boughton (Manchester) Board School, was fined £3 and costs yesterday for administering excessive punishment to a boy; whom after caning he compelled to stand for four hours holding a slate above his head bearing the word "liar."

R. M. D.—Dywed y Parch. D. Hughes Corwen fod yr emyn yn llyfr hymnau'r Wesleyaid (arg. 1889, tud. 383), ac yn Emynnau y Cysegr (rhif 1055).

Merch yr Hafod.—Nis gwn ddigon am fiwsig i roddi un cyngor i chwi. Yr ydych yn fy synnu trwy ddweyd y medrwch ganu, ond na ddysgwyd i chwi ganu'r alawon Cymreig, ac na fedrwch ddim o honynt. Y mae llawer o bethau na fedraf fi eu deall, ond un o'r pethau mwyaf rhyfedd i mi ydyw clywed, pan yng Nghymru, am aml gyngerdd heb un o'r alawon cenedlaethol Cymreig ynddo. Yr wyf, wrth ysgrifennu'r nodyn hwn, newydd ddod o gyngerdd lle'r oedd y gynulleidfa oll yn gwybod llawer am ganu ac wedi cael mantais i glywed cantorion pob gwlad. Mary Davies gafodd y derbyniad mwyaf brwdfrydig, a'r alawon ganodd hi oedd Ar Hyd y Nos a Bugeilio'r Gwenith Gwyn, —ar eiriau Cymraeg, cofiwch. Ni fynnwn fod yn anfoesgar wrth ateb llythyrau merched ieuainc, ond rhaid i mi gyfaddef fod fy nhymer yn poethi wrth ddarllen nad ydych yn "hidio am ganu Cymraeg."

T. J. T.—Ysgrifenna un o fechgyn colegau Lloegr, a fagwyd ar un o aelwydydd Gwynfe i gondemnio Dewi Medi am ddweyd fod Saesneg ar yr aelwydydd hynny. "Ni siaredir Saesneg o gwbl ar aelwydydd Gwynfe, ond Cymraeg croew, a digon o hono, ac nid oes yr arwydd lleiaf y peidia yr ardalwyr yn eu teyrngarwch i iaith eu tadau."

Ofnus.—Y mae llu o draddodiadau am y Vampire. Dyn oedd, ac yr oedd yn byw trwy sugno gwaed bywyd morwynion. Yr unig ffordd i gael ymwared oddiwrtho oedd ei gladdu ar groesffordd, ar awr ddua'r nos, a pholyn drwy ei fron. Os tywynnai pelydryn o oleu'r lleuad arno, deuai'n fyw drachefn, er wedi ei grogi a'i dorri'n ddarnau. Clywais am gario un at y groesffordd mewn sach, yn ddarnau; yr oedd goleu'r lleuad yn treiddio ato drwy'r sach, ac yntau'n dod yn fyw dan ddwylo y rhai a'i claddai.

Gwrhyr.—Y mae eich traethawd yn rhy unochrog. Medr pawb weld beiau addoliad Mair; ond dylai traethawd ddangos pam y cododd, a pha dda a wnaeth.

Dymunwn ddiolchgar gydnabod derbyn ysgrifau gwerthfawr oddiwrth Alaw Trefor; Asaph Gwent; Henri Myllin; Ioan Glan Dulyn; H. T., Lerpwl; R. H. Davies, Caer Ludd; y Parch. E. F. Jones, Llansantffraid; Penllwyn; Wrtydyn (gresyn fod bardd mor debyg i Burns mor anadnabyddus, teimlwn yn ddiolchgar iawn am ychwaneg o'i waith); R. H. Davies (nage, gobeithio, nid yr olaf); Rhodwy, Pont y styllod; Ioan Elias, Llanelli; Carneddog; Einion, Dinas Mawddwy; R. E. Roberts, Llanberis; S. Williams (bydd mor briodol yn y rhifyn nesaf); Ap Uthr; W. Ryder; J. C. Jones, A.C., Porth, Rhondda; Arwystli,

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

XIV. DAFYDD JONES Y CYNTAF.

PREGETHWR enwog gyda'r Wesleyaid oedd Dafydd Jones; ac ar ol ei farw, i'w wahaniaethu oddiwrth arall o'r un enw, galwyd ef yn Ddafydd Jones y Cyntaf. Y mae symudiadau a phrif helyntion ei fywyd i mi yn ddirgelwch hollol, a thrwy ei fod wedi ei eni a'i fagu heb fod yn nepell o'r lle yr wyf yn ysgrifennu, mawr yw fy nyhead am gael pob gwybodaeth am dano.

Ganwyd ef yn amaethdy y Buarthau, a'i dad oedd John Prichard, neu Sion Prisiart, yr hwn oedd gerddor rhagorol. Oddeutu 1795 symudodd i fyw i'r lle agosaf, sef hen balasdy y Berth Lwyd, yr hwn oedd drigle uchel-foneddion hyd farwolaeth Sion Ifan, pen ymladdwr y sir, ar fedd yr hwn y ceir yr englyn a ganlyn o waith Dafydd Ddu Eryri,—

"Clyw ddyn! yma y claddwyd—syn ofid—
Sion Ifan o'r Berthlwyd!
O'i deulu fe'i didolwyd
Ym mreichiau yr angau a'i rwyd!"

Yr oedd gan Ddafydd Jones frawd o'r enw William, yr hwn a elwid yn "William Sion, Ty Cerrig," ac yr oedd yntau fel ei dad yn gantor soniarus. Efe oedd y dechreuwr canu yn y Tylyrni ar ddechreuad Methodistiaeth yn yr ardal.

Sion Prisiart, yr hen wr, oedd ben-cantor y cymydogaethau yr un modd yn eglwys y plwyf, a mawr berchid ef am ei lais a'i allu cerddorol dihafal. Byddai ei awyddfryd a'i ewyllys yn myned yn aml o flaen gallu a chynnwys ei logell, fel y byddai yn gorfod llosgi rhedyn ac yn casglu eu lludw, a'i werthu i'r hen fardd John Thomas o Bentre Foelas, er mwyn iddo gael arian i brynnu llyfrau *notes*. Byddai yn arfer cynnal nosweithiau llawen yn ei dy, a byddai Morris, "hen ffidlar y Ferlas," yn dyfod yno i chware ei grwth, ac i ddawnsio gyda'r gwahoddedigion brodorol.

Dywedai hen wraig wrthyf ddarfod i Sion Prisiart gyfansoddi mesur ar garol o waith yr Hen Ficer o Lanymddyfri, ac wrth geisio ei chanu yn y plygain y waith gyntaf, methodd yr awdwr a chofio rhan o'r geiriau, ac mewn dychryn llefodd ar ei gyfaill Pirs Gruffydd, Llyndy, — "Helpa fi, Pirsyn! Helpa fi, Pirsyn!" a rhwng y ddau fe lwyddwyd i'w diweddu rywsut. Bu yn wael ac yn orweddiog am lawer o flynyddau, a chanai fel y clywid ef o bell ffordd, yn ei wely cystudd. Bu farw—yn ol cofnodlyfr y plwyf, —yn 1835, yn 87 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym Meddgelert. Er chwilio, methais a chanfod "carreg arw a dwy lythyren" i gofnodi ei lety llwch.

Sicr ddarfod i Ddafydd Jones, ei fab, gael cwrs o addysg, yn anibynnol ar ei allu, gan y cawn ef wedi dringo i fod yn olygydd yr *Eurgrawn*, yn Llunden, o 1815 hyd 1817. Anrhydeddwyd ef ag ymddiriedaeth bwysig, gan yr ystyrrid yr *Eurgrawn* yn un o brif gyfoesolion Cymru yr adeg honno. Dywedir iddo geisio sefydlu yr achos Wesleyaidd yn ei fro enedigol trwy bregethu yn achlysurol yng nghapel anwes Nanmor, ond ni lwyddodd yn ei amcan, trwy fod Methodistiaeth yn gryf, a'r ardal yn deneu o drigolion. Yr oedd, heblaw bod yn bregethwr a llenor rhagorol, yn fardd gwir fedrus, ond nid oes gennyf ond un engraifft o'i awen, sef cân a luniodd tra oddicartref, ac ar yr hon y canwyd llawer y blynyddau a fu.

GWLAD FY NGENEDIGAETH.

Mesur,—*Y Dôn Fechan.*

O! na chawn i weled eilwaith
Hyfryd wlad fy ngenedigaeth;
Lle ce's gyntaf oll anadlu,
A'm hoff feithrin a fy magu.

O! na welwn eto'r dyddiau,
Pryd cawn felus foli â thannau
Duw yn rhwydd, mewn peraidd araeth,
Yn hen wlad fy ngenedigaeth.

Yno cawn i weld y bryniau,
Y dolydd teg, a'r heirdd fynyddau;
A'r adar bach yn dweyd mewn araeth,—
Hon yw gwlad fy ngenedigaeth.

Swn aberoedd, lliw pob blodau,
Coedydd gwyrddion, a gweirgloddiau;
Teg yw'r olwg ar bob talaeth,
Yn hoff wlad fy ngenedigaeth.

Yno cana'r gog yn beraidd,
Mwyalchen ddu a'i llais tra mwynaidd,
Gyda'r eos mewn cerddoriaeth,
Yng ngwiwlan wlad fy ngenedigaeth.

Meirion, Meirion, wlad feillionog,
O mor hardd yw'th ddolydd deiliog!
Briallu euraidd, maesydd helaeth,
Sydd yng ngwlad fy ngenedigaeth.

Cader Idris fawr, a'r Wyddfa,
Penmaenmawr a'i rwydd dramwyfa,
Pont Porthaethwy dra gwych odiaeth,
Y'nt yng ngwlad fy ngenedigaeth.

P'le mae llwch fy mam yn gorwedd,
P'le mae llety oer ei hannedd,
Am yr hon mae'n drwm fy hiraeth?—
Yn hoff wlad fy ngenedigaeth.

Nid oes le dymunwn orwedd,
Ond yn 'r unrhyw oeraidd annedd,
Hyd nes dêl cyfodiad eilwaith,
Fry o wlad fy ngenedigaeth.

Canaf yna'n iach i Gymru,
Lle y'm ganwyd i a'm teulu;
Pan aiff daear i ddifrodaeth,
Llosgir gwlad fy ngenedigaeth.

Ond mae gwlad uwch ser y nefoedd,
Paradwysaidd heirdd ardaloedd,
Lle cartrefaf fyth heb hiraeth
Am hen wlad fy ngenedigaeth.

Dyma'r wlad 'rwyf yn ei cheisio,
Gwlad o lawth a mel yn llifo,
Lle mae gwynfyd byth heb alaeth—
Gwell na gwlad fy ngenedigaeth.

'Nawr darfyddaf byth â daear,
Lle mae tristwch poen a galar;
Y nef sydd fyrdd yn fwy tra odiaeth
Na hoff wlad fy ngenedigaeth.

Gorsedd Duw a'r Oen sydd yno,
A'r holl seintiau yn preswylio,
Yn gymysg â'r holl lu seraffaid l,
Mewn tragwyddol wlad nefolaidd.

Draw mi wela'r Ganan nefol,
Cartref pur y Duw tragwyddol,
Lle mae meithion ryfeddoda',
Effaith loesion pen Calfaria.

Credu 'rwyf, mewn cadarn obaith,
Y daw im' gyflawn fuddugoliaeth,
Pan y caf mewn odlau nefol,
Foli'r Un—Tri Duw tragwyddol!

Lluniodd Ioan Tegid a Daniel Ddu o Geredigion ganeuon swynol cyffelyb ar wlad eu genedigaeth. Dyma benillion gwladgarol o'r iawn ryw, os teimlad lleddf sydd i reoli y galon wrth glodfori mangre mebyd. Credaf fod "bachgen Nanmor" yn curo y ddau arall mewn cyflawnder ac angerddoldeb hiraeth. Ysgrifennodd cymrawd i mi farwnad Dafydd Jones, o waith E. Jones, Towyn,—Edward Jones, Bodorlas, mae'n debyg. Cododd hi o'r *Eurgrawn* am 1832, gan ei hanfon i mi o dir Mon. Cynhwysa 32 o benillion ar yr un mesur a'r ganig uchod,—penillion syml yn llifo o alar cariadlawn. Yr wyf wedi eu dysgu bron yn ddiarwybod, gan mor aml eu darllennais. Rhoddaf rhyw hanner dwsin yma, o'r rhai y mae cyfeiriad uniongyrchol at "Wlad fy Ngenedigaeth,"—

Gwelir trem o'i ddoniau odiaeth,
Mewn cân i wlad ei enedigaeth;
At hon fy serch yn gryf ymlynodd
Er mwyn y llawr gynt a'i hamliwiodd.

Tra mae llwch ei fam ym Meirion,
Gyda'i theulu a'i chyfeillion;
Ei lwch ef mewn gwlad bellenig
Oddiwrthi hi sydd yn gladdedig.

Dymunodd am gael gorwedd yno
Lle mae ei fam yn pridd-falurio;
Er mor daer am hyn y ceisiodd,
Ei ddymuniad, gwn, ni chafodd.

Dywedodd ef mewn cref grediniaeth,
Y cai gyflawn fuddugoliaeth;
Hanner hon a gafodd heddyw,
Hi fydd yn *llawn* pan gwyd y meirw.

Mwynach yw ei seiniad hylon
Yn mhlith nefolaidd delynorion,
Nag y seiniodd fwynaf yma,
Er mawl i'r Gŵr fu ar Galfaria!

Cof am dano sydd yn gynnes
Gan Feirioniaid yn eu mynwes;
Tra deil cof i wneyd ei orchwyl
Nid anghofir Dafydd anwyl.

Y mae ambell i belydr o oleuni a deifl y farwnad ar ei hanes, yn fy nhaflu i fwy o gaddug yn ei gylch. Pwy a gronicla ychydig o'i hynt,—ym mha le y bu fyw, ac ym mha le y mae ei hunell ef a'i fam? Yn ddiau, y mae'n wr—fel yr ysgrifennodd y cyfaill ar waelod papur ei farwnad, "I fod mewn parhaus goffadwriaeth,"—"*In perpetuam rei memoriam.*"

Nanmor, Beddgelert. CARNEDDOG.

CYWYDDAU LLANELWY.

II. TABLERWYR LLANELWY.

Dacthum i wared weithian
At haid o fwngleriaid glân;
Lle'r oedd siarad a dadwrdd,
Ac ymdeuru bobtu'r bwrdd;
A thân a mŵg eithinen,
A chwrw'n il a cherwyn wen;
A thost o fara thost rhyg,
A thablen folfraith ddyblyg;
Dechreu chwarau ymchwerwi,
Uwch ben hon a wnaethum ni.

Yna daw darlun o drigolion hen Lanelwy,—offeiriaid, melinydd, gof, &c.,—oll yn y chware.

SION TUDUR, 1572.

III. YMWELIAD A LLANELWY.

Dof fy hun, ydwyf heini,
Da chwaith ymweld â chwi;
Hyn yn llan daenell hen-awr,
Elwy llei bydd fwyfwy fawr;
Ag yn y lle y mae'r Ganon,
Caf yn rhad siarad â Sion*;
Ar fwrdd tal a grwndwal grâs
Ogledd teml Arglwydd Tomas†;
Lle da gwin, lle digonawl,
Lle hwyr mel, lle heuir mawl;
Lle diofal, lle difwrn,
Lle tromsaig, lle tramwy swrn;
Lle da cynnull dau cannyn,
Lle ceir da, lle cywir dyn:
Lle neuaddau llawn addysg,
Lle y mae dawn, lle mwy dysg?

SION PLYLIP.

* Sion Tudur.
† Thomas Caldwell oedd esgob Llanelwy 1555. Thomas Davies esgob yn 1561.

FY ADDYSG.

IV.

YR oedd lliw'r dail yn dechre troi, tua diwedd Medi, pan ddaeth yr athraw newydd. Yr oeddwn wedi cael bod gartref trwy'r haf, oherwydd y gwaeledd a ddaethai i'm rhan o fynd i'r ysgol. A haf dedwydd oedd hwnnw. Gyda'r defaid yn y mynydd y treuliais y rhan fwyaf o hono. Y mae ein "rhydit"* ni ar fron y mynydd mawr, ac y mae afon yn murmur yn ddedwydd wrth lithro dros gerrig gleision a graian glân gyda'i odreu. Y mae ei dwfr mor dryloew fel y medrwn wylio symudiadau'r brithylliaid prydferth oedd yn chware o'i fewn. Y peth cyntaf ddarganfyddais oedd nad oedd yno ysgol i'r brithylliaid bach; a dyna'r paham, mi dybiwn, fod eu cynffonnau'n chware mor hoew yn y dŵr. Ar ochr y mynydd yr oedd rhedyn Mair a grug,—gwn eu bod yno eto, er na welais i eu lliwiau gogoneddus o wyrdd a choch er ys blynyddoedd, oddigerth mewn dychymyg. Yr oedd yno randiroedd eang o fynydd glaswelltog hefyd, ac ni ddaeth o Frussels erioed garped mor esmwyth dan droed a'r mynydd hwnnw yn sychder yr haf. Llawer tro, ar wastadeddau sychion gwledydd pell, y bum yn hiraethu am ddyfroedd grisialaidd ffynnon sy'n tarddu dan garreg ar y mynydd hwn. Yn ei gwr yr oedd pantle cysgodol, a sicrha bugeiliaid mai hen gladdfa oedd. Symudwn, bron yn ddiarwybod imi, gyda'r nos, i gwr arall y rhandir, er fod yno gylchau Tylwyth Teg. Pan ddechreuai cysgodau'r mynyddoedd ymestyn dros gwm ar ol cwm, nes o'r diwedd yr ymledent dros fy nefaid innau hefyd, trown i lawr ar hyd dyffryn y nant tua'm cartre. A bore drannoeth, pan fyddai'r haul yn sychu'r gwlith oddiar flodau'r grug, mwyn oedd gorwedd ar y mynydd i weled yr ehedydd bach yn codi o uchder i uchder, nes y byddai'n yspotyn du bron rhy fach i'w weled yn yr ucheldiroedd glas, a'i gân yn aros yng nghlust dychymyg o hyd. Ie, dyddiau dedwydd oedd y dyddiau hynny, pan oedd awel gynnes esmwyth yn anadlu dros y dolydd gweiriog a thros y mynyddoedd iach. Ac i wneyd fy llawenydd yn berffaith, clywais fod yr ysgolfeistres yn mynd i ffwrdd, i le gwell. Ond och! nid oedd diwedd i fod ar yr ysgol, er i'r ysgolfeistres fynd i ffwrdd. Yr oedd un arall i ddod yn ei lle. A chlywais newydd wnaeth i'm calon suddo o'm mewn. Wrth fy ngweled yn rhedeg yn llawen gyda'm ci ryw ddiwrnod, treiodd hen wr pigog o ben ucha'r cwm ddinistrio fy llawenydd trwy ddweyd,—"Mae'r gaua'n dod, 'ngwas i, mi cei di hi'n iawn, 'roedd Sion Siop yn deyd wrtha i mai dyn ydi'r scwlmusus newydd." A meddyliais innau ar unwaith, os medrai dynes fechan deneu lainio mor echrydus, beth fedrai dyn mawr cryf wneyd.

Bum yn dyfalu llawer ffasiwn un oedd yr athraw newydd, breuddwydiwn am dano bob nos. O'r diwedd tynnais ddarlun o hono i mi fy hun, ac nis gallwn gael llonydd gan y darlun a greais,—dyn mawr tal oedd, a chadach du ar draws un llygad, a llais bas aflafar, a choes bren. Ond ni fedrwn gael sierwydd i'm meddwl fy hun pa un ai *ruler* ynte gwialen fedw fyddai'n tynnu'r llwch o ysgwyddau'm cot. Un peth ni ddaeth yn agos i'm meddwl,—y syniad fod yn bosibl i ysgolfeistr fy neall yn siarad.

Daeth bore mynd i'r ysgol. Cynghorodd fy mam fi y noson cynt i ufuddhau i'r athraw ym mhob peth. Addewais innau wneyd hyn, os medrwn, trwy ryw foddion, ddeall beth oedd yn ddweyd. Rhoddodd fy mam gynghorion ereill i mi hefyd, yn y wedd yma,—"Cofia di fod yn ffeind wrth blant ereill, yn enwedig wrth rai llai na thydi dy hun. Ond 'dydi ddim iws i ti adael i neb dynnu dy lygaid. Os cei di gam, rhaid i ti chware dy bart. Ac os doi di i gwyno ata i fod rhyw fachgen wedi dy guro di, cofia hyn,—mi gei gweir arall gen inne am adael iddo-fo. Treia ddysgu, gael i ti leicio'r ysgol." Cychwynnais i'r ysgol yn ddewrach na llawer tro, wedi penderfynu "chware fy mhart."

Yr oeddwn wrth yr ysgol mewn pryd, a phan agorwyd y drws am naw i'r funud, ymwthiais i mewn gyda'r plant ereill, a gadewais i ffawd fy rhoddi i eistedd yn ol ei hewyllys hi. Gwelais cyn hir fod ffawd wedi fy rhoddi i eistedd yn y gornel bellaf oddiwrth y tân, a daeth mwy o rym nag erioed i eiriau fy mam fod yn rhaid i mi chware fy mhart fy hun. Ond dacw'r athraw newydd. Prin y medrwn gredu mai efe oedd, yr oedd mor anhebyg i ysgolfeistr fy mreuddwydion. Gŵr byr tew oedd, a siriol iawn yr olwg. Yr oedd rhywbeth yn ei wyneb yn gwneyd i mi feddwl nad oedd hwn, beth bynnag, am geisio mwynhad drwy wneyd y plant mor anghysurus ag y medrai. Yr oedd gennyf syniad fod pob athraw'n cuddio gwialen fedw y tu ol i'w gefn, ond yr oedd rhywbeth yn ddeniadol yng ngolwg hwn. A sylweddolais, er llawenydd angerddol i mi, fod yn bosibl i fachgen ysgol hoffi ei athraw. Troais fy llygaid at y cwpwrdd lle y cedwid y botel

* Rhydd-did, rhyddid. Gelwir ef hefyd yn "libart," *liberty*.

inc fawr a'r wialen fedw ar ei ben. Gwelais fod y wialen yno o hyd. Yr oeddwn wedi gobeithio yr ai'r ysgolfeistres a'i gwialen gyda hi, oherwydd y mae hen wialen fedw'n brifo mwy na gwialen fedw newydd. Pan fydd y dail heb lwyr ddod i ffwrdd oddiwrth y wialen, nid yw y loes yn gymaint; hen wialen fain, wedi gwneyd llawer o waith, ydyw'r beryclaf.

Rhoddwyd fi yn y dosbarth isaf; ac yr oedd lle y dosbarth hwnnw am y fainc a lle'r dosbarth uchaf. Yn y dosbarth uchaf yr oedd geneth o'r un oed a minnau,—mae merched yn dysgu'n gynt o lawer na bechgyn rywsut. A chyn diwedd ysgol y bore dechreuasom ysgwrsio. Yr oedd hi wedi gorffen ei gwaith; a minne, druan, heb ddechre. Rhoddodd help i mi dorri rhyw luniau llythyrennau ar fy llech. Benthyg oedd y llech, ac nid oedd gennyf bensel garreg. Rhoddodd yr eneth fenthyg ei phensel hi i mi, ac yr oedd yn gynnes o'i llaw, ac yn ysgrifennu'n esmwyth iawn. Ond gwelais na fynnai'r bensel wneyd rhyfeddodau gyda'm bysedd i fel y gwnai gyda'i bysedd hi. Gwell na'r ysgrifennu oedd yr ysgwrs a gawsom am yr athraw newydd. Yr oedd yr eneth yn gwybod ei hanes i gyd, oherwydd yr oedd wedi bod yn ei chartref. Un o sir Aberteifi oedd, medde hi. Nid oedd gen i yr un syniad am sir Aberteifi yr adeg honno ond ei bod yn rhywle yng nghanol Lloegr, oherwydd Saesneg oedd iaith y person, ac o'r sir honno yr oedd ef yn digwydd dod. Ond dywedai'm cydymaith fod yr athraw'n medru Cymraeg, "ond i fod o'n Gymraeg go od." "A'i wraig o hefyd," meddai, "piti garw na ddoi hi i'r ysgol, welest ti erioed un mor ffeind." Yr oedd yr athraw a'i wraig wedi dweyd tipyn o'u hanes. "Roedden nhw yn yr ysgol hefo'u gilydd, ac yn gariadau yr amser hwnnw," ebe'r eneth, gan gyfeirio at hanes y bydd merched bach yn cymeryd mwy o ddyddordeb ynddo na bechgyn bach. Gofynnais yn bryderus a oedd gan yr athraw blant, a da iawn oedd gennyf glywed nad oedd ganddo yr un. Tybiwn mai tynged anedwydd oedd un plant athraw,—bod gydag ef ddydd a nos!

Erbyn hyn, prin y rhaid i mi ddweyd, y mae fy meddwl wedi newid am sir Aberteifi ac am blant ysgolfeistr. Pe bawn yn llywodraethu ysgol ac yn dewis athraw, dewiswn un gyda gwraig a phlant. Y syndod i mi ydyw pa ham y mae athrawon di-briod yn medru deall plant cystal. Ond yr wyf yn sicr o hyn, na wyddant ond elfennau eu celfyddyd hyd nes y bont wedi ymdrafferthu gyda'u plant eu hun. Y mae cydymdeimlad a gwybodaeth,—rhai gwerthfawrocach na thrysorau pennaf ysgol a choleg,—yn dod yn feddiant i'r athraw; ac y mae pob enaid bach sydd dan ei ofal yn ymddangos yn gan mil gwerthfawrocach nag erioed o'r blaen.

Y prydnawn buom yn dysgu darllen, trwy ddweyd geiriau ar ol bachgen ddaeth i'n dysgu. "*O x ox; o n on; a t at*,"—mi dybiaf glywed ugain o leisiau'n swnio yn fy nghlustiau y funud hon. Mor wahanol yw'r lleisiau heddyw! Y mae dau'n cyhoeddi'r efengyl, y mae un yn melldithio Duw a dynion, y mae mwy nag un wedi tewi am byth. Ni wyddem, wrth gwrs, beth oeddym yn ddweyd. "Dysgu allan" fel parot oedd unig ystyr y gair dysgu; nid oedd deall a dysgu meddwl yn rhan o addysg y dyddiau hynny o gwbl. Ein dysgu i wneyd swn heb feddwl iddo, a'n dysgu i siarad heb ddeall,—dyna'r dysgu gawsom ni.

Wrth fynd adre'r prydnawn gwelais wraig yr athraw. Un hardd radlon oedd; a dechreuodd siarad â ni. Gofynnodd i mi a fedrwn "ddala iar bach yr haf." Ni wyddwn mai gloyn byw oedd yn feddwl, onide gallaswn ddweyd hanes bywyd degau o honynt wrthi. Holodd ni a oedd pysgod yn yr afon, ac a oedd yn hawdd eu dal. Gwnaeth hyn fi'n ddistaw, yr oedd y pysgod yn gyfeillion i mi, ac ofnwn y medrai'r ysgolfeistr eu dal. Ond hoffwn y wên oedd ar wyneb y wraig a'i hiaith,—yr oedd mor anhebyg i'r hon a'n gadawsai. Synnem ei chlywed yn siarad Cymraeg, a hanner ofnem y cai "slap" ar ei llaw wedi mynd adre. Teimlwn yn falch iawn ar ddiwedd y diwrnod hwnnw. Diwrnod cyfan yn yr ysgol heb gurfa! Ni feddyliais erioed o'r blaen fod hyn yn bosibl. Nid oedd dim arswyd yn fy meddwl wrth feddwl am ysgol trannoeth. Rhedwn yn llawen gyda'm ci ar draws y caeau adlodd gwyrddion, i deimlo fy mod yn rhydd. A theimlwn fy mod wedi dysgu *o x, ox*. Gwyddwn lle'r oedd cerrig gleision hirion yng ngwely'r afon yn y mynydd. Eis yno i'w ceisio. Naddais un o honynt yn bensel feddal bigfain, torrais dwll yn ei bon, a rhoddais ruban melyn drwyddo, i'w hongian am fy ngwddf. Tybiais, hefyd, y gallwn fod o ryw ddiddanwch i'm cyd-ysgolheigion. Gwneis ddau bâr o "glecars" newydd, sef cerrig caledion i'w rhoddi rhwng fy mysedd. Medrwn chwareu y rhain er difyrrwch i mi fy hun, a dychmygwn weled yr holl blant yn gwrando arnaf mewn edmygedd. Ond pan ddaeth trannoeth, cefais brofiad brenin yn brofiad i mi fy hun,—"Pan ddêl balchder, fe ddaw gwarth, ond gyda'r gostyngedig y mae doethineb."

ARWYDDION TYWYDD.

"Yng Nghymru tra dau yn cwrddyd â'u gilydd,
Y cyntaf peth wnant fydd son am y tywydd."—IDRISYN.

NI ddywedaf ddim am yr awyr-bwyswydd. Fy amcan yw rhoddi casgliad byr o'r moddion oedd gan ein tadau i broffwydo am y tywydd. Mi wn am aml hen wr, sy'n gryn broffwyd, trwy'r moddion hyn. A dyma restr o'r arwyddion, a ystyriai ein henafiaid yn arwyddion sicr o'r tywydd. Rhoddent lawer o bwys ar y lleuad. Po agosaf i ganol nos y byddai'r lloer yn newid neu yn llawn, tecaf oll y disgwylient yr hin yn ystod y dyddiau wedyn. Ond os byddai iddi newid neu ddod yn llawn yn y boreu disgwylient am dywydd gwlyb. Yr oedd gweled chwarter cyntaf y lleuad yn cwympo'n ol, fel pe bai yn sefyll ar ei chongl, yn arwydd arbennig o fis gwlyb. Yr oedd gweled cylch o amgylch y lleuad yn arwydd ystorm.

Os elai'r haul i lawr yn goch-lwyd, yr oedd hynny yn arwydd o dywydd teg,—

"Goleu fôr a thywyll fynydd,
Tegwch gawn ni yn dragywydd."

Os byddai'r gorllewin braidd yn dywyll, a'r pwynt cyferbyniol yn oleu, newidient y ddwy linell fel hyn,—

"Tywyll fôr a goleu fynydd,
Drychin gawn ni yn dragywydd."

Os machludai'r haul yn goch-felyn, doi gwlaw. Nid da oedd ganddynt weled y wawr yn gwawrio yn rhy fore. Ac os ai'r haul yn wresog iawn yn bur fore, dywedent fod cyfnewid hin i fod. A phan welent gochni yn yr awyr, yn y bore, disgwylient am wlaw.

Sylwent gryn lawer ar y gwynt. Oerai ddygai gwynt y gogledd,—

"Oerni heb wlaw,
O'r gogledd y daw."

Gwres ddoi o'r deheu, gwlybaniaeth gan wynt deheu-orllewinol,—

"Gwynt o'r môr,
Gwlaw wrth y ddôr."

Clywais rhai yn dweyd y ddwy linell fel hyn,—

"Gwynt o'r môr,
Gwlaw ar ei ol."

Sychder oerllyd ddeuai gan wynt y dwyrain,—

"Gwynt oer hin a gwynt yr ia."

Os ymddangoshai y bwa ar y cwmwl yn y bore, disgwylient aml gawod o wlaw. Ond os deuai allan yn y prydnawn, disgwylient am degwch,—

"Bwa yn y bore,
Aml gawode;
Ond bwa prydnawn,
Tegwch a gawn."

Os deiliai y dderwen o flaen yr onnen, disgwylient am hin deg. Ond os deiliai yr onnen o flaen y dderwen, disgwylient am haf oer.

Os gwelent wylanod yn hedfan rai milldiroedd oddiwrth y môr, yr oedd yn arwydd o wlaw iddynt,—

"O'r môr daw y wylan,
A gwlaw wna ddarogan."

Pan welent wenoliaid yn hedfan yn ymyl y ddaear dywedent fod hynny yn arwydd o wlaw. Pan fyddai'r gwibed mân yn eu pigo, dywedent fod yr awyr yn drwm, ac y byddent yn sicr o wlaw. Pan welent fwg tai yn esgyn i fyny yn syth i'r awyr, cymerent hynny fel arwydd o dywydd teg. Pan welent y defaid yn cydgrynhoi mewn cwr o'r maes, disgwylient am ystorom. Os gwelent y gwartheg yn gorwedd ar y ddaear, dywedent y deuai gwlaw trwm mewn ychydig ddyddiau. Pan welent haid o frain yn croesi yr awyr o un man i'r llall,—"Priodas y Brain," fel y gelwid yr amgylchiad,—dywedent fod y brain yn symud i le mwy cysgodol, rhag ystorom oedd i ddigwydd. A phan welent lawer o frain yn aros ar ben polion gwirs, disgwylient am wlaw. Yr oedd gweled malwod a llyffeint yn gadael eu celloedd, yn arwydd o wlaw iddynt.

Dywedent fod pry'r tan,—y criciedyn,—yn canu'n uchel iawn cyn gwlaw. Pan ddeuai y pryf-copyn allan o'i we, cymerent hyn fel arwydd o wlaw. Pan welent gi yn cnoi y glaswellt, credid fod gwlaw i ddod. Pan deimlai yr henafgwyr boen yn y cymalau, fel pe wedi blino, dywedent fod yr hin yn newid. Os gwelent y gath yn crafu rhyw bost neu ddrws, credid ei fod yn argoeli gwynt. Yr oedd ganddynt sawl math o foddion i wybod y tywydd heblaw y pethau hyn.

Gwelais laweroedd o weithiau ryw addurn bychan a elwir "Shon a Shan." Y mae'r addurn ar lun palas, gyda dau ddrws. Shon hawlia un drws a Shan hawlia'r llall. Pan fydd y tywydd yn tueddu i fod yn wlyb, daw Shon allan. Ond ar dywydd hafaidd daw Shan allan. Ychydig amser yn ol, troes i mewn i fwthyn bach, gwyn-galchog, ymnythai yn unig ar waelod mynydd. Yno preswylia hen wraig sionc. Gwahoddwyd fi i mewn. Safai rhywbeth ger y ffenestr a dynnodd fy sylw. Cefais allan mai dangos y tywydd oedd ei amcan. Dwy botel wydr oedd yno. Yn un o'r potelau yr oedd dwfr, —tua thri chwarter ei llonaid. Yr oedd gwddf y botel wâg yng ngwddf y botel a'r dwfr,—tua hanner modfedd oddiwrth y dwfr. Ymgodai ychydig o'r dwfr o'r botel isaf i'r uchaf os tueddai'r awyr i fod yn llaith.

PENLLWYN.

AELODAU SENEDDOL CYMRU.

V. SIR ABERTEIFI.

GANWYD William Bowen Rowlands yn Hwlffordd, sir Benfro, yn 1837. O deuluoedd sir Benfro y deuai ei deulu o bobtu,—ei dad oedd Thomas Rowlands, U.H., Glenover; a'i fam oedd Anne Bowen o'r Dugoed. Addysgwyd ef yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, galwyd ef i'r Bar yn 1872, a gwnawd ef yn Q.C. yn 1882. Y mae'n Ynad Heddwch dros sir Benfro a bwrdeisdref Hwlffordd, ac yn un o is-raglawiaid Ceredigion. Y mae'n llawn ynni a gweithgarwch, ac ar y blaen gyda phopeth, fel ei sir. Synnodd llawer yn 1886 pan ddewisodd sir Aberteifi ef o flaen yr hen wron hael David Davies o Landinam trwy fwyafrif o naw. Cymaint o syndod oedd ei fwyafrif o 1971 yn yr etholiad diweddar ar William Jones, o Firmingham,—gŵr mawr ei rodd a'i ddaioni.

WILLIAM BOWEN ROWLANDS.
(O photograph gan Russell a'i feibion).

NOS GALANGAUAF.

Wrth chwilota hen rifynnau o gylchgronau a llyfrynnau llychlyd yn nhy cymydog rai blynyddau yn ol, daeth i'm llaw ychydig nifer o ddail melynion a braenedig yr olwg arnynt, a beth oedd eu cynhwysiad, er llawenydd i mi, ond Cerddi o awduriaeth y diweddar fardd awengar David Williams (Dafydd ab Gwilym o Fuallt), yn llawysgrif yr awdwr ei hun. Er eu hachub rhag syrthio i ddifancoll, adysgrifenais hwynt oll. Ac wele un o honynt.

Ty'nypant, Llanwrtyd. EVAN JONES (Wrtydyn).

DEWCH, llenwch inni'r cwpan, ac yfwn bawb ar gylch,
Hen gwrw Mawrth am noswaith, ein gofid ymaith ylch;
Un noswaith i lawenydd, 'nol hir drafferthu a'r byd,
Ond ffwrdd, wrachiaidd chwedlau, hygoeledd isel-fryd.

Heb son am wrach y llibyn, nac ysbryd min y llan,
Na gwag ddefodau i wybod pwy'n briod ddaw i'n rhan;
O gylch y tân dyneswn, mewn cariad yn gytun,
Os caf fi'r ferch a garaf mi wn pwy gaf fy hun.

Tes disglaer haf a ddarfu, cnwd Hydref mwy nid yw,
Ond wybren ddu yn gwgu ar ddaear lom a gwyw;
Ond beth er nad yw'r gwanwyn yn hardd ddilladu'r byd,
Na cherddi'r llwyni deiliog yn awr yn llonni'n bryd.

Achlem ac aredig y tyddyn 'nawr ni chair,
Yfory ni raid chwysu ganol-ddydd gyda'r gwair,
Na heno wrth oleu'r lleuad, â blin ofalus fryd,
Rhag ofn y gwlawia'r boreu, drafferthu gyda'r yd.

Wel, henffych auaf cuchiog, ystormydd oer a gwlaw,
Chwibaned gwynt y gogledd, doed eira pan y daw;
Mae'r gromen 'nawr yn ddiddos, a'n hysguboriau'n llawn,
A ffrwyth ein llafur caled mewn heddwch a fwynhawn.

Yn ysgafn ac yn wisgi ni droediwn dros yr ia,
A cholan cynhauafus gofalwn borthi'r da;
I'r ty ni awn a'r crwydryn, tosturiwn wrth ein brawd,
Ac wrth ein bwrdd a'n haelwyd anghofio'i fod yn dlawd.

1827. DAFYDD AB GWILYM O FUALLT.

MURMURON Y GRAGEN.

Dydd Sul diweddaf, cefais ymgom â phregethwr, ar ol y bregeth y prydnawn, yn un o lannau llonyddaf Cymru. Wedi son am y ffordd i Seion ac am y cyfamod tragwyddol, trodd cwrs yr ymddiddan rywsut at y môr, ac at y rhan gyntaf o gân Glasynys. Yr oeddym ein dau wedi ei darllen yn y rhifyn cyn y diweddaf. Ac ebe'r pregethwr,—"Mi gefais i fy magu ar lan y môr, a'r peth a'm tarawodd i wrth ddarllen y gân oedd manylder a chywirdeb y darluniadau. Gallai rhywun heb adnabod y môr feddwl mai dychymyg yw'r cwbl, ond adgofion bore oes ydyw i mi. Ar noson ystormus iawn byddem yn clywed y môr yn torri ar far Caernarfon, a byddem yn dychmygu ein bod yn clywed pob swn. Clywem swn llong yn suddo, a llefain trueiniaid ar foddi; weithiau dychmygem ein bod yn clywed dynion cryfion yn ymladd â'r tonnau; dro arall clywem ferched yn gwaeddi mewn anobaith, a thro arall wedyn clywem leisiau plant bach." Arwynebol yw fy ngwybodaeth i am y môr; ond, er hynny, y mae "Murmuron y Gragen" yn gwneyd i mi aml ail rodio ei lan. Yr oedd y pregethwr wedi darllen llawer ar lenyddiaeth y môr, mewn aml iaith, a dywedai os nad wyf yn camgymeryd, mai "Murmuron y Gragen" yw ei hoff ddarluniad. Gwyn fyd na chai Glasynys fwy o sylw ei genedl. Na chraffer gormod ar ei fywyd; yr oedd hwnnw'n ddigon prudd. Ond ymhyfryder yn y swn esmwyth breuddwydiol sydd ynddo. Plentyn glan y môr ydyw; a'i waith, fel ei Gragen, yn cario su'r môr i bob enaid fynno orffwys.

v.

PAN oedd awel dyner dawel Mai yn distaw sibrwd *Ust*,
Rhodio'r oeddwn hyd y feis-don, gyda'r Gragen wrth fy nghlust;
Ynddi clywn su prudd glwyfus, swn dolefus ing ac aeth,—
"Cuddia'r tonnau'n fuan fuan lun y troed sydd ar y traeth."
Eis i lawr i grwydro'r draethell, gwelais yno lun y troed,
Ac fel hyn ymholai'r meddwl,—fel gwna plentyn pedair oed,—
"Pwy oedd hwn fu'n croesi yma? Ym mha blwyf 'roedd ty ei dad?
Pa beth tybed oedd ei neges? Ai ymdeithio'r oedd i'w wlad?
Dyma lun y troed yn amlwg yn y tywod ar y traeth,
Ac yn dangos ei gyfeiriad; ond pa beth o hono ddaeth?
Os aeth ef yr ochr aswy, tonnog feddrod yw ei ran,
Ond os cymerth dde gyfeiriad, mae'n ddiogel ar y lan."
Dilyn wnes yn araf bwyllog lun y troed ar draws y traeth,
Er mwyn gweled beth ei dynged, beth yn ddiwedd iddo ddaeth;
Croesais lawer afon lydan, llawer bâs lyn, llawer pwll,—
Ofni'r oeddwn weld ei gorffyn wedi suddo i ryw dwll,
Ond ymlaen yn ddiflin hwyliais ar hyd llwybr llun y troed,
Mewn peryglon enbyd weithiau, ac mewn ofnau mwya' erioed;
Arall brydiau hwylus deithiwn, gan ber-byncio melus salm,
Llawer emyn hefyd brofais ar fy siwrnai fel yn falm.
Ond o'r diwedd pan yn sefyll clywn greglais uwch fy mhen,
Creglais oer ac anaearol ydyw creglais gwylan wen.
Synfeddyliais,—braidd nad ofnais, mai rhyw arwydd ydoedd hyn,
Fod y troed, yr ol ddilynais, wedi suddo i ryw lyn!
Draw fe swnia'r môr yn dreiddiol, swn parhaol donnog gôr,
Swn rhyw bellder anirnadwy, eto'n agos, sy'n y môr.
Gwelwn wedyn droad sydyn, yn y *llun* i lyn gerllaw,
Ac wrth graffu gwelwn hefyd iddo lanio'r ochor draw;
Ar ei ol dilynais innau, yntau'n pwyso ar y *dde*,
A mwy amlwg oedd ei gamrau yma nag oedd mewn un lle.

Fe gyfeiriai tua'r feis-don, yna tua phrydferth goed,
Lle ca'r un lluddedig orffwys heb un arlliw llun ei droed!
Sefais innau'n syn pan welais lun fy nhroed ar hyd y traeth,
A murmurai'r môr wrth lenwi,—"Neb yn ol os trosodd aeth.'
Ond pan oeddwn bron a boddi, daeth rhyw angel efo bâd,
A dychwelais dros y tonnau eto'n ol i dy fy nhad.

Y mae awel dyner dawel dwyfol Fai yn sibrwd *Ust*,
Minnau'n crwydro traethell einioes gyda'r Gragen wrth fy nghlust;
Dyfal wrando dwfn-furmuron, iaith ysbrydion yn y gwynt,
Tonnog su y cel-gyfrinion ym mhellderau'r amser gynt!
Sua'r awel gyngan angel rhwng dail-frigau'u goedlan werdd,
Ac encilion cymoedd ceimion sydd yn mud addoli'r gerdd;
Gwridog flodau pren afalau sydd yn gnydau ar y coed,
A'r briallu sy'n diballu fritho'r ddaear dan dy droed.
Dyma'r fan tu draw i'r draethell,—tawel fan y ddeheu law,
Lle ca'r un lluddedig orffwys, wedi cefnu poen a braw.
Er mor aml y blin gystuddiau ym mâs-lwynau'r draethell hir,
Ac er dyfned afon-rydiau poen a gofid, caed y tir!
Canaf efo'r glân ysbrydion odlau mwynion, odlau hedd,
Odlau'r nefol bererinion pan mewn gwlad nad oes un bedd.
Pan dan gysgod pren afalau, yn mwynhau eu ffrwythau pur,
Wedi anghof lwyr anghofio pob blinderau, poenau cur.
Canaf newydd gân a synna bawb drwy holl orielau'r nef,
Gwrando'n fud wna tragwyddoldeb ar yr anthem,—"IDDO EF."
Sefyll wnaf ym mysg ceriwbiaid a seraffiaid nefol gôr,
I fwynhau eu dwfn beroriaeth,—dwfn a thonnog fel y môr;
Ond pan welwn UN,—YR IESU,—gorfydd i'r angylion glân
Ddistaw wrando plant y cystudd yno'n gorfoleddu cân;
Son y byddant am ei burdeb,—am y bywyd drwyddo ddaeth,—
A moliannant yn ddi flino LUN Y TROED FU AR Y TRAETH.

ROBERT WILIAM Y PANDY.

(O lawysgrif Ioan Tegid, ym meddiant J. W. Roberts, Tan'rhall, y Bala).

O! Robert, mae oer uban
A llais trist yn nhre' a Llan
O dy fod yna'n dy fedd,
Yn y gweryd yn gorwedd;
Ochain sydd i'm o'th achos,
Och beunydd yn nydd a nos.

Da gennyf oedd dy ganiad,
Fardd arafaidd mwynaidd mad;
Diddan y rhoddid addysg
I rai a dderbyniai ddysg;
A mynych rhoi'st i minnau
Yn fwyn o'r ddysgeidiaeth fau,
A thra bo chwyth byth bythawl,
Dy awen f'awen a fawl.

Yn ol imi fod yn rhodio
Dros ennyd o'r hyfryd fro,
Daethum wrth ryw ymdeithio
I'r Pandy i'w dy dan do,
Ar fwriad, fel arferol,
O weld y Bardd hardd i'm hol
O draw a dwylaw ar led
Yn fy ngalw am fy ngweled;
Er disgwyl mewn hwyl am hwn
Ow! alar! Ef ni welwn.
Och newydd! achwyn awen
Hyll yw ein pyd, colli'n pen!
O! chwithdod, syndod i'm son,
Farw prif-fardd o Feirion!
Aethum oddi yno weithian
Yn ewybr am llwybr i'r Llan,
At y bedd, rhyfedd yr hynt,
I'w holi a'm ei helynt;
Er aros yn wir oriau,
Yn hir hir nes cwbl hwyrhau,
Gan ateb nid atebodd
I mi air; Och! marw oedd.

O trymaidd a fydd tramwy
I'r Pandy. Och fi! mi mwy
Ni chaf hwn. Och fi! hynny
O waew dwys! o fewn ei dy.

Diameu ei fynd ymaith
I dy'r bedd, diwedd ei daith;
O'i fyned i'r nef hefyd
Ac 'e yn fardd, gwyn ei fyd.

JOSEPH ERNEST RENAN.

HWYRACH y bydd i rywun ofyn beth sydd a fynno Cymru â hanes hwnnw? Fe allai fod mwy nac a ymddengys ar yr olwg gynta. Yn un peth, nid yn unig addefai ond ymffrostiai mai Cymry oedd ei hynafiaid, wedi ymfudo i Lydaw yn adeg eu rhyfel blin â'r Saeson, tua'r chweched ganrif; ac yr oedd holl deithi ei feddwl yn myned ymhell iawn i brofi gwirionedd ei honiad. Un o wŷr mawr Llydaw oedd Renan; ac nid mawr oedd am yr un rheswm ag y mae y dyn un llygad yn frenin yng ngwlad y deillion, yr oedd Renan yn fawr ynghanol llu o gewri. Ni fynnwn i neb fy ystyried yn ail iddo yn fy nghariad at Gymru; ond dyweder a fynner, y mae gwŷr mawr Cymru yn y gorffennol,—yn feirdd a llenorion,—yn myned yn gorachod o'u cydmaru â gwŷr mawr Llydaw. Bu adeg pan yr ystyrid y bardd yn fardd cenedl, a'r sant yn sant cenedl; bardd felly oedd Llywarch Hen a beirdd y cyfnod hwnnw,—yr oedd pryder, ofn, gobaith, llid, cas a chariad, holl deimladau cymysg cenedl wedi eu crynhoi ynghalon y bardd, a'i waith ef oedd eu mynegi. Ond y mae Llywarch Hen a beirdd ei gyfnod yn eiddo cyffredin i'r Llydawiaid a'r Cymry, a gellir dweyd yr un peth am y seintiau gore,—yr hen rai,—Ulltud a Chadog ac ereill. Erbyn heddyw y mae y bardd wedi myned yn fardd enwad a phlaid, ni wna ganu rhyw lawer ond am bres, os na bydd wedi digio, ac nid yw yn hidio botwm corn pa un ai priodasgerdd ai galarnad i'w chyfansoddi, bydd a fynno maint y wobr a addewir am y naill a'r llall beth a thorri y ddadl ambell dro. Am y seintiau, wel, fel y mae arwaf meddwl, y maent wedi darfod yn llwyr o'r tir.

Ganwyd Renan yn Nhregir, Cotes-du-Nord, Llydaw, Chwefror 27, 1823; ac fel y rhan fwyaf o ddynion wnaeth eu hol ar y byd, deilliai o deulu tylawd. Bu farw ei dad pan oedd Renan yn hogyn bychan; ar ol hyn symudodd y teulu dros amser i Lannion, lle y dioddefasant dylodi a chaledi mawr. Ond nid oedd ei gartref tylawd heb ei gysur. Nid yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo; a diolch i Dduw, nid yw dedwyddwch neb ychwaith yn sefyll yn hollol nac yn bennaf arno. Y mae aml i weithiwr tylawd deallus, sydd drwy ei oes ar ei lawn hwde yn ennill ymborth a dillad i'w weiniaid, ond sydd yn meddu llygad i weled natur a chalon i deimlo natur,—un fedr ddal cymdeithas â hi, â'r blode gwylltion a hauodd Duw â'i law ei hun, â choed y maes, ac â'r adar a leisiant mor fwyn oddirhwng eu cangau, —y mae hwn yn derbyn llawer iawn mwy o fwynhad gwir, y mae yn "etifeddu y ddaear" yn llawer mwy gwirioneddol nac aml i gerlyn codog dienaid sydd yn gallu dweyd am ddarn plwy,—"Myfi a'i piau." Os oedd cartre Renan yn llwm, yr oedd cariad a gofal tyner ei fam a'i chwaer, ac ystôr ddihysbydd ei fam o hen chwedlau difir hanner-paganaidd hanner-crefyddol Llydaw yn peri i'r teulu tlawd anghofio llawer o'u gofid, a dywed Renan i'w chwaer a'i fam a'r Llydawiaid bychain a gydchwareuent ag ef berarogli bore ei oes â pherarogl a'i dilynodd i'r diwedd. Gwyn ei fyd y bachgen hwnnw a'r eneth honno y mae perarogl eu hen gartre yn eu dilyn; bydd eu hadgofion am yr hen gartre yn oleuni iddynt aml i adeg dywyll, bydd yn lloches iddynt rhag llawer tymhestl.

Ymhen ychydig dychwelodd y teulu i Dregir, ac anfonwyd Renan i'r coleg, lle yr enillodd iddo ei hun radd dda trwy ei ymroddiad i ddysgu, a thrwy ei ymarweddiad da. Pan yn Nhregir nid oedd Renan fwy wrth ei fodd yn unlle na phan fyddai wrtho ei hun yn unigedd tawel trist hen eglwys gadeiriol y lle, ymhlith cerfluniau y meirw, yn cymdeithasu ag ysbrydoedd y rheini, a byddaf fi yn meddwl bob amser fod i addolwr fwy o swyn mewn hen eglwys nac un newydd. Pan mewn hen eglwys, pwy fedr beidio dychymygu a phortreadu iddo ei hun y gwahanol genhedlaethau sydd wedi bod yn dwyn eu heuogrwydd, eu hofnau, a'u gobeithion iddi, wedi bod yn chwilio am dipyn o nerth oddiuchod i ymladd brwydr bywyd, ac wedi ei gael yma; ac i'r fynwent gerllaw iddi y cludir y rhai lluddedig i orffwys ar derfyn eu dydd. Y mae yr hen eglwys wedi gweled claddu cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth, ond y mae hi yn aros o hyd yn gysgod gwan o'r Duw digyfnewid a addolir ynddi.

Ni fu athrawon Renan yn ol o weled y gallu oedd ynddo, a chyda'r bwriad i'w ddwyn i fyny yn offeiriad, pan oedd yn bymtheg oed, anfonwyd ef i'r coleg ym Mharis. Gwnaeth gynnydd mawr yno, yn enwedig mewn philosophi ac ieithoedd; yma, o dan addysg yr offeiriad Le Hir y dechreuodd ddysgu Hebraeg, ac yma hefyd yr aeth yn llongddrylliad ar ffydd syml unplyg y Llydawr. Rhoddodd i fyny bob bwriad i fyned i weinidogaeth yr eglwys, er fod y rhagolygon disgleiriaf o'i flaen; dywedai nas gallai aros yn yr eglwys heb fod yn anffyddlon i Dduw ac i'w gydwybod. Yr oedd torri ei gysylltiad fel hyn â'r eglwys yn loes i'w galon; arosodd yn friw agored i ddiwedd ei oes. Ar fin gadael yr athrofa, pan yn penlinio o flaen yr allor, yr oedd ei ruddiau yn foddfa o ddagrau, ac nid unwaith na dwywaith ar ol hyn y bu yn galaru

uwchben adfeilion ei hen ffydd. Wedi gadael yr eglwys, yr oedd yn bur dywyll ar ei amgylchiadau, a bu dros dymor yn dilyn swydd athraw. Ond rhaid i mi frysio. Yn 1850 cyfarfyddodd ei chwaer Henriette, ac ymddengys mai hyhi a roddodd gyfeiriad i'w fywyd llenyddol a gwyddonol. Yn 1856, dewiswyd ef yn aelod o'r Academi, yn lle yr hanesydd Augustin Thierry,—yr anrhydedd pennaf i lenor yn Ffrainc. Yn 1860, anfonwyd ef gan lywodraeth Ffrainc i wneyd ymchwiliadau yn Phoenicia, a'i waith ef yw yr hanes cyflawnaf sydd gennym am hen drigolion Tyrus a Sidon,—yr hen ddinasoedd yr oedd eu marchnatawyr yn dywysogion, a'u marsiandwyr yn bendefigion y ddaear. Yn 1863, dewiswyd ef yn athraw Hebraeg yngholeg Ffrainc; ar ol traddodi ei ddarlith gyntaf ataliwyd ef, am nad ystyrrid ef yn uniongred. Pan gynygiwyd swydd enillfawr iddo yn ei lle, ei ateb oedd,—"Bydded dy arian gyda thi i ddistryw;" a bu yn cario y gwaith ymlaen yn ei dy ardrethol ei hun hyd 1870, pan ail osodwyd yr athraw anhyblyg yn ei swydd.

Y mae ei weithiau yn llyfrgell go fawr. Ysgrifennodd Hanes Beirniadaeth, Philosophi, y Drama, &c.; cyfieithodd Lyfr Job a Llyfr y Caniadau, ac ysgrifennodd draethawd beirniadol ar y ddau. Ond gwaith mawr ei oes, y gwaith a dorrodd iddo ei hun pan yn ddyn ieuanc oedd *Histoire des Origines du Christianisme* a *Histoire du Peuple d'Israël*,—hanes Israel hyd ymddangosiad Crist a hanes Cristionogaeth o ymddangosiad Crist hyd Marcus Aurelius a diwedd yr hen fyd. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd o'r gyfres oedd "Hanes Bywyd Iesu Grist." Hwyrach na fyddai yn ormod dweyd i'r llyfr hwn dynnu mwy o sylw nac un llyfr arall a gyhoeddwyd yn y ganrif hon. Ysgrifennwyd dros gant a hanner o lyfrau o bob maint arno, rhai yn ei amddiffyn, ereill yn ei gondemnio.

Yr oedd prydferthwch ei arddull yn sicrhau darllenwyr iddo, ac y mae y llyfr drwyddo draw yn llawn darluniadau prydferth odiaeth. Yr oedd Renan yn ddigymar fel *artist*; ond, er prydferthed ydyw, teimlwn wedi ei ddarllen fod dyfnder ac uchder ym mherson Iesu Grist nad yw Renan wedi gallu mesur mo hono. Nid yw yr Iesu a bortreadir ganddo ef yn ddigon i gyfrif am ddylanwad y grefydd a sefydlodd yn y byd. Ni allasai yr Iesu hwn fyth ddinistrio un byd a chreu un newydd. Nid drwy syrthio ar yr Iesu hwn y mae Cristionogaeth i gael nerth i orchfygu pob anhawsderau, ac i ymdaith yn fuddugoliaethus o nerth i nerth, hyd nes y caethiwir pob meddwl i ufudd-dod Crist, ac y gwneir gwyneb y ddaear fel gwyneb y nefoedd. Nid oes neb eto wedi llwyddo i ysgrifennu bywyd Iesu Grist yn elfydd i'r "gwŷr anllythrennog" a'i hysgrifennodd gynta.

O'i waith ar hanes pobl Israel, y mae eisoes dair cyfrol wedi eu cyhoeddi, a bydd y gwaith wedi ei gwblhau mewn dwy gyfrol eto. Dywedai Renan os estynnid oes iddo i orffen y gwaith hwn, y byddai yn barod i ddweyd—"yr awrhon y gollyngi dy was mewn tangnefedd." Cafodd ei ddymuuiad, yr oedd wedi gorffen y gwaith ychydig amser cyn myned i Lydaw, lle y byddai arferol o fyned bob blwyddyn, a lle y cymerwyd ef yn glaf. Daeth yn ol i Baris, lle y bu farw, ar ol cystudd byr, yn gyflawn o ddyddiau ac o anrhydedd.

Y mae bron yn amhosibl tynnu darlun cywir o Renan. Prin y gwelwyd erioed y fath gyfuniad o amheuaeth ac ymchwiliad diofn, y fath ddysg helaeth a chyflawn, a'r fath ddychymyg barddonol, y fath naws grefyddol a'r fath angrhediniaeth wedi cyfarfod yn yr un dyn. Y mae gwatwareg ddeifiol yn gymysg a'i frawddegau mwyaf difrifol, ac yn ei ddywediadau mwyaf cyffredin ceir aml i frawddeg yn fflachio fel mellten nes goleuo y gorwel o gwr i gwr. Y mae ei ysgrifeniadau i gyd yn hollol naturiol, ac eto yn gelfyddydwaith perffaith. Meddai ar y gelfyddyd i guddio celfyddyd. Hwyrach nad oedd yn Ewrop, yn sicr nid oedd yn Ffrainc, yr un llenor ac yr oedd pobl mor wahanol eu barn am dano. Edrychai yr Eglwys Babaidd arno,—a Phrotestaniaid hefyd o ran hynny,—fel eu gelyn peryclaf, a drwgdybiai amheuwyr ef o fod yn rhy grefyddol. Gallasai Renan yn anad neb ddweyd fod dau ysbryd yn trigo ynddo, un oedd y dylwythes deg benfelen lygatlas sydd yn preswylio glannau Llydaw ag sydd yn trysori yn ei chalon gredoau crefyddol a chwedloniaeth yr amser a fu; yr oedd ynddo hefyd ysbryd arall, ysbryd direidus, llawn afiaeth, gwawdlyd; a byddai weithiau o dan ddylanwad y naill bryd arall o dan ddylanwad y llall, a dichon mai i undeb a gwrthdarawiad y ddau ysbryd yma yng nghalon Renan yr ydym yn ddyledus am y swyn a'r gyfaredd sydd yn ei weithiau.

Beth fydd dylanwad ei weithiau ar y byd, ac a fydd ei ddylanwad yn un parhaus, amser yn unig a ddengys. Ni raid i wirionedd ofni ymchwiliad; bydd y gwir yn sicr o aros a dod o bob prawf yn orchfygwr. "Y mae cadarn sail Duw yn sefyll," ac i sefyll.

Bu Renan fyw oes o lafur, ac ni wnaeth gymaint ag un gelyn personol iddo ei hun.

Llanuwchllyn. IVAN T. DAVIES.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD XIV.

YMWELIAD DAFYDD.

UN noson, ychydig cyn y Nadolig, yr oedd Morfudd yn gorwedd yn effro yn ei gwely, ac yn gwrando ar y gwynt yn rhuthro drwy y coed, a'r gwlaw yn curo ar wydr y ffenestr. Meddyliai mor gydnaws â'i theimlad oedd yr hin; gauaf du oedd oddiallan, a gauaf du oedd yn ei chalon hithau. Pa le yr oedd Dafydd? Yr oedd saith wythnos weli mynedheibio erpan y talodd Merlin ymweliad â hi, ac nid oedd y bardd wedi bod yn y Gogledd o gwbl wedi hynny. Yr oedd y newydd am farwolaeth ei ewythr yn rhy wir; cafodd ei frad-lofruddio yng nghanol ei ddyddiau, a theimlai Dafydd golled ddirfawr ar ei ol. Pan yn myfyrio fel hyn clywai rywbeth yn curo ar y ffenestr. Cododd ar unwaith, ac agorodd hi i weled beth oedd.

"Dafydd fy mhriod!"

"Ie fy mun, agor y drws,—

"Egor y ddor, mewn ydd wyd,
Erfyniaf, mawr yw f'anwyd." *

"Dos at y ddôr," atebai Morfudd. Gwisgodd am dani yn frysiog ac aeth i lawr i agor y drws. Ni byddai Cynfrig, mwy na boneddwyr ereill, yn arfer cloi ei ddrws, nos na dydd cyn i Forfudd ddyfod yno. Ond yr oedd arno gymaint o ofn i Ddafydd ddyfod yno, fel yr ymadawodd a'r arferiad cyffredin a chlodd ei ddrws bob nos. Ac er nad oedd adref ar y noson yma y daeth Dafydd, cafodd y drws ei gloi gan un o'r gweision fel arfer.

"Tyrd i mewn Dafydd," meddai Morfudd, ac wedi ail gloi y drws arweiniodd ef ymlaen at y tân,—ni byddai'r tân wedi ei ddiffoddi na nos na dydd yn ystod y gauaf ym Mryn-llyn. Wedi goleu canwyll a gosod bwyd ar y bwrdd eisteddodd Morfudd i lawr.

"Fy Morfudd anwyl! mor dda gennyf dy weled eto," meddai Dafydd gan ei chusanu.

"Da gennyf finnau dy weled dithau, Dafydd; ac yr oedd yn ddrwg gennyf glywed am dy brofedigaeth. Welaist ti y Meudwy wedi hynny?"

"Do, a dywedodd wrthyf am y ffenestr, a'i ystryw yntau i gael siarad â thi."

"Peth rhyfedd i ti ddigwydd dyfod yma heno, a Chynfrig Cynin heb fod gartre. Mae wedi mynd i'r ffair i Fachynlleth, ac nid wyf yn ei ddisgwyl yn ol heno."

Chwarddodd Dafydd, a dywedodd—"Yr oeddwn innau yn y ffair yn y boreu, a digwyddodd i mi glywed y Bwa Bach yn dweyd wrth wraig y dafarn yr arhosai yno heno. Meddyliais ei fod yn gyfleusdra rhagorol i'th weled, a chyfrwyais fy march yn y fan a daethum yma heb oedi. Wrth gwrs, ni welodd yr Eiddig fi yn y dafarn."

Ar hyn daeth Marged, un o'r morwynion, i mewn i weled pwy oedd yno yn siarad. "O, Marged," meddai Morfudd, "dyro ychwaneg o goed ar y tân a bydd barod i agor y drws i dy feistr, os clywi ef yn curo."

"O'r goreu, meistres," atebai Marged. Yr oedd yr holl wasanaethyddion yn hoff o'u meistres ac yn barod i ufuddhau iddi ymhob peth.

"Ar fy ffordd yma yr oeddwn ym Machynlleth," ychwanegai Dafydd wedi i Farged fynd ymaith, "a buaswn yn gwynebu deuddeg Eiddig er mwyn cael ymddiddan gair â thi."

"Dafydd! a oedd y briodas yn y llwyn yn wir briodas?"

"Oedd f'anwylyd, mor wired ag un a wnaed erioed yn y nefoedd."

"Felly nid oedd yr ail briodas ond ffug, gwagedd o wagedd. A fu benyw erioed a thynged mor chwerw a mi? Gorfod ymadael a'i gŵr a byw gydag adyn heb fod yn wr o gwbl,"— a thorrodd Morfudd i wylo yn hidl, y dagrau cyntaf a ollyngodd er pan yr addawodd briodi dewis-ddyn ei thad.

"Sych dy ddagrau; y maent yn torri fy nghalon. Tyrd ymaith gyda mi heno, Morfudd, o'r carchar diffaith hwn! Tyrd ar unwaith fy mun!" meddai Dafydd yn gynhyrfus.

"Eistedd i lawr, Dafydd, yr oeddwn yn wan i ymollwng fel hyn," atebai Morfudd gan sychu ei llygaid. "Yr wyt yn gofyn peth amhosibl, Dafydd bach. Buasai yn ddigon anhawdd i mi ddianc ymaith yn yr haf, pan y bydd y ffyrdd yn hawdd eu tramwy, a'r coed yn dew o ddail. Rhyfyg noeth fyddai cychwyn yn awr; a phan gychwynnaf mae arnaf eisiau i bob peth fod yn hwylus, fel mai nid gwaith hawdd fydd ein dal a'm dwyn i Frynllyn yn ol."

"Cofia y disgwyliaf i ti ddod gyda mi yn y gwanwyn. Yr wyf yn bwriadu mynd adref i Lanbadarn dros y gwyliau ac yna deuaf i'th gyrchu, a

"Gwnawn oed mewn mangoed mân,
Wiw dlos i aros eirian;
Pob urddas mewn dinas do,
Ufudd enw, a fydd yno;
A phob edn glân a ganai
Wiw gywydd mewn manwydd Mai;
Gwedi doe a'i dyfyn,
Dan len ddail, aelwinneu ddyn;

* Rhif 96, D. ab G.

Cyd-ymddiddan â'm hanwyl,
Cyd-eiste ddyn gole gwyl;
Newidio glân gusanau,
Cyd-chwerthin yn y min mau;
Wrth weled, dan uthr fedwen,
Mor felus yw gwefus Gwen."*

"Yr wyt bron a gwneyd i mi feddwl ei bod yn ganol haf, yn lle gwyliau'r Nadolig," dywedai Morfudd.

"Gwyn fyd na buasai'n haf o hyd."

"Agorwch y drws, hwn neu arall!" meddai llais o'r tu allan, gan ddyrnu ar y ddôr.

"Dyma yr Eiddig wedi dyfod adre," meddai Morfudd, "gwell i ti beidio ei gyfarfod, dos allan drwy y drws acw. Ffarwel, fy anwylyd."

Aeth Dafydd allan a chauodd Morfudd y drws ar ei ol, a pharhai Cynfrig i ddyrnu yn y drws arall.

"Paid ag agor, Marged, hyd nes y clywi fi yn cau drws fy ystafell," meddai Morfudd wrth esgyn y grisiau.

Aeth y forwyn at y drws a gollyngodd ei meistr i mewn pan glywodd ddrws Morfudd yn cau.

"Yr oeddych yn cysgu yn drwm anghyffredin i gyd," meddai Cynfrig wrth ddod i mewn.

"Swn y gwynt a'r gwlaw feallai oedd yn rhwystro i ni glywed y curo," atebai Marged, yr hon a welai fod ei meistr wedi yfed rhywbeth cryfach na dŵr yn y ffair.

"Pa le mae dy feistres, Marged? Hai ho; un ddel odiaeth yw, onide? Ond un falch ofnadwy."

"A oes arnoch eisiau swper, syr?" gofynnai Marged.

"Nac oes, Marged bach, dos i dy wely." Byddai Cynfrig bob amser mewn tymer lawen pan fyddai wedi yfed i ormodedd, ac aeth i fyny y grisiau i'w wely gan ganu rhigwm a glywsai yn y ffair. Rhoddodd dro i'r dwrn yn nrws Morfudd, ond wrth glywed fod clo ar y drws, aeth heibio i'w ystafell ei hun.

Yr oedd dyfodiad Cynfrig mor sydyn fel na chafodd Dafydd amser i wneyd unrhyw drefniant ynghylch gweled eu gilydd drachefn. Gwelodd hi yn y farchnad yn y Bala yr wythnos wedyn, a chafodd ymddiddan gair neu ddau a hi. Dywedodd ei fod ar gychwyn adref i Lanbadarn y diwrnod hwnnw, ac y deuai yn ol i'w hymofyn gyda'r gog. Cadwodd ei air yn ffyddlawn. Ar y diwrnod cyntaf y clywodd Morfudd y gog yn canu, pan yn rhodio yn y goedwig gerllaw, cyfarfyddodd â Dafydd. Yr oedd pob peth yn cyduno i beri hyfrydwch i'r ddeuddyn ieuanc. Edrychai y llyn fel môr o dân yn llewyrch pelydrau yr haul yn machlud, yr hwn hefyd a wisgai y mynyddoedd o amgylch yn swynol las a phorffor. Nid oedd awel o wynt yn aflonyddu dail y coed, a chanai y gog a'r adar ereill fel am y goreu i ddiolch am yr hin ddymunol. Ac i goroni y cwbl, yr oeddynt wedi cael cyfarfod â'u gilydd unwaith yn rhagor. Yr oedd Dafydd wedi gwneyd deildy cysurus, o frigau y coed, a lle oddi mewn i eistedd yno, ac arweiniodd Forfudd iddo, ac eisteddasant yno i ymddiddan a gwrando ar gog a ganai gerllaw.*

"Onid ydyw yn fendigedig, Morfudd? O mor hyfryd fuasai cael byw mewn haf o hyd; na buasai ein byd ni fel Ynys Afallach, gwlad Melwas, yn haf diderfyn,"† meddai Dafydd gydag ochenaid o foddhad.

"Feallai na buasem yn gwerthfawrogi cymaint ar yr haf oni bai ein bod wedi profi y gauaf hefyd. Ac y mae gauaf dedwydd yn well na haf anedwydd," atebai Morfudd.

"Paid son am anedwyddwch, fy mun anwyl, mae ein dedwyddwch yn dechreu heddyw. Y mae yn ffair Gaer ar yr ail o Fai, a dyma'r dydd y bydd i Baris ddwyn ei Elen ymaith."

"Wn i ddim a'i felly fydd a'i peidio," atebai Morfudd yn chwareus, "yr wyt wedi bod yn lled lwfr y gauaf aeth heibio, heb ymweled a mi ond teirgwaith."

"Morfudd, Morfudd! Pwy a'm perswadiodd i beidio dyfod; na byddai o un diben? Nis gallem gyfarfod yn y ty, ac ni wnai'r hin adael i ni gyfarfod allan."

"Ie, ie, Dafydd paid a ——"

"Rhaid i mi gael iawn am hyn, fy ngeneth. Llwfrwas aie," meddai Dafydd gan godi ei gwyneb i fyny rhwng ei ddwylaw. Gyda hynny clywsant rywun yn dyfod at y deildy, a safodd Dafydd yn y drws gan guddio Morfudd o'r tu ol iddo, ac yn barod i w hamddiffyn. Y cwbl a welai oedd heffer wen yn pori yn dawel,

"Edrych Morfudd," meddai Dafydd, gan droi at y fenyw ddychrynedig a'i chofleidio,— "Does yma neb ond Io. Mor brudd yw ei llygaid tyner; pe gallasai, dywedasai wrthym fel y carodd Iau hi, ac y trawsnewidiodd hi yn heffer wen rhag llid Juno ei wraig."

"Onid ydyw yn beth rhyfedd Dafydd, lle bynnag y bo cariad y mae cas yn sicr o fod yn agos ato."

"Eistedd i lawr, Morfudd, er mwyn i ni ddod i ddealltwriaeth rhag ofn i rywbeth gwaeth na hyn ein hatal."

"Mae'n mynd yn hwyr hefyd, rhaid i minnau fynd i'r ty."

"Tyrd yma nes y fory eto, ni wyr y Bwa Bach pa le i'th gael yn y Gaer Droia hon."

* Rhif 165 D. ab G.

* Gwel Rhif 87 D. ab G.

† Stud. Arth. Leg.—Rhys: Chap. xiv.

"Ni ddeuaf hyd wythnos i heno rhag ofn i'r Eiddig ameu rhywbeth."

"Yr wyt yn addaw dod gyda mi ymaith yr ail o Fai, onid wyt? Paid a gadael i mi orfod gofyn drachefn a thrachefn fel pan yn Eithinfynydd."

"Y mae gwahaniaeth. Yr wyf yn eiddo i ti'n awr, Dafydd," atebai hithau yn ddistaw.

"Wyt, fy Ngwen gu!"

Nid aeth Dafydd gyda hi at Frynllyn, rhag dyfod i wrthdarawiad â'r Bwa Bach. Yr oedd yn well gan Forfudd iddo beidio dod, ac wedi rhoddi ei chlog drosti, a ffarwelio a Dafydd, rhedodd ymaith yn chwim a chyrhaeddodd y ty yn ddirwystr.

Cyfarfyddasant yn aml yn y deildy yn ystod mis Ebrill, ac yr oeddynt wedi myned braidd yn llai gwyliadwrus, gan feddwl na wnai yr Eiddig byth eu darganfod. Fodd bynnag, yr oedd ef wedi dod i wybod am ymweliadau Dafydd; ac un boreu yn niwedd Ebrill, aeth ef a gwas i'r llwyn bedw oedd wrth dalcen y ty, rhyngddo a'r llyn. Gwelodd Morfudd hwy yn mynd, a bwyeill ar eu hysgwyddau, a gwyddai ar wyneb y corach fod yn ei fryd wneyd rhywbeth eithafol. Aeth i'r llofft i'w gwylied drwy y ffenestr, a gwelai hwynt yn cyrraedd y coed ac yn dechreu eu torri i lawr. Deallodd yn fuan, wrth eu gweled yn torri pob un yn ddiwahaniaeth, fel y delent atynt, fod ym mryd Cynfrig ddistrywio yr holl lwyn a'r deildy lle y bu gyda Dafydd. Chwarddodd yn ddistaw wrth weled mor resynus ydoedd dialedd eiddigeddus Cynfrig. A oedd yn meddwl y gallai drwy dorri un llwyn coed rwystro iddi weled Dafydd? Eto tra yn chwerthin am ben oferedd gwaith Cynfrig, nis gallai lai na theimlo yn brudd wrth weled y coed gwyrddion yn eu blagur yn disgyn y naill ar ol y llall yn y lladdfa, a hynny o'i hachos hi. Yr oedd Morfudd yn orhoff o natur yn ei holl agweddau, yn enwedig yn ei phrydferthwch. Nis gallai ddryllio blodeuyn drwy ei dynnu oddiwrth ei gilydd y naill betal ar ol y llall, mwy na phe buasai yn darnio creadur byw. Ymresymai â'r coed tra yn llechu dan eu cysgod, a theimlai ysbryd byw ynddynt oll. Yr oedd pob glaswelltyn yn anwyl ganddi, a chyfrifai yr adar yn gyfeillion cywir iddi. Pan godai yn y bore edrychai drwy ei ffenestr ar yr Aran dros y llyn, a chyfrifai y niwl a'i cuddiai o'i golwg weithiau yn elyn iddynt eill dau. Yr oedd y nodwedd yma yn ddolen gydiol gref rhwng Dafydd a Morfudd, gan fod y ddau yn addolwyr natur. Am hynny pan welodd Cynfrig yn dryllio y coed, teimlai fod pob un a syrthiai fel cyfaill yn disgyn i'w fedd. Bu Cynfrig a'i was wrth y gwaith am rai dyddiau, hyd nes gorffen y llwyn; a phan ddaeth Dafydd yno i gadw oed a Morfudd, rhyfeddodd wrth weled y galanastra a wnaed. Yn yr olwg ar y diffaethwch o'i amgylch canodd fel hyn,—

"Ydd oedd i'r neb a ddyddiai,
Llwyn o goed mwyn gangau Mai:
Llas y clos lluosawg glân,—
Lladdfa Caer Droia druan!
Dau a fu a dwy fwyall,
Yn y coed, nid un call;
Angau a ddel i'r cangwyr,
Eiddig a'i was oedd y gwŷr.
Glyn yn noeth, glân a wnaethant,
Gelynion ynt glan y nant,
Y lleidr dan gynnal lledwg,
I'w lladd yr oedd a llaw ddrwg.

"Och! weled lle siomed serch,
Y llwyn ar ael y llannerch!
Llawn bonion, llwyn heb unoed,
Llwybrau'r ceir lle bu'r coed!
Bonion ac arwyddion gwraidd,
Ac ysglodion gwas gwladaidd,
Ni âd Eiddig, nid addas,
Fod yn ei lwyn fedwen las."*

Pan yn troi i fyned ymaith gwelai Dafydd y Bwa Bach yn dyfod ato. Nid oedd y ddau wedi gweled eu gilydd er y pryd y bu Dafydd yno yn treulio noson ar ddyfodiad Morfudd i Frynllyn.

"Hi, hi, pa le mae dy ddeildy, fy mardd glân?" meddai Cynfrig yn wawdus.

Yr oedd Dafydd yn ei weled yn fwy hagr nag erioed, ac yn hynach, a theneuach. Mae'n debyg fod y gofal a'r eiddigedd gwastadol ynglyn a Morfudd yn effeithio arno yn fawr.

"At ba ddeildy yr wyt yn cyfeirio, o'r holl rai sydd gennyf yn y Gogledd a'r De?" gofynnai Dafydd.

"Ni raid i mi dy ateb, gwyddost pa un. Ond paid a meddwl y cei di blethu y cangau i gyfarfod â'th fun ar dir Cynfrig Cynin."

"A ydyw perchennog Brynllyn, felly, am dorri yr holl goed oddiar ei dir?"

"Nac ydyw ddim am wneyd hynny, ychwaith. Ond bydd yn anhawdd codi deildy ar ei dir eto. Torrais y coed yna yn nhalcen y ty i gosbi Morfudd, am y gwyddwn ei bod yn eu hoffi, ac yn edrych arnynt fel man cyfarfod â thi. Yr wyf yn awr yn gorchymyn i ti fynd ymaith, a gwae i ti os deui yn agos i Frynllyn na Morfudd byth ychwaneg."

"Y Bwa Bach, a wyt ti'n meddwl fy nychrynnu â'th fygythion? Mi a ddeuaf yma i ymweled a'm gwraig pan y mynnaf," atebai Dafydd.

"Dy wraig! dy wraig! wyt yn ddweyd," meddai Cynfrig yn nwydwyllt, gan afael yn ei gledd oedd wrth ei glun. "Tyrd, dadweinia, a cheir gweled gwraig i bwy ydyw."

* Rhif 94 D. ab G.

TUDALEN Y GOLYGYDD.

CAMGYMERIAD A FFAITH.

YN y rhifyn diweddaf dywedwyd nad oedd enw Gwenogfryn Evans ym mhapur David Lewis. Dywed Vincent Evans fod enw "tywysog yr ysgriflyfrwyr" yn y papur gyda'r lleill, a'i fod wedi ei ddarllen. Y mae'r Cymrodorion yn dechreu gwaith ardderchog,—cyhoeddi hen lawysgrifau Cymreig. Yr wyf yn hyderu yr ymuna lluoedd â'r gymdeithas, er mwyn gwneyd gwaith mawr a gwaith iawn.

DULL HANES.

Gwelir nad yw rhaniadau Ardalydd Bute yn union yr un rhai a'r rhaniadau ddilynir yn y penodau ar Hanes Cymru yn y cylchgrawn hwn. Ei raniadau ef ydyw,—

I. Cymru dan dywysogion Cymreig, 613—1066.

II. Cymru dan arglwyddi Normanaidd, 1066—1536.

III. Cymru dan Lys Llwydlo, 1536—1688.

IV. Cymru heb arweiniad, 1688—.

Yng NGHYMRU rhoddwyd y rhaniadau fel hyn,—

I. Cyfnod y Tywysogion, 613—1284.

II. Cyfnod y Gorthrwm, 1284—1536.

III. Cyfnod y Dadfeilio, 1536—1730.

IV. Cyfnod y Deffro, 1730—.

Y gwahaniaeth ydyw hwn,—dilyn yr Ardalydd hanes y Gororau, a minnau hanes Eryri; dilyn yr Ardalydd hanes llywodraethwyr a llywodraethu Cymru, dilynaf innau hanes y werin lywodraethid.

DR. SAUNDERS AC R. A. JONES.

Yr ydym yn galaru am bregethwr melus ac am wladgarwr o'r iawn ryw. Yn y rhifyn nesaf bydd darlun o Dr. Saunders, ac erthygl gan y Parch. W. James, M.A. Bydd yn yr un rhifyn ysgrif ar R. A. Jones hefyd,—un ymroddgar a brwdfrydig, un yr oedd ei golli yn golled anadferadwy i addysg Cymru.

AIL AWDL RHYL.

Y mae yr ail awdl yng nghystadleuaeth y Gader, ynghyd â'r ail gywydd ar Forfa Rhuddlan, wedi eu cyhoeddi'n llyfr gan Elfyn, Swyddfa'r *Rhedegydd*, Blaenau Ffestiniog. Grot yw y pris.

Y CYLCHGRONAU.

Derbyniais y *Drysorfa*, *Trysorfa y Plant*, *yr Haul*, *y Traethodydd*, *y Cennad Hedd*, *Cerddor y Cymry*, *yr Ymofynydd*, *y Diwygiwr*, *Cyfaill yr Aelwyd*, *Columbia*. Ymysg y rhain daeth misolyn newydd dwy geiniog o Lerpwl, —*Y Mis*,—dan olygiaeth y Parch. J. Hughes, M.A. Tebyg i'r *Traethodydd* ydyw o ran nodwedd ei ysgrifau; y mae'n feddylgar ac yn ddyrchafol. I'r un cyfeiriad y mae tuedd yr holl gyhoeddiadau,—ysbryd mwy llenyddol ac eang a chenedlgarol, chwedloniaeth, teithiau, darganfyddiadau'r ymchwilgar. Awydd am wybod hanes Cymru a hanes gwledydd ereill ydyw awydd ein gwlad, a dengys hyn ysbryd deffroedig yn ymserchu at ei wlad ac yn croesawu gwybodaeth am bob man.

Nid yw y naill olygydd yn dilyn ol traed y llall, y mae digon o wahaniaeth barn yn eu mysg. Dywed y *Diwygiwr* am ganeuon mwyaf adnabyddus Ieuan Glan Geirionnydd a Cheiriog ac Islwyn yn y rhifyn diweddaf o GYMRU,—"Wel, wrth ddarllen y rhai hyn, yr ydym yn teimlo y byddai yn ddigon hawdd i ddyn a'i lygaid yn nghau eu curo bob un mewn englyn da."

LLYFRAU NEWYDDION.

Daeth amryw lyfrau yn rhy hwyr i mi eu darllen yn fanwl at y rhifyn hwn,—Hynafiaethau Lleyn, gan Rhabaniau; Athrylith Ceiriog, gan Geulanydd; Marwnad Glan Llyfnwy, gan R. ab Gwilym; ac ereill. Ceir sylw arnynt yn y rhifyn nesaf. Edrycher drwy restr llyfrau'r mis hwn; mwyn yw gweled cymaint o lyfrau hylaw, rhad, i bawb.

Oherwydd cost ychwanegol cludiad, gorfod gadael y wyneb-ddalen allan, yr wyf yn gobeithio y medrir trefnu i'w pharhau. Gwelir fod un peth newydd yn cychwyn eto, —dalen o hanes diweddar, heb nod nac esboniad. Y mis hwn rhoddir llythyrau John Owen, Ty'nllwyn, a gefais drwy garedigrwydd ei deulu. Rhaid iddynt fod yn rhan o hanes Cymru, i hanesydd diduedd yr oesoedd ddaw.

CYMRU.

Cyf. III. RHAGFYR 15fed, 1892. Rhif 17.

HANES CYMRU.

(Llyfr II. 450—613).

XVII. DWY EGLWYS.

PRIF saint y cyfnod hwn oedd Dyfrig, gysylltir a Llan Daff ac a fu farw, meddir, yn ynys Enlli; Deiniol, yng Ngwynedd; Cyndeyrn, ym Mhowys; Gwynllyw, tywysog Gwynllwg ym Morgannwg; Catwg, ei fab; Illtyd; Samson, aeth wedi hynny i Ddôl Llydaw; Cybi, yn ynys Mon; Dewi yn Nyfed; Teilo ym Morgannwg; a Phadarn yng Ngheredigion. Y rhai hyn roddodd i'r efengyl lwyr fuddugoliaeth yng ngwahanol rannau Cymru. Cenhadon oeddynt, wedi eu geni yn Llydaw neu yng Nghernyw neu yng Nghymru ei hun.

Yn ystod y ganrif hon, dechreuwyd edrych ar y sant enwocaf ym mhob teyrnas yng Nghymru fel esgob y deyrnas honno. Yr oedd mynachdy,—teulu o wŷr crefyddol tebyg i deulu Howel Harris yn y ganrif ddiweddaf, —ymhob teyrnas; ac o dipyn i beth, daeth pen y teulu hwn yn esgob y deyrnas. Edrychid ar deyrnas Gwynedd, mewn ystyr eglwysig, fel esgobaeth Bangor; a Deiniol, fu farw yn 584, roddir yn esgob cyntaf iddi. Yn raddol edrychid ar Bowys fel esgobaeth Llanelwy; a Chyndeyrn, medd haneswyr y ddeuddegfed ganrif, a wnaeth yr esgobaeth. Dyfed, gyda'i therfynau symudol, ddaeth yn esgobaeth Tyddewi; Ceredigion oedd esgobaeth Llanbadarn. Bu Brycheiniog, hwyrach, yn esgobaeth iddi ei hun, — esgobaeth Llanafan. Daeth Gwent a Morgannwg yn esgobaeth Llandaff; ond hwyrach fod Morgannwg hefyd wedi bod unwaith yn esgobaeth iddi ei hun, —esgobaeth Margam.

Tra'r oedd Eglwys y Cymry'n ymffurfio fel hyn, yr oedd y Saeson yn derbyn yr efengyl, a daeth Cristionogion y gorllewin a Christionogion Rhufen i gyffyrddiad a'u gilydd drachefn. Ond erbyn hynny prin yr oeddynt yn adnabod eu gilydd. Yr oedd Eglwys Rhufen dan unbennaeth Pab erbyn hyn; ond yr oedd anibyniaeth yr eglwys gyntefig eto'n feddiant i'r Cymry. Ac yr oedd llu o fân wahaniaethau,—nid yr un oedd amser eu Pasg; nid yr un oedd eu cyfieithiad o'r Beibl; nid oedd eilliad eu mynachod yr un, — eilliai'r Rhufeiniwr ei goryn, a'r Prydeiniwr ei dalcen; nid oedd dull y bedydd yr un, na dull ordeinio esgob. A chyfarfod rhyfedd oedd cyfarfod cyntaf y cefndryd fu gynt yn frodyr yn y ffydd.

Ni waeth i mi heb dy flino, ddarllennydd, trwy ddangos pwy oedd ar yr iawn yn yr holl gwestiynau hyn. Fel bob amser, yr oedd y dadleuon hynny yn bwysig, nid yn gymaint ynddynt eu hunain, ond oherwydd eu bod yn tynnu cryfder a chwerwder oddiwrth ragfarnau cenedlaethol a pholiticaidd. Er hyn y mae'r hanes yn darawiadol a phrydferth.

Awstin Fynach, abad mynachdy Andreas Sant yn Rhufen, a ddaeth yn genhadwr dros y Pab at Saeson ac Eingl paganaidd Lloegr. Cychwynnodd yn 595, ond trodd yn ei ol. Ail gychwynnodd yn haf y flwyddyn wedyn, a chyrhaeddodd oror Caint yn 597. Yr oedd tua deugain o gyd-grefyddwyr gydag ef, ac ymysg y cyfieithwyr yr oedd rhai o'r un iaith a'r Saeson,—rhai wedi aros ar ol eu brodyr ar y Cyfandir.

Unwaith gallesid meddwl fod Rhaglun-iaeth wedi bwriadu i Gregori ddod i efengylu i Loegr. Ond rhoddwyd gwaith mwy iddo, —efe drefnodd Eglwys y Gorllewin ac a sylfaenodd Babaeth y canol oesoedd, y Babaeth wnaeth ddaioni mor ddi-fesur cyn ymddirywio. Mewn adegau pwysig a rhyfedd yn unig yr ymddengys dynion fel Gregori Fawr. Mewn byd drwg, mewn amser anfoesoldeb yn dilyn rhyfeloedd, yr oedd yn bosibl cael sel mor danllyd a hunan-aberth mor lwyr. Dechreu-odd Gregori fel mynach, drwy gwbl orchfygu ei nwydau ei hun, a chyflwyno ei enaid,—heb chwant ac heb gariad at ddim darfodedig,— i'w Dduw. Yn nistawrwydd a thawelwch mynachdy Andreas bu'n ymladd a phob temtasiwn fedrai dychymyg nerthol greu, gan feddwl mai gwaith ei fywyd oedd achub ei enaid ei hun i Grist. Ond ryw ddiwrnod

cerddodd allan i'r farchnad brysur. Ac ymysg y pethau oedd ar werth wele blant bychain o Eingl wedi eu cludo o Loegr i farchnad Rhufen. Fel pob un wnaeth ei ol ar y byd, yr oedd gan Gregori hoffder at wyneb plentyn. "Nid Eingl, ond engyl," meddai, wrth edrych ar lygaid gleision a gwallt euraidd y Saeson bach; a phenderfynodd gychwyn i'w hynys i bregethu Crist i'w cyd-genedl. Cafodd ganiatad y Pab, ac yr oedd wedi teithio tri diwrnod pan ddaeth negesydd buan i'w alw'n ol. Yr oedd i wneyd gwaith mwy pwysig. Efe oedd i fynd i Gaercystenyn i gymodi ymherawdwyr, i gasglu byddinoedd i wrthsefyll y Lombardiaid anynol a heintus, ac efe oedd i drefnu Eglwys Rufen, i estyn ei therfynau, ac i'w hamddiffyn.

Un arall ddaeth i Loegr. Yr oedd Awstin yn llai dyn na Gregori. Yr oedd yn hoff o ddangos ei awdurdod, ac mewn rhwysg y dygodd yr efengyl i'r Saeson. Effeithiodd y rhwysg hwnnw ar feddyliau'r brenhinoedd Seisnig, ond bu'n achos rhwyg am ganrifoedd rhwng Eglwys Rufen ac Eglwys y Cymry. Cariai ei genhadon groes arian o'i flaen yn lle baner, a darlun o'r Iesu, a chanent. Llwyddodd yn rhyfedd ac yn fuan; ac erbyn 603 y mae'n hawlio awdurdod ar esgobion y Cymry yn y gorllewin.

Tua 603, teithiodd i gyffiniau Cymru. Mewn lle adwaenid yr oes wedyn wrth yr enw Derwen Awstin, galwodd ar brif wŷr eglwysig y rhannau Cymreig agosaf,—esgobion a gwŷr dysgedig Gwent,—a gofynnodd iddynt gydymffurfio â defodau Eglwys Rufen, a gadael eu hen ddefion eu hunain. Ni thyciodd na dadl nac erfyn na bygwth; ni fynnai'r Cymry ymwrthod â dull ffydd eu tadau. O'r diwedd dowd a Sais dall yno, a chynhygiwyd fod gwyrth i derfynu'r ddadl. Cynhygiwyd y Sais dall i'r Cymry i ddechreu, ond nid agorodd ei lygaid. Yna gweddiodd Awstin, ac wele agorodd llygaid y Sais. Cyffesodd y Cymry fod Awstin yn dangos ffordd cyfiawnder; ond dywedasant na feddent hawl i gynnyg ymostyngiad eu heglwys iddo. A bu ail gynhadledd dan y goeden dderwen. Daeth saith esgob Cymreig a llawer o wŷr dysgedig, yn enwedig o Fangor is y Coed. Yr oedd Dunawd eu habad, meddir, wedi dweyd wrthynt pa fodd i ymddwyn. "Os gŵr Duw yw," meddai, "dilynwch ef." Danghosodd mai gostyngedig ac addfwyn yw gŵr Duw; a dywedodd fod arwydd sicr iddynt. Os codai Awstin ar ei draed i'w derbyn, danghosai hynny ei fod yn wir wasanaethwr Crist. Ond os eisteddai mewn rhwysg a balchder, nid oedd o Dduw. Eisteddodd Awstin. Gwrthododd y Cymry ei gynhygion,—eu bod i gadw eu hen arferion, oddigerth amseriad eu Pasg a dull eu bedydd, a'u bod i efengylu i'r Saeson. Yr oedd balchder y Cymry wedi ei glwyfo. Ni fynnent ei gynhygion, ac ni fynnent ef yn archesgob. Proffwydodd yntau, os na phregethent efengyl heddwch i'r Saeson, y distrywiai'r Saeson hwy.

Pregethwyd yr efengyl i'r Saeson gan y Rhufeiniaid a chan y Gwyddelod. Ond safodd Eglwys y Cymry ar wahan. Yn y cyfnod nesaf,—o 613 hyd 1066,—cawn ymdrech rhwng y Cymry a'r Saeson. Ac ar yr un pryd cawn ymdrech rhwng Eglwys Rufen,—o'r hon yr oedd Eglwys Lloegr yn rhan,—ac Eglwys y Cymry.

O'r diwedd dyma fi'n gadael y cyfnod cyn 613. Dechreuais trwy ddweyd fod hanes Cymru'n dechreu yn y flwyddyn hon, oherwydd mai brwydr Caer dorrodd y cysylltiad rhwng ein Cymru ni a'r Gogledd oedd yn Gymreig yr adeg honno. Nid oeddwn yn meddwl gwneyd mwy na bras-amlinellu hanes y blynyddoedd 450 hyd 613; ond, anfonai cymaint ataf i holi ynghylch hen grefydd a hen arferion Cymru, fel yr aeth hanes y cyfnod bore hwn yn ddwy bennod ar bymtheg dan fy nwylaw. Ond yn awr, gyda dechreu'r flwyddyn nesaf, yr wyf am brysuro ymlaen. Y mae'm mapiau a'm darluniau i egluro hanes Caswallon a Rhodri Mawr a Gruffydd ab Llywelyn yn barod er ys blwyddyn, ac yr wyf am wneyd ymdrech i adrodd yr hanes i lawr i'r flwyddyn 1063, os nad ymhellach, cyn rhifyn Gorffennaf. Yna teithiwn ymlaen tua 1282 a chwymp Llywelyn.

Nid wyf wedi dweyd dim am hanes eglwysi neillduol yng Nghymru; na fawr am hanes y gwahanol deyrnasoedd, ond am eu safle a'u terfynau. Wrth adrodd fy hanes ymlaen, bydd raid i mi roddi ambell bennod fechan, megis rhwng cromfachau, i adrodd hanes rhyw eglwys hynod neu ryw deulu pwysig.

Gwelir hefyd nad wyf wedi dweyd dim am gnydau, am goed a blodau, am feteloedd, am weithfeydd, am fasnach Cymru cyn 613. Gwn beth oedd marsiandwyr dieithr yn ddisgwyl gael yng Nghymru, a gwn amcan i ba raddau y siomid hwy. O'r hen ganeuon yr wyf wedi gwneyd rhestr o goed a blodau hen Gymru; ond nid wyf yn berffaith sicr pa un ai cyn 613 neu wedyn y daeth rhai o'r coed i Gymru. Am hynny, y mae'n well gennyf drin y testun dyddorol hwn pan ddof i ddiwedd cyfnod arall o frenhinoedd ac esgobion.

CANEUON GWLADGAROL.

I.

GORMES CYMRU.

(Troi y tyddyniwr o'i gartref).

Gŵr rodiai yn garedig—yn heddwch
Haddef neillduedig,—
Gwraig a phlant, heb un tant dig,
Yn gwrido'n gysegredig.

Ar ei dir y wawr dorrai,—tra yntau
Ar ei antur elai;
Haul wedyn a fachludai
Ar y gŵr mewn llafur gai.

Rhoes lafur oes i lifo—yn bridwerth
I'r baradwys honno;
A chael braint henaint yno
Dreiglai'n hud drwy'i galon o.

O flaen ei fwth, fel nef wen,—yr oedd gardd
A gerddai 'n ei hamdden;
Haul yno gai'n lliwio llen
I'w ddynodi yn Eden.

Hyd ei dyddyn gwyn gwenai—dedwyddyd,
A'i dueddau telaid
Oedd nefoedd ei henafiaid—
Astudiaeth oes tad a thaid!

Ond awr drist wawriai drosto,—a siomiant
Disymwth ddaeth arno;
Daeth "Rhybudd" dieithr heibio
A barn yn ei wyneb o!

Wele awr i alaru!—wele wr
Hawliai hedd yn crynnu!
A grymus ddwrn Gormes ddu
Yn rhoi dolur i'w deulu!

Rhaid iddo droi o'i dyddyn,—a gadaw
Bendigedig lecyn
Ei dadau; a Duw edwyn
Ei ofid ef wedi hyn!

Eto r Ion sy'n taranu—y farn fawr
Wna i fyd trais grynnu;—
E rymus ddeil Ormes ddu
I'r chwiliad fedr ei chwalu! PEDROG.

II.

CYMRU NEWYDD.

Bu llawer seren lachar, wen,
Ar ael ffurfafen Cymru;
A thrwy'r tywyllwch oedd fel llen,
Fe'u gwelwyd hwy'n pelydru;
Bu'r tadau'n mynd o lwyn i lwyn
Yng ngoleu'r hen ganwyllau brwyn.

Mae adar dunos wedi ffoi,
Canhwyllau cyrff ddiffoddwyd;
Mae Cymru wedi llwyr ddeffroi
Tra niwloedd oesau chwalwyd;
Dylathra'r heulwen gwm a nant,—
Rhydd fywyd newydd yn ei phlant.

Bu ofergoeledd, megis pla,
Yn difa nerth y tadau;
Ac anwybodaeth, megis ia,
Yn oeri'r gwirioneddau;
Yr UDGORN ARIAN wnaeth eu brad,—
Ar encil ffoisant oll o'n gwlad.

Mae baner wen Efengyl hedd
Trwy gymoedd Cymru'n chwifio;
Ac yn ei wain mae'r gloew gledd;
Ein gwlad mae Duw'n ei llwyddo;
Ymddyrch yr haul yn uwch i'r lan,—
Daw Cymru'n harddach yn y man.

Mor brydferth ydyw temlau dysg
Sy'n britho'n gwlad arddunol;
Ceir enwau'n bechgyn dewr ymysg
Prif arwyr athrofaol.
Dringo mae'r haul hyd ael y nen,—
Dringo mae bechgyn Cymru wen.

Os tlawd y cydnabydda'r byd
Fy anwyl wlad odidog;
Mae'n fôr o gân, er hyn i gyd,
Os ydyw'n wlad anghenog;
O gân i gân ymlaen yr â,—
Mewn gorthrymderau canu wna.

Mae nentydd Cymru bob yr un
A'i rheieidr oll yn canu,
Gwna'r gwynt delynau iddo'i hun
O hen fynyddoedd Cymru.
Mae'i phlant yn swyno'r byd â'u llef,
A'r llethrau ban, wrth drothwy'r nef.

Mae awen Cymru'n bywiocau,
Mae'i beirdd yn lliosogi,—
Maent o rym awen ymhob pau
Yn nyddu cywrain gerddi.
Yr awen red, fel dwfr y nant,
Yn wythen arian drwy ei phlant.

Mae Cymru'n hardd, edmyga'r byd
Ei chymoedd a'i llechweddau;
Edmygir hefyd yr un pryd
Ei meibion a'i llancesau,—
Rhagori wnant mewn rhin a moes,—
Prydferthir hwy wrth draed y Groes.

Mynyddoedd cedyrn Cymru'n glir
Bregetha sefydlogrwydd;
Safed ein cenedl dros y gwir,—
Dros grefydd bur ei Harglwydd,
Y nef yn hon gaiff weld ei llun,—
Daw fel paradwys Duw ei hun.

Mae Cymru yn cusanu grudd
Y nefoedd hardd uwchben;
A'i phlant yn cymdeithasu sydd
A'r wlad tu hwnt i'r llen.
Pan losgo Duw y byd a thân
Fy Ngwalia hoff fo'n Gymru lân.

BARLWYDON.

CENEDLAETHOLDEB CYMRU.

II.

MEDDYLIR gan lawer, fel y gwelsom, os bydd cenedl yn talu trethi i gynnal llywodraeth ei gorchfygwyr, yn talu degymau i eglwys ei gorchfygwyr, yn derbyn cyfreithiau ei gorchfygwyr, yn gorfod arfer iaith ei gorchfygwyr mewn llysoedd barn, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn gwledydd ereill, ac yn gorfod cael nawdd ac amddiffyn y genedl a'i gorchfygodd,—meddyliant mai ffolineb ac amryfusedd ynddi ydyw son mwyach am genedlaetholdeb. Mewn gair, os na fydd cenedl yn hunanlywodraethol ac yn hunangynhaliol a hunanddibynnol, nid oes ganddi hawl mwyach i gyfrif ei hun yn genedl.

Y mae y rhai sydd yn dal y syniad yma yn camgymeryd am eu bod yn cymysgu dau syniad,—teyrnas (*state*) a chenedl. Y mae yn wir fod dyhead yn aml ymhob cenedl i fod yn deyrnas ar ei phen ei hun, ac i wneyd ei deddfau ei hun. Tybia hynny fod ganddi allu ei hun i roi ei deddfau mewn grym, drwy yr heddgeidwaid, ac, os bydd raid, drwy y fyddin. Gwelir felly fod pob teyrnas fel teyrnas yn tybied y galluoedd yma. Nas gall Cymru, ar hyn o bryd beth bynnag, ddyfod yn deyrnas hunanddibynnol yn yr ystyr yna sydd yn ddigon amlwg, ond nid wyf yn gwybod fod ar neb eisiau iddi ddod. Y mae amddiffyniad Cymru yn cael ei gyrraedd yn well o lawer drwy ei bod yn ymuno â'r Saeson, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod i ffurfio un deyrnas at ddibenion felly na thrwy fod mor ffol a dymuno ymryddhau oddiwrthynt. Pa deyrnas yn Ewrop heddyw sydd yn hunangynhaliol ac yn hunanddibynnol yn yr hen ystyr, os nad yw Rwsia? Ac y mae Rwsia ymhell o fod yn unol ynddi ei hun. Ac er fod teyrnasoedd Ewrop yn gwybod fod y naill yn dibynnu ar y llall, a rhai o honynt yn gwybod nas gallent ddal eu tir am foment pe dewisai teyrnas gref ryfela i'w herbyn, eto daliant afael yn eu cenedlaetholdeb er gwaethaf y cwbl, ac nid oes neb yn dewis eu beio.

Nid llywodraeth nac iaith na therfynau na chrefydd ychwaith sydd yn gwneyd cenedl. Y mae yr elfennau sydd yn mynd i'w ffurfio yn amrywiol iawn, ond y mwyaf yn ddiameu ydyw traddodiadau cenedlaethol yn perthyn i gyfangorff y genedl, ac y mae cenedl dan fath o orfodaeth i ddilyn ei thraddodiadau. Ceisier eu dileu drwy orfod, ac fe welir na wneir ond gwneyd y rhwymyn cenedlaethol yn dynach. Ie, ceisier diddymu yr iaith ac fe erys y teimlad cenedlaethol mor fyw ag erioed. Os collodd yr iaith, erys adiaith neu acen a phriod-ddull yr iaith.

Aberystwyth.

Y pwnc mawr gwleidyddol heddyw ydyw pa fodd i roi lle i genedlaetholdeb heb amharu undeb teyrnasoedd ac ymherodraethau. Nid drwy orfod y llwyddir. Os llwyddir drwy orfod dros dymor, ni wneir yn y pen draw ond cadw y traddodiadau cenedlaethol yn fwy byw, ac un o'r pethau goreu i gadw cenedlaetholdeb yn fyw ydyw gormes. Dull y Rhufeiniaid oedd denu y cenhedloedd gorchfygiedig trwy estyn iddynt rai o ragoriaethau yr ymerodraeth, ac yn enwedig bleserau y Rhufeiniaid, a gyrru milwyr o un wlad i ymladd yn erbyn milwyr gwlad arall; a llwyddent hwy yn well o lawer drwy hyn na thrwy ormes.

Yr ydys yn dyfod i weled heddyw fod uwch nod i ymgyrraedd ato nag ymladd am dir a daear â min y cledd. Gwelir y gall cenedl, er iddi golli yr enw o feddiannu tir ei gwlad, wneyd gwell gwaith er mwyn ennill ei bri cyntefig nag ymladd yn ofer am ei hanibyniaeth, pan na byddai hynny o bosibl yn unrhyw ennill iddi. Gwell na hynny yw i genedl wneyd i fyny am ei cholled drwy benderfynu codi ei hun i'r tir uchaf sydd yn bosibl o ran gwareiddiad, a gorchfygu ei gorchfygwyr felly. Dyna mae cenedl y Cymry wedi geisio wneyd yn yr amser fu, a dyna a wna eto. Ni chollodd y Cymry eu hunanbarch pan gollasant Gymru; dangosasant hynny yn eithaf amlwg drwy gadw eu hiaith. Ni buont yn foddlon ar fod heb lenyddiaeth. Parhaodd y traddodiadau llenyddol heb doriad o'r amserau boreuaf. Ni buont yn foddlon heb Feibl Cymraeg; a chawsant wedi hynny bregethwyr Cymraeg, —un yma ac un acw i efengylu drwy Gymru cyn i'r Diwygiadau mawr dorri allan. Cawsant y pryd hynny dyrfa o bregethwyr heb eu hail. Cawsant emynwyr a chyfansoddwyr tonau o blith y genedl. Cawsant arweinwyr mewn gwybodaeth; cawsant ddysgawdwyr o'r genedl ei hun mewn gwleidyddiaeth. Cawsant eto o'u plith eu hunain aelodau seneddol i ddwyn eu hawliau cenedlaethol ger bron senedd Pryden. Oni chant gyngor i ymdrin a materion Cymreig? Oni ddylent gael prifysgol bellach i gyflwyno graddau? Ac oni ddylent cyn bo hir gael hawl i gael amgueddfa genedlaethol, yn enwedig mewn gwlad lle mae cymaint o hynafiaethau?

Y mae digon o le ini weithio o fewn terfynau cenedlaetholdeb heb fyned i ymymdrafferthu gofyn pa les i ni fydd cael bod yn rhydd oddiwrth lywodraeth Pryden Fawr.

EDWARD ANWYL.

ABERMENAI.

" Mae lladron yng Nghaergybi,
Ac yn Aberffraw rai;
Mae cwch yn Abermenai
Yn nofio ar lanw a thrai;
Mae morhesg gwyn yn Niwbwrch
Gan bawb i gynneu tân;
Ynghanol ffair Caernarfon
Mae'n hawdd cael lodes lân."

Hen Bennill.

NIS gwn am un cyfyngfor heblaw Menai yn cael ei alw yn afon. Mae Afon Menai yn hen enw ar y culfor sydd yn gwahanu sir Fon oddiwrth sir Gaernarfon. Paham, tybed, y mae yn dwyn yr enw afon? Mae hen draddodiad yn dweyd y gellid croesi y Fenai ryw dro ar draed ar y trai. A oes cysylltiad rhwng "cerrig y Borth" â'r "llamau" cerrig oedd yn galluogi fforddolion i droedio o Fon i Arfon pan fyddai y dŵr yn isel? Os bu y culfor hwn mor gul a hynny ryw dro, a ydyw yn afresymol casglu mai gorynys oedd Mon yn y cynoesoedd pell yn ol, yn cael ei chydio wrth y tir cyfagos gan gyfyngdir yn rhywle rhwng Porthaethwy a Chaernarfon? Os felly yr oedd, gallasai y Fenai fod yn agorfa i dderbyn dyfroedd rhai o afonydd Mon ac Arfon, cyn eu harllwys i'r môr trwy y "Gap" sydd yn awr yn gwahanu Abermenai, ar ochr Mon, oddiwrth y Belan ar yr ochr gyferbyniol yn Arfon.

Mae gennym lawer o esiamplau o forgeinciau yn rhedeg i fyny i'r tir, i fod megis yn lle cyffredin i ddwfr hallt y môr a dwfr croyw yr afonydd i gydgyfarfod ac ymgymysgu cyn eu myned i'r môr; a'r rhai hynny yn cael eu galw yn afonydd. Mae yr Humber yn Lloegr a Malltraeth ym Mon yn cael eu galw yn afonydd, er nad ydynt ond geneuau i afonydd. Fe allai mai mor-gainc felly, yn cyrhaeddyd o Abermenai i'r cyfyng-dir tybiedig, oedd afon Menai, ac mai agorfa trwy yr hon yr elai i'r môr oedd Abermenai. Ond ofer yw dyfalu. Er mai enw ar enau afon yw aber, eto amlach yn awr y cysylltir y gair ag enw yr afon i fod yn enw lle ar y lan yn ymyl genau yr afon, megis Aberystwyth, Aberdyfi, Abermenai, &c. Gelwir genau deheuol culfor Menai yn awr yn "Gap," ac Abermenai y gelwir y penrhyn a'r hen dŷ a safai yn foel a gwag hyd yr haf diweddaf ar y penrhyn ar ochr Mon i'r "Gap."

Er fod y Fenai rhwng Llanfaglan a genau afon Braint yn llydan iawn, nes gorchuddio llawer o filltiroedd o draeth, eto y mae y "Gap" yn gul iawn. Pe safai dieithrddyn ar lan Abermenai, ac edrych drosodd i'r Belan, fe dybiai ond odid y gellid taflu carreg "ar ddwywaith" o lan i lan; ond siomedig i lygad "dyn tir" yw pob rhan o'r môr.

Trwy "Gap" Abermenai yn bennaf y cludir mewn llongau gyfoeth chwarelau a mwngloddiau Arfon, o borthladdoedd Caernarfon a'r Felinheli i borthladdoedd Lloegr a'r Cyfandir; a thrwy y fynedfa hon y dygir coed i Gaernarfon o'r America. Y mae'r "Gap" yn ddwfn iawn hefyd, ond y mae'r banciau tywod sydd rhyngddo a'r môr mawr, trwy y rhai y mae y Fenai megis mewn anhawsder yn ymddolennu tua'r eigion, yn dra pheryglus oherwydd eu maint a'u hansefydlogrwydd.

Os nad wyf yn camgymeryd, nid oes un cyfeiriad mewn llyfr na thrwy draddodiad at un digwyddiad mewn cysylltiad ag Abermenai cyn rhuthrgyrch y Saeson a thramoriaid ereill i'r cwr yma o Fon, yn amser Owen Gwynedd a Harri yr Ail, sef ym mis Mai, 1157. Diweddodd y goresgyniad hwn yn ninistr llwyr yr estroniaid yspeilgar ym mrwydr Tal y Foel, am yr hon y canodd Hywel ab Owen Gwynedd a Gwalchmai ab Meilir eu pryddestau goreu. Hwyrach y caf hamdden eto i ysgrifennu am y "curo mawr" a adawodd yr enw ar y ffordd sy'n arwain o lanfa y Foel i bentref Dwyran.

Yr oedd Owen Gwynedd gyda'i fyddin Gymreig yn gwylio symudiadau byddin Harri, ac yn ei rhwystro yn ei hymdaith o Gaer i Ogledd Cymru. Pan welodd y brenin nas gallai er pob ymdrech ymwthio ymlaen ymhellach na rhywle tua Rhuddlan, efe a anfonodd lyngesoedd i Abermenai i fygwth goresgyn y rhan yma o Gymru er mwyn ceisio gorfodi y tywysog Cymreig i encilio tua mynyddoedd Eryri rhag cael ei wasgu rhwng y ddau ymosodiad. Nid oes dim yn amlycach na bod arweinydd neu arweinyddion y llyngesoedd wedi dewis y lle goreu i angori eu llongau i'r pwrpas, os gellid, o ddyrysu y Cymry. Gallent o Abermenai anfon anrheithwyr i yspeilio Cwmwd Menai; gallent oddiyma fygwth Caer Seiont (Caernarfon) trwy anfon rhan o'r llynges i fyny i'r Fenai; ac wrth aros yma yr oeddynt yn gallu cau y ffordd ar hyd yr hon y gallasai gwŷr Meirion, Eifion, a Lleyn geisio estyn cynhorthwy i wŷr Mon.

Ar yr ail o fis Mai, 1157, y diwrnod cyn dydd brwydr Tal y Foel, anfonwyd byddin o'r estroniaid o Abermenai i yspeilio eglwys Petr a chapel Mair yn Rhosyr, sef Niwbwrch; ac fel y mae'n debyg iawn, i anrheithio holl Gwmwd Menai. Yn yr hen oesoedd, os byddai trysor mewn plwyf, byddai ond odid bob amser yn cael ei gadw yng nghist yr eglwys fel y lle diogelaf, oblegid ei gysegredigrwydd; ac heblaw y byddai pobl yn cymeryd eu pethau gwerthfawr i'r eglwys, yr oedd llawer

o bethau drudfawr, megis llestri cymun a chreiriau, yn perthyn i'r eglwys ei hun. Os lladrateid eiddo cysegredig, yr oedd y lleidr, neu y lladron, yn debyg i Micah, yn gwneyd iawn am y camwedd trwy ei adferu i wasanaeth seintiau eu hardaloedd, neu ei ailgysegru a'i ddefnyddio i adeiladu neu harddu eglwys neu fonachlog newydd.

Os oedd arwynebedd y rhan yma o'r wlad y pryd hwnnw mor noeth ag yn awr, yr oedd y goresgynwyr yn Abermenai yn gallu gweled eglwys Rhosyr yn sefyll ar ben y bryn, neu gefnen, oddeutu dwy filltir a hanner i'r gogledd orllewin. Mae'n debyg fod Abermenai y pryd hwnnw, fel y bu ar ol hynny am oesoedd lawer, yn un o brif byrth, os nad y prif borth, i groesi o sir Gaernarfon, ar y ffordd o Feirion, Eifion, a Lleyn i lysoedd Niwbwrch ac Aberffraw. Os byddai y llanw allan gellid croesi y traeth i'r ffordd sydd yn arwain trwy ganol Niwbwrch, a thros y Falltraeth, i Aberffraw; ond os byddai llanw i fewn, yr oedd y ffordd ar hyd Braich Abermenai i gyfeiriad y pentref uchaf, neu y rhan o blwyf Niwbwrch sydd rhwng yr eglwys a'r môr. Nid yw yn hysbys pa adeg o'r dydd y daeth yr anrheithwyr i Rosyr, ac ni wyddis pa ffordd a gymerasant; ond i rai anhysbys yr oedd y ffordd a ddesgrifiwyd ddiweddaf yn ymddangos yn unionach o Abermenai i gyfeiriad yr eglwys, na'r ffordd arall. Goddefer i ni fanylu ychydig ar y ffordd honno.

Fel y dywedwyd, cymerid y ffordd ar hyd y Braich, ac yna ar draws y towyn i'r ffordd sydd yn cyfeirio i'r eglwys heibio yr Erw Wen. Ychydig lathenni ar yr aswy o'r ffordd hon, ar ol gadael yr Erw Wen, y mae'n sefyll dyddyn bychan a elwir Goitan, a thu cefn i'r ty y mae craig lled fawr a elwir yn gyffredin gan y trigolion Carreg y Gath, ond feallai mai'r enw priodol yw Carreg y Gad. Mae llawer brwydr galed a gwaedlyd wedi bod o flaen yr ymdrech fawr derfynol, ond gorchuddiwyd eu hanes gan orfoledd y fuddugoliaeth bwysicaf. Nid yw distawrwydd traddodiad ynglyn â manylion yr ymgyrch yspeilgar i Niwbwrch yn profi na fu ysgarmesoedd gwaedlyd cyn i'r gelynion gael eu llwyr orchfygu drannoeth yn Nhal y Foel. Yr oedd y frwydr honno mor hynod fel yr oedd ei chlodydd yn peri i'r brwydrau blaenorol gael eu hanghofio; ac heblaw hynny bu brwydr Tal y Foel mor ffodus a chael dau o brif-feirdd y cyfnod, a'r rhai hynny, hwyrach, yn llygad-dystion,—i argraffu ei hanes yn anileadwy yn y cofnodion cenedlaethol. Os bu ychydig floeddio i'r gad ynghwr Niwbwrch i geisio amddiffyn eiddo rhag trachwant cysegr-yspeilgar y gormeswyr, boddwyd y waedd rhag i ni ei chlywed gan floedd orfoleddus gwŷr mawr Mon ar derfyn y dydd, pryd yr oedd y Fenai megis heb drai oherwydd dylifiad gwaed yr estroniaid gorchfygedig. Mae'r ychydig a allwn ni ei loffa o hanes ymgyrch y gelynion i Niwbwrch fel y canlyn,—

"Yna y daeth Madoc ab Mercdydd, tywysog Powys, a llawer o lu y brenin gyd ac ev, a'r llongau, hyd yn Abermenai ym Môn, ac yna ysbeilio Eglwys Fair a Phedr yn Rhoswair, a hynny a ddangoses Duw iddynt drannoeth, pan ddaeth ieuenctid Môn i ymladd a wynt, a'i gyrru ar ffo arnynt, a lladd llawer a gyrru eraill i'w boddi. Y llas Harri vab Harri Brenin, a thywysogion y llongau oll."*

Ychydig dros chwe' chan mlynedd ar ol i Walchmai ab Meilir gyfansoddi ei bryddest orfoleddus ar orchfygiad y Saeson yn Nhal y Foel, yr oedd Dafydd Ddu ar lethrau yr Eryri yn galarnadu ac yn cwyno oherwydd trychineb alaethus a ddigwyddodd "ar noswyl ffair Gaernarfon," Rhagfyr y 5ed, 1785,—

"Yn awr mae galar chwerw, ddigroyw gri,
Ym mysg pob rhi,
O'r gweddwon a'r amddifaid,
Eu llygaid oll yn lli."

Cyfeirir at y galar mawr fu ym Mon ar ol i ysgraff neu gwch mawr Porth Abermenai suddo i fynwes oer y Fenai cyn cyrraedd glan sir Fon ar ol cychwyn o dref Caernarfon y noson honno,—

"Yr ysgraff ddarfu suddo, 'nol treio i'r traeth,
I rywle yr acth;
A'r bobl oedd yn gwaeddi
Wrth brofi culni caeth."

Mor agos ag y mae'n bosibl dweyd ar ol cymaint o amser, a chyda chyn lleied o wybodaeth sydd yn awr, cododd ystorm fawr ar y noson dywell, pryd yr aeth y cwch ar y traeth yn rhywle gyferbyn a Phlas yn Penrhyn, a glynodd yno fel na chododdd pan ddaeth y llanw. Mae y bardd yn cyfeirio, feallai, at yr ystorm yn y llinellau hyn,—

"Y môr a'i dynion donnau, fel muriau mawr,
A guddiai eu gwawr."

Ni fydd tonnau fel muriau mawr yn y Fenai ond pan gynhyrfir hi gan wynt cryf o'r de-orllewin.

Dywedir fod cyfyngfor neu sianel yn yr amser gynt rhwng y traeth a glan sir Fon, fel y mae yn awr rhyngddo a sir Gaernarfon. Yn wir, y mae hyd heddyw, yn y man a nodwyd, draeth cul rhwng dwy sianel; ond ni wn pa un ai ar y traeth hwnnw y tarawodd y cwch, ai ar draeth cyfagos. Ond pa fodd bynnag yr oedd y traeth y pryd hwnnw, a lle bynnag yr oedd y fan, yr oedd yno draeth

* O Lyfr Du Basing; gwel hynafiaethau Marian yn y *Clorianydd*, Awst 11, 1892.

â môr o'i ddeutu fel na ellid dianc i lan, ac ar y traeth hwnnw y tarawodd yr ysgraff, a gorweddodd yno yn ddiysgog, gan gael ei llenwi â dwfr y tonnau cynhyrfus. Clywais fodrhaio'r creaduriaid anffodus yn ymryson â'r môr trwy ddefnyddio eu hetiau i daflu y dwfr o'r cwch, a chlywais fod ereill yn ceisio perswadio eu cymdeithion i ymuno a myned ar y traeth i geisio gwthio yr ysgraff i'r dwfn; ond nis gwn pwy oedd yn gwybod y manylion, oblegid ni ddiangodd ond un, a mynegwyd i mi na fynnai hwnnw son am yr amgylchiad; os gallai fanylu ar drychineb oedd yn ddigon i yrru llygad-dyst yn wallgof.

Bu y trueiniaid,—"chwe deg ond chwech o ddynion,"—yn aros yn y lle dychrynllyd am oriau yn syllu ar y llanw angeuol yn codi o fodfedd i fodfedd, nes eu hysgubo ymaith yn y rhyferthwy ofnadwy,—

> "A'r llanw dwfr a'u daliodd,
> Dyludodd hwynt i lawr,
> Er iddynt aros teirawr ar fin traeth,
> Nid oedd un gŵr ar donnau dŵr,
> I'w dwyn o'u cyflwr caeth."

Yr oedd yno waeddi mawr, a llawer ar y glannau yn clywed, ond nid oedd neb yn ddigon dewr i geisio myned i'w gwaredu, oherwydd y tywyllwch a'r dymhestl ddychrynllyd. Daeth un gŵr i'r lan,—

> "Fe ddarfu yn ufudd nofio,
> Gan rwyfo ei ran, yn sal a gwan,
> Ac ar yr hwylbren nofiai,
> Golygai'n deg i'r lan."

Hwyrach mai efe oedd yr unig un allodd gadw ei feddwl yn glir a goleu i ddyfeisio ffordd o ymwared. Ni wn faint o amser y bu yn y dwfr "yn golygu'n deg i'r lan," ond clywais ei fod yn gweled goleuni yn ffenestr yr hen Blas yn Borth, a safai lle mae'r ysgubor yn awr, a fod y llewyrch hwnnw fel seren gobaith yn adfywiad i'w ysbryd wrth iddo gael ei gludo ar fynwes y llanw gwyllt i gyfeiriad glan sir Fon, yn agos i Dŷ Bach y Foel. Yma, yn oer a hanner marw, tarawodd y traeth ac ymlusgodd i Blas yn Borth.

Mae ychydig draddodiadau aneglur a hanesion ansicr am y twrw a'r ymgecru gwallgofus fu rhwng y sobr a'r meddw, a rhwng y bobl a'r porthweision, yn lle cydweithredu ar un cynllun i ymdrechu cael y dwfr o'r ysgraff, ac i'w chodi o'i gwely yn y tywod. Ond nid oes dim yn awr yn sicr ynglyn â'r hanes, os bu sicrwydd ryw bryd, oblegid cyndyn oedd Hugh Williams i roddi un eglurhad, os gallai. Nid oes neb yn awr a all fanylu ar helynt blin y teirawr hynny, pan gauodd hyd yn nod gobaith ddrws ymwared yng ngwyneb triugain namyn saith a foddodd y noson honno. Mae traddodiad yn dweyd fod cwch arall wedi dymchwelyd ar y pumed o Ragfyr, 1664, yn agos i Dal y Foel, pan y boddodd pedwar ugain. Un yn unig a ddiangodd yn fyw o'r cwch hwnnw hefyd, a dywedir mai Hugh Williams oedd ei enw yntau.

Mae'n sicr mai Hugh Williams a ddiangodd o ysgraff Abermenai, oblegid fel hyn y canodd Dafydd Ddu Eryri,—

> "Hugh William mewn modd hylaw,
> Ym mhlwyf Aberffraw mae fe'n byw."

Hugh Williams, Ty'n Llwydan, oedd hwn. Mae y ffermdy yn sefyll i'r gorllewin o Fodorgan, ac y mae disgynyddion Hugh Williams yn aros yno hyd heddyw. Yr oeddwn yn adnabod y trydydd Hugh Williams a achubwyd pan ddymchwelodd cwch y Barras, yn agos i Dal y Foel, ar y pumed dydd o Awst, 1820. Yr oedd efe yn hen amaethwr diddan, ac yn byw y rhan ddiweddaf o'i oes ym Modowyr Isaf. Efe oedd tad Mrs. Lewis, Glan y Gors, Llangwyllog, sir Fon.

Yr wyf yn dychwelyd at hanes cwch Abermenai. Ar y noson honno aeth bachgen tua phymtheg oed i Abermenai o Niwbwrch gyda cheffyl i gyrchu ei feistr neu ei feistres oedd i ddychwelyd gyda'r ysgraff o Gaernarfon. Gan fod y gwynt yn chwythu o'r de neu y de-orllewin, a'r cwch ar draeth i gyfeiriad Caernarfon o Abermenai, yr oedd yn amhosibl i waeddiadau ac ochain y trueiniaid gael eu clywed o'r lle olaf. Yr oedd teulu'r borth yn disgwyl yn ddyfal, a mynych yr elai rhywun o'r ty i edrych neu i wrando a oedd yr ysgraff yn nesu at y lanfa. Ni chlywyd swn; a phe clywsent y gwaeddi, y mae'n amheus y buasai neb o Abermenai, mwy na mannau ereill, yn gallu estyn ymwared. Yr oedd pawb yn y borth yn effro ac yn bryderus iawn drwy'r nos, ond nid oedd gwraig y ty wedi anghofio ei hun gymaint ag i esgeuluso elusen a lletygarwch; oblegid yn y plygain galwodd ar ei lodes fechan, ac anfonodd hi gyda "brechdaen,"—hynny yw, bara ac ymenyn,—i'r bachgennyn o Niwbwrch. Nid oedd y digwyddiad ond bychan iawn mewn cyferbyniad i'r hyn oedd yn cyfarfod y degau hynny ar y traeth; ond bu stori y frechdaen lawer gwaith fel seren ddisglaer yn ffurfafen un teulu pan y byddai y tad a'r fam ar yr aelwyd yn mynegi i'w plant am alaeth du y noson y suddodd cwch Abermenai. Adnabyddid y bachgen ar ol hynny wrth yr enw John Jones, y Tyddyn; a'i wraig oedd lodes y frechdaen, sef Mary, merch hen wr a hen wraig Abermenai. Yr oedd John Jones yn frawd i'r Parch David Jones, Dwyran, ac i Robert Jones, Gwning-gaer, Niwbwrch; y naill yn bregethwr a'r llall yn flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Plant John a Mary Jones oedd Capt. Jones, Bodiorwerth,

Niwbwrch; y Parch. W. Jones, rheithor Llanenddwyn; Mr. Robert Jones, White Lion, Niwbwrch; a Mrs. Ellen Jones, Tyddyn, a Maesyceirchdir.

Yr oedd Abermenai gynt yn enwog fel porth trwy yr hwn y trosglwyddid cyfoeth amaethyddol rhan fawr o Fon i borthladd a marchnad Caernarfon. Erbyn hyn y mae y lle a'i amgylchoedd wedi disgyn i fod yn berygl ac yn golled i'r dref honno. Un achos i'r masnachwyr adael Abermenai, gan ei gwneyd yn ddiwerth fel porth, oedd gwneuthuriad y ffordd gerrig ragorol o Ben Lon Niwbwrch i amgylchu y Comins, heibio Langeinwen, ac i borth Tal y Foel. Y mae y ffordd newydd hon yn hwylusach o lawer na'r hen ffordd trwy'r tywod i Abermenai, oblegid y mae yn galetach i droliau, ac yn fwy cauedig i gymeryd anifeiliaid ar hyd-ddi.

Oddeutu deugain mlynedd yn ol yr oedd yn aros yn Abermenai Shon William a Beti Owen, ynghyda Chatrin, wyres i'r hen bobl oedd yn dal y borth yn 1785. Hen was a morwyn a cheraint i'r hen ddeiliaid oedd y ddau gyntaf, a arosasant yn yr hen borth, gan ennill bywoliaeth wrth weithio morhesg yn fatiau a rhaffau i'w gwerthu i amaethwyr sir Gaernarfon. Byddent hefyd yn ennill ychydig wrth gario teithwyr dros y "Gap," y rhai a gymerent y ffordd union i Leyn a mannau ereill, cyn agor y ffyrdd haiarn. Yr oedd Beti Owen yn ddynes gref, ac yn fedrus neillduol, fel rhyw Grace Darling, yn y gwaith o hwylio cwch dros y culfor gwyllt pan fyddai Shon William oddi cartref. Clywais hefyd ei bod yn hyddysg a chraff yn llyfr yr wybren, ac yn gallu darllen arwyddion y tywydd; a pheth cyffredin fyddai i'r llongwyr wrth droi allan o Gaernarfon waeddi ar Feti Owen i ofyn a oedd yn canfod argoelion ystorm agos. Ar ol i'r ddau fyned yn rhy hen i aros mewn lle mor anghysbell, symudasant hwy a Chatrin i Niwbwrch, lle yr arosasant gan gyd-fyw fel o'r blaen, hyd nes y gwahanodd angau hwynt. Bu yr hen wr yn gyhoeddwr trefol Niwbwrch am rai blynyddoedd, ac yr wyf yn cofio y cyfnewidiad a ddygodd gydag ef, sef myned o heol i heol dan ganu cloch Abermenai a chyhoeddi, yn lle rhoddi tair bloedd ar y Groes fel y gwnai William Williams i dynnu pobl i ddrysau eu tai i glywed y cyhoeddiad.

Cyfeiriais at y Braich, neu y rhes o fryniau tywod oedd yn dal penrhyn Abermenai wrth dir Mon, neu dowyn Niwbwrch; ar hyd yr hwn yr elid i'r lle pan fyddai y môr yn gorchuddio'r ffordd unionach ar draws y traeth. Amryw flynyddoedd yn ol yr oedd gofyn mawr am gerrig llyfnion glan y môr i balmantu, a byddai llongau bychain bob haf yn dyfod at ochr y Braich i gael llwythi o'r cerrig. Gwelwyd yn fuan ar ol noethi ochr y Braich trwy gymeryd ymaith y gwelyau cerrig fod y môr yn ymosod ar y lle ac yn ei wneyd yn gulach o flwyddyn i flwyddyn. Diwedd haf 1868 torrodd y môr drwy y Braich. Ar y diwrnod y torrodd y môr drwodd yr oedd hen lanc o Niwbwrch ar y Braich neu ar lan y môr yn agos iddo, ond yn lled bell i gyfeiriad Abermenai, pan y canfyddodd fod y llanw yn codi yn brysur oherwydd yr ystorm ffyrnig oedd yn ymgrynhoi mewn nerth mwy-fwy o hyd. Os ar y traeth yr oedd efe, gorfodwyd ef yn dra buan i redeg i'r Braich am le mwy diogel. Brysiodd i gyfeiriad y tir a'i gartref, ond ymhell cyn gadael y Braich daeth at fwlch lle'r oedd y môr wedi torri drwodd. Yr oedd ton 'rol ton mor brysur yn rhedeg yn ol ac ymlaen gan ddylyfu yn chwantus odrau y bonc tywod, a gwneyd yr agorfa yn lletach a dyfnach bob eiliad, fel mai rhyfyg fuasai rhuthro ymlaen. Mewn dychryn mawr troes y ffoadur yn ol rhag llithro gydag ochr y bryn i'r cenlli gwyllt. Meddyliodd am ffoi i benrhyn Abermenai, lle yr oedd y safle yn eangach a sicrach; ond wedi iddo gyrraedd pen y bonc gwelai fod y môr wedi cau i fyny ffordd ei enciliad i'r cyfeiriad hwnnw hefyd. Bu am oriau ar gopa y bryn bychan yn gwylied y llanw yn codi uwch uwch o hyd nes gwneyd ei noddfa gyfyng yn fangre dychryn. Yn llythyrennol nid oedd ond cam rhyngddo ag angau; ond ciliodd y môr yn ei amser a rhyddhawyd y carcharor.

Ymhen ychydig amser ar ol hyn, ar ryw ystorm gyffelyb, ysgubwyd ymaith y bonc a llawer o rai ereill, nes erbyn heddyw y mae'r holl Fraich, tua milltir o hyd, wedi ei lwyr chwalu, ac Abermenai, yn enwedig ar y llanw, fel ynysig fechan o ychydig gannoedd o lathenni ysgwâr.

Dechreuwyd ysgrifennu "Ichabod" ar lanfa Abermenai pan gymerodd trafnidiaeth rhannau deheuol Mon y ffyrdd newyddion trwy Borth Tal y Foel, Cei Newydd, a'r ffordd haiarn. Er yn dlawd ac yn noeth, eto y mae Abermenai wedi bod yn dyst o ddifrodiad y Braich, tywod yr hwn sydd yn cael ei yrru yn barhaus bellach bellach o hyd i fyny i gulfor Menai, nes codi banciau tywod i gau y ddwy borth a ennwyd, ac i fygwth hyd yn nod borthladd Caernarfon. Y mae ymddiriedolwyr y Porthladd wedi gwario cannoedd o bunnau wrth geisio codi braich newydd celfyddydol; ond y mae un rhuthr o eiddo Neifion chwareus yn ddigon i chwalu gwaith mawr llawer o ddynion.

Glan Braint, Dwyran. OWEN WILLIAMSON.

Y PARCH. D. SAUNDERS, D.D.

GANWYD Dr. Saunders ar yr ugeinfed o Fai, 1831, yng Nghastell Newydd yn Emlyn, tref neu bentref ar ddau tu i'r afon Teifi, oddeutu deuddeg milltir uwchlaw ei harllwysiad i'r môr. Saif y dref mewn dwy sir, sef Caerfyrddin a Cheredigion, ac y mae sir Benfro hefyd ar y terfynau. Adnabyddir y lle yn awr gan bob Methodist fel cartref y Parch. Evan Phillips. O fewn oddeutu tair milltir mae Clos y Graig, lle y magwyd y diweddar Dr. Harris Jones, Trefeca, ac yno y gorffwys ei lwch. Oddeutu yr un pellder saif capel Drindod, trigle y diweddar Barch. Daniel Evans; ac oddeutu yr un pellder drachefn, gan amgylchu yn nes i'r môr, y gorwedd Tŵr Gwyn, hen aneddle Dafydd ac Ebenezer Morris. Ystyrir dyffryn y Teifi, o bont Henllan, tua phedair milltir uwchlaw Castell Newydd, i'r môr, yn un o'r rhai prydferthaf yng Nghymru. Mae amgylchoedd y Castell a'r dref yn dra dymunol a phrydferth. Pedair milltir yn is i lawr ar yr afon y mae pentref bychan a rhaiadr Cenarth, tra adnabyddus i bleser-deithwyr. Yn ymyl y fan hon y ganwyd ac y magwyd Dr. Herber Evans, Caer yn Arfon, ac yn yr amaethdy agosaf y magwyd y Parch. J. M. Gibbon fu yn traddodi y bregeth yng nghyfarfod diweddar yr Undeb Cynulleidfaol. Yn yr un gymydogaeth, hefyd, y magwyd y Parch. Ossian Davies. Ar yr aswy y daw cadwyn mynyddoedd sir Benfro i derfyniad yn yr uchaf o honynt, sef y Frenni Fawr, am yr hon y dywedai John Jones Talysarn wrth y llanc oedd yn arweinydd iddo, —os oedd am gadw ei mhawredd fod yn rhaid iddi aros gartref, gan y buasai yn ymddangos yn fechan iawn yn ymyl y Wyddfa. Am y pedair milltir nesaf ceir palasdai a'u hamgylchoedd,—coed, rhodfeydd, gerddi a pherllannau,—nes dyfod o honom i Lechryd, lle y trigai J. Richards, yr efengylwr nerthol a melus. Cof gennyf fod yn pregethu yma ar noson waith, hir-ddydd haf, a bod y diacon patriarchaidd, Mr. Stephens, henaf, yn fy rhybuddio cyn dechreu i ofalu terfynu mor fuan ag y gwelwn hi yn dechreu tywyllu, o herwydd y buasent yn rhedeg am y cyntaf i'r afon i bysgota. Yr afon ydyw rhan fawr o gynhaliaeth y gymydogaeth hon, oblegid y mae yn heigio o bysgod, ac y mae eogiaid y Teifi mewn bri yn y farchnad. Dros y bont yr ochr arall y mae palasdy henafol a elwir Castell Maelgwyn. Milltir yn is i lawr ar lan yr afon y saif pentref Cilgeran a'i gastell, sydd yn enwog mewn hanes. Dyma hen gartref William Morris a Thomas John. Dwy filltir drachefn a'n dwg i Aberteifi, y lle mwyaf anyddorol yn yr holl daith. Difwyna masnach y môr ddyfroedd yr afon, ac aflonydda twrw y dref dawelwch y glannau, ac anurdda y drafnidiaeth eu prydferthwch. Milltir yn nes i'r môr, ar yr aswy, yng nghesail y tro yn y tir, y llecha Llandudoch, pentref nas dichon y teithiwr ffurfio un syniad am ei dlysni nes myned iddo. Yma mae y llanw,



Yr eiddoch yn serchog

D. Saunders

(O'r *Drysorfa*).

ddaeth i'n cyfarfod mor uchel a Chilgeran a Llechryd, yn gwneyd culfor o ddyffryn yr afon; a dwy filltir neu lai ym mhellach a'n cludai dros "Far Aberteifi," allan i'r môr mawr. Oni wnai yr afon Teifi a'i golygfeydd arddunol a'i chof-gysylltiadau ddarlun go dda o'r bywyd hardd, dyrchafedig, a hawddgar, gychwynnodd ar ei glan dros dri-ugain mlynedd yn ol, ac a'n swynodd mor fawr tra ar ei daith trwy y byd, nes iddo ddiflannu o'n golwg i wlad lle y caiff deyrnasu mewn bywyd byth?

Yr oedd ei dad yn ddyn eithriadol fawr o gorffolaeth; prin hefyd y gallesid ei alw yn gawr, oblegid nid ydoedd yn ddigon nerthol a chadarn i wisgo y teitl hwnnw. Safai yn chwe' troedfedd a dwy fodfedd a hanner o daldra heb ei esgidiau, ac yr oedd o led a thrwch cyfartal, a'i gorff drosto yn lluniaidd a hoyw, ac o ymddanghosiad pendefigaidd. Ni chafodd fanteision addysg uchel pan yn ieuanc, ond rhaid ei fod wedi cael ysgol dda ac ystyried cyfleusderau addysg yr oes honno. Darllennai lawer mwy na'r cyffredin o'i gyfoedion, yn enwedig ar bynciau cyhoeddus y dydd, a theimlai ddyddordeb dwfn yn yr holl symudiadau cymdeithasol a gwladol. Meddai chwaeth dra choethedig, ac yr oedd yn feirniad craffus ar waith celfyddyd, ac yn gerddor medrus. Nis gwn pa le y dysgodd egwyddorion cerddoriaeth, ond diau i'w arosiad yn Aberystwyth, lle yr oedd cerddoriaeth yn uchel, fod yn fanteisiol iddo i ymberffeithio yn y gelfyddyd hon.

Dynes o faintioli cyffredin oedd ei fam, ond yr oedd hithau o ymddanghosiad bonedd-igaidd, o feddwl anarferol graffus a galluog, o synwyr cyffredin cryf, a barn yn ymylu ar fod yn ddifeth. Mewn amgylchiadau dyrus yn y gymydogaeth ac yn yr eglwys, yr oedd ei chynghorion yn wir werthfawr. Gyda'r fasnach a'r teulu yr oedd yn gynnil a gofalus, ond nid mewn un modd yn gybyddlyd. Dyn agored, hael, ac eithafol garedig oedd ei dad; yr oedd ei fam felly hefyd, ond llywodraethid hi yn fwy gan reswm a barn a gofal am yr amgylchiadau. Darfu i'w hunig fab etifeddu prif nodweddion meddyliol a moesol y naill a'r llall.

Yn fuan ar ol ei enedigaeth symudodd ei rieni i Lanbedr Pont Stephan, ac yno y buont yn byw am rai blynyddoedd. Oddiyno symudasant, pan oedd eu hunig fab yn wyth mlwydd oed, i Dreforis, ger Abertawe. Yn fuan ar ol eu dyfodiad i'r lle hwn, tynnodd y bachgen sylw yr eglwys, yn gyntaf o bosibl fel cerddor ieuanc a dadganwr heb ei fath. Pan yn blentyn canai ddigon o alto i lond capel o gantorion. Yn yr Ysgol Sabothol a'r ysgol ddyddiol hynododd ei hun fel dysgwr diail, os ymroddai ati nid oedd neb fedrai gystadlu ag ef. Bu am beth amser yn y masnachdy gyda Mr. T. Phillips, hynaf, U.H., Abertawe. Gwnai y gwaith yno yn bur dda, ond yr oedd argraff ar feddwl ei feistr o'r cychwyn ei fod wedi ei alw at waith uwch. Gan fod ganddo chwaeth arbennig at rifyddiaeth a mesuroniaeth, rhwymwyd ef yn freintwas gyda'r saer dodrefn goreu yn Abertawe. Dysgai ei grefft yn aiddgar, a phe daliasai yn y blaen, diameu y delsai yn grefftwr rhagorol; meddai ddwylaw a bysedd y celfyddydwr, ac yr oedd eu symudiadau yn y pulpud bob amser yn weddaidd a chelfydd. Nid hir y bu yno drachefn cyn deall nad oedd wedi ymaflyd yn y gorchwyl y bwriadodd Duw iddo gysegru ei fywyd i'w gyflawni. Yr oedd ei gyflymder anarferol gyda phynciau addysg, ei gymeriad moesol prydferth, ei barabl a'i ddawn ymadroddi, ar unwaith yn ei nodi allan fel un cymwys i weinidogaeth yr efengyl, a phan oddeutu deunaw mlwydd oed dechreuodd bregethu. Bu am oddeutu dwy flynedd mewn ysgolion rhagbarotoawl yn Abertawe, ac yn y flwyddyn 1851 aeth i Athrofa Trefeca. O'r rhai dderbyniwyd y flwyddyn honno nid oes ond dau heddyw yn fyw,—sef y Parchn. G. Davies, Aberteifi, a D. Thorne Evans, Abertawe. Ar derfyn ei ddwy flynedd yn Nhrefeca, cafodd ei ryddhau i fyned i Brifysgol Glasgow. Bu yno un flwyddyn, ond lluddiwyd ef gan dwymyn boeth i ddychwelyd yno drachefn. Ei ymrwymiad cyntaf fel bugail ydoedd yr un wnaeth ag eglwys Penclawdd, Browyr, a dechreuodd ar ei waith yn 1855. Priododd yr un flwyddyn a Miss M. Howell, merch Mr. J. Howell, Pencoed, ysgrifennydd Cyfarfod Misol sir Forgannwg, yn gyfan, am dros ddeugain mlynedd. Mab iddo ef, a brawd Mrs. Saunders, ydyw y Parch. D. Howell, canon ac archddiacon yn esgobaeth Llanelwy, ac un o addurniadau pennaf yr Eglwys Wladol yng Nghymru. Hir gofir ei wyneb tyner a'i ofal am ei anwyl chwaer yn y claddedigaeth. Priodol iawn hefyd y sylwodd un o'r siaradwyr fod dyled y Cyfundeb yn fawr i Mrs. Saunders am ofalu fel y gwnaeth am ei hanwyl briod. Dyn heb fod yn gryf o gorff ydoedd, ac ni fuasai wedi para cyhyd i allu myned oddiamgylch i bregethu oni bai am ei gor-ofal hi am dano. Profodd yn ymgeledd gymwys iddo ymhob ystyr o'r gair; ystyriai mai ei chenhadaeth a'i rhagorfraint ydoedd gweini arno ef, ac yn awr ar ol ei golli teimla nad oes diben ac amcan i'w bywyd mwyach. Yn y flwyddyn 1857 symudodd i gymeryd gofal eglwys Bethania, Aberdâr; ordeiniwyd ef ym Mhontfaen, Morgannwg, haf y flwyddyn honno; a chyn ei diwedd

claddasant eu mab cyntafanedig. Yn 1862 symudodd i Liverpool, ac oddiyno i Abercarn yn 1868; ac i Abertawe yn 1873; ac oddiyno i dy ei hir gartref, yn Aberdâr, Hydref 25, 1892.

Ffurfia blynyddoedd ei arosiad yn Aberdâr o 1857 i 1862 gyfnod pwysig yn ei yrfa weinidogaethol. Bu wrthi yn ddiwid yn sicrhau sylfeini ei lwyddiant a'i ddefnyddioldeb. Nid yma y dechreuodd, nid oedd ei arosiad yma ond dolen mewn cadwyn, ac y mae yn anhawdd peidio canfod llaw rhagluniaeth ddwyfol yn llywio amgylchiadau ei fywyd er ei wneuthur yr hyn ydoedd. Dyddorol fuasai myned i mewn i fanylion y digwyddiadau, dibwys ymddangosiadol, arweiniodd ei rieni i symud i Lanbedr, ac a dueddodd ei dad i fyned i weithio i Aberystwyth, ac i adael y lle hwnnw drachefn am Dreforis; erbyn heddyw maent yn gyfres o symudiadau ag iddynt ystyr bwysig yn nadblygiad ei gymeriad a'i alluoedd ef fel pregethwr. Pan yr oedd efe yn fachgennyn yr oedd Abertawe ar y blaen i nemawr le yn y Deheubarth mewn bywyd a gweithgarwch meddyliol, ac fel canolbwynt addysg a sefydliadau llenyddol. I ddangos hyn gellir enwi y ffaith ddarfod i'r *British Association* gynnal un o'i chyfarfodydd llenyddol yma mor foreu a'r flwyddyn 1847. Yr oedd yno ddynion y pryd hwnnw, nid yn unig fedrai werthfawrogi Cymdeithas o'r fath, ond amryw hefyd, megis Syr William Grove, ac ereill allesid eu henwi, fedrai gymeryd rhan flaenllaw yn ei gweithrediadau. Yr oedd yno hen sefydliad, a elwir yr *Institute*, yn cynnwys llyfrgell gymharol gyfoethog, ac amgueddfa werthfawr a chyflawn ac ystyried yr amgylchiadau, a chynhelid ynddo ddosbarthiadau o wahanol natur i weinyddu addysg mewn amryw ganghennau o wybodaeth. Mynychai efe y dosbarthiadau hyn yn y nos pan yn gweithio ei grefft fel saer, ac yma o bosibl yr ymaflodd y dwymyn addysg yn ei enaid na ddarfu byth ei adael. Ysgolion gramadegol Mr. G. P. Evans, a Dr. Evan Davies oedd at-dyniad mawr i ieuenctid y dalaeth ddeheuol. Ysgol yr olaf, a elwid y pryd hwnnw yn *Normal College*, ydoedd meithrinfa uchaf addysg yn y parthau hyn, ac anhawdd ydoedd cael ei fath i adnabod talent ac i'w dadblygu. Rhaid oedd i'r rhai oedd dan ei ofal weithio; ni allai oddef segurwyr, a throdd allan o'i ysgol rai o ysgolheigion goreu yr oes honno, y rhai a lanwasant swyddi pwysig yn yr eglwys, y wladwriaeth, ac mewn gwyddoniaethau. Yma daeth Dr. Saunders i gyffyrddiad a rhai o ddynion ieuainc mwyaf galluog y genedl, y rhai a ddylanwadent ar eu gilydd fel haiarn yn hogi haiarn, ac o dan arweiniad ac ysbrydoliaeth athrylith eu hathraw a ymroddent i'w hefrydiau gydag aiddgarwch a'u canlynodd trwy eu hoes.

Ar ol myned i Athrofa Trefeca, cafodd fod yno drachefn efrydwyr tra galluog, a'r Prifathraw yn anterth ei nerth. Rhoddodd yr addysg dda gafodd cyn myned i mewn yno fantais iddo ar ei gyd-efrydwyr; medrai gadw ysgwydd yn ysgwydd â'i ddosbarth heb lafurio llawer; felly cafodd fantais i ddarllen llyfrau mewn Athroniaeth a Duwinyddiaeth nas gwyddai o'r blaen am eu bod. Derbynnid yno y pryd hwnnw un o'r cyfnodolion goreu ar dduwinyddiaeth a beirniadaeth, trwy hwn deuai i feddiant o'r darganfyddiadau mwyaf diweddar, ac i gyffyrddiad a'r wedd ddiweddaraf o feddwl. Yr oedd "Hanes Athroniaeth Ewrop yn y Bedwaredd ganrif ar bymtheg," gan Morell, newydd ei gyhoeddi y pryd hwnnw. Darllennodd ef yn fanwl a rhoddodd hyn symbyliad iddo i astudio hanes athroniaeth hen a diweddar gyda llwyredd mawr. Tynnai "Arweiniad i'r Testament Newydd" gan Dr. Davidson sylw mawr y pryd hwnnw, bwytaodd hwn hefyd yn bur llwyr, a chafodd flas ar Feirniadaeth Ysgrythyrol a roddodd wedd ar ei bregethu dros ei fywyd. Dichon i hyn ymyraeth a'i efrydiau clasurol a meidronol y danghosodd y fath archwaeth atynt, a'r fath fedr ynddynt, ar ddechreu ei yrfa athrofaol; llyncwyd ei feddwl i fyny gan y materion yn dwyn cysylltiad uniongyrchol â'i bregethu, fel nad oedd yn cael cymaint o flas ar bynciau ereill.

Yn Aberdâr cafodd gynhyrfiadau newyddion. Daeth i eglwys newydd ei sefydlu, cynwysedig o ddynion ieuainc agos oll, a'r rhai hynny yn hynod o fywiog a gweithgar, ac o bosibl yn uwch na'r cyffredin mewn gallu a gwrtaith meddyliol. Efe oedd un o'r bugeiliaid cyntaf yn y parth hwn, a chostiodd ei gael i'r eglwys golli gweinidogaeth rhai o'r prif weinidogion. Gwir fod y Parch. D. Howell yn fugail yn Abertawe, ond yr oedd efe yn eithriad ac uwchlaw rheol. Yr oedd yn anioddefol i rai i weled dyn ieuanc yn cael galwad, ac nid oedd yn arferiad yr adeg honno i ofyn caniatad na Chyfarfod Misol na Chymanfa. Darfu i'r gŵr ieuainc anturiaethus ym Methania, Aberdâr, heb ymgynghori a'r un awdurdod, feiddio rhoddi gwahoddiad i'r dyn ieuanc o Benclawdd i ddyfod atynt i'w bugeilio, ond er mor feiddgar oeddynt, yr oedd penderfynu gwneyd casgliad eglwysig i'w dalu yn fwy nas gallent anturio i'w wneuthur. Rhyngddynt a'u gilydd yn anffurfiol, os nad yn llechwraidd, ymunasant i'w gydnabod yn flynyddol hyd at y

swm mawr o £20 neu £25 am ei lafur bugeiliol. Fodd bynnag am y gyflog, ymroddodd i waith. Darllennodd gymaint o "Clark's Foreign Theological Library" ag oedd wedi dyfod allan y pryd hwnnw, a llyfrau diweddar o gyffelyb natur, a meddyliai hwynt yn drwyadl drosto ei hun. Pregethai rhyw hanner cant o weithiau yn y flwyddyn i bobl ei ofal, ac ni fuasai nemawr byth yn ail adrodd ei hun. Yr oedd eangder, newydd-deb, a difrifoldeb yn ei bregethu, oedd yn ennill poblogrwydd er gwaethaf cryn lawer o ragfarn, oblegid nid oedd bob amser yn gofalu dweyd shibboleth y dydd gyda'r sain gyflawn arferol. Cyn pen dwy flynedd llanwodd y capel o wrandawyr, fel y gorfuwyd yr eglwys i ymrannu ac adeiladu capel arall, ac y mae y ddwy eglwys yn fyw ac mewn sefyllfa gymedrol lwyddiannus hyd y dydd hwn. Yn ychwanegol at ei wasanaeth yn y pulpud, ffurfiodd ddosbarthiadau Beiblaidd a llenyddol, y rhai fu'n wir lwyddiannus. Ymgymerodd â golygu newyddiadur,—*Y Gwladgarwr*. Eangodd hyn gylch ei ddylanwad. Cafodd prif gwestiynau y dydd sylw mawr a thrafodaeth drwyadl ganddo, a safai ar y llwyfan gyhoeddus yn y dref bob amser pan y gelwid arno i draethu ei farn arnynt.

Mewn ufudd-dod i ail alwad a dderbyniodd o Liverpool, symudodd yno i fyw; yma y perffeithiodd ei areithyddiaeth a'r gelfyddyd o gyfansoddi ei bregethau. Anhawdd fuasai iddo yn Aberdâr, gyda gofalon mor lluosog ac amrywiol, a phregethu cynifer o bregethau mewn blwyddyn, gael amser i dalu sylw manwl i ffurfiad brawddegau a goslef ei ymadroddion, er ei fod bob amser yn naturiol ac urddasol yn ei bregethu. Ond yn ei faes newydd cafodd hamdden i ail gaboli ei hen bregethau, ac i gyfansoddi rhai newyddion gyda mwy o ofal am geinder iaith. Yr oedd ei boblogrwydd hefyd fel pregethwr, a'r cyfleusderau a gaffai trwy fyned gymaint oddiamgylch i gyfarfodydd neillduol, i draddodi yr un pregethau drosodd a throsodd, yn fantais iddo i ymberffeithio. Yr oedd defnyddiau pregethwr hyawdl ynddo o'r dechreu. Darfu i Dr. Parry y Bala, un o'r troion cyntaf y clywodd ef, ei alw o'r neilldu, a dweyd yn ei ddull doeth ef ei hun wrtho y buasai gyda'r gofal priodol yn dyfod y pregethwr mwyaf hyawdl yn ei ddydd, ac eglurodd iddo beth oedd yn feddwl wrth hyawdledd,—sef gallu i ymgolli yn yr hwyl heb droseddu deddfau cyfansoddiad na thraddodiad, neu rywbeth i'r perwyl yna. Pan y dychwelodd yn ol o Liverpool i'r Deheudir yr oedd wedi cyrraedd y perffeithder hwn i raddau helaeth iawn.

Nid oes llawer i ychwanegu at yr hyn sydd eisoes wedi ei ddweyd am y ddisgyblaeth a gafodd,—fel yr arweiniodd ei Dad Nefol ef oddiamgylch i beri iddo ddeall,—oddigerth yr addfedrwydd barn ydoedd yn ennill yn barhaus wrth ddarllen a sylwi a meddwl, a'r melusdra newydd a enillodd trwy ei brofedigaethau teuluaidd. Effeithiodd gorwedd ar ei wely am ddeufis ar ol torri ei goes ar dôn ei weinidogaeth. Er mai ar ei eistedd y pregethodd gyntaf ar ol hynny, yn Aberdâr ac yng Nghymdeithasfa Hirwain, hawdd oedd canfod mai efe ydoedd prif feistr y gynulleidfa, yr oedd awdurdod a swyn profiad newydd yn ei weinidogaeth. Daeth y curwlaw ar ol hynny,—claddu ei anwyl ferch, a theimlai mor ddwys fel yr ofnid yr elai i'r bedd ar ei hol. Collodd ei ail ferch a'i fab ar ol hynny. Dygodd hyn ef i fyw llawer o ran ei fyfyrdodau yn y byd ysbrydol, ac yn ei alar a'i ing diddanwch Duw a lanwai ei enaid. Llanwai hyn ei bregethau ag eneiniad nefol. Dywedir fod yr eos yn canu yn fwy tyner a melusber pan fyddo draen yn ei bron. Fodd bynnag am dani hi, daeth ei gân ef yn fwy toddedig a pheraidd ar ol y profedigaethau chwerwon a'i cyfarfyddodd. Yr oedd swn mwy hoff a swn mwy nefol i'w glywed yn ei eiriau ef, ac yr oedd ei weinidogaeth mewn gwirionedd yn llais tangnefedd pur a hedd. Mae ei fywyd yn efrydiaeth ddyddorol iawn i ganfod pa fodd y darfu i holl amgylchiadau a symudiadau ei fywyd gydweithredu i fod yn wasanaethgar i dynnu holl adnoddau ei gymeriad allan, ac i'w cysegru i waith mawr yr Efengyl, ie y cwbl, o symudiadau rhaglunaethol ei rieni pan oedd efe yn blentyn, ei symudiadau yntau i'r athrofa, Aberdâr, Liverpool, Abercarn, ac Abertawe, hyd symudiad ei anwyl blant gan angau. Yn a thrwy y cwbl, yr holl ffrwyth ydoedd un o'r pregethwyr mwyaf urddasol ac anwyl a phrydferth a roddodd Duw erioed i Gymru.

Wrth geisio cael gafael ar y nodweddion hynny a'u gwahaniaethai oddiwrth bawb arall, teimlir anhawsder; oblegid, er ei fod yn gosod argraff ei feddwl a'i galon ei hun ar bopeth a wnelai ac a ddywedai, yr oedd mor agos a naturiol, ac mor ddynol, fel y penderfynid ar unwaith mai yn debyg iddo ef y dylai pob dyn fod. Nid oedd un hynodrwydd anaturiol ynddo. Dywedai William Morris Ty Ddewi wrth ddyn ieuanc oedd yn teimlo yn bur siomedig na fuasai y blaenoriaid yn cofio ei fod wedi bod yno o'r blaen, os oedd am i'r bobl ei gofio am iddo wneyd rhyw gastiau lled-chwith yn y pulpud, yna buasai pawb yn ei gofio, ac yn gwybod pwy ydoedd. Nid oedd dim felly yn Dr. Saunders. Nid oedd na gwyrni na diffyg yn tynnu sylw neb, ond yn hytrach yr oedd ynddo gyfuniad, mewn cydbwysedd hyfryd, o'r rhan fwyaf

o'r elfennau sydd yn cyfansoddi pregethwr cymeradwy. Meddai grefydd bersonol o nodwedd aruchel iawn, ac ni oddefai i amcanion personol a hunanol ymyraeth â'i lwyr ymgysegriad i'w Arglwydd yng ngwasanaeth y cysegr, nac mewn un gwaith arall. Cynysgaeddwyd ef a galluoedd meddyliol o radd uchel, ac mewn meistroli pynciau dyrus mewn athroniaeth a duwinyddiaeth sydd yn gofyn canolbwyntiad a threiddgarwch meddyliol nid mynych y gwelwyd ei fath. Medrai roddi ei feddwl allan yn drefnus, rhwydd, a dealladwy; ac yr oedd iaith bob amser fel llawforwyn ufudd at ei wasanaeth, a'r cymhariaethau yn dyfod megis o honynt eu hunain, a'r llais mwyaf soniarus ac ystwyth yn barod i wasanaethu yr oll. Teimlai ei bwnc a charai ei wrandawyr, fel yr oedd y gwirionedd a'r gynulleidfa yn dod i gymundeb a'u gilydd ynddo ef. Dichon y ceid un pregethwr i fyny ag ef yn y peth hwn a phregethwr arall mewn peth arall, ond nid mynych y cafwyd un yn cyfuno holl hanfodion y gwir bregethwr yn fwy nag ef. Dywed rhai ei bod yn anhawdd cael y pregethwr mawr a'r bugail da yn yr un person. Ymddibynna hyn yn fawr ar syniad y bobl am waith y bugail. Os ymweled yn gyson â'r aelodau a'r gwrandawyr ydyw ei waith, rhaid addef nad yw pob pregethwr da i fyny a'r safon; ond os ymweled â'r claf a'r profedigaethus, tywallt olew a gwin yr efengyl i'w briwiau, a siarad o ddifrif â'r difraw a'r difater am ei gyflwr ysbrydol ydyw, mae eisiau yr un cymhwysderau i gyflawni gwaith y bugail ag sydd i bregethu yr efengyl yn y pulpud. Ni fedrai neb wneyd y gwaith hwn yn well na Dr. Saunders. Yr oedd ei gymundeb agos a gwastadol â Duw, a'i ffydd gref i sylweddoli byd ysbrydol ac anweledig, yn ei gyfaddasu i ddilyn y claf i lawr i fro cysgod angau, ac i gyfeirio ei feddwl at y Ceidwad pan yn y glyn, ac i ddal goleuni anfarwoldeb o'i flaen pan y byddai amser a phopeth sydd ynddo yn cilio yn ol. Yr oedd yn cyfuno holl gymhwysderau y pulpud a holl elfennau y gwir fugail mor helaeth a neb a adwaenais erioed.

Aberdâr. WILLIAM JAMES.

LLYFRAU NEWYDDION.

MARWNAD Goffadwriaethol am y diweddar Barch. W. J. Davies (*Glan Llyfnwy*). Gan y Parch. R. R. Morris (R. ab Gwilym). 3c. 16 tud., amlen, a darlun. G. Lewis, Penygroes. Marwnad eneiniedig yw hon, yn dweyd hanes bywyd tawel mewn dull gwîr farddonol, a chydag aml darawiad o ddychymyg byw.

HYNAFIAETHAU LLEYN. Gan y Parch. J. Daniel, B.A. (*Rhabanian*). 188 tud., llian destlus, ymylau aur. 3s. 6c. Nixon and Jarvis, Bangor. Ni fuasai'n bosibl cael lle llawnach o hynafiaethau na Lleyn; a cheir yn y llyfr bychan hwn doraeth o benodau byrion hawdd eu deall,—y mae yn agoriad hylaw i efrydydd hynafiaethau, yn ogystal ag yn drysor i wŷr Lleyn. Y mae'n glir drwyddo, ac yn ffrwyth llafur mawr.

LLAWLYFR Y GENHADAETH, yn cynnwys hanes Cymdeithas Genadol y Bedyddwyr, 1792—1892. Dan olygiaeth H. Cernyw Williams, Corwen. 120 tudalen, llian glas, darluniau, 1s. Corwen, Edmunds a Matthias. Dyma lyfr dyddorol, a moddion bendith. Dywedir hanes pregethu'r efengyl yn India a Ceylon, yn China, yn Affrica, yn yr India Orllewinol, gan wahanol frodyr; a rhoddir braslun cynhwysfawr gan y golygydd.

HOLI AC ATEB AR HANES CYMRU. 24 tudalen, amlen goch, chwe darlun. Ceiniog. Llanuwchllyn, Ab Owen. Y mae'r llyfryn bychan hwn yn gwerthu wrth y miloedd. Y mae rhywun yn anfon am gannoedd i'w gwasgaru ymysg plant o hyd.

PLANT Y BEIRDD. Darluniadau'r beirdd Cymreig o blant. 24 tudalen, amlen goch, darluniau. Ceiniog. Llanuwchllyn, Ab Owen. Eithaf rhodd i bentyn,—rhyfedd gymaint o feirdd Cymreig sydd wedi darlunio plant.

PREGETH ar yr achlysur o ddadorchuddio cof-golofn yr Esgob Morgan, Ebrill 29, 1892. Castell Nedd, Charles Stacey. Pregeth yr arch-ddiacon Griffiths yn eglwys gadeiriol Llanelwy ydyw hon. Gwaith da oedd ei hargraffu,—o'i rhan ei hun, ac o herwydd pwysigrwydd adeg ei thraddodi.

ATHRYLITH CEIRIOG HUGHES. Gan y Parch. J. Ceulanydd Williams. 184 tud., amlen, darlun tlws. 1s. Hughes, Gwrecsam. Dyna lyfr i ddangos ceinion meddwl Ceiriog. Y mae ynddo lawer o wybodaeth am feirdd ereill, a budd yw ei ddarllen. Gobeithio y cyrhaedda ei amcan i wneyd i bob Cymro deallus ymhoffi yn nhelynegion tlws Ceiriog.

BEIRDD ANADNABYDDUS CYMRU.

XV. SION EBRILL.

WRTH weled cyhoeddi rhestr o feirdd anadnabyddus o bryd i bryd ynghyd a'u gweithiau, meddyliais yr edrychwn trwy weithiau hen fardd gwledig a gesglais ynghyd trwy fawr ddyfalwch ychydig flynyddoedd yn ol, yn bennaf mewn hen ysgrifiyfrau o'i eiddo oedd bron yn anarllenadwy erbyn hyn, gan eu bod yn hynod bydredig a thoredig. Llawer awr ddifir a dreuliais gyda'r gwaith, ac hefyd yng nghwmni rhai o hen bobl yr ardal ar hirnos gauaf, yn gwrando arnynt yn adrodd eu hadgofion am dano, ac hefyd yn adysgrifio hynny oedd ar gof ganddynt o'i weithiau. Fel rhwng pobpeth llwyddais i gael casgliad da, bron yr oll o'i waith.

Treuliodd John Richards, "Sion Ebrill," ei oes faith ym Mhenygarth, ger pentref tlws Llanbedr ym Meirion, ac yno y bu farw, gallwn dybio, rhyw 50 neu 60 mlynedd yn ol. Ond nid oes yr un cofnod ar ei fedd. Cyfansoddodd ugeiniau o ddarnau barddonol, yn cynnwys carolau, cywyddau, ac englynion; ac adroddid hwy gyda blas neillduol gan yr hen bobl.

Mae rhyw swyn arbennig i mi mewn dull gwledig fel hyn o farddoni; ac anfonir y detholion canlynol i chwi, nid yn gymaint oblegid eu gwerth llenyddol, ond am eu bod yn engreifftiau da o'r dull o ganu yr ymhyfrydai yr hen bobl ynddo mewn ardaloedd gwledig.

Ymysg cynifer o ddarnau, anhawdd ydyw gwybod pa beth i'w osod i mewn, ond beth fyddai imi ddechreu gyda'r "Garol Fawr," fel yr adnabyddid hi. Gallwn feddwl mai hon oedd y bennaf. Byddai ganddo feddwl mawr o hon, am "ei bod mor gadarn a'r graig, wedi ei thynnu drwy'r Ysgrythyr," fel y clywais y byddai yn dweyd.

CAROL PLYGAIN,

I'w chanu ar fesur a elwir "Hope to have."

Ymlawenhawn yng Nghrist ein Brenin
Yn dragwyddol, Fe yw'r gwreiddyn,
Cyfoded pawb sydd yn ei garu
Am fawr lwydd i orfoleddu;
Cadw, os wyt ti'n ddyn ysprydol,
Ar fin y dydd arferion duwiol,
Trwy lawenydd tro dy Luniwr
Yn ben gorfoledd fel gwir filwr,
Can's Brenin anwyl yw dy Brynwr;
Doed pawb sy'n berchen calon hylwydd
I ymlawenhau yng Nghrist yr Arglwydd.
Ac os y'ch chwi'n bur ffyddloniaid,
Rhowch fawl ar dôn fel ŵyn diniwaid
Mwyn gyda'r dydd i Geidwad enaid.

Holl blant y byd sy'n cym'ryd canu
Fel coeg oferedd i'w difyrru,
Gan feddwl hyn na ofyn Seilo
I rai o hyd ond eiste' i wrando;
Canai'r holl broffwydi hyfryd,
A phob duwiol yn y cynfyd,
Mwyn-gall ydoedd y gyn'lleidfa
Mewn diniweidrwydd a mwyneidd-dra
A'u mawl mor rydd i Fab Maria;
Enos oedd y cynta'n seinio
Mawl diogel i'r Duw Iago,
Ac Abram bur a chalon hyfryd
A ganai'n dduwiol am addewid
Yn ufudd lawen i'w Anwylyd.

Fe ganodd Moses a'i frawd Aaron,
Yn llawen iawn, a'r holl dduwiolion,
A Miriam deg ar ol mordwyo
Gwiw ddawnus iawn a gaed yn seinio;
Canodd Barac a Debora
Gân yn siwr i'r gwir Feseia,
Mae'n arwydd hynod yr oedd Hanna
Yn eilio cân ac Elicana,
Mewn agwedd lawen, ag Elia;
Canai Dafydd yn dra dawnus,
Job a Solomon mor hwylus,
I Iesu y canodd Heseceia
Wr gwiw a llariaidd fwyn gall eiria,
A Duw mor dirion a'i gwrandawa'.

Mor ddawnus hefyd 'roedd Esaia
Yn gorfoleddu yn'r Ail Adda,
A Jeremeia a ganai'n ufudd
Ac Eliseus ac Asaph hylwydd;
Eseciel, Hosea, a Daniel dyner
Ro'i fynych glod i Dduw'r uchelder;
Jonas, Amos bur, a Mica
Wŷr sicir iawn a Sacaria,
Roedd Joel yn canu a Malchia;
Wel dyma demlau Duw bendigaid
Mewn gras hylwydd, gwir Israeliaid,
A dyma'r puraidd hardd gwmpeini
Oedd deg eu dawn drwy lawn oleuni
Yn canu'n unol cyn ei eni.

Ym Methlehem ganwyd gwir Eneiniog
Rhwng ych ac asyn, gwych iawn D'wysog,
Heb gryd na gwely i'r Iesu ond preseb
Oedd gywaeth hardd, a gwraidd Doethineb;
Ni bu erioed y fath lawenydd,
A gwiwlan ganu ar blygeinddydd,
Yn yr wybyr gan gerubiaid
Fwyn lu'n mynegi o'r nef fendigaid
Newyddion hael i'r gwael fugeiliaid,
Fod sancteiddiol Rosyn Saron,
Glir ei gariad, glân Flaguryn
Gwedi ei eni gan Fair hynod,
Heb ddim i drin y mwynaidd Drindod
Ond cadachau am Fab Duw uchod.

Oherwydd fod y Garol hon yn cynnwys un pennill ar ddeg eto, rhaid boddloni ar roddi y pedwar pennill olaf.

Er bod ei gorff yn llawn o friwiau,
A gwaed yn rhedeg hyd ei ruddiau,
Rhoed arno'r groes i'w chario'i hunan
Fel Oen cu iawn, Eneiniog Canan;
Mor addfwyn oedd yr Hen Ddihenydd
Yn ymostwng tan ei gystudd,

Mewn ing a blinder yn ei enaid
Ein Llywydd oedd dan ddwylaw lleiddiaid,
Hawddgara' o'r gwŷr yn diodde o gariad;
Dioddefodd dyllu ei draed a'i ddwylo,
Ac wrth y pyst dioddefai'i hoelio,
Dioddefai dros dair awr yn dirion
I brynnu golud gwlad angylion
Bur iawn hyfrydle i'r mab afradlon.

Gwel, dyma Grist o ran ein beiau
Ar flaen yr hoelion dur yn dioddau,
Gorchmynnodd fyn'd a'i fam oddiyno,
Rhag edrych arni n dwys boenydio;
Ac felly cadd yr Oen diniwaid
Yno farw dros y defaid;
Bu'r haulwen glir heb roi goleuni
Pan ydoedd gwaed Mab Duw yn colli;
Gwnai pawb ei adael mewn gofidiau
Ond dyma'r Aberth difrycheulyd
A ddaeth i lawr o'r nefoedd hyfryd,
Fe agorwyd drws i sanctaidd Seion
Yn ystlys wen yr Arglwydd tirion,
I lawr fe gerddai gwaed ei galon,

Rhown fendigedig foliant beunydd
Am wobr addas y boreuddydd,
Daeth Iesu Grist o'r wlad sancteiddiol
I'r byd i farw dros ei bobol;
Pob gwir gredadyn sydd rwymedig
I ganu byth i'w enw n unig,
Nid oes na saint nac archangylion
Yn eiriol dros bechodau dynion
Ond sanctaidd Grist yr Arglwydd cyfion;
Am hynny cân os wyt ti Gristion
Am bwys amod ail i Simon
A gâdd ei ollwng mewn tangnefedd
'Rol caffael ei Anwylyd sanctaidd
Yn ei freichiau, hawddgar fuchedd.

Cais dithau, ddyn sy'n llawn o bechod,
O'th hyll ingder gael gollyngdod
Os curi'r porth mewn ffydd a chariad,
Drwy'r Mab anwyl cei dderbyniad;
Cofia am geisio'r peth angheuraid
Sef Arch fel Noa i gadw d enaid,
Yn amser haf cyn dêl y gauaf,
Tra bo hi'n ddydd ar haul ddisgleiriaf,
Anhwylus hin fydd y nos hwyaf;
Nid ydyw hoedl dyn ond bregus,
O! meddwl hyn, bydd wyliadwrus,
Heddyw fel y pren yn impio,
Yfory ceir ei ddail yn syrthio,
Heb berchen dim ond arch ac amdo.

I ochel unrhywiaeth mesur, dodaf yma "Garol" wedi ei chymeryd allan o'r ail bennod o Luc, ar y mesur a elwir "Duw cadw'r Brenin."

'Roedd yn y wlad honno fugeiliaid yn gwylio
Eu praidd rhag eu llarpio'n un lle,
Daeth angel yr Arglwydd mewn didwyll fodd dedwydd
I draethu iddynt newydd o'r ne;
Gan hyddysg gyhoeddi fod Crist wedi ei eni
Mawr ydyw daioni Duw Iôr;
A hwythau pan aethon' i Fethle'm dref dirion
Hwy gawsant Un cyfion mewn côr,
Mab Duw tragwyddoldeb yn gorwedd mewn preseb
Tri undeb da burdeb diball,
Mae'n Frenin gogoniant, mil miloedd a'i molant,
Fe'n tynnodd o feddiant y fall,

Ni chafodd Mair burwen o amgylch ei bachgen
Na rhwymyn na gwlanen yn glyd,
Na pherlau, na pharlwr, na seigiau na siwgwr,
I Brynwr a Barnwr y byd;
Cadachau'n cynhesu gwir Frenin uchelfri
A'r preseb yn wely di wâd,
O! gwelwch Mair ffyddlon mor isel mor raslon
Yn magu'n dra thirion ei Thad!
Rhoes laeth i famaethu, i'w Brenin o'i bronnau
A'i drin ar ei gliniau drwy glod,
Yr hon a'i hesgorodd o'i dwyfron y porthodd
'R Hwn ydoedd cyn bydoedd yn bod.

Fe wybu'r sarff wrthun 'r ysigid ei cholyn
Pan anwyd Anwylddyn y ne,
A'r ddraig a ddechreua ryw filain ryfela
Ei harfau'r rhai llyma 'mhob lle;
Rhoe diafol yng nghalon yr hen Herod greulon
I ladd y Mab ffyddlon heb ffael,
Ond Mair gyda'i phlentyn i'r Aipht aeth yn sydyn
Lle methodd y gelyn ei gael,
Ca'dd bechgyn bach Juda eu lladd yn g'laneddau
Wrth geisio cael difa Mab Duw,
Er cymaint o'r bechgyn a laddodd y brenin
Mae Crist gyda'i fyddin yn fyw.

Ei erlid, a'i gablu, a'i ddirfawr ddiystyrru
A gafodd ein Iesu o hyd,
Rhyw ddynion tylodion oedd felly 'i gyfeillion
Nid mawrion na beilchion y byd;
Mae Ef eto'r un moddion trwy ryfedd 'madroddion
Ymhlith y rhai gwaelion i'w gael,
I'r cloffion, a'r deillion, byddarion a'r mudion
Mae'n Feddyg da ffyddlon heb ffael;
Mae'n Frenin trugarog, mae'n porthi'r newynog,
Mae'n galw rhai llwythog 'n un llu;
I'r gwan mae'n frawd ffyddlon, mae'n Dad i'r
Fe a'u derbyn yn dirion i'w dŷ. [afradlon

Mae Crist yn wir Briod i'r Eglwys, Oen eurglod,
Ceir canfod rhyw ddiwrnod a ddaw,
Fe fyn ei ddyweddi yn bur wedi ei golchi,
Heb arni na brychni na braw;
Sain udgorn uchelder a glywir ar fyrder
A r meirw o bob dyfnder yn dod;
A'r bachgen bach Iesu oedd Mair yn ei fagu
Fydd eto'n ein barnu ni'n bod.
Pan fo'r byd yn llosgi, a'r moroedd yn berwi,
Pob defnydd yn toddi mewn tân, [newydd
Bydd holl blant yr Arglwydd yng Nghaer Salem
Lle pery'n dragywydd eu cân.

Arch Noa pan ydoedd uwchlaw y mynyddoedd
Ni chadwodd o'r dyfroedd ond wyth;
Crist ydyw'r Arch nerthol rhag diluw tragwyddol,
Bydd bywiol a llesol y llwyth;
Pob enaid na's daethon' i'r Arch at No ffyddlon
Boddason o fawrion i fân;
Pob enaid nas gwelir yng Nghrist yr Arch cywir
Mae'n bur wir y llosgir yn lân;
Fe lysg yr anuwiol mewn ffwrnais uffernol
Lle bydd yn dragwyddol eu gwae,
Mewn carchar diddiwedd, holl ddrygau trugaredd
Yn caffael o'i gyrraedd eu cau.

Nac ofnwch blant Seion, fe welir duwiolion
A'u gynnau'n dra gwynion i gyd
Yn lân wedi eu cannu yng ngwerthfawr waed Iesu,
Er maint fydd i'w baeddu'n y byd;
Yn rhyddion o'u cystudd yn canmol eu Harglwydd,
Yn cario hardd balmwydd bob un,
Mewn teyrnas uwch daear fel haul yn dra hawddgar
Heb garchar, na galar, na chwyn;

A r bachgen bach Iesu fydd testun y canu
Fu'n gwaedu i'n prynnu ar y pren.
Yn ffyddlon gantorion o nifer plant Seion
Bo' ninnau'r un moddion. Amen.

Byrdwn.

Mae oedran ein Harglwydd un mil a saith gan mlwydd
Naw dengmlwydd a dwyflwydd yn d'od;
Gogoniant a ganwn, ar liniau moliannwn,
Clodforwn, cydglymwn ei glod;
Duw cadw'n llwyddiannus dy eglwys filwrus
Rhag cyfrwys, ddrygionus rai cas,
Amddiffyn a meithrin ein teyrnas a'n Brenin,
Pob cangen a gwreiddyn mewn gras;
Duw cadw'n penaethiaid, a'n gwiwlon fugeiliaid
Yn wastad drwy gariad i'r gwir.
Na ddelo pabyddiaeth nac un ffals ddysgeidiaeth
Na diffaeth naturiaeth i'n tir.

Mae gan Sion Ebrill hefyd amryw garolau ar yr hen fesurau "King's Farewell," "Let Mary live long," "King James," &c., ond, rhag blino y darllennydd a meithder carolaidd, trown yn awr i wrando arno yn canu ar destun arall.

"Cerdd Marwnad Henry a Morgan Parry o Erwgochyn, gerllaw Harlech, Meirion, dau frawd a foddasant ar y môr wrth geisio myned o Afon Artro i'r Abermaw, y nos ganlynol i'r 26 dydd o Ragfyr, 1821. Cenir ar 'Grimson Felfed.'"

Brau iawn yw edau'r einioes,
Mae byr oes fel niwl borau;
Neu ewyn dwfr a dorra,
Diflanna mewn dwfn lynnau;
Y borau fel blodeuyn
Neu eginyn ar ei gynnydd,
A chyn prydnawn yn gwywo
A duo heb ddal 'i dywydd;
Mae einioes dyn yn darfod
Mor wisgi ag ydyw cysgod,
Gwyn haulwen hynod ganol dydd;
Neu farch yn rhedeg gyrfa,
Ond buan 'r aiff ei gamra;
I ben ei siwrna redfa rydd.
Ti'r icuanc sy'n blodeuo,
A'r henaint cais ddihuno,
Mae'n amser gwylio o'th faswedd, gwel,
Dydd haf, cynhauaf d'enaid,
Sy'n myned heibio'n ddibaid,
O! cais di syniad gyda sel.

O,'r cefnfor, mawr yw'r cwynfan
Maith duchan sydd o'th achos,
Wyt angau mawr yn trengu
Hyll wgu'n mhell ag agos;
Ti yraist ddau frawd adref
Hawdd eu cynheddfau hefyd
Gwnaeth gwynt a dyfroedd difri'
Eu boddi a dwyn eu bywyd;
Er rhuo o'th donnau aneiri'
Nis gallodd dy fawr genlli
Yn wir mo'r boddi eu 'neidiau bach;
Yr oedd y rhan anfarwol,
Yn llaw yr Arglwydd nefol,
I'w cadw'n bur dragwyddol iach.
Yng nghanol eu mawr gariad
Eu deuwedd ga'dd 'madawiad
A'u diweddiad dan y dŵr;
Er i'r dywarchen gwympo,
I'w 'neidiau 'rwy'n gobeithio
Fod cadarn Silo i'w cadw'n siwr,
Y ddwy dywarchen eto
Drwy'r Scilo a'r Duw groeshoelied
Ddaw'n bur mewn bywyd bywiol
Naturiol at yr enaid;
Bydd adgyfodiad llawen
O'r hen ddaearen ddyrus
I'r rhai ga'dd eu gwaredu
Fo'n credu i'r Oen cariadus;
Bydd Crist yr Oen puredig
Yn gwisgo'n anllygredig.
Yr unig fendigedig ŵyn;
Efe ei Hun a'u geilw
I ganu clod i'w Enw
Ca'dd ddioddef marw er eu mwyn;
Fe sych y Duw bendigaid
Mor lliwgar ddagrau'r llygaid
Ni ro'nt ochenaid tra bo chwyth;
'Ddaw gwynt, na gwlaw, na chenlli'
Na rhew nag eira i'w hoeri
Na môr i'w boddi yno byth.

Mae llwch y ddau frawd hyn yn gystal a Sion Phylip wedi ymgymysgu a daear mynwent henafol Llandanwg. Deffroir hwy

"Ban ddelo'r Iôn i'w ddihunaw,
A berwa môr a bermaw"

y mae eu gorweddfan ar ei lan.

Cefais ymysg hen bapurau'r bardd y penillion canlynol. Nis gwn ai efe yw eu hawdwr ai peidio. Maent yn ei lawysgrif ac mi gredaf yn werth eu gosod yn yr ysgrif hon,—

Wel dyma Frawd hyfrydol, a gaiff dragwyddol gân
Fe'i ganwyd erbyn c'ledi i'n dwyn i'r g'leuni glân;
Pur feddyg i'r briwedig, a bendigedig yw
O Iesse wir Flaguryn, Oen doeth yn un a Duw.

Mae heddyw lân wahoddiad, meddyliwn bawb am hyn,
I dderbyn rhad faddeuant trwy haeddiant Iesu gwyn;
Ni addawodd Duw yfory bardynu'n wir un dyn,
Gall cryman angau'n torri a llwyr ddiffoddi'r ffûn.

Deffrowch ieuenctyd gwamal, cyn delo treial trwm,
I grefu am ras drwy'r Iesu rhag myndi'r llety llwm;
Mwy cryfach na thân fflamllyd yw hyfryd gariad Duw
I achub pawb o'i wirfodd, mawr rodd i ddynolryw.

Hymn i w chanu ar ol pregeth.

O! Dduw trugarog, enwog Ior,
Tyrd, agor ein gwefusau,
I roddi mawl i ti yn llon
O eigion ein calonnau.

Y geiriau glywsom heddyw'n glau
A'n clustiau oddiallan;
Plan yn ein calon ni, O Dduw,
Fel gallom fyw'n sancteiddlan.

Ac felly ddwyn ffrwyth buchedd dda
Gyflawna' hyd y diwedd;
Yn ol d'ewyllys, nefol sant,
I'th foliant a'th anrhydedd.

Boed gras ein Harglwydd Iesu gwiw
A chariad Duw y lluoedd,
Cymdeithas 'r Ysbryd Glan dilyth
Fod gyda ni byth bythoedd.

Hwyrach fod rhyw un a all roddi hysbysrwydd pellach ynghylch awduriaeth y penillion. Nis gallaf fi ddweyd dim pellach nag i mi eu gweled yn ei lawysgrif.

Caerludd. W. RYDER.

ROBYN DDU ERYRI.

DYMA lythyr i gofio am Robyn Ddu Eryri. Trwy ddarllen hen gyfnodolion y gŵyr y rhan fwyaf o honom am dano oreu; ond bydd gweld ei lawysgrif yn foddhad i lawer llenor fu'n gyfaill i Robyn Ddu.

Ganwyd Robyn Ddu Eryri yng Nghaernarfon, Chwefror 7, 1804. Er yn fachgen, yr oedd gallu amlwg ynddo, ond nid oedd reol arno. Methodd ddysgu gwnio, methodd ddysgu


153 Corve Street
Ludlow Mehefin 6 1892.

Caredig Syr,
Pan gefais heddyw eich llythyr, a gweled ynddo eich enw, ymlonais yn wir
Yr oeddwn yn adnabyddus a Hugh Pugh, ei rieni, a'i frawd Richard
Ystyrid Hugh yn delynor campus; a'r tro diweddaf ei gwelais, yr oedd yn aros gyda Mr Davies, Queen Street, Cheapside — Bu farw yn ieuangc. ar ol ei hanes, hyd y gwn i, yw ei fod yn delynor. ac yn [illegible] ei gymdeithas.
Gan i chwi son am fy iechyd yn fy henaint, dywedaf, yr oeddwn yn 87 mlwydd fy oedran Chwefror 7 [illegible] amser [illegible] y [illegible]. [illegible] Yr wyf y dyddiau hyn, tra yn eistedd, yn iach, heb [illegible] pen, corff, nac aelod [illegible] i'r awyr agored, [illegible] yn fy nghamrau, braidd yn flinedig, gan barhau [illegible].
Yr wyf yn hen ar fin huno — y corff
Sydd lesgau a gwywo,
A'r enaid draw yn ymdroi
A fyw ddail i [illegible]
Yr wyf, er pan eich gwelais, yn teimlo parch diddwyll atoch chwi — a chyda diolch am eich llinell [illegible] yn [illegible] hanes Hugh Pugh, y Telynor. Ydwyf,
Caredig Syr,
Yr eiddoch, yn gywir
Robert Parry
Robyn Ddu Eryri
J. J. Bennett Ysw.
[illegible]
Llanidloes.

gwneyd esgidiau; crwydrodd o enwad i enwad, ac oddiwrth ddosbarth at ddosbarth, crwydrodd o le i le ar hyd ei oes. Mwynhaodd gwmni Alun, Pedr Fardd, Dic Aberdaron, Dafydd Ionawr, Ieuan Glan Geirionnydd, Cawrdaf, a llu o feirdd yr oes o'r blaen. Ysgrifennodd mewn odlau ei hun hefyd, ac y mae rhyw hyawdledd rhyddiaethol yn rhai o'i ddarnau sydd ymron a'u gwneyd yn brydyddiaeth. Caf-

noddi,--fel ysgolfeistr, fel areithiwr ar ddirwest, fel golygydd y *Wawr*, fel cyfieithydd, ac fel pregethwr. Yr oedd gan gyfaill a gelyn lawer i'w ddweyd am dano, yn yr holl ardaloedd y bu ynddynt ym Mhryden a'r Amerig. Y mae llythyr o fy mlaen oddiwrth Ivander, oddiar lan un o lynnoedd yr Eidal, ac esbonia'r berthynas rhwng Robyn Ddu a'i liaws cyfeillion caredig. "Adwaenwn Robyn Ddu, druan, er

odd braidd bob gŵr enwog yng Nghymru i'w yn agos i ddeugain mlynedd; a gwnaethum fy ngoreu mewn gwahanol ffyrdd i'w gefnogi a'i achlesu,—a chefais ef bob amser yn ddyn pur, cywir, a gonest; a'i fryd ar wneyd daioni i'w gyd-genedl, a hynny dan anfanteision mawr. Ac nid y lleiaf o honynt oedd ei dlodi, yr hyn yn fynych a chwerwa ysbryd dyn." Bu farw yn Llwydlo, Tachwedd 4,

FY NGWYLIAU YN 1892.

LLANFIHANGEL GLYN MYFYR, sir Ddinbych, oedd y lle a ddewisais i dreulio fy ngwyliau eleni, am dair wythnos ym mis Medi. Lletyais mewn ffermdy o'r enw Hafoty Llechwedd Gaer, yn agos i ben mynydd, a'i wyneb ar Gadair Ddinmael, mynydd eto cyfagos, a'r uchaf o'r mynyddoedd yn y wlad honno. Perthynai y ferm, ynghyd a dwy neu dair ereill yn yr un ardal, i'r enwog Fichael Jones, y Bala, a chefais dystiolaeth gyflawn ei fod yn feistr tir da. Yr oeddwn wedi darllen yr erthygl yng NGHYMRU Mawrth 15, 1892, ar Huw Myfyr, genedigol o'r Llanfihangel hwn; ond ni ddychmygais y pryd hwnnw y buaswn byth yn myned yno. Ceir rhai ffeithiau dyddorol am y lle yn yr erthygl honno. Ewyllysiwn ychwanegu canmoliaeth i'w awyr iachusol, a'i dawelwch hyfryd. Benthyciaf i wneyd hynny, ac i ddangos mor fawr yr oeddwn i yn ei fwynhau, englynion Caledfryn am un arall o ororau swynol Cymru, fel y canlyn,—

Lle i dawel ymneillduo—o boen
Twrf y byd a'i gyffro;
Yr harddaf, hyfrydaf fro,
Is haulwen, i'w phreswylio.

* * * *

Llawer gŵr fu'n llwyr gurio—yn ei bryd
Nes oedd bron diffygio,
Ddaeth i hon, hyfrydlon fro,
A rhodd iachad llwyr iddo.'

Yr unig eithriad i gyfaddasder yr englynion, yn fy marn i, ydyw y ddau air blaenaf yn yr ail. Hyd yn hyn ni fu yn gyrchfa "llawer gŵr," ond *ambell* wr, fel fy hunan, yn caru lle distaw, am ennyd beth bynnag, i orffwyso ynddo allan o ddadwrdd pob math o bobl bron bob dydd o'i fywyd. Ymorfoleddwn yn ei unigedd, a chrechwenwn yn iach wrth feddwl mor anhawdd oedd i neb ddyfod i aflonyddu arnaf. Yr oedd deng milltir ato o'r orsaf agosaf. Un cyfaill a feiddiodd fentro ar fy ol i. Bu hwnnw yn hir mewn penbleth yn chwilio am y llannerch ar y mapiau, a phenderfynodd, wedi ei ddarganfod, gerdded yno dros y mynyddoedd o Ddinbych, gan obeithio, fel yr ysgrifennai ataf, ei gyrraedd rhywdro cyn y mil blynyddoedd. Mor anhysbys oedd y lle fel y cawn ryw enw dieithr, naill ai ar y ty neu ar y plwy, ar bob un o'r llythyrau cyntaf a anfonid i mi, megis—"Hafotty Llechwedd-*goes*," "Hafotty Llechwedd-*faer*," "Hafolty Llechwedd-*gaen*, Llan*ifangel*," "Llanfihang*i*," &c. "Corwen," yn niwedd y cyfeiriad, sicrhai eu dyfodiad i'm llaw.

Nid yw y pentref, a elwir yn Llanfihangel ar ol y plwy, ond un bach, bach, cynhwysedig o dafarn a siop, hanner dwsin o fwthynod, llythyr-dy, hen eglwys, a chapel Methodist. Saif yr Hafoty agos ar drum y mynyddoedd rhwng y pentref a Cherrig y Drudion. Dau dy arall yn unig, a'r rhai hynny ar wasgar, oedd yn weledig. Anaml y gwelwn ddyn drwy gydol y dydd,—a phan ddigwyddai un ddyfod i'r amlwg byddai ymhell, ar ei ben ei hun,—os na welid ei yn ei ganlyn,—ac yn ymddangos yn gorddynaidd ryfeddol. Trwy ysbienddrych rhagorol canfyddwn ei briodol faintioli. Difyrrid fi yn fawr wrth syllu o fy ngwely comfforddus, ar doriad y dydd, drwy ffenestr fechan siriol, yn llygad haul y boreu, ar ambell i gornchwiglen, neu aderyn nwyfus arall, yn ehedeg heibio; hefyd ar y defaid, y gwyddau, y gwartheg, a'r merlynod yn pori ar fronnau Cadair Ddinmael. Parai y defaid i mi feddwl am bennill tlws Ieuan Glan Geirionnydd yn ei gerdd ar "Yr Hen Amser Gynt," desgrifiadol o ddyddiau mebyd plant y wlad,—

"Ar ol yr wyn hyd lethrau bron
Y rhedem ar ein hynt;
Nid mwy diniwaid hwy na ni
Yr hen amser gynt."

Mynyddoedd porfaog oedd y mynyddoedd, gyda mwsog, eithin, a grug, a choeden yma ac acw, heb ddim creigiau ysgythrog yn unman. Yr oedd y tir a'r llwybrau yn sych,—ond ar wlaw llifeiriol,—ac felly yn ddymunol i'w troedio, gydag esgidiau cryfion o ledr, o waith llaw dyn, ac nid rhyw daclau a wneir â stwff fawr gwell na phapur llwyd, a'u chwyrnellu i fodolaeth sydyn â pheiriannau.

Mangre brydferth odiaeth ydyw y pentref. Rhed yr afon Alwen drwyddo ar ei throellog yrfa i'r Ddyfrdwy yng Nghorwen. Croesir yr afon ar bont o un rhychwant uchel anghyffredin, ac wedi ei hadeiladu yn gadarn o gerrig. Yn wir, yr oedd hi yn edrych yn fawreddog a hardd. Odditani yr oedd llyn du dwfn, ac ewyn gwyn y lli yn addurno ei ochrau; ac ar bob llaw cysgodid hi â choedydd uchelfrig. Anfynych, yn sicr, y gallai yr arlunydd gael golygfa yn fwy wrth ei fodd. Ar hyd y bont hon yr a y ffordd fawr o Ruthyn i Gerrig y Drudion. Un diwrnod gwelais *Goach Fawr*, a phedwar o feirch, yn myned drosodd i gyfeiriad Ruthyn, yn llawn o bleser-deithwyr. Sefais i dremio ar y cerbyd nes yr aeth o'r golwg, a theimlais hiraeth am yr hen amser gynt. Nid anyddorol ydyw hen eglwys y plwy. Methais wybod ei hoed. Yn y fynwent yr oedd ywen gauadfrig odidog, wedi dal stormydd llawer oes. Yn ei boncyff praff yr oedd gwagle

helaeth, neu geudod fel ystafell, effaith, fel y tybiwn, y

"Goleuon fellt, fel gloywon folltau,"—

ac yno y cadwai y torrwr beddau ei arfau. Tu fewn i'r porth gwelwn hen gadeirfainc *(settle)* dderw, a'r argraffiad canlynol yn gerfiedig ar y tu blaen i'w chefn,—

HUGH DAVIES'S BENCH,
1753.
FOR 4 PERSONS.

Rhyfeddais ei fod yn Saesneg mewn cymdogaeth mor Gymreigaidd, ac mewn oes mor bell yn ol. Rhyfeddod arall i mi oedd gweld "elor y Methodistiaid" yn cael ei chadw yn yr un porth,—a chan yr "Hen Gorff" fynwent eu hunain wrth eu capel. Wel, nid oeddwn yn ystyried fod dim bai yn y peth, ond rhoddai achlysur i gryn lawer o feirniadaeth ddigrifol.

Y mae yng Ngherrig y Drudion, hefyd, eglwys henafol. Dywedodd hen wr yr Hafoty wrthyf y byddai'n arfer mynd iddi hi ar foreuau Sul, pan yn hogyn, o dan orfodaeth ei feistr. Cynhelid Gosper yn y prydnawn, a dim gwasanaeth yn y nos. Cofiai glywed y clochydd ar un boreu Sul, ar ben wal y fynwent, yn cyhoeddi,—"Ffair oesiwn yn Glanrafon, Llangwm," gan enwi y dydd a'r awr; ac ar foreu Sul drachefn yn cyhoeddi, yn yr eglwys,—"Marchnad sana yng Ngherrig y Drudion dydd Gwener nesa. Daliwch ati hi, yn hwyr ac yn foreu, i weu!" Nid oedd hynny fymryn yn fwy ysmala, os gwir y chwedl, na chlywed cyhoeddi, er's llawer dydd, mewn capel, ar nos Sul, yn sir Fflint,—"Fydd yma ddim seiat nos Ferchar nesa. Y mae hi yn ffair Abargela!" Pentref del nodedig ydyw Cerrig y Drudion, a brodiroedd bras o'i gwmpas. Bu son, a mwy na son, ychydig amser yn ol, am gael ffordd haiarn rhwng y "Cerrig,"—felly y gelwir ef yn fyr,—a Rhuthyn. Y mae'n syndod na buasai un cyn hyn rhwng y lle a Chorwen, canys y mae trafnidiaeth brysur yn bod rhyngddynt. I aros ffordd haiarn, cludir nwyddau, yn ol ac ymlaen, gan agerbeiriant yn tynnu pedrolfenni trymion ar hyd y ffordd fawr,—"ffordd Holyhead," hen ffordd fawr y llythyrgerbydau rhwng Caergybi a Llunden. Gelwir y peiriant gan y brodorion "Yr *Attraction*," mewn camgymeriad, hwyrach, am *Traction Engine*. Buaswn i yn ei alw yn Hen Fwgan Mawr Hyll, neu Anghenfil Dychrynllyd. Cyfarfyddais ag ef ar fy ffordd y tro cyntaf i'r Hafoty. Teithio yr oeddwn i mewn cerbyd a merlyn, a phan ddaeth i'r golwg llefais,—"Tad anwyl! Be 'di hwn?" Yr oedd o yn chwythu, yn chwyrnu, yn tuchan, yn mygu, ac yn pardduo yr awyr,—a'r ddaear yn crynnu o dan ei bwysau anferth. Gyrrid ef gan ddau ddyn, yn edrych fel dau bry huddugl. Wedi'n gweld ni, safodd y Bwgan yn llonydd, yn ol deddf gaeth, rhag gwylltio y ceffyl. Ond er iddo fod yn llonydd, y mae'r olwg arno yn ddigon i arswydo unrhyw anifail, a gofelir am dywys pob march yn araf wrth fyned heibio. Mor wir a mod i yn dweyd, gwelais gi yn troi yn ei ol mewn braw rhag ei basio, wedi dyfod bum milltir oddicartref gyda'i feistr. Ar y ffordd yma y mae glyn o'r enw Glyn Diffwys,—lle rhamantus, nid anhebyg i'r glynnoedd rhwng Betws y Coed a Chapel Curig. Ar wlawogydd mawrion, clywir, am bellder maith, adsain ubanol rhuad dŵr yr afon Geirw,—

"Gan ddisgyn yn wyllt, hydrwyllt raiadrau,"

—dros ddanedd creigiau erchyll i lawr i drobwll trochionllyd yng ngwaelodion dwfn y glyn.

Yn yr ardaloedd hyn y mae Elis Wyn o Wyrfai yn gweinidogaethu, gyda'r Eglwys Sefydledig. Llawenychais wrando rhai o bob enwad yn ei barchu fel gweinidog diwid a Christion diragfarn a heddychlon.

Mor wylaidd a thyner, a duwiolfrydig (onide?), y cân y bardd uchelryw yn "nydd trallod," ar ol marwolaeth ofidus ei fwynaf wraig. Detholaf ddau bennill o'i Alarnad orlawn o deimlad bendigedig:—

"Nid wyf yn gofyn, O fy Nuw,
'Paham y gwnaethost hyn?'
Ond moes dy gymorth im yn fyw,
A'th wyneb yn y glyn.

"Y don o gydymdeimlad byw
A lifodd dros y wlad,
Pa beth ond mân aberoedd yw
O gariad pur y Tad!"

Bellach rhaid i mi ddweyd ychydig o fy hanes gyda theulu caredig yr Hafoty. Cynwysai hen wr gweddw,—William Ellis,—wedi gadael ei ddwy a phedwar ugain oed, a dwy o ferched,—Catherine a Mary,—gwybodus, synhwyrol, hyfwyn, ac amhrisiadwy at bob gorchwyl teuluol. Yr oedd un o honynt,—"Mair Alwen," fel y mynwn i ei galw,—yn feddiannol ar dalent farddonol. Barned y darllennydd rhadlon, ac nid y call anfeidrol. Y mae engraifft o'i gwaith buddugol yn mydryddu cyfran o'r Ysgrythyr Lân ar dudalen arall. Erioed ni welais deulu mwy diddan, na chartref mwy cysurus. Perthyna y teulu i'r Methodistiaid yn Llanfihangel. Y mae'r tad wedi bod yn flaenor am fwy na deugain mlynedd. Ni chafodd ddysg ond yn yr Ysgol Sul. Ac nid oes gystal dysg a'i dysg hi. Ei lyfrgell oedd y Beibl, "Geiriadur Charles," "Esboniad James Hughes," ac ychydig o

fisolion ei enwad. Pwy bynnag ŵyr y filfed ran o'r llyfrau hynny, gwyn ei fyd! Yr oedd ei ymddiddanion a'i weddiau gafaelgar ar yr aelwyd yn profi ei fod yn hynod hyddysg yn nheyrnas Dduw. Wrth y pentan, ar y nosweithiau, adroddai hanesion difir am John Elias, John Jones Talysarn, Williams o'r Wern, Christmas Evans, Dafydd Rolant, a Robert Tomos Llidiardau. Ymddigrifai lawer yn hanes Robert Tomos. Ar un amgylchiad, meddai, yr oedd drysau y capel, lle yr oedd yn pregethu, yn agored pan y cymerai ei destun, ac fel hyn y rhoddai ei destun allan, —"Myfi a ddaethum fel y caent fywyd," [Cauwch y drws yna!] "ac y caent ef yn helaethach" [Cauwch y llall hefyd!]. Bryd arall, dwedwyd wrtho fod ei feistr tir yn bwriadu plannu coed ar ryw ran o'i dyddyn. "Os gwna fo," atebai yntau, "mi godaf bob pric i fyny!" A gwnaeth gân fygythiol i'r meistr, yn yr hon yr oedd y llinellau canlynol,—

"Fflam dân o uffern doed
Yn fargod ar y byrgoed."

Dychrynnodd y meistr, a phren ni phlannwyd yn y tir. Dywedodd yr hen frawd wrthyf lawer o hen eiriau traddodiadol, megis am drefi ar lan y môr,—

"Ar lan y môr heli,
Ni thyfodd erioed,
Un cnypyn o fedwen,
Na draenen ar droed."

Yr oedd yn gydnabyddus iawn a Robert Davies, Bardd Nantglyn. Adroddai lawer o'i farddoniaeth, a rhai o'i Drioedd. Dyma un,—"Tair cardod dda i'r oes a ddêl: Plannu coed, gwellhau celfyddyd, a magu plant rhinweddol." Cyffelybwn yr hen wr i Mr. Gladstone o ran ei hoenusrwydd. Oddigerth cloffni yn un glun, yr oedd mor heinyf a bachgen. Aeth a fi un prydnawngwaith i ben Cadair Ddinmael, ar ei ddwyffon, yn hollol ddidrafferth, eithaf gorchest i ddyn pedwar dengmlwydd ei ieuengach. Dringasom at y garnedd ar gopa'r mynydd. Yno yr oedd awelon adfywiol, awyr glir, a heulwen oleu ddisglaer, fel hinon haf. O olygfa gain ac ardderchog,—

"Mor araul fy mro eirian!"

Edrychwn yn synfawr, o fewn cylch eang, fry ar y Foel Famau, y Berwyn, yr Arennig, Moel Siabod, Capel Curig, a'r Wyddfa,—ac isod, ar y dolydd lliwdeg a'r ffrwythlon ddyffrynnoedd, oll yn parotoi i wisgo gwisgoedd eu gogoniant Hydrefol.

Ddiwrnod arall arweiniodd yr hynafgwr tirion fi i goryn y Gaer, mynydd y tu ol i'r ty, a elwir felly am fod caer wedi ei ffurfio ar ei ael i rwystro ymgyrch y gelyn yn yr hen oesau. Gwelwn olion cyfrwystra milwrol y Brythoniaid yn glynu hyd angau wrth eu gwyllt Walia,—

"Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mâd,
Tros ryddid collasant eu gwaed."

Dylaswn groniclo ddarfod i fy nghyfaill a fwriadodd drampio ataf o Ddinbych, drwy drugaredd, gael ei gario yr holl ffordd, i arbed ei weled, ar ei therfyn, yn llipryn lluddedig, a'i draed yn noeth ac yn chwysigod i gyd! Canys yr oedd ei sandalau yn warthus o anghymwys i'r ymdaith. Bu ei gwmni llawen a buddiol yn ychwanegiad sylweddol at ein hawddfyd yn yr Hafoty am yn agos i wythnos. Cawsai yntau, hefyd, lond ei phiol o foddhad, yn enwedig gyda'i brydau. Hwyrfrydig ydoedd i ymadael. Grual neu uwd oedd ein swper bob nos; a'r noson olaf, iddo ef, wedi gorffen ei swper, meddai yn drist,—"Wel, wel! Ffarwel rual!"

Dwrdia fy ngheraint fi am grwydro i leoedd mor anghysbell i ymofyn am adloniant; ond hynyma yw y dirgelwch,—mai pysgotwr anwaraidd ydwyf o ran fy mhleser naturiol. Ymwelais un tymor â Thy'n y Bont, ger y Bala. Pan ganfu "yr hen Ddafydd Ty'n y Bont" fi gyda genwar ar fy ysgwydd, cyfarchodd fi, braidd yn sarrug, fel hyn,—"Milgi, genwar, a gwn, wnant wr cyfoethog yn wr llwm." Nid oeddwn i yn gyfoethog, ac nid oedd gennyf filgi a gwn; a'm hateb oedd,—"Genwar, heb filgi a gwn, wna wr llwm yn wr llon." Gwaith poenus, serch hynny, ydyw pysgota heb ddal; ac er i mi lafurio yn yr Alwen a'r Geirw, bob dydd (ond y Sul) am y pythefnos cyntaf, nes oedd fy esgyrn yn chwilfriw, ni ddeliais nemawr.

"Wedi blino yn genweirio,
A'r pysg anhydyn yn nacau neidio;
Nid oedd chwilen, pryf, na phluen
A'u dwy aden yn eu hudo."

Gorfu i mi glwydo yn ystod y rhan fwyaf o'r drydydd wythnos, er mwyn dadflino, a bod mewn cyflwr addas i droi adref. Dychwelais yn ddiogel, wedi adnewyddu fy ngewynau, fy meddwl a'm calon, ac nid anghofiaf byth fy ngwyliau hapus yn Llanfihangel Glyn Myfyr yn 1892.

Arthur Rowlands (Ab Uthr).

Craig-y-Don, Rhyl, Tach. 5ed.

GOHEBYDD Y "BWCH GAFR."

IV.

"DOWCH, Johu," meddai Blaens Evans wrth ei gwr. "Da chi, bytwch."

Ond dim ateb o'r tu'n ol i'r papur newydd.

"Ma'ch te chi'n oeri," ebai hi wedyn.

Ond yr oedd Gohebydd yn fyddar. Er ei fod wedi mynnu cael te cynnar mewn trefn i bicio i'r Fron i ymgynghori â Mr. Meredydd ar faterion y capel, a rhyw ohebiaeth oedd gan hwnnw i'w roi iddo, yr oedd y *Bwch* yn ddigon dyddorol i beri iddo anghofio pob gwledd arall.

Yr oedd Gohebydd o werth mawr bob amser i olygydd y *Bwch*. Nid oedd ball ar ei adnoddau, gallesid meddwl; medrai droi ei law at bron bob peth. Yr oedd yn un i'r dim i roi hanes cyngherdd, oblegid ni wyddai ond y nesa peth i ddim am ganu; ac am fod y chwarter ysgol a gafodd wedi agor ei lygaid i fanteision addysg, gofalai na phasiai yr un doctor, fferyllydd, na thwrnai ei arholiad rhagbarotoawl heb iddo ef groniclo y ffaith. Beunydd a byth deuai ar draws rhywun gawsai *sdifficed* Solffa, yr hwn oedd yn siwr o ddod yn gerddor gwych os ca'i o fyw ddigon o hyd.

Ond pwy fuasai'n meddwl y troisai Mr. Evans ei dalent i gyfeiriad arall? Efe oedd awdwr gwreiddiol y *Medda nhw*, y golofn fwyaf poblogaidd yn y *Bwch*. Yn wir, hi a ddaeth i'r fath ffafr, nes yr oedd y papurau i gyd cyn hir wedi myned i'w ddynwared, ac i Glywed ac i Son ac i Siarad am bawb o Gaergybi i Gaerdydd. Yr oedd pobl Aberwilym wedi mynd yn "nerfiws" ddigon. Aethai rhai yn gyson i'w gwelyau heb ganwyll, rhag ofn i'r *Bwch* brepian arnynt a dweyd pa faint oedd hi o'r gloch; collodd gŵr y siop ei ffordd yn Llunden ryw ddiwrnod, a bu heb gysgu am nosweithiau rhag ofn y byddai yn y *Bwch;* a phan darawodd y saer ei fawd efo'r morthwyl mewn camgymeriad, crynai drwyddo rhag ofn gweled yn y *Bwch* "fod cydymdeimlad llwyraf yr ardal gyda'n hen gyfaill Edward Edwards, *joiner*, yngwyneb y ddamwain wir ofidus a'i goddiweddodd."

A phan gydiodd Gohebydd yn y *Bwch* cyn yfed ei de, edrychodd am dop y golofn ganol ar yr un tudalen a'r erthygl arweiniol, a darllennodd ar unwaith y golofn boblogaidd,—

MEDDA NHW.

Fod pawb am fynd i Lerpwl a Mantstar a'r trefydd mawr yrwan.

Fod hynny yn sobor o beth.

Fod llawer o feddwi yn y King's Head ar nos Sadwrn.

Fod hynny hefyd yn sobor o beth.

Fod yr hen foneddwr parchus, y diweddar Tomos Daniels, gynt o Aberwilym ond yn awr o Lerpwl, wedi ei hebrwng i dy ei hir gartref gan dyrfa liosog, yr wythnos ddiweddaf.

Fod pobl T—n S—gl—n wedi prynnu du pan yr oedd efe yn sal ddwy flynedd yn ol.

Fod camgymeriad gan hynny wedi digwydd o du rhywun.

Fod hyn yn anhebyg o ddigwydd eto.

Fod Llinos y Dwyrain wedi canu Cymraeg yn y Steddfod

Fod y Parch. Cefnfor Williams wedi ei anrhegu ag anerchiad goreuredig, a phwrs o aur ar ei ymadawiad i Lansanffraid.

Fod llawer yn gresynu ei fod yn mynd i 'gethu Saesneg.

Fod hyn yn ddigon y tro yma.

Meddyliodd yntau fod hynyna yn ddigon o ddarllen yn awr hefyd, gan fod ei wraig yn ei bwnio a'i flino; ac er mwyn heddwch, rhoddodd y papur o'r neilldu, yfodd ei de, a brysiodd tua'r Fron.

Yr oedd y diwrnod wedi bod yn deg ar ei hyd, ac ni chymerodd yntau ond ffon gydag ef; ond yn sydyn daeth i wlawio, ac yr oedd Blaens Evans mewn penbleth rhag ofn iddo wlychu wrth ddychwelyd. Hi a wyddai y cynygid ambarelo iddo yn y Fron, ond gwyddai hefyd mai ei wrthod wnai ef yn ol pob tebyg. Tipyn o falchder y Gohebydd.

Pan yn sefyll ar y rhiniog yn edrych ar y gwlaw, ac yn methu penderfynu pa beth i wneyd, daeth Watcin y potiwr bach heibio efo'r drol a'r mul; a meddyliodd yn syth am anfon Watcin ar ei ol gydag ambarelo.

"Ei di ar negos i'r Fron drosta i?" meddai hi wrtho. Yr oedd o heb goler na chap fel bob amser.

"A i" meddai yntau yn llawn bywiocach na'i arfer. "Wêi!" meddai wrth Duke, a neidiodd o'r drol. Yna estynnodd Blaens Evans ambarelo whalbon iddo, oedd ddigon cwmpasog i dri, a pharodd iddo fynd ag ef ar unwaith, er mwyn i Gohebydd ddod yn ol i'r seiat odditano.

"Prun well gen ti bwdin reis ne frachdan fêl?" meddai Blaens Evans cyn iddo fyned.

"W—whwn i ddim," ebai yntau. Nid oedd y bachgen tlawd wedi disgwyl hyn, yr oedd yn amlwg, oblegid yn awr, fel bob amser pan gaffai garedigrwydd, aeth i golli ei anadl ac i atal dweyd. Yr oedd o yn hen iawn o'i oed, yn swil ac yn deimladol anarferol. Cawsai frechdan a dau enllyn yn y ty yma cyn hyn, fel aml i blentyn arall, a phob amser dywedai ei lygaid,—"Pwy wyf fi i deilyngu sylw?" Ond deallai Mrs. Gohebydd ef yn eithaf da.

"Ty'd, gael iti fynd," meddai hi; "dwed y gair." A'r munud nesaf, yr oedd Watcin a dysglaid o bwdin o'i flaen. Yr oedd o yn llaeth o glust i glust, ac wrth gwrs, ei lawes a gymerodd i'w sychu ymaith.

"Diolch yn fawr iawn i chi drosta i rwan," meddai wrth Blaens Evans. "A phob amser," ychwanegai wedyn, megis ar ail feddwl. Yna cipiodd yr ambarelo o dan ei gesail, ac i ffwrdd ag ef. Ni ddywedodd o yr un gair wrth y mul, ond yr oedd Duke yn deall ei feistr o'r goreu, a dilynodd ef tuag adre ar unwaith. Wedi tynnu yr anifail o'r drol, gwthio honno i ochr y gwrych, a'i ollwng yntau i bori bol y cloddiau a glaswellt y ffordd fawr, brysiodd Watcin i'r lle bregus a alwai yn dy, ac ymolchodd mewn hanner padell bridd. Gwlychodd ei wallt yn drwm, ac yna cribodd ef â hen grib fras, ond yr oedd y cudyn coch oedd yn codi ar ei goryn yn gwrthod ymostwng; a phan roddodd o ei gap tyllog am ei ben, yr oedd y cudyn coch o hyd yn mynnu ymddangos. O'r tu'n ol i'r hen gwpwr *press*, cymerodd becyn mewn papur llwyd ac aeth ymaith ar ei neges.

Nid oedd o wedi cerdded chwarter milldir cyn i gymylau duon ymgasglu, ac ymarllwys yn gafod o wlaw taranau am ei ben. Nid oedd unlle i ochel am beth pellder, nes dyfod at fasarnen ddeiliog mewn trofa. O dan gysgod hon yr oedd Wmffre Jones y Post, a Deio Benion a sach am ei ysgwyddau. Pan welsant Watcin yn trotian tuag atynt drwy y gwlaw, a'r ambarelo dan ei got, aethant i ymliw ag ef ar unwaith.

"Wel yn wir, dyma ddodi canwyll dan lester!" meddai Wmffre Jones wrth Deio.

"Pam na agori di d'ambarelo?" gofynnai Deio i Wat.

"Nid fi pia fo," ebai Wat yn ol.

"Nid y chdi pia fo! Ai ei ddwyn o ddaru ti ynte?"

"O nage," meddai Wat gan droi draw wedi cael briw amlwg i'w deimladau. "O nage, fydda i byth yn dwyn."

'Roedd yr hen Bost yn graff. Gwelodd a chydymdeimlodd. "Na fyddi ngwas i," meddai. "Hidia di mono fo."

"I ble rwyt ti'n mynd?" meddai Deio.

"I—i be s'arnoch chi isio gwbod?" ebai Wat.

"I'r Fron yr ei di?"

"Bydd yn well iti agor hwnne," meddai Wmffra Jones. Yr oedd o wedi adwaen yr hen ambarelo wrth ei droed ac wedi dyfalu yr amgylchiadau.

"Na fydd ddim," meddai Wat yn bendant. Yna esboniodd, gan mai Gohebydd edd y perchennog, ac mai ei gario i'r Fron yn unig oedd ef, nad iawn ynddo ef fuasai ei ddefnyddio heb ganiatad Blaens Evans neu ei gŵr. Dadleuai Wmffre Jones na fuasai y perchennog yn ddim dicach wrtho; ond ysgydwai Wat ei ben yn henaidd gan ateb y gwyddai efe hynny gystal ag undyn. Mynnai Deio y buasai cafod neu ddwy go drom yn gwneyd daioni i'r fath ambarelo hen ffasiwn, i'r hyn yr atebodd Wat mai yn sych y cafodd o fo, ac mai yn sych y cai y Gohebydd o. Yna rhoddodd y tociwr gwrychoedd y clod iddo o fod yn onestach na'i dad, a sylwodd yr Hen Bost ei fod yn sychach na'r ddau. Y munud y peidiodd y gwlaw, yr oedd y potiwr bychan ar drot drachefn.

Yr oedd yn amlwg mai teithio rhwng y cafodydd oedd yn rhaid iddo, oblegid yr oedd o ddau led cae oddiwrth y Fron pan y daeth y gwlaw eilwaith yn genllif. Nid oedd wiw iddo chwaith ochel tan goeden, oblegid yr oedd pob un yn dyferu erbyn hyn; ond yr oedd yno hen feudy yn ymyl, a rhedodd nerth ei draed i hwnnw. Da y gwnaeth, o achos yr oedd y gwlaw o ddifrif; a meddyliai pa beth a ddaeth o Wmffre Jones a Deio. Yr oedd y beudy wedi ei rannu yn ddau, o dalcen i dalcen; un yn gôr a'r llall yn fing; ac yr oedd drws ar ddau wyneb yr adeilad. Pan gyrhaeddodd Wat i'r côr, clybu leisiau yn y bing, a gwelai trwy y cefngor fod rhyw ddau yn sefyll yn y drws, yn gochel fel yntau. Adnabu lais E. Heulwen Evans ar unwaith, ond bu rai munudau cyn deall mai Miss Lloyd Ty'n Siglen oedd ei gydymaith. Yr oedd hi yn ei du o'r top i'r gwaelod, ar ol y diweddar Tomos Daniels; a'r *assistant master* mewn dillad goleu, a het wellt a menyg *kid*.

Siaradent yn hyglyw; heb dybio fod yno neb heblaw hwy, a gallai Wat glywed pob gair heb glustfeinio. Miss Lloyd oedd y prif lefarydd, a datgan ei theimlad yn bur groew yr oedd hi y'ngwyneb actau gŵr y Fron. Casglai Wat oddiwrth ei geiriau nad oedd gŵr y Fron a gwraig Ty'n Siglen yn tynnu yn dda ynghyd, a bod y blaenaf wedi ymyrraeth mewn mater na pherthynai iddo, sef ewyllys Tomos Daniels. Nid oedd hyn, pa fodd bynnag, yn dyddori fawr ar Wat, oblegid ei neges, ond cyn pen ychydig hoeliwyd ei sylw wrth yr ymddiddan oblegid iddo glywed crybwyll ei enw ef ei hun. Yr oedd Miss Lloyd yn mynd dros rai o feiau Mr. Meredydd.

"A thyna Watcin," meddai hi, "wyddoch chi fod Mr. Meredydd yn perthyn iddo fo?"

"Yn perthyn i Watcin?" ebai yntau mewn syndod. Aeth ias o syndod drwy Wat hefyd.

"Ie, yn perthyn i Watcin," ebai hithau. "Yn gefnder a'i fam o. Ond ddaru *o*, wrth gwrs, erioed *ownio* ei fod yn perthyn dafn o waed."

"Wyddwn i 'rioed o'r blaen," meddai Evans ("Na finne," meddyliai Wat).

"A 'dwyr odid i neb arall chwaith, yma. Y mae o wedi cadw y peth yn ddiarth. Ond 'doedd o fawr gwell allan na'i gnither, meddai mam, pan ddaeth o yma o dros y mynydd."

"O dros y mynydd?"

"Ie, o'r Bont Faen. A dyma fo mor uchel, 'rwan, fel pan gwarfyddith o â Wat ar y ffordd, chymith o ddim mwy o sylw o hono na phe bae o yn bren."

Yr oedd Wat, yn wir, bron wedi mynd fel pren yn awr, gan mor synedig ydoedd; a sylw Heulwen ei fod yn *barnu* fod y gwlaw wedi stopio a'i dygodd i feddwl am ei siwrnai. Ac yn ddiymdroi, brysiodd eilwaith tua'r Fron, heb yn wybod yn iawn beth i feddwl o hono ei hun.

Ffermdy a phalasdy yn un oedd annedd Mr. Meredydd, a disgwylid i bawb o Aberwilym, oddigerth rhyw hanner dwsin, fyned i'r ty drwy y buarth at ddrws y cefn, ac nid trwy y penwar ac ar hyd y *gravel walk* at ddrws y ffrynt. Gan na feddai Watcin frethyn yr hanner dwsin, yr oedd yn rhaid iddo ymostwng i fynd at ddrws y cefn, yr hyn a wnaeth yn llawen. Yr oedd rhai o'r gweision ar ben grisiau y *granary* yn methu deall beth oedd ganddo dan ei gôt, ac am na ddywedai wrthynt, cafodd ddyrneidiau o geirch am ei ben. Yr oedd yno hefyd hen geiliogwydd yn ystelcian o gwmpas, yr hwn a edrychai yn bur amheus ar y negesydd, ac fe actiodd blismon yn rhy dda o lawer gan Wat. Newydd orffen yr oedd y godro, ac fe wneid cryn lawer o swn gyda'r llestri llaeth, fel na chafodd curiad gostyngedig y potiwr mo'i glywed am ychydig. Ond o'r diwedd, dyna un o'r morwynion yn rhoi ei phen drwy ffenestr uwch ei ben, ac yna yn dweyd wrth Susie Meredydd fod yno "hen drempyn" wrth y drws. Rhedodd Susie i lawr, ond yr oedd ei mam yno o'i blaen, ac wedi cymeryd yr ambarelo gan Wat, yr hwn a safai tu fewn i'r drws, wedi tynnu ei gap.

Parodd yr eneth fach i Wat fynd at y tân i'r gegin i sychu; ond nacaodd yntau fynd ddim pellach na phen y bwrdd mawr. Yna tynnodd Wat y pecyn papur llwyd allan, a gwnaeth rodd o hono i Susie. "Dyma rw-rwbeth i chi," meddai wrthi dan atal ei anadl, ac fel pe na wyddai p'un oedd y ffordd oreu i'w gyflwyno. "Rhw-rhwbeth o-o'n ty ni," meddai drachefn, wrth i Susie ddechreu ei ddatod. Pan ddaeth y papur sidan gwyn i'r golwg, ac yr edrychodd Susie yn amheus ar y pengoch, "I-i chi," meddai yntau wrthi, gyda chymaint o foes ag a fedrai. "Be ydi 'o?" ebai hithau yn llawn chwilfrydedd. Ac wedi dychymygu hyn a'r llall, beth gafodd hi ond cwpan a sowser claerwynion, gydag ymylon aur, ac o'r math tlysaf; ac ar y gwpan lythyrennau melynion,—"*A Present for a Good Girl.*"

Yr oedd Mr. Meredydd a Gohebydd fel pe wedi bod yn disgwyl am Wat, oblegid aethant allan yn union deg drwy ddrws y ffrynt, a cherddasant i'r pentref wrth eu pwysau.

Cyrhaeddodd Wmffre Jones adref o'u blaenau, er nad rhyw lawer chwaith. Yr oedd wedi defnyddio ei dalentau ar y ffordd i ddweyd am Wat a'r ambarelo. Medrodd gyrraedd i'r efail erbyn yr oedd Wat yn y beudy, ac yno cafodd hwyl ar y stori. Yr oedd yno amryw o'r ffermwyr wrth gwrs,—un a'i geffyl i'w bedoli, un arall i edrych a oedd ei gaib newydd yn barod, ac un arall heb ddim busnes yn y byd. Yr oedd ef ei hun yno yn disgwyl am beg mochyn; a rhwng chwythu'r tân ac osgoi y gwreichion a siarad am Wat, a siarsio y gof (rhwng cromfachau), rhag gwneyd y peg yn rhy hir, aeth yn rhywyr bryd iddo ymadael heb ddweyd yr hanner. Yr oedd Mr. Francis, yr *ironmonger*, yn nrws y siop pan yr oedd o yn mynd heibio, a phan sylwodd o ar y tywydd gwlyb, rhaid oedd ar Wmffre Jones gael dweyd am Wat; a chan fod cynifer o bobl yn galw yn y siop ar noswaith seiat, cafodd Mr. Francis bwnc dyddorol i ymgomio â hwy o'r tu'n ol i'r cownter. Erbyn adeg seiat nid oedd odid i neb yn y lle nad oedd wedi clywed am Wat a'r ambarelo.

Pan gyrhaeddodd yr hen Bost i'r ty, nid oedd yno neb i mewn. Ond yr oedd golwg cyfforddus ar y gegin fawr,—cerrig y llawr cyn laned a'r aur, y tân siriol yn lluchio goleu ar y dreser gyferbyn a fo, ac ar yr ysgrin hir, gefnuchel oedd yn gwynebu'r ffenestr. Tarawodd ei het yn glec ar y dreser a rhodd broc i'r tân. Yna bloeddiodd "Marged!" Ond heb brin aros am ateb, torchodd lewys ei grys, ac aeth y tu ol i'r ysgrin ac i'r cefn. Daeth yn ei ol yn fuan dan duchan, a rhwbio'r sebon o'i lygaid.

"Marged!" meddai, dan edrych o dan y dreser a'r bwrdd, ac ar y bachau wrth ben y llawr. Ond dim ateb.

"*Marged!!*" meddai, wrth droed y grisiau. Neb yn ateb.

"MA--A—ARGED!!" meddai wedyn, nerth ei ben.

"Gwarchod ni, Wmffre, be sy arnoch chi" meddai hithau yn nrws y cefn, ac wedi colli ei gwynt.

"Lle ma'n sgidie i?"

"Ych sgidie chi? a nhwthe am ych traed chi."

"Ie; ond lle ma'r rhai sy *heb* fod am fy nhraed i?"

A bu raid i Marged Jones fynd i nol ei esgidiau goreu iddo, tra yn ei ddondio am waeddi fel pe buasai o ym mhen mynydd, a hynny nes dychryn Blaens Evans y Gohebydd.

"Dros Edom y taflaf fy *nwy* esgid" meddai yntau, with newid pâr, a throsodd a nhw dros gefn yr ysgrin. "Hwdiwch, Marged, cadwch y peg na tan foru."

Wedi iddi hitl au wneyd, a thacluso tipyn ar ei wddf, ymaith a'r Post i'r drws nesa, lle yr oedd Mr. Meredydd a Gohebydd a dau neu dri ereill yn eistedd dan ysmocio. Llawer o helynt fyddai gan Blaens Evans efo'r *spills*, a thyna ofyniad duchanol yr hen frawd heno,—a oedd arni eisiau help i wneyd *spills?*

"Dim heno," meddai Blaens Evans.

"Wel," ebe yntau mewn dull awdurdodol, "mae hi'n bryd mynd i'r capel ynte." A chan eu bod yn adnabod Mr. Post, codasant i gyd, ac i'r seiat a nhw. Eisteddodd gŵr y Fron i lawr fel brenin ar ei orsedd, dechreuodd Wmffre Jones y cyfarfod yn *short and sweet*, a chododd Gohebydd ar ei draed i wrando arholiadau'r plant. Er ei syndod, pwy a welai fo yn sefyll ym mhen y sêt ond Watcin! A Watcin mewn coler a chadach hefyd! Mynd i'r eglwys, os i rywle, y tybid y byddai y potiwr hen a'r ifanc, ac fel un o blant yr eglwys yr edrychid ar Wat. Ni ddisgwylid felly ei weled yn y capel. Ond wrth ymrwbio ym mhlant y seiat, daeth ysfa arno yntau am gael ymuno. Ond gan nad oedd ganddo neb i'w gyfarwyddo gartre, ac yntau mor swil, nid oedd neb yn gwybod ei feddwl. Ac yn y Fron, o bob man yn y byd, y daeth hwn allan. Pan aeth ei thad ymaith efo Gohebydd i'r seiat, dywedodd Susie fach wrth Wat nad oedd hi yn mynd y noson honno am ei bod mor wlyb; ac mewn hollol ddiniweidrwydd parth gwahaniaeth enwad, gofynnodd iddo a oedd ef yn mynd? Tarawodd hyn dant tyneryn Wat, ac atebodd na chaniateid iddo. Dywedodd hithau yn syth wrth ei mam. Calonogodd honno ef, ac anogodd ef i fynd yno ar bob cyfrif, os oedd arno awydd, ac nad oedd raid iddo ofni. Yn unig rhaid oedd iddo ddweyd adnod neu bennill. Dwedodd yntau y medrai "Mae'r iachawdwriaeth fel y môr" ac amryw o adnodau. "Gwnaiff y tro," ebe hithau; ac er mwyn ei gychwyn hi a gafodd goler a chadach o rywle, a gwisgodd hwynt am ei wddf. Felly, wedi codi ei galon yn anghyffredin, aeth Wat i'r seiat ar ei union; ac fel dyn

Caerludd.

call, ni wnaeth Gohebydd fawr fwy o sylw o hono y noswaith hon na pho buasai yn arfer dod erioed.

"Wel Watcin," meddai wrtho, "ddost *ti* yma heno?"

"Do."

"Wel, oes gen ti adnod?"

"Oes."

"Da iawn. Gad i ni gael i chlwed hi."

Wat ddim yn ei chofio.

"Cymer di bwyll; mi ddaw hi'n union," meddai Gohebydd. Ac fe ddaeth.

"Yr ych a edwyn ei feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchennog," ebai Wat.

"Da iawn y ngwas i. Wyddest ti pwy lefarodd yr adnod ene?"

"Wmffre Jones," meddai Wat yn hollol ddiniwed. Ac ynghanol y gwenu, nid oedd neb yn mwynhau hyn yn fwy na'r Post.

"Pam 'roedd o'n deyd honne wrthat ti?" gofynnai Gohebydd.

"Am fod Duke yn mynd i'r stabal ei hunan," meddai yntau.

"Felly. Ond sut wyt ti'n gwbod mai adnod ydi hi?"

'Roedd yno lawer yn meddwl nad oedd hi ddim yn adnod, ac edrychodd y bachgen am eiliad fel pe wedi ei lorio. Treiodd gael cip ar Wmffre Jones, ond methodd. Ond toc dyna fo yn llygadrythu ac yn mentro ateb,—

"On'd ydi o'n deud adnode o hyd!"

Rhoddodd hyn gyweirnod pur hapus i'r seiat, ac yr oedd profiad Wmffre Jones fel pe yn felusach nag arfer. Yr oedd Wat ar delerau da ag ef o'r blaen, ond ar ol hyn, wrth ei gyfarfod yma a thraw ar hyd y plwy, nid adnodau moelion a gafodd ganddo, ond stori Samuel, a Dafydd a Jonathan, a llanciau Babilon fawr,—*with original illustrations.*

Yn y seiat ddilynol, wedi deall teimlad Watcin, fe gafodd dderbyniad siriol i fod yn un o blant y seiat, heb neb yn erbyn. Ac o hyn allan yr oedd olwyn rhagluniaeth yn amlwg yn troi gydag ef. Yr oedd Tomos Daniels wedi gweled gwerth addysg, ac wedi gadael mil o bunnau yn ei ewyllys i sefydlu ysgoloriaeth yn ysgol y dref, ar gyfer bechgyn tlodion Aberwilym.

Cyn pen hir yr oedd Watkin Watkins yn ysgol y dref, ac Wmffre Jones yn dweyd wrth Farged Jones, "Mi neith bregethwr, welwch chi!" Ac ar ben y flwyddyn, yr oedd Gohebydd y *Bwch Gafr* yn anfon paragraff am ei "lwyddiant addysgawl," ac yn eidduno iddo hir oes i ddringo i ben pinaclau uchaf clod ac anrhydedd, ac i ychwanegu un arall at feib yr hen wlad oedd wedi cerfio eu henwau yn anileadwy ar lechres yr oesoedd.

ROBERT H. DAVIES.



CASTELL AMBOISE.

Y DIWYGIAD YN FFRAINC.

XV. CYDFRADWRIAETH AMBOISE.

DAETH Ffrausis yr Ail i'r orsedd, bachgen un ar bymtheg oed, heb nerth corff na nerth meddwl. A bu ymdrech am dano rhwng y ddau deulu oedd yn ceisio awenau'r llywodraeth i'w dwylaw,—teulu Guise a theulu Bourbon.

Yr oedd teulu athrylithgar Claude o Lorraine,—chwe mab a phedair merch,—wedi ymwthio i bob swydd o bwys bron. Yr oedd Cardinal Lorraine mor alluog, hwyrach, a'r un o'r diwygwyr; ac yr oedd Calfiniad ddirdynnai ar yr arteithglwyd wedi dweyd wrtho unwaith mai diwygiwr fuasai yntau, oni bai am elw ac uchelgais. Yr oedd ei gymeriad wedi ei gyfaddasu at yr amser tymhestlog hwnnw. Yr oedd ei ymddanghosiad yn urddasol, ac yr oedd ganddo allu rhyfedd i blygu rhai yn ol ei ewyllys,—rhai di-daro fel Harri'r Ail a chybyddion fel Oliver, a sicrhai Catharine de Medici fod ei ysbryd yn ymddangos iddi wedi ei farw, i ddweyd wrthi beth i'w wneuthur,—yr oedd arni gymaint o'i ofn a hynny. Un egniol a di-ildio oedd, yn cashau am byth, ond yn gwenieithio ac yn penlinio pan fyddai hynny'n atcb ei amcanion. Yr oedd ystwythder ei gymeriad yn gwneyd i'w elynion ddweyd ei fod mor lwfr pan mewn perygl ag oedd o orthrymus pan mewn awdurdod.

Tybiai'r diwygiwr y buasai ei frawd, duc Guise, yn ddiwygiwr ei hun pe gwybuasai gymaint am y Diwygiad a'r cardinal. Yr oedd yn filwr dewr a ffortunus; ac yr oedd ei waith yn amddiffyn Metz a buddugoliaeth Renti wedi ei wneyd yn boblogaidd iawn yn Ffrainc.

Y ddau frawd hyn,—y milwr poblogaidd a'r offeiriad hirben,—oedd amddiffynwyr Pabyddiaeth Ffrainc, ac arweinwyr mwyafrif mawr eu cyd-wladwyr. Priododd y brenin gwan eu nith brydferth, a daeth yn offeryn yn eu llaw. Credai pawb fod teulu brenhinol Valois yn marw; ac y mae'n ddiameu fod y ddau frawd wedi dechre breuddwydio am ddwy goron,—coron y Pab a choron Ffrainc. Oni bai am danynt hwy, ni buasai'r rhyfeloedd crefyddol wedi anrheithio Ffrainc; oni bai am danynt hwy, hwyrach y buasai Ffrainc yn Brotestanaidd heddyw.

Yr oedd Montmorenci, cwnstabl Ffrainc, yn cashau teulu Guise, ond yr oedd ei gasineb at heresi'n fwy. Hen wr deuddeg a thrigain

oedd, yn fawr ei barch gan bawb oherwydd ei gymeriad unplyg ac oherwydd enwogrwydd ei deulu. Nid oedd wedi bod yn ffodus iawn fel milwr, ac yr oedd ei sel dros Babyddiaeth wedi ei estroni i raddau oddiwrth ei neiaint, —Châtillon alluog, D'Andelot boblogaidd, a Choligni ddoeth. Er hynny, yr oedd yn allu mawr yn Ffrainc.

Ond prif wrthwynebwyr teulu Guise oedd teulu Bourbon. Hwy oedd nesaf at y brenin; eu haer hwy oedd aer yr orsedd. Yr oedd Antoine, yr hynaf, wedi priodi Sian, merch Margaret o Valois, ac aeres Navarre. Yr oedd un o'r diwygwyr wedi ei ennill yn ei ieuenctid; ac, ar adeg ei briodas, yr oedd ei Galfiniaeth yn fwy manwl na Chalfiniaeth ei wraig, a chlywn ef yn cwyno fod yn well gan Sian ddawns na phregeth. Un mwyn oedd, —hael, hyawdl, dewr mewn brwydr ond llwfr mewn cyngor. Yr oedd yn hoff o bleserau; ac yn nyfnder ei enaid yr oedd ystôr o ddiogi, anwadalwch, a diffyg penderfyniad.

Anhebyg iawn i'w frawd hardd oedd Louis, duc Condé. Bychan a hagr oedd o gorff, ond yr oedd yn gan galluocach na'i frawd. Yr oedd gwên ar ei wyneb yntau bob amser. Ei wraig,—Eleanor de Roye, "perl y tywysogesau," perthynas i Goligni,—a'i henillasai at y grefydd.

Yn gwylio y rhai hyn oll, heb deimlad na chyffro, fel seren rewllyd, yr oedd Catharine de Medici, mam y brenin. I hon nid oedd gwahaniaeth rhwng Protestaniaeth a Chalfiniaeth; i hon nid oedd gwahaniaeth rhwng per-lewyg y sant ac aflendid cnawdol y pechadur; ni welai hi ddim i'w hoffi mewn purdeb, na dim i ryfeddu ato mewn drwg. Ni fedrai garu, ni fedrai gydymdeimlo,—ni feddai nwydau i'w cyffroi na'u sancteiddio. Enaid oer satanaidd amyneddgar oedd ei henaid. Ei chynllun oedd gwylio'r ddwyblaid, a'u gwneyd mor gyfartal fel y medrai hi ddal y glorian rhyngddynt. Os byddai arweinydd un o'r ddwy-blaid yn rhy gryf, gwyddai Catharine de Medici beth i'w wneyd.

Penderfynodd Condé roddi terfyn ar yr ymrafael ac ar allu teulu Guise trwy fynnu'r brenin ieuanc oddiarnynt. Yng nghastell Amboise yr oedd y brenin pan wnawd yr ymgais, ond clywodd Guise am y cynllun, gorfod i Condé gymeryd arno na wyddai ddim am y bwriad, ac arwain milwyr y brenin yn erbyn ei gyd-gynllunwyr. Pe buasai Condé wedi llwyddo, pe buasai ef a Choligni wedi cael trefnu materion Ffrainc yng nghastell Amboise, buasai hanes Ffrainc, i bob golwg dynol, wedi ei newid drwyddo. Ond canlyniad methiant "cyd-fradwriaeth Amboise" oedd taflu pob gallu i law teulu Guise. Ni feiddiai neb gyfiawnhau'r ymgais, yr oedd Condé a phawb yn gorfod canmol Guise am amddiffyn y brenin, ac yn gorfod gadael iddo reoli'r deyrnas.

Penderfynodd teulu Guise lethu eu gelynion. Ond yr oedd y brenin yn rhy ofnus i ddinistrio Navarre; heriodd Condé neb i brofi fod a fynno ef a'r fradwriaeth, ac ni feiddiodd neb osod dwylaw arno wrth iddo gilio i Béarn; achubodd Catharine de Medici, i'w phwrpas ei hun, y ddau frawd Coligni a D'Andelot. Rhwystrodd L'Hôpital, y canghellydd newydd, hwynt rhag dod a'r Chwilys i Ffrainc; ond yr oedd ganddynt hawl i anfon heidiau o filwyr esgymun ar hyd y wlad i chwilio am hereticiaid. Dychryn oedd yn teyrnasu, ac ni feiddiai Ffrancwr apelio yn erbyn y gorthrymwyr at gyfraith y tir.

O'r diwedd daeth yr ystorm. Heriodd brenhiniaeth Navarre allu Guise, ac ymlidiwyd ei erlidwyr o Guienne, Provence, a Dauphiné. A phenderfynodd yr eglwysi Calfinaidd ymgyfarfod yng ngoleu dydd. Pan roddodd eglwysi Nîmes, Montpellier, ac Aïgues Mortes yr esiampl, trwy ymgyfarfod ganol dydd a'u cleddyfau yn eu dwylaw, wele ugeiniau o eglwysi yn ymddangos drwy Ffrainc, yn enwedig yn y deheudir. Ac yn ninasoedd mawrion Normandi, yr oedd pregethwyr Coligni'n cyhoeddi'r Diwygiad yn yr heolydd.

Rhag i deulu Guise fynd yn rhy gryfion, penderfynodd Catharine eu gwanhau drwy alw cynhadledd y pendefigion i Fontainebleau, i drin yr anhawsderau crefyddol. Cydsyniodd Guise ar unwaith, gan dybied y deuai'r Bourboniaid i'r gynhadledd, ac y medrid eu dal.

Dydd y gynhadledd a ddaeth, yn Awst 1579. Daeth y brenin, dan arweiniad Lorraine a Guise. Daeth Montmorenci, gan benderfynu achub ei neiaint, a chyda chas cyflawn at deulu Guise,—yr oedd wedi anfon at Gatharine i'w chynghori i'w halltudio, a Lorraine yn clywed y gennad o'r tu ol i len. Dechreu'r gynhadledd oedd darllen adroddiad Lorraine a Guise am gyllid a byddin Ffrainc. Yna cododd Coligni ar ei draed, gyda deiseb i'r brenin yn ei law. Deiseb y diwygwyr oedd, yn gofyn am ganiatad i adeiladu temlau ac i addoli'n gyhoeddus, fel y gwelid eu cymeriad a'u gweithredoedd, ac na ddywedid mwy mai gwrthryfelwyr oeddynt. Nid oedd enwau dan y ddeiseb; ond, os gofynnid am danynt, yr oedd hanner can mil yn Normandi ei hun. "Ac mi gaf finnau gan mil," ebe Guise yn chwerw, "i ysgrifennu yn ei erbyn â'u gwaed."

Pan ddowd i drin diwygiad eglwysig, y cyntaf i siarad oedd Montluc, esgob Valence,—prelad mwyaf dysgedig a hyawdl ei oes. Un o gyfeillion Margaret o Valois oedd, yr oedd wedi gweled pob llys yn Ewrob, ac wedi cael mantais i gydmaru'r ddwy grefydd. Cyhuddasid ef droion o gydymdeimlad â'r diwygwyr, ac yr oedd wedi ceisio dysgu Calfiniaeth i Gatharine. Yn ei araeth cydmarodd waith a bywyd y diwygwyr gyda gwaith a bywyd y clerigwyr, a rhoddodd y bai am yr holl anhawsderau ar anfoesoldeb ac anwybodaeth gŵŷr eglwysig. Cymhellodd bawb i ddarllen y Beibl, ac i farnu drostynt eu hunain pwy oedd yn ei le. Ni arbedodd lys y brenin, dywedodd fod eisiau pregethu yno, ac y buasai salmau Marot yn llawer gwell na chaneuon masweddol morwynion y frenhines. Uwch law popeth, yr oedd yn rhaid wrth gyngor cenhedlaethol, i drin y cwestiwn yn deg. Pan dawodd Montluc, dywedai ei elynion ei fod wedi siarad yn llawer tebycach i bregethwr nac i esgob.

Ar ei ol wele'n codi archesgob Vienne, Marillac urddasol; yr oedd ei hynafiaid yn seneddwyr Rhufeinig, ac yn Babau selog dros lenyddiaeth a rhyddid, ac yr oedd yntau ei hun yn un o wladweinyddion goreu Ffrainc. Perchid ef gan bawb am ei wybodaeth ac am ei onestrwydd di-wyro, am ei fynych ymdrech dros anibyniaeth Eglwys Ffrainc. Cefnogodd Fontluc, gan wasgu'n drwm am gyngor cenhedlaethol. Yn y cyfamser, meddai, gorfoder y clerigwyr i fyw yn eu plwyfau, cyhoedder ympryd cyffredinol am bechod, a deued gweddiau a dagrau yn lle erlid. Ar ei ol yntau ail-gododd Coligni, i ofyn drachefn am demlau cyhoeddus i'r diwygwyr, hyd ddydd y cyngor.

Cododd Cardinal Lorraine. Ei gredo oedd erlid y diwygwyr â braich gref ac â chleddyf, a'i reswm am bob deddf greulon oedd "cydfradwriaeth Amboise." Ond, yng ngwyneb cryfder eu gwrthwynebwyr, — Catharine, Montmorenci, archesgob Vienne, a Choligni,—gorfod i deulu Guise addaw galw cyngor cenhedlaethol. Cyn i'r cyngor gyfarfod, ym mis Rhagfyr, yr oeddynt wedi penderfynu mai ychydig o'u gwrthwynebwyr fyddai'n fyw.

Ail ddechreuodd eu llywodraeth arswydus. Penderfynent ddinistrio'r pendefigion Calfiniaidd, trwy eu cyhuddo o gynllunio cyd-fradwriaeth Amboise. Tywysog Chabannois,—yr olaf o'i deulu, perthynas Condé a Choligni, un oedd wedi rhoddi ei gyfoeth diderfyn at wasanaeth ei wlad,—oedd y cyntaf i deimlo eu hergyd, a bu farw yn ddeunaw ar hugain oed wrth ddod o'u carchar. Yn fuan iawn yr oedd Condé yn yr un carchar, a gofynnai Lorraine paham y disgwylid i'w waed brenhinol arbed ei fywyd gwrthryfelgar. Erfyniodd Navarre am fywyd ei frawd; ond cafodd ei hun yn yr un carchar, wedi ei gondemnio am deyrnfradwriaeth, ac mewn ofn marw bob awr. Gwelodd Marillac anobaith ei wlad, a bu farw o dor calon.

Yr oedd y Diwygiad, mor bell ag y medrai neb weld, yn ymyl ei ddinistr. Yr oedd y brenin wedi tyngu y difodai ef. Yr oedd Condé yng ngharchar, Navarre yn disgwyl awr ei farwolaeth, a Choligni dan wyliadwriaeth gaeth yn Rouen. Nid oedd obaith o'r Cyngor y disgwyliesid cymaint oddiwrtho,—yr oedd Guise wedi sicrhau dwy ran o dair o'i aelodau, ac nid oedd neb i bleidleisio cyn arwyddnodi cyffes ffydd y Sorbonne. Ac yr oedd tri chadfridog didrugaredd, gyda byddin bob un, yn mynd a'r gyffes ffydd honno dros Ffrainc. Yr oedd yr erlidiwr wedi llwyddo ym mhob peth.

"Y Duw tragwyddol sy'n llywodraethu," ebe'r Calfiniaid ar y pumed o Ragfyr, pan glywsant fod y brenin ieuanc wedi marw, "wele'r cynlluniau a wnawd i'n dinistrio'n diflannu fel mŵg pan oeddynt ar lwyddo." Ac ebe hanesydd y Jesuitiaid,—"Tybiasom cin bod ar lwyddo, ond bu'r brenin farw, a newidiwyd yr olygfa, fel mewn chwareudy." "Gwn," meddai hanesydd Pabyddol oedd yn adnabod Condé, "gwn y buasai'r Calfiniaid wedi eu difodi oni bai i'r brenin farw. Pell o fedru rhoi byddin ar y maes, buasai raid iddynt erfyn bob yn un am bardwn. Ond pan oedd dynion wedi parotoi eu cynlluniau, danghosodd Duw mai arall oedd ei gynllun Ef. Daeth brenin newydd a brenhiniaeth newydd i Ffrainc."

Yr wyf yn teimlo'n anfoddlawn i dalfyrru hanes y Diwygiad yn Ffrainc, ac eto nid hoff gennyf wneyd yr un ystori'n rhy hir. Tybiais unwaith y doi'r ystori hon i derfyn gyda diwedd y drydedd gyfrol. Ond gwelais nas gellid gwneyd hynny heb wneyd cam a'r hanes. Ac yn lle gadael dim tra phwysig allan, penderfynais adael i hanes y Diwygiad hwn redeg trwy un gyfrol arall. Y mae cyflafan St. Bartholomew yn olygfa na ddylid ei hanghofio, y mae gan ddirywiad y Diwygwyr yn y rhyfel ei wersi i ni yn y dyddiau hyn. Nid oes dim mwy dyddorol ychwaith,—buddugoliaethau mab Sian o Navarre, cynlluniau Richelieu, gwarchae La Rochelle, bedd Rohan, anfadwaith Louis XIV., a dioddefiadau Eglwysi'r Anialwch.

Treiaf adrodd yr hanes mor ddi-duedd ag y medraf. Ni fynnwn wneyd cam ag Eglwys Rufen. Yn unig adroddaf yr hanes fel y cefais ef yn llygad y ffynnon

AELODAU SENEDDOL CYMRU.

VI. FFLINT.

JOHN HERBERT LEWIS.
(*O'r "Cymro"*).

Ganwyd John Herbert Lewis yn 1858. Mab ydyw i Enoch Lewis, Mostyn, a Mary Catharine, merch Plas Llangwyfair, sir Ddinbych. O ysgol Dinbych aeth i Brifysgol Montreal, ac o'ldiyno i Brifysgol Rhydychen. Ei goleg yn Rhydychen oedd Coleg Exeter Derbyniwyd ef yn gyfreithiwr yn 1882. Y mae mewn cysylltiad a masnach bwysicaf ein gwlad, fel perchennog llongau ac fel aelod o gwmni Lewis a Davies. Y mae'n Gymro, ac yn deall ei wlad. Gŵr o sir Fflint ydyw,—yno, yng Nghaerwys, y mae'n byw; y mae'n gadeirydd y Cyngor Sir, ac yn hedd-ynad. Ymrestra gyda'r aelodau Cymreig ieuainc brwdfrydig sy'n gwasanaethu Cymru yn yr adeg bwysig hon; ac y mae'r hwn a bleidleisiodd yn ei erbyn, fel yr hwn a bleidleisiodd drosto, yn credu yn ei degwch a'i onestrwydd. Yr oedd yn un o lywyddion Eisteddfod Genedlaethol 1892.

Bydd hanes byr am yr aelodau seneddol ereill yn rhifynnau y gyfrol nesaf. Ni ddywedir dim, y naill ffordd na'r llall, am eu gwleidyddiaeth, mwy nag o'r blaen Ceisiaf roi aelodau Gogledd a De bob yn ail.

Wedi eu rhoddi i gyd, daw cyfres o ddarluniau o Gymry enwog ar wasgar,—yn Lloegr, yn yr Alban, yn yr Amerig, ac ar hyd y byd.

HAF A GAUAF.

Na ddowch a llyfrau'r beirdd i mi,
Ar haf-ddydd gwyn blodeuog;
Gwell gennyf gwmni anian gu,
Na holl gyfrolau Ceiriog;
Mae Islwyn, Eben, Dewi Wyn,
Yn feirdd go anghyffredin,
Ond aiff awenau'r tri yn is
Na'm sylw 'n mis Mehefin.

Yn nhymor haf a llaw mewn llaw,
Y prydferth a'r arddunol,
Fel Tylwyth Têg i'n broydd ddaw,
I'w gwneuthur yn ddymunol;
O flaen gwyryfol degwch Mai
A'i cheinion anghydmarol,
Mae gwaith y beirdd yn mynd yn wyw
Yn ymyl anian hudol.

Pwllheli, Hydref, 1891.

Ond nis gall anian ddal o hyd
I foddio'r meddwl dynol;
Aiff cân yr adar mân yn fud,
A gwywa'r blodeu swynol;
Pan ddaw yr hydref wedi bod
Yng nghwlad yr ôd tragwyddol,
O'i ofn prysura pawb i'w dy,
O fynydd ac o faenol.

Ond fel mae golygfeydd yr haf,
Yn araf, araf wywo;
Mae cymdeithasau llen a chân
Yn araf yn blaguro;
Mae'r tymor haf yn awr yn hen,
Bron ar ei ddyddiau olaf;
A beirdd a llyfrau'n dechreu byw
I'm llonni hirnos gauaf.

Samuel Williams (Glandulyn).

CYMRY FU.

III. IOLO TREFALDWYN.

"Bydd ym mhob glyn, bryn, a bro,
Miloedd yn son am Iolo."

GWALLTER MECHAIN.

YMAE ambell i ardal neu gwmwd yn cynyrchu mwy o feirdd nag ardaloedd ereill, a rhai rhagorach o ran anianawd farddonol a galluoedd meddyliol cryfion ac hedegog. Hefyd y mae ambell i gymydogaeth nad oes i'w glywed o'i mewn ond beirdd a barddoniaeth yn barhaus; ac mewn mangre arall, ni chlywir dim byd ond canu a chantorion yn ddiddiwedd. Efallai fod hyn i'w briodoli i ddylanwadau y Cymdeithasau Cymreigyddol gynt, neu y mân Eisteddfodau a'r Cyfarfodydd Llenyddol presennol, neu yntau i ddiffyg llyfrau amrywiol yn y Gymraeg i greu awyddfryd yn y genedl i ymgydnabyddu â'r gwyddorau dysgedig. Modd bynnag, dyna ydyw y ffaith yn hanesion gwlad. Hwyrach y cyfyd rhyw symudiad arall cyn pen hir iawn, gan roddi cyfeiriad gwahanol i alluoedd meddyliol ein gwŷr ieuainc nes y bydd y pethau a enwyd yn cael sylw dyladwy ganddynt, ac y bydd Eifionnydd, Dolgellau, a "Mon Mam Cymru" yn enwog am eu celfyddydwyr, eu cerflunwyr a'u darganfyddwyr, yn hytrach nag am eu beirdd awenyddol a gorchestol. Dylanwada yr holl ysgolion elfennol ac uwchraddol yn fawr ar yr oesau sydd i ddod, yn feddyliol a chymdeithasol, a diau yr achosant gyfnewidiadau dirfawr yn y genedl Gymreig.

Ganwyd Edward Davies, Iolo Trefaldwyn, mewn amaethdy cyffredin a elwir Moel y Froches, rhyw dair milltir o Lanfyllin, ar y llaw aswy i'r ffordd yr eir i Lanrhaiadr ym Mochnant yng nghyfeiriad Tomen y Cenlloer. Perthynai y tyddyn, yr hwn oedd ganolig ran maint, i hen etifeddiaeth Wynnstay, a bu teulu Iolo yn trigiannu yn y lle am flynyddau lawer. Saif y ty, yr hwn sydd adeilad hen-afol, ar ochr gynnes yn gwynebu yr haul, a chwm rhamantus Nantfyllon o dano; ac ar ei gyfer yn unionsyth mae hen fynydd du Cefn y Brân, lle y cynhelid rhedegfeydd meirch enwog ar ei ben flynyddau maith yn ol, pan breswyliai arglwydd cyntaf Mostyn ym Modfach gerllaw. O'r tu ol iddo y mae y Cenlloer noethlwm a sâl, y rhanbarth mwyaf digynnyrch y gall dyn dremio arno un amser. Nid ydyw Moel y Froches yn rhyw lecyn barddonol iawn, a phrin y buasid yn disgwyl i fardd o fri godi o'r fath le, oherwydd nid oes dim yn y golygfeydd i danio neu swyno yr awen. Ystyrrid rhieni y bardd yn lled barchus yn y gymydogaeth, a hwy ydoedd yr aelodau cyntaf ymysg y Methodistiaid Calfinaidd yn Rhos y Brithdir. Meithrinwyd yr achos yn y Brithdir am flynyddau lawer gan y pregethwyr Owen ac Abraham Jones Aber-rhaiadr, yr olaf yn briod â chwaer Ann Griffiths, yr emynyddes enwog o Ddolwar Fechan. Ni chafodd Iolo ond ychyydig o fanteision addysg, oherwydd yr oedd ysgolion dyddiol y pryd hynny yn lled brin yn y wlad, a'r ffordd yn lled bell i yrru rhai ieuainc iawn iddynt. I Lanfyllin, i ysgol Morus Davies, fel y lle agosaf, a'r lle y cynhelid yr ysgol oreu, y cyrchai Iolo am ei addysgiaeth. Cynhaliai Mr. Davies ei ysgol yn hen gapel y Methodistiaid Calfinaidd, ac yr oedd ganddo liaws mawr o ysgolorion, a chafodd y wlad golled fawr ar ei ol pan roddodd ei oruchwyliaeth i fyny er mwyn myned yn ysgrifennydd i'r diweddar John Williams, cyfreithydd, Fawnog, brawd i Mr. D. Williams, Castell Deudraeth. Yr oedd Mr. Davies yn un o ysgolfeistriaid goreu ei oes. Cadwai ddisgyblaeth fanwl a phriodol yn ei ysgol, heb fod yn rhy lym nag yn rhy dyner. Cynyrchodd ei ysgol rifedi mawr o ysgolheigion rhagorol, a rhoddodd ddechreuad a symbyliad i un ieithwr enwog oedd yn gyfartal i Aberdaron Jones, sef Thomas Ellis o'r Amgueddfa Frytanaidd, ond yn enedigol o Lanfyllin. Nid oes ond myfi a rhyw nifer fechan yn fyw o'r rhai fynychai ysgol Morus Davies yn Llanfyllin. Ni wnaeth Iolo ryw lawer o gynnydd mewn dysgeidiaeth tra fu yn yr ysgol, oherwydd gorfod iddo ddychwelyd adref i lafurio ar y tir. Symudodd oddicartref i weithio i hen waith mwn Llangynog. Cof gennyf glywed am dano ei fod yn barddoni llawer fel Burns yn lled ieuanc wrth ddal yr aradr, a'i fod yn ysgrifennu ei feddyliau ar ddarnau o lechi yn y meusydd agored. Yr oedd cryn sylw yn cael ei dalu i lenyddiaeth Gymreig y pryd hynny yn ei ardal gan Robert Jones, mab y Parch. Owen Jones, Brithdir, yr hwn oedd yn ysgrifennwr mynych i'r grealon ar bynciau y dydd; hefyd Evan Pugh, Ieuan Doewon, Evan Breese, Ieuan Cadfan. Yr oedd y ddau olaf yn bregethwyr cynorthwyol gyda'r Wesleyaid, ac yn feirdd poblogaidd yn y mesurau caeth a rhydd. Cadwai Breese ysgol ddyddiol am rai blynyddau yng nghapel y Wesleyaid ym Mhenygarnedd, bron am yr Wydden a chartref Iolo. Diau fod a fynno y ddau fardd yma â'i hyfforddiant yn rheolau syml Dafydd ab Edmwnd. Tra yn Llangynog cyfeillachai gryn lawer â

John Evans, Ioan Maelor, yr hwn a gadwai ysgol am dymor yn y lle, ac yr oedd yn llenor da ac yn fardd coeth. Ysgrifennodd Maelor lawer i'r gwahanol gyhoeddiadau Cymreig, a chymerodd gryn ddyddordeb yn symudiadau llenyddol ei oes. Claddwyd ef yn Llangynog, ond nis gwn a oes maen yno heddyw i ddangos man fechan ei fedd. Aeth Iolo, ar ol ymglymu â thrafferthion y byd, i weithio i waith y Mwnglawdd, a bu yno am rai blynyddau yn lled gariadus ymysg ei gydweithwyr, y mwnwyr haelfrydig. Symudodd o'r Mwnglawdd i Birkenhead i fasnachu mewn glo. Nid oedd y bardd wedi ei eni i drin masnach o fath yn y byd. Yr oedd yn rhy feddal a llac yn ei ymwneyd â phethau bydol, ac i drin rhyw ddyryswch felly. Nid oedd ei anian yn y cyfeiriad hwnnw; gwell oedd ganddo drin y cynganeddion nag ymyrryd a phwyso glo wrth y cant i ryw hen wrageddos tafod-ddrwg nad oeddynt yn malio talu dimau'r delyn i neb byth ar ol cael y trysor du i'w hewinedd crebachlyd. Gadawodd Birkenhead, a daeth i fyw i dref henafol Gwrecsam. Bu yma am flynyddau lawer yng ngwasanaeth cyhoeddwyr llyfrau o'r Alban, yn myned oddi amgylch y siroedd i gasglu enwau at eu gwahanol weithydd, hyd nes rhoddodd angau derfyn ar ei fywyd crwydredig.

Dyna yn fyr gronicliad o'i yrfa helbulus; gwnaf sylw neu ddau ar ei gysylltiad â llenyddiaeth Gymreig a'r Eisteddfodau.

Ni ddigwyddodd imi erioed weled ysgrif neu draethawd galluog o'i waith yn yr un o'r cyhoeddiadau Cymreig, ac felly nid gwiw myned i'r cyfeiriad yna ar ei ol. Nid oedd y bardd yn rhyw hyddysg iawn mewn llenyddiaeth Gymreig na Saesneg, oherwydd nid oedd ond bwytawr bychan iawn ar lyfrau, ac felly yr oedd ei wybodaeth yn gyfyng ac arwynebol. Ofer fuasai ymddiddan ag ef am lenyddiaeth henafol. Oherwydd nid oedd, fel Cynddelw, wedi talu llawer o sylw i bethau felly. Efallai fod ei alwedigaeth yn ei rwystro i efrydu llyfrau lawer, pe buasai yn meddu tuedd gref at hynny. Nid oedd ganddo flas ar ddarllen llawer pan yn teithio yn barhaus o'r naill dref i'r llall, a hynny ar bob math o hin, a buasai raid iddo gludo ei lyfrgell i'w ganlyn. Modd bynnag, yr oedd Iolo yn lled hyddysg yng ngweithiau y beirdd diweddaraf, a gallai adrodd darnau o'u hawdlau ar dafod leferydd yn rhigl. Serch nad oedd yn gallu cael cyfleustra i ddarllen llawer o lyfrau ar ei deithiau, yr oedd yn medru cyfansoddi awdlau, englynion, a chaneuon yn ddiddiwedd; ac y mae llawer o'r rhai hynny yn wir dda, ac ambell i gân ac englyn yn benigamp. Yr oedd yn feistr trwy hir ymarfer ar y gynghanedd, fel nad oedd cyfansoddi yn y rheolau caethion ond trafferth fechan iddo. Diau mai ei bryddest, "Goleuni," ydyw ei gampwaith, gyda'r hon yr enillodd Gader y Gordifigion yn 1870. Dywed Nicander "ei bod yn ardderchog iawn, yn llawn o feddyliau mawrion wedi eu cyfleu mewn iaith goeth, ac mewn chwaeth o'r rhywogaeth fwyaf destlus a dillynwiw." Pe buasai Iolo heb gyfansoddi ond y dernyn yma, diau yr ystyrrid ef yn fardd rhagorol, ac yn feddyliwr dwfndreiddiol iawn. Cyhoeddodd bigion o'i ganeuon mewn cyfrol fechan, o bris swllt, flynyddau yn ol, a chlywais ef yn dwedyd fod y cyhoeddwr, Mr. Hughes, Gwrecsam, yn rhyw gwyno am nad oedd llawer o werthiant arni.

Nis gwn am neb oedd yn adwaen cynifer o feirdd ag ef, yr oedd yn gydnabyddus â'r frawdoliaeth farddol o Gaerdydd i ben Caergybi, ac ymddiddanai yn ddiddiwedd am danynt, ac am eu hymdrechion llenyddol, eto yr oeddwn yn blino ar ryw siarad felly o hyd.

Ni fu erioed Eisteddfodwr ffyddlonach nag Iolo, teithodd gannoedd o filldiroedd i wyliau yr hen sefydliad godidog. Ni chyfarfyddais yn un man â neb mor lawn o dân eisteddfodol ag ef. Ei ddiffygion mwyaf oedd canu gormod a darllen rhy ychydig. Yr oedd, fel y beirdd Celtaidd yn gyffredin, heb gymeryd hanner digon o ofal a thrafferth gyda'i gynyrchion barddonol, a thrwy hynny yr oedd yn aflwyddiannus yn ei ymdrechion eisteddfodol. Nid ydyw yr adar yn canu ar hyd y flwyddyn, y maent yn gorffwys am fisoedd; ond canai Iolo yn barhaus i bob cystadleuaeth, ac wrth wneuthur hynny, yr oedd yn gwanychu ei nerth yn ddirfawr, gan wneuthur cam dybryd â'i awen ddisglaer.

Daeth terfyn ar ei farddoni i'r eisteddfodau. Rhoddodd angau ei law oer arno, a syrthiodd yn gydmarol ieuanc i'r bedd. Yr oedd pawb yn bur hoff o'r bardd, ac yr oedd llawer iawn o ddiniweidrwydd yn ei ymarweddiad. Gallasech dreulio oriau lawer yn ei gwmni difyrrus heb glywed gair bychan yng nghefn neb yn dyfod o'i enau; yr oedd llawer o'r boneddwr yn ddo, a byddai bob amser yn goeth a gweddaidd yn ei ymadroddion. Teimlwn ryw wagder yn fy mywyd ar ol ei symudiad. Ni chlywir byth mwyach bennill nac englyn o'i enau, ehedodd ei ysbryd anfarwol fry i ganu awdlau a chywyddau mwy perffaith ar fesurau rhyddach a godidocach na chaeth fesurau Dafydd ab Edmwnd. Bydded heddwch i'w weddillion yng nghladdfa Gwrecsam, a gwlyched yr awen â'i dagrau yn fynych laswellt ir ei fedd.

Llangollen. HENRI MYLLIN.

WILLIAM EDWARDS YR EMYNNYDD.

III.

Y MAE Catherine Davies, yn ei mawr sel am i enw yr hen fardd fod mewn bri, yn rhoi pluen yn ei gap wedi ei chymeryd oddiar hen fardd arall a oesai ychydig o'i flaen. Ond chwareu teg iddi, cael ei chamarwain a ddarfu iddi wrth ddilyn casglwyr diofal Llyfrau Hymnau. Cyfeirio yr wyf at yr emyn,—

"Nis gallodd angau du,"

yr hon a eilw yn un o brif emynnau William Edwards. Y mae yr emyn yn cael ei phriodoli iddo ef yn llyfr hymnau y "Corff," ac yn "Emynnau y Cysegr" Gee. "W. E." sydd wrthi yn y ddau; ac yn y rhestr o Awdwyr, nid oes ond "William Edwards" ar gyfer "W. E." Y mae gennyf lyfryn a'i wyneb-ddalen fel y canlyn,—

"Ychydig o Hymnau, a Chaniadau newyddion ar amrywiol Achosion: Pa rai ni argraphwyd erioed o'r blaen. Gan Gwilym 'ab Elis.—Sal. cxvi. 17. Aberthaf i ti aberth Moliant. Trefecca: Argraphwyd, tros yr Awdwr, yn y Flwyddyn MDCCLXXXVI."

Y mae hymn xvii "Am gael myned i'r bedd oherwydd i Grist fod yno"; a'r emyn hwn ydyw, ond fod y penillion wedi eu cyfleu yn wahanol. Darllenner yr emyn yn y ddau lyfr a nodwyd yn ol y rhif, a cheir lleoliad pob un fel y mae yn wreiddiol, 3, 2, 1, 6, 4, 5. Nis gwn ddydd genedigaeth W. Edwards; ond yr wyf o'r farn nad oedd ef yn ddigon hen i fod yn awdwr i'r emyn. Yr un yw yr awdwr a'r "dyn tlawd a elwir William Ellis" yr argraffwyd hymnau Edward Parry Brynbugad a William Evans o'r Fedwarian drosto, "trwy ganiadhâd y Brodyr Ynghymanfa Caerwys"; yr hwn hefyd a gyhoeddodd "Hymnau Gan William Ellis," tua'r un adeg. Dyna ddau yn cydweithio y buasai "W. E." yn gwneyd y tro i'w dynodi,—William Evans a William Ellis. Ond yr oedd W. Edwards ychydig yn ddiweddarach. A oes neb o'ch gohebwyr all ddweyd dim am W. Ellis? Yr oedd y diweddar Morris Davies yn chwilotwr manwl, ond dywed ef (*Traethodydd* 1874, 427),—"Am y dyn tlawd William Ellis, nid oes gennym ddim gwybodaeth, ond yr ydym yn rhyw frith dybied mai yr un ydoedd a Gwilym ab Ellis, awdwr yr emyn boblogaidd—

'Nis gallodd angau du ddal Iesu'n gaeth
Ddim hwy na'r trydydd dydd, yn rhydd y daeth, &c.'

Y mae y cyfnewidwyr wedi gadael eu hol er gwell ar yr emyn. Ond ni flinaf chwi yn hwy ar hyn o bryd, gan mai fy amcan ydoedd cywiro y camgymeriad am *awduriaeth* yr emyn. Diolchwn i Catherine Davies am ddyddiad genedigaeth a marwolaeth W. Edwards.

LLOFFWR.

RHAN O ESAIA.

ESAIAH XI 1—9.

O FONCYFF Jesse isel radd
Daw allan y Messeia;
Y Blagur hefyd dyf o'i wraidd
Mewn heddwch a deyrnasa.

Yr Ysbryd orffwys arno ef,
Mewn deall a doethineb,—
Yn ysbryd cyngor, ysbryd nerth,
Gwybodaeth a duwioldeb.

Yr Ysbryd hefyd fywioca
Ei ddeall ef yn amlwg;
Ac ni cherydda wrth ei glyw,
Na'i farn fydd wrth ei olwg.

Fe argyhoedda dros y mwyn,
A'r tlodion farna'n gywir,
Dedfryda'r euog, ac â'i ffun
Y lladd efe yr anwir.

Yn rhin ei swydd cyfiawnder glân
Fydd gwregys hardd ei lwynau;
Ffyddlondeb perffaith, yn ei waith,
Fydd gwregys ei arennau.

Y llewpard orwedd gyda'r mynn,
A'r blaidd a'r oen gyd-driga;
Y llo a chenaw y llew ynghyd,
A bachgen a'u tywysa.

Y fuwch a'r arth a bawr ynghyd,
Eu llydnod gyd-orwedda;
Y llew fel ych, mor ryfedd hyn,
Yn dawel gwellt a bora.

A'r plentyn sugno chwery'n llon
Wrth dwll yr asp wenwynllyd;
A'r hwn ddiddyfnwyd rydd ei law
Ar ffau y wiber hefyd.

Ni ddrygant, ni ddifethant yn
Holl fynydd fy sancteiddrwydd;
Can's yr holl ddaear a fydd llawn
Gwybodaeth am yr Arglwydd.

Llanfihangel Glyn Myfyr.

MAIR ALWEN.

CYMRU SYDD.

S. Rees *(Alaw Trefor)*,
Trebooth.

Doh C. *Yn wrol a lywiog.* Doh G.



Doh C.



Cydgan.





II.

Penderfynwn sefyll fel y dur,
Dros ei iawderau'n mhob man;
Ac esgyn grisiau rhinwedd pur,
Fo nod pob Cymro gwaed coch cyfan.
Tra tw'no seren yn y nen,
Yn uwch, uwch, uwch, eled Cymru wen.

III.

Oes y byd i'r iaith Gymraeg a chân,
A Thelyn anwyl Cymru;
A'r hen alawon llawn o dân,
O oes i oes fo'n cael eu canu.
Tra tw'no seren yn y nen,
Yn uwch, uwch, uwch, eled Cymru wen.



MYFYRGELL DR. HERBER EVANS.

GOLYGYDDION CYMRU.

III. GOLYGYDD "Y DYSGEDYDD."

Y MAE'R Anibynwyr yng Nghymru, yn odid yr un enwad, wedi eu breintio â llu o olygyddion campus. Heb son am yr hen rai, y mae llawer o olygwyr byw yn dod i'm meddwl, — Bowen-Jones, Watcyn Wyn, Elfed, Keinion Thomas yn eu mysg. Ie, dyna Eifionnydd hefyd, er na fedd hyawdledd barddonol eu hysgrifbinnau hwy, wedi rhoddi i'r byd ddeg cyfrol o weithiau "llenorion goreu'r genedl," chwedl yntau. Ac os dechreuaf son am yr hen olygyddion,—pe buasai dim ond Cadwaladr Jones, S. R., ac Ap Vychan,—pa bryd, tybed, y medrwn dewi?

Ymysg y golygyddion hyn, fel ymysg ei gyd-bregethwyr, y mae Dr. Herber Evans yn dywysog. Yn wir, yr wyf yn tybied fod ei ddylanwad ar olygwyr yn gymaint ag ydyw ar bregethwyr; y mae ei erthyglau eneiniog yn y *Dysgedydd* wedi dangos fod brwdfrydedd crefyddol a choethder llenyddol yn adlewyrchu prydferthwch eu gilydd. Yr ysbryd newydd ydyw ysbryd y *Dysgedydd*, yr ysbryd sydd yn credu fod Crist eto yng Nghymru, yn llawnach o gydymdeimlad â phechadur nag erioed. Ysbryd gobaith ydyw, yn gweled fod Iesu yn llond pob yfory a fod dydd dedwydd yn gwawrio o hyd ar wlad y bryniau.

Y mae pob rhifyn o'r hen *Ddysgedydd* yn ddyddorol, ond y mae'n well yn y blynyddoedd diweddaf hyd yn nod nag yn ei flynyddoedd cyntaf. Yn 1874 cymerodd dau olygydd newydd le yr "Hen Olygydd." O'r ddau hyn yr oedd Ap Vychan yn cynrychioli hen dduwinyddiaeth Llanuwchllyn wedi ei chyfuno ag athrylith bardd, ac yr oedd Herber Evans yn cynrychioli bywyd newydd ei ganrif ei hun, yn holl amrywiaeth deffroad ei mheddwl. Yn 1880 bu Ap Vychan farw, ac oddiar hynny y mae'r olygyddiaeth i gyd ar ysgwyddau llydain Herber Evans.

Er 1874 y mae derbynwyr y *Dysgedydd* ymron wedi treblu. Y mae hyn yn beth y gall y Golygydd ymffrostio ynddo, hyd yn nod yn nyddiau y campau golygyddol sydd ar bob llaw. Yr oedd y *Dysgedydd* yn anwyl i Anibynwyr yn nyddiau Cadwaladr Jones, a gallesid meddwl fod ei derfynau yn derfynau eithaf; ond y mae'n ennill broydd newyddion o hyd.

Yr un yw dirgelwch ei lwyddiant a dirgelwch llwyddiant pregethu ei olygydd. Cred hwn na raid i ddynion, ac na ddylent, wrando ar bregethau neu ddarllen erthyglau "o ran dyledswydd." Pregether fel y rhaid iddynt wrando, ysgrifenner fel y denir hwy i ddarllen. Ysgrifenner, chwedl Sidney, fel y daw'r hen wŷr o dywyllwch cornel y simddeu i ddarllen, ac fel y gedy plant eu chwareu. "Dyma gylchgrawn i'w dderbyn oddiar deimlad o ddyledswydd" meddir am lawer un; na, dyweder yn hytrach,—"Y

drugaredd fwyaf a hwn fyddai gadael iddo farw; creulondeb ydyw gwneyd iddo lurgunio byw."

Y mae hudoliaeth yn ysgrifau golygydd y *Dysgedydd*,—mor ddedwydd y teimlasom wrth ddarllen llawer un, ac mor barod i ddweyd fod llawer iawn o dda yn y byd wedi'r cyfan! Y mae'r teimlad dwys a'r melusder iaith sy'n gwneyd hyawdledd y pregethwr hwn yn anorchfygol weithiau,—y mae adlais o hono, a'i dinc, yn ei ysgrifau. Dywed rhai na fedr yr un dyn ysgrifennu a siarad yn dda; y mae y rhai hynny'n methu. Y mae yr un reddf lenyddol a'r un ystor o wybodaeth sydd mor amlwg ym mhregethau y golygydd, yr un gydnabyddiaeth â hanes ac â bywyd, yn dod i'r golwg yn y *Dysgedydd* hefyd.

Nid heb lafur ac nid heb ddioddef y mae Dr. Herber Evans wedi ennill ei allu. "Ychydig sy'n gwybod," ebe Charles Miall, "am lafur pregethwr poblogaidd. Ac nid yw Dr. Evans wedi medru dianc rhag y gosb. Dywedwyd fod holl Gymru'n blwy iddo, ac ni chynyrchodd Cymru neb sydd wedi pregethu mor aml yn y ddwy iaith, ac mor dderbyniol. Y mae ei ddull o bregethu yn ddull iddo ei hun. Medd holl danbeidrwydd yr hen bregethwyr Cymreig, ond y mae holl bynciau'r dydd hefyd yn rhoi addasrwydd a newydd-deb i'w bregethu. Y mae cymaint o alwad am dano i'r ddarlithfa ag i'r pulpud. Gannoedd o weithiau traethodd ar wŷr fel Cromwell a Livingstone, ac wrth fodd gwŷr ieuainc ei wlad. A rhyw sut neu gilydd, cafodd amser am ugain mlynedd i olygu'r *Dysgedydd*." Yna dywedir am ei waith fel athraw, ac fel y torrodd ei iechyd i lawr unwaith dan bwys ei waith. Ond y mae'r cwbl,—y llafur, y profiad, y pregethu, yr ofni, —wedi rhoddi eneiniad a dylanwad deimlir mewn llawer nodyn yn yr erthyglau aml.

Y tro olaf y clywais ef yn pregethu oedd i fyfyrwyr Rhydychen, newydd fod yn pregethu i fyfyrwyr Caer Grawnt; ac wrth wrando, daeth i'm cof ddarluniad golygydd y *Daily News* o'i neges,—"Eglwys farw, allor heb dân, corff heb enaid, yn ol dysgeidiaeth Dr. Evans, yw'r heresi waethaf. Gellir bwrw allan gythreuliaid os bydd Crist ynnom. Bydolrwydd ydyw melldith ein hoes; gellir gwella'r afiechyd drwy fynnu bywyd ysbrydol cryfach. Pan fo'r tân dwyfol yn goleuo yn Eglwys Crist, daw rhai oddiallan pe yn unig ond i ymdwymno." Y mae golygydd y *Dysgedydd* wedi gwneyd llawer i ddangos gwerth bywyd ysbrydol, ac i ddysgu bechgyn Cymru mai'r heresi waethaf ydyw gofalu am y corff heb ddiwyllio'r meddwl.

CYWYDD YR ALARCH.

(*O lawysgrif Edward Llwyd*).

YR alarch ar ei wiw-lyn,
Abid galch fel abad gwyn,
Llewych eda y lluwch ydwyd,
Lliw gŵr o Nef llaw-grwn wyd.

Dwys iawn yw dy wasanaeth,
Hyfryd yw dy febyd facth;
Duw a roes it, yn yr oes hon,
Feddiant ar lyn y faddon;
Dau feddiant, rhag dy foddi,
O radau teg a roed i ti,—
Cael bod yn ben bysgodwr,
Llyna ddawn uwch llyn o ddŵr!
Hedeg ym mhell a elli,
Uwchlaw y fron uchel fry,
Ac edrych, edn gwych gwâr,
I ddeall clawr y ddaear;
A gwilio fod ar gwaelod,
A rhwyfo'r aig, rhif yr od;
Gwaith teg yw marchogaeth ton,
I ragod pysg o'r eigion;
Dy enwair, wr di anardd,
Yn wir yw'r mwnwgl hir hardd;
Ceidwad goruwch llygad llyn,
Cyfliwiaidd cofl o ewyn;
Gorwyn wyd, uwch geirw nant,
Mewn crys o liw maen crisiant;
Dwbled fel mil o'r lili,
Wasgod teg a wisgid ti;
Siaced o ros gwyn it sydd,
A gown o flodau'r gwynwydd
Cannaid ar adar ydwyd
Ceiliog o Nef, dôg-wyn wyd.

Gwrando f'achwyn, addfwyn wr,
N' wrthyd, a bydd im nerthwr,—
Merch fonheddig sy'n trigaw,
A gwawr dlos, sy gar dy law;
Brysia dithau, gorau gŵr,
Wyn i gesail, negeswr,
Nofia'n rhwydd, ni'th luddir,
A dos i Gemais i dir.

Deled i'th gof ei gofyn,
Deuliw'r lloer o Dal y Llyn;
Henw'r ferch a anerchir,
Hyn yn wawd yw ei henw'n wir,—
U sy fry, hy hoywen,
A thair P, ag Y ac N;
Cyrch yn araf i ystafell,
Cyfarch o'th ben i Wen well;
Add fy nolur iddi,
A maint yw fy amwynt i;
Dwg imi, dig wyf am Wen,
Wr lliwys, eiriau llawen;
Duw i'th gadw rhag pob adwyth
Teg ei ben, ti a gai ei bwyth.

D. AB G.

HEN YSGOLFEISTRI CYMRU.

III. MORUS GRUFFYDD, LLANLLECHID.

MORUS GRUFFYDD ydoedd ei enw bedydd, ond yr "Hen Sgŵl" ei gelwid gan ei gyfoedion a phawb yn ei fro enedigol; a hynny nid o anfri, ond o glod a pharch.

Mab ydoedd i Gruffydd ab Morus ab Hywel, o'r Carneddi. Yr oedd ei daid Morus ab Hywel yn fardd ac ysgolor gwlad pur lew. Yr oedd ganddo lyfr helaeth o weithiau yr hen feirdd a'i gyfansoddiadau ei hunan, a elwid yn Nanmor wrth yr enw hynod "Y Barcud Mawr." Gwelodd yr hynafiaethydd Gruffydd Prisiart, Beddgelert, ef; aeth Morus, "Yr Hen Sgŵl,"—ag ef oddiyma i Lanllechid, lle y cymerodd ei aden. Rhyfedd yr enwau awgrymiadol fyddai hen fechgyn y cyfnod yn eu rhoddi ar eu llyfrau ysgrif,—megis "Y Delyn Ledr" gan William Morus, "Y Piser Hir" gan Ddafydd Ellis, ac ereill.

Wele yr hyn sydd ar garreg fedd Morus ab Hywel ym Mynwent Beddgelert,—

"Morus Powell, Carneddi, a fu farw 1762, yn 63 mlwydd oed."

Gwahaniaethir yng nghofnodlyfr y plwyf,—

"Maurice ab Howel, Carneddi, buried November 11th, 1761."

Yr oedd gan Morus Gruffydd dri brawd, sef y bardd Hywel Gruffydd, Beddgelert,—gweithiau yr hwn sydd wrth fy llaw,—Richard Gruffydd, a agorodd ei dy i sefydlu yr Ysgol Sabothol gyntaf yn yr ardal,—*M.S.* yr ysgol ar gael,—a Robert Gruffydd, yr hwn a fu byw yn ei gartref ar hyd ei oes. Nodweddid yr oll gan grefyddolder diamheuol,—a hwy, yn bennaf, a chwythodd dân ysbrydol "Diwygiad Mawr Beddgelert." Eglwyswr i'r carn ydoedd Morus, wedi ei arwain felly yn ddilys gan amgylchiadau; er hynny yr oedd y cariad dyfnaf cydrhwng y brodyr.

O berthynas i addysg Morus Gruffydd, dywedir na chafodd ddiwrnod o ysgol erioed, ac agorwyd ei feddwl i ddechreu dysgu mewn modd hynod. Daliai ei dad dir gan Anwyliaid Dolfriog, ac elai y bachgen yno i gyrchu y gwartheg ac i wneuthur mân negeseuon. Daeth yn gyfaill mawr â'r mab, a hwnnw rywsut yng nghwrs eu cyfeillach a' rhoddodd ar ben y ffordd, gan roddi menthyg llyfrau Saesneg iddo. Gresyn i'r bachgen hwnnw fyned yn fab afradlon.

Dirfawr ydoedd anfanteision Morus; ni wyddai ei gyfoedion, na neb bron trwy yr ardal, ond tri gair o'r "iaith ddiarth," sef *yes*, *no*, a *sir*.

Yr oedd ganddo benderfyniad di-ildio. Dysgai ysgrifennu a "chownsio" wrth geibio ac arloesi tir, wrth dorri mawn, a bugeilio defaid hyd ochrau Moel Dynewid, a hynny pan yn lâs hogyn. Wedi dechreu cael pen y ffordd rhoddodd gamrau breision ymlaen, gan hunan-ymberffeithio mewn addysg, nes y daeth gwŷr y fro i deimlo ei fod yn "ddyn rhyfedd," gan heidio ato am gymwynas o wneyd ewyllysiau, ysgrifennu biliau a llythyrau, a thrin pob mater o bwys, ac edrychent i fyny ato fel gŵr yn cyflawni gwyrthiau.

Dyna reol y cyfnod,—os y gallai rhywun "sgwrsio" neu "sgwennu Saesnag," byddai yn "sglaig ofnadwy," ac yn gallu "codi cythreuliaid!"

Yn bur fuan aeth Hugh Anwyl, Ysw., Dolfriog, yn fethdalwr; gan symud oddiyno i fyw. Y mae arwyddfwrdd yn eglwys y plwyf,—"Mr. Hugh Anwyl, late of Dolfriog, died at Melen Rhyd bâch, Maentwrog, buried here January 16th, 1826. Aged 90 years." Am ysbaid, ni thrigiannai neb ym mhalasdy Dolfriog, a chafodd yr ardalwyr ganiatad i fyned i gadw nosweithiau llawen mewn ystafell helaeth a elwid yn "barlwr cerrig y Ddôl," am mai cerrig ydoedd ei lawr.

Yn y cyfamser ymgynghorwyd i Morus Gruffydd fyned yno i gadw ysgol, a'r ardalwyr i roddi rhyw gydnabyddiaeth iddo am ei lafur. Yno y bu yn ceisio darbwyllo ychydig ar fechgyn direidus y fro, trwy ddysgu iddynt ysgrifennu eu henwau, ar lechau o gerrig wedi eu llyfnhau ar y maen llifo, a phenseli o gerrig meddalion wedi eu naddu â chyllill, gyda thwll yn un pen a llinyn i'w sicrhau am eu gwddf. Dyna, meddir, offerynau cychwyniad addysg coleg gwych "parlwr cerrig y Ddôl." Gwelais un o'r penseli hyn amryw flynyddau yn ol, ynghyda darn o blanc, ac arno y wyddor Saesneg wedi ei lliwio â rhyw wlybyr du, gan law bur anghelfydd. Gresyn na cheid gafael arnynt yn awr i'w trosglwyddo i Goleg y Gogledd ym Mangor Fawr yn Arfon.

Fe'm hysbyswyd gan henafgwr cofus na byddai Morus Gruffydd byth yn ceisio cyfrannu addysg i benglogau y bechgyn afreolus oedd dan ei ofal drwy oruchwyliaeth galed y wialen a'r ffon; ond byddai ei ledneisrwydd yn eu denu i'w garu, a pharhaodd y cariad hyd wahaniad angau. Gellir crybwyll yn

awr am danynt oll yng ngeiriau Ieuan Glan Geirionnydd am ysgolheigion Ysgol Rad Llanrwst,—

"Pa le pa fodd mae heddyw,
Y lluaws yma fu,
'N cyd-chwareu a chyd-ddysgu
A chyd-ymgomnio'n gu?"

Distawrwydd y fynwent a etyb pa le y maent,—

"Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y ddallhuan."

Nis gwn ym mha flwyddyn y terfynodd tymor addysg hen ysgol "y parlwr cerrig," ond dywedir mai yn 1802 y dechreuodd Morus Gruffydd gadw ysgol yn eglwys Llanllechid. Diameu fod ei enw a'i allu yn hysbys cyn y gallasai gael ei ethol i'r cyfryw le.

Rhyw dair blynedd yn ol gwnaethum ymholiad yn y *Gwalia*, ar i rywun o hen breswylwyr Llanllechid roddi i mi yr hyn a wyddent yn ei gylch. Wele'r atebion dyddorus; a'r cyntaf gan Mr. S. Davies, Water Street, Llanllechid,—

"Gwelais barhad o'ch ysgrif yn y *Gwalia* am y 7fed cyfisol, yn yr hon y crybwyllwch am M. Gruffydd, ysgolfeistr, Llanllechid, hen gymeriad a adwaenwn yn dda pan yn fachgen. Yr oedd eich crybwylliad am dano yn dod a llu o adgofion boreu oes i fy meddwl. Nid wyf yn ei gofio yn cadw ysgol, ond yr wyf yn cofio yn dda fel y byddai yn dyfod ar ei dro i ymweled â'r Ysgol Genedlaethol yn 'Rachub, ac yn rhoddi cynghorion da i'r plant yno. Yr oedd fy nain, Mary Hughes, Llanllechid, ac yntau yn gydnabyddus iawn â'u gilydd, y ddau agos yr un oed, wedi eu magu yn agos i'w gilydd ym Meddgelert. Yr oedd fy nain yn byw o fewn ergyd carreg i borth mynwent Llanllechid, a'r ysgolfeistr yn lletya gydag un Ellen Thomas, mewn hen dy mawr hen ffasiwn, yn union gyferbyn a phen dwyreiniol yr eglwys, dim ond lled y ffordd rhyngddo â'r fynwent; hen garreg-farch a grisiau i fyned i'w phen wrth dalcen y ty, a hen *stocks* lle y byddid yn rhoddi drwg-weithredwyr ychydig yn uwch i fyny, gyferbyn a phorth y fynwent. Llawer gwaith y bum yn chwareu o gwmpas yr hen *stocks*, a byddai Morus Gruffydd yn dyfod heibio ambell dro, ac yn dangos i ni pa fodd y byddent yn rhwymo y drwg-weithredwyr gyda chadwen, a'u traed trwy rhyw dwll oedd yn y *stocks*. Byddem yn arswydo wrth ei glywed yn dweyd fel y byddai raid iddynt aros yno drwy'r nos gyferbyn a phorth y fynwent.

"Ychydig iawn o hen ysgolheigion M. Gruffydd sydd ar gael, ac yr wyf yn meddwl na bu Eos Llechid dan ei athrawiaeth, am ei fod yn rhy ieuanc.

"Un o'm hadgofion i am dano ydyw fel y byddai yn parotoi ei fedd ei hun. Byddai yn dymuno cael ei gladdu wrth ochr y Parch. Roberts [Yr Hen Berson Mawr, fel ei gelwid]. Yr oedd yn y fan honno garreg fawr iawn, a byddai yr hen ysgolfeistr yn arloesi y lle, ac yn saethu y garreg ei hun, rhyw blwe yn awr ac eilwaith, er mwyn cael lle cyfleus i dorri ei fedd; ac wrth gwrs, byddem ninnau, hogiau y pentref, yno gydag ef, yn fusnes i gyd. Byddai yntau yn darlunio i ni sut fedd a fyddai am wneyd, a sut waith fyddai oddimewn iddo, a hynny yn llawen a hollol ddidaro. Clywais ei fod wedi bwriadu dod a'i arch i'w ystafell wely, flynyddoedd cyn iddo farw, ond fod yr hen Ellen Thomas wedi gomedd iddo. Nid ydwyf yn sicr a ydyw hynny yn wirionedd. Hefyd, clywais mai efe ei hun a dorrodd ar ei garreg fedd y cwbl ond y flwyddyn a'r dydd o'r mis; ond nid wyf yn sicr o hynny chwaith. Dyma yr hyn sydd wedi ei dorri ar ei garreg fedd,—

'Yma y claddwyd Morris, mab Griffith Morris, ffarmwr, o'r Carneddi, Beddgelert. Bu farw Mehefin 1, 1845, yn 82 oed. Bu yn ysgolfeistr am 30 mlynedd yn Llanllechid.

'Paid a'm bedd, gad i mi lonydd
O'r lle na wasgerer fy llwch,'

"Un peth arall wyf yn ei gofio yn dda ydyw, fod amryw o fechgyn y pentref yn chwareu yn y fynwent ar ddydd Llun y Sulgwyn, nid llawer cyn marwolaeth yr hen ysgolfeistr, bod rhai o honynt wedi dringo i'r goeden ywen fawr sydd yno i dynnu nythod oddiar y to, a bod un o'r bechgyn wedi sylwi ar rywbeth wrth fon y goeden. Disgynnodd i edrych beth ydoedd; ac er ei syndod, beth oedd ond wyth sofren yn bentwr taclus ar eu gilydd. Daethpwyd i'r penderfyniad yn y fan mai M. Gruffydd oedd wedi eu colli, oherwydd mai lludw o lofft yr hen glochdy, lle byddai M. Gruffydd yn ysgrifennu y pethau perthynol i'r plwyf, oedd yn y domen wrth fon y goeden. Aeth tad y bachgen a'r arian at yr ysgolfeistr, a dywedodd yr amgylchiadau. 'Wel,' ebe'r hen wr, 'yr wyf yn cofio yn dda eu colli, ac i mi chwilio llawer am danynt ar y pryd, ond nis gallaf eu tyngu. Gadewch i'r bechgyn eu cymeryd.' Fe drowyd y domen honno bob llwchyn, hyd at y suntur braidd, ar ol hynny. Yr oedd yr hen wr yn glaf yn ei wely yr adeg honno, ac ni bu fyw yn hir wedi hynny. Bum gyda fy nhad rai gweithiau yn edrych am dano pan yn ei salwch olaf, a byddai y ddau yn son am grefydd a phethau byd arall. Yr wyf yn cofio yn dda y byddai yr hen Gristion yn hynod o hyderus.

"Am weithiau barddonol M. Gruffydd, nid wyf yn gwybod ond y nesaf peth i ddim. Yr oll wyf fi yn allu gofio ydyw y llinellau canlynol o garol Nadolig o'i waith,—

'Dydd Nadolig uchel wyliau
Codwch allan o'r cornelau,
I'r eglwysydd a'r capelau
I wrando'r gair a chanu Salmau,
Bendith Duw fel gwlith y borau
Yn ddagrau gloewon ar eich gruddiau!'

"Nid wyf yn gwybod dim am y Barcud Mawr. Ymgymerais ag ysgrifennu hyn o linellau rhag ofn na wnai neb arall."

Yn ail, rhoddaf ddyfyniadau o ysgrif y cerddor Eos Llechid, sef y Parch. O. Davies, rheithor y Rhiw, Lleyn,—

"Y mae gennyf gof da am Morus Gruffydd, hen ysgolfeistr, Llanllechid. Lletyai gyda hen wreigen o'r enw Ellen Thomas, ac mi gredaf ei bod o'r un teulu ag ef. Yr oeddwn yn rhy ifanc i'w gofio yn cadw ysgol, ac i ddal ar ei ddywediadau. Yr oedd yn hen ysgolor gwych, a gadawodd ei ol ar rai tra adnabyddus i mi, yn y rhan rifyddol o'r addysg a gyfrannai. Yr oedd wedi torri ar garreg ei fedd [ond y dyddiad] ymhell cyn marw, ac, os da y cofiaf, mae'r ddwy linell fel hyn,—

'Paid a'm bedd, gad im' lonyddwch,
O'r lle na wasgarer fy llwch.'

Clywais lawer o ddywediadau rhyfedd am dano. Rhoddodd bum punt i dlodion Llanllechid, a'r llog i'w roddi iddynt. Credaf iddo ddechreu cadw ysgol yn eglwys Llanllechid oddeutu'r flwyddyn 1802, sef ar ol Owen Jones o'r Winllan."

Gwelir mai cymeriad pur neillduol oedd fy hen ewythr. Yr oedd yn hynod o ddarbodus a chynnil, os nad yn rhyw fath o "gyb." Casglodd gryn swm o arian, y rhai a roddai yn fenthyg i weilch, a'r rhai hynny yn gwneyd gwag-esgusion, ac yn ei dwyllo. Dyna beth ydyw bod yn hen lanc,—pawb yn rhoddi eu bysedd yn ei lygaid, a phawb a dau ddisgwyliad mawr yn arwain i'r un man yn ei gylch, sef disgwyl cael ei le, a disgwyl cael ei arian. Cafodd fy nhad, yr hwn oedd ar ei enw, liaws mawr o'i lyfrau, beth bynnag am ddim arall. Y mae amryw ar gael gennyf finnau yn awr, a'r hynaf ydyw llyfr bychan Lladin, sef "Ymddiddanion Erasmus."*

Fe'm hysbyswyd gan hen fodryb ychydig cyn iddi farw, iddi fod yn yr ysgol gyda Morus yn Llanllechid, ac hefyd iddi weled ei garreg fedd,—i selio yr hyn a grybwyllwyd, yn Nhy'n llan,—ty Ellen Thomas, a phopeth arni ond y flwyddyn, y dydd o'r mis, a'i oedran. Byddai yn prydyddu yn wastad, meddai, yn llofft yr hen eglwys, y fan lle cadwai ei ysgol. Ysgrifennais yr hyn a gofiai ar y pryd, o'r hyn a gyfansoddodd i'w boddio hi tra yn ieuanc.

Y SALM GYNTAF.

Mae'r Salmydd doeth yn dweyd'yn wiw
I ddynion rodio'n llwybrau Duw,
A gochel ffyrdd y gelyn drwg,
Sy'n arwain tua'r tân a'r mwg.

Os rhown ein meddwl nos a dydd
Ar gyfraith Duw, a byw trwy ffydd,
Fe fyddwn fel helygen ir,
A dyf ar lan y ffrydlif glir.

Blodeuo wna yn hardd mewn pryd,
O'i gwraidd i'w brig yn ffrwyth i gyd,
Ei ddalen nid a byth yn wyw
Tra'n yfed nodd o'r dyfroedd byw.

Nid felly bydd y rhai di-ras,
Ond fel yr us a'r efrau cas,
Yn cael eu chwalu gyda'r gwynt,
I'r llyn i'w llosgi ar eu hynt.

Duw edwyn ffordd y duwiol rai,
Ond ffordd yr annuw byth ni sai;
Ymlwybrwn oll rhag poen a chur,
Nes cyrraedd bro Caersalem bur.

Ar ddechreu hen Feibl drylliog,—Beibl Peter Williams,—yn perthyn i'w frawd Robert, ceir y pennill a ganlyn,—

"Dyma lyfr sy'n well na'r mel
I'r dyn a wnel ddaioni;
Y mae'n rhagorach nag aur coeth
I'r dduwiol ddoeth i'w hoffi."

Nid teg barnu ei farddoniaeth oddiwrth y rhain, gan nad ydynt ond rhywbeth o'i waith a fedrem gael. Balch fuaswn o gael gafael ar ei lyfrau ysgrif. Efe fyddai yn arfer ysgrifennu cyfansoddiadau ei frawd Hywel Gruffydd, gan nas gallai "Hwlyn," chwedl yntau, "ond darlunio traed brain," ac ychwanegai mai Hwlyn fyddai'n aredig ac yntau yn llyfnu. Gwelir ei lawysgrif liaws o weithiau yng Nghofnodlyfr festri y plwyf hwn, tra y byddai ar ymweliad a chartref,—llawysgrif fras, eglur. Mewn Beibl mawr o'i eiddo,—Beibl Clarke,—y mae wedi ysgrifennu amryfal gofonodion, ac nid anyddorol yw dyfynnu ychydig o honynt. Sicr y bydd rhywrai yn falch o'u darllen,—

"Er coffadwriaeth am Griffith Morris Powell, o'r Carneddi, Nanmor, Beddgelert, tad Morris Griffith, Schoolmaster, Llanllechid, yr hwn a fu farw yr 28ain dydd o fis Mawrth 1817. Oed 77.

Ellin Edmund ei wraig, a fu farw Chwef. 15fed, 1822, oddeutu 88 oed.—*Wyf M. Griffith.*"

"The Rev Sir Rowland Hill died April 11th 1833, aged 89 years, adjoining Chapel Little, Charlotte-street, Blackfriars. He passed 63 years in the Ministry."

"Y Parch John Elias a fu farw yr 8fed dydd o fis Mehefin 1841 yn 68 mlwydd oed."

"Owen Jones, Brynllan-rug, died October 9th 1824, aged 72."

"Sionad Griffith, Capel Silo, Llandegai, buried November 184?, aged 34.—*M. G*"

"O boed i'm corph gael tawel hedd—
Na boed agoriad byth i'm bedd!
"M. G. ar ei glâf wely."

Gallaswn ymhelaethu ar liaws o bethau dyddorol yn ei hanes, ond ymataliais rhag i neb dybied mai ceisio hunanglod oddiwrth fy hynafiaid ydyw fy amcan. Na ato'r Wyddfa! Rhaid i bawb, yn anibynnol ar deulu a phopeth, weithio yn galed ar eu gwadnau eu hunain. Y wybodaeth mai'n anghofiedig yr a ei goffadwriaeth, wedi iddo lafurio trwy gymaint o dywyllwch ac anfanteision, barodd i mi ysgrifennu hyn oll, ar yr un aelwyd ag y magwyd yntau. Anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth, ac mi, ni cheir, chwedl R. ab Gwilym Ddu o Eifion,

"Fyth yn unman fath Nanmor!"

Nanmor, Beddgelert. CARNEDDOG.

Bydd hanes addysg yng Nghymru'n anghyflawn heb hanes yr hen ysgolfeistri fu'n arloesi'r tir. Yr oedd rhai o honynt yn wir athrawon, rhai yn gymeriadau digrif, a rhai yn ormeswyr creulon. Y mae gennyf amryw ysgrifau eto. Anfoner imi hanesion am hen ysgolfeistri, darluniau, a hen lyfrau ysgol. Cymeraf ofal gyda hwy.—Y GOL.

* Am hwn dywed y Parch D. Silvan Evans, B.D., mewn llythyr yn 1885,—"The little book is the *Second* edition of the "Colloquies" of Erasmus. The first edition appeared at Basel [Bâle as they now often call it] in 1522. The most useful of all the arts seems to have come to perfection all at once. This is as good a specimen of typography as could be done at the present day." Ar ddiwedd y llyfr crybwylledig ceir,—"Anno MDXXVI, xii. Kalend, Iunias, Basilesc."

O hyn i'r rhifyn nesaf, anfoner pob gohebiaeth i Owen M. Edwards, Llanuwchllyn, y Bala.

Dosbarthydd.—Drwg gennyf am yr amryfusedd. Anfonwch y copiau anghyflawn yn ol i'r Swyddfa ar unwaith; anfonir rhai cyflawn, a thelir y draul.

M. R., Maesgoleu.—Rhodri a Rhydderch yw ffurfiau Cymreig yr enw Roderick, ond nis gwn beth yw ei ystyr. Chwiliaf.

Cymro.—Rhaid dweyd hanes yr hyn a fu, ond peidio dweyd dim ond y gwir. Derbynied John Jones, Aber Aeron, eich diolch am y dôn,—"Twyll y Byd." "Mae yn llawn o adgofion melus o'r Diwygiad yn Llangeitho, ac yn swynol dros ben. Ond clogyrnaidd iawn ydyw y rhan olaf o'r emyn. Beth yw ei ystyr?" Y mae dernyn gerwin yn niwedd llythyr Cymro yn dechreu fel hyn,—"Nid y Bo Lol ydyw yr unig un a gafodd ei dwyllo gan y dynyn hwnnw gyfarfyddodd yn angladd Trebor Mai, &c."

Gwas Gwr Bonheddig.—Gallwch fentro anfon cerdyn post i'r uchaf yn y deyrnas,—y mae'n llawer mwy cyfleus na llythyr. Ac os nad oes gennych rywbeth gwell i'w ddweyd nag oedd gennych i'w ddweyd wrthyf fi, ni waeth i chwi heb wario arian ac amser yn ofer ar gerdyn post ychwaith.

S. L. W.—Digon prin y mae eich testun yn gyfaddas. Yr wyf yn credu nad oes ond ychydig o lwgrwobrwyaeth yng Nghymru; o'r hyn lleiaf, nid oes fawr o'r hyn ystyrir gan y llywodraeth yn llwgr. Ni ddylid apelio at y gyfraith heb resymau cryfion iawn; a dylid cofio fod y treial yn costio tua hanner gini y munud. Hen drefydd, yn enwedig trefydd yr eglwysi cadeiriol, ydyw'r rhai gwaethaf. Nid oes ond cynnydd mewn gonestrwydd a fedr roddi terfyn ar y budrwaith hwn; ac y mae pethau'n reiol rhagor y buont. Un o ddulliau mwyaf andwyol llwgrwobrwyaeth ydyw llwgrwobrwyo eglwysi a chapelau. Gwelais lythyrau aelod Cymreig unwaith; danghosodd hwy i mi. Buasai'n well gennyf addoli dan wrych ar adeg eira na blino dynion sydd eisoes yn rhoddi eu holl amser i wasanaeth eu gwlad.

Dymunwn ddiolch i Reithor Manafon am alw sylw at lafur mam y Prof. Lewis Campbell dros wlad ei genedigaeth yn ei llyfrau "Stories from the History of Wales" a "Tales about Wales, with a catechism of Welsh History."

Ivander.—Ysgrifenna o'r wlad uwch llyn Iseo yn y Val Cumonica, a dywed beth o'i brofiad eang. Gresyna at anwybodaeth Cymry am eu hanes, rhydd gynghorion gwerthfawr i ni ynghylch ein gwaith,—"Hoffaf y Seison i wneyd busnes a hwynt, ond ynglyn a'n gwlad a'i sefydliadau y maent yn parhau—hyd yn nod dynion o ddysg colegawl, offeiriaid, pregethwyr, meddygon, marsiandwyr, &c.,—yn llawn o ragfarn at bob peth da a feddwn, a'r hen elyniaeth yn y gwaelod, gan anwybyddu ein hanes. Paham na chydnabyddant yr hyn o hanes sydd ganddynt gyda mawrfrydigrwydd, a hwythau yn astudwyr hanesiaeth ac yn proffesu bod yn fawrfrydig. Ond yn hyn y maent yn bethau bychain culion a rhagfarnllyd i'r pen. Fel y dyrchafa ein cenedl yn y dyfodol ac yr arfera ychwaneg o'i mawredd cyntefig bydd yn rhaid i'r Seison roddi mwy o le, a thalu mwy o warogaeth iddi. Cyn hir dylai ein cerrig milldiroedd, a chof-feini ein mynwentydd ac adeiladu ac adgyweirio capelydd siarad Cymraeg ymhob man. Fel y gwyddoch chwi yn dda, ychydig wyr y werin Eidalig a'r Ffrancod hefyd am fodolaeth y Genedl Gymreig." Y mae gan Ivander gynlluniau, ond ni roddaf gyhoeddusrwydd iddynt dan y rhifyn nesaf.

H. J. E.—Diolch. Gyda golwg ar yr *Holi ac Ateb* ni fuasai'n bosibl dweyd dim am Fuddug heb roi gormod o le i'r cyfnod Rhufeinig mewn llyfr mor fach; nid brwydr Rhyfel y Rhosynau feddylir, ond lladdfa Tewkesbury yn y Rhyfel Mawr; gwir y dylasai mwy o'r darluniau fod o Ogledd Cymru.

R. J. W. (Llandudno).—Hynod dderbyniol; byddwn yn ddiolchgar iawn am y cynhyrchion addawedig.

Dalier sylw ar gynhwysiad y rhifyn nesaf, rhifyn arbennig. Darluniau a darluniadau o fywyd hen Gymru. Dylai pob Cymro, ymhob man, ei weled a'i ddarllen. Bydd allan yn gynnar yn Ionawr. Rhifyn cyntaf cyfrol newydd.

O. Williamson.—Clywodd Mr. Williamson fod cerrig hen dy Abermenai wedi eu tafiu i ddannedd y môr, i'w rwystro ymlaen. Meddai,—"Ni synnwn glywed ymhen ychydig fod penrhyn moel Abermenai wedi cyflawni hunan-ddifodiant trwy ymdafiu yn grynswth i Gulfor Menai, i gau yn gyfangwbl y fynedfa i borthladd Caernarfon, oherwydd yr anfri a gyflawnwyd wrth symud ymaith yr hen dy fu gynt yn goron ar ei ben."

Byddai John Evans, Aber Ystwyth, yn gwneyd ambell i emyn. Dyma un, gefais gan ei fab,—John Evans, M.A., Salop School, Croes Oswallt,—

"Mae swn morthwylion Sion
Ar furiau'r deml bur
O brysur i'w cymhwyso
I fynd i Salem dir.
O'r graig fe gloddiwyd allan
Rhyw feini geirwon iawn,
Fe'u dygir i'r adeilad
Cyn byddo'r gwaith yn llawn."

Dywed L. J. Roberts nad oes le ar hyn o bryd i'r tonau Tregathwg, y Cyfnewidiad, ac Ymdaith Morgannwg.

Derbyniwyd blociau copr o Ieuan Gwyllt a Mynyddog oddiwrth Mrs. S. G. Humphreys; llythyrau Sion Lleyn oddiwrth G. Lewis; erthyglau oddiwrth y Parch. Canon Silvan Evans, D. R. Daniel, M. A. Williams, y Parch. H. M. Hughes, a Threbor Mon; "Y Wyddfa," gan R. D. Owen; "Dirwest," gan Buddug; Owen Rolant, gan T. Williams; "Oleuni mwyn" gan Gwyndud.

Daeth y cylchgronau hyn i'm llaw,—y *Drysorfa*, *Trysorfa y Plant*, y *Cennad Hedd*, yr *Haul*, y *Diwygiwr*, *Cyfaill yr Aelwyd*, y *Cerddor*, *Cerddor y Cymry*, y *Cronicl*, *Newyddion Da*, yr *Ymwelydd*, *Magazine of the University College of North Wales* (darlun campus o W. Cadwaladr Davies); *Columbia*, y *Cyfaill* (cyhoeddedig yn Utica); *Dysgedydd y Plant*, *Pulpud Cymru*.

MURMURON Y GRAGEN.

Gan LASYNYS.

VIII.

CANODD un o'r Mor-forwynion gân forwynol am y Gwynt,—
Cân wyryfol nefyn neifion, pan mewn ogof ar ei hynt;
Dyma'r swn ddylenwai'r ogof, telyn gragen yn ei llaw,—
Mwynder gynghaneddai'n felus odlau'r dyfnder yn ddi-daw.

"Canaf y Gwynt, adroddaf ei hynt;
A'i hanes drwy gydol yr oesoedd;
Pan fodd y gwnaeth gam a'r Awel ei fam,
Wrth ddibris anrheithio ei llysoedd;
Ac hefyd y modd ffyrnigwyllt y ffodd,
A'i ysbail i'r gwagle di-derfyn;
Ymladdai yn hyf bob gwron yn gryf,—
Ei gryfder ei hun oedd ei erfyn.
Er dechreu y byd mae'n crwydraw o hyd
I chwilio a chwalu'n ddi-seibio
Am enw ei dad. Pa le'r oedd ei wlad?
Ac erlyn ei fam, gan ei rheibio.
Ffyrniga fel llew,—gwna'r moroedd yn dèw
O ddarnau malurol y llongau;
A chwardda'n ddi-fraw wrth afael yn llaw
Y creulon,—aniwall, yr Angau.
Marchoga'n ddi-baid, pan fydd hynny yn rhaid,
Feirch cyflym a hoew'r elfennau;
Dros fynydd a bryn, dros ddyffryn a glyn,
Yn wylltion heb ffrwyn yn eu pennau.
Bydd weithiau yn gawr, ar hyd y môr mawr,
Yn hynaws, bryd arall yn ellyll;
Dyrwyga ei wedd,—ysguba ei hedd,
A'i donnau ysglisia yn defyll.
Oherwydd ei raib, a'i dymer ddi saib,
Meddyliwyd ei roddi mewn carchar;
Yr Awel, ei fam, roes gychwyn i'r cam,
Gan ddisgwyl y lluchid e'n llachar;
A chloddiwyd ei gell,—oer stafell ddu hell,
Gan ddwylaw celfyddgar yr elfau;
A hudwyd e'n fwyn gan desni a swyn,
I weled cywreinrwydd eu celfau! [ddraig,
Drwy agen mewn craig, hen loches gwen
Yr aeth yn eu cwmni yn dawel;
Heb feddwl am frad, na diffaith waith cad;
O geudwll chwibianai yr Awel,—
"Ti fyddi cyn hir o'm golwg yn glir,
Caf arnat ddialu 'nghasineb,
Dy falchder ar fyr i'r ogof a'th yr,
Ac yna caf finnau foddineb."
Rhwng dannedd y graig, cilwenai y Ddraig,
Wrth weled y gelyn ar geulan;
Ac yntau yn llon heb arswyd i'w fron
Grechwennai nes siglai y *Tryfan*.
Afagddu ab nos, hen elyn gwawr dlos,
Aeth ato dan fantell tywyllwch;
A chollodd y gwynt ei ffordd ar ei hynt,
A chwympodd yng nghanol y mwrllwch
I'r ogof yn swrth, ac yna rhoed wrth
Ei genau ryw feini ofnadwy
A chladdwyd e'n fyw, fel gwallgof pob rhyw,
Dan seiliau y garnedd safadwy.
Bu yno yn rhwym, er oerni a thwym,
Mewn cadarn gadwyni o greigiau;
Ac er ei holl nerth, ei ben wnaed yn berth
Glafoerllyd lysnafedd y Dreigiau;
Fe gnoai'n ddiball y clogwyn diwall,
Gruddfannai nes ysgwyd mynyddoedd;
Ac wylai mor ddwys, nes llenwi pob cwys
A rychwyd gan aradr blynyddoedd.
Yr Awel, ei fam, glustfeiniai ei gam,
Llawenai am fod ei anffodion;
A'r elfau'n ddi-rôl a chwarddent fel ffol,
Eu gogan am ben ei drallodion.
Ochneidiai y Gwynt,—anghofiai'r modd gynt,
Y byddai ei hun yn creuloni;—
Ei lafar oedd leddf, a'i adsain yn feddf,
Gyrhaeddodd hyd glustiau Tirioni;
Tirioni yn fwyn a ddwedodd ei gŵyn
Wrth Gwrddrym, ei chariad mawreddog;
Ac yntau yn syn, ymholai fel hyn;—
"Mewn ogof? mewn carchar carneddog?
Af yno ar frys. Yn barod bo'm llys,—
Dim oedi. Pa le mae fy mwa?"

Anelodd ei saeth, i'r garnedd yr aeth,
Nes agor hen "Gegin y Cythraul,"
Yr archoll du hyll, lle cadwai y Gwyll
Ei gadlys mewn tymer anaraul!
Daeth goleu trwy'r twll, ac yntau'r Gwres mwll
Gynhesodd at febyn ei faboed;
Aeth ato yn hyf, a drylliodd y cryf
Gadwyni, fel gwiail îr man-goed!
O'i garchar ar hynt, ymruthrodd y Gwynt,—
Gan ymlid ei Fam yn fileinig
Ar dir ac ar fôr;—ysgubai bob dôr
Yn chwilfriw drwy fawr rym arbennig!
Pan welai ryw long ar wynfrig y don,
Gwnai lygaid, ac yna fe suddai;
Dadwreiddiai y coed, heb barchu eu hoed
A'r goedwig gadarngref a nyddai.
Mae'r Awel, ei fam, yn grwydryn di-nam
Yn ceisio cael lle i gael llonydd;
Mewn encil a hudd, mewn coedlan yng nghudd,
A glannau sibrydol aflonydd.
Ei chydmar y Gwres, a i gydfrawd y Tes,
A'i noddant! mor hyfryd eu gorchwyl!
Ond cuchiai y Gwynt, nes dadrys ei hynt,
A chreai'n ddibeidio ryw adchwyl,
Mae ganddo un brawd heb esgyrn na chnawd,
Briododd ryw ffawd yn ei helynt
Orchfygodd y Gwynt; mae cofion er cynt
Yn adrodd gwrhydri y Corwynt.
Cawr wynt ydyw hwn ysgyria'n ddi-dwn
Bob gwrthrych ar wyneb y ddaear;
Tarangras ei lais, a'i fywyd yn drais,
Ac anian o dano'n gorddyar.
Fe gymer yn rhwydd, yn adeg ei lwydd,
Y Gwynt yn ei freichiau;—fe'i gwasga;

Ac yntau yn syn, ymsymud nis myn,
Ond tawel fel baban y cysga.

Cynghreiriant yng nghyd, a siglant y byd,
Fel cryd ansefydlog chwildroa,
A'r Awel yn awr a orwedd ar lawr,
Gan ddychryn ac ofn yr ymroa.
Ond henffych! y Gwynt, mae th hanes er cynt,
Yn tystio dy les a'th ddaioni;
Gwas hyfwyn i'r byd, ond meistr drwg ei fryd,
Wyt beunydd dan reol Tirioni.
Ti weithi yn rhwydd, er cysur a llwydd,—
Anghofi dy lid a'th eiddigedd;
Hyd wyneb y don rhoi gysur i fron
Y morwr, a swyn i'w unigedd.

Organi yn rhydd beroriaeth y dydd,
A'r nos nid anghofi delori;
Ac felly yn glir ar for ac ar dir
Bydd anian yn ddi-baid glodfori.
Gwas ydwyt, y Gwynt,—mae Un ar bob hynt,
A'i Air a wna dy reoli;
Yng nghornel ei law y rhydd arnat daw,
Pan fyddi di'n cynnig meistroli;
Creadur wrth ddeddf, na fedr yr un *reddf*
Na *rheswm*, byth, byth, ei dirnadu
Yw'r Gwynt, ond mae Un, YR HOLL-OLL ei hun,
Na ddichon yr anghred ei wadu,
Sy'n peri ei waith,—sy'n hwylio ei daith,
Gan osod pob peth yn gyfarwydd;—
Yr Awel a'r Gwres, pob elfen er lles,
Sy'n cadw gorchymyn yr ARGLWYDD.

DIWEDD.

NODION Y GOLYGYDD.

Y GYNGHANEDD.

NID ychydig o ymosod a fu arnaf am yr hyn a ddywedais am gynghanedd wrth adrodd hanes yr Eisteddfod. Ymysg ereill derbyniais lythyr maith oddiwrth un ddywed, —"Mi a'th gerais di gynt uwchlaw pob dyn arall." Hwn yw yr athraw J. Morris Jones, Bangor. Yr wyf yn cymeryd fy hyfdra i roddi dernyn o'i lythyr,—

Ond, at y cwbl, y mae miwsig mewn cynghanedd—prydferthwch sain, prydferthwch sydd ynddo'i hun yn werthfawr. "A thing of beauty is a joy for ever." Mae'n rhaid i ddyn addysgu 'i hun cyn y gall weled prydferthwch; ac nid yw'r ffaith dy fod ti wedi bod ya rhy glustew a difater i weled prydferthwch cynghanedd, ac yn gwneyd ymffrost o hynny, yn profi dim ond dy fod ti (fel y mae gan bawb ei fai) yn Philistiad ar y pwnc hwnnw. Philistiad ydyw dyn rhy bwl ei gynheddfau i amgyffred a mwynhau pethau cain, ac yn ymffrostio yn hynny, a gwaeddi byth a hefyd am "y defnyddiol." I gael miwsig rhaid cael rheolau a deddfau; pan fo nodau cerddorol yn cydgordio y mae'r *vibrations* mewn *exact arithmetical progression;* megis 24, 32, 40, 48; ac y mae gwerth offeryn cerdd yn dibynnu'n hollol ar gywirdeb y gwneuthuriad. Felly am y peintiwr; sonia am ei *gomplimentary colours*, &c.; gwna ei liwiau i gydgordio a'u gilydd yn ol deddfau adnabyddus iddo ef, ac y mae'r rhai hynny yn y diwedd yn dod yn rhifyddiaeth noeth (dibynna lliwiau ar faint a chyflymder y don oleuni). Gelli di a minnau fwynhau pictiwr da; ond beth pe buasem yn deall tipyn ar ddeddfau celf y peintiwr? Buasai i'r pictiwr feddwl hollol newydd; deuem i gymundeb newydd a'r peintiwr; cawsem fwynhad newydd dieithr i ni yn ein hystad Philistaidd, a buasai'r mwynhad hwn yn fwy. Felly'n union am gynghanedd. Gwybydd di, Owen, nad oes neb erioed wedi gweled holl degwch Dafydd na Gronwy cyn deall cynghanedd. Y mae gwybodaeth o gynghanedd yn werth ei chadw'n fyw petae dim ond am hynny. Da 'chdi, paid a lladd fyth a hefyd ar reolau a rheolau. Cydnabyddaf y buasai rheolau fel rhai'r Eifftiaid ynglyn a thynnu llun,—rheolau yn datgan pa faint i drwch y blewyn yw corff dyn i fod os bydd ei ben yn hyn a hyn, &c., yn ddamniol i bob *art;* ond fe gerfiwyd delwau Groeg wrth reolau—er nas gwyddost ti a minnau ddim am danynt. A heddyw os oes ar y Cymry eisiau rhywbeth, eisiau disgyblaeth elfennol mewn *rheolau* sydd arnynt. Nid rhoi iddynt reolau *arbitrary*, ond dysgu iddynt reolau *naturiol* iaith a miwsig a rheswm a phopeth. Am gynghanedd—"nid cyfnod mân reolach ydyw cyfnod deffroad"—ar ba sail y dywedi hyn? Yr wyt yn mynd o dy faes dy hun, beth bynnag, oblegid yn y deffroad Cymreig cyntaf y daeth cynghanedd yn beth rheolaidd mewn barddoniaeth, yn yr ail (oes D. ab G.) y perffeithiwyd hi. Yn amser D. ab Edmwnd doed a rheolau *arbitrary* ynghylch mesurau, &c., a bu dirywiad; ond yn y trydydd deffroad (oes Gronwy) ail adferwyd y gynghanedd, a chymerodd hithau le cleciadau cras y baledwyr. Yr wyf yn credu mai yn fyrbwyll, ac heb ond gymeryd golwg hollol arwynebol ar y pwnc, y lleferaist. Bid a fynno buasai'n dda iawn gennyf pe darllenet yr hyn a ddywedais (er blered yw) rhag ofn fod rhywbeth ynddo. Mi ddechreuais wneyd cywydd i ti ar y pwnc, ond nid eis ymlaen rhag ofn y digiwn di. Dyma i ti gymaint ag a wneis:—

Nid da y traethaist, Owen,
Gabledd am gynghanedd hen.
. . . .
Cynghanedd cei yng ngwiwnef—
A thry haul wrth ei reol ef;
Ië, ceidw ser *disberod*
Yn ol caeth reol eu rhod;
Ac yng nghôr ser y bore,
Pob seren wen yn y ne'
Eiliodd ei chân, os coeli,
Wrth reol ei heol hi.
Dos dithau, datoda'u tid,
Dyro iddynt eu rhyddid,
A gwnei fiwsig y nefoedd
Yn uthraf fileiniaf floedd.
. . . .
Mae prydferthwch i lili,
Ac er ei fwyn caraf hi.
. . . .
Ac yngenir cynghanedd
Nes yr a'r iaith i faith fedd.
Minnau pan ddarffo'm heinioes,
Ni fynnaf ar derfyn f'oes
Ond gorchan o gynghanedd,
O chaf i mi, uwch fy medd.
"Gwr oedd hwn, garodd heniaith,
"Carodd bereidd-der ei iaith;
"Hoffodd gan a chynghanedd
"Ac alaw fwyn—gwêl ei fedd."

Nid heb ddeall cynghanedd y lleferais, nac yn fyrbwyll. Y mae gennyf fy syniad fy hun am ddadblygiad llenyddiaeth,—mai i'r ddrama y dylai gyfeirio pan yn dod i gyffiniau ei oes aur. Ond with ddarllen cynghaneddion J. Morris Jones a rhai o feirdd ereill Cymru, byddaf yn hanner faddeu iddynt am ymdroi ar yr hen ffordd.

Y FUN O EITHINFYNYDD.

PENNOD XIV. *(Parhad.)*

YMWELIAD DAFYDD.

"Dos a'th gleddyf i'r ty i Farged dorri bara ag ef."

"Y Bwa Bach! y gelwaist fi hefyd. Dadweinia dy gledd, y llwfrddyn."

Chwarddodd y bardd yn ddirmygus a dywedodd,—"Dyro dy gleddyf heibio, ni wnaf ymladd â thi, gwell gennyf aros hyd nes y cyfarfyddaf ddyn, ac nid corach. Er mor dda fuasai gennyf gael ymadael â thi, nid wyf am gymeryd mantais arnat, ac ystaenio fy nwylaw â'th waed, a'm cydwybod â'th farwolaeth."

Trodd Dafydd oddiwrtho yn araf, a safodd Cynfrig i edrych ar ei ol, gan ysgyrnygu ei ddannedd, a chwifio ei gleddyf yn yr awyr mewn ffyrnigrwydd. Yna aeth i'r ty, ac yn y drws cyfarfu â Morfudd yn mynd a llefrith i oen llywaeth. Gafaelodd yn yr ystên, a thaflodd hi a'i chynhwysiad i lawr, a gwthiodd Morfudd yn ol i'r ty. Dychrynnodd hithau yn ddirfawr wrth glywed yr Eiddig yn gafael mor dyn yn ei braich, a'i gleddyf noeth yn ei law arall a gwaeddodd ar rai o'r gwasanaethyddion i ddyfod i'w hachub.

"Ewch allan," meddai Cynfrig, wrth y rhai a ddaeth i mewn, gan daro ei droed yn erbyn y llawr, a lluchio y cleddyf i'r pen draw i'r ystafell.

"Paid meddwl fy mod am dy ladd, er y buaswn yn hoffi gwneyd hynny, er mwyn poeni dy gariadwas. Meiddiodd ddweyd yn fy ngwyneb mai ei wraig ef oeddit."

Ni atebodd Morfudd un gair, a thynhaodd yntau ei afael yn ei braich.

"Wyt ti'n clywed beth wyf yn ei ddweyd? Os cyfarfyddi ag ef eto, mi ai lladdaf o flaen dy lygaid. Beth a ddywedi am hynny? Waeth i ti fod yn dawel yn fuan nac yn hwyr; gwraig Cynfrig Cynin wyt ti, a Brynllyn yw dy gartref di."

Clywai Morfudd ei afael yn llacio ychydig, a chyn i'r Bwa Bach wybod beth oedd yn ei wneyd, trodd yn sydyn a diflannodd drwy y drws allan.

"Hoi! Marged! Mari! Twm! Ifan! ple'r ydych; ewch ar ol Morfudd. Hoi! dowch yn y fan," gwaeddai Cynfrig, "yr oeddych yn ddigon parod i ddyfod ar ei galwad hi."

Un ai yr oeddynt oll yn rhy brysur gyda'u gorchwylion, neu wedi eu taro â byddardod disymwyth, ni ddaeth yr un o honynt mewn atebiad i alwad eu meistr.

"A ydych chwithau mewn cyngrair â'r anfad-ddyn gan Ddafydd ab Gwilym, y fileiniaid?" gwaeddai drachefn.

Wedi blino'n disgwyl wrth arall, cychwynnodd allan ei hun, ond yr oedd Morfudd yn ddigon pell; ac os i'r coed y tu ol i'r ty yr aeth, nid oedd o un diben iddo gychwyn ei hun i chwilio am dani. Dychwelodd i'r ty, ac erbyn hyn yr oedd y gweision a'r morwyniod wedi dod i'r golwg. Cychwynasant i gyd allan i chwilio am Forfudd, rhai ffordd yma a'r lleill ffordd arall, ond er chwilio yn ddygn drwy'r nos ni chawsant hyd i'w meistres.

PENNOD XV.

Y DDIHANGFA.

PAN redodd Morfudd ymaith oddiwrth y Bwa Bach, nid oedd ganddi un meddwl pa le i fyned, ond yn unig i rywle o olwg a chyrraedd ei gelyn. Rhedodd ymlaen i'r coed, ac fel yn rhagluniaethol, arweiniwyd hi yn syth i'r fan lle yr oedd Dafydd yn sefyll a'i bwys ar goeden yn dyfalu beth i'w wneyd.

"Dafydd anwyl! O cymer fi gyda thi, mae Cynfrig Cynin yn sicr o'm lladd," meddai Morfudd pan welodd y bardd.

"Tyrd gyda mi," atebai yntau gan afael yn ei llaw a rhedeg ymlaen drwy y gweddill o'r llwyn, ac yna ar hyd y ffordd am beth amser. Wedi hynny dechreuasant ddringo llethr y Berwyn hyd nes y daethant at fwthyn bychan oedd mewn cilfach o'r golwg bron. Curodd Dafydd yn y drws, a gofynnodd llais gwichlyd oddimewn pwy oedd yno.

"Dafydd sydd yma, egor y ddor, Sioned bach," atebai y bardd.

Agorwyd y drws gan wraig wargam gloff, ac aeth Dafydd a Morfudd i mewn.

"Holo! pwy sydd gennyt ti gyda thi heno?" gofynnai Sioned wrth weled Morfudd.

"Fy ngwraig. Beth yw dy farn di am dani?" atebai yntau, gan wenu ar Forfudd.

Cymerodd yr hen wreigan y ganwyll frwyn, a daliodd hi gerllaw i wyneb Morfudd, nes gwneyd iddi chwerthin o dan y 'fath archwiliad manwl. Wedi cael boddlonrwydd,

rhoddodd y ganwyll ar y bwrdd drachefn, a dywedodd,—"Mae'n hardd, ond nid yn rhy hardd i fod yn gydmar i ti, Dafydd. Yr wyf yn gweled arwydd gofid ar ei gwyneb hefyd. Beth yw, Dafydd?"

"Anfad-ddyn a'i dygodd oddiarnaf, a heno yr wyf wedi ei chael yn ol. Y mae yn erlid ar ein holau; y mae yn gryf a chyfoethog; y mae ganddo lawer o wasanaethyddion; os deil ni, cymer hi ymaith drachefn. Dywed wrthym, Sioned, beth yw ein ffawd yn y dyfodol."

Ni ddywedodd Dafydd wrthi mai cymydog iddi, sef Cynfrig Cynin, oedd yr erlidiwr, a chymerodd hithau yn ganiatael mai rhywun ymhell o'r cyffiniau oedd y dyn. Yn unol a dymuniad Dafydd parotodd Sioned ei hun i ddweyd eu ffortiwn. Byddai yn cael ei chyfrif gan bawb a'i hadwaenai yn abl i ragweled yr hyn a ddigwyddai iddynt, ac i witsio y rhai a'i tramgwyddai. Ni byddai ei bwthyn byth yn brin o angenrheidiau bywyd, a llawer o foethau gyda hynny. I ba le bynnag yr elai, cai yr hyn a ofynnai am dano, a gwae y rhai a feiddiai ei gomedd. Byddai y llaeth drannoeth wedi suro i gyd, neu fuwch wedi tagu yn yr aerwy, neu'r perchyll yn feirw i gyd.

"Y mae y gelyn yn erlid ar eich holau," dechreuai Sioned yn ddifrifol,—"ond ni ddeil chwi ar hyn o bryd; ar hyn o bryd, cofia Dafydd. Nis gallaf dy hysbysu heno sut y bydd yn ddiweddarach, ond mae dy blaned di yn ffafriol iawn yn awr, ac yn anffafriol i dy elyn. Gorfodir iddo gymeryd taith bell, ie, yr wyf yn gweled hynny yn eglur iawn; taith bell dros y môr i rywle."

Edrychodd Dafydd ar Forfudd gan wenu, a gofynnodd,—"A oes gennyt gred yn yr hyn a ddywed Sioned?"

"Cred, oes, Nid y hi sydd yn ei ddweyd, ond offerynau ffawd drwyddi."

"Gobeithio ei fod yn wir, f'anwyl, onide? A ydym yn saff yma oddiwrth ein herlidiwr, Sioned?"

"Ydych yn eitha saff. Os daw rhywun yma i guro, gwyddost am ystafell y Tylwyth Teg o'r tu ol i'r ty."

Math o ogof oedd yr ystafell hon, a'r unig ffordd iddi oedd drwy y bwthyn. Nid oedd fawr neb yn gwybod am dani, a Sioned yn unig a fu ynddi er pan oedd hi yn byw yn y bwthyn. Ac nid oedd awydd ar y rhai a wyddai am dani am fyned i mewn iddi, gan y credent mai ynddi hi y cadwai Sioned offerynau dewinio.

Taflodd Dafydd dri dernyn o arian ar y bwrdd, yn dâl am eu llety, eu bwyd, a'r ddewiniaeth; a dywedodd mai eistedd wrth y tân a wnai ef a Morfudd hyd doriad y dydd, pan yr aent dros y gefnen fynydd i Lanuwchllyn.

"A oes gennyt ryw fath o fantell a roddi'n fenthyg i mi?" gofynnai Morfudd.

"Ie'n wir, mi dalai i ti am dani," ychwanegai Dafydd.

Yr oedd Morfudd wedi rhedeg o Frynllyn yn bennoeth, ac heb glog am dani.

"Cei fy mantell gochddu oreu," atebai Sioned, gan ei hestyn o'r siamber; a mawr oedd yr hwyl a gawsant wrth ei gweled mor fyr i Forfudd; prin yn cyrraedd at ei glin. Ond gwnai y tro yn glydwch hyd nes caffai un well; ac yr oedd hwd yn perthyn iddi i'w roddi am ei phen. Gyda bod y wawr yn torri, cychwynnodd Dafydd a Morfudd dros y gefnen, a chwynai Dafydd am nad oedd ei feirch wrth law i ddynt gael eu cario.

"Yr wyt yn gweled, Morfudd, yr oeddwn wedi peri i Brys ddod a hwynt i'r Bala erbyn yr ail o Fai, a dyma dithau wedi cychwyn bedwar diwrnod cyn dy amser."

"Paid son am danynt, gallaf gerdded gystal a thithau, ac y mae meddwl y gall fod Eiddig yn erlyn ar ein hol yn rhoddi adenydd y gwynt i mi."

"Pan gyrhaeddwn Hafod Garegog, rhydd Rhys Goch Eryri fenthyg dau farch i ni, ac yna ni fyddwn yn hir cyn cyrraedd i Faesaleg."

"Nid ydyw ryw ugain milltir, mwy neu lai, yn ddim gennyf. Yn agos i Bont Aberglaslyn yr wyt ti'n dweyd fod Rhys Goch yn byw?"

"Ie nid ymhell o'r fan y cyfarfyddais â chwi wedi yr anhap i'r cerbyd."

"Pa le y gwelaist yr Eiddig neithiwr, Dafydd?"

"Deuais i'th gyfarfod i'r deildy fel y cytunasom, ond yn lle llwyn, diffaethwch a welwn. Ac fel yr oeddwn yn sefyll yno, daeth y Bwa Bach ataf, a dechreuodd fy ngwawdio, ie, aeth mor bell a gofyn i mi ymladd ag ef, yr

Eiddig gyw sarrug go sur
Lledpen chwysigen segur."

"Iawn y gelwaist fi Helen y dydd o'r blaen; a welaist ti y lladdfa fawr a wnaed ar ein Caer Droia druan, o'm herwydd?"

"Wedi i Eiddig fynd ymaith yn nwydwyllt at y ty, arhosais yn y coed gerllaw. Yr oedd arnaf ofn iddo wneyd rhyw niwed i ti yn ei ffyrnigrwydd."

"Meddyliais innau ei fod am fy ngorffen, pan afaelodd yn dyn yn fy mraich a'i gleddyf yn y llaw arall. Ond pan alwais ar y morwynion, taflodd y cleddyf ymaith a dechreuodd dy ddifrio di. Ni atebais un gair iddo, ond gwyliais am gyfle i ddianc allan i rywle, ac yn ffodus cymerais yr iawn lwybr."

Wedi cerdded yn ddygn drwy y dydd, heb aros ond un waith ar y ffordd, cyrhaeddasant Hafod Garegog gyda'r nos.

"A ydyw yn ddiogel i ni oedi ar ein taith?" gofynnai Morfudd pan yn nesau at y ty.

"Diogel neu beidio, rhaid i ti gael gorffwys wedi cerdded cymaint o filldiroedd. Ond yr ydym yn hollol ddiogel yma; y mae Rhys Goch ab Dafydd yn gyfaill cywir i mi, ac ni byddai yn waith hawdd gwneyd niwed i'r neb a fyddo dan ei gronglwyd."

Fel y dywedodd Dafydd cawsant eu croesawu yn gynnes i'r Hafod, ac addewid am geffylau i'w cario y gweddill o'r daith. Wedi iddynt fwyta, arweiniwyd Morfudd yn ddioed i'w hystafell, ac eisteddodd Dafydd i adrodd ei hanes wrth Rhys.

"Ni raid i ti ofni i Gynfrig Cynin dy boeni am beth amser eto," meddai Rhys Goch, "yr oedd yma gennad heddyw ar ei daith i wysio Cynfrig ac ereill i ymuno â Rhys Wgan, i fynd gyda Iorwerth i ymladd i Ffrainc. Synnwn i ddim na ddarfu i chwi ei gyfarfod ar y ffordd wrth ddyfod."

"Do, gwelais gennad yn mynd yn gyflym tu draw i Faentwrog. Dyma newydd da yn wir. O na bai hon yn daith bellach na Ffrainc iddo! Haul llwyddiant a dywynno ar holl filwyr Cymru, boed iddynt ddychwelyd yn ol i'w gwlad i gyd, ond un! Aed hwnnw i garu'r forforwyn, a chyda hi i aros byth."*

"Y peth tebycaf yw y bydd iddo ddychwelyd yn ol yn ddianaf; felly y mae yn digwydd y rhan amlaf, rhai gwerthfawr wedi eu colli, a rhai diwerth ar gael."

Yn y prydnawn cychwynnodd Morfudd a Dafydd ymaith o Hafod Garegog. Yr oedd y bardd yn dymuno cychwyn yn ddiymdroi, er mwyn cyrraedd Maesaleg os oedd modd cyn i Brys gychwyn oddiyno gyda'r ceffylau am y Bala, ac er mwyn iddo ddanfon ceffylau Rhys Goch adref yn ol.

Yr oedd y newydd a glywsai Dafydd gan Rhys wedi llonni ysbryd Morfudd yn fawr, ac ymddiddanai yn siriol â'r bardd fel y marchogent ymlaen ar eu taith.

"Yr oeddit yn ddigon parod i anghredu yr hyn a ddywedodd Sioned wrthym echnos," meddai, "beth sydd gennyt i'w ddweyd yn awr?"

"Dim ond fod fy llawenydd yn anhraethol wrth feddwl y bydd y môr rhyngom a'r Eiddig. Cofia di fynd i dy Sioned pan y byddi yn y gororau hynny i ddweyd wrthi ei bod wedi dewinio yn gywir."

"Yr wyf yn ameu, Morfudd a fuasit ti mor barod i'w chredu pe buasai yn proffwydo aflwydd i ti."

"Feallai mai aflwydd fydd inni eto, ni ddywedodd beth fyddai ar oliddo ddychwelyd."

"Yr wyt yn credu mai dychwelyd yn ol a wna?"

"Ydwyf, Dafydd, ac yn credu y byddaf yn ol ym Mrynllyn eto."

"Wyddost ti beth, Morfudd, byddaf yn meddwl weithiau mai bychan iawn yw dy serch tuag ataf. Y ddau dro y deuaist gyda mi, fel ar dy waethaf y deuaist. Gwrando

Morfudd weddaidd anghywir
Gofwy gwawd, gwae fi, ai gwir!
Eto o nwyf iti, fy nyn,
Difrodi dy wir frawdyn?
Yr hwn a wn o'i ynni,
Nith Eigr deg, ni'th ddigâr di;
A gadael i gael galar
O'th gof y truan a'th gâr,
O serch ar armodd i son,
Neu yn hydr ei anudon?"

"Na, y mae fy serch lawn mor gryfed a'th serch dithau, ac yn fwy cryf heddyw nag erioed,—

Yn wir, tyngai ni weryd
Dy ddigaru, ni bu i'm bryd;
Myn y Gwr (mewn cyflwr cawdd
Ddafydd) a ddioddefawdd!
Mwy carwn ol mewn dolgoed,
Dibraidd drin, dy ebrwydd droed,
Na'm godlawd wr priawd prudd,
Ne a ddeiryd ei ddeurydd,—
Tydi yw'r dyn, da dewr doeth,
A'm gŵr yw'r anwr anoeth;
Tydi yw'r corff a'm gorffen,
Yntau yw'r cysgod hynod hen;
Y fo yw'r briddell ddichelldu,
Tithau'm henaid, cannaid, cu!
Fy mugail yw, magail arw,
Tithau i'm llaw, doeth o'm llw,
Coelia dan goed a ddoedais,
Nac amheu y geiriau ar gais."

"Da iawn Morfudd," atebai Dafydd, "drwy dy eiriau

Dygaist dcs a gwres i'm grudd,
Dyn fawrfalch—da iawn Forfudd;
Fy mendith ym mhob rhith i'th ran,
Am dy addaw mwyn diddan
Ef a ddaw byd, bryd brydu,
Ar wr dig, wedi'r eiry du;
Cân yn iach i'th goeg fachwr,
Na chydfydd i'th ddydd â'th wr;
Na phar i Eiddig dig du
Llawn och, mo'r llawenychu,
Na chafwy' dda oddi fry,
O cheid modd o chydmyddy

"A wyt yn fodlon yn awr?" gofynnai Morfudd.

"Ydwyf yn fwy fy hapusrwydd na thywysog."

"Pwy yw y tri hyn sydd yn dyfod i'n cyfarfod?"

"Marchogwyr Normanaidd, buaswn yn yn meddwl ar eu diwyg. Cau yr hwd yn fwy clos am dy wyneb, Morfudd, rhai anllad yw y Normaniaid yma."

* Rhif 99. D. ab G.

Aethant ymlaen yn gyflym a distaw, ond pan oeddynt yn pasio heibio y tri marchog chwythodd y gwynt hwd Morfudd oddiam ei phen, ac mewn eiliad amgylchwyd hi gan y Normaniaid.

"Ma foi!" meddai un, "dyma fenyw hardd. Dylet gael gosgorddlu i deithio gydag un fel hyn ar draws gwlad," meddai wrth Dafydd.

"Gwnawn ni dy ryddhau o'th ofal am dani ymhellach, gyfaill," meddai un arall gan godi Morfudd oddiar ei cheffyl, ato ef ar ei farch.

Gollyngodd Dafydd ffrwyn y ceffyl a farchogai Morfudd wedi i'r llall ei chymeryd oddiarno, a dadweiniodd ei gleddyf i ymladd drosti. Treiglodd y march, wedi cael ei ben yn rhydd yn araf i lawr y ffordd, ac aeth y dyn gyda Morfudd o'r tu ol i'w ddau gyfaill, y rhai a barotoisant i ymosod ar Dafydd. Llefai Morfudd arnynt adael llonydd iddo, ac y deuai gyda hwynt, heb ymgyndynnu, ond yn unig iddynt ei adael yn fyw. Un ai nid oeddynt yn ei deall, neu yr oedd yn well ganddynt wneuthur yn fwy sicr o honi drwy ladd ei hamddiffynnwr. Fodd bynnag ni wnaethant sylw o honi, ond ymosodasant yn ffyrnig ar Ddafydd.

Ymladdodd y bardd fel cawr, ac yn fuan yr oedd un yn gorwedd yn ei waed, yn orchfygedig ar lawr. Ac ofnai yr un a ddaliai Forfudd y byddai raid iddo fyned i gynhorthwyo y llall. Ond yr oedd Dafydd yn dechreu gwanio, wedi colli llawer o waed; a phan bron yn rhoddi pob gobaith i fyny, rhuthrodd marchogwr heibio yn chwyrn. Yr oedd ymddanghosiad y pedwerydd mor ddiddisgwyl, fel y safodd Dafydd a'i wrthwynebwr yn llonydd am eiliad, ac yr oedd yr eiliad hwnnw yn ddigon i'r dieithr daraw y marchog arall a dwyn Morfudd oddiarno. Wrth weled hyn adgyfnerthodd Dafydd, ac yn fuan yr oedd y tri marchog wedi eu clwyfo ac yn gorwedd ar y ffordd. Carlamodd Dafydd ymlaen ar ol y dieithr a Morfudd, a gwelodd, yr hyn na sylwodd o'r blaen, mai hen wr ydoedd, mewn gwisg meudwy.

"Merlin! fy ngwaredwr!" meddai Dafydd, pan ddaeth ato, "o ba le y daethost?"

"Yr oeddwn yn dyfod ymlaen ar hyd y ffordd, ac wrth gyfarfod a'r ceffyl yma ei hunan, meddyliais fod rywbeth allan o le. Arweiniais ef yn ol, ac yn fuan gwelais yr ymgyrch. Gyrrais ymlaen i edrych a allaswn roddi rhyw gynhorthwy, heb fawr o feddwl mai tydi a Morfudd oedd yno."

"Yr wyf yn synnu at dy fedr gyda'r cledd, Merlin."

"Mi synni ychwaneg eto yn fuan. Brysiwn ymlaen, yr wyf wedi fy nghlwyfo. Cymer Forfudd ar dy farch, Dafydd, rhag ofn i mi ei gollwng."

"Wedi dy glwyfo? O! fy nghyfaill! a minnau mor ddifeddwl."

"Yr wyf fi wedi dod ataf fy hun yn lawn Dafydd," meddai Morfudd, "cymer Merlin gyda thi, yr wyf yn ofni ei fod wedi ei glwyfo yn dost."

"O na, brysiwn ymlaen," meddai y meudwy; ond cyn bron iddo orffen siarad syrthiodd i lewyg. Cododd y bardd a Morfudd ef rhyngddynt ar y ceffyl, ac esgynasant eu hunain, a gwnaethant frys i gyrraedd pentref Glan Dulas, yr hwn oedd heb fod ymhell. Wedi cyrraedd y gwesty, anfonodd Dafydd am y meddyg, yr hwn a ddaeth yn ddioed; ac wedi archwilio yr archoll dywedodd nad oedd gan Merlin ond ychydig oriau i fyw. Dadebrodd ymhen hanner awr, a dywedodd wrth Ddafydd y dymunai gael ymddiddan yn gyfrinachol ag ef, y gwyddai nad oedd ganddo fawr o amser i fyw. Aeth pawb o'r ystafell a chauwyd y drws arnynt.

"Cod fi ar fy eistedd, Dafydd," meddai y meudwy, "yr oeddit yn synnu at fy medr gyda'r cledd. Gwrando Dafydd, mi ddywedaf fy hanes mor fyr ag y gallaf. Nid Merlin yw fy enw, ond Gwilym ab Madog ab Llywelyn ab Gruffydd."

"Llywelyn ein tywysog olaf!"

"Paid a'm rhwystro, Dafydd, rhag ofn na fydd gennyf nerth i orffen. Ie, yr wyf yn wyr i Lywelyn, yn fab i Fadog ei fab. Gyda fy nhad y dysgais drin y cledd, yn ei ymgyrchoedd yn erbyn y trethi a'r brenin, ym Mon. Wedi ei farwolaeth ef, fy nhad, ymneillduais a chymerais arnaf wisg meudwy, a thrigais yn y gell y gwyddost am dani. Ond fy holl fwriad oedd dyfod allan yn erbyn y brenin, pan welwn deimladau fy nghydwladwyr yn addfed i ymrestru dan fy maner. Yr oeddwn wedi planio pob peth yn barod, ond yn awr rhaid i mi eu gadael. Ond er fy mod innau eto yn colli fy mywyd drwy law yr estron, y mae ysbryd Cymru eto yn fyw. Ac y mae teimlad y Cymry yn addfedu, er na chaf fi ddial gwaed fy nhad, na'm taid y tywysog Llywelyn, ni chleddir gwladgarwch gyda mi. Yr wyf bob amser wedi gwisgo cleddyf wrth fy nghlun, o dan fy nghob feudwyaidd, gan ddisgwyl ymgyrch yn erbyn y Saeson, a diolch mai fy ngweithred olaf oedd ei drochi yn eu gwaed. DAW FE DDAW UN I ARWAIN Y CYMRY I'R GAD YN ERBYN EI GORTHRYMWYR. DAW FE DDAW! Y MAE YSBRYD ANIBYNIAETH YN CODI, AC FE FYDD YN SICR O DORRI ALLAN YN Y MAN."

KV-623-172